Digitized by Google

Digitized by Google

David Oliver Jones.
Box Terrace
Llanelly.
Jan. 1892

Digitized by Google

Digitized by Google

Wales K
10604 · S. 1 H

GEIRLYFR BYWGRAFFIADOL

O

Enwogion Cymru:

YN RHYFELWYR, PREGETHWYR,

Beirdd, Gwyddonwyr, Meddygon, Seneddwyr, &c.

"Hwy pery elod na hoedl.—Hen Ddihareb.

Liverpool:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN I. FOULKES, 18, QUEENSLAND ST.
1870.

Digitized by Google



Digitized by Google

RHAGYMADRODD.

At fy Nghydwladwyr,

Wrth derfynu y gwaith hwn, a'i gyflwyno i'ch nawdd ymgeleddgar chwi, goddefwch imi ymlawenhau ar gwblhad y "Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru" cyntaf a ymddangosodd yn ein hiaith. Tra y mae genym hanesiaeth mor hen, a'r fath doraeth o feibion athrylithgar yn ei britho, y mae yn syndod na chynysgyddasid y Cymro â rhestr ohonynt yn ei iaith ei hun cyn hyn. Gwir i'r llafurfawr a'r trylen Ddoethawr Owen Pugh, yn ei *Cambrian Biography;* ac i'r diwydbwyll a dysgedig Barch. R. Williams, o Langadwaladr, yn ei *Eminent Welshmen*, wneud cymwynas fawr â'n cenedl, trwy arbed enwau lluaws o'i Henwogion rhag llithro i ebargofiant, ond dylid cofio mai mewn estroniaith y cyflawnasant hwy eu gwasanaeth. Dewisasom ninau siarad â'r wlad yn ei phriodiaith ei hun, a'r wlad sydd i benderfynu, trwy ei nawdd i'r gwaith, pa un a wnaethom yn ddoeth ai peidio. Fel yr oedd yr *Eminent Welshmen* yn helaethiad ar y *Cambrian Biography*, felly y mae y llyfr hwn yn helaethiad ar yr *Eminent Welshmen*, ac yr ydym yn dymuno cydnabod yn ddiolchgar bob cymhorth a gawsom ynddo.

Dianmheu yr ystyria rhai ein bod wedi gadael allan rai bywgraffiadau a ddylasent fod i mewn, ac wedi dodi i mewn rai a ddylasent fod allan; tra y tybia eraill ein bod wedi talu gormod o sylw i rai, a rhy fach i eraill. Wrth y blaenaf dywedwn, mai tra anhawdd ydyw darnodi terfynau Enwogrwydd, ac y gorfodid ni i gyfarfod yr anhawsder heb gymhorth na deddf na rheol, ond cyfarwyddyd synwyr cyffredin noeth. Wrth yr olaf, nad yw pob bywyd unrhyw fywyd; arall yw y bywyd tawel, digyffro, ac anhynod ei amgylchiadau; ac arall yw y bywyd arwraidd, mewn oes a sefyllfa lawn o ddigwyddiadau dyddorol. Gall yr

Digitized by Google

Enwog arwain y naill ſywyd fel y llall; a dylid cofio nad yw *hyd* erthyglau y llyfr hwn yn unrhyw ddangoseg o syniad yr awdwr am deilyngdod eu gwrthddrychau.

Credwn nad oes odid lyfr hanesyddol ar Gymru, yn Nghymraeg na Saesneg, na bu o dan deyrnged i gyſoethogi dalenau y llyfr hwn, a chawsom dwysged o ddeſnyddiau o hen ysgrif-lyfrau na welsant hyd yn hyn oleuni dydd.

Caffaeliad gwerthſawr ini ydoedd ysgriſau bywgraffiadol Gwilym Lleyn, yr hwn a dreuliodd ran fawr o oes ddiwyd i gynull a dodi ar gôf a chadw goſnodau o "Enwogion Annghoſiedig Cymru;" ac yn mysg y rhai ddarſu ein cynysgaeddu â bywgraffiadau, dylem enwi y Parch. R. Ellis *(Cynddelw)*; y diweddar Glasynys; Parch. D. Silvan Evans; Parch. T. James (*Llallawg*), Netherthong; Creuddynfab; Parchn. J. Thomas, a N. Stephens, Liverpool; Parch. D. Saunders, Abercarn; Parch. Roger Edwards, Wyddgrug; Parch. John Foulkes, Rhuthyn, a lluaws eraill.

Gan mai at wasanaeth y genedl, ac er llanw bwlch yn ei llenyddiaeth, y cychwynwyd y Geirlyfr hwn, ac y gweithiwyd y cynllun allan i'w derſyniad, heb eiliw o ragfarn at na sect na phlaid greſyddol na gwleidyddol, dymunem iddo safle genedlaethol, a'r safon a haedda yn llyfrgell pob Cymro darllengar.

Y CYHOEDDWR.

Digitized by Google

Enwogion Cymru.

AAR—ADD.

AARON. Cofnodir yn ein hanesiaeth eglwysig, y Sant hwn fel un o'r rhai cyntaf a dderbyniodd goron merthyrdod yn Mhrydain. Ganwyd ef yn Nghaerlleon ar Wysg, lle pur nodedig pan oedd ein cyndadau o dan iau y Rhufeiniaid, ac yno, sef yn ei dref enedigol, y dyoddefodd ef a Julius y poenydiau mwyaf arteithus a gwaradwyddus o herwydd eu ffydd yn Nghrist. Digwyddodd hyn yn amser erledigaeth greulon Diocletian, sef tua'r flwyddyn o Oed Crist 303. Nis gwyddis pa beth oedd ei enw cyn cael bedydd, a choelir mai cymeryd yr enw Aaron a wnaeth pan droes yn Gristion, oblegyd arfer gyffredin pobl yn y wlad hon oedd cymeryd enwau Hebreaidd, Groegaidd, neu Ladinaidd, ar adeg eu troedigaeth. Dywed amryw hen haneswyr fod eglwysydd heirdd wedi cael eu hadeiladu er coffhad am Aaron a Julius yn Nghaerlleon, a bod yn perthyn i'r naill urdd o Ganonau, ac i'r llall gôr o Leianod. Y mae crybwylliad i'r perwyl yn Llyfr Llandaf, a dywed yr Esgob Godwin fod olion o'r eglwysydd hyn i'w gweled yn ei amser ef. Cedwid eu Gwylmabsant ar y cyntaf o Orphenaf. Dywedir hefyd fod eglwys Llanharan yn Morganwg wedi cael ei chyflwyno i Aaron Sant.

ABRAHAM. Pan roes yr Esgob Sulgen ei waith o'i law tua'r flwyddyn 1076, dilynwyd ef yn ei swydd gan Abraham, fel esgob Mynwy neu Dy Ddewi. Yn mhen rhyw ddwy flynedd ar ol ei gysegriad bu ef farw, ac yn yr adeg hon, ebe 'Brut y Tywysogion,' y glaniodd y Daniaid yn Mhenfro, ac y llosgasant Dy Ddewi yn oddaith. Lladdwyd Abraham, medd Manby, gan y Daniaid yn 1078.

ACHLEN. Un o feibion Gwrthmwl Wledig, tywysog teyrnasol y Brutaniaid Gogleddol o ddechreuad i ganol y chweched ganrif, y rhai a ddaethant i Gymru pan gollasant eu tiriogaeth. Y mae cofnod am Achlen yn y Trioedd, (*Myvyrian Archaiology*, v. ii. p. 8, 10.) iddo gael ei gludo gyda'i frawd Avanad ar eu march a elwid Erch i ben bryn Maelawr yn Ngherediglon, neu Sir Aberteifi, i ddial marwolaeth eu tad.

ACHWR (Robin) o Wynedd, medd Lewis Dwnn, a ysgrifenodd am dair Talaeth Cymru; ac efe oedd gywyddwr a theuluwr da am hen gerdd.

ADDA FAWR. Penaeth un o bum costoglwyth Cymru; y lleill oeddynt Gwenwys o Bowys, Blaidd Rhudd, Heilyn, ac Alo.

Digitized by Google

ADDA FRAS. Bardd a flodeuodd yn ol yr awdurdodau cyffredin, megys Dr. Davies, Edward Llwyd, a Williams, tua 1240, ond y mae hen gofion am dano fel hyn, "Yn amser Gruffydd ab Seisyllt, Tywysog Cymru, yr oedd Brudiwr a elwid Adda Fras, yn trigo yn y lle a elwid Aber Llechog, yn Is-Conwy; ac yno y peris ei gladdu mewn corlan defaid; i'r man a'r lle y gwnaeth efe ganeuau i ddangos y byddai yno Fonachlog. Yr oedd yr Adda Fras yma yn byw o gylch y flwyddyn 1060," Maenan, gerllaw Llanrwst, a elwid Monachlog Lechog, mal y tystiai rhyw fardd am ei hadfeiliad

"Aethost o fewn i wythawr
Fonachlog Lechog i lawr."

Yr oedd Adda Fras, fel Merddin ac eraill, yn brudio ganoedd o flynyddau wedi eu marwolaeth, mal y prawf y ffug-frudiau a briodolir iddynt. Beirdd y bumthegfed ganrif wrth bleidio Iarll Rismwnt, wedi hyny Harri VII., a lechent yn nghysgod enwau y cynfeirdd a'r gogynfeirdd, er mwyn diogelu eu hunain a rhoddi mwy o rym prophwydoliaethol i'w daroganau, mal y gwelir yn ngwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn, 1480.

"Wrth ddarllen y sen y sydd
O waith Robin ddoeth rybydd;
Taliesin, y dewin doeth,
A Merddin burddysg mawrddoeth;
Ac Adda Fras gyhoedd frud,
Didwyll y maent yn d'wedyd."
"GWYLIEDYDD," 1824.

Safai Adda Fras yn uchel yn ngolwg y beirdd, megys ag y dywedai Tudur Aled yn marwnad D. ab Edmwnd,

"Adda Fras oedd ef ar wawd."

Noda'r *Cambrian Register*, vol. i. 445., fod tair o'i frudiau mewn llawysgrif yn nghasgliad ysgol Gymreig Llundain. Dichon wedi'r cwbl nad oes dim o'i wir waith ef ar gael; ond mai brudiau ffugiol sydd ar ei enw.

AEDD MAWR. Tywysog yn y drefedigaeth gyntaf o Frutaniaid a ddaeth drosodd o'r Cyfandir, a thad yr enwog Prydain.

AEDDAN FOEDDOG. Mab ydoedd i Caw ap Geraint, ac yr ydoedd yn ei flodeu yn nechreu'r chweched cant. Disgybl oedd i Dewi Sant, o anfarwol goffadwriaeth; ac o Fangor Dewi yr aeth ef i'r Iwerddon. Yno gwnaed ef yn esgob Ferns, a thyma'r achlysur a barodd i awdurdodau eglwysig Menwy hawlio'r esgobaeth hono fel un a fu o dan nodde l eu harchesgobaeth. Y mae Aeddan yn cael ei enwi yn dra gwahanol gan amryw ysgrifenwyr. Gelwir ef yn Nghofianau yr Iwerddon yn "Moedhog a Mædog" a chan Giraldus, "Maidocus." Ond geilw John o Teignmouth ef mewn un lle yn "Aidanus," ac mewn man arall yn "Aidus;" ond yn Nghofion Eglwys Ty Ddewi gelwir ef yn "Moedok," yr hyn a argoela gryn swm o anian Wyddelig. Y mae Giraldus ddoniol yn adrodd y chwedl a ganlyn am dano;—Dywed i Aeddan fyned unwaith a haid o wenyn drosodd i'r Iwerddon, ac mai hon oedd yr haid gyntaf a welwyd yn yr Ynys Werdd, ac na welwyd fyth ar ol y digwyddiad ddim un wenynen yn agos at Henfenyw. Y mae yn Mhenfro goffhäon am dano oblegyd efe ydyw Sant gwarchodol Llanhuadain, neu Lanhawden, yn y wlad hono. Dywedir hefyd fod eglwysydd Nolton a West Haroldstone wedi eu cyflwyno iddo o dan yr enw Madog. Cedwid ei wylmabsant Ionawr 31.

AEL-GYFARCH. Un o feibion Helyg ab Glanawg, yr hwn y torcs y mor dros ei etifeddiaeth oedd hwn. Crybwyllir hefyd fod Helyg a'i feibion ar ol yr anffawd hon wedi troi at bethau crefydd o lwyrfryd

Digitized by Google

calon, ac iddynt ddysgu ffydd Crist gydag eiddgarwch dihefelydd. Prin y mae eisiau crybwyll mai Traeth y Lafan ar gyffiniau Arfon ydoedd y lle a nodir fel etifeddiaeth Helyg ab Glanawg. Nid oes yn awr un coffhâd am eglwys wedi ei chyflwyno iddo, a chedwid ei wylmabsant ar *Wyl yr Holl Saint.*

AEL-HAIARN. Mab ydoedd i Hygarfael ab Cyndrwyn o Lystyn Gwenan yn Nghaereinion, a brodyr iddo ydoedd Cynhaiarn a Llwchaiarn. Efe a wnaeth eglwys Llanaelhaiarn wrth yr Eifl yn Arfon, a Chegidfa yn Maldwyn. Yr oedd yn ei flodau yn y chweched cant, a'i wylmabsant a gedwid ar *Wyl yr Holl Saint.*

AELRHIW. Nid oes dim o hanes y Sant hwn ar gael a chadw heblaw mai efe a adeiladodd eglwys y Rhiw, yn Lleyn, a bod ei wylmabsant ar y 9fed o Dachwedd.

AERDEYRN. Mab ydoedd i Gwrtheyrn Gwrthenau, ac iddo y cyflwynwyd Llanedeyrn yn Nghibwyr: blodeuai yn ystod y pumed cant.

AERDDREM. Bedo Aerddrem, neu Aurdrem, oedd fardd o gryn enwogrwydd, a brodor, meddir, o Lanfor yn Meirionydd. Blodeuai o 1480 hyd 1510. Gwelir ar glawr y *Greal* fod un ar ddeg o'i gywyddau ar gof a chadw mewn llawysgrif. Naw o honynt "I ferch," a dwy dan yr enw "Canu duwiol." Dechreua un "Canu duwiol" fel hyn :—

"Y gwr a wnaeth gaerau nef,'

a'r llall,—

"Pwy'n gadarn ddyddfarn a ddaw?'

Claddwydd ef, meddynt, yn Llanfor.

AFAON AB TALIESIN. Bardd milwraidd oedd hwn. "Tri Tharw Unben Ynys Prydain,—Elmur ail Cibddar; a Chynhafal fab Argad; ac Afäon ab Taliesin Ben Beirdd; a beirdd oeddynt y tri hyn, ac nid oedd a ofnynt yn nghâd a brwydr, eithr rhuthraw ynddynt a wnaent, ac nid ofnynt gyflafan." "Tri Aerfeddawg Ynys Prydain,—Selyf fab Cynan Garwyn; ac Afaon fab Taliesin; a Gwallawg fab Lleenawg; sef achaws y gelwit hwynt yn Aerfeddogion am ddarfod dial eu cam oc eu beddeu." Cafodd ei ladd gan Lawgad Grwm Fargod Eiddin: neu yn ol un arall o'r Trioedd,—"Tair anfad gyflafan Ynys Prydain,—Eiddyn mab Einygan a laddwys Aneurin Gwawdrydd Mydeyrn beirdd; a Llawgad Trwm Bargawd a laddwys Afäon mab Taliesin; a Llofan Llawdino a laddwys Urien mab Cynfarch: sef tri meib o feirdd oeddynt a las gan y triwyr hyny."

Dyma'r addysg a gafwyd ar ei ol yn Chwedlau y Doethion :—

"A glywaist ti chwedl Afaon
Fab Taliesin, gerdd gyfion?
Ni chel grudd gystudd calon."

AFAN FERDDIG. Bardd Cadwallon ab Cadfan brenin y Cymry yn y seithfed ganrif. Nid oes dim o'i waith ar gof a chadw. Nid oedd bardd wrth ei alwad i ryfela, ac ni feiddiai neb ddynoethi arf angeuol yn ei wyddfod yn ol Barddas; am hyny noda y Trioedd.—"Tri Gwaywruddion Beirdd Ynys Prydain;—Tristfardd, bardd Urien Rheged; Dygynelw, bardd Owain ab Urien; ac Afan Ferddig, bardd Cadwallawn ab Cadfan; a meib o feirdd y tri hyn, ac nis gellid a'u dehorai," neu a'u hataliai. Yr oedd y tri yna wedi rhuddo eu gwaywffyn mewn gwaed fel nad oeddynt yn feirdd gorsedd heddwch.

Digitized by Google

AFAN BUALLT oedd sant a flodeuodd yn y rhan gyntaf o'r chweched cant. Ei dad oedd Cedig ab Caredig ab Cynedda, a'i fam, Tegwedd, merch Tegid Foel o Benllyn ; efe a sefydlodd yn Muallt yn ngwlad Frychan, ac iddo ef y cyflwynwyd Llanafanfawr a Llanafanfechan yn y wlad hono, a dywedir fod ei fedd wrth yr eglwys olaf, yn weledig yn awr, a'r ysgrif a ganlyn yn amlwg ar y gareg :—HIC JACET SANCTVS AVANVS EPISCOPVS, (sef yw hyny Yma gorwedd sant Afan Esgob). Bernir iddo fod yn drydydd yn llinach esgobol Llanbadarn fawr. Cedwid ei wylmabsant ar yr unfed ar bymtheg o Dachwedd.

AFARWY oedd fab Lludd, brenin y Brutaniaid. Gan i'w dad farw cyn iddo ddyfod i'w oed, cymerodd Caswallawn ei ewythr y llywodraeth, yr hwn a roddodd Lundain a iarlliaeth Cent i Afarwy, a Chernyw i'w frawd Teneufan. Darfu i Caswallawn, wedi cael buddugoliaeth fawr ar y Rhufeiniaid dan Cæsar, wahodd yr holl benaethiaid i'w dathlu âg aberthau i'r duwiau, a gwnaed gwledd ardderchog ; ond digwyddodd yn anlwcus ar y pryd, i Hirlas, nai y brenin, gael ei ladd gan Cyhelyn, nai Afarwy mewn ymorchest paledog, yr hyn a gynddeiriogodd y brenin gymaint, fel y penderfynodd gael prawf arno. Afarwy, yn ofni y canlyniad, a enciliodd gyda'i nai, o'r llys i'w diriogaethau ei hun, yr hyn a barodd i Caswallawn a'i fyddinoedd ymosod ar Lundain. Afarwy, wedi cael ymosod arno felly, a ddeisyfodd gymod â'r brenin, yr hyn a nacawyd. Yna efe a anfonodd i wahodd Cæsar i'w gynorthwyo,gan addaw ar yr un pryd ei gynorthwyo yntau i ddarostwng y Brutaniaid i'r Rhufeiniaid ; ond ni welai Cæsar yn weddus dyfod i Brydain, ar ddim ond geiriau teg Afarwy, nes iddo anfon ei fab, a deg ar hugain o feibion penaethiaid drosodd yn wystlon. Yna efe a fordwyodd drosodd, ac a unodd âg Afarwy, a darfu i'w cydalluoedd orchfygu Caswallawn. Ni fynai Afarwy i'r Brutaniaid fod mwyach yn ddarostyngedig i'r Rhufeiniaid, yr hyn a achlysurodd i Cæsar ymheddychu yn anewyllysgar, ar yr amod fod i deyrnged o dair mil o bunau mewn aur ac arian gael eu talu gan y Brutaniaid yn flynyddol. Yr haf canlynol, aeth Afarwy i Rufain, i wrthwynebu Pompey, lle yr arosodd rai blynyddoedd, a bu farw Caswallawn yn ei absenoldeb, a'i frawd ieuengach Teneufan a ddilynodd i'r orsedd. Dyna sylwedd hanes Afarwy yn y Brutwn Cymreig, fel y maent wedi eu cadw yn y *Myv. Arch.* Ymddengys mai Androgorius y gelwid Afarwy gan y Rhufeiniaid.

AIDAN. Un o ddisgyblion Dyfrig oedd, ac yn Nglasgor Henllan y dygwyd ef i fynu o dan arolygiaeth yr un a enwyd. Gwnaed ef yn esgob cynorthwyol dros ran o sir Henffordd a elwir Ergyng. Cymerth hyn le pan oedd Cynfyn ab Pebiaw yn frenin ar y wlad hono, sef yn y pumed cant.

AIDAN. Bu'n esgob Llandaf dros ryw hyd, ond yn y flwyddyn 720 daeth y Saeson paganaidd yno, ac yspeiliasant yr eglwys, a rhoddasant Aidan a llawer o offeiriaid i farwolaeth.

AILFYW. Ei dad oedd Dirdan neu Durdan, gwr o'r Eidal, a'i fam oedd Danadlwen ferch Gynyr o Gaergawch ; blodeuodd yn ystod y chweched cant, a sefydlodd Llanailfyw neu St. Elvies gerllaw Ty Ddewi yn Mhenfro.

ALAN. Un o'r teulu mawr a ddaeth drosodd o Lydaw yn Ffrainc, ydoedd Alan. Ei dad oedd Emyr Llydaw, brenin Graweg, ac yn mysg amryw eraill o'r un wlad, daeth i Gymru, ac ymsefydlodd yn Nghor

Digitized by Google

Illtud Farchog, oblegyd cefnder i'w dad ef oedd Illtud, a thyma ddechreuad arbenig ymfudiad cenhadol Llydaw i Gymru. Bu i Alan dri o feibion, y rhai a hynodasant eu hunain fel seintiau disglaer, nid amgen, Lleuddad, a elwir hefyd Lleuddad Llydaw, Lloniaw, Periglor Padarn, Esgob yn Llanbadarnfawr, a Llynab, yr hwn a fu'n archesgob Llandaf, yn ail ar ol Dyfrig, medd rhai, yn drydydd, medd eraill.

ALAN FORGAN. Penaeth a laddwyd ar faes Camlan, yn y flwyddyn 542, trwy fradwriaeth ei wyr, y rhai a enciliasant oddiwrtho ar gychwyniad y frwydr. Am y rheswm hwn nodir hwynt yn y Trioedd fel un o'r tri "Anniweir Deulu," neu lwythau anffyddlon Ynys Prydain. Y ddau eraill oeddynt Goronwy Befr o Benllyn a Peredur.

ALAW (Dafydd). Brodor o lan afon Alaw yn Mon, a bardd cywrain ac awenyddol. Bu farw tua 1540. Mae cofrestr o 12 o'i gywyddau ar glawr y *Greal.* Mae tri o honynt i Risiart ab Rhydderch o'r *Mysyrian.* Daethai y gwr hwnw i'w etifeddiaeth 1525. I ofyn cymod Risiart ab Rhydderch y mae dau o'r cywyddau. Tebygol iddo lwyddo yn ei amcan, canys mae yr olaf yn dechreu fel hyn :—

"Af y fory i Fyfyrian".

ALAWN. "Tri chyntefigion beirdd Ynys Prydain,—Plenydd, Alawn, a Gwron; sef oeddynt y rhai hyny a ddychymygasant y breiniau a'r defodau sydd ar feirdd a barddoniaeth."

Barnai T. ab Iolo Morganwg nad oedd y tri chyntefigion ddim amgen na dynsoddiad o "Dri phrif anhebgor Awen,—llygad yn canfod anian, calon yn teimlo anian, a glewder a faidd gydfyned ag anian." Ystyr y gair Alon yw cynghanedd, cysondeb, cyngherdd. Calon y bardd yn gydgerdd ag anian o'i gwmpas, yw Alawn. Mae rhai yn deilliaw y gair o llon, eraill o llawn, ac eraill o al, (uchel, ardderchog,) megys ag y deillia Alaw, Alwen, &c., o'r un gwreiddyn. Mae eraill yn golygu Alawn fel person gwirioneddol, ond ei fod yn byw cyn cof llyfr ac achau, fel nad oes goffa am dano ond ei enw a'i swydd.

"Gorug Alawn fardd Prydain
Gofrodeu cleu clodysgaln,
Coel cyd celfyddyd cyfrain."

Y mae y Dr. Owen Pughe, yn ei *Cambrian Biography,* yn meddwl fod yn debygol mai yr un person ydoedd ag Olen, Olenus, Ailinus, a Linus, yn mhlith y Groegiaid, oddiwrth yr amgylchiad fod yr un priodoleddau yn cael eu rhoddi iddo ganddynt ag a roddir i Alon yn y Trioedd.

ALBAN. Ystyrir Alban ar lawer o ystyriaethau fel y cyntaf oll o ddilynwyr Crist, yn y wlad hon, a ymunodd ag "ardderchog lu y Merthyri." Ganwyd ef yn nhref Feriwlam yn y trydydd cant. Dywed yr hen Groniclwyr mai Prydeiniaid oedd ei rieni, ac nid ydyw yn debyg iddo newid ei enw, oblegyd y mae Alban yn enw hollol Frutanaidd. Ymrestrodd hefo byddin y Rhufeiniaid, a bu am saith mlynedd yn eu gwasanaeth milwrol. Y pryd hyn y daeth i gyfeillgarwch ag Amphibalus, yr hwn a droes yn Gristion. Wedi dychwelyd i'w dref enedigol, lle yr arosodd mewn parch ac urddas hyd nes y tores yr erledigaeth allan yn ffyrnig a distrywgar yn amser yr ymerawdwr creulon Diocletian. Yn y cyfamser dylanwadodd ei gyfaill Amphibalus yn fawr arno, a'r canlyniad fu iddo droi yn Gristion trwyadl, ac fel llawer un arall o ddisgybion y Groes dybenodd ei yrfa yn ferthyr. Nid ydyw'r hanes a ddyry Gildas o hyn ond byr: Bede, yr hanesydd eglwysig, ar y llaw arall a gofnoda'r ffeithiau yn llawer helaethach.

Digitized by Google

Crybwylla ef ddarfod i Alban, tra yr ydoedd yn bagan, neu o'r hyn lleiaf, cyn iddo wneud proffes gyhoedd o Gristionogaeth, gadw neu yn hytrach guddio, ei gyfaill Amphibalus yn ei dy, ac i'r llywodraethwr Rhufeinig glywed ryw fodd ei fod ef yn celu Cristion yn ei dy, ac iddo anfon milwyr yno i ddal y cyfryw. Alban pan welodd hyn a wisgodd am dano ddillad ei gyfaill, a chymerwyd ef o flaen yr Ynad. Digwyddodd, pan ddygpwyd Alban yno fod hwnw yn offrymu i'w dduwiau, a chan na fynai ef gydweithredu yn y drefn, ond cyhoeddi ei hun yn Gristion, gorchymynwyd ar iddo gael ei ferthyru yn ebrwydd. Dywedir hefyd i'w eonder gwrolfrydig ddylanwadu yn arbenig ar yr edrychwyr, a pheri i lawer o honynt gofleidio ffydd Crist Iesu y Gwaredwr. Torwyd ei ben ar y degfed dydd o Orphenaf, O. C. 303. Bu ei goffadwriaeth yn fendigedig am ganrifoedd, a thelid parch mawr iddo am ei ymlyniad didwyll. Adeiladwyd eglwys ar y llecyn y dienyddiwyd ef yn lled fuan ar ol ei ferthyrdod, ac mewn amseroedd diweddarach addurnwyd hi fel yr ydoedd yn un o'r adeiladau prydferthaf a thlysaf yn Lloegr.

ALBANACTUS, oedd un o dri mab Brutus, oddiwrth yr hwn y dywedir gan rai ysgrifenwyr y deilliodd yr enw Prydain ar yr Ynys hon. Dywed y traddodiad fod Brutus yn frenin dros yr holl Ynys, ac iddo gael o'i wraig Inogen dri mab, Locrin, Camber, ac Albanactus. I'r hynaf efe a roddodd y rhan ganol a'r oreu, a alwyd oddiwrtho yn Lloegria, neu Loegr, yn ol fel y geilw y Cymry hyd heddyw y wlad a elwir gan y Saeson, *England*. Cafodd yr ail fab Cambri, Gymru presenol; a'r ieuengaf, Albanactus, a gafodd yn rhan iddo yr holl wlad i'r gogledd o Humber.

ALED, a elwir hefyd Elfeth, ac ambell dro yn Eiluned. *Gwel* EILUNED.

ALED (TUDUR). Theodore Aled, Bencerdd, bardd Cadeiriog Eisteddfod Caerwys, yn y fl. 1525. Efe oedd prif fardd addefedig ei oes yn Ngwynedd a Phowys ar ol marwolaeth ei ewythr a'i athraw, Dafydd ab Edmwnd. Preswyliai ar fin afon Aled, yn Garth Geri Chwibryn, yn Llansanan, a chymerodd ei enw barddonol oddiwrth yr afon hono. Blodeuai o 1480 i 1525. Yr oedd efe, fel pawb o feirdd yr oes hono, yn babydd; ac yn mhellach na hyny yr oedd efe yn fynach o urdd Sant Ffransis. Pan wisgwyd ef yn yr urdd hwnw, canodd yr englyn canlynol:—

"Brawd i Sant Ffransis, na bo-brych—f' wyneb
Pan fyner ei edrych;
Yn ei grefydd yn gryfwych,
Yn ei wisg wyf yn was gwych."

Mae Cywydd Gwenfrewi yn amlygiad cyflawn o'i goelion Pabaidd, yn ogystal ag o'i ddawn farddonol. Mae ein darllenwyr yn gyfarwydd â chwedl Gwenfrewi, sef i ryw dywysog dori ei phen a'i gleddyf am na chydsyniai a'i drachwant halogedig, ac i Feuno sant godi'r pen, a'i osod yn ol yn ei le, ac adferu bywyd Gwenfrewi. Yn y man y codwyd y pen y tarddodd ffynon Treffynon. *Gwel* BEUNO. Dyma engreifftiau o'r Cywydd:—

"Cariadog lawog o lid
Hyd ei theml daeth i'w hymlid;
Lladdodd wen lle 'dd oedd unawr,
Llyn tawdd a'i llyncawdd i'r llawr;
Gwae'r ynfyd er gwirionfun,
O'i lladd hi collodd ei hun;
Trwy'i mwnwgl taro meinwen,
Treiglo'r arf trwy goler wen."

Digitized by Google

Ar ol i Feuno ail osod y pen ar gorph Gwenfrewi, gwelid ol yr asiad ar y gwddf,—

"Nodi amgylch, nid ymgudd,
Nod yr arf yn edau rudd."

Am darddiad y ffynon a'i rhinweddau, y dywed ;—

"Arwain afon o'r nefoedd,
A chwys gras o'i chysegr oedd;
Dy deyrnged pan goded gwen
Tarddu enaint Iorddonen ;
* * *
Arogl o nef i'r glyn yw.
Ager gwin o'r gro a gaid
Fal gwynt o fel y gynthiaid ;
Mal gwiw arogl mewn gweryd,
Mwsg o ban yn mysg y byd,
Man pur ar bob maen purwyn,
Maen ac ol gwaed mwnwgl gwyn." &c.

Gwel y Cywydd yn llawn yn y *Gwladgarwr*, llyfr vi, tu dal. 368. Yr oedd Tudur Aled yn bleidiwr brwdfrydig i Syr Rhys ab Tomas o Ddinefwr, yn yr ymdrech egniol a wnaed i osod Iarll Rismwnt, sef Harri Tudur o Benmynydd, Môn, wedi hyny Harri VII., ar orsedd Prydain Fawr. Ganed Syr Rhys yn 1451, a bu farw yn 1527 ; felly yr oedd Tudur Aled ac yntau yn gyfoedion. Taid Syr Rhys oedd Gruffudd ab Nicolas, noddwr Eisteddfod fawr Caerfyrddin 1451, pan enillodd D. ab Edmwnt, ewythr Tudur Aled, y gadair arian. Canodd Tudur Aled lawer o glod i Syr Rhys am ei wrhydri milwraidd, ac er anog y Cymry i'w gynorthwyo ; ac yr oedd gair bardd y pryd hwnw yn uwch na gair pob un arall.

"Gair ar air pawb oedd ei air ef."

Dyma un o'i benillion gorchestol i Syr Rhys ab Thomas :—

"Aeth d' arwydd arnynt o waith d' arddyrnau,
A'th law mewn irwaed, a'th lu manerau,
A throl gwayw'n waedwyllt, a'th rwyg waniadau,
A thrwy fael fflemig Arthur fel fflamau ;
Anfon drwy Dduw lon un o'r ddau,—o'th waith,
Ai nhwy'n feirw unwaith, ai ni'n hen freiniau."

Gwelir fod cymeriad llythyrenol yn y penill, pob llinell yn dechreu gydag A.

Diddadl fod Tudur Aled yn wr o ddysg a gwybodaeth gyffredinol, wedi cael ei addysgu gan D. ab Edmwnt, yn mhob gwybodau Cymruaidd, mal y tystia yn ei farwnad iddo :—

"F'ewythr o waed, f'athraw oedd,
Fonwes gwawd, fy nysg ydoedd.
Athraw oedd ef uthr ei ddull,
Athronddysg athraw henddull."

Ac yr oedd ei urdd Babaidd, a'i gydnabyddiaeth a'r Monachod yn Ninas Basing, Maenan, Llanegwestl, ac feallai Ystrad Fflur, a manau eraill, yn sicrhau fod holl ddysg eglwysig y cyfnod hwnw yn ei feddiant. Mae yn cyfeirio weithiau at yr awdwyr Paganaidd uchelddysg, megys ag y dywedai am rywun

"Os yn y Cor Seneca yw."

Cynaliwyd dwy Eisteddfod rwysgfawr yn Nghaerfyrddin, yn y bumthegfed ganrif ; y gyntaf yn 1451, a'r ail yn 1461. Ymddengys i D. ab Edmwnt gael y flaenoriaeth, i gadarnhau ei bedwar mesur ar hugain, yn y ddwy ; eithr bu farw cyn sefydlu ei ddosparth yn Ngwynedd a Phowys. Dichon mai diffyg cefnogaeth breninol oedd yr achos o'r oediad, gan fod rhyfeloedd y Rhosynau yn siglo y deyrnas yn y tymhor hwnw. Pa fodd bynag, disgynodd y gorchwyl hwnw ar Dudur Aled. "Llyma bedwar mesur ar hugain Cerdd Dafod, modd ag a'u doded ar ddosparth gan Ddafydd ap Edmwnt, yn yr ail Eisteddfod fawr yn Nghaerfyrddin, oed Crist 1461, a hon a elwir Dosparth

Digitized by Google

Caerfyrddin, ag a gonffirmiwyd yn Gadair Cerdd Dafod i holl Wynedd a Phowys, yn Eisteddfod gyntaf Caerwys, yn sir y Fflint. Bydded hysbys i bawb o foneddigion a chyffrediniaid, fod Eisteddfod ar wyr wrth gerdd dafawd a thant, o fewn tref Gaerwys, yn swydd Fflint, yr ail ddydd o fis Gorphenaf, yn y bymthegfed flwyddyn o goronedigaeth Harri yr wythfed, ger bron Richard ab Hywel ab Ieuan Fychan, Ysw., ac o gytundeb Syr William Gruffudd, a Syr Robert Salsbri, a thrwy bresenawl gynghor Gruffydd ab Ieuan ab Llywelyn Fychan, a Thudur Aled, bardd Cadeiriawg, a llawer o foneddigion a doethion eraill, er gwneuthur trefn a llywodraeth ar wyr wrth gerdd dafawd a thant, ac ar eu celfyddyd; nid amgen i gadarnhau a chyfrymiaw y Pencerddiaid, a'r sawl a gafas radd o'r blaen, i raddu y sawl a'i haeddai, ac i roddi i eraill *ysbas* i ddysgu ac i fyfyriaw yn nesaf ag y galler wrth gydwybod, ac wrth hen *ystatyd* Gruffydd ab Cynan. Llyma y rhai a raddiwyd yn Nghaerwys; Tudur Aled a ganiadwyd ac a gyfrymied yn athraw cadeiriawg, i arwain ariandlws, fal yr oedd er pan ei cymerasai dan ei berygl i'w ddwyn o'r lle yr oedd."—*Greal.*

Mae yn debygol wrth hyn i Dudur Aled gymeryd ariandlws ei ewyrth D. ab Edmwnt, a'i arwedd ar ei ysgwydd heb ganiatad rheolaidd Eisteddfod. Cadair aur neu arian oedd tlws Pencerdd Cerdd dafod, ac iddo y perthynai arwain y tlws hwnw ar ei ysgwydd, yn arwydd ei fod yn athraw o Bencerdd yn warantedig o farn Eisteddfod. Cadair Prydydd a ddengys ei awdurdod o gyfeistedd ac yngnadaeth; a phob tlws arall a ddengys gelfyddyd a'i harweiniai. Gorphwysle pob ariandlws yw llys arglwydd y cyfoeth y bo ynddo yr Eisteddfod; ac yno ei dychwelir pan fo marw y Pencerdd a'i harweinio. O bydd ariandlws yn gorwedd yn segur yn ei gorphwysle briodol, yn ol gorchymyn yr athraw a'r dygiawdwr diweddaf a fu yn ei arwain, a bod Pencerdd yn clywed ei hunan yn abl i'w ddwyn wrth fraint ei gelfyddyd, ac i ateb drosto ei hun, ei chymeryd a all oddiyno, dan rybudd cyflawn un dydd a blwyddyn, yn mhob ffair, a marchnad, a llys cyfreithiawl, o fewn ei dalaeth, i ddangos ei fod yn cymeryd yr ariandlws dan ei berygl, ac yn ymadneu o hono, sef honi fod ganddo hawl i gadw meddiant o'r ariandlws a bod yn gyfrifol am dano, a rhoddi ei lawnwerth yn arian neu aur yn wystl am dano, heblaw ei radd warantedig o Eisteddfod neu neithiawr riawl. Dysgybl Pencerddaidd yn unig a allasai hawlio'r ariandlws; ac yn yr Eisteddfod nesaf a fytho byddai raid iddo ddangos ei fod yn abl i'w hadneu a'i chadw o nerth celfyddyd a gwybodau Awen. Aeth Tudur Aled drwy y defodau hyn yn rheolaidd, a chyfrymiwyd ef yn Eisteddfod Caerwys yn athraw Cadeiriawg i arwain ariandlws, ac o hyny allan i'r dalaeth ei gymeryd yn athraw yn ei gelfyddyd ef.—*Greal*, Rh. 2.

Pethau diweddar o waith D. ab Edmwnt a Gutyn Owain yw rheol mesurau Tudur Aled gan mwyaf, "Nid amgen na phedwar mesur ar hugain yn gynifer *Cadair Cerdd Dafod*, herwydd dosbarth a wnaethpwyd ar fesurau gan Ddafydd ab Edmwnt, a gwedi hyny a gonffirmiwyd herwydd y dangos arni, gan Theodor Aled, Bencerdd, yn Eisteddfod gyntaf Caerwys; a barnu yn ofer fesurau pob mesur arall, ag ni weddai i brydydd o Bencerdd eu canu a'u dangos ger bron Eisteddfod."—*Cyf. y Beirdd.*

Mil, pum cant, rhifant y rhed,—a rhagor
Pump ar hugain, rhodded
Yn ddeddf bwys beirdd Caerwys ged,
Rheolau Tudur Aled. GRUFFYDD HIRAETHOG.

Digitized by Google

Am deilyngdod barddonol Tudur Aled gall ein darllenwyr droi i *Orchestion Beirdd Cymru*, a barnu drostynt eu hunain. Barna Gwallter Mechain fod ei ddarluniad o'r March yn werth i'w gydmharu a darluniadau Homer a Virgil o'r un sylfon. Dyma nerth y march :—

"Ser—neu fellt—o'r sarn a fydd'
Ar godiad yr egwydydd;
Carnau a phedolau'n dan
A ddryllia ddaear allan."

Gwelwch eto mor ysgafndroed oedd y march :—

"O gyrir ef i'r gweirwellt,
Ni thyr a'i garn wyth o'r gwellt."

Noda Dr. W. O. Pughe fod Gramadeg' o waith Tudur Aled mewn bod yn rhywle, canys efe oedd athraw cadeiriog ei oes. Bu Gruffydd Hiraethog o dan ei athrawiaeth; a gellid meddwl mai athraw dyfnddysg a chywrain dros ben ydoedd. Mae coethder, celfyddyd, ac ucheledd, yn hynodi ei gyfansoddiadau; ceir tlysni diarebol yn fynych yn ei farddoniaeth, megys ;—

"Mae'n wir y gwelir argoelyn—difai
Wrth dyfiad y brigyn;
A hysbys y dengys dyn
O ba radd y bo'i wreiddyn."

Nid oedd yn dda rhyngddo ag Abad Llandudoch, oblegyd nid yr un urdd o fonachod ag ef oedd yr Abatty hwnw :—

"Abad mul brychiad, mael broch—diobaith
Neud abad Llandudoch;
Abad gytgat llygatgoch,
Abad a fyn bwyd i'w foch.

Yn sir Benfro y mae Llandudoch, a moch yw y llysenw a roddir ar y trigolion, a moch y galwai Tudur Aled fonachod yr Abatty.

Dyma syniad cywrain o'i eiddo wrth ddarlunio gwron :—

"Gwrawl, tragwrawl, trugarog—wrawl,
Ni bu tragwrawl na b'ai trugarog.

Dywedai rhywbryd tua gauaf ei einioes :—

"Gwanhau yr wyf gan hir ofal."

Diweddwn ein coflon am dano yn ei eiriau ei hun, y mhai a ddangosant ei grefyddolder :—

"Rhown ein gofal bob calon
Ar Grist fry a'i groeswaed fron,
Lle nad oes na garwloes gur.
Na dialedd na dolur,
Nac erlid, llid nac oerloes,
Na dig, na galar nid oes,
Na newyn, chwerwddyn na chwyn
Na syched, na nos achwyn.

Sylwyd eisioes fod Tudur yn un o'r Brodyr Llwydion, neu frawd i Sant Ffransis, a'i fod yn llawn o frwdfrydedd Pabyddol. Yn ei amser ef, sef yn 1490, yr adeiladwyd Capel Gwenfrewi yn Nhreffynon, felly yr oedd rhinweddau y ffynon yn tynu llawer o sylw, ac o bererinion ati. Canwyd ei farwnad ef gan ei gydlafurwr yn Eisteddfod Caerwys, sef Gruffydd ab Ieuan ab Llywelyn Fychan o'r Llanerch.

Dyma rai llinellau o'i farwnad o'r *Brython* :—

"Trist yw'r cwyn tros awdur cerdd,
Trwstangamp trawst awengerdd;
Am na bu, ac am na bydd,
All Dudur Aled wawdydd.
I Ddofydd yr addefwyd,
Ei ddewis glog oedd wisg Lwyd;
Cryf oedd o serch crefydd saint,
Crefydd-frawd cor ufyddfraint;
Ffydd y sant hoff oedd ei swydd,
Ffransis a hoffai'r unswydd.
Buasai well yn y bais hon,
Bwrw deuddeg o brydyddion.

Dywedir mai yn Nhre'rbrodyr yn Nghaerfyrddin y claddwyd ef.

Digitized by Google

ALO. Penaeth o Bowys, yr hwn oedd yn ben un o bum costoglwyth Cymru; y lleill oeddynt Gwenwys, Blaidd Rhudd, Adda Fawr, a Heilyn Ysteilforch o Forganwg.

AMABON GLOCHYDD, y penaf un o dair llinach ddiweddar Cymru: y lleill oeddynt Cantelli ac Osborn.

AMAETHON, ab Don, a brawd i'r lledrithiwr enwog Gwydion ab Don. Dywed yr hen ramantau Cymreig ddarfod iddo ddwyn iwrch a chenaw gast o Annwn, yr hyn a achlysurodd y frwydr a elwid Câd Goddeu *(Battle of the Trees)*, a dyma un o dair ofergad Ynys Prydain. Ceir cân gyfriniol iawn o waith Taliesin ar y frwydr hon yn y *Myf. Arch.* t. d. 30.

AMBROSIUS, (AURELIUS) fel y mae yn cael ei alw gan Sieffrey o Fynwy, ond Ambrosius Aurelianus gan Gildas a Bede, ac y mae yn cael ei alw yn Emrys Wledig mewn hanesion Cymreig. Yr oedd o darddiad Brutanaidd-Rhufeinig, a dygodd ei dad, Cystenyn Fendigaid, urddas brenhinol, gan iddo gael ei ethol yn frenin y Brutaniaid, wedi i'r Rhufeiniaid adael yr Ynys, pan y daeth drosodd i'r wlad hon o Lydaw i gynorthwyo y Brutaniaid. Wedi i'w dad gael ei ladd yn y rhyfeloedd â'r Pictiaid, cafodd Aurelius Ambrosius ei addysg yn llys ei ewythr Aldroen, brenin Llydaw; yr hwn, ar gais y Brutaniaid, a'i hanfonodd drosodd gyda deng mil o wyr, i'w cynorthwyo yn erbyn y Sacsoniaid, y rhai a wahoddwyd i Brydain gan Gwrtheyrn eu brenin. Bu Ambrosius mor llwyddianus, fel y darfu i'r Brutaniaid ei ddewis yn frenin arnynt, gan orfodi Gwrtheyrn i ganiatau iddo y rhanau gorllewinol o'r deyrnas, a wahenid gan y brif-ffordd Rufeinig a elwid Stryd Watling. Ychydig amser wedi hyny, darfu y Brutaniaid anfoddloni wrth Gwrtheyrn, a thynu eu gwriogaeth oddiwrtho, ac ymneillduodd yntau i gastell yn Nghymru; lle, wedi ei warchae gan Ambrosius, ac i'r castell fyned ar dân, y collodd yntau ei fywyd yn y fflamau. Dygwyddodd hyn oddeutu y flwyddyn 476, yn ol hanes rhai, tra fy mae eraill yn amseru yr amgylchiad yn y flwyddyn 481. Daeth Ambrosius, trwy yr amgylchiad hwn, yr hollol deyrn, ac a ymwisgodd yn y porphor ymerodrol, yn ol dull yr ymerawdwyr Rhufeinig. Y mae y Brutiau Cymreig a Sieffrey o Fynwy yn dweyd mai Ambrosius a adeiladodd Cor Gawr *(Stonehenge)*, a elwir yn Gymraeg, "Gwaith Emrys," mewn coffadwriaeth am dri chant o ardderchogion, y rhai yn fradychol a laddwyd mewn gwledd gan y Sacsoniaid. Dywedir hefyd iddo roddi amgylchiadau yr eglwys mewn trefn, yr hon a esgeuluswyd yn fawr yn amser y rhyfeloedd anrheithiol; ac wedi galw yn nghyd y tywysogion a'r ardderchogion i Efrog, efe a orchymynodd ar fod i'r eglwysi gael eu gwellhau, a'r offeiriaid eu hadsefydlu. Y mae Sieffrey yn rhoddi cymeriad rhagorol iddo, ac yn dywedyd yr achlysurwyd ei farwolaeth gan wenwyn a roddwyd iddo yn Westminster, gan ryw Eopa, Sacsoniad, yr hwn a ymffugiodd yn feddyg, ac a gyflogwyd i'r dyben hwnw gan Pasgen, un o feibion Gwrtheyrn. Cymerodd hyn le yn y flwyddyn 500.

AMLAWDD WLEDIG, tywysog o'r Brutaniaid Gogleddol, yr hwn oedd yn byw oddeutu diwedd y bumed ganrif. Efe oedd tad Tywynwedd, mam Tyfrydog; ac hefyd Eigr, neu Ygrainc y Rhufeiniaid, a mam y Brenin Arthur. Crybwyllir am dano yn *Mabinogi* Cilhwch ac Olwen.

Digitized by Google

AMO, yr hwn a enwir weithiau Anno, ydoedd hen sant, ac iddo ef y cyflwynwyd eglwys Llananno yn Maesyfed; ac eglwys Niwbwrch yn Môn, yr hwn le gynt a elwid Llananno.

AMPHIBALUS. Dywed Giraldus Cambrensis ac eraill mai gwr genedigol o Gaerlleon ar Wysg ydoedd, ac iddo gael ei eni yn ystod y trydydd cant. Haera eraill mai monach oedd yn perthyn i Eglwys Gadeiriol y lle ardderchog hwnw, oblegyd dyna oedd prif dref Cymru y pryd dan sylw. Hyn, fodd bynag, sydd eithaf amlwg, mai ef fu'r offeryn yn llaw Duw o ddwyn Alban i gofleidio ffydd y Groes. Yr oedd ef ac Alban yn hen gyfeillion fel yr ymddengys oddiwrth eu Bucheddau. Ni wyddis pa beth oedd ei enw cyntefig, ac ni ddyry Sieffrey o Fynwy nemawr o oleu fynag ar y peth, oblegyd math o gyfieithiad o'r un dan sylw a geir ganddo. Ar ol iddo drwy help Alban ddianc o Ferulam, dychwelodd i Gaerlleon, a phregethodd gyda grym a llwyddiant anarferol, a throes nifer mawr at Gristionogaeth, ac oherwydd y droedigaeth a gymerth le yn adeg merthyrdod Alban, ffoes tua mil o'r fan hono am nodded yn Nghymru, lle y derbyniwyd hwy i Eglwys Crist trwy fedydd gan Amphibalus. Cynhyrfodd hyn ddygasedd trigolion paganaidd eu hen gartref, fel y penderfynasant eu dilyn yn arfog, a dyfod a wnaethant nes d'od o hyd iddynt, ac yna eu cigyddio a'u darnio a wnawd. Yn mysg y cyfryw, daliwyd Amphibalus, a chludasant ef hyd o fewn rhyw dair milltir i Ferulam, ac yno llabyddiwyd ef gan y creuloniaid atgas. A thyna ran y sant disglaer hwn yn mrwydr y ffydd.—*Gweel* ALBAN.

AMWN DDU. Mab ydoedd i Emyr Llydaw, tywysog Graweg, yn Llydaw. Ei wraig ef oedd Anna ferch Meurig ap Tewdrig. Bu iddynt lawer o blant, y rhai y mae eu henwau yn llyfr y seintiau, nid amgen Tydecho, Samson, Tathan, Gwyndaf Hen, Pedrwn, Hywel, Alan, Difwg, Gwyddnaw, a Thegfedd eu chwaer. A thyma oedd ei wehelyth: efe a hannes parth ach o Ynys Prydain, nid amgen nag o Gynan Meiriadog, yr hwn a ymsefydlodd yn Llydaw yn amser Macsen Wledig. Plant yr Amwn Ddu a fuant yn gyff saint Enlli a Gwynedd yn y chweched cant. Chwaer i Amwn oedd Gwenteirbron mam Cadfan, blaenor Gwelygordd Emyr Llydaw. Yr oedd Garmon yn ewythr o frawd ei fam i Emyr Llydaw, ac Illtud farchog yn gefnder iddo: ac yn nglŷn a'r cenhadon ymroddgar hyn yr ymgyssegrodd plant Emyr i efengylu yn mysg ein hynafiaid di-ffydd. Dywedir i Amwn Ddu ymneilldduo ac arwedd bywyd meudwyol, ac mai mewn ynys gerllaw i Llanilltyd Fawr y trefai, hyd nes iddo fyned yn mhellach o dwrf y byd i ryw ddiffeithle annghysbell. Ond odid mai yn Mawddwy yr oedd y lle hwn, oblegyd y mae yno hyd heddyw le a adwaenir wrth yr enw Cell Fawddu neu Gell Amwn Ddu. Tydecho ab Amwn Ddu ydyw sant cyfryngol holl eglwysi'r cymydogaethau hyn. Crybwyllir i Anna ddilyn ei gwr i'r lle anhygyrch, ac iddo adeiladu eglwys yno; a Samson eu mab a gysegrodd yr unrhyw. Bernir iddo gael ei gladdu yn Llanilltyd Fawr. Gellir tybied fod Llan-y-mawddwy wedi cael ei henwi oddiwrtho yn gystal ag oddiwrth ei fab Tydecho: oblegyd gelwir hi weithiau yn Llandudech yn gystal a Llan-y-mawddwy, sef yw hyny:—Llan-amwn-ddu.

ANARAWD oedd fab hynaf Rhodri Mawr, yr hwn oedd dywysog teyrnasol holl Gymru, yr hon, ar ei farwolaeth yn y flwyddyn 876, a ddosranodd rhwng ei dri mab. Y rhan a gafodd Anarawd oedd Gwynedd neu Ogledd Cymru; cafodd Cadell y Deheubarth, neu

Digitized by Google

Ddeheudir Cymru, a chafodd Merfyn, Powys. Bu yn anmheuaeth yn hir, pa un ai Cadell ai Anarawd oedd y mab hynaf. Geilw Dr. Owen Pughe, Cadell yn hynaf, yn ei *Cambrian Biography*; felly hefyd y gwna Price yn ei *Hanes Cymru*, tu dal. 392, ond yn tu dal. 397, gelwir Anarawd yr hynaf, Darfu i'r ddadl hon achlysuro i Vaughan o Hengwrt, yr hynafiaethydd enwog, i gyfansoddi traethawd, o dan yr enw, "*British Antiquities revived*," yr hwn a argraffwyd yn Rhydychain, 1662, yn 4 plyg, ac ailargraffiad yn y Bala yn 1834, yn 4 plyg. Ymddengys y profir yn llawn yn hwn mai Anarawd oedd yr hynaf, a'i fod yn meddu blaenoriaeth awdurdod ar ei frodyr. Pa fodd bynag, nid coron ysgafn a fu yr eiddo ef, gan ei fod mewn rhyfeloedd gwastadol â'r Sacsoniaid Yn y flwyddyn 880, yr ymladdodd efe frwydr Cymryd, ger tref Aberconwy, yn sir Gaernarfon, ac y gorchfygodd y Sacsoniaid gyda lladdfa fawr, a dialodd farwolaeth ei dad, yr hwn a laddwyd yn Môn. Gelwir y frwydr hon, mewn hanesion Cymreig, "Dial Rhodri." Y mae ei deyrnasiad yn hynod hefyd am ymfudiaeth y Brutaniaid Gogleddol yn y flwyddyn 890, y rhai, oblegyd eu gwasgu gan eu gelynion, a adawsant Strathclwyd, ac a dderbyniwyd yn lletygar gan Anarawd, yr hwn a roddodd iddynt diroedd yn siroedd Dinbych a Fflint, ar yr amod fod iddynt yru ymaith y Sacsoniaid a gymerasant feddiant o honynt, yr hyn a gwblhawyd yn foddhaol. Yn y flwyddyn 892, aeth Anarawd i mewn i diriogaethau ei frawd yn y Deheubarth, y rhai a ddistrywiodd trwy dân a'r cleddyf. Yn y flwyddyn 900, bu farw Cadell, yr hwn cyn hyny a ddygodd Bowys dan ei lywodraeth, ac felly daeth Anarawd yn dywysog teyrnasol holl Gymru, a theyrnasodd hyd ei farwolaeth yn y flwyddyn 913, pan y gadawodd ar ei ol dri mab, Idwal Foel, Elis, a Meurig. Y mae Cadell, Anarawd, a Merfyn, yn cael eu henwi yn y *Triwedd*, fel y "Tri Heiyrn taleithiawg" Ynys Prydain.

ANDRAS ap Rhys Dremrudd ap Brychan Brycheiniog oedd yn ei flodau yn y pumed cant, ac efe oedd sant gwarchodol Llanandras neu Andreas, sef yn awr Dinas Powys.

ANDRAS, neu Andryw, mab i Ceryn, yn ol y Brutiaid, a gafodd deyrniaeth Prydain ar ol ei frawd Eidal, ac a ddilynwyd gan ei fab Urien.

ANDRAS, neu Andros, oedd yr enw a ddodid yn chwedloniaeth ein hynafiaid ar yr au dduwies Mallen. Priodolid gweithredoedd cyffelyb iddi hi ag a briodolai y Groegiaid i'w ffug-bersonau Hecate, eu Bellona, a'u Enyo, hwythau. Dywedai Coel Gwlad fod iddi farch hefyd a elwid "March Malen," ar gefn yr hwn, credid, y byddai lledrithwyr a dewiniaid yn cyflym deithio mor wyrthiol ar hyd a lled y ddaear yn y dyddiau gynt. Oddiar yr ofergoel hon y tarddodd y ddiareb, "A gasgler ar Farch Malen, tan ei dôr ydd â;" neu a eniller trwy ddewiniaeth, diles a difantais fydd. Dywedir y byddai'r hen Frutaniaid yn aberthu ebyrth dynol i Andras; a thystiolaetha Dion ddarfod i Buddug cyn ymladd â'r Rhufeiniaid weddio ar Andras am ei melldith arnynt. Gelwid hi weithiau "Y Fall," Mam y Drwg," a'r "Hen Wrach;" ac y mae ei henw ar Lafar Gwlad hyd y dydd hwn, canys dywediadau a glywir yn fynych ydynt "Chwareu'r Andros," yr hyn ydyw ymddwyn yn nwydwyllt a chynddeiriog; "mae yr Andros ynddo," sef y mae drygioni ynddo; a'r "hen Andros" sydd air arall am y diafol. Fel hyn y mae tarddiad llawer o'n hymadroddion mwyaf cyffredin yn nghanol ofergoeledd ein hynafiaid.

Digitized by Google

ANE, neu Aneu, un o feibion Caw, arglwydd Cwm Cawlyd, talaeth yn Ngogledd Lloegr, yr hwn, o herwydd cael ei flino gan ymosodiadau y Pictiaid a'r Scotiaid, a ymfudodd gyda'i deulu i Gymru, ac a gafodd diroedd yn Môn gan Maelgwn Gwynedd. Y mae Ane yn cael ei gyfrif yn mhlith y seintiau Cymreig, ac y mae eglwys Coed Ane, yn y wlad hono, yn cael ei galw yn ol ei enw. Yr oedd yn ei fri yn y chweched ganrif.

ANEURIN GWAWDRYDD, yr enwocaf o'r cynfeirdd, oedd fab Caw arglwydd Cwm Cawlyd, yn y Gogledd. Oesai yn gynar yn y chweched ganrif. Yn yr oes hono yr oedd gan y Cymry fân doyrnas-oedd ar dueddau yr Alban, y rhai a elwid "Teyrnedd y Gogledd." Yno yr oedd Deifr a Bryneich, Rheged, Argoed Llwyfain, Derwenydd, Manau Gododin, y Cwm Cawlyd, &c. Anhawdd yw adnabod yr hen derfynau yn bresenol, ac nid ydyw ein haneswyr wedi talu y sylw a ddylasent i'r hen diriogaethau hyny. Hefyd, mae yn deilwng o sylw mai brodorion o'r parthau hyny oedd amryw o'n cynfeirdd, yn enwedig Aneurin Gwawdrydd, Llywarch Hen, &c. Gelwir Caw weithiau yn Caw o Brydyn, Caw ap Geraint, arglwydd Cwm Cawlyd neu Cawllwg, ac yr oedd ei drigfa yn rhywle yn Strathclwyd. Dygwyd ei diriogaeth oddiarno gan y Gwyddyl Ffichti, a ffodd yntau i Gymru. Cafodd nawdd gan Faelgwyn Gwynedd, ac ymsefydlodd yn y Twr Celyn yn Mon. Mae llawer o'i blant yn mhlith y seintiau Cymreig. Yr oedd dynion o bwys mewn gwybodau hynafol, megys Iolo Morganwg a Dr. Owen Pughe, yn barnu mai yr un oedd Aneurin a Gildas sant, ond mai Aneurin oedd ei enw milwraidd a barddonol yn more ei oes, ac iddo droi yn fynach, ac arferu yr enw Gildas fel gwr eglwysig, cyn ei farw. Dygir amryw o resymau dros y dyb hon. Caniateir ar bob llaw mai meibion Caw oedd y ddau; ond y mae rhyw bethau yn awgrymu eu bod yn nes at eu gilydd na dau frawd; canys mae yr hen gofrestrau o feibion Caw, os enwant un yn esgeuluso y llall. Nid yw Aneurin a Gildas byth yn yr un gofrestr. Hefyd, mae'r ddau enw yn gyfystyr. Mae *Aur* yn y ddau, "Gilda, Gildas y Coed Aur, Aur y Coed Aur, ac Aneurin y Coed Aur," ydynt enwau cyfystyr. Gelwir Cenydd yn fab Gildas ab Caw, a gelwir Ufelwyn yn fab Cenydd ab Aneurin y Coed Aur. Heblaw hyny, mae bywgraffwyr monachaidd Gildas yn ei alw yn fab Caw brenin o'r Gogledd. Ond y mae anianawd a chymeriad y ddau ddyn yn eu harddangos yn fodau hollol wahanol i'w gilydd. Yr oedd Aneurin yn llawn o wladgarwch cenedlaethol; ond Gildas o'r tu arall yn beio ar y genedl, ac yn ei diraddio. Heblaw hyny, bu farw Gildas yn Ynys Afallon, a chyflafanwyd Aneurin yn Llancarfan. Gwel *Hanes Cymru*, gan Carnhuanawc, tu dal. 366, 367, a'r *Welsh Saints*, gan y Cadeirdraw Rees, tu dal. 225—227. Ond fel bardd y mae a wnelom yn benaf ag Aneurin; ac y mae ei enwogrwydd barddonol yn gorphwys braidd yn llwyr ar y *Gododin*. Dyma'r gân benaf, yn ddiau, o hen ganiadau y Cymry. Ei sylfon yw brwydr drychinebus Cattraeth, yn yr hon y collodd y Cymry "deyrnedd y gogledd" am byth. Mae awdwr *Eminent Welshmen*, yn gosod y frwydr hon tua'r flwyddyn 540. Ond y mae Ab Ithel yn ei gyhoeddiad ef o'r *Gododin* yn gosod y tebygolrwydd i'r frwydr hon ddigwydd tua'r flwyddyn 570, gan i un o'r gwroniaid a syrthiodd yn Nghattraeth ladd Ida yn y flwyddyn 560. Mae ystyr y gair Gododin yn dywyll, ac anhawdd ei benderfynu. Dywedir i Cunedda Wledig ddyfod "ar y cyntaf o'r parth Gogleddol,

Digitized by Google

o'r ardal a elwir Manau Gododin."—*Hanes Cymru*, tu dal. 356. Gelwid yr ardal *Ottodinia*, a'r llwyth a'i cyfaneddent *Ottodini*. Tybir fod y lle hwn yn agos i Bryneich, a bod Gododin a Chattraeth yn ddau enw ar yr un ardal, canys y mae Aneurin yn dywedyd yn y *Gododin*, penillion 6, 7 :—

Gwyr a aeth Ododin chwerthin ognaw, &c.
Gwyr a aeth Ododin chwerthin wanar, &c,

Ac yn y penillion 9—14 :—

Gwyr a aeth Gattraeth gan wawr, &c.

Mae Taliesin yn galw Urien Rheged yn "Llyw Cattraeth," yr hyn a brawf fod parth yn agos i Reged yn yr hen amser o'r enw Cattraeth a Gododin. Barna T. Stephen yn ei *Literature of the Kymry*, t. d. 11, mai Cataracton y Rhufeiniaid, Catterick yn awr, oedd yr hen Gattraeth ; tra mae Ab Ithel yn tybied mai *Catrail* sy'n ei gynrychioli. Mae y Celtig Davies o'r tu arall yn rhoi ystyr farddawl i'r gair, gan farnu mai Cadeiriaith, neu yn dalfyredig, Cadriaith, yw ei ystyr. Gododin hefyd a ddadansoddir o *to*, *godo*—töedig mewn rhan ; a *din*, dinas, neu amddiffynfa—dinas odöedig. Sonia y *Trioedd* am "Gadriaith ab Porthor Godo," ond nis gwn pa gysylltiad oedd rhwng hwnw â Gododin. Golyga y Parch. E. Willliams *(Cam. Reg.* vol. ii. p. 16) fod yr enw yn arwyddo parthau ar derfynau cysgodwydd *(regions bordering on a covert)*; sef lle, feddyliem, rhwng Tir Ial a Gwyddeli. Pa fodd bynag am y lle, a'i ystyr, sylfon y Gododin ydyw Brwydr Cattraeth. Barna rhai mai cofnhad am rhyw un frwydr arbenig ydyw ; barna eraill fod yno goffhad am amryw frwydrau yn y rhai y darostyngwyd Cymry y Gogledd ; ond y mae y Celtig Davies yn barnu nad oes yno gyfeiriad at frwydr yn y byd, eithr darluniad o Frad y Cyllill Hirion. Barna eraill na bu y fath beth a "Brad y Cyllill Hirion" erioed ; ond mai chwedl ydyw a luniwyd ar gefn hanes gwirioneddol brwydr Cattraeth, ac i'r chwedl yn rhawd amser ddiorseddu yr hanes, a'i yru i dir annghof. Beth bynag am wirionedd Brad y Cyllill Hirion, y mae yma frwydr gelaneddog a therfynol wedi ei hymladd, yn ol tystiolaeth y gân :—

O freithell Gattraeth pan adroddir,
Maon dychiorant ; eu hoed bu hir ;
Edyrn diedyrn, a migyn dir, &c.

Sef, Pan adroddir hanes brwydr Cattraeth, y bobl a ocheneidiant ; hir y bu [y gwroniaid] yn absenol, neu yn oedi dychwelyd ; arglwyddiaeth ddiarglwydd, sef yr arglwyddiaeth wedi ei cholli yn y frwydr. "A mygyn dir ;"—barna Ab Ithel mai tir yn mygu, sef wedi ei losgi, a feddylir ; ond cysonach yma ydyw migyn, tir wedi ei figno, neu ei sathru tan draed, a'i wneud fel cors gan y gelynion. Parhaodd y frwydr mewn rhwysg a chynddaredd am bedwar diwrnod, mal y tystia y penill 68 :—

Dyfforthes meiwyr molud Nyfed,
Baran tan terydd ban gyneued ;
Dyw Mawrth gwisgasant eu gwrm dudded,
Dyw Mercher priddaint eu calchdoed,
Difiau bu diau eu difoed,
Dyw Gwener celanedd a amddyged,
Dyw Sadwrn bu difwrn eu cydweithred,
Dyw Sul eu llafnau rhudd ymddyged,
Dyw Llun hyd ben clun gwaedlyn gweled ;
Neus adrawdd Gododin gwedi lludded,
Rhag pebyll Madawg pan adgoried
Namyn un gwr o gant yno ddeled."

Gwelir oddiwrth y penill uchod fod y milwyr yn cyflawni rhyw ddefod grefyddol cyn dechreu'r frwydr, sef moli Nyfed yn ngwyddfod y tân terydd a gyneued ar ryw le ban, neu uchel. Y bardd, feallai, oedd yn

Digitized by Google

offeiriadu; a'r meiwyr yn dyphorthi—gair arferedig hyd heddyw yn Arfon am swydd Clochydd, yw "Porthi y Gwasanaeth." Y mae yn anhawdd gwybod a oedd y Cymry yn arfer rhyw ddefodau Derwyddol, ai nad oeddynt; ond y mae yn debyg fod y Saeson yn cyflawni rhyw ddefodau paganaidd, fel y prawf y penill 80:—

Gwelais y dull o ben tir adoyn,
Aberth am goelcerth a ddysgynyn.

Gwel hefyd y penill 92:—

Gwelais y dull o bentir adoyn,
Aberthach coelcerth a ymddygyn.

Yr oedd y Cymry, mae'n debygol, yn fwy goleuedig;—

Cyd elynt i Lanau i benydiaw.—Pen. 63.

Dichon mai oddiwrth y Cymry y cafodd y Saeson yr arferiad o wisgo milwr-wisg goch, canys y mae yn amlwg fod y Cymry yn y frwydr hon yn gwisgo "gwrm dudded," sef gwisg lwydgoch, neu ddugoch, sef lliw cyfaddas i guddio'r gwaed, gan eu bod bron yn gydliw. Trodd y frwydr hon mor llwyr yn erbyn y Cymry, fel na ddiangodd ond tri o'u pen-aethiaid, sef Cynon, Cadraith, a Chadlew, ac Aneurin ei hun, yn fyw ohoni, er fod trichant a thriugain a thri o eurdorchogion yn cychwyn i'r maes ddydd Mawrth y bore!

Tri wyr a thri ugaint a thri chant eurdorchawg.

Er i'r nifer uchod fyned i Gattraeth, eto

Ni ddiengis ond tri o wrhydri ffosawd,
Dau gadgi Aeron, a Chynon daerawd,
A minau o'm gwaedffrau gwerth fy ngwenwawd.

Y ddau gad-gi oeddynt Cadraith a Chadlew. Diangodd y bardd oherwydd ei swydd, neu werth ei wenwawd; canys yr oedd trwyddedogaeth i fardd wrth ei swydd i fyned lle yr elai, ac nas dygid noeth arf yn ei erbyn. Er hyny, cafodd y bardd ei ddala, a'i gadwyno mewn daeardy am dymhor. Penill 45:—

Ystynawg fy nglin yn y ty daiarin,
Cadwyn haiernin am ben fy neulin.

Achubwyd ef oddiyno trwy ddewrder Cenau fab Llywarch Hen. Penill 46;—

O nerth y cleddyf claer ym hamug
O garchar anwar daiar ym dug,
O gyfle angau, o angar dud,
Cenau fab Llywarch dihafarch diud.

Os cymer y darllenydd drafferth i droi i Eiriadur, gwel ar unwaith feddwl y llinellau uchod. Ar ol hyn, ffodd Aneurin i Gymru at ei frodyr, gan ymnoddi yn Nghôr Cattwg, yn Llanfeithin, yn Morganwg. Yno y cyfansoddodd ef y *Gododin*. Tebygol fod Taliesin yno yr un pryd, fel yr awgrymir yn penill 45:—

Mi wnaf fi, Aneurin, ys gwyr Taliesin,
Ofeg gyfrenin, ganig Ododin,
Cyn gwawr dydd dilin.

Coffeir ei ddiwedd yn y *Trioedd* fel hyn:—"Tair anfad gyflafan Ynys Prydain: Eiddyn mab Eingan a laddawdd Aneurin Gwawdrydd, mydeyrn beirdd," &c. "Tair anfad fwyellawd Ynys Prydain; Bwyellawd Eiddyn yn mhen Aneurin," &c. Gelwir Aneurin yn medeyrn, a mydeyrn beirdd, yn y *Trioedd*, ond mechdeyrn yw y gair yn iawn;

Digitized by Google

sef tywysog neu frenin beirdd. Nis gwyddom pa beth a gynhyrfodd Eiddyn i daraw y bardd yn ei ben â bwyall rhyfel, na pha flwyddyn y cymerodd hyny le, ond hyny yw y traddodiad am ei farwolaeth.

Sylwn ychydig yn mhellach ar nodwedd ei farddoniaeth. Cynwysa y Gododin dros 900 o linellau o wahanol hyd, ac ar wahanol fesurau. Rhenir y cwbl, yn ol argraffiad Llanymddyfri, dan olygiad Ab Ithel, i 97 o benillion, neu adranau. Nid oes yno ddim adliw cynghanedd oddigerth o ddamwain; ond cedwir yr odl yn weddol ofalus. Mae'r mesurau yn amrywio; dechreuir gyda gorchanau ar y gyhydedd bedeirsill a phumsill yn gymysg. Wedi hyny, gorchanau o naw ban yn y penill, a'r llinellau yn naw a deg sill o hyd. Weithiau ceir hupynt, bryd arall fforchawdl, yna traethodl, &c. Gellid meddwl pe cawsid y gân yn ei chyflwr cyntefig, cyn ei hacru gan adysgrifenwyr, ei bod yn gyfansoddiad cywrain a gorchestol iawn. Tebygol mai arwr y gân yw Owain ab Urien, yr hwn oedd yn ei flodeu, ar "farch mwth myngfras," a'i darian ysgafn-lydan, a'i gleddyf gloewlas, a'i wisg o bân, a'i yspardynau o aur, yn myned i'r maes. Ato ef y cyfeirir fcallai yn "Cu cyfaillt Owain!"

Bwriodd Owain ab Urien
Y tri thwr yn Ngattraeth hen;
Ofnodd Arthur fel goddaith
Owain, ei frain, a'i ffon fraith.—L. G. Cothi.

Tybir yn gyffredin fod y Cymry yn myned i'r frwydr yn feddwon; ac y mae amryw fanau yn y Gododin fel yn awgrymu felly, megis

Gwyr a aeth Gattraeth oedd ffraeth y llu,
Glasfedd eu hancwyn a'u gwenwyn fu.

Gwin a medd o aur fu eu gwirawd.

Gwyr a grysiasant, buant gydnaid,
Hoedl fyrion, meddwon uwch medd hidlaid.

Ond tebycach mai wedi eu sirioli gan win a medd yr oeddynt, ac nid wedi eu meddwi yn ystyr ddiweddar y gair. Amcan y bardd ydyw cyferbynu eu llawenydd wrth gychwyn i'r frwydr â'r galanastra a'u cyfarfyddodd yno, ac nid nodi meddwdod y fyddin fel yr achos o'u dinystr.

Heblaw'r Gododin, priodolir darnau eraill i Aneurin, sef Gwarchan Adebon, Gwarchan Cynfelyn, a Gwarchan Tudfwlch. Barna rhai mai gorcheiniaeth a feddylir wrth "gwarchan" gan y Cynfeirdd, a'u bod yn fath o ddewiniaid; ond y mae'n fwy naturiol i ni dybied mai gorchanau a olygent, sef mesurau elfenol a syml. Cysylltir Englynion y Misoedd âg enw Aneurin; ond y mae beirniadaeth a chraffder yr oes hon yn gwrthod y dyb hono. Saif Aneurin yn uchel yn ngolwg y Beirdd yn mhob oes. Dymunai D. Benfras yn 1200 am awen

I ganu moliant mal Aneurin—gynt
Dydd y cant Ododin.

Risierdyn yn 1300 a ddywedai

Tafawd un arawd Aneurin—gwawdglaer.

Sefnyn yn 1350 a ddywedai

Medd cyhoedd miloedd molawd—Aneurin.

Mae beirdd y canoloesoedd yn cydnabod Aneurin yn enwog brif-fardd o'r cynoesoedd, yr hyn sydd yn arwyddo fod y Gododin yn eiddo dilys iddo.

ANNA. Gwraig Amwn oedd hi, a gweddus ei galw yn fam seintiau, ac ymddengys ei bod hithau, fel ei phlant, yn gweithio o lwyrfryd

Digitized by Google

calon yn mhlaid y ffydd a rodded unwaith i'r saint. Crybwyllir yn *Achau'r Saint* iddi fod yn wraig i Ynyr o Gaer Gawch, ac mai hi oedd mam Non, yr hon oedd mam Dewi Sant. Ond wrth gyferbynu yr amser y blodeuai Amwn Ddu, gwr Anna, hefo'r pryd yr oedd Dewi Sant yn ei fri, ceir eu bod yn gyfoeswyr o ran, ac felly annichonadwy bod gwraig Amwn yn nain iddo; pe dywedasid mai ail wr Anna oedd Amwn Ddu, buasai yn beth tebycach; ond rywfodd y mae mwy o debygolrwydd mai camgymeriad sydd wedi ymgripio i'r achau. Merch Meirig ab Tewdrig oedd yr Anna hon.

ANNAN. *Gwel* ANHUN.

ANNAN, ferch Maig Mygotwas, yn ol y *Trioedd*, oedd un o Dair Gohoyw Rian Ynys Prydain. Y ddwy eraill oeddynt Angharad a Perwyr.

ANNO. *Gwel* AMO.

ANGAR, fab Caw, rhyfelwr nodedig yn nechreu y chweched cant. Sonir am dano yn Englynion y Clywed :—

A glywaist ti a gan Angar
Mab Caw, milwr clodgar,
Bid ton galon gan galar.

ANGHARAD DON FELEN, neu gyda'r lliw melyn, yn ol y *Trioedd* oedd un o Dair Gohoyw Rian Ynys Prydain. Y ddwy eraill oeddynt Annan a Perwyr.

ANHUN, neu Annun, oedd forwyn i Madryn, trydedd wraig Ynyr o Gaer Gawch yn ol *Achau'r Saint*, a merch oedd hithau i Gwrthefyr Fendigaid fel Anna ei chwaer. Nid oes dim llawer ar gof a chadw hyd yn oed o chwedlau gwneuthur parth Anhun. Ond dywedir mai pererinio am Enlli yr oedd hi a'i meistres, ac iddynt yn lluddedig un hwyrnos dd'od i'r lle a elwir yn awr Trawsfynydd, ac oherwydd mor ddiffygiol oeddynt, gorphwys a wnaethant dros y noson eu dwyoedd dan gysgod perth, a phan gysgasant breuddwydio a wnaethant, a thybio clywed llais soniarus yn galw, "adeiledwch Eglwys yma." A phan ddeffroisant, dweyd eu breuddwyd wrth eu gilydd a wnaethant, a rhyfeddu eu bod eu dwy wedi gweled a chlywed yr un peth, a phenderfynu adeiladu a wnaed, ac i'r ddwy hyn y cysegrwyd Eglwys Trawsfynydd. Yr oedd Anhun yn ei blodau yn ystod y pumed cant, ac ni wyddys ei Gwylmabsant.

ANIAN oedd Esgob o enwogrwydd nid bychan yn yr oesoedd canol, ond nid oes dim o'i helynt ar gael heblaw ei fod yn clynydd Cledawg yn Nghadair Dewi. Blodeuai tua diwedd yr wythfed cant.

ANWAS ADEINIOG, un o ryfelwyr y brenin Arthur; ac enwir ef yn Mabinogi *Cilhwch ac Olwen*, yn mhlith y cyfryw. Sonir am dano hefyd mewn ymddyddan rhwng Arthur, Cai, a Glewlwyd, a welir yn y *Myv. Ach.* Pa fodd bynag, llawer a dybiant mai person ffugiol ydoedd, a diau fod ei enw yn hyrwyddo y dyb hon.

ANWYL, (PARCH. LEWIS). Awdwr amryw lyfrynau Cymreig. 1. "Y Nefawl Ganllaw, neu yr uniawn ffordd i fynwes Abraham; mewn ychydig o ystyriaethau eglur i gyfarwyddo y cyfeiliornus i'r porthladd dymunol hwnw." 2, "Myfyrdodau Wythnosol; sef myfyrdod am bob dydd yn yr wythnos, yn enwedig amser y Grawys." 3, "Cynghor yr Athraw i Rieni yn nghylch dwyn eu plant i fynu." 4, "Hyfforddiadau eglur i'r ieuanc a'r anwybodus, yn cynwys eglurhad hawdd a chryno o Gatechism yr Eglwys; wedi ei gymhwyso i ddeall a choffadwriaeth y rhieni o'r synwyr iselaf; gan Esgob Synge. Ac wedi ei

Digitized by Google

gyfieithu gan L. Anwyl, ficer Abergele." Yr oedd ef yn offeiriad plwyf Ysbytty Ifan, sir Ddinbych, yn 1740; symudwyd ef i ficeriaeth Abergele yn 1742; ac yno y bu farw, a chladdwyd ef yn eglwys y plwyf hwnw Chwefror 27ain, 1776.

ANWYL (Parch. Edward), gwr a gymerodd ran lafurus a blaenllaw yn sefydlu lluaws o achosion y Cyfundeb Wesleyaidd yn Nghymru. Ganwyd ef yn Ebrill, 1786, yn Ty'nllan, Llanegryn, Meirion. Ei rieni oeddynt Owen ac Ann Anwyl. Yr oedd annuwioldeb yn uchel iawn ei ben yn yr ardal hono yn ystod ieuenctyd Anwyl, ac yntau mor hoff o rusedd ag un o'i gyfoedion. Eithr yn 1804, daeth cenadon i'r Wesleyaid ar ymweliad â'r ardal, sefydlasant yno eglwys fechan, ac yn fuan cawn ef yn ymuno â hi. Yna efe a fwriodd ei holl enaid wrth draed ei grefydd. Y pryd hwnw, yr oedd pregethwyr yn anaml; a chyrddau gweddio yn aml a dymunol; ac yn y cyrddau hyn y daeth gallu meddyliol Anwyl gyntaf i'r amlwg. Hyn a barodd i'w frodyr ei anog i arfer ei ddawn trwy roddi gair o gynghor yn awr ac eilwaith. Anogwyd ef drachefn i ddechreu pregethu; eithr yr oedd o natur mor wylaidd fel na fynai ymgymeryd â'r fath waith hyd oni argraffwyd ar ei feddwl ei fod yn peryglu iachawdwriaeth ei enaid trwy guddio ei dalent yn y ddaear. Yr oedd oedd efe wedi derbyn addysg ragorol. Traddododd ei bregeth gyntaf yn nghapel bychan Abergolwyn, yn Ionawr, 1808; ac yn Awst y flwyddyn hono galwyd ef allan i'r weinidogaeth amdeithiol. Maes cyntaf ei lafur oedd Ynys Mon. Yn Awst canlynol symudodd i Gyldaith Caernarfon; ac yn 1810 i Gylchdaith Caerphili. Bu yno am ddwy flynedd, a symudwyd ef i Langollen; a thrwy ei eondra meddwl, bu yn foddion yno i ddarostwng llawer pechod penuchel. Yn 1814, symudwyd ef i Gyldaith Merthyr, ac yn y flwyddyn hono, priododd Miss Matthews, Trelai, Morganwg; bu iddynt un-ar-ddeg o blant, a threuliasant fywyd dedwydd am y cyfnod hirfaith o un mlynedd a deugain.

Dyn tal, teneu, esgyrniog, oedd Mr. Anwyl, yn meddu cyfansoddiad corphorol cryf annghyffredin, onide nid allasai byth gyflawni y gwaith mawr a gyflawnodd. Tan ei amgylchiadau ef, yr oedd yn ofynol i ddyn fod yn gerddwr rhagorol cystal ag yn bregethwr da. Dywed ei fywgraffydd yn yr *Eurgrawn* ddarfod iddo un Sabbath bregethu dair gwaith mewn gwahanol fanau, a cherdded 72 milldir; ac iddo ei glywed yn cwyno un tro ei fod yn teimlo braidd yn *stiff* wedi cerdded y dydd o'r blaen o Lanidloes yn Maldwyn i Trelai yn Morganwg—pellder o dros 80 milldir.

Yr oedd efe yn meddu ysbryd boneddigaidd a diabsen; ei gasbeth oedd ymosodiadau llechwraidd hystyngwyr enllibus; a llawer ergyd drom a roddodd efe gyda'i ddawn parod i'r cyfryw. Un o'i brif neillduolion oedd parodrwydd ei ddawn, ac yn ngwyneb ymosodiad ar rai o'i egwyddorion, gwnai ddefnydd effeithiol o'r gyneddf hon. Pan oedd ef yn teithio ar Gylchdaith Rhuthyn a Dinbych, ac yn myned i'w daith un diwrnod, cyfarfyddodd ag ef enau cyhoeddus perthynol i enwad arall, yr hwn a'i hanerchodd mewn dull trahausfalch, ac a ddywedodd fod ganddo ef eisiau ei *holi*. "Felly yn wir," ebai yntau, "ond y mae gan yr Apostol Paul lawer gwell cynghor i'w roddi i chwi na hyny" "Beth yw hyny?" ebai'r gwr dyeithr. "*Holed* dyn ef ei hun," ebai yntau, ac aeth ei wrthwynebydd ymaith yn ddystaw wedi cael mwy nag a ddymunasai.

Bu Mr. Anwyl yn ddarllenwr mawr ar hyd ei oes, yn enwedig ar

Digitized by Google

hanesyddiaeth; a gallai gofio bron bobpeth a ddarllenai. Gwnelai hyn ef yn gydymaith addysgiadol a difyr. Meddai hefyd ddirnadaeth oleu ar bynciau duwinyddol; ac yr oedd yn bregethwr parchus. Prif ddiffyg ei bregethau ydoedd trefn; yn tarddu oddiar y ffaith na byddai efe byth yn eu hysgrifenu oddieithr y penau, gan ymddibynu i raddau helaeth am y gweddill i'r hwyl a gaffai wrth eu traddodi. Ar rai adegau, prin y gallesid credu mai yr un ydoedd â'r hwn a bregethai o'r blaen, mor annysgrifiadwy o nerthol nes ysgubo pobpeth o'i flaen. Bu yn ffyddlawn a llafurus yn y weinidogaeth am chwech a deugain o flynyddau; ac yn ystod yr amser hwn symudwyd ef o'r naill fan i'r llall un ar hugain o weithiau. Yn 1854, oherwydd nerth yn pallu, a phob arwyddion nad pell awr yr ymddatodiad, rhoddodd ei swydd i fynu er mwyn ymneillduo i gael ychydig seibiant ar derfyn ei ddyddiau. Treuliodd ychydig o'i amser gweddill hwn yn Rhuthyn, a symudodd oddiyno i Dreffynon. Ni bu ei orphwysdra ond byr, os iawn ei alw yn orphwysdra, canys hyd y parhaodd ei nerth yr oedd efe yn ddiwyd beunydd yn rhyw ran o winllan ei Arglwydd. Pa fodd bynag, erbyn terfyn 1856, yr oedd pob arwyddion nad neppell y diwedd; ymollyngai ei natur yn raddol, a Ionawr 23ain, 1857, gollyngwyd yr enaid oddiwrth ei waith at ei wobr. Ei air olaf ydoedd, "Y mae yr oll yn oleu a disglaer o fy mlaen." Claddwyd ef yn Mynwent Newydd Treffynon, a dangosodd masnachwyr y dref eu parch i'w goffadwriaeth trwy gaeadlenu eu ffenestri; ac anfynych y gwelwyd yn y parthau hyny angladd mor lluosog. Dyma amlinelliad o fywyd gwr y dywedodd un a'i hadwaenai yn dda am dano, "Anwyl *by name*,—Anwyl *by nature*."

(ALLEN), EVAN OWEN. Ganwyd ef mewn lle o'r enw Pant y Llin, gerllaw Llanrwst, yn y flwyddyn 1805. Amaethwyr cyfrifol oeddynt ei rieni; ac ystyrid fod y teulu oll yn bobl o gyneddfau cryfion. Ysgrifenodd lawer i'r hen *Seren Gomer* a chyhoeddiadau eraill i amddiffyn rhyddid gwladol a chrefyddol. Y mae yr ychydig ddarnau a adawodd o'i ol mewn llawysgrifen yn profi hefyd ei fod yn meddu yr awen wir; ac yn peri i ni resynu na buasai wedi ymarfer chwaneg â'r ddawn hono. Bu farw yn Rhuthyn, Rhagfyr 18fed, 1852, a gorwedd ei lwch wrth gapel y Bedyddwyr yn Llanfwrog. Cymerasom a ganlyn o'i ysgriflyfr :—

Y SIOMIANT.

Ymdeithydd tlawd i Ffair y Rhos
Foregwaith teg, o'i unig gell
Gychwynai, tra y wawrddydd dlos
Gyfarchai y Gorllewin pell;
Boreufwyd idd ei feddwl gwan
Fu cathl ber cerddorion llwyn,
A'i ysbryd isel godid pan
Fyfyriai radau'i Grewr mwyn.

Ond Och! pan prin yn ngwydd y Rhos,
Yr wybren glir a ddual'n brudd,
Ac ebrwydd iawn adchwela nos,
Pan nad oedd eto ond dechreu dydd!
Y fellten gerth ag erchyll roch
A rwygai'r cwmwl du yn gant,
Ac adsain y taranau croch
A siglent sylfaen bryn a nant!

Ac yna daeth y gawod drom
Sef DYLIF, nid dyferion man;
A'r truan ar y gefnen lom
Heb gysgod craig—heb dy—heb dan;
Darfyddai nerth y teithydd gwan,
Y gerth ystorm a'i curai i lawr.
A churid ei anfarwol ran
I ddylif tragwyddoldeb mawr!

Un wedd yw dyn yn dechreu'i daith
Yn fore i ffair pleserau'r byd,
Holl wenau anian yn eu hiaith
Addawant ddiwrnod heulawg clyd;
Ond mynych iawn yn ngwydd y nwy',
Y cyfyd rhyw ystormydd erch,
Ac odid fawr na churant hwy
Yn ddrylliau holl obeithion serch.

ARAWN, a elwir yn Mabinogi *Pwyll Pendefig Dyfed*, yn frenin Annwn.

Digitized by Google

ARDDUN BENASGELL oedd un o ferched Pabo Post Prydain. Bu'n wraig i Frochwel Ysgythrog. Dywed y *Cambrian Biography* fod Eglwysi wedi cael eu cyflwyno iddi; ond ni ddywed yn mha le na pha rai oeddynt. Yr oedd yn chwaer i Dunawd yr hwn a fu'n cynadleddu hefog Awstin Fynach. Yr oedd yn ei blodau, yn ol eithaf tyb, yn ystod y rhan flaenaf o'r seithfed cant. Bernir fod Dôl Arddun gerllaw Castell Careinion wedi cael yr enw hwn oddiwrthi.

AREGWEDD FOEDDAWG oedd ferch i Afarwy ab Lludd. Mynegir am dani yn y *Trioedd* fel un a fu yn achlysur bradwriaethol o gaethiwed Caradawg, neu Caractacus, yr hwn, wedi ei orchfygu gan y Rhufeiniaid dan Ostorus, yn y flwyddyn 51, a diangodd ati hi am nodded, ac a roddwyd i fynu iddynt ganddi hi mewn cadwynau. Yr oedd hi yn frenhines y Brigantwys, ac yn ddynes o gymeriad llygredig, canys, wedi diaurhydeddu ei gwr Venectius trwy syrthio mewn cariad â Velocatus, un o weision ei gwr, cymerodd rhyfel wladol le, yn yr hyn y bu ei gwr yn llwyddianus yn y dechreu, ond daeth y Rhufeiniaid i'w chynorthwyo, fel gwobr am roddi Caradawg i fynu iddynt hwy, yr hyn a'i hachubodd hi rhag cosb gyfiawn ei gwaradwydd.

ARGAD, bardd a flodeuai yn seithfed cant, eithr nid oes o'i waith ddim ar gael.

ARIANROD, ferch Beli, ydoedd wraig i Luaws ab Nwyfre, a chwaer i'r enwog Gaswallawn. Ei dau fab hi, Gwenwynwyn a Gwaner, a aethant gyda Caswallawn ar ei hynt filwrol i dir Gwasgwyn, i adenill ei ordderchwraig Fflur, merch Mygnach Gorr, oddiar Murchan, tywysog Llydaw. Gwel *Trioedd* 14, 102.

ARIANROD, ferch Don, a elwir yn y *Trioedd* yn un o "Dair Gwenrian Ynys Prydain;" y ddwy eraill oeddynt Gwen ferch Cywryd, a Creiriog ferch Ceridwen. Fel ei brodyr, Gilfaethwy a Gwydion ab Don, sonir llawer am dani yn y rhamantau ffugiol Cymreig, yn enwedig yn Mabinogi *Math ab Mathonwy*; gwel *Guest's Mabinogion*, a *Cymru Fu*, tu dal. 157. Caer arianrod, yn ol y Dr. W. O. Pughe, oedd yr hen enw Cymreig ar y twr sêr a adwaenir gan ddysgedigion wrth yr enw Corona Borealis. Y mae Davies yn *Mythology of the Druids* yn eglur ddangos mai Arianod oedd yn cynrychioli yr Enfys yn hen gyfundrefn ser-ddduwiaeth ein hynafiaid.

ARIANWEN, merch neu wyres Brychan Brycheiniog, oedd un o'r teulu lluosog hwnw a ffurfiasant y gwelygordd arbenig o Saint. Priododd Iorwerth Hirflaidd, tywysog Powys, a mab iddynt hwy oedd Caenawg, sant cyfryngol Clog-Caenawg yn sir Ddinbych.

ARONAN. Bardd Selyf ab Cynan Garwyn yn y seithfed ganrif. Gelwir ef yn un o "Dri Bardd Gwaywrudd Ynys Prydain," a chysylltir ef â Dygynnelw bardd Urien, ac Afan Ferddig bardd Cadwallawn ob Cadfan.—*Trioedd*, Cyfres ii.

ARATHAL, a elwir gan Seiffrey o Fynwy, Arthgallgo, oedd fab i Morfudd, ac a ddilynodd ei frawd Gorfyniawn ar orsedd y Brutaniaid. Yn ol y Brut, yr oedd ar y cyntaf yn dywysog o gymeriad lled wael, canys efe a lethodd yr uwch-bendefigion ac a gyfododd rai o'r gwehilion i anrhydedd, ac a ysbeiliodd y cyfoethogion trwy gribddeiliaeth, fel y darfu i'r cyfoethogion gyfodi yn ei erbyn, a'i ddiorseddu, a gosod ei frawd Erlidyr, a gyfenwid y Tosturiol, ar yr orsedd. Wedi teyrnasu pum' mlynedd rhoddodd Erlidyr y frenhiniaeth yn ol i'w frawd Arthal, yr hwn oedd erbyn hyn wedi gadael ei arferion drwg, a pharhaodd i deyrnasu yn gyfiawn am ddeng mlynedd wedi hyn hyd ei farwolaeth.

Digitized by Google

ARTHANAD, mab Gwrthmwl Wledig, yr hwn a gofnodir yn y *Trioedd* yn cael ei ddwyn gyda'i frawd Achlen ar farch hynod i ddial marwolaeth ei dad.

ARTHEN, mab Sibsyllt ab Clydawg, oedd frenin neu arglwydd Ceredigion. Bu farw yn y flwyddyn 804.

ARTHEN ydoedd bedwerydd mab Brychan Brycheiniog, a dywedir yn *Llawysgrif Thomas Truman* fod unwaith Eglwys wedi cael ei chyflwyno iddo yn Ngwaenllwg, Mynwy, ac i'r unrhyw gael ei dinystrio gan y Saeson Paganaidd. Dywed yr un cofnodydd yn mhellach i Arthen gael ei ferthyru gan yr unrhyw giwaid yn Ngheredigion, ac mai yn Rhiwarthen gerllaw Aberystwyth y cymerth hyny le. Eraill a soniant iddo gael ei gladdu yn Ynys Manaw, ond teifi y Cadeirdraw Rees awgrym cyfeiriadol at Ynys Fôn, ac y mae yno hyd y dydd hwn le a elwir Trefarthen, ar fin Afon Menai. Eraill a haerant mai yn Merthyr Cyflefyr y merthyrwyd ef: a bod y lle hwnw yn Ngheredigion. Mae lle o'r enw Cefnarthen yn agos i Lanymddyfri.

ARTHFAEL HEN ydoedd fab i Rhys, arglwydd Morganwg. Efe a briododd Ceinwen, ferch i Arthen, arglwydd Ceredigion; a phan, oblegyd ei henaint, y daeth llywodraethu y Dywysogaeth yn flinderus iddo, efe a'i trosglwyddodd i'w frawd Hywel. Bu fyw flynyddau wedi hyn, a bu farw yn y flwyddyn 895, yn 120 oed. Yr oedd ei frawd Hywel wedi marw y flwyddyn o'r blaen, yn yr oedran hynach o 124.

ARTHUR. Y mae hanes y gwron rhyfeddol hwn yn ymrauu yn naturiol yn ddwy ran; un yn cynwys Arthur yr hanesyddion, a'r llall Arthur y rhamantwyr: ond gorchwyl digon afrwydd yw ceisio dadrys y ffaith oddiwrth y ffug, a phenderfynu pa le y mae yr hanes yn diweddu a'r chwedl yn dechreu, gan mor gywrain y maent wedi eu cyfrodeddu a'u gilydd. Ychydig, mewn cymhariaeth, yw y ffeithiau sy genym yn nghylch y gwir Arthur; ac nid rhyfedd hyn, canys ychydig yn deneu o gofnodau perthynol i'r oes yr oedd ef yn byw ynddi sydd wedi dianc rhag traflwnc anniwall amser a dinystr gelynol dwylaw, a chyrhaedd yn ddiogel hyd ein hamser ni; ac nid oes lle i ammheu na chollwyd llawer o'r hanes gwirioneddol yn ystod yr amser yr oedd holl wledydd Cred wedi pendroni gan yr adroddiadau yn nghylch ei orchestion ffugiol.

Yn ol yr hanesion y gellir ymddibynu oreu ar eu cywirdeb, Arthur ydoedd fab i Uthr Bendragon; ac yr oedd Uthr yn fab i Gystenyn Fendigaid, ac yn frawd i Emrys Wledig, yr hwn a oliannwyd ganddo megys brenin y Prydeiniaid o gylch O.C. 500. Nid yw yr holl achau, fel y gallesid yn hawdd dysgwyl, yn cytuno mewn perthynas i fonedd Arthur. Mewn un ysgrifllyfr, rhoddir ei achres yn y wedd ganlynol, ac ymddengys cymaint o debygolrwydd o'i thu ag un o'r lleill, os nid mwy:—"Arthur ab Uthr, ab Cystenin Fendigaid, ab Cynor (neu Cynfor), ab Tudwal, ab Morfawr, ab cynan [Meiriadog], ab Eudaf, ab Caradog, Brân, ab Llyr Lledlaith." Dywed y Dr. W. O. Pughe mai mab ydoedd Arthur i Meirig ab Tewdrig, un o dywysogion Deheubarth; ond y mae y Brutiau, yn gystal a'r hanesion mwy coeliadwy, yn erbyn yr ach hon; a dengys y Cadeirdraw Rees, yn ei waith godigog y *Welsh Saints*, a hyny i gryn foddlonrwydd, mai camsyniad yw hyn, wedi tarddu, mae yn dra thebyg, o gamgymeryd *Arthur ab Uthr* yn lle *Arthur ab Athrwys*, ab Ceneu, ab Coel, yr hwn oedd un o benaethiaid y Brython Gogleddol, ac yn byw o gylch yr un amser. Gwyddis yn dda ddigon fod yr holl ramantau yn galw Arthur yn fab i *Uthr Ben-*

Digitized by Google

dragon; ac nid ymddengys fod sail ddigonol i anmheu eu cywirdeb yn hyn o beth.

Mam Arthur ydoedd Eigr, merch Amlawdd Wledig, tywysog Prydeiniaid y Gogledd, yr hwn y mae son am dano yn Mabinogi *Cilhwch ac Olwen.* Yr Eigr hon yw *Igerna* y Lladin, ac *Ygraine* y rhamantau Ffrengig, y rhai a'i galwant hi y wraig brydferthaf yn Ynys Prydain. Yn ol y Brutiau, gwraig ydoedd Eigr ar y cyntaf i Gwrlais, larll Cernyw, yr hon a ddirfawr chwenychwyd gan Uthr; ac adroddant fwy na digon ddygwyddiadau dychymygol, er mwyn dangos pa fodd y daeth hi yn wraig i Uthr, ac felly yn fam i Arthur. Nid yw hyn ond peth a fuasem yn naturiol yn ei ddysgwyl; canys buesai yn annheilwng o grebwyll y rhamantwyr, pe dygasent Arthur i'r chwareufwrdd fel marwolion yn gyffredin. Rhaid gofalu am dipyn o'r rhyfeddol a'r rhamantus ar ei gyfer hyd yn nod cyn ei eni.

Dywedir yn rhai o'r hen gofysgrifau fod gan Arthur chwaer o'r enw Anna, yr hon a ymbriododd â Llew ab Cynfarch, brawd Urien Rheged, ac mai hi ydoedd mam Medrod, yr hwn a drodd mor anffyddlawn a bradwrus i'w ewythr a'i dywysog, ac a fu achos o'i dranc yn nghad drychinebus Camlan.

Nis gwyddis pa le y ganwyd Arthur; na phra bryd, gyda dilysrwydd y digwyddodd hyny. Y dyb fwyaf tebygol yw, iddo gael ei eni yn Nyfnaint neu yn Ngheryw, neu ar y cyffiniau hyny, o gylch diwedd y 5med ganrif. Dywed rhai, ac yn eu plith Griffydd ab Arthur *(Sisffrai o Fynwy)*, mai yn Nhintagel, neu Dintagol, yn Ngheryw, y cafodd ei eni: ond y mae hyn, fel llawer peth arall a adroddir am dano, yn gyfryw ag a eill fod yn wirionedd, ond heb un prawf neullduol o'i blaid. Y mae yn werth sylwi fod adfeilion hen Gastell Tintagel yn dangos yn amlwg ddigon iddo fod, mewn oesoedd a aethant heibio, yn lle o fawr gadernid ac enwogrwydd. Saif yr hen furddyn ar ben craig uchel, yr hon sydd yn ymestyn allan i'r môr, gan yr hwn y mae agos a chael ei hamgylchynu. Sonia Carew a Norden hefyd am dano megys lle braidd anhygyrch; a geilw Leland ef yn amddiffynfa ryfeddol ei chadernid, ac wedi ei hadeiladu ar le oedd bron yn anoresgynadwy. Y mae Tintagel o fewn cantref Lesnewth (Llys Newydd), ac nid pell o hono yw bwrdeisdref Bossiney. Geill y lle hwn, cystal ag un man y gwyddis am dano, fod yn enidfan i Arthur, Beth bynag, dengys y *Trioedd*, yn gystal a'r rhamantau, fod cysylltiad neillduol rhyngddo ef a Chernyw; ac ni ddylid annghofio mai yno yr oedd Celliwig, yr hwn a nodir yn fynych megys un o'i brif lysoedd ef.

Diau fod Arthur yn hanu o un o linachau clodforusaf yr ynys yn yr oes hono; er bod un ymadrodd yn ngwaith Nennius fel yn awgrymu fod "amryw yn ardderchocach nag ef" *(multi ipso nobiliores essent);* sef, y mae yn debygol, fel y sylwa Carnhuanawc, o ran ei enedigaeth; ond dengys awdwr yr *Eminent Welshmen* (d.g. ARTHUR) y geill hyn fod yn cyfeirio ato megys un o feibion ieuaf i dywysog nad oedd ei hawl i benaduriaeth gyffredinol yn gyfryw ag a addefid gyda boddlonrwydd gan bawb o'r tywysogion eraill. Prawf yr holl achau yn ddigon boddhaol ei fod ef o freninol waedoliaeth, ac yn disgyn, lin o lin, o dywysogion a fuasent rymus a chlodfawr. Nid mab hynaf Uthr ydoedd, ac ar farwolaeth ei frawd y cafodd feddiant o orsedd ei hynafiaid. Wrth gymharu yr achau â hen gofysgrifau hanesol eraill, canfyddir fod teulu Arthur wedi ymgysylltu trwy briodas â rhai o dywysogion Gwent neu Essyllwg; a rhydd hyn drywydd i ni ar ei

Digitized by Google

berthynas ef â Deheubarth Cymru; ac nid yw yn annhebyg mai y gyfathrach hon a fu yn achos iddo ymsefydlu yn Nghaerlleon ar Wysg, gan yr ymddengys fod y ddinas hono y pryd hwnw yn un o'r rhai mwyaf a phwysicaf yn yr holl Dywysogaeth. Nid oes achos gwadu cysylltiad Arthur â Chaerlleon yn unig oherwydd bod rhamantwyr y canoloesau wedi gwneuthur gormod o'r dref hono, yn gystal ag o'r gwron y dywedir ei bod hi yn brifddinas iddo. Arliwio ac nid ffugio ffaith a wnaeth y rhamantwyr yn y peth hwn, megys ag mewn llawer o bethau eraill; canys, yn gyffredin, goruch-adeiladaeth fawrwych yw rhamant wedi ei chodi ar symlig ffaith a gwirionedd.

Am flynyddoedd mebyd Arthur, nid oes genym ddim crybwylliad. Diau gael ohono ei addysgu yn y cyfryw wybodau ag a ddysgid yn yr oes hono i feibion tywysogion; ac yn mhlith y penaf o'r rhai hyn mae yn ddilys fod arfer trin y cleddyf a llywio byddinoedd ar faes y gad. Dyna ddull yr oes, y wlad, a'r genedl; ac amlwg yw, oni buasai ei fod wedi dangos mawr fedrusrwydd mewn cadofyddiaeth megys blaenor, yn gystal a dewrwychder megys milwr, ni ddyrchafasid mohono i fod yn gatteyrn y Prydeiniaid mewn cyfnod mor bwysig yn eu hanesyddiaeth.

Er bod yr hen Brydeiniaid, er yr amser cyntaf y mae genym son am danynt, yn arfer cael eu llywodraethu gan fân dywysogion neu benaethiaid annibynol, a'r rhai hyny yn rhy fynych yn ben yn nghad a'u gilydd; eto pan ymosodid arnynt gan elyn cyffredin (megys y Rhufeiniaid a'r Sacsoniaid), annghofient eu mân ymrysonau, ac ymunent i ymladd yn wrol o dan faner un llywydd neu benciwdod cyffredinol, yr hwn a elw y *Trioedd* yn *gatteyrn*, neu frenin yn amser cad a rhyfel, pan ymosodid ar y wlad gan estron genedl: a chydymdrechent i osod terfyn ar yr ormes. Sonia y *Trioedd* am dri o wroniaid a gawsant eu hethol i'r fath swydd mewn amser o gyfyngder:—"Tri phrif gatteyrn Ynys Prydain: Caswallon ab Beli; Gweirydd ab Cynfelyn Wledig: a Charadawg ab Brân ab Llyr Llediaith." (*Cyfres* iii 24). Y mae un arall o'r *Trioedd* yn cyfeirio at yr un peth. "Tri Unben Dygynnull Ynys Prydain: Cyntaf, Prydain ab Aedd Mawr, pan roddes deyrnedd ddosbarthus ar Ynys Prydain a'i rhagynysoedd; ail, Caradawg ab Brân, pan ddoded arnaw ef gatteyrnedd holl Ynys Prydain, er attal cyrch gwŷr Rhufain; ac Owain ab Macsen Wledig, pan gawsant y Cymry deyrnedd ym mraint eu cenedl eu hunain y gan yr Ymherawdr Rhufain: sef a'u gelwir y rhai'n y Tri Unben Dygynull, am eu breiniaw felly y gan ddygynnull gwlad a gorwlad dan holl derfynau cenedl y Cymry, a chynnal dygynull ym mhob cyfoeth, a chwmmwd, a chantref, yn Ynys Prydain a'i rhagynysoedd." (*Cyfres* iii. 34.)

Wedi ymadael o luoedd Rhufain â'r Ynys, nid hir y bu y Cymry heb gael eu gormesu gan elynion eraill, gwaeth, os oedd modd, na'r rhai a gefnasent arnynt. Hwn oedd gormesgyrch y Sacsoniaid, y rhai a heidiasant, fintai ar ol mintai, i'r Ynys hon tros For Tawch, o ardaloedd gogleddig yr Almaen. Buan y canfu'r brodorion, y rhai y pryd hwn oeddynt yn ammharod i ryfel, nad oedd gobaith heb gydwaith a chydymdrech i lwyddo yn eu herbyn; ac yn eu cyfyngder, etholasant Arthur i fod yn bencadlyw arnynt megys y gwnaethant dan amgylchiadau cyffelyb â Chaswallon a Charadog. Rhodded catteyrnedd yr Ynys ar Arthur; ac yr ydym yn darllen yn yr hanesion, cystal a'r rhamantau, fod breninoedd eraill yn ymladd o dano. Y ffaith hon, mae yn dra thebygol, yw gwreiddyn yr aneirif chwedlau yn nghylch yr amryw

Digitized by Google

freninodd a dalent iddo warogaeth, ac a addurnent ei lys. Etholid y catteyrn, nid o ran helaethrwydd ei diriogaeth, lluosogrwydd ei ddeiliaid, neu urddasoldeb ei fonedd; ond oherwydd ei gadbwyll, ei wroldeb, a'i fedrusrwydd mewn rhyfel. Nid o hawl, ond o ddewisiad y penaethiaid eraill, y penodid un i'r swydd. Nid ymddengys fod teyrnas neu diriogaeth Arthur ei hun mewn un modd yn helaeth; ac nid yw hyd yn nod y rhamantau, y rhai a'i dyrchafant ef uwchlaw holl freninoedd a rhyfelwyr y byd, yn awgrymu rhyw lawer fod y diriogaeth yr oedd ganddo hawl etifeddol iddi yn eang ei therfynau; ond sylfaenir ei gled a'i ogoniant yn benaf ar ei gadernid a'i wroldeb, ac ar ei fedr mewn rhyfel a chatteyrnedd. Ymddengys, gan hyny, mai mewn rhyfel yn unig yr oedd ef yn frenin cyffredinol. Cyffelyb oedd ei sefyllfa a'i awdurdod ef i sefyllfa ac awdurdod Agamemnon yn ngwarchae Caerdroia. Brenin ar dalaeth fechan Mycenæ oedd hwnw yn ngwlad Groeg; ond yr oedd, o ddewisiad cyffredin y penaethiaid eraill, yn frenin breninoedd o flaen muriau anhydor Ilion.

Pa flwyddyn yr etholwyd Arthur i arwain cyfluoedd ei wlad yn erbyn gorddwy a gormes y Saison, nid yw hanesyddion yn cwbl gytuno. Yn ol y Dr. W. O. Pughe, yn y fl. 517 y digwyddodd; ond yn ol Whittaker, yn 508. Yr hanesydd cyntaf sydd yn son am Arthur yw Nennius; ac i'r gwr hwn yr ydym yn ddyledus am y gofrestr gyflawnaf o'i orchestion milwraidd. Yr oedd Nenuius yn byw yn yr 8fed ganrif; ac y mae yn awr ar gael un llawysgrif o'i waith cyn hyned a'r 10fed ganrif, sef o fewn i bedwar can' m ynedd i amser Arthur, a mwy na chan' mlynedd cyn amser Gruffydd ab Arthur, ar yr hwn y tadogir nid ychydig o'r chwedlau yn nghylch y gwron. A ganlyn yw tystiolaeth Nennius am Arthur, ac am y brwydrau a ymladdwyd ganddo:—

"Y pryd hwnw [gwedi son am Hengist], yr ymladdodd y rhyfelgar Arthur, yn nghyda milwyr a breninoedd Prydain, yn eu herbyn hwynt [y Saison], ac er bod amryw yn ardderchocach nac ef, eto bu ddeuddeg gwaith yn dywysog rhyfel, ac yn orchfygwr y brwydrau. Y frwydr gyntaf yn ei herbyn a ymladdodd gerllaw yr afon a elwir Glain (Glein, Glem, Glevi, Gleni). Yr ail, a'r drydedd, a'r bedwaredd, a'r bumed, ar afon arall, yr hon yn y Frythoneg a elwir Dulas (Duglas, Dubglas), yr hon sydd yn ardal Linnius (Linius). Y chweched frwydr a fu wrth yr afon a elwir Bassas (Lusas). Y seithfed frwydr a ymladdodd yn eu herbyn yn Nghoed Celyddon, hono yw Cad Coed Celyddon (Cat Coit Celidon). Yr wythfed frwydr a ymladdodd yn erbyn y Barbariaid gerllaw Castell Gwynion (Gunnion, Guinnon, Guinon, Guin), yn yr hon y cludodd Arthur ar ei ysgwyddau ddelw Croes Crist, a'r Santaidd Fair, y Wyryf wastadol; a'r holl ddiwrnod hwnw y gyrwyd y Paganiaid i gilio; llawer a syrthiasant; a lladdfa fawr a wnaethpwyd arnynt, trwy rinwedd ein Harglwydd Iesu Grist, a'i fam santaidd Ef. Y nawfed frwydr a ymladdodd ef yn Ninas y Lleng, yr hon, yn iaith y Brython, a elwir Caerlleon. Y ddegfed frwydr a ymladdodd ef ar lan afon a elwir Rhybrwyd (Ribroit, Trathtreuroit). Yr unfed frwydr ar ddeg a fu yn y mynydd a elwir Bregwyn (Creguoin), lle y gyrwyd hwynt ar ffo, yr hon yr ydym ni yn ei galw Cad Bregwyn (Cat Bregion, Agned Cathregonnon, Cathregomion). Y ddeuddegfed frwydr, a hono o'r fath ffyrnicaf, a ymladdodd Arthur yn Mynydd Badon, yn yr hon y syrthiodd yn yr un amser naw cant a deugain o wŷr, trwy ei ruthr ef ei hun, heb neb o'r Prydeiniaid yn ei gynorthwyo. Yn yr holl frwydrau rhagenwedig, mynegir ei fod ef yn fuddugol bob amser, fel y

Digitized by Google

bu amryw eraill o filwyr y Prydeiniaid. Eithr nid oes un dewrder na challineb a lwydda yn erbyn ewyllys Duw. Po mwyaf a leddid o'r Saison mewn brwydrau, mwyaf oll y chwanegid atynt o'r Almaen gan Saison eraill, yn ddibaid; a hwy a wahoddasant freninoedd a blaenoriaid atynt oddiwrth yn agos yr holl ardaloedd hyny. A hyn a wnaethant hyd yr amser y teyrnasodd Ida."

Y cyfryw yw yr hanes, megys y ceir ef yn ngwaith Nennius. Y mae cryn amrywiaeth yn enwau y lleoedd a'r afonydd hyn yn y gwahanol ysgriflyfrau (fel y dangosir uchod yn yr enwau sy rhwng crymfachau), fel nad yw yn hawdd gwybod pa ffurf yw yr agosaf at gywirdeb; y mae yn anmheus hefyd am rai ohonynt pa leoedd a olygir wrthynt; ac y mae'r dysgedigion yn gwahaniaethu yn ddirfawr gyda golwg ar y manau hyn: ond nid yw yn perthyn i amlinell o fath yr ysgrif hon, ymchwilio i'r naill na'r llall o'r pethau hyn. Nid oes nemawr o ddadl i fod yn nghylch y brwydrau, gan nad pa le yr ymladdwyd hwynt.

Crybwylla Llywarch Hen (neu rywun dan enw y bardd hwnw) am un arall o frwydrau Arthur, yr hon a ymladdwyd yn *Llongborth*:—

> "Yn Llongborth llas i Arthur
> Gwyr dewr, cynmwynynt a dur;
> Amherawdr, llywiawdr llafur."

Sonia Llywarch Hen am frwydr arall a ymladdwyd ganddo ar lan yr afon *Llawen*:—

> "Gwen wrth Lawen ydd wylwys neithwyr;
> Arthur ni thechas:
> Aer a drawdd ar glawdd glas.
>
> "Gwen wrth Lawen ydd wylwys neithwyr,
> A'r ysgwyd ar ei ysgwydd;
> A chan bu mab ym', bu hywydd.
>
> "Gwen wrth Lawen ydd wyllis neithwyr,
> A'r ysgwyd ar yngnis;
> Can bu mab ym', ni ddiengis."

Ond tybia rhai mai yr un yw y frwydr hon â'r frwydr gyntaf yn nghofres Nennius, ac felly mai yr un afon yw *Llawen* a'r *Glain* a grybwyllir yno. Sonia Gildas hefyd a Beda, ac eraill, am frwydr Mynydd Badon, a ymladdwyd yn erbyn Cerdic, blaenor y Saison, yr hon yw yr olaf yn nghyfrif Nennius; a chyfeiria Cynddelw, ac eraill o feirdd y canoloesoedd, ati gydag edmygedd. Ni chytunir yn hollol pa flwyddyn yr ymladdwyd y frwydr bwysig hon. Gesyd amryw haneswyr hi yn y flwyddyn 520; ond y mae yr *Annales Cambriæ* yn ei gosod mor gynar a 516. Dywed Gildas i'r frwydr hon gael ei hymladd yn y flwyddyn y ganwyd ef; er nad yw ef, mwy na Beda, yr hwn oedd yn byw yn yr 8fed ganrif, yn son am Arthur wrth ei enw. Y mae y ffaith mai Sais oedd Beda, ac felly yn elyn i Arthur ac i'r genedl y perthynai iddi, yn ddigon o reswm am ei ddystawrwydd ef yn nghylch y gwrôn; ac er y cyfrifir Gildas yn Gymro, nid yw y gwaith sydd yn myned dan ei enw yn dangos nemawr o hynawsedd tuag at y Prydeiniaid, mwy na phe buasai wedi ei ysgrifenu gan rywun o estron genedl. Nid oes cymaint ag un wreichionen o wladgarwch yn ganfyddadwy yn holl lyfr Gildas; ac ni fedrai ef ganfod dim ond beiau y bobl yr ysgrifenai yn eu cylch. Tybia llawer mai ffug yw y gwaith a briodolir iddo.

Y frwydr nesaf y mae genym hanes am dani, a'r olaf a ymladdodd Arthur, yw brwydr hygof ac alaethus Camlan. Ymladdwyd hon, fel yr ydys yn cyfrif yn gyffredin, yn y flwyddyn 542; ond, yn ol yr *Annales Cambriæ*, y rhai a gyfrifir gan rai yr awdurdod oreu ar bethau

Digitized by Google

o'r fath, yn 537 y digwyddodd, pum' mlynedd yn gynarach na'r amseriad cyffredin:—"537, Gwaith Camlan, yn yr hwn y cydsyrthiodd Arthur a Medrawd; ac y bu marwoldeb mawr yn Ynys Prydain ac Iwerddon." Mewn ysgrif arall o'r un Cofnodau, rhoddir yr hanes beth yn helaethach, fel hyn:—"Brwydr Camlan, yn yr hon yr ardderchog Arthur, brenin y Brython, a Modred ei fradwr, a gydsyrthiasant, gan yr archollion a gafodd y naill gan y llall." Yn gyffredin, priodolir yr achos o'r frwydr hon i fradwriaeth ac anffyddlondeb Medrod, neu Modred, mab Llew ab Cynfarch, a nai fab chwaer i Arthur. Ymunodd Medrod â'r Saison yn erbyn ei ewythr, a thrwy frad a gwrthryfel ceisiodd ddwyn ei orsedd, a chymeryd meddiant o honi. Fel hyn yr adroddir y trychineb a'r achos ohono yn y *Trioedd:*—

"Triwyr gwarth a fu yn Ynys Prydain: * * Trydydd, gwaethaf fu Fedrawd, pan edewis Arthur lywodraeth Ynys Prydain ganthaw, pan aeth yntau drwy for yn erbyn Lles, Amherawdr Rhufain, a anfonasai genadau at Arthur hyd yng Nghaer Llion, i erchi teyrnged iddaw o'r ynys hon, ac i wŷr Rhufain, ar y mesur y talpwyd i Gadwallawn fab Beli hyd yn oes Cystenyn Fendigaid, taid Arthur. Sef yr ateb a roddes Arthur i genadau yr amherawdr, nad oedd well y dylyai wŷr Rhufain deyrnged i wŷr Ynys Prydain, nag y dylyai wŷr Ynys Prydain iddynt hwythau. Canys Brân fab Dyfnwal, a Chystenyn fab Elen, a fuasynt amherodron yn Rhufain, a dau wr o'r ynys hon oeddynt. Ac yna y lluyddodd Arthur orddetholwyr ei gyfoeth drwy for yn erbyn yr amherawdr; ac y cyfarfuant y tu hwnt i Fynydd Mynnau; ac aneirif o naddynt o bob parth a las y dydd hwnw. Ac yn y diwedd y cyfarfu Arthur a'r amherawdwr, ac Arthur a'i lladdawdd: ac yno y llas goreugwyr Arthur. A phan gygleu Fedrawd wahanu nifer Arthur, y dymchwelodd yntau yn erbyn Arthur, ac y dyunawdd Seison, Ffichtiaid, ac Ysgotiaid ag ef, i gadw yr ynys hon; ac yna y bu waith Camlan y rhwng Arthur a Medrawd, ac y lladdawdd Arthur Fedrawd, ac y brathwyd Arthur yn angeuol, ac o hyny y bu farw; ac mewn plas yn Ynys Afallach y claddwyd." (*Cyfres* ii 6.)

Mewn un arall o'r *Trioedd* adroddir yr un ddychwaen, rywbeth yn wahanol, yn y wedd ganlynol:—

"Medrawd ab Llew ab Cynfarch, a gafas deyrnedd Ynys Prydain yn adneu-fraint, tra fai Arthur yn gwrthladd gwyr Rhufain y draw i Fynydd Mynnau, pan fynynt attychwel yn ormes i'r ynys hon. Ac yno y llas goreuon gwyr Arthur; a phan glybu Medrawd, ymgystlynu â'r Seison a orug, a pheri ymladd y Gad Gamlan, lle y llas Arthur a'i wŷr, namyn tri; ac o hyny ydd aethant y Seison yn ormesgyrch ar deyrnedd Ynys Prydain, a lladd a deol o genedl y Cymry y neb nad elai ganddynt, ac ni chaid namyn ciwdodau gwlad Gymru a fynynt wrthladd gormes y Seison: a gwyr Rhufain yn cadarnhau braint a thiroedd i'r Seison yn Ynys Prydain, mal pai y naill genedl ormes yn ymddyweddiaw â'r llall, onid aeth iddynt wŷr Rhufain, mal y modd y llosges cenfigen ei pherchen, o ddyfod yr Ormes Ddu arnynt." (*Cyfres* iii. 100.

Mewn ereill o'r *Trioedd* priodolir Cad Gamlan i ymryson Gwenhwyfar a Gwenhwyfach, gwragedd Arthur; ac oherwydd paham cyfrifir hi yn mysg yr "ofergadau," sef cadau a gawsant eu dechreuad mewn amgylchiadau dibwys a distadl.

"Tair ofergad Ynys Prydain:—Un fu Gad Goddau; sef y gwnaethpwyd o achaws gast, a'r iwrch fochyll, a chornicyll; yr ail fu

Digitized by Google

gwaith Arderydd, a wnaethpwyd o achaws yr ehedydd: a'r drydedd oedd waethaf oll, sef oedd hono Camlan; a hono a wnaethpwyd o gyfrysedd Gwenhwyfar a Gwenhwyfach. Sef achaws y gelwid hwynt yn ofergadau, wrth eu gwneuthur o achaws mor ddiffrwyth â hwnw." (*Cyfres* i. 47.)

"Tair gwrdd balfawd Ynys Prydain:—Palfawd Metholwyd Wyddel ar Franwen, merch Llyr; yr ail balfawd a darewis Gwenhwyfach ar Wenhwyfar, ac o achaws hono y bu waith Camlan wedi hyny; a'r trydydd a darewis Golyddan Fardd ar Gadwaladr Fendigaid. (*Cyfres* i. 87.)

Ond awgrymir mewn un arall o'r *Trioedd* hyn, ddarfod i Arthur roddi palfawd i Fedrawd, yn gystal a Gwenhwyfar i Wenhwyfach.

"Tri anfad balfawd Ynys Prydain:—Palfawd Matholwch Wyddel ar Franwen, merch Llyr; a phalfawd Arthur ar Fedrawd; a phalfawd Gwenhwyfar ar Wenhwyfach." (*Cyfres* i. 51.)

Oddiwrth y *Trioedd* hyn, yn gystal ag oddiwrth hanesion ereill, y mae yn amlwg ddigon i Fedrawd amcanu meddiannu yr orsedd a'r llywodraeth, pan oedd Arthur yn absennol ar ryw ryfelgyrch yn erbyn gelynion ei wlad. Geill rhai o'r manylion yn y *Trioedd* fod yn chwanegion at y gwir, er mwyn addurn a rhamant; ond nid ymddengys un achos i anmheu y gwirionedd syml. Prin y medrai ysgrifenwyr y canoloesoedd adrodd un hanes heb ymgais at ei addurno a'i wellhau. Y mae prawb rhesymol yn cytuno ddarfod i Arthur gyfarfod â'i ddiwedd yng Nghad Gamlan; ac mai bradwriaeth Medrawd ei nai a fu yn achos o'r gâd gelaneddog hono. Cyfeiria'r beirdd yn fynych at drychineb alaethus y maes hwnw.

Llawer llef druan,
Fal ban fu'r Gamlan.—GRYFFYDD AB YR YNAD COCH.

A'm bu bardd dadgan,
Adgyglen Camlan,
Adwelir griddfan
Ac anfyn gwynfan.—Y FFYG-DALIESIN.

Un am fro Alun, elfydd can,
A Ffrainc yn ffrawddus fal Camlan.—LLYWARCH AB LLYWELYN.

Lliw tan y gad Gamlan gynt.—DAFYDD AB GWILLYM.

Arthur o'i ddolur oedd wan,
Ac o ymladd Cad Gamlan.—LEWIS GLYN COTHI.

Edwart wych a'r dur-wacw tan,
Gydag ymladd Gad Gamlan.—OWAIN AB LLYWELYN MOEL.

Cael ar laes, coelier y fan,
Cadw ac ymladd Cad Gamlan.—TUDUR PENLLYN.

Maneg aur, pan ymwenynt,
Llun yn Llan Gad Gamlan gynt.—DAFYDD AB EDMWND.

Brau cai ymladd brig Camlan,
Braisg wyd ym mysg y pysgod man.—SION CERI.

Nid yw sefyllfa Camlan yn hysbys. Gesyd rhai hi yn Ngogledd Lloegr, ac ereill yn y Gorllewin; ond y mae pwys y tebygolrwydd yn ddiau o blaid y Gorllewin yn hytrach na'r Gogledd; a tybia llawer mai yn agos i dref bresenol Camelford, yn Nghernyw, ar lan yr afon Camel neu Alan, yr hon, yn ol Camden, a elwid gynt *Camblan*, y cafodd y frwydr ei hymladd. Y mae Camlan yn enw pur gyffredin yn Nghymru hyd heddyw.

Felly y syrthiodd y cadnerthol Arthur, trwy fradwriaeth gadarn un o'i gyfneseifiaid; a chydag ef y syrthiodd annibyniaeth Ynys Prydain.

Nid estrawn fu ei dïsnaw,
Ond trenar—gwladwr—a glyw!
Ym mhob oes, er croes, er crain,
BADWYR A FR IWENT BRYDAIN.—GWALLTER MECHAIN.

Digitized by Google

Trwy y fradwriaeth ysgeler hon, enillodd Medrod iddo ei hun le ac enw ar lechres ddu y "carn fradwyr," y rhai a fradychasant Ynys Prydain i ddwylaw gelynion.

"Tri charnfradwr a fuant achaws i'r Seison ddwyn coron Ynys Prydain oddi ar y Cymry :—Ail ydoedd Medrawd, a roddes ei hun a'i wŷr yn un â'r Seison er cadarnhau iddaw y deyrnedd yn erbyn Arthur; ac achaws hyny o frad ydd aethant laweroedd iawn o'r Lloegrwys yn Seison." (TRIOEDD: *Cyfres* iii. 45.)

Er bod y clwyf a dderbyniodd Arthur yng Nghamlan yn glwyf marwol, eto dywedir iddo fyw ychydig amser ar ol ei dderbyn, ac iddo yn y cyfamser gael ei gludo i Ynys Afallon neu Afallach, yr hon a elwir hefyd Ynys Wydrin, yng Ngwlad yr Hâf, lle y bu farw ac y claddwyd ef. Gan fod traddodiad mai yn y lle hwn y claddesid y Brenin Arthur, gwnaed defnydd o'r amgylchiad i ateb dyben llywodegol gan Harri II., brenin Lloegr, yn y flwyddyn 1179. Gwyddai Harri fod coel ymhlith y Cymry nad oedd Arthur wedi marw, ond y buasai iddo yn fuan ail ymddangos yn eu plith, ac adferyd iddynt unbenaeth Ynys Prydain; a pha beth a wnaeth y brenin Seisonig ond cymeryd arno iddo gael gafael ym meddrod Arthur, a'i agor. Dywedir wrthym gan Giraldus Cambrensis, yr hwn oedd yn y fan a'r lle pan agorwyd ef, iddo weled esgyrn a chleddyf Arthur, a bod croes biwm wedi ei suddo yn y beddfaen a'r ysgrifen hon arni:—

"*Hic jacet sepultus inclitus Rex Arturius in Insula Avalonia.*"

Sef yw hyny: 'Yma y gorwedd yn gladdedig y clodfawr Frenin Arthur yn Ynys Afallon." Y mae yr hen hynafiaethwyr, megys Leland ac eraill yn son am y darganfyddiad hwn megys ffaith nad oedd neb yn ei hamuheu; ac nid ymddengys fod neb o honynt wedi cymaint a llettybio nad oedd y cyfan ddim ond cast cyfrwys o eiddo brenin Lloegr, er mwyn argyhoeddi y Cymry, a barent gymaint anesmwythder iddo, fod Arthur wedi trengu yr un fath â marwolion ereill, ac nad oedd gobaith iddynt y gwaredai ef hwynt, fel y dysgwylid, o dan warog a gorthrymder y Seison. Digon tebyg i Giraldus gael ei dwyllo yn gystal ag ereill. Nid ymddengys ei fod yn adrodd ond yr hyn a welodd; ond pa fodd y daethai yr esgrin, y cleddyf, a'r groes i'r fan lle yr oeddynt, a phwy a'i gosodasai yno, nid ymddengys iddo ef erioed ymholi. Oes hygoel i'r eithaf oedd yr oes yr oedd Giraldus yn byw ynddi; a hawdd iawn y derbynid twyll yn lle gwirionedd. Ymwelwyd drachefn â'r gweddillion hyny gan Iorwerth I. a'i frenines, a dadgladdwyd hwynt ganddynt.

Cofnoda y *Trioedd* dair o wragedd i Arthur, a phob un o'r tair yn dwyn yr enw *Gwenhwyfar;* sef Gwenhwyfar, merch Gwythyr ab Greidiol; Gwenhwyfar, merch Gwryd Gwent (neu Gawryd Caint); a Gwenhwyfar, merch Gogyrfan Gawr. Ond yn ol eraill o'r *Trioedd, Gwenhwyfach* y gelwid un o honynt. Od oes dim cael ar yr hyn a adroddir yn yr hen gofion triol hyn, nid rhyw hynod o ddedwydd yn ei gysylltiadau priodasol y bu Arthur; ac y mae dwy linell o amghlod i un o'i freninesau ar gof gwlad a gwer n hyd y dydd heddyw:—

"Gwenhwyfar, merch Gogyrfan Gawr,
Drwg yn llechan, gwaeth yn fawr."

Ac y mae y cyfeiriad hwn, fel y sylwa Carnhuanawc, yn cytuno â'r cymeriad a roddir yn y rhamantau Ffrengig i frenines Arthur, y rhai a'i harddangosant megys un nodedig am ei hanniweirdeb, yn gystal ag

Digitized by Google

am gynllwyn a chyfrwysdra ; ac yn gysson â hyn gellir nodi, fod "yr hen Wenhwyfar; yn enw o ddirmyg ar wraig hyd y pryd hwn mewn llawer parth o Gymru. Ond yn y Mabinogion Cymreig y mae Gwenhwyfar yn llawer syberwach dynes. Dywedir i esgyrn Gwenhwyfar gael eu darganfod gyda rhai Arthur gan y brenin Harri II., a bod gwallt y frenines wedi para hyd y pryd hwnw yn felyn ei liw, ac yn hardd yr olwg arno.

Nid fel rhyfelwr dewrwych yn unig y saif Arthur yn y *Trioedd;* ond cyfrifir ef yno hefyd yn mysg yr "oferfeirdd," sef beirdd nad oeddynt lenorion wrth eu galwad :—

"Tri oferfeirdd Ynys Prydain :—Un, Arthur; ail, Cadwallawn ab Cadfad; trydydd, Rhyhawd eil Morgant Morganwg." (*Cyfres* ii. 123).

Ac y mae ar gadw dair llinell sydd yn cael eu tadogi arno, y rhai, meddir, a gânt ef i dri o'i gedyrn nerthol :—

"Sef ynt fy nhri Cadfarchawg,—
Mael Hir, a Llyr Lluyddawg,
A cholofn Cymru, Caradawg."

Ond go afraid crybwyll, mai cyfansoddiad pur ddiweddar mewn cymhariaeth yw y llinellau hyn ; a diau na chlywyd son am danynt hyd ym mhen rhai cannoedd o flynyddau ar ol marwolaeth Arthur.

Y pethau blaenorol yw y cyfan y gellir, gyda gradd o ddilysrwydd, ymddibynu arno megys gwir hanes Arthur. Nid oes un ysgrifenydd cyfoesol iddo yn crybwyll am dano ; o leiaf nid oes dim o waith y cyfryw wedi disgyn hyd atom ni ; oddieithr i ni gyfrif gwaith Llywarch Hen yn awdurdod mewn perthynas iddo. Ond y mae yn amlwg i bawb diragfarn, cydnabyddus â'n hen ysgrifeniadau, nas geill y cyfansoddiadau sydd yn myned dan enw y bardd hybarch hwnw fod, yn eu diwyg presenol, yn perthyn i'r chweched ganrif, na thebyg y fath beth ; ac nis gwyddys fod ar gael un ysgrif o honynt hynach na'r *Llyfr Coch o Hergest*, yr hwn a ysgrifenwyd yn y 14eg a'r 15fed ganrif. Nis gellir, o'r herwydd, gyfeirio at ganiadau Llywarch megys awdurdod hanesol gyda golwg ar ddygwyddiadau y chweched ganrif. Nennius gan hyny yw yr ysgrifenydd hanesol cyntaf sydd yn ei enwi ; ac hyd yn oed yn ei amser ef, ymddengys fod y gwirionedd yn ei gylch yn dechreu cael ei arliwio, megys, er enghraifft, pan ddywed yr hanesydd hwnw ddarfod i Arthur ladd â'i law ei hun gryn wyth gant a deugain o'r Seison yn ymladdfa Ynys Badon. Ceir enw Arthur yn fynych (er nad mor fynych ag y gallesid dysgwyl) yng ngwaith beirdd y canoloesoedd ; ond gan nad oeddynt hwy gyfoedion iddo, nac yn byw yn agos i'w amser, ni byddai ond anfuddiol eu dyfynu.

Weithian rhaid gadael ffaith, ac olrhain ychydig ar ffug mewn perthynas iddo ; ac os prin yw defnyddiau ei wir hanes, y mae y ffughanesion am dano cyn lluosoced, fel y mae yn anhawdd iawn dethol y pethau nodedicaf o honynt.

Yn fuan wedi cwymp Arthur ar faes anffodus Camlan, ennillodd y Seison y llaw drechaf yn yr ynys hon ; llethwyd ei rhyddid, cyfarsengwyd ei thrigolion, a dystawyd llais ei beirdd ; ac y mae y wlad, mewn golygiad gwladwriaethol yn gystal a llenyddol, yn diflanu, bron, o'r golwg am rai canrifau. O'r chweched hyd y deuddegfed ganrif gorchuddiwyd Prydain gan fentyll dudew y nos; ac nid Prydain yn unig a aeth i gysgu yn ystod y tymmor hwn, ond canfyddwn y cyffelyb gysgadrwydd wedi ymdaenu dros holl gyfandir Ewrop. O ran dim gorchestion meddyliol, gellir dywedyd fod Ewrop oll yn huno mewn

Digitized by Google

trymgwsg trwy gydol yr amser hwn. Ond yn ddisymwth, o ddeutu dechreu y 12fed ganrif, y mae deffroad cyffredinol yn cymeryd lle, a chloion cwsg yn cael eu dryllio yn chwilfryw; rhoir y meddwl ar waith, dattodir llyffetheiriau yr Awen, a dysgir iddi ymddyrchafu ar adenydd rhyddion darfelydd. Yn uniongyrchol ar ol y dadebriad a'r adfywiad dan sylw, yr ydym yn canfod golygfa nad oes mo'i chyffelyb ar holl ddalenau hanesyddiaeth. Y mae Arthur a Marchogion y Ford Gron yn cyfodi ar unwaith i sylw, yn eu llawn faint ac yn eu holl urddas a'u hardderchogrwydd. Hwynt-hwy yw testyn cerdd, a chwedl, a rhamant, o'r naill gwr o Ewrop i'r llall; ac nid yw Asia yn rhy bell i glywed son am eu gwrhydri a'u gorchestion. Yr ydym yn eu canfod ar unwaith yn wroniaid y byd; ac y mae y sylw a'r edmygedd a delir iddynt braidd yn ddifesur. I'r fath raddau o enwogrwydd yr oedd y Brenin Arthur wedi cyrhaedd yn y canoloesoedd, fel y mae Alan de Insulis, ysgrifenydd o'r cyfandir yn y 12fed ganrif, yn gofyn am dano yn y wedd ganlynol:—"Canys i ba le ni ddygwyd ac ni chyhoeddwyd enw Arthur y Prydeiniaid, gan glodforedd hedegog, cyn belled ag y cyrhaedd ymherodraeth Gristionogol? Pwy, meddaf, nid yw yn siarad am Arthur, gan ei fod, braidd, yn fwy adnabyddus i genedloedd Asia nag i'r Prydeiniaid, megys y traethir i ni gan ein pererinion a ddychwelant o'r parthau dwyreiniol? Y Dwyreinwyr a siaradant am dano, ac felly y gwna y Gorllewinwyr, er cael eu gwahanu oddiwrth eu gilydd gan holl led y ddaiar. Sieryd yr Aipht am dano, a'r Bosphorus nid yw ddystaw; Rhufain, arglwyddes y dinasoedd, a gân ei orchestion; ac nid yw rhyfeloedd Arthur guddiedig oddi wrth Cartheg, ei chydgeisyddym gynt. Moliannir ei weithredoedd ef gan Antiochia, Armenia, a Phalestina."

Yn y rhamantau hyn yr ydym yn ei weled, yng ngeiriau Carnhuanawc, nid megys blaenor ar ryw lwyth bychan o bobl, yn cyfaneddu mewn cwr pellenig o'r byd, ond fel penadur goruchel, ac ymherawdr mewn enw ac awdurdod, yn anghymharol mewn pob peth a ystyrid yn anrhydedd yn yr oes hono, yn tramwy y gwledydd gyda rhwysg goresgynydd anwrthwynebol; ei lys yn ymgynullfa i ddewrion y byd; a'i Farchogion ef yn ddewraf o honynt; ac yntau ei hun yn rhagori arnynt oll mewn gwroldeb a phob milwraidd gampau. Gwelwn ef hefyd yn cael ei amgylchu gan fodau tra anghyffredin eu hanianawd,—dewiniaid, ellyllon, a'r Tylwyth Teg. Ceir ei enw yng nglŷn â chestyll, mynyddoedd, a meini, yn y fath fodd ag na ddygwyddodd i ran un dyniolyn arall a welwyd ar glawr daiar. Ac yn rhwysg amser, i'r cyfryw faintioli y tyfodd ef yn nwylaw y rhamantwyr hyn, fel y coffëir am dano megys cawr anferthol, yn taflu creigiau, a meini hirion, o benau y bryniau ym mhell i waelodion y dyffrynoedd isod.

Y mae y rhamantau yn gystal a'r hanesion, megys yr awgrymwyd eisioes, yn gwneuthur Arthur yn fab i Uthr Bendragon ac Eigr; ac nid anghofiant ddywedyd i'w enedigaeth gael ei dwyn o amgylch trwy otferynoliaeth hud a lledrith Myrddin. Pan yn bymtheg oed esgynodd i'r orsedd ar farwolaeth ei dad, a choronwyd ef yn Nghaerlleon ar Wysg gan Ddyfrig, archesgob yr esgobaeth hono. Yn union ar ol ei goroni ymgyrchodd yn erbyn y Seison dan Colgrin, a gorthrechodd hwynt yng nghyd â'r Ysgotiaid a'r Brithwyr, ar lanau yr afon Dulas, yng Ngogledd Lloegr. Gorchfygodd hwynt drachefn yn Nghaer Lwydgoed (Lincoln) lle y syrthiodd chwe' mil o'r gelynion; a'r canlyniad a fu, iddynt orfod gadael Lloegr, a rhoi i fyny ei holl feddiant o honi, ac

Digitized by Google

ymrwymo anfon iddo ef deyrnged o'r Almaen, gan roddi gwystlon iddo am gyflawniad eu haddewid. Ond fel y gallesid dysgwyl, torodd yr anwariaid eu cyfammod ag Arthur, hwyliasant o amgylch yr ynys i Ddyfnaint, a thiriasant yn Totness. Prysurodd Arthur a'i luoedd yn eu herbyn hwynt yno; rhoddes gad ar faes iddynt ym Mynydd Badon, lle y gorchfygodd ef hwynt â lladdfa fawr; lladdodd ef 470 o'r gelyn â'i gleddyf Caledfwlch a'i waew Rhongymyniad. Yn nesaf, prysurodd i Ogledd Prydain, i ryddhau Caer Alcwyd, prif ddinas Prydeiniaid Gogledd yr ynys, yr hon yr oedd yr Ysgotiaid a'r Brithwyr yn gwarchae arni. Gwedi eu gorchfygu, ymlidiodd hwynt hyd yn Llyn Llumonwy, lle y darparodd lynges, ac y parodd i'r gelyn ymostwng iddo. Gwedi hyny, trodd ei wyneb tua'r Dehau, a chadwodd wyl Nadolig yng Nhaer Efrog, lle y tynodd demlau Paganaidd Seisonig i lawr, ac yr adeiladodd Eglwysi Cristionogol yn eu lle. Yr haf canlynol, efe a orchfygodd Iwerddon; ac yna dychwelodd i Brydain, lle y treuliodd ddeuddeng mlynedd mewn heddwch a thangnef. Gwedi hyn cadgyrchodd yn erbyn Norwy a Gal, a bu naw mlynedd cyn iddo eu llwyr orchfygu. Yna efe a ddychwelodd adref, ac a gynnaliodd wledd fawr yng Nghaerlleon, lle yr amgylchynid ef gan luaws o freninoedd, y rhai oeddynt dan deyrnged iddo. Buan ar ol hyn, dechreuodd y Rhufeiniaid ofyn teyrnged ganddo; cynnullodd yntau lu dirfawr, a chroesodd i dir Gal, lle y gorchfygodd holl fyddinoedd ymherawdr Rhufain. Pan oedd yn parotoi i groesi Mynydd Mynnau; rhwng Gal a'r Ital, clywodd am y gwrthryfel oedd wedi tori allan ym Mhrydain dan arweiniad ei nai Medrod, yr hwn oedd wedi ymuno â'r Seison, y Brithwyr, yr Ysgotiaid, a'r Gwyddelod, yn ei erbyn ef. Prysurodd i dir ei wlad ar unwaith, ac ennillodd ddwy fuddugoliaeth ar ei elynion, y naill ar oror Caint, a'r llall yn agos i Gaerwynt, pryd y gorfu ar Medrod a'i gymhlaid ffoi i Gernyw; ac yno, ar lan Camlan, yr ymladdwyd y frwydr ddiweddaf iddo.

Y cyfryw yw sylwedd y Brutiau Cymreig mewn perthynas i weithredoedd Arthur; ond y maent hwy yn adrodd yr amgylchiadau gyda llawer o fanylrwydd, fel y buasai pob sill o honynt yn ffeithiau diymwad. Adrodda y Mabinogion a'r Rhamantau luaws mawr o bethau na sonir am danynt yn y brutiau.

Megys nad yw bywyd Arthur megys bywyd marwolion ereill; felly hefyd nid yw ei farwolaeth fel y mae marwolaeth pob dyn. Rhaid cael rhamant yn ei farwolaeth yn gystal ag yn ei fywyd; ac am hyn gwir a ddywed yr hen weithyn a elwir *Hanes Diwedd Arthur*:—"Gnawd yw dywedyd llawer o bethau anfedrus am ddiwedd Arthur; ac yn enwedig chwedleuon Prydeiniaid, a amrysonant amdaw, ac a gadarnhânt ei fod yn fyw." Tystiolaeth y Rhamantau am ei ddiwedd sydd i'r perwyl hyn. Arthur, wedi deall ei fod wedi derbyn clwyf marwol gan Fedrod, a geisiodd gan Syr Bedwyr, un o'i farchogion urddol, gymeryd ei gleddyf Caledfwlch, a'i daflu i'r llyn a elwai efe iddo. Bedwyr, ar hyny, a gymerodd y cleddyf, ac a aeth tua'r llyn a grybwyllasid wrtho; ond wrth edrych ar y cleddyf gedidog hwnw, a chanfod ei wychder, a sylwi fod ei garn wedi ei harddu â meini gwerthfawr, bu anfoddlawn ganddo ei daflu i'r llyn, a chuddiodd ef dan bren, a dychwelodd, gan ddywedyd daflu o hono y cleddyf i'r llyn. Gofynodd y brenin iddo pa beth a welsai: ac atebodd yntau nas gwelsai ef ddim ond y dwfr a'r tònau. Ar hyn dywedodd y brenin wrtho ei fod yn ei dwyllo; a gorchymynodd iddo fyned, yr ail waith, a

Digitized by Google

chyflawni ei ddymuniad. Aeth Bedwyr; ond eto nis gallai glywed ar ei galon daflu y fath gleddyf gwerth'awr i'r llyn. a dychwelodd drachefn â'r un atebion i Arthur. Yna y cyhuddodd y brenin ef o frad a thwyll, ac o chwenychu y cleddyf oherwydd ei werthfawredd: a pharodd iddo fyned drachefn, a chyflawni ei orchymyn. Aeth Bedwyr y tro hwn, safodd yn ymyl y llyn, ac a'i holl nerth taflodd y cleddyf iddo, cyn belled ag y gallai. Ac fel yr oedd Caledfwlch yn disgyn, wele law a braich yn dyfod allan o'r llyn, ac yn ymaflyd ynddo gerfydd ei garn, a chan ei ysgwyd dair gwaith mewn dull milwraidd, tynodd y llaw ef dan y dwfr, ac ni welwyd mo hono mwyach. Pan ddychwelodd Bedwyr, a mynegu hyn i Arthur, ceisiodd Arthur ganddo ei ddwyn ef at y llyn. A phan ddaethant yno, gwelent wrth yr ymyl fâd bychan, ag amryw rianedd ynddo, oll mewn gwisgoedd duon; ac yn eu plith yr oedd brenines. Pan welsant hwy Arthur, yr wylasant oll, ac y llefasant â llef uchel. Yna, ar gais Arthur, gosododd Bedwyr ef yn y bâd; a thair brenines a'i derbyniasant ef, ac un o honynt a'i cyfarchodd ef, gan ei alw yn frawd. Hon oedd *Margam la Efai*, chwaer Arthur; a'r ail oedd frenines Gwynedd; a'r drydedd oedd frenines y Tiroedd Anial. Ac yr oedd yno hefyd *Nimwe*, prif arglwyddes y llyn, yr hon a briodasai un o farchogion Arthur. Ar ol mynod Arthur i'r bâd, rhwyfodd y rhianedd ymaith oddiwrth y tir; a dywedodd Arthur wrth Bedwyr ei fod yn myned i Ddyffryn Afallon, i gael gwella ei glwyf. A Bedwyr, wedi colli golwg ar y bâd, a aeth ymaith i'r goedwig.

Dywed Syr Thomas Maelor, o waith yr hwn y dyfynwyd y rhan fwyaf o'r pethau blaenorol, na fedrodd ef ddyfod o hyd i chwaneg na hyn yn nghych diwedd Arthur. Ond yr oedd chwedl yn cerdded, fod meudwy yn byw yn y coed, ac yn dywedyd ddarfod y noswyl hono, yn nghanol y nos, i nifer mawr o rianedd ddyfod â chorff marw ato, gan geisio ganddo ei gladdu; a meddyliai mai corff Arthur oedd; ond, medd yr awdwr, "rhai a ddywedant mewn amryw fanau o Brydain, nad yw y Brenin Arthur farw, ond y daw drachefn i gyflawnu gwroldeb mawr." A dywed amryw fod geiriau i'r perwyl hyn yn gerfiedig ar ei feddrod:—"Yma y gorwedd Arthur, Brenin gynt, a Brenin i ddyfod." Ond y dyb gyffredin am dano ydoedd, ei fod yn byw yn ngwlad y Tylwyth Teg, gyda'i hen gyfeillion mewn mawr hyfrydwch, yn aros yr amser pryd y byddai iddo ddyfod drachefn i blith dynion; canys credid y deuai, ryw amser, i deyrnasu ar y Prydeiniaid, ac i'w harwain drachefn yn erbyn eu gormeswyr, gyda dirfawr rwysg a buddugoliaeth. (Gweler *Hanes Cymru*, t.d. 265, 266.)

Hwyrach i'r grediniaeth nad oedd farw Arthur gael ei dechreuad ar faes Camlan, yng ngwaith y cadfridogion, fel y gallwn dybied (ac fel y gwnaed yn fynych wedi hyny), yn cadw clwyf angeuol neu farwolaeth Arthur yn anhysbys i'r milwyr cyffredin, rhag eu digaloni ar faes y gad; ac oherwydd hyny, cadw ei feddrod yn ddirgel. Gwedi dechreu taenu y chwedl nad ydoedd ef wedi marw, ac yr ymddangosai drachefn, cadwyd y ffug i fyny gan benaethiaid y genedl, er attal y cyffredin bobl rhag ymostwng i lywodraeth y Seison. Y mae yn ymddangos gan hyny mai yn mhlith y Prydeiniaid yr ymgododd y grediniaeth yn anfarwoldeb Arthur, ac anhysbysrwydd ei feddrod, ac nid ym mhlith rhamantwyr y Cyfandir: ac yn unol â hyn yr ydym yn darllen yn yr hen gyfansoddiad a elwir "Englynion Beddau Milwyr Ynys Prydain," y mynegiad canlynol mewn perthynas iddo:—

Digitized by Google

"Bedd i March, bedd i Gwythur,
Bedd i Gwgan Gleddyfrudd;
Anoeth byd bedd i Arthur."

Nid ymddengys i Arthur adael plant ar ei ol, o leiaf nid oes iddynt safle mewn hanesyddiaeth. Sonir yn *Llyfr Teilo* am rodd i Eglwys Llandaf, o diroedd yn Mhenfro, gan "Noe fab Arthur;" ond nis gwyddys chwaneg am dano, os nid efe a roddes ei enw i "Flaen Gwaith Noe ab Arthur," yn agos i Lanbedr Felffre, yn y swydd hono. Yr unig un arall o'i hiliogaeth y mae un crybwylliad am dano, yw "Llecheu, mab Taiiesin," yr hwn yn y *Trioedd* a elwir yn un o "Dri Deifnogion Ynys Prydain," y rhai oeddynt, Gwalchmai ab Gwyar; a Llecheu ab Arthur; a Rhiwallawn Wallt Benadlen." Sonir hefyd am dano yn Mabinogi "Breuddwyd Rhonabwy," ac yn "Ymddyddan Gwyn ab Nudd a Gwyddno Garanhir." Syrthiodd ym Mrwydr Llongborth, ac felly bu farw o flaen ei dad.

"Mi a wn lle y llas Llechau,
Mab Taliesin, uthr yng ngherddau;
Ban ryerynt brain ar grau."

Cleddyf Arthur, fel y crybwyllwyd, a elwid *Caledfwlch;* ei darian, *Prydwen;* ei waew (neu gadfwyell), *Rhongymmynian* neu *Rhongymmyniad*, neu *Bongogoniant;* ei ddager, *Carnwenan;* ei longau, *Gwibliant, Caswenan, Gorwenan, Gwenan, Torogan, Gwionan* a *Hwylwenan;* ac enw ei gaseg ydoedd *Llamre.*

Nid yw hyn oll ond crynodeb byr o hanes Arthur. Ysgrifenu ei hanes yn gyflawn a fyddai ysgrifenu hanes chwedl a rhamant o'u dechreuad hyd y pryd hwn; ac ysgrifenu hyny a fyddai ysgrifenu rhan fawr o hanes llenoriaeth Ewrop er dechreu y ddeuddegfed ganrif.

Y neb a fync astudio y pwnc yn mhellach, ymgyghored, ym mhlith eraill, â'r gweithiau canlynol:—*Y Mabinogion*, gan yr Arglwyddes Guest; *Y Greal* (llawysgrifen yn llyfrgell Peniarth); *Y Brutiau Cymreig* yn y *Myf. Arch.* cyf. ii.); a *Brut Lladin* Gruffydd ab Arthur; *Essay on Welsh Tradition*, gan Schulz (cyfieithiad Seisonig Mrs. Berrington); *Hanes Cymru*, gan Carnhuanawc; *Welsh Saints*, gan y Proffesor Rees; *Cambrian Plutarch*, gan J. H. Parry; *Cambrian Biography*, gan y Dr. W. O. Pughe; *Eminent Welshmen*, gan y Parch. Robert Williams; *Nennius*, gan W. Gunn; *Life of Arthur*, gan Ritson; *History of the Anglo-Saxons*, gan Sharon Turner; *History of English Poetry*, gan Warton; *Literary Remains* y Parch. T. Price (Carnhuanawc); *History of Fiction*, gan Dunlop; ac eraill. Ac i amryw o'r awduron hyn yr ydys yn ddyledus am gryn gyfran o'r erthygl flaenorol.

ARTHWYS oedd fab i Ceneu ap Coel, penaeth o'r Brutaniaid Gogleddol. Yr oedd yn byw yn y bumed ganrif.

ARWYSTLI (HUGH) Bardd a flodeuodd rhwng 1510 a 1570. Beruir mai tua'r Abermaw y trigianai. Mae swrn o'i farddoniaeth yn nghadw mewn llawysgrifau. Dywed Hen Ysgrif yn y *Brython* mai yn Llanelwy y mae ei fedd.

ARWYSTLI GLOFF. Mab ydoedd i Seithenyn, yr hwn a gyfenwir Seithenyn Feddw, a brodyr iddo ydoedd Gwynodl, Merin neu Merini, Senefyr, Gwyndeg, Llibio, Tudur, Ynyr, Tudglwyd, Tudno, a Tyneio. Yr oedd ei frodyr oll yn perthyn i Fangor Iscoed, yr hon oedd hynod o enwog o dan arolygiad Dunawd tua'r pryd hwnw. Ond aelod oedd Arwystli o Fangor Enlli. Dywedir iddo sefydlu Eglwys, ond ni sonir

Digitized by Google

yn mha le. Onid ar ei enw ef y galwyd rhan o Faldwyn yn Arwystli? Yr oedd yn ei flodau yn nghanol y chweched cant.

ARWYSTLI HEN. "Arwystli Hen, gwr o'r Eidal" medd *Achau'r Saint*, "a ddaeth gyda Bran ab Llyr i Ynys Prydain, i ddysgu'r ffydd yng Nghrist." Gelwir ef mewn lle arall yn "Beriglor," hyny ydyw athraw Bran. Bernir iddo, gan rai, dd'od i'r ynys hon hefo Bran, pan ddaeth ef o Rufain, ar ol bod yno yn ngwystl ei fab dewrfrydig Caradog. Y mae cyd-darawiad hynod yn nhystiolaethau damweiniol gwahanol ysgrifenwyr o barth y ffaith a grybwyllir yn yr *Achau*. St. Paul, pan yn ysgrifenu ei Epistol at y Rhufeiniaid, a ddywed, "Anherchwch y rhai sydd o dylwyth Aristobulus." Yn ol y Merthyrolaeth Groegaidd, yr hwn a ddyfynir gan yr archesgob Usher, "Cysegrwyd neu benodwyd Aristobulus gan St. Paul yn esgob i'r Brutaniaid." Dywed yr hanesydd Cressy, "ddarfod i Aristobulus, disgybl i St. Pedr a St Paul, gael ei ddanfon yn Apostol i'r Brutaniaid, ac mai efe oedd yr esgob cyntaf yn Mhrydain; iddo farw yn ynys Afallon, O.C. 99, ac mai ei wylmabsant oedd Mawrth 15fed." Heleca Esgob a ddywed fod "Prydain yn enwog am ei llu Merthyri, ac yn benaf am Aristobulus, un o'r deuddeg a thriugain esgob a ddanfonwyd i Frydain; iddo gael ei ferthyru yn yr eilfed flwyddyn o deyrnasiad Nero;" neu fe allai yn fwy cywir yn y ddeuddegfed. Tystia Dorotheus, hanesydd o'r trydydd cant, "fod Aristobulus yn un o'r deg a thriugain disgybl a enwir gan St. Paul yn y Rhufeiniaid, wedi dysgu athrawiaeth iachawdwriaeth, a gweinyddu'r swydd o esgob yn Mhrydain." Dyna ddigon ond odid o gyfeiriadau at y ffaith mewn Law, sef bod un o'r enw Aristobulus wedi d'od drosodd o'r Eidal i'r wlad hon i ddysgu ein cyndadau ffydd Crist. Y mae'r crynhoad hwn o ffeithiau yn ein harwain at y pync dyrus o ddyfodiad yr Efengyl i'r wlad hon; ond er mor ddyddorol fyddai treiddio i'r cyfryw rhaid i ni ei adael gan ddim ond lled-grybwyll mai po mwyaf oll y chwilir ein hen gofianau gwladol ni, a'u cyferbynu hefo gwaith hen awdwyr o wledydd eraill, egluraf y gwelir mai nid breuddwydion disail mo'nynt, ac nad gwrachiaidd chwedlau gwneuthur ydynt. Cyfeillion arbenig Aristobulus oedd Cyndaf, Ilid, a Mawan, am ba rai y coffheir yn eu trefn. Gweddus feallai son paham y gelwir y gwr yn Arwystl neu yn Arwystli. Diau nad peth annaturiol ydoedd cyflunio o'r gair cyssefin yr enw Cymreig: yn wir y mae genym esiamplau ddigon a ddangosant lawn cymaint o drawsffurfio, os nad mwy, na'r un dan sylw, pe nad enwem ond Paulinus yn *Pawl*. Ei wylmabsant fel y crybwyllwyd ydyw y 15fed o Fawrth.

ASAF, neu Asaph, oedd fab i Sawyl Benuchel ab Pabo Post Prydain, a brawd oedd efe i Dunawd Fawr, a Gwensaeth ferch Rhufon Rhufoniog o Ddyffryn Clwyd oedd ei fam. Ganwyd ef yn Ngwynedd, yn ol eithaf tyb, a dygwyd ef i fynu o dan olygiad Cyndeyrn, yr hwn oedd wedi sefydlu Bangor ac esgobaeth ar lin yr afon Elwy. Un o Gymru'r Gogledd neu'r Alban, oedd Cyndeyrn, ac yr oedd wedi cael ei erlid o'i wlad ei hun, fel lluaws eraill tua'r adeg hono, ac yn mysg eu cyfneseifiaid yn Nghymru yr ymlochasant. Ar ol talm o amser cafas Cyndeyrn alwad yn ol i'w wlad ei hun, a rhoddes Asaph yn esgob yn ei le, a galwyd yr esgobaeth fyth ar ol hyn yn ol ei enw ef gan bawb ond y Cymry; cadwasant hwy fyth at yr hen enw. Yr oedd Asaph yn Gristion gloyw difrycheulyd, ac yn enwog iawn mewn dysg a dawn. Ysgrifenodd lyfrau buddiol at wasanaeth efrydwyr ei Fangor, ac hefyd "Fuchedd Cyndeyrn sant." Bu farw ddydd Calanmai O.C. 596, pan,

Digitized by Google

yn ol pob tebygolrwydd, nad oedd wedi cyrhaedd canol oed, a chedwid ei wylmabsant ar y dydd hwnw yn Llanelwy am lawer oes. Claddwyd ef yn ei eglwys ei hun. Y mae eglwys Llanasa yn sir Fflint wedi cael ei chyflwyno iddo. Cofnodir dywediad o'i eiddo, sef

"Y neb a ludd ddysgu crefydd,
Trwy gentigen ettyl rybuid."

ASCLEPIODOTUS, iarll Cernyw, yr hwn a ddewiswyd gan y Prydeiniaid yn frenin arnynt pan yn cael eu gormesu gan Allectus, llywydd Rhufeinig Llundain y pryd hwnw. Tan ei lywyddiaeth ef y Prydeiniaid a ymosodasant ar ddinas eu gelyn, a phan ddynesasant yr oedd Allectus yn aberthu i'w dduwiau. Pa fodd bynag, cymerodd brwydr galed le, yn mha un y syrthiodd Allectus, a'i ddilynwyr a laddwyd neu a ffoisant. Yna Livius Gallus a ganodd ddorau y ddinas gan ymdrechu ei harbed; eithr Asclepiodotus a warchaeodd ar y lle, ac wedi derbyn adgyfnerthion, a'i cymerth trwy ruthr, a'r Rhufeiniaid oll a roddwyd i fin y cleddyf. Trwy hyn, sicrhaodd Asclepiodotus ei hun yn frenin, ac efe a deyrnasodd ddeng mlynedd, pryd y cododd Coel Coedebawg mewn gwrthryfel yn ei erbyn, ac a'i lladdodd mewn brwydr.—*Brutiau Cymreig.*

ASSER MENYW, neu Asser Menevensis, oedd fynach tra dysgedig yn niwedd y nawfed a dechreu y degfed cant. Cafodd ei ddwyn i fynu yn Nhŷ Ddewi, a dywedir mai ei athraw oedd y trylen Ioan Erigena. Ymddengys fod Asser yn deilliaw o wehelyth tywysogaidd, sef oddiwrth Rhodri Mawr. Pan oedd yn ieuanc, rhoes arwyddion eglur nad dyn cyffredin fyddai, a sylweddodd hyny drachefn yn ystod ei fywyd gwir wasanaethgar. Cafodd nodded archesgob Tŷ Ddewi pan yn dechreu ar daith ei fywyd, yr hyn a fu'n achles ragorol iddo. Yr oedd yr archesgob Nofis yn gâr agos i Asser, ac felly naturiol oedd iddo fod yn gefn da. Aeth sî ar led am ddysg a duwioldeb Asser, a chlybu Alfred Fawr, brenin Lloegr, am ei rinweddau, a gyru a wnaeth i Dŷ Ddewi genadau i erfyn arno dalu ymweliad â'i lys ef. Ar ol cryn ymbil, myned a wnaeth, a chafodd dderbyniad mwyaf croesawgar gan y brenin. Cymerth hyn le yn nghylch y flwyddyn O.C. 880. Yn swydd Wilts yr oedd y llys yn aros y pryd hwn, mewn lle o'r enw Dene. Ar ol tario enyd yn y lle, bwriadodd Asser ddychwelyd i'w fynachlog yn Nghymru, ond Alfred ni fynai glywed son am hyn, ac erfyn arno'n galed a wnaeth am iddo aros o hyny allan yn ei lys; ond ni wnai Asser hyny gan yr ystyriai fod gan y wlad a'i magodd hawl cyflawn i bob dysg a dawn a feddai, ac mai ei ddyledswydd pendant oedd dychwelyd a gweithio yn yr eglwys yn ngwlad ei enedigaeth. Ceisiodd y brenin ganddo wed'yn ranu ei amser cyd-rhwng y llys a'i fynachlog yn Nhŷ Ddewi, gan dario chwe' mis yn y naill a'r un faint yn y llall, ond ni chydsyniai Asser â hyn ychwaith, hyd nes y cai gydymgynghori hefo'i frodyr yn y fynachlog. Pan oedd yn d'od adref oddiwrth Alfred, aeth yn sâl, a bu dan orfod aros yn Nghaer Wynt am flwyddyn gron heb syflyd, a phan ddaeth yn dipyn bach yn well, cefnodd ar y lle ac unionodd am Dŷ Ddewi. Rhoes y pwnc o flaen ei frodyr, a chymhellasant hwy ef i fyned, oblegyd yr oeddynt hwy a'u llygaid yn eu penau. Yr oedd Hyfaidd tua'r pryd hwn yn goresgyn ac yn gorthrymu eu tiroedd yn y De, a da oedd cael cefn fel Alfred Fawr i wastrodedd cenaw creulon cyfrwys fel Hyfaidd. Cynghorasant ef i fyned, ac felly y bu; ymaith yr aeth, gan lwyr fwriadu aros ond tri mis gydag Alfred,

Digitized by Google

a thri mis drachefn yn ei hoff fynachlog. Pan aeth i Loegr yr oedd y brenin yn aros mewn lle o'r enw Leonford, a phan gyrhaeddodd yno cafodd ei dderbyn yn y modd serchusaf a mwyaf cyfeillgar. Arosodd yno am wyth mis, medd rhai, am flwyddyn medd eraill, yn darllen llyfrau da o lyfrgell y brenin. A'r nos Nadolig gyntaf iddo yn y llys, rhoes Alfred iddo fynachlog fawr ac ysplenydd Amesbury yn waddol, yn nghyda lle o'r enw Bonuwille, neu Banwell, yn Ngwlad yr Haf, ac hefyd *pall* (neu wisg offeiriadol) o sidan gostus, a chymaint ag a fedrai dyn gario'n faich o arogl-darth. Yn fuan ar ol hyn, rhoed eglwys Caeresg iddo, ac yn union gwnaed ef yn esgob Sherburn. Y mae tipyn o anghytundeb yn y croniclau o barth i'r digwyddiad olaf hwn. Myn rhai na fu ond esgob mewn enw yn unig, tra y maentumia eraill iddo fod yn y swydd dros dro, ac yna ei rhoddi ymaith gan gadw ond yr enw yn unig. Ymddengys iddo fyw y rhan fwyaf o'i oes rhwng y fynachlog a'r llys, mewn parch ac urddas arbenig yn y naill a'r llall. Yr oedd Alfred Fawr yn bur hoff o lenyddiaeth, ac yn honi bod yn awdwr o gryn fri. Cyfieithodd "Fugeilegion ysprydol St. Gregory," ac yn ei lythyr rhagarweiniol i'r llyfr a enwyd, y mae'n talu gwarogaeth i Asser am y cymhorth a dderbyniodd ganddo. Dywed rhai, er hyny, nad oedd a wnelai Alfred Fawr yn gymaint â'r llyfr ag oedd a fynai Asser ag ef; ac nad oedd y brenin, ond fel llawer un o'i flaen ac ar ei ol hefyd o ran hyny, ond ymhonwr yn byw ar waith rhai eraill, ac mai Asser oedd y dyn mewn gwirionedd. Fodd bynag, nid oes dadl nad oeddynt eu deuoedd yn gyfeillion pur. Rhoes Alfred yn ei lythyr cymun amryw roddion i Asser, ac ysgrifenodd yr esgob hanes *Bywyd* y brenin, yn yr hwn y ceir golwg ar y wedd y byddai'r ddau yn treulio eu hamser pan fyddent yn nghyd. Y mae'r llyfr yn dangos chwaeth a medr arbenig, ac yn brawf fod mynach Tŷ Ddewi yn ysgolor coeth. Argraffwyd y llyfr am y tro cyntaf yn y flwyddyn 1574, a daeth o leiaf ddau argraffiad wed'yn ohono, sef un yn y flwyddyn 1683, o dan olygiad y dysgedig Camden, ac un arall yn Rhydychain yn 1772. Ymddengys fod gan Asser ddylanwad mawr iawn hefo'r brenin ac mai ef a fu'r offeryn penaf i beri i Alfred noddi Prif Ysgol Rhydychain. Barna rhai fod yno fath o Fangor cyn hyn, ac nas gwnaeth Asser ond medru helaethu a chynyddu'r hen waddoliadau, a pheri yni newydd yn nuil athrawus y lle. Hyn sydd amlwg, i ddiwygiad trwyadl gymeryd lle yn y drefn o addysgu, gan i Asser ranu'r gwahanol wyddorion o dan eu penau neilldual, sef Gramadeg neu ieithoedd, y Celfau, a Difinyddiaeth. Asser ei hun a fu'n dysgu Gramadeg a Rheitheg; John, mynach o Dŷ Ddewi, a hyfforddiai mewn seryddiaeth a daearfesuriaeth; ac un arall o'r enw Ioan, o Dŷ Ddewi eto, a ddysgai Resymeg, Musig a Rhifyddiaeth: tra'r oedd Difinyddiaeth o dan arolygiad Neotus a Grimbald. Dyna ddechreuad adferol yr Athrofa ysplenydd hon, a hyny o dan lygaid ac yn nglyn ag enw plant athrylithgar Gwyllt Walia. Bu farw ar ol oes hir o les a daioni yn y flwyddyn 906, a thyna fel y dywed *Brut y Tywysogion:* "Oed Crist 906; y bu farw Asser ddoeth archesgop y Brytaniaid," a thaera llawer iddo fod yn archesgob Tŷ Ddewi am ddwy flynedd, sef o'r pryd y bu farw Gorchwyl hyd adeg ei farwolaeth ei hun. Nid oes fawr o le i anmheu, fel y profa awdwr hanes ei fywyd yn y *Biographiâ Britannica*, nad yr un person oedd Asser y Mynach, Asser yr Esgob, ac Asser "Archesgop y Brytaniaid." Yr unig beth o bwys a welaf fi ydyw fod Cronicl y Saeson yn gosod ei farwolaeth yn y flwyddyn 910, ond yn

Digitized by Google

Mrut y Saeson dyma'r hyn a ddywedir.—"Anno ixc vi., y bu varw asser archesgop y bruthanyait." Ysgrifenodd Asser gryn lawer o lyfrau, medd rhai, ac nid oes dim llawer o ddadl yn mysg neb nad efe oedd awdwr y llyfrau canlynol. 1. "Life of King Alfred." 2. "Annales Britanniœ." 3. "Aurearum Sententiarum Enchiridion." 4. "A Book of Homilies." 5. "A Commentary on Boethius." 6. "A Volume of Letters." Ofer ydyw myned dros yr haeriadau moelion a ddygodd rhai dros eu cred mai yr un oedd efe a'r Bardd Glas o'r Gadair, a Geraint Fardd Glas, oblegyd ni feddant ar ddim seiliau i'w coelion. Deuir ar ei draws yn ei le priodol.

ATHRWYS, a elwir hefyd Athrius ac Adras; mab ydoedd i Meurig ab Tewdrig, brenin Morganwg. Efe a ddilynodd ei dad i frenhiniaeth Gwent a Morganwg oddeutu'r flwyddyn 575. Camgymerodd rhai ef am yr enwog frenin Arthur, oherwydd tebygolrwydd enw y ddau i'w gilydd. Mab iddo ef oedd Morgan Mwynfawr, yr hwn a'i dilynodd fel brenin, ac oddiwrth y Morgan hwn y cafodd Morganwg ei henw. Gadawodd Athrwys diroedd i eglwys Llandaf; gwelir copi o roddiad y tiroedd hyny yn y *Liber Landavensis.—Wms. Em. Welsh.*

AUBREY (Syr John, Bar.), D.C.L., yr hwn a gynrychiolodd sir Buckingham ryw hyd yn y senedd, ac wed'yn dros wahanol fwrdeisdrefi. Penodwyd ef yn arglwydd y Llyngeslys yn 1782, ac yn arglwydd y Trysor neu Ganghellydd yn 1783, yr hon swydd a roes i fynu yn 1789. Bu farw Mawrth 1af., 1826, pan oedd yn cael ei ystyried yn dad y Senedd; a'i nai ef, brawd hynaf i Thomas Aubrey, Ysw, yw y barwnig presenol. Y mae y teulu yn awr wedi gadael hen drigfa Gymreig ei hynafiaid, Llantryddyd, yn mro Morganwg, i syrthio yn adfeilion, gan fod ganddynt ddau balas arall yn Lloegr.—Burke's Peerage and Baronetcy. Meyrick's Donne's Heraldry.

AUBREY, (William), LL.D., oedd yn deilliaw oddiwrth Syr Reginald Aubrey, a gynorthwyodd Bernard de Newmarch i ddarostwng y Cymry, ac a gafodd diroedd Abercynfig a Slough fel ei ran o'r anrhaith. Yr oedd Dr. Aubrey yn broffesydd o'r gyfraith yn Rhydychain, yn un o gynghor y Terfynau, ac yn un o feistriaid yr Ymofynion i'r frenines Elizabeth. Ei wraig oedd Welliford, ferch i John Williams o Tainton. Bu farw Gorph 23ain, 1595. Efe ydoedd boncyff-dad yr Aubreyaid o Lantryddyd, yn sir Forganwg, trwy i'w fab ieuangaf, Syr Thomas Aubrey, briodi Mary, ferch ac aeres i Anthony Mansel, Ysw., o'r lle hwnw; a mab i hwnw, Syr John Aubrey, oedd yn byw yn Llantryddyd yn amser y rhyfel gwladol, a'r weriniaeth, ac a fu yn neillduol o aiddgar dros y deyrniaeth, nid trwy gymeryd arfau o blaid y Siarliaid, eithr trwy noddedu, yn ei balas yn Llantryddyd, holl gyfeillion y deyrniaeth, a ystyrid wedi eu hymddifadu o fywioliaeth, yn enwedig gwyr eglwysig, trwy eu troi o'u lleoedd, o blwyfau neu golegau. Yr oedd palas Llantryddyd fel math o goleg y pryd hyny, gan nifer gwyr o ddysg a ymdeithient yno. Yno y cafodd yr archesgob Usher noddied, gyda'i deulu, pan y gorfu arnynt adael Castell Caerdydd,—lle yr oedd mab-yn-nghyfraith yr archesgob yn llywodraethu—ac yr ymosodwyd arnynt yn arw gan y werin, pan oeddynt yn ceisio tynu tua Chastell St. Donets, am nodded. Fel gwobr am ei letygarwch i wŷr ei blaid, darfu i Siarl II., agos cyn gwybod ei fod yn safadwy ar ei orsedd, ei greu Gorph. 23ain, 1660, yn Farwnig. Bu Syr John Aubrey, y trydydd Barwn, yn aelod Seneddol dros Gaerdydd, a'r hwn a fu farw yn 1743. Gorwyr i hwnw oedd Thomas Aubrey, Ysw., a fu

Digitized by Google

yn Filwriad yn y fyddin ar hyd ystod y rhyfel Americanaidd ; ac wedi hyny a fu yn aelod o'r Senedd dros Wellington ; ac ewythr iddo, frawd i'w dad, oedd y diweddar Syr John Aubrey, Bar., D.C.L.

BACH, mab ydoedd i Carwed, tywysog gogleddol a ddaeth i waered i Wynedd yn ystod y seithfed cant, ac a ymroes i fyw yn grefyddol. Dywedir mai efe a sefydlodd Eglwys Fach, yn swydd Dinbych, ac y mae tradiodiad yn sòn mai yn y Clochdy yno y trigianai.

BADDY (Parch. Thomas), cyfieithydd amrai fân lyfrynau i'r Gymraeg, oedd frodor o Ogledd Cymru. Ymsefydlodd fel gweinidog ar eglwys Bresbyteraidd Dinbych tua'r flwyddyn 1693, a bu yn gweinidogaethu yno hyd ei farwolaeth yn 1729. Ei lyfrau cyfieithiedig oeddynt :—1. "Hymnau Sacramentaidd, 1703;" 2. "Doolittle ar Swper yr Arglwydd, 1703;" 3. "Wadsworth ar Hunan-ymholiad, 1713;" 4. "Cynghaneddiad o Ganiadau Solomon, gyda Nodiadau Eglurhaol, 1725;" 5. "Dr. D. Williams ar wagedd Mebyd ac Ieuenctyd, 1727."—*Dr. Rees' Nonconformity.*

BAGLAN, oedd fab i Dingad ab Nudd Hael, o Tefrian, ferch Llewddyn Lluyddog, o ddinas Eiddin yn yr Alban, sef Edinburgh. Dywedir mai yn Nghoed Alun, yn Arfon, y trefai, ac iddo ef a'i frodyr Gwytherin, Tegwyn, Tefriog, a'u chwaer Aleri, ymuno a Bangor Enlli. Dyna ddywed *Bonedd y Saint* am dano, ac iddo ef mi a dybygaf y cyflwynwyd Llanfaglan yn Arfon, oblegid y mae ei enw eisoes wedi cael ei gysylltu hefo Maenor Alun, ac yn y faenoriaeth hono ar lan afon Menai y saif Llanfaglan Blodeuai yn gynar yn y chweched cant.

BAGLAN. Mab ydoedd ef i Ithel Hael, tywysog o Lydaw, a brawd i Mael, Ethrais, Tanwg, Sulien, Tegwyn, Llewin, Llynab, Tegai, Trillo, Fflewin, Gredifael, Twrog, "a'u heglwysi yn Ngwynedd, lle buant yn fawr eu dwyfoldeb a dedwydd eu buchedd." Yr oedd y rhai hyn yn geraint i Gadfan, ac yn deilliaw o Emyr Llydaw. Tueddir fi yn lled fawr i goelio, mai chwaer i Emyr oedd gwraig Ithel Hael, a bod ei blant felly yn gefndryd hefo Chadfan, oblegyd Gwen Teir-bron ei fam, yr hon oedd ferch i Emyr Llydaw. Mewn un o *Achau'r Saint* ni sonir am rai ag sydd yn y rhestr hon. Y mae bron yn annichonadwy weithian fedru penderfynu i ba un o'r ddau sant y mae'r eglwysydd yn Arfon a Morganwg wedi cael eu cyflwyno ; oblegyd "yng Ngwynedd" yr oedd eglwysi meibion Ithel Hael, ebe'r Cofion, ac yno mae Llanau Twrog a Tanwg, Tegai a Llechid, Fflewin a Gredifael, &c., ac y mae'r hen ysgrifau yn rhoddi cyflwyniad y naill le fel y llall i bob un o'r ddau. Yr oeddynt eu deuoedd yn gyfoeswyr, ac yn eu blodau yn y chweched cant.

BAKER, (David), a anwyd yn y Fenni, yn sir Fynwy, yn y flwyddyn 1575. Goruchwyliwr ystâd Arglwydd Fenni, ydoedd ei dad ; ac yr oedd ei fam yn chwaer i'r Dr. David Lewis, barnwr y Llyngeslys. Cafodd egwyddorion ei ddysgeidiaeth yn Christ's Hospital yn Llundain, ac oddiyno efe a ymsymudodd i Neuadd Broadgate, Rhydychain, yn y flwyddyn 1590. Yr oedd bwriad ei dad ei ddwyn i fynu i'r Eglwys Sefydledig, ond gan i ryw anhawsderau luddias, efe a anfonwyd i efrydu y gyfraith, i'r Middle Temple cyn cyraedd graddau. Efrydodd y gyfraith yn ddiwyd, gyda phob arwyddion o oes lwyddianus. Yr oedd y pryd hyn yn cael ei aflonyddu gan dybiau Atheistaidd ; ond darfu i wareligaeth rafluniaethol o berygl anfad weithio ynddo gyfnewidiad iachusol ; a bu yn nodedig mewn ymroddiad crefyddol hyd ddiwedd ei oes. Mewn canlyniad i ryw lyfrau pabaidd syrthio i'w ddwylaw, efe a

Digitized by Google

gofleidiodd y grefydd hono, ac wedi cydgyfarfod â rhai mynachod Benedictaidd yn Llundain, perswadiwyd ef i fyned gydag un ohonynt i'r Eidal, ac yn Padua, efe a dderbyniwyd i Eglwys Rhufain, gan Abad St. Justinia, yn y flwyddyn 1605, pan y newidiodd ei enw, yn lle David yn Augustine Baker. Yn fuan dychwelodd adref, pan y cafodd ei dad yn gorwedd ar ei wely angau, a llwyddodd i'w berswadio, cyn ei farw, i ymuno â Phabyddiaeth. O hyny allan, ymroddodd yn aelod llafurus o'i urdd, a gwnaed ef yn fath o benaeth ar fynachlog yr urdd yn Dieulward, yn Loraine. Bu flynyddau lawer ar waith yn olrhain cofnodion yr urdd Benedictaidd; ac yn 1624, aeth i Douay, a gwnaed ef yn gyfarwyddwr ysprydol, a chyffeswr yr hen Faman Benedictaidd Saesonig yn Cambray, lle y bu naw mlynedd. Yr oedd yn awdwr llawer o weithiau ar dduwinyddiaeth ymarferol, ond ymddengys mai mewn ysgrifau y gadawyd hwynt, mewn naw cyfrol unplyg mawrion, yn Lleiandy Cambray. Yr oedd hefyd yn gyfreithiwr rhagorol yn y gyfraith gyffredin, ac yn hynafiaethydd dysgedig. Gadawodd hefyd chwe' chyfrol o ysgrifau ar hanesiaeth Eglwysig, defnyddiau pa rai a gasglodd o'r llyfrfaoedd a'r cofnodau goreu, yn yr hyn y cynorthwywyd ef gan Camden, Cotton, Spelman, Selden, ac Esgob Goodwin, gyda'r rhai oll oedd yn eithaf adnabyddus. O'r casgliadau hyn y cymerwyd defnyddiau yr "Apostolatus Benedictenorum in Anglia," a gyhoeddwyd gan Reynar, ac hefyd ei ddefnyddiau i Hanes Eglwysig Llydaw, a gyhoeddwyd gan Cressy; yr hwn a gyhoeddasai o'r blaen y "Sancta Sophia; or Directions for the Prayer of Contemplation," ac wedi ei dynu allan o fwy na deugain o draethodau a ysgrifenwyd gan Baker. Cyfieithodd weithoedd llawer o awdwyr crefyddol o'r Lladin, y rhai oeddynt yn nghadw mewn tair cyfrol unplyg mawr, ond a ddinystriwyd yn ymarheithiad Capel Pabyddol St. Ioan, yn Clerkenwell, yn y flwyddyn 1688. Bu Baker farw yn Holborn, yn Awst y flwyddyn 1641, yn 66ain oed, a chladdwyd ef yn Eglwys St. Andrew,

BANGOR, (Hugh), bardd a flodeuai yn ol y "Cambrian Biography" rhwng 1560 a 1600.

BARLOWE (William), mab ydoedd i'r Dr. William Barlowe, esgob Tŷ Ddewi. Ganwyd ef yn sir Benfro; addysgwyd ef yn Balliol College, Rhydychain; ac yn 1564 enillodd radd yno mewn celfyddyd. Wedi gadael y coleg, teithiodd lawer ar y byd, a daeth yn fedrus yn y gelf o Forwriaeth. Tua'r flwyddyn 1573, ymgymerodd ag urddau eglwysig; a chodwyd ef yn gyflym yn yr eglwys. Gwnaed ef yn gaplan i'r tywysog Harri, ac yn 1614 dyrchafwyd ef yn arch-ddeon Salisbury. Efe oedd y cyntaf a ganfu y gwahaniaeth rhwng haiarn a dur, a'u gwahanol dymherau at ddybenion tynfaol; a'r cyntaf a ysgrifenodd ar natur a chyneddfau y tynfaen *(loadstone)*; a bu hefyd yn dra llwyddianus i ddarganfod llawer o ddirgelion eraill mewn maen-dyniad. Ei lyfr cyntaf oedd, "The Navigator's Supply; containing many things of principal importance to navigation, with divers instruments framed chiefly for that purpose: London, 1597." Ei ail lyfr ydoedd, "Magnetical Advertisement; or divers pertinent observations, and approved experiments concerning the nature and properties of the Loadstone: London, 1610." Gwnaed rhai sylwadau diraddiol ar y llyfr hwn gan Dr. Ridley o Gaergrawnt; ac atebodd Barlowe y Dr. mewn iaith, a barnu oddiwrth y wyneb-ddalen, lawn mor chwerw ag yntau. Bu farw Mai 25ain, 1625, a chladdwyd ef yn eglwys Easton.

BARNES, (Edward), llenor Cymreig, oedd enedigol o Lanelwy, ac

Digitized by Google

yn ei flodau tua chanol y ganrif ddiweddaf. Ceir ychydig o'i waith mewn llyfr a gyhoeddwyd yn 1465, tan y teitl "Cyfaill i'r Cymro," wedi ei gasglu gan Wm. Hope, o Fostyn. Ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd, ac ymroddodd â'i holl egni i fod o wasanaeth i'w wlad a'i genedlaeth, trwy gyfieithu :—1. "Llythyr o Gynghor Difrifol oddiwrth Weinidog Efengyl at ŵr mewn cyflwr o fethiant ac atiechyd. Gan y Parch. Mr. De Covey, 1784." 2. "Myfyrdodau Hervey, y rhan gyntaf, o gyfieithiad Iorwerth Barnes, 1785." 3. "Coron gogoniaut tragwyddol." 4. "Pregeth y Parch. T. Priestley, ar farwolaeth arglwyddes Selina, iarlles Huntingdon; a gyfieithwyd gan Iorwerth Barnes." Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn sir Drefaldwyn.

BAROC. Er nad oes dim gair o son am y sant hwn yn *Achau'r Saint*, nac yn un ysgrif Gymraeg arall ar a welais, eto, y mae'r hanesydd Cressy yn gwneud y crybwylliad canlynol am dano. "Meudwy ydoedd, a gwneir coffëion am dano yn Nhalaeth yr Essyllwyr yn Ngwlad Forgan." Claddwyd ef, ebe'r un awdwr, yn Ynys Barry ar gyffiniau y wlad a enwyd, ac ebai drachefn, "Yn ein Merthyrdraith dywedir fod y Meudwy sanctaidd hwn yn deilliaw o uchel-waed Brutanaidd, ac iddo ymgymeryd â'r dull unigol hwn o fyw er mwyn cyrhaedd bywyd anfarwol, yr hyn a wnaeth ar y 29 o Dachwedd, O. C. 700, a chedwir ei wylmabsant ar y dydd hwnw." Y mae Giraldus Cambrensis yn "Muchedd Dewi Sant," yn adrodd chwedlig dra difyr am dano. Dywed fod Baroc yn Abad Cork yn yr Iwerddon, ac iddo dd'od i dalu ymweliad a Dewi. Pan yn Menyw cododd gwynt croes arswydus a methai yn lân loyw a chroesi yn ol. Fodd bynag, benthycodd ryw ddiwrnod, geffyl ei gyfaill, a marchogodd ar draws y môr yn ddidramgwydd. Dysgybl oedd i Gwalchmai, yr hwn a gladdwyd mewn ynys yn ngenau yr afon Hafren. Dywedir fod eglwys Bedwas yn sir Fynwy wedi ei chyflwyno i'w nawdd ef.

BASSETT (CHRISTOPHER). Ganwyd y boneddwr ieuanc duwiol hwn yn Aberddawen, plwyf Penparc, Morganwg, tua'r flwyddyn 1753. Ei rieni oeddynt Christopher Bassett, Ysw., ac Alice ei wraig. Derbyniodd ei addysg foreuol yn y Bontfaen, pryd y ddadblygodd dymher addfwyn a charuaidd, a deall cryf a bywiog. Pan y daeth ei amser i fynu yn yr ysgol hon, ei dad er mwyn ei brofi a roddes ddewis iddo a'i myned i Rydychain ynte aros gartref ar ei dir ei hun. Dengys ei atebiad fod crefydd wedi cael argraff yn fore ar ei feddwl, "Yr wyf yn hyderu," meddai, "y caf y fraint o ddweyd y gwir tros Dduw wrth fy nghydgreaduriaid." O ganlyniad, danfonwyd ef i Goleg yr Iesu, Rhydychain, a graddiwyd ef yno cyn ymadael yn A.C. Yn fuan, derbyniodd alwad i fod yn gurad i'r enwog Wm. Roumaine, yn St. Anne's, Blackfriars, Llundain; ac urddwyd ef gan Esgob Llundain. Yr oedd efe hefyd yn y cyfamser yn llanw y swydd o ddarlithydd i Eglwys St. Ethelberg. Ymledai ei boblogrwyddd yn gyflym, a meddylid yn uchel am dano fel gwr ieuanc duwiol a thalentog; ond pan yn anterth ei lwyddiant, cafodd dwymyn drom yr hon a adawodd ei heffeithiau arno y gweddill o'i oes. Tybiai ei rieni nad oedd awyr y Brifddinas yn dygymod âg ef, ac ar eu cais taer hwy dychwelodd i'w wlad ei hun. Yn fuan wedi ei ddychweliad, agorwyd drws defnyddioldeb iddo i fod yn gurad Eglwys St. Ffagan, gerllaw Caerdydd. Yma, daw llinell euraidd arall yn nghymeriad Bassett i'r golwg; yr oedd ei enaid yn rhy fawr i gael ei gyfyngu rhwng erchwynion plaid, ac yn rhy dduwiolfrydig i ddiogi lle bynag y cai gyfleusdra i wneud daioni. Yr

Digitized by Google

oedd Methodistiaeth Galfinaidd y pryd hwn yn ei mabandod, ond oherwydd cydnawsedd ddifrifol tymher ei gweinidogion â thymher y curad ieuanc, enynwyd serch cydrhyngddynt, ac ni bu cywilydd ganddo o hyny allan gael yr enw dirmygus o "Fethodus" os gallai trwy hyny hefyd lesau eneidiau dynion. Pan ddaeth i guradiaeth St. Ffagan cymerodd dŷ dan ardreth—tŷ yr arferai ieuenctyd y pentref gyfarfod ynddo i ddawnsio, a defnyddiwyd y tŷ i ddybenion cwbl wahanol; cynelid ynddo bob moddion o ras, a pharhaodd y Methodistiaid i ymgynull yn y tŷ hwn hyd 1837, pan yr adeiladasant gapel iddynt eu hunain. Gofalai Mr. Bassett gymaint am achos Duw yn yr ystafell hono ag am ei guradiaeth—un achos yr ystyrid hwy ganddo, sef achos y Cyfryngwr, ac achos eneidiau dynion, achos y teimlai efe rwymau i wneud ei oreu erddo yn mhob gwedd a fyddai arno. Ar ei gais ef, deuai rhai o'r gwyr mwyaf cyhoeddus perthynol i'r enwad Methodistaidd yn eu tro i bregethu yn yr ystafell grybwylledig; ac ystyrid Mr. Bassett tua'r adeg hon lawn cymaint o Fethodus ag o Eglwyswr. Byddai yn pregethu yn fynych yn nghapelau yr enwad ymneilldnol hwn mewn gwahanol barthau o'r wlad; ac y mae son ddarfod iddo unwaith beth bynag gymeryd taith trwy'r Gogledd yn nghwmni un o'i gweinidogion mwyaf cyhoeddus. Dywed awdwr *Methodistiaeth Cymru*, pan yn son am orfoledd a dorodd allan yn Llandyrnog, Dyffryn Clwyd, tan weinidogaeth naill a'i Rowlands, neu Jones Llangan, fod y Parch. Christopher Bassett, A.C., o sir Forganwg, yn mysg eraill, "yn neidio ac yn moli Duw;" ac adroddai yr offeiriad ieuanc y penill canlynol:—

Yn y rhyfel mi arosaf,
Yn y rhyfel mae fy lle;
Boed fy ngenau wrth y nefoedd,
Boed fy llygaid tua'r ne':
Doed y gonowest pryd y delo,
Disgwyl wrth fy Nuw a wnaf;
Nes o'r diwedd wel'd yn trengu'r
Pechod ydoedd bron a'm lladd.

Pa fodd bynag, ni bu ei arosiad yn St. Ffagan ond byr, ond nis gwyddis pa ysprydoedd oedd ar waith yn ei symud oddiyno. Yn mhen y flwyddyn, sef yn 1779, ymadawodd, a bu am yspaid wedi hyn yn gurad eglwys Porthcerri, gerllaw tŷ ei dad. Yn fuan wedi myned yno, ymddangosodd arwyddion amlwg o'r darfodedigaeth arno—yr oedd ei ei sel danbaid a'i weithgarwch di-ildio tros ac yn ngwaith ei Arglwydd yn dechreu gadael eu hol ar ei gyfansoddiad—gwanaidd ar y goreu; ac i brysuro'r diwedd, torodd wythien o'i fewn, a chollodd lawer o waed. Cynghorai y meddyg ar iddo gael ei gymeryd i Gaerodor, er mwyn iddo gael rhoddi prawf ar ddwfr brwd ffynonau yr ardal hono; a theimlai y claf ei natur yn adfywio cymaint tan eu heffeithiau nes y tybiai fod rhagor o fywyd ar ei gyfer. Ond nid oedd yr adferiad byr hwn ond fflachiad mellten ar gyfnos—un o'r tybiau lledrithiog hyny yn mha rai y mae'r darfodedigaeth yn dystaw a sicr feddianu ei ysglyfaeth. Gwelai y craffus fod ei nerth yn darfod, a'i gam yn myn'd yn fyrach bob dydd. Yr oedd ei enaid yn y cyfamser yn derbyn yn helaeth o ddyddanwch yr iachawdwriaeth. Ymwelodd y Parch. D. Jones, o Langan, ag ef yn gystudd, ac adrodda a ganlyn am dano:—"Trodd ein hymddiddan un tro ar bethau y wlad uwchlaw haul, a chefais le i farnu nad gwr dyeithr oedd efe yn y wlad hono, ond ei fod yn dra chynefin mewn llawer rhan o honi, a'i fod yn cael hyfrydwch mawr wrth dderbyn newyddion rhagorol oddiyno yn fynych. Dywedai lawer am iaith y wlad, a gwelais yn eglur fod ganddo sicrach gafael ar Arglwydd y wlad hono nag oedd gan yr hen *gonsumsion* arno ef. Gyda gwyneb siriol, dywedai wrthyf fel y canlyn, 'Gwn ar brydiau beth yw mwynhau tawelwch sylweddol yn

Digitized by Google

gwyneb fy holl drueni!'" Tra yn Nghaerodor, arosai yn nhŷ e' hwaer, yn Redcliffe St., wrth yr hon dywedai un diwrnod, "Yr wyf yn gweled yn awr, nas gallaf bregethu byth mwyach, ond os myn Duw imi wellhau rhyw ychydig, byddaf yn foddlawn i gadw drws yn ei dŷ ef." O'r diwedd, daeth y "*goncwest*," "disgwyliodd wrth ei Dduw," a chafodd weled "tranc y pechod ag oedd bron a'i *ladd*." Bu farw yn Nghaerodor, Chwef. 8fed, 1784, yn 31 mlwydd oed, a dygwyd ei gorph tros y môr i'w gladdu yn meddrod y teulu yn mynwent St. Athan Traddododd y Parch D. Jones ei bregeth angladd y Sabbath canlynol oddiar eirian a fynych adroddai y gwr ieuanc yn ei glefyd olaf, sef "Nid wyf yn dywedyd wrthyt, hyd seithwaith, eithr hyd ddeng waith a thrugain seithwaith." Felly y bu farw y boneddwr ieuanc ucheldras hwn, yn *enwog* iawn am ei dduwioldeb.

BAXTER (William), yr ysgrifenydd galluog ar ieithyddiaeth, ydoedd nai ac etifedd i'r enwog dduwinydd ac anghydffurfiwr Richard Baxter. Ganwyd ef o rieni parchus iad tlodion yn Llanllugan, Maldwyn, yn y flwyddyn 1650. Ni chafodd ond y nesaf i ddim o addysg foreol; a phan yr aeth, yn ddeunaw oed, i Ysgol Harrow, ni fedrai air ar lyfr, ac ni ddeallai air o unrhyw iaith ond y Gymraeg. Eithr defnyddiodd ei amser rhagllaw mor ddygn a doeth, fel y daeth yn ŵr o wybodaeth helaeth annghyffredin. Prif bleser ei astudiaeth oedd hynafiaeth ac ieithyddiaeth, ac efe a ysgrifenodd amryw lyfrau ar y gwybodau hyn. Y cyntaf, a gyhoeddwyd yn 1679, ydoedd Ramadeg, tan y teitl, "De Analogia, sue Arte Latinæ Commentariolus," yr hwn a gynwysai lawer o syniadau hynod a gwreiddiol. Yn 1695 ymddangosodd argraffiad newydd o Anacreon, wedi ei ddiwygio a'i nodiadu ganddo ef; yr hwn a ail argraffwyd yn 1710 wedi ei ddiwygio, ac ychwanegiadau ynddo. Yn 1701, cyhoeddodd argraffiad o Horace; yr hwn a ail argraffwyd yn 1725. Yn 1719, ymddangosodd ei Eiriadur cywrain a dysgedig o Hynafiaethau Prydeinig, tan y teitl, "Glossiarum Antiquitatum, sive syllabus Etymologicus Antiquitatum veteris Britanniæ atque Hiberniæ, temporibus Romanorum." Ei waith nesaf oedd, "Glossary of Roman Antiquities," eithr ni chyhoeddwyd hwn hyd ar ol ei farwolaeth yn 1726; golygwyd ef gan y Parch. Moses Williams, a'i deitl ydoedd "Reliquiæ Baxterianæ, sive Willielmi Baxteri opera postuma." Ail argraffwyd hwn yn 1731, tan y teitl newydd o "Glossiarum Antiquitatum Romanorum." Eithr nid aeth yn mhellach gyda'r gwaith hwn na'r llythyren A.; y mae llawer o'r articlau yn faith a dysgedig. Cynygiodd Mr. Williams yn 1732 argraffu nodiadau Baxter ar Juvenal. Yr oedd hefyd wedi nodiadu Persius. Yr oedd efe yn feistr hollol ar y Gymraeg a'r Wyddelaeg, ac yn hyddysg yn yr ieithoedd Gogleddol a Dwyreiniol, yn nghyda'r Groeg a'r Lladin. Gohebai gyda gwyr dysgedicaf ei oes, yn enwedig gyda'i gydwladwr Edward Llwyd; rhai o lythyrau yr hwn a welir ar ddiwedd y gwaith olaf a enwasom. Dysgu ieuenctyd oedd ei waith y rhan fwyaf o'i oes. Bu yn cadw ysgol fwrddiol am flynyddau yn Tottenham, Middlesex, o ba le y dewiswyd ef yn athraw ar y Mercers' School, Llundain. Bu yma am ugain mlynedd, a rhoddodd y swydd i fynu ychydig cyn ei farwolaeth, yr hyn a gymerth le yn Mai, 1723, pan oedd efe yn yr 73ain oed.

BAYLY (Lewis, D.D.). Ganwyd ef yn nhref Caerfyrddin, a derbyniodd ei addysg athrofaol yn ngholeg Exeter, Rhydychain. Yn 1611, yr oedd efe yn weinidog Evesham, yn swydd Worcester, yn

Digitized by Google

gaplan i'r tywysog Harri, a gweinidog eglwys St. Matthew, yn heol Friday, Llundain. Yn mhen dwy flynedd, derbyniodd ei radd mewn duwinyddiaeth. Yr oedd ei boblogrwydd fel pregethwr tua'r amser hwn mor fawr fel y gwnaed ef yn gaplan i Iago I., yr hwn a'i dyrchafodd yn Esgob Bangor, ac urddwyd ef i'r swydd yn Lambeth, Rhagfyr 8fed, 1616. Mehefin 15fed, 1621, traddodwyd ef i garchar Ffleet, am ba drosedd nis gwyddis, eithr tybir mai am rhyw syniadau o'i eiddo ar briodas y tywysog Harri gyda Infanta yr Ysbaen. Pa fodd bynag, ni bu ei garchariad ond byr. Efe oedd awdwr y traethawd rhagorol hwnw, "The Practice of Piety;" a'r fath oedd poblogrwydd y llyfr hwn fel erbyn y flwyddyn 1734, yr oedd wedi cyrhaedd y 59ain argraffiad. Ymddangosodd tri argraffiad o'r gwaith yn y Gymraeg; y cyntaf tan y teitl "Ymarfer o Dduwioldeb," argraffedig yn Llundain 1630. Cyfieithwyd ef hefyd i'r Ffrancaeg yn 1633; a'r fath oedd enwogrwydd y llyfr fel y cwynai John d'Espagne, awdwr Ffrengig, a phregethwr yn Somerset House, fod y rhan fwyaf o'r bobl gyffredin yn meddwl mor uchel o hono â'r Bibl ei hunan. Bu farw Dr. Bayly Hydref 23ain, 1631, a chladdwyd ef yn eglwys gadeiriol Bangor. Gadawodd o'i ol bedwar o feibion, yr ieuengaf o ba rai oedd

BAYLY (Thomas, D.D.) Addysgwyd ef yn Nghaergrawnt; ac wedi derbyn yno radd yn y Celfau, yn 1638 rhoddodd y brenin iddo is-ddeoniaeth Wells. Yn 1644, efe a enciliodd gydag offeiriad teyrngarol eraill i Rydychain; ac yn Awst y flwyddyn hono, graddiwyd ef yn A.C., a thrachefn yn fuan yn D.D. Yn 1646, cawn ef yn Nghastell Ragland, gyda'r Ardalydd Worcester, yr hwn a amddiffynai y castell tros y brenin yn erbyn y Gwerinwyr. Rhoddwyd y castell hwn i fynu yn Awst ar delerau tra manteisiol, y rhai yn benaf a luniesid gan Dr. Bayly. Oddiyno efe a deithiodd i Ffrainc a gwledydd eraill, gan ddychwelyd i Loegr y flwyddyn wedi marwolaeth y brenin Siarl I. Yna cyhoeddodd lyfr a alwai "Certamen Religosium; or, a Conference between King Charles and Henry, late marquis of Worcester, concerning religion in Ragland Castle, 1649." Condemniwyd yr awdwr yn uchel oherwydd y llyfr hwn am ei fod ynddo yn gogwyddo at Babyddiaeth. Tua'r un flwyddyn, ysgrifenodd Bayly hefyd y "Royal Charter granted unto Kings by God himself;" ac yn nglyn a hwn "A Treatise, wherein is proved that Episcopacy is Jure Divino." Yr oedd y gwaith hwn yn hollol anghydnaws ag elfenau y Werinlywodraeth, a'r awdwr o'r herwydd a draddodwyd i garchar Newgate. Tra yn ngharchar, efe a ysgrifenodd lyfr dan y teitl, "Herba Parietus; or the wall flower, as it grows out of the Stone chamber belonging to the Metropolitan Prison, which is partly true, partly romantic, morally divine, 1650." Gyda ei fod wedi cyhoeddi y llyfr hwn, llwyddodd i ddianc o'r carchar, a ffodd i Holland, lle y cyhoeddodd ei hunan yn Babydd, ac y daeth yn orselog o blaid y grefydd hono. Sefydlodd wedi hyn yn Douay, lle y cyhoeddodd "The end to Controversie between the Roman catholic and Protestant religions, 1654." O Douay efe a symudodd i Itali, lle bu farw mewn dirfawr angen tua'r flwyddyn 1659.—*Wood's Ath. Oxon.*

BEDO ab Hywel Bach. Bardd a flodeuai yn gynar yn yr ail ganrif ar bymtheg.

BEDO HAFHESP. Bardd a flodeuai yn ol y *Cambrian Biography*, tua 1500; ond yn ol Jones yn ei *Welsh Bards* yn 1590 y blodeuai efe. Tybir mai brodor o sir Drefaldwyn ydoedd.

Digitized by Google

BEDO PHYLIP BACH. Bardd a flagurodd tua 1480. Mae coffa am naw o'i Gywyddau ar glawr y *Greal.* Un i ofyn Tarw Du, yn dechreu fel hyn :—

"Teyrn gwyr Ystrad Tywi,"

Un arall i "ddiolch am dano,"—

"Gwyr y tir a'r geiriau teg."

Un arall i "erchi Pawyn," yr hyn, gyda'r cyfeiriad at Ystrad Tywi, sy'n awgrymu mai Deheufardd ydoedd, gan mai Pawyn yw y gair arferedig yno am y Paun.

BEDWAS. Mab oedd ef i Helyg ab Glanawg, ac er fod plwyf yn Mynwy a elwir ar ei enw, i Baroc Sant, er hyny, y cyflwynir y lle hwnw.

BEDWINI. Archesgob Gelliwig yn Nghernwy oedd efe. Dyma fel y coffheir hyn yn y *Trioedd*, "Tri Archescobawt Ynys Prydain: Cyntaf, Llan Daf, o ddawn Lleurwg ab Coel ab Cyllin, yr hwn a roddes diroedd a braint Gwlad gyntaf i'r rhai a gystlynasant gyntaf â'r ffydd yn Nghrist; Ail, Caer Efrawc, o ddawn Cystynin amherawdr; sef oedd efe y cyntaf o'r amherodron yn Rhufain a ymgystlwynwys â'r ffydd yn Nghrist; Trydydd, Llundain, o ddawn yr amherawdr Macsen Wledig; a gwedi hyny buant Gaerllion ar Wysg, a'r *Gelliwig* yn Nghernwy, a Chaer Rianedd yn y Gogledd; ac yn awr y mae Mynwy a Chaerefrawg a Chor Gaint." (*Myf. Arch.* ii. 68). Yn Englynion y Clywed y mae triban o'i eiddo yr hwn a red fel hyn :—

"A glyweisti a gant Bedwini
Oedd esgob doniawg diffri?
Rhagreithia dy air cyn noi dodi."

BEDWYR ab Pedrawc, oedd un ó gadfilwyr dewraf y brenin Arthur. Efe oedd y pentrulliad yn llys y teyrn hwnw, a dewiswyd ef gan Arthur yn un o ddau farchog i'w ddilyn ef i fynydd St. Mihangel yn Llydaw, er mwyn dial marwolaeth Helen, nith i Hywel ab Emyr Llydaw, yr hon a ladratawyd ac a lofruddiwyd gan rhyw gawr anghenfilaidd; ac yn ol y *Brutiau Cymreig*, pan orchfyges Arthur wlad Ffrainc, rhoddes iarllaeth Normandi i Bedwyr. Efe hefyd a lywyddai adran o fyddin Arthur yn yn y frwydr enwog hono yn nyffryn y Seine, rhyngddo a'r Rhufeiniaid, tan Lucius; ac yno y lladdwyd Bedwyr trwy ei drywanu â gwaewffon gan Bocchus, brenin Media, yr hwn a gymerwyd drachefn yn garcharor, ac a losgwyd ar gorph yr hwn a laddasai, Claddwyd ef yn Bayeux, tref a adeiladasai ef i fod yn brif ddinas Normandi. Y mae rhamantau eraill, pa fodd bynag, yn gwahaniaethu cryn lawer oddiwrth y *Brutiau* yn hyn o beth, ac yn dweyd mai efe a ddewisodd Arthur pan yn marw i daflu ei gleddyf i'r gleddyf i'r llyn. (Gwel *Arthur* yn y llyfr hwn t. d. 39). Y mae tystiolaeth "Englynion y Beddau" hefyd am dano yn groes i'r *Brutiau* :—

Bedd mab Osfran yn Nghamlan,
Gwedi llawer cyflafan;
Bedd Bedwyr yn allt Tryfan.

Sonir am dano yn *Trioedd* 69 gyda'r "Tri Thaleithiawg Cad," sef Trystan, Huail, a Cai, y rhai a wisgent dalaith o gylch eu harleisiau mewn brwydr, a Bedwyr yn ben arnynt eill tri.

BELI ab Benlli Gawr, rhyfelwr enwog yn Ngwynedd tua diwedd y pumed cant. Cyfeirir at ei fedd yn "Englynion y Beddau :"—

Pieu y bedd yn y Maes Mawr,
Balch ei law ar ei lafnawr,
Bedd Beli fab Benlli Gawr.

Digitized by Google

Tybir mai yn Llanarmon yn Ial, sir Ddinbych, y mae y Maes Mawr.

BELI, mab hynaf y deddfroddwr enwog Dyfnwal Moelmud, ar farwolaeth yr hwn y cododd ymryson enbydus rhwng Beli a'i frawd Bran o barth y frenhiniaeth; eithr o'r diwedd heddychwyd y brodyr trwy gynghorion prydlawn a doeth y pendefigion; a phenderfynwyd ar ranu y deyrnas rhwng y ddau—rhoddwyd yr Alban i Bran, a'r gweddill a berthynai i goron Beli. Ond Brân, yr hwn oedd wr ieuanc o dymher sarug ac uchelfrydedd diderfyn, yn nodedig am wroldeb nad allai unrhyw anhawsderau ei ddigaloni, ac am haelder tuag at ei gyfeillion nad oedd unrhyw drysorfeydd, gan nad pa mor dywysogaidd fyddent, a allent ei gyflenwi, a daflodd ei hun yn fuan i ddyryswch ac anghydfod rhyngddo ef a'i frenin a'i frawd. Yn cael ei gynhyrfu gan y cymhellion arferol y rhai y gŵyr llyswyr a chenadwyr breninol mor dda pa fodd i'w cymhwyso at fynwes breninoedd, dechreuodd ymbarotoi i ymladd am y goron benbaladr. Er mwyn cryfhau ei hun i'r anturiaeth annaturiol yma, efe a fordwyodd i Norway, lle yr enillodd serch ac y priododd Anaor, merch Elsing, brenin Llochlyn. Yr oedd Anaor wedi ei dyweddïo yn flaenorol i Guthlac, brenin y Cersoniaid Cymreig, yr hwn, pan glywodd am yr anfri a daflwyd arno fel hyn, a ddarparodd lynges er dal Brân ar ei ddychweliad yn ol. Gan fod Beli wedi derbyn hysbysiad o'r fradwriaeth yn Mhrydain, efe a ymdeithiodd yn ddioed tua'r Gogledd, ac a gymerodd feddiant o'r holl ddinasoedd caerog ag oedd yn nhiriogaethau ei frawd. Pan gyd-gyfarfyddodd Guthlac a Brân gyda eu llyngesau, ataliwyd y frwydr gan dymhestl ffrochwyllt; ond dygwyddodd i'r llong yr oedd Anaor ynddi gael ei chymeryd yn y terfysg gan Guthlac. Parhaodd cynddaredd y dymhestl am bum' niwrnod, ar derfyniad yr hon yr aeth yn llong-ddrylliad ar Guthlac ac Anaor gyferbyn a Bamborough, lle yr oedd Beli wedi gwersyllu, yn barod i guro yn ol drais-ymgyrch ei frawd. Arweiniwyd hwy yn ddioed ato ef, a chawsant dderbyniad anrhydeddus. Yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyny, gan ei fod wedi gallu dal yn ddiogel yn ngwyneb y dymhestl, daeth Brân gyda'r gweddill o'i lynges arfog i mewn i Albania. Cyrhaeddodd y newydd ato yn fuan ddarfod cymeryd ei wraig, yn gyntaf gan Guthlac, ac wedi hyny gan Beli. Wedi ei greuloni gan yr hysbysiad hwnw, gwthiodd yn mlaen tua Bamborough, gan gyhoeddi y byddai iddo ddistrywio yr holl Ynys â thân ac â'r cleddyf, oni adferid iddo ei wraig ieuanc a'i deyrnas. Gan i Beli lwyr omedd cydsynio â'r gofynion hyn, cymerodd brwydr le yn Calater. Gorchfygwyd y Norsemyn gyda cholled o bymtheg mil o laddedigion, a gorfu ar Brân ffoi i Gál er mwyn achub ei fywyd. Yna Guthlac, wedi llawnodi cytundeb drwy ba un y daeth y Gerson Gymroaidd (Dacia, a elwid wedi hyny Denmarc), yn rhan o'r Ymherodraeth Brydeinig, a ollyngwyd ymaith gydag Anaor i'w deyrnas ei hun. Treuliodd Beli y saith mlynedd dilynol ar y gwaith o orphen y ffyrdd a ddechreuwyd gan ei dad. Gwnaed cyfraith i'w tafiu yn agored i bawb, brodorion ac estroniaid, ac i'w gosod ar yr un sail o ddiogelwch cysegredig ag a berthynai i'r afonydd a'r cysegr.

"Tri chyffredinion cywlad a gorwlad:—prif afon; prif ffordd; a chyrch golychwyd: ac yn nawdd Duw a'i dangnef y byddant y rhai hyny; cyd nas noether arf gan a'u cyrchont yn erbyn a gyfarfyddont: ac a wnelo hyny, ai brodor ai estron y bo, hawl galanas gan gwyn arno gan arglwydd y cyfoeth."

Yn y gyfraith hon y dechreuodd yr ymadrodd—"Prif-ffordd y

Digitized by Google

Brenin ;" y prif-ffyrdd hyn, ar ba rai yr oedd yn enaid-faddeu atal neb rhyw deithiwr neu gyflawni arno unrhyw drais, oeddynt naw ffordd Beli, wedi eu gosod fel hyn dan nawdd Duw a'r genedl.

Yn y cyfamser, wedi erchi yn ofer am gynorthwy gan freninoedd y Celtiaid, aeth Brân at Seguin, tywysog y Liguriaid yn Gâl. Cafodd groesawiad megys yr oedd yn gweddu i urddas ei enedigaeth ac i'r berthynas oedd yn bodoli rhwng Lliguriaid yr Alpau a Phrydain. O herwydd ei wasanaeth ar y maes derbyniai barch gan yr holl genedl, ac enillodd ei gymhwysderau personol iddo serch Rhonilla, unig blentyn y tywysog. Hwy a briodwyd: ac addawodd Seguin gynorthwyo ei fab yn nghyfraith i adenill ei lywodraeth yn Mhrydain, ac ar yr un pryd penododd ef i fod yn olynydd iddo ei hun ar orsedd Lliguria. Bu farw Seguin ar ddiwedd y flwyddyn. Pan esgynodd Brân i'r orsedd, rhanodd yn ddioed y trysorau a bentyrwyd gan yr hen frenin, rhwng y penaethiaid mwyaf dylanwadol yn ei diriogaethau newyddion, a thrwy hyny enillodd eu cydsyniad a'u cydweithrediad yn yr ymgyrch a fwriadai yn erbyn Prydain. Gwnaed cytundeb â'r Celtiaid am gael mynedfa rydd drwy Gâl; casglwyd lluoedd milwrol o bob parth, y rhai o'r diwedd a aethant ar fwrdd llynges a adeiladasid i'r dyben hyny gan Vanetiaid (Gwynedd, Venedotia, La Vendee) Armorica. Glaniwyd yn Anderida, sef, yr un man y cafodd Vespasin, Ella y Sais, a Gwilym y Normaniad, mewn oesoedd dilynol, fynediad i mewn i Brydain. Beli, gan ymdeithio o Gaerdroia, a drefnodd ei fyddinoedd gyferbyn ag eiddo ei frawd, a buasai yr un tir, yr hwn wedi hyny a fygodd gan waed goreu Lloegr dan lywyddiaeth Harold, yn llifo yn awr gan waed Prydain Droianaidd oni bai am gyfryngiaeth Corwena, mam oedranus y ddau benadur ymrafaelgar. Wedi iddi dan grynu gyrhaedd yr orsaf oddiar ba un yr areithiai Brân ger bron ei fyddin, hi a blethodd ei dwylaw am ei wddf ef pan yn dyfod i lawr i'w derbyn, a chusanodd ef mewn llewygfeydd o serchawgrwydd. Yna hi a'i tynghedodd drwy bob rhyw apeliad a allai mam ei ddefnyddio wrth gyfarch mab, i'w gwared rhag yr olygfa echryslawn o weled plant ei chroth ar waith mewn ymladdfeydd drygionus yn erbyn Duw, cyfreithiau natur, eu gwlad, a hwy eu hunain. Ar ol dangos annghyfiawnder ei achos, ac mor hawdd y gallai gyrhaedd goruchafiaethau llawer ardderchocach na goruchafiaeth ar ei frawd, pe byddai y ddwy fath fyddin, yn lle distrywio, yn ymuno â'u gilydd, hi a erfyniodd arno adgymodi â'i frenin cyfreithlawn. Gwedi ei ddwyn i deimlad gan y darluniadau hyn, rhoddodd Brân ei helm a'i arfau ar yr orsaf, ac yn nghanol distawrwydd mawr y ddwy fyddin aeth gyda hi yn ben-noeth at ei frawd. Wrth ei weled ef yn dynesu, disgynodd Beli o'i gerbyd, taflodd ei waywffon i lawr, a chan ei gyfarfod ar haner y ffordd, efe a'i cofleidiodd yn garuaidd. Y ddwy fyddin wrth weled yr olygfa a rwygasant yr awyr â'u banllefau. Yn mhen ychydig funudau yr oedd pob trefn wedi ymddatod; nis gellid mwyach wahaniaethu rhwng Prydeinwr a Lliguriad; yr oedd y banerau wedi eu rhwymo yn nghyd. Wedi i forwyr y llynges glywed am y digwyddiad, daethant yn lluoedd i'r lân, a'r diwrnod a fygythiai fod yn un o'r rhai mwyaf gwaradwyddus a thrychinebus yn nghofnodau Prydain, a derfynodd mewn jubili gyffredinol o wleddoedd llawenydd. Da i ddynolryw pe byddai mam pob brenin yn Gorwena—pe gwrandawai pob teyrn ymrafaelgar ar wrthdystiadau natur a dynoliaeth gyda'r un parodrwydd ag y gwnaeth Beli a Brân.

Ar ol cydymgynghoriad maith, penderfynodd Beli, gyda'r byddin-

Digitized by Google

oedd cyngrheiriol, geisio goresgyn Ewrop. Yr oedd y genedl yn mwynhau tawelwch gartref—y deyrnwialen yn cael ei llywio gan law ·erthol,—llu dirfawr yn hiraethu am rywbeth i'w wneuthur, y rhai yr oedd yn beryglus ymyru a'u huchel-geisiadau—y trosglwydd-longau ar yr afon Dafwys; Gâl yn cael ei dryllio gan fân-ymbleidiau, a phobl Umbria yn Ngogledd yr Eidal ond disgwyl yn unig am weled baner fawr eu hiliogaeth—sef y Ddraig Goch, wedi ei dadblygu ar grib yr Alpau, cyn cyfodi ac amddiffyn eu hen rydd-freintiau. Yn ganlynol, tiriodd y fyddin arfog, yr hon oedd gynwysedig o 300,000 o wyr, wrth enau afon y Seine. Un frwydr ar wastadedd Tours a benderfynodd dynged Gâl. Dinas ar ol dinas wedi blino ar ymrafaelion gwladol y rhai nid arweinient at un dyben llesol, a dderbyniasant yn llawen yr oruchafiaeth yr oeddynt hwy yn ei ddisgwyl a ddygai yn nglyn â hi fendith y buont cyhyd yn ddieithriaid iddi, sef dyogelwch bywyd ac eiddo. Cafodd y minteioedd yspeilgar ag oeddynt dan yr enw milwyr yn heidiau yn Gâl, naill ai eu dyfetha neu eu cydgorphori yn y byddinoedd rheolaidd. Bu dwy flynedd yn ddigonol i ddarostwng yr holl wlad Geltaidd dan ddeddf a llywyddiaeth Frutanaidd. Yna y fyddin Gymreig-Geltaidd a ymsymudodd dan arweiniad y ddau frawd tua'r Eidal. Ymunodd y Lliguriaid â hwynt, a'r mynediad cyntaf dros yr Alpau gan fyddin filwrol a gyflawnwyd yn ngwyneb yr hyn a ymddangosai yn anmhosibl. Mae y clod a gysylltiwyd âg enwau Hannibal a Napoleon yn perthyn mewn cyfiawnder i enwau y ddau gadflaenor Brutanaidd, Beli a Brân. Hwynt-hwy oeddynt yr anturwyr cyntaf, a'r rhai cyntaf hefyd a lwyddasant i fyned dros yr atalgloddiau eirllyd a adeiladodd natur megys o bwrpas i amddiffyn gwledydd heulog yr Eidal rhag cleddyf y Gogledd. O barth nodweddiad y byddinoedd ag oeddynt ar fedr ail-sefydlu yr Ymherodraeth Gymreig yn yr Eidal, y mae genym hanesion bywiog wedi eu trosglwyddo i ni gan yr awduron clasurol. Dywed Plutarch, "Mae y Cimbri penaf, a mwyaf rhyfelgar, yn byw yn nghefnfor y Gogledd, yn eithafion y ddaear. Gelwir hwy yn Gimbri—nid oddiwrth eu moesau, ond enw eu cenedl ydyw. O barth eu gwroldeb, eu hyspryd, eu grym, a'u bywiogrwydd, nis gallwn eu cymharu i ddim ond i fflam ddifäol. Mathrent bawb a ddeuent o'u blaen, neu ymlidient hwy yn mlaen fel gyroedd o anifeiliaid." Mae Justin yn cofnodi chwedl yn arddangos gyda pha ddiystyrwch y golygent gymeriad a gwyddor filwrol y Groegiaid. Ar ol darostwng y Tribaliaid a'r Gothiaid *(Getæ)*, cynygiodd y Celtiaid Cymroaidd eu cyngrheiriaeth i Antigonus, brenin Macedonia, fel gwystl o'u tuedd heddychlawn tuag ato ef. Ond triniodd Antigonus y cynygiad fel pe buasai wedi deilliaw o ofn neu gyfrwysdra. Gofynodd y Cymry i'w cenadwyr, ar eu dychweliad, "pa beth yw y Groegiaid hyn?" "Y maent yn nodedig am ddau beth," atebai y cenadwyr, "galwant sefyllfaoedd nad oes iddynt na chylch-ffosydd na rhagfuriau, yn wersylloedd; a thybiant os bydd ganddynt ddigon o aur, nad rhaid iddynt wrth ddur." Ysgubodd y fyddin Gymreig dros wastadedd Gogleddol yr Eidal yn dair dosran. Safodd yr Etruriaid yn wrol o blaid eu hymerodraeth, ond yn ofer. Wedi cael eu gorchfygu mewn pump o frwydrau, gwnaethant i'w poblogaeth gystlynaidd gilio tua'r deheu, gan roddi pob dinas, fel yr oeddynt yn eu gadael, ar dân. Adferwyd yr hên genedligrwydd Umbriaidd, gan i'r gwaredigion a'r gwaredwyr gael eu ffurfio yn un blaid gyngrheiriol, gyda'r un cyfreithiau ac iawnderau. Sonia Justin a Pliny am y dinasoedd canlynol fel wedi

Digitized by Google

cael eu sylfaenu gan Brân pan ymlidiwyd allan y Tuscaniaid,—sef, Milan, Como, Brescia, Verona, Burgamo, Mantua, Trent, a Vicentia. Dylid sylwi, fod goresgyniadau y Cymry bob amser yn ol egwyddorion gwareiddiad, ac nid dystrywiad. Pa le bynag yr ymsefydlent, yno cyhoeddent gyfartaledd cyfreithiau, codent demlau, llunient ffyrdd, adeiladent ddinasoedd, a diwyllient lenyddiaeth, yn enwedig barddoniaeth. Ar y llaw arall, yr oedd goresgyniadau yr Allmaenwyr a'r cenedloedd Gogleddol yn yr oesoedd tywyll, yn rhai barbaraidd a chroes i wareiddiad—yn cael eu dwyn yn mlaen yn ol yr egwyddor o ddistrywiaeth ac nid ceidwadaeth a chyfuniad. O'r Celtiaid Cymroaidd perthynol i Gâl Gisalpaidd y deilliodd llawer o ysgrifenwyr cyntaf yr ymherodraeth Rufeinig—megys Livy, Pliny, Catullus, Virgil, &c., &c.

Ar ol goresgyn Celtica Gisalpaidd, ymdeithiasai Beli gyda haner ei fyddin tua'r Gogledd lle y bu ar waith yn darostwng yr amrywiol dylwythau pa rai mewn oesoedd dilynol a adnabyddid gyda'u gilydd fel y bobl Allmaenaidd neu Deutonaidd. Dygodd y Rhufeiniaid dryfysg mawr i mewn i hanesyddiaeth drwy beidio a rhoddi i genedloedd eu henw llinachol, neu yr enw wrth ba un yr arferent alw eu hunain, eithr rhyw enwad oedd wedi ei gysylltu wrthynt oddiwrth rhyw nodwedd neu arferiad neillduol. Yr un ystyr sydd i'r gair *German* yn yr iaith Deutonaidd, ag sydd i'r gair *Belgi* yn y Gymraeg—sef, câdwyr, rhyfelwyr. Cymry ac nid Celtiaid oedd Belgiaid y Cyfandir. Disgynyddion oeddynt o'r Cymry a oresgynasant y wlad dan arweiniad Brân, ac yn amser Cæsar oeddynt yn meddianu un ran o dair o Gâl. O du y Dwyrain iddynt yr oedd y Teutoniaid (Tudeschi, Deutch), gwedi ymsefydlu. Darostyngwyd hwythau hefyd y pryd hyn gan Beli; a'r gyfran ffrwythlonaf o'u tiriogaeth o amgylch y wigfa Hercynaidd a ranwyd rhwng y fyddin Gymraeg-Geltaidd. Adnabyddid y Celtiaid Cymroaidd yn amser Cæsar wrth yr enwad Volcæaid, a chadwent eu hên uchafiaeth mewn arfau a gwareiddiad ar y Teutoniaid amgylchynol. Brân gan sefydlu ei brif luest-dŷ yn Mediolanum (Meifod, Milan,) yn raddol a estynodd ei arfau tua'r Dehau. Yn mhlith dinasoedd eraill gwarchaeodd ar Clusium, sef dinas yn Etruria Isaf. Anfonodd y trigolion am gynorthwy i Rufain. Daeth tri o frodyr perthynol i'r genedl Ffabiaidd gyda'r ddirprwyaeth yn ol fel brein-genadwyr. Ar ol deisyf cael ymgyfarfod ac i hyny gael ei ganiatau, gofynwyd i Brân,—"Pa niwed a wnaethai y Clusiaid iddo?" Atebodd yntau, "Mae gan yr Etruriaid hyn gymaint arall o dir ag a allant ei ddiwyllio—yr ydym ninau yn nerthol, yn lluosog, ac mewn eisiau tir, er hyny gomeddant ymadael ag un erw o'u tiriogaeth ddifudd." "Ond drwy ba hawl yr ydych yn arddelwi hyny?" gofynai y brein-genadwyr drachefn. "Drwy yr hawl hynaf o bob hawl," atebodd Brân, gyda gwên sarug, —"sef, y ddeddf ag sydd yn rhedeg drwy holl natur, ac i'r hon y mae pob anifail yn ddarostyngedig—sef hawl y cryf ar y gwan. Yn ol y ddeddf hon y cafodd yr Etruriaid hyn, a chwithau Rufeiniaid, eich tiriogaethau ar y dechreu. Naill ai adferwch y tiriogaethau hyn i'w perchenogion cyntefig, neu ynte sefwch wrth y gyfraith yn erbyn eich hunain."

Dranoeth, blaenorodd Quintus Ambustus Fabius y Clusiaid mewn rhuthr-gyrch yn erbyn y gwarchaewyr. Lladdodd un o'r swyddogion Cymraeg, a thra yn ei yspeilio o'i arfau, canfyddwyd mai un o'r brein-genadwyr Rhufeinig ydoedd. Yn mhlith y Cymry, yr oedd pob brein-genad yn cael ei ystyried yn ŵr cysegredig, ac megys y gwelsom,

Digitized by Google

gwaherddid iddo er gario arfau ei hunan; yr oedd yn drosedd mawr i neb arall hyd yn oed ddynoethi cleddyf ger ei fron ef. Gan hyny yr oedd eu digofaint, oherwydd y troseddiad dyblyg yma o'r cyfreithiau cydrhwng cenedloedd, megis eu cydnabyddid yn eu plith eu hunain, yn enbyd dros ben. Brân, gan symud ei wersyll, a ddanfonodd genadwriaeth i Rufain, i orchymyn iddynt draddodi Quintus Fabius i fynu i'w ddwylaw ef. Cynghorodd y Feciales, neu goleg y Rhingyllwyr yn Rhufain, i'r senedd gydsynio â'i gais ef, gan ddangos erchylldra y weithred ag oedd yn tailu dianrhydedd ar yr holl genedl. Er hyny, y bobl (Plebs) nid yn unig a wrthwynebent yr anogiad, ond gwnaethant y tri brawd yn swyddogion milwrol, gan eu penodi yn flaenoriaid ar y iyddin. Gan hyny, Brân yn ddioed a roddodd y gair, "I Rufain." "Ni wnaeth ei luoedd," medd Plutarch, "niwed i eiddo neb; ni anrheithiasant y maesydd, ac ni ddygasant unrhyw sarhâd ar y trefydd. Ar y 6ed o Fehefin, 363 A.U., 409 C.C., ymgyfarfyddodd y ddwy fyddin wrth y fan lle mae yr afonig Allia yn rhedeg i'r Tiber. Gorchfygwyd y Rhufeiniaid gyda lladdfa fawr; ac yn mhen tri diwrnod ar ol hyny, syrthiodd Rhufain ei hun, oddieithr y castell yn unig, i ddwylaw y gorchfygwr. Ystyrid cylchwyl brwydr Allia fel "dydd du" yn nghalendar y Rhufeiniaid. Ni chyflawnid un gorchwyl arno, a phob dinesydd a wnelai ei ymddangosiad ar g'oedd, a wnai hyny mewn galarwisg. Safodd y castell yn erbyn y warchaeliaeth am chwe' mis. Yn y cyfamser, aeth Fabius Dorso yn ei wisg archoffeiriadol i'r Bryn Quirinal i offrwm yno yr aberth a arferid ar genedl-ddydd *(dies gentilitia)* ei deulu. Mae yr ysgrifenwyr Rhufeinig yn datgan eu syndod ei fod wedi cael ei oddef i wneuthur hyny, a dychwelyd mewn dyogelwch. Ond buasai y Cymry yn meddwl taraw eu brenin cyn gynted ag a fuasent yn meddwl dynoethi cleddyf yn erbyn offeiriad neu ben cenedl. Wrth wneuthur ffordd iddo fyned, a'i ddyogelu yn ol i'r castell, nid oeddynt ond cadw defodau Prydain. Gan i Brân mewn ail fuddugoliaeth orchfygu yr ymgais a wnaed gan y Porsena o Etruria i doi y warchäeliaeth, cytunodd y Rhufeiniaid i roddi mil o bwysau o aur yn bridwerth am ryddhâd y castell. Pan oedd yr aur yn cael ei bwyso yn mhresenoldeb y gwahanol gadbeniaid, tynodd Brân ei wregys a'i gleddyf a thaflodd hwynt i'r fantol arall. Pa beth yw ystyr y weithred yna?" gofynai y prif-swyddog Rhufufeinig. "Ei hystyr yw," atebodd Brân, "gwae gwaethedigion, *(væ victis).*" Goddefodd y Rhufeiniaid yr ateb dirmygus mewn dystawrwydd, Trosglwyddwyd yr aur i Narbonne yn Gâl. Yna Brân a gymerodd ei luoedd ymaith, ac yn fuan wedi hyny a wnaeth gyngrhair ymosodol ac amddiffynol gyda Deonysius o Sicily.

Ar ol goresgyniad yr Almaen, sylfaenodd Beli Aquillia, lle ar ol hyny yr addolid of megys duw. Fel yr oedd yn dychwelyd adref drwy Gâl, efe a ranodd ei thiriogaethau rhwng ei bum' mab ieuengaf, gan gadw llywodraeth Prydain yn unig yn ei ddwylaw ei hun. Treuliodd y blynyddoedd diweddaf o'i deyrnasiad hir a gogoneddus yn y gwaith o wneuthur deddfau heddychlawn, ac o adeiladu gweithydd cyhoedd. Dechreuwyd a gorphenwyd castell Beli *(Billing's gate)*, a chenhlaman enfawr y Tafwys, dan deyrnasiad y penadur hwn. Efe a adeiladodd hefyd Gaer-leon, neu fel y gelwid ef ar y dechreu Caer-wysg, ac a adgyweiriodd demlau Derwyddol Côr Gawr *(Stonehenge)*, ac Ambri. Bu farw yn y 80ain mlwydd o'i oedran. Llosgwyd ei gorph a rhoddwyd ei ludw mewn llestr aur ar ben twr uchaf ei balas oedd yn ymyl yr afon

Digitized by Google

Tafwys. Dyna'r hanes a ddyry *Hanes y Cymru* gan Morgan, am Beli ab Dyfnwal Moelmud, wedi ei sylfaenu yn benaf ar y *Brutiau Cymreig.*

BELI MAWR AB MANOGAN, yn ol y *Brutiau Cymreig,* a ddilynodd ei dad i deyrnaeth Ynys Prydain, a theyrnasodd ddeugain mlynedd. Dywed *Trioedd* ii., mai efe a ddiffoddes un o'r "Tair Gormes a ddaethant ar Ynys Prydain, ac y darfu am danynt,"—"y drydedd a fu yn amser Beli ab Manogan, a Bradgyfarfod ydoedd, ac efe a'i diffoddes." Yr oedd i Beli dri mab, sef, Lludd, yr hwn a olynodd ei dad i'r orsedd; yr enwog Caswallon; a Nynniaw.

BELI AB RHUN ab Maelgwn Gwynedd, a ddilynodd ei dad i freniniaeth Gogledd Cymru yn 586, ac a fu farw yn 599. Dilynwyd yntau gan ei fab Iago.

BELYN AB CYNFELYN. "Tair Gosgordd Addwyn Ynys Prydain; 1af, Belyn ab Cynfelyn;"—*Trioedd* 79. Gelwid hwynt felly am mai gwirfoddolwyr oeddynt, yn gwasanaethu eu gwlad a'u teyrn mewn rhyfel ar eu traul eu hunain, heb aros eu gofyn, ac heb erchi na thâl nac anrheg gan wlad na chan deyrn. Gwasanaethai Belyn a'i wyr o tan Caradog ab Brân (*Caractacus*).

BELYN, o Leyn, teulu yr hwn, yn ol y *Trioedd* 27, oedd un o "Dri Hueilogion Ynys Prydain." Y ddau deulu eraill oeddynt teulu Caswallon Lawhir, a theulu Rhiwallon ab Urien; a gelwid hwynt felly am rwymo o honynt eu gilydd yn nghyd hefo llyffetheiriau eu meirch, er mwyn gwrthsefyll yn rymusach ruthriadau Edwin Sais, yn mrwydr Bryn Ceneu yn Rhos, yr hon a gymerth le tua'r flwyddyn 620. Am hyn, caniatawyd iddynt wisgo eurdorchau, ac awdurdod brenin a roddid i'dynt o fewn eu terfynau eu hunain tan raith gwlad a chenedl.

BENLLI GAWR, oedd yn arglwydd talaeth helaeth, sy'n awr yn cynwys rhanau o siroedd presenol Fflint a Dinbych. Yr oedd yn byw oddeutu canol y bumed ganrif. Y mae amgylchiad cysylltiedig âg ef yn werth ei nodi. Darganfyddwyd hen wasgrwym aur yn lled ddiweddar ger y Wyddgrug, yn sir Fflint, o dan garnedd gerig, a elwid Bryn yr Ellyllon. Pan ddarfu i'r gweithwyr gloddio y bryncyn, daethant at ysgerbwd, penglog yr hwn o faint cawraidd, ac yr oedd esgyrn y morddwydydd yn eiddo dyn cryf anferth. Ar ei fynwes yr oedd y gwasgrwym, wedi ei oreuro drosto â dau neu dri chant o baderau amber arddercho'g, yn cael eu croesi a math o waith ysnodenog o aur pur, rywbeth yn debyg ei ymddangosiad i'r onglau a ganfuwyd ar yr hen Fwa-maen Saesonaidd, a'r cwbl wedi ei weithio ar aur pur. Yr eithaf hŷd yw tair troedfedd a saith modfedd, a'i gwneud, tebygid, i amgylchynu o dan y breichiau a chyfarfod yn nghanol y cefn; a'i lled yn y blaen-wyneb, lle y mae wedi ei cheuo i roi lle i'r gwddf, yn wyth modfedd. Y mae yn ddwy owns ar bymtheg o bwysau, ac yn werth oddeutu £60. Y mae yn awr yn nghadw yn yr Amgueddfa Frutanaidd. Y mae gan Dr. W. O. Pughe y sylwadau cywrain canlynol ar y mater, ac y mae pob amgylchiad yn ymddangos fel yn cadarnhau y dyb mai Benlli Gawr a gladdwyd yno:—"Y mae yn debyg y rhaid fod y dyn hwn yn fyw wedi i'r Rhufeiniaid adael ein gwlad, neu fod yn debygol y buasai y corph yn cael ei losgi; a phe buasai yn byw oddeutu y flwyddyn 600, neu wedi hyny, y buasai wedi ei gladdu o fewn rhyw eglwys. O dan yr amgylchiadau hyn, nis gallwn fethu llawer wrth gyfrif tymhor bodoliaeth y dyn annghyffredin hwn i'r flwyddyn 500: ond eto, pwy a allai ef fod? Pwy a allasai fod y fath ddyn hynod ag y buasai ei bleidwyr yn codi y fath fryncyn o ddaear a cherig ar ei fedd

Digitized by Google

—ac ar farwolaeth yr hwn y dangosid y fath arwydd mor nodedig o barch? Neb, credwn, amgen na Benlli Gawr ei hunan, yr hwn yr oedd ei gyfeillion ganddo o'i amgylch pan fu farw ar ben y lle a alwyd ar ei enw Moel Benlli, ac yn ngolwg y Wyddgrug, ei anedd, ac yn ngolwg Dyffryn Clwyd ar y tu arall. Y mae bedd Beli, mab y dyn mawr hwn, oddeutu wyth milltir oddiyno—yn Llanarmon-yn-Iâl, fel y dynoda yr "Englynion Milwyr."—*Wms. Em. Welsh.*

BENREN a grybwyllir yn y *Trioedd*, fel y prif fugail ar ddiadellau Caradawg ab Brân, y rhai a gadwai ef yn Corwenydd, Deheudir Cymru. Yr oedd nifer y gwartheg blithion yn y ddiadell hono yn ugain mil ac un.

BERGAM. Y Bergam o Faelawr, un o Frudwyr y canoloesoedd. Mae "Prophwydoliaeth y Bergam o Faelawr," mewn dau hypynt a gorchan, i'w gweled yn y *Myf. Arch.*, argraffiad Dinbych, tu dal. 364. Nis gwyddom a oedd perthynas rhyngddo a Iorwerth Llwyd ab y Gargam, yr hwn a flodeuai rhwng 1310 a 1360, ai nad oedd. Yr oedd ef mewn bri cyn i "Englynion y Clywed" gael eu cyfansoddi.

"A glywaist ti chwedl y Bergam
O Faelor, wrth ei lysfam,
Hwyr cam ar foethus ei tham [tamaid].

BEUNO. Mab ydoedd i Hywgi neu Bugi ap Glywis, o hil Cadell Deyrnllwg a Perfferen neu Beren, ferch Llewddyn Luyddog, o Ddinas Eiddin yn y Gogledd. Dywedir mai yn Mhowys yr oeddynt yn byw. Yn *Muchedd Beuno Sant*, fe ddywedir i'w fam fod am faith flynyddoedd yn anmhlantadwy, ond iddi ar ol hir weddio Duw ryw ddiwrnod gael ymweliad gan angel yr hwn a'i hysbysodd hi a'i gwr y caent fab, yr hwn a fyddai yn "anrhydeddus herwydd Duw a dyn." Cyn gynted ag y medrai ddysgu anfonwyd ef i Gaer-went i gael ei hyfforddi gan Tangwn, yr hwn erbyn hyn a olynai Dathan yn ei Fangor. Pan o dau addysg fe dyfodd cydnabyddiaeth rhyngddo ef ag Ynyr Gwent, yr hwn oedd dywysog galluog ar y pryd, ac megys yn ysgil hyn, troes Ynyr ei fryd yn llwyr at grefydd. Ac wrth weled Beuno mor "hael a diwair, ac yn gwneuthur gorchymynion Duw yn mhob peth," rhoddes anrhegion iddo, sef modrwy a choron o aur a thiroedd hefyd, ac ymroi a fwnaeth o hyn allan i ddilyn bywyd crefyddol. Yn ol hyn, ar ol marw ei dad, y mae Beuno yn gadael Euas, ac yn ymfudo i'r Gogledd. Ond nid cyn adeiladu eglwys yno, oblegyd ceir Llanfeuno hyd y dydd heddyw yr ochr ddeheuol i'r afon Gwy, yn swydd Henffordd. Ar ol ymadael a'r De, pereriniodd o'r naill le i'r llall yn Ngwynedd, ac yn y cyfamser cyflawnodd, ebe traddodiad, y wyrth o adfer bywyd i Gwenfrewi, yn y fan lle mae Treffynon yn awr, a thyma'r chwedl wedi cyfnewid ychydig ar ei harddull. Daeth Beuno i lan yr afon Dyfrdwy ar ei hynt, ac yno cyfarfu a Themyg, gwr o gyfoeth yn y wlad hono; ac i Feuno fe roddes Temyg ab Eilud dir i adeiladu eglwys; yr hyn a wnaethpwyd yn ddiattreg. Ryw ddydd gwaith aeth y gwr o gyfoeth, a'i wraig, i wrandaw offeren a phregeth gan Feuno, a gadaw gartref eu merch a wnaethant i warchod, a morwyn landeg wyryfol oedd hi. A phan oedd hi fel hyn, ei hun yn gwarchod, daeth mab i ryw ŵr o gyfoeth, brenin, medd rhai, i mewn, a'i enw ef oedd Caradog, a phan ddaeth i mewn dangosodd y rian bob cwrteisrwydd tuag ato; gofynodd yn mha le yr oedd ei rhieni; hithau a atebodd, "os oes a fynot a'm tad, aros, oblegyd daw yn ol yn fuan o'r eglwys" Yntau yn llawn o wres a nwyf pechadurus, a

Digitized by Google

fynai ymgydio ar forwyn a gwneud ordderch o honi. Hithau yn synwyrol a geisiodd gael myned i'w hystafell yn gyntaf, er mwyn ymbarotoad, a phan, yn rhith myned yno, allan y rhedodd, ac anelai at yr eglwys lle yr oedd ei thad yn addoli. Caradog yn ffyrnigwyllt a redodd ar ei hol, a phan oedd hi yn cyrhaedd drws yr eglwys goddiweddodd hi, a chipio ei gleddyf o'i wain a wnaeth a tharo ei phen i ffwrdd, a'r corph a gwympodd y tu allan i'r muriau, a'r pen a dreiglodd i mewn. A phan welodd Beuno a rhieni'r wyryf hyn, Beuno a ddywedodd wrth Caradog, "Mi archaf i Duw," ebe fe, "nad arbedo ef dydi, ac na'th bardcho mwy nag y perchaist tithau y forwyn dda hon." Ac yn y fan trowyd Caradog yn llyn dwfr, ac nis gwelwyd mwy o hono yn y byd hwn. Ar ol hyn cymerth Beuno ben y forwyn ac a'i dodes wrth y corph, ac yna taenu mantell ar hyd y corph a wnaeth a dywedyd wrth ei thad a'i mam, "Tewch eich ochain hyd oni ddarllo'r offeren;" ac wedi darfod o hono y gwasanaeth cyfodes Gwenfrewi yn holliach hollfyw: ac o'r man y cwympodd ei gwaed hi ar lawr, ffynon a darddodd, yr hon a alwyd hyd y dydd heddyw yn Ffynon Gwenfrewi, ac yn mysg y rhai a glywsant am y weithred ryfedd hon yr oedd Cadfan, brenin Gwynedd, ac efe a fu gyfaill pur i Beuno. Ar ol talm o amser bu farw Cadfan, a dilynwyd ef gan Cadwallon ei fab, ac yn yr adeg hon yr oedd ar Beuno anghen lle i sefydlu crefydd-dŷ neu Fangor arno, a Chadwallon a roddes iddo randir yn Arfon a elwir Gwaredog, ac fel ad-daliad rhoes Beuno iddo yntau fwyall aur yr hon a gafas efe yn rhodd gan Cynan ab Brochwel, ar ei farwolaeth, a gwerth tringain mawch llawn oedd hi. Pan oedd y sant a'r rhai oedd gydag ef yn prysur barotoi i adeiladu, daeth gwraig heibio a'i phlentyn ganddi ar ei braich, yr hwn a nadai yn anaele. Gofynodd y wraig i Feuno fendigo ei phlentyn, yntau pan ar wneud, a ofynodd iddi pa beth oedd yn peri bod y plentyn yn wylo. "Onid oes achos iddo," ebe'r fam, "y tir yr wyt ti yn ei feddianu ac yn adeiladu arno, onid ei dreftadaeth ef yw ?" Pan glywodd Beuno hyn, bu ddrwg ganddo, a pheri a wnaeth i brysb atal eu dwylaw oddiwrth waith tra y byddai ef yn bedyddio y plentyn, ac wedi cyflawni hyn, myned a wnaeth ef a'r wraig a'i mab i lys Cadwallon i gyfymtiw am y weithred annhosturiol a wnaeth ef, sef rhoddi tir nad oedd eiddo iddo. Ac ar ol myned i Gaersaint, yr hon yn awr yw Caernarfon, dywedodd Beuno wrth y brenin, "Paham y rhoddaist i mi dreftadaeth nad oedd eiddot." Cadwallon ni fynai wrando, ond edrych yn ddiggyffro drahaus a wnaeth. Gofynai Beuno am ei rodd yn ol, ond Cadwallon a wrthodai ei gais yn sarhaus. Digiodd y sant wrtho ac aeth ymaith ar ol bygwth esgymundod arno, a daeth dros afon Seiont. Pan welodd Gwyddneint, a chefnder i Cadwallon oedd hwn, y modd yr ymddangosai petiaen, rhedodd ar ol Beuno a goddiweddodd ef yn ei sedd ar faen ar fin yr afon, a chyfarchodd y Sant, a rhoddes iddo drefian Celynawg yn etifeddiaeth dros byth, heb wobr na tholl arni. Aeth y Sant yno'n ebrwydd, gan adael rhandir Gwaredog heb ddim ond un cofnod arbennig o'r amgylchiad a nodwyd, sef yw hwnw, ffynon ar dir yr Ew Ysiviflau, yr hon a elwir hyd heddyw yn Ffynon Beuno. Crodiefir amryw weithredoedd gwyrthiol yn nglŷn a'i fucheddd, y rhai a goelid yn ddiffys am lawer oes; ac yn en mysg y chwedl am adferiad bywyd merch Ynyr Gwent, yr hon a laddwyd gan ei gwr, ond a gafas fywyd drachefn trwy weddi Beuno, a thyma ei weddi ar yr amgylchiad: "O Arglwydd, Creawdwr nef a daear, yr hwn nid oes dim yn anwybod iddo, cyfod Di y corph hwn yn iach."

Digitized by Google

A chyfodi a wnaeth y wraig yn holliach; ac y mae ffynon yn y fan yn dynodi'r lle a elwir hyd heddyw yn Ffynon Diwg. Ar ol d'od i Glynnog, sefydlodd Fynachlog ysplenydd yno, a bu yn dra gweithgar i ddysgu Cred a Bedydd yn y wlad. Y mae llawer o eglwysi draw ac yma wedi cael eu cyflwyno iddo ar hyd y wlad, yn mysg eraill dyna Glynnog Fawr, Carngiwch, Pistyll, a Phenmorfa yn Arfon; Aberffraw a Threfdraeth yn Mon; Gwyddelwern a Llanycil yn Meirionydd; Berriw a'r Bettws yn Maldwyn; a Llanfeuno, fel y crybwyllwyd eisioes yn swydd Hentfordd. Dywed Cressy iddo ymadael a'r fuchedd hon yn y flwyddyn O. C. 660. Dywed rhai iddo gael ei gladdu yn Ynys Enlli, mynwent y saint yn yr oes hono; ond y mae lle cryf i anmheu hyn, oblegyd y mae gerllaw i eglwys Clynnog adail prydferth a elwir "Capel y Bedd," neu "Gapel Beuno," am yr hwn le y canodd y diweddar Eben Fardd fel hyn yn Nghlywydd Clynnog:—

"Man bedd a bonedd Beuno."

Hefyd mewn "Awdl ar adgyweiriad hen Eglwys ardderchog Celynog Fawr," dywed yr un awdwr fel y canlyn;—

"Esboniad ar oes BEUNO—geir yma
Grymus gof am dano;
'EOLWYS Y BEDD,' sef ei FEDD fo,
Ar gyfer geir i'w gofio."—CYFF BEUNO, tu dal. 86.

Yn awr pa fodd y gellir cysoni man ei fedd hefo'r ffeithiau a'r traddodiadau sydd yn Nghlynnog ar un llaw, a chydag arfer gyffredin yr oes ar y llaw arall? Dywedir yn y Cofianau iddo gael ei gladdu yn Enlli; yn Enlli y cleddid y prif seintiau yn yr oes hono; ac am hyny nid oes sail iddo gael ei roddi i huno wrth ei Eglwys ei hun! O'r tu arall, dyma adeilad yn mynwent Clynnog a elwid "Capel y Bedd:" o fewn cof hen bobl yr oedd Beddfaen o geryg nadd anferth yn y capel hwnw, yr hwn a elwid "Bedd Beuno:" yn awr pa fodd y cyfunweddir y ffeithiau croes-ymgroes hyn? Dywedai y diweddar Barch. John Jones, Person Llanllyfni, mai dyma fel ag y bu. Claddwyd Beuno yn Enlli yn ol arfer yr oes; ond yn yr oesoedd Canol pan ddaeth y Fonachlog i fri ac urddas, symudwyd ef oddiyno i'w ïynwent ei hun, a gwnaed "Capel y Bedd" uwch y lle y dodwyd ef. Tybia rhai, mae'n wir, mai ffug o eiddo'r mynachod oedd y peth olaf hwn, ac mai er mwyn denu pererinion y gwnaed y cwbl; ond tueddir fi yn hytrach i dderbyn cysoniad synwyrol y Parch. J. Jones, a bod gweddillion marwol y sant yn aros o fewn "Capel y Bedd." Cedwid ei wylmabsant ar yr 21ain o Ebrill. Dywedir yn *Muchedd Beuno* iddo, pan oedd ar fin tragwyddoldeb, weled y nef yn agored, ac angylion yn disgyn ac yn esgyn; ac iddo dori allan a dywedyd, "Mi a welaf y Drindod, y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glan, a Phedr a Phaul, y Derwyddon, a Deinol a'r Saint a'r Prophwydi, a'r Apostolion a'r Merthyron, yn ymddangos i mi. A mi a welaf yn mhlith hyny, saith angel yn sefyll ger bron cadair (gorseddfainc) y goruchel Dad; a holl dadau nef ar ganiadau yn dywedyd, 'Gwynfydedig yw'r hwn a etholaist Di, ac a gymeraist, ac a breswylia gyda'Th yn dragwyddol.'" Ac ebe fe yn mhellach, "Mi a glywaf gorn y goruchel Dad yn gwahodd ac yn dywedyd wrthyf, 'Fy mab, bwrw ar eiliad dy gnawd oddiwrthyt, y mae'r amser wedi dyfod; ac yr ydys yn dy wahawdd i gymeryd y wledd ddiderfyn gyda'th frodyr. Arosa dy gorph yntau yn y ddaear; dy enaid ti, byddinoedd nef a'r angylion a'i harwain i deyrnas nef, yr hyn a haeddaist yma trwy dy weithredoedd; yr awr hon mae dy ddydd-brawd (prawf) pan ddywedo'r

Digitized by Google

Arglwydd wrth y Saint, 'Meibion bendigedig fy Nhad i, dewch chwi i feddu y deyrnas a baratoed i chwi cyn dechreu y byd, lle bydd buchedd heb angeu, ac ieuenctyd heb henaint, ac iechyd heb ddolur, a llawenydd heb dristyd: a'r Saint yn y byd uchaf (uchod) gyda Duw Dad a unolaethir a'r Angylion, a'r Archangylion yn unolaeth y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glan. Amen.'" Ac at gwmpeini nef yr aeth Beuno Sant i dderbyn ei wobr fawr iawn. Y mae yn Eglwys Clynnog hyd heddyw hen *Gyff* neu goffr o wneuthuriad rhyfedd, yn yr hwn y byddai'r monachod yn derbyn elusenau ac offrymau'r pererinion. Byddai hefyd goel rhyfedd yn mysg trigolion y wlad yn nghylch *Nôd Beuno*. Dyma ddywed Eben Fardd am y naill a'r llall. "Un darn o bren ydyw," ebai am y *Cyff*, "wedi ei gafnio yn geudod eang oddimewn, a rhan o'i arwyneb uchaf wedi ei lifio allan i wneud cauad, a thwll ynddo i fwrw darnau arian yr offrymau i mewn drwyddo. * * * Cedwid ynddo gynt werth yr anifeiliaid a fyddent yn dwyn arnynt *Nôd Beuno*, sef hollt naturiol yn y glust; y rhai oeddynt trwy gyfiawn hawl yn offrymau priod y sefydliad. Yr oedd heblaw hyn offrymau *gwirfoddol* yn cael eu bwrw i mewn yn achlysurol; a byddai ambell un yn dyfod yma o bell ffordd yn nghof y rhai sydd yn awr yn fyw, i fwrw iddo offrwm gwirfoddol er mwyn ystyriaeth o lwyddiant eu da."—*Cyff Beuno*, tu dal. 63.

Y mae un o ddywediadau Beuno wedi cael ei gofnodi yn "Englynion y Clywed" fel hyn:—

"A glywaist ti a gant Beuno?
Can dy Bader a'th Gredo;
Rhag angeu ni thycia ffo."

BEVAN. *Gwel* MADAM BEVAN.

BEVAN (THOMAS), oedd un o'r ddau genadon Protestanaidd cyntaf i Madagasgar. Ganwyd ef yn ardal y Neuaddlwyd, sir Aberteifi. Y llall oedd Dafydd Jones, yntau hefyd yn enedigol o'r un ardal. Danfonid hwynt allan ar draul Cymdeithas Genadol Llundain. Urddwyd y ddau i'w gwaith pwysig yn nghapel y Neuaddlwydd, yn Awst 1817. Hwyliasant o Loegr am faes eu llafur ar derfyn y flwyddyn hono, a chyrhaeddasant y Mauritius yn y Gwanwyn canlynol. Gadawodd y ddau eu teuluoedd (sef gwraig a phlentyn bob un) yno, ac aethant drosodd i faes eu llafur. Derbyniwyd hwy yn groesawgar gan y brenin Fisatra, yr hwn a ddanfonodd ei fab ei hun a deg neu ddeuddeg o blant eraill atynt am addysg. Edrychai pobpeth yn dra gobeithiol ar y genadaeth, a dychwelodd Jones yn nghyntaf i nol ei deulu; a phan ddaethant, aeth Bevan i nol ei eiddo yntau. Y peth cyntaf a glybu yr olaf wedi cyrhaedd Tamatave yn ol oedd fod gwraig a phlentyn ei gydgenadwr wedi eu claddu, ac yntau ei hun mewn sefyllfa dra pheryglus. Cymerodd y newydd pruddaidd hwn y fath effaith arno fel na bu efe byw ond tri diwrnod; a'i wraig a'i blentyn a fuont feirw hefyd cyn pen ychydig amser. Erbyn dechreu 1819 nid oedd yn aros o'r ddau deulu ond Mr. Jones yn unig, ac yntau yn yn afiach iawn.

BEVAN (HOPKIN), pregethwr tra chymeradwy gyda'r Methodistiaid iaid Calfinaidd. Ganwyd ef yn Cilfwnwr, Llangyfelach, Morganwg. Dechreuodd bregethu tua'r flwyddyn 1792, a pharhaodd yn y gwaith am haner can' mlynedd. Yr oedd efe yn mhlith y nifer gyntaf a urddwyd i gyflawn waith y weinidogaeth gan y Methodistiaid, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1811; a'r unig un o Forganwg a urddwyd y pryd hwnw. Bu farw yn Rhagfyr 1839. Ysgrifenodd hanes dech-

Digitized by Google

reuad Methodistiaeth yn ei fro ei hun; ac y mae ar gael ei brofiad melus tan ei lesgedd a'i henaint.

BEYNON (Parch. Thomas, A.C.), ydoedd offeiriad ffyddlawn a pharchus yn sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1744; ac yn y flwyddyn 1770, derbyniodd gan John Vaughan, Ysw., o'r Gelli Aur, y bywioliaethau canlynol:—Llanfihangel Aberbythych, Llanfihangel Cilfargen, a Llanddeusaint; ac yn 1784, cafodd gan yr un boneddwr berigloriaeth Penboyr, oll yn yr un sir. Heblaw hyn, yr oedd efe hefyd yn gôr-offeiriad Claerwy *(Clyro)* yn eglwys glasgorol Aberhonddu, yn ardal-ddeon Emlyn, ac yn Rhaglaw cyffredinol arch-ddeoniaeth Caerfyrddin. Gwasanaethai ei hun ar ei holl eglwysi hyn, oddigerth Penboyr, hyd o fewn ychydig flynyddau i'w farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd yn Llandeilo Fawr, Hydref 1af, 1833, pan oedd efe yn 89ain oed. Hynodid ef am fuchedd ddylynwiw, a duwioldeb diledrith; a bu ei ymddygiadau rhingarol o fawr lesâd i'r Eglwys Sefydledig yn esgobaeth Tŷ Ddewi. Cyfranai yn helaeth tuag at adeiladu ac adgyweirio eglwysi fel y dengys yr engreifftiau canlynol:—Yn 1808–9, ail-adeiladwyd ganddo ar ei draul ei hun eglwys Penboyr, yr hon oedd wedi myned yn dra adfeiliedig a pheryglus; yn 1822, ail-adeiladodd eglwys Llanfihangel Cilfargen; ac yn 1823, canghell eglwys Claerwy yn sir Faesyfed. Cyfranodd anrhegion haelionus i sefydliadau teilwng perthynol i'r Eglwys Sefydledig. Rhoddodd £1,000 tuag at adeiladu Coleg Dewi Sant, yn Llanbedr-pont-Stephan. Dywedir y byddai yn arfer cyfranu y rhan fwyaf o'r elw a ddeilliai oddiwrth ei fywioliaethau er hyrwyddo y fath wrthddrychau ag a enwyd. Fel arglwydd tir, ymddygai bob amser yn addfwyn a gostyngedig tuag at ei ddeiliaid lluosog. Yr oedd yn un o noddwyr penaf yr iaith Gymraeg, yn dra dysgedig ynddi, ac yn gefnogydd gwresog i'w llenyddiaeth. Noddai yr awen Gymreig, a hael gynorthwyai bobpeth ag oedd yn tueddu at ddyrchafiad ac anrhydedd hen wlad y Cymry, a gwellhad tymhorol ac ysprydol ei gyd-genedl. Mewn prydyddiaeth Gymreig, ymhoffai fwyaf yn y pryddestau diawdl. Rhoddes wobrau am gerddi arwraidd a diawdl ar y *Tymhorau* yn 1828, y rhai a gyhoeddwyd yn llyfr gwerthfawr, pris Swllt. Ac mewn pryddest ddiawdl y penderfynodd pwyllgor Eisteddfod Caerdydd yn 1834, ar fod i'w Farwnad yn eu cystadleuaeth, gael ei chyfansoddi. Enillwyd hwn o dir pell y Gorllewin gan yr anwylfardd Gwenffrwd, er na chafodd y wobr am na ddaethai y gwaith i law mewn pryd. Bu yr Archddiacon am amryw flynyddau yn llywydd Cymdeithas Cymreigyddion Caerfyrddin. Cyflwynwyd iddo y llyfrau canlyncl:—*A Topographical Dictionary of the Dominion of Wales*, gan Nicholas Carlisle, 1811; *Blodeu Dyfed*, gynulliad John Howell, 1824; *Y Meudwy Cymreig*, gan Cawrdaf, 1830; a *Gwinllan y Bardd*, gan Daniel Ddu, 1831.

BIRCHINSHAW (William). Bardd a gwr boneddig, o Lansanan, ac un o'r gwyr hyny "a safasant yn gadarn gyda'r iaith Gymraeg rhag iddi lwyr golli," yn oes y frenines Elisabeth. Mae T. Prys, o Blas Iolyn, yn ei restru fel un "o'n cyfoes ni," yn mhlith y "mydrwyr o'r Brutaniaid," "yn foneddigion ac uchelwyr da" oedd "yn canu ar eu bwyd eu hun," h. y. uwchlaw clera fel beirdd proffesedig a thlodion. Dyma englyn o'i eiddo i'r 'Ceiliog Bronfraith,' fel prawf o'i ddawn farddonol:—

"Bronfraith bur araith bererin—deilgoed,
A duwiolgerdd ddiflin;
Oer foreugwaith ar frigyn
Cywirddoeth fydd cerdd o'th fin."

Digitized by Google

BLACKWELL (JOHN), B.A. *(Alun).* Y bardd coeth a melus hwn a anwyd yn Pontarwyl, gerllaw y Wyddgrug, yn y flwyddyn 1797. Ei rieni oeddynt Peter a Mary Blackwell. Glowr oedd ei dad, yn hanu o hen deulu Seisnig a ddaethent, oesau yn ol, i ardal y Wyddgrug o sir Derby; tra yr oedd ei fam yn enedigol o blwyf Llangwm, yn mhen uwchaf sir Ddinbych. Yr oedd hi yn aelod gyda'r Methodistiaid yn y Wyddgrug, a'i gwr yn wrandawr cyson yn yr un lle, ac yn yr addysg a'r athrawiaeth hono y dygasant eu bachgen i fynu. Bachgen ymroddgar a darllengar oedd efe, yn meddu calon dyner elusengar. Pan yn unarddeg oed, rhwymwyd ef yn egwyddorwas o grydd, a gweithiodd wrth y grefft hono yn flynyddau; felly nid rhyw lawer o addysg a gafodd ef yn more oes. Er hyny, ar draws pob anfantais, addysg a fynai efe; darllenai bobpeth gydag awch, ac wedi llwyr ddifa pob llyfr, rhodd a benthyg, yn ei dref enedigol, ymbereiniai ar ei ddeudroed i Gaerlleon, er mwyn prynu rhagor o lyfrau i dori ei syched angherddol am wybodaeth. Bryd arall, cymerai wibdaith i rhyw ardal wledig o gwmpas ei gartref, gan chwilio am hen lyfrau gwerthfawr a allasai fod yn llwydo a phydru ar gloerau llychllyd; prynai hwynt, a dychwelai adref fel gwr wedi enill teyrnas. Gwnelai hyn oll yn ddidwrw, heb i neb ond ychydig gyfeillion wybod dim am ei ymdrechion teilwng; yr oedd yn bump ar hugain oed cyn i'r wasg na'r cyhoedd wybod dim am ei enw. Er hyny, erbyn 1823, dechreuai ei glod ymledu; a diau mai hon oedd blwyddyn mwyaf ffodus ei oes. Enillodd ddwy wobr yn Eisteddfod Rhuthyn ddydd Gwyl Dewi; un am yr awdl oreu ar "Enedigaeth Iorwerth II.," a'r llall am yr araith oreu ar "Ragoriaethau yr Iaith Gymraeg." Drachefn yn Eisteddfod Caerwys yn mis Mai, enillodd ddwy wobr; ac yn yr Awst canlynol, enillodd Gadair Eisteddfod y Wyddgrug, ar y testun "Maesgarmon," a gwobr hefyd am yr araith oreu ar "Undeb a Brawdgarwch." Dygodd hyn ef i sylw y boneddigion oeddynt yn bresenol, y rhai a benderfynasant mai trueni gadael y fath dalentau ysplenydd mewn dinodedd. Cymerwyd rhan flaenllaw yn y symudiad hwn gan Aeglwydd Mostyn, cadeirydd yr Eisteddfod hono, a chan yr hybarchus Archddeon Clough, ficer y Wyddgrug. Dymuniad y bardd oedd cael addysg athrofaol, a'i ddwyn i fynu i'r offeiriadaeth; a'i noddwyr a gydsyniasant yn rhwydd â'i gais. Arosodd yn ei dref enedigol hyd Ion. 1824 yn dysgu Lladin, ac yna danfonwyd ef i Berriew, Maldwyn, i fod tan ddysgeidiaeth y Parch. T. Richards. Yma, ymgydnabyddodd ag Ifor Ceri a Gwallter Mechain; ysgrifenai lawer i'r *Gwyliedydd*, cyhoeddiad rhagorol a olygid gan G. Mechain; ac yma y cyfansoddodd ei draethawd campus ar yr Iaith Gymraeg, yr hwn a enillodd y wobr yn Eisteddfod Trallwm, Medi, 1824. Ar derfyn y flwyddyn hon, symudodd i Goleg Iesu, Rhydychain. Ei flwyddyn gyntaf yn y coleg, ymgeisiodd am y Cyfleithiad goreu o'r "Messia," gan Pope, testun Eisteddfod Rhuthyn; a rhanwyd y wobr rhyngddo ef a Bardd Nantglyn. Yn 1828, gadawodd y coleg wedi enill y radd o B.A. Cynelid Eisteddfod Dinbych yn Awst y flwyddyn hon, lle yr enillodd efe y wobr am ei Alarnad ardderchog ar ol Esgob Heber; cadeiriwyd ef hefyd yno fel cynrychiolydd ei gyfaill Ieuan Glan Geirionydd, am yr Awdl oreu ar "Wledd Belsassar." Yn Ionawr, 1829, urddwyd ef, a derbyniodd guradiaaeth Treffynon, lle y bu efe am bedair blynedd yn fawr ei barch gyda phob gradd ac enwad—fel dyn tynergalon a thosturiol, ac fel pergethwr hyawdl a phoblogaidd. Yr oedd ei galon yn un llymaid o dosturi—bu yn borth i'w rieni yn eu

Digitized by Google

henaint a'u methianwch, ac nid anghofiodd efe gyfeillion tlodion ei ieuenctyd wedi dringo o hono i urddas ac anrhydedd. Yn 1832, enillodd y wobr am yr Englynion goreu ar briodas Syr Richard Buckley, ac arwisgwyd ef gan y Dywysoges (yn awr y Frenhines) Victoria. Yn fuan wedi ymsefydlu yn Nhreffynon, dygwyd ef i sylw yr arglwyddganghellydd Brougham, yr hwn a addawodd iddo y fywiolaeth gyntaf yn ei feddiant ef a ddelai yn wag, a bu cystal â'i air. Pan ddaeth Manordeifi, yn Neheudir Cymru, yn wag, rhoddwyd y cynyg cyntaf ar y lle i Mr. Blackwell, ac yntau a'i derbyniodd. Pa fodd bynag, yr oedd y fath deimladau da wedi eu cyd-wau rhyngddo ef â'r plwyfolion, yn Nhreffynon, fel y penderfynwyd ar ei anrhegu â llestri arian cyn ymadael, yn gydnabyddiaeth am ei lafur yn eu plith. Y mae rhai darnau o'r anerchiadau a draddododd ef i ddiolch am yr anrheg hon y gemau mwyaf cain sydd yn holl "Geinion Alun." Ymadawodd a Threffynon Mawrth, 1833, a diau mai y pedair blynedd a dreuliodd efe yn y lle hwn oeddynt flynyddau anterth ei nerth a'i ddefnyddioldeb. Yn fuan wedi ei sefydliad yn Manordeifi, penderfynodd y "Gymdeithas er lledaenu Gwybodaeth Fuddiol," ar gyhoeddi yn Ngymraeg fisolyn cyffelyb i'r *Penny Magazine* yn Seisnig, tan yr enw *Cylchgrawn*. Ar gais y Gymdeithas, cydsyniodd Mr. Blackwell i fod yn olygydd iddo; eithr trodd yr anturiaeth allan yn dra aflwyddianus, a chollodd y cyhoeddwyr, Meistri Rees, Llanymddyfri, oddi wrtho yn ystod y ddeuddeg mis cyntaf o'i gyhoeddiad £200. Pa fodd bynag, cafodd y cyhoedd gyfleusdra i ffurfio barn uchel am y golygydd fel rhyddieithwr coeth, yn meddu ar wybodaeth helaeth o adnoddau yr iaith Gymraeg. Ond er hyny bu y *Cylchgrawn* farw o ddiffyg cefnogaeth, a defnyddiwyd y ffaith gan wyr y Llyfrau Gleision i brofi na roddai ein cenedl achles i ddim llenyddiaeth ond y sectol a'r grachddadleuol. Dywed ei Fywgraffydd, y Parch. Griffith Edwards, Minera, fod rhyw gysylltiad rhwng aflwyddiant y *Cylchgrawn* a dirywiad iechyd Mr. Blackwell, yr hyn a gymerodd le tua'r un amser. Yn gynar yn 1836, yr oedd pob arwyddion fod rhyw anhwyldeb yn dadsylfaenu ei gyfansoddiad, ac argoelion o'r parlys i'w canfod; ac ni ollyngodd yr afiechyd hwn ei afael arno am y gweddill o'i oes. Yn y llythyrau a ysgrifenodd tan ei afiechyd at gyfeillion, efe a arddengys ysbryd gostyngedig ac ymroddol i ewyllys ei Arglwydd. Mai 19, 1840, anadlodd ei anadl olaf, yn 43ain oed. Claddwyd ef yn mynwent Manordeifi, a chododd ei briod gofgolofn hardd ar ei fedd. Enw gwyryfol ei briod oedd Miss Dear, Pistyll, gerllaw Treffynon; ni bu y briodas ond o fyr barhad gan mai yn Gorphenaf 1839 y cymerodd le.

Nid yw ei gyfansoddiadau barddonol yn llawer,—cwynir braidd na buasai wedi cyfansoddi rhagor, yn enwedig wedi iddo dderbyn urddau; ond y maent gyda'r pethau tlysaf a choethaf sydd yn yr iaith. Profir fod rhai o'i feddyliau wedi eu benthyca o weithiau y prif-feirdd Seisnig; ond y mae ei arddull mor glasurol, ei iaith mor bur, a'r cyffyrddiad llednais hwnw na fedr neb ei roddi ond meistr yn y gelfyddyd, i'w ganfod ar ei holl waith, nes y mae pob gwrthwynebiad yn toddi ac yn diflanu.

BLAIDD RHUDD oedd benaeth yn y 12fed ganrif yn ardal y Gest, ger Penmorfa, yn Arfon, ac un o'r pum costoglwyth, neu lwythau gwerinol ydoedd. Gelwid hwynt felly mewn cyferbyniad i'r pum' breninlwyth. Blaenor oedd y Blaidd ar y cyffredin bobl; ac ymddengys ei fod yn ddyn cryf, annhyblyg, a chanddo rhyw nifer o wyr

Digitized by Google

i'w gynorthwyo. Ymddengys hefyd fod trigolion y Gest yn rhai cyndyn iawn i'w gorchfygu, oherwydd ni chawsent ryddfreiniad yn mhen tri chan mlynedd—caethion, neu *villaines*, oeddynt yn amser Edward III., yn 1356.

BLEDRI. Yn *Mrut y Tywysogion* ceir y crybwylliad a ganlyn :—"Oed Crist 1023, bu farw Morgynnydd escob Dewi, a Bledri escob Teilaw, ysgolhaig penaf Gwlad Gymru, achaws hyny y gelwid ef Bledri ddoeth, a chystal y carai wybodau fal y dodes ar yr offeiriaid gynal addysg llyfrau llên bob un yn ei eglwys, mal y gwypai bawb a ddylynt parth Duw a dynion."—(*Myf. Arch.* ii. 303). Yn Llyfr Llandaf dywedir mai yn y flwyddyn O. C. 1022 y bu hyn, ac yn nglŷn a'i hanes, ceir bod ymrafael flin wedi digwydd rhyngddo ag Edwin ab Gwriad, tywysog Gwent, ac i'r esgob gael ei archollí yn y cythryfwl. Y canlyniad o hyn fu rhoi Edwin a'i deulu dan esgymundod, ac ni chai neb o drigolion Gwent fwynhau rhadau Cristionogol, hyd nes y gwnaed iawn digonol am y sarhad a gyflawnwyd. Bu Bledri yn esgob am yn agos i ddeugain mlynedd.

BLEDRI AB CADIFOR oedd arglwydd Gwydigada ac Elfed yn sir Gaerfyrddin; claddwyd ef yn Llangadog.—*Cam. Biography.*

BLEDDYN AB CYNFYN a gafodd dywysogaeth Gwynedd ar farwolaeth ei haner brawd Gruffydd ab Llywelyn, tua'r flwyddyn 1066; a Rhiwallawn ei frawd yr un pryd a gafodd dywysogaeth Powys. Ond ar gwymp yr olaf mewn brwydr, daeth Powys hefyd i feddiant Bleddyn.

Bleddyn ab Cynfyn bob cwys
Ei hun biodd hen Bowys.

Yr oedd yn feddianol ar lawer o rinweddau; yn dilyn cyfiawnder ac unionderb; ac yn hael a chymwynasgar. Cynaliai gyfreithiau y wlad, ac adgyweiriai ddefodau y beirdd. "O. C. 1073, y daeth Rhys ab Owain ab Edwin o Fanaw a chan gael ei gynorthwyo gan luaws o bendefigion, Ystrad Tywi a Brycheiniog, efe a barodd lofruddiad y tywysog Bleddyn ab Cynfyn trwy gweryl cyfrinachol yn Nghastell Powys."—*Brut*

BLEDDYN DDU. Bardd a flodeuai tua 1090. Y mae dau gywydd o'i waith ar gael mewn ysgrifen yn y Llyfr Coch o Hergest; un "I Dduw," a'r llall i "Abad Aberconwy."

BLEDDYN FARDD. Y bardd gorchestol hwn oedd bardd "Llywelyn ein Llyw Ola'." Blagurai rhwng 1250 a 1290. Mae 13 o'i gyfansoddiadau yn y *Myf. Arch.* Rhoddwn engraifft o "Farwnad y meib Gruffydd fab Llywelyn:"—

"Neud amser gauaf gwelwaf gweilgi,
Gweilgig mor adar hwylfar heli,
Neud arllen arien Eryri—weithion.
Neud uchel gwendon gwyndir Enlli.

"Neud wyf hoed fwy-fwy drwy drueni,
Neud wyf hoen hyboen heb arglwyddi,
Trywyr a gollais, tri—dyledogion,
Brodorion haelion o hil Rodri."

BLEDDYN LLWYD. Bardd a flodeuai tua chanol y 13eg ganrif; tybir nad oes dim o'i waith ar gof a chadw.

BLEGWRYD AB OWAIN, pencyfeistedd Llandaf, a brawd Morgan brenin Morganwg, oedd wr o ddysg ac urddas arbenig, efe yn nghyd a Martin esgob Menyw, Mordaf esgob Bangor, a Marchlwys esgob Teilaw, a aeth i Rufain hefo Hywel Dda "i ymgynghori â Doethion y modd y gwellheid cyfreithiau Gwlad Gymru." Yr oedd Blegwryd yn ddyn doeth a da (*famosissimus ille vir Bledguirit*), ac enwir ef yn "Athraw

Digitized by Google

yng nghyvraith yr amherawdyr ac yng nghyvraith yr Eglwys," ac felly pur naturiol oedd iddo gael ei anfon ar y fath genadwri. Dywedir mai efe oedd yr "ysgolhaig" neu'r ysgrifenydd yn amser cyfeisteddiad y gwahanol wyr doethion i wellhau'r cyfreithiau, ac mai iddo ef yn benaf y perthyn y clod am y doethineb a'r syberwyd a amlygir yn y cyfreithiau unionfryd a roes enw parhaus a didranc i Hywel Dda.

BLEGWRYD FRENIN, yn ol y *Brutiau Cymreig*, a ddilynodd Seisyllt fel brenin Prydain. Yr oedd yn enwog am ei fedr mewn cerddoriaeth leisiol ac ar offerynau, hyd i fod yn annghydmarol, ac am hyny y gelwid ef, "duw y chwareu."

BLEIDDAN. Esgob Troyes yn Ffrainc oedd efe, ac yn yr amser pan flinid Cred gan Heresi Morgan, neu Morien, daeth ef a Garmon drosodd i'r wlad hon er atal llwydd y geu-gred. Meddylia rhai fod Bleiddan yn ieuengach na Garmon, oherwydd fel yn eilradd iddo yr ymddengys yn yr holl weithrediadau. Y mae dwy eglwys yn Morganwg wedi cael eu cyflwyno iddo, sef Llanfleiddan Fawr a Llanfleiddan Fach. Dydd ei wylmabsant ydyw Gorphenaf 29ain.

BLEIDDYD, brenin Prydain o'r flwyddyn 839 i 859 C.C., a ddilynodd ei dad Rhun Paladfras. Efe a deyrnasodd ugain mlynedd, ac a adeiladodd Caerfaddon, neu Bath, lle y gwnaeth hylif cynes i fod yn feddyginiaeth barhaol i'r afiachus. Trwy aberthu i'r dduwies Minerfa efe a gyneuodd dân anniffoddadwy yno, yr hwn, pan ymddangosai ei fod ar ddiffodd, a ail-gyneuai yn belleni o dân. Gwnaed hyn oddeutu yr amser pan y gweddiodd Elias na byddai wlaw am dair blynedd a chwe' mis. Yr oedd Bleiddyd yn llafurus mewn ymchwiliadau gwyddonol, canys efe oedd y cyntaf a ddaeth a'r gelfyddyd o swyno i Brydain; ac ni pheidiodd a'r cyfryw efrydiadau, a dyfeisiadau celfyddydol, hyd nes ceisio ehedeg â phâr o adenydd, y rhai a gynlluniodd; ond efe a syrthiodd ar deml Apollo yn Llundain, lle y drylliwyd ef yn gant o ddarnau. Dyna yr hanes a roir yn y *Brutiau Cymreig*, a argraffwyd yn y *Myf. Arch.* ii. 126. Dilynwyd ef gan ei fab Llyr, neu Lear yn ngwaith Shakspeare.

BLEIDDYD, yn ol y *Brutiau*, oedd y 53ain frenin Prydain. Efe a ddilynodd Meiriawn i'r orsedd tua C.C. 266; teyrnasodd am dair blynedd, ac yna bu farw.—*Myf. Arch.* ii. 165.

BLEIDDYD, esgob Tŷ Ddewi; dilynodd Joseph i'r esgobaeth yn 1061, a bu farw 1070.—*Myf. Arch.* ii. 519.

BODA. Un o ddeuddeg mab Helig ab Glanawg, yr hwn y "goresgynes y mor eu tiroedd, a saint yn Mangor fawr yn Maelawr y buant, a gwedi hyny yr aethant rai o honynt i Gor Cadfan yn Enlli." Tybia rhai mai'r un ydoedd ef a Bodfan, ond nid oes dim modd cael un sail ddilys ar y naill ochr na'r llall. Nis gwyddis dim am ei dreigl.

BODFAN. Un arall medd rhai, ond yr un medd eraill, o feibion Helig ab Glanawg; ac y mae eglwys Abergwyngregin, yn Arfon, wedi cael ei chyflwyno iddo, ac nid peth i'w fwrw o'r neilldu ydyw fod y fan heb fod yn neppell oddiwrth y lle y dywedir i Lys Helig ab Glanawg sefyll arno cyn i'r "mor ei oresgyn." Y mae ei wylmabsant ar yr ail o Fehefin.

BOLD (William, Ysw.), o Dre'r Ddol. Bu yn sirydd Mon yn y blynyddau 1644, '49, a '55,—y ddwy flynedd olaf yn ystod rhwysg y Werinlywodraeth; ac eto, yn ol y *Cambrian Quarterly*, yr oedd Bold yn y fath ffafr gyda Siarl II. yn 1660 fel y bwriedid ei anrhegu ag urdd y Dderwen Freiniol.

Digitized by Google

BOWEN (PARCH. DAVID), a anwyd yn 1774. Derbyniwyd ef yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Felinfoel, ger Llanelli; anogwyd ef i bregethu; ac yn Awst 26ain, 1806, ordeiniwyd ef i gynorthwyo ei weinidog y Parch. D. Davies. Yr oedd eglwys Llwynhendy a Llanon mewn cysylltiad â'r Felinfoel y pryd hwn, a byddai'r ddau weinidog yn eu cylch yn pregethu yn yr holl eglwysi. Yn 1831, ymgorpholodd rhan o eglwys y Felinfoel yn gangen eglwys yn Llanelli, ac aeth Mr. Bowen yn weinidog ar y gangen hon. Bu cynydd a llwyddiant mawr ar ei waith yn Llanelli. Eangwyd yr addoldy yn 1838; a'r eglwys yn 1839 a roddes alwad i'r Parch. James Spencer, o Dreffynon, i ddyfod yn gydweinidog a Mr. Bowen, gan ei fod ef yn heneiddio. Bu farw Gorphenaf 14eg, 1853. Bu yn dra llafurus a chymeradwy fel pregethwr, a gwnaeth lawer o les i achos y Bedyddwyr yn ardaloedd Llanelli.

BOWEN (DR. JOHN). Ganwyd ef Tachwedd 1815, yn y Cwrt, ger Abergwaun, Penfro. Ei dad oedd gadben yn y fyddin. Danfonwyd ef i Hwlffordd i dderbyn elfenau dysgeidiaeth; ac wedi gorphen ei dymhor yno, rhoddwyd cynyg iddo ai myned i Gaergrawnt i'r athrofa ynte ymfudo; a chan ei fod o duedd anturiaethus dewisodd yr olaf, ac ymsefydlodd fel amaethwr ar lanau Lake Erie yn Canada. Yma dychwelwyd ef at grefydd; blinodd ar Canada, daeth yn ol i w wlad, ac aeth i'r Trinity College, Dublin. Bu agos iddo drachefn adael y coleg ar haner graddio, trwy fod yspryd cenadwr wedi disgyn yn drwm arno. Patagonia oedd i fod yn faes ei lafur, ond gan i'r genadaeth hono, yn yr amser hwn, gyfarfod a diwedd tra galarus, efe a ail-afaelodd yn ei efrydiaeth, a graddiwyd ac ordeiniwyd ef. Bu am beth amser yn gurad Knaresborough; ond yn fuan bu farw ewythr iddo gan ei adael yn etifedd Milton, gerllaw Hwlffordd. Galluogai hyn ef i ymgyflwyno yn llwyr ar unwaith i'w hoffwaith—y genadaeth, ac i wario o saith i wyth cant o bunau bob blwyddyn yn y gwasanaeth. Rhoddodd ei hunan tan gyfarwyddyd Cymdeithas Genadol yr Eglwys Sefydledig; a danfonwyd ef ar daith i wledydd y Dwyrain. Ymwelodd yn nghyntaf â Jerusalem, ac â'r sefydliadau cenadol yn Syria, Cairo, Mosul, Smyrna, &c., a danfonai banes dyddorol am sefyllfa crefydd yn y lleoedd hyny i'r fam gymdeithas yn Llundain. Pan yn Mosul, daeth i gyfarfyddiad a chydnabyddiaeth â Mr. Layard, darganfyddwr gweddillion Ninefeh. Bu fel hyn yn teithio am ddwy flynedd a haner, heb neb ond efe a'i was yn nghanol cenedloedd haner-gwaraidd, heb gleddyf nac arf; ac ni ddigwyddodd iddo ddim niwaid. Dychwelodd i Loegr yn Rhagfyr 1851, ac arosodd ar ei etifeddiaeth yn Milton am beth amser, pryd y cafodd bersonoliaeth plwyf bychan Orton. Nid hir y bu yno cyn y ca'dd gynyg ac y derbyniodd esgobaeth Sierra Leone. Cyn cychwyn i'w esgobaeth, priodwyd ef gyda Miss Butler, merch i ddeon Peterborough. Pa fodd bynag, wedi cyrhaedd maes ei lafur, a dechreu o ddifrif ar ei waith, nid oedd ond angau yn ei aros. Cymerwyd ef a'i foneddiges yn glaf, a bu hi farw rai dydd'an o'i flaen ef yr hyn a gymerodd le yn Awst 1858.—*Memoir of Dr. Bowen.*

BOWEN (PARCH. JOHN), o Bontypool, neu o sir Fynwy, fel yr adwaenid ef weithiau, a anwyd yn y flwyddyn 1770, ac a fu yn pregethu gyda'r Trefnyddion Calfinaidd am y cyfnod hirfaith o driugain mlynedd. Ystyrid ef ar ddechreu ei weinidogaeth yn un o ser disgleiriaf yr areithfa Gymreig; ond tros y seren y daeth cwmwl. Gadawodd y Trefnyddion Calfinaidd,—ymunodd â'r Bedyddwyr, a bu yn pregethu gyda'r enwad hwn am beth amser. Aeth yn ol drachefn at y Trefn-

Digitized by Google

yddion, a bu yn pregethu gyda hwynt o hyny allan hyd ei farwolaeth. Yr oedd yn ddyn o dymher siriol, yn ddarllenydd mawr, ac yn bregethwr hwylus, serchog, ac enillgar. Bu farw Mai 22ain, 1855.

BOWEN (Parch. John), oedd fab i Mr. Bowen, person Llangeler. Derbyniwyd ef yn aelod o eglwys Annibynol Saron, pan oedd y Parch. D. Davies yn weinidog yno. Yn fuan, anogwyd ef i bregethu; a phan symudodd Mr. Davies o Saron i Abertawe, ordeiniwyd Mr. Bowen Tach. 3, 1795, i fod yn gydweinidog â Mr. Lewis yr hen weinidog. Bu ar ol hyn lwyddiant a heddwch yn teyrnasu yn Saron am tua phum' mlynedd; ac yna cododd ymryson creulawn. Mr. Bowen mewn byrbwylldra a ddiarddelodd tua deugain o aelodau yr eglwys; yr hyn a barodd ymraniad, ac y cymerodd yr hen weinidog ofal un ran o'r gynulleidfa a Mr. Bowen y rhan arall. Addolent yn yr un capel, ond nid yr un amser. Pa fodd bynag, ni pharhaodd yr ymrafael anweddus yn hir; a daeth Mr. Bowen eilwaith i ffafr uchel gyda'r *holl* eglwys. Ystyrid ef yn ddyn didderbynwyneb, yn Gristion didwyll, ac yn bregethwr tra rhagorol. Gweinidogaethai hefyd ar eglwys y Bwlchnewydd, nes y lluddiwyd ef gan henaint.

BOWEN (Parch. Thomas), gweinidog Annibynol yn Castellnedd, a gafodd ei eni yn Mynyddbach, ger Llandeilo Fawr. Astudiodd yn Athrofa y Fenni, a chafodd alwad gan eglwys Maesyronen, Maesyfed, lle yr urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1792. Torodd diwygiad nerthol allan tan ei weinidogaeth, yr hwn a ymledodd tros ran fawr o'r wlad. Yn 1796, derbyniodd alwad eglwys Maesyrhaf, Castellnedd, lle y bu yn llafurus a llwyddianus hyd ei farwolaeth. Sefydlwyd dwy gangen-eglwys yn ystod ei weinidogaeth ef, sef Melincwrt a Chwmafon. Yr oedd efe yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn y wlad—lawn mor hylithr yn y Saesneg ag yn y Gymraeg. Bu farw Chwefror 27ain, 1827.

BRADFFORD (John), *(Ieuan Tir Iarll).* A thraw Iolo Morganwg; a bardd a hynafiaethydd o gryn fri ac enwogrwydd yn ei amser. Ei drigfa oedd y Betws Tir Iarll. Ganwyd ef tua 1690, canys yr oedd "Sion Bradfford, yn blentyn" yn un o awenyddion Gorsedd Morganwg yn 1700, pan oedd Samuel Jones o Frynllywarch yn llywyddu. 1700 yw y flwyddyn a noda Rhagymadrodd i waith Llywarch Hen; ond bu S. Jones farw yn 1697. Dysgybl oedd ef hefyd yn 1730, pan oedd Dafydd Hopkin o'r Coetty yn Llywydd; ond erbyn 1760 efe oedd y Cadeirfardd. Bu farw yn 1780. Daeth y cyntaf o'r Bradffordiaid i Forganwg o Wlad yr Haf, neu Ddyfnaint, fel ffoadur rhag erlidwyr Mari waedgar. Panwr ydoedd, ac ymsefydlodd yn y Betws Tir Iarll, dan nawdd Lewis Thomas o Gwrt y Bettws neu Lewys Gig Eidion; canys yr oedd digon o gig eidion ar ei fwrdd yn wastad, "a digon o roesaw i bob dyn ar air glân a ddelai yno." Mae *Cyfrinach y Beirdd* yn profi fod Ieuan Bradfford yn gyfarwydd a deallus fel Cerddfeirniad yn ol Dosbarth Morganwg, oblegyd brithir y llyfr a nodiadau synwyrol o'i eiddo. Ganddo ef y cafodd Iolo Morganwg gyfysgrif o'r *Cyfrinach* yn 1773, ac ni welodd ond un ysgrif arall o hono, sef un Llyfrgell Llanharan, a chredai nad oedd rhagor yn bod. Tybiwn y dylasai Llywelyn Ddu o Fôn fod yn fwy parchus o hono na'i alw yn un o'i lythyrau yn "ddarn o brydydd, &c."—Gwel *Cyf. y Beirdd; Taliesin*, cyf. i. 213; *Gwaith Llywarch Hen*, gan y Dr. W. O. Pughe, lxii, lxiii.

BRAINT HIR, arglwydd Is-dulas, un o bymtheg llwyth Gwynedd, oedd ben-cadrawd i Anarawd ab Rhodri Mawr, tywysog Aberffraw.

Digitized by Google

Dywed hanes arall llai credadwy mai mab ydoedd i Nefyn ab Grenig, a nai i Gadwallawn, tywysog Gwynedd—iddo hynodi ei hun yn myddin ei ewythr yn erbyn ymgyrchiadau Edwin, brenin Northumberland; ond gan i'r olaf drechu, gorfu ar Braint ffoi gyda'i ewythr i'r Iwerddon, ac oddiyno i wlad Ffrainc. Yr oedd pob ymgais a wnaent i lanio yn Mhrydain yn aflwyddo, trwy gyfaredd rhyw ddewin Yspaenaidd o'r enw Pelidys, a daeth Braint trosodd wrtho ei hun i edrych beth a ellid wneuthur. Daeth i Gaerefrog, lle yr oedd llys Edwin, yn niwyg crwydryn, a chanddo ffon yn ei law yn mlaen yr hon yr oedd llafn o ddur; a phan ddaeth y dewin allan i ranu elusen, Braint a'i tarawodd gyda'r ffon ac a'i lladdodd. Yna efe a ffodd i Exeter, ac a wysiodd y Prydeiniaid i ymuno ag ef; ac felly yr adenillodd efe y wlad oddiar y Saeson, a'r deyrniaeth i Gadwallawn, yr hwn a laddwyd drachefn gan Edwin yn mrwydr Hatfield.

BRAN, mab Dyfnwal Moelmud. *Gwel* BELI.

BRAN FENDIGAID. Nid oes odid un cymeriad wedi cael mwy o sylw ein brutwyr a'n chwedleuonwyr, yn gystal a'n beirdd, oddigerth Arthur, nag a gafodd Brân; ac eto i gyd y mae cryn lawer o gaddug yn mantellu ei *wir* hanes. Yn y *Trioedd* rhestrir ef hefo Phrydain ab Aedd Mawr a Dyfnwal Moelmud. "Tri Bancewyddion Ynys Prydain; Prydain ab Aedd Mawr; Dyfnwal Moelmud; a Brân ab Llyr Llediaith: sef goreu trefn eu trefn hwy ar Deyrnedd Ynys Prydain hyd onis bernid hwy yn bennorawl ar bob Trefneu eraill a wnaed yn holl Ynys Prydain."—(*Tri.* 36. *Myf. Arch.* ii. 63). Mewn *Triad* arall dywedir fel hyn am dano: "Tri Menwedigion Teyrnedigion Ynys Prydain: Brân Fendigaid ab Llyr Llediaith a ddygwys gyntaf ffydd yn Nghrist i Genedl y Cymry o Rufain, lle y bu efe saith mlynedd yn ngwystl ei fab Caradawg a ddug Gwyr Rhufain yn ngharchar gwedi ei fradychu drwy hud a thwyll Aregwedd Foeddawg."—(*Tri.* 35. *Myf. Arch.* ii. 63). Mewn *Triad* arall rhêd yr hanes fel hyn: "Tair Gwelygordd Santaidd Ynys Prydain: Gwelygordd Brân Fendigaid ab Llyr Llediaith, sef y Brân hwnw a ddug y ffydd yn Nghrist gyntaf i'r ynys hon o Rufain, lle y bu ef yn ngharchar drwy frad Aregwedd Foeddawg, merch Afarwy ab Lludd:"—(*Tri.* 18. *Myf. Arch.* ii. 61). Yn *Achau'r Saint* dywedir mai "Brân ab Llyr Llediaith a fu'r cyntaf o genedl y Cymry a droswyd i'r ffydd yn Nghrist, a'i welygordd ef a fu yn un o dair Gwelygordd Saint Ynys Prydain."—(*Iolo MSS.* t. d. 100). Cyfetyb y rhelyw o'r *Achau* i'r dyfyniadau uchod, sef gan hòni mai drwy Frân ab Llyr Llediaith y dygwyd yr efengyl i'r wlad hon gyntaf. Y mae'r Cadeirdraw Rees yn ei lyfr godidog ar *Seintiau Cymru* yn taflu cryn lawer o anmheuaeth ar yr haeriadau hyn, ac yn sylfaenu ei wrthwynebiadau ar waith yr haneswyr Tacitus a Dion Cassius. Dywed yr hanesydd olaf a enwyd mai un o feibion Cynfelyn (Cunobelinus) oedd y Caradog a enwir yn y cofianau Cymreig yn Caradog ab Brân. Os nad oedd Caradog yn fab Brân, dyna'r adroddiadau Cymreig yn dryblith. Os oes coel ar y *Brutiau*, ceir gweled mai dau fab oedd i Cynfelyn, sef Gwydyr a Gweirydd, er fod Dion yn haeru mai mab iddo ef oedd Caradog; ond yn *Trioedd* 79 ceir enw un arall sef Belyn, a thyma y crybwylliad; "Tair Gosgordd Addwyn Ynys Prydain; Gosgordd Belyn fab Cynfelyn yn nghadfel Caradawc ab Brân, &c."—(*Myf. Arch.* ii. 69). Yn awr, gan fod hanes Caradog—pwy oedd, a pha bryd y cymerth ei orthrechiad, a'i gymeriad yn garcharor le, yn anhepgorion er mwyn cael golwg deg ar Brân, y mae'n rhaid chwilio'n fanwl y

Digitized by Google

tystiolaethau o *blaid* ac yn *erbyn* yr hyn a haerir gan draddodiadau cynwynol Cymru o un tir, a'r hyn a ddywed haneswyr allforol ar y llall. O barth i'r hyn a geir yn hanes Dion Cassius y mae'n rhaid cofio mai yn y drydedd ganrif yr ysgrifenodd ef, ac nad oedd ganddo wybodaeth heblaw un ail law am yr hyn a ddigwyddodd yn y wlad hon, a thrwy hyny, nad ydyw ei haeriadau i'w derbyn heb gryn lawer o'r hyn a enwn yn ochelgarwch. Gallai yr hyn a ddywedai, mor bell ag y gwyddai, fod yn hollol gywir; ond eto, gallasai ei awdurdodau fod yn llwgr, ac felly ddyfetha sylwedd diledryw y cyfan. Yr oedd dyn o wlad bell, yn mhen tri chan mlynedd agos, yn lled debyg o wneuthur camgymeriadau anafus. Ond ni sonia Tacitus ddim gair am dad Caradog, er iddo grybwyll am ei *wraig*, ei *ferched*, a'i *frodyr;* a thybia rhai, pe buasai ei dad yn mysg y gaethglud, na adewsid mo'i enw ef allan: ond gellir rhoddi esgusawd am hyn. Gallasai ei dad beidio a chael ei gymeryd yn garcharor ar yr un adeg a'i fab, ac iddo ar ol clywed am ei fradychiad, fyned ar ei ol, ac nad oedd wedi cyrhaeddyd yno yn amser eu mynediad hwy i Rufain; neu ynte, nad oedd wedi gwneud ei hun yn hysbys. Nid oes dim yn anhebgorol yn hyn. Ac yn mhellach, a gymerir geiriau Tacitus bob amser yn wirionedd dilys? Gwyddis pa beth a ddywed am yr Iuddewon, hanes pa rai a ddylasai fod yn haws iddo eu darlunio'n gywir nag eiddo trigolion y wlad hon; er hyny nid oes dim ag sydd yn amlycach na'i haeriadau disail o barth i'r genedl hono. Pa faint bynag o gred a ddylid ei roddi ar ddywediadau ein cofianau gwladol ni, nid peth annheg eu cyferbynu hefo'r hyn a ddywed eraill ar yr un pwnc, ac fel y dywed yr anfarwol Carnhuanawc yn dra phriodol, felly y dywedaf finau, "Nis gwn ar ba egwyddor y caniateir i awdwyr pellenig y cyfryw anffaeledigrwydd, a bod i ni roddi cred i'r cwbl a draethant, tra'r amheuir y cwbl o darddiad cartrefol."—(*Hanes Cymru*, t. d. 113). Felly, ond i ni fwrw golwg dros haeriadau y ddau hanesydd a nodwyd yn nghylch hanes Caradog, nid ydynt yn cyfateb i'w gilydd ond mewn ychydig iawn o ffeithiau. Gan fod ynte gymaint o ddywediadau annghytunol ganddynt hwy, nid oes ond troi at Brân gan loffa yr oll a fedrwn am dano yn nghofianau ein gwlad ni ein hunain. Yno rhestrir ef fel yr hwn a fu'n foddion i ddwyn y ffydd i'r wlad hon, a chyfetyb yr *Achau* mewn llaweroedd o bethau haner damweiniol hefo chrybwyllion haneswyr eglwysig ar y pwnc. Dywed misolydd Groegaidd i Aristobulus, sef yr un fel y tybir ag Arwystli, gael ei benodi yn esgob Prydain. Tystia Cressy yr un peth:—"St. Aristobulus, dysgybl i St. Paul yn Rhufain, a anfonwyd yn apostol at y Brutaniaid, ac efe oedd yr esgob cyntaf yn Mhrydain: bu farw yn Ynys Afallon, O.C. 99, a chedwir ei wylmabsant Mawrth 15fed." Dyma dystiolaeth Dorotheus, awdwr "Crynhodeb o fywyd a marwolaeth y Prophwydi, ac hefyd Apostolion a Dysgyblion Iesu Grist:" "Aristobulus un o'r deg dysgybl a thriugain, yr hwn a enwir gan St. Paul yn y Rhufeiniaid, a ddysgodd drefn iachawdwriaeth, ac a weinyddodd y swydd o esgob yn Mhrydain." Ac y mae'r hyn a ddywed yr Esgob Stillingfleet yn d'od i'r un pwrpas. Er na wyddai ef ddim am gofianau Cymru, eto, tybiodd mai yn nglyn a charchariad Caradog y cafodd ein gwlad y fraint oruchel hon, sef cael dysgu'r ffydd yn Nghrist. Y mae'r ffeithiau hyn, a'u cymeryd yn foelion yn eithaf digon i beri ymchwil, ac ni ddylai dim ond dilysdeb rag-flaenori wrth drin a thrafod pethau pwysig fel hyn. Nid ydyw y Mabinogi a gyfenwir ar Brân namyn rhamant dlos oes ddiweddar mewn cydmariaeth, ac

Digitized by Google

ni ddylid ar un cyfrif gymysgu brud hefo ffaith. Fod Brân yn ddyn a drefnwyd gan ragluniaeth i ddwyn yr efengyl yma sydd haeriad: mai mab iddo ef oedd Caradog sydd haeriad: iddo fod yn offerynol i ddwyn Arwystli, Cyndaf, Ilid, a Mawan, drosodd i gyhoeddi y newyddion da o lawenydd mawr sydd hefyd o'r un rhyw a thebygrwydd; ac nid rhaid i neb ymchwilgar betruso llawer, credu yr hyn a drosglwyddwyd yn draddodiadol i ni o barth yr hyn a wnaeth, ac mai drwy'r digwyddiad rhyfedd o wystlaeth y cafodd ef afael ar y carcharor nodedig hwnw Paul yr hwn oedd yn byw "yn ei dŷ ardrethol ei hun" o dan olygyddiaeth Burrus. Gall fod ofergoel wedi ymlusgo'n raddol o gwmpas yr amgylchiad; ond i bob meddwl diragfarn, nid oes dim yn amlycach na bod hanfodion elfenol yr hyn a haerir yn meddu egwyddorion gwirionedd diamheuol. Y mae tystiolaethau pendant ysgrifenwyr yr hen oesau yn benderfynol, ac ni ddylid ond cymeryd y cyfryw fel eglurhadau diamwys o gred ddilys yr hynafiaid. Pwy bynag a ewyllysio gael ychwaneg o oleufynag edrychedi'r llyfrau hyn.—Usher's *Britan. Eccles. Antiq.* t. d. 9; Lardner's *Cred. of Gospel History*, part ii., chap. 55; *Myf. Arch.* ii.; *Cressy; Iolo MSS;* Ab Ithel's *Eccles, Antiq. of the Cymry; Welsh Saints*, by Proffesor Rees; *St. Paul in Britain*, by Saville; Bishop Burgess's *Tracts;* Bishop Stillingfleet's *Orig. Sac.;* Collier's *Eccles. Hist.*, &c., &c.

BRECHFA (Ieuan). "Ieuan Brechfa o Ddeheubarth a ysgrifenodd am y Tair Talaeth."—*Lewis Dwn.* Brodor o Frechfa yn sir Gaerfyrddin ydoedd; ac un o wyr enwocaf ei oes fel bardd a hanesydd; rhagorai hefyd fel arwyddfardd ac achwr. Mae crynhodeb o Hanes Cymry o'i waith yn argraffedig yn y *Myf. Arch.* Bu farw, fel y tybir, tua 1500. Dywed Carhuanawc mai talfyriad o waith Caradog o Lancarfan ac eraill yw *Brut* Ieuan Brechfa.—*(Hanes Cymru*, t. d. 370).

BREESE (Parch. John), gweinidog enwog gyda'r Annibynwyr yn Liverpool, a thrachefn yn Nghaerfyrddin. Ganwyd ef yn Llanbrynmair, Medi 1789. Ychydig a geir o hanes bore ei oes—dygwyd ef i fynu gydag ewythr iddo, heb ond ychydig anogaeth i foes na dysg; a dechreuodd lafur ei oes trwy weini gydag amaethwyr. Pa fodd bynag, yr oedd llusern yr Ysgol Sabbothol y pryd hwnw wedi ei goleuo yn yr Hen Gapel—addoldy sydd a'i enw yn ddigon hysbys i Gymru oll mewn cysylltiad ag enw a llafur y Robertsiaid o Lanbrynmair. Y Parch. J. Roberts, hynaf, oedd gweinidog yr Hen Gapel y pryd hwn; derbyniodd y bachgen John Breese bron yr oll o'i oleuni boreol oddiwrth lusern yr Ysgol Sabbothol hon. Hyhi hefyd a ddangosodd ei fod ef wedi ei freintio â doniau uwchlaw y cyffr din. Yn fuan wedi iddo ymuno â'r eglwys, anogwyd ef i ddechreu pregethu; a phenderfynodd yr eglwys ar roddi addysg athrofaol iddo. Pan yn 24ain oed, danfonwyd ef am yspaid i ysgol yn Amwythig, ac oddiyno i athrofa Llanfyllin, athraw yr hon y pryd hwnw oedd y gwiwglodus Dr. George Lewis. Cyn i'w dymhor yn yr Athrofa ddyfod yn gwbl i fynu, derbyniodd alwad oddiwrth yr unig eglwys Annibynol yn Liverpool y pryd hwnw i fod yn weinidog arni. Rhyw driugain oedd nifer yr Annibynwyr Cymreig yn y dref pan ddechreuodd Mr. Breese ei lafur yn eu plith; a'r nifer bychan hwn a gyfarfyddent i addoli mewn ystafell yn Edmund St. Yn fuan, aeth y gynul eidfa yn rhy luosog i'r ystafell hon a symudodd i'r Tabernacl, Great Crosshal Street. Urddwyd ef yn weinidog y ddeadell fechan hon yn y ffwyddyn 1817. Yr oedd yn amlwg fod doniau deniadol Mr. Breese yn dra chymhwys i

Digitized by Google

dref gynyddol Liverpool. Llafuriodd yno gydag ymroddiad neillduol am ddwy flynedd ar bymtheg. Pregethai bedair gwaith bob wythnos trwy yr holl yspaid hwnw i'w gynulleidfa ei hun, heblaw a wnai mewn manau eraill; a phob tro y safai i fynu i bregethu gwnai hyny a'i holl egni. Symudodd yn nechreu Ionawr, 1835, i gymeryd gofal eglwys Heol Awst, Caerfyrddin. Bu yno am fwy na saith mlynedd. Yr oedd arwyddion dadfeiliad yn amlwg arno y blynyddoedd diweddaf o'i oes; ac wedi rhai misoedd o gystudd caled bu farw Awst 1842, yn 51 oed. Claddwyd ef yn mynwent Heol Awst. Dyn byr, crwn, gwisgi, o wneuthuriad cadarn, oedd Mr. Breese; ac yn yr olwg arno gallesid disgwyl iddo fyw ddeng mlynedd ar hugain yn hwy. Yr oedd o dymher fywiog gyfeillgar, hawdd ei arwain, a hawdd dylanwadu arno—caredig o galon ydoedd. Ni fradychodd gyfaill erioed; lle y cymerai at ddyn yr oedd yn ffyddlon hyd farw; ac ystyrid ef yn un o brif bregethwyr ei enwad yn ei ddydd. Pregethwr duwinyddol ydoedd. Ar bynciau mawrion, dyfnion, y pregethai agos bob amser. Tywyll a niwliog oedd ei arddull. Defnyddiai iaith uchel, ac ymadroddion dyeithr. Cwynai y cynulleidfaoedd yn aml nad oeddynt yn ei ddeall; ond synai ef at eu hwyrfrydigrwydd—tybiai ei fod bob amser mor eglur nad oedd modd peidio ei ddeall. Ond er cyhyd ei frawddegau, dyeithrwch ei iaith, tywyllwch ei arddull, a dyfnder ei destynau, yr oedd ganddo afael gref ar y wlad. Efe a'r anfarwol Williams o'r Wern oedd dwy seren fawr eu henwad yn y Gogledd yn y cyfnod hwnw; er fod dirfawr wahaniaeth rhwng y ddau.

Yr oedd bywiogrwydd yspryd—ystwythder dawn—anngerddoldeb traddodiad—cyflymdra ymadrodd—a phereiddiwch llais Mr. Breese yn ei wneud yn boblogaidd iawn gan y lluaws er holl anfantais ei aneglurdeb. Pregethai gyda dylanwad anghyffredinol ar brydiau; a dywed y rhai a'i gwrandawsant amlaf mai ar destynau ymarferol; ac yn neillduol pan yn ymresymu â phechaduriaid am eu mater tragywyddol, y byddai effeithiolaf. Ychydig a gyhoeddodd erioed trwy y wasg. Ceir ei enw ef yn un o "Seithwyr" y "Llyfr Glas," a gwelwyd ei enw unwaith neu ddwy hefyd yn y *Dysgedydd;* ond fel pregethwr ac nid fel awdwr yr hynododd ei hun. Rhaid oedd ei glywed i ffurfio barn am dano. Nid oes un Cofiant iddo wedi ei gyhoeddi. Gwnaed crybwylliad byr am dano yn y *Dysgedydd* a'r *Diwygiwr*, pan fu farw; a chrybwyllwyd am dano yn yr *Evangelical Magazine;* ond dylasai Cofiant helaethach na'r naill na'r llall gael ei wneud er cof am dano.

BREESE (Parch. Samuel), oedd weinidog tra chymeradwy gyda'r Bedyddwyr. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanddinam, ger Llanidloes, sir Drefaldwyn, yn 1772. Pan oedd yn wyth mlwydd oed torodd rhyw afiechyd allan ar ei goes, yr hyn a'i cloffodd trwy ei fywyd; a bu hyn yn achlysur i'w rieni roddi addysg dda iddo—addysg dda mewn cydmariaeth, canys nid oedd ei dad ond saer tlawd. Gogwyddwyd ei feddwl at fod yn ysgolfeistr, a bu yn gweini y swydd hono yn y Penrhyncoch, a thrachefn yn Aberystwyth. Yr oedd wedi ei dderbyn yn aelod gyda y Bedyddwyr er y flwyddyn 1793, a thra yn y Penrhyncoch yn 1795 anogwyd ef i ddechreu pregethu. Gwelwyd ar unwaith fod ganddo ddoniau uwchlaw y cyffredin; ac yn 1803 rhoddwyd galwad iddo gan eglwysi Aberystwyth ac eraill i fod yn weinidog arnynt. Ymledodd ei glod yn fuan trwy yr eglwysi, ac nid oedd odid i bregethwr cymanfa mwy poblogaidd nag ef. Arferai ymweled yn flynyddol â chymanfaoedd y Gogledd, a mawr fyddai yr ymgasglu ar ei ol. Symudodd o

Digitized by Google

Aberystwyth i Gastellnewydd, ac yma drachefn bu yn foddion i ddeffro llawer cydwybod, a chwanegu nifer mawr at yr eglwysi. Ond ni bu ei oes ond ber, yn anterth ei ddydd syrthiodd i'r bedd. Dydd Llun, Medi 28fed, 1812, tra yn dychwelyd ar ei farch adref o Bronorwen, lle y buasai yn gweinidogaethu y dydd blaenorol, tarawyd ef ag ergyd o'r parlys, â bu farw y prydnawn hwnw. Claddwyd ef gyda galar mawr yn mynwent Cilfowyr, sir Benfro. Canwyd marwnadau iddo gan y Parch. D. Saunders a'r Parch. Christmas Evans. Yr oedd llawer teithi rhagorol yn perthyn iddo. Nid anmheuai neb burdeb ei galon; ac yr oedd ei faddeugarwch yn lladd dylanwadau byrbwylldra ei dymher. Yr oedd ei allu fel pregethwr i ddysgrifio yn fawr iawn. Soniai am y Ganaan ddaearol fel pe buasai yn un o drigolion y wlad; am y nefol, fel angel, wedi mwynhau ei golygfeydd er dydd ei gread; ac am uffern fel pe buasai yn un o ddeiliaid gwae a thrueni.

BREUAN (Prydydd). Gan mai melin yw ystyr breuan, tebygol mai melinydd oedd Prydydd Breuan. Blodeuodd rhwng 1383 a 1420. Mae peth o'i farddoniaeth ar gof a chadw mewn llawysgrif.

BRENDA, yr hwn a elwir ambell dro Brendaf, oedd fab i Helig ab Glanawg. Ni wyddis ddim am dano heblaw iddo pan oresgynodd y dwfr diroedd ei dad ymroi at fywyd crefyddol, a bod y triban a ganlyn wedi ei gyplysu hefo'i enw :—

"Gwir a ddywed Sant Brenda
Nid llai y cyrchir drwg na da."

BREWER (Parch. Jehoiada), a anwyd yn Nghasnewydd ar Wysg, yn sir Fynwy, oddeutu y flwyddyn 1752. Yr oedd o deulu cyfrifol, cangenau o ba un sydd eto yn y gymydogaeth hono. Cafodd elfenau dysgeidiaeth gyfrifol, a'i rwymo yn egwyddorwas i fasnach. Dygwyd ef i ystyriaethau crefyddol o dan weinidogaeth y Parch. Caradog Glascott, Ficer Hatherleigh, Dyfnaint, yr hwn a'i cymhellodd i fyned i Goleg yr Arglwyddes Huntingdon, yn Nhrefecca. Yr oedd ei fwriad ef, fel bwriad y rhan fwyaf o efrydwyr boreaf y Coleg hwnw, i weinidogaethu yn yr Eglwys Sefydledig; ond oblegyd ei gysylltiad â hwnw gwrthododd yr Esgob ei urddo. Yn ganlynol ymsefydlodd fel gweinidog yn Nghyfundeb ei Harglwyddiaeth yn Rodborough a Cheltenham. Yn 1781, efe a symudodd i Sheffield, lle y bu 13 o flynyddoedd, pan, yn 1796, y derbyniodd wahoddiad i fod yn olynydd y Parch. Ddr. Williams, yn *Carr's Lane*, Birmingham, pan symudodd y Doctor i lywio yr Athrofa Annibynol yn Rotherham. Wedi bod yn Birmingham rai blynyddoedd yn nodedig o lwyddianus, efe a fu farw yn 1818, yn 66 oed. Cyhoeddwyd y darnau canlynol o'i eiddo :—"A Charge delivered at the ordination of the Rev. Mr. Gardner, at Stratford-on-Avon, March 1st, 1797;" "An Introduction Discourse at the ordination of the late Mr. Jonathan Evans, at Poleshill, April 4th, 1797;" "A Sermon preached before the Missionary Society in London, May, 1793;" "An Oration delivered at the Interment of the Rev. Samuel Pearce of Birmingham." Yr oedd hefyd yn fardd da, ac y mae rhai emynau o'i waith wedi medru eu ffordd i amrywiol gasgliadau, ac y mae dwy o honynt yn dra phoblogaidd, sef yr "*Hiding Place*," a'r "*Star of Bethlehem*," cyfieithiad o'r hon a geir yn y Llyfr Hymnau Wesleyaidd.—*Gwilym Lleyn* yn y Brython.

BROCHWEL YSGYTHROG, tywysog Powys, oedd fab i Cyngen ap Cadell Deyrnllwg. Pan ddarfu i Ethelfrith, Brenin Northumberland, ar awgrymiad Ethelbert, brenin Caint, ac Awstin Fynach, wneud

Digitized by Google

hynt-daith i ddystrywio Bangor Dunawd, aeth Brochwael o flaen galluoedd Cymreig yn ei erbyn; ond gan fod anfantais ganddo mewn rhifedi, gorfodwyd iddo droi yn ei ol; a gadael y mynachdy yn ysglyfaeth i'r goresgynwr. Er hyny dialwyd yn fuan lofruddiad creulon y mynachod, a dinystriad y lle, canys cafodd Brochwel gynorthwy y tywysogion Cymreig, a gwnaeth ail ymosodiad ar Ethelffrith, ac a'i hollol orthrechodd, pan y laddwyd fwy na deng mil o'r Sacsoniaid; a phrin y diangodd ef ei hun, wedi ei glwyfo yn yr ymgyrch. Digwyddodd hyn oddeutu y flwyddyn 607.

BROMFFILD (MATHEW). Bardd a flodeuodd tua 1550. Tebygol mai brodor o Faelor Gymraeg yn nghartref Uchnant, yr hon a Seisnigir *Bromfield*, ydoedd. Mae ychydig o'i farddoniaeth ar gof a chadw mewn l awysgrifau.

BRONWEN, ydoedd ferch Llyr, a chwaer i Brân. Y mae *Mabinogi* Brân Fendigaid, yn egluro i ni beth a ddeallir wrth yr ymadrodd hwnw. Yr oedd Bronwen yn anneddu yn Harlech, Meirion, yr hwn le a elwid gynt oddiwrthi hi, Tŵr Bronwen; a cheisiwyd a chafwyd hi yn wraig gan Matholwch, brenin Iwerddon. Gan iddi gael wedi hyn sarhad ganddo, hi a adawodd y wlad, i ddychwelyd adref; ond wrth ddyfod i dir yn Nghymru, dywedir iddi edrych yn ol ar Iwerddon, gan feddwl am y sarhad a gafodd, a thori ei chalon. Brân, i ddial sarhad ei chwaer, a ymosododd ar Iwerddon, ac a ddistrywiodd agos holl drigolion y wlad. Dywed y chwedl hefyd ddarfod i fedd pedwar ongl gael ei wneud i Bronwen ar lanau yr afon Alaw, ac iddi gael ei chladdu yno. Gwnaed darganfyddiad neillduol o bwysig yn y flwyddyn 1813, sydd yn rhoddi coel fawr ar yr ysgrifeniadau Cymreig, fel y mae yn yr amgylchiad hwn, y cafwyd fod y chwedl yn sylfaenedig ar ffaith hanesiol. Yr oedd amaethwr yn byw ar lanau yr afon Alaw, yn Môn, a chanddo eisiau rhyw gerrig, ac aeth i'r garnedd yn ymyl yr afon, ac wedi symud amryw daeth at gist o lechi geirwon a chauad drosti. Wedi symud y cauad efe a ganfu ystên o ddaear neu glai haner-grasedig, oddeutu troedfedd o uchder, wedi ei chyfleu ar ei gwyneb, yn llawn o ludw ac esgyrn haner faluriedig. Gellir chwanegu amgylchiad arall, fod y lle hwnw bob amser yn cael ei alw Ynys Bronwen, yr hyn sydd yn gadarnhad nodedig o ddidwylledd y darganfyddiad. Y mae yr holl amgyichiadau yn nghyd yn tueddu i osod y pwnc tu hwnt i anmheuaeth mai gweddillion Bronwen oeddynt mewn gwirionedd. Y mae hanes llawn o'r darganfyddiad gan Syr R. C. Hoare, yn y *Cambro-Briton*, ii. 71; *Myv. Arch.* ii. 11, 13, 18, 65; *Williams's Em. Welsh.*

BRANWEN. Barddes o'r Cynoesoedd, "Tair barddes freninol Ynys Prydain; Eigan ferch Peredur Hen, Branwen ferch Llyr Lledlaith, a Mawen ferch Beli Mawr ab Manogan; a chyn amser Cred y buant."—*Gwel* BRONWEN.

BROTHEN, mab H lig ab Glanawg, a sefydlodd yn nghyffiniau Meirion, ac yno yr adeiladodd Eglwys yr hon a elwir ar ei enw Llanfrothen. Y mae ei wylmabsant Hydref 15fed.

BRUTUS, yn ol hanesion ffugiol y *Brutiau Cymreig*, oedd fab i Silvius, ac ŵyr i Ascanius. Pan oddeutu pymtheng mlwydd oed bu yn achos damweiniol o farwolaeth ei dad, ac am yr hyn yr alltudiwyd ef i Itali. Yna efe a aeth i dir Groeg, ac yn mhen amser daeth ei deilyngdod mor ganmoladwy trwy y wlad, nes bod holl genedl Troia yn ffoi ato yn erbyn gorthrymder y Groegiaid. Wedi gorchfygu pob gwrthwynebiad, efe a ymgynghorodd â'r duwiau, ac yn ol eu hawgym-

Digitized by Google

iad hwy, efe a aeth rhagddo trwy Gâl, nes y cyrhaeddodd o'r diwedd i ynys, a alwyd fyth wedi hyny yn Brudain neu Prydain, oddiwrth ei enw ef; ac yn y 1200 mlynedd wedi y diluw y bu hyny. Bu iddo dri mab, Locrinius, Camber, ac Albanactus, a bu farw y 24edd flwyddyn wedi ei ddyfod yma. Rhoddir hanes manwl am ei daith a'i anturiaethau yn y *Brutiau*, y rhai a argraffwyd yn yr ail gyfrol o'r *Myv. Arch.*

BRUTUS DARIANLAS, yn ol chwedl y *Brutiau Cymreig*, oedd yr hynaf o ugain o feibion i Efrawg, brenin Prydain. yr hwn y dywedir iddo ddyfod i'r orsedd oddeutu y flwyddyn 935 C.C. Efe a deyrnasodd ddeng mlynedd, ac a ddilynwyd gan ei fab Lleon Gawr.

BRWYNLLYS (Bedo). Un o feirdd enwocaf ei oes. Trigai yn Mrwynllys, ar lan yr afon Llyfni, rhwng Tredwstan a Thalgarth, yn Mrycheiniog. Blagurodd tua 1450. Mae cynwysiad 17 o'i gyfansoddiadau i'w canfod ar glawr y *Greal;* ond dywedir iddo adael tua chant o haner o ddarnau o farddoniaeth dda ar ei ol. Efe a wnaeth yr un gwasanaeth i Ddafydd ab Gwilym, yr hwn oedd yn byw tua chan mlynedd o'i flaen ef, ag a wnaethai Pisistratus i Homer. Yr oedd cyfansoddiadau melusber D. ab Gwilym yn wasgaredig dros holl Gymru, mewn ysgrifau, ac ar lafar gwlad; a Bedo Brwynllys a'u casglodd yn nghyd yn un gyfrol fawr, yr hon a rodded i gadw yn Llyfrgell gywrain a chyfoethog Castell Rhaglan; ond llosgwyd y cwbl yn rhyfel Cromwel. Dywedir mai hwnw oedd y casgliad helaethaf o Lawysgrifau Cymraeg a wnaed erioed. Pa fodd bynag, yr oedd mwy nag un copi o gasgliad Bedo Brwynllys mewn bod, ac o'i gasgliad ef y cyhoeddwyd gwaith D. ab Gwilym, gan Owain Myfyr, yn 1789. Mae barddoniaeth Bedo Brwynllys yn dwyn llawer o ddelw barddoniaeth D. ab Gwilym.—(*Malkin's South Wales*, i. 389, 390).

Dywed Hen ysgrif yn y *Brython* mai yn Llanfor y claddwyd ef. Nid oes modd rhoddi cyfrif paham y nodir beddau cynifer o'r beirdd mor bell o'u trigianau, oddieithr eu bod yn meirw wrth glera. Yr oedd bardd arall o'r enw Edward Brwynllys, yr hwn a raddiwyd yn ddysgybl ysbas Cerdd Dafod yn Eisteddfod Caerwys, yn 1567. Rhoddwyd y gradd hwnw hefyd i Dafydd Alaw a Rhys Celli.

BRWYNOG (Sion). "Sion Brwynog o ynys Fon, Pencerdd, a ysgrifenodd am y Tair Talaeth," ebe Lewis Dwn. Sion ab Hywel ab Llywelyn ab Ithel oedd ei lawn enw. Blodeuai rhwng 1520 a 1560. Efe oedd perchenog Brwynog, ger Llanfflewyn, Mon; ac yno y trigai. Ymddengys ei fod, nid yn unig yn fardd awenyddol a chywrain, ond yn ddyn synwyrol a diofergoel hefyd. Yn ei amser ef yr oedd y werin bobl yn hynod am ofergoeledd ac anwybodaeth; a gau brophwydi a dewiniaid yn eu dychrynu a'u brudiau daroganllyd a disail. Yr oedd trigolion Mon y pryd hwnw, oherwydd twyll y brudwyr, yn disgwyl diwedd y byd ar fyrder, ac oherwydd yr ofergoel hono yn esgeuluso llafurio a hau y meusydd. Ond yr oedd Sion Brwynog yn rhy gall i gymeryd ei ddychrynu a'r fath freuddwydion disail, mal y tystia yr englyn canlynol o'i eiddo:—

"Arddwn, gweddiwn bob ddau—yn gefnog;
Nac ofnwn y BRUDIAU;
Tirion hedd, tariwn i hau,
Tra fo un o'n terfynau."

Gelwir ef weithiau "y Cardiwr Du;" a bu ymrysonfa farddonol rhyngddo a Gruffydd Hiraethog. Mae awdl foliant Sion Brwynog i Harri VIII., yn awenyddol, cywrain, a dysgedig; ac yn dangos gwlad-

Digitized by Google

garwch a brwdfrydigrwydd dros freninllwyth y Tuduriaid o Benmynydd Mon. Gallwn feddwl fod naws Brotestanaidd yn syniadau y bardd; a'i fod yn anog Harri i gosbi hereticiaid yn y geiriau hyn :—

"Dod ar bolion anffyddolion."

Gwel yr awdl yn gyflawn yn y *Drysorfa Hynafiaethol.* Yr oedd bardd arall o'r enw Lewis Brwynog yn byw o 1550 i 1580.

BRWYN, rhyfelwr a hynododd ei hun yn fawr wrth amddiffyn ei wlad yn erbyn rhuthrgyrchiadau y Sacsoniaid. Mab ydoedd i Cunedda Wledig; yr oedd yn ei flodau yn y 5ed cant.

BRYAN (Parch. John), a anwyd yn Llanfyllin, sir Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1770. Aeth yn ieuanc i wasanaeth masnachwyr yn Nghaerlleon, o'r enw Williams, y rhai oeddynt aelodau cyfrifol o'r cyfundeb Wesleyaidd. Ymunodd yntau â'r un cyfundeb; ac yr oedd wedi dechreu arfer ei ddawn i bregethu pan ddechreuwyd sefydlu cenadaeth Gymreig. Cymerwyd ef i'r genadaeth hono yn 1801, a bu yn llafurio yn Nghymru hyd y flwyddyn 1816, pan y symudwyd ef i Loegr, a bu yn gweinidogaethu yn yr iaith Seisnig hyd y flwyddyn 1824, pan y peidiodd a bod yn weinidog. Wedi hyny y msefydlodd mewn masnach yn Lloegr, ac wedi hyny yn Nghaernarfon, hyd ddiwedd ei oes. Heblaw ei ddawn pregethu poblogaidd, yr oedd yn nodedig am ystwythder ei ddawn cyfansoddi a chyfieithu, yn enwedig cyfieithu ac efelychu barddoniaeth Seisnig. Ei gyfieithiad ef yw agos yr holl Hymnau Wesleyaidd Y mae yr *Eurgrawn Wesleyaidd*, ar hyd blynyddau ei oes faith, wedi ei fritho â'i gyfansoddiadau yr un modd, gyda phregeth neu ddwy. Cyfieithodd a chyhoeddodd "Bywyd Mr. John Haime, 1811," "Hanes Bywyd John Nelson, 1812." "Bywyd Iago Arminius." "Wesley ar Iachawdwriaeth Gyffredinol, 1841." Bernir fod ganddo rywbeth i'w wneud â chyfieithiad a chyhoeddiad y llyfrau canlynol hefyd :—"Gwirionedd Iachawdwriaeth Gyffredinol, gan esgob Beveridge, 1802;" "Yr Arfaeth fawr dragwyddol, 1803;" "Etholedigaeth ddiamodol, 1803." &c. Fel masnachwr, yr oedd ei eglurder a'i onestrwydd yn ddiarebol; a'r ymddiried ynddo yn ddiderfyn. Ni wenieithai i wreng na boneddig er mwyn eu ffafr. Bu farw yn Nghaernarfon, Mai 28fed, 1856, yn 87 oed.—*Eur. Wes.* 1856.

BRYCHAN (Rhys). Bardd, o Frycheiniog ond odid, a flagurodd tua 1500. Mae rhai o'i gyfansoddiadau mewn llawysgrifau.

(BRYCHAN), John Davies. Bardd a llenor gwych, genedigol o Flaenau swydd Frycheiniog. Treuliodd tua haner can' mlwydd o'i fywyd yn Nhredegar, a bu farw yno ar fin 80 mlwydd oed, Mehefin, 1864. Daethai i adnabyddiaeth a Iolo Morganwg yn 1814, a bu yn ddysgybl ffyddlawn i'r hen athraw hwnw hyd ei fedd. Enillodd amryw fân wobrau am ryddiaith a barddoniaeth, tua deugain mlynedd yn ol, mewn gwahanol Eisteddfodau a gynelid ar fynyddau Gwent; a mwynhaodd lawer o gymdeithas gwyr enwog, megys Carnhuanawc, T. ab Iolo, Gwilym Morganwg, &c. Cyhoeddodd amryw o lyfrau barddonol, sef, Casgliadau o gerddi poblogaidd a difyrus o waith gwahanol awdwyr, a rhai o'i waith ei hunan hefyd. Byddai yn fynych yn barnu mewn Eisteddfodau llëawl, Cyrddau Cymreigyddol, &c. Bu yn llyfrwerthwr tua chanol ei oes, ac yn ohebydd ffyddlawn i *Seren Gomer* yn nyddiau *Gomer* ei sylfaenydd. Efe hefyd oedd golygydd yr *Odydd Cymreig.* Yr oedd Brychan yn meddu ar radd helaeth o ddawn farddonol, yn gywrain a medrus yn y mesurau caethion, a chanddo lawer o dalent at

Digitized by Google

holl rywiau cerdd; er feallai mai mewn dysg a dawn ryddieithol y rhagorai fwyaf. Ond ei frwdfrydedd dros ei wlad, ei iaith, a'i genedl, oedd yr arbenigrwydd hynotaf oedd ynddo. Ni churodd calon fwy cenedlgarol mewn mynwes erioed.

BRYCHAN, oedd fab i Aulach Mac Gormac; ac a elwir hefyd Anllech Goronawg, fab i Cormach Mac Carbery, un o freninoedd Iwerddon. Efe a ddygwyd i Brydain yn ieuanc gan ei rieni, y rhai a wnaethant eu trigfan yn Benni—y Gaer, ar lanau yr afon Isgaer, ger Aberhonddu. Wedi treulio dyddiau ei ieuenctyd mewn ymarferiadau milwraidd, efe a ddaeth, oddeutu y flwyddyn 400, trwy hawl ei fam Marchell, ferch Tudur, i feddiant o dywysogaeth Garthmadrin, a alwyd wedi hyny Brycheiniog, wrth yr hwn enw y gelwir hi hyd heddyw yn Gymraeg. Y mae yn cael ei hynodi mewn hanesion Cymreig fel tad i deulu lluosog o feibion a merched, y rhai a "ddygodd i fynu mewn dysgeidiaeth ac yn y celfyddydau defnyddiol, fel y byddont alluog i ddangos ffydd yn Nghrist i genedl y Cymry, pa le bynag yr oeddynt heb y ffydd," Oblegyd y rheswm uchod, y mae y teulu hwn, gyda yr eiddo Brân a Cunedda, yn cael eu henwi yn y *Trioedd*, fel y tri "gwelygerdd santaidd Ynys Prydain." Yn ol *Bonedd y Saint* bu ganddo bedwar ar hugain o feibion, enwau y rhai oeddynt Cynog, Cledwyn, Dingad, Arthen, Cyffefyr, Rhain, Dyfnan, Gerwyn, Cadog, Mathaiarn, Pasgen, Nefai, Pabiali, Llechau, Cynbryd, Cynfran, Hychan, Dyfrig, Cynin, Dogfan, Rhawin, Rhun, Cledog, a Cain. Bu iddo hefyd chwech ar hugain o ferched. Eu henwau oeddynt Gwladus, Arianwen, Tangwystl, Mechell, Nefyn, Gwawr, Gwrgon, Eleri, Lleian, Nefydd, Rhieingar, Goleuddydd, Gwenddydd neu Gwawdrydd, Tydiau, Elined, Ceindrych, Gwen, Cenedlon, Cymorth, Clydai, Dwynwen, Ceinwen, Tydfyl, Enfail, Hawystyl, a Tybiau. Bu yn briod dair gwaith; ac ei wragedd oeddynt Eurbrawst, Rhybrawst, a Peresgri. Bu iddo hefyd bedwar mab o ordderch. Darfu i'r rhan fwyaf o'i blant ymgymeryd â bywyd crefyddol yr oes, a buont yn sefydlwyr rhif mawr o'r Eglwysi Cymreig, a elwir ar eu henwau. Y mae hen Ysgrif yn nghadw yn yr Amgueddfa Frutanaidd, a elwir *Cognacio Brychan*. Ysgrifeniadau mynachod y canoloesau ydynt, ac felly yn llawn o chwedlau yn tarddu oddiar hygoeledd crefyddol. Bu farw oddeutu y flwyddyn 450.

BRYCHEINIOG (GWYNFARDD). Bardd enwog oedd yn ei flodau o 1160 hyd 1220. Mae dwy gân o'i eiddo yn y *Myv. Arch.*, un i'r Arglwydd Rhys ab Gruffydd, a'r llall i Ddewi Sant. Mae "Canu y Dewi" o gryn feithder.

BRYFFWRCH (SEISYLLT). Bardd clodfawr yn mysg y gogynfeirdd, ac yr oedd yn byw o 1160 i 1210. Noddid ef gan Madog ab Meredydd, tywysog Powys Fadog, yr hwn "Oedd beirddgar barddglwm dilediaith." Ac yr oedd Madog yn cynal yr arferiad cysefin o gadw Pencerdd yn ei lys, canys bu ymryson rhwng Cynddelw a Seisyllt Bryff-ffwrch am y Pencerddiaeth. (*Hanes Cymru*, Carhuanawc). Mae tri o'i gyfansoddiadau yn y *Myv. Arch.*, sef Marwnad Iorwerth ab Owain, a Marwnad Owain Gwynedd; ac un arall i'r Arglwydd Rhys, ar fesur Hypynt Byr, yn orchestol.

BUAN, sant a flodeuai tua chanol y 7fed cant. Mab ydoedd i Ysgwn fab Llywarch Hen. Efe a sefydlodd eglwys Bodfuan yn Lleyn, lle y cynelid ei wylmabsant Awst 4ydd.

BUDDFAN, mab Bleiddfan, ac un o ryfelwyr gwrolwych y chweched ganrif. Yr oedd efe yn un o'r penaethiaid a ymladdasant frwydr

Digitized by Google

drychinebus Cattraeth, a chrybwyllir am dano mewn modd anrhydeddus gan Aneurin yn y *Gododin*, yr hwn a'i geilw ef—"Budvan vab Bleidvan dihavarch." Syrthiodd ef, fel y cadforion ereill, yn y maes celaneddog hwnw.—(*Four Ancient Books of Wales*, 70.)

BUDDUG, a elwir *Boadicea*, *Boodicea*, *Boudicea*, *Boundonica*, *Boundoricea*, *Bandica*, a *Voadica*, gan ysgrifenwyr Groeg a Rhufain, y rhai nid ydynt ond gwahanol ddullweddiadau o'r Cymreig. Buddug ydoedd brenines yr Iceniaid (fel y gelwid y llwyth o'r hen Brydeiniaid a breswylient swyddi presenol Norffolc a Suffolc, a'r parthau cyfagos) o ddeutu canol y ganrif gyntaf o gyfrif cred, pan oedd Nero waedlyd yn arwedd y porffor ymherodrawl yn Rhufain. Gwraig weddw Brasydog (Prasutagus), brenin yr unrhyw bobl, ydoedd. Yr oedd y brenin Brasydog yn enwog iawn am ei gyfoeth; a phan ddynesodd ei awr i farw, yn ei lythyr cymmun penododd Claudius, ymherawdwr Rhufain, yn nghyd a'i ddwy ferch ei hun, yn etifeddion iddo; gan feddwl y buasai hyny yn foddion i gadw ei deyrnas a'i deulu rhag trais a gormes. Nis gellir ystyried yr ymddygiad hwn o eiddo Brasydog yn brawf o'i anwladgarwch mewn un modd; canys nid peth annghyffredin yn yr amseroedd hyny oedd gwneuthur yr ymherawdwr yn gyfranog o etifeddiaeth gwr ar ei farwolaeth, canys trwy y cyfryw ddyfais y gobeithid cadw y rhelyw o'r meddianau rhag rhaib ei swyddogion, y rhai, fel y bedd, ni chydnabyddent byth mo'u digon. Felly gwnaeth Brasydog yr ymherawdwr yn wyllysgedog iddo, a thrwy hyny hyderai enill ei nawdd a'i amddiffyn i'r rhan arall o'i eiddo. Y cyfryw yn ddiau oedd ei amcan; ond yn y gwrthwyneb yn hollol y trodd pethau allan; canys anrheithiwyd ei deyrnas gan y swyddogion Rhufeinig, a'i dŷ gan gaethweision; ffrewyllwyd ei wraig, a dianrhydeddwyd ei ferched. Llidiodd hyn y Prydeiniaid yn ofnadwy, a phenderfynasant godi yn erbyn eu gormesiaid, a dial eu cam a'u sarhâd. Gwedi marw ei chydwedd, ar Buddug y disgynodd llywodraeth ei theyrnas. Yr oedd y wraig nodedig hon yn hanu o waed breninol, heblaw ei bod yn weddw pen coronog. Dywedir ei bod o ysbryd tra mawrfrydig a dyrchafedig; tàl a lluniaidd ydoedd o ran corffolaeth, gerwin ei hwynebpryd, sarug ei threm, a garw ei llais; cyrhaeddai ei gwallt llaes melyn hyd at ei chluniau; dygai am ei gwddf gadwen fawr o aur; dille lid hi â gwisg amryliw, ac arwisg dew dros yr unrhyw; a dywedir wrthym mai yn y modd hwn yr ymwisgai hi yn wastadol.

Cododd Iceniaid, yn nghyd â'u cymydogion y Trinobantwys (y rhai a breswylient yn y parthau a elwir yn awr Essecs a Middlesecs) megis un gwr yn erbyn eu gormeswyr, a rhifai eu byddin ddim llai na 120,000 o wŷr arfog. Pen y gâd fawr hon ydoedd Buddug; a chyn arwain ei gwŷr i ymosod ar y gelyn, hi a esgynodd i areithfa, a ymaflodd mewn gwaewffon, ac a'u hanerchodd hwynt mewn araeth drylawn o wroldeb a gwladgarwch, yr hon a gofnodir yn helaeth gan Dion Cassius. Gwedi adgoffa iddynt y trais a'r gormail a ddyoddefent o dan iau y Rhufeiniaid, yn lle y rhyddid a fwynhaent gynt pan oeddynt yn genedl o bobl annibynol, a'i bod yn llawer gwell ymddarostwng ar unwaith i angau na byw mewn caethwasanaeth, dan drethi gorthrwm a sarhadau anoddefadwy; dangosodd y modd yr oedd ei chydwladwyr yn rhagori ar wŷr Rhufain, a'r fantais oedd ganddynt i'w trechu ar faes y gâd, gan ddywedyd:—"Hwynt-hwy," ebai hi, am y Rhufeiniaid, "ni allant gan bwys eu harfau nac ymlid na ffoi, ac os cyrchant allan ar unrhyw bryd, yn y man ffoant i rywle nodedig, ac yno y gyrir hwynt

Digitized by Google

genym ni, ac y cauir arnynt, megys mewn ffau. Ac yn enwedig yn y pethau hyn, y maent yn waelach o lawer na ni; sef, nas gallant oddef na newyn na syched, nac oerni na gwres, yn gyffelyb i ni; eithr arnynt hwy y mae angen am dai a dillad, ac ŷd maledig, a gwin, ac olew; ac os na chânt y pethau hyny trengu a wnant. Eithr i ni, y mae pob llysieuyn a phob gwraidd yn fara, pob gwlybwr yn olew, pob dwfr yn win, a phob pren yn dŷ. Hefyd, y mae yr holl leoedd yn adnabyddus i ni, ac yn gyfeillion a chyd-ryfelwyr; ond iddynt hwy y maent yn ddyeithr ac yn elynol. Nyni yn noethion a nofiwn yr afonydd; eithr hwynt-hwy, braidd y croesant mewn llongau. Am hyny ymosodwn arnynt yn hyderus ac yn llwyddianus; dangoswn iddynt mai ysgyfarnogod a chaduoaid ydynt yn ceisio llywodraethu ar gŵn a bleiddiaid." A chan ddywedyd y geiriau hyn, hi a ollyngodd o'i mynwes ysgyfarnog, er rhoi argoel iddynt gyda golwg ar ffyniant yr anturiaeth; a phan redodd honno mewn modd a ystyrid yn darogan llwyddiant iddynt, yr holl dyrfa a godasant floedd gorfoledd. Gwedi areithio wrth ei byddinoedd yn y wedd hon, hi a'u harweiniodd yn galonog yn erbyn y Rhufeiniaid. Dangosodd y Prydeiniaid ar yr achlysur hwn bybyrwch, eonder, a gwroldeb anarferol; rhuthrasant yn drachwyllt ar eu gelynion trwy yr holl wlad; a dinystriasant ddwy o brif ddinasoedd y Rhufeiniaid, sef Caer Coelin (a elwid y pryd hwnw *Camalodum* ac yn awr *Colchester*) a Gwernllan (*Verulamium* y Rhufeiniaid a *St. Albans* y Seison). Yn y gyntaf o'r rhai hyn, dymchwelasant y deml a gyfodasid er anrhydedd i'r ymherawdwr Claudius, gan eu bod yn edrych arni megys cofarwydd o gaethiwed diderfyn. A phan, er ceisio atal eu rhwysg, y daeth y milwyr Rhufeinig i'w cyfarfod, ymosododd y Prydeiniaid yn ffromwyllt arnynt, a threchasant leng gyfan o honynt, gan ladd yr holl wŷr traed, a dim ond y gwyr meirch yn unig a ddiangasant a'u heinioes yn ysgafaeth ganddynt. Mor gyflawn oedd yr oruchafiaeth, ac mor ddirfawr oedd y dinystr, fel y lladdwyd dim llai na 70,000 o'r Rhufeiniaid a'u cynghreirwyr, a buant agos â cholli eu gafael ar yr holl ynys. Ac o achos y fuddugoliaeth hygof hon y gorfu ar Catus Decianus, yr hwn oedd wedi bod yn ormeswr creulawn ar y brodorion, ffoi yn waradwyddus i'r Cyfandir.

Pan oedd y pethau hyn yn myned yn mlaen yn mharthau de-ddwyreiniol yr ynys, yr oedd y penciwdod Rhufeinig, Suetonius Paulinus (neu Sywidw Pawlin, fel y dywed Theophilus Evans y geilw y Cymry ef), yn cyfarsengu Ynys Fôn, ac yn tywallt gwaed ei Derwyddon: ond cynted ag y clywodd am y cythrwfl, a'r faeddedigaeth a dderbyniasai lluoedd Rhufain, prysurodd ef a'i filwyr tua Llundain, ac oddiyno aeth rhagddo i wrthsefyll rhuthr y Prydeiniaid; ac ni bu hir cyn i'r ddau lu ymgyfarfod. Dygodd y Prydeiniaid eu gwragedd i weled yr ymladdfa. Buddug hithau, gan ddwyn ei dwy ferch gyda hi yn ei cherbyd, a areithiodd wrth ei milwyr; gan ddywedyd ei bod yn beth arferol gan y Prydeiniaid gael eu harwain i ryfel gan wraig; ond yn awr nad oedd hi yn eu blaenori megys un wedi hanu o hynafiaid arderchog, er enill teyrnas a chyfoeth; ond megys un o'r werin, er dial am go l eu rhyddid, am ffrewylliadau ei chorph ei hun, ac am y sarhâd a wnaethid i'w merched; ac er gosod terfyn, os oedd modd, ar wanc a dyhirwch y Rhufeiniaid: bod y duwiau eisioes wedi dangos y cospid y cyfryw annghyfiawnder: bod un lleng eisioes wedi syrthio, yr hon a ryfygodd ddyfod i'r frwydr, a'r lleill, naill ai ymguddient o fewn eu caerau, neu ffoent ymaith: a chan nad beth a ddigwyddai, mai ei bwriad hi y

Digitized by Google

dwthwn hwnw ydoedd, naill ai enill buddugoliaeth, ai syrthio yn yr ymdrechfa. Hyny oedd ei phenderfyniad hi fel gwraig: am y gwŷr, os dewisent yn hytrach, byddent fyw yn gaethweision. Yr oedd gan Suetonius ddeng mil o filwyr profedig o dano; ac wrth barotoi i ymosod ar y brodorion, nid esgeulusodd eu hanog i beidio â chymeryd eu dychrynu gan derfysg y barbariaid, ond i sefyll eu tir fel dewrion. Cyfarfu y lluoedd ar y maes, ac ofnadwy a fu y gyflafan. Daeth y Prydeiniaid yn mlaen gyda chroch-floeddiadau; ond y Rhufeiniaid mewn dystawrwydd a threfn, nes dyfod yn ddigon agos i daflu eu picellau, ac yna y bu rhuthr echryslawn. Y milwyr traed o bob tu a ymdrechent â'u gilydd, a'r un modd y marchogion â'r marchogion. Ergydiai y saethyddion Rhufeinig at gerbydau y Prydeiniaid, y rhai a yrent hwythau i blith y Rhufeiniaid: ond y Prydeiniaid, gan eu bod heb lurigau i'w hamddiffyn, a gawsant y gwaethaf. Yn mhen ychydig aeth y maes yn fwy terfysglyd; ymgymysgai y peddyd a'r marchoglu, ac weithiau ciliai y saethyddion, a dychrynent eu gwrthwynebwyr; ac ar ol treulio hir amser yn yr ymdrech, o'r diwedd y Rhufeiniaid, gan ragoroldeb eu harfau a'u trefniant, a enillasant y dydd, a gorfu ar y Prydeiniaid gilio a ffoi; a chollasant yn yr ymgyrch ddim llai nag 80,000 o laddedigion; ond diau fod rhan fawr o'r nifer hwn yn gynwysedig o wragedd a phlant; canys dywedir nad arbedodd y milwyr dideimlad neb o'r cyfryw; ïe, ni ddiangodd hyd yn oed yr anifeiliaid direswm. Os gellir coelio chwedl gwŷr Rhufain, nid oedd eu colled hwynt ond rhyw *bedwar cant* o laddedigion, a rhyw nifer cyffelyb o glwyfedigion. Ond dilys yw, os nad oedd y frwydr hon yn wahanol i bob brwydr arall y mae genym hanes am dani, fod yma gamgyfrif dirfawr yn y rhifedi, gan nad o ba ffynonell y tarddodd; canys gallwn fod yn sicr, os collodd y Prydeiniaid y nifer a nodwyd, nis gallasai y Rhufeiniaid golli yn agos mor ychydig ag a fynegir gan eu hysgrifenwyr. Ymladdwyd y frwydr alaethus hon yn O.C. 61; a'r frwydr olaf o bwys ydoedd a ymladdwyd rhwng y Prydeiniaid a gwŷr Rhufain. Buddug wrol, pan welodd gwympaw o'i gwŷr, a darfod am ei holl obeithion, rhag syrthio i ddwylaw y gelyn, a gymerodd wenwyn; ac felly y bu hi farw. Hyn yw tystiolaeth Tacitus, yr hwn a aned o gylch yr amser yr ymladdodd Buddug ei brwydr ddiweddaf; ond dywed Dion Cassius, yr hwn oedd yn byw yn nechreu y drydedd ganrif, ddarfod i laweroedd o'r Prydeiniaid ffoi yn ddiangol, ac ymbarotoi drachefn i ryfel; ond i Buddug yn y cyfamser farw o glefyd, ac i'w chydwladwyr ei chladdu gyda'r parch a'r anrhydedd ag oedd yn gweddu i'r fath benadures glo ifawr.

Gellid meddwl fod perthynas rhwng enw *Buddug* ac *Aregwedd Foeddawg*, yr hon a elwir *Cartismandua* gan yr ysgrifenwyr Lladin, a'r hon a fradychodd Garadog ab Brân i ddwylaw gwyr Rhufain; ac y mae cyn debyced i'r Rhufeiniaid a'r Groegiaid gymeryd eu ffurfiau hwynt o *Boeddawg* ag o *Buddug*. Heblaw y cyffelybrwydd rhwng yr enwau, yr oedd Aregwedd a Buddug yn byw yn yr un amser, ac yn yr un parth o'r ynys; a gellir nodi na'l oes ffurf Gymreig i *Cartismandua* na ffurf Ladin i *Aregwedd Foeddawg* (os nad *Boadicea* yw); a chanfyddir fod y darn canlynol o un o'r *Trioedd* amnghyhoeddedig yn cymeryd yn ganiataol mai yr un oeddynt:—"Tri llwyraf dial Duw ar Ynys Prydain: dial Aregwedd Foeddawg am fradychu Caradawg ab Brân Fendigaid; sef y gwnaeth gwr o Rufain ei brad hithau, lle y rhyfelai â'r Rhufeiniaid, ac o hyny gorfod arni a'i gosgordd, a'i dwyn yn

Digitized by Google

ngharchar, lle y lladdes hi ei hunan." Ond hyd y mae yr hanesion am danynt wedi ein cyrhaedd ni, y mae nodwedd y ddwy wraig yn llwyr wahanol.

Nis gellir terfynu hyn o gofnod am Buddug yn well nag yn ngeiriau Carnhuanawc:—"Y mae yn ddilys fod y fenyw hon yn berchenog ar gyneddfau gododog, yn gystal a gwresogrwydd gwladgarwch, onide ni fuasai dim cymaint o sylw yn cael ei wneud o honi, a chymaint o le yn cael ei roddi i draethiad o'i gorchestion, ac i adroddiad o'i hareithiau, yn yr hanesion byrion o'r amseroedd hyny, ag a roddir i ni gan yr awdwyr Rhufeinig."—Carnhuanawc, *Hanes Cymru*, 86. Tacitus, *Annal.* xiv. 31, &c.; *Agricolæ Vita*, 16; *Dion Cassius, apud Xiphilinion*, lxii.

BUGI, neu Hywgi, oedd un o feibion Gwynlliw Filwr, arglwydd Gwenllwg, Mynwy. Blodeuai yn nechreu y 6ed cant. Ymgyflwynodd i fywyd crefyddol, a rhoddodd ei holl feddianau tuag at Goleg ei frawd, Cattwg, yn Llancarfan, lle y treuliodd yntau y rhan olaf o'i oes. Efe oedd tad St. Beuno.

BULKELEY (Arthur LL.D.), a hanai o deulu y Buckeley, yn Môn, yn yr hon sir y ganwyd yntau. Addysgwyd ef yn Rhydychain, ac yno ei graddiwyd, ac ystyrid ef yn ganonwr da. Ei ddyrchafiad cyntaf oedd yn ei wlad enedigol, sef i rectoriaeth Llanddeusant yn Môn yr hyn a gymerodd le yn 1525, a thua'r un amser gwnaed ef yn ganonwr Llanelwy. Yn 1531, anrhegwyd ef a rectoriaeth St. Iago Garlick Hithe, yn Llundain; ac yn 1541, cysegrwyd ef yn esgob Bangor. Y mae Godwin yn Hanes yr Esgobion yn cyhuddo y prelad hwn o gysegryspeiliad trwy werthu pum cloch o glochdy eglwys gadeiriol Bangor; ac wrth ddychwelyd adref o'u gweled yn cael eu llongio iddo gael ei daro â dallineb, ac na adferwyd iddo ei olwg byth. Y mae Browne Willis, pa fodd bynag, yn gwrthbrofi yr haeriadau hyn. Bu farw yn Bangor yn 1552, a chladdwyd ef yn ei eglwys gadeiriol.—*Wood's Athen. Oxon.*

BULKELEY (Lancelot, D.D.), oedd unfed-fab-ar-ddeg, a'r ieuengaf, i Syr R. Bulkeley. Ganwyd ef yn Beaumaris yn 1568. Pan yn ddeunaw oed, aeth i goleg Brazenose, Rhydychain, a graddiwyd ef yn St. Edmund's Hall yn A.C. Cafodd fywioliaeth Llanddyfnan yn 1593, ac yn y flwyddyn ganlynol yr eiddo Llandegfan, y ddau le yn Môn. Yn fuan symudodd i'r Iwerddon, gwnaed ef yn archddiacon Dublin, a chymerodd ei radd o D.D. yn y brif-ysgol yno. Yn 1619 cysegrwyd ef yn archesgob Dublin. Yn fuan gwnaed ef yn un o gyfrin gynghor Iago I. Yn 1629 bu agos iddo golli ei fywyd yn y terfysg a godwyd gan y Jesuitiaid a'r Mynachod Duon yn Dublin. Hysbyswyd ef fod y bobl hyn yn pregethu teyrnfradwriaeth i'w cynulleidfaoedd, ac yntau a apeliodd at yr Arglwydd-Farnwyr am wys gyfreithiol, a nifer o filwyr, i ddal y troseddwyr. Cododd y Carmeliaid yn Cook Street a'u cynulleidfa yn erbyn gweithrediad y gyfraith ar y mater; ymosodasant ar y milwyr, a chan sarhau yr archesgob a'i weision bu gorfod iddo ffoi am ei fywyd i dŷ gerllaw. Hysbyswyd am y modd y bu y diraddiad hwn i'r brenin, ac yntau a roddes orchymyn ar fod i'r addoldy hwnw y cyflawnwyd y sarhad o'i fewn gael ei ddinystrio, a'i adael yn nod o ddychryn i'r sawl na thalent warogaeth i gyfreithiau y brenin, nac i urddas ei wyr eglwysig. Bu yr archesgob farw yn 82ain oed, ar yr 8fed o Fedi, 1650, a chladdwyd ef yn eglwys gadeiriol Dublin o tan fwrdd y cymun.—*Jac. Waræus in Comment. de Presulibus Hiberniæ*, 1665.

Digitized by Google

BULKELEY (Rowland), ydoedd fab i William Bulkeley, arglwydd Holcrofft, ac a briododd Elen, aeres Porthamal, yn Môn, ferch i Richard ab Meredydd ab Thomas ab Meredydd ab Cynrig, o'r lle hwnw. Yr oedd yn cynrychioli Beaumaris, y Seneddau 1af a'r 2il i'r Frenines Mari (1553—4), a thros sir Fôn yn 1569.

BULKELEY (Syr Richard), ydoedd fab i Syr Richard Bulkeley. Efe a urddwyd yn Farchog yn Berwick, gan Iarll Warwick, yn y flwyddyn 1af o deyrnasiad Edward VI. Yr oedd yn Aelod Seneddol dros Fôn yn yr ail Seneddiad i'r Frenhines Elizabeth, yr hon a ddechreuodd Ion. 11fed, 1562—3. Yr oedd hefyd yn y siryddiaeth dros sir Gaernarfon yn y blynyddoedd 1550 a 1558; gwasanaethodd yr un swydd dros Fôn yn y flwyddyn 1561, a bu farw yn y flwyddyn 1569.—*Meyrick's Donn's Heraldry.*

BULKELEY (Syr Richard), o'r Baronhill, yn Môn, oedd fab i'r olaf uchod, ac a anwyd yn y flwyddyn 1533. Troes hwn allan yn gymeriad nodedig yn ei ddydd. Efe a gynrychiolodd sir Fôn yn y Senedd a ddechreuodd Ebrill 2, 1571, ac yn Seneddiadau y blynyddoedd 1603—4, yn nheyrnasiadau Mari, Elisabeth, ac Iago. Crewyd ef yn Farchog yn Whitehall, Chwef. 17fed, 1576, y dydd cyn ei briodas. Ymddengys ei fod yn ddarllenydd mawr ar hanesyddiaeth, a gallai siarad am bob gwlad a theyrnas. Yr oedd ganddo gôf da, a dealltwriaeth helaeth am drefn tŷ, amaethyddiaeth, morwriaeth, llongadeiladaeth, a'u cadwraeth ar y môr. Byddai yn cynfeddwl ei holl ohebiaeth, ac yn eu hysgrifenu a'i law ei hun; a phan y dygwyd cyhuddiad yn ei erbyn yn nghyngor arglwyddi y terfynau, o fod yn droseddwr yn erbyn y cwrt hwnw, efe a dynodd allan amddiffyniad iddo ei hun—nas gellid ei droi ef allan o'i hawl ond trwy y gyfraith gyffredinol, gan ddadlu y *Magna Charta*, a hawlio barn ffafriol, ac wedi rhoddi ei ddadl ger bron y cwrt, dadleuwyd yr achos, a chafodd Syr Richard fuddugoliaeth. Yr oedd ei letygarwch a'i haelioni yn ddiderfyn; ac yr oedd yn danfon dwy long bob blwyddyn i Greenland am bysgod, y rhai a gyfnewidiai yn Hispaen a Malaga am winoedd Sherry. Yr oedd yn nodedig am ei feirch, ac yn cadw dwy ystablaid fawr wrth ei bleser. Yr oedd ei ystadau yn dwyn iddo—yn yr oes hono—£4300 yn y flwyddyn. Yr oedd yn cadw sefydliad mawr, gan nad oedd fyth yn myned oddicartref heb ugain neu fwy o weinyddwyr arno; ac yr oedd ei ymddygiad boneddigaidd a phoblogaidd, yn gwneud i'r holl foneddigion a'r cyffredin fod yn hollol wrth ei alwad. Bu ymryson mawr rhyngddo a Dudley, Iarll Leicester, i'r hwn y rhoddasai y Frenines hawl helwriaeth, neu geidwadaeth Anialdir Eryri *(Forest of Snowdon)*, yn yr hon swydd yr oedd yr Iarll yn gorthrymu yn dost ar drigolion siroedd Meirionydd, Caernarfon, a Môn, gan gynyg dwyn y rhan fwyaf o diroedd rhydd-ddeiliaeth y siroedd hyny, o fewn i Anialdir Eryri. Ond ataliwyd ei holl gynlluniau trwy wrthwynebiad diymdro Syr Richard Bulkeley. Ar hyn, darfu i'r Iarll dialgar ei gyhuddo o fod yn rhanog yn mradwriaeth Babington, yr erbyn y frenines; ond efe a brofodd ei ddiniweidrwydd, er mawr foddhâd i'w Mawrhydi, yr hon oedd yn hoff iawn o hono. Efe a fu farw Mehefin 21fed, 1621, yn yr oedran mawr o 88, ac a gladdwyd yn Beaumaris, gan adael teulu lluosog; a'i ail fab o'i ail briodas a grewyd yn Farwn yn nheyrnas Iwerddon, o dan y teitl o Is-iarll Bulkeley o Cashel, Mehefin 6fed, 1643.

BULKELEY (Thomas James Warren, Barwn), ydoedd fab i

Digitized by Google

James 6fed Is-iarll Bulkeley, ac Emma, unig ferch ac etifeddes i Thomas Rowland, o'r Caerau, yn Môn. Ganwyd ef Rhag. 10fed, 1752. Yr oedd yn 7fed disgyniad rheolaidd oddiwrth y Syr Richard Bulkeley diweddaf, ac ynddo ef y darfu yr is-iarllaeth. Crewyd ef yn Arglwydd Bulkeley o Fôn, Mai 14ydd, 1784. Yr oedd yn Rhaglaw sir Gaernarfon, yn Ystafellydd Gwynedd, ac yn Gwnstabl Castell Beaumaris.—*Debrett's Peerage.*

BUN a grybwyllir yn y *Trioedd* fel un o "Dair Anniweirwraig Ynys Prydain;" y ddwy eraill oeddynt ei chwiorydd Essyllt Fyngwen a Phenarwen. Merched oeddynt i Culfanawyd Prydain, penaeth o'r 6ed canrif. Priodwyd hi â Fflamddwyn, tywysog Northumbria.—*Tri.* 104.

BWTTWN (CHARLES). Gwr boneddig yn byw yn y Dyffryn Olwg, Morganwg. Un o awenyddion Gorsedd Morganwg, a dysgybl i Edward Dafydd o Fargam, yn 1660, ydoedd. Yn yr Eisteddfod fawr a gynaliwyd yn y Bewpyr, yn Morganwg, ar ddydd Llun, a dydd Mawrth, a dydd Mercher y Sulgwyn, yn 1681, dan nawdd a dawn Syr Rhisiart Bassed, Farchog, arlwydd y lle; a than osteg a rhybydd un dydd a blwyddyn drwy Forganwg, a Gwent, ac Euas, yr oedd yn bencerddiaid yno Charles Bwttwn, Ysgweier, a Dafydd o'r Nant, ac Edward Dafydd o Fargam; a chyda hwynt dri-ar-ddeg ereill, "yn brydyddion a beirdd wrth fraint a defod beirdd Ynys Prydain, ac yn athrawon cyfiawnfarn." Yr oedd Charles Bwttwn erbyn hyn wedi cyrhaeddyd y lle uchaf yn mhlith ei frodyr. Dyma engraifft o'i brydyddiaeth :—

PENILL CADWYNODL.

"Culwas wyf yn celu serch,
Carlo min y cur i'm ais;
Curio mawr yn caru merch,
Canu'm llid a'm cwyn i'm llais."

Dyma engraifft arall o'i waith er dangos y modd y dylid canu cyng-hanedd dawddgyrch gadwynog yn ol dull Morganwg :—

Clywais adlais odlau CYNAR
CANAU odiaeth cywion ADAR,
NODAIS glasliw glwysiwyn HYGAR,
AGWEDD hoew-werddhug y DDAEAR.—Gwel CYF. Y BEIRDD. t. d. 86.

BYCHAN (PRYDYDD). Deheufardd o fri, yn byw o 1210 i 1260. Mae 21 o'i ganiadau yn y *Myf. Arch.*, y gyntaf yw Marwnad Rhys Ieuanc, yr hwn a fu farw yn 1222, ac a gladdwyd yn Ystradfflur.

CADAIR, yn ol y *Trioedd*, oedd un o dri "marchog serchogion llys Arthur," y rhai a gerid mor fawr nes y caent yr hyn y gofynent am dano gan bawb. *Trioedd* arall a'i geilw yn un o "dri unben llys Arthur," am y dewisai y tri hyny yn hytrach fyw yn llys Arthur nag ar eu tiriogaethau eu hunain. Gelwid ef weithiau Cadeiriaith Seidi, a phryd arall Cadraith.

CADAFAEL AB CYNFEDW, un o'r tri teyrn o haniad estronol a gawsant deyrniaeth yn Ynys Prydain; "sef y rhodded teyrniaeth iddynt am eu campau a'u cyneddfau."—*Tri.* 26. Y ddau eraill oeddynt Gwrgai a Hyfaidd Hir. Teyrniaeth Gwynedd a gafodd Cadafael. Nis gwyddom ar ba sail y tybiai awdwr *Eminent Welshmen* mai yr un ydyw Cadafael a Chafafael Wyllt.

CADELL, mab Arthfael ab Hywel, brenin Morganwg, yr hwn a gyrhaeddodd fawr enwogrwydd wrth ymladd yn erbyn y Seison, y rhai, er na allent ei orchfygu yn y maes, a enillasant eu hamcan trwy frad a gwenwyn. Cofnodir ei farwolaeth yn *Mrut y Tywysogion*, o dan y flwyddyn 940, yn y geiriau canlynol :—"A Chadell fab Arthfael a

Digitized by Google

wenwynwyd; ac Idwal fab Rodri, ac Elised ei frawd, a las y gan y Seison."—*Brut y Tywysogion*, 20, argraffiad 1860.

CADELL, tad Hywel Dda, yr hwn a'i holiannodd fel tywysog ar Ddeheubarth Cymru. Un o dri mab Rhodri Mawr oedd Cadell. Ar farwolaeth eu tad yn 877, rhanwyd Cymru rhwng y tri, Gwynedd i Anarawd, Powys i Merfyn, a Deheubarth i Cadell. Yr olaf yn anfoddog o'i ran, a ymosododd ar diriogaeth ei frawd, ac a gymerth Powys oddiarno. Yn ol *Brut y Tywysogion*, bu Cadell farw yn 900; ond, yn ol awdurdodau eraill, saith mlynedd yn ddiweddarach y cymerth hyny le.

CADELL AB GERAINT a oliannodd ei dad ar orsedd Prydain oddeutu tri chan mlynedd cyn cred; ac os cymerir *Brut y Breninoedd* yn awdurdod, efe oedd y 43ydd brenin ar ol Brutus. Os yr un ydyw â Cadial (neu Gadial) ab Eryn, fel yr ydys yn tybied, hynodir ei deyrnasiad gan fynediad cyforddwy o'r ynys hon dan Yrp Lüyddog, yr hon a ymsefydlodd yn ngwlad Groeg, ac am yr hon y ceir y crybwylliad canlynol yn y *Trioedd*:—"Tri chyfor a aeth o'r ynys hon, ac ni ddoeth yr un drachefn o naddynt. Un aeth gan Urp Llüyddawg hyd yn Llychlyn, a ddoeth yma yn oes Cadial mab Eryn, i erchi cymhorth o'r ynys hon; ac nid archodd o bob prif-gaer namyn cymaint ag a ddelai gantho iddi; ac ni ddoeth gantaw i'r gaer gyntaf namyn ef a Mathata Fawr ei was; ac arddystru fu gan wŷr yr ynys hon roddi hyny iddaw. A hwnw eisoes llwyraf lluydd a fu a aeth o'r ynys hon, ac ni ddoeth drachefn neb o naddynt na'u llinys; sef lle trigwys y gwŷr hyny yn nwy ynys yn Môr Groeg; sef ynt y ddwy ynys, Gals ac Afena."—(*Tri*. i. 40). Canlynwyd Cadell yn y deyrnogaeth gan Coel Frenin.—*Myv. Arch*. ii. 9, 76.

CADELL AB URIEN, sant a flodeuai tua dechreu y 7fed cant. Yn ol *Bonedd y Saint* yr oedd yn orwyr i Ysgwyn ab Llywarch Hen. Yr oedd unwaith eglwys yn Morganwg cyflwynedig iddo, o'r enw Llangadell.

CADELL DEYRNLLWG, tywysog Teyrnllwg a rhan o Bowys yn cyrhaedd o Gaer i'r Amwythig, ac yn cynwys y lle a elwir yn awr Vale Royal. Blodeuai yn y pumed cant. Mewn hen groniclau, dywedir ei fod yn hanu o ach frenhinol Prydain,—yn bumed disgynydd o Gwrtheyrn; ond *Nennius* a ddywed mai meichiad i Benlli Gawr, arglwydd Teyrnllwg, ydoedd ar y cyntaf. Yn 447, pan ymwelodd Garmon fel cenadwr tros ffydd Crist â Chymru, Benlli ni roddai achles iddo; eithr Cadell a'i derbyniodd ef i'w dŷ, ac a argyhoeddwyd ac a fedyddiwyd ganddo. Y dydd hwnw, Benlli yn nghyd a'i ddinas a losgwyd â thân o'r nefoedd, a Chadell a wnaed yn dywysog yn ei le ef. (Gwel Gunn's *Nennius*, 21, 158.) Bu disgynyddion Cadell am lawer o genedlaethau yn dywysogion ar Bowys, rhan o'r hon dywysogaeth ydoedd Teyrnllwg. Dilynwyd ef gan ei fab Cyngen, tad Brochwel Ysgythrog.

CADELL DEYRNLLWG, yr hwn a ddisgynai yn achyddol o'r diweddaf, oedd yn dywysog Powys a'r Dyffryn Breiniog, neu Teyrnllwg, tua diwedd yr wythfed ganrif. Mab neu ŵyr ydoedd i Elisau ap Cynllaw, ar ol yr hwn y daeth i'r dywysogaeth, O.C. 773. Er hyny y mae dyryswch hanesiol yn digwydd yn ei achau, y gellir cymeryd sylw o hono yn y fan yma. Cadell, yn ol rhai cofnodau, oedd fab i Elisau, yr hwn hanes a ddyry yr hynafiaethydd enwog, Robert Vaughan, yr hwn a ddyry yr achyddiaeth fel hyn:—Cadell, fab Elisau,

Digitized by Google

fab Cynllaw, fab Beli, fab Maelmynan, fab Selyf neu Solomon, fab Cynan, fab Brochwel Ysgythrog, brenin Powys, a Iarll Caerlleon. (*British Antiquities Revived*, 15). Ond yn *Mrut y Tywysogion*, gelwir Cadell Deyrnllwg yn fab i Brochwel Ysgythrog, yr hwn, yn ol trefn pethau, nid allasai fod yr un ag a ymladdodd frwydr Bangor yn O.C. 607, eithr un arall o'r un enw, a elwir gan Rowlands, yn ei *Mona Antiqua*, t. d. 172, yn Brochwel Ysgythrog yr ieuengaf. Y mae hyn hefyd yn cael ei gadarnhau gan y darlleniad sydd ar go'ofn Eliseg, sydd i'w gweled hyd heddyw ger Llangollen, ac a gopïwyd gan Edward Llwyd, pan oedd y llythyrenau yn amlycach nag ydynt yn awr. Y maent yn darllen fel hyn:—"Concenn filius Catteli, Catteli filius Brochmail, Brochmail filius Eliseg, Eliseg filius Guoillauc, Concenn itaque pronepos Eliseg edificavit hunc lapidem proavo suo, &c." Wedi pwyso y gwahanol awdurdodau, gallwn, efallai, fod yn gywir trwy benderfynu, mai mab i'r ail Brochwel, yr hwn oedd fab i Eliseg, oedd y Cadell hwn, ac iddo ddilyn ei daid yn y dywysogaeth. Bu Cadell farw yn O.C. 804.

CADFAN, mab Iago ab Beli, a ddaeth i orsedd Gwynedd, ar farwolaeth ei dad, yn y flwyddyn 603. Oddeutu y flwyddyn 607, efe, yn nghyd â Brochwel Ysgythrog, tywysog Powys; Meredydd, brenin Dyfed; a Bledrws, tywysog Cernyw, a gyfunasant eu byddinoedd yn erbyn Ethelffrith, brenin Deifr a Brynaich, yr hwn a wnaethai y gyflafan erchyll ar fynachod a myfyrwyr Bangor Isgoed yn Maelor. Cyfarfu y byddinoedd gelynol ar lan yr afon Dyfrdwy, ac ymladdfa ddychrynllyd a fu y canlyniad. Ymosododd y lluoedd Cymreig mor egniol a phybyr ar y Seison, fel y bu iddynt, ar ol ymladd caled, eu llwyr ddymchwelyd, gan adael dros ddeng mil o honynt yn gelaneddau ar y maes; a phrin iawn y medrodd Ethelffrith ei hun, yn archolledig, ddianc gyda gweddill ei ganlynwyr, a dychwelyd i'w wlad ei hun. Yn fuan ar ol y fuddugoliaeth hon (er mai y fl. 613 yw yr amser a nodir mewn rhai hanesion), etholwyd Cadfan yn benllywydd ar y byddinoedd Cymreig; yr hyn a wnaethpwyd, medd y *Brut*, mewn cymanfa o dywysogion Cymru, yr hon a gynaliwyd yn Nghaerlleon ar Dyfrdwy; ac ychwanega yr unrhyw awdurdod iddo ymlid ar ol Ethelffrith tua'i wlad ei hun; ond i'r ddau frenin, cyn cyfarfod, ymheddychu â'u gilydd. Am y gweddill o'i oes, parhaodd heddwch rhyngddo ef ac Ethelffrith. Bu farw Cadfan yn y flwyddyn 630, a chladdwyd ef yn Llangadwaladr, neu Eglwys Ael, yn Mon, lle y mae coflech am dano i'w gweled hyd heddyw, ag arni yr arysgrifen hon, mewn hen lythyrenau yn perthyn i'r seithfed ganrif:—CATAMANUS REX SAPIENTISSIMUS OPINATISIMUS OMNIUM REGUM. Ceir dyluniad cywir o honi, yn ei llythyren hynafol ei hun, yn yr *Archæologia Cambrensis*, i. 165. Defnyddir y maen gorhynaidd hwn yn awr yn gapan i ddrws deheuol yr Eglwys. Canlynwyd Cadfan yn y llywodraeth gan ei fab Cadwallon.

CADIFOR FAWR, mab i Collwyn, oedd dywysog Dyfed, yn Neheubarth Cymru, a cheir ei enw yn achyddiaeth y wlad hono, fel boncyffdlad, o'r hwn y deilliodd llawer o deuluoedd. Yr oedd ei drigfan yn Mlaen Cuch, yn sir Benfro, ac y mae eto ryw weddillion o'i balas i'w gweled, a elwir Ffwrn Cadifor. Ei wraig oedd Elinor, ferch i Lluch-lawen-Fawr, arglwydd Cilsant. Bu farw oddeutu y fl. 1088.

CADROD HARDD, arglwydd Talybolion, oedd yn benaeth galluog, ac yn ei rwysg yn y ddegfed ganrif. Yr oedd yn cartrefu yn Bodafon, yn sir Fon; a'r hwn le sydd hyd heddyw yn meddiant ei ddisgynydd-

Digitized by Google

ion. Oddiwrtho hefyd y disgynodd teuluoedd Wynnstay, Bodelwyddan, a llawer eraill. Efe oedd tad Cilmin Droed-ddu.

CADWALADR, ail fab Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd. Yn y flwyddyn 1135, hynododd ei hun yn fawr mewn amryw frwydrau llwyddianus a ymladdwyd ganddo yn erbyn gelynion ei wlad. Gwedi codi byddin ddirfawr, efe a'i frawd hynaf Owain, adnabyddus wedi hyny dan yr enw Owain Gwynedd, a gyrchasant i Geredigion, lle y diffeithiasant y wlad a ddelid gan y Normaniaid a'r Fflamdrysiaid neu Fflemysiaid yn y parthau hyny, ac a gymerasant oddi arnynt ddau o'u cestyll cadarnaf, sef Castell Gwallter de Bec, a Chastell Aberystwyth, y rhai a losgasant yn ulw. Pan oeddynt ar eu haerdrawd yn Ngheredigion, ymunwyd â hwynt gan Hywel ab Meredydd a Rhys ab Madog ab Idnerth; yna aethant rhagddynt, a llosgasant gastell Rhicert Dylamar, a chastell Dinerth, a chastell Caerwedros, a dychwelasant i Wynedd gydag anrhaith fawr iawn. Gan i'r cadgyrch hwn droi allan mor llwyddianus, daethant eilwaith i Geredigion o gylch diwedd yr un flwyddyn, a'u hamcan oedd rhyddhau y wlad oddiwrth ormes annyoddefol y gelynion estronawl; a'r tro hwn, yn ol *Brut y Tywysogion*, yr oedd gyda hwynt "amlder llu o ddetholedigion ymladdwyr, fal amgylch chwe' mil o beddyd addwyn, a dwy fil o farchogion llurigawg; ac yn borth iddynt y daeth Gruffydd fab Rhys, a Hywel fab Meredydd o Frycheiniawg, a Madawg fab Idnerth, a dau fab Hywel fab Meredydd. A'r rhai hyn oll yn gyfun a gyweiriasant eu byddinoedd i Aberdyfi [neu *Aberteifi*, yn ol rhai ysgrifau]. Ac yn eu herbyn y daeth Ystefn, gwnstabl y dref, a Rhobert fab Martin, a meibion Gerallt Ystiwert, a Gwilym ab Orc, a'r holl Fflemysiaid, a'r holl farchogion, a'r holl Ffreinc o Aber Nedd hyd yn Aberdyfi (Aberteifi). Ac wedi cyrchu y frwydr, ac ymladd yn greulawn o bob tu, y cymerth y Fflemysiaid a'r Normaniaid eu ffo, herwydd eu harferedig ddefawd. A gwedi lladd rhai o naddynt, a llosgi ereill, a thrychu traed meirch ereill, a dwyn ereill yn nghaethiwed, a boddi y rhan fwyaf megys ynfydion yn yr afon, a gwedi colli tair mil o'u gwŷr, yn drist aflawen ydd ymchwelasant i'w gwlad. A gwedi hyny ydd ymchwelawdd Owain a Chadwaladr i'w gwlad yn hyfryd lawen, gwedi caffael y fuddugoliaeth yn anrhydeddus, a chael dirfawr amlder o gaith, ac anrheithiau, a gwisgoedd mawrwerthawg, ac arfau." Darostyngodd y gyforddwy hon yr holl wlad cyn belled ag Aberteifi, gyrwyd yr estroniaid gelynol allan o honi, a chyflewyd y brodorion yn eu lle. Ond nid hir y bu cyn i'r Cymry, yn ol eu harfer, syrthio allan yn eu plith eu hunain; canys yn y flwyddyn 1142 yr ydym yn cael Cadwaladr yn ymryson â'i frawd Owain, yr hwn a ddiffeithiodd ei diriogaeth, ac a losgodd ei gastell yn Aberystwyth. Ar hyn ffodd Cadwaladr i'r Werddon, lle y cyflogodd yn gyfnerth iddo lu mawr o Wyddelod ac Ysgotiaid, y rhai a ddaethant drosodd o dan flaenor a'i enw Octer neu Otter, ac a diriasant yn Aber Menai, yn Arfon. Prysurodd Owain ar unwaith i'w cyfarfod mewn brwydr; ond "yn nghyfrwng hyny y cytunodd Owain a Chadwaladr, megys y gweddai i frodyr, a thrwy gynghor eu gwŷr da y cymodasant," er dirfawr siomedigaeth y cyflogedigion Gwyddelig, y rhai, oherwydd eu hanfoddlonrwydd, a dderbyniasant driniaeth led erwin; canys lladdwyd rhai, daliwyd a chaethiwyd ereill, a diangodd y gweddill yn waradwyddus i Ddulyn. Yn 1146, torodd annghydfod terfysglyd allan rhwng Cadwaladr a'i ddau nai, Hywel a Chynan, meibion Owain, y rhai a ddiffeithiasant ei wlad, ac o un i un a oresgynasant ei gestyll, ac

Digitized by Google

yn 1149, cymerwyd yntau yn garcharor ganddynt. Yn mhen dwy flynedd diangodd o'i garchar, a llwyddodd i oresgyn y rhan fwyaf o Ynys Mon; ond pan ddaeth ei frawd â llu i'w erbyn, ac yntau heb fod yn alluog i'w gwrthsefyll, gorfu arno ymgilio i Loegr i geisio cyfnerth gan berthynasau ei wraig, yr hon ydoedd ferch i Gilbert, Iarll Clâr. Yn y flwyddyn 1156, cadgyrchodd Harri II. i Gymru, ar anogaeth Cadwaladr; a'r canlyniad a fu, ei gymmodi ef a'i frawd, ac adferyd ei diriogaethau iddo. Gorphenodd ei oes gythryblus yn mis Mawrth, 1172.

CADWALADR (Dafydd), o'r Bala, a berthynai i'r ail dô o bregethwyr y Methodistiaid Calfinaidd. Pan ddechreuodd ef bregethu tua'r flwyddyn 1770, nid oedd yr Ysgol Sabbathol wedi ei sefydlu, nac ond dau gapel yn Meirionydd, sef un yn y Bala, a'r llall yn Mhenrhyn Deudraeth. Perthynai D. Cadwaladr i'r dosparth hwnw o bregethwyr a elwid "Pregethwyr ffos y clawdd," dosparth a wnaeth anrhaethol waith tuag at efengyleiddio Cymru, ond dosparth sydd yn prysur ddiflanu o flaen cynydd gwybodau a dysg cyffredinol y genedl. Gellir rhestru prif gewri yr areithfa Gymreig yn y dosparth hwn. Dynion diysgolheigdod oeddynt a godid, mae'n ddiau, gan Ddwyfol Ragluniaeth o blith y werin i wneud gwaith mawr o'r pwlpud ar werin eu gwlad. Ar y cyntaf, bugeiliaid gwylaidd a diniwaid fyddent; bryd arall, penaethiaid pob rhusedd yn mhlith eu cyfoedion; a chanddynt galon fawr ond anedifeiriol, ac athrylith gref anniwylliedig. Gwnelai gras ei gwaith arnynt; ac yn fuan gwelid hwynt yn feistriaid y gynulleidfa yn ngwir ystyr y gair. Anfynych y byddent hwy yn myned i goleg i hogi eu crymanau; oblegyd, fel y dywedodd un o gewri y dosparth y soniwn am dano, "Tra y byddwn ni yn hogi ein harfau fe â y cynhauaf heibio." Yn llawn sel a gweithgarwch, ymgymerent â holl oruchwylion eu swydd ar unwaith. Fel dosparth, yr oedd mwy o dân a llai o gelfyddyd yn eu hareithyddiaeth nag yn eiddo eu brodyr a gawsent fanteision athrofaol; ac yn iawn am iaith garpiog a chydmariaethau cloffion, ceid ganddynt yn fynych y drychfeddyliau mwyaf hedegog a fflamllyd. Siaradent a'u gwrandawyr mewn iaith seml werinol, heb ond ychydig o'r coethder a'r addurn hwnw sydd mor ml yn tywyllu cynghor ag ymadroddion heb wybodaeth. Yr oedd y werin, mewn canlyniad, yn gallu eu deall ac yn eu mawrhau, er fod coeg-ddysgedigion yn eu diraddio ac yn eu galw, "pregethwyr ffos y clawdd." Yn y dosparth hwn y ceir D. Cadwaladr. Ganwyd ef yn 1752; mab ydoedd i Cadwaladr a Chatherine Dafydd o'r Erw Ddinmael, plwyf Llangwm, sir Ddinbych. Ni chafodd efe gymaint a diwrnod o ysgol erioed na neb i'w gyfarwyddo hyd yn nod i ddysgu darllen iaith ei fam. Pa fodd bynag, dysgodd hyny trwy y moddion rhyfeddaf mae yn debyg y dysgodd dyn ddarllen erioed, sef trwy sylwi ar y pyg lythyrenau oeddynt ar ystlysau defaid ei dad a'r cymydogion. Pan yn blentyn, arferai fyned gyda'i frawd i'r mynydd i fugeila, a'r bleser fyddai sylwi ar y gwahan-nodau llythyrenol hyn—sylwi ar eu ffurf a'u sain, a thrysori hyny yn ei gof. Trwy hyn yn benaf y dysgodd efe sillebu a darllen.

Gadawn iddo ef ei hun draethu am yr argraffiadau *crefyddol* cyntaf a'r ei feddwl fel yr adroddodd yr hanes wrth un o'i ferched: "Pan ar ryw amser y digwyddai tymhestl ddychrynllyd o fellt a tharanau, fy mam a ddeuai i'r ystafell lle yr oeddwn yn cysgu, ac yno y syrthiai ar ei gliniau, gan wylo yn chwerw, a dywedyd yn ddifrifol iawn y Pader a'r Credo, ac wedi hyny y geiriau o'r Litani, 'Duw Dad o'r nef, trugarhâ wrthym, wir bechaduriaid.' A chan na welswn erioed y fath beth o'r blaen,

Digitized by Google

gofynwn iddi, pa beth oedd arni? 'O fy machgen bach I,' ebai hithau, 'gâd i mi lonydd i weddio Duw, canys y mae arnaf ofn fod dydd y farn wedi dyfod!' Hyn a'm dychrynai yn ddirfawr, a minau a ddechreuwn weddio i'w chanlyn: a dyna'r pryd y bu i mi ddysgu y Pader a'r Credo. Peidiai fy mam a gweddio pan beidiai y mellt a'r taranau; ond myfi a ddaliwn ati am rai wythnosau, nes o'r diwedd y gorfu i mi dewi drwy i fy nhad ddyfod a fy chwipio. Wedi hyny byddwn yn myned ar fy mhen fy hun, ac yn llefain, 'Duw Dad o'r nef, trugarhâ wrthym, wir bechaduriaid,' nes yr oedd y cymydogion yn meddwl fy mod wedi colli fy synwyrau. Pa fodd bynag, yr wyf yn meddwl hyd heddyw ddarfod i'r Arglwydd y pryd hwnw wrando arnaf, greadur tlawd, a thrugarhau wrthyf." Rhydd y dyfyniad hwn rhyw ddrychfeddwl ar ba fath aelwyd y magwyd D. Cadwaladr; ac nid efe yn unig ond y rhan fwyaf o'i gyfoedion, mewn llawer llan heblaw Llangwm. Pan yn un-ar-ddeg oed, gorfu arno droi allan i wasanaethu; a chyda'r cyfeillion newydd y daeth efe i'w plith dilewyd i raddau ei argraffiadau cefyddol, a llithrodd yntau yn fuan yr un mor llygredig a masweddol a hwythau. Mae'n wir y byddai rhywbeth ar brydiau o fewn iddo, nad oedd efe yn gwybod ei henw y pryd hwnw, yn ei bigo; os nad yn rhuo arno weithiau fel arthes wedi colli ei chenawon. Rywfodd cafodd afael yn y *Bardd Cwsg* a *Thaith y Pererin*, trysorodd gynwys y ddau bron i gyd yn ei gof aruthrol, a byddai eu gweledigaethau rhyfeddol hwy yn gymysgedig yn fynych a'i weledigaethau ef ei hun. Os na lanwasant ei enaid â gras, llanwasant hi â dychryn; a byddai yntau yn mawr ddychryn eraill gydag adroddiad o honynt. "Yr oedd côf Dafydd Cadwalad," ebai Dafydd Rolant, "fel uffern, ni ddywedai byth 'Digon.'"

Tra yn gwasanaethu yn y naill fferm a'r llall tua Llangwm, arferai fynet i'r Eglwys bob Sul; yn wir arferai ei rieni wneud hyny hefyd; ond nid oedd un gwasanaeth crefyddol yn yr wythnos yn ddigon i foddio ei awyddfryd grefyddol ef; a daeth ei enaid yn raddol i ddyheu am ragor o gyrddau. Beth bynag nid oedd ragor o'r fath ragorfreintiau i'w cael yn y wlad hono. Mae'n wir fod ymneillduaeth yn dechreu codi ei phen, ond gwylaidd iawn ydoedd,—ei hychydig blant a gyfarfyddent yn ofnus mewn tai annedd, ac a edrychent yn debycach i ladron na chrefyddwyr yn mwynhau eu breintiau. Oblegyd peth sobr iawn y pryd hwnw oedd digio gwyr mawr. Ond symudodd ein harwr yn 17 oed i ardal y Bala. Yma y clywodd gyntaf erioed leygwr yn pregethu; elai bob Sabbath o'i le yn Nant y Cyrtiau i'r Bala, pellder o bedair milldir, i wrando; a phan yn ugain oed, derbyniwyd ef yn aelod o'r enwad y bu efe cyhyd o flynyddau yn pregethu yn ei phwlpudau. Yr oedd efe yn 28 oed cyn rhoddi cais ar bregethu; a bu bwlch o ddwy flynedd cyn iddo ail-ymosod ar y gwaith a pharhau ynddo. Rhyw hunan-dybiaeth o'i eiddo ef ei hun parth ei annghymwysder i'r swydd a barodd y bwlch hwn; ac ar daer anogaeth Mr. T. Foulkes o'r Bala yr ail gymerodd efe afael yn y gwaith. Yn mhen tua dau fis ar ol hyn, cymerodd digwyddiad le a sefydlodd ar unwaith ei gymeriad fel pregethwr. Cafodd ar ei feddwl fyned i rhyw Gymdeithasfa yn y Deheudir, lle yr enwyd ef un diwrnod i bregethu dranoeth. Parodd yr hysbysiad annisgwyliadwy hwn bryder meddwl annghyffredin iddo; ymlithrodd ymaith yn ddirgelaidd o'r cyfarfod, ac nis gwelwyd ef mwyach hyd onid oedd yn amser myned i gysgu. Pan ofynwyd iddo pa le y buasai, cyfaddefodd ei fod unwaith wedi bwriadu dianc adref·

Digitized by Google

ond tybiodd drachefn y buasai yn mawr bechu tuwy hyny, a phenderfynodd sefyll ei dir. Ni chymerodd na thamaid na llymaid y noson hono; a dywedai ei gywely na chysgodd ddim, ond iddo dreulio y nos mewn gweddi ac ymdrech â Duw. Pan wnaeth efe ei ymddangosiad yn y pwlpud, yr oedd delw y "dirgel" yn amlwg arno. Llefarai gydag awdurdod mawr, a choronwyd ei weinidogaeth y tro hwn gydag ardderchawgrwydd rhyfeddol—disgynai ei eiriau llymion ar y dorf fel bylif tanllyd, llawer o honynt yn gwaeddi allan, "Pa beth a wnawn ni?" Sefydlodd hyn iddo enw yn y cwr hwnw fel pregethwr nerthol arddeledig. Mae yn debyg mai wedi dychwelyd adref o'r cyfarfod hwn yr ysgrifenodd efe y Cyfamod canlynol â Duw:—"Myfi, Dafydd Cadwaladr, wyf y dydd hwn yn fy rhoddi fy hun i fod yn eiddo i'r Arglwydd dros byth: yr wyf yn rhoddi fy enaid iddo i'w gadw a'i lywodraethu, fy nghorph yn aberth iddo; fy nghalon i'w garu, fy nhafod i'w glodfori, fy amser i'w wasanaethu, fy aelodau yn arfau cyfiawnder iddo: yn ei berson mi gredaf, yn ei waed mi ymolchaf, yn ei ras mi ymnerthaf, yn ei Air mi fyfyriaf, ar ei ogoniant mi edrychaf, ar ei fynwes mi bwysaf, yn ei orchymynion mi rodiaf; yn erbyn pechod mi ryfelaf, dan y groes mi ddioddefaf, dros bob dyn mi weddiaf: fel hyn yr wyf yn bwriadu byw i Dduw, ac ymddiried yn ei ddaioni of yn unig am nerth a gras i gadw fy adduned; a rhag i mi byth alw fy ngeiriau yn ol, Duw Dad, Mab, ac Ysbryd, angylion y nef, a chythreuliaid uffern, a fy nghydwybod fy hun, a gânt fod yn dystion ar fy Nghyfamod. Esa. xliv. 5. 1 Tim vi. 12. Ps. cxix. 106. Cadw fi, O Dduw, rhag pob math o ryfyg a chyfeiliornad bob amser yn agos atat. Bendith arnaf."

Yr oedd D. Cadwaladr yn meddu ar un o anhebgorion pregethwr gwasanaethgar yr oes hono, sef cyfansoddiad cryf, a gallu anorchfygol i deithio. Dyn teneu, tàl, ydoedd, heb wybod ond ychydig erioed beth oedd lludded corphorol. Adroddir llawer hanesyn am ei orchestion fel teithiwr. O fewn naw wythnos i'w farwolaeth, pan oedd agos i 82 o flynyddau yn gorwedd ar ei ysgwyddau, cerddodd yr holl ffordd o'r Bala i'r Abermaw, pellder o 30 milldir, er mwyn bod yn bresenoi yno mewn Cyfarfod Misol. Ar dywydd brâf, llwybreiddiai i'w daith hyd fynyddau anhygyrch Meirion yn droed-noeth, gan gludo ei esgidiau a'i hosanau ar ei ysgwydd, ac yn fynych yn gwau hosanau a phregethau wrth fyned. Ddyddiau yr wythnos, gweithiai yn galed ar ei fferm fechan; y nos, eisteddai yn ei gongl i wau, yn ol hen arfer y wledd hono; a'r Sabbath, pregethai dair neu bedair gwaith mewn gwahanol fanau gan gerdded degau o filldiroedd rhwng yr odfaon. Nid oedd liogi corphorol na meddyliol yn bechod parod i'w amgylchu ef.

Yr oedd ganddo gôf aruthrol, ac i bòrthi y côf hwn yr oedd yn ddarllenwr mawr. Pan yn ieuanc, arferai brynu pob llyfr a ddeuai allan yn Gymraeg, a phan ganfu fod y wasg yn myned yn gryfach na'i logell, syrthiodd ar ei hen adnoddau, ac ail ddarllenai y llyfrau ag oedd ganddo eisoes. Dywedir iddo ddarllen gwaith Eliseus Cole ar Ben-arglwyddiaeth Duw naw o weithiau trosodd; a'r Bibl bump ar hugain o weithiau, wrth gadw dyledswyddau teuluaidd. Pan oedd yn hoglanc, cyn iddo ddechreu pregethu, daeth rhyw ddarogan y deuai y Pabyddion drachefn i awdurdod yn y wlad hon, ac y llosgent yr holl Fiblau ag oeddynt wedi dyfod i feddiant y bobl gyffredin; penderfynodd Dafydd na losgent ei Fibl ef, y dysgai efe ef allan; ac felly fe ddysgodd y Testament Newydd i gyd ar dafod leferydd, a'r un modd y

Digitized by Google

rhan 'wyaf o'r Hen Destament. Ac yr oedd pob cilfach yn neuadd ei gôf mawr yn berffaith adnabyddus iddo; gallai nol y dodrefnyn a fynid oddiyno ar amrantiad. Gwnelai hyn ef yn gwmni dyddan, yn gynghorwr ysprydol parod, ac yn wrthwynebydd, ar dir Ysgrythyr, medrus ac anhawdd ei feistroli.

Ei ddull o bregethu yn nechreuad ei yrfa weinidogaethol ydoedd fywiog a tharanllyd iawn, gan ddal yn neillduol ar ddrwg pechod, y bygythion ofnadwy yn ei erbyn, a'r gosp angerddol a'i canlyna, ar y rhai a fyddant feirw ynddo, ac heb edifarhau o'i herwydd, a'r agwedd ddychrynllyd a fydd arnynt yn y farn ac yn mhoenau uffern yn dragywydd. Ac fel y byddai yn traddodi y pethau hyn gyd â'r fath ddull ac ymadroddion mor ddifrifol a threiddiadol, byddai yr Ysbryd Glân yn effeithioli ei weinidogaeth yn rhyfeddol, nes i laweroedd o'i wrandawyr gael eu deffroi. Ond tua'r blynyddoedd olaf o'i yrfa, troai ei weinidogaeth yn llarieiddiach ac yn fwy efengylaidd, gan dueddu yn fwy i adeiladu yr eglwysi, i ddyddanu y gwan eu meddwl, i gynal y gweiniaid, ac i gysuro pob galarus; a chan sôn llawer hefyd am wynfydedigrwydd y nef, a hyfrydwch bywyd o dduwioldeb yn y byd hwn.

Yr oedd D. Cadwaladr yn dipyn o fardd hefyd. Byddai yn cyfansoddi cryn lawer yn ei ieuenctyd, ond gan mai at *duchanu* yr oedd gogwydd ei awen, rhoddes ei delyn ar yr helyg, hyd oni chafodd yn ei hen ddyddiau angau yn destun i'w duchan. Cyfansoddodd farwnad ar ol y Parch. Thomas Charles, a gwerth wyd naw mil o honi. Efe hefyd a farwnadodd John Evans a Dafydd Edward o'r Bala, ac amryw eraill, ond yr oedd efe yn dysgleirio mwy fel pregethwr nag fel bardd.

Bu farw Gorphenaf 9fed, 1834, yn 82 oed, ar ol bod yn bregethwr ffyddlawn a llafurus gyda'r Methodistiaid Calfinaidd am y cyfnod maith o 52 o flynyddau. Claddwyd ef yn mynwent Llanycil.—*Cofnodau am D. Cadwaladr*, gan ei Wyres; a *Meth. Cymru.*

CADWALADR (Ellis). Bardd o Landrillo yn Edeyrnion. Blodeuodd o 1707 i 1740. Efe a enillodd yr Eisteddfod a gynaliwyd yn y Bala dydd Llun y Sulgwyn, 1738. "Yr anrhydeddus a'r dysgedig athraw Edward Wynne, Vicar Gwyddelwern," oedd y barnwr; a chyfansoddodd Englynion i'r holl ymgeiswyr, a diweddodd "i'r gwr a gariodd yr Eisteddfod," drwy ddywedyd

"Goreu i gyd. gwr y Gadair."

Yr oedd E. Cadwaladr yn dra chelfyddgar yn y mesurau caethion. Cyfansoddodd ddau Englyn i'w gosod ar fedd Huw Moris yn 1709, er mai gwaith Ficer Gwyddelwern a ddewiswyd. Gwelir pedwar o'i gyfansoddiadau yn y *Blodeugerdd*, un "Carol am y fl. 1707." Mae ei "Glod i Ferch," yn arddangos y gwyddai rywbeth am enwau clasurol, a'i fod yn fwy ei ddysg na llawer o'i gyfoeswyr.

CADWALADR (Huw). Bardd o Benllyn yn Meirion. Blodeuai tua 1730.

CADWALADR (Sion). Rhigymfardd o'r Bala, tua'r fl. 1770.

CADWALADR (Syr Rhys), o'r *College*, yn nhref Conwy, oedd yn ei flodau yn 1680, fel mae yr Englynion a gânt i'r "Seren Losgyrnog Fawr," a ymddangosodd yn y flwyddyn hono, yn profi. Gan fod Cadwaladr yn cael ei ysgrifenu weithiau "Cadr" mae rhai wedi ei alw "Rhys y Gadair," gan dybied ei fod yn enedigol o gyffiniau Cadair Idris. Dichon mai Meirionwr ydoedd. Y cwbl a wyddom am Syr

Digitized by Google

Rhys yw ei fod yn ŵr eglwysig, yn byw yn y *College* yn nhref Conwy ar ymddangosiad y seren a nodwyd; a'i fod yn fardd celfyddgar, awenyddol, a dysgedig, mal y prawf ei gyfieithiad o Horace, Llyfr I. Cerdd 22; a'i fod yn hoff o ddiod frâg.

"Yfwr mawr o fro Meirion,"

ebai un am dano.

CADWALADR (Robert Wyn ab). Bardd awenyddol a dysgedig yn canu ar ei fwyd ei hun, ac yn sefyll yn gadarn gyda'r Iaith Gymraeg rhag iddi lwyr golli. Blodeuai rhwng 1600 a 1640. Gwr boneddig o deulu a chyfoeth ydoedd, a phreswyliai yn y Foelas yn sir Ddinbych.

CADWALADR (Rhys Wyn ab). Gwr boneddig ac uchelwr da a phrydydd urddasol, yn byw yn y Giler sir Ddinbych, tua 1600. Mae peth o'i waith ar gael mewn llawysgrifau.

CADWALADR (Cad. John), ydoedd o deulu Cymreig, ond a anwyd yn Philadelphia, America. Tybir mai mab ydoedd i'r John Cadwaladr a ysgrifenodd y "Llythyr at y Darllenydd," yn rhagymadrodd i "Cydgordiad" Abel Morgan, yn y fl. 1730. Derbyniodd y mab hwn ei benodiad fel *Brigadier general*, yn y fl. 1777, ac ymladdodd yn wrol yn mrwydrau Princeton, Brandywine, a Monmouth. Ymladdodd ornest â'r cadfridog Gales, oblegyd iddo ymfradychu â Gales yn erbyn Washington, a chlwyfwyd ef yn drwm. Efe a symudodd wedi hyny i Maryland, a daeth yn aelod o'r Ddeddfwriaeth. Yr oedd yn gyfoethog a haelionus. Bu farw yn y fl. 1786, yn 43 oed.

CADWALADR, un o feibion Rhys ab Gruffydd, tywysog Deheubarth. Llofruddiwyd ef yn 1186, a chladdwyd ef ger y Ty Gwyn ar Dâf.

CADWALADR AP RHYS TREFNANT. Bardd a flodeuodd tua chanol y 16 ganrif. Mae amryw o'i gyfansoddiadau ar gael mewn ysgrifau.

CADWALADR FENDIGAID, yr olaf o'r tywysogion Cymreig a wisgodd y teitl o frenin Prydain oll. Mab ydoedd i Gadwallawn ab Cadfan, yr hwn a ddilynodd mewn swydd tua'r fl. 634. Yn *Tri.* 28, rhestrir ef yn un o'r "Tri aur-hualogion Ynys Prydain;" am y gwisgent fodrwyau o aur am eu breichiau, eu gyddfau, a'u gliniau. Yn *Tri.* 35, rhestrir ef gyda Brân Fendigaid a Lleurig ab Coel, fel un o "Dri Menwedigion Teyrnedd" [*menwedig*,—bendigaid, deallgar]. Trwyddod Cadwaladr i'r dosparth hwn oedd, "efe a roddes nawdd ei diroedd a'i holl ddaoedd ei hun i'r ffyddloniaid a ffoent rhag y Saeson digred a'r anmhrodorion a fynnaint eu lladd." Oherwydd fod ei fam yn chwaer i Penda, brenin Mercia, yr oedd teyrnasiad Cadwaladr yn lled heddychol. Yn 664, torodd pla allan yr hwn a anrheithiodd Brydain a'r Iwerddon; ac, yn ol *Nennius*, syrthiodd Cadwaladr iddo yn ysglyfaeth. Eithr y mae yr hanes a ddyry y *Brutiau Cymreig* yn dra gwahanol; dywedant ddarfod iddo, er mwyn ysgoi y pla, ffoi i Lydaw, at Alan brenin y wlad hono; ddarfod iddo ar derfyniad y pla ofyn a derbyn cymhorth gan Alan i fyned a gorthrechu y Saeson gelynol a gymerasent feddiant o'i diriogaeth yn ei absenoldeb; ond pan ar gychwyn i'w ymdaith, ddarfod i angel ei anog mewn breuddwyd i roddi yr anturiaeth i fynu, a myned i Rufain i arwain bywyd penydiol, ac y byddai i'r Cymry adenill teyrnedd Prydain trwy ei weithredoedd da ef yn yr amser priodol pan ddygid ei esgyrn ef adref o Rufain. Yma derbyniwyd ef i blith y saint gan y Pab Sergius, a bu farw yn 688.

Digitized by Google

Adroddir hanes cyffelyb gan Bede am y brenin Sacsonaidd Ceadwalla; ond pa un ai yr haneswyr Cymreig a gamgymerasant Cadwaladr am Ceadwalla, ai ynte yr haneswyr Saesonig Ceadwalla am Cadwaladr, sydd bwnc nad ellir ei benderfynu. Gogwydda yr *Eminent Welshmen* yn ffafr yr olaf; a thybia mai oddiar gamgymeriad yr haneswyr Cymreig y rhoddwyd y teitl o Bendigaid i Cadwaladr; ond dywed y *Trioedd* a ddyfynasom mai oblegyd iddo roddi nodded i'r ffyddloniaid y cafas efe y cyfenw hwnw. Yn y *Myv. Arch.*, i. 145, ceir darnau barddonol, a briodolir i Myrddin, yn cynwys prophwydoliaeth y byddai i Cadwaladr ail ymddangos, gorthrechu y Saeson, ac adenill teyrnedd Prydain i'r Cymry. Dywedir iddo ail-adeiladu eglwys Ael yn Môn, lle y claddesid ei daid Cadfan, a galwyd y lle ar ol hyny Llangadwaladr. Efe ydyw sant gwarcheidiol Llangadwaladr, yn sir Ddinbych; a Llangadwaladr, neu Bishopstown, yn Mynwy. Cynelir ei wylmabsant Hydref 9.—*Hanes Cymru*, Carnhuanawc; *Myv. Arch.; Wms. Em. Welsh.;* Rees' *Welsh Saints.*

CADFAN, brodor o Lydaw, sef mab i Eneas Lydewig o Gwenteirbron ferch Emyr Llydaw, tywysog yn y wlad hono. Pan gymerth y Ffrancod feddiant o diriogaeth Gâl, tua'r fl. 576, daeth Cadfan trosodd i Gymru; a chydag ef yr oedd llawer eraill o feibion pendefigion, y rhai, oblegyd colli eu meddianau, a ymroisant i fywyd crefyddol. Cadfan oedd sylfaenydd eglwysi Llangadfan, yn Maldwyn; a Thywyn yn Meirionydd. Pan sefydlodd Einion Frenin fynachdy yn Ynys Enlli, Cadfan a wnaed yn abad cyntaf y crefydd-dy hwnw. Ystyrid ef am beth amser yn sant gwarchodol rhyfelwyr, yr hyn a brawf iddo arddangos gwroldeb pan yn amddiffyn ei dreftadaeth yn ngwlad ei enedigaeth. Cedwid ei wylmabsant ar y 1af o Dachwedd. Dywed un traddodiad iddo gael ei gladdu yn Nhywyn; tra y dywed traddodiad arall mai yn Enlli y mae ei lwch yn gorphwys. Y mae dwy golofn yn mynwent Towyn, un o ba rai sydd yn saith troedfedd o uwchder, ac a e wir Maen St. Cadfan; ar un ochr iddi y mae llun croes; ac ar yr ochr arall y mae llythyrenau, yr oll o ba rai sydd yn annealladwy yn bresenol ond yn unig y gair "*Catamus.*" Tybir fod y golofn annelwig hon wedi ei chodi er cof am y sant. Ceir arluniau o'r meini hyn yn Gough's *Camden.* Yr oedd ei gapel, yn mhen gogledd-ddwyreiniol mynwent Towyn, yn sefyll mor ddiweddar a'r fl. 1620.—*Wms. Em. Welsh.*

CADFARCH, sant a flodeuai tua chanol y 6ed cant. Mab ieuengaf ydoedd i Caradawg Freichfras, tywysog Brycheiniog. Wedi ymroddi i fywyd crefyddol, efe a sylfaenodd eglwys Penegoes, Maldwyn. Cynelir ei wylmabsant Hydref 24.

CADFRAWD AB CADFAN, gorwyr i'r onwog Caradog ab Brân Fendigaid. Blodeuai yn gynar yn y 4ydd cant. Yn 314, pan wysiodd Cystenyn gynghor i gyfarfod yn Arles, Gâl, i'r dyben o atal cyfeiliornad y Donatiaid, un o'r tri esgobion presenol o Brydain oedd *Adelfius*, esgob Caerlleon: tybir mai Cadfrawd oedd hwn, gan fod yr enw yn gyfieithiad teg bron i'r Lladin o'r gair Cadfrawd.—Rees' *Welsh Saints.*

CADO, neu Cataw, un o feibion Geraint ab Erbin, tywysog Dyfnaint. Blodeuai yn gynar yn y 6ed cant. Yr oedd yn aelod o Goleg St. Garmon.

CADOG. Sant Cymreig a flodeuai yn y 5ed cant. Un o feibion Brychan Brycheiniog ydoedd. Dywed Cressy iddo farw yn 490. Yr oedd eglwysi Llanspyddid, Brycheiniog; Llangadog Fawr, sir Gaertyrddin; a chapel o'r enw Llangadog o fewn plwyf Kidwelly; oll wedi

Digitized by Google

eu cyflwyno iddo. Bu farw a chladdwyd ef yn Ffrainc.—*Bonedd y Saint.*

CADWALLAWN, un o feibion Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd. Bu am yspaid yn gadlywydd byddinoedd ei dad. Yn 1125, efe a laddodd ei dri ewythr,—Gronw, Rhirid, a Meilir, meibion Owain ab Edwyn. Lladdwyd yntau, tua 1130, yn Nanheudwy. Yr oedd ei greulonderau wedi cynhyrfu digofaint ei gydwladwyr yn ei erbyn, ac i ochel llid ei frawd efe a ffoes am nawdd i lys brenin Lloegr, yr hwn a roddes fenthyg iddo nifer o filwyr i'w warchodi tua chartref, ond yn lle ei ddyogelu, y gwyr hyn a'i lladdasant ef yn Nanhendwy yn y fl. 1179.

CADWALLAWN, un o feibion Owain Gwynedd, o'i ail wraig Crisiant ferch Gronw ab Owain. Yn ol rhai, dywedir iddo fod yn abad Enlli; tra y dywed eraill iddo syrthio yn rhyfeloedd ei wlad tua'r fl. 1179.

CADWALLAWN AB CADFAN, un o benaduriaid enwocaf Cymru, a esgynodd i orsedd Gwynedd ar farwolaeth ei dad, Cadfan ab Iago ab Beli, yn y flwyddyn 630, ac ar yr un amser gwnaed ef yn benllywydd y Cymry oll; a diau fod ei gyneddfau godidog, ei wroldeb anhyblyg, yn nghyd â'i ymdrechion diflin o blaid ei wlad a'i genedl, yn ei wneuthur yn llwyr haeddianol o'r cyfryw arbenigrwydd anrhydeddus. Yn y cyfnod hwn yr oedd annghydfod ac ymryson yn mhlith Sacsoniaid Deifr a Brynaich; ond rhoddwyd terfyn ar yr ymraniadau hyn trwy waith Edwin fab Ela yn trechu ei wrthwynebwr Ethelffrith, ac yn gwneuthur ei hun yn frenin ar y ddwy dalaeth hono, y rhai a elwir yn gyffredin gan ysgrifenwyr Seisonig a Lladin, yn deyrnas *Northumbria*, am eu bod yn gorwedd ar du gogleddol yr afon Humber. Dywed y *Brut* i Edwin gael ei fagu yn llys Cadfan, a'i fod yn frawd maeth i Gadwallawn: ond ar ol hyn, pan ddaeth i feddiant o'i deyrnas, naill a efe a annghofiodd ei ddyledion i fab ei amddiffynwr, ai ynte efe a gynhyrfwyd gan ryw anogaeth annghyfiawn ar ran hwnw; a dechreuodd ryfel ffyrnig yn erbyn Cadwallawn, a llwyddodd i'r fath raddau, fel y bu iddo nid yn unig ei orchfygu mewn brwydr, ond hefyd ei yru ar alltudiaeth; a gorfu ar Gadwallawn ffoi i Iwerddon, lle y cafodd noddfa rhag ymlidiad ei elyn, yr hwn, ar hyny, a gyrchodd i Gymru, ac a wnaeth ddifrod erchyll ar y wlad. Coffeir am yr amgylchiad hwn yn un o'r *Trioedd*:—"Tri diwair deulu Ynys Prydain: Teulu Cadwallawn mab Cadfan, a fuont saith mlynedd yn Iwerddon gydag ef, ac yn hyny o ysbaid ni ofynasant ddim iawn iddaw, rhag gorfod ar naddynt ei adaw."—(*Cyfres* i. 34; iii. 80). Cyfeirir at yr un amgylchiad hefyd yn y cyfansoddiad barddonawl a elwir "Cywrysedd Gwynedd a Deheubarth," yr hwn a dadogir yn annghywir ar Daliesin:—

"Pan ddyfu Gadwallawn
Dros Eiglawn Iwerddon."

Gelwir y gâd hon rhwng Cadwallawn ac Edwin yn frwydr neu waith Digoll, a chyfeirir ati megys un o'r tri amgylchiad pan liwiwyd yr afon Hafren gan waed:—"Tri budr Hafren: Cadwallawn pan aeth i waith Digoll â llu Cymru ganthaw, ac Edwin o'r parth arall â llu Lloegr ganthaw; ac yna y budrawdd Hafren o'i blaen tua'i haber."—(*Cyfres* i. 75). Tra yr oedd Cadwallawn mewn alltudiaeth, aeth drosodd i Lydaw at Selyf, brenin y wlad hono; ac y mae yn debyg ddigon iddo gael cynorthwy ganddo i adenill ei deyrnas; canys yr oedd y Llydawiaid bob amser yn barod i gynorthwyo y Cymry yn eu hymdrechion yn

Digitized by Google

erbyn trais a gormail eu gelynion Sacsonig. Yn mhen saith mlynedd dychwelodd Cadwallawn o dir ei alltudiaeth, ac ymosododd nid yn unig i amddiffyn ei wlad, ond hefyd i ddial ar ei elyn, yr anffyddlawn Edwin, yr hyn a wnaeth yn y dull cyflwyraf. O gylch yr amser hwn yr oedd teyrnas Sacsonig wedi codi yn Ngorllewin Lloegr, yr hon a elwid *Mercia*, a chan y Cymry, y *Mers*. Brenin y parth yma o'r wlad oedd Penda, yr hwn oedd ddyn craff ei gyneddfau, a grymus ar faes y gâd. Pan ddychwelodd Cadwallawn i'w deyrnas, gwnaeth gynghrair â Penda, ac unodd ei luoedd â lluoedd y penadur hwnw; a chyrchasant ill dau yn erbyn Edwin; rhoddasant iddo gâd ar faes, a gorchfygasant ef, gan ei ladd ef, yn nghydag Osffrith ei fab, ac yn agos y cyfan o'i fyddin. Y gâd hon a ymladdwyd yn y fl. 632, gerllaw y lle a elwid Hethffeld, sef Hatffield, yn swydd bresenol Caerefrog, fel yr ydys yn tybied. Ar ol y frwydr hon, parhaodd Cadwallawn a Penda i anrheithio teyrnas Northumbria am fwy na blwyddyn o amser, a pharasant i dylwyth Edwin ffoi oddi yno, a chymeryd nodded yn ngwlad Caint, gan adael yr orsedd i eraill. Daeth Osrig, nai i Ela, i orsedd Deifr; a gafaelodd Eanffrid, mab Ethelffrith, ar orsedd Brynaich. Tra yr ydoedd Cadwallawn yn canlyn ei fuddugol rwysg yn y parthau hyny, ymsefydlodd yn ninas Caerefrog; ac Osrig, wedi cynull byddin gref, a ryfygodd warchau arno yno; eithr rhuthrodd Cadwallawn allan yn ddisymwth, gorthrechodd fyddin ei elyn, a gadawodd yntau yn gelain ar y maes. Y flwyddyn ganlynol ymosodwyd arno gan Oswald, brawd Eanffrid yr hwn weithian oedd wedi olianau ei frawd yn y frenhiniaeth. Y gwr hwn, wedi cynull byddin fawr a gyfarfu â'r lluoedd Cymreig mewn brwydr, yr hon a ymladdwyd yn agos i Denisbwrn, gerllaw Gwal Sefer, yn Northumberland, o gylch y fl. 634; ac yn y frwydr hon y syrthiodd Cadwallawn ddewr a gwladgar, yn nghyd â nifer dirfawr o'i filwyr. Felly y cwympodd Cadwallawn, mewn brwydr orsafol ar wyneb y maes. Yr oedd yn ŵr gwrolwych ac yn rhyfelwr dihafarch, a chyfrifir ef yn un o'r gwroniaid dewraf a ymladdasant â'r Sacsoniaid yn mhlith rhyddid ac annibyniaeth eu gwlad. Ymladdodd â'r gelynion hyn, o fewn terfynau Cymru, heb son am ei wrhydri yn Lloegr, ddim llai na phedair brwydr ar ddeg ar y maes, a thriugain o fân ysgarmoedd; a chrybwyllir am y prif gâdau, yn nghyd â'r lleoedd yr ymladdwyd hwynt ynddynt, gan Lywarch Hên yn ei farwnad iddo; sef ydynt y canlynol:—1. Caint; 2. Iddon; 3. Digoll Fynydd; 4. Hafren; 5. Gwy; 6. Ffynnawn Fedwyr; 7. Tâf; 8. Tawy; 9. Caer Caew; 10. Cowyn a Phenfro; 11. Teifi; 12. Dyffyrdd Afon; 13. Bro Dunawd; 14. Meinin.

"Cadwallawn, cyn no'i ddyfod,
A'i gorug a'n digonod,
PEDAIR PRIF-GAD AR DDEG,
Am brif-deg Brydain,
A THRIUGAIN CYFARFOD."

Yn y *Trioedd* rhestrir Cadwallawn gydag Arthur a Rhyhawd, yn mhlith yr oferfeirdd. "Tri oferfeirdd Ynys Prydain: un, Arthur; ail, Cadwallawn ab Cadfan; trydydd, Rhyhawd eil Morgant Morganwg" (*Cyfres* iii. 123).

Canlynwyd Cadwallawn ar orsedd ei wlad gan ei fab Cadwaladr, yr hwn, oherwydd dewis o hono gwcwll mynach o flaen coron brenin, a gyfenwyd yn "Fendigaid."

Y mae y *Brutiau* yn cynwys hanes lled fanwl am orchestion milwr

Digitized by Google

sidd Cadwallawn yn erbyn y Sacsoniaid; eithr, fel twysged o ddefnyddiau y gwaith hwnw, y mae ffaith a ffug wedi eu cydgymysgu â'u gilydd, fel nad yw hawdd penderfynu pa faint o hono a ddylid ei dderbyn fel hanes syml a gwirioneddol. Ond wrth gydgymharu y gwahanol gofysgrifau â'u gilydd, bernir nas geill y crybwyllion blaenorol am dano fod yn mhell oddiwrth gywirdeb.—*Wms. Em. Welsh.;* Carnhuanawc, *Hanes Cymru*, 304.

CADWALLAWN AP IEUAF, oedd dywysog Gwynedd. Ar farwolaeth Howel ap Ieuaf, yr hwn a drawsfeddianodd ac a gadwodd feddiant dros hir amser o dywysogaeth Gwynedd; tra yr oedd ei frawd Cadwallawn yn ei ystyried ei hun yn ddilynydd cyfreithlon; ond mewn trefn i wneud ei hawl yn sicr, efe a benderfynodd ac roddi ei gefndyr, Ionofal ac Edwal, y rhai oeddynt yr etifeddion cyfreithlon, i farwolaeth. Lladdwyd y cyntaf, ond diangodd Edwal. Darfu i'r gyflafan hon ddwyn dinystr hollol ar deulu Cadwallawn; canys wedi mwynhau y dywysogaeth am ddim ond un flwyddyn, ymosodwyd arno gan Meredydd ap Owen, tywysog y Deheubarth, yr hwn a'i lladdodd ef, ac hefyd ei frawd Meyric, yn y flwyddyn 985.—*Wms. Em. Welsh.*

CADWGAN, un o chwech mab Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Powys, yr hwn a oliannodd ei dad ar orsedd y dywysogaeth hono yn y flwyddyn 1073. Yn 1094, efe a orchfygodd y Normaniaid yn Neheubarth; a thrachefn, mewn brwydr arall, trechodd fyddin fawr o'r un gelynion, y rhai a gadgyrchasent i Ogledd Cymru. Gwedi sicrhau ei feddiant yn Ngheredigion, efe a wnaeth yn Nadolig y fl. 1107, wledd arderchog yn Nghastell Aberteifi, ac a wahoddes iddi dywysogion, penaethiaid, a goreugwyr o bob parth o Gymru, yn nghydag enwogion o feirdd a cherddorion tafod a thant, yn ol rheolau a defodau llys Arthur, y rhai, ar eu hymadawiad, a wobrwywyd yn anrhydeddus. Ond bu y wledd rwysgfawr hon yn achlysur i ddwyn ar Gadwgan drychineb dwys, nid llawer llai na dinystr. Yn mhlith y dyledogion wyr a wahoddasid yno yr oedd Owain ab Cadwgan, yr hwn a gyrchwyd yno o Bowys; ac yn mhlith y gwahoddedigion hefyd yr oedd Nest, merch Rhys ab Tewdwr, a gwraig Gerallt Windsor, ceidwad Castell Penfro. Swynoglwyd Owain gan lendid Nest; ac efe a'i canlynodd hi i Gastell Penfro, yr hwn a gyrchwyd, a oresgynwyd, ac a losgwyd ganddo; gorfu ar Gerallt ffoi am ei einioes yn nhrymder y nos; a dygodd yntau Nest i Bowys, megys gynt y dygwyd Elen,

> "Yr hon a beris yr ha
> A thrin rhwng Groeg a Throia,"

o dir ei gwlad i ddinas anorfod Ilion. Dygodd y weithred ysgeler hon y tad diniwed i ddyryswch a thrallod, a gorfu arno ef, yn nghyd a'i fab camweddog, ffoi i Iwerddon rhag byddin a arweinid yn ei erbyn gan ei ddau nai, Ithel a Madog, meibion Rhiryd ab Bleddyn, y rhai a oresgynasant ei diriogaethau ar anogaeth Harri frenin Lloegr. Pa fodd bynag, ni bu hir encil Cadwgan, canys dychwelodd yn y flwyddyn ganlynol; ac wedi profi o hono ei ddiniweidrwydd, caniataodd Harri iddo adfeddianu y rhan fwyaf o'i diriogaethau yn Mhowys, ond iddo dalu cant o bunau o iawn, ac addaw na chaniatäi i'w fab Owain ddychwelyd. Daliodd ei dir yn erbyn holl ymosodiadau ei neiaint, hyd y flwyddyn 1110, pan y rhuthrwyd yn ddisymwth arno gan Madog yn y Trallwng, ac y lladdwyd ef ganddo cyn gallu o hono dynu ei gleddyf i'w amddiffyn ei hun.—*Brut y Tywysogion; Wms. Em. Welsh.*

Digitized by Google

CADWGAN AB CYNFRIG, bardd a flodeuodd tua 1280; ond, yn ol Davies, yn 1380. Yn y *Greal*, tu dal. 167, ceir englyn o'i waith. "Pan oedd y Saeson yn cadw castell Aberconwy, y bu brwydr rhwng y Castellwyr a'r Cymry; yn y frwydr y llas y Saeson oll, ac eu claddwyd yn y tywod; ac ar y testyn hwnw y canwyd yr englyn hwn:—

Llawer bran sy'n eisiau i'r brenin—heddyw,
Hawdd gallwn chwerthin;
Llawer Sais, leubais, libin,
A'r gro yn do ar ei din.

Cadwgan Ffol a'i cânt pan ddaeth y Saeson dros Gonwy i ymladd â'r Cymry, ac y lladdodd y Cymry hwynt, ac a'u gyrasant i'w boddi yn Nheganwy."

CADWGAN AB EDNYFED, bardd a flodeuodd tua 1290. Nid oes ond ei enw ar gof a chadw.

CADWGAN AB OWAIN, oedd fab i Owain, tywysog Ceredigion, ac wyr i Hywel Dda. Lladdwyd ef gan y Saeson yn 949.

CADWGAN HENFOEL, bardd yn ei flodeu yn nghylch y fl. 1380.

CADWGAN RUFFYDD, bardd yn ei flodeu tua 1380.

CAERFALLWCH. *Gwel* EDWARDS (Thomas).

CAF, deuddegfed brenin a deugain Prydain, a ddilynodd Bleiddyd, ac a ddilynwyd gan Owain.

CAFFO, un o feibion Caw ab Geraint ab Erbyn. Pan yrwyd y teulu hwn o'u tiroedd yn Ngogledd Lloegr gan y Gwyddyl Ffichti, tua chanol y 6ed cant, rhoddwyd tir iddynt yn Mon gan Maelgwn Gwynedd. Y mae eglwys Llangaffo wedi ei chyflwyno i'r sant hwn.

"CAI HIR o Dir Pencareg," ydoedd fab i Cynir Farfawg, ac un o bedwar marchog ar hugain llys Arthur. Sonir yn fynych am dano yn y *Trioedd* a'r *Mabinogion*, yn enwedig yn *Cilhwch ac Olwen*. Gelwid ef yn un o "Dri Thaleithiawg Câd," y rhai a arwisgent daleithiau am yr arlais mewn brwydr. *Tri* arall a'i rhestra fel un o'r "Tri Lledrithiawg Farchawg," sef y tri marchog, pan ymlidid hwynt yn galed, allent drawsffurfio eu hunaint i'r llun a fynent. Nid oes dim llu na chwech o gyfeiriadau ato yn *Trioedd*. Efe oedd prif gogydd Llys Arthur. Tybir mai oddiwrtho ef y cafodd Caer Gai, yn Meirion, ei henw.—*Myv. Arch.*; Guest's *Mabinogion*.

CAIAN, sant a flodeuai tua chanol y 5ed ganrif. Mab neu ŵyr ydoedd i Brychan. Efe oedd sefydlydd eglwys Tregaian yn Mon, a chynelid ei wylmabsant yno ar Medi 25.

CAIN, santes, merch i Caw, yr hwn a flodeuai yn gynar yn y 6ed cant. Ganddi hi y sefydlwyd eglwys Llangain, yn sir Gaerfyrddin.

CAIN (Rhys). Bardd awenyddol a lluniedydd cywrain, yn byw yn Nghroesoswallt, ac yn ddysgybl i William Lleyn, yn 1580. Barna rhai mai brodor o blwyf Trawsfynydd, yn Meirion, ydoedd; eraill a dybiant mai o Fechain-is-coed, yn Nhrefaldwyn, yr hanoedd. Anhawdd gwybod yn bresenol pa un o'r ddwy afon *Gain* a roddodd fenthyg ei henw i'r bardd. Pa fodd bynag, treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn nhref Croesoswallt pan oedd William Lleyn yno yn weinidog, a chafodd lawer o lyfrau ei athraw ar ei ol, ac efe a ganodd ei Farwnad. Dywedir ei fod yn lluniedydd cywrain, ac yn achwr dysgedig. Oherwydd iddo arlunio y dioddefaint ar y groes, efe a drangwyddodd gymydog mwy crefyddol na gwybodus, yr hwn a daenodd yr enllib fod y lluniedydd yn eilunaddolwr. Yntau a gânt yr englyn chwerw a ganlyn:—

Digitized by Google

Yr annuwiol ffol a ffy—poen alaeth
Pan welo lun Iesu;
Llunied—os gwell yw hyny,
Llun diawl yn mhob lle'n ei dy.

Yr oedd Rhys Cain, mae yn debyg, yn babydd o ran ei gred; canys yr oedd amrai o feirdd yr oes hono yn galw athrawiaeth y Diwygiad yn "ffydd newydd," "efengyl newydd," &c.

"Rhai yn lew am y ffydd newydd,
A rhai yn ffel am yr hen ffydd."—SION BRWYNOG.

Mae'r englyn canlynol yn awgrymu pa beth oedd cred Rhys Cain:—

"Credaf Dduw'n benaf, ddawn byd—cariadawl
Credaf iddo'n hyfryd;
A'i lun bun, a'i lawn benyd,
A'i wir gorph, a'i air i'gyd."

Mae'r geiriau "llun bun," "penyd," "a'i wir gorph," yn sawru o surdoes Rhufain; canys nid oedd y Protestaniaid yn gwadu y gwir gorph ond yn y sacrafen. Ceir cofnodiad am Rys Cain mewn Eisteddfod yn rhywle, yn yr hon yr oedd bardd o Forganwg yn dangos y beithinen, sef llyfr pren Coelbren y Beirdd, a Rhys Cain a gânt yr englyn canlynol fel hort a gogan i'r hynodbeth coelbrenawg:—

"Ysgerbwd mewn cwd, nid min call—a'i mawl,
Llyfr moliant bardd cibddall;
Anhawdd yw ei iawn ddeall,
Fe wna i ddyn a fo'n ddall."

Mae yr englyn hwn oddiwrth ddysgybl W. Lleyn, yn hytrach yn anffafriol i hynafiaeth dderwyddol Coelbren y Beirdd.—Wms. *Em. Welsh.*

CALENIUS (WALTER). Dyma'r hanes a rydd Pitts am dano:—"Walter Calenius, Cymro o haniad, ac archddiacon Rhydychain, oedd yn ei flynyddau olaf yn gydnabyddus iawn â Henry o Huntingdon. Yr oedd efe yn hyawdl, yn ddarllenwr cyfarwydd mewn hen awdwyr, yn ymchwiliwr diwyd i ddarganfod eu llyfrau, ac yn glodfawr yn mysg ei gydoeswyr fel ysgolhaig trylen Dywed Leland iddo, wrth ddyfal ymchwilio yn Llydaw am hen ysgrif-lyfrau, ddarganfod hen ysgrif-lyfr Cymraeg, a'i ddwyn gydag ef i Brydain; ac iddo, ar gais amryw o'r dyledogion, a thrwy gymhorth Sieffre o Fynwy, ei gyfieithu i'r Lladin. Gwrthwynebwyd y gwaith ar y cyntaf; ond enillodd un Ponticus Virunnius, Eidaliad, gryn lawer o goeledigaeth iddo trwy gyhoeddi talfyriad o hono. Haera Higden i Walter ei hun ychwanegu ato hanes yr cesau dilynol, a'i barhau hyd ei oes ei hun, trwy gyfnod o fwy na phedwar can' mlynedd, a galw'r ychwanegiad. "Auctuarium Annalium Britonum." Haera rhai i'r Walter hwn gael ei wneud o'r diwedd yn esgob Caeresg *(Exeter).* Blodeuodd yn 1120, yn amser Harri I., frenin Lloegr."

Tybia rhai mai yr un oedd efe a Walter Mapes; ond barna eraill eu bod yn bersonau hollol wahanol. *Gwel* MAPES (Walter).—*The Chronicle of the Kings of Britain*, by the Rev. P. Roberts, A.M.

CALLWEN, santes, yn byw tua chanol y 5ed cant. Yr oedd yn aelod o deulu Brychan; ac yn sylfaenydd eglwys Callwen, Defynog, Brycheiniog. Cynelid ei gwylmabsant Tachwedd 1af.

CAMBER, yn ol y *Brutiau*, oedd un o dri mab Brutus; yr hwn ar ei farwolaeth a ranodd Ynys Prydain rhwng ei feibion. Rhan Camber oedd tuhwnt i'r Hafren, ac oddiwrth hyny y galwyd y lle Cambria, ac o hyny drachefn yn Gymru.

CAMMARCH, sant, mab i Gwynlliw Filwr, tywysog Gwenllwg,

Digitized by Google

Mynwy. Blodeuai yn nechreu y 6ed cant. Efe a sylfaenodd eglwys Llangammarch, Brycheiniog.

CAENEN, sant, mab Gwyddlew ab Gwynlliw Filwr. Blodeuodd yn y 6ed cant. Sylfaenodd eglwys Llanganten, Brycheiniog.

CANNA, santes, merch i Tewdwr Mawr ab Emyr Llydaw, a gwraig Sadwrn, i'r hwn yr ymddygodd hi Crallo Sant. Hi a ddaeth trosodd i'r wlad hon o Lydaw gyda'i phriod; ac a sylfaenodd eglwys Llangan, neu Llangana, Morganwg, a Llangan yn sir Gaerfyrddin.

CANOLDREF (GWYLIM). William Middleton neu Miltwn, yr hwn a adnabyddid yn mhlith y beirdd, wrth yr enw Gwilym Ganoldref, y milwr dewr, y bardd enwog, a'r gramadegydd dysgedig, oedd drydydd mab Richard Miltwn o Gastell y Waun. a brawd i Syr Huw Miltwn, yr hwn a ddug y *New River* i ddisychedu trigolion Llundain. Cafodd William ei ddysg yn Mhrifysgol Rhydychain, ond er ei fwriadu i ryw swydd gartrefol yn y gyfraith, neu yr eglwys, arweiniwyd ef gan ei dueddiadau, i fod yn for-filwr. Aethai yn gyntaf i wasanaethu yn y fyddin, ac oddiyno i'r llynges freninol.

"Ni fynai dir—fwyned oedd,
Na da mawr, ond y moroedd"

Pan amcanodd Philip II., brenin Yspaen, oresgyn Lloegr â'i *Armada* fawr yn y fl. 1588, cyffrowyd anian pob dewr yn Lloegr a Chymru i ddial y sarhad, ac i dalu y pwyth. Heblaw llongau lluosog y frenines, yr oedd amrai eraill dan hwyliau yn gwbl ar gost eu perchenogion. Yr oedd y Cadben Thomas Prys, y bardd o Blas Iolyn, yn un o'r anturiaethwyr hyn; a dywedir mai efe, Cadben William Miltwn, ac un Cadben Keot, oedd y tri gwr cyntaf a losgasant fyglys yn Llundain, yn y fl. 1583, er mawr syndod y dinasyddion.

Yn y fl. 1591, anfonwyd chwe' llong o Loegr, dan lywyddiad T. Howard, ail fab y Duc o Norffolc, i gyfarfod llyngesig Yspaen, llwythog o arian, ar ei dychweliad o America. Ond Philiip wyliadwrus a wybu am y cynllwyn mewn pryd i anfon deg cymaint o longau i drosglwyddo ei lyngesig drysor-lwythog adref. William Miltwn oedd y Cadben a anfonwyd gan y llyngesydd Howard, i wylied dyfodfa y gelynion, ac i roddi iddo hanes eu nerth a'u rhifedi. Yntau wedi eu dilyn o hirbell am dri diwrnod a ddychwelodd at ei lynges, nid gyda yr un anogiad gor-eofn ag un ei gydwladwr Syr Dafydd Gam i Harri V. cyn brwydr *Agincourt*—"Digon i'w lladd—digon i'w cymeryd—a digon hefyd i ffoi,"—ond bod deg llong yn mhen un yn ormod o antur. Ond yr hynodrwydd penaf yn nodweddiad y Cadben Miltwn oedd ei athrylith a'i ddawn farddonol. Y dysgawdwr Sion Dafydd Rhys, yn ei Ramadeg Cerdd Dafod, a gyhoeddwyd yn Llundain yn y fl. 1592, t.d. 234, a rydd iddo y dystiolaeth glodfawr a ganlyn:—"Y chwanegiad hwn a dderbyniais oddiwrth fy hen gyfaill caredig, y milwr calonocaf ar for ac ar dir, a'r mwyaf cyfarwydd mewn Barddoniaeth Gymreig—Gwilym Ganoldref. A phe buasai efe gyfranog yn fy myfyrwaith hwn, fe ymddangosai gyda mwy o awdurdod a pherffeithrwydd." Y chwanegiad a gynwys, o t.d. 234 hyd 249, bedair Awdl ar amrywiol ddulliau pedair *Oes*—y gyntaf gan Wilym Tew i *Fair* (gochelwch y surdoes) o gylch y fl. 1460; yr ail gan Lewys Morganwg, 1520; y drydedd gan Simwnt Fychan, 1568; a'r bedwaredd gan Wilym Ganoldref ei hun, 1590—"ar y pedwar mesur ar hugain, y pedair Cynghanedd, a'r Cymeriadau oll, mewn Caniad o un penill ar ddeg." Dechreu,—

"Crist o nef cerais dy nod," &c.

Digitized by Google

Gan weled nad oedd Gramadeg S. D. Rhys yn addysgu y Cymry yn gyffredin, oherwydd ei fod gan mwyaf yn Lladin, cyhoeddodd y Cadben W. Miltwn, yn y fl. 1593, ei "Lyfr Barddoniaeth" yn 12plyg bychan; yn yr hwn yr eglurir "pedwar perthynasau cerdd, sef Cymhariad, Odl, Cynghanedd, a Mesur." Y mae hwn, yn gystal ag un S. D. Rhys, yn gwbl yn ol dosparth gaeth Caerfyrddin. Ail-argraffwyd y "Llyfr Barddoniaeth," yn nghyd â "Flores Poetarum Britannicorum," o gasgliad y Dr. Davies o Fallwyd, gan y Parch. D. Lewys o Lanllawddog, yn y fl. 1710; a bu yn wasanaethol wedi hyny i bob cyhoeddwr Gramadeg Barddoniaeth.

Ymddengys nad oedd y rhan a gymerodd W. Miltwn yn Ngramadeg Sion Dafydd Rhys yn boddio Iolo Morganwg, canys efe a ddywed, "Llwyr gwae i ni! na fuasai yr athraw gwiwglod hwnw, y Dr. S. D. Rhys, yn ymgyfrinachu â'i gyfoed a'i gymydog yn agos, Meyrig Dafydd, a rhoddi ei draethawd ef ar Farddoniaeth yn ei Eirlyfr, yn hytrach nag un Gwilym Ganoldref."

Gorchestwaith penaf Gwilym Ganoldref oedd cynghaneddu y Salmau oll ar fesurau caethion. Gorphenodd y gwaith yn yr India Orllewinol, Ion. 24, 1595, mal y dengys ei ol-ysgrif Lladin, "Apud Scutum insulam occidentalium Indorum, finitum erat hoc opus, vicesimo quarto Januarii, anno Salutis nostræ, 1595." Gorphenwyd y gwaith hwn yn *Scutum*, ynys yn yr India Orllewinol.

Nid oes genym amcan pa bryd, nac yn mha le, y gorphenodd y bardd ei yrfa; ond ymddengys iddo farw yn gura cbuan wedi gorphen mydryddu y Salmau; canys cyhoeddwyd y gwaith, wedi marwolaeth yr awdwr, gan ei gydwladwr barddonol Mr. Thomas Salbri, yn y fl. 1603. Daeth ail-argraffiad allan o swyddfa Bardd Mawddach, yn y fl. 1827, dan olygiad y dysgedig Bencerdd, Gwallter Mechain. Dyma wyneb-ddalen yr argraffiad cyntaf, "Psalmæ y brenhinol brophwyd Dafydh, gwedi i cynghanedhu mewn mesurau Cymreig. Gan Cadben William Middleton, yn nesaf y gallodh at feddwl yr Ysbryd Glân. Simon Stafford a Thomas Salisbury a'i printiodd yn Llunden." Er mai bywyd milwraidd oedd rhan ein bardd yn y fuchedd hon, eto ymddengys ei fod yn ymhyfrydu mewn myfyrdodau ar bethau dwyfol, a bod deddfau yr Arglwydd yn gân iddo yn nhŷ ei bererindod. Achubai flaen y cyf-ddydd, ei lygaid a achubent flaen gwyliadwriaethau y nos, yn y cylchau llosg, ac ar y weilgi chwyddedig, i fyfyrio ac i farddoni ar ei destynau uchelryw. Yr oedd Edmwnd Prys yn Offeiriad sefydlog, wedi cyfaneddu y parth mwyaf o'i bir oes yn nhawelwch Maentwrog; nid oes gan hyny gymaint rhyfeddod iddo ef gyfansoddi Salmau Dafydd ar ddau neu dri o fesurau rhyddion, ag oedd i Wilym Ganoldref yn nghanol prysurdeb a bloddest byddin ryfelawg, neu yn nghanol tân a mwg a tharandrwst brwydrau y weilgi, gyfansoddi yr holl Salmau hyny ar y caethion fesurau yn bencerddaidd ac yn orchestol. Diau ei fod yn un o ryfeddodau yr oes, ac yn addurn teledwiw yn nodweddiad rhyfelwr. Pa bryd y dechreuodd ar ei faith orchwyl ni wyddis; ond tystiodd a'i law ei hun, ar ddiwedd y Salm olaf, iddo ei orphen, fel y nodwyd, Ion. 24, 1595, mewn ynysig yn yr India Orllewinol.

Yr ydym wedi darllen y Salmau cynghaneddol er difyrwch a boddhad mawr. Mae'r gwahanol enghreifftiau a welsom o Farddoniaeth Gwilym Ganoldref yn arddangos ei fod yn un o'r beirdd cywreiniaf a gododd yn Nghymru erioed. Gwelir fod ganddo rhyw law yn yr "Egluryn

Digitized by Google

Ffraethineb," a ddechreuwyd gan William Salsbri, ac a orphenwyd gan ei gyfoeswr dysgedig Henry Perry, yn 1580, a gwelir wrth un enghraifft yn y Llyfr hwnw fod rhai o'i Salmau mydryddol yn adnabyddus mor bell yn ol a'r flwyddyn uchod.—Gwel ei gofiont yn y *Gwyliedydd*, Mawrth, 1827, a'r Rhagymadrodd i'r ail-argraffiad o'r *Salmau*, y ddau gan Gwallter Mechain.

CANON (Syr Thomas), oedd yn gangen o hen deulu yn sir Benfro, ac yn ei fri yn nheyrnasiad Iago I. Yr oedd yn ddyn o gyfoeth, rhwysg, a dysgeidiaeth fawr. Safai yn uchel fel hynafiaethydd; a hynododd ei hun yn y ddadl hynod parth Cadell ab Rhodri Mawr: i'r hwn, yn ol ei farn ef, y rhoddodd Rhodri ar ei farwolaeth Ddeheubarth a Chastell Dinefwr, fel mab hynaf iddo. Rhoddodd hyn achlysur i ddadl wresog, a dygodd i'r maes, o'r tu arall, yr hynafiaethwr enwog Robert Vaughan o Hengwrt, yr hwn a wrthbrofodd resymau ei wrthwynebydd, yn ei "British Antiquities Revived."—Wms *Em. Welsh.*

CAPWYR, ail frenin a thriugain Prydain, yr hwn a ganlynodd Pyr, a chanlynwyd yntau gan Manogan.

CARADOG, un o'r ychydig o enwogion y Cymry y rhai y mae eu gorchestion wedi eu hanfarwoli gan ysgrifellau yr uchawduron Lladin a Groeg, ydoedd fab i Brân ab Llyr Llediaith, ac yn ei flodeu yn nghylch canol y ganrif gyntaf. Gelwir ef *Caractacus* gan ysgrifenwyr Rhufain, a *Caratacos*, *Cataracos*, a *Cartaces*, gan yr awduron Groeg. Caradog ydoedd dywysog pobl Gwent a Morganwg, a'r parthau cyfnesol, y rhai a eilw Tacitus yn "genedl ddewr a rhyfelgar yr Essyllwyr," a'r rhai a dywyswydyn fynych ganddo yn erbyn llengoedd gormesol Rhufain, y rhai, yn eu hawydd diwall am ymherodraeth gyffredinol, a ymosodent ar ei diriogaethau. Nid yn unig yr oedd yr Essyllwyr yn rhagori mewn dewredd a rhyfelgarwch ar holl lwythau yr ynys, ond yr oedd eu tywysog hefyd yn rhagori megys blaenor ar bawb o'r holl lywodraethwyr; o leiaf hyn yw tystiolaeth eu gelynion am danynt hwy ac yntau. Nid oedd diogelwch i'r Rhufeiniaid, tra yr ydoedd y fath elynion ar eu pwys; a phenderfynodd Ostorius, yr hwn, y pryd hyny, oedd yn llywodraethu Prydain, fyned a'i fyddinoedd yn eu herbyn, a'u darostwng. Yr oedd Caradog o ran cyfrwysdra, a gwybodaeth o'r wlad, yn drech na'r Rhufeiniaid; ond gan ei fod yn wanach o ran cadernid byddinoedd, penderfynodd, fel cadfridog call, symudodd faes y rhyfel i diriogaeth yr Arddwyfigwys, lle yr oedd y wlad yn fwy manteisiol iddo ymladd; ac yno dewisodd le i wersyllu ar warthaf bryn, ag afon wrth ei odre; ac yn y manau hawddaf i ymosod arnynt, cododd gaer o geryg rhyddion, er amddiffynfa, a gosododd lu o wyr penderfynol i gadw y rhyd. Tra yr ydoedd y lluoedd yn ymbarotoi i'r maes, Caradog, gan wibio yma a thraw, o gadran i gadran, a anogai ei wŷr i wroldeb ac ymdrech; gan adgofio iddynt mai hwnw oedd y dydd, a hono oedd y frwydr, oedd i benderfynu eu tynged; galwodd hefyd ar enwau ei hynafiaid y rhai a yrasant Iwl Caisar ar ffo; ac anogodd ei wyr i ganlyn eu henghraifft, i waredu eu gwragedd a'u plant o ddwylaw eu gelynion, a'u gwlad oddiwrth dreth a gormes. A'r lluoedd, wrth glywed anogaethau eu tywysog, a waeddasant nad ymddarostyngent byth i'r gelyn. Cyfarfu y ddwy gâd, ac ymladdwyd yn bybyr o bob tu, a dirfawr oedd y lladdfa; ond gan fod y Rhufeiniaid yn amwisgedig mewn arfau amddiffy ol, a'r Prydeiniaid heb na llurigau na phenialau, gorfu arnynt o'r diwedd, roddi lle i'w gelynion, a chiliaw o'r maes,

Digitized by Google

Cymerwyd gwraig a merch Caradog yn garcharorion, a'i frodyr a ymroddasant o'n gwirfodd; ond Caradog ei hun a ffodd at Aregwedd Foeddawg (neu Cartismandua yr uchawduron), brenines y Brigantwys, a hithau yn y modd mwyaf bradychus ac ysgeler, a'i traddododd mewn cadwynau i'r Rhufeiniaid, yn O.C. 51, a'r nawfed flwyddyn er dechreuad y rhyfel yn Mhrydain. Ni wyddis, gyda dilysrywdd, pa le yr ymladdwyd y frwydr olaf rhwng Caradog ac Ostorius; tybia rhai mai Caer Caradog, yn sir Amwythig, yw y lle: a barna eraill mai ar Gnol Coscal, yn agos i Brampton Brian, yr ymladdwyd hi; gesyd rhai ei gorsaf ar Gefn Carnedd, yn mhlwyf Llandinam, yn sir Drefaldwyn; ac eraill, gyda mwy o debygoldeb, ar Fynydd Breidden, ar y tu gorllewin i'r Hafren, ac nid neppell o Lanymyneich. Dywed Tacitus fod clod Caradog wedi ymdaenu dros yr holl wledydd oddiamgylch, a'i fod yn enwog hefyd yn yr Ital, lle yr oedd dymuniad mawr am weled y gwr a ddirmygasai eu byddinoedd am gynifer o flynyddoedd. Pan ymddangosodd yn Rhufain, yr oedd gorfoledd dirfawr trwy yr holl ddinas; "Nid llai," medd yr un hanesydd, "na phan ddygwyd Syphacs yno gan Scipio, a Perses gan L. Paulus, neu neb o'r breninoedd eraill a ymddangosasent yno yn garcharorion." Ie, "ni bu dinas Rhufain ond prin erioed lawnach o bobl na'r pryd hwnw; nid yn unig y cyffredin bobl, ond y pendefigion, yr uchel gadbeniaid, y marchogion, a'r arglwyddi, o bell ac agos, oeddynt yn cyrchu yn finteioedd i gael golwg ar y gwr a ymladdasai gyhyd o amser â holl gadernid Rhufain." Pan yr ymddangosodd o flaen gorseddfainc Claudius, parodd ei ymddygiad mawrfrydig a'i araeth effeithiol i'r ymberawdr roddi ei ryddid iddo ef, ei wraig hefyd a'i frodyr. Gyda'i ryddhad yn Rhufain y terfyna crybwylliad Tacitus am Garadog; ond yn ol y cofion Cymreig, cymerwyd Brân Fendigaid, ei dad, gydag ef i Rufain, lle y bu ef yn wystl am saith mlynedd, a phan ddychwelodd i'w wlad ei hun ar ddiwedd ei gaethiwed, dygodd y Grefydd Gristionogol gydag ef i Brydain, a hyny a fu dechreu cred a bedydd yn y wlad hon. *(Gwel* BRAN FENDIGAID). Y mae peth dyryswch yn nghylch *achau* Caradog. Dywed yr holl gofion Cymreig yn ddigon diamwys mai mab ydoedd i Brân ab Llyr Llediaeth; ond dywed Dion Cassius, yr hwn a ysgrifenodd hanes Rhufain yn yr iaith Roeg, yn y drydedd ganrif, mai mab i Gynfelyn *(Cunobelinus* ysgrifenwyr tramor) ydoedd. Y mae y pwnc yn rhy faith i'w olrhain yn hyn o le: ond y mae Carnhuanawc, gyda'i graffder a'i degwch arferol, wedi dangos yn ddigon boddhâol fod mwy y bwys i'w osod ar y cofysgrifau Cymreig yn y peth hwn nag ar yr hanesydd Groeg. Nid oes, gan hyny, nemawr o achos i anmheu nad mab i Brân ab Llyr ydoedd Caradog, fel y mae yr holl gofnodau Cymreig yn unllais yn tystiolaethu.

Y mae llawer o grybwyllion am Garadog yma ac acw yn y *Trioedd;* megys, yn mhlith eraill, y canlynolion:—"Tri Unben Rhaith Ynys Prydain: un, Caswallawn ab Lludd ab Beli ab Mynogan; ail, Caradawg ab Brân ab Llyr Llediaith; trydydd, Owain ab Macsen Wledig." *(Cyfres* iii. 17). "Tri Glewion Unbeniaid Ynys Prydain: Cynfelyn Wledig; a Charadawg ab Brân; ac Arthur." *(Cyfres* iii. 23). "Tri Phrif Gatteyrn Ynys Prydain: Caswallawn ab Beli; Gweirydd fab Cynfelyn Wledig; a Charadawg fab Brân ab Llyr Llediaith." *(Cyf.* iii. 24). "Tri Unben Dygynnyll Ynys Prydain: cyntaf, Prydain ab Aedd Mawr, pan rodded teyrnedd ddosbarthus ar Ynys Prydain a'i rhagynysoedd; ail, Caradawg ab Brân, pan ddoded arnaw ef gatteyrn-

Digitized by Google

edd holl Ynys Prydain, er atal cyrch gwyr Rhufain; ac Owain ab Macsen Wledig, pan gawsant Cymry'r deyrnedd y gan yr ymherawdr Rhufain." (*Cyf.* iii. 34). "Tri Chynweisiad Ynys Prydain: Caradawg ab Brân ab Llyr Llediaeth; a Chawrdaf, mab Caradawg Freichfras, ac Owain ab Macsen Wledig." (*Cyf.* iii. 41). "Tri Madoreilitiwr Ynys Prydain; Prydain ab Aedd Mawr, yn goreiliad y Ddraig Ormes; a Charadawg ab Brân, yn goreilid gormes y Caisariaid; a Rhitta Gawr, yn goreilid gormes ac anrhaith y brenin oeddannosbarthus." (*Cyf.* iii. 55). "Tri Santaidd Linys Ynys Prydain: Llinys Brân ab Llyr; a Llinys Cunedda Wledig; a Llinys Brychan Brycheiniog." (*Cyf.* i. 42).

Nid yw y *Brut* yn cyffwrdd â hanes Caradog, ac nid yw yn cynwys ond ychydig yn dwyn perthynas â'r oes yr oedd efe yn bwy ynddi.—Carnhuanawc, *Hanes Cymru*, 71—79; *Wms. Em. Welsh.*; *Archæologia Cambrensis*, N.S. ii. 122; Tacitus, *Annal.* xii. *Hist.* iii; Dion Cassius, ap Zonoram, xi. 10.

CARADAWG, meudwy defosiynol, a restrir yn mhlith yr hen saint Cymreig. Yr oedd yn hanu o deulu parchus yn sir Frycheiniog. Bu am beth amser, pan yn ieuanc, yn ngwasanaeth Rhys tywysog Dcheubarth. Dechreuodd fywyd meudwy yn Llandaf; ond er mwyn neillduad, encil iodd i Ynys Barri, debygir. Mynychid yr ynys hono gan forladron, a'r meudwy o'r herwydd a'i gadawodd. Wedi hyn, sefydwyd ef gan esgob Ty Ddewi yn St. Ismael, Penfro; ac yno yr arosodd hyd ei farwolaeth yn 1124; a chladdwyd ef yn anrhydeddus yn nghapel St. Andreas, Ty Ddewi. Priodolid llawer o wyrthiau iddo; a phau ymwelodd y croniclydd mynachaidd William o Malmesbury â'i weddillion, a chyda defosiwn mynachaidd y bwyriadodd dori un o fysedd Caradawg ymaith, tynodd y marw ei law ato; er mawr ddychryn i'r mynach, ac er mawr siomedigaeth iddo am y fath grair hynod. Ar gais Giraldus Cambrensis, canonwyd Caradawg gan y Pab. Efe oedd sant gwarcheidiol eglwys Llawrenny.—Fenton's *Pembrokeshire.*

CARADAWG, o Langarfan, mynach dysgedig a hanesydd gwiwglodus. Efe a ysgrifenodd *Brut y Tywysogion*, sef hanes y tywysogion Cymreig o amser Cadwaladr Fendigaid yn 686, hyd ei amser ei hun yn y 12fed ganrif, dau gopi o'r hwn sydd yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Y mae y blaenaf o'r rhai hyn wedi ei ddwyn i lawr gan ryw hanesydd arall i 1280, o'r olaf yn terfynu gyda'r ft. 1196, tua'r amser y bu Caradawg farw; ac er eu bod yn dwyn yr un teitl, ac enw yr un awdwr, eto y mae cymaint o wahaniaeth rhwng eu harddull a'r ffeithiau adroddant, nes peri i lawer gredu, mai dau waith gwahanol ydynt wedi eu hysgrifenu gan awduron gwahanol. Pa fodd bynag, mwy rhesymol credu mai yr un oedd y gwaith gwreiddiol, ond i rhywun wrth adysgrifenu gyfnewid y gwaith at ei fympwy ei hun; gan y dywed Dr. Powell, yr hanesydd, nad oedd dim llai yn ei amser ef na chan' copi ysgrifenedig o'r *Brut* yn wasgaredig hyd Gymru. Cyfieithwyd y llyfr hwn i'r Saesoneg yn y ft. 1584, gan Dr. Powell, gyda chwanegiad ato gan Wm. Wynne, Ysw., o Goleg Rhydychain. Ail-argraffwyd ef yn 1832, tan olygiaeth Rhisiart Llwyd, Ysw., Llanerch Brochwel, sir Drefaldwyn.

CARADAWG ab Gwyn, mab i Gwyn ab Collwyn. Gorchfygwyd a lladdwyd ef a Meredydd, brenin Dyfed, mewn brwydr ffyrnig a ymladdwyd rhyngddynt â'r Saeson ar Forfa Rhuddlan, tua'r flwyddyn 800. Tybir mai ar yr achlysur hwn y cyfansoddwyd yr hen don alarus Gymreig "Morfa Rhuddlan."

Digitized by Google

CARADAWG AB IESTYN, mab i Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg. Syrthiodd mewn brwydr yn erbyn y Saeson tua'r flwyddyn 1031.

CARADAWG AB RHYDDERCH, ydoedd fab Rhydderch ab Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg. Crybwyllir am dano mewn hanesion megys un o'r rhyfelwyr gwrolaf a mwyaf terfysgus ac aflonydd yn ei oes, ac megys gwrthwynebydd ffiffin a gwastadol i'r Tywysog Gruffydd ab Llywelyn ab Seisyllt. Yn y fl. 1050, efe a dywysodd fyddin gref o Forganwg a Gwent yn erbyn Tywysog Cymru, ac ymladdwyd brwydr waedlyd ond ammhenderfynol rhyngddynt. Yn 1060, cyflogodd Harold, brenin Lloeg'r i'w gyferthu i ymosod drachefn ar Gruffydd ab Llywelyn, yr hwn, trwy fradwriaeth Madog Min, esgob Bangor, a laddwyd ganddynt yn yr ymgyrch. Yn ol hanesion eraill, Llywelyn, tad Gruffydd, a laddwyd trwy y gyfryw fradwriaeth. Yn y fl. 1069, Caradog, yn nghyd â byddin fawr o Normaniaid, a ymosododd ar Feredydd ab Owain, tywysog Deheubarth, ac a'i lladdodd ef; a thrwy hyny enillodd feddiant o'i dywysogaeth. Yn fuan wedi hyny ymosodwyd arno yntau gan lu dirfawr o Normaniaid, y rhai a lygadent ar ei diriogaethau; ond efe a'i gorthrechodd, ac a'u gyrodd yn ol i'w llongau; a thrwy y weithred hono gwnaeth ei hun a'i deulu yn llai anmhoblogaidd nag yr oeddynt a'r blaen yn nghyfrif ei danlwyddiaid. Bu farw yn y fl. 1070.

CARADAWG FREICHFRAS, rhyfelwr enwog yn y 5ed ganrif. Mab ydoedd i Llyr Merini, tywysog Cernyw; ei fam ydoedd Gwen, gorwyres i Brychan Brycheiniog. Ceir amryw grybwyllion am dano yn y *Trioedd*; a diwedda yr unig Englyn a briodolir i Arthur gyda'r linell—

"Colofn Cymry—Caradawg."

Sonir yn y *Trioedd* hefyd am ei wraig, Tegau Eurfron; yn un man gelwir hi yn un o "Dair Gwenrian Llys Arthur;" ac mewn un arall, yn un o "Dair Diweirferch Ynys Prydain." Mawr ganmolir ef gan Aneurin yn y *Gododin* am ei wrolder ar faes trychinebus Cattraeth. Nid tebygol ychwaeth yr esgeulusid y fath arwr gan ramant-ysgrifenwyr y *Mabinogion*, lle y gelwir ef yn brif-ynad a chefnder i'r brenin Arthur. *(Breuddwyd Rhonabwy)*. Yn y rhamantau Normaniaidd hefyd, tan yr enw Caradog Brise Bras, sonir am dano fel un o brif arwyr y Ford Gron.—*Myv. Arch.*; Guest's *Mabinogion*.

CARANOG, sant yn ei flodau yn y 6ed cant, a sylfaenydd eglwys Llangranog, Ceredigion. Cedwid ei wylmabsant Mai 16. Mab ydoedd i Corun ab Caredig. Pan gynygiodd ei dad ei dywysogaeth iddo, efe a'i gwrthododd, gan ddewis yn hytrach arwain bywyd crefyddol.—Rees' *Welsh Saints*.

CARAWN, neu Caren, yw ffurf Gymreig yr enw a' ysgrifenir *Carausius* yn ngwaith yr awduron Rhufeinig. Nid oes hanes pa pryd y ganed ef, yn mhellach nag i hyny ddygwydd rywbryd cyn canol y drydedd ganrif. Yn ol y *Brutiau*, hanai o genedl y Prydeiniad, ond o deulu iselradd; ac oddiwrth ei arian bath ymddengys iddo gael ei eni yn Mynyw (Menapia), a alwyd wedi hyny Tŷ Ddewi, o fewn talaeth Dyfed; a chrybwylla Eumenius iddo gael ei addysg mewn llongwriaeth yn Batavia. Sylwedd yr hyn a adroddir am dano yn y *Brutiau* sydd i'r perwyl hyn. Gwedi enwogi ei hun yn more ei oes fel rhyfelwr, aeth i Rufain, a cheisiodd gan y Senedd ganiatau iddo genad a chymhorth i

Digitized by Google

amddiffyn arfordiroedd Prydain rhag ymgyrch môrladron, gan ddangos iddynt y manteision dirfawr a ddeilliai o hyny. Gwedi llwyddo yn ei amcan, dychwelodd i Brydain, ac wedi cynull llu dirfawr, cychwynodd i'r mor, rhuthrodd ar wahanol barthau o'r wlad, gan wneuthur anrhaith a difrod erchyll arnynt. Y sawl ni allent wneuthur yn amgen, a heidiasant ato o bob parth; ac felly, wrth weled ei gryfder, daeth i'w fryd wrthryfela yn erbyn y Rhufeiniaid. Cynygiodd i'r Prydeiniaid ei ethol ef yn frenin arnynt, ac addawodd, os gwnaent felly, adferyd iddynt eu rhyddid, a gyru y Rhufeiniaid allan o'r wlad. Derbyniwyd y cynygion yn rhwydd gan y brodorion; Carawn yntau a gynullodd fyddin fawr o'r Prydeiniaid, ac a ymosododd ar Bassianus, yr hwn a ddaethai yn ei erbyn â byddin gref o Rufeinwyr a Brithwyr; ond yn ystod yr ymladd aeth y Brithwyr drosodd at y Brythoniaid, a'r canlyniad a fu, gorchfygu gwyr Rhufain, a lladd eu blaenor; a rhoddwyd tiroedd yn yr Alban yn wobr i'r Brithwyr am eu hanffyddlondeb. Pan glybu Senedd Rhufain am y trychineb hwn, anfonasant Alectus, gyda thair lleng o filwyr i Brydain, i ostegu y cythrwfl; gorchfygwyd lluoedd Carawn, a rhifwyd yntau yn mhlith y lladdedigion. (*Myv Arch.* ii. 20). Y cyfryw yw cynwysiad yr hanes yn y *Brut*, a chadarnheir y prif ffeithiau a gofnodir ynddo, gan awdurdodau eraill; yn enwedig gan y darnau arian a fathwyd gan Carawn yn ystod ei lywodraeth yn Mhrydain. Oddiwrth y rhai hyn ymddengys i Carawn hynodi ei hun yn fawr o dan Probus, ac wedi hyny o dan Carus a Carinus, ar dir ac ar for; pryd y cafodd ei gadbwyll yn fynych ei brofi. Pan orsafwyd Carawn yn benaeth llynges Rhufain yn moroedd Prydain, i amddiffyn Gâl a Phrydain rhag difrod y Sacsoniaid, magodd ei fawr lwyddiant eiddigedd yn ei erbyn, a chyhuddwyd ef o gymeryd iddo ei hun yr ysbail a'r anrhaith a ddygasai oddiar y gelyn. Er mwyn dianc rhag amcanion llofruddiog Macsimian yn erbyn ei fywyd, dychwelodd i Brydain, a chydag ef amryw o'r llengau a fuasent o'r blaen o dan ei reolaeth yn Gâl; cymerodd feddiant llwyr o'r holl dalaeth, a mabwysodd iddo ei hun yr enwau *Augustus*, ac ymherawdr, yr un fath ag ymherawdr Rhufain. Ymddengys oddiwrth rai o'i fatharnau ddarfod i wyr Prydain ei wahodd ef drosodd i gymeryd y benaduriaeth arno. Trwy ddewrder ei lynges, medrodd Carawn herio yn llwyddianus holl ymgais Diocletian a Macsimian i ad'eddianu y dalaeth a gollasent; a gorfu arnynt, yn ddigon anfoddlawn, ddyfod i heddwch ag ef, a chadarnhau Carawn mewn meddiant tawel o Ynys Prydain am yn agos i saith mlynedd. Ar ol teyrnasiad nodedig am ei lwyddiant gwastadol yn erbyn ei elynion, am fawr syberwyd mewn gweithiau cyhoeddus godidog, ac am ddiwyllio celfyddydau tangnefedd, syrthiodd Carawn dan law llofrudd, yr hwn a anogasid i gyflawni y weithred anfad gan Constantius, ymherawdr Rhufain, yn y fl. 302.

Hyd yma yr ydys braidd yn hollol wedi dilyn awdwr dysgedig yr *Eminent Welshmen;* ond mewn chwanegiad i'r ffeithiau hyn, ni ddylai celu fod llawer yn barnu nad oedd perthynas yn y byd rhwng Carawn, o ran ei haniad, â thrigolion Prydain, ac mai un ydoedd o'r *Menapiaid*, pobl a breswylient yr Iseldiroedd, nid neppell o'r afon Mosa, am y rhai y sonia Caisar, yn hanes ei ryfeloedd yn Gâl; a chadarnheir y dyb hon gan yr hyn, yn ol Mr. Williams, a fynegir am dano gan Eumenius, set darbod ohono ei addysg mewn morolion bethau yn *Batavia*, yr enw yr adnebyddid yr Iseldiroedd wrtho yn yr oesodd hyny.

CAREDIG. *Gwel* CEREDIG.

Digitized by Google

CAREW (Syr John), ydoedd fab i Syr Leonard Carew, ac ŵyr i Syr John Carew, o Gastell Carew, yn sir Benfro. Gwnaed ef yn farchog gan y brenin Richard II., ac wedi hyny efe a enillodd enwogrwydd yn rhyfeloedd Ffrancaidd Harri V., gan ei fod yn un o'r cadbeniaid yn mrwydr Agincourt. Ymunodd Syr J. Carew, yn yr un teyrnasiad, â Syr George Talbot, yn llywodraeth y llynges; a chafodd am ei wasanaeth gan' *mark* yn y flwyddyn dros ei oes.—Burke's *History of the Commoners*, vol. i., p. 267.

CARFAN, sant, sylfaenydd eglwys Llancarfan, Morganwg.

CARN (Thomas), un o feirdd Gorsedd Morganwg yn 1598. Gwelir tair engraifft o'i farddoniaeth yn *Cyf. y Beirdd*, un i ddysgu Cynghanedd Dawdd-gyrch Cadwynog, un arall i ddangos Englyn Byr a Thoddaid, neu Unodl grwca, yn null Morganwg, a'r llall i ddangos Cynghawg; y cwbl yn orchestol yn ol y Ddosparth gasefin.—Gwel *Cyf. y Beirdd.*

CARNE (Syr Edward). Ail fab oedd ef i Hywel Carne, Ysw., o Nash, ger y Bontfaen, yn sir Forganwg. Ei fam oedd Cecil, merch i William Kemys, Ysw., o'r Casnewydd, ac yn disgyn yn achyddol o Thomas le Carne, ail fab i Ithyn, brenin Gwent. Efe oedd boncyff neu ddechreuad y Carneiaid o Fynachlog Eweny (y rhai, frwy briodas, ydynt yn awr yn Turberwilliaid,) yr hwn le a brynwyd ganddo yn nheyrnasiad Harri VIII. Y mae Dr. Fuller yn ei *History of England*, yn ein harwain i gasglu mai yn Rhydychain y cafodd ei ddysgeidiaeth, ac iddo gyrhaedd y gradd o LL.D. Bu yn lysgenhadwr i Rufain oddi wrth dri o benau coronog Lloegr—Harri VIII., Mari, ac Elizabeth, a dangosodd fedr gwladlywiol uchel, ac hefyd hyfedrwydd fel cyfreithydd eglwysig. Yn achos Harri, efe a ymhweddai â'i sancteiddrwydd nad oedd dim rhwymedigaeth ar y brenin, yn ol y gyfraith, i wneud ei ymddangosiad yn llys Rhufain, yn bersonol na thrwy gynrychiolwr, yn ol y wys ag oedd yn dyfod iddo i ymddangos yn achos ei ysgariad oddi wrth y frenines Catherine. Pan dramgwyddodd y Pab oblegyd y llythyr o Loegr yn diddymu ei awdurdod yn Lloegr, efe a orchymynodd i Syr Edward Carne roddi i fynu ei swydd fel llys-negesydd, ac ymgymeryd â llywodraethiad yr Ysbytty Saesoneg yn Rhufain. Myn rhai mai ar gais Syr Edward ei hun y gwnaed y penodiad hwn, yr hwn yr oedd ei sêl dros Babyddiaeth y fath, fel y dewisai yn hytrach aros yno, er cael ei alw adref gan y frenines, na dychwelyd i'w wlad ei hun, yr hon oedd yn awr bron a chael ei llenwi â heresiaeth, fel y dywedai ef. Ystyrid ef bob amser y negesydd diweddaf at y Pab, hyd nes yr anfonwyd Iarll Castle gan Iago II. yn 1687. Darfu i Syr Edward Carne ysgrifenu llawer o lythyrau o Rufain, a lleoedd eraill yn yr Ital, o berthynas i ysgariaeth y brenin Harri, rhai o ba rai sydd yn nghasgliad Burnet. Efe hefyd a ysgrifenodd lythyrau llywodlysol at y frenines Mair, dau o ba rai sydd yn niwedd yr ail gyfrol o Burnet's "History of the Reformation;" sef Llythyr o Rufain, yn dangos y modd y darfu i'r Pab wahaniaethu oddiwrtho ef o berthynas i heddwch cyffredinol, amseredig Mehefin 9, 1556; a Llythyr arall oddiyno at Philip a Mair, o berthynas i ataliad gallu cyfreithiol y Cardinal Pole, wedi ei amseru Mai 1557. Bu farw yn Rhufain yn Ionawr, 1561, a chladdwyd ef yno yn yr eglwys a berthynai i fynachdy St. Gregory.—Wood's *Athen. Oxon.*; Fuller's *Worthies;* Wms. *Em. Welsh.*

CARNO (Rhys), o Garno. Gelwid ef medd Williams, Syr Rhys o Drewen, a Syr Rhys ab Hywel Dyrnor, offeiriad a bardd enwog, yn ei flodau o 1440 i 1470. Gwelsom ef mewn lle arall yn cael ei alw Syr

Digitized by Google

Rhys o Drewen, a'i fod yn byw yn Nghorwen. Mae Caer Drewyn am yr afon â Chorwen. Gwall ysgrif ond odid yw y "Drewen." Cyfarfyddir âg ychydig o'i waith yma a thraw.

CARNO (Syr Ifan o). Methasom a chael hanes Syr Ifan, ond fod y "Syr" yn arwyddo ei fod yn offeiriad yn Ngharno, yn sir Drefaldwyn, ond odid. Gwelir peth o'i farddoniaeth yn y *Greal*, t d. 318, sef Englyn i'r Neidr, a mân ddarnau eraill, —

"Llesg yw Syr Ifan a llwm,
Lle rhaned peth o'r dreth drom
Lle gwag i estyn llaw gam,
Lle nid oes ond llai na dim."

Tebygol ei fod yn byw oddeutu 1600.

CARON, yr esgob a sylfaenodd eglwys Tregaron, Ceredigion. Cedwid ei wylmabsant Mawth 5.

CARTER (Hugh), ydoedd fab i Mr. Carter, crwynwr, o Ddinbych, ond a anwyd yn agos i'r Wyddgrug, Mehefin 15fed, 1784. Ymunodd yn ieuanc â'r Wesleyaid. Galwyd ef i'r Weinidogaeth yn y fl. 1805; a bu yn gweinidogaethu ar hyd ei oes—ar y cyntaf yn mhlith y Cymry, ac wedi hyny yn mhlith y Saeson. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, yn efrydydd diflin o'r Ysgrythyrau, ac yn neillduol adnabyddus â hen awdwyr. Y mae ffrwyth ei lafur yn aml yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd*, o sefydliad y cyhoeddiad hwnw hyd ddiwedd ei oes ei hun. Cyhoeddodd hefyd dalfyriad o'r "Beibl Amlieithawg," hyd o fewn ychydig lenau; ond gadawodd ar ei ol ddefnyddiau i'w orphen. Bu farw yn Northwich, sir Gaerlleon, Medi 8fed, 1855, yn 71 mlwydd oed.—*Minutes of the Conference*, 1856.

CARTISMANDUA, enw Lladin y wraig fradwrus a eilw yr hanesion Cymreig *Aregwedd Foeddawg*. Geilw Theo. Evans hi *Curtis Finddu;* ond dyfaliad o'r Lladin yw yr enw hwn. Y mae yn ddiau i'r awdurion Lladin flurfio ei henw oddiwrth ryw enw heblaw yr un yr adnabyddir hi wrtho yn y Gymraeg; canys o *Aregwedd Foeddawg* nis gallesid byth lunio *Cartismandua.*

CARWED, arglwydd Twrcelyn yn Mon; ohono ef yr hanyw llawer o deuluoedd y wlad hono. Dywedir iddo ef, a'i fab Tegeryn, hynodi eu hunain yn fawr am eu pybyrwch yn y rhuthrgyrchiadau rhwng Harri II. ac Owain Gwynedd, a gymerth le gerllaw Coed Eulo, sir Fflint, yn 1157.

CARWYD, sant, aelod o Bangor Iscoed, lle y bu farw. Mab ydoedd i Pabo; yr oedd yn ei flodau yn y 6ed cant.

CASNODYN. Bardd enwog a flagurodd o 1290 i 1340. Tybia rhai mai yr un oedd efe a Trahaiarn Brydydd Mawr, yr hwn a lywyddai yn Ngorsedd Morganwg yn 1300 Ond mae E. Llwyd yn ei amseru 1380, yr hyn sydd yn gwrthdaro awdurdod Gorsedd Morganwg; canys yn ol Iolo a Dr. Pughe, efe a sefydlodd yr orsedd hono yn 1300. Os yr un yw Trahaiarn a Chasnodyn, gosodir cyhuddiadau tra phwysig yn ei erbyn gan Davies *(Myth. of the Druids).* Yr oedd Casnodyn yn fardd awenyddol. Mae pump o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*, sef, 1, "Clod i Wenlliant, ferch Cynan," gwraig Syr Gruffydd Llwyd, 2, "Awdl i Ieuan, abad Aberconwy." 3, "Awdl i Ieuan ab Gruffydd." 4, "Awdl Marwnad Madawg." 5, "Awdl i'r Drindod."

CASWALLAWN, neu Caswallon, catteyrn gwrolwych y Prydeiniaid yn erbyn ymgyrch y Rhufeiniaid o dan Iwl Caisar, yn y fl. 54 cyn Cred,

Digitized by Google

gan yr hwn y gelwir ef *Cassivelaunus*. Mab ydoedd i Beli Mawr ab Manogan, a brenin ar y llwythau Prydeinig a elwid y Cassiaid a'r Dobuniaid, y rhai a breswyhent swyddi Hertford a Bedford, rhanau o swyddi Caerloew a Rhydychain, a'r parthau cyfagos iddynt. Prif ddinas Caswallon ydoedd *Verulamium*—(Gwernllan, *St. Albans*). Pan ail ymosododd gwyr Rhufain ar Ynys Prydain, etholwyd ef yn benciwdod y byddinoedd cyfunol i wrthsefyll rhuthr gelynol yr estoniaid; a chan nad yw yr hanes a rydd Caisar ei hun am y rhyfelgyrch hwn yn cydweddu â'r cofnodau Cymreig am dano; a chan fed mwy nag un o gydwladwyr Caisar ei hun yn awgrymu yn lled ddiamwys nad yw ei adroddion ef am ei orchestion yn yr ynys hon yn gyfryw ag y gellir ymddibynu ar eu gwirionedd; nid anfoddhaol, tuag at gyrhaedd gradd o gywirdeb, fydd cyfleu yma yr hyn a draetha y cadlywydd Rhufeinig ei hun mewn perthynas i'r hyn a ddygwyddodd rhyngddo ef â Chaswallon; ac yna cofnodi yr hyn a fynegir yn y rhai mwyaf credadwy o'r hanesion Cymreig am yr un gweithrediadau.

Ymwelodd Caisar âg Ynys Prydain y tro cyntaf yn y fl. C.C. 55; ond ni fedrodd y pryd hwnw symud nemawr oddiwrth fin y mor tua chanol y wlad; ac ni bu ei arosfa yma ond rhyw dair wythnos gota yn unig: a gallwn farnu oddiwrth hyny pa fath groesaw a dderbyniodd gan y brodorion. Ond nid gwr i roi i fynu ei chwareu ar un cynyg oedd Caisar: ac felly, yn mis Mai y flwyddyn ragwyneb, sef C.C. 54, hwyliodd drachefn tuag Ynys Prydain, a chydag ef oddeutu 30,000 o filwyr, a thros 800 o longau; a thiriodd yn yr un man ag y tiriasai y flwyddyn o'r blaen, sef yn Dael yn Nghaint, yr hwn a elwir Pwyth Meinlas yn y *Trioedd*. Ni cheisiodd y Prydeiniaid mo'i rhwystro i dirio y tro hwn, ond ciliasant oddiwrth y mor i mewn i'r wlad, a gwersyllasant mewn amddiffynfa gadarn yn agos i ddinas bresennol Caergaint. Yma y cyfarfu y byddinoedd Rhufeinig a'r rhai Prydeinig â'u gilydd, ac y bu brwydr ffyrnig rhynddynt; ond o'r diwedd, wedi ymladd yn bybyr, gorfu ar y Prydeiniaid fyned allan o'u gwersyll, a chilio rhag y gelyn. Yn mhen rhai dyddiau ymlidiodd Caisar ar eu hol yn mhellach i'r wlad; a phan ddaeth o hyd golwg iddynt, cafodd fod eu rhifedi wedi cynyddu yn mhell tu hwnt i'w ddisgwyliad. Yn y modd canlynol yr adroddir yr hanes gan Caisar ei hun, ac y crybwyllir ganddo am Gaswallon:—"Cafodd (Caisar) erbyn hyn eu bod yn fwy lluosog o lawer nag o'r blaen, a'u bod trwy gydsyniad wedi ymddiried trefnidaeth y rhyfel i Gaswallawn (*Cassivelaunus*), talaeth yr hwn oedd wahanedig oddiwrth yr arfordiroedd gan yr afon Tafwys, ac yn cyrhaedd o gylch 80 milltir i'r wlad. Buasai rhyfel gynt rhyngddo ef a thaleithiau eraill; ond er hyny, ar ein dyfodiad ni, hwy a unasant i'w urddo ef yn bendragon.....Rhuthrodd y gelynion ar feirch a cherbydau yn filain ar ein marchogion pan oeddynt ar eu taith; ond ein gwyr ni a gawsant y goren arnynt, gan eu gyru i'r bryniau a'r coedydd, a lladd llawer ohonynt; ond trwy eu herlid yn rhy bell, collwyd rhai o'n gwyr ni. Ond y gelynion a ddychwelasant cyn pen hir, pan oedd ein gwyr ni leiaf yn eu disgwyl, ac yn brysur yn cadarnhau eu gwersyll, ac a gyrchasant ruthr angerddol ar ein milwyr o flaen y cloddiau. Anfonodd Caisar yn ebrwydd ddwy fintai o wyr dewisol ei lengau i'w cynorthwyo. Y rhai hyn, trwy gael ohonynt eu cyffroi gan y dull anarferol hwn o ryfela, a ymfyddinasant ar frys, mor gyfagos at eu gilydd ag y gallent. Er hyny, y gelynion yn hyfion a dorasant eu ffordd trwyddynt, ac a ddychwelasasant eilwaith yn ddigolled. Cwintus

Digitized by Google

Laberius Durus, uchel swyddog yn y fyddin, a laddwyd yn yr ymgyrch hwn; ond o'r diwedd, gwedi gyru rhagor o gynorthwyon, gyrwyd y gelynion i gilio. Gan fod y frwydr hon yn dygwydd o flaen y gwersyll, ac yn ngolwg yr holl fyddin, yr oedd yn amlwg i bawb nad oedd milwyr ein llengau yn alluog i wrthwynebu y fath elyn; canys nis gallent erlid yn ddigon cyflym oherwydd pwysau eu harfau, ac ni feiddient adael eu banerau. Ni allai ein gwyr meirch chwaith ymladd heb fawr berygl; canys rhith-giliai y gelynion, nes y tynent ein marchogion i bellder oddiwrth y llengau, yna dychwelent, a chan ddisgyn oddiar eu cerbydau, brwydrent ar eu traed gyda mantais. Ac yn yr ymgyrchau rhwng y gwyr meirch hefyb yr oeddym yn agored i'r cyfielyb beryglon; oherwydd nid oeddynt hwy [y Prydeinwyr] yn ymfyddino yn un dorf, ond yn finteiodd bychain yma a thraw; a'u gorsafau wedi eu dewis yn y cyfryw fodd, fel y gallent gynorthwyo eu gilydd, ac anfon tyrfa-oedd newydd i gymeryd lle y rhai blin lluddedig. Tranoeth, cymerodd y gelynion eu gorsaf ar y bryniau, yn dra phell oddiwrth y gwersyll; er nod ymddangosent ond yn anfynych, ac yn arafach nag arferol, hwy a ddechreuasant dynu bicre â'n marchoglu. Ond o gylch haner dydd, pan oedd Caisar wedi gyru Trebonius ei swyddog, gyda thair lleng a'r holl farchogion, i gyrchu anghenrheidiau, y gelynion o bob parth a ruthrasant am eu pen yn un cyrch, gan dreiddio hyd at faneri y llengau. Ein gwyr ni a ymasodasant arnynt yn ffyrnig, ac a'u gorfod-asant i ffoi. Ein marchogion a'u hymlidiasant yn filain ac yn eofn, gan eu bod yn gweled y llengau yn eu dilyn i'w cynorthwyo. Hwy a laddasant nifer mawr ohonynt, ac a'u canlynasant mor esgud fel na chawsant hamddent i ail ymdrefnu, nac i sefyll eu tir, nac i ddisgyn oddiar eu cerbydau. Yn ebrwydd ar ol y chwalfa hon, ciliodd eu cynghreirwyr o bell i'w taleithiau eu hunain: ac wedi hyn ni ddaeth y gelynion i'r maes mewn dim grym i'n gwrthsefyll."

Y mae y cyfan o'r hyn a ysgrifenodd Caisar yn nghylch ei frwydrau ef a Chaswallon, yn rhy faith i'w gyfleu yma; ond cofnodwyd cymaint a hyna, er mwyn dangos, yn ei eiriau ef ei hun, pa fath dderbyniad a gafodd ef a'i luoedd gan y Penaeth Prydeinig a'i luoedd yntau. Rhaid i'r dyfynion hyn wasanaethu megys engraifft o'r hyn a *gyfaddefir*, yn hytrach nag a fynegir o wirfodd, gan y penciwdod Rhufeinig am wroldeb Caswallon a lluoedd Ynys Prydain yn erbyn ei ruthr gormesol ef arnynt. Mewn amgylchiad o'r fath, prin y gall fod un dystiolaeth yn fwy boddhaol na chyfaddefiad gelyn.

Edrychwn bellach pa beth a ddywed y ccfion cartrefol am yr un amgylchiadau. Yn un o'r *Trioedd (Cyf.* iii. 124), dywedir i Gaswallon fyned hyd yn Ngwasgwyn i gyrchu Ffiur ferch Mygnach Gor, a ddyged o lathlud yno i Gaisar amherawdr gan Mwrchan leidr, brenin y wlad hono, a châr i Iwl Caisar, ac i Caswallon ei dwyn yn ol i Ynys Prydain. Cynwysai y fyddin 61,000 o wyr, y rhai a dywysodd Caswallon yn erbyn y Rhufeiniaid; a dywedir iddo ladd dim llai na chwe' mil o'r gelynion. Mynegir mai er mwyn dial y gyforddwy hon y cadgyrchodd Caisar i Brydain: ac y mae hyn, cyn belled ag y mae yn myned, yn cydweddu â hanes Caisar ei hun, yr hwn a ddywed iddo ef benderfynu goresgyn Prydain oherwydd rhoddi o'r trigolion gynorthwy i'r Galiaid yn eu Rhyfeloedd yn erbyn gwyr Rhufain. Mewn un arall o'r *Trioedd (Cyf.* iii. 17.), gelwir ef yn un o "Dri Unben Rhaith Ynys Prydain;" "sef, o raith gwlad a chenedl y doded arnynt yr unbenaeth, lle nad oeddynt hyneifiaid." Cadarnheir hyn hefyd, fel y gwelsom eisoes, gan

Digitized by Google

Caisar ei hun. A dangosir ef yn y cyffelyb gymeriad pan y rhestrir ef (*Trioedd, Cyf.* iii. 24.) yn un o "Dri Phrif Gatteyrn Ynys Prydain." Rhydd y *Brutiau* (bynag faint o awdurdod hanesol a berthyn iddynt) hanes helaeth am waith Caswallon yn gorchfygu lluoedd Rhufain, ar ddau amgylchiad; ond o'r diwedd, trwy fradwriaeth Afarwy, mab ei frawd Lludd, dywedant orfod arno gilio, a gwneud heddweh â'r Rhwyfiadur Rhufeinig, yr hwn a'i caniataodd iddo ar amod iddo dalu teyrnged o dair mil o bunau bob blwyddyn i'r Rhufeiniaid.

Pan gydbwysom y tystiolaethau blaenorol, y mae sail gref i dybio nad oedd cadrwysg Caisar yn Mhrydain yn gwbl mor llwyddianus ag y gallai un feddwl wrth ddarllen ei hanesgofion ef ei hun. A chadarnheir y gyfryw dyb yn mhellach gan rai o'r awduron Rhufeinig eu hunain. Y mae y prydydd Lucan, yr hwn a ysgrifenodd yn nghylch gan' mlynedd ar ol y digwyddiadau, yn dywedyd, mewn llinell ddigon hysbys, i Caisar "ddangos ei gefn dychrynedig i'r Prydeiniaid ymlidiol." Y mae Tacitus ychydig ar ol Lucan, pan y mae yn son am Caradog ab Brân, yn dywedyd iddo, wrth anerch ei filwyr cyn ei frwydr ddiweddaf, "alw ar enw eu hynafiaid, *y rhai a yrasent y Rhwyfiadur Caisar ar ffô.*" Rhydd yr hanesydd Suetonius farn Asinius Polio am Caisar a'i ysgrifeniadau mewn ymadrodd i'r Perwyl hyn:—"Meddylia Asinius Polio eu bod wedi eu cyfansoddi gydag ond ychydig o fanyldeb, ac ond ychydig o wirionedd; gan y byddai Caisar yn credu yn fyrbwyll am weithredoedd dynion eraill, ac yn traethu yn aumhwyllus y pethau a wnelid ganddo ei hun, er na byddai ei gof ond anmherffaith am danynt; a bwriadai ail ysgrifenu ei waith, a'i gywiro." Ac awgryma Tacitus, mewn man arall, mai dim ond *dangos* yr ynys i'r Rhufeiniaid a wnaeth. Nid ydym, gan hyny, i gymeryd ei dystiolaeth noeth ef am yr ymgyfrangau a ddygwyddasant rhyngddo ef â Chaswallon. Yn wir, prin y dylid derbyn yn lle gwirionedd yr hyn a ddarllenir am neb rhyw orchestion milwraidd ar un tu i'r ddalen yn unig, yn enwedig yn yr oesoedd gynt. Diau i Caisar ofalu am adrodd mor ychydig byth ag a fedrai o'r gwirionedd ag oedd yn anfanteisiol iddo ef, fel llywydd lluoedd Rhufain; ac mor ychydig, o'r tu arall, ag oedd yn bleidiol i lywydd y byddinoedd yr oedd yn ymladd yn ei erbyn. Oddiwrth gyfaddefiad Caisar, yn gystal ag oddiwrth y cofion Cymreig, canfyddir yn bur eglur fod Caswallon yn flaenor dewr a medrus, ac yn haeddol o'r ymddiried a roddwyd ynddo gan ei gydwladwyr; ac, fel y sylwa Carnhuanawc, pe buasai y Prydeiniaid mor unol â'u gilydd ag yr oeddynt yn galonog mewn rhyfel, nid oes anmheuaeth na fuasent yn y diwedd yn trechu ar fyddinoedd Caisar, ac yn eu hymlid i ffwrdd o'r ynys. Ond an-undeb a bradwriaeth a fu dinystr y Cymry yn mhob oes a chenedlaeth.

Gwedi teyrnasu tair ar hugain o flynyddoedd, bu farw Caswallon yn Nghaerefrog, ac yno y claddwyd ef. Ar dir teg, gellir cyfrif Caswallon, Caradog, ac Arthur, yn dri phrif gatteyrn Ynys Prydain yn erbyn rhuthr a gormes cenedloedd estron.

CASWALLON LAW-HIR, mab i Einiawn Yrth ab Cunedda, yr hwn oedd yn dywysog ar Ystrad Clwyd yn y Gogledd, yn nghyda Gwynedd, a rhanau o siroedd Caerlleon a Chaerhirfryn, yn y 5ed cant. Y pryd hwn yr oedd y Gwyddyl Ffichti yn gwneuthur mynych ymgyrchiadau ar ynys Mon, a Chaswallon a ddanfonwyd gan ei dad i'w gorthrechu; ac efe a'u llwyr ymlidiodd o'r wlad, gan ladd Serigi, eu penaeth, â'i law ei hun, mewn lle a elwir hyd y dydd hwn Ceryg y

Digitized by Google

Gwyddel. Yno efe a sefydlodd ac a waddolodd eglwys a elwid oddi wrth yr amgylchiad hwnw Llan y Gwyddel, yn awr Caergybi. Wedi hyn, gwnaed Caswallon yn dywysog Gwynedd, a theyrnasodd o 443 hyd 517. Trigianai fynychaf yn ei balas gerllaw Llanelian, gweddillion yr hwn sydd eto yn aros, a gelwir y lle Llys Gaswallawn. Yn ol y *Trioedd* 27, yr oedd teulu Caswallon yn un o "Dri Hualogion Deulu Ynys Prydain," oherwydd y caniateid iddynt wisgo eurdorchau, ac awdurdod brenin a roddid iddynt o fewn eu terfynau eu hunain tan raith gwlad a chenedl.—Warrington's *History of Wales;* Wms *Em. Welsh.*

CATHEN, sant, yn ei flodau tua'r 6ed cant. Mab ydoedd i Caradog Freichfras. Efe a sefydlodd eglwys Llangathen, sir Gaerfyrddin. Cynelid ei wylmabsant Mai 17.

CATTWG DDOETH ab Gwynlliw Filwr ab Glywys ab Tegid ab Cadell Deyrnllwg, oedd sant enwog am ei ddysg a'i ddoethineb, yn niwedd y 5ed ac yn nechreu y 6ed ganrif. Ei fam oedd Gwladys, wyres Brychan Brycheiniog. Dyn ofer a llygredig oedd ei dad yn moro ei oes; ond dewisodd Cattwg fywyd o weddwdod santaidd o'i febyd, ac ymroddodd i wasanaeth dysg a gwybodau eglwysig yr oes hono.

Pan ddaeth Garmon i Brydain i wrthwynebu cyfeiliornadau Morgan, a sefydlu bangorau yn Nghaerlleon ar Wysg, Llanilltyd, a Llancarfan, gosododd Dyfrig yn llywydd, a gwnaed Cattwg yn abad Llancarfan neu Lanfeithin; ac yn y swydd hono yr enillodd Cattwg yr enw hybarch a chenedlaethol—Cattwg Ddoeth. Y mae digon o'i goetheirian ar gael i ffurfio cyfrol fechan a dyddorol. Cyhoeddwyd ffugfuchedd Cattwg yn Lladin. Adroddir pethau hynod am ei enedigaeth, ymddangosiad angylion, &c. Bedyddiwyd ef gan fynach Gwyddelig mewn ffynon—rhoddodd y plentyn dair naid i'r ffynon, yr hon oedd newydd darddu mewn lle sych yn ol gweddi y mynach, a Chattwg ar ol neidio iddi "*Dipped himself three times in the water, in the name of the Holy Trinity.*" Dywedir mai Cathmail oedd ei enw bedydd, ac mae Cadmael y gelwir ef yn Llyfr Llandaf. Dywedir i'r ffynon yn yr hon y bedyddiwyd ef gael ei throi yn fedd, mewn lliw a blas, y ffwyddyn gyntaf ar ol hyny. Egwyddorwyd y bachgen am ddeuddeg mlynedd mewn gramadegyddiaeth, gan Meuthi, y mynach Gwyddelig. Cyflawnodd lawer o wyrthiau, megys galw am dân o'r nefoedd a llosgi ysgybor, oherwydd fod y bechgyn yn gwrthod rhoddi iddo ychydig danwydd; cariodd farwor tanllyd yn ngodreu ei fantell heb losgi, er dychryn a syndod i bawb. Adeiladodd fynachlog yn rhywle, a galwyd hi Castell Cattwg. Aeth ar daith genadol i'r Iwerddon; dychwelodd yn ol gydag offeiriaid Gwyddelig; enw un ohonynt oedd Mac Moil, yr hwn, meddir, a wnaeth eglwys, Manmoil yn Bedwellty, ac ymsefydlodd ei hun yn Llancarfan. Bu gyda Dewi yn Senedd Beti, yn gwrthladd heresi Morgan, cyfansoddodd Cattwg farddoniaeth er cof am yr amgylchiad. Yr oedd rhyw swyddog milwraidd yn nhref Gwenllwg, yr hwn drwy genfigen a laddodd gefnder i Cattwg o'r enw Cynfelyn, ond difianodd o flaen wyneb Cattwg fel llwch neu fwg o flaen gwynt. Llyncodd y ddaear rhyw ysbeilwyr hefyd oedd yn aflonyddu ei drigfa Bu'n foddion i ddychwelyd Illtyd Farchog, a chyfodi rhyw adeiladydd o farw i fyw. Bu'n dadlu ag Arthur, mewn lle a elwir Trefredwynawg. ac yn dial ar Faelgwyn Gwynedd am y niwed a wnaeth iddo, a tharawodd Rhun, ei fab, â dallineb. Y wyrth nesaf a wnaeth oedd achub bywyd ei cwythr Rhun, fab Brychan, o grafangau gwyr Gwenllwg. Aeth ar

Digitized by Google

daith i'r Alban, a chyflawnodd lawer o wyrthiau yno, a daeth yn gydnabyddus â Chaw o Brydyn; a daeth Gildas ab Caw gydag ef i Lancarfan. Gwyrth arall a gyflawnodd oedd troi bleiddiaid yn geryg, am eu bod yn lladd y defaid. Mae yn peri i ffynon ischusol darddu o'r ddaear yn Nghernyw, drwy daro'r ddaear a'i ffon, yn ol esiampl Moses. Aeth ar daith i Jerusalem a dygodd ddwfr o'r Iorddonen i'w gymysgu â dwfr ffynon Cernyw, yr hwn oedd yn rhinweddol at bob anhwylideb. O'r diwedd, wedi cyflawni myrdd o ryfeddodau anhygoel, gorphenodd ei daith ar y nawfed o fis Chwefror, a chymerwyd ef mewn cwmwl gwyn o Nant Carfan yn Morganwg i ddinas Beneventum.

Dian fod Cattwg yn wr enwog yn ei ddydd, canys y mae llawer o eglwysi wedi eu galw ar ei enw, megys Porteinion, Gelligaer, Cadoxton-juxta-Barri, Pendeulwyn, Pentyrch, Llanmaes, a Llangattwg wrth Gastell Nedd, yn Morganwg; Llangattwg, Craghywel, yn Mrycheiniog; Llangattwg, yn agos i Fryn Buga, Llangattwg Lenig, Llangattwg Lingoed, Llangattwg Feibion Afel, Caerlleon-ar-Wysg; Penrhos a Threfddyn, yn Mynyw. Coffheir yn barchus am Cattwg Ddoeth yn y *Trioedd*. Gelwir ef yn un o "Dri Gwynfebydd Ynys Prydain," ac yn un o "Dri Marchog cyfiawnbwyll Llys Arthur," yn un o "Dri diwair Farchogion Llys Arthur," ac yn un o "Dri chyfiawn Farchogion Llys Arthur," yn un o "Dri doethion pen cynghor Arthur," yn un o "Dri doethion beirdd Llys Arthur:.....cystal oeddynt eu cyneddfau, fel na ddodent amgen na gwir na doeth yn eu cerddi."

Ymddengys fod Bangor Cattwg yn Llanfeithin, yn flodeuog iawn, canys yr oedd Talhaiarn Fardd, Teilo Sant, Taliesin, Gildas, &c., yn ddysgyblion iddo. Am hanes pellach, gwel, Rees' *Welsh Saints; Golud yr Oes*, Mawrth, 1864; *Bedyddiwr*, Mawrth ac Ebrill, 1865. *Gwel* GWYNLLIW.

CAW, ab Geraint ab Erbin, ydoedd arglwydd neu benaeth Cwm Cawlwyd ar gyffiniau teyrnas Ystrad Clwyd, yn Ngogledd Prydain, yn nechreu y 6ed ganrif. Ymosodiadau parhaus y Gwyddyl Ffichti, ac yntau yn analluog i'w gwrthsefyll, a barasant iddo adael ei diriogaeth, a chilio tua'r Dehau. Symudodd ef a'i deulu i Fon, lle yr ymsefydlodd yn Nhwmwd Twr Celyn, ar diroedd a roddwyd iddo gan Faelgwyn Gwynedd. Yr oedd ganddo deulu lluosog o blant, o'r sawl rhai a hynodasant eu hunain fel rhyfelwyr dewr, ac eraill a gofleidiasant fuchedd grefyddol, yn ol anianawd yr oes, ac a sylfaenasant amryw eglwysi; ac oherwydd hyn cyfenwir ei deulu ef, yn nghyd â theuluoedd Brychan Brycheiniog a Chuneddaf Wledig, yn y *Trioedd*, yn "Dair Gwelygordd Santaidd Ynys Prydain." Rhoddes Arthur diroedd i rai o'i deulu ef yn Ngwent. Yn yr *Iolo MSS.*, t.d., 109, crybwyllir am brif amgylchiadau bywyd Caw, yn nghyd ag enwau ei blant, yn y wedd ganlynol:—"Cyntaf [o dair gwelygordd saint Ynys Prydain] gwelygordd Caw a Brydyn, arglwydd Cwm Cawlwyd, a yrwyd o'i wlad gan y Gwyddyl Ffichti. ac a ddaeth i Gymru, a chydag ef ei feibion; ac Arthur a Maelgwyn Gwynedd a roddes diroedd iddynt. A mwyaf o'r meibion a'r merched a aethant yn Seintiau yn y Bangorau ag oeddynt yr amseroedd hyny; nid amgen nag un Illtud, ac un Catwg, ac un Dunawd, ac un Deinioel, ac un Gadfan yn Enlli. Plant Caw Brydain yw y rhai hyn:—Peiro, Gallgof, Eugrad, Cennydd, Anneurin, Caffo, Dirnig, Cewydd, Maelawg, Gwrddyly, Cilydd, Huail, Eigrawn, Cuhelyn Fardd, Cyngar, Samson; Canna ferch y Caw." Y mae Rhos Beirio, Llanallgof, Llaneugrad, Llangaffo, a Llanfaelog, oll yn Ynys

Digitized by Google

Fôn, yn dwyn enwau pump o'r meibion hyn megys eu sylfaenwyr; a choffheir enw Cennydd yn Llangennydd yn Ngwyr, ac yn ol tyb rhai, yn Senghenydd, un o hen raniadau Morganwg. Ond yn ol rhai achau, mab i Gildas (Aneurin) ab Caw ydoedd y gwr a roddes ei enw i'r lleoedd a grybwyllwyd. Ymddengys mai santes arall o'r enw Canna, ac nid merch Caw, a sylfaenodd Langanna yn Morganwg, a Llangan yn sir Gaerfyrddin.

CAWRDAF, mab i Caradawg Freichfras, a oliannodd ei dad fel tywysog Brycheiniog, ac a flodeuai yn y 6ed ganrif. Gelwir ef yn y *Trioedd* yn un o'r "Tri Chynweisiaid..... sef eu gelwid felly am fyned o'u gwir fodd holl wyr Ynys Prydain o deyrn i aillt yn wyr iddynt, wrth raid gwlad, rag rhuthr gâl a difrawd; a phan elynt y tri wyr hyn i ryfel, nid oedd nebun o wyr Ynys Prydain nad elai yn eu gosgorddau, ac ni fynid aros yn nghartref. A thri meib beirdd oeddynt." Aeth Cawrdaf ar ol hyn yn aelod o goleg Illtud, ac y mae eglwys Abererch, yn Arfon, wedi ei chyflwyno iddo—Llan Gawrdaf y gelwid y lle hwn gynt. Y mae eglwys Llangoed yn Môn hefyd wedi ei chyflwyno iddo ef a'i frawd Tangwn. Cynelid ei wylmabsant Rhagfyr 5.

CAWRDAF (Gwilym), neu William Ellis Jones, un o brif feirdd cadeiriog yr oes o'r blaen, a anwyd yn Nhyddyn Shon, Abererch, Arfon, Hydref 9, 1795. Cafodd addysg foreol yn ei ardal enedigol; a phan yn 13eg oed, cafodd ei rwymo yn egwyddorwas i ddysgu argraffu gyda'i gefnder, Mr. R. Jones, yn Nolgellau. Argreffid barddoniaeth Dafydd Ionawr a Dafydd Ddu Eryri yn y swyddfa hono ar y pryd, yr hyn, fel y tybir, a enynodd y ddawn farddonol ynddo yntau. Symudodd wedi hyny i weithio i Gaernarfon, ar y pryd yr argreffid yno y "Diddanwch Teuluaidd, dan olygiaeth Dafydd Ddu. Yr oedd ef erbyn hyn yn gryn fardd, ac yn y Bontnewydd, ger Caernarfon, mewn Cymdeithas Gymreigyddol, yr hon a elwid "Cymdeithas Eryron," dan nawdd D. Ddu, Tach. 24, 1816, cyfenwyd ef yn *Gwilym Cawrdaf;* oblegyd Eglwys Cawrdaf yn Abererch, ei blwyf genedigol. Aeth yn fuan ar ol hyny i'r Brif-ddinas, a chan fod ganddo ddawn a medr at luniadaeth arbeiawl *(landscape painting)*, cymerwyd ef gyda gwr boneddig i'r Cyfandir, a theithiasant drwy ranau o Ffrainc a'r Ital, &c.; a bu yn dilyn yr alwedigaeth o arlunio yn Nghaerodor a Chaerbaddon yn ganlynol i hyny. Ar ei fordaith o'r Cyfandir, yn 1819, cyfansoddodd "Awdl i Dduw." Ymsefydlodd eilwaith yn Nolgellau, ac anfonodd Awdl "Hiraeth Cymro am ei wlad mewn bro estronol," i Eisteddfod Wrexham, yn 1820. Anfonodd "Awdl ar Gerddoriaeth," i Eisteddfod Caernarvon, yn 1821. Graddiwyd ef yma yn "Fardd yn ol Braint a Defod Beirdd Ynys Prydain," gan y gorseddogion Dafydd Ddu o Eryri, Prif-fardd; Gutyn Peris; Robert Davies, Nantglyn; a Joseph Jones. Tua'r amser hwn y cyfansoddodd ei "Awdl ar Raglawiaeth Sior IV.," yr hon a enillodd Gadair Gwent a Morganwg, yn 1822. Daeth y pryd hwn i uwchafnod ei anrhydedd fel bardd; ac yn ngorsedd Cadair Morganwg, a Gwent, ac Erging, ac Euas, ac Ystrad Yw, "graddiwyd W. E. Jones, *alias* Gwilym Cawrdaf, yn Athraw Cadeiriog, gan y Gorseddogion,—Gwallter Mechain, Prif-fardd; Iolo Morganwg; Robert Davies, Nantglyn; Dewi Silin. Priododd yn niwedd y flwyddyn hon, ac ymadawodd o Ddolgellau yn lled fuan i swyddfa *Seren Gomer*, yn Nghaerfyrddin. Yma y cyfansoddodd ei Gywydd Fuddugol ar Oresgyniad Môn, a'i Gân ar Swyngyfaredd—testunau

Digitized by Google

Eisteddfod y Trallwm, yn 1824. Tra yn Nghaerfyrddin y cyfansoddodd "Y Bardd, neu y Meudwy Cymreig," yr hwn a gyhoeddodd yn 1830. Dylid nodi hefyd i'n bardd ymuno â'r Cyfundeb Wesleyaidd yn Nghaerfyrddin, a bu yn bregethwr cynorthwyol gyda'r corph hwnw am dymhor. Yma hefyd y cyfansoddodd Gywydd ar "Dafydd yn canu y delyn o flaen Saul," testun Eisteddfod Beaumaris, 1832. Symudodd ar ol hyny i Ferthyr i swyddfa y Parch. J. T. Jones, a chydag ef oddi yno i Bontyfon. Yma y cyfansoddodd Awdl o 1500 o linellau ar "Amynedd, Cystuddiau, ac Adferiad Job," i Eisteddfod y Gordofigion. Tra yn y Bontfaen, golygai y "Gwron Odyddol," sef, cyhoeddiad Misol yr Odyddion, a dywedai mewn llythyr at ei frawd, ei fod "yn gorfod ei ysgrifenu bron i gyd." Dylasem gofio cyn hyn iddo gyfan-gyfansoddi Awdl Marwnad y Barwn Richards o Gaerynwch, testun Eisteddfod Caernarfon, yn 1824. Hefyd iddo gyfansoddi Awdl orchestol ar "Dderwyddon Ynys Prydain," testun Eisteddfod Gwent a Dyfed, yr hon a gynaliwyd yn Nghaerdydd, yn 1834.

Symudodd eilwaith i Gaerfyrddin, ac yno y dadfeiliodd ei iechyd, ac y bu farw Mawrth 27, 1848, yn 53 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys Pedr, Caerfyrddin. Ymddengys fod Cawrdaf yn ddyn llafurus iawn, canys efe a gyfieithodd "Y Byd a Ddaw," gan Dr. Watts, "Anturiaethau Cenhadol," gan y Parch. J. Williams, a'i waith ef hefyd yw y gyfrol drwchus hono a elwir "Hanes y Nef a'r Ddaear." Yr oedd cyfansoddi y llyfr hwn yn faich trwm arno yn niwedd ei oes. Dywedai ei brofiad pan ar ei orphen, "Nid baich bychan ei bwys ar gefn! eiddil fel fy un I, oedd y Nef a'r Ddaear; ond mae y Ddaear wedi ei thynu i lawr yn awr oddiar fy ysgwydd, oddieithr ychydig ychwanegiad byr, pan y caf yr hyfrydwch o ddarlunio cyfran o'r Nef serenog."

O ran agwedd a chyfansoddiad corphorol, dyn lled eiddil a llathraidd, tua chwe' throedfedd o daldra, oedd Cawrdaf. Yn ei gerddediad cyffredin, ymddangosai fel un mewn dwys fyfyrdod, a dywedai un am dano fod ei athrylith wedi cerfio ei llun ar ei wynebpryd; ond mewn cymdeithas yr oedd yn un o'r rhai mwyaf dyddan a llawen.

Ystyrir Cawrdaf yn fardd uchelryw, ac mae nodwedd ddarluniadol yn hynodi ei holl gyfansoddiadau, pa un bynag a'i caeth a'i rhydd fyddant. Sylwai Gwallter Mechain, wrth feirniadu ei Gywydd Gor-esgyniad Môn, "Mae ei alluoedd darluniadol yn ehelaeth; ei ddes-grifiad o olygfa y tir a chymylau eurgnu yr awyr yn cael eu hadlewyrchu yn nyfroedd Menai, a'i dynoda yn fardd anian, a'r llinellau hyny, pe na buasai yn ei Gywydd orchestion eraill, oeddynt yn ddigon i enill y wobr iddo." Dyma y llinellau :—

"Mewn mwyniant yn min Menai,
A'r drych yn dawel ar drai;
Haul euraidd, awel araf,
Llwyni heirdd o feillion haf,
Ac adar yn y goedwig
Eiliant eu cerdd trwy'r werdd wig;
Llun gerddi'n llenau gwyrddwawr
Orchuddiai y Fenai fawr;
Gorheulog awyr wiwlon
A welid hyd waelod hon."

Am wybodaeth fanylach am Cawrdaf, gwel *Gwyddfa y Bardd*, yn nghyd ag hanes ei fywyd gan ei frawd, Mr. Ellis Jones, Caernarfon.

CEDIFOR, neu Peryf ab Cadifor, bardd a flodeuai o'r fl. 1160 i

Digitized by Google

1200. Mae un Awdl o'i waith yn y *Myv. Arch.*, i "Hywel ab Owain" Gwynedd.

CEDOL, sant, yr hwn a sefydlodd eglwys Llangedol, neu Pentir, gerllaw Bangor. Cedwid ei wylmabsant Tachwedd 1.

CEDWYN, sant, yn ei flodau yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Gwgon ab Peredur; ei fam oedd Madryn ferch Gwrthefyr Frenin. Efe a sefydlodd Llangedwyn, sir Ddinbych, lle y mae beddfaen ac arno yn gerfiedig ddelw o offeiriad; oddiwrth hyn, tybir mai yno y claddwyd y sant.

CEIDIO, un o feib Caw Cawlyd. Efe a sefydlodd eglwysi Ceidio yn Arfon, a Rhodwydd Ceidio yn Mon. Blodeuai yn y 6ed cant. Yr oedd sant arall o'r un enw, yr hwn oedd yn aelod o goleg Catwg, ac yn fab i Ynyr Gwent.

CEINDRYCH, santes a flodeuai yn y 5ed cant. Merch ydoedd i Brychan Brycheiniog. Sonir yn y *Trioedd* am un arall o'r enw Ceindrych, merch i Elidir Gosgorddfawr.

CEINFRYD, un o ferched Cyndrwyn, tywysog Powys yn y 6ed cant.

CEINWEN, santes, un o ferched Brychan Brycheiniog ydoedd. Sylfaenodd eglwysi Llangeinwen a Cheryg Ceinwen yn Mon, lle y cynelid ei gwylmabsant.

CEIRIOG (Huw). Bardd genedigol, mae yn debyg, o Lynceiriog, yn sir Ddinbych. Mae peth o'i waith yn nghadw mewn llawysgrif. Blodeuodd, yn ol *Wms. Em. Welsh.*, o 1580 i 1620. Nis gwyddom ai yr un oedd efe â Hywel Ceiriog yr hwn a raddiwyd yn ddysgybl dysgyblaidd Cerdd Dafod, yn Eisteddfod Caerwys, yn 1567.

CEIRIOG (Sion), neu John Edwards, a anwyd yn Nglynceiriog, mewn lle o'r enw Crogen Wladys, yn agos i Gastell y Waen, 1747. Symudodd i Lundain yn ieuanc, canys efe, Owain Myfyr, a Robin Ddu o Fôn, oedd y tri a sefydlasant Gymdeithas y Gwyneddigion, yn 1770. Dywedir mai Myfyr a grybwyllodd am y peth wrth Sion Ceiriog yn gyntaf, ac mai Sion a ymddyddanodd am y peth yn mhellach wrth R. Ddu. Parotodd Sion Awdl i'r Gymdeithas erbyn Gwyl Ddewi, 1778; bu yn ysgrifenydd i'r Gymdeithas yn 1779—80, ac yn llywydd iddi yn 1783. Pan fu farw Richard Morus, llywydd y Cymrodorion, yn 1779, rhoddwyd ei goffadwriaeth yn destun marwnad, a chyfansoddwyd awdlau gan D. Ionawr, Jonathan Hughes, a Richard Jones o Fôn, ond cyfansoddodd Sion Ceiriog Awdl Bindaraidd *(a Pindaric Ode)* dan yr enw "Gutyn Gwrecsam." Barnodd y ddau feirniad, sef O. Myfyr a R. Ddu o Fôn, mai Awdl R. Jones oedd yr oreu, ond mynai y Gymdeithas mai Awdl benrydd Sion Ceiriog oedd yr oreu, a bu rhyfel mawr yn eu plith. Mae cân S. Ceiriog ger ein bron yn llawysgrif D. Ddu, a thybiwn nad oes ynddi deilyngdod anarferol. Eto yr oedd efe yn fardd cywrain, ac yn Gymro dysgedig. Ei lawysgrifen ef yw yr harddaf ar holl lyfrau y Gwyneddigion; ac ymddengys ei fod yn un o aelodau ffyddlonaf y Gymdeithas, canys anfynych y byddai yn absenol. Ymddifyrai mewn gyru O. Myfyr a'r Dr. D. Samwel i natur ddrwg, a medrai eu tawelu pryd y mynai. Bu farw ar ol cystudd byr, yn 45 oed, yn 1792. Ceir Englynion hynod o'r canmoliaethol er cof am dano gan J. Jones, Glan y Gors, yn y *Geirgraun* am Fehefin, 1796, gyda y rhagnod a ganlyn:—"Er coffadwriaeth am John Edwards, Glyn Ceiriog, yn mhlwyf Llangollen, sir Ddinbych, yr hwn a elwid yn gyffredin Sion Ceiriog, bardd, areithiwr hynod, ac hefyd serydd, a hanesydd cywrain am for a thir; a thriniwr offerynau cerdd a gwir

Digitized by Google

garwr ei wlad, a'r hen famiaith Gymraeg, yr hwn (er mawr alar i'w gyfeillion) a fu farw, ac a gladdwyd yn Llundain, yn mis Medi, 1792.*

Ymddengys nad oes neb o'i berthynasau yn byw yn Nglynceiriog, ac ni chyfarfuasom a neb yn cofio am dano, er holi llawer.

CEITHO, sant, mab i Cynyr Farfdrwch, o Gynwyl Gaio, sir Gaerfyrddin. Dywedir mai efeilliaid oedd efe a'i bedwar brawd—Gwyn, Gwyno, Gwynoro, a Celynin; ac i'r pump arwedd bywyd crefyddol. Yr oedd unwaith gapel ar blwyf Caio yn dwyn yr enw Pumpsaint, a thybir mai oddiwrthynt hwy y cafodd yr enw; y mae eglwys Llanpumsaint hefyd wedi ei chyflwyno iddynt. Blodeuent yn y 6ed cant; cynelid gwylmabsant Ceitho Awst 5.

CELER, sant a merthyr; iddo ef y cyflwynwyd eglwys Llangeler, sir Gaerfyrddin.

CELYNIN. *Gwel* CEITHO.

CELYNIN, sant, mab i Helyg ab Glanawg, yn ei flodau yn y 7fed cant. Efe a sefydlodd Llangelynin, gerllaw Aberconwy, ; a Llangelynin yn Meirion; cedwid ei wylmabsant yn y lle blaenaf Tach. 22; ac yn yr olaf, yn ol Willis, Tach. 2.

CELLAN BENCERDD, y prif gerddor gan dant yn llys Gruffydd ab Cynan. Blodeuai yn 1085. Tebygol mai Gwyddel ydoedd a gyrchasai Gruffydd i Wynedd pan ymroddes y teyrn hwnw i wellhau trefn y cerddorion Cymreig.

CELLI (THOMAS). Bardd enwog, yr hwn a flodeuodd yn y 15fed ganrif. Ysgrifenodd Gywydd yn 1580 er cof am yr ugain mil o saint a gladdwyd yn Ynys Enlli. Y mae cyfieithiad o'r Cywydd yn y *Cam. Reg.*, vol. iii., p. 204.

CENEU, mab Coel Godebog, sant yn ei flodau yn y 4ydd cant. Tybia rhai mai efe a sefydlodd eglwys Llangeneu, Brycheiniog; tra y tybia eraill mai Ceneu, merch Brychan, a biau yr anrhydedd hono.

CENEU, 4ydd archesgob Ty Ddewi, yn ei flodau yn y 6ed cant. Sylfaenodd eglwys Llangeneu yn Mhenfro; ond y mae y lle, tan yr enw hwnw bellach wedi colli.

CENEU AB COEL, un o ryfelwyr dewrwych y brenin Arthur.

CENT (DR. SION). Un o'r personau anhawddaf i draethu ei hanes yn gywir yw Sion Cent. Mae cynifer o chwedlau ynfyd wedi cael eu llunio am dano gan fynachod geuawg, a gwerin ofergoelus, fel mae yn anhawdd, bob amser, gwahaniaethu rhwng y ffug a'r gwirionedd. Priodolir iddo ef yn Ngwent a Morganwg yr un ystranciau ellyllig ag a briodolir i Ddafydd Ddu o Hiraddug yn y Gogledd. Dywedir iddo dwyllo y diafol i adeiladu pont ar y Monwy, mewn un noswaith. Gelwir hi yn Bont Sion Cent hyd heddyw. Dywed traddodiad ei fod yn was yn nheulu Scudamore, y rhai a breswylient yn Kentchurch House, ac yno y gosodir allan chwareufa ei weithredoedd synfawr. Dangosir y gell lle y cadwai ei ellyllfeirch asgellog, y rhai a'i cludent gyda chyflymdra annirnadwy ar hyd y ffordd "uwch wynt" neu "ganolwynt" yn ol ei ewyllys.

Gosodir ef allan, fel hyn, mewn cynghrair â'r diafol, a'i fod wedi gwerthu ei hawl yn ei gorph a'i enaid i'r ysbryd drwg, os cleddid ef yn yr eglwys neu allan o honi, ac iddo fyned yn rhy gyfrwys i'r diafol drwy orchymyn iddynt ei gladdu dan sylfaen yr eglwys.

Y mae traddodiad arall am dano yn ei alw "Sioni Cwmtridwr," gan hòni mai brodor o Gwmtridwr, yn mhlwyf Eglwys Ilian, yn Morganwg, ydoedd, ac iddo ddechreu ar ei Hud a'i Ledrith pan yn fachgen drwy

Digitized by Google

grynhoi holl frain y wlad i ysgubor rhag iddo ef gael trafferth i'w gwylio rhag niweidio'r meusydd ddechreu hâf.

Mae yn amlwg mai chwedlau yr oesoedd tywyll yw y pethau uchod. Dywed traddodiad y byddai hen ddewin mewn gwisg bugail yn mynychu Kentchurch House, ac yn crwydro oddiamgylch yn ardal Grosmont, a bod ei weddillion yn gorwedd dan gareg a elwir "Bedd Sion Cent." Tebygol mai Owain Glyndwr oedd hwnw, pan oedd y "Gwr hir" wedi myned ar ddifancoll, ac yn gorphen ei ddyddiau mewn dinodedd yn yr ardal hono yn nhy ei fab-yn-nghyfraith. Tybia rhai fod Sion Cent yn fardd i Owain Glyndwr.

Dywed hen awdwr, yn *Cam. Reg.*, vol. ii. "John a Kent, doctor enwog mewn duwinyddiaeth, fel yr ymddengys oddiwrth ei waith dwyfyddol, yr hwn nid annghofir hyd ddiwedd y byd. Yr oedd efe yn fardd dysgedig; yn hyny yr oedd ganddo ddawn anianol, ac am hyny, gadawodd yn yr iaith Gymraeg lawer o gyfansoddiadau nodedig ar ei ol. Ganwyd ef yn arglwyddiaeth Cilgerran yn Mhenfro, fel yr ymddengys oddiwrth ei ysgrifeniadau."

Nid ydyw yn hawdd penderfynu ei amser. Mae cof am dano mewn Eisteddfod yn amser Edward III., yn yr hon yr oedd Dafydd ab Gwilym yr hwn a fu farw 1368. "Bu Eisteddfod o dan nawdd Llywelyn ab Gwilym yn y Ddolgoch yn Emlyn; ac i hono y daeth Sion Cent a Rhys Goch Eryri; a thyfodd ymryson rhwng Sion Cent a Rhys Goch. Goreu ar Wengerdd Sion Cent, a goreu ar Foliangerdd Rhys Goch. Rhoddwyd y blaen a'r Gadair i Wengerdd ond ni fynai Sion Cent ei wisgo ag addurn Cadair Ceredigion a Dyfed, eithr i Dduw y rhoddai ef y blaen; am hyny y gwedai rhai mai Duw ei hunan a ennillws y Gadair hon." Rhaid fod yr Eisteddfod hon wedi digwydd tua 1350, canys fe laddwyd Llywelyn gan wylliaid o Saeson Penfro, a ddaethant am ben y Ddolgoch, pan oedd Dafydd ab Gwilym yn nghanol ei ddyddiau. Tebygol iddo fyw hyd tua 1420, gan fod cyfeiriadau yn ei waith at farwolaeth arglwydd Cobham, yr hyn a gymerodd le yn 1417.

Cyfrifir Sion Cent yn un o ddysgyblion Wicliff, neu yn un o'r Lolardiaid, fel y gelwid hwy; ac oherwydd ei ddysg, ei wybodaeth a'i dduwioldeb uwchlaw ei gyfoeswyr, pentyrwyd pob math o chwedlau ofer arno gan anwybodaeth a drygioni, er ceisio lladd ei ddylanwad, ac atal ei ddefnyddioldeb. Dywed hen ysgrif yn y *Brython*, mai Doctor Dyfynyddiaeth, a Gweinidog plwy' Cent yn sir Henffordd oedd efe, lle canodd amryw gywyddau da; ac yn ei amser ef, Cymraeg oedd yn rhugl trwy'r holl sir, sef Henffordd. Mae llawer o'i gyfansoddiadau barddonol ar gael, ac argraffwyd amryw o honynt mewn gwahanol gyhoeddiadau. Ysgrifenodd amrywiol draethodau Lladin ar destunau duwinyddol. Dywedir fod 39 o'i draethodau ar gael, heblaw ei gywyddau.

Ymddengys fod Sion Cent arall, yr hwn a elwir John Gwent, mynach o urdd St. Ffransis. Dywed Leland iddo gael ei fagu yn Nghymru, a'i fod yn ddilynwr gwresog i'r ysgolion Ffransisaidd enwocaf yn Rhydychain, ac iddo gynyddu mewn dyfnddysg nes synu ei holl frodyr crefyddol. Ysgrifenodd lawer o draethodau duwiol a dysgedig, a bu farw yn 1348. "Y brawd John Gwen, Dr. o Rydychain, a wnaeth lawer o wyrthiau yn ei fywyd, a orwedda yn Henffordd."

CENYCH, sant, sylfaenydd eglwys Llangenych, sir Gaerfyrddin.

CENNYDD, sant yn ei flodau yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Gildas

Digitized by Google

ab Caw, yr oedd yn aelod o Gor Cattwg yn Llancarfan, ac yn sefydlydd cymdeithas grefyddol yn Ngwyr, Morganwg, a elwid Côr Cennydd, lle y saif yn awr eglwys Llangennydd.

CEREDIG, un o feibion Cuneddaf Wledig, yr hwn a enillodd iddo ei hun enw mawr fel rhyfelwr trwy ymlid ymaith y Gwyddelod, y rhai a oresgynasent amryw barthau o Gymru, tua diwedd y bedwaredd ganrif. Yn wobr am ei waith rhoddwyd iddo y rhandir a elwid hyd hyny y Tyno Coch, ond wedi hyny *Ceredigion*, yn ol ei enw ef, yr hon a gyfetyb yn lled agos i swydd bresenol Abertefi. Mewn rhai ysgrifau gelwir ef *Caredig*.

CEREDIG, un o freninoedd y Prydeiniaid, yr hwn a olynodd Faelgwn yn y llywodraeth o gylch y fl. 590. Od oes coel ar *Frut Tyssilio*, nid gwr poblogaidd ydoedd gan ei ddeiliaid, a chymerodd y Sacsoniaid fantais o'r peth, a gwahoddasant Gormwnt, un o freninoedd Affrica, yr hwn a anrheithiasai Iwerddon, i ymosod ar Brydain, gan addaw ufudd-dod yn nghyd a theyrnged flynyddol iddo. Derbyniodd yntau y gwahoddiad, a daeth a thri chan' llongaid o arfogion gydag ef; ac wedi ymuno â'r Sacsoniaid, rhuthrodd ar Geredig, a chymhellodd ef i ffoi i Gaergeri. Gyrwyd ef allan o'r dref hono trwy ddichell hynod gyfrwys. Daliwyd lluaws mawr o adar o tô, a chylymwyd wrth eu hadenydd fasgl cnau wedi eu llenwi a phyg a brwmstan, ac wedi eu tanio gollyngwyd yr adar yn rhyddion. Cyneuodd y tân gan ysgydwad eu hadenydd, ac erbyn dranoeth yr oedd yr holl ddinas yn goelcerth. Felly gorfu ar Ceredig ddyfod allan o'r lle, ac ymladd â'r gwarchaewyr; a hyny a wnaeth gyda chyn lleied o lwyddiant, fel y bu raid iddo groesi Hafren a ffoi i Gymru. Gormwnt ar hyny a ddiffeithiodd yr holl wlad â thân a chleddyf, heb arbed oedran nac ystlen, a gorfu ar bawb a allent, ffoi rhagddo i Gymru, Cernyw, a Llydaw; ac felly, yn ol y *Brut*, y collodd y Cymry goron a gorsedd Lloegr, y rhai nid adferwyd iddynt byth.—*Myv. Arch.*, ii., 359; *Wms. Em. Welsh.*

CERI (Hywel). Bardd a flodeuodd rhwng 1570 a 1600. Brodor o Geri yn sir Drefaldwyn, ond odid.

CERI (Ioan). *Gwel* Jenkins (Parch. John).

CERI (Sion), neu Sion ab Bedo ab Dafydd ab Hywel ab Tudur. Bardd enwog o ardal Ceri, rhwng 1500 a 1530. Mae peth o'i farddoniaeth ar gael mewn llawysgrifau.

CERIDWEN, un o'r enwau mwyaf hysbys yn chwedloniaeth Dderwyddol ein hynafiaid; eithr nis gwyddis ond ychydig am dani ond a geir o ffug-hanesiaeth henafol, ac o ddirnadu y cyfeiriadau mynych a wneir ati yn ngweithiau y beirdd. Gosodir hi allan yn y *Fabinogi* "Hanes Taliesin," fel gwraig i Tegid Foel, etifeddiaeth yr hwn a safai yn nghanol Llyn Tegid. Yr oedd iddynt fab a elwid Morfran ab Tegid, a merch a elwid Creirfyw—y fenyw decaf yn yr holl fyd. Mab iddynt hwy hefyd oedd Afagddu, y dyn hagraf yn yr holl fyd; "a Cheridwen ei fam yn tybied na chai efe dderbyniad i blith boneddigion, oherwydd ei hacrwch, onibai fod arno rhyw gampau neu wybodau urddasol, a benderfynodd ferwi pair o awen a gwybodau i'w mab," &c. (Gwel *Myv. Arch.; Cymru Fu;* a Guest's *Mabinogion;* tan y penawd "Hanes Taliesin.") Cymerodd hyn le yn amser y brenin Arthur; a dyna'r holl grybwyllion tebyg i hanes a geir am yr arwres hon. Y mae Davies, yn *Myth. of the Druids*, wedi casglu yn nghyd lawer o grybwyllion yn ei chylch, ac wedi tynu lluaws o gasgliadau cywrain a gwerthfawr

Digitized by Google

oddiwrthynt. Tybia ef ei bod yn cynrychioli Ceres, y Groegiaid, yn chwedloniaeth ein hynafiaid; tra y barna y Dr. W. O. Pughe ei bod yn meddu mwy o ansoddion Venus. Yn yr "Hanes" y cyfeiriasom ato, cystal ag yn ngwaith yr hen feirdd, dysgrifir hi fel gwrach, fel llysiauyddes, fel cawres, fel y wraig gyntaf, fel llong nofiadwy, &c.; ceir llawer o son hefyd am *bair* Ceridwen, yn yr hwn y berwid awen a gwybodau. Casgla Davies ei bod yn cael ei haddoli mewn cysylltiad â'r lleuad yn y 12fed ganrif; ond y mae Mr. Stephens, yn *Literature of the Cymry*, yn gwrthbrofi hyn. Teml Ceridwen y gelwid cylch drylliog o geryg anferth a geid ar Gaergyfylchi, ger y Penmaenmawr, yn Arfon.

CESAIL (Cadwaladr). Bardd yn byw yn y Gesail Gyfarch, yn Eifionydd, o'r fl. 1590 i 1614, neu hyd 1640 yn ol eraill. Mae cynwysiad naw o'i Gywyddau ar glawr y *Greal*. Tybia rhai mai ei iawn enw oedd Cadwaladr Gruffydd, gan fod Englynion ar gael a'r enw hwnw wrthynt, o waith rhyw fardd o'r oes hono, ac o'r ardal hono hefyd, ac na wyddis pwy ydoedd os nad C. Cesail.

CETHIN (Gutyn). Bardd yn ei flodau o 1550 hyd 1580. Ni chyhoeddwyd nemawr o'i waith, er fod rhai o'i gyfansoddiadau ar gof a chadw mewn llawysgrifau.

CETHIN (Syr Lewis). Bardd ac offeiriad gwladgarol oedd Syr Lewis Gethin, mal y dengys dau Englyn o'i eiddo yn y *Greal* am 1806, er anog i argraffu llyfrau yn Gymraeg. Blodeuai mae yn debyg tua thri chan' mlynedd yn ol, pan oedd llyfrau yn brinion. Diwedda fel hyn:—

"Er colli'n lle a'n trefi,
Cadwn ein Iaith cyd a nyni."

CEUGANT BEILLIAWG, rhyfelwr. "Tri Eurgelain Ynys Prydain: ail, Ceugant Beilliawg.....sef eu gelwid felly achaws rhoddi eu pwys yn aur am danynt o ddwylaw a'u lladdes."

CEWYDD, mab Caw, sant a flodeuai yn nechreuad y 6ed cant. Efe a sefydlodd eglwysi Aberedwy a Diserth, yn Maesyfed; a'r eiddo Llangewydd, a safai unwaith gerllaw Penybont, Morganwg.

CHALONER (Syr Thomas). Ganwyd ef yn Llundain, tua'r fl. 1515; ond yr oedd yn disgyn o deulu da yn Nghymru. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Nghaergrawnt. Wedi gorphen ei efrydiaeth yno, efe a anfonwyd i'r Almaen, yn gydymaith i i Syr Henry Kevet, negesydd o lys Prydain at yr ymerawdr Siarl V. Dyoddefodd lawer ar ei fordeithiau, trwy longddrylliad, yn 1541 Pan ddychwelodd adref, gwnaed ef yn ysgrifenydd y Cyfrin-gynghor. Aeth gyda Duc Somerset i'r Alban, yn nheyrnasiad Iorwerth VI., lle y gwnaeth enw iddo ei hun yn mrwydr Musselburgh, ac y derbyniodd urdd marchog. Bu agos iddo syrthio yn un o "Ardderchog lu y Merthyri" yn amser Mair. Pan ddaeth Elisabeth i'r orsedd, anfonwyd ef yn lys-negesydd i'r Almaen; ac yn 1561, i'r Hispaen. Cyhoeddodd amryw lyfrau ar wladlywiaeth. Bu farw Hydref 7fed, 1565, yn 40 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn Eglwys St. Paul.—*Biographical Dictionary.*

CHARLES (Edward), ac a elwid hefyd "Siames o Wynedd," a "Sierlyn Fardd," ydoedd enedigol o Glocaenog, ger Rhuthyn, yn sir Ddinbych. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llundain. Yr oedd yn un o'r Gwyneddigion. Efe oedd ysgrifenydd y gymdeithas hono yn y fl. 1796. Efe a etholwyd yn fardd cyntaf y gymdeithas yn y fl. 1800, gan yr hon, fel y cyfryw, y derbyniodd anrheg o dlws arian mawr a

Digitized by Google

hardd. Bu yn y swydd o fardd etholedig hefyd yn y fl. 1810. Bu farw yn Llundain yn y fl. 1828.

CHARLES (PARCH. WILLIAM), pregethwr tra chymeradwy gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Ganwyd ef yn y Ty-newydd, Gwalchmai, Môn, Hyd. 1, 1817. Mab ydoedd i'r Parch. John Charles, yr hwn yntau hefyd a fu yn pregethu gyda'r un enwad am 46 o flynyddau. Dangosodd yn fore dueddfryd gref at bregethu; a mynych y gwelid ef pan yn blentyn mewn encilfanau neillduedig yn arfer ei ddawn yn y ffordd hono. Crefydd a phregethu oeddynt ei hoffusaf deganau ef; ac er nad yw y plentyn bob amser yn dad y dyn, eto y mae teganau y plant yn ddangoseg led gywir o bleserau y genedl. Yr oedd teulu'r Ty-newydd yn bregethwyr wrth natur; nid oedd dim llai na phump o honynt yn weinidogion, sef y tad, John Charles, a phedwar o'r meibion, un o ba rai oedd gwrthrych y cofion hyn. Mewn awyr pregethu y magwyd ef, nes y daeth pregethu mor naturiol iddo ag anadlu. Clywid y naturioldeb hwn yn ei ddull hylaw o lefaru, a gwelir ef yn yr ychydig bregethau o'i eiddo sydd ar gael Pan tua pedair ar ddeg oed, danfonwyd ef i ysgol at y Parch. W. Roberts, Bodedeyrn; wedi hyny o Gaergybi, ar anogaeth yr hwn y dechreuodd efe bregethu yn gyhoeddus; a phan yn ugain oed danfonwyd ef i athrofa y Bala. Bu yno am dair blynedd; ac yn fuan wedi dychwelyd i Fôn, priododd gyda Miss E. Edwards, Bodwrog. Nid oedd ei iechyd ond gwanaidd, cawsai dwymyn drom pan yn bedair ar ddeg, effeithiau yr hon a lynasant wrtho am y gweddill o'i oes. Gwanaidd ac afiach ydoedd ar y goreu, a bu hyn yn achlysur i gyfyngu llawer ar gylch ei ddefnyddioldeb; er iddo dalu ymweliad unwaith neu ddwy â holl siroedd Cymru, yn nghyd â'r prif drefi Cymreig yn Lloegr. Erbyn 1846, yr oedd ei nerth wedi diffygio i'r fath raddau fel nad allodd efe bregethu ond pedair gwaith yn ystod y flwyddyn hono; eto ei brofiad ar derfyn y flwyddyn ydoedd iaith y Salmydd, "Da yw i mi fy nghystuddio." O 1846 hyd ei farwolaeth, yr oedd yn rhodio yn awyr angau; a phob peth yn cyd-dystiolaethu na byddal ei arosiad yma ond byr. Traddododd ei bregeth olaf y Sabbath olaf yn 1848; a'r 13eg o'r Ionawr dilynol, diosgwyd oddiam dano y corph gwael hwn gyda'i wendidau a'i boenau. Ei air olaf ydoedd, "Pobpeth yn dda—yn yr ymdrech galed—pobpeth yn dda." Fel y crybwyllasom, prif hynodrwydd ei bregethau ydoedd naturioldeb, difrifoldeb, yn nghyda gallu mawr i gymhwyso gwirioneddau'r Efengyl mewn dull effeithiol at gydwybodau ei wrandawyr. I hyrwyddo hyn, yr oedd ganddo lais o'r fath bereiddiaf, a gwynebpryd o'r fath fwyaf siriol a serchus, ac ychydig o'r rhai a glywsant ac a welsant y Parch. W. Charles, a allant byth ei adgofio ond gyda'r teimladau mwyaf cynes a chanmoladwy.

CHARLES (PARCH. DAVID), a anwyd yn Pantdwfn, yn agos i St. Clears, yn sir Gaerfyrddin, Hydref 11, 1762. Efe oedd yr ieuengaf o amryw frodyr, o'r rhai yr oedd yr enwog Mr. T. Charles o'r Bala yn hynaf. Nid oes genym ddim hanes o'i ieuenctyd yn mhellach na'i fod, fel pawb a ddaeth i enwogrwydd, yn hoff iawn o ddarllen. Yr oedd yn gynar yn hoffi ymwneud a drychfeddyliau uchel a godidog, fel yr ymddengys oddiwrth y ffaith o'i fod wedi trysori yn ei gof y cyfan o "Young's Night Thoughts" cyn ei fod yn ddeunaw oed. Mor gref oedd ei duedd at ddarllen, fel y dywedai ei dad am dano, "Nis gwn beth i'w wneud o Dafydd, os na ddygaf ef i fynu yn offeiriad, gan ei fod bob amser mewn rhyw gongl a'i ben yn y llyfr." Ond nid oedd

Digitized by Google

amgylchiadau y tad yn caniatau iddo wneud un arall o'i feibion yn offeiriad, ac felly dygwyd ef i fynu i grefft llinwr a nyddwr rhaffau yn nhref Caerfyrddin. Cyn gorphen ei brentisiaeth yr oedd wedi ei osod yn arolygwr ar weithwyr, gwaith, a gweithdai ei feistr. Pan oddeutu pumtheg oed deffrowyd ei feddwl i ystyriaethau crefyddol wrth ddarllen pregethau Ralph Erskine, o Scotland. Yn fuan cafwyd ef mewn cysylltiad a'r Trefnyddion Calfinaidd yn nghapel Heol y Dwr, Caerfyrddin. Pan oddeutu pedair ar bumtheg oed aeth i Bristol i gael gwybodaeth helaethach a manylach o egwyddorion masnachol a chelfyddydol. Cyfarfu yn y ddinas hono â dynion ieuainc crefyddol, y rhai, fel yntau, oeddynt yn dilyn bob un ei briodol alwedigaeth. Cydgyfarfyddai y rhai hyn yn fynych i gynorthwyo y naill y llall yn y gorchwyl o lafurio am wybodaeth. A'r rhai mwyaf crefyddol o honynt yr oedd cyfrinach neillduol Mr. Charles. Dychwelodd i Gaerfyrddin i ddilyn ei alwedigaeth, ac yn mhen ychydig o flynyddoedd priododd ferch i S. L. Phillips, Ysw., bancer, Hwlffordd. Genedigol o Frankfort-on-the-Maine ydoedd Mr. Phillips, ac wedi ei ddwyn i fynu yn y grefydd Iuddewig, ac yn fab i Rabbi, ond dychwelwyd ef at Gristionogaeth pan yn ieuanc, yn fuan ar ol ei ddyfodiad i Brydain. Ei ferch a enillwyd at grefydd trwy weinidogaeth y Parch. Rowland Hill, i'r hwn yr oedd ganddi y parch mwyaf tra fu byw. Trodd y cysylltiad priodasol hwn yn fantais a chysur mawr i Mr. Charles, yn fydol a chrefyddol.

Dewiswyd Mr. Charles mewn oedran ieuangach na chyffredin i fod yn ddiacon yn eglwys y Methodistiaid yn Nhaerfyrddin, ac yn fuan enillodd iddo ei hun "radd dda" mewn gwybodaeth a "mwyneidd-dra doethineb." Tra yn gwasanaethu y swydd hono am yn agos i ugain mlynedd, cyrhaeddodd hynodrwydd mwy mewn dylanwad a pharch, nag un *blaenor* arall yn holl hanes y Cyfundeb. Oblegyd "er nad oedd efe ar y pryd ond diacon yn unig, ac er fod y Methodistiaid heb golli eu parchedigaeth arbenig i ordeiniad esgobaethol, eto gelwid arno i draethu ei feddwl ar bob mater a ddeuai ger bron y Gymdeithasfa; ac nid oedd neb yn cael gwrandawiad mwy astud pan yn ymdrin ag *athrawiaethau dyfnaf* y gwirionedd Dwyfol. Nid oedd raid iddo geisio dangos mawredd; ac nid oedd mor ffôl a cheisio dangos gostyngeiddrwydd; ond wrth gymeryd ei le naturiol, yr oedd yn cael ei hun yn mysg y rhai blaenaf yn y Cyfundeb, trwy gydsyniad unfrydol ei frodyr, a bron yn ddiarwybod iddo ei hun." Ei ewyllys ef ydoedd llafurio hyd y diwedd yn y gwaith o adeiladu yr *eglwys* mewn gwybodaeth a deall, gan adael i rai eraill, a dybiai yn fwy cymhwys nag ef, i areithio yn y gynulleidfa gymysg. Ond o'r diwedd, mewn canlyniad i ddymuniadau taerion a chyffredinol, ac yn benaf trwy anogaeth ei frawd o'r Bala, tueddwyd ef pan yn chwech a deugain oed i ddechreu "pregethu." Yn yr adeg bwysig hono yn hanes Methodistiaeth, pan benderfynwyd galw nifer o'r pregethwyr mwyaf cymeradwy i weinyddu yr ordinhadau o Fedydd a Swper yr Arglwydd, tra y cytunid fel rheol gyffredinol nad oedd neb i gael ei neillduo heb gael prawf o hono fel pregethwr am bum mlynedd, gwnaethpwyd eithriad penodol o hono ef, a chafodd ei ordeinio gyda'r dosparth cyntaf o weinidogion y Deheubarth yn 1811. Cafwyd mewn canlyniad fod yr ordinhad o Swper yr Arglwydd yn fanteisiol iddo i ddwyn ei feddwl ar unwaith at y materion gogoneddus yr oedd yn eu hoffi yn benaf oll, i'w trin a'u mwynhau; a mawr oedd effeithiau ei ymadrodd ar deimladau ac ysprydoedd ei

Digitized by Google

gydgymunwyr ar y fath achlysuron. Am flynyddoedd lawer cyn iddo foddloni ymddangos mewn pwlpud, rhoddid y blaen iddo yn Nghyfarfodydd Misol a Chwarterol y Cyfundeb, ac am yr ugain mlynedd y bu yn pregethu edrychid arno fel colofn fawr y cynulliadau chwarterol, yn enwedigol pan y byddai rhyw fater athrawiaethol dan sylw. Byddai weithiau mor ddyrchafedig yn ei syniadau, ac yn ei ddull o'u traethu, fel y byddai y rhai a arferent ysgrifenu y pethau a ddywedid, yn anghofio eu gorchwyl, neu yn methu myned yn mlaen gan syndod. "Y fath ydoedd dysgleirdeb a thanbeidrwydd ei syniadau (meddai y Parch. Ebenezer Richards, Ysgrifenydd y Gymanfa) a'r fath oedd eu dylanwad ar fy nheimladau fel na allwn ysgrifenu un gair." Y mater dan sylw y tro hwnw oedd y *Dwyfol Briodoliaethau*, a mawr oedd siomedigaeth pob un i gael nad oedd dim wedi ei ysgrifenu. "Yn y cyfarfodydd hyn, byddai rhai o'r dynion mwyaf yn Nghymru yn wyddfodol; ond edrychent i fynu ato ef fel athraw yr athrawon. Pan gyfodai byddai pawb yn ymwneud am wrandaw, ac fel yr elai yn mlaen, byddent yn fuan wedi eu llenwi a theimladau cymysg o ryfeddu ac addoli. Nid oedd ynddo un egni nac ymdrech; dim un ystum nac ymgais i dynu sylw; dim ond *meddwl pur* yn gorlenwi pawb â syndod: a phan dawai, byddai y gwrandawyr yn teimlo fel pe byddent yn dyfod yn ol o fyd y meddwl i'r byd gweledig." Byddai Mr. Charles yn fynych iawn oddicartref, yn pregethu i Gymry a Saeson. Teithiodd a phregethodd lawer yn y rhanau Seisonigaidd o siroedd Penfro, Caerfyrddin, a Morganwg; oblegyd ychydig o bregethwyr ei enwad oeddynt wedi ymarfer digon â'r Saesoneg i'w galluogi i bregethu i drigolion y tywyll-leodd hyny. Yr oedd yn wastadol yn cadw anifail i'r dyben hwnw yn unig; ac nid bychan oedd y draul a'r golled, i un yn meddu sefydliad masnachol pwysig, a theulu mawr, o fod yn dilyn gorchwyl cyhoeddus yn barhaus, *heb ddderbyn cyflog* am ei lafur, nac un math o gydnabyddiaeth heblaw "y derbyniad i dy" a roddid iddo gan y rhai oedd yn barnu bod y "gwirionedd ganddo." Bu yn pregethu amryw droion yn lle a chyda y Parch. Rowland Hill yn sir Gaerloew a Llundain. Unwaith neu ddwy y bu ar daith trwy siroedd y Gogledd. Ond gan fod ei frawd yn byw yn y Bala, a merch iddo wedi priodi yn Machynlleth, yr oedd ryw gymaint yn fwy adnabyddus i Fethodistiaid y Gogledd yn y ddau le hyn. Yn ei gymeriad personol a'i fywyd cyhoeddus nid oedd dim yn fwy amlwg na'i gydwybodolrwydd uchel a'i ffyddlondeb diball yn ngwasanaeth ei Feistr, yn nghyda'r meistrolaeth perffaith oedd ganddo ar ei holl deimladau naturiol. Unwaith aeth melin bapur o'i eiddo ar *dân*, a llwyr ddistrywiwyd hi yn nghyd â'r hyn oedd ynddi. Digwyddodd yr amgylchiad ar ddydd Sadwrn. Ar ol gweled diffodd y tân, a'r dinystr trosodd, marchogodd am ugain milldir i'r lle yr oedd wedi addaw bod; a phregethodd dranoeth fel arferol, ac heb son gair wrth neb am ei golled fawr! "Nid oedd yn ei bregethau un gradd o'r cywreinrwydd hunan-ddoeth sydd yn ymddangos yn fawr i'r anwybodus; ac nid yn unig yr oedd yn ymatal rhag gwneud swn mawr yn nghylch pethau bychain, ond nid oedd efe yn un a allai wneud llawer o swn yn nghylch pethau gwir fawr. Ond i'r sawl oedd yn caru gwirionedd er ei fwyn ei hun ac yn alluog i ganfod mawredd pan na fyddo llawer o rwysg yn ei amgylchynu, yr oedd yn un o'r rhai mwyaf hoff ganddynt i'w wrandaw; ac y mae y cyfrolau argraffedig o'i bregethau yn un o'r llyfrau mwyaf gwerthfawr ganddynt i'w darllen. Fel cynlluniau o bregethau i'r werin nid ydym

Digitized by Google

yn eu cymeradwyo. Y maent yn ddiffygiol mewn teimlad a chymwysiad cyfeiriol, ac i raddau fe ddichon, mewn cysylltiad ymresymiadol. Myfyrdodau ydynt yn hytrach na phregethau—sylwadau gwreiddiol a chynwysfawr, yn codi dyn uwchlaw iddo ei hun, ac uwchlaw pob peth daearol, i wlad y meddyldrychau tragwyddol a digyfrwng." Fod ynddo ystôr o deimlad, sydd amlwg oddiwrth ei hymnau rhagorol, y rhai ydynt mor llawn o dân barddonol a hymnau neb oddieithr rhai Williams o Bantycelyn, ac nid llawer o gyfansoddiadau Williams sydd yn rhagori ar amryw o'i benillion ef. Cyhoeddwyd cyfrol o'i bregethau yn 1840, yn cynwys oddeutu deg a thriugain o'i bregethau (y rhai gan mwyaf a ysgrifenwyd ganddo cyn dechreu pregethu). Cyfieithwyd rhyw nifer o honynt i'r Saesoneg mewn cyfrol arall, gan yr un cyhoeddwr, sef ei fab yn nghyfraith. Yn 1860, cyhoeddwyd gan yr un gwr gyfres newydd o'i bregethau, ac os oes defnyddiau eto yn ol, gobeithio na orphwysa y cymwynaswr hwn i'w genedl nes y byddo wedi cyhoeddi y cyfan.

Yn Gorphenaf 1828, tarawyd Mr. Charles â'r parlys mud *(apoplexy)*; er hyny bu, yn groes i ddisgwyliad, fyw am chwe' mlynedd, ond yn gwbl fethedig un ochr ac heb lefaru gair i hysbysu ei ddymuniad neu ei angen yn y peth lleiaf. O ran dim a ellid ei ganfod arosodd yn yn nghyflawn feddiant o'i gyneddfau meddyliol. Yr oedd ei dduwiolfrydedd yn ystod y cystudd hwn yn neillduol o amlwg mewn darllen y Beibl, a chanfyddid ar ei wynebpryd yn fynych ei fod yn gweddio yn gweddio yn ddyfal. Pan ddigwyddai nad oedd neb arall yn bresenol, i fod yn arweinydd mewn gweddi deuluaidd, gelwid y teulu yn nghyd fel arferol, ac wedi i ryw un ddarllen penod o'r Beibl, ac i'r teulu benlinio o'i amgylch, dyrchafai yntau ei lygaid ac un llaw tua'r nef, ac ar ei eistedd gweddiai fel y gallai, ond heb ynganu un gair yn ddealladwy i'r rhai oedd yn penlinio o'i ddeutu. Eto yr oedd swn ei lais, ei edrychiad i fynu, yn nghydâ holl agwedd ei wynebpryd, yn *dangos* mwy o feddwl ac o deimlad dyrchafedig, nag a fynych glywid mewn geiriau. Byddai yr effeithiau yn neillduol ar ddyeithriaid a ddigwyddai fod yn bresenol.

Bu farw Medi 2, 1834, yn ddeuddeg a thriugain oed a chladdwyd ef yn mynwent Llangynidr.

CHARLES (Parch. Thomas, B.A.), Bala. Prin y darfu i neb ddylanwadu mor eang a llesol ar genedl y Cymry â'r anfarwol Charles o'r Bala. Ganwyd ef Hyd. 14, 1755, yn Pantdwfn, plwyf Llanfihangel Abercowyn, sir Gaerfyrddin.. Ei dad, Rice Charles, ydoedd amaethwr cyfrifol. Danfonwyd ef i ysgol Llanddowror pan rhwng deg a deuddeg oed, gyda'r bwriad o'i ddwyn i fynu yn offeiriad ; ond yr oedd y gwr a enwogodd Landdowror, sef Griffith Jones, wedi myned i ffordd yr holl ddaear rai blynyddau cyn i T. Charles gyrhaedd yno. Arosodd yn Llanddowror am o dair i bedair blynedd ; ac aeth oddiyno i Goleg Caerfyrddin, y pryd hwnw tan olygiaeth y Parch. Mr. Jenkins. Yn ystod ei arosiad yn Llanddowror, dygwyd ei feddwl tan argraffiadau crefyddol, yn benaf trwy ddarllen traithawd Bunyan ar y "Ddau Gyfamod;" a chymdeithas hen wr duwiol, o'r enw, Rhys Huw; a thra yn Nghaerfyrddin, er iddo gyfarfod yno â dynion ieuainc digrefydd, eto dyfnhaodd yr argraffiadau crefyddol arno, a chafodd lawer o adeiladaeth wrth ddarllen "Myfyrdodau Hervey," a llyfrau efengylaidd eraill. Ond nid digon llyfrau da i dori ei syched ef am grefydd bersonol, nac ychwaith ordinhadau yr eglwys yr ydoedd, yn amcan ei

Digitized by Google

fywyd, yn aelod o honi; ac felly ymunodd gyda chymdeithas o Fethodistiaid Calfinaidd ag oedd yn y dref hono. Y pryd hwn, nid oedd y Methodistiaid ond cangen o'r Eglwys Sefydledig, yn dal ei hathrawiaethau hi, ac yn aelodau o honi; ond yn mynychu eu moddion o ras trwy gydymgynull mewn cyfarfodydd crefyddol yn annibynol ar y gwasanaeth yn Eglwys y plwyf. Nis gellir ystyried y Methodistiaid yn sect ymneillduol am ddeng mlynedd ar hugain ar ol hyn, sef yn 1811, pan ddechreuasant ordeinio gweinidogion o'u plith eu hunain. Rhydd-eglwyswyr oeddynt hyd y pryd hwnw; ac fel y cyfryw y rhaid ini gredu fod Mr. Charles yn ymuno â hwynt, neu gredu peth anhawddach, sef mai gwr dau-ddyblig ei feddwl oedd efe, yn gwibio oddiwrth y naill gyfenwad at y llall. Pan oedd efe yn ddeunaw oed, aeth i'r Capel Newydd i wrando ar y Parch. D. Rowlands o Langeitho yn pregethu, ac fel hyn y traetha efe am effeithiau y bregeth hono ar ei feddwl:—"Ei destun oedd yn *Heb.* iv. 15: a bydd y diwrnod yn dra chofiadwy genyf tra byddwyf byw. O'r diwrnod cysurol hwnw cefais fath o nefoedd a dacar newydd i'w mwynhau. Y cyfnewidiad a brofai dyn dall wrth dderbyn ei olwg, nid ydyw yn fwy na'r cyfnewidiad a brofais i y pryd hwnw yn fy meddwl,—

Cliodd daiar, aeth o'r golwg,
Nef a ymagorai'n amlwg;
Sain angelaidd oedd i'm clustiau,
Adsain nefol ber ganiadau.

Dyna'r pryd yr argyhoeddwyd fi gyntaf o'r pechod o annghrediniaeth, neu o gynwys meddyliau culion, bychain, a chaled, am yr Hollalluog. Gyda hyny cefais y fath olwg ar Grist fel ein harchoffeiriad, ar ei gariad, ei dosturi, ei allu, a'i hollddigoneld, ag a lanwodd fy enaid â syndod, ie, â 'llawenydd annhraethadwy a gogoneddus.' Yr oedd fy meddwl wedi ei orthrechu a'i orchfygu gan syndod: yr oedd y gwirioneddau a osodwyd ger fy mron yn ymddangos yn rhy anfeidrol rasol i'w credu; nis medrwn gredu gan lawenydd. Bydd y golygiadau gogoneddus a gefais y pryd hwnw er llawn ddigoniad i fy enaid, yn y myfyriaeth arnynt, yn mhen myrdd o oesoedd i ddyfod. Yr oedd genyf o'r blaen ryw ddarluniad o wirioneddau yr efengyl, megys yn nofio yn fy mhen; ond erioed hyd y tro hwn ni threiddiasant i'm calon gydag effeithiolaeth a nerth dwyfol. Arosodd effaith y bregeth hon ar fy meddwl am fwy na haner blwyddyn; ac yn y misoedd hyny yr oeddwn, yn gyffredinol, mewn agwedd gysurus a nefolaidd. Yn fynych wrth rodio yn y meusydd, mi a godwn fy ngolwg yn llawen i'r nef, fel un yn edrych tua'i gartref, a than hiraethu yn wresog am ymddangosiad fy Iachawdwr gogoneddus i'm cymeryd am byth ato ei hun. Eto, ar amserau, annheuon a redent i fy meddwl, a mi a ddywedwn ynof fy hun, 'A oes modd i'r pethau hyn fod yn wir?' Yna yr Arglwydd a barai i'r fath eiriau a'r rhai hyn ddadseinio yn fy meddwl—'Ni chyflawnaf angerdd fy llid; ni ddychwelaf i ddinystrio Ephraim; canys Duw wyf fi, ac nid dyn;' *Hos.* xi. 9. 'Fy enaid, bendithia yr Arglwydd, ac nac anghofia ei holl ddoniau ef;' *Salm* ciii. 4."

Yn 1775, agorwyd y drws iddo yn annisgwyliadwy i fyned i brifysgol Rhydychain; a derbyniwyd ef yn aelod o Goleg yr Iesu, lle y ffurfiodd gydnabyddiaeth ag amryw wyr ieuainc crefyddol. Wedi bod yno am ddwy flynedd cafodd ei hunan mewn cyfwng pwysig oherwydd palliant ei gynorthwyon arianol o Gymru, ac yntau ar y pryd mewn ugain punt o ddyled. Parodd hyn ofid mawr iddo, a phenderfynodd hysbysu ei

Digitized by Google

ddyledwyr o'i sefyllfa, a gadael y coleg. Ond rhai cyfeillion a addawsant ei gynorthwyo, ac un boneddwr a dalodd ei holl ddyled, ac a addawodd na chai fod arno eisiau dim tra yn Rhydychain. Urddwyd ef yn ddiacon Mehefin 14, 1778. Yr oedd wedi ymrwymo i wasanaethu curadaeth yn Ngwlad yr Haf, ond gan nad oedd ar ei beriglor ei eisiau hyd Wyl Mihangel, daeth ar wahoddiad ei gyfaill, y Parch. S. Llwyd, i'r Bala. Treuliodd yma, ac mewn taith trwy ran fawr o Ogledd Cymru oddeutu pum wythnos—hwn oedd ei ymweliad cyntaf â maes ei lafur dyfodol. Oddeutu Gwyl Mihangel, dechreuodd ar ei weinidogaeth gyhoeddus, fel curad i'r Parch. Mr. Newman, Queen Camel, Gwlad yr Hâf. Yn Mawrth 1779, graddiwyd ef yn B.A. Ar yr achos hwn ysgrifenai yn ei ddyddlyfr fel y canlyn :—"Nid wyf mwyach yn aelod o'r Coleg. Daioni a thrugaredd Duw a fuant yn wir yn fawr iawn tuag ataf tra bum yno. Boed i'm calon fod byth yn ymostyngar a diolchgar am y trugareddau a dderbyniais. Cefais fy nghynal yno trwy ffyrdd a moddion o ddarpariad Duw, a'r fath ag oedd yn eglur ddangos ei law anweledig Ef yn eu trefniad. Yr oedd y temtasiynau a ymosodasant arnaf yn gryfion a lliosog: ond yr Arglwydd a'm cadwodd." Blynyddoedd o ddysgyblaeth lem oedd y pum mlynedd a dreuliodd ef yn Queen Camel. Pum punt a deugain oedd ei gyflog yno y flwyddyn gyntaf; gostyngwyd hyny i ddeugain, a thrachefn i ddeg ar hugain yn y flwyddyn.

Gadawodd Wlad yr Haf yn 1783, a daeth i'r Bala. Mae yn debyg ei fod yn ystod ei ymweliad cyntaf â'r Bala wedi ffurfio cydnabyddiaeth yno âg un Miss Jones, yr hon a hanai o deulu parchus a chyfrifol; a'r hon a briododd Mr. Charles tua therfyn 1783. O hyn allan y Bala oedd ei gartref; a'i gais cyntaf oedd am le i weinidogaethu yn ngwasanaeth yr Eglwys yr oedd efe yn urddedig weinidog o honi; ond dros hir amser bu ei gais yn ofer am un lle nes na Shawbury, sir Amwythig; a bu yn teithlo yn achlysurol am yn agos i flwyddyn i'r lle hwnw—pellder o tua 45 o filltiroedd, a gwell oedd ganddo hyny na bod yn segur. Oddeutu y fl. 1784, cafodd guradaeth Llanymawddwy. Bu yn teithio yno, pellder o wyth milldir ar hugain yn ol a blaen, bob Sabbath am yn agos i dri mis. Ond achwynodd rhai o'r plwyfolion wrth yr offeiriad ei fod yn cateceisio y plant ar ol y gosper, a'r canlyniad fu i'r offeiriad ei rybuddio i ymadael. Eto nid oedd efe yn foddlon i neillduo oddi wrth yr Eglwys Sefydledig, er mor chwerw y trinid ef ganddi. Cynygiodd ei gwasanaethu am ddim; ond nid oedd dim yn tycio. Bellach, ymgododd meddyliau dyeithr o'i fewn; yr oedd tair o eglwysi eisoes wedi ei wrthod, ac ymrithiai segurdod a dinodedd fel melldithion o'i flaen. Pa beth oedd i'w wneud? Ai syrthio yn ysglyfaeth iddynt? Ymgynghorodd a'i gyfeillion yn Lloegr, y rhai a'i hanogent i adael Cymru a dyfod dros Glawdd Offa, lle y cawsai ragorach derbyniad; ond atebodd yntau nas gallai wneud hyny—am ei fod, meddai, mor dueddol i gymeryd Cymru, fel y cymerodd ei wraig, "er gwell ac er gwaeth," hyd oni wahanai angau. Ymgynghorodd â'i gyfeillion yn y Bala, ac yr oeddynt hwy un ac oll yn erbyn iddo eu gadael; a diau iddo ymgynghori llawer â'i Dduw, yr hwn sydd yn trefnu preswylfod pob dyn ar y ddaear. Fel prawf o sefyllfa gythryblus ei feddwl ar y pryd, dyfynwn lythyr o'i eiddo yn y cyfwng hwn at un o'i gyfeillion, dywedai ei bod yn gyfyng arno o'r ddeutu—rhwng gadael yr Eglwys ac aros ynddi:—"Wedi cael fy nhroi allan o dair o eglwysi, yn y wlad, ac heb obaith o gael un arall, pa beth a wnaf? Yn yr eglwys ddiweddaf a

Digitized by Google

wasanaethais, bûm dri mis. Cafodd yr efengyl ei bendithio yn fawr yno, fel y mae pethau yn ymddangos yn bresenol. Y mae y bobl yno yn gwaeddi arnaf dan wylo am eu porthi hwynt â bara y bywyd. Pa beth a wnaf? Y mae geiriau Crist yn swnio yn barhaus yn fy nghlustiau, 'Portha fy ŵyn.' Yr wyf yn meddwl fod fy nghalon yn barod i ymaflyd yn y gwaith, bydded y canlyniad a fyddo." Ac o'r diwedd, wedi llawer o bryder meddwl, penderfynodd fwrw ei goelbren gyda'r Methodistiaid Calfinaidd.

Er cystal caffaeliad oedd efe i'r enwad hwnw, dywedir nad derbyniad gwresog iawn a gafodd efe gan lawer o'i frodyr newyddion; edrychent arno ar y cyntaf fel un balch, diddawn, a diddefnydd; ond nid felly y dosparth mwyaf goleuedig o honynt, a dywedai Rowlands ar ol ei wrando yn pregethu yn Llangeitho yn fuan wedi hyn, "Rhodd yr Arglwydd i'r Gogledd ydyw Charles." A bu i'r Arglwydd cyn hir arddel ei weinidogaeth gyhoeddus mewn modd amlwg iawn. Tua therfyn 1785, yr oedd efe yn pregethu mewn cymanfa yn y Bontuchel, ger Rhuthyn; a dywed ei fywgraffydd, y Parch. T. Jones, o Ddinbych, iddo lefaru am berson anfeidrol, ac ufudd-dod gweithredol a dyoddefol y Prynwr, gyda'r fath eglurdeb, awdurdod, ac effeithiau nefolaidd, ag a roddodd y gynulleidfa mewn syndod deffrous a diolchus, ac mewn ymdoddiad serchiadol ac ysprydol, na welwyd cyffelyb ond anfynych. Gallesid enwi manau eraill hefyd lle y cafodd hwyliau nefolaidd wrth draethu mawrion bethau Duw.

Gellir ystyried o 1785 hyd 1799 yn flynyddoedd ei lafur teithiol. Nid oes odid i ardal yn Nghymru nad ymwelodd efe â hi yn y cyfnod hwn, naill ai gyda'r amcan o sefydlu ysgolion (am ba rai y cawn sylwi yn mhellach) neu i draethu ynddi y newyddion da o lawenydd mawr. Yr oedd wedi ei gynysgaeddu â chryn radd o rym ac iechyd corphorol; ac arferai deithio ar bob math o dywydd, gan siriol gyd-ddwyn â lletty a chynaliaeth dlawd pan ddigwyddai felly ar ei ffordd. Ond yn fuan ar ol dechreu gauaf oer 1799, wrth deithio ar noswaith oerlem tros fynydd y Migneint, ar ei ddychweliad o sir Gaernarfon, ymaflodd yr oerfel yn mawd ei law aswy, yr hyn a barodd iddo ddolur maith a gofidus; a bu raid iddo oddef ei thori ymaith, neu golli ei fywyd o'i herwydd. Ofnid unwaith fod ei fywyd mewn perygl, a gweddiid llawer gan ei frodyr am i Dduw arbed bywyd mor werthfawr yn ei eglwys. Mewn un cyfarfod gweddi yn y Bala, darfu i un hen frawd o'r enw Richard Owen wneud y mater yn brif destun ei ddynesiad at Dduw. Darllenodd yr 2 Brenhinoedd xx., lle y sonir am estyniad oes o bumtheg mlynedd i Heseciah; ac wed'yn yn ei weddi dadleuai gyda thaerineb a hyder; "Pumtheg mlynedd yn chwaneg, O Arglwydd! Yr ydym yn erfyn am bumtheg mlynedd o estyniad ei oes; ac oni roddi di bumtheg mlynedd, O, ein Duw, er mwyn dy enw a'th achos!" Ac fel ped atebesid y weddi hon yn llythyrenol; bu Mr. Charles byw o fewn ychydig ddyddiau i bumtheg mlynedd ar ol hyn.

Ac ni chyfyngid ei lafur ef i Gymru yn unig. Bu tros rai blynyddoedd yn un o bedwar Gweinidog urddedig yn Eglwys Loegr, oedd yn myned o Gymru i weinidogaethu yn Nghapel Spa Fields, a Chapel arall perthynol i Gymdeithas y ddiweddar Arglwyddes Huntington, yn Llundain: (y Parchn. Mr. Jones o Langan, Mr. Griffiths o Nevern, a Mr. Nathaniel Rowlands, oedd y tri wyr eraill). Ac yn y rhan hon o'i lafur ni adawodd yr Arglwydd mo hono heb arwyddion o'i fendith ar ei ymdrechiadau. Mewn llythyr a ysgrifenwyd gan y ddiweddar

Digitized by Google

bendefiges Ann Erskine (yn Ebrill, 1792) i'w daer wahodd yn yr hâf canlynol i Lundain, y mae hi, ar ol adrodd am ddau a fuasai farw yn yr Arglwydd, yn hysbysu mai tan ei weinidogaeth ef y cawsant eu "galw trwy ras;" ac fod yn nghynulleidfa Spa Fields amryw eraill yn gwirio fod yr Arglwydd wedi bendithio ei bregethau er eu deffroad, eu hadeiladaeth, a'u cysur.

Pa fodd bynag, gadawodd oerfel y Migneint ei effeithiau llesgaol arno tra y bu byw; ac er iddo wneud gwaith mawr o hyny hyd ei farwolaeth, yn 1814, gwaith pwysicaf a phenaf, fe ddichon, ei oes, eto cyfnewidiodd faes ei lafur neu yn hytrach ei ddull o lafurio yn yr un maes. Newidiodd y bywyd teithiol am y llenyddol, ond gyda'r un amcan mawr mewn golwg, sef lles ei gyd-ddynion a gogoniant Duw. Yn y blynyddau hyn y cyhoeddodd efe "Y Drysorfa Ysprydol," 2 gyf.; y "Geiriadur Ysgrythyrol," 4 cyf.; a lluaws mawr o lyfrau at wasanaeth ei Ysgolion Dyddiol symudol ef ei hun, a'r Ysgol Sabbathol. Rhanwyd bywyd Mr. Charles yn lled gyfartal yn dair rhan, sef yr addysgiadol, y profiadol, a'r athrawol.

Ond yn nechreu 1814, yr oedd yn amlwg i bawb fod angau ar waith yn ei gyfansoddiad—darfod yn raddol yr ydoedd fel y gwelltyn yn crino tan y dywysen lawn. Yn Awst y flwyddyn hono, aeth ef a Mrs. Charles (hithau hefyd yn afiach ddigon) ar ymweliad â'r Bermo, er mwyn profi pa effaith a gai gwynt y môr arnynt; a chlybuwyd Mr. Charles yn dweyd wrth ei wraig, "Sally, y mae y pumtheg mlynedd agos ar ben!" Oddiyno aethant at eu perthynasau yn Machynlleth, lle y pregethodd efe ddwywaith y dydd Sabbath, Medi 4, a'r rhai hyn oeddynt ei bregethau olaf. Dychwelodd i'r Bala Medi 10, ac wedi iddo draethu ei ddiolchgarwch am gael cyrhaedd adref, chwanegodd, "Bellach nid oes genyf ddim i'w wneuthur ond marw." Ymwelodd cyfaill ag ef y bore y bu farw, a dywedodd, "Wel, Mr. Charles, y mae dydd trallod wedi dyfod," atebodd yntau, "Y mae noddfa," a dyna ei eiriau diweddaf. Bu farw ddydd Mercher, Hyd. 5, 1814, o fewn ychydig ddyddiau i fod yn 59 oed; a Mrs. Charles hithau hefyd a fu farw ar y 19eg o'r un mis.

Oddiwrth y crynodeb blaenorol o hanes Mr. Charles fe welir nad oedd llawer o hynodrwydd yn perthyn i'w fywyd. Cawsom brofion mae'n wir o lafur a diwydrwydd annghyffredin, ond yr oedd llawer hen bererin yn gydoeswr ag ef yn Meirion lawn mor ddiwyd ac ymdrechgar ag yntau. Ei brif hynodrwydd ef oedd fod ganddo lygad i weled angen ei gydwladwyr, calon i deimlo trostynt, a glewder i amcanu tori yr angen hwnw. Dyngarwch oedd egwyddor fawr lywyddol ei galon; dyma'r ffynonell o ba un y tarddai prif weithredoedd daionus ei fywyd, ac y ffrydiai allan y dymuniad anorchfygol hwnw i fod o rhyw fendith yn ei ddydd a'i genedlaeth. Yn fuan wedi iddo ymuno â'r Methodistiaid, gwelir yr anian hon yn cael ei dadblygu. Yr oedd anwybodaeth dybryd yn gordoi ein gwlad; ac ychydig iawn mewn cydmariaeth a allent hyd yn nod ddarllen eu Beiblau; ac o tan yr anwybodaeth hwn yr oedd ofergoeledd, anfoes, a phob pechod gwaradwyddus yn bodoli. Yn ngwyneb hyn, daeth Mr. Charles i'r penderfyniad mai y ris gyntaf tuag at efengyleiddio y genedl oedd ei dysgu—ei dysgu i ddarllen—i ddarllen y Beibl. Penderfynodd sefydlu yn ngwahanol barthau'r wlad *Ysgolion Dyddiol*, ar gynllun rhai y Parch. G. Jones, o Landdowror. Apwyntiodd nifer o ddynion cymhwys ac ewyllysgar i'w harolygu; ac nid gorchwyl bychan oedd darparu ar gyfer cynaliaeth y rhai hyn.

Digitized by Google

Cyfranai yn ehelaeth ei hun; eithr o angenrheidrwydd, nid digon hyny, a bu boneddigion eraill yn Nghymru a Lloegr yn dra haelionus. Nid arosai yr Ysgol byth tros dri mis yn yr un ardal, gan y byddai yr ysgolorion yn nghorph yr amser hyny wedi cael rhyw ddirnadaeth am ddarllen y Beibl, beth bynag; ac yna symudid hi i oleuo rhyw ardal arall. Y mae yn anmhosibl dirnad o ba feudith y bu yr Ysgolion dyddiol hyn i'r genedl; ond yr oedd yn amlwg nas gallent gyrhaedd corph mawr y genedl, canys ychydig a allent fforddio amser ar ddiwrnod gwaith i fyned i'r ysgol. Ar gyfer y dosparth hwn y sefydlodd Mr. Charles yn Ngwynedd yr *Ysgol Sabbathol;* y sefydliad, ar lawer ystyriaeth, a wnaeth fwyaf o les i genedl y Cymry o un arall. Yr oedd Raikes o Gaerloyw wedi dechreu codi sefydliadau o'r fath yn ei wlad yntau beth amser cyn hyny, ond y mae pob lle i gredu na wyddai Mr. Charles ddim am hyn, ac fod y drychfeddwl lawn mor wreiddiol iddo ef ag oedd i Mr. Raikes. Cafodd y symudiad hwn gryn wrthwynebiad ar y cyntaf hyd yn nod gan rai o frodyr Mr. Charles ei hun. Tybient hwy, druain, yn mhoethder eu sel, nad oedd dysgu darllen ar y Sabbath yn ddim amgen na gwaith bydol yn tarddu oddiar hunanles a diffyg parch i sancteiddrwydd y seithfed dydd. Ond nid felly y tybiai efe, ac yn mlaen yr aeth er pob gwrthwynebiad. Dechreuodd ar y gwaith hwn yn 1789, a bu yn ddiwyd a ffyddlon wrtho hyd ei farwolaeth. Yn nghyfarfodydd Misol a Chwarterol yr enwad, nid esgeulusodd unrhyw gyfleusdra i ddwyn y pwnc gerbron. Yn mhen ychydig flynyddoedd, gymaint oedd cynydd y symudiad, fel yr oedd dysgu darllen yn bleser a hoffwaith y lluaws. Ond erbyn i'r lluaws ddysgu darllen, nid oedd Beiblau ar eu cyfer; ac er i'r Cymry eu hunain wneud eu goreu i ddiwallu yr angen hwn, eto yr iaith ydoedd "Moes, moes,"—a'r alwad yn llawer mwy na'r cyflenwad. Yn awr, daw dolen arall yn llafur Mr. Charles i'r golwg. Aeth i fynu i Lundain, a dygodd yr achos gerbron y Gymdeithas er lledaenu Gwybodaeth Gristionogol; ac yn unol â'i gais, daeth y gymdeithas hono yn 1796 ag argraffiad allan o 10,000 o gopiau o'r Ysgrythyrau yn yr iaith Gymraeg. Ond beth oedd hyny rhwng cynifer? Cyn pen pedair blynedd yr oedd pob copi o honynt wedi eu gwerthu, a'r alwad am Feiblau gymaint ag erioed. Yn ngwyneb hyn, aeth Mr. Charles eilwaith i Lundain gyda'r amcan mae'n ddiau o geisio darbwyllo yr un Gymdeithas i gyhoeddi argraffiad arall. Eithr ni chaniatai adnoddau arianol y Gymdeithas iddi y tro hwn gydsynio a'i gais. Bellach nid oedd ganddo ond troi ei wyneb am help i rywle arall; canys nid gwr oedd efe i wangaloni, a dychwelyd adref yn waglaw. Daeth i gydnabyddiaeth yn Llundain ag un Joseph Tarn, Ysw., boneddwr o'r un natur Gristionogaidd ag ef ei hun. Cafodd ynddo ef bleidiwr gwresog i'w amcan daionus; a phenderfynwyd ar ffurfio cymdeithas, amcan yr hon fyddai cyflenwi angenion y Cymry am Feiblau. Galwyd cyfarfod o ychydig wyr haelionus yn Llundain i ystyried y mater. Gosododd Mr. Charles y pwnc gerbron mewn dull deheuig; a derbyniwyd ef yn galonog. Yna y cododd y Parch. Joseph Hughes, gweinidog gyda'r Bedyddwyr, ac ar gynygiad Mr. Charles i gael Cymdeithas i ddiwallu angen y Cymry, dywedodd, "Os i Gymru, paham nad i'r deyrnas yn gyffredinol, ac i'r byd." Mawr gymeradwywyd y syniad hwn; penderfynwyd cael ail gyfarfod lluosocach, a chynaliwyd hwnw yn y London Tavern, Mawrth 7, 1804, pryd yr oedd rhwng dau a thri chant yn bresenol, ac ac y tanysgrifiwyd £700 yn y fan. Dyna gychwyniad y *Gymdeithas Feiblaidd Frutanaidd*

Digitized by Google

a Thramor, yr hon sydd wedi gwneud mwy tuag at wareiddio ac efengyleiddio y byd na'r holl gymdeithasau dyngarol eraill gyda'u gilydd; ac fel y gwelir yr oedd gan ein cydwladwr o'r Bala ran ehelaeth yn ei sefydliad. Yr oedd ei helfenau hanfodol yn gyflawn yn ei gynygiad ef; nid oedd sylw Mr. Hughes ond yn unig yn eangu y drychfeddwl. Bellach, wele ddarpariaeth reolaidd a threfnus wedi ei gwneud at ddiwallu angenion Cymry am Feiblau; a chawn Mr. Charles yn nesaf wrth y gorchwyl o ddarparu goleufynag hylaw a chynwysfawr i egluro yr Ysgrythyr; yr hwn a gyhoeddwyd mewn pedair cyfrol, tan yr enw, "Geiriadur Ysgrythyrol;" a diau mai dyna brif waith ei fywyd, a'r gwaith y coffheir ei enw ynddo tra pery'r iaith Gymraeg. Y mae bellach chwech argraffiad ohono wedi ymddangos, a thuag ugain mil ohono wedi eu gwerthu yn mhlith ein cydwladwyr yn Nghymru. Dygpwyd argraffiad ohono allan yn America hefyd, a gwerthwyd yno tua 1,500 o gopiau. Y mae y darlleniad helaeth a gafodd y llyfr yn peri y casgliad naturiol ei fod wedi dylanwadu yn fawr ar genedl y Cymry; ac nid rhyfedd, canys byddai llyfr o'i fath yn gaffaeliad i lenyddiaeth unrhyw genedl tan haul.

Ysgrifenodd Mr. Charles lyfrau eraill hefyd. Y mae yr "Hyfforddwr" o'i waith yn ddigon hysbys: a pha beth bynag a ddywedir am rwymo yr ieuanc i ddysgu cyfres o athrawiaethau y byddo weithiau heb eu deall, a phryd arall yn annghredu eu gosodiadau, eto y mae yn anhawdd credu na wnaeth yr "Hyfforddwr" lawer o ddaioni yn ei ddydd. Yr oedd hefyd yn awdwr llyfr tra ymarferol o'r enw, "Esboniad ar y Deg Gorchymyn;" hefyd traethodyn Seisnig yn amddiffyn ei enwad rhag rhyw gamgyhuddiadau a ddygid i'w herbyn, yr hwn a elwid, "Vindication of the Welsh Methodists;" a dygwyd dwy gyfrol o'r *Drysorfa Ysbrydol* allan tan ei olygiaeth, yn y rhai y ceir traethodau campus o'i waith ef ac eraill ar Dduwinyddiaeth, Bywgraffiaeth Eglwysig, &c. Arferai gadw dyddlyfr am oddeutu saith mlynedd, sef o'i fynediad i'r coleg hyd ei ddyfodiad i'r Bala; ac nid oes odid i ddim o'i waith yn arddangos cymaint o ddyfnder teimlad, a chydnabyddiaeth drylwyr â'r galon ddynol, â'r hyn a gyhoeddwyd o'r llyfr hwn. Bu ganddo law yn nghyhoeddiad amryw lyfrau eraill, ond gan na roddes efe ei enw wrthynt, nid oes genym ond dirnadu pwy oedd eu hawdwr; ac y mae llawer cyffyrddiad llednais, syniad dyrchafedig, a phurdeb moes, yn ein cyfeirio yn ddigon diamwys at Mr. Charles fel eu hawdwr. Nid gwr yn udganu o'i flaen oedd efe; nid bob amser y gwyddai ei law aswy ef yr hyn a wnelai ei law ddehau; ac yn nydd mawr y cyfrif y ceir gwybod o ba fawr fendith y bu efe i'w oes a'i genedl.—*Cofiant Charles yn y* Geiriadur; *Hanes Rowlands o Langeitho, &c., &c.*

CHURCHEY (Walter), Ysw., ydoedd frodor o Aberhonddu. Yr oedd wrth ei alwedigaeth yn gyfreithiwr. Ymunodd yn fore â Chymdeithas y Parch. John Wesley, ac yr oedd cyfeillgarwch mawr rhyngddynt. Y mae ar gael 14 o lythyrau ato oddiwrth Mr. Wesley, o'r fl. 1777 i 1789. Yr oedd Mr. Churchey yn fardd gweddol dda. Cyfansoddodd Farddoniaeth arwraidd o ddeng mil o linellau ar "Life of Joseph," yr hon a argraffwyd yn ngwasg Mr. Wesley ei hun, yr hwn a gafodd gant o enwau at y gwaith yn ol gini yr un. Ond triniaeth arw a gafodd y llyfr oddiar law y beirniaid, a methiant llenyddol ac arianol fu yr anturiaeth.—Wesley's *Works*, xii., 416—423.

CIAN, un o enwogion y 6ed ganrif. Crybwyllir gan Aneurin yn y *Godonin* am ryfelwr o'r enw:—

Digitized by Google

"Ny nennws gwrawl gwadae chwegrwn
Maban y gian o vaen gwyngwn."

Sonir am y cyfryw yn "Ngorchan Maelderw :"—

"Anvonavc eiscullut alltud marcuruc
Un maban e gian o dra bannauc"

Cofnoda Nennius fardd o'r enw, a chofrestrir ef ganddo yn mhlith y beirdd cyfoed âg Aneurin, Taliesin, a Llywarch Hen :—

"Clan qui vocatur Gweinchguant"

[Cian yr hwn a elwir Gwyngwn]. Ac yn yr un nodwedd y cyfeirir ato gan Taliesin, yn "Angar Cyfundawd :"—

"Cian pan ddarfu
Lluaws gyroll."

Bernir mai yr un gwr fyth oedd y sant a sylfaenodd eglwys Llangian yn Lleyn, sir Gaernarfon ; lle y cedwir ei gofwyl ar yr 11eg o Ragfyr. Nis gall fod nemawr o ddadl nad yr un oedd y rhyfelwr a'r bardd ; ond mai yr un hefyd oedd y sant, sydd fwy annhlys, er nad yw hyny annhebyg. Tybir iddo ymgiliaw o dwrf a therfysg rhyfel i neilldudedd Lleyn yn y rhan ddiweddaf o'i oes, ac ymroddi i fuchedd grefyddol. Ond os cywir y dyb hon, prin y gall yr hyn a ddywedir mewn rhai cofion, sef mai *gwas* i Peris ab Helig Glanog, ydoedd sylfaenydd eglwys Llangian, fod yn gywir hefyd. Yn "Englynion Beddau Milwyr Ynys Prydain," crybwyllir am ryfelwr o'r enw Cian :—

"Kian a ud yn ddiffeith cnud
Drav otuch pen bedd alltud."

Ond nid oes sicrwydd mai Cian y *Gododin* a Thaliesin yw y Cian hwn; a thybia rhai mai enw cyffredin yw Cian yn y lle hwn.

CILAN (Hywel). Bardd enwog yn ei flodau o 1460 i 1490. Efe oedd perchenog Llawr y Cilan yn Llandrillo yn Edeyrnion. Ychydig o'i waith a gyhoeddwyd, ond y mae llawer ar gael mewn llawysgrifau.

CILHWCH ab Cilydd ab Celyddon, arwr y *Fabinogi* "Cilhwch ac Olwen, neu Hanes y Twrch Trwyth," yr ardderchocaf ei chynllun, mae'n ddiau, o'r holl *Fabinogion*. Y mae pob lle i gasglu mai alegori hirfaith a phrydferth ydyw o'r Bardd a'r Awen—Cilhwch, y Bardd, yn caru Olwen, yr Awen. Gosodir allan yr anhawsderau sydd ar ei ffordd mewn dull nerthol ac eithafol, gorfyddir yr anhawsderau hyn mewn dull rhamantus a gwyrthiol ; a chredwn nad oes dim mewn llenyddiaeth henafol unrhyw wlad, a chymeryd i mewn yr "Arabian Nights Entertainments," mor gyfoethog mewn crebwyll a darfelydd â'r Fabinogi ardderchog hon. Y mae y dysgrifiad o Olwen yn dlws annghydmarol :

"Pan ddaeth, gwisg o sidan ffiamgoch oedd amdani, a chadwen o ruddaur a pherlau emrald oedd am ei gwddf ; melynach oedd ei phen na blodau y danadl, a gwynach ei chroen nag ewyn y don. Tecach oedd ei dwylaw a'i bysedd na blodau'r anemoni yn ewyn y ffynon gweirglodd. Dysgleiriach oedd ei llygaid na golwg y gwalch a'r hebog. Gwynach oedd ei dwyfron na bron yr alarch gwyn. Cochach ei dwyrudd na'r claret cochaf. Y sawl a'i gwelai, cyfiawn fyddai o'i serch. Pedair o feillion gwynion a dyfent yn ol ei throed, pa ffordd bynag y cerddai ; ac am hyny gelwid hi Olwen."

Gan na chyfarfyddir ag enwau Cilhwch nac Olwen yn un man arall, tybir mai enwau ydynt a ddyfeisiwyd gan awdwr y *Fabinogi*. Ceir cyfeiriadau mynych yn ngwaith yr hen feirdd, megys Dafydd ab Gwilym, Sion Brwynog, &c., at Olwen, fel personoliaeth glendid a thegwch. Gresyn na thalai awduron Cymreig yr oes hon fwy o sylw i *glassics* eu gwlad eu hunain, gan eu bod mor ddyrchafedig a phur-syniadol ag eiddo yr un genedl dan haul.

Digitized by Google

CILMIN DROED-DDU, oedd fab i Gador Gwriad. Efe oedd y penaeth a ddaeth i sir Gaernarfon gyda Merfyn Frych, O.C. 819, ac a sefydlodd ei drigfan yn Nglyn Llifon, yr hwn le sydd hyd y dydd heddyw yn aros yn meddiant un c'i ddisgynyddion, a chymerodd llawer o honynt y cyfenw Glynne, oddiwrth enw y lle. Yr oedd yn ben un o bumtheg llwyth Gwynedd. Yn ol traddodiad, darfu i Cilmin gynorthwyo y dewin i ladratta llyfrau y gwr drwg; ac wrth ffoi, efe a fethodd lanu dros ffrwd, yr hon oedd derfyn pellaf yr ymrysonfa; a suddodd ei goes aswy yn y dwfr, yr hyn a achosodd iddi droi yn ddu. Gall y darllenydd gael ychwaneg o'r neillduolion yn helaeth yn Miss Costello's "Pictorial Tour through North Wales."—Wms. *Em. Welsh.*

CIWA, sant yn ei flodau yn y 6ed neu'r 7fed cant. Efe a sefydlodd eglwys Langiwa (Llangua), yn Mynwy.

CIWG, sant yn ei flodau yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Aaron, ab Cynfarch. Sefydlodd eglwys Llangiwg, neu, fel y Saesoneiddir yr enw yn bresenol, Llanguke, yn Morganwg.

CLEDWYN, un o feibion Brychan Brycheiniog, yn ei flodau yn y 5ed ganrif. Ar farwolaeth Brychan, Cledwyn a'i dilynodd yn llywodraeth Brycheiniog; a hynododd ei hun trwy ymlid y Gwyddyl Ffichti o'r Deheubarth, y rhai a gymerasent feddiant o'r wlad trwy drais a gormes. Tybir iddo yn mhrydnawn ei oes ymgymeryd â bywyd crefyddol, canys y mae eglwys yn sir Gaerfyrddin, sef Llangledwyn, yn dwyn ei enw, lle y cynelir ei wylmabsant Tach. 1.

CLOFFAN, sant; ni wyddis dim am dano ond ddarfod iddo sefydlu eglwys Llangloffan, yn Mhenfro.

CLOUGH PARCH. R. B., M.A.), periglor Corwen: bardd a llenor dysgedig, yn ol tystiolaeth Bardd Nantglyn am dano. Gwelsom rai o'i gyfansoddiadau barddonol yn y *Gwyliedydd.* Bu farw Gor. 11, 1830, yn 48 oed. Dywed Bardd Nantglyn wrth ei anerch,—

"Bardd ydych o bur ddodiad,
Adwaenoch swn adenydd
Cystrawen yr awen rydd
Medrwch glymu ymadrodd
Goleu teg dan gload hawdd."

Ei farwolaeth ef oedd un o destynau Eisteddfod Edeyrnion, Tach. 5, 1830. Rhagorai fwy, mae'n debyg, fel noddwr haelionus beirdd a barddoniaeth nag fel bardd ei hunan. Yr oedd efe yn nodedig am ei wladgarwch a'i ddyhewyd dros iaith a llenyddiaeth y Cymry.

CLOUGH (SYR RICHARD), a gododd ei hun o fod yn fachgen tlawd yn nhref Dinbych i fod yn un o brif farsiandwyr ei oes. Ganwyd ef tua'r fl. 1520. Efe oedd pumed mab Mr. Richard Clough, yr hwn a ddygai yn mlaen fasnach led flodeuog fel glwfer yn y dref hono; a'r hwn a ymgysylltodd ddwywaith mewn priodas â theuluoedd tra pharchus. Ymddengys fod gan y bachgen Richard lais canu gwych, a phan ar ymweliad un tro â Chaerlleon, tref enedigol ei fam, cafodd le fel corganor yn mynachlog y ddinas hono. Daeth yno yn dra phoblogaidd; a phan ddechreuwyd peidio arfer corganu yn yr eglwysi, cafodd rhai o gyfeillion Richard Clough le iddo gyda Syr Thomas Gresham, yn Llundain, lle y casglodd efe gyfoeth mawr iawn. Pan eto yn ieuanc, ac yn llawn sel, aeth ar daith o bererindod i Jerusalem, a gwnaed ef yn farchog y Bedd Santaidd, er na chyfaddefai efe hyny, rhag digio ei frenines Elizabeth, yr hon a gashai bob teitl estronol; ac o hyn allan adwaenir ef wrth yr enw *Syr* Richard Clough. Bu am rai blynyddau

Digitized by Google

yn oruchwyliwr masnachol tros Syr T. Gresham yn Antwerp, lle y ffurfiodd efe gydnabyddiaeth â'r gwr enwog hwnw Ortelius; a bu yn foddion befyd i enyn cyfeillgarwch rhwng y daearyddwr enwog â'i gyddrefwr Humphrey Llwyd, yr hynafiaethydd gwiwglodus: yr hon gyfeillgarwch a barhaodd mewn gohebiaeth ddidor hyd farwolaeth yr olaf yn 1568. Ond er cymaint ei lwyddiant, yr oedd ei galon yn biraethu am ei famwlad, a disgwyliai rhyw ddydd gael mwynhau ffrwyth ei ddiwydrwydd a'i lafur yn ardal ei enedigaeth. Yn 1564, llwyddodd Syr T. Gresham i gael gwaddoliad o dir iddo yn ei hen ardal; ac adeiladodd yntau balasdy hardd yn y dull Fflemaidd arno, sef y Bachegraig, ger Dinbych; ac un arall, Plas Clough, yn yr un gymydogaeth. Yn y fl. 1567, priododd yr enwog Catrin o'r Berain, o ba un y bu iddo ddwy ferch. Yn y fl. 1569, daliwyd ef yn Dieppe, gan y Ffrancod, a chanddo bapurau pwysig i'r frenhines; ond buan y rhyddhawyd ef. Wedi terfynu ei gysylltiadau masnachol gyda Syr Thomas Gresham, aeth i Hamburgh yn gynrychiolwr i'r *Fellowship of Merchant Adventurers;* ac yma yn 1570, yn nghanol ei ddyddiau, wedi afiechyd dirdynol, y gorphenodd efe ei oes, heb gael medi ond ychydig o'i ffrwyth. Claddwyd ef yn Hamburgh; eithr ei galon, (a'i ddeheulaw hefyd, medd rhai), a ddygwyd trosodd i Brydain mewn cist arian, ac a gladdwyd yn yr Eglwyswen, ger Dinbych. Yn ei ewyllys, gadawodd ei dda symudol i'w berthynasau; a'i gyfoeth tirol i'w wraig a'i ddwy ferch. Daeth Bachegraig i feddiant Anne, ei ferch hynaf, yr hon a briodes Roger Salisbury, Ysw., mab y Lleweni, a pharhaodd yn teulu hyd oni ddaeth i feddiant aeres, a hono yn neb llai na'r awdures alluog Mrs. Thrale. Yno y byddai hi yn byw ac ymfalchiai yn fawr yn adail hen ei henafiaid; eithr pan ail-briododd hi gyda Mr. Piozzi, hi a symudodd i dy yn uwch i fynu, o'r enw Brynbella. Plas Clough a syrthiodd i feddiant mab ordderch i Syr Richard, a ddygasai efe trosodd gydag ef o Antwerp; ac yn meddiant ei ddisgynyddion ef y mae y lle hyd y dydd hwn. Ystad y Maenan, yn sir Gaernarfon, a ddisgynodd i ran ei ferch ieuengaf, Mary, yr hon a briododd Wynne o Felai, ac y mae yn awr yn meddiant disgynydd, sef Arglwydd Newborough. Yn ei ewyllys, gadawodd £100 tuag at sefydlu Ysgol Rydd yn nhref Dinbych, eithr, fel llawer arian gwaddol eraill a adawyd at amcanion daionus, collwyd hwynt. Yr oedd ei gyfoeth mor fawr fel y daeth y gair "Myn'd yn Glough." yn ddiareb yn y cwr hwnw am fyn'd yn gyfoethog. Gwladgarwr trwyadl oedd efe, yn caru ei wlad gyda brwdfrydedd annghyffredin; a bwriadai wneud llawer o welliantau ar ei rhan; megys gwneud yr afon Glwyd yn fordwyol o Ruddlan i fynu i Ruthyn; dwyn masnach ar brisiau cyfanwerth i galon y wlad; a throi rhan o'i adeiladau yn Bachegraig yn ystordai at wasanaeth ei hen gymydogion.—*Ancient and Modern Denbigh;* Pennant's *Tours.*

CUDRO (Robert). Robin Cludro o Lanelwy, math o rigymydd digrif a diawen, a chyfoeswr â Sion Tudur yn 1580. Mae "Awdl y Gath" o'i eiddo ger ein bron mewn hen ysgriflyfr. Gellid meddwl mai siopwr ydoedd. Darlunia ei hun yn myned i farchnad Rhuthyn i brynu caws; ond wedi eu cael yr oedd y llygod yn eu bwyta; cafodd gath ragorol gan rywun i ddifa'r llygod; ond lladdwyd y gath gan gymydog; canmol y gath a melldithio y llofrudd yw baich y gân a eilw ef yn Awdl. Mae Sion Tudur yn y breuddwyd a gafodd Rhag. 13, 1580, yn cyfeirio at Cludro, wrth ddarlunio offeiriaid annysgedig yr oes hono: a thybiwn nad oedd Sion yn bleidiwr gwresog i'r Diwygiad, canys efe a ddywed—

Digitized by Google

"Ac o medrai un ddarllen Saesneg,
Fe ga'l urddau ar redeg;
Ac fe a ai i gerdded y gwledydd,
I ddarllen efengyl newydd;
Er na fedrai un gair o Ladin,
Fe wnai bregeth ar fin;
Cynt y gwnai Cludro
Un llawer gwell na hono."

CLYDAI, un o ferched Brychan Brycheiniog, a sefydlydd eglwys Clydai, yn Mhenfro, lle y cedwid ei gwylmabsant Tach. 1.

CLYDNO, 48ain brenin Prydain. Teyrnasodd cyn Cred.

CLYDNO EIDDIN, penaeth dewr, yn ei flodau yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Cynwyd Cynwydion; y mae pob hanes arall am dano wedi colli. Tybir ddarfod iddo ef a'i frodyr ymarwedd bywyd crefyddol pan mewn gwth o oedran. Cyfeiria Risierdyn, bardd yn y 13eg ganrif, ato fel dyn dewr a beiddgar. Efe oedd tad Cynon.

CLYDOG, sant, yn ei flodau yn y 5ed cant. Mewn rhai achau, gelwir ef yn fab i Brychan; ac mewn eraill, yn fab i Cledwyn, ac felly yn wyr i Brychan. Efe a sefydlodd eglwys Clodoc, yn sir Henffordd, lle y claddwyd ef. Dywed Cressy iddo ddioddef merthyrdod yn 492; coffheir ef yn y Merthyrdraith Awst 19.

CLYDOG, un o freninoedd Prydain cyn Cred. Dilynwyd ef gan Clydno.

CLYNOG (Maurice), aelod o athrofa Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn Wyryf y Gyfraith yn 1548. Yn 1556, cafodd rectoriaeth Corwen, yn Meirion; a gwnaed ef yn gor-beriglor Caerefrog, ac yn swyddog yn llys yr uchelfraint o tan y Cardinal Pole, archesgob Caergaint. Yn fuan ar ol marw y Dr. Wm. Glynn, esgob Bangor, yn 1558, darfu i'r frenines Mari benodi Clynog yn ddilynydd iddo; ond gan i'r frenines farw cyn iddo gael ei gysegru i'r swydd, efe a enciliodd, a Dr. Goldwell, esgob Llanelwy, gydag ef, trosodd i Rufain. Yno efe a wnaed yn rector y Clafdy Seisnig, wedi i'r adeilad hono gael ei throi yn goleg i fyfyrwyr Seisnig. Gelwid ef yno Dr. Maurice; a thrwy ei fod yn dra phleidiol i'r myfyrwyr Cymreig, enynodd gasineb yn ei erbyn oddiwrth y Saeson, yr hyn a barai ymrysonau mynych; a'r Pab a ddiswyddodd y Dr. o'r herwydd, yn 1581.—Wood's *Athen. Oxon.*

CLYWEDOG (Ieuan). Dywed Wms. *Em. Welsh.* fod y bardd hwn yn ei flodau rhwng 1410 a 1450, a'i fod yn llywydd Gorsedd Morganwg yn 1430; ond methasom a chanfod ei enw yn rhestr y Gorseddogion yn y Rhagdraith i waith Llywarch Hen, nac yn *Nghyfrinach y Beirdd* ychwaith. Mae amryw o afonydd o'r enw Clywedog yn Nghymru fel nas gellir sicrhau wrth yr enw yn mha fan y trigai.

CLYWEDOG (Sion), neu Sion Ieuan Clywedog; bardd yn ei flodau o 1580 hyd 1620.

CLYWEDOG (Watcin). Bardd a flodeuodd tua'r fl. 1600.

Nid oes genym ddim i'w ddweyd am y Clywedigion uchod, ond ini weled ychydig o'u gwaith mewn Cylchgronau, a bod rhagor ar gael mewn llawysgrifau.

CNEPPYN GWRTHEURNION, a Sypyn Cyfeiliog yw y ffugenwau a wisgid gan Dafydd Bach ab Madawg Wladaidd, bardd a flodeuai yn gynar yn y 15fed ganrif. Dichon mai brodor o Wrtheurnion, yn Maesyfed, ydoedd.

COBHAM (Arglwydd). Syr John Oldcastle, neu Sion Hendy, o Went-is-coed, oedd yn byw yn agos i Lanfihangel-cryg-cornel, ar derfynau siroedd Mynwy a Henffordd, oedd Gymro hynod am ei grefyddolder a'i sel yn erbyn Pabyddiaeth, gan' mlynedd cyn y Diwygiad Protestanaidd. Mae'r ardaloedd hyny yn hynod am mai yno y ceir yr olion cyntaf o'r grefydd Brotestanaidd yn Nghymru.

Digitized by Google

Mae lle i dybied i Wicliff yn ei gyfyngderau lechu yn y lleoedd dirgel hyny, ac i Syr John Oldcastle gyfarfod ag ef a chael ei enill yn ddysgybl brwdfrydig iddo, a daeth yn bleidiwr gwresog i athrawiaeth y Diwygiad. Dywed ei Fywgraffydd yn y *Gwyliedydd*, cyf. i., y byddai yn cynal pregethwyr ar ei draul ei hun i ddysgu athrawiaeth y Diwygiad i'w gydwladwyr, y Cymry. Gellir casglu oddiwrth hanes Walter Brute, Sion Cent, ac eraill o frodorion yr ardaloedd hyny, i athrawiaeth Wicliff lwyddo llawer yn Ngwent-is-coed, a gwreiddio mor ddwfn, fel nas gallodd y gelyn ei ddymchwelyd, ac i'r lefain aros yn y gororau hyny hyd nes cododd Wroth yn Llanfaches yn nechreu yr ail ganrif ar bumtheg.

Cafodd Arglwydd Cobham ei garcharu yn y Twr Gwyn oherwydd ei fod yn un o'r Lolardiaid, ond diangodd oddiyno yn 1413, a chiliodd i Bowys, a bu yn llechu yn Broniarth, yn gyfagos i'r Trallwng, am agos i bedair blynedd, eithr nid oedd gorphwysfa iddo yn unman, a gorchymynodd Edward Charlton, arglwydd Powys, i'w ddeiliaid chwilio am dano a'i ddal. Daliwyd ef gan Syr Gruffydd Fychan, arglwydd Byrgedyn, 1417, a dygwyd ef i'r Castell Coch, a thraddodwyd ef i ofal Edward Charlton, arglwydd Powys, yr hwn a'i hanfonodd yn union i Lundain yn ngofal ei fab-yn-nghyfraith Syr John Grey, a diofrydwyd ef i'r fflamau yn meusydd St. Giles. Crogwyd ef wrth gadwyn am ei ganol uwchben tân araf, a rhostwyd ef i farwolaeth. Goddefodd ei arteithiau gyda sefydlogrwydd a gwroldeb mawr. Dywed Arglwydd Oxford, mai efe oedd yr awdwr cyntaf yn ogystal a'r merthyr cyntaf yn mhlith ein dyledogion: dyn a wnaed yn Ddiwygiwr gan ei rinweddau, yn ferthyr gan ei wroldeb, ac yn hewydydd gan ei ferthyrdod.

Dywedir fod i deuluoedd Abertanad a Phontyscywryd ac eraill yn y gymydogaeth ymuno i'w hela, a chafwyd ef yn ei ymguddfa yn Mroniarth, yn agos i'r Llyn Du, yr hwn sydd ar y ffordd bresenol rhwng Meifod a Chegidfa. Dywed Yorke fod y cae lle y daliwyd ef yn cael ei alw "Gardd Arglwydd Cobham," hyd y dydd heddyw. Rhoddwyd gwybrwyon lawer i'r rhai a'i daliasant ef. Cafodd arglwydd Powys lythyr o ddiolchgarwch oddiwrth y senedd am ei wasanaeth a'i ffyddlondeb, a rhoddodd yntau wobrwyon i Ieuan ab Gruffydd ab Ieuan ab Madog ab Gwenwys, a Gruffydd Fychan ei frawd, am ddal John Oldcastle, yr heretic a gwyrdrowr y ffydd gatholig, gelyn y brenin, &c., a rhoddwyd arglwyddiaeth Broniarth i Danad o Abertanad, a rhagorfreintiau eraill i deulu Pontyscywryd y rhai sydd yn eu meddiant hyd heddyw. Ond daeth prif erlidiwyr Arglwydd Cobham i ddiwedd truenus; bu farw Edward Charlton yn 1421; lladdwyd Syr John Grey, ei fab-yn-nghyfraith, mewn brwydr yn 1412; bu farw Henry V., llosgwr yr hereticiaid, o'r eisglwyf, yn 1422; torwyd pen Syr Gruffydd Fychan, yr hwn a ddaliodd Syr John, yn muarth y Castell Coch, yn 1447; a Henry Grey, arglwydd Powys, a drengodd ar ol bywyd anenwog, yn 1450.

Dyna ddiwedd y Cymro mwyaf rhinweddol yn ei oes, yr hwn, o ran talentau, dewrder, a duwioldeb oedd yn rhy fawr ac yn rhy dda i'r oes y ganwyd ef ynddi. Gwel yn mhellach d. g. SION GWENT, a Hanes Arglwydd Cobham yn y *Gwyliedydd; Gwaith* Lewis Glyn Cothi; Yorke's *Royal Tribes*.

COEL, un o hen frehinoedd Prydain. Efe a ddilynodd Cadell ab Geraint, a dilynwyd yntau gan Parrex.

Digitized by Google

COEL, mab i Cyllin ab Caradawg ab Brân. Gelwir ef yn y *Trioedd* yn un o "Dri Madgyfriniwr Ynys Prydain," oherwydd mai efe a ddygodd gyntaf i Brydain felinau, a pheirianau malu. Tybir mai o Rufain y dygodd efe y ddyfais hon, lle y bu efe a'i deulu yn ngwystl tros Caradog ab Brân.

COEL AB MEURIG, a ddilynodd ei dad fel brenin Prydain. Wedi cael ei ddysgeidiaeth yn Rhufain, ac felly ymarfer ei hun â defodau ac arferion Rhufain, yr oedd ganddo ymlyniad wrth y Rhufeiniaid, ac yn hoff o'u cymdeithas. Gan hyny, er fod ganddo allu digonol i sefyll yn erbyn y deyrnged, efe a'i caniataodd yn rhwydd dros ystod ei oes, gan y gwelai yr holl fyd yn ymroddi iddynt; ac fel canlyniad ei ddoethineb, mwynhaodd ei ddeiliaid hollol heddwch yn ystod êi deyrnasiad. Y mae Langhorn yn dweyd fod oes Coel wedi cyrhaedd 289 o flynyddoedd, yr hyn a rydd reswm am ei ganmol ar gân fel yr "hen frenin Coel." Yr oedd yn ei rwysg yn amser Agricola—*Myv. Arch.*

COEL GODEBOG, neu Goedhebawg, o Caercoelin, a elwir weithiau Iarll Caerloyw, oedd yn ei rwysg yn y drydedd ganrif. Mab oedd ef i Tegfan ab Deheufraint ab Tudbwyll ab Eurben ab Gradd ab Rhuddfedel ab Rhydeyrn ab Afallech ab Aflech ab Lludd ab Beli Mawr. Efe a gododd mewn arfau yn erbyn Asclepiodotus, brenin Prydain, yr hwn a laddodd efe mewn brwydr, a thrwy hyny a gafodd y deyrniaeth iddo ei hun. Y pryd hyn daeth Cystenyn—seneddwr Rhufeinig, wedi bod eisoes ar waith yn darostwng Hispaen—i Brydain, i ddwyn Coel i ufudd-dod. Ond gan iddo ef ymostwng, cytunwyd ar heddwch, a bu Coel farw yn mhen pum' wythnos ar ol hyn, wedi teyrnasu deng mlynedd. Wedi hyny priododd Cystenyn â Helen, a gyfenwid Llwyddawg, yr hon a ddaeth yn fam i Cystenyn Fawr. Dyma'r hanes a roddir yn y *Brutiau Cymreig*, ac er fod Gibbon yn gwadu fod Helen o ddisgyniad Brutanaidd, y mae awdurdod Eumenius yn cael ei ddwyn o blaid yr hanesion Cymreig. Coel oedd tad St. Ceneu, a merch arall, Gwawl, gwraig Edeyrn.—Wms. *Em. Welsh.*

COF, aelod o goleg Illtud, a sant, yn byw yn y 5ed ganrif. Mab ydoedd i Ceidio ab Garthwys.

COFEN, sant yn ei flodau yn y 7fed cant. Ni wyddis ddim am dano ond ddarfod iddo sefydlu eglwys Llangofen, yn sir Fynwy; a chapel St. Gofen, yn sir Benfro.

COKE (PARCH. THOMAS, LL.D.), awdwr esboniad maith ar yr Ysgrythyrau, a'r cenadwr enwog, ydoedd fab i feddyg parchus yn nhref Aberhonddu, lle y ganwyd ef yn 1747. Addysgwyd ef yn ngolegdy y dref hono; a phan yn 17 oed derbyniwyd ef i Goleg yr Iesu, Rhyduchain, lle y cymerodd efe radd o Ddoctor yn y Gyfraith, yn 1775. Cafodd guradaeth Petherton, yn Ngwlad yr Haf, a bu yno am dair blynedd. Tua'r amser hwn, yr oedd John Wesley yn gwneud cynhwrf mawr yn Lloegr, ac yn rhifo ei ddychweledigion wrth y miloedd; ac yn mhlith y rhai hyn yr oedd Dr. Coke. Gadawodd yr Eglwys Sefydledig, a bwriodd ei goelbren i blith y Wesleyaid; a chyda hwynt yr arosodd mwyach yn fawr ei barch ganddynt ac yn addurn iddynt. Yn 1782, gwnaed ef yn llywydd y gynadledd Wyddelig Wesleyaidd; a'r fath oedd ei gymhwysder i'r swydd fel y bu ynddi am ddeng mlynedd a'r hugain. Yn 1784, taloed ei ymweliad cyntaf â'r America, ac arosodd yno am flwyddyn, yn sefydlu cangenau newyddion, ac yn hyrwyddo achos yr enwad y perthynai iddo. Yma efe a

Digitized by Google

ddefnyddiodd iaith gref yn ei bregethau, bradychodd hefyd anfreingarwch yn ei anerchiad at y llywydd, ac oherwydd hyn oll beiwyd ef gan benaethiaid yr enwad ar ei ddychweliad adref. Yn Rhagfyr, 1786, cyrhaeddodd eilwaith yr India Orllewinol, a chroesodd i Ogledd America, lle yr erlidiwyd ef ac y bu mewn mawr enbydrwydd oherwydd ei syniadau gwrthgaethwasiol. Dychwelodd i Loegr yr hâf canlynol Croesodd i'r America saith o weithiau ar ol hyn ar wahanol amserau; y fordaith olaf iddo oedd yn yr Hydref, 1803. Treuliai ei amesr yn y wlad hon, mewn sefydlu cenadaethau yn Iwerddon, yn Scotland, Ffrainc, ac yn Affrica. Yn 1800, tynodd gynllun allan i ledaenu egwyddorion y Trefnyddion Wesleyaidd yn ngwlad ei enedigaeth. Y flwyddyn ganlynol, dechreuodd gyfansoddi ei Esboniad, a chwblhaodd y gwaith erbyn 1807; cyhoeddwyd ef mewn chwe' cyf., pedwar plyg. Nid yw hwn, ebai Hartwel Horne, ond ail-argraffiad o waith y Dr. Dodd. Cyhoeddwyd y ddosran ar y Testament Newydd o hono yn y Gymraeg yn dair cyf. Yr oedd Dr. Coke hefyd yn awdwr tair cyf. o hanes yr India Orllewinol, ac amrai bregethau a mân draethodau eraill. Terfynodd ei oes selog a gwaithgar mewn modd tra disymwth, tra yr oedd efe yn y gwaith cenadol ar ei fordaith i'r India Orllewinol, Mai 1814.—Drew's *Life of Dr. Coke.*

COLEDDOG, mab Gwyn, oedd un o "Dri Anhual Farchogion Llys Arthur." Gwerinwyr a meibion estron oeddynt; ond cystal oedd eu gair a'u cyneddfau am addfwynder, a doethineb, a gwrolder, &c., fel nas gellid yn amgen na llys Arthur a'i breiniau a'e thrwydded iddynt. —*Trioedd* 120.

COLMAN, sant, i'r hwn y cyflwynwyd eglwysi Llangolman, a Chapel Colman, yn sir Benfro. Tybir mai Gwyddel oedd efe, ond y mae enwau y ddwy eglwys hyn yn profi iddo drigianu rhyw yspaid o amser yn Nghymru.

COLWYN, pen bugail gosgordd Brân ab Llyr, yn Morganwg, a ewilr yn un o "Dri Defeidydd Gosgordd Ynys Prydain:.....sef oedd y rhif o ddefaid a gadwai y tri wyr hyny chwech ugain mil, ac o danynt bob un dri chant o feibion eillion, yn nawdd Cenedl y Cymry." *Trioedd* 99.

COLL AB COLLFREWI, cymeriad tra hynod yn nhraddodiadau yr hen Gymry. Dywedir mai efe a ddygodd gyntaf wenith a haidd i'r ynys hon, lle nid oedd cyn hyny onid ceirch a rhug. Mewn *Trioedd* arall gelwir ef yn un o'r tri "Gwrddfeichiaid," am nas gellid "nac enill na gorthrech un o'r moch a gedwynt oddiarnynt," ac adroddir rhamant synfawr am dano yn gwylied hwch Dallwaren Dallpen rhag dyfod yn ormes ar Ynys Prydain; yr hon ramant a esbonir gan Davies yn *Myth. of the Druids* mewn dull tra chywrain a dysgedig.—*Trioedd* 56, 90.

COLLWYN. Mab ydoedd ef i Tango ab Cadfael ab Lludd, penaeth oedd yn byw oddeutu diwedd yr 8fed ganrif. Yr oedd yn arglwydd Eifionydd, Ardudwy, a rhan o Leyn; yn cynwys darn helaeth o sir Gaernarfon. Yr oedd ei hiliogaeth y dynion ardderchocaf a goreu yn y dalaeth, ac yn cael eu cyfrif y nesaf at y tywysogion a'u hiliogaeth. Yr oedd efe yn ben un o bumtheg llwyth Cymru, o ba un y mae yn disgyn yn uniongyrchol lawer o deuluoedd sydd yn awr yn meddianu etifeddiaethau helaeth yn y wlad hono. Bu Collwyn yn byw beth amser yn Nhŵr Bronwen yn Harleeh, ac oddiwrtho y galwyd y lle hwnw yn Caer Collwyn.—Wms. *Em. Welsh.*

Digitized by Google

COLLEN, sant yn ei flodau yn y 7fed cant. Yn ol rhai awdurdodau, dywedir mai mab ydoedd i Petrwn ab Coleddog; tra y dywed eraill mai mab ydoedd i Gwynawg, wyr i Caradawg Freichfras, ac mai ei fam ydoedd Ethri ferch i Fatholwch Wyddel. Yn y *Greal*, t. d. 337, ceir rhamant o'r fath fwyaf synfawr, yn proffesu gosod allan ei hanes, tan yr enw "Buchedd Collen." Yn hwn dywedir iddo fod am wyth mlynedd yn Orleans, Ffrainc, tan addysg y gwŷr-gred Julian. Pa fodd bynag, nis gellir rhoddi fawr o goel ar yr hyn a draetha y "Fuchedd" hon, canys amlwg yw nad ydyw amgen na ffrwyth dychymyg un o fynachod yr Oesau Tywyll. Efe a sefydlodd eglwys Llangollen, yn sir Ddinbych.

CONSTANS ydyw'r enw a ddodir yn y *Brutiau* ar Constantius, tad Cystenyn; yn mha rai y traethir ddarfod iddo gael ei ddanfon i Brydain i ddarostwng Coel Coedhebawg i warogaeth gwyr Rhufain, ac iddo drachefn briodi Elen Lueddawg ferch i Coel. Efe a ddilynodd ei dad-yn-nghyfraith i orsedd Prydain; ac wedi teyrnasiad o unarddeg mlynedd a gladdwyd yn Nghaerefrog.

CONSTANS, yr hynaf o dri mab Gwrthefyr Fendigaid. Rhoddwyd ef tan addysg Amphiblus yn Nghaerwynt, o ba le y cymerwyd ef ar farwolaeth ei dad gan Gwrtheyrn i'w ddodi o'i anfodd ar yr orsedd. Nid oedd ynddo ond ychydig o deithi meddyliol at wneud brenin; ei ddiniweidrwydd a'i gwnai yn offeryn hylaw i Gwrtheyrn; yr hwn wedi cwblhau ei gynlluniau bradwrus i dreisio y goron, a barodd lofruddio Constans, ac yntau a gymerth y llywodraeth. Cymerodd hyn le yn 448.—*Myv. Arch.*

CONWY (Huw). Bardd a flodeuodd o 1550 hyd 1580. Brodor. mae yn debyg, o Lan Conwy ydoedd. Mae peth o'i waith mewn llawysgrifau.

CONWY (Lewis). Bardd a flodeuodd rhwng 1570 a 1600. Cedwir peth o'i weddillion barddonol mewn ysgriflyfrau.

CONWY (Sion ab Huw). Bardd a flodeuodd rhwng 1570 a 1600. Mae ychydig o'i farddoniaeth mewn ysgriflyfrau. Tebygol mai mab Huw Conwy ydoedd.

CORDELIA, merch i'r brenin Llyr ab Bleiddyd, yr hwn wedi myned o hono yn hen a methiantus a benderfynodd roddi gofalon llywodraeth heibio, a rhanu ei deyrnas rhwng ei dair merch, yr ieuengaf o ba rai oedd Cordelia. Eithr cyn rhoddi y bwriad hwn mewn gweithrediad, Llyr a wnaeth brawf ar serch ei dair merch tuag ato fel eu tad; ac yr oedd addewidion teg dwy chwaer Cordelia gymaint rhagorach na'r eiddo hi fel y penderfynodd y brenin ranu ei deyrnas rhyngddynt hwy, a difeddianu Cordelia. Yn fuan wedi hyn, daeth ei thegwch a'i rhinweddau yn hysbys i Aganippus, brenin Gâl, ac efe a'i priodes hi yn ddigynysgaeth. Ni bu Llyr yn hir nad oedd geiriau teg ei ddwy ferch henaf wedi troi yn greulondeb creulawn tuag ato, yr hyn a barodd iddo fwrw ei hunan ar ewyllus da Cordelia, yr hon a anfarwolodd ei henw trwy ei dderbyn i'r llys fel brenin, ac ymddwyn ato fel yr ymddwyn merch serchlawn at ei thad. Yna Aganippus, ei gwr, a groesodd gyda byddin gref i Brydain, ac a adenillodd deyrnas y merched anniolchgar yn ol i Lyr, yr hwn a oroesodd y digwyddiad hwn dair blynedd. Ar ei farwolaeth ef Cordelia a deyrnasodd am bum mlynedd, pryd y darfu i'w dau nai, Morgan ab Maglawn, tywysog Albany, a Chunedda ab Einion, tywysog Cernyw, tan y ffugesgus nad gweddus gwraig yn benteyrn, godi mewn gwrthryfel yn ei herbyn.

Digitized by Google

Cymerodd brwydr le, gorchfygwyd Cordelia, carcharwyd hi, ac yn y carchar hi a roddes derfyn ar ei bywyd â'i llaw ei hun. Ar yr hanes hwn y sylfaenodd Shakespeare ei brudd-chwareu "King Lear." Y mae gan Camden chwedl led debyg am Isra, brenin y Sacsoniaid Gorllewinol, a'i dair merch; eithr diau nad ydyw hyn ond camleoliad o'i eiddo ef.—*Myv. Arch.; Wms. Em. Welsh.;* Wheeler's *Shakespeare.*

CORFINWR, yr hwn a wnaeth long, hwyl, a llyw, gyntaf i genedl y Cymry, ac am hyny y rhestrir ef yn y *Trioedd* gyda Morddal a Choel ab Cyllin, tan yr enw, "Tri Madgyfrinydd Ynys Prydain," neu "Dri cymwynasol gelfyddydwyr Ynys Prydain." Efe oedd bardd Ceri Hir Lyngwyn.—*Myv. Arch.*, ii. 71.

COTHI (Lewis Glyn). Lewis y Glyn, neu Llywelyn Glyn Cothi, oedd fardd enwog, ac yn ei flodau o 1450 hyd 1486. Brodor ydoedd o Lyn Cothi yn sir Gaerfyrddin. Dywedir mai yn Mhwlltynbyd yn Nghwm Cothi yr oedd ei drigfa. Efe oedd arwyddfardd mawr ei oes. Tybia rhai ei fod yn ddyn o sefyllfa uchel fel gwr boneddig. Beth bynag am hyny, yr oedd efe yn gydnabyddus iawn a holl foneddigion Cymru. Bu yn swyddog milwraidd dan Jasper, Iarll Penfro. Cyhoeddwyd Gwaith Lewis Glyn Cothi gan Gymrodorion Llundain yn 1837, o dan olygiad y dysgedigion clodfawr Gwallter Mechain a Ioan Tegid. Mae yr olaf o'r Cywyddau yn d'od i lawr hyd at 1486. Yr unig golled a deimlwn wrth ddarllen y Gwaith yw hon—ni ddywedodd y golygwyr galluog air am fywyd personol y bardd, er cymaint o hyfforddiadau pwysig sydd ganddynt braidd ar peth arall.

Mae yn Ngwaith L. G. Cothi "Awdl Ddychan gwyr Caerlleon ar Ddyfrdwy," am iddynt ei ysbeiliaw o'i feddianau, a gorchymyn iddo adael eu Dinas, oherwydd iddo briodi gwraig weddw o Gaerlleon heb ganiatâd y dinasyddion. Ymddengys nad oedd y bardd yn fab tangnefedd, fel y gofynid i feirdd fod yn ol egwyddorion tybiedig Barddas; canys y mae ganddo "Gywydd i ofyn cleddyf i Dafydd ab Gutyn, o Groesoswallt, i ladd gwyr Caerlleon Gawr." Yr oedd y bardd yn addaw, ond cael y cleddyf, y lladdai "ugain mil o gŵn moelion;" ac ymddengys iddo ladd un beth bynag, a thrwy hyny, feallai, y tynodd efe y Saeson yn ei ben. Penawd yr Awdl mewn ysgriflyfr ger ein bron sydd fel hyn;—"Awdl yn canmol Reinallt ab Gruffydd ab Bleddyn, am ladd gwyr Caerlleon yn y Wyddgrug, am iddynt godi da y prydydd am laddiad gwr."—*Gwel* d.g. Rheinallt.

Mae yn yr Awdl yn yr hen ysgriflyfr dri phenill nad ydynt yn y Gwaith argraffedig:—

"Cledd Reinallt aurwallt ar y erin—y dre'
A rydd drawiad cyflin;
A llafn clodfawr llyfn caledfin
I Sais blwng y rhydd sias blin.

Blin adael i bla annedwydd
Ddrwg eu pryd ddrygu prydydd,
Am ladd Sais wrth ymliw sydd
Mawr i'w gael, am ryw gelwydd.

Ceisiason' Saeson yn siwr—fy nala,
Fy nilyd drwy gynhwr,
I'm rhoddi'n llog i'r crogwr,
Ymliw gwan am ladd gwr."

Nid ydym yn canfod cywreindeb arferol L. G. Cothi yn y llinellau uchod, ond cymerwyd hwy o lyfr hen iawn. Dylid myfyrio Gwaith L. G. Cothi am ei fod y mwyaf hanesyddol o feirdd y pumthegfed ganrif, ac yn cynwys mwy o arwydd-farddoniaeth na gwaith neb o'i gydoeswyr.

COWRYD AB CADFAN, arglwydd Dyffryn Clwyd, a chyft y llwyth a elwid Gwehelyth Ceinmerch.

Digitized by Google

COX (LEONARD), a anwyd yn sir Fynwy, ac a dderbyniodd addysg athrofaol yn Nghaergrawnt, lle yr enillodd y radd o B.A. Yn 1528, symudwyd ef i Rydychain, a derbyniwyd ef yno o dan yr un teitl. Yn fuan ar ol hyn, cawn ef yn uchel ei barch fel ysgolfeistr yn Reading; a dywedir iddo ddangos caredigrwydd mawr i'r merthyr John Fryth. Bu Cox ar ol hyn yn ymdeithio trwy Ffrainc, Germani, a Hungari, lle y bu yn cyfrannu uch-ddysgeidiaeth, ac y daeth yn enwocach yn ngwlad estron nag yn ei wlad ei hun. Yr oedd yn cadw ysgol yn Nghaerlleon, o fewn ei sir enedigol, yn 1540, a'r flwyddyn hono efe a gyhoeddodd "Commentaries on Lilly's Construction of the eight parts of Speech." Efe a gyhoeddodd hefyd gyfieithiad o'r Groeg i'r Ladin o "Marcus Eremita de Lege et Spiritu;" ac o'r Lladin i'r Saesneg, "The Paraphrase of St. Paul's Epistle to Titus," o waith Erasmus, gyda pha un yr oedd Cox ar delerau tra chyfeillgar. Dywed Bale fod Cox wedi derbyn addysg ragorol, a'i fod yn fedrus iawn mewn gramadeg a rhesymeg, yn fardd, yn ddduwinydd, ac yn bregethwr Gair Duw. Ysgrifenodd yn erbyn y sawl o'i gydoeswyr ag a ddalient yr athrawiaeth o "gyfiawnhad trwy weithredoedd;" ac yr oedd efe yn dra pharchus gan ddysgedigion yn 1530. Arferai ysgrifenu penillion Lladin, i'w gosod yn ol defod yr oes hono yn nechreu llyfrau, a cheir un o'r cyfryw ar ddechreu "Lesclarcissement, 1530," o waith John Palsgrave. Yr oedd yn fyw yn amser Iowerth VI., eithr ni wyddis pa bryd y bu farw.—Wood's *Athen. Oxon.*

CRADOC (SYR MATTHEW), boneddwr yn meddu dylanwad ail i frenin gynt ar Forganwg. Pabydd penboeth ydoedd, a charcharai a fflangellai y sawl na chydsynient a'i fympwyon crefyddol a gwladol ef; ac er hyny yr oedd cryn lawer o natur dda yn llechu yn ei galon sarug a garw. Hynododd ei hun fel achlesydd y beirdd, a chawn hanes amryw o'i gydoeswyr barddonol yn talu teyrngedau o barch iddo ar y cyfrif hwn. Ganwyd ef tua'r fl. 1468 yn Nghaerdydd. Hanai o du ei dad o Einion ab Collwyn; ac o du ei fam, o Arglwydd Tregwynt yn Mhenfro. Ei olafiaid yn bresenol ydynt yr Herbertiaid, y Treherniaid, y Turburwiliaid, a'r Bassetiaid, o Forganwg; a'r Sandersoniaid o Iwerddon. Yn 1489, efe a briododd Alis, ferch i Philip Mansel, o gastell Ocswich, ger Abertawe. Wedi ei marw hi, efe a gymerth eilwaith yn wraig yr Arglwyddes Catrin Gordon, gweddw yr hynod Perkin Warbeck, yr hwn a grogwyd yn Tyburn am deyrnfradwriaeth. Priodwyd yr arglwyddes ddwywaith wedi hyn, felly bu yn briod bedair gwaith o gwbl. Bu Syr Matthew yn ddistain gwyr yn Morganwg yn 1491 a 1497. Y mae y bardd Iorwerth Fynglyd wedi cyfansoddi dau gywydd iddo; sef un at Rys ab Sion yn achwyn ar y marchog am garcharu y bardd yn Abertawy; a'r llall yn deisyf adgymodi ag ef. Y mae cywydd arall ar gael o eiddo Rhys Brydydd yn canmawl Syr Matthew am ei lettygarwch a'i gefnogaeth i'r beirdd. Nid oes dadl nad Pabydd gorselog ydoedd, canys y mae genym hanes am dano yn carcharu yn Nghastell Cynffig rhyw fardd o'r enw Twm ab Ifan ab Rhys, neu fel yr adwaenid ef gan y cyffredin Twm Gelwydd Teg, a'r hwn oedd hefyd yn cael y gair o fedru prophwydo, am ei fod yn Lolardaidd ei farn. Y mae barddoniaeth hefyd ar gael yn deisyf arno ryddhau y bardd hwn. Y mae pob lle i gasglu na bu ond ychydig o'r hen feirdd Cymreig erioed yn gaethion meddyliol i Babyddiaeth, ceir darnau hyd yn nod yn y tywyll oesau heb ddim o flas y surdoes arno; a phan ddechreues Lolardiaeth ddyrchu ei ben yn y wlad hon, tybiodd gweilch fel Syr M. Cradoc mai sismaticiaid

Digitized by Google

newydd-greedig oeddynt y beirdd, a charcharwyd hwynt o'r herwydd, tra mewn gwirionedd na bu ond ychydig ohonynt hwy erioed yn ddim amgen na Lolardiaid neu Wickliffiaid. Bu Syr Matthew farw yn 1531, a chladdwyd ef yn eglwys Abertawy, lle y mae gwyddfa hardd, ar lun allor, wedi ei gosod er cof am dano.—Traherne's *Hist. Notices; Cam. Quarterly Magazine.*

CRADOC (WALTER), oedd y mwyaf talentog a phoblogaidd o Annghydffurfwyr yr ail ganrif ar bumtheg. Ganwyd ef yn Nhrefela, yn mhlwyf Llangwm uchaf, ger Brynbuga, sir Fynwy. Yr oedd efe yn etifedd treftadaeth o werth £60 y flwyddyn y pryd hwnw. Nid oes sicrwydd yn mha flwyddyn y ganwyd ef, ond yr oedd Esgob Llandaf, yn 1633, yn ei alw "*A bold ignorant young fellow.*" Dygwyd ef i fynu i'r weinidogaeth yn Rhydychain, a chan nad oedd ei gartref yn mhell o Lanfaches, lle y pregethai yr enwog William Wroth, dygwyd ef yn fore trwy weinidogaeth y dyn apostolaidd hwnw, i wybodaeth o'r gwirionedd. Wedi gadael y Brif-ysgol, ymsefydlodd yn gurad yn Llanbedrfro yn Morganwg, ac wedi hyny yn Eglwys Fair, Caerdydd, fel curad i W. Erbury. Yn 1633, cymerodd yr Esgob ei drwydded oddiarno am iddo wrthod darllen y "*Book of Sports;*" a cheir rhyw ddrychfeddwl pa mor enwog fel pregethwr ydoedd yn y ffaith ddarfod i'r Archesgob Laud ei gofnodi yn ei gof-lyfr fel un nad oedd yn annheilwng o'i ŵg a'i anfoddlonrwydd ef. Dywedir i'w berthynasau droi yn chwerw yn ei erbyn am ei annghydffurfiaeth, pan fwriwyd ef allan o Gaerdydd.

Bu ar ol hyny yn gwasanaethu fel curad yn Wrexham, a bu ei weinidogaeth rymus yn foddion i droi llawer o bechaduriaid, ac yn eu plith Morgan Llwyd o Wynedd, Dafydd ab Huw, &c. Enynodd hyn ddigofaint rhyw fragwr yn ei erbyn, am nad ydoedd yn cael gwerthu cymaint o frag i dafarnwyr Wrexham, oblegyd, yn ol cyffes un tafarnwr, fod Walter Cradoc o'r Deheudir, wedi troi y bobl â'i bregethau oddiwrth oferedd; a llwyddwyd i'w yru ymaith o Wrexham, wedi bod yno ysbaid un flwyddyn. Ond enillodd enw trwy oll Ogledd Cymru, fel y bu Cradociaid yn enw o ddirmyg ar ddynion crefyddol am gant a haner o flynyddau.

Gwynebodd eilwaith tua'r Deheudir: treuliodd beth amser gyda chyfaill yn yr Amwythig. Yma y daeth yr enwog, ond ieuanc y pryd hwnw, Richard Baxter, i gydnabyddiaeth ag ef, ac oddiar yr adnabyddiaeth hono i synied yn dra uchel am ei allnoedd meddyliol, a rhagoroldeb ei gymeriad, yn gystal ag am deilyngdod yr achos y dyoddefai o'i blegyd, Dywed Baxter fod Mr. Cradoc y pryd hwnw yn cael ei ymlid gan swyddogion yr esgob ac yn ymgelu rhagddynt tan yr enw Williams. Yr oedd hyn tua'r fl. 1635; ond cyfnewidiodd Mr. Baxter ei farn am dano erbyn 1684; cyhuddai ef y pryd hwnw o Antinomiaeth; er nad oedd ef fwy o Antinomiad nag ydoedd Mr. Baxter ei hun, fel y profwyd gan awdwr gallug traethodyn a gyhoeddwyd y pryd hwnw, tan y teitl, "A Winding Sheet for Mr. Baxter's Dead." O'r Amwythig aeth Mr. Cradoc cyn belled a Llanfair Waterdine, ar gyffiniau swyddi Henffordd a Maesyfed, lle y derbyniwyd ef yn garedig gan Syr Robert Harley, o Brampton Briars, yr hwn oedd gyfaill cywir i'r duwiolion gorthrymedig. Yma y cafodd Vavasor Powell y cyfleusdra cyntaf i'w glywed yn pregethu. Teithiodd Cradog yn yr adeg hon i bregethu yr efengyl yn swyddi Maesyfed, Brycheiniog, Trefaldwyn, a Cheredigion. Dywedir i'w weinidogaeth fod yn hynod o fendithiol yn sir Aberteifi.

Yn y fl. 1639, ni a gawn Mr. Cradoc yn Llanfaches yn cynorthwyo

Digitized by Google

Mr. Wroth yn y weinidogaeth. Dewiswyd ef yn weinidog cynorthwyol; ac ar farwolaeth Mr. Wroth, yn 1642, dewiswyd ef yn olynydd iddo. Pan dorodd y rhyfel cartrefol allan, flodd Mr. Cradoc a'r rhan fwyaf o'r brodyr o'r eglwys, am noddfa i Bristol. Buont yno yn llechu ac yn mwynhau breintiau crefyddol nes y cymerwyd y ddinas gan luoedd y brenin yn 1643. Wedi hyny aeth Cradoc a rhyw nifer o'i gyfeillion i Lundain. Wedi cyrhaedd yno, penodwyd ef yn bregethwr yn *All Hallows the Great*. Cyhoeddwyd y pregethau a draddododd yn y lle hwn mewn cyfrol 4plyg, ac ail-gyhoeddwyd hi gan Charles o'r Bala, ac Oliver o Gaerlleon, gyda hanes bywyd yr awdwr, yn 1800. Yn y fl. 1646, mae efe ac eraill yn dychwelyd i Gymru, fel pregethwyr teithiol dan nawdd y senedd. Tebygol iddo dreulio gweddill ei oes yn Nghymru yn benaf. Gorphenodd ei yrfa mewn llawenydd a thawelwch meddwl, yn Nhrefela, Rhag 24, 1659, a chladdwyd ef yn nghangell Eglwys Llangwm-uchaf. Amryw flynyddau wedi ei farwolaeth taenwyd chwedl enllibus i waradwyddo ei goffadwriaeth yn mhlith gelynion ei grefydd; sef fod y Diafol wedi cipio ei gorph ymaith, ac mai ceryg a roddesid yn ei arch yn lle ei gorph. Taenid y chwedl hon gyda'r fath haerllugrwydd, nes o'r diwedd y cynhyrfwyd ei gyfeillion i agor ei fedd, yn ngwydd amryw dystion, a gwelwyd fod ei esgyrn lluddedig yn gorwedd yno yn ddigon tawel a digyffro. Bu yn briod, a chafodd ddwy o ferched, y rhai a enwodd Lois ac Eunice. O ran ei berson, yr oedd efe yn ddyn tal, gewynog, a chadarn i gyflawni llawer o galedwaith, ac ôl y frech wen yn ei wyneb. Yn ei dymher yr oedd yn serchog, ond brwdfrydig a byrbwyll. Nid oes hanes iddo gyhoeddi dim yn yr iaith Gymraeg, ond bu yn foddion, gyda Vavasor Powell, i ddwyn argraffiad o'r Bibl allan yn Gymraeg yn 1654. Argraffwyd 6000 ohonynt. Galwyd ef i bregethu ddwywaith ger bron y Senedd; a chafodd ei ddewis gan Cromwell yn un o'r dirprwywyr a elwid *Tryers;* swydd pa rai ydoedd profi y sawl a ymgynygient am y gwaith o bregethu yn gyhoeddus. Yr oedd efe yn gyfaill cywir i ryddid crefyddol, ac ystyrid ef gan ei gyfoeswyr yn ddyn o bwys a gwerth mawr.—Rees' *Nonconformists in Wales; Works* of Rev. W. Cradoc; Dr. Richards' *Welsh Nonconformists' Memorial.*

CRALLO, sant yn ei flodau yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Sadwrn a Channa ei wraig ferch i Tewdwr Mawr ab Emyr Llydaw. Crallo a ddaeth trosodd o Lydaw gyda'i rieni, ac a sefydlodd eglwys Llangrallo neu *Coychurch* yn Morganwg.

CREIRWY, un o "Dair Gwenriain Ynys Prydain," y ddwy eraill oeddynt Ariannrod a Gwen ferch Cowryd. Y mae Davies, yn *Myth. of the Druids*, yn traethu yn helaeth a dysgedig ar neillduolion Creirwy. Dywed ei bod o ran cymeriad yn ateb yn ffughanesiaeth Brydeinig i'r eiddo Proserpine gyda'r Groegiaid, yr hon oedd yn wraig i Pluto, duw annwn. Merch ydoedd i Tegid Foel a'r enwog Geridwen.

CRISTIOLUS, sant yn ei flodau yn y 7fed cant. Mab ydoedd, yn ol y farn gyffredin, i Hywel ab Emyr Llydaw. Efe a sefydlodd eglwys Llangristiolus yn Mon; ac eglwysi Eglwys Erw, a Phenrydd, yn Mhenfro. Cynelid ei wylmabsant Tach. 3.

CUHELYN, yn ol *Brut. y Brenhinoedd*, a olianodd ei dad Gwrgant Farfdrwch fel brenin Prydain. Ei wraig oedd y ddysgedig Marsia.—*Myv. Arch.* ii. 158.

CUHELYN FARDD ab Gwynfardd Dyfed, bardd a flodeuodd tua diwedd yr 8fed ganrif. Mae câu ar fesur hypynt o'i waith yn y *Myv.*

Digitized by Google

Arch., ar "Frad y Cyllill Hirion," ond mae rhai yn priodoli y gân hono i Cuhelyn ab Caw, bardd o'r 6ed ganrif.—Davies' *Myth. of the Druids*, t.d. 310—315.

CUNEDDA ydoedd fab i Einion, tywysog Cernyw, a'i fam oedd Rhagau ferch Llyr (*Lear* Shakespeare). Tan y gair "Cordelia," ceir hanes am dano ef a'i frawd Morgan yn codi mewn gwrthryfel yn erbyn eu modryb, ac wedi llwyddo yn eu hamcan, dosranasant Ynys Prydain cydrhyngddynt—Morgan a gafodd y wlad o du'r gogledd i'r afon Humber, a Chunedda y gweddill. Ond y blaenaf, yn anfoddlon ar ei ran, a ymgyrchodd diriogaeth Cunedda, yr hwn a'i gwrthsafodd mewn brwydr, ac efe a laddwyd ar y Maesmawr, yn Morganwg. Fel hyn, cafodd Cunedda feddiant ar yr oll o Ynys Prydain, ac a fu farw wedi teyrnasiad hapus o 30 mlynedd.—*Brut. y Brenhinoedd.*

CUNEDDA WLEDIG, ydoedd frenin Brythoniaid Ystrad Clwyd, yn ngogledd Prydain, lle y dechreuodd deyrnasu yn 328. Ei dad ydoedd Edeyrn ab Padarn; a'i fam, Gwawl ferch Coel Godebog, a thrwyddi hi yr oedd ganddo etifeddiaethau helaeth yn Nghymru. Y meddianau hyn a drawsfeddianwyd gan y Gwyddelod, a Chunedda a ddanfonodd amrai o'i feibion yma i'w hymlid o'r wlad. Wedi bod o honynt yn llwyddianus, hwy a wladychasant yn Nghymru, ac a'i rhanasant cydrhyngddynt, gan alw y manau y gwnaent hyny ar eu henw. Tybiawn, y mab hynaf, a fu farw yn Ynys Manaw, eithr Meirion ei fab a gafodd, ac a roddes ei enw, ar Feirion; Arwystl, a gymerth Arwystli; ac Einion, Gaer Einion, yn sir Drefaldwyn; Ceredig a gafodd Geredigion; Dunod, a gafodd gantref Dunodig, yn Arfon; Edeyrn, a gafodd Edeyrnion, yn Meirion. Cafodd Mael, Dinmael; Coel, Coeleion; Dogfael, Dogfaelin; a Rhufon, Rhufoniog; y rhai ydynt oll yn sir Ddinbych. Oswallt, a gafodd Groesoswallt, yn sir Amwythig. Darfu i eraill o feibion Cunedda ymarwedd bywyd crefyddol pan gymerwyd eu tiroedd oddiarnynt gan y Gwyddyl Ffichti a'r Saeson; ac oddiar hyn, y mae yn debyg, y cysylltir yn y *Trioedd* deulu Cunedda gyda'r eiddo Bran a Brychan, tan y penawd "tair gwelygordd sanctaidd," lle y dywedir mai Cunedda a roddes "dir a braint gyntaf i Dduw a'r saint yn Ynys Prydain."

CURIG LLWYD, sant enwog am ei ddysg a'i fuchedd santaidd, a ddaeth i Gymru yn y 7fed cant. Sefydlodd eglwys Llangurig, yn sir Drefaldwyn, a thybir iddo fod yn esgob yn rhywle yn Nghymru,—yn Llanbadarn Fawr, medd rhai. Diau fod ei safle yn uchel yn mhlith y Seintiau Cymreig. Y mae Lewis Glyn Cothi, mewn cywydd "Marwnad Einiawn ab Ieuan," yn gosod allan gasineb y gwr hwnw at rhyw fynachod cardotlyd a grwydrent y wlad i gyfnewid delwau a chreiriau am gaws, enllyn, ŷd, &c., ac yn mhlith y blaenaf enwir delw Curig:—

> Un a arwain yn oriog,
> GURIG Lwyd dan gwr ei glog;
> Gwas arall a ddug Seiriol,
> A naw o gaws yn ei gol.
>
> GWAITH LEWIS GLYN COTHI, t.d 280

Yr oedd ei groes-ffon yn cael ei chadw yn ofalus yn eglwys gymydogaethol Llanarmon yn amser Giraldus Cambrensis, yr hwn a draetha am ei rhinweddau fel hyn:—"Yn Eglwys St. Germanus, y mae ffon Curig Sant, wedi ei gorchuddio gydag aur ac arian, a'i phen uchaf ar lun croes; llawer prawf a geir o'i rhinwedd i wella clefydon, yn enwedig chwyddiadau manwynog; pwy bynag a ffinir gan yr anhwylderau hyn, ac a wnel gais duwiolfrydig at y ffon, ac o offrymo geiniog, a gwbl

Digitized by Google

iacheir." Yna ceir dwy engraifft anhygoel o feddyginiaeth a gafwyd trwyddi yn amser yr ysgrifenydd. Yr oedd Curig arall—Curig o Tarsus, yr hwn a ferthyrwyd yn ei fabandod, a'i fam Juliet neu Julietta, a gyfarfyddodd yr un dynged. Y mae Llanilid a Churig yn Morganwg, a Chapel Curig a'i fam Julietta, yn sir Gaernarfon, wedi eu cyflwyno i Juliet a Cyrique yn nghyd. Nis gwyddir yn iawn i ba Gurig y cyflwynwyd Porth Curig, yn Morganwg; ac Eglwys Fair a Churig, yn sir Gaerfyrddin. Cynelid gwylmabsant Juliet a Chyrique Mehefin 16.—Hoare's *Giraldus; Wms. Em. Welsh.*; Rees' *Welsh Saints.*

CWAREL (Thomas), ydoedd frodor o derfynau siroedd Dinbych a'r Amwythig Bu yn teithio llawer i bregethu yn y cylchoedd hyny, ac yn gwasanaethu eglwys plwyf Croesoswallt yn amser Cromwell, o'r lle y deolwyd ef yn amser Siarl II. Symudodd wed'yn i Langwm, sir Fynwy, yn 1670, gan ymuno a chynulleidfa y Bedyddwyr yn Mhenygarn, ger Pontypool, ac yn byw yn y Tylwyn. Ymddengys ei fod hefyd unwaith yn filwr, canys dywedir ei fod yn pregethu a'i gleddyf ar ei glun. Bu farw, tebygid, tua'r fl. 1680; yn ol eraill oddeutu 1700, yn oedranus iawn.—*G. Lleyn MSS.*

CWYLLAWG, un o ferched Caw, a gwraig i Fedrawd, nai Arthur. Blodeuodd, yn y 6ed cant, a thybir mai hi a sefydlodd eglwys Llangwyllawg yn Mon.

CWYFAN, sant yn ei flodau yn y 7fed cant. Mab ydoedd i Brwyneu Hen ab Cothi o Gwyn Dyfnog, a'i fam ydoedd Camell o Bodangharad, yn Coleon, sir Dinbych. Efe a sefydlodd eglwysi Llangwyfan, yn Mon; Tudweiliog, yn Arfon; a Llangwyfan, yn sir Dinbych. Cynelid ei wylmabsant Mehefin 3.—*Bonedd y Saint.*

CYBI, yn ol *Bonedd y Saint*, ydoedd fab Selyf ab Geraint ab Erbin, a Gwen ferch Ynyr o Gaer Gawch. Oddiwrtho ef y derbyniodd Caergybi, yn Mon, ei enw; canys yma yn y 6ed ganrif y sefydlodd efe grefydd-dŷ ar y man y lladdesid Serigi Wyddel gan Gaswallon Lawhir: er y dywed yr Archesgob Usher ddarfod i un Cebius fab Solomon, duc Cernyw, sefydlu mynachlog yno tua 364. Ond ni chadarnheir haeriad yr Archesgob gan un gyd-dystiolaeth, ac y mae pob lle i gredu mai Cybi a biau yr anrhydedd. Gan mai Cybi oedd llywydd y grefyddolfa hon, gelwir ef weithiau yn esgob, eithr ni bu ganddo freiniau a hawliau esgobaethol. Dywed un traddodiad yr arferai Cybi ac Elian gyfarfod yn Llandyfrydog, rhwng Caergybi a Llanelian, i ymdrafod materion crefyddol; a dywed traddodiad arall yr arferai Cybi a Seiriol gyfarfod yn wythnosol yn Clorach, ger Llanerchymedd, yr hwn le sydd tua haner y ffordd rhwng Caergybi a Chapel Seiriol yn Penmon, ac y mae dwy ffynon tua deg llath oddiwrth ei gilydd yn y lle y cyfarfyddent, a adwaenir hyd y dydd heddyw wrth yr enwau Ffynon Seiriol a Ffynon Cybi, at ba rai yr ymgynullai lluaws mawr o bobl hyd yn ddiweddar iawn i olchi ymaith eu gwahanol glefydon. Gan y teithiai Cybi i'r cyfarfodydd hyn o orllewin i ddwyrain, ac felly a'i wyneb at yr haul, a Seiriol i'r gwrthwyneb, tarddodd yr ymadrodd sydd eto ar lafar gwlad, "Seiriol *wyn* a Chybi *felyn.*" Yn y *Myv. Arch.* ceir barddoniaeth o waith naill ai Aneurin neu Cattwg Ddoeth ar "ymadawiad y Saint i Ynys Enlli," lle y dywedir fod Cybi yn bresenol yn Nghymanfa Brefi. Gelwir eglwys Llangybi, ger Llanddewi Brefi, ar ei enw; a sefydlodd eglwysi Llangybi, yn Mynwy; a Llangybi, yn Arfon. Cynelid ei wylmabsant Tach. 6.—Rowlands' *Mona Anti.; Wms. Em. Welsh.*

Digitized by Google

CYDIFOR, abad Llanfeithin, yn ol y *Brut*, ydoedd wr enwog am ei ddoethineb, ei ddysg, a'i dduwiolfrydedd. Efe a ddanfones chwe' gwr o'i goleg i'r Iwerddon i ddysgu y brodorion. Bu farw 883.

CYDWELI (JOHN), a gafodd ei ddysgeidiaeth yn Ngholeg yr Holl Saint, yn Rhydychain. Graddiwyd ef yn D.LL. Mai 14eg, 1510, a dyrchafwyd ef yn Benaeth Neuadd Edward, yn y Brif Ysgol hono.

CYDWELI (SYR HARRI). Bardd ac offeiriad yn ei flodau o 1400 hyd 1430. Yr oedd efe yn Ficer Llandyfaelog, yn sir Gaerfyrddin.

CYFEILIOG (HUW), o Gyfeiliog, yn Mhowys, a anwyd yn 1164; ac ydoedd yn un o'r arglwyddi a gytunodd â'r brenin am eu hen hawliau a'u rhyddid: ond wedi hyny efe a ddietifeddwyd, ac a ymgysylltodd â brenin y Scotiaid a Iarll Leicester, mewn gwrthryfel anfanteisiol iddynt. Darfu i Harri III. faddeu iddo, ac adferu iddo ei diroedd, y rhai a enillodd trwy ei gleddyf, oddiar y Cymry yn Bromffield. Cyfranodd lawer i Fynachlog Enlli. Bu farw yn 1181.

CYFEILIOG (OWAIN). Bardd tywysogaidd ac awenyddol, a milwr dewr a beiddgar, oedd fab Gruffydd ab Meredydd ab Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Powys. Ar farwolaeth y tywysog Meredydd ei daid yn 1130, daeth Owain yn berchenog ar lawer o Bowys, ac yn neillduol Cantref Cyfeiliog, oddiwrth yr hwn y cymerodd ei ffugenw. Yn 1162, bu mewn rhyfel a Hywel ab Cadwgan ab Elystan Glodrudd, arlwydd y wlad rhwng Gwy a Hafren; ond yn affwyddianus; canys ymosododd Hywel ar gastell Tafolwern, yn Nghyfeiliog, ac a'i dinystriodd. Yn y flwyddyn ganlynol ymosododd Owain ar gastell Careg Hwfa, yn mhlwyf Llanymynech, ac a'i dymchwelodd. Yn 1165, ymunodd ag Owain Gwynedd yn erbyn Harri II., a hynododd ei hun yn mrwydr Crogen, am yr afon a Chastell y Waun, fel cadflaenor gwyr Powys. Yn 1166, dygodd diroedd Powys oddiar Iorwerth Goch, yr hyn a roddes dramgwydd i Owain Gwynedd a Rhys, tywysog Deheubarth, y rhai yn 1167, a ymunasant yn ei erbyn, ac a ddygasant ei holl diroedd oddi arno. Pa fodd bynag, dychwelodd Owain yn fuan, a thrwy gymhorth byddin o Saeson, adfeddianodd ei dreftadaeth. Yn 1176, gwysiwyd ef i gyfarfod â Harri frenin yn Rhydychain, i gyflafereddu ar faterion y dywysogaeth. Priododd Owain â Gwenllian, ferch Owain Gwynedd, o'r hon y cafodd un mab, Gwenwynwyn, yr hwn a etifeddodd ei holl dreftadaeth, oddigerth cwmwd Llanerch-hudol, a chwmwd Broniarth, y rhai a roddes efe i'w ordderchfab Caswallon.

Owain Cyfeiliog a sylfaenodd fynachlog Ystradmarchell, yn 1170. Yn y fl. 1188, bu Giraldus a Baldwyn ar eu taith drwy Gymru, a phan oeddynt yn yr Amwythig yn aros ychydig o ddyddiau i orphwys, ceir y cofnod canlynol am Owain Cyfeiliog.—"Nyni hefyd a esgymunasom Owain de Ceveloc oblegyd efe yn unig o'r tywysogion Cymreig a beidiodd â chyfarfod yr archesgob gyda'i bobl." Yr oedd Owain yn ddyn mwy hyawdl na'r tywysogion oedd yn cydoesi ag ef, ac yn hynod am iawn drefnu ei diriogaeth. Gan ei fod yn gyffredin yn pleidio yr achos breninol, ac yn gwrthwynebu mesurau ei benaethiaid ei hun, ffurfiodd gyfeillgarwch mawr â Harri II. Pan gyda'r brenin wrth y bwrdd yn yr Amwythig, Harri, fel arwydd o barch neillduol, a ddanfonodd un o'i dorthau ei hun i Owain. Yntau yn ebrwydd a'i drylliodd yn fân-ddarnau fel bara elusen, ac fel elusenwr, a'u gosododd ychydig oddiwrtho, ac a'u cymerodd bob yn damaid, ac a'u bwytaodd. Pan ofynodd y brenin am eglurhad o'r ymddygiad hwn, Owain a'i atebodd gyda gwên, "Fel hyn yr wyf yn dilyn esiampl fy arglwydd," gan

Digitized by Google

gyfeirio yn wawdlym at drachwant y brenin, yr hwn a arferai ddal y bywioliaethau eglwysig yn ei ddwlaw ei hun cyhyd ag y gallai.

Gwelir fod Owain Cyfeiliog yn fwy o gyfaill â'r Saeson nag â'r tywysogion Gymreig yn gyffredin. Yr oedd ei dad, Gruffydd ab Meredydd, wedi ymostwng i Harri I., a chael ei alw gan y brenin i'w Gynghor Seneddawl, a'i wneyd yn un o Arglwyddi y Cyffiniau, dan yr enw o Arglwydd Powys. Bu Owain farw mewn oedran teg yn 1197. "Y flwyddyn hono," ebai y *Brut*, "y bu farw Owain Cyfeiliog yn Ystradmarchell wedi cymeryd abid *(habit)* crefyddwisg am danaw."

Yr oedd Owain yn fardd enwog yn ogystal ag yn dywysog doeth a medrus. Mae dau gyfansoddiad o'i eiddo ar gael, sef "Hirlas Owain," a'r "Englynion i Gylchau Cymru." Yr oedd efe hefyd yn noddwr haelionus i feirdd yr oes, megys ag y mae caniadau Cynddelw Brydydd Mawr yn profi.—*Gir. Cam.; Cymr. Trans.* vol. iv.; *Wms. Em. Welsh;* Carnhuanawc, *Hanes Cymru;* Pennant's *Tours in Wales;* Evans's *Specimen of the Welsh Bards.*

CYFFIN (Morus), oedd ail fab Richard Cyffin, Ysw., o'r Glasgoed, Llansilin, sir Ddinbych. Hanai o hen deulu gwir anrhydeddus. Yn 1595, cyhoeddodd gyfieithiad Cymraeg o waith yr esgob Jewel, a elwid "Apologia Ecclesiæ Anglicanæ." Ystyrid y gwaith hwn, gan Iolo Morganwg, fel yr engraifft oreu o Gymraeg rywiog a diledryw a feddwn. Cyhoeddasai cyn hyny, yn 1587, "Dadseiniad meibion y daran." Gellir tybio mai ail argraffiad gyda chwanegiad oedd "Diffyniad Ffydd Eglwys Loegr, gan Esgob Jewel, wedi ei gyfeithu o Ladin yn Gymraeg, drwy waith M. Cyffin, o'r Glasgoed, Llansilin," o "Ddadseiniad meibion y daran."

Yr oedd Morus Cyffin yn fardd cywrain a dysgedig, megys ag y mae yr engreifftiau sydd o'i waith yn profi. Sonia yn ei ragmadrodd i "Ddiffyniad Ffydd Eglwys Loegr," am gyfieithu y Salmau ar fesur cerdd :—"Gwaith rheidiol iawn fyddai troi'r Psalmau i gynghanedd Gymreig; nid i gynghanedd Englyn neu Awdl na Chywydd, nac i fath yn y byd ar gerdd blethedig; herwydd felly ni ellir troi na'r Psalmau na dim arall yn gywir; eithr i'r fath fesur a thôn cynghanedd ag sydd gymeradwy yn mhob gwlad a ddiwygiwyd trwy dderbyniad disgleirdeb yr Efengyl; ac fel y gwelir yn y Saesonaeg, Scot-iaith, Ffrancaeg, iaith Germania, iaith Itali, a'r cyffryw; fel y gallo y bobl ganu i gyd ar unwaith yn yr eglwys, yr hyn beth a fyddai ddifyrwch a diddanwch nefol iddynt yn y Llan a chartref. Am Englyn, neu Awdl, neu Gywydd, fe wyr pawb nad cynefin ond un dyn ar unwaith ganu'r un o'r rhai hyny. Heblaw hyny, ni wasanaetha tôn yr un o honynt i gerdd ysbrydol uchelfraint; a phe gwasanaethai, eto, cabledd mawr yw cymysgu cerdd yr Ysbryd Glan yn yr un dôn ganiad â cherdd faswedd ofer. Rhaid i beb un a gychwyno hyn o orchwyl cyssegr, ddeall amryw ieithoedd dysgedig, megys na roddo efe un gair yn gynghanedd ond a fo gwbl gydsyniol â meddwl yr Ysbryd Glan. Pettai genyf y seibiant a'r hamdden sydd gan lawer, cyntaf peth a chwannocaf poen a gymerwn i arnaf fyddai tueddu at hyn o waith, ar ol cydsiarad â Dysgedigion Cymru yn nghylch pa ddull a math ar gynghanedd a dybygid oreu a chymesuraf i hyn o dduwioldeb."

Tebygol na chyflawnodd M. Cyffin ei amcan yn hyn, ond cyfansoddwyd amryw o'r Salmau ar gân gan Edward Cyffin, yr hwn, feallai, oedd frawd iddo. Cyhoeddwyd y Salmau gan E. Cyffin yn 1603. Dichon mai anogaethau M. Cyffin a fu'n foddion i ddeffroi awen Archddiacon

Digitized by Google

Meirionydd i ddwyn y Salmau cân allan tuag ugain mlynedd ar ol hyn. Yr oedd M. Cyffin yn fardd galluog yn y mesurau caethion, fal y dengys yr Englynion o'i eiddo, a argraffwyd yn y *Greal*.—Gwel y *Traethodydd* am 1852.

CYFFIN (RICHARD), ydoedd Ddeon Bangor, a Pherson Llanddwyn, yn Mon, yn y fl. 1485. Oddi yno efe a ymohebodd â Harri VII., yn Brittany, neu Llydaw, lle yr oedd hwnw ar encil; a chymerodd ran weithgar iawn gyda Syr Rhys ab Thomas, o'r Deheudir, i ddwyn oddi amgylch ei adferiad.—*G. Lleyn MSS.*

CYFFIN (ROSSER). Un o enwogion Arfon, a'pherson Llanberis yn 1571.

CYFFIN (SYR THOMAS), ydoedd o deulu y Maenan, ger Llanrwst. Bu yn gyfreithiwr cyffredinol yn nheyrnasiad y frenines Ann, Sior I., a Sior II. Bu farw Mehefin 20fed, 1745; a chladdwyd ef yn Llanddoged, ger Llanrwst, lle y mae gwyddfa i'w goffadwriaeth.—*G. Lleyn MSS.*

CYMRO BACH. Y Parch Benjamin Price, yr hwn a adnabyddid yn y byd llenorawl wrth yr enw Cymro Bach, oedd fab i'r diweddar Barch. Joseph Price, yr hwn oedd weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Llanwenarth a Blaenau Gwent. Ganwyd Cymro Bach yn Gofilon, plwyf Llanwenarth, gerllaw y Fenni, yn 1792. Dychwelwyd ef at grefydd trwy weinidogaeth effeithiol y Parch. F. Hiley, a bedyddiwyd ef gan y diweddar Barch. J. Lewis, Llanwenarth, yn 1817. Dechreuodd bregethu cyn hir iawn, a derbyniwyd ef i Athrofa y Fenni, lonawr 1822. Neillduwyd ef i waith y weinidogaeth Tach. 24ain, 1825, yn eglwys y Bedyddwyr Saesoneg, yn Aberhonddu. Wedi bod yno tua thair blynedd, symudodd i'r Drefnewydd, i fod yn gydweinidog a'r enwog Jones. Bu yno tua 14 mlynedd. Symudodd oddiyno i weinidogaethu i Dudley; wedi hyny bu yn oruchwyliwr dros Gymdeithas Genadol y Bedyddwyr yn Nghymru, a bu farw yn Bristol, Mehefin 25ain, 1854.

Er mai Cymro brwdfrydig a gwladgarol oedd Mr. Price, eto treuliodd ei fywyd gweinidogaethol gyda'r Saeson. Ysgrifenodd lawer yn ei fywyd i'r gwahanol fisolion. Efe oedd gohebydd ffyddlonaf *Y Gymraes*, dan olygiad Ieuan Gwynedd. Ysgrifenydd llawn o deimlad ydoedd, fel y dengys ei gofiant o Jones, Drefnewydd, yn nghyda llawer o ddarnau eraill. Cyfansoddodd swm o farddoniaeth. Yr oedd efe yn un o ohebwyr hynaf *Seren Gomer*. Cyfansoddodd gân "Yn mynwent Bunhill Fields, uwchben llwch enwogion byd,"—un o'r cyfansoddiadau mwyaf cynhyrfus a theimladol yn ein hiaith.—Gwel "*Y Cymro Bach*," sef casgliad o weithiau awdurol y diweddar Barch. Benjamin Price.

CYNAN AB IAGO, mab i Iago ab Idwal, ac Afandred, ferch i Gweir ab Pyll, yr hwn oedd dywysog yn meddu hawl dreftadaethol i benaduriaeth Gwynedd, oedd yn cael ei dal y pryd hyny gan Gruffydd ab Llewelyn, gallu a phoblogrwydd yr hwn a luddiai iddo y tebygoliaeth lleiaf o lwyddo pe yr ymdrechasai i adfeddianu ei etifeddiaeth. Enciliodd Cynan i'r Iwerddon, lle y priododd Ranulph, ferch i Awloedd neu Alfred, brenin Dublin. Yn 1042, efe a gafodd gynorthwy y Gwyddelod, i anrheithio Gwynedd, a chymeryd Gruffydd yn garcharor; ond y Cymry, mor fuan ag y gwybuant am yr amgylchiad, a waredasant eu tywysog trwy ymosod ar y Gwyddelod, a'u gyru i'w llongau gyda lladdfa fawr. Yn 1050, gwnaeth Cynan ail gynyg, yr hwn hefyd a brofodd yn aflwyddianus, gan i'r rhan fwyaf o'i lynges gael ei dinystrio

Digitized by Google

gan dymhestl. Efe a dreuliodd weddill ei oes yn Iwerddon.—*Wms. Em. Welsh.*

CYNAN AB SITSYLLT, oedd frawd i Llewelyn ab Sitsyllt, ac efe a'i feibion oll a laddwyd yn mrwydr Ystrad Ywain, yn Morganwg a ymladdwyd rhwng y Cymry a'r Saeson yn 1032.

CYNAN GARWYN, a ddilynodd ei dad Brochwel Ysgythrog tua chanol y 7fed ganrif i dywysogaeth Powys, a dilynwyd yntau gan ei fab Selyf Sarffgadau.

CYNAN MEIRIADOG, fab i Eudaf "Iarll Ergyng ac Euas," ac arglwydd Meiriadog, yn sir Ddinbych, tua chanol y 4edd ganrif. Yr oedd efe hefyd yn frawd i Elen Luyddawg, yr hon oedd yn briod hefo Macsen Wledig, brenin Gâl yn Ffrainc. Cynan a gynullodd dri ugain mil o wyr ac aeth trosodd i Gâl i gynorthwyo Macsen yn erbyn Gratian a'r Rhufeiniaid, y rai a lwyr orchfygwyd, a'r Cymry a gawsant diroedd a nawdd yn y wlad hono, ac ni ddychwelsant mwy; ac am hyny y gelwir y gadymgyrch hono yn un o "dair cyforddwy Ynys Prydain," "ac achos o gyforddwy y bu wanhad a diffyg gwyr arfog ar Genedl y Cymry, onid aeth y Gwyddyl Ffichti yn ormes arnynt, ac oherwydd hyny y gorfu ar Wrtheyrn gyrchu Saeson i ladd yr ormes hono."—*Trioedd* 14. Ceir hanes yr ymgyrch hon hefyd yn y *Brut* ac yn y *Fabinogi* a elwir "Breuddwyd Macsen Wledig," a gyhoeddwyd yn y *Greal*.

CYNAN NAWDD NIFER, yn ol *Brut y Tywysogion*, oedd un o'r ryfelwyr dewraf yn ei ddydd yn mysg Cenedl y Cymry. Lladdwyd ef yn 865.—*Myv. Arch.* ii. 479.

CYNAN TINDAETHWY, mab hynaf Rhodri Molwynog, a thywysog ar ran o Arfon ac ar Ynys Mon. Dilynodd ei dad i'r swydd hon tua 715. Er ei fod yn cydoesi ag Offa, brenin Mersia, rhwng y Cymry a pha un yr oedd rhyfeloedd parhaus a gwaedlyd, yr olaf o ba rai oedd "Cyflafan Morfa Rhuddlan," eto ni cheir Cynan yn cymeryd un llaw ynddynt, am y rheswm, mae'n ddiau, fod ei diriogaeth yn sefyll allan o gyrhaedd rhaib anniwall yr ymosodwr. Er hyny nid gwr dyeithr a fu efe i'r cledd a'r bwa. Cododd ei frawd Hywel mewn gwrthryfel yn ei erbyn, gan hawlio Mon fel ei gyfran dreftadol; ac enillodd yr ynys hono oddiarno yn 810 wedi brwydr waedlyd. Yn 814, ail-ymladdwyd brwydr rhyngddynt, a thrachefn trodd y fantol o blaid Hywel. Parodd hyn i Cynan gyd-gasglu ei holl adgyfnerthion, a thrwy ymdrech gadarn, gorfodwyd ar Hywel encilio o Fon i ynys Manaw. Bu farw Cynan yn fuan wedi hyn, gan adael ei feddianau i Essyllt ei ferch, yr hon a briodasai Merfyn Frych, pendefig o Fanaw, fab i Nest, ferch Cadell Deyrnllwg, fab Brochwel Ysgythrog.—*Myv. Arch.*

CYNAN WLEDIG, a gafas yn ieuanc freniniaeth Prydain, trwy iddo ladd Cystenyn Goronog. Dyn dewr ond gwaedlyd ydoedd; rhoddodd i farwolaeth ewythr a dau gefnder iddo oherwydd eu bod ar ei ffordd i'r orsedd. Dechreuodd deyrnasu yn 544, a bu farw yn mhen dwy flynedd, a dilynwyd ef gan Gwrthefyr.—*Myv. Arch.* ii. 358.

CYNBRYD, sant gwarcheidiol eglwys Llanddulas, ger Abergele, yn ei flodau yn y 5ed cant. Mab ydoedd i Brychan; a lladdwyd ef gan y Saeson mewn lle a elwid Bwlch Cynbryd; cynelid ei wylmabsant Mawrth 19.

CYNDAF, sant a ddaeth trosodd i'r wlad hon o Rufain, tua'r fl. 70, gyda Bran Fendigaid ac Ilid, gan ddwyn y flydd yn Nghrist i'r

Digitized by Google

Prydeiniad. Tybir mai Iuddew dychweledig ydoedd gan y geilw *Bonedd y Saint* ef yn "wr o Israel."

CYNDEYRN, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Arthog ab Garedig. Efe a sefydlodd eglwys Llangyndeyrn, yn sir Gaerfyrddin, lle y cynelid ei wylmabsant Mehefin 25.

CYNDEYRN, neu fel yr adwaenir ef fynychaf wrth yr enw St. Kentigern, ydoedd sant enwog yn ei flodeu yn y 6ed cant. Dywed *Bonedd y Saint* mai mab ydoedd i Owain ab Urien Rheged, ac mai ei fam ydoedd Dwynwen ferch i Llewddyn Lueddog o Ddinas Eiddin *(Edinburgh)*. Addysgwyd ef tan ofal un Serfanus, sant Gwyddelig, yr hwn a feddyliai mor uchel o hono fel y rhoddodd iddo yr enw "Mwyngu," ac ysgrifenwyr diweddar a lygrasant yr enw yn St. Mungo, wrth ba un yr adwaenir Cyndeyrn yn gyffredin. Efe a sefydlodd esgobaeth Penryn Rhionydd, yn y Gogledd, yr hen enw ar Glasgow; a geilw *Trioedd* 64 ef yn Benesgob y lle hwnw. Yn mhen yspaid, ymneilluodd i Gymru, a derbyniwyd ef yn garedig gan Ddewi Sant. Tra yn tario yn Nghymru, sefydlodd esgobaeth yn Llanelwy tua'r fl. 550. Wedi bod yma am ysbaid, Rhydderch Hael, penaeth Brython Ystrad Clwyd, a ddeisyfodd arno ddychwelyd i'r Gogledd. Hyny a wnaeth; rhoddodd ei esgobaeth yn Llanelwy yn ngofal Asaf, un o'i ddysgyblion, a bu yn esgob yn Glasgow hyd ei farwolaeth. Y mae llawer o eglwysi yn Cumberland wedi eu cyflwyno i nawdd St. Kentigern.—Rees' *Welsh Saints*.

CYNDRWYN, tywysog ar Bowys tua therfyn y bumed ganrif. Cynwysai Powys y pryd hwnw ddyffryn yr Hafren hyd i'r Amwythig. Cyndrwyn oedd tad Cynddylan—testun un o arwrgerddi penigamp Llywarch Hen. Yr oedd ei balas yn Llystynwenau, ger Caereinion, sir Drefaldwyn.

CYNDDELW BRYDYDD MAWR. Un o'r enwocaf o'r gogynfeirdd, yr hwn a flodeuodd o 1150 hyd 1200. Efe oedd bardd Owain Gwynedd, Madog ab Meredydd, a Dafydd ab Owain Gwynedd. Mae llawer o'i ganiadau yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*, yn cynwys clod i'r tywysogion, a dadolwch iddynt yn eu trallodion, a galargwynion ar eu hol pan drengent. Yr oedd efe yn elyn i ofergoeledd ei oes a thrwy hyny y tynodd y mynachod yn ei ben, a phan ar ei glaf wely anfonasant ato i geisio ganddo gyffesu ac ymostwng onide gwrthodid claddedigaeth Gristionogol iddo, ac y byddai farw dan felldith yr eglwys. Coffheir yr amgylchiad hwn yn yr englyn canlynol:—Llyma Englyn a gânt Cynddelw, gwedi anfon mynach o fynaich Ystrad Marchell i'w wrthod, ac i ddywedyd nas cleddynt yn eu mynachlog:—

Cen ni bai ammod dyfod—i'm herbyn,
A Duw gwyn yn gwybod,
Oedd iawnach i fynach fod
I'm gwrthfyn nag i'm gwrthod.

Hyny yw, yn gymaint ag na ellir dwyn un amod i'm herbyn, yr hyn y mae y Duw gwyn yn ei wybod, buasai yn fwy cyfiawn i'r mynachod fy nerbyn na fy ngwrthod.

CYNDDELW BRYDYDD LLYCHWIN. Bardd a flodeuodd tua chanol y drydedd-ganrif-ar-ddeg. Nid oes dim o'i gyfansoddiadau ar gael

CYNDDYLAN, mab Cyndrwyn, a thywysog ar y rhan hono o Bowys sydd yn gorwedd yn Nyffryn Hafren, o amgylch Amwythig, oddeutu canol y 6ed ganrif. Ei bensedd ef ydoedd Amwythig, yr hon y pryd

Digitized by Google

hwnw a elwid Pengwern, ac hefyd Pengwern Bowys, er mwyn ei gwahaniaethu oddiwrth leoedd ereill o'r un enw. Yr oedd Cynddylan yn rhyfelwr dewr, a mynych yr arweiniodd luoedd ei wlad i faes y frwydr yn erbyn y Saeson gormesol, y rhai a ymosodent ar ei diriogaeth. Yn un o'r brwydrau hyn, wrth amddiffyn tref o'r enw Tren, trechwyd ef gan y gelyn, a syrthiodd yn mlith y lladdedigion; a chladdwyd ef yn eglwys Bassa, a elwir yn awr *Baschurch*, gerllaw Amwythig. Wrth ymladd yn erbyn yr un gelynion hefyd y cwympodd ei frodyr Elfan a Chynwraith, yn nghyda phedwar mab ar hugain Llywarch Hen, am yr hyn y crybwylla y bardd hwnw gyda chalon ddrylliog yn ei "Ganu i'w Henaint a'i feibion." Hynododd Cynddylan ei hun yn ystod ei fywyd trwy ei waith yn noddi yr hybarch gadfardd Llywarch Hen, yr hwn, ar ol cwymp ei dywysog haelionus, a ganodd farwnad ber-gyffröus am dano, yr hon ar gyfrif ei theithi prydyddol, a'i chyfeiriadau hanesol syddlun o'r darnau gwerthfawrocaf o waith y cynfeirdd ag y sydd wedi dyfod i lawr i'n amser ni. Ceir yr alareb nodedig hon yn argraftedig yn y gyfrol gyntaf o'r *Myv Arch.*, hefyd yn *Heroic Elegies and other Pieces of Llywarch Hen*, gyda chyfeithiad Saesoneg, gan y Dr. W. O. Pughe. Cyhoeddwyd hi hefyd gyda chyfieithiad llythyrenol i'r Saesoneg o waith y Dr. Edwin Guest, o Gaergrawnt, yn yr *Archæological Journal*, a'r *Archæologia Cambrensis*, am y fl. 1863. Y mae hefyd wedi ei hargraftu lythyr yn llythyr o'r "Llyfr Coch o Hergest," gyda chyfieithiad Saesoneg, yn y *Four Ancient Books of Wales*. Ysgrifenwyd galarnad i Gynddylan hefyd gan Meigant, un arall o feirdd y 6ed ganrif, a cheir hi ar gadw yn y *Myv. Arch.* Rhy faith o lawer yw pob un o'r marwnadau hyn i'w cyflen yn y lle hwn, er en bod yn cynwys llawer o grybwyllion dyddorawl am Gynddylan; ond hwyrach y bydd y dernyn canlynol o waith un o'n beirdd diweddar, ar yr un testun, nid yn unig yn esgusodol, ond yn dderbyniol gan y darllenydd;—

YSTAFELL Cynddylan, ys tywell yw heno,
A thristwch yn Mhengwern osododd ei sedd;
Draig Powys nid ydyw! mae'r dewr wedi syrthio!
Ar waedlin ei fynwes gloddestodd y cledd!

Cynddylan a gwympodd! alaethwch, Frythoniaid!
Ei amrant a gauwyd ar ruddwawr faes cad;
Frythoniaid, alaethwch! gan gleddyf estroniaid
E syrthiodd dros ryddid a breintiau eich gwlad.

Ei lais ydoedd ruad croch daran o'r wybren,
Pan ruthrai ar warthaf y gelyn mor hy;
Pelydron ei lafnau oedd fflachiad y fellten;
Ac arswyd a chryndod gytteithient a'i lu.

Ei lygad oedd lygad craff dreiddiol eryrod;
Na'r iwrch ar y doldir mwy gwisgi ei droed;
Ei fraich ydoedd genad marwolaeth a difrod;
A'r gelyn ni chanfu ei gefn ef erioed.

Ond darfu y gwron! yn mreichiau gogoniant
Ei asgre drywanwyd gan falch feib y Sais;
Ond Cymry ei ddewredd byth, byth nid anghofiant
Tra cerir gwroldeb tra cas fyddo trais.

Ei feibion mawrfrydig ynt oer golaneddau;
O'i gleddyf a'i darian yn deilwng pwy sy?
Pwy faedda y gelyn, gan ymladd y brwydrau?
Pwy rwyf ei deyrnwialen? pwy arwain ei lu?

Alaethwch, alaethwch! rianod teg Powys!
A gwlychwch eich llofnau a deigr er ei fwyn:
Os llew oedd pan ruthrai ar ELYN, cariadus
A thyner fel oenyn oedd ef dan EICH swyn.

Daw heulwen yn haf-ddydd i euro y bryniau,
I anerch y wawrddydd daw adar y twyn;
Ond byth ar Gynddylan ni wen haul y boreu,
A'i gwag ni ddadebra peroriaeth y llwyn.

Ei isel obenydd yw'r glaswellt mathredig;
Cofarwydd i nodi ei fedd nid oes un;
Ei amdo yw'r leurig; a'i filwyr cwympedig
O'i amgylch yn dryfrith a hunant eu hun.

Alaetha, O Gymru, mam dirif lu dewrion!
Anobaith hyll drosot a daena ei dudd:
Draig Powys a rifir yn gymhlith a'r meirwon,
A neuadd llawenydd sy'n dywell a phrudd.

CYNFAB, sant, yn byw yn y 7fed cant. Efe a sefydlodd Gapel Cynfab a safai unwaith yn mhlwyf Llanfair ar y Bryn, sir Gaerfyrddin; lle y cofnodid ef Tachwedd 15.

CYNFAR CADGADDUG, penaeth yn y pumed ganrif, ydoedd fab i Cynyr Cynwydion. Yn *Trioedd* 72, cysylltir ei enw gyda Gwendolen ac

Digitized by Google

Urien, tan y penawd "Tri tharw câd," am y rhuthrynt ar eu gelynion, yn ail i deirw; ac nad ellid eu lluddias.—*Myv. Arch.* ii. 69.

CYNFARCH I., fab Sitsyllt, a ddilynodd Iago ar orsedd Prydain, tua 704 cyn Cred. Yntau a ddilynwyd gan Gyrfyw.—*Myv. Arch.* ii. 137.

CYNFARCH II., fab Seisyllt, a ddilynodd ei dad i orsedd Prydain, tua 503 cyn Cred. Yntau a ddilynwyd gan Daniel ei frawd.—*Myv. Arch.* ii. 137.

CYNFARCH OER, fab i Meirchion, yr hwn a fuasai dywysog ar y Brython Gogleddol tua chanol y pumed ganrif, eithr a yrwyd o'i diroedd gan y Saeson a'r Gwyddyl Ffichti; ac wedi hyny a ymsefydlodd yn Nyffryn Clwyd, fel y mae lluaws o enwau priod yn y cwr hwnw yn profi. Llanrhaiadr yn *Ceinmerch* y gelwir Llanrhaiadr Dyffryn Clwyd mewn hen lyfrau: y mae ystad hen iawn o'r neilldu i dref Rhuthyn, o'r enw *Coed Meirchion;* ac y mae chwedl ar Lafar Gwlad yn y Dyffryn am y Meirchion hwn yr un ffunud â'r hon a geir yn yr hen Fabinogion Cymreig am yr un gwr, a'i wraig anffyddlon Essyllt. Cynfarch a briodes Nefyn, ferch i Brychan, o'r hon briodas yr hanodd Urien Rheged; a dilys mai teulu ei fam fu yn achos i Urien symud i Ddeheubarth, lle yr hynododd efe ei hun fel milwr dewr a ffodus. Cynfarch a gyflwynodd ran olaf ei oes i wasanaeth crefydd, ac a sefydlodd eglwys Llangynfarch yn Maelor, sir Fflint, yr hon a ddinystriwyd gan y Saeson yn mrwydr Bangor Iscoed, tua'r fl. 607. Y mae eglwys Llanfair Dyffryn Clwyd wedi ei chyflwyno iddo yn gyfranog â'r Forwyn Fair; a thybir mai ar ei enw ef y galwyd eglwys St. Kinemark, yn sir Fynwy. Ceir a ganlyn ar Golofn Eliseg, ger Llangollen;—"*Conmarch pinxit hoc chirografum rege suo poscente Concenn.*"

CYNFARWY, sant yn byw yn y 7fed cant. Mab ydoedd i Afwy ab Llunawy, tywysog Cernyw. Efe a sefydlodd eglwys Llechgynfarwy, yn Mon. Cynelid ei wylmabsant Tach. 7.

CYNFELYN, sant yn byw yn y 7fed cant. Mab ydoedd i Bleiddyd ab Meirion. Efe a sefydlodd eglwysi Llangynfelyn, Ceredigion, ac un arall yn y Trallwng, sir Drefaldwyn.

CYNFELYN, a elwir yn fynych *Cynfelyn Wledig*, ydoedd fab Teneufan ab Lludd ab Beli Mawr, a brenin Prydain yn yr amser yr oedd Tiberius a Chaligula yn ymherodron yn Rhufain. Yn ol *Brut* Tysilio, dygwyd ef i fynu yn Rhufain o dan gyfarwyddyd Iwl Caisar, ac o herwydd hyny dywedir iddo, trwy ystod ei deyrnasiad, ddangos y fath bleidgarwch i'r Rhufeiniaid, fel y bu iddo dalu y deyrnged iddynt, er y gallasai ei hatal oddiwrthynt. Ymddengys gan hyny mai Cymro wedi ei Rufeineiddio i raddau helaeth ydoedd. Bu farw Cynfelyn o gylch O.C. 40, gwedi teyrnasu deuddeg mlynedd; a gadawodd ar ei ol ddau o feibion, Gwydyr a Gweirydd, y rhai yn olynol a'i dilynasant ef ar yr orsedd, ac, yr annhebyg i'w tad, a nacasant dalu y deyrnged i wyr Rhufain. Yn y *Trioedd* cysylltir Cynfelyn â Charadog ac Arthur megys "Tri glewion Unbeniaid Ynys Prydain;" a gelwid hwynt felly am y "gortrechent ar eu galon hyd nas gellid, namyn o frad a chyn llwyn, eu gorfod." Dywed Dion Cassius (er yn amryfus, yn ein tyb ni) mai Cynfelyn oedd tad Caradog ab Brân fel y crybwyllwyd eisoes o dan yr erthygl hono. Y mae llawer o arian bath ar gael hyd y dydd heddyw yn dwyn enw Cynfelyn (yn gyffredin yn y ffurf Ladin *Cunybelinus);* a bernir mae efe oedd y cyntaf o'r breninoedd Prydeinig a arferodd fathu arian; ac y mae dullwedd Rufeinig y batholion hyn yn

Digitized by Google

tueddu i gadarnhau dywediad y *Brut* sef mai yn Rhufain y cafodd efe ei feithrin a'i addysgu. Y mae llawer o'r bathau hyn ar gadw yn y Gywreinfa Brydeinig yn Llundain, ac eraill yn nghelloedd cyfrinachol y cywrain. Go afraid chwanegu mai y Cynfelyn hwn ydyw *Cymbeline* Shakespear.

CYNFELYN DRWSGL, ydoedd fab i Cynwyd Cynwydion, ac yn hanu o lin freiniol Coel Godhebog. Yr oedd yn rhyfelwr dewrwych, canys geilw y *Trioedd* ef yn un o dri "post câd" Ynys Prydain.

CYNFRAN, sant yn byw yn y 5ed cant. Un o feibion Brychan ydoedd, sefydlydd eglwys Llysfaen rhwng Abergele a Chonwy. Y mae ffynon yn y plwyf hwnw a elwir Ffynon Cynfran, yn mha un y byddai amaethwyr y dyddiau gynt yn offrymu, ac yn galw am "Rad Duw a Cynfran lwyd ar y da," trwy ba foddion yn ol eu coel hwy, y disgwylient nawdd y sant ar eu gwartheg, ceffylau, &c.

CYNFRIG, neu Gynwrig ab Dafydd Goch, bardd a flodeuodd tua 1420. Mae rhai o'i cyfansoddiadau yn nghadw mewn llawysgrifau.

CYNFRIG (Ellis). Bardd a flodeuodd o 1580 hyd 1620.

CYNFRIG HIR, brodor ydoedd o Edeyrnion. Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, wedi bod o hono yn dihoeni yn ngharchar Caerlleon Gawr am yspaid deuddeg mlynedd fel carcharor rhyfel iarll y ddinas hono, a ryddhawyd trwy ddewrder gwladgarol *Cynfrig Hir*. Cynfrig tan yr esgus o brynu angenrheidiau bywyd, a aeth i Gaerlleon, a chan wylio ei gyfleusdra, a gafodd fynediad rhwydd i'r Castell, ac i garchargell ei dywysog, yr hwn a ddygodd efe yn gadwynog ar ei gefn i ddiogelfan, tra yr oedd gwyr arfog y gaer, o'r gwyliwr i'r distawr, yn ymloddesta uwch y gwin a'r gyfeddach. Anfynych y ceir y pleser o hanesu engraifft mor ragorol o wrhydri eon a gwladgarol.

CYNFYW AB GWYNLLYW, ydoedd sant o goleg Cattwg. Gan y ceir ei enw weithiau yn Cyfyw a phryd arall Cynfyw, tybir mai efe a sefydlodd eglwysi Llangyfyw, yn sir Fynwy; a Llangynyw, yn sir Drefaldwyn.

CYNHAFAL. sant, mab i Elyd ab Cadfarch ab Caradawg Freichfras, a'i fam oedd Tubrawst. Efe a sefydlodd eglwys Llangynhafal, yn sir Ddinbych. Cedwid ei wylmabasant Hydref 5.

CYNHAFAL AB ARGAD. Bardd a flodeuodd yn y 7fed ganrif. Nid oedd efe yn llai enwog am ei alluoedd milwraidd nag am ei ddoniau barddonol. Nodir ef yn y *Trioedd* fel un o "Dri Tharw Unben Ynys Prydain." Y lleill oeddynt Elmur ail Cibddar ac Afaon mab Taliesin Benbeirdd; "a beirdd oedd y tri hyn, ac nid a ofnynt yn nghad a brwydr, eithr rhuthraw ynddynt a wnaent ac nid ofnynt gyflafan."

CYNHAIARN, oedd fab i Hygarfael ab Cyndrwyn, ac yn ei flodau yn y 6ed cant. Y mae eglwys Ynys Cynhaiarn, yn Arfon, wedi ei chyflwyno iddo. Brodyr iddo ef oeddynt Llwch-haiarn ac Ael-haiarn.

CYNHEIDDON, santes yn byw yn y 5ed cant. Tybir mai wyres ydoedd i Brychan. Sylfaenodd gapel ar Fynydd Cyfor, yn mhlwyf Llandyfaelog, Caerfyrddin, o'r enw Llangynheiddon; ond y mae yr adeilad bellach wedi ei difodi. Yr oedd sant arall o'r un enw yn blodeuo yn y 6ed cant; mab ydoedd i Ynyr Gwent, ond ni wyddis ddim o'i helynt.

CYNHUDYN, sant, yn byw yn y 6ed cant. Yr oedd efe yn fab i Bleddyd ab Meirion, ac yn ddeon coleg Padarn yn Llanbadarn Fawr. Oddiwrth y gair "Cantotum" sydd wedi ei dori ar gareg yn Llanwnws, Ceredigion, tybir mai yno y mae ei fedd.—*Myv. Arch.* ii. 36.

Digitized by Google

CYNIDR, sant, yn byw yn y pumed cant. Mab ydoedd i Rhiengar ferch Brychan. Preswyliai yn Maelienydd, sir Faesyfed, a chladdwyd ef yn Glasbury. Efe a sefydlodd eglwysi Llangynidr ac Aberscir, yn Mrycheiniog, y rhai a gyflwynwyd iddo ef a Mair Forwyn.

CYNIN, sant, yn ei flodau yn y pumed cant. Yn ol *Bonedd y Saint*, mab ydoedd i Brychan, ond dywed awdurdod arall mai ŵyr ydoedd. Efe a sefydlodd eglwys Llangynin, yn sir Garfyrddin. Yr oedd efe yn esgob hefyd; a gelwir yr eglwys, "Llangynin a'i weision neu ei feibion," wrth ba rai y meddylir ei glerigwyr.—Rees' *Welsh Saints*.

CYNLLO, sant, yn ei flodau yn y 5ed cant. Mab ydoedd i Mor ab Cenen ab Coel Godebawg. Gan ei fod yn cael ei gofnodi yn mlwyddiadau yr hen argraffiadau o'r Ffurf-weddiau Cymreig, ar Mehefin 17, fel Cynllo *Frenin*, tybir ei fod unwaith mewn meddiant a'r hen diriogaethau treftadol, ac iddo wedi hyny ymgyflwyno i fywyd crefyddol. Efe a sefydlodd eglwysi Nantmel, Llangunllo, a Llanbister, yn sir Faesyfed: a Llangynllo, a Llangoedmor, yn sir Aberteifi. Rhaid fod ei eiriolaeth seintyddol mewn cryn fri yn yr hen amser, canys dywedir yn "Nyhuddiant Elphin," o waith Taliesin, "Ni bydd coeg gweddi Cynllo." Oddiwrth grybwylliadau yn *Ngwaith Lewis Glyn Cothi*, deallwn fod ei enw mewn coffadwriaeth yn yr enwau canlynol:—1. *Cerwynau Cynllo*, sef corbyllau yn y graig o tan wely yr afon wedi eu ffurfio gan y dwfr; 2 *Ol traed march Cynllo*; 3. *Ol gliniau Cynllo*. Y mae ffynon hefyd yn mhlwyf Llanbister o'r enw *Pistyll Cynllo*.—*Wms. Em. Welsh*.

CYNLLO, tywysog ar Bowys yn yr wythfed ganrif. Mab ydoedd i Beli ab Maelmynan.

CYNLLWG. Bardd a flodeuodd tua deg.reu y 9fed ganrif. Nid oes dim o'i waith ar gael.

CYNOG, sant yn byw yn y pumed cant. Tybir mai mab ydoedd i Brychan; ei fam oedd Banadlwedd ferch i Banadle o Bowys. Yn ieuanc iawn, dodwyd ef tan ofal gwr duwiolfrydig o'r enw Cysten, yr hwn a'i bedyddiodd. Dywed Cressy am dano, "Yr oedd enwogrwydd ei fuchedd santaidd mewn bri mawr yn mlith y Siluriaid, a chofnodir ei enw yn y Merthyrdraeth Saesneg ar gyfer Chwefror 11." Merthyrwyd ef gan Saeson Paganaidd ar fynydd y Fan, yn sir Frycheiniog; a chodwyd eglwys ar ei fedd er coffadwriaeth am dano, a'r eglwys a alwyd Merthyr Cynog. Efe a sefydlodd eglwysi Defynog, Ystradgynlais, Penderin, Battel, a Llangynog, yn Mrycheiniog; a Llangynog, yn sir Drefaldwyn.

CYNOG, yr hwn a elwir weithiau hefyd Kinothus, ydoedd ail esgob Llanbadarn, ac efe a ddilynodd Dewi Sant yn esgobaeth Tyddewi tua 544. Ymddengys na bu efe byw ond ychydig amser ar ol y dyrchafiad hwn, canys mewn rhai llyfrau dywedir mai Teilo Sant a ddilynodd Dewi Sant. Y mae eglwys Llangynog, yn sir Gaerfyrddin, wedi ei chyflwyno iddo.

CYNON AB CLYDNO EIDDIN: "Tri marchog cynghor ddoeth Llys Arthur: Cynon * * *; ac ni cheid amgen na llwydd i bob cynghor o'u heiddaw a wnaed, ac aflwydd a gaed lle bynag nas gwneid yn ol eu cynghoreu."—*Trioedd* 116. Cysylltir ei enw yn *Trioedd* 102, gyda Chaswallon a Thrystan tan y penenw "Tri serchogion Ynys Prydain;" a Chynon ydoedd serchoglawn am Forfydd ferch Urien Rheged. Dywed Aneurin yn y "Gododin" a "Gwarchae Cynfelyn," ei fod yn bresenol yn mrwydr Cattraeth, ac yn un o'r pedwar a ddianges

Digitized by Google

a'i fywyd ganddo o'r gad alaethus hono. Y mae cynifer a phump o "Englynion y Beddau," yn cyfeirio at fedd Cynon, oddiwrth ba rai y gellir casglu yn lled sicr mai yn Llanbadarn y mae ei lwch yn gorphwys. Y mae amryw o feirdd y Canol Oesau yn cyfeirio at ei wroldeb fel milwr, a'i ffyddlondeb fel cariadfab. Yn mhlith eraill, Gruffydd ab Meredydd ar derfyn y 14eg ganrif a gyferbyna wresogrwydd ei deimladau i'r eiddo Cynon at Morfydd.

CYNWAL (RICHARD), Penmachno. Bardd a flodeuodd yn 1670, ond mae Williams yn ei *Em. Welsh.*, yn ei gyfleu rhwng 1600 a 1630.

CYNWAL (WILLIAM). Bardd o fri ac enwogrwydd yn byw yn Mhenmachno, yn sir Gaernarfon, ac yn ei flodeu o 1560 i 1600. Bu dadl farddonol rhyngddo a'r Archddiacon Prys, yr hon a ddygwyd yn mlaen gyda'r fath chwerwder, nes y dywedir i Gynwal golli ei fywyd yn mhoethder y frwydr. Mae tua 50 o'r cywyddau ymryson ar gael mewn llawysgrifau. Dywed Goronwy Owain ar ol darllen y cywyddau, "nid hen ddyn dwl oedd yr Archddiacon, ag ystyried yr amser yr oedd yn byw ynddo; eto, yr wyf yn cyfrif Mr. Cynwal yn well bardd, o ran naturiol anian ac athrylith, ond bod Edmwnd yn rhagori mewn dysg. Nid oedd Cynwal druan (ysgolaig bol clawdd) ond megys yn ymladd â'r dyrnau moelion yn erbyn tarian a llurig."

CYNWRIG BENCERDD, o Dreffynon, y prif gerddor yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin, yn 1451. Mae yn hynod mai tri o sir Fflint a farnwyd yn oreu yn yr Eisteddfod hono, sef D. ab Edmwnd yn ben bardd, Cynwrig Bencerdd yn brif gerddor, a Rhys Bwtting o Brestatyn y pen datgenydd.—*Y Geirgrawn*, t.d. 252.

CYNWRIG (SION). Bardd a flodeuedd tua 1600. Mae ei waith yn nghadw mewn ysgriflyfrau.

CYNWYD CYNWYDION, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Yr oedd yn aelod yn ngholeg Cattwg, ac efe a sefydlodd eglwys Llangynwyd yn Morganwg. Mab ydoedd i Cynfelyn Garthwys, a thad Clydno Eiddin, Cynan, Cynfelyn Drwsgl, a Chadrod Calchfynydd, y rhai oll a ymroisant i fywyd crefyddol.

CYNWYL (SION). John Williams, neu Sion Cynwyd, oedd fardd da yn byw yn Nghynwyd, yn Edeyrnion, ac yn ei flodeu tua 1800. Gwelir peth o'i waith yn y *Cylchgrawn*, 1793. Gwehydd ydoedd wrth ei alwedigaeth; yr oedd yn aelod gyda'r Methodistiaid, ac ystyrid ef yn ŵr duwiol.

CYNWYL, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Dunawd Fflur a Dwywe ferch i Gwallawg ab Lleenawg; a brawd iddo ef oedd Deiniol. Yr oedd llaw ganddo yn sefydliad colegdy Bangor Iscoed; ac efe sefydlodd eglwysi Cynwyl Gaio a Chynwyl Elfed, yn sir Gaerfyrddin, ac Aberporth yn Ngheredigion. Y mae eglwys Penrhos, ger Pwllheli, wedi ei chyflwyno iddo. Cedwid ei wylmabsant Ebrill 30.

CYNYR CEINFARFAWC, un o wyr enwog cynhanes cenedl y Cymry. Celwir ef weithiau Cynyr Farfdrwch. Penaeth ydoedd yn y 5ed ganrif, a mab Gwron ab Cunedda.

CYNGAR, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Geraint ab Erbyn, un o dywysogion Dyfnaint. Symudodd i Gymru o Conglesbury, yn Ngwlad yr Haf, a daeth yn aelod o goleg Garmon, a sefydlodd goleg neu fynachlog yn Llangenys, Morganwg. Efe hefyd a sefydlodd eglwysi Badgworth a Conglesbury yn Ngwlad yr Haf, Llanestyn yn sir Fflint, a Llangefni yn Mon. Yr oedd sant arall o'r enw Cyngar yn fab Arthog ab Ceredig ac yn frawd i Cyndrwyn. Sonia Capgrave am

Digitized by Google

Gyngar arall hefyd yr hwn a eilw efe yn un man yn Docwinus.—Rees' *Welsh Saints.*

CYNGEN, tywysog ar Bowys tua'r fl. 500. Efe a olianodd ei dad, Cadell Deyrnllwg y cyntaf, ac a enwogodd ei hun am y nawdd a roddai i'r saint, ac am ei hael roddion i'r eglwys. Rhoddes lawer o diroedd tuag at Fynachdy Bangor Iscoed; a graddir ef yn sant, canys yr oedd eglwys gynt yn yr Amwythig wedi ei sefydlu ganddo a'i chyflwyno iddo. Ei wraig ydoedd Tangwystl, ferch neu wyres i Brychan.

CYNGEN, yr ail, a olianodd ei dad, Cadell Deyrnllwg yr ail, i dywysogaeth Powys yn 804. Efe a aeth i Rufain, ac a lofruddiwyd yno gan ei weision yn 850.—*Myv. Arch.* ii. 392, 479.

CYRRIOG (Goronwy), ydoedd fardd o Fon, ac yn blodeuo o 1310 hyd 1360. Mae dau gyfansoddiad o'i eiddo yn y *Myv. Arch.*, sef Englynion a gânt Goronwy Gyrriog i Wenhwyfar ferch Madawg, gwraig Hywel ab Tudur, a Chân i Madawg, esgob Bangor.

CYRRIOG (Gutyn). Bardd a flodeuai o 1500 hyd 1530. Preswyliai yn Llanelian, yn Mon. Mae ei ganiadau yn nghadw mewn llawysgrifau.

CYRRIOG. Iorwerth ab Cyrriog oedd fardd o Fon, yn ei flodeu o 1360 hyd 1400. Mae Awdl i Dduw o'i waith yn y *Myv. Arch.*, ac un arall i Ferch, yn nghyda Marwnad iddo gan Sefnyn.

CYRYS O IAL, neu "Yr hen Gyrys o Ial," fel ei gelwir weithiau, sydd enwog fel casglwr cyntaf y Diarebion Cymreig. Dywedir ei fod yn byw yn yr 11eg neu'r 12feg ganrif. Anhawdd gwybod pa nifer o'r Diarebion a gyfansoddodd ef ei hun. Mae llawer o honynt i'w gweled yn ngwaith y cynfeirdd, yn enwedig Llywarch Hen. Eu casglu yn nghyd a'u trefnu yn llyfr rheolaidd a wnaeth Cyrys mae'n debyg, canys crynhoad graddol o ffrwyth doethineb a phrofiad oesoedd yw diarhebion. Cafodd ei waith, yr hwn a adnabyddid wrth yr enw, "Madwaith Hen Gyrys o Ial, neu Bach Buddugre a Gwynfarch Gyfarwydd," ei adysgrifo gan y bardd Gruffydd Hiraethog, tua 1530; a chan Dr. Davies o Fallwyd, tua 1600; gan William Morus o Gefn y Braich, yn Llansilin, yn 1675; gan Evan Evans, y Prydydd Hir, yn 1775; ac o'r diwedd ei argraffu yn y drydydd gyfrol o'r *Myv. Arch.*, drwy ddawn a haelioni y clo lfawr Owain Myfyr.

CYSTENYN FENDIGAID. *Gwel* Cystenyn Gorneu.

CYSTENYN GORNEU, mab Cynfor ab Tudwal Mwynfawr ab Cadfan ab Cynan Meiriadog, ydoedd daid y Brenin Arthur; a gelwir ef yn fynych *Cystenyn Fendigaid*, oherwydd ei nawdd a'i haelioni i'r eglwys; ac weithiau *Cystenyn Llydaw*, am ei ddyfod i'r wlad hon o Llydaw, neu Brydain Fechan, lle y preswyliai ei hynafiaid er amser Cynan Meiriadog, tua diwedd y bedwaredd ganrif. Pan fethodd y Prydeiniaid (y rhai oeddynt wanllyd ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid) wrthsefyll rhuthriadau parhaus y Brithwyr, neu y Gwyddyl Ffichti, fel eu gelwir fynychaf yn y cofion Cymreig, anfonasant am gynorthwy yn eu herbyn at eu ceraint yn Llydaw, ac mewn canlyniad anfonwyd Cystenyn drosodd gan ei frawd Aldwr, yr hwn weithian oedd wedi esgyn i orsedd y wlad hono, a dwy fil o wyr arfog i'w ganlyn; ac wedi gorchfygu ohono ef y gelyn mewn amryw frwydrau, etholwyd ef i unbenaeth Ynys Prydain o gylch y fl. 433. Dywedir i Gystenyn briodi merch i benaeth Rhufeinig, ac (yn ol *Llyfr Teilo*) ymddengys fod ganddo ferch, yr hon a briododd Pebiaw, mab Erb frenin Gwent ac Erging, yr hwn oedd gefnder i Tewdrig ab Teithfallt, brenin Mor-

Digitized by Google

ganwg, a thaid i Ddyfrig Sant. Tybir i Gystenyn sylfaenu eglwys Llangystenyn, yn Erging. yr hon wedi hyny a roddwyd gan Pebiaw ei ddaw i Eglwys Llandaf; a cheir cofnod o'r rhodd hon yn *Llyfr Teilo*, t.d. 314. Yr oedd gan Gystenyn amryw feibion, a'r hynaf ohonynt, yr hwn a elwid Constans, ar farwolaeth ei dad, yr hwn a frad-lofruddiwyd gan un o'r Brithwyr, o gylch y fl. 442, a'i dilynodd ef yn y frenhiniaeth; ond yn mhen pum mlynedd ar ol hyny, llofruddiwyd yntau gan Wrtheyrn Gwrthenau, yr hwn a drawsfeddianodd y deyrnas. Heblaw ei gynfab Constans, a gwraig Pebiaw ab Erb, yr oedd gan Cystenyn amryw o blant eraill, y rhai y mae eu henwau yn mhlith y clodforusaf a gofnodir yn yr amseroedd hyny; sef oeddynt, Emrys Wledig, yr hwn a elwir Ambrosius gan ysgrifenwyr Lladin; Uthr Bendragon, tad Arthur; Erbin brenin Cernyw; a Digain, yr hwn a ymroddes i fuchedd grefyddol, ac a sefydloedd eglwys Llangerniw, yr hon a safai unwaith yn ardal Erging, yr hon a gynwysai y rhan o swydd Hentfordd sydd ar y tu de-orllewin i'r afon Gwy. Crybwyllir am Gystenyn Gorneu yn y *Trioedd* yn y wedd ganlynol:—"Tri estron deyrn Ynys Prydain: Gwrddyled Gawr, a Morien Farfawg, a Chystenyn Fendigaid." Bernir mai i Gystenyn Gorneu y mae eglwys Llangystenyn, ger Conwy, Arfon, wedi cael ei chyflwyno. Tybia rhai mai dau wahanol oedd Cystenyn Gorneu a Chystenyn Fendigaid: ond y mae pob lle i farnu mai yr un a'r unrhyw oeddynt. Yr oedd Cystenyn yn hanu o deulu Cernywig, a barn rhai yw mai oddiwrth ei gysylltiad â Chernyw y derbyniodd yr atenw *Corneu*. Wyr i'r Cystenyn hwn ydoedd y rhyfelwr clodfawr Geraint ab Erbin, "gwr dewr o odir Dyfnaint," yr hwn a laddwyd wrth ymladd ohono dan Arthur yn mrwydr Llongborth, fel y crybwyllir yn ei farwnad gan ei gyfoesydd Llywarch Hen; a gorwyr iddo, yn llinach Geraint, ydoedd Cybi Sant, sylfaenydd eglwys Caergybi yn Mon, ac eraill eglwysi yn dwyn ei enw yn y Dywysogaeth.—*Wms. Em. Welsh.*; Carnhuanawc, *Hanes Cymru.*

CYSTENYN GORONIOG, yn ol y *Brutiau*, ydoedd fab i Cador, ac a ddilynodd Arthur i orsedd Prydain yn 542, ac ar ddymuniad taer y brenin enwog y gwnaeth efe hyny; canys Cador ydoedd fab i Gorlais, iarll Cernyw—mam Arthur a merch Amlawdd Fawr. Bu Cystenyn mewn brwydrau mynych a chreulawn gyda'r Saeson, y rhai a gynorthwyid y pryd hwn gan feibion Modred Fradwr; ac wedi teyrnasiad o dair blynedd efe a laddwyd gan Cynan Wledig, ac a gladdwyd gerllaw i fedd Uthr Pendragon yn Ngor y Cawri yn Nghaer Caradog (*Stonehenge*).—*Myv. Arch*, ii. 358.

CYVEILIAWG, esgob Llandaf o 872 hyd ei farwolaeth yn 927. Efe oedd y cyntaf o'r esgobion Cymreig a daloda erioed warogaeth i hawliau ysprydol Caergaint. Cysegrwyd ef yn esgob gan Ethelred, archesgob Caergaint, yn ei dy ei hun, tua'r fl. 872. Cymerwyd ef yn garcharor rhyfel gan y Daniaid; eithr y brenin Sacsonaidd Edward yr hynaf a'i gwystl-brynodd ganddynt trwy dalu y swm o ddeugain punt.—*Liber Landavensis*, 491.

CYVELACH, a fu mewn enw yn esgob ar Forganwg; ac yn ol *Brut y Tywysogion*, efe a laddwyd yn 756 mewn brwydr a gymerodd le yn Hentfordd rhwng y Saeson a'r Cymry. Y mae eglwys Llangyfelach yn Morganwg, wedi ei galw ar ei enw, er mai Dewi Sant a'i sylfaenodd ar y cyntaf.

CYVLEVYR, sant yn byw yn y 5ed cant. Tybir mai wyr i Brychan ydoedd. Lladdwyd ef yn Ngheredigion gan y Saeson, mewn lle a elwir

Digitized by Google

er cof am ei ferthyrdod Merthyr Cyflefyr.—Jones' *Brecknockshire*; *Wms. Em. Welsh.*

DADWEIR, neu Dallweir Dallpen, un o arwyr Llys Arthur. Crybwyllir ei enw yn *Mabinogi* Cilhwch ac Olwen; efe oedd piau y moch a gadwai Coll ab Collfrewi yn Nyffryn Dallwyr, yn Nghernyw.—*Myv. Arch.* ii. 72

DAFYDD AB BELYN. Bardd a flodeuodd rhwng 1520 a 1550. Mae rhai o'i gyfansoddiadau, yn benaf englynion, yn nghadw mewn llawysgrifau.

DAFYDD AB BLEDDYN, canonwr Llanelwy, ac efe a gysegrwyd yn esgob yno yn 1315. Yn ei amser ef y casglwyd y llyfr enwog a elwid *Llyfr Coch Llanelwy*, yr hwn a gynwysai lawer o hanes yr esgobion a'r esgobaeth hono. Bellach y mae y llyfr wedi myned ar ddiflancoll, ac nid oes ond rhan fechan ohono ar gael. Nis gwyddis pa bryd y bu farw D. ab Bleddyn, ond yr oedd yn fyw yn 1346.

DAFYDD AB EDMWND. *Gwel* EDMWND (Dafydd ab).

DAFYDD AB GERALD, neu Ffitzgerald, archddiacon Ceredigion, a gysegrwyd yn esgob Ty Ddewi yn 1147, lle y bu hyd ei farwolaeth yn 1176.

DAFYDD AB GRUFFYDD, ydoedd fab i Gruffydd ab Llewelyn Fawr, a brawd "Llewelyn ein Llyw Ola'." Er iddo yn more oes gyflawni rhai ystranciau ynfyd, chwidrys, ac anwladgar i'r eithaf; eto, tua chanol ei oes, cawn ef yn mhlith y dewraf o ddewrion ei wlad yn ymladd tros ei rhyddid a'i hawnderau hi, ac yn y diwedd yn marw o'r farwolaeth greulonaf, oblegyd iddo amddiffyn ei cham a phleidio ei hachos. Bu farw Dafydd ab Llewelyn yn *ddiblant*, a'r Cymry a ddewisasant Owen a Llywelyn ei frawd yn gyd-dywysogion arnynt; eithr Owen, yr hynaf, a anfoddlonodd ar ei ran, ac yn hytrach na chydranu a ddewisodd gymeryd y maes yn erbyn Llewelyn; ac fel cydfradwr ag Owen y dygir Dafydd gyntaf mewn hanesiaeth ger ein bron. Bu y gwrthryfel yn aflwyddianus, daliwyd Owen a Dafydd a charcharwyd hwynt yn Nghastell Padarn, ger Llanberis. Cymerodd hyn le tua'r fl. 1254. Nid hir y parhaodd carchariad Dafydd. Tua'r fl. 1357, cawn ef yn Nghaerfyrddin yn ben ar nifer o foneddigion Cymreig a ddewiswyd gan Llewelyn i gyfarfod y dirprwywyr Seisnig er mwyn llawnodi cadoediad am flwyddyn rhwng byddinoedd y ddwy wlad. Yn mhen ychydig flynyddau ar ol hyn, Dafydd a adawodd ei wlad, ac a ffodd i Loegr, gan ymuno a byddinoedd Harri III.; ac yr oedd efe yn bresenol yn mrwydr Morfa Caerlleon, yn gwasanaethu tan Arglwydd Audley, pan orchfygwyd y Saeson gyda lladdfa fawr. Erbyn 1277, yr oedd Dafydd wedi dringo yn uchel i ffafr brenin Lloegr, yr hwn a'i gwnaeth yn farchog, ac a roddes iddo mewn priodas ferch i iarll Derby, ystafellyddes i'r frenines; gweddw ieuanc ydoedd newydd gladdu ei gwr. Gwnaed ef yn arolygwr tan y brenin ar yr holl gestyll perthynol i'r Saeson yn Nghymru, a chafodd yn anrheg ganddo gestyll Dinbych, a Frodsham yn sir Gaer, gyda thiroedd yn perthyn iddynt gwerth mil o bunau yn y flwyddyn. Ond yr oedd ysbryd anesmwyth Dafydd yn anfoddlon hyd yn oed dan wenau llys brenin Lloegr; a'r driniaeth a dderbyniai Llywelyn oddiar ddwylaw Harri a barodd iddo benderfynu gadael Lloegr a chynyg ei gleddyf eilwaith at wasanaeth ei frawd a'i wlad. Ymddengys hefyd nad triniaeth deg a gonest a dderbyniai oddiar ddwylaw y pendefigion Saesnig, yr oedd un William Venables yn tori i lawr y coed ar ei ystad Lleweny, yn Nyffryn Clwyd; arall,

Digitized by Google

Reginald de Grey, yn bygwth cymeryd Castell Caergwrle yn sir Fflint, oddiarno, ac yn hawlio ei blant yn wystlon am ei iawnymddygiad rhagllaw. Yn ngwyneb hyn, penderfynodd Dafydd ffoi i Gymru; a gwnaeth i Llewelyn dyngu wrtho na byddai iddo byth mwyach roddi arfau i lawr hyd nes ysgubid pob Sais ohoni. Parodd dyfodiad Dafydd i'w plith adfywiad i fyddinoedd Llewelyn. Dechreuwyd y rhyfelgyrch newydd trwy i Dafydd yn ben ar fyddin gref wneud rhuthr medrus a sydyn ar gastell Hawarden. Cymerodd hyn le ar nos Sul y Blodeu, 1282. Daliwyd llywydd y Castell, Roger de Clifford, yn ei wely; a chymerwyd ef, wedi ei archolli'n farwol, yn garcharor i Eryri. Yna y ddau dywysog a unasant eu byddinoedd, ac a fuant lwyddianus iawn dros ysbaid; ond erbyn diwedd yr haf, yr oedd y fantol wedi troi, a'r Cymry yn erfyn ar ei gelynion am heddwch. Anfonodd Llywelyn a Dafydd ddeisebau ar wahân i'r perwyl hwnw at y Saeson. Atebwyd Dafydd, os ymgymerai ef a myned i Palestina i ymladd yn Rhyfeloedd y Groes, ac na ddychwelai byth drachefn i Brydain, y gwneid darpariaeth weddus ar gyfer ei urddas ef fel tywysog ac hefyd ar gyfer ei unig ferch yn ei absenoldeb. A tha cefu i'r telerau hyn, os gwrthodid hwynt, taranai yr eglwys Babaidd fygythion o ysgymundod ar y tywysogion a'u deiliaid. Y mae ateb Dafydd i'r awdurdodau eglwysig yn llawn o'r teimlad dwysaf, a'r rhesymeg goethaf:—

"Pan elo efe i'r Tir Sanctaidd, efe a â o'i fodd ac o'i galon i Dduw ac nid i ddynion: a thrwy ganiatad Duw nid â yno yn anfoddlawn, canys gwyr fod gwasanaeth trwy drais yn anfoddlawn gan Dduw. Ac os digwydd iddo ar ol hyn fyned i'r Tir Sanctaidd o'i wir ewyllys ei hun, ni ddylai ef a'i etifeddion o achos hyny gael ei ddietifeddu, ond yn hytrach enill gwobrwy. Heblaw hyn, nid yw y Tywysog a'i bobl yn cynal rhyfel yn erbyn neb o achos dygasedd, neu elw, trwy ymosod ar diroedd eraill; ond er amddiffyn eu hetifeddiaeth a'u breintiau a'u rhyddid eu hunain; a'r arglwydd frenin a'i bobl a gynaliant ryfel er mwyn hen ddygasedd ac yspeilio ein tiroedd ni. Yr ydym yn credu ein bod yn cynal rhyfel gyfiawn; a gobeithiwn yn hyn y bydd i Dduw ein cynorthwyo, a thrwy Ei ddwyfol ddialedd yn erbyn difrodwyr yr eglwysi, y rhai yn llwyr a ddinystrasant, ac a losgasant, ac a yspeiliasant o'u dodrefn sanctaidd; a laddasant yr offeiriaid, y crefyddwyr llenyddol, y cloffion, y byddariaid, y mudion, y plant yn sugno bronau, y methedig, a'r cystuddiedig, heb arbed na gwryw, na benyw; felly bydded yn mhell oddiwrth eich Sanctaidd Dadoldeb daranu unrhyw ddedfryd yn erbyn neb oddieithr y sawl a gyflawnasant y cyfryw bethau. Canys nyni, y rhai a ddyoddefasom y cyfryw bethau gan swyddogion y brenin, ydym yn gobeithio derbyn eich tadol gysur o'u herwydd, a cheryddu ohonoch y cyfryw gysegr-yspeilwyr a'u cefnogwyr, y rhai nid ellir amddiffyn eu gweithredoedd hyn mewn un modd, rhag, o achos eisiau adferyd eraill. Hefyd, y mae llawer yn ein gwlad yn rhyfeddu eich bod yn ein cynghori i adael ein gwlad ein hunain, a thrigo yn mhlith gelynion, canys os nad allwn gael heddwch yn ein cyfiawn wlad gynhenid, pa fodd y cawn heddwch mewn gwlad ddyeithr yn mhlith estroniaid? Ac er mai caled yw bywyd o ryfel a chynllwyn, eto caletach fyddai cael ein llwyr ddyfetha."

Diwedd hyn fu i archesgob Caergaint ysgymuno y ddau dywysog a'u deiliaid; a syrthiodd y tywysog Llywelyn yn Mualit trwy law bradwr, gan adael Dafydd yn unig feddianwr ar hen deyrnas wasgaredig, fechan,

Digitized by Google

a dirywiedig y Prydeiniaid. Yn nghwymp Llywelyn cwympodd yni a dewrder y genedl, a syrthiodd y dywysogaeth yn dameidiau oddiwrth ei gilydd. Ceisiodd Dafydd adferu pethau; gwysiodd benaethiaid Gwynedd i'w gyfarfod ef yn Ninbych, a bwriadai aii-ddechreu rhyfelgyrch egniol; ond ychydig fu ei ddylanwad, a gwelodd ei fod yn taro wedi i'r baiarn oeri. Daeth y Saeson yn mlaen fel cenllif ddinystriol, cymerasant feddiant o'r castelli; ac Eryri ei hunan—cysegr santeiddiolaf y dewrion, a syrthiodd i'w crafangau. Bu Dafydd yn ffoadur crwydrol o'r awr hono hyd oni ddaliwyd ef a'i deulu mewn cors, nos Mehefin 21, gan swyddogion y brenin, y rhai a arweinid gan y llwgrwobrwywyr Einion ab Ifor a Gronw ab Dafydd. Cymerwyd hwynt yn garcharorion i gastell Rhuddlan, lle yr arosai Iorwerth I. ar y pryd. Cafwyd llawer o greiriau gwerthfawr yn eu mheddiant, yn mhlith eraill grair hynod a elwir *Croesynych;* buasai hwn yn meddiant y tywysogion Cymreig am oesau lawer, a chredid yn ddiysgeg ei fod yn rhan o groes wirioneddol Crist. Ceisiodd Dafydd gael siarad â'r brenin wyneb-ynwyneb, eithr nacawyd iddo hyn; carcharid ef yn y modd dyogelaf, yn Rhuddlan, ac yn fuan danfonwyd ef tan osgordd gref i'r Amwythig. Yno gosodwyd ef ar ei brawf, a Iorwerth brenin Lloegr a ddaeth a'i gwŷn yn ei erbyn fel un o'i ddeiliad ei hun. Gorchymynodd un-arddeg o ieirll a chant o farwniaid i'r frawdle; ac yntau ei hun oedd yn bresenol. Cafwyd y tywysog anffodus yn euog yn ngwyneb amrai gwynion; a thraddododd John de Vans, prif ynad Lloegr, arno y dedfrydau mwyaf annynol a dieflig a dywalltwyd erioed ar ben yr un truan marwol, dyma hwynt:—Iddo gael ei lusgo wrth gynffonau meirch drwy heolydd Amwythig i fan y dyoddefaint, am geisio bradychu y brenin yr hwn a'i gwnaeth yn farchog; iddo gael ei grogi am ladd Fulk Trigald a marchogion eraill yn nghastell Hawarden; a'i galon a'i gylla i'w llosgi, am iddo wneuthur y gelanedd ar ddydd Sul y Bloden: a thori ei ben oddiwrth ei gorph, a'i aelodau i'w crogi i fynu, mewn pedwar lle cyhoeddus mewn amryw fanau yn Lloegr, o achos iddo fwriadu angau y brenin. Celain Dafydd a ddyoddefodd hyn i'r eithaf; a chymaint oedd gorfoledd y Saeson, fel y bu ymryson taer rhwng trigolion Caer Efrog a Chaer Wynt am yr anrhydedd o gael y fraich ddeheu; ond yr anrheg gigyddlyd a farnwyd yn deilwng i Gaer Wynt; a'r aelodau eraill a ddanfonwyd ar frys gwyllt i Gaer Efrog, Bristol, a Northampton; ac er fod trigolion Caer Ludd mewn llawenydd, ei ben a osodwyd ar bawl yn y Twr Gwyn, yn agos i ben ei frawd. Wele, dyna ddiwedd yr olaf o hen deyrnach y llywodraeth Brydeinig, yr hon o wrthsafasai holl ruthriadau Rhufain fawreddog, ac a fu mewn brwydr lawlaw, barhaus, a didor bron hefo'r Saeson a'r Normaniaid am yr yspaid o wyth can' mlynedd. Canodd Bleddyn Fardd ddwy farwnad ar ol Dafydd ab Gruffydd, y rhai a welir yn y *Myv. Arch.—Y Greal;* Carnhuanawc, *Hanes Cymru;* Warrington's *Hist. of Wales;* a'r *Brutiau Cymreig* yn y *Myv. Arch.*

DAFYDD AB GWILYM. *Gwel* GWILYM (Dafydd ab).

DAFYDD AB HARRI WYN, ydoedd fardd medrus, a brodor o Edeyrnion, yn sir Feirionydd. Pan oedd ar ei daith i Eisteddfod Caerwys yn 1567, darfu i Sion Phylip o Ardudwy ei orddiwes gerllaw y dref hono, wedi bod ar hyd y nos yn crwydro a cholli y ffordd ar y mynyddoedd. A gofyn a wnaeth Sion Phylip iddo, ac efe yn hollol ddyeithr iddo:—

Digitized by Google

Y mwynwr, mi ddymunwn,
Gael enw y lle hoyw-le hwn?

Yna atebodd Dafydd ab Harri Wyn ef yn ebrwydd fel hyn :—

Caerwys yw hon, cares hardd,
Cyrch hen heirddion feirddion fyrdd,
Cymer i'w nawdd, Cymry nordd,
Cor lle'n tywys cynwys cerdd.

Ymddengys fod ar yr Englyn hwn ddau orchestwaith neu dri, nid amgen,—Cynghanedd groes rywiog, a chynghanedd unawdl gyfrochawdl bob yn ail; ac hefyd gymeriad llythyrenol a chynghaneddol yn y sillau gwreiddiol. Gwnaeth hyn i Sion Phylip ryfeddu yn fawr, iddo gael ateb mor fuan ar orchest bencerddaidd. Yn y blaen yr aethant, ac ni allai Sion Phylip ddyfalu pwy oedd y gwr dyeithr o brydydd celfyddgar. Yn y dref fe gollodd ei olwg arno, ond Sion o gofiodd yr Englyn, ac a'i dangosodd yn enw y gwr dyeithr dienw, ger bron yr Eisteddfod; a mawr y canmol a fu ar barodrwydd awen, a chywreindeb celfyddyd a'i cânt. Yn dodwyd gosteg, a gwahoddiad i'r gwr a'i cânt ddyfod yn mlaen a dodi dangos am radd pencerddaidd; ond ni chodai neb. Wedi hyny caed gwybodaeth pwy oedd y gwr, nid amgen na Dafydd ab Harri Wyn o Edeyrnion—gwr na wyddai neb cyn hyny ei fod yn brydydd. A phan y profwyd ef gan Sion Phylip ac eraill, gwelwyd ei fod yn medru yr holl fesurau cerdd a'u perthynasau, a'i fod wedi canu arnynt yn orchestach na neb a gawsant raddau pencerddaidd yn yr Eisteddfod. A chwedi dangos y cwbl o'i waith ei hun yn ysgrifenedig, efe a'u taflodd i bobty mawr oedd a thân ynddo, lle y dinystriwyd hwynt yn ebrwydd, gan ddywedyd nad oedd y cyfryw bethau ond oferedd a blinder meddwl: ac efe a brophwydodd na chaid Eisteddfod o'r fath fyth eto yn Nghymru, oni chaid yr holl brydyddion a'r gwyr doethion i ymwrthod yn llwyr â'r fath deganau moelion.—*Llyfr Ieuan Brydydd Hir.*

DAFYDD AB HYWEL AB IFAN FYCHAN. Bardd yn ei flodeu rhwng 1480 a 1520. Mae peth o'i gyfansoddiadau yn aros mewn llawysgrifau.

DAFYDD AB IFAN AB EDWARD. Englynwr, yr hwn oedd yn ei flodeu o 1560 i 1660.

DAFYDD AB IFAN LLWYD. Bardd a flodeuodd tua'r fl. 1500. Mae ychydig o'i waith mewn ysgriflyfrau.

DAFYDD AB IORWERTH, abad Llanegwest, dyffryn Eliseg, sir Ddinbych, a gysegrwyd yn esgob Llanelwy, Ebrill 16, 1500. Yr oedd yn enwog am ei elusengarwch a'i nodded i'r beirdd, ac y mae ar gael gywyddau o waith Guttyn Owain a Gutto'r Glyn yn ei fawr ganmol am ei haelioni. Bu farw yn 1503.—*Arch. Cambrensis*, i. 26.

DAFYDD AB LLYWELYN, ydoedd fab ieuengaf Llywelyn ab Iorwerth, neu Llywelyn Fawr, o Joan ferch Ioan frenin Lloegr, a chwaer i Harri III. Bu Llywelyn yn briod dawywaith, y tro cyntaf gyda Tangwystl ferch i Llywarch Goch, arglwydd Rhos, o'r hon briodas yr hanodd Gruffydd, gwr ieuanc dewr a dibris. Ond yr oedd lliaws o bethau yn gwrthweithio rhag i'r mab hwn olianu ei dad: buasai ei anian ryfelgar yn sicr o daflu y Dywysogaeth i ryfel greulon â'r Saeson; yr oedd wedi codi mewn gwrthryfel yn erbyn ei dad; a Dafydd, o'r ochr arall, yn anwylun ei dad, ac yn berthynas mor agos â theulu breninol Lloegr, fel y gallesid disgwyl ffafraeth iddo oddiar eu llaw, a heddwch i'w wlad mewn canlyniad. Felly, bwriwyd Gruffydd

Digitized by Google

i garchar am wrthryfel; a pharatowyd Dafydd i gymeryd lle ei dad fel tywysog. Dyna oedd cynllun Llewelyn a'i benaethiaid, a dymuniad calon eu gelynion y Saeson; a Llywelyn wrth weled ei dranc yn nesu a wysiodd ei bendefigion i'w gyfarfod ef yn Ystradfflur, modd y gwnelai ei ddymuniad yn hysbys iddynt mewn modd ffurfiol, ac y byddai iddynt hwythau gydnabod Dafydd fel ei olynydd. Bu Llewelyn farw yn 1240; ac yn ol pob rhagdrefniad esgynodd Dafydd i'w le. Yn mhen mis wedi ei ddyrchafiad, gwnaeth gytundeb heddwch hefo brenin Loegr gyda'r bwriad mae'n ddiau o roddi pen am byth ar y cwerylon gwaedlyd rhwng y ddwy wlad, yn mha un yr ymgymerai a thalu gwarogaeth i'w ewythr Harri fel ei frenin, ac y trosglwyddodd iddo ei hawl i Ogledd Cymru. Ond buan y canfu ei ffolineb, canys yr oedd yr iau y rhoddes efe ei wddf ynddi yn drymach nag y dychymygasai erioed; a buan y penderfynodd ar ei bwrw ymaith. Ymgyngreiriodd gyda brodyr Gruffydd ab Madog, arglwydd Powys Isaf, a lluaws o benaethiaid Cymreig eraill yn ngwasanaeth Harri a ddenodd efe i gymeryd rhan yn yr amcan oedd ganddo mewn golwg. Dechreuodd ei wrthryfel trwy anrheithio tiroedd Syr Ralph Mortimer, ac eraill o ddeiliaid gwrogaethol Harri; a chymerth feddiant o long ar ei mordaith i Gaer yn llwythog o wenith ac ymborth. Ceisiodd y brenin ei ddarbwyllo i ymheddychu; a galwodd arno i roddi iawn am y galanastra a gyflawnasai ar ei ddeiliaid. Yn y cyfamser hefyd, esgob Bangor, yn deall am gyflwr Gruffydd, brawd y tywysog, a atolygodd yn daer arno ei ryddhau o garchar; ond yn ofer; ni feiddiai Dafydd ollwng yn rhydd y fath ysbryd gwrthnysig a beiddgar â'r eiddo Gruffydd ei frawd. Yna esgob Bangor a esgymunodd Dafydd ac a brysurodd i lys Harri III., gan osod creulonder y tywysog Cymreig o'i flaen mewn dull tra effeithiol. Danfonodd hefyd ei gwynion i'r Pab, ac yntau a gadarnhaodd yr esgymundod. Bu Harri hefyd mor garedig a chymeryd, mewn enw, blaid y carcharor anffodus; a Sina, gwraig Gruffydd, a lawnododd gytundeb ar ran ei gwr gyda brenin Lloegr, yr hwn a ymrwymai ei gael yn rhydd. Daeth ffurfafen Dafydd bellach yn ddu ac ystormus, bygythion ei eglwys yn hongian uwch ei ben, plaid ei frawd a'i wrthymgeisydd ar gynydd dirfawr yn y wlad, a'i ewythr Harri yn galw arno tan ei berygl i roddi'r carcharor yn rhydd. Safodd yn y cyflwr yma am yspaid fel dyn wedi ei ddal gan ddrycin ar y mynydd, heb wybod beth i'w wneud na pha ffordd i droi. O'r diwedd, penderfynodd nad ufuddhai i alwad ei ewythr; a Harri o ganlyniad a ymdeithiodd gyda byddin fawr tua Chaer gyda'r bwriad o weinyddu cerydd llym rhyfel ar ei nai anystyrbwyll. Bu y cynllun yn llwyddianus, canys danfonodd Dafydd genad ato yn cynyg rhyddhau Gruffydd o garchar ar y telerau y derbynid ef ei hun i'w freiniol ffafr. Cydsyniodd y brenin â'r telerau hyn; a chwanegodd delerau trymion eraill o'i eiddo ei hun, y penaf o ba rai oedd ar fod i Gruffydd a'i fab Owen gael eu trosglwyddo i'w ofal ef. A chyd pen ychydig tisoedd, yn unol ag adran yn y cytundeb, aeth Dafydd i'r llys Seisnig i dalu gwarogaeth, a rhoddi gwystlon cryfion i'r brenin na byddai iddo byth drachefn godi mewn gwrthryfel. Yr oedd rhyddid ac annibyniaeth cenedl y Cymry y pryd hwn yn isel iawn, gelyn trahaus yn eu trin fel y mynai, a'u tywysog yn ddim amgen na llwfrddyn diamcan yn cael ei hud-lithio gan greulonder ar un llaw, ac ofn cosp ar y llaw arall. Wedi gosod er hyny tan nawdd ac aden y brenin, ni theimlai efe ei hunan yn ddyogel, danfonodd gais at Harri yn erfyn arno gadw Gruffydd yn ngharchar; am y buasai ei ryddhad

Digitized by Google

yn sicr o enyn cynhen a rhyfel yn y wlad ; a'r brenin, mewn dull hollol annheilwng o'i urddas a'i swydd, a ganiataodd iddo ei ddymuniad. Danfonwyd Gruffydd i fynu i Lundain, a charcharwyd ef yno yn y Tŵr. Am ddwy flynedd yn mhellach y parhaodd ing y tywysog anffodus hwn, yna daeth yr ymwared—ac angau oedd hwnw ! Wedi dihoeni mewn caethiwed nes yr aeth einioes yn faich, efe a benderfynodd ddiane ; ac un noson, rhwymodd ddillad ei wely wrth eu gilydd, a dechreuodd ddisgyn wrthynt o'i ystafell-garchar uchel ; ond gan ei fod yn ddyn trwm a chorphorol, torodd ei raff, ac yntau a syrthiodd ddegau o latheni i flos sech islaw, lle y cafwyd ef y bore yn hollol farw, a'i ben a'i wddf bron wedi eu gwthio i'w gorph. Bellach, gallasai Dafydd ddisgwyl dedwyddwch wedi cael ohono ymadael â'i wrthymgeisydd. Ond nid felly ; cymerodd y brenin fantais oddiar farwolaeth Gruffydd, yr hwn erbyn hyn a ystyriai ef yn wir dywysog y Cymry, i gyhoeddi ei fab hynaf Iorwerth yn "dywysog Cymru" yn ei le! Cynyrfodd hyn holl benaethiaid y Dywysogaeth o'u cysgadrwydd i amddiffyn eu hiawnderau ; a Dafydd a daflodd ymaith eilwaith ei iau. Tan y gobaith o enill rhai arglwyddi dylanwadol tan ei faner, y tywysog a fwriodd ei hun i nawdd y Pab, ac a gynygiodd ddal ei diroedd tan warogaeth iddo ; ac wedi derbyn swm mawr o arian, y Pab a gydsyniodd â'r cynygiad, ac a benododd fod i abadau y Cymer a Chonwy gynal llys i chwilio allan ai nid oedd Dafydd tan ddylanwad ofn pan gytunodd efe i dalu gwarogaeth i frenin Lloegr. Yr abadau hyn, gyda rhwysg digrif fawreddus, a wysiasant y brenin i ddyfod ger eu bron hwy yn Nghaerwys, ac yn eglwys y dref hono ateb y cwynion a ddygid gan Dafydd yn ei erbyn. Ffromodd y brenin yn aruthr am yr anfri hwn ar ei urddas ; eithr gwyddai yn dda pa fodd i drin llys llygredig Rhufain, llwgrwobrwyodd hwynt ag arian ; ac ni ddaeth dim o ymdrafod y tywysog gyda'r llys Pabaidd ond gwarth i Rufain a siomedigaeth i Gymru. Ond tra y dygid y drafodaeth hon yn mlaen, yr oedd Dafydd yn ngwres ei obeithion yn ymosod ar gyffiniau y Saeson gydag yni a galanastra. Yn y mân-frwydrau hyn, lladdwyd Herbert Fitz-Matthew, llywydd byddin fechan o'r gelynion, a mawr gythruddodd hyn greulonder y rhyfel. Collodd y Cymry ddau cant o wyr trwy gynllwyn y gelyn ger castell Trefaldwyn ; a rhuthrodd adran o'r fyddin Gymreig fel ad-daliad ar gastell Wyddgrug gan ladd yr holl warchodlu, ac o'r braidd y diangodd eu cadlywydd a'i einioes ganddo. Syrthiai pob oed a rhyw yn ddiwahaniaeth yn aberth i gynddaredd gwaedlyd y Cymry fel y Saeson. Yn y cyfwng hwn, y brenin a wysiodd Dafydd a'i benaethiaid i'w wydd ef yn Westminster, i dalu gwarogaeth iddo, ac ateb am y galanastra a gyflawnent. Ufuddhaodd tuag ugain o'r pendefigion Cymreig ; eithr Dafydd a safodd draw. Penderfynodd y brenin bellach roddi terfyn ar rwysg y tywysog ; a chan gynull byddin gref efe a ymdeithiodd tua Chaerlleon. Yr oedd erbyn hyn yn tua canol Mehefin, 1245. Dafydd, yn gweled nas gallai wrthsefyll byddin gymaint lluosocach na'r eiddo ef, a enciliodd o'i blaen i Eryri. Daeth y brenin yn mlaen gan belled â'r afon Gonwy ; ac yno efe a wersyllodd, gan adgyweirio a chadarnhau hen gastell Deganwy. Y pryd yma y danfonodd efe allan dreth o ddeugain swllt ar bob marchog perthynol i'w goron, yr hon a elwid "Treth Deganwy" *(Scutage of Gannock)*. Yn y cyfamser byddin gref o Wyddelod a laniodd yn Môn, a thrwy rag-gynllun a gorchymyn y brenin, a anrheithiodd y wlad, fel y gallesid trwy hyny newynu y fyddin Gymreig yn Eryri. Pa fodd bynag, ni bu y rhyfel-

Digitized by Google

gyrch hwn o eiddo Harri III. ond cyffelyb i lawer ymgais arall at ddarostwng y Cymry—methiant chwithig a siomedigaeth chwerw. Daeth prinder ymborth ar warthaf ei wyr, trengent wrth y degau gan newyn ac anwyd, ac erbyn diwedd Hydref yr oedd wedi blino ar ei fyd, ac yn troi ei wyneb tuag adref. Llwyddodd, mae'n wir, i gadarnhau Deganwy, a gadawodd adran o warchodlu o'i ol, a bu y rhai hyn yn ddychryn a draen yn ystlys y Cymry hyd oni chollasant eu hannibyniaeth. Yr oedd iechyd Dafydd yn y cythryfwl hwn yn gwaelu bob ddyd; a mynych yr ymgiliai oddiwrth ei fyddin i'w lys yn Tintaiol i ymadfywio oddiwrth ludded y maes rhyfel. Bu methiant rhanol a dychweliad aflwyddianus y brenin yn foddion i enill rhai o'r penaethiaid Cymreig yn ol i wasanaeth y tywysog, ac eraill oddiar ddyb enion uwch a gwladgarol, a ymrestrasant tan ei faner; anghofiodd y naill a'r llall ohonynt eu mân ymgecrau, a chynygient yn y dull mwyaf pendant iddo eu gwasaneth, a'u cynorthwy; ond ofer y cwbl. Yr oedd enogrwydd cydwybod, gwaed ei frawd, a setyllfa druenus y wlad tan ei lywodraeth, yn llethu ei yspryd, ac yn 1246 efe a fu farw yn ei balas ger Aber, sir Gaernarfon, a chladdwyd ef yn mynachlog Conwy.—Carnhuanawc, *Hanes Cymru*; Warrington's *Hist. of Wales; Brut y Tywysogion.*

DAFYDD AB MEREDYDD AB EDNYFED. Bardd yn byw tua 1460. Ychydig sydd o'i gyfansoddiadau ar gael.

DAFYDD AB MEREDYDD AB TUDUR. Bardd yn ei flodau tua 1400. Mae ychydig o'i weddillion barddonol yn aros mewn llawysgrifau.

DAFYDD AB NICOLAS. Sonir yn *Wms. Em. Welsh.*, am D. ab Nicolas yn fardd yn ei flodau o 1590 i 1630, a bod ei waith mewn llawysgrifau.

DAFYDD AB OWAIN, oedd drydydd mab y tywysog Owain Gwynedd, ac a fu yn rhyw lun o dywysog ar Wynedd âm yr yspaid o tuag ugain mlynedd. Pan fu Owain farw yn 1169, Iorwerth Drwyndwn, ei fab hynaf a'i olianydd naturiol i'r dywysogaeth, a ddodwyd o'r neilldu oherwydd yr anaf ar ei wyneb: a Hywel, ail fab Owain, a rythrodd i'r swydd yn nghanol cynen brodyr a'r cythryfwl mwyaf gwaedlyd ac annaturiol. Plentyn annghyfreithlon oedd Hywel, a Gwyddeles oedd ei fam. Ni bu ei deyrnasiad ond byr a therfysglyd; canys Dafydd, gan ddiystyru hawliau anmheus Hywel i'r swydd, a gynullodd fyddin gref, a'i gorchfygodd, ac a'i lladdodd mewn brwydr; ac yntau a wnaed yn dywysog yn ei le. Yn y cyfwng hwn, yr enwog Madog, mab arall i Owain Gwynedd, a ddewisodd yn hytrach na chymeryd rhan yn ngwerylon annynol ei frodyr, fyned i'r môr, ac efe a ddarganfyddodd gyfandir yr Amerig, medd yr hanes. Dygir Dafydd gyntaf ger ein bron mewn hanesiaeth mewn cysylltiad â brwydr Coed Eulo, ger Treffynon, sir Fflint, pryd y gorchfygwyd y Saeson gyda lladdfa fawr, y tybiwyd unwaith fod y brenin ei hun, Harri II., wedi ei ladd, a'r pryd y llywyddid y fyddin Gymreig gan Dafydd ac Owain, meibion Owain Gwynedd. Flwyddyn neu ddwy yn mhellach, cawn ef yn gwneud ymosodiad ffyrnig ar sir Fflint, yr hon sir oedd y pryd hwnw yn nwylaw y Saeson yn benaf, yn ysgubo ei gwartheg ymaith i ardal Rhuthyn yn Nyffryn Clwyd, a hyny yn nanedd cadarnfa y brenin yn Nghastell Rhuddlan. Cymerodd hyn le cyn marwolaeth Owain Gwynedd. Tua'r fl. 1173 ymosododd ar Ynys Môn, tiriogaeth ei frawd Roderic, ac wedi brwydr rhyngddynt. cymerodd feddiant o'r ynys,

Digitized by Google

dododd Roderic yn ngharchar. Tiriogaethau ei frodyr eraill a'i gyfnesafiaid a dreisiodd efe yr un modd, ac alltudiodd hwythau o'r wlad. Yn 1175, yr oedd Harri brenin Lloegr mewn helbul gyda'i diriogaethau Ffrengig; ac yn canfod nas gallai hebgor adnoddau i dalu'r pwyth am drahausder Dafydd, efe a ddefnyddiodd gynllwyn i enill ei gynorthwy heb anafu ei gyfeillgarwch. Rhoddodd y brenin i'r tywysog ei chwaer Em ma yn wraig; a Dafydd mewn canlyniad a ddanfonodd fil o wyr i Ffrainc i fod at wasanaeth ei frawd-yn-nghyfraith. Yn 1176, cawn ef yn nghyda Rhys ab Gruffydd, tywysog Deheubarth, Owain Cyfeiliog, ty wysog Powys, ac amryw bendefigion Cymreig, yn derbyn gwys y brenin i'w gyfarfod ef mewn senedd yn Rhydychain. Bu yr ymddarostyngiad hwn o eiddo Dafydd yn achos grwgnach ac anfoddlonrwydd mawr yn mhlith ei ddeiliaid; a phan ddiangodd Roderic o garchar, efe a dderbyniwyd yn galonog gan y bobl, yn enwedig gan y Monwyson. Yr oedd ei greulonder mor atgas gan ei ddeilaid, a'i lechweddiad at y Saeson, wedi aeddfedu y werin i wrthryfel yn ei erbyn. Ar air Roderic codasant fel un gwr, gorfu ar Dafydd encilio tros yr afon Gonwy o'u ffordd, a than aden y gwarchlu Seisnig yn Nghastell Rhuddlan y bu efe yn ymlechu am yspaid. Yr oedd Llywelyn âb Iorwerth Drwyndwn y pryd hwn o dan nawdd ac yn aros yn llys ei ewythr Roderic; ystyrid mai efe oedd gwir etifedd yr enw tywysog gan bob plaid, a phan gafwyd cyfleusdra, nid esgeuluswyd ei ddodi ef ynddi. Gwelodd Dafydd, a bu mor gall a deall, fod llais gwlad yu ei erbyn; ac yn 1194, yr oedd ei nai Llywelyn wedi ei osod yn ei le, a chanddo ef ond castell neu ddau ar ei elw. Darfu i asbri rhyfel ail-ymaflyd ynddo wedi hyn, casglodd ei ychydig ffyddloniaid yn Ngwynedd, a chafodd gymhorth cryf gan y Saeson, cymerodd brwydr le, cyfarfyddodd Llywelyn ef ar ei ymdaith, a llwyr orchfygwyd ef. Yn mhen ychydig wedi hyn efe a'i fab Owen a laddwyd yn Nghonwy.—*History of Gwedir Family*; Carnhuanawc, *Hanes Cymru*; *Brutiau Cymreig* yn y *Myv. Arch.*

DAFYDD AB OWEN, neu Ifan, a gafodd ei addysg athrofaol yn Rhydychain, a chymerodd yno hefyd y radd o LL.D. Yn ol un hanes, bu ar y cyntaf yn abad Ystradmarchell; tra y dywed awdurdod arall mai yn Eliseg, ger Llangollen, y bu efe gyntaf yn abad. Symudwyd ef i Gonwy neu Maenan; ac oddiyno penodwyd ef gan y Pab Julian yn esgob Llanelwy, Rhag. 18, 1503. Dywed Godwin ei fod yn ddyn hael ac elusengar. Efe a ail-adeiladodd y palas esgobol a fuasai yn adfeilion er y pryd y llosgwyd ef gan Owen Glyndwr. Gwnaeth bont o goed tros yr afon Glwyd, ger Llanelwy, yr hon a safodd hyd 1630; ac yna adeiladwyd un o feini yn ei lle, ac enw y bont hono yn bresenol ydyw "Pont Dafydd Esgob." Bu farw Chwef. 12, 1512, a chladdwyd ef yn ei eglwys gadeirol. Bu cof-golofn ar ei fedd, a'i lun yntau yn ei grefyddwisg arni, ond y mae hono bellach wedi symud i gwr arall o'r eglwys.

DAFYDD AB PHILIP RHYS. Bardd yn ei flodau o 1500 i 1540. Mae rhyw gymaint o'i waith ar gael mewn llawysgrifau.

DAFYDD AB RHYS O FENNI. Bardd o Ddyffryn Wysg, ac yn frodor mae'n debyg, o Abergafenni. Blodeuai tua 1550. Cedwir peth o'i waith mewn ysgriflyfrau.

DAFYDD ALAW. *Gwel* ALAW.

DAFYDD BACH AB MADAWG WLADAIDD. *Gwel* CYFEILIOG.

DAFYDD BENFRAS. Bardd enwog a chlodfawr yn ei flodau o 1190 i 1240. Mae deuddeg o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn y

Digitized by Google

Myv. Arch. Awdlau cywrain a gorchestol yn null yr oes hono o gynghaneddu ydynt. "Awdl i Lywelyn fab Iorwerth, I Lywelyn, Awdl i Dduw ac i Lywelyn fab Iorwerth, Mawrnad i Lywelyn fab Iorwerth, Marwnad Gruffydd fab Llywelyn, Marwnad i'r Triwyr yn nghyd, Marwnad Dafydd fab Llywelyn, Canu moliant i Lywelyn ab Gruffydd, Cynnydd Llywelyn mab Gruffydd, Englynion, Mawrnad Gruffydd fab Ednyfed," yw peniadau ei farddoniaeth. Maent yn werthfawr mewn ystyr hanesyddol, ac fel barddoniaeth hefyd.

DAFYDD BENWYN. Un o feirdd Gorsedd Morganwg. Dysgybl i Lewis Morganwg yn 1520, a llywydd yr Orsedd yn 1580, yn ol eraill 1560. Yr oedd llaw gan D. Benwyn yn nghyfansoddiad *Cyfrinach y Beirdd*, yn ol y diwygiad a wnaed arno yn yr Eisteddfod a gynaliwyd yn Mhlas y Fân, ger Caerphili, dan nawdd a dawn Syr Edward Lewis, tua 1580. O'i ysgriflyfr ef, yn nghyda'r eiddo Meirig Dafydd a Llywelyn Sion, y cafodd Edward Dafydd ddefnyddiau i gyfansoddi y Llyfr fel ag y mae yn bresenol. Nis gallwn gysoni y dyb ei fod yn ddysgybl i L. Morganwg yn 1520, fel y noda y Rhagdraith i waith Llywarch Hen, à'r ffaith ei fod yn canu i Rys Meyryg o'r Cottrel yn 1607, yn ol *Cyf. y Beirdd*. Ychydig a welsom o'i gyfansoddiadau, er mae yn debyg iddo farddoni llawer. Canwyd ei farwnad gan Llywelyn Sion, yr hwn a fu farw 1616, a dyweda am dano :—

"Llenwis gwlad a'i ganiadau"

—*Gwel* DAFYDD (Edward).

DAFYDD DARON, o Aberdaron, oedd fab i Ifan ab Dafydd, ac yn hanu o wehelyth Caradoc ab Iestyn, tywysog Cymru. Efe oedd deon Bangor yn amser Owen Glyndwr ; ac yn ei balas ef y bu Hotspur, Mortimer, ac Owen, yn ymgyngreirio i feddianu Ynys Prydain, a'i rhanu cydrhyngddynt. Yr oedd Dafydd Daron yn wr o ddylanwad a chyfoeth ; yr oedd yn bleidiwr gwresog ar achos Glyndwr ; ac mewn canlyniad yn 1406, y brenin a'i cyhoeddodd yn herwr (*Outlaw*).—Pennants' *Tours*.

DAFYDD DDU ERYRI, neu Dafydd Thomas o'r Waenfawr yn Arfon, oedd brif-fardd godidog, hynafieithydd gwybodus, a llenor diwydbwyll a dysgedig yn ei ddydd. Ganwyd ef mewn tŷ bychan wrth Bont y Cyrnant, yn 1760. Yr oedd ei dad, Thomas Gruffydd, yn fredor o Landwrog, yn wehydd wrth ei grefft, ac yn rhyw gymaint o fardd a llenor yn yr oes dywell hono. Heblaw hyny, yr oedd efe yn ddyn crefyddol, ac yn gynghorwr gyda'r Methodistiaid ; ac i hyfforddiadau ei dad, feallai, y mae y bardd yn ddyledus am y difrifoldeb a'r melusder efengylaidd sydd yn rhedeg drwy ei ganiadau. Gallwn feddwl i D. Ddu ddechreu barddoni yn ieuanc iawn, canys dyweda yn un o'i ganiadau :—

'Rwy'n hoffi er yn faehgen
Yr awen bron erioed,
Ei chymhelliadau profais
A theimlais yn wyth oed.

Nis gwyddom pa faint o ysgol a gafodd efe yn mere ei oes, ond anfonwyd ef pan tua 14eg oed i Lanberis at y Parch. John Morgan, offeiriad y plwyf, i'r ysgol. Bu yno am tua wyth mis yn dysgu Saesoneg, rhifyddiaeth, &c. Yr oedd Abraham Williams, o'r Cwmglas, yn dygwydd bod yn yr ysgol ar yr un pryd. Yr oedd A. W. o 17 i 18 oed ; ac yn dechrau barddoni. Cafodd D. Ddu fenthyg llyfrau ganddo ; a'r gwr hwn oedd ei gynathraw barddonol. Bu ar ol hyn am tua thri mis dan

Digitized by Google

addysg gydag offeiriad Betws Garmon. Pa fodd bynag, daeth yn Gymro ac yn Sais dysgedig yn bur fuan; ac yr oedd ganddo radd o wybodaeth yn y Lladin, y Groeg. a'r Hebreag hefyd. Dysgodd alwedigaeth ei dad, sef gwehydd; a bu yn more ei oes yn Llanddeiniolen,—

Gan ddwys barhau i ganu a gwau,
Tra dalial oriau'r dydd.

Ond wedi marwolaeth ei dad yn 1781, nid oes son am dano yn gwau mwyach. Trodd ar ol hyny yn athraw ysgol. Tua 1780, daeth R. Hughes, Ceint Bach (*Robin Ddu o Fôn*), i Gaernarfon i gadw ysgol. Buasai R. Ddu yn Llundain flynyddau lawer, ac yn aelod gyda'r Gwyneddigion. Yr oedd efe yn fardd a beirniad dysgedig; ac efe a gydnabyddai D. Ddu fel ei athraw barddonol. Nis gwyddom ddim gyda sicrwydd am ddamweiniau bywyd y bardd hyd 1789, pan gynaliodd y Gwyneddigion Eisteddfod yn y Bala. Ni bu D. Ddu yn fuddugol y tro hwnw; Gwallter Mechain a enillodd yr ariandlws. "Ystyriaeth ar oes dyn," yw testun yr Awdl. Testun Eisteddfod Llanelwy, yn 1790, oedd "Rhyddid," ac awdl Dafydd Ddu a enillodd yr ariandlws. Testun y Gwyneddigion i Eisteddfod Llanrwst, yn 1791, oedd "Gwirionedd." Dafydd Ddu a enillodd yr ariandlws y tro hwn hefyd. Argraffwyd y tair Awdl gyda'u gilydd yn llyfr 8plyg, 48 o dudalenau, yn Llundain, gan T. Rickaby, gyda nodiadau minddalenol, yn 1791. Ar ddiwedd y llyfr addewir cyhoeddi "Arweinydd i'r Cynmraeg," gan H. a D. Thomas sef Humphrey Thomas ei frawd. Hefyd addewir cyhoeddi "Dillynion Barddoniaeth," sef "Cymaint o waith y Beirdd o'r oesoedd cyntaf hyd y pryd hyn ag a fernir yn orchestol neu yn deilwng o'u hachub." "Trefn y Cyhoeddiad fydd rhoi allan bedwar rhifyn yn y flwyddyn, o werth swllt." Dymunir i'r derbynwyr "ddanfon eu henwau i Ddafydd Thomas, o'r Waunfawr, yn Arfon; neu i Wilym Owain." Amseriad y pethau hyn yw "Calanmai 1791." Dylasid nodi yn gynt fod D. Ddu yn cynorthwyo y Gwyneddigion i gyhoeddi gwaith D. ab Gwilym yn 1789.

Ar ol hyn gwaharddwyd i D. Ddu a Gwallter Mechain gystadlu ar destunau y Gwyneddigion, fel y gwelir yn nghyhoeddiad yr Eisteddfodau yn 1792 a '93, er mwyn i eraill gael cyfle i enill. Dichon i hyny dramgwyddo y bardd Du; pa fodd bynag am hyny, ni chystadleuodd byth mwyach mewn Eisteddfod. Yn 1793 a '94, bu Morgan John Rhys yn cyhoeddi "Cylchgrawn Cymraeg." Pum' rhifyn a gyhoeddwyd ohono. Ofnid ei fod yn anffyddlawn i'r llywodraeth; er fod yr ofn hwnw yn hollol ddisail. Gwelir ysgrifau galluog D. Ddu yn mhob rhifyn. Tebygol mai yn Llanystymundwy yr oedd efe y pryd hwn yn cadw ysgol. Yno yr oedd efe Ebrill 15, 1792, yn cyfansoddi "Englynion myfyrdod y bardd yn ei wely, wrth glywed yr adar yn canu." Symudodd i Bentraeth yn Mon, yn 1794, i gadw ysgol, ac i fod yn Llyfrgellydd i Paul Panton, Ysw., Plasgwyn. Cawn ef yn 1796 yn gohebu i'r *Gairgrawn*, a gyhoeddid gan D. Davies, Treffynon; ac yn gohebu hefyd i'r *Cambrian Register*. Bu yn Amlwch yn fesurydd glo am beth amser ar ol hyn. Yn adeg ei arosiad yn Môn bu rhyfel barddonol rhyngddo a T. Edwards o'r Nant. Cyfansoddodd "Gywydd adgyfodiad Awen D. Ddu Eryri," tua 1800. Math o adolygiad ar y rhyfel hwnw ydyw. Edrycha i lawr ar fardd y Nant gyda dirmyg uchelfalch, a dyweda:—

Chwi ddynion bvddwch ddoniawl,
Saf draw, a bydd ddistaw, ddiawl.

Digitized by Google

Symudodd yn ol o Fôn tua'r adeg yma, a chawn ef gyda Ieuan Lleyn ac eraill yn cynyg dwyn "*Greal*" allan. Cyhoeddwyd un rhifyn swllt yn 1800. Bu D. Ionawr ac yntau yn croesganu i'w gilydd yn 1801 a '02; a chawn ef ar ol hyn mewn rhyfel â'r Gwyneddigion oblegyd ei fod ef yn rhy Fethodistaidd ganddynt hwy, a hwythau yn rhy benrydd ganddo yntau. Priododd yn 1803, a symudodd i fyw i'r Waunfawr; efe yn cadw ysgol, ac Elin y wraig yn cadw shop fechan. Galwai ei dy "Bwth y Bardd." Byddai'r ysgol weithiau yn y Waunfawr, ac weithiau yn eglwys Betws Garmon. Bu hefyd yn cadw ysgol yn Llanddeiniolen ac yn Llanberis. Yn 1808, cynygiodd gyhoeddi "*Eurgrawn Cymraeg.*" Ni welsom ond dau rifyn ohono. Efe a ysgrifenodd y rhan fwyaf ohonynt a'i law ei hun. Methodd o ddiffyg cefnogaeth. Cyhoeddodd ei waith barddonol, dan yr enw "Corph y Gaingc," yn 1810. Efe oedd y barnwr yn Eisteddfod Tremadog, Medi 18, 1811. Parotodd yntau Awdl ar y "Morglawdd," i'w hadrodd ar gynoedd yr Eisteddfod. Mae "hysbysiad" cysylltiedig a'r Awdl hon ger ein bron yn llawysgrif y bardd ei hun, wedi ei amseriadu "Llanberis yn Eryri, Hydref 1811." Noda y rheswm na buasai efe yn cystadlu "ar un testun o ymryson er ys yn nghylch ugain mlynedd," sef oherwydd fod y beirdd mor gynhenus; a noda hefyd ei fod "yn llafurio dan wendid iechyd, ac yn ganlynol, isder yspryd a difrawder, dros gyfran nid bechan o'i einioes drallodedig." Yn 1812, cyfansoddodd "Awdl ar Arddwriaeth." (Gwel y *Traethodydd* 1852).

Yn 1817, nyni a'i cawn yn golygu ail argraffiad o "Waith Beirdd Môn," ab yn ysgrifenu hanes eu bywydau. Ar ddiwedd y llyfr hwnw rhydd gynygiad i gyhoeddi holl lythyrau Goronwy Owain yn un gyfrol. Yr oedd efe y pryd hyn, yn byw mewn tŷ bychan o'r enw Hen Efail, ac yn cadw ysgol yn mhlwyf Llandwrog, "Sybyllty afiach" y galwai yr Hen Efail; a symuddodd yn 1821 i "Diriondy iachus," yn agos i Lanrug; ac yn y "tiriondy" hwnw y bu hyd ei fedd. Buasai yn y "Sybyllty afiach" dros saith mlynedd, sef o 1821.

Cyfansoddodd "Awdl mawrnad er coffadwriaeth am y Parchedig Richard Davies A.C., o Fangor," yn 1820, "gyda nodau ar rai pethau hynod." A darllenodd Awdl odidog ar agoriad Eisteddfod Caernarfon, Medi 12, 1821.

Daeth ei einioes i ben yn ddisyfyd; fel yr oedd efe yn dychwelyd o Fangor, Mawrth 30, 1822, ac yn croesi afonig o'r enw Cegin, syrthiodd ar ei wyneb iddi, ac er nad oedd yno ddwfr dros ei esgidiau, yno y cafwyd ef yn gelain farw, Annichon gwybod trwy ba angau y bu efe farw. Nid oedd yno ddwfr gwerth son am dano. Haerai rhai ei fod mewn diod, ond y mae pob chwedl a glywsom yn awgrymu hyny, yn fyr o brofi ei fod yn drwm mewn diod. Yr unig ddedryd a allwn ni ffurfio ar sail cyfiawnder a thegwch yw, "Cafwyd wedi marw." Claddwyd ef yn barchus yn monwent Llanrug, Dyna ddiwedd y cadeirfardd godidog, a'r hynafiaethydd clodfawr, Dafydd Ddu Eryri. Addurnwyd ei fedd â beddfaen hardd gan y Parch P. B. Williams, offeiriad Llanrug, a mab ieuengaf yr enwog Peter Williams yr esbonwr. Tair blwydd a thriugain oedd hyd ei yrfa yn y fuchedd hon.

Gellir edrych ar D. Ddu, ar lawer ystyriaeth, fel goleuad mawr ei oes, a gwladgarwr Cymröaidd a diledryw. Daeth i fynu i enwogrwydd anrhydeddus fel ysgolhaig trwy hunan-ddiwylliad ymroddgar a diflino. Treuliodd ei amser, mae yn wir, i ohebu i'r gwahanol gyfnodolion Cymraeg a Saesoneg, yn hytrach na diofrydu ei amser at ryw un

Digitized by Google

gorchestwaith. Ysgrifenodd rai darnau dyddorol i'r *Gentleman's Magizine*; ac y mae "The Thunder Storm," a "The Banks of the Menai," yn farddoniaeth Saesneg o deilyngdod mawr. Yr oedd efe hefyd yn naturiaethwr cywrain a sylwgar, fel y mae amrywiol o'i ysgrifau yn dangos. Amserir y foreuaf o'i ganiadau 1785. O ran ei egwyddorion crefyddol ymlynai wrth yr Eglwys Sefydledig. Perthynai i'r un ysgol a Scott, Jones o Creaton, a Charles o'r Bala; ond ei fod yn hynod o ddiragfarn at yr ymneilluwyr yn gyffredinol. Ymrafaeliai fwy a'r beirdd nag a neb arall; ac y mae ei "Gân i un a ddaliai yr athrawiaeth o drawsfudiad eneidiau, &c.," yn profi fod ganddo deimladau tra chwerwon tuag at Iolo Morganwg, er iddynt fod cyn hyny yn gyfeillion; canys buasai Iolo ar daith drwy'r Coglodd yn 1799, pan urddodd efe amryw o feirdd Arfon yn feirdd Cadair Dinorwig, a dadganodd y Cywydd gorymbil ar "Heddwch," ger bron Beirdd Ynys Prydain, yn Ngorsedd Gyfarch, ar fryn Dinorwig, yn Arfon, ar wyl yr Alban Elfed, pan oedd oed Crist yn 1799." Yr oedd D. Ddu yn ddyn tra chydwybodol. Dywed mewn llythyr at Sion Lleyn, dyddiedig Tach. 29. 1808, "Bu y Dr. Coke, y pregethwr Wesleyaidd, yn fy mwth bedair gwaith. Yr oedd arno eisiau i mi gyfieithu ei Esboniadau ar y Test. Newydd. Cant o *ginis* yn y flwyddyn a gynygiodd, a gwneud i fynu bob colliadau a oddefwn, oherwydd ymadael a'r ysgol. Anmheuon cydwybod a'm hattaliodd rhag cytuno ar amodau y Dr. ar y cyntaf; ond yn y diwedd, yr oedd yr hen wr wedi boddloni i'm gofynion, oblegyd nid wyf fi yn proffesu Arminiaeth. John Bryan, pregethwr Wesleyaidd, a daflodd ddwfr oer am ben y cyfan."

Ystyrid, D. Ddu yn dad i'r tô diweddaf o feirdd Arfon; efe oedd eu hathraw; ac i gaethder ei chwaeth, ac arddunedd ei ddoniau ef yr ydym yn ddyledus am y cynauaf toreithiog o awenyddion a gynyrchodd Gwynedd. Yn hyn y tra rhagorai ar ei gyfoeswr darwyddonol Iolo Morganwg. Am urddasoldeb dawn, tlysni iaith, a phurdeb syniadau, mae yn anhawdd cael ei ragorach. Os na feddai ar dân a nerth Dewi Wyn rhagorai arno yn mhell mewn cywirdeb a pherffeithrwydd cyfansoddiad. Gwasanaethodd ei genedl gyda mwy o ddiwydrwydd a ffyddlondeb, yn ol ei fanteision, na neb o'i gyfoeswyr.

DAFYDD DDU O HIRADDUG, neu Dafydd ab Rhoderic ab Madog, oedd frodor o Degeingl, a ficer Dymeirchion, tua 1340. Tebygol iddo gymeryd ei flugenw oddiwrth fynydd cyfagos, sef Moel Hiraddug. Dywyd rhai hanesion ei fod yn ficer Bodfari hefyd. Mae darlun cywrain ohono yn ei wisgoedd offeiriadol yn eglwys Dymeirchion, gyda'r argraph,—"*Hic Jacet David ap Roderic ap Madoc.*" Yr oedd efe yn fardd enwog a dysgedig, a chanddo law yn ffurfiad deddfau mydryddiaeth Gymraeg. Cymerwyd y "Pum'Llyfr Cerddoriaeth" a gyhoeddwyd gyda Gramadeg Edeyrn Dafod Aur, o lyfr Dafydd Ddu Athraw; ond fod y gwaith wedi cael ei helaethu a'i ddiweddaru gan Simwnt Fychan tua 1580. Ystyrid ef hefyd yn brophwyd a dewin, a phriodolir llawer o ddaroganau iddo ef a'i gyfoeswr Sion Cent. Barna Williams, yn ei *Em Welsh.*, mai i Ddafydd y dylid priodoli daroganau Robin Ddu, yr hwn oedd yn byw gan'mlynedd yn ddiweddarach; ond feallai mai i oes Robin, a rhyfeloedd Glyndwr, a'r Rhosynau, y mae y daroganau yn perthynu; a bod ofergoel ac anwybodaeth wedi pentyru pob peth ar ben Dafydd, oherwydd ei fod yn ŵr eglwysig o flaen ei oes mewn dysg a rhinweddau.

Mae "Awdl santaidd am ddiwedd dyn a'i gorph" o'i waith yn y

Digitized by Google

Myv. Arch., ar fesur Hypynt, yn cynal yr un brif odl drwyddi. Ac y mae mwy na deg tudalen yn yr un llyfr dan yr enw "Officium B. Mariæe. Gwasanaeth Mair wedi ei dynu o'r Lladin yn Nghymraeg y gan Ddafydd Ddu o Hiraddug, hyd ag y mae pawb yn tybied, ac a gopïwyd yma er mwyn cael gweled y dull oedd gan yr oes hono o gyfieithu." Mae y cyfieithiad yn llawn bywyd ac ucheledd, a'r hen Gymraeg yn llewyrchu yn ei llawn ogoniant. Ei fesur yw Hypynt, a thraethodl, a hwnw yn fynych ar y gyhydedd orllaes.

DAFYDD EMLYN, neu Dafydd William Prys, oedd fardd ac offeiriad, ac yn ei flodau yn 1450. Llae swm o'i waith mewn ysgrifllyfrau.

DAFYDD EPYNT. Bardd o Frycheiniog fel y gellid tybio wrth yr enw. Blodeuodd tua 1460.

DAFYDD FYNGLWYD, a elwid weithiau D. ab Siencyn Fynglwyd, a flodeuai 1480. Y mae peth o'i waith mewn llawysgrifau.

DAFYDD GAM (Syr), un o'r dynion mwyaf dewr a dibris yn ei oes, a aned yn sir Frycheiniog tua 1370. Ei brif balas oedd y Peityn, yn mhlwyf Garthbrengy, ger Aberhonddu. Dafydd ab Llywelyn oedd ei enw ar y cyntaf; cafodd y llysenw *Gam* oherwydd fod ganddo lygad croes. Yr oedd yn filwr o'i febyd; a bu am rai blynyddau yn ngwasanaeth Bolingbroke, iarll Henfordd, ac arglwydd Brycheiniog. Pan wysiodd Owen Glyndwr yn 1402 ei benaethiaid i'w gyfarfod ef yn Machynlleth er mwyn ei gydnabod yn dywysog Cymry, a dodi coron ar ei ben, yn eu plith ceir enw Dafydd Gam; ac os oes coel i'w roddi ar hanesiaeth, dangosodd ei hunan yno yn bobpeth ond gwladgarwr, canys mewn dull brad-lofruddiog efe a amcanodd ladd y gwron enwog. Pa fodd bynag, bu ei ymgais yn aflwyddianus, a gwaith mawr a gafwyd yn perswadio Owen rhag ei roddi i farwolaeth yn y fan a'r lle; a bu yn ngharchar ganddo am ddeng mlynedd. Rhyddhawyd ef, yn y diwedd, trwy i'r brenin dalu swm mawr o arian trosto, ac ar ei addewid bendant na chodai byth arfau yn erbyn tywysog ei wlad. Ni chadwodd efe yr addewid ond cyn hired ag y gallodd ymryddhau o afaelion Owen; ac yna ymunodd â'r gelynion. Fel ad-daliad am hyn, Owen a losgodd balas o'i eiddo o'r enw Gyrnigwen hyd y llawr. Yr hanes nesaf am Dafydd ydyw iddo ladd ei berthynas Risiart Fawr, arglwydd Slwch, mewn ffrae yn nhref Aberhonddu; a pharodd hyn iddo fyned ar ffo am yspaid o amser. Yn 1415, cododd fyddin o wyr y nMrycheiniog i fyned gyda'r brenin Harri IV. ar ryfelgyrch i Ffrainc. Rhan o'r rhyfelgyrch hwn oedd brwydr bwysfawr Agincourt; achafodd dewrder Dafydd Gam fan manteisiol i ddangos ei hun yn y gâd greulon hono. Efe a ddanfonwyd gan y brenin i archwilio sefyllfa arhif y gelyn cyn dechreu'r frwydr. Daeth yn ol a dywedodd, "Fod yna ddigon i'w lladd, digon i'w cymeryd yn garcharorion, a digon i ffoi ymaith!" Yn mhoethder y rhyfel, collodd Dafydd Gam ei fywyd, a'i fab-yn nghyfraith, Roger Fychan, a pherthynas arall iddo o'r enw Gwallter Llwyd, a syrthiasant tan glwyfau angeuol, eu trioedd, meddir, wrth arbed eu brenin, yr hwn a amgylchynesid gan y gelynion; a'r brenin, fel taledigaeth bychain am aberth mor fawr, a'u gwnaeth yn farchogion. Yr oedd Syr D. Gam yn ddewr ddielfydd, yn gryf a hagr o gorph, ac yn meddu meddwl annibynol. Y mae Syr Walter Raleigh, wrth son am dano yn mrwydr Agincourt yn moli ei ddewrder i'r cymylau,—yn dweyd ei fod yn tra rhagori ar Mago, ac yn ei gydmaru i Hannibal.—Jones' *Brecknockshire; Wms. Em. Welsh.*

Digitized by Google

DAFYDD GOCH BRYDYDD. Bardd yn ei flodeu o 1480 i 1520.

DAFYDD GORLECH, neu Ddafydd Llwyd Gorlech, oedd frodor o Abergorlech, ac yn fardd enwog yn amser Harri VII. Mae llawer o'i gyfansoddiadau mewn llawysgrifau.

DAFYDD HOPKIN, o'r Coety, Morganwg, bardd yn ei flodeu o 1700 i 1730, a llywydd Gorsedd Morganwg yn 1730.

DAFYDD IFAN AB EINION, neu Dafydd ab Ifan ab Einion, oedd geidwad Castell Harlech yn 1468, o tan deulu Lancaster yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynau. Dewrddyn gwladgar, hardd o gorph, ydoedd, yn glynu'n ffyddlon anarferol wrth ei blaid. Gwnaed llawer cynyg trwy deg a garw gan Iorwerth IV. a'i bleidwyr i gael y castell o'i feddiant, ond yn gwbl ofer—gydag ychydig wyr efe a heriai yn y gaer gadarn hono holl alluoedd y Yorkiaid, tra nad oedd ond dwy gadarnfa eraill yn y deyrnas heb blygu i'w hawdurdod. Wedi blino o'r diwedd, parodd y brenin i Wilym Herbert, iarll Penfro, yn 1468, sef yn mhen saith mlynedd ar ol esgyniad Iorwerth i'r orsedd, a dymchweliad tŷ Lancaster—gymeryd castell Harlech, beth bynag fyddai y canlyniadau. Yr Iarll, wedi casglu ei fyddinoedd yn nghyd, a gychwynodd tua'r lle: a chyda dirfawr boen, oherwydd gorfod cludo ei beirianau rhyfel dros y mynyddoedd, i fynu pa rai yr oedd yn rhaid i'w filwyr ddringo braidd trwy nerth ewinedd a danedd, efe a gyrhaeddodd o flaen y castell o'r diwedd, ac a ddechreuodd ei warchaead. Wedi bod o flaen y lle am ychydig, galwodd yr Iarll am i Dafydd draddodi y lle iddo ef, dros ei feistr y brenin, gan fwgwth yn enbyd os na chydsyniai â'r cais yn ddioed. Y mae atebiad Dafydd yn dangos o ba wneuthuriad yr ydoedd :—"Ewch, a dywedwch i'ch meistr, fy mod unwaith wedi amddiffyn castell yn Ffrainc nes yr oedd holl hen wragedd Cymru wedi clywed am y peth; ac yr amddiffynaf hwn eto nes y clyw holl hen wragedd Ffrainc am yr amddiffyniad." Cynddeiriogodd hyn yr Iarll, paratodd yn ddiattreg i wneud vmosodiad, eithr ar ol ymladdfa waedlyd terfynodd y peth yn ffafr Dafydd a'i wyr. Parodd hyn y fath ddiflasdod i'r Iarll, fel y gadawodd y gwarchae yn nwylaw ei frawd Syr Risiart Herbert. Deallodd Syr Risiart ei waith yn well na'i frawd, torodd ymaith eu hadgyflenwadau am ddwfr ac ymborth; a'r canlyniad fu, i Dafydd roddi y lle i fynu oherwydd newyn. Pa fodd bynag, sicrhaodd iddo ei hun a'i wyr amodau rhyddid a bywyd, y rhai ni foddient y brenin ar un cyfrif, a gwrthododd eu cadarnhau. Pan glybu Syr Risiart hyn efe a ddywedodd :—"Cymered eich Mawrhydi fy einioes i yn lle einioes y penaeth Cymreig; ond *rhaid* cyflawni yr amodau, neu ynte mi a roddaf Dafydd yn ol yn y castell, a chewch chwithau anfon y neb a fynoch i'w gymeryd." Parodd hyn i Iorwerth gyndyn gydsynio; ond ni chafodd Herbert ddim am ei lafur heblaw bywyd Dafydd ab Ieuan ab Einion. Yr oedd y rhyfelgar Rheinallt ab Gruffydd o'r Twr, ger y Wyddgrug, yn mhlith swyddogion Dafydd yn y gwarchae hwn. Dywedir mai dyma'r pryd y cyfansoddwyd yr alaw ardderchog "Ymdaith Gwyr Harlech." Nis gwyddis pa beth a ddaeth o arwr dewrwych Harlech wedi ei ryddhau trwy ffyddlondeb diwyro Syr R. Herbert.—Pennant's *Tours.*

DAFYDD IONAWR, neu, yn ol ei enw priodol, David Richards, Ysw., o Ddolgellau, oedd enedigol o Lanymorfa, yn mhlwyf Tywyn, Meirionydd. Ganwyd ef Ionawr 22, 1751; ac oherwydd hyny, pan dyfodd yn fardd, cyfenwodd ei hun yn Dafydd Ionawr. Yr oedd ei dad yn grachuchelwr balch, ofer, a gwagsiaradus; a'i fam yn wraig

Digitized by Google

lawn o bwyll, difrifoldeb, a synwyr. Bachgen od, myfyrgar, a difrifddwys, oedd Dafydd o'i febyd—yn cael ei fawrhau gan ei fam, a'i ddirmygu i'r eithaf gan ei dad, oherwydd ei dueddiadau barddonawl. Tua'r flwyddyn 1766, yr oedd Ieuan Brydydd Hir yn gurad yn Nhywyn, a sylwodd ar ddoniau awenyddol Dafydd Ionawr ieuanc, ac efe a ddysgodd iddo reolau barddoniaeth, ac anogodd ei dad i'w ddwyn ef i fynu i'r Eglwys, er gwneud offeiriad ohono. Yn ganlynol, anfonwyd ef i ysgol glodfawr Ystradmeirig, at Edward Richard, y bugeilfardd a'r ysgolhaig digyffelyb. Felly, cafodd gychwyniad da gydag ysgolheigion penaf yr oes hono; a daeth yn ddysgedig fel rhifyddwr, Lladinwr, Groegwr, &c., yn bur fuan. Dywedir mai yn Ystradmeirig, pan tua deunaw oed, y cyfansoddodd "Gywydd y Daran," yr hwn sydd un o'r darnau mwyaf awenyddol o'i eiddo. Dichon mai rhyw dair neu bedair blynedd a dreuliodd yn Ystradmeirig, canys cawn ef yn 1770 yn Ngwrexham, yn is-athraw mewn ysgol, ac yn gohebu i'r *Eurgrawn Cymraeg*, cyhoeddiad pumthegnosol—y cyfnodolyn hynaf yn Nghymru. Yn 1774, aeth i Rydychain, gan feddwl cymeryd urddau eglwysig; ond blinodd yno yn fuan, a dychwelodd at Mr. Tisdale, i fod yn is-athraw gydag ef yn Nghroesoswallt. Yr oedd efe erbyn hyn yn 24 oed. Syrthiodd mewn cariad â merch person y Drewen; ond gan iddo fethu enill serch y foneddiges, collodd bob awch carwriaethol, fel na bu mewn cariad â neb mwyach, a threuliodd y gweddill o'i oes yn hen lanc parchus. Yn 1779, cawn ef yn Nghaerfyrddin, yn is-athraw mewn ysgol ramadegol. Yn y flwyddyn hono y bu farw Richard Morris, brawd Llywelyn Ddu o Fon, a rhoddwyd ei farwnad yn destun i ganu arno gan Gymdeithas y Cymrodorion. Cystadleuodd Jonathan Huws, Sion Ceiriog, Richard Jones o Fon, a D. Ionawr. Barnwyd R. Jones yn oreu, a D. Ionawr yn ail; ond haerai rhai mai cân benrydd Sion Ceiriog oedd yr oreu. A dyna'r ddadl gyntaf a wyddom am dani rhwng y bryddest a'r awdl. Digiodd D. Ionawr yn ofnadwy, ac ni chystadleuodd mwyach. Buasai ei hen athraw, Edward Risiart, Ystrad Meirig, farw yn 1777; ac y mae "Cywydd marwnad Iorwerth Risiart," yn un o'r pethau mwyaf campus o'i eiddo. Daeth tua'r pryd hwn yn gydnabyddus a'r Parch. John Walters y Geiriadurwr, a bu yn ei gynorthwyo yn nghyfansoddiad y Geiriadur. Noda ei fywgraffydd na chafodd ddim tal am ei lafur, a beia Walters am fod mor grintach, heb gofio fod Walters ei hun yn golledwr mawr yn yr anturiaeth. Pa fodd bynag, bu yn ceisio arwain y bardd at yr Esgob Watson i gael urddau, ond aflwyddwyd oblegyd fod y fywioliaeth oedd mewn golwg yn rhy fechan i urddo dyn o'i dalentau ef iddo. Yn Nghaerfyrddin y dechreuodd gyfansoddi "Cywydd y Drindod." Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf yn 1793. Helbul fawr oedd cael y gwaith drwy'r wasg. Mae'r argraffiad cyntaf ger ein bron mewn argraffwaith hardd a chryno. Teithiodd yr awdwr holl siroedd y Gogledd am enwau derbynwyr, a chafodd 2 yn Mon, 3 yn Arfon, 4 yn sir Ddinbych, 1 yn sir Fflint, 3 yn sir Drefaldwyn, a 39 yn sir Feirionydd! A rhoddodd ei hen gyfaill, y Parch. Thomas Jones o Creaton, ei enw am 20. Nid ar y wlad yr oedd yr holl fai. Gwerthasai T. E. o'r Nant 2000 o'r "Gardd o Gerddi" ychydig cyn hyny. Yr oedd rhyw ddiffyg mawr ar y bardd hefyd. Gwyddom iddo wrthod un enw at gywydd Ioseph yn 1809, oherwydd i'r ymgeisydd ddweyd Joseph yn lle Ioseph, a thrwy hyny brofi na fedrai ddarlled y farddoniaeth heb ei hacru! Cafodd fenthyg £300 gan foneddwr o gymydog, i ddwyn traul cyhoeddiad y llyfr, a throsglwyddodd yntau ei hawl o'i

Digitized by Google

dreftadaeth i'r boneddwr hwnw ar ol dydd ei dad. Er fod y bardd yn ymddangos yn hynod o ddiffygiol mewn doethineb fydol, eto syrthiodd i ddwylaw teulu anrhydeddus, a chyda hwy y cafodd gartref cysurus hyd ei fedd. Nifer y llyfrau a argraffwyd oedd 300, a gwerthid hwy am 5 swllt yr un. Cafodd yr awdwr lawer o glod, ond ychydig iawn o elw oddiwrthynt. Yn 1794, daeth ein bardd i fyw at ei noddwr caredig Mr. Jones, y gwr a roddasai gymhorth iddo i argraffu y Cywydd. Bu yno hyd 1800, yn diwygio ac yn helaethu "Cywydd y Drindod." Tebygol i lawer o'r chwanegiadau a wnaeth gael eu difa drwy ddiofalwch ar ol ei farwolaeth. Yn 1799, cyhoeddodd "Gywydd y Mil Blynyddau." Yn 1800, penodwyd ef yn athraw ysgol rad Dolgellau. Bu yn y swydd hono am 7 mlynedd, ac yn cartrefu yn y *Blue Lion*. Dyma'r adeg y bu'r canu chwerw rhyngddo a D. Ddu Eryri. D. Ddu a dorodd yr heddwch, drwy wneuthur "Cân newydd; ystyriaethau ar waith amryw o feirdd o Gymru yn goganu'r byd." Dyma'r unig gyfeiriad sydd ynddi at D. Ionawr:—

> "I ddyn fel Dafydd Ionawr sydd wr o ddyfnfawr ddawn,
> Mae'r byd fel rhyw anialwch, dyryswch dyhir lawn;
> I wr sydd a'i feddyliau uwch y cymylau mawr,
> Cymdeithas ry lygredig yw'r lloerig ar y llawr."

Blwyddyn chwerw o ryfel rhwng prif feirdd Gwynedd oedd 1801; ond bu D. Ionawr a D. Ddu yn gyfeillion gwresog cyn diwedd ei hoes. A dywedir i'r newydd o farwolaeth alarus D. Ddu ei yru bron i lewyg.

Cyhoeddodd "Gywydd Ioseph" yn 1809, "Barddoniaeth Gristionogol" yn 1815, "Cywydd y Diluw" yn 1821. Yr oeddynt oll yn dal cysylltiad agos a "Chywydd y Drindod," ac yn fath o chwanegiadau pwysig at y gwaith cyntefig. Y gwaith olaf o'i eiddo yw, "Cywydd o goffadwriaeth am y diweddar anrhydeddus a thra dysgedig Syr William Jones." Er fod y gwr hwnw wedi marw yn 1794, eto ar ddiwedd y cywydd cawn—"Barddwaith diweniaith Dewi Ionawr, yn y flwyddyn o'i oedran 75, Mai 12fed, 1826."

Dyma ni wedi brasredeg dros brif ddamweiniau bywyd y bardd. Y cam nesaf yw ei farwolaeth. Mai 11, 1827, yr oedd y bardd yn iach a siriol fel arferol; bwytaodd swper fel arferol, ac aeth i'w wely; ond gan yr arferai gysgu hyd ganol dydd ni feddyliwyd ei aflonyddu, eithr gadawyd iddo gael ei amser; a phan flinodd y teulu yn disgwyl, aeth rhywun i'w ystafell, a chafwyd ef ar ddull dyn yn cysgu yn esmwyth a thawel, ond yn hollol farw! Dyna ddiwedd y clodfawr Dafydd Ionawr.

Ystyria rhai fod cryn lawer ddynwared *Coll Gwynfa*, ac yn neillduol *Course of Time* Pollock, yn ngwaith Dafydd Ionawr; ond gan iddynt ganu ar yr un testynau yr oedd yn hawdd iawn iddynt dderbyn yr un argraffiadau, ac ymdebygoli llawer i'w gilydd heb fenthyca y naill oddiar y llall. Y mae tystiolaeth Daniel Ddu o Geredigion o bwys ar y peth hwn,—"Y mae *Cywydd y Drindod* yn orchestwaith cyfartal mewn teilyngdod a *Choll Gwynfa*. Y mae yr ysbryd a anadla yn wir grefyddol, a'r farddoniaeth yn brydferth uwchlaw cymhariaeth. Myfi a'i darlleniais, yr wyf yn meddwl, *haner canwaith*, a pha amlaf y gwnaf hyny, mwyaf i gyd yr wyf yn cael fy moddio a'm difyru." Ond y mae gan yr awdwr yn fynych ansoddeiriau afreidiol i lenwi y gynghanedd, fel y dywedid unwaith fod pregethwr o ddoniau rhyganawl yn arfer "how-wow-wow," i orphen y gerddoriaeth pan oedd iaith yn pallu, a'r frawddeg bron a thori yn gwta.

Yr oedd gan Dafydd Ionawr wrthwynebiad greddfol i'r arferiad o

Digitized by Google

ymaralw ar enwau y duwiau paganaidd wrth farddoni. Beiai D. Ddu am ddywedyd,—

"URIANIA dyro unwaith
Nawdd deg y niwedd y daith,"

eto syrthia weithiau i'r camwri hwnw ei hunan, megys

"Y duwiau wrendy d'awen"

yn marwnad Iorwerth Risiart, a

"Deuwch i wledd y duwiau,"

wrth wahodd y gwynfydolion i'r dragwyddol deyrnas yn y diwedd.

Gallwn nodi yn mhellach ychydig o arbenigrwydd y bardd, a'r pethau a'i gwahaniaethent ef oddiwrth eraill. Yr oedd efe yn ddyn talsyth, golygus a boneddigaidd o ymddangosiad; ac wedi cael pob mantais mewn dysgeidiaeth gyffredinol, a dysg farddonol hefyd. Cysegrodd ei holl fywyd at farddoni. Yr oedd "ymgais dyn a damwain bywyd," wedi gwneuthur eu rhan iddo; ac yr oedd "rhodd Duw," sef dawn anianol, ganddo yn helaeth hefyd. Eto nis gallwn edrych ar "Gywydd y Drindod" fel gorchestwaith anarferol, os ystyriwn fod y fath ddyn wedi cysegru 60 mlynedd o'i einioes at y gorchwyl. Rhoddodd ei feddianau i eraill am gael cynaliaeth esmwyth, a llonyddwch i farddoni. Gwir fod ganddo lawer o ddarnau da iawn fel cynghaniad o hanesion ysgrythyrol, a llawer syniad uchel a dyrchafedig: ond fel cyfanwaith duwinyddol y mae "Golwg ar Deyrnas Crist" Williams Pantycelyn, yn rhagori yn ddiau, er fod yno lawer o gymysgu ac ail adrodd. Mae ganddo lawer o ddarnau marwaidd, a llawer o gynghaneddion ding dong. Mae yn rhaid i ni farnu gwaith D. Ionawr yn ngholeuni ei fanteision, ei ymroddiad, a'i honiadau. Credai yn ddiysgog iddo gael ei anfon i'r byd i ganu Cywydd, ac ymroddodd gyda sel ddiorphwys i gyflawni ei weinidogaeth. Neidiai o lawenydd pan ddeuai llinell hapus i'w feddwl, ac ni oddefai i neb ei aflonyddu pan fyddai mewn myfyrdod yn cylymu deufan o gywydd yn nghyd. Ychydig iawn o ddynion a ystyriai yn deilwng o'i gymdeithas am hanner awr. Nid oedd lienorion Dolgellau, oddigerth Ieuan Awst, yn werth ei sylw. Gwrthododd dderbyn Iolo Morganwg i'w dy, am ei fod yn ormod o dderwydd; nid edrychai ar J. Jones, Glan y Gors, oherwydd ysgafnder ei awen, ac oherwydd ei syniadau gwladol, mae'n debyg, fel awdwr "Y Seren tan Gwmwl" a "Toriad y Dydd." Ac nid oedd yn werth ganddo daflu llinell o gynghanedd sain heibio er mwyn cymdeithas Dewi Wyn. Eglwyswr selog oedd efe o ran ei grefydd; ond anfynych y cyrchai i'r Eglwys i wrandaw pregethau, canys nid ystyriai yr offeiriaid yn werth i'w gwrandaw; am yr ymneilliduwyr ni wrandawai ar neb ohenynt oddigerth John Elias neu Christmas Evans. Dywedir fod ganddo olwg fawr ar Charles o'r Bala, ac y gwrandawai arno ef yn ewyllysgar. Ond a gadael ei hynodrwydd monachaidd o'r neilldu, diau ei fod yn ddyn ardderchog. Myfyriai beunydd ar y pethau pwysicaf, darllenai lawer ar yr Ysgrythyrau, a gweddiai yn ddyfal a gwastadol. Canodd fwy ar destunau ysgrythyrol ar y mesurau caethion na neb o feirdd Cymru, a gwnaeth yr hyn a ellid ei wneuthur yn y ffordd hono i gyfansoddi Hanesgerdd Sanctaidd ar weithredoedd y Drindod tuag at y byd hwn o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb. Un Dafydd Ionawr a welwyd erioed, a thebygol na cheir

"Fyth weled ei fath eilwaith."

Digitized by Google

DAFYDD LLWYD AB LLYWELYN, o Fathafarn, yn sir Drefaldwyn, ydoedd fardd a brudiwr enwog, a chanddo etifeddiaeth led fawr ar lanau yr afon Dyfi uwchlaw Machynlleth. Ceir teitlau a llinellau cyntaf 55 o'i gywyddau, &c., ar amlen *Great* Llundain am 1806; ac yn en plith y mae cywydd marwnad Syr Gruffydd Fychan, gwr a gymerodd ran flaenllaw yn ngharchariad y merthyr Cymreig enwog Syr John Oldcastle. Y mae cywydd yn ngwaith Lewis Glyn Cothi, "I Ddafydd ab Llywelyn ab Gruffydd o Fathafarn pan syrthiodd oddiar ei Farch," yn mha un y molir ef fel bardd a phrophwyd, ac y dangosir y cydymdeimlad dwysaf ag ef yn ei drallod. Adroddir yr hanesyn canlynol am dano fel Brudiwr: Yr oedd Iarll Richmwnd ar ei ffordd o Aberdanglddyf i'r Amwythig i ornestu am goron Lloegr hefo Risiart III., a gweloedd yn dda droi i ymofyn gan Dafydd a fyddai ei ymgais yn llwyddianus a'i peidio. Wedi i'w uchelder ddweyd ei neges, petrusai'r Brudiwr roddi'r ateb, a chynygiodd ohirio hyny hyd dranoeth. Pan ddeallodd gwraig Dafydd Llwyd ei fod yn petruso ateb cwestiwn syml felly, hi a'i ceryddodd gan ddywedyd: "Beth, tydi yn fardd, yn brophwyd, ac yn frudiwr, ac yn methu ateb gofyniad fel yna! Dywed yn bendant y bydd iddo enill y frwydr; ac os try hyny allan yn wir, dyna dy enw yn uchel ac anrhydeddus; ac os fel arall, raid i ti byth ofni y daw efe y ffordd yma o ddwylaw Dic Gefngrwm i'th gosbi di fel gau brophwyd." Boddiodd hyn y Brudiwr yn fawr; ac wedi i'r iarll gael ei ateb efe a aeth i'w ffordd yn llawen. Fel y mae yn hysbys, cyflawnwyd y brophwydoliaeth, coronwyd Iarll Richmwnd wrth yr enw Harri VII., enillodd brud-ddealltwriaeth Dafydd lawer byd o glod, ac oddiar yr amgylchiad hwn y tarddodd y ddiareb. "Cynghor gwraig heb ei ofyn."—*Gwaith* Lewis Glyn Cothi; Iolo *MSS.*

DAFYDD LLWYD EPYNT. Bardd a flodeuodd rhwng 1540 a 1570. Dywed awdwr yr *Em. Welsh.* mai brodor o Forganwg ydoedd; ond y mae mynydd Epynt yn Mrycheiniog.

DAFYDD LLWYD O HENBLAS. Bardd a flodeuodd o 1560 hyd 1600.

DAFYDD LLYFNI. Bardd, a brodor o Lanllyfni yn Arfon; ac yn ei flodau, yn ol D Ddu Eryri, yn 1595. Y mae rhyw gymaint o'i farddoniaeth yn nghadw mewn llawysgrifau.

DAFYDD MAELIENYDD, yr hwn a elwid Bach Buddygre, a Dafydd Bach ab Madawg Wladaidd, ac yn mhlwyf Llanstephan, yn Muddygre Maelienydd, yr oedd efe yn byw. Gwel "Dewis bethau Dafydd Maelienydd," yn y *Myv. Arch.* iii. 122, 123, 126; ac hefyd yn y *Cydymai'th Diddan;* a dywedir yn mhellach, "fe gasglodd Dafydd Maelienydd lawer o'r cyfryw bethau yn nghyd."

DAFYDD MANUEL. Bardd gwladaidd yn ei flodau tua 1700. Dywed rhai mai brodor o Edeyrnion ydoedd; eraill a ddywedant mai mewn ty bychan ar dyddyn o'r enw Gern Afon, yn mhlwyf Trefeglwys, yn agos i Lanidloes, y trigai. Mae cân a enwai "Bustl y Cybyddion," o'i waith yn y *Blodeugerdd.*

DAFYDD MEIFOD. Bardd, a brodor o Feifod, yn sir Drefaldwyn. Blodeuai rhwng 1630 a 1670. Mae ychydig o'i waith mewn ysgriflyfrau.

DAFYDD NANMOR. Nanmawr sydd barth o swydd Feirionydd gerllaw Beddgelert. Yma, mewn lle o'r enw Cae Dafydd, yn agos i'r Hafodgaregog, preswylfa Rhys Goch Eryri, y trigai Dafydd Nanmor. Dywedir i Rys Goch, yr hwn oedd wr boneddig, roddi y tyddyn D.

Digitized by Google

Nanmor, yntau a'i galwodd ar ei enw ei hun yn Cae Dafydd. Tebygol fod D. Nanmor yn ieuangach na Rhys Goch, a'i fod yn ei flodau tua 1440, ac yn marw tua 1460. Pa fodd bynag, yr oedd efe yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin yn 1441, ac yn ol yr hen gofion am yr Eisteddfod hono, "Gwilym Tew o Dir Iarll, a Dafydd Nanmor, a gad yn oreuon eu gwybodau a'u hawen; a mwyaf ei orchest ar gerdd dafod y bernid Dafydd Nanmor, ac hefyd am ddefodau Llysoedd Tywysogion Cymru hyd ag a barant." Y mae rhestr o ganiadau D. Nanmor sydd ar glawr y *Greal*, yn nghyda'r rhai sydd argraffedig yn *Ngorchestion Beirdd Cymru* yn profi fod y Bardd yn ddyn o bwys yn ngolwg boneddigion ei wlad, a'i fod yn treulio llawer o'i amser yn Nyted, gan iddo ganu cymaint i deulu anrhydeddus y Tywyn, ger Aberteifi. Claddwyd ef medd rhai cofion, yn y Ty Gwyn ar Daf; eraill a ddywedant fod ei lwch yn gorphwys yn Meddgelert. Mae ei farddoniaeth yn fwy awenyddol a gorchestol nag eiddo nemawr un o feirdd dysgedig yr oes hono, yn enwedig ei "Awdl farwnad Thomas, arlwydd y Tywyn."—*Gorchestion Beirdd Cymru*, ail-argraffiad.

DAFYDD NICHOLAS. Bardd teulu Aberpergwm, dros haner can' mlynedd, a'r olaf, feallai, o'r cyfryw yn Nghymru. Ganwyd ef yn 1693, a bu farw yn 1769. Yr oedd efe yn Eisteddfod y Cymmer wyl Ddewi 1735, ac yn canu i'r beirdd gwyddfodol. (Gwel *Y Fêl Gawod*). Mae penillion "Achwyniad ar y Dafarn" o'i waith yn *Afalau'r Awen*. Dywed ei feddargraff yn mynwent eglwys Aberpergwm:—"Bu yn athraw i'r anwybodus, yn feddyg i'r claf, ac yn brydydd anianol traddawn." Yr oedd efe yn un o feirdd Gorsedd Morganwg, a dysgybl i Dafydd Hopcin o'r Coety, yn 1730, ac yn gyfoeswr ag Edward Evan o'r Toncoch, Aberdar.

DAFYDD O'R NANT, sef y Parch. David Williams, ficer Penllîn, yn Morganwg. Blodeuodd o 1650 i 1690. Efe oedd un o bencerddiaid Gorsedd Morganwg, gyda Charles Bwttwn, ac Edward Dafydd o Fargam, yn Eisteddfod y Bewpwyr yn 1681. Gwelir 43 o'i ganiadau amryfath yn addurno tudalenau *Cyf. y Beirdd*. Mae yn amlwg fod Dafydd o'r Nant yn fardd anian, fel y dengys yr engreifftiau a ganlyn:—

Ar hyd mynyddfryn
Cyrrau y rhedyn
Caru rhodio,
A heddwch penllad
Imi o fwriad
A myfyrio.

DAFYDD OWAIN (Syr), offeiriad a bardd yn Maenan, sir Ddinbych. Blodeuai o 1540 i 1570.

DAFYDD OWEN, neu "Ddafydd y Gareg Wen," oedd fab i Owen Humphrey, o'r Gareg Wen, plwyf Ynys Cynhaiarn, Sir Gaernarfon. Ganwyd ef yn 1722. Enw morwynol ei fam oedd Gwen Roberts, merch lle o'r enw Isallt; teulu yr hon oedd yn enwog iawn fel meddygon, ac ystyrid hithau yn un feddianol ar synwyr cryf, yn gantores dda, ac yn farddones led rwydd. Y mae penill neu ddau o'i gwaith ar lafar gwlad, ond prin y maent yn werth eu hargraffu. Digon tebyg ddarfod i fam Dafydd impio tuedd at gerddoriaeth ynddo yn lled ieuanc; ac iddo yntau oddiar y duedd hono ddewis y delyn fel ei offeryn cerdd pan oedd telyn yn mhob tŷ, a'r Werin Gymreig yn gwynfydu yn sain ei hodlau melusion. Naturiol credu hefyd ei fod yn fedrus annghyffredin mewn "tynu mêl o'r tanau mân," pan oedd ei "én mor llyfn a'i law;" canys er iddo farw yn 27 oed, yr oedd ei glod yn y gelfyddyd wedi ymledu yn ehelaeth, ac y mae ei enw a'i enwogrwydd yn anwyl gan ei genedl hyd y dydd hwn. Ac nid yn unig yr

Digitized by Google

oedd yn enwog fel cerddor, ond priodolir iddo awduriaeth tair beth bynag o'n halawon cenedlaethol mwyaf swynol a melusber: 1, "*Codiad yr Ehedydd*," a dywedir mai dychwelyd yr oedd Dafydd yn lluddedig gyda glasiad y bore o gynal noswaith lawen yn Mhlas y Borth, pan yr eisteddodd i ddadflino ar faen mawr a ddangosir hyd y dydd hwn, ac wele "ddysgawdr mawl rhwng gwawl a gwyll" yn codi o'i lwth gweiriog yn ei ymyl, ac yn ehedeg i fynu tan dywallt ei fêl-odlau paradwysol ar bawb a phobpeth o'i ddeutu. Ar hyn, dyma'r hugan oddiar yr hen delyn, ac yn y fan a'r lle, Dafydd a chwareuodd ac a ddododd ar gôf a chadw "Godiad yr Ehedydd," yr alaw fwyaf dynwaredol a swynol o'n holl alawon cenedlaethol. 2, *Difyrwch Gwyr Cricerth*, a gyfansoddwyd, meddir, ar gyfer gwylmabsant Cricerth; edwaenir yr alaw hon yn yr Alban wrth yr enw "Rosslin Castle," a dywed traddodiad mai Rhys Owen, brawd i Dafydd, yr hwn a fu am yspaid hir yn arddwr yn Rosslin Castle, a'i trosglwyddodd i'r wlad hono. Cyfansoddodd Ieuan Glan Geirionydd gân ar gyfer yr alaw, y llinell gyntaf o ba un ydyw "Fenyw fwyn, gwrando gwyn." 3, Yr un sydd yn dwyn ei enw, "*Dafydd y Gareg Wen.*" Y mae'r traddodiad parth cyfansoddiad yr alaw hon yn dra effeithiol. Yr oedd Dafydd ar ei wely angau, a'i fam un diwrnod wrth yr erchwyn yn ei wylio; syrthiodd y Telynor i berlewyg, a thybiai yr hen wraig fod lamp bywyd yn diffodd. Ond yn mhen yspaid ymddadebrodd, ei lygaid synedig a wybient o gylch yr ystafell hyd oni chyfarfuont a llygaid pryderus yr un a'i gwyliai; a dywedai wrthi iddo freuddwydio ei fod yn y nefoedd, yn gwrando y canu pereiddiaf a glywsai dyn erioed. Dywedai hefyd ei fod yn cofio y gân a genid, ac os cai feuthyg y delyn y gallai chwareu arni y dôn a glywsai; caniatawyd iddo ei gais, chwareuodd yntau "Dafydd y Gareg Wen," a'i fam a gofiodd yr alaw. Gyda fod yr hen offeryn cerdd yn anadlu allan ei nodyn diweddaf, ehedodd yr ysbryd ymaith, ac

"Yn swn yr hen delyn gogwyddodd ei ben,
Ac ANGAU rodd FYWYD i'r hen Gareg Wen."

Daeth y traddodiad hwn, os dylid hefyd ei alw yn draddodiad, yn wybyddus i Syr Walter Scott, ac efe a gyfansoddodd gân tan y teitl, "The Dying Bard:—air,—Dafydd y Gareg Wen;" ond y mae y bardd wedi camleoli preswylfod y telynor yn Ninas Emlyn yn lle Eifionydd. Bu Dafydd farw yn 1749, yn 27ain oed, a chladdwyd ef yn mynwent Ynys Cynhaiarn, lle y mae gwyddfa hardd ar ei fedd a llun telyn yn gerfiedig arni.—*G. Lleyn MSS; Cymru Fu*, i. 343.

DAFYDD PENNANT, bardd yn ei flodau tua diwedd yr 16eg ganrif. Y mae peth o'i waith ar gael mewn ysgrifau.

DAFYDD SION DAFYDD, neu Dafydd Jones o Drefryw, prydydd a myfyriwr hen bethau, a flodeuodd o 1740 i 1780; cyfoeswr Ellis y Cowper, Hugh Jones, Llangwm, &c. Casglodd lawer o hen ysgrifau, cyhoeddodd stori Nicodemus, Blodeugerdd Cymru, Cydymaith Dyddan Diferion Gwybodaeth, &c. Trodd yn argraffydd tua diwedd ei oes, a chanlynwyd ef yn yr alwedigaeth hono gan ei fab Ishmael Davies, ac wedi hyny gan ei wyr Pyll Glan Conwy, sef y diweddar Mr. John Jones, Argraffydd, Llanrwst.

DAFYDD THOMAS, o Ystrad Dyfodwg, bardd a flodeuai o 1700 i 1730.

DAFYDD TREFOR (Syr), curad Llanallgo, yn Mon. Bardd galluog yn blodeuo o 1470 i 1500. Y mae llawer o'i waith mewn

Digitized by Google

llawysgrifau. Ymddangosodd llinellau cyntaf deuddeg o'i ganiadau ar amlen *Great* Llundain am 1806.

DAFYDD WILLIAM DAFYDD. Un o feirdd cywrain Gorsedd Morganwg. Gwelir amryw engreiffiau o'i waith yn *Nghyf. y Beirdd.* Canai driban Toddaid, sef y dull hynaf ar Englyn, fel hyn:—

Ni chred ail Luned y 'leni—'y mod
Yn y mawr drueni,
Och! liw haul am ei chael hi.

DAFYDD Y COED. Bardd gorchestol yn ei flodau o 1300 i 1340, ac felly yn cydoesi a D. ab Gwilym. Mae saith o'i gyfansoddiadau yn y *Mav. Arch.* Tafod serth i ryw foneddigion cybyddlyd yw rhai o honynt, a chlod i rai haelionus yw y lleill. Mae yr awdl olaf yn fath o gyffes a gweddi wrth ddybenu ei oes. Nid ydyw, fel beirdd yr oes hono yn gyffredin, yn galw ar Mair, ond ar Grist. Ymddengys ei fod yn wr dysgedig, canys dyweda,—

"O'm pedairlaith ddysg a'm paderau."

Gellir casglu oddiwrth ei destunau mai Deheufardd ydoedd.

DAFYDD (EDWARD), o ddinas Margam, yn Morganwg, oedd yn trefnu Hen Ddosbarth Cerdd Dafod, gan "ei thynu allan o Lyfrau Beirdd ag Awdurod dysgedigion rhag ei myned ar goll," yn Eisteddfod y Bewpyr, yn nyddiau y Sulgwyn, 1681, "dan nawdd a dawn Syr Rhisiart Bassed, Farchog, Arlwydd y lle, a than osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn, drwy Forganwg a Gwent ag Euas." Edward Dafydd gan hyny a orphenodd ac a berffeithiodd y llyfr cywrain a elwir "Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain."

Nid oes goel na dal i fod ar y gofrestr o Feirdd Gorsedd Morganwg sydd yn Rhagdraith Dr. W. O. Pughe i waith Llywarch Hen, os na chafodd Edward Dafydd yn mhell dros gan' mlynedd o einioes ar y ddaear, canys gosodir ef allan fel dysgybl i Llywelyn Sion yn 1580, ac eilwaith fel dysgybl i Watkin Powel yn 1620; yn gadeirfardd yn 1660, ac yn marw yn 1690. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg ei fod yn fyw yn 1681. Dyma ei gyfrif ef ei hun o'r hyn a wnaeth ef yn ffurfiad *Cyf. y Beirdd,* yn ei anerchiad at feirdd Ynys Prydain: "Gan ddarfod i mi er yn las-fachgen hoffi ag astudio Barddoniaeth, a chwilio llyfrau beirdd ag awduron dysgedigion, ag yn enwedig llyfrau y beirdd henaf o Gymru a chan ystyried yr arch a roddwyd ar y beirdd yn Ngorsedd Cerdd Dafod Caerdydd, yr hon a gynneiliwyd yn y Castell yno, dan nawdd, trwy ddawn, a gorchymyn yr Arglwydd William Herbert; ys ef iddynt chwilio i maes a dwyn ar ail arfer yr Hen Drefn a Dosbarth ar y gelfyddyd wrth Gerdd Dafod, a'i pherthynasau, ag ar freiniau a defodau beirdd Ynys Prydain.....a chwedi hir a mawr lafurwaith mi roddais ar gasgl yr hyn a welir yma yn fy llyfr maeth.....Lewis Morganwg a gafodd i maes lawer o bethau, ond nid y cwbl; Meyrig Dafydd a ddatgudiodd lawer ohonynt yn y llyfr a wnaeth ef idd ei arlwydd Syr Edward Lewis o'r Fann; Dafydd Benwyn a Dafydd Llwyd Mathew a wnaethant lyfrau gan ddangos ynddynt o'r newydd rhai pethau hen iawn, a Llywelyn Sion o Langewydd a gasglws y cyfan yn nghyd idd ei lyfr o'n gwaith hwynt.....Nid oedd ef ond hen a methedig, pan gymmerth y gwaith mewn bryd a llaw; er hyny efe a wnaeth ei oreu .....Mi a wnaethum fy ngoreu er cynnull yn nghyd yr hyn a ellais o feirdd ein gwlad er cynnal Gorsedd wrth Gerdd, er cael barn cymaint ag a ellid ar y peth a chyfnerth genthynt yn fy ngorchwyl. A hyn a

Digitized by Google

gafwyd yn rhwydd gyda mawr serch trwy ddawn a than nodded, o foneddig fwynder, y pendefig awenfryd a thrybwyll Syr Rhisiart Bassed, Farchog, o Gastell y Bepwyr... ...a chan un a'r llall o'r beirdd yn yr Orsedd hono y cefais y pennillion cynnrych ag oedd yn ddiffyg yn Llyfr Llywelyn Sion. Ambell pennill yn wir a dynais o waith beirdd y ddwy oes ddiweddaf, a rhai a welir o honynt a wnaethum fy hun, ag am yr athrawiaethau ar ddechreu y mesurau, nid ynt amgen na llwyr a didwyll ymadroddion Llywelyn Sion."

Gwelir 37 o benillion o waith Edward Dafydd fel enghreifftiau o'r mesurau yn *Nghyf. y Beirdd*, ac iddo ef yr ydym yn ddyledus am y llyfr gorchestol hwnw yn ei agwedd bresenol, canys ni welodd Iolo Morganwg erioed ond dwy ysgrif ohono, un gan John Bradford o'r Bettws, a'r llall yn llyfrgell Llanharan gerllaw Llantrisant; a'i gred ef oedd nad oedd rhagor yn bod. Yr oedd y ddwy, mae yn debyg yn, ysgrif-law Edward Dafydd. Bu farw yn 1690.

DAFYDD (Elis). Bardd gwlad o Lanfaglan, gerllaw Caernarfon, yn 1750.

DAFYDD (William Pyrs), o Gynwyd yn Edeyrnion. Yr oedd efe yn gyfoeswr a chymydog i Mathew Owen o Langar. Mae cân o waith y ddau cyd-rhyngddynt yn y *Blodeugerdd*, wedi ei hamseru 1660. Dynodir canolddydd ei fywyd yn gyffredin 1680.

DAI SION. Un o feirdd y *Blodeugerdd*. Mae yno bedwar cyfansoddiad yn dwyn ei enw, sef "Cynghor yn erbyn dawnsio, yn enwedig ar y Sul," "Carol cyfnos," "At gofio'r diwedd," a "Carol glasddydd am enedigaeth a dyoddefaint Crist." Gan mai yn agos i ddiwedd y *Blodeugerdd* y mae'r caniadau hyn, tybiwn mai Dafydd Jones y Cyhoeddwr, neu Dewi Fardd, fel y galwai ei hun, yw "Dai Sion," rhag bod ei enw ei hun yn rhy fynych yn y llyfr. Ar ddiwedd ei "Ffrewyll i bechaduriaid," dywed :—

"Dai Sion o Arfon yrfa,—a ganodd
Drwy gynnwys hyn yma."

DALLDAF AIL CYNAN COF, rhyfelwr enwog yn ei flodeu yn y 6ed ganrif. Cysylltir ei enw yn y *Trioedd* gyda'r eiddo Trystan ab March ab Meirchion, a Rhyhawd ab Morgant, tan y teitl "gogyfurddion Llys Arthur."—*Myv. Arch.* ii. 20.

DAN, neu Daned, ab Seisyllt, yn ol y *Brutiau*, a olianodd ei frawd Cynfarch fel brenin Prydain yn y 6ed ganrif cyn Cred. Yntau a olianwyd gan ei fab Morvd.—*Myv. Arch.* ii. 158.

DANIEL AB LLOSGWRN MEW, neu ab Llosgwrn Mynwy. Bardd awenyddol yn ei flodeu rhwng 1160 a 1200. Mae un awdl o'i waith yn y *Myv. Arch.* t d. 193, ail-argrafiiad, sef "Marwnad Owain Gwynedd," yr hwn a fu farw yn 1169. Dengys yr awdl deimlad dwys a chyffrous ar ol y tywysog, yn y dull y cenid cwyn coll a galargerdd yn yr oes hono.

DANIEL DDU O GEREDIGION, sef y Parch. Daniel Evans, B.D., o Faesmynach, yn mhlwyf Llanfihangel-ystrad, yn sir Aberteifi, a anwyd yn 1792. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadegol Llanbedr, gan y dysgedig fardd y Parch. Eliezer Williams, mab hynaf Peter Williams yr esboniwr. Anfonwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain, ac ymraddiodd yn M.A. Urddwyd ef yn Offeiriad, er na fu yn gwasanaethu mewn eglwys, ac na chafodd fywioliaeth eglwysig er dim a wyddom, ond mwynhaodd y Gymrodoriaeth *(fellowship)* a enillodd yn Rhydychain, a graddiwyd ef rhywbryd yn B.D. Dechreuodd farddoni yn fore.

Digitized by Google

Cawn ei enw fel bardd mor gynar a 1814 yn hunan-ymddyddan mewn Englynion ar ben clochdy eglwys St. Paul yn Llundain. Dewiswyd un Englyn o'i eiddo ef gan y Gwyneddigion, yn 1813, i'w osod ar feddfaen T. E. o'r Nant, yn mynwent yr Eglwys Wen, er fod rhai wedi priodoli yr Englyn i J. Parry o Lanelian. Yr oedd Daniel Ddu, neu fel yr ysgrifenai weithiau D. ab Ieuan Ddu, yn un o ohebwyr a chefnogwyr cyntaf *Seren Gomer* yn 1815, dan olygiad Joseph Harris.

Darlunir ef yn Eisteddfod Caerfyrddin yn 1819, yn arwain Iolo hen fardd Morganwg yn ei fraich; ac er mai beirdd Gwynedd a enillodd yr holl wobrau yn yr Eisteddfod hono, canodd D. Ddu ddau Englyn "Diolchgarwch i feirdd Gwynedd, ar g'oedd yr Eisteddfod." Yn y flwyddyn hono etholwyd ef yn fardd Cymdeithas y Gwyneddigion, a chyfansoddodd yntau Awdl ar yr achlysur yn ol yr hen ddefod. Yn 1820, cyfansoddodd Englyn buddugol i'w osod ar fedd Bardd Mon, a chyfansoddodd Awdl deimladwy o goffadwriaeth am ei hen athraw Eliezer Williams. Cawn ef yn areithio ac yn barddoni, yn Eisteddfod Aberhonddu, yn 1822. Ond yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn 1823, y cyrhaeddodd efe uchafnod ei enwogrwydd fel bardd. Efe a enillodd y gadair, ac o hyny allan gelwid ef "Cadeirfardd Dyfed." Pan yn eistedd yn ei gadair fygedawg darllenid beirniadaeth ar yr Awdlau ar "Fuddugoliaethau diweddar y Groegiaid ar y Tyrciaid," a gofynwyd a oedd "Leondas" yn wyddfodol. "Dystawrwydd mud a ganlynodd dros hir dro!—dysgwyliad effro yn ysgogi pob bron! hyd nes i'r Parchedig Daniel Evans godi o'i orsedd ddyrchafedig—a chyda llawer o wyldra, a theimladau cyffroedig, ddadgan mai efe oedd yr awdwr o honi. Gyda'r gair, ffodd dystawrwydd, ehedodd mudaniaeth allan o olwg, a llanwodd oslef oröian y lle llawned fel pe buasai yno, am wn I, le nod i grochlef magnel! Yr oedd llawenydd yn weledig yn mhob wynebpryd, a gorfoledd yn mhob calon."—*Eos Dyfed.*

Tua'r pryd hwn yr oedd ein bardd yn cynorthwyo yr enwog Davies o Gastell Hywel i barotoi "Telyn Dewi" i'r wasg; a dywed yr hen fardd dysgedig yn ei Ragymadrodd i'w Delyn,—"Dymunaf dalu diolch gwresog i'm cymydog, y Parch. Daniel Evans, M.A., Bardd Cadeiriog Dyfed, &c., am y cynorthwy gwerthfawr ac ewyllysgar a roddes efe i mi er dwyn fy nybenion yn y blaen." Yn 1831, crynhodd y bardd ei holl waith barddonol yn llyfr, dan yr enw, "Gwinllan y Bardd." Cynwysa y "Winllan" lawer o Emynau rhagorol, Caniadau diodl, Cerddi, Cywyddau, Penillion, Awdlau, Englynion, &c. Yr oedd efe yn fardd coeth a dysgedig, a chan Iolo Morganwg olwg fawr arno. Bu farw Mawrth 28, 1846, yn 54 oed; a chladdwyd ef yn meddrod ei dadau yn mynwent Pencareg.

DARON (Lewis), ydoedd fardd enwog o Aberdaron. Y mae ar gael o'i waith "Cywydd i ofyn march, gan Dafydd, prior Beddgelert, i Sion Wynn o Wydir, Ysw., yn amser Harri VIII."—*Lleyn MSS.*

DAVID (Parch. Job), gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yn Frome, yn Ngwlad yr Haf, oedd fab i Job David, pregethwr gyda'r Bedyddwyr yn Mhenyfai, Morganwg, ac a anwyd yn Newton Nottage, yn yr un sir, yn 1746. Dygwyd ef i fynu yn athrofa Caerodor, o tan ofal yr athrawon galluog Hugh a Caleb Evans. Wedi bod yno am bedair blynedd, dychwelodd adref, a bu am ysbaid yn pregethu yn Mhenyfai. Yn fuan, cafodd alwad i Frome, i gynorthwyo Mr. Lidgefield, lle yr ordeiniwyd ef yn 1773, pan yn 27 oed; ac yno y bu yn llafurio am 30 mlynedd, gyda gradd helaeth o lwyddiant, a than wenau

Digitized by Google

amlwg ei Feistr Mawr. Yn 1803, cafodd alwad i Taunton, i fod yn ganlyniedydd i Dr. Josiah Toulmin, ar ei symudiad ef i Birmingham. Ond oherwydd afiechyd, ni bu ei arosiad yno ond am bum' mlynedd; anogwyd ef i ymdrochi yn y mor, a symudodd i Abertawy. Pa fodd bynag, yn lle gwella, gwaethygu a ddarfu iddo yno; ac wedi dyoddef mawr yn dawel a dirwgnach, efe a fu farw yn 1813, a chladdwyd ef yn nghladdfa ei deulu yn mynwent Penyfai. Ei glefyd olaf oedd dolur y gareg. Yr oedd yn bregethwr rhagorol; ac yn awdwr galluog. Ysgrifenodd gryn lawer ar yr ochr Arminaidd i'r ddadl a gymerai le y pryd hwnw yn mhlith y Bedyddwyr. Ei weithiau ydynt:—"A Letter on the Use of Scriptural Doxology," &c., yr hwn a barodd ddadl rhyngddo â'i hen athraw Caleb Evans; "Sermon preached before the Unitarian Society;" "An Assembly Letter on the Evidence of Christianity," "Reply to Dr. Priestley on the subject of Infant Baptism;" "A Letter to Dr. Coke of the Wesleyan Connection."—*Gentleman's Magazine; Lleyn MSS.*

DAVIES (Parch. Benjamin), D.D., oedd fab i'r Parch. Rees Davies, Canerw, ac a anwyd yn 1739. Wedi gorphen ei efrydiaeth yn ngholeg Caerfyrddin, dewiswyd ef gan bwyllgor athrofa Annibynol y Fenni, i fod yn athraw cynorthwyol i'r Parch. Mr. Jardine: ar farwolaeth yr hwn yn 1766, etholwyd y Dr. Davies yn brif athraw y sefydliad. Yr oedd llawer o ddynion a enwogasant eu hunain yn fawr wedi hyny, tan ei ofal addysgiadol yn y Fenni, ac yn eu plith y Dr. Williams o Rotherham. Bu yma am 14 mlynedd; ac yna dewiswyd ef yn athraw clasurol coleg Homerton; ac yn y cyfamser hefyd, ymgymerodd a bugeiliaeth yr eglwys fechan a ymgynullai yn Fetter Lane, Llundain, a llanwodd y ddwy swydd gyda gradd helaeth o gymeradwyaeth o 1783 hyd 1787, pryd y gorfu iddo oherwydd gwaeledd iechyd ac iselder ysbryd, roddi ei broffesiaeth yn y coleg i fynu. Ymddengys nad oedd hen afiechyd y meddyliwr dwfn a'r athrylith alluog, sef y pruddglwyf, yn anhysbys iddo. Hyn, yn nghyda chynydd anhwyldeb corphorol, a barodd iddo yn 1795 roddi ei ofal gweinidogaethol hefyd i fynu. Treuliodd rai blynyddau ar ol hyn yn symud o'r naill fan i'r llall yn ceisio adferiad iechyd, ond nid oedd iechyd ar ei gyfer. Yna ymsefydlodd yn Bath, lle y mwynhaodd weinidogaeth efengylaidd, ac y ffurfiodd gyfeillgarwch gwresog gyda'r Parch. Mr. Jay, o'r dref hono. Byddai weithiau yn pregethu yn mhwlpud y gwr enwog hwnw; a dywedai Mr. Jay am dano ei fod fel pregethwr yn dra synwyrol ac efengylaidd, er nad oedd ynddo lawer o wreiddiolder na hyawdledd. Dianmheu mai darlun o Dr. Davies yn ei henaint a'i anhunedd oedd hwn; gan y dywedir ei fod yn dra effeithiol a grymus pan yn ieuanc. Ychwanegai Mr. Jay, "Ei fod yn un o'r dynion mwyaf duwiolfrydig a adnabu erioed." Gwylaidd a gostyngedig iawn ydoedd; a dianmheu i hyny fod o gryn rwystr iddo rhag bod yn enwog yn mhlith y werinbobl. Dywedai am dano ei hun nad oedd ganddo ddigon o synwyr i foddio'r deallus; na digon o ddwli i foddio'r werin. Bu farw yn orfoleddus iawn Gorph. 22, 1817, yn 78 oed. Ni chyhoeddodd ond ychydig bregethau, a thraethodyn rhagorol tan y teitl, "Primitive Candour," yn gwrthateb rhai o syniadau Dr. Priestley. Yr oedd hwn wedi ei ysgrifenu mewn ysbryd mor deg a hynaws fel y galwodd y Dr. gydag ef i ddiolch iddo am ei foneddigrwydd.—*Evangelical Magazine; Lleyn MSS.*

DAVIES (Dafydd). Y gwr parchedig hwn oedd frodor o ardal

Digitized by Google

Penygralg, ger Caerfyrddin. Dywedir iddo gael ei urddo yn weinidog i'r Annibynwyr yn Nghydweli. Symudodd oddiyno i'r Fenni. Yn 1790, ymsefydlodd yn Nhreffynon; a bu yno ddeng mlynedd. Yn 1800, symudodd i'r Trallwng Coch yn Mhowys; ac ni wyddom ragor o'i hanes. Daeth yn enwog fel golygydd a chyhoeddwr y *Geirgrawn* yn 1796. Yr oedd Morgan John Rhys wedi gorfod ffoi i America er 1794 oherwydd cyhoeddi y *Cylchgrawn*. Y nesaf a deimlodd dros ei wlad oedd Dafydd Davies; a dywedir iddo yntau gael ei erlid am gyhoeddi y *Geirgrawn*. Deg rhifyn a ddaeth allan. Yr argraffydd oedd W. Minshull, Caerlleon. Cynwysa y gyfrol lawer o ysgrifau rhagorol, gan D. Ddu Eryri, Ieuan Lleyn, J. Jones, Glan y Gors, D. Saunders, wedi hyny o Ferthyr, &c.; bywgraffiad rhagorol o Edmund Jones, Pont-y-pool, dadleuon yn nghylch y *Seren tan Gwmwl*, gan Glan y Gors, sef "Llyfr ar Wladyddiaeth," a gyhoeddasai y bardd yn 1795. Bernid ar y pryd fod hwn yn cydredeg a *Rights of Man* T. Payne, ac yn cefnogi y Chwyldroad Ffrengig, &c. Ceir yno hefyd ddyfyniadau parhaus o Draethawd Gwallter Mechain ar Ryddid, Cyfieithiad o Ragymadrodd Lladin y Dr. Davies o Fallwyd i'w Eiriadur, Cân Rhyddid, am ganu yr hon y carcharwyd y Parch. Thomas Evans *(Thomas Glyn Cothi)*, neu fel y galwai rhai ef Twm Penpistyll, yn Nghaerfyrddin, am ddwy flynedd, heblaw sefyll yn y rhigawd *(pillory)* yn wawd i ynfydion dideimlad, &c.

Yr oedd Dafydd Davies yn ddyn da, duwiol, a dysgedig, yn bregethwr doniol ac athrylithgar, er na welodd llawer o'i gyfoeswyr ei wir werth a'i ddefnyddioldeb; ond y mae yn bryd i'r oes hon wneud cyfiawnder a'i goffadwriaeth.

DAVIES (Syr David), K.C.H., M.D., a anwyd yn 1793. Unig fab ydoedd i Robert Davies, Llwyn, Ceredigion. Er ei ieuenctyd trodd ei feddwl at feddyginiaeth, a bu am rai blynyddau yn dilyn yr alwad yn Hampton, Middlesex, pryd y penodwyd ef yn feddyg teuluaidd i'r brenin Gwilym IV. a'r Frenhines Adelaide. Gweinyddodd i'w Fawrhydi ar ei wely angau, a derbyniodd ar ei law yr *Urdd Guelphaidd* ychydig ddiwrnodau cyn marwolaeth y brenin. Gwnaethpwyd ef yn farchog gan ein Brenines rasusol yn fuan ar ol ei hesgyniad i'r orsedd. Ymbriododd â Mary Anne, merch ieuengaf y Parch. John Williams, Ystrad Meirig, Ceredigion. Bu farw yn Lucca, yn yr Eidal, Mai 10, 1865, yn 72 oed.

DAVIES (Dr. David), oedd fab i Morris Davies, masnachwr coed yn Machynlleth. Bu yn benaeth Ysgol Ramadegol Macclesfield. Bu farw tua'r fl. 1827.—*Lleyn MSS.*

DAVIES (Parch. David), a anwyd yn y Tŷ Uchaf, Mallwyd, Meirion, Medi 13, 1778. Cafodd elfenau ei ddysg gan y Parch. Thos. Morgan, offeiriad Mallwyd, a thrwy ei ddiwydrwydd personol wedi gadael yr ysgol hono, daeth yn ysgolhaig eithaf digonol i fyned i Ysgol Berriew, ac yna cafodd y ffafr o fyned i ysgol fawr yr Amwythig. Yno cyrhaeddodd ysgoloriaethau a'i cododd i Gaergrawnt yn 1798, yn ugain oed; lle y graddiwyd ef yn B.A. Ordeiniwyd ef i guradaeth Llandyssil, Maldwyn, gan Dr. Bagot, Medi 1807, am £30 yn y flwyddyn. Bu wedi hyny yn gweinidogaethu yn Llanymawddwy, Meirion. Cyhoeddodd draethawd ar "Salmyddiaeth," yn 1807; ar "Heddwch a Chynhauaf drwg," yn 1818; ar "Y fantais o Addoliad Cyhoeddus," yn 1819; a chyhoeddwyd 21 o'i Bregethau, yn nghyda cofiant ohono, yn 1823.—*Lleyn MSS.*

DAVIES (David Daniel), M.D., y meddyg enwog, a anwyd yn

Digitized by Google

mhlwyf Llandyfaelog, ger Caerfyrddin. Amaethwr bychan cyfrifol o'r enw Daniel Davies yn byw ar ei dir ei hun oedd ei dad, ac efe oedd yr hynaf o dri o feibion. Bu am beth amser yn Ysgol Ramadegol Caerfyrddin; symudwyd ef oddiyno yn 1793 i goleg Northampton; a thrachefn yn 1798 i Brifysgol Glasgow, lle y graddiodd yn M.A., ac yn 1801 yn M.D. Yna dechreuodd ymladd brwydrau bywyd drosto ei hun. Ymsefydlodd yn Sheffield; a bu yno am ddeng mlynedd yn un o physigwyr clafdy y dref. Yn 1811, etholwyd ef yn aelod o Goleg Physigwyr Edinburgh; ac ar ei symudiad i Lundain, yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, daeth yn aelod trwyddedig o Goleg Breninol y Physigwyr. Yn 1806, cyhoeddodd gyfieithiad dillyn a ffyddlawn i'r iaith Saesneg, o draithawd arderchog Pinel ar *Wallgofrwydd*, yr hwn lyfr oedd yr awdurdod uwchaf y pryd hwnw ar y pwnc. Ysgrifenai aml i erthygl allucg hefyd tua'r pryd hwn ar destunau meddygol i'r *Edinburgh Review*, pan oedd y cyhoeddiad uchelryw hwnw yn ei ddyddiau goreu: ac nid anrhydedd fach i fachgen gwledig o sir Gaerfyrddin oedd cael gosod ei waith ochr yn ochr â gwaith y fath gewri llenyddol â Macaulay, Brougham, Jeffreys, North, ac eraill. Yn 1813, symudodd i Lundain; ac yn ystod yr un flwyddyn, penodwyd ef yn physigwr i Ysbytty Bydwreiciol y Frenhines Charlotte. Yn 1815, dechreuodd draddodi areithiau ar Fydwreiciaeth; ac yn 1816, penodwyd ef yn physigwr i'r Elusen Freninol Fydwreiciol. Erbyn 1819, yr oedd ei enwogrwydd yn y gangen hon o feddyginiaeth mor fawr fel y neillduwyd ef yn physigwr i'r Dduges o Kent, ar achlysur genedigaeth y frenhines Victoria; ac oddiar hyny anrhydeddwyd ef â chyfeillgarwch Duc Kent hyd ei farwolaeth. Bu Dr. Davies yn traddodi darlithiau ar Fydwreiciaeth, a gwahanol anhwylderau gwragedd a phlant, am saith mlynedd ar hugain; ac ni bu dim llai nag un cant ar ddeg o ddysgyblion tan ei addysgiaeth. Yn 1825, cwblhaodd ei lyfr ar Fydwreiciaeth Offerynol, yn mha un y llawn eglurai ei olygiadau ar y pwnc, yn nghyda dysgrifiad o'r arfau a ddyfeisiodd flynyddau cyn hyny i'r pwrpas. Yn 1836, cyhoeddwyd mewn dwy gyf. ei waith mawr ar Fydwreiciaeth, yn cynwys ffrwyth ei brofiad helaeth, a'i ymchwiliad manwl i lenyddiaeth y pwnc. Yn fuan ar ol hyn, ymddangosodd llyfr o'i waith ar Benddyfredd *(hydrocephalus)*, amcan yr hwn oedd dileu y gred boblogaidd fod y cyfryw anhwylder yn anfeddyginiaethol; a phrofi ei fod yn hawdd ei wella os ei trinid mewn pryd. Yn 1825, etholwyd ef i gadair bydwreiciaeth Coleg Llundain; a phan agorwyd y sefydliad yn Hydref, 1828, ymgymerodd â'i swydd. Pan sefydlwyd ysbytty drachefn mewn cysylltiad â'r coleg, etholwyd Dr. Davies yn physigwr ar ei hoff gangen o feddygiaeth. Parhaodd yn y swyddau pwysig hyn, gan ymenwogi fel dysgawdwr rhagorol a meddyg medrus, ac yn gweinyddu addysg uchelryw i'r lluaws mawr a dyrent ato, hyd ei afiechyd diweddaf, yr hwn a derfynodd yn farwol Rhag. 4, 1841.—*Lancet* am Mai 30, 1836.

DAVIES (Parch. David), athraw duwinyddol athrofa y Bedyddwyr yn Hwlffordd, oedd fab i'r Parch. B. Davies gweinidog cyntaf y Bedyddwyr yn y dref hono. Cafodd addysg dda pan yn blentyn; a derbyniwyd ef pan yn ddeunaw oed i athrofa y Fenni. Oddiyno aeth i goleg Stepney; a phan orphenodd ei addysg golegol derbyniodd alwad gan eglwys Evesham i fyned yn gydweinidog â'r hen a pharchus Laurence Butterworth. Pan fu farw Mr. Butterworth, cymerodd Mr. Davies holl ofal yr eglwys, lle yr arosodd o tan wenau amlwg ei Feistr Mawr hyd 1836, pryd y derbyniodd alwad oddiwrth eglwys y Bedydd-

Digitized by Google

wyr yn Hwlftordd. Bu yma yn dra llwyddianus fel gweinidog. a pharchus fel athraw, am 19 mlynedd : ac yna cymerth y dyfrglwyf afael yn ei gyfansoddiad. Bu farw Mawrth 19, 1856, a chladdwyd ef yn mynwent y Bedyddwyr yn y dref hono.

DAVIES (PARCH. DAVID), Castellhywel. Ganwyd y gwr enwog a'r bardd rhagorol hwn yn y Goetre Isaf, Llangybi, sir Aberteifi, Chwefror 14, 1745. Yr oedd ei rieni yn perthyn i eglwys yr Annibynwyr yn y Cilgwyn, yn bobl grefyddol, yn arfer cadw addoliad teuluaidd, a dygasant saith o blant i fynu yn ofn ac athrawiaeth yr Arglwydd. Un o'r plant hyn oedd y Dr. Benjamin Davies yr hwn a fu am yspaid yn arolygu Coleg Caerfyrddin, mewn cysylltiad â'r Parch. R. Gentleman, ac a ddiweddodd ei oes yn weinidog Undodaidd yn Evesham. David, gwrthddrych y cofion hyn, oedd yr hynaf o'r plant; a phriodolai argraffiadau cyntaf crefydd ar ei feddwl i weddiau ei dad wrth yr allor deuluaidd :—

Gwel'd fy nhad yn plygu ei liniau
Mewn defosiwn hwyr a boreu,
Barodd imi'n blentyn gyntaf
Feddwl am y Duw Goruchaf.

Dywed ddarfod iddo ddechreu gweddio pan yn wyth neu naw mlwydd oed ; y byddai yn syrthio "ar ei liniau" rhwng "y defaid a'r da duon" ar hyd y meusydd : ac iddo yn yr oedran anaddfed hwnw roddi ei holl fryd ar fod yn bregethwr. Pan oedd yn 13 neu 14 oed, dodwyd ef dan ofal y Parch. Joshua Thomas, Leominster, perthynas iddo, i dderbyn cynseiliau ei ddysgeidiaeth ; lle y bu o gylch blwyddyn a haner. Bu am ychydig amser drachefn o dan ofal un Mr. D. Jones, Llanbyther. Oddiyno, pan yn 16 oed, danfonwyd ef i ysgol a gynelid yn Llangeler gan y Parch T. Lloyd, ficer Penboyr ; lle y treuliodd dair blynedd. Ac yn olaf, yn Ionawr, 1764, rhoddwyd ef am bedair blynedd yn Athrofa Caerfyrddin Yn y cyfnod hwn y gosododd i lawr sylfaen ei gymeriad, ac yr argraffodd ar feddyliau ei athrawon a'i gydysgolcigion ei fod yn *rhywun*—uwch mewn moes a deall na'r cyffredin o blant dynion. Bellach yr oedd breuddwydion ei ieuenctyd ar gael eu sylweddoli, bywyd y pregethwr ar ei gyfer ; a dau le yn ymgystadlu am ei wasanaeth, sef, eglwys Llanedi a'r eglwysi Presbyteraidd yn y Ciliau Caeronen, a'r Cilgwyn, yn sir Aberteifi. Dewisodd yntau yr olaf ; ac ar y maes eang hwn y bu yn llafurio am haner can' mlynedd, ac oddiyma yr ymledodd ei glod tros yr holl wlad fel bardd, ysgolhaig, pregethwr, ac ysgolfeistr. Yn y fl. 1775, priododd âg un Anne Evans, o'r Foelallt, Ciliau Aeron ; yr hon a enillodd glod uchel fel gwraig siriol a chyweithas, a mam dyner a gofalus. Yn fuan wedi hyn efe a gymerth ei drigfan yn Castell Hywel. Bu iddynt naw o blant ; a dau o'r meibion a droisant allan yn weinidogion gyda'r Undodiaid, sef D. Davies yn Nghastellnedd, a Thimothy Davies yn Evesham. Y mae yn anhawdd dweyd beth oedd daliadau crefyddol Mr. Davies, gan na ddarfu iddo erioed eu datguddio yn iawn ; naill ai tybiai mai peth rhwng dyn a'i Dduw ydyw y cyfryw syniadau, neu na buasai eu cyhoeddi yn chwanegu nemawr at ei barch ef fel pregethwr yn mlith y werin, nac at ei drysorfa fel ysgolfeistr : ac felly ni foddiodd efe gywreinrwydd y chwilfrydus i'w niwaid ei hun. Fel y crybwyllwyd, yr oedd yn weinidog gyda'r Presbyteriaid, sef yr hen Bresbyteriaid Saesnig, y blaid luosocaf yn y deyrnas yn nyddiau Cromwell ; ond byth er hyny gwyddis yn dda ddigon fod gogwydd y blaid hon wedi bod ar Undodiaeth, ac ar lun Undodiaeth neu Ariaeth

Digitized by Google

y ceir bron yn ddieithriad yr unig weddillion ohoni yn Neheudir Cymru. Undodwyr oeddynt ei brif gyfeillion yntau, yn eu pwlpudau hwy y pregethai fynychaf; ond nis gwyddis yn iawn pa un ai y rhyddid barn a'r warogaeth uchel i athrylith, a nodwedda yr Undodwyr, a ogwyddodd serch a barn Mr. Davies tuag atynt hwy fel pobl—ynte cariad a chydsyniad ag egwyddorion arbenig Undodiaeth ei hunan. Mae yn wir iddo gydnabod ei hunan yn Undodwr cyfangwbl, yn yr ymgom ddadleuol fu rhyngddo â'r Parch. D. Saunders, Merthyr, pan y cyfansoddodd bedwar englyn ar y pwnc, y cyntaf o ba rai ydyw:—

Undod, nid Trindod, yr un-Duw—a'ddeil
Addolwyr y gwir-Dduw;
Dwl, tra-dall, dal tri-Duw,
Myn y doeth mai un yw Duw.

Ond esgusodir ef am hyn trwy ddweyd mai yn mhoethder dadl y cyfansoddwyd hwynt. Eithr beth bynag am ei Undodaeth, sicr yw ei fod yn rhydd-dybiwr *(latitudinarian)*, canys dywed mewn llythyr at gyfaill:—"Yr wyf yn hollol dawel fy meddwl y gall Dr. Priestley a'i blaid fod yn Gristionogion da a duwiol. Yr wyf o'r un meddwl am John Calvin a Dr. Crisp a'u dysgyblion. Eisteddwn yn llawen wrth yr un bwrdd cymundeb â hwynt, yn y gobaith hyfryd o gael treulio tragwyddoldeb gyda hwynt ar ol hyn." Fel *pregethwr* yn meddu teimladau dwfn, calon dyner, a dymuniad cryf am leshad ei wrandawyr, cyrhaeddodd Mr. Davies gyfran helaeth o boblogrwydd. Dyn tew, o faintioli mwy na'r cyffredin ydoedd; a'i wisg yn y pwlpud yn rhydd-grogi am dano rhywbeth yn annhaclus, a'i wallt llaes melynwyn yn hongian hyd ei ysgwyddau yn llywethau didrefn; a'i holl ymddangosiad yn arwyddo y diofalwch hwnw sydd yn perthyn i feddyliau mwy eu gofal am sylweddau na chysgodau. Nis gellid ei alw yn hyawdl, er ei fod yn fynych yn ehedfan i gyffiniau y mathl hwnw o bregethu; pan orfodid ei deimladau gan ddylanwadau dyfnion ei destun, ac y ffrydiai dagrau o'i ddau lygad glas serchoglawn. Er y byddai yn fynych yn llefaru wrth ddealltwriaeth ei wrandawyr; eto trwy y teimlad y gwnai efe ei ffordd fynychaf i galonau y werin; a diau pe buasai'r athrawiaeth a bregethai yn adsain gywirach o lais y tyst oedd yn mynwesau ei wrandawyr, am angen natur dyn, y buasai ei boblogrwydd yn llawer mwy. Nid oedd ei bregethau mwy na'i farddoniaeth yn arddangos meddwl dwfndreiddiol iawn na darfelydd hedegog annghyffredin. Mewn synwyr cyffredin cryf, a hwnw wedi ei wisgo yn yr ysgolheigdod fwyaf coeth, ei addurno â'r teimladau mwyaf llednais, a'i arfogi âg arabedd ffraethlem, yr oedd gogoniant ei harddwch ef yn gynwysedig. Yr oedd ei feddwl yn hynotach am eangder amgyffrediad, nag am dreiddgarwch dirnadaeth; ac fel duwinydd, yr oedd yn nes perthynas i'r Dr. Chalmers nag i'r President Edwards; fel bardd, yr oedd yn debycach i Cowper nag i Byron a Shelley, a dichon ei fod yn perthyn yn agosach i Samuel Taylor Coleridge nag i un bardd Seisnig y gwyddom am dano. Ond ei arbenigrwydd penaf oedd ei ddysgeidiaeth eang a choeth, yr oedd hwn yn minio pob brawddeg yn ei bregethau, ac yn addurno pob llinell yn ei farddoniaeth. Yn fuan iawn wedi sefydlu yn Castellhywel ymgymerodd â'r swydd o *ysgolfeistr;* nid oddiar hoffder at y swydd, mae yn ddiau, ond o anghenrheidrwydd, gan nad oedd dim llawer o frasder yn dyferu oddiar fysedd y weinidogaeth yn yr oes hono. Daeth yn fuan yn enwog iawn yn y gangen hon. Danfonid gwyr ieuainc tan ei ofal o bob parth o'r Deheudir; ac yn fynych o'r Gogledd a Lloegr; ac yn mhlith y rhai

Digitized by Google

hyn ceid Eglwyswyr yn gystal ag Ymneilldiwyr. Ond pan ddaeth Dr. Horsley yn esgob Tyddewi, efe a gyhoeddodd na byddai iddo urddo neb a dderbyniasai gynseiliau ei addysg gan yr athraw ymneilldiol hwn. Lleihaodd hyn am yspaid nifer ei ysgolheigion; ond cafwyd gweled drachefn "mai trech gwlad nag arglwydd." Dywedai Mr. Davies iddo fod yn addysgu ieuenctyd mewn rhyw ddull neu gilydd am bum' mlynedd a thriugain, a gellir enwi lluaws o blant athrylith a fuont tan ei wialen a'i addysg. Yr oedd ei ddysgyblaeth fel athraw yn dra llem a manwl, nid ymddengys ddarfod iddo ef erioed feddwl am "gerydd cariad;" ond er hyny yr oedd ei synwyr cryf yn dra gwasanaethgar iddo i drefnu llwybr y myfyrwyr o'i flaen, ac adloni y meddwl ieuanc tan ei lafur gyda mân hanesion a ffraethebau difyr, y rhai a gymhwysai yn y dull mwyaf doniol a digrif. Ond fel *llenor* a *bardd* y bydd a fyno y dyfodiant ag ef. Yn ystod cystudd ysgafn a gafodd pan yn 24 oed, cyfieithodd draethawd Scougal ar "Fywyd Duw yn enaid Dyn;" a thua'r un amser ymddangosodd erthygl Saesneg o'i waith yn yr *Analytical Review* vii. 295, mewn flordd o feirniadaeth ar farddoniaeth Dafydd ab Gwilym; a dyna hyd y gwyddom yr oll a gyhoeddwyd o'i waith mewn rhyddiaith. I ddangos ei fedr fel cynghaneddwr, a'i allu fel ysgolhaig, yn gystal ag i foddio chwilfrydedd y cywrain, dodwn yma ddau englyn Lladin o'i waith: y blaenaf yn feddargraff i rhyw gyfaill yn Castellnedd, a'r ail yn anerchiad i Samuel Tenton yn diolch i'w frawd Charles am rhyw garedigrwydd a dderbyniasai y bardd:—

Sopor Mariam ceplt;—in lectum
A luctu recessit:
Ast tuba hanc exitabit,
Ut Maria salva sit.

O Carole! non querelas—tibi
Nunc dabo, sed gratias:
Tui Sam grates sumas
Cui tot clara dona das.

Yn 1822. cyhoeddodd gasgliad o'i farddoniaeth tan yr enw "Telyn Dewi." Cyfieithiadau ydynt y nifer luosocaf o'i chynwysiad; a dian fod yr awdwr yn un o'r cyfieithwyr mwyaf hapus sydd genym. Sylwer mor naturiol a llithrig y rhed meddyliau Cowper trwy ei fysedd yn y llinellau hyny yn dechreu "*Man wants but little here below*," *&c.*:—

Dyn nis gofyn ond ychydig, na'r ychydig hyny'n hir;
Yn eu beddau caiff cybyddion eu digonedd bawb o dir;
Tir a leinw'r gol a'r galon a'r ddau lygad fynu'n lan,
Nes bo'r geg yn gwaeddi "Digon," gair na chlyw'd erioed o'r blaen.

Eto o waith Mrs. Barbauld i'r "Duwdod":—

O Dduw f'einiioes, ddoeth Greawdwr, rhoddwr bywyd, ffun a bod,
Godde'i wael greadur eiddil er ei floesgni ganu'th glod,
A than grynu geisio moli ar fabanaidd isel lef,
Enw seinir gan seraphiaid ar delynau aur y nef.

Yn mhlith tanau mwyaf soniarus "Telyn Dewi," ceir hefyd gyfieithiad o "Alexander Selkirk," gan Cowper; "Invitation of Mercy," gan Mrs. Barbauld; darn helaeth o "Young's Nights Thoughts;" "The Blackbird," gan Beattie; "Iter Vitæ," y Dr. Watts; ac yn bendifaddeu y cyfieithiad o "Gray's Elegy." Gellir ystyried yr olaf gyda'r cyfieithiad goreu, os nad *y* goreu yn yr iaith; eithr nis gallwn mewn un modd gydolygu â rhai ei fod yn well na'r gwreiddiol. Gormodiaith ffol yw dweyd y fath beth; gan nad oes modd i gyfargraff ragori ar y darlun gwreiddiol. Edrycher ar hyfedrwydd y bardd yn cyfieithu y llinellau "*Full many a gem*," *&c.*:—

Y mae'r gemau a'r perlau puraf, goreu eu lliwiau is y llo'r
Dan y tonau'n gudd rhwng creigiau yn nyfnderau maith y mor;
Ac mae'r blodeu teca'u lliwiau, lle nas gwelir byth mo'u gwawr,
Ac yn taenu'u peraroglau, lle na sylwa neb mo'u sawr.

Digitized by Google

Eto y llinellau yn dechreu "*Yet e'en these bones*," &c. :—

Rhag i'w hesgyrn gael eu damsang gyda dirmyg gan un dro'd
Gerllaw iddyn', er eu coffa, mae rhyw arwydd in' a nod,
A diryfau heb iawn fesur, a cherfiadau gwael dilun,
Ag sy'n galw am ddeigryn mwynaidd, wrth fyn'd heibio gan bob un

'R oed a'r enw, a'r dydd bu farw, ar gareg arw-lwyd ddi-ran,
A geir yma'n lle cof-feini a chanmoliaeth peraidd gan;
Cynghor prysur, ma's o'r 'sgrythyr ar ei godre gwedi'n gawn
I rybuddio pawb ei heibio lwyr ddiwygio a marw'n iawn.

Nid oes adyn yn ymado, na ddymunai i gyfaill mwyn,
Wedi cauad ei ddau lygad roddi 'chenaid fer a chwyn;
I dir ango' wedi i'r angeu fyn'd a'i gelain yn ei gol,
Hoff yw ganddo pan nas byddo, i rai wylo ar ei ol.

Cwynir nad yw ei wisg farddonol yn drwsiadus iawn; a phrin y credwn yr enillasai byth mewn cystadleuaeth tra yr anurddir ei waith â'r fath eiriau a "llo'r," "ma's," "dro'd," "di-rân," &c. Ond ymddengys mai cael gafael yn nrychfeddwl yr awdwr oedd ei amcan mawr ef wrth gyfieithu, ac yna ei wisgo mewn iaith seml werinol. Yr oedd gan Iolo Morganwg feddwl uchel iawn ohono fel bardd; a mynai gael ganddo dri neu bedwar englyn i'w dodi yn ei lyfr *Cyfrinach y Beirdd*, fel engraifft o farddoniaeth ddiledryw. Bu Mr. Davies farw Gorph. 3, 1827, wedi cyrhaedd yr oedran teg o 83.—*Telyn Dewi*; *Y Traethodydd* iv. 197.

DAVIES (PARCH. DAVID), Abertawe, un o gewri yr areithfa Gymreig, oedd fab i dafarndy bychan yn mhentref Llangeler, sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn 1763. Gan nad oedd ei rieni, er yn bobl barchus, ond mewn amgylchiadau cynolog, nis gallent roddi amgen addysg iddo nag a geid yn ysgol y pentref gwledig lle ei ganwyd; a chan nad oeddynt ond crefyddwyr hen ffasiwn, yn mynychu'r Eglwys rhyw ddwywaith neu dair mewn blwyddyn, nid oedd ei fanteision crefyddol ond byrion ac ychydig. Ychwaneger iddo gael ei ddwyn i fynu mewn tafarndy bychan gwledig, mynychfa diotwyr, y rhai nad oeddynt enwog iawn am ddiwioldeb hyd yn nod yn yr oes hono, yn enwedig nwchben y ddiod, a gellid meddwl mai un o'r mannau mwyaf annhebyg i fagu pregethwr ynddo oedd y cyfryw fan. Nid oes dim o hanes treigliad yr ugain mlynedd cyntaf o'i einioes ar gof a chadw; tua'r pryd hwnw priododd ferch ieuanc o'r ardal hono, o'r enw Anne Evans; ac er ieuanged yr ymrwymodd efe tan iau bwysig priodas, eto ymddengys ddarfod i hapusrwydd a llwyddiant ei ddilyn. Tua'r amser hwn hefyd, dechreuodd crefydd ymwneud â'i feddwl; a mynychai gapel Peurhiw, lle y gweinidogaethai y Parch. D. Davies, Castellhywel. Derbyniwyd ef yn aelod yno yn 1786; ond ni ddarfu iddo gyfranogi o Swper yr Arglwydd oddigerth unwaith yn unig gyda'r cyfeillion yn Mhenrhiw. Gadawodd hwynt; pwysai pwnc iachawdwriaeth ei enaid mor drwm ar ei feddwl y pryd hwn nes yr oedd bron gwallgofi, ac nid oedd ond ychydig gysur iddo i'w gael gan ei frodyr crefyddol, y rhai gan mwyaf oeddynt Ariaidd neu Undodwyr; ac fel y cyfryw, a ddalient fwy ar gyfiawnhad trwy weithredoedd nag ar aberth iawnol Crist, ar gyfer enaid trallodedig fel yr eiddo D. Davies. Arweiniwyd ef drachefn i wrando yr efengylaidd Mr. Perkins, gweinidog yr Annibynwyr yn Mhencadair; ac yno cafodd falm i'w glwyfau dolurius. Unodd â'r eglwys yn Mhencadair; ac oherwydd ei ddawn neilldiol mewn gweddi, y brodyr yno a ddeisyfasant arno yn fuan ddechreu pregethu. Peth digon rhyfedd ddarfod i'r enwog Christmas Evans ac yntau

Digitized by Google

ymuno ac ymadael ag eglwys Penrhiw tua'r un pryd a'u gilydd; a thraddodi eu pregeth gyntaf o fewn yr wythnos i'r un amser, yn yr un tŷ, sef bwthyn teiliwr yn mhlwyf Llangeler. Cyn hir, ymlododd yson am dano fel pregethwr rhagorol yn mhell ac agos, ac ymdyrai lliaws mawr i'w wrando. Dygodd hyn ef i sylw yr eglwysi cyfagos, a chafodd alwad oddiwrth eglwys fechan y Drefach i fod yn weinidog arni. Nid oedd rhif yr aelodau yn y Drefach ond deuddeg pan ddechreuodd Mr. Davies ei fugeiliaeth yn eu plith, a'r rhai hyny ar gilio ymaith ac ymuno ag eglwysi eraill. Pa fodd bynag, ordeiniwyd ef yno yn 1790; a chyda'i ddyfodiad ef daeth gwedd newydd ar yr achos yn yn y lle. Erbyn 1792, yr oedd y capel yn rhy fach; ac adeiladwyd un llawer mwy. Heblaw diwallu angenion ysbrydol eglwys y Drefach, byddai Mr. Davies yn gweinidogaethu un Sabbath o bob mis yn y Neuaddlwyd, ac un arall yn Gwernogle, a chynulleidfaoedd y lleoedd hyny mewn ychydig amser a liosogasant yn ddau cymaint. Yn 1795, derbyniodd alwad daer oddiwrth eglwysi Mynyddbach a'r Scetty, i fod yn gydweinidog arnynt gyda'r hynafgwr hybarch Lewis Rees. Cafodd yma faes helaeth i'w lafur, ac ymroddodd yntau at y gwaith o ddifrif calon. Heblaw tair eglwys i weinyddu arnynt, sef yr eiddo Mynyddbach, Treforris, a'r Scetty, yr oedd tref fawr Abertawe gerllaw a'i miloedd pobl yn gorwedd mewn dygn anwybodaeth ac angen ysprydol, a phenderfynodd yntau geisio sefydlu cangen-eglwys o'i mewn. Nid oedd un eglwys Annibynol, oddieithr y tair hyn, o fewn saith milldir i Abertawe y pryd hwnw. Yr oedd yr hen eglwys berthynol i'r enwad hwnw a sefydlwyd yn y dref er cyn y chwyldroad —yr eglwys a blanwyd gyda dagrau y duwiolfrydig Emrys Mostyn, ac a nodid gan y Cadben Jones o Langyfelach—yr oedd yr eglwys hon wedi troi yn Ariaid cyhoeddus er's tua thriugain mlynedd cyn i Mr. Davies ymsefydlu yn Mynyddbach. Felly, ymwelai ef ag Abertawe yn y swydd o genhadwr—fel planwr yn hytrach nag fel dyfrhawr. Cymerodd ystafell tan ardreth yn Heol y Castell; a chyn pen ychydig fisoedd aeth hon yn rhy fach, ac adeiladodd gapel ehelaeth, yr hwn a alwyd ar yr enw *Ebenezer;* ac yn fuan yr oedd cynulleidfa Ebenezer yn un o'r rhai lliosocaf a pharchusaf yn y Dywysogaeth. Bu yn gweini ar ei bedair eglwys fawr hyn hyd 1808, pryd y cymerodd Mr. Daniel Evans o Fangor ofal eglwysi Mynyddbach a Threforris.

Y mae yn anmhosibl ffurfio dirnadaeth agos i gywir am lafur aruthrol y dyn mawr a gweithgar hwn. Ymwelai yn achlysurol ag eglwysi Dehau a Gogledd; a hynodid ei ymweliadau gan gynulleidfaoedd mawrion yn ei wrando'n astud, a chan arwyddion amlwg o wedd wyneb Duw ar ei weinidogaeth. Tua'r fl. 1800, aeth i fynu i Lundain am y tro cyntaf, a chafodd yno filoedd lawer o'i gydwladwyr yn amddifad o foddion gras yn eu hiaith eu hunain. Trwy lawer iawn o benderfyniad a dyfalbarhad, llwyddodd i sefydlu achos yn Southwark, Deptford, ac Woolwich; ac ymwelai yn achlysurol â'r eglwysi hyn hyd oni sefydlwyd gweinidog rheolaidd yn eu plith. Yn ystod gweinidogaeth o 26 o flynyddoedd derbyniodd 2000 yn aelodau eglwysig, ac ni wyr neb ond yr Hwn a wyr bobpeth pa nifer a argyhoeddwyd o gyfeiliorni eu ffyrdd trwy ei bregethau grymus. Ac yr oedd ei enaid ef yn fwy na'i wlad ei hun. Yr oedd Mr. Davies yn un o'r rhai cyntaf yn Nghymru a bleidiodd yr achos cenhadol. Dywedir mai yn ei gapel ef y cynaliodd Cymdeithas Genhadol Llundain ei chyfarfod cyntaf yn y Dywysogaeth; a thystiai y cenadwr llafurfawr y Parch. D. Griffiths,

Digitized by Google

Madagasgar, mai araith genhadol o eiddo Mr. Davies a barodd iddo ef gyntaf roddi ei fryd ar fyned â'r newydd da i blith y paganiaid. Ond bu ei lafur dirfawr wrth fugeilio ei ddiadelloedd ei hun, ac wrth deithio gefnogi yr achos cenhadol, a dileu dyled ei addoldai, yn ormod i'w gyfansoddiad. Erbyn 1816, yr oedd yn amlwg fod hadau marwolaeth yn dechreu dwyn ffrwyth. Y flwyddyn hono, pregethodd am y tro diweddaf mewn cymanfa, yn Ngwynfe, sir Gaerfyrddin; ac yno, mewn dull caruaidd, ffarweliodd a'i frodyr yn y weinidogaeth. Yr Hydref canlynol, cafodd saeth arall i'w galon yn marwolaeth ei anwylaf briod. Ei Sabbath olaf ar y ddaear, gweinyddodd Swper yr Arglwydd, a rhoddodd ddeheulaw cymdeithas i dri-ar-ddeg o ymgeiswyr am aelodaeth eglwysig; ac ehedodd ei ysbryd yn dawel a thangnefeddus y dydd lau canlynol, Rhag. 26, 1816, i fynwes ei Arglwydd. Gadawodd chwech o blant i alaru eu colled ar ei ol; dau o ba rai a godasant yn weinidogion tra chymeradwy, sef y Parchn. David Davies, Stoke Bishop, a John Davies, Homerton.

Ystyrid y Parch. D. Davies, Abertawe, yn rheng flaenaf pregethwyr Cymru ddechreu y ganrif bresenol. Dichon nad oedd yr un o'r pregethwyr ardderchog a gydoesent ag ef yn rhagori arno mewn rhai pethau. Yr oedd ei lais yn ail i daran mewn nerth, ac eto mor beraidd a soularus â sain cân yr eos. Pan godai i anerch cynulleidfa, byddai pob clust o'i mewn yn hoeliedig wrth ei hyawdledd: hawliai sylw pob perchen llygad, ac yr oedd yn gysur sylwi ar yr effeithiau a ddilynent ei areithyddiaeth ardderchog. Pan ddechreuai wresogi, a myned i ysbryd ei destun, gwisgid wynebau y miloedd gyda gwên foddhaus; ac yn fuan yr oedd eu gruddiau yn foddfa, ac nid peth anarferol fyddai gweled lliaws ohonynt yn chwerthin trwy eu dagrau. Nid annghofir byth gan y sawl a'i clywsant acenion enaid-gynhyrfiol ei lais pan yn traethu ar oruchafiaeth y Cyfryngwr, neu ddedwyddwch y cadwedigion. Y rhai hyn oeddynt ei hoffusaf bynciau; toimlai wrth fodd ei galon pan yn pregethu arnynt, a theimlai ei wrandawyr yr un modd wrth wrando arno. Tystia'r hybarch David Williams, Llanwrtyd, na chlybu yn ystod ei oes faith, yn ymestyn tros gyfnod enraidd y pregethu Cymreig, neb i'w gyffelybu mewn hyawdledd i Davies, Abertawe, pan yn ei ddyddiau goreu, oddigerth yn unig Robert Roberts o Glynog; a chyn ucheled oedd barn ei frodyr am dano fel y galwent ef yr "Udgorn Arian."

Yn nghanol cynhwrf ei fywyd prysur, cafodd Mr. Davies hamdden i godi cof-golofnau anrhydeddus o'i allu fel llenor duwinyddol a bardd Cristionogol. Cyhoeddwyd argraffiad pedwar-plyg mawr a hardd o'r Beibl Cymraeg, gyda Nodiadau tra melus a phriodol, o'i waith; ond ni chafodd fywyd i'w gwblhau. Disgynodd y gwaith hwnw ar y Parch. D. Davies, Panteg, sef ysgrifenu y Nodiadau ar rai o'r Epistolau ac ar Lyfr y Datguddiad. Cyfansoddodd hefyd 81 o Emynau at wasanaeth y cysegr, y nifer liosocaf o ba rai ydynt yn mhlith gemau tryloewaf ein barddoniaeth emynol.—Rees' *Nonconformity in Wales; Evangelical Magazine*, am 1817, t.d. 59.

DAVIES (Parch. David), Panteg, a anwyd yn Nghilfforch, ger Aberaeron, sir Aberteifi, yn mis Chwefror, 1791. Gan fod ei dad yn amaethwr cyfrifol, cafodd David Davies lawer mwy o ysgol na'r cyffredin o'i gydoeswyr; a bu am beth amser tan addysg ragorol yr hyglod D. Davies, Castellhywel. Ymunodd yn dra ieuanc âg eglwys yr Annibynwyr y Neuaddlwyd, y pryd hwnw tan ofal y Dr. Phillips, trwy

Digitized by Google

gymeradwyaeth yr hwn y cafodd dderbyniad, pan yn 17 oed, i goleg Caerfyrddin. Wedi iddo orphen ei dymhor yn y coleg, rhoddes eglwys Annibynol Caernarfon alwad iddo i ddyfod yn gyd-weinidog arni â'r Parch. John Griffith. Derbyniodd yntau yr alwad, a chafodd ei urddo yno i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1813, Ond ni bu ei arosiad yn y dref hono ond byr, gan iddo yn 1815 dderbyn gwahoddiad eglwysi Panteg a Pheniel, ger Caerfyrddin; a dyna fu maes ei lafur o hyny allan. Pan ymneillduodd y Parch. D. Peter o gadair dduwinyddol coleg Caerfyrddin, etholwyd Mr. Davies i gymeryd ei le; a diamheu nas gallesid cael ei well i'r swydd, gan ei fod bob amser yn efrydydd dwfn yn yr Ysgrythyrau, yn ddarllenwr mawr ar waith duwinyddion enwocaf o bob oes a gwlad, ac yn feistr teg ar y Groeg a'r Hebraeg. Ymroddodd i'r gwaith hwn gydag yspryd a phenderfyniad diwyro; a llanwodd y swydd, gyda pharch uchel iddo ei hun, a budd mawr i'r efrydwyr, am yr yspaid o 21 mlynedd. Llenwir y coleg hwnw, fel y gwyddis, i raddau helaeth gan bersonau o ddaliadau Undodaidd; ond yn ol geiriad yr ymddiriedolaeth, rhaid i'r athraw duwinyddol fod yn Drindodwr; ac yn ddiau ni bu dyn erioed yn dal athrawiaeth yr olaf yn fwy selog a chydwybodol na Mr. Davies. Er hyny, yr oedd yn caru rhyddid barn fel ei enaid ei hun, ac yn ystyried y sawl a dreisient ar y cyfryw ryddid yn annheilwng o'r enw dyn a Christion. Nid oedd un gwahaniaeth yn ei olwg ef pa beth fyddai golygiadau personol yr efrydydd ieuanc ger ei fron, traethai ef ei farn ar y gwirionedd yn eglur a diamwys, gan ei ddangos a'i ddadblygu, a cheisio enill sylw a serch y gwrandawr tuag ato. Y teithi hyn a'i gwnelent, yn ei sefyllfa neillduol, yn athraw tra chymhwys, ac a enillasant iddo barch a chlod pawb o'i ddysgyblion. Yn 1840, ymosodwyd arno mewn modd ffyrnig gan dwymyn yr ymenydd *(brain fever)*, a thybid am hir amser na buasai byth yn adferu ohoni; ond fel arall y bu; gwellhaodd yn raddol, ond ni adfeddianodd mwyach ei nerth cyntefig.

Yr oedd yn bregethwr tra chymeradwy a phoblogaidd, ac ni byddai cymanfa yn Neheudir Cymru yn gyflawn heb ei bresenoldeb a'i bregethu ef ynddi. Ei ddull o bregethu, yn gystal ag o addysgu, oedd y byr a'r uodiadol, yn cynwys swrn o sylwadau cynwysfawr ac athronaidd. Nid oedd dim yn ei anfoddloni gymaint â meithder; yr oedd pregeth hir y peth mwyaf diflas ganddo, ac ychydig ffafr yn ei olwg a gai traithawd maith ar unrhyw bwnc. Dichon ei fod wedi mabwysiadu y duedd hon oddiar esiampl ei hen weinidog, sef y Dr. Phillips, Neuaddlwyd. Dywedir fod y ddau yn dra thebyg i'w gilydd o ran pryd a gwedd hefyd. Neillduolrwydd arall perthynol i Mr. Davies oedd ei adnabyddiaeth helaeth o'r natur ddynol; yr oedd wedi astudio llawer arni, a throi a darllen ei dalenau yn fanwl; ac yr oedd efe yn credu fod yn anghenrheidiol i bregethwr efrydu y gyfrol hon o waith Duw cystal â'r gyfrol ddatguddiadol. Nid oedd y pechod o ariangarwch yn barod i'w amgylchu ef: cyflawnai ei ddyledswyddau yn yr athrofa ac yn y pwlpud nid gyda llygad-wasanaeth, eithr fel un yn cyflawni ei ddyledswydd i'w gydwybod ei hun, i'w gyd-ddyn, ac i Dduw; ac er profi y parch a goleddai ei eglwysi tuag ato gellir crybwyll ddarfod iddynt danysgrifio tros £150 i'w dodi yn anrheg iddo flwyddyn ei jubili, sef yr haner ganfed o'i arosiad yn eu plith. Er iddo gyrhaedd gwth o oedran, eto daeth y diwedd yn dra annisgwyliadwy. Cafodd godwm oddiar ei farch tua chwech wythnos cyn marw; a dianmheu i'r angylchiad blaenaf hyrwyddo'r olaf. Bu farw yn niwedd Gorphenaf,

Digitized by Google

1864, yn 73 oed, ac wedi bod yn y weinidogaeth am 52 o flynyddau.

Yr oedd Mr. Davies yn awdwr o gryn fri. Efe, fel y crybwyllasom, oedd awdwr y nodiadau ar rai o'r Epistolau a llyfr y Datguddiad, yn Meibl Teuluaidd y Parch. D. Davies, Abertawe. Cyfansoddodd lyfryn bychan ar y pwnc pwysig o "Sefyllfa Prawf Dyn tan yr Efengyl," yr hwn a greodd gryn gynhwrf ar y pryd, ac a fu yn destun dadl am beth amser yn nghyhoeddiadau yr enwad. Cyhoeddwyd hefyd o'i waith "Draethawd ar Godi yn Fore;" "Pregeth ar Ffurf yr Athrawiaeth Iachus; a draddodwyd ar agoriad addoldy Ebenezer, Llansadwrn, yn 1831;" "Y Cyfarwyddwr Duwinyddol," sef Holwyddoreg at wasanaeth yr Ysgol Sabbathol. Efe oedd golygydd y "*Tywysydd*," yr hwn a briodwyd o'r diwedd gyda'r *Gymraes*, tan olygiaeth Ieuan Gwynedd; a misolyn arall yn dwyn y teitl, "Y Cronicl Cenhadol." Gadawodd hefyd yn barod i'r wasg, mewn llawysgrifen, lyfr tra gwerthfawr ag y bydd yn resyn os na ddygir ef yn fuan ger bron y cyhoedd, sef Corph o Dduwinyddiaeth tan yr enw "Gwinllan y Gweithiwr."

DAVIES (Edward), y Cneifiwr Glas, o'r Eglwyseg, yn agos i Langollen. Blodeuai yn 1650. Gosodir ef allan fel un o gynghreiriaid Oliver Cromwell. Gelwid ef yn *Gneifiwr Glas* ar gyfrif ei raib a'i ormes, ac oherwydd lliw ei wisgoedd. Yn 1654, penodwyd ef yn ddirprwywr er difeddianu, ac yn oruchwyliwr y *Court Leet*, yn manoriaeth *Vale Crucis*. Ond noddai bleidwyr y brenin hefyd, os telid ef yn briodol. Cuddiodd Syr Ifan Llwyd o Fodidris unwaith, pan oedd swm mawr am ei ddal. Cadwai ef yn y seler o dan ei barlwr; yna galwai ei bobl yn nghyd, a gorchymynai iddynt, gyda ffyrnigrwydd ymddangosiadol, fyned i chwilio am Syr Ifan, a churai ei draed yn llawr y parlwr, gan haeru os oedd y marchog ar *wyneb y ddaear* yn rhywle, y mynai gael gafael arno!—Pennant's *Tours*, vol. i. 375, 376.

DAVIES (Parch. Edward,) A.C., athraw clasurol a Hebreaidd coleg yr Annibynwyr, Aberhonddu. Ganwyd ef yn Newport, sir Amwythig, Mawrth 15, 1796; ond symudodd ei rieni pan oedd ef yn faban i ardal y Wern, yn sir Ddinbych. Pan nad oedd ond chwe' blwydd oed, collodd ei dad, yr hwn oedd ddyn darllengar a deallus; ac o'r herwydd daeth amgylchiadau ei fam weddw yn gyfyng. Gorfu ar Edward droi allan i enill ei fara pan yn bur ieuanc; a'i waith am flynyddau oedd gyru ceffyl i gludo glo o Wrexham i Ruthyn. Gwaith oer a chaled ddigon oedd hwn; er hyny ceid ychydig seibiant wrth farchogaeth yn ei gert wag tuag adref; ac ni threuliai efe y seibiant hwn i gysgu neu wagsiarad gyda'i gyd-deithwyr. Eithr anfynych y gwelid ef heb ei lyfr; ac ni bu erioed ddarllenydd mwy dyfal ac ystyrbwyll. Yr oedd yr hen geffyl yn adnabod y ffordd yn hollol; a da oedd hyny, onide buasai Edward a'i lyfr a'r gert a'r cwbl dros y clawdd yn fynych; neu cawsent eu hunain ar ben y daith filldiroedd lawer oddicartref, gan mor ddwys a dwfn yr ymgladdai yr efrydydd ieuanc yn y pwnc y dygwyddai ddarllen yn ei gylch. Yr oedd, er yn blentyn, o anianawd dduwiolfrydig; eithr nid ymgyflwynodd yn aelod eglwysig hyd nes bod rhwng un a dwy ar bumthog oed; a'r pryd hwnw ymunodd ag eglwys yr Annibynwyr yn Harwd, un o eglwysi y Parch W. Williams o'r Wern. Ni bu yn hir yn aelod cyn i sylw ei hybarch weinidog gael ei dynu ato fel bachgen sylwgar a gwybodus, a daeth y ddau yn fuan yn bena' cyfeillion. Tybiai y gweinidog nad oedd gan neb yn Nghymru y fath fachgen yn aelod o'i eglwys â "Nedi Davies," fel y galwai efe ef. "Wrantaf fi, Nedi," meddai, "choelia e' ddim ond a wel a'i ddau

Digitized by Google

lygad. Fe ddaw Nedi yn *rhywun*, gewch chwi wel'd;" ac yr oedd prophwydoliaeth Mr. Williams wedi ei seilio ar ei wybodaeth helaeth o'r natur ddynol; ac, fel y profodd amser, yr oedd hefyd yn gywir. Yn fuan wedi ymuno a'r eglwys, anogwyd ef i ddechreu pregethu; a mynych y gwasanaethai yn lle ei weinidog yn yr eglwysi bychain tan ei ofal ef, cystal ag eglwysi eraill. Yr oedd y Saesneg lawn mor hyddysg iddo ef â'r Gymraeg, a phregethai yn y ddwy iaith fel y byddai amgylchiadau yn galw. Yn Ionawr, 1817, rhoddodd y gwaith o gario glo heibio, a chafodd dderbyniad i goleg yr Annibynwyr yn Llanfyllin, tan ofal Dr. Lewis. Yma, dangosodd yn fuan ei barodrwydd anarferol i ddysgu pobpeth a osodid o'i flaen; ond rhagorai ar ei holl gydysgoleigion cyn pen ychydig fisoedd hyd yn nod yn y clasuron. Gymaint oedd ei gynydd, fel yr apwyntiwyd ef yn mhen tair blynedd wedi ei dderbyniad, yn athraw clasurol y coleg. Yn Ionawr, 1822, urddwyd ef yn gydweinidog â Dr. Lewis ar eglwys y Drefnewydd, lle yr oedd yr athrofa wedi symud er 1821; ac heblaw hyn efe oedd gweinidog eglwys Bwlchyffridd, pentref bychan ychydig o'r Drefnewydd. Yn mhen y naw mis wedi symud yr Athrofa, bu farw y Dr. Lewis, a'r cyfeisteddfod a ddewisasant Edward Davies i gymeryd ei le. Yr oedd llafur mawr yn gorwedd ar ei feddwl y pryd hwn: tair eglwys i'w gwasanaethu, holl ofal dygiad yn mlaen yr athrofa, a'i duedd gref yntau o'i fewn yn galw'n groch am ychwaneg o wybodaeth. Yn mhen ychydig wedi cael ohono ei benodi yn athraw, ceir sylw yn ei ddyddlyfr yn amlygu ei ddiolcharwch i'r Bwrdd am eu caredigrwydd yn ei benodi i'r swydd a'u barn ffafriol am dano, ond yn cwyno oherwydd cael ei osod mor flaenllaw ac yntau mor ieuanc—yn dysgu eraill tra y dylasai ef ei hun fod yn cael ei ddysgu. Yn 1839, symudodd yr athrofa i Aberhonddu; a rhoddodd yntau yn y lle newydd hwn bob gofal gweinidogaethol heibio, fel y caffai fwy o hamdden at ddiwyllio ei feddwl, a thrwy hyny fwy o gymhwysderau yr athraw. Er hyny, byddai yn barod ar unrhyw adeg i lanw bwlch yn y weinidogaeth; a bu am hir feithion flynyddau yn ysgrifenydd y Feibl Gymdeithas yn Abernonddu, cystal ag yn y Drefnewydd cyn hyny. Bu yn cynrychioli y Fam Gymdeithas hefyd, yn ystod ei drigiant yn Aberhonddu yn ei hamrywiol gyfarfodydd a gynelid yn y parthau cylchynol. Yr oedd yn ddyn addfwyn a thawel; yn llenor o'r radd uchaf, yn ysgolhaig cympus, er nad oedd ond y nesaf peth i fod yn hunan-addysgiol; ac yn bregethwr synwyrol a dirodres. Bu farw Chwefror 25, 1857, a chladdwyd ef yn eglwys St. John, Aberhonddu. Safodd yn ei gysylltiadau cyhoeddus yn ddiargyhoedd am 34 mlynedd; a threuliodd oes lafurus ac ymdrechgar o blaid pob egwyddor dda; yn dyfal chwilio am wybodaeth, ac yn cyfranu ohoni i ddosparth pwysig ei ysgolheigion. Yr oedd yn engraifft deg o ddyn yn codi trwy ddyfal-barhad a hunan-ddiwylliant o ddinodedd i safle bwysig a defnyddiol; a'i fywyd yn esiampl dra theilwng o efelychiad pob gwr ieuanc.

DAVIES (Parch. Edward David), a anwyd Rhagfyr 26, 1672. Graddiwyd ef yn M.A. yn mhrif-ysgol Rhydychain. Bu yn beriglor St. Bride, ger Penybont-ar-ogwy, a Llansantffraid-ar-Lai, ac yn gorweinydd Llandaf. Bu farw yn 1780, wedi cyrhaedd yr oedran teg o 108.—Brown-Willis' *History of Llandaff*. Y mae oedran y gwr hwn yn wrthbrawf i syniad yr enwog Syr G. Cornewall Lewis, sef nad oes un dyn er's canrifoedd wedi byw tros gan' mlynedd, ac nad yw y sawl a honant

Digitized by Google

eu bod wedi cyrhaedd yr oedran hwnw ond pobl mewn sefyllfa isel ac anwybodus heb ganddynt sicrwydd pa bryd y ganwyd hwynt.

DAVIES (Parch. Edward), neu fel y gelwir ef yn gyffredin, y "Celtig Davies," a anwyd Mehefin 7, 1756, mewn tyddyndy o'r enw Hendre' Einion, plwyf Llanfaredd, swydd Faesyfed. Amaethwr oedd ei dad yn trin y tyddyn crybwylledig. Ei hynafiaid oddynt uchelwyr parchus yn yr ardal, lle y trigiasent er ys amryw ganrifoedd. Yn amser genedigaeth Mr. Davies, yr oedd amryw gangenau o'i welygordd yn feddianwyr nid llai nag ugain o dyddynod yn y gymydogaeth. Derbyniai ei addysg foreuaf gan ei fam, er nad oedd ganddo y radd leiaf o hotlder at lyfrau, yr hyn sydd hynod gan iddo droi allan yn llenor mor ddiflin a llafurus. Cyfarfyddodd â damwain anffodus pan yn chwech oed,—aeth i geisio tanio gwn, a thaniodd y pylor oddiar y badellig i'w lygaid, fel o'r braidd y cafodd ei olwg; a niweidiwyd ei olwg eilwaith gan y frech goch pan yn ddeg oed, fel y gwanhawyd ei lygaid am ei oes, ac y collodd ei olwg yn llwyr cyn ei farw. Bu dan addysg gyda gwahanol ysgolfeistri ei ardal yn derbyn elfenau dysg, a phan yn ddeuddeg oed cafodd flas ar lyfrau, a phenderfynodd ei rieni wneud offeiriad o hono. Gallai erbyn hyn ddarllen Virgil a'r Testament Groeg. Ychydig o Gymraeg oedd y pryd hwnw yn ardal ei enedigaeth, a diau fod yr ychydig hyny yn dra charpiog, eto efe a gyrhaeddodd wybodaeth weddol o'r Gymraeg, drwy glywed ymddyddanion yn y teulu, a darllen llyfrau ei dad. Yn 1772, dechreuodd gyfansoddi Emynau Saesneg, ac erbyn 1775 yr oeddynt yn 56 o nifer, er na chawsant byth eu cyhoeddi. Cyfansoddodd un Emyn Gymreig yn 1773. Yn 1774, aeth i Brif-ysgol Ramadegol Aberhonddu, a daeth i gydnabyddiaeth a Mr. Theophilus Jones, awdwr *Hanes Brycheiniog*, yr hwn wedi hyny a gyflwynodd yr ail gyfrol o'i *Hanes* i Mr. Davies. Blwyddyn fu ei arosiad yn Aberhonddu. Agorodd ysgol ei hun yn y Gelli, yn 1775. Cadwai yr ysgol yn addoldy y Methodistiaid hyd Ionawr 1777. Lletyai gyda gwr dysgedig, o'r enw y Parch. Richard Llwyd, ac addefai iddo gael mwy o les oddiwrth addysg y gwr hwnw nag oddiwrth ei holl athrawon eraill. Yn 1779, cafodd urdd ddiaconaidd i guradiaeth Bacton, yn swydd Henfordd. Yr oedd ei olwg mor wan y pryd hwn fel y cyfarchai Mr. Theophilus Jones ef mewn dull cellweirus "y prydydd unllygeidiog." Er mwyn enill hawl i urddau eglwysig, efe a wasanaethodd Bacton, St. Margaret, a Turnaston, am flwyddyn yn ddiwobr. Wedi hyny, gweinyddai yn Peterchurch a Dorston hyd 1782. Y pryd hwn yr oedd ganddo bum' gwasanaeth, a thair pregeth, ac uwchlaw 30 milltir i'w teithio, bob Sul, a'i gyflog ddim ond £30 y flwyddyn! Yr oedd y fath lafur, yn nghyda myfyrio yn galed, a chadw ysgol drwy yr wythnos yn effeithio yn ddwys ar ei gyfansoddiad, fel na lwyr wellhaodd byth.

Ac yn awr, y mae yn ddyledus adrodd mor gryno ag y gellir am brif gampau Mr. Davies mewn llenyddiaeth, trwy ba rai y gwnaeth efe ei hun yn enwog yn mysg dysgedigion, ac yn dra haeddianol o barch a diolchgarwch y byd llenyddol yn gyffredinol, a'i gydgenedl ei hun yn neilldiol. Mor fore a'r llynyddoedd 1773—'4, dechreuai ysgrifenu. Cyfansoddai amrywiol Emynai Saesneg, ac ambell un yn Gymraeg, fel y crybwyllwyd. Tua'r un amser dechreuai gyfansoddi prydyddiaeth. Ond yn y flwyddyn 1784 y daeth y gyfran gyntaf o'i waith yn gyhoedd mewn argraff. Hon oedd ganiad Saesneg, a alwai efe "Britannia: or Aphtharte, the Genius of Britain." Cyfansoddodd hefyd bruddchwareu yr hyn deitlid, "Owen." A'r rhai hyn, trwy gael cymeradwyaeth ei

Digitized by Google

gyfaill dysgedig y Parch. Richard Graves, a'i calonogent i fyned yr mlaen yn ei athrylith. Ac yn yr un flwyddyn, argraffwyd ei ail waith cyhoeddedig, sef "Vacunelia," yn cynwys traethodau prydyddol ar wahanol destunau; yr olaf ohonynt yn gyfieithiad o lyfr y *Temora*, gan Ossian. Yn nghylch y pryd hwn, digwyddodd iddo ddamwain a fu yn dra ffodiog iddo tuag at ei dueddu i ddwfn efrydu llenyddiaeth Geltig. A hyny a fu oblegyd i drigolion Chipping Sodbury ei wawd-senu, drwy haeru nad oedd y Gymraeg ond brygawtheg ddiffaeth. Ac i wrthsefyll y fath honiad, efe a ymroddai yn ddyfalach fwy-fwy i chwilio eithafion ei hadnoddau. Ac i'r perwyl hwnw, mynych gyrchai i Gaerodor am lyfrau o'r cyfryw ansoddau. Ac un tro, cafodd y ffawd o daro wrth yr *Archæologia Britannica*, o waith y Parch. Edward Llwyd, am yr hwn lyfr ni wyddai erioed o'r blaen; a mawr oedd ei ddywenydd o'i gael, oherwydd ei fod yn cynwys y fath ddefnyddiau ag oedd arno eu heisiau. Y gwaith hwnw hefyd a'i harweiniodd i ddechreu chwilio i'r iaith Wyddelig yr un modd. Yn 1792, cyflwynodd ei hun i sylw y Cymreigydd treiddgraff y Dr. W. O. Pughe, a thrwy ddyfal ymchebiaeth â'r gwr hwnw hogid ei awyddfryd yn awchlymach fyth i dreiddio i ddyfnderau y Gymreigiaith. Dechreuodd adysgrifio gwaith y Cynfeirdd allan o gyfysgrifau y Dr. W. O. Pughe, y Parch. John Walters, ac eraill, nes llenwi llyfr unplyg o 745 o dudalenau. Ac allan o'i gyfysgrif ef yr argraffwyd y rhai hyny yn y *Myv. Arch.*, a gyhoeddid yn 1801, fel yr ardystia y llythyrenau O. L. E. D. (*O Lyfr Edward Davies*), y rhai sydd uwch ben y dosparthiadau. Yn 1793, gorphenodd gyfieithiad i'r Saesneg o'r gân hynafol a elwir *Armes Prydain Fawr*, o gyfansoddiad y Brython boreol a breswylient o bobtu gwàl Seferus gynt. Barnai iddi gael ei hysgrifenu tua'r flwyddyn 630, gan Golyddan, bardd Cadwaladr Fendigaid, brenin olaf y Prydeiniaid, er iddi yn gyffredin gael ei phriodoli i Daliesin. Cyfrifid cyfieithiad Mr. Davies, yn nghyda'i nodiadau eglurhaol o enwau dynion a lleoedd crybwylledig ynddi, yn orchwyl tra gorchestol, fel y tystiolaethai llythyrau gwyr beirniadol. Argraffwyd rhan o'r gân hon yn yr ail gyfrol o'r *Cambrian Register*. Yn 1795, cyhoeddwyd o'i waith chwedl athrylithgar dan yr enw "Eliza Powell, or Trials of Sensibility." Amcan y gwaith hwn ydoedd cynghori pobl ieuainc i ochelyd priodasau annedwydd yn groes i gydsyniad eu rhieni. Y gorchwyl hwn, drwy ganmoliaeth Mr. Graves, a enillodd i'r awdwr elw o ugain gini—yr unig wobr uniongyrchol a gafodd oddiwrth holl ysgrifenwaith ei oes. Y flwyddyn ganlynol, cyfieithodd amrai ddarnau o waith y Gogynfeirdd Cymreig, megis Dafydd ab Gwilym, &c., y rhai a gyflwynai i Gymdeithas y Gwyneddigion; ac a argraffwyd yn y drydedd gyfrol o'r *Cambrian Register*. Yn y rhagdraith i'r cyfieithiadau hyn (yr hwn ni chyhoeddwyd byth), amlygai Mr. Davies awyddfryd cryf am gynydd llenyddiaeth Gymreig. Meddai: "Mi a gynghorwn fod i gasgliad gael ei wneud yn mysg Cymry gwladgarol, i alluogi dyniou medrus i gynull cyfysgrifau o waith y beirdd hynaf, a'u diwygio oreu y gellid drwy eu cydmaru â'u gilydd, a nodi allan yr amryfal ddarlleniadau o bwys; a bod i nifer digonol o gyflyfrau gael eu hargraffu yn yr arddygraff gysefin, gyda chyfieithiad Lladinaidd neu Saesneg." Yn 1797, yn nghanol llawer o anhwylldeb corphorol, cynorthwyai Mr. Chalmers, awdwr y *Caledonia*, i gyfieithu ac egluro enwau mynyddoedd, afonydd, a dyffrynoedd yr Alban. Hyn a roddodd achlysur iddo i chwilio yn ddyfnach i'r Gaelaeg; a mawr fu y boddlonrwydd o roddai i feirniaid yn y gorchwyl hwn. Trwy yr holl orchwylion hyn a'r cyfryw,

Digitized by Google

yr oedd Mr. Daves yn cael ei gyfaddasu i orchestion hynotach fyth mewn dysgeidiaeth, ac yn casglu defnyddiau at waith a osodai enwogrwydd annileadwy ar ei goffadwriaeth. sef ei "Celtic Researches." Yn 1801, ysgrifenai at ei gyfaill Mr. Theophilus Jones yn mynegi ei fwriad i anturio y fath orchwyl. Ac yn Medi y flwyddyn hono, cyhoeddodd gynygiadau o'r gwaith, gan hysbysu y cynwysai "Sylwadau ar ddechreuad y gelfyddyd o ysgrifenu yn nwyrain Ewrob, yn enwedig yn yr ynysoedd Brytanaidd: ar yr amrywiol ddyfeisiau a ddefnyddiid gan gyn-drigolion y wlad hon tuag at gadw a throsglwyddo eu meddyliau; ar natur a dechreuad y cangen-icithoedd Celtic, gan eu cydmaru â gwreidd-eiriau Hebraeg, Groeg, Lladin, &c." Mor gynted ag y gwybu Mr. Jones am y bwriad hwn, hysbysodd y peth yn ddioedi i'r Prif-ynad Hardinge, yr hwn a fu lawen o glywed am y fath anturiaeth; ac a roddodd bob anogaeth a chynorthwy i'r awdwr i fyned rhagddo. Bu hefyd yn offerynol iawn i wneuthur y bwriad yn adnabyddus i ddysgedigion y deyrnas, a thrwy hyny ddwyn llawer ohonynt i gydweithredu âg ef tuag at gynull enwau at y Gwaith; rhestr pa un a gynyddodd yn fuan i 2257 o nifer. Yn eu plith yr oedd y rhan fwyaf o dywysogion, tywysogesau, archesgobion, esgobion, arglwyddi, a bonedd y deyrnas gyfunol; ac i goroni y cwbl, ceid caniatad i gyflwyno y llyfr i'w Fawrhydi Sior III., yn nghyda deg gini o anrheg oddiwrth y Frenhines Charlotte. Felly daeth y gwaith allan yn llyfr wythplyg helaeth yn y flwyddyn 1804, pris deunaw swllt. A mawr foddlonrwydd a chymeradwyaeth a dystiolaethid iddo gan ddysgedigion penaf yr oes; cannoliaeth pa rai a fyddai yn llawer rhy faith i ni ei adrodd yma. Hyn a gefnogodd yr awdwr i fyned yn mlaen yn mhellach yn ei efrydiaeth Geltig, ac felly i ddarparu traethawd llafurfawr arall o gyffelyb natur. A hwnw a ddaeth allan yn Ebrill 1809, o dan yr enw, "The Mythology and Rites of the British Druids, ascertained by National Monuments, and compared with the general Traditions and Customs of Heathenism, as illustrated by the most eminent Antiquaries of our age; with an Appendix, containing ancient Poems and Extracts, with some Remarks on ancient British Coins." O'r llyfr hwn yr argraffwyd mil; ei bris oedd deunaw swllt; o ran maintioli yn gyffelyb i'r llall; ac wedi ei gyflwyno i Esgob Llandaf. Ond galarus yw mynegi, na bu yr elw o'r llyfrau llafurfawr hyn ddim yn ddigon i ddigolledu eu hawdwr am ei draul a'i drafferth. Yn 1811, cyhoeddodd Mr. Davies lyfr o Bregethau Saesneg ar y ddyledswydd o gynal cymundeb â'r Eglwys Apostolaidd, tan yr enw, "Church Union: a series of Discourses, in which it is urged that the great Christian duty of maintaining Communion with the Apostolic Church remains uncancelled by the Tolerance of British Laws." Pregethau da a sylweddol ydynt; er mai anog pawb i gymuno yn yr Eglwys Sefydledig yw eu hamcan, y maent yn hynod o urddasol a boneddigaidd yn eu hysbryd. Yn 1816, cyhoeddodd "The Divinity of the Messiah," traithawd mewn ateb i lyfr o waith Iuddew o'r enw Solomon Bennet, yr hwn a geisiai wadu dyfodiad y Messiah. Yn 1817, argraffwyd pregeth o'i waith yn erbyn "Annholl Fasnach" (*Smuggling*). A'i gyhoeddiad olaf ydoedd draithawd er gwrthbrofi gau-haeriadau Mr. Macpherson o berthynas i dadogaeth caniadau Ossian, bardd breninol Caledonia, oedd yn byw yn y drydedd ganrif. Penderfyniad y ddadl lenyddol hon a ystyrid yn gampwri o'r gorchestaf gan y dysgedigion; a'r modd y trinid hi gan Mr. Davies a fawr gymeradwyid ganddynt, fel y tystient drwy eu canmoliaethau iddo. Y llyfr hwn a ddaeth allan

Digitized by Google

yn 1825. Yn y blynyddoedd canlynol hefyd yr Awdwr a gyflwynodd i'r Freninol Gymdeithas Lenyddol ei olygiadau ar gywirdeb Llyfr Job; ac hefyd ar ffugiaeth Brut Tysilio. Yn mhob un o'r ysgrifau hyn dangosai gywreindeb nid bychan. Ar ol enwogi ei hyn mor helaeth mewn ilafur llenyddol, rhesymol ddisgwylid iddo gael ei ystyried yn wrthddrych tra haeddianol o ddyrchafiad yn ei alwedigaeth. Feily yr ydym yn cael iddo yn 1802 ei benodi i guradiaeth barhaol Llanbedr, yn ei sir enedigol, Maesyfed, o nawdd-roddiad y Parch. Henry Thos. Payne; a thrwy eiriolaeth yr Ynad Hardinge, darfu i Dr. Watson, esgob Llandaf ei benodi yn 1805 i fywioliaeth Bishopston, gerllaw Abertawy, i'r hwn le yr ymsymudodd Mr. Davies o Olveston yn y flwyddyn 1813, gan gymeryd ei breswylfod ar y cyntaf yn y plwyf cymydogaethol, Ilston, a chyflawnai y dyledswyddau eglwysig yno, gyda rhai Bishopston, tros bum' mlynedd. Yn 1816, darfu Dr. Burgess, Esgob Tyddewi, ei benodi i ganghelloriaeth Coleg Crist yn Mrycheiniog, a phersonoliaeth Llanfair-oer-llwyn, yn Ngheredigion. Y rhai hyn, hyd y gwyddom, oedd y cwbl o'i ddyrchafiadau eglwysig; oddieithr bod yn ddyledus crybwyll ddarfod iddo gael cynygiad o deitl urddasol oddiwrth Archesgob Canterbury, yr hyn ni oddefai ei wyleidd-dra iddo ei dderbyn.

Yn 1814, bu farw ei wraig gyntaf, yr hyn, wrth ystyried palliadau ei iechyd, ydoedd anffawd o'r chwerwaf iddo. Ond yn 1816, priododd eilwaith â Susanna Jeffreys; yr hon ni fu byw ond hyd 1822. Ac yn y flwyddyn ganlynol, bu orfod iddo, o herwydd palldod ei olwg, roddi heibio ei ddyledswyddau eglwysig yn hollol, a chyflogi curad i gadw ei le. Ac o hyn allan, adfeiliodd ei babell gorphorol o flwyddyn i flwyddyn; ei nerth a'i olwg, ac o ganlyniad, ei ddefnyddioldeb a'i gysur, a dreuliasant ymaith yn raddol, nes erbyn Hydref, 1830, yr ydym yn cael ei fod yn analluog i fyned allan o'i dŷ, na nemawr o'i ystafell wely. A dydd Gwener, Ionawr 7, 1831, gorphenodd ei yrfa mewn tangnefedd; a'r Mercher canlynol, yn ngwydd torf fawr o'i blwyfolion, claddwyd ef yn mynwent ei blwyf, Bishopston. O ran corpholaeth, nid oedd ond canolig o daldra; yn ei ddyddiau boreuaf, ond lled wachul o gnawd; eithr fel y cynyddai mewn oedran, tewychasai i gryn raddau. Yr oedd mor ddirodres o'i ddawn a'i wybodaeth, nes bod ei wyleidd-dra yn niweidiol iddo; ac eto mor gadarn yn ei farn a'i dybiau, fel braidd y medrai oddef cael ei wrthddywedyd gan neb. Yr ydoedd o duedd dra haelionus a chyweithas, yn ofalus am wneuthur uniondeb â phawb, ac yn dra theimladol o gymwynasau pawb iddo. Yr oedd ei serch at ei genedl yn gryf, er, oherwydd lleied a breswyliasai yn eu plith, nad hyawdl y medrai siarad eu hiaith.

Cymerwyd y cofiant blaenorol gan mwyaf o'r *Gwyliedydd* am 1832. Am werth ei lafur fel awdwr Celtaidd, y mae gwahanol farnau. Isel iawn oedd barn Iolo Morganwg am dano, a dywedai mai bychan iawn oedd ei wybodaeth o'r Gymraeg, ac ymosodai arno yn dra ffyrnig. Gwir fod rhai o'i eirdarddiadau yn dra thybiadol a phlentynaidd, yn tarddu oddiar ei awydd i gael pob peth hynafol i gyfeirio at Arch Noah, a'r Dylif. *Mythology* Bryant oedd wedi ei gamarwain, onide gallasai wneyd mwy nag a wnaeth i hynafiaethau Cymru. Yr oedd Syr S. R. Meirick, yn ei ystyried y mwyaf dysgedig a phwyllog o'n holl hynafiaethwyr.

Dywed y Dr. Southey: "Y mae *Celtic Researches* a'r *Mythology of the Druids*, gan Davies o Olveston, yn llawn o hyfforddiadau cywrain na

Digitized by Google

cheir yn un man ond yn y gweddillion Cymreig." A chan ucheled oedd barn Mr. G. S. Faher am dano, fel y geilw efe ef yn *Hierophant* y cyfrinion Prydeinig.

DAVIES (PARCH. EVAN), gweinidog yr Annibynwyr yn Llanedi. Ganwyd ef yn mhlwyf Llandysul, Aberteifi, yn 1749. Derbyniodd ei addysg athrofaol yn ngholeg Caerfyrddin, y pryd hwnw tan ofal y Parch. J. Jenkins. Urddwyd ef yn weinidog ar eglwys Llanedi yn 1776; ac ymafaelodd yn ei waith yn ddiymaros gyda sel dyn yn meddwl am fyrder einioes, ac ni laciodd yn ei afael hyd ei ddiwedd. Gan mai addoli mewn ystafell annghyfleus yr oedd eglwys Lanedi cyn ei fynediad ef yno, un o'i amcanion cyntaf oedd cael addoldy cyfleus; ac wedi llwyddo yn hyny tynwyd ei sylw at y pentrefi cyfagos, a bu yn foddion i sefydlu eglwysi yn Cydweli, Cross Inn, Penbre, a Bethania. Efe hefyd a fu yn foddion i sefydlu eglwys ac adeiladu Capel Als, Llanelli. Cafodd lawer o rwystrau a llawreo erlid, ond nid oedd rhwystro gwr o'i anianawd ddnwiolfrydig ef, ond taflu olew ar fflam er ceisio ei ddiffodd felly. Pan yn myned a dyfod o Gydweli, rhoddai rhai o grachfoneddigion yr ardal eu gweision ar waith i'w ddirmygu a'i guro; ond nid oedd eu gwawd na'u senau yn mènu arno—aeth yn mlaen yn ysbryd cenhadwr a llwyddodd. Goddiweddodd ar ei erlidwyr trwy dynerwch, addfwynder, a chariad; a bu llawer ohonynt fyw i alaru yn chwerw eu camdriniaeth ohono. Yr oedd o ddaliadau crefyddol rhydd ac eang, yn mha beth yr oedd mewn gwrthgyferbyniad tarawiadol i gulni ac enwadiaeth llawer o'i fredyr. Meddai synwyr cryf, a gwybodaeth helaeth yn holl bynciau cyffredinol bywyd. Ymgynghorid ag ef gan ei gymydogion ar faterion cyfreithiol; ac ystyrid ef yn awdurdod digonol gan y ddwyblaid digofus rhag apelio yn mhellach at y gyfraith. Yr oedd yn bregethwr melus, efengylaidd, a thra phoblogaidd, yn llefaru llawer wrth deimladau ei wrandawyr. Nid mynych y pregethai heb golli dagrau, nac y gwrandewid ef ond gyda gruddiau gwlybion. Yn ddiau y mae dyn o ysbryd mor ymdrechgar, cenadol, llafurus a llwyddianus, yn haeddu lle ac enw yn rhestr enwogion ei wlad. Bu farw o'r darfodedigaeth Ebrill 12, 1806, yn 55 oed, wedi gweinidogaethu er lleshad i'w enaid ei hun ac i'r eiddo cannoedd eraill am 30 mlynedd.

DAVIES (PARCH. EVAN), neu a adwaenid yn well wrth ei enw llenyddol, *Eta Delta*, oedd fab i Robert ac Elizabeth Davies, o'r Cefn, Llanbrynmair, sir Drefaldwyn, a nai i'r Parch. Thomas Davies, gweinidog gynt gyda'r Annibynwyr yn Llanuwchllyn. Ganwyd ef tua'r fl. 1794, a derbyniwyd ef pan yn ieuanc yn aelod o'r Hen Gapel, Llanbrynmair. Dechreuodd bregethu tua'r fl. 1820; a bu am dymhor yn athrofa Llanfyllin, y pryd hwnw tan ofal y Dr. George Lewis. Wedi dyfod o'r athrofa, bu yn pregethu am beth amser yn Bilston a'r gymydogaeth. Neillduwyd ef gyntaf i'r weinidogaeth yn Llanrwst; symudodd oddiyno i Lanerchymedd; ac oddiyno drachefn i Newmarket, sir Fflint, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth, Mawrth 1, 1855. Yr oedd Eta Delta yn wr tra llafurus fel gweinidog, a chydwybodol fel Cristion. Yr oedd hefyd yn ddirwestwr selog, ac yn ddyn diargyhoedd a thra hunan-ymwadol. Pan gynygiodd ei gyfeillion dirwestol wneud tysteb arianol iddo fel arwydd o'u parch tuag ato, dewisodd yn hytrach i arian y dysteb hono fyned at ddwyn traul ei addoldy newydd yn Llanerchymedd; a hyny a fu. Er hyny yr oedd llawer o bethau od ac anmhoblogaidd o'i gwmpas; a byddai fynychaf yn destun digrifwch a

Digitized by Google

dirmyg ei frodyr yn y weinidogaeth na'u parch a'u hedmygedd. Tynodd yn ei ben anfoddlonrwydd lluaws o'i gyfeillion trwy ei syniadau dyeithr ar gymhwysderau gweinidogion yr Efengyl. Haerai ef nad cymhwys i'r swydd oedd plant annghyfreithlon, annirwestwyr, ac annafusion; a chondemniai yn ddifloesgni waith ei frodyr yn y weinidogaeth a ymgystadlenent mewn Eisteddfodau, ar y draul o esgeuluso eu gofalon eglwysig. Yr oedd yn ddyn digon cymwynasgar i'w frodyr tlodion; ond yr oedd tuedd gref ynddo i edliw y mân-gymwynasau hyny; yr hyn a'u gwnaent yn ngolwg eu derbynwyr yn llawer llai na diwerth. Y pethau hyn a'i gwnaethant yn nod llawer llythyr ac erthygl miniog yn nghyhoeddiadau yr enwad y perthynai iddo; yn un o ba rai y gelwid ef gyda mwy o nwyd nac o ysbryd Cristionogol, yn "asyn anferthol o asynaidd." Yr oedd yn awdwr y mân lyfrynau canlynol:—1, "Iachawdwriaeth Babanod; neu brofion cedyrn i ddangos fod y rhai sydd yn marw yn eu babandod yn gadwedig," 1832. 2, "Cynghorion a Chyfarwyddiadau, er cymhorth i bobl gyffredin werthfawrogi, diogelu, cadw, ac adfywio iechyd," 1840. 3. "Y Weinidogaeth a'r Eglwysi," 1844; ail-argraffiad 1854.—*G. Lleyn MSS.*

DAVIES (Parch. Evan), y cenadwr i China, a anwyd yn Hengwm, plwyf Llecrod, sir Aberteifi. Ar farwolaeth ei fam, pan nad oedd efe ond tair blwydd oed, symudodd ei dad a'i deulu i Lundain, eithr gadawyd ef ar ol tan ofal modryb iddo, yr hon a fu yn dra thirion tuag ato, ac a'i maethodd fal un o'i phlant ei hun. Cafodd addysg gyffredin dda, ac yna rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda masnachwr yn yr ardal honno. Ar derfyniad ei egwyddor-wasanaeth, symudodd yntau ar ol ei deulu i Lundain. Yn tuan ar ol cyrhaedd yno, ymaelododd gydag eglwys yr Annibynwyr yn Little Guildford Street, Southwark. Cafodd dderbyniad yn fuan ar ol hyn i ysgol y Dr. Phillips, yn y Neuaddlwyd, gyda'r bwriad o ymgyflwyno i fywyd cyhoeddus. Bu yno am ddeunaw mis yn astudio yn galed ac yn prysur cangu cylch ei wybodaeth. Yn 1829, llwyddodd i gael derbyniad i'r *Western Academy*, a gynelid y pryd hwnw yn Exeter, tan lywyddiaeth Dr. George Payne. Emillodd yma safle anrhydeddus fel ysgolhaig yn nghyfrif ei athraw a'i gydysgolorion, a thra yr edmygid ei alluoedd meddyliol, mawr gerid ef hefyd oblegid ei dymher siriol ac addfwyn, a'i dduwioldeb ac uniawn fuchedd. Wedi gadael y coleg ymsefydlodd am beth amser fel gweinidog, yn Great Torrington, Devon,—hen faes llafur y seraphaidd John Howe. Ond ar fod yn genadwr y rhoddes efe ei holl fryd, ac nid arosodd yn Nyfnaint ond ychydig amser, gan i'w wasanaeth gael ei dderbyn gan Gymdeithas Genadol Llundain. Urddwyd ef yn nghapel Wickliffe, Llundain, yn Ebrill, 1835, i fyned yn genadwr i China, ac ymsefydlodd yn ngorsaf genadol Penang. Wedi cyrhaedd yno dechreuodd efrydu y Chinaeg, a thrwy ddyfal-barhad llwyddodd i'w meistroli yn ddigonol i gynal ysgol Cristionogol i'r plant brodorol. Pa fodd bynag, nid oedd hinsawdd China yn dygymod â'i iechyd; a gorfu arno ddychwelyd wedi pedair blynedd o lafur caled fel ysgolfeistr a chenadwr. Yn ystod ei arosiad yn Penang, pregethai hefyd yn fynych i'r milwyr a'r swyddogion Saesneg. Dychwelodd i Loegr yn 1840, a gwasanaethodd tros amryw Flynyddau Gymdeithas Genadol Llundain fel dirprwywr trosti yn y gwahanol gyfarfodydd a gynelid o'i phlaid. Yn 1842, penodwyd ef yn arolygydd y *Boy's Mission School*, yn Walthamstow. Ymadawodd oddiyma yn mhen dwy flynedd, ar alwad oddiwrth eglwys yr Anibynwyr yn Richmond. Llafuriodd yma gyda pharch a llwyddiant mawr

Digitized by Google

am 13 mlynedd; ac afiechyd yn unig a'i gorfododd i roddi ei le i fynu yno; ac i ddangos eu parch tuag ato, anrhegodd y gynulleidfa ef ar ei ymadawiad â phwrs yn cynwys £200. Ei brif amcan wedi gadael Richmond oedd cael adferiad iechyd, a thuag at gyrhaedd hyny, symudai o'r naill fan i'r llall. Bu am ddwy flynedd yn weinidog yn Heywood, sir Lancaster, ond yr oedd y fan hono yn rhy oer; symudodd i Lundain, ac oddiyno i Dalston, lle y bu ei wraig a'i ferched am yspaid yn cadw ysgol rianod boneddigaidd, ac yntau yn eu cynorthwyo; ac yn pregethu yn achlysurol yn Hackney. Oddiyno symudodd i Hornsey; a threuliodd ei wythnosau olaf ar y ddaear yn Nehendir Cymru, yn ceisio adenill iechyd, trwy ymdrochi yn nyfroedd adfywiol Llanstephan. Tra yn tario yma, sylwodd ei briod a chyfeillion fod ei ymddatodiad yn ol pob arwyddion yn agos iawn. Prysurodd tua chartref, ac o'r braidd y gallodd gyrhaedd yno nad oedd y rhan anfarwol wedi cymeryd ei ehedfau ymaith. Bu farw Gorph. 18, 1864. Yr oedd Mr. Davies yn meddu chwaeth goeth, yn feddyliwr dwfn, ac yn Gristion gloyw a glân ei fuchedd. Efe oedd awdwr y llyfrau canlynol: "China and her Spiritual Claims:" "Memoirs of the Rev. Samuel Dyer;" "Rest: Lectures on the Sabbath;" "An Appeal to the Reason and the good Concience of Catholics." Efe oedd cyhoeddwr y gweithiau canlynol:—"Letters of the Rev. Samuel Dyer to his Children;" "Letters on Theology, by the late Dr. Payne;" a "The Works of Dr. Edward Williams of Rotherham," yr hwn a gynwys rai sylwadau campus o'i eiddo ef ei hun, yn enwedig ar y Pechod Gwreiddiol.

DAVIES (Evan, Ysw.), meddyg a llenor medrus yn Dinas, ger Pontypridd. Ganwyd ef yn 1801; a threuliodd oes dra defnyddiol yn mhlith gweithwyr tlodion ei wlad, heb fod un amser o honi ond yr hyn a dreuliodd yn Llundain yn enill ei raddau meddygol. Gyda'r iselradd yr oedd ei bleser, ac yn gweini i'w doluriau ac yn cyd-dosturio â'n gofidiau y treuliodd efe ei oes. Yn 1827, dechreuwyd cyhoeddi o'i waith lyfr tan y teitl "Y Meddyg Teuluaidd," yr hwn a argreffid yn Saesneg a Chymraeg mewn colofnau cyferbyniol; eithr ni ddaeth allan ohono ond tri rhifyn yn unig. Undodwr cydwybodol, ond o ysbryd caredig, oedd efe; ac yn 1846, argraffodd lyfryn o'r enw "Rhifedi ac Undod Duw; sef, sylwadau ar nodiadau ac egluriadau y Parch. J. Jones, Rhydybont, ar Athrawiaeth y Drindod," yr hyn a barodd ddadl rhynddo â Mr. Jones ar ddalenau *Y Golygydd*. Ysgrifenodd lawer i'r *Seren Gomer;* a gohebodd yn gyson i lawer o gyhoeddiadau eraill. Bu farw Hydref 22, 1850.—*G. Lleyn MSS.*

DAVIES (Francis), D.D., prelad enwog a duwiol, a anwyd yn Morganwg yn 1611. Cafodd dderbyniad i goleg yr Iesu, Rhydychain, yn 1628, cymerodd ei raddau yno yn y celfyddydau, a gwnaed ef yn gymrawd o'r coleg hwnw hefyd. Wedi cymeryd urddau cafodd fywiolaeth yn ngwlad ei enedigaeth; ac yn 1640, cafodd dderbyniad i ddarllen y brawddegau. Ar hyn, torodd allan y Rhyfel Cartrefol; a thrwy ei fod ef yn freingarwr trwyadl, dyoddefodd fel breingarwyr eraill, oddiar law y Werin-lywodraeth. Ond ar adferiad Siarl II., adferwyd iddo yntau yr hyn a gymerasid oddiarno. Yn 1660, gwnaed ef yn archddiacon Llandaf, a'r flwyddyn ganlynol cafodd ei raddio yn D.D. Yn 1667, ar farwolaeth y Dr. Hugh Lloyd, esgob Llandaf, cysegrwyd ef i gymeryd ei swydd. Bu farw yn 1674, a chladdwyd ef yn ei fynachlog. —*Wms. Em. Welsh.*

Digitized by Google

DAVIES (Griffith), Ysw., F.R.S., yr ar-rifydd *(actuary)* enwog o Lundain. Ganwyd ef Rhag. 28, 1788, ar odreu mynydd y Cilgwyn, yn mhlwyf Llandwrog, yn agos i Gaernarfon. Yr oedd ei dad, Owen Dafydd, yn gweithio yn un o'r cloddfeydd cyfagos, yn wr gonest, diwyd, tawel, a theulu mawr, y rhai y cafodd yr hyfrydwch o'u dwyn i fynu a'u gweled oll wedi ymsefydlu yn lled gysurus, ac a fu farw yn y flwyddyn 1854, yn 93 oed. Cymerodd ei fachgen gydag ef i'r gloddfa pan oedd tua naw neu ddeg oed, heb un amcan uwch yn ngolwg y naill na'r llall y pryd hyny, oddieithr fod y plentyn yn meddwl am fod y mwyaf yno. Yr oedd wedi bod mewn rhyw ysgol am ychydig amser cyn hyny, ac wedi cael rhyw gymaint o flas at ddarllen, yr hwn a gryfheid gan addysgiadau ei athraw yn yr Ysgol Sabbathol, yn Mryn-yr-Odyn. Teimlai hyd ddiwedd ei oes barch calon i'r athraw hwnw. Pan oedd tua 17 oed, â'r hyn a arbedasai o'i gyflog yn y gloddfa, rhoddodd ei hunan am ychydig amser, dau fis neu dri, yn ysgol y diweddar Barch. Evan Richardson, yn Nghaernarfon, gyda'r bwriad o ddysgu ychydig o Saesneg, rhifyddiaeth, &c. Yno, canfu ynddo ei hunan ryw gymhwysder at rifyddiaeth, nad oedd o'r blaen yn gwybod dim am dano, ac a'i synai ef ei hunan, a'i gyd-ysgolheigion, a'r athraw, a phawb y ddelent i gyfarfyddiad âg ef. Dychwelodd drachefn i'r gloddfa, ond gydag ymwybodolrwydd o ryw allu newydd oedd erbyn hyn wedi llyncu ei fryd. Byddai ar yr awr giniaw, ac adegau praill, â'i bin haiarn, yn penderfynu cwestiynau dyfnion mewn rhifyddineth, ar y llechau a weithid ganddo, er hyfrydwch mawr iddo ei hun, a difyrwch a syndod i'w gydweithwyr. Cyn bod yn llawn 21 oed, daeth ar ei feddwl fyned i Lundain, er mwyn cael mantais i ddysgu ychydig Saesneg, fel ag i'w gymhwyao ei hunan yn raddol i godi gam neu ddau yn uwch yn y gloddfa. Cyrhaeddodd Lundain yn Medi 1809. Nid oedd yn meddwl aros yno ond ychydig iawn o amser, ac nid oedd ganhdo un amcan uwch nag a nodwyd wrth fyned yno. Nid oedd ganddo gydnabyddiaeth â neb yn y dref, ac nid oedd ei Saesneg ond anmherffaith iawn. Aeth o fan i fan amddyddiau, i chwilio am rywbeth i'w wneud, ond methai gael dim. Yr oedd yn dechreu gofidio erbyn hyn iddo adael Cymru, ac yn mawr ddymuno bod yno yn ol. Yr oedd rhyw rai yn Nghymru wedi rhoddi deg swllt iddo i'w talu, neu yn rhodd i ryw berthynas oedd ganddynt mewn rhyw barth o'r dref. Aeth i ymofyn y gwr i roddi y deg swllt iddo. Cymro ydoedd, ac is-athraw mewn ysgol. Dywedodd ei hanes wrth hwnw. Dywedodd hwn wrtho, mai y peth goreu a allai wneud oedd, myned i ryw ysgol am ychydig i ddysgu yr iaith Saesneg, ac yna y gallai hwyrach gael lle yn is-athraw mewn ysgol fel yntau. Cymerodd yr awgrym. Aeth i ysgol. Cafodd le yn is-athraw yn Ion. 1810. Agorodd ysgol ei hunan yn y flwyddyn ganlynol. Priododd yn 1812. Yn 1814, cyhoeddodd "Key to Bonnycastle's *Trigonometry*," yn cynwys ymchwiliadau i rai o'r holiadau dyfnaf mewn Seryddiaeth. Yr oedd yn dra gwasgedig arno o ran ei amgylchiadau bydol y blynyddoedd hyn, yn gymaint felly fel nad oedd ganddo fodd, heb ymadael â rhyw lyfr gwerthfawr arall, i brynu'r argrafliad newydd o'r *Trigonometry* a ddaethai allan pan wedi gorphen ysgrifenu ac argraffu y "Key," ac yr oedd dan anghenrheidrwydd gan yr un cyfyngder i weithio â'i law ei hunan yr holl gerfiadau angenrheidiol at y cerfluniau yn nghyhoeddiad y gwaith. Ond wedi cyhoeddiad y llyfr hwn, dechreuodd y rhod droi arno. Ymledodd ei glod, cynyddodd ei ysgol, dechreuodd ddysgu egwyddorion *annuities* yn eu gwahanol gangenau, nes y daeth ei fri yn

Digitized by Google

adnabyddus trwy yr holl dref. Bu ganddo yn y blynyddoedd hyn, o bryd i bryd, yn mhlith ei ddysgyblion, rai a ddaethant i enwogrwydd mawr wedi hyny, ac yn mhlith eraill y diweddar Syr John Franklin. Tua'r flwyddyn 1822, rhoddodd ei ysgol i fynu, wedi cael y lleoedd a lanwyd ganddo hyd ddiwedd ei oes. Yn 1825, cyhoeddodd lyfryn bychan ar "Life Contigencies, &c." Ysgrifeuodd ac argraffodd lawer o lyfr arall, mawr a chyflawn ar *Annuities*, ond cymerwyd ei amser i fynu mor llwyr, pan ar ei ganol, gan yr ymdrech a wnaeth yn yr hwn y bu hefyd yn llwyddianus, yn mhlaid tyddynwyr bychain mynyddoedd sir Gaernarfon a manau eraill, pan yr amcanwyd dwyn oddiarnynt y tai a adeilasid ganddynt, a'r tiroedd a gauasid ganddynt o'r mynydd fel na orphenwyd y llyfr byth. Ond y mae yr hyn a argraffwyd ohono er nad ydyw wedi ei gyhoeddi, eto, trwy werthiant annghyhoedd, yn meddiant y nifer fwyaf o'r rhai sydd yn dilyn yr un alwad âg ef, oc yn cael ei gydnabod ganddynt yn ol ei deilyngdod. Erbyn hyn, yr oedd ar ben y rhestr yn y ganghen y perthynai iddi, ymddiried diderfyn bron ynddo, a gorchwylion oddiwrth yr *East India Company*, y *Bank of England*, a sefydliadau eraill, yn rhuthro arno, fel nad oedd braidd un amser heb fwy na llonaid ei ddwylaw o waith. Tua'r flwyddyn 1831, etholwyd ef, heb un cais o'i du ef, yn *Fellow of the Royal Society;* ac oddeutu yr un adeg etholwyd ef, yn hollol ddiarwybod iddo ei hunan, yn *Fellow of the Statistical Society of France;* ac yn mhen rhai blynyddoedd, er cefnogaeth i'r sefydliad, caniataodd gymeryd ei ethol yn *Fellow of the Institute of Actuaries of Great Brirain and Ireland.* Aeth rhagddo mewn anrhydedd a llwyddiant hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le, wedi hir gystudd, Mawrth 21, 1854.

Un o'r pethau sydd yn ein taro gyntaf wrth sylwi ar yrfa Mr. Davies, ydyw y dyrchafiad mawr y codwyd ef iddo mewn can lleied amser. Ni wyddai *ddim* am rifyddiaeth cyn bod yn 17 oed —ni fedrai ond ychydig eiriau yn Soesneg pan yn agos i 21 oed; eto, cyn bod yn 23 oed, yr oedd yn cadw ysgol ddyddiol, yn ei enw ei hunan, yn y Brifddinas; ac yn 25 oed, yn cyhoeddi llyfr yn yr iaith Saesneg a sefydlodd ei gymeriad fel *mathematitian* o'r radd uwchaf; pan yn 33 oed, dewiswyd ef i'r swydd uchaf mewn cysylltiad â dau o'r sefydliadau mwyaf cyfrifol yn Llundain; ac nid oedd ond 42 oed pan etholwyd ef yn Gymrawd o'r Gymdeithas Freiniol. Nid yn fynych yn sicr y cyrhaeddodd neb ben y pinacl yn gynt, ac nid annyddorol yn ddiau fyddai olrhain elfenau ei lwyddiant. Byddai esgeuluso cymeryd i'r cyfrif, pan yn ceisio chwilio hyny allan, y gallnoedd naturiol cryfion y bendithiwyd ef â hwynt, yn gamgymeriad mawr ynom ni, ac yn gam mawr âg yntau. Od oes rhyw beth mewn Penwyddoreg, yr oedd ffurf ei ben ef yn dangos nad dyn cyffredin ydoedd. Yr oedd y pen hwnw yn un o'r rhai iachaf fu erioed ar gorph dyn. Pan yn blentyn, ymorchestai yn curo ei ben yn erbyn penau plant eraill; ni wybu erioed beth oedd cael mynud o boen oddiwrtho; a chlywsom y meddygon a wnaethant archwiliad ar ei gorph yn dywedyd na welsant erioed ymenydd tebyg. Nid oedd yn fawr; ond mewn cydsafiad, cyfluniad, a chymhlethiad, rhagorai ar ddim a welsent erioed. Ond rhaid i ni fyned yn ddyfnach i gael gafael yn holl elfenau ei lwyddiant. Un ohonynt yn ddiddadl ydoedd uneliaeth ei amcan. Ni cheisiodd at lawer o bethau. Ni wanhaodd ei nerth trwy luosogi yr ymosodiadau arno. Cyfyngodd ei hunan, gydag amcan i ragori, yn hollol i un peth. Wrth dywedyd hyn, ni fynem i neb dybied nad oedd Mr. Davies yn gydnabyddus â dim ond yr hyn y rhagorai ynddo.

Digitized by Google

Pell oddiwrth hyny; yr oedd wedi darllen llawer ar lawer o bethau—ychydig ar bobpeth bron ond barddoniaeth—a llawer iawn ar rai pethau, yn enwedig athroniaeth foesol, eto yr aedd yn cadw pobpeth arall yn gwbl ddarostyngedig i, ac yn mhell islaw, yr hyn a ystyrid ganddo yn alwedigaeth iddo ei hun. Dyn un amcan ydoedd; a phe buasai yn wahanol, y mae yn dra anmheus genym a fuasai efe, dan yr amgylchiadau y dygwyd ef i fynu, yn gwneuthur iddo ei hun enw yn mhlith ei gydoeswyr. Gyda golwg ar yr amcan hwn, nid oedd mewn un modd yn frysiog, ond yn araf, gofalus, a manwl. Yr oedd yn cymeryd pwyll, fel y gallai fyned yn fuan. Edrychai yn ol ac yn mlaen, ar ddehau ac ar aswy, dygai i mewn bob peth i'r cyfrif, gan gadw ei feddwl yn dymherus ac yn rhydd oddiwrth bob peth ond yr elfenau ger ei fron, er penderfynu y pwnc dan sylw. Ond yr oedd yr arafwch hwn yn mhell oddiwrth fod yn ymylu ar ddiofalwch. Ni bu erioed feddwl mwy ymroddedig i'r amcan mewn golwg ganddo. Yr oedd yn hyn mor drylwyr, fel y byddai yn debycach i un yn cael ei feddianu ganddo nag yn ymroddi iddo. Byddai yn cael ei lyncu ganddo i'r fath raddau, nes ei wneuthur ar y pryd yn hollol ddideimlad o, ac annylanwadol gan, bob peth arall. Yr oedd hydy yn nod y diffyg anadl yr oedd er's blynyddau yn dra darostyngedig iddo, a'r peswch blin oedd yn ei ddilyn, yn ystod yr amser y byddai gyda ei efrydiau, yn ymadael ag ef mor llwyr am oriau cyfain, fel mai prin y gallesid credu nad oedd wedi hollol wellhau. Yr oedd gonestrwydd ei feddwl yn ddiwyrni. Nid ydym yn cyfeirio yn awr at hyny mewn ystyr foesol, ond yn naturiol, yn feddyliol. Yr oedd symledd cyffredin ei amgyffredion, tryloewder ei ddirnadaeth am y pethau oedd fynychaf dan ei sylw, a'r angenrheidrwydd a deimlai bob amser i arwain y rhai hyny i orwedd ar egwyddorion annadleuadwy, yn ei wneud yn un a fuasai yn hollol anesmwyth mewn unrhyw orweddle heb deimlo ei ben yn gorphwys ar obenydd y gwirianedd. Yr oedd yr arafwch oedd mor amlwg ynddo yn ei gadw bron bob amser rhag methu yn ei gasgliadau, hyd yn nod pan y byddent yn fwyaf dyrys, ac felly yn sicrhau cywirdeb ei olygiadau ar yr amrywiol gwestiynau a osodid ger ef fron; ond pan ddigwyddai weithiau i ryw beth beri iddo roddi golygiad prysur, fel ag i fod yn annghywir, o leiaf yn ddiffygiol, yr oedd fel pe buasai o'i fewn ryw is-ymwybodolrwydd o'r camgymeriad yn ei gadw yn anesmwyth nes gwneud adymchwiliad, a chywiro yr amryfusedd. Yr oedd yn un o'r rhai mwyaf dirodres a welwyd erioed. Yr un un isel, gwylaidd, anhymongar, dirwysg, a dirodres, ag ydoedd pan y daeth i Lundain yn fachgen parchus a thlawd hyd y diwedd. Yr oedd, yn mlynyddau llwyddiant, yn ymdeimlo â blynyddau helbul; ac yn rheoli ei ymddygiad, can belled ag y gallai amgylchiadau ddylanwadu arnynt, nid yn gymaint oddiwrth yr hyn ydoedd a'r hyn a fuasai. Yr oedd yn teimlo yn gynhes iawn tuag at wlad ei enedigaeth, ac yn dra eiddigus dros ei hanrhydedd hi. Nid oedd dim yn gofidio mwy arno na gweled ambell Gymro mor ddiegwyddor ac yn ymostwng i unrhyw dwyll er mwyn bywiolaeth yn hytrach na dilyn rhyw alwedigaeth gyfreithlawn; na dim o'r tu arall yn rhoddi iddo fwy o foddhad, na gweled rhai ohonynt yn cyrhaedd i swyddau o anrhydedd ac ymddiried, ac yn ymddwyn yn deilwng ynddynt. Gwnaeth lawer ei hunan yn mhlaid y cyfryw rai, ac y mae amryw o'i gydgenedl yn y Brifddinas nas gallant yn fuan annghofio ei garedigrwydd. Trwy y cwbl, nid esgeulusodd y peth mwyaf. Darllenai lawer iawn ar y Bibl. Gweddiai lawer bob dydd ar ben ei hunan, ac ni bu neb erioed mwy gofalus am addoliad yn gyson

Digitized by Google

yn ei deulu. Yn mhen mis neu ddau wedi dyfod i Lundain, ymunodd ag eglwys y Methodistiaid Calfinaidd oedd y pryd hyny yn ymgynull yn Wilderness Row, a pharhaodd hyd y diwedd a'i galon yn gywir gyda'r achos; a bu yn flaenor ffyddlawn am lawer o flynyddau cyn diwedd ei oes. Gadawodd ar ei ol un ferch o'i wraig gyntaf yn briod â Mr. Dew, cyfreithiwr, Llangefni; ac un mab o'i ail wraig.—*Y Traethodydd*, 1855.

DAVIES (Parch. Griffith Owen), a anwyd ger y Bala, yn sir Feirionydd, Ion. 24, 1790. Yn 1805, ymunodd â'r Trefnyddion Calfinaidd. Trwy ddylanwad y diweddar Barch. T. Charles, efe a dderbyniwyd i Goleg Cheshunt, yn 1811, lle y treuliodd bedair blynedd. Efe a urddwyd yn Nghapel yr Arglwyddes Huntington, yn *Spa Fields*, Llundain. Yn 1815, efe a ymsefydlodd yn Maidenhead, lle y bu yn ddefnyddiol a phoblogaidd dros 21 o flynyddau. Bu farw yn nechreu y fl. 1837, yn 47 oed.—*G. Lleyn MSS.*

DAVIES (Parch. Henry). Y mae hanes y gwr da hwn bron wedi llithro i ebargofiant. Dywed y Dr. Rees yn ei *Nonconformity in Wales* mai brodor o sir Gaerfyrddin ydoedd, iddo dderbyn ei addysg yn Nghaerfyrddin gan y Parch. W. Evans, a'i urddo yn weinidog ar eglwys yr Annibynwyr yn Blaengwrach, Glyn-nedd, tua'r fl. 1718. Efe oedd sefydlydd a gweinidog cyntaf eglwys yr Annibynwyr yn y Cymer, ger Pontypridd. Oddiar yr un awdurdod, hysbysir ni mai boddi a ddarfu i Mr. Davies yn yr afon Rhondda, ar ei ffordd adref o'r Groeswen wedi bod yno yn pregethu. Cymerodd hyn le yn Gorph. 1766, pan oedd gwrthddrych ein cofiant yn 70 oed. Ynddo ef yr oedd cyfuniad hapus o ddysgeidiaeth y gweinidog sefydlog a thân y pregethwr teithiol. Y mae ar gael ddau lythyr o'i eiddo at yr enwog Howel Harris; a chan eu bod yn taflu goleu ar sefyllfa crefydd yn yr oes hono, ac yn pêrsawru y teimlad mwyaf efengylaidd ac enaid-garol, yr ydym yn eu cyfleu yma;—

Nantcelyn, *Mehefin* 9, 1738.

Gariadus ac Anwyl Syr,—Llawer a ddisgwyliant eich gweled a'ch clywed yn Aberdâr, ac yn Llan Llanwnno. Gresynaf tros y bobl a gawsant eu siomi yn y manau y bwriadech chwithau yn ddiffael fod pan eich gwelais. Bum yn ymddiddan â'r gwr duwiol a ffyddlawn hwnw Mr. Griffith Jones, yr hwn oedd yn dra ymholgar yn eich cylch chwi, ac yn gweddio ar fod i'r Duw mawr a daionus fendithio eich egnion canmoladwy i wneuthur lles i eneidiau lawer, ac a ddywedai na byddai iddo byth fod o unrhyw rwystr i chwi; eithr ofnai yr ymgymerid â'r gwaith gan eraill anwybodus, heb fod ganddynt ddim cymhwysder ar ei gyfer.

Deisyfaf ateb i'r llythyr hwn gyda'r cyfleusdra cyntaf. Bydded i'r Duw mawr fendithio ei ymweliad â chwi; ac os afiach ydych, hyderaf y cewch fêl ar y wialen geryddol; ac y bydd Iddo eich dwyn allan o'r pair fel aur puredig. Llawen a fyddem o'ch gweled a'ch clywed yn y manau yr addawsoch ddyfod iddynt; miloedd lawer a hiraethant am eich dyfodiad. Erfyniaf eich gweddiau gyda Duw ar fy rhan fy hun a'r eiddof; a gorphwysaf eich cyfaill didwyll yn rhwymau cariad,—

Henry Davies.

LLYTHYR II.

Blaengwrach, *Mehefin* 28, 1738.

Gariadus ac Anwyl Frawd,—Ysgrifenais bumthegnos yn ol atoch o'r blaen. Y mae y gwr difrifol, selog, a duwiol hwnw Mr. William Thomas, offeiriad Llangattwg, Glyn-nedd, yn hiraethlawn am eich

Digitized by Google

gweled a chael eich cymdeithas. Efe a ddaeth yn bwrpasol i'r Fynachlog i'ch clywed; ond siomwyd yntau fel miloedd eraill. Ceryddwyd ef am hyn yn llym gan glerigwr sydd yn preswylio yn Nghastellnedd. Yn y cyrau hyny y mae yr offeiriaid yn rhanedig, y naill yn erbyn y llall. Addawodd cadben yr ymladdwyr ceiliogod, yr hwn a'ch clywsai yn pregethu yn y Bettws, beidio byth a dilyn y gamp annuwiol hono mwyach; ac un arall a dorodd benau ei holl geiliogod ar ei ddychweliad adref o'ch gwrando yn pregethu. Gwelais ef y Sabbath diweddaf, ac ymddengys yn wrandawr astud. Gwahoddodd fi i'w dŷ. I Dduw yn unig y byddo'r clod. Canfyddaf ddiwygiad mawr mewn lluaws ar ol eich ymweliad chwi â'r parthau hyn, yr hyn sydd yn galw yn uchel arnoch i ddyfod yma eto mor fuan ag y byddo bosibl. Y mae bonedd-iges o radd uchel, gwraig i gyfreithiwr yn agos i yma, yn awyddus iawn iawn i'ch clywed, ond y mae ef yn wrthwynebus. Credaf fod y diafol wedi colli rhai milwyr medrus, y rhai a ymrestrasant o tan y cadben mawr Crist Iesu. Cofiwch fi yn garedig at Mr. William Herbert, a'r holl gyfeillion Cristionogol a ofynant am danaf. O, gweddiwch am anfoniad rhagor o fagnelau i guro i lawr gedyrn dyrau Satan. Erfyniaf gymhorth eich gweddiau a'ch mawl; ac ar fod i'r Arglwydd roddi i mi ychwaneg o ffydd, gostyngeiddrwydd, amynedd, a sêl sanctaidd. Yr ydwyf yn eich caru, ac yn hiraethu am eich gweled. Gorphwysaf eich cyfaill, brawd, a gwas diffuant.—HENRY DAVIES.

O.Y.—Anrhydeddwch fi â llythyr ar dderbyniad hwn, fel y caffwyf wybod pa bryd y deuwch i'r parthau hyn, a pha fodd y mae gwaith ein Meistr mawr a daionus yn llwyddo yn y parthau yna. O, parhewch mewn gweddi ar ran eich brawd tlawd. Deisyfaf arnoch geisio llythyrau Mr. Griffith Jones oddiwrth Mr. Rowlands, ac os gellwch perswadiwch ef i ddyfod i bregethu yr Efengyl dragwyddol yn y cyrau hyn. Ac os y daw, minau a ymdrechaf gael llythyr o gydsyniad gan un o'n clerigwyr. Rhoddwch fy serch a'm gwasanaeth ato.—Rees' *Noncon. in Wales.*

DAVIES (PARCH. HOWEL). Er fod y gwr enwog hwn yn un o brif gychwynwyr Methodistiaeth Cymru, heb fod yn ail i neb ond i Rowlands ei hun yn ngwlithogrwydd ei ddawn a llwyddiant ei weinidogaeth, ychydig iawn sydd o'i hanes ar gael. Disgynodd o deulu parchus a chrefyddol yn sir Benfro. Fel y cyffredin o enwogion, dangosodd er yn ieuanc awydd mawr am wybodaeth, ac athrylith gref i'w chyrhaeddyd. Wedi treulio rhyw gymaint o'i amser mewn ysgol yn ei ardal gartrefol gosodwyd ef dan ofal yr hyglod Barch. Griffith Jones, Llanddowror. Er fod Mr. Davies o duedd ddifrifol ac astud bob amser, daeth o dan weinidogaeth Mr. Jones yn "Gristion cwbl oll." Oherwydd fod gogwyddiad difrifol a chryf ei feddwl at y weinidogaeth, ymofynodd am urddau yn Eglwys Lloegr. Ar ddiwrnod ei urddiad offrymwyd gweddiau taerion drosto gan Mr. Jones a'i gynulleidfa yn Llanddowror. Yr eglwys y gweinyddodd gyntaf ynddi ydoedd Llys-y-frân, yn sir Benfro. Ond yr oedd ei weinidogaeth yn rhy ffyddlawn a gonest i'r gynulleidfa hono oedd yn caru esmwythyd yn eu pechodau. Llwyddasant i'w daflu allan oddiyno. Yna pregethodd yn mhob eglwys a fyddai agored iddo trwy yr holl wlad. Dywedir iddo fod am ryw dymhor yn gurad i'w hen athraw, periglor Llanddowror, "lle y cerid ac y perchid ef yn fawr gan lawer, a lle y bu yn offerynol i ddychwelyd llawer o ddynion at Dduw." Os bu yn gurad yn Llanddowror o gwbl, rhaid mai yn y cyfnod hwn y bu. Ond y mae yn anmheus genym a fu yn gurad yno o gwbl, er y dichon iddo fod

Digitized by Google

yn gwasanaethu yn yr eglwys hono ar a thros amryw dymhorau. Ond wedi ei fwriad allan o eglwys Llys-y-frân, ac y dechreuodd bregethu ar hyd y wlad mewn gwahanol eglwysi, aeth yn dra phoblogaidd a chymeradwy. Aeth y son am dano trwy yr holl ardaloedd, ac ymgasglai miloedd lawer i wrando arno, pa bryd bynag y ceid allan ei fod ef i bregethu mewn rhyw fan neillduol. Enynodd hyn ddigofaint y "cŵn mudion" o offeiriaid didduw oedd yn "meddu bywiolaethau" yr Eglwys y pryd hwnw, a chauasant ddrysau yr eglwysi, o un i un, i'w erbyn. Yn wyneb hyn aeth allan i'r "prif-ffyrdd a'r caeau" i wahodd pechaduriaid at Grist. "Pregethai yn fwyaf sefydlog mewn pedwar o leoedd gwahanol, ac enillodd ato gynulleidfaoedd mawrion iawn. Anfynych y byddai nifer y cymunwyr ar y gweinyddiad misol o'r Sacrament yn llai na dwy fil o rifedi. Mynych y gwaghawyd yr addoldy i wneud lle i ail a thrydedd gynulleidfa, i gyfranogi o swper yr Arglwydd." Yn fuan daeth i gydnabyddiaeth a Howel Harris a Daniel Rowlands yn Nghymru, yn nghyda Whitfield yn Lloegr. Ymddengys nad oedd wedi dyfod yn gydnabyddus a'u gweithrediadau, cyn iddo ef ddechreu gweithredu fel efengylydd teithiol yn sir Benfro, i ymdrechu deffro ei gydwladwyr o'r cysgadrwydd angeuol oedd wedi eu meddianu, ac i'w rhybuddio i "ffoi rhag y llid a fydd." O ran hyny, nid oedd yr un o'r gwyr da hyn, oeddynt yn cyd-ddechreu gweithio, yn gwybod dim am eu gilydd cyn nac wrth ddechreu. Teithiodd Mr. Davies, fel ei frodyr, er nad gymaint a hwy oherwydd gwaeledd ei iechyd, drwy Gymru oll; a hyny ar amser pan oedd annghyfleusderau y teithio yn llawer a mawrion, a'r erledigaethau o achos crefydd yn greulawn. Yr oedd y ffyrdd yn ddrwg ac yn fynyddig; y lletŷau yn wael ac yn anaml; caredigion yr efengyl gan mwyaf yn dlodion eu cyflwr, ac yn ychydig eu rhif; yr addoldai yn wael ac oerion, ac yn mhell oddiwrth eu gilydd; y rhagfarn yn erbyn y "pengryniaid" yn greulawn fel y bedd; y werin yn derfysglyd a dideimlad; y clerigwyr yn llawn cynddaredd; a'r gwyr mawr yn llygadu am gyfleusdra i fwrw eu dial ar y dynion a gyfrifid ganddynt fel aflonyddwyr y byd. O ganlyniad, anturiaeth fawr i ddyn o iechyd corphorol gwanaidd fel Mr. Davies ydoedd wynebu ar daith i'r Gogledd o ganol sir Benfro. Ond cyn cychwyn ar y daith hon ysgrifenai at Howel Harris, "Yr wyf yn penderfynu cynyg hyny pe gorfyddai i mi farw ar y ffordd." Yr oedd yn bresenol yn y Gymdeithasfa Fethodistaidd gyntaf a gynaliwyd erioed yn y Bala. Bu Mr. Davies amryw droion yn pregethu yn Lloegr—yn Nghapelau Arglwyddes Huntingdon yn Llundain, Brighton, a Bristol,—lleoedd ag y gwerthfawrogid ei weinidogaeth yn fawr, ac y bendithiwyd hi er achubiaeth i lawer. O dan ei weinidogaeth ef pan yn Nghymru, y dychwelwyd y Parch. Mr. Bateman, yr hwn oedd cyn hyny yn berson St. Bartholomew Fwyaf yn Llundain, yn gystal ag yn meddu bywiolaeth eglwysig fechan yn sir Benfro. Ar ol hyn, bu Mr. Bateman yn gyfrwng bendith i lawer eraill yn Nghymru a Llundain hefyd. Yn nghyda'r Parchn. Daniel Rowlands, Griffith Jones, a Mr. Howel Harris, cyfarfu Mr. Davies yn Bristol â'r Arglwyddes Huntingdon a'i dwy ferch, yn nghyda dwy Iarlles arall, sef Lady Anne a Lady Francis Hastings. Yn eu taith trwy Gymru dilynid hwynt gan y pedwar gweinidog hyn, pan y pregethai dau ohonynt bob dydd yn y trefydd a'r pentrefydd yr elent drwyddynt, er iachawdwriaeth ac ymgeledd i lawer. Preswyliai Mr. Davies am y ran ddiweddaf o'i oes yn Hwlffordd, lle hefyd y bu yn foddion i wneuthur daioni nad oes ond "*y Dydd* a'i dengys." Ar ol

Digitized by Google

mwynhau cysuron crefydd i raddau anarferol bu farw tua diwedd Mawrth yn yr un flwyddyn a Whitfield—1770. Claddwyd ef yn eglwys Prengast, Hwlffordd.

DAVIES (PARCH. HUGH), y naturiaethwr enwog, a anwyd yn ynys Môn, yn 1739. Ei dad oedd y Parch. Lewis Davies, periglor Llandyfrydog; ac enw morwynol ei fam oedd Knight. Bu ei dad farw pan nad oedd ef ond ienanc, er hyny nid esgeuluswyd addysg na dygiad i fynu y naturiaethwr bychan. Danfonwyd ef i Ysgol Ramadegol Beaumaris, ac oddiyno i Goleg Iesu, Rhydychain, lle y cymerodd y radd o B.A. Yn 1778, cafodd fywiolaeth Beaumaris; a rhoddodd y lle hwnw i fynu yn 1787 er mwyn derbyn offeiriadaeth Aber, yn sir Gaernarfon. Yn 1790, etholwyd ef yn gymrawd o'r Gymdeithas Linnæan. Rhaid ei fod felly wedi enwogi ei hun fel llysieuydd cyn yr amser hwn, onide nid etholesid ef yn gymrawd o'r gymdeithas ddysgedig hono. Ystyrid ef yn naturiaethwr o radd uchel iawn, ac ymgynghorid yn fynych ag ef gan wyr enwog parth "hynotaf deddfau natur." Yn 1774, aeth gyda Pennant ar daith trwy ynys Manaw, a thystiolaetha y teithiwr enwog yn hanes ei fywyd am Mr. Davies fel hyn:—"Pe na chydnabyddwn y manteision amryfal a ddeilliasant i mi o gyfeillachu â Mr. Davies, cyhuddwn fy hun o anniolchgarwch. Byddai yn anniolchgarwch ac esgeulusdra ynwyf beidio cydnabod y manteision amryfal a gefais o gyfeillachu â Mr. Davies, yn enwedig y rhai a ddeilliasant i mi o'i wybodaeth eang mewn llysieuaeth. Iddo ef yr wyf yn ddyledus am hanes planhigion a dail Eryri; ac ar fy erfyniad, aeth eilwaith i ynys Manaw yn Mehefin 1775, er mwyn archwilio drachefn ei chynyrchion llysieuol. Trwy ei lafur ef y mae llysieuaith yr ynys hono bellach mor gyflawn ag y dichon iddo byth fod, trwy archwiliad un dyn ar un tymhor o'r flwyddyn. Yn ystod y cyfnod byr hwn ymgydnabyddodd yno â thua dau cant a haner o blanhigion." Bu Mr. Davies o fawr gynorthwy i Pennant pan oedd y boneddwr hwnw yn darpar ail-argraffiad o'i lyfr *Indian Zoology*, cyhoeddedig yn 1792. Prif waith Mr. Davies ydyw ei lyfr rhagorol, argraffedig yn Nghymraeg a Saesneg, ar lysieuaeth ynys Mon. Ystyrir y llyfr hwn yn safon, ac yn anrhydedd mawr i ddiwydrwydd a dealltwriaeth ei awdwr. Oblegyd llesgedd a henaint rhoddodd ei swydd yn Aber i fynu yn 1816; a bu farw yn Beaumaris Chwef. 16, 1821. Y mae y llysiau canlynol wedi eu galw ar ei enw:—*Eucalypta Daviesii*, *Hydnum Daviesii*, *Calithamnion Daviesii*, a *Glyphomitrion Daviesii*.—Wms. *Em. Welsh.*

DAVIES (JAMES), oedd fab i amaethwr yn mhlwyf Grosmont, sir Fynwy, ac a anwyd yn 1765. Gan i'w dad farw yn ddiewyllys, meddianwyd y cwbl a feddai gan ei fab hynaf, a gadawyd James i ymdaro trosto ei hun, ac efe a ymgymerodd â gwehyddiaeth. Ond gan fod sefyllfa lonydd yn anffafriol i'w iechyd, efe a ymröes i gario eiddo o dŷ i dŷ, yn gyfnewid am garpiau i'r melinau papur. Gan ei fod o duedd grefyddol a defosiynol, efe, wrth grwydro felly, a sylwodd fod sefyllfa foesol a chrefyddol y parthau hyny o sir Fynwy yn druenus o isel. Argyhoeddwyd ef i'r awydd o fod yn wasanaethgar i'w genedlaeth, wrth wrando cyfarchiad yr Esgob Watson o Landaf, wrth gonffirmio, ar y pwysigrwydd o addysgu plant yn ieuainc, ac argymhelliad i'r swydd o ysgolfeistr; a gobeithiai yntau fod rywbryd yn alluog i wneud hyny. Pan ddechreuodd cynllun Dr. Bell ddyfod i ymarferiad, efe a geisiodd ac a gafodd gyfarwyddiadau yn y cynllun hwnw, mewn ysgol i'r perwyl a sefydlesid yn Abergafenni yn 1812, a sefydlodd fel meistr ysgol o'r

Digitized by Google

fath yn Brynbuga. Ond yr oedd ei feddwl yn barhaus ar y lleoedd tlodion ac anfoesol a welsai pan yn teithio fel *pedler*, ac wedi cael adeiladu iddo ysgoldy yn Defanden—yr hwn oedd hefyd ei ysgoldy, ei gegin, a'i ystafell-wely—efe a gasglodd yn nghyd tua chant o blant gwylltion, diddysg, ac anfoesol, y gymydogaeth, ac a ddechreuodd ar ei waith y dydd cyntaf, a phob dydd yn barhaus, trwy ddarllen Gair Duw a gweddio. Yr oedd eglwys Cilgwrrwg yn hollol esgeulusedig, ac nid oedd gwasanaeth ynddi ond anfynych. Efe a lwyddodd gyda'r plwyfolion i wella ychydig ar yr adeilad, a chwanegodd ei hunan y bwrdd cymuno a'i addurniadau, a helaethu y ffenestr ddwyreiniol, hyd i ddim llai na £30 o draul. Pan ddygwyd Cymdeithas Genadol yr Eglwys i sylw yn y gymydogaeth yn 1820, efe a benderfynodd danysgrifio ceiniog yn yr wythnos iddi, a deuddeg swllt yn y flwyddyn, ac unwaith rhoddes £10 ar unwaith; ac hyd yn nod roddion ychwanegol ar hyny, pan fyddai cyfraniadau y cyfranwyr arferol yn brinion. Yr oedd yn cyfranu hefyd i'r Gymdeithas er lledaenu Cristionogaeth yn mhlith yr Iuddewon ac i Gymdeithas y Morafiaid. Efe a adeiladodd yr Ysgoldy bron ar ei gost ei hun, er nad oedd ei gyflog ond £20 yn y flwyddyn. Triniai tuag erw a haner o dir gardd, a thrwy hyny pesgai fochyn neu ddau. Yr oedd hefyd yn adwerthu blawd i'w gymydogion yn fân bwysau, ac enillai felly o bedair i wyth punt. Yr oedd yn rhoi y £5 a gai oddiwrth y moch i Genadaeth y Morafiaid. Yr oedd ganddo bleser mawr yn y gorchwyl o gadw ei ysgol—yr oedd yn hoff o'r plant, a'r plant ohono yntau. Yn 1827, mynodd drwyddedu ei ysgoldy plaen er cynal addoliad. Gwnaeth y lle i fynu i'r dyben hyny hyd i £25 o gost. Gan fod y lle wedi ei droi fel capel, ni fynai gynal ysgol ynddo hefyd, ond ymdrechodd trwy gasglu, i adeiladu ysgoldy arall yn ymyl; ac ymdrechodd gael gwaddol gweinidogaethol er cynal gwasanaeth parhaol yn yr hen ysgoldy. Tanysgrifiodd ei hun £20 o'i brinder. Cyhoeddwyd hefyd lyfryn o'i hanes, yr hwn a aeth trwy bedwar o argraffiadau, a daeth oddiwrth hwnw ryw £24, ac mewn tanysgrifiadau eraill hyd i tua £700, â'r oll yn gynyrch ymdrechiadau y dyn tlawd, duwiol, ymdrechgar, a hunanymwadol hwn. Cysegrwyd y capel Medi 18, 1838, gan yr Esgob Copplestone. Prynai lyfrau i'w rhanu i'r tlodion; a chafwyd yn mhlith ei bapurau gydnabyddiaeth am £15 a dalasai yn un swm am rifedi mawr o'r gwaith a elwir *Persuasion to Early Piety*. Yr oedd yn ymohebu hefyd â'r awdwr, ac ar ei gais ef y darfu i'r awdwr hwnw ymgymeryd â chyfansoddi llyfr buddiol arall o'r enw *Parental Care*, trwy iddo addaw cymeryd dau cant ohonynt i'w dosparthu yn rhad. Wedi iddo osod Defanden mewn sefyllfa obeithiol, efe a feddyliodd am le arall a elwir y Graig, yn mhlwyf Llandeilo Cresseny. Nid oedd un capel, eglwys, nac ysgoldy newydd trwy yr holl wlad, na byddai ganddo ef rhyw law ynddo. Penderfynodd symud i Langadog, a sefydlu yno ysgol, heb ddim tâl, na chanddo obaith am ei gynhaliaeth yno ond a ddamweiniai. Gwelodd adfywio crefydd ac addysg yno, a moesau y werin yn llawer mwy gweddus. Ond ymlethodd yn hollol o'r diwedd tan bwys ei lafur a'i ofal mawr; ac wedi byr gystudd bu farw Hydref 2, 1849, yn 84 oed.—*G. Lleyn MSS.*

DAVIES (Parch. James), oedd frodor o Lanelli, sir Gaerfyrddin. Nis gwyddom ddim o hanes bore ei oes. Ordeiniwyd ef yn weinidog Annibynol yn Llanwrtyd, Brycheiniog, yn 1710; ac ysgytiodd yr holl wlad yn fuan trwy ei bregethu hyawdl a phoblogaidd. Wedi tario yno am tua deng mlynedd, symudodd i Ferthyr Tydfil, ac yno drachefn am

Digitized by Google

ugain mlynedd yn mhellach parhaodd yn anterth ei fri fel pregethwr godidog; ac yna daeth ystorm i'w gyfarfod yr hon a chwalodd holl gastell teg ei enwogrwydd yn chwilfriw mân, ac a'i gorfu yntau i encilio i ddinodedd ac annefnyddioldeb am y gweddill o'i oes:—Yn 1738, ordeiniwyd Mr. Richard Rees, yr hwn oedd aelod cyfoethog yn ei eglwys, i fod yn gydweinidog ag ef. Yr oedd Mr. Rees wedi derbyn ei addysg yn Nghaerfyrddin, tan Mr. Perrot, ac fel y mwyafrif o ddysgyblion y gwr hwnw, efe a drodd allan yn Arminiad, tra yr oedd yr hen weinidog yn Galfiniad selog. Felly, pregethai Mr. Davies, gyda'i hyawdledd anarferol, ddaliadau y duwinydd o Switzerland, tra y defnyddiai Mr. Rees ei dalentau, ei ddysg, a'i gyfoeth, i ledaenu egwyddorion Arminus, yr Is-ellmyn. Parodd hyn gynhwrf mawr yn yr eglwys, yr hyn a derfynodd mewn ymraniad. Ymneillduodd y blaid Arminaidd, a chodasant addoldy iddynt eu hunain yn Cefncoed y Cymer; ond er iddynt hwy symud ymaith ni ddaeth heddwch i eglwys Merthyr, gan fod llawer o bobl yn mysg yn ddwyblaid yn berthynasau a'u gilydd, ac yn cydymdeimlo y naill a'r llall, er yn gwahaniaethu mewn pwnc o athrawiaeth. Yn wir, profwyd yr hen wireb hono yn y ffrwgwd, "fod gwaed yn dewach na dwfr." Er hyn oll, yr oedd y gweinidogion cymydogaethaethol yn pleidio Mr. Davies, a'r eglwysi cylchynol yr un modd, hyd 1750 pryd yr ymsefydlodd yno ei fab, Mr. Samuel Davies, yntau hefyd o goleg Caerfyrddin, gyda'r bwriad o "gynorthwyo ei dad, a chyfanu y rhwyg." Ond nid hir y bu y gwr ieuanc talentog hwn yno na ddechreuodd efe bregethu Pelagiaeth noeth; a'i dad, fel Eli, a ddystaw oddefodd yn ei blentyn yr hyn a wrthwynebasai mor selog yn Mr. Richard Rees. Bu hyn yn achlysur iddo golli ymddiried y blaid Galfinaidd cystal â'r un Arminaidd. Ni chredai yr un ohonynt ei fod yn ddidwyll. Fel hyn y syrthiodd un o bregethwyr disgleiriaf y 18fed ganrif yn aberth i gynddaredd ei hymbleidiau athrawiaethol. Bu Mr. Davies farw Ebrill 29, 1760.—Rees' *Noncon. in Wales.* Ceir hefyd yn yr un llyfr lythyr caruaidd o waith Mr. Davies, dyddiedig Mawrth 3, 1738–39, at y Parch. H. Harris yn gwahodd y gwr enwog hwnw i dreulio wythnos mewn pregethu yn ardal Merthyr ac Aberdar.

DAVIES (JAMES). *Gwel* IAGO AB DEWI.

DAVIES (PARCH. JENKYN), Twrgwyn, oedd fab i un Evan Davies, blaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn y lle crybwylledig, a gwr a gymerodd ran flaenllaw yn ymneillduad yr enwad hwnw oddiwrth yr Eglwys Sefydledig. Ganwyd Jenkyn tua therfyn y ganrif ddiweddaf. Cafodd ei ddwyn i fynu yn fanwl a gofalus, ac yn ofn ac athrawiaeth yr Arglwydd. Bachgen tawel, hoff o neillduaeth, ydoedd, yn caru encilion pur a dystaw natur o flaen trybestod chwareugar a gwamal ei gyfoedion. Telid ymweliadau mynych â thy ei dad gan rai o brif ddynion y cyfundeb; a byddai y plentyn Jenkyn yn fynych yn hawlio eu sylw trwy ei heneidd-dra sylwgar, a'i ddyfodol gobeithiol yn enyn eu cywreinrwydd prophwydoliaethol. Mynych y dywedodd Ebenezer Morris mewn syndod uwchben rhagargoelion teg y bachgen Jenkyn, "Beth fydd y bachgenyn hwn?" Un tro, yr oedd y gwr enwog hwnw yn holi Ysgol Sabbathol Pensarn, ac yn mhlith pethau eraill gofynodd y cwestiwn tra anarferol hwnw, sef "Pa bryd y dechreuodd yr oruchwyliaeth efengyl-aidd?" Wedi bod hir ddystawrwydd atebai Jenkyn fychan yn wylaidd "Marwolaeth Crist oedd terfyn yr hen oruchwyliaeth, ac adgyfod iad Crist oedd dechreuad y newydd." Penderfynodd ei rieni ar feithrin a

Digitized by Google

rhoddi pob cefnogaeth i anianawd feddylgar y plentyn, gan y dirgel gredent fod y Nefoedd a'i llygad arno, ac yn ei fwriadu i fod o ddefnyddioldeb i'r achos goreu. Pa fodd bynag, dilys iddo gael pob mantais a allasai rhieni yn eu sefyllfa, eu hamgylchiadau, a'u hoes hwy eu cyfranu iddo. Anfonwyd ef i ddechreu i ysgol mewn pentref a elwid Llwyndafydd, wedi hyny i Aberteifi, a thrachefn i'r Ceinewydd; a dywediad cyffredin y sawl a ddeuent i gydgyfarfyddiad ag ef ydoedd, "Mae hen ben ar Sianco."

Yr oedd Jenkyn Davies wedi ymroddi i gyrhaedd gwybodaeth. Llosgai gan awyddfryd i feddianu ac i ddarllen llyfrau;—"ni ddiffoddai ei ganwyll ar hyd y nos, gan lynu wrth ei lyfrau hyd hyfryd doriad y wawr:" a mynych y cymhellid ei fam, rhag niwed i'w iechyd, ei anfon oddiwrth y llyfr i'r gwely, pan yn aros yn hwyr i ddarllen. Cadwyd ef dros ystod ei febyd a'i ieuenctyd yn nhŷ Dduw; methwyd ei faglu gan hudoliaethau y byd, na'i ddyrysu gan dueddiadau y cnawd; gorchfygwyd y temtasiynau a ymosodai arno trwy awdurdod Gair Duw. Er ei fagu yn eglwys Dduw gan ei rieni, yr oedd yn 16 oed cyn ei dderbyn yn gyflawn aelod. Yr oedd arbenigrwydd neillduol arno ar ol hyn, yn ngwresogrwydd ei weddiau, ac yn ei lafur diflino i ymgydnabyddu â'r Beibl yn ei holl ranau. A rhwng ei lafur cyson a pharhaus dros lawer o flynyddoedd, a'i gof cryf, yr oedd yn anhawdd cael neb yn ei oes yn fwy cydnabyddus na Jenkyn Davies yn nghynwysiad ac yn ymadroddion yr Ysgrythyrau. Yr oedd ei ddrychfeddyliau yn mron oll wedi eu gwisgo âg ymadroddion, ac yn cael ei traddodi yn ffugyrau a chyffelybiaethau, yr Ysgrythyrau.

Yn yr ysbaid hwn yr oedd yn llafurio llawer gyda'r Ysgol Sabbathol, a chododd i sylw neillduol a defnyddioldeb nodedig yn y rhan yma o waith yr Arglwydd. Derbyniai lawer o anogaethau o bryd i bryd i bregethu, ond ymddangosai yntau yn lled hwyrfrydig i anturio at y gwaith pwysig, ac ni wnaeth hyny ychwaith nes oedd yn llawn 28 oed. Ofnai fod ganddo rhy fach o brofiad o bethau yr efengyl, yn ei yspryd ei hun, i'w chyhoeddi i eraill;—rhy fach o wybodaeth yn athrawiaethau yr efengyl i'w hagoryd i eraill;—a rhy fach o hyfdra a dawn ymadroddi i fod yn fuddiol mewn lle mor gyhoeddus â'r pulpud,—"eto," ebe efe wrth gyfaill iddo, "os bydd yr eglwys yn gyffredinol yn galw arnaf, nis gallaf anufuddhau yn hwy." Nid oedd eisiau ychwaneg; yr oedd pob aeddfedrwydd yn meddyliau ei frodyr er's amser maith, a llawen oeddynt ei fod yn boddloni i dderbyn eu galwad. Dechreuodd ar y gwaith o bregethu Crist yn gyhoeddus yn y fl. 1825. Yr oedd disgwyliad mawr wrtho gan y rhai a'i hadwaenai, ac ni chawsant eu *siomi*. Fe fu yn ddyfal i osod ei hun yn brofedig gan Dduw, yn weithiwr difefl, yn iawn gyfranu gair y gwirionedd. O hyn allan, nid oes genym nemawr o amgylchiadau hynod yn ei oes i'w coffâu. Yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth, yr oedd y brawd hwn yn dyoddef gan yr un anfantais, a lluaws o'i frodyr o'i flaen ac ar ei ol ef, sef milwrio dros ei Arglwydd, ac ymrwystro â negeseuau y bywyd hwn ar yr un pryd. Gweithiai yn galed ar hyd y dydd gan ddarparu dros yr eiddo, a'r nos a dreuliai i ddarllen a myfyrio. Nid ydym yn clywed ei fod yn edrych ar hyn ychwaith yn *iau drom*, ond fel un yr oedd ei galon yn y gwaith, —un a "roddai ei ysgwydd yn ngwasanaeth ei Arglwydd," elai rhagddo yn ddyfal a dystaw, gan gynyddu mewn gwybodaeth a dawn, ymwreiddio mewn gras a phrofiad, a dwysâu mewn cymeriad a dylanwad gyda'i frodyr.

Digitized by Google

Neillduwyd ef i holl waith y weinidogaeth yn y fl. 1833, a pharodd yr ysgogiad hwn iddo ymgysegru yn llwyrach nag o'r blaen i weinidogaeth yr efengyl. "Anhawdd," medd ei fywgraffydd, "oedd cael un yn fwy derbyniol yn ei eglwys gartrefol, na'r brawd hwn; yn wir, yr oedd y prophwyd hwn mewn anrhydedd yn ei wlad ei hun. Ymddiriedid iddo lawer o achosion dyrys ei ardal;—byddai dynion digrefydd yn cyrchu ato, i ymgynghori ag ef, ac yn gyffredin boddlonid hwynt cyn ymadael; ac ni byddai yr eglwys [chwaith yn foddlawn i drin unrhyw faterion yn ei absenoldeb. Mewn gair, efe oedd eu llygaid â pha rai y gwelent; a'u dwylaw â pha rai y gweithient. A hawddach dychymygu teimladau yr eglwys na'u hadrodd, pan glywsant ei fod yn bwriadu ymadael oddiwrthynt."

Wedi marwolaeth y Parch. Ebenezer Morris yn 1825, disgynai mwy o ofal yr eglwysi o amgylch ei gartref ar Jenkyn Davies, nag arferol. Buasai y gŵr hynod hwnw yn arolygu eglwysi y Trefnyddion yn y dosparth hyny o'r wlad, a'i dad Dafydd Morris o'i flaen, ond yn awr disgynodd y gofal hwnw, i raddau helaeth, ar Jenkyn Davies, ac anhawdd iawn a fuasai cael ei gymhwysach. Arweiniodd hyn yn mhen rhai blynyddoedd i'w symudiad o Bensarn i'r Twrgwyn i aneddu. Yr oedd ei lafur yn ystod y tymhor hwn, pa fodd bynag, yn cael ei gyfyngu i fesur helaeth o fewn y dosparth ag oedd yn neillduol dan ei ofal; oblegyd ni allai dori allan lawer dros y terfynau hyn, heb wneuthur cam â'i alwedigaeth fydol. Deallai ei frodyr hyn, a anogasant ef i ymryddhau yn fwy oddiwrth orchwylion y bywyd hwn, modd y gallai deithio mwy oddi cartref, a rhoddi prawf helaethach i eglwysi eraill o'i weinidogaeth. Ac wedi dwys ymgynghori ag ef ei hun, â'i deulu, ac â'i Dduw, penderfynodd ar ymneillduo oddiwrth y byd, ac ymroddi ei holl amser at wasanaeth crefydd. Bellach, cafodd Cymru a threfydd Lloegr ei weled a'i glywed. Yn y ddwy flynedd cyn clafychu ohono, fe deithiodd lawer, fel un a fuasai dan yr ystyriaeth nad oedd iddo ond ychydig o amser. Pregethodd, yn y fl. 1840, 315 o weithiau, ac yn y fl. 1841, 400 o weithiau. Ond yr oedd ei lafur a'i oes bron ar ben. Yn nechreu y fl. 1842, adfeiliodd ei iechyd i raddau mawr; ac er nad oedd ei afiechyd eto yn ei luddias yn llwyr i bregethu, eto ni theimlodd yn iach byth mwy, ond prysurwyd ei symudiad gan lecheden, a'i enaid a ehedodd ymaith yn Awst 10fed o'r flwyddyn hono.

Yr oedd Jenkyn Davies yn un o'r pregethwyr hyny a lafuriai lawer wrth gyfansoddi ei bregethau, a chynwysid eu hardderchogrwydd yn sylweddolrwydd eu materion, ac yn nhlysni eu cyfansoddiad. Nid oedd ei lais ond gwanaidd, a'i ystumiau ond ychydig ac unffurf. Ni chanfyddid ardderchogrwydd ei bregethau gan y werin ddifeddwl. Nid oedd ganddo lais cyffrous, i gynhyrfu y teimladau; ac ni amcanai at enill sylw trwy frawddegau tanbaid a ffugyrau gwylltion, ond yr oedd ei bregethau yn un gadwen fawr o feddylddrychau wedi eu goreuro â phur air Duw.—*Meth. Cymru; Y Drysorfa.*

DAVIES (Parch. John), Nantglyn, pregethwr parchus, dirodres, a synwyrlym, perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd, yr hwn yr oedd ei oes yn un linell hirfaith o ddefnyddioldeb—y pen cyntaf iddi yn ymestyn yn mhell i'r ganrif ddiweddaf, i ganol trybestod annghristaidd yr erledigaeth a oddefodd cyntaf-enedigion ymneillduaeth yn Nghymru, a'r pen olaf ohoni yn cyrhaedd agos i ganol hafaidd y ganrif bresenol. Gan ei fod ef ei hun wedi ysgrifenu cofiant cryno o fore ei oes, yr hwn sydd yn cynwys ffeithiau dyddorol o *sefyllfa foesol ein gwlad y pryd*

Digitized by Google

hwnw, a chan fod ei fywgraffiad bellach yn brin ac yn anhawdd ei gael, nis gallwn yn well na dyfynu ohono :—"Fe'm ganwyd yn y Glythau-uchaf, plwyf Henllan, sir Ddinbych, Hydref 1, 1760. Tyddynwr oedd fy nhad, ag oedd yn byw yno er's talm cyn fy ngeni i. Yr oedd ganddo bedwar o blant, a mi oedd yr ieuangaf. Cefais ychydig ysgol Saesneg yn Llan Nantglyn, gyda Mary Fychan, chwaer i Mr. Fychan, o'r Groes, am rai blynyddau; ond ychydig a ddysgais yno i ateb fawr ddyben. Ond pan ddaeth ysgol râd y Lady Bevan i'r ardal, fe'm rhoddwyd yn hono i ddysgu Cymraeg; ac mi ddysgais yn lled dda rhwng yno a chyda Dafydd Sion Pyrs, yr hwn oedd yn fardd, ac yn broffeswr crefydd. Yr hyn a effeithiodd gyntaf arnaf fi oedd y pethau y byddai fy mam yn eu dywedyd wrthyf am fyd tragwyddol—bod genyf enaid i bara byth—a bod dau le, nef ac uffern, ar ol marw—ac mai i uffern yr elai plant drwg a fyddai yn tori y Sabboth, yn tyngu, ac yn dweyd celwydd, &c. Byddai fy mam yn gwrando ar y Methodistiaid Calfinaidd er yn fore, mewn tai, yn y Rhyd-galed, a'r Bryn-bugad; ac ar ol dyfod adref, byddai yn adrodd rhai o'r pethau wrth y teulu. Awn inau allan rhag gwrando arni, gan y byddai yn gâs gan fy nghalon glywed dim am bethau byd tragwyddol. Pan oeddwn tuag wyth oed breuddwydiais freuddwyd, fy mod yn gweled uffern fel nant, neu badell felen, yn berwi o'r naill ben i'r llall, ac yr oedd llawer o'r rhai a adwaenwn yn y pair brwmstanaidd. Effeithiodd hyn yn rhyfeddol ar fy meddwl, ac aeth yn derfysg a dychryn *melancoli* arnaf, a rhoes wermod megys ar bob peth. Bum yn hir yn codi yn fy nghwsg, mewn terfysg blin ac ofnau, yn mron a dyrysu yn fy synwyrau. Daeth cyflwr enaid, a byd tragwyddol, i bwyso yn drwm ar fy meddwl gwan ac isel. Ond caledu a wnes wedi hyny, ac ymiachâu; a llawer gwaith y bum yn dymuno cael llonydd gan feddyliau am fy nghyflwr a byd tragwyddol. Pan oeddwn tua deuddeg oed breuddwydiais fy mod yn gweled dydd y farn; gwelwn fy hun ar y cae wrth y tŷ, â baich o bolion ar fy nghefn, yn myned i gau gyda fy nhad; a daeth mellten a tharan ddychrynllyd; a thybiwn fy mod yn canfod yr holl awyr yn goch fflamllyd; a'm bod yn dywedyd wrth fy nhad, 'Dyma ddydd y farn wedi dyfod.' Gwaeddais yn fy nghwsg nes deffro yr holl deulu; ac effeithiodd yr unrhyw arnaf am hir ddyddiau. Gwedi i mi dyfu i fynu yn bumtheg oed, aethum yn galed, anystyriol, a gwyllt: cardiau a phob chwareyddiaeth ofer oedd fy mhleser. Fe gynygiodd y diafol, am a wn i, fy ngwneud yn gyfranog o bob drwg, trwy lenwi fy nghalon â themtasiynau, a phob budreddi pechadurus. Eto cadwodd yr Arglwydd fi rhag gwneud drygau yn erbyn cyfraith y tir, &c.; ond o bob ynfydrwydd yr oeddwn yn llawn. Pan fyddwn yn tori y Sabbath santaidd byddai trymder ac euogrwydd cydwybod losgedig yn gwneud i mi adael yr hogiau, a myned o'r neilldu, ar fy mhen fy hun, i wylo a galaru; ond atynt yr awn eilwaith. Meddyliais, oddiwrth yr awyddfryd oedd ynof at bechod, na chawn byth ddigon ohono; ond cofiais lawer gwaith wedi hyny am y geiriau —'llanw ei fol â'r cibau a fwytai y moch.' Gwedi cyrhaedd deunaw oed, yr oedd pregethu wedi dyfod i'm hardal. Ar rai gweithiau awn i wrando, ond nid oedd y gair yn ymaflyd ynof i ddim pwrpas. Cefais fy ngollwng i gablu crefydd a chrefyddwyr, yn enwedig y peth a elwid *Gorfoledd*. Tua'r amser yma cefais glefyd trwm; yn nechreu y clefyd yr oedd pangfa cydwybod euog yn fy mhoeni yn ofnadwy. Yr oedd fy mhechodau, fel *biliau*, yn dyfod i'm cof; ac ofn marw, ac uffern, yn mron a fy llethu; a phob tystiolaeth fy mod yn annuwiol,

Digitized by Google

heb un golwg am le i ffoi rhag y llid a fydd, na gobaith am ddiangfa. Y pryd hyn dymunaswn fod yn rhyw greadur yn hytrach na bod yn ddyn. Deuai rhai pobl dduwiol i ymweled â mi; ond fy enaid a wrthodai ei ddyddanu; a thywyll a chaled iawn oeddwn o hyd. Bum am ddeunaw o ddyddiau heb fy synwyr, gan rym y clefyd, ond gwelodd yr Arglwydd yn dda symud y wialen, a'm hadferu yn ol; ond fel yr oedd fy natur yn iachau, iachaodd fy nghalon ddrwg hefyd—yr oedd hyn yn 1778. Yn yr hâf daeth un John Evans, Cil-y-cwm, sir Gaerfyrddin, trwy y wlad i bregethu yn mhlith y Methodistiaid Calfinaidd, ac ar ei dro daeth i Nantglyn—henffych dro! a rhyfedd yr effaith a gafodd arnaf! Fe effeithiodd yn rhyfeddol ar *Jack o'r Glythau*, nes y dychmygodd efe fod pawb yn y tŷ wedi eu haileni, a rhyfeddodd yn fawr, wedi yr oedfa, weled y llanciau yn chwerthin wrth dalcen y tŷ. Nid oedd fawr o chwerthin arno fe yn sicr, ond wylo yn hidl. O! oedfa ryfedd! Mehefin 1778! Boed cof am hon byth! Ni chefais ddim llonydd ar ol hyn heb fyned i wrando y gair, eto dyoddefais agos i flwyddyn heb fyned tan ddysgyblaeth eglwysig; a hyny oblegyd fy mod yn ofni y tynwn warth ar grefydd. Wrth wrando Mr. Davies, Castellnedd, yn pregethu ar gyfiawnhâd, oddiwrth Rhuf. iii. 24, 25, 'Yr hwn a osododd Duw yn Iawn,' &c.; llewyrchodd y peth i fy meddwl gyda gradd o gysur, a chefais gymhorth i roddi fy hun i'r Arglwydd i fyw a marw, ac am byth; a llawer gwaith y gwnes yr un peth wedi hyny. Yn 1783–4, daeth cymhelliad i lefaru yn drwm iawn ar fy meddwl; ond rhag cywilydd ni ddywedwn i neb; ac ymdrechwn i ddiffodd y cwbl, gan weddio yn daer am gael llonydd gan y meddwl hwn, am y credwn mai o'r diafol yr oedd y cwbl. Gwedi hir ymdrech adroddais fy nheimladau wrth Thomas Roberts, melinydd ag oedd yn y Felin Newydd, Nantglyn, gwr duwiol iawn, a blaenor da, yn perthyn i Dan y Fron, Llansanan. Cydymdeimlodd yntau â mi yn garedig, a chynghorodd fi i ddywedyd ychydig mewn cyfarfodydd gweddi, a gedwid yn aml yn y dyddiau hyny. Gwnaethum inau felly yn araf ac yn bwyllog; ond byddai weithiau yn tanio. Yn ngwanwyn 1785, torodd pregethwr ei gyhoeddiad ar fore Sul yn Ngwaen Segrwyd, a daeth y cyfeillion ataf i ofyn am i mi ddechreu yr oedfa, ac os na ddeuai y gwr yno, am i mi ddywedyd tipyn wrth y bobl. Gwnaethum felly, oddiar Ddameg yr Afradlawn, ac yn neillduol ar y gair 'Pan ddaeth ato ei hun.' Y Sabbath canlynol cyhoeddwyd oedfa i mi yn Nhir Siencyn, ac oedfa i *mi* oedd hono i gyd; oblegyd mi a ddyrysais, ac a ffaeliais a dweyd dim. Bu raid i mi ddyfod i lawr o ben y gadair trwy y cywilydd—a chywilydd mawr oedd ef hefyd. Bum dro ar ol hyn heb lefaru dim; ond pan dorodd rhywun ei gyhoeddiad aethum ati eilwaith tan grynu. Yr oedd fy nhad yn ddyn meddw iawn, wedi arfer hyny o'i ieuenctyd, ac yn dywyll a phaganaidd, ac fel y cyfryw yn elyn pob rhinwedd. Weithiau elai i'r Llan i'r gwasanaeth, ac yna i'r dafarn lle yr arosai gyda'i gymdeithion tan ddydd Llun. Yr oedd yn gâs iawn tuag ataf wedi i mi ddechreu gwrando; clodd y drws lawer gwaith i'm herbyn, a chefais lawer *três* a ffonod ganddo, a thrahausder ffyrnig, a minau yn *submitio* i bob peth ond tori y Sabbath. Curodd fi droiau am naccau myned i siwrneiau ar y Sabbath—rhoi yn fy erbyn fy mod yn anufudd iddo, a'm bod wedi fy *witsio* er pan aethwn at y *bobl* hyn: diawliai a rhegai weithiau fel dyn o'i go'. Bum yn meddwl ymadael ganwaith, ond fel yr oedd fy mam yn fawr yn erbyn i mi wneud hyny. Yn y tywydd blin hwn meddyliais am ei gymeryd yn fater

Digitized by Google

gweddi at Dduw; yna daeth ar fy meddwl godi addoliad teuluaidd, yr hyn oedd heb ei gael eto, er ei ddymuno lawer gwaith. Yr oedd dechreu ar y gorchwyl yn gymaint peth yn mron a cheisio symud mynydd. Cymaint ag a allwn wneud ar y dechreu oedd darllen penod y nos; yr oedd gweddio yn gyhoeddus yn ormod peth genyf hyd yma. O! mor anhawdd oedd dechreu'r gwaith, er fod fy mam yn fy nghymhell yn barhaus rhyngof fi a hithau. Ryw noswaith, fel gwraig mewn gwewyr, torais allan i nadu dros y tŷ—aeth y gwas, a'r forwyn, a mam i nadu; dywedais fod barn yn dyfod, a bod Duw yn myned i dywallt ei lid ar y cenedloedd, ac mai y teuluoedd diweddi fyddai gwrthrychau ei lid tragwyddol. Gwelwn fy nhad yn rhoddi ei law tan ei ben ar fraich y gadair; aethum inau ar fy ngliniau, ac yr un modd pawb yn y tŷ, ond fy nhad; a dyma'r nefoedd fawr yn tywallt fel gwlaw taranau—pawb yn gweiddi fel pe buasai y twca yn eu calonau; ac erbyn i mi godi yr oedd fy nhad yn gorwedd â'i bwys ar fraich y gadair, a'i ddwylaw ar y llawr, yn wylo yn hidl. Nos i'w chofio oedd hono, rhoes dro ar yr holl deulu; a dywedodd fy nhad mewn canlyniad, 'y mae rhywbeth rhyfedd ar y llanc yma, ni rwystraf fi mo hono byth mwyach,' ac ni wnaeth ychwaith. Byddai yn haws cael ceffyl i fyn'd yn awr, nag oedd cael myn'd ar draed o'r blaen."

Yna â yn mlaen i adrodd hanes telpyn bychan o erledigaeth. Yr oedd ei dad yn denant i'r Colonel Middleton o Waenynog; a thrwy fod ystiwart y boneddwr hwnw yn cashau y *Cariadocs* fel y gelwid ymneilldwyr y pryd hwnw, lluniodd chwedl wrth ei feistr nad allai tad J. D. dalu am ei *ffarm*, ac fod y mab yn perthyn i'r "bobl wylltion," ac mai y peth goreu i'w wneud oedd eu troi ymaith. Felly pan aeth yr hen ŵr i dalu y rhent, gofynodd y gwr boneddig iddo "a oedd hyny yn wir am ei fab." "Ydyw," ebai yntau, "ond y mae'r bachgen yn gweithio ei oreu, ac yn hynod o ffyddlawn." "Wel, wel, rhaid i ti ei droi ef ymaith neu gymeryd *warning*." Bu rhagor o siarad—yr hen ŵr yn amddiffyn *Jack*, ond ni fynai'r boneddwr alw ei eiriau yn ol. Cymerwn y gweddill o'r hanes o'i ysgrifbin ef ei hun:—"Daeth fy nhad adref yn o brudd, ac adroddodd y 'stori newydd, ac yr oedd hi yn o effeithiol i ni hefyd. Cynygiais fyned ymaith; ond nis cawn ar un cyfrif. Yn y cyfamser dyma'r *warning* yn dyfod yn ei phryd, a thro effeithiol ydoedd i ni oll: ceisiwyd arfer gweddi, ac ymofyn am drigfa newydd. Yn fuan ar ol hyn bu farw Colonel Middleton a'r ystiwart, a chyn diwedd y flwyddyn hon daeth y Person Middleton i feddiant o'r ystâd; a chanddo ef y cymerais y tyddyn gyda chwe cheiniog o ernes, heb ddim son am hen 'stori y *warning*."

Cawn yn nesaf bortread neu ddau tra tharawiadol o'r oes yr oedd efe yn byw ynddi;—

"Oddeutu triugain mlynedd yn ol," meddai ef, "yr oedd y bobl yn eistedd mewn tywyllwch paganaidd, ac anwybodaeth; a phawb, bychain a mawrion, yn gorwedd mewn drygioni. Ychydig oedd yn myned i'r Llanau, nac un man arall, i addoli Duw; yr oedd holl ardaloedd ein gwlad yn llawn o bob math o chwareyddiaethau ar y Sabbathau, megys, cicio pel droed, coetio, pitchio, neidio, canu a dawnsio; eraill yn y tafarnau yn yfed i ormodedd, yn dawnsio, ac yn canu gyda'r tannau. INTERLUDIAU oedd yn fawr eu cymeriad y pryd hwn; byddai llawer o bobl yn myned yn mhell o ffordd i weled a chlywed y rhai'n; a byddid yn eu cyhoeddi ar ol y gwasanaeth gan y clochydd yn y Llan; a chyhoeddid y campau yr un fath. Byddai y bobl leuainc yn cyflogi ffidler i ganu iddynt am y tymhor, ac yn rhoi llawer o arian iddo am ei wasanaeth. Cyfarfyddent yn y nos i ddweyd rhyw 'storiau, a chwedlau celwyddog, yn nghyda hanes eu cymydogion yn mhell ac yn agos. Sonid llawer am ymddangosiad ysprydion, a thylwythion teg, a chredid pob math ar goelion, swynion, a dewiniaeth. Byddai pawb yn cadarnhau pob gair a ddywedent gyda llw, ac ar eu henaid, a hyny yn aml ar gelwydd dybryd. Ar ol claddu y marw byddai y peth a alwent STOT, sef POETIO swllt y llaw i gael cwrw yn y tafarnau; ac yn niwedd y SPREE byddai cyfnesafiaid y

Digitized by Google

marw yn myned i ddiolch i'r cwmpeini, trwy roi bendith Duw ar bob un; a'r mwya' ei siom fyddai fwya' ei anrhydedd yn y fro. Y Sabbath cyntaf ar ol claddu y marw byddai yr holl berthynasau yn dyfod at y bedd, i alaru, ac i weddio ei enaid o'r purdan! O! Babyddiaeth ffiaidd! Ar ol myned adref, aent ati i chwareu cardiau, a gloddesta. Nid oedd ond ychydig iawn mewn plwyf yn medru darllen dim, a'r rhai a fedrai oeddynt bobl go fawr, wedi cael ysgol Saesneg. Byddai ambell Fibl mewn ty mawr, yn cael ei gadw mewn cist neu goffr, a chlo arno, tuag at gadw y ty rhag niwed. Yr oedd llawer o swynion yn cael eu gwneud gyda'r Bibl. Yn brawf o hyn, yr wyf yn cofio am hen wr o gymydog i mi oedd yn cael ei ffino yn dost gan yr ASTHMA sef diffyg anadl, cafodd gynghor gan rywun i roddi Bibl tan ei ben am dair noswaith. Aeth ei hen wraig i gerdded y tai am un; ac yn y Plasnewydd, Henllan, y cafodd hi hen Fibl Saesneg; pan ddaeth adref rhoddodd ef dan ben yr hen wr, a chysgodd yn dda, meddai hi! Yr oedd gwr arall, ffermwr mawr, a chanddo fuwch yn sal ar y Sabbath; ar ol rhoddi PHYSIC iddi, fe dybiwyd ei bod yn marw, rhedodd yntau i'r ty i 'nol y Bibl, a darllenodd benod iddi! Diwerth iawn oedd y Bibl gan lawer yn ein gwlad y dyddiau tywyll hyn. Un tro yr oedd y Person a'r Clochydd yn myned i roddi y cymun i ffermwr oedd yn glaf; a daeth y Clochydd i'r ty o flaen y Person, a gofynodd yr hen wraig iddo, 'Pa beth sydd genych chwi, Tomos, yn y cwd gwyrdd yna?' 'Bibl a CHOMMON PRAYER,' ebai yntau. 'Rhowch wel'd y Bibl, Tomos.' 'Dyma fo, modryb,' ebai Tomos. 'Wel, moliant i'r gwr goreu,' ebai yr hen wraig, 'ni bu yma yr un o'r blaen erioed yn ein ty ni, nac angen am dano erioed o'r blaen, moliant i Dduw am hyny.' Dyma dywylliwch! Meddwl mai rhywbeth erbyn clefyd ac angau yn unig oedd y Bibl! Cofied y bobl ieuainc sydd yn awr gyda'r gwaith, nad yr agweddd bresenol oedd ar y wlad erioed. Na, na, anialwch gwag erchyll oedd Cymru y pryd hwnw: am hyny gwyliwch i'r doldir fyned yn goed-tir yn ol. Fe a felly oni chewch chwi Dduw fyn blaid i fyned a'r gwaith yn mlaen."

Fel y crybwyllasom eisioes yr oedd erledigaeth yn beth cyffredin yn yr oes hono, a daeth J. Davies i mewn am ran o'r ddialedd. Dyma fel y bu arno un tro yn Ninbych:—

"Aethum i Ddinbych ryw Sabbath, i edrych a gawn i lonyddwch i bregethu yno. Cyn gynted ag yr aethum i'r dref, aeth yn gyffro ac yn ferw mawr drwyddi. Y crachfoneddigion a anogent y werin i aflonyddu, fel na chawn lefaru, pryd yr oedd pregethu ar fy nghalon; rhoddaswn unpeth a feddwn am gael pregethu iddynt." Nid oedd y pregethwr ar y pryd ond dyn ieuanc tua 25 oed, ac yn awr wedi ei amgylchu a dynion tebycach i cllyllon ar y pryd, na dim arall. Sychedai yntau yn fawr yn ei galon am ryw gyffiusdra i hysbysu iddynt "gynghor Duw," ond nid oedd eto un olwg y caniateid iddo agoryd ei enau; ac os meiddiai wneuthur felly, y tynai yn ei ben y llu mileinig o'i amgylch. "O'r diwedd," meddai yr hen wr, "daeth un ataf, yr hwn a ystyrid yn flaenor pob camp, ac yn ymladdwr pena'r dref, ac a ddywedodd, 'Beth, fy machgen, a wyt ti am bregethu?' 'Ydwyf,' ebe finau, 'da iawn fyddai genyf gael llonyddwch am enyd amser i lefaru ychydig.' 'Wel, myn d—l,' ebe y peflwr, a'r pastwn mawr yn ei law, 'llonyddwch a gei.'" Ar hyn esgynodd i ben gorsin, a llefodd fel udgorn nes adsain y lle, a chan godi y pastwn yn fygythiol yn uwch na'i ben, gwaeddodd, "Ho! hist! y mae y bachgen yma yn meddwl pregethu yma yrwan; a phwy bynag a i ha llonydda, neu a wna un math o deifysg i'w rwystro, DYMA FI YN DWEYD, myn d—l, dyma ei feistr," gan ddangos y pastwn. Ar hyn daeth i lawr, a dywedodd wrth J. Davies, "Dos i fynu beliach, fachgen, mi ddycha'i am chwareu teg i ti." Felly y gwnaeth; ac meddai J. Davies, "Mi a bregethais gyda rhwyd iineb mawr."—METH. CYMRU.

Bu tro arall cyffelyb arno yn nhref Fflint; a lu rhyw gyfreithiwr o'r enw Mr. Williams yn dra defnyddiol y tro hwnw i roddi atalfa ar rwysg yr erlidwyr; a chafodd y pregethwr mewn canlyniad afael yn sylw a meddwl y bobl, a bu cryn arddeliad ar y gwaith.

Ymunodd J. Davies â chrefydd yn ei dyddiau blin. Ymaflodd yn y gorchwyl ar amser nas gallai budr-elw, nac esmwythder cnawdol, na pharchedigaeth ddynol, fod yn ei symbylu. Nid yn unig yr oedd yn rhaid iddo, yn y dyddiau hyny, deithio a llafurio, heb na degwm na diolch, ond hefyd fyned a'i damaid gydag ef yn ei logell, a'i fwyta yn ochr y clawdd, a derbyn pob anfri a gwawd fel taledigaeth. Dechreuodd pan nad oedd gan y Cyfundeb ond ychydig gapelau yn Ngwynedd; yr amser pan yr oedd llawer o bregethu yn yr awyr agored, neu mewn tai anedd, neu ysguboriau. O ganlyniad, yr oedd galw mynych am ei wasanaeth, y daith yn gyffredin yn mbell, a'r ffyrdd yn anial a drwg. Ac nid oedd bwrdd cymundeb wedi ei ddyrchu eto gan yr enwad ond yn Llangeitho a dau fan arall yn Nghymru. Yno yr elai y nifer luosocaf o *Fethodistiaid* Gwynedd i dderbyn yr ordinhâd o Swper yr Arglwydd; bu J. Davies yn cerdded amryw weithiau yr holl ffordd o

Digitized by Google

Nantglyn i Langeitho erbyn Sabbath y cymundeb; a diau iddo fwynhau llawer o bleser a hyfrydwch wrth wrando gweinidogaeth yr hen Barch. Daniel Rowlands. Yr oedd J. Davies yn un o'r wyth pregethwyr lleygaidd a ordeiniwyd gyntaf gyda'r enwad yn y Gogledd yn 1811. Ac er ei fod yn hynach o ran oedran nag amryw o'r rhai a gydordeiniwyd ag ef, eto cafodd fyw i'w goroesi hwynt oll; ac yn ei angladd ef claddwyd yr olaf o'r tô enwog hwnw: er fod iddo hawl, o ganlyniad, o ran oedran a chymeriad, i gymeryd y blaen yn y cyfarfodydd misol, &c., eto, ceid cryn anhawsder i gael ganddo wneud hyny. Tueddai yn hytrach i gilio allan o sylw, ac yn wastad eisteddai ris yn îs nag a roddid iddo gan eraill; a gwnai hyny, nid o rodres a rhith ostyngeiddrwydd, ond oddiar ystyriaeth fod eraill yn well nag ef ei hun. Yr oedd llawer o ffraethineb naturiol a chyrhaeddgar yn perthyn iddo; a hynodid ei gydmariaethau gan symlrwydd tarawiadol a chartrefol. Yr oeddynt yn hollol fel efe ei hunan—yn wladaidd a pharchus. Y mae llawer iawn ohonynt ar lafar gwlad, dyma ddwy a glywsom yn ddiweddar. Un tro yr oedd yn areithio ar Ddirwest yn un o gapelau Liverpool, a chydmarai y meddwyn i galchen pan yn cael ei mwydo—yn yfed, yfed, am ychydig heb fawr arwydd fod y gwlybaniaeth yn cael effaith arni; yna gan ddodi ei ddwylaw ar ei wyneb, dolefai gyda'i lais main, "Ond Duw fo'n gwarchod, toc y bydd hi yn clecian." Dro arall, yr oedd yn dysgyblu gwr lled wár galed, wedi cynefino a'i anwiredd, "Wel, gyfaill, yr ydych yn hen droseddwr, a chofiwch chwi, mai nid gwlychu y dillad sydd yn achosi afiechyd, ond *aros* ynddynt yn wlybion sydd yn lladd y sawl a'i gwisgo." Nis gellir dweyd ei fod yn *bregethwr* mawr, ond yn nghymhwysiadau effeithiol ei gydmariaethau; er hyny, bu yn dra defnyddiol ac yn llanw cylch pwysig fel pregethwr yn ei oes a'i genedlaeth. Ac eto, os cydnabyddir, (fel y dylid, mae'n ddiau) mai nid areithyddiaeth ardderchog, na drychfeddyliau aruchel, naïaith flodeuog, ydynt hanfodion ygwir bregethwr—ond lledneisrwydd ysbryd, ymarweddiad santaidd, ymroad diflino at y gwaith, a gwedd wyneb amlwg Duw ar y dyn yn ei wneuthur yn offeryn cadwedigaeth eneidiau—yna yr oedd J. Davies, Nantglyn, yn un o bregethwyr goreu Cymru. Dydd Mawr y cyfrif a ddengys yn gywir ol ei lafur; ond a siarad tan ein dwylaw, yn ngoleuni pwl rheswm dynol, yr ydym yn dra hyderus y dilynir ei lafur mawr â chynhauaf toreithiog. Er hyny, nid oedd efe yn ymffrostgar, dyma ei eiriau ar y pwnc:—"Bum yn rhyfeddu lawer gwaith fod yr Arglwydd yn gweithio trwy offerynau a moddion mor wael. Bu llawer yn dywedyd wrthyf iddynt gael eu dychrynu a'u cynhyrfu trwy rywbeth a ddywedodd y gwael, anhymyg hwn; ond nid wyf yn ymffrostio yn hyn, ac nid wyf yn meddwl bod hyn ddim ond braint—nid yw *ddim* tuag at fy achub, dim, dim, yn y byd. Cafodd rhai fod yn weision glew am dymhor, a dywedyd wrthynt wed'yn, 'Nis adnabum chwi erioed,'—ni bu dim erioed o gymdeithas rhyngom ni. Bu llawer rhâff yn tynu cloch i alw rhai i'r Llan, a hithau yn pydru yn y clochdŷ—llawer myneg-bost yn dangos y ffordd i'r dref, ac yntau yn pydru ar fin y ffordd haf a gauaf. 'O Dduw bydd drugarog wrthyf, bechadur,' ie, y gwaelaf ohonynt i gyd, yr wyf yn sicr."

Yn 1797, ymunodd mewn priodas â Sarah Jones o Ben-y-bryn, yn mhlwyf Llanddoged, ger Llanrwst. Bu iddynt bump o blant; tyfodd tri ohonynt i gyflawn faint, a buont yn anrhydedd i'w rhieni. Treuliodd J. Davies a'i briod rhyw yspaid o ddoechreuad eu cydfywiolaeth yn y Glythau, hen drigfa ei rieni ef; symudasant oddiyno i Nant yr Hengoed,

Digitized by Google

lle y treuliasant weddill eu hoes gyda'u gilydd. Bu Sarah Davies farw yn 1837, yn 82 oed, ac yna symudodd yr hen wr at ei fab i Ddinbych; ac yno mewn henaint teg, a'i gorph yn gryf a'i yspryd yn iraidd, y gorphenodd efe ei yrfa Mehefin 10, 1843. Ei afiechyd oedd y parlys mud. Yr unig air y gallodd efe ei ddweyd yn groyw ar ol derbyn yr ergyd gyntaf o'i anhwyldeb oedd "*Cyfamod.*" Bu yn pregethu am 57, ac yn weinidog am 32, o flynyddau.—*Ei Gofiant.*

DAVIES (Parch. John), y cenhadwr i Tahiti, un o ynysoedd y Mor Tawelog. Tybir mai brodor o sir Drefaldwyn ydoedd, ac iddo gael addysg dda yn more oes, gan iddo fod yn eadw ysgol ddyddiol yn Llanrhaiadr-yn-mochnant, ac wedi hyny yn Llanwyddelan, o ba le yr aeth i ddechreu ei fywyd cenadol. Ysgrifena y Parch. R. Jones, Llanfair, fel hyn amdano, "Cofus genyf glywed fy mam yn dywedyd fod yno wylo mawr yn Llanwyddelan pan oedd efe yn ymadael." Mae yn ddiau fod newydd-deb ei ddewisiad yn enyn teimladau cynhyrfus, gan ei fod ef yn un o'r rhai cyntaf a drodd allan yn genhadwr o'r cyrau hyny. Ymrestrodd tan faner Cymdeithas Genadol Llundan, er fod lle i gasglu mai aelod ydodd cyn ei fynediad allan gyda'r Methodistiaid. Pan gyrhaeddodd Tahiti Gorph. 10, 1801, wedi bod tros flwyddyn ar y fordaith, cafodd y trigolion yn ddwfn suddedig mewn eilunaddoliaeth. Bu orfod iddo ef a'i gydgenhadon encilio o Tahiti i Huohine yn 1808, oherwydd y rhyfelau gwaedlyd a gymerent le yno. Bu yn Huohine am tua blwyddyn, ac yna ymadawodd am Port Jackson, yr hwn le a gyrhaeddodd yn Chwefror, 1810. Gan fod heddwch erbyn hyn wedi ei adferu yn Tahiti, dychwelodd yno yn 1811, a thybir ddarfod iddo dreulio gweddill ei oes yno mewn llafur a llwyddiant mawr. Parhaodd i bregethu bob Sabbath hyd yr olaf y bu ar y ddaear. Cyhoeddodd amryw lyfrau yn iaith yr ynys. Bu farw mewn tangnefedd Awst 19, 1855, yn yr 85ain o'i oedrau, a'r 55ain o'i fywyd cenadol.—*Lleyn MSS.*

DAVIES (John), yr achydd, a anwyd yn y Rhiwlas, plwyf Llansilin, sir Ddinbych. Yn 1716, efe a gyhoeddodd gyfrol fechan Saesneg, tan yr enw "Display of Heraldry," yr hon a gynwys hanes manwl o fonedd a threigl llawer o hen deuluoedd Gwynedd; ac ystyrir y llyfr yn awdurdod uchel ar y pwnc. Ar farwolaeth John Davies, syrthiodd ei ysgrifau i feddiant ei nai, John Reynolds, o'r Waen, yr hwn a'u cyhoeddodd yn 1735, mewn dull anfedrus a direol, tan y teitl "Book of Pedigrees."

DAVIES (John) o Gydweli, ydoedd fab i Wm. Davies o'r lle hwnw. Ganwyd ef yn 1625, a derbyniwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain, yn 1641, lle yr arosodd hyd oni warchaewyd y ddinas hono gan wyr y brenin; ac yna sy udwyd ef gan ei berthynasau i goleg St. Ioan, Caergrawnt. Yn Nghaergrawnt cyfarfyddodd ag amryw Bresbyteriaid gweringar, ac wrth y blaid hono y glynodd hyd adferiad y freninoliaeth yn mherson Siarl II. Tra yn Nghaergrawnt, ffurfiodd gydnabyddiaeth â John Hall o Durham, nawdd ac achles yr hwn a fu o fawr gymhorth iddo; ac ymroddodd i efrydu yr iaith Ffrengig. Yna croesodd i Ffrainc, llwyr feistrolodd yr iaith, a dychwelodd gan ymsefydlu yn Llundain, a chyfieithu llawes mawr o lyfrau o'r Ffrancaeg i'r Saesneg. Rhydd Wood restr o 36 o wahanol lyfrau a gyfieithwyd ganddo; yn cynwys gweithiau hanesiol, athronyddol, meddygol, a chlasurol, ac ad-argraffwyd llawer ohonynt, amryw droion. Tua blwyddyn cyn ei farwolaeth symudasai i'w fangre enedigol, ac yma Gorph. 22, 1693, y daeth i derfyn ei oes lafurus, pan oedd efe yn 68 oed.

Digitized by Google

DAVIES (John) D.D., oedd fab i wehydd yn mhlwyf Llanferres, sir Ddinbych, o'r enw Sion ab Rhys. Ganwyd ef tua'r fl. 1570. Hanai o du ei fam o wehelyth Ednyfed Fychan; ac y mae ef ei hun mewn llythyr o'i eiddo a argraffwyd yn y *Cambrian Register* ii. 470, yn anerch Mr. Vaughan o Hengwrt tan yr enw "cefnder." Mae yn amlwg nad oedd ei rieni yntau mewn sefyllfa isel, er mai crefftwr oedd ei dad; canys yr oedd gwehyddiaeth wledig dri chan mlynedd yn ol yn llawer amgen galwedigaeth i'r hyn ydyw yn y ganrif hon. Pa fodd bynag, yr oedd eu hamgylchiadau bydol y fath fel y medrasant fforddio addysg dda i wrthddrych hyn o gofiant. Danfonwyd ef ar y cyntaf i ysgol Rhuthyn. Nis gwyddis pa ysgol oedd hon; eithr nid yr Ysgol Ramadegol enwog a sefydlwyd yno gan y Deon Goodman, yr hon a fu yn fagwrfa addysg i gynifer o enwogion mewn amseroedd diweddarach, gan na sefydlwyd hono hyd 1595, tra yr oedd y Dr. Davies wedi derbyn ei raddau yn Rhydychain a dychwelyd yn ol i'w wlad yn 1592. Camgymeriad dybryd o eiddo yr holl fywgraffwyr ydyw y camamseriad hwn; a'r un modd pan y dywedant mai y Dr. Richard Parry oedd ei athraw yn yr ysgol hono, canys y mae hanes y Dr. Parry yn dweyd ddarfod iddo ef gael ei wneud yn ganghellydd eglwys gadeiriol Bangor yn 1592, ac yn ddeon yr un lle saith mlynedd yn ddiweddarach. Y mae Wood yn yr *Athenæ Oxiensis*, a'r Esgob Humphreys yn ei nodiadau ar waith Wood, mae'n wir, yn cadarnhau y dybiaeth; eithr dywed yr Archddiacon Newcome, warden Rhuthyn, (a phwy a wyddai yn well?) yn *Memoirs of the Goodmans* fod lle cryf i anmheu yr hanes hwn. Gan mai yn Rhuthyn y ganwyd y Dr. Parry, ac nad yw ei fywgraffwyr yn dweyd pa le y treuliodd ei amser rhwng 1579, pryd y derbyniwyd ef i'r coleg, a 1592, pan y gwnaed ef yn ganghellydd Bangor, ai nid tebygol iddo dreulio rhan o'r amser hwn yn ei dref enedigol yn cadw ysgol annghyhoedd, ac mai yn ei ysgol ef y bu Dr. Davies yn derbyn elfenau dysg, pan yr enynwyd y serch anwylgu hwnw cydrhyngddynt na ddiffoddodd yn y byd hwn hyd oni pheidiodd eu dwy galon gynes a churo? Yn 1589, gadawodd Ruthyn am Goleg yr Iesu, Rhydychain. Arosodd yno am bedair blynedd, a derbyniodd y radd o B.A. Dywed ei fywgraffydd, yn yr hen *Wladgarwr*, mai iselder ei amgylchiadau a barodd iddo adael y coleg mor gynar lle yr oedd ei glod yn uchel fel ysgolhaig rhagorol. Dychwelodd i wlad ei enedigaeth, ac ymroddodd i efrydu duwinyddiaeth a hynafiaethau Cymreig, at yr olaf o ba rai yn enwedig yr oedd ynddo duedd gref a naturiol. Yn 1594, derbyniodd ei gyflawn urddau; eithr ni chrybwyllir ddarfod iddo gael penodiad eglwysig hyd 1604, pryd y derbyniodd gan y Goron berigloriaeth Mallwyd yn Meirion. Y flwyddyn ganlynol, dyrchafwyd ei gyfaill, y Dr. Richard Parry, i fod yn esgob Llanelwy, yr hwn a benododd Dr. Davies yn gaplan iddo. Nid annghofiodd yr Esgob ei hen gydnabod, yr offeiriad teilwng a dysgedig. Bellach yr oedd cyfaill iddo mewn awdurdod, un a wyddai am, ac a gydymdeimlai a'i, amgylchiadau isel; ac y mae yn rhaid cydnabod nad arddangoswyd erioed ffafraeth swyddogol mewn gwedd mor fanteisiol, ag yn nyrchafiadau eglwysig periglor rhagorol Mallwyd, gan esgob Llanelwy. Yn 1608, wedi iddo drigianu am bumtheg mlynedd yn Nghymru, galluogwyd ef i ddychwelyd i Rydychain, lle y cafodd ei dderbyn yn ngholeg Lincoln, i ddarllen Brawddegau yr Esgob Lombard. Yn 1612, gwnaed ef yn ganonwr Llanelwy; yn 1613, cafodd berigloriaeth Llanymawddwy; ficeriaeth Darowen yn 1615, yr hon a roddodd efe i fynu ar gyfrif cael Llanfor-

Digitized by Google

gerllaw y Bala. Yn 1617, cyfnewidiodd y ganoniaeth hefyd am gôr-berigloriaeth Llannefydd, yn sir Ddinbych. Oddiar yr ystyriaethau hyn y canodd Risiart Cynwal iddo ;—

Mae iti RENTI drwy ras,
Mab dewrddoeth, mwy bo d'urddas
Mallwyd sydd am wellhad sant,
A Mawddwy yn eich meddiant
A Llanfawr, blaenawr heb ludd,
Llawn afael a Llannefydd.

Yn 1616, graddiwyd ef yn D.D. Yn 1620, cyhoeddodd Dr. Parry argraffiad diwygiedig o Fibl y Dr. Morgan ; bu y Dr. Davies o fawr gynorthwy i'w gyfaill yn nygiad allan y gwaith pwysfawr hwn ; a bernir mai iddo ef y dylid priodoli llawer o gywreinrwydd a rhagoroldeb yr argraffiad hwnw. Yn 1621, efe a gyhoeddodd Ramadeg Lladinaidd o'r iaith Gymraeg tan y teitl "Antiquæ Linguæ Britannicæ Rudimenta," yn mha un y dangosodd nid yn unig eangder ei wybodaeth o ansoddau yr iaith, eithr hefyd ei hyddysgrwydd yn ngwaith ein hen awduron. Yn ei Ragymadrodd, efe a ddywed iddo fod yn manwl fyfyrio yr iaith am 30 mlynedd. Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r llyfr hwn yn 1809, tan olygiaeth y Parch. Henry Parry, ficer Llanasa, sir Fflint. Ond yn 1632, y cafodd ei gydoeswyr adnabod gwir ac uchel alluoedd y Dr. Davies, canys y pryd hwnw y cyhoeddwyd gwaith gorchestol ei oes, sef ei Eiriadur Lladin a Chymraeg a Chymraeg a Lladin, tan y teitl Lladinaidd "Antiquæ Linguæ Britannicæ Dictionarium Duplex." Bu am 30 mlynedd yn darparu ar gyfer llyfr o'r fath, fel y tystia ef ei hun mewn llythyr at Syr John Wynn o Wydir. Gwaith y meddyg enwog Syr Thomas Williams o Drefriw oedd y ddosran Lladin-Gymreig ; ac nid yw Dr. Davies yn hawlio dim anrhydedd oddiwrth y rhan hono ond yn unig am ei chywiro a'i diwygio. Gan mai gwell y dywed ef ei hun am ei lafur mewn cysylltiad â'r llyfr hwn na neb arall, ni a ddyfynwn a ganlyn o'r Rhagymadrodd at y Darllenydd :—

"Na fydded i ti feddwl na chymerais i ddim ychwaneg o boen a thrafferth yn nghylch Geirlyfr Lladin a Chymraeg y Dr. T. Williams na'i ail ysgrifenu allan o'i 'sgrifenlaw ef ei hun ; ond gwybydd fy mod i wedi chwanegu amryw eiriau Cymreig, f'r dyben o eglurhau yn fwy cyflawn ystyr ac arwyddocad y geiriau Lladin. Yr ydwyf hefyd wedi ei ddifeio o'r aneirif feiau a'r gwallau hyny y rhai oeddynt yn bur aml yn rhedeg trwy gorph yr holl lyfr ; ac fel y byddai yn fwy perfaith, ac ar yr un pryd yn llai ei faintioli, mi a adewais allan yr holl eiriau Hebraeg a Groeg, ac amryw eraill ag oeddynt yndo, gan fy mod i yn barnu y gall y rhai hyny ag sy'n ewyllysio gwybod ystyr y cyfryw eiriau, eu chwilio hwy allan yn Ngeirlyfrau y rhagddywededig Ieithoedd....Mewn byr eiriau, yr ydwyf wedi cyfnewid, adferyd, difeio, a iachau pa le bynag yr oedd eisieu llaw'r meddyg; yr hyn sydd wedi rhoddi gwedd newydd ac arall oddiwrth yr un gysefin, fel ag y gellir ei alw yr awr hon yn waith i mi fy hun, yn hytrach na gorchwyl y Meddyg Thomas Williams, er fy mod wedi sylfaenu hwn megys ar hwnw."

Dywed Williams, awdwr parchus yr *Em. Welsh.*, oddiar y fantais a gafodd i gydmaru gwaith y Dr. Davies hefo'r ysgriflyfrau o waith Thomas Williams, na chyhoeddwyd ond bras-amlinelliad yn unig o waith gwreiddiol y boneddwr o Drefriw, gan fod hwnw wedi ei fritho â dyfyniadau gwerthfawr o'r hen feirdd, ac y byddai y cyhoeddiad ohono yn gaffaeliad pwysig hyd yn nod i'r oes hon. Dichon mai rheswm y Dr. tros adael allan y rhanau hyn o Lyfr Thomas Williams ydoedd y draul dirfawr yn yr oes hono o argraffu (at ba un y buasai y dyfyniadau yn ychwanegiad pwysig), yn nghyda chylch bychan y derbynwyr. Pa fodd bynag, safodd Geirlyfr y Dr. Davies yn y bri uchelaf am yn agos i ddwy ganrif, hyd oni chyhoeddwyd yr eiddo Dr. W. O. Pughe, ar derfyn y ganrif ddiweddaf. Cyhoeddwyd ail-argraffiad o ddosran Dr. Davies o'r gwaith, sef yr un Gymraeg-Lladin yn Amsterdam yn 1654 gan un Boxhornius, ond yn hwnw gadawyd allan yr holl gymhariaethau ac eraill. Mewn cysylltiad hefyd a Geirlyfr Dr. Davies, yr oedd rhestr

Digitized by Google

o'r beirdd a'r awdwyr Cymreig, yn nghyda hysbysiad o'r amser yr oeddynt yn oesi, ac hefyd gasgliad helaeth o ddiarebion Cymreig, ac o enwau llysiau, &c.; ac oddiwrth lythyr o eiddo y Dr. at Syr Simonds D'Ewes, ymddengys ddarfod iddo ysgrifenu deongliad i'r Diarebion hyn, a dywedir fod cyfysgrif ohonynt yn nghadw yn yr Amgueddfa Brydeinig hyd heddyw.

Dywedir mai efe a gyfieithodd y "Namyn un deugain Erthyglau Crefydd" yn y Llyfr Gweddi Cyffredin. Yn yr un flwyddyn ag yr argraffwyd y Geirlyfr y darfu y Dr. Davies gyhoeddi hefyd gyfieithiad i'r Gymraeg o'r llyfr a elwir *Christian Resolution*, gwaith gwr o'r enw Parsons. Daeth allan dri argraffiad o'r llyfr hwn wedi hyny, yr olaf yn 1803 ar draul y gwladgarol Owain Myfyr. Adroddir am dano pan y byddai yn darllen gwahanol lyfrau, ac yn cyfarfod ynddynt â rhyw ymadroddion a'i boddhai yn fwy na chyffredin, ei fod yn arfer rhoddi nodau ar ymyl y ddalen gyferbyn â hwynt. Ac ar ol ei farwolaeth, darfu i James Davies *(Iago ab Dewi)*, o Bencadair, yn sir Gaerfyrddin, gyhoeddi casgliad o'r ymadroddion hyny, a'u hargraffu yn llyfr tan y teitl "Flores Poetarum Britannicorum," yr hwn a rwymid gyda Barddoniaeth Salesbury. Arferid dangos yn llyfrgell ysgol Ystrad Meurig, bregethau mewn llaw-ysgrifen, am y rhai y dywedid mai yr eiddo y Dr. Davies oeddynt. Mynegir hefyd ddarfod i'w lyfrau syrthio i feddiant gwr o'r enw Kenric, yr hwn ryw nifer o flynyddoedd yn ol a fu yn weinidog Ymneillduwyr yn Ngwrecsam; ac ar ei ymadawiad ef oddiyno, iddynt gael eu trosglwyddo gydag ef i Gaer Wysg, a'u bod yn parhau yn meddiant rhai o'i hiliogaeth.

Y dysgawdwr yr ŷm yn sôn amdano ydoedd gariadus iawn yn mysg ei gydwladwyr, a'i goffadwriaeth a berchid yn hir gan bawb a'i hadwaenent; ac fe gafodd trigolion Mallwyd yn neillduol achos i drosglwyddo yr unrhyw i oesoedd i ddyfod, canys bu yn gymwynaswr haelionus i'r gymydogaeth hono. Dywed hanesion ddarfod iddo adael i dlodion y plwyf hwnw, tra y rhedai dwfr, ardreth maes a elwir "Dôlddyfi," yr hwn, er i'r afon dreulio cryn ran ohono ymaith, oedd yn ddiweddar yn cynyrchu tua saith bunt yn y flwyddyn. Ar ei draul eiyhun hefyd dywedir iddo adeiladu pont faen yn gyfagos i'r llan, yr hon a elwir "Pont-y-cleifion;" ac mewn dau fan yn y palmant gosodwyd llythyrenau dechreuol ei enw "J. D.," mewn ceryg gwynion, y rhai, meddir, ydynt i'w canfod hyd y dydd hwn. Adroddir drachefn iddo ail-adeiladu canghell a chlochdy yr Eglwys, ar ba un y mae yr unrhyw lythyrenau yn weledig hyd heddyw. Y Persondŷ hefyd a lwyr adnewyddwyd ganddo ef, ac yn y palmant o flaen y drws, gosodwyd y cyffelyb lythyrenau er mwyn oesoli ei enw a'i goffadwriaeth.

Ei wraig ydoedd ferch i Rŷs Wynn, o'r Llwyn Ynn, chwaer i wraig y crybwylledig Esgob Parry; ond ni bu iddynt eppil; ac ar ol ei farwolaeth ef, dywedir iddi hi briodi ei Gurad. Oherwydd helaethrwydd ei gyllid eglwysig, casglodd gyfoeth nid ychydig; a chan nad oedd iddo, fel y soniwyd, hiliogaeth i adael ei olud iddynt, efe adawodd y tir a brynasai yn y gymydogaeth (yr hwn yn yr oes hon a gynyrcha yn nghylch tri chant o bunau yn y flwyddyn), gan mwyaf, i ŵr o'r enw Wynn, nai i'w wraig, a'r rhan arall i'w nai ef ei hun. Y rhan gyntaf, meddir, yr hon oedd yn perthyn i'r Plas-uchaf, a werthwyd rai blynyddoedd yn ol; ond dywed yr hanes fod rhan ei nai ef ei hun yn aros yn meddiant ei hiliogaeth.

Ei yrfa ddaearol a ddaeth i ben Mai 15, 1644, ac felly yr ydoedd tua

Digitized by Google

74 oed; a chladdwyd ef yn nghangell Eglwys Mallwyd; ac ar ei gareg fedd cerfiwyd y bedd-argraff isod yn y Lladin, yr hwn weithian sydd wedi treulio ymaith er's llawer o flynyddoedd :—"John Davies, Dysgawdwr Duwinyddiaeth Gysegredig, Periglor Eglwys blwyfol Mallwyd, a fu farw y 15fed dydd o Fai, ac a gladdwyd ar y 19eg, A.D. 1644. Mwy coffadwy am ei rinwedd nag am ei enw."—*Cambrian Plutarch; Gwladgarwr* v. 225; *Y Brython*; Wms. *Em. Welsh.*; *&c.*

DAVIES (Parch. John), pregethwr nid anenwog gyda'r Cyfundeb Wesleyaidd yn Nghymru. Mab ydoedd i Thomas Davies, o Jamaica, ger Llanergain, sir Fflint, lle y ganwyd ef Hydref 7, 1781. Ni chafodd efe ond ychydig o fanteision dysg yn more oes; dim ond digon i'w alluogi i allu darllen ac ysgrifenu. Yn 1800, pan oedd efe yn 11 oed, daeth cenadon y Wesleyaid ar ymweliad â Llaneurgain i bregethu, ac er ieuanged ydoedd, y mae pob lle i gasglu ddarfod iddo uno â'u cymdeithas y pryd hwnw. Llosgai ei feddwl ieuanc yn fuan gan awydd i wneud daioni i'w gyd-ddynion, ac ymledai y sôn am dano fel un nerthol wrth orsedd gras. Yr oedd cyrddau gweddio mewn bri uchel yn mhlith crefyddwyr gwresog yr oes hono, ac elai "John Jamaica," yn nghwmni eraill hŷn nag ef, i'r pentrefi cyfagos i gynal y cyfarfodydd hyn. Anogwyd ef yn fuan i roddi "gair o gynghor." Yn 1804, neilldduwyd ef yn bregethwr rheolaidd; yn 1806, etholwyd ef i'r weinidogaeth; ac yn 1810, cafodd ei dderbyn yn aelod o'r gynadledd. Yn mhen pum' mlynedd ar ol hyn, cyn ucheled oedd barn ei gydweinidogion am dano, fel y dewiswyd ef yn arolygwr cylchdaith. Ymroddodd i ddyfal astudio hanes, ffurfiad, a deddfau, y Corph crefyddol y perthynai iddo; a hyn, yn nghyda uniondeb cyffredinol ei ymarweddiad, a'i dyrchafodd yn un o wyr blaenaf y Cyfundeb yn Nghymru. Yn 1827, dewiswyd ef i gynrychioli y dalaeth yn y Gynadledd; ac o hyn allan, oddieithr rhyw ddwy neu dair blynedd, bu mewn cysylltiad swyddogol â'r gynadledd hyd derfyn ei oes, naill ai fel cadeirydd talaeth, ysgrifenydd cyllidol, neu gynrychiolydd ei frodyr ar bwyllgorau neilldduol. Yr oedd ei gallineb naturiol yn ngwyneb amgylchiadau dyrys bron wedi d'od yn ddiareb; ac yr oedd ei fywyd yn gydgordiad hapus o "gyfrwysdra y sarph" gyda "diniweidrwydd y golomen." Pregethai fynychaf ar bynciau pwysig ac adeiladol, a hyny mewn dull cryno, eglur, a difrifol. Yr oedd cuddiad ei gryfder ef yn hytrach yn y gynghorfa, nag yn yr areithfa. Llanwai ei swydd gan enill parch iddi yn ei berson ei hun, edmygid ef yn fawr gan ei gydgrefyddwyr, ac ystyriai pawb yn ei bresenoldeb fel yn mhresenoldeb gwas yr Arglwydd. Yr oedd ei lafur gweinidogaethol yn aruthrol, a bu mor gywrain a chadw cyfrif o'i symudiadau yn ystod yr 21 mlynedd olaf o'i oes. Tra yn gweinidogaethu am y tair blynedd ar gylchdeithiau unedig Tyddewi ac Aberteifi, pregethodd 744 o weithiau; a'r ddwy flynedd ganlynol 533 o weithiau. O Ionawr 25, 1824, hyd Hydref 31, 1825, teithiodd 6323 o filldiroedd. Yr oedd wedi cadw cyfrif trefnus o'i lafur hyd o fewn deuddydd i'w farwolaeth, ac yr oedd cyfanswm ei deithiau am un mlynedd ar hugain olaf ei oes yn 90,905, ac yr oedd wedi teithio am ddeunaw mlynedd cyn dechreu cadw cyfrif. Yr oedd yn ddirwestwr selog: a chyda hyn fel pobpeth arall yn onest a difrifol. Yr oedd hefyd yn cashau â chas perffaith yr arferiad o fygu y ddeilen Indiaidd, neu "chwyn Virginia," fel y galwai ef y llysieuyn. Yr oedd yn cashau mwg y cyfryw a'i sawyr; a chymaint oedd ei ddylanwad ar bob cwmpeini lle y digwyddai fod, fel na feiddiai neb fygu yn ei wydd. Os deuai i ystafell fyglyd yn an-

Digitized by Google

nisgwyliadwy, byddai cynhwrf mawr yn mhlith y pibelli, ac ymlechent rhagddo am eu bywyd. Nid llawer a ddywedai, ond llefarai fel un ag awdurdod ganddo, ac ni feiddiai odid neb ei wrthwynebu. Yr unig beth a gyhoeddwyd erioed o'i waith ydoedd y rhan laf o holwyddorion y Gynadledd, tan y teitl "Cydymaith Buddiol, neu Gatechism i Blant yr Ysgol Sabbathol."

Bu yn briod ddwywaith. Ei wraig gyntaf oedd Henrietta, ferch i Cadben O. Matthews, o Aberteifi; a'i ail wraig ydoedd Mrs. Lucy Rees, gweddw y Parch. O. Rees, cenhadwr yn Gibraltar. Bu y Parch. John Davies farw yn dra disymwth yn Merthyr Tydfil, Rhag. 21, 1845, yn 64 oed. Claddwyd ef yn Mynwent y Crynwyr, yn sir Forganwg.—*G. Lleyn MSS.*

DAVIES (Parch. John), Alltwen, Morganwg. Ganwyd ef yn 1737, yn mhlwyf Llanllawddog, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd ei rieni yn aelodau o'r Eglwys Sefydledig; ond treuliodd ef flynyddoedd cyntaf ei oes yn wyllt ac anystyriol iawn. Ond pan ydoedd o gylch ugain oed, daliwyd ef gan gystudd trwm yr hyn a'i dygodd dan fendith Duw i olwg ei gyflwr fel pechadur colledig; a gwnaeth addunedau difrifol os arbedid ef y gwelid cyfnewidiad hollol yn ei fywyd. Cafodd ei arbed, a thalodd ei adduned "yn ngwydd yr holl bobl" yn Mhencadair. Er fod ei rieni yn Eglwyswyr, dewisodd ef fwrw ei goelbren gyda'r Annibynwyr. Gwedi iddo fod am amser yn aelod diwyd, cyson, a gweithgar, barnodd yr Eglwys fod ynddo gymhwysderau i gylch eangach, ac anogasant ef i ddechreu pregethu. Yr oedd yn dderbyniol iawn yn eglwys Pencadair, ac yn holl eglwysi y wlad oddiamgylch. Derbyniodd alwad gan eglwys Pentretygwyn, ger Llanymddyfri, cydsyniodd a hi, ac urddwyd ef yn weinidog yn y lle yn 1766. Ymddangosai llaw Rhagluniaeth yn ei arwain yno. Yr oedd wedi derbyn gwahoddiad o Rosymeirch yn Môn; a chan ei fod yn ddyn cryf, corffol, ac ysbryd erlid pregethwyr yn gryf iawn yn Môn y pryd hwnw, ymddangosai fod ynddo lawer o gymhwysder i'r lle; a gogwyddodd ei feddwl i fyned, a chychwynodd tuag yno—ond "nid eiddo gwr ei ffordd"—cauodd Rhagluniaeth ei lwybr—cloffodd ei anifail, ac yn Mhentretygwyn yr arhosodd, a bu yno am bedair blynedd yn ddefnyddiol a llwyddianus iawn.

Yr oedd y Parch. William Evans, Cwmllynfell, ar ei wely angau wedi galw swyddogion yr eglwysi ato; ac wedi crybwyll enw Mr. Davies, Pentretygwyn, fel un cymhwys i fod yn olynydd iddo yn Nghwmllynfell a'r Alltwen. Rhoddodd yr eglwysi alwad iddo, derbyniodd yntau hi, ac ymsefydlodd yn eu plith yn 1770, a bu yno yn llafurio gydag ymroddiad mawr hyd nes y dirwynodd llinyn ei oes i ben Rhag. 4, 1821; ar ol bod yn wyliedydd effro ar furiau Sion am 60 mlynedd. Claddwyd ef yn mynwent Llangiwc, "lle y gorphwys ei gnawd mewn gobaith." Bu yn briod ddwywaith, ond ni bu iddo blant. Claddwyd y gyntaf 40 mlynedd o'i flaen; a gadawodd yr ail yn weddw ar ei ol.

Fel dyn, yr oedd Mr. Davies o gorff cryf, esgyrniog, a nerthol iawn. Ymddangosai dewrder yn ei wynebpryd. Ond nid corph mawr yn unig oedd ganddo; meddai ddeall cyflym a bywiog. Ac er fod llawer o erwinder yn ei ddull, yr oedd ynddo galon garedig a theimladau cynes. Ar ei aelwyd gartref y gwelid ei galon yn eglur. Rhaid ei fod o wneuthuriad cadarn cyn y gallasai ddal i lafurio dros gyhyd o amser mewn gwlad o fath yr hon yr oedd yn byw ynddi. Cyrhaeddai maes ei

Digitized by Google

lafur o'r Alltwen i Gwmaman, ac o Gwmaman i'r Graigarw. Ar y maes lle y llafuriai ef ei hunan y mae yn awr 12 o gapeli cyfleus; ac 8 o weinidogion gweithgar.

Fel Cristion yr oedd o gymeriad gloyw. Cadwodd ei wisgoedd yn lân mewn oes lygredig. Yr oedd ynddo hoffder mawr at helwriaeth. Byddai yn aml yn cario ei ddryll gydag ef pan yn myned o'r naill gapel i'r llall. Yr oedd wedi bod yn was gwr boneddig yn ei ieuenctyd, ac yr oedd yr hen elfen yn gryf ynddo. Ni buasai hyny yn cael ei oddef mewn dyn cyffredin, ond yr oeddynt wedi cynefino â'r peth ynddo ef fel na wnelid nemawr sylw ohono. Cadwodd deimladau crefyddol bywiog yn yr eglwysi dan ei ofal. Yr oedd ynddo fwy o dân a gwres nag oedd yn yr hen Ymneillduwyr yn y dyddiau hyny yn gyffredin. Syniai yn uchel am brofiad ysprydol o grefydd. Fel pregethwr a gweinidog safai yn uchel iawn yn ei enwad. Yr oedd yn ddarllenwr mawr ac yn fyfyriwr manwl. Calfiniad pur gryf ydoedd—nid yw yn debyg i neb yn ei oes bregethu cymaint ag a bregethodd efe ar gyfiawnhâd. Yn wir, y pynciau mawrion yna sydd hanfodol i iachawdwriaeth oeddynt ei destunau gwastadol. Ond yr oedd yn mhell iawn o ddweyd dim a dueddai i arwain neb i benrhyddid. Gosodai bwys mawr ar fuchedd dduwiol. Yr oedd fel bugail gofalus, yn bwrw golwg dros ei holl braidd. Gorphenodd ei yrfa mewn oedran teg, ei "ddiwedd fu tangnefedd."

DAVIES (Parch. John) D.D., canon yn esgobaeth Durham, a anwyd Rhag. 1795, yn mhlwyf Llanddewi-brefi, Ceredigion. Ei dad oedd James Davies, uchelwr, yn byw ar ei dir ei hun yn Hendre Phillip; a'i fam oedd Jane, merch i Mr. Richards, Garnlwyd, plwyf Llanbadarn-odwyn. John oedd y 3ydd mab, a'r 6ed plentyn, allan o ddeg i'r rhiaint hyn. Derbyniodd ei addysg ar y cyntaf yn benaf gan y diweddar Barch. Eliezer Williams, ficer Llanbedr, a meistr yr Ysgol Ramadegol yn y dref hono. Wedi iddo dreulio rhai blynyddau yn Nghymru, bob yn ail yn dysgu ac yn cael ei ddysgu, aeth i Loegr yn Ion. 1815, a chafodd le fel athraw cynorthwyol mewn ysgol. Bu yn mynychu Rhydychain am dymhor neu ddau, ac yna symudodd i Gaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn B.D. yn 1830, ac yn D.D. yn 1844. Ordeiniwyd ef gan esgob Norwich, a bu am rai blynyddau yn beriglor St. Pancras, Chichester. Yn 1840, dyrchafwyd ef gan yr Esgob Maltby i fod yn beriglor Gateshead, a gwnaed ef yr un pryd yn feistr ysbytty St. Iago, yn esgobaeth Durham; ac yn 1853, gwnaed ef yn ganon anrhydeddus yn yr un esgobaeth. Priododd foneddiges Saisnig, a bu iddo bump o blant, dau yn unig o ba rai ddarfu ei oroesi ef. Bu farw Hydref 21, 1861, pan yr ydoedd ar ymweliad er mwyn ei iechyd âg Ilkley Wells, yn sir Gaerefrog.

Yr oedd yn awdwr llyfrau rhagorol. Ei waith mawr cyntaf oedd y llyfr athronyddol a dysgedig hwnw, a deitlid, "An Estimate of the Human Mind, being a Philosophical Enquiry into the Legitimate Application and Extent of its Leading Faculties, as connected with Principles and the Obligations of the Christian Religion." Cyhoeddwyd y llyfr hwn yn Nghaergrawnt yn 1828; a daeth ail-argraffiad allan ohono yn 1847. Rhai o'i lyfrau eraill ydynt: "First Impressions,"—cyfres o lythyrau tra dyddorol ydyw y llyfr hwn wedi eu hysgrifenu o Ffrainc, Switzerland, a Savoy, at y Parch. Ganghellydd Raikes, ac yn cynwys syniadau gwreiddiol y Canon Davies pan edrychodd am y tro cyntaf ar y gwledydd rhamantus a enwyd. Cyhoeddwyd hefyd o'i waith

Digitized by Google

lawer o fân draethodau a phregethau ar wahân; yr oll yn arddangos meddwl coeth a dwfn-ddysgedig.

DAVIES (JOHN LLOYD), Ysw. Gellir gyda phriodoldeb mawr restru y dyn rhyfedd hwn yn mysg enwogion sir Aberteifi. Ganwyd ef yn yr Old Black Lion, Bridge St., Aberystwyth, ar y 1af o Dachwedd, 1801. Bu farw ei dad pan oedd ef ond lled ieuanc, tua phump oed; a phenderfynodd ei fam weddw, yr hon oedd ddynes bwyllog a hynod o synwyrol, roddi ei phlant yn yr ysgolion goreu o fewn cyrhaedd; a chafodd ein gwron ei roddi yn yr ysgol oreu yn Aberystwyth, lle y derbyniodd ei addysg gyda llwyddiant mawr nes dyfod ohono tua 13 oed. Yna anfonwyd ef i Westbury, sir Amwythig, i ysgol enwog a gynelid y pryd hyny gan un Mr. Meredith. Wedi aros yno am tua dwy flynedd a haner, siaradai ei feistr yn uchel iawn am dano, fel llanc ieuanc gobeithiol, yn meddu ar ryw alluoedd annghyffredin, ac y byddai yn debyg o dori cryn ffigiwr yn y dyfodol. Yn fuan dychwelodd o'r ysgol, a gosodwyd ef gyda chyfreithiwr yn nhref Aberystwyth, o'r enw Hopley, gyda'r bwriad o'i ddwyn i fynu yn gyfreithiwr. Yn fuan ar ol hyny, daeth rhyw amgylchiadau oddiamgylch fel ag i hudo ei feistr Mr. Hopley i ymadael â'r gymydogaeth. Yr oedd J. Ll. Davies yn awr yn 17 oed; ac oherwydd ymadawiad Mr. Hopley, cafodd ei drosglwyddo i swyddfa Mr. Walters, o Gastell Newydd Emlyn, yr hwn oedd gyfreithiwr enwog neillduol. Arosodd yno nes y daeth ei brentisiaeth i derfyniad; ac wedi iddo fyned drwy arholiad yn llwyddianus yn Llundain, cymerodd Mr. Walters ef yn *bartner*, ac yn fuan iawn dechreuodd dynu sylw y cyhoedd fel dadleuydd grymus, nerthol, ac anwrthwynebol, yn cario pob peth o'i flaen drwy lysoedd cyfreithiol Deheudir Cymru. Yr amser hyn, daeth Mr. Walters i feddiant o etifeddiaeth led eang, a rhoddodd heibio ei alwedigaeth fel cyfreithiwr, gan adael ei Swyddfa a'i *Practice* i J. Ll. Davies, yr hwn oedd erbyn hyn yn 24 oed. Gan fod ein gwron mor alluog fel cyfreithiwr, ac yn ddyn hoffus, pwyllog, caruaidd, a neillduol o hardd, ac o arferion perffaith foneddigaidd, rhoddodd boneddiges urddasol a chyfoethog, sef Mrs. Steward, gweddw y diweddar Colonel Steward, o Blaendyffryn, sir Gaerfyrddin, ei serch arno; ac wedi ychydig garwriaeth, priododd y foneddiges uchod. Bu iddynt un mab o'r enw Arthur Lloyd Davies Lloyd, yr hwn a fu farw yn lled ieuanc, ar ol priodi, a gadawodd ddau o blant y rhai sydd yn awr yn fyw. Yn 1845, etholwyd J. Ll. Davies yn uchel sirydd dros sir Aberteifi. Yr oedd ef yn awr yn neillduol o gyfoethog, wedi dyfod drwy ei wraig i feddiant o etifeddiaeth Blaendyffryn. Yn 1853, bu ei foneddiges farw; ac yn mhen dwy flynedd ar ol hyn, sef yn Chwefror 1855, gan fod Mr. Davies wedi dyfod erbyn hyn yn foneddwr o ddylanwad neillduol yn y Deheudir, yn enwedig yn sir Aberteifi, cafodd wahoddiad i ddyfod i'r maes er cynrychioli Bwrdeisdrefi Aberteifi yn y Senedd, yn erbyn John Evans, Ysw., dadleuydd cyfreithiol o Hwlffordd; a dychwelwyd ef gyda mwyafrif mawr. Yn 1857, priododd Mr. Davies yr ail waith goda Miss Hardwicke o'r Grange, Titherington, sir Gaerloyw, yr hon oedd yn hanu o deulu uchel iawn. Parhaodd Mr. Davies i gynrychioli y Bwrdeisdrefi hyd ddadgorphoriad y Senedd yr un flwyddyn. Ni ddaeth yn mlaen yr ail waith i geisio ei eisteddle yn y Senedd, oherwydd rhyw afiechyd, ac ymneillduodd o bob maes cyhoeddus i breswylio yn ei balas Blaendyffryn, un o'r palasau ardderchocaf yn y Deheudir. Bu farw ei ail wraig Chwef. 27, 1860, yr hyn a effeithiodd yn ddwys ar feddwl ein gwron; a buan wedi hyn

Digitized by Google

dechreuodd afiechyd wreiddio yn ddyfnach yn ei gyfansoddiad, fel y bu yntau farw y mis canlynol, Mawrth 21, yn y 59 mlwydd o'i oedran, gan adael dau fab o'r ail wraig, y rhai a symudwyd at eu perthynasau ar ol marwolaeth eu rhieni. Y llinell amlycaf yn nghymeriad y diweddar J. Ll. Davies ydoedd gwroldeb a phenderfyniad. O'r dydd y cychwynodd ei yrfa pan yn fachgen o amgylchiadau cyffredin yn chwareu hyd heolydd Aberystwyth, hyd nes y daeth yn gynrychiolydd Bwrdeisdrefi Ceredigion yn Senedd Prydain Fawr, bu diwydrwydd, gwroldeb, a phenderfyniad, yn cydweithio yn barhaus er ei dderchafu i'r fath safle urddasol. Dygodd Mr. Davies gynygiad gerbron Tŷ y Cyffredin Chwef. 8, 1856, ar fod i'r Tŷ ymfurfio yn Bwyllgor er ystyried y priodoldeb o wneud Aberteifi yn nawdd-borthladd *(Harbour of Refuge)*, y gwaith i gael ei ddwyn oddiamgylch gan alltudion; ond ni phleidleisiodd ond 44 tros y cynygiad, er iddo gael ei ddwyn gerbron mewn dull grymus neillduol. Ceidwadwr-Rhyddfrydol o ran ei farn wleidyddol oedd Mr. Davies. Yr oedd yn ddyn a digon o wroldeb a gallu ynddo i ganlyn yr oes. Siaradodd amryw weithiau yn y Tŷ nes peri i'r Saeson goleddu syniadau uchel iawn am ei alluoedd gwleidyddol. Cyfoder mwy o'i fath eto i gynrychioli Cymru yn Senedd Prydain Fawr.

DAVIES (Parch. John Phylip), neu fel y gelwid ef yn gyffredin "Davies o Dredegar," oedd weinidog enwog gyda'r Bedyddwyr. Ganwyd ef Mawrth 12, 1786. Yr oedd ei dad yn offeiriad Bangor a Henllan, yn sir Aberteifi. Dywed y Parch. D. R. Stephen, yn ei gofiant, iddo fabwysiadu golygiadau y Bedyddwyr wrth ddarllen llyfrau ei dad, cyn gwybod fod y fath enwad mewn bod; yr hyn sydd hynod, gan fod ewyrth iddo, sef y Parch. Daniel Davies, Talgoed, yn weinidog i'r Bedyddwyr, ac yn byw yn agos ato. Pa fodd bynag am hyny, ymunodd yn fore â'r Bedyddwyr, a dechreuodd bregethu yn ieuanc. Priododd yn ieuanc, ond collodd ei wraig yn mhen y flwyddyn. Aeth ar daith i'r Gogledd, ac ordeiniwyd ef yn weinidog yn Nhreffynon yn 1810. Efe oedd y gweinidog cyntaf i'r Bedyddwyr yn sir Fflint. Symudodd oddiyno at y Cymry i Liverpool i weinidogaethu, a phriododd eilwaith ferch o deulu uchel yn sir Fflint, yr hon oedd fath o Xanthipe yr ail, ac a fu yn groes drom iddo hyd ei fedd, tra yr oedd yntau yn ei bwyll a'i larieidd-dra yn tebygu llawer i Socrates. Symudodd o Liverpool at y Cymry i Lundain; ac oddiyno drachefn i Lanyferi a Chydweli, yn sir Gaerfyrddin. Tra yn y lle olaf a nodwyd, dechreuodd ei fywyd awdurol. Cyfieithodd a chyhoeddodd "Esboniad Andrew Fuller ar Lyfr y Datguddiad,"—cyfieithiad hynod o anystwyth. Yn 1818, symudodd i Dredegar, sir Fynwy; a bu yno hyd ei farwolaeth Awst 23, 1832. Isel, mewn cymhariaeth, oedd achos y Bedyddwyr yn Siloh, Tredegar, pan ymsefydlodd Mr. Davies yno; canys, er fod rhif yr aelodau yn 220, eto dylid cofio eu bod yn wasgaredig yn Sirhowy, Rhymney, a Phenycae, lle y mae yn awr yn y cylch hwnw ddeuddeg o eglwysi blodeuog. Mae yn syndod iddo allu dal ei boblogrwydd yn yr unfan cyhyd o flynyddau, a chymaint o guro arno. Ymosodai llawer o weinidogion mwyaf dylanwadol yr enwad arno gyda ffyrnigrwydd, a chauent eu capeli yn ei erbyn, oblegyd ei farn Fulleraidd. Yr oedd ei deulu yn lluosog, a'i wraig mor annhywaith ac afradus, fel nad oedd modd iddo ymgadw o ddyled, ond fel y byddai cyfeillion yn ei achub; ac yr oedd ei iechyd mor wan, fel y byddai yn fynych am wythnosau a misoedd yn analluog i bregethu. Ond yr oedd amlder ei groesau, a'i addfwynder

Digitized by Google

a'i dawelwch yntau odditanynt, ei dduwioldeb eglur, swyn a dylanwad anorchfygol ei ddawn fel pregethwr, a'i serchawgrwydd cymdeithasol, yn gorchfygu pob peth.

Ysgrifenodd lawer i *Seren Gomer* ar y ddadl Fulleraidd, yn 1822–'23, dan yr enw "Mab Dewi Ddu." Cyfieithodd "Lythyrau Ymadawol Ward y Cenhadwr," yn 1826. Safai Mr. Davies yn uchel fel Cymreigydd, a dygai fawr sel dros ei iaith, ei wlad, a'i genedl. Cyd-lafuriai yn hyn â Brychan, Ab Iolo, Carnhuanawc, ac eraill. Yr oedd Cymreigyddion Tredegar yn flodeuog yn 1825. Traddododd araith gywrain ar yr Iaith Gymraeg y flwyddyn hono, yr hon a ymddangosodd yn y *Seren* a'r *Gwyliedydd*. Amcanodd wneud Geirlyfr Cymraeg oll, er na chyhoeddwyd dim ohono. Diau mai fel pregethwr y rhagorai Mr. Davies; nis gellir son am ei enw wrth ei hen ddysgyblion, na fydd dagrau yn d'od i'w llygaid yn y fan. Rhagorai yn fawr fel meddyliwr goleu, esboniwr eglur, a llefarwr effeithiol. Parodd gyfnewidiad amlwg yn nghymeriad pregethu gyda'r Bedyddwyr yn Ngwent a Morganwg, a phrynodd y rhyddid ymadrodd a fwynheir gan weinidogion yr oes hon. Cyhoeddwyd cyfrol o'i "Draethodau Duwinyddol," ar ol ei farwolaeth, gyda ei nodweddiad fel Cristion, pregethwr, ac awdwr; gan ei ddysgybl ffyddlawn ac athrylithgar, y diweddar Barch. D. Rhys Stephen; yr hon gyfrol a ail-gyhoeddwyd yn yr Unol Dalaethau.

DAVIES (Parch. Jonathan), Pentretygwyn, oedd bregethwr da ac awdwr medrus. Ganwyd ef mewn lle o'r enw Cae'rllwyn, plwyf Llywel, sir Frycheiniog, yn 1796. Yr oedd ei fam yn aelod, a'i dad, er nad yn aelod, eto yn wrandawr cyson ac athraw Ysgol Sabbathol, gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Cafodd addysg grefyddol dda gan ei rieni, a digon o ysgol fel ag i'w alluogi pan yn dra ieuanc i ddarllen Cymraeg a Saesneg. Ymunodd â'r eglwys yn Mhentretygwyn pan yn 21 oed; a phan yn 23, dechreuodd bregethu. Bu am yspaid yn ysgol y Neuaddlwyd, tan addysg y Dr. Phillips. Yn 1826, priododd Elizabeth, merch ei hen weinidog y Parch. J. Morgan. Symudodd i fyw at ei dad-ynnghyfraith, lle y bu hyd ddydd ei farwolaeth. Achos ei afiechyd olaf ydoedd cael gwely llaith pan ar daith i bregethu; yna ymaflodd y darfodedigaeth ynddo, a gwaelai yn raddol hyd awr ei ymddatodiad, yr hyn a gymerodd le Mawrth 12, 1831. Yr oedd Mr. Davies yn ddarllenwr mawr a manwl; nid oedd odid i gangen o wybodaeth nad ydoedd wedi treiddio iddi; a dygai y cyfan "i'w hongian yn offrwm ar drostan y Groes." Ei brif ragoroldeb fel pregethwr ydoedd yn ei ddull goleu a medrus o egluro yr Ysgrythyrau, ac yn dwyn dyfnion bethau Duw gerbron y llygad mwyaf pwl. Diogi tymhorol ac ysprydol oedd ei gasbeth, gweithio oedd ei bleser; a pha ryfedd?—yr oedd yn byw megys ar gyffiniau byd arall, ac angau yn taflu ei ddelw ar ei wyneb gwelw. Ymddangosodd aml i erthygl alluog o'i eiddo yn *Lleuad yr Oes;* a gadawodd o'i ol mewn llawysgrifen lawer o draethodau gwir haeddianol o wyneb haul a llygad goleuni.

DAVIES (Joseph), ydoedd frodor o Lanfair-yn-Muallt. Yr hyn a'i dygodd i sylw ydoedd ei waith yn sefydlu, yn cyhoeddi, ac yn golygu cylchgrawn dwyieithawg, yn Liverpool yn 1828, o'r enw "Brud a Sylwydd;" ac ymddengys mai ei gynyrchion ef agos yn unig a lenwai ddalenau y cyhoeddiad hwnw. Yr oedd ei feddwl o'r cymeriad mwyaf treiddgar, ac yn orgyfoethog o wybodaeth. Yr oedd wedi manwl chwilio agos holl ganghenau gwybodaeth. Yr oedd yn meiddio gwahaniaethu oddiwrth ddewrion yr oes ar wahanol gangenau gwyddoniaethau.

Digitized by Google

Yr oedd yn tybio fod y Creawdwr wedi ysprydoli meddwl y dyn cyntaf â gwybodaeth gyflawn a pherffaith, ac âg iaith berffaith i draethu ei syniadau. Dadleuai ef mai y Gymraeg, o achos arwyddolrwydd ei llythyrenau a'i geiriau, ydyw y cyfrwng mwyaf dymunol i weinyddu addysg; gan y gwnai, ond ei harferu yn fedrus, ddeffroi sylw plant, cynorthwyo y deall i ddosparthu a rheoleiddio syniadau yn y modd mwyaf trefnus, ac hefyd argraffu egwyddorion yn y modd dyfnaf ar y côf. Dechreuodd "Eiriadur Ieith-gelfyddydol," yn yr hwn y bwriadai, yn y lle cyntaf, "roddi ystyr pob llythyren yn yr egwyddor, trwy ddosbeniad manwl, ac eglurhad yn ystyr geiriau o ddwy lythyren; ac, yn olaf, yn rhestr wahanol, cyfansoddion o'r rhai hyn â llythyrenau unig, neu y naill wrth y llall." Ni chafodd ddigon o gefnogaeth i fyned yn mlaen; yn wir, yr oedd yn mhell o flaen ei oes, fel ag yr oedd ei oes wedi ei golli. Naw mis yn unig y parhaodd cylchrediad y "Brud a'r Sylwydd," a bu Mr. Davies yn golledwr o lawer mwy na £100. Bu farw o'r darfodedigaeth yn y fl. 1831.—*Nodweddiad Cenedl y Cymry*, gan y Parch. Wm. Jones.

DAVIES (Cadfridog Lewis) ydoedd drydedd mab John Davies, Ysw., o'r Creigie, yn mhlwyf Llanbadarn-fawr, sir Aberteifi, lle y ganed ef yn 1777. Efe a ymunodd â'r fyddin yn 1791, fel banerwr yn yr 31ain gatrawd, lle yr oedd ei frawd hynaf, John Maurice Davies, yn gadben; ac yr oeddynt gyda'u gilydd yn y fyddin ar y Cyfandir yn 1794. Yn 1796, yr oedd gyda Syr Ralph Abercrombie yn yr India Orllewinol, a chafodd ei glwyfo wrth gymeryd St. Lucia, pan y derbyniodd raglawiaeth. Dyoddefodd lawer yn y lle hwn oddiwrth y dwymyn felen, effeithiau yr hwn a'i hollol analluogodd dros 12 mis. Yn 1799, cafodd Gadbeniaeth, a gwasanaethodd o dan y Duc o York yn Holland, lle y bu yn cymeryd rhan yn y frwydr gyntaf ac ail yn Bergen, ac yn mrwydr Hydref 6, o'r flwyddyn hono. Wedi hyny bu yn gwasanaethu ar dueddau Ffrainc, a chyda Syr J. Pulteney yn Ferrol, a thair gwaith i fynu yn Môr y Canoldir. Yn 1804, daeth yn Uch-gadben y 36ain gatrawd trwy bryniad. Yn 1806, efe a wasanaethodd gydag Arglwydd Cathcart yn Hanover, ac wedi hyny gyda y Maeslywydd cyffredinol Cranford yn Mhenrhyn Gobaith Da, o'r lle y gorfodwyd ef i ddychwelyd yn ei ol gan afiechyd. Yn nesaf, bu gyda Duc Wellington yn Portugal, —yn mrwydrau Brillos, Rolcia, a Virniera. Yr oedd hefyd gyda Syr John Moore yn Hispaen—yn y brwydrau ger Lugo a Corunna. Gwasanaethodd wedi hyny gyda Iarll Chatham yn ngwarchaedigaeth Flushing, ac yn cymeryd ynys Walcheien. Efe a hysbyswyd yn Rag-Filwriad y 36ain gatrawd Ionawr 7, 1812, ac yn Mawrth canlynol gorchymynwyd iddo gymeryd llywodraethiad y gatrawd hono, o dan Duc Wellington, lle yr ymenwogodd ei hun yn fawr, canys cafodd yr anrhydedd o lywodraethu y rhuthrwyr yn yr ymosodiad a chymeryd caerfeydd St. Gaetena, La Mercede, a monachdŷ St. Vincent yn ninas Salamanca; a llywodraethodd yr adran Iaf o'r 36ain gatrawd yn y frwydr fawr a ddilynodd, lle y derbyniodd fathodyn. Yr oedd wedi hyny yn y gwarchae ar Burgos, wrth droi yn ol o'r ywn le tua Portugal, ymaflodd poenau y crydcymalau mor llym ynddo ag a'i difeddianodd o nerth ei goesau, ac o ganlyniad ei analluogi i wasanaeth mwy. Yn Medi 1806, gwnaed ef yn gydymaith o'r anrhydeddusaf Urdd Milwrol y Bath, ac yn fuan cyrhaeddodd y rheng o Uch-Faeslywydd. Wedi dychwelyd o'r Orynys, efe a dreuliodd weddill ei oes, yn ei balas, Tanybwlch, ger Aberystwyth, mewn parch mawr

Digitized by Google

gan wreng a boneddig. Bu farw Mai 10, 1828, yn 51 oed. Efe a briododd Jane, ail ferch i Matthew Davies, Ysw., o Gwmcynfelyn, o'r hon y cafodd hiliogaeth dri mab a merch, y tri cyntaf o ba rai a'i gorfywasant ef.—*G. Lleyn, MSS.*

DAVIES (MILES), a anwyd yn Tre'rabbot, etifeddiaeth a fuasai yn meddiant ei deulu er's oesau lawer, ac a safai yn mhlwyf Rhydwen, sir Fflint. Ychydig a wyddis o'i dreigliad personol. Tybir iddo fod yn offeiriad, ond nid oes sicrwydd am hyny. Pa fodd bynag, yr oedd yn ysgolhaig da, yn dra hyddysg yn hanes llenorol ei wlad, ond yn dra anffodus yn marchnad cynyrchion ei wybodaeth eang a'i dalent ddiamheuol. Yr oedd yn elyn ffyrnig i Babyddiaeth, Ariaeth, a Sosiniaeth; ac yn deyrngarwr gwresog ar frenhiniaeth Sior I. a'r olyniaeth Hanoveraidd. Gadawodd ei wlad, aeth i Lundain; ymlynodd wrth y gyfraith, canys geilw ei hun yn *Counsellor at Law*, ac y mae yn un o'i lyfrau draethawd hirfaith ar gyfraith a chyfreithwyr. Yma y daeth allan fel awdwr yn y dull mwyaf gostyngedig, heb ymfoddloni ar gyflwyno ei lyfrau i'r mawrion, ond yn myned allan i'w gwerthu o ddrws i ddrws, ac yn cyfarfod yn aml â dirmyg a geiriau chwerwon, ac anfynych â chefnogaeth a charedigrwydd. Ni wyddis am ba hyd y bu wrth y gwaith hwn, nac ychwaith pa bryd y bu farw. Y mae Isaac Disraeli, yn "*Calamity of Authors*," wedi cymeryd cryn drafferth i arbed ei enw rhag ebargofiant, a thybia ef fod meddwl Davies wedi dyrysu oherwydd tlodi a siomedigaethau. Ymddengys ddarfod iddo unwaith geisio enill serch yr awen; ond derbyniad lled oeraidd a gafodd. Cyfansoddodd gân yn Lladin, tan y teitl, "Martii Calendæ, sive Laudes Cambro-Britanniæ;" mawl i Ddewi Sant ydyw y gân hon, a cheir dyfyniad cywrain ohoni, yn hanes plwyf Whitford, gan Pennant. Y mwyaf a'r cywreiniaf o'i lyfrau ydyw yr un a gyhoeddwyd yn amryw gyfrolau 8plyg, tan y teitl cyffredinol "Athenæ Britannicæ, 1715." Math o lyfr-hanes, bywgraffiaeth, ac erthyglau beirniadol, ydyw y gwaith; a dywed Baker, yr hynafiaethwr, fod y rhan fwyaf ohono wedi ei gymeryd o ysgrifeniadau haneswyr diweddar, ond er hyny ei fod yn cynwys rhai pethau annghyffredin ac anhawdd eu cael. Gelwir y gyf. laf yn "Icon Libellorum," neu hanes beirniadol Traethodau. Yn hwn, geilw ei hun yn "*Gentleman of the Inns of Court.*" Cynwysiad y cyfrolau eraill ydyw hanes awduron Caergrawnt a Rhydychain. Y mae y gwaith yn brin iawn; ni welodd Dr. Farmer ond un ohonynt; na Baker ond tair, y rhai sydd yn awr yn nghadw yn ngholeg St. John, Caergrawnt. Y mae saith cyfrol yn yr Amgueddfa Brydeinig. Gellir casglu, oddiwrth yr "Icon Libellorum," fod Davies yn gydnabyddus iawn ag awduron Saisnig, eu llyfrau, a'r gwahanol argraffiadau ohonynt, a'i fod yn achlysurol wedi edrych i mewn i weithiau awduron tramor. —Chalmer's *Biographical Dictionary.*

DAVIES (PARCH. OWEN), un o weinidogion cyntaf y Trefnyddion Wesleyaidd yn Nghymru, ac awdwr amrai lyfrau duwinyddol yn yr iaith Gymraeg. Ganwyd ef yn Ngwrexsam, yn 1752. Symudodd yn ieuanc i Lundain; ac yno ymunodd â'r enwad crybwylledig. Yn 1789, penodwyd ef yn bregethwr cynorthwyol; a bu yn ffyddlawn a llafurus gyda'r gwaith hwnw am rai blynyddau, pryd y tynwyd sylw Mr. Wesley ei hun at ei dduwioldeb, ei sêl, a'i weithgarwch. Ar gais Mr. Wesley, symudodd i Fanceinion, yn 1740; a bu yn llafurio mewn amryw gylchdeithiau yn Lloegr hyd 1800, pan y penderfynodd y gynadledd ar ffurfio cenadaeth yn Ngogledd Cymru. Dewiswyd Mr.

Digitized by Google

Davies i fod yn arolygwr y genadaeth hon, ac mewn canlyniad symudodd i fyw i Ddinbych. Yn mhen tair blynedd, gwnaed y Gogledd yn dalaeth o'r Cyfundeb, a dewiswyd ef yn gadeirydd arni o tan arolygiaeth y Dr. Coke. (*Gwel* COKE). Bu ei ddoethineb a'i bwyll arafaidd o fawr fudd i'r enwad yn ffurfio cylchdeithiau, dewis pregethwyr, &c. Parhaodd yn y swydd hon hyd 1817, pan yr ymadawodd â'r achos Cymreig, ac yr ymsefydlodd yn Liverpool fel gweinidog cyffredin gyda'r Saeson. Pa fodd bynag, ni pharhaodd yn y sefyllfa hon rhagor na blwyddyn, gan iddo gael ei uwchrifo (*superannuate*) yn 1818. Cartrefodd yn Liverpool o hyn hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Ionawr 12, 1830. Yr oedd yn ŵr addfwyn, gwastad ei dymher; ac yn ymarfer cymaint â moddion gras, fel mai anfynych, os byth, y cythryblid ei dymher. Meddianai alluoedd naturiol tra chymwys i'r swydd o weinidog yr Efengyl. Hynodid ei bregethau gan symlrwydd ac eglurder, a'u gwnelai yn ddealladwy i bawb; tra yr oedd eneiniad amlwg yn dilyn ei ymadroddion, ac yn eu gwneud yn dra effeithiol. Ymddangosai yn ei ddyddiau olaf yn mwynhau cysuron yr Iachawdwriaeth a bregethasai gynifer o weithiau i eraill; ac yn ymorphwys ar Grist mewn gobaith cadarn am anfarwoldeb gogoneddus. Ei lyfrau ydynt:—1, "Amddiffyniad i'r Methodistiaid Wesleyaidd, 1806." 2, "Ymddyddanion rhwng Hyffordd a Beread ar yr Athrawiaethau Calfinaidd ac Arminaidd, 1807." 3, "Sylwadau ar lyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Mr. T. Jones [o Ddinbych], 1808." 4, "Llythyr at Mr. T. Jones." 5, "Catecism i Blant ac eraill, 1811." 6, "Deuddeg o Bregethau ar wahanol Destunau, 1812." Cyhoeddwyd hefyd luaws o'i Bregethau yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd.—G. Lleyn MSS.*

DAVIES (PARCH. RANDOLPH), M.A., ydoedd ficer Meifod o 1648 hyd 1695. Ni wyddis ond y nesaf peth i ddim am dano yn bersonol ond a geir yn nghoflyfr y plwyf hwnw; yn ol yr hwn, darfu iddo briodi yn eglwys Meifod, hefo un Jane Williams, yn 1648. O'r briodas hon, bedyddiwyd yn yr un eglwys 13 o blant rhwng 1649 a 1666. Ymddengys mai gwr lled ystwyth ei gydwybod ydoedd, ac fel y cyfryw tra erlidgar ei ysspryd. Cafodd fywiolaeth Meifod yn ystod rhwysg y Weriniaeth, gallodd ddal ei afael o'r swydd pan ddaeth Siarl II. i'r orsedd; ac yn 1675, cyhoeddodd lyfr, yn cynwys 237 tu dal., tan y teitl "Prawf yr Ysprydion, neu Ddarganfyddiad y Gau Brophwydi, a Gwahardd-rybudd i'w gochelyd; neu Draethawd byr ar 1 Ioan iv. 1. Yn mha un y datguddir, yn ngoleuni Gair Duw, esboniedig gan hynafiaeth, fod amrywiol athrawiaethau y Papistiaid, Presbyteriaid, Annibynwyr, a Chrynwyr, yn annghyson â'r Ysgrythyr Lân, ac i'w gofalus ochelyd gan bob Dyn sydd yn caru Iachawdwriaeth ei Enaid." Dichon mai y blaid olaf a enwyd oedd yn blino mwyaf ar ficer Meifod; gan fod y Crynwyr yn lluosog ac yn myned ar gynydd mawr y pryd hwnw mewn rhanau o Faldwyn. Claddwyd Mr. Davies, yn ol cof-lyfr crybwylledig. Chwef. 25, 1695.—*Cam. Quarterly Magazine*, i., 325.

DAVIES (RICHARD), y Crynwr, a anwyd yn y Trallwm, yn 1635, o rieni parchus. Arddangosodd duedd gref at ddarllen, yn enwedig llyfrau duwinyddol, pan yn blentyn; ac yr oedd yn hynod y pryd hwnw am grefyddolder ei ymddygiadau, a llymder ei ddysgyblaeth arno ei hun. Dodwyd ef yn egwyddorwas gydag un Evan Jones, gwneuthurwr a gweithiwr brethyn, yn Llanfair, Maldwyn. Gwrandawodd lawer ar Vavasor Powell. Dechreuodd bregethu gyda'r Annibynwyr trwy ailadrodd pregethau a glywsai, "a chyflawni yr arferiad oedd yn ein plith

Digitized by Google

o weddio wrth ein hewyllys ac yn ein hamser ein hunain." Mewn dadl ddamweiniol ag aelod o gymdeithas y Crynwyr a ddaethai o'r Deheudir, enillwyd ef i gofleidio egwyddorion yr enwad hwnw, tua 1657. Ymroddodd i ledaenu ei egwyddorion newydd gydag aidd a sêl ddi-ildio, yr hyn a'i gwnaeth yn wrthddrych mynych garcharau; ond nis gallai dim fènu ar ei ysbryd tanbaid, ac yr oedd ei oes yn un gyfres o sêl a duwiolfrydedd. Erlidiwyd ef yn dost gan brif deuluoedd Powys, ond yn benaf gan un David Maurice o Langynlleth, yr hwn a foddwyd ger ei dŷ; ac y mae un ffaith na chyhoeddwyd am yr erlidiwr hwn o'r blaen—er cymaint ei sêl tros yr Eglwys, bu farw a threth eglwys heb ei thalu hyd heddyw arno yn y plwyf hwn. Bu R. Davies mewn dadl â'r Esgob Lloyd, yr hon a ddygid yn mlaen yn yr ysbryd mwyaf addfwyn ac efengylaidd, ac mewn dull a barai anrhydedd mawr i'r ddau ddadleuydd hybarchus; a phan adawyd yr esgob gan gyfeillion, y collodd ei fywiolaeth, ac y carcharwyd ef gan y Werin-lywodraeth, oblegyd iddo gymeryd plaid y brenin yn y gwrthryfel, ei brif gyfaill a chysurydd oedd Richard Davies y Crynwr. Ymwelai yn fynych â Llundain, ac yr oedd efe yn un o'r un-ar-ddeg a ddewiswyd yn 1702 i gyflwyno anerchiad i'r fronhines; ac ar ei ddychweliad adref trwy Worcester, galwodd gyda'i gyfaill yr esgob Lloyd, a dyma'r tro olaf i'r ddau weled eu gilydd. Y mae chwe' argraffiad wedi eu cyhoeddi o gyfrol fechan o hanes dychweliad, ymarferion, gwasanaeth, a theithiau, y gwas hynafol hwnw i Grist, Richard Davies, a chrybwyllion am Grynwyr oedranus eraill, ac am ledaeniad y gwirionedd yn Ngogledd Cymru. Y mae y gyfrol wedi ei hysgrifenu mewn arddull seml yn yr iaith Saesneg ganddo ef ei hun; a cha yr hanesydd Cymreig lawer o ddyddordeb wrth ei darllen, a llawer o ddefnyddiau ynddi at ffurfio barn gywir am ansawdd crefydd a chymdeithas yn ein gwlad yn ystod 17eg ganrif. Bu Davies farw yn y Cloddiau Cochion, Ion. 22, 1708, a chladdwyd ef yn drefnus yn y beddlan ger ei dŷ.

DAVIES (Richard), D.D., un o gyfieithwyr yr Ysgrythyrau i'r iaith Gymraeg—y rhai y mae cyffyrddiad â'u henwau yn tori y blwch nardus, ac yn llanw y tŷ âg arogl yr enaint.' Yr oedd ei dad, Dafydd ab Gronw, yn gurad plwyf y Cyffin, gerllaw Conwy; ac mewn lle o'r enw Plas-y-Person yn y plwyf hwnw y ganed yr Esgob Davies, yn 1501. Derbyniodd ei ddysg yn ngholeg y New Hall, Rhydychain. Ni wyddis pa raddeg a gyrhaeddodd yn y coleg; na dim, ond a ddywedwyd uchod, am yr haner can' mlynedd cyntaf o'i oes. Yn 1550, cafodd ficeriaeth Burnham, sir Buckingham, gan y brenin ieuanc Iorwerth VI.; ond pan fu farw y brenin hwnw, ac y daeth Mari a Phabyddiaeth i'r orsedd, difeddianwyd ficer Burnham, yn mhlith eraill, oblegyd ei fod yn briod, a bu mor ffodus a llwyddo i ddianc o Brydain i Geneva, Switzerland. Yno, efe a ddyoddefodd lawer o dylodi a thrallod, gan ymddibynu ar y cyntaf am ei gynaliaeth ei hun a'i deulu ar haelioni ei gydalltudion, o ba rai yr oedd llawer yn Geneva y pryd hwnw; ond yn mhen tua thair blynedd, meistrolodd yr iaith Ffrengig, a chafodd fywiolaeth eglwysig fechan. Yn Geneva y ganwyd ei dri mab—Thomas, Peregrine, a Jerson. Ond ni bu teyrnasiad Mari ond o fyr barhad; yr oedd ei marwolaeth yn jubili i'r ffoedigion, ac yn amnaid iddynt ddychwelyd adref. Cyrhaeddodd Mr. Davies a'i deulu i Loegr yn gynar yn 1559; cafodd ei swydd yn ol gan y frenhines Elizabeth, a'i mawrhydi hefyd a'i neilluodd ef yn un o bedar gwyr dysgedig i ymweled yn swyddogol âg esgobaethau Tyddewi, Llandaf, Llanelwy, Bangor, Henffordd, a Wor-

Digitized by Google

oester. Tua diwedd yr un flwyddyn, diswyddwydd y Dr. T. Goldwell o fod yn esgob Llanelwy, a neillduwyd Davies gan y frenhines i'r swydd. Urddwyd ef Ionawr 31, 1560; ac efe oedd y Cymro cyntaf a wnaed yn esgob ar ol y Diwygiad Protestanaidd. Ni bu ei arosiad yn Llanelwy ond tros fyr amser, gan iddo gael ei ddyrchafu yn esgob Tyddewi yn Mai y flwyddyn ganlynol (1561). Cafodd ei raddio yn D.D. yn 1566. Yr oedd Dr. Davies yn un o ysgolheigion penaf ei oes; ac er clod i'w galon cystal ag i'w ben, trodd ei ddysgeidiaeth a'i ddylanwad at y gwaith aruchel a chanmoladwy o gyfieithu a dwyn allan argraffiad o'r Testament Newydd i'w gydgenedl yn eu hiaith eu hunain. Yr oedd efe y cyntaf o'r pum esgob a benodwyd trwy orchymyn y frenhines Elizabeth i gymeryd mewn llaw y gorchwyl o gyfieithu y Bibl i'r Gymraeg; ac ymddengys mai efe oedd yr unig un o'r pump a wnaeth ddim tuag at ddwyn y gwaith i ben. Yn fuan ar ol ymsefydlu yn Nhyddewi, gwahoddodd ato wyr duwiol a dysgedig, y penaf o ba rai oedd yr anfarwol William Salesbury, o Ddyffryn Conwy; a'r Parch. Thomas Huet, cantor Mynyw neu Dyddewi. Ymddangosodd yr argraffiad hwn yn 1567; cyhoeddedig yn Llundain, gan un Humphrey Toy, mam yr hwn, yn ol Syr Samuel Meyrick's *Heraldry*, oedd yn Gymraes. Anturiaeth bwysig, mewn ystyr arianol, oedd cyhoeddi y llyfr y pryd hwnw, ac y mae enw Mr. Toy yn haeddu ei barchu am ymgymeryd â'r gorchwyl. Rhaid fod Wm. Salesbury wrth y gwaith o gyfieithu y Testament flynyddau lawer cyn cael ohono ei wahodd gan yr Esgob Davies ato i'w balas esgobol yn Abergwili; canys efe a gyflawnodd y cyfan o'r gwaith ond Llyfr y Datguddiad, yr hwn a gyfieithwyd gan y Parch. T. Huet; a'r 2 Timotheus, yr Hebreaid, Iago, a dau epistol Pedr, y rhai a gyfieithwyd gan y Dr. Richard Davies. Ysgrifenodd yr esgob hefyd ragymadrodd yr hwn a gyflewyd o flaen y Testament, tan y teitl, "Llythyr Richard, gan Rad Duw, Esgob Menew, at ly' Cimbri oll." Y mae cyfansoddiad, amcan, a syniadau y "llythyr" hwn yn adlewyrchu anrhydedd mawr ar ddysg, cenedlgarwch, a iachusrwydd ffydd Brotestanaidd, yr esgob. Ailargraffwyd ef gan Morus Kyffin yn ei "Ddadseiniad Meibion y Daran," yn 1587; trydydd argraffwyd ef, yn nghydâ'r gwaith uchod o eiddo M. Kyffin, yn 1670, gan Charles Edwards, "rhag eu claddu hwynt yn nhir angof, a gadael i bryfed lwyr ddinystrio y pethau a wnaent les i lawer o eneidiau;" pedwerydd argraffwyd ef yn 1774, gan y Parch. Peter Williams; a gellir ei weled hefyd yn y *Gwyliedydd* am 1834, a'r *Gwladgarwr* am 1841. Yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd y Testament, cyhoeddwyd hefyd yn Nghymraeg y Llyfr Gweddi Cyffredin o gyfieithiad yr esgob, yn cael ei gynorthwyo gan Salesbury, y draul yn cael ei dwyn cyd-rhyngddynt. Yn ol Syr John Wynn o Wydir, "yr oedd y ddau yn mhell yn mlaen gyda chyfieithu yr Hen Destament hefyd, a gorphenasent y gwaith oni buasai i annghydweliad godi rhyngddynt parth ystyr a tharddiad un gair, er colled dirfawr i'r famiaith Frutanaidd; canys pan oeddynt gyda'u gilydd, byddai'r ddau yn tynu allan Homiliau, Llyfrau, ag amrai Bamphledau i'r hen iaith, a gwnaethent lawer yn rhagor, oni buasai yr annghydfod anffodus hwn, canys bu yr esgob byw am chwe' mlynedd yn mhellach, a Salesbury am bedair ar hugain; eithr efe a roddodd heibio ysgrifenu oddiar y pryd hwnw (fel y bu gwaetha'r modd) canys yr oedd efe yn ddysgedig annghyffredin yn yr Hebraeg, yr hyn nid oedd llawer yn y dyddiau hyny. O! y mae fy nghalon yn cynesu wrth son am y fath ddyn teilwng." Yn 1568, gorchymynodd y frenhines

Digitized by Google

Elizabeth ddwyn allan argraffiad newydd o'r Bibl yn yr iaith Saesneg, yr hwn argraffiad a adwaenir wrth yr enw "Bibl Parker;" a Dr. R. Davies a adolygodd ag a gydmarodd â'r iaith Hebraeg lyfrau Joshua, Ruth, a'r 1 a'r 2 Samuel. Yn 1577, cyhoeddodd bregeth a draddodaasi yn Nghaerfyrddin ar farwolaeth Walter, iarll Essex. Yr oedd yr esgob hefyd yn fardd Cymraeg lled dda. Un o destunau yr Eisteddfod fawr a gynaliwyd yn Nghaerwys yn 1568, oedd "Yr Eos," yr oedd yr esgob yn un o'r ymdrechwyr am y gamp; ac y mae y tri englyn canlynol yn rhan o gynyrch ei awen y tro hwnw:—

Chwerthiniad ganiad genau—yn crychu
Pwnc crechwen telynau,
Llawen yw cerdd y llwyn cau
Am Eos war a'i mesurau!

Daildai ddehuddai hoywddysg—bro diddan
Brydyddes y man-wrysg,
Sy' yn nyddu sain addysg
O'i silffau dan solffio dysg!

Clywais llawenais mewn lle—iach obaith
Chwiban mil o byncie'
O'r gwrych drain ar gyrch y dre
Eos wyt yn sio tanne?

Cadwai dŷ agored a helaethwych, yr oedd yn dra haelionus tuag at y tlawd, ac yn nawdd ac achles i ysgolheigion tylodion a beirdd ei oes. Y mae cywydd ar gael o waith Sion Tudur a gyfansoddodd y bardd ar ei ffordd o Lanelwy i

Abergwili, brig aelwyd,
A bor beirdd, a bir a bwyd.

Cwynir ei fod wedi dwyn yr haelioni hwn i gyffiniau afradlonedd; ei fod wedi tylodi esgobaeth Tyddewi, er mwyn cynysgaeddu ei deulu lluosog a moddion bywiolaeth. Rhoddodd hyn destun cân i'w gaseion; ac y mae yn rhaid cyfaddef ei fod yn llygedyn du ar ei gymeriad dysglaer. Bu farw Tach. 7, 1581, yn mhalas esgobol Abergwili; a chladdwyd ef yn eglwys y plwyf hwnw.

DAVIES (Parch. Richard), a anwyd yn sir Aberteifi yn 1659. Efe a briododd ferch i Henry Williams, o'r Ysgafell, ger y Drefnewydd, sir Drefaldwyn, yr hwn oedd annghydffurfiwr hynod yn amser Siarl II.; ac a ddioddefodd o'r herwydd erledigaethau chwerwon gan yspryd yr oes. Bu Mr. Davies yn weinidog yn Rowell, sir Northampton, am 25 o flynyddau. Yr oedd rhywbeth yn ei yspryd diwygiadol a gwresog yn debyg i Wesley a Whitfield, er ei fod yn byw ddeugain mlynedd o'u blaen hwy. Cyhoeddwyd cyfrol o'i eiddo yn 1704, tan y teitl "Faith: the grand Evidence of our Interest in Christ," a "Marwnad," ar ol ei dad-yn-nghyfraith. Bu farw yn 1714.—*G. Lleyn MSS.*

DAVIES (Parch. Richard), ydoedd fab i'r Parch. Richard Davies offeiriad cyntaf yr Eglwys Gymreig yn Liverpool. Ganwyd ef yn Rhuddlan, lle yr oedd ei dad yn gurad ar y pryd. Penodwyd ef yn Ysgrifenydd Cymdeithas Genadol yr Eglwys, yn 1841. Yr oedd ar yr un pryd yn golygu y "Church Missionary Record," a'r "Gleaner." Yn 1848, penodwyd ef yn ficer Brenchley, yn Kent. Bu farw Chwef. 6, 1854, yn 40 oed. Cyhoeddwyd cyfrol fechan o'i waith yn cynwys 17eg o bregethau, tan olygiaeth y Parch. H. Venn.—*G. Lleyn MSS.*

DAVIES (Parch. Richard), Llansadwrn, ydoedd bregethwr cymeradwy gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef yn y Bedw Gleision, plwyf Caio, sir Gaerfyrddin, yn 1770. Dechreuodd broffesu crefydd pan yn ugain oed, a phregethu yn mhen chwe' blynedd ar ol hyny. Neillduwyd ef i'r weinidogaeth yn 1815; ac wedi llafurio yn gyhoeddus dros haner can' mlynedd, bu farw yn 1847, yn 77 oed. Yr oedd yn

Digitized by Google

gyfaill mawr â'r hynod Llwyd o Gaio, gyda'r hwn y byddai yn fynych yn teithio i bregethu. Yr oedd yn bregethwr llithrig, destlus, a melus; ac y mae miloedd yn cofio yn bresenol am ddylanwadau ei weddiau gwresog a gafaelgar.—*Meth. Cymru.*

DAVIES (Robert). Bardd Nantglyn, yr hwn a gyfenwid yn nechreu ei oes farddonol, Robyn Ddu o'r Glyn, Robyn Ddu o Nantglyn, &c., a anwyd yn yr Henfryn, tyddyn bychan ger Nantglyn, sir Ddinbych, yn 1769. Ychydig a wyddom am fore ei oes, heblaw iddo gael ei ddwyn i fynu yn deiliwr, ac iddo flino ar y grefft hono yn fuan, a throi yn brydydd. Dysgybl ydoedd i T. E. o'r Nant, a dechreuodd rigymu Interludiau yn null ei athraw awenyddol; eithr ni chyrhaeddodd nemawr o fri yn y dull hwnw, er fod y Traethodl a elwir "Ewyllys Adda" yn arddangos gryn athrylith a llawer o benrhyddid. Dywedir iddo ymuno â'r Trefnyddion Calfinaidd pan yn ieuanc, a phriodi gwraig weddw, merch i bregethwr gyda'r Methodistiaid; ond ymddengys mai bèr oedd ei yrfa gyda y brodyr hyny, ac iddo ymrestru gyda'r Eglwys Sefydledig am y gweddill o'i oes. Enillodd Gadair Eisteddfod Caerwys, yr hon a gynaliwyd ar draul y Gwyneddigion, ddydd Mawrth y Sulgwyn, 1798. Y testun oedd "Cariad i'n gwlad, drwy adgofiad yr hen Eisteddfod, a defodau Cymru." Symudodd i Lundain yn 1800, a bu yno bedair blynedd. Ymddengys nad aeth ei deulu gydag ef, ond iddynt aros yn Nantglyn; eto teimlai yn hiraethlawn am danynt, canys dyn yn caru ei deulu yn fawr ydoedd, mal y dengys yr Englynion a gânt ar farwolaeth ei wraig. Dywedir ei fod yn edrych tua'r nefoedd, pan yn Llundain, ac yn hiraethu am ei gartref yn yr Englyn hwn:—

Y lloer wen, a'r glaer Fenws—a ser
Siriol y Twr Tewdws,
A rowch chwi drem goruwch y drws,
Debygwch, ar dy Begws?

Cyfansoddodd Gywydd gorchestol i swyddogion y Gwyneddigion, yn 1800, a derbyniwyd ef yn aelod o'r Gymdeithas. Efe oedd bardd y Gymdeithas am 1801, a'i Hysgrifenydd am 1802–3.—(*Origin and Progress of the Gwyneddigion Society*). Cyfansoddodd gerdd awenyddol yn dechreu:—

"Mi ganaf yn'iach i dre Llundain," &c.

a symudodd yn ol i Nantglyn yn 1804, ac yno yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth, Rhag. 1, 1835.

Y peth cyntaf a gyhoeddodd Bardd Nantglyn oedd llyfryn swllt o Farddoniaeth, dan yr enw "Cnewyllyn mewn Gwisg; sef Cnewyllyn Gwirionedd—mewn gwisg o Gynghanedd, neu gasgliad o Garolau, a Cherddi, a rhai Cywyddau ac Englynion, ar amryw destunau: pa rai na buont argraffedig o'r blaen. Gan Robert Davies, o Nantglyn." Cyhoeddodd lyfryn arall yn 1803. Ei gyhoeddiad nesaf oedd ei Ramadeg. Ar glawr y *Greal*, Mehefin 21, 1807, ceir:—"Hysbysiad. Mae Robert Davies, Bardd Nantglyn, wedi taenu cynygiadau i gyhoeddi llyfr Dosparth yr Iaith Gymraeg, gyda *Rheolau Barddoniaeth* gan D. Thomas; a gwerth y llyfr fydd dau swllt, un swllt yn rhagdaliad, y llall wrth ei dderbyn." Ni chydnabyddwyd awduriaeth Dafydd Ddu pan gyhoeddwyd y Gramadeg, yr hwn a ddaeth allan yn 1808, ac ymddengys na chafodd D. Thomas ei lwyr foddloni yn yr ymddygiad. Daeth argraffiad arall o'r Gramadeg allan yn 1818, ac un arall yn 1826, heblaw argraffiadau diweddarach. Yn 1837, cyhoeddodd grynhoad detholedig o'i Farddoniaeth, yn gyfrol ddestlus dan yr enw "Diliau

Digitized by Google

Barddas." Efe hefyd a enillodd Gadair Powys yn Eisteddfod Wrexham yn 1820, am ei "Awdl ar farwolaeth ein diweddar frenin Sior III." Dywedir iddo enill 11 o fathodau *(medals)*, heblaw gwobrwyon arianol, mewn gwahanol Eisteddfodau. Tebygol mai y tro olaf yr enillodd oedd yn Eisteddfod Beaumaris, yn 1832, pryd y cafodd ddwy wobr, un am y Cywydd ar "Dafydd yn canu y delyn o flaen Saul," a'r llall am y Chwe' Englyn goreu ar "Ymweliad eu Huchelder Breninol Duges Caint a'r Dywysoges Victoria â'r Eisteddfod Genedlaethol." Dylid nodi hefyd fod Bardd Nantglyn yn gryn gerddor, canys A. O. Pughe, Ysw., I. Glan Geirionydd, Bardd Nantglyn, a Mr. J. Parry *(Bardd Alaw)*, oedd beirniaid y canu gyda'r delyn yn Eisteddfod Beaumaris, 1832.

Tynodd Bardd Nantglyn ŵg llawer o feirdd yn 1819, canys efe, gyda Dr. Pughe a Dewi Silin, oedd ar y fainc yn Ninbych yn collfarnu Awdl Dewi Wyn ar "Elusengarwch," ac yn rhoddi y flaenoriaeth i'r "Dryw." Ystyrid hyny y camwri mwyaf a wnaed yn yr oesoedd diweddar hyn yn y byd llenyddol, a dywedir na bu nemawr o lewyrch arno yntau ar ol hyny; canys collodd y wlad ei hymddiried ynddo; ac ni fedrai beirdd Arfon oddef seinio ei enw heb ei gysylltu â rhyw oganair gwarthnodawl. Pa fodd bynag, yr oedd Bardd Nantglyn yn ddyn o synwyrau cryfion, ac yn wir garwr ei genedl. Yr oedd efe yn gyfieithydd rhagorol, mal y dengys ei gyfieithiad o'r "Messiah" gan Pope. Rhanwyd y wobr rhyngddo ef a Blackwell yn y gystadleuaeth hono yn 1826. Gwasanaethodd ei genedlaeth fel bardd a llenor, a gwasanaeth plwyf Nantglyn fel clochydd; ac yn y fynwent hono y mae ei lwch yn gorphwys, a beddfaen hardd arno.

DAVIES (Robert), Ysw., o Gwysanau, yn sir Fflint, yr hwn le oedd etifeddiaeth ei dadau. Yr oedd hefyd yn meddu y Llanerch, yn Nyffryn Clwyd, yn sir Ddinbych, trwy ei briodas âg Ann, unig ferch ac etifeddes Syr Pedr Mutton, marchog; a'r hwn, yn ei ddydd, oedd yn brif Farnydd Brawdlysoedd Gwynedd. Bu yn Sirydd sir Fflint dair blynedd, sef yn 1644–'5–'7, a thrachefn yn 1660; a buasai, yn y flwyddyn olaf a nodwyd, wedi ei wneud yn Farchog y Dderwen Freiniol, gan Siarl II, am ei wrhydri drosto, pe cymerasai y bwriad o'r greadigaeth urddasol hono le; ac yr oedd ei etifeddiaeth y pryd hyny yn werth £2000. Pan y torodd allan y rhyfel wladol, efe a gastellodd ei dŷ yn Gwysanau tros achos y brenin; ond bu raid iddo ef ei roddi i fynu i allu cryfach Syr William Brereton, yn 1645. Efe a fu farw yn 1666.—*G. Lleyn MSS.*

DAVIES (Robert), Ysw., o'r Llanerch, yn Nyffryn Clwyd, a'r Gwysanau, yn sir Fflint, ydoedd ŵyr i'r uchod. Yr oedd yn hynafiaethydd galluog, a ffurfiodd gasgliad tra gwerthfawr o Lawysgrifau Cymreig, o ba rai y mae pum' cyfrol yn aros yn Llanerch, a'r un nifer yn y Gwysanau. Bu farw Mai 22, 1728, ac y mae y cofgolofn hardd ohono i'w gweled yn eglwys Wyddgrug a'i ddelw yntau arni wedi ei delweddu mewn dullwisg Rufeinig.—*Yr un.*

DAVIES (Rhys), Saron, yr hwn a gyfenwid *Rhys y glun bren*, oedd bregethwr gyda'r Annibynwyr; bu agos i ni ei alw yn bregethwr cynorthwyol, ond mwy priodol o lawer yw ei alw yn bregethwr teithiol; canys yr oedd yn fwy nodedig ar gyfrif ei deithiau cyfnodol, nag ar gyfrif ei lafur rheolaidd o fewn unrhyw ardal neillduol—Cymru oedd ei blwyf, a'r Dywysogaeth oedd maes ei weinidogaeth. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes i bregethu yr efengyl, ac yn ol y Ddwyfol ordeiniad, efe a fu byw wrth yr efengyl. Ganwyd ef yn ardal Castellnewydd, yn

Digitized by Google

sir Gaerfyrddin, yn 1772. Ymunodd a'r Annibynwyr yn nyddiau ei ieuenctyd, ac ar gymhelliad taer y frawdoliaeth, dechreuodd bregethu yn lled fuan. Aeth i'r ysgol i Glandwr, yn sir Benfro, lle y dysgodd elfenau y Saesneg a'r Lladin. Aeth o Glandwr i Ogledd Cymru, lle y bu am dymhor yn cadw ysgol ddyddiol, gan bregethu ar y Sabbathau yn mha le bynag y byddai yn cael cymhelliad neu ganiatad. Canodd yn iach i Ogledd Cymru, dychwelodd i ardal Saron, ger Castellnewydd, ac wrth yr enw Rhys Davies, Saron, y cyhoeddid ac yr adweinid ef bellach dros amser ei ymdeithiad ar y ddaear. Pa farn bynag a goleddid am ragoriaethau a diffygion Rhys Davies fel pregethwr, cydunai pawb a'u hadwaenent ei fod yn wahanol i bobl eraill. Yr oedd y dyn oddiallan yn un hynod—talcen llydan hytrach yn isel, llygaid gwyllt, trwyn *fflat*, genau agored, a gwyneb crwn; yr oedd ei wynebpryd yn arwyddocau ei fod yn hynotach o ran teimlad a nwyd, nag ar gyfrif deall, rheswm, ac amgyffrediad. Yr oedd poethder ei dymher yn ddiarhebol; yr hyn ar unwaith oedd i'w fantais ac i'w anfantais. Cynesrwydd ei ysbryd oedd ei brif, os nid ei unig, ragoriaeth fel pregethwr. Yr oedd ei ymddangosiad yn hagr, ei lais yn aflafar, ei iaith yn sathredig, ei ystumiau yn annaturiol, a'i syniadau yn gyffredin, ond yr oedd angerddoldeb ei deimlad yn cyflymu y tra ldodiad, yn cadw ei holl wrandawyr yn effro, ac yn cynhesu calonau y dosparth mwyaf crefyddol ohonynt. Clywsom ef yn cyhuddo ei wrandawyr, yn neillduol y bobl ieuainc, o "ysgafnder," "llygadrythu," "dideimladrwydd," "arminiaeth," a'r cyffelyb, eithr ni chlywsom ef erioed yn eu cyhuddo o gysgadrwydd; yr oedd ei wedd, ei sydynrwydd, ei sêl, a'i hynodrwydd, y fath fel nad oedd yn brofedigaeth i neb gysgu dan ei weinidogaeth. Yr oedd yn llawn cyffroad wrth ddarllen y testun, yr oedd ei deimlad yn rhuthro allan fel llifeiriant gyda y frawddeg gyntaf o'i weddi, nis gallai ddarllen Salm o ddwy adnod heb boethi cyn cyrhaedd yr haner, a phrin y gallasai geisio bendith ar y bwyd heb fyned i hwyl, yn enwedig os byddai y cyfeillion a'i croesawent yn anwyl ganddo. Nis gallai gredu fod y gynulleidfa yn addoli yn ddidwyll, ac yn gwrandaw yn briodol, os na byddai yr "Amen" yn cael ei ddywedyd yn aml ac yn hyglyw. A chwareu teg i'r hen bregethwr, nid oedd am orfaelu yr hwyl a'r "Amen," canys yr oedd yn fywyd, ac yn sel, ac yn dân drwyddo, pan fyddai arall yn pregethu, yn enwedig os byddai y pregethwr yn gyfaill iddo ef, a'r bregeth yn "iach yn y ffydd."

Llawer gwaith y bu poethder ei dymher yn fagl iddo ef ei hun, ac yn brofedigaeth i bobl eraill. Unwaith, pan yn aros dros nos mewn llety cyfrifol yn y Gogledd, gan fod y daith dranoeth yn un faith, cafodd addewid am foreufwyd prydlon; cododd y forwyn ar doriad y dydd, a chododd yntau mor fore a hithau. Aeth i'r parlwr, eithr nid oedd y boreufwyd ar y bwrdd; ac i gynilo amser, dywedodd wrth y forwyn, "Dewch a'm *motas* i mi." Deallodd hithau ef yn ol iaith y Gogledd, a dechreuodd barotoi *browas* iddo, ar ol disgwyl am dipyn, galwodd drachefn yn awdurdodol am ei *fotas;* atebodd y forwyn, "Y mae ar y tân, ac yn dechreu berwi, chwi a'i cewch cyn gynted ag y medraf." Os drwg o'r blaen, saith gwaeth wedi hyn. Bu raid i'r feistres godi o'i gwely i gyfryngu rhyngddynt, a chafwyd trafferth i'w argyhoeddi mai y *browas* oedd yn berwi, a bod y *fotas (boot)* yn ddyogel. Yr oedd yn dal tyddyn bychan, ac yn codi digon o gloron i'r teulu am y flwyddyn; yspeiliwyd ef o'i gloron rhyw noson, a thranoeth, adroddai yr anffawd i'r Dr. Havard. "Wel," meddai y Dr., "Mi a ddymunwn i'r daten

Digitized by Google

gyntaf a fwytao y lleidr, ei dagu." "Amen," meddai Rhys Davies, "Tagu a wnelo."

Un o'i ystumiau hynotaf wrth bregethu, oedd taflu ei law o'i enau at y gynulleidfa. Yn fuan wedi fyned i'r ysgol i Glandwr, cafodd Mr. Griffiths gyfleusdra i'w wrandaw yn pregethu—ar ol yr oedfa, dywedai yr athraw ffraeth, "Dyna bregethwr o ffasiwn newydd; gall droi allan yn llwyddianus; hwyrach ei fod wedi ei anfon o bwrpas at y gwrandawyr cysglyd a difater, canys y mae nid yn unig yn dweyd ei eiriau â'i dafod ond yn ymaflyd â'i law, ac yn eu lluchio at y gwrandawyr." Clywsom Rhys Davies ei hun yn adrodd hanesyn yn cyfeirio at ei ddull o daflu ei law. Yr oedd yn pregethu ar brydnawn Sadwrn, mewn capel gwledig, a chyda iddo ddarllen ei destun, daeth dau amaethwr i fewn y rhai a fuasent yn y farchnad,—yr oedd y ddau wedi yfed mwy na digon, yn ol egwyddor cymedroldeb, heb son am ddirwest—pregeth yn erbyn meddwdod oedd y bregeth; eisteddai un o'r ddau a fuasai yn y farchnad ar gyfer y pregethwr, a'r llall o'r neilldu. "Dyna'r meddwyn, dyna'r meddwyn," ebe y pregethwyr, gan amneidio â'i law fel arferol: tybiodd y gwr yn y canol ei fod yn cyfeirio ato ef; cododd ar ei draed, a dywedodd, "Beth sydd ar y dyn yn cyfeirio yn gyson ataf fi? mae fy nghyfaill sydd yn y gongl acw mor feddw â minau." Tipyn o brofedigaeth oedd hon, ond taflwyd ef unwaith i un llawer mwy; yr oedd yn pregethu ar brydnawn Sabbath mewn tŷ ffarm; yn y gegin y cynelid yr oedfa, yr oedd y lle yn llawn o wrandawyr; ac yr oedd ci mawr yn gorwedd ar yr aelwyd; safodd y pregethwr yn nghongl y gegin, a'i wyneb ar yr aelwyd a dechreuodd ar ei waith, tybiodd y ci ei fod yn ei herio ef, derbyniodd y *challenge*, gan chwyrnu a dynesu at y pregethwr; cafodd y dynion cryfaf yn y llo ddigon o waith i ddofi y ci, a chafodd y dynion duwiolaf yn y lle ddigon o waith i dawelu Rhys Davies. Gan yr adwaenid ef mor gyffredinol wrth yr enw *Rhys y glun bren*, nis gall y bywgraffiad fod yn un cyfan heb hanes yr anaf. Pan ar un o'i deithiau cafodd niwed ar ei goes, yr hyn a barodd i'w droed ymchwyddo yn y *fotas*; ac yn hytrach na rhwygo y *fotas*, gadawyd hi am y troed, mewn gobaith y byddai i'r chŵydd encilio; ond yn lle hyny, trodd yn enyniad, a bu raid tori ymaith y glun yn y morddwyd. Yr oedd holi hanes yr anffawd, neu gyfeirio o gwbl at ei glun, yn drosedd mawr yn ei olwg. Gwraig barchus a diniwed, yn nhŷ yr hon yr oedd yn lletya am noson, a gyfeiriai unwaith neu ddwy at yr anaf, yntau a gyfeiriai yr ymddiddan at rhyw beth arall; ond gan fod y wraig hono, fel gwragedd yn gyffredin, yn awyddus i wybod yr hyn a amcenid ei ddirgelu, hi a ofynodd iddo yn eglur o'r diwedd, gan ddywedyd, "Mr. Davies, pa beth a gawsoch ar eich clun?" Yntau a'i hatebodd yn lled sarug, "'Rwy'n credu yn fy nghalon eich bod mewn mwy o bryder am fy nghlun I nag am eich cyflwr o lawer." Bu hyn yn foddion effeithiol i roddi terfyn ar bob ymholiad pellach. Yr oedd rhai yn ei ddiystyru oblegyd y glun bren, ond yr oedd eraill yn fwy tosturiol, yn cydymdeimlo ag ef, ac yn rhoddi iddo barch dau ddyblyg. Ar rhyw noson oer yn y gauaf, disgynodd ei goelbren i lety cysurus. Gorchymynodd y feistres dwymo y gwely i'r hen ŵr, yr hyn yn ddioed a wnaed. Aeth y pregethwr i ystafell y gwely, a dechreuodd ddiosg ei ddillad, pan gofiodd y forwyn ei bod wedi anghofio y *warming-pan* yn y gwely; rhedodd i fynu y grisiau yn ebrwydd, agorodd ddrws ystafell y gwely; diffoddodd yntau y ganwyll, a diangodd i'w wely, heb ddatod y glun bren; aeth y forwyn mor ddystaw a châth at y gwely, cafodd afael fel y

Digitized by Google

meddyliai hi ar goes y *warming-pan*, a dechreuodd dynu, pan y deallodd Rhys Davies ei bod yn ymaflyd yn y glun bren; ffyrnigai Rhys, a ffyrnigai y forwyn, a chan ei bod yn eneth hoyw a phenderfynol, tynodd ef o'i wely i lawr y llofft gerfydd ei goes. Mae yn hawddach dychmygu na darlunio ei ddrwg dymher yn wyneb y brofedigaeth hon.

Nid gorchwyl hawdd bob amser oedd cael llety iddo ef, gan fod rhai yn ofni ei ddrwg dymher, ac eraill ddim yn ei weled yn ddigon *respectable:* ond yr oedd y bobl hyny a letyent bregethwyr er mwyn yr efengyl yn ei dderbyn ef a'i anifail yn llawen. Mae un amgylchiad yn mywyd ei geffyl, (*Miller* wrth ei enw), yn haeddu ei gadw mewn coffadwriaeth!—Yr oedd Rhys Davies yn cyd-deithio â Mr. Davies, Aberteifi, a Mr. Griffiths, Hawen, i Gymanfa Llanelli; cyrhaeddasant Gaerfyrddin erbyn haner dydd; disgynasant wrth ddrws y *Drover's Arms;* llawen gyfarchwyd y ddau ŵr parchedig gan Mrs. Davies; gorchymynodd yn uchel, i John y gwas gymeryd ceffyiau Mr. Davies a Mr. Griffiths i'r ystabl, a rhoddi digon o geirch iddynt, ac mewn distawach llais ar iddo droi ceffyl yr hen Rhys Davies i'r *gard*. Wedi iddynt giniawa, cychwynodd y tri tua Llanelli; gwelwyd yn fuan fod bywyd newydd yn *Miller*—efe oedd y ceffyl goreu ar y ffordd; ac erbyn cyrhaedd gallt Penygraig, nid oedd a'i dilynai. Yr oedd ei hoywder yn syndod i bawb, ac yn ddirgelwch anesboniadwy. Aeth y gymanfa drosodd; aeth Rhys Davies i'w daith i werthu llythyr y gymanfa. Wrth ddychwelyd, galwodd Mr. Davies a Mr. Griffiths drachefn yn y *Drover's Arms*, pryd y cawsant Mrs. Davies yn tywallt melldithion ar ben Rhys Davies, oblegyd i'w hen geffyl ef y dydd o'r blaen yfed lloned celwrn o'r breci goreu a ddar lawsid erioed. Chwareu teg i *Miller!* Nid gormod ydoedd iddo yntau gael byd da am unwaith yn ei fywyd.

Gwerthfawrogid gweinidogaeth Rhys Davies gan yr hen bobl yn yr eglwysi oblegyd ei bod yn ddianmheuol Galfinaidd yn nydd rhuthr y *system* newydd; a pherchid ef gan y gweinidogion oblegyd ei fod yn ofalus a gochelgar yn ei holl ymddiddanion. Yr oedd yn gwybod hanes yr eglwysi yn well nag odid ddyn yn ei oes, ond yr oedd yn ofalus i beidio adrodd chwedlau anfuddiol a niweidiol. Bu am flynyddoedd yn gwerthu llythyrau cymanfaoedd y De. Yr oedd ef, fel llawer o'i flaen ac ar ei ol, yn rhy barod i farnu cyflyrau personau, a llwyddiant eglwysi, wrth eu hymddygiadau ato ef. Pa mor llewyrchus bynag y byddai yr achos mewn lle, os na chai ef hwyl i bregethu, ofnai fod y gogoniant ar ymadael; ond o'r tu arall, os cai hwyl go lew, efe a gredai fod y gogoniant yn y canol, a diwygiad gerllaw. Prin y credai fod neb yn dduwiol, ond y rhai a brynent lythyrau y gymanfa, ac yr oedd prynu y rhai hyny yn ddigon o iawn am gamweddau lawer. Os boddlonid ef mewn teulu, ac nid oedd yn anhawdd ei foddloni, byddai yn sicr o weddio am fendithion goreu y ddau fyd i'r "teulu duwiol" a breswyliai o dan y gronglwyd hono; ac ymadawai mewn soriant, o ba le bynag yr anmherchid ef, gan ysgwyd y llwch oddiwrth ei draed. Fel gweddiwr, yr oedd yn gynhes a thaer—a llwyddianus, ni a obeithiwn; ofnid unwaith y byddai yn rhy lwyddianus:—Pan oedd efe yn cadw ysgol yn sir Feirionydd, cymerwyd gwraig amaethwr yn ardal Dinasmawddwy yn glaf iawn ar enedigaeth plentyn; anfonwyd am y meddyg, yr hwn a wnaeth ei oreu, ond oberwydd aflwyddiant, a ddigalonodd. Anfonwyd yn ebrwydd am y pregethwr i weddio dros y wraig, yr hwn yn ddinag a gydsyniodd. Dewisodd aros yn y gegin, gan addaw gweddio yn ddigon uchel i'r wraig a'i phriod ei glywed o'r ystafell arall;

Digitized by Google

aeth yn hyderus at orseddfainc y gras, soniodd am barodrwydd Duw i wrandaw y rhai a alwent arno, cyfeiriodd at engreifftiau nodedig o lwyddiant gweddi, a dymunodd yn uchel "Dyro nerth i'th law-forwyn i esgor;" ac ar hyny ganwyd plentyn; daliai yntau ati, gan ddywedyd drachefn, "Dyro, dyro nerth i'th lawforwyn i esgor;" daeth plentyn arall i'r byd. Erbyn hyny, dychrynwyd yr amaethwr, gadawodd y wraig a'r gefeilliaid, ac aeth at Rhys Davies, gan ddymuno arno, er mwyn pob daioni, roddi fynu gweddio, onide y llenwid y tŷ â phlant. Cododd y gweddiwr i fynu yn ebrwydd, ac aeth i'w ffordd yn llawen, wedi cael ffafr neillduol yn ngolwg Duw a dynion. Gellid ychwanegu pethau difyr amdano yn ddiderfyn; ond y mae dwy ffaith yn hanes ei fywyd ydynt yn llawer mwy gwerthfawr na chyfrolau o ystoriau digrifol. Efe, pan yn cadw ysgol yn Mhenal, ar ddymuniad Mrs. Anwyl o'r Llugwy, a aeth yn gyntaf o'r Annibynwyr, i bregethu i Dal-y-bont, sir Aberteifi. Yn y fl. 1803 y bu hyn. Ar esgynfaen o flaen y *Black Lion* y traddododd ei bregeth gyntaf yno. Aeth yno drachefn, a thrachefn; dilynwyd ef gan y Dr. Phillips o'r Neaddlwyd, a'r Parch. T. Jones, Saron; sefydlwyd yr achos yn Nhalybont, yr hwn sydd wedi ymledu drwy yr holl ardaloedd cymydogaethol. Efe hefyd, pan yn pregethu mewn lle o'r enw Bedd-y-coedwr, a fu yn offerynol, yn llaw yr Arglwydd, i argyhoeddi bachgenyn o'r enw William Williams—yr hwn wedi hyny a adweinid drwy Gymru oll wrth yr enw anwyl "Williams o'r Wern." Nis gellir adrodd hanes eglwys Talybont yn llawn, heb sôn am Rhys Davies; a thra y byddo Williams o'r Wern mewn coffadwriaeth coffeir hefyd am Rhys y glun bren—anfarwolwyd y pregethwr diaddurn, yn anfarwoldeb un o'r "tri cedyrn cyntaf."

Terfynodd Rhys Davies ei oes ar y 6ed o Ionawr, 1847, ar ol pregethu gyda yr Annibynwyr am fwy na haner can' mlynedd. Pregethwyd ar ddydd ei ahgladd gan y Parchn. E. Evans, Hermon, a T. Jones, Saron; a chladdwyd ef yn mynwent Llangeler.

"Rhyw eithriad oedd yn nghreadigaeth Duw,
Os bu ei fath, nid yw ei fath yn fyw."

DAVIES (Parch. Samuel), 1af, un o weinidogion enwocaf y Cyfundeb Wesleyaidd yn Nghymru. Amaethwr bychan oedd ei dad yn byw mewn lle o'r enw y Ffordd, yn mhlwyf Cilcaen—llan bychan dinod yn sir Fflint, yn gorwedd yn ngodreu Moel Fama. Ganwyd ef yn Mehefin, 1738; efe oedd yr ieuangaf o amryw frodyr, ac o ganlyniad, anwylun ei rieni. Bu yr anwes hwn o fawr rwystr iddo i gael addysg foreuol; canys pan ddanfonwyd ef i'r ysgol, ac y ceryddodd ei feistr ef am anufudd-dod, ffromodd yn aruthr am i estron feiddio gwia'enodi plentyn fel efe na ddarfu i'w fam erioed ei gyffwrdd yn geryddol â phen ei bys. Daeth yr ysgolfeistr yn edifeiriol i ddeisyf arno ddyfod yn ol; ond dim rhagor o ysgol ni fynai Samuel. Os myn y darllenydd wybod, ni bu ei arosiad yn yr ysgol ond pythefnos, ac achos ei gerydd ydoedd iddo fyned, yn gyfranog â bachgenyn arall, i fwyta pys gleision o fewn maes rhyw gymydog. Ond y mae hyd yn nod gan anwes ei fanteision; anfynych y gwelir plentyn anwesog heb fod hefyd yn blentyn penderfynol; efe a wrthododd yn deg daer erfyniad ei hen athraw a'i rieni i fyned yn ol i'r ysgol; ac, fel y gwelir, bu *penderfyniad* o fawr fantais i'r Parch. S. Davies yn ol llaw. Yn ystod yr amser byr y bu yn yr ysgol, dywedai ef ei hun ei fod "wedi dysgu yn dda ragorol, ei fod wedi "dechreu darllen," ac wedi "dysgu llawer o'r Catecism yn yr iaith Saesneg." O'r pryd hwn hyd onid oedd yn ddeuddeg oed, aruthr

Digitized by Google

oedd ei ddigofaint yn erbyn dysgeidiaeth; ac yn y cyfnod yma, ei waith fynychaf oedd bugeilio defaid ei dad hyd lethrau y Foel Fama, a'r unig lyfr a ddarllenai oedd llyfr natur yn y cornentydd brwynog a'r llechweddau grugog o'i amgylch. Er y dichon i'r llyfr hwn eangu'r meddwl, nid oes ynddo y gymhwysder leiaf at wella'r galon; ac yr oedd Samuel tua'r pryd hwn yn un o'r bechgyn bychain dyhiraf yn mhlwyf Cilcaen. Pa le bynag y dyrchai annuwioldeb ei ben, yno y gwelid yntau—yn cymeryd rhan flaenllaw yn y rhysedd; ei rieni wedi rhoddi ei ffrwyn iddo ar ei wàr, ac yntau ei hun, heb na dysg na chrefydd i'w atal, yn cyflymu tua'i ddinystr tymhorol ac ysprydol. Ond pan tua deuddeg oed, dechreuodd ei gydwybod a llefaru, blinid ef y nos gan freuddwydion terfysglyd am farw a barn; a'r dydd, gorlethid ei feddwl gan brudd-der ac edifeirwch oblegyd drwg-fuchedd. Penderfynodd beidio byth mwyach ag uno yn y chwareu ar y Sabbath, a chadwodd at hyny; dechreuai hefyd agor ei lygaid ar ei ffolineb yn cashau addysg. Tua'r amser hwn, daeth gwr perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, o'r enw Evan Roberts, i Gilcaen i gadw ysgol Gymreig ar y Sabbathau; ac yn mhlith ei ddysgyblion mwyaf cyson yr oedd Samuel Davies. Dysgodd yn fuan ddarllen y Bibl; ac yr oedd y canu a'r gweddio ar ddechreu a diwedd yr ysgol yn gadael eu hargraff dyladwy ar ei feddwl. Yr oedd yn amlwg erbyn hyn, nad oedd orphwysdra i'w feddwl blin ond yn ngwaith a chyda phobl yr Arglwydd, ond trwy ei fod ef o dymher hwyrdrwm, ac na ddarfu i'r Calfinaid wasgu y peth arno, yn cwynfan wrtho ei hunan y bu am hir amser heb gyfaill i'w gynghori na chydymdeimlo ag ef. Pan yn y cyfwng hwn, clybu fod Jones, Bathafarn, o Ddyffryn Clwyd, i bregethu un bore Sabbath yn Tach. 1801, yn Llanferres, y plwyf nesaf i Gilcaen. Yr oedd Wesleyaeth y pryd hwnw yn ei mabandod yn Nghymru, a Mr. Jones yn un o'i phregethwyr mwyaf tanllyd. Penderfynodd y bachgen Samuel y buasai yn myned yno i'w wrando, a glynodd rhanau o'r bregeth yn ei gôf, y rhai a adroddodd efe y dyddiau dyfodol wrth ei gymydogion. Y mae yn bur amlwg fod pregethu, a'r hyn a wyddai am egwyddorion, y sect newydd wrth fodd ei galon; atynt hwy bellach yr oedd ei dynfa; ac nid esgeulusodd mwyach yr un cyfleusdra i fyned i'w gwrando. Dyfnhaodd ei serch atynt, yn enwedig wedi iddo glywed yr un Mr. Jones yn pregethu eilwaith mewn lle o'r enw Pantymwn; a gwrando ar y Parch. J. Bryan yn llefaru ar y testun "Diane am dy einioes," (Gen. xix. 17). Gadawodd y bregeth hon argraff ryfedd ar ei feddwl; llwyr benderfynodd fwrw ei goelbren yn mhlith y Wesleyaid; ac er nad oedd gan yr enwad y pryd hwnw ddim achos agosach ato na Llanferres (dwy filldir a haner o'i gartref), eto ni byddai yn absenol o un moddion a gynelid yno. Yr oedd yn awyddus iawn i ymuno â'r Gymdeithas, eithr ofnai anturio rhag yr ystyrid ef yn rhy ieuanc. Ond daeth Mr. John Morris i'r ardal, pregethodd ar Mat. xxii. 12: "Y cyfaill, pa fodd y daethost ti yma heb fod genyt y wisg briodas?" Sylwodd Mr. Morris arno, ac ar ol yr oedfa, cymerodd afael yn ei law, ac yn nghanol ei ddagrau arweiniodd ef i'r *Society*. Cymerodd hyn le Ebrill, 1802; yn nhŷ un Robert Jones, Maeshafn. Wedi cael y "newydd da" i'w enaid ei hun; ei amcan nesaf oedd dwyn yr unrhyw o fewn cyrhaedd ei gymydogion. Cyfarfu yn hyn o beth a chryn wrthwynebiad, ond yr oedd ei galon ef ar dân ac yn difa pob rhwystrau. Llwyddodd i gael ystafell fechan tan ardreth yn llan Cilcaen, ac i gael gan frodyr o Lanferres ddyfod yno i gynal moddion. Byddai hin anffafriol, a'r ffordd arw, yn mynych

Digitized by Google

luddias y cyfeillion rhag dyfod i Gilcaen; a chan nad oedd yno, yn broffeswyr gyda'r enwad, ond S. Davies ac un ferch ieuanc, teflid y cyfarfod yn fynych i benbleth ryfedd. Ond yn hytrach na gadael i'r bobl fyned ymaith ar eu cythlwng, codid y bachgen Samuel i sefyllfa bwysig—dynesai at y bwrdd, darllenai benod a gweddiai gyda dwysder a difrifoldeb mawr; ac yna y chwaer grefyddol a wnai yr un modd. Parhaodd pethau fel hyn am yspaid, cynyddodd yr eglwys yn saith neu wyth o aelodau—cawsant bregethu rheolaidd bob wythnos—ymgasglodd pobl yr ardal i'r odfaon, ac erbyn dechreu 1803, yr oedd rhif yr eglwys yn 27. Bellach nid oedd dim a foddlonai S. Davies ond cael capel yno i addoli, ac wedi sicrhau tir, a gwneud y rhagbarotoadau arferol, dechreuwyd adeiladu yn haf 1803; ac wedi llawer o bryder meddwl a llafur corphorol iddo ef, agorwyd yr addoldy yn yr Hydref canlynol. Yn fuan ar ol hyn, cawn ef yn gadael cartref, ac yn myned i Lansanan, gyda'r bwriad, tybir, o *fentro* mewn gwaith mŵn; ac y mae pob lle i gasglu ddarfod iddo fod yn llwyddianus, canys pan yn gadael ei gartref i fyned i'r weinidogaeth hebgorai £100 i'w rhoddi i'w rieni. Yn ystod ei arosiad yn Llansanan, ymdorai ynddo yr un awyddfryd tanllyd allan am fod o ddefnydd yn ei genedlaeth. Mynychai ar y Sabbathau y pentrefi cyfagos, megys y Bettws, Llanfairtalhaiarn, &c., gan gynal ynddynt gyfarfodydd gweddi, ac o radd i radd, cafwyd ganddo ddweyd gair yn y cyfarfodydd mewn ffordd o esboniad ar ambell adnod. Wedi dychwelyd i Gilcaen, yr oedd arno ofn mawr rhag y deuid o hyd i wybod ei fod yn dechreu pregethu; a thrwy daer grefu y llwyddwyd i gael gan y prophwyd lefaru yn ei wlad ei hun. Pa fodd bynag, goddiweddodd ar ei wyleidd-dra, a bu am tua wyth mis yn bregethwr cynorthwyol a blaenor yn sir Fflint. Gwelwyd yn fuan fod ynddo ddefnydd dyn mawr, ac ymdyrai lluaws pobloedd i'w wrando. Danfonodd y Parch. O. Davies, yr hwn ar y pryd ydoedd arolygwr y Genadaeth Gymreig, gan ddeisyf arno ymreddi yn llwyr i'r weinidogaeth, a myned i lafurio, gyda Mr. Jones, Bathafarn, a Mr. W. Davies, ar gylchdaith Machynlleth, yr hon ar y pryd a gyrhaeddai o Ddinas Mawddwy i gwr eithaf sir Aberteifi. Ystyriai yr alwad hon yn llais o'r nef; a thrwy bryder ac gweddi, ufuddhaodd iddi. Yr oedd Sosiniaeth y pryd hwnw yn uchel ei ben yn Ngheredigion; ac er na wyddai efe ddim pan yn cychwyn oddi cartref fod neb yn y byd yn gwadu Duwdod Crist, nid hir y bu wedi cyrhaedd maes newydd ei lafur heb fod yn brofiadol hysbys o honynt. Gwrthddrych pwrpasol ganddynt oedd llencyn ieuanc dibrofiad fel efe, a thybient mai gwaith hawdd fyddai gwneud pen ar ei ffydd. Dechreuodd amryw o'u doethorion ymosod arno pa bryd bynag y caent ef wrtho ei hun; ac yn raddol daeth yntau i ddeall eu dichellion dadleuol, a cynysgaethu ei feddwl cryf ag adnoddau cymhwys o'r Ysgrythyrau ar eu cyfer. Cafodd ei wrthwynebwyr yn fuan wybod mai cawr ac nid corach oedd ganddynt tan eu dwylaw; miniodd yr ymdrafodau hyn ei alluoedd ymresymol; a dichon fod gan y dadleuwyr Sosinaidd hyn rywbeth i'w wneud ag agweddiad ei feddwl o hyny allan. Arosodd yn y gylchdaith hon o Ion. hyd Awst 1807, pryd y symudwyd ef i un Caernarfon—cylchdaith fawr eto, yn cyrhaedd o Aber ger Bangor, hyd Aberdaron yn nghwr eithaf Lleyn. Bu yma am ddwy flynedd, yn enill poblogrwydd mawr fel pregethwr rhagorol, ac arddeliad amlwg yn ei ddilyn; a symudodd i Ddinbych yn 1809. Yma ffurfiodd gydnabyddiaeth a merch ieuanc gall a rhinweddol o'r enw Miss Twiston, yr hon a briododd yn 1814; ac un o'r ddau a gydlafurient ag ef oedd y

Digitized by Google

Parch. O. Davies, cyfeillach yr hwn a fu o fawr les iddo. Symudodd i Liverpool yn 1810; ac ymroddodd i gymeryd gafael yn y manteision yn ei gyrhaedd i eangu cylch ei wybodaeth a meistroli yr iaith Saesneg, heb, ar yr un pryd, esgeuluso ei ddyledswyddau pregethwrol. Ymwelai ag heolydd culion, a chyrtiau aflan, lle y byddai Cymry wedi suddo mewn tlodi i fywyd anfoesol, ac i drueni ysprydol; cynaliai yno gyrddau gweddio, y rhai a fuont o fawr fendith i'r trueiniaid esgeulusedig hyn. Yr oedd hefyd yn y cyfnod hwn yn ymdrechu am gymdeithas gynyddol a sefydlog gyda'r Arglwydd; ac yn y mis Mai pan yn gadael y dref hon ysgrifenai fel hyn:—

"Diolch i'r Arglwydd, nid yw temtasiwn a'm calon yn cyfarfod yn nghyd y dyddiau hyn. Yr wyf yn dymuno bod yn Gristion mewn proffes ac mewn ymarferiad, mewn gair ac mewn ymddangosiad ac mewn gallu. Yr wyf yn dymuno cadw cymdeithas gydag ychydig, bod yn gyfeillgar gydag un, bod yn diriôn a chyflawn gyda phawb. Peidio a gwneud drwg i neb mewn un modd. Fy enaid yw y dyn; gan hyny, yr nyn sydd oreu i'm henaid sydd oreu i mi. Y peth drwg yr wyf yn erynu rhagddo yw cydwybod didall na wel ddim, swrth na theimla ddim, fud na ddywed ddim. Mae cystudd i mi heddyw fel physic i'r corph, fel dwfr i'r ardd, fel ffwrn i'r arian. Ni chollais ddim ynddynt ond ilygredd; maent i mi fel gwialen i blentyn."

Tra yn aros yn Liverpool, daeth ei bedair blynedd prawf i ben, ac urddwyd ef yn gyflawn weinidog yn 1811. Difudd ynom ni fyddai olrhain ei hanes o'r naill gylchdaith i'r llall, tra y mae bywgraffiad maith a medrus ohono wedi ymddangos mor ddiweddar ag 1864 yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd*. Yn ystod y 39 mlynedd y bu yn y weinidogaeth arhöodd ei fwa yn gryf yn erbyn pechod, llafuriodd yn galed, teithiodd filoedd lawer o filltiroedd, a thrwy y pwlpud a'r argraffwasg, bendithiwyd ef i fod yn offeryn llwyddiannus yn llaw Duw er dwyn mawl gogoniant ei ras ger bron tyrfaoedd lawer. Cafodd lawer o ddwfr o'r graig, a bu ar brydiau yn yfed dyfroedd Mara; er hyny, derbyniodd y naill fel y llall yn foddlawn, megys o law yr Arglwydd. Syrthiodd ei goelbren yn oes ymladdgar y dadleuon sectol; a diau mai perffaith naturiol i ddyn o'i aniianawd ef oedd cymeryd rhan ynddynt.

Yr oedd ei bregethau oll wedi eu cyfansoddi gyda gofal mawr, ac yn cael eu traddodi, gan amlaf, fel yr ysgrifenid hwynt, pob brawddeg wedi ei gwisgo mewn iaith gref a phriodol; ac yn frith o gymhariaethau. Oherwydd crygni ei lais, llefarai yn afrwydd; ond yr oedd difrifoldeb ei wedd a'i ddull yn yr areithfa yn ymgodi yn dra mynych i gyffiniau hyawdledd, ac yn cael argraffiadau rhyfedd ar ei wrandawyr; nes y byddai cynulleidfaoedd danynt fel pe buasent yn ofni cymeryd eu hanadl rhag colli un gair. Cofid yn hir am ei *bregeth fawr*, fel ei gelwid, yr hon a ddarparodd efe er gwrthateb yr uchel-Galfiniaid, pan yn aros yn Nhreffynon, yn 1818; pan yr oedd capel yr enwad yn y dref hono yn llawer rhy fach i gynwys y dorf enfawr a ymgynullasai i'w gwrando; a'r hon, er mwyn pobl y mynydd-dir, a draddodwyd ganddo ar ddiwrnod tesog o hâf ar y mynydd, yn ochr Moel y Parc, ar derfyn siroedd Dinbych a Fflint. Cofid am y miloedd yn ymgynull yn nghyd, o Ddyffryn Clwyd ar y naill ochr, a sir Fflint ar y llall,—y gwragedd yn llusgo eu rhai bach, a'r gwyr, a'u siacedi ar eu breichiau, ac yn chwys dyferol—pob un yn dringo'r gelltydd yn fawr ei awydd am gyrhaedd Ochr y Foel mewn pryd i glywed y testun, "Crist a fu farw tros bawb;" ac fel y lledorweddent yn flinedig ar y llechweddau tra y tywallt-ai'r pregethwr gawod ar ol cawod o belenau ar gestyll y gelyn Calfinaidd. Gadawodd y bregeth hon, fel ugeiniau eraill o'i eiddo, effeithiau parhaol ar gredoau y sawl a'i gwrandawsant; a chyda gradd helaeth o briodoldeb y rhestrir y Parch. S. Davies yn y dosparth cyntaf pregethwyr Cymru.

Digitized by Google

Dechreuasai arfer ei ysgrifbin at wasanaeth y wasg mor gynar ag 1818, mewn ffordd o fywgraffiadau am gyfeillion ymadawedig yn yr *Eurgrawn*, a phregeth ar Phil. i. 21., yr hyn a gynyrchodd ddisgwyliadau cryfion am ychwaneg oddiwrtho ryw ddydd. Yn Gorphenaf yr un flwyddyn, cyhoeddodd bregeth a enillasai lawer o boblogrwydd iddo, tan y teitl, "Prynedigaeth Gyffredinol;" a daeth Ieuan Glan Geirionydd, (y pryd hwnw yn llanc ieuanc) allan i'w gwrthateb yn 1819. Yn gynar yn 1820, wele lyfr arall yn gwrthbrofi ymresymau E. Evans o waith y Parch. S. Davies tan y teitl, "Caltiniaeth yn cael ei ddadlenu, a'r gwirionedd ei amddiffyn." Yr unig ateb a roddwyd gan y blaid Galfinaidd i'r llyfr hwn ydoedd gosod Ieuan ar waith i gyfieithu pregethau Hurrion i'r Gymraeg, y rhai a gyhoeddwyd gan y Parch. J. Parry, Caerlleon, gyda rhagymadodd o waith John Elias. Nid ydym yn cael dim rhagor oddiwrtho hyd 1826, pan yr ymddangosodd yn yr *Eurgrawn* amryw bregethau rhagorol o'i eiddo. Ar hyd y blynyddau, o 1826 hyd 1841, ymddengys cynyrchion ei feddwl yn fynych ar ddalenau cyhoeddiad yr enwad; ac yn yr olaf, cyhoeddwyd o'i eiddo, "Etholedigaeth Ddiamodol: sef Esboniad ar Rhuf. ix." Ystyrid y llyfr hwn yn orchestwaith llenyddol ei oes. Yn fuan cawn ef mewn cysylltiad a'i gyfaill hoff y Parch. T. Jones, yn cyhoeddi y "Drysorgell Efengylaidd, neu Gorph o Dduwinyddiaeth," i ba un y rhoddir gair uchel gan lawer o wyr galluog. Cyhoeddwyd hefyd o'i waith yr "Hyfforddwr Teuluaidd," ac y mae hwnw mewn cryn fri gan yr enwad y bu efe o gymaint addurn iddo. Pan ystyriom ei lafur mawr fel gweinidog yr efengyl, y mae y rhestr uchod yn anrhydedd uchel i'w dalent a'i ddyfal ymroad. Cyfansoddwyd y rhai diweddaf yn y rhestr pan oedd efe yn nyfnion ddyfroedd trallod, sef yn Manchester, pryd yr oedd dau o'i blant anwyl a phriod caruaidd ei fynwes yn rhodio dyffryn marwolaeth. Ni bu briod na thad erioed hoffusach o'i wraig a'i blant; ac yr oedd eu gweled yn ymladd ag angau, yn dyrwygo llinynau ei galon. Teimladau y dadleuwr diofn, a'r ymresymwr diwrthgil, a doddent yn llymaid, fel eira Mai, wrth edrych ar gystudd ei anwyliaid. Dichon ei fod yn arferyd ysgrifenu y pryd hwn fel *antidote* i wrthladd y pangfeydd eraill. Pa fodd bynag bu Mrs. Davies farw Mawrth, 1840; a chyhoeddwyd y *Drysorgell* yn fuan wedi hyny; a rhwng y gofid a'r llafur ymollyngodd ei gyfansoddiad yntau i'r fath raddau fel yr ofnai'r meddygon nad oedd obaith am ei adferiad. Gan ei ddirfawr boenau, dyryswyd ei feddwl; ac er i adferiad rhanol gymeryd lle, ac iddo deithio am ychydig flynyddau, eto nid yr un Samuel Davies oedd efe yn awr â chynt. Yr oedd peiriant dirgeledig y meddwl wedi ei anafu gymaint, fel nad oedd y presenol yn cael ond ychydig effaith arno; a cha yr uchanianydd wersi buddiol ar anhwyldeb meddyliol yn "*Nghofiant y Parch. S. Davies.*" Amcanodd ysgrifenu traithawd ar *Fedydd* tua'r amser hwn; ond trymder ei gystudd a barodd iddo roddi yr amcan i fynu. Crefydd a phregethu y pryd hwn oeddynt hoffusaf destunau ei fyfyrdodau; ac am y nef y soniai ei dafod bloesg pan ar ei throthwy. Uwchrifwyd ef yn 1845; symudodd i fyw at ei ferch i Liverpool; ail briododd yma yn 1847; symudodd i Gaerlleon yn 1851, lle y cafodd ergyd drom o'r parlys, yr hon a fu bron yn orpheniad ar alluoedd corph a meddwl, ac efallai ar ei gyfrifoldeb hefyd; nes yr ydoedd mor ddiymadferth â baban; a phan ydoedd yn y cyflwr yma bu ei ail wraig farw. Symudodd yn 1852 at ei ferch i Ddinbych, ac yno y bu hyd ei farwolaeth Mai 7, 1854.—*Eurgrawn Wesleyaidd*, 1864–65.

Digitized by Google

DAVIES (Stephen), Dyserth, bardd, a adwaenid hefyd wrth ei enw barddonol *Stephan*. Ganwyd ef yn Prestatyn, sir Fflint, Tach. 8, 1790. Symudodd ei rieni o Brestatyn i fyw i'r Dyserth pan oedd efe yn lled ieuanc. Priododd yn 1822, ag un Catherine Price o fynydd Moelfra, ger Abergele, yr hon a fu farw yn 1835; a gwelir galaeth y bardd ar ei hol yn y *Gwladgarwr* iii. 248. Y mae y gân fer hono yn un o'r ebychiadau marwnadol mwyaf teimladol a syml a feddwn yn yr iaith; wedi traethu yn effeithiol ei golled ef ei hun, dysgrifia alar dau o'i rai bychain fel hyn:—

Y Bachgen bychan wyth-mis, mewn cyflwr is mae ef
Alarwr dwfn drallodus, a'i dorealonus lef;
Pwy geir i roi magwraeth—ei fammaeth nid yw fyw—
Gorch'mynaf fy amddifad i ddoeth ddiffyniad Duw.

Un arall tyner tyner, yn dair a haner oed,
A'i lefau trwm wylofus, mor rymus ag erioed;
Fe red i'r ardd i edrych yn fynych am ei fam,
A hithau heb ddychwelyd, pa hyd! pa hyd! pa ham!

Fe dry yn ol dan wylo, a chwilio am ei chael,
O fewn i'r 'stafell wely, lle bu'n hir nychu'n wael;
'Does yno ond siomedigaeth, a hiraeth yn trymhau—
'Doedd holl ddych'mygion mebyd i gyd, i gyd, ond gau.

Mae'r dwys chwedleuwr bychan yn cwynfan mewn modd caeth,
Nes cyffry 'nghalon drwyddi am fy nyweddi'n waeth;
Mwyhau, mwyhau, mae hiraeth, ysywaeth, heb leshau,
Chwanegwyd at fy ngalar i ddwysder rhwng y ddau.

Ceir yn yr un cyhoeddiad gryn lawer o gynyrchion awen wylaidd Stephan. Efe a enillodd y wobr am y bryddestawd oreu ar "Hiraeth ar ol Mabolaeth," yn Eisteddfod y Gordofigion yn Liverpool 1840, yr hon a argraffwyd yn y *Beirniadur Cymreig* am 1846. Y darn barddonol diweddaf a gyfansoddodd ydoedd, "Ymddiddan rhwng y Bardd ac Amser," yr hwn a ymddangosodd yn y *Drysorfa* 1858. Gadawodd hefyd o'i ol lawer o lawysgrifau tra gwerthfawr. Bu farw Ebrill 6, 1858, yn 67 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Galltmelyd, yn yr hwn blwyf y saif Prestatyn.

DAVIES (Parch. Thomas Rhys), pregethwr tra adnabyddus gyda'r Bedyddwyr. Ganwyd ef yn Penwenallt, Cilgeran, sir Benfro, Mai 19, 1790. Cafodd ei ysgol yn y dechreu yn y Capel Bach, Llechryd; a gorphenodd gyda'r Parch. E. Jones yn Aberteifi. Yr oedd ei rieni yn gwrandaw yn gyson gyda'r Annibynwyr. Ni wyddis pa beth a'i tueddodd ef i ymuno gyda'r Bedyddwyr; ac y mae pob lle i gasglu na bu erioed yn aelod gyda'r Annibynwyr, gan iddo gael ei fedyddio ar broffes o'i ffydd pan yn 16 oed, yn afon Morgenau, gan y Parch. Benj. Davies, o Nantyreryd, gweinidog Cilfowyr. Cymerodd hyn le Mehefin 22, 1806; a'r gauaf canlynol dechreuodd ar y gwaith o bregethu, yn Nghilfowyr. Yn 1811, cawn ef a chyfaill ieuanc arall o'r enw Simon James, yn cymeryd taith bregethwrol i'r Gogledd. Pregethodd T. R. Davies am y tro cyntaf mewn cyfarfod, yn Nghymanfa Amlwch; a syrthiodd hoffder ar yr hybarch Gristmas Evans at y ddau ŵr ieuanc. Anogodd hwynt i aros yn y Gogledd, yn mha le y pryd hwnw yr oedd y cynhauaf yn fawr a'r gweithwyr yn anaml. Yn unol â'r cais hwn, ymsefydlodd Mr. S. James yn Lleyn, a daeth T. R. Davies yn mlaen mor bell â Dyffryn Conwy, lle yr oedd ychydig Fedyddwyr yn ymgynull yn y Roe, Ffordd Las, a Glanwydden. Deisyfodd y mân eglwysi hyn arno dario yn eu plith i'w bugeilio; ac addawodd yntau ddyfod yn mhen blwyddyn os byddent y ddwyblaid y pryd hwnw o'r un feddwl. Mewn canlyniad, cawn ef yn dyfod, yn ol ei air, yn haf 1812, yn pregethu yn Nghymanfa

Digitized by Google

Llangefni, ac ymsefydlu yn mhlith pobl ei ofal. Yn Mawrth, 1814, cafodd ei ordeinio yn Cilfowyr,—"Yr oedd yn rhaid myn'd yno o'r Gogledd i'r 'Fam-eglwys,' i gael yr *ordination*, i'w boddloni, fel y byddai ganddynt hawl, meddynt, i'w alw yn ol pa bryd bynag y byddai ei eisiau." Rhif yr aelodau yr amser hyny yn ei esgobaeth oedd 35, a'r rhai hyny ar wasgar mewn o ddêg i ddeuddeg o blwyfi; ac y mae yn awr 13 o eglwysi, blodeuog gan mwyaf, yn sefyll ar y maes hwnw. Yr oedd ei lafur yn fawr iawn, fel yr oedd llafur ei frodyr yn y weinidogaeth yr oes hono; teithiai yn ol a blaen gan bregethu mewn ffermdai a pha le bynag y cai ddrws agored, fel y dywed ef ei hun iddo fod am rai blynyddau heb braidd gysgu dwy noswaith nesaf i'w gilydd yn yr un gwely, gan lafur gwastadol. Am chwe' blynedd y parhaodd ei lafur a'i lwyddiant cyntaf yn Nglanwydden, ac yna daeth rhwystr ar ei ffordd. Cododd ymrafael rhyngddo â rhai o bobl ei ofal yn nghylch gweithredoedd y capel crybwylledig; dygwyd y mater i'w benderfynu ganddo ef ei hun gerbron ei frodyr yn Nghymanfa Rhuthyn, yn 1818; rhoddwyd y rheithfarn yno yn ei erbyn; a diarddelwyd ef o Gyfundeb y Bedyddwyr. Y mae yn amlwg erbyn hyn mai camgymeriad oedd y cyfan—mai mewn camgymeriad y cyhuddodd efe ei frawd, ac mai mewn camsyniad y darfu i'w frodyr ei dori yntau allan. Yr oedd y nwydau yn uchel bobtu, a dysgyblaeth yn boddi llais cyfiawnder. Wedi hyn, ymunodd Mr. Davies â'r Wesleyaid; bu yn pregethu gyda hwynt am yn agos i saith mlynedd; ac yr oedd ei boblogrwydd yn fawr yn eu plith. Ond er iddo newid ei sect, y mae pob lle i gasglu na newidiodd efe ei farn am y pynciau gwahaniaethol rhwng y ddau enwad. Unwaith mewn cyfarfod cenhadol yn Maentwrog, dywedai:—"Ma' nhw, y *Baptists*, yn meddwl llawer ohonynt eu hunain, ond allan' nhw fel sect ddim gwneud yr holl waith sydd i'w wneud yn y byd yrwan; rhaid ein cael ninau, y Wesleyaid, ar y maes; ond o ran hyny, Baptists fyddwn ni i gyd cyn y diwedd." Yr oedd yn amlwg fod calon Mr. Davies yn yr hen gynefin, a chadwai gil ei lygad yn barhaus am adwy i fyned yn ol iddi; a phan welodd hono, ni chododd ddim twrw, dim ond dweyd "Ffarwel, frodyr bach, dyma fi yn myn'd adra." Yn 1826, yr oedd eilwaith yn bregethwr rheolaidd gyda'r Bedyddwyr; a'r flwyddyn ganlynol sefydlodd fel gweinidog yn Nglynceiriog, lle yr arosodd am ddwy flynedd, pan y derbyniodd wahoddiad eglwys fechan a gyfarfyddai mewn ystafell yn Heath St., Toxteth Park, Liverpool. Nid oedd nifer yr aelodau pan y daeth ef i'w plith ond 30, ond mewn tair blynedd o amser cynyddasant yn 150. Galwyd am gapel newydd, ac adeiladwyd un, sef y capel a saif yn Stanhope St. Bu Mr. Davies yn ddiwyd gyda'r gorchwyl o gasglu tuag at y draul, ac fel engraifft o'i lewder yn yr alwedigaeth hono gellir hysbysu ei fod wedi llwyddo i gael punt gan offeiriad Pabaidd, o'r enw Mr. Murphy. Pum' mlynedd fu ei arosiad yn Toxteth Park; ac yn gweled y capel wedi ei orphen, ac yn teimlo ei hun, oblegyd llafur a lludded, yn gwanychu, ymadawodd am ei fro enedigol—Cilfowyr. Ymgymerodd yno â gwasanaethu eglwysi Cilgeran a Pheniel; prynodd dyddyn o'r enw Llwyncelyn yn yr ardal, gyda'r bwriad o dreulio gweddill ei oes yno. Arddelwyd ei waith mewn modd amlwg iawn yn ystod ei arosiad yn Nghilgeran, a thybiai pawb, ef ei hun yn eu plith, mai yno y cawsai ddiosg y wisg ddaearol oddiam dano, a lle beddrod yn mhlith ei dadau. Ond wedi bod yno wyth mlynedd cododd ei babell, wynebodd eilwaith tua glanau Conwy, gan ymsefydlu yn hen faes ei lafur. Nid ymddengys ddarfod iddo o hyn allan

Digitized by Google

ymrwymo fel gweinidog i eglwys yn y byd, eithr teithiai yn ol a blaen fel y byddai'r eglwysi yn galw am ei wasanaeth. Bu am 16 mlynedd fel hyn yn dra llafurus, ac nid oedd odid i gyfarfod pregethu yn y Gogledd, na welid ynddo ben Tomos Rhys Davies yn ei gap o felfed du. A goelia ein darllenydd! Pregethodd T. Rhys Davies 13,145 o weithiau. Y mae hyn yn ffaith, a cheir yn ei ddyddiadur ddyddiad a'r man y traddodwyd pob un ohonynt. Yr oedd ei gyhoeddiadau wedi eu trefnu ar gyfer y mis y bu farw (Mehefin 1859), ac yr oedd i bregethu 25 o weithiau mewn gwahanol fanau. Yr oedd y cyhoeddiadau hyn yn sir Forganwg, ond methodd a'u llanw ddim pellach na'r 22ain, pan y cymerwyd ef yn wael yn Abertawy. Pregethasai yn Nghymanfa Caersalem Newydd, ger Abertawy, nos Iau, Mehefin 22; a chafodd anwyd trwm. Cwynai ei fod yn wael bore dranoeth, a phan yr enillodd yr afiechyd nerth arno, yr oedd yn nhŷ y Dr. Davies, wrth yr hwn y dywedodd, "Yr wyf yn glaf iawn, gadewch i mi fyned i farw i'r gwely lle y bu Christmas Evans farw." Nid oedd hyny yn gyfleus, pa fodd bynag, ond y Sabbath canlynol yn nhŷ y Parch. R. A. Jones, y tynodd efe ei anadl olaf, yn 67 oed, uwchlaw 50 o ba rai a dreuliodd efe fel pregethwr yr Efengyl. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol yn yr un bedd â'r enwog Gristmas Evans. Y ddau yn gu iawn mewn bywyd, ac yn angau nid ysgarwyd hwynt. "Y Bachgen Mawr," y galwai C. Evans ef; ac yr oedd llawer o debygolrwydd efelychiadol yn mhregethau Mr. Davies i'r eiddo ei hen dad parchus.

Dyn tàl, esgyrniog, a hardd, oedd T. Rhys Davies; tra thebyg mewn corph a meddwl i'r diweddar Dr. Arthur Jones o Fangor. Nid ystyrid odid i Gymanfa gyda'r Bedyddwyr yn y Gogledd, beth bynag, yn gyflawn, os na byddai ef ynddi—yn ei glos o felfed, ei wasgod o sidan, ei ffunen wen glerigawl, a chap o felfed du am ei ben yn lle berwig. Pregethwr destlus ydoedd, yn meddu llais hyfryd i'r glust, ac ychydig o atal ar ei dafod, yr hyn yn hytrach a chwanegai at nerth ei draddodiad. Anfynych y pregethai yn hwy na haner awr, ond byddai ef yn dal, lladd, a bwyta, tra y byddai eraill yn curo y llwyni. Perthynai i'r hen ddosparth hwnw o bregethwyr a gyfrodeddent y difrifol â'r chwareus yn nghyd yn eu pregethau. Yr oedd ffraethebu mor naturiol iddo ag anadlu, a than gellwair gweinyddai yn fynych ddysgyblaeth mewn gwawdiaith lem. Er hyny, dywedai bethau tlysion ac effeithiol odiaeth; ac yr oedd llwybr at ystafell ein dagrau ni, blant y codwm erchyll, yn berffaith hysbys iddo. Gwisgai ei feddyliau mewn iaith mor seml, fel y gallai y meddwl distadlaf ei ddeall yn hawdd. Crybwyllasom eisoes mai ychydig a lafuriasant mor galed ag ef; y mae'r cwestiwn yn ymgodi yn naturiol pa fodd yr ymgynaliai, oblegyd amlwg yw nas gallai yr ychydigion, tlodion gan mwyaf, a ffurfient ei fân eglwysi, gyfranu ond ychydig tuag at ei gynaliaeth. Wel, yn 1814, yn fuan ar ol ymsefydlu yn Nyffryn Conwy, priododd un Miss Foulkes, yr hon a fu yn wraig rinweddol ac yn gydymaith hawddgar iddo hyd derfyn ei ddyddiau; ac yr oedd Mrs. Davies yn hanu hefyd o deulu cyfrifol a chyfoethog, a'i harian hi a fu o fawr gymhorth i'w gwr yn ystod blynyddau boreuaf ei lafur. Ni byddai ond ffolineb ini sylwi ar yr amryw chwedlau rhyfedd a daenir am Domos Rhys Davies, fel dyn chwenychgar a chybyddlyd, gan nad oes dim sail iddynt. Y gwir yw ni bu garedicach dyn erioed, pan welai angen; ac os bu dipyn yn ofalus am y ceiniogau,—pwy wel fai arno. Prin y gall yr oes hon ddirnad yr amser, y chwys, a'r dagrau, fyddai raid i'r hen bregethwr golli am rhyw

Digitized by Google

ychydig geiniogau; ac eto os na byddent mor elusengar â pherson y plwyf, cyhuddid hwy o gybydd-dod. Wele ychydig ddyfyniadau er dangos ansawdd ei feddwl:—

PESYCHU.—Peth tost iawn yw'r anwyd; pesychwch chwi, ni wna rwystr yn y byd i mi, ond help, oblegyd bydd pob pesychiad a ro'wch yn arwydd eich bod yn effro.

BEDD MOSES.—Ni wyr neb i'r fodfedd pa le y mae bedd Moses; ond mi wn i o fewn ergyd careg; claddodd yr Arglwydd ef ar gyfer Beth Peor; ystyr Beth yw ty—Ty Peor. Nid oedd modd gwneud mwy o SPITE a Peor, yr eilun-dduw, nag i'r Arglwydd gladdu ei hen was ar gyfer ei dy.

Yr oedd un o'i frodyr yn y weinidogaeth wedi colli ei bregeth un tro, ac mewn profedigaeth chwerw o'r herwydd. Cyfarfu Mr. D. ag ef ar ei ffordd i'r capel, "Mr. Davies anwyl, beth a wnaf?" "Wel, be sy' rwan, felly?" "Ond wedi colli'm mhregeth 'rydwy I." "B'le 'roet ti yn 'i chadw hi?" "Yn 'y mhoced!" "O, dyna lle bu'r bai; nid yn 'y mhoced y bydda'i yn 'u cadw nhw." "Wel, yn mh'le y byddwch chi yn 'u cadw nhw, Syr." "Yn fy het!"

Pa fodd y mae Crist yn cael milwyr i'w fyddin?—Eu cymeryd y mae o blith meirwon y gelyn.

"Yr wyf gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd."—Dyma y gwahaniaeth sydd rhwng y ddaear a'r nef:—Yma y mae Crist yn wastadol gyda ni; yno byddwn ni yn wastadol gydag Ef.

Nid yw y gwaethaf yn ddiobaith, na'r goraf yn ddiberygl.

Gorchymynodd Pharaoh foddi Moses ar ei enedigaeth;—pan ddaeth "Moses yn fawr," cafodd Pharaoh ei dalu yn ei GOIN ei hun!

"Gwell yw enw da nag enaint gwerthfawr:"—peth o'r ddaear yw enaint, ond enw da sydd beth o'r nef.

Mae pregethwr efengyl fel "RIDER OUT:" wedi iddo dynu allan ei holl nwyddau dywed ei gwsmer,—"Dim eisio DIM!"

Yr oedd ffordd y Mor Coch yn ddiogel i Israel, ond pan aeth Pharaoh iddi, collodd ei fywyd:—'doedd dim busnes ganddo fyned iddi—PRIVATE ROAD a agorodd Jehofah i'w deulu ei hun ydoedd.

DAVIES (PARCH. THOMAS), D.D., a hanai o hen deulu parchus yn Nyffryn Conwy, ac ydoedd yn fab i Ddafydd ab Robert ab Llywelyn, Ysw., o Gaerhun, lle y ganwyd ef tua'r fl. 1515. Cafodd ei ddysg athrofaol yn Ngoleg St. Ioan, Caergrawnt; a'i ddyrchafiadau eglwysig cyntaf oeddynt rectoriaeth Llanbedr y Cenin a ficeriaeth Caerhun. Yn 1539, penodwyd ef yn archddiacon Llanelwy, yr hon swydd a ddaliodd hyd 1554, pryd y difuddiwyd ef am ei fod yn briod; eithr adferwyd ef pan esgynodd Elizabeth i'r orsedd. Yn 1546 gwnaed ef yn ganghellydd prif-eglwys Bangor. Dyrchafwyd ef yn esgob Llanelwy yn 1561, a pharhaodd yn y swydd hyd ei farwolaeth yn niwedd 1573. Hynododd ei hun fel gwr duwiol a haelionus; sefydlodd ysgoloriaeth yn Ngholeg y Frenhines, Caergrawnt, a chyfranodd lawer at achosion daionus eraill.—Wms. *Em. Welsh.*

DAVIES (PARCH. TIMOTHY), gweinidog am ddeugain mlynedd gyda'r Annibynwyr yn Evesham, ydoedd drydydd mab yr enwog Barch. David Davies, Castellhywel. Ganwyd ef Tach. 20, 1779, yn y Plasbach, Ciliau Aeron, sir Aberteifi. Cafodd fanteision addysg o'r radd oreu yn ysgol ragorol ei dad; ac wedi gorphen ei ddysg yno, a threulio tua dwy flynedd ar fferm ei dad yn ymgynefio ag amaetha, penderfynodd ymroddi i waith y weinidogaeth. Mewn canlyniad, danfonwyd ef pan yn 19 oed i athrofa Caerfyrddin, Bu yno am dair blynedd, ac yna cafodd alwad i fod yn gydweinidog â'i dad. Enillodd iddo ei hun gylch eang o edmygwyr calon-gynhes tra yn gwasanaethu yn y swydd hon; ac uchel ganmolid ei bregethu ymarferol ac efengylaidd. Yn 1810, derbyniodd alwad oddiwrth eglwys y Great Meeting House, Coventry, i fyned yn weinidog arni; lle y bu am wyth mlynedd er llwyddiant mawr i'r achos. Yn 1818, symudodd i Evesham, ac yma y treuliodd weddill ei oes mewn parch uchel gan wreng a boneddig. Cafodd gystudd hirfaith, ond llenwid ei enau â diolch, hyd yn nod yn nyfnder ei ing a'i boenau corphorol. Bu farw Tach. 28, 1860, a chladdwyd ef yn y fynwent gerllaw ei hen gapel. Efe a gyfieithodd y rhan fwyaf o Esboniad y Dr. Coke i'r Gymraeg.

Digitized by Google

DAVIES (Parch. William), offeiriad Cynwyl, yn sir Gaerfyrddin, ydoedd bleidiwr gwresog i'r Diwygwyr Methodistaidd,—yn pregethu ac yn gweinyddu yr ordinhadau yn eu plith hyd 1811, pryd y dechreuodd yr enwad roddi cyflawn urddau i bregethwyr yn annibynol ar law a bendith esgob. Nis gallai Mr. Davies, mwy na Griffiths, Nefern, a phump offeiriaid eraill, gymeradwyo y symudiad hwn; felly, cefnodd ar y cyfenwad newydd, a bu yn llafurio o hyny hyd ei farwolaeth o fewn terfynau Eglwys Lloegr. Yr oedd Mr. Davies yn bregethwr da, a daeth Cynwyl yn adnabyddus trwy yr holl Dywysogaeth mewn cysylltiad â'i enw ef. Arferai, pan mewn cysylltiad â'r Methodistiaid, weinyddu y sacramentau yn rheolaidd mewn capel perthynol i'r enwad yn Banc y Felin; a bu yn foddion i gasglu cynulleidfaoedd mawrion yno, cystal ag i Cwmbach, Meidrim, a Llanddowror. Preswyliai yr amser hwn mewn lle tua dwy filldir o'r Banc, o'r enw Aberhenllan. Bu farw tua'r fl. 1821, a rhoddwyd ei lwch i orphwys yn mynwent Llanddowror; nid nepell oddiwrth weddillion marwol yr hybarch Griffith Jones.

DAVIES (Parch. William), offeiriad Castellnedd, a anwyd, tybir, yn Ystradgrach, plwyf Llanfynydd, sir Gaerfyrddin, yn 1727. Ond nid oes dim hanes sicr am dreigliad ei oes, hyd oni ddaeth i Gastellnedd yn gurad i Mr. Pinkey, yr hwn oedd yn meddu personoliaeth y dref hono a Llanelltyd. Ymddengys fod Mr. Pinkey wedi mawr hoffi Mr. Davies, oherwydd ei addfwynder a'i dduwioldeb amlwg. Yr oedd yn bregethwr hefyd o deilyngdod uchel iawn; ac enillodd boblogrwydd fel y cyfryw yn fuan, a serch y lluaws a dyrent i'r eglwys i'w wrando. Ond yr un elfenau ag a enillodd iddo edmygwyr ffyddlon, a enynodd yn ei erbyn gaseion dygasog. Yn mhlith y rhai olaf, yr oedd cryn lawer o bobl fawr y dref a'i hamgylchoedd; er nad ymddengys fod ganddynt ddim yn ei erbyn, ond fod ei athrawiaeth yn rhy bur, ei fuchedd yn rhy santaidd, a'i sêl tros ogoniant Duw yn rhy danbaid. Ceisiasant ei gael o'r lle, ond ni fynai Mr. Pinkey ymadael ag ef, a chadwodd ef yn ei wasanaeth hyd ddydd ei farwolaeth. Eithr pan fu y noddwr farw, ail-ymosododd y gelynion arno, a'r tro hwn buont yn llwyddianus. Ar ol hyn, meddyliodd y rhan luosocaf o blwyfolion Llangiwc am ei gael yn glerigwr yr eglwys hono; ond bu dosparth cyffelyb i'r un a'i trôdd o Gastellnedd, yn llwyddianus i'w luddias rhag dyfod i Langiwc. Bellach barnodd Mr. Davies a'i bleidwyr nad oedd ond gobaith gwan y llwyddai efe mwyach i gael lle y byddai o ddefnydd ynddo yn yr Eglwys, a phenderfynodd ymroddi i bregethu y tu allan iddi; a'r dydd y cymerodd y clerigwr newydd feddiant o Langiwc, pregethodd Mr. Davies y tu allan i'r hen adeilad, mor efengylaidd a gwlithog nes yr annghofiodd ef a'r gynulleidfa y siomedigaeth a gawsent. O hyn allan ni ddringodd efe mwyach bwlpud Eglwys Loegr, eithr ymroddodd i fod o wasanaeth i'w oes a'i genedlaeth gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Ymffurfiodd ef, a'r sawl a'i dilynasant allan o'r eglwys, yn gymdeithas eglwysig, gan gyfarfod mewn tŷ anedd o'r enw Penbwchlyn. Aeth hwn yn rhy fach, a chymerwyd dau dŷ anedd yn mhen dwyreiniol y dref; a byddai Mr. Davies yn cynal ysgol ddyddiol fel prif foddion ei gynaliaeth. Gerllaw Castellnedd y mae hen gapel enwog y Gyfylchi; a thybir mai iddo ef yr adeiladwyd y lle tua'r fl. 1776. Mae gwedd tra eglwysaidd ar y capel hwn, ac oddiar y wedd sydd arno, a'r defnydd a wnaed ohono, am agos i 40 mlynedd, fel lle y gweinyddai offeiriaid Methodistaidd swper yr Arglwydd ynddo, honid mai capel perthynol i

Digitized by Google

Eglwys Loegr ydoedd. Ond nid yw yn ymddangos iddo gael ei gysegru erioed; onide, bernir y buasai, er's llawer dydd, wedi ei feddianu gan Eglwyswyr at eu gwasanaeth; ond hyn ni allasent, er ymdrechu. Rhenid yr adeilad hwn megys yn ddau gysegr,—y santeiddiolaf a'r cyffredin. I'r santeiddiolaf yr âi yr offeiriaid yn unig, ond yn y llall yr arferai holl bregethwyr y cyfundeb weinyddu. Byddai pregethwr yn traddodi ei genadwri yn y lle cyffredin am naw o'r gloch y bore; as wedi iddo ef ddarfod, ymddangosai yr offeiriad yn ei le yntau, a'r holl gynulleidfa a droent eu hwynebau ato. Fel hyn y bu am flynyddau lawer, heb fod yr un cynghorwr neu bregethwr yn anturio croesi y wahanlen; ond o'r diwedd diflanodd y swyn. Teithiodd Mr. Davies lawer i bregethu trwy Dde a Gogledd, a daeth i mewn am ran o ddialedd yspryd erledigaethus yr oes yr oedd yn byw ynddi. Bu agos iddo ddyfod i gryn drallod un tro pan yn pregethu yn Bettws, Abergele; trefnwyd iddo sefyll i lefaru wrth ochr rhyw dâs uchel o frigau coed. Perchenog y dâs oedd hen ŵr yn byw mewn tŷ cyfagos; ac efe a'i hen wraig, yn elyniaethol i'r Methodistiaid, ac yn ei hystyried braidd yn hyfdra ynddynt ddyfod ac ymlechu rhag y gwynt oer yn nghysgod eu brigau hwy, a gynllwynasant eu dinystr yn y dull digrifol a ganlyn. Daethant yn lledradaidd o'r tu ol i'r dâs, a phigfforch bob un ganddynt; a chyda yr offerynau hyn dechreuasant geisio taflu y brigau bendrammwnwgl am ben yr addolwyr. Yr oedd Mr. Davies yn dechreu pregethu ar y pryd, a chlywai o'r tu cefn iddo y coed yn dechreu rhugl-drystio; deallwyd yr amcan; a bu yr hen bobl yn ddigon llwyddianus i ddyrysu y cyfarfod, gan na fedrai y pregethwr lefaru dim yn rhagor. Bu Mr. Davies farw yn 1787, yn 60 oed, a chladdwyd ef yn mynwent eglwys Castellnedd. Traddodwyd ei bregeth angladd gan yr hyglod Jones o Langan; a dywedir ei fod yn wylo yn hidl uwch ben bedd ei gyfaill, ac yn dweyd yn nyfnder ei alar, "O! Davies anwyl! Gwas yr Arglwydd, ti a fuost farw! Do! disgynaist i'r bedd, a'th goron ar dy ben!"—*Meth. Cymru; Hanes Bywyd Sien:yn Penhydd.*

DAVIES (Parch. William), y cenadwr Wesleyaidd, neu a adweinid yn well wrth yr enw "Davies Affrica," a anwyd mewn ffermdy bychan o'r enw Croes Efa, gerllaw Rhuthyn, yn 1784. Ymunodd ei rieni â'r Cyfundeb yn mhlith y rhai cyntaf yn y cwr hwnw, cyn dyddiau sefydliad Cenadaeth Gymreig y Wesleyaid at y Cymry; pan oedd y tanllyd Mr. Edward Jones, Bathafarn, wedi mabwysiadu athrawiaethau Wesley, ac yn eu lledaenu yn mhlith ei gymydogion. Dechreuodd William Davies bregethu yn 1804, a galwyd arno i'r weinidogaeth amdeithiol y flwyddyn ganlynol. Yn 1814, penderfynodd y Gynadledd ar sefydlu cenadaeth yn Sierra Leone, Affrica; a phenodwyd ar wrthddrych hyn o sylw i fyned trosodd â dechreu y gwaith. Ni bu yno ond byr amser; gorfu arno ddychwelyd yn 1818, oherwydd anmharedd iechyd yn cael ei gynyrchu gan hinsawdd afiach y lle. Ond yn ystod ei arosiad byr enillodd barch ac ymddiried llywodraethwr y drefedigaeth, sef Syr Charles Mac Carthy; a bu mewn canlyniad yn henadur, yn faer y dref, ac o'r diwedd gwnaed ef yn ustus heddwch. Wedi dychwelyd i'r wlad hon, bu am ddwy flynedd yn llafurio ar gylchdaith Penzance, yn Nghernyw. Yna daeth i Gymru, a bu yn gadeirydd y dalaeth o 1821 hyd 1826. Ymenciliodd o'r weinidogaeth yn 1841, graddiwyd ef yn uwchrif, ac ymsefydlodd i fwrw heibio weddill ei oes yn Cydweli. Wedi bod yma am tua phum' mlynedd, daeth cwmwl du trosto, o tan yr hwn y diflanodd y goleuni trylachar hwn allan o'n golwg

Digitized by Google

ni. Dygwyd rhyw gyhuddiadau yn ei erbyn, a'r diwedd fu tori pob cysylltiad rhyngddo â'r Gynadledd. Na fydded i'r tafod chwilfrydus ein holi ni pa beth oeddynt; na fydded i'n meddwl brudd ymollwng i ddwysfyfyrio ar ddiwedd anffodus y fath yrfa ysplenydd. Y cythraul sydd yn caru dangos ffaeleddau'r marw, a'u gosod o flaen y byw yn esiamplau. Pa fodd bynag, o tan ei ofid trwm, syrthiodd meddwl Mr. William Davies yn aberth i wallgofrwydd; a bu farw yn Nghydweli, Chwefror 9, 1851. Cyhoeddwyd cryn lawer o lyfrau o'i waith, y penaf o ba rai ydynt:—"Dyddiadur y Parch. William Davies, pan oedd efe yn genadwr yn Sierra Leone, yn cynwys peth o hanes y wlad, 1829." "A short Memoir of Mrs. Elizabeth Davies, wife of the Rev. W. Davies, first, Wesleyan Minister, 1842." Cyfieithodd hefyd amryw o hymnau y ddau Wesley i'r Gymraeg; cyfansoddodd ychydig o emynau gwreiddiol; a cheir llawer o bregethau, &c., o'i waith yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd*, ac yn fân lyfrynau ar wahân.—*G. Lleyn MSS.*

DAVIES (William), Ph.D., oedd bregethwr a gweinidog gyda'r Annibynwyr yn sir Gaerfyrddin. Adwaenid ef yn benaf wrth yr enw "Davies, Ffrwdfâl;" yn yr hwn le y cyrhaeddodd enwogrwydd fel ysgolfeistr. Ganwyd ef yn 1804, mewn lle o'r enw Crofftycyff, yn agos i gapel Ffaldybrenin, plwyf Llanycrwys, sir Gaerfyrddin. Yr oedd ei henafiaid yn Annibynwyr selog, a thrwy eu llafur hwy, mewn rhan, y sefydlwyd yr achos Annibynol yn yr ardal hono. Yr oedd ei fam yn aelod ffyddlon o'r eglwys Annibynol yn Ffaldybrenin. Ymunodd Mr. Davies â'r eglwys hono, yn nyddiau ei ieuenctyd; dechreuodd bregethu yn fuan, derbyniwyd ef fel myfyriwr i goleg Presbyteraidd Caerfyrddin, lle y treuliodd yr amser gosodedig, ac y gwnaeth gynydd mawr mewn dysgeidiaeth. Yr oedd rhai o'i gydfyfyrwyr yn tra ragori arno mewn dawn a thalent bregethwrol, ond yr oedd yntau yn tra ragori mewn ieitheg a gwyddoniaeth. Ar derfyniad ei yrfa athrofaol yn Nghaerfyrddin, derbyniodd alwad oddiwrth eglwys Annibynol yn swydd Dyfneint: yno yr ordeiniwyd ef, ac yno y bu am ychydig o flynyddoedd yn gweinidogaethu. Nid oes genym nemawr o wybodaeth am ei lwyddiant na'i aflwyddiant fel gweinidog gyda'r Saeson. Clywsom ef yn adrodd llawer o ystoriau, am hen bobl Ffaldybrenin, am ysgol Castellhywel, am ei athrawon a'i gydfyfyrwyr yn Nghaerfyrddin, eithr ni chlywsom ef erioed yn son gair am ei brofiad gweinidogaethol yn Ngorllewin Lloegr. Mae yn ddigon tebyg nad oedd ganddo ddim nodedig i'w adrodd. Gallasai ddywedyd, "Ni'm danfonwyd i bregethu, ond i gadw ysgol." Tua y fl. 1834, dychwelodd adref i Crofftycyff, yn wanaidd ei iechyd. Trwy yfed dyfroedd gloewon, ac anadlu awyr bur ei ardal enedigol, a thrwy syllu ar olygfeydd rhamantus blaenau sir Gaerfyrddin, adferwyd iddo ei iechyd blaenorol, eithr ni bu, ar un adeg o'i fywyd, yn "ŵr cadarn, nerthol." Yn fuan, ymgymerodd â'r gwaith o addysgu plant Mr. Davies, Ffrwdfâl; yr oedd y gwr talentog hwnw yn dirfesurydd, yn trin fferm Ffrwdfâl, ac yn oruchwyliwr i amrai foneddigion. Yr oedd yn wr llawer mwy deallus na'r cyffredin, ac wedi talu llawer mwy o sylw i amaethyddiaeth na'i gydoeswyr yn sir Gaerfyrddin. Adeiladodd y boneddwr hwn ysgoldy ar ei dir ei hun, ar ochr y ffordd yr eir o Lansawel i Geio; ac yn yr adeilad fechan a diaddurn hon y bu yr athraw medrus yn dwyn yn mlaen ei athrofa am lawer blwyddyn. Yr oedd yr ysgoldy oddiallan fel "tŷ byw" bychan; yn yr ochr at y ffordd yr oedd dwy ffenestr, ac yn yr ochr arall yr oedd un ffenestr led fawr: yn un pen yr oedd y drws, a'r tân yn y pen arall;

Digitized by Google

yn y gongl ar gyfer y drws, y naill du i'r tân, yr oedd yr athraw, a desc o'i flaen, a chelloedd yn llawn o lyfrau o'r tu cefn iddo; y tu arall i'r tân, yr oedd plant Mr. Davies, Ffrwdfâl; ac ar y meinciau, ar draws yr ysgoldy, yr oedd yr ysgolheigion eraill. Yn y lle syml hwn y bu plant amaethwyr, a masnachwyr, a chyfreithwyr, ac offeiriaid, a boneddigion, yn dysgu y Lladin, y Groeg, a'r Hebraeg, yn gystal ag elfenau gwyddoniaeth; o'r lle hwn yr aeth y parchedigion canlynol i'r weinidogaeth: J. Williams, Castellnewydd; J. Evans, Maendy; J. Thomas, Liverpool; H. Davies, Bethania; T. Thomas, Llanfaircludogau; a J. T. Jones, Llanybri. Yn y lle hwn y bu lluaws o bregethwyr ieuainc yn derbyn eu haddysg baratoawl cyn myned i Aberhonddu, neu Gaerfyrddin, neu Bontypŵl, neu Homerton, Llundain. Ac yn y lle hwn y derbyniodd Dr. Evan Davies, Abertawe; a Mr. Benj. Davies, M.D., Llandilofawr; eu haddysg foreuol—ystyrid y ddau olaf yn ysgolheigion gwych cyn iddynt ganu yn iach i ysgol Ffrwdfâl.

Yr oedd Mr. Davies yn tra ragori ar y cyffredin o ysgolfeistri Cymru yn y dyddiau hyny; yr oedd yn feddianol ar wybodaeth gywir o elfenau y Lladin, y Groeg, a'r Hebraeg; yr oedd yn rhifyddwr medrus, ac yn gyfarwydd yn egwyddorion cyntaf *algebra* a mesuroniaeth; yr oedd ganddo allu i ddihuno uchelgais yn y myfyrwyr, a rhoddai bwys noddedig ar ddysgu'r gwersi yn drwyadl. Nid oedd maddeuant rhad am wallau yn ei gredo fel ysgolfeistr.. Mae'n wir y gellid prynu maddeuant ganddo—yr oedd yn credu yn gryf mewn arian, a phan y byddai rhywun dan ei sorriant oherwydd anmherffeithrwydd y wers, gellid enill ei ewyllys da, trwy dalu am yr ysgol, neu lyfr, neu am yr inc a'r papur. Pa mor drymaidd bynag y byddai'r hin, a pha mor ddihwyl y byddai ei ysbryd, yr oedd yn sirioli yn fawr wrth dderbyn haner gini am chwarter o ysgol, neu dri a chwech am *Latin Grammar*, neu ddimai am ysgrifbin. Tybid gan rai anwybodus fod ei ddysgeidiaeth yn ddigyffelyb, a'i wybodaeth yn ddiderfyn. Mae'n wir ei fod wedi darllen gweithiau y Dr. Priestley, ac Abraham Tucker; yr oedd yn gyfarwydd yn Joyce's *Scientific Dialogues;* ac yr oedd wedi meistroli cystrawen yr leithoedd hyny a ddysgid ganddo i'r ysgolheigion. Ysgrifenodd gryn lawer i'r *Diwygiwr* a'r *Drysorfa Gymulleidfaol* yn y cymeriad o hanesydd a bardd; cronicl yw ei hanesiaeth, a rhigymau yw ei gyfansoddiadau barddonol. Yr oedd rhy fach o athroniaeth yn ei enaid i wneud hanesydd, a rhy fach o deimlad yn ei galon i wneud bardd; ac eto, yr oedd yn ysgolfeistr rhagorol o dda. Byddai yn cymeryd rhan yn arholiad blynyddol myfyrwyr Coleg Aberhonddu, safai yn uchel yn ngolwg yr Undodiaid dysgedig a'i cyfarfyddent yno, a thrwy eu dylanwad hwy, efe a dderbyniodd yr urdd-radd o Ph.D. o un o ysgolion yr Almaen. Er nad oedd yn llawer o athronydd, yr oedd yn fwy teilwng o'r anrhydedd na llawer sydd yn gwisgo teitlau, canys yr oedd yn gwybod digon o Ladin i ddarllen ei *Diploma* yn yr iaith glasurol hono. Clywsom y Dr. William Smith yn talu gwarogaeth i'w wybodaeth fanol a chywir yn Ngramadeg y Lladin a'r Groeg.

Yr oedd y Dr. Davies yn pregethu yn fisol yn Crugybar, a Ffaldybrenin, ac Esgeirdawe; drwgdybid ef o gyfeiliornad mewn barn, ac ofnid ei fod yn gogwyddo at Undodiaeth. Clywsom ef yn pregethu droion, nid ydym yn proffesu gwybod ei farn, ond yr ydym yn meddwl ei fod ef a'i farn yn ddigon diniwed i eraill, pe y cawsai lonydd, canys yr oedd yn un o'r pregethwyr diflasaf a wrandawsom erioed. Yr oedd yn ddoniol dros ben ar fore y Sadwrn yn ysgoldy Ffrwdfal, pan yn

Digitized by Google

dynwared Mr. Davies, o Sardis, ond pan ai i bregethu dranoeth yr oedd wedi colli ei ddawn yn hollol. Nid oedd y teimladau goreu yn ffynu rhyngddo ef a gweinidogion Crugybar a Ffaldybrenin; nid ydym gymwys, hwyrach, i benderfynu ar bwy yr oedd y bai, ond un peth a wyddom ni, nid oeddynt yn nyled eu gilydd o ddim, ond o garu pawb eu gilydd. Yn ystod ei arosiad yn Ffrwdfâl, sefydlodd y Dr. Davies eglwys Annibynol yn Parkyrhos, yn agos i Lanbedr Pont Stephan, a gwnaeth hyny heb lawer o bryder, na llafur, na thraul; canys cafodd ystafell i bregethu am ddim, gan ei ewythr Mr. Williams, Parkyrhos; a derbyniodd arian y Dr. Daniel Williams, yn flynyddol hyd ddiwedd ei oes am ei lafur yn y lle hwnw. Symudodd y Dr. Davies o Ffrwdfâl ar gais Mr. Jones o'r Dulwyn, i Droedrhiw Galltwalis, a bu yn addysgu plant y boneddwr hwnw, ac eraill a ddeuent i'w athrofa, am ddwy neu dair blynedd; oddiyno efe a symudodd i Gaerfyrddin, pan ddewiswyd ef yn athraw mewn rhifyddiaeth a'r gwyddonau yn ngholeg y Presbyteriaid. Arosodd yn y swydd hono, hyd nes y symudwyd ef gan angau. Yr oedd efe bob amser mewn heddwch â'r Undodiaid, a threuliodd flynyddoedd olaf ei fywyd dan eu nawdd a'u hymgeledd. Bu farw Rhag. 10, 1359, yn 55 oed, a chladdwyd ef, yn ol ei ddymuniad, yn monwent Elim, gerllaw tref Caerfyrddin.

DEGEMAN, sant, am yr hwn y dywed Cressy "iddo gael ei eni o riaint parchus yn y parth dehau-orllewinol o Gymru; iddo adael ei wlad er mwyn ymroddi yn well i fywyd penydus a chrefyddol; iddo groesi yr Hafren ar lidiard wedi ei gwiailenu, ac ymgilio i fynydd mawr ac anial lle na thyfai ond prysgoed a drain, lle y treuliodd ei fywyd mewn myfyrdod, hyd nes yn y diwedd y lladdwyd ef gan lofrudd." Dywed Camden mai y lle y llofruddiwyd ef ydoedd St. Decombe, yn Ngwlad yr Hâf, ac adeiladwyd yno eglwys er coffadwriaeth amdano. Efe yw sant gwarcheidiol eglwys Roscrowther, yn sir Benfro; a chapel o'r enw Llandegeman, a safai unwaith yn mhlwyf Llanfihangel Cwmdu, yn sir Frycheiniog. Bu farw yn 706, a chedwid ei wylmabsant Awst 27. Ei enw yn y Lladin ydyw "Decimanus."—Wms. *Em. Welsh.*

DEINIOL WYN, neu Daniel, sant, ydoedd fab i Dunawd Fur, abad a sefydlydd coleg crefyddol enwog Bangor-is-y-coed, sir Fflint. Fel ei riant, ymroddodd yntau i fywyd crefyddol; bu ar y cyntaf yn cynorthwyo ei dad, ac yna, yn 516, aeth a sefydlodd fynachdŷ yn Mangor Deiniol, neu Bangor fawr yn Ngwynedd, sir Gaernarfon, ar ba goleg y bu efe yn abad. Yn mhen yspaid, Maelgwn Gwynedd a freiniodd yr abad-dŷ ag arian; a gwnaed Deiniol yn esgob Bangor. Cysegrwyd ef i'r swydd gan Dyfrig *(Dubricius)*, ac fel hyn y gwnaed Bangor gyntaf yn dre esgob. Cysylltir enwau Deiniol Wyn, Cattwg, a Madawc Morfryn, i wneud y tri "Gwynfebydd Ynys Prydain," yn y *Trioedd.* Yn ol Sieffrey o Fynwy, bu Deiniol farw yn 544; ond y mae Proffesor Rees yn manylu ar y pwnc, ac yn cael lle i anmheu cywirdeb y dyddiad. Claddwyd ef yn Ynys Enlli; a chedwid ei wylmabsant Rhag. 10. Y mae yr eglwysi canlynol wedi eu cyflwyno iddo:—Llanddeiniol, yn Ngheredigion; Llanddeiniol, neu Itton, yn sir Fynwy; Penarlag a Worthenbury, yn sir Fflint; Llanuwchllyn, yn Meirion; a St. Daniel, yn Mhenfro.—Wms. *Em. Welsh.*

DEINIOLEN, neu Deiniol ail, neu Deiniol fab, ydoedd fab i Deiniol Wyn. Efe oedd aelod o fynachdy Bangor Iscoed, lle yr oedd Dunawd ei daid, yn abad. Pan ddinystriwyd y lle hwnw yn 607, gan Ethelffrith, brenin Northumbria, a dodi deuddeg cant o'r myfyrwyr i fin y

Digitized by Google

cleddyf, Deiniolen, yn nghyda 30 eraill a ddiangasant a'u hoedl ganddynt, ac a ddaethant i Fangor Fawr yn Ngwynedd, lle yr oedd Deiniol ei dad yn athraw. Yno yr arosodd; a thybir mai efe a ddilynodd ei dad i'r swydd. Yn 616, sefydlodd eglwys Llanddeiniolen, yn Arfon; ac yn mhen amser, eglwys Llanddeiniol Fab, yn Mon. Cedwid ei wylmabsant Tach. 23.

DEIO AB IEUAN DU. Bardd gorchestol yn ei flodau o 1460 i 1500. Genedigol ydoedd o Lanfihangel y Creuddyn, ger Aberystwyth. Dywed mewn un Cywydd o'i waith :—

"Car iddynt wyf o'r Creuddyn."

Dywedir mai Llangynfelyn, ger Cors Fochno, oedd ei drigfod, ac mai yno y claddwyd ef. Yr oedd Deio yn hoff iawn o glera, ac yn fawr ei groesaw gyda'r boneddigion, mal y dengys "Cywydd y Clera yn Ngheredigion."

Ni chawn, ym Duw a Chynin,
Dy bach o'r Dehau heb win;
Llawen fyddai gwen pob gwr
Wrth Ddeio gymhorthaawr.

Yn oes y bardd hwn yr oedd llawer o gyrchu i Ynys Enlli i glera, ac i ymweled â'r saint. Tua 1480, yr oedd un Madog yn abad yno. Dichon i rywun dwyllo Deio, drwy ddweyd mai gwr hael oedd Madog. Pa fodd bynag, aeth yno gydag awdl foliant i'r abad yn ei gôd, gan ddisgwyl croesaw i gig eidion a hen ddiod; yn lle hyny cafodd "enwyn surllyd," a "chaws pryfedog," yn arlwy;—taflodd ei awdl foliant i'r tân, a chânt "Awdl y Caws" fel serth a gogan ar yr abad, "a'i forwyn lygattraws," a'r oll a berthynai iddo. Dywed bob drygair am y caws a'r enwyn; ac o hyny allan galwyd yr abad,—"Madog y Caws." Gwel yr Awdl yn y *Brython*, cyf. ii. Mae saith o'i gyfansoddiau yn *Ngorchestion Beirdd Cymru*. Dengys ei "Awdl foliant i Dafydd ab Cadwaladr o Fachelldref," ei fod yn hoff o wleddau y pendefigion ar y Nadolig, &c., a'i fod yn ddyn dantfelus; ac y mae ei "Gywydd moliant i Sion o'r Waen," yn brawf ei fod yn gydnabyddus â Phowys a Gwynedd, yn gystal ag â Gwent a Deheubarth. Mae llawer o'i farddoniaeth ar gôf a chadw mewn llawysgrifau.

DERFEL GADARN, mab i Hywel ab Emyr Llydaw, ydoedd ryfelwr enwog yn amser Arthur. Yr oedd yn mrwydr Camlan, lle yr hynododd ei hun yn fawr ar gyfrif ei ddewrder. Pa fodd bynag, ymddengys ddarfod iddo gyflwyno y rhan olaf o'i oes at wasanaeth crefydd; a rhestrwyd ef ar ol ei farwolaeth yn mhlith y seintiau Cymreig. Y mae eglwys Llandderfel, ger y Bala, wedi ei chyflwyno iddo. Yn yr hen amser, yr oedd yn Llandderfel rhyw hen Ddelw yn cael ei haddoli, o'r enw Derfel Gadarn, yr hon a anrhydeddid â phererindodau, ac offrymau, ac a ystyrid o fri uchel. Mewn delwau fel hyn, byddai rhyw fath o beirianau yn gwneud i'r llygaid agor a throi oddiamgylch, ac yn peri i'r aelodau symud megys ohonynt eu hunain; a llawer o ddichellion eraill oedd iddynt trwy ba rai y twyllid y bobl gyffredin. Rhoddodd Harri VIII. orchymyn i ddinystrio pob delw o'r fath, a syrthiodd Derfel Gadarn tan y gollfarn. Cymerwyd yr eilun i Lundain, yn Mai, 1538, a llosgwyd ef yn Smithfield "gyda'r hwn eilun y llosgwyd ac y crogwyd y mynach Forrest am deyrnfradwriaeth." "Delw Derfel Gadarn, o Gymru, a ddygpwyd at y crogbren, ac yno gyda'r dywededig fynach a roddwyd ar dân; yr hon y Cymry a'i mawr addolent, ac yn eu plith yr oedd coel y byddai iddi osod coedwig

Digitized by Google

(forrest) gyfan ar dân ; yr hon goel a ddaeth i ben, canys hi a osododd y mynach Forest hwn ar dân gan ei ddifa yn llwyr."—Fox's *Book of Martyrs.* Y mae rhai gweddillion am Derfel ar gael eto, sef rhan o geffyl pren, a chroesffon. Y maent (1837) yn meddiant y Parch. John Jones, rector Llandderfel ; gelwir hwy ceffyl Derfel, a ffon Derfel. Uwchlaw y persondy, y mae cae a elwir "Bryn Derfel ;" i'r hwn gae, meddai traddodiad, yr ymgynullai pobl o bob parth yn y Pasg er mwyn cael marchogaeth Ceffyl Derfel. Yr oedd y Ceffyl wedi ei osod ar bawl lledorweddog mewn cysylltiad a phawl arall unionsyth, ac yn gorphwys ar golyn *(pivot).* Gafaelai y marchogwr mewn croesffon oedd yn nglyn â'r ceffyl, a chwyldroid ef o amgylch y pawl unionsyth fel y chwyldroir plant ar geffyl pren mewn ffair.—*Nodau* yn *Ngwaith* Lewis Glyn Cothi. Gwr o'r enw Ellis Price, a roddes y wybodaeth i Syr Thomas Cromwell, y ficar cyffredinol, am ddelw Derfel ; a cheir y llythyr o'i eiddo yn y *Gwladgarwr* viii. 268.

DEULWYN (IEUAN). Yr oedd Ieuan Deulwyn yn ŵr boneddig o ddysg a gwybodaeth, canys yn 1460 bu galwad amdano ef ac eraill i gastell Penfro i derfynu pwnc dyrys o barthed i aohau a theitl, &c., yr Herbertiaid. Gwysiwyd "*the foure cheyffest men of skyll within the prouynce of Sowth Wallys.*" Hywel Surdwal, Ieuan Deulwyn, a Ieuan Brechfa, "*Bardes,*" oedd tri ohonynt. Ac wedi hir chwilio coflyfrau Monachlog Ystrad Fflur, Monachlog Margam, &c., gosodasant y cwbl gerbron y brenin—"*in foure severall languadges, viz., in Latyne, Brytish, French, and English, eache Coppye agreeing word for word.*" Gwel Fenton's *Pembrokeshire.*

Bernir yn gyffredin mai brodor o Bendeulwyn, yn mhlwyf Cydweli, ydoedd, er fod Iolo Morganwg yn honi mai yn Mhendeulwyn, yn mro Morganwg, y trigai. Tybir hefyd gan rai mai oddiwrtho ef y mae yr enw *Dilwyn* wedi disgyn. Efe oedd llywydd Gorsedd Morganwg yn 1480, ac athraw Iorwerth Fynglwyd, Lewis Morganwg, &c. Mae saith cywydd o'i eiddo yn *Ngorchestion Beirdd Cymru ;* un yw "Marwnad Syr Risiart Herbert, a las yn y maes yn Manbri." Cymerodd brwydr Banbury le yn 1469. Tebygol i Ieuan Deulwyn, D. Nanmor, a D. ab Edmwnd, feirw tua'r un amser.

Bwrw Dafydd gelfydd dan gor,
Bwrw ddoe'n unmeistr—Bardd Nanmor
Bwrw Deulwyn, y brawd olafl;
Blodau Cerdd, ba wlad eu caf?
Tair awen oedd i'r triwyr
A f'ai les i fil o wyr.—T. ALED. "Marwnad D. ab Edmwnd."

DEVEREUX (WALTER), iarll Essex, a thad anwylun anffodus y frenines Elizabeth, a anwyd yn sir Gaerfyrddin, yn 1540 ; ac a ddilynodd ei daid i'r teitlau is-iarll Henffordd ac arglwydd Ferrers. Ymunodd â byddin iarll Lincoln i ddarostwng y gwrthryfelwyr a godasent yn erbyn awdurdod y frenines yn y Gogledd. Enillodd hyn iddo ffafraeth ei mawrhydi, a hi a'i gwnaeth yn iarll Essex yn 1572, ac yn farchog urdd y gardas. Wedi hyny, penodwyd ef yn llywodraethwr Ulster, yn yr Iwerddon. Bu farw yn Nublin, Medi 22, 1576 ; a thybir fod gwenwyn wedi ei weinyddu iddo trwy ddichell ei elyn, iarll Leicester. Traddododd yr esgob Richard Davies bregeth yn Nghaerfyrddin ar amgylchiad ei gladdedigaeth, yr hon a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1577, at ba un y chwanegwyd beddargraff achyddol a chofiant o'r iarll. —Wms. *Em. Welsh.*

Digitized by Google

DEWI SANT.

DEWI MYNYW. Bardd o Ddyfed, yr hwn a flodeuodd o 1170 hyd 1210. Nid oes dim o'i waith ar gael.

DEWI SANT. Mae yn anhawdd gwybod gwir hanes Dewi Sant, gan fod cynifer o chwedlau wedi eu cymhlethu a'i goffadwriaeth, ac hefyd yn mhen tua chwe' chan' mlynedd ar ol ei farwolaeth y cafodd ei wneud yn sant, neu ei ganoneiddio, gan y Pab Calictus, tua 1120. Saif ei achau fel hyn :—"Dafydd Sant, fab Ceredig, fab Cunedda, fab Edeyrn, fab Padarn Beisrudd, fab Deil, fab Gorddeil, fab Dwfn, fab Gorddwfn, fab Amgnod, fab Amweryg, fab Omyt, fab Pern, fab Dunbun, fab Ongen, fab Afallach, fab Engen, fab Eirddolen, fab Chwaer Fair mam Iesu Grist." Gallesid peri iddo ddisgyn o Fair ei hun yr un mor hawdd, oni buasai hyny yn difa pwnc arall, sef ei gwyryfdod. Dywed achau eraill mai Sandde ab Cedig ab Ceredig oedd ei dad. Dywedir yn mhellach iddo gael ei genedlu drwy drais ac anfodd; ac mai lleian ddiwair o feddwl a gweithred o'r enw Non, merch Gynyr o Gaer Gawch, oedd ei fam. Dechreuodd Dewi wneud gwyrthiau cyn ei eni, canys er pan gafas ei fam feichiogi, ni fwytaodd namyn bara a dwfr yn ei hoes, ac ni lewes Dewi fwyd namyn bara a dwfr, am hyny y gelwir ef Dewi Ddyfrwr. Aeth Non, pan yn feichiog ar Dewi, i'r eglwys i wrandaw Gildas Sant yn pregethu, ond nis gallai lefaru nes gyru y lleian allan, oherwydd fel y dywedai fod y mab oedd yn nghroth y lleian yn fwy ei feddiant, ei rad, a'i urddas, nag ef!

Pan anwyd ef, tarddodd ffynon mewn lle sych i gael dwfr i'w fedyddio, ac yr oedd un dall wyneb-blawr yn dal wrth fedydd iddo; golchodd hwnw ei wyneb â'r dwfr santaidd, a chafas ei olwg! Anfonwyd Dewi i'r ysgol i le a elwid Henllwyn. "Yno y dysgwyd iddo ef Seilim (Salmau) yr holl flwyddyn a'i llithion a'r offerenau; yno y gweles ei gyd-ddysgyblion ef golomen a gylfin aur iddi yn dysgu Dewi, ac yn gwareu yn ei gylch!" Bu wedi hyny yn Mangor Illtud; ac o dan addysg Pawl Hen, yn y Tygwyn ar Daf, am ddeg mlynedd. Adferodd ei olwg i Pawl Hen pan aethai hwnw yn ddall gan henaint. Gyrwyd ef oddiyno drwy orchymyn angel at ei waith. Aeth i ynys Afallach, ac adeiladodd eglwys yno, a bendigodd y dwfr gwenwynllyd, "ac a wnaeth y dwfr hwnw yn dwym hyd ddydd brawd." Efe gan hyny, yn ol y chwedl, yw tad yr Enaint Twymyn *(Hot Baths)* sy'n Nghaerbaddon. Aeth oddiyno ac adeiladodd Lanllieni, yn nglyn Hafren, a rhoddes lygaid i Bebrawc brenin Erging; ac adeiladodd eglwys Rhaglan yn Ngwent, a Llangyfelach yn Ngwyr, a dychwelodd ar ol gwneuthur myrdd o ryfeddodau anhygoel i Henllwyn, ac oddiyno i glyn Hodnant. Lle sych oedd y glyn hwnw, am hyny gweddiodd Dewi am ffynon o ddwfr, "ac yn ddiannod y cyfodes ffynon eglur; ac yn oes Dewi yn Nglyn Hodnant y bu y ffynon hono yn llawn o win, fal na bu arno yn ei oes ef eisiau gwin da." Mae hyn braidd yn annghyson a'r enw *Dewi Ddyfrwr*, ond mae yn anhawdd hyd yn nod i fonachod wneud dyn yn bob peth, i ateb pob dyben. Gweddiwyd eilwaith am ffynonau o ddwfr croew, a chafwyd dwy. "A'r criplaid, a'r deillion, a'r cleifion, a geffynt wared yn y ddwy ffynon hyny." Pethau fel uchod sydd yn cyfansoddi "Buchedd Dewi Sant." Daeth Dewi i'r golwg fel sant yn senedd Frefi yn 519, drwy iddo wrthladd heresi Morgan. Yr oedd Dyfrig yr archesgob erbyn hyn yn hen, ac angen am olynydd iddo. Safodd Dewi mewn pant i areithio yn erbyn Morganiaeth, ond cyn diwedd yr araeth yr oedd y *pant* wedi chwyddo yn *fryn* dan ei draed! ac yntau yn uwch na phawb ar uchelfanau y maes! Pa fodd bynag, etholwyd Dewi yn "benesgob," a

Digitized by Google

symudwyd gorsaf yr archesgobaeth Gymreig o Gaerlleon-ar-Wysg o hyn allan i Dyddewi, ac ymneillduodd Dyfrig i Ynys Enlli.

Pan oedd oedd Saint Senedd Brefi,
Ar ol gwiw bregeth Dewi,
Drwy arch y prophwydi,
Yn myn'd i Ynys Enlli, &c.

Tybir i Dewi farw yn 554, yn 82 oed: eraill a osodant ei farwolaeth yn 566. Claddwyd ef, meddir, yn anrhydeddus yn Nhyddewi, ar draul Maelgwn Gwynedd. Daeth Dewi yn fuan i fri mawr gan y Cymry. Y mae Golyddan, yr hwn a flodeuodd yn ol rhai rhwng 560 a 630, yn cyfeirio ato yn "Arymes Prydain Fawr" fel hyn:—

I Dduw a Dewi ydd ymorchymynynt,
Taled, gwrthoded ffied i Allmyn!

Eilwaith,—

Trwy eiriawl Dewi a Saint Prydyn,
Hyd ffrwd Argelo ffohaur allan."

A llyman glan Dewi a ddyrchafant.

Sonia hefyd am "wyrthiau Dewi,"—

Neu wyrthiau Dewi pyr y toryasant.

Poed tywysawg Dewi i'r cynnifwyr.

"Englynion y Clywed," y rhai ydynt hen iawn, a gyfeiriant yn barchus at Ddewi:—

A glywaist ti a gant Dewi,
Gwr llwyd, llydan ei deithi?
Goreu defawd daioni.

Dyna oedd arwyddwers Dewi, sef mai y ddefod oreu oedd gwneuthur daioni. Y mae yn anhawdd gwybod pa bryd y gwnaed ef yn warcheidsant Cymru; dywed y Dr. W. O. Pughe:—"Ni chlywswn erioed sôn am y fath sant tadogawl, nac am y geninen fel ei arwydd, hyd oni hysbyswyd yr unrhyw imi yn Llundain." Er hyny, yr oedd mewn bri mawr trwy yr oesau; a phe gellid rhoddi coel i chwarter y gwrhydri a ddywedir am dano, a'n cenedl ni, fel cenedloedd eraill, mewn angen nawddsant, dilys nas gellid ei amgen i'r swydd. Mae y *Trioedd* yn ei ddyrchafu fel un o dri "Phenesgob Ynys Prydain," ac un o dri "Gwesteion Gwynfydedig Ynys Prydain." Bu Dewi Sant farw ar y dydd cyntaf o Fawrth, a chedwir ei wyl fel Sant y Cenin gan y Cymry hyd y dydd hwn. Mae y "Canu i Ddewi" gan Gwynfardd Brycheiniog, rhwng 1160 a 1230, yn priodoli iddo yr holl chwedlau sydd yn ei "Fuchedd," megys:—

Dewi mawr Mynyw, syw sywedydd,
A Dewi Brefi ger ein broydd,
A Dewi lien balch Langyfelach.
Lle mae monach a mawr grefydd.

Mae 40 o eglwysi a 13 o gapeli yn gysegredig i Ddewi yn Neheudir a swydd Henffordd, er nad oes gymaint ag un llan yn gysegredig iddo yn Ngwynedd a Phowys. Gan Mair y mae mwyaf o eglwysi yn Nghymru, sef 143; Mihangel yw yr ail, sef 94; Dewi yw y trydydd, sef 53. Bu Cymru yn fwy Pabaidd nag y myn llawer iddi fod. Cafodd Dewi ei ganoneiddio, ac aeth yn sant y drychiolaethau.—Gwel *A Dissertation on the Pelagian Heresy;* Buchedd Dewi yn *Lives of the Cambro-British Saints;* Rees' *Welsh Saints;* Wms. *Em. Welsh.*, &c.

DEWI SILIN. Y Parch. Dafydd Richards, periglor Llansilin, oedd ail fab y Parch. Thomas Richards, Darowain, a brawd i'r efengylydd enwog y Parch. R. Richards o Gaerwys. Ganwyd ef yn 1783. Cafodd

Digitized by Google

ei ddysg yn Ystrad Meirig, a chafodd ficeriaeth Llansilin yn 1819. Bu farw, er mawr alar i'w gyfeillion a'i gydnabod, ac er colled i'w wlad, Rhag. 1, 1826, yn 43 oed. Mal gweinidog ei blwyf, ystyrid Dewi Silin yn ŵr cariadus, cymwynasgar, a diragfarn. Yr oedd ei garedigrwydd a'i gyfeillgarwch yn ddiarebol; ac yr oedd efe yn efengylydd effro ac uniongred. Mal bardd a llenor y rhagorai. Yr oedd efe yn cydfarnu â Bardd Nantglyn yn Nghaerfyrddin yn 1819. Pan sefydlwyd Cymrodorion Powys yn Hydref, 1819, efe a ddewiswyd yn ysgrifenydd. Cydfarnai hefyd â Gwallter Mechain yn Eisteddfod Wrexham yn 1820, ac yn wir yr oedd efe yn un o brif golofnau yr Eisteddfodau o hyny hyd ei farwolaeth. Mynychid Llansilin yn ei amser ef gan feirdd a llenorion braidd o bob parth o Gymru, a sonir am ei enw gyda pharch mawr hyd y dydd hwn.

DEWI WYN O EIFION, neu Dafydd Owen, o'r Gaerwen, yn mhlwyf Llanystumdwy, Arfon, oedd un o'r beirdd mwyaf ei athrylith, os nad y mwyaf oll, a fagwyd erioed yn Nghymru. Ganwyd ef yn y Gaerwen yn 1784. Yn nyddiau ei faboed bu mewn mân ysgolion yn ei ardal, megys yn Llangybi, Llanarmon, Llanystumdwy, a Phenmorfa; a bu ar ol hyny yn Mangor Iscoed, yn Maelor, yn gorphen ei addysgiaeth. Yna dychwelodd adref, a threuliodd weddill ei oes yn y Gaerwen, lle bu farw Ionawr 17, 1841, yn 56 oed. Diau fod Dewi Wyn yn enwog fel amaethwr, ac yn hynod fel masnachwr yn Mhwllheli, mewn cysylltiad a'i frawd Owen, ond fel bardd a llenor o'r radd uchaf y mae a wnelom ni ag ef. Pan oedd Dewi yn fachgenyn, yr oedd y Parch. D. Ellis yn berson Criciaith; Sion Lleyn yn fardd addfed; D. Ddu Eryri wedi cyrhaeddyd nenbwnc ei enwegrwydd; a'i gymydog agos, R. ab G. Ddu, yn d'od i sylw yn gyflym fel bardd gorchestol, ac wedi enill cadair y Gwyneddigion yn Ninbych, yn 1792. Nid rhyfedd gan hyny oedd i'r fath ddylanwadau grymus enyn y ddawn farddonol yn fore mewn bachgenyn oedd yn berwi eisoes gan athrylith gynhenid. Cofnodir un Englyn doniol o'i eiddo pan yn ddeuddeg oed, i ryw facwy anffodus o'r enw Dic Morus. Mae un linell yn hynod o farddonol mewn digrifwawd:—

Y gwar cam a'r garau ci.

Annichon darlunio climach garfaglog affuniaidd yn fwy anferth; a deil y llinell yna ei chyferbynu â llinell D. ab Gwilym:—

Gwar ab oedd yn gyru bw.

Cyfansoddodd Englynion hiraeth am ei gartref pan yn Mangor yn yr ysgol. Pan yn 16 oed, cyfansoddodd gywydd ardderchog, ag ystyried ei oedran, ar "Fawredd Jehofa," gwel *Y Brython*, cyf. iii. Ni bu Dewi, er ei holl ddoniau, yn ffodus mewn cystadleuon. Ei ymgais cyntaf am fri eisteddfodol oedd awdl "Anfarwol goffadwriaeth Goronwy Owain," testun y Gwyneddigion am 1803. Nid yw hon yn awdl gref; a gorchfygwyd y bardd ieuanc gan Gutyn Peris; a theimlodd yntau beth chwerwder a siomedigaeth. Yn 1804, meddyliodd y Gwyneddigion am gynal eu Heisteddfod yn Harlech, ac wedi hyny yn Nghaernarfon, er na chynaliwyd hi yn y naill fan na'r llall. Y testun oedd "Ynys Prydain, a'i hamddiffyniad rhag estron-genedl." Daeth tri chyfansoddiad i law, dan y ffugenwau *Bardd Cwsg*, *Eifion Ieuanc*, a *Dawed*. Cân rydd yn null Gwalchmai yn y ddeuddegfed ganrif oedd eiddo *Bardd Cwsg*. Efe a farnwyd yn oreu, a Dewi, sef *Eifion Ieuanc*, yn ail. Bu llawer o ddadleu ac o ymryson yn mysg y Gwyneddigion ar yr achos. Hugh Maurice, nai Owen Myfyr, oedd *Bardd Cwsg*; ond cuddiodd ei

Digitized by Google

ei hun am flwyddyn, er ei fod yn y gymdeithas, ac yn taeru dros ac yn erbyn fel eraill, ni wybu neb pwy ydoedd nes i'r rhyfel fyned trosodd; ac i'r ariandlws gael ei farnu i'r ail oreu. Nid eiddo Dewi Wyn oedd y tlws oni buasai i'r *Bardd Cwsg* ymguddio am flwyddyn. Argraffwyd arwyrain y *Bardd Cwsg* ac awdl Dewi Wyn hefyd yn y *Greal*, 1806.

Mae Bywgraffwyr Dewi yn gyffredin yn tybied mai efe a enillodd y gamp y tro hwn, ond fel y nodwyd yma y barnwyd yr ariandlws iddo. Awdl orchestol iawn ydyw hon, ac un o brif gampau y bardd. Dywed adolygydd a beirniaid arni yn y *Traethodydd* :—"Y mae y sylwadau yn cael eu cyfyngu yn ormod at Gymru a'r genedl Gymreig, gan annghofio fod cenedloedd eraill yn ddeiliaid Prydain." Ond dylasai y beirniaid ddeall fod y Gwyneddigion yn nghyhoeddiad y testun, wedi cyfyngu y beirdd at y genedl Gymreig, a gorchymyn iddynt wneud coffa neillduol o'n prif wroniaid o Gaswallon i waered.

Ar ol hyn, bu dadl farddonol rhwng Dewi a G. Peris ar "Fonedd a chyneddfau'r awen." Argraffwyd y cywyddau yn *Seren Gomer* yn mhen blynyddau. Barnai Dewi am awen mai

Dawn natur pob dyn ytyw,

a daliai Gutyn ei bod yn rhyw rodd neillduol bron fel dawn prophwyd. Dichon bod y ddau yn myned i eithafion. Barnwn nad oes gan bob dyn ddawn naturiol i farddoni, ond y mae gan bob dyn ddawn naturiol at rywbeth; a'r ddawn naturiol hono yw awen y dyn hwnw; a diau fod damweiniau bywyd yn dylanwadu llawer er rhoddi cyfeiriad i athrylith dyn yn more ei oes. Yn Medi 18, 1811, cynaliwyd Eisteddfod Tremadog. Y testun oedd "Amaethyddiaeth." D. Ddu Eryri oedd y beirniad. Daeth i law cryn nifer o awdlau galluog, ac yn eu plith gwaith y *Dryw*, sef y Parch. E. Hughes, Bodfari, Gwallter Mechain, &c. Ond aeth Dewi a'r llawryf oddiarnynt oll yn ddigon rhwydd. Cyhoeddodd ei awdl gyda mân ddarnau eraill yn llyfr, a chynygiodd ar ei ddiwedd ddwyn llyfr swllt allan dan yr enw "Lloffion Awen." Tua'r pryd hyn hefyd y cyfansoddodd "Gywydd Marwnad y Parch. D. Jones, Llangan;" a phan gychwynwyd *Seren Gomer*, yn 1815, yr oedd Dewi yn ohebydd barddonol iddi; a pharhaodd felly yn achlysurol tra bu byw *Gomer*. Yn 1819, cynaliai Gwyneddigion Llundain eu Heisteddfod yn Ninbych. "Elusengarwch," oedd testun eu tlws a'u cadair y flwyddyn hono. Daeth 15 o awdlau i law, er nad oedd un ohonynt yn werth ei chadw mewn cof ond eiddo Dewi Wyn, yr hon er hyny a farnwyd yn annheilwng o'r wobr! Parodd hyn i'r beirdd gyffroi a therfysgu trwy'r holl wlad, fel na bu y fath gynhwrf oherwydd cam mewn Eisteddfod na chynt na gwedi. A diau na fu y fath gamwri mewn Eisteddfod erioed yn Nghymru. Mae genym amryw o lythyrau cyfrinachol beirdd Arfon at eu gilydd ar y pryd ger ein bron, a llythyrau o Lundain hefyd, y rhai a ddynoethant lawer o gastiau gwarthus. Ar ben Bardd Nantglyn y mae'r melldithion trymaf yn disgyn. Ymddengys fod Dewi Wyn yn llawn yni barddonol yn 1818–20, pe cawsi gefnogaeth, yn lle siomedigaeth a digalondid, fel ag y mae "Cywydd Anerch Sion William Prisiart o Blasybrain," "Awdl Cyfarch y Gweithwyr," a "Gorhoian y Bardd ar ymweliad Sior IV. ag Ynys Môn," yn profi. Gyda bod rhyfel "Elusengarwch" drosodd, dyna *Iwan* yn ymosod arno yn *Seren Gomer*. Gwr ieuanc anarferol o ddysgedig, athraw ysgol, pregethwr gyda'r Bedyddwyr, a chyfaill mynwesol Daniel Ddu, oedd *Iwan*. Er nad oedd ei sylwadau ar farddoniaeth Dewi Wyn ond dibwys ynddynt eu hunain, ac er eu bod mewn yspryd digon mwyn a charedig, eto

Digitized by Google

effeithiasant ar y bardd yn ddirfawr, fel, rhwng pob peth, na chafwyd nemawr o ffrwyth ei awen mwyach; oddigerth ei gywydd i'w frawd yn 1827, ac englynion Pont Menai yn 1832. Mae "Awdl yr Adebau" yn dangos ddarfod i annhegwch Dinbych effeithio yn ddwys, a gofidio ei yspryd yn ddirfawr; ac y mae "Cywydd yr Iwan," yn 1823, yn profi ei fod yn hynod o'r cignoeth a drwg ei ddyoddef. Treuliodd weddill ei oes gyda'i orchwylion amaethyddol. Yr oedd ei frawd, Owen Owens, yn cadw siop yn Mhwllheli, ac yn cael ei flino gan bruddglwyf. Byddai Dewi yn fynych gydag ef yn ei gynorthwyo, a rhwng y masnachdy a'r Gaerwen casglasant beth dirfawr o arian. Bu Owen Owens farw yn 1837. Hen feibion anmhriod oedd y ddau; a dichon bod hyny yn cyfrif i raddau am yr anhwylderau oedd arnynt.

O ran ei berson, yr oedd Dewi yn ddyn o'r maintioli cyffredin, yn gryf ei gyfansoddiad, yn hardd o ran ei olygiad dynsoddawl, yn gwargrymu ychydig, yn tueddu mwy at londer na phrudd-der, yn siriol ac ysgafn ei wynebpryd, yn hoffi ffraethineb a difyrwch chwareus mewn cyfeillach. Ei wallt oedd grych ac o liw goleu, (a dyna sail yr enw Dewi Wyn), ei lygaid yn fywiog a threiddgar, yn ysgogi yn gyflym a chwimwth, ac yn edrych ar y llawr wrth gerdded fel un mewn dwys fyfyrdod. Yr oedd ei lais yn lleddf, a'i ymadrodd yn gyflym, a seiniai yr *y* yn wastad fel *i* byd—*bîd, &c.* Dyna dystiolaeth ei fywgraffwyr amdano.

Fel dyn a chymydog, yr oedd efe yn garedig, gonest, a didderbyn wyneb. Un o'i brif nodweddau oedd cyfiawnder. Mewn cymdeithas byddai ei ymadroddion yn fynych yn hyf, eithafol, a hunan hyderus. Anfynych y ceid neb cyfartal iddo mewn cyflymder a gwreiddiolder ei sylwadau. Tebygol yr ymddangosai yn llawer mwy o ddyn yn ei ymddiddanion parod nag yn unman arall; ac yn hyny ymdebygolai i'r Dr. Johnson.

Fel bardd, yr oedd efe yn hynod o barod ei atebion ar ol i ryw gyffro enyn ei ddawn a dihuno ei alluoedd, Gwelir y chwareugarwch a'r nwyfiant mwyaf yn ei farddoniaeth yn 1813–16, megys "Cywydd Elen," "Dymunoldeb Gwraig Rinweddol," "Tŵr Ardalydd Môn," "Cywydd y farf," "Englynion Buonaparte," "Cywydd y Cawr Gwan," &c., ac ail belydrodd y nwyfiant hwnw, fel haul trwy gymylau, yn "Englynion Pont Menai," yn 1832. I'r adeg hon hefyd y perthyna "Caniadau y Seiri," "Englynion y Morglawdd," &c. Ffurfiodd awdlau Dewi Wyn gyfnod newydd yn marddoniaeth Cymru. Nid oedd genym ddim tebyg i awdl "Molawd Ynys Prydain," ac awdl "Elusengarwch," cyn hyny. Gwir fod awdlau Dafydd Ddu yn fwy coeth a gorphenedig, ond mewn nerth ac angerddoldeb y maent yn mhell ar ol. Eben Fardd yn ei brif awdlau yw'r agosaf ato. Mae Eben Fardd yn fwy cywir a diwall o ran iaith a gramadeg, ond yn fyr o dân a lluched y bardd o'r Gaerwen.

Diffygion Dewi Wyn. Er fod y bardd yn ŵr o gryn ddysg, yn enwedig fel Cymro a Sais, a bod ganddo gryn ddeall mewn cerddoriaeth, rhifyddiaeth, &c., a'i fod yn hanesydd da, eto gadawodd ei gyneddfau cryfion i raddau pell yn anniwylledig. Gwelir arwyddion annhrefn, a diffyg coethder gorphenedig, yn ei waith yn fynych. Dichon mai y cyfrif goreu a allwn roddi am hyn yw'r hunan hyder gormodol oedd ynddo, yr hyn a barai iddo ymddiried gormod yn ei nerth a rhy fach i fedr a chelfyddyd. Yr oedd rhyferthwy ei athrylith yn ei yru yn mlaen ar brydiau gyda chyflymdra aruthrol, fel na chymerai hamdden i osod ei feddyliau ar bapur mor eglur ag yr ymddangosent iddo ef ei hunan.

Digitized by Google

Magesid ef mewn cymdeithas werinaidd ac anwybodus, yn mysg y rhai yr ymddangosai fel caterwen (!) yn nghanol cawn a chegyr, a chan iddo dreulio ei amser i drin y byd, yn hytrach na darllen a myfyrio er ymgydnabyddu a phrif ddoniau y ddaear, nid rhyfedd os oedd peth o naws hunanoldeb ac anffaeledigrwydd dynion mynyddig yn lefeinio ei yspryd.

Fel rhyddieithwr yr oedd Dewi Wyn yn odidog. Mae ei "Draethawd ar Gymedroldeb," yr hwn a ysgrifenodd yn 1836, y peth cryfaf a ysgrifenwyd yn yr iaith ar y pwnc. Ac y mae yr araith satanaidd ar "Sefydliadau eglwysig a degymau," yn arswydus o ran nerth dawn ac athrylith. Hefyd ysgrifenodd rai darnau grymus o ryddiaith i *Seren Gomer* yn nyddiau Harris. O ran ei grefydd ymlynai Dewi yn frwdfrydig gyda'r Bedyddwyr er yn ieuanc; ond yn niwedd ei oes yr ymunodd drwy fedydd â'r enwad hwnw. Buasai yn cyfeillachu ac yn gohebu llawer yn more ei oes â'r enwog J. R. Jones o Ramoth, ac yn ei gynorthwyo yn nghyfansoddiad ei lyfr Hymnau. Yr oedd efe yn wrandawr cyson yn nghapel y beirdd, ac yn brif gynorthwywr i'r achos, er na byddai un amser am ddangos ei hun felly. Pan fyddai eisiau talu rhyw swm am adgyweirio y capel, neu rywbeth arall, gofynai i'r cyfeillion pa faint fyddai ganddynt at wneud y swm i fynu; ac wedi i bob un dd'od a'i gyfran, byddai Dewi yn eu gorphen faint bynag fyddai yn ol, a rhoddai y cwbl yn llaw un ohonynt hwy i dalu, a chadwai ei hunan o'r golwg. Dyn dirodres a diragrith ydoedd. Dyn craff iawn i adnabod dynion ydoedd. Dywedai am un a ganmolid yn uchel, "Mae e'n ddyn mawr ond yn dd—l mwy." Daeth pregethwr i gapel y beirdd unwaith i lefaru. "Y tad anwyl," ebai R. ab G. Ddu, "yr oedd y dyn yna yn dweud pethau mawr iawn." "Nid oes dim ynddo fe," ebai Dewi, "nid oes ganddo fwy o ras na cheffyl." "Tad anwyl, Dafydd, be'chi yn deud fel yna am y dyn," ebai'r llall yn ol. Trodd y dyn allan yn ol sylw Dewi. Yr oedd y rhyw bruddglwyf ofnadwy yn blino Dewi nes myned a'i fywyd. Yn hyny yr oedd efe yn debyg i Cowper y bardd Seisnig. Ni ddarfu cael ei fedyddio a chyfranogi o Swper yr Arglwydd liniaru fawr ar drallod ei feddwl. Yr oedd ei ymadrodd yn chwerw, a thybiai fod ei ddialedd yn drymach na'i uchenaid. Dywedai weithiau yn ei ing a'i gyfyngder:—

> Arweiniais yn wr annuw
> Fy holl daith dan felldith Duw!

Bryd arall ar adeg mwy siriol dywedai:—

> Agorodd ddrws trugaredd rad
> I mi Ddafydd amddifad.

Felly y gorphenodd yr awenyddol Ddewi Wyn o Eifion ei yrfa ddaearol, a chladdwyd ef yn meddrod ei dadau yn mynwent Llangybi.

DIER, neu Diheufyr, sant yn ei flodau yn y 6ed cant. Efe a sefydlodd eglwys Bodfari, yn sir Fflint; mab ydoedd i Arwystli Gloff. Gelwir ef yn rhamant Gwenfrewi, Deiferus.

DIFFEDELL, tywysog a bardd yn mysg Brythoniaid Deifn neu Deira *(Devon)*, yn ei flodau yn y 10fed cant. Cofnodir ef yn y *Trioedd* fel awdwr un o'r "tair madgyflafan," am iddo ladd Gwrgi Garwlwyd, yr hwn a ddysgasai ddyn-ysu *(cannibalism)* oddiwrth Edelffled Sais.

DIGAIN GORNEU, sant, yn ei flodau yn y pumed cant. Mab ydoedd i Gystenyn Gorneu. Efe a sefydlodd eglwysi Llangernyw, yr hon a safai unwaith yn Erging, rhandir o sir Henffordd; a Llangernyw, yn sir Ddinbych. Cynelid ei wylmabsant Tach. 21.

Digitized by Google

DIFWG, bardd Morgan Mwynfawr, brenin Morganwg yn y 10fed ganrif. Nid oes dim o'i waith ar gael.

DINGA MOEL ab Llywelyn Chwith, bardd yn ei flodau rhwng 1540 a 1570.

DINGAD, un o feibion Brychan, sant yn ei flodau yn y bumed cant. Efe a sefydlodd eglwysi Llandingad, yn sir Gaerfyrddin; Llandingad, neu Dingatstow, yn Mynwy, yn yr hwn le y claddwyd ef. Yr oedd yn aelod o goleg Cattwg.—*Myv. Arch.*

DINOGAD, un o'r arwyr a gwympodd yn mrwydr Cattraeth; a chofnodir ef gan Aneurin yn y *Gododin.*

DOCHDWY, sant yn ei flodau yn y 6ed cant. Aeth i ganlyn Cadfan i Enlli, lle yr ordeiniwyd ef yn esgob. Nid ymddengys ddarfod iddo gael un esgobaeth neillduol tau ei ofal; ond cronicler iddo gael gofal esgobaeth Llandaf, yn absenoldeb Teilo, yr hwn a wahoddesid i Enlli i drefnu pethau yn y mynachdŷ ar farwolaeth Cadfan. Tybir mai efe a sefydlodd ddwy eglwys Llandocha, neu Landough, yn Morganwg.—Rees' *Welsh Saints.*

DOGED, a elwir yn *Monedd y Saint*, Doged Frenin, ydoedd sant yn ei flodau yn y 6ed cant. Mab i Cedig ab Ceredig ab Cunedda ydoedd; ac efe a sefydlodd eglwys Llanddoged yn sir Ddinbych. Gelwir ef yn Doged *Frenin* yn Mabinogi *Cilhwch ac Olwen.*

DOGFAEL, sant yn ei flodau yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Ithel ab Ceredig. Efe a sefydlodd eglwysi Dogmael yn Nghemaes, Dogwel yn Pebidiog, Mynachlog Ddu, a Melinau, oll yn sir Benfro; hefyd Llanddogfael, capel a safai unwaith yn mhlwyf Llanfechell, Môn. Ei wylmabsant a gedwid Mehefin 14.

DOGFAN, sant yn y pumed cant. Mab ydoedd i Brychan. Lladdwyd ef gan Saeson Paganaidd yn Merthyr Dogfan, sir Benfro, lle yr adeiladwyd eglwys er coffadwriaeth am ei ferthyrdod, eithr ni wyddis yn iawn yn bresenol pa le y safai.

DOLBEN (David), D.D., esgob Bangor, oedd fab ieuangaf Robert Wynn Dolben, o'r Segrwyd, ger Dinbych, lle y ganwyd ef yn 1581. Addysgwyd ef yn ngholeg St. John, Caergrawnt; lle o radd i radd y cyrhaeddodd D.D. Y fywiolaeth gyntaf a gafodd oedd Llangernyw, yn sir Ddinbych, 1621; a phrebend yn 1626. Wedi hyny, bu yn ficer Hackney, o ba le y dyrchafwyd ef yn esgob Bangor Mawrth 4, 1631. Bu farw yn yr esgobdŷ, yn Holborn, Llundain, Tach. 27, 1633; claddwyd ef yn nghanghell eglwys Hackney, a chodwyd gwyddfa hardd ar ei fedd.—Wood's *Athen. Oxon.* O'r un teulu, yr hanai'r Parch. **John Dolben**, archesgob York, yr hwn oedd fab i Wm. Dolben, D.D., ac a anwyd yn Sandwick, sir Northampton, lle yr oedd ei dad yn berson. Ei fam oedd chwaer i'r archesgob Williams. Ganwyd ef yn 1625. Wedi cael elfenau ei ddysg yn Westminster, efe a etholwyd oddiyno i goleg Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1640, pan yn bumtheg oed. Pan oedd y brenin yn nhrallodion y Rhyfel Cartrefol, efe a ymunodd â'i fyddin, ac a wnaed yn fanerwr; ac yr oedd yn mrwydr Marston Moor, lle y clwyfwyd ef yn dost: ac o'r diwedd, gwnaed ef yn uch-gadben. Ond wedi i Rydychain roddi i fynu yr ymryson, ac i'r fyddin ymwasgaru, efe a ail-ymroddodd i'w efrydiadau, a chyrhaeddodd y radd o M.A. yn 1647. Deolwyd ef o'r coleg y flwyddyn ganlynol gan ymwelwyr y Senedd, ac enciliodd i fyw yn ddirgelaidd yn nhŷ Mr. Ralph Sheldon, yn mhlwyf St. Aldgate, Rhydychain, merch yr hwn a briododd. Byddai ef ac eraill, mewn tŷ yn ddirgelaidd, yn dwyn yn

Digitized by Google

mlaen addoliad yn ol trefn Eglwys Loegr yn ystod llywodraeth Cromwell. Pan adferwyd Siarl II., daeth yntau i ffafr yn fuan, ac wedi amryw ddyrchafiadau eglwysig, gwnaed ef yn esgob Rochester yn 1666, ac yn archesgob York yn 1683. Cyhoeddwyd amryw bregethau o'i eiddo. Bu farw o'r frechwen Ebrill, 1686; a chladdwyd ef yn ei eglwys gadeiriol, lle y rhoddwyd gwyddfa hardd ar ei fedd, ac arni gerfiad helaeth yn Lladin.—*G. Lleyn MSS.* Brawd i'r uchod oedd Syr WILLIAM DOLBEN, marchog. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A. yn 1665. Daeth yn ddadleuydd yn y *Middle Temple.* Wedi hyny anrhydeddwyd ef âg urdd marchog; a dyrchafwyd ef yn farnwr y frenin-fainc—*G. Lleyn MSS.*

DON, tad i Amaethon, Gwydion, Gofannon, Eunydd, ac Arianrod, enwau a gyfarfyddir yn fynych yn y *Mabinogion;* yn mha rai cystal ag y *Trioedd*, y gosodir hwynt allan fel rhai hyddysg yn ngwyddon Seryddiaeth, a phrawf o hyny ydyw fod amryw hen enwau seryddol Cymreig wedi eu cysylltu â rhai o'r teulu: megys, Llys Don, am y cydser Cassiopeia; Caer Arianrod, am y Corona Borealis; a Chaer Gwydion ydyw hen enw y llwybr llaethog.

DONA, sant yn ei flodau yn y 7fed cant. Mab ydoedd i Selyf ab Cynan Garwyn. Efe a sefydlodd eglwys Llanddona, yn Môn. Cedwid ei wylmabsant Tach. 1.

DREM ab Dremhidydd, un o arwyr rhamantus llys Arthur. Gosodir ef allan yn *Mabinogi* "Geraint ab Erbin," fel un o warchodlu Arthur. Enwir ef gan Cilhwch wrth eiddunu Olwen gan ei thad yn y *Fabinogi* hono, "Drem ab Dremhidydd (yr hwn a welai y gwybedyn yn y bore yn codi o'i lwth yn Blathaon, gogledd Prydain, ac yntau yn y Gelliwig yn Nghernyw)." A Iolo Goch yn 1400 gam pellach wrth son am y Dremhidydd, a dywed y gallai weled brycheuyn mewn pelydr haul yn mhedwar cwr y byd ar unwaith. Ystyr ei enw ydyw Gwel ab Gweledydd, ac y mae lle i farnu mai person ffugiol ydoedd. Defnyddir ei enw yn "Englynion y Clywed:"—

A glywaist ti a gant Dremhidydd
Hen ddisgwyliwr ar gaerydd,
Gwell nag nac addaw ni wneydd.

DRUDWAS ab Tryffin, yn ol y *Trioedd*, un o dri "Marchogion aurdafodogion llys Arthur, a doethaf o bob doethion o'u hamser oeddynt, ac mor deg a llaryeidd eu hymddwyn, ac mor hyawdl a hynaws eu holl ymadroddion, fel nas gallai neb ball arnynt ar a geisiynt." Mewn llythyr o eiddo yr hynafiaethydd enwog Vaughan o Hengwrt, a argraffwyd yn y *Cambrian Register* iii. 311, ceir y traddodiad canlynol am ddau aderyn a berthynent i Drudwas:—"Yr adar hyn oeddynt ddau griffin, a ddysgasai Drudwas i ymosod ar y dyn cyntaf a ddeuai i faes neilldiol, a'i ladd; a digwyddodd iddo nodi y maes hwnw i ymladd gornest â'r brenin Arthur. Drudwas a arosodd yn hir heb ddyfod i'r maes, gan ddisgwyl y cyrhaeddasai ei wrthwynebydd yno o'i flaen, ac y syrthiasai tan ddialedd yr adar ysglyfaethus; ond siomwyd ef; a'r ddau aderyn a ymosodasant arno ef ei hun, ac a'i lladdasant yn gelain. Pan welsant mai eu meistr a syrthiasai i'r trychineb, codasant ysgrechiadau dolefus ar ei ol am hir amser. Y mae chwareueg cyhoeddus mewn arferiad, yr hwn y gwelais ei weithredu yn fynych, a wnaed y pryd hwnw, ac a elwid 'Caniad Adar y Lluch Gwyn;' ac y mae englyn Cymreig ar gael yn rhywle yn gwirio y traddodiad hwn.

DRYCH eil Cibddar, a gofnodir yn y *Trioedd* fel un o'r tri "prif

Digitized by Google

lledrithiawg Ynys Prydain," y rhai a allent wneud eu hunain yn anweledig pan y mynent. Y ddau eraill oeddynt Coll ab Collfrewi, a Menw ab Teirgwaedd.—*Myv. Arch.* ii. 7.

DU (Dr. John), neu a elwir gan y Saeson, John *Dee*. Dywedir yn yn rhai o'r geiriaduron bywgraffiadol ei eni yn Llundain; canys felly y dywedir yn gyffredin gan haneswyr Saesneg am enwogion nas gallent gael eu hanes hyd nes y daethant i nod ac enwogrwydd; a chan mai yn Llundain y daethant i sylw, dywedir eu geni yno. Ond dywedir gan Mr. Lily—ac nid oedd neb a wyddai yn well—mai *Cymro* ydoedd. Dywed Pennant mai brodor ydoedd o Nantygroes, yn sir Faesyfed, yr hyn a gadarnheir gan y Dr. Sion Dafydd Rhys (*Joh. Dav. Rhoesi Cambrobritannicæ Cymraiceve Linguæ Institutiones*, Lond. 1592, p. 60). "Yn agos i Nantygroes, yn sir Faesyfed, Cymru, yr oedd gynt rhyw deulu negroaidd enwog, oddiwrth yr hwn yr oedd John Du, h.y. yr enwog John Dee o Lundain, yn olrhain ei ddisgyniad." Yr oedd yn fab i Rowland Dee, gwin fasnachydd yn Llundain; ei hendaid oedd Bedo Ddu. Ymddengys y ganwyd ef yn 1527. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Nghaergrawnt, lle yr enwogodd mewn amryw ganghenau o ddysg, ac y cyrhaeddodd y radd o A.C. Wedi bod yn teithio ar y Cyfandir, ar encil oblegyd rhagfarn a goleddid tuag ato, am y ddrwgdybiaeth am dano ei fod yn hyddysg mewn swynyddiaeth a serddewiniaeth, neu y gelfyddyd ddu, a dychwelyd yn ei ol, efe a gafodd sylw Edward VI. Cafodd lyswobr o gan' coron, ac wedi hyny ei gyflwyno i bersonoliaeth Upton ar Hafren. Pan ddaeth Mari i'r orsedd, efe a gyhuddwyd o ddewinio yn erbyn bywyd y frenhines. Sylfaenwyd y cyhuddiad hwn ar ryw lythyrau a gafwyd fod rhyngddo â gwasanaethyddion y dywysoges, wedi hyny y frenhines, Elizabeth; ac wedi ei hir garcharu, a llawer o groesholi, gan y methwyd a chael dim yn ei erbyn, efe a ryddhawyd yn 1555. Pan ddaeth Elizabeth i'r orsedd, ymofynwyd ag ef gan arglwydd Dudley o berthynas i'r dydd ffodus i'w choroni; cafodd ei gyflwyno iddi, a gwnaeth hithau iddo addewidion mawrion. Yn 1564, ymwelodd a'r Cyfandir, lle y cyhoeddodd ei "Monadis illcies Hieroglyphica," a llyfrau eraill. Wedi hyny, dychwelodd i Loegr. Yr oedd gymaint yn ffafr Elizabeth, fel ag yr oedd yn derbyn cyflog gwladwriaethol, neu lyswobr, ganddi at ei gynaliaeth. Yr oedd gan William Lily, y serddewin, feddwl uchel iawn am dano; a dywedai ei fod yn hyddysg yn y rhan fwyaf o ganghenau gwybodaeth, ac yn yr ieithoedd Groeg a Lladin. Ymsefydlodd i fyw yn Mortlake, Surrey, lle yr aeth y gair amdano ei fod yn ymgynghori â chythreuliaid, ac y cododd y werin yn ei erbyn gan ddynistrio ei holl lyfrau a'i offerynau seryddol, yn 1576; a phrin y cafodd ef a'i deulu ddianc heb niwaid. Pan oedd y frenhines yn glaf yn 1558, anfonwyd ef i'r Almaen i ymgynghori â'r serddewiniaid yno am ei hadferiad. Wedi hyny, rhoddwyd ef ar waith ganddi i ysgrifenu hanes y tiriogaethau perthynol i'w choron. Y mae y llawysgrifau cywrain hyn o'i eiddo yn nghadw yn y Gywreinfa Brydeinig, yn Llundain. Talodd lawer o sylw hefyd i ddiwygiad y Calaniadur; ac y mae yr ysgrifen ar hyny eto yn y Llyfrfa Ashmolaidd, yn Rhydychain. Yr oedd y dyb yn gyffredin y pryd hyny am gyfrinach goruwchnaturiol yn amgylchiadau dynion, ac o allu dynion i ddeall y gyfrinach hono; a darfu i un Edward Kelly, yr hwn a gymerasai y Dr. Du i'w wasanaeth fel ysgrifenydd, roddi allan y byddai ef a'i feistr yn arfer ymgyfeillachu âg ysprydion. Yr oedd ganddynt ddrych gloew, yn yr hwn y cymerent arnynt ddangos lluniau y rhai yr ymofynid am eu

Digitized by Google

helynt, megys lladron a'r cyffelyb; yr hwn ddrych, meddir, nid oedd amgen na glo rhing wedi ei gaboli. Yn 1659, cyhoeddwyd y "Book of Spirits," a bernir mai gwaith y Dr. Du ydoedd, er bod hyny fwy na haner can' mlynedd wedi ei farwolaeth. Yr oedd son am dano wedi myned ar led, fel y byddai mawrion a phenau coronog Ewrob yn talu ymweliad iddo ef, a'i was. Yn 1595, penododd y frenines ef yn warden coleg Manceinion, ac efe y pryd hyny yn 68 mlwydd oed. Wedi hyny, efe a enciliodd i Mortlake, lle y treuliodd weddill ei oes mewn tlodi ac iselder. Y mae ei ysgrifeniadau yn dra lluosog. Pe buasai fyw mewn gwell amser, a defnyddio ei ddysg a'i ddawn i well dyben, gallasai fod yn wr enwog. Bu farw yn 1608, yn 81 oed.—Lily's *Memoirs; Penny Cyclopædia;* Pennant's *Tours; Y Brython*, ii. 199; Dr. J. D. Rhys's *Grammar.* (O'r *Lleyn MSS.*)

DUNAWD, oedd fab i Cunedda Wledig, brenin Brythoniaid Ystrad Clwyd, yn Ngogledd Prydain, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn 328. Dunawd a'i frodyr a ddanfonwyd gan eu tad i Gymru, i wrthladd gormes y Gwyddelod, y rhai a gymerasent feddiant trwy drais o'u tref-dadaeth. Wedi iddynt lwyddo yn eu hamcan, Dunawd a gafas yn anrheg diriogaeth helaeth yn Arfon, a elwid ar ei ol ef Dunodig.

DUNAWD FFUR, a elwid hefyd Dunawd neu Dunod Fawr, neu Dunod Wr, oedd fab i Pabo Post Prydain, ac yn ei ieuenctyd yn rhyfelwr enwog yn mysg y Brythoniaid Gogleddol. Cysylltir ei enw yn y *Trioedd* gyda Gwallawg ab Lleenawg a Chynfelyn Drwsgl, fel "tri phost câd Ynys Prydain.....sef y medrynt ddosparth ar gâd a chatteyrnedd yn oreuon o bawb oll ar a fuant erioed." Yn "Marwnad Urien Reged," o waith Llywarch Hen, dywedir fod Dunawd Ffur yn ymladd â meibion Urien. O'r diwedd gorfu adael ei diriogaeth, a dodi ei hun tan amddiffyniad Cyngen ab Cadell, tywysog Powys, yr hwn hefyd a roddasai nawdd ac achles i'w dad o'i flaen. Wedi hyny, efe a arweddodd fywyd crefyddol, ac mewn cysylltiad a'i feibion Deiniol, Cynwyl, a Gwarthiau, sefydlodd y coleg neu'r mynachdy enwog yn Bangor Iscoed, ar lan y Dyfrdwy, yn sir Fflint. Y sefydliad hwn, a waddolesid yn haelionus gan Cyngen, ac a lywyddid gan Dunawd, ydoedd un o'r rhai enwocaf yn yr ynys; ac os gwir a ddywed Bede, yr oedd mynachod y lle, wedi eu rhanu yn saith dosparth, o tan wahanol arolygwyr, ac yn mhob dosparth yr oedd tri chant o fynachod y rhai a ymgynalient trwy lafur eu dwylaw eu hunain. Gwyr dysgedig o'r coleg hwn oedd y rhif luosocaf o'r rhai a ddilynent yr esgobion Cymreig i'r gynadledd hefo Awstin Fynach, a gynaliwyd fel y tybir yn 599. Dunawd, meddir, oedd yr abad y pryd hwnw; er y rhaid ei fod yn hen iawn. Efe ydyw sant gwarcheidiol eglwys bresenol Bangor Iscoed; ei wylmabsant, Medi 7. Ei briod oedd Dwywe, ferch i Gwallawg ab Lleenawg.—Rees' *Welsh Saints.*

DURDAN, sant a ddaeth gyda Chadfan o Lydaw i Fonachlog neu Fangor Enlli. Mae Bodurda, neu Bod Durdan, hen balasdŷ yn mhlwyf Aberdaron, yn dynodi ei drigfa, ac y mae ffynon a elwir Ffynon Durdan hyd heddyw yn gyfagos iddo. Bu farw tua diwedd y chwechedd ganrif.

DWN (Gruffydd), bardd yn ei flodau rhwng 1530 a 1560. Y mae ei waith ar gael mewn llawysgrifen.

DWN (Henri), bardd yn ei flodau rhwng 1550 a 1580.

DWN (Huw), bardd yn ei flodau rhwng 1560 a 1600.

DWN (Lewis), achwr ac arwyddfardd dysgedig, yn ei flodau o 1580

Digitized by Google

i 1620. Preswyliai yn Garth Gelyn, yn mhlwyf y Betws yn Nghedywain, yn agos i'r Drefnewydd, sir Drefaldwyn. Yr oedd efe yn ŵr boneddig. Ei dad oedd Rhys ab Owen, a'i fam oedd ferch Rhys Goch Dwn, o'r Gwestyd, yn y sir hono. Dyma ei gyfrif am dano ei hun :—"A minau, Lewis Dwn, brydydd, wyf un o ddisgyblion Owen Gwynedd, ac a fum yn ddysgybl i William Lleyn, ac a gefais gof o'i holl lyfrau achau ef, a chyn hyny mi a fuaswn yn ddysgybl i Hywel ab Syr Matthew, a llawer o'i lyfrau ef a gefais." Yn 1585, penodwyd ef yn arwyddfardd breninol o dan sêl a llythyr cymhwys i gasglu achau hen deuluoedd Cymru a'i chyffiniau. Ffrwyth yr ymchwiliadau achyddol hyny a gyhoeddwyd yn ddwy gyfrol ysplenydd yn 1846, dan olygiad Syr Samuel Rush Meyrick. Terfynodd ei lafur achyddol yn 1614. Efe oedd athraw barddonol y Dr. Richard Davies.

DWYFAN a DWYFACH. "Tair Engir Ddichwain Ynys Prydain: cyntaf, Torriad Llynn Llion, a myned bawdd hyd wyneb yr holl dir-oedd, yn y foddes yr holl ddynion, namyn Dwyfan a Dwyfach, a ddianghasant mewn llong foel, ac ohonynt hwy ydd adepiliwyd Ynys Prydain."—*Tri.* 13. Cesglir yn naturiol mai y Diluw a feddylir wrth "Doriad Llynn Llion; a bod Dwyfan a Dwyfach yn cynddrychioli Noa a'i wraig. Wrth "long foel," ni feddylir ond llong heb hwylbrenau arni. Mewn *Tri* arall, gelwir yr un person yn Nefydd Nâf Neifion: "Tri phrif orchestwaith Ynys Prydain,—Llong Nefydd Naf Neifion, a ddug ynddi wryw a benyw o bob byw, bann dorres Llynn Llion; ac ychain bannog Hu Gadarn a lusgasant Afanc y Llyn i dir, ac ni thorres y Llynn mwyach." Yma, megys mewn *Trioedd* eraill, enw ar y Bod Mawr ydyw Hu Gadarn. Gwelir oddiwrth hyn, fod traddodiad diamwys yn mhlith y Cymry, cystal a phob cenedl arall bron ar wyneb daear, am drychineb alaethus y Dylif. Maentumia y Celtic Davies fod ystyron tra chymhwys i'r enwau hyn :—"*Dwy*, achos, tarddiad, bodoliad; *Dwyfan*, yr achos *uchel* neu *ddyrchafedig*— tad pob dyn byw; *Dwyfach*, yr achos *lleiaf*—mam pob dyn byw. Ymddengys yr enwau fel hyn yn gyfystyr ag enwau *Pangenitor* a *Magna Mater*, yr hynafiaid, y rhai oeddynt wrthddrychau addoliad." Y mae yn deilwng o sylw, mai Dwyfan a Dwyfach y gelwir dwy afonig a ymarllwysant i Lyn Tegid; ac o ganlyniad, a ffurfiant brif adnawdd yr afon Ddyfrdwy. Barna Pennant fod enwau yr afonydd hyn wedi eu seilio ar y traddodiad, neu'r traddodiad ar enwau'r afonydd.

DWYNWEN, santes. Dwynwen ydoedd *Valentine* y Prydeiniaid, a santes gwarcheidiol cariadon; ac fel y cyfryw y cyfeirir yn fynych ati yn ngwaith yr hen feirdd. Byddai lluaws mawr o gleifion cariad yn myned ar daith o bererindod i Landdwynwen gynt, lle yr oedd ffynon o ddwfr a elwir hyd heddyw Ffynon Fair. Yno ar allor Dwynwen offryment arian er mwyn iddi eiriol ar eu rhan gyda Mair, a thyneru calon gwrthddrych eu serch. Rhagddywedid eu tynged gan bysgodyn yn y ffynon. Yr oedd aberthau y ffyliaid hyn mor fawr, fel y daeth yr eglwys yn abad-dŷ; cyllid yr hwn yn amser Harri IV. oedd yn fwy nag eiddo un crefydd-dŷ arall yn Ngwynedd; ac yn amser Harri VIII. yr oedd y prebend cyfoethocaf yn yr holl Dywysogaeth. Merch ydoedd Dwynwen i Brychan Brycheiniog yn y pumed ganrif; hi a sefydlodd eglwys Llanddwynwen yn Môn, a chynelid ei gwylmabsant Ionawr 25. —Lewis' *Dict. of Wales*.

DWYWAN, mab i Hywel ab Emyr Llydaw, sant yn ei flodau yn y 6ed cant. Efe a sefydlodd eglwysi Llanddwywan, yn Meirion.

Digitized by Google

DYER (JOHN), y bardd Saesneg, oedd fab i gyfreithiwr parchus yn Aberglasney, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef yn 1700. Cafodd ei addysg yn ysgol Westminster gyda'r bwriad o ymuno a'i dad yn yr alwedigaeth gyfreithiol; ond bu ei dad farw a gadawyd yntau at ei rydd-ewyllys i ddewis yn hytrach ddilyn tueddiadau naturiol ei feddwl at arlunio; ac mewn canlyniad, daeth yn ddysgybl i un Mr. Richardson. Ymddengys ei fod yn caru y ddwy chwaer gelfyddyd, arluniaeth a barddoniaeth. Bu am yspaid yn teithio trwy y Deheudir a'r siroedd cyffiniol, fel arlunydd. Yn 1727, cyhoeddodd ei bryddestawd "Grongar Hill," un o'r canau byrion dysgrifiadol goreu yn yr iaith Saesneg. Gwerthwyd llawer ohoni, a chododd ei hawdwr yn fuan i sylw. Y mae pobl Ystrad Tywi hyd y dydd hwn yn caru dangos y pren tau wasgawd pa un y cyfansoddodd Dyer y gân hon. Wedi hyn, bu yn ymdeithio yn yr Eidal, er mwyn coethi ei hun mewn arluniaeth; ac os na chynyddodd yn y gelfyddyd hono, casglodd ystorfa dda o ddefnyddiau at y gangen arall o'i efrydfa. Trefnodd y rhai hyn yn bryddest, yr hon a gyhoeddodd yn 1740 tan y teitl "The Ruins of Rome." Cynwysa hon tros 500 llinell; ac ystyrir hi yn rhagori ar "Grongar Hill," mewn nerth meddwl, a helaethrwydd amgyffrediad; er y dywedai Dr. Johnson, "fod y teitl yn enyn disgwyliadau uwch nag a gyflenwir yn y darlleniad ohoni." Yn fuan ar ol hyn, priododd foneddiges o'r enw Miss Ensor, yr hon, meddir, oedd yn disgyn o Shakespeare; ac ar gais llawer o gyfeillion, ymgymerodd ag urddau eglwysig. Bu am beth yn amser gurad plwyf bychan yn sir Warwick; eithr dygwyd ef i sylw yr arglwydd-ganghellydd Hardwicke, ac efe a roddes iddo fywiolaethau Belchford a Kerkby, yn sir Lincoln; ond gan nad oedd y parth hwnw yn dygymod â'i iechyd, cafodd fywiolaeth Coningsby, yn yr un sir, gan Syr John Heathcott. Yn 1757, cyhoeddodd bryddestawd, hwy nag un o'r lleill, tan y teitl "The Fleece." Barddoniaeth addysgiadol ydyw hon; ac er fod ambell feirniad galluog yn tueddu i roddi "Grongar Hill" o'i blaen, a llenladradwyr gwrthun a musgrell, yn ailargraffu y farn, heb ddarllen erioed gymaint a llinell o waith y bardd, eto tueddir ni yn gryf i feddwl fod "Y Cnu" yn rhagori cymaint ar gyfansoddiad boreuaf y bardd ag y rhagora crefftwr medrus haner cant oed ar ei waith dibrofiad ei hun pan yn ugain. Y mae rhai o'r portreadau, yn enwedig o'r bywyd bugeiliol, a geir ynddi, yn hardd odiaeth, ac yn debyg o barhau mewn bri uchel am genedlaethau lawer. Ar y tri dernyn crybwylledig y gorphwys ei holl enwogrwydd fel bardd, ac, hyd y gwyddom, dyma yr oll a gyhoeddwyd o'i waith. Ond er cyn ychydiced ydynt, gadawodd ynddynt geinion pur ei awen lednais, seml, a gwyryfol. Bu farw o'r darfodedigaeth yn Coningsby, ar derfyn y fl. 1757. Cyhoeddwyd ei gyfansoddiadau barddonol mewn cyfrol 8plyg, gan Dodsley, Llundain, yn 1770; yn nghyda bywgraffiad o'r bardd, i ba un yr ydym yn ddyledus am ddefnyddiau yr ysgrif hon.

DYFAN, neu Doewan, ydoedd fab i Alwn Aflerw ab Ysbwyth ab Manawyddan ab Llyr, sant a ddanfonwyd gydag eraill yn yr ail ganrif gan Eleutherius, esgob Rhufain, ar gais Lleurwy neu Lleufer Mawr, i bregethu i'r Prydeiniaid; eithr tybir mai chwedl fynachaidd ydyw hyn a ddyfeisiwyd mewn oes ddiweddarach er mwyn profi dibyniad boreuol yr eglwys Brydeinig ar benesgobaeth Rhufain. Doewan ydoedd sant gwarcheidiol eglwys Llanrhaiadr yn Mochnant, a chynelid ei wylmabsant ar y Sul cyntaf ar ol Mehefin 13, ar ba ddiwrnod y cedwir ffair yno a elwir "Ffair wyl Ddoewan;" a mwyar daear a geir ar fynydd cyfagos

Digitized by Google

y Berwyn a elwir "Mwyar Doewan." Y mae eglwys yn Morganwg o'r enw Merthyr Dyfan, oddiwrth yr hyn y cesglir mai ei ferthyru a gafodd y sant yn y fan hono.—*Nodiadau* G. Mechain ar *Waith Huw Morus*.

DYFNAN, sant yn ei flodau yn y pumed cant. Mab ydoedd i Brychan. Efe a sefydlodd eglwys Llanddyfnan, yn Môn, lle hefyd y claddwyd ef, ac y cedwid ei wylmabsant Ebrill 23.

DYFNIG, sant yn ei flodau yn y 6ed cant. Daeth ef a St. Ust trosodd i Brydain gyda Chadfan, a sefydlasant rhyngddynt eglwys Llanwrin, sir Drefaldwyn.

DYFNOG, sant yn ei flodau yn y 7fed cant. Mab ydoedd i Fedrawd ab Cawrdaf ab Caradawg Freichfras. Tybir mai efe a roddes ei enw fel sant gwarcheidiol i eglwys Defynog, yn sir Frycheiniog, er iddi gael ei sefydlu gan Cynog ab Brychan. Ei wylmabsant, Chwef. 13.

DYFNWAL HEN ab Ednyfed ab Macsen Wledig, ydoedd frenin Gwent yn nechreu y pumed cant.

DYFNWAL MOELMUD. Y mae gwir hanes Dyfnwal Moelmud, hen ddeddfroddwr tybiedig y Cymry, yn hynod o dywyll ac ansicr. Diddadl i'r fath ddynsawd fod rywbryd, ac iddo enwogi ei hun fel trefnwr a gosodwr cyfreithiau; ond *pa bryd*, ac yn *mha le* yr oedd efe yn byw, sydd anhawdd iawn i'w benderfynu. Sieffrey o Fynwy yw y cyntaf sydd ei enwi. Dywedir mai mab Cloten, iarll Cernyw, o ferch brenin Lloegr, ydoedd; a'i fod yn byw rhwng 694 a 667 o flynyddau cyn Crist. Gelwir ei dad weithiau Clydno. Dywed hen ysgrifau ei fod yn frenin cyn i'r Saeson ddwyn coron Llundain a'r deyrnwialen oddiar y Cymry. Rhagorai ar bawb mewn dewrder a harddwch. Rhyfelodd yn erbyn erbyn Ymner, neu Pymer, brenin Lloegria, Rhuddawg brenin Cambria, ac Yscadr brenin Albania. Lladdodd y breninoedd, enillodd yr holl deyrnas iddo ei hun, gwnaeth goron o aur i'w gwisgo ar ei ben, cyhoeddodd gyfreithiau na bu erioed eu cystal, dyddimodd bob math o droseddau mal y gellid teithio yn ddiogel lle y mynid, teyrnasodd ddeugain mlynedd, bu farw, claddwyd ef yn *Trinovantum* (Llundain) —yn Nheml Cytundeb (*"Near the Temple of Concord,"* medd Sieffre)— yr hon a adeiladasai ef ei hun. Dywedir yn mhellach i Gildas gyfieithu ei ddeddfau o'r Gymraeg i'r Lladin, ac i'r brenin Alfred eu cyfieithu i'r Saesneg, a'u bod yn enwog yn mhlith y Saeson hyd heddyw. Y mae'r *Trioedd* hefyd yn rhoddi gair mawr iddo am ddiffodd dwy o'r "Tair gormes; drwy wneuthur dosparth gyfiawn ar frawd a chymmrawd, ac ar deyrn a chytteyrn, ac ar wlad a gorwlad." Gelwir ef hefyd yn un o "dri matteyrn Ynys Prydain," un o "dri phost cenedl Ynys Prydain," un o "dri chynofydd cenedl y Cymry," ac un o "dri bancewyddion teyrnedd Ynys Prydain." Cysylltir ef yn y *Trioedd* gyda Hu Gadarn, Gwyddon Ganhebon, Prydain ab Aedd Mawr, Tydain Tad Awen, &c., y rhai nas gwyddom ddim gyda sicrwydd am eu bodoldeb hanesyddol. Y mae yr hanesydd dyfnddoeth a beirniadol Mr. Stephen o Ferthyr, yn anmheu agos i bobpeth a ddywedir am Dyfnwal Moelmud, ac yn barnu mai ffugiadau diweddar yw y trioedd a'r cyfreithiau sydd ar ei enw, ac yn gosod y peth wrth ddrws Ieuan Deulwyn a Ieuan Brechfa tua 1485, a Thomas ab Iefan o Dre'r Bryn yn 1685. Y cwbl a allwn ni ei ddweyd gyda sicrwydd yw fod y fath ddyn â Dyfnwal Moelmud wedi bod yn ddyn o bwys yn mysg y Cymry rywbryd cyn amser Hywel Dda, a bod gan y Cymry ryw nifer o gyfreithiau yn dwyn enw Dyfnwal Moelmud cyn amser Hywel Dda. Dyfnarth Prydain y gelwid ef gan y Cymry, a Dyfnwal Moelmud yn iaith Cernyw, medd yr *Iolo MSS.*, gyferbyn a

Digitized by Google

B.A. 665; a thybia rhai mai efe oedd Dyfnarth bremin Cernyw, yr hwn a foddodd yn 875 cyn Crist. Nid ymddengys i Hywel Dda fabwysiadu dim o gyfreithiau Dyfnwal, ond y mesurau; canys dywedir, "Hygwel gwedi hyny a gwnaet cyfreitiau newydd, ac a diväws rai Dyfnwal." Ac er fod "Trioedd y Cludau a'r Carcludau," a "Thrioedd Gwladoldeb a Chydwladoldeb," yn myned ar enw Dyfnwal, mae yn ddiau eu bod o ran iaith, cyfansoddiad a llythyreg, yn llawer diweddarach na chyfreithiau Hywel Dda:—1, Ni soniant am helyntion y genedl tu allan i gylch presenol Cymru, ond soniant am raniadau diweddar Cymru, megis Gwent, Morganwg, Gwynedd, a Phowys; a soniant am bethau o'r fed ganrif yn mlaen, megis offeiriad Clynog, offeiriad Bangor, offeiriad Penmon, &c., ac am dyngu ar y deng air deddf, tyngu ar efengyl Ieuan (Ioan), a thyngu ar y groes fendigaid. Gwir fod yno son am "dyngu trwy berfedd," a thybia rhai fod hyny yn cyfeirio at hen ddefod Dderwyddol o dyngu uwchben perfedd yr ebyrth. Eithr nid oes genym brawf fod defod felly yn mhlith y Cymry. Tebycach mai at berfedd y tyngwr ei hun y cyfeiria, fel dyn yn gwirio peth ar ei enaid, neu ar ei gydwybod; mae rhegu perfedd a chalon ar lafar gwlad eto. 2, Mae'r cyfreithiau hyn mewn iaith eglur a diweddar, a'r llythyreg fel yr eiddo Dr. Davies o Fallwyd, ac mewn copi diweddar yn unig y maent ar gôf a chadw. Amcan "Trioedd y Cludau a'r Cargludau" yw dynodi symudiadau y genedl, pan oedd llawer yn teithio, fel "pobl gerdded," yn yr hen amseroedd; canys cerdded y byddai pawb o bob galwedigaeth, o'r Pencerdd i'r Tincerdd. Y bardd oedd yr uwchaf ei swydd, a'i air ef yn uwch na gair pawb, a'r prif-fardd a elwid yn bencerdd. A chan fod gofaniaeth a fferylltiaeth yn perthynu i'r "Cludau," fel galwedigaeth is na barddoni a chanu; bonygler o'r holl grwydriaid oedd y Tincerdd. Mae cyfreithiau Dyfnwal Moelmud yn ddyddorol fel drych o ansawdd cymdeithas yn y Canoloesoedd. Chwedl ddisail Sieffrey o Fynwy yw honi mai efe a wnaeth'y ffyrdd Rhufeinig drwy'r deyrnas hon. Person gwirioneddol wedi ei wisgo â ffugioldeb i ddynwared Alffred Fawr y Saeson ydoedd.

DYFRIG BENEUROG yr hwn a elwid felly, mae yn debyg, ar gyfrif ei wallt melynliw, oedd archesgob cyntaf y Cymry. Gelwir ef gan rai "Dubricius Gwaenianus," neu Ddyfrig o Langwaen, gan dybied mai ar lan yr afon Gwaen, yn sir Benfro, y ganwyd ef. Ond y mae lle arall yn Erging, o'r enw Mochros, yn hawlio bod yn fangre ei enedigaeth; a thybir fod *Swinemoor*, yn agos i Madley, yn dynodi y llanerch. Mae achau y saint yn ei osod allan fel mab Pabioli, neu Pebian, mab Brychan. Ceir ei enw yn mhlith meibion Brychan, ac mae'r cadeirdraw Rees yn dadleu ei fod yn fab neu ŵyr i Brychan. Ond y mae *Bonedd y Saint* yn dweyd "Dyfrig ab Brychan sydd sant yn Ngheredigion." "*Dubricius*, archesgob Llandaf." Ond y mae yn amlwg na fu efe erioed yn *arches*gob Llandaf. Dywed Mr. Wakeman, mai Eiddul ferch Pebian oedd ei fam. Dichon, os felly, mai un o feibion Brychan oedd ei dad. Dywedir i Garmon ei gysegru yn esgob Llandaf; ond mae yn debyg fod gormod o amser rhwng hyd yn nod ail ymweliad Garmon â'r Ynys hon, yn 446, i hyny fod yn wir. Eraill a farnant mai yn 470 y gwnaed ef yn esgob. Priodolir iddo lawer o rinweddau yn more ei oes, megis sefydlu ysgol yn Henllan yn Nglyn Gwy, ac yn Mochros; a thybir fod ganddo rywbeth yn Llysowen, Brycheiniog. Hefyd, efe a sefydlodd Fangor Catwg, yn Llangarfan; a dywedir mai yn y Garnllwyd yr oedd efe yn byw, a bod ffynon gerllaw, sef Ffynon Ddyfrig,

Digitized by Google

yn dwyn ei enw hyd heddyw. Tua'r fl. 490, dyrchafwyd ef yn archesgob Caerlleon-ar-Wysg. Ac iddo ef, yn 517, y priodolir coroni Arthur. Dywedir iddo ddal esgobaeth Llandaf gydag archesgobaeth Caerlleon-ar-Wysg hyd 512, pryd y rhoddes efe y lle hwnw i Teilo. Ond y mae Thomas Wakeman, Ysw., yn ei nodiadau ar *Fucheddau y Saint*, yn tybied mai ychydig cyn y pla a dorodd allan yn 557 y cysegrwyd Teilo yn esgob Llandaf. Mae'r bywgraffwyr yn gyffredin yn haeru i Dyfrig farw yn Enlli yn 522, ond y mae Mr. Wakeman yn dangos y rhaid fod Dyfrig yn byw yn ddiweddarach nag y tybir yn gyffredin ei fod; canys yr oedd Samson, yr hwn a fu farw yn 593, a Theilo, yr hwn a fu farw yn 580, yn ddysgyblion iddo. Dywed Mr. Stephen a Manby iddo farw Tach. 14, 612. Dichon mai y rheswm dros ei gyfleu mor gynar oedd awydd i'w fachu wrth Garmon, yr hwn oedd genad y Pab i ddarostwng Morganiaeth. Nis gwyddom pa hyd y bu Dyfrig yn archesgob Caerlleon-ar-Wysg, ond pan heneiddiodd rhoddodd ei swydd i fynu i'w ddysgybl Dewi, yr hwn a symudodd yr archesgobaeth i Dyddewi. Yr oedd tynfa y saint y pryd hwn tua "Gwlad yr Hud," fel y galwent Ddyfed. Dichon i Ddyfrig fod yn trigo ar lan Gwaen pan yn ieuanc, oblegyd y mae lle o'r enw Pwll Dyfrig yno hyd heddyw. Hyny ond odid a roddes fodoliaeth i'r dyb mai brodor o Lan Gwaen ydoedd. Nis gwyddom yn mha flwyddyn y cynaliwyd Senedd Frefi, er gwrthladd heresi Morgan; mae'r amseriadau mor amrywiol a chroes i'w gilydd. Gwnaed Tyddewi yn archesgobaeth, yn ol Godwin, yn 577; ac yn ol eraill, yn 609; yr hyn sydd yn annghyson a chynal Senedd Frefi yn 519.

Yr oedd y saint wedi blino ar ryfel, canys buasai Dyfrig gydag Arthur yn ngwaith Baddon, fel caplan, yn anog y milwyr i ymwroli i dywallt gwaed, gan addaw maddeuant pechodau, a choron y bywyd mewn byd arall, i bob un a leddid yn y frwydr! ac, wrth reswm, cafwyd buddugoliaeth fawr mewn canlyniad i'r fath araeth gan yr archesgob. Oherwydd fod Caerlleon-ar-Wysg mewn gwlad isel agored i ruthr y Saeson, barnwyd mai diogelach fuasai symud i'r Gorllewin, a sefydlu yr archesgobaeth yn Nyfed. Cynaliwyd Senedd Frefi, fel y nodir yn gyffredin, yn 519, er fod hyny yn ymddangos yn rhy gynar o lawer i ateb i henoed Dyfrig, na dechreuad archesgobaeth Tyddewi. Pa fodd bynag, ymadawodd llawer o "Saint Senedd Frefi" i ynys Enlli, er mwyn llonyddwch. Mae Cattwg Ddoeth yn nodi paham yr aethant yno:—

Er ymwared o bob rhwystri, a hir gymhell cymhelri.

Yr oedd rhwystrau a thrallodion yn eu gwasgu er's hir amser, ond cawsant ymwared o'r cwbl yn Enlli. Yr oedd Cybi yn gofyn yn bryderus:—

——————Pa fyd a geir yn ngweligi?
Pa fwyd yn ymborth ini, yn nghanol y mor heli?

Lle anhawdd iawn i fyned iddo yw Enlli, gan y *llif* troellog a pheryglus sydd yn cylchynu'r ynys, ac felly yr oedd ffrydiau Caswenan yn amddiffynfa i'r saint. Mae Enlli bron yr un ystyr a *trenllif* Gwent, a *cenlli* Gwynedd; *en* yn dwyseiddio'r ystyr fel yn *en*byd, *en*fawr, &c. Yn Enlli y bu farw Dyfrig, ac y claddwyd ef. Ond yn 1120, cafodd Urban, esgob Llandaf, genad i symud ei weddillion i'r Eglwys Gadeiriol hono, er mwyn rhoddi mwy o fri ofergoelus ar y lle. Nid oes Llanau cysegredig i Ddyfrig yn Nghymru, ond nodir fod rhai yn sir Henffordd. Tybia y Proffesor Rees mai cyfieithiad Normanaidd o enw Dyfrig yw St. Devereux, a dichon fod *Derfasiaid* Gwent Iscoed yn hanu o'r un

Digitized by Google

boncyff. Hefyd iddo y cysegrwyd Llanfrodyr, Henllan yn Nglyn Gwy, a Ballingham. Nid oes iddo wylmabsant yn Nghymru, ac ni cheir ei enw yn yr *Almanaciau* Cymreig, ond ceir ei enw fel esgob a chyffeswr gyferbyn a Tach. 14, yn *Book of Days.* Yn y *Greal* y mae "Dyfrig abad" gyferbyn a Mai 1, ond y mae *Nefydd*, yn *Nghrefydd yr Oesoedd Tywyll*, yn dweyd mai Dyfrïog neu Tyfriog ab Dingad yw hwnw. Nid yw y *Trioedd* chwaith yn ei fawrygu megys ag y gwnant arganmol Dewi, Teilo, a Phadarn. Barna Mr. Wakeman fod dau Ddyfrig, sef Dyfrig o lys Brychan, a Dyfrig yr archesgob. Rhaid cofio wrth ddarllen bucheddau y saint mai traddodiadau ofergoelus ac ansicr yw ein harweinyddion, a bod eisiau gwyntyllio pentwr o fanus i gael hyd i ychydig bur-yd. Cawsant eu canoneiddio oesoedd ar ol eu claddu, a daeth eu eu hesgyrn, neu ryw esgyrnach eraill, yn fwy defnyddiol nag y bu y saint erioed yn eu bywyd. Dywed y *Trioedd* i Dduw roddi tri chorph i Deilo er mwyn i dri man gael ei weddillion. Mae chwedl debyg ar lafar gwlad am Beuno—yr oedd tri man, Beddgelert, Enlli, a Chlynog, yn awyddus am ei gael i'w gladdu, a phan oeddynt yn ei gludo i'w gladdu rhoddwyd y corph i lawr er mwyn i'r bobl orphwys; a syrthiodd trymgwsg arnynt oll. Erbyn iddynt ddeffroi, yr oedd yno dri o eirch, a chafodd y tri lle gorph Beuno! Ynys yr Eirch yw enw y fangre hono hyd y dydd hwn.

DYFIR WALLT EURAID, un o dair "Gwenrian Llys Arthur;" y ddwy eraill oeddynt, Enid a Thegau Eurfron.

DYFNWALLAWN, tywysog Dyfed, a laddwyd mewn brwydr yn 950, pan anrheithies Ieuan ac Iago, feibion Idwal Foel, a thywysogion Gwynedd, ei diroedd.

DYFNWALLAWN, tywysog ar Frythoniaid Ystrad Clwyd, yn y Gogledd. Oblegyd mynych ymosodiadau y Sacsoniaid, rhoddes ei diroedd i fynu yno, gan ymneilldno i Rufain yn 975, lle, yn ystod y flwyddyn hono, y bu farw.—*Myv. Arch.* ii. 488.

DYGYNELW, bardd Owen ab Urien, oedd yn ei flodau yn y 6ed ganrif. Nid oes dim o'i waith ar gael. Cysylltir ei enw yn y *Trioedd* gyda Tristfardd ac Afan Ferddig, tan yr enw, "Tri Gwaywruddion Beirdd Ynys Prydain," am eu bod, yn groes i ddefodau barddas, yn euog o dywallt gwaed.

DYLAN EIL TON, penaeth yn y pumed cant. Cyfeirir ato yn *Mabinogi* Math ab Mathonwy; lle y gosodir ef allan fel mab Arianrod ferch Don. "Math a orchymynes ei fedyddio yn y môr; a chynted ag yr aeth i'r môr, anian y môr a gafas, a chystal y nofiai ag un pysgodyn yn yr eigion, ac o'r herwydd gelwid ef Dylan eil Ton." Y mae ei Farwnad o waith Taliesin i'w gweled yn y *Cambro-Briton* i. 150. Tybia y Celtic Davies nad ydyw yn neb amgen na Noa o tan ffugenw Prydeinig.

ECHEL FORDDWYD-TWLL, oedd un o ryfelwyr enwog llys Arthur, a chrybwyllir ei enw fel y cyfryw yn "Mabinogi Cilhwch ac Olwen." Efe oedd tad Gronw.

EDEYRN, sant yn y pumed cant, ac aelod o goleg Cattwg. Tybia Gunn, yn ei nodiadau ar waith Nennius, mai mab ydoedd i'r hen frenin anllad ac anffodus Gwrtheyrn, yr hwn a elwir Faustus gan Nennius. Edeyrn a sefydlodd grefydd-dŷ ac iddo dri chant o ddeiliaid yn y lle a elwir oddiar hyny Llanedeyrn, yn Morganwg.

EDEYRN ab Nudd ab Beli ab Rhun ab Maelgwyn Gwynedd, yn ol y *Myv. Arch.*, ydoedd un o farchogion dewrion llys Arthur; ac yn y

Digitized by Google

gadymgyrch yn erbyn amherawdr Rhufain, Arthur a'i danfones yn ben ar bum' mil o wyr yn warcheidwaid i Gwalchmai a chenadon eraill ar eu taith i wersyll gwyr Rhufain, y rhai a laddwyd yn fradwrus wrth ddychwelyd. Y mae yn amlwg fod hanesiaeth yn yr uchod yn gwrthddweyd ei hun, canys Arthur a flodeuai yn y pumed, a Maelgwyn Gwynedd yn y 6ed ganrif; ac eto, os coelir y *Myv. Arch.*, ceir ail-orŵyr i Malgwyn yn un o arwyr llys Arthur. Edeyrn ab Nudd, mewn hanesion eraill, a osodir allan fel bardd; a dywedir iddo ymroddi yn niwedd ei oes i fywyd crefyddol. Efe a sefydlodd eglwys Bodedeyrn, yn Môn; ei wylmabsant, Ionawr 6.

EDEYRN DAFOD AUR. Tebygol mai ffugenw yr hen Ramadegwr Cymreig oedd y Tafod Aur, ac y gelwid ef felly am yr un rheswm ag y gelwid un o'r hen dadau eglwysig yn Ioan Aurenau. Cyfansoddodd Edeyrn ei Ramadeg, meddir, tua'r fl. 1270. Dywedir fod Geraint Fardd Glas wedi cyfansoddi Rheithiadur Cerdd yn mhell cyn hyny; a bod Einion Offeiriad wedi chwanegu at waith Geraint; ac o'r cadw a wnaeth Einion y tynodd Edeyrn ei Ddosparth. Dosparth ar y llythyrenau Cymreig, yr ymadroddion, a mesurau Cerdd Dafod ydyw. Ac ef a'i gwnaeth wrth arch a dymuniad y tri arglwydd, sef Llywelyn ab Gruffydd, tywysog Aberffraw, brenin Cymru; a Rhys Fychan, arglwydd Dinefwr ac Ystrad Tywy; a Morgan Fychan ab Morgan ab Caradog ab Rhydderch ab Caradog ab Iestyn ab Gwrgant, arglwydd y cyfoeth rhwng Nedd ac Afan, a Chilfai, ac arglwydd Penrhaith Morganwg. A'r Edeyrn hwnw, o'i athrylith gymhenddoeth fyfyrdawd, a'i athrawiaeth afrifed, a'i gof, a'i gadw, ac o awdurdod ei dafod ei hun, yr hwn a roddai awdurdod ar bob tafod, a wnaeth ei ddosparth i fod yn gyweirgorn i bawb ar y pethau hyn. Dywedir hefyd nas gallai perchen tafod o'r byd, nag ungwr arall symud un pwynt o Reol o'i athrawiaeth ef o'i gof a'i gadw ei hun; a chafwyd barn llysoedd arglwyddi a rhaith gwlad arno, rhag colli y llythyrenau, yr ymadroddion, a'r Mesurau Cerdd Dafod, a chelfyddyd barddoniaeth yr hon a roddes Duw drwy'r Ysbryd Glân i feirdd Ynys Prydain o genedl y Cymry er yn oes oesoedd.

Wedi cael Gramadeg a Rheolau Barddoniaeth, yn honi awdurdod ddwyfol, mae yn naturiol edrych am ryw orchestwaith anarferol. Cyhoeddwyd yr hen Ddosparth yn Llanymddyfri, o dan olygiad Ab Ithel yn 1856; a throdd allan yn fwy diwerth nag y gallesid disgwyl, wrth ystyried ei fod yn Ramadeg Cenedlaethol y Cymry, yn ol rhaith gwlad ac arglwydd. Traetha yn gyntaf am lythyrenau a sillau, wedi hyny am ranau ymadrodd, brawddegau, ffigyrau, &c., yna daw at dair cainc Cerdd Dafod, sef clerwriaeth, teuluwriaeth, a phrydyddiaeth. Rhana Brydyddiaeth i englynion, awdlau, a chywyddau, yr hyn sydd yn sawrio diweddarwch. Ei englynion ydynt unodl union, unodl gyrch, ac unodl grwca. Ei broestau ydynt broest dalgron, lleddf broest, a phroest cadwynog; ac englyn o'r hen ganiad, sef Triban Milwr. Ei awdlau ydynt bump, sef toddaid, gwawdodyn, cyhydedd hir, cyhydedd fer, a rhupynt, fel hen fesurau; wedi hyny noda bedwar o rai diweddarach, sef byr a thoddaid, gwawdodyn hir, cyhydedd nawban, a chlogyrnach. Priodola ddyfeisio hir a thoddaid, cyrch a chwta, a thawddgyrch cadwynog, i Einion Offeiriad. Mae ganddo bedwar math ar gywydd, sef deuair hirion, deuair fyrion, awdl gywydd, a chywydd losgyrnog. Prin gan hyny y cyrhaedda ei holl fesurau y nifer o bedwar ar hugain. Traetha ychydig wrth ddiweddu, ar y

Digitized by Google

cymeriadau, y cynghaneddion, a'r odlau; yna, ar yr ystyr, y synwyr, a'r dychymyg; ac yn olaf Trioedd Cerdd. Rhyw 32 o dudalenau 8plyg yw y cyfan. Ychwanegwyd at hyn Bum Llyfr Kerddwriaeth D. Ddu o Hiraddug, neu mewn geiriau eraill, Rheolau Simwnt Vychan, y rhai a gyhoeddasid yn *Nghyfrinach y Beirdd*. Yr ychwanegiadau yw enwau yr holl fligyrau a ymchwelodd William Salsbri o'r Lladin a'r Groeg i'r Gamberaeg, yr hwn a gyhoeddasid dan yr enw "Egluryn Ffraethineb," wedi ei helaethu a'i ddiwygio gan Henri Perri. Os oedd Dosparth Edeyrn mewn bod cyn amser D. ab Edmwnt, nid ymddengys i'r hen fardd hwnw lygru na dirywio dim ar ddysgeidiaeth ei flaenafiaid, ond amlygodd fwy o ddysg ac athrylith na hyd yn nod y Tafod Aur ei hunan.

EDGEWORTH (Roger), D.D., a anwyd yn Nghastell Holt, sir Ddinbych. Tua 1503, derbyniwyd ef i goleg Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn y celfyddydau yn 1507; a'r flwyddyn ganlynol, etholwyd ef yn gymrawd o Goleg Oriel, i ba un y bu yn noddwr haelfrydig hyd ddiwedd ei oes. Wedi derbyn urddau, dringodd yn fuan i enwogrwydd uchel fel pregethwr yn yr athrofa a manau eraill. Yn 1519, derbyniwyd ef i ddarllen y Brawddegau, ac wedi hyny cafodd amryw ddyrchafiadau eglwysig, sef yn ganon Salisbury, Wells, a Chaerodor; ac yn 1554, gwnaed ef yn ganghellydd trigianol prifeglwys Wells. Heblaw yr uchod, yr oedd yn ficer eglwys St. Cuthbert, Wells, yr hon swydd a dderbyniasai yn 1543. O tan deyrnasiadau Harri VIII. a Iorwerth VI., yr oedd ei ddaliadau crefyddol yn dra chymhedrol; ond pan ddaeth Mari i'r orsedd, trodd allan yn amddiffynydd selog i Babyddiaeth, ac yn elyn mawr i Luther a'r Diwygwyr. Ei lyfrau ydynt: "Sermons fruitful, godly, and learned," Llundain 1557; y rhai a gynwysant—1, Eglurhad ar saith dawn yr Ysbryd Glan; 2, Homili ar erthyglau y Ffydd Gristionogol; 3, Homili ar ddefodau a deddfau dyn; 4, Perffaith esboniad ar ail Epistol Pedr, mewn ugain o bregethau neu draithodau. Ysgrifenodd hefyd "Resolutions concerning the Sacraments;" "Resolutions of some Questions relating to Bishops and Priests;" ac ar bynciau eraill perthynol i ddiwygiad yr eglwys gan y brenin Harri VIII. Graddiwyd ef yn D.D. rywbryd tua chanol ei oes. Bu farw yn 1560, a chladdwyd ef yn mynachlog Wells.—Wood's *Athen. Oxon.*

EDMWNT (Dafydd ab). Ychydig a wyddom o ddamweiniai bywyd Dafydd ab Edmwnt, cadeirfardd ariandlysog Eisteddfod fawr Caerfyrddin yn 1451 a 1461. Mae'r hen gofion yn ei osod allan fel gwr boneddig tiriawg, yn byw yn lân ar ei foddion. Ganwyd ef, meddir, yn yr Hen Blas yn Hanmer, yn Maelor Saesneg, yn sir Fflint, o fewn cyfoeth Powys Fadawg, er fod y Deheuwyr, yn gamsyniol, yn ei alw yn ŵr o Wynedd. Arferai breswylio yn achlysurol yn Llysfasi yn Nyffryn Clwyd, Glan Pwll Wepre, &c. Gwr doeth ymddwyngar iawn ydoedd. Chwaer iddo ef oedd mam Tudur Aled. Ei athraw barddonol oedd Meredydd ab Rhys, offeiriad Rhiwfabon. Bu Gutyn Owain a Thudur Aled yn ddysgyblion iddo yntau hyd yn ngradd dysgyblion pencerddaidd. Gwr bychan o gorpholaeth yn gwisgo gŵn llwyd neu glog wlân ydoedd. Yr oedd Gutyn Owain ei ddysgybl a'i gymydog yn teithio gydag ef i Eisteddfod Caerfyrddin,—Gutyn yn ei "hug sidan," a Dafydd yn ei "glog wlân." Ac aeth Dafydd adref a'r Gadair arian ar ei ysgwydd. Ni faddeuodd beirdd Morganwg byth iddo am y fuddugoliaeth hono; ac y mae Iolo Morganwg, a Thaliesin ei

Digitized by Google

fab, yn ei fonclustio a'i bastynu yn y modd mwyaf lloerig a phlentynaidd yn eu nodiadau ar *Gyfrinach y Beirdd.* Cyhuddir ef o ddyfeisio y pedwar mesur ar hugain, caethiwo y rheolau, llunio rheolau newyddion, &c.; ond erbyn chwilio yn fanwl i'r cwyn a ddygir yn ei erbyn, tynhau ychydig ar gadwynau dau benill yw swm ei holl bechod! Nid efe a luniodd y cynghaneddion, ond tyfasant yn raddol gyda'r mesurau, ac i Ieuan Llawdden, un o feirdd Morganwg, y priodolir eu perffeithio. Gwelir y mesurau yn Nosparth Edeyrn Dafod Aur, yn "awdl Gwilym Tew i Fair," cyn 1414, ac yn awdl Lewis Morganwg i "Leision Abad, Glynnedd," yn 1490. Amcan Gruffydd ab Nicolas yn Eisteddfod Caerfyrddin oedd cael trefn a dosparth ar feirdd a barddoniaeth. Yr oedd gan bob Cadair, yn ol hen ddefod, gwlm neu rif arbenig o fesurau, y rhai a fernid yn oreu ar y pryd; y rhai a elwid yn "Cwlwm Cadair." Rhoddes G. ab Nicolas ar gyhoedd y byddai i'r goreu am ddethol mesur, a chanu arnynt yn Bencerddaidd, gael yr ariandlws. D. ab Edmwnt a enillodd y gamp. "A goreu ar ddychymyg, a pharotaf ei awen, y cafwyd Dafydd ab Edmwnt," ac efe a enillodd "o nerth awen a chanu." Wrth ddethol ei fesurau caethiwodd yr hypynt byr, gan ei alw yn orchest y beirdd, a chaethiwodd y gadwyn gyrch gan ei galw yn gadwyn fer. Dyna'r holl newyddbeth a ddyfeisiodd. Gwedi iddo drefnu y mesurau, "a chanu arnynt yn fwy gorchestol na neb o'r prydyddion, y barnwyd iddo y Gadair arian a'i dodi ar ei ysgwydd." Dywedir iddynt fod naw diwrnod yn canu yn yr Eisteddfod cyn dangos eu gwaith, canys yr oedd canu ar y cwlwm o fesurau fel engreifftiau i'r awenyddion yn ddyledswydd orphwysedig ar y Pencerdd. A chan mai dyben y cyfryw fesurau oedd profi medr a chywreinrwydd yr ymgeiswyr yn y rheolau, nid oedd gorchestion D. ab Edmwnt mor anfuddiol ag myn llawer eu bod. Yn eraill ar ei ol yr oedd y camwri am eu bod wedi ceisio cyfyngu barddoniaeth i'r rhif hwnw o fesurau, megys ag y bydd Cristionogion rhagfarnllyd yn ceisio cyfyngu y bobl at gredöau rhyw hen dadau. Mae Iolo Morganwg yn gosod y bai hwn ar ysgwydd Tudur Aled. Yr oedd Ieuan Llawdden, Gwilym Tew, Ieuan ab Hywel Surdwal, Ieuan Gethin, &c., yn bresenol yn Eisteddfod Caerfyrddin, ond nis gallent wrthsefyll awen a chelfyddyd y "gwr bach a'r gŵn llwyd." Mae wyth o'i gyfansoddiadau barddonol yn argraffedig yn *Ngorchestion Beirdd Cymru.* Nis gwyddom am neb mor rwydd a gorchestol ei gynghaneddion, ac y mae ei gywydd marwnad Sion Eos yn arddangos y teimladau tyneraf, a'r rhesymau cryfaf yn erbyn cosbi â marwolaeth. Bu farw, mae yn debyg, rhwng 1480 a 1490, a chladdwyd ef yn Hanmer.—*Gwel* ALED (Tudur), DEULWYN (Ieuan).

EDNYFED ab Macsen Wledig, ydoedd sant yn y pumed cant.

EDNYFED FYCHAN ydoedd gadlywydd enwog a gwladweinydd galluog i'r tywysog Llywelyn ab Iorwerth. Pendefig uchelwaed ydoedd yn disgyn o Marchudd ab Cynan, penaeth un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Ei brif balas ydoedd Tregarnedd, ar lan yr afon Cefni, yn Môn; ac yr oedd ei ddylanwad a'i gyfoeth yn fawr yn y wlad hono. Ymddengys ddarfod i un o'i hynafiaid gymeryd y Groes, a myned i ymladd i'r Tir Sanctaidd, canys ei arfbais ar y cyntaf, oedd "Pen Saraceniad," &c. Danfonwyd ef gan ei dywysog yn gadflaenor ar fyddin o Gymry i amddiffyn y cyffiniau rhag rhuthriadau eu gelynion y Saeson, y pryd hwnw tan lywyddiaeth Ranulph iarll Caerlleon. Llwyddodd Ednyfed yn eu dymchweliad, ac i ladd tri o'u prif gadswyddogion, a llu o'r milwyr cyffredin; a'i dywysog mewn canlyniad a barodd iddo o hyny

Digitized by Google

allan ddwyn yn ei arfbais, "*Gules between three Englishmen's heads couped a chevron ermine.*" Bu yn briod ddwywaith: 1af, gyda Gwenllian ferch Rhys, tywysog Deheubarth, yr hon a roddodd iddo Goronw arglwydd Trecastell yn Mon; Gruffydd o'r Henglawdd; Iorwerth arglwydd Abermarlais; Einion; Rhys; a merched. 2il, gyda merch i Llywarch ab Bran, o'r hon y cafodd Llywelyn, arglwydd y Creuddyn; Tudur, o'r Nant a Llangynhafal; a Hywel, esgob Llanelwy. Y mae llawer o brif deuluoedd Gwynedd a Deheudir yn olrhain eu disgyniad ohono. Gorwyr iddo ydoedd Syr Gruffydd Llwyd, o Dregarnedd, yr hwn a ddygodd y newydd am enedigaeth etifedd iddo i Iorwerth I. yn Nghastell Rhuddlan, sef Iorwerth II., tywysog cyntaf Cymru. Yr oedd Owen Tudur hefyd yn seithfed disgynydd ohono; ac felly yr oedd yn un o hynafiaid Cymreig Harri VII., ac y mae gwaed Ednyfed Fychan yn ngwythenau teulu breiniol presenol Prydain Fawr.—Pennant's *Tours;* Wms. *Em. Welsh., &c.*

EDNYWAIN BENDEW, mab i Bradwen, penaeth un o Bumtheg Llwyth Gwynedd, oedd yn ei flodau yn y 12fed ganrif, ac yn preswylio mewn palas a elwid Llys Bradwen, yn agos i Ddolgelley. Y mae rhai o brif deuluoedd Meirionydd yn olrhain eu disgyniad ohono. Dygai ef a'i ddisgynyddion yn eu harfbais "*Gules three snakes enowed in a triangular knot argent.—Cam. Register.*

EDWARD AB RHALFF, bardd yn ei flodau tua 1594. Y mae llawer o'i waith ar gadw mewn ysgrifau.

EDWARD AB RHYS MAELOR, oedd fardd yn byw tua chanol y 15fed ganrif. Er esiampl o'i waith, rhoddir dau Englyn sydd ar gael —un i "Haidd Gorweiddiog," fel hyn :—

Tafellau twysau, hin tesaidd—drosot,
Drysor tefyrn llathraidd,
Dyrcha dy frig bon'ddigaidd—
Deffro—paid a huno—HAIDD!

A'r llall i Harri VIII., am orchymyn i ddynion dori eu gwallt, a gadaw i'w barfau dyfu, fel hyn :—

Y sawl a fynno'n ddisen—ymostwng
I'w meistr sy'n LLUNDEN,
Gaded ei FARF yn geden,
A del i'w go bowlio'i BEN.

—*G. Lleyn MSS.*

EDWARDS (CHARLES), awdwr yr hen lyfr Cymraeg rhagorol "Hanes y Ffydd Ddiffuant," &c., a anwyd yn Rhydycroesau, plwyf Llansilin, sir Ddinbych. Ni wyddis ddim bron am fore ei oes, ond y mae pob lle i gasglu ei fod yn hanu o rieni cyfrifol, a thybiodd amryw ei fod wedi derbyn addysg athrofaol yn Rhydychain. Nid oes dim prawf i'r dyb olaf ond fod "Hanes y Ffydd" wedi derbyn "Imprimatur" is-ganghellydd y Brifysgol, a bod y Parch. Thomas Richards, o Langrallo, yn rhoddi y nodyn canlynol yn y gyfres o awduron Cymreig o flaen ei Eiriadur: "Parch. Charles Edwards, gweinidog Croesoswallt, gwr tra dysgedig, awdur llyfr Cymraeg o'r enw 'Hanes y Ffydd Gristionogol,' 1680." Nid yw y flaith flaenaf o angenrheidrwydd yn profi iddo fod yn aelod o'r Brifysgol; ac y mae ei fywgraffydd diweddaraf, y Parch. Wm. Edmunds, athraw Ysgol Ramadegol Llanbedr, yn dweyd yn bendant mai camsyniad yw yr olaf, "oherwydd y mae yn eithaf dilys na fu Charles Edwards erioed yn weinidog Croesoswallt, canys p'un oedd yn offeiriad neu beidio." Pa fodd bynag, y mae yn amlwg ei fod yn ysgolor gwych, yn ŵr o dalentau dysglaer, yn awdur Cymraeg o'r dosparth cyntaf, ac yn caru yn fawr les ysprydol ei gyd-

Digitized by Google

wladwyr. Cyhoeddwyd "Hanes y Ffydd" gyntaf yn Llundain yn 1671—yr oedd hyn 27 mlynedd wedi marwolaeth y Ficer Pritchard, a 42 cyn genedigaeth Rowlands o Langeitho. Dygwyd ail argraffiad allan yn Rhydychain yn 1676, a thrydydd y flwyddyn ganlynol. Rhaid fod y llyfr yn cael derbyniad calonog, onide ni alwesid am argraffiadau ohono fel hyn mor gyflym. Cyhoeddwyd pedwar argraffiad o'r llyfr ar ol marwolaeth yr awdwr: yn y 'Mwythig yn 1722; yn Nolgellau yn 1811; yn Nolgellau drachefn yn 1822; ac argraffiad nodedig o hardd a chywir gan Mr. Spurrell, yn Nghaerfyrddin, yn 1856. Cyhoeddiadau eraill Charles Edwards ydynt: ail-arg. o "*Ddiffyniad Ffydd Eglwys Lloegr*, 1670," ac hefyd 3ydd argraffiad o *Ddadseiniad Meibion y Daran* o waith Morris Kyffin. Yn 1675, golygodd y "Preintwasc" i lyfr a elwid *Hyfforddiadau Cristionogol*, gan Thomas Gouge, ac hefyd *Ymarfer o Dduwioldeb*—"y 3ydd preintiad." Yn 1682, golygodd argraffiad o'r *Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd;* ac yn 1684, daeth argrafflad o *Lyfr y Resolution* allan o dan ei law. Diau iddo gymeryd rhan yn nghyhoeddiad amryw lyfrau eraill. Gwelir oddiwrth hyn ddarfod iddo lafurio llawer tuag at gyflenwi diffygion llenyddol ac ysprydol ei gydgenedl; ac er nad yw ei weithiau gan mwyaf ond adargrafliadau a chyfieithiadau, eto dilys iddynt fod o fawr fudd i'w genedl anghenus y pryd hwnw. Ni wyddis pa le na pha bryd y bu farw.—*Rhagymadrodd* i argraffiad Caerfyrddin o *Hanes y Ffydd.*

EDWARDS (Humphrey), ydoedd fab i'r Parch. Robert Edwards, o'r Ty Gwyn, yn mhlwyf Llanrug, ger Carnarvon, a pheriglor y plwyf hwnw. Rhoes ei dad y fywiolaeth i fynu, ac aeth i fyw i'r Iwerddon. Dygwyd ei fab i fynu yn llaw-feddyg, a daeth yn enwog a chyfrifol yn ei alwedigaeth. Efe a hwyliodd o amgylch y byd fel meddyg ar long ei fawrhydi Sior II., y *Tamar*, o dan lywyddiaeth arglwydd Anson, yn 1740–44. Pan ddaeth adref, ymsefydlodd yn Nghaernafon, lle y bu farw Tach. 26, 1788, yn 56 oed.—*G. Lleyn MSS.*

EDWARDS (John). *Gwel* Ceiriog (Sion).

EDWARDS (John), Caerwys, awdwr "Y Meddyg Anifeiliaid," a phregethwr cymeradwy gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ydoedd frodor o'r Ereiniog, sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef yn 1755. Argyhoeddwyd ef o ddrwg pechod pan tuag ugain oed, wrth wrando pregeth o eiddo un Hugh Pierce, pregethwr gyda'r enwad uchod; a bu mewn peth petrusder oddiar hyny yn mha gorlan y gwnelai efe ei gartref. Mynai rhai o'i gyfeillion iddo ymuno â'r Annibynwyr gerllaw, yn Mhwllheli; mynai ei dad iddo ymroddi at fyned yn offeiriad; eithr wedi ymgynghori â chyfaill i'r teulu, "Mr. Hughes, fawr," offeiriad Llanfihangel y Pennant, efe a'i cynghorodd, "Gwell i ti, Sion, aros wrth y cwpbwrdd lle yr wyt ti cael bwyd." Ac felly fu; ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd, a dygodd ei synwyr cyffredin cryf ef yn fuan i sylw a dylanwad yn eu plith. Tua 1787, anogwyd ef i ddechreu pregethu, a bu am yspaid saith mlynedd yn llafurio yn y wedd yma yn ei fro enedigol. Ar derfyn yr amser hwnw, dygodd y ffaith ei fod yn "bregethwr Methodus" ef yn wrthddrych erledigaeth; daeth offeiriad yn oruchwyliwr i'r boneddwr a biai y tyddyn yr oedd efe yn byw ynddo, a phan ddeallodd fod gwr yr Ereiniog yn pregethu, cythruddodd yn fawr a rhoddes rybydd iddo naill ai rhoddi fynu pregethu neu roddi i fynu y tyddyn. Dygodd hyn ei grefydd a'i gydwybod i'r wyneb; ymresymodd yn deg â'r goruchwyliwr gan geisio egluro iddo nad oedd a fynai ei wasanaeth crefyddol ddim ag amaethyddiaeth y tyddyn, ac mai nid

Digitized by Google

peth yw rhentu na'i gorfodi oedd cydwybod; ond y cyfan i ddim dyben. Bellach, nid oedd ganddo ddim ond ymwasceiddio neu ddyoddef, a disgynodd ei ddewisiad yn ddibetrus ar yr olaf, gan "adael ar y neb oedd yn barnu yn gyfiawn." Edrychodd o'i amgylch am fan preswyl, a disgynodd ei ddewisiad ar fferm fawr o'r enw Gelligynan, yn mhlwyf Llanarmon yn Ial, sir Ddinbych. Symudodd yno i fyw yn 1795. Cafodd fod agwedd grefyddol y parth hwnw yn dra isel, anwybodaeth ac anfoesoldeb yn eu llawn rwysg yn mhob man o'i amgylch, ac yr oedd yr yspryd hwnw a barodd ei alltudio o Arfon yn berwi eto yn ei fynwes. Elai i bregethu i'r manau mwyaf barbaraidd, a bu yn foddion i blanu llawer eglwys fechan mewn lleoedd tywyll ac anwaraidd. Nid oedd yn feddyliwr trefnus, mae'n wir, nac yn draddodwr medrus, ond meddai deithi mwy anhebgorol i genadwr boreol, sef penderfyniad diwrthgil, a chariad angerddol at lesau eneidiau ei gyd-ddynion. Efe oedd y cyntaf o'r Methodistiaid a bregethodd yn Bryneglwys, a mawr oedd y tyru yno i wrando ar "*berson* y *Cariadocs*, a ddaethai i fyw i'r Gelligynan." Gan mai efe oedd yr unig bregethwr, oedd yn byw yn y rhanau hyny o'r wlad, arferai fyned iddynt yn fynych; megys i'r Chwarelau, Llwydiarth, Lodge, a manau amddifaid o'r fath. Dywedir fod ganddo dŷ dan ardreth yn y Chwarelau; ac y gofalai fyned yno ar ryw adegau rheolaidd, heblaw bod yn atebol am yr ardreth dros ryw dymhor. Soniai am un tro neillduol, yr hwn a barodd gryn ofid iddo ar y pryd; tro nad oedd hoff ganddo ei adgofio. Yr oedd wedi ei gyhoeddi i bregethu yn un o'r ardaloedd amddifaid a enwyd, nid yw yn hysbys pa un; a chlywodd, cyn myned yno, fod bwriad a darpariad yn bod i'w erlid a'i faeddu. Cododd hyn ofn arno, ac yn lle myned rhagddo diangodd adref. Bore dranoeth, gorchymynodd i'r porthwr, neu y buchwr, droi y gwartheg godro i'r meillion *(clover)*; y caulyniad fu i un o'r buchod goreu a feddai chwyddo a marw. Ystyriai byth y tro hwn yn gerydd arno am ddianc, fel Jonah, yn lle myned i'w gyhoeddiad. Dywedai, pe yr aethwn i'r lle y dylaswn fyned, ni fuaswn gartref bore dydd Llun i roi y gorchymyn i'r buchwr; ac felly achubasid y fuwch. Yn 1811, symudodd o'r Gelligynan i fferm fawr arall ar waelod Dyffryn Clwyd, o'r enw Plas Coch, plwyf Llanychan. Yma hefyd bu yn foddion gydag un neu ddau eraill i sefydlu achos y Gellifor, un o'r capelau hynaf yn y cwr hwn o'r wlad. Tra yn yn aros yma, yn 1816, y cyhoeddodd efe y "Meddyg Anifeiliaid," llyfr a fu mewn bri mawr gan amaethwyr Cymru hyd yr awr hon; yr hwn lyfr a ail-argraffwyd tan olygiaeth dau fab Mr. J. Edwards yn 1837; a daeth trydydd argraffiad hardd ohono allan y flwyddyn ddiweddaf (1865), o wasg Meistriaid Hughes a'i Fab, Gwrecsam, tan olygiaeth Mr. J. Edwards, Caerwys, ei fab; a Mr. John Edwards, M.R.C.V.S., Abergele, ei ŵyr. Amcan y llyfr, fel y dywed yr awdwr yn y Rhagymadrodd i'r argraffiad cyntaf, ydoedd, "nid blys hunanol, nac awydd elw, a wnaeth imi ymaflyd yn y gwaith; ond ymgais am ei wneuthur yn fuddiol i'r wlad." Yn 1817, symudodd drachefn i Blas yn Nghaerwys; ac er fod ei nerth a'i iechyd bellach yn pallu, yr oedd ei dueddfryd naturiol at wneuthur daioni yr un mor fywiog ag erioed. Gwnai ymdrech mawr yn ei lesgedd i fyned i Gronant, Mostyn, a'r Cwm, lleoedd nad oedd yr un achos sefydlog gan yr un enwad oddieithr ambell oedfa ddamweiniol. Yr oedd llafur cenadol, ac arloesi tir newydd, yn orchwyl hoff ganddo. Gofidus oedd ganddo na allasai fyned i'r lleoedd anial hyny yn amlach; ac nid gormod oedd ganddo gymeryd tamaid o luniaeth yn ei logell, er mwyn

Digitized by Google

myned i'r fath leoedd, pryd nad oedd dim i'w gael; ond da cael hamdden a llonydd i bregethu. Ei ddywediad mynych yn niwedd ei ddyddiau, oedd, nad oedd dim yn gorwedd yn esmwythach ar ei deimlad, o'i holl lafur dros ei oes, na'r ymdrech a wnaethai i ymweled â manau, ag oeddynt, mewn ystyr grefyddol, yn anial ac anniwylliedig.

Yn fuan wedi ei fynediad i Blas yn Nghaerwys, gwelwyd arwyddion ymddatodiad yn amlwg arno. Dyoddefodd lawer oddiwrth anhwyldeb y gareg, a bu farw yn dawel yn 1823, yn 68 oed. Yr oedd J. Edwards yn more ei oes yn dipyn o fardd, ac yn cael y gair o fod yn awdwr *Interlude* neu ddwy.—*Meth. Cymru; Rhagymadrodd* i'r "*Meddyg Anifeiliaid.*"

EDWARDS (Jonathan), D.D., oedd enedigol o Wrexham, sir Ddinbych. Derbyniwyd ef i goleg Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1655; graddiwyd ef yn B.A. yno yn 1659; ac etholwyd ef yn gymrawd o goleg yr Iesu yn 1662. Yn fuan ar ol hyn, gwnaed ef yn beriglor Kiddington, ger Woodstock; ac yn 1686, etholwyd ef yn benaeth coleg yr Iesu, a chymerodd ei raddio yn D.D. yn yr un flwyddyn. Symudodd o Kiddington i Hinton, ger Caerwynt; a bu hefyd yn dal bywiolaethau yn Môn ac Arfon. Yn 1689, a'r ddwy flynedd ganlynol, llanwodd y swydd o is-ganghellydd Rhydychain. Ysgrifenodd: "A Preservative against Socinianism," Rhydychain, 1693. Bu farw Gorph. 20, 1712, yn 73 oed.—Wms. *Em. Welsh.*

EDWARDS (Parch. Morgan), M.A., a anwyd tua 1722. Ymunodd â'r Bedyddwyr yn Mhen y garn. Dechreuodd bregethu yn 1738. Wedi bod yn llafurio flynyddau yn Lloegr, efe a symudodd i'r Iwerddon, lle yr ordeiniwyd ef yn 1757. Ymfudodd i'r America yn 1761, ac ymsefydlodd yn Philadelphia. Ysgrifenodd lyfr o hanes helaeth am y Bedyddwyr yn Nghymru, ac aeth ag ef i'r America. Wedi myned i'r America, efe a ysgrifenodd ddeuddeg llyfr bychain o hanes y Bedyddwyr yn neuddeg talaeth America, y rhai a gyhoeddwyd yn 1770. Cafodd y radd a M.A.—*G. Lleyn MSS.*

EDWARDS (Robert), a elwid *Robin Ddu o Feirion*, ydoedd fardd o Drawsfynydd yn Meirion. Y mae o'i waith yn *Nghorph y Gainc* "Gywydd marwnad i Rolant Huw o'r Graienyn," ac "Englyn Cyffes y Bardd." Y mae yn yr un llyfr Englynion er côf am dano, gan Gwilym Peris. Bu farw yn 1805.—*G. Lleyn MSS.*

EDWARDS (Timothy), un o fôr-filwyr dewrwychaf Prydain, oedd yn hanu o hen deulu anrhydeddus Nanhoron, yn sir Gaernarfon. Mab ydoedd i'r Parch. William Edwards. Ganwyd ef yn 1731, ac efe a gafodd yr etifeddiaeth deuluol ar ol ei ewythr, Richard Edwards, Ysw. Ymunodd â'r môr-filwyr; ac yn 1755, dyrchafwyd ef yn is-gadben, ac yn gadlywydd yn 1757. Wedi hyny, bu yn olynol yn gadben y *Valeur*, y *Wager*, a'r *Emerald*. Yn 1778, symudwyd ef i'r *Cornwall*, yn cario 74 gwn, un o'r llynges a ddanfonwyd i'r Amerig o tan yr is-lyngesydd Byron, gyda'r amcan o wrthwynebu llynges Ffrainc, tan lywyddiaeth Count D'Estaing; eithr ni chafodd y Cadben Edwards gyfleusdra y tro hwn i arddangos y dewrder a'r pybyrwch hwnw a'i hynodai ar adegau eraill. Ar derfyn yr un flwyddyn, yr oedd gyda Byron yn yr India Orllewinol, ac yn y frwydr a gymerodd le Gorph. 6, 1779, gerllaw Grenada yn erbyn D'Estaing, yr oedd yn un o attegwyr yr ol-lyngesydd Parker. Yma, hynododd ei hun yn fawr; ac mor boeth oedd y frwydr arno, fel mai o'r bron na lwyr ddrylliwyd ei long; 16 o'r dwylaw a laddwyd, a chlwyfwyd 27. Uchel ganmolid ei ddewrder gan Byron yn

Digitized by Google

ei adroddiadau swyddogol o'r ymladdfa. Yn Ebrill, 1780, cymerodd ran yn y frwydr rhwng Syr George Rodney a'r Count De Guichen; gwasanaethai y tro hwn fel un o attegwyr y cadlywydd, ac arddangosodd wroldeb o'r radd uwchaf. Collodd o wyr y tro hwn, 21 wedi eu lladd; a chlwyfwyd 41 eraill. Er fod y *Cornwall* wedi ei niweidio gymaint yn y ddwy ymladdfa uchod, adgyweiriwyd hi, ac ymladdodd y Cadben Edwards ddwy ysgarmes ynddi wedi hyn, pryd y lladdwyd saith o'i wyr, ac y clwyfwyd 15 eraill. Yr oedd y llong wedi ei niweidio mor fynych fel y suddodd pan yn gorwedd wrth angor yn St. Lucia; ond yr oedd y cadben wedi ei gadael ychydig cyn i'r digwyddiad gymeryd lle. Dychwelodd i Brydain, ar fedr derbyn anrhydedd ei wlad a'i frenin am ei wrhydri dewrwych yn eu hamddiffyn, ond ar y fordaith cafodd dwymyn y bustl *(bilious fever)*, a bu farw ar y môr Gorph. 12, 1780, yn 49 oed.—Wms. *Em. Welsh.*

EDWARDS (Thomas), neu *Twm o'r Nant.* Ganwyd ef yn 1739, mewn ffermdy o'r enw Penparchell, plwyf Llanefydd, sir Ddinbych. Efe oedd yr hynaf o ddeg o blant. Wedi bod yn Penparchell am yspaid byr, a byw oddeutu blwyddyn mewn tyddyn gerllaw iddo, ei rieni a symudasant i'r Nant, ger Nantglyn. Yr oedd tair fferm yn y gymydogaeth o'r enw "Nant," a gelwid hon yn Nant Ganol. Byddai plant y Nentydd yn cyd-chwareu yn fynych, ac yr oedd hogyn yn y Nant *Uchaf* o'r enw Thomas; ac er mwyn gwahaniaethu rhwng y ddau, galwyd yr olaf yn Thomas o'r Nant, a'r bardd, am ei fod yn dlotach, yn Dwm o'r Nant. O hyn y tarddodd ei ffugenw. Pan yn blentyn yr oedd ofn mawr arno rhag enwi Duw yn ofer. Priodolai hyn i ofal parhaus a chynghorion gwerthfawr ei fam. Dywed fod y ddysg neu yr argraff yma wedi aros arno trwy ei oes—na bu iddo sathru y trydydd gorchymyn, pa orchymyn arall bynag a sathrodd. Y mae yn anhawdd i'r oes hon ddirnad y drafferth a'r llafur dirfawr y bu raid i'r bardd ieuanc fyned trwyddynt er mwyn cyrhaedd ychydig wybodaeth. Yr oedd yn byw bedair milldir oddiwrth yr ysgol agosaf; yr oedd ei rieni yn dlodion, a'r wlad a hwythau yn rhagfarnllyd echrydus yn erbyn addysg. O'r ochr arall, yr oedd ei awydd yntau yn angerddol am dano; ac y mae yn ddifyrus sylwi ar rai o'i ddyfeisiadau er mwyn ei gyrhaedd. Yn ei oes ef, mewn rhyw botelau anferth, gymaint â phiser, a'i bris yn ddeunaw neu ddeuswllt, y byddai inc yn cyrhaedd y farchnad. O ba le y gallasai hogyn yn amgylchiadau Twm gael cymaint a hyny o arian i'w brynu? Ond "angen ydyw tadogaeth dyfais," medd yr hen ddihareb; ac i wneud yr angen yma i fynu, byddai Thomas yn archwilio y gymydogaeth am goed ysgaw; yn casglu eu grawnsypiau; ac wedi gwasgu y rhai hyny, byddai eu sudd yn llenwi y diffyg o inc. Diamheu mai gwyddau y Nant fyddai dan deyrnged iddo am ysgrifell; ac ymylon dalenau rhyw hen lyfrau y gallai gael gafael arnynt fu yn hir ganddo yn lle papur. Ond, fel o drugaredd iddo ef, aeth siop yn Ninbych ar dân, a phrynodd ei fam yno ychydig bapurau haner-llosgedig. Pan y deuai i'r tŷ bryd ciniaw, arferai ddarllen ac ysgrifenu yn lle bwyta, a'i eithaf lawer tro fyddai cipio tamaid o fara ac ymenyn, ac i ffordd ag ef at ei waith drachefn. Ond yn ngwyneb y cwbl nid oedd rhagfarn ei rieni yn erbyn addysg yn lleihau; a byddai ei dad yn frwnt ddigon wrtho yn fynych. Yr oedd Twm unwaith yn gyru y wedd iddo gyda'r gwrych, a darfu i fieren rwygo laped ei gôt; achosodd hyn i'w dad ei daraw yn dost, gan edliw "fod yn well ganddo drin ei lyfrau cythraul, na thori y mieri oedd yn rhwygo ei ddillad, ac yn difa gwlan y defaid." Parodd hyn iddo

Digitized by Google

benderfynu, os âi efe byth i'r tŷ, y llosgai yn lludw bob papur a feddai; a rhoddodd ei benderfyniad mewn grym hefyd. Nid ydym yn meddwl iddo gael dros dri mis o ysgol o gwbl, a hyny ar dair gwaith. Y tro cyntaf, yn Nantglyn, pryd y dysgodd y wyddor, ac y cymerwyd ef adref yn glaf o'r frech wen; yr ail dro, yn yr un lle, pryd y dysgodd sillebu a darllen ambell air, ac y rhoddwyd atalfa ar ei ddysgu yn mhen tair wythnos trwy fod dyledswyddau cartref yn galw yn uwch am dano; a'r trydydd tro, yn Ninbych, i ba le yr anfonwyd ef am bythefnos i ddysgu Saesneg!

Yr oedd wedi ysgrifenu dwy interliwd cyn bod yn naw oed; ond y mae yn debyg iddynt fyned ar goll, neu gael eu llosgi gan ei fam. Dechreuodd chwareu interliwdiau cyn bod yn ddeuddeg. Dewiswyd ef i'r swydd gan saith o lanciau Nantglyn, oherwydd ei lais canu da, ac amryw rinweddau chwareuyddol eraill. Daliodd ati i chwareu hyd nes oedd yn un-ar-hugain, a'r pryd hwnw, darfu enogrwydd cydwybod ei sobreiddio i raddau; ond, er hyny, ni roddodd heibio interliwdio hyd onid oedd yn hen ŵr. Yr oedd y dull yma o ddifyru yn dra phoblogaidd yn yr oes hono, a Twm o'r Nant, yn ddiddadl, oedd yr interliwdiwr mwyaf cymeradwy yn Nghymru. Yr oedd ei iaith yn fynych yn isel, ond yr oedd efe yn gwybod beth a gymerai, ac yn darpar ei nwyddau gogyfer â'r farchnad. Cyfansoddodd yn nghorph yr amser hwn wmbreth o chwareuon ar amrywiol destunau—crefyddol, gan mwyaf—a phob un yn cynwys ymborth fwy neu lai i chwaeth lygredig yr oes. Pan yn bedair ar hugain oed, priodwyd ef yn Llanfairtalhaiarn, gan y bardd a'r henafiaethydd enwog hwnw, Ieuan Brydydd Hir, yr hwn oedd gurad y lle ar y pryd. Y mae lle i gredu fod ei wraig yn ddynes dra chrefyddol, ac iddi ddylanwadu cryn lawer ar ei foesau yntau. Dechreuodd y ddau eu bywiolaeth mewn tyddyn bychan a elwid y Bylchau, ar fin y ffordd rhwng Llansanan a Nantglyn; a chyn hir, symudasant i dyddyn bychan arall islaw tref Dinbych, o'r enw Ale Fowlio. Arosasant yn y fan hono oddeutu dwy flynedd: yr oeddynt yn cadw tair buwch a phedwar ceffyl; ac yntau er mwyn helpu tipyn ar y fferm i dalu yn cario coed i Ruddlan. Ymddengys fod ganddo hoffder neillduol at y gwaith o gludo coed; oherwydd, mae yn debyg, am ei fod yn hyny yn cael cyfleusdra i arddangos ei alluoedd dyfeisiadol. Yr oedd ei enwogrwydd fel cariwr coed bron mor eang a'i boblogrwydd fel bardd. Cyflawnodd lawer o orchestion wrth lusgo llongau i'r dwfr, a chludo hen foncyffiion anferth; ac yn *Hanes ei Fywyd*, yr hwn a ysgrifenodd ychydig cyn ei farwolaeth, ar gais Cymreigyddion Llundain, y mae yn ymfalchio cymaint ynddynt ag yn ei gampiau ar faes yr awen. Dywed mai efe a ddyfeisiodd gyntaf y dull o godi coed oddiar lawr ar y fên gyda'r *crane*, yn lle gyda throsolion, trwy yr hyn yr arbedid llawer o lafur ac amser. Pan yn cario o Waenynog, efe a ganfyddai bren wedi i ddau ddyn ac wyth o geffylau fethu yn llwyr ei gael i fynu o'r nant; bachodd Twm ei dri cheffyl wrtho, a chafwyd ef i'r lan yn ddidrafferth, ond yr ychydig gynllunio fu i'w wraig ag yntau. A thra bu yn dilyn yr un alwedigaeth yn y Deheudir, ni adawodd ei alluoedd yn ddidyst yno ychwaith. Tua Chaerfyrddin, llwythodd lawer o goed yn mesur 100, 150, a 200 o droedfeddi; a'r mwyaf, a elwid yn "Frenin-bren," a fesurai 244 o droedfeddi. Yr oedd yr holl wlad wedi codi i'w weled yn cyflawni y gorchestwaith o symud y cawr yma: a phawb yn benderfynol mai methiant hollol fyddai yr ymgais. Ond parodd Twm iddynt fwyta eu geiriau eu hunain, a dygwyd Goliath y goedwig yn ddiogel i ben y

Digitized by Google

daith yn nghanol syndod a banllefau y bobl. Cyflawnodd wrhydri anarferol hefyd tuag Abermarlais. Yr oedd rhyw ddynan annoeth wedi adeiladu llong yn nghanol y coed, oddeutu milldir a chwarter oddiwrth yr afon Tywy; ac erbyn ei gorphen, nid oedd modd ei symud i'r dwfr. Yr oedd y perchenog wedi rhoddi hysbysiad mewn pedwar Llan fod digon o fwyd a diod i bawb a ewyllysient roddi help llaw i gael y llong i'w helfen. Derbyniodd lluaws mawr y cynygiad, ond ni wnaethant ddim, namyn bwyta ac yfed, a gwthio y llestr i le mwy anhylaw nag yr oedd ynddo yn flaenorol. Y dyn a anobeithiodd, ac a dybiodd y byddai raid ei thynu oddiwrth ei gilydd; ond Twm a ddywedodd, os cai ef dri neu bedwar o ddynion i'w gynorthwyo, y gallai fyned a hi i'r afon. Felly fu; a chyda pedwar ceffyl a'r dynion hyn y cyflawnodd efe orchest sydd ar dafod pobl y wlad hono hyd y dydd presenol. Yr oedd y gorchestion hyn yn dueddol i fagu yn meddyliau y bobl gyffredin anmheuon fod rhyw allu goruwchnaturiol tu cefn iddynt; ac y mae yn ddiddadl mai yn yr anmheuaeth yma y tarddodd y dyb y gallai efe godi a gostwng cythreuliaid. Dywedai y bobl fod ganddo ddau lyfr at y dybenion hyn—un at eu codi, a'r llall at eu gostwng. Rhaid cofio nad oedd ond ychydig yn yr oes hono a allent wahaniaethu rhwng *Canwyll y Cymry* ac argraffiad Groeg o weithiau Aristotle. Dichon y dylem grybwyll yma, a gadael i'r darllenydd dynu ei gasgliadau ei hun oddiwrth y ffaith, fod y bardd, yn y bywgraffiad crybwylledig o'i fywyd ei hun, yn traethu ei gred ddiysgog yn yr hyn a elwir Ysprydion, Drychiolaethau, &c. Rhydd esiamplau a manylion y cyfryw weledigaethau mewn iaith a gwedd mor ddilys, fel nad oes modd i'r darllenydd gamgymeryd ystyron yr ysgrifenydd ar y pwnc; a chan y dichon iddynt fod rhyw dro yn wasanaethgar i rhyw ymbalfalydd am gyfundrefn yn myd cyfrin Meddyleg, yr ydym yn eu cyfleu yn ngeiriau yr awdwr ei hun:—

Mi a welais fy hun ryw noswaith HEARSE yn myned trwy'r GATE, a hithau yn nghauad: gweled y ceffylau a'r harnais, a'r hogyn POSTILION, a'r COACHMAN, a'r siobau rhawn a fydd ar dop au yr HEARSE, a'r olwynion yn pasio'r ceryg yn y ffordd, fel y byddai olwynion eraill; a'r cloddedigaethau yr un modd mor debyg, yn elor, ac yn frethyn du; neu os rhyw un feuanc a gleddid, byddai fel cynfas wen; ac weithiau y gwelid canwyll gref yn myned heibio. Unwaith, pan alwodd rhyw drafaeliwr yn y GATE, "Edrychwch acw," eb efe, "dacw ganwyll gorph yn dyfod hyd y caeau o'r ffordd fawr gerllaw." Felly ni a ddeliasom sylw arni yn dyfod, megys o'r tu arall i'r llan; weithiau yn agos i'r ffordd, waith arall enyd yn y caeau: ac yn mhen ychydig bu raid i gorph ddyfod yr un ffordd ag yr oedd y ganwyll, obl gyd fod yr hen ffordd yn llawn o eira. A thro arall rhyfedd am hen wr o Gaerfyrddin, a fyddai yn cario pysgod i Aberhonddu, a'r Fenni, a Monmouth, ac yn dyfod a GLOUCESTER CHEESE t neuon ganddo yn ol: ac yr oedd fy mhobl i yn gwybod ei fod ef ar ei daith, ac yr oedd yr hin yn ddryghinog iawn, o wynt ac eira lluchio; a chanol y nos, fe glywai fy merched lais yr hen wr yn y GATE, a'u mam a'i galwodd hwynt i agor ar frys, ac erchi i'r hen wr ddyfod i'r ty at y tan. Godi a wnaeth y ferch, erbyn myned adan nid oedd ynoneb; a thranoeth dyma gorph yr hen wr yn dyfod ar drol, gwedi marw yn yr eira ar fynydd Tre'r Castell: a dyna'r gwir am hwnw. Llawer yn rhagor a ellid adrodd o'r fath bethau; ond nid ydynt ddim gwerth eu hadrodd, am nad oes fawr a i coeliant.

Pan gymerodd y pethau blaenorol le yr oedd y bardd wedi tori i fynu fel cariwr coed, ac ymgymeryd â chadw *Turnpike Gate* yn sir Gaerfyrddin.

Ond er ei holl boblogrwydd fel bardd, a'i orchestion fel cariwr coed, cyfarfu ef a llawer diwrnod cymylog, a bu yn llongddrylliad ar ei amgylchiadau o leiaf bedair gwaith. Cymerodd ei fethiant cyntaf le pan oedd efe yn byw yn Ale Fowlio, oherwydd iddo golli llawer o'i geffylau trwy y clafr, ac i'r marsiandwr coed oedd ddyledwr iddo ddiano i'r môr. Yna rhedwyd arno am yr ardreth; gwerthwyd yr hyn oll oedd ganddo yn y tŷ, hyd yn nod y gwelyau, ac nid oedd ganddo ef a'i deulu ddim i orwedd arno namyn gwellt ac ychydig ddillad a fenthyciwyd gan

Digitized by Google

gymydogion. Pa fodd bynag, chwythodd yr ystorm hon heibio, ac yn raddol daeth yn feistr ar ei ddyledion, ac yn werth, trwy bob peth, oddeutu tri ci an' punt. Yr oedd ganddo bedrolfen yr amser hono yn cario rhwng Caer a Dinbych; ac heblaw hyny, yr oedd yn parhau i gario coed i Ruddlan. Ond pan yn anterth ei lwyddiant, wele yr ystorm yn ail ymgasglu. Daeth ewythr iddo i'r dref, wedi ei ddal i fyned i garchar Rhuthyn am £30 o ddyled. Gyda chalon rwydd, yr hon oedd beunydd yn tosturio yn ngwyneb trallod, wele T. Edwards yn myned yn feichiau trosto. Ond yr hen ŵr oedd yn oedi talu, a'r gost yn ychwanegu yn barhaus, ac o'r diwedd fe dorodd i fynu. Yna talodd tri o failiaid ymweliad a'r meichniydd, ac yntau yn llawn asbri â'u meddwodd; a'r un yr oedd y *warrant* ganddo a aeth i wely y gwas ac a gysgodd. Archodd Thomas i'r forwyn fyned i nôl y *warrant* o'i logell. Yn mhen ychydig, gofynodd iddynt yn mha le yr oedd en hawdurdod, ac wedi iddynt edrych yn lled hurt ar eu gilydd a chwilota cryn lawer am dani, nid oedd ganddynt ond myned ymaith yn waglaw y tro hwnw. Yr oedd yn amlwg, er hyny, nad oedd nemawr o wynfyd yn ei aros yn Nyffryn Clwyd; ac o ganlyniad, efe a benderfynodd symud i rywle fel y byddai o gyrhaedd gafaelion y ceisbwl a'i baili. Tuag at hyny, cymerodd waith o gario coed yn Dolobran, sir Drefaldwyn. Yr oedd ganddo yno hefyd fferm a me in, a thrwy yr elw oddiwrth y cwbl, bwriai ei henflew yn dda iawn. Pa fodd bynag, yr oedd gan Ofid "dwrnel i bobi bara lefeinllyd iddo" yma drachefn. Cafwyd *writ* am yr hen ddyled yn ei erbyn, ac yn hytrach na disgyn yn ysglyfaeth i gynddaredd ei ofynwyr, efe a benderfynodd encilio yn mhellach oddiwrthynt. Gan hyny, efe a drodd ei wyneb tua'r Deheudir, a bu yn cario coed o Abermarlais i Gaerfyrddin. Pan ddechreuodd yno, yr oedd ganddo wyth o geffylau; ond ni chollodd gwaedgwn y gyfraith mo'r gwynt arno hyd yn nod yn y Deheudir. Un diwrnod, dyma dri ohonynt yn ei gyfarfod, ac yn cymeryd meddiant o'r ceffylau; a phan welodd Twm hyny, dyma hi yn fwrwst—Twm yn llorio dau ohonynt, ac yn ymgyndynu yn hir gyd'r trydydd; ar hyny, dyma y ceisbyliaid yn dyfod yn mlaen, ac yn ymosod ar y gelyn ar dde ac aswy; a rhwng y cwbl, dygwyd ef yn ddiangol i'r flau—carchar Caerfyrddin. Dyna lle y bu y noson hono, yn lled ddrwg ei hwyl, a thrigoli n y lle yn bygwth myned i fewn ato, a'i ryddhau trwy drais. Ond llwyddwyd cyn y bore i'w dawelu ef a hwythau. Dranoeth, gwerthwyd ei geffylau; a thrwy ei fod ef yn eu gosod allan fel creaduriaid digon diwerth, llwyddodd i'w cael i'w feddiant drachefn trwy dalu oddeutu £50.

Gellir ffurfio rhyw ddrychfeddwl am ei anffodusrwydd oddiwrth y ffaith iddo golli, trwy ddamweiniau ac afiechyd, yn Ninbych, 50 o geffylau; ac yn Nghaerfyrddin, 27. I wneud drwg yn waeth, aeth y marsiandwr coed yn ol llaw yn y byd, a throdd yn bur gnafus yn ei gyfrif ac yn ei dâl. Bu llawer o'i gyfeillion yn ceisio ganddo beidio gwneud cam âg un oedd yn dyfod o'r un wlad ag yntau, ac wedi cario coed na chariasai neb yn y wlad hono mo honynt. A dywedodd y bardd wrtho un tro, y byddai efe yn Dwm o'r Nant yn y Gogledd, pan na fyddai ef yn Mr. Lewis yn unlle. Yr olwg olaf a gafodd y bardd ar y gwr hwn oedd yn Ninbych, yn ngafael y gyfraith, ar ei ffordd i garchar Rhuthyn am ddyled; a dywedai, â llef uchel, mai dyna yr olwg oreu a ddymunai gael arno, oni bai iddo gael ei weled yn myned o'r carchar i'r Gollegfa, lle byddid yn crogi lladron.

Ymddengys iddo roddi i fynu gario coed ar ol hyn; a dychwelyd o'r

Digitized by Google

Deheudir heb na mên na cheffyl, heb ganddo ddim i droi ato ond chwareu interliwdiau. Y pryd hwn y cyfansoddodd efe ei interliwd oreu, sef "Pedair Colofn Gwladwriaeth," ac yn chwareu hon ac eraill y bu efe a dyn arall am ysbaid, gan wneud cryn lawer o arian trwy hyny. At interliwdio y troai ef wedi dyrysu ohono gyda phethau eraill; a byddai ei arabedd a'i wawdiaith yn peri i ganoedd ymdyru i'w wrando. Y mae yn adrodd ei brofiad wedi iddo ddychwelyd i Ddyffryn Clwyd yn y geiriau hyn:—"Myned o'm gwlad mewn ofn a phrudd-der, a dyfod yn ol dan chwareu, wedi ymadael âg ofn a'r achos ohono, o ran y byd, ond bod achos mawr i ofni a chrynu oherwydd pechod, ac achos mwy i ddiolch ei bod hi gystal arnaf." Yr oedd ei dad wedi gadael iddo dyddyn bychan o dir rhwng Llansanan a Nantglyn, ond yr oedd rhyw gyfreithiwr o Ddinbych wedi ei feddianu oblegyd yr hen ddyled. Yn mhen ychydig wedi ei ddychweliad i'r Gogledd, daeth rhyw glefyd poenus anarferol ar y cyfreithiwr, ac ysgrifenodd y bardd ato yn lled lym, gan osod dychrynfeydd uffern o'i flaen, ac awgrymu mai dyna wobr annghyfiawnder a thrais. Bu y cyfreithiwr farw yn nghanol poenau arswydus, gan ysgrechian, "Ow! y tir i Dwm o'r Nant! y tir i Dwm o'r Nant!" Ac felly fu; ac yr oedd ardreth hwnw yn gynorthwy mawr iddo yn ei hen ddyddiau. Yr oedd yn gryf iawn o gorph yn ei henaint. Yn mhen blynyddau wedi iddo ddychwelyd o'r Deheudir, cariodd yn yr *Hand*, Rhuthyn, dair sachaid o wenith wedi eu cylymu wrth eu gilydd, ac yn pwyso 500 o bwysau, yn ol ac yn mlaen o'r buarth i'r heol; ac nid oedd un o'r lluaws edrychwyr synedig a allai wneud hyny. Bryd arall, yn Nghaer, cododd faril o *borter* o'r ystryd i'r *waggon* o nerth cefn a breichiau. Ymddengys ei fod wedi rhoddi heibio chwareu interliwdiau rai blynyddau cyn diwedd ei oes, ac wedi troi at waith saermaen, ond er hyny yr oedd yn hoffi chwareu rhyw driciau diniwaid. Yr oedd yn Nantglyn un tro, ac fe drodd y diwrnod allan mor wlyb fel y gorfu iddynt roddi fynu gweithio. Nid oedd y bardd yn foddlon cerdded yn ol i Ddinbych heb enill rhywbeth, a dywedodd wrth un o'i gydweithwyr, "Mi fetia i swllt â thi y medra'i gael croeso gan Pic, y Person." Trwy fod cybydd-dod yr hen offeiriad mor adnabyddus, derbyniwyd y cynygiad yn ddioed. Aeth y bardd tua'r Persondy, a daeth y forwyn i'r drws. "Ydi Mr. Pic i mewn?" "Ydi." "Newch chi ddeyd fod gan Twm o'r Nant eisio i wel'd o." Aeth y forwyn i'r parlwr a thraddododd y genadwri wrth Mr. Pic. "Deydwch wrtho fo nad ydw i ddim i mewn." Daeth yr herlodes yn ol a gwên ddiniwed ar ei gwyneb. "Mae mistar yn deyd nad ydi o ddim i mewn." "Da ngeneth i, dyna wir o le heb ei ddisgwyl; gofyn iddo unwaith yn rhagor a ga i siarad gair ag o, ac onide cymered y canlyniadau." Tybiodd Mr. Pic fod doethineb a chyfrwysdra yn galw arno ddyfod allan o'i ffau yn awr. "Wel, Tomas Edwads, sut yr ydych chi? mae yn ddrwg iawn gyna i'r forwyn *stupid* yma neyd camgymeriad." Wrth gwrs, yr oedd Mr. Pic yn ddig wrth y forwyn; wrth gwrs, yr oedd Twm yn gweled trwy y cwbl. "Yr ydw i wedi clwed i chi fod yn hela wiwer ar y Sabbath, syr, ac yr oeddwn i'n dwad yma i ofyn a oedd y peth yn wir ai peidio; oblegyd yr oedd rhywun wedi gofyn i mi neyd cân i chi." Wrth y gair "cân," bu agos i'r hen offeiriad lewygu, ac wedi iddo gael ei wynt ato, gwichiai, "Celwydd i gyd, Tomos Edwads, dowch i fewn, mistar Edwads." Yr oedd yn amlwg fod y cyffyriau yn ateb y dyben, canys yr *oedd* cryn lawer o *wir* ynddynt. "Dowch i fewn, mistar Edwads." Aeth Twm i fewn, cafodd bob

Digitized by Google

croesaw yno hyd yr hwyr, a haner coron wrth fyned ymaith, gyda'r awgrym "nad gwir pob peth a glywir."

Ond er ei holl nerth meddyliol a chorphorol, yr oedd un crvfach nag yntau. Nid oedd modd n eddwi hwn, fel y meddwyd y bailiaid hyny —nid oedd modd dwyn y *warrant* oddiar hwn: nid oedd yn bosibl ei ddychrynu, fel y dychrynid y Person, â chân wawdus; ac nid oedd Thomas Edwards o flaen ANGAU, ond blodyn o flaen deifwynt. Bu farw Ebrill 3, 1810. Yr oedd wedi paratoi bedd-gist iddo ei hun, a thori y geiriau "LLYMA Y CLADDWYD" arni, gan fwriadu cerfio ei feddargraff yn gyflawn; ond cymerodd ei afiechyd olaf afael ynddo cyn iddo gario ei fwriad allan. Y mae y gareg hono ar ei fedd yn awr, a'r geiriau yna ar un pen iddi, a'r beddargraff cyflawn ar y pen arall. Claddwyd ef yn mynwent yr Eglwys Wen, ger Dinbych; ac yr oedd ei angladd yn un parchus a lluosog annghyffredin. Anfonodd Gwyneddigion Llundain faen marmor costus i'w osod oddifewn i'r Eglwys Wen, er coffhad am dano. Y mae yn gerfiedig ar y maen hwnw lun yr Awen yn wylo uwch ben bedd y bardd. Ymddengys iddo ychydig flynyddau cyn marw ymroddi i fod yn broffeswr crefydd gyda'r Methodistiaid Calfinaidd; gyda pha enwad y bu ei wraig a'i ferched yn aelodau o'u hieuenctyd, ac yntau ei hun yn wrandawr trwy ei oes.

Y mae yr holl dafolwyr a beirniaid Cymreig yn addef fod ei athrylith yn gref a nerthol tu hwnt i'r eiddo odid i fardd Cymreig a fu neu y sydd. Prin y gellir credu fod gan ei farn ambel dro unrhyw awdurdod ar ei grebwyll nwyfus, yr hon a ymdorai allan yn fynych tros ben bob terfynau chwaeth a gweddeidd-dra, gan ymddigrifo yn yr ystranciau mwyaf ysmala ac afiednais; a diau mai boddio tymherau y werin ydoedd un o'i amcanion wrth ganiatau i'r awen y fath benrhyddid. Anfynych yr ymgodai at y pur, y prydferth, na'r mawreddus; yn hytrach beirniadaeth lem a dysgrifiadol oedd ei farddoniaeth ar *fywyd* Cymreig. Portreadai hwn i'r byw; ac yr oedd holl ysgogiadau y galon lygredig, ormesol, a chrintachlyd, megys ar len amlwg o'i flaen. Gesyd ddarluniau "Sion Llygad y Geiniog," ac "Arthur Gybydd," ger ein bron mor naturiol nes y rhuthrant i'r meddwl pa bryd bynag y deuwn yn agos i gybydd; ac y mae "Sian Ddefosiynol," "Gwenhwyfar Ddiog," a "Lowri Lew," yn ystrydebiad perffaith o'r cymeriadau a gynrychiolant. A phwy na adlonwyd wrth ddarllen ymgomiau "Rhys y Geiriau Duon," "Gwallco a Zidi Drwsiadus," "Rondol Roundiaid," a'r "Doctor" ac "Angau" yn pluo yr hen gybydd tua therfyn ei oes? Yn ei *interludiau* y gwelir ei gryfder ef amlycaf; a phrin y gellir credu y buasai'r bardd digyffelyb Shakespeare yn portreadu yn well yr ychydig gymeriadau sydd yn y chwareuon hyn. Yr oedd ei gerddi yn fasweddol, ei garolau yn sychion, a'i fesurau caethion yn llawn gwallau. Pe na chyfansoddasai rywbeth heblaw y rhai hyn, ni buasai TWM O'R NANT nemawr enwocach na rhyw Dwm arall. Yr oedd J. Jones, Glanygors, yn rhagori arno fel awdwr cerddi; Dafydd Ddu a Bardd Nantglyn, fel carolwyr; a degau yn rhagori yn y mesurau caethion. Ond fel interliwdiwr, ni bu neb erioed teilwng i'w gystadlu ag ef. Ynddynt hwy y tywalltai allan genllif ddihysbydd o eiriau cellwair-gnoawl ar fân ormesiaid mewn byd ac eglwys, ac y torai waed bob ergyd ar offeiriaid mudion a diog gyda'i fflangell ysgorpionog. Oddiar ei fynych drallodau ei hun, yr oedd yn cashau â chas perffaith y gorthrymwr; a cheid llawer prawf yn ei waith o'i elyniaeth annghymodlawn tuag at gyfreithwyr rheibus a digydwybod. Yr

Digitized by Google

oedd gan y giwaid hyn gymaint o'i ofn a phe buasai yr ysbryd drwg ei hun; a diau mai ei ofn ef ydoedd yr unig ofn oedd ger bron eu llygaid. Ni bu erioed fardd parotach ei awen, na ffraethach ei sylwadau, ac yr oedd cryn lawer o ddireidi diniwaid ac ysmala o'i gwmpas. Cyfansoddodd un tro gân boblogaidd ar "waredigaeth ryfeddol a gafodd ar Bont Rhuddlan, pan yr aeth pedrolfen ac arni dair tunell o goed tros ei ddwy goes, ac heb dori yr un asgwrn;" ond y mae pob lle i gasglu mai o *tan* y Bont yr oedd y Bardd ar y pryd. Fel engraifft o barodrwydd ei awen a'i ffraethineb, wele a ganlyn:—"Cynelid Eisteddfod yn Nghorwen, ac yn mysg ei thestunau yr oedd 'Englyn Byrfyfyr i Eisteddfod Ddyfodol y Bala.' Yn mhlith eraill cododd dyn ieuainc coegaidd yr olwg arno, a chyda phwyslais arbenig dros ben, dechreuodd, 'I'r Bala nesa'r awn ni;' 'Oes bai feddwl os byw fyddi,' meddai Twm mewn winciad llygad. Chwarddodd y gwyddfodolion nes oedd y dwr yn pistyllio o'u llygaid, a disgynodd y bardd yn ol i'w eisteddle mor swrth a phe buasai awyren wedi i Twm roddi mynawyd ynddi." Camgymeriad ydyw tybied na bu efe o ddim gwasanaeth i gyfiawnder a chrefydd. Torodd lawer ar winedd ystiwardiaid, a phlanodd ei arswyd yn nghalon llawer erlidiwr. Ceisiai Mr. Charles o'r Bala unwaith ei ddarbwyllo rhag arferyd iaith mor arw tuag at ei gaseion; ond ateb y Bardd ydoedd, "Edrychwch chwi, Mr. Charles, ar ol y defaid; mi edrychaf finau ar ol y bleiddiau." Ymdebygai mewn llawer o bethau i Aristophanes, y bardd Groegaidd; byddai hwnw yn cyfansoddi ei chwareuon fel yr oeddynt i ymddangos ger bron y werin, ac felly Thomas; yr oedd Aristophanes yn cymeryd cyfleusdra yn ei brydyddiaeth i ddangos bai, ac i geryddu am amryw ddrwg dueddau, oedd yn gyffredin yn ei oes, felly hefyd bardd y Nant; yr oedd y Groegwr yn brydydd poblogaidd, ac yn arfer britho ei waith âg ymadroddion anweddaidd, er boddio archwaeth ei wrandawyr; ac felly hefyd y Cymro.

Y mae yn anhawdd rhoddi dyddiad cywir pa bryd y cyhoeddwyd amrywiol weithoedd y bardd. Ei interliwdiau a gyhoeddid fel y cyfansoddid hwynt; a gwerthwyd llawer argraffiad ohonynt. "Gardd o Gerddi," o'i waith, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1790, yn Nhrefecca; ailargraffwyd ef yn Rhuthyn yn 1826, ac hefyd yn Merthyr Tydfil yr un flwyddyn; a daeth argraffiad arall yn ddiweddarach o'r lle olaf, gyda pha un yr oedd pump o'i interliwdiau. Cyhoeddwyd "Detholion" o'i waith yn llyfryn swllt yn Liverpool yn 1861. Y mae interliwd neu ddwy o'i gyfansoddiad, a rhai mân ddarnau, yn llechu eto yn Nyffryn Clwyd. Y mae dau ddarlun o'r bardd ar gael; un wedi ei dynu pan oedd efe yn lled ieuanc; a'r llall tua chwech wythnos cyn ei farwolaeth, pan oedd efe yn tario trwy wahoddiad gyda W. A. Maddocks, Ysw., yn Mhorthmadog.—*Ei Fywgraffiad*, gan y Bardd ei hun; *Y Gwladgarwr* vi., 65, 144.

EDWARDS (Parch. Thomas), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Llanddeiniolen, sir Gaernarfon, a anwyd yn Gŵyr, Morganwg, yn 1801. Unodd yn dra ieuanc â'r eglwys Annibynol yn y Crwys, a chafodd yn fuan anogaeth i ddechreu pregethu. Yn 1828, derbyniwyd ef i athrofa Neuaddlwyd; a bu yno am dair blynedd o tan addysg yr enwog Ddr. Phillips. Yn 1831, daeth ef a chyfaill ar daith i ymweled ag eglwysi y Gogledd; ac yn mhlith manau eraill, daethant hyd Llanddeiniolen, lle yr oedd eglwys fechan o Annibynwyr, tua 25 mewn nifer, oll yn perthyn i'r dosparth gweithiol. Yr oedd y frawdoliaeth hon, pan y daeth Mr. Edwards a'i gyfaill ar ymweliad â hwynt, ar

Digitized by Google

ganol adeiladu capel bychan, yn mesur saith lath wrth wyth, mewn gobaith am gynydd oherwydd llwyddiant chwarelau llechi Dinorwig gerllaw.' Agorwyd y capel hwn yn Gorph. 1832, a galwyd ef yn EBENEZER. Rhoddwyd gwahoddiad i Mr. Edwards ddyfod yn weinidog ar y ddiadell fechan; ac er fod eglwysi cryfion yn rhoddi galwad iddo ar y pryd, tueddwyd ef i dderbyn y gwahoddiad hwn. O hyn allan, adwaenid ef wrth yr enw, "Edwards, Ebenezer." Nis gallai dyrnaid o weithwyr felly addaw ond 25s. yn y mis o gyflog; ond gan na bu ariangarwch erioed yn bechod parod i amgylchu Mr. Edwards, efe a ymroddodd i waith, ac a benderfynodd ar gadw ysgol ddyddiol. Rhoddai hyn ddwy fantais iddo, sef ychydig gymhorth at fyw, a chyfleusdra i ymgydnabyddu â *phlant* yr ardal. Dilynwyd ei lafur â llwyddiant amlwg yn fuan; gan luosoced y dyrfa, fel y bu raid helaethu Ebenezer yn 1843, a dodi orielau ynddo. Daeth y tŷ y drydedd waith yn rhy gyfyng, a thrachefn helaethwyd ef yn 1859, nes ei wneud yn un o'r addoldai goreu a fedd yr enwad hwn yn Ngogledd Cymru. Adeiladwyd capel hefyd o'r enw Bozrah, o fewn dwy filldir i Ebenezer, yr hwn a helaethwyd cyn marwolaeth Mr. Edwards, ac efe oedd yn gweinidogaethu yno hefyd. Ychydig, pa fodd bynag, o fwynhau ar ffrwyth ei lafur a gafodd y gweinidog gweithgar; canys yn 1862, cafodd Mr. Edwards dwymyn ewynawl drom—mor drom fel nad adferwyd ef byth oddiwrth ei heffeithiau. Yn ei afiechyd dygn a hirfaith, dangosodd yr ardal ei hoffder ohono trwy danysgrifio tros £100 er gwneud tysteb iddo. Nid anmharwyd ei ddeall hyd y funyd olaf, ffarweliai yn dawel â'i gyfeillion galarus, a chyflwynai ei weddw a'i rai bach i ofal ei Arglwydd. Bu farw Gorph. 25, 1863, a chladdwyd ef ar y 30ain. Yr oedd gorymdaith ei angladd yn cyrhaedd tros haner milldir o ffordd, ac anfynych y gwelwyd mewn un gymydogaeth gynifer o arwyddion galar ar ol un gwr cyhoeddus.

Yn nwysder a difrifoldeb Mr. Edwards fel pregethwr yr oedd eiragoriaeth, yn hytrach nag yn ei fawredd a'i hyawdledd. Yr oedd yn credu yn gryf mewn Diwygiadau Crefyddol; ac yr oedd gogwydd ei weinidogaeth bob amser at y dull hwnw o bregethu. Yr oedd ei gôf bron yn ddiderfyn gyda rhai pethau, megys amseriadau, ystadegau, a ffigyrau; a byddai ei areithyddiaeth ambell dro yn gryf a goresgynol; ac yn nghylch eang ei gydnabyddion, teimlir yn hir golled am gyfaill ffyddlawn, caruaidd, a dihoced.—*Congregational Year Book.*

EDWARDS (THOMAS), *(Caerfallwch)*, a anwyd tua diwedd 1779, mewn lle o'r enw Felin Ganol, medd rhai; Ty'n Twll, medd eraill; o fewn trefddegwm Caerfallwch, yn mhlwyf Llaneurgrain *(Northop)*, sir Fflint. Nid oedd ei rieni, Richard a Margaret Edwards, ond pobl mewn amgylchiadau cyffredin; eto, gwnaethant ymdrech i roddi addysg i'w mab, Thomas, trwy ei anfon i ysgol Ramadegol Llaneurgain, a gynelid gan y Parch. Mr. Williams, curad y plwyf; tybia eraill mai clochydd y plwyf oedd yr athraw, ac nad oedd yr addysg a gyfrenid yno ond cyffredin a diaddurn, fel yn y rhelyw o ysgolion gwledig yr oes hono. Pan yn 14 oed, rhwymwyd ef yn egwyddorwas gydag un Mr. Thomas Birch, *saddler*, yn Wyddgrug. Yma dygwyd ef o fewn cyrhaedd cyfryngau gwybodaeth helaethach. Yr oedd i Mr. Birch ddwy ferch, y rhai oeddynt hoff neillduol o ddarllen, yn enwedig newyddion y dydd; a chai yntau, trwy hyny, gyfleusdra i weled y newyddiaduron a llyfrau amrywiol. Eithr gan nad oedd efe y pryd hwn yn deall ond ychydig Saesneg; byddai yn eu holi yn nghylch ystyron geiriau annealladwy

Digitized by Google

iddo. Hwythau, yn blino ateb ei holiadau parhaus, a'i hanogasant bwrcasu Geirlyfr Saesneg a Chymraeg, fel y gallai chwilio trosto ei hun; a thybir mai hyn a dynodd ei sylw gyntaf at fuddioldeb Geirlyfrau. Ar derfyniad ei egwyddor-wasanaeth, cymerodd ef a chyfaill o'r enw Edward Hughes y wib yn eu penau i fyned ar eu traed gan belled â Llundain, gan ddisgwyl, mae'n ddiau, ond cyrhaedd yno, y buasent ar ben eu digon; ond, fel llawer o'u blaen, yn hyn fe'u siomwyd; a dywedir mai da i'ddynt fod eu traed ganddynt i'w cludo adref, gan gardotta eu lluniaeth hyd y ffordd am unwaith yn eu bywyd. Tua 1800 neu 1801, priododd Thomas Edwards â Miss Margaret Jones, Trellyniau, plwyf Helygen; ond bu hi farw yn mhen tua dwy flynedd, gan adael dau o blant. Gan ei bod hi o deulu cyfrifol, meddylir iddo gael rhyw gymaint o gynysgaeth gyda hi, yr hyn a'i galluogodd i ddechreu masnach ei hun fel cyfrwywr yn Llaneurgain; eithr trodd yr anturiaeth hon o'i eiddo yn dra aflwyddianus. Wedi hyn, cafodd swydd gan Mr. Bell o Lundain, un o berchenogion y *Boar's Head Colliery* yn ardal Llaneurgain, fel ysgrifenydd mewn Pwysdŷ perthynol i'r gwaith hwnw. Yr oedd hyn tua 1802; eithr yn mhen tua blwyddyn, Mr. Bell yn canfod ei alluoedd uchel, a'i dyrchafodd i fod yn ysgrifenydd yn ei Gyfrifdŷ. Tua 1803, efe a ail-briododd gydag un Miss Wynne, o Laneurgain, yr hon a fu byw hyd 1814 neu 1815. Cawsant saith o blant, o'r rhai nid oes un yn fyw. Bu yn y Cyfrifdŷ uchod hyd 1806, pryd y dyrchafwyd ef i ben cyfrifdŷ Mr. Bell yn Llundain, lle y bu am lawer o flynyddau. Oddiyno dyrchafwyd ef i sefyllfa uwch gyda rhyw bobl a berthynent i'r Crynwyr; ac oddiyno drachefn yn 1815 codwyd ef i sefyllfa uwch fyth, fel ysgrifenydd yn swyddfa Nathaniel M. Rothchilds, Ysw., tad y Rothchilds presenol, yr Iuddewon arianog. Yn y gwasanaeth hwn, cafodd Mr. Edwards gyfleusderau lawer i ddadblygu ei dalentau, ac i weled y byd a'i fawredd; canys byddai yn fynych yn canlyn ei feistr fel ysgrifenydd ar hyntiau masnachol i'r Cyfandir, lle y deuent i gyfarfyddiad â phenau coronog; ac odid y byddai parch y prif-swyddog gan y cyfryw yn nemawr llai na pharch ei feistr. Hefyd, dywedir iddo gael ei anfon gan ei feistriaid yn haf 1830 i wneud ymchwiliadau i gyfrifon rhai o dywysogion yr Almaen. Yr oedd y cyfrifon hyn mewn annhrefn a dyryswch er's tro, bu Mr. Edwards yno am ddau fis, a llwyddodd i'w gwastadhau, yr hyn, meddir, oedd yn elw i'r Cwmni o £350,000. Cyflawnodd y gorchwyl hwn fel rhan o'i ddyledswyddau arferol, heb ddisgwyl dim am ei waith rhagor na'i gyflog; ond y cwmni a fynent gydnabod y gwasanaeth canmoladwy; ac yn hollol annisgwyliadwy i Caerfallwch, tranoeth i'r dydd Nadolig canlynol, wele ef yn derbyn llythyr oddiwth ei feistriaid yn cynwys *cheque* am £1000. Bernir mai tua 1816 y priododd y drydedd waith, â Miss Webster, o'r Fonachlog, Llaneurgain, yr hon a breswyliai y pryd hwnw yn Llundain. Bu y Mrs. Edwards hon fyw rai blynyddai ar ei ol ef, sef hyd Mehefin 18, 1862. O'r briodas hon, cawsant saith o blant, sef pedwar o feibion a thair o ferched. Parhaodd Mr. Edwards yn ngwasanaeth y Rothchilds hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn 10, Cloudsley Square, Llundain, Gorph. 4, 1858. Claddwyd ef yn nghladdfa *Highgate*, Llundain.

Fel y gellir casglu, bendithiwyd Caerfallwch â graddau helaeth o lwyddiant bydol; a thrwy ei fod yn ŵr diesgeulus yn ei orchwyl, cafodd sefyll gerbron breninoedd; ond yn nghanol ei lawnder, ni oddefodd i ddadwrdd y gyfnewidfa arian, ddyddyfnu ei serch oddiwrth iaith a

Digitized by Google

gwlad ei enedigaeth. Ni chyhoeddwyd cylchgrawn Cymreig o unrhyw deilyngdod yn ystod haner cyntaf y ganrif bresenol na welir ynddo naill ai cân, tôn, neu draethawd o'i eiddo, naill ai tan ei enw adnabyddus, Caerfallwch, neu ei ffugenwau boreuaf, "T. ap Edwart ap Eurgain," a "Zabulonun Caerludd." Yn ei farddoniaeth a'i gerddoriaeth nid amlygir llawer o awen ac o yspryd y peth byw; eto y maent yn goeth ac yn arddangos cynefindra a meistrolaeth yr awdwr ar egwyddorion y ddwy chwaer gelfyddyd hyny. Ei draethodau ydynt gan mwy f ar hoff destunau ei efrydiaeth, sef ar lythyraeth, cystrawen, a geiryddiaeth yr Iaith Gymraeg. Yr oedd ef, fel Dr. Pughe ac eraill, yn wresog tros fabwysiadu *v* yn lle *f*, *f* yn lle *ff*, y *c* Ffrengig yn lle *ch*, a'r *z* yn lle *dd*, gyda'r amcan o fyrhau a phrydferthu offerynau trosglwyddiad yr iaith, a'r llythyreniad hwnw a ddefnyddiai ef ei hun bob amser Nid ydym yn meddwl iddo gyfansoddi dim erioed yn y mesur caeth, ond y foel odl ddiaddurn Seisnig a ddefnyddiai fynychaf, a chyfleithadol yn benaf ydyw ei farddoniaeth. Y mae yn *Nyheinion Awen y Cymry* ddau ddernyn o'i waith. Penodwyd ef yn un o bump yn Eisteddfod y Fenni 1838, i wellhau a sefydlu yr Orgraff Gymreig; y pedwar eraill oeddynt Tegid, S. Evans Gol. *Seren Gomer*, Caledfryn, ac Aneurin Owen, Ysw. Ni wnaed dim gan y doethorion hyn gyda'u gilydd, ond cyhoeddodd Caerfallwch yn 1845 lyfr o'r enw "Analysis of Welsh Orthography." Bu yn aelod o Gymdeithas y Cymrodorion yn Llundain am lawer o flynyddau; traddododd lawer araith ragorol ger ei bron; un yn neillduol ar "Fwnai *(currency)*," yr hon a argraffwyd yn rhai o gyfrolau cyntaf *Seren Gomer*. Eithr prif waith llenyddol mawr ei oes ydoedd ei "Eiriadur Saesneg a Chymraeg." Daeth y llyfr hwn allan gyntaf yn 1850, o wasg Mr. P. M. Evans, Treffynon, ac ail-argraffiad ohono yn 1864. Cyhoeddwyd ef hefyd yn America. Yn y rhagymadrodd i'r arg. cyntaf, dywed yr awdwr mai er ei addysg a'i ddifyrwch ei hunan yr ymgymerodd efe gyntaf â'r gwaith; gan nad oedd yr un o'r geiriaduron a gyhoeddesid eisoes yn cyflenwi angenrheidiau yr iaith mewn geiriau celfyddydol. Ymroddes i lanw y diffyg hwn, nid trwy trwy fabwysiadu bastardd-eiriau estronol, eithr trwy ddefnyddio gwreiddeiriau unsill a chynhenid yr iaith Gymraeg ei hunan. Cyhoeddai yn fynych restr yn y cylchgronau Cymreig o'r geiriau newyddion hyn o'i eiddo; a chryn anturiaeth oedd gwneud felly yn yr oes hono, canys edrychid yn eiddigus, gan y sawl a ofalent tros burdeb a chadwedigaeth ddilwgr yr hen iaith, ar bob newyddian ynddi. Ymddengys ddarfod iddo hefyd gyfarfod ar y cyntaf â chryn wrthwynebiad; canys mewn llythyr o'i eiddo yn y *Cymmro*, am Mehefin 1831, dywed:—"Wrth weled ysva ddibaid sydd mewn rhai dynion i *erbyniaw* pob ymgais er gwelliant ein hiaith, petrusir a digalonir vi; ac wyf barod i roddi fy ysgrifell heibio am byth; ac o ym rhan i, bwrw ein hen iaith odidawg i lwyr ddistryw ac angov." Er y cyfan yn mlaen yr aeth, a thybir ei fod wedi gorphen y gwaith yn 1834, canys rywbryd yn y flwyddyn hono, dygwyd un rhan ohono allan gan Mr. W. Potter, Caernarfon; eithr tebygol mai methiant fu yr anturiaeth, gan na chyhoeddwyd ond yr un rhan hono. Teimlodd yr awdwr i'r byw oddiwrth yr annghefnogaeth, canys teimladau hawdd eu harcholli oedd ganddo. Mewn llythyr o'i eiddo yn *Gwladgarwr* Tach. 1835, rhydd ail gynyg i ddwyn y llyfr allan mewn tua 25 o ranau 2s. yr un, ac erfynid ar y sawl fyddai am ei dderbyn anfon eu henwau i rhyw lyfrwerthwr "mal y cafo Mr. Hughes, Bookseller, St. Martin-le-grand, London, yr holl enwau yn nghyd erbyn

Digitized by Google

diwedd Ionawr nesav, pan ei cychwynir, neu ynte y darvyddir gydag o am byth." Ond fel y crybwyllwyd ni chyhoeddwyd dim ohono hyd 1850. Crybwyllasom y ffeithiau uchod er dangos gyda pha fath oerfelgarwch y derbynid y cynyg gwladgarol cyntaf; tra y cydnebydd pob llenor bellach fod "Geiriadur Caerfallwch" yn gaffaeliad gwerthfawr i lenyddiaeth Gymreig.

O ran ei berson, yr oedd Caerfallwch o faintioli cyffredin, ac o bryd goleu wridog a glandeg. Ei wisg yn goeth a thrwsiadus; ei foesgarwch yn ddiwall; ei yspryd yn hynaws a llariaidd. Yr cedd ei rodiad bob amser yn ddiargyhoedd, a'i elusen i'r angenog yn ddiareb. Bu am flynyddau lawer yn wrandawr cyson yn nghapel Cymreig y Trefnyddion Calfinaidd yn Jewin Crescent; ond yn 1829, oherwydd annghydwelediad yn nghylch Rhyddfreiniad y Pabyddion, ymadawodd ef ac amryw eraill. Wedi hyny, mynychai gapel yr Annibynwyr Saesneg, yn Silver St., tan ofal Dr. Bennett; ond yn ei flynyddau olaf, pan symudodd i fyw i'r dref, gyda'r eglwys a'r gynulleidfa yn Islington, tan ofal Mr. Hollis, yr arferai addoli. Dywedai cyfaill am dano, "Ni chuddiodd daear laswerdd ar dynerach bron crioed. Di-sen—diabsen."—*Rhagdraith* i'r ail-arg. o'r *Geiriadur; Gwladgarwr; &c.*

EDWARDS (William), Groeswen, Morganwg, y pont-wneuthurwr enwog, yn hanes bywyd yr hwn y ceir engraifft ardderchog o athrylith wreiddiol yn ymgodi ar draws pob anfantais i safle uchel yn mhlith enwogion, nid Cymru yn unig, ond y byd oll. Ganwyd ef yn 1719, mewn tyddyndŷ o'r enw Bryn, yn mhlwyf Eglwys Ilan neu Elian, Morganwg. Bu ei dad farw pan nad oedd efe ond dwyflwydd oed, gan adael gweddw a thri mab ac un ferch, yr ieuengaf o ba rai ydoedd William. Y meibion hynaf a ddaethant yn fuan yn alluog i gynorthwyo eu mam yn niwylliad y tyddyn; ac oddiar hyny, manteisiwyd i ddodi William mewn ysgol, ond nid yn hwy nag y bu yn dysgu darllen ac ysgrifenu ychydig yn iaith ei wlad; ac ymddengys mai dyma hyny o ysgolheigdod a gafodd. O hyn hyd onid oedd yn 16 oed, ymroddes i fod yn wasanaethgar ar y fferm; a'r pryd hyny, ymddadblygodd tueddfryd naturiol ei athrylith. Gwyddis mai y terfynau cyffredin rhwng y naill faes â'r llall ar dyddynod mynyddig Cymru ydyw muriau ceryg garw a diaddurn; ac wrth adeiladu ac adgyweirio muriau fel hyn ar fferm ei fam yr ymhoffodd efe yn yr alwedigaeth, ac yr enillodd sylw am fedrusrwydd yn y cyfryw orchwyl. Galwyd am dano gan y cymydogion i gyflawni yr un cyffelyb waith ar eu tyddynod hwythau; a daeth yn fuan yn enwog am adeiladu magwyrydd. Wrth y gwaith hwn, yr oedd yn enill yn enill cyflog da, ac yn cyflwyno y cyfan tuag at drysorfa ei fam a'r teulu, y rhai oedd a'u llafur yn gwbl oll ar y fferm. "Gwaith sych," fel y dywed y saermaen, oedd gan William hyd yma—hyny ydyw, gwaith maen heb na chymrwd na morter. Yn fuan wedi iddo dynu sylw y wlad fel adeiladydd cyffredin, daeth nifer o weithwyr medrus i'r gymydogaeth megys yn ddamweiniol, i adeiladu taflod, neu *shed*, i ôf at bedoli ceffylau. Yr oedd William yn llygad i gyd tra yr oedd y gweithwyr hyn wrth eu gorchwyl; a synai at eu medrusrwydd yn trefnu ac yn gosod y meini, ac yn naddu eu ceryg at y pilerau a'r bwäau, a'r gwaith drwyddo. Yr oedd yn llawn awydd am geisio gwneud rhywbeth tebyg iddynt. Gadawai ei orchwyl yn fynych i ddyfod at ochr y clawdd, yn y maes gerllaw iddynt. Craffai yn neillduol ar wneuthuriad eu morthwylion. Sylwai fod y gwegil, fel bwyell, yn naddu y ceryg, ac yn wahanol iawn i'r rhai amrosgo ydoedd ganddo

Digitized by Google

ef. Mynodd yntau gael gan y gôf wneud morthwyl iddo o'r un agweddiad, a chael hwnw wedi ei ddurio, a'i gynllunio yn y fath fodd ag yr oedd yntau yn medru gwneud y gwaith yn berffaith mor gyson â'r eiddynt hwy. Felly yn fuan iawn, fel hyn ymgododd William o fod yn adeiladydd cloddiau ceryg sychion, yn adeiladydd y muriau cywreiniaf gyda morter. Yn fuan iawn ar ol hyn drachefn, ymgymerodd â'r anturiaeth o adeiladu gweithdy i gymydog, yr hyn a gwblhaodd yn deilwng; ac yn y gorchwyl hwnw tynodd sylw yr holl fro, a deallai y cyhoedd erbyn hyn fod ganddo dalent ddieilfydd at adeiladu. Yn y cyfamser, cyflogwyd ef yn ei blwyf ei hun i adeiladu melin; a thra yr oedd wrth y gorchwyl hwn y daeth i wybodaeth drwyadl o egwyddorion gosodiad a threfniad bwäau meini mewn adeiladaeth. Wedi cyflawni y gwaith hwn, enillodd enw mor gyhoeddus fel y daeth nifer o adeiladwyr o barthau eraill o'r wlad i glywed am dano, ac i edrych ei waith; a datganai pob un ohonynt ei fod yn arddangos athrylith uwchlaw y cyffredin yn y gelfyddyd. Cydnabyddid ef erbyn hyn yn benadeiladydd yr holl wlad; a gelwid am ei waith, ei gynghor, neu ei gynlluniau o'r bron i bob parth o'r wlad. Yr oedd y fath hyder wedi ei roddi ynddo o'r diwedd, fel na chodid yr un adeilad o bwys o fewn y cyrhaedd heb fod ei sylw ef yn cael ei ofyn fel cymeradwyaeth i'r cynlluniau.

Llencyn ieuanc lled nwyfus ei dymher ydoedd hyd nes cyrhaedd 18 oed; a'r pryd hwnw, daeth rhyw gyfnewidiad tros ei ardymheredd, a roddes iddo mewn byr amser ddullwedd dyn sobrddwys ac ystyrbwyll. Hyd nes cyrhaedd 21 oed, yr oedd ei ddarllenyddiaeth yn gyfyngedig hollol i'r Gymraeg; ond tua'r oedran hwnw, ymgymerodd ag adeiladu *iron-forge* fawr yn Nghaerdydd, ac yr oedd yn lletya yno gyda hen ŵr dall, o'r enw Walter Rosser, gan yr hwn y dysgodd efe elfenau yr iaith Saesneg. Yr oedd gweddillion mawreddog hen gastell Caerphili yn sefyll o fewn ei blwyf genedigol; a byddai yr adeiladydd ieuanc yn mynych ymneillduo yno i efrydu saermaeniaeth, yn neillduol gosodiad meini y bwäau a'r colofnau, y rhai oeddynt wedi ei hadeiladu yn yr arddull Gothaidd. Erbyn iddo gyrhaedd 27 oed, gymaint oedd ei enwogrwydd, fel pan y penderfynwyd ar godi pont tros y Taf, y dewiswyd y saermaen ieuanc gwledig hwn i gynllunio'r adeilad a gwneud y gwaith. Anturiaeth fawr a phwysig ydoedd hon; dyma begwn ei fywyd; ac yr oedd ei gysylltiad â hi yn adlewyrchu clod uchel ar ei ddewrder cynhenid yn ymgynyg am y gwaith, ac ar y dyfal-barhad a enillasai iddo yr enw uchel a hawliodd oddiar law ei uwchafiaid y fath ymddiried pwysfawr. Eu telerau hwy ydoedd cael *pont*, a gwystl gan yr adeiladydd y safai am saith mlynedd, a chymered yntau y cynllun a fynai. Yr oedd yr anturiaeth yn un o anhawsder nid bychan ar wahanol olygiadau; yr oedd rhediad yr afon yn y fan hono yn hynod o ffrydwyllt, a'i lled nid yn fychan, heblaw ei bod hefyd yn ddarostyngedig i lifogydd cryfion ar rai amserau, a hyny oherwydd fod ar ei glanau o bob tu fryniau mawrion yn orchuddedig gan goedydd, a'r rhai hyny yn tynu cawodydd trymion, megys o bob cwmwl a ehedai drostynt, nes peri i fân aberoedd aneirif ar y cyfryw achlysuron ymdywallt i'r brif afon, gan ddirfawr ychwanegu grym y llifeiriant, a thrwy hyn oll yn gwneud yn angenrheidiol i'r bont fwriadedig fod yn un o gadernid fwy na chyffredin. Dechreuodd ar y gwaith yn 1746; ac yn yr amser penodedig, cwblhaodd, er llwyr foddhâd i'r sawl a ymddiriedasent y gorchwyl iddo. Y bont hon ydoedd o dri bwa *(arches)*; ac er nad oedd yr adeiladydd erioed wedi cael dim hyfforddiadau rheolaidd

Digitized by Google

yn y gelfyddyd, nac wedi teithio nemawr o'i ardal enedigol i weled adeiladau campus o'r fath; eto, y sawl a edrychent ar y bont, a ddatganent ei bod yn rhagori yn mhell mewn cywreinrwydd a dillynder ar bob un arall yn y Dywysogaeth. Bu y bont hon am tua dwy flynedd a haner yn sefyll yn gadarn a hardd-deg, gan wrthsefyll pob ymosodiad o eiddo yr afon odditani. Ond ar derfyn yr amser hwn, digwyddodd tymhestl anarferol, yr hon a barai nid yn unig lifeiriant dirfawr yr afon, ond trwy wynt nerthol diwreiddiwyd llawer o goedydd mawrion yn y gymydogaeth, a'r rhai hyny a ddaethant i waered gyda'r llif gan ymgasglu yn gluder yn erbyn pentanau y bont, nes ffurfio megys argae ar draws yr afon, a'r dwfr o'r herwydd yn ymgroni, nes yn y diwedd y darfu i'r pwys mawr oedd arni ysgubo yr holl adeiladaeth ymaith. Yn ngwyneb y trallod hwn, ni ddarostyngwyd ysbryd a phenderfyniad yr adeiladydd. Ymosododd ar y gorchwyl eilwaith; a thrwy mai pentanau y bont flaenorol fuasai achos ei dinystr, penderfynodd ar ffurfio y nesaf heb ddim ond un bwa, er fod yn rhaid i hwnw fesur 140 troedfedd, a bod yn 35 troedfedd o uchder. Aed yn mlaen gyda'r gwaith yn ddiymaros, ac erbyn 1751 yr oedd hon hefyd agos wedi ei chwblhau—nid oedd ond eisiau gweithio y canllawiau yn unig, pan y gorfu ar yr adeiladydd edrych eilwaith ar oferedd ei lafur dewrfryd. Pwysau dirfawr y gwaith ceryg a wthiodd y maen clo o'i le; ac mewn canlyniad, syrthiodd yr holl adeilad bendrawngl a'i ben ynddo i'r afon islaw. I lawer adeiladydd ieuanc, buasai dwy siomedigaeth fel hyn, y naill ar ol y llall, yn ddigon i orchfygu ei ysbryd am byth; ond nid un felly oedd Edwards; ac yn lle ymollwng felly, defnyddiodd y digwyddiadau hyn fel gwersi addysgiadol i'w wneuthur yn fwy celfydd fyth yn ei alwedigaeth erbyn yr amser i ddyfod. Ymroddes yn ddioedi i ddechreu y drydedd bont; ac er ei fod yn penderfynu gwneud hon drachefn ar yr un cynllun â'r ail, sef ond o un bwa, eto dyfeisiodd wellhad nid bychan yn ei chyfansoddiad, sef gwneud tri o dyllau crynion agored yn mhob talcen ohoni. Yr oedd y rhai hyn yn ysgafnhau y pwysau; ac yn hytrach nag anffurfio ei golwg, yr oeddynt yn ychwanegu at ei harddwch. Gorphenwyd y bont hon yn 1755, sef yn mhen naw mlynedd o'r amser y dechreuwyd y gyntaf, ac y mae yn sefyll hyd heddyw yn addurn i'r cwr hwnw o'r wlad, ac yn gofgolofn i athrylith gampus ac ysbryd anorchfygol yr adeiladydd ieuanc hunan-addysgiol o'r Groeswen. Gelwir hi Pontypridd; ac hyd oni adeiladwyd pont Caerlleon yn 1830, hyhi oedd y fwyaf ei rhychwant yn y byd oll. Ystyrid hi yn rhyfeddod, ac ymdyrai pobloedd lawer, hyd yn nod oddiar y Gyfandir, i syllu arni.

Cododd yr orchest hon enw William Edwards i ben pinacl enwogrwydd, ac yr oedd galwadau mynych am ei wasanaeth. Y nesaf a adeiladodd ydoedd yr un dros Wysg, yn sir Fynwy. Y mae hon yn un fawr a hardd iawn. Wedi hyny, cododd y rhai canlynol, y naill ar ol y llall yn ddilynol; sef, pont dair bwa dros yr afon Tawy; Pontardawy, dros yr un afon, tua deng milldir uwchlaw tref Abertawy. Un bwa ydoedd hon, pedwar ugain troedfedd o led, gydag un cylch agored yn y talcenau. Pont y Bettws, yn sir Gaerfyrddin, o un bwa, pum' troedfedd a deugain o led. Pont Llanddyfri, yn yr un sir, pedair a phedwar ugain troedfedd o led, gydag un cylch agored. Pont Wychbri, tua dwy filldir uwchlaw Treforris, o un bwa, o bumtheg a phedwar ugain troedfedd o led, gyda dau gylch agored yn y talcenau. Efe a adeiladodd bont Aberafon, yn Morganwg, o un bwa, saith a thriugain o droedfeddi o led, pumtheg o uchder, ac heb yr un cylch agored. Efe hefyd a

Digitized by Google

adeiladodd bont Glasbury, gerllaw Hay, yn sir Frycheiniog, dros yr Wy, yn bum' bwa—yn ysgafn a hardd iawn o wneuthuriad. Y mae cryn olion medrusrwydd i'w ganfod yn nghynlluniad y bont hon, i'w chyfaddasu i ansawdd y lle.

Yr oedd William Edwards wedi gwneud llawer o ddarganfyddiadau gwreiddiol ei hun yn egwyddorion y gelfyddyd o bontadeiladaeth. Canfyddodd cyn hir fod ei bontydd cyntaf yn ymgodi yn rhy uchel, ac felly yn anhawdd eu croesi gyda cherbydau a llwythi trymion. Y mae yr esgyniad a'r disgyniad, yn y naill ben a'r llall o Bontypridd, yn ei gwneud yn anfanteisiol i'w chroesi, a hyny oblegyd lled anferth y bwa. Er fod hyn yn ychwanegu at hynodrwydd yr olygfa arni, eto y mae yn lleihau ei defnyddioldeb. Fel y mae yn naturiol i Gymro ffurfio ei holl athroniaeth mewn trioedd, felly y gwnaeth William Edwards. Ei drioedd pontyddol ef oeddynt, gwastadrwydd i'w chroesi—lled i ollwng pob rhwyddineb i'r llif—a chadernid y gwaith i barhau. Yr oedd y tri phegwn hyn ganddo o flaen ei feddwl yn nghynlluniad pob pont newydd, wedi cael cryn raddau o brofiad yn y gwaith. Darganfyddodd yr egwyddorion hyn, nid trwy ddarllen, na thrwy hyfforddiad neb, ond trwy arweiniad ei feddwl ei hun. Hawsder y teithiwr, rhwyddineb y llif, a diogelwch y gwaith, a fynai ef mewn cysondeb perffaith â'u gilydd byth mwy. Mynai hawliau pob un o'r ystyriaethau hyn yn gydbwys, ac ni fynai osgoi trwch y blewyn trwy roddi lle y naill i'r llall ar un cyfrif.

Gallesid meddwl y buasai yr anturiaethau hyn yn llyncu ei holl amser; ond oes wedi ei chyflwyno yn gyfangwbl i waith oedd yr eiddo ef, ac mewn newid gwaith yr oedd ei orphwysdra yn gynwysedig. Bu yn amaethu tyddyn o dir ar hyd ei oes; a'r Sabbath, yr oedd ganddo ef ei ddyledswyddau pwysig. Ymunasai â'r Annibynwyr yn y Groeswen pan yn lled ieuanc; anogwyd ef i ddechreu pregethu pan yn 30 oed; ac yn fuan ar ol hyny, dewiswyd ac urddwyd ef yn weinidog ar yr eglwys fechan y perthynai iddi. Bu yn llafurus a ffyddlawn yn y swydd hon am ddeugain mlynedd, sef hyd ei farwolaeth. Credai ef fod yn ddyledswydd rwymedig ar bob eglwys gynal ei gweinidog; ac oblegyd hyn efe a dderbyniai yn rheolaidd gyfraniadau pobl ei ofal, er na ddefnyddiai ddim ohonynt at ei ddybenion personol ei hun, eithr cyfranai yr oll at gynorthwyo y tlodion ac achosion teilwng eraill. Cymerodd un gwr ieuanc o Abertawy lawer o'i bregethau mewn llawfèr, wrth eu gwrando yn cael eu traddodi. Yr oedd yn dra chyfrifol yn ngolwg y byd meddyliol, moesol, a chrefyddol. Bu farw yn 1789, yn 70 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys Llan.

Bu i William Edwards chwech o blant—pedwar o feibion a dwy ferch. Dygwyd Thomas, David, ac Edward, i fynu yn nghelfyddyd eu tad; cafodd William ei sacthu yn Gibraltar, yn ystod y rhyfel Ffrengig. Yr oedd Dafydd yn dra enwog yn y gelfyddyd o adeiladu pontydd, egwyddorion yr hon a ddysgasai gan ei dad tra yn gweithio gydag ef. Adeiladodd bont Llandeilo, yn sir Gaerfyrddin, o dri bwa, dros afon Tawy, chwe' milldir uwchlaw tref Caerfyrddin; Pontrhydedwin, dros afon Cothi; Pontloerig, dros yr afon Taw, sydd yn gwahanu siroedd Caerfyrddin a Phenfro; pont Bedwas, dros y Rymni, rhwng siroedd Morganwg a Mynwy. Bernir hon yn un o'r adeiladau mwyaf campus, wrth ystyried yr anfanteision oedd i ddwyn y gwaith yn mlaen; ac yn enwedig yr olaf a wnaeth, sef pont Cas'newydd, dros yr Wysg yn Mynwy.

Digitized by Google

EDWEN, santes o darddiad Sacsonaidd, eithr a restrir yn mhlith y seintiau Cymreig. Blodeuai yn y 7fed cant, a sefydlodd eglwys Llanedwen, yn Môn. Ei gwylmabsant, Tach. 6.

EDWIN, arglwydd Tegengl, yn sir Fflint, ydoedd benaeth un o Bumtheg Llwyth Gwynedd, ac y mae amryw o brif deuluoedd y sir hono yn hanu ohono. Mab ydoedd i Goronw ab Hywel Dda, ac yr oedd yn ei flodau tua chanol y 10fed ganrif. Ei arfau oeddynt, "*Argent between four Cornish choughs, a cross fleuri engrailed sable.*"—*Cam. Register*.

EFROG GADARN, a elwir Ebraucus gan Sieffre o Fynwy, a chan eraill Ebrancus, a olianodd ei dad, Mymyr, i orsedd Prydain yn y fl. 974 cyn Crist. Efe oedd y cyntaf o'r breninoedd ar ol Prydain a ymosodes gyda llynges ar Lydaw. Yno efe a ddinystriodd y wlad gan dân a chledd, a losgodd y dinasoedd, ac a lwyr ddrylliodd y caerau, ac a ddychwelodd gydag anrhaith mawr. Efe a sefydlodd dref Gaerefrog, (*York* yn awr), a phan deyrnasodd Dafydd frenin yn Israel y bu hyn. Bu i Efrawg ugain o wragedd, ugain o feibion, a deg-ar-hugain o ferched. Efe oedd tad Brutus Darian Las.—*Myv. Arch*. ii. 122.

EGRYN, sant yn ei flodau yn y 7fed cant. Mab ydoedd i Gwrydr Drwm ab Gwedrog ab Geraint, o linach freiniol Cadell Deyrnllwg. Efe a sefydlodd eglwys Llanegryn, yn Meirion.

EGWAD, sant yn y seithfed cant. Mab ydoedd i Cynddilig ab Cenydd ab Gildas. Sefydlodd eglwysi Llanegwad a Llanfynydd, yn sir Gaerfyrddin.

EIDAL, neu Eidaf, fab Ceryn, yn ol y *Brut*, a olianodd ei frawd, Fulgen, i orsedd Prydain, yn y pedwerydd ganrif cyn Crist.—*Myv. Arch*. ii. 164.

EIDIOL GADARN, iarll Caerloyw, yn ol y *Brutiau*, oedd yr unig Frython a ddianges a'i fywyd ganddo o'r wledd drychinebus hono a gynaliwyd gerllaw Gwaith Emrys rhwng Hengist a'r Sacsoniaid a Gwrtheyrn a'r Prydeiniaid, ac a adwaenir wrth yr enw Brad y Cyllill Hirion. Hengist, yn cynllwyn dinystr y pendefigion Brutanaidd, a chaffaeliad coron Prydain iddo ei hun, a barotodd wledd fawr yn y lle crybwylledig, yn cynwys tua tri chant o Brydeiniaid, a'r un nifer o'i swyddogion yntau. Archodd i'r rhai olaf ddwyn dagr bob un yn llechwraidd yn ei lawes, a phan roddai efe yr arwydd, yr oedd pob un i blanu ei ddagr yn nghalon y nesaf ato. Tan gochl mwy o gyfeillgarwch, llwyddodd gyda Gwrtheyrn, i gael gan Frythoniaid a Saeson eistedd bob yn ail wrth y bwrdd; a phan oedd pawb yn ei afiaeth, neidiodd Hengist ar ei draed a gwaeddodd "*Nemet eour Saxes*," a syrthiodd pob Brython ond Gwrtheyrn ac Eidiol yn unig yn aberth i'r fradwriaeth. Yr olaf, trwy nerth braich; canys cafodd ddarn o bren o tan ei draed, a chyda hwnw lladdodd ddeg a thriugain o Sacsoniaid yn gelaneddau meirwon, ac a ddiangodd rhag dialedd y gweddill. Cafodd Eidiol gyfleusdra i ddial ei gam; canys mewn brwydr a gymerodd le yn fuan ar ol hyn, cymerodd Hengist yn garcharor a thorodd ymaith ei ben. Dywed y *Trioedd* ddarfod iddo ladd 660 o'r Saeson "yn mrad Caersallwg, â chogail gerdin, o fachlud haul hyd yn nhywyll." Tybia Davies, yn *Myth. of the Druids*, mai yr un ydyw ag Emrys Wledig (*Aurelius Ambrosius*). Gelwir ef gan Taliesin, yn Eidial ab Ner, ond nid yw hyn ond barddoniaeth i ddangos ei gryfder a'i allu rhyfeddol. Nid yw Nennius, wrth son am y gyflafan, yn enwi Eidiol; ond y mae hynafiaethwyr Saesneg yn cydnabod yr enw, Eldol neu Edol, ac yn dweyd ei

Digitized by Google

fod yn iarll Caerloyw yn 461.—Gibson's *Camden;* Dugdale's *Baronage.*

EIDDILIC COR, a elwid hefyd Iddawc Corn Prydain, a grybwyllir amryw weithiau yn y *Trioedd.* Gelwir ei gyfarfyddiad ef a Medrawd yn Nanhwynain, "lle y gwnaethant frad Arthur, ac o hyny cadernyd i'r Saeson yn Ynys Prydain," yn un o'r tair bradgyfarfod; ac mewn *Tri* arall dywedir mai Iddawc a "ddatrinwys rin Arthur," sef trwy hud a lledrith. "Brad Gwrgi Garwlwyd," a "Hud Eiddilic Cor," fu yr achos o Gad Gamlan, lle y lladdwyd Arthur; a chanddo ef a Choll ab Collfrewi y dysges Rhuddlwm Gawr ei hud. Gesyd *Tri* arall ef allan, gyda Thrystan, fel un cyndyn ei fryd, "ac nid oedd a'u trotheu o iwrth eu harfaetheu."—*Trioedd* 20, 22, 50, 78, a 90.

EIDNEW. "Tri Escenydd Aerau Ynys Prydain; * * * Trydydd, Eidnew; a'u cyneddfau nad elynt o gad a rhyfel onid ar eu heloreu, gwedi nas gallynt symud na bys na thafawd.—*Tri* 33.

EIDDYN MAB EINGIAN. Yn ol y *Trioedd,* efe a laddodd Aneuryn Gwawdrydd, yr hon weithred a elwir yn un o'r "tair anfad gyflafan;" a chyda bwyell y gwnaed y gyflafan hono, ebai *Tri* arall.—*Tri* 47 a 48.

EIGEN, santes yn y ganrif gyntaf. Merch ydoedd i Garadog ab Bran, a bu yn briod â Sarllog, arglwydd Caersarllog, a elwid wedi hyny "Old Sarum."

EIGRAD, sant yn y 6ed cant. Un o feibion Caw ydoedd, ac aelod o goleg Illtud. Efe a sefydlodd eglwys Llaneigrad, yn Mon.

EIGRON, un o feibion Caw, sant yn y 6ed cant. Sefydlodd eglwys yn Nghernyw.

EIGYR, mam yr enwog Arthur. Yn ol y *Brut,* merch ydoedd i Amlawdd Wledig, a gwraig i Gorlais, iarll Cernyw. Ystyrid hi yn un o ferched tlysaf ei hoes.

EINION AB ARTHAL, a olianodd ei frawd, Morgan, fel brenin Prydain yn y bumed ganrif cyn Crist; eithr wedi teyrnasiad o chwe' blynedd, efe a ddiswyddwyd am annghyfiawnder a chreulondeb.—*Myv. Arch.* ii 164.

EINION AB CADWGAN, tywysog ar ran o Bowys yn y 12fed ganrif. Hynododd ei hunan yn fawr mewn brwydrau yn erbyn y Saeson, tan Harri I. Gadawodd ei diriogaeth yn Mhowys, a rhan o Feirion a gymerasai oddiar Uchtryd ab Edwyn, i'w frawd, Meredydd. —*Myv. Arch.* ii. 552.

EINION AB COLLWYN, pendefig o Ddyfed yn y 11eg ganrif. Cymerodd ran fawr yn nherfysgoedd chwidreddus ei oes yn Neheudir Cymru, a throsglwydiad parthau ffrwythlonaf y wlad hono i feddiant y Normaniaid. Yn 1088, efe a'i ddau nai, Llewelyn ac Einion feibion Cadifor, a ymunasant a Gruffydd ab Meredydd, ac a'i hanogasant i ymosod ar Rys ab Tewdwr; eithr mewn brwydr, a gymerodd le yn Llandudoch, gorchfygwyd hwynt, a'r ddau nai a Gruffydd ei hun a laddwyd. Einion a ffoes am nawdd at Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg, yr hwn yntau hefyd oedd mewn gelyniaeth â Rhys. Gan iddo unwaith ddal swydd yn y fyddin Seisnig, a'i fod mewn cryn barch gan y brenin Gwilym II., Iestyn a'i danfonodd i'r llys yn Llundain, i geisio cymhorth y Saeson i ddarostwng Rhys, gan addaw, os byddai lwyddianus yn ei neges, y cai Nest, ei ferch, yn wraig. Llwyddodd Einion yn yr amcan, a gallodd berswadio Robert Fitzhamon i ddyfod a chynorthwyo Iestyn; a llwyddodd Robert i gael deuddeg marchog eraill gydag ef. Ymosododd y cyngreiriaid hyn ar Rhys, gorchfygasant,

Digitized by Google

a lladdasant ef. Ar ol y terfyniad llwyddianus hwn, Iestyn a dalodd i'r Normaniaid ac a'u gollyngodd adref; eithr pan hawliodd Einion ei ferch oddiarno, gwrthododd iddo ei gais, ac edliwiodd iddo ei anwladgarwch. Hyn a gynddeiriogodd Einion, ac a barodd iddo brysuro ar ol y Normaniaid. Wedi iddo eu goddiweddyd, gosododd yr achos ger eu bron, a thaer ddeisyfodd arnynt ddychwelyd a dial arno ar Iestyn; yr hyn a wnaethant, a gorchfygasant ef, a chymerasant ei holl feddianau oddiarno. Wrth ranu y tiriogaethau hyn, rhoddasant i Einion rhyw barthau mynyddig o arglwyddiaethau Sainghenydd a Meisgyn; ac wedi cymeryd meddiant ohonynt, efe a briododd Nest, a therfynodd ei ei oes gythryblus mewn dinodedd.

EINION AB GRUFFYDD, o Dalyllyn, bardd yn ei flodau yn y 17eg ganrif.

EINION AB GWALCHMAI, bardd o Drefeilyr yn Môn, yn ei flodau yn y 12fed ganrif. Tybir mai mab ydoedd i'r enwog fardd Gwalchmai ab Meilyr. Y mae pum' dernyn barddonol o'i waith yn y *Myv. Arch.*, a cheir rhamant synfawr o'r enw "Damheg Einion ab Gwalchmai a Rhian y Glasgoed," ar lafar gwlad, ac yn argraffedig yn *Iolo MSS.*, yr *Adolygydd*, y *Brython*, a *Chymru Fu*.

EINION AB GWGAWN, bardd a flodeuai rhwng 1200 a 1260. Ceir un dernyn o farddoniaeth o'i waith yn y *Myv. Arch.*, sef "Anerch i'r tywysog Llywelyn ab Iorwerth."

EINION AB GWRON, un o dri "anhuol farchogion Llys Arthur," a enillasant eu lle yno nid trwy unrhyw urddas genedigol; "ond cystal eu gair a'u cynnheddfau am addfwynder, a hynawsder, a llaryeidd-der, a doethineb, a gwrolder, a chyfiawnder, a thrugaredd, a phob campau a gwybodau molianus, yn heddwch ac yn rhyfel, fel nas gweddai amgen na Llys Arthur, a'i breiniau, a'i thrwydded iddynt."—*Trioedd* 120.

EINION AB OWEN ab Hywel Dda, ydoedd arglwydd rhan o sir Frycheiniog yn y 10fed ganrif. Yn 976, cymerodd feddiant o dir Gwyr, gan ei uno at diriogaeth ei dad. Yn 983, cododd gwyr Gwent mewn gwrthryfel, a danfonwyd Einion yno gan ei dad i geisio eu tawelu; eithr efe a ganfu fod y bobl hyny fel yr eigion wedi cynddeiriogi cymaint nes bod yn anmhosibl eu hanog na'u rhesymu i ddim; hwythau yn edrych arno yntau fel etifedd eu breninoliaeth, a ruthrasant arno, ac a'i tynasant yn ddarnau.—Warrington's *History of Wales*.

EINION AB MADAWG ab Rhaawd, bardd yn ei flodau rhwng 1230 a 1270, Ceir un darn o'i waith, sef anerch i Gruffydd ab Llewelyn, yn y *Myv. Arch.*

EINION AB OWAIN (Syr), bardd, ac offeiriad fel yr awgryma ei enw, a lywyddai yn Nghadair Morganwg yn 1480.

EINION FONEDDIG, yn ol *Brut y Tywysogion*, ydoedd esgob yn Nhyddewi, ac a fu farw yn 871, ac a ddilynwyd gan Hubert Sais.

EINION FRENIN, brenin ar randir Lleyn, yn sir Gaernarfon, ydoedd hefyd yn sant yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Owain Danwyn ab Einion Urth ab Cunedda, ac efe a sefydlodd eglwys yn Lleyn sydd yn dwyn ei enw, sef Llanengan neu Laneingion Frenin. Sefydlodd goleg hefyd yn Mhenmon, Môn, yn athraw ar ba un y neillduodd efe ei nai, Seiriol. Sefydlodd hefyd fynachdy yn Ynys Enlli, abad cyntaf yr hwn ydoedd Cadfan Sant. Ei wylmabsant, Chwefror 9.

EINION MEBYDD, neu *archddiacon*, Clynog Fawr, am yr hwn y dywed Caradog o Langarfan ei fod "y doethaf a'r dysgedicaf yn Ngwynedd. Y mae beunydd yn anog i ddoethineb, cyfiawnder, a thrugaredd,

Digitized by Google

ond ychydig o'i gynghorion a ddilynir yn y wlad hono." Bu farw yn 1151.

EINION MEIRION, bardd yn y 13eg ganrif, eithr nis gwyddis fod dim o'i waith ar gael.

EINION WAN, bardd yn ei flodau rhwng 1200 a 1250. Y mae chwe' darn o'i waith yn y *Myv. Arch.*, y rhai sydd yn dal perthynas â Llywelyn ab Iorwerth a'i feibion.

EINION Y MARCH, bardd yn ei flodau rhwng 1370 a 1400.

EINION URDD, neu Yrth, ydoedd fab i Cunedda Wledig, tywysog Brythoniaid Ystrad Clwyd, yn y Gogledd. Pan oresgynwyd Gogledd Cymru gan y Gwyddelod, Cunedda a ddanfones ei feibion i'w gorthrechu, ac wedi llwyddo yn hyny, hwy a ranasant y wlad cydrhyngddynt, a rhan Einion ydoedd Llanfaircaereinion a'r cylchoedd, yn sir Drefaldwyn. Efe a ddilynodd ei dad i'r orsedd yn 389, yr hon a gadwodd hyd ei farwolaeth yn 443, ac olianwyd yntau gan ei fab enwog Caswallon Lawhir.

EITHRAS, sant yn y 6ed cant. Daeth drosodd i Brydain o Lydaw gyda Chadfan Sant, eithr ni wyddis ddim yn mhellach o'i hanes.

ELAETH, sant yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Meirig ab Idno, a gelwir ef weithiau, Elaeth Frenin. Bu yn dywysog ar ran o Ogledd Prydain yn more ei oes; eithr gyrwyd ef oddiyno gan fynych ruthriadau y Saeson ar ei diriogaethau, a chymerth nawdd o hyny allan gyda Seiriol, yn mynachdy Penmon, yn Môn. Yr oedd hefyd yn dipyn o fardd, ac y mae ychydig englynion crefyddol o'i waith yn y *Myv. Arch.* Efe a sefydlodd eglwys Amlwch; ei wylmabsant, Tach. 10.

ELEN, ferch Coel Coedhebog, penaeth yn y drydedd ganrif, yr hwn a elwir weithiau iarll Caerloyw. Gelwir hi yn y *Brutiau Cymreig*, Helen *Lwyddawg* neu lwyddianus, am iddi briodi Constantius, a chael mab yn neb llai na Chystenyn Fawr. Adwaenir hi gan haneswyr cenedlig wrth yr enw Helena. Y mae Gibbon yn gwadu haniad Prydeinig Helena, a Phroffesor Rees yn dwyn rhesymau dros gydsynio ag ef; tra y mae yr hen hanesydd Eumenius yn tystio i ddilysder y croniclau Cymreig. Y mae'r eglwysi canlynol yn dwyn ei henw, Llanelen, yn sir Fynwy; ac, yn ol rhai, Eglwys Ilan, yn Morganwg; a Thref Ilan, yn sir Gaerfyrddin; a chapel a safai unwaith yn Nghaernarfon.

ELEN LUYDDAWG, ydoedd ferch i Eudaf, tywysog yn y bedwaredd ganrif ar Erging ac Euas, hen barthau yn Neheudir Cymru. Priododd Macsen Wledig, brenin Llydaw; ac yn 383, cynullwyd ganddi hi a'i brawd, Cynan Meiriadog, lu enfawr o driugain mil o wyr i fyned trosodd i'r wlad hono, er mwyn cynorthwyo ei gwr yn erbyn gwyr Rhufain. Gelwir y llu hwnw yn y *Trioedd* yn un o'r "tair chyforddwy," a aethant allan o Brydain ac na ddychwelasant, eithr aros yn Llydaw a wnaethant, lle y cawsant diroedd a chyfoeth a theyrnedd, gan yr amherawdr Macsen Wledig; ac oherwydd y gyforddwy hono y daeth mawr brinder gwyr arfog ar Ynys Prydain, onid aethant y Gwyddyl Ffichti yn ormes ar y Cymry, ac oherwydd hyny y darfu i Wrtheyrn gyrchu Saesen i ladd yr ormes hono, y rhai wrth weled gwendid y Cymry a droisant yn fradormes, a dwyn eu tiroedd oddiar y Cymry, a dwyn hefyd oddiarnynt eu breiniau a'u coron."—*Trioedd* 13.

ELERI, santes yn y pumed cant. Merch ydoedd i Brychan; bu yn briod â Cheredig ab Cunedda. Mab iddi ydoedd Sandde, tad Dewi Sant.

Digitized by Google

ELFAN, sant yn yr eilfed cant, yn ol y *Brutiau*, a ddaeth trosodd o Rufain i'r wlad hon i gyfranu addysg grefyddol i'r brodorion; eithr, yn ol y *Liber Landavensis*, Prydeiniwr ydoedd a ddanfonwyd i Rufain i dderbyn addysg felly, ac a ddychwelodd i'r ynys hon. Dywedir iddo fod yn ddysgawdr cynulleidfa o Gristionogion yn Clas Myrddin; a thraetha rhai o'r mynachod mai efe oedd ail esgob Llundain. Ei wylmabsant, Medi 26.

ELFOD, neu Elbodius, sant yn yr 8fed cant, yn hanu o Caw, ydoedd esgob cyntaf Caergybi. Yn 755, gwnaed ef yn archesgob Bangor Deiniol, a gelwir ef gan Caradog o Langarfan yn archesgob Gwynedd. Cyhuddir ef o berswadio gwyr Gwynedd i fabwysiadu y cylch Rhufeinig tuag at olrhain allan y Pasg, fel y gallent trwy hyny syrthio yn rhwyddach i gymundeb â'r eglwys Rufeinig. Nacaodd esgobion Deheubarth a chydsynio yn hyn; a'r Sacsoniaid, mewn canlyniad, a ymdeithiasant i'w tiriogaethau; cymerodd brwydr le mewn man o'r enw Coedmarchau, eithr y Cymry a enillasant fuddugoliaeth anrhydeddus. Bu Elfod farw yn 809.

ELIAN GEIMIAD, neu Bererin, sant yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Gallgu Rieddawg, ab Carcludwys ab Cyngu ab Ysbwys ab Cadrod Calchfynydd. Ei fam ydoedd Canna, ferch i Tewdwr Mawr ab Emyr Llydaw, a gweddw Sadwrn. Camgymerir ef yn fynych am St. Hilary; er eu bod yn ddau berson hollol wahanol. Sefydlodd eglwysi Llanelian, yn Môn; a Llanelian, yn sir Ddinbych. Dywed rhamant am dano ddarfod iddo ddyfod o Rufain a gwladychu yn Mon yn amser Caswallon Lawhir, yr hwn a freiniodd ei eglwys â llawer o diroedd a rhoddion eraill, yn mhlith pa rai yr oedd noddfa *(sanctuary)*. Y mae cywydd ar gael o waith Gwilym Gwyn ar "Chwedl Sant Elian." Yn yr hen amser, ar nos wyl y Sant Elian, ymgynullai pobl lawer at eglwys Llanelian, yn Mon, y rhai a atolygent ei gymhorth i wella clefydon; ac er mwyn enill ei ffafr, offrymid llawer o arian, y rhai a gedwid mewn hen gist yn yr eglwys, o'r enw Cyff Elian. Cyrhaeddodd yr arian hyn y fath swm, fel y prynwyd â hwynt dri o dai anedd, y rhai sydd yn perthyn i fywiolaeth eglwysig y plwyf hyd y dydd hwn. Ac am Ffynon Elian, yn Llanelian yn Rhos, sir Ddinbych, y mae hon wedi enill cymeriad annymunol fel cyrchfa ffyliaid ofergoelus; lle y telid arian hyd yn ddiweddar iawn gan bobl i'r ffynonwr am iddo roddi hud a melldith ar eu caseion. Y mae'r moddion a ddefnyddid tuag at gyrhaedd yr amcan annuwiol hwn yn rhy blentynaidd a gwirionffol i'w ddysgrifio. Da genym ddeall fod yr arfer bellach wedi darfod, ac nad edrychir ar y Ffynon ond fel

Ysten Duw i estyn dwr.

ELIAS (Parch. David), gweinidog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Môn, a anwyd mewn lle o'r enw Brynllwyn Bach, plwyf Abererch, sir Gaernarfon, Mehefin 16, 1790. Yr oedd yn frawd i'r enwog Barch. John Elias; eithr gan ei fod ef 14 mlynedd yn ieuengach, cafodd ragorach manteision i ymdrin â chrefydd yn ei ieuenctyd. Ymunodd â'r enwad crybwylledig pan tua deunaw oed, yn y Pentre-uchaf, a dechreuodd bregethu yn eu plith tua 1815. Gan nad oedd wedi derbyn nemawr addysg pan yn hogyn gartref, aeth i ysgol yn Nghaergybi yn 1817, a bu yno am ffwyddyn. Yn 1819, priododd foneddiges dra rhinweddol, sef Miss Roose, Mill Bank, Amlwch; ymsefydlodd y ddau yn y Bryndu, Mon, a buont yno hyd 1830, pryd y symudasant i Bentraeth, ac o hyny allan adwaenid ef wrth yr enw "D. Elias, Pentraeth." Ordeiniwyd ef

Digitized by Google

i gyflawn waith y weinidogaeth yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 17, 1835. Yr oedd yn bregethwr da a sylweddol; a gellir ffurfio rhyw ddirnadaeth am ei lafur mawr, oddiwrth y ffaith a gofnodir yn ei Ddyddlyfr, ddarfod iddo bregethu 6995 o weithiau. Bu farw Mai 29, 1856, wedi dyoddef cystudd hirfaith yn dawel, a bod yn pregethu am 41 o flynyddau. Gadawodd ar ei ol lawer o ysgrifau—yn cynwys braslun lled gyflawn o luaws o'i bregethau; adroddiad manwl o'i brofiadau yn ystod ei oes grefyddol, ar ffurf Dyddlyfr; ystyriaethau ar ranau o'r Ysgrythyrau; sylwadau ar bynciau athrawiaethol; ac ychydig emynau a chaniadau. Cyhoeddwyd hefyd amryw fân draethodau o'i waith yn ystod ei fywyd.—*Y Drysorfa.*

ELIAS (Parch. John), un o gewri yr areithfa Gymreig, enwi yr hwn sydd yn deffro adgofion hiraethlawn yn mhob mynwes a fu yn cynesu yn ngwres goddeithiol ei areithyddiaeth odidog. Ganwyd ef Mai 6, 1774, mewn tyddyn o'r enw Brynllwyn bach, Abererch, sir Gaernarfon. Ei fam ydoedd Jane Roberts, merch Maesycwm, plwyf Llanhaiarn. Pobl barchus oeddynt ei rieni, yn talu eu ffordd yn y byd, a nemawr ddim yn ychwaneg. Gwehyddion oeddynt ei dad a'i daid, yn cyd-ddwyn yn mlaen y fasnach hono, ac yn cyd-drin fferm fechan. Yr oedd y taid yn hen ŵr tra defosiynol, yn myned i Eglwys y plwyf yn rheolaidd, ac yn cadw addoliad teuluaidd yn ei dŷ hwyr a bore, trwy ddarllen penod o Fibl Peter Williams, a gweddi o waith Griffith Jones, Llanddowror. Fel y gallesid disgwyl, daeth y taid a'r ŵyr yn gyfeillion mawr; a byddai'r hen ŵr yn planu egwyddorion crefydd yn nghalon y bychan wrth ei ddysgu i barablu; yn ei gymeryd gydag ef i'r eglwys bob Sabbath; a thrwy yr athraw amserol hwn yr oedd John Elias yn gallu darllen Cymraeg cyn bod yn bump oed. Gallai ddarllen y Bibl yn lled rwydd pan yn chwech oed; cymerai ddifyrwch mawr yn y gwaith; a phan yn saith mlwydd, yr oedd wedi myned tros y Bibl o'r dechreu hyd ganol llyfr Jeremia. Rhoddwyd atalfa ar ei efrydiaeth y pryd hwn trwy iddo gael y frech wen; a bu am wythnosau mor glaf tan yr afiechyd, fel yr ofnid na buasai yn byw; collodd ei synwyrau am rai ddyddiau; bu ei lygaid yn gauedig am bythefnos, fel nas gallai weled dim; a glynodd effeithiau y clefyd wrtho am dair neu bedair blynedd ar ol hyny. Pan adferwyd ef i allu cerdded, aeth eilwaith gyda'i daid i'r eglwys; yr oedd yr hen ŵr yn gwynfydu mwy arno nag erioed; codai ef i rhyw le amlwg i ddarllen bob yn ail â'r offeiriad, yn ol y drefn arferol; chwareu teg iddo hefyd, byddai yn ei gynghori ar hyd y ffordd wrth fyned a dychwelyd i ochelyd dywedyd anwiredd, anoncstrwydd, a'r cyffelyb bethau; a chafodd yntau gymhorth i gyd-ymffurfio â'r cyfryw gynghorion. Byddai yr hen ŵr ac yntau, ar ol bod yn yr eglwys ar fore Sabbath, yn myned yn y prydnawn i gapel perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd mewn lle heb fod nepell, o'r enw Pentre Uchaf; ac un tro, pan oedd y pregethwr a gyhoeddesid i fod yno yn oedi dyfod, aeth yr hen daid at y bachgen, gan ddeisyf arno fyned i'r pwlpud a darllen penod o'r Bibl, rhag fod y bobl yn disgwyl yno yn segur; yntau a ufuddhaodd, a gwrandawai y bobl yn astud iawn, canys peth anarferol y pryd hwnw oedd clywed bachgen mor ieuanc yn darllen yn dda a rhwydd. Dyna y tro cyntaf iddo fod mewn pwlpud. Teimlai swyn anorchfygol mewn gwrando pregethau cyn y gallai eu deall; ac ymhyfrydai mewn myned yn nghwmni ei daid i ba le bynag yn y cylchoedd hyny y cyhoeddid yr Efengyl. Pan fu farw yr hen ŵr, nid esgeulusodd John ei hoff rod-

Digitized by Google

feydd; eithr elai wrtho'i hunan, gan nad oedd cwmni ieuenctyd anystyriol ond yn peri poen iddo; ac ofnai ymwasgu at grefyddwyr, gan ystyried ei hun yn rhy annheilwng. Ymosododd y gelyn aml dro ar ei galon ieuanc, gan ei anog i bechodau rhyfygus; ond rywfodd, nid oedd y saethau yn mennu ond ychydig arno; ac yn ngwyneb y pethau hyn, dyfnhau yr oedd ei argyhoeddiad o ddrwg pechod. Pan tua phumtheg oed, cafodd ganiatâd ei dad a'i fam i ddarllen a gweddio yn y teulu. Clywsai lawer o son am Daniel Rowlands o Langeitho, a rhoddes ei fryd yn fawr ar fyned yno i'w weled a'i glywed; a phan oedd y penderfyniad hwn yn fyw yn ei fynwes, trodd yn achlysurol i gapel yr Annibynwyr yn Mhwllheli, a chlywai y gweinidog, y Parch. B. Jones, yn cymeryd yn destun:—"Oni wyddoch chwi i dywysog, ac i ŵr mawr, syrthio heddyw yn Israel?"—y gwr mawr oedd Rowlands. Pan glybu John Elias hyn, efe a wylodd yn chwerw-dost oherwydd y siomedigaeth, gan nas cai mwyach gyfleusdra i wrando un y meddyliai mor uchel ohono. Pan oedd tua deunaw oed, tueddwyd ei feddwl i fyned i Sasiwn y Bala, yr hwn gyfarfod oedd y pryd hwnw yn dechreu cyrhaedd poblogrwydd anarferol; a Threfnyddion Calfinaidd Gwynedd oll bron yn ymgynull iddo fel eu gwyl flynyddol. Yn 1792, aeth yntau yno gyda chwmni lluosog o'i gymydogaeth; ac yn ei Ddydd-lyfr, rhydd hanes eu mynediad a'u dychweliad, a dywed fel yr ymddyddanent am bethau ysprydol, y canent hymnau, y gweddiai un tra y gorphwysai y gweddill; ac er fod yn eu plith lawer o feibion a merched ieuainc, nad oedd yn cofio yr un edrychiad gwamal o eiddo y naill na'r llall yn ystod yr holl daith; eithr pawb yn ystyriol a difrifol, fel rhai yn myned i, ac yn dychwelyd o, wyddfod Duw. Daeth awydd angerddol arno bellach am fod yn aelod eglwysig, a dechreuodd gynllunio pa fodd i gael mwy o gymdeithas pobl grefyddol. Yr oedd wedi ei ddwyn i fynu yn wehydd; a thybiai ond iddo gael gwaith gyda rhyw wehydd crefyddol, y buasai wrth fodd ei galon. Cafodd ddrws yn yr Achor hwn; derbyniwyd ef i dŷ a gwasanaeth un Griffith Jones, o Ynys y Pandy, gerllaw Penmorfa, cynghorwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Yno, rhoddwyd pob magwraeth i'w dueddiadau crefyddol; a phan ydoedd ychydig tros 19eg oed, anturiodd yn ofnus gynyg ei hun yn aelod o eglwys Hendref Howel. Cafodd dderbyniad calonog yn eu plith; ac oherwydd ei ddawn anarferol mewn gweddi, coleddid meddyliau uchel am ei alluoedd a'i ddefnyddioldeb yn y dyfodol. Cynelid ysgol nos o dŷ i dŷ yn yr ardal y pryd hwnw; a byddai galwad mynych ar John Elias i gymeryd rhan gyhoeddus yn y cyfryw gyfarfodydd, megys gweddio, holwyddori, a rhoddi gair o gynghor; ac o radd i radd, daeth yn bregethwr, neu gynghorwr, rheolaidd. Ddydd Nadolig, 1794, derbyniwyd ef yn aelod o Gyfarfod Misol y sir, yr hwn a gynelid y pryd yma yn Brynyrodyn, gerllaw Caernarfon; a thrwy hyn, cydnabyddid ef â chaniatâd i arfer ei ddawn pa le, a pha bryd, bynag y gelwid am ei wasanaeth yn y sir hono. Ymledai y sôn am dano, ac yr oedd y fath alw am ei wasanaeth yn mhell ac agos, fel y torai tros ben terfynau rhagderfynedig y Cyfarfod Misol, ac y clywid ei lais yn ngororau Meirion a sir Ddinbych. Ceryddwyd ef yn garedig am yr afreoleiddiadau hwn gan rai o'r hen frodyr manylaf; ond yn mhen ychydig amser, caniatawyd iddo roddi cyhoeddiadau trwy holl Ogledd Cymru, cystal ag yn Liverpool a Manchester. Yr ychydig Gymry yn y lle olaf a fuont daer ar iddo ddyfod yno i'r ysgol, gan addaw ei gynal, er mwyn iddo bregethu iddynt ar y Sabbathau. Eithr pan roddodd efe y

Digitized by Google

cais hwn gerbron cyfarfod misol sir Gaernarfon, gwrthodwyd ef, gyda'r edliwiad mai balchder ei galon, ac awydd am fyned yn bregethwr mawr, oedd yn peri iddo son am ysgol a dysgeidiaeth. Ufuddhaodd yntau yn ewyllysgar i'r ddedfryd, er fod ei fryd yn fawr ar addysg, yn enwedig yn yr iaith Saesneg. Cyn pen hir, gofynodd drachefn i'r brodyr mewn cyfarfod misol os y cai eu cymeradwyaeth i fyned am ychydig fisoedd i'r ysgol at y Parch. E. Richardson, yn Nghaernarfon; yr hyn a roddwyd iddo. O angenrheidrwydd, oherwydd y byr amser, nid oedd yr hyfforddiadau a gafodd yno ond yn unig ei ddodi ar ben y ffordd i gyrhaedd dysgeidiaeth. Tacluswyd hefyd gryn lawer ar ei areithyddiaeth yno. Pan yn lled ieuanc, ar daer wahoddiad yr enwog Ebenezer Morris, cymerodd daith bregethwrol trwy y Deheudir; ac er fod rhai o'i hen frodyr yn Arfon yn ofni ei bod yn anamserol, ac mai gwell fuasai ei hoedi, eto tystiai Mr. Morris fod ei bregethau tanllyd yn ystod y daith hono wedi peri un o'r cyffroadau mwyaf nerthol a bendithfawr ag oedd ef yn gofio yn ei ddydd. Yr oedd Môn hefyd yn faes pwysig, y crefyddwyr yno yn anaml, ac anuuwioldeb yn uchel ei ben; bu Mr. Elias yno yn pregethu mor fore â'r amser yr oedd yn ysgol Mr. Richardson; a'r lle cyntaf y pregethodd yn yr Ynys ydoedd y Bryndu; ac oddiar hyny hyd ei fynediad yno i fyw, yr oedd yn ymwelydd mynych a phoblogaidd anarferol; ac nis gall yr oes bresenol amgyffred y nerthoedd a ddilynent ei bregethau y pryd hwnw. Yn nechreu 1799, symudodd yno i drigianu; a Chwef. 22, priododd Miss Elizabeth Broadhead, merch henaf Mr. Richard Broadhead, Tre'r Gof, Llanbadrig, Mon, yr hon oedd ar y pryd yn cadw maelan *(shop)* yn Llanfechell, ac yno y buont yn cyfaneddu yn gysurus am lawer o flynyddau. Edrychai Mrs. Elias ar ol y fasnach fel o'r blaen; a bu ei dyfalwch a'i llafur hi gyda'r gwaith hwn o fawr wasanaeth i wneud ei gwr yr hyn a fu. Trwy ei bod hi yn cymeryd yr holl ofal yn ddirwgnach arni ei hun, cai yntau hamdden yr holl amser y byddai adref i ymroddi i'w fyfyrgell. Bu iddynt bedwar o blant, dau o ba rai fuont feirw yn ieuanc. Bu Mrs. Elias farw yn 1828; rhoddes yntau y fasnach i fynu i'w blant, fel y gallai ymgyflwyno yn llwyrach i'w efrydfa a gwaith mawr y weinidogaeth. Yn 1830, priododd eilwaith, gyda *Lady* Bulkeley, gweddw Syr John Bulkeley, Presaddfed, a symudodd i fyw i'r Fron, ger Llangefni, lle y trigianodd hyd ei farwolaeth.

Ar ei sefydliad yn Mon, rhoddes ei wyneb fel callestr yn erbyn arferion llygredig a phechodau pen-uchel a ffynent y pryd hwnw yn mhlith y werin-bobl. Pregethodd lawer yn erbyn rhag-gyfeillach lygredig ieuenctyd â'u gilydd; a'r priodasau gwahodd, lle y megid cyfeddach a meddwdod. Wrth wneuthur hyn, cafodd wrthwynebiadau a gwawd dynion y gallesid disgwyl oymhorth oddiar eu llaw; eithr yn ngwyneb y cyfan ni laesodd efe ei ddwylaw, a chafodd y boddhad o weled effeithiau daionus yn dilyn ei ymdrechion. Ei arfer ydoedd myned ar ol annuwioldeb i'w ffau; a gosododd hyn ef aml dro yn safn peryglon geirwon. Coffheir am dano un tro yn Rhuddlan. Yr oedd yn hen ddefod yno, er's oesoedd lawer, gynal ffair i gyflogi medelwyr bob Sabbath, yn amser cynhauaf. Byddai ugeiniau lawer o weithwyr yn ymgynull yno, a'u crymanau ar eu breichiau, a'r ffermwyr yn eu cyfarfod i'w cyflogi, am yr amser gofynol, a rhwng y naill beth ar llall byddai yno le enbyd—tyngu a rhegu, meddwi a dawnsio ac ymladd, nes y daeth y ffair hon yn felldith drom ar bob dyn rhesymol o fewn ei chyrhaedd; ac yn fagwrfa pob math o lygredigaeth. Penderfynodd

Digitized by Google

Mr. Elias ar bregethu iddynt yn eu canol; a rhwng dau a thri prydnawn un Sabbath yn nechreu y gaurif bresenol, wele yr efangylydd, ac ychydig gyfeillion, yn gwneud eu hymddangosiad ar risiau ceryg o flaen tafarndŷ yn y pentref, yn ngwydd torf fawr o ddynion, yn dwyn eu pladuriau a'u crymanau, ac yn swn crythau, telynau, a chaneuon maswedd. Erbyn eu bod wedi gorphen canu, "Yr Arglwydd bia yr holl fyd," &c., graddol ddiflanasai yr holl arfau gwaith, ac yn awyr gweddi ddifrifol y pregethwr ar ol hyny, dystawodd yr offerynau cerdd gwageddus; dynesai y cyflogwr yn gystal a'r cyflogedig i wrando yr areithyddiaeth nerthol, a thoddid eu calonau celyd yn llymaid yn ngwres argyhoeddiadol y llifeiriant tanllyd o hyawdledd. Hono oedd y ffair gyflogi olaf a gynaliwyd ar y Sabbath yn Rhuddlan; ac aeth y dorf ymaith. naill ai wedi eu hargyhoeddi o'u pechod yn cynal y fath sefydliad, neu eu brawychu gan y perygl ohono. Gallesid ychwanegu llawer engraifft arall, o gyffelyb effeithiau daionus, a ddilynasant ei wroldeb yn gwrthwynebu pechod yn ei wyneb, ac yn darostwng anwireddau penuchel a hen arferion llygredig. Bryd arall, gweddiai yn gyhoeddus ar i Dduw symud rhyw anfoesoldeb o'r tir; a bu ddwywaith neu dair rhyw gydgyfarfyddiad rhyfedd rhwng y weddi a'i hatebiad. Un Sabbath, yr oedd yn Nghaernarfon, a gwelai hysbysiadau hyd furiau y dref fod plaid o *fountebanks* i arddangos eu galluoedd yno yr wythnos ganlynol; ofnai yr hen bobl dduwiol y buasai y rhai hyn yn foddion i lygru ieuenctyd crefyddol y dref; a gweddiodd Mr. Elias yn daer o flaen y bregeth ar i'r Bod Mawr ragflaenu yr aflwydd hwn; a chyn wired ag iddo weddio, lladdwyd tri o'r chwareuwyr ar y ffordd cyn cyrhaedd y dref trwy drosiad un o'r cerbydau, a methwyd myn'd yn mlaen gyda'r arddangosiad. Bu tro' lled gyffelyb hefyd yn Llanddeiniolen. Parai hyn i'r bobl gredu fod rhyw allu mawr yn ngweddi Mr. Elias.

Trwy ei awydd naturiol, a'i ddyfal-barhad llafurus, yr oedd yn ddyn llawn yn mhob gwybodaeth fuddiol. Pan yn ieuanc, gwariai ei holl arian hebgor am lyfrau, ac yr oedd ei lyfrgell yn un o'r rhai goreu a llawnaf yn yr holl wlad. Astudiai hanesiaeth hen a diweddar, heb anghofio hanes ei wlad ei hun; ac yr oedd defodau dwyreiniol ar flaen ei fysedd. Myfyriodd seryddiaeth, daearyddiaeth, rhesymeg, areithyddiaeth, ac adeiladaeth, yr olaf er mwyn bod yn hyddysg yn y ffordd oreu i gynllunio capelau cyfleus a manteisiol. Talodd lawer o sylw i gyfansoddiad y corph dynol; a deallai ychydig ar glefydau, meddyginiaeth, a llysieuaeth; a rhoddai ambell gyfarwyddyd yn y cyfryw gangenau. Er na bu erioed yn ddigon o feistr ar yr iaith Saesneg, fel ag i allu ei siarad yn gyhoeddus, eto gallai ei deall yn drwyadl wrth ei darllen, a'i hysgrifenu yn gywir; deallai yr Ysgrythyrau yn weddol yn yr ieithoedd Hebraeg a Groeg, ac yr oedd ganddo ychydig wybodaeth yn y Lladin hefyd. Crybwyllasom eisoes am ei boblogrwydd ar ddechreuad ei lafur cyhoeddus; cyn pen deng mlynedd, yr oedd yn un o brif oleuadau yr enwad yn y Gogledd, os nad yn Nghymru oll. Yr oedd ei gyhoeddiad yn tynu miloedd; ac hyd yn nod yn sir Fon, ei gartref, nid oedd odid neb mor boblogaidd ag ef. Erbyn canolddydd ei fywyd, ystyrid ef yn Ddemosthenes ei oes yn Nghymru. Deuai bonedd a dysgedig y tir i'w wrando ef, ar draws eu rhagfarnau enwadol, y rhai ni chroesid er mwyn clywed odid neb ond efe yn unig. Golygfa ardderchog ydoedd ei weled yn gwefreiddio torf o bump neu chwe mil ar y maes ddiwrnod cymanfa; ac yn Sasiynau enwog y Bala, mynych y byddai rhif y gynulleidfa yn llawer uwch na hyny; a bu ef yn brif bregethwr y

Digitized by Google

cyfryw gyfarfodydd am o leiaf 30 mlynedd o'i oes. Yr oedd ysgydwad awgrymiadol ei law, nerth a dymunoldeb ei lais, prydferthwch swynol ei wedd, difrifwch dwfn ei yspryd, gwresogrwydd ei dymher, a hallt-rwydd anarferol ei faterion, yn cydweithio i'w wneud yn Melancthon y pwlpud Cymreig. "Yr oedd rhyw hynodrwydd yn ei ddawn ar bawb a glywais erioed," medd un gweinidog parchus amdano,—"yn ei bregethau nerthol, yn ei ddull difrifol, ac yn yr argraff a fyddai ei ymadroddion yn ei wneud ar ei wrandawyr. Yr oedd yn feistr arno ei hun—yn feistr ar ei fater—yn feistr ar ei lais—yn feistr ar y gynulleidfa; ac yn wir, ar bob peth yr ymaflai ynddo." Ymddangosai llafur a gofal yn ngbyfansoddiad ei bregethau; eto yr oedd ei iaith yn rhydd a naturiol, fel yn cael ei defnyddio i ddangos y pwnc yn unig. Ond y ddau beth a wnaethant Elias yr hyn ydoedd yn y pwlpud yn anad dim arall, ydoedd, crefyddolder ei fuchedd, a gwenau amlwg Yspryd Duw ar ei waith.

Coronwyd ei weinidogaeth â llwyddiant anarferol; nid oedd capelau y Trefnyddion Calfinaidd yn Mon ond bychain ac anaml pan yr aeth ef i wladychu yno; ac nid oes anmheuaeth na bu ei lafur ef, a nerth rhyfeddol ei weinidogaeth, yn un o'r prif foddion i ddeffro y wlad o'i chysgadrwydd yspryd ol, ac i ddarostwng arferion llygredig. "Yn fy holl deithiau trwy Gymru," meddai y Parch. D. Charles, "ni chlywais am un gweinidog ag y bu ei weinidogaeth mor gyffredinol fendithiol i ddychwelyd pechaduriaid, ag y bu yr eiddo Mr. Elias. Bron yn mhob ardal, pentref, neu dref, gellir cyfarfod â rhyw berson neu bersonau a briodolent eu troedigaeth i ryw bregeth o'i eiddo ef." Yr oedd yn bleidiwr ffyddlawn a galluog i Gymdeithasau Dirwest a Diweirdeb, i'r Fibl Gymdeithas, i Gymdeithas Genadol Llundain, a Chymdeithas Genadol Gartrefol a Thramor y Trefnyddion Calfinaidd. Ddeugain mlynedd yn ol, nid oedd pawb yr un farn am deilyngdod yr Ysgol Sabbathol; ond yr oedd Mr. Elias yn un o'i chyfeillion gwresocaf; cyfansoddodd "Holwyddoreg Byr ar y Deg Gorchymyn," at ei gwasanaeth, a rhoddodd yr ail-arg. ohono yn anrheg iddi. Ychydig o lyfrau a gyhoeddwyd o'i waith; oherwydd, mae'n debyg, mor llwyr y llyncid ei amser gan gyfansoddi pregethau, dyfal ddarllen, a theithiau gwastadol. Ei brif weithiau ydynt: "Traethawd ar Gyfiawnhâd;" "Traethawd ar y Sabbath;" Pregethau: ar "Farwolaeth Sior III.," ar "Y Buddioldeb o ddwyn yr Iau yn yr Ieuenctyd," ac ar "Y Genadaeth." Ysgrifenodd lythyr galluog tan yr enw "Amddiffynwr y Gwir," i *Seren Gomer*, ar y ddadl fawr a gymerai le yn y cyhoeddiad hwnw ar y pwnc o "Ieuo yn Annghymarus;" a chymerodd ran fawr yn mharatoad *Cyffes Ffydd* y Trefnyddion Calfinaidd Cymreig. Yr oedd hefyd yn awdwr pedair o emynau rhagorol, y fwyaf adnabyddus o ba rai ydyw yr un sy'n dechreu gyda:—

Ai am fy meiau i, &c.

Yr oedd Mr. Elias yn un o'r wyth cyntaf a neillduwyd gan yr enwad i gyflawn waith y weinidogaeth yn Ngwynedd. Cymerodd hyn le yn 1811, a diau na urddwyd erioed neb teilyngach i'r swydd. Ychwanegodd hyn gryn lawer at ei gyfrifoldeb a'i lafur; a naturiol disgwyl, ar gyfansoddiad heb fod nemawr cryfach na'r cyffredin, wedi oes o lafur caled a difwlch, arwyddion cynar ymddatodiad. Cafodd ysgegfa drom yn 1832, trwy syrthio ar ei ben o gerbydan *(gig)* pan yn myned i'r Bala o Fronheulog, yr hon a adawodd ei hol arno tra y bu byw. Bu yn hir megys un marw, ac yn analluog i ymadael â'r Fronheulog am wythnosau.

Digitized by Google

Ni fu byth yr un un yn yr areithfa ar ol y ddamwain hon; byrhaodd ei gam, llwydodd ei wedd, a llethodd ei yspryd. Daeth ei deithiau yn anamlach a byrach; ac o'r awr hono, dechreuodd farw. Yr oedd yr anhwyldeb lleiaf yn ei lethu; ac wedi pregethu am 47 mlynedd, gyda llwyddiant anarferol, bu farw Mehefin 8, 1841, yn 67 oed. Cludwyd ei weddillion o'r Fron, i Lanfaes, ger Beaumaris, i'w gosod wrth ochr llwch ei hen gyfaill hoff Mr. Lloyd, Beaumaris. Ni welwyd erioed yn Môn, mae'n debyg, angladd mor lluosog â hwn—yr oedd yn cyrhaedd milldir a haner o hyd, ac yn cynwys tua deng mil o bobl; ac yn eu plith glerigwyr a phregethwyr, gwreng a boneddig, yn cyd-alaru, ac yn cyd-dalu parch i weddillion un o dywysogion yr areithfa Gymreig.

ELIAS (Risiart), oedd delynor campus tua dechreu yr 17eg ganrif. Ystyrid ef y goreu yn ei ddydd, hyd oni chododd un o'r enw Elis Sion Siams. Cymerodd Risiart gymaint at ei feddwl pan y trechwyd ef gan Siams, fel y torodd ei galon, ac y bu farw yn mlodau ei ddyddiau.

ELIAS (William), ydoedd enedigol o sir Gaernarfon, ond a dreuliodd ran fawr o'i oes yn Mhlas y Glyn, Llanfwrog, Môn. Yr oedd yn fardd, ac yn gyfaill a gohebydd â Goronwy Owen; gwelir llythyr oddiwrth Goronwy ato yn *Gronoviana* 159.

ELIDR LYDANWYN, penaeth yn mhlith Brythoniaid Gogledd Prydain yn y pumed ganrif. Efe oedd tad Llywarch Hen.

ELIDR MWYNFAWR, ydoedd fab i Gwrwst Briodor ab Dyfnwal Hen, brenin Gwent, a phenaeth yn y Ged ganrif ar rhyw ran o sir Gaerhirfryn *(Lancashire)*, neu un o'r parthau cyffiniol.—*Myv. Arch.* ii. 7.

ELIDR SAIS. *Gwel* Sais (Elidr).

ELIDR WAR, neu Elidr Fawr, a elwid felly am ei dosturi tuag at ei frawd. Pan ddiorseddwyd ei frawd, Arthal, am wall llywodraeth a chreulonder, Elidr a goronwyd yn ei le ef; eithr wedi teyrnasu pum' mlynedd, ac i Arthal ymdrechu a methu cael cyngrair bradwriaeth yn ei erbyn, y ddau yn ddamweiniol a gyfarfuasant wrth hely mewn fforest, ac Elidr, gan faddeu pob camwri, a ddynesodd yn frysiog ato ac a'i cofleidiodd. Trefnodd hefyd ffordd i'w ymchwelyd yn ol i'r orsedd, trwy gymeryd arno fod yn glaf, a gwahodd pendefigion y deyrnas ato o un i un, a'u tynghedu felly i ddewis Arthal yn frenin yn ei le ef, a phob un na chydsyniai, efe a archai dori ymaith ei ben. Y ddyfais a lwyddodd; ac Arthal a deyrnasodd mewn uniondeb am ddeng mlynedd. Yna, dyrchafwyd Elidr eilwaith i'r orsedd; eithr wedi teyrnasu tair blynedd, ei ddau frawd eraill, Owain a Pheredur, a gynullasant lu mawr yn ei erbyn, a chan ei orchfygu, cadwasant ef yn garcharor am flynyddau lawer. Pan fuont hwythau feirw, dyrchafwyd ef y drydedd waith i'r orsedd, a bu farw ar ol teyrnasiad o 21 mlynedd.—*Brut Tysilio.*

ELIFER GOSGORDDFAWR, penaeth nodedig yn y pumed ganrif. Mab ydoedd i Arthwys ab Mor ab Morydd ab Ceneu ab Coel, a brawd i Ceidio a Phabo. Efe a briododd Eurddyl, chwaer Urien Rheged.

ELIS AP ELIS (Parch.), bardd ac offeiriad yn trigianu yn Llandrillo, rhwng 1580 a 1620. Ceir "Cywydd i'r Arian," o'i waith yn y *Gwladgarwr* iv. 18; ac yn y *Blodeugerdd:* 1, Carol Plygain; 2, Hanes Llundain; 3, Gofal Cybydd am ei Ferch.

ELIS AP IEUAN AP RISIART, neu Elis ab Ifan Drwyndwn, bardd yn ei flodau tua therfyn yr 16eg ganrif.

ELIS SION SIAMS, telynor enwog o Lanfachreth, yn Meirion. Dywedir iddo fod yn delynor i'r frenhines Anne.

ELISAU AB CYNLLO, tywysog ar Bowys. Bu farw yn 773.

Digitized by Google

ELIWLOD, mab i Madawg ab Uthyr, yn ol y *Trioedd*, oedd un o dri marchog aur-dafod llys Arthur; "a doethaf o bob doethion o'u hamser oeddynt, ac mor deg a llaryeidd eu hymddwyn, ac mor hyawdl a hynaws eu holl ymadroddion, fel nas gallai neb ball iddynt ar a geisynt." Y ddau eraill oeddynt Drudwas a Gwalchmai.

ELLIS (DAVID), YSW., o Nanney, a hanai o deulu y Gwynfryn, Eifionydd. Yr oedd yn ddadleuydd yn y Gyfraith, ac yn gyfreithydd cyffredinol ar gylchdaith sesiwnol Gogledd Cymru. Bu farw Mehefin 15, 1819, yn 60 oed.—*Lleyn MSS.*

ELLIS (PARCH. DAVID), a anwyd yn Hafod-y-meirch, yn mhlwyf Dolgellau, Meirionydd, yn 1739. Cafodd ei ddysgeidiaeth o dan yr enwog Edward Richard, yn Ystrad Meirig, yn sir Aberteifi. Urddwyd ef yn ddiacon yn Llanelwy, yn 1764, ac yn offeiriad yn Mangor, yn 1765. Y lle cyntaf a gafodd i'w wasanaethu ydoedd curadiaeth Llanberis, sir Gaernarfon; wedi hyny Llangeinwen, yn Mon; yna Derwen, yn sir Ddinbych; yna symudodd i Amlwch, yn Môn. O'r diwedd, cafodd bersoniaeth fechan Llanberis, gan lettya mewn fferm o'r enw Ty du, lle y dyddiwyd un o'i lawysgrifau (1786), lle y bu hyd 1790, pryd y dyrchafwyd ef i ficeriaeth Cricerth, yn sir Gaernarfon, lle y bu farw Gorph. 1795, yn 56 oed. Claddwyd ef yn mynwent Cricerth, ac ar ei wyddfa y mae beddlith led faith, yn coffhau ei aml rinweddau, o waith ei gyfaill Dafydd Ddu Eryri. Y mae pob gwir garwr barddoniaeth Gymreig yn ddyledus neillduol i Dafydd Ellis, am ei fawr lafur a'i ddichlyn ddiwydrwydd yn adysgrifenu gwaith yr hen feirdd allan o hen lyfrau wedi haner pydru, ac yn barod i gael eu claddu yn nghilfachau annghof. Yn ei ewyllys diweddaf, gadawodd ei holl ysgriflyfrau prydyddol i Dafydd Ddu, yr hwn oedd gyfaill caredig ganddo; ac ymddengys eu bod weithian wedi dyfod i feddiant hynafiaethydd y Waen Fawr. Gadawodd amryw roddion ar ei ol yn ei lythyr cymmun. Yn mhlith eraill, rhoddodd gyfargraff o'r *Mona Antiqua Restaurata*, gwaith y Parch. H. Rowlands, yn anrheg i ysgol Ystrad Meirig, yn gydnabyddiaeth o'i fod wedi derbyn ei ddysgeidiaeth yno. Gadawodd arian at ysgol i dlodion Cricerth, tra byddo dwfr yn rhedeg, a hyny i gymeryd lle gyda marwolaeth ei wraig, yr hon a'i gorfucheddodd. Nid ydys yn gwybod fod Dafydd Ellis wedi cyhoeddi nemawr o ddim gwreiddiol o'i waith ei hun, oddigerth ychydig gywyddau a charolau plygain; ond argraffwyd o leiaf dri llyfr o'i gyfieithiad; sef 1, "Gwybodaeth ac Ymarfer o'r Grefydd Grist'nogol, neu Gynhygiad i Athrawiaethu'r Indiaid," o waith yr Esgob Wilson; Llundain, 1774. 2, "Llawlyfr o Weddiau ar achosion cyffredinol," o waith James Merrick; Llundain, 1774. 3, "Histori yr Iesu Sanctaidd," gwaith W. Smith; Trefriw, 1776. Cyhoeddwyd y tri gwaith hyn pan yr oedd yn gurad Derwen. Yr oedd Dafydd Ellis hefyd yn dipyn o fardd. Cyfieithodd y "Penitent Shepherd," cerdd santaidd, o waith Ieuan Brydydd Hir, o'r Saesneg, ar fesur Cywydd, yr hon a welir yn argraffedig yn *Mlodau Dyfed*, t.d. 52, 55. Cyfansoddodd hefyd alarnad ar farwolaeth y Prydydd Hir, yr hon a gyhoeddwyd yn *Nhrysorfa Gwybodaeth*, 8plyg, Caernarfon, 1807.—*Lleyn MSS.*

ELLIS (ELLIS OWEN), yr arlunydd, ac awdwr "Oriel y Beirdd," a anwyd yn Bryncoch, plwyf Abererch, Eifionydd, yn 1813. Enw ei dad oedd Owen Ellis, yr hwn a allai olrhain ei achau o Blaidd Rhudd, pen un o bum costoglwyth Cymru; a'i fam oedd Margred, merch i'r enwog fardd John Roberts *(Sion Lleyn)*. Pan yn dra ieuanc, dadblygwyd

Digitized by Google

tueddiadau cryfion a naturiol ei athrylith; a byddai yn arfer tynu llun pob creadur a ddeuai ger gwydd ei lygaid, o'r gath a chwyrnai ganu yn hamddenol ar bentan clyd y Bryncoch hyd arglwyddes y tŷ yn ei chap ffril; ac o'r iar waraidd yn pigo ei bywiolaeth ar y domen, hyd y march porthianus yn gweryru ar y weirglodd. Odid y gallech daflu eich golwg ar lecyn o gwmpas y fangre hono na byddai arno ol gallu Ellis ieuanc at arlunio. Ofnwn na chafodd y dueddiad hon o'i eiddo ond ychydig gefnogaeth gan ei rieni—edrychent arni fel tegan difyrwch iddo, a dim ychwaneg; ac y mae lle i feddwl hefyd mai ychydig o ysgol a gafodd oddiar law ei rieni. Y mae yn resyn meddwl gyniferio athrylithiau godidog a godasant yn Nghymru, ac a esgeuluswyd gan rieni. Nid oedd pobl barchus y Bryncoch yn waeth nag eraill yn y peth hwn; ac ni buasem yn crybwyll hyn o gwbl, ond er mwyn dangos yr anhawsderau y bu raid i Mr. Ellis eu gorfod yn ei ieuenctyd. Pan tua 14 oed, rhwymwyd ef yn egwyddorwas o saer; a phan yn dysgu y gelfyddyd hono, nid anghofiodd barhau yn ddyfal yn ystod ei oriau hamddenol i astudio ei hoff efrydiaeth. Anfantais fawr arall y llafuriai bachgen ieuanc gwledig, fel efe y pryd hwnw yn Eifionydd, tani, ydoedd diffyg athraw na llyfrau i'w gyfarwyddo. Yr holl fedrusrwydd a feddianai pan yn ugain oed a enillasai trwy ei ddyfalwch, ei ddwysfrydedd, ac, fel y dywedir, "o'i ben ei hun;" ac yn yr oedran hwnw, tynodd arlun Mr. John Evans, Ty'n y Coed, yr hwn a foddiwyd gymaint yn y gwaith, fel y galwodd sylw Syr R. W. Vaughan, o Nanney, at yr arlunydd ieuanc; ac yntau a'i dygodd i gydnabyddiaeth â Syr Martin Archer Shee. Yr oedd yr arlunydd enwog hwnw yn Nanney ar y pryd, yn tynu arlun o'r barwnig i'w roddi yn Neuadd y Sir, Dolgelley; ac er mwyn rhoddi prawf o'i allu i'r boneddigion hyn, Mr. Ellis yntau a dynodd lun Syr Robert *in sappia*. Cymerodd un peth digrif le mewn cysylltiad â hyn: pan oedd Syr Robert yn eistedd gerbron mab y Bryncoch, archwyd iddo gan yr arlunydd "gau ei geg"—*term* led anfoesgar, mae'n wir, i'w harfer tuagat foneddwr, ond un angenrheidiol er mwyn i'r wyneb gael pob chwareu teg yn y darlun. Chwarddodd y barwnig yn galonog, a dywedai mai dyna y tro cyntaf i neb beri iddo ef "*gau ei geg.*" Pa fodd bynag, wedi gorphen ohono y darlun, dangoswyd ef i Syr Martin, yr hwn a foddiwyd gymaint ynddo, fel y rhoddodd i'r arlunydd ieuanc lythyrau cymeradwyol at rai o brif arlunwyr y Brifddinas. Yr oedd yn ei fwriad eisoes, mae yn ddiau, ymweled â Llundain, ond darfu i gaffaeliad y llythyrau hyn lwyr benderfynu y pwnc. Cychwynodd yno tua 1834, a chafodd dderbyniad croesawgar, oblegyd y llythyrau crybwylledig, i efrydu yn y *London Galleries;* a daeth yn gydnabyddus yno â chydefrydwyr a ddaethant yu enwog iawn fel arlunwyr, megys D. Roberts, R.A., &c. Ymgodai yntau yn gyflym, arddangoswyd ei gelfyddwaith yn Westminster ac Exeter Hall, siaredid yn uchel am danynt, yn enwedig felly am "Gwymp Llewelyn ein Llyw ola';" "Brwydr Morfa Rhuddlan;" ac am "Caradog o flaen Cæsar yn Rhufain." Ymddangosai y radd anrhydeddus o R.A. o'i flaen yntau; ychydig amynedd, dyfalbarhad, a llafurus ymdrechiadau, a'i dygasai o fewn ei gyrhaedd; pan, yn unol â mympwy rhy gyffredin athrylith, y gwelwn ef pan yn 23 oed yn gadael Llundain, ac yn dyfod i Liverpool. Dichon mai ei serch a'i dygodd yma; dichon mai ei arian oedd wedi darfod yn Llundain, ac yntau yn rhy annibynol i gymeryd cymhorth gan uurhyw noddwr; ond modd bynag, glynodd yma drachefn wrth ei efrydiaeth, a hyny tan lawer o

Digitized by Google

anfanteision, oblegyd arferai weithio, fel saer, haner y diwrnod, a threulio'r haner arall yn yr *Academy of Fine Arts* yn astudio Dynffurfiaeth *(Anatomy)*. Enillodd amrai wobrwyon yn ystod yr amser hwn, er fod gwyr enwog yn cyd-gystadlu ag ef. Priododd Miss Sydney Griffiths tua 1837, yr hon trwy ymdrechion canmoladwy, â chydymdeimlad galonog â thueddiadau naturiol ei phriod, a fu o fawr gymhorth iddo yn ei efrydiadau. Wedi iddo gyrhaedd graddau uchel o gymhwysder fel arlunydd yn y coleg, ymroddes o ddifrif i lanw y swydd o benteulu. Gweithiai trwy y dydd fel asiedydd, a'r nos difyrai ei hun, a gwnelai orchestion o bortreadau. Ystyrir ei "Mawrth Ynyd," "Genius of the Fine Arts appearing to Leo X.," "Y Dewiniaid," a "Darlun Dic Aberdaron," yn gynyrchion rhagorol. Yn mhen yspaid ar ol hyn, bu am amser byr yn Llundain, yn y *Government School of Design*, yn perffeithio ei wybodaeth, lle y ffurfiwyd cydnabyddiaeth gynhes rhyngddo â'r penathraw, Mr. Herbert R.A., Mr. Rich. Redgrave, ac eraill. Wedi dychwelyd adref, ymgymerodd â phrifwaith ei oes, sef arlunio "Oriel y Beirdd," yr hon a gynwys luniau tua chant o feirdd a llenorion Cymreig. Mesura y darlun tua phedair troedfedd wrth ddwy; a gwaith *crayon* ydyw. Hon a lyncai i fynu ei holl amser hamddenol am lawer o flynyddau. Y mae y tŷ bychan yn Phythian Street, Low Hill, lle y lluniwyd yr "Oriel," a'r lle y cyrchai pob llenor a bardd ar eu dyfodiad i'r dref, i weled yr arlun a'r arlunydd cywrain, yn sefyll eto, ond yn debyg o syrthio yn fuan o flaen y cyfnewidiadau a wneir yn y cwr hwnw. Llawer orig ddifyr a dreuliwyd yno gan lengarwyr Liverpool, yn sylwi ar y bwyntil yn cyflawni ei gorchwyl, ac yn gwrando sylwadau gwreiddiol, ffraeth, ac addysgiadol Mr. Ellis, canys yr oedd efe yn siaradwr doniol iawn. Ni chafodd ond prin orphen yr "Oriel," na chymerwyd ef yn glaf o'r clefyd byr a phoenus y bu farw ohono. Cymerodd hyn le Mai 17, 1861, yn 48 oed; ac yn unol â'i ddymuniad ar hyd ei oes, sef os byddai iddo farw yn Lloegr, ar fod iddo gael ei gladdu yn hen fynwent Abererch, dygwyd ei gorph gyda'r agerddlong i Gaernarfon, ac oddiyno i'w dawel argel wely yn y llan crybwylledig. Prynwyd yr "Oriel," am gan' gini gan W. Morris, Ysw. *(Gwilym Tawe)*, gyda'r bwriad o gymeryd haul-arluniau ohoni; a da genym fyddai sylweddoliad y bwriad hwnw.

O ran y dyn oddiallan, nid oedd Mr. Ellis ond dysyml; corph lled eiddil, yn gwargrymu ychydig; gwallt mawr a garw trwy ba un yr hoffai dynu ei fysedd yn fynych; o tan yr hwn yr oedd y ddau lygad mwyaf gloyw a siriol a welsoch chwi erioed. Meddai wybodaeth gyffredinol helaeth; yr oedd yn hynafiaethydd Cymreig rhagorol; ac yn Gymro twymgalon a gwladgarol. Yr oedd "Beddargraff" iddo yn uu o destunau Eisteddfod Caernarfon, a'r eiddo ei hen gyfaill Ioan Madog a enillodd y wobr.

ELLIS (Huw), ydoedd frodor o Drawsfynydd, yn Meirion. Yr ydoedd yn gerddor o gryn enwogrwydd yn ei amser.—*Lleyn MSS.*

ELLIS (Huw), o Drawsfynydd, oedd chwareuydd da ar y delyn, yn enwedig o'r hen Alawon Cymreig. Claddwyd ef yn mynwent eglwys Towyn, Meirionydd; ac ar ei fedd y mae penill Saesneg o waith, fel y tybir, William Nanney Wynn, Ysw., Maesyneuadd.

ELLIS (Parch. James), oedd fab i Syr Ap Owen, neu Bowen, o'r Pentre Ifan, yn sir Benfro. Bu yn brepend yn Peterborough; yn offeiriad Llanfwrog a Llandwrog; ac yn Drysorydd Eglwys Gadeiriol Bangor. Tybir iddo farw yn 1596.—*Lleyn MSS.*

Digitized by Google

ELLIS (JOHN), o Lanrwst, y cerddor, a anwyd yn y flwyddyn 1750, mewn amaethdy o'r enw Caer Gerig, ger Glyn Diphwys, yn mhlwyf Llangwm, sir Ddinbych. Daeth i Lanrwst newydd iddo briodi ei wraig gyntaf, tua 1780, i gadw masnach cyfrwywr *(saddler)*. Yno y bu yn trigianu am yn agos i ddeugain mlynedd; yno y claddodd ei wraig gyntaf, a mab ohoni, o'r enw Ellis, beddau y rhai sydd wedi eu nodi yn mynwent yr Hen Eglwys; yno y priododd yn 1811 ei ail wraig, yr hon ydoedd ysgolfeistres yn cadw ysgol Ferched yn Llanrwst; a bu iddo dri o blant ohoni cyn ymadael o Lanrwst, un o ba rai a gladdwyd yno. Ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd tua 1800; a bu yn ddirprwywyr teithiol i'r Corph hwnw, yn myned oddiamgylch i ddysgu canu o'r naill gapel i'r llall. Yn 1816, dechreuodd gyhoeddi ei lyfr cerddorol, "Mawl yr Arglwydd," yr hwn a ddaeth allan mewn tair o ranau, pris y 1af yn 1s. 6ch; 2il, 3s. 6ch.; a'r 3ydd, 2s. 6ch. Argraffwyd y gyntaf gan Ismael Dafydd o Drefriw, oddiar *blates* a wnaed yn Llundain, yr hon sydd ar bapur gwaelach ac yn dwyn mwy o ddiwyg ac argraff hen lyfrau Cymreig; argraffwyd y ddwy olaf yn Llundain; a bu John Ellis yno am fisoedd yn arolygu y gwaith. Ysgrifenwyd y gwaith i'r wasg gan ei ail wraig. Bu John Ellis yn foddion i wella a choethi llawer ar Ganu Cynulleidfaol, yn enwedig yn mhlith y Trefnyddion Calfinaidd. Efe ydyw awdwr y dôn gynulleidfaol dra adnabyddus hono, *Elliot;* eithr y mae ei haceniadau wedi eu cyfnewid er pan y daeth o law ei hawdwr. Y mae hefyd anthem o'i eiddo, o'r enw "Molwch yr Arglwydd," mewn cryn fri yn mhlith ein cerddorion. Y mae yn eithaf amlwg fod canu yn swyngyfaredd iddo, ac anghofiai bobpeth pan yn nghymdeithas peroriaeth; bu hyn yn foddion i ddrygu ei amgylchiadau; a symudodd o Lanrwst i Lanfyllin. Bu yno am rhyw yspaid, a daeth i Liverpôol, lle y treuliodd amryw flynyddau, ac y bu farw tua 1834, yn 84 oed. Trigianai yn *Cheapside*, a mynychai gapel y Trefnyddion Calfinaidd yn Bedford Street, ac efe oedd blaenor y gân yno. Un tro, cyfarfyddodd y diweddar Griffith Solomon ac yntau a'u gilydd yn vestri y capel uchod, a gofynodd iddo, "Pa fodd yr oedd arno?" "Digon isel fy amgylchiadau, yn wir, Mr. Solomon." "Wel, wel, mi aethoch yn dlawd, John Ellis, tan *ganu*." Ystyriai yr hen gerddor ei hunan yn ddarllenwr Cymraeg digyffelyb; ac eisteddai yn y dosparth yn yr Ysgol Sul, heb na llyfr na dim o'i flaen, gan feirniadu y darllen; a gwae y sawl a droseddai ar ei ddeddfau ef o acenu. Yr oedd ganddo rhyw syniadau digon rhyfedd ar y pwnc hwn, cystal ag ar gerddoriaeth; ac nid cymeradwy iawn yn ei olwg fyddai yr hwn na fynai gydymffurfio â'i fympwyon.

ELLIS (PARCH. JOHN), ydoedd fab i Mr. Ellis o'r Glasfryn, yn sir Feirionydd; a phrebendyr Llanfair, ger Harlech. Ei fam ydoedd chwaer i'r Esgob Humphrey. Cafodd ei ddysg yn ngholeg Iesu, Rhydychain, lle y cafodd y radd D.D. Cafodd bersoniaeth Llandwrog, Medi 30, 1710. Yr oedd hefyd yn berson Llanbedr Arllechwedd, yn sir Gaernarfon; ac yn archddiacon Meirionydd. Yr oedd yn henafiaethydd enwog, ac yn gyfaill i Syr Joseph Banks, a Dr. Solander. Bu yn gynorthwy mawr i Brown-Wilis yn ei ymchwiliad i henafiaethau Côr Eglwys Bangor.—*Lleyn MSS.*

ELLIS (PARCH. JOHN), D.D., duwinydd ac awdwr dysgedig, a anwyd yn Llandecwyn, Meirion, yn 1599. Aeth i goleg Hart, Rhydychain yn 1617; ac yno, trwy ddyfalwch mawr mewn rhesymeg ac athroniaeth, cyrhaeddodd y radd o M.A., yn 1625. Yn mhen tair

Digitized by Google

blynedd yn mhellach, etholwyd ef yn gymrawd anrhydeddus o goleg Iesu, ac efe ar y pryd mewn urddau eglwysig. Yn 1632, derbyniwyd ef i ddarllen y Brawddegau; graddiwyd ef yn D.D. gan brifysgol St. Andrew, yn yr Alban, yn 1634; ac ar ei ddychweliad i Rydychain yn ystod yr un flwyddyn, anrhydeddwyd ef â'r un cyffelyb deitl yno drachefn. Priododd Rebecca, ferch i John Pettie, Stoke Talmach, sir Rhydychain, a chafodd rectoriaeth Whitfield, yn agos i'r lle hwnw, yr hon a ddaliodd hyd 1647; a'r pryd hwnw, cafodd rectoriaeth Dolgellau, yn y sir ei ganwyd, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth yn 1665. Cyhoeddwyd o'i waith: 1, Allwedd y Ffydd, 1642; 2, Esboniad ar Brophwydoliaeth Obadia, 1641; 3, Diffyniad i Ffydd yr Eglwys Brydeinig, 1647; 4, Hawliau Eglwys Lloegr i ymneillduo oddiwrth Eglwys Rhufain, 1660. Y mae y llyfrau hyn oll yn dwyn teitlau Lladin, ac wedi eu hysgrifenu yn yr iaith hono. Sefydlodd ysgol Ramadegol yn Nolgellau yn 1665 tuag at addysgu 12 o fechgyn, gan ei gwaddoli â fferm, o'r enw Penbryn, yn mhlwyf Llanaber. Gwaddolwyd hi yn mhellach gan y Parch. Ellis Lewis o Ddolgellau yn 1727, â fferm o'r enw Cilgwyn, yn mhlwyf Llandrillo yn Rhos, sir Ddinbych. Yr elw yn awr ydyw £40 yn y flwyddyn. Rhaid i'r meistr, yr hwn a benodir gan offeiriad Dolgellau, fod wedi ei raddio yn Rhydychain neu Gaergrawnt, ac nis gall ar yr un pryd ddal unrhyw fywiolaeth arall.—*Lleyn MSS.*

ELLIS (Parch. John), D.D., ydoedd enedigol o'r Ystumllyn, yn sir Gaernarfon, ac a gafodd ei ddysgeidiaeth yn ngholeg Wadham, Rhydychain. Graddiwyd ef yn M.A. yn 1667. Cafodd bersoniaeth Llanddyfnan, Mon, yn 1672. Gwnaed ef hefyd yn D.D. o le arall. Cafodd ei ddyrchafu yn gapelwr y Coleg Newydd; ac yn 1678 a wnaed yn gôrydd yn Nhy Ddewi, ac yn ganghellwr yn Llanelwy. Yr oedd hefyd yn berson Llanfor, ger y Bala. Efe a briodasai Catrin Williams o Bodlew, yn Lleyn. Efe a fu farw yn 1693, yn 55 oed, a chladdwyd ef yn Eglwys St. Chad, yn y 'Mwythig, lle y mae cerfiad Lladin helaeth i'w goffadwriaeth.—*Lleyn MSS.*

ELLIS (John Griffith), un o'r tô cyntaf o bregethwyr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn sir Gaernarfon. Argyhoeddwyd ef tan bregeth o eiddo Howel Harris. Yr oedd yn bregethwr rhagorol iawn. "Gellir dywedyd," meddai R. Jones, Rhoslan, "na chynysgaeddwyd neb yn Ngwynedd, yn more y diwygiad, â'r fath gyflawnder o ddoniau goleu, iraidd, a gwlithog, ag efe; yr oedd Gogledd a Dê yn sychedu am ei weinidogaeth;—a pha ryfedd?—canys byddai effeithiau grymus a thoddedig yn dilyn ei genadwri." Sonir hyd heddyw am bregeth o'r eiddo yn nghymdeithasfa y Bala, ar y geiriau yn Zech. xiii. 7, "Deffro gleddyf yn erbyn fy mugail, &c.,"—fod rhyw arllwysiad anarferol wedi disgyn ar y gynulleidfa, fel pe torasai cwmwl arnynt; a'i fod yntau ei hun, gan rym yr ysprydoliad, wedi llesmeirio. Dilynid ei weinidogaeth yn achlysurol â'r fath rymusder, fel pe gollyngasid argaeau mawrion, ac yr ysgubid pob peth o flaen y cenllif rhyferthol. Ond y mae yn resyni ychwanegu ddarfod ei gloffi ef yn ei yrfa gyflym. Daeth cwmwl tywyll dros y goleuad dysglaer. Y ddiod feddwol a'i maglodd. Pa fodd bynag, adferwyd ef dalm o amser cyn ei farwolaeth; eithr er iddo gael ei adfer o ran ei yspryd i'w le a'i swydd, ni fu cyffelyb arddeliad arno byth ar ol hyny.—*Drych yr Amseroedd; Meth. Cymru* ii. 136.

ELLIS (Robert), neu Ellyce, pencatrodwr yn ngwasanaeth Siarl I., a anwyd yn Groesnewydd, ger Gwrecsam; ac a hanai o deulu Llwydiaid, Bodidris, yn Ial. Yn 1642, y brenin Siarl, o Rydychain, a archodd

Digitized by Google

iddo gymeryd meddiant o Gastell y Waen, a defnyddio y llestri gwerthfawr a gai yno i dalu i'w gatrawd, ac yna ei drosglwyddo i Syr Thomas Hanmer, yr hwn a benodai ei fawrhydi yn llywodraethwr y lle. Gwasanaethodd hefyd o tan Gustavus Adolphus; a rhoddai Siarl ymddiried mawr ynddo. Yr oedd ganddo chwe' chant o wyr, a phan leihawyd y rhai hyny trwy ddifrod rhyfel, cafodd ganiatad, yn Tach. 1643, i godi deuddeg cant o wyr. Anrhydeddwyd ef, gan Arglwydd Capel, â'r swydd o gadfridog o tano ef yn siroedd Dinbych a Fflint.—Pennant's *Tours*, i. 368.

ELLIS (Parch. Thomas), hynafiaethydd ac ysgolor galluog, oedd fab i Griffith Ellis, Dolbenmaen, yn sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef yn 1625. Pan yn bumtheg oed, derbyniwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain, a chafodd y radd o B.A. yn 1644, a thua'r un amser, cododd arfau yn mhlaid y brenin gan uno â gwarchlu Rhydychain. Bu ar ol hyn yn M.A., yn gymrawd, ac yn athraw enwog yn ei goleg; a chan ymostwng i'r werin-lywodraeth, efe a gadwodd ei urddau. Yn 1660, ymgeisiodd am lywyddiaeth y coleg; eithr wedi methu yn ei amcan, ac i'r Dr. Leodine Jenkins gael ei ddewis o'i flaen, treuliodd fywyd anfoddog a neilluedig yn y coleg hyd 1665, pryd y rhoddwyd iddo fywiolaeth Dolgellau, ar farwolaeth ei berthynas Dr. John Ellis. Dygai y teitl o B.D. y pryd hwn. Yr oedd yn ŵr o wybodaeth drwyadl, a chanddo chwaeth naturiol at hanesiaeth Brydeinig, a hoffedd neillduol at hynafiaeth Gymreig; ac oni buasai fod ei feddwl yn derfysglyd gan ofalon angenrheidiol y coleg, gallasai gyflawni pethau ardderchog, a fuasent yn anrhydedd mawr i'w wlad. Ar gais Robert Vaughan, Ysw., Hengwrt, golygodd ail-argraffiad o waith y Dr. Powell, a elwid "*The History of Cambria, now called Wales,*" yr hwn y dechreuwyd ei argraffu yn Rhydychain yn 1663, eithr wedi argraffu 128 tudalen, ataliwyd y gwaith, a gwerthwyd y lleni, gydag ychydig eithriadau, am bris papur difudd. Y rheswm am hyny ydoedd, cyhoeddiad y *Cambrian Triumphans* gan Percy Enderbie, yr hwn nid oedd mewn un modd i'w gydmaru i'r llyfr a ddisodlwyd ganddo. Bu Thomas Ellis farw yn Dolbenmaen yn 1673.—Wms. *Em. Welsh.*

ELLIS (Parch. Thomas), ydoedd drydydd mab i'r Dr. John Ellis, archddiacon Meirionydd, a pherson Llandwrog, o deulu y Glasfryn. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Nghaergrawnt, lle y cyrhaeddodd glod uchel; a chynygiwyd iddo le fel gwyddonydd i negeseuwriaeth Iarll Musgrave i China; yr hyn a wrthododd. Cafodd bersoniaeth Llanfachreth, a thrysoriaeth Eglwys Gadeiriol Bangor. Bu farw Chwefror 15, 1833.—*Lleyn MSS.*

ELMUR, bardd yn ei flodau yn y 6ed ganrif. Rhestrir ef yn y *Trioedd* gydag Afaon ab Taliesin a Chynhafal ab Argad, fel tri "Tarw unben Ynys Prydain; a beirdd oeddynt y tri hynn, ac nid oedd a ofnynt yn ngad na brwydr; eithr rhuthraw ynddynt a wnaent, ac nid ofnynt gyflafan."

ELPHIN, mab Gwyddno Garanhir, tywysog Cantref y Gwaelod. Dywed *Achau'r Saint*, ei fed yn sant ac yn perthyn i goleg Illtud yn y 6ed cant. Hynodir ef yn benaf gan y defnydd a wneir o'i enw yn y rhamant a elwir "Hanes Taliesin," yn ol yr hon efe a ddarganfyddodd Taliesin Ben Beirdd, yn faban bychan wedi ei fwrw mewn cod groen i drugaredd y tonau, a glynu yn ddamweiniol wrth bawl yn ngored bysgota perthynol i Gwyddno, rhwng Dyfi ac Aberystwyth. Elphin a fynodd fagu y plentyn a'i addysgu; a phriodolir i'r bardd gân ragorol

Digitized by Google

tan yr enw "Dyhuddiant Elphin," yn ei gysuro tan ei fynych drallodau, canys gwr tra anffodus ydoedd; a thrachefn pan oedd Elphin yn garcharor gan Faelgwyn Gwynedd yn nghaer Deganwy, awen Taliesin a'i rhyddhaodd. Gwel "Hanes Taliesin," yn *Cymru Fu*, t.d. 13.

ELUNED. *Gwel* ALMEDHA.

ELUNED, neu Luned, rhian nodedig am ei phrydferthwch yn byw yn y 6ed ganrif. Crybwyllir ei henw yn fynych yn Mabinogi "Iarlles y Ffynon," argraffedig yn y *Dyddanion Cymreig* t.d. 15. Yr oedd ei modrwy hi yn un o dri thlws ar ddeg Ynys Prydain. Cyfeirir at ei thegwch yn fynych gan feirdd y Canol Oesau. Yn y rhamantau Ffrengig, gelwir hi *Linette*, a chymer ran fawr yn chwedl Syr Gareth, yn "Morte d'Arthur."

ELYSTAN GLODRUDD, pen un o lwythau breiniol Cymru, yn ei flodau yn y 10fed ganrif, oedd fab i Cuhelyn, o linach Tegonwy. Ei fam oedd Rhieingar, ferch ac aeres i Goronw ab Tudur Trefor, yn hawl yr hon y daeth efe i feddiant ar iarllaeth Henffordd. Elystan oedd dywysog ar diriogaethau a elwid yn yr hen amser Fferlys, yn gorwedd rhwng yr Wy a'r Hafren, a chanddynt dywysog o'r eiddynt eu hunain, yn annibynol ar dywysogion Deheubarth. Efe a briodes Gwenllian, ferch Hywel Dda; a bu iddynt fab o'r enw Cadwgan, yr hwn oedd dad i lawer o feibion a merched enwog. Yr oedd i Elystan ddau arfbais: 1, "*Azure, three boars' heads caboched sable, langued gules, tusked or.*" 2, (oddi gan ei fam) "*Parted per bend sinister ermine and ermines; over all a lion rampant or.*" Cysylltir ei enw yn y *Trioedd*, gyda Morgan Mwynfawr a Gwaethfod, i wneud tri "Hualogion Teyrnedd," neu dywysogion a wisgent gylchau am eu harleisiau yn lle coronau, yn ol arfer hen freninoedd Prydain. Cafodd Elystan ei enw oddiwrth Athelstan, brenin Lloegr, yr hwn oedd ei dad-bedydd.

ELLDEYRN, mab i Gwrtheyrn, sant yn ei flodau yn y pumed cant. Sefydlodd eglwys Llanelldeyrn, neu Laniltern, yn Morganwg.

ELLYW, neu Elyw, santes yn y pumed cant. Wyres ydoedd i Brychan. Sefydlodd eglwysi Llanelian a Llanelly, yn Mrycheiniog. Tybir hefyd mai hyhi a roddes yr enw i Lanelly, sir Gaerfyrddin.

EMERCHRED, a gyfnodir yn y *Trioedd* gydag Arddun ac Esiliau, fel tair "Diweirwraig Ynys Prydain." Ei gwr ydoedd Mabon ab Dewain Hen.

EMRYS WLEDIG. *Gwel* AMBROSIUS (Aurelius).

EMYR LLYDAW, tywysog yn Llydaw yn y bumed ganrif. Yr oedd yn nai i Garmon Sant, a llawer o'i blant a ddaethant trosodd i Gymru gyda Garmon a Chadfan, ac a enwogasant eu hunain fel sefydlwyr eglwysi, a noddwyr crefydd.

ENDDWYN, sant yn ei flodau, tybir, yn y 7fed cant. Eithr ni wyddis ond ychydig amdano namyn mai efe a sefydlodd Llanenddwyn, yn Meirion.

ENID, merch i Yniwl Iarll, a gofnodir yn y *Trioedd*, gyda Dyfyr Wallteuraidd a Thegau Eurfron, fel "tair gwenrian Llys Arthur." Gwraig ydoedd i Geraint ab Erbyn; ac y mae'r *Mabinogion* yn crybwyll ei henw yn dra mynych, a hyhi ydyw arwres mabinogi, "Geraint ab Erbin." Y mae beirdd y Canol Oesau yn talu aml deyrnged o edmygedd i'w henw; ac nis gallai Dafydd ab Gwilym ddewis amgen cydmariaeth i osod allan ragoroldeb ei Forfydd na thrwy ei galw yn "ail Enid."

ENFAIL, santes yn y pumed cant. Merch ydoedd i Brychan, a

Digitized by Google

thybir mai ei merthyru a gafodd mewn lle a elwir oddiar hyny Merthyr Enfail, yn sir Gaerfyrddin.

ENGHENEL, sant yn y pumed cant, ac ŵyr i Brochwel Ysgythrog. Sefydlodd eglwys Llanenghenel, yn Môn.

ERBYF, mab i Cystenyn Gorneu, tywysog ar Ddyfnaint *(Devon)*, yn y bumed ganrif. Rhestrir ef yn mhlith y Seintiau Cymreig, eithr nid oes yr un eglwys wedi ei chyflwyno iddo. Efe oedd tad yr enwog Geraint ab Erbyn.

ERBURY (Parch. William), un o'r Ymneillduwyr cyntaf yn Nghymru; dysgybl a chyfaill mawr ydoedd i Wroth o Lanfaches. Ganwyd ef yn mhlwyf Roath, ger Caerdydd, yn 1604. Pan yn bumtheg oed, aeth i goleg Brazenose, Rhydychain; lle yr enillodd y radd o B.A. Yna dychwelodd i wlad ei enedigaeth, derbyniodd urddau eglwysig, a chafodd fywiolaeth yn Nghasnewydd, sir Fynwy, a thrachefn ficeriaeth St. Mair, Caerdydd; a'i gurad yno oedd yr enwog Walter Cradoc. Yn 1638, diswyddwyd ef o'r lle hwn am nacau darllen y *Llyfr Chwareuon*, ac am ymddygiadau ymneillduol eraill. Yna tybir ddarfod iddo drafaelu ar hyd Gymru fel pregethwr teithiol; a chyhuddir ef yn sobr iawn gan Woods, yn yr *Athen. Oxon.*, o bregethu yn erbyn esgobion a seremoniau, ac o fod yn Annibynwr. Hyn a enillodd iddo ffafr iarll Essex, gan yr hwn y gwnaed ef yn gaplan yn y fyddin; a dywed Woods ei fod yn llygru y milwyr gydag athrawiaethau Antimonaidd; ac yn dal allan gadwedigaeth gyffredinol, a chyfeiliornadau eraill; ond y mae ei gyfeillion yn ei amddiffyn rhag y cyhuddiadau hyn, ac yn dyfynu o'i waith i brofi nad oedd dim Antinomiaeth na Sosiniaeth yn ei ddaliadau crefyddol. Gadawodd y fyddin yn 1645, a bu yn trigianu wedi hyn am ysbaid yn ynys Ely, ac yn teithio o'r naill fan i'r llall gan bregethu pa le bynag y cai gyfle. Yn 1646, yr oedd yn gaplan i gatrawd o filwyr yn Rhydychain; eithr cyhuddwyd ef o ddaliadau Sosinaidd; a gorfu arno o'r herwydd ymddangos gerbron y fainc farnol eglwysig yn Westminster, lle y gwadodd y cyhuddiad a ddygid i'w erbyn. Lawer o flynyddau cyn marw, yr oedd ei synwyrau i raddau wedi dyrysu. Cyn hyny, yr oedd yn bregethwr campus, yn ysgolor rhagorol ac yn weinidog sobrfryd, selog, a llwyddianus. Bu farw yn Ebrill, 1654. Ei weithiau ydynt:—1, "Mawr Ddirgelwch Duwioldeb," 1640; 2, "Pregeth Gyhoeddus yn Rhydychain," 1646; 3, "Gweinidogion am Ddegymau, prawf nad ydynt yn weinidogion yr Efengyl," 1653; 4, "Pregethau ar amrywiol achlysuron," 1653; 5, "Teyrnasiad Crist a'i saint ar y ddaear, am fil o flynyddoedd," 1654; 6, "Ei dystiolaeth er budd yr oesau i ddyfod; yn nghyda hanes ei brawf yn Westminster." Y mae y llyfrau hyn oll yn yr iaith Saesneg. Yn fuan ar ol ei farwolaeth, cyhoeddwyd pamphledyn Saesneg bychan tau y teitl, "Briwsionyn er coffadwriaeth am y diweddar a'r byth-gofiadwy, Mr. Wm. Erbury." Gweler yn mhellach Rees' *Noncon. in Wales;* a'r Wood's *Athen. Oxon.*

ESEILIAU, yn ol y *Trioedd*, oedd un o dair "diweirwraig Ynys Prydain." Gwraig ydoedd i Gwydyr Drwm.

ESSYLLT, merch ac aeres i Cynan Tindaethwy, a briododd Merfyn Frych, pendefig o Ynys Manaw, yr hwn, yn hawl ei wraig, a ddaeth i feddiant ar dywysogaeth Gwynedd yn 817, ac a deyrnasodd hyd 843. Nodir mai hwn fu y trydydd tro i freninoliaeth Prydain gael ei throsglwyddo i'r gwr trwy y wraig.

ESSYLLT, ydoedd ferch i frenin Germania, a ladratasai Hymyr, pan anrheithiasai efe y wlad hono. Daeth a hi gydag ef pan ymosododd

Digitized by Google

gyda llu mawr ar dueddau gogledd-ddwyreiniol ynys Prydain. Arfogodd Llocrinwys yn ei erbyn, a bu brwydr gelaneddol rhyngddynt, yn mha un y lladdwyd Hymyr, ac y bwriwyd ei gorph i'r afon a elwir oddi ar hyny *Humber*. Yna Locrinwys a gymerth Essyllt yn gariadwraig; a "gwynach oedd ei chnawd hi na'r eira gwynaf, neu alarch, neu asgwrn morfil." Dirgelodd hi am saith mlynedd; ac yna rhoddes ymaith ei briodwraig Gwendolen, gan wneud brenines o Essyllt yn ei lle. Hyn a gynddeiriogodd y frenhines ddiystyredig, cynullodd lu mawr i ddial ei cham, y rhai a gwrddasant lu y brenin mewn brwydr greulon ar fin afon a elwid Fyrran, lle y lladdodd Gwendolen Locrinwys trwy ei daro â saeth yn ei dalcen. Yna hi a archodd gymeryd Essyllt, a merch iddi o Locrinwys, o'r enw Hafren, a'u bwrw i'r afon a elwid oddiar hyny *Hafren;* a'r parthau cyffiniol hefyd a elwid Bro Essyllt, Essylltwg, a Syllyr *(Siluria).—Brut Tysilio.*

ESSYLLT FYNGWEN, ydoedd ferch i Culfynawyd Prydain; yn ol *Tri* arall, merch i March ab Meirchion. Rhestrir hi gyda Phenarwen a Bun, fel "tair anniweirwraig Ynys Prydain." Gordderchwraig ydoedd i Trystan ab Tallwch. Dywed Davies yn *Myth. of the Druids,* mai person ffugiol ydyw, a'r un âg Ysonde, gwraig Sir Tristram, yn yr hen chwedlau Ffrengig.

EUDAF, neu Octavius, iarll Erging ac Euas, a gymerth feddiant ar goron Prydain yn ystod absenoldeb Trahaiarn, yr hwn a aethai gyda Chystenyn ar ryfelgyrch i Rufain. Pan ddychwelodd Trahaiarn, gyda thair lleng o wyr i adenill ei awdurdod, Eudaf a'i gwrthwynebodd mewn brwydr a gymerodd le ar Faes Urien, ger Caerwynt, a'r gâd gyntaf a fu llwyddianus; eithr mewn ail frwydr, efe a orchfygwyd, a gorfu arno mewn canlyniad ffoi o Brydain. Pa fodd bynag, cyn hir, llwyddodd trwy ddichell i fradlofruddio Trahaiarn, ac i ailgyrhaedd yr orsedd, ac "yn y lle ymgyfoethogi a wnaeth, a chynal gwyr a meirch, ac arfau, a da, hyd nad oedd hawdd i un brenin ymryson ag ef." Felly y cadwodd efe ei awdurdod hyd oni ddaeth gwyr Rhufain, y rhai wedi ymgynghori â'r pendefigion Prydeinig, a roddasant Elen Luyddawg, ei ferch, yn wraig i Gynan Meiriadog, yr hwn a deyrnasodd yn ei le ef.—*Brut Tysilio.*

EUNYDD, penaeth ac iddo diriogaeth eang yn sir Ddinbych. Ei dad ydoedd Morien ab Morgeneu; ei fam, Gwenllian, merch ac aeres Rhys ab Marchan, a gelwid hi yn aeres Dyffryn Clwyd, rhan fawr o'r hwn le a berthynai iddi. Yr oedd Eunydd yn byw rhwng 1050 a 1100; ac yn ben un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Ei arfbais:—"*Azure a lion rampant saliant or;*" at ba un y chwanegodd yr eiddo ei fam:—*Azure, between three nag's erased argent, a fess or.*"

EURGAIN, santes yn y 6ed cant. Merch ydoedd i Faelgwyn Gwynedd, a gwraig i Elidr Mwynfawr. Sefydlodd eglwys Llaneurgain, yn sir Fflint.

EURNAID, ferch Clydno Eiddyn, rhian enwog yn yr hen ramantau Cymreig, ac yn byw yn y 6ed cant.

EURONWY, ferch Clydno Eiddyn, rhian nodedig am ei thegwch, ac a folir yn aml gan yr hen feirdd. Crybwyllir ei henw gan Myrddin, yr hwn a'i geilw yn galon galed.

EURFYL, sant, eithr nis gwyddis yn iawn pa bryd y blodeuai. Sefydlodd eglwys Llaneurfyl, yn sir Drefaldwyn. Ei wylmabsant Gorph. 6.

EURYN, sant yn y 7fed cant. Un o feibion Helyg ab Glanawg

Digitized by Google

ydoedd, yr hwn a ymgyflwynodd i fywyd crefyddol ar orlifiad ei diriogaethau. Y mae bryn conaidd a thre' ddegwm yn Llandrillo yn Rhos a elwir Bryn Euryn, a thybir mai oddiwrtho ef y cafodd yr enw.

EVANS (ARISE), ydoedd ddewin enwog yn amser y frenhines Elizabeth. Tybir mai brodor o sir Faesyfed ydoedd, a'i fod yn gyfaill i'r Dr. John Dee neu Du. Y mae darlun o Evans yn nghadw yn yr *Antiquarian Repertory;* ac yn ateb i'r dysgrifiad a rydd ei ddysgybl hynod, William Lily, ohono—talcen llydan, ysgwyddau uchel, trwyn ysmwt, gweflau trymion, golwg cuchiog, gwallt du rhawniog, a thraed anffurfiol. Yr oedd yn efrydydd dwfn yn y gelfyddyd ddu, a thystia Lilly "fod ganddo farn dreiddgar i olrhain lladrad, a gweithredoedd o'r fath; ei fod yn dra chydnabyddns â natur ysprydion; ac iddo ddefnyddio amrai droion y dull cylchog o atolygu eu cymhorth." Dywed yn mhellach, fel y darfu i'w gyfaill Evans, trwy offerynoliaeth yr angel Salmon, ddwyn yn ol ysgrif-gweithredoedd i un o'i gwsmeriad, yr hwn a ymddifadesid ohoni trwy dwyll, ac fel y chwythodd yr angel dŷ y twyllwr i'r llawr, wrth fyned a hi oddiyno; ac, eto, er mwyn boddio cywreinrwydd arglwydd Rothwell a Syr Kenelm Digby, o gael gweled yspryd, y bu agos iddo golli ei fywyd, gan iddo gael ei gludo tros y Tafwys, a'i daflu i lawr yn Battersea, gan yr ysprydion, am nad oedd wedi eu galw mewn dull gweddus ac unol a'u parchedigaeth. Yr oedd gwreng a bonedd y pryd hwnw yn rhoddi coel i bethau o'r fath; a dewiniaeth yn fasnach enillfawr, os nid parchus.

EVANS (PARCH. BENJAMIN), gweinidog eglwys Annibynol y Drewen, sir Aberteifi. Ganwyd ef Chwef. 22, 1740, yn Ffynon Adda, plwyf Meline, sir Benfro. Tyddynwr cyfrifol oedd ei dad, a diacon gyda'r Bedyddwyr yn Rhydwilym; tra yr oedd ei fam yn aelod gyda'r Annibynwyr yn Brynberian. Ei fam a ymdrechai ei ddysgu yn Saesneg pan yn ieuanc; a gallai ddarllen y Bibl yn yr iaith hono cyn bod yn llawn bump oed. Bu yn ysgolion Glandwr, Monkton, a Hwlffordd, yn mha rai y casglodd egwyddorion dysgeidiaeth yn lled helaeth. Yna dychwelodd adref gyda'r bwriad o gyflwyno ei oes i amaethyddiaeth. Yr oedd yn ddeiliad argyhoeddiadau er yn fore; ond yn 24 oed, cyn gwneud arddeliad cyhoeddus. Y pryd hwnw, unodd ag eglwys Annibynol Trewyddel, a chan na fedyddiwyd ef pan yn faban, oherwydd gwrthwynebiad ei dad i'r cyfryw ddefod, bedyddiwyd ef ar ei dderbyniad yn aelod eglwysig. Gwelwyd ynddo yn fuan gymhwysder i wneud pregethwr, dechreuodd yntau ar y gwaith; a chyn pen hir, anogwyd ef i ymweled ag eglwysi eraill. Y Parch. Lewis Rees, o Lanbrynmair, y pryd hyny o'r Mynyddbach, a ddeisyfodd arno fyned gan belled â Llanuwchllyn, lle yr oedd hen eglwys barchus heb weinidog arni; ac yntau a gydsyniodd. Wedi bod yno am ychydig, rhoddes yr eglwys alwad iddo i fod yn weinidog rheolaidd, ac urddwyd ef yn 1769. Bu yn dra llafurus a llwyddianus yma am ysbaid naw mlynedd; a chan fod yr enwad y perthynai iddo yn wanllyd a bychan yn y Gogledd, a gwala o annuwioldeb penuchel ar bob llaw, byddai Mr. Evans yn troi allan yn fynych i bragethu i'r pentrefi digrefydd cylchynol. Yn mysg manau eraill elai i'r Bermo; yno cymerodd dŷ tan ardreth i addoli ynddo;—a chan fod yr ustusiaid heddwch yn gwrthod trwyddedu y lle, cymerodd *mandamus* allan yn eu herbyn, a mynodd ei hawliau cyfreithlawn er eu gwaethaf. Dysgodd hyn wers bwysig i'r Herodiaid hyn hefyd, sef mai nid ymlusgiaid oeddynt yr ymneillduwyr i gael eu sathru tan draed. Daeth aml dro i gyfarfyddiad wyneb yn wyneb ag yspryd

Digitized by Google

erledigaethus yr oes yr oedd yn byw ynddi. Pan ar ei daith unwaith trwy Fachynlleth, galwodd mewn gwesttŷ i gael lluniaeth iddo ei hun a'i anifail. Nid oedd tân ond mewn un ystafell ar y pryd, a chan ei bod yn oer, gwr y tŷ a'i harweiniodd i'r gegin at dŷaid o lymeitwyr cellwair-gnoawl, y rhai a ddechreuasant ei wawdio a'i watwor gan ei alw yn Bengrwn; addefodd yntau ei fod yn arfer pregethu weithiau, a goddefodd eu gwawd yn eithaf tawel a diofn. Gofynasant ai Methodist ydoedd; ac yna bwriasant genllif o enllib ar y rhai hyny, gan ddweyd nad oedd pobl waeth na hwy ar wyneb daear. Atebodd yntau nad oedd yn Fethodist; ond y gwyddai rhyw ychydig am danynt, a'i fod yn lled sicr yn ei feddwl nad oeddynt oll mor ddrwg ag eu darlunid. Gofynasant iddo beth ynte oedd yr holl ruddfan a'r wylo yn eu plith. "Foneddigion," ebai yntau, "meddyliwyf eich bod yn arfer ymladd ceiliogod, ac wedi bod wrth y gwaith yn fynych?" Atebasant hwythau yn ymffrostgar eu bod. Ebai Mr. Evans yn mhellach, "Oni fyddwch, pan y gweloch eich ceiliog yn colli'r dydd, yn teimio galar a gofid oherwydd hyny?" Addefasant eu bod; a theimleut nerth a phriodoldeb y gydmariaeth. "Felly y bobl hyn, wrth weled eu pechodau a'u trueni o'u herwydd, ni allant lai na theimlo galar a gofid." Yna gofynasant iddo pa beth oedd y gorfoleddu a'r neidio oedd yn eu plith. "Onid ydych chwi," ebai yntau, "pan y gweloch eich ceiliog yn fuddugoliaethus yn teimlo llawenydd a gorfoledd mawr? felly y mae y bobl hyn pan ddeallont fod eu pechodau yn cael eu maddeu, nid allant lai na gorfoleddu." Yr oedd tân erbyn hyn wedi ei gyneu mewn ystafell arall; a gadawodd ei gwmpeini yn llon a siriol, er eu bod ar y cyntaf yn sarug ac i'w harswydo. Dro arall, yr oedd yn myned i bregethu i Ddolgellau, a gosododd yr erlidwyr dair o fenywod i'w ddisgwyl ar y bont, ac i'w daflu drosti i'r afon, tra safai y dynion gerllaw i'w gweled, ac i fwynhau yr olygfa. Pan ddaeth, a deall eu hamcan, efe a wenodd arnynt, ac a'u hanerchodd mor siriol a charedig, nes eu diarfwyd; ac efe a aeth heibio yn dawel. Gofynodd yr edrychwyr i'r menywod paham y gollyngasant ef ymaith felly? Atebodd y fwyaf ffyrnig ohonynt fod y fath siriol deb a charedigrwydd yn eiwedd, fel nas gallai yr un ddynes ei niweidio. Wele, fel hyn y deuai efe yn anrhydeddus a chroeniach o'r peryglon cethin a'i cyfarfyddent. Symudodd o Lanuwchllyn yn 1777, oherwydd y tybiai fod y tarth a gyfodai o Lyn Tegid yn niweidio ei iechyd; a bu yn weinidog am ddwy flynedd ar gynulleidfa o Saeson yn Hwlffordd, sir Benfro. Yna derbyniodd alwad eglwys y Drewen, a dechreuodd ar ei weinidogaeth yno yn Mehefin, 1779, lle y llafuriodd gyda llwyddiant mawr hyd ei farwolaeth. Cafodd yr eglwys ar ei ddyfodiad ati yn llawn Ariaeth ac Undodiaeth; eithr trwy ei bregethu nerthol, ei ymresymiadau anwrthwynebol, a'i weddiau gafaelgar, cafwyd llonyddwch yn fuan gan yr ysprydion hyn. Ac nid yn y Drewen yn unig y bu efe lwyddianus; ond bu yn offerynol i sefydlu eglwysi blodeuog yn Hawen, Glynarthen, a Phenrhiwgaled. Dywed y Parch. D. Morgan yn *Hanes Ymneilldu-aeth*, t.d. 158, am dano:—"Nis gwelsom nemawr yn rhagori arno yn mhob peth, nac yn fwy cyflawn o bob cymhwysder a doniau gweinidogaethol. Yr oedd yn ŵr o dymherau mwynaidd, hynaws, gostyngedig, a boneddigaidd—yn gymhwys i gyfeillachu â'r uwchradd gystal a'r isradd, Yr oedd yn un siriol, craffus i adnabod dynion a phethau, a pharod a phriodol iawn ei atebion i'r hyn a ofynid iddo. Fel gweinidog, yr oedd ganddo wybodaeth helaeth iawn am bob pwnc a berthynai i'w

Digitized by Google

weinidogaeth; yn ysgolhaig campus mewn amryw o ganghenau llenyddiaeth; yn fedrus i osod allan ei feddwl ar wahanol bethau yn ddawnus; yn draddodwr bywiog, hyawdl, synhwyrgall, a phwysig; ac yn orlawn o gariad a sel dros lwyddiant teyrnas yr Arglwydd Iesu, ac iechydwriaeth ei gyd-ddynion." Yr oedd Mr. Evans yn awdwr rhagorol hefyd, yn gystal â phregethwr doniol. Cyhoeddodd lyfr gorchestol, mewn ffordd o lythyrau, er "Amddiffyniad i Fedydd Babanod;" "Holwyddoreg ar Egwyddorion y Grefydd Gristionogol a Threfn Eglwys y Testament Newydd, er llesâd ac addysg i blant yr Ysgolion Sabbathol," i ba rai yr oedd yn bleidiwr gwresog; "Sylwadau ar Ddadleuaeth yr Ariaid a'r Undodiaid;" ac ychydig o bregethau ymarferol. Cyfieithodd i'r Gymraeg, a chyhoeddodd dalfyriad Dr. Williams o'r llyfr rhagorol hwnw o waith M. Maurice ar "Grefydd Gymdeithasol." Y mae y llyfrau a gyfansoddodd yn dangos grym a threiddgarwch meddwl, eglurdeb deall, medrusrwydd ymresymiad, a boneddigeiddrwydd yspryd yr awdwr. Bu farw Mawrth 2, 1821, yn 81 oed, wedi treulio 52 o flynyddau yn y weinidogaeth; a chladdwyd ef mewn marwgell, yn ymyl areithfa Hawen.

EVANS (Caleb), D.D., ydoedd fab hynaf y Parch. Hugh Evans, M.A., athraw Coleg y Bedyddwyr yn Mristol, lle y ganwyd ef yn 1738. Cafodd elfenau ei ddysg dan olygiad ei dad; ac wedi hyn, yn 1754, aeth i athrofa Mile End Road, Llundain, o dan y Drd. Walker a Jennings. Yn 1759, efe a ddychwelodd i Bristol, i gynorthwyo ei dad yn ngweinidogaeth Broadmead, ac yn yr athrofa. Ordeiniwyd ef Awst 1767. Derbyniodd y radd D.D. gan Brifysgol Providence, America, Medi, 1780; a chan Brifysgol Aberdeen yn fuan wedi hyny. Efe a sylfaenodd y *Bristol Education Society*, i roddi addysg i ymgeiswyr i'r weinidogaeth yn mhlith y Bedyddwyr. Yn 1778, bu yn dadleu, trwy y wasg, gyda'r Parch. John Wesley, yn nghylch rhyfel America. Yn 1781, dilynodd ei dad yn y weinidogaeth ac yn y coleg, a daeth yn llywydd yr *Education Society*. Cyhoeddodd:—"Sermons on the Scripture Doctrine of the Son and the Holy Spirit;" "A collection of Hymns;" "An address to serious people and professors of Christianity," mewn dadl â Dr. Priestley; "Christ Crucified;" gyda lluaws o bregethau a gyhoeddwyd ar achlysuron cyhoeddus. Golygodd gyhoeddiad o waith barddonol Theodosia, sef Miss Slute, o Brouton, yn sir Hants, yn dair cyfrol. Bu farw Awst, 1791, yn 54 oed, a chladdwyd ef yn nghladdfa y Bedyddwyr yn Mristol, lle y mae maen a choffa Lladin ar ei fedd.—*Lleyn MSS.*

EVANS (Parch. Christmas). Ganwyd y gwr mawr hwn mewn bwthyn carpiog o'r enw Ysgairwen, ar dir Dyffryn Llunod, plwyf Llandysul, sir Aberteifi, ddydd Nadolig, 1776. Crydd tlawd oedd ei dad, o'r enw Samuel Evans; ac enw morwynol ei fam oedd Johannah Lewis, yr hon a hanai, meddir, o deulu parchus. Cyfyng a chymylog iawn oedd amgylchiadau ei rieni; ac i gyfyngu y cyfyngder, a duo y cymylau, bu ei dad farw pan nad oedd Christmas ond naw oed. Bwriwyd yntau gan dlodi yn fuan dros drothwy ei fam weddw; ac heb na dysg na phrofiad, gorfu arno wynebu y byd calon galed, a dechreu ymladd brwydrau bywyd trosto ei hun, Cymerwyd trugaredd arno (trugaredd, yn wir!) gan ddyn o'r enw James Lewis, o'r plwyf nesaf i Landysul, sef Llanfihangel-ar-Arth, yr hwn a'i huriodd i gyflawni mân swyddi hyd y fferm, am ei damaid. Trwy hyn efe a syrthiodd i blith y dosparth o amddifaid a adwaenir mewn rhai parthau o Gymru wrth yr enw

Digitized by Google

"Prentisiaid Plwy." Yr oedd y plant hyn yn deilwng o'r tosturi dyfnaf—y Negroaid gwynion, bychain, truenus! Tan gochl trugaredd, gor-weithid a gormesid hwy nes eu hanffurfio yn gorachod mewn corph a meddwl; ac yn fynych, heb ganddynt fam i'w cysuro, na thad i amddiffyn eu cam. Nid oes odid i gymydogaeth yn Nghymru na wlychwyd ei daear gan ddagrau y trueiniaid hyn, ac yr esgynodd ohoni at Farnwr Cyfiawn ocheneidiau yn erbyn y gormesydd. Wele, yn y pwll hwn o galedi a thrueni, y treuliodd Christmas ei fachgenoed o naw hyd tua phedair-ar-ddeg oed, a dyma ei brofiad, "Nid aml y gallaswn weled gwaeth esiampl yn holl gwrs y byd drygionus, na dyn mwy digydwybod." Nid oes odid i ddyn na chafodd ei waredu yn more ei oes rhag rhyw beryglon neu gilydd, a diau nid oedd Christmas Evans yn eithriad, na'i ddiangfeydd yn llai rhyfedd nag eiddo eraill; ond y mae ei enwogrwydd ef yn galw arnom eu crybwyll, a goreu y gwneir hyny yn ei eiriau ef ei hun:—"Pan oeddwn," ebai ef, "o gylch naw oed, yn bugeilio gwartheg mewn lle a elwir Cwmtywyll, gerllaw Galltyrodyn, darfu i mi, a chyllell yn fy llaw, ddringo i ben pren uchel: arosais ar un gangen, gan ymaflyd mewn cangen arall ag oedd yn uwch, a'i thori â'r gyllell, yr hon pan y torais a'm gollyngodd i lawr uwchder mawr; yno y bum mewn llewygfa farw nes y digwyddodd i bobl fy ngweled yn y prydnawn. Hefyd, pan oeddwn o gylch deuddeg oed, fel yr oeddwn yn rhodio yn cae Panteg, ar dir Tynewydd, yn mhlwyf Llanfihangel-ar-Arth, ac yn edrych ar bwll oedd y llifeiriant wedi ei dori yn ngwaelod y cae, yn unionsyth ddyfnach na dwy lath o ddyfnder, torodd y geulan tanaf, a gollynodd fi i lawr iddo. Yr oedd y pwll fel crochan, heb afael i ddyfod i fynu ohono, ac nid wyf yn gwybod pa fodd y daethum; ond trwy fawr gyfryngdod Rhagluniaeth dyfod a wnaethum;—nid oedd dyn yn agos ataf i'm cynorthwyo. Digwyddodd hyn ar Ddydd yr Arglwydd. Hefyd, pan oeddwn yn gyru ceffylau i aredig, yn Ngalltyrodyn, yn ngwasanaeth David Lloyd, ustus heddwch, fel yr oeddwn wedi fy ngosod ar gefn un o'r ceffylau hela, a minau ddim ond o gylch wyth oed, ac yn dringo i fynu gyda y ceffyl ar y llechwedd serth oddiwrth y palas, gwylltiodd yr anifail tanaf, a charlamodd a'i ben i lawr tua'r ystabl, nes oedd y ddaear yn crynu. Ond rywfodd, yn lle taro fy ymenydd allan wrth gapan drws yr ystabl, cyfryngodd Rhagluniaeth ar fy rhan. Hefyd, fel yr oeddwn yn llanc bychan o gylch pumtheg oed, yn gweini yn Nglanclettwr, plwyf Llandysul, ac yn bugeilio ar ben Aelhedog, aeth yn ffrwgwd am rhyw wegi rhyngwyf â bugail arall; yntau a dynodd gyllell allan, ac a'm brathodd a'i holl nerth yn fy mron ddehau; ond darfu i'r asgwrn rwystro i'r gyllell fyned i mewn a niweidio fy mywiol ranau, ac felly yma drachefn myfi a gefais ddiangfa." Y diangfeydd hyn, er na lwyddasant ar y pryd i gyffroi ei feddwl at bethau ysprydol, eto, pan dyfodd efe yn ddyn, ac yr edrychodd arnynt oddiar bwynt crefyddol, efe a ganfu ynddynt law warcheidiol ei Dduw yn ei arbed at gyflawni gwaith mawr trosto yn y byd."

Y mae yn ffaith annghredadwy bron, ac eto yn wir perffaith, ei fod tros bumtheg oed cyn medru deall llythyren ar lyfr; ac nid yw hyny ychwaith yn syndod, canys yr oedd lluaws ei gyfoedion yn llawn mor ddiddysg ag yntau; ond iddo ef esgyn mor uchel, a chychwyn mor ddiweddar, hyny sydd ryfedd. Tua'r amser hwn, daeth rhyw ddiwygiad neillduol ar grefydd yn yr ardaloedd lle y trigianai; a thueddwyd yntau o radd i radd i ymuno ag eglwys y Pyesbyteriaid Arminaidd yn

Digitized by Google

Llwynrhydowen. Cyn hyn nid oedd efe ond pentwr o anwybodaeth, anenwog mewn pobpeth ond rhusedd ac ymladdfeydd ; ond gyda'r deffroad crefyddol yn ei fynwes, tueddwyd ef i geisio dysgu darllen y Bibl, a dywedir y gallai ei ddarllen yn lled rwydd yn mhen mis o amser. Yna agorwyd ei lygaid ar bleserau darllen, a thaflodd ei holl enaid i'r gwaith o gasglu gwybodaeth. Benthyciai bob llyfr y disgynai el lygaid arno, a darllenai y cyfan gydag awch. Un o'r llyfrau cyntaf a fenthyciodd ac a ddarllenodd oedd *Taith y Pererin*, a gellir tybied fod yn anhawdd iddo gael llyfr a gydunai yn well â'i chwaeth. Pe gwyddem y dirgelion oll, dichon fod darlleniad "Breuddwyd hynod y Tincer o Bedford," wedi cynorthwyo ei dueddfryd naturiol ef ei hun i'w wneud y mwyaf darfelyddol ei feddwl o holl bregethwyr Cymru. Yn fuan wedi ymuno â chrefydd, tueddwyd ei feddwl at bregethu, "at yr hyn," meddai, "y teimlwn dueddiad cryf, er fy mod yn bentwr o anwybodaeth ysprydol." Awgrymodd ei fwriad wrth rai o'i gyfeillion, a hwythau er eu clod, a'i hanogasant i fyned yn mlaen. Eithr nid oedd rhyddid i neb esgyn grisiau pwlpud Llwynrhydowen, heb yn nghyntaf dderbyn addysg athrofaol—rhyw ddeddf wyrgam fusgrell oedd hon er atal rhuthr tyrfa o wyr ieuanc i'r "cysegr santeiddiolaf." Pa fodd bynag, fe ŵyr dyn, yr oedd digon o bechaduriaid yn y byd, a digon o dai cyrddau yn yr ardal mewn dygn angen am "enau cyhoeddus;" a'r ddeddf wyrgam, yn lle gwarchod cysegredigrwydd cysegr Llwynrhydowen, a barodd i ddynion a fuasai yn addurn iddo droi i arfer eu doniau yn y "prif-ffyrdd a'r caeau." Pregeth gyntaf Christmas a draddodwyd mewn cyfarfod gweddi a gynelid mewn tŷ anedd yn mhlwyf Llangeler—yr un tŷ ag y dechreuodd wythnos ar ol hyny y Parch. D. Davies, gweinidog enwog gyda'r Annibynwyr yn Abertawe, ac awdwr *Nodiadau* mewn Bibl Teuluaidd sydd yn dwyn ei enw. Am y bregeth gyntaf hon, cyfaddefa y pregethwr ei hun yn ei Ddyddlyfr mai cyfieithiad ydoedd o waith yr Esgob Beveridge. Nid argoelai hyn ond ychydig am ei allu, llawer llai am ei onestrwydd pregethwrol ; ond y gwrandawyr, yn eu hanwybodaeth o'i hannilysrwydd a ganmolent lawer ar y bregeth. Parodd hyn i'r chwilenwr ieuanc ymhyfhau yn ei gamwedd. Cafodd afael yn y saith pregeth argraffedig o waith Rowlands, Llangeitho. Dysgodd un ohonynt allan ar ei dafod leferydd, a thraddododd hi mewn lle a elwid y Gamnan, ac yr oedd yn bresenol yn mhlith y gwrandawyr un gwr a fernid yn lled graff a deallus, yr hwn a fawr ryfeddai glywed y fath bregeth o ben glaslanc tlawd ; ond cyn pen yr wythnos diflanodd y clod hwnw fel cicaion Jona, canys daeth y gwr craff o hyd i bregethau Rowlands, a chanfu mai echwyn heb fwriad byth talu adref oedd y bregeth o ben bwy gilydd. Er hyny, credid fod rhywbeth yn "mab Samuel y Crydd," gan fod ei weddi cyn gystal a'i bregeth ; ond gwyddai Christmas yn eithaf da mai wedi dysgu hono yr ydoedd o lyfr gweddiau y Parch. Griffith Jones, Llanddowror. Ond nid oedd y pethau hyn oll ond awydd cryf y cloff i fyned yn mlaen ar ei daith, ac yn peri iddo lechwraidd farchogaeth wrth ysgil cerbydau dynion eraill. Na falier, efe a ad-dalodd y cymhorth gyda llôg, a bu llawer gwr ieuanc a hen yn teithio'n hyfryd wrth ysgil ei gerbyd yntau. "Yr oeddwn," meddai ef, "wedi dechreu cyn casglu dealltwriaeth, a chyn i'r llestri agor i dderbyn." Clywsom mai gwas fferm i'r enwog Davies, Castell Hywel, gweinidog Llwynrhydowen, ydoedd efe ar y pryd ; ac er dysgediced a chraffed gwr oedd ef, methai ar y cyntaf ganfod y cymhwysder lleiaf yn Christmas i'r swydd. "Hawyr bach!" ebai ef, "Christmas bregethi,

Digitized by Google

toes ond mish ne ddoi er pan y galle Christmas ddarllen !" Ond er y cyfan, yr oedd ei athrylith fawr, a fuasai fel afon gref yn llynio ac ymgroni yn llonydd cyhyd o amser, wedi eael ohoni rigol i redeg i'w gwely naturiol, yn ymwthio allan gyda nerth anorchfygol, gan ysgubo pob anhawsder a rhwystr o'i blaen. Bwriodd y ffyn baglau crybwylledig yn fuan o'r neilldu ; gorfu ar ei wrthwynebwyr gydnabod fod "rhywbeth," ynddo ; tyrai pobl lawer i'w wrando ; ac yr oedd pregethu wedi llyncu ei fryd yn lân. Gweithiai bob dydd yn galed am ei damaid ; cysegrai bob munyd segur i ddarllen ac efrydu llyfrau a fenthycid iddo gan garedigion ; a chynilai ei ychydig enillion caled gyda'r bwriad o gael ychydig fisoedd o ysgol. Mewn canlyniad, bu am chwe' mis yn ysgol enwog Castellhywel, tan ofal y doethawr Davies, yn ymladd brwydrau parhaus gyda thlodi ar y naill law, ac elfenau dysgeidiaeth ar y llall. Eithr, ar derfyn y cyfnod hwnw, tylodi a orfu arno, syrthiodd i ddigalondid o'r herwydd, a phenderfynodd daflu crefydd a dysg i fynu am byth, a chwympo yn ol i'w hen ddull o fyw. Nid ydym yn gwybod pa mor bell yr aeth i dir gwrthgiliad ; ond bu mewn ffair yn Nghapel Cynon ; ac ni byddai neb yn myned i ffair yr amser hwnw ag ond ychydig grefydd ganddo ; a churwyd ef yno, yn ddiachos, meddir, mor dost gan rhyw labystiaid, fel y collodd ei lygad, ac yr anurddwyd ac yr anfanteisiwyd ef o'r herwydd, trwy ei oes. Pa fodd bynag, yr oedd ganddo *Daith y Pererin* yn ei logell ar y pryd, a brynasai yn y ffair, yr hyn a brawf nad oedd yr hen feddyliau wedi ei lwyr adael ; a chafodd yr amgylchiad argraff ddyladwy arno ; breuddwydiodd freuddwyd rhyfedd y noson hono fod y byd ar dân, a rhyw lais aruthr yn taranu wrtho ei bod yn rhy ddiweddar iddo gyflawni ei addunedau ; ail-enynwyd y marwor ar aelwyd lygoer ei galon ; a chydiodd drachefn yn ei grefydd a'i efrydian gyda mwy o sel nag erioed. Ond "yn nhir gwrthgiliad y collodd Christmas Evans ei lygad ;" a bydded hyn yn ddiareb i'r oesau a'r cenedlaethau a ddeuant. Wedi ei adferiad, yr ydym yn ei gael yn newid ei farn, ac yn symud at y llwythau tuhwnt i'r Iorddonen ; ac nid symud a nod du diarddeliad yn seriedig ar ei dalcen, nac ychwaith oherwydd fod bywiolaeth fras yn ei aros yn y gorlan newydd, ond y mae pob lle i gasglu mai oddiar yr argyhoeddiad dwysaf a phuraf fod hyny yn anhebgorol er mwyn ateb cydwybod dda gerbron Duw. Argyhoeddwyd ef yn Fedyddiwr, yn ol ei gyfaddefiad ei hun, er gwaethaf ei yspryd, ar draws rhagfarnau dwfn-wreiddiol ei galon ; a darllenodd yr holl Destament Newydd er mwyn cael adnoddau i wrthsefyll y cyfnewidiad. Wedi methu yn hyn, ufuddhaodd i lais ei gydwybod, a bedyddiwyd ef trwy drochiad gan y Parch. T. Thomas, Aberduar, yn 1788, pan yn 22ain oed, ac wedi bod ohono yn pregethu gyda'r Presbyteriaid Arminaidd am dair a haner o flynyddoedd. Dyg yr hanes uchod deithi gwerthfawr yn ei gymeriad i'r golwg, sef ei *gydwybodolrwydd ;* ac yr oedd y gyneddf hon fel gwe o aur wedi ei chyrdeddu â'i holl fywyd. Daeth pruddglwyf rhyfedd drachefn i orwedd yn llethol ar ei feddwl. Ystyriai bregethwyr yr enwad yr ymunasai â hi yn llawer mwy doniol a duwiol nag ef. Meddyliai nad oedd a fynai Duw ag ef fel pregethwr na dim arall, ond mai clamp o gnawd ydoedd i gyd. Yr oedd clywed ei lais ei hun yn gweddio neu bregethu yn ei ddigaloni ; a barnai fod ei gwbl ef yn tarddu oddiar galon galedwch. Ar brydiau, gorweddai y meddyliau hyn mor ddwys arno, fel yr ymgreiniai ar y ddaear, ac yr ymdorai ei alaeth allan mewn llefau cryf a dagrau. Yn y cyfwng hwn, aeth i Gymanfa y Bedyddwyr a gynelid yn Maesyberllan ;

Digitized by Google

a chafodd ei ddwyn i sylw y gweinidogion a ddaethent yno o Ddeau a Gogledd. Yn mhlith y rhai hyn yr oedd William Roberts, o Leyn, a Jones, Ramoth, yr hwn a hynododd ei hun gymaint ar ol hyny fel tad Sandemaniaeth Gymreig. Y gwyr hyn a anogasant Christmas i ddyfod gyda hwy ar daith i'r Gogledd, a chydsyniodd yntau i fyned. Wedi teithio a phregethu mewn amryw fanau, daeth ein harwr o'r diwedd i Leyn, yn sir Gaernarfon, lle yr oedd pedair neu bump o fân-eglwysi gweiniaid heb weinidog arnynt, sef Llangian, Galltraeth, Salem, Rhoshirwain, a Nefyn. Atolygodd y rhai hyn aros ohono yn fugail arnynt; ac wedi cydsynio, ordeiniwyd ef i'r swydd y flwyddyn gyntaf o'i ddyfodiad yno, pan oedd yn 24ain oed. Cafwyd yn fuan arwyddion amlwg o lwyddiant ei weinidogaeth; bedyddiodd haner cant y flwyddyn gyntaf o'i arosiad yn Lleyn; a daeth ei enw a'i gyhoeddiad yn nod cyrchfa lluaws pobloedd i'w wrando. Er hyn oll, ei archelyn y pruddglwyf a'i dilynasai yr holl daith o Aberduar, ac nis gadawsai ef yn ei gartref newydd, o tan haulwen poblogrwydd a llwyddiant; ac wedi dyoddef llawer ganddo, trwy weddi ac ymbil yn unig, y gyrwyd y gormesydd hwn oddiar orsedd ei feddyliau. Yr oedd ei arosiad yn Lleyn, ar amryw ystyriaethau yn gyfnod pwysig yn hanes ei fywyd. Yma, fel y crybwyllwyd, y torodd gwawr ar awyrgylch ei anobaith. Oddiyma, y cymerodd ei daith flynyddol gyntaf i'r Deheudir; ac o hyn hyd ei farwolaeth yr oedd wyneb C. Evans mor ddymunol a rheolaidd i'r Deheuwyr â gwyneb Hâf. Prif amcan yr ymweliadau cyfnodol hyn oedd casglu arian at ddiddyledu yr addoldai y perthynai iddynt. Yn y blynyddau cyntaf, ar ei draed y gorfyddai gyflawni'r daith o'r naill ben i Gymru i'r llall. Yn ystod y daith hon, bu yn achlysur toriad allan ddiwygiad nerthol yn y nifer luosocaf o'r manau y pregethodd ynddynt. Yr oedd llon'd y mynwentau a'r tai cyrddau yn ymgynull i'w wrando hyd yn nod yn ystod tymhor medi; a'r un gwrandawyr yn ei ddilyn bumtheg neu ugain o weithiau. Pregethai yn hwyr y dydd, a byddai y canu a'r molianu yn parhau hyd ddydd goleu dranoeth; ac mewn rhai manau, y fath oedd canlyniadau y diwygiad hwn, fel y bedyddid o bumtheg i ugain bob mis am flwyddyn ar ol hyny. Ymledodd y son am dano trwy holl Ddeheubarth. Yn *Lleyn* y gwnaeth y dewisiad doeth a hapus o gymeryd Catherine Jones, aelod yn un o'i eglwysi, yn wraig. Yr oedd Catherine Jones fel pe buasai wedi ei naddu gan Ragluniaeth o bwrpas i fod yn wraig pregethwr, a phregethwr tlawd diofal fel Christmas Evans. "Ymddiried i'r drefn, Catherine fach," oedd hi gydag ef o hyd; ond yr oedd Catherine fach yn deall Rhagluniaeth llawn cystal os nid gwell na'i meistr. "Catherine fach, na falia am y pytatws," ebai ef wrthi un diwrnod, "ond ymddiried yn Rhagluniaeth;" "dd'weda i chwi beth wnawn ni, Christmas," ebai hithau, "cerddwch chwi ac eisteddwch ar ben Moel y Gest i ddisgwyl Rhagluniaeth, af finau i geibio y pytatws, a chawn weled at ba un ohonom y daw Rhagluniaeth gyntaf." Gwraig gynil lygadog ydoedd, yn gallu gwneud cymaint o geiniog ag a allai llawer un o dair, a gellir bod yn lled sicr nad cywreinrwydd cyffredin oedd yn angenrheidiol i beri i gyflog Christmas gau pob twll yn llestr eu bywiolaeth. Hi a wasanaethai fel *ballast* i'n harwr pan ymgodai ormod uwchlaw y ddaear hon yn ngwynfydedd ei ddrychfeddyliau; a phan o'r ochr arall, yn absenoldeb y gwynfydedd cyffrous hwn, yr ymsuddai i iselder ysbryd ac anobaith, yr oedd hi gerllaw i'w gysuro a chodi ei feddwl i'r lan. Nid disgyniad bychan oedd ei ddisgyniadau ef o uchelfeydd ei hwyliau yn y

Digitized by Google

pwlpud at y ford gron drithroed yn ei fwthyn i wledda ar gynyrch blawd ceirch a llaeth, ac wedi symud y dantcithion hyny oddiar y ford gron, dwyn arni ei ychydig lyfrau er mwyn parotoi defnyddiau at "hwyl" drachefn. Ond, er hyny oll, yr oedd gwyneb Catherine yn gwenu arno, ac yn tynu'r gwenwyn oddiar golynau ei drallod; ac y mae yn anhawdd dweyd o ba fendith ddiymhongar y bu hi i'w chenedl a chrefydd trwy ei charedigrwydd a'i chynorthwy i Christmas ei gwr. Yn fuan ar ol dyfod i Leyn, cafodd gyfleusdra i wrando ymherawdwr y pwlpud Cymreig, sef Robert Roberts, Clynog, yn pregethu; a phan ofynwyd unwaith yn mhen llawer o flynyddau ba fodd y mabwysiadodd ar y cyntaf ei ddull hynod o feddwl a thraethu, atebodd mai gwrando ar R. Roberts fuasai yr achlysur, ac fod hyny wedi rhoddi iddo y gyfrinach i gael gafael ar feddyliau. Ond buan y dirwynodd ei amser i fynu yn y maes hwn. Pregethai bum gwaith bob Sabbath, a theithiai tros ugain milldir ar ei draed. Yr oedd y llafur hwn yn ormod; yr oedd yn angenrheidiol cael gewynau'r mamoth i ddal ysgytiadau gwefreiddiol ei areithyddiaeth danllyd; a bu agos iddo syrthio i'r darfodedigaeth o tan fawr bwys ei lafur. Hyn, yn nghyda dymuniad dirgel ac anesboniadwy ei galon am gael myned i Fon, a barodd iddo adael Lleyn ddydd Nadolig 1791. Gadawodd Leyn a'i gymeriad yn ddysgleiriach, a'i enw yn uwch, nag yr aeth yno; ac yn nghanol gweddiau ei gyd-grefyddwyr ar ei ran. Nid oedd ond dau gapel perthynol i'r Bedyddwyr yn Mon y pryd hwnw; sef capel Cildwrn, Llangefni, ac un arall ger Mynydd Parys o'r enw Capel Newydd; a chynelid moddion mewn rhyw wyth o dai anedd mewn gwahanol fanau. Rhoddes Mr. a Mrs. Evans eu pabell i lawr yn nhy capel Cildwrn; ac yr oedd i dderbyn £17 yn y flwyddyn o gyflog. Ychydig oedd nifer yr aelodau yn mhob lle, a'r ychydig hyny heb feddu y teimladau mwyaf brawdol at eu gilydd. Un gweinidog a fuasai yno o'i flaen, sef Seth Morris o'r Deheudir, a bu yntau farw o doriad calon, tebygol, oherwydd i rhyw ddisodlwr o'r un wlad ddyfod ar ei ol, a chodi cynen yn yr eglwysi, a chasineb at y gweinidog. Yr oedd y wlad wedi suro yn dost oherwydd yr ymrysoniadau hyn, fel yr oedd yn anhawdd cael gwrandawyr am hir amser. A thuag at gael pethau i drefn, anogodd Mr. Evans y frawdoliaeth i gadw cyfarfod gweddi, ac erfyn ar i Ben Mawr yr Eglwys dynu y chwyn ymaith oedd yn tagu y gwenith. Mewn cofnodiad am y cyfarfod hwn efe a ddywed:—"Darfu ini gyfaddef ein pechodau, y rhai a dynasent warth ar achos Duw, a'i enw gogoneddus; cawsom, i ryw raddau, nerth i roddi ein calonau iddo ac i ymaflyd yn ei gyfamod Ef. Y canlyniad fu i law ddaionus Duw fod arnom, fel y derbyniwyd ugain neu ragor bob blwyddyn am amryw flynyddoedd." Ymroddodd i'r gwaith mawr oedd ganddo o'i flaen o blanu a dyfrhau eglwysi yn Môn; a gadawodd argraff annileadwy ar yr ynys hono. Cododd yr enwad o'r dirmyg y syrthiasai iddo trwy gynhenau parhaus yn marn enwadau eraill; adeiladodd y magwyrydd syrthiedig; planodd gorlanau newyddion. Wedi cael gwynt teg fel hyn o'i du am rai blynyddau, cawn ei lestr yn curo yn erbyn creigiau Sandemaniaeth. Yr enwad hwn, yr hwn a adwaenid oreu yn Nghymru wrth yr enw "Baptists Bach," oedd yn gwneud rhwygiad mawr yn mhlith y Bedyddwyr, a rhai hyd yn nod o'r gweinidogion mwyaf dylanwadol yn rhoddi clust o wrandawiad i'w swyngyfaredd. Yr oedd John R. Jones o Ramoth eisoes yn broselyt cryno i'r ffydd newydd, ac yn trin yn erwin bob brawd na lyncai y "camel" Ysgotaidd hwn. Christmas Evans yntau a fwytaodd yn drwm o'r

Digitized by Google

athrawiaeth newydd, ac y mae yn cwyno yn dost o'r herwydd :—

"Effeithiodd y trefniant Sandemanaidd arnaf fel y parodd ddiffodd yspryd gweddi ynwyf tros yr annuwiolion. Gyrodd bethau ysgafnaf teyrnas nefoedd yn fwy ar fy meddwl na'r pethau trymaf; collais y nerth a wisgai fy meddwl a sel, hyder, a thaerni, yn y pwlpud am ddychweliad eneidiau at Grist. Ciliodd fy nghalon yn ol rywfodd, fel y collais dystiolaeth cydwybod dda. Nos Sabbathau, wedi bod yn trin yn arw a didderbynwyneb am gyfeiliornadau y dydd hwnw, byddai fy nghydwybod fel yn anfoddlon, ac yn danod i mi fy mod wedi colli fy agosrwydd at Dduw; a bod rhywbeth gwerthfawr yn eisiau arnaf. Yr oeddwn wedi fy yspeilio i raddau dirfawr o yspryd gweddi, ac o yspryd pregethu."

Yn mhen ychydig fisoedd gwaredwyd ei enaid o gorbyllau lleidiog Sandemaniaeth, a diolchai yn wresog i Dduw am ei waredigaeth; ac mewn cyfarfod cyhoeddus, dywedai Jones, gan afael yn y Bibl, ei fod ef yn ymneillduo oddiwrth Fedyddwyr Babilonaidd Cymru, ac yn ymuno â'r brodyr yn Scotland. Felly, o radd i radd, cafwyd llonydd gan y Ramothiaid; ac adferwyd Christmas Evans i'w gyntefig wresogrwydd yspryd mewn gweddi a phregethu. Yn fuan wedi y gollyngdod hwn o efynau calon oer, lle yr oedd edyn ei grefyddoldeb a'i ddarfelydd wedi rhewi wrth ei ystlysau, cawn, cawn ef yn ehedfan i fynu nes dyfod wyneb yn wyneb â Duw, ac yno yn tynu cyfamod ag ef,—un o'r cyfamodau llawnaf o wres cariad, dyfnder teimlad crefyddol, ac angerddoldeb beiddgar sêl ffyddiog yn nhrugaredd Duw, y dichon i farwol ddyn byth ei ddychymygu.

Estynodd ei arosiad yn Môn dros y cyfnod hirfaith o ddeunaw ar hugain o flynyddoedd, anterth ei ddefnyddioldeb, ei lwyddiant, a'i nerth. Am yr ugain cyntaf o'r blynyddoedd hyn, nid oedd ei gyflog ond £17 y flwyddyn, ac am y rhelyw ond £21; ac o'r ychydig yma, cyfranai gini at y Fibl Gymdeithas, a gini at y Gymdeithas Genhadol, yn rheolaidd bob blwyddyn. Dyma hunan-aberth! dyma GREFYDD! Ac nid oes hanes am un tlawd ac anghenus yn troi yn siomedig a gwaglaw oddiwrth ei ddrws tra y mae un engraifft neillduol o hono yn newid gwisg gyda Gwyddel carpiog tlawd. Pa fodd bynag, daeth ei arosiad hirfaith yn Môn i ben. Yr oedd amryw amgylchiadau yn cyd-weithio at ddwyn hyn oddiamgylch,—1, Annghydwelediad rhwng yr eglwysi hyny y gorfu arno ef, oherwydd ei oedran mawr a'i analluedd, roddi eu gofal i fynu, a'u hanog i alw gweinidogion iddynt eu hunain, o barth y gweinidogion a alwyd ganddynt. 2, Cynenu yn ei erbyn oblegyd ei farn,—yr Armin yn ei gashau gan dybied mai Calfin, a'r Calfin, gan dybied mai Fulleriad ydoedd. 3, Claddedigaeth ei wraig; yr oedd ymdroi yn ardal ei bedd yn chwanegu ei brudd-der, ac yn dyfnhau y teimlad io'i cholli. 4, Casglodd £1500 tuag at ddi-ddyledu capelau Môn, teithfodd tuag at hyny ganoedd lawer o filldiroedd, aberthodd flodau ei oywyd, ac anterth ei nerth, yn eu gwasanaeth; ac eto yn ngwyneb hyn gll, tybiai fod casineb yn ei erbyn gan rai ag y dylasai gael ei barchu randdynt a'i anrhydeddu uwchlaw un gweinidog arall. "O'r diwedd, todd y penderfyniad i mi ymadael â Môn, yn afiachus fel yr oeddwn. Yr oeddwn fel Jacob yn gadael ei dad a'i fam, ac yn myned a'i ffon yn unig gydag ef dros yr Iorddonen; felly yr oeddwn inau yn ymadael â'r eglwys y gweddiais, ïe, yr ymdrechais gyda Duw dros ei llwyddiant, ac y llafuriais agos i ddeugain mlynedd gyda hi, yn awr yn ymadael heb feddu dim o'r byd hwn, ond y ceffyl oedd o danaf ac ychydig arian yn fy llogell, a phrin y gallaswn ddweyd fod y rhai hyny yn rhydd genyf." Ychydig cyn ymadael â Mon, yr oedd wedi derbyn galwad oddiwrth eglwys y Bedyddwyr yn Nghaerffili, sir Forganwg. Nid arosodd yno ond am ddwy flynedd, ond bu arddeliad mawr ar ei lafur

Digitized by Google

a derbyniodd trwy fedydd o gylch saith ugain i'r eglwys. Ni threuliodd ddwy flynedd llawnach o gysuron yn ei fywyd nag a dreuliodd yn Nghaerffili, "oblegyd fod arch Duw wedi ymddangos, a thelynau o gylch saith ugain wedi canu." Pa fodd bynag, oherwydd rhyw annghydwelediad rhyngddo ag ychydig yn yr eglwys, penderfynodd ymadael, a chafodd alwad oddiwrth eglwys Caerdydd. Yn Nghaerffili, priododd eilwaith, gyda Mrs. M. Evans, yr hon a fu yn gysur ac ymgeledd gymhwys iddo. Ni bu ei arosiad ychwaith yn Nghaerdydd ond byr. Yr oedd rhyw ymryson yn digwydd bod yn yr eglwys pan yr aeth yno, a disgwylid y llwyddasai ef, oherwydd ei fawr enwogrwydd fel pregethwr, i heddychu y pleidiau; ond i bawb a wyddent rywbeth am anian ddigyfrwys ei feddwl ef—mor bawdd ei dwyllo gan weniaith y gwahanol bleidiau, nid rhyfedd ganddynt iddo adael Caerdydd yn mhen tair blynedd heb lwyddo yn yr amcan y gwahoddwyd ef yno arno. Ac yr oedd yr analluedd hwn yn sicr o gynyrchu gelyniaeth y ddwyblaid yn ei erbyn, yn ngwyneb pa un y penderfynodd efe ymadael, tan weddio tros ei elynion. Yr oedd wedi derbyn galwadau taerion oddiwrth dair neu bedair o wahanol eglwysi yn y Gogledd, un o ba rai oedd Bodedern yn Môn, ond rhywfodd ni thueddid ei feddwl i gydsynio ag un ohonynt; ond tua'r pryd hwn, yr oedd efe yn pregethu yn Nghymanfa Liverpool, ac mewn cyfarfod neillduol o'r brodyr, amlygodd ei awydd i fyned i Gaernarfon, ac yr oedd yn dda iawn ganddynt oll glywed y newydd. Dyma ei ddysgrifiad alegoriaidd o ddiffygion yr eglwys hon, "Diffyg o un neu ddau o ddynion call, pwyllog, llafurus, ffyddlon, a duwiol, fel ceryg wyneb i gadw y ceryg llanw yn eu lle, ac o'r golwg yn y mur. Diamheu fod yno amryw a fuant yn niweidiol allan o'u lle a allasent fod fel ceryg llanw mewn cynulleidfa, a bod digon o geryg wyneb i'w cadw yn nghyd, a'u rhwystro i ddyfod i'r golwg." Ac er na foddlonwyd ei ddisgwyliadau mwyaf aiddgar ef ei hun yn ei lwyddiant yn Nghaernarfon; eto, yn hwyr ei einioes, pregethai gyda chymaint o sêl ac angerddoldeb teimlad ag erioed. Deuai enwadau eraill wrth yr ugeiniau i'w wrando, ac ymgynullai pobl o bell i'w glywed; a dydd y farn yn unig a arddengys y gwir les a ddeilliodd o'i bregethau ef pan oedd ei babell wanllyd yn graddol ymddatod o hoel i hoel. Annghofiai ei wendid, ei lesgedd, a'i henaint, yn llwyr pan esgynai i'r pwlpud; ac ymgollai ei enaid mawr mewn gwynfydedd santaidd yn awyr y groes. Addawodd Cymry a Saeson Liverpool na adawent ef mewn angen. Gyda llaw, yr oedd efe yn barchus iawn gan lawer o foneddigion Seisnig y dref hon; pregethai yn fynych iddynt yn eu hiaith eu hunain, mewn capel a adwaenir yn awr wrth yr enw *Byrom Hall*. Yr oedd capel Caernarfon tan ddyled drom, a thuag at ei thalu penderfynodd Christmas Evans gymeryd taith arall—ei ddeugeinfed taith i'r Deheudir. Cychwynodd ar y daith hon Ebrill 28, 1838; a chydag ef yr oedd ei wraig, a Mr. John Hughes o Ruthin, i'w gynorthwyo. Danfonodd lythyr effeithiol i'r *Ystorfa Weinidogaethol*, yr hwn oedd i wasanaethu fel negesydd o'i flaen, a'r hwn lythyr a ddiwedda yn y trydydd person gyda'r geiriau canlynol: "Mae gyda gweddiau gant yn bwrlymu o ffynon ei feddwl, mewn ofn a hyder cymysgedig, yn dyfod atoch. O! peidiwch a gwgu arno—mae arno ofn eich gŵg. Gwenwch arno, trwy gyfranu at ei achos yn llawen, y waith hon am byth. Os gwgwch arnaf, ofni yr wyf nas gallaf beidio suddo i'r bedd cyn dychwelyd adref. Dyma fy aberth olaf dros achos y Prynwr." Cafodd dderbyniad caredig yn mhob man, a chyrhaeddodd yn llwydd-

Digitized by Google

ianus i Argoed, ar gyfer cymanfa flynyddol Mynwy. Pregethodd yno yn dra effeithiol. Ar ol y Gymanfa hon, bu yn Nhredegar yn glaf am wythnos. Pregethodd y nos Lun canlynol yn Abertawy, yn nghapel y Parch. D. Rhys Stephen, yn Saesneg, ac ar derfyn yr addoliad dywedodd yn hyglyw, "*This is my last sermon;*" ac felly y profodd. Y nos hono cymerwyd ef yn glaf iawn; ac erbyn nos Iau yr oedd y rhwnc yn y gwddf, a byrdra yr anadl, yn arwyddo nad oedd angau yn nepell. Rhwng un a dau yn y bore, galwyd ato ei gyd-deithydd Mr. John Hughes, a'r Parch. D. Davies, yn awr o Aberafon, o tan gronglwyd yr hwn y lletyai. Diolchai i Mr. Davies am y mawr garedigrwydd a dderbyniasai oddiar ei law; a diweddodd yn y geiriau canlynol:—"Yr wyf fi ar ymadael; yr wyf wedi llafurio yn y cysegr er's tair ar ddeg a deugain o flynyddoedd, a dyma yw fy nghysur a'm hyder yn y bwlch hwn, na lafuriais heb waed yn y cawg. Pregethwch Grist i'r bobl, frodyr anwyl. Os edrychwch arnaf fi yn fy mhregethu nid ydwyf ond darn o golledigaeth; ond edrychwch arnaf yn Nghrist yr wyf yn nefoedd ac yn gadwedigaeth." Yna mewn llais croew gorfoleddus, adroddodd y penill:—

"O gyflawnder pur tragwyddol!" &c.

Ac megys o "gerbyd Israel," taflodd ei law at ei gyfeillion, a dywedodd, "*All right, drive on!*" Bu yn pregethu am 53 o flynyddau, anerchodd 163 o Gymanfaoedd, a theithiodd ddeugain o weithiau i'r Deheudir. Ymgododd o geudod ffos ddofn, a safodd yn ddiwaradwydd am dros haner can' mlynedd yn rheng flaenaf pregethwyr ei wlad, a diau ei fod ar lawer ystyriaeth yn un o'r dynion glanaf ei foes, puraf ei ddybenion, a lletaf ei enwogrwydd o holl bregethwyr ei oes.

O ran y dyn oddiallan, yr oedd Christmas Evans o wneuthuriad cryf, cigog, a thua dwy lath o daldra. Ar ei ysgwyddau crymedig, a gwddf byr, yr oedd pen mawr ac iddo dalcen eang. Yr oedd ei aeliau yn dduon ac uchel, o tan un o ba rai y chwareuai y llygad mawr hwnw, cymaint a dau lygad cyffredin—pelydrau yr hwn, ebai'r Parch. R. Hall, oedd yn ddigon i oleuo byddin trwy goedwig dywell. Byddai ei gerddediad yn amrosgo, yn tarddu oddiar annghyfartaledd ei aelodau, yr hyn a barodd i Brutus ei ddysgrifio "megis pe buasai wedi ei gyfansoddi dranoeth i frwydr fawr, o wahanol aelodau y lladdedigion. Nid oedd megys yn perthyn i'r oes libynaidd hon; ond i oes o ddynion o wneuthuriad cadarnach; i'r Casluhim, y Caphtorim, a'r Anakim, a gweddillion cewri yr oesau a aethant heibio. Ond er bod rhywbeth allan o'r ffordd gyffredin yn ei gorph, nid ydoedd dim aflunieiddwch nac anmhrydferthwch ynddo, ond yn unig ei fod yn unllygeidiog. Yr oedd golwg brydferth iawn ar Christmas, a siriol annghyffredin, oddieithr bod ei feddwl wedi ei daflu oddiar ei echel. Pan welid ef ar heol tref, yr oedd golwg dywysogaidd arno; pan ar esgyn-glwyd cymanfa, edrychai yn esgobaidd; a phan mewn pwlpud, bydded o'r maintioli fyddai, yr oedd efe yn ei lanw. Yr oedd ei gorph o gyfansoddiad cadarn annghyffredin, amgen syrthiasai yn aberth i'w lafur er's deng mlynedd ar ugain yn ol. Pregethodd ganoedd os nid miloedd o weithiau yn yr awyr, nes byddai yn diferu o chwys; ac yn y tai cyrddau pregethai nes byddai yn berwi oll drwyddo, ac allan ag ef i'r hin oer, heb ddim yn cael argraff arno i niweidio ei iechyd braidd un amser. Dywedir i'w lais ddal yn gadarn hyd derfyn ei oes, ac yn wyneb y myrdd bloeddiadau uchel a roes, y mae yn rhyfedd na buasai ei gydau ymadrodd, ei *larynx* a'i *pharynx* yn ddrylliau er's blynyddau!

Digitized by Google

Cymerodd nid wyr neb pa gymaint o *opium*, *bark*, pelenau, diferynau, *patents*, a phob cymysgedd, ond nid oeddynt yn cael mwy o effaith arno na phe rhoddasid hwynt yn ngholuddion y *Mammoth*. Yr oedd ei allu i weled tebygoliaeth yn y naill beth i'r llall yn gryfach nag eiddo odid i ddyn a fu erioed. Yr oedd ganddo ddigon o'r ddawn gydmariaethol i wneud saith o feirdd penigamp. Yn y dull hwn y meddyliai, yr ysgrifenai, ac yr oedd ei bregethau yn orlawn o alegoriau. Yn nghanol y fath gyflawnder, nid rhesymol disgwyl eu bod oll yn briodol iawn; ond yr oeddynt oll yn darawiadol, a rhai ohonynt yn mhlith y pethau ardderchocaf a gynyrchodd darfelydd marwol ddyn. Gan fod cynifer argraffiadau o'i weithoedd wedi eu cyhoeddi, a chasgliad arbenig o'i *Alegoriau* wedi eu dwyn allan o'r swyddfa hon, nis gallwn fforddio gofod i ddyfynu ohonynt ond yr un ganlynol, allan o'r bregeth olaf a draddododd :—

"Gan ddechreu yn Jerusalem." "Paham yn Jerusalem?" meddai: "Yr oedd yn rhaid i'r apostolion ddechreu yno, oblegyd fod ei thrigolion wedi bod yn dystion o fywyd a marwolaeth Crist. Yno y pregethodd, y cyflawnodd wyrthiau, y croeshoeliwyd ef, ac yr adgyfododd drachefn. Yma, lle y bu yn y gwarth mwyaf, yr oedd i gael ei ddyrchafu gyntaf. Croeshoeliwyd ef fel drwgweithredwr; ond yn awr, rhaid ei ddyrchafu fel Brenin yn yr un man. Dyma lle y cafodd flaenffrwyth ei adgyfodiad. Ar ddydd y Pentecost, yr oedd holl Jerusalem yn ei erbyn. Yr oedd llynges y gelyn yn gref, a'i gwyr yn lluosog; ond nid oedd ganddo ef ond rhyw ddeuddeg o agerlongau. O Iesu! a wnei di wrthsefyll y gelyn gyda'r ychydig longau bychain yna? 'Gwnaf,' ebe Iesu. Dechreuodd y frwydr; y mae yr agerlongau bychain yn nesu at y llongau rhyfel mawrion, yn taflu eu bachau arnynt, ac yn sicrhau eu hunain yn nerthol wrth y FOUR-DECKERS. Mae saethau dychrynllyd yn dilyn, y cyflegrau ar waith; mae y mwg, y tywyllwch, a'r dyryswch mawr yn gordoi y cyfan. Gwrandewch! nid oes i'w glywed ond rhyw ochain, a gruddfan! Mae y tanio wedi darfod. Dyna'r cymylau yn chwalu, a goleuni'r nef yn tori ar yr olygfa ryfeddol! ac O ryfeddod! O wyrth! mae y llongau bychain wedi cymeryd tair mil o garcharorion yn yr un ymladdfa. 'Yn Jerusalem, Arglwydd?' 'Ie.' 'O Arglwydd! ond yno y darfu y dynion dy groeshoelio di: nid ydym i bregethu i'r rhai hyny?' 'Ydych: pregethwch hi i bawb!' 'I'r dyn a blethodd y goron ddrain, ac a'i rhoddodd ar dy ben?' "Ie; dywedwch wrtho y gall ef gael coron gogoniant allan o'r gwarth hwnw.' 'Beth pe cyfarfyddem a'r dyn a hoeliodd dy ddwylaw santaidd, a'th draed ar y groes, a'r dyn a wanodd dy ystlys, a boerodd yn dy wyneb?' 'Pregethwch yr efengyl iddynt oll mai Myfi yw'r Achubydd; fod croesaw i bawb i gyfranogi o fendithion fy iachawdwriaeth; fy mod i yn Arglwydd ar bawb, ac yn gyfoethog tuag at bawb a alwant arnaf fi.'"

Yn rhodfeydd cyffredin bywyd, yr un gallu o'i eiddo ag a gynyrchai alegoriau yn y pwlpud, a ymddigrifai mewn arabedd a gwatwareg. Fel engraifft o'r gyneddf olaf, gellir nodi a ganlyn :—

Yr oedd hen wr duwiol, yr hwn oedd deiliwr wrth ei grefft, yn amser Bonaparte, yn mawr ofni y Ffrancod. C. Evans a roddai gynghor tra sobr iddo, gan ei anog "i ymddiried yn yr Arglwydd," gan chwanegu, mai "yr Arglwydd sydd yn llywodraethu breninoedd," &c. Ond poeni Christmas a'r pregethwyr eraill yr oedd yr hen frawd yn barhaus, gan ddywedyd, "Pa beth a wnawn ni, os daw y Ffrancod i'r wlad?" "O! frawd," ebe C. Evans, "pan ddelont yma, y mae yn rhaid i chwi roddi y nodwydd yn mhen y llathen, rhoddi y llawes goch sydd yn dal y nodwyddau ar ffrynt eich het, dodwch y gwniadur i hongian wrth eich trwyn, a chymerwch yr haiarn a'r slibwrt gyda chwi; a phan glywoch fod Boni wedi glanio, chwibanwch yn y gwniadur er codi y wlad; a phan gyfarfyddwch a'r fyddin, curwch y slibwrt a'r haiarn; rhwng gweled y llawes goch a chlywed y swn, dychryna Boni a'i fyddin, ac a ffoant ymaith. Dilynwch hwy yn ddiarbed gyda'r nodwydd yn mhen y llathen."

Er ei fod yn ymdrin â phethau mawr, eto yr oedd pethau bychain yn effeithio yn rhyfedd ar ei dymherau—i'w ddigio a'i gymodi, i'w foddio a'i dristhau. Ar wyneb y diniweidrwydd puraf, tyfai blodeuyn coegfalchedd; a chyffwrdd â'r llysieuyn bychan hwn a gyffroai ei holl anwydau. Ond yr oedd ei uchelgais yn gynwysedig yn gyfangwbl yn y ffaith na fynai i neb ei sathru tan draed. Hawdd y gall un o'i fywgraffwyr diweddar erfyn maddeuant ei frodyr am briodoli iddo anwadalwch; canys nid oedd dim o hyny ynddo ond a'i codai uwchlaw bod yn *stoic*. Y mae gogoniant y bywgraffiad crybwylledig hefyd yn cael ei gymylu gan yr ymgais wag a wneir ynddo i brofi fod Christmas Evans

Digitized by Google

yn blentynaidd ac anwrol; canys beth ydym oll ond "plant mawr," ac ni cheir yn ei hanes yntau ddim mwy plentynaidd nag yn y rhelyw o blant dynion, ond a gynyrchid weithiau gan ei ddychymyg chwareus. Yr oedd ei onestrwydd, unplygrwydd meddwl, maddeugarwch, haelioni, a'i dduwioldeb, yn amlwg iawn; ac y mae y grasusau hyn yn debyg o berarogli a chadw ei goffadwriaeth am oesau lawer. Fel pregethwr, rhestrir ef gyda John Elias, a Williams o'r Wern, fel tri phregethwyr Cymreig penaf eu hoes; ond gan nad ellir ystrydebu areithyddiaeth odidog y blaenaf, na chadw yn ddilwgr gymhwysiadau effeithiol yr ail, diau y bydd gwaith Christmas Evans mewn bri pan na bydd ond enwau y ddau eraill felly. Tra yr oedd ef yn lluchio cydmariaethau, mor werthfawr â'r onix a'r sapphir, gerbron ei wrandawyr gwledig a synfawr, yr oedd hefyd yn adeiladu cofgolofn anfarwol i'w athrylith ei hun; a thra yn cynauafu danteithion alegoriaidd ar gyfer diadelloedd bychain y corlanau Cymreig, yr oedd yn darpar hefyd wleddoedd breision i breiddiau Israel yn mhob cwr o'r byd. Yn ychwanegol at y bywgraffiadau a ysgrifenwyd am dano yn y Gymraeg, daeth dau allan yn Saesneg, ac un arall yn America; y mae erthygl arno wedi ymddangos yn mhrif chwarterolion cyfnodol y deyrnas; ac o fewn ychydig fisoedd yn ol, gosodwyd ei nodweddau gerbron darllenwyr un o brif gofnodolion Ffrainc. Y mae hyn yn argoeli yn dda; ond yr ydym yn dra hyderus nad yw ond blaenffrwyth bychan o gynhauaf mawr yr athrylith odidog hon.

EVANS (Parch. Daniel), oedd weinidog gyda'r Annibynwyr yn Mynyddbach, Morganwg, a anwyd yn ardal Eglwys Erw, sir Benfro, Ionawr 1774. Wedi derbyn dysgeidiaeth weddol mewn ysgol gyffredin gwlad, rhwymwyd ef yn egwyddorwas o wniedydd. Pan yn 18 oed, dechreuodd bregethu; ac yn 1796, cafodd wahoddiad gan y Parch. Isaac Price, o Lanwrtyd, i ddyfod i'w gynorthwyo ef yno cystal ag yn Troedrhiwdalar, a Merthyr Cynog. Llanwodd y swydd hon am tua thair blynedd, yn ystod yr hwn amser y priododd un Mary Jones, gweddw arianog, duwiolfrydedd a chyfoeth yr hon a fu yn gymhorth mawr i'w phriod yn mlynyddau cymylog ei weinidogaeth. Yn 1799, derbyniodd wahoddiad eglwys fechan dlawd yn Mangor, sir Gaernarfon, i ddyfod ati yn weinidog, am ddeg punt yn y flwyddyn o gyflog. Llafuriodd yma yn galed a llwyddianus iawn, bu yn foddion i sefydlu eglwysi bychain yn Llanrwst, Henryd, Trefriw, Borthlwyd, Braich y Cafn, Llanfairfechan, a Phentraeth Môn, ac yn y ddau le olaf codwyd capeli trwy ei offerynoliaeth. Estynodd ei arosiad yn Mangor am naw mlynedd; ac yn y cyfamser, adeiladwyd yno gapel bychan, a'r eglwys tan ei ofal yr hon a gafodd yn 15 mewn rhif a adawodd yn 70. Cyflawnodd hyn oll tan dân y gelynion; pan oedd ei wrthwynebwyr yn lluosog a chryfion, ac erlid pregethwyr yn ddefod a ffasiwn. Nid ymddengys ddarfod iddo o gwbl feddwl gwladychu yn arosol yn Ngwynedd; edrychai drach ei gefn yn hiraethlawn tua'r Deheubarth; ac yn 1808, derbyniodd wahoddiad y Parch. D. Davies, Abertawy, i ddyfod yn gydweinidog ag ef ar eglwysi Abertawy, Scety, Mynyddbach, a Threforris. Dylem grybwyll ddarfod iddo tra yn Mangor gladdu ei wraig a llys-ferch tra anwyl ganddo, o fewn blwyddyn i'w gilydd yn Llanllechyd; ac ail-briodi un Miss Elizabeth Lewis, aelod o'r eglwys yn Mangor. Yn fuan ar ol ei sefydliad yn Abertawy, &c., barnwyd mai goreu fyddai i'r ddau weinidog ranu y maes rhyngddynt, ac i bob un gymeryd ei ddosran a'i waith ei hun. Syrthiodd Mynyddbach a Thre-

Digitized by Google

forris i ran Mr. Evans; ac yma y bu yn llafurio am 35 o flynyddau, sef hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Mawrth 3, 1835. Yn mhen ychydig ar ol ymgartrefu yn y Mynyddbach, bu yn offerynol i sefydlu cangen eglwys o'r enw Bethel, yn mhlwyf Llansamlet; ac wedi gweinyddu arni am dros bumtheg mlynedd a chael addoldy cyfleus iddi, rhoddes hi i fynu, gan dderbyn cais daer cangen-eglwys arall yn mhentref Clydach i weinyddu arni hi. Parhaodd ei gysylltiad â'r lle hwn am un mlynedd ar ddeg, ac wedi llwyddo i gael capel yno hefyd, gan bwys oedran a beichiau dyledswyddau tuag at ei eglwysi eraill, rhoddodd hi i fynu. Yn 1829, bu adfywiad neillduol ar grefydd yn yr ardal hono; a derbyniodd Mr. Evans mewn chwe' mis tros chwe chant i'w eglwysi. Achosodd hyn helaethiad ei gapel yn Mynyddbach; a rhoddiad ohono i fynu eglwys Treforris, yr hon oedd bellach yn eglwys flodeuog ac yn alluog i gynal gweinidog iddi ei hun. Barnwyd mai gwell fyddai i eglwysi Glandwr a'r Felindref wneud yr un peth. Effeithiodd hyn yn dra llesol ar yr holl eglwysi hyn; cynyddasant mewn rhif; ac yr oedd eto yn aros tan ofal Mr. Evans yn Mynyddbach 400 o aelodau. Yr oedd yn bregethwr gweithgar, addfwyn, enillgar ei ddull, llithrig a gwresog ei ymadroddion; ac yn awdwr rhwydd a medrus. Cyhoeddwyd o'i waith:—"Llyfr Hymnau;" "Rhesymau tros Ymneillduaeth;" "Y Cawg Aur," [yr hwn a ail-gyhoeddwyd yn ddiweddar, gyda Rhagdraith gan y Parch. R. Thomas, Bangor]; "Traethawd ar Gadwedigaeth Babanod;" "Cawell y Bara Croyw;" yn nghyda Cofiantau amryw o'i frodyr yn y weinidogaeth.

EVANS (David), D.D., a anwyd yn Llangyniw, sir Drefaldwyn. Cafodd ficeriaeth gorawl Llandwyn yn 1734; a phersoniaeth Llanerfyl yn 1737. Rhoddes Lanerfyl o'i law yn 1767, am Lanymynech; a chafodd ganoniaeth yn Llanelwy. Yr oedd yn ysgolaig, a beirniad Cymreig, da; a chynorthwyodd Dr. Burne i ysgrifenu ei *History of Music*, a Mr. Edward Jones yn ei gasglaid o dônau Cymreig. Yn mhlith ei bapurau, cafwyd llythyr oddiwrth un o'i gyfeillion, yn dymuno ei gynorthwy llenyddol, yn yr ymadroddion hyn: "Y mae cyfaill imi, o'r enw Samuel Johnson, yn son am gyhoeddi *Dictionary* o'r iaith Saesneg, a byddai yn rhwymedig iawn i chwi am anfon rhestr o'r geiriau Saesneg hyny sydd a'u tarddiad oddiwrth y Gymraeg." Bu farw oddeutu 1788; a chladdwyd ef yn Eglwys Llanymynech, lle y mae gwyddfa farmor i'w goffadwriaeth.—*Lleyn MSS.*

EVANS (Parch. David), gweinidog gyda'r Trefnyddion Wesleyaidd, a adwaenid ganddynt wrth yr enw "David Evans yr ail." Ganwyd ef yn Aberhosan, Mehefin 2, 1814. Yr oedd ei reini, Hugh a Jane Evans, yn aelodau gyda'r Annibynwyr yn y lle hwnw. Magwyd ef yn benaf gyda'i daid a'i nain yn Abercegyr; a chyda hwy aeth yn fore i gysylltiad â'r Wesleyaid. Ymroddodd i ddysgu pan yn bur ieuanc, a dywedir y gallai adrodd penod yn cyhoeddus cyn bod yn chwech oed. Dechreuodd bregethu cyn bod yn 19 oed; a'i destyn cyntaf oedd, "Addola Dduw," dewisiad yr hwn a roddes awgrym dra chywir o ansawdd ddyrchafedig ei feddwl. Pan yn 21 oed, galwyd arno i lafurio fel pregethwr cynorthwyol cyflogedig ar gylchdaith Aberystwyth; ac yn fuan, derbyniwyd ef fel ymgeisydd llwyddianus am y weinidogaeth. Mewn canlyniad, yn 1836, aeth i athrofa dduwinyddol Hoxton, Llundain. Yno ymroddodd gydag egni annghyffredin i ddilyn ei efrydiau; ac mor ddwys y glynai wrthynt, fel bu raid iddo adael y coleg am yspaid oherwydd afiechyd. Pa fodd bynag, dychwelodd eilwaith; aeth trwy

Digitized by Google

yr arboliad yn dra anrhydeddus; a neillduwyd ef i gylchdaith Aberteifi. Er cymaint ei lafur yn y maes eang hwn, a'i deithiau blinedig, cafodd hamdden i gyfansoddi traethawd galluog ar "Dduwdod priodol ein Harglwydd Iesu Crist," yr hwn a gyfansoddodd gyda'r amcan o wrthladd heresiau Ariaid a Sosiniaid, y rhai oeddynt luosog yn y parthau hyny. Yn 1838, symudodd i gylchdaith y Wyddgrug; ac ar ddiwedd yr un flwyddyn priododd Miss Elizabeth Williams, Aberystwith. Symudodd i Fanchester yn 1839, ac wedi llafurio yno am yn agos i ddwy flynedd, gorfu arno oherwydd ei afiechyd roddi y weinidogaeth i fynu, ac ymneillduo i Aberyswith. Yno adferwyd ef ychydig; ac yn 1844, ail ymaflodd yn ei waith, y pryd hwn ar gylchdaith Llanidloes. Yn y cyfamser, gwasanaethodd am flwyddyn fel gorchwyliwr cyfnodolion y Cyfundeb; ac yn 1845, gosodwyd ef yn olygydd yr *Eurgrawn Wesleyaidd*, yr hon swydd a ddaliodd am ychydig tros un flwyddyn. Gorfu arno eto ymneillduo; y tro hwn, byth i ddychwelyd mwy. Wedi dyoddef cystudd trwm a maith, bu farw yn dawel, Medi 12, 1847, yn Aberystwith.

EVAN EDWARD, o Greigiau'r Bleiddiau, ydoedd delynor a cherddor rhagorol yn ei ddydd. Y mae ei fedd i'w weled yn mynwent Ceryg y Drudion, ac ar y gareg englyn yn dynodi ei ragoriaethau.

EVANS (Edward), duwinydd enwog a anwyd yn Llanrwst yn 1582. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadegol y dref hono; a phan yn un-ar-bumtheg oed, cafodd ei dderbyn i Goleg Eglwys Crist, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A., a daeth yn bregethwr nodedig yn y brifysgol. Yn 1615, cyhoeddodd "Verba Dierum," neu Bregeth y Dydd ar ogoniant Duw, yn ffurf pedair pregeth neu ddarlith ar Salm xix. 2.—Wood's *Athen. Oxon.*

EVANS (Edward), bardd yn ei flodau rhwng 1600 a 1640.

EVANS (Edward) *(Iolo Gwyddelwern)*, oedd fardd llithrig a pharod ei awen. Ganwyd ef o fewn plwyf Gwyddelwern yn 1786, Gwneuthurwr prenau traed ydoedd wrth ei alwedigaeth. Gadawodd lawer o'i waith mewn llawysgrifau ar ei ol. Bu farw yn Stryd Clwyd, Rhuthyn, Mawrth 26, 1853. Claddwyd ef ger addoldŷ y Bedyddwyr, Llanfwrog; ac y mae englyn tarawiadol o'i gyfansoddiad ef ei hun yn gerfiedig ar gareg ei fedd.

EVANS (Parch. Edward), un o feirdd Cadair Morganwg. Ganwyd ef yn 1716. Derbyniodd ei addysg athrofaol yn ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin. Urddwyd ef yn weinidog perthynol i'r enwad hwnw yn 1772. Bu yn gweinidogaethu flynyddau yn nghapel Hen Dy Cwrdd, Heolyfelin, Aberdar. Yr oedd yn fardd o gryn fri, yn athronydd gwych; ac i'w ymdrechion ef ac un neu ddau eraill y gellir priodoli cadwedigaeth Cadair Morganwg rhag syrthio i ebargofiant. Bu farw ar y dydd hwyaf yn 1798—diwrnod a benodasid ganddo i gyfarfod ei gyd feirdd yn Nghadair Morganwg.—pan yn 82 oed; a chladdwyd ef yn mynwent eglwys plwyf Aberdar.

EVANS (Enoch), Bala, pregethwr hynod gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Wyr ydoedd i'r hybarch John Evans, Bala. Yr oedd llawer o bethau digrif, diniwaid, a phlentynaidd, yn perthyn iddo. Cadwai beth dirifedi o adar o bob math a rhywogaeth yn ei dŷ, ac eisteddai am oriau yn y gwynfydedd penaf i wrando arnynt yn canu. Yr oedd yn cael rhyw hyfrydwch mawr gyda bodau lleiaf a mwyaf diystyredig y greadigaeth fywydol; byddai gan bryf copyn afael neillduol ar ei feddwl; ac ymdroai allan o bob hydoedd wrth fyned i'w gyhoeddiadau

Digitized by Google

yn gwylio malwod a phryfaid genwair yn llwybreiddio i'w taith. Yr oedd yr ymdroadau hyn yn peri cryn anhwylusdod i'w frodyr crefyddol, gan y gorfodid hwy yn fynych i ddisgwyl E. Evans at ei gyhoeddiad, ac nid anfynych y byddai raid troi at "gyfarfod gweddi," gan y byddai amser y cyfarfod yn mhell drosodd cyn i'r falwoden gyrhaedd pen ei siwrnai. Yn ngwyneb y pethau hyn, penderfynodd un brawd roddi benthyg anifail iddo, fel y buasai uwchlaw y pechodau parod i'w amgylchu. Digwyddodd yr anifail fod yn ebol ieuanc lled nwyfus ac annghynefin â marchogwr, fel yr oedd y marchogwr yntau yn annghynefin ddigon a marchogaeth. Yn rhywle ar y daith, gwylltiodd yr ebol, a charlamodd ymaith, collodd y pregethwr ei het, syrthiodd ar wddf ei Begasus gan gofleidio y mwng, yr oedd pob peth yn diflanu ac Enoch yn credu ei bod hi ar ben arno; heibio'r capel lle yr oedd twr o bobl oddiallan yn yu disgwyl am dano, ond heibio nerth y carnau ag ef, "Holo!" ebe un, "I b'le'r ewch chwi?" "*Gofynwch iddo fo*," meddai'r pregethwr dychrynedig. Ni welwyd ef yn —— y noson hono, ond cyrhaeddodd adref rywbryd cyn y bore yn iach a dianaf. Er hyn oll, yr oedd yn Enoc Evans lawer o ragoriaethau amlwg fel pregethwr. Yr oedd yn ddarllenwr campus, yn ymadroddwr rhwydd a naturiol iawn, a'i faterion yn cynwys llawer o synwyr cryf a drychfeddyliau prydferth. Weithiau ni byddai ganddo bregeth yn barod, na hwyl i nyddu un yn fyrfyfyr wrth fyned yn mlaen, a'r pryd hwnw ni chlywid ei lais yn y pwlpud ond am ddeng munud neu chwarter awr. Pan oedd rhai cyfeillion crefyddol ar ymweliad ag ef yn ystod ei gystudd olaf, dywedai mewn ymddyddan y gallent wneud pobpeth tua'r capel heb Enoch—canu, gweddio, &c.,—ond dywedai, "Ni pherffeithir hwynt heb *poor* Enoch." Parhaodd i bregethu gyda'r Trefnyddion Calfinaidd hyd ei farwolaeth.

EVANS (Parch. Ellis), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Cefnmawr, Rhiwabon, a anwyd mewn lle a elwid Pig y Swch, yn ucheldir Penllyn, Meirion, Mehefin 22, 1786. Enw ei dad oedd Ellis Evans, ac ni wyddis fod ynddo ond ychydig ddawn neillduol at ddim ond adgyweirio hen ffyrdd a chynllunio rhai newyddion, ac enillai gryn lawer o arian wrth gymeryd ffyrdd newyddion, yn mhell ac agos. Ei fam ydoedd wraig gymydogol a hawddgar, yn meddu llawer o dueddiadau crefyddol. Dygwyd ef i fynu yn nghanol gwylltineb rhamantus Llanuwchllyn; a diamheu ddarfod i'r golygfeydd arddunol o'i gwmpas ddihuno ei athrylith yn fore. Gorfu arno droi allan yn ieuanc i wasanaethu gyda thyddynwyr mynyddig y parthau hyny, ac ysgol adfyd a chaledfyd a fu hyn iddo; a dyma yr unig ysgol a gafodd yn ei fro ei hun. Yr oedd Llanuwchllyn y pryd hwnw, mewn ystyr grefyddol, yn un o'r ardaloedd mwyaf uchel-freintiog yn Nghymru; ond nid oes sicrwydd pa un a oedd efe yn manteisio'r cyfleusdra i glywed y fath wyr â Charles o'r Bala, Dr. George Lewis, ac eraill cyffelyb. Tybir mai gwasgu at yr Annibynwyr a wnaeth ar y cyntaf; ond darfu i gyfres o ddigwyddiadau beri iddo neshau at y Bedyddwyr, y rhai nid oeddynt ond ychydig mewn rhifedi yn Llanuwchllyn; a thua'r fl. 1806, bedyddiwyd ef i aelodaeth eglwysig yn eu plith. Yn 1809, cawn ef yn dechreu pregethu, ac wedi bod yn efengyleiddio o gwmpas cartref am agos i ddwy flynedd, aeth i ysgol yn Fforddlas, yn Nyffryn Conwy, ac wed'yn derbyniwyd ef i athrofa y Fenni, yn Medi 1811, lle yr arosodd hyd Ebrill 1813. Ar ei ddyfodiad o'r Fenni, priododd un Miss Mary Jones, o'r Fforddlas, a bu am beth amser yn trigianu yn y gymydogaeth hono, heb ganddo yr un eglwys neillduol i ofalu trosti, eithr bob Sabbath yn pregethu yn

Digitized by Google

rhywle neu gilydd. Tach. 2, 1815, urddwyd ef yn weinidog ar dair o eglwysi bychain yn Llanefydd, Llansanan, a Llangerniw, sir Ddinbych; a dyma lle bu am yspaid pedair blynedd yn fawr ei bryder a'i llafur yn pregethu i ddyrneidiau o gynulleidfaoedd, ac yn cadw ysgol yn Llannefydd yn ystod dyddiau yr wythnos. Yn 1819, cafodd alwad i ddyfod yn weinidog ar eglwys y Cefnmawr; ac estynodd ei arosiad yno o hyny hyd 1864, Nid oedd y Cefnmawr yn enwog hyd ei ddyfodiad ef yno, ac nid oedd yntau yn enwog ychwaith cyn ei sefydliad yn Cefnmawr; ond yr oedd cyflawnder o ddefnyddiau cyfoeth yn yr ardal, a chyflawnder o ddefnyddiau enwogrwydd ynddo yntau. Ymroddes i wella moes y trigolion y rhai oeddynt anwaraidd ddigon, a bu i raddau helaeth yn llwyddianus; bwriodd olew ar ddyfroedd terfysglyd yr eglwys; llafuriai yn galed mewn amser ac allan o amser i geisio plygu yr anufydd, ac i gael y rhai cyfrgolledig adref; pregethai mewn manau bychain o gwmpas cartref, a dygai lusern yr efengyl yn ei law i fanau tywyll a barbaraidd. Bu yn foddion i sefydlu achos, ac adeiladu capel, yn Mrymbo; ac y mae wyth neu naw o gapelau yn sefyll yn awr yn hen faes ei lafur —yn ymestyn o'r Fron, wrth droed y Berwyn, hyd Frymbo. Yr oedd yn ymhyfrydu yn ngwaith y weinidogaeth; yn bregethwr duwinyddol a dyfn-dreiddgar; yn feddyliwr gwreiddiol, craff, a meistrolaidd; a thrwy ddyfalbarhâd a diwydrwydd, yn fwy na dim arall, llwyddodd i feistroli'r iaith Saesneg yn drwyadl; ac yr oedd ganddo gryn wybodaeth o'r iaith Roeg, ac ychydig ar y Lladin a'r Hebraeg. Cyhoeddwyd o'i waith,—1, "Llythyr Cymanfa Cefnmawr," 1828—y testun, "Unoliaeth a Gweledigrwydd yr Eglwys;" 2, Pregeth ar "Arddangosiad syml o syniadau gwahaniaethol, neu egwyddorion priodol, y Bedyddwyr Crediniol," 1829, o ba un y gwerthwyd rhai miloedd; 3, "Anogaeth i Athrawon ac Athrawesau ein Hysgolion Sabbathol, &c.," 1830. Ond ei brif orchestwaith llenyddol oedd "Hanes y Bedyddwyr;" eithr ni chyhoeddwyd ond y ddosran gyntaf ohono yn unig, am ba waith yr anrhydeddwyd ef gan un o golegau America â'r radd o D.D. Hefyd gohebodd lawer i *Greal* Aberteifi, i *Seren Gomer*, yr *Athraw*, y *Tyst Apostolaidd*, *Greal* Llangollen; a chyfansoddodd rai emynau melus, ac ychydig o englynion rheolaidd. Rhoddasai ei ofalon gweinidogaethol i fynu yn 1858, a neillduesid y Parch. A. J. Parry yn olynydd iddo, er hyny pregethai yn fynych hyd y diwedd. Bu farw Mawrth 28, 1864, yn 78 oed; wedi bod yn gweinidogaethu am 49 o flynyddau. Llawer o ffeithiau dyddorol allesid ychwanegu am y gwr hybarch hwn; ond gan fod *Cofiant* maith a medrus am dano newydd ei gyhoeddi gan y Parch. R. Ellis *(Cynddelw)*, ni byddai ond oferedd ini ychwanegu.

EVANS (Evan), *(Ieuan Glan Geirionydd)*, bardd penigamp a llenor galluog, a anwyd Ebrill 20, 1795, ar un o lethrau telaid a heulog Dyffryn Conwy, mewn ffermdŷ o'r enw Tan y Celyn, yn nghwr deheuol pentref Trefriw, ger Llanrwst. Yr oedd ei fam, Elizabeth Pritchard, yn byw cyn priodi gyda'i mam weddw yn Tan y Celyn, ac yr oeddynt yn amaethu y fferm ddywededig. Brodor o Ddyffryn Ardudwy, Meirion, oedd ei dad, Robert Evans, a saer llongau wrth ei alwedigaeth, a ddaethai i Drefriw i brynu coed ac adeiladu llong ohonynt. Y ddeuddyn hyn a briodwyd; ac yn fuan rhoddes R. Evans heibio ei grefft, gan gyflwyno ei holl amser i amaethu fferm Tan y Celyn; a chadwai wedd a gwagen i gludo nwyddau rhwng Trefriw a Chaerlleon gan ei dilyn fynychaf ei hunan, a gadael y tyddyn tan ofal gweision a gweithwyr. Fel hyn, yn ystod maboed y bardd, yr oedd ei rieni yn lled gryno

Digitized by Google

arnynt yn y byd. Cafodd hefyd ddygiad i fynu tra moesol. Yr oedd ei dad, er cyn ei ddyfodiad i Drefriw, yn aelod gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, ac arferai ddweyd am dano, "Yr oedd fy nhad yn dduwiol iawn;" ac am ei fam, hithau hefyd a fuasai aelod gyda'r un enwad er's blynyddau cyn priodi, ydoedd wraig synhwyrol a thra ymdrechgar i roddi esiamplau ac addysg dda i'w phlant, a chan mai "*Ifi*," fel y galwai ef, oedd ei hunig fachgen, efe oedd canolbwynt ei hymdrechion a'i gofal penaf. Yr oedd Robert Evans hefyd yn ysgolhaig gwych, yn dipyn o fardd emynol, ac yn llenor o gryn deilyngdod; a'i briod yn wraig ystyrbwyll a darllengar; ac o tan eu hamgylchiadau lled gysurus yn ystod mabolaeth eu hunig fachgen, nid yw yn debyg yr esgeulusent roddi ysgolheigdod eang iddo. Bu ar y cyntaf, gydag un Mr. Griffiths, yr hwn oedd yn cadw ysgol yn eglwys Trefriw. Ar ol hyny, danfonwyd ef i Ysgol Rad Llanrwst. Ni wyddis pa hyd y bu yno: ond ar ei ymadawiad, gallai gyfansoddi Saesneg yn lled rwydd, ac yr oedd yn gryn Ladinwr. Nid ymddengys ei fod nemawr o flaen ei gydysgolheigion mewn dysg, nac ar ol iddynt mewn direidi chwareus a diniwaid. Wedi gadael yr ysgol, bu adref am rai blynyddau yn cynorthwyo ei dad, gan weithio ar y tir a chanlyn y wedd. Yn y cyfamser, daeth anffodion yn llu i gyfarfod amgylchiadau ei rieni; aeth y gwaith o gludo i Gaer yn llawer gwaelach, a chodwyd ardreth Tan y Celyn gan rhyw stiwardiaid bryntion a ddaethent i Wydir fel nas gallai neb cyffredin dalu am dano. Er hyny, glynai ei rieni wrth hen gartref eu hynafiaid; ac ni fynent ei roddi fynu nes yr amharwyd llawer ar eu hamgylchiadau, ac y gwelent o barhau felly ddinystr llwyr yn tremio o flaen eu gwyneb. Daethant o'r diwedd i'r penderfyniad, er mor annymunol, o'i daflu i fynu oddigerth un cae a pherllan, a buont felly mewn amgylchiadau lled gyfyng am rai blynyddau drachefn. Tua diwedd 1816, aeth Ieuan i Talybont i gadw ysgol ddyddiol, a diamheu mai yr amser hwnw y meddyliodd o ddifrif gyntaf y "gellid bardd o honaw." Yr oedd wedi gwneud ychydig benillion, ac ambell englyn, cyn hyny; ond dim gwerth son am dano. Tra yn Nhalybont, y cyfansoddodd ei "Awdl ar farwolaeth y Dywysoges Charlotte," yr hon a enillodd y tlws yn Eisteddfod Llanelwy yn 1818. Tua'r un amser hefyd y cyfansoddodd awdl ar "Farwolaeth Charles o'r Bala;" ac amryw ddarnau eraill. Yn 1818, gadawodd Dalybont, ac aeth i Gaerlleon at y Parch. John Parry, i gyfieithu Boston ar *Bedwar Cyflwr Dyn*, ac i'w gynorthwyo yn ngolygiaeth misolyn a gyhoeddai o'r enw *Goleuad Gwynedd*. Hefyd, yn ystod y ddwy flynedd y bu yn Nghaer cyfansoddodd lyfr ar Brynedigaeth neillduol, mewn ffordd o atebiad i gyfrol o bregethau a gyhoeddesid a waith y Parch. Samuel Davies ar Brynedigaeth gyffredinol. Atebodd Mr. Davies drachefn; ond ni ddaeth Ieuan allan eilwaith yn uniongyrchol, eithr ar gais Parch. John Elias ac eraill, cyfieithodd bedair pregeth o waith y Parch. J. Harrison ar y pwnc mewn dadl. Dywedir fod darllen gwaith Dr. Williams, Rotherham, flynyddau ar ol hyn, wedi cyfnewid barn Ieuan ar Brynedigaeth i raddau helaeth; ac y mae awdwr "Cofiant Samuel Davies," yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd*, yn awgrymu yn ddigon diamwys nad oedd dim fynai Ieuan â'r gwaith ond mewn enw yn unig—gan mai y Parch. John Parry ei hun oedd yr awdwr. Dychwelodd adref o Gaerlleon yn glaf, lle yr arosodd am rai misoedd, yn ystod yr hwn amser cyfansoddodd "Awdl Hiraeth Cymro am ei Wlad," ar gyfer Eisteddfod Gwrecsam, a "Chywydd y Bedd." Bu am agos a ddwy flynedd heb wybod mai ei awdl a enillasai yn Llanelwy, trwy nid

Digitized by Google

anfonasai ddim hysbysrwydd gyda hi i'r gystadleuaeth ond yn unig y ffugenw *Plorator.* Ychydig cyn Eisteddfod Gwrecsam y clybu mai efe oedd y buddugwr; ac yno y derbyniodd y wobr o law Arglwydd Mostyn. Dylem nodi un weithred o'i eiddo yn yr amgylchiad hwn ag sydd yn adlewyrchu clod mawr ar ei serchiadau mabol. Pan y gofynwyd iddo pa un oreu ganddo ai arian ynte tlws, atebodd yn wylaidd fod ganddo rieni y dymunai allu eu cynorthwyo, ac oblegyd hyny y buasai yn well ganddo gael yr arian. Enillodd trwy y geiriau barch ac edmygedd gan bawb ag oedd yn bresenol yn eu clywed. Ymddengys mai efe oedd arwr Eisteddfod Gwrecsam; edrychid arno fel bardd newydd addawol iawn oblegyd ei berthynas â'r ffugenw *Plorator;* edmygid ei wyleidd-dra bachgenaidd a'i ragofal canmoladwy am ei rieni; a phan gododd i fynu i hawlio'r wobr am yr awdl oreu ar "Hiraeth Cymro," torodd y cyfarfod allan mewn banllefau byddarus o gymeradwyaeth. Rhoddwyd yr ysnoden am ei wddf gan Miss Angharad Llwyd; ac nid oedd efe pan gyfansoddodd yr awdl ardderchog hono ond 25 oed. Yr oedd llawer o'r boneddigion yn y dyddiau hyny yn dadlu yn wresog am gael dynion ieuainc duwiol ac athrylithgar o blith yr Ymneilldwyr i lenwi'r offeiriadaeth; a gwelent yn Ieuan ddefnydd dyn da a gobeithiol. Cynygiwyd y mater i'w sylw, ac addawodd Richards o Gaerwys, Jenkins Ceri, ac eraill, roddi iddo bob cynorthwy. Yntau a ymgynghorodd â'i rieni, ac âg eraill megys John Elias, Richard Llwyd, &c., a chynghorwyd ef yn unfrydol i dderbyn y cynygiad, gan y gallai hyny fod yn fanteisiol iddo ef ei hun a'i deulu, ac yn gyfleusdra iddo fod o ddefnydd yn ngwinllan Duw. Felly, gwnaed darpariadau iddo fyned rhagddo; a threfnwyd ar iddo fyned am yspaid at y Parch. Mr. Richards, i Aberriew, sir Drefaldwyn, yr hyn a wnaeth tua diwedd 1820. Tra yn Berriew, cyfansoddodd ei "Awdl Ymweliad y Brenin Sior â Mon," i ymgystadlu am y wobr gynygiedig yn Eisteddfod Caernarfon, yr hon a gollodd bob hawl am y flaenoriaeth oherwydd ei bod yn cynwys mwy na thair gwaith cymaint o linellau ag a ofynid yn yr hysbysiad. Ysgrifenodd draithawd ar Wladgarwch, i ymgystadlu am wobr Cymrodorion Llundain, am yr hwn y derbyniodd y wobr yn Rhagfyr, 1821. Cyfansoddodd anerchiad grymus a gwladgarol, i'w ddarllen ar agoriad Eisteddfod Gwent. Enillodd wobr Syr Charles Morgan am y chwe' englyn byrfyfyr goreu ar "Theophilus Jones, hanesydd Brycheiniog," yn Eisteddfod fawr Aberhonddu, Medi 25 a 26, 1622. Nid ydym yn gwybod a oedd efe yn ymgeisydd am rai o'r prif destynau yn yr Eisteddfod hon ai peidio. Cyfansoddodd draithawd ar "Fôr-ladrad," eithr y Parch. S. Roberts, Llanbrynmair, a enillodd y gamp; a chyfaddefai Ieuan yn ddigon hunanymwadol fod S. R. wedi tra ragori arno ef yn y gwaith. Y mae darnau barddonol o'i waith ar gael, yn ei lawysgrifen pan yn ieuanc, ar "Farwolaeth Picton," ac "Ymadawiad Goronwy â Mon;" ond nid yw yn hysbys pa un a fu efe yn cystadlu ar y testunau hyn ai peidio. Ar ol gadael Berriew, aeth i goleg St. Bees, Cumberland, a bu yno hyd ddiwedd 1825, pan y dychwelodd adref drachefn i Drefriw. Arosodd yno amryw fisoedd, yn disgwyl galwad i gael ei urddo; ac y mae yn alarus adrodd mai gwaith rhyw adyn cynfigenus yn ysgrifenu at yr esgob i gamgyhuddo y bardd o barth ei syniadau ar rai pynciau crefyddol, fu achlysur yr oediad hwn. Ond chwythodd y gafod heibio, gwellhaodd y claf, a chafodd ei alw gerbron Esgob Caerlleon yr hwn oedd ar y pryd yn Llundain, i gaal ei arholi. Derbyniodd ei urddau i'r swydd eglwysig, a thrwydded i ddarllen y gwasanaeth Cymraeg yn

Digitized by Google

eglwys St. Martin, Caerlleon, Chwef. 19, 1826. Cafodd guradiaeth Christleton yn Rhagfyr yr un flwyddyn. Bu yn darllen yn y ddau le, yn Christleton y bore, ac yn Nghaerlleon yr hwyr am amryw flynyddau. Wed'yn rhoddes y lle olaf i fynu, gan ymfoddloni ar y llall yn unig, yr hwn a ddaliodd hyd Ebrill 21, 1843, pan y symudodd i guradiaeth barhaus Ince. Tra yn aros yn Christleton cyfansoddodd luaws mawr o emynau; yno hefyd y cyfansoddodd ei awdlau ar "Wledd Belshassar" a "Chantre'r Gwaelod." Cyhoeddodd ddau gasgliad o emynau; y cyntaf at wasanaeth eglwys St. Martin, a'r llall, y "Caniedydd Eglwysig," at wasanaeth eglwys yn Nghymru; a'r ddau yn cynwys nifer mawr o hymnau o'i waith ef ei hun. Ysgrifenai gryn lawer i'r *Gwyliedydd*, misolyn a gyhoeddid yn y Bala; ac yn 1831, yr oedd yn ysgrifenu iddo hanes brwydr Waterlw. Yn y cyfamser, bu farw ei fam, a danfonodd yntau lythyr byr i'r *Gwyliedydd* ar ei marwolaeth; ond ni welodd y golygydd yn dda roddi i mewn ohono ond y ffaith foel fod y fath ddigwyddiad wedi cymeryd lle. Archollodd hyn deimladau Ieuan i'r fath raddau fel nad ysgrifenodd mwyach i'r cyhoeddiad, ac felly gadawodd hanes Waterlw yn anorphenedig. Dengys hyn y fath deimladau llednais oedd ganddo, ac mor hawdd ydoedd eu harcholli parth ei garedigion. Mai 5, 1829, priododd â Miss Wilson, Vicar's Cross, yr hon oedd foneddiges rinweddol a chyfoethog; ac i'r undeb hwnw, yn fwy na dim dyrchafiad eglwysig, y gellir priodoli y gwasanaeth mawr a wnaeth i'w wlad a'i genedl. Yn 1830, gyrodd gylchlythyr at esgobion Cymru, yn erfyn eu nawdd a'u cymhorth i ddwyn allan yn Nghymraeg gyhoeddiad tebyg i'r *Saturday Review* yn Saesneg; a chafodd ei "oddef i ddwyn allan y fath gyhoeddiad, os ceid lle i ddisgwyl y byddal hyny o wir leshâd." Mewn canlyniad, dechreuodd gyhoeddi y *Gwladgarwr;* eithr wedi tair blynedd o olygiaeth na bu eu gwell ar gyhoeddiad Cymreig erioed, a thair o golledion arianol cyson, trosglwyddodd yr hawlfraint arno Mr. Edward Parry, Caerlleon, awdwr y *Royal Visits*. Er hyny, ni thynodd efe ei ysgwydd oddiwrth yr olwyn, gellir ei restru yn mhlith ei ohebwyr mwyaf cyson; efe oedd awdwr y gyfres o lythyrau a ymddangosasant yn y *Gwladgarwr* ar gerddoriaeth tan yr enw *Peryddon;* a dywedir mai y gwersi eglur a difyrus hyny a fuont yn foddion i ddeffro archwaeth pobl y chwarelau at gerddoriaeth; yr hon archwaeth, yn ail i reddf, sydd yn eu hynodi eto. Yn 1838, cyhoeddodd gasgliad o donau at wasanaeth yr addoliad cyhoeddus, dan yr enw "Seraph," yr hwn a ystyrid y pryd hwnw y goreu yn y Gymraeg; eithr oherwydd ychydiced nifer dynion o chwaeth gerddorol, bu yr anturiaeth yn golled arianol iddo. Ni throdd ei lafur gwladgarol gyda chyhoeddiad a golygiad "Y Bibl Darluniadol," allan yn nemawr gwell. Er iddo ef, gyda'i gyfaill galluog Erfyl, ymdrechu ymdrech deg am dymhor maith, ac iddo wario amryw ganoedd o bunau yn yr anturiaeth, aeth y llyfr gwerthfawr hwnw cyn ei orpheniad i ddwylaw y cyhoeddwr, a gadawyd Ieuan yn unig fel golygydd taledig. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o'r "Bibl" yn 1844; yr ail, yn 1847; a'r drydedd yn 1850, yr hon a derfyna gyda Llyfr Malachi. Yn lled fuan ar ol hyn, bu farw ei briod, yr hyn oedd yn brofedigaeth chwerw iddo, a lethodd ei feddwl tyner yn lân, ac a anmharodd ei iechyd yn fawr. Yn ngwyneb parhad ei ofidiau, daeth i'r penderfyniad o roddi ei swydd i fynu yn Ince, ac ymneillduo i'w fro enedigol i dreulio gweddill ei oes mewn tawelwch. Ond cyn dilyn ei gamrau yno, rhaid crybwyll eraill o gynyrchion ei athrylith tra yn Ince. Ysgrifenodd draithawd bychan

Digitized by Google

mewn ffordd o wrthdystiad yn erbyn uno esgobaethau Bangor a Llanelwy, gan ddangos afresymoldeb yr amcan, a'r camwri a wneid â'r genedl trwy hyny, mewn ffordd o adolygiad ar adroddiad dirprwywyr y Llywodraeth oeddynt wedi bod yn chwilio i ansawdd yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru, dan y teitl, "*The claims of the Church in North Wales*," 1843. Ysgrifenodd hefyd lawer ar wahanol amserau, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar "*Causes of Dissent in Wales.*" Ychydig o farddoniaeth hyd y gwyddom, a gyfansoddodd yn ystod y cyfnod tan sylw—y Casgliad o Emynau, y cyfeiriwyd ato eisoes; "Hynt y Meddwyn;" "Pryddest yr Adgyfodiad;" a "Galarnad" ar ol ei wraig, ydynt y cyfan. Ar ei ymadawiad o Ince yn Nhachwedd 1852, sefydlwyd blwydd-dal o £100 arno tra y byddai byw, fel arwydd o barch iddo, a chydnabyddiad am ei lafur bendithfawr yn y lle. Symudodd i Drefriw, lle y bu am tua deunaw mis—un rhan o ba rai a dreuliodd efe yn ei wely yn glaf iawn, a'r llall mewn ymdrechion clodwiw i sefydlu cymdeithasau elusenol er budd y dosparth tylottaf o'r pentrefwyr, a llwyddodd i gael gan Arglwydd Willoughby a boneddigion eraill i roddi eu nawdd a'u hachles i'r cyfryw gymdeithasau. Tra yn dihoeni ar wely cystudd tua'r amser hwn y cyfansoddodd ei ganig dlos "Glan Llyn Geirionydd," a'i emyn melys "Yr Ochr Draw;" ac ar ol dechreu iachau, ysgrifenodd gyfansoddiad barddonol i'r ieuenctyd, yr hwn a fwriadai gyhoeddi yn llyfryn bychan. Ni wyddis ddim o hanes y gwaith hwn yn awr, ond yn unig ei fod wedi ei ysgrifenu, ond heb ei gyhoeddi. Tystiai un o'i gyfeillion barddonol mai dyna y peth oedd fwyaf tan sylw ei awen ar y pryd, ac y cymerai ei rodfa yn fynych tua godreu Gallt yr Ysfa, gerllaw Trefriw, gyda glasiad y bore, er cyfansoddi darnau o hono. Yn mis Gorphenaf 1854, symudodd Ieuan i Rhyl i wasanaethu fel curad y lle am £80 yn y flwyddyn. Dechreuodd yn ymdrechgar wneud diwygiadau canmoladwy yno, a disgwyliai fod blynyddau o gysur ar ei gyfer. Cyhoeddodd Lyfr Hymnau at wasanaeth yr eglwys, mynodd ei goleuo â nwy, a gwelliantau eraill a wnaeth. Ond wedi bod ohono chwe mis yn Rhyl, a phan yn mwynhau ei gynefinol iechyd, cyfododd math o benddüyn, a elwir *carbuncle* ar ei wegil, yr hwn yn ddiarwybod iddo ef ei hun a'i gyfeillion, a drodd allan anfeddyginaethol mewn byr amser; a'r 21ain o Ionawr, 1856, pan yn driugain oed, bu farw, yn Rhyl. Dygwyd ei weddillion marwol y dydd Gwener canlynol i'w claddu yn mynwent Trefriw, mewn beddgist brydferth o dywodfaen naddedig, yn cael eu hamgylchu gan reiliau haiarn, wedi eu planu mewn cylch hirgrwn o geryg nadd, a adeiladwyd yn ol ei gynllun a than ei gyfarwyddyd ef ei hun, yn fuan ar ol marwolaeth ei fam. Y mae pedair o feddgelloedd dan y gistfaen, wedi eu gweithio yn ystlysau eu gilydd, ag agoriad gwahanol i bob un, o'r pen dwyreiniol. Yr ydoedd wedi darparu y ddwy gell ganol i gynwys ei hoff rieni; a'r ddwy arall—un iddo ei hun, ar y naill ochr i'w rieni, a'r llall i'w wraig, ar yr ochr arall.

O ran agwedd gorphorol, dyn canolig o daldra oedd Ieuan, o bryd goleu, a'i gernau yn tueddu cryn lawer at y cringoch. Chwareuai bywiogrwydd a threiddgarwch ar gil ei lygad; yr oedd o ran ymddangosiad yn gwbl ddirodres, ac ar yr un pryd, yn mhob ystum a gwedd, yn berffaith foneddigaidd. Er hyny nid oedd dim yn ei agweddiad allanol yn rhagori ar ddynion eraill. Fel y dywed ei fywgraffydd:—"Yr oedd cuddiad ei gryfder ef yn ngrlluoedd ei feddwl, yn hynawsedd ei deimlad, yn nisgleirdeb ei dalent, yn nilysrwydd ei ddybenion, ac yn mhrydferthwch ei ymarweddiad, yn hytraeh nag yn ffurfiad ei

Digitized by Google

gorph." Y mae yr un ysgrifenydd hefyd mewn cryn betrusder yn mha ddosparth o feirdd i'w restru; ond tybiem ei fod yn aelod anrhydeddus o chwe' dosparth, o leiaf: yn edmygu y mawreddus, ond yn ymddigrifo ac yn *dotio* ar y tlws a'r prydferth; ei Awen mewn cymod heddychol â Rheswm, ond yn dra chyfeillgar gyda'r Teimlad, yn deall ei holl ysgogiadau yn dda, ac yn gallu siarad ag ef bob amser a than bob amgylchiad, mewn cynghanedd cystal ac mewn mesur rhydd. Ei brif nodwedd fel bardd oedd amrywiaeth a chyfoeth ei arddulliau, ac ymddengys mor gartrefol a meistrolgar yn y naill a'r llall. Yn yr arddull *Arwrol*, ceir ei "Wledd Belsassar," a "Syr Thomas Picton," y flaenaf yn cael ei chyfiawn restru gyda chynyrchion goreu yr awen Gymreig; yr hon a enillodd i'w hawdwr gadair Powys yn Eisteddfod Dinbych 1828; a dywedai y beirniaid, Aneurin Owen, Ysw., a Gwallter Mechain, am dani, fod y darluniad a roddir ynddi o ddychryn parlysog y brenin cableddus wrth weled y llun llaw ar galchiad y pared, yn ddigon i enill y wobr. Yn yr *Addysgiadol*, ceir y bryddest ar yr "Adgyfodiad," a "Chywydd y Bedd," y flaenaf a enillodd Gadair Rhuddlan yn 1850, a gyhoeddwyd yn fuan ar ol hyny, a gafodd ddarlleniad helaeth; a diau ei bod yn mhlith y pethau goreu a gyhoeddwyd yn Nghymraeg tan yr enw *Prydlest*. Yn y *Digrifol*, ceir "Morgan a'i Wraig;" yn y *Fugeiliol*, "Bugail Cwmdyli;" yn y *Delynegol*, "Hynt y Meddwyn;" ac odid y ceir o fewn holl faesydd llenyddiaeth yn y tri dosparth crybwylledig dri darn barddonol a ragorant ar y tri hyn. "Morfa Rhuddlan" eto sydd ddysgrifgân fer, alaethlawn o deimlad byw, yn cynwys y portreadau mirlwrol mwyaf tarawiadol a nerthol; ac y mae "Awdl Hiraeth Cymro am ei Wlad," yr hon a enillodd gadair Eisteddfod Gwrecsam, yn llawn o fân ddarluniau hynod o gelfyddgar a swynol. Ond pa faint bynag o boblogrwydd a gyrhaeddodd yn y dosparthiadau blaenorol, nid yw ond ychydig mewn cydmariaeth i'r hyn a enillodd yn y dosparth *Emynol*. Cyfansoddodd tua deugain o Emynau, eithr ni chyfansoddodd ond ychydig nad yw y wlad wedi eu cipio i fynu a'u hargraffu ar lecyn mwyaf cysegredig eu cof, ac yn eu defnyddio i drosglwyddo eu meddyliau o fawl neu erfyniad at Dad y trugareddau; ac fel y dywedai y Cadflaenor Wolfe, "y mae cyfansoddi un emyn teilwng yn gymaint gorchest ag enill Quebec." Yr oedd Ieuan yn GERDDOR medrus hefyd. Ceir amryw donau yn y *Geirionydd* o'i waith, yn nghyda thraethawd lled faith yn egluro ansawdd a deddfau cân; a chyhoeddodd gasgliad o donau cysegredig tan yr enw "Y Seraph." Yn wir, nid oes odid gangen o wybodaeth na bu efe yn ymhywaith â hi, ac na ddygodd oddiarni naill ai blodeu ai ffrwythau i'w gosod yn arlant o gylch arlais llenyddiaeth ei wlad. Gweler yn mhellach *Geirionydd*, cyhoeddedig gan Gwilym Cowlyd.

EVANS (EVAN), Waenfawr, Arfon, oedd fab i un Thomas Evan, o'r un lle. Yr oedd yn bregethwr ieuanc o'r fath fwyaf gobeithiol o ran talentau gweinidogaethol yn nyddiau boreaf y Methodistiaid Calfinaidd. Llewyrchodd yn ddisglaer iawn am dymhor byr. Nodir am un oedfa hynod iddo, yr hon a gynelid yn yr awyr agored mewn lle o'r enw Aber-bach-awyr, sir Gaernarfon. Ar ganol y cyfarfod, duodd yr awyr gan gymylau, a disgynodd gwlaw trwm iawn ar y bobl. Ar hyn, gweddiodd y pregethwr, gan ddywedyd, "O Arglwydd, Creawdwr a Llywodraethwr pob peth, dyro seibiant am ychydig amser i gynghori hyn o bobl sydd a'u hwynebau ar y byd tragwyddol." Yn y fan, ataliwyd y gwlaw; ac er y dichon nad oedd hyn ond cydgyfar-

Digitized by Google

fyddiad damweiniol deisyfiad âg un o ddeddfau natur, cafodd effaith ryfedd ar bawb oedd yn bresenol. Cofnodir yn *Meth. Cymru* ii. 253, iddo gael ei erlid pan yn traddodi un o'r pregethau cyntaf a draddodwyd erioed mewn lle o'r enw yr Achyb, yn mhlwyf Llanllechyd. I'r oedfa hono, daethai tri o ddynion gyda'r unig amcan o aflonyddu ac erlid. Cododd un o'r tri ddyrnaid o laid y ffordd, a tharawodd y pregethwr ag ef. Eithr gwraig yr erlidiwr a'i ceryddodd, gan ddywedyd, "Oni welwch chwi Feibl Santaidd Duw yn nghesail y gwr, wrth yr hwn y bernir ni yn y dydd olaf?" ar hyny, peidiodd y terfysg. Ond buan y rhedodd gyrfa y gweithiwr galluog a gobeithiol hwn i ben. Tua dechreu 1796, enciliodd er mwyn ei iechyd i ardal Llanidloes; a bu yno yn ymdaith am yspaid blwyddyn, gan ymdrechu gwneuthur hyny o ddaioni a ganiateid iddo gan ei natur lesg a methedig, ac yno y bu farw Chwefror 13, 1797.

EVANS (Hugh), brodor o sir Faesyfed, ac un o'r pregethwyr boreaf gyda'r Bedyddwyr yn Nghymru. Pan yn lled ieuanc, symudodd i Worcester, lle yr arosodd am rai blynyddau; a phan dorodd y Rhyfel Cartrefol allan, symudodd i Coventry. Yno cafodd eglwys o Fedyddwyr; mabwysiadodd eu hathrawiaethau; ac ymunodd fel aelod â hi. Cymerodd hyn le naill ai yn 1642 neu 1643. Trodd allan yn ŵr ieuanc difrifol, duwiol, ac o dalentau gobeithiol; a'i frodyr yn fuan a'i hanogasant i ymroddi i'r weinidogaeth gyhoeddus. Hyny a wnaeth, er eu llwyr foddlonrwydd. Tynwyd ei sylw at angenion ysprydol gwlad ei enedigaeth, yr hon oedd weithian yn gorwedd mewn dwfn a dygn anwybodaeth am bethau efengyl, a phenderfynodd gyflwyno nerth a llafur ei oes at ei gwasanaeth. Nid oedd y pryd hwnw namyn dwy eglwys neu dair perthynol i'r Bedyddwyr yn Nghymru benbaladr, ac ychydig oedd nifer eu pregethwyr. Ei gyfeillion a roddasant bob cefnogaeth i'w fwriadau gwladgarol; eithr barnasant mai amgenach fuasai rhagor o ddysg a gwybodaeth iddo. Mewn canlyniad, dodwyd ef tan addysg un Jeremiah Ives, ysgolor gwych, a gwr a ymenwogodd ar ol hyn fel un o ddadleuwyr craffusaf a chywreiniaf ei oes. Wedi gorphen y tymhor apwyntiedig gyda Mr. Ives, wynebodd ar faes ei lafur, gan ddechreu ar ei waith o ddifrif. Cymerodd hyn le yn 1646 neu 1647, pan nad oedd efe ond tua 30 oed. Prif a puenaf faes ei lafur oeddynt siroedd Maesyfed a Brycheiniog; y mae yn debyg mai teithio yr ydoedd o'r naill fan i'r llall tan nawdd ac yn ngwasanaeth y "Dirprwywyr er lledaeniad yr Efengyl yn Nghymru." Cyhuddir ef gan Walker o dderbyn tâl gan ei wrandawyr, yn ychwanegol at y cyflog a dderbyniai gan, ac yn groes i reolau, y Dirprwywyr crybwylledig; tra y mae Richards, yn y *Cambro-British Biography*, yn ei esgusodi am wneud hyn trwy ddweyd gan ei fod yn cyflawni gwaith *dau* o leiaf, y dylasai dderbyn cyflog *dwbl*. Tybia yr awdwr olaf mai efe a fedyddiodd yr enwog Vavasor Powel; ac nad oedd pobl ei ofal yn arfer canu o gwbl yn yr addoliad cyhoeddus, ond yn unig wrth Fwrdd yr Arglwydd. Bu farw yn 1656, a thybir nad oedd wedi cyrhaedd llawn ddeugain oed. Fel y gallesid disgwyl, yr oedd ganddo lawer o elynion; ond prin y gallesid meddwl y buasai y Crynwyr yn mhlith y rhai chwerwaf o'r cyfryw. Ond yr ydym yn cael un ohonynt, o'r enw John Moon, yn cyhoeddi llyfr yn cynwys yr ensyniadau mwyaf enllibus yn ei erbyn, ac yn ei alw "The blind Welsh Priest of Radnorshire;" daeth dau o'i gyfeillion yntau, allan trwy y wasg i amddiffyn ei gymeriad a'i goffadwriaeth, o'r enw John Price o Faesygelli, Maesyfed, a William Bound,

Digitized by Google

o'r Garth, sir Drefaldwyn. Amddiffynent ef fel dyn gonest, ymdrechgar, a llafurus yn ngwasanaeth ei Arglwydd; ac oddiar eu hadnabyddiaeth bersonol ag ef, tystient nad oedd glafoer anwireddus a chynllwynol ei gaseion, ond ewyn eu heiddigedd annuwiol tuag ato fel gwas llwyddianus i Iesu Grist.

EVANS (Parch. Hugh), Bristol, oedd fab i'r Parch. Caleb Evans, gweinidog gyda'r Bedyddwyr. Ganwyd ef yn y Gelli, sir Frycheiniog, yn 1712. Tua 1730, ymsefydlodd yn Mristol fel cynorthwywr i Mr. Foskett yn yr athrofa oedd dan ei ofal, ac fel gweinidog cynulleidfa y Bedyddwyr yn Broadmead; ac ar farwolaeth y gwr hwnw Mr. Evans a gymerodd ei le. Bu farw yn 1781, yn 69 oed, a chladdwyd ef yn Broadmead, lle y rhoed maen ac arno goffa Lladin ar ei fedd. Cyhoeddwyd amryw bregethau unigol o'i waith.—*Lleyn MSS.*

EVANS (James), ac a elwid *Iago Glan Ceri*, ydoedd o Gapel Gwnda, yn mhlwyf Troed-yr-Aur, ger Castellnewydd-Emlyn. Yr oedd yn fardd gweddol dda; ond yn hynafiaethydd rhagorol. Yr oedd yn hollol hyddysg yn hanes ei wlad; yn ddarllenwr annghyffredin; a meddianai gof annghydmarol. Bu farw yn 1851, yn 38 oed.

EVANS (Parch. John), o New Inn, neu o Lwynffortun, pregethwr rhagorol, ac un o'r Offeiriadon Methodistaidd hyny, a adawsant gymaint o'u hol, mewn ystyr foesol a chrefyddol, ar genedl y Cymry. Ganwyd ef Hydref, 1779, mewn ffermdy o'r enw Cwm Gwen, plwyf Llanfihangel Ieroth, sir Gaerfyrddin. Enw ei dad oedd John Evans; ei fam, Rachel. Yr oedd y blaenaf yn ddiacon gyda'r Annibynwyr yn eglwys Pencadair; eithr ymddengys mai anwylun ei fam oedd efe, yr hon oedd wraig dduwiol iawn, ac yn cymeryd pleser mawr wrth feithrin y cyffelyb anianawd yn ei hanwyl a'i hunig fachgen. Yr oedd ei dad yn ddyn cyflym a gwresog ei dymher, a phryderus ei feddwl; tra yr oedd ei fam yn ddynes addfwyn a boddlon—cydweddol a chyfaddasol i lywodraethu tymherau araf y bachgenyn gwerthfawr a ymddiriedodd Rhagluniaeth i'w gofal. Yr oedd hithau er yn ieuanc yn aelod gyda'r Annibynwyr, a chyda'r enwad hwnw y bedyddiwyd yntau. Yr oedd fel pe buasai wedi ei "sancteiddio o'r groth," i waith pwysig y weinidogaeth. Ei sobrfryd a'i ddwysder teimlad a luddiai iddo gael ond ychydig ddyddanwch yn chwareuon ei gyfoedion; a phan yn dychwelyd adref o'r ysgol yn eu cwmni mynych yr ymneillduai oddiwrthynt, ac y ceid ef wrtho'i hun yn gweddio neu yn pregethu. Yr oedd yn rhagori mewn dysgu ar ei gydysgolheigion oll pan fyddai yr hwyl hono arno; ond ar brydiau gorchfygid ef gan rhyw brudd-der dwfn, ac ni fyddai ganddo na chwaeth na medr i ddysgu dim. Llyncid ei feddwl mor llwyr gan ei fyfyrdodau, a'r fath oedd ei ddiofalwch am bethau y byd hwn, fel y tystir nad oedd yn adnabod hyd yn nod anifeiliaid ei dad. Myfyriai lawer hefyd yn nghyfraith yr Arglwydd; a'i holiadau mynychaf fyddent beth fyddai ystyr y *gair* a'r *gair*. Nid oedd iddo frawd, na chwaer ond un, a phan ddaliodd hono unwaith yn dweyd anwiredd ceryddodd hi yn chwerw, yr hyn a brawf y parch a goleddid yn ei feddwl plentynaidd at "Dduw y gwirionedd, ac heb anwiredd ynddo"—"y digelwyddog Dduw." Dywedai yn ddifrifol iawn wrth ei chwaer ambell waith, "Peidiwch a bod yn draws i mi, onide fe ddigia'r Nefoedd wrthych." Medrai ddarllen pan yn bedair blwydd oed; a phan yn lled ieuanc, danfonwyd ef am addysg i Bencadair at un Mr. Evans, offeiriad. Wedi hyny, bu gyda Mr. Jones, mab Maes y Noni,

Digitized by Google

yr hwn oedd ŵr ieuanc wedi ei ddwyn i fynu yn Rhydychain, ac ar y pryd yn addysgu ychydig ysgolheigion yn nhŷ ei dad. Cafodd lawer o wybodaeth a llawer o garedigrwydd gan y boneddwr hwn. Yr oedd y ddau yn deall eu gilydd yn dda, canys yr oedd mab Maes y Noni, fel mab Cwm Gwen, yn dyoddef yn fynych gan bruddglwyfedd, ac nid ychydig oeddynt y breintiau a'r rhyddid a ganiateid iddo gan ei athraw cydymdeimladol. Tan ei ofal ef y dysgodd Ladin, Groeg, a chryn lawer o Hebraeg. Yr oedd medr naturiol ynddo i ddysgu'r ieithoedd dysgedig; ond, fel llawer eraill hynod am syniadau meddyliol dyrchafedig, nid oedd ei allu i feistroli deddfau rhif a mesur ond bychan ac anmherffaith. Ni pherthyn i ni yma olrhain athroniaeth y meddwl i'r gyfrinfa fod yn bosibl i ddyn ymddifyru cymaint yn mynwent yr ieithoedd meirwon, tra nad oes ganddo y chwaeth leiaf at lecynau diamrywiol rhifyddiaeth. Ond rhai felly oeddynt Coleridge, Byron, Foster, Christmas Evans, a llawer eraill. Pan yn 19 oed, aeth i athrofa Caerfyrddin, y pryd hwnw tan ofal y Parch. D. Peters; a dianmheu iddo gynyddu llawer yno hefyd. Un tro, pan nad oedd neb yn digwydd bod yn y lle ond John ei hunan, daeth yr athraw i mewn yn ddamweiniol, a chafodd ei ddysgybl ieuanc wrth ei hoff waith o bregethu yn anwyl, "John, John, pa le y mae y gwrandawyr?" "Nid wyf yn gwybod yn siwr, *my dear sir*, eu colled hwy yw hyny." Y mae yn anhawdd gwybod pa bryd y dechreuodd bregethu, cystal a pha bryd y dechreuodd ofni Duw; tebygol ddarfod iddo dechreu'r blaenaf, gyda'i fod yn gallu parablu, a'r olaf pan allodd amgyffred ei fam yn traethu fod y fath Fod Mawr i'w ofni a'i addoli. Y mae rhywbeth yn ddyeithr o gylch dechreuad ei broffes gyhoeddus. Yr oedd ei dad, er yn dal swydd gyda'r Annibynwyr, wedi rhoddi ei fryd ar ddwyn ei fab i fynu'n offeiriad; ac er hyny, dywed Mr. Williams, Myddfai, yn ei *Fywgraffiad*, ddarfod i'r hen wr ei gymeryd pan yn 16 oed at un Thomas Bona, neu fel y gelwid ef gan y cyffredin *Dr. Bona*, blaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn New Inn, ac wrth ei gyflwyno i'w ofal ysprydol, ddywedyd, "Dyna fe i chwi, mi fethais yn lân a gwneud *Dissenter* ohono." Paham y gadawai'r Annibynwyr, ac y dewisai'n hytrach ymgorlanu gyda'r Methodistiaid, ni roddir ini un rheswm; ac nis gallwn ninau ddirnadu un, os nad rhyw gyfamod dirgel oedd rhyngddo â'i fam, yn ngwyneb cyndynrwydd ei dad tros iddo fod yn offeiriad, y rhanent y ddadl trwy iddo ymuno â'r enwad crybwylledig, yr hon enwad ar y pryd oedd yn hanerog—ei phrif bregethwyr yn eglwysig, tra yr oedd corph y bobl yn ymneillduol. Dichon nad yw yr holiadau uchod prin yn werth sylw; ond y mae ymddygiad annghyson y tad yn dwyn gwrthuni ar ei wyneb. Y mae crefydd ac egwyddorion y cyfryw ddynion yn gorwedd yn llawer uwch na'u cydwybodau; canys os eu henwad hwy sydd gywir, paham na ddygent eu plant i fynu yn yr unrhyw; os nad ydyw, pa fodd yr arosant hwy mewn man yr anegant eu plant i gilio ohono? Pa fodd bynag, gyda'r Trefnyddion y bu John Evans am rai blynyddau; derbyniwyd ef yn aelod yn 1793; ac oblegyd ei dduwioldeb amlwg, a'r ffaith ei fod yn ysgolhaig gwych, anogwyd ef yn lled fuan i ddechreu pregethu. Traddododd ei bregeth gyhoeddus gyntaf mewn bwthyn o'r enw y Llain, gerllaw Llanpumsaint, lle yr oedd efe yn cadw ysgol ar y pryd. Diau ei bod yn bregeth dda; ac yr ydym yn cael ddarfod iddo draddodi ei ail bregeth yn yr un lle yn mhen ychydig amser. Yr oedd hon yn oedfa hynod o lewyrchus; torwyd allan i folianu yn hir cyn iddo

Digitized by Google

ddybenu. Ymledodd y son am dano i'r ardaloedd oddiamgylch, daeth i glust ei fam-eglwys yn y New Inn, ac atolygwyd arno yn ddiaros ddyfod a phregethu yno hefyd; ond pan aeth yno nid oedd y gwynt yn llanw ei hwyliau ger gwydd ei gyfeillion crefyddol a'i berthynasau; a bu yr amgylchiad yn wers bwysig iddo yn ol llaw i beidio ymddiried gormod hyd yn nod yn y doniau llefaru ysplenydd yr oedd efe wedi ei breintiau â hwynt. Yn Cefnbyrnach y derbyniwyd ef yn aelod o'r Cyfarfod Misol gyntaf; yn Nghydweli y pregethodd gyntaf mewn Cymanfa. Tua'r amser hwn, yr oedd ei aidd crefyddol a'i sêl yn llosgi pob rhwystr o'i flaen; a'i syniadau a'i deimladau yn ei ddyrchu i rhyw awyrgylch bur yn mhell bell uwchlaw rhodfeydd llugoer y ddynoliaeth gyffredin. Am y cyfnod hwn yn hanes ei fywyd, dywed ei Fywgraffydd: "Yr oedd ganddo geffyl gwyn. Byddai yn myned rhagddo 'yn gorchfygu, ac i orchfygu.' Yr oedd mewn rhai manau yn sir Aberteifi, yn pregethu ar gefn y cèl gwyn, a'r gwrandawyr o'i flaen, o'i ol, ac o'i ddeutu; rhai yn canu, rhai yn curo dwylaw, rhai yn neidio. Hawdd y gallesid dywedyd, 'Prophwyd mawr a gyfododd Duw yn ein plith.'" Y mae deng mlynedd yn myned heibio yn oes J. Evans nad yw'r defnyddiau sydd genym at ffurfio hyn o ysgrif yn crybwyll ond ychydig am danynt, ond gallwn gasglu eu bod yn ffynyddoedd o weddio, o lafur, ac o lwyddiant, sef o'r amser y dechreuodd bregethu hyd nes yr oedd yn 29ain oed, pryd y priododd y ffermwraig weddw Mrs. Jones, Llwynffortun, trwy yr hyn y daeth efe gyntaf i gysylltiad â'r enw hwnw. Y flwyddyn ganlynol, gwelir bwriad ei dad eilwaith yn dyfod i'r golwg, a'r tro hwn yn cael ei gwblhau, sef gwneud offeiriad ohono. Yr ydym yn hollol tan ein dwylaw am y rhesymau dueddodd J. Evans i gymeryd y llwybr hwn, ac nid yw ei fywgraffydd awdurdodedig yn crybwyll dim am danynt, er fod y ffaith yn un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes ei fywyd. Awgrymir fod gan ei gynathraw, y Parch. Mr. Jones, mab Maes y Noni, law yn y drafodaeth. Pa fodd bynag, yn 1809, urddwyd ef yn ddiacon eglwysig gan yr Esgob Watson, o Landaf. Fel prawf o'i fedr yn y Lladin a'r Groeg, ceisiodd yr Esgob ganddo gyfieithu rhanau o waith Lladin Hugo Grotius ar *Wirionedd y Grefydd Gristionogol*, a rhai adnodau o'r Testament Groeg, yr hyn a wnaeth yn foddhaol ac anrhydeddus. Ar ol hyn bu yn gweini fel curad yn Mynyddislwyn, Casnewydd-Penybont, Trelalas, a Llanddowror; a phan ddywedom na bu yn yr Eglwys o gwbl ond ychydig rhagor na blwyddyn, hawdd y gall y darllenydd farnu mai byr oedd ei arosiad yn y manau a nodwyd. Pregethai yn hallt yn erbyn pechod, gyda'r un nerth a thanbeidrwydd â chynt, yr hyn a dynai dyrfaoedd mawrion i'w wrando, ond yr hyn hefyd a barai i goeg-foneddigion ddigio trwyddynt, addunedu nad elynt mwyach i wrando arno, a thyngu y mynent ei symud o'u cyffiniau hwy. Galwent ef yn "'ffeiriad gwyllt," ac "yn greadur lloerig yn eu mysg." Cyhuddir ef o bregethu un tro gyda'r Bedyddwyr, ac os nad oedd hyn yn ddigon i lygru unrhyw offeiriad, ei ddifuddiaw am y gweddill o'i oes, a'i ddamnio yn ei ddiwedd, nis gwyddom am ddim arall. Bu yn pregethu, ar ddamwain, mewn amryw Lanau eraill, a phan gauwyd dorau yr eglwysi yn ei erbyn, a'r miloedd wedi dyfod yn nghyd i glywed ei lais, pregethai yn y fynwent oddiar un o'r beddfeini. O'r diwedd, dychwelodd yn ol drachefn at ei hen gyfeillion anwyl a pharchus; ac y mae yn anhawdd dywedyd pa un ai eu llawenydd hwy neu yntau, yn yr ail gyfarfod, oedd y mwyaf. Yno yr arosodd mwyach, cododd yn un o golofnau

Digitized by Google

pwysicaf yr enwad yn Nghymru, ymgynghorid ag ef yn nghylch pob symudiad pwysig, efe fyddai cadeirydd eu cynghorau, un o bregethwyr blaenaf eu pwlpudau, ac un o areithwyr ardderchocaf a mwyaf poblogaidd eu cymanfaoedd. Yr oedd llawer o bethau yn cydgyfarfod ynddo i'w wneud yn un o brif bregethwyr y genedl—ymddangosiad trwsiadus, lluniaidd, a hardd; dyn oddiallan hawddgar, tàl, a boneddigaidd; siarad yn waith perffaith rwydd a naturiol iddo; llais cryf, soniarus, a hudoliaethus dros ben; drychfeddyliau gafaelgar a bywiog; ac yn ben ar hyn oll, yr oedd y gydwybod fwyaf llednais yn gorfod tystio ei fod yn ddyn ag oedd yn "ofni Duw ac yn cilio oddiwrth ddrygioni." Daliodd yn ei flas a'i fri am tros haner can' mlynedd, ac ni chlywsom am neb yn cwyno ei fod yn rhy ffasiwn newydd yn nechreu ei oes, nac yn rhy hen ffasiwn yn ei diwedd. Rhoddir dysgrifiad medrus a thra chywir ohono fel pregethwr gan awdwr yr adolygiad ar ei *Fywyd* yn *Traethodydd* 1848, t.d. 514, ac nis gallwn yn well na'i ddyfynu yma:—"O ran y dull o draddodi, yr oedd, fel rhai o brif areithwyr Lloegr, yn perthyn i'r dosparth unffurfiol. Rhedai ei hyawdledd allan yn ffrwd risialaidd, heb nemawr o amrywiaeth mewn agwedd na llais, o'r dechreu i'r diwedd. I'r dosparth hwn y perthynai Robert Hall, yr hwn a gynygiodd y dull arall yn nechreuad ei weinidogaeth, ond a gafodd allan yn fuan fod ei lais a'i nerth corphorol yn rhy wan, ac am hyny fod yn rhaid iddo wneud i fynu mewn cyflymdra yr hyn oedd yn ddiffygiol mewn grym. Y mae i bob hedyn ei gorph ei hun; ac nid yw yn un anmharch ar Mr. Evans, pe dywedid mai hwn oedd yr unig ddull oedd yn gweddu iddo ef, oblegyd yr oedd ei boblogrwydd i raddau mawr yn ymddibynu ar gyflawnder a llithrigrwydd ei ymadroddiad. Nid ydym yn tybied y buasai yn alluog i daflu pelenau poethion mewn ychydig eiriau fel Ebenezer Morris neu John Elias, mwy nag y gallasent hwythau gaethiwo sylw cynulleidfa, a'i chadw am ddwy awr mewn hwyl nefolaidd, heb ddyrchafu y llais na gwneud yr ymddangosiad lleiaf o egni corphorol. Nid oedd ganddo ddawn i ddweyd ei feddwl mewn cylch bychan; a phe buasai yn llwyddo i wueuthur hyny, nid yw yn debyg y buasai y dywediad yn ddigon cynwysfawr i orchfygu y teimladau: ond yr oedd yr un dyben yn cael ei ateb yn raddol trwy barhad yr argrafflad ar feddyliau y gwrandawyr. Yr hyn a hynodai Mr. Evans fel pregethwr oedd ei brydferthwch. Yr oedd ei wynebpryd yn brydferth, tafliad ei law yn brydferth, ei feddyliau yn brydferth, a'i iaith yn brydferth. Yr oedd oll wedi ei wisgo â phrydferthwch. Yr oedd rhyw swyn rhyfeddol hyd yn nod yn ei lais, ac nid ydym yn anmheu nad oedd llawer o'i wrandawyr yn cael gwledd yn mhereidd-dra y swn, heb sylwi ar ystyr yr hyn a draddodid. Nid oedd ei hyawdledd yn llifeiriant angerddol yn rhuthro ar draws pob rhwystrau, ac yn rhwygo y cwbl o'i flaen, fel yr eiddo Elias o Fôn. Nid oedd un amser yn ymarllwys yn rhaiadrau annisgwyliadwy, nes 'synu, pensyfrdanu dyn,' fel yr eiddo Ebenezer Morris. Nid oedd yn rhedeg rhwng creigiau mor serth ac mor uchel a'r eiddo Christmas Evans. Nid oedd yn afon lydan, lonydd, ddofn, fel yr eiddo Charles, Caerfyrddin. Nid oedd yn ateb cynifer o wahanol ddybenion, nac yn rhedeg trwy randiroedd mor amrywiol, a'r eiddo Ebenezer Richards, neu Williams o'r Wern. Ond er hyny yr oedd yn un o'r afonydd prydferthaf a welwyd erioed, o faintioli mwy na chyffredin, yn dolenu ar hyd ac ar led dyffrynoedd breision, fel pe buasai wedi annghofio pen ei thaith yn nghanol hawddgarwch y golyg-

Digitized by Google

feydd oedd ar ei glanau. Gallesid meddwl wrth ei wrandaw nad oedd dim yn haws na phregethu. Yr oedd yn meistroli holl deimladau y galon heb amcanu at hyny." Yr oedd yn ddyn rhy fawr i'w gyfyngu rhwng erchwynion sect. Coleddid y syniadau mwyaf caruaidd tuag ato gan bob plaid o Ymneillduwyr. Siaradai gyda'r parch llwyraf am y sawl a wahaniaethent oddiwrtho mewn barn am bethau allanol crefydd; ac yr oedd ei hynawsedd yspryd a'i natur dda tuag at y cyfryw bron yn ddiderfyn. Yr oedd wedi yfed yn ddyfnach o yspryd y Bregeth ar y Mynydd nag odid un o'i gydoeswyr y gwyddom am dano. Penderfynasai yn ei feddwl ar egwyddorion sylfaenol crefydd pan yn ieuanc, a'u gweithio allan mewn cariad ac addfwynder oedd gwaith mawr y gweddill o'i oes. Masgl, neu blisg, y galwai'r allanolion. Un tro, yn Llanelli, wedi gosod ei feddwl ei hun allan mewn dull grymus ar y pwnc o Fedydd, dywedai, "Mae brodyr parchus eraill yn golygu fod llawer o ddwfr yn angenrheidiol; gwneled pawb ateb cydwybod yn hyn, ond y Nefoedd a'n gwaredo rhag ffraeo yn nghylch y *masgl*, a bod yn ddifater am yr ŵy. Gofynwyd unwaith i ddau frawd gwahanol eu golygiadau am y dull: 'A ydych chwi yn sicr mai bedydd drwy drochiad sydd yn iawn?' 'O, ydwyf yn eithaf sicr.' 'A ydych chwithau yn sicr mai taenellu y dwfr sydd gywir?' 'O, ydwyf yn eithaf sicr.' 'A ydych chwi yn credu yn Nghrist?' 'Gobeithiwyf fy mod.' 'A ydych chwithau yn credu yn Nghrist?' 'Gobeithiwyf fy mod.' Felly, mae dynion, druain, yn sicr mewn pethau ansicr, ac yn ansicr yn yr hyn y dylent fod yn sicr. Fy mrodyr a'm chwiorydd anwyl, na fydded i ni ymrwystro gyda'r cysgodau, ond awn trwyddynt at y Sylwedd Mawr ei hun." Sonir am dano yn "pentyru marwor tanllyd ar ben un o'i wrthwynebwyr" yn y ffydd fedyddiol. Pregethwr gyda'r Bedyddwyr, wedi cael allan ei fod i fedyddio baban y noson a'r noson, a aeth tua'r cwrdd ar fedr cael gwybod beth oedd rhesymau "Llwynffortun" tros y pwnc. Atolygodd Mr. Evans arno, yn y modd mwyaf caredig, bregethu yn ei le ef. Gwrthododd wneud hyny; eithr cydsyniodd i ddechreu y cyfarfod. Wedi darfod i'r brawd weddio, aeth ein harwr drwy y seremoni o daenellu, ac yn y weddi dywedodd: "Yr wyt yn Dduw parod i faddeu; os ydym ni yn y cyflawniad o'r ordinhad werthfawr hon, yn dodi rhy fach o ddwfr, maddeu, maddeu, maddeu i ni; ac os ydyw ein brodyr parchus o enw arall yn dodi gormod, maddeu, maddeu, maddeu iddynt hwythau hefyd." Dywedir fod y gwr parchus oedd yn gwrando yn gwaeddi "Amen, Amen," yn ddiarbed, a'r dagrau yn llifo tros ei ruddiau; a pha galon na thoddasai yn swn y fath eiriau nefolaidd. Ond byddai y duedd liniarus hon weithiau yn ei yru yn mhell iawn. Tarawodd wrth ŵr dyeithr unwaith a gofynodd a oedd efe yn perthyn i rhyw gangen o eglwys Crist. Atebodd yntau nad oedd. "Gobeithio," meddai Mr. Evans, "eich bod yn ddyn duwiol serch hyny." Mewn man arall gofynwyd beth oedd ei farn am ddyn meddw a syrthiasai tros bont yn ei feddwdod ac a foddodd. "Dylem gymeryd yn araf iawn," ebai yntau, "oblegyd nid oes neb a wŷr na chafodd drugaredd rhwng y bont a'r afon." Er hyny pan fyddai achos yn galw, medrai daflu gair mor gyrhaeddgar â neb, fel y tystia yr hyn a adroddir yn ei hanes am ddau frawd yn ngafael yr ias Americanaidd, un o ba rai a awgrymai na fuasai yn ormod peth i'r Cyfarfod Misol eu danfon. "O na, druain," atebai yntau, "os myned i ddanfon, ni a ddanfonwn rai o werth eu danfon;" a bu yr ymadrodd yn foddion i yru'r dwymyn ymfudol o benau y ddau o

Digitized by Google

hyny allan. Poenid ef trwy ei oes gan iselder yspryd, yn tarddu oddiar rhyw anhwyldeb corphorol yn yr afu. Yr oedd hwn fel *ballast* yn ei gadw i lawr hyd yn nod pan yn cyhwfan ei adenydd yn nghanol y gwynfydedd uwchaf. Gwelir delw'r pruddglwyf bron ar ei holl feddyliau. Byddai yn ei anaddasu at bobpeth braidd ond pregethu. Ymgollai pan yn blentyn mor ddwys mewn rhyw bensyndod, nes anghofio pawb a phobpeth. Ymosodai y clwyf gyda rhyw nerth rhyfeddol arno pan yn ymwisgo neu ddadwisgo; a pharai gryn lawer o drwstaneiddiwch digrifol. Peth digon cyffredin fyddai colli un o'i hosanau, ac wedi chwilio'n ddyfal a phryderus am dani hir o amser, ceid hi yn, neu am, y llall—y ddwy am yr un goes. Gorweddai yr afiechyd mor drwm arno tua diwedd ei oes, fel nas gellid ei gael o'i wely hyd yn nod at waith y pwlpud, heb apelio at ei *gydwybod*. Ond er cymaint ei arteithiau meddyliol, dyoddefodd y cyfan gan arddangos y natur radlonaf a'r yspryd mwyaf addfwyn; a dichon mai y profiad llymdost oedd ganddo yn ei fynwes ei hun, a barai iddo fod mor ochelgar rhag archolli teimladau neb arall. Byddai yn meddalu ei holl ymadroddion gyda "*my dear sir*," neu "druain," ac y mae'r gair blaenaf wedi ei hoelio wrth ei hanes yn nghof pob un a ddarllenodd ei fywgraffiad. Ni oddefai i neb ddodi ei droed ar y pryfyn distadlaf; "Peidiwch, druain," meddai, "y mae ganddo ei deimladau tyner fel ninau." Yr oedd yn ofni Duw o'i febyd. Adroddir yn ei hanes ei fod, pan yn ysgol Maes y Noni, yn arfer gweddio yn uchel wrth fyned i'r gwely, ac y byddai y gwasanaeth ddynion yn dweyd y naill wrth y llall, "Dystewch, y mae John Evans yn gweddio." Y fath oedd nefoleiddrwydd ei fuchedd, fel pan ofynwyd i'r hybarch Christmas Evans pa fath ddynion fyddai pobl y mil blynyddoedd, atebodd, "Wel, hwy fyddant oll yn debyg i John Evans, Llwynffortun;" arferai yr un gwr enwog ei alw yn "*un o'r hoelion wyth*" mewn gwrthgyferbyniad i rhyw *sparbills* o fân bregethwyr a wrandawai un tro. Yr oedd fel pe buasai yn aeddfedu i ogoniant o'r dydd y ganed ef. Tua blynyddau olaf ei oes, dywedai, wrth sylwi ar farwolaethau amryw frodyr o wahanol enwadau crefyddol:—"Y maent hwy wedi myned, ac y mae yn debyg na fyddaf inau yn hir bellach. Un o'r *winter apples* wyf fi; ond yr wyf yn disgwyl y byddaf inau yn aeddfed tua *November*, ac y cymer fy Nhad nefol fi ato ei hun." Ei afiechyd diweddaf oedd y *Diabetes*, math o glefyd y dwfr, a bu yn dyoddef o tano am o bump i chwe' blynedd. Bu farw Hydref 6, 1847, yn 68 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Pentwyn. Yr oedd wedi dewis "man fechan ei fedd;" "claddwch fi fan hyn, druain," meddai, "peidiwch a'm dodi yn nes i'r mur rhag i'm fod dan y bargod." Dyna fras linelliad o hanes un y gellir ar lawer ystyriaeth ei restru yn mhlith dosparth cyntaf pregethwyr ein gwlad.

EVANS (Parch. John), LL.D., awdwr Seisnig galluog, a anwyd yn 1767, yn Brynbyga (*Usk*), sir Fynwy. Pan yn 17 oed, dechreuodd bregethu gyda'r Bedyddwyr yn Mristol, lle y buasai am rhyw yspaid cyn hyny yn astudio tan yr enwog Robert Hall. Yn 1787, aeth yn aelod o brifysgol Aberdeen; ac yn 1790, symudodd oddiyno i brifysgol Edinburgh, lle y graddiwyd ef yn M.A. Tua 1792, dilynodd Anthony Robinson fel gweinidog cynulleidfa o Fedyddwyr yn Worship Street, Llundain; ac ar yr achlysur cyhoeddodd *Anerchiad*, gyda'r amcan o enyn adfywiad crefyddol yn mhlith y Bedyddwyr Cyffredinol. Yn fuan ar ol hyn, cyhoeddodd ei "Address to Young People," ar bwysig-

Digitized by Google

rwydd crefydd a'r angenrheidrwydd ohoni. Yn 1795, cyhoeddodd ei "Sketch of the Denominations of the Christian World." Cafodd y llyfr diweddaf gylchrediad annghyffredin o helaeth, a chymeradwyaeth prif ddynion yr oes ar gyfrif anmhleidiaeth a gonestrwydd; ond er gwerthu tua phumtheg argraffiad ohono, yn cynwys can' mil o gopiau, ni chafodd yr awdwr am yr hawlysgrif ond deg punt yn unig. Tua 1796, agorodd athrofa yn Islington ar gyfer nifer benodol o fyfyrwyr, a chyrhaeddodd glod mawr yn fuan fel athraw ieuenctyd. Yn 1815, cafodd rhyw afiechyd i'w goesau, a'i hymddifadodd o'u gwasanaeth am y gweddill o'i oes. Yn 1819, cafodd y radd o D.C.L. oddiwrth un o brifysgolion America; a'r un flwyddyn ymddangosodd o'i waith "Memoirs of the Life and Writings of William Richards, LL.D.;" ac yn ystod yr un flwyddyn golygodd ail-argraffiad o waith yr un gwr, sef y *Cambro-British Biography*, gyda nodau ac egluriadau. Yn 1821, rhoddes yr athrofa i fynu, ar farwolaeth ei drydydd mab, yr hwn a fwriadasai i fod yn olynwr iddo. Er ei fod yn gwbl analluog i symud, fel ag y gorfyddid ei gludo ar lwth i'r pwlpud, eto parhaodd i bregethu hyd o fewn ychydig wythnosau i'w farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Ion. 25, 1827, ac efe yn 60 oed. Dywedir iddo trwy ei holl oes ddangos awydd mawr i wneud pawb o'i amgylch yn ddedwydd; ac ymdrechu llawer i gymodi y gwahanol bleidiau Cristionogol â'u gilydd. Yr oedd yn nodedig o hyawdl fel siaradwr byrfyfyr; a chymeradwyid ef yn fawr am ei ddull syml, anhoniadol, ac eto tra dylanwadol, o lefaru. Heblaw y llyfrau a nodwyd, yr oedd efe yn awdwr amrai eraill a gawsant ddarlleniad helaeth, megys:—"Juvenile Pieces;" "Juvenile Tourist;" "Progress of Human Life, or the Seven Ages of Man;" "The Christianity of the New Testament impregnable and imperishable;" "Death the inevitable lot of Man;" &c. Nid ydym yn meddwl iddo gyfansoddi dim yn y Gymraeg; ond yr oedd ei serch at ei gydwladwyr yn gryf ac amlwg yn ei gyfansoddiadau. Gellir casglu beth oedd ei farn grefyddol, cystal a'i fedr fel ysgrifenydd Seisnig, oddiwrth y dyfyniad canlynol. Wrth son am ei gyfaill Dr. Richards, o Lynn, dywed:—

"In his opinion, articles of belief, elaborated into metaphysical creeds, and enjoined upon others, became a violation of Christian liberty, an implement of spiritual domination, and a barrier to all improvement. No man ought to be ashamed of saying, that he is wiser today than he was yesterday. Christians indeed should approximate to the goal of perfection. A Confession of Faith, however innocent in itself, when set up as a standard is the source of indescribable mischief. It is the iron bed of the ancient tyrant Procrustes, upon which were laid the bodies of his subjects for rigorous admeasurement. Were their limbs too long, they were lopped off with dreadful excision; were they too short, they were stretched in all the agony of muscular extension! "The Bible, the Bible is the religion of Protestants."

EVANS (Parch. John), M.A., cymeriad hynod yn amser y frenines Elizabeth a Iago I., a anwyd yn mhlwyf Llangelynin, Meirion. Bu yn aelod am rai blynyddau o brifysgol Rhydychain, lle yr ymroddodd i efrydu ser-ddewiniaeth. Wedi derbyn urddau eglwysig, cafodd guradiaeth Enfield, yn sir Stafford, lle yr agorodd ysgol i ddysgu cangenau uwchaf dysgeidiaeth. Wedi bod felly am rai blynyddau, gorfu arno, oblegyd rhyw wall ymddygiad, ymadael. Symudodd gyda'i deulu i Lundain, ac enillodd enw yn fuan yno fel dewin. Cyhoeddai almanaciau, ac yn yr un am 1613, ceir epistol Lladin yn ei gyflwyno i nawdd ac achles esgob Worcester. Gwel yn mhellach t.g. Evans (Arise).

EVANS (Parch. John), D.D., prelad enwog, a anwyd yn Plas Du, Llanarmon, sir Gaernarfon. Cafodd ei ddysg yn ngholeg yr Iesu,

Digitized by Google

Rhydychain, lle y derbyniodd ei raddau. Wedi cymeryd urddau eglwysig, cafodd rectoriaeth Llanaelhaiarn, yn ei sir enedigol; ac Ion. 4, 1701, cysegrwyd ef yn esgob Bangor. Yn 1715, symudwyd ef i esgobaeth Meath, yn yr Iwerddon. Yno, dangosodd duedd i buro dysgyblaeth yr Eglwys, ac wrth wneud hyny, tynodd ddryghin yn ei ben oddiwrth y Deon Swift, yr hwn a ddaliai swydd yn yr esgobaeth. Y mâe llythyrau tuchanol Swift at yr Esgob i'w gweled yn ei waith. Er gwaethaf ymosodiadau llymion a sarhaus y Deon, crybwyllir am yr Esgob Evans gyda pharch gan eraill o'i gydoeswyr enwog. Bu farw yn Mawrth, 1724. Megys ag y treuliodd ei fywyd yn yr Eglwys Sefydledig, gadawodd ei holl eiddo at ei gwasanaeth hi ar ol marw. Cymun-roddodd ei etifeddiaeth bersonol at adeiladu tŷ yn Ardbraccan; i brynu tir at wasanaeth offeiriad Llanaelhaiarn, yn esgobaeth Bangor; i bwrcasu tiroedd eglwys a degymau gwyr lleyg, trwy gydsyniad llywodraethwyr Rhodd y Frenhines Ann, er budd ac er gwaddoli amryw eglwysi yn esgobaeth Meath, y rhai oedd i fod dan awdurdod esgobion yr esgobaeth hono yn unig. "Byddai yn anhawdd dychymygu rhaniad mwy doeth a phriodol o feddianau a gafwyd oddiwrth yr Eglwys, na'u cyflwyno fel hyn i'w gwaddol hi eilwaith." Y mae darlun o'r Esgob Evans yn mhalas Lambeth, a baentiwyd yn 1707.

EVANS (Parch. John), o goleg Baliol, Rhydychain, oedd fab i Matthew Evans, ac a anwyd yn Great Sutton, ger Ludlow. Bu ei daid a'i dad yn olynol yn offeiriaid plwyf Penygoes, ger Machynlleth, sir Drefaldwyn. Gadawodd y brifysgol yn nghynt nag y bwriadai, am nas gallai ymostwng i ymwelwyr y Senedd. Dychwelodd at ei dad i Gymru; ac urddwyd ef yn henadur gan Dr. Mainwaring, esgob Tŷ Ddewi, yn Aberhonddu, Tach. 28, 1648; ond gwelodd achos yn fuan i newid ei farn yn nghylch cydymffurfiad. Yr oedd ei dad yn amddiffynwr selog ar y llywodraeth eglwysig, a bu gohebiaeth led boeth rhwng y ddau ar y pwnc. Ond efe a barhaodd yn ddisigl yn ei syniadau; derbyniwyd ef yn fuan yn bregethwr teithiol, a bu yn llafurio mewn amryw barthau o Gymru gyda sêl, diwydrwydd, a chymeradwyaeth. Aeth wedi hyny yn athraw Ysgol Rad, Dolgellau; ac wed'yn, yn athraw Ysgol Rad, Croesoswallt, lle y cafwyd ef gan Ddeddf yr Unffurfiad. Trowyd ef o'i swydd, a darostyngwyd ef a'i deulu i gymaint tlodi o'r herwydd fel y gorfu arno werthu llawer o'i lyfrau i gael bwyd. Yn 1668, ymsefydlodd yn Ngwrecsam fel gweinidog ar eglwys o Annibynwyr, neu Rydd-gymunwyr, a pharhaodd i ddal y swydd hon hyd ei farwolaeth. Darfu i ychydig foneddigion, yn gwybod am ei allu i ddysgu, ddanfon eu meibion ato; a bu hyn yn gymhorth iddo allu ymgynal tan bwys ei erledigaethau chwerw. Tua 1681, ceisiodd yr Esgob Lloyd, trwy deg, ganddo gydymffurfio, gan gynyg iddo fywiolaeth dda os y gwnai hyny; a phan ganfu mai oferedd ei ffalsder, ymgythruddodd yn fawr, ac erlidiodd ef yn greulawn; apeliodd yntau at yr ynadon am amddiffyn, ond yr unig amddiffyn a gafodd oedd ei ddirwyo yn drwm. Ond y mae yn hynod, er cymaint a boenwyd arno, diangodd yn fwy croeniach na llawer mwy dinod. Bu yn cadw ei ddrysau tan glo parhaus am rai blynyddau; ac nis gallodd yr ysbiwyr mwyaf cyfrwys ac ymdrechgar erioed gael y dirwyon a osodid arno; ac er lluosoced y gwarantau a wnaed i'w ddal ni buont lwyddianus erioed ond unwaith, a hyny ar y ffordd fawr, eithr rhyddhawyd ef trwy gyfrwng gwr urddasol a gymerasai ei blaid yn dra charedig ar wahanol amserau. Y mae lle i gasglu fod ei ddygn galedi, a'i deithiau

Digitized by Google

mynych yn y nos, wedi anmharu ei iechyd, a dwyn gwendid arno nas gadawodd ef hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Gorph. 16, 1700, pan oedd efe yn 72 oed. Dywed Palmer "ei fod yn ddyn o ddysg helaeth, o sobrwydd a difrifwch mawr, o ymddyddan dihalog, yn bregethwr diwyd a doeth, ac yn Annibynwr uchel." Bu yn briod ddwywaith; ei ail wraig ydoedd ferch i'r Milwriad Gerrard, llywydd castell Caerlleon, a gweddw yr enwog Vavasor Powell; a mab o'r briodas hon ydoedd testun ein herthygl nesaf.

EVANS (Parch. John), D.D., a anwyd yn Ngwrecsam, sir Ddinbych, yn 1680. Wedi derbyn addysg am rhyw yspaid tan y gweinidogion ymneillduol enwog Rowe a Jollie, dywedir iddo fod yn darllen *Poole's Synopsis*, a gwaith awdwyr Cristionogol y drydedd ganrif, gydag un James Owen, yn sir Amwythig. Yn 1702, urddwyd ef yn Ngwrecsam; ac yn 1704, dewiswyd ef yn gynorthwywr i'r Dr. Williams, yr hwn a ddilynodd yn 1716, fel gweinidog eglwys o Annibynwyr, gan yr hon eglwys y codwyd addoldy yn ol hyny yn Broad Street, Petty France. Bu hefyd yn ddarlithydd yn Salter's Hall; ac oblegyd ei ddysg a'i dalentau, derbyniodd yr anrhydedd o D.D. gan brifysgolion Edinburgh ac Aberdeen. Cymerodd ran yn y ddadl Ariaidd, ac yr oedd yn dra gwrthwynebus i lawnodi unrhyw gyffes ffydd. Dywedir ei fod yn bregethwr tra hyawdl; ac yn ysgrifenydd medrus a chymeradwy gan ddduwinyddion o bob enwad. Ei weithoedd ydynt:—"Discourses concerning the Christian Temper," am ba rai y dywedai Dr. Watts eu bod y crynodeb cyflawnaf o ddyledswyddau ag sydd yn ffurfio y bywyd Cristionogol a gyhoeddwyd yn oes yr awdwr. Cyhoeddodd hefyd bregethau achlysurol; gwaith rhagorol cyflwynedig i bobl ieuanc; nodau ac egluriadau ar yr Epistol at y Rhufeiniaid, am ba un y dywedai Dr. Doddridge:—"Y mae yr Esboniad ar y Rhufeiniaid, a ddechreuwyd gan Henry, ac a orphenwyd gan Dr. Evans, y goreu a welais erioed." Dechreuodd hefyd gyfansoddi Hanes Ymneillduaeth, ond ni chafodd fyw i'w orphen. Bu farw Mai 16, 1730.

EVANS (John), a anwyd yn Mlaenplwyf, yn sir Aberteifi, yn 1796. Pan yn ieuanc iawn dangosodd dalentau a medr neillduol i rifyddiaeth. Bu beth amser yn gweithio gwaith gwehydd; ond gan nad oedd yn hoffi y gwaith hwnw, ac yn awyddus i gael mwy o gyfleusdra i ddilyn ei hoff efrydiadau, efe a aeth i Lundain, lle y bu mor ffodus a chael ei ddwyn i sylw y Cymro gwladgarol hwnw, Mr. Griffith Davies, y cyfrifydd enwog. Trwy gynorthwy y boneddwr hwnw efe a ddilynodd ei efrydiaeth yn awyddus. Wedi gwneud cryn gynydd mewn Geometry, Algebra, Trigonometry, ac amryw ganghenau eraill o wyddoniaethau ymarferol, efe a ddychwelodd i Aberystwyth, ag a agorodd ysgol pan yn 25ain oed; a pharhaodd felly hyd ddiwedd ei oes gyda llwyddiant mawr. Yr oedd yn hyddysg iawn mewn llawer o ganghenau Mathematics bur a chymysgedig, a chanddo chwaeth fawr at ddyfeisiau gwyddon-peirianol. Yr oedd wedi dyfeisio offeryn i ddangos symudiadau y ddaear, offeryn plaen i gyfeirio at unrhyw seren ddydd neu nos, haul ddeial gywrain, &c. Yr oedd yn naturiol yn ddyn gwylaidd a dirodres, ac yn athraw llafurus. Darfu i drigolion Aberystwyth, oddiar ystyriaeth o'i wasanaeth gwerthfawr, ei anrhegu â thysteb yn 1858. Bu 40 mlynedd yn aelod o Gymdeithas y Methodistiaid Calfinaidd, a 14 o honynt yn swyddog. Bu farw Ebrill 2, 1861, yn 65 oed.—*Lleyn MSS.*

EVANS (Parch. John), a anwyd yn Ffynnonhau, yn mhlwyf Meline, sir Benfro. Ymunodd â'r Bedyddwyr yn ieuanc. Aeth i

Digitized by Google

Athrofa Caerodor, o dan olygiad Hugh Evans, A.M., a'i fab Dr. Caleb Evans. Cafodd alwad i gydweinidogaethu â'r Parch. Daniel Turner, A.M., yn Abington, a'r swydd yn hollol ar farwolaeth Mr. Turner. Ysgrifenodd gyfrol o Bregethau, y rhai a gyhoeddwyd wedi ei farwolaeth, o dan olygiad y Parch. James Hinton, o Rydychain. Bu farw yn 1818.—*Lleyn MSS.*

EVANS (JOHN), o Lwyn y Groes, yn mhlwyf Llanymyneich, sir Drefaldwyn, ydoedd awdwr y Dudlen *(map)* mawr o Ogledd Cymru, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1795. Cerfiwyd y gwaith gan Mr. Robert Baugh, gwr o blwyf Llandysilio, yn yr un sir. Bu farw Mr. Evans yn 1795.—*Lleyn MSS.*

EVANS (JOHN), gwr ieuanc anturiaethus genedigol o'r Waenfawr, yn Arfon, a groesodd i'r Amerig, gyda'r amcan o chwilio am yr Indiaid Cymreig a elwid y *Madogwys.* Y mae hanes, fel y ceir y cyfryw yn y *Trioedd*, yn traethu ddarfod i Madog ab Owen Gwynedd, fyned allan i'r môr gyda thri chant o wŷr, mewn deg llong, ac ni chlybuwyd ddim o'i hanes ar ol hyny, eithr wedi darganfyddiad y Cyfandir Gorllewinol gan yr Yspaeniaid, tybid yn Nghymru mai yno yr aethent. Daeth y dybiaeth yn beth hollol gredadwy gan ddosparth helaeth o haneswyr Cymreig, yn mhlith pa rai yr oedd Llwyd, Powel, a Theophilus Evans. Cadarnhawyd y grediniaeth gan hanesion ar wahanol amserau fod llwyth o Indiaid Gwynion wedi eu darganfod ar lanau y Missouri, a bod y cyfryw yn gallu siarad Cymraeg. Gwnaed llawer cais i dd'od o hyd iddynt, ac un o'r ymgeisiadau mwyaf canmoladwy a thorcalonus oedd yr eiddo John Evans. Yn 1790, tan ddylanwad teimlad cenadol, gadawodd ei gartref gyda'r bwriad o fyned ac efengylu ei gydgenedl Indiaidd. Cyrhaeddodd Baltimore yn ddyogel, ac mewn llythyr at ei frawd oddiyno dyddiedig Dygwyl Stephan, 1792, dywed :—"Yr ydwyf yn meddwl mai fy nyledswydd yw gogoneddu enw Iesu, os gallaf, trwy agor drws i'r Efengyl dragwyddol fyned i blith y trueiniaid hyn, fy mrodyr ; am hyny, yr ydwyf wedi offrymu fy mywyd i waith yr Arglwydd, gan ymddiried y gofala efe am danaf." Ymwelodd â'r Dr. Samuel Jones, o Philadelphia, aelod o Senedd America, ac addawodd hwnw iddo ugain o wyr arfog i fyned gydag ef i'w ddyogelu rhag yr Indiaid eraill. Dychwelodd i Baltimore, a threuliodd y gauaf yno fel ysgrifenydd yn swyddfa marsiandwr am gyflog o £50 yn y flwyddyn. Ail-ymwelodd â'r Dr. Jones, yn y gwanwyn, a chychwynodd o'i dŷ ef ar ei daith tua'r gorllewin trwy Kentucky yn nechreu Mawrth 1793, er y cyngorai y gwr hwnw ef i aros nes y cawsai ragor o gyfeillion. Mae y rhan nesaf o'i hanes yn dywyll. Bwriadai fyned o Baltimore i Fort Pitt, ac oddiyno i lawr yr afon Ohio tua St. Louis, mewn cwch arfog ; ond pa un a aeth felly, a pha rif o gyfeillion oedd ganddo, os oedd neb, nid yw yn hysbys. Yr hanes nesaf am dano yw ei fod wedi ei gymeryd yn garcharor gan yr Yspaenwyr, y rhai oeddynt ar y pryd mewn meddiant o Louisiana ; ac oni buasai i'r swyddog Yspaenaidd ddweyd am dano wrth G. Turner, un o brif farnwyr Americanaidd y diriogaeth ogledd-orllewinol, ac i hwnw bleidio trosto, dichon mai trengu yn garcharor y buasai yn St. Louis ; ond gan farnu y buasai ei daith o les cyffredinol, cafodd y barnwr Turner gan yr Yspaenwyr nid yn unig ei ryddhau, ond hefyd roddi iddo *bassport* yn Yspaeneg, Ffrancaeg, a Saesneg, i rwyddhau ei ffordd. Bernid y pryd hyny fod yr Indiaid Cymreig yn preswylio ar yr afon Missouri, ac mai y *Padoucas* oeddynt. Esgynodd yntau y Missouri gyda'r trafnidwyr Indiaidd yn 1795, a

Digitized by Google

chanddo nwyddau i'w gwerthu ; yr oedd hefyd i chwilio ansawdd y wlad ; apha un a ddarganfyddai Fadogwys ai peidio, yr oedd i gael dwy neu dair mil o ddoleri gan yr Yspaenwyr. Dilynodd yr afon hono am dros 1600 o filldiroedd, ac yma dychwelodd i St. Louis. Pan glybuwyd am ei ddychweliad, taenwyd y gair ei fod wedi cael allan y Madogwys, a thraethwyd y peth fel ffaith sicr mewn llythyrau a ddanfonwyd i Loegr. Ond nid oes tystiolaeth ddarfod i John Evans weled yr un Indiad Cymreig, na'i fod erioed wedi dweyd iddo weled yr un. Cymhellwyd ef gan y swyddog Yspaenaidd i fyned yr ail waith ; ond bu farw o dwymyn yn St. Louis, yn 1797, pan ar fedr ail-gychwyn.—*Cambrian Register*, i. 380 ; *Brython*, ii. 81. Gweler yn mhellach t.g. MADOG AB OWEN GWYNEDD.

EVANS (JOHN), Bala, ydoedd wladwr Cymreig synwyrlym a phrofiadol, a phregethwr tra defnyddiol gyda'r Methodistiaid Calfinaidd pan oedd yr enwad hwnw yn ei fabandod. Ganwyd ef Hydref 30, 1723, mewn lle o'r enw Glan yr Afon, yn mhlwyf Gwrecsam, sir Ddinbych. Llafurwr oedd ei dad, o'r enw William Evans ; a bydwraig oedd ei fam, o'r enw Ann Evans. Yr oeddynt yn bobl onest, cyfrifol, ac o dueddiadau crefyddol. Rhoddasant ysgol i John pan ydoedd yn lled ieuanc, ac ymddengys ei fod yntau yn ddysgwr cyflym. Medrai ddarllen ei Fibl yn Gymraeg a Saesneg pan rhwng naw a deg oed, ac yr oedd ganddo rhyw grap bychan ar rifyddu ac ysgrifenu, yr hyn oedd yn gryn beth yn yr oes hono. Symudasai ei rieni pan oedd ef yn bedair oed i fyw i Adwy'r Clawdd, lle tua phedair milldir o Wrecsam. Dywed ef ei hun mai er ei fod yn ymollwng i ddilyn ei gyd-ieuenctyd mewn rhusedd a chwareuon gwag yr oes, eto ei fod yn gorfod talu yn ddrud am hyny mewn dihunedd a breuddwydion cythryblus y nos. Pan rhwng deuddeg a thair-ar-ddeg oed, dodwyd ef yn egwyddorwas o wehydd. Wedi bwrw ei brentisiaeth, cododd ynddo awydd cryf am fyned yn filwr, ac aeth gan belled a Chaerlleon gyda'r bwriad o ymuno â mintai o feirchfilwyr ag oedd yno ar y pryd, eithr cafodd fod hono wedi myned ymaith er y diwrnod o'r blaen. Dychwelodd adref, a bu am dymhor yn dilyn ei alwedigaeth. Yna penderfynodd fyned i weithio i waith mŵn yn y gymydogaeth. Tra yn y gwaith hwn, cododd ymrafael rhwng gwr y tŷ y lletyai â gwr y tŷ nesaf ; a bygythiodd yr olaf, yn nghlyw J. Evans ac eraill, y lladdai efe y blaenaf. Dywedodd yntau wrth ei letywr, gan ei rybuddio i fod ar ei ocheliad ; a phenderfynodd y lletywr godi *warrant* i ddwyn y bygythiwr gerbron yr ynadon, gan alw ar J. Evans fel tyst. Ond yr oedd cymeryd llw mewn llys barn yn beth difrifol iawn yn ngolwg J. Evans, gan yr arswydai ddywedyd anwiredd mewn camgymeriad, a thrwy hyny dori llw, yr hyn a ystyriai yn bechod yn erbyn yr Ysprydd Glân. Trwy lawer o ofnau y rhoddodd ei dystiolaeth yn llys yr ynadon ; eithr nis gallai gasglu digon o nerth i fyned trwy yr un weithred pan ddygwyd yr un achos gerbron y sessiwn fawr, ac yn hytrach na hyny penderfynodd adael cartref a myned i chwilio am fywiolaeth mewn rhyw ardal arall. Cychwynodd ar fore Sabbath am y Bala, a chyrhaeddodd ben ei daith yn hwyr yr un dydd. Cafodd waith a lletty gyda gwehydd dranoeth, un o'r ychydig wyr crefyddol ag oedd yn y dref hono y pryd hwnw. Yn ei letty, y cyfarfyddai i addoli naw neu ddeg o Fethodistiaid, ac o radd i radd ymgysylltodd fel aelod â hwynt. Yn 1744, priododd Margaret, merch i un Morys ab Rhobert, awdwr "Cywydd Llyn Tegid" a thraethawd tan yr enw "Cynghor Difrifol i'r Cymru." Bu ugain

Digitized by Google

mlynedd wedi ymaelodi â'r Methodistiaid cyn iddo ddechreu pregethu. Dyoddefodd lawer o erlid creulawn a chwerw oblegid ei grefydd, a bu raid iddo ffoi lawer gwaith o'r manau yr eiai i bregethu ynddynt rhag yr erlidwyr. Er mwyn ei yru o'r wlad, amcanodd rhai boneddigion o ardal y Bala ei bresio yn filwr yn ngwasanaeth y brenin. Bu raid iddo unwaith ffoi o'i dŷ o achos hyny; ac mewn cae ŷd yn mhlwyf Llanycil y bu yn ymguddio rhag ei erlidwyr. Fel yr oedd yn myned yn fyfyrgar ar hyd un o heolydd y Bala, tarawyd ef â chareg gan ei erlidiwr, nes tyllu ei wefus isaf, a thori un o'i ddanedd; a syrthiodd yntau i lesmair ar yr heol. Cafodd wybod ar ol hyny pwy oedd yr adyn a'i tarawsai; ond yn hytrach na dal digofaint tuag ato, pan gyfarfyddodd ag ef mewn tlodi flynyddoedd ar ol hyny yn Mettws Gwerfil Goch, talodd am giniaw iddo. Felly y byddai'r hen bobl dduwiol gynt yn lladd yr elyniaeth tra yn cymodi y gelyn. Nid oedd John Evans ar y cyntaf ond digon annyddorol fel pregethwr gan y werin; canys amcanai ef yn benaf oleuo y deall, tra yr oedd ei gyd lafurwyr yn chwareu llawer ar dànau'r teimlad, yr hyn oedd yn llawer mwy dymunol gan y gwrandawyr. Pregethwr pwyllog, arafaidd, a synwyrol ydoedd, yn traddodi y Gwirionedd mewn symlrwydd dull, iaith, a meddyliau. Dywedai rhywun mewn digrifwch wrtho na byddai efe yn chwysu fawr wrth bregethu; ac atebodd yntau, "Ni raid chwysu wrth ddweyd y gwir." Y traddodi mwyaf poblogaidd gan ei gydoeswyr ef oedd y taranllyd; ac os nad allai pregethwr enyn mellt, ni feddylid ond ychydig ohono. Yr oedd J. Evans mor ddiffygiol yn hyn o beth nes y tybiodd rhai o'i hen frodyr diniwaid ei fod yn fwy o rwystr na chymorth yn y pwlpud i achos crefydd; penderfynwyd mewn cyfarfod o'r eiddynt mai gwell fyddai iddo roi y gwaith i fyny, a danfonasant un o'u nifer i ddwyn y genadwri i'r truan diarddeledig, "Ho! mi glywaf," ebai yntau; "Wel, ewch chwithau yn ol atynt, a dywedwch wrthynt, y pregethaf fi nes y gwelwyf yma rywun a fedr bregethu yn well na mi yn dechreu arni hi," a bu yn dda i'r enwad yn ol llaw fod gan J. Evans ddigon o wroldeb i beidio digio na digaloni yn ngwyneb penderfyniad y brodyr. Nid oedd ofn dyn arno, ac yr oedd yn ystyried ei hun yn gyfrifol i lys uwch nag un llys daearol. Yr oedd ganddo feddwl treiddgar a chyflym, a sylwadau ffraethbert a chyrhaeddgar. Un tro mewn Cymdeithasfa, pan yr ymdrinid â'r pwnc Etholedigaeth Gras, gofynodd J. Evans, gan nad oedd yn clywed, am ba beth yr oeddynt yn ymddyddan. "Am Etholedigaeth," oedd yr ateb. Gofynodd yntau eilwaith, "A oes rhyw rai yn eich plith yn petruso o berthynas i'r athrawiaeth am etholedigaeth? Os nad oes, y mae pethau eraill mor angenrheidiol ymdrin arnynt, a phethau hefyd sydd i'w profi cystal a'u gwybod." Atebodd y Parch. John Jones, Edeyrn, "John Evans, amaethwr ydwyf fi; pe byddai i chwi fy ngweled mewn un cae, ni byddai hyny yn profi nad oes genyf gaeau eraill." "Gwir," meddai yntau, "ond pe gwelwn i chwi yn yr un cae o hyd, mi allwn gasglu nad oes genych yr un arall." Mewn cynadledd yn y Bala unwaith, pan oedd J. Evans ar ei draed ac yn siarad yn bur floesg ac anhawdd ei ddeall, a'i wyneb at y prif weinidogion oeddynt gyda'u gilydd o tan y pwlpud, cododd John Elias a dywedodd wrtho yn uchel, "Trowch at y bobl, John Evans,—dywedwch wrth y bobl." "Edrychodd yntau gyda golwg treiddgar ar Mr. Elias a dywedodd, "Beth, ai nid pobl ydych chwi?" nes yr oedd y gwr enwog o Fon yn gorfod cilio i'w le yn bur swta. Mewn Cymdeithasfa unwaith yn y Dehcudir, rhwymodd J. Evans un o'r tafodau llithricaf a fu erioed yn Nghymru,

Digitized by Google

âg un pwyth bychan. Cwyno yr oedd nad oedd neb o bregethwyr y Deheudir yn galw heibio i ychydig frodyr tlodion oedd yn y Graig, Machynlleth, wrth ddyfod i'r Gogledd i efengylu, gan erfyn arnynt beidio annghofio y praidd bychan amddifad hwnw. Cyfododd Mr. Jones, o Langan, a dywedodd, "Wel, John Evans, nid oes neb ohonynt hwy oddiyno yn dyfod i ddweyd wrthym '*Dewch.*'" "Wel, Syr," ebai John Evans, "a ydych chwi wedi annghofio ddarfod dweyd wrthych '*Ewch?*'" Bu raid i wr ffraeth Llangan eistedd i lawr tan wenu. Un tro, pan yn ymddiddan â'i wraig, yr hon oedd yn gryn dduwinyddes, hi a ofynodd iddo yn ddisymwth, "John, a fyddwn ni yn adnabod ein gilydd yn y nefoedd?" "Wel, byddwn yn siwr," meddai yntau, "a ydych chwi yn meddwl y byddwn ni yn ffolach yno nag yr ydym yma?" Yna yn mhen enyd efe a ddywedodd, "Ond Marged, gallwn ni fod yn ymyl ein gilydd am fil o flynyddau heb wneud fawr neu ddim sylw y naill o'r llall, gan faint gogoniant a rhyfeddodau Person y Gwaredwr Mawr, fydd yn llanw ein holl sylw a'n bryd." Oherwydd ei ddoethineb, a chyflawnder ei brofiad, dodid lle uchel iddo yn nghyngorau yr enwad. Ar neilldiad cyntaf pregethwyr o'r cyfundeb i weinyddu ordinhadau, yn 1811, John Evans a gymerai ran flaenllaw yn yr ymdrafodaeth; ac mewn sylw a wneir o'r amgylchiad, dywedir, "Mr. John Evans, o'r Bala, oedd ŵr cadarn iawn yn yr Ysgrythyrau, dianwadal, a sefydlog yn egwyddorion y grefydd Gristionogol. Bu y gwr hwn yn sefyll yn dyst ffyddlawn o blaid y gwirionedd, mewn athrawiaeth a dysgyblaeth, yn nghylch deugain mlynedd a phumtheg. Nid yn fynych y gwelir y cyffelyb." Cafodd gystudd maith, yr hwn a'i purai, fel y dywedai, ac a'i darparai i gymeryd gwell ffurf. Bu farw Awst 12, 1817, bron yn 94ain oed, a chladdwyd ef yn mynwent Llanycil, ger y Bala.—*Meth. Cymru; Ei Fywyd, &c.*

EVANS (Lewis), oedd frodor o sir Fynwy, ac a dderbyniodd ei ddysg yn Rhydychain. Symudodd oddiyno i Lundain, lle yr erlidiwyd ef oblegyd ei sel tros y grefydd Babaidd, ac y gorfu arno ffoi o'r deyrnas. Bu am yspaid yn Antwerp, lle y cyfieithodd o'r Lladin i'r Saesneg "Certain Tables set forth by Will. Bishop of Rurimund in Gelderland, wherin is detected and made manifest the doting dangerous doctrine, and heinous heresies of the rash rabblement of the Heretics," 1566. Yr oedd yn Babydd rhagfarnllyd y pryd hwn; ond cymodwyd ef yn ol hyny âg Eglwys Loegr, ac er mwyn rhoddi prawf o'i sel a'i gariad tuag ati, cyhoeddodd lyfr arall, cyn llawned o chwerwder tuag at Eglwys Rhufain ag ydoedd yr un crybwylledig o ffafriol iddi, tan y teitl, "The Castle of Christianitie, detecting the long erring estate, as well of the Roman church as of the Bishop of Rome;" Llundain, 1568. Wrth ei gyflwyno i'r frenhines Elizabeth, dywed "ei fod ef ei hun unwaith wedi yfed o bwll Anwybodaeth, o laid Eulunaddoliaeth, o lyn Ofergoeliaeth," &c. Cythruddwyd y Pabyddion yn fawr gan y llyfr hwn, a thaenasant chwedlau niweidiol i'w gymeriad, yr hyn a barodd iddo gyhoeddi llyfr arall yn 1570, tan y teitl, "The hateful hypocrisy and rebellion of Romish Prelates;" Llundain. Bu ar ol hyn yn ysgolfeistr, ac adolygodd a chwanegodd lawer at argraffiad newydd o waith Withal, "A short Dictionary for Young Beginners." Nis gwyddis pa bryd y bu farw, ond yr oedd yn fyw yn 1573.—Wood's *Athen. Oxon.*

EVANS (Oliver), oedd fab i amaethwr Cymreig yn Philadelphia, Gogledd America, ac yn hollol hunan-addysgiol. Efe a ddyfeisiodd yr

Digitized by Google

High Pressure Steam Engine. Yn 1804, gwnaeth gynhygiad i'r Lincoln *Turnpike Company* (America) i wneud agerbeirianau a cherbydau i gludo nwyddau rhwng Philadelphia a Cholumbia. Efe a ddywed ddarfod iddo yn 1775–6 feithrin y meddwl am wthio badau ac agerbeirianau, trwy olwynion yn eu hochrau. Gwnaeth erfyniad at y ddeddfwrfa yn 1786 i gael hawlfraint ar y dyfeisiad, a chafodd ei gefnogi yn Maryland a Hampshire.—*Lleyn MSS.*

EVANS (Parch. Owen), gweinidog gyda'r Undodiaid yn Cefncoedcymer, ger Merthyr Tydfil, a anwyd yn Byrdlip, Llandyssul, Aberteifi, Ebrill 23, 1808. Yn 1820, danfonwyd ef i ysgol yr enwog Davies, Castellhywel; ac yn 1828, aeth i goleg Caerfyrddin. Wedi treulio pedair blynedd yno, galwyd ef yn weinidog gyda'r eglwys o Undodiaid yn Mhant-y-defaid, yn yr hwn le yr arosodd hyd 1834. Ar ol hyn, treuliodd rai misoedd yn Evesham a Birmingham fel athraw; a bu am ychydig amser yn weinidog yn Blaengwrach, Morganwg. Yn 1837, symudodd i fod yn weinidog ar eglwys fechan a thlawd yn Cefncoedycymer, lle y bu yn gwasanaethu yn ffyddlawn tua 28 o flynyddau am ychydig iawn o gyflog. Yr oedd Mr. Evans yn llenor cyflawn ei wybodaeth, yn ysgolhaig clasurol rhagorol, ac o duedd ddyngarol a charedig iawn. Fel un o warcheidwaid Bwrdd Iechyd Merthyr Tydfil, enillodd barch ei gymydogion, a byddai ei lais a'i ddadl bob amser ar ran y tlawd a'r angenus. Bu farw Ion. 9, 1865, a chladdwyd ef gan dorf luosog yn nghanol galar cyffredinol.

EVANS (Richard), a anwyd yn Llanbrynmair, sir Drefaldwyn. Yr oedd ganddo feddwl cryf a bywiog mewn corph gwael a nychlyd. Yr oedd yn selog tros ei genedl a'u hiaith. Dygesid ef i fynu yn fasnachwr; ac yn nghymydogaeth un o'r ystordai yn Llundain, yr oedd ganddo drefedigaeth o Gymry, yn cynwys ychwaneg nag ugain o deuluoedd, i'r rhai y cyfranai feddyginiaeth a chynorthwy meddygol ar ei draul ei hun. Traddodai iddynt hefyd unwaith yn yr wythnos ddarlithiau yn yr iaith Gymraeg ar Law-weithfaoedd. Pan ybu farw, yr oedd yn llywydd Cymdeithas y Cymreigyddion, ac yn geidwad hen Lawysgrifau Cymreig y Gymdeithas Freiniol Gymroaidd. Bu farw yn yr Old Fort, Llundain, Ion. 7, 1832, yn 39 oed.—*Cambrian Quarterly Magazine*, cyf. iv. 286.

EVANS (Parch. Robert), a gafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydycbain, lle y graddiwyd ef yn LL.B. Mai 17, 1534. Cafodd bersoniaeth Llantrisant, yn Môn, yn 1526; yr hon a roddodd i fynu pan wnaed ef yn Ddeon Bangor, Rhagfyr 12, 1534. Ond cafodd bersoniaeth Llanengan, yn Lleyn, Tachwedd 27, 1535; ac hefyd bersoniaeth Aber, ger Bangor. Wedi hyny collodd y ddau le, oblegyd iddo fyned i'r sefyllfa briodasol; ond trwy gryn ffafr gyda'r awdurdodau, cafodd bersoniaeth Llanllechyd yn lle y ddwy eraill. Er hyny taflwyd ef allan o'r ddeoniaeth yn 1554, a rhoddwyd un Rhys Powel yn ei le, yr hwn a'i daliodd hyd ei farwolaeth yn 1557, pan y cafodd Robert Evans y ddeoniaeth eilwaith Hydref 27, 1557; a bu yn ei feddiant ef hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn 1570, a chladdwyd ef yn Eglwys Esgobol Bangor, er nad oes yno goffadwriaeth am dano.—*Lleyn MSS.*

EVANS (Robert), Llanrwst, un o gynghorwyr boreuol y Trefnyddion Calfinaidd, yn mywyd yr hwn y ceir engreifftiau nerthol o drallodion ac arwroldeb sylfaenwyr ein Hymneilldduaeth. Ganwyd ef yn 1750. Gwehydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, yn byw yn y Groesffordd, ger Llanrwst. Dechreuodd bregethu yn 1770. Yn ei weithdy ef y cyfar-

Digitized by Google

fyddai'r ychydig Fethodistiaid oeddynt y pryd hwnw yn y dref. Ymosodid arnynt, yn benaf gan lanciau a bechgyn direidus, un o brif bleserau pa rai ydoedd chwythu arogledd *assafœtida* i mewn i'r ystafell fel ag i wneuthur arosiad ynddi yn annyoddefol, neu ynte trwy ddyfod yn llechwraidd i mewn i'r ystafell a thori yr edafedd fyddai ar y gwŷdd, a gwneuthur colled drom i'r perchenog. Parhaodd pethau fel hyn am beth amser, a'r crefyddwyr yn cynyddu; ac yna gwisgodd yr erledigaeth wedd hacrach a chreulonach. Nid cymaint oedd y baeddu a'r aflonyddu arnynt; eithr dechreuwyd eu henllibio, a thaenu chwedlau celwyddog, a sisial yn frwnt, am danynt. Dywedid yr arferent ddiffodd y canwyllau yn eu cynulliadau eglwysig i ddybenion bryntion a ffiaidd; a gelwid y cyfryw gyfarfodydd yn "Weddi Dywyll." Efallai i'r enw darddu ar y cyntaf oddiar gamsyniad, trwy glywed yr hen bobl yn cwyno eu tywyllwch mewn gweddi, ac yn erchi Duw i faddeu iddynt eu gweddi dywyll. Pa fodd bynag, defnyddid y gair am rhyw dymhor tros Gymru oll mewn ffordd o ddifriad ysgeler. Nid oes ddadl ychwaith na roddwyd gan y crefyddwyr eu hunain le afreidiol i'r gelynion eu gwarthruddo, trwy y wyliadwriaeth ddyfal a gadwent na chai neb aros yn y cyfarfodydd eglwysig ond y sawl y ceid arnynt arwyddion lled diymwad eu bod o deulu y ffydd. Daeth eglwys fechan y Groesffordd i mewn am ei rhan o'r oruchwyliaeth newydd hon o erlid. Enillwyd sylw heddynad yn y gymydogaeth, o'r enw Mr. Cyffin, o'r Faenen, at eu cyfarfyddiad. Daeth y gwr boneddig hwnw, wedi ei gyffroi yn aruthr gan y chwedlau enllibaidd, a haid o lanciau aflywodraethus gydag ef, un noswaith cwrdd eglwysig at dŷ Robert Evans. Ar eu dyfodiad i mewn, gofynai Mr. Cyffin, "Beth ydych yn ei wneud yma?" "Cynghori ein gilydd," atebai Robert Evans yn arafaidd, "yn nghylch pethau bywyd tragwyddol." "Pa le y mae y 'Weddi Dywyll' gen' ti?" ebai y boneddwr. "Yn wir, syr," atebai yntau, "hi a fydd yn ddigon tywyll arnom yn fynych." "Wel," ebai Mr. Cyffin, "a fedri di bregethu?" "Mi fyddaf yn arfer cynghori ychydig weithiau, syr." "Wel, rhaid i ti bregethu i mi yn awr," ebai y boneddwr. Ceisiodd R. Evans ymesgusodi am enyd, ond yr oedd y gwr boneddig wedi rhoddi ei fryd ar fynu engraifft o'r hyn a bregethid ganddo, yn gystal a chael prawf pa faint oedd ei fedr; ni fynai naccad nac esgusodiad; ac felly i'r pwlpud y gorfu i R. Evans fyned. O'i flaen yr oedd yr heddynad, a haid o ddyhirwyr a ddaethent gydag ef, yn dysgwyl cyfle i arllwys eu gwenwyn ar y crefyddwyr, yn nghyda'r ychydig aelodau oeddynt yn cyfansoddi y gynulleidfa. Gwnaeth yr erlidwyr gais fwy nag unwaith i derfysgu; ond safai Mr. Cyffin yn eu canol gan orchymyn tawelwch, a thawelwch a fynodd i R. Evans orphen ei bregeth. Pan ddisgynodd y pregethwr o'r pwlpud, galwodd y boneddwr ef ato, a chanmolodd ei bregeth yn fawr. Anogodd ef i barhau gyda'i weinidogaeth, ac estynodd gini iddo, "am," ebai ef, "eich pregeth ragorol." Bu y tro hwn yn derfyn i bob erlid cyhoeddus yn Llanrwst; canys ni oddefai Mr. Cyffin o hyn allan, mewn cwmniaeth boneddigion nac un man arall, i neb enllibio y crefyddwyr hyn, a choleddai syniadau uchel yn enwedig am Robert Evans. Yr oedd R. Evans yn ddarllenwr mawr, yn wr cadarn yn yr Ysgrythyrau, ac yn bregethwr rhagorol. Dechreuasai bregethu pan yn ugain oed; ac yn fuan, gosododd sail gref i obeithio y buasai yn un o'r ser dysgleiriaf yn Ngwynedd oll. Yr oedd ei yspryd yn iraidd, a'i weinidogaeth yn nerthol. Eithr buan y llosgodd ymaith. Efe, meddir, oedd y cyntaf

Digitized by Google

a aeth o Gymru i bregethu at yr ychydig Fethodistiaid Calfinaidd i Lundain. Yr oedd hyn tua'r flwyddyn 1782. Pan yn dychwelyd adref ar y cerbyd, mewn lle o'r enw Market Street, tua 29 o filldiroedd o'r Brifddinas, trwy gychwyniad sydyn y ceffylau, syrthiodd ar ei ben i'r llawr, a bu farw cyn pen ychydig fynudau. Hyn a fu yn mis Mai, 1782, pan nad oedd ond 32 oed. Claddwyd ef yn barchus gan ei gyfeillion yn Llundain, y rhai hefyd a roddasant anrheg o £60 i'w weddw.—*Meth. Cymru.*

EVANS (Samuel), golygydd *Seren Gomer*, a anwyd mewn tyddyn-dŷ o'r enw Llwyn Piod, ger St. Clears, sir Gaerfyrddin, yn 1793. Yn 1807, rhwymwyd ef yn egwyddorwas i ddysgu y gelfyddyd o argraffu gyda Mr. Evans, Caerfyrddin. Pan fu farw "Gomer," yn 1825, symudwyd swyddfa y *Seren* o Abertawe i Gaerfyrddin, ac er mai y Parch. D. D. Evans, wedi hyny o Bontrhydyryn, oedd ei golygydd mewn enw, eto ar Samuel Evans, fel arolygydd y swyddfa a darllenydd y prawfleni, yr oedd pwys gwirioneddol y gwaith, a bu *Seren Gomer* yn boblogaidd o dan ei ofal hyd y fl. 1850. Heblaw ei lafur yn y swyddfa, a golygiaeth y *Seren*, cyhoeddodd argraffiad diwygiedig o Eiriadur y Dr. Richards o Lynn yn 1839, yr hwn oedd yn rhagori ar Eiriaduron cyffelyb a gyhoeddasid o'r blaen. Tua'r un amser, darfu i bwyllgor Eisteddfod y Fenni ethol pump o'r prif lenorion i benderfynu yr orgraff Gymreig, ac un ohonynt oedd Samuel Evans. Gwedi symuniad *Seren Gomer* o Gaerfyrddin, bu yn golygu *Seren Cymru*, yn yr hon y cyhoeddodd lythyrau ar Lythyreg y Gymraeg, a chasglwyd y rhai hyny at eu gilydd gyda chwanegiadau, yn llyfr cryno a gorchestol tan yr enw *Gomerydd.* Ystyrir y *Gomerydd* yn un o'r pethau goreu a feddwn ar yr orgraff Gymreig. Yn 1852, symudodd i Gaerdydd, a bu yn golygu y *Bedyddiwr* am y pedair blynedd olaf o'i fywyd, a chyfieithodd lawer o Esboniad y Dr. Gill i'r Gymraeg. Treuliodd ei natur ymaith mewn llafur llenyddol; a bu farw Awst 30, 1856, yn 63 oed, a chladdwyd ef yn mynwent y Tabernacl, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. A. Thomas, gweinidog y lle, a Mathetes. O ran ei broffes grefyddol yr oedd Mr. Evans yn aelod gyda y Bedyddwyr; fel llenor Cymreig, ymrestrai yn naturiol gyda goreuon y genedl; ac fel golygydd medrus, ar gyhoeddiad rhyddfrydig, safai yn uwch na neb o'i gyfoeswyr.

EVANS (Parch. Theophilus), awdwr y llyfr tra adnabyddus "Drych y Prif Oesoedd." Y mae cryn amrywiaeth barn parth ei rieni. Dywed un hanesydd mai mab ydoedd i Cadben John Evans, yr hwn a hanai o deulu parchus Pengwenallt; tra y dywed Theophilus Jones, hanesydd Brycheiniog, mai mab i Charles Evans, Pengwenallt, ydoedd; a chan fod yr awdurdod olaf yn berthynas agos i'r awdwr gwiwglodus, a'r blaenaf yn amddifad o brofion i'w haeriad, dewisir yr olaf gan haneswyr yn gyffredinol. Ganwyd ef yn 1694. Tybir ddarfod iddo fod am rhyw yspaid yn y 'Mwythig yn yr ysgol. Urddwyd ef yn ddiacon yn 1718, ac yn offeiriad yn 1719. Ei guradiaeth gyntaf oedd Tŷ-yr-abad, ar ochr Mynydd Epynt, yn sir Frycheiniog. Symudodd oddiyno i Lanlleonfel. Yn 1728, rhoddodd esgob Tyddewi rectoriaeth Llanynys iddo; ac yn mhen deng mlynedd wedi hyn cafodd fywiolaeth Llangammarch. Yn 1739, cafodd eglwys Dewi Sant, Llanfaes, Aberhonddu. Yn 1763, rhoddodd Langammarch i fynu i'w fab-yn-nghyfraith, y Parch. Hugh Jones, tad Theophilus Jones, Ysw., awdwr hanes sir Frycheiniog. Enw gwraig Mr. Evans oedd Alice,

Digitized by Google

merch Morgan Evan, o'r Gelli Galed, Morganwg. Bu iddynt bump o blant. Dygwyd allan yr argraffiad cyntaf o "Drych y Prif Oesoedd," yn 1716; a chafodd dderbyniad croesawus. Daeth ail-argraffiad allan, gyda chwanegiadau gan yr awdwr ei hun, yn 1740. Cyhoeddwyd tua deg argraffiad ohono wedi hyn, ac nid oes odid i lyfr cenedlaethol yn Nghymraeg a gafodd dderbyniad a darlleniad mor helaeth. Byr hanes am yr hen Frytaniaid ydyw, wedi ei sylfaenu yn benaf ar weithiau Sieffre o Fynwy. Buwyd am hir amser yn dilys gredu y chwedlau rhamantus sydd ynddo, ond y mae yr oesau diweddar hyn yn edmygu ac yn darllen y llyfr yn hytrach oblegyd ei arddulliaith bur nac oherwydd ei gywirdeb hanesyddol. O ran ieithwedd ystwyth a Chymreigaidd, ystyrir ef yn safon, ac yn un o lyfrau clasurol yr iaith. Yn 1739, cyhoeddodd Theo. Evans ei "Bwyll y Pader," sef pregethau yn cynwys esboniad yn eglurhau *Gweddi yr Arglwydd.* Yn 1752, cyhoeddodd lyfr Saesneg tan yr enw "A History of Modern Enthusiasm;" ail-argraffiad o ba un a ymddangosodd yn 1759, ond y mae y llyfr bellach yn anhawdd ei gael. Yn y llyfr hwn, y mae yn trin pob math o Annghydffurfwyr gyda chwerwder; ond dyfynir ganddo eu hawdwyr hwy eu hunain yn onest, a nodir yr hyn a ystyria efe yn feius yn nghredoau eu prif-arweinwyr. Bu farw yn 1769, yn 73 oed.

EVANS (Thomas), ydoedd bregethwr teithiol gyda'r Bedyddwyr yn y 17eg ganrif, a chyff cenedl llawer o wyr a fuont enwog yn eu dydd gyda'r enwad hwnw yn Nghymru. Tybir ddarfod iddo ddechreu pregethu tua 1651 neu 1652, canys yn 1653, neillduwyd ef gan y "Dirprwywyr er Lledaenu yr Efengyl yn Nghymru," i bregethu yn eu gwasanaeth am gyflog o £30 yn y flwyddyn. Llanwodd y swydd hon gyda sel a llwyddiant. Maes penaf ei lafur oedd sir Frycheiniog. Goddefodd lawer o erlid a charcharau, eithr gadawodd enw dilychwin o'i ol fel un na wyrodd yn ngwyneb bygythion. Bu farw yn 1688. Wyr iddo ef ydoedd Hugh Evans, A.M., o Fristol; a gorwyr iddo ydoedd yr enwog Dr. Caleb Evans.—*Hanes y Bedyddwyr.*

EVANS (Parch. Thomas), neu *Tomos Glyn Cothi*, a anwyd Mehefin 20, 1766, mewn tyddyn bychan o'r enw Capel St Silin, ger Brechfa, yn ymyl yr afon Cothi, yn mhlwyf Llanfihangel Rhos y Corn, sir Gaerfyrddin. Priododd yn dra ieuanc, a mabwysiadodd olygiadau yr Undodiaid, a daeth yn ddysgawdwr yn eu plith; a phan oedd ganddo chwech o blant, bu mewn ysgol Ramadegol yn Abertawe ar draul y Cyfundeb hwnw. Dywedir hefyd i Mr. Theophilus Lindsey ei anrhegu a gwerth £50 o lyfrau. Daeth yn awdwr mor fore a 1793, a chyhoeddodd y "Drysorfa Gymysgedig (chwarterol)," yn cynwys detholion yn benaf o waith Dr. Priestley. Daeth y drydedd ran allan yn 1795. Neillduwyd ef i waith y weinidogaeth yn 1794; a chyhoeddodd ei "Gyffes Ffydd," yr hon a draddodwyd ar ddydd ei urddiad, ac sydd yn hynod o Undodaidd. Daeth un tro hynod i'w gyfarfod yn 1797; pan oedd dylanwad chwildröad Ffrainc yn cynhyrfu y teyrnasoedd, drwgdybid yr Ymneillduwyr o bob gradd o anffyddlondeb i'r llywodraeth. Yn yr adeg hono, aeth Mr. Evans i dŷ cymydog tlawd lle yr oedd noswaith o yfed mêdd, er budd y teulu. Math o "Gwrw Bach" ydoedd, ond mai mêdd ac nid cwrw oedd y ddiod. Anogwyd ef gan gymydog twyllodrus i ganu cerdd a ystyrid yn fradwriaeth, er mwyn cael mantais i achwyn arno. Y mae yn anhawdd gwybod yn bresenol pa beth a ganodd. Y mae cân Saesneg yn hanes ei fywyd, yn "Ngardd Aberdar," yr hon, meddir, a ganodd y noswaith hono. Mae yn ddiddadl

Digitized by Google

fod y gân hono yn cynwys bradwriaeth ond yr oedd Evans yn gwadu y cyhuddiad, ac yn dywedyd yn benodol na ddarfu iddo ei chanu. Mae eraill yn barnu mai canu "Can Rhyddid," yr hon sydd yn argraffedig yn y "Geirgrawn" am 1796, a wnaeth. Nid yw y gân hono yn cynwys geiriau mor dramgwyddus, â'r gân Saesneg. Pa fodd bynag, cafodd Mr. Evans ei ddedfrydu i ddwy flynedd o garchariad yn Nghaerfyrddin, a sefyll yn y rhigod *(pillory)*, yn gyhoeddus, yn wrthddrych dirmyg gwerin farbaraidd a lloerig. Safodd ei ferch yn ffyddlawn yn ei ymyl yn y dydd hwnw, ac ni chafwyd ond un fenyw yn ddigon creulon i daflu cloncwy at ben amddiffynwr rhyddid, yr hwn oedd yn dyoddef y fath farbareiddiwch ar gam. Ond ni threuliodd efe ei amser yn ofer yn y carchar, canys cyfansoddodd "Eirlyfr Saesneg a Chymraeg," lled debyg o ran ei faint i'r eiddo Jones o Ddinbych, neu Richards o Lynn. Daeth allan o'r wasg yn 1807. Symudodd Mr. Evans i Aberdâr tua'r fl. 1813, a bu yno hyd ddiwedd ei oes yn weinidog yn Hen Dy Cwrdd Heolyfelin. Hen achos Presbyteraidd, a godasid i enwogrwydd drwy lafur a rhinweddau yr hen fardd Edward Evans o'r Ton Coch, oedd hwn; ond newidiodd yr eglwys ei henw o dan weinidogaeth Mr. Thomas Evans, fel nas gelwir hi mwyach yn Bresbyteraidd, ond Undodaidd. Cyhoeddodd Mr. Evans amryw o lyfrau er egluro ac amddiffyn egwyddorion yr Undodiaid, y rhai a brofant fod ganddo feddwl clir a synwyr cadarn. Hefyd, yr oedd efe yn gryn fardd, ac yn deall y mesurau caethion yn rhagorol. Gwelsom gywydd campus o'i waith ar "Wybodaeth," sef testun Eisteddfod yr Alban Hefin ar fynydd y Garth yn 1797. Ac yn y cymeriad o fardd cyfansoddodd a chyhoeddodd Lyfr Hymnau at wasanaeth ei frodyr. Rhoddasai Iolo Morganwg fenthyg ei Salmau iddo cyn hyny mewn llawysgrif; a phan ddaeth ei lyfr ef o'r wasg, yr oedd yno ddwy linell yn gymhwys fel llinellau Iolo, a chyhuddodd ef o len-ladrad, a chan ei fod yn gwadu, aeth y pechod yn fwy, a bu oerfelgarwch mawr rhyngddynt, yn enwedig o du Iolo. Yr oedd T. Evans yn wrthwynebol iawn i ofergoelion, bwgan, &c., ac ni chredai hyd yn nod yn modolaeth angylion drwg. Buasai yn trigianu yn sir Gaerfyrddin, mewn lle o'r enw Penpistyll, am hyny gelwid ef weithiau "Twm Penpistyll," "Apostol Penpistyll," &c. Bu farw Ion. 29, 1833, yn 68 oed, a chladdwyd ef wrth yr Hen Dy Cwrdd. Mae ei enw yn barchus fel bardd a llenor, ei glod fel pregethwr yn uchel gan ei frodyr, a'i goffadwriaeth yn anwyl gan bleidwyr gwresocaf rhyddid gwladol a chrefyddol.

EVANS (Thomas), *(Telynog)*. Ganwyd y bardd ieuanc awenber hwn yn Aberteifi, Medi 8, 1840. Saer llongau oedd ei dad yn y dref hono, a *Thelynog* oedd yr ieuengaf o bedwar o feibion. Ymddengys na chafodd efe ond ychydig o ysgol, ond yr oedd ei awydd am ddysgeidiaeth yn fawr, a'i gyflymder i'w feddianu yn annghyffredin. Pan yn 11 oed, dodwyd ef ar fwrdd un o'r mân longau oeddynt yn hwylio o Aberteifi i wahanol borthladdoedd Cymru. Cyfarfu â chaledfyd a chamdriniaeth pan yn treulio bachgenoed tyner ar frig a thrugaredd y don, ac wedi gwasanaethu ar ddwy long, penderfynodd adael y gwaith o gwbl. Pan gyrhaeddodd y llong olaf y bu ar ei bwrdd i Aberdaugleddyf, manteisiodd Thomas ar y cyfleustra, a diangodd ymaith, gan benderfynu gweithio ei ffordd i Aberdar. Gorfu arno werthu rhan o'i ddillad, er mwyn cael lluniaeth, a thalu ei gludiad i ben ei daith. Wedi cyrhaedd yn ddiangol Aberdar, anfonodd lythyr *ar gân* at ei fam yn ei hysbysu pa le yr ydoedd, a hwnw ydoedd tôn-nodyn cyntaf ei awen lednais. Yn

Digitized by Google

ei gartref newydd, dechreuodd weithio fel glowr, ac wrth y gwaith hwnw y parhaodd o hyny allan. Cymerai ddifyrwch mawr mewn cerddoriaeth pan tua phumtheg oed; llwyddodd i feistroli y gelfyddyd hono i raddau pell, a thynodd gryn sylw fel lleisiwr mwyn a pheraidd. Yn fuan ar ol hyn, enillodd wobr am y bryddest oreu ar "Ostyngeiddrwydd," yn nghyfarfod llenyddol Capel y Bydyddwyr, Cwmbach, lle yr oedd efe yn aelod. Dyma dechreuad ei lwyddiant cystadleuol; bu yn fuddugol ddeunaw o weithiau ar ol hyny. Cyflawnodd hyn yn ngwyneb llawer o anfanteision;—yr oedd yn rhaid iddo weithio'n galed bob dydd er enill bywiolaeth i'w fam ac yntau, ac am y chwe' blynedd olaf o'i oes yr oedd mewn brwydr barhaus â'r ddarfodigaeth; wrth gymeryd hyn i ystyriaeth, cyfiawnheir tybiaeth y sawl a'i hadwaenent oreu ei fod yn un o'r beirdd ieuainc mwyaf addawol yn Nghymru. Y mae ei bryddest ar "Yr Afon," buddugol yn Eisteddfod Ffynon Taf, yn cynwys llawer o geinion yr Awen wir; a'i ganau ar "Yr Iesu wrtho'i hun," a'r "Darfodedigath," yn teilyngu eu rhestru gyda goreuon cyfansoddiadau o'r fath. Yr oedd ieuenctyd y bardd, yn nghyda'i anfanteision, yn esgusodi ambell i drosedd ar iaith a chwaeth; ac yn ein dwyn i'r penderfyniad mai dernyn o aur pur heb ei gwbl gaboli oedd ei athrylith. Gwr ieuanc hawddgar, cyfeillgar, a gwylaidd, ydoedd. Bu farw o'r darfodedigaeth Ebrill 29, 1865, yn 25 oed, a chladdwyd ef yn *Cemetery* Aberdar. Cyhoeddwyd cyfrol ddestlus o'i weithiau barddonol yn 1866, tan olygiaeth Dafydd Morganwg, a Mr. Hywel Williams, Pantygerddinen.

EVANS (Thomas), o Newton Nottage, telynor yn ei flodau tua 1760. Efe oedd awdwr y gân a'r dôn enwog y "Ferch o'r Scer." Dywedir mai efe oedd arwr y gân, ac yr arferai ei chanu gyda'r delyn.

EVANS (Thomas), bardd o Ddyffryn Clwyd yn ei flodau rhwng 1590 a 1640. Y mae dau gywydd o'i waith mewn llaw-ysgrifen yn awr ger ein bron. Y cyntaf a elwir "Cywydd Duwiol;" a'r ail, "I ofyn Pottel Leder, gan Mr. John Prys, o Gaerddinen." Yr oedd John Prys hefyd yn fardd; ac ymddengys mai hen "Bottel" yn perthyn unwaith i Simwnt Fychan oedd yr un y gofynid am dani, yr hwn, yn ol y cywydd, a fuasai athraw barddonol Thomas Evans.

EVANS (Parch. William), trysorydd eglwys esgobaethol Llandaf, a changhellwr yr esgobaeth am 40 mlynedd. Yr oedd hefyd yn Ustus yr Heddwch dros sir Forganwg, ac yn fardd gorchestol. Cynaliwyd Eisteddfod yn Llandaf yn 1564, neu 1561, yn ol y *Greal*. Yr oedd y personau canlynol yn bresenol:—Syr Tomos Jones, Giles ab John, William Dyfi, Tomos Brwynllys, Thomas Llywelyn, Meirig Dafydd, Sion Mawddwy, Tomos Lewis, Meredydd ab Rhoser, Hopkyn Twm Phylip, Twm Sion Catti, Syr Sion Gruffydd o Langrallo; Mr. William Evans, y canghellwr, ydoedd y beirniad. Cyfansoddodd W. Evans naw o englynion "Cynghor i'r Prydyddion, ger bron y gadair wrth gerdd yn Llandaf." Dyma un ohonynt yn engraifft:—

Prydwch a dysgwch mewn dewisgerdd—lan
A fo lwydd rhag angerdd,
A gogan, a thwyll geugerdd
Rhowch y gwir yn mraich y gerdd.

Bu farw yn 1589.

EVANS (Parch. William), gweinidog llafurus a defnyddiol gyda'r Wesleyaid. Ganwyd ef yn Mangor, Hydref 25, 1779. Morwr oedd ei dad, a bu farw yn yr India Orllewinol pan nad oedd William ond baban. Pa fodd bynag, gofalwyd am iddo gael addysg dda yn ei ieuenctyd, gyda'r bwriad o gael sefyllfa iddo yn y cyllid-dy; eithr wedi

Digitized by Google

gorphen tymhor dysgu, efe a ddewisodd yn hytrach y swydd o eilliedydd. Wedi gorphen ei egwyddor-wasanaeth, symudodd i Amlwch, ac oddiyno drachefn i Gaernarfon. Ymunodd â'r Wesleyaid yn 1802, dechreuodd bregethu yn 1805, a'r flwyddyn ganlynol galwyd ef allan i'r weinidogaeth deithiol. Bu am yspaid yn llanw y swydd o genadwr yn Nghaerdydd. Yn 1807, symudodd i Langollen, ac oddiyno, yn yn mhen dwy flynedd, i Lanrwst. Yma, yn 1811, priododd un Jane Davies, merch i Mr. Morris Davies, Caernarfon; a bu yr undeb hwn yn ffynonell llawer o gysur iddo. Symudodd i Dreffynon yn 1814; i Ruthyn yn 1816, i Lanfyllin yn 1818, a Machynlleth yn 1821. Yn y lle olaf yr oedd yn gymydog i'r Parch. J. Roberts, Llanbrynmair, ac argraffodd lyfr er amddiffyn y daliadau Wesleyaidd yn ngwyneb golyg. Mr. Roberts, tan y teitl, "Amddiffynwr y Gwir." Yn 1824, yr oedd eilwaith ar gylchdaith Llanfyllin, ac yn golygu yr *Eurgrawn*, yr hon swydd a lanwodd am ddwy flynedd er boddlonrwydd mawr. Bu ar ol hyn am ddwy flynedd yn Nolgellau, ac aeth i Gaernarfon yn 1831, ac mewn gwrthatebiad i yspryd rhai o'r aelodau yno ysgrifenodd "Amddiffyniad i Ddysgyblaeth y Methodistiaid Wesleyaidd," yr hwn ni chyhoeddwyd hyd 1850. Y flwyddyn ganlynol aeth, i lafurio i gylchdaith Aberteifi, o'r hwn le y symudodd yn 1835 i Grughowel, a thrachefn yn 1837 i Abertawe, lle y cyhoeddodd lyfryn bychan ar "Barhad dianmhodol mewn Gras," mewn atebiad i eiddo'r Parch. P. Griffiths, Alltwen. Daeth i gylchdaith Merthyr Tydfil yn 1840, ac wedi llafurio yno gyda graddau helaeth o lwyddiant am dair blynedd, symudodd i Fachynlleth, lle y bu yn gwasanaethu yn llafurus am flwyddyn. Yr oedd henaint bellach wedi ei ddal, a'i babell luddedig yn gwaeddi am orphwysdra, er fod ei yspryd yn parhau yr un mor iraidd a bywiog ag erioed. Mynegodd ei deimladau i'w frodyr yn Awst 1844, ac unfryd gymeradwywyd ef i fod yn uwchrif. Eithr ni threuliodd ei amser fel uwchrif yn segur. Tua diwedd 1849, ysgrifenodd "Hanes Bywyd y Parch. E. Jones, Bathafarn," ac ysgrifenai lawer i'r *Eurgrawn*. Bwriadai hefyd gyhoeddi llyfr o'r enw "Wesleyana," yr hwn oedd i fod yn Gorph o Dduwinyddiaeth, eithr ni chafodd fywyd i gwblhau y gwaith. Fel pregethwr, yr oedd yn sylweddol, athrawiaethol, ac adeiladol; ac fel gweinidog, yn llafurus ac ymdrechgar i eangu cylch derbynwyr yr athrawiaethau y credai mor ddiysgog ynddynt. Llanwodd y swydd o Ysgrifenydd a Chofiadur Taleithiol am ugain mlynedd. Bu farw yn ddedwydd iawn Gorph. 30, 1854.

EVANS (Parch. William), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Cwmllynfell, a anwyd yn Abercraf, Ystradgynlais. Cafodd ddygiad i fynu da a chrefyddol. Dechreuodd bregethu pan tuag ugain oed. Bu am yspaid yn gweinidogaethu ar eglwys yn y Chwarelau Bach, ger Castellnedd; oddiyno symudodd i Gwmllynfell, lle y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes mewn bri uchel fel pregethwr rhagorol. Wedi bod yn pregethu am 30 mlynedd bu farw, a chladdwyd ef yn mynwent Llangiwc.

EVANS (Parch. William), oedd fab i Evan a Jane Evans, o'r Bala, lle ganwyd ef yn Mai, 1773. Canfu ei dad ynddo yn ieuanc duedd at lyfrau, ac hefyd at y weinidogaeth Gristionogol, a rhoddodd ef pan yn ieuanc o tan ofal athraw yn yr ieithoedd dysgedig, lle y bu am bum' mlynedd yn derbyn elfenau dysgeidiaeth. Dangosodd duedd a dawn at farddoniaeth Gymreig. Pan oedd efe yn 14 oed, cynelid Eisteddfod

Digitized by Google

yn y Bala, ac un Robert Hughes oedd y beirniad, yr hwn pan ddeallodd am gyrhaeddiadau gwybodaeth Evans ieuanc yn rheolau barddoniaeth ac yn yr iaith Gymraeg, a fynegodd i'r beirdd na chymerai efe arno y gwaith o feirniadu os na chaniateid i "Bili Evans" fod yn gynorthwywr iddo. Cefnogwyd hyn gan offeiriad cyfrifol; a dyna lle yr oedd yr hen fardd a'r bachgenyn yn feirniaid ar orchwylion llenyddol y dydd. Yn 1791, derbyniwyd ef i athrofa yr Annibynwyr a gynelid y pryd hyny yn Nghroesoswallt, tan ofal y diweddar Dr. E. Williams (wedi hyny o Rotherham), ac ar ol hyny o dan ofal y Parch. Jenkyn Lewis, Gwrecsam, lle y dewiswyd ef yn athraw yr ieithoedd; ac ar yr un pryd helaethai ei gyrhaeddiadau, yn neillduol yn yr Hebraeg a Duwinyddiaeth. Yn 1795, ordeiniwyd ef yn weinidog cynulleidfa yn Bridgnorth, sir Amwythig. Yn 1801, cymerodd ofal cynulleidfa yn Stockport, o'r hwn le y cymerodd ran helaeth yn nhrefnyddiaeth y cyfundeb Annibynol, trwy sefydlu undeb gweinidogion a chynulleidfaoedd sir Gaerlleon. Rhoddwyd terfyn ar ei lafur, ar ol gwaeledd maith, Medi 29, 1814, yn 42 oed.—*Lleyn MSS.*

FAGAN, sant a ddanfonwyd gan y Pab Eleutherius, gyda Dyfan, Medwy, ac Elfan, o Rufain i Brydain, tua'r fl. 180, ar ddeisyfiad Lleurwg, i bregethu'r ffydd yn Nghrist. Y mae eglwys St. Fagan, yn Morganwg, wedi ei chyflwyno iddo.

FENTON (Richard) a anwyd yn Nhy Ddewi, sir Benfro, yn 1746. Derbyniodd ei addysg foreol yn yr ysgol esgobaethol; eithr symudodd i Lundain pan yn lled ieuanc, lle y cafodd swydd yn y toll-dy. Pa fodd bynag, nid oedd y gwaith hwn yn dygymod â'i archwaeth lenyddol ac ysgolheigaidd, ac ymroddodd i efrydu y gyfraith yn y *Middle Temple*. Yn ystod ei arhosiad yn yr efrydfa hon, daeth i gydnabyddiaeth â lluaws o lenorion enwocaf yr oes. Nid oedd Dr. Johnson yn anadnabyddus iddo; ac arferai Goldsmith dreulio aml i brydnawn gydag ef yn ei ystafell. Yr oedd ar delerau tra chyfeillgar hefyd â David Garrick, i'r hwn y cyflwynodd efe lawer o'i bryddestau, a'r hwn a roddai iddo freiniau rhyddid i'w chwareudy. Yr oedd Mr. Fenton yn ysgolhaig rhagorol yn yr ieithoedd Groeg, Lladin, Ffrancaeg, a chyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth cyn bod yn llawn ugain oed. Bu wedi hyny yn ddadleuydd ar gylchoedd cyfreithiol yn yr Iwerddon, Lloegr, a Gogledd a Deheubarth Cymru. Cyflwynodd yr ugain neu'r deg ar hugain olaf o'i oes yn hollol i lenyddiaeth. Yr oedd yn gyfaill calonog i Syr Richard Hoare, ar ddeisyfiad yr hwn yr ymgymerodd a chyfansoddi "Historical Tour through Pembrokeshire," yr hwn a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1810—llyfr o deilyngdod uchel, yn cynwys twysged o wybodaeth ddyddorus. Ysgrifenodd hefyd "A Tour in quest of Genealogy," 1811; a "Memoirs of an Old Wig,"—cyhoeddwyd y ddau yn ddienw. Heblaw hyn cyfieithodd "Deipnosophistæ" o waith Athenæus; cyfansoddodd Chwareuon hefyd, ac ysgrifenodd atebiad chwerw i sylwadau y Dr. Burgess, esgob Tyddewi, ar ei "Historical Tour." Gadawodd lawer o ysgrifeniadau gwerthfawr heb eu cyhoeddi, yn mhlith pa rai yr oedd defnyddiau at hanes holl siroedd Cymru. Dywed cyfaill a'i hadwaenai yn dda am dano "ei fod yn wr o ddiwydrwydd diflino, o chwaeth farddonol uchel, llawen ei fryd, boneddigaidd ei ymddygiad, ac yn meddu y wybodaeth gyffredinol helaethaf o neb a adwaenais erioed." Priododd ferch i un David Pillet swyddog milwrol Swisaidd, cyfaill mynwesol i'r ail ddug o Marlborough, yr hwn a'i dygasai trosodd i'r wlad hon, ac a'i hanogasai i wladychu yma. Bu

Digitized by Google

farw yn mis Tachwedd 1821, yn 75 oed, a chladdwyd ef yn Maenorowen, gerllaw Abergwaen, sir Benfro.—Wms. *Em. Welsh.*

FILI, mab i Cenydd ab Gildas y Coed Aur, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Sefydlodd eglwys Rhosfili, a elwir yn awr Rhosili, Morganwg; a thybir fod Caerffili, yn yr un sir wedi derbyn ei henw oddiwrtho.

FITZ-WALTER (WILLIAM GRUFFYDD), ydoedd ail fab i Gerald Fitzwalter a Nest, ferch i Rhys Gruffydd, o Ddeheubarth. Yr oedd yn meddianu Castell Carrew, yn sir Caerfyrddin, fel etifeddiaeth ei fam, a mabwysiadodd y cyfenw hwnw. Priododd Cathrine, merch Adam de Kingsley, o sir Gaerlleon. Anfonwyd ef yn 1171, gan Iarll Strongbow, i'r Iwerddon, gyda'i fab Raymond, i ddarostwng y Gwyddelod. Eithr, gan ddychwelyd i'w wlad enedigol, bu farw yn 1173. Yr oedd Iarll Lansdowne yn un o'i ddisgynyddion.—*Lleyn MSS.*

FFLAM ab Nwyfre, un o bendefigion Llys Arthur.

FFLEWDWR ab Naf, cymeriad hynod yn yr hen ramantau Cymreig.

FFLEWDWR FFLAM, neu Fflewdwr Wledig, ydoedd fab i Godo, a chofnodir am dano yn y *Trioedd* fel un o'r rhai a ddewisent yn hytrach dario fel marchogion yn Llys Arthur, er fod ganddynt diroedd a chyfoeth o'r eiddynt eu hunain. Crybwyllir am dano hefyd yn "Mabinogi Cilhwch ac Olwen."

FFLEWYN, sant yn eu flodeu yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Ithel Hael, ac apwyntiwyd ef gyda'i frawd Gredifael i lywyddu mynachlog Pawl Hen, neu Paulinus, yn y Ty Gwyn ar Daf, sir Gaerfyrddin. Fflewyn Sant a sylfaenodd eglwys Llanfflewyn yn Mon.

FFLOYD (THOMAS), M.A., brodor o Gymru, a aeth i goleg New Inn, Rhydychain, yn 1589, lle y graddiwyd ef yn B.A. Symudodd oddiyno i goleg yr Iesu, lle yr enillodd y radd o M.A., ac yr etholwyd ef yn gymrawd. Yn 1600, cyhoeddodd "The Picture of a perfect Commonwealth, describing as well the offices of Princes and inferior magistrates over their subjects as also the duty of subjects towards their governors." Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau eraill hefyd.

FFLOYD (WILLIAM), oedd fab i Nicol, ac ŵyr i Richard Ffloyd, yr hwn a ymfudodd o Gymru tua 1680, eithr nid yw yn hysbys o ba barth o Gymru. Ganwyd William Ffloyd yn Long Island, ger Efrog Newydd, Rhag. 17, 1734. Enillwyd ei deimladau yn gynar o blaid hawl y Trefedigaethau yn eu hymrafael â Phrydain Fawr, ac etholwyd ef yn gynrychiolydd Efrog Newydd yn yr Eisteddiad Cyfandirol a gyfarfu yn Philadelphia Medi 5, 1775 a 1776, ac felly hyd ddatganiad yr annibyniaeth. Dyoddefodd golledion dirfawr yn yr ymrafael gofidus hwnw. Cymerodd y milwyr Prydeinaidd feddiant o'i dŷ a phob peth oedd ganddo, a bu ef a'i deulu yn ffoaduriaid am agos i saith mlynedd, heb dderbyn dim oddiwrth gynyrch y tir. Yn 1777, gwnaed ef yn gadfridog i lywyddu milwyr cartrefol Long Island, ac yn seneddwr tros dalaeth Efrog Newydd; ac o hyny allan, hyd ddiwedd ei oes, llanwodd amryw o swyddau uchaf y dalaeth. Yn 1784, prynodd ddarn mawr o dir ger yr afon Mohawk, lle y symudodd i aneddu yn 1803, ac oddiwrtho ef gelwir y lle yn Ffloyd hyd heddyw. Bu farw Awst 4, 1821, yn 87 oed.—*History of Long Island, and Family Records.*

FFLUR, ferch i Fygnach Gorr, rhian nodedig, a ladratawyd ymaith gan Mwrchan Leidr, brenin Gascony, gyda'r dyben o wneud anrheg ohoni i Iwl Cæsar. Caswallon ab Beli a gynullodd dri ugain mil o wyr er ei hadenill, ac wedi lladd chwe' mil o'r gelynion, dywedir ddarfod

Digitized by Google

iddo adfeddianu gwrthddrych ei serch. Dywed y *Trioedd* mai yr ymgyrch hon a barodd i Cæsar ymosod ar Brydain.

FOULKES (PARCH. JOHN), D.D., ydoedd o Erddig, ger Gwrecsam, sir Ddinbych. Etholwyd ef yn benaeth Coleg yr Iesu, Rhydychain, yn 1317, a llanwodd y swydd hono gydag anrhydedd mawr am lawer o flynyddau.

FOULKES (THOMAS), pregethwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn y Bala a Machynlleth. Ganwyd ef, yn 1731, yn Llandrillo-yn-Edeyrnion, sir Feirionydd. Pan oedd yn 23 oed cymerodd daith i Loegr, a bu yn ymdaith am ryw gymaint o amser yn ardal Caerlleon. Dychwelwyd ef at Dduw trwy weinidogaeth y Parch. John Wesley, tua'r fl. 1754, neu 1755. Ar ol bod am rhyw dymhor yn Lloegr, dychwelodd i Gymru, yn well dyn nag yr ymadawodd. Ar ei ddychweliad adref, arweiniwyd ef i aros yn y Bala, lle yr ymunodd â'r Trefnyddion Calfinaidd. Nis gwyddis pa bryd y dechreuodd bregethu. Yn fuan wedi ymsefydlu yn y Bala, priododd ferch i un o'r ychydig ddysgyblion oedd yno, sef merch i bregethwr bychan o'r enw Gruffydd Siôn. Ni bu y wraig hon fyw ond ychydig flynyddau, ac efe a briododd eilwaith â gwraig weddw o'r enw Mrs. Jane Jones, ag oedd ar y pryd yn cadw maelfa yn yr un dref, a merch fach gyda hi, yr hon wedi hyny a briodwyd gan y Parch. Thomas Charles. O'r briodas hon, bu i Mr. Foulkes wyth o blant; ac er ei fod yn ddiarebol o hael, eto llwyddodd i roddi dygiad i fynu da i'w blant, ac yn mhen yspaid o flynyddau, gallnogwyd ef i roddi'r fasnach i fynu i Mr. Charles a'i briod, ac ymneilldiuo ar yr hyn a gynilwyd i fwynhau cynyrch ei lafur. Yn ystod ei neilldduaeth, ymroddai a'i holl egni i fod o wasanaeth i grefydd. Nid oedd ei alluoedd pregethwrol, mewn cyferbyniad i'r eiddo Charles, John Evans, ac eraill o'i gymydogion, ond bychain; ond mewn ffyddlondeb a chariad at y gwaith hid oedd efe yn fyr i'r un ohonynt. Bu ei ail wraig farw yn 1785, ac yn mhen tua dwy flynedd priododd Lydia, merch i Simon Llwyd, Ysw., Plas yn Dref, awdwr *Amseryddiaeth Ysgrythyrol.* Yn fuan, tueddwyd ef i ail-ymaflyd mewn masnach, ac yn hytrach na chodi mewn gwrthymgeisiaeth i Mr. Charles yn y Bala, penderfynodd symud i Fachynlleth. Yno agorodd faelfa helaeth, ac fel o'r blaen coronwyd ei ymdrechion â llwyddiant mawr. Bu ei ddyfodiad i Fachynlleth yn foddion dyrchafiad i'r ychydig Fethodistiaid dirmygedig ag oedd yn y dref hono. Ymlidid a gwarthruddid hwy fel cŵn cyn iddo ef ddyfod i'r dref, eithr pan welwyd fod gwr o'i sefyllfa ef yn cymysgu â hwynt, graddol ddiflanodd y dirmyg. Coleddai y syniadau mwyaf caruaidd hyd derfyn ei oes tuag at y Trefnyddion Wesleyaidd, ac yr oedd ei barch i John a Charles Wesley yn ymylu ar arwr-addoliaeth. Cadwai ddarlun o'r blaenaf yn ei ystafell-wely, gan ei anwylo yn fawr yn mhob modd, "fel ei dad yn y ffydd," a byddai dweyd gair bach am y darlun neu'r gwrthrych yn ffordd led sicr i'w dramgwyddo. Er hyny yr oedd ei ymlyniad wrth yr enwad a fabwysiadodd yn gryf iawn. Goddefodd lawer o erlid wrth ei wasanaethu fel pregethwr, gweddiodd lawer am ei lwyddiant, a chyfranodd yn helaeth i'w goffrau. Bu farw Mai 15, 1802, yn 71 oed.

FOULKES (WILLIAM), a anwyd yn Llanfyllin. Mab ydoedd i'r Parch. John Foulkes, offeiriad y plwyf hwnw, yr hwn a dronyd allan o'i fywiolaeth gan Cromwel a'i bleidwyr. William Foulkes a gyfieithodd "Bregethau Esgob Griffith" i'r Gymraeg, yn 1685.

FFRAID LEIAN, neu St. Ffraid, a adwaenir gan y Gwyddelod fel

Digitized by Google

St. Bridget, a chan y Saeson wrth yr enw *St. Bride*, yn ol awdurdod *Bonedd y Saint* ydoedd ferch i Cadwrthai neu Cadwthlach Wyddel. Y traddodiadau Gwyddelig a ddywedant ei geni yn sir Louth tua'r fl. 453, ac mai gordderchferch ydoedd i Dubtach, neu Dubtachus, boneddwr uchelwaed yn y wlad hono. Nis gellid ei pherswadio mewn un modd i ymgymeryd â bywyd priodasol, eithr derbyniodd ei hurdd o wyryfdod oddiar law St. Mel, dysgybl a nai i Badrig Sant. Yn fuan, sefydlodd wyryf-dy o'r cyfeillesau ieuainc hyny a gydurddiesid â hi, yr hwn a gynyddodd i'r fath raddau fel yr adeiladodd sefydliadau eraill o'r fath mewn amryw barthau o'r Iwerddon. Lledaenodd ei chlod trwy yr holl Ynysoedd Prydeinig, ac yn Nghymru yn unig nid oes dim llai na deunaw o eglwysi wedi eu cyflwyno i'w nawdd a'i hachles seintyddol, sef Dyserth, yn sir Fflint; Llansantffraid Glan Conwy a Llansantffraid Glyn Ceiriog, yn sir Ddinbych; Llansantffraid yn Mechain, yn sir Drefaldwyn; Llansantffraid Glyn Dyfrdwy, yn Meirion; St. Brid, yn Mhenfro, gerllaw y forgilfach beryglus a elwir St. Bride's Bay; Llansantffraid, yn Ngheredigion; Llansantffraid Cwmwd Deuddwr, a Llansantffraid yn Elfael, yn sir Faesyfed; Llansantffraid, yn sir Frycheiniog; Llansantffraid ar Lai, Llansantffraid ar Ogwy, a St. Brid, yn Morganwg; Llansantffraid Gwentllwg, Llansantffraid Netherwent, a St. Brid, yn sir Fynwy; heblaw Capel Sant Ffraid, yr hwn sydd yn adfeilion, gerllaw Caergybi. Mewn hen lyfr, o'r enw *De Dotatione Ecclesiæ G. Davidsis*, crybwyllir am Abad-dy Sant Ffraid, yr hwn a safai unwaith ar fin y môr, tua milldir i'r gogledd o Lanrhystyd, Ceredigion; a dywed yr un awdurdod fod y gweddillion ohono a safent gerllaw Llansantffraid yn profi fod yr adeilad o gryn faintiolaeth. Oddigerth y santau Mair, Mihangel, a Dewi, y mae mwy o lanau yn Nghymru wedi eu cyflwyno i Sant Ffraid nag i neb arall. Nid yw llysieuwyr ychwaith wedi anghofio talu gwarogaeth i'w choffadwriaeth, trwy alw amryw ddail llesol ar ei henw, megys "Cribau Sant Ffraid," "Llysiau Ffraid," &c. Yn *History of Aberconwy*, gan Williams, y mae cywydd o waith Iorwerth Fynglwyd i St. Ffraid; a cheir ei hanes ar gân mewn hen lyfr Saesneg yn dwyn y teitl, *A Triad of Irish Saints (Patrick, Columba, and Brigit)*. Yr oedd mewn bri mawr mewn rhanau eraill o'r Ynysoedd Prydeinig. Y mae lle i gasglu fod ynysoedd Hebrides wedi cael ei enw oddiwrthi; ac yr oedd hen fynachlog ar un ohonynt nid nepell o Isla, wedi ei hadeiladu er parch i'w choffadwriaeth, o'r enw Brigidiani; yr un modd hefyd eglwysi Kirk Bride, yn Ynys Manaw; Bride Kirk, yn Cumberland; ac eglwys St. Bride, yn Fleet St., Llundain, gerllaw yr hon yr oedd Ffynon St. Bride, yr hon yn yr hen amseroedd a ystyrid yn gysegredig—wrth ba un yr adeiladwyd palas gynt, a drowyd wedi hyny yn ysbytty, a thrachefn yn gerydd-dŷ; ac oddiwrth hyn y deilliodd y gair Saesneg *bridewell* am gerydd-dŷ neu garchar. Y mae y gair *bride* am briodasferch yn yr un iaith yn arwyddo hefyd fod St. Ffraid, yn mhlith y Saeson, yn llanw yr un swydd â Hymen gyda'r Groegiaid, a Dwynwen hefo'r Cymry.

FRANCIS (Parch. Benjamin), M.A., oedd fab ieuengaf Enoch Francis, o Bencelli, ger Castellnewydd Emlyn, lle y ganwyd ef yn 1734. Bedyddiwyd ef trwy drochiad pan yn 15 oed. Cafodd ei addysg tan Foskett ac Evans yn Mristol. Bu ar brawf fel gweinidog yn Mristol a Sudbury; ond sefydlodd yn Horsley, sir Gaerloew, yn 1757; ordeiniwyd ef yno yn 1758, lle yr arhosodd hyd ei farwolaeth, hRagfyr 14, 1799, ac efe yn 66 oed. Cyhoeddwyd y llyfrau canlynol

Digitized by Google

o'i waith :—1, "Aleliwia, neu Hymnau i Addoliad Cyhoeddus," 1774; 2, Ail Ran o'r unrhyw, 1786; 3, "Marwnad ar Farwolaeth y Parch. John Thomas, gynt o Faes y Dorglwyd," 1787; 4, "Cân am Fedydd, a achlysurwyd gan Draithawd y Parch. B. Evans dros Daenelliad Babanod;" 5, "Iachawdwriaeth," 1793; 6, "De Ultimo Justices—neu Gân am y Farn Ddiweddaf, &c.; wedi ei gyfansoddi a'i gydmaru â gwaith Saesneg Mr. B. Francis—gan M. Williams, Caerfyrddin;" 7, "Cân ar Farwolaeth Mr. William Jones," 1799; 8, "Marwnad Harry John, o Benygarn." Cyhoeddodd rai darnau yn Saesneg hefyd. Y mae llawer o emynau Benjamin Francis mewn bri mawr yn ngwaith y cysegr, yn enwedig gyda chyfenwad y Bedyddwyr.—*Lleyn MSS.*

FRANCIS (Edmwnd), a anwyd yn Hafotty Drwsgl, Llanwnda, sir Gaernarfon, yn 1809. Ymunodd â'r Bedyddwyr, a bu yn weinidog cynulleidfa ohonynt yn Nghaernarfon. Mabwysiadodd dybiau Bedyddwyr Ysgotland; a chyfieithodd waith *McLean* ar y *Comisiwn* i'r Gymraeg.

FRANCIS (Parch. Enoch), oedd fab i Francis David Francis, ac a anwyd yn Pantyllaethdy, ar lan afon Teifi, yn 1688. Dechreuodd bregethu yn 1707, pan yn 18 oed. Yr oedd yn cael peth cynorthwy o'r drysorfa er cynorthwyo gweinidogion yn Llundain yn 1718; ond priododd â merch gyfrifol i bobl oedd yn byw yn Blaen Rymni, Gelligaer, Morganwg. Ymsefydlodd i aneddu yn agos i Gapel Iago, Llanybydder, sir Gaerfyrddin, a llafuriai fel gweinidog gydag eglwys y Bedyddwyr yn Aberduar a'i changhenau. Yn 1730, efe a symudodd i ardal Castellnewydd Emlyn, a daeth yn weinidog i'r Bedyddwyr yno. Yr oedd yn gymedrolwr y Gymanfa a gynaliwyd yn Hengoed yn 1730. Yr oedd y gweinidog enwocaf yn mhlith y Bedyddwyr yn ei ddydd. Cyhoeddodd: 1, "Gwaith a gwobr ffyddlawn weinidogion yr Efengyl," 1729; 2, "Gair yn ei bryd; neu ychydig o eglurhad ar ddirgeledigaethau ag sydd yn cael eu datguddio yn yr Ysgrythyrau, perthynol ac angenrheidiol eu gwybod am ddoeth a da, uniawn a chyfiawn, Arfaeth Duw mewn perthynas i gadwedigaeth pechadur—gwedi eu gosod allan gan un ag sy'n ewyllysio cynorthwyo y Cymro uniaith i farnu'n uniawn," 1733. Ei awduriaeth ef hefyd yw rhai o hen Lythyrau y Cymanfaoedd, yn enwedig un y fl. 1737. Bu farw Chwef. 4, 1739, yn 51 oed. Cyhoeddwyd amryw farwnadau am dano, ac un ar ddull Cywydd gan ei gymydog, y Parch. Jenkin Thomas, gweinidog Presbyteraidd y Drewen, sir Aberteifi.—*Hanes y Bedyddwyr.*

FFULGEN, a elwir mewn rhai ysgrifau yn Silgnius, yn ol y *Brutiau Cymreig*, a olianodd ei dad, Ceryn, i orsedd Prydain, yn y bedwaredd ganrif cyn Cred.—*Myv. Arch.* ii. 164.

FYCHAN (Parch. Abel), neu fel y gelwid ef yn gyffredin Abel Vaughan, oedd weinidog enwog efo'r Bedyddwyr yn sir Ddinbych. Ganwyd ef mewn tyddyndy o'r enw Plas Bwcley, yn mhlwyf Llannefydd, Medi 1784, lle y preswyliodd ei dad hyd ei farwolaeth yn 1836. Bu A. Fychan yn Rhuthyn yn more ei oes yn dysgu bod yn farcer. Ymunodd a'r Bedyddwyr yn fore, a dechreuodd bregethu yn 1806. Cangen o Lynceiriog oedd eglwys Rhuthyn y pryd hwnw, ac ar ymadawiad y Parch. Thomas Jones o'r Glyn i Rydwilym, dewiswyd A. Fychan yn olynydd iddo, ac urddwyd ef gan T. Jones Gorph. 14, 1808. Llafur caled oedd gwasanaethu dwy eglwys oedd mor bell oddiwrth eu gilydd am £30 y flwyddyn. Pa fodd bynag, cyflawnodd A. Fychan ei weinidogaeth yn ffyddlawn am dair blynedd, pan yn 1811 ymsefydlodd

Digitized by Google

yn Rhuthyn yn unig, a pharhaodd i weinidogaethu yno hyd 1815. Yr ydym dan ein dwylaw am y deg mlynedd nesaf o'i amser, canys bu rhyw ddyryswch yn ei amgylchiadau, fel na bu mor gyhoeddus hyd 1825, pan gafodd alwad i fugeilio yr eglwysi yn Cefnbychan a Phenycae, plwyf Rhiwabon. Cymerodd dyddyn yn y gymydogaeth, a symudodd i faes newydd ei lafur, a bu llwyddiant mawr arno hyd nes y gorphenodd ei yrfa Ebrill 23, 1827, yn 42 oed. Er nad oedd A. Fychan yn awdwr, eto ymddengys ei fod yn ddyn o feddwl eglur a threiddgar anarferol. Medrai esbonio adnodau dyrys, ac egluro pynciau dyfnaf duwinyddiaeth gyda rhwyddineb mawr, a byddai ei feddyliau fynychaf yn fawreddog a gwreiddiol ar beth bynag fyddai o dan ei sylw. Hefyd, yr oedd efe yn hynod o fedrus fel tangnefeddwr, i wneud trefn a heddwch yn yr eglwysi. Clywsom un o'r hen aelodau yn y Cefnbychan yn son am ei bregethau mewn tai ar nosweithiau yn yr wythnos, pryd na ddysgwylient ond ychydig o gynghorion cyffredin, eu bod yn cynwys y fath gyfoeth o faterion pwysig, yn cael eu traddodi gyda'r fath rym a hyawdledd nefol, fel pe buasai wedi bod am dri mis yn parotoi gyferbyn a chymanfa; eto yr oedd efe mor ddirodres ac anymhongar a phe buasai y cynghorwr distadlaf yn y wlad. Bu adfywiad mawr ar yr achos yn Cefnbychan a Phenycae yn yspaid fer ei weinidogaeth yno. Buasai y Bedyddwyr yn addoli yn y Cefnbychan am 112 mlynedd mewn hen oruwch-ystafell berthynol i'r Crynwyr, ond yn amser A. Fychan adeiladwyd y capel presenol; ac yn ei amser ef yr ail-adeiladwyd capel Penycae ar draul ei ddau frawd-yn-nghyfraith, sef Mr. S. Roberts, Pentrecynrig, a Mr. T. Roberts, Plasucha; ond yn ngwyneb pob rhagolygiad am lwyddiant a defnyddioldeb, torwyd ef ymaith yn nghanol ei ddyddiau. Bu farw yn y modd mwyaf gogoneddus. Os oedd efe yn hwylus ac arddunol pan ar uchelfanau y maes wrth bregethu yr oedd efe yn fwy felly wrth farw. Yr adnod y traethai arni yn ei nosweithiau olaf ar y ddaear oedd, "Dangosi i mi lwybr bywyd; digonolrwydd llawenydd sydd ger dy fron; ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd." Weithiau tywalltai ei galon doddedig ger bron Duw mewn gweddiau dwysion, a dymuniadau hiraethlon, am fwynhad o'r gwynfyd a'r gogoniant oedd yn tywynu ar ei feddwl. Weithiau efe a ymollyngai gyda ffrwd orlifawl o fyfyrdodau hyfrydlawn am y bywyd, y llawenydd, a'r digrifwch annhraethadwy a fwynheir ar ddeheulaw Duw. Wedi hyny ehedai ar adenydd goruchel orfoledd, fel pe buasai rhinwedd ffrwyth melusber grawnsypiau Canaan hyfryd wedi llenwi ei galon lesg, a pheri iddo annghofio ei gystudd. Bu farw, fel yr arferai bregethu, dan ymorfoleddu yn nghanol mawrion bethau Duw. Gwel ei *Gofiant*, gan Ellis Evans, Cefnmawr; *Cofiant Ellis Evans*, gan Cynddelw.

FYCHAN (DAFYDD), bardd ac offeiriad o Forganwg, yn ei flodeu rhwng 1450 a 1490. Ar ghis ei athraw, Elis ab Tomos ab Einion, yn 1460, cyfieithodd waith Lladin i'r Gymraeg o'r enw "Taith y Brawd Odrig yn yr India." Y mae y dernyn llenyddol hwn yn aros mewn llawysgrifen, ac yr oedd cyfysgrif ohono yn meddiant yr hynafiaethydd Edward Llwyd.—*Arch. Brit.* 255.

FYCHAN (GRUFFYDD), bardd yn ei flodeu rhwng 1400 a 1430. Mab ydoedd i Gruffydd ab Ednyfed. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau yn aros mewn llawysgrifau.

FYCHAN (SYR GRUFFYDD), oedd ail fab i Gruffydd ab Ieuan, yr hwn oedd yn meddu cryn diriogaethau yn Mhowys, a ddaethent iddo

Digitized by Google

oddiwrth ei hynafiaid, eithr yn ddarostyngedig i'r taliadau gwriogaethol hyny o wasanaeth a hawlid gan Arglwydd Powys, y pryd hyny yn gynddrychiolwr hen dywysogion y parth hwnw o'r Dywysogaeth. Cafodd Syr Gruffydd Fychan, meddai âchwyr a haneswyr, ei greu yn farchog rhyfel yn mrwydr Agincourt. Mae'n debyg ei fod, o tan Arglwydd Powys, yn llywyddu y gwyr a ddanfonasid o'i ardal ei hun, yn ol y codiad trethol o wyr o Gymru; a chan y derbyniodd yr anrhydedd o farchog mewn cysylltiad â Dafydd Gam, a'i geraint gwrol ei hun, Syr Roger Fychan a Syr Watcyn Llwyd, y rhai a syrthiasant ar faes y frwydr, gellir tybied ddarfod i Syr G. Fychan gydgyfranogi â hwynt yn yr orchest o achub eu penadur o'i sefyllfa beryglus yn y gad hono. Gellir sylwi o berthynas i Syr G. Fychan, ac eraill a gyrhaeddasant enwogrwydd yn Agincourt, ddarfod i'w teuluoedd gyfodi mewn byr amser i gryn bwysigrwydd a dylanwad yn eu gwahanol gymydogaethau. Yn fuan wedi yr amgylchiad hwn, cafodd ef ei alw yn arglwydd Burgedin, Treflydan, y Garth, a'r Gaerfawr, er iddo ddechreu ei yrfa fel ail fab i benaeth bychan yn Cecidfa; a pharhaodd ei ddisgynyddion, mewn gwahanol gangenau dros lawer o flynyddau wedi ei farwolaeth, yn bersonau o ddylanwad yn y wlad. Tua diwedd 1417, ddwy flynedd wedi brwydr Agincourt, yr oedd Syr G. Fychan a'i frawd hynaf Ieuan, yn bleidiau mewn gweithred cyfraith, yr hon sydd yn awr yn meddiant teulu y Garth, trwy yr hon yr oedd Edward de Cherlton, arglwydd Powys y pryd hyny, yn caniatau iddynt amryw fanteision i ddal Syr John Oldcastle (Arglwydd Cobham), yr hwn a ddaliwyd ganddynt hwy ac eraill o fewn arglwyddiaeth Powys, ac wedi hyny a ddygwyd i Lundain lle y dienyddiwyd ef. Ystaen ar gymeriad Syr Gruffydd ydoedd y rhan a gymerodd yn naliad y Lollard dewr Cobham, ac ni bu hir o amser na ddygwyd y cwpan chwerw at ei fin yntau, ac y gorfu arno yfed yr un gwaddod; canys oherwydd anufuddhau i rhyw wasanaeth gwriogaethol dyledus oddiar ei law i Henry Grey (arglwydd Powys y pryd hwnw), efe a roddwyd i farwolaeth trwy dorfyngliad. Cymerodd y dienyddiad ysgeler hwn le ar yr hen filwr gwrol yn muarth y Castell Coch, yn 1447.—Burke's *Commoners*, vol ii. 524.

FYCHAN (Mari), a adnabyddid yn y byd barddonol wrth yr enw *Gwerfyl Mechain*, oedd ferch i Hywel Fychan, o Gaer Gai, yn Mhowys, ac yn byw rhwng 1460 a 1490. Yr oedd y farddones oraf yn ei hoes. Yn mysg ei gweithiau barddonol ceir "Cywydd ar Ddyoddefaint Crist," a "Chywydd y March Glas;" y naill yn rhagori mewn symlrwydd a chywirdeb dysgrifiadol, a'r llall yn arucheledd ei feddyldrychau a chywreindeb ei ddarluniad. Pan ddarfu i geffyl ei thad orwedd gan flinder ar yr âr wrth lyfnu, hi wnaeth yr englyn canlynol i erfyn am wair i'r march lluddedig:—

> Hen geffyl, gogul di gigog,—sypyn
> Swper brain a phlog;
> Ce'sio'r 'rwyf—mae'n cashau'r og
> Wair i Iddew gorweiddiog.

Canodd Gutto'r Glyn farwnad ar ei hol yn mha un y dywed:—

> Am guddio hon mae gwaedd hir—
> Ei chywyddau ni chuddir.

Geilw hi yn "ferch i Tallawg," ond nid yw hyny ond dull cyffredin gan feirdd yr hen amser o alw rhywun yn fab neu ferch rhyw hynafiad enwog. Claddwyd hi yn Llanfihangel yn Ngwynfa, sir Drefaldwyn.

Digitized by Google

FYCHAN (MYFANWY), rhian enwog am ei thegwch, yn hanu o dŷ a thylwyth Tudur Trevor, ac yn byw yn Nghastell Dinas Bran, ger Llangollen, tua 1390, a'i thad, tybir, yn dal y Castell o tan iarll Arundel. Enillodd serch y bardd Hywel ab Einion Llygliw, yr hwn a gyfansoddodd iddi awdl gampus o foliant, argraffedig yn y *Myv. Arch.*, a cheir cyfieithiadau gorchestol o'r unrhyw yn Evans' *Specimens of Welsh Poetry*, ac yn Pennant's *Tours in Wales*, i. 382. "Myfanwy Fychan" ydoedd y testun gosodedig i ganu rhiangerdd arno yn Eisteddfod Llangollen, 1858.

FYCHAN (SYR ROGER) oedd fab i Roger Fychan ab Walter Sais ab Roger Fychan o Lechryd. Efe a briododd Gwladus, ferch i Syr Dafydd Gam, ac efe, yn nghyda'i dad yn nghyfraith, a wnaed yn farchog ar faes brwydr Agincourt yn 1415.

FYCHAN (SIMWNT). Bardd celfyddgar a dysgedig oedd yn ei flodeu o 1560 hyd 1600, ac yn trigianu yn y Ty Brith, gerllaw Rhuthyn. Cedwir ei enw mewn cof yn yr ardal hono hyd heddyw; gelwir parc mawr a berthynai unwaith i Simwnt, ond yn awr yn meddiant teulu West, Castell Rhuthyn, yn "Dir Simwnt;" ac yr oedd unwaith yn sefyll yn mhlwyf Efenechtyd dyddyn-dŷ a elwid "Tyddyn Simwnt." Yr oedd efe yn wr boneddig o gyfoeth tiriawg, ac yn ddysgybl barddonol i Ruffydd Hiraethog. Ei gyd-ddysgyblion oedd William Llŷn, Sion Tudur, a William Cynwal. Yr oedd hyny rhwng 1550 a 1560. Ysgrifenodd "Kowydd moliant Sion Llwyd, Ysgweier, o Ial," yn 1560, yr hwn sydd yn waith dysgedig a gorchestol. Hefyd ei "Farwnad i Syr Richard Clwch," marchog o Fedd Crist, gwr Catrin y Berain, yr hwn a fu farw yn Antwerp yn 1570.—(*Records of Denbigh*). Pan gynaliwyd ail Eisteddfod fawr Caerwys yn 1567, "graddiwyd Lewis ab Edward neu Lewis Mon, William Lleyn, Owain Ifan neu Owain Gwynedd, a Simwnt Fychan, yn bencerddiaid ar gerdd dafawd." "Llyma y ffurf y graddiwyd Simwnt Fychan yn bencerdd:—Bydded hysbys i bob cyfryw ddyn, fod Eisteddfod ar wyr wrth gerdd dafawd a thant yn nhref Gaerwys, yn swydd Fflint, y chweched dydd ar hugain o fis Mai, yn y nawfed flwyddyn o deyrnasiad *gras* y frenines Elizabeth, ger bron Elis Prys, *Ysgwier*, *doctor* o gyfraith *sywil*, ac un o gynghoriaid *gras* y frenines yn *marches* Cymru; William Mostyn, Pyrs Mostyn, Owain ab Sion ab Howel Fychan, Sion ab William ab Sion, Sion Lewis Owain, Morys Gruffydd, Simwnt Thelwal, Sion Gruffydd, *Sersiant*, Robert Pilstwn, Iefan Llwyd o Ial, a William Glyn, Ysgwieriaid; ac ein bod ni, yn henwedig Eisteddwyr, trwy *gommission gras* y frenines, a'i chynghoriaid, yn rhoi ac yn caniatau i Simwnt Fychan, Prydydd, radd Pencerdd; ac i bawb ei gynwys a'i groesawu i bob lle cyfleus, i fyned ac i ddyfod, ac i gael ei rodd wrth ei radd, yn ol y dywysogawl *ystatys*, pan yw oed Crist mil a haner a saith a thriugain." Yn ngrym y graddiad hwn y ffurfiodd Simwnt Fychan Reolau Barddoniaeth, a chafodd farn a bodd yr Eisteddfod arnynt; a chanodd awdl ar y pedwar mesur ar hugain o glod i'r Meistr Pyrs Mostyn, o Dalacre, noddwr a phrif golofn yr Eisteddfod hono. Cynwysa y rheolau a'r awdl 37 o dudalenau yn *Nghyf. y Beirdd.* "Barnu'r wyf," ebai Iolo Morganwg, "mai'r traethawd dysgedicaf a ysgrifenwyd erioed yn Ngwynedd ar farddoniaeth Gymraeg ydyw un Simwnt Fychan. Nid oes neb *yno* yn dangos beiau ac anafau Cerdd Dafod yn fwy celfydd nag ef." Mae ei awdl i Byrs Mostyn yn dra gorchestol, fel cywreinbeth, o ran cynghanedd, odl, a chymeriad, ac wedi ei bwriadu yn ddian fel cwlwm cadair i

Digitized by Google

ddysgu y rheolau i feirdd ieuainc. Cyhoeddwyd Dosparth Simwnt Fychan yn ddiweddar yn Nosparth neu *Ramadeg Edeyrn Dafod Aur.* Yr oedd Simwnt Fychan yn enwog fel rhyddieithwr, os efe, fel y tybia rhai, yw awdwr "Araith Gwgan," er fod enw Einion o'r Fan, wrth yr "araith" yn y *Taliesin;* eithr nis gallwn ganfod y naws lleiaf o lafarwedd y Deheubarth yn y cyfansoddiad. Cyfansoddiad hefyd "Cywydd y Cyrtiau Mân," "Cywydd i Dduw," "Marwnad Sion Wyn o Wedir," a "Chywydd i Forus Wyn o Wedir." Bu farw Ebrill 12, 1606.

FYCHAN (Thomas), o Gastell Bwlchgwyn, boneddwr tiriog, a ymenwogodd fel bardd rhwng 1520 a 1560. Y mae peth o'i waith yn aros mewn llawysgrifau.

GADIEL AB ERIN, brenin Prydain, yn amser yr hwn, yn ol y *Trioedd,* yr ymadawodd tair mil a thriugain o wyr o Ynys Prydain, o tan arweiniad Ur ab Erin Luyddawg. Gelwir yr ymfudiad hwnyn un o'r "Tair Cyforddwy a aethant o Ynys Prydain," a thrwy dwyll amod yn hytrach y gwnaed hi. Ur a archodd gymhorth yr Ynys hon, dan adduned na cheisiai o bob prif gaer namyn y rhif a ddelai ganddo iddi, ac ni ddelai ganthaw i'r gaer gyntaf, namyn ei hun a'i was, ac o hono cael dau, ac o'r ail pedwar, &c., hyd nas gallid iddo fwy na hyny yn yr holl Ynys o wyr cyfallen gan nad oedd namyn plant a hynafgwyr ar ei ol. Ac ni ddaeth yn ol o'r gwyr hyny drachefn yr un o naddynt, nag o lin nag o epil iddynt. Gwladychasant yn ngwlad Groeg, ac arosant yno yn nhir Galas ac Avena hyd heddyw, a myned yn Roegiaid. Dilys mai cyfeirio y mae yr uchod at wladychiad gwyr Gâl yn Galatia.

GAFRAN, fab i Aeddan Fradawg, ab Dyfnwal Hen, tywysog yn ei flodeu yn y pumed cant. Dywed y *Trioedd* ei "fyned ef a'i wyr i'r môr ynghyrch Gwyddonau Llion, ac na chlywyd mwyach am danynt; ac am hyny gelwir Aeddan yn un o 'dri difancoll.'" Gwerddonau Llion ydyw yr hen enw am "Yhysoedd Gwyrddion Neifion," cartref tybiedig dedwyddwch. Mewn *Trioedd* arall, rhestrir y gwyr a aethant gydag Aeddan yn un o'r "Tri Theulu Diwair," am "eu myned i'r môr tros eu harglwydd."

GAIR AB GEIRION, arglwydd Geirionydd, a gofnodir yn y *Trioedd* fel un o'r "Tri Theulu Teyrnedd;" ac efe a'i deulu a garcharwyd gan raith gwlad a chenedl yn ngharchar Oeth ac Annoeth. Y ddau eraill oeddynt Llyr Llediaith a Mabon.

GALL ab Disgyfeddawg, tywysog ar Frythoniaid Deifr a Bryneich, yn Ngogledd Prydain, ac yn ei flodeu yn y 6ed cant. Yr oedd hefyd yn fardd, a chofnodir ei enw yn y *Trioedd* fel cyflawnydd un o'r "tair Madgyflafan," neu lofruddiaethau canmoladwy, am iddo ladd "dau Ederyn Llychwin Gwendoleu ab Ceidiaw; sef ydoedd iau o aur am danynt, a dwy gelain o'r Cymry a ysynt beunydd ar eu ciniaw, a dwy ar eu cwynos."

GALLGO, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Un o feibion Caw ydoedd, ac efe a sylfaenodd eglwys Llanallgo, yn Môn. Cedwid ei wylmabsant Tach. 27.

GALLGU RIEDDAWG, penaeth yn y 6ed ganrif. Priododd Canna, gweddw Sadwrn Farchog, o'r hon y cafodd Elian Geimiad.

GAMAGE (Parch. Edward), a gafodd ei ddysgeidiaeth yn Neuadd St. Edmwnt, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A. yn 1635. Cafodd bersoniaeth Roselly, a ficeriaeth Llangenith, yn sir Forganwg, o'r lle y cafodd ei ddeol yn amser Cromwel. Bu wedi hyny yn trin tir am beth amser; ac yna aeth trosodd i'r Iwerddon. Ar adferiad Siarl

Digitized by Google

II., efe a ddychwelodd yn ol, a chafodd ailfeddianu ei fywiolaethau. Gwnaed ef wedi hyny yn archddiacon Llandaf, ac yn berson Chayley. Bu farw yn 1686.

GAMBOLD (Parch. John), M.A., ysgolhaig a duwinydd enwog, ydoedd fab i'r Parch. William Gambold, perig or Puncheston, ger Hwlffordd, sir Benfro, lle y ganwyd ef Ebrill 10, 1711. Yn 1726, derbyniwyd ef i Goleg Eglwys Crist, Rhydychain, lle y bu ar ol hyny yn gaplan, ac yr enillodd y radd o M.A. yn 1734. Yn 1730, ffurfiodd gydnabyddiaeth â myfyrwyr yn y Brifysgol, golygiadau crefyddol y rhai a gawsant ddylanwad mawr ar ei fywyd dilynol. Tua 1739, cafodd Stanton Harcourt, yn sir Rhydychain, gan Esgob Secker; yn yr hwn le, trwy ei fod yn byw mewn pentref bychan neillduedig, a'i ofalon eglwysig ond bychain, cafodd hamdden i ymbriddo mewn myfyrdodau damcaniadol. Yr oedd yn hoff iawn o unigedd, ac anfynych yr elai oddicartref. Pan ymwelodd Peter Boehler, dysgybl i'r Count Zinzendorf, â Rhydychain, ac y cynaliai gynadleddau mynych â John a Charles Wesley, y rhai oeddynt ar y pryd yn gosod i lawr sylfa ni yr enwad a adwaenir wrth eu henw, yr oedd Gambold yn cyfieithu ei bregethau, y rhai a draddodid yn Lladin mewn cyfarfodydd neillduol o wyr dysgedig ac annysgedig, y rhai a alwent eu hunain yn "Bobl Ddeffroedig." Y flwyddyn ganlynol, cyfarfu a'r Count ei hun, ac o hyny allan yr oedd ei feddwl yn gogwyddo yn gryf at athrawiaethau y Morafiaid; ac yn Hydref 1742, ddyfned oedd argyhoeddiad ei gydwybod o gywirdeb eu syniadau, fel y penderfynodd daflu ei fywiolaeth eglwysig i fynu a myned i blith ei frodyr. Pa fodd bynag, cyn gwneuthur hyny, ysgrifenodd at esgob Rhydychain, a'i noddwr caredig Arglwydd Harcourt, y rhai a deimlent ddyddordeb mawr yn yr achos, ac ymdrechent ei berswadio i newid ei benderfyniad, ond yn aflwyddianus. Rhoddodd ei swydd i fynu, yn y dull rheolaidd, a daeth i Gymru i drigianu, yn benaf o gwmpas Hwlffordd, lle y cadwai ysgol, ac y pregethai yn achlysurol hyd Tach. 1744, pryd y dychwelodd i Lundain, ac yr ymsefydlodd yno fel gweinidog ar eglwys o'i frodyr a gy arfyddent yn Fetter Lane. Yn 1754, cysegrwyd ef yn esgob Morafiaidd mewn cymanfa daleithiol Saesneg a gynelid yn *Lindsay House*, Chelsea; a pherchid ef yn fawr gan esgobion Eglwys Lloegr ag oeddynt yn gydfyfyrwyr ag ef yn Rhydychain. Yn 1768, dychwelodd i wlad ei enedigaeth, a bu farw yn Hwlffordd Medi 13, 1771. Oblegyd ei fod yn ysgolhaig mor ragorol, yr enwog Bowyer, a'i rhoddai ar waith yn fynych i gywiro prawfleni; ac yn y swydd hono, efe a arolygodd yr argraffiad hardd a chywir o weithiau Bacon yn 1765; ac yn 1767, golygodd "History of Greenland," gwaith David Crantz, yn cynwys dysgrifiad o'r wlad a'i thrigolion, ac yn enwedigol o'r genadaeth a ddygesid yn mlaen yno, am 31 mlynedd gan yr *Unitas Fratum*. Arolygodd hefyd argraffiad destlus o'r Testament Groeg yn 1742. Er mwyn dangos cysondeb ei gysylltiad â'r Morafiaid, gyda'i serch ymlynol wrth Eglwys Loegr, cyhoeddodd lyfr dienw yn 1765, tan y teitl, "A short Summary of Christian Doctrine, by way of question and answer, the answers being all in the words of the Liturgy." Ei weithiau eraill ydynt:—1, "Maxims and Theological Ideas, collected out of several Dissertations and Discourses of Count Zinzendorf," 1747; 2, "Discourses on the Second Article of the Creed, preached at Berlin, by the Ordinary of the Brethren," 1752; 3, "Twenty-one Discourses or Dissertations upon the Augsburg Confession, translated from the High

Digitized by Google

Dutch," 1753; 4, "The Martyrdom of Ignatius (tragedy);" yn nghyda phregethau ac amryw ddarnau crefyddol. Y gyfrol olaf hon o'i eiddo a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth gan y Parch. Benjamin La Trobe, yn 1789. Yr oedd wedi cyfansoddi y beddargraff canlynol i'w ddodi ar ei fedd ei hun:—

> ASK not, who ended here his span?
> His name, reproach and praise, was man.
> Did no great deed adorn his course?
> No deed of his, but shew'd him worse:
> One thing was great, which God supply'd,
> He suffer'd human life—and died.
> What points of knowledge did he gain?
> That life was sacred all—and vain:
> Sacred how high, and vain how low?
> He knew not here, but died to know.

GAMBOLD (PARCH. WILLIAM), a anwyd o rieni parchus yn nhref Aberteifi, Awst 10, 1672. Derbyniodd addysg glasurol dda, yr hon a gwblhawyd yn ngholeg Exeter, Rhydychain gyda'r amcan o'i ddwyn i fynu yn offeiriad. Wedi derbyn urddau eglwysig, gwasanaethodd am ychydig flynyddau fel curad, ac yna rhoddwyd iddo berigloriaeth Puncheston a Llanychaer, sir Benfro, lle yr enillodd ei fuchedd ddichlynaidd iddo gymeradwyaeth mawr. Trwy iddo gyfarfod a niwaid i'w fynwes, anallnogwyd ef yn mlynyddau olaf ei oes i gyflawni ei ddyledswyddau eglwysig, ac ymroddodd i dreulio ei amser segur mewn crynhoi "Geiriadur Cymraeg a Saesneg." Treuliodd yn ddyfal bumtheg mlynedd wrth y gwaith pwysig a llafurus hwn, gan ddarllen pob llyfr yn yr iaith, a phob llawysgrif Gymreig y deuai o hyd iddi. Yn yr ysgrifeniad cyntaf, cyfleasai eiriau Lladin rhwng y Saesneg a'r Gymraeg, eithr gadawodd hyny allan yn yr ysgrifeniad a ddarparodd ar gyfer y wasg. Yn anffodus, cyfarfyddodd y Geiriadur hwn â'r un dynged âg eiddo'r Dr. Thomas Williams, o Drefriw;—nis gallai gael tanysgrifwyr fel ag i'w gyhoeddi, a gadawodd ef o'i ol mewn llawysgrifen. Cwblhawyd y gwaith yn 1722, a rhyw ffordd neu gilydd syrthiodd i ddwylaw y Parch. John Walters, yr hwn a ddywedai am dano pe'i cyhoeddesid na buasai yr angen yn llai am ei Eiriadur ef. Cyhoeddodd Mr. Gambold yn 1727, "Ramadeg" defnyddiol yn Saesneg o'r Iaith Gymraeg, ail-argraffiad o'r hwn a ddaeth allan yn Nghaerfyrddin, yn 1817; a thrydydd, gyda llawer o chwanegiadau yn y Bala, yn 1833. Bu farw Medi 13, 1728. Crybwyllir yn *Meth. Cymru*, am fab iddo o'r enw WILLIAM GAMBOLD, a brawd i'r esgob Morafaidd, John Gambold, fel pregethwr nid anenwog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, yr hwn oedd yn gyfaill a chydoeswr â Howel Harris.

GAMES (PARCH. STEPHEN), un o weinidogion cyntaf y Trefnyddion Wesleyaidd yn Nghymru. Ganwyd ef Rhag. 26, 1779, yn Llanfair Muallt, sir Frycheiniog. Enw wedi ei Seisnigo ydyw *Games* o'r hen gyfenw Cymreig Gam; ac yr oedd gwrthddrych hyn o gofnodau yn disgyn o dad i fab o Syr Dafydd Gam, un o arwyr brwydr Agincourt, a'r hwn er mwyn ateb dybenion gwleidyddol, meddir, a gyhuddwyd gan OWEN Glyndwr o ymgais i'w ladd ef tra yn cynal ei senedd yn Machynlleth. Pan rhwng 12 a 13 oed, dodwyd S. Games i ddysgu'r un grefft a'i dad, sef cyfrwywr; a bu yn dilyn yr alwedigaeth hono mewn amrwy fanau. Ymunodd â'r Wesleyaidd yn Nghaerfyrddin yn 1799, a dechreuodd bregethu yn 1802. Tua dechreu 1803, deisyfodd Cadeirydd y Dalaith yn daer arno fyned allan i'r weinidogaeth amdeithiol; ac ar ol cryn betrusder meddwl, yn nghyda gweddiau dwysion

Digitized by Google

am gyfarwyddyd Duw yn yr amgylchiad, wynebodd ar faes newydd ei lafur, sef cylchaith y Trallwm, yn Ebrill y flwyddyn hono. Symudwyd ef yn 1804 i'gylchdaith Dinbych; a thystiolaeth ei gydweinidog am dano yr amser hwn ydyw:—"Nis gwn i am neb fel pregethwr a gafodd ei hoffi yn fwy, gan y rhan fwyaf deallus o'i wraudawyr, na Mr. Games." Symudodd o Ddinbych i Ruthyn yn 1805; ac yn 1807, priododd Miss Mary Roberts, o'r lle blaenaf, dynes ieuanc rinweddol, hardd o bryd ac ymddygiad; eithr byr o barhad fu yr undeb, gan i Mrs. Games farw yn 1812, a gadael dau blentyn yn ngofal ei phriod galarus. Bu Mr. Games yn briod drachefn âg un Mrs. Foulkes, gwraig weddw o dref Dinbych. Yr oedd wedi rhoddi pregethu amdeithiol i fynu yn fuan wedi priodi y waith gyntaf, eto nid ydoedd lai ffyddlawn a defnyddiol yn yr eglwys, ac yr oedd ei wasanaeth calonog fel pregethwr cynorthwyol, &c., bob amser at alwad y gweinidog. Tra yn dychwelyd adref o Landyrnog, Hydref 17, 1814, wedi bod yno yn llanw y cylch crybwylledig, cymerwyd ef yn glaf, ac wedi dyoddef yn dawel a dirwgnach o tan dwymyn drom hyd Tach. 13, bu farw yn orfoleddus, a chladdwyd ef y dydd Iau canlynol yn mynwent yr Eglwys Wen. Yr oedd gan Mr. Games gyneddfau meddyliol cryfion annghyffredin, a gallu i olrhain gwirionedd tuhwnt i odid un o'i frodyr, gan ba rai y perchid ef yn uchel, yr ystyrid ef yn safon ac oracl, ac y teimlid colled fawr ac anadferadwy ar ei ol.—*Eurgrawn Wesleyaidd*, 1815.

GARMON SANT, neu *St. Germanus*, cymeriad enwog yn hanes eglwysi Cymru, ydoedd fab i Rhedyw neu Ridigius, tywysog Llydawaidd, ac ewythr i Emyr Llydaw. Tua'r fl. 420, yr offeiriadon uniawngred yn Mhrydain, gan nas gallent wrthsefyll ensyniadau Pelagius, a ddanfonasant i Lydaw am gymhorth. Mewn canlyniad, gwysiwyd cymanfa, pryd y penderfynwyd yn unfrydol ar ddanfon Germanius, esgob Auxerre, a Lupus, esgob Troyes, trosodd i Brydain, lle, fel y tybir, y treuliasant o ddwy i dair blynedd. Prospea, awdwr a chyfoeswr iddynt, a ddywed i hyn gymeryd lle yn 429. Dywed Constantius o Lyons, bywgrafiydd Garmon Sant, ddarfod iddo ymweled â Phrydain eilwaith, a chydag ef yr oedd Severus, esgob Triers, a thybia yr archesgob Usher mai yn 447 y cymerodd hyn le. Nid yw yr hanesion Cymreig yn son ond am un ymweliad, ac mai yn amser Cystenyn o Lydaw y daeth Garmon yma, ac iddo aros hyd ddyddiau Gwrtheyrn, pryd y dychwelodd i Ffrainc, lle y bu farw. Pan yn Mhrydain, sefydlodd ddau grefydd-dy mynachaidd, a dododd esgobion a duwinyddion o'u mewn, fel y dysgent y ffydd yn Nghrist i genedl y Cymry—un yn Llangarfan, lle y dododd efe Dyfrig yn bendysgawdr; a'r llall yn Caerworgorn, a elwid wedi hyny Llanilltyd, yn Ngwent, lle y dododd Illtud Sant yn bendysgawdwr, a Lupus, neu Bleiddan, yn benesgob yno. Ar ol hyny, dododd esgobion yn Llandaf, a Dyfrig Sant yn ben arnynt. Y mae yr eglwysi canlynol yn Nghymru wedi eu cyflwyno iddo:—Llanarmon yn Ial, Llanarmon Dyffryn Ceiriog, Llanarmon Mynydd Mawr, a Chapel Garmon, yn sir Ddinbych; Llanarmon, a Bettws Garmon yn sir Gaernarfon; Llanarmon, neu St. Harmon, yn sir Faesyfed; a Llanfechain yn sir Drefaldwyn. Iddo ef y cyflwynwyd hen Fynachlog St. Germains, berthynol i Frythoniaid Cernyw; ac hefyd mynachleg St. German, yn Ynys Manaw. Cynelid ei wylmabsant Gorph. 31, yn ol rhai; yn ol eraill, Awst 1. Dywed Pennant fod delw o'r Sant i'w gweled eto yn mur eglwys Llanarmon yn Ial, a thystia Leland y byddai cyrchu lawer yno gynt, i wneud offryman mawrion a thalu parch i ddarlun tybiedig y

Digitized by Google

sant. Adroddir llawer o draddodiadau mynachaidd eraill am dano. Mewn maes perthynol i fferm a elwir hyd heddyw, Maes Garmon," tua milltir i'r gorllewin o dref y Wyddgrug, saif colofn a godwyd yn 1736, ac argraff Lladinaidd arni yn hysbysu mai ar y llecyn hwnw yn 424 y cyfarfu byddin o Saeson a Phictiaid Paganaidd, i ymladd â'r Brythoniaid y rhai a lywyddid gan Lupus a Germanius. Cymerodd hyn le yn wythnos y Pasg, pan oedd y fyddin Gristionogol yn wlyb gan eu bedydd yn yr afon Alun, yr hon sydd yn llifo ychydig islaw i'r maes crybwylledig. Yr oedd y gelynion yn llechu yn y coed tros y bryn rhwng y Brythoniaid â'r afon, pan y rhoddes Garmon orchymyn i'w wyr waeddi y gair "*Aleluia*," cyn rhuthro i frwydr. Hyny a wnaethant gyda'r fath nerth, yn tarddu oddiar eu hysbryd cynes a brwdfrydig, nes y tybiodd y gelyn fod llu dirfawr yn eu herbyn, ac y rhuthrasant ymaith mewn annrhefn—llawer a syrthiasant trwy fin y cleddyf, ac eraill a foddwyd yn yr afon gerllaw, yr hon oedd yn llifeiriant mawr ar y pryd. Gelwir y gad hon ar faes yn "Frwydr Aleliwia," ac fel un prawf o ddilysrwydd yr hanes, gellir dywedyd iddo gael ei ysgrifenu gan Constantine o Lyons, yn mhen 32 o flynyddau wedi i'r digwyddiad gymeryd lle.—Hughes' *Horæ Britannicæ;* Gunn's *Nennius;* Pennant's *Tours;* Rees' *Welsh Saints.*

GARTHWYS HIR, penaeth yn y 6ed ganrif. Crybwyllir ei enw gan Aneurin yn y *Gododin.*

GARWEN, oedd ferch i Henyn, tywysog Gŵyr ac Ystrad Towy, yn Nehenbarth Cymru. Rhestrir hi yn y *Trioedd*, gyda Gwyl ac Indeg, fel un o dair cariadwraig Arthur.

GARWY, oedd fab i Geraint ab Erbin, ac yn ei ffodeu yn y 6ed cant, a rhestrir ef yn y *Trioedd*, gyda Gwalchmai ab Gwyar a Chadair eil Seithin, fel "Tri Marchog Serchogion Llys Arthur," a goreu oeddynt wrth osb a phellenig, a haelaf eu rhoddion a'u cymwynas.

GEOFFREY OF MONMOUTH. *Gwel* GRUFFYDD AB ARTHUR.

GEORGE (PARCH HENRY), gweinidog tra llafurus a chymeradwy gyda'r Annibynwyr yn Brynberian, a anwyd yn Mai 1763, yn Pencuwc, Nefern, sir Benfro. Cafodd hyfforddiad da yn mhen ei ffordd, eithr yr oedd yn ugain oed cyn ymuno â'r gyfeillach eglwysig. Gwelwyd ynddo yn fuan ddefnydd dyn cyhoeddus, a phan yn 22 oed, ar anogaeth y gweinidog a'r eglwys, dechreuodd bregethu. Bu yn cynorthwyo ei weinidog yn Brynberian a'r cymydogaethau am yr yspaid o bum' mlynedd, gan dderbyn cryn cymeradwyaeth, ac yna rhoddwyd galwad iddo gan yr eglwys hono a'i chwaer-eglwysi yn College Green, Trefdraeth, Maenclochog, Bethesda a Thregetyn, i fod yn gyd-weinidog â'u ffyddlawn wasanaethydd y Parch. Mr. Lloyd. Urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn Brynberian yn 1790. Yr oedd cylch ei weinidogaeth yn eang iawn, yr eglwysi yn mhell oddiwrth eu gilydd, a'r ffyrdd y byddai raid iddo eu teithio i fyned atynt yn eirwon a noethlwm, trwy gymoedd dyfnion a thros fynydd serth- arw Bwlchygwynt. Er hyny, nid hin na chesair a'i dychrynai ef rhag cyfarfod ei gyhoeddiad; a phan gyrhaeddai ben ei daith, gwelwyd ei wallt droion a phibonwy rhew y hongian wrtho—addurn gymeradwyol ysplenydd i lafur a phenderfyniad yr hen bregethwr na fynai i *hunan* corphorol fyned rhyngddo â'r gwaith o geisio achub eneidiau. Un bore Sabbath ystormus, pan yn wynebu ar y mynydd ysgythrog oedd ar ei ffordd i Faenclochog, cyfarfu gwr parchedig âg ef, gan ei annerch, "Nid ydych yn bwriadu croesi y mynydd heddyw, 'does bosibl, Mr. George?" "Ydwyf," ebai yntau,

Digitized by Google

"rhaid ymdrechu am y goron." "Coron! nid awn i ddim drosodd am chweugain. Yr ydych yn wr ffol yn taflu eich einioes ymaith i geisio achub eneidiau pobl eraill; a phed achubech bob enaid ohonynt, ni chaech y diolch leiaf ganddynt." Eithr gwell y deallai Mr. George ystyr y gair? "Coron," na'i gyfaill byr ei olwg. Yr oedd mwy na phumtheg milldir rhwng rhai o'r eglwysi â'u gilydd, er hyny am ddengain mlynedd a phedair, y llafuriodd ef yn gyson a flyddlawn yn mhob un ohonynt. Ar derfyn y blynyddau hyn, gan fod natur yn llesgau, a hen ddyddiau yn ei orddiwes, anogodd yr eglwysi i ddewis cydlafurydd ag ef; a gwnaed yn ol ei ddewisiad. Yn fuan ar ol hyn, collodd ei anwyl briod, yr hyn oedd yn ergyd drom i'w deimladau; ac fel prawf o'i farn mai da oedd y gyntaf yn mhen dwy flynedd priododd ail-wraig, yr hon a fu yn ymgeledd gymhwys iddo hyd ei farwolaeth. Ond darfu i'w fynych a'i lafurus deithiau yn ystod ei weinidogaeth amlygu eu canlyniadau ar ei babell o bridd pan estynodd cysgodau yr hwyr trosto. Tarawyd ef gan wayw dirfawr yn ei ên uwchaf, yr hwn yn fuan a ymledodd tros ei holl gorph, nes llwyr ddiffrwytho ei holl aelodau. Dychwelyd ar ei anifail yr ydoedd o Bontgynon ar y pryd, a chan ei fod yn gwbl analluog, i reddf yr anifail yr ydoedd yr ddyledus am ei ddygiad adref. Nid oedd hyn oll ond porth yr angau, a chyn pen ychydig ddyddiau, rhoddodd ei ben ar obenydd i fawr. Cymerodd hyn le yn Chwefror, 1835, pan oedd yn 72 oed, wedi bod ohono yn pregethu am haner can' mlynedd. Fel y gellid casglu oddiwrth a ddywedwyd, yr oedd Mr. George yn meddu cyfansoddiad cryf annghyffredin, ac yr oedd ei feddwl yn rhagori cymaint mewn cadernid ar feddyliau eraill ag oedd ei gorph ar gyrph eraill. Yr oedd yn bregethwr cymanfa rhagorol; ac er yn amddifad o fanteision athrofaol, gallai draddodi yr un mor hylaw yn Seisonig ag yn y Gymraeg. Trwy ddyfal ddarllen ac efrydu, llwyddasai i gasglu trysorfa o wybodaeth eangach nag eiddo odid un o'i frodyr yn y weinidogaeth. Yr oedd yn Galfinaid tyn o ran barn; ond gwaed y Groes ydoedd baich ei weinidogaeth, a mynych y dywedai nad oedd dim ond hwnw rhyngddo a distryw.

GERAINT AB ELIDR, yn ol y *Brutiau Cymreig*, a olianodd Rhun ab Peredur ar orsedd Prydain yn y 5ed ganrif cyn Cred.

GERAINT AB ERBIN, ab Cystenyn Gorneu, oedd dywysog ar Frythoniaid Dyfnaint *(Devon)*. Cofnodir ei enw yn y *Trioedd* fel un o dri "llyngesawg," neu bencad forwrol, Ynys Prydain, ac i bob un o'r tri yr oedd chwe' ugain o longau, a chwe' ugain llongwr yn mhob llong. Geraint a gwympodd yn mrwydr Llongborth 530, tra yn ngwasanaeth Arthur yn ymladd yn erbyn y Sacsoniaid; a chyfansoddwyd marwnad o'i ol gan Llywarch Hen, yr hon a argraffwyd yn y *Myv. Arch.*, ac hefyd yn "*Heroic Elegies of Llywarch Hen*," gan Dr. W. O. Pughe. Cannolir ef yn uchel gan Aneurin yn y *Gododin*. Rhestrir ef hefyd gyda'r saint Cymreig, a dywedir fod amwaith eglwys wedi ei chyflwyno iddo yn Nghaer Ffawydd (*Hereford*). Yr oedd ei feibion Cyngar, Selyf, Iestyn, a Gado, yn seintiau, ac yn aelodau o goleg Garmon Sant. Geraint ydyw arwr yr ail Fabinogi yn nghasgliad y foneddiges Charlotte Guest.

GERAINT FARDD GLAS, bardd ac ieithydd yn ei flodau, tybir, tua therfyn y 9fed ganrif. Y mae lle i gasglu mai yr un ydoedd a'r "Bardd Glas o'r Gadair," awdwr "Englynion y Gorugau," yn *Iolo MSS.*, a llawer o firaethebau a diarhebion Cymreig. Yr oedd gramadeg Cymraeg o waith Geraint yn nghadw mewn llawysgrif yn

Digitized by Google

Nghastell Raglan hyd ddinystriad y lle hwnw yn ystod rhyfeloedd y Weriniaeth. Tybir nad oes yn awr yr un cofysgrif o'r gwaith ar gael, eithr gwnaed defnydd ohono, i ba raddau nis gwyddis, gan Einion Offeiriad ac Edeyrn Dafod Aur wrth iddynt hwy gyfansoddi eu gramadegau. Nid oes yn awr ar gael o'i waith ond ychydig fân-ddarnau barddonol. Am y dybiaeth mai yr un ydoedd ag Asser Mynyw, neu *Asser Menevensis*, yr hon a faentumiwyd gyntaf gan Dr. W. O. Pughe, nid oes dim sail iddi ond y cyfystyr damweiniol rhwng Asser *(azure)* a Glas. Iolo Morganwg, yn ei "Ragddarweiniad" i *Gyfrinach y Beirdd*, a ddywed: "Tua dechreu y nawfed ganrif, ymddangosodd awenydd athrylith lawn gofeufyw—Ceraint Fardd Glas a'r Gadair; yr hwn a gododd Gadair adgywair wrth Gerdd, Llandaf, a'i gair cysswyn; '*Duw a phob daioni*;' a thyma ddechreu Cadair Morganwg."

GERAINT FEDDW, brenin Essyllwg, neu Siluria a gofnodir yn y *Trioedd*, gyda Gwrtheyrn a Seithenyn, tan y penawd "Tri Charnfeddwon Ynys Prydein;" Geraint a "llosges yn ei feddwdod yr holl ŷd yn mhell ac yn agos hyd glawr gwlad, ac o hyny dyfod newyn bara."

GERAINT HIR, fab i Cymanon Hen, a restrir yn y *Trioedd* fel un o dri "Anhnol Farchogion," neu farchogion o iselradd, Llys Arthur; "sef gwyr gwreng oeddynt, o feibion eullion, ond cystal ea gair a'u cynheddfau fel nas gweddai amgen na Llys Arthur iddynt." Y ddau eraill oeddynt Eithew a Choleddawg.

GERWYN, sant yn y pumed cant. Yn ol un hanes, mab ydoedd i Brychan; tra y mae eraill, gyda mwy o debygolrwydd, yn dweyd mai mab i Brynach Wyddel ydoedd, o Corth ferch i Brychan. Yr oedd iddo dair chwaer, sef Mwynwen, Gwennan, a Gwenlliw. Gwladychodd yn Nghernyw, a sefydlodd eglwys yno. Cafodd ei ladd yn yr ynys a elwir oddiar hyny yn Ynys Gerwyn.

GIBBON (Parch. Rees), cedd fab i dyddynwr cyfrifol yn Llanboidy, sir Gaerfyrddin. Ymunodd â'r Bedyddwyr yn 1814, pan yn 13 oed. Dechreuodd bregethu pan yn 15 oed. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn athrofa Caerodor, ond galwyd ef i wasanaethu cynulleidfa Pembroke Dock cyn gorphen ei efrydiaeth; eithr nid hir yr arosodd yno. Ystyrid ef yn ysgolhaig da, yn bregethwr rhagorol, o ddeall eang, ac amgyffredion treiddgar. Bu gryn amser yn cadw ysgol Ramadegol yn Nghaerfyrddin. Wedi hyny cymerodd ofal cynulleidfa y Tabernacl yn y dref hono. Bu farw Ebrill 13, 1833, yn 33 oed.—*Lleyn MSS.*

GIBBS (David), a elwid yn fwyaf cyffredin *Dafydd William Rhys*, ydoedd enedigol o Gwmaman, sir Gaerfyrddin, ac a anwyd yn 1747. Yr oedd ganddo awen farddonol barod a naturiol hollol. Y mae rhai darnau o awenyddiaeth wledig a naturiol o'i eiddo ar gael. Bu farw yn 1843, yn 96 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Llangiwc.—*Lleyn MSS.*

GIBSON (John), R.A., y delwedydd *(sculptor)* nodedig ac enwog, yr hwn o'r fl. 1844 hyd ddydd ei farwolaeth, Ionawr 27, 1866, a safai yn benaeth yn y gelfyddyd, nid yn unig yn Lloegr, ond hefyd dros y byd oll, ac a saif hefyd yn un o benaduriaid mwyaf y gelfyddyd. Y gwr hwn a anwyd yn 1790, mewn tŷ bychan wrth ymyl palas Penarth, plwyf Gyffin, ger Conwy—tŷ y trigai ei dad ynddo tra yn gasanaethu fel ystiwart a garddwr i Counselor Samuel Price, perchenog y palas. William Gibson oedd enw ei dad, ac enw morwynol ei fam oedd Jane Roberts. W. Gibson oedd fab i Thomas Gibson, o blwyf Llanidan, yn Mon, gwr cyfrifol a pharchus yn ei ardal, a fu yn glochydd i Eglwys y

Digitized by Google

plwyf hwnw. Anhysbys yw y dydd a'r mis y ganwyd John Gibson yn y fl. 1790, ond yn llyfr cof-restr eglwys Conwy, y mae a ganlyn: "1790, The Rev. Mr. Hugh Williams babtis-d John, son of William Gibson, of the parish of Gyffin, by Jane Roberts his wife, 19th June." Bu fyw yn ardal Conwy hyd yn ddeg oed; a thra nad oedd ond plentyn, ei hoff waith fyddai cymeryd llechen mewn un llaw, a *phencil* yn y llaw arall, ac eisteddai i lawr yn sobr a difrifol ac a dynai lun ei dad neu ei fam, y ci neu'r gath, y dodrefn a'r cwbl o fewn y tŷ; ac wedi llygadrythu ac yspio bob yn ail ar y llechen ac ar y darlun, a chael ei foddloni eu bod yn tebygu i'w gilydd, cymerai ei lawes a chwimddileai hwynt oddiar y llechen. Elai wed'yn i'r ffordd, a safai o flaen y tŷ, a thynai hwnw—yn ddrws a phorth, to a ffenestri, y corn simnai a'r cwbl; wed'yn i ochr y ffordd neu clawdd, a thynai lun y ceffylau a'r gwartheg, ieir a gwyddau, a'r defaid a welai hyd y ffordd neu'r caeau, neu unrhyw beth a ddeuai o flaen ei olygon; nes yn y diwedd yr aeth yn ddiareb yn mhlith y cymydogion, mai bachgenyn hynod o graffus, a chall, oedd Sion neu Sionyn Gibswn, ac y byddai efe yn *siwr* o fod yn rhyw beth rhyw dro os daliai efe ati, ac iddo gael iechyd a hoedl gan y Brenin Mawr. Yn 1800, William Gibson, yn nghyda'i wraig a'i ddau fab, a ymadawodd o Gonwy ac a ddaeth i Liverpool, gan fwriadu ymfudo oddiyno i America. Ond rhyw noswaith pan oeddynt ar fin cychwyn i'r fordaith, mam John Gibson a freuddwydiodd freuddwyd yn argoeli mai drwg fyddai iddynt fyned ddim pellach ar eu taith. Ofnodd, ac yn yr ofn hwnw hi a daer geisiodd gan ei gwr beidio a myned; yntau a ildiodd iddi, a phenderfynodd drigianu yn Liverpool. Yna, aeth at ei hen gydnabod Daniel Jones, mab y Parch. R. Jones, Rhoslan, gwr o gymeriad uchel a pharchus yn y dref, pregethwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, ac un oedd a fyddai megis yn gynghorwr i bawb a ddeuai i'r dref o Gymru. Cafodd ef yn byw yn Garden Lane, sef rhes o dai yn nghwr y wlad y pryd hyny, a gerddi a pherllanau o flaen a thu ol iddynt (sef Freemason Row yn awr). Yno yr aeth William Gibson i fyw yn un o'r tai hyny. Elai ar y Sabbath gyda'i gymydog Daniel Jones i addoli i Gapel Pall Mall; ac weithiau elai i'r Gosper Cymraeg a gynelid nos Sabbath y pryd hwnw yn eglwys gyfagos St. Paul. Pan y newidiodd John Gibson ardal Glan Conwy, am lan afon Mersey i drigo yn mhlith Saeson, hwy a dybient, yn ol y dyb gyffredin oedd ganddynt y pryd hyny am lawer Cymry a fu o'i flaen ac a ddaeth ar ei ol, mai hogyn hurt ddigon oedd efe, gan nad allai lefaru na deall yr un gair o Saesneg; ond buan y gwellhaodd efe yn hyny, yr aeth i'r ysgol, ac yna daethant i newid eu barn am dano; canys yr oedd ei fam wedi deall mai tueddfryd y plentyn oedd at dynu lluniau, a hithau a roddodd bob cefnogaeth iddo fagu y tueddfryd hwnw. Gwelodd am y tro cyntaf yn Liverpool argraff-luniau *(pictures)* o radd uwch ac amgenach na'r rhai gwledig a welsai yn hongian ar barwydydd tai yn Nghymru. Ar y rhai hyn y byddai ei lygaid yn rhythu ac yn sylwi wrth fyned yn ol ac yn mlaen i'r ysgol. Safai am oriau o flaen y ffenestr i edrych arnynt, nes y byddent wedi eu delweddu yn drwyadl ar ei feddwl, ac y gallai o'i gof ei hun wedi myned adref drosglwyddo eu llun ar bapur. Ymwelai draehefn eilwaith ac eilwaith er mwyn gwella gwallau ei ymgeisiad cyntaf, ac hefyd i lenwi i fynu rhyw fân bethau. Felly y cryfhaodd efe ei gof ac y chwanegodd at ei fedrusrwydd; a buan y daeth ei gydysgolheigion i edrych arno yn rhyw fachgen rhyfedd, a chafodd hwynt yn barod iawn i newid eu dimeuau a'u ceiniogau am ei arluniau

Digitized by Google

ef, a chyda'r rhai hyny y prynai efe *bencil* a phapur. "Cefais her," medd Gibson, "gan un o'm cyfoedion i dynu llun Napoleon Buonaparte yn ei rwysg a'i fawredd ar ei geffyl yn croesi yr Alps, yn ol y darlun a wnaethai *David*, y lluniedydd, ohono. Modd bynag, mi a'i tynais, yntau a roddes chwecheiniog am dano; gwrthodais hyny, fel yn ormod o dâl, ond gorfododd fi i'w gymeryd, gan y mynai efe ei gadw i addurno clawr un o'i lyfrau. *This was my first commission.*" Holl feddylfryd ei galon erbyn hyn oedd cael bod yn arlunydd *(painter)*. ond ni feddai ei dad y moddion na'r tueddiad i'w foddhau yn hyny; felly, pan yn 14 oed, rhwymwyd ef yn egwyddorwas o *Cabinet Maker*, gyda Mr. Southwell, yn Duke street, ac nid hir y bu cyn tynu sylw ei feistr at ei gywreinrwydd a'i fedr yn dysgu ei grefft. Ond naddu, llyfnhau, a morteisio ystyllod a'u gwneuthur yn ddodrefn, oedd yn waith rhy unffurfiol i'w awen a'i ddychymyg ef; a dechreuodd hiraethu ac anfoddloni am rhyw waith mwy unol â'i chwaeth uchel a barddonol. Ei feistr a ddeallodd hyn, ac a'i cymerodd oddiwrth y fainc saerniaeth gan ei osod wrth y fainc cerflunio addurniadau y dodrefn; ac nid hir y bu wedi ymaflyd yn nghun y cerfiwr, cyn iddo ddangos ei fod yn tra rhagori yn y dosbarth hyny o'i grefft, ac y synai ei gydweithwyr a'i feistr at ei gywreinrwydd. Ond nid cymaint rhyfeddod ag a feddyliodd ei feistr oedd ei fod megis ar unwaith mor hyfedrus a dehau i drin erfyn y cerfiwr. Na, bu Gibson amser maith cyn hyny yn ei oriau hamddenol, yn cymeryd ffon neu ddarn o bren, ac yn ei naddu a'i gerfio i'r llun a'r dull y dychymygai efe; fel pan ddaeth i drin yr erfyn ar waith ei feistr, yr oedd efe fel hen law wrthi, yn gallu ei drin yn hawdd ac yn hwylus ddigon, nes yr aeth yn fuan tu hwnt i'w holl gyd-weithwyr. Canys tra yr oedd eu cerfwaith hwy yn eithaf dymunol i addurno dodrefn, yr oedd yr eiddo Gibson o ddail, blodeu a ffrwythau, mor debyg i'r gwreiddiol mewn anian nes yr ildiasant yn unfrydol i'w ragoroldeb. Aeth son am dano ar hyd y dref am ei waith celfyddus, nes y daeth llawer boneddwr o chwaeth i edrych arno, ac yn eu plith Thomas Francis, gweithiwr celfyddus mewn mynor, ac un enwog am gynllunio a gweithio cof-adeiladau. Pan welodd efe ei waith, canmolodd Gibson am ei fedrusrwydd yn cynyrchu y fath gelfyddwaith; ac yn yr ymddyddan a fu rhyngddynt deallodd Mr. Francis mai awyddfryd calon Gibson oedd ymgyrhaedd at bethau uwch na cherfio addurniadau i ddodrefn. Heblaw hyn yr oedd Gibson wedi cyrhaedd erbyn hyn i radd uchel o fedrusrwydd mewn arlunio unrhyw beth ar bapur gyda phwyntell, neu gyda dernyn o *charcoal*, ar bared gwyngalchog. Dechreuodd hefyd astudio drychfeddyliau y Bibl, Milton, a hen feirdd Groeg a Rhufain, ac i drosglwyddo ei ddychymyg ohonynt ar bapur. Mae un nodedig o'r rhai hyn i'w weled yn awr yn *Picture Gallery* y Royal Institution, Liverpool. Y pethau hyn yn nghyd a barodd i Mr. Francis chwenychu cael ei wasanaeth yn ei weithdy mynor ef, ac yn hyn fe lwyddodd trwy dalu £30 i Mr. Southwell am y pedair blynedd gweddill o amser yr oedd ganddo hawl i'w wasanaeth. Fel hyn gyda ewyllys a rhwydd hynt, ei feistr cyntaf a'i gollyngodd yn rhydd i fyned i weithdy mynor Thomas Francis yn Brownlow Hill. Nid hir y bu efe yno cyn dangos medr neilldiol i lunio gwrthddrychau o'i ddychymyg ei hun, a delweddu y rhai hyny mewn clai, a'u cerfio mewn mynor—medr na welwyd ei gyffelyb o'r blaen yn ngweithdy ei feistr. Ond nid gwaith newydd iddo ef oedd cynllunio gwrthddrychau, canys er yn blentyn byddai yn cynllunio delwau o glai: y toes yn y badell, hwnw ni chai

Digitized by Google

lonydd ganddo heb iddo gael talp ohono, ac os na chai fe gymerai ddarn o'i frechdan ac a'i tylinai hyd y byddai yn yr ystwythder cyfaddas at y gwaith i ffurfio delweddau bychain. Fel hyn, yn ddirgel, trwy ddiwydrwydd a dyfalbarhad, y bu Gibson yn parotoi ac yn addysgu ei hun yn y gelfyddyd hono a anfarwolodd ei enw drwy'r byd. Ei arwyddnod ef gyda phob peth yr ymaflai ei law ynddo ydoedd, "Yn mlaen, yn mlaen." Segurdod, nid oedd dim o hwnw ynddo er yn blentyn; cyn myned, ac wedi myned i'r ysgol, diwyd a llafurus a fu; wedi myned yn brentis, elai i'r ysgol y nos, ac yn ei oriau hamddenol, astudiai arluniaeth gyda'r diwydrwydd mwyaf. Er hyny, nid llai diwyd a ffyddlon oedd yn ngweithdŷ ei feistr; na, byddai yno bob amser yn brydlawn, a chyflawnai ei waith heb lygad wasanaeth, gan lwyr benderfynu ymwellhau o ddydd i ddydd gyda phob dernyn o waith a ymddiriedai ei feistr i'w ddwylaw. Ni bu hyn yn golled iddo, canys Mr. Francis a'i parchodd,—bu dirion wrtho, anogodd a chymhellodd a rhoddodd bob manteision iddo i ddilyn ei hoff efrydiaeth. Trwyddo ef y dygwyd Gibson i sylw Thomas Roscoe y bancer (awdwr *Lorenzo de Medici* a *Leo X.*), gwr o gyfoeth, ysgolhaig enwog, ac un tra haelionus, yr hwn a'i gwahoddodd yn fynych i'w balas ardderchog, Allerton Hall, ger Liverpool; agorodd a gosododd o'i flaen holl drysorau y celfyddydau ag oedd yn ei lyfrgell eang, yr hon fe allai nad oedd ei hail i'w chael mewn tŷ un boneddwr yn y wlad. Rhoddodd hwynt oll at ei wasanaeth, a chyfeiriodd ef at y cynlluniau puraf o'r celfau hynafiaethol, gan ei anog ef i'w hastudio ac i'w hefelychu hwynt. Felly y gwnaeth gyda dwbl ddiwydrwydd a dyfal-barhad, nes yn y diwedd aeth gweithdy cerfio mynor, fel yr aethai gweithdy saerniaeth ddodrefn, a cherfiadaeth coed,—ie, Liverpool ei hun erbyn hyn a aeth yn rhy gyfyng i'w awen nerthol a barddonol, a'i ddychymyg uchel ef ymhedeg ynddi; a dechreuodd hiraethu am weled gweithoedd yr Hen Athrawon oedd ar y Cyfandir. Mr. Roscoe wrth weled dawn, diwydrwydd, ac athrylith y llanc, a'i awyddfryd am weled mwy, a benderfynodd ei ddanfon i Rufain, a hyny ar ei draul ei hun. Ond cyn dyfod yr adeg i hyny, y byd a wgodd ar y boneddwr haelionus, fel nad allai gyflawni ei fwriad; er hyny, nid annghofiodd yr hyn a fwriadodd i'r llanc yr hoffodd gymaint arno, a thrwy ei ddylanwad ef a Mrs. Lawrence, cafwyd yn mhlith boneddigion y dref ddigon o fodd i'w anfon a'i gadw am ddwy flynedd i astudio yn Rhufain. Ymbarotodd i'r daith trwy gymeryd llythyrau o ganmoliaeth ac enw da gydag ef at rai o brif gelfyddwyr Llundain. Un felly a gafodd at Flaxman, R.A., llywydd y *Royal Academy*, a phrif ddelwedydd Prydeinig yr oes, yr hwn a'i derbyniodd yn garedig iawn. Edrychodd dros ei waith, ac a'i canmolodd, gan ei anog er pob dim i fyned yn ei flaen i Rufain. Cafodd lythyr hefyd gan General D'Aguilar at yr enwog ddelwedydd ac athraw Italaidd Canova, yn Rhufain. Hwn hefyd pan ei gwelodd ef a'i waith, a'i derbyniodd gyda'r croesaw mwyaf i'w weithdy, yn Hydref 1817, ac a sicrhaodd iddo y byddai yn sicr trwy ddiwydrwydd parhaus o gyrhaedd bri ac enwogrwydd mawr. Addawodd hefyd roddi pob cynorthwy ag a allai tuag at hyny. Felly aeth Gibson ato, gyda'i ddiwydrwydd arferol a'i lwyr benderfyniad i ragori; ac yn mhen dwy flynedd, cafodd ei hun y blaenaf o holl ddysgyblion ei athraw enwog. Nid yn unig gweithio yn ddiwyd a chyson ar hyd y dydd y bu, ond yr oedd gan Canova ysgol nos, yn yr hon y byddai yn darlithio ar y gelfyddyd o arlunio a delwadiaeth; ac yn hono byddai Gibson yn

Digitized by Google

gyson, heb golli yr un wers. Hyn a'barodd i'w athraw ei hoffi yn fwy, ac a roddodd iddo arwyddion amlwg o'i foddhad a'i gymeradwyaeth, fel yr anogodd ef i gymeryd iddo ei hun weithdy, gan addaw rhoddi pob cefnogaeth iddo fyned yn mlaen.

Yn y fl. 1821, Gibson a gymerodd weithdy, ac a ddechreuodd weithio ar ei draul ei hun; a thiriondeb a hynawsedd ei hen athraw a'i dilynodd yno. Y ddelw gyntaf a wnaeth yno oedd y dawddlun o *Mars a Venus*. Y flwyddyn hono, ymwelodd Duc Devonshire â gweithdy Canova, ac wedi edrych drwy hono, Canova a aeth gydag ef i weithdy Gibson i weled y ddelw grybwylledig. Yntau a'i canmolodd ef yn fawr wrth y Duc, a llwyddodd i gael ganddo roddi *commission* i Gibson i wneud ei gyffelyb mewn mynor; a hyn, ei waith cyntaf yn Rhufain, a saif hyd heddyw yn un o ryfeddodau palas ardderchog y Duc yn Chatsworth. Un arall o'i weithiau cyntaf yw'r *group* o *Psyche and the Zephyrs*, mewn mynor, a wnaeth i'r noddwr hwnw ar weithiau celfyddwyr Prydeinig, Syr George Beaumont; ac o'r unrhyw gwnaeth ddau eraill cyffelyb, un i'r Tywysog Torlonia, a'r llall i'r Uchel Dduc o Rwsia (sef Ymerawdwr presenol Rwsia). Erbyn hyn, yr oedd ênwogrwydd, anrhydedd, a llwyddiant, wedi eu sicrhau iddo; ond fel y bu bob amser yn argeisio cyrhaedd at ardderchawgrwydd uwch, efe a barhaodd i weithio fel dysgybl yn ngweithdy ei athraw Canova hyd farwolaeth y gwr hwnw yn 1822. A phan y bu efe farw, er fod ganddo weithdy ei hun, ni thybiodd yn un iselhâd iddo fyned eto yn ddysgybl am dymhor o dan Thorwalsden, y *Danish Sculptor*, am yr hwn y dywedai Canova, pan welodd ei gerf ddelwadaeth gyntaf, "Wel, dyma waith ardderchog ac arddunol." Arddull y ddau athraw celfyddus hyn oeddynt yn dra gwahanol. Y tlws, y prydferth, a'r anwylaidd, sydd yn hynodi arddull Canova, ond yr ardderchog a'r mawreddus, yr eiddo Thorwaldsen. Felly yn olynol y bu Gibson yn gweithio dan ddau athraw penaf yr oes; ac er fod arddull tra gwahanol i'r ddau, eto yr oedd ganddo alluoedd o'i fewn digon annibynol i ffurfio arddull iddo ei hun ag sydd yn hollol wahanol i bob un o'r ddau, yr hon yw'r un glasurol bur. Profodd felly nad oedd yr holl hyfforddiant a gafodd gan ei athrawon yn ei arwain i fod yn efelychwr nac yn ddynwaredydd, ond fe gadwodd ei neillduolrwydd arbenig ei hun yn yr hyn oll a wnaeth.

Yn y fl. 1826, bu farw Flaxman, y delwedydd Prydeinig, ac o'r pryd hyny allan cyfrifid Gibson y pendelwedydd Prydeinig, a safai yn gyfochrog a'i athraw Thorwaldsen, yn un o'r ddau oreu yn y byd. Wedi marw Thorwaldsen yn 1844, John Gibson, y Cymro, a safai tra fu byw nid yn unig y goreu a feddai Prydain, ond y goreu yn y byd oll.

O ddechreuad ei yrfa hyd ei farwolaeth, Gibson a lwyr ymroddodd braidd yn gwbl at ddelwadaeth farddonol; ac i'r dosparth yma o'i weithiau yn ddiau yr edrychir ac y bernir ucheledd ei radd, ac nid oes un petrusder na bydd y gradd hwnw yr uwchaf oll yn mhlith y delwedyddion diweddaraf, nid yn unig yn Lloegr ond yn Ewrob. O arddull ac yspryd hollol Roegaidd, a'r rhan fynychaf yn troi at hen ffug-chwedlau Groeg am destun ei wrthddrychau, ond byth nid ymfoddlonai i orphwys i dynu namyn ffurf a llun Groegaidd, na, fe anadla fywyd ac yspryd newydd i mewn i'r hen chwedlau—i'w *Venuses*, a'i *Auroras*, a'i *Helens*, a'i *Saphos*, a'i *Proserpines*; ïi *Cupid* a *Psyche* (y rhai a luniwyd yn fynych gan eraill), ie, i'r *Greek Hunters*, *Sleeping Shepherds*, a'r *Wounded Amazons*, rhoddai iddynt wedd, nodwedd, a phersonoliaeth arbenig o'i eiddo ei hun. Llawer yn ddiau oedd y

Digitized by Google

manteision a gafodd dyn o athrylith Gibson o dan athrawon mor enwog a Canova a Thorwalsden, ac hefyd mewn dinas lle mae cymaint o gofadeiladau, a delwau yr hynafiaid i'w gweled ar bob awr, ac y gallai efe drwy syllu yn fanwl arnynt ddysgu y deddfau hyny ag sydd yn rheoli cyson-fesuraeth, a rhanau y corph dynol yn y perffeithrwydd dychmygol ohono, pan yn ei fawredd a'i harddwch. Ond nid mewn cerig wedi eu naddu a'u llunio yn ddelwau godidog, prydferth, a mawreddog, y chwiliodd efe am y tanbeidrwydd, yr yni, y tlysni, a'r harddwch, a welir yn mhob peth y cyffyrddai ei law arno. Na, ond yn y wlad a fabwysiadodd; ac yn ei rodiadau dyddiol, gwelai, fel y gwir gelfydd, yn ngwragedd a phlant y werinos, wrthddrychau teilwng a chyfaddas i'w gŷn. Y troediad chwim ac ysgafn, a'r edrychiad bywiol a thanbaid o gariad neu gâs. Yno gwelai hwynt yn bortreadau byw o lun clasurol. Yn ei henaint, Gibson a hoffai adrodd pa sut y derbyniodd efe oddiwrth fywyd cyffredin dyn awgrymiadau tuag at greu ei weithiau mwyaf ardderchog. Y fam ieuanc wledig yn nghyda'i bachgenyn, yn rhodio y prif-ffyrdd Rhufeinig, a dyfai o'i flaen yn *Venus* a *Cupid*. Derbyniodd ei feddylddrychau cyntaf oddiwrth y pethau a welai yn bodoli yn ngwlad ei enedigaeth; cadwodd hyny yn ei olwg bob amser; astudiai yn ysgol natur, ac yn mha well ysgol y gallesid cael cynlluniau mwy teilwng i'r gwynaf o fynor *Carrara*, ac i'r cynion mwyaf cain? Yn mhob *group* (delw-waith) o eiddo Gibson, ac y maent yn llawer, digon braidd i lenwi llwyni Athen y dydd goreu a fu arni, derbyniodd ei feddylddrychau cyntaf oddiwrth wir gig a gwaed; a dyma'r paham y mae ynddynt y fath naturioldeb, a'r tebygolrwydd rhyfeddol hwnw i wir fywyd ag sydd yn taro pawb â syndod a edrychant ar ei waith. Gallasai lledneisrwydd yr arferiad o roddi gwisg deneu hylifaidd, ac addurnau tlwsbur yr hynafiaid ddyrchafu ei ddelwau i'r golwg, ond byth ni chuddient yr elfenau hyny o'r ddynoliaeth ag sydd bob amser yn apelio at y galon ddynol gyffredin, sef y serchiadau a'r teimladau, yn mha wisg bynag yr ymddangosant. Gwelir hwynt yn tywynu ac yn ymddisgleirio ynddynt yn mhob edrychiad, ystum, a gweithrediad. Mewn traethawd byr nid ellir rhoddi ond hanes byr am y teilyngdod mawr a berthyn iddo fel gwir gelfyddydwr, ond gallwn nodi allan y moddion a gymerodd i gyrhaedd cymaint o fri ac anrhydedd. Er yn blentyn, tynai ei holl gynlluniau oddiwrth yr hyn a welai yn bodoli yn wirioneddol mewn anian, a thynai y rhai hyny yn berffaith gywir fel y gwelai hwynt. Perffeithrwydd ei gynlluniad, a'i awyddfryd a'i gariad at y rhagorol, a'n hesgusoda ni i enwi a ganlyn. Pan yn Liverpool, cymdeithasodd â rhai o'r dysgyblion ieuanc meddygol, y rhai o angenrheidrwydd a gaent wrthddrychau y pryd hyny o'u beddau i astudio arnynt. "Unwaith," meddai, "daethum hyd i gorphyn merch ieuanc brydferth; ac er mai marw oedd, mi a delais y parch mwyaf iddo tra y buom wrthi yn ei arlunio." Tra bu efe yn ieuanc, arferai y diwydrwydd mwyaf bob amser at gynllunio yn berffaith gywir y corph dynol; a thra y bu ei feistr—"*Noble* Canova," fel y galwai ef, byw, cafodd ei feirniadaeth ef ar y cynllunaeth cyntaf a'i dygodd i enwogrwydd, pan oedd y gwaith ar ei haner orphen, ac wed'yn cyn i'r gwaith gael ei drosglwyddo i'r cymrwd *(plaster)*. Barn Canova oedd dda bob amser, a dywedai wrth Gibson, "peidiwch ag astudio fy ngwaith i, ond gwaith yr hynafion." Felly y gwnaeth, ac mor ddyfal a llwyddianus, fel pan ymwelodd yr enwog feirniad ar y celfyddydau cain, Mrs. Jameson, â Rhufain, yn 1826, yr oedd y gwaith wedi cyrhaedd y fath enwogrwydd fel y

Digitized by Google

dywedodd hi am dano yn ei dyddlyfr, "*Of an Ennuyee*," fel hyn :—"Yr enwog ddelwedydd Prydeinig, Gibson, a aeth gyda ni i ymweled â'r *Algerian Marbles;* wedi hyny cymerodd ni drwy ei weithdŷ ei hun, a dangosodd ini ei drwp-ddelwau o *Psyche and the Zephyrs*, yr hyn a'n swynodd ni. Hoff ddysgybl Canova ydyw Gibson. Pob ystum ac ysgogiad ohono sydd yn awenyddol. Ei wynebpryd, syml a *phlaen* yw; ond ei drem a belydra gan dân bywiogrwydd a deall." Dilynodd gynghor Canova ac aeth yn ddysgybl hoff o weithiau anfarwol y meistradoedd Groegaidd; ac er nad oedd yn hyfedrus yn yr ieithoedd Lladin a Groeg, eto yr oedd ei wybodaeth am eu holl ysgrifeniadau mor eang nes yr oedd ei feddwl wedi ei drwytho yn drwyadl gan eu teleidion a'u chwaeth. Tra bu ei hoff frawd Benjamin fyw, yr hwn oedd yn trigo gydag ef yn Rhufain, efe fyddai yn cyfieithu iddo o'r Lladin a'r Groeg, rai o'i hoff chwedleuon, canys ieithyddwr a hynafiaethydd tra ragorol oedd efe. A phan bu Benjamin farw, ceisiai gan rai o'i gyfeillion eu cyfieithu hwynt iddo. Am y gwaith ardderchog cyntaf a wnaeth i'r Duc o Devonshire yn ei weithdŷ ei hun, arferai ddywedyd na enillodd efe oddiwrtho werth cwpanaid o goffi. Beth er hyny? o'r pryd hwnw allan archebion *(commissions)* a ddylifent i mewn ato yn lluoedd; ac mewn ychydig iawn o flynyddau cafodd y boddhad o weled, er cymaint werthfawrogid ar ei weithiau yn Rhufain, nad oedd ei gyfeillion yn Lloegr yn ei annghofio. Urddau hefyd a ddisgynent ar ei ben yn gyflym y naill ar ol y llall. Yn 1833, er na bu ond ychydig o'i waith yn cael ei arddangos yn Llundain, etholwyd ef yn gydymaith *(associate)* o'r *Royal Academy*, ac mewn tair blynedd wedi hyny urddwyd ef i hawlfraint gyflawn o *Royal Acadamician.* Nid mynych y danfonai ei waith i'w arddangos yn Llundain, a phe y danfonasai hwynt yn fwy aml a chyson gallasai hyny fe allai enill iddo fwy poblogrwydd personol, eto anmhosibl braidd y buasai ei enw yn sefyll yn ddim uwch yn y cylchau dysgedig a chelfyddydol nag ydoedd pan y bu efe farw. Yn ystod yr haner can' mlynedd y bu yn trigo yn Rhufain, cynyrchodd Gibson fwy o weithiau o'r gradd uchaf o ardderchawgrwydd na neb dyn arall, a derbyniodd am ei lafur a'i ddiwydrwydd gyflawn wobr mewn enw a chyfoeth. Gofynai gyfrolau i ddysgrifio prydferthion y delwadau godidog hyn trwy ba rai y bydd efe yn cael ei adgofio; a gallem honi heb ofn un gwrthwynebiad, mai ychydig ohonynt a ragora mewn prydferthwch ar ei ddau *bas-reliefs* enwog,—*The Hours leading the Horses of the Sun*, a *Phœthon driving the Chariot of Pheobus*, y rhai y gallem heb wenieithio dim i awen ein cydwladwr ddywedyd eu bod yn ymdebygu yn fwy mewn arddull ardderchog a carddunol i *freize* y Parthenon yn Athen, nag unrhyw waith a wnaethpwyd gan y celfyddydwyr diweddar. Y gweithiau ardderchog hyn ydynt yn meddiant Iarll Fitzwilliam, ac yn cael eu harddangos yn y neuadd fawr yn Wentworth House.

Yn mhlith ei holl oruchafiaeth a'i ddirfawr lwyddiant yn Rhufain, nid annghofiodd Gibson am Loegr a chyfeillion gartref, ac yn enwedig am Gymru, y wlad a'i magodd, am yr hon y soniai fyth a hefyd. Yn y fl. 1844, ymwelodd â Lloegr, yr hon, saith mlynedd ar hugain yn ol, a adawsai yn wr anenwog i'r byd, er hyny yn awyddu'n wresog am enwogrwydd; a'i gydymaith ar y daith hono oedd ei gyfaill mynwesol Penry Williams, yr enwog *Lanscape Painter*, Cymro o'r Deheudir; a bu y ddau yn wahoddedigion dan gronglwyd Mrs. Huskisson, gweddw y gwleidyddwr enwog. Yn ystod yr ymweliad hwnw y derbyniodd

Digitized by Google

efe y *commission* gyntaf oddiwrth ei Mawrhydi Victoria. Mrs. Huskisson ei lettywraig, a'i gyfaill, a ofynodd am ganiatad Arglwydd Palmerston i gyflwyno Gibson i'w Mawrhydi; a'i atebiad ef i hyny oedd, mai Syr Charles Eastlake, llywydd y *Royal Academy*, fuasai y goreu i wneuthur cenadwri o'r fath. Ac felly y bu i Syr Charles ei gyflwyno i Albert, y Tywysog Cydweddog; ac yn ddioed, derbyniodd Gibson genadwri i ymweled â'i Mawrhydi ac anrhydeddwyd ef ganddi â *chommission* i wneuthur delw ohoni hi mewn cyflawn faintioli. Bob bore wedi hyny elai i lawr at Gastell Windsor i gyflawni ei holl baratoadau tuag at y gwaith. Y pen a haner y corph a ddelweddai efe oddiwrth ei Mawrhydi ei hun yn Lloegr, gan adael y breichiau i gael eu moldio gan gelfyddydwr is-raddol yn Llundain. Wedi cael pob defnyddiau angenrheidiol at y gwaith, fe ddychwelodd Gibson yn ol i Rufain, lle y gwnaeth efe y ddelw odidog hono o'n grasusaf frenhines—yr hon yn awr a saif yn mhen y brif risiau yn mhalas Buckingham. Y ddelw hon a gedwir ganddi yn ei phalas yn barchus a gofalus, er dangos purdeb a chwaeth i'r oesau a ddel. Lluniodd y ddelw hon dan olygiad Albert Dda, ei gwr; yr hwn ni bu well nac amgen ei chwaeth yn y celfyddydau pur a phrydferth. Er hyny, ac er mai dan ei olygiad ef y lluniodd ddelw Brenhines y wlad y ganwyd ef ynddi, eto ni chymerai efe ei lywodraethu ganddynt hwy pa wisg a roddai ar y ddelw, ond mynodd ei gwisgo mewn dull syml a phur, gweddus a theilwng o'r enw Victoria, tra ar yr unpryd ni chuddiai ac ni anmharai ddim ar ddelw y wraig a'r fam rinweddol—sef y prydferth, y llednais, a'r wylaidd—yr hon, er ei chlod, a wisgai bob amser. Yn nglyn a'r ddelw hono, adroddai Gibson wrth gyfaill, a ganlyn :—"Pan ddaethum gyntaf i wydd y frenhines, prin yr ynganodd hi air wrthyf, ond eisteddodd i lawr yn ddistaw i mi gymeryd y cynllun ohoni; ond o dipyn i beth, hi a dynodd ymgom â mi yn nghylch ffug-chwedlau y Groegiaid." Un a fedrai adrodd chwedl yn ddigon i swyno y neb a'i clywai gan mor fwyned oedd ei lais a'i ddull oedd Gibson. "Adroddais wrthi, yn ol ei chais, am 'Theseus yn lladd y lleidr,' yr hon ddelw oeddwn yn gweithio arni cyn ymadael o Rufain; ac yn nghanol y chwedl hi a ymostyngodd i chwerthin yn harti a llawen. Wedi hyny dywedais wrthi, 'Madam, yn lleidr y'm ganwyd inau.' 'Yn lleidr! Mr. Gibson,' 'Ie, eich Mawrhydi. Pan oeddwn ond plentyn lledratais afal oddiar *ystondin* hen wreigan dlawd gloff, a choes bren ganddi; a thra yr oeddwn yn ei fwyta ar y ffordd, fy mam a'm cyfarfu, a mynodd wybod pa le y cawswn ef, minau a ddywedais mai gan yr hen wraig yn rhodd. Hithau a aeth a mi yn ol ati, a chafodd allan y celwydd; ar hyn, parodd i'r hen wreigan roddi imi gyweiriad iawn, a hithau a'i rhoddodd imi yn dda a gwala gyda'i baglau. Yna fy mam a'm harweiniodd adref mewn perffaith ddistawrwydd, a chadwodd fi nes dyfod fy nhad oddiwrth ei orchwyl, pryd y mynegodd y peth wrtho; yntau a'm ceryddodd yn dost, ac wedi hyny darllenodd benod o'r Bibl, ac a'm cynghorodd o hwnw, ac yna aeth ar ei liniau a gweddiodd droswyf. Y tro nid annghofiais; a byth wedi hyny, dim ni ladrateais.' 'Wel, Mr. Gibson,' meddai y frenhines, 'llawer o ddrwg a ddaeth o fwyta y ffrwyth gwaharddedig.'" Mynych yr adroddai Gibson yn ei ddull syml a dirodres yr hanesyn hwn mewn cymdeithas, yn enwedig i ieuenctyd; ac nid yw yn un darostyngiad i'w anrhydedd iddo wneuthur, gan y dangosai drwy hyny fod ei dad a'i fam yn bersonau yn caru uniondeb a chywirdeb i'r graddau uwchaf. Gorphenai yr hanes bob amser gan wenu a dywedyd, "Oni bai i mi

Digitized by Google

gael y cerydd hwnw gan fy rhieni, fe allai mai dilyn llwybrau y lleidr y buaswn nes cyrhaedd y crogbren yn y diwedd." Fe allai mai i'r tro hwn yr oedd efe yn ddyledus hefyd am y nodweddiad tra uchel o uniondeb a chywirdeb ag oedd yn amlwg ynddo trwy ei holl fywyd. Hefyd, dangosai y fath ddylanwad sydd gan y fam yn ffurfio nodweddiad y dyn dyfodol. Yn 1847, ymwelodd Gibson eilwaith â Lloegr, i'r perwyl o ddewis lle i roddi delw Huskisson i fynu; yr hon sydd i'w gweled yn union yn y fan y bu bwthyn y chwarelwyr yn sefyll, yn yr hwn y cadwodd Wm. Llwyd yr addoliad Cymraeg cyntaf yn Liverpool. Gwnaeth dri o'r delwau hyn heblaw yr un a enwyd; un o ba rai sydd yn y Royal Exchange, Llundain, a'r llall mewn *bronze* wrth y Custom House, Liverpool. Pan orphenwyd yr olaf, gwnaed gwledd fawr yn Neuadd y Dref, i groesawu Gibson, pryd yr oedd Syr Robert Peel ac amryw eraill o benaethiaid a dysgedigion y deyrnas yn bresenol, yn rhoddi derbyniad anrhydeddus a chroesawiad teilwng i'r bachgen tlawd o Gymro. Y pryd hwn, cafodd orchymyn breninol i wneud delw arall o'r Frenhines; ac un arall ohoni i'r Llywodraeth, yr hon a saif yn neuadd Westminster, ac a ystyrir yr oreu oll o'i Mawrhydi. Yn 1863, ymwelodd drachefn â Lloegr, a'r pryd hwn yr oedd cwmwl wedi cysgodi y teulu breninol drwy farwolaeth Albert Dda; er hyny, y Frenhines, yn ol ei harferol diriondeb a gostyngeiddrwydd, a wahoddodd Gibson i Osborne. Nid trosedd yn erbyn moesgarwch fyddai nodi y digwyddiadau canlynol gan eu bod yn anrhydedd i galon y Frenhines. Cysgodd ddwy noson dan ei chronglwyd hi; ac ar ddau adeg wahanol aeth gydag ef drwy ei phalas er dangos iddo yr holl bethau gwerthfawr a phrydferth oedd yno yn y celfau cain. Ar un o'r troion hyn, Mrs. Bruce, gweinyddes ei Mawrhydi ar y pryd, a ofynodd i Gibson yn mha flwyddyn yr aethai i Rufain. "O! Mrs. Bruce, gwelaf mai ceisio gwybod fy oedran yr ydych; *secret* yw hyny na ddywedaf i neb, yn enwedig i ferched. Mae fy ngwallt yn britho, ond fy oed nis dywedaf i neb." Yr atebiad a dynodd rywbeth fwy na gwên oddiwrth y Frenhines a'r rhai oedd gyda hi. Ni chai neb wybod ganddo beth oedd ei oedran, ac am hyny ei gyfeillion a osodent fagl yn fynych i'w ddal, ond erioed ni thyciasant. Ar hyd ei oes hirhoedlog, mwynhaodd iechyd tra hynod hyd o fewn ychydig fisoedd i'w farwolaeth. Ychydig cyn hyny ymwelodd cydwladyddes ag ef wedi maith absenoldeb, pryd y sylwodd eu bod ill dau yn tynu at yr un oedran. Yntau a'i hatebodd, "*I know nothing of Age or Death*—Henaint a Marwolaeth nis gwn am danynt." Ni wybu am henaint gan y gweithiodd hyd ei ddiwrnod olaf; ac am farwolaeth ni wyddai, gan y bydd ei weithiau dihafal yn llefaru er iddo ef fyned i dir annghof. Un a adwaenai Gibson am flynyddau meithion yn Rhufain a ddywed amdano, "Meddwl yr ydwyf yn sicr na fodolodd yr un dyn—ar ei ben ei hun, mewn cymdeithas, ac wrth ddilyn ei waith—o feddwl mwy pur, diddichell, gwylaidd, a dirodres, geirwir ac union,—ac ynddo symlrwydd plentyn, eto yn hollol annibynol a gwrol." Yn Rhufain, gwr o urddas tra nodedig ydoedd, ac un o'r rhyfeddodau oedd i'w gweled yno. Ymweled â'r Ddinas Dragwyddol ac heb ymweled â John Gibson a ystyrid braidd yn waradwydd a chywilydd ar unrhyw deithiwr o chwaeth. A pheth hawdd iawn oedd ei weled, gan na safai efe byth ar uchelder ei fawredd; a phwy bynag a elai i'w weithdy cai dâl am ei lafur, drwy ei diriondeb ef yn dangos ac yn esbonio ar bob peth oedd i'w gweled yno. "Unwaith," meddai, "pan wrthi yn gweithio, daeth cwmni o Saeson i mewn, gan

Digitized by Google

graffu yn fanwl arnaf, pryd y dywedodd un ohonynt, '*Did you ever see such an awkward fellow as that at his work,*' ni wneuthum ddim ond chwerthin ar ei anfoesgarwch." Dro arall daeth boneddiges o radd uchel yno, a dywedai, "Yr wyf yn synu atoch chwi y delwedyddion eich bod mor hoff o wneuthur delwau yn noeth lymyniad." "O! madam," meddai yntau, "ein gogoniant yw efelychu y gwaith prydferthaf a greodd Duw, sef dyn; a phe rhoddem ddillad amdanynt, efelychu y Teiliwr a'r *Milliner* y byddem." Cymro trwyadl oedd Gibson, ac arddelwai ei hun felly gerbron pawb; ac wedi bod ohono ddeugain mlynedd o wlad ei enedigaeth, ac o'r rhai hyny saith ar hugain yn Rhufain, dywed Robert Herbert Williams, pan welodd efe ef yn y Mechanic Institution, Liverpool, yn 1844, ei fod yn siarad Cymraeg mor ddilediaith a phe na buasai efe erioed yr un awr o fynyddoedd Arfon.* Anrhydeddwyd Gibson âg urddau Celfyddydau pob gwlad. Napoleon III. a roddodd iddo urdd *Chevalier of the Legion of Honour;* Brenin Ludwig a gododd saf-ddelw *(statue)* iddo yn Munich; Brenin Prwsia a'i hanrhydeddodd ag urdd o *Full Merit;* Tywysog Cymru a roddodd iddo fodrwy ddiamwnt yn nghyda'i arlun ynddi yn arwydd ei barch iddo. Yr oedd yn aelod o'r *Royal Academy*, Llundain; ac o *St. Luke*, Rhufain. Derbyniodd y parch a'r anrhydedd mwyaf gan y Frenhines Victoria, yr hyn a fawr brisiai bob amser. Ac ar y 26ain o Ionawr hi a anfonodd *delegram* i Rufain yn ei henw ei hun i ofyn am ei iechyd, a mawr ofid calon a deimlai wrth glywed ei fod yn glaf. Pan ddarllenodd Mr. Odo Russell y genadwri iddo, ymddangosai ei fod yn ei ddeall yn eithaf da, ac er na allai lefaru fe estynodd ei law am y llythyr a daliodd ef o flaen ei lygaid, a chyda hwnw yn ei law yr hunodd, a dyma y weithred olaf o ddealltwriaeth a gwybodaeth o'i eiddo. Bu farw Ionawr 27, 1866; a chladdwyd ef yn y gladdfa Seisnig, Rhufain. "Ac yn awr," ebai ei gyfaill, Mr. Penry Williams, "ni adewir dim ond adgofiant o'i addfwynder a'i ostyngeiddrwydd, ei symledd dirodres, a'i weithiau annghydmarol y rhai sydd yn addurno palasau breninoedd, tywysogion, a phendefigion y byd." Ceir amryw ohonynt yn y Royal Institution, ac yn nghapel James' Cemetery, Liverpool, ac yn mhlith y rhai hyn un neu ddau a wnaeth cyn myned gyntaf i Rufain; eraill yn meddiant y Frenhines, Ymherawdwr Rwsia, Dug Devonshire, Syr G. Beaumont, Lord G. Cavendish, Duke of Northumberland, Syr Robert Peel, Lord Crew, Earl of Durham; H. Sandbach, Ysw., Hafodunos; Mr. Abblett, Plas Llanbedr, Dyffryn Clwyd; Count Schombey, o Bavaria, Marquis of Westminster, Lord Londonderry, ac yn wasgaredig yn mhlith prif gasgliadau celfyddydol y byd. Y mae eraill o'i eiddo yn addurno petryalau *(squares)* ein dinasoedd mawrion, nid yr anenwocaf o ba rai yw cerfddelw Stephenson sydd yn Exchange Llundain. Gadawodd hefyd yn ei ewyllys roddion tywysogaidd, mewn arian a chelfyddwaith, i'r Royal Academy, Llundain. Cerfwaith fu ei degan pan yn blentyn; pleser ei ieuenctyd; ei lafur a'i hyfrydwch pan yn ddyn; ffynonell ei gyfoeth, a'r trostan ar ba un y dododd efe yr enwogrwydd nad â'n annghof am ganrifoedd.

GILBERT, oedd fab i Gadgyffraw, penaeth yn y 6ed ganrif. Cofnodir ef yn y *Trioedd*, gyda Morfrau ab Tegid a Gwgan Gleddyfrudd, tan y penawd, "Tri Ysgymydd Aerau, Ynys Prydain."

GILDAS ALBANIUS, neu Gildas Sapiens, ydoedd fab i Caw, brenin Brythoniad Gogledd Prydain. Ymroddodd yn ieuanc i fywyd

Digitized by Google

crefyddol, ac, yn ol Bale, dysgybl ydoedd i Badrig Sant. Bu am beth amser yn yr Iwerddon yn pregethu y ffydd yn Nghrist, ac yn llywyddu coleg Armagh. Pan ddeallodd fod ei frawd Hywel wedi ei ladd mewn rhyfel gan Arthur, dychwelodd i Brydain, gan ymheddychu â'r brenin o gylch y flwyddyn 508, a phenodwyd ef yn gaplan iddo. Cafodd ei ddarbwyllo gan Cattwg Sant i ymgymeryd ag arolygu ysgol Llangarfan, yr hyn a wnaeth am flwyddyn yn rhad. Yna ymneillduodd i Ynys Echni *(Liber Landavenes* 386*)* o'r hwn le y dychwelodd yn fuan rhag ofn môr-ladron ynysoedd Orkney, ac y daeth i Glas Myrddin *(Glastonbury)*, yn agos i ba le yr adeiladodd efe eglwys ar lan yr afon Ax, ac a'i cyflwynodd i'r Drindod Santaidd, ac yno y treuliodd weddill ei oes mewn unigedd meudwyaidd. Yn mhrophwydoliaeth Merddin gelwir ef yn *bregethwr Iwerddon*, oherwydd ei fawr lwyddiant yn y wlad hono yn enill dynion i gofleidio Cristionogaeth. Bu farw Ion. 29, 512. Yn ol Bale, efe oedd awdwr :—1, "Commentarii Evangeliorum;" 2, "De primis Habitatoribus Insulæ;" 3, "Versus Vaticiniorum;" 4, "De Sexto cognoscendo;" 5, "Super eodem Sexto;" 6, "Regum Britannorum Historia;" 7, "De Victoria Aurelii Ambrosii;" 8, "Acta Germani et Lupi." Y mae Sieffrey o Fynwy yn dyfynu o'r llyfrau "Buddugoliaeth Emrys Wledig," a "Gwyrthiau St. Garmon a Lupius," yr hyn a brawf fod gweithiau y Gildas hwn mewn bri yn y 12fed ganrif. Dywed hefyd fod Gildas wedi eyfieithu cyfreithiau Dyfnwal Moelmud o'r iaith Brydeinig i'r Lladin, ond mai'r brenin Alfred a'u cyfieithodd i'r iaith Sacsonaidd. Tybia Williams, yn *Em. Welsh.*, ond ar ba sail nis gwyddis, mai efe ydyw awdwr *Brut Tysilio*, a welir yn y *Myv. Arch.*

GILDAS BADONICUS, oedd yn ei flodau yn y 6ed ganrif. Tua 566, ymfudodd o Brydain i'r Iwerddon ar ddymuniad Amirach, mab i Setnai, brenin y wlad hono. Eithr ni phregethodd efe yr efengyl yno namyn ychydig amser na laddwyd ei noddwr mewn brwydr, oed Crist 568 neu 569, ebai'r *Annals of Ulster*, a Gildas a ddychwelodd ar hyny i wlad ei enedigaeth, lle y bu farw yn yr haner ganfed flwydd o'i oedran. Dywed Bale mai efe a ysgrifenodd; 1, "De Excidio Britanniæ;" 2, "Conciones Mordentes;" 3, Historia Quædam;" 4, De Immortalitate Amimæ." Dysgedigion a briodolant iddo amryw weithiau eraill; eithr pan y mae hen awduron o fri ac awdurdod Ponticus Virunnius a Bale yn gwrthddywedyd eu gilydd y mae yn anhawdd y dydd hwn sicrhau pa un sydd gywir. Am y farn sydd yn ffynu yn mhlith rhai haneswyr mai yr un ydoedd y Gildas hwn ag Aneurin Gwawdrydd, ymgynghored y darllenydd â thu dal. 21 o'r llyfr hwn. Penderfyna y Parch. Peter Roberts, oddiar dystolaethau mewnol y gwaith, nad yw y cronicl a briodolir i Gildas ond ffug diweddar, ac mai gwaith rhyw estron ydyw. Y mae haneswyr diweddar yn dueddol i gredu nad oedd ond un Gildas, eithr dilys yw fod ychwaneg nag un canys yr ydym yn darllen am Gildas Albanius, Gildas Sapiens, Gildas Badonicus, Gildas Historicus, Gildas Cambrius, a Gildas Quartus, er fod yn anmhosibl yn bresenol priodoli i'r gwir awdwr y gwahanol lyfrau ag sydd yn dwyn yr enw Gildas. Yr hyn sydd argraffedig o waith Gildas a gyhoeddwyd gyntaf gan Polydore Virgil; yr hwn a adargraffwyd gyda'i holl anmherffeithderau 1610, yn Paris yn y *Bibliotheca Patrum*. Ail-argraffiad a gyhoeddwyd yn yr *Opus Historiarum nostro Sæculo convenientissimum*, Basel, 1541; ac ar wahan yn Llundain yn 1568, a'r un modd yn Basel yr un flwyddyn; a Paris yn 1576; a thrachefn gan Gall oddiar well cyfysgrif yn y *Rerum Anglicarum Scriptores Veteres*, yn 1684. Ym-

Digitized by Google

ddangosodd cyfieithiad Saesneg hefyd ohono yn Llundain yn 1652, tan y teitl, "A Description of the state of Great Britain, written eleven hundred years since;" argraffiad arall yn Llundain yn 1841 gan y Dr. Giles; ac ychydig flynyddau yn ol gan Bohn yn y *Six English Chronicles.*

GILFAETHWY AB DON, ffugberson a ddygir gerbron yn fynych yn yr hen *Fabinogion*, yn enwedig yn "Math ab Mathonwy."

GIRALDUS DE BARRI, neu a adwaenir yn well wrth yr enw GIRALDIS CAMBRENSIS, a anwyd yn 1146, yn nghastell Maenor Pyr, gerllaw Dinbych y Pysgod, sir Benfro. Yr oedd yn hanu o deulu uchelwaed ac anrhydeddus. Ei dad, William de Barri, ydoedd bendefig o waed Normanaidd; a'i fam, Angharad, ydoedd ferch i Nest, merch i Rhys ab Tewdwr, tywysog Deheubarth. Ymddadblygodd yn fore ei dalentau llenyddol, a'i dueddiadau crefyddol, a'i dad a benderfynodd ei ddwyn i fynu yn wr eglwysig. Mewn canlyniad, cymerwyd ef tan ofal ei ewythr, David Fitzgerald, esgob Tyddewi. Nid ymddengys fod ei gynydd mewn dysg ar y cyntaf yn cyfateb i'w lwyddiant mawr ar ol hyny; er hyny, pan yn ugain oed, yr oedd wedi cyfansoddi ei waith Lladin cyntaf, sef y "Metrica Cosmographia;" a phan yn 23 oed, symudodd, yn ol arfer yr oes, i orphen ei ddysg yn Paris. Arosodd yno am dair blynedd, ac ymenwogodd yn fawr trwy draddodi darlithiau ar ieitheg a llenyddiaeth gyffredinol, a nodid ef allan gan y doethorion fel esiampl i'w gyd-ieuenctyd. Ar ei ddychweliad i Loegr yn 1172, cymerodd urddau eglwysig, a gwnaed ef yn fuan yn ganonwr Henffordd, ac yn beriglor Chesterton, yn sir Rhydychain. Eithr ei gariad at wlad ei enedigaeth a barodd iddo ddyfod a gwladychu yn Nghymru, lle y cynhyrfwyd ei ysbryd wrth weled llygredd a drwgfuchedd yr offeiriaid yn esgobaeth Tyddewi. Dygodd gwyn yn eu herbyn gerbron archesgob Caergaint, yr hwn a'i penododd yn gynrychiolydd i wastadhau camdrefniadau eglwysig yn Nghymru. Trigianai y pryd hwn yn mhentref bychan Llanddew, ger Aberhonddu. Un o'r cymeriadau gwaethaf a mwyaf anfoesol oedd archddiacon Aberhonddu; a chan ei fod yn gwrthod na rhybudd na chyngor i wella ei fuchedd, efe a ddiswyddwyd, a Giraldus a benodwyd i'w le; ac ar farwolaeth ei ewythr, esgob Tyddewi, darfu i ganonwyr yr esgobaeth ei ddewis i fod yn ddilynydd, eithr y brenin yn y geiriau a ganlyn a wrthododd gadarnhau y dewisiad:—"Nid doeth nac angenrheidiol ethol gwr mor onest ac ymroddgar i esgobaeth Tyddewi, gan y dichon i'r cyfryw ddewisiad droi yn niweidiol i brif esgobaeth Caergaint, ac hyd yn nod i goron Lloegr." Yna Giraldus a ddychwelodd i Paris, mae'n ddiddadl yn flin ei ysbryd; canys prif ddymuniad ei oes a fuasai gwisgo y meitr fel olianydd Dewi Sant. Yn Paris, ymenwogodd ynfawr fel areithydd hyawdl yn y prif ysgolion, a chynygiwyd ei wneud yn athraw yn y Gyfraith Eglwysig, yr hyn a wrthododd. Wedi tario yno am beth amser, dychwelodd i Gymru, a chafodd esgobaeth Dyddewi mewn terfysg ac annrhefn, trwy fod Peter de Leia, yr esgob, wedi gorfod gadael ei balas esgobol oherwydd rhyw annghydfod rhyngddo a'r Cymry; a phenodwyd Giraldus i weinyddu yn lle yr esgob. Llanwodd y swydd hon am rhyw yspaid; ac yn 1185, dewiswyd ef gan y brenin Harri i fod yn gydymaith i'w fab John, gyda'r hwn yr aeth efe fel ysgrifenydd i'r Iwerddon, a thra yn y wlad hono, cynygiwyd iddo a gwrthodwyd ganddo esgobaethau Ferns a Leighlin, ac archesgobaeth Cashel. Yn ystod ei arosiad yn yr Iwerddon, bu yn diwyd gasglu defnyddiau at ddau waith llenyddol, sef un ar barthofyddiaeth, a'r llall ar orchfygiad y wlad hono, pa rai a

Digitized by Google

gwblhaodd wedi ei ddychweliad i Gymru, ac a ddarllenodd gyda rhwysg a chymeradwyaeth mawr gerbron prif ysgol Rhydychain. Bernir mai yn 1188 y teithiodd efe trwy Gymru, gyda'r arehesgob Baldwin o Gaergaint, a'r prif-farnwr Glanville, er mwyn cynhyrfu yspryd y genedl ac enyn ei sel yn mhlaid Rhyfeloedd y Groes (*crusades*), sef y brwydro hirfaith a chreulou a gymerodd le rhwng y Tyrciaid â'r Cristionogion parth yr ychydigyn tir a gynwysai, fel y tybid, fedd gwag y Gwaredwr. Mae'n debyg na thywalltwyd er dyddiau Cain gymaint o waed ag yn y gâd anfad hono, ac ni bu erioed ryfel mor wrthun a diesgus. Nid oedd y tir y brwydrent o'i blegyd ond gwerth tua £5 yn y flwyddyn; ac nid oedd y meddylddrych o'i feddianu ond i benboethiaid rhagfarnllyd yn werth cawnen. Beth fu llwyddiant Giraldus a'i gyfeillion wrth bregethu y Groesgad, ni ddywedir; ond gan belled ag iddo fod yn dra llwyddianus yn Aberteifi a Henffordd, lle yr ymdyrai lluaws tan y faner, yn mhlith pa rai yr oedd meibion prif foneddigion y wlad. Y mae y "*Saracen's Head*," a welir mor aml yn arfbeisiau prif deuluoedd Cymru, yn brawf fod rhyw un o'u hynafiaid wedi derbyn y wys fynachaidd, i fyned yr holl ffordd i Balestina er mwyn rhoddi eu bywyd i lawr yn mhlaid y Groes, neu enill anrhydedd i'w henwau a maddeuant i'w holl bechodau; ond ffrwyth gwerthfawrocaf y daith hon o eiddo Giraldus ydoedd yr hanes a roddes efe ohoni, mewn llyfr a elwid "*Itinerary*," yr hwn a gynwys, er yn sawru yn gryf o ofergoeliaeth, lawer o wybodaeth ddyddorol am arferion a defodau Cenedl y Cymry yn yr oes hono. Y flwyddyn ganlynol, aeth gyda'r brenin Harri i Ffrainc; eithr oblegyd marwolaeth y teyrn hwnw, dychwelodd i Loegr; a Richard I., ar ei fynediad i Balestina, a'i penododd yn gydraglaw yn ei absenoldeb ar y deyrnas hefo William de Longchamp, esgob Ely. Yn y cyfamser, gwrthododd yn olynol esgobaethau Bangor a Llandaf, gyda'r esgus y byddai i'r cyfryw swyddi ymyraeth â'i efrydiau; ond dilys mai y gwir reswm ydoedd cadw ei law yn rhydd ar gyfer cadair esgobol Tyddewi. Ar ol hyn ymneillduodd i Lincoln, lle y treuliodd chwe' blynedd yn efrydu duwinyddiaeth, yn ysgrifenu llawer o'i lyfrau, a'r lle yr enillodd lawer o barch am ei haelioni oblegyd iddo mewn adeg o newyn werthu gwisgoedd gwerthfawr er mwyn gallu rhoddi elusenau i dlodion y dref. Yn 1198, bu farw Peter de Leia, esgob Tyddewi, a dygwyd Giraldus drachefn ger bron y cyhoedd trwy i *chapters* yr esgobaeth hono ei ail-ethol i'r swydd; eithr archesgob Canterbury a wrthododd gadarnhau y penodiad. Yn ngwyneb hyn, efe a dybiodd na oddefai'n dawel ei ddiraddio'n mhellach, a phenderfynodd fyned i Rufain er mwyn gosod ei achos gerbron y Pab, ac nid yn unig hyny ond dadleu hawliau esgobaeth Tyddewi i fod yn brif-esgobaeth, ac yn annibynol ar Canterbury. Derbyniwyd ef gan Innocent III. gydag arwyddion croesawgar; ond yr oedd yn amlwg fod yr archesgob wedi llwgrwobrwyo ei santeiddrwydd i'r fath raddau fel nad oedd yr holl groesaw i Giraldus ond arwynebol. Ofer fyddai imi ei ddilyn yn manylion ei siomedigaethau a'i ofidiau tra yn ceisio cyfiawnder yn nghartrefle annghyfiawnder. Digon ydyw dweyd ddarfod iddo dreulio pedair blynedd, a myned dair gwaith i Rufain, ac yn y diwedd rhoddes y Pab ei ddedfryd yn ei erbyn. Ar ei ffordd adref y tro diweddaf, trwy ddichell un o gyfeillion yr archesgob, daliwyd ef gan y Ffrancod; eithr ni charcharwyd ef ganddynt yn hir nac yn galed. Wedi dychwelyd i Brydain efe a drigianodd am y 17 mlynedd olaf o'i oes yn Nghymru, mewn neilluedd yn efrydu; ac er gwaethaf brenin, arch-

Digitized by Google

esgob, na Phab, mynai ei gydwladwyr ei alw yn "Esgob Etholedig," yr hyn a fawr ddigllonodd y brenin John, yr hwn a'i cyhuddodd o "weithredu yu gyhoeddus yn erbyn ei goron a'i urddas ef." Yn ystod neilldu dd diwedd oes, cyfansoddodd amryw weithoedd llenyddol eraill, sef hanes ei Deithiau trwy Gymru, a Bywgraffiad ohono ei hun. Yn 1215, cynygiwyd ei gael eilwaith o'i neilldnaeth, oherwydd dyfod cadair esgobol Tyddewi drachefn yn wâg, a'i ethol ef i'r swydd, a hyny, meddir, y tro hwn gyda chymeradwyaeth y brenin; eithr gan fod rhyw delerau dianrhydeddus mewn cysylltiad â'r cynygiad, tueddwydd ef i'w wrthod. Am y deuddeng mlynedd olaf o'i oes, ymgladdodd yn ddyfnach yn ei fyfyrdodau a'i efrydiau, heb chwenychu dim ond llonyddwch, ac hyd yn nod y dymuniad cryf am fod yn esgob Tyddewi wedi marw yn ei fynwes; ac yn 1220, ffarweliodd â byd ag yr argraffodd gryn lawer o'i ol arno, ac y cafodd gryn lawer o siomedigaethau ynddo; ac efe yn 74 oed. Gadawodd o'i ol luaws mawr o gynyrchion llenyddol, cll, fel y gwelir, yn y Lladin—iaith llenoriaeth yr oes hono; er ei fod yn deall Cymraeg, fel y profir oddiwrth ei waith yn cyfieithu i'w gydwladwyr anerchiadau ei gydymdeithion pan yn pregethu Rhyfeloedd y Groes. Credir fod y rhestr a dynodd efe ei hun o'i weithoedd yn annghyflawn, er fod hono yn cynwys 19 ohonynt, sef:—1, "Chronographia et Cosmographia Metrica;" 2, "Topographia Hibernica;" 3, "Expugnatio Hiberniæ;" 4, "De Legendis Sanctorum;" 5, "Vita Sti. Dividis;" 6, "Vita Sti. Caradoci;" 7, "Vita Sti. Ethelberti;" 8, "Vita Sti. Remigii;" 9, Vita Sti. Hugonis;" 10, "Liber de Promotionibus et Persecutionibus Gaufredi, Ebor Abpi;" 11, "Symbolum Electorum;" 12, "Liber Invectionum;" 13, "Speculum Duorum Commonitorium et Consolatorium;" 14, "Gemma Ecclesiastica;" 15, "Itinerarium Cambriæ;" 16, "Cambriæ Topographia;" 17, "De Fidei Fructu, &c.;" 18, "De Principis Instructione;" 19, "De Gestis Giraldi laboriosis," Yn ychwanegol at yr uchod, tybir iddo ysgrifenu Bywgraffiad Harri II., gweithredoedd y brenin Ioan, Croniel Seisnig, y *Cambrian Topography* mewn mydr, heblaw amryw eraill o ychydig nod. Cyhoeddwyd ei weithiau a ddygent berthynas â'r Iwerddon yn Frankfort, gan Camden, yn 1602; a'r rhai sydd yn dwyn perthynas â Chymru gan Dr. Powell yn 1585, a chan Wharton yn ei *Anglia Sacra*, yn yr hwn lyfr hefyd y ceir ei waith "De Gestis Giraldi." Y mae rhai eraill hefyd o'i lyfrau wedi eu hargraffu; a chedwir y gweddill, mewn llawysgrifen yn benaf, yn yr Amgueddfa Brydeinig, ac yn mhrif lyfrgelloedd cyhoeddus Rhydychain a Chaergrawnt. Ond yr argraffiad harddaf o'r un o'i weithoedd a gyhoeddwyd erioed ydyw y cyfieithiad o'r "Itinerary," gan Syr Richard Hoare, a ddygwyd allan mewn dwy gyfrol yn Llundain yn 1806; yr hwn, heblaw nodau eglurhaol gwerthfawr, a gynwys hefyd fywgraffiad manwl o'r awdwr yn nghyda rhestr o'i lyfrau, ac yn mha le y maent yn nghadw. Pa olwg bynag a gymerir ar nodweddiad Giraldus,—pa un ai fel ysgolor, gwladgarwr, ynte duwinydd; rhaid ei ystyried, er gwaethaf ei ofergoeledd, yn nghyda mân ddiflygion eraill, yn un o oleuadau disgleiriaf nos dywell y 12fed ganrif, ac fel un adbelydrodd anrhydedd a pharch mawr ar wlad ei enedigaeth.

GLANAWG. *Gwel* HELIG AB GLANAWG.

GLEWLWYD GAFAELFAWR, un o'r tri wyr, yn ol y *Trioedd*, a arbedwyd o Gad Gamlan; "gan ei faint a'i gryfder nid oedd a safai o'i flaen, a phawb a floynt rhagddaw." Y ddau eraill oeddynt Sandde Bryd Angel a Morfran ab Tegid.

Digitized by Google

GLINAU EIL TARAN, person ffugiol a grybwyllir yn y *Mabinogion* Cymreig.

GLYNNE (Syr John), ydoedd drydydd mab Syr William Glynne, o Lynllifon, sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef yn 1603. Cafodd ei addysg yn ysgol Westminister, o ba le y symudwyd ef pan yn ddeunaw oed i goleg Hart Hall, Rhydychain. Wedi treulio tair blynedd yno, aeth i Lincoln's Inn i efrydu y gyfraith, lle y dyrchafwyd ef i'r swydd o *bencher*; a'i alluoedd yn fuan a enillasant iddo sylw y blaid ryddfrydig, trwy ffafraeth yr hon y gwnaed ef yn arolygwr Westminister, ac yn gofiadur *(recorder)* Llundain; ac etholwyd ef ddwywaith yn aelod seneddol tros Westminister yn nau senedd-dymhor 1640. Penodwyd ef yn un or rhai oedd i ddwyn yn mlaen brawf Iarll Strafford; a'i dygase ld tuag at yr esgobion, yn nghyda'i erlyniad ar freninoliaid, a enillodd iddo amryw swyddau o gryn elw. Yn 1647, darfu iddo ef yn nghyda deg eraill aelodau seneddol wrthsefyll rhaib a gormes y fyddin; ac o'r herwydd cawsant ei bwrw allan o'r Ty, a'u traddodi i'r Tŵr tan y cyhuddiad o deyrn-fradwriaeth. Yn y mis Ionawr canlynol, trowyd ef allan o'i swydd fel Cofiadur Lundain; eithr ymheddychodd yn fuan â'r blaid mewn awdurdod; a chafodd ei benodi yn un e'r deg dirprwywr i fyned i Ynys Wyth *(Isle of Wight)* er mwyn cytuno â'r brenin; ac yn Hydref 1648, gwnaed ef yn far-gyfreithiwr uwchraddol. Cadwodd ei hunan yn rhydd oddiwrth gymeryd rhan yn mhrawf y brenin Siarl; ac er hyny ni collodd ffafr Cromwell, yr hwn a'i gwnaeth yn un o'i gynghor. Yn 1654, penodwyd ef yn ystafellydd *(chamberlain)* Caerlleon; a'r flwyddyn ganlynol, danfonwyd ef i orllewin Lloegr i brofi y cyhuddiad yn erbyn y milwriad Penruddock a'i gyd derfysgwyr, yn lle y prif-farnydd Rolles, yr hwn a wrthodasai fyned, a gollodd ei swydd o'r herwydd, ac a olianwyd gan Glynne, yr hwn a dyngwyd i mewn yn arglwydd brif farnwr y fainc uwchaf, yn Mehefin, 1655. Dangosai Cromwell ffafr neilldurol iddo bob amser; a gwnaed ef yn aelod o dŷ y bendefigaeth yn 1657. Penodasid ef yn un o'r pwyllgor i fyned at Cromwell, er mwyn deisyf arno wisgo'r goron, dros yr hyn y dadleuai'n frwd fel peth hanfodol i lwyddiant a chysur y genedl; ac eto yn 1660, gyda challineb cyfrwys, cyhoeddodd y rhesymau a arferasai gyda Cromwell i gymeryd y goron, mewn llyfr yn dwyn y teitl, "Monarchy asserted to be the best, the most ancient, and legal form of Government." Siarl II. a'i derbyniodd i'w ffafr, a'i gwnaeth yn farchog ac yn brif-ringyll *(prime serjeant)*, ac a ddyrchafodd ei fab hynaf yn farwn. Yn y senedd nesaf, etholwyd ef yn aelod tros sir Gaernarfon, a rhoddwyd ef ar waith i chwilio i mewn i amryw weithredoedd seneddol a wnaed yn ddeddf yn ystod y weriniaeth; gorchwyl yn gofyn cyfreithiwr medrus. Ond y mae ei brif deilyngdod fel cyfreithiwr yn gorwedd yn y ffaith mai efe oedd y cyntaf a sefydlodd hawl i brawf newydd mewn cyfraith, os ystyriai un o'r pleidiau fod y rheithfarn yn caniatai gormod costau. Bu farw yn Lundain, yn 1666, a chladdwyd ef o tan allor eglwys St. Margaret, Westminster. Disgynyddion o hono ydyw teulu y Glynne, o gastell Hawarden, sir Fflint, yr hon etifeddiaeth a brynodd efe gan Iarll Derby; ac felly y mae Mrs. Gladstone, priod yr Anrhyd. W. Ewart Gladstone, yn hawlio ei disgyniad o hono. Yn y castell crybwylledig, y mae dau ddarlun o'r cyfreithydd enwog, un o ba rai a welir yn yr argraffiad 4plyg o'r *Tours in Wales* gan Pennant.

GLYNN (Parch. Maurice), LL.D., ydoedd fab hynaf Robert ab Meredydd, Ysw., o'r Glynllifon, sir Gaernarfon. Yr oedd yn arch-

Digitized by Google

ddiacon Bangor yn 1502. Yn 1517, cafodd bersoniaeth Llaniestyn, yn Lleyn. Cafodd hefyd bersoniaethau Llansadwrn, Llanddeusant, a Llangadwaladr, ac hefyd brebenderiaeth Caergybi, oll yn sir Fôn. Sefydlodd ei hun siarteriaeth yn eglwys Bangor, yr hon a waddolodd â llawer o diroedd. Yr oedd yn niwedd ei oes yn ganon yn Nhyddewi, lle y bu farw Gorphenaf, 1525.—*Lleyn MSS.*

GLYNN (William), D.D., prelad enwog a anwyd yn y Glyn, plwyf Hen Eglwys, sir Fon, yn yr hwn blwyf yr oedd ei dad yn beriglor. Addysgwyd ef yn Nghaergrawnt; a gwnaed ef yno yn athraw côleg y Frenhines. Yn 1549, cafodd fywiolaeth St. Martin Le Grand, yr hon a gadwodd am dair blynedd; ac yn 1554, cafodd berigloriaeth Hen Eglwys yn lle ei dad. Y flwyddyn ganlynol, dyrchafwyd ef gan y frenhines Mari yn esgob Bangor. Tra yn y swydd hon, cynaliai amryw gynghorau hefo'i glerigwyr, trwy eu gwahodd ato ddwywaith yn y flwyddyn, gan eidduno arnynt yn dra difrifol a selog ymddwyn yn addas yn eu galwedigaeth uchel. Eithr gan ei fod yn Babydd penboeth, difuddiodd y gwyr priod yn eu mysg o'u bywiolaethau. Yr oedd efe yn un o'r clerigwyr a fu yn dadleu â'r Esgob Ridley yn Rhydychain yn 1554; ac y mae ef wrthddadleuon wedi eu hargraffu yn y *Book of Martyrs*, gan Fox. Dywed Fuller, yn ei *Worthies of Wales*, "ei fod yn ysgolhaig rhagorol, ac yn yr ymrysonfa ddifrifol a gymerodd le rhwng Pabyddion a Phrotestaniaid, nid oedd neb yn y blaid flaenaf a arferai resymau cadarnach, a chyda llai o ddrwgdymher na'r Doctor Glynn; er yn ffyddlon i'w egwyddorion ei hun, nid oedd yn greulawn tuag at rai o syniadau gwrthwynebol iddo, fel y prawf y ffaith na bu erledigaeth gyhoeddus yn ei esgobaeth." Hefyd, dywed Syr John Wynn, o Wydir, amdano, "ei fod yn ysgolhaig ac yn Hebrewr mawr, fel y prawf y dyfyniadau sydd yn ei lyfrau; yr oedd yn ddyn da a chrefyddol, yn ol yr oes hono." Bu farw Mai 21, 1558, a chladdwyd ef yn mhrif eglwys Bangor.—Wms. *Em. Welsh.*

GLYNN (William), D.C.L., oedd fab i Robert ab Meredydd, o Lynllifon, sir Gaernarfon Bu yn archddiacon Meirionydd, ac wedi hyny yn archddiacon Môn. Bu farw yn 1537.—*Lleyn MSS.*

GLYWYS CERNYW, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Yr oedd yn frawd i Cattwg, ac yn fab i Gwynlliw Filwr, ab Glywys ab Tegid, penaeth Gwynllwg, yn sir Fynwy. Sefydlodd eglwys Coed Cernyw yn y sir hono. Yr oedd ei daid, Glywys ab Tegid, hefyd yn sant, ac oddiwrtho ef y rhoddwyd yr enw Glywyseg ar randir yn sir Fynwy, lle hefyd y sefydlodd efe eglwys Machen.—*Iolo MSS.*

GOGYRFAN GAWR, penaeth ar ran o Bowys yn y 6ed ganrif. Yr oedd ei gyfoeth yn gorwedd yn ardal Croesoswallt; ac yn yr hen amser gelwid y bryn a adwaenir yn awr wrth yr enw "*Old Oswestry.*" ar ba un y mae olion hen amddiffynfa, yn "Gaer Ogyrfan." Efe oedd tad Gwenhwyfar, un o dair gwraig Arthur; ac y mae pob lle i gredu mai hyhi, trwy ei godineb â Medrawd, a fu achlysur câd drychinebus Camlan, yn mha un y collodd ei phriod enwog ei fywyd, canys yn Mhowys yn benaf y ceir y dywediad :—

"Gwenhwyfar, ferch Gogyrfan Gawr;
Drwg yn fechan, gwaeth yn fawr."

GOLEUDDYDD, santes yn y 5ed cant, a merch i Brychan. Sefydlodd eglwys yn Ngwent, o'r enw Llanysgin, eithr nis gwyddis yn awr pa le y safai.

GOLYDDAN, bardd i Gadwallawn ab Cadfan, tywysog Gwynedd.

Digitized by Google

Yr oedd yn ei flodeu rhwng 590 a 630. Dywed y *Trioedd* mai efe a laddodd Gadwaladr Fendigaid, trwy ei daraw yn ei ben, a gelwir y weithred hono yn un o'r "tair engir balfawd," ac fel eosp am hyny, tarawyd yntau yn ei ben â bwyall, a'r dialedd hwnw a elwir yn un o'r "tair anfad fwyellawd." *Trioedd* arall a ddywed ddarfod i Einion ab Bled, brenin Cernyw, wneud anrheg i Golyddan o ddeadell mor fawr o wartheg, nes y llwydodd dyfroedd Hafren wrth iddynt ei chroesi, a gelwir hyn yn un o'r "tri budr Hafren."

GOODMAN (Parch. Gabriel), D.D., deon Westminster yn amser y frenhines Elizabeth, a anwyd yn Rhuthyn yn 1528. Ail fab ydoedd i Edward Goodman, sidanwr a bwrdais yn y dref hono, o'i wraig Sisely, merch i Edward Thelwall, Plasyward, yn yr un gymydogaeth. Dywedir, yn *Gwladgarwr* vi. 257, mai yr Edward Goodman uchod oedd y cyntaf i fabwysiadu y cyfenw; mai ei enw dechreuol ef oedd Edward ab Tomas ab Edward ab Siencyn Goch o Landyrnog, yn Nyffryn Clwyd; ac mai y wlad a roddes y llysenw anrhydeddus o Goodman arno, oherwydd ei amryfal weithredoedd haelionus. Wedi derbyn addysg dda oddeutu cartref, aeth i goleg St. John, Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd y radd o M.A. Wedi gadael y coleg, aeth i fyw yn nheulu Syr. Wm. Cecil, wedi hyny arglwydd Burleigh, yn yr hwn le y gweinyddai fel caplan teuluaidd, ac athraw i'r mab. Ar esgyniad y frenhines Elizabeth i'r orsedd, gwnaed arglwydd Burleigh yn un o'i chyfringynghorwyr, ac yn ysgrifenydd y wladwriaeth; ac yn 1561, gwnaed ef yn gaughellydd Caergrawnt. Rhoddai y dyrchafiadau hyn iddo gyfleusderau lawer i ddyrchafu ei gaplan; ac yn fuan gwelir enw Mr. Goodman yn un o gôr-berigloriaid Eglwys Gadeiriol St. Paul, Lundain, yr hon swydd a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Tua 1560, gwnaed ef yn un ô gôr-berigloriaid Eglwys Golegawl Wesminster, a dyrchafwyd ef yn ddeon yr eglwys hono Medi 23, 1561. Wedi cyrhaedd y swydd uchel hon, a chael ei raddio yn D.D., galwyd arno i drafod rhai o bynciau eglwysig mwyaf dyryslyd yr oes hono. Cymerodd ran yn niwygiad a sefydliad deddfau y Diwygiad Protestanaidd; ac y mae ei enw i'w weled yn mysg y rhai cyntaf o lawnodwyr y "namyn un deugain Erthyglau Eglwys Loegr," y rhai y cytunwyd arnynt mewn cymanfa a gynaliwyd Chwef. 5, 1562. Yn 1566, hynododd ei hun yn Nhŷ y Cyffredin trwy ddadleu yn erbyn Ysgrif oedd y pryd hyny gerbron y Tŷ i'r dyben o ddyddimu breintiau noddfaol rhyw fanau penodol er amddiffyn dyledwyr; ac un o'r cyfryw noddfeydd oedd eglwys Westminster. Ac er cymaint oedd awdurdod a doniau pleidwyr yr Ysgrif, llwyddodd y Deon i'w thaflu allan ar y trydydd ddarlleniad. Ar rai achlysuron, y mae'n wir, achwynid ei fod yn rhy lymdost yn y cyflawniad o'i swyddau; ond fe ŵyr pawb mai peth cyffredin iawn ydyw dwyn y cyfryw achwynion yn erbyn y rhai a fyddont tŷddlonaf yn eu dyledswyddau. Hynododd ei hun yn fawr, trwy y sêl a ddangosodd fel aelod o'r Uchel Lys Dirprwyaeth *(High Commission Court)*, yr hyn a'i gwnaeth mor anmhoblogaidd, fel y gwrthodwyd ei ddyrchafu yn esgob Llundain ar ddyfodiad y swydd hono yn wag yn 1570. Yn 1575, cynygiwyd ef drachefn gan yr archesgob Parker i sylw y frenhines fel un cymhwys i lanw esgobaeth Norwich, ac yn rhagori hyd yn nod ar Whitgift, "mewn dysg, buchedd, ac iawn-ymddygiad;" ond yn aflwyddianus. Yn 1568, ymddangosodd cyfieithiad newydd o'r Bibl Seisnig, yr hwn a elwid "Cyfieithiad yr Esgobion," a hyny oherwydd fod wyth esgob yn gyfranog yn y gorchwyl, a gwaith y Deon Goodman

Digitized by Google

ydoedd cyfieithu yr epistol cyntaf at y Corinthiaid. Yn 1584, enwid ef drachefn fel un cymhwys i eistedd ar fainc esgobol, a sonid am ei ddyrchafu i esgobaethau Worcester, Chicester, a Rochester, eithr nid aeth y son ddim pellach na son. Treuliodd ran fawr o'i oes o fewn cyrhaedd i'r mitr, eithr yr oedd rhywbeth o hyd yn milwrio yn erbyn iddo eu gwisgo; rhai a ddywedant mai ei annghydsyniad ef ei hun ydoedd y prif rwystr. Yn nghanol ei urddas a'i anrhydedd uchel, nid annghofiai ei wlad enedigol; curai ei galon yn gynes tuag ati, ac y mae ei gymwynasau ar ei rhan yn ei restru yn mhlith un o'i phrif gymwynaswyr. Rhoddwyd gorchymyn arbenigol gan y frenhines Elizabeth i esgobion Cymru ac esgob Hentfordd, ddarparu cyfieithiad Cymreig o'r Ysgrythyrau; ac wedi darfod i'r gwyr hyny omedd neu fethu cyflawni y gorchwyl, ymgymerwyd â'r cyfryw gan y Dr. William Morgan; ond y mae yn dra thebyg na buasai yntau yn alluog i ddwyn y gwaith i ben oni buasai y cynorthwyon helaeth a gafodd gan amrywiol foneddigion ac ewyllyswyr da i'r Cymry. Yn mysg y cyfryw, cyfeiria y Doethawr mewn modd arbenig at garedigrwydd Deon Westminster, yr hwn tra bu efe yn Llundain am tua blwyddyn o amser yn diwygio y wasg wrth argraffu y Bibl, a'i croesawodd yn haelionus yn ei dŷ, gan wrando mor ofalus arno yn darllen y cyfieithiad, fel y bu o gymhorth nid bychan drwy ei lafur a'i gynghorion. Ni chaniata ein gofod ini sylwi ar ei holl gymwynasau i'w genedl; ond amlygodd serch at ei dref enedigol mewn dull parhaol ac arbenig. Yn 1590, ar ol cael awdurdod i'r perwyl gan y Goron, efe a brynodd ddegymau plwyf Rhuthyn, a phlwyf cyfagos Llanrhydd, am swm mawr o arian, y rhai a fuasent yn meddiant gwyr lleygol er amser teyrnasiad Iorwerth VI. A'r degymau hyny a gyflwynodd efe at sefydlu Gwarcheidwadaeth *(Wardenship)* Rhuthyn; yn nghyda cynaliaeth Elusendŷ yn cynwys deuddeg o bobl dlodion, ar y telerau nad oeddynt i gardota o dŷ i dŷ. Rhaid oedd iddynt hefyd fod yn alluog i adrodd y Credo, Gweddi yr Arglwydd, a'r Deg Gorchymyn; a bod yn haner cant oed ac uchod, ac yn *sengl* ar eu derbyniad i mewn, a pharhau felly. Rhaid iddynt fyned yn rheolaidd i'r addolaid cyhoeddus, yn yr Eglwys, a gweddio am dangnefedd a llonyddwch yr Eglwys, lles a llwyddiant y Frenhines, a'i etifeddion a'i holynwyr; a thros yr Arglwydd Burleigh, arglwydd drysorydd Lloegr, ei blant, a phlant ei blant; a thros bawb a fu neu sydd yn gymwynaswyr i'r Elusendŷ crybwylledig. Dyfynasom yr uchod er dangos pa fath bobl y dymunasai efe fod yn noddwr iddynt; ac er fod cryn lawer o eglwysyddiaeth yn y telerau, eto dylid cofio mai dyn gwresog ydoedd yn byw mewn oes benboeth, ac mewn amser yr oedd anghydffurfiaeth Prydain, yn gyfansoddedig bron yn gyfangwbl gan Babyddiaeth, at ba un yr oedd gelyniaeth a dygasedd marwol yn mynwes pob Protestant. Hefyd, yn ychwanegol at y gweithredoedd canmoladwy uchod, llwyddodd gyda'r Goron i beri neillduo un o berigloraethau cydgyfranogol plwyf Llanelidan, ger Ruthyn, tuag at sefydlu a chynal Ysgol Ramadegol yn y dref hono, i fod yn rhad i'r ddau blwyf uchod, ac yn rhydd i eraill trwy dalu. Ystyrid yr ysgol hon am oesau yn un o'r rhai goreu yn Nghymru, a bu rhai o brif athrylithiau ein gwlad yn yfed dysgeidiaeth o'i mhewn, yn mhlith pa rai yr oedd Dr. Davies, Fallwyd; Dr. Williams, archesgob York; Dr. John Wynne, esgob Llanelwy, ar ol hyny Bath a Wells; Dr. Tucker, deon Caerloyw; Arglwydd Kenyon; y Prif-farwn Richards; J. Lloyd, Ysw., prif-farwn cylchdaith Caerfyrddin; Dr. Edwards, archddiacon Brycheiniog; Parch.

Digitized by Google

J. Jones, archddiacon Meirionydd, a *Bampton Lecturer;* Dr. John Bull, canonwr eglwys Crist, Rhydychain; ac amryw eraill. Bu y gwr mawr a haelionus hwn farw Mehefin 17, 1601; a chladdwyd ef yn nghapel St. Benedict, o fewn mynachlog Westminster, lle y mae cofarwydd am dano hyd y dydd hwn, yn cynwys ei ddarlun yn ei wisg swyddogol yn penlinio'n ddefosiynol o flaen llyfr agored, ac islaw hyny y darlleniad canlynol yn Lladin:—"Gabriel Goodman, dysgawdwr mewn Duwinyddiaeth gysegredig, pumed Ddeon yr Eglwys hon, ar ba un y llywyddodd gyda'r canmoliaeth mwyaf am 40 o flynyddoedd. Ac yn Rhuthyn, yn sir Ddinbych, ei le genedigol, efe a sylfaenodd Yspytty (elusendŷ) ac a sefydlodd Ysgol. Drwy ddichlynrwydd ei fuchedd, fel yr ydoedd yn anwyl gan Dduw a dynion da, efe a drawsfudodd yn dduwiolaidd i'r wlad nefol ar yr 17eg o Fehefin, yn y flwyddyn o'n hiachawdwriaeth MDCI; a'r 73ain o'i oedran." Y mae'r cyffelyb golofn ac ysgrif am dano hefyd yn eglwys Rhuthyn. Cyhoeddwyd bywgraffiad dyddorol yn 1825 o'r Deon yn nghyda'i nai, yr Esgob Goodman, gan y Parch. R. Newcome, *warden* Rhuthyn, yr hwn a gynwys gerfiad mewn dur o'r Deon. Y mae hefyd Gywydd Moliant iddo, o waith Simwnt Fychan, ar gael.—Newcome's *Goodmans.*

GOODMAN (Godfrey), D.D., a anwyd yn Rhuthyn, Chwefror 28, 1582. Mab ydoedd i Godfrey, brawd ieuengaf y Deon Goodman, o Catherine, merch ac aeres Simon Croxton, o'r Merllyn, ger Rhuthyn. Pan yn ddeg oed, danfonwyd ef i ysgol Westminster, i fod tan ddysgeidiaeth William Camden, yr hynafiaethydd enwog; o ba le yr etholwyd ef yn 1600 yn ysgolor yn ngholeg Trinity, Caergrawnt, ac yn mhen yspaid yn gymrawd o'r gymdeithas hono. Darfu i'r parch uchel a goleddid tuag at ei ewythr, yn nghyda'i deilyngdod ef ei hun, ei ddyrchafu yn gyflym yn yr eglwys. Yn 1605, yr esgob Morgan a roddes iddo rectoriaeth wagswyddol *(sinecure)* Llansanan; a'r Esgob Parry, dilynydd y Dr. Morgan fel esgob Llanelwy, a roddes iddo wagswyddau Llandysul, yr ail ran o Lansanan, Ysgeifiog, a Llanarmon yn Ial. Mwynhaodd nawddogaeth dynion enwog eraill, y rhai a gadwent goffadwriaeth ei ewythr mewn parch ac edmygedd. Dywed Lloyd, awdwr y *Memoirs,* yr hwn oedd yn gydysgolor a Godfrey Goodman yn Rhuthyn, mai ei brif noddwyr oeddynt yr esgobion Lancelot Andrews a Richard Vaughan, a'r archesgob Williams, trwy ddylanwad yr hwn y cafodd efe ei benodi yn gaplan i'r frenhines, ac y rhoddwyd iddo gan y pen coronog rectoriaeth Stapleford Abbots, yn Essex, yn 1607, a chanoniaeth Windsor yn 1617, gyda pha un y daliai efe rectoriaeth West Ildesley, yn sir Berks. Yn 1620, gwnaed ef yn ddeon Rochester; ac yn 1624, efe a ddyrchafwyd yn esgob Caerloyw *(Gloucester),* gyda chaniatad i ddal y ganoniaeth trwy gynrychiolydd. Rhaid priodoli y dyrchafiadau cyflym hyn i urddas a chyfoeth mewn rhan fawr i'w berthynas â'r Deon Goodman; er ei fod yn ddyn talentog ei hun, wedi ymenwogi yn ieuanc fel awdwr, ac yn llanw y swyddau a dderbyniasai gydag urddas ac anrhydedd. Yn 1616, cyhoeddodd lyfr ar gwymp dyn, tan y teitl, "Fall of Man, or the Corruption of Human Nature, proved by Natural Reason." Gwrthwynebwyd ei olygiadau gan y Dr. Hakewill; yr hwn a gynyrchodd oddiwrth yr esgob lyfr arall, "Arguments and Animadversions on Dr. Hakewill's Apology." Yn fuan wedi ei ddyrchafu yn esgob, traddododd bregeth gerbron y llys, yn mha un y cyhuddid ef o goleddu syniadau Pabyddol. Yn 1640, dygwyd ei enw eilwaith gerbron y cyhoedd am iddo wrthod llawnodi y

Digitized by Google

canonau newyddion a gynygid gan yr Esgob Laud, am yr hyn y diswyddwyd ef, ac y bu yn ngharchar tros ychydig amser. Yn y llyfr a gyhoeddodd yn 1650 o hanes ei ddioddefiadau, sef "Account of his Sufferings," dywed ddarfod iddo yn 1643 gael "ei yspeilio, ei anrheithio, ei orthrymu, a'i lwyr andwyo." Yr oedd ei golledion mor hynod a thrymion, nes bod arno gywilydd eu cyfaddef, rhag y buasid yn ei annghredu ac yn ei wneud yn ddyn celwyddog, ac yn ei gollfarnu fel ynfyd ac annoeth. O hyn allan, ymneilldduodd i blwyf St. Margaret, Westminster, gan letya yn nhŷ Mrs. Sibilla Eglionby, a gwneuthur mynych ddefnydd o lyfrgell Syr Robert Cotton. Ymroddodd yn gyfangwbl i efrydiadau llenyddol; a byddai yn encilio ar brydiau i Gymru, lle y prynasai fferm o'r enw Ty Du yn mhlwyf Llanberis. Fel y prawf ei ewyllys, yr oedd efe yn awr yn aelod o'r eglwys Babaidd. Bu farw Ionawr 19, 1655, a chladdwyd ef yn eglwys St. Margaret. Yr oedd efe yn awdwr amryw lyfrau, a gadawodd mewn llawysgrifen un o'r enw "The Court of King James the first," yr hwn a fwriedid fel atebiad i waith arall o'r un enw o gyfansoddiad Syr Anthony Weldon. Cyhoeddwyd y llyfr hwn o eiddo'r esgob mewn dwy gyfrol gan y Parch. J. S. Brewer, yn 1839. Y mae Lloyd a Fuller, wrth dafoli ei nodweddiad, yn arfer yr un geiriau, ac yn dweyd ei fod yn deilwng o'r cyfenw "*Good man*," oedd arno;—"Gwr diniwaid ydoedd, diddrwg tuag at bawb ond ato ei hun, tosturiol wrth y tlawd, caredig i'w gymydogion, yn gallu cydymdeimlo ag Ymneilldduwyr, ac yn erbyn drygu neb a farnent yn wahanol iddo," at yr hon dystiolaeth y gellir chwanegu ei fod yn ddysgedig, duwiolfrydig, a haelionus.—Newcome's *Goodmans;* Fuller's *Worthies;* Pennant's *Tours;* *Y Brython;* Wms. *Em. Welsh.*

GOFOR, sant a sylfaenodd eglwys Llanofor, neu Lanofer, yn sir Fynwy. Cedwid ei wylmabsant Mai 9.—*Iolo MSS.*

GORFYNIAWN, mab i Morfydd, yr hwn a olianodd efe i orsedd Prydain. Yn ol y *Brutiau*, yr oedd yn wr cyfiawn a da. Adgyweiriodd y temlau yn mhob dinas, ac adeiladodd rai newydd; ac yr oedd llawnder o aur ac arian yn ystod ei deyrnasiad. Cefnogodd y bobl i drin y tir, amddiffynodd hwynt rhag rhaib a gorthrwm yr arglwyddi; a thrwy ei haelioni tuag at wyr ieuainc galluog mewn cad a brwydr, gadawodd hwynt yn ddiesgus fel na chyflawnent yspail ac annghyfiawnder. Bu Gorfyniawn farw a chladdwyd ef yn Llundain.

GORFYNIAWN II., yn ol rhai cyfysgrifau o'r *Brutiau Cymreig*, a olianodd Elidyr ei dad i orsedd Prydain, a'r un modd mewn cyfiawnder a thrugarogrwydd ei dad a ddilynodd.

GORFYW, sant, nad oes ond ei enw ar gôf a chadw, a'i hanes ar ddifancoll.

GORONWY, ab Echel Forddwydtwll, yn ol y *Trioedd*, oedd un o "dri unben Llys Arthur;" "sef oeddynt yn dywysogion a pherchenagion Gwlad a Chyfoeth, a gwell oedd ganddyut na hyny aros yn farchogion yn Llys Arthur, gan y bernid hyny yn benaf ar bob anrhydedd a boneddigeiddrwydd."

GORONWY AB BELYN, bardd yn ei flodeu tua diwedd y 15fed ganrif.

GORONWY BEFR, neu Gronw Pebyr, arglwydd Penllyn, yn Meirion, tua therfyn y 5ed ganrif. Yn Mabinogi *Math ab Mathonwy*, dywedir ddarfod i Goronwy ymodinebu hefo Blodeuwedd, gwraig Llew Llaw Gyffes; oherwydd paham, y Llew yn y diwedd a'i saethodd yn

Digitized by Google

farw, ar lan yr afon Cynfael, yn Ardudwy. Ac am na ddaethai neb o'i deulu yn mlaen i ddial ei farwolaeth, gelwir hwynt yn y *Trioedd* yn un o'r "tri anniweir deulu."

GORONWY DDU, oedd fab i Tudur ab Heilyn, o Fôn; a bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1320 a 1370. Y mae dau gywydd o'i waith yn y *Myv. Arch.*

GORONWY FOEL, bardd yn ei flodeu rhwng 1550 a 1580.

GORONWY OWEN, un o feirdd godidocaf Cymru, enwi yr hwn sydd yn cyffwrdd tànau llawenydd a thristwch yn mynwes pob Cymro gwladgarol. Mab i werinwr tlawd (eurych, medd un hanes) ydoedd, o'r enw Owen Goronwy. Ganwyd ef mewn bwthyn distadl ar fin y Rhosfawr, yn mhlwyf Llanfair Matbafarn Eithaf, Mon, Ionawr 1, 1722. Yr oedd ei rieni yn dlodion iawn; a'i dad, fel cyffredin bobl y pryd hwnw, yn dra gelynol i ddysgeidiaeth. Dianc a ddarfu iddo i'r ysgol y tro cyntaf, heb yn wybod i'w dad a'i fam; a'i dad a fynai ei guro, eithr ei fam nis gadawai iddo; a thrwy gynnwysiad ei fam, yn yr ysgol glynodd hyd oni ddysgodd enill ei fywyd. Nis gwyddis pa ysgol oedd hon, ond bu am rhyw ysbaid yn ysgol Llanallgo; a thybir iddo fod amryw flynyddau mewn ysgol yn Ninbych, oblegyd oddiyno yr hanai cenedl ei fam. Daeth yn ieuanc i gydnabyddiaeth â theulu caredig ac athrylithgar Pentre Eirianell, sef y "Wraig ddigymhar, Marged" Morris; a'r "Trimab o ddoniau tramawr," sef Lewis Morris *(Llewelyn Ddu)* a'i frodyr Richard a William Morris. Bu y gydnabyddiaeth hon o fawr wasanaeth a chymhorth iddo mewn llawer modd, fel y gwelir yn ol llaw. Fel prawf o ymddadblygiad cynar ei feddwl, dywed golygydd y *Gwyliedydd* (1822) fyned Goronwy gyda'i fam i Bentref Eirianell un diwrnod, a chael ohono frechdan o fêl, a gofyn o'i fam iddo pa le yr oedd ei ddiolch am dani; ac yntau, tan bwys teimladau diolchgar calon lawn, a ddywedodd, "Pe bai genyf gynffon mi a'i hysgydwn." Pan yn bumtheg oed, yr oedd yn is-athraw yn Ysgol Ramadegol Bottwnog, ger Pwllheli; ond pa ysgolion a fynychodd, a pha hyd yr arosodd ynddynt, er ei gyfaddasu i gymeryd y cyfryw swydd, sydd holiadau nas gellir yn bresenol eu hateb. Bu yn Ysgol Gyhoeddus Bangor o 1737 hyd 1741, ond pa sut yr ymdrawai am gynaliaeth yn y cyfwng hwnw sydd anhysbys. Dilys nas gallai ei riaint helbulus leddfu ond ychydig ar ei angenoctyd, ac y mae y llaw hael a fu yn "borth wrth raid" iddo yn yr amgylchiad wedi cau yn yr angau heb i ni gymaint a gwybod enw ei pherchenog. Ar derfyn ei dymhor yn Mangor, dychwelodd adref; ac erbyn hyn yr oedd ei fam wedi marw, a'i dad yn briod âg ail wraig, a chwta mewn canlyniad oedd y croesaw a gafodd ar yr hen aelwyd. O tan bwys hiraeth a thrallod, danfonodd lythyr yn yr iaith Lladin at Owen Meirig, Ysw., o Fodorgan, yn traethu ei hanes; yn cwyno nad oedd yr addysg a gafodd yn ddim amgen na chwaneg o lewyrch i ganfod yn amlycach y trueni oedd o'i flaen; ac yn erfyn ei gymhorth i fyned i un o'r prif-ysgolion, gan fod Mr. Meirig yn arolygwr ar rhyw elusenau yn Mon i berwyl cyffelyb. Nid ymddengys i'w gais fod yn llwyddianus gyda'r boneddwr o Fodorgan; eithr trwy haelioni Mr. Edward Wynne, o Fodewryd, galluogwyd ef i fyned i goleg yr Iesu Rhydychain, lle y graddiwyd ef. Cafodd ei urddo yn ddiacon yn 1745. Nis gallwn adrodd digwyddiadau cyfnesol treigliad ei oes yn well nag yn ei eiriau ef ei hun, y rhai a ysgrifenodd mewn llythyr wedi ei ddyddio o Donnington, sir Amwythig, Mehefin 22, 1752, at y Mr. Richard Morris a grybwyllwyd eisoes:—"Fe'm hurddwyd yn ddiacon,

neu yr hyn eilw'n pobl ni, *Offeiriad haner pân:* ac yna fe ddigwyddodd fod ar esgob Bangor eisiau curad y pryd hyny, yn Llanfair Mathafarn Eithaf, yn Mon; a chan nad oedd yr esgob ei hun gartref, ei gaplan ef a gytunodd â mi i fyned yno. Da iawn oedd genyf y fath gyfleusdra i fyned i Fôn, (oblegyd yn sir Gaernarfon a sir Ddinbych y buaswn yn bwrw'r darn arall o'm hoes er yn un-ar-ddeg oed), ac yn enwedig i'r plwyf lle'm ganesid ac y'm magesid; ac yno'r aethum, ac yno y bum dair wythnos, yn fawr fy mharch a'm cariad, gyda phob math, o fawr i fach; a'm tad yr amser hwnw yn fyw ac iach, ac yn un o'm plwyfolion. *Eithr ni cheir mo'r melus heb y chwerw.* Och! o'r cyfnewid! dyma lythyr yn dyfod oddiwrth yr esgob (Dr. Hutton) at ei gapelwr, neu gaplan, yn dywedyd fod un Mr. John Ellis, o Gaernarfon, *(a young clergyman of a very great fortune)*, wedi bod yn hir grefu ac ymbil ar yr esgob am ryw le, lle gwelai ei arglwyddiaeth yn oreu, o fewn ei esgobaeth ef; ac ateb yr esgob oedd, os Mr. Ellis a welai yn dda wasanaethu Llanfair (y lle y gyrasai y capelwr fi) yr edrychai efe (yr esgob) am ryw le gwell iddo ar fyrder. Pa beth a wnai drwstan? Nid oedd wiw achwyn ar y capelwr wrth yr esgob, nac ymryson â neb ohonynt; yn enwedig am beth mor wael; oblegyd ni thalai'r guradaeth oddiar ugain punt yn y flwyddyn. Gorfu arnaf fyned i sir Ddinbych yn fy ol, ac yno y cefais hanes curadaeth yn ymyl Croesoswallt, yn sir Amwythig, ac yno y cyfeiriais; ac er hyny hyd y dydd heddyw, ni welais ac ni throediais mo ymylau Mon, nac ychwaith un cwr arall o Gymru, onid unwaith pan orfu i mi fyned i Lanelwy, i gael urdd offeiriad. Mi fum yn gurad yn nhref Croesoswallt, yn nghylch tair blynedd, ac yno y priodais, yn Awst, 1747. Ac o Groesoswallt y deuais yma, yn Medi, 1748. Ac yn awr, i Dduw y byddo'r diolch, y mae genyf ddau lanc teg, a Duw a roddo iddynt hwy ras, ac i minau iechyd i'w magu hwynt; enw'r hynaf yw Robert, a thair blwydd yw er dydd Calan diweddaf; enw'r llall yw Goronwy, a blwydd yw er y 5ed o Fai diweddaf. Am fy mywiolaeth, nid ydyw ond go helbulus, canys nid oes genyf ddim i fyw arno onid a enillwyf yn ddigon drud; pobl gefnog gyfrifol yw cenedl fy ngwraig i, ond ni fum i erioed ddim gwell erddynt, er na ddygais mo'ni heb eu cenad hwynt, ac na ddigiais mo'nynt chwaith. Ni fedr fy ngwraig i ond ychydig iawn o Gymraeg; eto hi ddeall beth, ac ofni'r wyf, onid âf i Gymru cyn bo hir, mai Saeson a fydd y bechgyn; canys yn fy myw ni chawn gan y mwyaf ddysgu gair o Gymraeg. Mae genyf yma ysgol yn Donnington, ac eglwys yn Uppington, i'w gwasanaethu; a'r cwbl am 26 punt yn y flwyddyn; a pha beth yw hyny tuag at gadw tŷ a chynifer o dylwyth, yn enwedig yn Lloegr, lle mae pob peth yn ddrud, a'r bobl yn dostion, ac yn ddigymwynas. Er hyny, na ato Duw i mi anfoddloni, oherwydd '*Po cyfyngaf gan ddyn, cangaf gan Dduw.*' Nid oes ond gobeithio am well troiad ar fyd." Gadawodd Donnington yn nechreu 1753; ac wedi peth disgwyl, cafodd guradiaeth Walton, gerllaw Liverpool. Er na threuliodd ond tua thair blynedd yn y lle hwn, y mae yno adgofion ychydig am dano. Gellir gweled ei lawysgrif yn llyfr yr Eglwys; claddodd eneth fechan ddwy flwydd oed yn y fynwent, ond nid yw y llecyn yn hysbys; dangosir *settle* mewn tafarndŷ wrth borth y Fynwent ar ba un y byddai'r "*Eminent Welsh Bard,*" ys dywed y gwestywr, yn tori ei syched ac yn mygu ei bibell. Y mae'r tafarnwr crybwylledig wedi elwa'n weddol oddiar y ffaith dybiedig uchod; gan y bydd llawer Cymro yn myned ar daith o Liverpool i Walton, ac yn talu parch i gofiant Goronwy, trwy eistedd ar yr un

Digitized by Google

eisteddfa, ac yfed yr unrhyw ddiod. Y mae y darluniad canlynol o fynediad ein harwr gyntaf i Walton, mor nodweddiadol o ieithwedd gref a dysgrifiadol Goronwy, fel nas gallwn lai na'i gyfleu ger bron ein darllenwyr :—"Mi gyrhaeddais yma'r bore ddoe, yn nghylch dwy awr cyn pryd gwasanaeth, a'r person a'm derbyniodd yn groesawus ddigon; ond er maint fy lludded, fe orfu arnaf ddarllen y gwasanaeth a phregethu fy hun y bore, a darllen gosper y prydnawn, ac yntau a bregethodd. Y mae'r gwr yn edrych yn wr o'r mwynaf, ond yr wyf yn deall fod yn rhaid ei gymeryd yn ei ffordd; mae'r gwas a'r forwyn (yr hyn yw'r holl deulu a fedd) yn dweyd mai cidwm cyrrith, annynad, drwg anwydus aruthr yw. Ond pa beth yw hyny i mi? bid rhyng-ddynt hwy ac yntau am ei gampau teuluaidd; nid oes i mi ond gwneud fy nyledswydd, ac yna draen yn ei gap. Hyn a allaf ei ddywedyd yn hy am dano, na chlywais erioed haiach well pregethwr, na digrifach mwynach ymgomiwr. Climach o ddyn afrosgo ydyw,—Garan anfaint-unaidd, afluniaidd yn ei ddillad, o hyd a lled aruthr anhygoel; ac wynebpryd llew neu rywfaint erchyllach, a'i ddrem arwguch yn tolcio yn mhen pob chwedl, yn ddigon er noddi llygod yn y dyblygion, ac yn cnoi dail yr India, byd oni red dwy ffrwd felyn-goch hyd ei ên. Ond ni waeth i chwi hyny na phregeth, y mae yn un o'r creaduriaid anferthaf a welwyd erioed y tu yma i'r Affric. Yr oedd yn swil genyf ddoe wrth fyned i'r eglwys yn ein gynau duon, fy ngweled fy hun yn ei ymyl ef, fel bad ar ol llong." Cadwai ysgol hefyd yn Walton, a rhwng y cwbl nid oedd ei gyflog onid tua £44 yn y flwyddyn. Treuliodd oddeutu tair blynedd, fel y dywedwyd, yn y lle hwn, tan gwyno'n dost yn ei lythyrau gyfynged ei amgylchiadau, ymbil ar ei gyfeillion am borth i rhyw le gwell yn enwedig yn Nghymru, ymgladdu i waith yr hen feirdd Cymreig, trwsio edyn ei awen ysplenydd, yn nghyda'i rhoddi i hedfan wrth ambell bwt o gywydd, er mwyn arfer ei nherth, a'i darpar at rhyw orchestwaith yn y dyfodol. Cyfansoddasai "Gywydd y Farn," pan yn Donnington, a bu yn perffeithio cryn lawer arno yn Walton. Tueddwyd ef i ymadael o Walton gan rhyw hudlewyn o addewid a wnaethid iddo gan gyfaill y cawsai fod yn offeiriad Cymreig yn Llundain; ac i'r Brifddinas yr aeth rywbryd tua Ebrill, 1755. Trodd yr offeiriadaeth Gymreig allan yn siomedigaeth, ond ni chafodd y bardd nemawr amser i gwynaw oblegyd hyn, gan iddo gael yn fuan guradiaeth Northolt, plwyf tua deuddeng milldlr o Lundain, lle y derbyniai £50 o gyflog, a byd ddigon esmwyth, meddai ef, oedd arno yno. Wedi tario am tua dwy flynedd yn Northolt, cafodd gynygiad i fyned allan i'r America tan addewid o dderbyn £200 yn y flwyddyn o gyflog; ac yn ngwyneb ei drallodau dygn a'i fynych siomedigaethau yn y wlad hon, tueddwyd ef i'w derbyn. Yh Rhagfyr, 1757, ysgrifenodd anerch-lythyr cwynfanus at Gymdeithas y Cymrodorion yn Llundain i erfyn eu hachles i'w gynorthwyo ef a'i dylwyth i fyned i Williamsburgh, America. Eithr ofnir mai ofer fu ei apel, gan i Mr. Richard Morris, llywydd y Gymdeithas, ysgrifenu ar gefn yr anerch-lythyr, "Y Parch. Goronwy Owen yn gofyn cymhorth y Cymrodorion i fyned i Virginia. Ond nid gwiw darllen y llythyr iddynt." Er hyny, y mae'n hysbys ddarfod i rai o'i gyfeillion dosturio'n haelionus wrtho. Cychwynodd ef a'i deulu, sef ei wraig a'i "dri Chymro Bach," o Lundain yn nechreu Rhagfyr, 1757, ar y daith hirfaith a pheryglus. Danfonodd lythyr oddiar "fwrdd y llong *Trial* yn Spithead," at ei ben gyfaill calonbur Mr. Richard Morris; ac nid oes ond un llythyr o'i eiddo ar gael ar ol y pryd hwnw,

Digitized by Google

yr hwn a ysgrifenwyd o Brunswick (America), Gorph, 23, 1767—bron ddeng mlynedd er pan adawsai Loegr. Y mae edrych ar y dynan hwn, ac yn ei ben gelyrnaid o'r dalent fwyaf diledryw, yn gadael ei wlad hoff, fel ffoadur truenus yn dianc o afaelion ei drallod, yn cael ei alltudio oddiwrth ddyddanwch cyfeillion doeth, a theleidion gwlad ei enedigaeth, ag yr oedd holl serch ei enaid wedi ymglymu wrthynt, yn un o'r darluniau mwyaf torcalonus sydd yn nghyfrol fawr hanes adfyd meibion athrylith. Ie, myned bellach, bellach, o Fôn, "hyfrydwch pob rhyw frodir," man y buasai yn dyheu am sugno ei hawyr bur, a rhodio ei daear laswerdd, ac y goddefasai'n amyneddgar flynyddau o gyni yn y gobaith y buasai'r diwedd yn fywiolaeth fechan o'i mhewn. Yn awr, wele ddinystr breuddwyd dymunol ei fywyd, a phob awel deneu yn briwsioni'r gobaith a fuasai'n ateg iddo tan bwys aml a blin gystuddiau. Eithr er croesi'r Atlantig, nid ymddengys fod ond ychydig fêl yn ei gwpan, canys ansefydlog fu ei fywiolaeth hefyd yn myd pell y Gorllewin. Ar ol bod yn gwasanaethu un neu ddau o wahanol blwyfi, cafodd ei neillduo yn un o ddysgawdwyr coleg William a Mary, Williamsburgh, Virginia. Symudodd oddiyno a bu yn gwasanaethu mewn lle o'r enw St. Andrews, yn yr un dalaeth, o Rhag. 13, 1760, hyd Gorph. 22, 1769; a thybir iddo farw yn fuan ar ol y dyddiad olaf. Collodd ei wraig gyntaf, a phan yn ngholeg Williamsburgh priododd ail wraig, yr hon oedd chwaer i lywydd y coleg, ac yn weddw gyda phump neu chwech o blant. Hithau hefyd a fu farw, ac yr oedd ei brawd, y llywydd, yn pwyso ar Goronwy i gynal ei phlant allan o'i gyflog bychan. Pan yn ysgrifenu ei lythyr yn 1767, yr oedd yn briod â'i drydedd wraig, a'i holl deulu Seisnig wedi marw ond ei fab Robert. Yn 1798, rhai o edmygwyr Goronwy a ysgrifenasant at y Robert hwn, gan ddeisyf cael gwybod ganddo ychydig o hanes ei dad athrylithlawn; eithr yr oedd y gwr hwn wedi estroneiddio cymaint oddiwrth ei dad a'i genedl, fel mai yr unig ateb sarug a gafwyd oddiwrtho ydoedd gofyn pwy a dalai iddo ef am ei drafferth. Oddiwrth ran o'i ewyllys, yr hon oedd yn moddiant rhai o'i ddisgynyddion yn Brunswick, dywedir ei fod wedi gadael o'i ol bedwar o feibion; eithr y mae ei holl deulu bellach wedi ymgolli yn ngweriniaeth fawr yr Unol Daleithiau. Nid yw y lle na'r pryd y bu farw, na'r man y claddwyd ef, yn adnabyddus.

O ran ymddangosiad allanol, dyn bychan o gorpholaeth ydoedd, bywiog ei dymher a'i ysgogiadau, pryd tywyll ac iddo ddau lygad du tryloew, ac athrylith i'w gweled trwyddynt fel y gwelir ymherawdwr trwy wydr caboledig. Rhaid cydnabod nad oedd efe yn eithriad i'r cyffredin o'i gydfeirdd cydoesol mewn sobrwydd a gwastadrwydd buchedd; yr hyn mae'n ddiau fu'n un rhwystr ar ffordd ei ddyrchafiad yn yr eglwys. Pa un oedd yr achos, a pha un yr effaith, nis gwyddom; rhai a ddywedant mai ei feddwdod ef a barodd i'r esgobion wrthod ei ddyrchafu, ac eraill mai gwrthodiad yr esgobion a achlysurodd iddo ef feddwi. Dilys pe meddwasai pawb oblegyd nad oedd eu huchafiaid yn chwenych eu dyrchafu, y buasai haner y byd yn feddw; a diamheu pe na buasai esgobion yr oes hono yn dyrchafu rhywrai heblaw dynion sobr y buasai haner eu pwlpudau yn weigion. Pa fodd bynag, amlwg yw fod y Prif-fardd, druan, cyn ymadael a Lloegr, wedi ymollwng i ddiotta yn lled drwm, hyny wedi ei ddwyn i dlodi, tlodi yn peri iddo bwyso yn lled fynych am gymhorth ar gyfeillion, yn enwedig ar y Morysiaid, a rhwng y naill beth a'r llall, yr oedd hyd yn nod teimladau ei ben ffrynd, Lewis Morris, wedi suro'n dost tuag ato. Yn y *Brython*

Digitized by Google

iv. 465, ceir copi o lythyr a ysgrifenodd Llywelyn Ddu, sef L. Morris, at gyfaill yn Mehefin, 1757; ac er mai caswir ydyw, yn tarddu oddiar deimladau digofus, eto nid ystyriem fywgraffiad o Goronwy yn gyflawn hebddo :—

I WONDER how the poor d—l of an Offeiriad goes on now, I don't hear anything of his being turned out, I suppose they don't drink as much as they did, poverty hinders them, and the alehouse will not give them credit. Nawdd Duw rhag y fath ddyn! A surprising composition! What poet ever flew higher! What beggar, tinker or sowgelder, ever groped more in the dirt! A tomturd man is a gentleman to him. The juice of tobacco in two streams runs out of his mouth. He drinks gin or beer until he cannot find his way home, ond has not half the sense of an ass; rowls in the mire like a pig, runs through the streets with a pot in his hand to look out for beer—looks like a mountain cat. And yet when he is sober, his good angel returns, and he writes verses sweeter than honey, and stronger than wine. How is this to be solved? His body is borrowed and descended from the dregs of mankind, and his spirit from the celestial choir—what a stinking, dirty, habitation it must have.

Diamheu na welodd Goronwy erioed mo'r llythyr hwn, onide prin y credwn y buasai yn tynu ei delyn oddiar yr helyg yn myd pell y Gorllewin i nablu yr awdl farwnad benigamp ar ol Lewis Morris, Ysw., "Pen Bardd, Hanesydd, Hynafiaethydd, a Philosophydd yr oes a aeth heibio," ys dywed efe yn mhenawd yr awdl. "Ar ni wêl y llygad ni phoena'r galon," medd yr hen ddiareb.

Fod Goronwy Owen yn ysgolor o'r radd uwchaf, ac wedi yfed yn ddwfn o ffynonau clasuriaeth, sydd eithaf amlwg oddiwrth ei lythyrau a'i farddoniaeth; ac os rhoddir coel ar hanesion, yr oedd ei gyflymder i ddysgu ieithoedd yn ymylu ar y gwyrthiol. Dywedir na bu onid rhyw dair wythnos yn meistroli yr Arabig; ond pa un a oes goel i'w roddi ar hyny neu beidio, diau am y Groeg, y Lladin, a'r Hebraeg, eu bod ar flaenau ei fysedd, ac mor hyddysg iddo ag iaith ei fam. Yn *dissecting-room* yr ieithoedd meirwon yr ymlwybrai'n benaf pan yn ieuanc—gan ymddigrifo dodi asgwrn ohonynt wrth ei asgwrn, ac olrhain cysylltiadau dyrys a chywrain geiryddiaeth ymadawedig. Ac er y cydnebydd efe yn un o'i lythyrau fod prif gryfder ei athrylith yn gynwysedig mewn cyfachu geiriau, a threiddio i'w perthynasau gwahanredol; eto, nid ar drostan ieithyddiaeth y cerfiodd efe ei enw tros byth, nac y gosododd ddelweddau anniflant ei enwogrwydd. Mewn llythyr at Mr. Richard Morris, dywed mai yn Nadolig, 1751, y dechreuodd efe brydyddu; ac os felly, yr oedd "Cywydd y Farn" yn un o ffrwythau cynaraf ei awen, canys sonia am y gwaith hwnw mewn llythyron dyddiedig yn y rhan gyntaf o'r flwyddyn 1752. Ymddengys fod y bardd yn gwneud cam ag ef ei hun, os oes cred i'w roddi ar ddyddiadau ei weithiau; canys yn ol y rhai hyny, cyfansoddasai "Gywydd Calender y Carwr," yn Mhwllheli, tua'r flwyddyn 1743; a'r "Englynion i Dduw," ddwy flynedd cyn hyny. Nid yw hyn, pa fodd bynag, ond un o'r llawer gwrthddywediadau anesboniadwy sydd yn llythyrau y bardd. Llywelyn Ddu oedd ei athraw barddonol, a'i gyd-ddysgybl oedd y trylen Ieuan Brydydd Hir; tuag at yr hwn y teimlai Goronwy gryn lawer o eiddigedd barddonol, ac awydd i dalu iddo, yn enw Mon, y ddyled ag oedd arni i Geredigion ar ran Rhys Meigen, oblegyd y gurfa a gafodd hwnw gan Ddafydd ab Gwilym. Pa fodd bynag, wedi iddo ddechreu ymgyfeillachu â'r awen, yr oedd ei gariad yn angerddol; a chyfansoddodd y rhan luosocaf o'i ddarnau barddonol yn ystod blynyddau ei gariad cyntaf, sef rhwng 1752 a 1756. Ac er mor fyr y cyfnod hwnw, cynyrchodd ynddo geinion mor uchelryw, nes ei restru gan lawer yn "Brif-fardd Cymru." Mewn nerth a gorpheniad clasurol, y mae yn mhell uwchlaw pob bardd Cymreig; ac y mae ugeiniau o'i linellau mor gryno, cynwys-

Digitized by Google

fawr, a chymhwysiadol, â dim diarhebion sydd yn yr iaith. Y mae amryw ohonynt bellach ar gôf a llafar gwlad; a diau fod cyfansoddi diarhebion cenedl, deddfau cyfeillach a'r aelwyd, yr anrhydedd uwchaf y dichon i farwol ddyn byth ei gyrhaedd. Yn annibynol ar hyn, arucheledd ydyw prif deithi ei farddoniaeth; ac yn "Nghywydd y Farn" y gwelir hyny arbenicaf. Yn hwnw, cyfodir ni ar fynydd uchel; dychrynir ni gan fellt; arswydir ni gan daranau; ymddengys arwydd y Grog ar ael y ffurfafen ddychrynedig; udgenir y "corn anfeidrol ei ddolef," sain yr hwn a fodda dwfr rhaiadrau byd, a "phob cnawd o'i heng a drenga;" gwelwa goleuadau y nefoedd, ac o'n cylch ac o tanom y mae'r greadigaeth yn briwsioni yn fil myrdd o ddarnau. Bwrir i lawr y wàl ddiadlam, nes y mae distryw yn noeth ger ein bron; agorir y dorau tragwyddol, a dyma wynfydedd gwlad y gwynfyd ger bron ein llygaid. Ymddengys yr Ynad yn holl rwysg a mawredd ei swydd; gwysir y dorf ddirfawr i dderbyn ei dedfryd; ac mewn byr eiriau darllenir tynged dragwyddol pob dyn byw. Y mae y sylwedydd bellach wedi ymgolli mewn syndod, dychryn, ac addoliant; ac yn barod i gyduno yn neisyfiad y bardd ar derfyn y cywydd:—

Boed im' gyfran o'r gan gu,
A melused mawl IESU;
CRIST fyg a fo'r Meddyg mau,
Amen, a Nef i miuau.

Nid oes yn unrhyw iaith odid arwrgerdd ardderchocach; ac y mae y cyfan ohoni yn gynwysedig mewn ychydig tros 150 o linellau. Yn mysg eraill o'i gyfansoddiadau ceir darnau mor angerddol a thanbaid; er nad yw eu maint yn cyfateb i'w tryloywder. Cwynir weithiau ei fod yn arfer geiriau ansathredig, nes difwyno blas y darllenydd wrth ryfynych gyfeirio at y geiriadur; ond amcan y bardd yn hyn oedd ymgyrhaedd at ddiwylliad yr iaith, ceisio gloywi ei defnyddiau, helaethu ei therfyngylch, a dwyn ei thrysorau i lawn ymarferiad; yn lle ein bod yn ymfoddloni ar ychydig frawddegau undonol a chylch ymadroddion tlodion, tra y mae corph yr iaith yn gorwedd yn farw yn ngholofnau ein geiriaduron. Yn y *Gronoviana*, ceir hefyd haner cant o Lythyrau y Bardd Du at gyfeillion, yn enwedig at Richard a William Morris. Yn y rhai hyn, ceir twysged werthfawr o sylwadau beirniadol ar feirdd a barddoniaeth, yn nghyda hanes cyfeillachol o'i symudiadau, a threm ledradaidd i'w deimladau tan ddyblygion gofid a thristwch. Wrth sylwi ar ragoroldeb eu cyfansoddiant, yr ydym yn gresynu na buasai wedi ysgrifenu ychwaneg mewn rhyddiaith, ac na ddarllenid rhagor ar yr hyn a ysgrifenodd gan wyr ieuainc sydd yn ymgyrhaedd at fod yn awduron, er mwyn gwybod a mabwysiadu arddull Gymreig ddiledryw. Fel y dywed awdwr medrus y traethawd ar ei gynyrchion llenyddol sydd yn rhagflaenu y casgliad crybwylledig o'i waith:—"Ni fedd Morris Cyffin yn ddiau ar ystwythder a lledneisrwydd llathrlyfn y Bardd Du; ac yn wir, pa fodd y gallasai dan yr anfantais o gaethgyfieithiad? Ni feddai Charles Edwards ar y llaw arall ar nerth a dillynder ei arddull; tra y mae holl deithi ysgrifenyddiaeth o'r radd uwchaf yn cydgyfarfod yn ein bardd, esmwythder, grym, a chlasurodd, heb un amser redeg i rygoethedd a mursendod: ac os buddiol i'r bardd ieuanc ddarllen awdl farwnad Lewis Morris, er mwyn y *fold* farddonol, byddai yr un mor fuddiol, os nad yn fwy felly, i'r Cymro ieuanc yfed yn ddwfn i'w ysgrifeniadau rhyddion, i'r dyben o ymgydnabod âg arddull y Cicero Cymreig."

Digitized by Google

Gwelir bellach fod genym *ddau* Oronwy—Goronwy *Ofer*, a Goronwy *Fardd*. Y mae'r *oferddyn* wedi marw a phydru er's llawer dydd, ond y mae y *bardd* yn fyw, ac anrhydedd ac anfarwoldeb yn ei aros.

Cyhoeddwyd ei farddoniaeth, oddieithr "Marwnad Lewis Morris," "Darn o Awdl i Dywysog Cymru," "Cywydd y Cynghorfynt, neu Genfigen," "Cywydd y Cryfion Byd," a'r "Englynion i Elis y Cowper," yn y *Diddanwch Teuluaidd*, neu waith beirdd Mon, gan yr hen brydydd Huw Jones o Langwm, yn y flwyddyn 1763; a'r darnau uchod a argraffwyd gyntaf yn *Ngorph y Gainc*, gan Ddafydd Ddu Eryri, yn 1810. Ailargraffwyd y *Diddanwch*, gyda'r chwanegiadau, tan olygiaeth Dafydd Ddu, yn 1817. Argraffwyd ei Lythyrau gyntaf yn *Ngreal* Llundain, y *Cambrian Register*, y *Cambro Briton*, a'r *Gwyliedydd*. Ac yn 1860, cyhoeddwyd ei holl weithiau yn uu gyfrol tan y teitl *Gronoviana*, yr hwn a gynwys fywgraffiad o'r bardd, a thraethawd meistrolgar ar ei athrylith.

GOWER (Syr Erasmus), barwnig, oedd fab hynaf Abel Gower, Ysw., o Glendowen, sir Benfro, o Letitia, unig ferch y Parch. Erasmus Gower, D.D. Gan y bwriedid ei ddwyn i fynu yn swyddog yn y llynges, dodwyd ef yn dra ieuanc ar fwrdd llong, o tan ofal ei ewythr Cadben John Donkeley. Yn 1762, aeth trwy yr arholiad yn llwyddianus tuag at gyrhaedd y radd o is-gadben *(lieutenant)*; ac yn fuan etholwyd ef yn un o'r swyddogion yr ystyrid yn ddoeth eu danfon i wasanaethu yn llynges Portugal; ac er ei fod yn ieuanc iawn, penodwyd ef yn ail-gadben. Ni chyrhaeddodd y radd o is-gadben hyd 1766, ar ei ddychweliad o fordaith archwiliadol, ar fwrdd y *Dolphin*, tan lywyddiaeth y morlywydd Byron. Danfonwyd ef allan yn nesaf fel is-gadben y *Swallow*, o tan y cadben Carteret. Ar ei ddychweliad adref, cafodd is-gadbeniaeth y llong *Swift Sloop*, yr hon oedd tan orchymyn i fyned i Ynysoedd Falkland, yn yr hon y llongddrylliwiyd ef yn Port Desire, ar dueddau Patagonia. Yn Mawrth, 1775, penodwyd ef yn brif is-gadben ar fwrdd y gadlong *Levant*; a Syr George Rodney, pan wnaed ef yn llywydd llyngesol gorsaf yr India Orllewinol, a ddewisodd Gower yn ddiymaros, i fod ei brif is-gadben ar fwrdd y *Sandwich*. Darfu i'r llynges Brydeinig ddyfod ar draws y nawddlongau Yspaenaidd, ac o saith ar hugain ni ddiangodd ond un ohonynt, chwech o ba rai oedd yn arfog. Penodwyd ef yn nesaf yn gadben ar y llong *Guipuscoana*, yn cludo 64 o ynau; ac ar ol y frwydr a ymladdwyd gerllaw Penrhyn St. Vincent, symudwyd ef yn olynol fel cadben i'r *Porcupine*, 24 gwn; yr *Enterprize*, 28 gwn; ac yn Chwefror, 1780, i'r *Edgar*, 74 gwn. Y flwyddyn ganlynol, apwyntiwyd ef yn gadben y gadlong *Medea*, 28 gwn, yn mha un yr hwyliodd i'r India Ddwyreiniol; a dychwelodd i Loegr yn 1784. Aeth yn nesaf, yn 1786, i orsaf Newfoundland; ac yn mhen yspaid o flynyddau ar ol hyny cawn ef yn llywyddu y *Lion*, 84 gwn, yn mha un yr aeth Iarll Macartney yn llysgenad i China; cyn hwylio efe a wnaed yn farchog, ac ar y 9fed o Fehefin, aeth y llynges i mewn i'r Môr Melyn. Dangosodd Gower ddeheurwydd mawr yn mordwyaeth y mor hwn, hanes o ba daith a welir yn hanes y lysgenadaeth hono gan Staunton. Yn Medi 1794, dychwelodd y *Lion* i Loegr; ac yn y Tachwedd canlynol, gwnaed ef yn gadben y *Triumph*, 74 gwn, yr hon oedd yn un o'r cadlongau, o tan lywyddiaeth y llyngesydd Cornwallis, pan yr enciliodd efe mor fedrus o flaen y Ffrancod, Mehefin 17, 1795; a'r pryd hwnw, mawr ganmolid Syr Erasmus, gan y llyngesydd. Yn 1798, cymerodd lywyddiaeth y llongau a fwriedid i weithredu yn erbyn

Digitized by Google

y terfysgwyr; a dygwyd 68 ohonynt ger ei fron i'w prof. Yn 1799, gwnaed ef yn ol-lyngesydd y *White*.—Wms. *Em. Welsh.*

GOWER (HENRY), LL.D., esgob Tyddewi, ydoedd frodor o Forganwg. Cafodd ei addysg yn ngholeg Merton, Rhydychain, ac yn 1314, gwnaed ef yn ganon Tyddewi, ac yn archddiacon yn 1324. Dyrchafwyd ef yn esgob yn 1328. Dywed Leland ei fod hefyd yn ganghellydd Lloegr, ac mai efe a adeiladodd balas yr esgobion yn Nhyddewi, a chryn lawer o'r adeiladau yn Llanffe, maenorfa yn yr esgobaeth, yn nghyda Chastell Abertawe, ar ei dir ei hun. Bu farw yn 1347, a chladdwyd ef yn nghapel St. John, o fewn ei brifeglwys, mewn bedd a adeiladasai iddo ei hun o tan y *roodloft*.—Leland's *Collections;* Willis' *Survey of St. David's.*

GOWER (JOHN), Ysw., ydoedd yn disgyn o Gruffydd De Gower, neu Gruffydd o Gower, tywysog neu benaeth Cymreig o un o'r hen deuluoedd breninol, a sylfaenydd neu foncyff teulu y Gower, y rhai a fuont hynod mewn cyfoeth ac awdurdod tua diwedd y 13eg ganrif. Yr oedd y John uchod yn berthynas i Dr. Henry Gower, esgob Tyddewi. —(Lewis' *Topo. Dictionary.*) Efe ydoedd awdwr un o'r llyfrau a argraffwyd gan Caxton, o'r teitl hwn, "Confessio; That is to saye in Englisshe, The Confessyon of the Lover, maad and compyled by me, John Gower, Squyer, &c. Emprynted at Westmestre by me Willyam Caxton, and fynyssed the ij daye of Septembre the fyrst yere of the regne of Kyng Richard the thyrd, the yere of our lord a thousand cccclxxxxiij." Cynwys 211 o dudalenau. Dywedir fod ei amseriad yn gefeiliornus o un x.; ac mai yr amser oedd 1483. Y mae ei waith yn traethu fel y cyffesodd i Venus, ar achosion cariad yn ei phum' arabedd, a'r saith bechod marwol, fel yr ymddengys yn y llyfr dywededig; yn yr hwn y cynwysir amryw historeuon a damhegion.—*Lleyn MSS.*

GREID AB ERI, enw yr hwn a grybwyllir yn y *Mabinogion*, fel un o farchogion Llys Arthur.

GREDIFEL AB ITHEL, oedd sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Penodwyd ef a'i frawd Fflewyn yn llywyddion ar fynachdŷ a sefydlwyd gan Pawl Hen yn y Tŷ Gwyn ar Daf, sir Gaerfyrddin. Efe a sefydlodd eglwys Penmynydd, yn Mon, lle cynelid ei wylmabsant Tach. 13.

GREIDIOL AB DINGAD, rhyfelwr a llyngesydd enwog y sonir am dano yn yr hen gôf-lyfrau Cymreig. Bu yn ymladd â'r Coraniaid, llawer o ba rai a laddodd; ac wedi iddo eu gyru oll o Gymru, hwy a foriasant i'r Iwerddon ac Ysgotland. Yn "Englynion y Gorugau," o waith y Bardd Glas o'r Gadair, crybwyllir ei wrhydri ar fôr, a'i fedr fel llyngesydd.—*Iolo MSS.*

GRIFFITH (PARCH. ALEXANDER) a dderbyniodd ei ddysg yn Hart Hall, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A., 1618; ac yna dychwelodd i Gymru. Pan dorodd rhyfel y weriniaeth allan, efe a gollodd ei fywiolaethau oblegyd ei freingarwch. Yn y cyfnod hwnw, ysgrifenodd lyfr, tan yr enw, "Mercurius Cambro Britannicus, or News from Wales;" lle y traethir am ledaeniad gwyrthiol yr Efengyl yn y Dywysogaeth. Ei waith nesaf oedd, "Strena Vavasoriensis," wedi ei gyflwyno mewn dull cellwair gnoawl i bregethwyr teithiol. Baich y llyfr ydyw gwawdio Vavasor Powel, yr hwn a elwir ynddo yn ddienyddwr yr Efengyl. Ysgrifenodd hefyd yn erbyn cais chwe' sir y Deheudir a sir Fynwy, am weinidogion duwiol. Ar adferiad y freninoliaeth, cafodd yntau ail-feddiant o'i swyddau.—*Lleyn MSS.*

Digitized by Google

GRIFFITHS (Ann), yr emynyddes odidog, oedd ferch i John a Jane Thomas, o Ddolwar Fechan, plwyf Llanfihangel yn Ngwynfe, sir Drefaldwyn. Amaethdy ydyw y Ddolwar Fechan, yn gorwedd mewn ceunant tawel a neillduedig; ac yma y ganwyd yr awdures enwog yn nechreu y fl. 1776. Yr oedd ei rhieni yn eglwyswyr selog ar y cyntaf, ac yn yr athrawiaethau hyny y dygent eu teulu i fyny. Yr oedd John Thomas, ei thad, yn fardd gwlad lled dda; y mae ychydig englynion a phenillion o'i waith ar gael, ac ymgom farddonol neu ddwy rhyngddo ef a'i ferch pan nad oedd hi ond lodes. Lled wanaidd ei hiechyd ydoedd pan yn plentyn; ac er hyny, yr oedd llawer o ddireidi ysmala a diniwed yn ei nhatur, a hoffder neillduol ganddi mewn dawnsio a nosweithiau llawen, yn ol arfer yr oes ddiabsen ond gwagsaw hono. Edrychai ar Ymneillduaeth gyda dirmyg chwareus, a defnyddiai ei dawn trahauslyd i watwar y Methodistiaid yn enwedig. Un tro, wrth weled rhyw druain gwyr yn myned i Sasiwn y Bala, dywedai, "Dacw'r pererinion yn myned i Mecca." Cafodd ddigon o ysgol yn ei hieuenctyd fel ag i allu dysgu darllen Saesneg, ysgrifenu, ac ychydig rifyddiaeth—cylch eithaf dysgeidiaeth pobl gyffredin yr oes. Wrth wrandaw y Parch. Benjamin Jones, gweinidog yr Annibynwyr, o Bwllheli, yn pregethu yn Llanfyllin, y dygwyd ei meddwl cyntaf i ystyriaeth ddifrifol; a Sul Gwylmabsant Llanfyllin oedd y diwrnod. Daethai merch y Ddolwar i'r dreflan o bwrpas i fwynhau difyrwch gwag yr wyl hono; eithr yn ddamweiniol arweiniwyd hi i wrando y gwr dywededig, a chafodd destun i ddiolch byth am y tro. Ymgylymasai ei serch mor fawr wrth yr Annibynwyr oherwydd hyn, fel y gofynodd ganiatad ei thad i gael myned i Llanfyllin i ddysgu pwytho, eithr ei hamcan penaf oedd cael bod yn nghyrhaedd ei phobl ddewisol; a chafodd ei gydsyniad. Ond cyn i'r bwriad hwn gael ei roddi mewn gweithrediad, aeth i Pontrobert i wrando pregeth; ac o tan y teimladau dymunol a enynwyd gan y bregeth hono, rhoddodd heibio y bwriad o fyned i Llanfyllin, a phenderfynodd wneud ei chartref gyda'r Methodistiaid. Cynygiodd ei hun iddynt yn aelod, a chafodd ganddynt dderbyniad croesawgar. Tybir i hyn gymeryd lle rywbryd yn 1797. Wedi dechreu, ymroddodd â'i holl egni i lanw ystyr y gair proffes, a daeth ei sel danllyd tros grefydd yn fuan i'r golwg. Ei chyfeillesau oedd y merched ieuainc mwyaf syml a duwiolfrydig; er nad oedd rhai ohonynt ond tlodion, eto teimlai yn hyfryd yn eu cymdeithas. Arferai rhai ohonynt fyned i'w hebrwng ran o'r ffordd adref o'r moddion crefyddol; eithr nid ymadawent â'u gilydd heb i un neu ddwy fyned i weddi, a mynych ddigon y torai yn orfoledd cryf arnynt nes adseinio'r cymau gan felusder eu pêrganiadau Yr oedd yn arferiad yn yr oes hono, gan Fethodistiaid Calfinaidd y parthau hyny o Faldwyn, fyned i'r Bala i dderbyn y Sacrament, gan nad oedd eto weinidogion ordeiniedig gan y Corph; ac un o'r cydymdeithwyr mwyaf gwresog, dyddan, ac addysgiadol oedd Ann Thomas. Nid oedd neb o'r fintai fechan a groesai y Berwyn i'r Bala ar las doriad y bore Sabbath, er mwyn bod yn brydlawn yn yr oedfa, o Lanwddyn, Pontrobert, a'r amgylchoedd, pellder o tros ugain milltir, tan ddiaspedain moliant ar hyd y ffordd, mor gofus, adeiladol, a thanbaid ei sêl, â'r wyryf eiddil a gwanaidd o gorph—merch y Ddolwar Fechan. Yr oedd ganddi gôf rhagorol; a'i hoff waith wrth ddychwelyd o'r cyrddau hyn fyddai ail-adrodd y bregeth, yr hyn a wnai o ben i ben bron, ac adgofio yr eiddunau santaidd a roddasid iddynt gan y gweinidog oddiwrth fwrdd y cymun. Yr oedd y teulu mewn sefyllfa gysurus o ran pethau'r

Digitized by Google

byd, a hyhi fu yn cadw tŷ ei thad ar ol marwolaeth ei mham. Yn yr amser hwnw, yr oedd gwau a nyddu yn rhan o ddyledswyddau hwswiwraig daclus ar yr aelwyd fynyddig—pan oedd gwyryfon ieuainc yn *spinsters* mewn gwirionedd; a diau ddarfod i Ann Thomas gyfansoddi rhai o'i hemynau melysion tra wrth y gorchwyl cartrefol hwn. Yn ngwanwyn 1803, bu farw ei thad, yr hyn a gafodd effaith dwys ar ei meddwl, a anmharodd ei hiechyd am y gweddill o'i hoes, ac a chwanegodd gryn lawer at eu gofalon teuluaidd. Yn Hydref, 1804, hi a briododd wr ieuanc o deulu parchus, o'r un naws grefyddol â hithau, sef Mr. Thomas Griffiths, brawd i'r diweddar Barch. E. Griffiths, Meifod. Ond er mor hapus a chynes y briodas hon, nid oedd ond o tyr barhad. Yn nghylch pen deng mis ar ol priodi, rhoddes Mrs. Griffiths enedigaeth i ferch, yr hon nid oedd ond plentyn gwanaidd iawn, a bu farw yn bythefnos oed. Ni bu y fam ychwaith fyw ond ychydig wythnosau ar ol y digwyddiad, ac agorwyd y ceufedd i'w derbyn hithau Awst 12, 1805, pan nad oedd ond 29 oed. Claddwyd hi yn mynwent Llanfihangel yn Ngwynfe, gan dorf luosog a galarus; ac yn 1864, cyfodwyd cofgolofn ar ei bedd trwy danysgrifiadau cyhoeddus, yr hon sydd wedi ei gwneuthur o wenithfaen goch Aberdeen, yn mesur 15 troedfedd o uchder, ac a gostiodd £66. Y mae y modd yr arbedwyd llawer o'i Hemynau rhag syrthio i ebargofiant yn un o'r pethau hynotaf yn hanes llenyddiaeth. Ymddengys na byddai yr awdures ddiymhongar yn ysgrifenu ond ychydig o'i chynyrchion barddonol, a'r rhai hyny ar rhyw bapurach rhydd a hawdd eu colli. Ond yn ffodus, yr oedd morwyn, o'r enw Ruth, yn Nolwar, yr hon oedd o gyffelyb dueddfryd grefyddol â'i mheistres, a chanddi hefyd gôf rhagorol. Y mae yn eithaf amlwg mai datguddiad barddonol o deimlad yr awdures ar y pryd ydyw pob un o'i hemynau; a byddai yn eu hadrodd wrth Ruth, a hithau a'u trysorodd yn ofalus yn ei chof gwerthfawr. Priodwyd y Ruth hon gan y Parch. John Hughes, Pontrobert; hi a'u hadroddodd wrth y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, ac ar ei gais ysgrifenwyd hwynt iddo i'w hargraffu gan ei phriod J. Hughes, yn ol ei hadroddiad hi ohonynt. Ysgrifenwyd rhyw nifer hefyd gan nai yr awdures, y diweddar Mr. John Jones, o Lanfyllin; a chyhoeddwyd hwynt oll yn y Bala yn 1806; ac wedi hyny, yn gyflawnach, yn 1808, tan yr enw "Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen," ond heb eu gwahaniaethu oddiwrth emynau awdwyr eraill yn yr un casgliad. Daeth dau argraffiad eraill allan ohonynt; ac yn 1817, cyhoeddwyd hwynt gan Mr. Hugh Jones *(Erfyl)*, Caerlleon, yn nghydag emynau ei gwr, Mr. Thomas Griffiths. Argraffwyd hwynt, neu aralleiriad ohonynt, drachefn yn Llanfyllin, yn 1847, tros y Parch. John Hughes, gyda rhai chwanegiadau a chofiant byr o'r awdures; a thrachefn yn Aberystwyth, yn 1854; ac yn Ninbych, yn 1865, tan olygiaeth Morris Davies, Bangor. Cynwysa yr olaf hwn ei bywgraffiad, ei llythyrau; a nodiadau ar ei hymnau gan Caledfryn. Y mae hwn yr 8fed argraffiad o'i hemynau; heblaw y ffaith nad oes odid i gasgliad diweddar o hymnau yn y Gymraeg heb ynddo y rhan fwyaf o waith yr emynyddes odidog o Ddolwar Fechan. Mewn rhifedi, nid ydynt ond 29 o Hymnau, yn cynwys 75 o ben llion; ac er nad yw eu corfanau a'u haceniadau mor lyfn ag y chwenychai rhai o seiri cywrain yr hyd a'r mesur, eto y mae hyd yn nod cloffni eu corfanau mor naturiol nes diarfogi beirniadaeth wrth ymdrin â hwy. Oferedd fyddai ini geisio goreuro aur wrth eu canmol; y mae iddynt eu lle cysegredig yn nghôf cyffredinol y werin Gymreig, o'r cryd i'r

Digitized by Google

bedd ; dysg y mamau i'w plant siarad wrth eu hadrodd, a sibrydir hwy gan yr enaid pan ar drothwy byd arall.

GRIFFITHS (Parch. Benjamin), a anwyd yn 1688, yn Llanllewni, ar lan Teifi. Ymfudodd i'r America yn 1710 ; bedyddiwyd ef drwy drochiad yn 1711. Efe a alwyd i bregethu i gynulleidfa Montgomery, Pensylfania, yn 1722 ; ac ordeiniwyd ef yn 1727. Yr oedd yn barchus yn y wlad, a chynygiwyd ei wneud yn Ustus Heddwch, ond efe a wrthododd gymeryd y swydd hono. Cyhoeddodd amryw fân lyfrau yn Saesneg yn America ; sef ar yr "Adgyfodiad ;" ar "Fedydd ;" ar "Gymanfaoedd ;" ac ar y "Tragwyddol Fabolaeth." Bu farw yn 1768, yn 80 oed.—*Lleyn MSS.*

GRIFFITHS (Parch. David), y cenadwr i Madagascar, oedd y mab hynaf o luaws o blant i William ac Elizabeth Griffiths, o Glanmeilwch, ger Gwynfe, plwyf Llangadog, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef Rhag. 20, 1792. Er pan yn fachgen, yr oedd ganddo gyfansoddiad cryf, a meddwl beiddgar ; ac ofnid ar y cyntaf mai ymroi i ddilyn oferedd y buasai. Pa fodd bynag, cymerodd cyfnewidiad amserol le yn ei feddwl ; ac yn 1810, derbyniwyd ef yn aelod o eglwys Annibynol Gwynfe. I'r sawl sydd yn credu mewn Rhagluniaeth neilldiuol nid annyddorol fyddai nodi y gwaredigaethau a gafodd yn nyddiau ei faboed. Pan yn dair blwydd oed, tarawyd ef gan geffyl nes y tybid ei ladd ; ond yr oedd amser yn ol iddo. Dro arall, bu ef a'i geffyl yn mron a myned tros geulan craig ofnadwy Banau Brycheiniog, wrth chwilio am anifeiliaid ei dad ar y mynydd, ddiwrnod niwliog a du ; ond yr oedd ei eisiau ar Dduw. Dro wedi hyny, cwympodd tynelli o wair arno, nes y meddyliwyd ei farw ; ond yr oedd gwaith iddo yn Madagascar. Bu yn cadw ysgol yn Nghwmaman o Tach., 1811, hyd 1812 ; ond gan ei fod yn awyddus am ragor o ddysg, ac ymddyrchafu i gylch eangach, aeth i'r ysgol at y Parch. T. Jones, Ffald y brenin ; ac yn Nhach., 1812, at y Dr. Phillips i athrofa Neuaddlwyd ; lle yr arosodd hyd Mehefin, 1814, pryd yr aeth i goleg Gwrecsam, o tan addysg y Dr. George Lewis. Bu yno hyd Rhag., 1817, ac yna aeth i goleg Cenhadol Gosport, o tan ofal y Dr. Bogue a'i fab. Yn Mehefin, 1820, cafodd ei benodi gan Gymdeithas Genadol Llundain i fyned yn genhadwr i Madagascar, yn gydlafurwr â'r Parch. D. Jones, yr hwn oedd wedi myned yno ddwy flynedd cyn hyny. Yn yr adeg hon, ymunodd mewn priodas â Miss Griffiths, Machynlleth, yr hon, fel yntau, oedd yn llawn o'r ysbryd cenhadol ; ac ni chyfarfyddodd dau erioed yn ateb eu gilydd yn well. Urddwyd ef yn Gwynfe, Gorph. 27, 1820, eithr oherwydd amgylchiadau anorfod nis gallodd ef a'i briod gychwyn i'w taith hyd yr Hydref canlynol. Wedi cwrdd â thymhestl enbydus ar dueddau Penrhyn Gobaith Da, glaniasant yn y Mauritius (ynys tua 500 milldir o Madagascar) yn Ionawr, 1821. Arosodd Mr. Griffiths dri mis yno, er mwyn gochel y tymhor atiach, a dysgu rhyw gymaint o iaith Madagascar gan y brodorion a breswylient yn y Mauritius. Yn Ebrill, 1821, aeth drosodd ei hun i Tamatave ; a chyrhaeddodd y brifddinas Antanariva ar ol pythefnos o daith, yn cynwys 200 o filldiroedd, trwy ddygn lafur a lludded. Arosodd Mrs. Griffiths bum' mis yn y Mauritius, pan yr aeth trosodd i Tamatave ; a daeth yntau i'w chyfarfod i lân y mor ; a chyrhaeddasant y brifddinas ill dau yn ddyogel ; a'u baban hwy oedd y plentyn gwyn cyntaf a welodd trigolion y lle, a mawr yr edrych oedd arno, a'r ganmoliaeth a roddid iddo. Agorodd ysgol yn union yno i ddysgu plant y boneddwyr—Mr. G. y bechgyn, a Mrs. G. y genethod

Digitized by Google

—pa rai a ddanfonai y brenin Radama iddynt. Yn mhen tua dwy flynedd, cafodd ddarn helaeth a chyfleus o dir gan y brenin, i adeiladu tŷ, capel, ac ysgoldy,—lle y bu fyw, yn pregethu, ac yn arolygu'r ysgol, tra bu yn genhadwr yn y lle. Pregethai ddwywaith y Sabbath yn ei gapel, cadwai ysgolion dyddiol a nosol, a theithiai allan i'r trefydd a'r pentrefydd cyfagos i efengylu a sefydlu ysgolion. Wedi gorphen tŷ Mr. Griffiths, archodd y brenin uno ysgolion Mr. Jones â Mr. Griffiths yn ei ysgoldy ef; a buont ill dau yn ei chadw bob yn ail o hyny allan. Oddeutu yr amser hwn, ffurfiasant orgraff yr iaith, yn y llythyrenau Rhufeinig, a rhoddwyd ei sain briodol i bob llythyren, gan ysgrifenu fel y byddai yr areithwyr goreu yn eu swnio; ac nid gwaith bychan oedd hwn, canys nid oedd llenyddiaeth o fath yn y byd yn y wlad. Erbyn 1824, yr oedd 300 o blant yn ysgolion y brifddinas a thua 32 o ganghenau yn y wlad, yn cynwys o gylch 2000 o blant; a byddai yntau yn y wlad a'r dref bob yn ail Sabbath yn pregethu, ac yn ymweled â'r gwahanol ysgolion bob dydd Sadwrn. Yn 1825, yr oedd rhai o'r brodorion dychweledig yn alluog i gynal cyfarfodydd gweddi eu hunain, i arolygu'r ysgolion, a dysgu eraill mewn amryw ganghenau gwybodaeth. Yn 1827, cafwyd argraffwasg i'r ynys; ac yn nechreu y flwyddyn ganlynol, cyhoeddwyd *Egwyddorydd*, *Llyfr Hymnau*, a *Llyfrau Ysgol*, yn yr iaith frodorol, a dechreuwyd argraffu Efengyl Luc. Cymerwyd rhan arbenig gan Mr. Griffiths yn nghyfieithiad y llyfrynau hyn. Yn Gorph., 1828, cododd cwmwl du uwchben y wlad—bu farw y brenin tirion, doeth, a gwladgar Radama, yn 36 oed; a chollodd y cenadon ynddo amddiffynwr cadarn a chyfaill gwresog. Wedi marwolaeth y brenin, a chyn esgyniad y frenines i'r orsedd, ataliwyd gweithrediadau y genadaeth bron yn llwyr. Yn 1830, ymadawodd Mr. Jones am Loegr. Yr oedd yr achos ar y pryd yn lled isel; ond nid boddlon oedd Mr. Griffiths i ymadael heb weled rhagor o ffrwyth ei lafur caled a'i weddiau taerion. Erbyn hyn, nid oedd ond Mr. Johns ac yntau yn aros yn genhadon yn yr holl ynys; ond yn 1830, torodd gwawr—aeth y fechan yn fil. Cynaliai gyfarfodydd nosawl i ddysgu ac egwyddori y caethion a'r tlodion, a bu llwyddiant mawr. Yn 1831, argraffwyd yr holl Destament Newydd, llawer o'r Hen Destament, ac amryw lyfrau buddiol eraill. Bu y frenines yn gefnogol iawn am dymhor, a chafodd ganiatad i fyned yn mlaen gyda'r gwaith, fel yn amser Radama; a dilynwyd ei lafur â llwyddiant anarferol. Yn 1831, daeth y deng mlynedd i ben a ganiatasai Radama i'r cenhadon aros yn y wlad. Hysbysodd Mr. Griffiths y frenhines, a boddlonodd roddi ei hun tan ddeddfau y wlad, os cawsai ryddid i fyned a'i waith yn mlaen fel cenhadwr; ond cafodd yn ateb, fod yn rhaid iddo ymadael yn mhen tri mis. Ond cyn pen tri mis, cafodd ganiatad i aros am flwyddyn; a chyn diwedd y flwyddyn, caniatawyd iddo aros cyhyd ag y mynai. O 1832 hyd 1835, yr oedd llwyddiant amlwg yn dilyn ei waith, a lluaws yn cofleidio Cristionogaeth. Yn yr amser a allai hebgor byddai yn brysur gyda chyfieithu y Bibl, darparu geirlyfr o iaith yr ynys, a threfnu defnyddiau ar gyfer llyfrau eraill yr oedd yn ei fryd eu cyhoeddi. Ond yn 1835, dechreuodd yr erledigaeth o ddifrif—swyddogion y llys yn perswadio y frenhines mai dichell Lloegr ydoedd danfon cenhadon i ddysgu y bobl, a thynu eu serch, ac yna meddianu y deyrnas; torai hithau allan i wylo yn hidl, gan y credai yr oll a ddywedent. Yr oedd braidd yn fwy o wrthddrych tosturi na dim arall; canys Paganiaeth oedd ei chrefydd, a chnafiaid oedd ei chyng-

Digitized by Google

horwyr. Cafodd Mr. Griffiths bregethu am y tro olaf Sabbath Chwef. 22; a Sabbath i'w gofio yn hir oedd hwn. Y Sabbath cyntaf yn Mawrth, 1835, cynaliwyd math o gymanfa gyferbyn â'r capel, pryd yr oedd tua 8,000 yn bresenol, ac y rhoddwyd terfyn hollol ar ymarferyd â'r grefydd Gristionogol yn yr ynys. Gorchymynwyd casglu yr holl lyfrau Cristionogol—llanwyd tŷ Mr. Griffiths â hwy, a'r bobl, druain, yn wylo ar eu hol. Ymadawodd o'r ynys yn Medi, 1835, a glaniodd yn Lloegr yn Chwefror 1836. Bu yn y wlad hon am ddwy flynedd, yn ymweled a'r eglwysi yn achos y genadaeth, mewn rhan, ac hefyd yn darparu ar gyfer amser dyfodol—yn gwbl sicr yn ei feddwl y cawsai fyned yn ol i'w wlad fabwysiedig; ac yn Chwefror, 1838, derbyniodd lythyr oddiwrth frenines Madagascar, yn rhoddi caniatad iddo ddychwelyd am bum' mlynedd. Gan na chaniateid iddo fyned fel cenadwr, aeth yno ar ei draul ei hun, fel *trader;* ond cenadwr oedd serch hyny, canys yr oedd ei enaid yn y gwaith hwnw, ac nis gallasai dim ei luddias. Yn Mai, 1838, cychwynodd ef a'i fab; a chyrhaeddasant ben eu taith yr Awst canlynol. Cawsant dderbyniad gwresog gan bob gradd a sefyllfa, ac anrhegion lawer gan y frenines ei hun. Calonogodd hyn ef i ofyn am ryddid i ddysgu y bobl, fel cynt; ond trwy ddylanwad ei phrif-weinidog, gomeddwyd hyn iddo. Yn awr, nid oedd y Cristionogion yn cael addoli yn gyhoeddus—erlidid hwy fel petris, a helid hwy fel llwynogod. Yn y nos deuent i dŷ Mr. Griffiths —wylent, gweddient, a molianent, bob yn ail; ac anogai yntau hwynt i fod yn ffyddlawn i'w Duw, ac i fwrw eu baich arno Ef. Rhoddai arian, dillad, ac ymborth, i'w rhanu rhyngddynt; a chynorthwyai hwynt hyd eithaf ei allu—ond yr oll mor ddirgelaidd ag y byddai y modd. Fel hyn y bu am gryn amser yn arwain bywyd masnachwr mewn enw, ond yn genadwr mewn gwirionedd. A chan iddo, mewn cysylltiad ag eraill, gynorthwyo rhai o'r Cristionogion i ddianc, cyhuddwyd ef wrth y frenines o ladratta ei deiliaid—nodwyd ef allan fel teyrnfradwr, gwysiwyd ef i lys prawf, a chondemniwyd ef i gael tori ei ben; ond gan mai Prydeiniwr ydoedd, newidiwyd y ddedfryd am ddirwyon—20 doler yn iawn am ei fywyd, 30 doler i'r cyhuddwyr, a 200 doler i'r frenines—ac yna fod iddo ymadael â'r wlad, byth i ddychwelyd mwy. Y mae yn anhawdd darllen dim mwy effeithiol na'i ddyddlyfr yn y cyfwng hwn. Yr oedd rhai o'r gelynion am ei ddienyddio a'i yspeilio; eraill am ddangos y Cristionogion a ferthyrasid, o flaen ei dŷ,—fel y gwelai nas gallai eu hamddiffyn na'u dyogelu mwyach. Felly y gwnaed, a chofiai yr olygfa hon tra fu byw, gyda chalon yn gwaedu a llygaid yn ffynonau dagrau. Gwelodd ei blant yn yr Efengyl yn myned i'r dienyddle—y rhai a garai mor gu yn cael eu taflu tros graig ofnadwy—a'r rhai a fynwesai mor anwyl yn cael eu rhoddi yn fwyd i gŵn. Ceisio yr oeddynt ei einioes yntau hefyd,—hen genadwr briglwyd ydoedd yn nghanol gelynion,—ei feddianau wedi eu dwyn oddiarno, a gobeithion ei oes wedi machlud tan gwmwl du. Cyn ymadael, ymdrechodd argyhoeddi y frenines a'i swyddogion nad trosedd oedd cynorthwyo y Cristionogion; ac na buasai ar un tir yn gofyn maddeuant y frenines, am y buasai hyny yn gam â'r gwirionedd, ac yn dwyn camdystiolaeth yn ei erbyn ei hun. Ond ni thyciodd yr amddiffyniad, cymerwyd meddiant gan y goron ar y tir a'r capel a adeiladasai Mr. Griffiths gyda thraul o 2860 o ddoleri, a gomeddwyd rhoddi iddo y ffyrling leiaf o iawn am ei golled. Trwy ei awgrymiad ef, cafodd Mr. Ellis, y cenadwr presenol, y tir eilwaith i fod at wasan-

Digitized by Google

aeth y genadaeth o hyn allan. Gadawodd y brifddinas yn mhen 13 diwrnod ar ol derbyn y wys freiniol, yn isel ei feddwl; ac ofnid unwaith fod bwriad i'w lofruddio, mewn coedwig fawr ar ei ffordd i borthladd Tamatave. Pa fodd bynag, glaniodd yn ddiangol yn y Mauritius Medi, 1840; a chafodd dderbyniad croesawus gan yr holl Gristionogion. Oddiyno cymerodd ddwy fordaith i borthladdoedd Madagascar, i geisio achub ei gydgrefyddwyr, yn ol ei addewid; ond bu yr oll yn ofer, canys ni lwyddodd i gael gafael ar un ohonynt. Yn lle dychwelyd adref o'r Mauritius, mordeithiodd gryn lawer ar gyffiniau Affrica, gan gyrhaedd Llundain yn Chwef., 1842. Yn ystod y daith hon, ymwelodd yn mhlith manau eraill, ag ynysoedd Comora. Cafodd dderbyniad gwresog yn Lloegr gan ei gydwladwyr a chyfeillion y genadaeth yn gyffredinol; a danfonwyd iddo lawer o anrhegion i'w danfon i'r Cristionogion erlidiedig, pa rai a gawsant trwy law un Mr. Berbeyn. Derbyniai lythyrau yn lled gyson oddiwrth ei hen ddysgyblion yn Madagascar hyd ddydd ei farwolaeth; ac yn mysg eraill, oddiwrth fab y brenin Radama. Er yn absenol i'w gilydd, yr oedd eu gweddiau ar ran y naill a'r llall yn cyfarfod yn fynych gerbron gorsedd Trugaredd. Wedi dyfod trosodd yma, ysgrifenodd lyfr yn Nghymraeg yn cynwys hanes Madagascar a'i chenadaeth, o ba un y gwerthwyd miloedd; a rhoddodd gyfran helaeth o'r elw at gynorthwyo y saint tlodion. Yr oedd ei galon yn y gwaith—ni fedrai fod yn llonydd—yr oedd byw a gweithio yn gyfystyr bron yn ei olwg; a chenadwr oedd, pa un ai yma ynte tu draw i'r môr. Yn 1843, ymsefydlodd fel gweinidog yn y Gelli, sir Frycheiniog; i geisio enyn tân yn marwor allor eglwys fechan wedi ei chwbl ddifodi bron, a'i haddoldy wedi ei gloi i fynu tan ddyled. Cymerodd Mr. Griffiths Neuadd y Dref, dechreuodd bregethu, sefydlodd ysgolion Sabbathol a dyddiol, a chafodd ei galonogi yn fawr gan y llwyddiant a ddilynodd. Penderfynwyd cael addoldy newydd yno; prynodd yntau ddarn cyfleus o dir, ac aeth dan y cyfrifoldeb o adeiladu capel gwerth tros £1000, a chasglodd tuag ato erbyn diwedd y flwyddyn hono rhwng tri a phedwar cant o bunau. Bu mewn canlyniad yn llafurio yn galed am flynyddoedd—teithiodd brif drefydd Lloegr, Ysgotland, Iwerddon, a Deheudir Cymru; ac erbyn 1853, yr oedd yr adeilad yn rhydd i'r eglwys, os nad yn rhydd iddo ef. Yn ystod blynyddau ei arosiad yn y Gelli hefyd, cyflawnai waith cenadwr trwy fyned a phregethu yn y pentrefydd oddiamgylch; ac yn 1852, sefydlodd achos i'r Annibynwyr yn Kington, a ffurfiodd eglwys led obeithiol yno. Ymdeithiai lawer yn Lloegr hefyd tros Gymdeithas Genadol Llundain. Trwy y cyfan, nid annghofiai Madagascar—yno yr oedd ei galon, a gobeithiai gael myned yno yn ol pan fyddai marw y frenines; felly astudiai yr iaith yn barhaus, a darparai ar gyfer y dyfodol os nad iddo ei hun, i eraill; ac yn yr amser hwn, cyhoeddodd Ramadeg o'r iaith—a'r cyntaf o un pwys—yn cynwys 250 o dudalenau, a hyny yn hollol ar ei draul ei hun; canys ni chymerai y Gymdeithas Genadol ef, am nad oedd y wlad yn rhydd i'r efengyl; a bu yr arian a dalodd am argraffu hwnw yn ddifudd am flynyddau lawer. Fel y gellid dyfalu, y mae'r gramadeg hwn yn ffrwyth llafur mawr; canys nid peth bach ydyw gwneud gramadeg cyntaf o iaith. Yn 1852, wrth weled rhyw arwyddion fod drws yn agor yn Madagascar, ymgymerodd ef a Mr. Freeman â dwyn allan gyfieithiad diwygiadol o'r Bibl yn yr iaith, a chydlafurio y buont am dymhor; ond bu Mr. Freeman farw, ac felly disgynodd yr oll arno ef, ond yn unig fod golygydd cyffredinol y Fibl Gymdeithas, sef y

Digitized by Google

Parch. Mr. Meller, o Woodbridge, yn Suffolk, yn ei gynorthwyo gyda'r ieithoedd gwreiddiol. Er mwyn ymroddi yn hollol i'r gwaith, rhoddodd ofal yr eglwys yn y Gelli i fynu, a symudodd i Woodbridge, er mwyn bod yn ymyl Mr. Meller. Arosodd yno o 1853 hyd 1858, yn diwygio cyfieithiad y Bibl, ac yn cyfieithu llyfrau eraill i'r iaith Falagaeg, gan dreulio y Sabbathau i fyned i bregethu yma a thraw fel y byddai galwad am dano. Gweithiodd mor galed yma, nes yr anmharodd ei iechyd am gryn amser; ac yn wir ni chafodd lwyr ymwared oddiwrth y gorlafur hwn tra y bu efe byw. Byddai yn eistedd yn gyson am tuag un-ar-bumtheg o oriau bob dydd—digon i ladd un cyfansoddiad, chwaithach hen wr wedi newid hinsoddau lawer gwaith, a chael cyn gymaint o'i daflu gan wyntoedd croes. Yn 1858, symudodd i Fachynlleth, lle y bu hyd ei farwolaeth yn nghlyn a'r un gwaith, a gorphenodd ei dasg diweddaf ryw dri mis cyn ei farw. Felly, ni bu fawr o amser yn segur—dim ond ychydig i dawelu tipyn arno ei hun ar ol gyrfa mor derfysglyd, a llafur mor amrywiol. Bu farw Mawrth 21, 1863, yn 71 oed, a chladdwyd ef yn Nghapel y Graig, ger Machynlleth. A ganlyn sydd restr o'i weithoedd llenyddol:—1, "Hanes Madagascar," yn Nghymraeg; 2, "Hanes ei Merthyron," yn Saesneg; 3, "Gramadeg y Malagaeg;" 4, "Holwyddoreg," eto; 5, "Llyfr Hymnau," eto; 6, "Traethawd ar Dynghedfen," eto; 7, "Y Dyn tlawd cyfoethog, a'r Dyn cyfoethog tlawd," eto; 8, "Amryw fân draethodau," eto. Cyfieithodd i'r iaith Falagaeg:—1, "The Anxious Inquirer;" 2, "The Friend of Sinners;" 3, "Come to Jesus;" 4, "It is I;" 5, "Llyfryn bychan ar yr Adgyfodiad, fel prawf o wiredd Cristionogaeth;" 6, "Ei ran, a rhan helaeth, o'r cyfieithiad cyntaf o'r Bibl." Diwygiodd gyfieithiadau parod yn yr iaith hono:—1, "Taith y Pererin;" 2, "Chwech o Draethodau;" 3, "Yr holl Fibl." Diwygiodd a helaethodd:—1, "Geirlyfr Saesneg a Malagaeg;" 2, "Geirlyfr Malagaeg a Saesneg;" 3, "Vocabulary Malagaeg a Saesneg:" a gadawodd amryw eraill heb eu cyhoeddi, mewn llawysgrifen, megis "Peep of Day," "Line upon Line," &c., &c. Y mae y llyfrau uchod bellach yn dechreu dwyn ffrwyth, ac yn nydd datguddiad pobpeth y gwelir o ba fawr fendith y bu dygn lafur y brodor hwn o sir Gaerfyrddin i drueiniaid melynddu Madagascar. Gallai bregethu mewn tair o ieithoedd, sef y Gymraeg, y Saesneg, a'r Falagaeg; deallai bedair eraill, sef y Roeg, y Lladin, yr Hebraeg, a'r Ffrengig, ac yr oedd ganddo grap lled dda ar y Chaldaeg a'r Arabig. Nid ymenwogodd erioed fel pregethwr, gan fod rhy fach o ddarfelydd ynddo—gwaith, gwaith, gwaith, oedd ei gyswynair ef yn barhaus; ac am y "gwaith" hwn diau y cyfyd cenedl eto yn maes arbenig ei Genadaeth ac a'i galwant yn fendigedig.

GRIFFITHS (Parch. David), ficar Nanhyfer, neu *Nevern*, ac un o ragorolion y pwlpud Cymreig, a anwyd yn y Felin Lan, ger Narberth, sir Benfro, yn 1756. Brethynwr parchus a chyfrifol yn yr ardal hono, o'r enw John Griffiths, oedd ei dad. David oedd yr hynaf o chwech o blant, ac ystyrid ef yn blentyn sobrfryd a difrifddwys. Rhoddes ei fryd yn fore ar fyned i'r offeiriadaeth; ac er ei baratoi at hyny, danfonwyd ef i dderbyn addysg glasurol yn Mhenfro. Wedi bod yno am rai blynyddau, dewiswyd ef pan yn ddeunaw oed i fod yn athraw yn nheulu Mr. Bowen, Llwyngwair, sir Benfro. Dengys y ffaith hon o'i ddewisiad i swydd mor barchus yn un o deuluoedd anrhydeddusaf y sir hono ei fod yn wr ieuanc o rodiad addas a hardd, cystal a'i fod yn ysgolhaig da, ac yn meddu cyneddfau meddyliol cryfion. Gan nad oedd

Digitized by Google

Llanddowror, lle yr efengylai yr enwog Griffith Jones, yn nepell oddiwrth Narberth, arferasai D. Griffiths fyned yno'n fynych pan yn ieuanc i wrando y gwr mawr hwnw; ond pan ddaeth i Lwyngwair cafodd gyfleusdra i gymdeithasu gyda chewri crefyddol yr oes, megys Rowlands, Llangeitho; Howel Harris; Williams, Pantycelyn; Romaine; Jones, Llangan; John a Charles Wesley; Howel Davies; Whitfield, &c., a diau ddarfod i ymddyddanion y gwyr hyn adael eu heffaith dyladwy ar ei feddwl. Yn fuan wedi ymgymeryd â'r swydd o athraw yn Llwyngwair, ymserchodd merch hynaf y boneddwr ac yntau tuag at eu gilydd; ac unwyd hwynt mewn glân briodas. Nid oes dim sicrwydd pa un ai ei briodas ynte ei urddiad a gymerodd le gyntaf; ond sicr yw ddarfod iddo gael ei urddo Hydref 17, 1779, gan Dr. Warren, esgob Tyddewi; a derbyn ei gyflawn urddau gan yr un esgob Medi 3, 1780. Ar ol ei briodas a'i urddiad, trigianai gyda'i deulu yn nghyfraith yn Llwyngwair. Sefydlodd ei enw fel pregethwr poblogaidd a dylanwadol yn union ar ol dechreu ar y gwaith goruchel hwnw; ac yn mhen tua thair blynedd, pan y daeth perigloriaeth Nanhyfer yn wag, y plwyf yn mha un y safai Llwyngwair, trwy ddylanwad Mr. Bowen, cafodd ei benodi gan arglwydd-ganghellydd Lloegr i'r swydd, yr hon oedd yn un o'r bywiolaethau eangaf a chyfoethocaf yn y sir. Cymerodd feddiant o'r fywiolaeth hon Rhag. 2, 1783, a bu yn gwasanaethu yno hyd ei farwolaeth. Trwy ei gysylltiad â Nanhyfer, dygodd y lle anenwog hwnw yn enw eithaf adnabyddus trwy Gymru oll; a swnir ef gyda pharch ac edmygedd gan bererinion Sion hyd yr awrhon, oblegyd fod enw un o efengylwyr mwyaf tanllyd Cymru wedi ei ieuo âg ef. Bu i Mr. Griffiths bump o blant, dau o ba rai a fuont feirw yn eu mabandod; ac fel y gweler un agwedd i'w gymeriad meddyliol, ein dyledswydd ydyw cofnodi ei ymddygiad o tan oruchwyliaeth marwolaeth y babanod hyn. Gwelir fod mwy o Jonah nag o Aaron ynddo o tan y brofedigaeth gyntaf. Bachgen bychan ychydig tres dair blwydd oed oedd y cyntaf a gymerwyd ymaith; ac ymddangosai Mr. Griffiths yn lled anfoddlon i'r weinidogaeth—yn methu yn glir a chusanu y wialen. Absenolodd ei hun oddiwrth yr allor a'r pwlpud am fis neu ddau, ac ymddangosai ei obaith wedi ei lyncu gan anobaith. Pa fodd bynag, cymerwyd un arall o'i anwyliaid ymaith—geneth fach sisialgar 15 mis oed—am ba un yr oedd llinynau tyneraf ei serch yn glymedig. Daeth cryn nifer o offeiriaid i'r angladd, ac amryw ohonynt a gynygient eu gwasanaeth iddo y Sabbath canlynol. Ni ddywedai yntau ddim; "eithr tewi a wnaeth Aaron." O'r diwedd, gofynodd Mrs. Griffiths iddo, "Pwy, fy anwylyd, sydd i wasanaethu yr eglwys y Sul nesaf?" "Myfi fy hun, bid sicr," ebai yntau. "Onid gwell fyddai i chwi gael rhywun arall?" "Na, na," ebai yntau, "y mae hi bellach, fy anwylyd, yn llawn bryd ymostwng, ac ystyried y wialen, a phwy a'i hordeiniodd." Dywedai un hen wr unwaith na feiddiai neb braidd agor ei enau i gynyg rhoddi cynghor iddo ar unrhyw amgylchiad tros ei oes; ac nad oedd neb yn alluog i'w drin ond ei Dad Nefol ei hun. Fel y crybwyllwyd, ymgododd i enwogrwydd yn fuan, ac un o'r rhai cyntaf i werthfawrogi ei ddoniau ysplenydd oedd Rowlands o Langeitho, yr hwn a ymddygai tuag ato megys tad, ac a'i carai â holl ddyfnder a phurdeb serch y naill gywir Gristion tuag at y llall. Ebai Rowlands wrtho un tro, "Fy anwylaf fab, yr wyf yn dra dedwydd wrth eich canfod wedi cael gafael ar wythen aur yr Efengyl. Gofalwch gadw wrthi, gan roddi y gogoniant bob amser i Dduw." Fel mab ffyddlawn, dilynodd Mr. Griffiths y

Digitized by Google

cynghor, ac edrychai ar Mr. Rowlands fel tad, ac arwr Cristionogol, teilwng o efelychiad. Er fod tros 40 milldir o ffordd o Nanhyfer i Langeitho, eto mynych yr elai Mr. Griffiths yno ar ei farch Sabbathau y cymundeb; a phan drowyd Mr. Rowlands allan o'r eglwys trwy archiad yr Esgob Squire, nid oerodd cariad offeiriad Nanhyfer tuag ato. Deuai yno fel cynt; ac wedi i Mr. Rowlands ddechreu darllen llithau yr Eglwys yn ei gapel, a Mr. Griffiths a gynorthwyai yn rhaniad elfenau i'r miloedd a ddeuent yn nghyd yn y dyddiau bywiog hyny ar grefydd. Nid yn unig yr oedd Mr. Griffiths yn wr boneddig o ran moddion, ymddygiad, ac yn un o foneddigion natur mewn yspryd, ond yr oedd yn hefyd caru ymddangos fel gwr boneddig. Golygfa hardd ydoedd ei weled ar farch porthianus, a gwas o'i ol, yn myned tua Chymdeithasfa Llangeitho, tra y byddai y rhelyw o deulu Llwyngwair yn gyru mewn cerbyd gorwych o'i flaen. Yr oedd yn un o farchogion goreu'r wlad, a gorchwyl anhawdd fyddai ei gael i gerbyd; gwell oedd ganddo farchogaeth, fel y gallai fod ar ben ei hun, er mwyn astudio, a dwyn ei feddwl i gywair addas i allu pregethu. Yr oedd gwyr o urddau, yn nghyda boneddigion uchelwaed yr oes hono wedi syrthio mewn cariad â Henaint—yn powdro eu penau yn wynion fel llin, er mwyn bod yn debyg iddo—ac yr oedd y ddullwedd hono mewn cryn fri gydag offeiriad rhagorol Nanhyfer cyn i natur wneud hyny drosto. O tan bowdr gwyn a pheraroglus yr apothicari, anfynych y gwelech ddyn harddach a llawnach o swynion nag ef. Pan safai i fynu yn yr areithfa, teimlai yr edrychydd mwyaf marwaidd ei fod yn gweled gwr boneddig bob modfedd. Yr oedd ei lais hefyd o'r fath fwyaf swynol a soniarus, a phob acen, ystum, ac edrychiad, yn profi ei fod yn areithiwr naturiol a dysgybledig. Yr oedd ei lais yn boddio'r glust, a'i ymadroddion yn llefaru hefo dirgel ddyn y galon. Gyda'i fod yn dechreu twymno yn ei bwnc, gwreichionai mellt o'i eiriau, a byddai'r galon ddynol yn myned yn eirias o tanynt. Dyrwygid yr awyr gan orfoledd, a neidiai y gwrandawyr fel gwallgofiaid, er fod Jones Llangan, Rowlands, a Williams, yn ceisio gan y bobl fod yn dawel am ychydig. I ddim dyben; pa fodd y gallent, tra yr oedd y gwefr nefol yn siglo eu calonau? Nid peth dyeithr iddo ef ydoedd mwynhau yr eneiniad a'r hwylian hyn wrth bregethu. Yr oedd ei ogwydd yn gryf at Fethodistiaeth er dechreuad ei yrfa weinidogaethol, ac yn nghymdeithas Jones o Langan ac craill bu yn gyfnerthiad mawr iddynt ar eu cychwyniad. Byddai'r ddau yn gyfeillion calon, ac yn gydymdeithwyr mynych, er mai Mr. Jones oedd y mwyaf adnabyddus o'r ddau, gan yr arferai deithio llawer ychwaneg na'i gyfaill. Y pryd hwn nid oedd y Methodistiaid Calfinaidd wedi ymffurfio yn enwad annibynol ar yr Eglwys; iddi hi yr elent i gymuno, ei hoffeiriaid hi oedd eu prif bregethwyr, ac ni dderbynient yr elfenau sanctaidd o law neb ond urddedigion Eglwys Loegr. Tra y parhaodd pethau felly, ceid cydweithrediad a chydymdeimlad mwyaf calonog ficar Nanhyfer; ond pan, yn 1811, y darfu i'r enwad gwyno oblegid yr annghyfleusderau yr oedd lluaws o'r aelodau tanynt, oblegyd prinder gwyr urddedig, ac y dechreuwyd ymgynhyrfu am roddi urdd i wyr o'i phlith ei hunan i weinyddu yr ordinhadau, efe a wrthwynebodd y symudiad yn y dull mwyaf egniol. Fel y safasai Daniel Rowlands, Williams Pantycelyn, a Howel Harris o'r blaen, yn erbyn y symudiad hwn, felly y safodd Jones Llangan a Griffiths Nanhyfer, y pryd hwn; ond yr oedd y llanw yn rhy gryf iddynt, mynai corph mawr y blaid ymneillduo; a thybid ddarfod i'r amgylchiad bwyso mor drwm ar feddwl Mr. Jones fel ag i fyrhau ei

Digitized by Google

ddyddian; ac i'r pwnc drallodi Mr. Griffiths yn ddirfawr. O hyn allan ni rodiodd efe mwyach gyda Methodistiaeth; cyfyngodd ei lafur a'i weinidogaeth bellach bron yn hollol i'w blwyf a'i ardal ei hun. Er hyny, yr oedd ei galon i raddau helaeth gyda hwynt, a'i ewyllys da ganddynt; arferai fynychu eu cyfarfodydd mawrion a'u cymanfaoedd os na byddai y cyfryw yn mhell iawn oddiwrtho; a dywed y Parch. E. Morgan, Syston, yn mywgraffiad Saesneg y Parch. John Elias, fod y gwr enwog hwnw yn pregethu un tro yn Sassiwn Aberteifi, ac yn un o'i wrandawyr yr oedd Mr. Griffiths. Ymddangosai geiriau y pregethwr hyawdl yn cael effaith dwys ar ei feddwl.; ac ar derfyn y cyfarfod aeth i fynu'r esgynlawr at Mr. Elias; cofleidiodd ef yn y dull mwyaf gwresog fel brawd yn Nghrist, ac anerchodd ef gyda geiriau serchlawn gerbron yr holl cynulleidfa. Y mae yn anhawdd gwybod pa un ai ar hyawdledd Elias ynte hynawsedd Cristionogol periglor Nanhyfer yr adlewyrcha'r hanesyn hwn fwyaf o glod. Yr oedd efe yn un o'r pedwar pregethwr o Gymru a ddewiswyd gan yr Iarlles Huntingdon ar gyfrif eu duwioldeb, eu ffyddlondeb, a'u hyawdledd, i weinyddu yn ei chapel yn Llundain yn y cylch blynyddol o dri mis; a mawr y llwydd a'r derbyniad a gafodd fel y cyfryw. Y tri eraill oeddynt y Parchn. Jones, Llangan, Nathaniel Rowlands, a Thomas Charles. Efe hefyd oedd un o'r ymddiriedolwyr *(trustees)* cyntaf ar y £10,000 a adawodd yr haelionus Madam Bevan yn ei hewyllys tuag at ddwyn yn mlaen yr ysgolion rhad cylchynol yn Nghymru; ac wrth geisio cyflawni yr ymddiriedaeth yn onest cyfarfyddodd â chryn wrthwynebiad a rhwystrau. Mynai rhai o berthynasai y foneddiges dori'r ewyllys, er cael y swm uchod i'w meddiant eu hunain. Taflwyd y cynghaws i lys yr arglwyddganghellydd, ac yno y bu heb ei benderfynu am yn agos i 30 mlynedd. Penderfynodd Mr. Griffiths a'i gyd-ymddiriedolwyr y mynent rhyw derfyniad ar y mater, ac ar ol hir a dygn ymdrafod, llwyddwyd i sicrhau yr holl arian o blaid yr ysgolion; yr oeld y swm wedi cynyddu erbyn hyn i £30,000, ac y mae llôg y cyfryw swm yn cael ei gyflwyno tra byddo dwfr yn rhedeg er gweinyddu addysg i blant tlodion Cymru. Mewn canlyniad, ail-sefydlwyd yr ysgolion ar unwaith, a bu Mr. Griffiths yn eu llywyddu yn egniol a doeth am lawer o flynyddau. Wedi trigianu am hir amser yn Llwyngwair, prynodd etifeddiaeth o'r enw y Berllan, gerllaw Eglwyserw, ac adeiladodd balas ysplenydd yno, lle y preswyliodd hyd derfyn ei oes mewn parch ac anrhydedd. Cymerai ddifyrwch mawr mewn amaethyddiaeth, yr oedd ganddo ganoedd o erwau o dir ar law, ac ystyrid ef yn un o amaethwyr goreu sir Benfro. Penodwyd ef yn ynad heddwch tros y sir hono, ac er y cyhuddid ef weithiau o lymder yn nghyflawniad y swydd, eto rhoddai foddlonrwydd llwyr i'r sawl a garent onestrwydd a threfn. Trwy ei undeb priodasol â Miss Bowen, daeth i lawer o gyfoeth; a bu hi yn wraig dda ac ymgeledd gymhwys iddo tros ei hoes. Bu iddynt un mab, yr hwn a gafodd bob mantais addysgiadol; dygwyd ef i fynu yn Rhydychain, ond trodd allan yn hollol groes i ddisgwyliad ei riaint. Bu Mr. Griffiths farw yn Berry Hill, ger Trefdraeth, sir Benfro, Medi 14, 1834, pan yn 78 oed. Claddwyd ef yn eglwys Nanhyfer; ac fel prawf o'r parch uchel a goleddid tuag ato, gellir nodi fod tua thair mil yn bresenol yn ei angladd, llawer o ba rai oeddynt foneddigion uchelwaed. Fel areithiwr yn y pwlpud, tebygai fwy i Rowlands Llangeitho nag odid un o'i gydoeswyr. Yn y *Gwyliedydd* am 1835, ceir dysgrifiad lled gyflawn o ddoniau Mr. Griffiths fel pregethwr, o waith y Parch.

Digitized by Google

John Owen, Thrussington, a chan i'r awdwr galluog hwnw gael y fraint o'i wrando amryw weithiau, nis gallwn yn well na dyfynu y portread a geir yno ohono :—" Yr oedd ymddangosiad Mr. Griffiths yn yr areithfa yn barchus, ei lais yn beraidd, a'i lafariad yn rhwydd ; ond yr hyn oedd yn ei hynodi oedd yr ymruthriadau, os goddefol y gair, a wnai ar dr iau ar y gynulleidfa, fel nad oedd braidd yn ddichonadwy ei wrthsefyll. Nid uchel oedd ei lais ond ar brydiau. Byddai yn amlaf yn llwyr arafaidd yn trin yr hyn a fyddai ganddo mewn llaw mewn modd digyffro, ac eto yn eglur, yn syml, ac yn ddengar. Yr oedd wrth ddechreu, fel pe buasai am gael gafael ar ddeall a sylw ei wrandawyr, ac megys yn darparu y ffordd er dwyn yn y blaen yr hyn oedd yn chwenych argraffu ar eu meddyliau a'u calonau. Fel yr oedd yn nesau at yr hyn oedd fwyaf pwysfawr, yr oedd ei wyneb megys yn dadebru, ei lais yn dyrchafu yn seingar, a'i holl agwedd yn gynhyrfiol ; ac yna torai allan mewn modd tra nerthol â'i holl egni, nes byddai ei eiriau yn treiddio trwy yr holl dyrfa. Gwelais ganoedd ar unwaith yn cael eu rhoddi mewn syndod dwys, a'r dagrau yn treiglo dros wynebau llawer-oedd. Nid hwy y parhai yr ymgyrch grymus hwn, nag y byddai yn ofynedig : adferai drachefn ei ddull a'i agwedd flaenorol. Cymerai bwnc arall mewn llaw, neu ran arall o'i destun. Nid oedd arno yn mron un amser ddiffyg defnydd neu eiriau, er ei fod yn lled araf yn aml wrth ddechreu rhyw fater. Triniai y pwnc nesaf, fe allai, mewn modd gwahanol. Arferai ymadroddiad byr a dwys, gan ddywedyd pethau treiddiol, dengar, a thoddedig. Cymerai ddull ymddiddan mewn llais cyfaddas, eto mewn modd fel pe buasai ei galon yn llefaru. Yr oedd mwy o amrywiaeth yn ei ddull nag a welais yn neb arall. Gwnai agor ac egluro ei destun yn eglur ac yn dawel, ymddiddanai yn fwyn-aidd, ymresymai yn araf, cyngherai yn garuaidd, cysurai yn doddedig, ceryddai yn llym, ac eto yn dosturiol, taranai yn ddychrynllyd, a gor-foleddai â'i holl egni, a'r cwbl gyda y gweddeidd-dra mwyaf. Nid oedd un ymddangosiad o ddyfais neu fwriad mewn un dull a arferai, ond oll yn gynhenid, yn deilliaw, wrth bob argoeliad, yn reddfol o agwedd ei feddwl, ac o'i ysgogiadau tufewnol, ac yn unol â'r hyn a fyddai yn draethu. Dianmheu iddo ar y cyntaf lafurio am ddull addas, a chyr-haeddodd hyny trwy hir ymarfer. Dwys ystyriasai yn ddiau anian dyn, ac ymdrechai i arferyd y dull, a'r modd mwyaf tebygol i agor y deall, i enill sylw, ac i effeithio ar y galon a'r teimladau. A dylai hyn fod yn wrthddrych mwy nag ydyw gan Weinidogion y Gair ; nid er enill poblogrwydd, ond er enill eneidiau. Nid oedd dim yn null Mr. Griffiths a arddangosai un dyben arall. Nid boddloni y glust, ond diwygio y galon, oedd yn eglur ei holl amcan. Nid arferai un amser eiriau chwyddedig, ond geiriau gwirionedd a sobrwydd. Nid doethineb dyn a gyhoeddai, ond y ddoethineb sydd oddiuchod." Yr oedd dylan-wadau rhyfedd yn dilyn ei bregethu yn fynych—tra y byddai ei hyawdledd yn dychrynu pechaduriaid, byddai hefyd yn lloni y saint ; a chan iddo ef oroesi yr oll o'r tô hen o ddiwygwyr Cymreig, byddai'r hen bobl yn wylo'n hidl tan ei weinidogaeth mewn adgof melus a hiraeth dwys am y dyddiau hwyliog a dedwydd a fwynhasent yn eu hieuenctyd. Yr oedd Mr. Griffiths yn pregethu un tro yn Llanddewi-brefi, Ceredigion, ac yn mhlith ei wrandawyr yr oedd yr hen dad parchus y Parch. Thomas Jones, o Creaton. Nid adwaenai Mr. Jones mohono o'r blaen ; ond synodd yn fawr iawn wrth ei glywed ; ac ni allai ymatal rhag wylo o orfoledd wrth ei wrando ; a dywedodd wedi hyny

Digitized by Google

na chlywsai neb o'r blaen mor debyg yn ei ddawn pregethu i'r digymhar Rowlands o Langeitho. Rhydd y Parch. Hugh Lloyd, offeiriad cyfrifol, a glywsai Mr. Griffiths amryw weithiau, yr hanesyn canlynol :—"Yr oedd yn pregethu yn Llangeitho, a'r gwirionedd a drinai oedd *gweddi*. Yr oedd yn dangos mor effeithiol ydyw, a chadarnhaodd hyn trwy gyfeirio at yr hyn a gymerodd le pan roddwyd Pedr yn ngharchar, ac y gwnaed gweddi trosto gan yr eglwys. 'Rhyfedd,' meddai, 'yw effaith gweddi. Wele hi yn myned i fynu i'r nefoedd, ac yn dwyn angel Duw i lawr i'r carchar; a phan ddaeth yno, gan daro ei ystlys, gwaeddodd *Pedr, cyfod!*' ac wrth ddywedyd y gair diweddaf, tarawedd yr areithfan â'i law, a'i lais a'i olwg yn cydweddu, ac effeithiodd hyn yn dra hynod ar yr holl dyrfa, gymaint a phe gwelsent yr angel yn dihuno Pedr." Dro arall, yn yr un lle, yr oedd yn pregethu ar yr adgyfodiad. Enwodd rai o'r gwrthddadleuon cadarnaf yn erbyn yr athrawiaeth. "Dywed rhai," meddai, "nad yw yn bosibl i'r fath beth gymeryd lle, oherwydd gofynant, Pa fodd yr adgyfodir y cyrph hyny a daflwyd i'r mor, ac a ddifawyd gan bysgod, neu y cyrph hyny a losgwyd ac y gwasgarwyd eu llwch gan y gwynt? Felly y gwrthddadleuir: ond pa mor ofer yw y fath resymau! Pwy ydyw yr hwn a adgyfoda y meirw? YR HOLLALLUOG—EFE," gan estyn ei law, "yr hwn sydd yn dal y moroedd ar gledr ei law: a'r hwn," gan gau ei ddyrnau, a'u hestyn ar led, "sydd yn casglu y gwynt yn ei ddyrnau." Gwnaethai hyn gyda'r fath gymhwysder, gweddeidd-dra a hwylusrwydd, ac mewn modd mor gynhyrfiol, fel yr effeithiodd yn dra rhyfeddol ar yr holl dyrfa. Fel engraifft arall o'i fawr ddylanwad ar y gwrandawyr, a naturioldeb ei bortreadau areithyddol, dywed y Parch. William Jones, Nefyn, yn ei "Draithawd ar Farn a Darfelydd," fod Mr. Griffiths unwaith yn pregethu allan yn mynwent Nanhyfer, a'r darlun a dynai gerbron ei gynulleidfa fawr ydoedd o Moses yn holi yr Ysbiwyr. Wedi derbyn tystiolaeth amrywiol ond anffafriol y deg, edrychodd tua phen pellaf y dorf, ac amneidiodd â'i law gan ddywedyd, "Caleb a Joshua, deuwch chwi yn mlaen yn awr i roddi eich tystiolaeth." Yr oedd y portread mor gyflawn a naturiol, fel yr agorodd y dyrfa yn adwy er mwyn gwneud lle i'r ddau dystiolaethwr tybiedig fyned yn mlaen at yr areithiwr. Nid oes ar gael ond ychydig engreifftiau o areithyddiaeth mor nerthol; ac y maent yn profi pa fath athrylith benigamp a fu'n llechu yn ddystaw mewn cydmariaeth am yspaid maith mewn lle dinod a gwledig fel Nanhyfer.

GRIFFITHS (EDMUND), D.D., esgob Bangor, oedd bedwerydd mab i Griffith ab John Griffith, o Gefnamwlch, yn sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef yn 1570. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn ngholegau Brazenose ac Iesu, Rhydychain. Graddiwyd ef yn M.A. yn 1592. Awst 8fed, 1599, cafodd bersoniaeth Llandwrog, a'r flwyddyn ganlynol ganoniaeth yn eglwys Bangor. Yn 1604, cafodd bersoniaeth Llanbedrog, sir Gaernarfon. Gwnaed ef yn ddeon Bangor yn 1613; ac yn 1633, dyrchafwyd ef yn esgob. Bu farw yn 1637, a chladdwyd ef yn y brif-eglwys. Yr oedd ganddo fab a elwid WILLIAM AB EDMWND; yr hwn oedd yn berson Llanddeiniolen, ac yn ganon yn Mangor, ac a fu farw yn amser y gwrthryfel gwladol.

GRIFFITH (ELIZABETH), boneddiges a enillodd gryn raddau o enwogrwydd trwy ei chyfansoddiadau llenyddol, oedd enedigol o Gymru. Priododd foneddwr Gwyddelig o'r enw Richard Griffith; eithr ni wyddis ond ychydig o'i hanes, ond a geiglir oddiwrth ei

Digitized by Google

gweithiau. Cyhoeddodd "Letters of Henry and Frances," y rhai, tybir, ydynt yr ohebiaeth a gymerodd le rhyngddi hi a'i gwr cyn ac ar ol priodi. Cyfansoddodd amrai ddarnau dramayddol, ffughanesion, &c. Bu farw yn 1793.

GRIFFITHS (Parch. Evan), Meifod, oedd fab i Edward a Margaret Griffiths, Rhosfawr, ger Meifod, sir Drefaldwyn, lle y ganwyd ef Mawrth 12, 1778. Ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd pan yn 14 oed, gwnaed ef yn flaenor yn eu plith yn 18 oed, a dechreuodd bregethu yn 24. Ei fuchedd sobreddwys yn nghyda'i ymroddiad trylwyr i grefydd, a enillasant iddo y graddau da hyn mor ieuanc. Fel prawf pellach o dyb uchel yr enwad am dano, yr oedd efe yn un o'r wyth pregethwr lleygaidd a neilldawyd gyntaf gan y Methodistiaid i weinyddu yr ordinhadau yn eu plith, yr hyn a gymerodd le yn 1811. Ystyrid ef yn wr enwog, llafurus, a selog tros bob achos da. Bu farw Medi 6, 1839. Ysgrifenwyd cofiant ohono gan y Parch. John Hughes, Pontrobert, yn yr hwn y gwelir un o'i bregethau. Brawd iddo ef oedd Thomas Griffiths, gwr Ann Griffiths, yr emyneddes o Ddolwar Fechan, yntau hefyd yn meddu cyneddfau cryfion, ac yn awdwr ychydig o emynau.

GRIFFITH (George), D.D., prelad enwog a anwyd yn y Penrhyn, sir Gaernarfon, yn 1601. Addysgwyd ef yn ngholeg Westminster, a chafodd ei ethol i astudio yn ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1619, lle y daeth yn bregethwr a dysgawdwr enwog. Wedi ei benodi yn gaplan i'r Dr. John Owen, esgob Llanelwy, cafodd ganddo bersoniaeth Llanfechain, yn sir Drefaldwyn, yr hon a gyfnewidiodd am Lanymynech; ac hefyd bersoniaeth Llandrinio. Yn 1631, gwnaed ef yn ganon yn esgobaeth Llanelwy; ac enillodd y radd o D.D. yn 1635. Pan dorodd y chwyldroad gwladol allan, collodd bron yr oll o'i ddyrchafiadau; eithr ymlynodd yn ddiwrthgil wrth yr eglwys a'i frenin mewn amrywiol ffyrdd, am ba wasanaeth y gwobrwywyd ef ar adferiad y freniniaeth. Tra yn trigianu yn Llanymynech, o ba le, tybir, y cafodd ei droi allan, ysgrifenodd, yn 1652, "A modest Answer to a bold challenge of an Itinerant Preacher, Vavasor Powell;" ac mewn atebiad i'r cyntaf, ysgrifenodd yr un flwyddyn ail lyfryn, tan y teitl, "Animadversions on an imperfect Relation in the *Perfect Diurnall*, containing a Narration of a Disputation between Dr. Griffith and Vavasor Powell, near New Chapel, in Montgomeryshire." Ymgymerodd a chyfieithu y Llyfr Gweddi Cyffredin o newydd i'r Gymraeg, eithr nis gwyddis a ddarfu iddo orphen y gwaith a'i peidio. Yn y gymanfa o glerigwyr a gynaliwyd yn 1640, efe a wnaeth gynygiad i gael argraffiad newydd o'r Bibl yn Nghymraeg, eithr ni chafwyd yr un hyd 1654. Dyrchafwyd ef yn esgob Llanelwy yn 1660, ac urddwyd ef i'r swydd uchel yn nghapel Harri VII. yn Westminster Hydref 28. Parhaodd i ddal trwy gynddrychiolydd ei fywiolaethau blaenorol, yn nghyda gwag-fywiolaeth Llanrhaiadr yn Mochnant. Yn nghymanfa y clerigwyr a gynaliwyd yn 1662, cymerodd ran yn nghyfansoddiad Deddf yr Unffurfiad, ac yn nghyfnewid rhanau o'r Gweddiau Cyffredin; a thybir mai ei waith ef ydyw y Ffurf o Fedydd i'w dodi ar bobl mewn oed. Yr oedd hefyd yn awdwr "Some Plain Discourses upon the Lord's Supper," y rhai, pa fodd bynag, ni chyhoeddwyd hyd 1684. Bu farw yn Nhachwedd, 1663; a chladdwyd ef yn nghôr ei eglwys gadeiriol. Priodwyd merch iddo gan John Middleton o Waenynog, yn yr hwn le y mae arlun o'r esgob yn nghadw hyd y dydd hwn.—Wms. *Em. Welsh.*

GRIFFITH (Parch. George), ydoedd enedigol o sir Fynwy; ac a

Digitized by Google

gafodd ei ddysgeidiaeth yn Neuadd Magdalen, yn Rhydychain, lle y cafodd ei raddio yn B.A. yn 1642. Bu wedi hyny yn ymlynwr wrth Oliver Cromwel, a phregethai yn fynych o'i flaen ef a'r senedd yn ei ddydd. Cyhoeddodd rai pregethau a draddodwyd ganddo yn y Charterhouse, ger Llundain. Pan ddychwelwyd Charles II. i'r orsedd, efe a ddistawyd, gan na chydymffurfiai â'r canonau eglwysig.—*Lleyn MSS.*

GRIFFITHS (Parch. Griffith), ydoedd fab Griffith Griffiths, o'r Ty Nant, yn mhlwyf Llanfihangel-geneu'r-Glyn, sir Aberteifi. Wedi derbyn elfenau ei ddysgeidiaeth gan offeiriaid, ac eraill, yn ei gymydogaeth ei hun, efe a roddwyd dan ofal yr ysgolhaig medrus hwnw, y diweddar hybarch Archddiacon Williams, pan oedd yn athraw yr Ysgol Ramadegol yn Llanbedr Pont Stephan, lle y treuliodd bedair blynedd, gan ymfanteisio yn helaeth ar alluoedd dysgeidiol ac athrawol ei Rabbi enwog. Ordeiniwyd ef yn ddiacon gan esgob Llundain, i fyned yn genadwr i'r India Orllewinol, o dan y "Gymdeithas er Dychweliad y Caethion Negroaidd," i'r hon yr oedd ei arglwyddiaeth—wedi hyny Archesgob Caergaint—yn llywydd. Cyrhaeddodd ynys Jamaica yn 1825, ac urddwyd ef yn offeiriad gan y Dr. Lipscome, esgob y drefedigaeth hono. Y gofal gweinidogaethol cyntaf a gafodd ydoedd capel *Marchioneal Bay.* Yn 1827, mewn canlyniad i waeledd cynyddol y Parch. Phillip Humphreys, person Portland, daeth dyledswyddau y gweinidog oedranus hwnw arno i'w cyflawni; ac ar farwolaeth Mr. Humphreys yn 1833, efe a ddyrchafwyd gan yr Esgob Lipscombe i'r bersoniaeth hono. Bechan iawn oedd y gynulleidfa y pryd hyny, ond cynyddodd yn gyflym. Tua'r amser yr oedd yn gadael Portland, wedi marwolaeth Mr. Frazer, person Trelawney, yr oedd nifer y cymunwyr rhwng wyth a naw cant o eneidiau—cymaint oedd ei boblogrwydd fel yr aeth eglwys y plwyf yn rhy gyfyng i gynwys tyrfa ei wrandawyr, a phenderfynwyd codi adeilad digon helaeth, yr hyn, trwy ymdrech, a gyflawnwyd, a darfu i'w gynulleidfa gyfranu yn helaeth tuag at y draul. Fel yr awgrymwyd, ar farwolaeth Mr. Frazer, cafodd Mr. Griffiths bersoniaeth plwyf helaeth a phwysig Trelawny. Yr oedd ef yn un o'r cenhadau mwyaf llafurus a llwyddiannus ag ydoedd ar y maes y pryd hyny. Yr oedd ei lafur mewn amseroedd terfysglyd—rhyddhad y caethion yn destun dadleuaeth barhaus, a llawer iawn yn erbyn eu dysgu mewn pethau crefyddol; ond yr oedd Mr. Griffith wedi ei anfon i'r pwrpas hwnw, gan awdurdod uchaf yr eglwys y perthynai iddi, a gweithiodd allan yn ddifradychiad yr ymddiriediad a roddwyd arno. Bu farw Rhagfyr 8, 1845.—*Lleyn MSS,*

GRIFFITHS (Parch. Griffith), Casnewydd, oedd weinidog parchus a phoblogaidd gyda'r Annibynwyr, Ganwyd ef yn mhlwyf Llanedi, sir Gaerfyrddin, tua'r fl. 1794. Yn fuan ar ol marwolaeth ei dad, yr hyn a gymerodd le tra yr oedd efe yn dra ieuanc, ymgymerodd â'r alwedigaeth o saer coed, yr hon alwedigaeth a ddilynodd yn ddiwyd a chyson hyd nes y dechreuodd, ar gais yr eglwys Annibynol yn Llanedi, ar y gwaith a bregethu yr Efengyl. Yn fuan wedi dechreu pregethu aeth i ysgol ramadegol yn yr ardal, ond yn mhen rhai misoedd aeth oddiyno i athrofa y Neuaddlwyd, lle yr enillodd barch yr athraw —y Dr. Phillips, a'r myfyrwyr, ar gyfrif ei foesgarwch, ei ddoniau, a'i ymroddiad cydwybodol i'w waith. Pan oedd yn y Neuaddlwyd, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwysi yn Ebenezer, a Llanfaircludogau, a Thy'nygwndwn, sir Aberteifi. Cydsyniodd â'r cais, ac urddwyd ef ar y 5ed o Ebrill, 1831. Bu yn llafurus iawn yn y cylch eang hwn, am

Digitized by Google

16 o flynyddoedd; ail-adeiladwyd y tri chapel yn ystod ei weinidogaeth ef. Sefydlodd eglwys yn Llanbedr Pont Stephan, y dref yn yr hon y preswyliai, a lle y perchid ef gan wreng a boneddig.

Yn 1837, symudodd Mr. Griffiths i'r Casnewydd, ac ar ol tair blynedd o lafur cyson a llwyddianus yn y lle hwnw, symudodd i Aberhonddu, mewn ufudd-dod i alwad oddiwrth eglwys y Pough, ac yn fuan ar ol ei symudiad, adeiladwyd y capel eang a chyfleus sydd gan yr Annibynwyr yno yn bresenol. Yr oedd symudiad Mr. Griffiths i Aberhonddu yn un amserol ar lawer cyfrif—symudasid yr athrofa o'r Drefnewydd i Aberhonddu ychydig cyn hyny. Nid yn hawdd y gallesid cael un mor gymhwys i weinidogaethu mewn tref lle yr oedd llawer o wyr ieuainc yn ymbarotoi at waith y weinidogaeth. Yr oedd yn wr gweddus yn mhob peth,—yr oedd ei wisg yn weddus, ei ymddyddanion yn weddus, ei arddull o bregethu yn weddus, a'i holl ymddygiadau yn weddus. Yr oedd ei holl fywyd yn esiampl addas i'r myfyrwyr ieuainc, ac ni ddysgodd iddynt erioed un arferiad annheilwng o'r weinidogaeth. Yr oedd perarogl ei uchel alwedigaeth yn mhob man lle y byddai. Yr oedd y pryd hwnw, yr un fath a chyn a chwedi hyny, gynhwrf ar amserau yn yr athrofa hono, fel pob athrofa arall. Un hynod o fedrus oedd Mr. Griffiths i daflu dwfr oer ar "dân dyeithr." Dywedai, gyda thawelwch digyffelyb, "Mi welais bethau o'r fath yma o'r blaen, eithr ni welais erioed ddaioni o'r rhai a flaenorent gyda phethau o'r fath yma." Yr oedd yn hynod gymedrol yn mhob peth, ac yr oedd pob ysbryd chwildroad yn diflanu dan ei ddylanwad. Yr oedd yn wr pwyllog a doeth. Yr oedd pob ffolineb yn ffiaidd ganddo, a mynych y clywid ef yn dywedyd, "Nid yw peth felly yn *ddoeth.*" Doethineb ydyw un o enwau anwyl gwir grefydd, ac yn ngolwg Mr. Griffiths, yr oedd ymddygiad annoeth yn ymddygiad annghrefyddol. Cawsom y fantais o'i wrandaw yn pregethu lawer gwaith. Nid oedd ei eiriau yn ddetholedig, na'i frawddegau yn gaboledig—ni chlywsom ganddo un frawddeg finiog, ag a lynai am byth yn nghôf y neb a'i clywai—ac eto yr oedd yr holl gyflawniad yn hollol weddus. Yr oedd ei chwaeth a'i gydwybod yn annghymeradwyo pregethau meithion. Yr oedd dynion yn pregethu yn faith, yn ol ei farn ef, nid oherwydd fod ganddynt lawer i'w ddywedyd *ar y testun*, ond oblegyd eu bod yn *gadael y testun*, gan grwydro i gyrau y byd. Yr oedd yn lled *dogmatic*, fel dynion o argyhoeddiadau dyfnion yn gyffredin, eithr nid oedd byth yn gwthio ei olygiadau neilldiol yn nanedd pobl o olygiadau gwahanol. Yn gyffredin, yr oedd ei wedd yn brudd, ond tua diwedd y bregeth, yn neilldiol os cai dipyn o hwyl, yr oedd y prudd-der yn ffoi, a sirioldeb yn cymeryd ei le. Nid ydym yn cofio rhyw bethau nodedig a glywsom ganddo, ond yr ydym yn cofio yn dda ein bod yn teimlo yn well ar ol ei glywed. Yn mlynyddoedd boreol ei fywyd gwnaeth ymdrech gydwybodol i gymhwyso ei hun i waith y weinidogaeth, a bu yn weinidog da i Iesu Grist, hyd nes y pallodd ei nerth, ac y dadfeiliodd ei iechyd. Ar ol wyth mlynedd o lafur yn Aberhonddu, symudodd Mr. Griffiths yn ei ol at ei hen eglwys yn Nghasnewydd, lle y parhaodd i weinidogaethu hyd nes y lluddiwyd ef yn hollol gan nychdod a gwendid. Aeth at ei fab i Aberhonddu, gan obeithio y cawsai leshad drwy newid yr awyr. Ond fel arall y bu. Ni ddychwelodd mwyach i Casnewydd. Yr oedd angau wedi gosod ei nôd arno. Bu farw Mawrth 15, 1861, yn 68 oed, a chladdwyd ef yn nghladdfa gyhoeddus Aberhonddu. Mae ei holl feibion yn weinidogion cymhwys y Testament Newydd—yr henaf

Digitized by Google

gyda y Saeson yn Aberhonddu; yr ail yn Australia; a'r trydydd (yr hwn a raddiwyd yn A.C., ac a enillodd y *Gold Medal* yn mhrif ysgol Llundain) yn Great Yarmouth.

GRIFFITH (PARCH. JAMES), Tyddewi, a anwyd yn y Clungwm, plwyf Meidrym, sir Gaerfyrddin Awst 2, 1782. Dechreuodd grefydda pan yn ieuanc, mor ieuanc fel y gomeddai ei dad yn y dechreu, oblegyd ei ieuenctyd, ganiatau iddo wneud proffes gyhoeddus. Yn y bywgraffiad a ysgrifenodd ohono ei hun, rhydd ar ddeall fod ei fam yn wraig dra grefyddol, ac yn ymdrechu a'i holl egni blanu yr unrhyw anianawd yn ei phlant. Yn mhen ychydig wedi ymuno ag eglwys Bethlehem, St. Clears, teimlai awyddfryd cryf yn ei feddwl at fod yn bregethwr. Y prif gymhelliad oedd y dybiaeth mai felly y gallasai fyw fywaf duwiol. Gyda'r bwriad hwn yn ei fynwes, pan yn 16 oed, aeth i'r ysgol at y Parch. G. Evans, offeiriad St. Clears, a thra yn aros yno, y cynygiodd yn gyhoeddus gyntaf ar ei hoff waith, a hyny yn Llanboidy. Digon cymylog a niwliog y profodd y tro, a methiant mewn llawer ystyr fu y cais. Mewn cryndod ac ofn y dechreuodd y bregeth hono, ac mewn tywyllwch y diweddodd. Pa fodd bynag, bu yn fwy ffodus y tro nesaf, a gadawodd yr amgylchiad addysgiadau gwerthfawr iddo ar gyfer y dyfodol. Gadawodd ysgol St. Clears; ac ar y dydd yr oedd yn 18 oed, aeth i ysgol ramadegol oedd yn Nghaerfyrddin o tan ofal y Parch. Timothy Davies, mab yr ysgolor enwog Davies Castellhywel. Wedi treulio yno ddwy flynedd, cafodd dderbyniad i'r coleg, y pryd hwnw o tan ofal y Parchn. D. Peter, a D. Davies, Llanybri. Estynodd ei arosiad yma am bedair blynedd, a safai yn rheng flaenaf yr efrydwyr. Ar derfyn ei amser yn y coleg, derbyniodd alwad unfrydol eglwys Annibynol Machynlleth i fod yn weinidog arni; a dechreuodd ar ei waith yno yn 1806, ac urddwyd ef i'r swydd Mawrth 7, 1807. Ymroddodd â'i holl egni i fod yn ddefnyddiol yn ei swydd; a thrwy ei ddiwydrwydd a'i lafur, bu yn foddion i sylfaenu amryw eglwysi yn siroedd Maldwyn a Meirion, y rhai ydynt yn parhau yn eu llewyrch hyd y dydd hwn. Yr oedd cylch ei weinidogaeth yn cynwys Penal, Aberhosan, Towyn, Llanegryn, a Llwyngwril. Yn 1811, priododd ag un Sarah Phillips, o ardal Trefgarn, sir Benfro. Am y flwyddyn gyntaf wedi iddynt briodi, cartrefasant yn Llanferran. Y pryd hwnw, gweinyddai Mr. Griffiths ddau Sabbath yn y mis yn Machynlleth, a'r ddau arall yn cynorthwyo yr hen weinidog William Harris yn Rhodiad a Solfach, sir Benfro. Yr oedd Mr. Griffiths y pryd hwn yn lled gyfoethog,—yn berchen dau dyddyn, ac o ganlyniad yn fforddio rhoddi ei wasanaeth yn sir Benfro am ddim. Yr oedd teithio o'r naill fan annghysbell i'r llall bob mis yn llafur mawr, a symudodd ef a'i deulu i gartrefu i Fachynlleth; ac wedi tario yno am ddwy flynedd, dychwelasant i Lanferran, lle treuliodd efe weddill ei oes, yn gweinidogaethau i'r ddwy eglwys grybwylledig, yn nghydag eglwys Berea, cangen a sefydlwyd yn ei amser ef. Bu farw yn lled sydyn Ebrill 11, 1858, (dydd Sabbath) pan oedd geiriau diolchgarwch i Dduw yn diferu tros ei wefusau, a chladdwyd ef yn mynwent capel Ebenezer, Tyddewi. Cyhoeddodd Mr. Griffiths, yn fuan wedi ei ddyfodiad i'r Gogledd, sef yn 1811, lyfryn bychan tan yr enw, "Trefn Eglwys tan y Testament Newydd;" amcan yr hwn ydoedd goleuo y wlad pa beth ydynt egwyddorion, dull, a threfn yr eglwysi Cynulleidfaol. Ychydig cyn ei ymadawiad o Fachynlleth, cyhoeddodd y Parch. J. Roberts, Llanbrynmair, lyfr ar *Ddybenion Marwolaeth Crist*, yn yr hwn hefyd yr oedd erthygl o waith Mr. Griffiths ar "Ewyllys Duw."

Digitized by Google

Gan fod cryn ogwydd yn y ddau draithawd at y gyfundrefn a elwir yn bresenol Fulleriaeth, creodd eu cyhoeddiad gynhyrfiad dirfawr yn mhlith y blaid uchel Galfinaidd, a gwnaed ymosodiad ffyrnig ar y ddau awdwr parchedig. Parodd hyn i Mr. Roberts gyhoeddi llyfr arall tan y teitl *Galwad Ddifrifol, &c.*, gyda'r hwn yr ail-argraffwyd erthygl Mr. Griffiths. Dygpwyd y ddadl hon yn mlaen i dir mor bell, fel y ceisiwyd diarddel Mr. Griffiths, a'i frawd y Parch. Benjamin Griffiths o Drefgarn, allan o gyfundeb sir Benfro. Er mai y Meistri Roberts a Griffiths oeddynt nôd saethau eu gwrthwynebwyr, eto nid oedd cyhoeddiad y traethodau crybwylledig ond ffrwyth cydweledigaeth unfarn rhwng yr awduron â'r Parchn. Williams o'r Wern, Breeze Liverpool, Everett Dinbych, Jones Llanuwchllyn, a Morgan Machynlleth. Parodd yr ymrysonfa hon gryn lawer o fwg a thywyllwch ar y pryd, ond wedi i'r dymhestl fyned heibio, gwelwyd fod rhyddid barn a chydwybod wedi dal y rhuthriadau yn ddianaf. Mab i Mr. Griffiths ydyw y *Professor* Griffiths, gynt o Liverpool.

GRIFFITH (John), duwinydd dysgedig, a anwyd yn Nghymru, ac a addysgwyd yn Rhydychain. Mynach ydoedd, yn perthyn i'r urdd Cistercaidd, yn mynachdy Hales Owen, sir Worcester. Dywedir ei fod yn wr duwiolfrydig a dysgedig, a gogwydd ei feddwl yn fawr at ddiwygiad yn yr eglwys; "eithr ei ffydd a ymlynodd eilwaith, er llawenydd dirfawr y Pabyddion, y rhai a'i ystyrient yn bregethwr yn Lladin cystal ag yn Saesneg." Cyhoeddodd "Concioiones Æstuales," a "Conciones Brumales," heblaw rhai llyfrau eraill. Yr oedd yn ei flodeu yn 1550, gorfucheddodd ddyddimiad y mynachdy y perthynai iddo, eithr nis gwyddis pa bryd nac yn mha le y bu farw.—Wms. *Em. Welsh.*

GRIFFITHS (Parch. John), Caernarfon, a anwyd yn ardal Pencadair, sir Gaerfyrddin, Mai 10, 1752. Proffesodd grefydd yn ieuanc gyda'r Annibynwyr yn Mhencadair; a phan yn 18 oed, ar gymeradwyaeth yr eglwys, danfonwyd ef i athrofa Caerfyrddin, o tan ofal addysgiadol y Parchn. R. Gentleman a Dr. Jenkins. Wedi bod yn yr athrofa hono o gylch saith mlynedd, derbyniodd alwad eglwys fechan o Annibynwyr yn Llanfyllin, sir Drefaldwyn, ac urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yno yn Gorphenaf 1780. Y flwyddyn ganlynol, priododd Agnes Meredith, yr hon oedd yn byw yn agos i'r Trallwm, a'r hon a fu farw yn 1797, pan yn 42 oed, heb adael teulu ar ei hol. Bu Mr. Griffiths yn hynod o lafurus a llwyddianus gyda gwaith y weinidogaeth yn ystod ei arosiad byr yn Llanfyllin. Elai i'r ardaloedd cylchynol fel cenhadwr, ac ymgynullai pobl lawer i'w wrando yn traddodi'r gwirioneddau yn y prif-ffyrdd a'r maesydd a'r mynyddau, a pha le bynag y cai bechaduriaid i'w wrando. Bu yn offeryn i ddechreu achos a chodi capel i'r Annibynwyr yn y Trallwm a'r Sarnau. Trwy lawer o drafferth y cafodd efe restru y manau hyn i addoli ynddynt; ond mynodd ei iawnderau, a synodd gryn lawer ar gyfreithwyr ac ynadon pan ddywedodd wrthynt yn y llys fod gan yr Ymneillduwyr hawl gyfreithlawn i gofrestru eu haddoldai, ac nad oedd gan neb hawl i'w gomedd. Bu ei einioes mewn enbydrwydd amryw weithiau oddiar law erlidwyr; ond nid oedd ei einioes yn werthfawr yn ei olwg os gallai orphen ei yrfa mewn llawenydd. Yn mhen dwy flynedd wedi ei urddiad yn Llanfyllin, derbyniodd alwad i fyned yn weinidog i Gaernarfon. Wedi bod yno am ddwy flynedd, a llwyddiant mawr yn dilyn ei weinidogaeth, derbyniodd alwad eglwys Annibynol y Fenni, sir Fynwy; a symudodd yno, lle yr arosodd am 12 mlynedd. Yn ystod ei absenoldeb ef yn y Fenni, bu

Digitized by Google

eglwys Caernarfon o tan ofal y Dr. George Lewis; ond pan symudodd y Dr. i Lanuwchllyn, yr eglwys a ddanfonodd gais unol a thaer i'r Fenni ar iddo ddyfod yn ol. Yntau, wedi ystyried y peth yn ddifrifol, a benderfynodd dderbyn yr alwad, ac a ddychwelodd i Gaernarfon ryw bryd yn 1797, ac yno yr arosodd hyd ei farwolaeth. Nid yn unig bu yn offerynol i godi yr achos yn y dref i sefyllfa flodeuog a pharchus, ond bu hefyd yn foddion i sefydlu eglwysi Annibynol yn Rhoslan, Bethel, a Saron; ac yn ddefnyddiol iawn mewn amryw fanau eraill yn y Gogledd. Yr oedd Mr. Griffiths yn nyddiau ei ieuenctyd, a phan yn ei gyflawn nerth, yn wr prydferth a grymus, yn addurnedig gan natur â phob hawddgarwch mewn ymddangosiad a boneddigeiddrwydd mewn ymddygiad. Yr oedd yn agos i chwe' troedfedd o daldra, heb fod yn gorphorol iawn, ond yn lluniaidd, caruaidd, a hoffus ei wedd; a llewyrchai callineb, addfwynder, a gostyngeiddrwydd, yn ei holl ymarferiadau. Fel pregethwr a gweinidog, yr oedd yn rhagori ar nemawr neb o'i frodyr yn ei amser—yn efengylaidd ei egwyddorion, yn draddodwr hyawdl, yn meddu ar lais cryf ac eglur, a thraddodai ei genadwri gyda mesur helaeth o deimladau priodol i'r pethau yr ymdriniai â hwynt. Priododd eilwaith tra yn aros yn Nghaernarfon ag un Mrs. Griffiths, gweddw o ger Rhoslan, a daeth dau fab o'r briodas hon yn weinidogion enwog gyda'r Annibynwyr yn Nghymru, sef y Parchn. William Griffiths, Caergybi; a John Griffiths, Buckley.

Ar y 25ain o Fawrth, 1802, tarawyd Mr. Griffiths yn drwm iawn â llewygfa o'r parlys, fel y bu am rai dyddiau yn amddifad, nid yn unig o ddefnydd ei aelodau, ond hefyd o holl synwyrau ei natur. Wedi iddo ddyfod ychydig ato ei hun, ymwelodd swyddogion ei eglwys ag ef; pan eu gwelodd, efe a'u hadnabu, ac a syrthiodd i wylo, ond ni allai ddweyd un gair wrthynt: bu yn y sefyllfa hon am naw wythnos, heb allu llefaru gair wrth neb. Yn niwedd yr amser hwn, cyfododd o'i wely, aeth i'w lyfrgell, a chymerodd Esboniad Dr. Guyse yn ei law, a darllenodd yn lled groyw o hono ran o'r chweched benod o Efengyl Ioan, er mawr syndod a chysur i'w deulu. Ond ni bu yn alluog i wneud y cyfryw beth am y pedwar mis canlynol. Pan ymwelodd un o'i frodyr gweinidogaethol ag ef, yr hwn a ofynodd iddo pa fodd yr oedd ar ei feddwl yn ei gystudd, atebodd, "Y mae yn gwbl oleu—mor oleu ag y dichon iddi fod yn y fuchedd hon." Yn fuan wedi hyn ymaflodd clefyd trwm ynddo, fel yr oedd pob gobaith am ei adferiad wedi ei gymeryd ymaith, er mawr alar i'w holl gyfeillion. Un noswaith, pan oedd amryw yn gwylio o amgylch ei wely, ac yn disgwyl fod pob anadl y ddiweddaf iddo, torodd allan mewn llais gorfoleddus, gan ddywedyd:—

"Talodd Iesu'r ddyled fawr,—Halaluia;
Rhyddion ydym ninau'n awr—Halaluia."

Pan oedd pob moddion meddygol yn methu adferyd ei iechyd, cyfarwyddwyd ei gyfeillion at ryw fath o enaint i eneinio ei draed a'i ddwylaw âg ef, a rhoddi o gylch peint o ddwfr oddiar fwstard iddo bob nos; a thrwy hyn gwellhaodd yn raddol yn ei iechyd, a gwnaeth ddefnydd o'r dwfr hwn tra y bu ar y ddaear; ond ni ymadawodd effeithiau yr afiechyd hwn ag ef tra y bu byw. Yn mhen o gylch dwy flynedd wedi ei darawiad cyntaf gan y clefyd, daeth yn alluog i gyflawni ei weinidogaeth bron megys yn y dechreuad; a pharhaodd i bregethu dair gwaith bob Sabbath hyd y fl. 1817, pryd y goddiweddwyd ef drachefn gan glefyd, oherwydd dyoddef gormod o oerfel, yr hwn yn arafaidd a der-

Digitized by Google

fynodd yn ei angau trwy ddarfodedigaeth, Chwef. 13, 1818, pan yn 65 oed. Pan yn ieuanc yn y weinidogaeth, cyfieithodd a chyhoeddodd waith y Dr. Doddridge ar "Ddechreuad a Chynydd Crefydd yn yr Enaid," a chyhoeddodd gasgliad o Hymnau hefyd at wasanaeth yr enwad y perthynai iddo.—*Evangelical Magazine; Hanes Ymneilldiaeth*, gan Morgan.

GRIFFITHS (Parch. John), gweinidog tra phoblogaidd gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, yn Bethesda, sir Gaernarfon. Ganwyd ef yn 1817, mewn lle o'r enw Cefn y Werthyd, Bontnewydd, ger Caernarfon. Enwau ei rieni oedd Ellis a Mary Griffith. Cafodd ddygiad i fynu crefyddol; ac addysg gyffredinol dda yn ei ardal enedigol. Clywsom ei fod er yn fachgen yn weddiwr mawr, ac yn ddiwyd iawn, er tan lawer o anfanteision, i ddarllen a myfyrio, a chasglu gwybodaeth; a chymerai fantais ar bob hamdden ac amgylchiad i chwanegu mêl yn ei gwch. Dechreuodd bregethu yn 1840, o tan yr enw syml, "John Griffith, Cefn y Werthyd;" enillodd ar unwaith ymddiried ei gydwladwyr, a throisant eu llygaid ato fel at un y gobeithid pethau mawrion oddiwrtho, ac ni chawsant eu siomi. Bu yn yr ysgol am yspaid wedi hyny gyda Mr. Ebenezer Thomas *(Eben Fardd)*, yn Nghlynog; yna symudodd i Athrofa y Bala, ac oddiyno drachefn i Brif-ysgol Edinburgh. Derbyniwyd ef yn aelod o'r Gymdeithasfa yn Mhwllheli, yn 1843; ac yn 1852, ordeiniwyd ef yn yr un lle. Priodwyd ef Medi 13, 1849, gyda Miss Jane Williams, Penbodlas, ger Pwllheli, ac y mae tri o blant o'r briodas hon yn awr yn fyw. Bu yn weinidog am yspaid o amser yn Lleyn, ac yna symudodd i Ddolgellau, lle yr eangodd ei enwogrwydd yn fawr fel pregethwr dylanwadol a difrifol. Symudodd oddiyno yn 1863 i Bethesda, i gymeryd gofal yn fwyaf neillduol eglwys Drefnyddol Jerusalem; a bu yn llafurio yn ddiwyd ac ymroddgar yno am yn agos i dair blynedd, pan y rhoddodd angau derfyn ar ei ddefnyddioldeb yn y fuchedd hon. Bu farw, wedi pum' niwrnod o gystudd trwm, Chwef. 28, 1866, pan yr oedd ei gyfeillion ac edmygwyr lluosog yn hyderu fod llawer o flynyddau ar ei gyfer, a phan nad oedd ond 49 oed. Machludodd ei haul a hi eto yn ddydd, a diffoddodd ei oleuni ar y ffordd. Yn ystod ei gystudd byr, erfyniai lawer ar Dduw am estyniad dyddiau ar y ddaear. Bore y diwrnod y bu farw, ymresymai â'r Bod Mawr, a dywedai:—"Yr wyf yn methu deall, fy Nhad, paham yr wyt yn fy symud yrwan, yn nghanol fy nyddiau a'm defnyddioldeb, a minau yn weithiwr mor ddifefl a ffyddlawn, yn gwneud pobpeth drosot â'm holl galon, ac yn cael y pleser mwyaf yn dy wasanaeth. Yr wyf yn methu dirnad hyn. Ni bydd yr amaethwr da yn troi ymaith y gwas ffyddlawn o'i wasanaeth; ond y mae yn rhaid mai wedi gwneud y *piece* a dorwyd imi yr ydwyf, a'm Tad nefol yn galw arnaf adref i dderbyn y tâl; byddaf yno cyn dau o'r gloch. Y mae yr arian yn dda yn awr, ond byddant yn eu llawn werth *just* yn union, wedi y croesir i'r ochr draw." Yr oedd rhyw agosrwydd neillduol rhyngddo â Duw; siaradai ag ef mor gartrefol â phlentyn bach yn ymddyddan a'i dad. Er hyny, cwynai yn fynych yn ystod ei glefyd olaf, mai ei weddiau oedd y pethau salaf ag oedd ganddo; byddai arno gywilydd bob amser eu cydmaru â gweddiau duwiolion y Bibl, ond äi y rhai hyn drachefn yn ddim wrth eu cydmaru â rhai Iesu Grist. Cludwyd ei ran farwel i'w gladdu yn meddrod ei deulu, yn Llanwnda, ger Caernarfou; a dilynwyd ef gan dorf fawr, yn cynwys 40 o weinidogion, a chanoedd lawer o alarwyr, yn mhlith pa rai yr oedd ugeiniau o gantorion, y rhai a ddwyseiddient y teimladau galarus trwy

Digitized by Google

ganu amryw anthemau a salm-donau Cymreig yn achlysurol hyd y ffordd ac wrth y bedd. Yr oedd yr elfenau hyny sydd yn cyfansoddi y dyn a'r pregethwr mawr a phoblogaidd, wedi cydgyfarfod ynddo. Yr oedd yn wylaidd a thyner, eto yn feiddgar a miniog; yr oedd llawer iawn o'r tlws a'r toddedig yn ei bregethau; ond pan y cynhyrfid ei enaid i'r gwaelodion gan ei bwnc, byddai ei fraich rymus yn hofran i fynu, a'r arucheledd rhamantus yn tori allan, yr ofnadwy yn llifeirio ac yn rhuthro fel gwynt nerthol, gan ysgwyd y gynulleidfa fel coedwig dan hyrddiad y corwynt. Er na fyddai yn gofalu nemawr am iaith goeth, neu wisg ddillyn i'w bregethau, eto byddent yn dân byw, a'r eneiniad Dwyfol yn nawsio trwyddynt. Byddai effeithiau a dylanwad mawr yn dilyn ei bregethau yn fynych; a dianmheu genym nad annghofir ei ddesgrifiadau trwyadl, a'i gymhariaethau naturiol, a'i ddrychfeddyliau cawraidd a thra oarddonol, oedd fel perlau yn britho ei bregethau, am oesoedd lawer. Ystyrid ef yn fugail doeth, yn arail praidd Duw, ac yn hynod yn ei ofal am yr ŵyn, y glwyfedig a'r llesg. Cyfansoddodd Mr. Griffith ambell ddernyn byr o farddoniaeth hefyd, ac yn y *Drysorfa* am Mai, 1866 (i ba un yr ydym yn ddyledus am lawer o ddefnyddiau y byr hanes hwn), ceir esiampl neu ddwy o'i waith.

GRIFFITHS (Parch. John), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Nglandwr, sir Benfro. Ganwyd ef yn 1731, mewn amaethdy o'r enw Castell Garw, yn y gymydogaeth hono. Bwriad ei rieni oedd ei ddwyn i fynu yn offeiriad, ac i'r dyben hwnw, danfonwyd ef i'w addysgu at offeiriad o'r enw Mr. Tasker, i Hwlffordd. Wedi bod yno am rhyw yspaid, dychwelodd adref, a bu yn cadw ysgol ei hun am beth amser yn Nglandwr. Tueddwyd ef i ymuno â'r Annibynwyr yn y lle hwnw, a rhoddes heibio yn llwyr ei fwriad boreol. Yn fuan, anogwyd ef i ddechreu bregethu; ac yn 1752, aeth i athrofa Hwlffordd, lyr hon a symudwyd wedi hyny i Gaerfyrddin. Pan ddaeth pwlpud eglwys Annibynol Glandwr yn wag, dewiswyd Mr. Griffiths i'w lanw, a pharhodd i weinidogaethu yno am tros haner can' mlynedd; ac nid yno yn unig, ond yr oedd maes ei lafur yn cynwys Capel Iwan, ger Castellnewydd; Nantleddfron a'r Star, yn Nghlydai; Rhydyceisiaid, a Phenygroes. Yn fuan wedi ymsefydlu yn Nglandwr, priodedd ferch Mr. Dyfnhalt, y Graig, yr unig amaethwr yn y plwyf ag oedd yn proffesu gyda'r Ymneilluwyr y pryd hwnw. Yr oedd Mr. Dyfnhalt yn berchen cyfoeth a thir, a rhoddes un fferm yn anrheg i'w ferch ar ddydd ei phriodas; a thrwy hyn, daeth amgylchiadau Mr. Griffiths yn lled gysurus. Ond yr oedd ei bleser ef mewn gwaith, ac yn chwanegol at ofalu am yr amryw eglwysi tan ei ofal, cadwai ysgol barchus ac uchelddysg ar hyd ei oes. Tra yr oedd hon yn gyrchfa gwyr ieuainc a fwriadent lanw cylchoedd uchel yn y byd, yr oedd ynddi eraill a'u dyben ar ddysgleirio yn ffurfafen yr eglwys. Byddai rhai yn myned oddiwrtho i athrofau eraill, tra yr urddid y lleill yn weinidogion, heb arnynt ddim addurn dysgeidiaeth ond a gawsant yn ysgol Glandwr. Rhai felly oeddynt Mr. Jones, Aber; a Mr. Jones, Trelech. Cafodd rhai gwyr ieuainc eu hurddo yn offeiriaid heb fyned i un athrofa arall. Fel athraw yr oedd yn llwyddianus iawn, a bu llawer o'i hen ysgolheigion yn llanw swyddau pwysig mewn byd ac eglwys. Yr oedd y duedd ysgolfeistrol wedi gwreiddio yn ddwfn yn ei natur; a thybir mai efe oedd tad y drefu sydd mewn cryn fri hyd yn nod yn bresenol o gateceisio yn nghapelau y parthau hyny. Yr oedd cyfarfodydd o'r fath yn cydfyned â'i archwaeth yn hollol; a diau iddynt fod yn fawr fudd

Digitized by Google

yn yr ardaloedd hyn er cynorthwyo y deall gwan yn yr Ysgrythyrau, a moesoli y bobl. Yr oedd ganddo wybodaeth eang a chyffredinol, nid yn unig mewn duwinyddiaeth ac ieithyddiaeth, ond yn y celfau a'r gwyddorau, ac yn enwedig mewn meddygiaeth; a chan fod gwareiddiad a gwybodaeth ar ol yn lled bell yn mhob parth o Gymru yr amser hwn, credai y werin-bobl fod pob dyn dysgedig mewn cyfathrach âg ysprydion, a chanddynt rhyw lywodraeth neillduol arnynt. Felly y tybid am Mr. Griffiths, er ei fod ef yn ceisio ei oreu argyhoeddi y werin o ffolineb y fath dyb. Yr oedd hefyd yn dipyn o fardd, ac y mae ychydig o'i gynyrchion ar gael, yr hyn, yn nghyda thraethodyn bychan, ydyw yr oll a argraffwyd o'i waith. Parhaodd i lanw ei ddwy swydd o weinidog ac ysgelfeistr hyd o fewn ychydig flynyddau i'w farwolaeth, pryd y cafodd ergyd trwm o'r parlys, yr hyn a anmharodd ei gôf, ac yr annghyfaddaswyd ef at ei orchwylion gan henaint a gwendid corphorol. Bu farw Tach. 12, 1811, yn 80 oed.

GRIFFITHS (Parch. Morgan), pregethwr tra phoblogaidd gyda'r Bedyddwyr yn nechreuad y ganrif ddiweddaf. Ganwyd ef yn nghymydogaeth Hwlffordd, sir Benfro, yn 1669. Ymunodd ag eglwys Rhydwilym ychydig flynyddau cyn marwolaeth ei gweinidog cyntaf, a'i sefydlydd, sef Mr. William Jones. Tebygol ddarfod iddo bregethu amryw flynyddau fel cynghorwr, cyn marwolaeth ei welnidog, yr hyn a gymerodd le yn 1700, ac yna ordeiniwyd ef i lanw y bwlch a wnaed gan yr amgylchiad hwnw. Y flwyddyn ganlynol, pa fodd bynag, derbyniodd wahoddiad eglwys Hengoed, sir Forganwg, i fod yn weinidog yno. Yr oedd hon yn un o'r eglwysi hynaf berthynol i'r Bebyddwyr yn Nghymru; wedi ei sefydlu gan weinidogion y llywodraeth yn amser y Weriniaeth. O tan ei ofal ef, bu cynydd mawr ar yr eglwys uchod, cyfansoddiad yr hon oedd yn gymysgedig o Fedyddwyr Neillduol a Chyffredinol. Ystyrid ef yn bregethwr gwir ragorol yn y Gymraeg a'r Saesneg; yn medru dwyn y pynciau mwyaf i gyrhaedd yr amgyffredion lleiaf. Bu farw Mehefin 11, 1738, yn 69 oed.—Richards' *Cambro-British Biography.*

GRIFFITH (Maurice), a anwyd yn Nghymru, ac a addysgwyd yn Rhydychain. Yr oedd yn aelod o urdd y Dominicaid neu y Mynychod Duon. Yn 1532, cafodd ei dderbyn i ddarllen y brawddegau, a'r flwyddyn ganlynol, cymerodd y radd o LL.B. Gwnaed ef wedi hyny yn archddeon Rochester; ac yn 1554, gwnaed ef yn esgob y lle hwnw, yr hon swydd a lanwodd hyd ei farwolaeth yn 1559.—Wood's *Athen. Oxen.*

GRIFFITH (Cadfridog Morris), ydoedd bumed mab i William Griffith a Margaret ferch i John Wynn ab Meredydd o Wydir, ac a anwyd yn Nghaernarfon. Gwasanaethodd yn Iwerddon holl ddyddiau ei ieuenctyd; ac am ei wasanaeth cafodd ei ddyrchafu. Yr oedd yn un o gynghorwyr talaeth Connaught, ac yn byw yn y Castell hwnw, yr hwn a adeiladodd ei hun, ac a alwodd Bala-on-Rusk.—*Lleyn MSS.*

GRIFFITH (Moses), a anwyd yn Nhrygarn, plwyf Bryncroes, yn Lleyn, sir Gaernarfon, yn 1747. Ni chafodd ddim dysg, ond mewn darllen ac ysgrifenu. Dechreuodd yn ieuanc arfer ei bwyntil i dynu arluniau; a phan oedd Mr. Pennant ar un o'i deithiau trwy Wynedd, daeth Moses Griffith i'w sylw; a deallodd yr anianydd a'r teithiwr hyglod hwnw fod ganddo athrylith gelfyddgar naturiol i dynu lluniau adeiladau, coedydd, mynyddoedd, a'r cyfelyb. Cymerodd Mr. Pennant ef i'w wasanaeth, a bu yn ei ddilyn yn ei deithiau am flynyddau;

Digitized by Google

a'i waith ef yw y rhan fwyaf o'r darluniau sydd yn harddu yr amrywiol lyfrau a gyhoeddodd y gwr dysgedig hwnw, yn nghyda'r rhan fwyaf o'r darluniau sydd yn mhalas Downing, sir Fflint, preswylfod Mr. Pennant. Yr oedd hefyd yn gallu cerfio yn dra medrus, heblaw bod yn gerddor pur ragorol. Y mae Mr. Pennant yn rhoi gair rhagorol iddo yn ei *Tours in Wales*, ei *Literary Life*, a'i *History of Whitford and Holywell*. Bu Moses Griffith farw yn mis Tachwedd, 1819, yn 72 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Rhydwen *(Whitford)*, lle y mae maen ar ei fedd, ac arno gerfiad yn traethu am ei alluoedd meddyliol, ac yn datgan iddo farw mewn llawn gobaith Cristionogol.—*Lleyn MSS.*

GRIFFITH (Piers), swyddog morwrol yn amser y frenines Elizabeth, oedd fab i Syr Rhys Griffith o'r Penrhyn Mawr, yn sir Gaernarfon, ac aer yr etifeddiaeth hono. Pan fygythid y deyrnas hon gan y *Spanish Armada*, efe a brynodd long, ac a'i dodrefnodd â phob adnoddau rhyfel, gan hwylio ynddi o Beaumaris Ebrill 20, 1588, a chyrhaedd Plymouth ar y 4ydd o Fai, lle y croesawyd ef yn y dull mwyaf anrhydeddus gan Syr Francis Drake. Cyfranodd yn yr anrhydedd o orchfygu yr Armada, ac yna ymunodd â Syr Francis Drake a Syr Walter Raleigh, yn eu gwahanol ymgyrchiadau yn erbyn yr Yspaeniaid yn yr India Orllewinol. Pa fodd bynag, yn nheyrnasiad y brenin Iago I., cwynwyd yn dost yn ei erbyn am iddo barhau i ymosod ar yr Yspaeniaid wedi i heddwch gael ei gyhoeddi, oherwydd yr hyn yr erlynwyd ef gymaint mewn cyfraith fel ag i'w orfodi i werthu ei ystadau er mwyn talu y costau. Priododd Margaret, ferch i Syr Thomas Mostyn, o Fostyn, o ba un y bu iddo dri o feibion, y rhai a fuont feirw yn eu mabandod, ac o'r herwydd darfyddodd y teulu hwn yn y llinell wrywol. Claddwyd ef yn Mynachlog Westminster.

GRIFFITH (Parch. Richard D.), ydoedd enedigol o gymydogaeth Abertawe. Ymunodd â'r cyfundeb Wesleyaidd yn ieuanc, a dechreuodd arfer ei ddawn i bregethu. Cymeradwywyd ef i'r weinidogaeth, ac yr oedd yn un o'r efrydwyr cyntaf yn Hoxton, ar sefydliad Egwyddorfa Dduwinyddol cyntaf y Corph hwnw. Ymroddodd i fyned yn genadwr i'r India Orllewinol yn 1837. Daeth yn hyddysg iawn yn yr iaith Tamil, ac yr oedd yn un o Brwywyr y Feibl Gymdeithas er dwyn allan gyfieithiad diwygiedig o'r Ysgrythyrau yn yr iaith hono. Yr oedd hefyd wedi dysgu yr iaith Sanscrit yn dda. Bu ei dreialon yn fawr fel cenadwr. Aeth llong yn ddrylliau dano unwaith ar draethau Coromandel, pryd y daeth ef â'r meddyg i dir ar ysgraff o dri phren wedi eu rhwymo yn nghyd, er mwyn ymofyn cynorthwy i'r rhai oedd ar ol. Cerddasant dros ddeng milldir i Sandres, ac wedi methu cael cychod, cerddasant yn mlaen i Madras, dan haul poeth yr anialwch, a thrwy afonydd heb bontydd. Bu weithiau mewn newyn ar y môr, ac unwaith dri diwrnod heb fwyd. O'r diwedd bu raid iddo adaei poethder India, a dychwelyd i Ewrop, er adgyferthu ei iechyd i dychwelyd yn ei ol, ond bu farw yn Pentonville, Mehefin 29, 1856.—*Lleyn MSS.*

GRIFFITH (Robert), ydoedd fab i Griffith a Mary Roberts, o Dafarn y Ty Mawr, Dolgellau, ac a anwyd Hyd. 13, 1770. Ymunodd yn ieuanc â chymdeithas y Methodistiaid Calfinaidd. Cawsai ysgol led dda, gyda golwg ar iddo fyned yn swyddog yn y Gyllidfa, yn yr hyn y methodd. Ymgrwydrodd oddicartref hyd Liverpool, mewn cysylltiad â rhyw alwedigaeth arall. Arferai, pan yno, ar bob hamdden a allai hebgor, heb esgeuluso ei gyd-gynulliad ei hun, fyned i wrando y diweddar Barch. Samuel Medley, gweinidog Saesneg poblogaidd perthynol i'r

Digitized by Google

Bedyddwyr oedd yn gweinidogaethu yno y pryd hyny, ac o'r hwn yr oedd yn hoffus iawn. Yn nghyfnod terfysgiadau chwyldroad Ffrainc, dychwelodd i Ddolgellau, gan ymsefydlu fel masnachydd; a dechreuodd wneud ei hun yn ddefnyddiol trwy fyned oddiamgylch i gynal cyfarfodydd gweddiau a chynghori, yr hyn a derfynodd mewn cael ei anog i ddechreu pregethu. Yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 1814, neillduwyd ef i weinyddu yr ordinhadau. Hwn oedd yr ail ordeiniad yn mhlith y Methodistiaid. Er nad oedd yn rhyw hoff iawn o deithio oddicartref, gorfodid ef gan daer gymhelliadau ei gyfeillion i fyned i deithiau lled bell, yn ol arferiad y Corph, hyd i eithafoedd y Deheubarth, ac hefyd i Lundain, Manchester, &c. Yr oedd yn dwyn mawr sel dros y Gymdeithas Feiblaidd Frutanaidd a Thramor, ac efe oedd Ysgrifenydd y gangen gynorthwyol ohoni yn Nolgellau. Dadleuai gyda sel dros yr achos cenadol. Yr oedd yn frwdfrydig iawn yn achos Rhyddhad y Caethion. Pan dechreuodd y sumudiad Dirwestol yn Nghymru, efe a'i croesawodd, ac a barhaodd yn ymdrechgar o'i phlaid hyd ei ddiwedd. Gwr o ychydig siarad ydoedd—byddai fel pe buasai wedi rhagbarotoi o'r blaen pa beth a ddywedai, gan mor ochelgar ydoedd rhag dweyd dim yn amryfus. Fel pregethwr, eglurai a chymhwysai ei faterion yn araf a phwyllog, heb ddyrchafu ei lais, na dangos un cynhyrfiad yn ei wedd na'i ddull. Ei arfer oedd lloffa addysgiadau rhwydd a buddiol oddiwrth ei destun, gan eu cefnogi yn fynych â chydmariaethau neu hanesynau priodol. Er nad oedd yr hyn a elwid yn bregethwr poblogaidd, yr oedd gwrandawyr o archwaeth a barn yn gymeradwy ohono. Ystyrid ef yn ddyn o bwys yn y Corph. Bu farw Gorph. 22, 1744, yn 74 oed.—*Lleyn MSS.*

GRIFFITHS (Parch. Samuel), gweinidog yr eglwys Annibynol yn Horeb, sir Aberteifi. Ganwyd ef yn mhlwyf Clydai, sir Benfro, yn 1783. Yr oedd ei rieni yn rhai nodedig o grefyddol, a pherchid hwy yn fawr oherwydd eu cywirdeb, gan bawb a'u hadwaenent. Oherwydd prinder cyfleusderau addysgol yn yr ardal, neu anystyriaeth y rhieni o werth addysg, neu gyfyngder eu hamgylchiadau, ni chafodd ond ychydig iawn o ysgol. Bu am flynyddoedd yn dilyn yr alwedigaeth o saer maen, a thra yn dilyn yr alwedigaeth hono, defnyddiodd ei oriau hamddenol i addysgu ei hun; daeth yn gyfarwydd â'r iaith Saesneg, ac yn rhifyddwr medrus dros ben. Yr oedd yn hoff o siarad am rifyddiaeth yn ei henaint. Trwy ei lafur a'i ymroddiad, daeth yn gymhwys i addysgu eraill. Bu am flynyddau yn cadw ysgol ddyddiol yn Llwyn-yr-hwrdd. Soniai ar hyd ei oes, gyda hyfrydwch, am y Parch. Samuel Bowen o Macclesfield, ac enwogion eraill, fel ei hen ysgolheigion ef, a soniant hwythau am eu hen athraw gyda pharch ac edmygedd. Nid oedd ef byth yn annghofio hen gyfeillion, ac nid hawdd y gallasai hen gyfeillion ei ollwng yntau o'u côf. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig gan y Parch. Morgan Jones, Trelech; yr hwn, yn nghyda'r eglwys o'r hon yr oedd yn aelod, a'u cymhellasant ef i ymgyflwyno i'r gwaith pwysig o bregethu yr efengyl. Nid hir y bu yn pregethu cyn cael profion sicr ei fod wedi ei alw gan Dduw. Urddwyd ef yn Horeb, yn 1818, lle y llafuriodd yn gyson ac egniol hyd o fewn ychydig ddyddiau i'w farwolaeth. Gallwn ddywedyd yn hyf, fod Mr. Griffiths, Horeb, yn un o'r gweinidogion mwyaf defnyddiol a fu erioed yn Nghymru. Yn mha le bynag y pregethai, gwrandewid arno gyda hyfrydwch a boddineb; i ba dŷ bynag yr âi, croesawid ef yn y modd mwyaf cynes a chalonog; ac yn ardal Horeb lle y bu yn llafurio am fwy na deugain

Digitized by Google

mlynedd, perchid ef gan fychan a mawr, fel cenad Arglwydd y lluoedd. Ystyrid ef yn gymhwys i bob gwaith angenrheidiol, a chyfrifid ef fel oracl drwy yr holl wlad. Y mae yn werth ymofyn, pa fodd y daeth dyn syml, heb addysg foreol na help cyfoeth, i safle mor bwysig ac anrhydeddus? Yn gyntaf, ac yn benaf, yr oedd yn wr crefyddol iawn —yn ofni Duw yn fwy na llawer. Nid oedd yn son bob amser am gydwybod, ond yr oedd yn ymddwyn yn gydwybodol yn mhob man. Gellid clywed llawer yn son mwy nag ef am "egwyddorion," ond byddai yn anhawdd cael dyn yn ffyddlonach i'r egwyddorion a broffesai na Mr. Griffiths, Horeb. Gellid gweled rhai yn fwy nodedig nag ef ar gyfrif rhyw rinwedd arbenig, am ryw ras neillduol. Yr oedd ei dduwioldeb ef yn dduwioldeb gyffredinol, a'i grefydd ef yn grefydd gron. Ymdrechai drwy ei holl fywyd, "Ymlanhau oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd gan berffeithio santeiddrwydd yn ofn Duw." Gan fod cyfiawnder yn nodweddu ei grefydd, nid ydym yn rhyfeddu fod ganddo y fath hyder yn Rhagluniaeth Duw. Edrychai ef ar Ragluniaeth nid fel *theory* i'w phregethu er codi hwyl, a thynu allan ddagrau y gwrandawyr, ond fel trefn Ddwyfol, fyw, ar yr hon yr oedd yn pwyso, ac yn yr hon yr oedd yn hyderu. Mae pregethwr yn cael cyfleusdra i wneud llawer am ddim; hyny yw, heb dâl, fel y mae pobl y byd hwn yn cyfrif tâl. "Peidiwch chwi a llwfrhau," ebe Mr. Griffiths, wrth weinidog ieuanc yr hwn oedd yn anwyl ganddo, "pan y cewch lai o dâl am eich llafur nag a allech ddisgwyl; fe gofia yr Arglwydd am danoch, chwi a gewch fwy na'ch disgwyliad o ryw gyfeiriad arall. Mae tâl pregethwr yn anwastad, fel y byddo ei ffydd yn gryfach yn Rhagluniaeth Duw." Yr oedd Mr. Griffiths yn ddyn o deimlad hynod o dyner. Nid yw teimlad ynddo ei hun yn grefydd, ond y mae teimlad dwfn, cynes, a thyner, wedi ei santeiddio gan ras Duw, yn help nodedig i fod yn weinidog cymhwys y Testament Newydd. Y mae y gweinidog yn cael ei alw yn fynych i gysuro a dyddanu, ac y mae teimlad tyner yn gymhorth i wneud hyny yn effeithiol. Yr oedd Mr. Griffiths o ran teimlad tyner, yn debyg i'r hynaws a'r boneddigaidd Dr. Raffles—yn eu teimlad cynes a thyner, yr oedd cuddiad cryfder y naill yn gystal a'r llall. Yr oedd yn ddyn diwyd; trwy ddiwydrwydd y daeth yn ddyn gwybodus heb ysgolion ac athrawon, trwy ddiwydrwydd y bu yn offerynol i adeiladu cynifer o gapelau, a thalu eu dyledion, a thrwy ddiwydrwydd y dygodd i fynu deulu lliosog (deuddeg o blant) yn barchus ac anrhydeddus. Yr oedd yn ddiarebol am ei garedigrwydd a thrwy hyny yn benaf, y caniatawyd iddo deyrnasu yn serch ei gymydogion a'i gydnabyddion lluosog. Bu ei garedigrwydd yn gymhorth iddo i ddiffodd tân cynenau, ac i gymodi pleidiau tramgwyddedig. Gallem nodi engreifftiau lawer o'i lwyddiant fel tangnefeddwr; gwasanaethed yr hanes canlynol fel esiampl:—Torodd anifeiliaid amaethwr yn ardal Horeb, i ŷd amaethwr arall, gan wneuthur colled fawr. Dewiswyd Mr. Griffiths yn farnwr, ac ymrwymodd y ddau i dderbyn ei farn ef am y golled a'r iawn. Wedi iddo ystyried yr achos yn bwyllog, traethodd ei farn am y golled a'r ddirwy. Yr oedd perchenog yr anifeiliaid a droseddasent yn hollol foddlon, ond yr oedd y llall yn gweled yr iawn yn rhy fychan. "Wel," ebe Mr. Griffiths, "deuwch bore yfory i fy ysgubor I, a rhoddaf i chwi yr hyn ydych yn farnu yn ddiffygiol hyd y dywysen eithaf." Nid oes eisiau dywedyd ddarfod i hyn osod terfyn ar yr ymryson, ar unwaith ac am byth. Pan aeth Mr. Griffiths i Horeb, yr oedd llawer o bobl yr ardaloedd wedi gwyro at Undodiaeth; enillodd

Digitized by Google

lawer ohonynt yn ol, trwy garedigrwydd yn benaf. Mae caredigrwydd wedi llwyddo lawer gwaith i rwymo dynion yn frawdoliaeth, pan oedd cyffes a chredo wedi methu. Yr achos ei fod mor lwyddianus i gymodi pleidiau tramgwyddedig, oedd ei garedigrwydd a'i bwyll. Pe y dygwyddasech fod yn Nhroedrhiwffenyd (enw y fferm lle y trigai) ar fore teg yn y gwanwyn, gallasech weled dau amaethwr cyfrifol wedi dyfod yno o bell, i ofyn cynghor a barn Mr. Griffiths o barth rhyw gweryl a fuasai rhyngddynt. Y mae y ddau ddyn yn boeth a chyffrous, ac am ddweyd yr achos cyn disgyn oddiar yr anifeiliaid. Mae y cymodwr yn bwyllog ac ystyriol—yn gyntaf y mae yn arwain y ddau i'r gegin, wedi hyny yn galw ar rywun i roddi ymborth i'r ddau geffyl; wedi hyny y mae yn dweyd wrth Mrs. Griffiths am roddi rhywbeth i'w fwyta i'r ddau wr dyeithr. Buasai Mrs. Griffiths yn sicr o wneud hyny heb iddo ef son gair am y mater, ond y mae ef yn gorchymyn er hyny, oblegyd ei fod am roddi digon o amser i ymoeri. Dacw y bwyd ar y bwrdd. "Deuwch at y bwrdd," meddai, "mae arnaf eisiau ysgrifenu rhywbeth; deuaf atoch yn lled fuan." Mae yr amser yn myned heibio; mae yntau yn dychwelyd, ac yn gwrandaw yr achos; mae yn amser hau, mae ar y ddau amaethwr eisiau dychwelyd at eu gwaith, ac yn hytrach na cholli y diwrnod yn hollol, y mae y ddau yn foddlon cymodi ar delerau rhesymol. Mae pwyll yn well nag aur. Yr oedd efe yn gwneud mwy o ewyllysiau, a chytundebau cyfreithiol, nag odid i gyfreithiwr proffesedig yn sir Aberteifi. Yr oedd ei bwyll, ei onestrwydd, a'i fedr yn y pethau hyn wedi enill hyder cyffredinol. Fel duwinydd, yr oedd yn gyfarwydd ag athrawiaethau y Bibl, ac yn gwybod golygiadau ein prif dduwinyddion ar bynciau y ffydd. Yr oedd ei weinidogaeth yn efengylaidd, tyner, ymarferol, ac argyhoeddiadol. Yr oedd yn porthi yr wyn, ac yn bugeilio y praidd, am ei fod yn caru Bugail mawr y defaid. Yr oedd Mr. Griffiths wedi priodi cyn cael ei urddo, ag Esther, merch Mr. Theophilus James, Pontgych, yr hon yn mhob ystyr a fu yn wraig deilwng o'i phriod hawddgar. Bu Mr. Griffiths farw Gorph. 4, 1860, a chladdwyd ef yn mynwent Bwlchygroes, un o'r capelau a fuasai dan ei ofal. Cyhoeddodd amrai lyfrau bychain, ond gwir werthfawr. Am faint y daioni a wnaeth drwy ei lyfr ar Grefydd Deuluaidd, "y dydd a'i dengys." Cafodd gladdedigaeth fel tywysog, a phery ei goffadwriaeth yn fendigedig.

GRIFFITHS (Parch. Thomas), gweinidog parchus ac adnabyddus gyda'r Annibynwyr yn Hawen a Glynarthen, sir Aberteifi. Ganwyd ef yn Nhrefdraeth, sir Benfro, Mawrth 25, 1784. Yr oedd ei fam yn chwaer i'r Parch. B. Evans, Drewen. Morwr oedd y tad, o'r enw Owen Griffiths—dyn meddw, yn ymroddi i flysiau, afradlonrwydd, a gwastraff. Nid oedd yn gofalu am ddim ond ei gwpan a'i bibell. Dim ond ymdrech y fam a thrugaredd Rhagluniaeth oedd rhwng y teulu â newyn. Dynes yn ofni yr Arglwydd ydoedd hi, ac yn gwneud ei goreu i ddarbod dros yr eiddo. Bu iddynt chwech o blant. Dan bwysau gofalon teuluaidd, a dideimladrwydd gŵr meddw, gwaelodd ei hiechyd, a bu farw, yn 42 oed. Disgynodd gofal y plant ar y ferch hynaf. Yr oedd wedi dysgu parchu Duw ei mam, ac nid dilyn llwybrau ei thad. Gwasgarwyd y pedwar plentyn canol i ymladd eu ffordd yn y byd. Bu Thomas, yr ieuangaf, dan ofal ei chwaer: ymddygodd tuag ato megys mam, a gwnaeth ei goreu i'w hyfforddi "yn mhen ei ffordd." Pan yn ddeg oed, cymerwyd ef yn was gan foneddwr oedd yn preswylio ger Hwlffordd. Bu yno am ychydig amser. Nid yw yn ymddangos fod

Digitized by Google

yno le manteisiol i ddyfnhau argraffiadau crefyddol ar ei feddwl. Clywai regfeydd ei gydweision : ac nid gweddiau ei chwaer. Gwnelai y morwynion ei ddifrifwch yn wawd. Er ei fod mor hoff o chwareu a phlant yn gyffredin, eto dywedai fod rhyw gysgodion difrifoldeb annghyffredin yn ei wynebpryd er yn ieuanc. Cyfarfyddodd â damwain yno a allasai brofi yn angeuol iddo ; ond achubwyd ef y tro hwn. Tarawyd ef gan un o'r ceffylau ar ei ben nes oedd y gwaed yn ffrydio arno. Dangosodd y meistr bob gofal am dano ; anfonwyd am y meddyg yn ddioedi, ac nid hir y bu y llanc cyn gwella yn llwyr. Ond bu yr amgylchiad hwn, er yn ddibwys mewn cydmariaeth, yn fendithiol iawn i'w enaid. Yr oedd wedi dysgu "cymeryd enw Duw yn ofer ;" galwodd y ddamwain hon ei feddwl i ystyriaeth, a rhoddodd i fynu yr arferiad ffiaidd o regu am byth. Un bore, wrth ddyfod o'i ystafellwely, tybiai fod llais o'i ol yn dywedyd, "*You must go home.*" Ni orphwysodd nes gwneud gorchymyn y llais tybiedig hwn. Yn nghalon y bachgen yr oedd y llais ; a chydwybod yn ddiau oedd yn llefaru. Modd bynag, aeth adref y diwrnod hwnw at ei chwaer i Drefdraeth. Gosododd ei ewythr ef yn yr ysgol yn Castellnewydd, ac wedi hyny yn egwyddorwas teiliwr, yn ardal Brynberian. Daeth trwy hyn dan weinidogaeth afaelgar y Parch. Henry George. Pan oedd y gweinidog yn anerch y gynulleidfa ar ddiwedd y cymundeb, aeth y gair i galon y teiliwr ieuanc, "ac yn y fan, nid ymgynghorodd â chig a gwaed," eithr ymgysegrodd yn ewyllysgar i waith crefydd. Buan y gwelwyd fod ynddo gymhwysderau neillduol i'r weinidogaeth. Yr oedd eglwys Trefdraeth y pryd hwnw, fel eto, yn ddigon llygadgraff i adnabod y gwahaniaeth rhwng perlau a sothach. Yr oedd ei weddiau dwys, a'i ddagrau mynych, yn brofion cynar fod ei argyhoeddiadau yn ddwfn, a'i ddifrifoldeb yn drwyadl. Darllenai lawer ar ei Fibl, ac amddifadodd ei gorph o gwsg llawer noswaith er mwyn myfyrio y Gair, a chymdeithasu â'r Anweledig. Cafwyd tipyn o waith cael ganddo ddechreu pregethu. Nid oedd mewn un modd am ymwthio i'r areithfa. Teimlai fod gwaith a chyfrifoldeb yn perthyn i'r swydd, yn gystal ag anrhydedd a gwobr. Eisteddodd i lawr, a chymerodd amser i fwrw y draul. Wedi hir ystyried y mater, ymfoddlonodd i gydsynio â chais Duw trwy yr eglwys. Wedi dechreu pregethu, aeth ei glod fel tân gwyllt trwy yr holl eglwysi. Cafodd alwad i fugeilio yr eglwys yn Horeb, Ceredigion. Yn fuan wedi dechreu ei weinidogaeth, agorodd Dr. Phillips ei athrofa yn Neuaddlwyd, ac un o'r myfyrwyr cyntaf oedd gweinidog ieuanc Horeb. Bu am ddwy flynedd yn fyfyriwr cyson a rheolaidd. Nid oedd gerwinedd y ffordd, na gwlybaniaeth y tywydd, yn cael ei rwystro i gyrhaedd Neuaddlwyd bob dydd Llun. Llenwid ei enaid âg awydd angerddol am wybodaeth. Nid oedd wrth hyn yn esgeuluso ei ddyledswyddau gweinidogaethol yn hollol ; ond cyflawnai y rhai hyn gyda graddau helaeth iawn o ffyddlondeb. Dyma linell brydferth iawn yn ei gymeriad. Nid oedd wedi gallu dysgu nemawr yr ychydig amser y bu mewn ysgol pan yn blentyn. Teimlai y golled o hyny wedi dechreu ei weinidogaeth, ac ymaflodd yn yr unig gyfleusdra i wneud y diffyg i fynu. Yn y fl. 1814, ymadawodd Mr. Griffiths â Horeb ; ac ar gais yr eglwysi ymgymerodd a gofal Hawen a Glynarthen, fel cynorthwywr i'w ewythr, y Parch. B. Evans. Gwelodd yr ewythr a'r nai lwyddiant mawr ar eu llafur. Torodd diwygiad grymus allan yn fuan wedi sefydliad Mr. Griffiths yn Hawen. "Chwanegodd yr Arglwydd beunydd at yr eglwysi, y rhai a fyddent gadwedig." Yn ystod ei wein-

Digitized by Google

idogaeth, bu yn foddion i sefydlu amryw eglwysi ydynt yn flodeuog heddyw. Gweithiai yn ddiflino. Teithiai lawer, a phregethai yn barhaus, a hyny y rhan fynychaf gyda dylanwad annghyffredin. Bu yn Llundain ddwywaith, ac yr oedd hyny yn llawer yn ei oes ef. Gwrandewid ef yn y brif ddinas gan gynulleidfaoedd lluosog, a theimlid ei fod yn un o gedyrn y genedl. Yr oedd yn un o wyr enwog ein cymanfaoedd. Gorphenodd ei yrfa Mehefin 25, 1838, yn 54 oed, wedi treulio 30 mlynedd yn y weinidogaeth. "Y Sabbath diweddaf o'i fywyd, aeth i'r cymundeb i Hawen, a phregethodd oddiwrth 1 Cron. xxix. 9. Dychwelodd i'r Glyn yn y prydnawn, a phregethodd oddiwrth 1 Cor. xiii. 9, 10. Wedi gorphen pregethu, bedyddiodd ddau blentyn, a chadwodd *society;* aeth i'w dŷ yn llesg a blinedig; aeth i'r gwely rhwng naw a deg y nos; dywedodd wrth Mrs. Griffiths am godi ychydig ar ei ben, ei fod yn teimlo yn dra rhyfedd. Syrthiodd ei ben fel yn ddideimlad ar y glustog, a hunodd yn yr Arglwydd." Yr oedd ganddo ef ddymuniadau neillduol yn nghylch marw; sef *cael marw y dydd Sabbath, marw hwyr y Sabbath, marw hwyr Sabbath y cymundeb, a marw heb lawer o gystudd;* a chafodd, fel Melchisedec, ei "wrandaw yn yr hyn" a ofynodd. Gorwedda ei lwch yn mynwent Hawen, dan gerfgolofn hardd; a mynych y gwlychid ei feddrod â dagrau hiraethlawn ei eglwysi a'i wrandawyr, canys cerid ef â chariad mawr.

Yr oedd Mr. Griffiths, Hawen, yn ddiau, yn un o oreuon ei oes fel pregethwr a gweinidog. Dywedir fod ei olwg ddifrifol yn y pwlpud yn cynyrchu teimladau cyffelyb yn ei wrandawyr, a hyny cyn iddo lefaru gair. Nid yn aml y gollyngai gynulleidfa o'i afael nes eu gwneuthur yn foddfa. Gallem feddwl fod y gonest, y difrifol, a'r deffroadol, yn elfenau amlwg yn ei weinidogaeth. Llefarai yn gryf yn erbyn pechod. Dynoethai anwiredd gyda llaw gref ac annrhugarog. Cynhyrfodd y wlad trwyddi mewn cysylltiad â'r Ysgol Sabbathol. Bloeddiodd yr udgorn gyda'r fath nerth, nes galw sylw yr holl ardaloedd at y sefydliad hwn. Cymhellai yr holl aelodau eglwysig i "ymarfer duwioldeb gartref." Gosodai bwys neillduol ar gadw y gwasanaeth teuluaidd yn drefnus a rheolaidd. Gwnaeth y weddi deuluaidd yn un o brif bynciau ei weinidogaeth. Nid oedd yn gorphen nemawr i oedfa, nac yn ymadael o nemawr i deulu, heb grybwyll am yr allor gartref. Daliai ar bob cyfle i ymddiddan yn bersonol â dynion am eu cyflwr. Un o'i brif hynodion fel pregethwr ydoedd cyfaddasder ei destun i'r amgylchiad. "Pan oedd yn pregethu yn angladd meddyg cyfrifol, ei destun oedd '*Luc*, y physygwr anwyl.' Pan bregethodd *charge* i eglwys Llanbrynmair, ar ddydd neillduad y Parch. Samuel Roberts, ei destun oedd 'A Hannah a wnaeth wisgoedd i Samuel;' pan bregethodd *charge* i Daniel E. Owen, ei nai, yn Cendl, ei destun oedd 'Daniel, gwasanaethwr y Duw byw;' pan bregethodd *charge* i John Owen, ei nai, yn Brynberian, ei destun oedd 'Efe a'i hysbysodd i'w wasanaethwr Ioan;' a phan roddodd *charge* yn Soar, Merthyr, i'r Parch. B. Owen, ei destun oedd 'Ac am Benjamin y dywedodd efe, Anwylyd yr Arglwydd a drig mewn dyogelwch.'" At yr uchod a gymerwyd yn benaf allan o'i *Gofiant* gan y Parch. B. Owen, Merthyr; a *Chofiant* Mr. Owen, gan y Parch. B. Williams, Dinbych; dyfynwn yn mhellach dystiolaeth Morgan am dano yn *Hanes Ymneilldduaeth* :—"Fel pregethwr, yr oedd yn meddu ar ddeall helaeth; ac yn byw o dan y fath ystyriaeth o bwys y gwirionedd, ac anwyldeb tuag ato, fel y traddodai ef yn hyf, heb ofni wynebau dynion. Yr oedd ganddo ddawn rhagorol i osod ei feddyliau

Digitized by Google

allan yn eglur a ffraeth; yn ddywedwr rhwydd, cyflawn, naturiol, a hynod o effeithiol, yn enwedig pan fyddai ychydig o awel o'i du; yn weithiwr difefl; yn iawn gyfranu gair y gwirionedd; ac yn fugail gofalus a ffyddlon i'r eglwysi. Ond ei brif ragoriaeth, a'r hyn a'i hynododd ydoedd ei ymdrech, ei sel, ei ddiwydrwydd, ei fedrusrwydd, a'i lafur diflino gyda'r Ysgolion Sabbathol, ac yn mhob peth a berthynai iddynt. Yr oedd ei holl galon yn y rhan yma o waith ei Arglwydd; a gwnaeth yr Arglwydd ddefnydd mawr ohono er lleshâd tragwyddol i ganoedd lawer o ieuenctyd Cymru. Derbyniodd dros 600 o aelodau i'r eglwys yn Glynarthen yn unig, mewn ychydig o flynyddau, heblaw a dderbyniodd mewn lleoedd eraill. Bu fyw yn mynwes yr eglwys, a'r eglwys yn ei fynwes yntau."

GRIFFITH (Walter), swyddog morwrol enwog, a anwyd yn Caerhun, ar lan yr afon Gonwy, sir Gaernarfon. Dyrchafwyd ef yn isgadben yn 1755, a gwasanaethodd yn y swydd hono ar fwrdd y *Royal George*, baner-long Arglwydd Anson, yr hwn y pryd hwnw a lywyddai lynges y *Channel* ar ei gwibdaith ar Dueddau Ushant. Yn 1759, penodwyd ef yn gadben y *Gibraltar*, a pharhaodd ar y llong hono hyd derfyniad y rhyfel, gan aros arni i wibdeithio hyd 1766. Yn ngwanwyn 1761, gorchymynwyd iddo fyned i'r America, a hwyliodd yno gydag adnoddau rhyfel i'r fyddin. Cyrhaeddodd Gaerefrog Newydd yn Mai, a hynododd ei hunan mewn ymgyrchiadau pwysig. Penodesid ef yn gadben ar y *Nonsuch* yn 1766, ar fwrdd yr hon y cymerodd efe ran yn mrwydr Grenada. Pan hwyliodd y llyngesydd Byron i Ewrop, ac y trosglwyddodd lywyddiaeth for-filwrfa yr India Orllewinol i ofal yr ollyngesydd Parker, y boneddwr hwnw a symudodd ei faner i'r *Princess Royal*, ac a benododd y cadben Griffiths fel olianydd iddo ar fwrdd y *Conqueror*. Pa fodd bynag, ni pharhaodd yn hir ar fwrdd y llong hon, gan iddo gael ei ladd mewn ymgyrch yn erbyn y Ffrancod yn Portroyal Bay, Rhag. 18, 1766. Y mae y llyngesydd, yn yr hanes a ddyry o'r ymladdfa, yn talu gwarogaeth uchel o barch i ddewrder a gallu y Cadben Griffiths.—*Lives of Illustrious Seamen*, 1803.

GRIFFITH (William), oedd fab i Robert ab Griffith o Gochwillan, yn sir Gaernarfon. Efe a arweiniodd ei fyddin ei hun i faes Bosworth Awst 22, 1485, i gynorthwyo Harri, iarll Bosworth, yn erbyn Risiart III. Wedi hyny, efe a benodwyd trwy awdurdod breninol yn sirydd Caernarfon am ei oes. Ei wraig oedd Angharad, ferch Dafydd, cwnstabl castell Harlech.—*Lleyn MSS.*

GRIFFITHS (Parch. William), gweinidog gyda'r Annibynwyr, yn Glandwr, sir Benfro, oedd fab i'r Parch. John Griffiths, o'r un lle. Ganwyd ef yn 1777, neu fel y dywedai ef ei hun, "blwyddyn y tri chaib." Gan fod ei dad yn weinidog ac ysgolfeistr, cafodd bob mantais crefyddol ac addysgiadol yn ei ieuenctyd, a darfu iddo yntau wneud y defnydd goreu ohonynt. Yr oedd ei amgyffred yn gryf, a'i gof yn eang, a phan nad oedd ond ienanc ystyrid ef yn ysgolhaig gwych yn y Saesneg, Groeg, Lladin, a'r Hebraeg. Yn fuan wedi ymuno â'r eglwys yn Nglandwr, cafodd ei anog i ddechreu pregethu. Bu yn treulio ei dymhor mewn athrofa yn Ngwrecsam, tan ofal y Parch. Jenkin Lewis; ac yr oedd ei natur dda, serchogrwydd ei dymher, yn nghyda ffraethineb ei ymadroddion, yn ei wneud yn anwylun ei gydfyfyrwyr a'i athraw. Wedi dychwelyd o Wrecsam, bu yn cynorthwyo ei dad fel gweinidog yn maes helaeth ei lafur; ac yn 1801, pan orfu ar ei riant roddi y weinidogaeth i fynu oherwydd llesgedd a henaint, dewiswyd ef i fod yn

Digitized by Google

olynydd iddo. Ymddyrchafodd yn fuan i enwogrwydd mawr fel pregethwr, a gelwid am ei wasanaeth i brif gyfarfodydd yr enwad yn mhob cwr o'r wlad. Yr oedd ei ddull serchiadol o draddodi gair y gwirionedd yn enill iddo wrandawiad astud torf luosog pa le bynag y byddai ei gyhoeddiad. Yr oedd ei glod fel pregethwr efengylaidd wedi ymdaenu yn agos a phell pan nad oedd efe ond ieuanc yn y weinidogaeth. Er ei fod yn ysgolhaig rhagorol—yn rhagori ar bawb o'i gymydogion am lawer milldir o gwmpas—eto mwynhai gymdeithas pob dyn o feddwl pur, pa mor anllythyrenog bynag fyddai, os cai ynddo rhyw ychydig o arabedd natur. Yr oedd yn ysgrifenydd rhyddieithol rhagorol, a digon o dystiolaeth i'w ragoroldeb yn hyn ydyw geiriau y Parch. Joseph Harris *(Gomer)* am dano wrth gofnodi ei farwolaeth :—"Yn ei symudiad fe gollodd gwir grefydd un o'i hamddiffynwyr gwresocaf ; a chollodd ei gynulleidfa dywysydd odiaethol, yr hwn a gyfarwyddai eu traed yn ffordd tangnefedd. Ymddangosodd rhai o'i gyfansoddiadau ef yn *Seren Gomer*, a da fuasai genym pe medrasem lwyddo gyda gwr mor ddysgedig a deallus i ysgrifenu ychwaneg. Cof genyf i ni dderbyn rhai llythyrau oddiwrtho pan oeddym mor brysur fel mai prin y medrem gael amser i ddarllen y llythyr, eithr wedi gweled ei enw ef ar ei ddiwedd, dywedem yn ein meddwl, 'Ni raid darllen hwn, ffwrdd ag ef i'r cyssodydd yn ddioed, canys ni fedr Mr. Griffiths, Glandwr, ysgrifenu dim ffolineb, dim rhagfarnllyd, dim yn annghyson â thelerau ein cyhoeddiad, na dim a dueddo i ddrygu y *Seren* yn ngolwg unrhyw ddyn synwyrol.'" Yr oedd Mr. Griffiths yn feistr hollol ar gyfansoddi yn y ddwy iaith, a chyfieithodd amryw ganeuon yn y dull mwyaf destlus o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg, ac yn mhlith yr olaf, gellir nodi un yn arbenigol, sef ei Seisnigeiddiad o'r hymn dra adnabyddus hono, "Dros y bryniau tywyll niwliog, &c." Heblaw ei fod yn ddyn o feddwl mawr, anfynych y gwelid ei fwy o ran agwedd gorphorol ; a pharodd y tewychder o gnawd oedd arno gryn lawer o afiechyd iddo. Yr afiechyd parotaf i'w amgylchu oedd y ddueg *(hypochondria)*, yr hyn a barai orphwylldra. Fel un arall o arwyr yr areithfa, sef y Parch. Robert Hall, dyoddefedd Mr. Griffiths ddyoddefiadau dwysion yr afiechyd gresynus hwn. Adroddir aml i hanesyn am dano, a llawer o sylwadau digrif-prudd o'i eiddo, pan y byddai yn llithro i afaelion yr afiechyd. Ni byddai eu cofnodi yma ond enyn gresyni ein darllenwyr wrth fyfyrio y fath greadur truan yw dyn pan y mae ei reswm yn cilio. Cymerwyd ef at feddyg medrus yn y gelfyddyd o iachau y cyfryw anhwylderau, a gwellhaodd yntau tan y driniaeth nes dyfod cyn iached ag y bu erioed. Gwelwyd ei wyneb yn ei rodfeydd cyhoeddus megys cynt, a llonid ei wrandawyr fel o'r blaen gan sain ei bregethau digymhar. Yn y cyfwng hwn, priododd, a bu iddo ddau o blant. Ond tua dechreu 1823, gwelid arwyddion eilwaith o ail-ddyfodiad yr afiechyd ; clywid ei ffraeth-ddywediadau yn fwy brathog a miniog nag arferol. Cyfyngwyd ef drachefn tan ofal yr un meddyg, a dywedir na chafodd driniaeth mor dirion a charuaidd oddiar law ei ymgeleddwr y tro hwn ag o'r blaen, yr hyn a fu yn anffafriol i'w adferiad, ac megys o tan gwmwl gofidus gorphwylldra y machludodd y seren danbaid hon o'n golwg ni i danbeidio a phelydru, ni a hyderwn, mewn cysawd nad oes na chwmwl na niwlen yn anurddo ei ffurfafen. Bu Mr. Griffiths farw Ionawr 9, 1825, pan yn 48 oed. Claddwyd ef yn nghladdfa Glandwr, ac ymgasglodd tyrfa fawr i dalu y gymwynas olaf i'w weddillion. Yr oedd yn un o bregethwyr mwyaf manwl, beirniadol, a chraffus, yr oes hono.

Digitized by Google

GRIFFITHS (PARCH. DANIEL), oedd weinidog doniol a phoblogaidd iawn gyda'r Annibynwyr yn Nghastellnedd. Mab ydoedd i William Griffiths *Bottle and Glass*, yn mhlwyf Llanilltyd. Yno y ganwyd Daniel yn 1798. Saer coed oedd ei dad wrth ei alwedigaeth; ac yr oedd ei rieni yn barchus a chyfrifol yn ei hamgylchiadau yn eu cymydogaeth. Ni bu Daniel erioed yn blentyn cryf. Dechreuodd yn fore ddyoddef oddiwrth annhreuliad: a pharhaodd hyny i'w flino trwy ei oes. Collodd ei dad pan yn ieuanc iawn, ond bu William ei frawd hynaf, yr hwn oedd oruchwyliwr parchus yn Nghwmnedd, fel tad iddo. Yr oedd pryder mawr ar feddwl ei fam yn ei gylch ar ol claddu ei dad. Gweddiai yn fynych ac yu daer drosto; ac o'r braidd na ddymunai i'r Arglwydd ei gymeryd ato ei hun, gan mor wanaidd ydoedd. Arferai yn ieuanc fyned i'r Ysgol Sabbathol yn Melincwrt. Dysgodd lawer o benodau, ac adroddai hwy o flaen y pregethwyr ar ddechreu y cyfarfodydd. Ymunodd â'r eglwys yn Melincwrt pan yn llanc ieuanc, ac yr oedd gan ei weinidog, y diweddar Barch. T. Bowen, Castellnedd, olwg fawr arno. Tynodd ei ddawn gweddi sylw yn fuan; yr oedd ei yspryd yn fywiog, ei ymadroddion yn briodol, ei lais yn beraidd, a'i deimlad yn ddwys, fel yr oedd pawb wedi eu taro â syndod. Yr oedd y dawnus Davies o Abertawe newydd orphen ei yrfa, a barnai llawer fod "deuparth" ei yspryd wedi disgyn ar Daniel Griffiths. Nid oedd terfyn ar ei ffyddlondeb gyda chrefydd wedi iddo ddechreu arni; a gwelodd yr eglwys a'i gweinidog yn fuan fod ynddo gymhwysder i gylch uwch. Anogasant ef i ddechreu pregethu, a deallwyd yn fuan ei fod wedi derbyn yspryd y weinidogaeth. Pregethai bob Sabbath yn y capeli cylchynol; ac ar nosweithiau yr wythnos yn y tai ar hyd Cwmnedd, o Aberdulais i Bontneddfychan. Cymerodd Cadben Morris, Castellnedd, ef i Bristol at ychydig Gymry oedd yno wedi eu corpholi yn eglwys. Bu yno dros rai Sabbathau, a mynai yr eglwys fechan iddo aros yno i fod yn weinidog iddynt; ond barnai ef a'i gyfeillion mai gwell oedd iddo ddychwelyd i Gymru, a chael mwy o addysg er ei barotoi i'r gwaith. Aeth i'r ysgol at y Parch. Roger Howells, Paran, lle y bu dros rai blynyddau; yn ymroddi i ddysgu yn yr ysgol, ac i bregethu yn yr holl wlad o gylch. Er yr holl alw oedd arno i bregethu, gwnaeth gryn gynydd mewn dysg. Aeth oddiyno i Athrofa Neuaddlwyd, lle y cynyddodd mewn gwybodaeth, ac yr ymddadblygodd fel pregethwr doniol a phoblogaidd. Yn fuan wedi ei fynediad i Neuaddlwyd, torodd diwygiad grymus allan ar un Sabbath pan oedd Dr. Phillips yn pregethu; ac yr oedd Daniel Griffiths yn un o'r meginau cryfaf i chwythu y tân. Yr oedd wedi ei fagu yn ngwres crefyddol Cwmnedd; ac wedi derbyn llawer o dân yr hen Forgan Lewis, a phobl fywiog y *Storehouse*, yr hyn gyda'i ddawn mawr yn naturiol a'i gwnai yn offeryn cymhwys i gario y diwygiad yn ei flaen. Meddianwyd ei holl enaid gan grefydd. Pregethu a gweddio a chanu oedd ei fwyd a'i ddiod. Gelwid am dano i bob parth o'r wlad, ac at bob enwad crefyddol. Ni bu un myfyriwr yn Nghymru erioed yn fwy, os bu yr un mor boblogaidd ag yr oedd Daniel Griffiths tra yn y Neuaddlwyd. Ni chynwysai y capeli y lluaws a ymdyrai ar ei ol. Gorfodid ef yn fynych i fyned allan i'r maesydd. Bu yn y tymhor hwnw ar daith trwy y Gogledd, ac y mae llawer yn fyw sydd yn cofio ei lygaid bywiog, ei lais clochaidd, a'i hyawdledd diatal. Bu pobl Talybont yn awyddus am iddo sefydlu yn eu plith; ond yr oedd ei lygaid ef ar Forganwg; a llygaid ei fam eglwys yn Melincwrt, a'r eglwys yn Nghastellnedd, a'u hybarch weinidog arno yntau. Derbyn-

Digitized by Google

iodd eu gwahoddiad i fod yn gydweinidog â Mr. Bowen ; ac urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn Hen Gapel Castellnedd, Chwef. 13, 1823. Dechreuodd ar ei waith o ddifrif ; ac yr oedd ei gyhoeddusrwydd trwy yr holl wlad. Rhoddodd fywyd newydd yn yr ysgol Sabbathol, y cyfarfodydd gweddi, y cyfeillachau crefyddol, a'r ysgol ganu. Nid oedd un rhan o'r gwaith nad oedd ei yspryd ynddo. Pregethai dair, ac weithiau bedair, gwaith ar y Sabbathau, ac yn aml bob nos o'r wythnos. Helaethodd derfynau ei lafur i Lansawel, Sciwen, a'r holl wlad oddiamgylch. Teithiai i gymanfaoedd a chyfarfodydd yn mhell ac yn agos. Daeth gwedd newydd ar grefydd yn Nghastellnedd, ac ychwanegwyd llawer at yr eglwys. Ond yn ddisymwth, llanwyd yr awyrgylch gan gymylau duon. Dygwyd cyhuddiad pwysig i'w erbyn gan ferch ieuanc mai efe oedd tad ei phlentyn ar yr hwn yr oedd yn ymyl esgor. Galwyd arno ger bron y gyfeillach, a mynegwyd iddo y cyhuddiad. Gwadai yntau ef yn y modd mwyaf croyw a phenderfynol. Gan nad oedd pethau yn ymddangos yn glir barnwyd yn ddoeth iddo beidio a phregethu hyd nes y gwelid a ddeuai rhywbeth i'r amlwg i brofi ei ddieuogrwydd. Amser blinder oedd hwn iddo ef ac i'r eglwys. Mynai rhai ei fod yn rhydd, tra y dadleuai eraill ei fod yn euog ; ond yr oedd pawb yn teimlo gofid fod y fath seren ddysglaer dan gwmwl. Nid ydym am roddi unrhyw farn ar y mater, nid i ni y perthyn gwneud hyny, ond yn unig hanesyddu yr amgylchiadau fel y cymerasant le. Wedi disgwyl ychydig am i ryw oleuni gyfodi ar ei achos aeth i ymofyn ei le yn eglwys Melincwrt, lle y derbyniwyd ef yn fachgen ; am ei fod yn byw yn nes yno nag i Gastellnedd ; a chyn hir ail godwyd ef i bregethu ; ond nid oedd eglwys Castellnedd yn cyduno i hyny. Parodd y peth lawer o gyffroad. Yr oedd y gweinidogion, yr eglwysi, a'r wlad yn rhanedig ar ei achos. Aeth rhai o aelodau Castellnedd oedd yn ffafriol iddo i fynu i Felincwrt ; a daeth yntau i lawr i'r dref i bregethu yn nhai y rhai hyny. Cynyddodd ei blaid bob yn ychydig fel y penderfynasant fynu lle sefydlog iddo i bregethu yn y dref. Cymerwyd hen *Coach-house* ar ardreth, a gwnaed ef yn ystafell gyfleus. Galwyd ef yn Soar. Aeth saith o weinidogion y cyfundeb yno i agor y lle newydd ; a bu hyny yn foddion i rwygo y cyfundeb ; ond safodd y saith hyny a'u heglwysi yn ffyddlon iddo. Parhaodd yr agwedd ranedig hono ar bethau am flynyddoedd nes o'r diwedd, wedi i'r ddwy ochr dreulio eu nerth, cyhoeddwyd heddwch rhwng y pleidiau yn y gymanfa yn Taihirion. Buasai yn dda genym allu myned heibio heb grybwyll am yr amgylchiad gofidus, ond nis gallem wneud hyny a chofnodi yn ffyddlawn a chywir. Bu cais taer arno i fyned i Gaerdydd yn yr adeg yma ; ond yr oedd ei ymlyniad mor gryf wrth ei gyfeillion yn Nghastellnedd fel nas gallasai feddwl am eu gadael. Priododd o gylch y pryd hwnw â Miss Thomas, merch R. Thomas, Ysw., o'r Aber, ger y Groeswen ; a chafodd gyda hi gryn lawer o gyfoeth, yr hyn a fu o help mawr iddo yn ei dywydd. Aeth yr hen Soar yn rhy fychan hyd yn nod i'r aelodau, ond yr oedd anhawsder i gael tir i godi capel newydd am fod yn mysg ei wrthwynebwyr ddynion o ddylanwad y rhai a weithient i gau pob drws o'i flaen, ond daeth ei dad-yn-ngyfraith yn mlaen a phrynodd ddarn helaeth o dir ; a rhoddodd ran ohono i Daniel Griffiths i adeiladu capel newydd, ac i fod yn dir mynwent. Codwyd y capel trwy draul fawr oblegyd yr anhawsder i gael sylfaen. Mae yn un o'r capeli goreu godwyd yn yr oes hono. Costiodd adeiladu Soar iddo bryder dwys a llafur caled ; ond gwelodd ef wedi ei lenwi â chynull-

Digitized by Google

eidfa, a'r ddyled agos oll wedi ei thalu. Ail-ymgododd yn ei bobl-ogrwydd, gelwid am dano i gymanfaoedd a chyfarfodydd neillduol, clywodd y rhan fwyaf o Gymru, a Liverpool a Llundain ei lais; ac i ba le bynag yr elai ymgasglai tyrfaoedd i'w wrando. Estynodd derfynau ei lafur sefydlog y tuallan i Gastellnedd. Mwynhaodd Godrerhos, Ystradgynlais, Rock, a lleoedd eraill, lawer o'i lafur. Teithiai yn mhell, a phregethai yn galed, a dychwelai adref y nos o bob man o fewn pumtheg milldir o gwmpas. Nis gallesid disgwyl iddo ddal yn hir dan y fath bwysau o lafur. Nid oedd o gyfansoddiad cryf yn naturiol; effeithiodd yr helbulon a'i cyfarfu yn anffafriol ar ei iechyd; yr oedd pryder adeiladu Soar a thalu am dano yn cynorthwyo i'w wanychu; ac erbyn ychwanegu at hyn ei lafur gwastadol, nid rhyfedd iddo fyned i edrych yn hen ac efe eto yn ieuanc; ac i'w gyfansoddiad ymollwng cyn canolddydd bywyd. Yr oedd yn nghymanfa Cwmaman yn haf 1845, yn ymofyn y gymanfa i Gastellnedd y flwyddyn ganlynol, ac yr oedd yn hawdd deall arno fod ei natur yn ymollwng. Bu dros dro yn rhodio gyda glan yr afon yn disgwyl am le bâs i fyned trwyddi; ond un diwrnod galwodd ei wraig a'i ddeg plentyn at erchwyn ei wely, ac wedi eu cusanu oll cyflwynodd hwy i ofal "tad yr amddifaid, a barnwr y gweddwon," a "thynodd ei draed i'r gwely," a bu farw, Ebrill 1, 1846, yn 48 oed. Yr oedd Daniel Griffiths yn ddyn uwchraddol. Deallesid yn union wrth ei weled mewn cynulleidfa nad dyn cyffredin ydoedd. Yr oedd y llygaid mawrion, gloywon, tanllyd hyny, yn peri i bawb deimlo pan y llefarai mai "meistr y gynulleidfa" ydoedd. Yr oedd yn ddyn o synwyr cyffredin cryf, galluog iawn i fyned trwy amgylchiadau dyrus. Cadwai bellder priodol oddiwrth bawb. Nis gallodd hyd yn nod ei gyfeillion anwylaf fyned yn hyf arno. Cadwai gylch o'i amgylch, ac yr oedd rhywbeth yn dweyd wrth bawb "Hyd yma yr ai." Ond ei neillduolrwydd mawr oedd ei "ddawn," a defnyddio y gair yn yr ystyr Ddeheuol, y gallu hwnw i wneud swn peroriaethus. Yr oedd ei hyawdledd fel ffrydlif yn ysgubo pob peth o'i flaen; a'i lais mor beraidd nes peri i ddynion gwbl annghofio eu hunain. Y mae dylanwad anorchfygol gan hyawdledd felly ar genedl mewn sefyllfa neillduol ar ei gwareiddiad; a disgynodd D. Griffith mewn cyfnod oedd yn ateb ei ddawn. Clywsom ddynion geirwir yn dweyd iddynt ei glywed yn pregethu yn yr awyr agored, a bod cymaint o swyn yn ei lais nes bod yr anifeiliaid yn y cae gerllaw yn ymatal pori, yn codi eu penau, ac yn ymwrando a phereiddiwch y llais. Nid oes neb o'r fath ddawn wedi ei adael ar ol; ac y mae yn anmheus gan lawer o ddynion synwyrol a ydyw y fath *chantio* yn gydweddol ag amcan ac urddas y weinidogaeth.

GRONO AB HEILYN, o Bentre Heilyn, yn mhlwyf Llantysilio, sir Drefaldwyn. Efe a ddewiswyd gan "Llywelyn ein Llyw Ola'" i gynadleddu âg Iorwerth I. am heddwch, yr hyn a wnaed, ac a gadwyd am dymhor.—*Lleyn MSS.*

GRUFFYDD AB ARTHUR, neu *Geoffrey of Monmouth*, oedd hen hanesydd hynod. Tybir ddarfod iddo dderbyn ei addysg mewn hen fynachdy Benedictaidd, yn agos i Drefynwy, yn adfeilion yr hwn y mae cafell fechan, ac yn cael ei nhodi fel myfyrgell Gruffydd pan oedd efe yn ddysgybl yn y lle. Cafodd y cyfenw o Sieffre o Fynwy, oblegyd iddo fod yn archddeon y lle hwnw. Y mae y mwyafrif o haneswyr wedi cwympo i'r amryfusedd mai yr un ydoedd â Godfrey, neu Geffrey, yr hwn a gysegrwyd yn esgob Llanelwy, Chwef. 24, 1154; ac a benodwyd yn abad Abingdon yn 1165, yr hon swydd a ddaliai mewn cysyllt-

Digitized by Google

iad â'r esgobaeth hyd 1175, pryd y darfu i'w glerigwyr ddwyn cwyn yn ei erbyn gerbron cynadledd gyffredinol o absenoli ei hun yn barhaus o'i esgobaeth, ac y diswyddwyd ef mewn canlyniad. Eithr Galffrai, neu y Geoffrey of Monmouth gwirioneddol, a etholwyd yn esgob Llandaf yn 1152, ac a fu farw yn ystod yr un flwyddyn. Ei gydoeswr, Caradawg o Langarfan, a ddywed amdano fel hyn :—"Yn y flwyddyn 1152, Galffrai ab Arthur, caplan William ab Rhobert, a wnaed yn esgob ; eithr cyn cymeryd meddiant o'r swydd, bu farw yn ei dŷ yn Llandaf, a chladdwyd ef yn yr eglwys yno. Anhawdd oedd cael ei gymhar fel dyn dysgedig a gwyddorus, meddianol ar bob cyneddf ddaionus. Yr oedd yn fabmaeth i Uchtryd, archesgob Llandaf, ac yn nai iddo fab brawd ; ac oblegyd ei wybodaeth a'i ddysg, rhoddwyd iddo archddeoniaeth eglwys St. Teilo, yn Llandaf, lle yr addysgai wyr dysgedig a phendefigion." (*Myv. Arch.* ii. 566). Gruffydd ab Arthur a gyfieithodd y *Brutiau Cymreig* i'r Lladin, a dygodd y gwaith ei enw yn adnabyddus i ddysgedigion Ewrob oll ; eithr gan ei fod yn cynwys amrywiol chwedlau anhygoel, lluaws o awduron a ystyriant yr holl hanes yn ddim amgen na ffug dychmygol. Pa fodd bynag, nid yw y farn hono yn gywir, gan fod y *Brut* gwreiddiol eto ar gôf a chadw. Y mae hanes y cyfansoddiad hwnw yn dra rhyfedd. Walter de Mapes, archddeon Rhydychain, a hynafiaethydd ymchwilgar, a'i cafodd gyntaf yn Llydaw, tra yn ymdeithio yn y wlad hono. Nid oedd dim yn hynod yn hyn, gan fod y fath debygolrwydd rhwng y Lydawaeg a'r Gymraeg y pryd hwnw, pan yr oedd mynych gyfathrach rhwng y ddwy wlad, a'r ddwy chwaer genedl heb estroneiddio gymaint i'w gilydd ag y maent yn bresenol. Ar derfyn y cyfysgrif o'r gwaith yn y *Myv. Arch.*, dywed yr archddeon :—"Myfi, Walter, archddeon Rhydychain, a droais y llyfr hwn o'r Gymraeg i'r Lladin, ac yn fy henaint o'r Lladin i'r Gymraeg." Y mae yn dra thebygol ddarfod i Gruffydd wneud defnydd o gyfieithiad yr archddeon, chwanegu cryn lawer ato, a thacluso llawer arno, yn hytrach na'i gywiro. Y gwaith diwygiedig hwn, mae yn debyg, a adgyfieithodd yr archddeon i'r Gymraeg, a'r hwn ydyw yr ail *Frut* argraffedig yn y *Myv. Arch.*, tan y teitl *Brut Gruffydd ab Arthur*. Y mae arddull hwn yn dwyn mwy o ôl llafur, a'r adroddiad yn helaethach, ac yn cytuno yn lled agos â chyfieithiad Geoffrey. Cyfieithwyd y *Brut* gwreiddiol, yr hwn a adwaenir wrth yr enw *Brut Tysilio*, gan y Parch. Peter Roberts, a chyhoeddwyd ef yn Llundain yn 1811. Y mae amrai argraffiadau o *Frut Gruffydd ab Arthur* ar gael yn Lladin, y boreaf o ba rai a argraffwyd yn Mharis, gan Ascenius, yn 1508 ; ac a ail-argraffwyd yn 1517. Cyhoeddwyd cyfieithiad ohono i'r Saesneg yn 1718, o waith Aaron Thompson, coleg y Frenhines, Rhydychain ; ac argraffiad diwygiedig gan Dr. Giles yn Llundain, yn 1842. Y mae amryw o'r prif lyfrgelloedd yn cynwys cyfysgrifau ohono ; a rhai cyn hyned ag amser yr awdwr ei hun yn mron i'w gweled yn hen Lyfrgell Freiniol yr Amgueddfa Brydeinig ; a'r un a berthynai gynt i Fynachlog Margam a ystyrir y goreu.—Wms. *Em. Welsh.*

GRUFFYDD AB ADDA AB DAFYDD, bardd yn ei flodeu rhwng 1360 a 1390. Ceir amryw gywyddau, &c., o'i waith mewn llawysgrifen, a gellir gweled *Mabinogi* ddorus o'i waith yn *Greal* Llundain, yn dwyn y penawd, "Breuddwyd Gruffydd ab Adda." Oddiwrth Farwnad iddo o waith Dafydd ab Gwilym, gellir casglu mai ei ladd a gafodd yn Nolgellau, ac mai yno ei claddwyd.

GRUFFYDD AB CYNAN, tywysog enwog yn Ngwynedd rhwng

Digitized by Google

1075 a 1137, a anwyd yn yr Iwerddon, lle y buasai ei dad, Cynan ab Iago ab Idwal, yn ffoadur. Boneddiges Wyddelig oedd ei fam, o'r enw Rhacwel, merch i Aeloedd, brenin Dublin; ac yno y treuliodd Cynan ei febyd, ac y derbyniodd ei addysg. Yn fuan wedi esgyniad Trahaiarn ab Caradoc i dywysogaeth Gwynedd, Gruffydd ab Cynan, gan yr hwn trwy ei dad Iago a'i daid Idwal, yr oedd hawl i'r swydd, a fanteisiodd ar wendid ei wrthymgeisydd Trahaiarn, ac a gynullodd lu o wyr arfog yn yr Iwerddon, a chan lanio yn Mon, a ddarostyngodd yr ynys hono yn fuan i'w awdurdod. Wedi enill goruchafiaeth mor rwydd yn Mon, a chael cymhorth penaethiaid o gyfoeth yn y wlad hono, gwthiodd ei fyddin yn mlaen dros y Fenai a gwersyllodd yn Arfon, gyda'r bwriad o enill yr holl wlad o'i du. Eithr Trahaiarn a frysiodd i'w wrthwynebu, ac wedi i'r ddeu-lu gyd-gwrdd mewn brwydr, ar Fron yr Erw, gerllaw Castell Harlech, yn Ardudwy, Cynan a orchfygwyd, ac a orfu encilio i Fon. Yno cafodd adgyfnerthion o'r Iwerddon, ac y ffurfiodd gyngrair â Rhys ab Tewdwr o Ddeheubarth. Y ddau hyn a gyfunasant eu byddinoedd, ac a gyfarfuant eu gwrthwynebwr mewn brwydr ar fynydd Carno, yn sir Drefaldwyn, lle y bu ymladd caled a chreulawn, eithr Trahaiarn a laddwyd ynddi a'i wyr a ffoisant. Cymerodd y frwydr hon le yn 1079; a thrwy y fuddugoliaeth hon Gruffydd a enillodd hen goron dywysogol ei hynafiaid. Ond byr fel llygedyn o haul ar ddiwrnod tymhestlog fu llwydd a rhwysg G. ab Cynan, canys y bradwr Meirion Goch a'i hudodd i grafangau iarll Caerlleon. Llwyddodd hwnw trwy ffalsder gael ganddo gyfarfod yn gyfeillgar âg ieirll Caerlleon ac Amwythig, y rhai a ddarparasent gorph cryf o filwyr i ymguddio gerllaw. Cymerodd y cyfarfyddiad le gerllaw Rhug, uwchlaw Corwen; a daliwyd Gruffydd gan ei ddwyn i gastell Caerlleon, lle y bu yn garcharor am ddeuddeng mlynedd. Ei warchodlu a ollyngwyd ymaith, eithr, nid cyn tori ymaith y fawd oddiar law ddehau pob un ohonynt. Hyn o greulonder a gyflawnwyd arnynt er eu hanghymwyso i ddwyn cleddyf o hyny allan. Wedi anallnogi y gelyn pybyr hwn, iarll Caerlleon a ruthrodd ar diriogaethau diamddiffyn Gwynedd, ac wedi cyflawni lluaws o weithredoedd bryntion ac ysgeler, cododd gadarnfeydd milwrol yn Aberllienawg, Mon; un arall yn Nghaernarfon, y llall yn Mangor, ac un hefyd yn Meirion, ac a'u cynysgaeddodd oll â gwarchodluoedd lluosog. Felly am ddeuddeng mlynedd bu Gwynedd yn gruddfan tan ormes yr estron Huw Lupus, iarll Caerlleon, a'i thywysog G. ab Cynan yn dihoeni yn nghastell ei gormesydd, ac ar derfyn yr amser hwnw Cynfrig Hir (Gwel t.d. 151 o'r llyfr hwn) a fu yn foddion ei waredigaeth. Eithr er iddo gyrhaedd yn ddiangol i blith ei ddeiliaid, cyfarfyddodd â lluaws o drallodion, trwy fod y Saeson mewn awdurdod, ac amryw o'i gydwladwyr wedi annghofio eu cyfeillgarwch gynt tuag ato; ac nid anfynych y byddai raid iddo ymguddio mewn coedwigoedd a manau anhygyrch er mwyn diogelwch bywyd. Pa fodd bynag, wedi encyd o ddyfalbarhad a doethineb, efe a lwyddes i adenill y castellau a'r cadarnfeydd a adeiladasai y Normaniaid yn rhandiroedd ei diriogaeth. Wedi cael awenau awdurdod i'w afael, annaturiol a fuasai i dywysog rhyfelgar fel efe yn yr oes filwrol hono beidio llosgi gan ddialedd tuag at elynion; felly efe a drefnodd ruthrgyrch ar Geredigion, lle yr oedd amryw Normaniaid wedi gwladychu, ac a laddodd lawer ohonynt. Ei gydymaith yn y rhyfelawd hwn, oedd Cadwgan ab Bleddyn ab Cynfyn, a bu y fath lwyddiant yn dysgleirio ar eu harfau am yspaid, nes y gorfodasant y Saeson i ymadael yn llwyr bron â Chymru. Dwywaith yr ymdeith-

Digitized by Google

iodd Gwilym Rufus, brenin Lloegr, i Gymru gyda'r bwriad o ddarostwng eu rhwysg, a gorfu arno ddychwelyd yn aflwyddianus, ac mewn cywilydd. Ond yr hyn nis gallai gelyn a gyflawnodd cyfaill ffals; canys Owen ab Edwyn a fradychodd achos ei wlad, ac a ymrestrodd yn mhlaid ei gelynion, er ei fod yn berthynas agos â'r tywysog a fradychai. Gorfu ar Gruffydd yn ngwyneb cryfder ei wrthwynebwyr, encilio i Fon, ac oddiyno yn lled fuan eilwaith i'r Iwerddon. Wedi bod ohono ef a'i gyfaill Cadwgan yn ffoaduriaid yno am ddwy flynedd, dychwelasant i Fon, a gwnaethant gytundeb heddwch tra anffafriol â'r Saeson—yn mha un y cyfyngid ei awdurdod ef yn gyfangwbl i Ynys Mon, ac yntau Cadwgan ni chafodd ond rhanau o Geredigion a Phowys. Cymerodd hyn le yn 1098, ac yn mhen dwy flynedd lladdwyd y brenin Seisnig; a'i frawd Harri I. a ddaeth i'r orsedd yn ei le ef. Nid ymddengys ddarfod i Gruffydd erioed dalu nemawr sylw i delerau y cytundeb hwn—ni chyflawnodd warogaeth, ac ni thalodd deyrnged i frenin Lloegr, ond yn hytrach manteisiai ar bob cyfleusdra i adenill y cyfoeth tirol a gollasai, ac wrth wneud hyny byddai cwynion mynych yn cael eu dwyn yn ei erbyn o greulonderau tuag at Saeson y cyffiniau. Parodd hyn i'r brenin Harri wneud llw o ddialedd yn erbyn Gwynedd, na adawai Gymro yn fyw yn y rhandir hono. Er cyflawni'r amcan hwn, ymdeithiodd mor bell a Murcastell; eithr y brodorion ar orchymyn eu tywysog a enciliasant i'r mynyddoedd o'i flaen, gan ddwyn eu daoedd gyda hwynt. Dygodd hyn brinder ymborth ar y fyddin fawr ymosodol, a bu raid i'r brenin yn hytrach nag encilio mewn cywilydd, gynyg telerau heddwch i'r tywysog Cymreig. Danfonodd ato, fel hedd-genad, Alexander, brenin yr Alban, yr hwn a unasai ei luoedd gyda Harri er mwyn darostwng y Gwyneddwyr; ond methodd yr Ysgotyn a chyrhaedd yr amcan. Yna gyrwyd iarll Caerlleon ar yr un neges, ac efe trwy ddichell a gweniaith a enillodd gydsyniad Gruffydd i'r cynygiad. Cymerodd hyn le yn 1114, a'r flwyddyn ganlynol, daeth Gruffydd ab Rhys o Ddeheubarth yn ffoadur i'w lys rhag dialedd y Saeson. Pan glybu y brenin am hyn, efe a ddechreuodd anwesu Gruffydd ab Cynan trwy ei wahodd i'w lys, ac yno ei ddirfawr groesawu, a dodi iddo anrhegion gwerthfawr o berlau teg; ac wedi hyny deisyf arno drosglwyddo iddo y tywysog ieuanc Rhys naill ai yn fyw neu yn farw. Pelydrodd gwagogoniant a ffafr twyllodrus y llys Seisnig gymaint ar lygaid yr hen dywysog Cymreig, fel y daeth yn offeryn ewyllysgar yn llaw ei elyn, a gwnaeth lawer cais i gyflawni dymuniad Harri, ac nid iddo ef y rhaid diolch na buasai y tywysog a roddes ei hun tan ei nodded yn trengu trwy ei fradwriaeth. Pa fodd bynag, Rhys a lwyddodd i ddianc, er iddynt geisio ei ddal pan yn ymnoddi yn nghysgod allor y cysegr. Yn 1135, bu farw Harri, a pharodd hyny gynwrf cyffredinol yn Nghymru a dymuniad cryf am dafiu yr iau estronol oddiar eu gwarau. Yn mhlith eraill, Gruffydd yntau heb ganddo esgus o gyfeillgarwch tuag at y teyrn Seisnig, a welid yn darpar ei lu i gynorthwyo yn yr amcan mawr oedd gan y genedl mewn golwg. Bu llwyddiant mawr ar yr ymdrech hon; ac am ddwy flynedd nid oedd odid wr yn Nghymru ond Cymry. Ond yn mhen dwy flynedd (1137), bu farw Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr, a Gruffydd ab Cynan hefyd a gyfarfyddodd â'r un dynged wedi cyrhaedd ohono yr oedran mawr o 82 mlynedd. Claddwyd ef ar yr ochr ddeheuol i'r allor yn eglwys Bangor. Bu iddo dri mab a phump o ferched, o'i wraig Angharad ferch i Owen ab Edwyn, arglwydd Tegengl. Enwau y meibion oedd Owen, Cadwaladr,

Digitized by Google

a Chadwallon; y blaenaf, yr hwn a adwaenir wrth yr enw Owen Gwynedd, ac a olianodd Gruffydd fel tywysog, a'r olaf a laddesid mewn brwydr cyn marwolaeth ei dad. Hynodir Gruffydd ab Cynan yn fwy bron fel noddwr beirdd a cherddorion nag hyd yn nod fel rhyfelwr. Wrth ganfod cymaint o afreoleidd-dra yn mhlith y beirdd Cymreig, gwahoddodd wyr medrus yn y cyfryw wyddorau trosodd o'r Iwerddon, a bu Eisteddfod o tan nawdd y tywysog er mwyn dadleu a phenderfynu gwellianau. Parodd y diwygiad mawr hwn i'r awen Gymreig ymhoywi yn fawr, a chafwyd cyfres ragorol o feirdd o'r amser hwnw hyd farwolaeth Llywelyn ein Llyw olaf. Bu galar cyffredinol ar ol Gruffydd, a chanwyd ei farwnad mewn awdl odidog gan Meilyr ab Gwalchmai, yr hon a argraffwyd yn y *Myv. Arch.;* yn yr ail gyfrol o'r hwn lyfr hefyd y gwelir bywgraffiad Gruffydd ab Cynan, a ysgrifenwyd, tybir, gan Morys, esgob Bangor, yn fuan ar ol marwolaeth y testun. Cyfieithwyd y gwaith hwn i'r Lladin gan Nicholas Robinson, esgob Bangor, ac y mae y llawysgrif ohono yn nghadw yn Llyfrgell Hengwrt. Gruffydd ab Cynan bedd gyff un o bum' llwyth breninol Cymru, ac y mae rhai o brif deuluoedd y Dywysogaeth yn olrhain eu disgyniad ohono.

GRUFFYDD AB DAFYDD AB GRONW, bardd yn ei flodeu rhwng 1450 a 1480.

GRUFFYDD AB DAFYDD AB HYWEL, bardd yn ei flodeu rhwng 1480 a 1520. Y mae ychydig o'i waith mewn llawysgrifen.

GRUFFYDD AB DAFYDD AB TUDUR, bardd yn ei flodeu rhwng 1290 a 1340. Gwelir pump o'i gywyddau yn y *Myv. Arch.*

GRUFFYDD AB DAFYDD FYCHAN, bardd yn ei flodeu rhwng 1440 a 1470. Y mae ychydig o'i waith ar gael mewn llawysgrifen.

GRUFFYDD AB DAFYDD YCHAN, neu Gutyn Morganwg, bardd yn ei flodeu rhwng 1450 a 1480,

GRUFFYDD AB GORONW GETHIN, bardd yn ei flodeu rhwng 1380 a 1420. Y mae ychydig o'i waith mewn llawysgrifen.

GRUFFYDD AB GWEFLYN, bardd yn ei flodeu tua dechreu y 15fed ganrif. Y mae rhai o'i gywyddau ar gael, ac yn eu plith "Farwnad Gronw ab Tudur o Fon."

GRUFFYDD AB GWRGENEU, bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1210 a 1260. Gwelir dau ddernyn barddonol o'i waith yn y *Myv. Arch.*, un o ba rai ydyw "Marwnad Gruffydd ab Cynan."

GRUFFYDD AB HYWEL TUDUR, bardd yn ei flodeu rhwng 1500 a 1560.

GRUFFYDD AB IEUAN AB LLEWELYN FYCHAN, bardd ac ieithydd rhagorol yn ei flodeu, yn ol y *Gwyliedydd*, 1833, t.d. 249, rhwng 1470 a 1520; ond gan fod cywydd marwnad Tudur Aled o'i waith mewn hen ysgrifyfr yn awr ger ein bron, ac fod y prif-fardd hwnw cystal â Gruffydd ei hun yn bresenol yn Eisteddfod Caerwys yn 1523, nis dichon i'r dyddiad olaf fod yn gywir. Gruffydd ab Ieuan ydoedd berchenog treftadaeth y Llanerch, a'i pherthynasau, yn Nyffryn Clwyd. Yr oedd efe yn un o'r boneddigion a enwyd yn y Cynghor breninol i wneud trefn a llywodraeth ar wyr wrth gerdd dafod a thant yn yr Eisteddfod gyntaf yn Nghaerwys. Yr oedd yn proffesu Pabyddiaeth yn more ei oes, fel yr ymddengys oddiwrth ei awdlau gorchestol i "Lun y Groes wrth Dymeirchion," a'r ddelw a elwid "Yr Iesu Gwyn o Ruddlan;" ac yn ei gywyddau i "Gynhafal Sant," ac i "Syr Thomas Goch ac Alis Sirk [*Chirk*]." Ond daeth i weled cyfeiliornad ei ddal-

Digitized by Google

iadau, a hyny, fel llawer, cyn y diwygiad llywodraethol; canys ceir ef cyn y pryd hyny yn cyhoeddi athrawiaethau iachusol yn erbyn ensyniadau Pabyddol, megys yn ei gywydd "Ar ddioddaint ein Hiachawdwr," y dywed :—

Dyna ddallder, arferyd
Delwau yn well na Duw LWYD [Bendigaid].

Ni all angel penfelyn,
Na llu o saint, ddim lles yn;
Na dyn byw wedi'i eni
Is nef—ond Iesu i ni.

Heblaw ei fod yn un o feirdd pencerddaidd ei oes, y mae esiampl orchestol o'i fedrusrwydd mewn rhyddiaith. Ac fel y gwelo y darllenydd pa fodd y byddai'r boneddwr tiriog Cymreig yn gwneud ei fasnach yn nechreuad y 16eg ganrif, ni a ddodwn ran o'i lythyr at un Gruffydd, yr hwn oedd saer coed yn Llan Sant Sior, ger Abergele, a'r hwn a wahoddasai i adeiladu palas newydd iddo yn Llanerch. Arferai awduron Cymru yr oes hono gynmlethu geiriau yn gyfrodedd gywrain, cyn agosed ag y dichonai iddynt i ddull godidog y Groegiaid, ac fe welir nad oedd boneddwr y Llanerch yn ol i'r un o naddynt:—

FY YMDDIRIEDGWBL GELFYDDGAR GYDYMAITH,—Fy nirfawr orchymyn o dwymneiddrwydd meddylfryd calon, fel y gweddai i'r naill ymdeithffydd-frawd eithaf holl garedigrwydd ar y llall; ac yn fy annerch lythyr cyfrinachddwyn, deallwch fy mod yn trigo mewn hen adail uchelgrib, rhyhirblaid, hargodlaes, llogeilfyr, gwasgarfwg, huddyglfwg, o'r hen waith er yn oes oesoedd, eithr ei fod ar osodiad Barwndy gynt. Fy llawenchwedl yw clywed eich bod trwy ysprydawl athrawiaeth yn cynyddu mewn gwybodaeth gorchafddysg ac awenyddawl gelfyddyd, a holl awdurdod pob dilefdryw saerniaeth arbenig, yn Bensaer haeddbarch, meddylfraisg, bwriadbell, gynghorddoeth, gweithredbrif o'r eithafgamp eruchaf ar fwyallnadd gelfyddyd, ac amryfal brint gerfiadau—tori Addail, a phob dieithr lun pysgod, adar, a bwystfil. Arnoch yn garedigawl ymdreiglaw hyd atoch chwi, i ddangos rhagorgamp, i adnewyddu fy nghyfanedd-dy o adeiladaeth fy hendaid gynt, yr hyn nis medrai arall yn gystadl a chwi. Diau nad ymgeisiwn a'r cartrefwaith a wypai cyffredin-Saer, canys llawer o brif orchestion cyffredin sydd arnaf fy hun, nid er gwagfost yr adroddwn, eithr rhag lliwiant im' fy ngeni yn ddiddym, ddiddysg, ddiwybod, nid amgen orchestion na hyn!—Naddu a chyllell drwy bren-gyn, morteisio ymafaelfach gwerthyd, blaenllymu saeth doadrwym a choedbawl attegwrych, cyfleu esgynffyrch camfa, gosod llidiardglwyd ar golyn, troediaw chwynogl-ysgallgneth, garanu troellfaen breuanllif, coediaw bwyall gynnudfriw, ystumio pigfforch wasgarwair, danneddu gwyrangasg cribin, plethu eidiondid a marchdres, a nyddu rhagorbraff wialen geginderw, a gwneuthur pob hwsmoneiddiwch gwydenglwm arbenig. Er hyny nis medraf ymddiffyn i mi fy hun wrth fy angenrhaid, mwy na'r ddewinwraig o Arfon, am ei chrochan-lestr ei hun a guddiasid uwch ben ei gwely, i wneuthur profedigaeth ar ei ddewindeb, yr hon a gyhuddai ddewinchwedl am guddion eraill, ac nis gwyddai wirionedd am ei chrochan-lestr ei hun. Gan hyny gwybyddwch nad anwybodaeth neu ansyberwyd i ofyn cymhorth yr wyf i arall am yr hyn nis gwypaf fy hun, ond cymmwynas a helaethaf garedigrwydd rhwng priodorion, fel y byddo yn dragywyddawi garedicach pob un,—

Un dewisgrair, nid ysgribl,
O freninbwyll fain hen bobl;
Acw'n dysgu can' dysgybl
Am aur degan mawr digabl,
Am neuadd-drefn mwynaidd drebl,
Am ddrudgost ymddiriedgwbl.

Mewn ufudd-dod i ddymuniad y perchenog, adeiladodd Gruffydd o Lan san' Sior, balasdy hardd yn Llanerch; ac y mae Pennant yn cwyno oblegyd yr anurddwch a wnaed yn ei amser ef ar yr hen dŷ hwnw trwy gyfnewidiadau. Y mae hefyd o'i eiddo ar gael "Gywydd o Gynghor i'r Ferch Brydweddol," a "Chywydd yn erbyn Delwau a Chyfeiliornadau Pabyddol."

GRUFFYDD AB IEUAN AB RHYS, bardd yn ei flodeu rhwng 1560 a 1590.

GRUFFYDD AB LLYWELYN AB SEISYLLT, tywysog enwog ar Gymru rhwng 1037 a 1064. Wedi i'w dad syrthio yn aberth i gyllell y brad-lofrudd, ac i wr o'r enw Iago ab Idwal ab Meirig gadw meddiant

Digitized by Google

o'r orsedd am 10 mlynedd, Gruffydd a gynullodd wyr, ac mewn brwydr a gymerth le llu Iago a orchfygwyd, ac yntau ei hun a syrthiodd yn mhoethder y frwydr. Eithr cyn gynted ag y cymerodd efe feddiant o'r llywodraeth, daeth y Saeson a'r Daniaid gyda llu mawr i ymosod ar ei diriogaeth, ac yntau a gynullodd fyddin gref, a chan ymdeithio i gyfarfod y gelynion yn y Cyffiniau, efe a'u gorchfygodd gyda lladdfa fawr. Cymerodd y frwydr hon le gerllaw Crosfford, ar lan yr Hafren; ac oddiyno Gruffydd a'i wyr a ymdeithiodd i'r Deheubarth, gyda'r bwriad o ddarostwng y wlad hono i'w wasanaeth; a'r bobl a ymostyngasant i'w awdurdod, a Hywel, eu tywysog, a enciliodd am nawdd at Edwyn, brawd i iarll Caerlleon ar Ddyfrdwy. Cafodd yno gymhorth i ymosod eilwaith ar Gruffydd, eithr gorchfygwyd ef drachefn. Yna enciliodd Hywel i'r Deheubarth, a bu yn dra llwyddianus i gynull byddin gref, gyda pha un y bwriadai ymdaith i'r Gogledd; a phan glybu Gruffydd am y bwriad, efe a achubodd y blaen arno, ac a'i cyfarfyddodd mewn brwydr yn Mhencadair, sir Gaerfyrddin, lle y gwgodd ffawd drachefn ar Hywel, y collodd hnaws mawr o'i wyr, a thrwy gryn ddyfais y llwyddodd i achub ei hun rhag syrthio iddwylaw ei elyn. I wneud yr anffawd yn drymach, Hywel a ddygasai ei wraig gydag ef i'r maes, gyda sicrwydd dibetrus y cawsai gydorfoleddu ag ef mewn buddugoliaeth. Eithr y wraig hon a ddaliwyd, a Gruffydd yn lle amddiffyn ei gwendid menywaidd, a syrthiodd mewn serch â hi, ac a wnaeth ordderchwraig ohoni. Enynodd y weithred annynol hon ddygasedd dyfnaf Hywel tuag ato. Cynullodd wyr drachefn, a chafodd gymhorth nerthol gan y Daniaid; eithr er y cyfan, wedi brwydr greulawn, ei fyddin a orchfygwyd, ac yntau ei hun a laddwyd. Trwy hyn, gwnaed Gruffydd yn benadur ar Gymru oll. Eithr tra yr oedd efe yn brysur gyda dyledswyddau ei deyrnas, glaniodd Cynan ab Iago, yr hwn a fuasai yn ffoadur yn yr Iwerddon, a chyda nifer o wyr arfog rhuthrodd yn sydyn a chymerodd Gruffydd yn garcharor, deiliaid yr hwn, pa fodd bynag, a'i rhyddhasant. Wedi treulio oes derfysglyd a rhyfelgar, a theyrnasu am 34 mlynedd, efe a laddwyd yn 1064 gan ei ddeiliaid ei hun, yn cael eu cynhyrfu i'r weithred gan Harold y Sais, a Charadawg ab Rhydderch ab Iestyn.—*Brutiau Cymreig.*

GRUFFYDD AB LLYWELYN FYCHAN, bardd yn ei flodeu tua 1480. Y mae ei waith ar gael mewn ysgrifen.

GRUFFYDD AB LLYWELYN LLWYD, bardd yn ei flodeu rhwng 1560 a 1590. Y mae peth o'i waith yn nghadw mewn llawysgrifen.

GRUFFYDD AB MEREDYDD AB DAFYDD, bardd enwog o Fon, yn ei flodeu rhwng 1310 a 1360. Y mae 28 o'i gyfansoddiadau barddonol yn y *Myv. Arch.*, cyf. i., o ba rai y mae deuddeg wedi eu cyflwyno i Tudyr ab Gronw, o Benmynydd.

GRUFFYDD AB RHYDDERCH AB IESTYN, tywysog Deheubarth yn ystod yr 11eg ganrif. Efe a gynullodd fyddin gyda'r bwriad o ymosod ar Gruffydd ab Llywelyn. Lladdwyd ef mewn brwydr yn 1054.

GRUFFYDD AB RHYDDERCH GOCH, bardd yn ei flodeu rhwng 1560 a 1600. Y mae peth o'i waith ar gael mewn ysgrifen.

GRUFFYDD AB RHYS AB GRUFFYDD, a olianodd ei dad i dywysogaeth Deheubarth yn 1196. Ni chafodd ond ychydig fwynhad yn y swydd, gan i'w frawd Maelgwyn ei ddietifeddu, a'i drosglwyddo i ddwylaw y Saeson. Rhyddhawyd ef, pa fodd bynag, yn 1198, ac

Digitized by Google

adfeddianodd ei dywysogaeth. Telir teyrnged uchel o barch i'w allu milwrol, a'i ddoethineb meddwl, yn y *Brutiau Cymreig.* Bu farw yn 1202, a chladdwyd ef mewn urddas ac anrhydedd mawr yn mynachlog Ystrad Fflur.

GRUFFYDD AB NICOLAS, o Ddinefwr, pendefig uchel ei drâs, a thra helaeth ei gyfoeth a'i ddylanwad, yn Nehcudir Cymru, tua chanol y 15fed ganrif. Arglwyddiaethai fel brenin bychan yn y wlad; a chymaint oedd ei allu, fel yr oedd gan awdurdodau llywodraethol y dydd ofn ymyraeth ag ef rhag tynu arnynt ei ŵg, pan yr oedd Lloegr oll mor rhanedig parth teulu Yorc a theulu Lancaster. Tua diwedd ei oes, pa fodd bynag, cododd annghydwelediad pwysig rhyngddo â'r blaid olaf, i'r hon y buasai yn rhyw lun o bleidiwr ar hyd ei fywyd; cyhoeddwyd ef gan y brenin yn herwr *(outlaw)*, yr hyn a barodd iddo yntau ddyfod allan yn hollol ddiymgel o blaid teulu Yorc. Cynullodd wyth cant o wyr dewisedig ac yn ben ar y rhai hyn ymdeithiodd i Gaerloyw *(Gloucester)*, lle yr ymunodd gyda byddin mab y duc o Gaerefrog. O Gaerloyw, aeth y lluoedd unedig tua Mortimer's Cross, ac yno cyfarfuont â'r fyddin Lancasteraidd, o tan lywyddiaeth iarll Penfro. Cymerodd brwydr galed le, eithr cafodd Gruffydd saeth farwol pan oedd goroian buddugoliaeth yn dyrchu o blith y Yorciaid. Ei aer oedd ei fab hynaf, tad yr arwr rhyfelgar Syr Rhys ab Thomas. Yn y *Cambrian Register*, ceir bywgraffiad dyddorol, a ysgrifenwyd yn amser Iago I., ohono ef a'i deulu. Yr oedd G. ab Nicolas yn noddwr haelfrydig i'r beirdd, ac yn ei nawdd a'i ddawn ef y cynaliwyd Eisteddfod fawr Caerfyrddin yn 1451, pan sefydlwyd y 24 mesur gan Dafydd ab Edmwnd. Y mae yn *Ngorchestion Beirdd Cymru*, gywydd anerch iddo o waith Gwilym ab Ieuan Hen, yn mha un y dywedir:—

> Llew wrth gadarn f'th farnwyd,
> A gwar oen i'r gwirion wyd.
> Dy wen yw'r pum' llawenydd,
> Dy galon yw ffynon ffydd.

GRUFFYDD AB RHYS AB TEWDWR, tywysog yn Nehcubarth yn ystod yr 11eg ganrif. Gan nad oedd ond baban pan fu farw ei dad yn 1090, cymerwyd ef er diogelwch trosodd i'r Iwerddon. Pan yn 25 oed, croesodd trosodd i Gymru, a bu yn tario am ddwy flynedd gyda Nest ei chwaer, yr hon a briodasai Gerald de Windsor, boneddwr Normanaidd, ac a drigianai yn Nghastell Penfro. Daethryn fuan yn wrthrych eiddigedd y brenin Harri I., yr hwn a ofnai rhag i dywysog mor addawol a phoblogaidd gyda'i gydwladwyr enyn gwrthryfel yn eu plith. Yn ngwyneb hyn, efe a ffodd am nawdd i lys Gruffydd ab Cynan, yn Ngwynedd. Y brenin trwy eiriau teg a lwyddodd i gael gan y noddwr anffyddlon hwnw addaw trosglwyddo y tywysog ieuanc i'w grafangau ef. Eithr daeth y ddichell i wybyddiaeth Gruffydd, ac efe a ffodd yn nhywyllwch y nos o afaelion ei fradychwr. Cyrhaeddodd y Deheubarth yn ddiangol mewn llong, a dechreuodd yn ddioedi ymosod ar y Saeson, y Normaniaid, a'r Ffleminiaid, a draws-feddianasent y wlad, a gorchfygodd hwynt mewn amryw frwydrau, a pharhaodd o tan arfau hyd onid ymheddychodd â Harri yn 1121. Yn 1135, gwysiwyd ef gan y brenin Stephan i ymddangos ger ei fron ef; eithr yn lle cydsynio, efe a arfogodd ei wyr, ac a ymlidiodd yr estroniaid a gymerasent feddiant o Geredigion a Phenfro o'r wlad, ac a laddodd tros dair mil o'r cyfryw. Yna cynaliodd wyl fawr yn ei balas yn Ystrad Towy er anrhydedd i'r dydd yr adfeddianodd efe ei diriogaeth; a gwahoddodd

Digitized by Google

iddi bob Cymro a fynai ddyfod mewn heddwch. Ceid ynddi bob math ar fwydydd, a diodydd, a danteithion; a beirdd a cherddorion a lonent y gwyddfodolion âg englyn a thant, tra yr oedd campau corphorol a difyrion adlonol gyflawnder ar eu cyfer. Parhaodd y wledd rwysgfawr hon am ddeugain niwrnod, ac anrhydeddwyd hi â phresenoldeb Gruffydd ab Cynan a'i feibion. Treuliodd y gweddill o'i oes mewn heddwch, yn diwygio cyfreithiau ac yn noddi awenyddion. Er galar i lawer, bu farw yn 1136. Dywed Caradawg o Langarfan am dano mai efe oedd y dewraf, y doethaf, y trugarocaf, yr haeddedicaf, a'r cyfiawnaf, o holl dywysogion Cymru. Dilynwyd ef i'r swydd gan ei fab Rhys.

GRUFFYDD AB TUDUR AB HYWEL, bardd yn ei flodeu rhwng 1500 a 1540. Y mae peth o'i waith ar gael mewn ysgrifen.

GRUFFYDD AB YR YNAD COCH, bardd campus yn ei flodeu rhwng 1260 a 1300. Y mae wyth o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*, un o ba rai ydyw ei farwnad odidog i'w noddwr Llywelyn ab Gruffydd, o ba un y mae cyfieithiad gan y Parch. R. Williams, o'r Fron, i'w weled yn y *Bardic Museum* gan Jones.

GRUFFYDD GRYG. Bardd gorchestol o Fon, a chyfoeswr D. ab Gwilym. Dywed Angharad Llwyd mai brodor o Aberffraw ydoedd, tra mae yr *Iolo MSS* yn gosod ei drigfa yn Mhenmynydd, Mon. Tebygol iddo gael ei eni tua 1300, a marw tua 1370. Yn ol y chwedl a briodolir i Dudur Aled,—"Goreu prydydd, Gruffydd Gryg; goreu awenydd, D. ab Gwilym." Ystyr "Cryg" yw garw *(rough)*; llais garw yw llais wedi crygu. Rhys Gryg y gelwid hen dywysog beiddgar. Adweinir G. Gryg yn benaf drwy ei gywyddau ymryson â D. ab Gwilym. Dyma ddechreu yr ymryson, "G. Gryg yn goganu D. ab Gwilym oherwydd ei draserch am Forfudd," yn dechreu

Truan mor glaf yw Dafydd.

"Dafydd yn ateb, gan heuru mai benthyca cerdd yr oedd G. Gryg." "Ymddiffyniad G. Gryg, yn dangos y medrai ganu."

Dywaid gelwydd, myn Dewi!
A phrofer pan fyner fi!

"Dafydd yn ateb drwy ymffrost, ac yn herio G. Gryg," gan ei alw "Grifft y plwyf, &c." "Gwrthateb G. Gryg, yn anog Dafydd i ymladd,"

Dyred i'r cyrch, daradr cerdd!

"Dafydd yn ateb i dawelu G. Gryg." "Gwrthateb G. Gryg." Dywed G. Gryg nad oedd gwiw i D. ab Gwilym ymryson ag ef yn Mon.

Y mae saith o gymdeithion
Ym yn Aberffraw yn Mon,
Amlen rhodeliad profadwy
Am un i Ddafydd, a mwy.

Dywed G. Gryg yn y cywydd hwn iddo gael mab ordderch o'r enw Dafydd, ac iddo gilio i'r Deheudir, a dyfala mai hwnw, wedi dychwelyd, a chodi yn erbyn ei dad, oedd D. ab Gwilym. Mae D. ab Gwilym yn ei "Ateb," yn trin y fath stori blentynaidd gyda dirmyg,—

Gwr lau ydyw mewn gwaradwydd,
Mewn difri na fi o flwydd.

Dywedir mai "Brodyr Priordy y Gwynlliw" a luniodd chwedl i ddyhuddo llid y ddeufardd, trwy anfon i Fon i ddweyd fod Dafydd wedi marw, ac y cleddid ef yn Ystrad Fflur, a danfon at Dafydd fod Gruffydd wedi marw, ac y cleddid ef yn Llanfaes, ger Beaumaris. Canasant

Digitized by Google

farwnadau hynod o deimladwy a pharchus i'w gilydd, gan ofidio yn fawr oherwydd yr ymryson. Yr oedd "Priordy y Gwynlliw" yn Nghasnewydd-ar-wysg, lle mae'r *Friar's field* yn bresenol. Dywedir mai un Bola Banol a luniodd y ddichell i'w heddychu. Mae *Iolo MSS* yn dweyd mai yn Ystrad Fflur y lluniwyd i'r ddau gael eu claddu yr un diwrnod, ac iddynt gwrdd a'u gilydd yn fyw a'r marwnadau yn eu llogellau; ond mae y cywyddau yn gwrthbrofi hyn, ac yn gosod bedd G. Gryg yn Llanfaes. Bu farw D. ab Gwilym yn 1368, a chanodd G. Gryg gywydd arall o alar gwirioneddol am dano. Yr oedd G. Gryg yn fardd dysgedig ac athrylithgar, a'i fam yn Wyddeles.

Gwyddelyn march Cregyn Cryg.—IOLO GOCH.

Mae amryw o'i gyfansoddiadau mewn hen ysgriflyfrau, a thebygol na chyhoeddwyd yr oll o'r cywyddau ymryson â D. ab Gwilym.

GRUFFYDD HIRAETHOG, bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1520 a 1550. Brodor ydoedd o Lansannan, ar odreu mynydd Hiraethog, yn sir Ddinbych; a dysgybl barddonol i Dudur Aled. Bu yntau yn athraw i William Cynwal, Simwnt Fychan, Sion Tudur, a William Lleyn; a phan ofynwyd iddo pa un oedd y goreu o'r pedwar dysgybl, atebodd, heb roddi anghlod i'r un ohonynt, "Dysgedig yw Sion Tudur; awenyddgar yw William Cynwal; gofalus yw Simwnt Fychan; ond nid oes dim yn anwybod i William Lleyn." Bu yn trigo am yspaid yn Llangollen, ac yno y claddwyd ef. Y mae y rhan luosocaf o'i farddoniaeth heb ei argraffu, a dywedir ddarfod iddo gyfansoddi hanes Prydain a gwledydd eraill. Yr oedd yn fardd a rhyddieithwr campus. Ceir testunau a llinell gyntaf 64 cywydd o'i waith ar glawr *Greal* Llundain. Cyfansoddwyd ei farwnad gan ei hen ddysgybl William Lleyn.

GRUFFYDD MAELOR, tywysog ar Bowys, a mab i Fadog ab Meredydd, fab i Bleddyn ab Cynfyn. Efe oedd arglwydd y ddwy Faelor, a Mochnant is Rhaiadr. Yr oedd yn hynod am ddoethineb a haelfrydedd. Bu farw yn 1190, a chladdwyd ef yn Meifod. Ei wraig oedd Angharad, ferch i Owen Gwynedd, a gadawodd ar ei ol un mab ohoni o'r enw Madog, yr hwn a olianodd ei dad ar y rhan hono o'i arglwyddiaeth a elwid Powys Fadog.—*Brutiau Cymreig.*

GRUFFYDD LLWYD (SYR), o Dregarnedd, yn Mon. Efe a ddygodd y newydd i Gastell Rhuddlan i Iorwerth I. o enedigaeth mab iddo yn nghastell Caernarfon; ac am hyny y derbyniodd urdd marchog gan y brenin hwnw. Parhaodd am lawer o flynyddau ar delerau tra heddychol a chyfeillgar â brenin Lloegr; ond wrth weled y dirmyg a'r gorthrwm a ddyoddefid gan ei gydwladwyr yn barhaus oddiar ddwylaw y swyddogion Seisnig, yn enwedig gan Syr Roger Mortimer, arglwydd Castell y Waen ac ynad Gogledd Cymru, enynodd tân gwladgarwch a dial o'i fewn, a thorodd allan mewn gwrthryfel agored yn erbyn y Saeson. Er mwyn chwanegu cryfder, a chyrhaedd ei amcan clodwiw, a bwrw ymaith iau yr estron oddiar ysgwyddau ei wlad, efe a amcanodd ffurfio cyngrair gydag Edward Bruce, brenin yr Alban, ond yn hyn ni bu efe lwyddianus. Yna cynullodd hyny o wyr a allai, a dechreuodd ryfel ffyrnig, gan ddarostwng Gwynedd oll a'r Cyffiniau i'w awdurdod, a chymeryd meddiant o'u holl gastellau a chadarnfeydd. Pa fodd bynag, daeth y Saeson yn llu mawr yn ei erbyn, buan y gorchfygwyd ei fyddin, a chymerwyd yntau ei hun yn garcharor. Digwyddodd hyn yn 1322. Carcharwyd ef yn Nghastell Rhuddlan; a chyfansoddodd

Digitized by Google

Gwilym Ddu o Arfon gywydd o ddyhuddiant iddo, yr hwn a welir yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Tybir mai yno y bu hyd ei farwolaeth, gan nad oes yr un gofnod am ei ddienyddiad. Ei brif-balas ydoedd Tregarnedd, yn Mon, a bu y lle yn meddiant ei ddisgynyddion hyd 1750, pryd y cafodd ei werthu.—Wms. *Em. Welsh.*

GRWST, sant yn ei flodeu yn nechreuad y 7fed cant. Mab ydoedd i Gwaith Hengaer, ab Elfin ab Urien Rheged, ac Euronwy ferch Clydno Eiddin. Efe a sefydlodd eglwys Llanrwst, sir Ddinbych, lle y cynelid ei wylmabsant Rhagfyr 1.—*Iolo MSS.*

GUEST (Syr Josuah John), barwnig, ydoedd fab i Thomas Guest, Ysw., o Ddowlais, tad yr hwn, a thaid Syr J. John, a ddaethai o sir Amwythig i Ddowlais oddeutu y fl. 1747, ac a sefydlasai yno fel mwnwr haiarn a glo, a gwneuthurwr haiarn. Ganwyd ef Chwefror 2, 1785. Efe oedd yr aelod seneddol cyntaf a ddychwelwyd tros Ferthyr Tydfil. Priododd yn 1817 â merch i W. Rancen, Ysw., yr hon a fu farw yn ddiblant yn 1818. Gorph. 29, 1833, priododd yr Arglwyddes Charlotte Elizabeth Bertie, unig ferch Alexander Bertie, 9fed iarll Lindsey; yr hon a gyfieithodd y *Mabinogion Cymreig* mewn dull mor ardderchog i'r iaith Saesonig. Crewyd Syr John yn farwnig yn 1838.

GUTTO'R GLYN. Un o feirdd enwog y 15fed ganrif, cymydog a chydoeswr D. ab Edmwnt, Gutyn Owain, &c. Efe oedd bardd Abatty Glyn Egwestl, ger Llangollen, ac am hyny, mae yn debyg, y gelwid ef Gutto'r Glyn. Efe oedd bardd abad y fynachlog hono. Blodeuai o 1450 i 1480. Gwelsom gywyddau ymryson rhyngddo â D. ab Edmwnt, yn y rhai y mae mwy o graseiriau a serthedd nag oedd weddus. Canodd Llywelyn ab Gutyn, "Gywydd marwnad Gutto'r Glyn pan ddywedpwyd ei foddi yn Malltraeth, Mon." Serth a gogan yw y cywydd, a chanodd Gutto atebiad iddo, a haerodd mai wedi meddwi yr oedd Llywelyn ar win boueddigion sir Fon. Gutto'r Glyn oedd bardd teulu Ieuan Fychan ab Ieuan Gethin, o Faeliwrch, yn Llansilin. Ymlynai wrth Ieuan yn fwy nag yr abad; a mynai dreulio gwyliau y Nadolig yn Maeliwreh yn hytrach nag yn y fonachlog. Dywedai wrth Ieuan Fychan,—

Nid micar a'n hysgar ni
Na brawd a wnae briodi;
Nid esgob enw dewisgair,
Nid Pab, ond Mab Mair.

Tebygol mai Sion ab Risiart, neu "Sion abad," oedd noddwr Gutto, yr hwn, yn ol Gutyn Owain, oedd arglwydd teirswydd, sef Ial, y Waun, a Maelor. Yr oedd lle da yn y fonachlog yn ol darluniad Gutto o haelioni'r llys,—

Tri bwrdd a bair troi i'w borth,
Tair siambr yn trwsio ymborth.
A'i law yntau fal Antwn,
A laif rhudd,—ei lyfr yw hwn,
I ladd y saith,—lewaidd Sion!

Marwol bechodau mawrion,
Cynal y mae'r Card'nal cu
Cost y llys, castell Iesu.
Gwledd echdoe a doe'n ei dy,
Gwledd can' annedd cyn hyny.

Yr oedd Gutto'r Glyn yn gredwr cadarn yn y purdan, talu *fine* dros bechodau, &c.,—

Nid a i'r nef, rhaid yw'n wir
Ffinio dros y corph anwir,
A thalu'r ffin gatholig
Yn y tan, yr enaid dig;
Crist ni dderbyn o'r crasdan
Enaid i'w law ond yn lan.

Mae cywydd o'i waith ar gael i Dafydd Llwyd o Gedewain, sef y Dref-newydd ar lan Hafren, sef mawl i'r gwr haelionus hwnw am wneud Eisteddfod yn ei dŷ ar wyl y Sulgwyn. Treuliodd lawer o'i amser gyda Herbertiaid Caerdydd a Rhaglan, a chanodd lawer i foneddigion

Digitized by Google

Gwent a Deheubarth. Gwyddis fod tua 90 o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llawysgrifau. Gwelsom rai ohonynt, megys "Cywydd marwnad Meirig Fychan o Nannau, ac Angharad ei wraig ef;" yn dechreu fel hyn :—

Mawr fu'r bri am y trihael,
Mwy fu'r cwyn am Feirig hael.

Dyna gywydd arall "I ofyn mantell Wyddelig gan Elen Chwitnai o'r Llanerchfawr yn Lleyn." Er prawf ei fod ef yn byw yn Nglyn Egwestl, neu Lyndyfrdwy, dyma gywydd o'i waith ger ein bron, "Ar borthmonaeth y bardd o'i wyn degwm, a brynasai ar oed gan berson Corwen." Atebwyd y cywydd hwn gan Tudur Penllyn, a gwrthatebwyd gan Gutto. Canodd Syr Rhys o Drewyn, ger Corwen, gywydd i'w drin am na ddaethai i Ial i wyliau y Nadolig at yr abad. Atebodd Gutto, a thriniodd Syr Rhys yn arw am ddyfod i'w dy ef gyda'i was a'i wraig a meddwi yno; er meddai amdano,—

Offisiol a chyffeswr
A meddyg im' oedd y gwr.

Er i Gutto dreulio llawer o'i oes mewn ymrysonau barddonol, eto canodd lawer ar bynciau mwy cydnaws ag anian mab tangnefedd. Efe a ystyrid y goreu o bawb ar gywydd mab. Mae dau gywydd o'i waith yn y *Records of Denbigh;* un a ganwyd i "Arglwydd Herbert" yn 1468, yn amser Rhyfel y Rhosynau, pan losgwyd Dinbych, ac y diffeithiwyd y wlad. Dyweda wrth Arglwydd Herbert :—

Na fwrw dreth ar Fon draw
Na aller ei chynnulliaw:
Na friw Wynedd yn fraenar,
Na'd i Fon fyned i far,
Na'd y gweiniaid i gwynaw,
Na'd brad na ll'rad rhag llaw,
Na'd trwy Wyne dd blant Rhonwen,
Na phlant Hors yn y Fflint hen;
Na'd f' arglwydd swydd i un Sais
Na'i bardwn yn i bwrdais.

Cywydd arall sydd "yn dangos fel y bu yn maes Mambri," pan laddwyd William, iarll Penfro, a'i frawd Syr Risiart Herbert, yn 1469. (Gwel farwnad Syr Risiart gan Ieuan Deulwyn, yn *Ngorchestion Beirdd Cymru*). Cyrhaeddodd Gutto'r Glyn oedran mawr, a bu farw yn hen gleiriach methiant yn monachlog Glyn Egwestl, pan yn rhy fyddar i glywed y corn ciniaw, na'r gloch osber; a chladdwyd ef yn y fonachlog hono. Byddai darlleniad manwl o weithiau beirdd yr oes hono yn gymhorth rhagorol i ddeall hanes Cymru yn y tymhor hwnw.

GUTYN AB IFAN LYDAN, bardd yn ei flodeu rhwng 1560 a 1600.

GUTYN GETHIN, bardd yn ei flodeu rhwng 1550 a 1580.

GUTYN MORGANWG, bardd yn ei flodeu rhwng 1560 a 1600.

GWAIR AB GWESTYL, rhyfelwr dewrwych yn ei flodeu yn y 6ed ganrif. Cofnodir ef yn y *Trioedd* gyda Cai ab Cynyr a Thrystan ab Tallwch, fel "tri thaleithiawg cad." Gwelir ei enw hefyd yn y *Mabinogion*, a chyfeirir ato gan yr hen feirdd fel un hynod am ei dymher bruddglwyfus.—*Myv. Arch.;* Guest's *Mabinogion.*

GWAIR GWRHYD FAWR, neu yn ol rhai ysgrifau, Gwairwerydd Fawr, a gofnodir yn y *Trioedd*, gydag Eiddilic Cor a Thrystan ab Tallwch, fel "tri chyndynawc," y rhai nid oedd a'u troent un amser oddiwrth a arfaethent.

GWAITHFOED FAWR, tywysog ar Bowys yn y 10fed ganrif. Y mae bron yn annichonadwy dadrys ei fuchedd oddiwrth yr eiddo Gwaithfoed arall a fu yn dywysog ar Gibwyr a Cheredigion. Yn ol yr *Eminent Welshmen*, mab oedd hwn i Gwrhydyr ab Caradawg. Priodod Forfydd ferch i Ynyr Ddu, brenin Gwent, ac yr oedd yn gyff

Digitized by Google

cenedl i amryw o brif deuluoedd Cymru. Dilynwyd ef yn ei swydd gan ei fab Gwerystan.

GWAITHFOED FAWR, tywysog Ceredigion, ac arglwydd Cibwyr, oedd fab i Eunydd ab Cadifor ab Peredydd Peiswyrdd ab Encyn ab Eunydd, yr hwn a hanai o Wyddno Garanhir. Cofnodir ef yn y *Trioedd*, gyda Morgan Mwynfawr ac Elystan Glodrydd, tan y penawd, "tri hualogion teyrnedd Ynys Prydain," am y gwisgent hualau, neu gadwen, gylch eu harleisiau yn ol dull yr hen dywysogion Prydeinig, ar nid coronau, fel arwydd o'u hurdd a'u swydd. Yr oedd yn ei flodeu yn yr 11eg ganrif. Ei blant oeddynt,—Cadifor, arglwydd Ceredigion; Cynan Feiniad, arglwydd Tefana; Rhydderch, arglwydd Gwynfai; Aeddan, arglwydd Grismwnt; Gwyn, arglwydd Castell Gwyn; Bach, arglwydd Ysgynfraith; Ednowain, abad Llanbadarnfawr, yr hwn a westyodd yr archesgob Baldwyn a Giraldus Cambrensis yn 1188, gan yr hwn y gelwir ef yn hen wr, "wedi heneiddio mewn anwiredd;" Cynddrych, arglwydd Saighenydd; Cynilin, arglwydd y Cwm; a Christian, abades Tal y Llychau. Adroddir yr hanesyn canlynol yn yr *Iolo MSS*:—Gwaithfoed, arglwydd Cibwyr a Cheredigion, oedd yn byw yn amser Edgar Frenin. A'r Edgar hwnw a ddanfones at dywysogion Cymru yn gorchymyn iddynt ei gyfarfod ef yn Nghaerlleon Gawr, a rhwyfo ei fâd ef ar y Ddyfrdwy. A Gwaithfoed a ddanfones ateb i Edgar gan ddywedyd na fedrai ef rwyfo ysgraff; a phe medrai, na wnelsai ond er gwaredu brenin neu wreng rhag angau. Edgar a ddanfones eilwaith ato, a chyda hyny gorchymyn caeth; eithr ni roddai Gwaithfoed ateb am enyd i'r genad, a hwnw yn deisyf ateb a pha beth a ddywedai wrth y brenin. "Dywed fel hyn wrtho," ebai Gwaithfoed, "*Ofner na ofno angau.*" Ac yna y daeth Edgar ato, a rhoi llaw yn garedig iddo, ac ymhŵedd arno fod yn gâr a chyfaill iddo; a hyny fu. Ac o hyny allan, arwyddair epil Gwaithfoed fu, "Ofner na ofno angau." Gan fod Edgar yn byw yn y 9fed ganrif, dichon mai at Gwaithfoed, tywysog Powys, y cyfeirir yma; ond y tebygolrwydd ydyw mai chwedl neu ddamheg ydyw yr hanesyn.

GWALCHMAI AB GWYAR, penaeth enwog yn rhan flaenaf y 6ed ganrif. Yr oedd yn nai fab chwaer i Arthur, o Gwyar, ei hail wr. Gwneir tri chofnodiad ohono yn y *Trioedd*. Yn *Tri* 70, rhestrir ef gyda Llechau ab Arthur a Rhiwallon Wallt Banhadlen, tan y penawd, "tri deifnogion Ynys Prydain;" "ac nid oedd nas gwypynt ei ddefnydd a'i ddeifnogaeth, ai o ryw ai o ran, ai o ansawdd, ai o gyfansawdd, ai o ddychymod, ai o ddychymyg, ai o anian, ai o aniad y byddei." Cofnodir ef yn *Tri* 115, gyda Drudwas a Madawc, fel "tri marchogion aurdafodogion Llys Arthur;" "a doethaf o bob doethion o'u hamser oeddynt, ac mor deg a llaryeidd eu hymddwyn, ac mor hyawdl a hynaws eu holl ymadroddion, fel nas gallai neb ball iddynt ar a geisiynt." Rhoddir cymeriad cyffelyb iddo hefyd yn *Tri* 119. Oblegyd y cyneddfau hyn, yr oedd Gwalchmai yn gymeriad tra enwog gydag awduron yr hen ramantau Cymreig; ac y mae ei enw wedi ei Ladineiddio yn Walganus, neu Walweyn, ac yn cael ei adwaen yn Ffrancaeg fel Gawain. Dywed William o Malmesbury, fod bedd Gwalchmai, neu fel ei gelwir ganddo ef Walwen, wedi ei ddarganfod yn 1086, ar lan y môr, mewn rhan o Gymru, a elwir Rhos, yn sir Benfro, lle y mae man o'r enw Castell Gwalchmai a *Walwyn's Castle*. Lladdwyd ef yn nechreuad y rhyfel trychinebus rhwng ei ewythr Arthur â Medrawd.

GWALCHMAI AB MEILIR, ydoedd fab, yn ol rhai awdurdodau,

Digitized by Google

i Feilyr Brydydd, o Drefeilyr, yn Mon; yn ol eraill, dysgybl barddonol ydoedd i'r bardd enwog hwnw. Yr oedd Gwalchmai yn un o brif feirdd y 12fed ganrif, ac yn un o'r chwareuwyr goreu ar y delyn yn ei oes. Bu am yspaid yn fardd teuluaidd i Dafydd ab Owain Gwynedd; a dywedir iddo ddilyn Risiart I. i Ryfeloedd y Groes. Y mae deuddeg o'i ganiadau ar gael yn y *Myv. Arch.*, y rhai ydynt oll yn arddangos awenydd gorchestol, yn enwedig yr anerchiad i Owain Gwynedd, ar frwydr fawr Tal y Foel, yn 1150. Ystyrir fod amryw ddarnau o waith Gwalchmai yn tra ragori ar eiddo beirdd eraill y cyfnod hwnw. Yr oedd yn feistr hollol ar yr iaith, ac yn dra dedwydd yn y modd yr amlygai ei deimlad byw. Ceir cyfieithiad meistrolgar o'i "Arwyrain i Owain," yn y *Cambrian Register* i. 407; ac yn y *Cambro-Briton*, 231, yn nghyda nodau eglurhaol.

GWALCHMAI (Parch. Humphrey), a anwyd yn Llanwyddelen, sir Drefaldwyn, yn 1788. Mab ydoedd i Edward Gwalchmai o'r lle hwnw. Yr oedd ef, fel ei dad, yn bregethwr tra chymeradwy gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Cafodd ysgolheigiaeth dda yn ei ieuenctyd. Treuliodd ran fawr o'i oes yn Llanidloes, lle y coronwyd ei lafur â llwyddiant nodedig. Yr oedd yn wr llariaidd ei dymher, a rhydd ei egwyddorion. Wedi treulio 30 mlynedd o'i fywyd yn Llanidloes, symudodd i Groesoswallt yn 1842, a bu yn golygu a chyhoeddi cylchgrawn bychan yno, o'r enw yr "Athraw," oddiwrth yr hon anturiaeth, y mae lle i ofni, ni chafodd ond colled. Bu farw Mawrth 29, 1847, yn 59 oed. Claddwyd ef yn ymyl capel "Yr Adfa," Llanwyddelan. Yr oedd amod rhyngddo â'r Parch. Richard Jones, Llanfair, er ys blynyddau, sef fod i'r byw o'r ddau bregethu yn angladd y marw; yr hwn amod a gyflawnwyd gan Mr. Jones.—*Meth. Cymru; Drysorfa*, 1847.

GWALLAWG AB LLEENAWG, penaeth enwog ar ran o Bowys, tua'r Amwythig, mae'n debyg, yn ystod y 6ed ganrif. Cofnodir ef yn y *Trioedd*, gyda Dunawd Filur a Chynfelyn Drwsgl, fel "tri phost câd Ynys Prydain," oblegyd eu medrusrwydd i ddosparthu ac iawndrefnu gwyr i frwydr, yn yr hyn yr "oeddynt yn oreuon i bawb oll ar a fuant erioed." Mewn *Tri* arall, cysylltir ei enw gyda Selyf ab Cynan ac Afaon ab Taliesin, tan y penawd "Tri aerfeddawg Ynys Prydain;" "sef y gelwid hwynt felly am ddarfod iddynt ddial eu cam o'u beddeu." Yn mysg y caniadau argraffedig yn y *Myv. Arch.*, ag a briodolir i Taliesin, y mae dwy wedi eu cyflwyno i Gwallawg, yn mha rai yr enwir y manau y cymerodd ei brif frwydrau le, ac y dywedir fod ei glod yn cyrhaedd o Gaer Glud, neu Dumbarton, yn ngogledd Prydain, hyd Gaer Garadawg, neu Salisbury, yn Ngwlad yr Haf. Cofnodir ei enw hefyd yn marwnad Llywarch Hen ar ol Urien Rheged; ac yr oedd efe yn un o'r tri brenin gogleddol a ymunasant â'r tywysog hwnw i'r dyben o wrthwynebu oliianwyr Ida. Dywed y *Brutiau Cymreig* ei fod yn un o'r marchogion oedd yn bresenol yn nghoroniad Arthur, a thraethir iddo gael ei ladd yn y frwydr ddiweddaf a fu rhwng y penadur hwnw â gwyr Rhufain. Yn ol *Englynion y Beddau*, claddwyd ef ar lan yr afon Carrog, yn Arfon.—Wms. *Em. Welsh.*

GWALLTER MECHAIN, sef y Parch. Walter Davies M.A., prifardd a phencerdd dysgedig yr oes o'r blaen, a anwyd mewn ty o'r enw y Wern, yn mhlwyf Llanfechain, yn Mechain Iscoed, o fewn cyfoeth Powys, Gor. 15, 1761. Yr oedd ei deulu ar y pryd mewn amgylchiadau isel yn y byd, er eu bod yn hanu o hen deuluoedd anrhydeddus Powys, sef Davies o Nant yr Erw Hardd, y Cyffiniaid, &c. Ychydig a wyddom

Digitized by Google

am helyntion bore ei oes. Cafodd y frech wen yn ieuanc, yr hon a adawodd ei nodau arno; tyfodd i fynu yn ddyn cadarn, esgyrnog, yn rhagori mwy mewn nerth nag mewn tegwch, ond fod ei ddawn a'i athrylith wedi argraffu mawredd ac urddasoldeb ar ei holl ysgogiadau. Cofir gan yr hen bobl, y naill ar ol y llall, i'w fam ei adael yn ei gryd pan yn blentyn, a myned yn y bore i Groesoswallt, a dychwelodd adref cyn i Gwallter bach ddihuno, er bod ganddi bell ffordd i'w theithio. Daeth ei athrylith i'r golwg yn fore, dechreuai ysgrifenu ar lechi, o'i ben ei hun, pan yn deirblwydd oed; a phan gafodd ychydig o ysgol, rhagorodd yn fuan ar ei athraw. Dihunodd ei awen yn dra bore. Gwelsom gywydd o'i waith wedi ei hamseru, 1781; er nad ydoedd yn gelfydd a rheolaidd ei chynghaneddion. Ei hamcan oedd gwrthwynebu ymrysonau crefyddol, ac anog i gariad a heddwch. Yr oedd Harri Parry bach o Graig y Gath, a Rhys Jones o'r Blaenau, newydd fod yn canu serth a gogan i'r Methodistiaid; ond dyma Walter ieuanc yn codi ei lais yn erbyn enllib, ac yn galw am dangnefedd a brawdgarwch rhwng holl grefyddwyr y wlad. Beirdd poblogaidd yr oes hono oedd T. Edwards o'r Nant, Jonathan Hughes, William Jones o Langadfan, &c., heblaw rhigymwyr fel Elis y Cowper, Dafydd Jones o Drefriw, Hugh Jones o Langwm, a'u cyffelyb. Yr oedd beirdd dysgedig yr oes o'r blaen wedi diflanu. Lewis Morris a William Wynne wedi meirw, Goronwy Owain wedi encilio i'r Amerig, a'r Prydydd Hir yn crwydro yn siomedig a digartref, heb le i roi ei ben i lawr. Diau i G. Mechain dreulio blynyddoedd ei ieuenctyd mewn diwydrwydd i gasglu gwybodaeth gyffredinol, cyfansoddodd lawer o gerddi, carolau, ac englynion, cyn bod yn ddeg ar hugain oed. Dywedir y cyfansoddai garol newydd fin nos cyn y Nadolig, ac y byddai Thomas Morris, o'r Pentre Gwyn, Llansilin, yn ei chanu yn y Plygain fore dranoeth yn eglwys Llangedwyn! Dichon mai yr Eisteddfod gyntaf y bu efe ynddi oedd Eisteddfod Llangollen yn 1788, yr hon a ddygwyd yn mlaen yn benaf drwy nawdd a dawn y Gwyneddigion, ac offerynoliaeth Thomas Jones, Cyllidydd, Llanrhaiadr yn Mochnant, a John Edwards, Pen-y-bryn, Llangollen. Yn Mai 1789, cynaliwyd Eisteddfod Corwen. Y beirdd gwyddfodol oedd Jonathan Hughes, T. Edwards o'r Nant, a Gwallter Mechain. Ymrysonent am "y gadair arian." Agorodd G. Mechain yr Eisteddfod drwy ddadganu cywydd gorchestol, fel anerchiad; rhoddwyd deuddeg o destunau yn olynol i ganu yn ddifyfyr arnynt; ac i Gwallter y barnwyd yr ariandlws. Yr oedd gorchfygu dau hen brif fardd y Gogledd yn naid fawr at enwogrwydd ar unwaith. Yn Medi yr un flwyddyn cynaliodd y Gwyneddigion eu heisteddfod yn y Bala. Testun y gadair oedd "Awdl ystyriaeth ar oes dyn;" ac er fod T. Edwards o'r Nant, Jonathan Hughes, D. Ddu Efyri, &c., yn cystadlu, Gwallter Mechain a enillodd y gamp; a bu cryn rwgnach, yn enwedig gan Fardd y Nant, oherwydd ei lwyddiant. Yn 1790, cynaliodd y Gwyneddigion eu Heisteddfod yn Llanelwy. "Rhyddid" oedd y testun. Cynygid "cadair arian" am y farddoniaeth oreu ar y testun, ac "ariandlws" am y traethawd goreu i'r un perwyl. Gwallter Mechain oedd y buddugol ar y traethawd, yr hwn a argraffwyd yn Llundain yn 1791, ar draul Owen Myfyr. Sefydlodd y gorchestwaith hwn glod yr awdwr ar unwaith fel traethodwr, a thybiai y bardd ei hun nas gallai ragori ar yr ymgais hwnw yn nhymhor aeddfetach ei fywyd. Dygodd hyn ef i sylw y dysgedigion, ac anfonwyd ef i *All Soul's College*, Rhydychain, i'w gymhwyso i'r offeiriadaeth. Gwa-

Digitized by Google

harddwyd i D. Ddu ac yntau gystadlu ar destunau y Gwyneddigion yn 1792–93, fel y byddai i eraill gael cyfle i enill weithiau. Treuliodd G. Mechain ei bedair blynedd yn ddiorphwys yn y brifysgol, heb ddychwelyd adref ar y gwyliau gosodedig. Yn 1793, cynygiwyd argraffu *Celtic Remains* Lewis Morris,—"*Augmented and arranged by Walter Davies, All Soul's College.*" Ionawr 7, 1795, cawn Iolo Morganwg yn ysgrifenu ato, dan yr enw "Gwallter Mechain, Bardd wrth Fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain, *All Soul's College*," ac yn anfon copi o *Gyfrinach y Beirdd* iddo mewn llawysgrif, gyda'r llythyr. O hyny allan daeth G. Mechain yn un o feirdd Gorsedd Morganwg. Yn y *Cambrian Register* am 1795, cawn "*A Statistical Account of the Parish of Llanymynech, by Walter Davies, A.B.*" Rhoddes yr ysgrif hon foddhad mawr i'r dysgedigion hynafiaethol. Ar ei fynediad o'r brifysgol, urddwyd ef yn offeiriad, a chafodd guradiaeth Meifod, yn sir Drefaldwyn; ac yn y *Cam. Reg.* am 1796, cawn o'i ysgrifell, "A Sketch of the Life of William Jones," bardd enwog o Langadfan. Yn 1797, penodwyd ef gan "*The Board of Agriculture and Internal Improvement*," i ymchwilio i gyflwr amaethyddol a theuluaidd Gogledd Cymru. Ysgrifenodd at D. Ddu, yr hwn oedd yn Amlwch, i ofyn am ei gymhorth; a chyhoeddwyd ffrwyth ei lafur yn 1810, yn gyfrol drwchus. Cawn ef yn 1797–8 yn cydweithredu ag eraill i gynal Eisteddfod yn nhref Caerwys, yn sir Ffilint. Yn 1799, cafodd guradiaeth barhaol Ysbytty Ifan, yr hon a ddaliodd hyd ei farwolaeth; a chafodd rectoriaeth Llanwyddelen gan Esgob Horsley, yr hon a roddes i fynu yn 1807, pan roddwyd iddo rectoriaeth Manafon, gan yr Esgob Cleaver. Yn 1800, enillodd ariandlws y Gwyneddigion, am yr awdl oreu ar "Ansawdd gwybodaeth a dysg" ar gload y ddeunawfed ganrif. Dengys yr awdl hon fwy o "wybodaeth a dysg" nag o ystwythder awenyddol. Ni chafodd beirdd Gwynedd fawr o flas ar yr awdl gan ei fod yn canu ar amryw o hen fesurau Dosparth Morganwg. Hefyd tua'r fl. 1803, efe a briododd Mrs. Pryce, gweddw ei hen gyfaill Rice Pryce, o Rosbrynbwa, yr hon a fu yn ymgeledd gymhwys iddo, ac a fu farw ychydig o'i flaen ef. Dywedir mai efe hefyd a gyfieithodd "Eglur Olygiad o'r Grefydd Gristionogol," o waith y Parch. T. Gisborne, A.M., gyda rhagarweiniad maith gan y cyfieithydd, yn 1801. Nis gwyddom pa ran a gymeredd yn nygiad y *Myv. Arch.* a'r *Greal* allan, ond bu yn diwygio orgraff y Bibl Cymreig, gyda Roberts Dinmeirchion, a Charles o'r Bala, yn 1809. Ysgrifenodd awdlau ar "Amaethyddiaeth" i Eisteddfod Tremadog yn 1811. A bu yn ymchwilio i ansawdd amaethyddol a theuluaidd siroedd y Deheudir, megys ag y buasai yn y Gogledd, a Iolo Morganwg yn ei gynorthwyo. Daeth ffrwyth ei lafur allan yn ddwy gyfrol 8plyg 1813–1815. Edrychwn ato eto fel tad yr Eisteddfodau diweddar. Cawn ef, y Parch. D. Rowland, ac eraill, yn nhy Ifor Ceri ddechreu 1818 yn cynllunio Eisteddfod; a'r canlyniad a fu cael Eisteddfod Fawr Caerfyrddin yn Gorphenaf 1819. Enwogodd ei hun yn fawr yn yr Eisteddfod hono, drwy enill y gadair am yr awdl oreu ar farwolaeth Syr Thomas Picton; enillodd hefyd ar yr englyn goreu i'r Delyn newydd ei thantio; a'r traethawd "On the distinct characters and comparative advantages of the Bardic Institutions of Carmarthen and Glamorgan." Efe oedd yr unig un yn fyw a allasai ysgrifenu ar y testun hwn megys ag y gwnaeth efe. O hyny allan, ymaflodd yn llyw yr Eisteddfodau, ac edrychid arno fel yr edrychai yr hynafiaid ar Tydain Tad Awen. Ysgrifenai y blynyddau hyn i'r *Cambro-Briton*, o dan wahanol enwau.

Digitized by Google

Yn 1821, enillodd dlws y Gwyneddigion am yr awdl oreu ar "Gwymp Llywelyn, tywysog olaf y Cymry." Hwn oedd y nawfed tlws iddo enill. Yn 1823, enillodd dlws "y Cymmrodorion" am yr awdl oreu ar "Ymdrech Caswallon a lluoedd Ynys Prydain yn erbyn y Rhufeiniaid." Awdl gampus. Efe hefyd, yn y flwyddyn hon a gasglodd, a drefnodd, ac a gyhoeddodd waith Hugh Morris *(Eos Ceiriog)*, yn ddwy gyfrol brydferth, gyda hanes bywyd y bardd. Cawn ef hefyd yn brif-farnwr yn yr Eisteddfodau, megys Gwrecsam 1820, Aberhonddu 1822, Trallwng 1824, Aberhonddu 1826, Dinbych 1828, Beaumaris 1832. Yn 1822, dechreuwyd cyhoeddi y *Gwyliedydd*, dan nawdd gweinidogion yr Eglwys Sefydledig, a pharhaodd i ddyfod allan am 15 mlynedd, sef hyd oni fethodd Gwallter Mechain gan henaint. Ei adolygiadau ef ar gynyrchion yr Eisteddfodau, ei lythyrau Garmon, ei fân-gofion barddonol, &c., oedd y pethau penaf yn ein iaith yn ol eu rhywogaeth. Yn 1827, cyfansoddodd gywydd nodweddiadol, o goffadwriaeth am ei hen gyfaill gwiwgof Iolo Morganwg. Ysgrifenodd lawer hefyd i'r *Cambrian Quarterly Magazine* tua 1829-1833. Cawn ganddo draithawd ar "Farddoniaeth" yn 1834, yr hwn a gyhoeddwyd yn *Transactions* y Cymmrodorion. Wrth edrych ar yr holl bethau hyn, rhaid i ni ryfeddu mwy na mwy at lafur a diwydrwydd offeiriad dysgedig Manafon. Yn 1837, pan yn 77 oed, cafodd ficeriaeth Llanrhaiadr yn Mochnant. Dylasai gael rhywle cyffelyb, neu well, ddeugain mlynedd yn gynarach. Pa fodd bynag, yr oedd nerth ac athrylith yr hen fardd diledryw yn aros o hyd. Yn y flwyddyn hono y daeth gwaith Lewis Glyn Cothi allan yn ddwy gyfrol, o dan ei olygiad ef, a'i gyfaill Tegid. Ond gwyddom fod yr holl dafleni achyddol, y nodiadau, &c., wedi dyfod o law gelfydd Gwallter Mechain. Yr oedd ei awen hefyd mor fyw ag erioed. Enillodd wobrwyon ar ol hyn yn Eisteddfodau y Fenni. Mae ei awdl, "Golygawd o ben y Fâl," sef y Foel gribog a eilw y Saeson *Sugar Loaf*, yr hon a gyfansoddodd efe yn 1838, yn un o'r pethau rhyfeddaf fel engraifft o gôf, ac adnabyddiaeth o hen ardaloedd Essyllwg, gan un a dreuliasai ei oes mor bell oddiyno. Darlunia ei hun ar bigwrn y mynydd ar godiad haul hirddydd haf, a'r holl wlad yn ymledu o'i flaen hyd fachlud haul dros fynydd du sir Gaerfyrddin. Cyfansoddodd gywydd ar "Faes Bosworth" i Eisteddfod y Gordofigion yn 1840; a dywedir iddo barotoi awdl ar y "Greadigaeth," i Eisteddfod Aberffraw, pan yn 89 oed! er nas danfonwyd hi i'r gystadleuaeth. Dywedir ei fod, y Sadwrn olaf a dreuliodd ar y ddaear, yn bwriadu ysgrifenu erthygl Gymraeg i ryw gyhoeddiad y Llun canlynol; ond erbyn dydd Llun yr oedd ei iechyd wedi myned ymaith, ac yntau ddydd Mercher, sef Rhag. 5, 1849, yn marw yn dawel yn 89 oed, yn ficerdy Llanrhaiadr yn Mochnant, a chladdwyd ef yn y fynwent yn agos i'r afon Rhaiadr, o dan ywen laswerdd lydanfrig, gyda beddargraff priodol i ddynodi ei argel-wely. Un o ddynion hynotaf ei oes, ie yr oesoedd, oedd Gwallter Mechain; yn nghyflawnder a chyffredinolrwydd ei ddawn a'i athrylith, nis gwyddom am ei gyffelyb. Yr oedd efe yn ddyn hynod o ran cyfansoddiad naturiol; daliodd ei gyneddfau heb adfeilio hyd y diwedd. Nid oedd ei lygaid wedi tywyllu, na'i wallt wedi britho nemawr, hyd derfyn yr oedran mawr a gyrhaeddodd. Dyn ydoedd hefyd yn dal i gynyddu hyd y diwedd. Mae rhai beirdd a phregethwyr yn dechreu yn obeithiol a dysglaer, ond yn llwydo a diflanu cyn haner eu dyddiau; eraill fel Dewi Wyn, Eben Fardd, &c., yn dyfod allan yn eu llawn faint yn 21 oed. Ond bardd gweddol oedd

Digitized by Google

G. Mechain yn 30 oed; cynyddodd lawer erbyn ei fod yn 40 oed, yn 1800; ond yr oedd efe yn fwy o fardd fyth yn 1823, pan wedi gadael ei driugain; a pharhaodd ei awen, fel gwraig ieuenctyd, yn ffyddlon iddo hyd angau. Dyn cyflawn a mawr yn mhob peth oedd G. Mechain. Nis gwyddom am helaethrwydd ei ddysg yn yr ieithoedd meirwon; ond cyfrifid ef yn ysgolhaig Celtaidd o'r radd flaenaf. Mewn gwybodaeth gyffredinol safai ar y gris uchaf. Dengys wybodaeth a challineb anarferol yn ei sylwadau ar amaethyddiaeth Cymru. Dywedir ei fod yn deall fferylliaeth i fanylrwydd mawr. Fel beirniad nid oedd neb o lenorion Cymru i'w cyffelybu iddo. Efe oedd tad cerdd-feirniadaeth wirioneddol ein cenedl. Darllener ei "Hanes plwyf Llansilin," yn y *Cambro-Briton;* "Hanes plwyf Llanymynech," yn y *Camb. Register;* "Hanes plwyf Meifod," yn y *Camb. Quarterly Magazine;* a cheir cynlluniau cywir o'r hyn ddylai hanesion felly fod. Dylasem nodi yn gynt iddo olygu a diwygio argraffiad o Eiriadur Saesneg a Chymraeg y diweddar Barch. John Walters, a bod ol ei law yn amlwg yn y gorchwyl. Ni chyflawnwyd un gorchwyl llenyddol o bwys yn dal perthynas â Chymru, yn ei amser ef, heb fod ganddo law gynorthwyol yn y gwaith. Bu yn oleuad mawr i'r genedl am driugain mlynedd. Nis gwyddom nemawr amdano fel pregethwr, heblaw y gallwn fod yn sicr mai pregethwr call a sylweddol ydoedd. Bu yn ei flwyddau olaf yn gaplan i'r sirydd, ac yn pregethu yn Nhrefaldwyn gerbron y barnwr. Ei destun oedd Ezra vii. 16, "A phwy bynag ni wnelo gyfraith dy Dduw, a chyfraith y brenin, gwneler barn yn ebrwydd arno ef, pa un bynag ai i farwolaeth, ai i'w ddeol, ai i ddirwy o dda, ai i garchar." Bu son mawr am y bregeth yn y papurau ar y pryd, a sonid am ei hargraffu. Nid yn unig fel bardd ac offeiriad dysgedig yr ydym i edrych ar Gwallter Mechain; ond mae ei gân i "Ladron glan y môr," "Galar Dafydd am Absalom ei fab," "Arwyrain y gwenyn," &c., yn brofion o ystwythder ei ddawn, a thynerwch ei deimladau. Gobeithiwn y daw ei waith awdurol allan cyn byddo hir iawn, ac y caiff ef ail fyw yn ein plith drwy ei gyfansoddiadau am oesoedd lawer.

GWAWL, ferch Coel Coedhebawg, oedd dywysoges yn y 4ed ganrif, ac yn chwaer i Elen, neu Helena y Groegiad. Priodwyd hi gan Edeyrn ab Padarn Beisrudd, o'r hwn yr oedd yn fam i Cunedda Wledig. Coffeir hi fel un o'r tair engraifft sydd ar gael o'r hen deyrnedd Brydeinig yn disgyn trwy y llinach fenywaidd—*Iolo MSS.* 527.

GWAWR, un o ferched Brychan Brycheiniog, a gwraig i Elidr Lydanwyn, o'r hwn yr oedd yn fam i Lywarch Hen.

GWAWRDDYDD, un o ferched Brychan Brycheiniog, a gwraig i Gadell Deyrnllwg, tywysog Powys, o'r hwn yr oedd yn fam i Gyngen Sant. Claddwyd hi yn Nhywyn, Meirionydd. Gelwir hi weithiau Gwenddydd.

GWEIRYDD AB OWEN, penaeth ar Forganwg, yr hwn a laddwyd yn 873, pan yn brwydro yn Mon o blaid Rhodri Mawr yn erbyn y Sacsoniaid.

GWEIRYDD WLEDIG, 70ain frenin Prydain. Gelwir ef gan haneswyr Rhufeinig yn Arviragus; yr oedd yn byw yn amser yr ymherawdwr Domitian, a phan oedd Sallustius Lucullus yn llywodraethwr Rhufeinig yn Mhrydain. Crybwyllir ei enw yn Juvinal Sat. iv. 123. *Brut Tysilio*, a *Brut Gruffydd ab Arthur*, argraffedig yn y *Myv. Arch.*, a ddywedant mai yn amser yr ymherawdwr Claudius y blodeuai. Er yr ystyrir yr hanes a geir yno amdano yn anhygoel, eto dyledus

Digitized by Google

arnom ydyw ei gyfleu yma. Cynfelyn a fu farw wedi teyrnasu am ddeuddeng mlynedd, gan adael dau fab, Gwydyr a Gweirydd. Gelwir y ddau hyn gan Sieffrey o Fynwy yn Guiderius ac Arviragus. Gwydyr a olianodd ei dad; a chyn gynted ag y cafodd ei hun yn gadarn ar ei orsedd, nacaodd dalu y deyrnged arferol i'r Rhufeiniaid, yr hyn a barodd i Claudius ddyfod gyda llu mawr trosodd i Brydain. Mewn brwydr a gymerth le, Gwydyr a laddwyd yn fradwrus gan Rhufeinddyn, o'r enw Hamon, yr hwn, yn ngwisg Prydeiniwr, a gawsai fynediad rhwydd at y brenin. Pan glybu Gweirydd am y frad, rhoddes arfwisg ei frawd amdano; a chan weithredu fel penciwdod ar ei gydwladwyr, efe a yrodd luoedd Rhufain i gilio. Gweirydd a'u dilynodd hyd Gaer Peris *(Porchester)*, ac a warchaeodd y castell yno; eithr cafodd y gwaethaf mewn brwydr a gymerth le ger y gaer hono, a gorfu arno encilio hyd Gaerwynt *(Winchester)*, i'r hwn le ei dilynwyd ac ei gwarchawyd gan Claudius. Pan glybu yr olaf fod yn mwriad Gweirydd ddyfod allan ac ymladd mewn maes agored, tueddwyd ef i gynyg iddo delerau heddwch, yr hyn a derfynodd mewn cytundeb rhyngddynt, yn mha un y rhoddid merch Claudius i Gweirydd yn wraig. Yna y Rhufeiniaid a ymchwelasant i Rufain, gan adael Gweirydd mewn awdurdod yn y wlad hon, yr hwn drachefn a ddaeth yn dywysog mor gadarn ei sedd, ac mor ffroenuchel ei dymher, fel y gwrthododd warogaeth iddynt. Mewn canlyniad danfonwyd Vespasian i Brydain, ac mewn brwydr a gymerth le ger Penhwylgoed *(Exeter*, debygir), efe a orchfygodd Gweirydd. Pa fodd bynag, trwy offerynoliaeth y frenhines, heddwch eilwaith a adferwyd, ac wedi i Gweirydd dyngu Hŵ o ffyddloneb, y Rhufeiniaid a a ymchwelasant i'w gwlad. Bu Gweirydd fyw i oedran teg, teyrnasodd mewn heddwch a doethineb, ac ymledodd ei glodydd tros holl wyneb Ewrop. Claddwyd ef yn Caerloyw *(Gloucester)*, mewn teml a adeiladasai, ac a gyflwynasai i Claudius. Y mae traddodiad mai yn amser Arviragus y daeth Joseph o Arimathea i Brydain, ac y planodd yr Efengyl; a gellir gweled y cyfryw yn argraffedig yn ngwaith Gildas a William o Malmesbury. Cofnodir ef hefyd yn y *Trioedd*, gyda Chaswallon a Charadawg, y fel tri "phrif gatteyrn" Ynys Prydan.—Wms. *Em. Welsh.*

GWEN, santes, yn ei blodeu y 5ed cant. Merch, neu wyres, ydoedd i Brychan Brycheiniog. Priodwyd hi gan Llyr Merini, o'r hwn yr oedd yn fam i Garadawg Freichfras. Llofruddiwyd hi gan y Saeson Paganaidd yn Nhalgarth, sir Frycheiniog, a sefydlwyd yr eglwys hono er coff had amdani. Gelwir hi Gwendeline gan Ecton.—*Iolo MSS.*

GWEN, ferch i Cywryd ab Crydon, a gofnodir yn y *Trioedd*, gyda Creirwy ferch Ceridwen ac Arianrod ferch Don, tan y penawd, "tair gwenrian," neu wyryfon dihalog, Ynys Prydain.

GWEN, y dewraf o bedwar mab ar hugain Llywarch Hen; a laddwyd yn Rhyd Morlas, afonig yn tarddu yn mynydd Selattyn, ger Croesoswallt, ac yn ymarllwys i'r Geiriog. Cedwir enw Gwên yn fyw yn enw Prys Gwên, palas yn sefyll ar lan y Forlas, yn mhlwyf St. Martin.—Wms. *Em. Welsh.*

GWEN TEIRBRON, santes yn y 6ed cant. Merch ydoedd i Emyr Llydaw, a mam i Gadfan Sant.

GWENABWY, mab i Gwên ab Llywarch, a gofnodir yn y *Gododin*, gyda'r dyben o ddangos trychineb anaele brwydr Cattraeth.

GWENASETH, santes yn y 6ed cant. Merch ydoedd i Rhufon Rhufoniog ab Cunedda, a gwraig i Babo Post Prydain.

Digitized by Google

GWENDOLEN ab Ceidio ab Garthwys, penaeth galluog yn Ngogledd Prydain. Cofnodir ef yn y *Trioedd*, gyda Chynfar ac Urien, fel tri "tharw cad Ynys Prydain;" "sef y rhuthrynt ar eu galon, yn ail i darw, ac ni ellid a'u dehoraint." Rhestrir ei deulu hefyd, gyda'r ciddo Cadwallawn eil Cadfan a Gafran ab Aeddan, tan y penawd, "tri theulu diwair;" "sef cynal y frwydr a wnaethant chwe' nydd a deugaint gwedi lladd eu harglwyddi." Lladdwyd ef yn mrwydr Arderydd yn 577. Dywed *Tri* 46, mai eiddo Gwendolen oedd y "ddau aderyn llychwyn, sef ydoedd iau o aur amdanynt, a dwy gelain o'r Cymry a ysynt beunydd ar eu ciniaw, a dwy ar eu cwynos." Efe oedd noddwr Myrddin y bardd, ac a addysgwyd yn y ffydd yn Nghrist, yn nghyda'i ddau frawd, Cof a Nudd, yn ngholeg Illtyd. Gwyddbwyll *(chessboard)* Gwendolen oedd un o'r tri ar ddeg Brenindlysau Ynys Prydain; "o gosodid y werin, hwynt a chwarïent eu hunain; aur oedd y clawr, ac arian oedd y gwyr."

GWENDDOLEN, yn ol y *Brutiau*, ydoedd ferch i Corineus, a gwraig i Locrinius, ail frenin Prydain. Ar farwolaeth ei thad, Locrinius a ymwrthododd â hi, ac a gymerth yn gywely Essyllt, ferch i frenin Germani, yr hon a lwyr enillasai ei serch, ac a gadwasai ef am flynyddau yn ddirgelaidd. Yna ei wraig ddirmygedig a ymneillduodd i Gernyw, yr hon wlad oedd ei chynysgaeth, ac yno cynullodd wyr, gyda pha rai yr ymosododd ar luoedd ei gwr ar yr afon Fyram, pryd y lladdwyd ef mewn brwydr. Gwenddolen ar hyny a gymerth y llywodraeth yn ei llaw ei hun, ac a barodd foddi Essyllt a'i mherch Hafren, yn yr afon a elwir ar yr enw hwnw; ac wedi teyrnasu deuddeng mlynedd, hi a gyflwynodd yr orsedd i Madog ei mab, ac ymneillduodd i fyw bywyd annghyhoedd.

GWENFAEN, santes yn y 6ed cant. Merch ydoedd i Bawl Hen, neu Paulinus, o'r Ty Gwyn ar Dâf, a chwaer i Beulan Sant. Sefydlodd eglwys Rhoscolyn, yn Mon, yr hwn le a elwid gynt Llanwenfaen, lle y cynelid ei gwylmabsant Tachwedd 5.

GWENFREWI, ydoedd ferch i Thewith, gwr o ddylanwad a chyfoeth mawr, a pherchenog yr ardal ar yr hon y saif Treffynon. Enw ei mam oedd Wenlo, yr hon oedd yn disgyn o deulu henafol yn sir Drefaldwyn, ac yn chwaer i Beuno Sant. Y mae enw Gwenfrewi mewn gwahanol lawysgrifau yn gwahaniaethu. Gelwir hi yn Winefride, Wenefride, Gwenfride, a Gwenverd; ac yn ei bywgraffiad gelwir hi "y brydweddol Winifride," "y deg Wenefreda." Mae y chwedl am ei dygiad i fynu dan addysg grefyddol ei hewythr Beuno, ei llofruddiad gan y tywysog Caradog, mab y brenin Alen, ymdreigliad y pen i lawr y nant, a'i asiad wrth y corph yn ol gan Beuno, &c., wedi ei adrodd eisoes. *(Gwel* BEUNO). Ond heblaw y traddodiad uchod am y santes hon y mae lluaws o draddodiadau pabyddol a choelgrefyddol mewn perthynas iddi, ond eu bod i gyd braidd yn dal perthynas â'r ffynon, yr hon sydd wedi ei chysegru iddi. Cyn yr adeg ag y dywedir iddi gael tori ei phen, dywedir fod y llanerch hwn yn hynod o sych, a'i fod yn myned dan yr enw Sychnant. Ond yn ebrwydd wedi i ben y santes sefyll ar ol ymrolio i lawr y nant, tarddodd ffynon fawr o ddwfr, lliwiwyd y meini gan ei gwaed, a llanwyd yr awyr âg arogl hyfryd oddiar y mwswgl o amgylch y ffynon. Y mae y chwedl ffol yna yn cael ei chredu hyd y dydd hwn. Creda y Pabyddion yn ddiysgog fod y brychau cochion sydd ar feini y ffynon yn olion coffadwriaethol o waed y santes. Ond y mae ymchwiliadau dysgedigion wedi profi nad yw y

Digitized by Google

traddodiadau yna ond ffiloreg goelgrefyddol, ac nad yw y mwswgl peraroglaidd sydd ar hyd muriau y ffynon ond peth ag y gellir ei ganfod mewn lluaws o fanau eraill, sef llysieuyn a elwir gan Linnæus yn *Jungermannia asplennoides.* Ac am y llanerchau cochion ag y tybir mai olion gwaed ydynt, nid ydynt yn ddim, yn ol yr un gwr, ond "math o lysieuyn a elwir yn *Byssus Jolithus*, ac fod y maen y byddo yn nylyn wrtho yn ei fradychu yn ebrwydd, gan yr ymddengys fel pe byddai wedi ei ddwbio â gwaed." Felly dyma yr hyn a fu yn wrthddrych syndod ac edmygiad y Pabydd, druan, wedi troi i fod yn ddim ond llysieuyn bychan diniweid. Gwelsom hyd yn nod yn y fl. 1866 rai mor ofergoelus a chasglu y pridd yr oedd gwawr coch arno, oddeutu drws cefn neuadd Gwenfrewi, yr hwn sydd o fewn tua phedair llath i olion hen gapel Beuno—a'i gadw yn ofalus mewn blwch, am y credent ei fod wedi ei gochi â gwaed "Sant Winifride!" Hyhi ydyw yr un ag sydd yn cynrychioli y ffynon yn y nefoedd. Anfonir miloedd o weddiau i fynu ati bob blwyddyn gan y lluaws cloffion, deillion, a'r anafusion, a ddeuant ar bererindod at y ffynon o wahanol barthau y byd, yn erfyn am iachad. Mae lluaws wedi cael iachad yn y dyfroedd oerion a gloewon, fel y prawf y ffyn, y baglâu, yr ysgwydd-gerbydau, a'r cerfiadau o'i deutu; ond faint ohonynt a gyflawnwyd mewn atebiad i weddi gan St. Wini, tybed? Mae yn sicr fod cyrchfa pererinion wedi bod yn lluosocach yn yr hen amser gynt nag yw yn ein dyddiau ni. Ac yr oedd y rhai a ddeuent i ymweled â hi, ac i dalu gwarogaeth i'r santes, yn mysg pob dosparth, o'r orsedd i lawr. Yn mhlith ei hedmygwyr uwchraddol, gallem enwi Iago II., yr hwn a ymwelodd â'r lle Awst 29, 1686. Dywedir iddo werthu tair teyrnas am offeren, ac iddo dderbyn yn gydnabyddiaeth anrheg o hen bais a wisgid gan ei hen nain, Mari Stuart, y dydd y cafodd ei dienyddio. Yn haf 1853, ymwelodd archesgob Pabaidd Corfu â'r lle. Yn 1819, talodd brenin Belgium ymweliad â'r lle, a Duc o Sussex yn 1828. Y mae Cardinal Wiseman hefyd wedi bod yma amryw weithiau, yn nghyda lluaws o ymwelwyr urddasol eraill. Un peth tra hynod mewn cysylltiad â'r santes hon yw nad oes un o'i bywgraffiadau yn nodi y cyfnod yr oedd hi yn byw ynddo. Ond tybir gan Alford a Cressy i hyny gymeryd lle tua diwedd y 7fed ganrif. Tybia rhai na bu y fath un â Gwenfrewi neu Winefride mewn bod, a'u rheswm dros eu tybiaeth ydyw dystawrwydd yr hanesyddwyr Bede, Nennius, Llyfr Archwiliad y Doomsday, a Giraldus Cambrensis, yn ei chylch. Ond dywed ei phleidwyr drachefn mai y rheswm am ddystawrwydd y rhai uchod yw, nad oedd Bede ond yn ysgrifenu hanesiaeth eglwysig Saesonig, ac nad yw wedi crybwyll am enwau Dewi Sant, a Chyndeyrn Sant. Yn ol Cave a Tanner, drachefn, ysgrifenodd Nennius ei hanesiaeth tua'r fl. 620, yr hyn felly a fuasai, fel Bede, yn flaenorydd iddi. Ond yn ol llawysgrifau Nennius ei hun, ni wnaeth hyny hyd 858, ac nid yw wedi rhoddi dim hanes o'r rhan hon o Gymru, lle y preswyliai Gwenfrewi. Nid oedd y Doomsday drachefn ond bras ymchwilad i ansawdd teuluoedd a thiroedd, ac o ganlyniad, nid oedd personau unigol a ffynonau yn wrthddrychau ei sylw, ac felly fod amryw lanerchau yn ddisylw ganddo, oherwydd eu bod yn perthyn i bersonau neilduol. Y rheswm, meddant, dros ddystawrwydd Giraldus Cambrensis, ydoedd iddo ef ysgrifenu ei gylchdeithiau trwy Gymru rhwng 1188 a 1220, ac erbyn hyny fod hanes y santes, a Threffynon, yn ddigon adnabyddus trwy Gymru, &c., fel nad oedd angen iddo ef eu hailadrodd; ac heblaw hyny fod ei ddigofaint wedi ei enynu yn erbyn

Digitized by Google

Eglwys Rhufain, oblegyd ei siomi mewn dyrchafiadau eglwysig. Mewn bywgraffiad o Winefreda, gan Fleetwood, yr hwn a gedwir yn y *Cottonian Library*, a'r hwn a ysgrifenwyd yn fuan wedi y gorchfygiad Normanaidd—tua 1100, dywedir fod ei chorph y pryd hwnw yn Gwytherin. Yn 1140, ysgrifenwyd ail fywgraffiad iddi gan Robert, esgob Pabaidd Amwythig, ac yn hwn rhoddir hanes traws-symudiad ei hesgyrn o Gwytherin i fonachlog St. Pedr a Paul yn yr Amwythig, yn 1138, lle y sefydlwyd brawdoliaeth grefyddol er anrhydedd iddi. Ac o hyny hyd yn awr, fe gedwir gwyl ei dienyddiad yn flynyddol ar yr 22ain o Fehefin, a'i thraws-symudiad ar y 3ydd o Dachwedd. Fel ag y mae goleuni dysgeidiaeth yn cynyddu, a thywyllwch ac ofergoelion Pabaidd yn lleihau, y mae credinwyr chwedlau traddodiadol Gwenfrewi yn darfod. Ac y mae lle cryf i gasglu, nad yw y Winifreda hon ond bod dychymygol, wedi ei chynyrchu gan ddirnadaeth rhyw hen fynach er mwyn ateb dybenion ei swydd; canys y mae cryn debygolrwydd yn y geiriau Wenefride a Gwenfride i'r gair Cymraeg Gwenffrwd.

GWENFRON, merch i Tudwal Tudclyd, a gofnodir yn y *Trioedd*, gyda Tegwyl a Thegau Eurfron, tan y penawd "tair diweirferch Ynys Prydain."

GWENFYL, santes yn y 5ed cant. Wyres ydoedd i Brychan Brycheiniog. Sefydlodd grefydd-dŷ a safai unwaith yn mhlwyf Llanddewi Brefi, Ceridigion. Ei gwybnabsant, Tach. 1.

GWENHWYFACH, un o wragedd Arthur, yr hon, yn ol y *Trioedd*, a roddes un o'r "tair engir balfawd," trwy daro Gwenhwyfar, yr hyn a barodd gad drychinebus Camlan. Y ddwy balfawd eraill a roddwyd gad Matholwch a Golyddan.

GWENHWYFAR, ferch i Gwythyr ab Greidiol o Ogledd Prydain, a'r gyntaf o dair gwraig Arthur o'r enw hwnw. Tra yr oedd ei gwr yn rhyfela, hi a ffoes ymaith gyda Melwas, tywysog yn y Gogledd, yr hwn oedd wedi ymddyeithro mewn gwisg o ddail, gan fyned i'w chyfarfod, pan oedd hi yn myned gyda'i gweinyddwyr, ar fore o Fai, i gasglu bedw er gwneud deilblethau i roesawu yr haf.—Jones' *Welsh Bards.*

GWENHWYFAR, ail wraig Arthur, oedd ferch i Gawryd Ceint. neu yn ol rhai llawysgrifau, Gwryd Gwent.

GWENHWYFAR, trydedd wraig Arthur, oedd ferch i Gogyrfan Gawr; diorseddwyd hi yn absenoldeb Arthur, gan Fedrawd, ar anogaeth Gwenhwyfach, yr hon a ddigiasai wrth y frenhines oblegyd dwy gneuen, ac a fonclustiwyd mewn canlyniad. Yr ymrafael dibwys hwn, yn ol yr hen *Frutiau*, a beris Gad Gamlan. *Gwel* GOGYRFAN. Dywedir i esgyrn Gwenhwyfar gael eu codi gyda'r eiddo Arthur yn ynys Afallen yn 1175, a bod gwallt y frenhines y pryd hwnw i'r "olwg yn brydferth a melynliw." Y mae llawer wedi ei ysgrifenu yn ei chyich gan hen ramantwyr y Canoloesoedd o bob gwlad yn Ewrob; gelwir hi gan rai yn Guenever, Genievre, a Geneura.—*Myv. Arch.;* Guest's *Mabinogion.*

GWENLLIANT, merch i Gruffydd ab Cynan, a gwraig i Gruffydd ab Rhys, tywysog Deheubarth, i ba un y dygodd lawer o blant. Yn 1135, yn ystod absenoldeb ei gwr yn Ngwynedd, yn ceisio cymhorth milwrol ei dad-yn-nghyfaith, hi a drefnodd ei lluoedd, ac a ymarfogodd yn ben arnynt i frwydr, a'i dau fab yn osgorddion iddi. Ond ei byddin a orchfygwyd ger Cydweli, gan Maurice de Londres, arglwydd Normanaidd y diriogaeth hono. Morgan, un o'i meibion, a laddwyd yn yr ymgyrch hono; Maelgwn, y mab arall, a gymerwyd yn garcharor; a hithau ei hun a ddienyddiwyd, trwy orchymyn ei gelyn buddugol-

Digitized by Google

iaethus. Y mae yr hanes hwn yn gwrthbrofi haeriadau Florentius, mynach o Gaerwynt, yr hwn a ddywedai, mai Gwenlliant, trwy frad a thwyll a barasai farwolaeth ei phriod.—Giraldus Cambrensis' *Itin.*

GWENLLWYFO, santes, nas gwyddis yn mha oes y blodeuai. Sefydlodd eglwys Llanwenllwyfo, yn Mon.

GWENO, mawldestun y beirdd, a'i chymeriad mewn ffugiaeth yn cyfateb i'r eiddo Venus.

GWENOG, santes, nas gwyddis yn mha oes y blodeuai. Sefydlodd eglwys Llanwenog, yn Ngheredigion, lle y cynelid ei gwylmabsant Ionawr 3.

GWENONWY, benyw deg, y cyfeirir ati gan y beirdd fel eilun prydferthwch, eithr nis gwyddis ddim o'i hanes.

GWENT (Parch. Richard), D.C.L., brodor o Ddeheudir Cymru, ac aelod o goleg *All Souls*, Rhydychain. Derbyniwyd ef yn wyryf yn y gyfraith ganonaidd yn 1518; ac ar ol hyny, penodwyd ef yn brif gyfreolydd ysgol y *Canon Law*. Yn 1524, derbyniodd yr urdd o D.C.L., ac yn nghylch yr un amser penodwyd ef yn archddeon Brycheiniog. Cyflwynwyd iddo berigloriaeth St. Peter's Cheap, yn 1534, ac hefyd archddeoniaeth Llundain. Gwnaed ef hefyd yn archddiacon Huntingdon, yn brepend Totenhall, yn mhrif eglwys St. Paul, Ebrill 12, 1543, eithr bu farw yn mhen ychydig fisoedd ar ol ei ddyrchafu. Yr oedd yn dra chyfeillgar â Leland, yr hynafiaethydd, yr hwn a'i hanrhydeddai, ar gyfrif ei ddysg a'i rinweddau, a'r enw, "Richard Ventanus Juridicus."—Wood's *Athen. Oxon.;* Willis' *St. Davids.*

GWENWYNWYN AB NAF, a gofnodir yn y *Trioedd*, gyda Geraint ab Erbin a March ab Meirchion, tan y penawd "tri llyngesawg Ynys Prydain;" a chwe' ugain llong, oedd gan bob llyngesydd, a chwe' ugain llongwyr yn mhob llong.

GWENWYNWYN, mab i Owain Cyfeiliog, a olianodd ei dad i dywysogaeth Powys Uchaf, yn 1197, yr hon o hyny a alwyd yn Bowys Gwenwynwyn. Yr oedd ei dirogaeth yn gorwedd rhwng Loegr a Gwynedd, a rhyfel parhaus bron rhwng y ddwy wlad â'u gilydd y pryd hwnw, yr hyn a barai iddo yntau fod yn ansefydlog ei wladlywiaeth—weithiau mewn cynghair â'r Saeson yn erbyn ei gydwladwyr, a phryd arall mewn undeb â'u tywysogion yn ymladd tros eu hiawnderau. Yn 1198, rhuthrodd yn nwydwyllt ar y Saeson mewn gwastadedd agored, a chollodd nifer fawr o wyr—ddim llai, medd y rhagfarnllyd a'r celwyddog, Mathew Paris, na 3070; tra na chollodd y Saeson ond un milwr yn unig. Yn 1203, ymostyngodd i Lywelyn ab Iorwerth, tywysog Cymru; ond ar ei fynediad i'r Amwythig, yn fuan ar ol hyny, i ymgynghori âg arglwyddi cynghor y Cyffiniau, daliwyd ef gan y Saeson, a gortu iddo ddyfod yn gaethddeiliad i frenin Lloegr. Yn y cyfamser, Llywelyn a anrheithiodd ei wlad, ac a gymerth feddiant o'r cestyll a'r trefydd. Yn 1211, Gwenwynwyn a ymunodd â'r brenin Ioan mewn ymgyrch yn erbyn Gwynedd, ond yn y diwyddyn ganlynol heddychwyd ef â Llywelyn. Yn 1215, ymunodd eilwaith ag Ioan, pryd y darfu i Lywelyn drachefn anrheithio ei diroedd, a'i orfodi yntau i ffoi am nodded at iarll Caerlleon. Yr oedd Gwenwynwyn yn fardd o gryn fedrusrwydd, ac y mae peth o'i waith ar gael. Yn y *Camb. Quarterly* i. 327, ceir crybwylliad am anrheg o dir a roddes i fynachod Ystrad Marchell. Y mae y rhodd wedi ei dyddio 1200, ac yn gorwedd ar lan yr afon Fyrnwy, sir Drefaldwyn. Olianwyd ef gan ei fab Gruffydd.

Digitized by Google

GWENWYS o Bowys, pen un o bum' costoglwyth Cymru. Y lleill oeddynt Blaidd Rhudd, Adda Fawr, Heilyn, ac Alo.

GWERNEN, mab i Clydno, bardd yn ei flodeu rhwng 1270 a 1320. Y mae rhai englynion o'i waith yn y *Myv. Arch.*

GWERYDD ab Brochwael, oedd dywysog ar ran o Forganwg, ac yn cyfaneddu mewn palas a elwid y Caerau, ger Caerdydd, ond yn cynal ei lys yn y dref. Efe a adeiladodd Llanweirydd, yr hon a elwir yn awr y Caerau, am ddarfod ei hadeiladu o flaen hen wersyll Rhufeinaidd. Yn ei amser ef, goddefodd y wlad yn erwin oddiwrth heintiau a chlefydon.

GWERYDD ab Cadwn, sant yn y 5ed cant. Efe a sefydlodd eglwys Llanwervdd, Morganwg, a elwir yn awr St. Donat's.—Iolo *MSS.*

GWERYDD ab Rhys Goch, penaeth ar gantref Talebolion, yn Mon, yn ei flodeu tua dechreu y 12fed ganrif. Trigianai yn Caedegog, a galwyd cymydau ac amaethdai yr ardal hono ar enwau ei wyrion a'i orwyrion, yn amser y tywysogion Owain Gwynedd a Dafydd ab Owain. Yr oedd yn ben un o Bumtheg Llwyth Gwynedd; ac y mae ychydig o deuluoedd Cymru yn olrhain eu disgyniad ohono. Ei arfbais oedd, "*argent on a bend sable, three lions' heads caboched of the first;*" neu yn ol awduron eraill, "tri gwyneb llewpart."

GWERYSTAN, un o feibion Gwaithfoed Fawr, ac yn byw yn y 10fed ganrif. Cafodd ran o Bowys fel trefdadaeth.

GWESYN, a gofnodir yn y *Trioedd*, fel defeidydd, neu fugail, gosgordd Goronwy ab Ednywain, brenin Tegengl a Rhufoniog; "a rhif y defaid oedd tan ei ofal oedd chwe' ugain mil, ac o tano dri chant o feibion eillion; ac o'i enw ef y gelwir 'Gwesyn' ar fugail defaid."

GWGAN ab Clydno, bardd yn ei flodeu rhwng 1370 a 1400.

GWGAN ab Morydd ab Llywarch Llwyd, tywysog Ceredigion, yr hwn a foddwyd yn yr afon Llychwr, yn Ngwyr, yn 870, tra yn gyru y Daniaid o'r wlad.

GWGAN BRYDYDD, bardd yn ei flodeu rhwng 1190 a 1240; y mae rhai englynion o'i waith i Lywelyn ab Iorwerth yn y *Myv. Arch.*

GWGAN GLEDDYFRUDD, un o'r "tri ysgynydd aerau," a grybwyllir yn y *Trioedd.*

GWGAWN GWRON, a gofnodir yn y *Trioedd*, fel un o'r "tri lleddf unben;" ac mewn un arall yn un o'r "tri galofydd."

GWGAWN LAWGADARN, a gofnodir yn y *Trioedd*, fel un o'r "tri gyrddion," neu wyr cryfion, Ynys Prydain. Prif orchest ei gryfder oedd "treiglo Maen Maenarch o'r glyn i ben y mynydd, ac nid oedd dim llai na thriugain ych a'i tynai."

GWIAWN, mab i Cyndrwyn, tywysog Powys, a gofnodir yn y *Trioedd*, gyda Gwgawn Gleddyfrudd a Madawg ab Rhun, fel tri gwylwyr yn mrwydr Bangor yn 607. Adgofir un o'i ddywediadau yn "Chwedlau y Doethion,"—Iolo *MSS*:—

A glywaist ti chwedl Gwiawn,
Dremynwr, golwg uniawn?
Duw cadarn a farn pob iawn.

GWIAWN BACH, bardd a brodor o Lanfair Caereinion, yn Mhowys, yn ei flodeu tua 470. Nid oes dim o'i waith ar gael, ond cedwir un o'i ddywediadau yn "Chwedlau y Doethion:"—

A glywaist ti chwedl Gwiawn
Bach, yn dangaws deddf gyfiawn?
Iawn pob iawn lle bo iawn.

Digitized by Google

GWILYM AB HYWEL, bardd yn ei flodeu rhwng 1580 a 1620, yn ol y *Cambrian Biography;* ond yn ol Moses Williams, yn 1390 y blodeuai.

GWILYM AB IEUAN HEN, bardd yn ei flodeu rhwng 1440 a 1480. Y mae peth o'i waith yn nghadw mewn llawysgrifau.

GWILYM AB SEFNYN, bardd yn ei flodeu rhwng 1430 a 1470. Y mae peth o'i waith yn nghadw mewn ysgrifau.

GWILYM (DAFYDD AB), bardd gorchestol, yn ei flodeu yn ystod y 14eg ganrif. Yr oedd yn hanu o deulu uchelwaed o du ei dad a'i fam. Ei dad, Gwilym Gam, yn disgyn mewn llinach unionsyth o Lywarch ab Bran, cyff cenedl un o Bumtheg Llwyth Gwynedd; a'i fam, Arludful Fychan, yn chwaer i Lywelyn ab Gwilym, o'r Cryngae a'r Ddolgoch, yn Nyfed. Y mae llawer o dywyllwch yn gorwedd tros oes a buchedd y bardd, ac nid yw ei fywgraffwyr wedi gwneud nemawr ond chwanegu y tryblith. Yn y bywgraffiad cysylltiedig â'i waith a gyhoeddwyd gan y *Gwyneddigion* yn 1789, gosodir ef i amseru rhwng 1340 a 1400; a chydag eithriad neu ddau dilynwyd yr amseriad uchod gan ei fywgraffwyr eraill. Ond yn ol yr englyn cras canlynol a gânt Rhys Meigen iddo, gwelir ei eni ddeugain mlynedd yn gynarach na'r amser gosodedig uchod:—

MIL TRI CHANT, meddant i mi,—y ganwyd
Yn genaw tan lwyni,
Gwr o'th han, garw yw'th enwi,
Mab Gwilym Gam, gydgam gi.

Mae hefyd yn ngwaith y bardd ei hun gywydd "Dymuniad o foddi y Bwa Bach, a oedd yn myned yn rhyw swyddog gyda Rhys Wgan i Ffrainc, â 300 o wyr gantho tan Edward III." Bu y teyrn hwnw yn ymladd â Ffrainc yn 1339, 1340, a 1343; ac os cywir y dyddiad crybwylledig nid yw yn ddichonadwy i'r bardd fod yn awdwr y cywydd hwnw. Hefyd, os bu y bardd fyw hyd 1400, pa fodd y canwyd englynion marwnad iddo gan Hopcyn ab Thomas, o Ynys Dawy, yn 1380? Y casgliad naturiol, gan hyny, ydyw ddarfod geni Dafydd ab Gwilym yn 1300, a marw yn 68 oed, yn 1368; ac y mae pob cyfeiriad a thraddodiad yn nghylch y bardd yn gwirio y dyddiad hwn. Nodir helyntion ei fywyd mewn dull tra rhamantus yn y dyfyniad canlynol o'r Iolo *MSS:*—"Mam Dafydd ab Gwilym oedd Arludful, ferch Gwilym Fychan, o'r Cryngae, yn Emlyn, ac ni chaid bodd priodas rhwng Gwilym Gam âg Arludful, gan un o'r ddau du rhieni; a'r ddeuddyn ieuainc yn fawr eu serch y naill at y llall, beichiogi Arludful a wnaeth Gwllym Gam, ac o weled hyny, ei thad a'i brawd a'i troes o'r tŷ ganol nos gauaf chwerw, a danfon arch at bawb o'u ceraint nas derbynient hi dan dô neb un ohonynt. Myned a wnaeth hi lwyr ei phen heb yn waeth lle nac arall; a Gwilym Gam a glybu, a myned ar ei hol, a'i goddiweddyd, a'i chymeryd gydag ef i Forganwg, at Ifor Hael, ei ewythr brawd mam iddo; (ac eraill a wedant taw ei gyd frawd yn nghyfraith oedd Ifor Hael.) Ac ar y ffordd, dyfnder nos, dan berth, mewn tywydd garw iawn, gan wynt a chesair, y ganed mab iddynt, yn ei seithmis; a hwnw oedd Dafydd ab Gwilym. Yn mlaen yr aethant, a thranoeth cyrhaedd Llandaf, lle priodws Wilym Gam Arludful, ac yna'r undydd y bu hi farw, ac a'i claddwyd yno; a bedyddio'r mab ar arch ei fam. Gwedi gweled pridd ar wyneb Arludful, myned yn mlaen â Dafydd ei fab bychan, at Ifor Hael o Wern y Cleppa, yn Maesaleg, lle bu'n fawr ei roesaw a'i rwysgwydd lawer blwyddyn; a phan fu farw

Digitized by Google

Dafydd ab Ieuan, ei dad, dyfod yn ol i Geredigion a orug Gwilym Gam, ac iddei dreftadaeth yn Llanbadarn, ac enw'r tŷ Brogynin; ac yno byw ar ei dir ei hunan, a'i fab Dafydd gydag ef. Gwilym a briodes ail wraig, a Dafydd ei fab ni allai aros ei lysfam; am hyny myned yn ol at Ifor Hael ei ewythr, i Forganwg, lle bu mewn parch a chariad mawr; a'i ewythr brawd ei fam, Llywelyn ab Gwilym Fychan, o'r Cryngae, yn Emlyn, a'r Ddol Goch yno, yn gweled awen gyferddawn ynddo, a'i cymerwys ato i'r Cryngae a'r Ddol Goch, lleoedd y byddai un neu arall ohonynt yn byw, a dysgu celfyddyd mydr a cherdd dafod iddo, ac o hyny yr aeth Dafydd yn brydydd mawr iawn ei glod; a gwilliaid o Saeson Penbro a ddaethant am ben y Ddol Goch, a lladd Llywely ab Gwilym; yna Dafydd aeth yn ei ol i Faesaleg, at Ifor Hael, lle bu, gan fwyaf, hyd farw Ifor Hael, a Nest ei wraig, o'r haint chwaren, yn nhŷ esgob Llandaf, yn Llangadwaladr, yn Ngwent is coed, lle yr oeddynt yn ngwesteiaeth; a'r esgob a fu farw gyda nhwy: D. ab Gwilym, yn diangc drwy'r haint, a ddaeth yn ol i Faesaleg; ond gan nad oedd yno nac Ifor na Nest, myned a wnaeth ar amdaith i rodfela Cymru; ac hyd yn Mon ac Arfon; ac ar ei droion yn Morganwg; a phan fu farw ei dad, aeth i'w drefdadaeth Broginin, yn Llanbadarn fawr. Yr oedd efe erbyn hyn yn dechreu myned mewn oedran; gwedi bod yno amser nid mawr, efe a aeth i Fonachlog Talyllychau, lle y gwnawd yn fawr ei barch a'i roesaw; ac yno y bu ef farw, ac a'i claddwyd wyliau'r Nadolig, yn mlwyddyn deugain o goroniad y brenin Edward III., yn hen ŵr o brydydd clodfawr. Dafydd ab Gwilym a wnaeth wellhad nid bychan ar fesur cywydd, gan ganu rhiangerdd yn oreu arno o neb a fu erioed." Y mae yr hen ysgrif uchod yn gosod dyddiad ei farwolaeth yn gynarach o ddwy flynedd nag y ceir ef yn englynion Hopcyn ab Tomos, yr hwn a ddywed:—

Mil, meddynt, trichant, trwy ochain—irad
Wyth eraill a thr'ugain,
Marw y prydydd mirain,
Mab Gwilym, gerdd ed ym gain.

Eithr gormod gorchwyl penderfynu y dydd hwn pa'r un o'r ddau amser sydd gywir, er fod mwyafrif y bywgraffwyr yn nodi yr olaf. Os oes coel i'w roddi ar draddodiad, ymdorodd ei dueddfryd farddonol allan yn fore. Tra yn aros yn Mrogynin, yn cynorthwyo ei dad i drin y tir, ei riant, yn llawn ffwdan ar gynauaf gwlybyrog, a barodd iddo geisio eithin i grasu haidd; ac ar yr un pryd yn erchi rhes o bethau annghyfnaws â chwaeth ŷ bardd ieuanc; yntau a ddynwaredodd eirchion ei dad, fel hyn:—

Brysia! a gweithia! dwg eithin—i mewn
Mae'n myned yn ddryghin!
Gyr y gwartheg o'r egin!
Hoi! hoi! tro y lloi o'r llin!

Dyma ddau englyn eraill a gânt efe, meddir, yn ei ieuenctyd:—

I'R LLYFFANT.

Golwyth hudnwy,* gwlith hednaid,—gwyllt,
N'ad y gwellt i'th lygaid;
Byr garw, barug euraid,
Breichwan noeth, bwrw chwe' naid!

I'R CARW.

Gwelais ef a hyd gwialen—o gorn,
Ac arno naw cangen:
Gwr balch ag og ar ei ben,
A gwraig foel o'r graig felen.

Ymddengys fod y bardd yn ddyn hynod o brydferth. Ysgrifenwyd cofnod am dano yn 1572, gan y Parch. Dafydd Jones, o Lanfair Dyffryn Clwyd, "Mi fum yn siarad â hen wraig a welsai un arall a fuasai yn ymddyddan â D. ab Gwilym; a dywedai mai hirfain oedd

* HUDNWY—a decoy duck.

Digitized by Google

ef, a gwallt llaes melyngrych oedd iddo, a hwnw yn llawn caeau a modrwyau arian." Yr oedd y gwyryfon ieuainc yn ei alw :—

Y mab llwyd, wyneb mursen,
A gwallt ei chwäer ar ei ben.

Dyna'r olwg, mae'n debyg, oedd arno yn more'i oes. Daeth ar ol hyny yn dra phoblogaidd gyda'r merched. Efe oedd eu hoffddyn cyffredinol, er ei holl gastiau.

Ni phair ddyn deg, waneg wedd,
Grogi dillyn y gwragedd.

Ond y mae hanes amdano yn mron a chael ei grogi gan haid o'i gariadon yn agos i Fasaleg. Mae traddodiad yn cyfeirio at y lle hyd heddyw. Dywedir nad oedd ganddo ddim llai na 24 ohonynt, ac iddo un diwrnod eu gwahodd i'w gyfarfod fin nos dranoeth, o tan dderwen dewfrig yn y gymydogaeth, a hyny heb yn wybod y naill i'r llall. Daeth y bardd afiaethus i'r lle cyn yr amser penodedig, a dringodd i ymguddio yn mrig y dderwen. Yn fuan, wele y merched, yn ffyddlawn i'w haddewid, yn dechreu dylifo i'r lle o bob cyfeiriad; a mawr oedd difyrwch y bardd wrth eu gwylio o'i guddfan. Edrychent ar eu gilydd yn dra syn, a dechreuasant holi y naill y llall pa beth oedd eu neges yno? "I gwrdd â Dafydd ab Gwilym," ebai un. "Am clywch fenyw! dyna'm neges inau," ebe un arall. "Hawyr! how! a minau hefyd," ebai un arall. Yna bygythiasant ddial ac angau ar y bardd os efe a gadwai ei oed, ac a ddeuai yn ol ei addewid. "O, yn wir!" ebai Dafydd, o frig y pren, "a ellwch chwi fod mor greulon â hyny?"

Y butain wen fain fwynaf—ohonoch,
I hono maddeuaf,
Tan frig pren, a heulwen wen,
Teg anterth t'rawed gyntaf.

Cafodd yr englyn duchanus hwn yr effaith a ddymunai y bardd ar y merched; dechreuasant anmheu diweirdeb eu gilydd; ac o sertheiriau, aeth yn ymrafael cyffredinol, yr hwn a derfynodd mewn rhwygo penwisgoedd, a thynu gwallt bonwyn; a chafodd Dafydd ddisgyn o'i guddfan, a myned ymaith yn ddianaf. Ond er dianc ohono yn holliach o afaelion y ffrwgwd orddig hon, cafodd y bardd wybod yn ol llaw, nad peth i gellwair ag ef ydyw serch. Bu rhwymyn cariad yn dyn iawn amdano yntau, ac yn mherlewygfeydd ei gaethiwed y cyfansoddodd ei riangerddi melusber. Ymserchodd yn nghyntaf ag un o'r enw Dyddgu, rhian ieuanc dra phrydweddol a hardd :—

Dyddgu a'r gwallt gloywddu glan.

Geneth ieuanc tan oed ydoedd o dir Mael, neu Maelienydd; canodd y bardd wyth cywydd iddi; ond gwastraff fu ei gywydd a'i gariad, ac y mae efe yn y diwedd yn cwynfan wrthi :—

Dy fardd mad, yn anad neb,
Digroenes deigr ei wyneb.

Tybia rhai mai Dyddgu, ac nid Morfudd, oedd merch noddwr a chyfathrachwr y bardd, sef Ifor Hael; ond dywed y bardd yn un o'i gywyddau iddi mai o Faelienydd [rhan o sir Faesyfed], yr hanai. Merch i Madog Lawgam o Fon, oedd Morfudd; ac yn Niwbwrch, yn Mon, y gweles y bardd hi gyntaf. Llanwyd ef o'i serch, a gogleisiwyd ei awen i ganu dim llai na

Saith gywydd i Forfydd fain,
Seth hoywgorph, a saith ugain.

Y mae tros gant o'r cywyddau hyn wedi eu hargraffu yn ei waith.

Digitized by Google

Priodwyd y ddau yn y llwyn, mewn modd dirgel, gan Madog Benfras, bardd enwog o Faelor; eithr aeth ei rhieni a Morfudd oddiar y bardd, a phriodwyd hi â swyddog milwraidd cefngrwm o'r enw Cynfrig Cynin, yr hwn a lysenwai efe y "Bwa Bach," Ond tra fu Cynfrig ar hynt filwraidd yn Ffrainc, Morfudd a ddianges at y bardd eilwaith; a'r canlyniad fu carcharu Dafydd, a rhoddi dirwy drom arno, fel nas gallai ddyfod yn rhydd, nes i wŷr Morganwg dalu trosto. Ni bu ond cael a chael na ddygasai efe hi drachefn; ac o hyny allan, ceir yn ei gywyddau y mawl mwyaf digymysg i Forfudd yn gymysgedig â'r bygythion trymaf ar y "Bwa Bach," Bu Dafydd ab Gwilym mewn dwy ymryson farddonol; ac er campused rhianfardd ydoedd, rhoddes brawf hefyd nad oedd yn nghyneddfau bardd gogan yn ddiffygiol. Ymddengys fod llid marwol rhyngddo â Rhys Meigen, yr hwn oedd yn fardd a gwr boneddig, ac yn hŷn o ddyddiau nag ef. Arferai beirdd yr oes hono, pan gydgyfarfyddent, gynal cyff cler; sef neillduo un o'u plith i eistedd yn nghanol y neuadd, tra y byddent hwythau o'i gylch yn ei oganu am y goreu. Yr oedd y ddau fardd mewn cwrdd o'r fath, a gynelid yn neuadd Ieuan ab Lleision, yn Maglan, Morganwg; ac yn ol y drefn, daeth tro Dafydd i fod yn gyff cler. Torodd Rhys drefn y cyfarfod, dywedodd eiriau bryntion, ac edliwiodd i Dafydd ei enedigaeth tan lwyni, yn yr englyn a welir yn t.d. 448. Digiodd Dafydd yn erwin, a phenderfynodd ddial yr anair. Cynaliwyd yr Eisteddfod nesaf yn llys Llywelyn o Emlyn, ewythr ein harwr frawd ei fam, a threfnwyd i Rys Meigen fod yn gyff cler. Ond bu chwerw ei dynged; canys yr oedd Dafydd wedi darparu awdl mor llawn o eiriau cellwair gnoawl nes y syrthiodd Rhys yn farw ar lawr y neuadd. Ar ol hyn bu ymrysonfa faith a chaled rhyngddo â Gruffydd Grug, o sir Fon. Cyfeirir yn y ddadl hon at farwolaeth Rhys Meigen, a heria Gruffydd ef i'r frwydr trwy ddweyd :—

Ymogel! nid wyf Rys Meigen!

Gwedi hir ymryson crasineb, y chwareu yn dechreu myn'd yn chwerw, a'r wlad yn gresynu fod dau fardd mor enwog yn gwastraffu eu doniau i ddifrio eu gilydd, trefnwyd ffordd i'w cymodi yn y dull digrifol a ganlyn. Mynachod Gwynlliw, yn Morganwg, meddir, a luniasant y chwedl a fu yn foddion i ddwyn yr heddwch oddiamgylch. Danfonasant genad at bob un o'r ddau fardd fod y llall wedi marw, ac yna canodd y ddau farwnadau galaethlawn i'w gilydd, wedi gweled pa rai, a deall y ddyfais, yr anghofiasant eu gelyniaeth gynt, ac y daethant yn gyfeillion am y gweddill o'u hoes. Canodd Gruffydd drachefn farwnad wirioneddol i D. ab Gwilym. Mae y byrhanes a ddyfynasom o'r Iolo *MSS.* yn grynodeb lled gyflawn o dreigliad bywyd y bardd. Yr oedd ei serch yn fawr ar Ifor Hael, a noddid ef yn garedig iawn gan y boneddwr hwnw a Nest ei wraig. Treuliodd ran olaf ei oes yn ei hen dreftadaeth Bro Gynin, Llanbadarn Fawr. Gorfucheddodd holl gyfeillion ei ieuenctyd; ac mewn unigedd synfyfyriol, y cwynodd ar eu hol :—

Mae Ifor a'm cynghorawdd?
Mae Nest oedd unwaith i'm nawdd?
Mae dan wydd Morfudd fy myd?
Gorwedd ynt oll mewn gweryd!
A minau'n drwm i'm heinioes,
Dan oer lwyth yn dwyn hir loes.

Dywed rhai mai yn Ystrad Fflur, sir Aberteifi, y claddwyd ef; ond yn ol yr englynion marwnadol iddo o waith Hopcyn ab Thomas, y rhai a gyfansoddwyd ddeuddeng mlynedd wedi marwolaeth y bardd, yn Tal y Llychau, sir Gaerfyrddin y mae ei lwch yn gorwedd :—

Digitized by Google

Yn medd y gorwedd, a'r gareg—arnaw,
Mawr ernych gloyw ofeg ;
Acw yn ynys cain waneg
Lle uwch dwr, Tal Llychau deg.

O barth athrylith D. ab Gwilym, nid oes yr anmheuaeth leiaf, sef ei bod yn un o'r rhai godidocaf a thryloewaf a gododd yn Nghymru erioed. Beirdd yr oesau a gydnabyddent ei ragoroldeb, ac a edrychent arno gydag edmygedd. Dywed y cerdd-feirniad diail hwnw Gwallter Mechain :—"Nid oedd Casnodyn ond prin wedi oeri yn ei feddrod, pan ddyfyrwyd trigolion Dê a Gwynedd â pheraidd sain cywyddau a thoddeidiau Dafydd ab Gwilym. Gelwir ef gan rai, megys o barch i'w enw,—'*Yr Ofydd Cymreig.*' Ond chwareu teg i Fardd Bro Ginin ; ei gywyddau serchocaf i Forfydd ydynt fwy diwair o lawer na chaniadau nwydlawn yr adynfardd Rhufeinig. Efe (D. ab G.) a ddygodd ar arfer gyffredin y mesur mwyaf cyffredin o'r 24ain ; a'i gywyddau ef ydynt yn mhlith y rhai melusaf yn yr iaith. * * Am ddychymyg, neu grebwyll, ni bu, ac efallai ni bydd yn Nghymru, ail i Ddafydd ab Gwilym. Efe a ddysgai, hyd yn nod i Ddyllhuan, ac i Bioden, siarad yn Gymraeg glân gloyw ; a rhoddai leferydd yn ngenau drychiolaeth, ac ymgomiai â'i gysgod ei hun." Cyhuddir ef gan Goronwy Owen, yn un o'i Lythyrau ; a chan Gwilym Hiraethog, yn y traethawd ar Farddoniaeth cysylltiedig a'i *Ganiadau ;* o ormod ysmalio â'r awen, ac o'i darostwng i ganu ar destunau annheilwng o'i hurddas a'i mawredd. Digon gwir mai Serch ydoedd gwrthrych penaf ei ganiadau ; ond pa fardd erioed a roddes offrwm purach ar allor yr eilun hwnw ? Nid oes yn holl waith Ab Gwilym yr awgrym leiaf a glwyfa y chwaeth na'r teimlad mwyaf llednais. Yr oedd adnoddau ei gyfoeth drychfeddyliol yn ddiderfyn ; a'i ddawn i ddarlunio ei destun mewn gwahanol ddullweddau, a hyny gyda nerth a newydd-deb parhaus, yn ei osod yn rheng flaenaf beirdd cenedlig y byd oll. Yr oedd efe yn arllwys ei fel-odlau melusion cyn bod bardd gan y Saeson gwerth son am dano, a phan oedd Ewrob yn ystwyrian o drymgwsg llenyddol hirfaith yr Oesau Tywyll ; a thra nad oes ond ychydig Saeson yn yr oes hon a ddeallant waith eu hanwylfardd Chaucer, y mae cywyddau D. ab Gwilym mor ddealledig i'r Cymro ag ydynt gynyrchion Goronwy Owen, a gyfansoddwyd yn ystod y ganrif ddiweddaf. Dengys hyn faint ei ddylanwad ieithyddol ar ei oloeswyr barddonol, a chyn ychydiced y cyfnewidiad a gymerth le yn yr hen Iaith Gymraeg.—*Gorchestion Beirdd Cymru ;* Parry's *Camb. Plutarch ; Gwaith D. ab Gwilym.*

GWILYM DDU O ARFON, bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1280 a 1320. Y mae tair o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*, dau o ba rai sydd wedi eu hanerch at Syr Gruffydd Llwyd yn ngharchar.

GWILYM GWYN, bardd yn ei flodeu rhwng 1560 a 1600.

GWILYM TEW, bardd gorsedd Morganwg yn 1460. Yr oedd yn ei flodeu rhwng 1430 a 1470, ac y mae amryw o'i gynyrchion barddonol ar gael mewn ysgrifau. Yr oedd yn wyddfodol yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin, yn 1441 ; "a Gwilym Tew o Dir Iarll, a Dafydd Nanmor a gad yn oreuon eu hawen."—*Cyfrinach y Beirdd.* Yr oedd bardd arall yn byw yn Merthyr yn nechreu y ganrif bresenol o'r enw William Moses, yr hwn a gyhoeddodd gyfrol o'i farddoniaeth, yn cynwys amryw ddarnau teilwng.

GWINN (Parch. Robert), oedd yn frodor o Gymru, ac a addysgwyd

Digitized by Google

yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A. yn 1568. Yn 1571, gadawodd y brifysgol, ac aeth i Douay, lle y derbyniwyd ef i'r coleg, ac yr hynododd ei hun yn fawr trwy ei wybodaeth eang mewn duwinyddiaeth. Ar ol hyny, dychwelodd i Loegr, ac ymsefydlodd yn Nghymru fel offeiriad lleygol, ac ysgrifenodd, yn ol un awdurdod, amryw lyfrau crefyddol yn Gymraeg. Dywedir hefyd ddarfod iddo yn 1591 gyfieithu *Christian Directory, or Resolutions*, o waith Parsons.—Wood's *Athen. Oxon.*

GWLADUS, merch neu wyres i Brychan Brycheiniog. Priodwyd hi gan Gwynlliw Filwr, a hyhi oedd mam Cattwg Sant.

GWRGANT AB ITHEL, tywysog ar Forganwg ar derfyn y 10fed a dechreu yr 11eg ganrif. Dywed y *Brutiau* ddarfod i Gwrgant a'i fab Iestyn roddi cryn lawer o gymborth i Bleddyn ab Cynfyn, yn erbyn Meredydd ac Idwal, ei wrthymgeiswyr. Caradawg o Langarfan a ddywed ei fod yn dywysog doeth a heddychol, iddo roddi tiroedd i'r tlodion tros byth, a roddi nawdd a braint i'r sawl a amaethent y tir, trwy ganiatau pleidlais iddynt yn y cynghorau cenedlaethol, a hawl i wrthod cyflawni unrhyw swydd yn groes i'w hewyllys. Cofnodir dywediad o'i eiddo yn "Chwedlau y Doethion," yn yr Iolo *MSS*:—

A glywaist ti chwedl Gwrgan,
Brenin clodfawr gwlad Forgan?
Pob trugarog Duw o'i ran.

GWRGANT AB RHYS AB IESTYN, pendefig yn Nehcubarth Cymru, a ystyrid y bardd goreu a dysgedicaf yn ei oes. Lladdwyd ef yn 1156 gan Ifor ab Meirig, o Senghenydd, eithr dialwyd ei farwolaeth gan Morgan ab Owain, yr hwn a laddodd Ifor.—*Myv. Arch.* 8

GWRGANT FARFDRWCH, ab Beli ab Dyfnwal, yn ol y *Brutiau Cymreig*, a olianodd ei dad i orsedd Prydain yn y 4edd ganrif cyn Cred. Yr oedd yn dywysog heddychol; eithr pan y torodd rhyfel allan, efe a'i dygodd yn mlaen yn egniol, ac i derfyniad llwyddianus. Bu mewn rhyfel â Norway a Denmarc, a rhoddes diroedd i'r Gwyddelod yn yr Iwerddon, yr hwn sydd hyd heddyw yn parhau yn meddiant eu hiliogaeth. Bu farw wedi teyrnasiad o 14 blynedd.—*Myv. Arch.* ii. 456.

GWRGI AB ELIFER, a gofnodir yn y *Trioedd* fel un o'r tri "gwyndorllwyth," neu enedigion bendigaid, gan iddo ef, a'i frawd Peredur, a'i chwaer Ceindrech, gael eu geni ar yr un pryd. *Tri* arall esyd ei deulu ef, a'i frawd Peredur, yn un o'r "tri anniwair deulu," y rhai "a adawsant eu harglwydd yn Nghaer Greu, a chyfnod ymladd oedd dranoeth iddynt ag Iddaf Glin Mawr, ac a'u llas hwynt ill dau." Ida oedd dywysog ar y Sacsoniaid, a'r frwydr hon a gymerth le yn 584. Yr oedd Gwrgi a Pheredur yn aelodau o goleg Illtyd. Cofnodir dywediad o'i eiddo yn "Chwedlau y Doethion:"—

A glywaist ti chwedl Gwrgi,
Ar y sul yn cynghori?
Nid rhaid i Ddedwydd namyn ei eni.

GWRGI GARWLWYD, a gofnodir yn y *Trioedd*, fel carnfradwr ei wlad, a dyn-fwytawr ysgeler; ac "efe wedi cael blas ar gig dynion yn llys Edelffled, brenin y Saeson, a'i carai gymaint ag nis bwyteai amgen na chig dyn fyth gwedi hyny; ac am hyny ymgyfunaw a orug efe a'i wyr âg Edelffled, brenin y Saeson; ac efe wnai osawd lledrad ar genedl y Cymry, ac a ddygai yn wryw ac yn fenyw y rhai ieuainc y maint ag a fwyteai beunydd; a phawb o'r gwyr difrawd o genedl y Cymry, a gyrchynt ato efe a'r Saeson, lle caent braidd ac yspail eu gwala, a

Digitized by Google

ddygid oddiar frodorion yr Ynys hon." Lladdwyd ef o'r diwedd gan Ddeffidel.—*Tri* 45.

GWRHAI, un o feibion Caw, a sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Yr oedd yn aelod o goleg Deiniol, ac efe a sefydlodd eglwys Penystrywad yn Arwystli, sir Drefaldwyn.

GWRHIR, bardd i Teilo Sant, ac aelod o goleg Cattwg, ac yn ei flodeu yn y 6ed cant. Sefydlodd eglwys Llysfaen, yn Morganwg. Cofnodir ef hefyd yn y *Trioedd*, gyda Tydain a Menw, fel tri "prif ddysgawdr." Cofnodir dywediad o'i eiddo yn "Chwedlau y Doethion :"—

A glywaist ti chwedl Gwrhir,
Gwas Teilaw, bardd iaith gywir?
A wnel dwyll ef a dwyllir.

GWRHIR GWASTAWT IEITHOEDD, un o bersonau ffugiol yr hen ramantau Cymreig, enwog am ei fedrusrwydd mewn ieithoedd.—Iolo *MSS.*

GWRIN, mab i Gynddilig ab Nwython ab Gildas, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Efe a sefydlodd eglwys Llanwrin, yn sir Drefaldwyn.

GWRNACH GAWR, cymeriad hynod yn yr hen ramantau Cymreig.

GWRNERTH ab Llywelyn, o'r Trallwm, yn sir Drefaldwyn, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Y mae dadl grefyddol ar gân rhyngddo ef a'i dad Llywelyn, i'w gweled yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*, a bernir mai Tysilio Sant oedd yr awdwr.

GWRNERTH ERGYDLYM, a gofnodir yn y *Trioedd*, gyda Gwgawn Lawgadarn ac Eidiol Gadarn, fel tri "gyrddion," neu wyr cryfion Ynys Prydain. "Efe a laddes yr arth mwyaf a welwyd erioed â saeth wellten."

GWRON. "Tri Chyntefigion Beirdd Ynys Prydain: Plenydd, Alawn, a Gwron; sef oeddynt y rhai hyny a ddychymygasant y breiniau a'r defodau y sydd ar feirdd a barddoniaeth."—*Tri* 58.

GWRTHEFYR, a elwir *Wortiforius*, gan Geoffrey o Fynwy, a olianodd ei dad, Cynan Wledig, fel brenin y Brythoniaid. Efe a ddiffoddes wrthryfel o eiddo y Sacsoniaid, y rhai a gynorthwyid gan lu mawr o'u cydwladwyr o'r Almaen; ac wedi teyrnasu pedair blynedd, olianwyd yntau gan Faelgwyn Gwynedd.—*Myv. Arch.* ii. 359.

GWRTHEFYR FENDIGAID, mab i Gwrtheyrn Gwrtheneu, a etholwyd gan y Brythoniaid yn frenin arnynt wedi diswyddiad ei dad am wahodd y Saeson trosodd i'r Ynys hon. Ar ddeisyfiad ei ddeiliaid, Gwrthefyr a roddes gad ac ymgyrch ar y Saeson, ac a'u gorchfygodd yn olynol mewn pedair brwydr. Eithr wedi teyrnasiad blinderus o bedair blynedd, efe a wenwynwyd trwy ddichell Alis Rhonwen, yr hon a briodasai ei dad. Cymerodd hyn le tua 408. Yn un o'r *Trioedd*, gelwir ef yn un o'r "tri menwedigion teyrnedd." *Tri* arall a awgryma fod ofergoeledd yr oes hono yn ystyried mai buddiol celu esgyrn Gwrthefyr Fendigaid er mwyn dyogelwch yr Ynys hon rhag ymosodiadau gelynion; eithr Gwrtheyrn, ei dad, a'u datguddies, ac am hyny y gelwir hwynt yn un o'r "tair cudd a datgudd."

GWRTHELI, sant, ond nis gwyddis pa bryd y blodeuai. Gelwir ef hefyd Gartheli, a sefydlodd gapel Gwrtheli, yn Llanddewi Brefi, Ceredigion.

GWRTHEYRN GWRTHENAU, neu *Vortigern*, brenin ar y rhan Ddeheuol o Brydain yn ystod y 5ed ganrif. Nid oedd ar y cyntaf ond penaeth ar ran o Ddeheudir Cymru, o'r enw Euas, ac aelod o'r cynghor

Digitized by Google

gwladwriaethol, lle yr ystyrid ei farn o gryn bwys. Pan fu farw Cystenyn Fendigaid, gwnaed ei fab Constans yn olianydd iddo, a phenodwyd Gwrtheyrn yn gynghorydd i'r teyrn ieuanc. Ond yn lle cynghori bradychu a wnaeth Gwrtheyrn—parodd lofruddio Constans, ac yntau a gymerth feddiant o'r goron. Yna, er mwyn dyogelu ei hun rhag ei ddeiliaid cythruddedig, efe a wahoddes Hengist a Horsa i'r wlad hon, a chyda hwynt haid o Sacsoniaid o Germani. Yn fuan, efe a gymerth Rhonwen ferch Hengist yn wraig ordderch, gan ei gwaddoli âg iarllaeth Caint. Torodd gwrthryfel allan yn ei erbyn, ac wedi llwyddo o hyny, y Prydeiniaid a roisant Gwrthefyr ab Gwrtheyrn ar yr orsedd; eithr efe a wenwynwyd trwy dichell ei lysfam, yn 468. Yna Gwrtheyrn a goronwyd eilwaith, ac a deyrnasodd hyd 481, pryd yr ymosodwyd arno gan Emrys Wledig ac Uthr, yn ei gastell ar lan yr afon Wy, yr hwn le, ac yntau ynddo, a losgasant â thân. Eraill a ddywedant mai yn Nant Gwrtheyrn, yn sir Gaernarfon, i ba le yr enciliasai yr hen deyrn anllad, meddw, a bradwrus, y cymerth hyny le. Gelwir ef yn y *Trioedd* yn un o'r "tri gwyr gwarth," yn un o'r "tri carnfradwyr," ac yn un o'r "tri charn-feddwon," Ynys Prydain; ac y mae yr haneswyr oll, hyd yn nod y Saeson eu hunain, yn tywallt phiolau tiymion o lid am ei ben. Gwaetha'r modd, fod gormod o'i gyffelyb yn aros yn ein gwlad eto.

GWRTHWL, sant, a sylfaenydd eglwysi Llanwrthwl, yn sir Frycheiniog, a Maes Llanwrthwl, a safai gynt yn Nghaio, sir Gaerfyrddin. Ei wylmabsant Mawrth 2.

GWYDION AB DON, yn ol y *Brutiau Cymreig*, oedd fab i frenin Llychlyn *(Iceland)*, yr hwn yn nghyntaf a anrheithiodd Iwerddon, ac yna arweiniodd fyddin o driugain mil o Wyddelod a Llychlyniaid i Ogledd Cymru yn y flwyddyn o oed Crist 267, y rhai a gadwasant feddiant o'r wlad hon am 129 o flynyddau, pryd y darfu i Caswallon Lawhir eu hymlid ymaith, a lladd eu tywysog Serigi Wyddel, yn Llanygwyddyl, o fewn Ynys Mon. Dywed Iolo Morganwg, yn yr *MSS*, fod Gwydion yn 'dwyn y teitl o frenin Mon ac Arfon, a'i fod yn dra enwog am ei wybodaeth yn enwedig yn y gwyddonau, ac mai efe a addysgodd lenoriaeth o lyfrau gyntaf i Wyddelod Mon a'r Iwerddon, trwy yr hyn y daethant yn orenwog am eu gwybodau a'u seintiau. Y mae yn annichonadwy dirnad na dyfeisio pa fodd y daeth testyn y crybwyllion blaenorol yr enwocaf ar lawer ystyriaeth o bersonau hud a lledrith yr hen ramantau Cymreig; a chymaint ydyw ei gyneddfau yn yr ystyr hon, fel y mae Davies, awdwr cywrain y *Mythology of the Druids*, o'r farn nad yw efe ond person ffugiol, a'r holl grybwyllion yn eu gylch ond rhamant neu aralleg. Yn y *Trioedd* 85, cofnodir ef fel un o'r "tri buelydd gosgordd Ynys Prydain." Buelydd oedd y gwr a gadwai wartheg rhag crwydro; ac y mae y gair yn arferedig hyd y dydd hwn mewn rhan o Bowys am yr ystanc y dyogelir yr anifail wrtho mewn beudy, neu bueldy. "Gwydion a gedwis wartheg gosgordd Gwynedd Uch Conwy, ac yn y fuel hono ugain mil ag un." Rhestrir ef yn *Tri* 89, gydag Idris Gawr a Gwyn ab Nudd, fel tri "gwyn serenyddion Ynys Prydain;" "a chan faint eu gwybodeu am y ser, a'u hanianeu, a'u hansoddeu, fel y daroganent a chwenychid ei wybod hyd yn wydd brawd." Ar ei ol ef y gelwir y Llwybr Llaethog yn Gaer Gwydion; a'r cydser Cassiopeia, neu y Twr Tewdws, ar ol ei dad, yn Llys Don. *Trioedd* 90 hefyd a'i cofnoda yn enwog mewn "hud a lledrith," ac a ddywed mae gan Fath ab Mathonwy y dysges efe y gelfyddyd hono. Cyfeirir ato yn fynych fel y prif-ledrithiwr, gan y beirdd Cymreig, yn enwedig gan

Digitized by Google

Taliesin, tan y penawd "Cadair Ceridwen." Lleinw yr un cymeriad hefyd yn *Mabinogi* "Math ab Mathonwy," yn mha un y dywedir ddarfod iddo trwy ei swynlath greu gwraig o flodeu i Llew Llaw Gyffes, yr hon a elwid Blodeuwedd. Dywed Davies, ei fod yn llanw yr un swyddogaeth mewn ffugiaeth Gymreig â Hermas, cynghorydd Cronus, neu Mercury mab Jove, yn ffughanesiaeth y Groegiaid. Yn ol *Englynion y Beddau*, claddwyd ef yn Morfa Dinlle, yn Arfon.

GWYDYR, brawd i GWEIRYDD WLEDIG, hanes yr hwn gwel.

GWYDDELAN, sant, a sefydlydd eglwysi Llanwyddelan, yn sir Drefaldwyn, a Dolwyddelan, yn sir Gaerfyrddin. Ei wylmabsant, Awst 22.

GWYDDNO GARANHIR, tywysog Cantref y Gwaelod, yr hwn a orlifwyd gan y môr, ac a orchuddir yn awr gan dònau Beisfor Aberteifi *(Cardigan Bay)*. Gelwir ef hefyd Dewrarth Wledig; a mab ydoedd i Gorfyniawn ab Dyfnwal Hen, brenin Gwent. Yr oedd yn ei flodeu rhwng 460 a 520. Y mae tri chyfansoddiad o'i eiddo yn y *Myv. Arch.*, ac un ohonynt wedi ei gyfieithu i'r Saesneg yn *Bardic Museum*, Jones. Yn ol y *Trioedd*, Hafan Gwyddno, yn Ngheredigion, oedd un o "dair prif-borthladdoedd Ynys Prydain." Yr oedd ganddo gored bysgota hefyd ar enau yr afon Gonwy, ger Deganwy, yr hon a elwir hyd y dydd hwn, "Cored Gwyddno." "Mwys G. Garanhir," oedd un o dri thlws ar ddeg Ynys Prydain; "bwyd i ungwr a ro'id ynddi, a bwyd i gànwr a geid ynddi pen egorid." Math o rwyd pysgota ydoedd. Dywed Davies, yn *Myth. of the Druids*, mai yr un person ffugiol ydoedd â Thegid Foel a Seithenyn Feddw.

GWYDDON GANHEBON, a gofnodir yn y *Trioedd* fel un "a wnaeth Gerdd Dafawd gyntaf o'r byd," a *Thri* arall a ddywed mai "Main G. Ganhebon, lle y darllenid arnynt holl gelfyddydau a gwybodau y byd," oedd un o dri prif orchestwaith Ynys Prydain. Rhydd traddodiad le uchel iddo fel cerddor; ac awgryma ei enw ei fod yn fedrus yn ngwyddoniaeth cân.

GWYDDFARCH, mab i Amalarus, brenin Pwyl. Sefydlodd dair eglwys a safent gynt yn Meifod, sir Drefaldwyn. Y mae traddodiad yn y 'plwyf hwnw mai meudwy ydoedd, a dangosir ei wely caregog ar glogwyn cyfagos.

GWYN AB NUDD, a gofnodir yn y *Trioedd*, gydag Idris Gawr a Gwydion ab Don, fel "tri gwyn serenyddion." Dywedir ei fod yn byw yn y 6ed ganrif; ac oddiwrth ymryson farddonol rhyngddo â Gwyddno Garanhir, argraffedig yn y *Myv. Arch.*, cesglir ei fod yn filwr medrus. Ond y mae rhamant Gymreig wedi dodi iddo safle uchel fel lledrithiwr, ac yn ei alw yn frenin y Tylwyth Teg, a phenaeth Gwlad Hud a Lledrith.

GWYN, mab i GYNYR FARFDRWCH, hanes yr hwn gwel.

GWYNDAF HEN, ab Emyr Llydaw, sant yn y 6ed cant. Bu yn gyffeswr, neu gaplan, yn mynachdy Illtyd; ac yn llywydd coleg Dyfrig, yn Nghaerlleon ar Wysg. Priododd Gwenonwy, ferch Meirig ab Tewdrig, a mab iddynt oedd Meugant Sant. Ymneillduodd i Enlli yn ei henaint, ac yno ei claddwyd. Sefydlodd eglwysi Llanwnda, yn Mhenfro, a Llanwnda, yn sir Gaernarfon.

GWYNEN, santes, a sylfaenodd, tybir, eglwys Llanwnen, yn Ngheredigion.

GWYNFARDD BRYCHEINIOG, bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1160 a 1220. Y mae dau gyfansoddiad o'i eiddo yn y *Myv. Arch.*

Digitized by Google

GWYNFARDD DYFED, bardd yn ei flodeu yn yr 8fed ganrif; ond nid oes dim o'i waith ar gael. Mab iddo oedd Cuhelyn Fardd, ac y mae amryw o brif deuluoedd y Deheudir yn olrhain eu disgyniad o hono.

GWYNNETH (JOHN), awdwr Pabaidd, a brodor o Gymru, a roddes brofion cynar o feddwl cryf, ac awyddfryd am ddysg. Oblegyd tylodi ei rieni, bu mewn cryn drafferth yn cynal ei hun yn Rhydychain, eithr cafodd noddwr, yr hwn wrth ganfod ei dalent, a'i cynorthwyodd. Cyn derbyn urddau, yn 1531, oherwydd ei fawr ddysgeidiaeth yn enwedigol mewn cerddoriaeth, efe a raddiwyd yn ddoethawr gan y Brifysgol. Cymerodd ran yn y ddadl fawr oedd rhwng y Pabyddion a'r Lutheriaid, ac ysgrifenodd lyfr dan y teitl, "A declaration of the State, wherein Heretics do lead their lives." Ysgrifenodd hefyd, "A detection of that part of Fryth's book which he termeth his Foundation," London 1554. Ysgrifenodd lyfr arall yn 1557, yn erbyn John Fryth, tan y teitl, "The Sacrament and the Altar." Yr oedd yn awdwr rhai llyfrau eraill hefyd.—Wood's *Athen. Oxon.*

GWYNNIN, sant yn y 7fed cant, a mab i Helyg ab Glanawg. Pan orlifwyd cyfoeth ei dad gan y môr, efe a'i frodyr a ymroisant i arwain bywyd crefyddol. Efe a sefydlodd eglwys Llandegwynin, yn Arfon. Ei wylmabsant, Rhagfyr 31.

GWYNNO, *gwel* GWYN.

GWYNNOG, sant yn y 6ed cant, mab i Gildas, ac aelod o goleg Cattwg. Efe yw nawddsant Y Faenor, yn Mrycheiniog; a thybir ei fod yn un o'r tri a sefydlasant eglwys Llantrisant, yn Morganwg; ac y mae Llanwynno, capel perthynol i'r eglwys hono, wedi ei gyflwyno iddo. Sefydlodd hefyd eglwys Llanwynnog, yn sir Drefaldwyn, ac ar ffenestr y ganghell y mae ei lun mewn gwydr ystaenedig, yn ei wisgoeddd crefyddol, a mitr ar ei ben, a chroes yn ei law; ac o tan y llun ceir y geiriau canlynol:—"*Sanctus Gwinocus, cujus animæ propitietur Deus Amen.*" Gwaith y 14eg ganrif ydyw hwn, a gellir casglu fod Gwynnog yn dal swydd uchel yn yr eglwys. Ei wylmabsant, Hyd. 26.

GWYNODL, ab Seithenyn, sant yn y 6ed cant. Yr oedd yn aelod o goleg Dunawd, ac yn sefydlydd Llangwnodl, yn sir Gaernarfon, lle y treuliodd fywyd meudwyol, ac y claddwyd ef.

GWYNWS, un o biliogaeth Brychan, a sant yn y 5ed cant. Sefydlodd Llanwynws, yn Ngheredigion. Ei wylmabsant, Rhag. 13.

GWYTHERIN, mab i Dingad ab Nudd Hael, a sant yn y 6ed cant. Sefydlodd eglwys Gwytherin, yn sir Dinbych.

GWYTHYR AB GREIDIOL, rhyfelwr yn ngwasanaeth Arthur, a thad Gwenhwyfar, un o'i wragedd. Crybwyllir am ei fedd yn "Englynion y Beddau," a cheir ei enw yn rhai o'r Mabinogion, yn enwedig yn "Cilhwch ac Olwen."

GWYNLLYW FILWR, sant yn y 5ed cant. Mab ydoedd i Glywys ab Tegid ab Cadell Deyrnllwg, arglwydd Gwentllwg, Morganwg, yr hwn le, tybir, a gafodd yr enw oddiwrtho ef. Gelwir ef gan John o Teignmouth yn St. Gundleus. Priododd Gwladus, wyres i Brychan, a chafodd o honi deulu lluosog, yr oll o ba rai bron a ymroddasant i ddwyn bywyd crefyddol. Oddiwrth y cyfenw "Milwr," bernir ddarfod iddo hynodi eu hun ar y cyntaf fel rhyfelwr; eithr rhoddes ei gyfoeth i'w fab Cattwg, ac adeiladodd grefydd-dŷ, lle y treuliodd weddill ei oes mewn ympryd a defosiwn. Y mae eglwys Casnewydd ar Wysg, yr hon a saif yn nghantref Gwentloog, wedi ei chyflwyno iddo, tan yr enw St.

Digitized by Google

Woolos; ei wylmabsant Mawrth 29. Cofnodir dywediad o'i eiddo yn "Chwedlau y Doethion,"—*Iolo. MSS.*

A glywaist ti chwedl Gwynlliw,
Fab Glywis yn gyfymliw?
Cymmhwyll ag ynfyd nid gwiw.

Hyny ydyw, "Oferedd dadleu ag ynfyd."—Rees *Welsh Saints*; *Iolo. MSS.*

HAER, benyw deg, a merch i Gillyn ab y Blaidd Rhudd o Eifionydd. Bu yn briod gyda Chynfyn Hirdref, a thrachefn gyda Bleddyn, tywysog Powys.

HAFGAN, person nodedig yn yr hen ramantau Cymreig. Chwery ran flaenllaw yn *Mabinogi* Pwyll Pendefig Dyfed.

HAFREN, merch i Locrinus ac Essyllt. Gwel tan y gair *Essyllt.*

HAFREN (GRUFFYDD), bardd yn ei ffoden rhwng 1560 a 1600. Y mae ychydig yn nghadw o'i waith mewn llawysrifau.

HANMER (CYNRIC), o deulu yr Hanmeriaid o Faelor, ydoedd fardd Cymreig yn amser Harri viii.—un o'r beirdd boneddigol, "a ganent ar eu bwyd eu hunain;" ac nid clera am eu tamaid. Yr oedd yn swyddog yn y fyddin Brydeinig yn ngwarchae dinas Boulogne, yn Frainc, yn 1545.—*Gwyliedydd*, 1833, t. d. 153.

HANMER (SYR DAVID), oedd fab ac aer i Philip Hanmer, o Hanmer, yn sir Flint. Gan ei fod yn wr dysgedig yn y gyfraith, ac yn pleidio y Saeson, gwnaed ef yn un o Farnwyr y Freninfainc Chwef. 26, 1383, tan deyrnasiad Risiart II., yr hwn hefyd a roddes iddo urdd marchog yn 1387. Ei wraig ydoedd Agnes neu Angharad ferch Llywelyn Ddu ab Gruffydd ab Iorwerth Foel, o lwyth Tudur Trefor. Bu iddo ddau fab ohoni, sef Gruffydd, a Jenkin yr hwn a laddwyd yn mrwydr Amwythig yn 1403; a merch, o'r enw Margaret, yr hon a briododd y rhyfelwr dewrwych Owen Glyndwr. Yr oedd Syr Dafydd yn ramadegydd Cymreig medrus.

HANMER (JOHN), D.D., a hanai o hen deulu yr Hanmeriaid yn sir Flint, ac a anwyd yn y Pentrepant, gerllaw Croesoswallt, yn 1574. Cafodd ei addysg golegol yn athrofa Oriel, Rhydychain, o ba le yr etholwyd ef yn aelod o goleg All Saints yn 1596; ac yn 1605, dewiswyd ef yn un o broctoriaid y brif ysgol. Ar ol hyny cafodd rectoriaeth Bingham, sir Nottingham, a phrebendiaeth Worcester yn 1614; ac yr oedd hefyd yn gaplan i'r brenin Iago I. Ar farwolaeth y Dr. Richard Parry, dyrchafwyd ef yn esgob Llanelwy, Chwef. 15, 1623, a chaniatad i barhau i ddal y brependiaeth. Bu farw yn mhalas y teulu yn Pentrepant Mehefin 23, 1629, yn 55 oed, a chladdwyd ef yn eglwys Selattyn, yn yr hon eglwys y mae iddo gofnod Lladin.

HANMER (MEREDITH), D.D., oedd fab i Thomas Hanmer, o Bentrepant, yn mhlwyf Selattyn, ger Groesoswallt, lle y ganwyd ef yn 1543. Addysgwyd ef yn Rhydychain, a gwnaed ef yn gaplan coleg Corpus Christi yn 1567, a thrachefn cafodd ficeriaeth St. Leonards, Shoreditch, Llundain. Daeth yno yn dra anmhoblogaidd, oblegid iddo dynu pres oddiar golygolofnau a'u gwerthu i'w ddyben ei hun. Yn 1582, cymerodd ei raddau mewn duwinyddiaeth; a'r flwyddyn ganlynol cafodd ficeriaeth Islington, yr hon swydd a roddodd i fynu yn 1590. Yn mhen dwy neu dair mlynedd rhoddes Shoreditch i fynu, gan fyned i'r Iwerddon, lle y gwnaed ef yn drysorydd eglwys Crist, Dublin, a daliodd y swydd hono hyd ei farwolaeth yn 1604. Er ei holl ddiffygion, ystyrid ef yn bregethwr ac ysgolhaig rhagorol, ac yn dra chyfar-

Digitized by Google

wydd mewn hanesyddiaeth wladol ac eglwysig. Heblaw amrai draethodau yn erbyn y Jesuitiaid, cyhoeddodd yn 1576, "The Ancient Ecclesiastical Histories of the first 600 years after Crist, originally written by Eusebius, Socrates, and Evagrius." Ailargraffwyd y llyfr yn 1585, a chwanegwyd ato, "A Chronography with a supputation of the years from the beginning of the world," &c. Ymddangosodd pumed argraffiad ohono yn 1650. Cyfieithodd hefyd, "Fucheddau y Prophwydi a'r Apostolion," o waith Dorotheus, esgob Tyrus; "Achyddiaeth Seintiau Iwerddon;" a "Chroniclau Iwerddon;" i'r iaith Seisnig. Cyhoeddodd hefyd "A Sermon on the Baptizing of a Turk," yr hon a draddodwyd yn ngholeg-eglwys Katherine, Dublin.—Fuller's *Worthies*; Wood's *Athen. Oxon.*; Chalmer's *Biography*.

HANMER (Syr Thomas), barwnig, gwladweinydd enwog, oedd fab i William Hanmer, o Bettisfield Park, Hanmer, sir Fflint, lle y ganwyd ef yn 1677. Addysgwyd ef yn Westminster, a choleg Crist, Rhydychain. Ar farwolaeth ei ewythr, Syr John Hanmer, yn 1701, efe a olianodd i'r titl a'r etifeddiaeth; ac o herwydd harddwch ei wedd, enillodd serch gweddw Dug Graffton, yr hon a briododd pan nad oedd ond 21 oed. Yr oedd yn gludydd cwpanau i Sior I. yn achos yr hwn y cododd ddau dŵr o wyr meirch. Dychwelwyd ef yn aelod seneddol tros sir Flint ar ddyrchafiad Ann i'r orsedd. Etholwyd ef yn yn 1707 yn aelod seneddol tros Suffolk; a dewiswyd ef yn unfrydol yn Llefarydd Ty y Cyffredin yn 1714. Wedi treulio 30 mlynedd fel seneddwr gweithgar a blaenllaw, efe a ymneillduodd yn lân oddiwrth fywyd cyhoeddus yn 1727, gan ymhyfrydu mewn garddwriaeth a llenyddiaeth. Yn 1744, cyhoeddodd argraffiad ysblenydd o waith Shakespeare, mewn chwe' cyfrol, o tan ei olygiaeth, a chyflwynodd yr hawlfraint ar y gwaith i'w goleg. Bu farw Mai 7, 1746, a chladdwyd ef yn meddrod y teulu yn eglwys Hanmer. Ei ail wraig ydoedd ferch i Thomas Foulkes, o Barton, yn sir Suffolk; eithr ni bu iddo blant o'r naill briodas na'r llall. Rhoddes yn ei ewyllys fferm tros byth, ardreth pa un oedd i dilladu a dianghenu tylodion ei blwyf genedigol. Cyhoeddwyd ei fywgraffiad a'i lythyrau, gan Syr Henry Bunbury, yn Llundain, yn 1838.

HARRI DDU, bardd a duweinydd yn ei flodeu rhwng 1560 a 1600.

HARRI HIR, bardd yn ei flodeu rhwng 1450 a 1480. Y mae ychydig o'i waith ar gael mewn ysgrifau.

HARRI Y GARREG LWYD, bardd rhwng 1450 a 1490 Yr oedd yn bresenol yn ngorsedd Morganwg yn 1470.

HARRI AB HARRI, neu *Harri Craig-y-gath*, ydoedd fardd gwlad ystwyth a naturiol yn ystod y ganrif ddiweddaf. Ganwyd ef yn 1709: a threuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llanfihangel yn Nghwynfe, sir Drefaldwyn. Llifiwr ydoedd wrth ei alwedigaeth, fel y prawf yr englyn a ganodd Jonathan Hughes, o Langollen, iddo. Yr oedd y bardd hwnw ar ei daith yn gwerthu *Bardd y Byrddau*, ac wedi cyrhaedd Llanfihangel, a holi am oracl barddonol Craig y Gath, cafodd ef wrth galedwaith ei alwedigaeth, ac a'i hanerchodd fel hyn:—

"Teithiais, anturiais at Harri—wr gwiwlan,
Mi a'i gwela'n ymboeni;
Ow, resyn!—'r ol hir oesi,
Fod hen wr llwyd yn tynu'r lli

Ymddengys fod Harri yn lled ragfarnllyd yn erbyn ymneillduaeth, pan yr ymdorodd allan gyntaf: Wrth ddeall nad oedd y Trefnyddion a'r Crynwyr yn arferyd Gweddi yr Arglwydd yn eu haddoliadau, dywedai:

Digitized by Google

"Harri ap Harri air per—ni wrendy
Ar Rowndiad na Chwacer,
Y dynion sydd dan y ser
Yn peidio d'weyd eu pader.

Dywed *Almanac* Sion Prys am 1744, fod Harri yn wyddfodol yn Eisteddfod Llansantffraid glyn Ceiriog yn y flwyddyn flaenorol, ac mai efe a agorodd y cyfryw eisteddfod gydag englyn. Cafodd oes hir, agos i 90 o flynyddoedd, y 30 olaf o ba rai a dreuliodd gan mwyaf yn rhyw segur glera o gwmpas yr ardaloedd hyny, i gael ei damaid a'i lymaid, ac yn Ebrill dechreuai ddatganu ei garol haf, yr hon a ddarparai yn newydd bob blwyddyn, ac yn mha un yr adroddai yn gyffredin rai o helention hynotaf y tymhorau blaenorol.—*Gwladgarwr* IV. 13, VIII. 365.

HARRI AB RHYS GWILYM, bardd yn ei flodeu tua 1530. Y mae ei waith ar gael mewn ysgrifau.

HARRIS (David), cerddor enwog yn ei ddydd; ac awdwr yr anthem boblogaidd unwaith ar y Salm "Par imi wybod dy ffyrdd, &c." Mab ydoedd i John a Winifred Harris, o Nant-llymystlyn, yn mhlwyf Llansantffraid, Cwmdeuddwr, sir Faesyfed, lle y ganwyd ef Medi 16, 1743; ac yno y trigianodd hyd 1824, pryd y symudodd i'r Ty-mawr, Carno, sir Drefaldwyn. Bu farw Ionawr 6, 1834, yn 86 oed. Yr oedd hefyd yn hynafiaethydd a hanesydd Cymreig rhagorol.—Lleyn *MSS.*

HARRIS (Parch. Evan), Merthyr, pregethwr doniol a ffraethbert gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Brodor o sir Frycheiniog ydoedd. Yno y treuliodd flynyddoedd boreu eu oes. Yr oedd yn bump ar hugain oed cyn ymroddi i achos crefydd. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn nghapel Pontrhydybere, ger Llanwrtyd, lle y dechreuodd weinidogaethu yn 1814. Yr oedd y dueddfryd bregethwrol yn berwi ynddo pan yn blentyn; byddai y pryd hwnw yn hoff o *chwareu* pregethu; ac efe yn wastad fyddai y pregethwr ar ben rhyw dwmpath, a chrug o blantos o'i gwmpas. Saer coed ac adeiladydd ydoedd o ran ei alwedigaeth; ond tua 1818, symudodd i Aberhonddu, i fachnachu fel brethynwr, lle yr arosodd am yn agos i'r ugain mlynedd dilynol. Cafodd ei ddewis yn gyflawn i'r weinidogaeth yn 1826. Yn Llangeitho, Jerusalem yr hen Fethodistiaid, y gosodwyd y goron hono ar ei ben. Yn 1837, symudodd i Ddowlais, sir Forganwg, fel masnachwr, lle yr arosodd am bedair blynedd. Yna symudodd i Ferthyr, gan roddi pob masnach i fynu, ac ymgyflwyno yn llwyr i waith y weinidogaeth. Cafodd barch mawr yno gan yr eglwys, a'i anwylo hyd ei ddiwedd fel gwr Duw yn eu mysg. Yr oedd eu arddull bregethwrol yn gyffrous, ac yr oedd yn ymadroddwr tarawiadol a chwbl naturiol. Bwrlymai ei ymadroddion allan yn gwbl ddidrafferth; a gwisgai hen ddrychfeddyliau y Groes mewn dull newydd a phert. Disgwyliai pawb am rywbeth newydd ac annghyffredin oddiwrtho, ac anfynych y siomid y cyfryw ddisgwyliad. Pe gwneid casgliad o'i luaws dywediadau, yn nghyda ffraethineb ac arabedd ei atebion ar lawer amgylchiad, byddent yn bethau tra darllenadwy, a gafaelgar yn y côf. Yr oedd yn anhawdd i'r mwyaf sobr ei fryd, a phwysig ei feddwl, lonyddu ei beirianau chwerthin wrth wrando ar Mr. Harris, gan mor ddigrifol ydoedd rhai o'i ddywediadau; ond medrai ef lywodraethu ei hun fel na byddai yr un wên arno tra'r gynulleidfa bron ymdori o tan y cyffroad a effeithid ar eu tymherau. Nis gellid meddwl mai ei amcan mawr ydoedd gogleisio y teimladau, ond yn hytrach fod hyn yn ddawn naturiol ynddo; a'r ddawn hon a ddefnyddiai i fywiogi sylw ei wrandawyr, er mwyn eu harwain at wrth-

Digitized by Google

rychau uwch. Yr oedd ei weinidogaeth yn rymus a gafaelgar, ac o duedd argyhoeddiadol a tharanllyd. Dangosai drefn achub pechadur yn oleu, a gafaelai ei bethau yn ddwfn yn ngydwybodau ei wrandawyr. Dosbarthai ei faterion yn drefnus a chryno, fel y gellir tybied fod pawb yn cofio cymaint o'i bregethau, os nid mwy, nag o eiddo neb o'i frodyr. Byddai yn egniol iawn yn y gwaith, pan yn traddodi, o ran ei gorph a'i ysbryd; cai yr oll o hono wneud eu rhan yn y gorchwyl Rhwng ei draed a'i ddwylaw, gwnai gryn ystŵr yn y pwlpud, a chai yr ystyllen a'r Beibl brofi hyny fynychaf—mynai selio ei ddywediadau â'i law ac â'i droed. Glynodd yn ffyddlawn wrth ei alwedigaeth uchel pan oedd henaint a phenwyni wedi ei orddiwes, a'r Sabbath olaf ond un iddo ar y ddaear aeth yn mlaen i'w gyhoeddiad. Ni bu raid iddo ef ymdroi yn hir tua rhydiau'r afon,—y nerth i gyflawni ei waith wedi darfod, ar Meistr yn aros yn hir cyn ei ryddhau—mewn segurdod henaint; ond cafodd farw yn y tresi, gollwng y cledd i dderbyn y goron. Ni chaethiwyd ef i'w wely ond tua naw niwrnod. Yr oedd ei grefydd yn dysgleirio yn mhob loes ac ymddatodiad. Dywedai wrth y meddyg un diwrnod, "Yr ydych chwi, Doctor, wedi gwellhau llawer, ond ni ellwch fy ngwellhau i; ni wna dim y tro i mi ond ffydd yn Nghrist. Gweddiwch drosof; yr wyf fi yn gweddio drosoch chwi." Gwaelodd yn gyflym, a bu farw Tach. 20, 1861, yn 75 oed. Claddwyd ef gan gynulleidfa fawr a galarus yn Nghapel y Graig, ger Merthyr. Gweler hefyd, *Y Drysorfa* 1862, 33.

HARRIS (EVAN), pregethwr poblogaidd yn ei dydd gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, yn sir Benfro. Mab ydoedd i bregethwr arall nid anenwog gyda'r un gyfundeb, sef John Harris, Treamlod. Yr oedd E. Harris yn un o'r to cyntaf a dderbyniodd urddau i weinyddu yr ordinhadau yn 1811. Mawrygid ei gyrhaeddiadau a'i ddoniau yn uchel gan ei frodyr yn y weinidogaeth, yr oedd ei ffyddlondeb a'i haelfrydedd Cristionogol yn pereiddio ei gymeriad dichlynaidd gan bawb a ddeuent i adnabyddiaeth ag ef. Bu farw yn 1819, a'i bwys ar yr adnod hono, "Ond y mae gyda thi faddeuant fel y'th ofner."—*Meth. Cymru.*

HARRIS (Howell), Ysw., un o brif gychwynwyr yr enwad Trefnyddol Calfinaidd. Ganwyd ef yn Nhrefecca, ger treflan fechan Talgarth, sir Frycheiniog, Ionawr 23, 1714. Yr oedd ei dad yn byw ar ac yn amaethu tyddyn o'i eiddo ei hun. Cafodd H. Harris ysgol dda, a chadwyd ef dan addysg nes bod yn 18 oed. Yn ei ieuenctyd, yr oedd yn wyllt a direidus. Bwriadai ymgeisio am urddau offeiriadol, yn unig oddiar awydd i gael dyrchafiad bydol. Anystyriaeth a rhusedd oeddynt bechodau tra'pharod i'w amgylchu. Ond pan yn 20 oed, wrth wrando ar offeiriad y plwyf yn taer anog ei wrandawyr i gyfranogi o Swper yr Arglwydd y Sabboth canlynol (yr hwn oedd Sul y Pasg), ac mewn atebiad i wrthddadl a gyfodai yn mynwesau rhai, "Nid ydym yn gymhwys i ddyfod at Fwrdd yr Arglwydd," dywedai, "Os nad ydych yn gymhwys i ddyfod i'r cymun, nid ydych yn gymhwys i ddyfod i'r Eglwys—nid ydych yn gymhwys i fyw, nac yn gymhwys i farw." Teimlodd y gwr iŝuanc o Drefecca rym yr ymresymiad; cymododd â gelyn iddo ar ei ffordd adref; a'r Sul y Pasg, daeth at y Bwrdd. Ond wrth adrodd y gyffes, "Eu coffa sydd drwm genyf, a'u baich sydd anrhaeth ei oddef," &c. [sef ei bechodau], dechreuodd ymholi ai felly yr oedd gydag ef? Deallodd nad oedd ei gyffes ond geiriau gwag; a'i fod ar fedr cymeryd y sacramemt sanctaidd â chelwydd yn ei enau. Braidd na pharodd ei euogrwydd sydyn iddo sefyll draw, ac ymgilio yn lledradaidd o'r lle, ond trwy ymgyfamodi ag ef ei hun yr ymddygai yn well

Digitized by Google

rhagllaw, efe a aeth rhagddo. Er ei holl hunan-ymdrechion i gadw argraffiadau crefyddol ei feddwl yn fyw, gwisgasant ymaith yn fuan; a bu ei grefydd yn lledfyw lledfarw hyd y mis Mehefin canlynol; ond trwy ddarllen rhyw lyfrau, yn enwedig un o waith Bryan Dupha ar y Gorchymynion, adnewyddwyd a dyfnhawyd ei argyhoeddiadau, ac ni chafodd ei ysbryd blinderog orphwysdra nes cael golwg gyflawn ar Grist fel haeddiant iawnol, a phriodol wrthrych ffydd. Tywynodd goleuni nefol ar ei enaid tywyll, a barodd iddo deimlo megis un a adferwyd o angau i fywyd, ac a'i llanwodd o sel i ddwyn y cyffelyb fendithion i gyrhaedd eneidiau tywyllion a thylodion ei gydbechaduriaid. Y mis Tachwedd dilynol, aeth i Rydychain, gyda'r bwriad o gymeryd urddau offeiriadol; ond wedi bod yno am un tymhor, dychwelodd adref wedi llwyr flino ar anfoesoldeb ac anystyriaeth y lle. Yn fuan, cafodd ar ei feddwl gynghori pechaduriaid o dŷ i dŷ. Yn more ei fywyd crefyddol, arweiniwyd ef wrth ddarllen Matth. xix. 29, i weled beth mor ofnadwy ydoedd gwrthod cymeryd Duw ar ei air, a thaflodd ei hunan yn llwyr ar y gair hwnw. Llwyr ymneillduodd oddiwrth ei gyfeillion bydol—gwrthododd bod cynyg am ddyrchafiad yn y byd—gwerthodd yr hyn oedd ganddo, a rhoddodd i'r tlodion, ac ymadawodd â'r cyfryw wisgoedd a ystyriai yn rhy wychion i Gristion eu defnyddio. Dechreuodd bregethu heb y meddwl lleiaf mai *pregethu* ydoedd, o dan argyhoeddiadau dwfn mai hyny oedd ei ddyledswydd. Agorodd ysgol yn Nhrefecca, a defnyddiai y cyfleustra hwnw i wasgu ar feddyliau y bobl ieuainc, a ddelent i dderbyn addysg, achos pwysicach. Pan gauwyd y drws hwnw yn ei erbyn, dilynai ddyn oedd yn myned o amgylch y wlad i addysgu yr ieuenctyd i ganu Salmau, er mwyn cael cyfleusdra ar ddiwedd y canu i roddi gair o gynghor i'r dosparthiadau. Yn fuan, eangodd ei gylch, aeth allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau. Safai ar Sabbathau yn mynwent Talgarth, yn ymyl y ffordd, i lêfaru wrth y bobl fel y deuent o'r Eglwys; ac ar un o'r achlysuron hyny y dwysbigwyd calon y perganieidydd o Bantycelyn. "Elai i ffeiriau, gwylnosau, a gwylmabsantau, ac ymosodai ar ddiafol a phechod ar ei tiriogaethau eu hunain. Bu hyn yn foddion i droi llawer i gyfiawnder, ac o achos hyny bu yn foddion i gynhyrfu llid y gelyn. Edrychai bonedd y wlad arno fel terfysgwr, a bygythient ef â chosb gyfreithiol. Edrychai yr offeiriaid arno fel gau-brophwyd a thwyllwr ac anghenfil, wedi ei wneuthur i fyny o bob drygioni; pregethent yn ei erbyn, a bygythient ef â melldithion tragwyddol. Edrychai y werin arno fel creadur diamddiffyn wedi ei adael gan bawb, yn un ag y gallent wneuthur âg ef fel y byddai da yn eu golwg, a gwnaethant gyfleustra o hono i foddloni eu hawydd fwystfilaidd i guro ac i faeddu rhywun neu rywbeth a ddichon deimlo poen. Mynych y gorchuddiwyd ef gan fudreddi—y mwydwyd ei wisg gan gynwysiad wyau madronllyd—y llabyddiwyd ef â cheryg, ac y baeddwyd ef yn agos i farwolaeth gan ddyrnau, traed, a phastynau dynion i ba rai yr oedd yn wledd y gwleddoedd gael rhyddid i ymosod yn ffyrnigwyllt ar greadur byw. Ond yr un peth oedd ceisio troi yr Hafren yn eu hol, neu attal yr haul yn ei yrfa, â cheisio attal Howel Harris rhag gwneuthur y gwaith yr oedd yn credu fod yr Arglwydd wedi ei anfon i'w wneuthur. Os deuai ynad allan i ddarllen y *Riot Act* tra fyddai efe yn pregethu, darllenai yntau y ddedfryd ofnadwy a hongiai goruwch enaid y gwr boneddig. Os ysgyrnygai y *mob* eu danedd arno, taranai yntau uwch eu penau hwy nes y suddai ac y crynai eu heneidiau gan ddychryn y byd a ddaw. Neu os ymosodent arno gan

Digitized by Google

ei guro a'i faeddu, pregethai rhwng y dyrnodiau; a phan ymddangosai nad oedd dim o'i flaen ond angau, penderfynai farw gan rybuddio ei lofruddion i ffoi rhag y llid a fydd."[1] Nerthwyd ef yn fawr pan glybu fod Whitefield yn Lloegr, a Rowlands yn Llangeitho, yn ymdrechu at yr un amcan ag yntau. Daeth yr olaf ac yntau i gyfeillachu yn fuan; ac yn 1738, cyfarfu â Whitefield yn Nghaerdydd. Yn nyddlyfr y gwr enwog hwnw, ceir tystiolaeth dra ffafriol am dano:—"Gwrthglawdd yn erbyn halogedigaeth ac anfoes, a chyhoeddwr diflinò o Efengyl wir ein Harglwydd Iesu Grist. Ddwywaith y ceisiodd urddau eglwysig, gan ei fod yn mhob modd yn gymhwys; ond gwrthodwyd ef tan yr esgus gwag ei fod dan oed, er ei fod y pryd hyny uwchlaw 22 oed. Cynygiodd drachefn fis yn ol, ond rhoddwyd ef heibio. Ar hyn penderfynodd, ac felly mae eto, i fyned rhagddo yn y gwaith, a dangosodd sêl angerddol yn ngwasanaeth ei Feistr. Dros y tair blynedd hyn, fel y dywedodd wrthyf ei hun, y mae wedi pregethu bob dydd yn mron am dair neu bedair o oriau, nid yn awdurdodedig fel gweinidog, ond fel dyn annghyoedd yn cynghori ei gyd-Gristionogion. Y mae ei ysbryd o'r un mwyaf haelfrydig, yn caru pawb ag sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist, ac am hyny gelwir ef gan ddallbleidwyr yn ymneillduwr. Llawer a'i harddelant ac a'i galwant yn dad ysprydol, a chredaf y rhoddent eu bywydau drosto. Planodd 30 o gymdeithasau yn Neheudir Cymru, ac ymeanga cylch ei faes yn feunyddiol. Y mae yn llawn o ffydd, ac o'r Ysbryd Glan." Dyna yr hanes a rydd y prif bregethwr Seisnig am Harris pan nad oedd ond 25 oed. Parhaodd i lafurio fel hyn am lawer o flynyddau, arddeliad neillduol ar ei weinidogaeth, Rowlands ac yntau yn cydweithio yn law-law a chalonog, ei ddylanwad ar gynydd dirfawr trwy yr holl wlad a hyny yn dadebru casineb pob casawr crefydd bur yn ei erbyn, erledigaeth yn ei orddiwes, ond pob ergyd o eiddo ei erlidwyr yn chwanegu nifer ei bleidwyr, gwaredigaethau gwyrthiol bron o ddwylaw annghristaidd ei gaseion, a phob gwaredigaeth yn enyn sêl adnewyddol yn ei enaid ac yn rhoddi c.n newydd o ddiolchgarwch yn ei enau, y gorlan yn ymestyn a heddwch yn ei magwyrydd os oedd bleiddiau oddiallan, a rhai canoedd o fân eglwysi bychain wedi eu planu, yn benaf trwy ei lafur ef a Rowlands, ar hyd a lled y Dywysogaeth. Ond yr oedd Rowlands yn treulio llawer o'i amser yn y fyfyrgell, yn darllen ac yn darpar pregethau, a chylch ei weinidogaeth yn benaf o fewn plwyf Llangeitho; tra yr oedd Harris yn wr diurddau, a rhydd i fyned i'r man y mynai. Fel rheol, rhaid oedd i'r bobl a fynent fwynhau gweinidogaeth Rowlands fyned ato ef, tra yr oedd Harris yntau yn myned at y bobl. Rhoddai hyn fantais fawr iddo yn yr oes hono i fod o lawer mwy defnydd na'i gydlafurwr parchus. Rowlands oedd y gallnocaf fel pregethwr, a'r uchaf, fe ddichon, yn marn y werin; ond Harris, mae'n ddiau, ydoedd y dwysaf ei lafur, a'r lletaf ei ddylanwad. Pa fodd bynag, yr oedd y ddau yn llafurio yn eu gwahanol gylchoedd, ar y telerau mwyaf parchus a heddychol. Fel hyn yr aeth y gwaith yn mlaen hyd 1745, pan cododd anghydwelediad rhwng Mr. Harris â'i frodyr a'i gydlafurwyr ar fater dibwys ag edrych arno oddiar safle yr oes hon. Argraffwyd yn ddwfn ar ei feddwl nad oedd digon o sylw yn cael ei dalu yn yr eglwysi i Dduwdod priodol y Cyfryngwr; a dwys ymofidiai wrth dybied fod egwyddorion Undodiaeth yn myned ar gynydd. Ond wrth osgoi Sosiniaeth ar y naill ochr, y mae lle i ofni ddarfod iddo ogwyddo gormod at Sabeliaeth ar y llall. Dywedodd

1 Y Drysorfa, 1864, 206.

Digitized by Google

mewn geiriau lled groyw fod y Duwdod ei hunan yn dioddef yn y na'ur ddynol, ac i'r Duwdod ei hunan farw yn aberth tros ddyn. Cynyrchodd y fath syniadau ofnau dwys yn mhlith ei frodyr, credent eu bod yn annghyson â phurdeb yr Efengyl, ac y buasai y lledaeniad o honynt yn beichio y wlad ag athrawiaethau gwrthun a pheryglus. Yr oedd y ddwyblaid yn cymeryd golwg eithafol y naill ar y llall. Yr oedd eu gwresawgrwydd crefyddol yn fawr, a'u sel yn danllyd, a than deimladau o'r fath, hawdd ydyw chwyddo brychau yn drawstiau. Hyd y gellir casglu, tarddai yr holl annghydwelediad rhyngddynt o gamddeall eu gilydd; ac fel y dywed Dr. Edwards, Bala, yn ei erthygl ar Rowlands o Langeitho, "Pe buasai cylch eu darlleniad yn helaethach, buasent yn dangos mwy o oddefgarwch." Yr oeddynt wedi eu magu mewn ystyr grefyddol o tan linell y cyhydedd; yr oedd amgylchiadau o gwmpas eu troededigaeth a barai iddynt dybied ei fod yn un arbenig iawn; credent eu bod wedi eu galw yn neilldiol at waith mawr, sef taenu gwybodaeth o'r Efengyl yn mhlith eu cydwladwyr difraw; buont yn eu cenhadaeth hon yn hynod o lwyddianus; ac yna yr oedd y gwrthwynebiad lleiaf o'u plith eu hunain yn taflu eu meddwl oddiar yr echel. Pa fodd bynag, wedi agos i chwe' blynedd o oerfelgarwch yn eu plith, torodd yr ystorm allan yn 1751, trwy i ymraniad cyhoeddus gymeryd lle rhwng Mr. Harris â'i frodyr yn y weinidogaeth. Mewn cymanfa fechan a gynhaliwyd yn Llanidloes y dygwyd y rhwygiad hwn i ben; ac o hyny allan, aeth y bobl yn ddwy blaid, dan yr enw pobl Mr. Rowlands a phobl Mr. Harris. Dilynwyd yr ymraniad ag effeithiau galarus trwy Gymru oll. Aeth y pleidiau i ymddadleu â'u gilydd, hyd nes y drylliwyd y cymdeithasau bychain ar hyd y wlad yn chwilfriw, "Clywais lawer o'r hen bobl," meddai Mr. Charles, Bala, "yn siarad yn alarus am effeithiau niweidiol a dychrynllyd yr ymraniad hwn; bu amseroedd meithion ar ol hyn, deg neu dumtheg mlynedd, heb ddim diwygiad neilldiol yn un parth o'r wlad, ac achos crefydd yn isel a gwywedig iawn." Cyfyngodd yr ymraniad hefyd lawer ar ddefnyddioldeb Mr. Harris. Ciliodd yn fuan i'w dŷ ei hun, lle y pregethai fynychaf ddwy waith neu dair yn y dydd i'r rhai a ddelent i wrando arno; a thrachefn mewn adeilad a godwyd i'r perwyl. Gosodwyd careg sylfaen yr adeilad hon i lawr yn Ebrill, 1752, o tan deimladau a ddysgrifir yn well yn ei eiriau ef ei hun nag yn eiddo neb arall:—"Fe ym cymhellwyd i adeiladu gan yr un yspryd ag a'm danfonodd allan i bregethu, a hyny ar amser nad oedd genyf nac arian na chyfeillion i'm cynorthwyo: canys y cyfeillion a'm gadawsent, ac yn lle arian, yr oed lwn mewn dyled, a chenyf oddeutu deugain o weithwyr i dalu iddynt a'u cynal;—eto, ni ddefnyddiais foddion yn y byd i gael cymaint â swllt, ond ymbil yn ostyngedig ar Dduw, a hyderu yn yr addewid, yr hon yr ymddiriedwn arni am bob peth tymhorol ac yspryd ol" Dyben adeiladu y lle ydoedd gwneud ohono fath o grefydd-dy Protestaniaidd, lle y gallai pleidwyr Mr. Harris ymgynull er mwyn ei wrando yn rheolaidd a diberygl; ac y gallent hefyd artrefu tan ei ofal, ac ymgynal ar drysorfa gyffredinol y sefydliad. Yn 1753, yr oedd yr adeilad newydd ei orphen, a dechreuodd nifer mawr ymdyru yno o bob parth. Dychwelodd rhai o honynt gan achwyn fod y fywioliaeth yn rhy galed, eraill fod y weinidogaeth yn rhy hallt, a'r ddysgyblaeth yn rhy lem. Ond y mwyafrif a lynasant yno, gan fawrhau eu braint o dderbyn cynghorion yspryd ol, a phregethau nerthol, y sefydlydd parchedig. Gan nad oedd gan Mr. Harris weithdy wedi ei godi eto, lle y gallai aelodau

Digitized by Google

y teulu ddefnyddio eu hamser gyda gwahanol orchwylion a chrefftau, cymerodd ddwy fferm yn y gymydogaeth tan ardreth; a chynyrchion y tyddynod hyn, yn nghydag ychydig o wlan wedi ei brynu, i'r merched ei weithio, oedd y cwbl, heblaw rhoddion damweiniol, oedd ganddo at eu cynhaliaeth. Deuai y rhoddion damweiniol hyn i'w law yn rhyfedd ac annisgwyliadwy, pan y byddai ef mewn cyfyngder am swm lled fawr o arian i ateb gofynion y teulu, a'r peth yn pwyso mor drwm ar ei feddwl nes ei wneud yn destun gweddi, deuai ymwared prydlawn oddiwrth bersonau o bellder o ffordd; fel y dywed ef ei hun, "yn teimlo eu hunain tan rwymau i wneuthur felly, yn unig trwy fod y gair yn swnio yn eu cydwybodau ddydd a nos, pryd nad oedd neb arall yn gwybod nac yn meddwl dim am dano." Yn 1755, daeth amryw deuluoedd o Ogledd Cymru i fyw i Drefecca; rhai i blith y teulu, ac eraill a gymerasant dyddynod o fewn cyffeustra i glywed Mr. Harris; rhai a chanddynt ychydig o gyfoeth, ac eraill yn dlodion, ond yr oedd drws agored i'r naill fel y llall i'r sefydliad. Tua'r amser hwn, ysgrifenai Mr. Harris, "Y mae yn awr dros gant, rhwng hen ac ieuanc, yn byw yn y tŷ, ac yn eu plith ddeg o deuluoedd; mae deg o deuluoedd eraill yn byw yn y gymydogaeth." Erbyn diwedd y flwyddyn, yr oedd nifer y teulu wedi cynyddu i chwech ugain; a phregethai pen y teulu iddynt ddwywaith neu dair yn y dydd, heblaw y cyfarfodydd a gynaliai gyda rhai o honynt o'r neilldu. Aeth y sefydliad yn mlaen fel hyn am flynyddau, ac yn 1759, ysgrifena Mr. Harris fod deugain o'i bobl wedi meirw, ac yr oedd eto yn aros yr un nifer yn y teulu, a 30 eraill mewn ffermydd yn perthyn iddo; ac y mae yn diolch i Dduw am yr arwyddion o'i foddlonrwydd, a'i nawdd, a'i gymhorth, a gafwyd i'r gwaith, yn ngwyneb rhwystrau celyd a thymhestloedd cryfion. Fel hyn, yn nhir enciliad ar un ystyr, yr oedd efe yn llafurio yn ddiflino mewn gwaith a dybiai'n sicr oedd wedi ei neilldio iddo gan Dduw, ac yn ymroddi iddo mor llwyr fel na chlywid ei lais taranllyd ond anfynych yn unman ond rhwng muriau ei hoff sefydliad. Credai fod Duw wedi tueddu ei feddwl at y gwaith, gwrandawai ar y tueddiad hwnw fel llais diymgel y Goruchaf, a pha beth bynag a ddywedir am ddoethineb y mudiad, rhaid i bawb gydnabod fod Mr. Harris gydag ef yn gydwybodol hollol. Yr un Ysbryd hefyd, yn ei farn ef, ar ol hyn a'i tueddodd i ymgymeryd â swydd milwr. "Efe a gwbl berswadiwyd yn ei feddwl," medd ei fywgraffydd, "fod Ysbryd Duw, yr hwn a'i danfonodd allan gyntaf i bregethu y gair mewn modd annghyffredin, yn ei ddanfon yn awr mewn modd anarferol i amddiffyn y gair, ac i offrymu ei einioes, os rhaid fyddai, dros y gwirionedd a bregethai, a thros y rhyddid a fwynheid yn y deyrnas hon." Yr oedd y deyrnas hon mewn dychryn ar y pryd rhag i'r Ffrancod ei goresgyn, a darfu i rai o foneddigion sir Frycheiniog gynyg i Mr. Harris swydd neu *gomisiwn* yn nghartrefle y sir hono. Wedi gosod yr achos o flaen y teulu, ac o flaen Duw mewn gweddi, derbyniodd y swydd ar yr amod y cai bregethu yn mha le bynag y digwyddai fod. Felly yn 1760, efe a ymunodd â'r *Militia*, gan ddwyn gydag ef 24 o wirfoddolwyr o blith teulu Trefecca, deuddeg o ba rai oeddynt ar ei draul ef ei hun. Cafodd swydd banerwr *(ensign)* ar y cyntaf; ond wedi hyny gwnaed ef yn gadben. Wedi bod dair blynedd yn symud o'r naill barth o'r wlad i'r llall gyda'i gatrawd, efe a'i wyr a ddychwelasant i Drefecca. Golwg ryfedd, a rhyfedd iawn yn yr oes hono, ydoedd gweled dyn yn pregethu a gwisg filwraidd am dano; ac y mae hanesyn yn ei gylch un tro pan y cynaliai y Methodistiaid gym-

Digitized by Google

deithasfa yn Llanymddyfri, ac y gorfu arnynt ffoi o'r dref rhag erlidwyr. Cyfarfu Mr. Harris yn ddiamweiniol â hwynt, ac wedi deall eu helynt, anogodd hwynt i ddychwelyd gydag ef i'r dref; yna safodd i fyny gan geisio darbwyllo y terfysgwyr i wrando arno, a bod yn llonydd. Ond nid oedd ei eiriau yn tycio dim; eithr ysgrechent, a thaflent gerwg ato gyda ffyrnigrwydd mawr. Ar hyny, galwodd am osteg yn enw *Brenin y Nefoedd;* ond nid oedd neb yn gwrando. Yna diosgodd yr hugan oedd am dano, yr hon a gnddiai ei wisg filwrol, a gwaeddodd yn awdurdodol, fel cadben yn gorchymyn ei wyr, "Llonyddwch! yn enw brenin Lloegr." Llwyddodd hyn i lonyddu y dorf gyffrous mewn munyd; daliwyd hwynt oll â syndod a braw mawr; a chafodd Harris gyfleusdra i edliw iddynt leied oedd eu parch i Frenin y breninoedd, gan na roddent osteg yn ei enw Ef am funyd; ond yn llonyddu yn y fan pan enwodd efe frenin daearol. Crybwyllasom eisioes fod Harris yn adnabyddus i Whitfield er pan yn ieuanc; naturiol hefyd oedd iddo gael ei ddwyn yn fuan i sylw yr hon yr oedd efe yn gaplan iddi, sef yr Iarlles Huntington. Yr oedd wedi llafurio llawer yn ei chapelau mewn gwahanol barthau o Loegr, ac yn perthyn i ddosparth o efengylwyr y cymerai'r iarlles ddyddordeb mawr ynddynt; a phan y daeth i'w bryd i gyfodi coleg i addysgu gwyr ieuainc a'u cymhwyso at y weinidogaeth, syrthiodd ei dewisiad ar Drefecca, yn benaf oblegyd y credai y buasai H. Harris o fawr fudd i'r efrydwyr yn ei esiamplau, ei gynghorion, a'i bregethau. Adgyweiriwyd yr hen adeilad gan Harris, a gosodwyd ef tan ardreth i'r arglwyddes, ac agorwyd y lle mewn dull ffurfiol yn Awst 1768. Cymerwyd rhan yn ngwasanaeth y dydd gan wyr enwog ag y mae eu henwau erbyn heddyw yn addurno tu-dalenau hanesyddiaeth, sef y Parchn. George Whitefield, Howell Harris, Daniel Rowlands, William Williams, Pantycelyn, Howel Davies, Peter Williams, John Wesley, Mr. Shirley, a Mr. Fletcher o Madeley. Yr oedd yr Iarlles Huntington, Iarlles Buchan, y Foneddiges Anne Erskine, a Miss Orson yn bresenol. Oddiwrth yr hanes, gellir casglu fod undeb a brawdgarwch yn ffynu eilwaith rhwng Mr. Harris â'i hen frodyr, a bod yr hen dieimladau wedi eu claddu. Eithr gan fod henaint yn dechreu ei oddiwes, ac arno o'al a llafur mawr a beunyddiol, nid allai, pe mynasai, ymroddi eilwaith i deithio holl Gymru fel cynt, a chydweithredu â'i frodyr fel yn mlynyddau ei ieuenctyd. Yn mhen tua blwyddyn ar ol agoriad y coleg bu farw Anne, priod Mr. Harris, yr hon oedd yn ferch i John Williams, Ysw., o'r Scrin; a'r hon a fuasai yn gydymaith ffyddlawn ac ewyllysgar i'w gwr yn ystod ei oes gymylog a llafurus. Ni bu Mr. Harris byw ond tua phedair mlynedd ar ei hol hi; bu yntau farw yn Nhrefecca, Gorph. 21, 1773, yn 60 oed. Gadawsant un ferch garuaidd, yr hon a fuasai yn wastadol wrthddrych eu gofal a'u gweddiau. Yn y *Drysorfa*, Ionawr, 1865, ceir profiad melus a seraphaidd Mr. Harris a ysgrifenodd efe ar ei wely angau; ac y mae yn anhawdd i enaid lefaru yn gryfach a chreywach am siervydd ei obaith pan ar drothwy byd arall nag yr ysgrifenodd y dyn dwfn ei deimlad hwn. Claddwyd ef yn eglwys Talgarth, o dan yr ysmottyn lle y llewyrchodd goleuni y nef gyntaf i'w feddiwl. Dywedai y Parch. W. Jay, o Bath, mewn pregeth a draddododd yn nghapel Surrey, Llunlain, Mawrth 8, 1835, wedi son am Howel Harris fel un o'r Methodistiaid cyntaf yn Nghymru, a chrybwyll ei fod nid yn unig yn bregethwr ond yn gymwynaswr—yn berchen eryn lawer o dda, ac yn ei ddefnyddio i wneuthur daioni, dywed:—"Mynegwyd imi, gan wr ag oedd yn bresenol yn ei gladdedigaeth, ddarfod ei roddi yn y bedd

Digitized by Google

heb y gwasanaeth arferol. Yr achos oedd hyn:—Ni allai y person ddarllen y gwasanaeth, oherwydd ei lwyr orchfygu gan ei deimladau; estynodd y llyfr i arall, ond ni allai yntau fyned yn mlaen; estynwyd ef i'r trydydd, ond ni allai hwn chwaith ei ddarllen; ac felly, gosodwyd ei weddillion yn y ddaear heb y llurf arferol, ond gyda dagrau ac ocheneidiau tyrfa fawr, yr hyn oedd yn llawer gwell." Nid yw yn syndod yn y byd i fod teimladau yr offeiriaid wedi ymddryllio, canys er fod Mr. Harris yn un o Dadau Ymneilduaeth yn Nghymru, eto yr oedd ei edmygedd o'r Eglwys Sefydledig, a'i barch i'w gweinidogion teilwng, yn uchel a chynes. Parhaodd hefyd yn aelod dichlynaidd ohoni hyd angau; ac elai ef a holl "Deulu Trefecca" i eglwys y plwyf yn rheolaidd bob Sabbath; a gweinyddid Swper yr Arglwydd iddynt ar eu penau eu hunain, gan y ficer, bob mis, er y fl. 1764, a threfnwyd iddynt gael y lloft i ganu ynddi yn yr addoliad bob Sabbath. Ni byddai hyn o fywgrafiad yn gyflawn heb grybwyll y peryglon a'r gwaredigaethau yr aeth efe trwyddynt. Yn ystod blynyddau cyntaf ei weinidogaeth yr oedd erlid yn beth mor natariol iddo a'i fara beunyddiol, ac yr oedd yn byw tan gilwg a dygasedd mwy na haner yr rhai a'i hadwaenent. Pan ddechreuodd deithio trwy Gymru, wynebodd ar anialwch, a chafodd ynddo lawer bwystfil rheibus a gwaedlyd. Erlidiwyd ef yn greulawn yn Nghemmaes, sir Drefaldwyn; ac yn Machynlleth; yn y Bala; yn Llanuwchllyn; yn Ninbych, yn Rhydyclafdy, Meirion; yn Mhenmorfa, Lleyn; yn Henffordd; yn Mhontypool: yn y Goppa Fach, Morganwg; ac yn Nghaerlleon ar Wysg. Bu ei fywyd mewn mawr enbydrwydd yn yr holl fanau hyn; a cheisiwyd ei foddi ar y Traeth Mawr; a'i saethu yn Machynlleth, y Bala, a Rhydyclafdy. Pregethid ef i lawr o'r pwlpudau mewn rhai manau, gan ei gyffelybu i un a chythraul ganddo, ac enyn holl anwydau iselaf y werinos yn ei erbyn. Yn Llanor, ger Pwllheli, bu ef ei hun yn gwrando ar y Canghellwr Owens, ar fore Sabbath, yn rhybuddio y gwrandawyr fod y fath ddyn i'w ddisgwyl yn y cwr hwnw o'r wlad, a gosododd ef allan fel cenad Satan, a gelyn Duw a holl ddynolryw. Er y cyfan, nid oedd enllib, cabldraith, na bygythiad, yn mènu arno; cyflawnodd waith mawr, a bu yn foddion i blanu planigion yn nghrasdir diffaeth ein gwlad, sydd bellach yn blodeuo perarogli, a harddu ynddi. Un o "Farwnadau" goreu perganiedydd Pantycelyn ydyw yr un ar ol "Howel Harris, Ysw., o Drefecca," a'r hon a welir yn argraffedig yn ngwaith y bardd hwnw.

HARRIS (Parch. Isaac), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn y Wyddgrug am yn agos i ddeugain mlynedd. Ganwyd y dyn da hwn mewn lle a elwir Blaenegwad, yn Llanegwad, sir Gaerfyrddin. Ymunodd â'r Annibynwyr yn nghapel Lammas Street, Caerfyrddin; y pryd hwnw o dan ofal gweinidogaethol y Parch. D. Peter, D. D. Yn 1820, derbyniwyd ef i goleg Caerfyrddin, lle yr oedd Dr. Peter yn athraw. Trodd allan yn fyfyriwr caled a diball, a dadblygodd ei natur ei hun, fel un a bwysai gryn lawer ar "beth bynag yr ymafael dy law ynddo, gwna a'th holl egni." Wedi gorphen y tymhor gosodedig yn y coleg, yn 1824 gwahoddwyd ef gan eglwys yr enwad hwn yn y Wyddgrug, i ddyfod yn weinidog arni. Derbyniodd yntau y cais, a neilldiwyd ef yn gyhoeddus i'r gwaith Gorph. 20, 1825. Cyn hir ar ol ei sefydliad yn y Wyddgrug, adeiladwyd addoldy eang a hynod gyfleus, yn lle yr adeilad cyfyng yr arferent ymgynull iddo. Codwyd hefyd ddau addoldai eraill o fewn dwy filldir i'r dref, un yr ochr ddeheuol a'r llall yr ochr ogleddol, a chafodd Mr. Harris y boddhad o weled pob dimai o'u

Digitized by Google

dyled wedi eu talu cyn ei farwolaeth. Ymaflodd anwyd trwm a diffyg anadl ynddo pan yn llanc ieuanc, a glynasant wrtho hyd y diwedd, fel y profai y peswch sych a geid ganddo o'r pwlpud, fel dryll ymadrodd rhwng pob brawddeg. Bu yn cadw ysgol ddyddiol am lawer o flynyddau, ac ystyrid ef yn un o'r athrawon goreu yn yr holl wlad. Cyrchai ato blant i rieni parchus o bell ac agos: ac er fod y telerau yn uchel, gwyddai y wlad pa fodd i'w phrisio. Trwy ei dderbyniadau oddiwrth yr ysgol, yn hytrach nag oddiwrth ei gyflog fel gweinidog, y gallnogid ef i foddio tueddfryd haelfrydig a charedig ei galon. Trwy ei ysprydd rhyddfrydig ac eang, barn graffus, rhinweddau didrwst, siriolded ei natur, a'i dduwiolfrydedd dirodres, enillodd barch dwfn pob gradd o'i gyd-drefwyr. Wedi gweinidogaethu gyda ffyddlondeb dieilfydd yn y Wyddgrug am ddeugain mlynedd, efe a fu farw Mawrth 23, 1864, a chladdwyd ef yn nghanol arwyddion galar cyffredinol.—*Ei Gofiant.*

HARRIS (JOHN), Treamlod, un o'r pregethwyr cyntaf gyda'r Methodistiaid yn sir Benfro. Ganwyd ef tua 1721, a dechreuodd bregethu trwy gyd-ddealltwriaeth â Howel Harris a Rowlands, pan yn 21 oed; a neillduwyd ef i gymeryd gofal mân eglwysi a gyfarfyddent yn Llanhawden, Prendergast, Jefferson, Carew, Llantysilio, Gelli-dawel, &c., mewn cyfarfod misol a gynaliwyd yn y Ty-hir *(Long House)* Mehefin 8, 1743. Yn *Meth. Cymru* i. 167, ceir a roddiad o sefyllfa yr eglwysi tan ei ofal a ddanfonodd efe mewn llythyr at y Parchn. Daniel Rowlands, a Howel Davies, yn mha un y cyfarcha hwynt fel, "Anwyl a charedig fugeiliaid." Teithiai, meddir, trwy holl sir Benfro unwaith yn y mis, gan bregethu a phlanu ac amaethu eglwysi; a bu am flynyddau heb gysgu yn ei dŷ ei hun ond un noson yn y mis, gan y byddai oddi cartref yn gweinidogaethu am y gweddill. Nid esgeulusai un cyfleusdra i geisio gwneud daioni. Yr oedd un tro yn lletya mewn ffermdy, ac yn y bore galwai y feistres ar y forwyn gan ddweyd, "Dos a botasau y gwr dyeithr iddo, Siani fach." "Nac af fi yn wir," ebai y llances. "Paham hyny," gofynai y feistres. "Fe wêd wrthw'i fy mod yn *bechadur*," oedd yr ateb. Bu farw yn nhy ofteiriad, yn Nhrefdraeth, yn 1788, wedi bod yn pregethu am 46 o flynyddau.

HARRIS (JOHN RYLAND), neu *Ieuan Ddu o Lan Tawy*, ydoedd fab i'r Parch. Joseph Harris *(Gomer)*, o Abertawe. Ganwyd ef yn Heol Ifan, Abertawe, Rhagfyr 20, 1802. Nid oedd dim anarferol o nodedig ynddo yn ei blentyndod ond ei ddawn gyflym i ddysgu. Wedi yfed yn helaeth o gwpanau dysg, pan ydoedd rhwng naw a deg oed, ei rieni a fwriedent ei ddanfon i ryw athrofa i ddysgu'r ieithoedd clasurol, eithr gan y cymerai hyfrydwch mawr yn y gelfyddyd o argraffu, ac ar ei daer ddeisyfiad, rhwymwyd ef i ddysgu y gelfyddyd hono gyda Mr. Jenkyn, ar yr ystyriaeth y byddai efe yn ddigon ieuanc i ddysgu'r ieithoedd wedi gorphen blynyddau ei egwyddoriad. Yn mhen tair blynedd, rhoddodd y meistr yr alwedigaeth i fynu, a pharodd hyny i Gomer brynu swyddfa argraffu fechan at wasanaeth y bachgen. Yn y swyddfa hon yr argraffwyd "Greal y Bedyddwyr," y "Traithawd ar Dduwdod Crist," yn Gymraeg, ac amryw o lyfrau ereill, a Ieuan a'u cysododd oll, er nad oedd efe ond rhwng 13 a 14 oed. Y fath oedd petrusder Mr. Harris a Ieuan ieuanc, rhag na thalai y swyddfa, fel y byddai Ieuan yn cysodi y cwbl, a'i dad yn cadw ysgol ar hyd y dydd, ac yn ysgrifenu a darllen prawfleni yn yr hwyr. Ieuan ei hun a gysododd y *Seren Gomer*, a phob llyfryn a argreffid yn y swyddfa yn 1818 a 1819. Yr ydym yn cofnodi y manylion hyn er dangos pa mor fuan y

Digitized by Google

daeth efe yn *ddym*, a pha mor fore yr ymddadblygodd ei feddwl. Pan yn 19 oed, ymroddodd i feistroli yr reithoedd, yn ol fel y byddai amser yn caniatau; weithiau byddai agos i wythos gyfan yn yr athrofa, bryd arall wythnos gyfan heb fod ynddi, ond yn y swyddfa, yn darllen a diwygio cynysgrifau, ysgrifenu yn lle ei dad, a chysodi pan fyddai achos neilldduol yn galw am ei gymhorth. Bu yn mysfyrio gyntaf dan Mr. Jennings, yn athrofa Hansworth, Abertawe; a thrachefn gyda'r dysgedig D. Williams *(Iwan)*; a rhoddid gair uchel i'w alluoedd gan y ddau athraw. Oherwydd fod Abertawe yn dref mor Seisnig, nid oedd gwybodaeth Ieuan ond cyfyng ac anmherfiaith yn yr iaith Gymraeg hyd oni ymadawodd gyntaf o'r ysgol; ac ar ol hyny, mawr oedd ei hyfrydwch ynddi, a'i ymdrech i gloddio i'w thrysorau. Llwyddodd i raddau annghyffredin yn hyn o beth, a daeth yn amddiffynwr gwresog arni. Prin y gallai oddef dyn o Gymro a ddywedai fod yn well ganddo y Saesoneg na'r Gymraeg; a phan anerchai y cyfryw ef yn Saesneg, yntau a'i hatebai mewn Cymraeg croyw. Yr oedd yn gyfarwydd ag ystyron geiriau mwyaf ansathredig yr hen feirdd, ac yn medru cryn lawer o *Goll Gwynfa* y Dr. Puw ar ei dafod leferydd. Bu agos iddo godi awydd yn Christmas Evans i ddysgu iaith *Coll Gwynfa* yn ei henaint, gan mor fedrus y gosodai ei hardderchawgrwydd ger bron. Y parch angerddol a goleddai at y Gymraeg a barodd iddo pan rhwng 17 a 18 ymdrechu a llwyddo i ffurfio Cymdeithas o Gymreigyddion yn Abertawe, â pha un yr ymunodd amryw foneddigion, offeiriaid, a phregethwyr; blodeuodd hon tra blodeuodd Ieuan, gwywai yn raddol fel y gwywai yntau, a bu farw yn fuan ar ei ol. Pan nad oedd ond rhwng 11 a 12 oed, ysgrifenodd lyfr o'r enw, "Cymhorth i Chwerthin," yr hwn oedd yn llawn ffraethineb, ac a gasglwyd ganddo o'r *Seren Gomer* wythnosol, ac o rai llyfrau Seisnig; argraffwyd y llyfryn ddwywaith, a gwerthodd yn rhwydd. Ymddangosodd amryw o'i gyfansoddiadau o bryd i bryd yn *Seren Gomer;* efe oedd *Madog*, yr hwn a gyfieithodd "Hanes Rhyfedd y Mynach Anllad," yn y cyhoeddiad hwnw am 1818, t. d. 187; a llawer o ysgrifau gallnog eraill ar wahanol destynau rhwng 1818 ac 1823. Ymddangosodd ysgrif o'i waith ar seiniau yr *ch* a'r *ll* mewn rhai newyddiaduron Seisnig, ac yn y *Monthly Magazine;* a phan nad oedd ond 18 oed, bu mewn dadl boeth ar ddalenau y *Cambrian* â chyfreithiwr yn nghylch yr iaith Gymraeg. Tua'r oedran hwn hefyd, cyfieithodd gryn lawer o *Paradise Regained* i'r Gymraeg, ar y mesur diodl, gan ei fwriadu fel cydymaith i'r *Paradise Lost* o gyfieithiad Dr. Puw, a chyda cydsyniad mwyaf calonog y Dr. Argraffwyd ychydig dudalenau yn y *Cambro Briton* am Dach. a Rhag. 1821, a llefara y golygydd yn uchel am ei deilyngdod. Pa fodd bynag, gorfu arno roddi y gwaith hwn, fel llawer eraill, i fyny oherwydd ei afiechyd. Y gwaith olaf a gyfansoddodd ac a gysododd ef ei hun ydoedd "Grisiau Cerdd Arwest," neu hyfforddiadau Cymreig i ddysgu canu, a chafodd y llyfr hwn hefyd dderbyniad gwresog. Yr oedd yn ei fryd gyhoeddi "Geiriadur Saesneg a Chymraeg," a "Geirlyfr Barddonol," a pharotoisai gryn swm o ddefnyddiau tuag atynt, ond cymerwyd ef ymaith cyn eu gorphen. Prin y gellir dweyd iddo dreulio nemawr o'i oes fer yn holliach; blinid ef o'i fabandod gan scyrfi, ond fel yr oedd yn cryfhau, ciliai yr anhwyldeb oddiwrtho, ac yr oedd golwg lled gryf arno rhwng 14 a 19 oed. Ond yn 1822, gwelid arwyddion amlwg o gryfhad yr hen glefyd, ac yn gydymaith iddo, yr oedd y darfodedigaeth. Gwnaed llawer cais i'w hysgoi; yfodd y claf o ddyfroedd Llanwrtyd, ac o awelon iachusol bryn-

Digitized by Google

iau Ceredigion,—bu yn marchogaeth ar dir, ac yn ymdrochi yn y môr, ond nid oedd dim yn tycio. Dihoenodd yn raddol hyd Rhag. 4, 1823, pryd y bu farw o fewn 16 o gliwrnoed i fod yn 21 oed. Bu ei golli yn ergyd farwol i'w dad talentog. Yr oedd ei serch wedi ymgiymu yn llwyr am ei "anwyl Ieuan Ddu," ac yn ei ad ardiwin ni fyn ti ei gysuro. Galwai ef, "F'*ychanwyf* anedig—fy ngbyntaf anedig *fab*—a fy *unig* anedig *fab*." Ni bu eriaed serth parach, gofar dytnach, na diwedd mwy trachinebus, fel y cawn sylwi yn nhelbach tan y penawd HARRIS (JOSEPH). Y mae galar y Tad hwn ar ol ei Unig Fab, yn un o'r galarnadau mwyaf effeithiol a gyfansoddwyd erioed mewn unrhyw iaith; ac fel pe ysgrifenasid hi â gwaed calon yr awdwr. Ysgrifenodd Gomer hetyd *Gofiant* am ei fab, ac yn nhob dalen o hwnw y mae galar anorchfygol yn nawsio allan. "Marwolaeth fy nhirionaf Ieuan," ebai efe yn un man, "a dinystriodd agos fy holl gynllunian daearol, a siomodd fy nisgwyliadau hyfrydaf, ac a orchuddiodd fy rhagolygfeydd dysgleiriaf â chaddug dudew. Ni buaswn yn meddwl am ymdrafferthu yn nghylch nasnach fydol ond er ei fwyn ef. Ei swyddfa yn mhen ycaydig y cyfrifiwn swyddfa SEREN GOMER; er ei fwyn ef y caethiwais fy hun dros flynyddau, ac y lleihais fy nefnyddiolrdeb mewn pethau eraill. Byddwn weithiau yn meddwl, wrth edrych ar fy llyfrau, na chawn amser i ddarllen eu haner, ond, ebai fi, byddant i John ar fy ol i. Ymadawn â phob peth mewn ystyr, gan eu rhoddi yn fy meddwl yn ewyllysgar iawn i'm JOHN. Ond er rhoddi yn siriol, och, mor galed a chwerw oedd eu derbyn yn ol drachefn. Gwaith hawdd ac esmwyth oedd rhoddi, ond gwaith poenus a thor-calonus oedd derbyn yn ol." Felly y darfu am yr athrylith ieuanc dryloyw ac addlawol hon.

HARRIS (JOSEPH), athronydd hunan-addysgiol. Yr oedd yn frawd i'r enwog Howel Harris; ganwyd ef yn Talgarth, sir Frycheiniog, yn 1702. Ei dad a drigianai ar dydd'yn bychan ger Trefeca; a dywedir i Joseph ddilyn y gelfyddyd o ôf am ryw yspaid, yna symudodd i Lundain lle y dringodd i fynu mewn pwysigrwydd, ac y cafodd swydd o ymddiriedi yn y bath-dŷ *(mint)*. Ei waith yno oedd edrych a oedd yr arian bathol, fel y deuent allan o'r wasg, yn iawn bwysau, a'r argraffnodau arnynt yn eglur. Parai ei wybodaeth wyddonol i ddysgedigion yr oes ei fawrygu a'i barchu, ac yr oedd yn awdwr amrai lyfrau ar seryddiaeth a mesuronyddiaeth, eithr ni roddes ei enw ond wrth un o'r cyfryw, sef "A Treatise on Optics," yr hwn a argraffwyd yn 1775—ar ol ei farwolaeth. Saif y llyfr hwn yn uchel yn marn dysgedigion, er nad yw ond rhan o feddwl yr awdwr ar y pwnc, gan y bwriadai ysgrifenu gwaith llawer mwy. Ar gof-faen sydd o hono yn eglwys Talgarth dywedir ddarfod iddo ddyfeisio llawer o offerynau mesuronol, a bod ei dalentau politicaidd yn hysbys i'r gwladweinwyr oeddynt mewn awdurdod yn yr oes hono, y rhai ni phallent a manteisio oddiar yr oll awgrymiadau dysgedig a doeth yr hyn a wnai mawredd a didwylledd meddwl, a gwladgarwch, ei gynyg i'w sylw." Priododd un o ferched ac aeresau Thomas Jones, o Dredustan. Bu farw yn y Tŵr, Llundain, Medi 26, 1764, lle hefyd y claddwyd ef. Yr oedd Thomas Harris, brawd arall iddo, yn engraifit arall o lwyddiant mewn canlyniad i ddiwydrwydd ac ymdrech diflino. Ymsefydlodd yn Llundain fel dilledydd, a darfu i'w arabedd cuill iddo sylw a nodded gwyr o ddylanwad, y rhai a lwyddasant i'w gael yn ddilledydd i'r fyddin, trwy yr hyn yr enillodd elw, ac y galluogwyd ef yn mhen rhai blynyddau i roddi ei fasnach i fynu, ac ymneillduo i fro ei enedigaeth, lle y prynodd etifeddiaeth Tregynter, Trefecca, a thiroedd

Digitized by Google

eraill yn yr ardal, y rhai a gynyrchent iddo tua mil o bunau yn flynyddol. Bu yn siryd i Brycheiniog yn 1768; a chan adael o'i ol gymeriad o ddyn gonest, cymydog caredig, cyfaill calon gynhes, a hael i'r tlodion, bu farw Medi 23, 1782, yn 77 oed.—Jones' *Brecknshire; Y Cylchgrawn*, tan olygiaeth John Blackwell.

HARRIS (JOSEPH), M.B., ydoedd, tebygid, o gymydogaeth Gwrecsam sir Ddinbych. Bu am lawer o flynyddau yn organydd eglwys St. Martin, Birmingham. Yr oedd yn enwog fel cyfansoddwr tonau. Ei gynllun oedd gweithydd Handel. Bu farw ger Gwrecsam, yn nechreu 1815.—*Llyfr MSS.*

HARRIS (PARCH. JOSEPH), *(Gomer)*, sefydlydd a golygydd *Seren Gomer*, a gweinidog parchus gyda'r Bedyddwyr yn nghapel Heol Gefn, Abertawe. Ganwyd ef yn mhlwyf Llantyddewi, ger Hwlffordd, yn 1773. Ni wyddis ond ychydig am ei rieni, ond dywedir mai *farm bailiff* oedd ei dad i foneddiges yn yr ardal hono. Yr oeddynt yn bobl grefyddol, ac yn aelodau o Eglwys Loegr; eithr ei dad a drodd yn Fedyddiwr ychydig cyn marw. Joseph oedd cyntaf anedig ei rieni, ac er fod ei rieni mewn amgylchiadau lled gysurus, ni chafodd efe nemawr o ddysgeidiaeth ond yr ychydig a ddysgir mewn ysgolion cyffredin y wlad. Pa fodd bynag, trwy ddyfal ymroad, llanwodd ef y diffygion i fynu ei hun, trwy ymroi i ddarllen ac efrydu. Yr oedd ei dad, meddir, yn ceisio lladd y duedd fryd ganmoladwy hon trwy ei orfoichio â gwaith ar hyd y dydd, er hyny, yn hytrach na dyoddef amddifadiad o'i fyfyrdodau, efe a arosai i fynu am nosweithiau cyfain i efrydu. Er mai yn Eglwyswr y dygid ef i fynu, byddai yn fynych yn myned i wrando i gapel perthynol i'r Bedyddwyr, o'r enw Beulah, cangen addoldy o eglwys y Bedyddwyr yn Llangoffan; a phan yn 19 oed, efe a ymunodd â'r eglwys yn y fan hono. Oddegid ei rodiad diargyhoedd, a blaen brawf gobeithiol a roddes o'i ddoniau, ei frodyr cretyddol a'i hanogasant i ddechreu pregethu, â'r hyn y cydsyniodd rywbryd yn ystod 1796. Wedi pregethu am oddeutu tair blynedd o gwmpas cartref, cymerodd daith i sir Forganwg, ac yn mhlith manau eraill daeth i Abertawe. Yn yr amser hwnw, yr oedd rhyw ymryson yn bod rhwng gweinidog yr Heol Gefn â'r eglwys, yr hwn a derfynodd yn ymadawiad y gweinidog. Mewn canlyniad, rhoddasant wahoddiad taer i Mr. Harris ddychwelyd atynt wedi terfynu ei daith. Yntau a gydsyniodd, a therfynodd y drafodaeth mewn rhoddi galwad unfrydol iddo ddyfod yno i'w bugeilio. Ond ni fynai ei frodyr yn Llanglotfan ei ollwng yn rhydd, ewyllysient ei gadw; tra yr oedd taerineb ei gyfeillion newydd yn gogwyddo ei feddwl yntau yn fawr atynt hwy. Fel hyn y bu am yn agos i ddwy flynedd, yn aros ychydig tisoedd yn Abertawe, ac yn dychweled eilwaith i Langloffan. Ond wedi ystyried y mater fel hyn yn ddyfal, penderfynodd ar fyned i Abertawe, yr hyn a gymerodd le yn 1801. Urddasid ef y flwyddyn flaenorol yn Llanglotfan; ac ychydig cyn hyny, priodasai â Miss Martha Symmons. Wedi ymsefydlu yn maes newydd ei lafur, teimlai'n chwithig a diffygiol oherwydd ei anwybodaeth ymarferol â'r iaith Saesneg; a'r canlyniad fu iddo, ar anogaeth a chydsyniad yr eglwys, fyned i athrofa y Bedyddwyr yn Nghaerodor, y pryd hyny o dan ofal y Dr. Ryland. Bwriedid iddo aros blwyddyn yno; ond amgylchiadau eglwysig a theulnaidd a luddiasant iddo aros ond pedwar mis; a dyna yr holl addysg athrofaol a gafodd *Gomer*. Ond er byred y tymhor, ni bu ei arosiad yn Nghaerodor yn ddifudd. Trwy ddiwydrwydd mawr, cyrhaeddodd wybodaeth o elfenau, cystrawen, a phriod-ddull y Saesneg,

Digitized by Google

yr hyn, yn nghyda'i ymlyniad diflin wrth ei efrydiaeth yn ol llaw a'i galluogodd yn dra buan i bregethu yn yr aeg hono. Daeth hefyd i gydnabyddiaeth â phrif bregethwyr y Bedyddwyr yn Lloegr; ac yn enwedig ffurfiwyd cyfeillach gynes yr hon a barhaodd am eu hoes gyda y duwiol Ddr. Ryland. Wedi dychwelyd i faes ei lafur, cafwyd arwyddion yn fuan mai doeth a hapus oedd eu cysylltiad gan yr eglwys ac yntau. Llanwodd y swydd uchel gyda brwdfrydedd a gwroldeb; a'i barch a'i boblogrwydd yn myned beunydd ar gynydd. Mewn cysylltiad â'r wasg hefyd, gyda pha un yr ymenwogodd fwyaf, y bu yn offeryn defnyddiolach, ac yr adwaenir ef oreu yn enwedig yn yr oes hon,—dechreuodd ei gyfathrach â hi yn gynar, canys yr ydym yn cael iddo gyhoeddi "Pigion o Hymnau" yn 1796. Yn 1802, daeth allan y rhan gyntaf o yr "Yr anghyffelyb broffeswr yn nghanol-ddydd ei ddysgleirdeb," wedi ei gyfieithu ganddo o'r Saesneg. Yn 1804, cyhoeddodd ei "Fwyall Crist yn nghoed annghrist," attebiad oedd hwn i lyfryn bychan a gyhoeddesid gan Mr. Josiah Rhys, o'r Gelligron, un o benaethiaid y Sosiniaid; ac er nad yw ond 24 tu dal., cynwysa olygawd tra chywir a galluog ar brif bynciau y ddadl fawr hon. Yn 1816, cyhoeddodd ei draethawd a'r "Briodol Dduwdod ein Harglwydd Iesu Grist, yn nghydag atebion i holl wrthddadleuon y Sosiniaid," yn Saesneg; a'r ffwyddyn ganlynol yn y Gymraeg. Creodd y traethawd hwn gynwrf mwy na chyffredin, a bu darllen a chanmawl mawr arno, ac enillodd barch i'w awdwr o blith pob enwad a gredent yn Nuwdod y Cyfryngwr. Edrychid ar Mr. Harris, nid fel Bedyddiwr, ond fel gweinidog da i Iesu Grist, fel un wedi ei osod i amddiffyn ffydd yr Efengyl. Dr. Burgess, esgob Tyddewi, a Dr Hewson, ficer Abertawe, gan annghofio y gagendor rhwng yr Eglwys ac Ymneilldduaeth, a ystyrient Gomer yn gydwas â hwynt i Grist. Y blaenaf, mewn llythyr at offeiriad, a ddirgymhellai i'w sylw manylaf y llyfryn hwn o waith Ymneilldduwr; y Ficer a ystyriai yr awdwr yn deilwng o bob cefnogaeth, ac a roddodd ei ddylanwad fel offeiriad at ei wasanaeth; a'r gwahanol bleidiau o Ymneilldduwyr uniawngred a gydunent yn galonog i dderbyn y llyfr fel amddiffynydd athrawiaeth bwysig yn eu ffydd. Diamheu hefyd nad oedd y ganmoliaeth a dderbyniodd ond teg a theilwng, canys nid oes yn yr iaith lyfryn yn arddangos cryfach gallu rhesymiadol, ac egni llwyrach i dreiddio i gastell y gelyn, gan osod y lle ar dân, a'i losgi yn ludw. Rhoddes brawf diymwad fod ganddo adnoddau meddyliol cryfion, a'i fod a'r dir rhesymeg yn wrthwynebydd cadarn. Ond adwaenir ef yn well, a chydnabyddir ef yn uwch yn ei gysylltiad â *llenyddiaeth gofnodol* ein cenedl; yn wir, ystyrir ef yn dad y cytryw lenyddiaeth. Ei lygaid ef a ganfyddodd, a'i galon a gydymdeimlodd, âg angen dirfawr ei gydwladwyr—heb un cyhoeddiad ar ei helw, tra yr oedd eu cymydogion tros y clawdd yn meddu cyfoeth mawr. Gwir fod ceisiadau wedi ei gwneud i ddwyn misolion allan, ar wahanol adegau, ond wedi oes fer a chythryblus, buont feirw yn eu babandod. Yr oedd anturiaeth Mr. Harris yn eonach fyth na misolyn, chediai i feddwl ef mor uchel â newyddiadur. Yr oedd digon o ddewrder gwladgarol yn ei galon i feddwl cychwyn papur newydd Cymraeg haner can' mlynedd yn ol; a chafodd gan bedwar boneddwr, ei cyfeillion yn Abertawe, ddyfod yn gydgyfraneg âg ef gyda'r gwaith. Dydd Sadwrn, Ionawr 1, 1814, daeth allan y rhifyn cyntaf o "Seren Gomer; neu Hysbysydd Wythnosol Cyffredinol dros holl Dywysogaeth Cymru." Mr. Harris ei hun oedd y Golygydd. Yn ei Anerchiad rhagarweiniol, gesyd amcan y cyhoeddiad ger bron:—"Bydd i *Seren*

Digitized by Google

Gomer wynebu ar derfynau anwybodaeth," meddai, "a gwahodd y preswylwyr yn gariadlawn i fwynhau pleserau gwybodaeth. Bydd yn cynwys hanesion pellenig a chartrefol, am ryfel a heddwch; newyddion gwladol ac eglwysig; crynodeb o'r cyfreithiau newyddion a wneir yn ein hamser; ymdrechiadau a llwyddiant y cenadon Cristionogol yn mhlith eilun-addolwyr; pris yr ŷd, ac amryw bethau eraill; amser ffeiriau yn y Dywysogaeth, a phob peth arall a fyddo yn gyson â moesoldeb tra fyddo lle: canys tra bo yn llewyrchu ar achosion y fuchedd bresennol, fe ymdrechir ei thebygu i'r Seren yn y Dwyrain i dywys at Seren Jacob, neu at yr hwn a anwyd i fod yn Frenin i'r Iuddewon. Saif Seren Gomer hefyd yn yr adwyau rhwng yr hoff-iaith Gymraeg a'i gelynion, drwy anog a denu pobl i ddarllen, hysbysu cyfansoddiadau gwerthfawr, a chefnogi ymdrechiadau i'w phuro a'i diwygio," &c. &c. Ond er gwladgarwch a haelioni y boneddigion a gychwynasant y *Seren*, yn nghyda doniau ac athrylith y golygydd clodfawr, ni roddodd y genedl gefnogaeth ddigon i'w digolledu, chwaithach i'w talu. Yn rhifyn 81, am Gorph. 12, 1815, y mae anerchiad yn dywedyd, "fod y perchenogion, gyda thrymder calon, yn gorfod mynegu fod yr anogaethau a gawsant yn y gorchwyl yn annigonol i'w galluogi i barhau y gwaith; na ddygent allan ond pedwar rhifyn ar ol hwnw, ac na buasent yn cyhoeddi y rhai hyny ond yn unig o barch i'w cefnogwyr ffyddlonaf, ac i beidio cymeryd eu cenad oddiwrthynt yn ddirgelaidd. Dywedir na bu eu colled yn llai na *mil o bunau!* Er mor alarus y golled hon, a'r difrawder cenedlaethol a'i hachlysurodd, da genym hysbysu fod liafur a thalent Mr. Harris gyda'r gwaith wedi enill iddo edmygedd un dosparth o'r genedl. Cymreigyddion Llundain a'i hanrhegasant â Thlws Arian, a chydag ef lythyr yn datgan eu parch uchel iddo am gynal a choleddu y Brythoneg, a'i wasanaeth i'w genedl trwy gyfrwng y *Seren* glodwiw. Nid gwr i roddi i fynu ar un cais oedd Gomer, a chan nad oedd y genedl yn gyffredinol yn prisio ei lafur llenyddol, bwriadodd ei gynyg at wasanaeth arbenig yr enwad y perthynai iddi. O ganlyniad, yn Ionawr, 1817, daeth allan y rhifyn cyntaf o *Real y Bedyddwyr*, ac er fod hwn eto yn cynwys bwyd cryf ac iachus o'r fath ag a ddarparai y golygydd galluog ar bob echwyl, tyngedwyd ef eilwaith i gyfarfod ag anghefnogaeth. Hyn a'i gyrodd yn ol at ei amcan cyntefig, sef dwyn allan gyhoeddiad *misol* at wasanaeth y *genedl*, ac Ionawr 1, 1818, cyhoeddwyd y rhifyn laf o "*Seren Gomer*, neu gyfrwng gwybodaeth gyffredinol i'r Cymry." Bu yn llafurus ac ymroddgar nes cael i'r misolyn hwn safle uchel a derbyniad helaeth, a dyfod yn un o'r breintiau gwerthfawrocaf roed erioed i'w gydwladwyr. Cynorthwyid ef yn y gwaith gan rai o feddylwyr galluocaf y genedl, y rhai a gymerent ran mewn dadleuon buddiol ar bynciau dyddorol, ac a gyfraneut draithodau meistrolgar ar destynau duwinyddol, athronyddol, &c.; ac y mae profiad cyhoeddwyr Cymreig yn dweyd mai *gohebwyr* doniol a galluog sydd yn sicrhau llwyddiant hyd yn hyn i'n cylchgronau. Anhawdd gwybod, gydag un gradd o fanylrwydd, pa faint o'r *Seren* a ysgrifenid gan y golygydd ei hun; ond y mae sicrwydd mai ei eiddo ef oeddynt yr ysgrifau a ymddangosent tan y ffugenwau *Llywelyn*, ac *Iorwerth*, a *Gwrthddiffynwr*, a *Gedeon*, y rhai ydynt rai o'r traithodau dadleuol galluocaf a ddaethant trwy yr argraffwasg Gymreig erioed. Buasai yn dda genym roddi dyfyniadau i gadarnhau ein gosodiad, pe cawsem ofod. Dylid cofio hefyd fod yr holl ohebiaethau dienw yn y *Seren* hyd y flwyddyn 1825, yn bigion, neu yn gyfeithiadau, o'i eiddo ef. O

Digitized by Google

barth y "Bibl Dwyieithawg" a olygodd efe, ni raid dweyd dim, y mae y llyfr wedi enill iddo ei hun serch a safle yn y rhan luosocaf o deuluoedd ein gwlad. Y casgliad o Hymnau hefyd, a gyhoeddodd efe at wasanaeth enwad y Bedyddwyr, sydd wedi dal ei dir bellach er's haner can' mlynedd; y mae ynddo, rhaid cyfaddef, lawer o ddiffygion, ond yr ydym yn eu hannghofio o wir barch i'r awdwr; a dilys pe buasai ef byw yn awr y dywedasai cyn groywed âg ungwr, "Nid da lle gellir ei well." Cymerodd ran hefyd yn y ddadl fawr ar *Fedydd* a gynhyrfwyd yn y Deheubarth tua 1822, gan y Parchn. Williams o Lanwrtyd, a Phowell o Aberhonddu. Cyhoeddodd Mr. Harris lyfryn bychan dan yr enw, "Gair Duw yn erbyn dychymyg dyn; neu hawl plant bychain i'r ordinhad o Swper yr Arglwydd, wedi ei brofi trwy yr Ysgrythyrau, yn ol ymresymiadau T. Powel. Gan *Gyfaill Babanod.*" Yr amcan oedd profi hawl babanod i gymundeb â'r un profion ag a ddug Mr. Powell dros ei hawl i fedydd. Felly nid oedd yr *onus propandi* yn gorphwys ar Harris eithr ar Powell. Mae yn ceisio dangos fod yn rhaid i'r sawl a amddiffynant fedydd babanod brofi hefyd fod babanod yn deilwng ddeiliaid y sacrament, gan nad all yr athrawiaeth flaenaf sefyll wrthi ei hun, ac os saif annghyson ydyw gwrthod y llall. Yn 1823, y mae cwmwl yn dyfod tros y goleuni nerthol a thrylachar hwn yn ein byd bach llenyddol—nid cwmwl o warth ond o alar pygddu—yn nghysgodion yr hwn y mae yn diflanu o'n golwg, tan wreichioni a phelydru athrylith o'r radd uwchaf a phuraf. Yn mis Rhagfyr, y flwyddyn hono, bu farw "hyfrydwch fy llygaid," a "thlws fy enaid," "fy addfwynaf John," "fy anwyl Ieuan Ddu," fel y galwai efe yn nyfnder ei drallod hiraethlawn ei unig anedig fab John Ryland Harris. Cynyrch olaf ei ysgrifell oedd "Cofiant Ieuan Ddu," a "Galar Tad ar ol ei unig Fab." Pwy all eu darllen heb wylo? ac heb ryfeddu at y fath droadau dyrus yn y meddwl dynol? Fel y dywed y Parch. D. Rhys Stephen, yn mywgraffiad *Gomer*:—"Hyfrydwch anhylon yr enaid cystuddiedig i boeni ei hun drwy fyfyrio yn ddiymdor ar ei wae—cywreinrwydd arswydus y meddwl i wrthod pob cysur—ei ymroddiad diflin i gynal a chynyddu ei arteithiau, er eu dygned a'u poenused, ydynt addysgiadol i'r sawl a garo adnabyddiaeth o dueddiadau a gweithrediadau y *Byd Bychan.* Yr arwyddion hyn ydynt ganfyddadwy iawn yn y Cofiant dan sylw. Er holl anogaeth ei gyfeillion iddo ymatal rhag ei ysgrifenu, yr oedd y cwbl yn annhycianol: gyda phenderfyniad cyfagos i ystyfnigrwydd, ymroddodd at, a pharhaodd yn y gorchwyl; er bod pob llinell a ysgrifiai yn peri clwyf anaele ar ei galon, a phob gwahanran a gyfansoddai yn trywanu ei enaid ag aeth angeuol!" Y mae'r meddwl afiach yn arddangos medruswydd mawr wrth drefnu esgusion rhag derbyn unrhyw feddyginiaeth. Y mae Mr. Harris yn deisyf ei esgusodi am fawredd ei hiraeth ar ol Ieuan, oherwydd mai ei *gyntaf*-anedig oedd—ei gyntaf-anedig *fab*—ei *unig*-anedig fab—mab *aml* ei rinweddau—mab oedd *gyfaill* a *chynghorwr* iddo—mab yr oedd ei golli yn golled anadferadwy iddo, mewn ystyriaethau tymhorol, ag yr oedd ei farwolaeth yn ddinystr agos i holl gynlluniau daearol ei dad, yn siomedigaeth i'w ddisgwyliadau hyfrytaf, ac yn orchudd a chaddug dudew ar ei ragolygfeydd disgleiriaf yn y fuchedd hon. Erbyn dechreu Mawrth, 1825, yr oedd ei alar dwys wedi cancru cymaint ar ei feddwl fel y rhoddes olygiaeth y *Seren* i fynu. O'r amser hwnw, gwaelodd yn raddol hyd Awst 10, pryd y rhoddes angau derfyn ar ei fywyd gwerthfawr ond adfydus. Claddwyd ef yn gan dyrfa fawr y Llun canlynol yn

Digitized by Google

yr un bedd a'i gyfeillion Iwan, ei frawd yn nghyfraith Symmons, a'i anwylaf Ieuan Ddu. Fel dyn, dysgleiriai yn nghymeriad Mr. Harris onestrwydd, diwydrwydd, tynerwch teimlad, a synwyr cyffredin o'r fath gryfaf. Fel pregethwr, yr oedd yn enwocach am *sylwedd* nag am *sion*. O barth ei olygiadau crefyddol, yr oedd gogwydd ei feddwl yn gryf at Andrew Fuller, er nad oedd yn cydolygu ag ef yn mhob peth. Fel gweinidog, bu yn dra llafurus, ymdrechgar, a llwyddianus; yn esiampl, cystal a chynghorwr, i bobl ei ofal. Fel awdwr ac ysgrifenydd, gosodai lawer mwy pwys ar fod yn ddefnyddiol nag yn brydferth; a nodweddir ei ysgrifeniadau gan grynodeb, byrdra, eglurder, a chadernid ymadrodd. Yr oedd dadleu yn dadebru holl adgyfnerthion ei feddwl, a phan yr ymgymerai â'r gwaith hwn y mae yn anhawdd dyfalu pa un i'w edmygu fwyaf ynddo ai ei allu rhesymiadol yn chwalu cestyll ei elynion, ynte y gwawd gyda pha un y sieryd am y trueiniaid a ymnoddant mewn manau mor bwdr. Ceir esiampl nodedig o hyn yn ei ateb i Brutus, argraffedig yn *Seren Gomer* 1824, 403, pan yr ysgrifenai tan yr enw "Gedeon," er amddiffyn yr iaith Gymraeg. Elfenau mawrion ac athrawiaethau pwysig yn unig a gaent ei sylw ef; a thriniai ei bynciau bob amser yn feistrolgar a medrus. Dyna y fath ddyn oedd y Parch. J. Harris; ac i ddefnyddio geiriau un a'i hadwaenai yn dda (y Parch. J. Herring, Aberteifi):—Gwasanaethodd ei genedl mewn modd rhagorol; cododd ynddynt ymofyniad am wybodaeth gyffredinol, dysgodd iaith eu hen deidiau iddynt, ac ymlidiodd o'u plith y bwbachod a'u brawychent ddydd a nos. Bydd enw GOMER yn gydoesol â llawer sydd eto heb eu geni." "Awdl Goffadwriaethol am y diweddar Barch. J. Harris, a'i fab Ieuan Ddu," oedd testun cadair Cymreigyddion y Fenni am 1838; a Chaledfryn, gyda gorchest awdl benigamp, a enillodd y wobr. Yn 1839, cyhoeddwyd "Gweithiau awdurol y Parch. J. Harris," yn nghyda bywgraffiad ohono ef, Ieuan Ddu, a rhai eraill o'r teulu, gan y Parch. D. Rhys Stephen, mab yn nghyfraith y gwrthddrych; i ba un yr ydym yn ddyledus am lawer o ddefnyddiau yr erthygl flaenorol. Gweler hefyd *Seren Gomer* 1825; a *Hanes Bywyd y Parch. J. Harris*, gan J. Samuel.

HARRY (PARCH. NUNN MORGAN), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn New Broad Street, Llundain. Brodor ydoedd o Lanbedr Welfrey, sir Benfro. Wedi treulio peth amser tan addysg y Parch. M. Bull yn Newport Pagnel, efe a ymgymerodd â bugeiliaeth eglwys Annibynol yn Banbury; ac ar ol bod rai blynyddau yn y lle hwnw, derbyniodd alwad eglwys Broad Street, lle y bu yn weinidog llwyddianus flynyddau lawer. Efe a gyhoeddodd draithawd yn Saesneg, neu gyfres o bregethau, ar "Beth debygwch chwi am Grist?" Yr oedd wedi rhoddi i fynu y weinidogaeth er's peth amser oherwydd gwaeledd ei iechyd, a dychwelyd i wlad ei enedigaeth, lle y pregethai yn achlysurol. Eithr elai ar brydiau i fynu i'r Brifddinas, ac ar un o'r ymweliadau hyn yr ydoedd pan y bu farw yno, Hydref. 22, 1842, yn 42 oed. Claddwyd ef yn mynwent Abney Park.—*Lleyn MSS.*

HAWYSTL, santes yn ei blodeu yn y pumed cant. Un o ferched Brychan Brycheiniog ydoedd, a hyhi a sefydlodd eglwys Llanhawystl, neu Awst, yn Morganwg.

HEDD MOLWYNOG, neu, yn ol rhai ysgrifau, *Hydd* Molwynog, neu Hydd ab Olwynog, oedd fab Greddf Tygynydd ab Llawr ab Llawfrodedd Farchawg. Hedd ydoedd bendefig o Isdulas, yn mharth gogledd-orllewinol sir Ddinbych, a phenaeth un o bymtheg Llwyth Gwyn-

Digitized by Google

edd, ac y mae lluaws o deuluoedd yn olrhain eu disgyniad o hono. Trigianai yn Henllys, plwyf Llanfair Talhaiarn, lle gwelir hyd y dydd hwn gylchgloddiau a dyfrffosydd mawrion yn nodi ei balas gynt; ac y gelwir cae yn "Faes y Bendithion," am mai yno yr arferai Hedd wneuthur ei elusenau. Bu yn ystiwart i Ddafydd ab Owain Gwynedd, o 1170 hyd 1195, a chynorthwyodd y tywysog hwnw i ddwyn cleddyf a galanas hyd at byrth Coventry. Ei gyfoeth a'i arglwyddiaethau oeddynt Llanfair Talhaiarn, Dyffryn Elwy, a Nantaled, yn sir Ddinbych; y rhai y darfu i'w dri mab, Meuter, Gwyllonon, a Gwrgi, eu rhanu cydrhyngddynt, ac y mae peth o'r cyfryw yn meddiant eu hilogaeth hyd y dydd heddyw. Ei beisarfau oeddynt:—*Sable a hart passant argent, attired or.*"—Wms. *Em. Welsh.*

HEFIN, sant yn y 6ed cant, a mab i Gwyndaf Hen o Lydaw. Gelwir ef mewn rhai ysgrifau yn Hefnin, Henyn, Henen, Henwyn, Hywyn, a Hewnin. Bu am yspaid yn aelod o goleg Illtyd, ac yna yn esgob Enlli. Efe a sefydlodd eglwys Aberdaron, o ba fan y croesai pererinion tros y culfor i'r ynys hono.—Iolo *MSS.* 506, 535.

HEIDDYN HIR, bardd yn ei flodeu tua chanol y 6ed ganrif, eithr nid oes dim o'i waith ar gael. Yn y *Trioedd*, cysylltir ei enw gyda Llywarch Hen a Llemenig, tan y penawd "tri bardd trwyddedawg hanfodawg Llys Arthur." Crybwyllir ei enw hefyd yn amryw o'r *Mabinogion.*

HEILYN DDU, bardd yn ei flodeu rhwng 1440 a 1470.

HEILYN GOCH BRYDYDD, bardd yn ei flodeu rhwng 1380 a 1420.

HEILYN (HYWEL), bardd yn ei flodeu rhwng 1470 a 1500. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

HEILYN FARDD, oedd yn ei flodeu rhwng 1350 a 1390.

HEILYN YSTEILFFORCH, o Forganwg, oedd benaeth un o bum' costoglwyth Cymru. Y lleill oeddynt Gwenwys, Blaidd Rhudd, Adda Fawr, ac Alo.

HEINYN, bardd i Faelgwn Gwynedd, yn ei flodeu rhwng 520 a 560. Y mae Brud o'i waith, wedi ei gyflwyno i Faelgwn, i'w gweled yn argraffedig yn y *Myvyrian;* a dodir yn ei enau un o "Chwedlau y Doethion:"—"Nid yw dewr yn greulawn."—Iolo *MSS.*, 252.

HELEDD, un o ferched Cyndrwyn, tywysog ar Bowys yn y 6ed ganrif. Barddones ydoedd, ac y mae dywediad o'i heiddo ar gof a chadw yn *Englynion y Clywed* (Myv. Arch.):—

'Ni ddaw tlodi o haeled'd!

Priodolir un arall iddi yn *Chwedlau y Doethion (Iolo MSS)*:—"Ni ddaw llwydd o falchder."

HELIG FOEL, oedd fab i Glanawg ab Gwgan Gleddyfrudd ab Caradawg Freichfras, ac arglwydd llain eang o iselder ar du gogleddol Arfon, a elwid Tyno Helig, eithr a orlifwyd gan y môr yn y 7fed ganrif. Y mae Traeth y Lafan, rhwng Mon ac Arfon yn ffurfio rhan o gyfoeth Helyg, yr hon a ymestynai gan belled â'r Penmaenmawr; ac y mae morwyr yn parhau i gredu eu bod yn gweled murddyn Llys Helyg o tan y tònau pan fyddo'r hin yn braf a'r llanw'n isel. Wedi colli ei feddianau, Helyg a'i feibion lluosog a ymroisant i arwedd bywyd crefyddol, ac a ddaethant yn enwog fel seintiau Cymreig, ac a fuont yn offerynau i sefydlu crefydd-dai mewn llawer parth o Gymru.—*Cambrian Quarterly* iii. 39.

HENBEN, neu Henbrien, penaeth dewr, yr hwn a gofnodir yn y

Digitized by Google

Trioedd, gydag Eiddnew a Gruddneu, tan y penawd, "Tri Escynydd Aerau," a'u "cyneddfau oeddynt nad elynt o gad neu ryfel onid ar eu heloran, gwedi nas gallynt symud na bys na thafawd."

HENRY (JOHN AB). *Gwel* PENRY (JOHN)

HENRY (PARCH MATHEW), yr esboniwr byd enwog ar y Beibl, ydoedd fab i'r duwiolfrydig Barch. Philip Henry, ac a anwyd mewn ffermdy o'r enw Broadoak, yn mhlwyf Worthenbury, sir Flint, Hydref 18, 1662. Ei fam ydoedd Catherine, merch i Daniel Mathews, Ysw., or Broadoak, yr hon oedd yn fenyw enwog am ei doethineb, ei haelfrydedd, a'i haml rinweddau Cristionogol. Yr oedd ei dad yn o'r Ddwy Fil Annghydffurfwyr a droisant allan o'r Eglwys Sefydledig yn mis Awst y ffwyddyn hono; ac wedi gadael bywioliaeth Worthenbury, gan ymneillduo i'r Broadoak, cyfoeth tref tadol ei wraig. Dygodd trybini y troi allan, wewyr cynamserol ar fam Mathew Henry, ac ofnid am yspaid na fuasai yn byw na mam na phlentyn. Ond yr oedd Rhagluniaeth ddoeth yn ei warchod, ac er iddo dreulio blynyddau cyntaf ei fodolaeth yn llesg a gwanaidd, cryfhaodd yn raddol, ac enillodd gyfansoddiad cryf ac iachus. Dywedir y gallai ddarllen y Beibl pan yn dair blwydd oed, a dangosodd yn dra bore fod ganddo dueddfryd gref at lyfrau. Mynych y gorfodid ei fam i'w hudo o'i fyfyrdod yn y llyfrgell, a myned ag ef i'r meusydd, er mwyn adloniant, rhag iddo niweidio ei iechyd. Hawdd credu na buasai y fath rieni rhagorol yn esgeuluso gosod ei hunig fachgen ar ben ffordd sancteiddrwydd a dysgeidiaeth; ac yr oedd y naill ar llall mor naturiol i'r plentyn hwn, fel nad oedd eu gwaith ond hawdd ag ysgafn. Y mae llawer esiampl ar gael o'i brofiadau addfed a melus mewn oedran na bydd ond ychydig o blant dynion yn gallu syniaw dim am grefydd, yn enwedig y rhan brofiadol ohoni; a phan nad oedd ond naw oed, mewn llythyr at ei dad, yr hwn oedd ar y pryd yn Llundain, dywed:—"Yr wyf wedi dysgu fy ngwers bob dydd er pan yr ymadawsoch, sef tudalen o Latin, a diwy adnod yn y Testament Groeg, ac yr wyf yn hyderu fy mod wedi ei ddysgu yn dda, ac y bydd i mi barhau felly hyd oni ddeuwch adref." Pan tua deg oed, cafodd dwymyn drom, a bu ei fywyd am wythnosau mewn perygl; ac er y buasai ei golli yn chwerwder chwerw i'w rieni, er hyny, yn nerth eu crefydd, rhoddasant yr achos yn llaw Duw doeth a thrugarog, yr hwn a adferodd iddynt fab eu gweddiau dwysion. Tyfai y plentyn yn fab teilwng o'i dad. Yr oedd yn annichonadwy cael cymeriad a ddylanwadai yn fwy ar bawb o'i gylch na'r eiddo Philip Henry, ac yn anhawdd cael meddwl mwy agored i ddylanwadau o'r fath na'r eiddo M. Henry. Yr oedd y ddau beunydd yn nghymni ei gilydd; gwrandawai y plentyn ar weddiau ffyddiog ei dad yn y dirgel ac wrth yr allor deuluaidd, cystal ag ar ei gynghorion addfed a'i bregethau achlysurol ond nefolaidd. Efe a yfodd yn ddwfn ac ehelaeth o yspryd ei dad, a bod yn mhob peth yn gyfielyb iddo ydoedd uchelgais ei feddwl ieuanc. Cynaliai gyfarfod gweddi gyda'i chwiorydd ieuangach bob prydnawn Sadwrn; a thraddodai anerchiad iddynt ar ddull pregeth. Yr oedd dysgeidiaeth a duwiolfrydedd gwr y Broad Oak yn tynu ato rifedi mawr o ddynion goreu yr oes hono, a chafodd gwrthddrych hyn o sylw fantais i ymgydnabyddu â hwynt a derbyn addysgiadau gwerthfawr ganddynt. Pan yn 18 oed, cymerwyd ef gan ei dad at Mr. Doolittle, i Hackney, Llundain, yr hwn a gadwai goleg bychan. Ni bu ei arosiad yno yn hir, gan i sefydliad Mr. Doolittle syrthio yn aberth i gythryfwl yr amseroedd terfysglyd hyny. Dychwelodd Mr. Henry adref; ac

Digitized by Google

wedi bod yno am rhyw yspaid, anfonwyd ef eilwaith i Lundain, ond y tro hwn i efrydu y gyfraith yn *Gray's Inn*. Tybir mai awydd i ymgydnabyddu â rhyw alwedigaeth barchus a barodd iddo gymeryd y cam hwnw, gan nad oedd ond gobaith gwan y cawsai gweinidog Ymneilldiol arferyd y swydd yn yr oes hono; tra y cred eraill mai ei ddyben yn myned ydoedd enill gwybodaeth y gallasai ei hongian yn aberth union-gyrchol ar drostan y Groes. Pa fodd bynag, nid oedd efe wrth ei fodd gyda'r gyfraith—nid oedd ganddo ef ben na chalon cyfreithiwr; a dychwelodd i'r Broad Oak, a'r adgofion melusaf am y *Gray's Inn* yn ei fynwes ydoedd y cylch o gyfeillion calon-gynhes a gyfarfu yno. Erbyn 1687, yr oedd tân erlediga eth wedi marweiddio cryn lawer, ac ordeiniwyd yntau yn weinidog. Cymerodd hyn le yn ddirgelaidd mewn tŷ yn Nhaerlleon, lle y ffurfiesid eglwys fechan. Ymgymerodd â'r swydd gyda phob difrifoldeb ac ystyriaeth, ac yn ei gyffes, yr hon sydd yn argraffedig yn ei Fywgraffiad, dywed nad budr-elw, neu enill bywiolaeth fydol, na chynal i fynu blaid sismaidd, a'i tueddodd at y swydd; ond cariad at y gwirionedd, a lleshad eneidiau anfarwol, oedd ganddo yn unig mewn golwg; a thra hawdd, wrth ystyried yr amgylchiadau, y gellir ei gredu. Chwanegodd yr eglwys yn raddol, a chydunodd llawer o bethau i'w wneud yn hapus. Yr oedd ei holl galon yn y weinidogaeth, ac i'r cyfryw y mae llwyddiant yn ddarn o nefoedd. Cynyddodd ei gynulleidfa yn gyflym, rhifai ei eglwys 350 o aelodau, a chafodd Mr. Henry y llawenydd mwyaf a ddichon i weinidog difrifol byth ei fwynhau, sef profion mynych a diymwad fod eneidiau lawer wedi derbyn budd parhaol oddiwrth ei weinidogaeth. Pregethai yn y llanau a'r pentrefi am filltiroedd o amgylch Caerlleon; ac ymwelai â'r clafdy a'r carchardy, gan draethu ei genadwri dragywyddol wrth drueiniaid dyn yn y manau hyny. Cynaliai wasanaeth crefyddol dair gwaith bob Sabbath, ac yn gyffredinol yr oedd ei gyhoeddiad yn rhywle bob nos trwy yr wythnos, ac nid anfynych y pregethai ychwaneg nag unwaith yn y dydd. Yr oedd tynerwch naturiol ei deimladau yn enill hoffder a serch pobl ieuainc; ac efe a neilldua bob prydnawn Sadwrn i gyfarfod â hwynt, i'w holwyddori a'u hyfforddi yn mhynciau crefydd. Yr oedd y gyfundrefn a'r dull oedd ganddo o feddwl yn gyson ag arferiad duwinyddion yr oes hono, yn enwedig â'r eiddo ei dad, ac yn un o'r rhai mwyaf llafurus. Dewisid y testun yn ol y drefn a'r cynllun manylaf, ysgrifenid y bregeth air yn ngair o ben i ben, a llywodraethid y cyfansoddiad gan ddeddfau caethaf iaith, arddull, a chydmariaeth. Traddododd ugain o bregethau ar yr adnod "Gan ddyosg yr hen ddyn, a gwisgo y dyn newydd," ac er mwyn dwyn amrywiaeth i'r fath gyfres hir, ac edrych ar ei destyn mewn gwahanol agweddau, sylwai yr oedfa gyntaf, ar "Ddyosg balchder, a gwisgo gostyngeiddrwydd;" 2il oedfa, "Dyosg trachwant, a gwisgo boddlonrwydd." 3ydd oedfa, "Dyosg casineb, a gwisgo cariadoldeb." 4ydd oedfa, "Dyosg meddwdod, a gwisgo cymedroldeb." 5ed oedfa, "Dyosg ofn, a gwisgo gobaith," &c., hyd y diwedd. Byddai yn traddodi math o bregeth ar bob nos Iau, i wrando pa un y deuai aelodau o'r Eglwys Sefydledig, ac eraill na fynent esgeuluso eu cydgynulliad eu hunain ar y Sabbath. Cafodd destunau i'r areithiau wythnosol hyn am ugain mlynedd mewn "Holiadau Ysgrythyrol." Yn Hydref, 1692, dechreuodd gyda, "Adda, pa le yr wyt ti?" Gen. iii. 9; ac yn Mai 1712, gorphenodd y gyfres gyda, "Pa ddinas sydd fel y ddinas fawr?" Dat. xviii. 18. Yr oedd y dull hwn yn gorfodi y meddwl i lafurio; er y buasai yr oes hon yn gwenu ar

Digitized by Google

blentynrwydd y fath gynllun, syrthiai yn hollol ddymunol a naturiol ar deimladau yr oes haner Buritanaidd hono. Yr oedd yn grediniwr diysgog mewn Rhagluniaeth, ac yn weddiwr mawr yn gyhoeddus a dirgel. Ni chymerai un cam o bwys heb ymgynghori â Duw yn ei gylch; a byddai gweddi ganddo yn rhagflaenu cyfansoddiad pob pregeth, cyhoeddiad pob llyfr, a chychwyniad pob taith. Cadwodd ddyddlyfr, ac y mae hwnw yn llawn o weddiau, mawl, a diolchiadau. Fel y gellir casglu oddiwrth helaethrwydd ei ysgrifeniadau, yr oedd Mr. Henry yn efrydydd caled. Codai yn fore, a byddai yn ei fyfyrfa am bump, ac yn fynych am bedwar o'r gloch, gan aros yno hyd ganol y dydd. Nid oedd dim a flinai fwy ar ei yspryd addfwyn nag i rywun ei aflonyddu yn ystod oriau ei fyfyrdod. Pan gyhoeddwyd y cyfrolau cyntaf o'i *Esboniad*, ymledodd ei glod yn gyflym, a chafodd alwadau taerion o Lundain i fyned yno yn weinidog. Gwahoddwyd ef i fod yn olynydd i Dr. Bates, yna i Mr. Nathanael Taylor, a thrachefn i Mr. Spademan; eithr gwrthododd yn benderfynol gydsynio ag un o honynt. Pa fodd bynag, gwahoddiad calonog eglwys Hackney a orfu arno; ac wedi blwyddyn o ystyriaeth dwys a phryder dwfn, efe a dderbyniodd yr alwad, ac a'i derbyniodd megis llais Duw. Felly, wedi llafurio yn Nghaerlleon am 25 o flynyddau, efe a ddechreuodd ei waith fel gweinidog yn Hackney Mai 18, 1712. Yr oedd efe bellach yn haner cant oed. Nid oedd rhif y cymunwyr yn eglwys Hackney ond cant, ond er marweiddied crefydd yn yr oes hono, bu ef yn offeryn i chwyddo y rhifedi hwnw. Dechreuodd ei weinidogaeth yn Llundain trwy bregethu yn y bore ar y benod gyntaf o Genesis, ac yn yr hwyr ar y benod gyntaf o Matthew. Cafodd faint a fynai o waith o'r fath a garai ei enaid, sef dadblygu trefn Efengyl ger bron miloedd y Brifddinas. Addawsai, pan yn gadael Caer, y deuai ar ymweliad â'r eglwys unwaith bob blwyddyn; ac yn Haf 1713, cyflawnodd ei addunedd. Drachefn yn 1714; arosodd yn Nghaer am fis, a chychwynodd yn ol am Lundain Mehefin 21. Yr oedd i bregethu yn Nantwich ar ei daith. Taflwyd ef oddiar ei geffyl, eithr gwadai ei fod wedi cael unrhyw niwaid. Efe a bregethodd oddiar Diar. xxxi. 18, eithr sylwai pawb nad oedd efe mor fywiog ag arferol. Daeth yn drymaidd a chysglyd, a dymunai ar ei gyfeillion weddio trosto, "canys ni fedraf fi yn awr weddio trosof fy hun." Ni bu yr ymdrech ond byr. Syrthiodd i afaelion y parlys mud, ac am wyth o'r gloch y bore canlynol, Mehefin 22, bu farw, yn 52 oed. Dygwyd ei ran farwol i Gaer, a chladdwyd ef yn eglwys Trinity, yn mynwent yr hon eglwys y cyfodwyd gwyddfa ysplenydd er coffadwriaeth am dano ychydig flynyddau yn ol. Bu Mr. Henry yn briod ddwywaith. Yn 1687, efe a briododd Miss Hardware, boneddiges ieuanc enwog am ei thegwch a'i duwioldeb; eithr yn mhen deunaw mis, hi a fu farw o'r frechwen. Ei ail wraig, oedd Miss Warburton, o'r Grange, merch rinweddol o deulu parchus, ac o'r briodas hon bu iddo un mab a phum' merch. Daeth y mab hwn yn etifedd ystad y *Grange*, mabwysiadodd gyfenw ei fam, a bu am yspaid yn aelod seneddol tros ddinas Caerlleon. Y mae ei gyfansoddiadau llenyddol yn lluosog iawn, ac anhawdd fyddai rhoddi rhestr gyflawn o honynt, ond y prif rai ydynt a ganlyn:—"The Life of Philip Henry," 1696; "A Scripture Catechism," 1702; "Family Hymns," 1702; "The Communicant's Companion," 1704; "A Method for Prayer," 1710; a llawer o bregethau a gyhoeddwyd ar amrywiol amserau. Eithr o lawer yr enwocaf a'r pwysicaf o'i weithoedd gwerthfawr ydyw ei "Esboniad ar y Beibl." Yr oedd ei feddwl

Digitized by Google

megis yn cael ei gymhwyso at waith o'r fath o'i fabandod, pan y gwrandawai ar sylwadau ac esboniadau ei dad rhagorol yn neillduedd cysegredig Broad Oak, a chryfhawyd ef trwy yr addysg glasurol ragorol a gafodd. Dechrenodd ar y gwaith mawr hwn yn 1704, a daeth Pum' Llyfr Moses allan yn niwedd 1706, a pharhaodd i roi cyfrol allan bob yn ail blwyddyn hyd oni wnaeth y bumed ei hymddangosiad, yn 1714, ddau fis cyn marwolaeth yr awdwr, a hon a gyrhaeddai hyd ddiwedd yr Actau. Cwblhawyd yr esboniad gan eraill, ond ni lwyddasant i drosglwyddo ysprydolrwydd teimlad a hynawsedd Mr. Henry i'w gwaith hwynt. Ni roddwyd na chynt nac wed'yn dderbyniad mwy calonog ac eang i'r un esboniad yn yr iaith Seisnig, ac y mae yn parhau eto yn ei fri a'i flas, ac wedi ei gyfieithu i amryw ieithoedd, yn mhlith eraill i'r iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd bywgraffiad o M. Henry, gan y Parch. W. Tong yn Llundain, yn 1716; ac un arall llawer helaethach, mewn cysylltiad ag argraffiad o'r Esboniad, gan Syr J. B. Williams, yn 1828. Cyhoeddwyd ei weithiau eraill 1830. Buasai yn dda genym, pe caniatasai amcan ein cyhoeddiad, roddi bywgraffiad o PHILIP HENRY; ond gan nad oedd efe yn Gymro o enedigaeth na dygiad i fynu, er yn Gymro o waedoliaeth—yn fab i John Henry, yr hwn oedd yn enedigol o Gymru, ac yn arddwr ger Whitehall, Llundain—er mor bleserus fuasai y gorchwyl, rhaid ei roddi heibio. Ni waeth heb derfynau, oni chedwir rhyngddynt.

HENRY (THOMAS), fferyllydd enwog, a anwyd yn 1734, yn Ngwrecsam, lle y gadwai ei dad ysgol fyrddiol. Addysgwyd ef yn ysgol ramadegol ei dref enedigol, gyda'r bwriad o'i ddanfon i Rhydychain a'i ddwyn i fynu yn offeiriad; ond gwangalonodd ei rieni, gan yr ofnent nad allent fforddio y draul oherwydd lluosogrwydd eu teulu. O ganlyniad, rhwymwyd ef yn egwyddoriwas o fferyllydd gyda Mr. Jones, yn Ngwrecsam. Pan oedd efe ar ganol ei egwyddoriaeth, bu farw ei feistr, ac efe a orphenodd yr amser gweddill yn Knutsford, sir Gaerlleon. Wedi dyfod yn rhydd, efe a fu am yspaid yn cynorthwyo llawfeddyg o'r enw Mr. Malbon yn Rhydychain, lle y cafodd gyfleustra i wrando cyfres o ddarlithiau gan yr enwog John Hunter, ar ddifyniaeth *(anatomy)*. Wrth ganfod ei allu a'i ddyfalwch, cynygiodd Mr. Malbon iddo ran o'i fasnach; ond efe a'i gwrthododd, ac a ymsefydlodd fel meddyg yn Knutsford, gan briodi yn fuan. Wedi bod yno am bum' mlynedd, efe a symudodd i Fanchester, lle y bu am yn agos i haner canrif yn feddyg i'r gwyr mwyaf yn y dref a'r ardal. Eithr efe a ymenwogodd yn fwy fel athronydd mewn fferylliaeth nag mewn un gangen arall. Yn 1771, cyflwynodd i goleg breninol Meddygon Llundain ysgrif a gyfenwid, "An improve method of preparing Magnesia Alba," yr hwn bapur a gyhoeddodd efe yn mhen dwy flynedd wedi hyny, yn nghyda thraethodau ar bynciau fferyllol eraill, mewn un gyfrol. Nid oedd *calcination of magnesia* hyd yn hyn wedi ei ddefnyddio ond i ddybenion athronyddol. Henry oedd y cyntaf a roddodd brawf ar bridd y ddaear fel physig, a'i gymhell i syiw cyfredinol, ac a ddadbl godd ger bron y byd gwyddorol rai o'i gyneddfau pwysicaf. Etholwyd ef yn gymrawd o'r Gymdeithas Freniol yn 1775; a'r flwyddyn ganlynol cyfieithiodd o'r Ffrancaeg waith y fferyllydd enwog Lavoisier, tan y teitl, "*Historical Veiw of the Progress of Pneumatic Chemistry*," yn nghyda nodiadau ganddo ef hun. Wedi hyny, efe a gyfieithodd gyfres o fywgraffiadau a gyflwynasid gan yr un awdwr i Goleg Gwyddonol Paris. Rhoddwyd ffrwyth llnaws o arbrofion fferyllol Henry i'r byd trwy gyhoeddiadau ei gyfeill-

Digitized by Google

ion y meddygon Priestly a Perceval. Y pwysicaf o'r rhai hyn ydoedd yr arbrawf a wnaeth ar awyr sefydlog, trwy yr hyn y ceisiai ddangos fod awyr sefydlog ddigymysg yn niweidiol i fywyd planigion, tra ei fod, pan wedi ei gymysgu âg awyr gyffredin, yn ffafriol i'w bywyd a'u cynydd. Ei ddarganfyddiad nesaf ydoedd y modd i gadw dwfr yn ddilwgr ar y môr, trwy ei ddognu â chalch, ac anerchodd y Morlys mewn pamphledyn ar y pwnc, yn nghyda'r peiriant a ddefnyddiai i wneud y gwaith. Yn 1781, sefydlwyd cymdeithas athronyddol yn Manchester, a phenodwyd Mr. Henry yn un o'i hysgrifenyddion mygedawl; a bu wedi hyny yn llywydd. Enillodd lawer o glod fel athronydd fferyllol oddiwrth y rhan a gymerodd yn Ngweithrediadau y Gymdeithas. Yn 1783, dechreuodd roddi darlithiau ar egwyddorion cyffredinol fferylliaeth, a chyfres hefyd ar y gelfyddyd o gànu, lliwio, ac argraffu calico. Dilynodd ei lafur gwyddonol, a'i broffeswiaeth fel meddyg, hyd o fewn ychydig amser i'w farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Mehefin 18, 1816. Meddai gymeriad rhagorol am ddyngarwch, gostyngeiddrwydd, a haelfrydedd; ac yn y "*Transaction of the Manchester Philosophical Society*," ceir bywgrafiad ohono, a rhestr gyflawn o'i ddarganfyddiadau.

HENRY VII., neu Harri Tudur neu Tudor, brenin Lloegr o 1485 hyd 1509. Ganwyd ef yn nghastell Penfro yn 1467. Ei dad ydoedd Edmund, iarll Richmond, yr hwn oedd fab i Owain Tudur, o Benmynydd, Môn; ei fam, Margaret, unig ferch Dug Somerset. Nid oedd Owain Tudur ond pendefig o gyfoeth canolig, er ei fod yn disgyn o linach freiniol yr hen dywysogion Cymreig. Aeth i Lundain i fyfyrio y gyfraith, eithr gadawodd y gwaith hwnw ac ymunodd â'r fyddin. Tebygol mai ei wrhydri ar faes y gâd, a'i berson nodedig o hardd, a enillodd iddo sylw a ffafr yn llys breninol Lloegr, yr hyn a roddes gyfleustra iddo i ymgydnabyddu, ac yn y diwedd briodi, Catherine o Ffrainc, gweddw Harri V. Bu tri mab o'r briodas hon, sef Edmwnt iarll Richmond, Siasper iarll Penfro; ac Owen. Edmwnt a briodes ferch i John Beaufort, dug Somerset, yr hwn oedd ŵyr i John o Ghent, mab i Iorwerth III. Gwelir felly fod Harri yn dwyn gwaed breiniol Cymreig, Seisnig, a Ffrengig. Pan wnaeth y tywysog urddasol hwn ei ymddangosiad ar chwareufwrdd amser, nid oedd gwaed Rhyfeloedd creulawn y Rhosynau ond prin wedi ceulo ar y meusydd, ac eisteddai ar orsedd Prydain y teyrn mwyaf anmhoblogaidd a fu arni erioed, sef Risiart III., yr hwn a gyrhaeddodd y goron trwy lofruddio ei ddau nai, Iorwerth V. a Richard, meibion ei frawd Iorwerth IV.; ac er fod y cleddyf wedi ei weinio, yr oedd yr hen deimladau eiddigeddus a chwerylgar rhwng yr Yorkiaid a'r Lancastriaid yn parhau. Perthynai Risiart i deulu York, ond nid oedd yn barchus hyd yn nod gan ei blaid ei hun; ac ofn carfangau y fath ormesydd creulawn oedd unig darian ei orsedd. Gafael gwan sydd gan ofn brenin ar ddeiliaid, a dechreuwyd cynllwyn diorseddiad Risiart, a phenodi ar y pendefig ieuanc Harri Tudur i gymeryd ei le. Llwyddodd y Lancastriaid i enill cryn lawer o'u gwrthwynebwyr yn bleidwyr iddynt trwy awgrymu y gallai Harri briodi, Elizabeth, merch i Iorwerth IV., yr hon a gynrychiolai waed Yorkaidd y teulu breninol, ac felly uno y ddau deulu, a rhoddi terfyn ar yr ymrafaelion blinderog a ffynai. Bu Harri yn wrthddrych eiddigedd y llys o'i ieuenctyd, a threuliodd y rhan fwyaf o'i amser rhwng pump a phump ar hugain oed naill ai yn ffoadur neu yn ngharchar, a'r pumtheg mlynedd olaf o honynt gan mwyaf yn Ffrainc. Yr oedd y ddryghin yn darllaw yn raddol, Harri yn Ffrainc, a'i bleidwyr yn

Digitized by Google

Mhrydain yn parotoi, ac nid oedd y fath lwynogyn â Risiart yn ddiwybod na diystyr o'r cynllwyn oedd ar droed yn ei erbyn. Pleidiwr dygnaf ac urddasolaf Harri yn y wlad hon ydoedd y Dug o Buckingham. Y pendefig hwn a ymegniai yn bybyr tros y tywysog; a chan fod y brenin, er mwyn rhagflaenu unrhyw aflwydd, wedi peri gosod gwyr o ymddiried yn warcheidwaid milwrol yn y terfynau arforol, nid bychan y rhaid fod dewrder a dyfais y Dug yn ymosod ar y fath orchwyl. Pa fodd bynag, penderfynodd, oherwydd fod ei arwr yn Gymro o waedoliaeth, y gweithiai ar y nwyd o genedlgarwch, ac y mynai ganiatad iddo i lanio yn Nghymru. Arglwydd Deheubarth Cymru ar y pryd oedd y dewrwych Rhys ab Thomas, yr hwn oblegyd ei fawr gyfoeth, ei ddylanwad, a'i uchelwaed, oedd yn ddarn o frenin yn ei wlad. Ond er cymaint gwladgarwr ydoedd, ac er mor hawdd o'r herwydd a fuasai ei enill yn bleidiwr, eto yr oedd tan lŵ o ffyddlondeb i'w deyrn, a chael ganddo dori y llŵ hwn oedd y gamp. Cymerodd Buckingham wahanol offerynau Lancastriaidd i ddwyn hyn oddiamgylch, a bu gan y personau canlynol law yn y gwaith:—Dr. Lewis, hen athraw Rhys; Morgan o Gydweli, hen gyfaill iddo; Esgob Tyddewi; ac Abad Talyllychau. Yr Esgob, mae'n dra thebyg, a drodd y fantol, trwy ddangos fod y llŵ yn wreiddiol yn annghyfreithlon, ac nad oedd dim gwerth ynddo, gan mai trawsfeddianwr oedd Risiart, wedi dyfod i'r orsedd trwy drais a llofruddiaeth. Dilynwyd esiampl Rhys gan lawer o arglwyddi cymydogaethol o lai dylanwad. Yr oedd y caffaeliad hwn yn chwanegiad dirfawr at nerth Harri, ac er fod gan Risiart yr ymddiried llwyraf yn ngonestrwydd Syr Rhys, eto yr oedd y Cymro â'i holl egni yn cyflawni y pechod hawdd ei faddeu o hyrwyddo y ffordd i laniad yr iarll. Enynid ei sel yn fwy gan lythyrau cyfeillgar a chyfrinachol a dderbyniai oddiwrth Harri yn Ffrainc. Nid oedd yntau ychwaith yn segur. Cartrefai ar y cyntaf gyda Francis II. brenin Llydaw; a thra yno, llwyddodd i gasglu tua 5,000 o wyr, a chyda y rhai hyn efe a hwyliodd o St. Malo, gyda'r bwriad o lanio yn rhyw barth o Loegr; ond cyfarfuant â thymhestl, a gorfu arnynt ddychwelyd. Cymerodd yr ymgyrch hon le cyn dyfod ohono i ddealltwriaeth â R. ab Thomas. Yn fuan cafodd gyfleustra i gyrchu i lys Siarl VII., brenin Frainc, a thrwy fod y penadur hwnw mewn llid i'r brenin Risiart, rhoddodd bob cefnogaeth i iarll Richmond i gasglu gwyr a ffurfio byddin er ymosod ar Loegr. Felly ar ol cynull yn nghylch 2000 o wyr, efe a hwyliodd o Hartleur, yn Normandi, Awst 1, 1485; ac wedi mordaith o chwe' diwrnod, ar gyddealltwriaeth hefo'i gyngreiriaid yn Nghymru, efe a laniodd yn Aberdaugleddyf *(Milford Haven)*. Yr oedd Rhys a byddin o filwyr yno yn ei gyfarfod, ac yn rhoddi derbyniad gwresog iddo fel eu brenin. Yn y cyfamser, yr oedd Risiart wedi symud ei lys i Nottingham, fel lle cyfleus yn nghanol ei deyrnas i wylio y perygl o ba gyfeiriad bynag y deuai. Tuag yno, gan hyny, y wynebodd y cynghreiriaid yn dwy fyddin—y Cymru tan Syr Rhys a Richard Cyffin, deon Bangor, ar hyd un ffordd, a'r Ffrancod, tan Harri, y ffordd arall—gan gytuno cyfarfod yn yr Amwythig. Yr oedd y cynllun hwn yn ateb dau ddyben, sef atal y posiblrwydd o gweryl rhwng y ddwy genedl, ac yn ddyogelach dull o ymdaith. Cymerodd Harri ei daith trwy sir Aberteifi; a choffeir dau le yn y sir hono lle y bu efe yn lletya noswaith, sef y Wernnewydd, yn mhlwyf Llanarth; a Llwyndafydd, yn mhlwyf Llandysiliogogo, lle y lletywyd ef a'i wyr yn anrhydeddus gan Dafydd ab Ioan, perchen y lle, i'r hwn y rhoddes Harri anrheg o gorn yfed hardd, yr

Digitized by Google

hwn sydd yn awr yn meddiant iarll Cawdor. Treuliodd un noson hefyd gyda'r bardd Dafydd Llwyd o Fathafarn, yn sir Drefaldwyn. Rhys ab Thomas a ymdeithiodd trwy sir Frycheiniog, ac yr oedd lluaws mawr yn ymuno tan ei faner yn y parthau hyny. Cyfarfyddodd y ddau lu ar fynydd Dugoll, rhwng Trallwm a'r Amwythig, a gwersyllasant yno. Yna ymdeithiasant tua Nottingham, gan dderbyn adgyfnerthion cryfion ar y ffordd; a phan glybu Risiart fod y gelyn mor agos, a bod Syr Rhys wedi ymuno ag ef, efe a ymgynddeiriogodd yn ddirfawr, ac a ymdeithiodd i'w cyfarfod. Dygai Harri ar faner ei fyddin yr hen arwyddlun breiniol Cymreig, "*Y Ddraig Goch*," a'i faneryddd ydoedd Rhys ab Meredydd, o Hiraethog, gwr o ddewrder mawr a nerth corphorol digyffelyb. Daeth y ddau allu gwrthwynebol i wyneb eu gilydd gerllaw Leicester, mewn lle a elwid maes Bosworth, Awst 22, 1485. Ystyrid nad oedd rhifedi gwyr Harri ond 6,000, tra yr oedd byddin Risiart yn fwy na chymaint arall. Dechreuwyd y frwydr yn uniongyrchol, a châd greulawn a gwaedlyd a fu. Yr oedd y brenin ei hun yn ymladd yn mhoethder y frwydr, a lladdodd un neu ddau o wyr cyfrifol a'i law ei hun; a lladdwyd ei farch tano. Ymosododd efe a'i wyr mor ffyrnig ar y dosparth yr oedd Harri ynddo, fel y bu dyogelwch yr iarll am yspaid mewn cryn enbydrwydd. Ond yr oedd eu casineb at y brenin wedi peri i lawer o wyr ei adael. Yr oedd arglwydd Stanley, llys-dad Harri, er mewn rhith yn pleidio Risiart, eto yn cadw ei wyr yn llonydd. Eithr pan welodd Rhys ab Thomas y perygl yr oedd Harri ynddo, efe a ddanfonodd genad i hysbysu Stanley, ac efe ar hyny a unodd ei lu gyda'r eiddo Rhys; a rhuthrasant yn eofn yn erbyn y brenin. Pan ganfu Risiart fod Stanley hefyd wedi ei adael, efe a alwodd am gawg o win, a chan eistedd ar ei farch, trodd at Rhys Fychan, boneddwr o Wynedd, yr hwn a lynasai wrtho yn ffyddlon hyd y diwedd, ac a ddywedodd wrtho, "Dyma i ti, Fychan, y Cymro cywiraf ei galon a gefais erioed." Yna yfodd y gwin, a thaflodd y cwpan tros ei ben, rhuthrodd yn orwyllt i ganol y gelynion, a lladdwyd ef cyn pen ychydig fynydau. Dywed yr hanesion Cymreig mai Rhys ab Thomas a roddes iddo yr ergyd farwol, ond nid oes sicrwydd diamheuol ar y pwnc. Wedi enill buddugoliaeth fel hyn, cymerwyd y goron oddiar ben Risiart, a dodwyd hi ar ben iarll Richmond, a chyhoeddwyd ef yn y fan a'r lle yn frenin Lloegr, tan y teitl Harri VII. Fel hyn y codwyd y gwaed Cymreig i orsedd Prydain; ac yn fuan y brenin a briododd y dywysoges Elizabeth, a thrwy hyny unwyd y Ddau Rosyn; gosodwyd terfyn ar y rhyfeloedd mileinig a fuasai am 30 o flynyddau yn rhwygo y deyrnas, yn mha rai yr ymladdwyd 13 o frwydrau, y lladdwyd can' mil o wyr, yn mhlith pa rai yr oedd pedwar ugain o arglwyddi uchel fonedd. Harri VII. ydoedd y cyntaf o'r linach Duduraidd a fu yn eistedd ar orsedd Prydain. Ystyrid ef yn benadur synwyrol a doeth, er y cyhuddir ef o gybydd-dod, ac o annghofio ei gymwynaswyr. Pa fodd bynag, ymddygodd yn dra chanmoladwy tuag at y Cymry. Dyddimodd y cyfreithiau gorthrymus a osodasid arnynt gan eu gorchfygwr Iorwerth I.; urddodd Rhys ab Thomas yn farchog, a rhoddes iddo gryn lawer o chwanegiad cyfoeth a swyddau yn Neheubarth Cymru, a chofiodd yn anrhydeddus am amryw o'i gynorthwywr Cymreig. Gan nad oedd ei daid, Owain Tudur, ond boneddwr cyffredin mewn ystyr, edliwiwyd i'r brenin ei darddiad isel, ac o ganlyniad efe a orchymynodd ffurfio dirprwyaeth i chwilio allan ei achau, yr hon a gynwysai, Abad Llanegwestl; Dr. Owen Pool, canon Henffordd; John King, Syr John Siryf offeiriad,

Digitized by Google

a Gyttun Owain, arwydd-feirdd; Gruffydd ab Llywelyn ab Ieuan Fychan; Madog ab Llywelyn ab Hywel; Robert ab Hywel ab Thomas; ac eraill. Wedi manwl chwilio yr hen ach-lyfrau Cymreig a Lladin, dychwelasant gyda'r adroddiad yn dangos ei fod yn tarddu o du tad a mam o freninoedd Prydain, a bod Owain Tudur yn disgyn yn y 40fed radd o Beli Mawr, brenin Prydain, ac yn yr 17eg radd o Rhodri Mawr, Tywysog Cymru oll, &c. Yr oedd yn amlwg ei fod yn mawrygu ei genedl, er tan orfod i wneud hyny yn gynil rhag digio o'r cydgenedloedd eraill; galwodd ei blentyn hynaf yn Arthur, er cof am yr hen arwr Cymreig; a rhai o wrageidd Cymru a ddewisai yn famaethod i'w b ant—penododd Harri VIII. ugain punt yn y flwyddyn i Philip ab Hywel a'i wraig Jane, "yr hon," meddai ef, "oedd unwaith imi yn famaeth." Bu Harri VII. farw yn Richmond Ebrill 22, 1509, yn 52 oed, wedi teyrnasu agos i 24 o flynyddau. Claddwyd ef yn Westminster, Llundain; a dilynwyd ef i'r orsedd gan ei ail fab Harri VIII.

HERBERT (Arglwydd Edward) o Cherbury, a hanai o hen deulu urddasol Normanaidd-Cymreig yr Herbertiaid o Bowys, ag y mae rhyw un neu gilydd o'r teulu wedi bod yn harddu hanesyddiaeth ei wlad am dros bedwar can' mlynedd. Yr oeddynt yn ddechreuol o sir Benfro, a daethant gyntaf i sir Drefaldwyn tua 1460, trwy briodas Ann, merch William Herbert, iarll cyntaf Penfro, â John, arglwydd Powys. O linach y briodas hon trwy amryw trosglwyddiadau a phriodasau gyda rhai o'r teuluoedd enwocaf yn y deyrnas, y deilliodd gwrthrych hyn o hanes. Edward Herbert oedd y barwn cyntaf o Cherbury, gerllaw Trefaldwyn, gwr tra nodedig fel gwladwriaethwr, rhyfelwr, ac ysgolhaig. Mab ydoedd i Richard Herbert, Ysw. Ganwyd ef yn 1583, mewn lle o'r enw Eyton, yn sir Amwythig; ac yno gyda ei nain yr arosodd am gryn lawer o flynyddau. Yn ei blentyndod, yr oedd mor wanllyd fel braidd y disgwyliwyd iddo fyw; ac mor hir cyn dechreu siarad, fel yr ofnid mae mudan a fyddai dros ei oes. Oherwydd y llesgedd hwn, ni roddid ef tan addysg hyd onid oedd yn saith mlwydd oed. Tua'r pryd hwn, cefnodd ar ei fethiantrwydd, ac anfonwyd am athraw i'w ddysgu yn nhŷ ei nain, a buan y dangosodd gynydd mawr mewn dysgeidiaeth. Cyn gynted ag y daeth yn gymhwys, anfonwyd ef i'r ysgol; ond yno, byddai beunydd mewn rhyw gweryl â'i gydysgolheigion, a hyny hyd yn nod â rhai llawer cryfach nag ef ei hun; eithr er pobpeth, ni cheid ef un amser yn euog o ddweyd anwiredd, a ffieiddiai gelwydd trwy holl ystod ei oes. Arosodd gyda'i nain hyd onid oedd yn naw oed, a'r pryd hwnw bernid mai buddiol fyddai iddo ddysgu yr iaith Gymraeg, tuag at ei wneuthur yn fwy parodol i ymddyddan â'r cyfryw o'i berthynasai a'i denantiaid y rhai ni fedrent yr un iaith arall. I'r pe wyl hwn, danfonwyd ef at Mr. Thelwall, o Blas y Ward, yn Nyffryn Clwyd, yr hwn heblaw ei fod yn Gymro rhagorol, ydoedd hefyd yn dra chyfarwydd mewn Groeg, Lladin, Ffrancaeg, Italaeg, a Spaenaeg, heblaw llawer cangen arall o ddysgeidiaeth. Bu yno am naw mis, ond ychydig a gynyddodd efe mewn dysg, gan ei fod yn cael ei gystuddio gan y cryd am gryn yspaid o'r amser hwnw. Wedi gwella ohono, danfonwyd ef at Mr. Newton, o Didlebury, yn sir Amwythig, lle, mewn llai na dwy flynedd, y cyrhaeddodd y fath wybodaeth helaeth, yn enwedig mewn Groeg a Rhesymeg, fel erbyn ei fod yn 12 oed, bernid ef yn gymhwys i fyned i brif-ysgol Rhydychain, ac yno elai rhagddo gyda chyflymdra mawr. Eithr cyn pen ychydig fisoedd bu farw ei dad, a'i fam a ddanfonodd am dano adref dros ryw dymhor, ac wedi hyny dychwelodd i Rydychain drachefn. Yn nghylch

Digitized by Google

y pryd hwn ffurfiwyd telerau priodas rhyngddo ef a chares ieuanc iddo yn y Deheubarth. Hyn, am fod yr amgylchiadau yn lled hynod, sydd briodol iawn i'w hadrodd yma, a hyny, yn fyr ydoedd fel y canlyn:—Yr oedd Syr William Herbert, o St. Gilians, wedi marw a gadael ei unig ferch yn etifeddes o'i holl berchenogaethau yn swydd Fynwy ac yn Iwerddon, a hyny ar y telerau o fod iddi briodi boneddwr o'r cyfenw HERBERT, ond o ddiffyg hyny bod i'r tiroedd fyned i etifeddion gwrywaidd y dywededig Syr William, a'r ferch i gael dim ond ychydig gynysgaeth. Oddiar yr ystyriaethau hyn, golygid y boneddwr ieuanc, am yr hwn yr ydym yn sôn fel cydwedd tra addas i'r etifeddes grybwylledig nid yn unig am ei fod o'r enw oedd yn ofynol, eithr hefyd am y byddai i'r cyfryw briodas gysylltu drachefn ddwy gangen arbenig o'r Herbertiaid. Felly yr aeres grybwylledig, ar ol i'w thad farw, a barhaodd heb briodi hyd onid oedd yn 21 oed; a chan na ddaeth yn mlaen yn y cyfamser yr un o'r cyfryw enw, o oedran a chynysgaeth addas i'w dyweddio, a chan fod gwrthddrych ein hanes erbyn hyny wedi cyrhaeddyd 15 oed, priodwyd hwy ar yr 28ain o Chwefror, 1598, yn ei dŷ genedigol ef yn Eyton, a hyny drwy weinyddiad yr un offeiriad ag a'i bedyddiasai ef, ac hefyd a briodasai ei dad a'i fam! A chan nad oedd efe eto wedi gorphen ei ysgol, cymerai ei wraig a'i fam gydag ef i Rhydychen, a dilynodd ei ddysgeidiaeth yn ddiwyd iawn hyd nes cyrhaeddodd 18 oed. Yna ei fam a gymerai dŷ yn Llundain, ac weithiau yno, a phryd arall yn Nghastell Trefaldwyn, y treuliai efe ei amser hyd nes ydoedd yn 21 oed, erbyn yr hwn amser yr ydoedd efe yn dad amryw o blant. Ei fam hefyd a ymddiredai iddo ef y gofal o ddarparu cynaliaeth i'w frodyr, a chynysgaeth i'w chwiorydd. Ei fynediad i Lundain ydoedd tua'r flwyddyn 1600; ac yn fuan wedi hyny y bu iddo—fel yr oedd yn arferedig i wr o'i urddas ef—ymddangos yn y llys breninol. Ac ar y cyfryw achlysur yr oedd yn ddefod i'r pendefigion benlinio pan fyddai perchenog y goron yn myned heibio iddynt; a chan mai y frenhines Elisabeth oedd y pryd hwn ar yr orsedd, felly fel yr oedd hi yn pasio drwy yr ystafell gyfarchfa ar ei mynediad i *Whitehall*, yn mysg eraill, canfu yno un gwyneb anadnabyddus, a chan sefyll ar gyfer Herbert, gofynai, "Pwy yw hwn?" I'r hyn yr atebai Syr James Croft mai pendefig ieuanc yr hwn yn ddiweddar a briodasai etifeddes Syr Wm. Herbert, o St. Gilians. Wrth glywed hyn ei Mawrhydi a graffai arno yn fanylach a chan ddefnyddio ei llw arferol, hi a ddywedai, "Gresyn ddarfod iddo briodi mor ieuanc;" ac ar hyny dodai iddo ei llaw i'w chusanu ddwywaith, gan ei gnithio yn araf ar ei rudd bob tro, Yn fuan wedi hyn daeth y brenin Iago I. i'r orsedd, a Herbert ydoedd yn mysg y rhai a osgorddient ei Fawrhydi i Lundain, a chyn hir ar ol hyny dyrchafid ef i raddoliaeth Caer-Baddon *(Order of the Bath)*. A phan oedd Iarll Nottingham, fel arglwydd lyngesydd, yn myned i Spaen i gadarnhau telerau heddwch, rhwng Lloegr a'r wlad hono, bwriadai Herbert fyned gyd ag ef, ond ei deulu a lesteirient ei amcan; ac yn lle y fordaith hono gwneid ef yn uchel-sirydd swydd Drefaldwyn. Wedi byw ohono felly gyda'i wraig yn nghylch deng mlynedd, a bod iddynt amryw blant, codai ynddo awydd cryf i weled gwledydd tramor, a phan gafodd gyfle amlygodd y bwriad hwn i'w arglwyddes, gan egluro y rhesymoldeb o'r amcan, sef gan ei fod yn rhy ieuanc i fyned i'r fath daith cyn priodi, nad oedd dim anweddeidd-dra iddo fyned yn awr, er mwyn cael gweled mwy o'r byd: ac rhag bod i ddim ddamweiniaw iddo ef neu hithau yn eu habsennoldeb oddi wrth eu gilydd, y byddai yn ddoethineb

Digitized by Google

iddynt yn gyntaf peth drefnu eu hetifeddiaethau rhwng eu plant: ac â'r telerau hyn yr arglwyddes, rhwng bodd ac anfodd, a roddodd ei chydsyniad. Felly yn fuan ar ol hyn ymddarparai i'w daith, gan fyned drosodd i Ffrainc; ymwelai hefyd ag amryw o wledydd y Cyfandir ar wahanol amseran, ac enwogai ei hun yn ddirfawr yn y fyddin yn amser gwarchenad Juliers. Yn y fl. 1616, anfonid ef yn negesydd dros frenin Lloegr i lŷs Lewis XIII. yn Ffrainc: ond gelwid ef yn ol oherwydd rhyw amrafael a godai rhyngddo â'r Constable de Luynes. Ond am ei helyntion mewn gwledydd tramor, byddai yn rhy faith i ni eu hadrodd, heblaw ein bod yn barnu na foddient ond ychydig ar archwaeth y darllenydd Cymreig, yn gymaint mai hynodrwydd mwyaf ei nodweddiad ydoedd y nifer mawr o ornestion a ymladdai, yr hyn a ystyrid yn wrhydri nid bychan mewn gwr boneddig yn y dyddiau hyny. Yn y fl. 1625, gwnaed ef yn farwn yn nheyrnas yr Iwerddon; ac yn 1631 dyrchefid ef i Dŷ Arglwyddi Lloegr. Bu farw yn y flwyddyn 1648, a chleddid ef yn St. Giles yn Llundain, er ei fod wedi amcanu cael ei gladdu gyda ei henafiaid yn Eglwys Trefaldwyn. Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau dysgedig. Y cyntaf o'i eiddo a gyhoeddwyd yn Mharis pan oedd efe yn llys-genadwr yno, yn dwyn y teitl Lladin, "Tractatus de Veritate," 1624; yn 1633, cyhoeddodd argraffiad helaethach o'r unrhyw; ac un arall yn 1645, yn nglyn a pha un yr oedd traithawd arall, "De Religione Gentilium," &c. Ar ol ei farwolaeth, cyhoeddwyd dau waith mawr o'i eiddo; un yn Lladin, a'r llall oedd "Life and Reign of King Henry VIII." wedi ei gyflwyno i'r brenin Siarl I. Gesyd y gweithiau hyn ef yn y rhestr gyntaf o hanesyddwyr, ac yn feddyliwr gwreiddiol a nerthol. Arosodd ei Fywgraffiad, a ysgrifenasid ganddo ef ei hun, heb ei gyhoeddi hyd 1764, pryd yr argraffwyd ef gan Horace Walpole.—*Gwladgarwr* iv. 115; Wms. *Em. Welsh.*

HERBERT (Syr Edward), barwnig, arglwydd-geidwad y sel fawr, ydoedd fab i Charles Herbert, Ysw., o Aston, sir Drefaldwyn, a chefnder i arglwydd Herbert o Cherbury. Ganwyd ef yn 1591. Bu am ei dymhor yn Rhydychain, ac yna ymroddodd i astudio y gyfraith yn Lincoln's Inn, a hyny gyda'r fath ddyfalwch fel pan y galwyd ef at y bar y darfu i'w gysylltiadau teuluaidd a'i ddiwydrwydd ef ei hun ddwyn iddo ddigon o waith yn ebrwydd. Enillodd ei alluoedd gyda'i alwedigaeth iddo swydd o gyfreithiwr cyffredinol yn Ionawr 1640; a dadleuwr cyffredinol yn Ionawr, 1641, pryd y rhoddodd ei le i fynu fel aelod Seneddol. Y flwyddyn ganlynol, cyhuddwyd ef gan Dy y Cyffredin o gynghori ac anog gweithrediadau y brenin Siarl I., pryd y cafwyd ef yn euog, ac y carcharwyd ef. Wedi ei ryddhau, efe a ymunodd â'i frenin yn York, a pharhaodd yn ffyddlawn iddo trwy holl gyfyngderau y rhyfel cartrefol. Yn 1647, ymnoddodd yn Holland, lle yr ymunodd â llys Siarl; ac wedi gorchfygiad y teyrn ieuanc yn mrwydr Worcester yn 1651 ymunodd ag ef yn Paris, lle y dodwyd arno yr anrhydedd yn 1653 o arglwydd-geidwad y sel fawr. Pan ymadawodd ei noddwr mawrfrydig y Tywysog Rupert am Germani, disodlwyd ef o'i swydd trwy gynllwynion ei wrthymgeisydd annghydmodlawn Syr Edward Hyde, wedi hyny arglwydd Clarendon; ac yn Mai, 1654, efe a ddiswyddwyd. Ni chyfarfyddodd efe byth mwyach â'r brenin; a chan yr ystyriai ymddygiad y teulu tuag ato yn dra anngharedig, er mwyn pa rai yr oedd efe wedi gadael ei alwedigaeth, ei deulu, a'i wlad, torodd bob cysylltiad â hwynt, eithr ni cheisiodd ymheddychu â'r blaid werinol, yr hon a gasai i'r eithaf. Wedi dihoeni dair blynedd mewn dinodedd

Digitized by Google

hollol, bu farw yn Paris tua therfyn 1657. Pan ddychwelodd y teulu breninol, tan Siarl II., cydnabyddwyd ei wasanaeth, a noddwyd ei deulu. Dyrchafwyd ei fab hynaf i swydd uchel yn y fyddin, a chyfarfyddodd â'i ddiwedd tra yn ymladd tros y brenin Gwilym III. yn mrwydr Aghrim. Ei ail fab ydoedd y swyddog morwrol enwog, yr hwn a fu yn ymfrwydro yn Beachy Head, ac a wnaed yn iarll Torrington. Ei drydydd mab a ddaeth yn brif farnwr y Freninfainc tan Iago II., a dilynodd y teyrn hwnw i'w alltudiaeth, ac a wnaed ganddo yn geidwad y sel fawr.—Campbell's *Lives of the Lords Chancellors and Keepers*, cyf iii.

HERBERT (Parch. George), M.A., ydoedd bumed brawd yr Arglwydd Herbert o Cherbury, ac a anwyd yn Nghastell Powys yn 1593. Cafodd elfenau cyntaf ei ddysg gartref gan ei fam hyd onid oedd yn ddeuddeg oed, ac yna danfonwyd ef i ysgol Westminster, a phan tua phumtheg oed, ac efe ar y pryd yn ysgolor y brenin, cafodd ei ethol i goleg y Drindod, Caergrawnt tua 1608. Daeth yn gymrawd yn ei goleg yn 1615, ac etholwyd ef yn ddarlithydd cyffredinol yn 1619, yr hon swydd yn yr oes hono oedd o gryn bwysigrwydd, ac a ddaliwyd ganddo am wyth mlynedd. Yn ystod yr amser hwnw, meistrolodd yr Italaeg, yr Hispaenaeg, a'r Ffrancaeg, yn y disgwyliad y penodesid ef yn ysgrifenydd y wladwriaeth fel ei ragflaenoriaid yn yr un swydd, Syr Robert Naunton a Syr Francis Nethersole; ac yr oedd mewn parch mawr gan y brenin a chan brif arglwyddi y tir. Siomwyd ef yn ei obeithion hyn, trwy farwolaeth Iago I.; ac yna trodd ei sylw at dduwinyddiaeth, a chymerodd urddau eglwysig. Yn 1624, cafodd brependiaeth yn mhrif eglwys Lincoln; ac yn 1630, priododd, a chafodd rectoriaeth Bemerton, ger Salisbury, lle y cyflawnodd ddyledswyddau ei weinidogaeth yn dra anrhydeddus. Bu farw o'r clefyd a elwir *quotidian ague* yn 1632. Y mae ei farddoniaeth yn perthyn i'r un dosparth â'r eiddo Donne, Quarles, a Herrick. Cyhoeddwyd ei bryddestawd a ddygai y teitl, "The Temple," a "Sacred Poems and Private Ejaculations," yn Llundain yn 1635, a'i brif waith rhyddieithol, "The Priest and the Temple," yr hwn sydd yn rhoddi i lawr reolau rhagorol pa fath fuchedd y dylai clerigwr gwledig ei harwedd. Cyfieithodd ddarn o waith Cornaro ar Gymedroldeb, a phryddestau Lladin eraill. Cyflwynwyd iddo lyfr o benillion Lladin gan y Dr. Donne, a chyfieithiadau o'r Salmau i fydriaith Seisnig gan arglwydd Bacon. Dywedir mai efe ydyw awdwr y llinell tra phrydferth ac adnabyddus hono, "God tempers the wind to the shorn lamb;" tra yr haera eraill mai ei chyfieithu yn unig a ddarfu o waith Henri Estienne, Ffrancwr.—Brython ii. 26; Isaak Walton's *Life of G. Herbert*.

HERBERT (William), iarll Penfro, ydoedd gymeriad enwog yn amser Iorwerth IV., a mab i Syr William ab Thomas, o Gastell Raglan, yn sir Fynwy, o Gwladys, ferch i Syr Dafydd Gam. Gan ei fod yn bleidiwr gwresog i deulu York, ymladdodd amryw frwydrau yn erbyn y Lancastriaid, a chyn gynted ag yr esgynodd Iorwerth IV. i'r orsedd, gwnaed ef yn un o'i gynghor yn Mai 1461, yn wobr am ei ffyddlondeb a'i wrhydri, a gwnaed ef yn brif-farnwr ac ystafellydd Deheubarth Cymru, hefyd yn oruchwyliwr cymydau Caerfyrddin a Cheredigion, ac yn brif goedwigwr y siroedd hyny tros ei oes. Yn Medi yr un flwyddyn, tra yn dwyn yr urddenw o Syr Wm. Herbert, barwnig, rhoddwyd iddo oruchwyliaeth ar gastell ac arglwyddiaeth Brycheiniog, ac ar yr holl gastellau perthynol i'r dug o Buckingham yn Neheudir Cymru. Yn mhellach, fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth mawr yn y senedd a ddechreuodd yn

Digitized by Google

Westminster Tach. 4, yn yr un flwyddyn, gwnaed ef yn farwnig y wladwriaeth ; a Mai 27, yn yr 8fed flwyddyn o deyrnasiad Iorwerth IV., gwnaed ef yn iarll Penfro. Yn 1469, anfonwyd ef i'r Gogledd yn ben ar 8,000 o wyr i roddi terfyn ar wrthryfel Lancastriaid ; eithr wedi brwydr â'r gelynion mewn lle o'r enw Danesmore, ger Banbury, ei fyddin a lwyr orchfygwyd, a chymerwyd ef a'i frawd, y dewrwych Syr Risiart Herbert, yn garcharorion a dienyddiwyd y ddau trwy orchymyn y dug o Clarence ac iarll Warwick. Am y rhan a gymerasant yn ngwarchaead Castell Harlech, gweler tan y penawd EINION.

HEILYN (PETER), D.D., o deulu Pentre Heilyn, sir Drefaldwyn, a nai i Rowland Heilyn, y cyhoeddwr llyfrau Cymreig rhadlawn a buddiol. Oblegyd ei amryfal weithiau hanesyddol gwerthfawr, geilw y Saeson ef, "*Peter Heilyn, the Historian.*" Addysgwyd ef yn ngholeg Magdalen, Rhydychain, a derbyniwyd ef yn aelod o'r coleg hwnw. Bu am yspaid yn gapelwr i'r iarll Danby : ac yn 1631, cafodd brependeriaeth yn Winchester, a'i ddyrchafu yn gapelwr i'r brenin. Yn 1633, graddiwyd ef yn D.D., a derbyniodd fywioliaethau South Wainborough ac Arlesford, yn sir Hamps. Pan yn llanw y swyddau hyn, bu mewn dadl ar bwnc y "Sabbath" ag Archesgob Williams, y pryd hyny yn esgob Lincoln. Wedi ei ddyrchafu fel hyn yn gyflym yn yr Eglwys, a'i wneud yn archddeon Westminster, torodd y gwrthryfel gwladol allan, a chan ei fod yn eglwyswr gorselog a breniniaetholydd, yr oedd yn un o'r rhai cyntaf a gyhuddwyd yn amser Cromwell. Yn 1643, efe a ddeolwyd o'i holl lcoedd eglwysig, a chymerwyd ei lyfrau, ei ŷd, a'i anifeiliaid, gan y llywodraeth ar y pryd. Dygwyd ef i dlodi, a bu yn crwydro y wlad o tan wahanol ffugenwau, gan ymddibynu ar elusen, lle y caffai, ac wedi anfon ei wraig i Lundain at ei pherthynasau. Wedi hyny bu yn dal tir am beth amser, ac yn ysgrifenu o blaid yr eglwys a'r brenin. Pan adferwyd Siarl II., adferwyd iddo yntau ei holl feddianau. Ei lafurwaith llenyddol sydd fel y canlyn :—1, "History of the Reformation ;" 2 "Spurms, a tragedie," 1616 ; 3 "Theomachia, a com." 1618 ; 4 "Microcosmus, a description of the great World," 1622—enlarged in 1652—82 ; 5 "History of St. George of Cappadoccia," 1631 ; 6 "An Appeal, or Declaration of Power ;" 7 "Augustus," 1632 ; 8 "History of the Sabbath," 1636 ; 9 "A Coal from the Altar," 1636 ; 10 "Ecclesia Vindicie ;" 11 "Lincolniensis," 1637 ; 12 "Historical and Miscellaneous Tracts,"—yr hwn a gynwys agos yr oll o'i weithiau ; 13 "Roundhead Remembrances," 1643 ; 14 "History of the Life & Death of Archp. Laud," 1671 ; 15 "History of the Presbyterians," 1670. Y ddau olaf a gyhoeddiwyd wedi ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Mai 8, 1662.

HEILYN (ROWLAND), a anwyd yn sir Drefaldwyn, ac a hanai o hen deulu urddasol yr Heilyniaid o Bentrcheilyn, yn mhlwyf Llantysilio. Y teulu a gymerasant yr enw oblegyd eu bod o oes i oes yn drulliaid i dywysogion Powys. Ymsefydlodd Rowland Heilyn yn Llundain, a dringodd i fod yn henadur a sirydd y ddinas hono. Dylai ei enw fod yn barchus byth gan y Cymry, canys i'w haelioni ef yr oeddynt yn ddyledus am yr argraffiad cyntaf wyth plyg o'r Bibl Cymraeg, yr hwn a gyhoeddwyd yn benaf ar ei draul ef yn 1630. Cyhoeddodd hefyd y llyfr "Ymarfer Duwioldeb," a "Geiriadur," er lles ei gydwladwyr. Bu farw yn ddietifeddyn 1634, a daeth ei feddianau yn eiddo teulu o'r enw Congreve.—Wms. *Em. Welsh.*

HILLYN, bardd enwog, yn ei flodeu rhwng 1280 a 1330. Y mae dau

Digitized by Google

ddernyn barddonol o'i waith wedi eu hanerch at Ieuan Llwyd ab Ieuan ab Gruffydd Foel i'w gweled yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

HERRING (PARCH. JOHN), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Aberteifi. Mab ydoedd i rieni parchus ond tlodion o'r enw Thomas a Sarah Herring, y rhai a drigianent yn mhlwyf Llanyspyddyd, sir Frycheiniog, lle y ganwyd ef yn 1789. Gan i'w dad farw pan nad oedd efe ond plentyn, dygwyd ef wyneb yn wyneb â'r byd yn gynar, a gorfu arno droi allan yn was bach i amaethwyr pan nad oedd ond wyth neu naw oed. Treuliodd rai blynyddau gyda'r gwaith hwn, ac yna symudodd i ardal y gweithfeydd pan tua deuddeg oed. Pan yn bumtheg oed, derbyniwyd ef yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Sirhowy; ac yn mhen ychydig o flynyddau, dechreuodd bregethu, pryd y darfu i'w yspryd tanllyd a'i hyawdledd hedegog enill iddo glod llydan mewn byr amser. Dywedai Sami Shon, hen Gristion digrifol a chywirgalon o Lanwenarth, pan y gwrandawodd ef y tro cyntaf, ar y dechreu yn lled isel, "Y mae peth o swn y nefoedd gyda thi, fachgen;" ond ar ganol y bregeth, dyna'r waedd fawr gan Sami, "Amen! dyma fachgen wedi ei doddi yn ffwrnes Calfaria." Bu yn pregethu felly am dair neu bedair blynedd, ac yna anfonwyd ef i athrofa Caerodor, y pryd hwnw o tan ofal Dr. Ryland, lle y profai fod ganddo alluoedd i ddysgu unpeth a osodid o'i flaen. Er hyny, nid oedd ganddo ond ychydig archwaeth i aros yn hir yn y coleg, yn hogi ei gryman tra yr oedd y meusydd yn wynion i'r cynhauaf; "beth dâl i mi," meddai, "ddweyd wrth fy mrodyr fy mod yn deall gramadeg, os nad allaf bregethu." Wedi treulio blwyddyn yn y coleg, derbyniodd alwad oddiwrth eglwys Aberteifi, ac urddwyd ef yn weinidog yno Mehefin 11, 1811, pan yr oedd yn 22 oed. Ymroddodd i lanw dyledswyddau ei offeiriadaeth bwysig gyda holl egni ei gyneddfau cryfion a'i ddoniau rhyfeddol; llwyddodd ewyllys yr Arglwydd i raddau helaeth yn ei law; ac yn 1819, helaethwyd ei addoldy yn gymaint arall, ac er hyny yr oedd yn llawer rhy fach. Cangen eglwysi perthynol i'w weinidogaeth ef hefyd oedd Cilgeran a'r Ferwig; a chafodd arddeliad mawr ar ei lafur yn y manau hyny. Yn mhellach, bu Mr Herring yn brif foddion yn 1821 i sefydlu cenadaeth gartrefol yn sir Aberteifi, a chyda'r symudiad hwnw llafuriodd yn ddyfal a llwyddianus hyd ei farwolaeth; a bu yn offeryn i blanu achosion bychain hyd y wlad, y rhai sydd bellach yn eglwysi blodeuog. Yr oedd yn mhob ystyr yn deilwng o'i restru gyda chewri yr ardithfa Gymreig—yn ymadroddwr rhwydd a naturiol iawn; yn draddodwr medrus a dylanwadol, ac yn llawn o'r tân Cymreig gogoneddus fyddai yn llosgi mor danbaid ar allorau gweinidogaeth yr hen bobl; yn feddyliwr cryf a threfnus; a'i bregethau wedi eu trwytho o ystôr helaeth ei wybodaeth Ysgrythyrol âg adnodau cymhwys i'r pynciau fyddai ganddo tan sylw. "Mae Mr. Herring," ebai Christmas Evans, "yn feddianol ar fwy o dalentau sydd yn gwneuthur i fynu wir fawredd pregethwr nag un dyn sydd yn Nghymru; nid yw byth yn treulio ei nerth yn ofer i guro haiarn oer." Yr oedd delw y cysegr sancteiddiolaf ar ei waith, ol ei fynediad mynych i wyddfod y Secinah Dwyfol ar ei bregethau, a phrofion lawer ei fod wr mawr mewn gweddi. Y mae ei farn am y gras hwnw yn werth ei ail argraffu yma:—"Yr unig foddion i orchfygu Satan yn ei hudoliaethau, ei fygythion, a'i ddichelion, yw myned ar ein gliniau. Mae Satan bob amser yn saethu i fyny, fel y Ffrancod. Pan y byddom ar ein gliniau mae ei saethau yn myned dros ein penau. Pan gafodd ef Dafydd i nen y tŷ, efe a'i saethodd cyn dyfod ohono i

Digitized by Google

lawr. Ar ei liniau y daeth Jacob yn dywysog,—ar ei liniau y gorchfygodd gyda Duw; ac os gallaf finau orchfygu gyda Duw mewn gweddi, mi a orchfygaf gyda dynion, ac a orchfygaf holl alluoedd y fagddu, a holl lygredd fy nghalon fy hun." Cystuddiwyd ef yn drwm am flynyddau olaf ei oes, a bu ei afiechyd am bum' mlynedd yn cynyddu arno yn raddol a pharhaus, a'r ddwy flynedd olaf poenid ef yn fawr gan ddiffyg anadl, nes llwyr atal ei ddefnyddioldeb cyhoeddus, a'i gyfyngu i'w ystafell. Bu farw Ebrill 12, 1832, yn 43 oed; a chladdwyd ef wrth gapel Cilfowyr.

HOPKINS (EDWARD), ydoedd enedigol o Gaerdydd, eithr a symudodd pan yn ieuanc i Lundain, lle y daeth yn fasnachwr llwyddianus. Ymfudodd i'r America yn Meh. 1637; ac ymsefydlodd yn Hartfford, Connecticut. Yno dewiswyd ef yn llywydd y dalaeth o 1648 hyd 1654. Wedi hyny, dychwelodd i Lundain, lle y bu farw Mawrth 1657.—*Hist. of Rhode Island*, ii. 213.

HOPKINS (JOHN), ydoedd frodor o Nedd, yn Morganwg; ac yn disgyn o fardd enwog a elwid Hobcyn ab Tomos. Yr oedd Thomas Sternhold yn briod â chwaer iddo. Darfu iddo, mewn cyssylltiad â Sternhold, droi y Salmau ar gân yn Seisnig, y rhai ydynt mewn cymaint bri yn yr iaith hono, ag ydyw gwaith Edmwnt Prys, yr archddiacon, yn Gymraeg.—*(Iolo MSS.)*

HOPCYN AB TOMOS AB EINION, ydoedd o Dir Gwyr, Ynys Dawy, yn Morganwg, ac oedd yn byw yn 1380. Yr ydoedd yn fardd o fri. Y mae o'i eiddo y pethau canlynol:—1, "Englynion Marwnad Dafydd ab Gwilym y Prydydd;" 2, Dammegion."—*(Iolo MSS.)*

HOPKINS (STEPHEN), oedd fab i William Hopkins, yr hwn a ymfudasai o Gaerdydd i'r America, yn 1670. Y mae rhai o'r teulu yn byw hyd yn awr yn Nghaerdydd. Ei fam ydoedd Ruth, merch y Parch. Wm. Wilkinson, pregethwr gyda'r Bedyddwyr yn Providence. Cafodd ei ddysg yn yr ysgol gyffredin, a gwnaeth y goreu ohoni. Bu yn arolygwr ar yr ysgol am lawer o flynyddau. Cyflawnodd swydd barnwr yn 1728, cyn bod ohono yn 21 oed. Dewiswyd ef i gynrychioli tref Satuate yn y cynulliad cyffredinol, a phenodwyd ef yn farnwr y sesiwnau; ac yn 1723, yn brif-farnwr y llys hwnw, yr hyn a gyflawnodd gydag anrhydedd mawr. Yn 1757, dewiswyd ef yn brif-farnwr y goruwchlys; ac yn 1754, penodwyd ef yn rhagswyddwr Ynys Rhode i'r gymanfa a ymgyfarfu yn Albany i sicrhau y pum' gallu Indiaidd yn y rhyfel Ffrengig agoshaol, a chael undeb rhyngddynt â Threfedigaethau Prydain Fawr. Yn yr ymryson rhwng y Trefedigaethau a Phrydain, cymerodd ran fore yn mblaid y cyntaf, ac ysgrifenodd lyfr tan yr enw, "Rights of Colonies considered," yr hwn a gyhoeddwyd trwy orchymyn yr Eisteddiad Cyffredinol yn 1765, yn yr hwn y dynoethai amryw o annghyfiawnderau y llywodraeth Brydeinig tuag atynt. Yn 1774, etholwyd ef yn genhadwr tros Ynys Rhode i'r Eisteddiad Cyffredinol, a bu yn cynrychioli yr un lle yn 1775—6; pryd y rhoddodd ei enw wrth Ddatganiad Annibyniaeth yr Unol Dalaethau. Bu farw Gorph. 13, 1785, yn 78 oed.—Yr oedd un arall o'r teulu hwn, o'r enw EZEKIEL HOPKINS, yn fôr-raglaw; ac ail fab i hwnw, STEPHEN HOPKINS, a wnaed yn brif-archwr llynges yr Unol Daleithiau, yn Rhagfyr 1775.

HOPKINSON (FRANCIS), oedd yn disgyn o deulu Cymreig, ond a anwyd yn Philadelphia, America, yn 1737. Daeth yn gyfreithydd enwog, a nodedig am ei arabedd, a'i ddawn farddonol. Efe a ddaeth yn aelod o'r Eisteddfod Gyfandirawl dros Jersey Newydd. Yr oedd yn

Digitized by Google

arwyddo Ardystiad yr Annibyniaeth, a daeth wedi hyny yn enwog fel barnydd yn Philadelphia. Ysgrifenodd amryw lyfrau o blaid eu gwladyddiaeth. Efe ydoedd awdwr "Hail Columbia,"—tôn wladol Americanaidd; ac hefyd, "Battle of the Keggs." Bu farw Mai, 1791, yn 53 mlwydd oed.—Dr. Jones' *Cymry of the* '96.

HOLLAND (Hugh), a anwyd yn Ninbych, ac ydoedd yn fab i Robert Holland, Ysw., bwrdais parchus o'r dref hono. Addysgwyd ef yn ysgol Westminster pan oedd yr hyglod Camden yn athraw yno, o'r hwn le yr etholwyd ef i goleg Trinity, Caergrawnt, yn 1589, a daeth yn gymrawd o'r coleg hwnw. Yna efe a fu yn teithio gwledydd y Cyfandir, ac yn Rhufain siaradodd yn ddiraddiol am y frenhines Elizabeth. Oddiyno aeth i Jerusalem, ac ymwelodd â Constantinopl, lle y galwyd ef i gyfrif am ei enllib yn Rhufain, gan Syr Thos. Glover, y llysgenadwr Seisnig, ac y dodwyd ef am yspaid yn ngharchar. Wedi dychwelyd i Loegr, treuliodd rai blynyddau yn Rhydychain, er mwyn mwynhau manteision y llyfrgell fawr. Ystyrid ef nid yn unig yn fardd Seisnig da, ond yn fardd campus hefyd yn yr iaith Lladin; a chan rai yn deilwng o'i gydmaru â Spencer, Sidney, a phrif feirdd ei oes. Ei weithoedd ydynt:—1, "Verses in description of the cities of Europe;" 2, "Chronicle of queen Elizabeth's Reign;" ac yn 3, gadawodd mewn ysgrifau fywgraffiad meistrolgar o'i gynathraw, William Camden. Hefyd cyhoeddodd yn Llundain, yn 1625, "A Cypress Garland for the sacred forehead of the late sovereign K. James, a poem." Bu farw yn Westminster, Gorph. 23, 1633, a chladdwyd ef yn y fynachlog.—Wood's *Athen. Oxon.; Ancient and Modern Denbigh.*

HOPKINS (Lewis), bardd enwog o Forganwg, a fu farw yn 1770, yn 70 oed.

HOPKIN (William), un o feirdd gorsedd Morganwg, a fu farw yn 1780.

HOPKINS (Parch. William), a anwyd yn Nhrefynwy, yn 1706. Addysgwyd ef yn Rhydd-ysgol ei dref enedigol; ac yn 1724, danfonwyd ef i goleg All Souls', Rhydychain. Graddiwyd ef yn B. A. yn 1728, a'r un flwyddyn cafodd urddau diacon; ac wedi cael curadiaeth Waldron, Sussex, urddwyd ef yn offeiriad yn 1730. Y flwyddyn ganlynol, penodwyd ef yn gurad Buxted a Cuckfield, yn Sussex, hefyd yn athraw cynorthwyol mewn ysgol yn y lle olaf, ac yn fuan rhoddwyd iddo ficeriaeth Bolney yn yr un gymydogaeth. Yn 1756, etholwyd ef yn athraw ysgol ramadegol Cuckfield; ac yn 1763, adolygodd a chyhoeddodd "The Liturgy of the Church of England, in its ordinary service reduced nearer the Standard of Scripture." Yn 1772, cyhoeddodd ddau draithawd tan y teitl, "Queries recommended to the consideration of the Public with regard to the thirty-nine Articles;" a chynwysai hefyd lythyr wedi ei gyfeirio at Ddeon Gloucester ar yr un pwnc. Y gwaith diweddaf a ddanfonodd i'r wasg ydoedd, "Exodus," sef cyfieithiad diwygiadol o'r llyfr hwnw, yn nghyda nodiadau beirniadol ac eglurhaol. Bu farw yn 1786, yn 80 oed.—Wms. *Em. Welsh.*

HOWEL (Dafydd), neu *Hywel*, ydoedd fardd gwlad da, a brodor o Werntogws, ger Castell-newydd-Emlyn. Yr oedd yn ei flodeu yn ystod canol y ganrif ddiweddaf, a bu farw tua 1770. Mae lluaws o englynion &c. o'i waith ar gôf gwlad yn y parthau uchod hyd y dydd hwn.

HOWELL (James), awdwr dysgedig lluaws mawr o lyfrau, a anwyd yn Cefn bryn, plwyf Llangammarch, sir Frycheiniog, yn 1594. Bu ei dad, Thomas Howell, yn gurad y plwyf hwn o 1576 hyd 1601, pryd y

Digitized by Google

cafodd fywiolaeth Abernant a Chynwil Caio, yn sir Gaerfyrddin. Addysgwyd James Howell yn rhydd-ysgol Henffordd, o ba le y danfonwyd ef, yn 1610, i Goleg yr Iesu, Rhydychain. Yn y brif ysgol ymroddodd yn ddyfal i efrydu, a chymerodd y radd o B.A. yn 1613. Gadawodd Loegr yn 1819, gan fyned i ymdaith i Holland, Flanders, Ffrainc, Yspaen, ac Itali; a chan fod ganddo gyneddfau cyflym, enillodd wybodaeth helaeth, a meistrolodd amrai o ieithoedd y gwledydd hyny. Yn 1622, danfonwyd ef i'r Yspaen er ceisio adenill llong Seisnig werthfawr, a atafaelid gan is-frenin Sardinia; ac ar ei ddychweliad, penodwyd ef yn ysgrifenydd i Scrope, iarll Sunderland, trwy ddylanwad yr hwn yr etholwyd ef yn aelod seneddol tros Richmond, yn 1626. Yr oedd wedi ei raddio yn gymrawd o Goleg yr Iesu yn 1623. Yn 1630, aeth fel ysgrifenydd gyda Robert, iarll Leicester, yr hwn a benodesid yn llysgenadwr arbenig i lys Denmark; ac yno, ger bron y brenin a'i lys, arddangosodd ei allu areithyddol yn yr iaith Lladin, a derbyniodd ffafrau uchel gan y brenin. Wedi dychwelyd i'r wlad hon, penodwyd ef yn un o ysgrifenyddion y Cynghor yn Llundain; ond oblegyd ei ddiffyg cynildeb carcharwyd ef yn fuan yn ngharchar Ffleet am ddyled, ac yno ymgyflwynodd i gyfansoddi ei lyfrau lluosog. Y mae Wood yn dodi rhestr o 50 neu 60 o'r cyfryw. Y rhai a adwaenir oreu yn bresenol o'i lyfrau ydynt, "Dodona's Grove," yr hwn a gyhoeddwyd gyntaf yn 1639, ac a gafodd y fath roesawiad calonog, fel y gwerthwyd cyn pen hir amser amrai argraffiadau ohono; y llall ydyw, "Epistolæ Hoelianæ," ac adargraffwyd hwn hefyd lawer tro. Ar yr ysgrifbin y dibynai yn benaf am ei fywioliaeth hyd adferiad Siarl II., yr hwn a'i penododd i'r swydd o hanesydd breiniol, a'r hon swydd a lanwodd hyd ei farwolaeth yn 1666. Claddwyd ef yn eglwys y Temple, a cherllaw ei fedd cyfodwyd cofgolofn ac arni gofnod parchus yn Lladin i'w fawr enwogrwydd a'i ddysgeidiaeth; eithr y golofn hon a symudwyd pan yr adgyweiriwyd yr adeilad yn 1683.

HOWELL (JOHN), neu *Ioan Glandyfrodd*, bardd cywrain, a lled enwog yn ei ddydd, a anwyd yn mhlwyf Abergwili, sir Gaerfyrddin, yn 1774, lle ni chafodd ond ychydig addysg yn more ei oes. Rhwymwyd ef yn egwyddorwas o wehydd, a bu yn dilyn y gelfyddyd hono am rai blynyddau; ond gan fod ganddo anian gref at gerddoriaeth, dewiswyd ef yn un o seindorf cartrefu sir Gaerfyrddin. Trwy ymddygiadau da, a'i fedrusrwydd fel cerddor, dyrchafwyd ef i fod yn *fife-major* i'r gatrawd. Gan fod y swydd hon yn caniatau iddo gryn lawer o amser segur, efe a'i cyflwynodd i gasglu gwybodaeth. Barddoniaeth Gymreig a rhifyddiaeth yn benaf a dynent ei sylw. Aeth gyda'i gatrawd i'r Iwerddon, a pharhaodd yn y gwasanaeth cyhoeddus hyd derfyn y rhyfel, ac yna penodwyd ef yn feistr yr Ysgol Genedlaethol yn Llanymddyfri. Yr oedd ynddo gryn gymhwysder i'r swydd, ac yn Llanymddyfri y trigianodd o hyn allan hyd derfyn ei oes, gydag ychydig eithriadau. Parhaodd i efrydu hoff gangenau ei fyfyrdod. Yn 1819, yr oedd yn gydymgeisydd â Gwallter Mechain yn Eisteddfod Caerfyrddin ar awdl y gadair er coffadwriaeth am y Cadfaenor Syr Thomas Picton; ac er i'r prif-fardd o Fanafon enill y dorch, eto cydnabyddwyd ef â thlws. Cyhoeddwyd cyfansoddiadau yr Eisteddfod hono yn 1822, tan yr enw *Awen Dafed*, a'r awdl hon yn eu plith. Yr oedd yn ymgeisydd hefyd yn 1822 am gadair Eisteddfod Aberhonddu; ac er ei fod eto yn afflwyddiannus, canmolid ei awdl yn uchel gan y beirniad, a chyhoeddwyd hi yn *Efrwydd yr Awen*, sef cyfansoddiadau yr Eisteddfod grybwylledig.

Digitized by Google

Penodwyd ef yn un o feirniaid yr Eisteddfod a gynaliwyd yn Nghaerfyrddin yn 1823. Yn 1824, cyhoeddodd gasgliad o waith beirdd yr ardal tan y teitl, "Blodau Dyfed," yn mha un hefyd y mae 19 o'i gyfansoddiadau ef ei hun. Bu yn dihoeni am flynyddau tan afiechyd anfeddyginiaethol, sef y cancr yn yr ymysgaroedd; ac er ei fod ef yn credu ei fod yn gwella, bu farw yn lled sydyn, Tachwedd 18, 1830, yn 56 oed. Claddwyd ef yn mynwent Llandingad, ger Llanymddyfri; gan dyrfa fawr a galarus. Yr oedd yn fardd Cymreig o gryn deilyngdod; yn gynghaneddwr cywrain, er yn ddyffygiol o dân yr awen, ac ehediadau barddonol uchel. Fel cerddor, rhoddid iddo air mawr, ac elai oddiamgylch i ddysgu salm-ganiadaeth yn y gwahanol eglwysi. Yr oedd y drysorfa helaeth o fân-hanesion a dywediadau pert a drysorasai yn ei gôf pan yn gwasanaethu fel milwr, yn ei wneud yn gydymaith dyddan, yr hyn, yn nghyda thynerwch a mwynder ei yspryd, a ffurfiodd iddo gylch eang o gyfeillion cu ac edmygus.

HOWELLS (Parch. Morgan), pregethwr hynod a thra phoblogaidd gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef yn mis Mai, 1794, mewn tŷ a elwid y *Breach*, yn mhlwyf St. Nicolas, Morganwg. Enw ei dad oedd Morgan Howells, ac enw morwynol ei fam oedd Elizabeth Morgan. Yr oeddynt yn dal tyddyn o dir; ac mewn sefyllfa, fel y dywedir, uwchlaw y byd. Bu iddynt dri a blant, sef mab a dwy ferch; bu farw y ddwy ferch yn ieuanc, a Morgan yn unig a adawyd. Yr oedd y tad yn aelod eglwysig yn hen gapel Trehill, ac yn fawr ei haelioni a'i ofal am yr achos; ond y fam dipyn yn fydol ac anhydrin. Pa fodd bynag, cyd-dybient mai buddiol fyddai rhoddi addysg dda i'w hunig fachgen, a danfonwyd ef mewn canlyniad at wreigan o'r enw Margaret Lewis, hen fodo yn byw rhwng y *Ship Court* a Thresimwn, yr hon ni fedrai ond ychydig Saesneg, a'i phrif neillduolrwydd fel ysgol feistres ydoedd tipyn o fedr i ddehongli y breuddwydion a barai hi i'r plant eu hadrodd wrthi bob bore. Yn mhen yspaid, symudwyd ef o ysgol yr hynafwraig, a dodwyd ef tan addysg offeiriad plwyf St. Nicolas, sef y Parch. Mr. Thomas. Nid hir y bu yno, na bu ei dad farw; a chan fod y Cadben Lascells, o'r Cotterell, yn gymun-weinyddwr, cymerodd ddyddordeb mawr yn y bachgen Morgan, gan ei ddwyn ato i'r Cotterell, gofalu trosto, a rhoddi ysgol iddo yr un modd ag yn nyddiau ei dad. Dangosai Mr. Howell duedd gref i fyfyrio tra yn byw yn y palas hwn, darllenai lawer, a chynullodd wybodaeth hanesiol a buddiol; eithr ar yr un pryd yr oedd yn ben campwr pob chwareuaeth a direidi. Yn 1810, ac efe yn 16 oed, rhwymwyd ef yn egwyddorwas o saer yn y Casnewydd, sir Fynwy. Am y misoedd cyntaf o'i drigiant yn y lle hwn, ymollyngodd yn is i rysedd a llygredigaeth; a'i benaf ddifyrwch ydoedd chwareu cardiau, heb un cyfaill na lladmerydd i'w gyfarwyddo a'i gynghori yn ffordd y gwirionedd. Ond o radd i radd dygwyd ef i wrando yr efengyl, a chyn hir, dechreuwyd tybio "fod rhywbeth ar y bachgen." Dechreuwyd ei erlid a'i wawdio yn nheulu ei feistr; a galwent ef yn "*Morgan the Saint.*" Yr oedd gwasgfeydd ei feddwl o tan effeithiau argyhoeddiad yn ddirdynus iawn; a'i drallod yn ngwyneb ei gyflwr anobeithiol yn ysu ei gnawd oddiam ei esgyrn. Edrychai fel dyn wedi dyrysu, a dywedai, "Gwrthodwr iachawdwriaeth wyf fi! gwrthodwr iachawdwriaeth wyf fi!" ond yn nghanol yr aflonyddwych mawr a deimlai, nid ffoi ymaith i chwilio am bleserau y byd a wnaeth, ond penderfynodd ddal i chwilio am Galfaria o ganol mwg a thywyllwch Sinai. Y pryd hwn, mynychai yr *Hope Chapel*, gweinidog yr hwn le ydoedd John Rees,

Digitized by Google

gwr o enwogrwydd mawr yn Nghymru, ac un a lafuriodd gyda llwyddiant annghyffredin wedi hyny yn Rodborough a Llundain; bu y gweinidog hwn yn dra serchus tuag ato yn ei gyfyngder meddwl. Y cyfleustra cyntaf a gafodd aeth i'r cyfarfod eglwysig, ac yno yr oedd yn wylo dagrau yn bidl, ac yn gwaeddi allan am ei fywyd—codai ei ddwylaw i fynu, yna edrychai i lawr, a gwaeddai allan, "*I am lost!*" yna cyfeiriai ei lygaid tuag i lawr, fel pe gwelai lengau o gythreuliaid yn barod i'w dderbyn, a gwaeddai allan yn uwch yn ngeiriau Esay, "*Hell hath enlarged herself, and opened her mouth without measure.*" Yr oedd y gwreichion tân hyn o fynwes y Cymro yn gyru yr eglwys Seisnig yn wenfflam. Cynygiai Mr. Rees y balm, cyfeiriai lygaid y truan at y groes. Yr oedd y cwrdd hwnw yn un tra chynyrfus; teimlid pryder nid bychan yn achos y gwr ieuanc; ac ofnid rhag i'w wasgfeuon dwys ei lwyr lethu. Ymneillduai i fanau dirgel er tywallt ei enaid helbulus ger bron yr Hwn a wyr pa fodd i wella cystal ag y gwyr pa fodd i glwyfo; a chrybwyllir un maes o'r enw "Cae y Parrot," oblegyd mynych y cyrchai efe yno, ac y treuliai haner oriau difrifolaf ei fywyd. Nid llawer o gampwr ydoedd gyda'i gelfyddyd, a byddai ei gydweithwyr yn cymeryd mantais oddiar hyny yn fynych i wawdio ei argyhoeddiadau; ac yn y teulu defnyddid ei hynodion naturiol i geisio ei wneud yn "ffŵl y tŷ." Er hyn oll, elai ei grefydd ar gynydd; ac fel y mwsogl persawrus, yr oedd yn ymledu ac yn gwreiddio yn ddyfnach po fwyaf y sethrid arni; meddyliai yr eglwys yn uwch ohono, o ddidwylledd ei galon, a chywirdeb ei amcanion, y naill ddydd ar ol y llall. Canfyddent ynddo gymhwysderau pregethwr, ac yr oedd ynddo yntau gariad cryf at y gwaith. Yr oedd y mynediad i'r areithfa yn y dyddiau hyny yn gul a chyfyng, er cymaint ydoedd y prinder o weithwyr, a gosodwyd ei achos ger bron yr eglwys, —holwyd ef—cynghorwyd ef—dywedwyd wrtho am bwys y gwaith; ac yna gwrandawyd arno yntau yn traethu ei farn fel y gwneir ar achlysuron o'r fath. Traddododd ei bregethau cyntaf mewn ystafell a elwid, "Llofft y Pobty," ar waelod Stow Hill, Casnewydd. Ni wyddis yn iawn pa lwyddiant a ddilynodd ei ymgeisiadau hyn; ond gan iddo gael anogaethau i fyned yn mlaen, diau ei fod yn gymeradwy gan y brodyr; a chawn ef yn fuan yn troi allan fel pregethwr teithiol yn sir Fynwy; ac ar anogaeth y Parch. Mr. Rees, nid hir y bu heb roddi ei alwedigaeth heibio, ac ymroddi yn llwyr at y gwaith. Yn raddol, cynyddodd mewn poblogrwydd, galwyd am dano i siroedd eraill, a phan oddeutu 23 oed, yr oedd "bachgen y Casnewydd" yn anwylun y cynulleidfaoedd. Yn y flwyddyn 1818, gan fod ei fam â'i chwaer wedi dyfod ato i fyw i'r Casnewydd, penderfynodd gymeryd tŷ yn y dref, a chytunasant i godi yr arian a adewsid iddo ar ol ei dad, i'r dyben o agor siop; anfonodd at Colonel Lascells i'r perwyl, a derbyniodd oddiwrtho y swm, yr hwn a gyfrifid rhwng tri a phedwar cant o bunau. Ond aeth yr arian ymaith fel llif yr afon. Yr oedd y fasnach yn hollol ddyeithr iddo, ac yntau yn hollol annghymwys i ymdrin â hi. Syrthiodd y fasnach ymaith o tan draed egwyddor y coelio. Bu farw ei fam, a'i chwaer a briododd ac a symudodd i fyw i Bristol, ymddiriedodd yntau y siop i ddwylaw dyeithriaid gan fyned oddiamgylch i bregethu, a gadael gorchymyn caeth nad oeddynt i wrthod coel i neb o "bobl y Capel;" a dywedir fod cryn lawer wedi cymeryd arnynt eu bod yn gapelyddion tra y parhaodd y gwynfyd hwn. Pa fodd bynag, daeth y gofyniadau yn drymach, a'r derbyniadau yn fanach; ac agorodd y masnachwr diniwaid ei lygaid a chafodd ei hun yn glamp o ddyledwr. Effeithiodd y gwirionedd hwn i'r fath raddau arno

Digitized by Google

fel y bu agos dyrysu ei synwyrau. Pan y cyfarfu a'i ofynwyr, y cyntaf peth a wnaeth ydoedd tynu allan ei oriadur a'i rhoddi iddynt, gan ddywedyd y cai pob hatling fyned i dalu'r ddyled. Gofidus a chaled oedd ganddo ymadael â'i lyfrau, "Dyna'r llyfrau wedi myn'd, o'r rhai y cesglais berlau cyn hyn; buont o ddefnydd mawr i mi; do, do, ac o les i bechaduriaid: ond y mae yn rhaid i'r bobl gael ei harian." "Daeth y byd ataf," ebai ef, "fel y wenynen, a mel yn ei enau, a cholyn yn ei gynffon." Rhoddir aml esiampl o'i eirwiredd syml, a'i onestrwydd unplyg, o tan yr oruchwyliaeth chwerw hon. Taflwyd ef gan yr amgylchiad i annybendod meddwl, a barnwyd mai priodol a fuasai iddo ymatal o bregethu am ychydig amser; ac felly y bu am oddeutu haner blwyddyn yn 1822. Ond nid oedd yr atalfa hono yn cael ei ystyried fel cerydd arno, pan ar yr un pryd yr atebai y dyben o ragflaenu sylwadau niweidiol am grefydd, ac yn y pen draw i wneud mwy o les iddo yntau a'r eglwys. Yn mhen amser, anogwyd ef i ymaflyd yn ei orchwyl dewisol o'r newydd, a chafwyd nad oedd ei arfau wedi pylu. Ymosododd ar y gwaith pwysig yn awr gyda nerth dyblyg; ymddyrchodd yn uwch yn ffurfafen yr eglwys; a chafodd ei neillduo i gyflawn waith y weinidogaeth yn Nghymdeithasfa Llangeithio, Awst, 1824. Y flwyddyn nesaf bu farw ei fam; ac yn mis Medi, 1825, priododd Miss Lewis, aelod yn Casnewydd, yr hon oedd ddynes garuaidd, addfwyn, a thawel. Ganwyd iddynt chwech o blant; a bu hi farw yn Medi, 1841. Yn Mehefin, 1843, priododd eilwaith a Miss Morgan, o Benycae; a bu iddo bedwar o blant o'r briodas hon. Yn 1829, penderfynwyd codi capel newydd yn y Casnewydd, a thynodd yr eglwys faich trwm o ddyled ar ei hysgwyddau. Yr oedd y draul yn £1920, a'r gynulleidfa i'w gyfarfod mewn cydmariaeth ond bechan a thlawd. Syrthiodd y gofal mwyaf ar Mr. H. ac un arall; ac os na wneid ymdrech anarferol, gwelid yn amlwg mai colli yr adeilad a fyddai y diwedd, a'u bwrw hwythau i garchar. I gasglu at y ddyled hon y daeth Mr. Howells gyntaf i'r Gogledd, a bu yn dra llwyddianus. Apeliai at y cynulleidfaoedd yn enw ei wedd welw a'i ddwylaw eiddil a theneuon ei hun, anrhydedd yr achos, a gogoniant Duw, na wrthodent gyfranu; ac erbyn 1833 yr oedd wedi casglu, rhwng Cymru a phrif drefi Lloegr, y swm o £1300. O ran ymddangosiad personol, yr oedd yn ddyn o faintioli cyffredin, tua phum troedfedd o naw modfedd a haner o daldra,—yn deneu iawn,—gwisgi ac heinif yn ei ienenctyd, a nodedig am ystwythdra ei gymalau hyd ddiwedd ei oes,—esgyrn bychain,—llygaid gleision, bychain yn hytrach, ond yn graffus,—ei edrychiad yn dreiddgar a beirniadol, a phob ystumiad yn dynodi dyn myfyrgar:—pan ar ei ben ei hun, ymddangosai yn ddybryd, heb un gosgedd yn arwyddol o deimlad llawen,—yr oedd yn naturiol o duedd bruddglwyfus, yr hwn fel y darfodigaeth, a gynyddodd arno hyd derfyniad ei oes. Fel pregethwr, dywed y Parch. D. Jones, Treborth, am dano.—"Fy syniad am dano pan yn ei wrandaw yn pregethu oedd, fod llawer o hynodion ynddo. Fel ag yr ymdeimlwn yn briodol dywedyd, gydagolwg ar bregethu yr efengyl, 'Wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd.' Yr oedd rhyw bethau annghyffredin yn ei wynebpryd, yn y meddyliau a draethid ganddo, ac yn ei ddull yn eu traethu. Yr oedd y wyneb llwydaidd a theneu, a'r llygaid syml a diniwed, yn arddangos meddwl wedi ymddyeithrio llawer i bethau y byd hwn, ac wedi ei lyncu i fyfyrdod ar bethau mawrion y byd anweledig, gan syllu yn synedig ar eu rhyfeddodau. Gallesid casglu oddiwrth y pregethau a wrandewais ganddo, ei fod yn llafurio mwy am feddyliau nag am drefn i'w gosod allan.

Digitized by Google

Ymddangosai yn ymestyn yma a thraw, yn gwibio yn mhell ac yn agos, i gasglu perlau gwerthfawr, meddyliai cryfion ac ardderchog, ond heb ofalu nemawr am eu trefnu yn rhesau rheolaidd mewn cadwyn blethedig. Yr oedd ganddo ddull dyeithrol a chyffrous i draddodi ei feddwl, yn eiddo gwreiddiol a phriodol iddo ei hun. Rhoddai ar ddeall yn fuan ŵ'w wrandawyr nad oedd yn ceisio dynwared yr un o'i frodyr, nad oedd am ymddangos o flaen y cyhoedd yn ngwisg neb arall; ond ei fod o ansawdd ysbryd rhy foneddigaidd i wneuthur masnach mewn dillad ail law. Ymddangosai hefyd nad oedd ei ddull yn ffrwyth celfyddyd, neu yn effaith rhagfwriad i gyrhaedd rhyw newydd-deb, wedi ei weithio allan trwy ymdrech. Dichon y ffurfid barnau tra gwahanol gan ei wrandawyr am gyfaddasrwydd ei agwedd. Pa fodd bynag am hyny, nis gallasai un dyn diduedd lai na'i gydnabod yn naturiol, yn mhell oddiwrth fod yn rhodresgar; yn ymddangos yn debyg i effaith gwresogrwydd yr Ysbryd wedi enill llwyr feistrolaeth ar y corph, neu gynhyrfiadau y dyn oddifewn yn ymweithio trwy y dyn oddiallan, mewn cyffröadau naturiol, gan newid ei ystum yn aml, a hyny i gyfateb i ansawdd yr hyn a draethid gandido ar y pryd. Fel nad oedd ei gorph ond cyffelyb i bren ar wyneb y môr, yn symud yma a thraw, yn ol ymweithiad y tònau oddi tano. Yr oedd i'w weled yn ymaflyd yn ei orchwyl o ddifrif, yn ymwybodol o bwysigrwydd ei swydd, ac yn ymdeimlo yn fywiog a chymhwys ei genadwri; gan gadw llywodraeth arno ei hun, heb ymollwng i floeddio na chanu; ond wedi ymgynyrfu yn iawn gallai ymbwyllo drachefn, ar ol esgyn yn uchel medrai ymddarostwng yn isel eilwaith. Ac nis gallasai ei wrandawwyr ystyriol lai na'i gydnabod mewn gwirionedd yn un o feistriaid y gynulleidfa." Arferai ddybenu pob pregeth ag ysgrythyrau tarawiadol, y rhai a adroddai yn effeithiol iawn; ni osodai fwy o bwys ar ddim nag ar y geiriau hyny; y rhei'ny fyddent yr hoelion a sicrheid gan feistr y gynulleidfa, a thaflai sylwadau bywiog i mewn rhyngddynt. Dyna un hoel fawr a ddefnyddid ganddo yn aml, "Am hyny nid ofnwn pe symudai y ddaear, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr;' mi waeddwn ar lwch y byd, Gogoniant!" Yna ymaflai mewn hoel arall, "Y mynyddoedd a giliant,'—ciliant hwy,—'a'r bryniau a symudant,'—symudant hwy,'—'eithr fy nhrugaredd ni chilia,'—mi gwaranta'i!—O diolch!—'a chyfammod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd;' fe saif y cyfammod yn gadarn pan fo mynyddoedd y byd yn ymollwng." Yna ymaflai mewn hoel arall, "Odditanodd y mae'r breichiau tragywyddol,'—fyddai ddim gwahaniaeth gen'i *tae* mynydd Twynbarlwn a mynydd y Garth yn myn'd i lawr i'r *Bristol Channel*, a *tae'r* byd yn myn'd yn gregyn cyn y bore fory!—Mae'r bywyd wedi guddio gyda Christ yn Nuw; mae pob peth yn dyrysu y dyddiau yma,—mae fel pe *bae'r* llong yn nghanol y storom!—Hi aiff yn *wreck* ofnadwy yn fuan!—Mynwch y bywyd mewn lle diogel!—*Deliwch* lawer â Chalfaria!—'Wyddoch *chi* ddim nad yw'r waedd haner nos gerllaw!—Mynwch eich lampau wedi eu trwsio cyn delo'r priodfab!—O, mae fy enaid yn mron myned allan o fy nghorff i, wrth feddwl am galedwch yr oes yma!—Diangfa!—Mae'n rhaid i fi droi i'r *chreched* Salm a deugain eto; yr wy'n dewis yr un noddfa â Martin Luther mewn tywydd garw:—'Y mae afon, a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw, cysegr preswylfeydd y Goruchaf;' yr *wy'n* teimlo yn ddedwydd y fynyd yma, heb deyrnwialen na gorsedd, ac yn fwy cyfoethog nag ymherawdwr Rwsia; yr wy'n rhwym o ddiolch yn yr olwg ar y fath drysor annhraethol!—Mae marsiandwyr mawr yn peryglu eu bywydau

Digitized by Google

wrth fyn'd i'r gwledydd pell i geisio gwneud eu *fortune;* mae rhai o nhw yn llwyddo hefyd, ac yn gwneyd deng mil ar hugain mewn un *voyage;* mae iddyn' nhw *reso;* ond mi 'naetho i fwy na hyny boreu heddy' cyn *breakwast,* mi gym'rais daith tua Gethsemane a Chalfaria, mi fuo yn edrych ar y bicell fain a'r waywffon, ac mi welais le i bechadur lechu o dan ei gysgod ef,—newidiwn ni ddim o'm sefyllfa â'r *Grand Turk.* Gogoniant!" Er nad yw y cynddrych uchod ond anmherffaith, eto y mae yn ddarluniad a bair i'r sawl a arferent wrando Mr. H. i ail-gofio yr effeithiau grymus a gerddent gyda'r traddodiad; ond ofer mwyach fydd agor y glust i wrando llais y prophwyd—yr hyawdledd mawr a fu o gymaint gwasanaeth i drosglwyddo yr ymadroddion at ystyriaethau y gwrandawyr, a ddystawodd yn y rhyfel claf,—ond er gorwedd o honynt yn awr mewn inc, mor farw ag arf y milwr a orchfygwyd ar faes y gwaed, teimlwyd hwynt yn llaw yr hwn a gariodd y bwa fel llymion saethau cawr,—ond er na ellir annghofio ei ddifrifoldeb, am ei fod yn ofnadwy, yn wir!—yr oedfa olaf a ddaeth, pryd y dywedodd am byth, Amen, ac Amen!" Fel yr oedd ei oes yn nesu tua'r terfyn, yr oedd ei grefydd yn myned loywach, loywach; a byddai annuwiolion penchwiban a chalongaled yn arswydo yn ei bresenoldeb. Traddododd ei bregeth olaf mewn capel o'r enw Bethlehem, Cendl, y nos Fercher cyn ei farwolaeth; ac o'r awr hono hyd awr ei ymddatodiad yr oedd yn marw yn gyflym. Er holl boenau y corph gwael, yr oedd ei ysbryd nerthol yn mwynhau cymundeb tra eglur â gwrthddrychau pur byd a bywyd arall. Yr oedd ei gyhoeddiad i bregethu yn y Baduchaf, Cwmtâf, am ddau o'r gloch y prydnawn Sabbath, Mawrth 21, 1852; ond tra yr oedd pobloedd lawer yn dylifo tuag yno i'w wrando, yr oedd angau yn prysur ddatod llinynau ei babell wanllyd. Bu farw y diwrnod hwnw yn agos i 58 mlwydd oed, wedi bod ohono yn gweinidogaethu am 37 o flynyddoedd. Claddwyd ef gan dyrfa fawr y dydd Gwener canlynol yn mynwent Capel Cendl.

HOWELL (Parch. Thomas), D.D., brawd hynaf y James Howell a gofnodwyd eisoes, a anwyd yn 1588, yn Cefnbryn, plwyf Llangammarch, sir Frycheiniog. Cafodd dderbyniad i goleg yr Iesu, Rhydychain, yn 1604, ac etholwyd ef yn gymrawd o'r coleg hwnw. Wedi cymeryd ei raddau yn y celfyddydau, a chael urddau eglwysig, daeth yn bregethwr tra enwog. "Yr oedd ei bregethau," ebai Fuller, "fel dyfroedd Siloah, yn rhedeg yn esmwyth, ac yn llifeirio yn dawel; fel yr oeddynt yn enill mynediad lledradaidd a chanmoladwy i galonau ei wrandawyr." Penodwyd ef yn gaplan rheolaidd i'r brenin, ac yna cafodd rectoriaeth West Horsley, yn Surrey, a'r eiddo St. Stephen, Wallbrook, Llundain; ac yn 1636, ac efe yn D.D., cafodd ganoniaeth yn Windsor. O'r bywiolaethau hyn, trowyd ef allan gan y Puritaniaid, er y dywed Wood mai Puritan ydoedd yn ol barn rhai ei hun; eithr penodwyd ef yn 1644, gan y brenin Siarl I., yn esgob Bristol. Cysegrwyd ef i'r swydd gan Usher, prif esgob yr Iwerddon, ac esgobion eraill, yn Rhydychain; ac os gwir a ddywed Walker, cafodd ar ol hyny driniaeth chwerw,—anrheithiwyd ei balas, y plwm oddiar y tô a dynwyd ymaith, a throwyd y lle yn ddarllawdy. Bygythient hefyd osod cerwin i fyny yn ei fynachlog, ar y man y safai yr allor. Tybir ddarfod i'r gwawd hwn arno ei hun ac ar y grefydd sefydledig fyrhau ei oes, a brysio ei farwolaeth, yr hyn gymerodd le yn 1646. Claddwyd ef yn mynachlog Bristol, a'r unig air a gertiwyd ar ei fedd ydoedd, "*Expergiscar.*" Dywed Walker ei fod mewn cymaint parch gan ddinaswyr Bristol, fel y darfu iddynt gymeryd gofal ei blant, y rhai oeddynt unarddeg mewn rhifedi.—

Digitized by Google

Wood's *Athen. Oxon.*; Fuller's *Worthies*; Walker's *Sufferings of the Clergy*.

HOWELLS (PARCH. WILLIAM), gweinidog capel esgobol Longacre, Llundain. Ganwyd ef mewn ffermdy o'r enw Llwynhelyg, ger Pontfaen, Morganwg, yn mis Medi, 1778. Efe oedd yr ieuangaf o ddeuddeg o blant i Mr. Samuel Howells, amaethwr cyfrifol a pharchus; a'i wraig, dynes gall, bwyllog, a duwiol. Yr oedd y tad a'r fam yn aelodau parchus o'r Eglwys Sefydledig; a dygasant eu plant lluosog i fynu yn yr unrhyw athrawiaeth. Danfonwyd ef i'r ysgol yn ieuanc, a chyddystiolaethai ei athrawon a'i gydysdoleigion ei fod o dueddfryd hael a hynaws, yn gallu dysgu yn rhwydd, yn ddiwyd a dyfal yn ei efrydiau. Ymddadblygodd nodweddiadau arbenicaf ei feddwl hefyd yn yr oedran cynarol hwn; nid yn unig arddangosai uniondeb meddwl ynddo ei hun, eithr gosodai ei ddylanwad i'r un perwyl ar ei gyfoedion. Ni ddywedai gelwydd hyd yn nod er mwyn arbed ei hun, ond safai bob amser gyda'r gwirionedd beth bynag fyddai'r canlyniadau. Pan yn 14 oed, dodwyd ef gyda chyfreithiwr i gael ei addysgu yn y gyfraith; eithr ar ol prawf byr, dychwelodd adref, ac ar ei ddeisyfiad taer ef hun rhoddwyd y bwriad i fynu. Yr oedd ynddo gasineb greddfol at yr alwedigaeth, a mwy dewisol ganddo ydoedd efrydiau o natur wahanol. Pan yn bumtheg oed, gosodwyd ef dan ofal addysgiol y Parch. John Walters, hen offeiriad y Bontfaen, ac awdwr y "Geirllyfr Cymraeg a Saesneg," gyda'r hwn yr arosodd am bedair blynedd; ac ar ei farwolaeth ysgrifenodd Farwnad iddo, yr hon a argrafiwyd mewn newyddiadur a gyhoeddid yn Gloucester, ac a enillodd sylw y golygydd, sef yr enwog Mr. Raikes, i'r hwn y priodolir sefydliad cyntaf yr Ysgol Sabbathol. Wedi holi am Mr. Howells, a dyfod yn gydnabyddus ag ef, cynygiodd Mr. Raikes ei noddi a'i gynorthwyo, os tueddid ef i ysgrifenu i'r wasg; ond ordeiniesid ef i rodio llwybr cyhoeddus arall. Bernid fod y Farwnad grybwylledig yn brawf diamheuol fod Mr. Howells yn feddianol ar yspryd a chymwysderau barddonol o radd uchel, a daeth hyny yn eglurach i'r golwg mewn marwnad a gyfansoddodd ar farwolaeth y Parch. D. Jones, o Langan. Ar ol marwolaeth Mr. Walters, bu am beth amser o tan y Dr. Williams, athraw Ysgol Ramadegol Pontfaen. Yr oedd ei dalentau a'i rinweddau personol bellach wedi enill iddo barch a chymeradwyaeth yr uwchradd cystal a'r isradd. Yr oedd yn hynod o foesol a chydwybodol; ond yr oedd ei adnabyddiaeth o athrawiaethau yr Efengyl y pryd hwn yn anmherffaith ac o natur ddeddfol. Yn Ebrill, 1800, aeth i goleg Wadham, Rhydychain; a thra yn aros yno, cyfarfu à thristwch a gofid calon. Cafodd ei wrthod gan ferch ieuanc y rhoddasai arni ei serch; ond y digwyddiad hwn a oruwchreolwyd er mawr ddaioni i'w enaid. "Gyrodd fi," ebai ef wrth gyfaill, "at fy Nhestament Groeg, a thra yn darllen hwnw yn y mensydd gerllaw Rhydychain mi a gefais mai nid *gwraig* oedd arnaf eisiau ond *Gwr*." Bernir ddarfod i'r amgylchiad hwn ei dueddu i ymneillduo o blith cymdeithas, a pharai iddo ymgladdu yn ei fyfyrdodau; cystuddiwyd ef hefyd yn drwm, a hyn oll a barodd iddo adael yr athrofa yn 1803, cyn cyrhaedd ohono nemawr enwogrwydd. Dyfnhawyd ei afiechyd gan ei reddf anorchfygol o ddyngarwch. Pan yn nghanol yr holl annghysuron hyn, cymerwyd gwr ieuanc a berthynai i un o athrofeydd Rhydychain, yr hwn oedd yn adnabyddus iddo pan yn Bontfaen, yn glaf o lecheden beryglus. Yr oedd yntau yn bur wael ei hunan ar y pryd; ond gan wybod gwerth caredigrwydd mewn afiechyd, eisteddodd i fynu gyda'r claf, noswaith

Digitized by Google

ar ol noswaith, hyd onid aeth y perygl drosodd. Nid hon ydoedd y ffordd i wella ei iechyd ei hun, yr hwn a barâodd i waethygu; ond nid oedd hyny ddim yn ei gyfrif ef. Rhan arbenig o nodweddiad y dyn hwn oedd cydymdeimlad, a pharodrwydd i aberthu ei gysur ei hun, ie, ei hunan hefyd, er mwyn bod o wasanaeth i ereill. Bod gyda chyfaill cystuddiedig oedd ei hyfrydwch, ac yr oedd y pryd hyny yn ei elfen. Gellir dweyd am dano, yn yr ystyr yma, "nis boddâodd ef ei hun." Wedi ymadael â Rhydychain, a dychwelyd i Lwynhelig, ymosododd (yn ol fel y goddefai ei iechyd) ar y cylch o astudiaeth oedd yn angenrheidiol i'w barotoi i gael ei ordeinio; ac er lleied o amser a gafodd at hyny, ac er ei fod yn y cyfamser wedi dyoddef llawer, yr oedd wedi cymhwyso ei hun i'r fath raddau fel y rhoddodd foddlonrwydd mawr yn yr arholiad yr aeth ef drwyddo. Yn fuan ar ol hyn, y daeth yn gydnabyddus gyntaf â Mr. Jones, Llangan, yr hwn oedd yn berson plwyf gerllaw Pontfaen, ac a ganfu yn fuan fod ei gyfaill ieuanc yn feddianol ar dalentau mawrion, ac yn debyg o fod o ddefnydd annghyffredinol. Yr oedd grymusder ei feddwl, ei olygiadau clir ar wirioneddau yr efengyl, ei wresogrwydd a'i ymroddiad, a'i yspryd gostyngedig, rhydd, a serchus, yn hynod o gyd-darawol â'i gymeriad ef ei hun. Byddai Mr. Howells yn siarad am Mr. Jones gyda'r anwyldeb gwresocaf, a dywedai am dano, "Yr oedd symledd patriarch, a zel danllyd apostol, yn unedig ynddo." Dywedai ar un achlysur—"Yr oedd rhyw fath o hanfodiad gan fy enaid i yn enaid y dyn hwnw; yr oedd yn bob peth y gallai dyn fod i mi. Sugnais i fewn ei wybodaeth, a cheisiais ddal mesur o'i gariad at Dduw ac at eneidiau dynion." Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn Mehefin, 1804, gan Dr. Watson, esgob Llandaf. Gwnaed ymgais i godi rhagfarn yn yr esgob tuag ato; a holodd ei arglwyddiaeth ef ar bynciau y disgwyliai gael cyfleustra i'w ddysgu yn fanylach. Ond efe a gafodd Mr. H. yn fwy parod nag y disgwyliasai, ac yn alluog, nid yn unig i amddiffyn ei gyfundrefn ei hun, ond hefyd i wrthwynebu eiddo ei arglwyddiaeth. Dygpwyd yr ymchwiliad yn mlaen gan yr Esgob mewn ysbryd pur garedig; ac wedi cael ei foddâu drwy ffraethder a rhyddid Mr. Howells, yn gystal a'i fedrusrwydd, efe a'i dybenodd trwy ddywedyd mewn dull cyfeillgar a rhydd, eu bod bron wedi newid lle â'u gilydd, canys yn lle ei chwilio ef, yr oedd ef ei hunan wedi cael ei brofi. Wedi bod am yspaid yn gwasanaethu yn llwyddianus fel curad yn Llangan, dymunwyd arno gymeryd y cyfryw swydd mewn dau blwyf eraill; ac yn un o'r plwyfi hyny (Llandyfrydog) yr oedd amryw Sosiniaid. Cymerodd lawer o boen i geisio argyhoeddi y bobl hyn, nid yn unig trwy bregethu ond hefyd trwy ymweled â'u tai, i ymddyddan â hwy yn bersonol. Arferai ddweyd wedi myned i Lundain iddo gael rhai o honynt yn gystal ymresymwyr a Priestley ei hun. Bu yn gurad i Mr. Jones am chwe' blynedd; ac ar farwolaeth y gwr enwog hwnw yn 1811, efe a symudodd i Lundain. Gobeithid y cawsai ei benodi yn olynydd iddo fel gweinidog yn Llangan; ond gwrthodwyd iddo hyn o ffafr, a hyny yn unig oblegid ei dueddiadau Methodistaidd. "Yr ydych yn Fethodist, Howells," ebai noddwr anrhydeddus y fywiolaeth, "yr ydych yn Fethodist, onide chwi a'i cawsech yn y fan." "Gwir, fy arglwydd," atebai yntau, "pa un a rynga bodd i'ch arglwyddiaeth i mi gael y fywioliaeth neu beidio, Methodist wyf fi." Byddai yn arfer pregethu a chynghori ar hyd tai pobl dlodion yn mhentref Penllin, yr hwn sydd o fewn milltir i Lwynhelig. Blinai ei dad yn arw fod ei fab, dysg yr hwn oedd wedi costio cymaint o arian iddo, yn diraddio ei hunan yn

Digitized by Google

y fath fodd a myned yn "bregethwr pen y stôl." Ond nid oedd waeth ganddo ef ben stol na phen rhywbeth arall, ond cael rhyw gyfle i wneud daioni i bechaduriaid ar ddarfod am danynt. Wedi ei siomi yn ngwlad ei enedigaeth, trodd ei sylw tua Lloegr, a'r praidd a arweiniesid i'r porfeydd gwelltog a cherllaw y dyfroedd tawel a chwalwyd ar hyd y mynyddoedd. Wedi ei ysgaru oddiwrth ei gynulleidfa hoff, telmlai ar unwaith fel ped fai wedi ei wahanu ar unwaith oddiwrth ei gartref; a phrif rwymyn ei undeb â Chymru yn ymddattod. Yr oedd ganddo eto ddwy guradiaeth, a derbyniai daledigaeth haelionus am addysgu ysgolhaig ieuanc a roddwyd dan ei ofal; ac atolygai ei gyfeillion yn daer arno aros, gan ddweyd nad oedd y drws ddim wedi cau arno yn Nghymru, a bod maes defnyddioldeb o'i flaen. "Na," atebai yntau, "nid dyma y tir; nid yw y bobl fawr yn gofalu am yr Efengyl, ac y mae'r is-radd gan mwyaf yn dewis dulliau syml y capelau yn hytrach na rheolau ffurfiol yr Eglwys Sefydledig." Ar ol hyn, aeth i fynu i Lundain; ac yn fuan, penodwyd ef yno yn gurad i'r Parch. W. Goode, a pharhaodd i gydlafurio â'r gwr hwnw hyd farwolaeth yr olaf yn 1816. Yr oedd Mr. Goode yn ddyn rhagorol, ac o feddwl cryf a gwrol. Rhoddodd brawf o hyny yn fuan wedi i Mr. Howells fyned yn gurad iddo, pryd y derbyniodd lythyr oddiwrth Esgob Llundain, yn gofyn pwy a pha beth a allai y curad newydd fod, gan ychwanegu fod gwr boneddig, yr hwn a aethai ryw ddiwrnod i St. Ann's, gan ddysgwyl cyfarfod â rhywbeth annghyffredin, wedi cael mwy na'i ddisgwyliad yn ymddygiad afresymol y curad oedd yn gwasanaethu. Atebodd Mr. Goode trwy ddyweyd wrth ei arglwyddiaeth fod Mr. Howells yn frodor o Gymru, a'i fod wedi derbyn gydag ef bob tyst-lythyrau cymeradwyol oedd yn angenrheidiol; ac nad allai efe gael dim bai ynddo oddieithr fod ganddo, hwyrach, ormod o dân Cymreig i gytuno â chalonau oerion Saesonig! Bu Mr. Howells am beth amser yn Llundain heb fod yn adnabyddus oll fel pregethwr; ac yr oedd ei ddull o ddarllen y gweddiau yn peri argraff led annymunol, canys yr oedd lleiaith Gymreig gref arno, a'i ddull o ymadroddi yn hynod o anfwyn. Ond cymerodd boen i astudio yr iaith Saesoneg, a daeth i fod yn alluog i'w llefaru mor rwydd a pherffaith fel nad oedd yn bosibl i neb ragori arno mewn cywirdeb ymadrodd a phwysleisiad. Pan fu farw Mr. Goode gwnaeth cyfeillion Mr. Howells ymdrech i sicrâu ei le iddo ef, ond methodd yr ymgais, a'r cwbl a adawwyd iddo oedd llithwriaeth nos Sabbath yn eglwys St, Antholin, am yr hyn yr oedd i dderbyn £18 yn y flwyddyn. Cafodd ei ddewis ar ol hyny i lithwriaeth mewn plwyf arall, ond gwrthododd y periglor adael iddo gael y pwlpud: ac o ganlyniad nid oedd y gosodiad yn werth dim iddo. Yr ydoedd wedi bod yn dra isel arno cyn hyn, canys o'r braidd yr oedd y cyflog a dderbyniai fel curad i Mr. Goode yn ddigon er diwallu ei angenrheidiau cyffredin; ie, bu am ryw ysbaid ar ol myned i Lundain yn dyoddef eisiau! Ond yr oedd Duw trwy gystudd yn ei barotoi i fod o ddefnyddioldeb annghyffredinol yn yr eglwys; a dyoddefodd yntau y cwbl gyda gwroldeb, gostyngeiddrwydd, ac ymostyngiad dirwgnach. Yr oedd rhai i'w cael a fuasent yn rhanu y tamaid olaf gydag ef pe buasent yn gwybod; ond ni chwynai efe. Medrai ofyn dros ereill ond byth drosto ei hun; ac am ei dueddfryd haelfrydig ei hun, anmhosibl ydyw gwneyd cyfiawnder iddo. Yn y flwyddyn 1817 cymerodd *lease* y capel esgobol yn Long Acre, a symudwyd ef felly ucwhlaw bod mewn anghen; ond yr oedd mewn gwirionedd mor bell ag erioed oddiwrth fod yn gyfoethog; ac ni chafodd am y rhan fwyaf o'r amser y bu yn

Digitized by Google

weinidog yn y capel hwnw ond ychydig iawn dros ben yr hyn oedd yn angenrheidiol er cynaliaeth iddo. Bu dros ei oes yn ddyn tlawd. Yr oedd yn byw yn gynil, ac am bobpeth tebyg i gysur yr oedd yn dybynu ar y rhoddion gwirfoddol a anfonid iddo yn achlysurol gan bersonau anadnabyddus. Yr oedd y ddwy ras o haelioni a dyngarwch yn ddysglaer ac amlwg iawn yn ei gymeriad. Ni ddarfu iddo erioed feddwl fod y Rheolwr mawr yn rhoddi pethau y byd iddo er mwyn eu cadw. Meddyliai ef ei fod yn cael pethau, er mwyn eu rhoddi i'r sawl a fyddent mewn anghen. "Helpiwyd fi, minau helpiaf y nesaf," ydoedd ei arwyddair ef. "William," meddai ei chwaer wrtho un diwrnod yn Llwynhelig, "ewch i'r cwpbwrdd, a rhoddwch damaid i'r dyn tlawd yna sydd wrth y drws." "Gwnaf yn siwr," meddai yntau. Nis gallai gael nemawr swydd mor hyfryd. I'r cwpbwrdd yr aeth, a rhoddodd y dorth a'r cosyn yn gyfan grwn fel yr oeddynt. Yr oedd ei haelioni yn adnabyddus yn y brifddinas, a gwnaeth llawer twyllwr fasnach wych o hono. Rhoddir un enghraifft neillduol o dynerwch ei deimladau. Safai unwaith ar y palmant yn ymyl heol pur serth yn y brifddinas; yr oedd yn gwlawio yn drwm ar y pryd. Sylwai ar ddyn tlawd yn ceisio tynu *truck* llwythog i fynu yn erbyn y tyle. Yr oedd y dyn druan yn tynu tuag i fynu, ond y llwyth yn pwyso tuag i waered, ac o'r ddau (fel y dywed gwŷr Morganwg), yr olaf oedd y trechaf. Yr oedd golygfa o fath hon yn ormod i'w galon ef ei dal. "Pechod," ebai, "dyma un o dy gastiau di yn awr." Ar hyny, neidiodd i ganol yr heol, ac heb ofni llychwino ei ddwylaw ofteiriadol, ymaflodd yn nghorn y ferfa; tynodd ei eithaf, tynodd y dyn, a rhwng y ddau dyna y llwyth yn mhen pedwar mynud ar ben y bryn. Yn ei ddull o bregethu yr oedd yn ddiaddurn ac o ddifrif; yn gyffredin yn rymus, ac yn aml yn wresog iawn, er y byddai, pan bregethai oreu, bob amser yn dawel. Nid oedd dim arwynebol ynddo, ac anfynych y ceid dim ganddo ag ol llafur i'w wisgo yn daclus. Yr oedd ei fedrusrwydd yn gynwysedig,—nid mewn gwneud defnydd da o gyfoeth rhai ereill, ond rhoi effeithiolrwydd i'w eiddo ei hun. Dywedai Mr. Melvill yn briodol iawn y gwnai un o'i ymadroddion ef bregeth i ddyn arall. Yr oedd ei ddrychfeddyliau yn rhai mawrion; a phan y deuent i'r golwg yn eu mawredd noeth a diaddurn eu hunain, yr oedd rhyw rymusder yn ei ymadrodd oedd yn llawer mwy na digon i orbwyso y diffyg o ieithyddiaeth addurnedig. Anaml y gellid gwrando arno heb i'r gwrandawr gael ei foddâu trwy wirioned gwerthfawr wedi ei arddangos mewn gwedd a fyddai yn sicr o'i argraffu ar y cof. Ar un achlysur, ffaelodd yn hollol a phregethu. Nid oedd yn arfer nodau, a dywedai gyda theimlad dwys, ei fod yn dyoddef oddiwrth afiechyd, a bod y cwbl oedd wedi bwriadu ddweyd wedi ei ddileu o'i gof. Ei destun ar y pryd oedd, "Ewch i mewn trwy y porth cyfyng," &c. Wedi gwneyd ymgais ofer i gasglu ei feddyliau gwasgaredig, gollyngodd y gynulleidfa ymaith gan atolygu arnynt weddio drosto. Eto, er nad oedd ond un frawddeg o bregeth y noswaith hono, yr oedd y frawddeg hono yn werth ei chofio a'i hailadrodd, a dyma hi, "Mae y porth yn ddigon eang i dderbyn unrhyw bechadur, ond yn rhy gyfyng i unrhyw bechod fyned trwyddo!" Nid "geiriau denu o ddoethineb dynol" a lanwent gapel Longacre o wrandawyr, llawer o ba rai oeddynt bendefigion y deyrnas. O ran ei ddaliadau athrawiaethol, yr oedd dau bwnc yn ymddangos yn ei holl bregethau fel egwyddorion sylfaenol, sef penarglwyddiaeth Duw, a chyfrifoldeb dyn; ac yr oedd yn wrth-Sosiniwr selog a chadarn, er hyny, yn credu

Digitized by Google

fod gan y Sosin gydwybod cystal ag yntau. Gwyr llawer fod yr hyglod Iolo Morganwg yn Sosin trwyadl, eto treulhai efe a William Howells oriau lawer yn nghymdeithas eu gilydd. Deuai lawer noswaith i Lwynhelyg, i gael ymgom â'r offeiriad. Teimlai yn gartrefol iawn yn mhlith goleuadau Ymneillduol yr oes, a choleddai y meddyliai uwchaf am eu duwiolfrydedd a'u doniau. Ni chollai un cyfle i'w gwrando; yr oedd Mr. Charles, Caerfyrddin, yn anwylun neillduol ganddo. Parhaodd ei boblogrwydd a'i barch i gynyddu hyd y diwedd; a chafodd y fraint, (braint fawr i wr o anian dduwiolfrydig fel yr eiddo ef) o gystudd byr. Gwasanaethodd yn ei gapel, gyda'i rymusder a'i ffyddlondeb arferol, y Sabbath, Tachwedd 11, 1832; a'r Sabbath canlynol, bu farw yn llawn gobaith a heddwch. Claddwyd ef y dydd Sadwrn canlynol o tan eglwys *Trinity*, Islington. Traddodwyd pregethau angladdol yn nghapel Longacre y dydd canlynol gan y Parch. H. Melville, a chan yr anrhydeddus a'r Parch. Baptist Noel. Parodd ei farwolaeth alar mawr i lawer yn y brifddinas, a thrwy y deyrnas oll, y fath na welwyd ei gyffelyb ond anfynych. Gosodwyd cof-faen er coffadwriaeth am dano yn eglwys *Trinity* ar draul nifer o bersonau, ac yn gerfiedig arni eiriau parch ac edmygedd.—Ei *Gofiant*, gan Mr. Bowdler; *Traethodydd*, 1849; *Drysorfa*, 1848.

HUAIL, un o feibion Caw o Brydyn, a hynododd ei hun yn rhyfeloedd Arthur, ac a restrir yn y *Trioedd* gyda Chai a Thrystan fel "tri thaleithiawg câd." Yn ol rhai hen lyfrau, yr oedd yn aelod o goleg Cattwg, ac am hyny cyfrifir ef yn sant Cymreig, a sefydlodd eglwys mewn parth o Euas, yr hwn sydd bellach yn rhan o sir Hentfordd. Iddo ef, yn "Englynion y Clywed," y priodolir y dywediad, "Mynych y syrth mefl o gesail." Hanes arall a ddywed ei fod yn gydymgeisydd âg Arthur am law a chalon gwyryf brydweddol a breswyliai yn Nyffryn Clwyd; i ymladdfa law-law gymeryd lle rhynddynt, yn mha un y cloffwyd y brenin enwog, a'r hwn a dyngedodd Huail ar ei fywyd nad ymganai air am yr ymdrafod; eithr mewn dawnsfa yn Rhuthyn, Huail a dorodd y gyfrinach, ac am hyny Arthur a bares ei roddi i farwolaeth yn y fan a'r lle. Torwyd ymaith ei ben ar gareg yn yr heol a ddangosid hyd yn ddiweddar, ac a elwid, "Maen Huail."

HU GADARN, ydoedd fod enwog a chlodfawr, yn ol rhamant a chwedl yr hen Gymry. Er fod ei enw yn dra adnabyddus yn mhlith ei gyd-genedl hyd y dydd hwn, ac er i feirdd yr oesoedd erddygan ei glodydd, ni wyddis ond ychydig o'i hanes, a hyny yn gynwysedig bron yn gyfangwbl o fewn y *Trioedd*. Yn un o'r rhai hyn, gelwir ef yn un o "Dri phost cene ll Ynys Prydain: cyntaf Hu Gadarn a ddaeth a chenedl y Cymry gyntaf i Ynys Prydain; ac o Wlad yr Haf, a elwir Deffrobani, y daethant, sef y lle y mae Constinoblys; a thrwy For Tawch *(Dacian Sea)* y daethant hyd yn Ynys Prydain, a Llydaw lle ydd arosasant." Tybir fod Deffrobani yn cynwys hefyd barthau mwy dwyreiniol na Constantinople, er y dichon mai oddi yno y cychwynasant ar yr ymgyrch hon. Y ddau "bost" eraill oeddynt Prydain ab Aedd Mawr a Dyfnwal Moelmud. Mewn *Tri* arall, gelwir y llu a ddaeth gyda Hu yn un o'r "Tair ciwdawd addwyn," neu lwythau heddychol; "sef ni fynai efe wlad a thiroedd o ymladd ac ymlid, eithr o gyfiawnder ac yn nghangnef." Mewn *Tri* arall, rhestrir ef gyda Phrydain a Rhitta Gawr tan y penawd, "*Tri* gwrthrym ardwy," neu wrthwynebwyr gormes, am iddo ddwyn "cenedl y Cymru o Wlad yr Haf a elwir Deffrobani." *Tri* arall, a'i rhestra gyda Choll ac Illtyd fel "Tri chyfarwysawg," neu gyflwynwyr

Digitized by Google

bendith :—"cyntaf, Hu Gadarn, a ddangoses y ffordd i aru tir gyntaf i Genedl y Cymry, pan oeddynt yn Ngwlad yr Haf;" ac arall a ddywed, "Tri chynofydd cenedl y Cymru; Hu Gadarn, a wnaeth glud a gosgordd gyntaf,"—y ddau eraill oeddynt Dyfnwal a Thydain Tad Awen. Rhestrir ef yn *Tri* 92, gyda Gwyddon Ganhebon a Thydain, tan y penawd, "Tri deifnogion cerdd a cheudawd," neu noddwyr cân a gwyddor; tra dywedir yn *Tri* 97:—"Tri phrif orchestwaith Ynys Prydain: llong Nefydd Naf Neifion, a ddug ynddi wryw a benyw o bob byw pan dorres Llynn Llion: ac ychain bannog Hu Gadarn, a lusgasant afanc y llynn i dir, ac ni thorres y llynn mwyach." Oddiwrth y cofnodau uchod, tybia llawer o haneswyr fod y swyddogaethau a briodolir i Hu Gadarn yn cyfateb i'r eiddo y Bod Mawr, Abraham, a Noa.; a chred lluaws yw nad oedd efe ond person ffugiol yn cynrychioli personau gwirioneddol. Y mae y dysgedig Geltig Davies yn profi i gryn foddlonrwydd mai Noa yr hen ramantau Cymreig ydoedd; tra y mae beirdd y canoloesau yn galw y Goruchaf ar yr enw Hu Gadarn. Tybir ei fod unwaith yn wrthrych addoliad, yn enwedig yn Llydaw; ac o tan ganghell eglwys Notre Dame, Paris, darganfyddwyd yn 1711 eilun o hono ar lechfaen, a'r gair Hesus yn gerfiedig arno, a Hu yn y weithred o gymynu pren fel arwydd mai efe oedd y cyntaf a ddysgodd y gwaith o arloesi a thrin y ddaear. Ceir cyfargraff o'r cywreinbeth hwn yn y "*Memoirs of the French Academy of Inscriptions*," ac yn y "*Sketch of the early history of the Cymry*," gan Peter Roberts.

HUET (Thomas), cantor Mynyw, ac un a gymerodd ran yn y cyfieithiad o'r Testament Newydd a argraffwyd gan Wiliam Salesbury yn 1567. Y rhan a gyflawnwyd ganddo ef ydoedd Llyfr y Datguddiad, wrth yr hwn y mae prif-lythyrenau ei enw, "T. H. C. M.," h. y. *Cantor Menevæ*. Bu yn brif-gantor Tyddewi o 1562 hyd 1588; ac yn beriglor Cefnllys, yn Mrycheiniog, a Dyserth, yn Maesyfed. Bu farw Awst 19, 1591, a chladdwyd ef yn eglwys Llanafan, Brycheiniog.

HUGHES (Catherine) ydoedd ferch y Parch. John Jones, offeiriad Llanegryn, yn sir Feirionydd, ac a anwyd yn y flwyddyn 1732. Yr oedd Mr Jones hefyd yn athraw yr ysgol Rad Waddolog sydd yn y plwyf hwnw, a hyny mewn amser pan yr oedd hòno mewn cystal bri ag ysgol Bangor, Beaumaris, neu Ruthyn, y dyddiau hyn, gan ei fod yn cael ei ystyried yn enwog yn yr amrywiol gangenau dysgeidiaeth angenrheidiol er cymwyso gwŷr ieuanc i gymeryd y graddau uchaf yn y prifysgolion. Yr oedd o deulu athrylithgar—yr un teulu â Rhys Jones o'r Blaenau; canys arferai alw y gwr o'r Blaenau yn "gefnder." Bu iddo ddeg o blant—pedwar o feibion, a chwech o ferched. Bu dau fab yn yr Eglwys, un yn *apothecari* i deulu Sior III., a'r llall yn fasnachydd gwin. Yr oedd yn anrhydedd nid bychan i Berson Llanegryn allu dwyn i fynu y fath deulu lluosog mor anrhydeddus, a'i gyflog, meddir, ddim mwy na 100*p*. yn y flwyddyn. Nid yn unig rhoddodd ddysgeidiaeth ieithyddol i'w feibion, ond hefyd i'w ferched; yn enwedig i'w ferch Catherine, yn yr hon y canfyddai athrylith foreol, o'r hyn y cymerodd fantais i'w gwneud yn helaethach ei gwybodaeth yn yr awduron dysgedig na memawr o foneddigesau ei hoes, ac oherwydd hyny gellir ei galw yn Elizabeth Carter y Cymry. Dangosodd Catherine Hughes yn ei hieuenctyd siamp'an awenyddol ag a fuasent yn anrhydedd i'r beirdd enwocaf. Priododd â Reis Hughes, Ysw., cyfreithiwr, o'r Cemmaes, yn sir Drefaldwyn; yr hwn oedd yn foneddwr cymdeithasgar, a pharod ei leferydd. Cafodd hi ei hanrhydeddu â chyfeillgarwch y

Digitized by Google

rhai dysgedicaf yn Nghymru, yn enwedig yr hyglod Helicon Lloyd, o sir Feirionydd. Y mae (neu yr oedd) rhai o'i llythyrau mewn rhyddiaith a barddoniaeth eto ar gael. Yr oedd yn esampl o ymddygiad Cristionogol ym mhob sefyllfa gymdeithasol. Bu iddi deulu lluosog—un o ba rai oedd Parch. Robert Hughes, diweddar Berson Dolgellau; Wedi marw ei phriod, yr hyn a gymerodd le yn mlodeu bywyd, gadawyd hi ar gyllid bychan; ond medrodd drefnu hyny fel ag i allu gwneud ymddangosiad parchus, a bod yn elusengar, trwy drin fferm y Cemmaes Bychan, lle y bu farw yn 1813, yn 81 oed.—*Lleyn. MSS.*

HUGHES (Parch. David), a ddygwyd i fynu yn ngholeg yr Iesu, Rhydychain, a bu yn un o arholwyr yr ymgeiswyr am raddoliaethau yn y Brifysgol. Efe oedd diwygiwr y wasg pan y dygid allan argraffiad diwygiedig o'r Bibl Cymraeg yn 1810. Cafodd bersoniaeth Hirnant, yn sir Drefaldwyn.—*Lleyn MSS.*

HUGHES (Parch David), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Trelech, sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn 1800, yn agos i Amlwch, sir Fon. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn y Borth, ger Amlwch, ac nid hir y bu cyn dechreu pregethu. Yn 1821, aeth i goleg Caerfyrddin, athrawon yr hwn le ar y pryd ydoedd y Parchn. D. Peter a D. L. Jones. Wedi gorphen ei dymhor yn y coleg, derbyniodd alwad eglwys Annibynol Heol y Felin, Casnewydd. Bu yno hyd 1829, pryd y derbyniodd alwad eglwysi y Graig, Trelech, a Blaenycoed, sir Gaerfyrddin. Nid ymddengys ddarfod dihuno erioed ei dalentau dysglaer yn Nghasnewydd; yr oeddynt ar gael ond yn swrth hepian o'i fewn. Ond pan ddechreuodd waith y weinidogaeth yn y Drelech, dadebrodd ei alluoedd, ac ymroddodd i'w swydd gydag egni a sel annghyffredin. Llwyddwyd yr achos mewn modd neilldiol yn ei law,—derbyniodd y flwyddyn gyntaf o'i weinidogaeth yn y lle tua haner cant, a'r ddwy flynedd ganlynol dri chant a deg a thriugain i gymundeb; ac yn ystod y deng mlynedd y bu yn y weinidogaeth yno chwanegwyd at yr eglwysi tua saith cant o eneidiau. Yr oedd yn awdwr "Holwyddoreg" ar athrawiaethau crefydd. Ychydig cyn ei farwolaeth, bu hefyd yn darparu "Gwyddoniadur" i'r wasg, ac yr oedd wedi cytuno âg argraffydd i'w gyhoeddi. Bu farw Chwef. 20, 1849, yn 49 oed.

HUGHES (Parch. Edward), A.M., ficer Bodfari, yn Nyffryn Clwyd. Tybir mai brodor o Feirion ydoedd, a bu am rai blynyddau yn gaplan ar fwrdd llong ryfel. Efe a enillodd y wobr am yr awdl oreu ar "Elusengarwch," yn Eisteddfod Dinbych, pan y collodd ac y dirfawr lidiodd Dewi Wyn. Y ffugenw a ddododd wrth ei awdl ydoedd "Y Dryw," ac wrth yr enw hwnw yr adwaenir ef oreu yn mhlith y beirdd. Ceir "Erddygan," o'i waith yn y *Cambro Briton* ii. 232; a chân arobryn ar "Y Llongddrylliad," a dernyn prydferth o gywydd, "Ymson un o'r Madogiaid," yn *Ceinion Awen y Cymry*. Efe a enillodd wobr y Cymrodorion yn 1822, am y cywydd goreu ar "Hu Gadarn." Y mae mwy o harddwch dysgeidiaeth i'w weled yn ei waith nag o fflachiadau tanllyd athrylith o'r radd uwchaf.

HUGHES (Parch. Griffith), gweinidog enwog gyda'r Annibynwyr yn y Groeswen, Morganwg. Ganwyd ef yn Mhenywaen, ger Cwmifor, Llandilo, sir Gaerfyrddin, rywbryd yn 1775. Gan i'w dad farw pan nad oedd efe ond plentyn, ni chafodd ond ychydig ddysgeidiaeth, a rhwymwyd ef pan yn ieuanc yn egwyddorwas gyda chylchwr o'r enw Evan Rhydderch, o Lansadwrn, gwr enwog yn y parthau hyny am ei dduwioldeb. Dygwyd ef trwy hyn yn fore i agosrwydd at yr Efengyl, ac

Digitized by Google

ymddengys fod hyny yn cyd-daro â'i archwaeth naturiol ef ei hun. Yn 1790, derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Crugybar gan y Parch. Isaac Price, Llanwrtyd; ac wrth sylwi ei fod yn meddu doniau rhagorol mewn gweddi, tueddwyd rhai o'i frodyr i feddwl fod ganddo alluoedd uwchlaw y cyffredin. Rhoddwyd pob cefnogaeth iddo gan Mr. Price. Yn mhen yspaid, symudodd i fyw at ewythr i gymydogaeth Llangadog, a thra yno dechreuodd bregethu yn Nghapel Gwynfe. Bu fel hyn yn pregethu pa le bynag y gelwid am ei wasanaeth am rai blynyddau; ac yn 1797, gwahoddwyd ef i ymweled â'r Groeswen, a'r eglwys hono a'i hoffodd yn y fath fodd fel y rhoddes wahoddiad iddo ymsefydlu yn weinidog arni, â'r hyn y cydsyniodd, ac urddwyd ef yn ystod y flwyddyn grybwylledig. Yn mlynyddau cyntaf ei weinidogaeth, ymroddodd i ddarllen a dysgu, er gwneud ei ddiffygiadau boreol yn hyny o beth i fynu; a bu yn dra llwyddianus gyda'r Saesneg cystal a rhai o'r ieithoedd gwreiddiol. Llwyddodd hefyd i drysori gwybodaeth helaeth mewn duwinyddiaeth a hanesyddiaeth; a bu yr ystorfa hon yn dra chyfleus a gwerthfawr iddo. Yr oedd ei hyawdledd yn hollol naturiol, ac ar rai adegau yn gorchfygu ac yn ysgubo pobpeth o'i flaen. Yn ystod ei weinidogaeth, bendithiwyd yr eglwysi tan ei ofal â phedwar o ddiwygiadau nerthol—y fath ag a ddiwreiddient hen foncyffion pechod yn ein gwlad yn y dyddiau gynt, ac a droisant ein hanialwch yn ardd—sef yn 1800, 1817, 1826, a 1829. Mewn canlyniad i hyn, bu raid cael addoldy helaethach, ac yn 1830, adeiladwyd y capel eang a hardd sydd yn awr yn y Groes Wen. Bu hefyd yn brif-offeryn i godi capelau newyddion yn Rhydri, Caerphilli, Nantgarw, a Llanfabon; ac i sefydlu cangen-eglwysi newyddion ger y Gollen Ffrengig, ac yn Nghwm yr Aber. Parhaodd Mr. Hughes i weinidogaethu yn ddoeth a chyda llwyddiant mawr ar y maes helaeth hwn am 42 o flynyddau; yr oedd hefyd yn y cyfamser yn seren ddisglaer yn ffurfafen ei enwad yn Nghymru. Bu farw Gorph. 30, 1839; yn 64 oed.

HUGHES (Hugh), Ysw., neu y *Bardd Coch*, o Lwydiarth Esgob, ger Llanerchymedd, yn Mon, lle y trigianai ar ei dir a'i dreftadaeth ei hun. Enw ei dad oedd Gruffydd Hughes. Ganwyd ef Mawrth 22, 1693. Nid ymddengys iddo gael dysgeidiaeth helaeth pan yn fachgen; er hyny, trwy ddiwydrwydd, efe a gyrhaeddodd radd gymhesur o Gymraeg a Saesneg, fel y gallai gyfansoddi barddoniaeth yn y ddwy iaith. Argraffwyd y rhan fwyaf o'i waith barddonol, mewn cysylltiad â'r eiddo Goronwy Owen a Lewis Morris, yn y "Dyddanwch Teuluaidd," neu waith Beirdd Mon, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1763, gan Hugh Jones, o Langwm; hefyd yn y "Dyddanwch i'w Feddianydd, neu Ganiadau Defosiynol," a argraffwyd yn Dublin yn 1673. Cynwysa hwn, heblaw gwaith y Bardd Coch, yr eiddo Gwilym ab Gruffydd, cyhoeddwr y llyfr; Robert Huws, Caint Bach; a Wm. Jones, *(Bardd Mon)*. Yr oedd yn awdwr a chyfieithydd amryw draethodau mewn rhyddiaeth, wrth ba rai yr arferai y ffugenw, "Hugh ab Hugh;" megis "Deddfau Moesoldeb Naturiol;" cyfieithiad o "Deial Ahaz wedi ei hysbrydoli," 1773; a "Rheslan Bywyd Dynol, a gyfieithwyd o 'sgrifen yr Indiad, yr hwn a 'sgrifenwyd gan un o'r Philosophyddion, sef y Brahminiaid." Yr oedd hefyd yn hynafieithydd diwydbwyll, ac yn gasglydd hen ysgrifau Cymreig, y rhai a gyflwynodd efe i Lewys Morys at ei ysgrifau ef, a Iolo Morganwg a gyhoeddodd amryw ohonynt yn ei "*MSS.*" Bu farw Ebrill 6, 1776, yn 83 oed; a dywedir mai yn Nghaergybi y cymerodd hyny le ac mai yno ei claddwyd.

Digitized by Google

HUGHES (PARCH. HUGH), *Gwel* TEGAI.

HUGHES (PARCH. HUGH), gweinidog tra defnyddiol gyda'r Trefnyddion Wesleyaidd. Ganwyd ef Medi 14, 1777, yn Llain y Goetre, plwyf Llanon, ger Pwllheli. Ei rieni oeddynt aelodau gyda'r Trefnyddion Calfinaidd hyd oni ddaeth y Wesleyaid i bregethu i'r ardal hono, ac yna ymunasant â'r enwad hwnw. Dygwyd ef i fynu yn arddwr, a bu yn dilyn y gelfyddyd hono yn sir Gaernarfon a Liverpool. Treuliodd flynyddau ei ieuenctyd a'i fynwes yn faes ymryson parhaus rhwng tueddiadau ei galon lygredig a cheryddon cydwybod euog; a mynych y methai gysgu'r nos gan faint yr ymrafaelion hyn. Yn 1805, daeth ei frawd hynaf ar ymweliad ag ef i Liverpool, gyda'r hwn yr aeth un bore Sabbath i ddangos y ffordd iddo i gapel Cymreig y Wesleyaid yn Maguire Street; ac o'r bore hwnw allan, daeth yn wrandawr cyson; cyn hir ymunodd â'r eglwys; a dechreuodd bregethu yn 1806. Bu yn llafurio fel pregethwr cynorthwyol hyd 1808, yn fawr ei barch a'i ddylanwad, pryd y penodwyd ef i fyned allan i bregethu, ac y dodwyd ef i lawr ar gylchdaith Aberystwyth. Yn 1809, neillduwyd ef yn arolygwr cylchdaith Llanfyllin; ac mewn cyfarfod taleithiol a gynaliwyd yn Rhuthyn yn 1811, derbyniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth, gan y Parch. O. Davies, arolygwr cyffredinol y Gylchdaith Gymreig; a'r flwyddyn hono, penodwyd ef i lafurio yn Ninbych. Yn 1812, rhoddwyd ef i lawr ar gylchdaith Aberhonddu, ac wedi treulio yno ddwy flynedd yn lled gysurus a llwyddianus, symudodd i Landilo. Yn 1815, aeth i Gaerfyrddin, ac oddiyno i Gaerdydd, lle y bu yn glaf iawn mewn canlyniad i gael gwely llaith, eithr gwellhaodd eilwaith. Symudodd oddiyma i gylchdaith Machynlleth; ac yr oedd hefyd yn golygu yr *Eurgrawn Wesleyaidd* yn ystod y blynyddau hyn. Y pryd hwnw, cynwysai y gylchdaith grybwylledig yr oll bron o sir Feirionydd a rhan helaeth o sir Drefaldwyn, ac yr oedd gwasanaethu ar faes mor eang yn llafur dwys a chaled. Tua'r amser hwn, yn gyd-gyfranog â'r Parch. John Williams yr 2il, cyfieithodd Esboniad Wesley ar y Testament Newydd i'r Gymraeg. Penodwyd ef i gylchdaith Caernarfon yn 1821; i Ddinbych yn 1824; ac i Lanidloes yn 1826. Yn y lle olaf y llafuriodd galetaf erioed—yr oedd ganddo bump o gapelau a chwech o fanau pregethu. Pan yn Llanidloes, cyfieithodd hanes llongddrylliad y "Maria Mail Boat, tra yn mordeithio yn yr India Orllewinol, ac yn cludo llythyrau, ac ar ei bwrdd amryw genadon Wesleyaidd a'u teuluoedd yn dychwelyd o'u cyfarfod taleithiol." Argraffwyd yr hanes yn llyfryn, ac oblegyd ei ddyddordeb alaethus gwerthwyd yr oll mewn byr amser. Symudodd i gylchdaith Aberhonddu yn 1828; a thra yno, penodwyd ef i fyned i gynadledd gyffredinol yr enwad a gynelid yn Sheffield, pan y llwyddodd i gael trydydd pregethwr i Gaerdydd, ac y dewiswyd ef gan y gynadledd i'r swydd bwysig o Gadeirydd yr Ail Ddosparth, neu Ddeheubarth Cymru, yr hon swydd a lanwodd yn anrhydeddus am bedair blynedd ar ddeg. Bu ar ol hyny yn gweinidogaethu ar gylchdeithiau Merthyr Tydfil a Chaerfyrddin. Yn y lle olaf gorfodid ef i lafurio yn galed, nid oedd ganddo yr un cyd-weinidog; ac o ganlyniad, rhaid oedd iddo weinyddu yr ordinhad ddwywaith bob Sabbath am y ddwy flynedd y bu yno. Yr oedd ei babell bridd bellach yn dechreu dwyn argraff ei oes o lafur caled, a gorfu arno roddi i fynu ei hoff waith, a chilio o'r neilldu yn Awst, 1845. Medi 1, y flwyddyn hono, cyflwynwyd anrheg iddo o gwpan arian hardd gan weinidogion ieuainc y Dalaeth y bu yn gadeirydd arni am gynifer o flynyddau. Treuliodd

Digitized by Google

flynyddau ei neillduedd mewn tawelwch meddwl, fel un yn disgwyl dyfodiad ei Arglwydd, a bu farw yn dangnefeddus yn ei dŷ ei hun yn Nghaerfyrddin, Rhagfyr 17, 1855. Priododd ag un Miss Price, Pant y gored, ger Aberhonddu, yn 1814; a phriododd ei ferch hynaf a'r Parch. Isaac Jenkins, gweinidog gyda'r un enwad.

HUGHES (Syr Hugh), ydoedd fab hynaf David Llwyd ap Hugh o Borthamel, yn Mon. Efe oedd y cyntaf o'r teulu i arfer y cyfenw Hughes. Ail adeiladodd y palas, yr hwn, oddiwrth liw y ceryg calch cochion, a elwid Plas Coch. Bu dair gwaith yn sirydd Mon, ac yn aelod seneddol tros y sir hono. Yr oedd yn gynghorwr o *Lincoln's Inn;* yn gyfreithydd cyffredinol i'r frenhines Elizabeth tros Ogledd Cymru; a phenodwyd ef gan Iago I. yn arglwydd brif-ynad yr Iwerddon; ond bu farw yn Llundain cyn cyrhaedd yno.—*Lleyn MSS.*

HUGHES (Humphrey), Ysw., ydoedd fab hynaf Rhisiart Hughes, o'r Gwernclas, Meirionydd, a degfed arglwydd Cymer, ac a anwyd Awst 14, 1605. Gwnaed ef yn uchel sirydd Meirionydd yn 1670. Yr oedd yn ymroddgar selog dros deulu breninol y Stewarts; oblegid yr hyn y ffortfetiwyd ei etifeddiaeth; ond adfeddianodd hwynt trwy dalu i Oliver Cromwel a'i gyngor y swm bychan o 333p. 10s. 9c. Priododd ferch ac etifeddes John Roper, o Bryntangor, yn Mryneglwys-yn-Ial. Bu farw Mai, 1682.

HUGHES (Parch. James), neu *Iago Trichrug*, Llundain. Ganwyd y gweinidog doniol a'r esboniwr rhagorol hwn yn y Neuadd-ddu, plwyf Cilian, ger mynydd Trichrug Aeron, sir Aberteifi, yn 1779. Nid oedd ei addysg foreuol ond prin; er hyny, trwy benderfyniad meddwl a gweithgarwch, gwnaeth y diffyg hwnw i fyny mor fuan ag y daeth i deimlo fod addysg yn werthfawr, a gellir edrych arno heddyw yn un o ddynion mwyaf ei oes yn yr ystyriaethau a nodwyd. Y diffyg o gyfarwyddyd athrawon priodol a lanwodd efe trwy ddarllen ysgrifeniadau y dynion mwyaf galluog a dysgedig, ac yn y diwedd coronwyd ei lafur â llwyddiant tu hwnt i gyffredin. Yn ei flynyddau boreuol ymarferai lawer â goruchwylion amaethyddol a bugeiliol. Ond yn bur ieuanc rhoddodd ei rieni ef i ddysgu crefft gôf, ac ystyrid ef yn weithiwr gwlad campus, a hyny cyn pen ychydig amser ar ol iddo ddechreu. Nid oedd ei rieni ar y pryd yn proffesu gydag un enwad crefyddol; ond byddent yn myned i wrando. Yr oedd rhyw argraffiadau crefyddol ar feddyliau James er pan yn dra ieuanc, a dangosai hyny yn yr awydd cryf oedd ynddo i fynychu moddion gras. Yn hâf, 1797, pan yn 18 oed, aeth ar ryw nos Sabbath i wrando ar yr hen wr parchedig hwnw, Dafydd Parry o sir Frycheiniog, yn pregethu mewn lle a elwir y Gelli, gerllaw pentref Talysarn, wrth odreu mynydd Trichrug, ac oedfa i bwrpas ydoedd hon iddo ef; a dyma ddywed am y pregethwr a'i bregeth ar ol hyny:—"Y mae genyf barch mawr i goffadwriaeth y dyn gwerthfawr hwnw; oblegid os cefais droedigaeth a dychweliad at yr Arglwydd erioed, yr wyf yn meddwl mai drwyddo ef y cefais." Ar ol iddo dreulio amser ei addysgiant yn ei gelfyddyd, symudodd o'i fro enedigol i weithio yn ardal Llangeitho. Ond ni bu ei arosiad yno yn hir, oblegyd meddai, "Yn niwedd y fl. 1798, oherwydd y cynhauaf drwg, a drudaniaeth mawr yn Nghymru, daeth ugeiniau lawer o'n cydwladwyr, yn enwedig o Geredigion, yma (sef Deptford, ger Llundain), i ymofyn gwaith yn y *Dock* a'r *Navy Yards*, perthynol i'r Llywodraeth;" ac yn mhlith y lluaws yr oedd Mr. Hughes. Yr hyn a barodd iddo ef yn benaf feddwl am fyned i Deptford ydoedd fod ganddo fodryb yn cyfaneddu yno, yr hon oedd

Digitized by Google

yn briod gydag un o'r enw Mr. Rich. Davies, gôf wrth ei alwedigaeth, fel yntau, yr hwn ar y pryd oedd yn gweithio yn y Dock Yard; a chan ei fod yn weithiwr mor ragorol, yr oedd wedi enill iddo ei hun ddylanwad mawr yn y lle; a chafodd Mr. Hughes drwyddo fynediad rhwydd i weithio, a hyny hefyd gyda'i ewythr. Ar y cyntaf, nid ydoedd ond math o darawr *(striker)* yn y lle, gan fod y gwaith a wneid yno yn ddyeithr iddo ef oedd newydd ddyfod i fynu o'r wlad. Ond nid hir y bu cyn dyfod yn un o'r gweithwyr medrusaf yn y lle; a pha ryfedd, gan ei fod mor feddylgar a phenderfynol, oblegyd "yn mlaen" oedd ei arwyddair ef gyda phob peth a gymerai mewn llaw. Cafodd ei deitlo yn *Prince of Wales* yn y gwaith, oblegyd ei ragoriaeth fef celfyddydwr. Yr oedd Mr. Hughes yn mhell cyn ei fyned i Lundain yn aelod gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a bu yn ffyddlon felly am amser maith ar ol cyrhaedd yno. Yr oedd ei Saesneg yn hynod o wael ar y cyntaf—digon prin y gallai wneud i'r gwylwyr ei ddeall pan yn gofyn y ffordd o Lundain i Deptford; ond yn mhen enyd, cymerodd ei berswadio gan ei ewythr, gyda'r hwn hefyd y lletyai, os oedd am ddysgu yr iaith Saesneg yn drwyadl ac i allu ei siarad yn dda, y byddai yn llawer gwell iddo fyned i wrando ar y Saeson yn pregethu, ac ystyriai y byddai hyny yn llawer mwy manteisiol iddo er ei ddyrchafiad yn y dyfodol; a hoffder Mr. Davies tuag ato yn ddiau a barodd iddo roddi y cynghor hwn i'r gwr ieuanc, gan ei fod yn gweled y fath awydd angerddol ynddo i ddysgu yr iaith hono. Gwrandawodd yntau ar y cynghor, a phenderfynodd ei gario i weithrediad; ond Ow! i James, druan, tynodd ei ymweliadau aml â'r Saeson wg yr hen frodyr tuag ato, a'i bechod mawr ef oedd mynychu cyfarfodydd y Saeson, yr hyn a ystyrir eto gan lawer hen Gristion da yn bechod anfaddeuadwy. Y pwnc pwysig yn ngolwg Mr. Hughes oedd gallu dysgu yr iaith Saesneg, a'i siarad yn rhwydd; a diau pe gweithredasai yn wahanol ar y pryd, er mor ofidus oedd hyny i'w frodyr Cymreig, ni buasai ei orchestion llenyddol ond ychydig. Ac os peidiodd a bod yn Fethodistiad Cymreig, na thybier trwy hyny iddo beidio a bod yn grefyddol. Gwir yw fod rhai, heb ddeall yr amgylchiad, wedi rhoddi cam liw hollol ar hyn. Y dull y treuliai Mr. Hughes ei amser ydoedd yn y modd canlynol: ysgrifenai restr o eiriau Cymraeg a chyferbyn a hwynt rhoddai restr ohonynt yn Saesoneg—dwsin neu ragor bob dydd, yna gosodai y rhestr o flaen ei lygaid, a thra yn chwythu y tân dysgai hwynt yn fanwl ar ei gof, ac felly am bob dydd, nes o'r diwedd y daeth yn feistr hollol rwydd ar holl eiriau yr iaith Saesoneg cystal a'r iaith Gymraeg. Wrth ddyfod adref o bob man, byddai ganddo bac o dan ei gesail, ac arferai ei fodryb ofyn iddo, "Beth sydd gen ti, James?" Ond llyfr siwr fyddai yr ateb bob amser; ac yn y diwedd fe gasglodd lyfrgell ragorol, heb fod llawer o'i gwell. Nid hir y bu James nes y blinodd ar y Saeson, gan fod yr hen deimlad Cymreig yn tanio ei fynwes, a chrefydd y capel Cymreig ydoedd ei hoff grefydd o hyd; a'r canlyniad fu iddo droi ei wyneb yn ol at ei hoff hen gyfeillion, a chafodd ganddynt groesawiad gwirioneddol; a thua 1806, derbyniwyd ef eilwaith yn gyflawn aelod, a hyny pan ydoedd yr enwog Elias o Fon yn Llundain yn gweinidogaethu am dymhor. Yr oedd gan fodryb Mr. Hughes berthynas iddi, yr hon a ddaeth i Deptford i wasanaethu, gyda'r hon yn mhen amser yr ymunodd James Hughes mewn glân briodas—a chafodd ynddi ymgeledd gymwys hyd angeu. Cawsant liaws o blant, llawer o afiechyd, ac amryw chwerwon a galarus brofedigaethau. Dechreuodd bregethu yn 1810, pan yn 31 ml. oed, a hyny

Digitized by Google

mewn ystafell yn Deptford. Cafodd ei ordeinio yn Llangeitho yn y fl. 1816, i gyflawni gwaith y weinidogaeth. Yr oedd ynddo y fath gyfarfyddiad o ragoriaethau, a'r rhai hyny mor gydradd, fel nad hawdd ydyw nodi un rhagoriaeth uwch na'r lleill. Math o *Walking Library* ydoedd —yr oedd yn deall yr iaith Lladin yn dda—yn Roegwr campus, ac mor hyddysg yn yr Hebraeg fel ag i allu ysgrifenu ynddi yn y llythyrenau Hebreig. Hefyd, yr oedd mor feistrolgar yn yr iaith Saesoneg fel ag i allu pregethu ynddi, a hyny mor rwydd a phe yn traddodi yn iaith ei fam; a chan fod y cyfan a fwriadai draddodi dan reolaeth y fath gof cawraidd ag oedd ganddo, dyferai ei eiriau dros ei wefusau mor llithrig ac mor felus fel ag i swyno meddyliau a theimladau, nid yn unig y rhai gwanaf eu hamgyffrediadau, ond hefyd y rhai mwyaf deallus o'i wrandawyr. Fel dyn yr oedd Mr. Hughes yn un hynod o olygus; yr oedd ei ben mawr, a'i goryn moel disglaer, a'i wallt gwyn, yn rhoddi rhyw olwg hynod o batriarchaidd arno: ac o ran ei dymher naturiol yr oedd o'r mwyaf hynaws a charedig. Siariadai yn barchus am bawb, ac os na byddai ganddo rhyw dda i'w ddywedyd am un, tewi a wnai. Ond cofier os goddiweddid rhywun a bai, ni byddai ef ar ol i ddatgan ei feddwl; ond gwnai hyny yn gyffredin wrth y person ei hun, ac nid yn gyhoeddus. Yr oedd y dull hwn o'i eiddo wedi arwain rhai i synied nad ydoedd yn fugail eglwysig cystal ag y dymunasid, ond camsyniad dybryd ydyw hyny—bugail doeth ydoedd, a'r doethineb hwnw wedi ei ddysgu i dewi cystal ag i siarad, yn y fan a'r pryd y dylasai. Gwir yw nad ydoedd yn ymwelydd mor dda â deiliaid ei ofal; ond dylid cofio ei fod yn gweithio yn galed gyda'i gelfyddyd y rhan foreaf o'i oes, ac yn byw yn mhell oddiwrth ei braidd, pa rai oeddynt mor wasgaredig. Dengys yr hanesyn a ganlyn pa fath un cydwybodol ydoedd. "Un tro," ebe y Parch. David James, "pan oedd Mr. Hughes ar ei daith weinidogaethol yn y Dywysogaeth, daeth i'w wybyddiaeth fod rhyw arian ag oeddynt ddyledus arno heb gael eu talu; yn y fan y nacaodd fyned o'r lle at ei gyhoeddiad, hyd nes y caffai hysbysrwydd fod yr arian wedi eu talu—yr oedd hyn, er yn anffodus iddo ef, wedi digwydd trwy esgeulusdra cyfaill iddo. Ond pan dderbyniodd y newydd am daliad yr arian aeth i'w daith yn gysurus a chalonog. Dywedais wrtho ar y pryd," meddai Mr. James, "am groni dwfr erbyn y deuai yr amser cyfaddas i'r felin falu, mai felly y byddai melinwyr gwlad yn arfer gwneud yn aml ar dywydd sych yn yr haf pan y byddai prinder arnynt, ac am iddo ynte wneuthur yr un modd yr adeg hono. Atebai Mr. Hughes yn ol: 'Na, ni allaf fi feddwl am geisio croni dwfr (gwybodaeth) i'm meddwl o dan y fath amgylchiadau annghysurus â'r presenol." Byddai achosion fel hyn yn effeithio yn drwm ar ei feddwl, a hyny nes peri iddo ymylu at bruddglwyfder, yr hwn anhwyldeb a'i blinai yn ddirfawr ar brydiau. Byddai iddo weled hyd yn oed bregethwr a ystyrid yn gyffredin yn ei wrando yn peri annghysur mawr iddo pan o dan lywodraeth y teimlad hwnw. Ond yr hyn a anfarwolodd ei enw ydyw ei esboniad rhagorol ar yr Hen Destament a'r Newydd; oherwydd heblaw ei fod yn esboniad da a chynwysfawr, yr oedd yn esboniad yn ei bryd—yr oedd yn ateb i angenion yr oes. Gan fod yr enwog Mr. Charles o'r Bala wedi planu yr Ysgolion Sabbathol yn mhlith ein cenedl; yn y man wele Mr. Hughes o Lundain yn dyfod i'r maes i'w dwfrhau, ac nid oes cymaint ag un Sabbath yn myned heibio na bydd enw Mr. James Hughes yn cael ei goffa yn barchus mewn cysylltiad a'i Esboniad ar ryw gyfran o'r Ysgrythyr Lân, a hyny hefyd yn mhlith y gwahanol enwadau crefyddol

Digitized by Google

Cymreig. Dechreuodd ar y Testament Newydd yn flaenaf, a hyny yn 1829, a gorphenodd yn 1835. Daeth allan ddau argraffiad—y cyntaf yn 2 gyfrol mewn orgraff mân. Pum Punt am bob rhifyn chwe' cheiniog ydoedd ei dâl am hwn: a chamgymeriad ydyw mai Deg Punt a gafodd am yr oll; a daeth ail argraffiad ohono, yn un gyfrol fawr arddderchog, mewn argraff bras, a diwygiadau ac ychwanegiadau pwysig, sef sylwadau cyffredinol ac arweiniol ar holl lyfrau y Testament Newydd, &c. Wedi i Mr. Hughes orphen y Newydd, nid oedd y wlad yn foddlon iddo orphwys ar hyny, o ganlyniad yn 1838, sef yn mhen tua tair blynedd a haner ar ol gorpheniad y blaenaf, argraffwyd ei esboniad ar yr Hen Destament yn gyffelyb i'r argraffiad cyntaf ar y Newydd—a daeth allan yn bum cyfrol. Eithr wedi iddo gyrhaedd Llyfr Jeremiah xxxv., a diweddu ei sylwadau ar y 6ed adnod, wele afiechyd yn ei orchfygu, a hyny i'r fath raddau fel na allasai ysgrifenu yr un sylwad mwy—wedi bod wrth y gorchwyl yn ddiwyd a llafurus am yspaid o chwe' blynedd. Priodol, pa fodd bynag, ydyw crybwyll ddarfod i'w hoff orchwyl gael ei gario yn mlaen, a hyny mewn modd teilwng, gan y Parch. Roger Edwards, Wyddgrug. Erbyn hyn, y mae Mr. Edwards yn dwyn allan ail argraffiad ar yr hen Destament, gydag ychwanegiadau pwysig, yn yr un ffurf a'r ail argraffiad mawr ar y Newydd. Darfu i Mr. Hughes gyfieithu i'r Gymraeg amryw draethodau gwir werthfawr; ond yr un mwyaf pwysig ag sydd yn taro ar ein meddwl ydyw traethawd y Parch. Thomas Watson ar "Swpper yr Arglwydd." Ceir hefyd amryw feirniadaethau, gohebiaethau, &c., o'i eiddo yn yr hen *Seren Gomer*, *Dysgedydd*, *Drysorfa*, a chyhoeddiadau eraill a gyfoethogent ein llenyddiaeth yn ystod haner cyntaf y ganrif bresenol. Cyfieithodd lawer o ddarnau o waith y prif-feirdd Seisnig i'r Gymraeg, megis "Darkness" o waith Byron; "The Bard," gan Grey; a'r "Grave," o waith Blair. Yn y rhai hyn, arddengys adnabyddiaeth helaeth ag adnodau anhysbydd y Gymraeg, er y dichon fod eglurder a nerth y gwreiddiol yn rhy fynych yn eisiau. Y mae englynion lawer o'i waith yn tystio ei fod yn gelfyddydwr medrus yn y mesurau caethion; ac y mae aml i hymn o'i eiddo yn addurno ein Hemynyddiaeth Gymreig. Yr oedd ganddo hefyd y gallu hwnw i gyfansoddi emynau tlysion, a hyny, fel Dr. Watts, at ddirnadaeth plant; ei waith ef ydyw y cyfieithiad hapus o "Joyful—(O! hyn fydd yn hyfryd)." Pe caniatasai gofod, gallasem yn hawdd roddi rhestr o tros haner cant o wahanol gyfansoddiadau o'i eiddo a ddanfonodd i'r cylchgronau Cymreig. Y maent gan mwyaf yn gynyrch meddwl addfed, dirnadaeth gref, ac yn adlewyrchu clod mawr ar gyneddfau dyn y bu raid iddo ymladd â'r byd am ei damaid, a lloffa tywysenau dysgeidiaeth ar yr un pryd. Rhaid dyfod at amser ymddattodiad Mr. Hughes. Yr oedd ei iechyd wedi gwaethygu am lawer o fisoedd, ac ar fore Tachwedd 2, 1844, rhoddodd angeu derfyn bythol ar ei holl ofidiau, a hyny yn ei dŷ ei hun yn Rotherhithe, rhwng Deptford a Llundain, yn 65 oed; pryd y cafodd fynediad gorfoleddus i mewn i deyrnas ei Arglwydd, gan ddywedyd wrth fyned: "O Dad, i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy yspryd;" ac, "Arglwydd Iesu, derbyn fy yspryd;" wedi bod yn efengylu dros 34 o flynyddoedd. Claddwyd ef yn barchus iawn yn hen fonwent enwog Bunhill-fields, City Road, Llundain, pryd y dilynwyd ef hyd y bedd gan dorf orfawr o'i gyd-wladwyr galarus, lle gwelir heddyw gof-adail a gyfodwyd iddo gan ei gyfeillion; ac arni, yn mhlith pethau eraill, englyn yn dynodi ei rinweddau.

Digitized by Google

HUGHES (PARCH. JOHN), archddiacon Ceredigion, ydoedd fab ac etifedd i John Hughes, Ysw., o'r Llwyn Glas, plwyf Llanfihangel-geneu'r-glyn, ger Aberystwyth; ac a anwyd yn 1787. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Ystrad Meirig, o tan yr athraw campus, y Parch. John Williams, a bu am yspaid wedi hyny yn cynorthwyo fel athraw clasurol mewn ysgol fawr yn Putney, Llundain. Arosodd yno am flwyddyn a haner; a bu y cyfnod yn llawn o fanteision neilldued iddo i ddysgyblu y deall, ac i ymarfer prydlondeb, cywirdeb, a gweithgarwch meddyliol. Ond ar bregethu y rhoddasai efe ei fryd er yn blentyn, a cheisio cyfansoddi pregethau y byddai ar aelwyd y Llwynglas, a'u hadrodd drachefn gyda hwyl wrtho ei hun ar hyd y meusydd. Gan hyny, dychwelodd i Gymru, ac urddwyd ef yn ddiacon ac offeiriad yn ystod y fl. 1811, gan Esgob Llanelwy. Penodwyd ef yn gurad Llandrillo yn Rhos, ger Conwy; ac ymroddodd i'w swydd gyda difrifoldeb a sel annghyffredin. Sefydlodd addoliadau cyhoeddus mewn manau anghysbell o'r plwyf, creodd gynhwrf nid bychan yn y gwersyll eglwysig o'i gwmpas, a chynullodd pobl lawer i'w wrando. Wedi bod yma am chwe' blynedd, yn 1817, symudodd i Loegr i gymeryd curadiaeth Foleshill, ger Coventry. Yma drachefn enillodd ffafr bonedd a gwreng, a llenwid yr eglwys gan wrandawyr astud. Yn 1822, bu farw ficer y plwyf, a'r plwyfolion a ddeisebasant noddwr y fywioliaeth, sef yr arglwydd-ganghellydd Eldon, i'w rhoddi i'r curad ieuanc; eithr y boneddwr hwnw yn cashau y blaid efengylaidd yn yr eglwys a wrthododd y cais. Yna symudodd Mr. Hughes i Deddington, sir Rhydychain: a buan y llanwyd yr eglwys hono hefyd trwy ei boblogrwydd fel pregethwr. Chwyddid y dorf gan bobl o'r pentrefydd cymydogaethol; ac er fod 17 milldir oddiyno i Rydychain, mynych y gwelid gwyr ieuainc y gwahanol golegau yn mhlith gwrandawyr Mr. Hughes. Yr oedd maes ei lafur yn fawr, a'r plwyf yn cynwys 2000 o drigolion, a bu yn ddiflino ei ymdrechion i weinyddu iddynt ymgeledd ysprydol. Tra yn Deddington bu yn ddirprwywr amryw weithiau tros y Fibl Gymdeithas, a pharhaodd yn bleidiwr gwresog i'r amcan daionus hwnw hyd ddiwedd ei oes. Ond pan yr oedd efe yn nghanol ei ymdrechion i wneud daioni, a llwyddiant amlwg yn gwenu arno, daeth cwmwl tros ei ffurfafen deuluaidd—bu farw ei wraig, gan adael chwech o blant bychain ar ol, yr hynaf o ba rai nid oedd ond wyth oed. Eithr "wedi tymhestl daw hindda," ac yn fuan wedi y galar torcalonus hwn, cafodd berigloriaeth Aberystwyth; ac felly ddychwelyd i fynwes ei wlad, ac i ymyl ei hen gynefin. Yr un amser hefyd penodwyd ef yn gurad Llanbadarnfawr. Yr oedd maes ei lafur bellach yn helaethach nag erioed o'r blaen, ac ni laesodd efe ddwylaw wrth feddwl am fawredd y gwaith. Gwelodd fod angen eglwys newydd yn Aberystwyth, gan fod yr hen yn fechan, ac annheilwng o dref bwysig a chynyddol felly; ac ar ol ymdrech dyfal-barhaol, llwyddwyd i agor yr eglwys hardd ac eang bresenol, St. Michael. Mynodd Mr. Hughes hefyd gael tua haner yr eisteddleoedd i fod yn rhydd a diardreth at wasanaeth y tylodion; a threfnodd ddau wasanaeth ychwanegol bob Sabbath, a dau craill yn ystod yr wythnos, yn mha rai y darparai ar gyfer ei blwyfolion yn Gymry a Saeson. Yn 1833, daeth ficeriaeth y fam-eglwys yn Llanbadarn yn wag, a phenodwyd ef i'r swydd gan yr esgob Jenkinson, o Dyddewi, gan yr hwn hefyd y cawsai ychydig cyn hyny gadair yn Eglwys Golegol Aberhonddu. O hyny hyd ei farwolaeth yn 1860, daliodd y ddwy swydd, er nad oedd ei gyflog ond bychan pan ystyrir y treuliau a'r gofyniadau parhaus sydd ar wyr mewn

Digitized by Google

cyffelyb sefyllfa. Pan fu farw y Parch. Wm. Howells, o Longacre, Llundain, cynygiwyd y lle i Mr. Hughes, eithr ei serch oedd gymaint at ei ddeiliaid, fel y gwrthododd gydsynio. Yn 1859 cynygiwyd iddo archddeoniaeth Ceredigion, gan y Dr. Thirlwall, esgob Tyddewi; ac wedi peth petrusder ymgymeryd â gorchwyl mor lafurus tan ei oedran mawr, cydsyniodd. Yn ystod y flwyddyn hono, ymwelodd a phedwar ugain o blwyfydd o fewn ei archddeoniaeth yn sir Aberteifi a pharth uwchaf sir Benfro, gan bregethu mewn amryw o honynt, a hyny heb fod ond un Sabbath oddiwrth ei gynulleidfaoedd ei hun. Yn ystod yr un flwyddyn, dechreuodd atiechyd o natur y parlys ac anhwyldeb y galon ddangos ei hun, ac wedi hir ymfrwydro â hwynt efe a fu farw Tachwedd 1, 1860, yn 73 oed. Claddwyd ef gan dyrfa fawr ac wylofus: yr oedd y masnachdai yn ngauad, a'r lleni ar y ffenestri; ac yn y cynhebrwng 39 o offeiriaid, a llawer o weinidogion Ymneillduol. Bu am flynyddoedd yr offeiriad mwyaf poblogaidd, llafurus, a dylanwadol yn yr Eglwys, trwy yr holl wlad; ac yn ei rinweddau eraill llai amlwg, yn dra theilwng wrthddrych efelychiad. Yr oedd hefyd yn awdwr o gryn fri. Cyhoeddwyd y pethau canlynol o'i waith yn y Gymraeg: 1, "Pregeth, pan oedd yn gurad yn Llandrillo yn Rhos." 2, "Casgliad o 14 o Bregethau, yn 1829." 3, Cyfieithiad o "Henry and Scott's Commentary," cyn belled a Deuteronomium, 1834, yr hwn a barhawyd gan y Parch. W. Jones, ficer Llanfihangel geneu'r glyn. 4, "Y Nabl," sef casgliad a Salmau a Hymnau Cymreig. 5, Cyfieithiad o "Fyfyrdodau yr Esgob Hall ar y Testament Newydd." Cyhoeddwyd hefyd y pethau canlynol o'i eiddo yn Saesoneg:—1, "The Domestic Ruler's Monitor; being a Sermon on the much neglected duty of Family Prayer, preached at the Parish Church of Foleshill, on the 14th of January, 1821." 2, "Pastoral Valediction, being two Farewell Discourses, preached at Foleshill, 1822." 3, "A Visitation Sermon, preached at Cardigan, before Dr. Jenkinson, Bishop of St. David's, 1832." 4, "Esther and her people; being a Practical Exposition of the incidents in the book bearing that name, 1832." 5, "A Sermon, preached at St. Michael's Church, Aberystwyth; being the day of the coronation of her Majesty, June 28th, 1838." 6, "Ruth and her Kindred; being a delineation and practical improvements of the various incidents which befell them, 1839." 7, "Three Volumes of Sermons, published at different times." 8, "The Self Searcher; or brief remarks on Self examination, 1848." 9, "A collection of Psalms and Hymns for the use of St. Michael's Church, Aberystwyth." 10, "The Heathen's Appeal." Yn 1864, cyhoeddwyd cyfrol o'i bregethau yn nghyda bywgraffiad dyddorol ohono, gan ei fab, y Parch. R. Hughes, M.A., periglor St. Catherine, Edge Hill, Liverpool, i ba un yr ydym yn ddyledus am ddefnyddiau hyn o hanes, ac am y rhestr o'i lyfrau i'r *Lleyn MSS.*

HUGHES (Parch. John), Pont Robert, gweinidog ffyddlawn gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a anwyd yn y fl. 1775. Ni wyddis nemawr ddim am hanes bore ei oes. Dechreuodd bregethu yn 1800, a pharhaodd yn y gwaith am y cyfnod hirfaith o 53 o flynyddoedd. Teithiodd lawer ar hyd De a Gogledd Cymru, yn nghyda phrif drefydd Lloegr, a'r efengyl dragwyddol ganddo. Yr oedd wedi ei gynysgaeddu â synwyr cryf, amgyffred cyflym, a meddwl treiddgar; ac yn dra goleuedig yn mhwnc yr athrawiaethau. Yr oedd yn dra adnabyddus fel pregethwr, a bu ei weinidogaeth o les i laweroedd. Yr oedd yn awdwr amryw em-

Digitized by Google

ynau, y rhai sydd bellach mewn arferiad yn ngwasanaeth y cysegr; ac iddo ef y dylem ddiolch am gadwriaeth hymnau ardderchog Ann Griffiths. Cyhoeddodd fywgraffiadau o'r Parch. Owen Jones, Gelli; Parch. E. Griffiths, Meifod; a'r Parch. Wm. Jones, Do'yfonddu; ond hyd yn hyn nid oes un o'i frodyr wedi gwneud hyny o gymwynas a'i goffadwriaeth ef. Terfynodd ei yrfa ddefnyddiol ar y ddaear Medi 15, 1854, yn 79 oed; a chladdwyd ef yn mynwent capel Pont Robert, pryd y gweinyddwyd gan y Parch. D. Morgan, gweinidog yr Annibynwyr yn Llanfyllin.

HUGHES (Parch. John), awdwr dysgedig, a gweinidog enwog gyda'r Trefnyddion Wesleyaidd. Ganwyd ef yn 1776 yn Aberhonddu. Masnachwr cyfrifol, o'r enw William Hughes, oedd ei dad. Addysgwyd ef yn y dref hono; a rhagorodd yn fuan ar ei gyd-ysgolheigion yn enwedig yn yr ieithoedd gwreiddiol. Pan nad oedd ond 13 oed, dechreuodd pethau crefydd ymwneud â'i feddwl; yr hyn a achlysurwyd yn benaf wrth wrando pregeth gan y Dr. Coke. Ar ol hyn, mynychai gapel yr arglwyddes Huntingdon, Capel Ystrywad, yr hwn sydd yn awr yn perthyn i'r Trefnyddion Calfinaidd; ac hefyd capel y Wesleyaid. Cyn hir ymaelododd gyda'r enwad olaf; ond yr oedd bryd ei deulu wedi ei roddi ar wneud offeiriad o hono. Yr oedd wedi cael pum' mlynedd o ysgol ragorol, a thybid y buasai ewythr iddo yn Llundain yn dwyn y draul o'i berffeithio yn y prif-golegau. Nid oedd yr offeiriadaeth yn dygymod a'i chwaeth yntau o gwbl; eithr ar daer ddeisyfiad ei holl berthynasau efe a gydsyniodd i fyned i Gaerlleon at ewythr arall iddo—offeiriad, a gwr tra dysgedig a deallgar, a bu y symudiad hwn o fawr fudd iddo er chwanegu ei wybodaeth ac eangu ei feddwl. Eithr wedi peth amser, penderfynodd ddychwelyd i Aberhonddu, gan roddi heibio bob bwriad i fyned yn offeiriad, a meithrin y gobaith o ddyfod rhyw ddydd yn weinidog gyda'r Wesleyaid. Wedi iddo ddychwelyd, cymhellwyd ef i ddechreu pregethu gan y brodyr o'r enwad hwnw. Yn 1796, ac efe yn nghylch ugain oed, cafodd ei dderbyn i'r gynadledd a'i benodi i gylchdaith Caerdydd. Yn yr Awst canlynol, symudwyd ef i Hwlffordd; eddiyno i Gaerdydd yn ol; a thrachefn i gylchdaith y Trallwm, yr hon a gynwysai ran fawr o siroedd Trefaldwyn a Maesyfed. Pan ar y gylchdaith hon, treuliodd rai wythnosau yn nghylchdaith yr Amwythig, pryd y daeth i adnabyddiaeth bersonol â'r enwog Barch. Mr. Fletcher o Madeley. Yn Awst, 1800, cynygiodd y Dr. Coke, arolygwr cyffredinol y genadaeth Gymreig, fod i Mr. Hughes a'r Parch. Owen Davies i fyned yn genadau rheolaidd i Ogledd Cymru. Mewn perthynas i hyn, efe a ddywed, "Mi a ufuddheais i'r penodiad mewn ofn a dychryn." Awst 20 gadawodd Aberhonddu, a'r Sadwrn canlynol cyrhaeddodd Wrexham. Dengys ei ddyddlyfr ei fod ar ei fynediad i'r Gogledd wedi pregethu llawer yno yn nghymni Owen Davies, a'i fod wedi llafurio yn galed yn y weinidogaeth, fel cenadwr Wesleyaidd yn Nghymru—yn y Deheudir yn gystal ag yn y Gogledd. Ac wedi i ni ei ddilyn trwy holl amrywiaethau ei lafur yn y genadaeth Gymreig, cawn ein tynu ganddo i berfedd-dir Lloegr. Fel ysgolhaig, yr oedd y Cymry eto yn annghymwys i'w brisio; canys fel arcithydd poblogaidd yn unig, yn gallu effeithio ar y tymherau, yr oeddynt hwy yn gallu priso athraw crefyddol; a chan nad oedd Hughes yn un o'r rhai goreu mewn hyawdledd barddonol, a thraddodiad tanllyd, efallai mai doeth oedd y symudiad hwn o'i eiddo. Yn 1817, cafodd ei benodi i gylchdaith Newcastle-under-Line. Tra yn y gylchdaith hon, yr argraffodd ei waith rhagorol

Digitized by Google

a elwid "Horæ Britannicæ," yr hwn a gammolid yn fawr gan amrywiol o enwogion. Gwnaed sylw ffafriol iawn arno hefyd mewn erthyglau beirniadol yn yr *Eclectic Review*. Ei weithiau argraffedig ydynt y rhai canlynol:—1. "Natur a dyben Rheolau Cyffredinol Cymdeithas y Trefnyddion Wesleyaidd;" 1804. 2. "Llyfr Hymnau," 1802. 3. "Athrawiaeth Rhagluniaethiad Dwyfol, a dwy bregeth," 1803. 4. "Prynedigaeth Gyffredinol, neu Grist wedi marw dros bawb;" 1803. 5. "Pregeth ar Eph. v. 14," 1802. 6. "Horæ Britannicæ, or Studies in ancient British History," yn ddwy gyfrol wyth plyg. 7. "An Essay on the Welsh Language," 1822. 8. "A plea for Religous Liberty." 1811. 9. "Theological Essay and Discourses on Public Worship," 10. "The Book of the Chronicles of the Methodi, and their sojourning in the land of Cambria," 1804. Ymddangosodd cyfieithiad o'r Llyfr hwn yn yr *Eurgrawn* am 1842. Dechreuodd hefyd ysgrifenu sylwadau byrion teuluaidd ar y Beibl, ar ol pob penod, tebyg i'r eiddo y diweddar Barch. Peter Williams. Nid ydys yn deall iddo fyned yn mhellach na llyfr Genesis. Y mae y sylwadau wedi eu hargraffu yn yr *Eurgrawn* am y flwyddyn 1834. Derbyniodd Mr. Hughes wobrwyon gan Gymdeithas y Cymrodorion, am ei weithiau dysgedig; a thri bathodyn arian, yn cynwys cerfiadau priodol. Yn y flwyddyn 1824, cynaliwyd Eisteddfod Powys. Testun y brif wobr ydoedd, "Sefydliad a thaeniad Cristionogaeth yn mhlith y Cymru, gan dri theulu llafurus Bran ab Llyr, Cynedda Wledig a Brychan Brycheiniog." Yr oedd pedwar yn cystadlu am y wobr; ond dyfarnwyd hi i Mr. Hughes, dan y ffugenw "Blegwyryd." Y wobr ydoedd pum gini, ac ariandlws gwerth dau gini. Yr oedd hefyd yn aelod mygedol o'r Gymdeithas grybwylledig, a llanwai y gadair ar rai achlysuron. Pan ddygodd Fisher, o Liverpool, allan argraffiad o "Daith y Pererin," sylwadau Mr. Hughes sydd ar odre y dail yn yr argraffiad hwnw. Yno y gelwid ef "John Hughes, aelod o Gymdeithas y Cymrodorion." Ysgrifenodd hefyd waith o'r enw "Historical Triads, consisting of memorials of remarkable persons and occurences among the Cymry; translated from the Welsh, with notes;" ond ni argraffwyd ef. Meddyliodd unwaith ei ddwyn allan trwy ragdaliadau, a chafodd gefnogaeth esgob Tyddewi. Oddeutu y pryd hwnw darfu i rai offeiriad Cymreig enwog ddangos llawer o gyfeillgarwch iddo; ac yn eu mysg ddau o sylfaenwyr y *Cambrian Literary Society*. Mynent iddo gymeryd urddau offeiriad. Ond er iddo gael ei sierhau fod eu dymuniadau yn unol a meddwl yr esgob, gwrthododd y cynyg. Fel y nodwyd, yr oedd wedi derbyn yr un cynygiad pan yn ieuanc. Yn nghynadledd y flwyddyn 1832, eisteddodd Mr. Hughes i lawr fel uwchrif, a symudodd i fyw i Knutsford, yn sir Gaerlleon. Yma y cymerodd y gwaith o flaenori dosbarth o'r gymdeithas, pregethu mor fynych ag yr oedd ei nerth yn caniatau, a phob amser cymerai ran fywiog yn amgylchiadau y gymdeithas. Ychydig ddyddiau yn unig y caethiwyd ef i'w wely; yn ystod rhan o'r amser hwnw efe a ddarllenai "Owen, ar yr Hebreaid." Yr oedd yn ddedwydd iawn. Bu farw, Mai 15, 1843, ac efe yn 67 oed.

HUGHES (Parch. John), gweinidog enwog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Liverpool. Ganwyd ef yn Adwy'r Clawdd, ger Gwrecsam, Chwef 11, 1796. Ei rieni oeddynt Hugh a Mary Hughes. Saer oedd ei dad wrth ei gelfyddyd, a bu yntau yn dilyn yr un alwedigaeth hyd nes bod yn 19 oed. Pan yn wyth oed, danfonwyd ef i'r ysgol at wr crefyddol yn yr ardal, a phlanwyd gryn lawer yno o egwyddorion crefydd

Digitized by Google

yn ei galon. Pan sefydlwyd yr Ysgol Sabbathol gyntaf yn yr ardal, yr oedd y bachgenyn hwn yn un o'r deiliaid ffyddlonaf; ac o byny allan, daeth i fynychu y capel gyda chysondeb a blas. Yn yr ysgol hynodai ei hun trwy ei gôf cyflym ac eang; "yr adeg hon," ebai ef yn ei ddyddlyfr, "dechreuais ddysgu allan '*Hyfforddwr*' Mr. Charles, ac adnodau o'r Beibl ar wahanol bynciau, penodau, ac Epistolau cyfain. Gan fod fy nghôf yn hynod o afaelgar, gwnawn y gwaith hwn gyda'r hawsder mwyaf, tu hwnt i'r rhan fwyaf, os nad pawb, o'm cyfoedion." Yr oedd ynddo syched awyddol am wybodaeth; a phan yn bleutyn, llyfr oedd ei degan; darllen oedd ei chwareu ef; a'r Beibl oedd ei hoff lyfr, a phrif destun ei fyfyrdod. Pan yn ddeuddeg oed, yr oedd John yn enwog yn mysg ei gyfoedion fel canwr, fel dysgwr yn yr ysgol ddyddiol, ac fel gweddiwr yn y seiat plant. Yr oedd "canu ffasiwn newydd," neu ganu wrth reol ac o lyfr, yn dechreu dyrchu ei ben yn y wlad, a daeth yr ysprydiaeth hwn yn fuan ar bobl yr Adwy. Edrychai yr hen ddwylaw gyda llawer o bryder ar y newydd-beth; ac edrychent ar y gair anthem ac ar lyfr tonau gydag anesmwythder a dychryn. Ond myned ar gynydd yr oedd y ffasiwn; ac yr oedd yr hen gerddor digrifol John Ellis, Llanrwst, apostol mawr y diwygiad hwn, yn myned yn fwy poblogaidd y naill ddydd ar ol y llall. John Hughes ieuanc oedd un o brif gantorion yr Adwy a'r broydd; darfu i'r tonau newyddion lwyr feddianu ei fryd yn fuan; canu y byddai ddydd a nos; a theithiai yn mhell ac agos i gyfarfodydd canu. Yn 1810, ymunodd â'r eglwys yn yr Adwy; ac yn mhen tair blynedd ar ol hyny, dechreuodd bregethu. Bod yn bregethwr fuasai prif uchelgais ei feddwl er pan yn bleutyn; a gellir meddwl fod Duw wedi "ei sancteiddio i'r gwaith o'r groth, a'i roddi yn brophwyd i'r cenedloedd." Yr oedd ganddo syniadau aruchel am y gwaith, ac arswyd ar y cyntaf ymgymeryd ag ef; eithr anogaethau taerion ei gyfeillion, a thueddiadau cryfion ei natur a orfu, a thraddododd ei bregeth gyntaf trwy "ddweyd ychydig," mewn cyfarfod gweddi a gynelid yn ardal Bersham, goror Clawdd Offa. Dechreuasai bregethu rywfodd heb lawn ganiatad awdurdodau goruchel eglwys yr Adwy, nac heb drwydded oddiwrth y Cyfarfod Misol; a bu y blaenaf yn lled chwerw arno oblegyd ei afreolaeth; ond wedi derbyn y caniatad angenrheidiol, graddol ddiflanodd pob gwrthwynebiad, cynyddodd nifer y sawl a edmygent ei ddoniau addawol, a daeth yn bregethwr poblogaidd bron heb yn wybod iddo ei hun. Pan yn 19 oed, anogwyd ef gan amryw gyfeillion i roddi gwaith saer heibio, ac agor ysgol ddyddiol mewn rhyw ran o'r Goror, gan ddweyd y gallai fod felly yn fwy defnyddiol; a Medi 13, 1815, agorodd ysgol mewn lle o'r enw Cross Street, gerllaw Hope, sir Fflint. Wedi bod yno am haner blwyddyn, symudodd yr Ysgol i Gaergwrle, a pharhaodd yno hyd Awst, 1817, pryd y rhoddes hono i fynu, ac yr aeth i Gaerlleon, er mwyn dysgu elfenau y Groeg a'r Lladin. Bu yno am rhyw yspaid, ac yna agorodd ysgol yn Ngwrecsam; a chan nad oedd coleg yr enwad yn y Gogledd wedi ei agor y pryd hwnw, at Mr. Hughes yn benaf y cyrchai "meibion y prophwydi" am ddysgeidiaeth, yn mhlith pa rai y bu Foulk Evans, Machynlleth; D. Evans, Harlech; Dafydd Rolant, Bala; R. Thomas, Llidiardau; Rich. Williams, Liverpool; John Davies, Nerquis; David Jones, Treborth; Roger Edwards, Wyddgrug; John Evans, Llansanttfraid, ac amryw eraill. Yr oedd efe yn parhau i bregethu yn rheolaidd, er fod yr ysgol yn cyfyngu cryn lawer ar ei amser—nid oedd yr ysgol ond ffon a chymhorth ganddo i gyrhaedd amcan uwch. Derbyniwyd ef yn aelod

Digitized by Google

o'r Gymdeithasfa yn y Wyddgrug, yn Chwefror, 1821, a thrwy hyny cydnabyddid ef yn weithredol gan Fethodistiaid holl siroedd Cymru fel pregethwr rheolaidd; er ei fod yn pregethu er's wyth mlynedd, nid ydoedd y pryd hwn ond 25 oed. Yn fuan ar ol hyn, cawn ef yn esgyn yn gyflym mewn parch a phoblogrwydd, a sylw awdurdodau yr enwad yn cael eu tynu ato fel gwr ieuanc yn meddu ar gymhwysderau dysglaer i lanw cylch pwysig yn y weinidogaeth. Y flwyddyn ganlynol (1822), cafodd yr anrhydedd (mawr yr amser hwnw) o bregethu am 6 y noson olaf yn Sasiwn y Bala; ac yn Sasiwn Llangefni, Mon, am 2. Dengys hyn pa mor fore y daeth efe yn enwog yn mhlith ei frodyr. Lluddiwyd dadblygiad yr enwogrwydd hwn gryn lawer gan y gwahaniaeth chwerw mewn barn a fodolai rhwng amryw wyr o nod perthynol i Gyfarfod Misol sir Fflint parth y ddadl Ffwleraidd, a chan y drwgdybid ef o fod yn gogwydd at yr athrawiaeth newydd. Bu y gamdybiaeth hon o gryn rwystr iddo, ac yn achlysur nad urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth am wyth mlynedd ar ol ei dderbyniad i'r Gymdeithasfa—amser maith ac ystyried prinder gwyr o urddau yn y parth hwnw, a'i gymwysderau arbenig yntau i'r swydd. Ordeiniwyd ef yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 17, 1829. Bu yn dduiwyd iawn, a'i freichiau yn llawn o lafur caled, yn ystod ei arosiad yn Ngwrecsam. Yr oedd yr ysgol yn llyncu ei amser bron yn gyfangwbl yn nyddiau yr wythnos, a'i dyledswyddau yn cyfyngu ei daith Sabbathol i o gwmpas cartref. Yn ei ymyl yr oedd Goror Clawdd Offa, a'i drigolion haner gwaraidd, yn mhlith pa rai y dechreuodd Mr. Hughes bregethu, ac at y rhai yr oedd ei serch yn ymlynu'n ddwfn. Gan hyny, cafodd y bobl hyn y fraint o'i wrando yn fynych, a bu yntau o fawr fendith iddynt trwy sefydlu achosion newyddion, a dyfrhau a meithrin manau gweiniaid yn eu plith. Ystyrid a gelwid ef yn "Esgob y Goror." Parhaodd i lanw y swyddi hyn o ysgolfeistr, cenadwr, a phregethwr, am rai blynyddau; eithr erbyn 1834, yr oedd y baich yn ormod iddo ei ddwyn, a thua diwedd y flwyddyn hono, gorfu iddo, oblegyd afiechyd, roddi yr ysgol i fynu. Yna ymunodd a'i frawd oedd yn byw yn Adwy'r Clawdd mewn masnach ŷd a blawd, a symudodd yno i fyw yn 1835. Ond yn 1838, symudodd i Liverpool, mewn cysylltiad a'r un fasnach. Pa fodd bynag, yn lled fuan, rhoddwyd y fasnach yma i fynu; ac aeth yntau i swyddfa masnachwr mewn haiarn, o'r enw Smith. Yr oedd y lle hwn yn rhoddi llawer o fanteision iddo ef fel pregethwr, oblegyd nid oedd ei waith ond ysgafn, a chanddo lawer o oriau bob dydd at ei wasanaeth ei hun. Ond nid hir y bu yn y sefyllfa hono, canys eglwysi Liverpool a welsant mai dyn i'r pwlpud oedd efe. Mewn canlyniad, ymbriododd ef a hwythau a'u gilydd yn 1839, a pharhaodd yr undeb hwnw yn undeb serch hyd oni wahanwyd hwy gan angau. Yr oedd llawer o anhel gorion gweinidog poblogaidd mewn tref fel Liverpool yn cydgyfarfod yn Mr. Hughes. Yr oedd yn ddyn cyflawn yn mhob cylch, ac yn bregethwr wrth fodd y cynulleidfaoedd—yn feddianol ar synwyr cyffredin o'r fath gryfaf, yr hyn a'i gwnelai yn adeiladol i'w wrando, yn gal gyda'r ddysgyblaeth, ac yn gyfaill pur a dihoced. Yr oedd yn feddyliwr parod a gloyw, ond nid dwfn; sylweddol, ond nid cyfriniol; trefnus, ond nid mursenaidd; a'i iaith, er nad yn hedegog a chref, eto yn goeth a diamwys. Nid allai neb ddweyd ond da am ei gymeriad; yr oedd hwnw yn llyfn a chaboledig fel ei dalent ddysglaer. Yr oedd o duedd lawen, ond byddai ei lawenydd yn gwbl tan lywodraeth synwyr a barn. Nid dyn mawr anferthol mewn rhyw un peth ydoedd; ond dyn cyflawn mewn lluaws

Digitized by Google

o bethau; ac fel y dywedai un a'i hadwaenai yn dda, "Yr oedd holl esgeiriau ei gymhwysderau yn ogyhyd, fel nad oedd cloffni yn ei gerddediad." Gallai bregethu yn rhwydd yn yr iaith Seisnig, effaith ei arferiad boreol yn nghapelau bychain y Goror, a bu aml i Sabbath yn llanw pwlpud yr enwog Dr. Raffles, yr hwn a siaradai am dano bob amser gyda pharch ac edmygedd. Cymerai ran helaeth yn symudiadau pwysig y dydd; ac yn enwedig yn 1847—48, pan yr oedd Addysgiad y Genedl yn tynu sylw cyffredinol, gwnaeth Mr. Hughes ei ran er taenu syniadau cywir ar y mater, a thraddododd ddarlithiau arno yn Gymraeg a Saesneg. Cafodd gynygion haelfrydig amryw weithiau am well tâl os gadawai ei enwad a'i genedl ac ymuno â'r Saeson, ond gwrthododd bob cynyg, a chredwn na bu hyny edifarus ganddo. Cafodd eglwysi Liverpool dymhor maith o lwyddiant tawel tan ei ofal gweinidogaethol ef a'i gydweinidog athrylithlawn, y Parch. Henry Rees—chwanegwyd llawer at eu haelodau, a phlanwyd eglwysi newyddion, rhai yn y dref, ac eraill yn y pentrefi bychain o'i chylch; ac nid annghofiodd "Esgob y Goror" ei hen esgobaeth ddinod, yn yr hon y teimlai ddyddordeb parhaus, ac at yr hon y bu yn brif offeryn i sefydlu Cenadaeth reolaidd. Yn 1857, aeth y gair ar led ei fod yn bwriadu ymadael o Liverpool, ac ymsefydlu mewn rhyw le yn Nghymru a farnai efe yn iachach i dreulio ymddo weddill ei oes; a daeth i feddwl lluaws o'i gyfeillion wneuthur rhyw amlygiad sylweddol o'u parch a'u cariad tuag ato, ar ffurf tysteb; a Mawrth 3, 1857, cyflwynwyd yr anrheg hardd hon iddo yn Hope Hall, yn cynwys oriadur *(timepiece)* ysplenydd, a phwrs ac ynddo £200. Nid elusen ydoedd, nid tâl am droi cefn, nid ffrwyth perswadio a chymhell; ond cynyrch gwir deimlad yn mhlith ei frodyr, ac yn benaf yn mysg ieuenctyd y cynulleidfaoedd a'r eglwysi, tuag ato. Yr arddangosiad hwn o gymeradwyaeth i'w weinidogaeth a'i tueddodd i aros hyd derfyn ei ddyddiau yn Liverpool; a pharhaodd yn ei ofal a'i lafur fel bugail yma hyd ddechreu 1860, pan y goddiweddwyd ef gan afiechyd, y gorfu arno newid awyr, ac i'r dyben hwnw symudodd i Abergele. Ni ddychwelodd at ei waith mwyach; ond graddol wanychu a ddarfu hyd Awst 8, 1860, pan y bu farw yn dangnefeddus, a'i bwys ar yr addewidion a gymhellasai mor ddiffin i eraill am 47 o flynyddau. Dygwyd ei gorph trosodd yn yr agerlong i Liverpool, i'w gladdu yn Smithdown Lane *Cemetery*, ac ni bu ond un angladd erioed yn y dref hon mor lluosog. Yr oedd agos i 80 o bregethwyr yn bresenol, o wahanol siroedd Cymru, a pherthynol i wahanol enwadau yn y dref; a'r orymdaith brudd yn cyrhaedd am yn agos i filldir o ffordd. Cyfodwyd gwyddfa ysplenydd o farmor caboledig ar ei fedd, a cherfiad arni yn traethu rhestr o'i weithiau llenyddol a'i aml rinweddau. Bu Mr. Hughes yn briod ddwywaith: collodd ei wraig gyntaf yn Mawrth, 1832; ac nis goroeswyd ef gan yr ail ond ychydig fisoedd—claddwyd hi yn yr un bedd ag yntau. Yr oedd Mr. Hughes yn awdwr amryw lyfrau, y rhai ydynt anrhydedd i'w ben a'i galon, ac yn chwanegiad pwysig at lenyddiaeth ein cenedl. Cyfansoddodd ei "Gydymaith yr Ysgrythyr" pan yn Ngwrecsam, a "Drych Prophwydoliaeth" a'r "Profiedydd Ysgrythyrol" ar ol hyny; ac er mai cyfieithiadau gan mwyaf ydynt y llyfrau hyn, y maent yn uchel ganmol chwaeth yr awdwr oblegyd eu bod mor amserol, cynwysfawr, a buddiol. Bu yn cyfieithu amryw lyfrynau eraill tros "Gymdeithas y Traethodau Crefyddol," i'r Gymraeg; ac ysgrifenodd gryn lawer i'r *Traethodydd*. Ond ei gampwaith ydyw y "Methodistiaeth Cymru," yr hwn a gyhoeddwyd yn dair cyfrol, ac

Digitized by Google

sydd yn fynegiad helaeth a llawn dyddordeb o'r testyn, ac yn gaffaeliad gwerthfawr mewn ystyr genedlaethol gystal ag enwadol. Rhaid fod y llafur dirfawr o gasglu yn nghyd y fath ystorfa eang o hanesiaeth wedi costio yn ddrud iddo mewn caledwaith ac amser; ar erys yn gofgolofn gampus o'i ddyfalbarhad diflin a diwyro. Yr oedd ar ganol ysgrifenu traithawd ar y "Sabbath," pan yr ataliwyd ef gan ei afiechyd diweddaf, a'r gwaith hwnw a gwblhawyd gan ei gydweinidog a'i fywgraffydd, y Parch. John Hughes, Everton. Cyhoeddwyd cyfrol o'i Bregethau, yn nghyda'i fywgraffiad, yn 1862, i ba un yr ydym yn ddyledus am y rhan fwyaf o'r byr-hanes hwn.

HUGHES (Parch. Joseph), mwy adnabyddus wrth ei enw barddonol *Carn Ingli*, a anwyd ar Sul y Blodau, Ebrill 3ydd, 1803, mewn amaethdy a elwir y Parcau, ym mhlwyf Trefdraeth, sir Benfro. Bedyddiwyd ef yn Eglwys Trefdraeth ar y 24ain o'r un mis, gan y Parch David Pugh, periglor y plwyf yr amser hwnw. Ei rieni oeddynt Dafydd a Hannah Hughes. Yr oeddynt yn byw ar eu fferm eu hunain ar ochr orllewinol mynydd ysgythrog Carn Ingli. *Carn Ingli* oedd yr unig fab, ac yr oedd iddo un chwaer a elwid Anne, yr hon sydd yn byw yn bresenol yn mhlwyf y Bridell yn y gymydogaeth hono. Cyn cynted braidd ag y gallai Joseph gerdded, danfonwyd ef i'r ysgol yn Nhrefdraeth, at wraig o'r enw Mrs. Mathias. Symudwyd ef oddi yno pan oedd yn bum mlwydd oed, a danfonwyd ef i'r ysgol i Hwlffordd, yr hon a gedwid y pryd hyny gan un o'r enw Mr. Phillips. Arosodd yn Hwlffordd am amryw flynyddoedd, a dysgodd Seisoneg yno yn bur dda, yn gystal a'r gwahanol gangenau dysgeidiaeth a ddysgid yn y dyddiau hyny. Yn 1816, pan oedd tua thair ar ddeg oed, danfonwyd ef i'r Ysgol Ramadegol yn Nghaerfyrddin, athraw pa un yr amser hwnw ydoedd y Parch. Thos. Hancock. Yno y dechreuodd efrydu Lladin. Yr oedd yr ysgol hono y pryd hwnw yn dra blodeuog. Llawer o'r gwyr ieuainc a addysgid yno a droisant allan y gweinidogion mwyaf poblogaidd, yn gystal a'r mwyaf defnyddiol a bucheddol yn y Dywysogaeth. Arosodd Carn Ingli yn Nghaerfyrddin ychydig ragor na blwyddyn. Yn yr amseroedd hyn, pan gartref yn y gwyliau, elai efe bob wythnos gyda'i fam i'r gyfeillach neilldnol, yr hon a gedwid gan John Owen, Bryn Henllan, yn ei dŷ ei hun, yn mhlwyf Dinas. Un o hen bregethwr boreuol y Trefnyddion Calfinaidd ydoedd John Owen, yr hwn a lynodd yn ddiysgog yn eglwys ei dadau, pan gymerodd yr ymraniad le yn 1811. Yr ydoedd John Owen yn wr duwiol iawn, yn nghyd â'i wraig Mali. Pregethai bob Sul hyd derfyn ei oes ar hyd y tai, yn mhlwyf Dinas, yn gystal ag mewn manau ereill. Bu o ddefnydd dirfawr yn y plwyf hwnw am lawer o flynyddoedd er magu a meithrin yr Eglwys, a'i goffadwriaeth sydd beraidd. Perchid ef yn fawr gan Garn Ingli, ac elai bob amser i'w weled pan ddeuai ar ei dro i wlad ei enedigaeth. Yn 1818, aeth Carn Ingli i'r Ysgol Ramadegol yn nhref Aberteifi, lle yr ymdrechodd gyda dyfalwch i efrydu Lladin a Groeg, a dyrchafodd yn fuan i'r rhenc uchaf dan ddysgeidiaeth alluog y diweddar Barch. W. W. Thomas, yr hwn oedd y pryd hwnw yn athraw. Yn yr amser hwn bu yn llwyddianus er enill yr hyn a elwid "Gwobrau yr Esgob," yn yr ymholiadau ar amser y Pasc. Tra yr arosodd yn Aberteifi, pan yn ddwy ar bumtheg oed, y bu dan argyhoeddiadau ac argraffiadau crefyddol dyfnion a dwys, pan y dechreuodd ei feddwl gael ei dueddu at y priodoldeb o astudio er parotoi ei hunan at y weinidogaeth Gristionogol yn Eglwys Lloegr, yn yr hon y dygwyd ef i fyny yn aelod. Pan gafodd Mr. Thomas ei benodi,

Digitized by Google

yn 1824, yn Ben Athraw Ysgol Ramadegol Ystrad Meurig, i ba le y symudodd ar unwaith, amrywiol o'i efrydwyr yn Aberteifi a aethant gydag ef yno, ac yn mhlith y cyfryw yr ydoedd Carn Ingli. Yno ymbresenolodd ei hun yn rheolaidd yn holl addoliadau crefyddol yr Eglwys, ac yno yr ysgrifenodd ei Awdl Anerchiadol i Mr. Thomas, yr hon a ymddangosodd yn *Seren Gomer* am 1826, Cyfrol ix., tudalen 309. Tra yr ydoedd yno hefyd yr adysgrifenodd lawer o bryddestau beirdd Cymreig, allan o hen law ysgrifau yr ysgol, y rhai oeddynt wedi cael eu hysgrifenu gan Ieuan Brydydd Hir. Gweithiodd ei ffordd i fyny yno i'r sefyllfa o fod yr ysgolhaig blaenaf ond un yn y dosbarth blaenaf. Ysgrifena un ag oedd yn gyd-efrydydd iddo am chwe' blynedd yn yr ysgolion yn Aberteifi ac Ystrad Meurig, a'r hwn sydd yn bresenol yn beriglor yn esgobaeth Ty Ddewi, pan ydoedd yn yr olaf o'r ysgolion hyn, yn y dull canlynol:—"Caffai ei ystyried yr amser hwnw yn dra dwfn yn ei wybodaeth mewn testynau cyffredinol: gwyddid ei fod yn un ieuanc o grebwyll cyffredinol, a'i wybodaeth yn dra dwfn mewn duwinyddiaeth. Yr oedd yn ddyfal iawn yn ei astudiaeth o dduwinyddiaeth, yn gystal a phob astudiaeth a dueddai i ffurfio y gweinidog dyfodol. Ymddangosai ei egwyddorion crefyddol trwy ymbresenoli ei hun yn dra chyson yn y cyfarfodydd cynulledig mewn lle a elwid y Brynarth, dan lywyddiaeth periglor y plwyf yr amser hwnw, enw pa un hefyd ydoedd Hughes. Nid oedd iddo elyn; ond cerid ef gan bawb. Ei nodweddiad moesol ydoedd dra theilwng i'w efelychu. Ni ddarfu i mi sylwi ar yr anghysondeb lleiaf yn ei ymddygiad ar unrhyw achlysur. Ymddangosai bob amser ar ochr yr Arglwydd, ac ni chywilyddiai un amser i gydnabod ei Athraw Dwyfol." Yn 1826, derbyniodd ariandlws oddi wrth Gymdeithas Cymrodorion Llundain, am draethawd ar "Galondid." Yn 1827, aeth i Goleg Dewi Sant, Llanbedr, yn mha le, trwy ei dymer garedigol a chymdeithasol, daeth yn anwylddyn cyffredinol yn mysg yr efrydwyr. Yno y gorphenodd ei efrydiadau clasurol a duwinyddol, gan barotoi ei hun at ei dderbyniad i'r weinidogaeth. Yn yr amser hwn, aeth rhagddo i goleddu ei chwaeth at farddoniaeth Gymreig; oblegyd yn 1826-27, ysgrifenodd "Gerdd Arwraidd ar yr Haf," yr hon ydoedd bryddest ddi-odl. Cyhoeddwyd rhai pigion o honi yn y *Cerddi Arwraidd*, am 1827, tudalenau 26-29. Yr arwyddnod wrthi ydyw "Secundus Vertumnus." Yn 1828, cyfansoddodd bryddest ddi-odl arall, yr hon ydoedd "Awdl ar y Daran," a'r hon a argraffwyd yn y *Cerddi Arwraidd* am y flwyddyn hono; yr olaf ydyw yn y gyfrol, wedi ei llaw arwyddo "Boanerges." Awst 17, 1828, ordeiniwyd ef yn ddiacon gan esgob Ty Ddewi (Jenkinson); ac Awst 9, 1829, cafodd ei gyflawn urddau gan yr un esgob. Ei guradiaeth gyntaf, a'r unig guradiaeth a wasanaethodd ef yn Nghymru, a'r hon ydoedd deitl iddo i gymeryd urddau sanctaidd, ydoedd Llanfihangel Penbedw, yn y parth uchaf o sir Benfro, yn agos i Cilgeran; a thra bu gofal yr Eglwys hon arno, cyfaneddodd yn y Parcau gyda'i rieni, lle ei enedigaeth. Cerid ef yn fawr gan blwyfolion Llanfihangel, ac edrychid yn uchel arno fel pregethwr yn ei iaith enedigol; a thrwy ystod ei weinidogaeth yno llenwid yr eglwys o addolwyr defosiynol. Yn 1830, ymadawodd o sir ei enedigaeth, gan fyned i ran orllewinol sir Gaerefrog, lle y penodwyd ef yn beriglor cyntaf eglwys Lockwood, yn mhlwyf Almondbury, ger Huddersfield, yr hon oedd ar y pryd yn barod i gael ei chysegru. Gan nad oedd eglwys wedi bod o'r blaen yn Lockwood, rhaid oedd ffurfio cynulleidfa; ond llwyddodd yn fuan i gasglu yn nghyd braidd lluosog, ac arosodd gyda hwynt yn agos

Digitized by Google

saith mlynedd. Yn 1836, symudodd i Liverpool, a chymerodd guradiaeth eglwys St Jude yn y dref hono, periglor pa un ar y pryd oedd y Parch. Hugh M'Neile (yn awr Dr. M'Neile), lle yr arosodd yn nghylch blwyddyn. Tra yno, rhoddodd wasanaeth a phregeth Gymraeg yn rhad i'w genedl ar noswaith yn yr wythnos yn eglwys St. Paul, yr hon a werthfawrogid yn fawr gan y bobl Gymreig. Presenolodd ei hun hefyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus o'r Cymry yn Liverpool a Manchester, yn y rhai y liefarodd yn erbyn undeb egobaethau Bangor a Llanelwy, yr hyn a fwriedid yr amser hwnw, a ddadleuodd yn gadarn dros benodiad offeiriaid Cymreig i fod yn esgobion a pherigloriaid yn Nghymru. Derbyniodd ariandlws am yr ail oreu o gyfieithiad Hymn Genadol Esgob Heber i'r Gymraeg (Gwel y *Gwladgarwr* am 1837). Ei gyfieithiad ef, allan o 17, o'r llinellau ar farwolaeth Syr John Moore, a ddyfarnwyd yn oreu yn yr un flwyddyn (Gwel y *Gwladgarwr* am 1837). Awst, 30, 1837, priododd Catherine, trydedd ferch William a Jane Laycock, Ysw., o Appleton, ger Caerefrog, o'r hon y gadawodd ar ei ol un ferch. Yn Hydref, 1837, penodwyd ef i berigloriaeth Meltham, yr hon sydd gaplaniaeth yn mhlwyf Almondbury, i'r hon y symudodd ar unwaith; a lle wedi hyny y preswyliodd hyd ddydd ei farwolaeth. Gan nad oedd yr amser hwnw un breswylfod i'r periglor yn Meltham, ymosododd ar unwaith ar y gwaith o gasglu arian, â'r rhai yr adeiladodd ar y tir a berthynai i'r eglwys, bersondy prydferth a helaeth, y tir o amgylch pa un a dref..odd ac a addurnodd gyda llawer o chwaeth; a llawer o'r prenau a'r manwydd addurnedig a blanodd â'i ddwylaw ei hun. Helaethodd yr Ysgol Genedlaethol yn Meltham, a llanwodd yr eglwys â chynulleidfa ddefosiynol. Bu yn offerynol i adeiladu tair o eglwysi newyddion prydferth yn nhrefedigaeth Melthâm, ac ysgolion newyddion, yn nghyd a phersondai yn gysylltiedig â hwynt. Bu fyw i weled yr eglwysi hyn wedi eu gwaddoli â chyflog o 150p. yn flynyddol er cynnaliaeth eu gwahanol berigloriaid. Gan hyny, y mae tref-gordd Meltham yn bresenol wedi cael ei diwallu yn gyflawn a chymmesurol o foddion gras yn yr eglwysi, yn nghyd â dysgeidiaeth yn yr ysgolion er diwallu angenion y boblogaeth. Ar yr 8fed o Ragfyr, 1841, ganwyd ei unig ferch. Yn ystod ei breswylfod yn Meltham am 25 mlynedd, gweithredodd yn y swydd o Ysgrifenydd a Bardd i Gymdeithasfa Offeiriadol Gymreig sir Efrog. Yr oedd yn bresenol yn yr eisteddfodau a gynaliwyd yn Beaumaris, yn 1832; Aberffraw, yn 1849; Rhuddlan, yn 1850; Tremadog, yn 1851; y Fenni, yn 1853; ac yn Llangollen, yn 1858. Traddododd areithiau yn Aberffraw, Tremadog, y Fenni, a Llangollen. Yr oedd ef yn un o'r Ysgrifenyddion Cyffredinol dros yr eisteddfod a gynaliwyd yn Llangollen. Yr ydoedd yn dra hyddysg yn rheolau barddoniaeth Gymreig, ac yn ddadleuwr cadarn dros gadw yn ddiysgog wrthynt. Nid yn aml y byddai yn ymgeisydd am ariandlysau, ond gweithredodd fel beirniad, er boddlonrwydd cyffredinol, mewn amryw eisteddfodau. Yn 1853, dechreuodd gyfieithu "Myfyrdodau Nosol Dr. Young" i'r Gymraeg, yr hyn, mor bell ag yr aeth ym mlaen gyda'r gwaith, a ymddangosodd yn yr *Haul* am y flwyddyn hono. Yr ydoedd yn ysgolhaig clasurol rhagorol dda, yn dra adnabyddus â llenyddiaeth gyffredinol, ac yn hollol hysbys yn mhob pwnc o dduwinyddiaeth, ac yn ddiragrith lynedig wrth yr Eglwys, o'r hon yr oedd yn weinidog. Yr ydoedd yn nwyfus hoff o wlad ei enedigaeth, ei hiaith, a'i thrigolion. Ni ddyoddefai un amser i neb o honynt gael eu camgyhuddo yn ei wydd, na ill ai yn gyhoeddus, neu ynte yn ddirgel, heb wrthwynebu y camgyhuddiad,

Digitized by Google

o ba le bynag y deuai. Ysgrifenodd amddiffyniad i'r faith Gymraeg mewn atebiad i ymosodiad cywilyddus a wnawd arni gan y diweddar Esgob Copleston. Ac amddiffynodd nodweddiad Rowlands, o Langeitho, pan ymosodwyd arno gan gamgyhuddiadau ysgrifenydd yn yr *Adolygydd Chwarterol.* Yr ydoedd yn naturiol hoff o gyfeillach lenyddol; ond ni ddyoddefai un amser i fwynhâd cymdeithasol wrthdaro yn erbyn y cyflawniad rheolaidd a chydwybodol o'i ddyledswyddau gweinidogaethol a phlwyfol. Aml y gwelwyd ef yn cymeryd ei genad yn ddirgelaidd oddiwrth nifer o gyfeillion yn ei dŷ ei hun, er ymweled â rhywun a fyddai yn glaf, neu ynte er mwyn traddodi darlith yn y pentref. Tra y preswyliodd yn Lockwood, yn gystal a Meltham, yr oedd ganddo bob amser ddau wasanaeth cyflawn yn yr eglwys ar y Sul, a darlith yn yr ysgoldy bob hwyr Sul, a darlith hefyd yn yr un lle ar hwyr gwaith yn yr wythnos. Heblaw hyn ymgynullai dosbarth o wyr ieuainc yn ei dy yn yr hwyr bob wythnos er derbyn oddi wrtho addysgiaeth yn yr Ysgrythyrau. Ni fyddai un amser yn absenol o'r Ysgol Sul yn y boreu na'r prydnawn o flaen y Gwasanaeth yn yr Eglwys. Ymofynid am dano yn aml gan yr offeiriaid cymydogaethol i bregethu yn eu heglwysi eu pregethau blynyddol dros achosion neillduol, megis pregethau dros y Cymdeithasau Cenadol, dros angenrheidiau yr eglwysi, dros dreuliadau y coran eglwysig, dros yr Ysgolion Sul, yn gystal ag agoriad organau newyddion, &c. Yr ydoedd bob amser yn ewyllysgar a pharod i gydsynio â dymuniadau dros y fath wrthddrychau; a pha le bynag yr elai, ni fethai un amser achael cynulleidfaoedd lluosog ar y cyfryw achlysuron. Yr oedd ei bregethau yn gyffredinol wedi eu parotoi yn dda, a'i weinidogaeth oedd ffyddlawn, eglur, ymarferol, dybryd, bywiol, ac effeithiol. Yr ydoedd yn dra gofalus am angenrheidiau y tlodion, yn ei ymweliadau â'r cleifion, yn nghyd â'r rhai fyddai ar dranc marwolaeth, ac mewn gwirionedd yn nghyflawniad cydwybodol o'i holl ddyledswyddau plwyfol fel y gellir dywedyd am dano mewn gwirionedd ei fod yn offeiriad plwyfol teilwng i'w efelychu. Yn ei dy ei hun yr ydoedd yn dra croesawgar, bob amser yn hoff o weled hen gyfeillion, ac yn enwedig cyfeillion Cymreig. Ymwelodd yr ysgrifenydd ag ef yn Meltham yn y flwyddyn 1862, arosodd gydag ef dros ddau neu dri diwrnod, ac mewn gwirionedd ni threuliodd gymaint a hyny o'i amser yn fwy dedwydd ar y ddaear hon. Yr ydoedd yn anmhosibl i unrhyw ddyn o chwaeth, neu a garai gymdeithas y saint, beidio ei garu a'i fynwesu. Hyfryd ac adeiladol treulio ychydig oriau gydag ef yn ei lyfrgell, yr hon ydoedd yn llawn o gyfrolau gwerthfawr, yn enwedigol hen gyfrolau Cymreig, mewn hanesyddiaeth gwladol, barddonol, a duwinyddol. Ymddangosai Mrs. Hughes, yr hon a garai lenyddiaeth yn llawn gymaint ag yntau, yn nghyd â'u Jane Gwenhwyfar, fod o'r un naws a thueddfryd. Ni bu yr ysgrifenydd erioed mewn teulu a ymddangosai yn fwy dedwydd a nefolaidd; ac nid llawer o fynydau a dreulid heb drin a thrafod rhyw destyn o bwys ac adeiladaeth. Gan ei fod yn rheolaidd, cymedrol, a boneddigaidd yn ei ymddangosiad ei hun, casai ac osgoi cyfeillach â chymdeithas isel. Gan ei fod o dueddfryd dawel a heddychol yn naturiol, ac nid hawdd i'w gynyrfu, dywedir na welodd neb ef yn Meltham mewn nwydau neu natur ddrwg, ac nid oedd neb yn gwybod fod iddo elyn yn y lle. Yr oedd "yn Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd dwyll." Y cydymdeimlad dwfn a chyffredinol a ddangoswyd gan bob graddau o'r trigolion yn ei anglad, a erys mewn coffadwriaeth heb ei gyffelyb yn hanesyddiaeth Meltham. Ni allai y trigianydd

Digitized by Google

henaf yn y pentref gofio am unrhyw ymddangosiad cyhoeddus o deimlad cyffelyb iddo. Gwnaeth yr holl boblogaeth droi allan, gan gydgerdded â'r orymdaith angladdol i'r Eglwys a'r tir claddedigaeth newydd, yn mysg y rhai braidd ni welid gwyneb heb ddagrau arno; y gwyr gedyrn, gwragedd hen ag ieuainc, yn gystal a'r plant, a wylent ar bob tu am y golled a gawsent yn marwolaeth ddisymwth ac annysgwyliadwy eu bugail caruaidd; ac hyd yn oed aelodau gwahanol gyrff yr anghydffurfwyr a deimlent yn llawn cymaint ag aelodau yr Eglwys; o herwydd ei onestrwydd, ei ymddygiad cyfiawn ac anrhydeddus yn ei holl drafodaeth, ei natur dda ddiarebol, ei serchogrwydd a'i garedigrwydd i bawb yn ddiwahaniaeth; anwylid ef yn gyffredinol yn y dreflan. Gadawodd rai papurau mewn ysgrifen-law, y rhai a fwriadai ei defnyddio fel elfenau er cyfansoddi Hanes cyflawn am Meltham, y rhai a gyhoeddir yn bresenol gan ei weddw, dan olygiad argraffyddol ei gymydog a'i gyfaill tra adnabyddus, Llallawg, yr hwn a fwriada gyhoeddi cyfrol o bryddestau yn yr iaith Gymraeg o'r llawysgrifau a adawyd ar ei ol.

HUGHES (Parch. Morris), gweinidog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Felinheli, sir Gaernarfon. Mab ydoedd i Hugh Morris, o'r Fachwen, Llanberis, lle y ganwyd ef yn 1808. Ychydig o fanteision dysgeidiaeth a gafodd yn ei ieuenctyd; yn wir gellir ei ystyried yn hunan-addysgiol. Wedi treulio rhai blynyddau fel chwarelwr yn yr ardal ei ganwyd, cafodd le gyda masnachwr yn Liverpool; a thrachefn penodwyd ef yn ysgrifenydd i edrych ar ol cyfrifiaeth y llechi yn mhorthladd y Felin Heli, lle y dyrchafwyd ef o radd i radd nes dyfod yn feistr y porthladd. Yno yr ymunodd gyntaf gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a daeth yn bregethwr a gweinidog o gryn enwogrwydd yn eu plith. Llanwodd ei ddyledswyddau dyddiol er anrhydedd mawr iddo ei hun—enillodd barch ac ymddiried llwyraf ei brif-feistri, a serch a gweddiau yr iselradd. Yn ei gysylltiadau crefyddol, yr oedd yn bregethwr call a sylweddol, a bu am lawer blwyddyn yn un o brif golofnau Cyfarfod Misol Arfon. Cyrhaeddodd safle uchel fel llenor Cymreig hefyd trwy aml ddarn a ymddangosodd o'i waith yn y *Traethodydd* a'r *Drysorfa*, a chyhoeddodd hefyd bethau o bwys ar ddadl y llwyr-ymataliad. Bu farw Chwefror 21, 1863, yn 55 oed; a chladdwyd ef gan dyrfa fawr yn mynwent Llanddeiniolen.

HUGHES (Richard), Ysw., ydoedd fab i'r bardd Huw ab Rhisiart, o Gefn Llanfair, yn sir Gaernarfon, ac un o hynafiaid teulu presenol Madryn. Yr oedd mewn swyddau uchel o dan Elizabeth, a than Iago I. Dywed Iolo Morganwg fod rhyw ymadroddion o'i eiddo yn "Nosbarth Simwnt Fychan." Yr oedd yn sirydd Caernarfon yn 1685. Yr oedd yn Gymro dysgedig, a dywedir iddo gyfansoddi Gramadeg. Yr oedd yn deall egwyddorion gwladol a chrefyddol. Oherwydd ymladd tros iawnderau gwlad yn achos anialdir Eryri, yn erbyn trais y gorthrymwr trahausfalch Dudley, iarll Leicester, yn amser y frenhines Elizabeth, y carcharwyd ef, a saith o foneddigion eraill o Leyn, yn Llundain; ac yno efe a gyfansoddodd gadwen o englynion y rhai sydd yn dechreu fel hyn:—

Dydd du i Lundain—dydd du—i'r tenyn
A'n tynodd o Gymru;
Melldith ein plant a'n teulu
A fag yn blag yn ei blu.

Digitized by Google

HUGHES (Robert), neu *Robin Ddu o Fon*. Ganwyd ef yn y Caint Bach, plwyf Penmynydd, Mon, tua'r fl. 1744. Derbyniodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn ysgol ei blwyf, gan y Parch. M. Thomas, y pryd hyny gweinidog y plwyf hwnw, ac wedi hyny person Llanllyfni, yn Arfon. Bu Robert Hughes am ryw dymhor o'i oes yn cadw ysgol yn Amlwch; yna symudodd i sir Amwythig; ac wedi hyny i Lundain, lle y treuliodd tuag ugain mlynedd, fel ysgrifenydd i ddadleuwr yn y *Temple*. Tra yn Llundain, gwaethygodd ei iechyd, a dychwelodd i Gymru, gan ymsefydlu fel athraw ysgol, ac ysgrifenu yn achlysurol i gyfreithiwr yn Nhaernarfon, hyd y caniataodd ei iechyd, nes iddo lwyr fethu gan waeledd, a bu farw o'r darfodedigaeth Chwef. 27, 1785, yn 41 oed. Claddwyd ef yn mynwent yr Hen Eglwys, a gosododd Cymdeithas y Gwyneddigion, o ba un y bu yn aelod ffyddlawn, ac yn un o'i sylfaenwyr ar y cyntaf, faen a cherfiad coffadwriaethol ar ei fedd. Y mae cywydd o'i eiddo yn y *Dyddanwch Teuluaidd;* a rhai darnau o'i waith yn y *Dewisol Ganiadau;* a gadawodd lawer o ysgrifeniadau o'i ol—cyhoeddwyd cywydd prydferth o'i waith, "Myfyrdod y bardd am ei gariad pan yn Mordwyo o Fon i Fanaw," yn y *Brython* III. 376. Crybwylla y Dr. Owen Puw yn barchus am dano yn y Rhagymadrodd i'w Eiriadur Cymraeg a Saesoneg—Lleyn *MSS*.

HUGHES (Robert), o Neuadd y Blawd, yn Mon, ydoedd brydydd gwlad lled dda yn ystod y ganrif ddiweddaf. Cyhoeddodd lyfr o'i waith o'r enw *Gell Cymysg*, a gwerthwyd dau argraffiad o'r cyfryw. Ni chyfansoddodd ond ychydig yn y mesur caeth; ac er fod ei ganeuon rhyddion yn cynwys lluaws o foeswersi buddiol, y maent o arddull rhy rigymol i sefyll en tir yr oes hon yn gyfochrog â chyfansoddiadau ei gydoeswyr talentog o Fon.

HUGHES (Parch Rowland), gweinidog enwog gyda'r Wesleyaid, a anwyd yn y Bala, sir Feirionydd, Mawrth 6, 1811. Ei rieni, William ac Ann Hughes, nid oeddynt ond pobl cyffredin, ac o ganlyniad ychydig oeddynt y manteision addysg a gafodd efe yn ei ieuenctyd—rhywbeth tebyg i'r hyn a gafodd plant trefi Cymru er's haner can mlynedd yn ol. Pan oedd efe tua phedair oed, symudodd ei rieni i Ddolgellau, ac yno y digwyddodd y pethau pwysicaf yn mywyd y Parch. Rowland Hughes—yno yr addysgwyd ef, yno y dychwelwyd ef at Dduw, yno y dechreuodd bregethu, ac oddi yno yr aeth efe allan i bregethu. Yr oedd ei rieni yn arfer gwrando y Trefnyddion Calfinaidd, ac elai yntau gyda hwynt hyd nes bod yn 14 oed, pan y tueddwyd ef i newid ei gapel, a mynychu eiddo y Wesleyaid. Dywedai ef ei hun mai yr achos penaf o'r cyfnewidiad hwn ydoedd rhyw argyhoeddiad dwfn yn ei feddwl fod athrawiaethau y Wesleyaid yn fwy unol â'r Beibl nag eiddo yr un enwad arall. Nid peth anfynych yw hyn, fod bachgenyn ieuanc ystyrgar yn cyfnewid ei farn am grefyddwyr ac athrawiaethau crefydd yn yr oedran hwn, pan y mae y meddwl mor agored i argyhoeddiadau, a gwirioneddau gafaelgar yn bachu ei holl fryd a'i serch. Pa fodd bynag, Wesleyad a fu y bachgenyn hwn o hyny allan, eu haddoldy hwy a fynychai, eu pregethwyr hwy a wrandawai; a Mawrth 11, 1827, ac efe yn 16 oed, ymunodd fel aelod â hwynt—nos Sabbath oedd hi, a'r doniol a'r duwiol Edmund Evans wedi traddodi pregeth ragorol ar y geiriau, "Dywedwch mai da fydd i'r cyfiawn," &c. Gwelwyd yn fuan fod ynddo ddefnyddiau dyn cyhoeddus gwerthfawr; ac yn ystod y flwyddyn ganlynol, ufuddhaodd i anogaethau gwresog ei frodyr crefyddol, a gogwyddiad nerthol ei feddwl ei hun, a dechreuodd ar hoffwaith mawr ei fywyd, sef

Digitized by Google

pregethu yr Efengyl. Yn 1829, cymhellwyd ef i adael cartref, a myned i Ferthyr Tydfil fel pregethwr cynorthwyol cyflogedig. Wynebodd i'w daith yn ddeunaw mlwydd oed—yn llencyn gwanllyd, tal, a thenau. Rhaid oedd iddo gerdded yr holl ffordd o Feirion i Forganwg; a hyny, fel y dywedai ef ei hun, yn mhen blynyddoedd ar ol hyny, a'i *library* a'i *wardrobe* i gyd ar ei gefn. Wedi cyrhaedd pen ei daith yn llwyddianus, dechreuodd o ddifrif ar ei waith; ac yr oedd digon o waith ar ei gyfer yn y gylchdaith fawr hono, eithr efe a weithiodd yn mlaen am dair blynedd, a hyny gyda chymeradwyaeth mawr. Yn Awst, 1832, galwyd ef allan i waith rheolaidd y weinidogaeth. Dechreuodd ei yrfa hon yn nghylchdaith Caernarfon. Teithiodd wedi hyny naw mlynedd ar hugain. Ei gylchdeithiau o ddechreuad ei yrfa oeddynt, Caernarfon, Beaumaris, Liverpool, Llanasa, Liverpool, Bangor, Merthyr, Crughywel, Manchester, Liverpool, a Dinbych—lle y gorphenodd ei daith mor gynar ac annisgwylhadwy; ac yr oedd ei holl yrfa weinidogaethol, o'i dechreuad yn nghanol mynyddoedd mawreddog Arfon, hyd ei therfyn yn Nyffryn paradwysaidd Clwyd, wedi bod yn un llinell gyfan o lafur caled, o ddefnyddioldeb uchel, ac o enwogrwydd a dylanwad y tu hwnt i'r cyffredin. Tra yn teithio yn Liverpool y tro cyntaf, priododd gyda Miss Elizabeth Evans, merch hynaf y Parch. David Evans, gweinidog parchus gyda'r Wesleyaid Cymreig, yr hon a adawodd yn weddw gyda phump o blant. Bu farw, fel y crybwyllasom, yn Ninbych; a chymerodd y digwyddiad hwnw le Rhagfyr 25, 1861, pan nad oedd efe ond 50 oed; a chladdwyd ef yn mynwent yr Eglwys Wen. Gyda golwg ar deithi meddyliol Mr. Hughes, nid allwn wneud dim gwell na dyfynu o erthygl alluog arno yn y *Gwyddoniadur*, gan un a'i hadwaenai yn dda: "Yr oedd gan Mr. Hughes feddwl galluog iawn. Gwelwyd amryw, fe allai, â'u hamgyffred yn fwy cyflym nag ef; ond ychydig iawn a welwyd yn fwy sicr yn y pen draw o weithio ei ffordd i waelod y peth a gymerai mewn llaw. Un peth nodedig iawn yn nghymmeriad ei feddwl ef oedd, fod y ddwy elfen bwysig hyny—yr un resymiadol a'r un ddychymmygol—mor hynod o gryf, ac eto mor agos i gyfartal ynddo. Gwelsom lawer un yn meddu y naill neu y llall o'r galluoedd hyn i raddau uchel iawn; ond pur anfynych yr ydym yn meddwl y gwelwyd y ddwy mor nerthol a chyfartal ag y gwelwyd hwy ynddo ef. Mynych iawn y ceir yr elfen resymiadol mor gref mewn pregethwr nes y gwneir ef yn wastad yn ymresymwr cywrain, a chadarn, ond sychlyd a dadleugar, a dim ond hyny. Ac nid anfynych chwaith y ceir yr elfen ddychymygol mor nodedig o gryf mewn un arall fel na bydd ganddo byth ddim i'n porthi ond lluniau a blodau, a phethau tlysion felly. Mae un fel yr estrys, yn rhy drwm o groth, ac yn rhy wan o aden i ehedeg dim; a'r llall fel y glöyn byw, yn adenydd i gyd, ac heb fod yn dda i ddim ond i ehedeg. Ond am Rowland Hughes, yr oedd y ddwy elfen yma yn cydgyfarfod ynddo ef. Dichon mai y resymiadol oedd y benaf. Dyna'r achos fod ei holl gyfansoddiadau mor hynod o drefnus, a chyson, a syml. Yr oedd ganddo ef feddyliau, a'r rhai hyny yn fynych iawn yn wir odidog hefyd. Ond nid dyna'r cwbl; yr oedd y meddyliau hyny yn wastad yn eu trefn briodol; hyny yw, yn eu trefn naturiol. Yr oedd cynlluniad y bregeth bob amser yn hapus. Ac nid dyna'r oll chwaith; eithr wedi i'w feddyliau sylfaenol ef gael eu trefnu felly—wedi hyny, meddwn, deuai'r gallu dychymygol allan i wisgo'r cwbl gyda'r fath ddilladaeth ar derchog o ddywediadau ffraethlyn, o ehediadau barddonol, ac o gymhariaethau tarawgar, nes swyno pob

Digitized by Google

meddwl o'i flaen, a chynyrchu argraff ddofn iawn. Y gallu mawr yma, wedi ei ddiwyllio yn dda trwy lafur ac ymchwiliad dyfal, ac yn cael ei gynorthwyo gan deimlad crefyddol dwfn, a chan adnabyddiaeth helaeth o'r iaith Gymraeg, a'i cododd ef yn ddiau i'r safle uchel a feddienid ganddo yn mhlith pregethwyr ei oes. Disglaeriai fel seren o'r maintioli cyntaf yn ffurfafen yr eglwys Gymreig." Fel pregethwr dysgrifir ef gan ei gyd-weinidog talentog y Parch. William Davies fel hyn:—"Y mae yr emyn gyntaf yn cael ei darllen yn bwyllog; y mae yr accen, a'r pwyslais, a phob peth yn eu lle; ond y mae yna rywbeth yn hynod; a dyna ydyw—y mae y geiriau a ddarllenir yn cael eu tori yn lled gwta, ac fe allai, o'r ddau, dipyn yn sychlyd braidd. Y rheswm am hyny yw, y mae tipyn bach o "attal-dywedyd" ar y pregethwr. Yn y weddi, y mae y geiriau yn ychydig, y brawddegau yn fyrion, a'r syniadau yn hollol syml. Dim yn hynod, dim eofndra, dim mawredd yma—oddi eithr yn unig y mawredd hwnw ag sydd yn dangos ei hunan mewn symledd pur, a phriodoldeb mawr. Yn awr, beth bynag, y mae rhanau blaenaf yr addoliad drosodd, a dyma'r bregeth yn dechreu. Pregethai bob amser am awr neu awr a chwarter o leiaf, er y tystiai y pregethwr wrth ddechreu ei fod yn "amcanu yn fy-fwy at fyrdra nag at fy-feithdra." Yn y cyffredin, ychydig o sylwadau eglurhaol ar gyssylltiadau y testyn fyddai y cwbl, a'r rhai hyny yn terfynu mewn codi rhyw un egwyddor, neu athrawiaeth, neu sylw cyffredinol i'r wyneb; ac ar yr un hwnw, yn ei wahanol olygweddau, y cedwid golwg trwy gydol y bregeth i gyd. Yn fuan iawn wedi cychwyn gyda'i bwnge, byddai pob llygad arno, a phob meddwl bron yn cydymdaith gydag ef. Brithid ei sylwadau fel yr elai yn mlaen gan ddywediadau diarebol miniog a tharawiadol. Wedi hyny, cyfeiriai, fe allai, at ryw ffaith ysgrythyrol er egluro ei feddwl; neu ynte, adroddai ryw hanesyn neilldiol, mewn ffordd mor effeithiol a thlws, nes y gwelid y dyrfa oll yn cynhyrfu drwyddi—rhai yn gwenu, eraill yn sychu dagrau, a phawb wrth eu bodd. Yna deuai swp o feddyliau arddunol allan mewn iaith mor farddonol a choeth nes peri i bawb ddal eu hanadl, a theimlo rhyw fesur o ymwared wrth ddeall fod y wibdaith oruchel drosodd. Anaml iawn y ceid disgrifiad maith a llafurus o ddim gan Mr. Hughes; ac nid mynych iawn y rhedai yn mhell gyda'i ymresymiadau chwaith. Rhyw ddawn byr, cwta, oedd ganddo. Yr oedd Rowland Hughes fel darluniedydd yn debycach i Cruikshank, Teniel, a Leech, nag i Martin, Turner, a Landseer: tarawai i ffwrdd gyda *stroke* neu ddau o bwyntyl, bortread mor debyg, mor wir, ac mor fyw, os nad mor *elaborate* a chywrain, a dim a wnai eraill trwy lafur mawr, a thrafferth blin. Ac am ei ymresymiadau, terfynid hwy yn bur fuan gan ryw *stroke* orchestol o *wit*—yn peri naill ai chwerthin am ben neu ynte ddigio wrth y golygiad a wrthwynebid ganddo. Dyma, fe allai, y diffyg mwyaf yn y bregeth i gyd. Aberthid pob peth bron i gic *sarcastic* trwm. Yr oedd yr un peth, yr un gwendid, fe allai, yn ymddangos yn ei ysgrifeniadau hefyd. Ond dichon, wedi y cwbl, fod llawer o gyfaddasrwydd yn hyn i stâd ac angen y bobl gyffredin. Ac eto i gyd, gallasai dyn ddymuno iddi fod fel arall. Oblegyd dyna'r gwir: nid yw *stroke* o *wit*, na gwawdeb lem, yn profi dim ond medr y rhoddwr, ac weithiau fe allai hefyd ei ei doster a'i chwerwder chwith." Yr oedd Mr. Hughes yn barchus iawn gan ei frodyr oll, ac yn gyfaill caruaidd a diragrith. Nid oedd yr addysg a gafodd yn ei fachgendod, fel y gellir casglu, ond ychydig, eithr trwy ddiwydrwydd a llafur yn nghanol llafur arall mawr ei weinidogaeth,

Digitized by Google

llwyddodd i addurno ei feddwl a llawer o bethau gwerthfawr. Cyrhaeddodd wybodaeth fanwl o'r iaith Seisnig; talodd gryn dipyn o sylw i'r Groeg a'r Hebraeg, a gallai wneud cryn ddefnydd ohonynt trwy gymhorth Geiriadur; ac ar iaith ei fam gellir dyweyd ei fod yn feistr perffaith. Bu hefyd o gryn wasanaeth gyda'i ysgrif-bin. Cyfieithodd, a chyhoeddwyd ei waith, "Cofnodau y Gynadledd, a elwir y Cofnodau Mawr;" a chyfieithodd, "Nodiadau Mr. Wesley ar y Testament Newydd," yr hwn a gyhoeddwyd yn Nghaernarfon. Yr oedd hefyd yn awdwr amryw lyfrau eraill, a chyfranodd aml erthygl ddawnus i gyhoeddiadau yr enwad y perthynai iddo.

HUGHES (Parch. Stephen), Meidrym, sir Gaerfyrddin, un o dadau Ymneillduaeth yn Nghymru. Ganwyd ef yn nhref Caerfyrddin tua'r fl. 1612; eithr nid oes ar gael ddim hanes am ei addysgiant, ei ddychweliad, na dechreuad ei weinidogaeth. Dywedir ei benodi yn ficer Meidrym, yn ei sir enedigol, yn y fl. 1645; ac oddiwrth sylw o'i eiddo yn y Rhagymadrodd i "*Ganwyll y Cymru*," cesglir iddo hefyd lanw y cyfryw swydd yn mhlwyf Merthyr Cynon, o fewn yr un sir, am ryw yspaid. Gan ei fod yn pregethu yn achlysurol yn mhwlpudau yr Eglwys Sefydledig wedi dychweliad y Freninoliaeth, cesglir ei fod wedi derbyn cyflawn urddau offeiriad. Ond ni chyfyngodd ei lafur o fewn terfynau ei blwyf penodol ei hun, eithr elai i'r "prif fyrdd a'r caeau;" ac ymdeithiai wahanol barthau y wlad gan bregethu yr Efengyl. Yn nghofnodau eglwysi Ymneillduol sir Gaerfyrddin, ceir fod ganddo amrai fân eglwysi tan ei ofal, mewn parthau gwahanol a phellenig y sir hono mor fore â 1650. Yn 1652, bwriwyd ef allan o'i fywioliaeth; ac yn fuan, priododd wraig dduwiol o Abertawe; gwaddol, cynildeb, a diwydrwydd, pa un a'i cynorthwyodd i fyw yn gysurus a bod yn ddefnyddiol. Wedi ymgartrefu yn Abertawe, parhaodd yn y gwaith o bregethu yn deithiol, gan blanu eglwysi newyddion. a dyfrhau y rhai a blanasai eisoes. Y fath oedd ei lafur a'i lwyddiant yn y parthau hyny, fel y gelwid ef, gyda llawer o briododdeb, yn "Apostol sir Gaerfyrddin." Yr hen eglwysi yn Llanedi, Capel Isaac, Pencadair, Pantteg, Caerfyrddin, Llanybri, Henllan, a Threlech, a sefydlwyd oll ganddo, a'r rhan luosocaf ohonynt a drefnwyd yn eglwysi ar eu penau eu hunain yn ei amser ef. Y mae bron yr oll o eglwysi Cynulleidfaol y sir hono, y rhai sydd agos i gant mewn nifer, fel canghenau, o'r hen foncyffion hyny; ac mae un neu ddwy o eglwysi yr un enwad yn sir Aberteifi yn olrhain ei sefydliad i'w lafur ef. Pregethwr trefnus, melus, a chynes ydoedd; anfynych y pregethai heb dywallt dagrau, nac y byddai ei wrandawyr yn sychion eu llygaid. Trwy gymedroldeb ei farn dduwinyddol, efengyleiddrwydd ei syniadau, a'i ddullwedd foneddigaidd, enillodd barch y dosbarth mwyaf goleuedig o bendefigion y wlad, y rhai a lwyddent yn fynych i'w gael i bregethu mewn Eglwysi plwyfol; a than y cyfryw amgylchiadau byddai yr adeiliadau yn orlawn. Pregethai yn gyffredin ddwywaith bob Sabbath, gan farchogaeth o wyth i ddeg milldir rhwng yr oedfeuon. Arferai mewn dull tarawiadol ddynoethi pechadurusrwydd a pheryglon anwybodaeth, ac arddangos defnyddioldeb, hawddgarwch, a'r angenrheidrwydd am wybodaeth. Ac nid yn unig yn y gynulleidfa fawr, lle gallasai ddisgwyl clod am ei waith, yr arddangosai efe ei ymdrechion i leshau ei gyd-ddynion, ond yr oedd yn enwog am ei gynghorion dwys pan gyfarfyddai ddyn ar fin y ffordd, neu ar lethr y mynydd. Cafodd lawer o dystion o fuddioldeb ei weinidogaeth, a dychwelwyd tan ei bregethu dyrfa luosog iawn. Yr

Digitized by Google

oedd yn bleidiwr gwresog i wyr ieuanc oeddynt a'u hwynebau ar y weinidogaeth ; ac amryw o bregethwyr mwyaf poblogaidd Cymru yn yr 17eg ganrif a ddechreuasant eu llafur cyhoeddus yn ei winllanoedd ef. Eithr er ei fod yn hollol gymhedrol o ran ei farn, a didramgwydd yn ei fuchedd, anfoddlonodd yr offeiriaid ei fod yn myned oddiamgylch i bregethu, a thraddodasant ef i'r awdurdod gwladol, a gosodwyd ef yn ngharchar Caerfyrddin ; ond rhyddhawyd ef mewn modd annisgwyliadwy, ac ni ddarfu ei garchariad ond enyn rhagor o sêl ynddo at y gwaith y cospwyd ef o'i herwydd. Bu hefyd yn ymdrechgar nid yn unig mewn cynghori, rhybuddio, pregethu, a chasglu eglwysi, ond cyhoeddodd ddau argraffiad o Ganiadau "Hen Ficer Llanddyfri," sef *Ganwyll y Gymru*. Cyoeddwyd yr argraffiad cyntaf o "Ganwyll y Cymru" yn 1646. Meddwl yr ydym mai fel hyn yr oedd yr wynebddalen:—"Ganwyll y Cymry, &c. Gan Rhys Pritchard, Ficer Llan Amddyfrwys yn Neheubarth." Llyfr wythblyg ydoedd. Tebyg mai argraffiadau Stephen Hughes oedd "Y drydedd ran o waith Mr Rees Prichard, gynt Ficer Llanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin, gyda Llythyr at Blwyfolion Llanddyfri, Llanfair a'r Brin, a Llanedi, yn sir Gaerfyrddin, a llythyr at y Cymru a ddarllenant y llyfr hwn, ynghyd ag ymholiad beunyddiol Esgob Usher, a'r llall o waith S. Bernard" 8 plyg. Llundain ; neu "Canwyll y Cymru—yn bedair rhan," 8 plyg. Llundain. 1672, a "Ganwyll y Cymru," &c. Llundain. 1681. Yn yr un flwyddyn hefyd y cyhoeddwyd "Adroddiad cywir o'r pethau penaf a wnaeth ac a ddywedodd Ysbryd aflan yn Masco yn Burgundy, &c. Gan Francis Peraud. Wedi ei gyfieithu yn Gymraeg gan Stephen Hughes, o Abertawe," 8 plyg Llundain. Nid oes odid Ganwyll, oddieithr yr un a oleuodd Duw ei hun, wedi bod mor wasanaethgar i oleuo y genedl a "Chanwyll y Ficer." Yr "Hen Ficer" oleuodd y Ganwyll ; gosododdd Stephen Hughes hi mewn canwyllbren ddwywaith o leiaf, fel y goleuodd holl Gymru. Yn Rhagymadrodd y cyhoeddiad y cyfeiriasom ato a wnaeth Stephen Hughes yn y flwyddyn 1671, y mae yn anerch y darllenydd yn syml, dirodres, a chymhwysiadol. Gesyd i lawr yr athrawiaethau cynwysedig yn y llyfr, y dyledswyddau angenrheidiol i'w cyflawni, yn nghyd â chyfarwyddiadau pa fodd i'w ddarllen er lleshad. A dilynir y Rhagymadrodd â chynghor i'r Llyfr gan Stephen Hughes, mewn pedwar ugain a saith o benillion ar yr un mesur a chaniadau yr "Hen Ficer ;" y mae wedi cyfranogi i fesur helaeth o'i ysbryd a'i awen, a gallwn ei olygu yn brydydd medrus o urdd yr "Hen Ficer." Bydd enw y ddau yn cael eu trosglwyddo gyda eu gilydd i oesau dyfodol, a darllenir hwy yn ngoleu "Canwyll y Cymry." Cywirodd lawer o ymadroddion, a gwnaeth y llyfr yn eglurach a chyfaddasach i ddeall ac amgyffredion y genedl yn yr oes dywyll hono. Heblaw hyny, cyhoeddodd "Galwad i'r Annychweledig," gan Baxter ; "Yn awr neu Byth," gan yr un, wedi eu gyfieithu gan "Richard Jones o Ddinbych ;" "Traethawd ar Droedigaeth," gan Joseph Alleine ; "Eglurhad ar Weddi yr Arglwydd," gan Perkins, o gyfieithiad R. Holland ; "Y Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd ;" "Llyfr yr ymarfer i Dduwioldeb," gan Lewis Baily, esgob Bangor. Y Parch. Robert Llwyd, Ficer y Waun, a gyfieithodd y "Llwybr Hyffordd ;" a Rowland Fychan, o Gaergai yn agos i'r Bala, a gyfieithodd, "Llyfr yr ymarfer i Dduwioldeb" (gwel *Gwyliedydd*, cyf. IV. tudal. 147.) Nid yw yn debyg iddo gyfieithu yr un o'r llyfrau uchod ei hunan ; ond cyhoeddodd hwynt oll, gyda llawer yn ychwaneg. Yr oedd yr holl lyfrau a gyhoeddodd o duedd i egwyddori a moesoli y

Digitized by Google

genedl, a rhai ohonynt yn dra chynyrfus a chymwysiadol at fedddyliau a chydwybodau pechaduriaid anystyriol. Er nad oedd ei dderbyniadau arianol ond bychain, gwnaeth waith mawr yn yr oes hono pan oedd argraffu mor ddrud, a darllenwyr mor brinion. Ar ddiwedd ei lyfrau, chwanegai y wyddor Gymreig, er cyfarwyddo yr annysgedig i'w ddarllen; a phwysai ar benau teuluoedd y dyledswyddau o ddysgu eu plant a'u gweision. Cynorthwyid ef gan aml foneddwr ac offeiriad ystyriol yn ei ymdrechion canmoladwy; ond gwrthwynebid ef yn egniol gan y mwyafrif o'r cyfryw ddosparthiadau; yn nghyntaf, am y tybient na ddylid addysgu y werin-bobl; ac yn ail, am fod yr iaith Gymraeg, fel y dywed llawer clebryn yn bresenol, yn marw. Mewn cysylltiad â'r haeliones, ac un o gymwynaswyr goreu cenedl y Cymry, Thomas Gouge, o Lundain, a'r llaturus Henry Maurice, bu Mr. Hughes yn offeryn i ledaenu llawer o Feiblau yn mhlith ei gydwladwyr tylodion. Sefydlwyd cymdeithas yn Lloegr i'r dyben o gyfranu tuag at argraffu a phrynu llyfrau defnyddiol i'r Cymry; a thuag at addysgu eu plant i ddarllen Saesneg, ysgrifenu, a bwrw cyfrifon. Llywydd y gymdeithas hon oedd y Deon Tillotson o Gaergaint; ac yn mhlith ei haelodau yr oedd Edward Stillingfleet, Richard Baxter, Thomas Gouge, ac amryw o wyr duwiolaf ac enwocaf yr oes. Stephen Hughes oedd ei goruchwyliwr yn Nghymru, yn dosparthu ei roddion i'r rhai cymhwysaf i'w derbyn. Fel hyn, trwy ei lafur diflin mewn amrywiol ffyrdd, bu yn oleuni dysglaer a gwasanaethgar i'w genedl mewn oes dywell a diymadferth. Pan oedd ei genedl yn ddall, mewn ystyr addysgiol ac ysprydol, efe a'i harweiniodd, ac a fu yn offeryn i ddodi eli llygaid fel y dechreuodd hi eu hagor. Bu farw yn 65 oed, a chladdwyd ef yn eglwys Ioan, Abertawe. Yr oedd wedi ofni llawer rhag i'w synwyrau ddyrysu, ac iddo tan yr amgylchiad hwnw, ddweyd rhywbeth yn ddianrhydeddus am grefydd; a dywedai yn fynych yn ei weddiau, "Arglwydd, cofia ni yn ngwasgfa marwolaeth, ac na oddef i ni dy ddianrhydeddu di yn ein mynydau diweddaf." Rhyngodd bodd i Dduw wrando ei weddiau, a chafodd orphen ei yrfa mewn tawelwch meddwl a llawenydd mawr.

HUGHES (William), D.D., esgob Llanelwy, oedd fab i Huw ab Cynric, a Gwenllian, merch i John Fychan ab John ab Gruffydd ab Owen Pygott; ac a anwyd yn sir Gaernarfon. Cafodd ran o'i addysg golegol yn Rhydychain, a thrachefn yn ngoleg Crist, Caergrawnt, lle y graddiwyd ef yn y celfyddydau, ac y cymerodd urddau offeiriadol. Yn fuan, penodwyd ef yn gaplan i'r dug o Norfolk, gyda'r hwn yr aeth i Rydychain yn 1568, ac yno corphorwyd ef yn B.D. fel y safai yn Nghaergrawnt; ac yn 1570, cafodd y radd o D.D., gan yr un brif-ysgol. Penodwyd ef i rectoriaeth Llysfaen yn 1567; ac yn 1573, ordeiniwyd ef yn esgob Llanelwy. Llanwasai eisioes y swydd o ddeon yr un lle; a deisyfodd a llwyddodd i gael gan archesgob Caergaint roddi iddo yr hawlfraint o ddal y ddwy swydd, yn nghyda bywiolaethau eglwysig eraill gwerth £150 yn y flwyddyn. Yn yr *Annals of the Reformation*, o waith Strype, ceir engreifftiau galarus o'i drachwant ariangar yn dal un-ar-bumtheg o fywiolaethau eglwysig, o ba rai yr oedd saith ag iddynt guradiaid, a naw yn ddim ond segurswyddau. Yn ei ewyllys gwnaeth gymun-roddion er sefydlu ysgol rydd yn Llanelwy, ond gan eu bod yn cael eu gwneuthur ar amodau neillduol, ac na chymerodd yr amgylchiadau byth le, ni ddaeth dim ohonynt. Bu farw yn Hydref, 1600, a chladdwyd ef yn nghafell prif-eglwys Llanelwy, lle nid oes na chofadail na cherfiad am dano. Anne, ei ferch a'i etifeddes, a briododd

Digitized by Google

Thomas, mab ieuangaf Syr Thomas Mostyn, o'r hon briodas y deillia y Mostynaid o'r Rhyd.—Wood's *Athen Oxon;* Willis' *St. Asaph.*

HUGHES (PARCH. WILLIAM) o Ddinas Mawddwy, hen weinidog parchus gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef yn Rhoscill-bach, yn mhlwyf Llanystumdwy, sir Gaernarfon, yn mis Mai, 1761. Enwau ei rieni ydoedd Hugh a Mary Rowlands; ac yn ol hen arfer gwlad, cyfenwyd ef ar enw ei dad. Nid oeddynt ond pobl dlodion, a chanddynt dyaid mawr o blant; er hyny yn onest ac ymdrechgar i ddwyn deupen bywyd yn nghyd. Yr oedd William yn gloff o groth ei fam; ac yn fuan ar ol ei enedigaeth, aeth ei rieni ag ef at y Parch. M. Thomas (gweinidog ar y pryd yn Mhwllheli), i ofyn ei gynghor pa un a allai meddygon wneud dim tuag at unioni ei droed. Atebodd Mr. Thomas, "mai gwaith yr Arglwydd ydoedd, ac mai gwell oedd ei adael fel yr oedd—ag y gallai ef lwyddo yn y byd cystal â neb o'u plant;" ac yr oedd y dywediad synwyrlawn hwn yn ddarn o brophwydoliaeth, ac yn llawn gwirionedd. Derbyniwyd ef yn aelod yn Mhwllheli, pan ydoedd o gylch ugain oed, gan y Parch. Rees Harris; ac yn mhen tua blwyddyn, anogwyd ef i ddechreu pregethu. Traddododd ei bregeth gyntaf yn Capel Newydd, Lleyn; ac wedi dechreu pregethu, treuliodd ychydig amser yn Llanuwchlyn, tan ofal addysgiol y Parch. A. Tibbott, lle y cyrhaeddodd ychydig gydnabyddiaeth â'r iaith Seisnig a changhenau eraill o wybodaeth. Yn 1788, symudodd i Fangor i fod fel math o weinidog. Cyfarfu yno â llawer o rwystrau. Trowyd ef a'i ychydig ddysgyblion allan o un ystafell; cymerasant un arall, a bwriwyd hwynt o hono drachefn. Clybu Mr. Hughes fod darn o dir ar werth o fewn llai na milldir i'r ddinas, ond ni fynai ei berchenog ei werthu i weinidog ymneillduol. Daeth yn dywyll iawn arnynt, ond tosturiodd perchenog un galon dyner tuag atynt, yr hwn a brynodd y tir, ac yna a roddes le arno i adeiladu capel. Adeiladodd Mr. Hughes addoldy; a thrwy ddiwydrwydd nid bychan, talodd yr holl ddyled. Tua 1789, ordeiniwyd ef mewn lle bychan, o'r enw Cae-gwigin, ger Bangor. Ymroddodd i ledaenu egwyddorion yr enwad y perthynai iddo, a phregethu'r Efengyl yn mha le bynag y cai gyfleusdra i hyny. Pan ydoedd yn dychwelyd adref i Fangor, trwy Lanrwst, wedi bod ar daith yn pregethu, deisyfwyd yn daer arno gan rai cyfeillion gadw oedfa wrth dalcen *Hall* y lle olaf, ac efe a gydsyniodd. Yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu, daeth yno ddau heddynad, a safasant o hirbell gan hylldremu ar y pregethwr; ac wedi ymadael, anfonasant ddau heddgeidwad i'w ddal. Cyhuddwyd ef o flaen yr ynadon, yn ol geiriau y *warrant*, o bregethu gan-athrawiaeth; a gofynodd Mr. Hughes, mewn modd addfwyn a gostyngedig, "Pa an-athrawiaeth a draddodais i?" Ond ni fedrent, ac ni chynygiasant, nodi un peth cyfeiliornus yn ei athrawiaeth; eithr dirwywyd ef i ddeg punt, a chan nad oedd ganddo ddim y pryd hwnw i dalu, cadwyd ef yn garcharor nes ydoedd yn mhell yn y nos. Deallodd yr heddynadon fod hawl ganddynt, os na fyddai gan y pregethwr fodd i dalu, y gellid codi y ddirwy oddiar ei wrandawyr; a gorfu ar un brawd dalu yr oll, trwy yr hyn y gollyngwyd y pregethwr yn rhydd. Ad-dalodd yntau, trwy gael benthyg yr arian gan gyfaill iddo yn Mangor. Yr ydym yn crybwyll hyn er mwyn dangos o tan y fath dân gelynol yr oedd yr hen bobl yn gorfod dwyn eu gwaith yn mlaen. Bu yn llafurio yn Mangor a'r amgylchoedd, gyda diwydrwydd ac ymdrech mawr, hyd ddechreu 1797, pan y derbyniodd alwad i fyned a llafurio yn Ninas Mawddwy, Meirion; ac wedi dwys ymgynghori â'i gyfeillion ac a'i Dduw, symud-

Digitized by Google

odd ef a'i deulu i'w faes newydd yn y Mai canlynol; a bu yn weinidog ffyddlawn i'r eglwys hono hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd Dinas Mawddwy wedi bod er's oesoedd yn hynod am ei harferion annuwiol; eithr yr oedd eglwys annibynol wedi ei sefydlu yno er's rhai blynyddau, a'i rhifedi pan yr aeth Mr. Hughes atynt yn 35. Parhaodd ei weinidogaeth yno am yspaid 30 o flynyddau, yn ystod yr hwn amser y bu llwyddiant graddol a pharhaol ar yr eglwys Chwanegwyd 30 at yr aelodau yn 1805,—blwyddyn o gryn ddiwygiad, ac yr oedd hyny yn nifer mawr iawn pan ystyrier ychydiced y trigolion. Bu ei weinidogaeth hefyd yn fendithiol mewn manau eraill o amgylch. Yn 1805, adeiladwyd capel yn y Foel, yn mhlwyf Garthbeibio, mewn cysylltiad ag eglwys y Dinas. Yn y gwanwyn, 1826, ordeiniwyd Mr. Hugh Hughes i fod yn weinidog yno. Yn 1819, adeiladwyd capel Sammah, yn mhlwyf Cemmaes, mewn cysylltiad ag eglwys y Dinas. Yn 1821, adeiladwyd capel Bethsaida, yn Mhenriw'r-cil, gerllaw Llidiart Croes y Barwn, lle y llofruddiwyd Lewis Owen, Yswain, hen daid yr enwog Dr. Owen, yn nheyrnasiad y Frenhines Elizabeth, gan y Gwylliaid Cochion. Yn yr un flwyddyn, sef 1821, adeiladwyd Bethesda, yn Llanymawddwy. Talwyd yr holl draul o adeiladu y capelau hyn cyn marwolaeth Mr. Hughes; ac nid cysur bychan ganddo oedd, ei fod wedi bod yn offerynol i adeiladu cynifer o addoldai, a'i fod yn eu gadael oll yn ddiddyled. Er fod ganddo gyfansoddiad corphorol cadarn iawn, eto o tan ei fynych deithiau hirfaith a llafurus, dyoddefodd lawer gan ddiffyg anadl o haner cant oed hyd derfyn ei yrfa. Tarddodd yr anhwyldeb hwn yn benaf o'i waith yn croesi mynydd Bwlch y Groes ar ei ffordd adref o sir Gaernarfon ar dywydd oer anarferol, a gadawodd yr oerfel hwnw effeithiau annileadwy ar ei gyfansoddiad. Yr oedd ergydion ei afiechyd yn myned yn drymach, drymach, a'i dduwioldeb yntau o tanynt yn myned yn ddisgleiriach, ddysgleiriach; nes y symudwyd ef o'u gafael gan angau, Rhag. 31, 1826. Yr oedd Mr. Hughes yn bregethwr sylweddol ac ysgrythyrol, ac un a fu o fawr fendith yn ei oes a'i genedlaeth. Yr oedd hefyd yn fardd da yn yr arddull emynol, ac y mae aml emyn o'i waith mewn cryn fri yn ein canu cynulleidfaol—un o ba rai ydyw y penill tra adnabyddus hwnw, "Arglwydd, paid a gadael imi," &c., a chyfansoddodd amryw ganiadau duwiol—"Myfyrdod ar Farwolaeth y Saint, a'u dedwyddwch yn y Nefoedd," yr hon a achlysurwyd gan farwolaeth bachgen cu ac anwyl o'i eiddo—rydd esiampl dra theilwng o'r cyfryw. Yn 1790, priododd Mr. Hughes gyda Margaret, merch Ellis ac Ann Roberts, Ty'n-y-ddol, ger y Bala. Bu iddynt ddeg o blant, tri ohonynt a fuont feirw yn eu babandod, ac y mae un o'r gweddill yn weinidog poblogaidd gyda'r un enwad, sef y Parch. Ellis Hughes, Penmain.

HUGHES (Parch. William Gray), offeiriad tra phoblogaidd, a ficer Mathry, sir Benfro. Ganwyd ef yn Sychbant, yn mhlwyf Llancwnlle, sir Aberteifi, yn Awst, 1792. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn ysgol Ramadegol Llanbedr-pont-Stephan, o dan yr athraw enwog Elieser Williams. Tra yr oedd yn yr ysgol, sylwyd mae ychydig iawn oedd ei chwaeth at ieithoedd, a'i fod yn un lled araf yn dysgu. Ystyrid ef gan ei gyd ysgolheigion yn hytrach yn bŵl yn ei alluoedd. Ymddangosai yn ddifrifddwys yn gyffredin, ac o deimlad crefyddol dwfn; ac yn hoff iawn o'r Beibl a duwinyddiaeth. Oddeutu y fl. 1815, cafodd ei ordeinio yn weinidog plwyf Trefdraeth, yn sir Benfro Yn flaenorol i'w sefydliad yno, nid oedd cynulleidfa yr eglwys ond o gylch ugain; ond prin

Digitized by Google

y bu ef dri mis yn y lle, nad oedd yr adeilad yn llawn. Dechreuodd ei weinidogaeth mewn dull arbenig, wrth yr hon y glynodd ar hyd ei oes. Yn mharotoad ei bregethau, cymerai gynllun o honynt, yn cynwys y penau a'r cyfeiriadau ysgrythyrol, gydag ef i'r areithfa, er cynorthwyo ei gof. Oddieithr y rhagbaratoad uchod, areithio yn rhydd y byddai. Yn yr olrheiniad beirniadol o eiriau ei destyn, yr oedd yn rhagori. Yr oedd yn hyawdl, ac yn nodedig o awdurdodol yn ei ddull o draddodi. Yr oedd yn rhyfeddol boblogaidd. Yr oedd yn hollol ddifrifol heb fod yn danbaid iawn. Yr oedd yn fwy o fab y daran na mab dyddanwch. Symudwyd ef gan yr Esgob Burgess i ficeriaeth Mathry: ond am ychydig flynyddoedd y gorfucheddodd y dyrchafiad hwnw. Yr oedd ei nerth wedi darfod, a'i gyfansoddiad wedi ei dreulio yn llwyr, trwy y gwaith gorfawr a gyflawnai trwy bregethu yr efengyl, ac efe a suddodd yn gynamserol i'r bedd. Bu farw Mawrth 17, 1824, yn 32 oed; a claddwyd ef yn Nantcwnlle.—*Nodweddiad Cenedl y Cymry*, gan y Parch. W. Jones.

HUMPHREYS (David), ydoedd Gymro yn America, ac a ymenwogodd yn rhyfel annibyniaeth y wlad hono. Yr oedd hefyd yn enwog fel hanesydd a bardd. Aeth i'r maes fel cadweinydd i'r Cadfridog Putman; ac wedi hyny yn yr un gwasanaeth i Washington, lle yr arosodd hyd ddiwedd y rhyfel. Aeth gyda Mr. Jefferson i Ffrainc, fel ysgrifenydd y negeswriaeth, yn 1784. Cafodd ei wobrwyo â chleddyf, am ei hyfedrwydd. Aeth fel gweinidog cynrychiolaidd i Portugal, yn 1790; ac i Ysbaen, yn 1794. Cymerodd lywyddiaeth Gwirfoddolwyr Connecticut, yn 1812; a bu farw yn fuan, o ddolur yr afu.—*(Dr. Jones' Cymry of the '76, tu. 27.)*

HUMPHREYS (Humphrey), D.D., prelad enwog, ydoedd fab hynaf Richard Humphreys, Ysw., o'r Penrhyndeudraeth, Meirion; lle y ganwyd ef Tach. 24, 1648. Ei fam ydoedd Margaret, merch i Robert Wynn, Ysw., o'r Gesailgyfarch, yn sir Gaernarfon. Bu am rai blynyddau yn Ysgol Rydd Croesoswallt, o tan ofal ei ewythr, y Parch. Humphrey Wynn, A.M., yr hwn ydoedd yr ysgol-feistr a ficer y plwyf hwnw; ac ar farwolaeth ei ewythr, symudwyd ef i ysgol Bangor. Yn 1665, cafodd ei dderbyn i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, lle yr etholwyd ef yn ysgolor yn 1670, ac efe wedi ei raddio yn B.A. yr Hydref blaenorol. Urddwyd ef yn ddiacon ac offeiriaid yn Mangor, yn mis Tachwedd, 1670; a'r un dydd, penodwyd ef i berigloriaeth Llanfrothen, yn yr esgobaeth hono. Graddiwyd ef yn M.A., Mehefin 12, 1672; ac yn Awst, yr un flwyddyn, etholwyd ef yn gymrawd o Goleg yr Iesu. Yn mis Tachwedd penodwyd ef i berigloriaeth Trawsfynydd, a'r flwyddyn ganlynol, dewiswyd ef yn gaplan gan y Dr. Humphrey Lloyd, esgob Bangor. Wedi ei wneud yn gymrawd B.D. o Goleg yr Iesu, ac yn ganonwr y brif-eglwys, penodwyd ef yn ddeon Bangor. Graddiwyd ef yn D.D. yn 1682; ac yn 1689, dyrchafwyd ef yn esgob Bangor. Symudwyd ef yn esgob Henffordd *(Hereford)* yn 1701, lle y bu farw Tach. 20, 1712, yn 64 oed, a chladdwyd ef gerllaw yr allor yn y brif-eglwys hono. "Trwy ei holl fywyd, arweddodd fuchedd dra rhinweddol; ac yn ystod ei flynyddau olaf, yr oedd ei dduwioldeb mor amlwg, fel mai ychydig a geid cyffelyb iddo." Priododd Margaret, merch i'r Dr. Robert Morgan, esgob Bangor, o ba un y bu iddo ddwy ferch. Yr oedd yr Esgob Humphreys yn hynafieithydd Cymreig galluog, ac yn awdwr bywgraffiadau amryw Gymry enwog. Cyhoeddwyd rhai o'r ysgrifau hyn o'i eiddo yn yr argraffiad olaf o'r *Atheniae Oxiensis*, gan

Digitized by Google

Wood; ac yn y gyfrol gyntaf o'r *Cambrian Register*, am 1795, lle y chwanegwyd hefyd fywgraffiad ohono ef ei hun.—Wms. *Em. Welsh.*

HUMPHREYS (Parch. Robert), gweinidog galluog gyda'r Trefnyddion Wesleyaidd. Ganwyd ef yn Llanelidan, sir Ddinbych, yn 1779. Ymunodd yn fore gyda'r Wesleyaid, a galwyd ef i'r weinidogaeth yn eu plith yn Nghymru, yn 1805. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, ac yn meddu galluoedd cryfion, ond anwrtheithiol: ac yn fardd o gryn fri. Prif hynodrwydd ei weinidogaeth oedd sêl tros yr athrawiaethau Cristionogol, yn ol fel eu delir gan y cyfundeb y perthynai iddo, ac felly yn gyfartal selog yn erbyn y golygiadau gwrthwynebol yn nadleuon y "Pum' Pwnc." Ysgrifenodd gryn lawer yn ei oes, y rhan fwyaf i'r *Eurgrawn Wesleyaidd*, yr hwn a fu ar hyd blynyddau ei oes yn gyfoethog o ffrwyth ei awen, darnau lluosog eraill mewn ffurf o gofiantau, &c. Cyhoeddwyd y pethau canlynol o'i eiddo yn llyfrynau wrthynt eu hunain, "Pregeth ar y Cyfamod Hedd;" "Casgliad o Hymnau i'r Ysgolion Sabbathol," bwriedid i hwn gynwys rhan neu ddwy yn ychwaneg, ond ni chwblhawyd hyny. Cynulliad barddonol o tan yr enw "Y Wenynen." Ychydig o'i gyfansoddiadau ef ei hun sydd yn y ddau olaf hyn. Bu farw o'r geri marwol yn Beaumaris, Mon, Awst 21, 1832, yn 53 oed.—*Lleyn MSS.*

HUTTON (Adam) D.C.L., prelad dysgedig, a anwyd yn Nghaerforiog, ger Tyddewi, sir Benfro. Yr oedd yn disgyn o deulu anrhydeddus; ac oblegyd hyny, yn gystal a'i ddysgeidiaeth uchel, cafodd ei ddyrchafu yn esgob Tyddewi, yn 1361. Gwnaed ef yn arglwydd-ganghellydd Lloegr yn 1377, yn amser Risiart II, a daliodd y swydd hono hyd 1379. Tra yn esgob Tyddewi, efe a sefydlodd ac a adeiladodd Goleg St. Mary, yn ymyl yr eglwys gadeiriol, ac a'i gwaddolodd â chan' punt yn y flwyddyn; a phenododd saith gymrawd, a thŷ i bob un o honynt i breswylio ynddo, dan yr amod y byddai iddynt fyned bob Sul a gwyl i wrando y gwasanaeth dwyfol yn yr eglwys. Ysgrifenodd y "Statuta Ecclesiæ Menevensis," ac y mae y gwaith cywrain hwnw eto ar gael yn mhlith ysgrifau Tyddewi, a chyfysgrif ohono yn mysg yr ysgrifau Harleiaidd, yn y Gywreinfa Brydeinig.—*Cambrian Register*, 1796. Dywed Lewis, yn ei *Topographical Dictionary*, iddo fod am rhyw yspaid yn negesydd i lys Ffrainc.

HUW AB DAFYDD, bardd o Euas, yn ei flodeu o 1480 i 1520. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

HUW AB GWILYM, neu *Huw Goch Brydydd*, bardd yn ei flodeu rhwng 1550 a 1600.

HUW AB RHISIART AB DAFYDD, Gwel HUGHES (Richard).

HUW ARWYSTLI, bardd yn ei flodeu rhwng 1540 a 1570. Y mae dau gywydd o'i waith mewn llawysgrifen ger ein bron—un ar "Ffalsedd," ar llall ar "Gywirdeb."

HUW CAE LLWYD, bardd o orsedd Morganwg yn 1470. Y mae ei waith yn nghadw mewn llawysgrifau.

HUW DAFI, bardd yn ei flodeu rhwng 1570 a 1600.

HUW (Rolant), o'r Graienyn, ger y Bala. Yr oedd yn fardd da a chelfyddgar, ac yn ei flodeu tua chanol y ganrif ddiweddaf. Y mae yn y *Blodeugerdd* farwnad o'i waith i "Rhys Morys, oed 88, a gladdwyd yn Llanycil yn y fl. 1757." Yn y *Traethodydd* am 1849, ceir amryw fân chwedlau am dano, ac englynion o'i waith, sef englyn i ofyn benthyg march gan un Rolant Dafydd, clochydd Trawsfynydd; ac ymgom ddychymygol a gymerodd le rhyngddo â'r march echwyn ar ei ffordd adref.

Digitized by Google

HWFA AB CYNDDELW, o Lys Llifon, yn Mon, pendefig urddasol, a phen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Preswyliai yn Presaddfed, yn Mon. Yr oedd yn cydoesi âg Owain Gwynedd, a dywedir iddo fod yn benteuluyddwr i'r tywysog hwnw. Llanwai ef a'i etifeddion y swydd o wisgo y dalaith ar ben tywysogion Aberffraw pan eu coronid; a'i wobr am y swydd hon ydoedd hawl dreftadol i gyfoeth Presaddfed. Ei achau: Hwfa ab Cynddelw ab Cwnws ab Cillin ab Madog Dda ab Greddf ab Cwnws Ddu ab Cillin Ynad; ac yr oedd y teulu yn gyfathrachol â Gweirydd ab Rhys Goch. Ei feibion,—Methusalem, Cyfnerth, Ieuan, Iorwerth, a Blettrws; ac y mae amrai o brif-deuluoedd Mon yn olrhain eu hachau yn uniongyrchol oddiwrtho. Ei beisarfau,—"*Gules between three lioncels rampant a chevron or.*"

HYCHAN, sant yn y bumed cant. Yr oedd yn naill ai un o feibion neu wyrion Brychan Brycheiniog, ac efe a sefydlodd eglwys Llanychan, yn Nyffryn Clwyd.

HYLL (ALBANE), ydoedd feddyg enwog genedigol o Gymru Addysgwyd ef ar y cyntaf yn Rhydychain, ac wedi hyny symudodd i brifysgol ar y cyfandir, lle y cymerodd ei radd fel meddyg, a chyrhaeddodd enwogrwydd mawr yn ei gelfyddyd yn Llundain. Rhoddir gair uchel iddo gan amryw o'i gydoeswyr; a dywedir ddarfod iddo gyfansoddi amryw erthyglau ar Galen. Ni wyddis nemawr ychwaneg am y gwr dysgedig hwn, heblaw iddo farw yn 1559, a'i gladdu yn eglwys St. Alban's Wood Street, Llundain, yn yr hwn blwyf y treuliasai lawer o'i oes mewn parch mawr, gan gael ei ystyried yn un o'r prif blwyfolion.

HYFAIDD HIR, ydoedd fab i Bleiddan Sant. Rhestrir ef yn y *Trioedd*, gyda Chadafael a Gwriad, tan y penawd "tri eilldeyrn," neu dywysogion tramor a gawsant goron am eu dewrder ar faes cad.

HYWEL AB DAFYDD ab Ieuan ab Rhys, M.A., bardd o orsedd Morganwg, yn ei flodeu rhwng 1450 a 1480. Y mae amryw o'i gyfansoddiadau yn ughadw mewn llaw-ysgrifau, ac un yn argraffedig, "Cywydd Cynog Sant," yn yr *Iolo MSS.* Ysgrifenodd Hanes Prydain yn yr iaith Lladin, a hanes Tywysogaeth Cymru yn y Gymraeg, y rhai a ystyrir yn weithion tra gwerthfawr.—Jones' *Welsh Bards.*

HYWEL AB EDWIN, a hanai o deulu Hywel Dda, ac yn 1021 a gymerodd ran bwysig gyda'i frawd Meredydd mewn gwrthryfel yn erbyn Llywelyn ab Sitsyllt, tywysog Gwynedd, yr hwn a laddwyd ganddynt mewn brwydr. Ond ni chyrhaeddasant eu hamcan, ac yn 1032, gorfu ar Hywel encilio o'i wlad. Yn 1037, amcanodd eilwaith adfeddianu ei diriogaethau, eithr llwyr orchfygwyd ef mewn brwydr a gymerth le yn Mhencadair, sir Gaerfyrddin; a'r flwyddyn ganlynol, mewn cad ger Llanbadarn, y gorchfygwyd ef, a'i briod, yr hon ydoedd enwog am ei thegwch, a syrthiodd i grafangau y gorchfygydd. Cynorthwyid ef gan y Daniaid yn 1043, a gwnaeth ymosodiad aflwyddianus ar Gruffydd, eithr mewn ail frwydr efe a laddwyd gan y tywysog hwnw ger Abertywi, sir Gaerfyrddin.

HYWEL AB EINION LLYGLIW, bardd enwog yn ei flodeu tua diwedd y 14eg ganrif. Y mae cywydd serch o'i waith yn y *Myv. Arch.* i "Myfanwy Fechan o Gastell Dinas Bran," a chyfleithiad rhagorol o'r unrhyw yn y "*Pennant's Tours in Wales.*" Y mae amryw ddarnau eraill o'i waith i'w cael mewn ysgrifau, a'r oll yn serchlawn ac awenbert.

HYWEL AB EMYR LLYDAW, a elwir Hywel Faig, a Hywel Farchog, penaeth hynod yn eu flodeu yn y 6ed ganrif. Cofnodir ef yn y *Tiroedd*, gyda Morgan Mwynfawr a Medrawd, tan y penawd "tri

Digitized by Google

marchawg breninol," llys Arthur; "cyneddf iddynt oedd eu bod mor hynaws a llaryeidd ac addfwyn eu hymadroddion, ag y byddai yn anhawdd gan un dyn o'r byd omedd a nacau iddynt a geisient." Claddwyd ef yn Llanilltyd Fawr.

HYWEL AB IEUAN, tywysog gwaedlyd a gormesol ar Wynedd yn y 10fed ganrif, ac a elwir o'r herwydd, *Hywel Ddrwg*. Yn 978, efe a ddifeddianodd ei ewythr, Iago, o'i gyfoeth a'i goron, ac a gymerth feddiant ohonynt ei hunan; a dwy flynedd ar ol hyny, ymdeithiodd i'r Deheubarth, gan anrheithio y wlad hono. ac yn cael ei gynorthwyo yn yr anfadwaith gan fyddin o Saeson. Y flwyddyn ganlynol, gwnaeth gyffelyb ymdaith, pryd y gorchfygwyd yr adran Seisnig, ac y lladdwyd lluaws mawr ohonynt. Yn 984, Hywel a ymdeithiodd i Loegr, lle y lladdwyd ef.

HYWEL AB LLYWELYN AB MEREDYDD, bardd rhwng 1500 a 1530. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

HYWEL AB OWAIN GWYNEDD, a olianodd ei dad enwog i'r dywysogaeth. Mab ordderch ydoedd i Owain, ac ar farwolaeth y tywysog hwnw yn 1169, oherwydd anaf corphorol Iorwerth Drwyndwn, y mab cyfreithlawn, ac aer naturiol y goron, Hywel a'i meddianodd ac a'i cadwodd am ddwy flynedd. Ar derfyn yr amser hwnw, gadawodd Wynedd er mwyn myned trosodd i'r Iwerddon, i hawlio a threfnu y cyfoeth a adewsid iddo gan deulu ei fam, Pyfog, merch ac aeres i bendefig uchelwaed yn y wlad hono. Yn y cyfamser, ei frawd Dafydd a gymerth feddiant ar y llywodraeth trwy drais, ac wedi casglu byddin lled gref, efe a ddisgwyliodd ddychweliad Hywel, ac a'i gorchfygodd mewn brwydr. Ar hyny, Hywel, yn archolledig, a'i wyr a droisant yn ol tua'r Iwerddon, lle y bu farw, gan gymun-roddi ei gyfoeth i'w frawd Rhirid. Yr oedd Hywel hefyd yn fardd gorchestol. Y mae wyth cywydd o'i waith yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*, a chyfieithiad o un ohonynt i'w gweled yn y *Camb. Register* 1. 412.

HYWEL AB MORGAN MAWR, tywysog ar Forganwg, yr hwn a olianodd ei nai, Gwrgant, i'r swydd yn 1030. Llanwasai y swydd o gyngorydd i Gwrgant cyn hyny, ac ar ei farwolaeth efe a ddewiswyd i'r orsedd trwy lais cyffredinol y wladwriaeth, ar gyfrif ei ddoethineb a'i gyfiawnbwyll; pryd hefyd y gwrthodwyd Iestyn ab Gwrgant trwy ddedfryd unfrydol yr holl bobl. Bu Hywel farw yn 1043, wedi cyrhaedd yr oedran mawr o 130 o flynyddau.—*Myv. Arch.*

HYWEL AB MATTHEW, arwydd-fardd dysgedig, yn ei flodeu rhwng 1530 a 1560. Y mae ychydig o'i waith yn nghadw mewn llawysgrifau. Yn ol hen ysgriflyfr, "Hywel ab Mathew a 'sgrifenodd am holl Brydain, a'i holl lyfrau oedd i'w gweled gan Lewis Dwn, ac eraill, a theg a chyfarwydd oeddynt, medd efe."

HYWEL AB RHYS AB ARTHFAEL, tywysog Morganwg, a aeth i Rufain yn y fl. 880, ac a fu farw yno yn 120 oed.

HYWEL AB RHYS, o Langiwg, a elwir hefyd, *Hywel y Bwr Bach*, bardd yn ei flodeu rhwng 1320, a 1350. Efe a lywyddai orsedd Morganwg yn 1330.

HYWEL AB SITSYLLT, brawd i'r Tywysog Llywelyn ab Sistyllt, byddin yr hwn a lywyddodd yn erbyn y llu mawr o dramorwyr, o tan Eulaff, y rhai a anrheithient y Deheubarth; ac efe a laddwyd mewn brwydr â hwynt yn 1021.

HYWEL DDA, y deddfrodwr clodfawr, ydoedd fab i Cadell ab Rhodri Mawr, ac a anwyd tua therfyn y 9fed ganrif. Rhodri Mawr

Digitized by Google

ydoedd frenin Cymru oll, ac ar ei farwolaeth ef, efe a ranodd ei deyrnas rhwng ei dri mab—Cadell a gafodd Ddeheubarth, Merfyn Powys, ac Anarawd a gafodd Wynedd. Cadell a drawsfeddianodd Powys oddi ar ei frawd Merfyn, ac a fu farw yn 907. Olianwyd ef fel Tywysog y ddwy dalaeth gan ei fab Hywel; yr hwn, yn 916, ar farwolaeth ei ewythr Anarawd, a benodwyd yn warcheidwad i feibion y tywysog hwnw, Idwal Foel ac Ellis, trwy yr hyn y daeth mewn ystyr yn dywysog Cymru oll. Eithr mewn gwirionedd ni chyrhaeddodd efe yr anrhydedd hwnw hyd farwolaeth Idwal, yr hyn a gymerth le 27 o flynyddau ar ol hyny. Ond yn mhell cyn cyrhaeddyd yr uwchafiaeth olaf, yr oedd Hywel wedi ymroddi at y gorchwyl a anfarwolodd ei enw, sef ad-drefnu cyfreithiau ei bobl. Ar ei ddyrchafiad i'r swydd, efe a sylwodd yn fuan ar ddiffygion pwysig yn neddfau y wladwriaeth, a phenderfynodd eu diwygio. Y cam cyntaf tuag at gyrhaedd yr amcan hwnw ydoedd iddo gymeryd taith i Rufain, er mwyn ymgydnabyddu â'r cyfreithiau oeddynt mewn gweithrediad yn Mhrydain pan oedd y wlad hon tan awdurdod y Rhufeiniaid. Y daith hon, yn ol Caradog o Langarfan, a gymerth le yn 926; a chyda Hywel yr aeth Martin esgob Mynyw, Mordaf esgob Bangor, Marchlwys esgob Llandaf, a Blegwryd ddysgedig, canghellydd Llandaf. Nid ymddengys ddarfod iddynt gael nemawr gymhorth ar ol cymeryd y daith bellenig hon, a tueddir ni i gredu mai nid eu hamcan penaf ydoedd archwilio yr hen gyfreithiau Rhufeinig, ond fel y caffai Hywel gydsyniad y Pab i'w fwriad o ddiwygio cyfreithiau ei wlad. Bydd llawer yn synu fod tywysog doeth fel Hywel yn myned gan belled o ffordd er ymgynghori â phrelad estronol parth y priodoldeb o ddiwygio cyfreithiau gw adol; ond dylid cofio fod surdoes Pabyddiaeth wedi lefeinio cryn lawer o galonau yn Mhrydain, a'i ddylanwad dinystriol yn dechreu cael ei deimlo yn Nghymru hyd yn nod yn yr oes hon. Yn ngwyneb hyn, diau fod gweithrediadau Hywel yn enill llawer o bwysfawredd ac awdurdod oddiwrth ei ddeiliaid trwy eu bod yn derbyn cymeradwyaeth y Pab; ac y mae pob deddfwr deallus, tra yn trefnu moddion i wella y wladwriaeth, yn gochel hyd y gallo sathru ar deimladau crefyddol a diniwaid y deiliaid. Cynted ag y dychwelodd o Rufain, ni bu Hywel ymarhous, eithr dechreuodd yn ddioed ar y gwaith mawr a osodasai o'i flaen; a chawn ef yn gwysio y gynadledd genedlaethol i'r Ty Gwyn ar Daf. Y cynghor hwn a gynwysai chwe' gwr o bob cwmwd yn Nghymru—pedwar o honynt yn lleygwyr, a dau yn wyr eglwysig—a phenau teuluoedd uchelwaed, a chyff cenedl y Cymry; nes gwneud yr ymgynulliad yn debyg i Dŷ y Cyffredin yr oes hon. Cyfarfuant yn nechreu y Grawys, yr hwn amser a dreuliasant mewn ympryd a gweddi, gan eiddiuno bendith yr Hollalluog ar y gwaith oeddynt ar fedr ei wneuthur. Wedi gorphen y Grawys, Hywel a barodd benodi deuddeg o'r henuriaid mwyaf dysgedig a doeth yn eu plith, ac iddynt gael eu cynorthwyo gan Blegwryd, er chwilio yr hen gyfreithiau, a dethol a fai gwerthfawr ohonynt; ac wedi ymchwiliad dyfal a llafurus, daeth y gwyr hyn i'r penderfyniad o gymeryd hen ddeddfau Dyfnwal Moelmud fel sylfaen i adeiladu arno. Y cyfreithiau hyny, mewn cauluniad, a drefnwyd mewn dull rheolaidd, a ddiwygiwyd i raddau helaeth, ac a chwanegwyd atynt; ac yna gosodwyd y cynllun gerbron y gynadledd gyffredinol, lle y mabwysiadwyd hwynt. Derbyniasant hefyd sêl gydsyniol Hywel, yr hwn er mwyn cadarnhau eu hawdurdod a gyhoeddodd felldith y Goruchaf, y gynadledd a'u ffurfiodd, a'r holl genedl Frutanaidd, ar y sawl a'u troseddent, neu a'u gweinyddent yn anghyfiawn.

Digitized by Google

Er mwyn cryfhau eu hawdurdod, a boddio teimladau defosiynol rhyw ddosbarth o'i ddeiliaid, cymerodd Hywel daith drachefn i Rufain, a chydag ef esgobion ei deyrnas, a 13 eraill o wyr dysgedig Cymru, er mwyn eu darllen yno o flaen y llys eglwysig, a gwybod a oedd ynddynt ddim yn groes i gyfraith Duw; a chan nad oedd, hwy a gymeradwywyd ac a gadarnhawyd gan y Pab. Wedi dychwelyd, Hywel a'u gosododd drachefn gerbron y gynghorfa, lle eu cymeradwywyd yn unfrydol, ac fe'u cyhoeddwyd yn gyfreithiau gweithredol Cymru benbaladr. Gwnaed tair cyfysgrif ohonynt, a chedwid un yn mhob un o'r tri llys taleithiol, sef yn Aberffraw, Mathrafal, a Dinefwr. Rhenir hwynt yn dri dosparth:—1, Defodau a swyddogion y llys; 2, Cyfreithiau y wlad; 3, Troseddau, ac hefyd gwerth amryw bethau. Parhauasant mewn bri ac awdurdod yn y wlad hyd ei goresgyniad gan Iorwerth I. Y mae aml gyfysgrif o'r cyfreithiau hyn ar gael yn yr Amgueddfa Brydeinig a manau eraill. Argraffwyd hwynt gyntaf yn Lladin yn 1730, gan y Dr. Wotton, yn cael ei gynorthwyo gan y Cymro dysgedig Moses Williams. Gwelir hwynt yn Nghymraeg yn y *Myv. Arch.*; a chyhoeddwyd hwynt gan y *Record Commission*, o tan olygiaeth An. Owen, Ysw., yn 1841. Cyhoeddwyd argraffiad Seisnig o'r nodiadau arnynt, gan W. Probert, yn 1823; a gosodwyd hwynt gerbron ysgolheigion y Cyfandir gan Gabriel Peignot yn 1832, yn y *Tableau de Mœurs*, yr hwn a gyhoeddid yn Paris. Yn ychwanegol at enwogrwydd uchel Hywel fel deddfroddwr, yr oedd hefyd yn llywodraethwr doeth a galluog. Cadwodd ei wlad mewn heddwch a thangnef am gyfnod maith y 35 o flynyddau ei deyrnasiad—heb wrthryfel oddifewn nac ymosodiad oddiallan. Bu y Justinian Cymreig, fel y gelwir ef, farw yn 948, gan adael pedwar o feibion, sef Owain, Rhun, Rhodri, ac Edwyn. Wedi ei farwolaeth, ymdorodd gwaedgwn rhyfel ac ymryson allan cyn greuloned ag erioed, a'i feibion oll a syrthiasant yn y terfysgoedd trychinebus hyny. Tystir hefyd fod Hywel yn Gristion cywirfoes a defosiynol, ac yn gwresog bleidio lledaeniad y grefydd Gristionogol. Er mai deddfwr i diriogaeth fechan mewn cydmariaeth ydoedd, cydnabyddir gan frodor ac estron, fod ei gyfreithiau yn drysorfa o ddoethineb, ac yn dra chyfaddas i sefydlfa wareiddiol yr oes hono. Gellir gosod Hywel ochr yn ochr â'i gydoeswr Alfred Fawr, a thrwy hyny rhoddid cymaint anrhydedd ar y Sais ag ar y Cymro.

HYWEL DDU, bardd yn ei flodeu rhwng 1540 a 1570.

HYWEL EURDREM, bardd yn ei flodeu rhwng 1540 a 1570. Y mae peth o'i waith yn aros mewn ysgriflyfrau,

HYWEL FEDDYG, o Gilgwryd, yn nhir Gwyr, Morganwg, oedd fab i Rhys ab Llywelyn ab Philip Feddyg, yr hwn a hanai o hen deulu meddygol nodedig Rhiwallon o Fyddfai. Gadawodd o'i ol lyfr cyngorion meddygol, yr hwn yn 1743 oedd yn meddiant John Jones, yr olaf o'r teulu a ddilynodd y gelfyddyd hono yn Myddfai; o'r llyfr hwn yr oedd cyfysgrif gan y Dr. William Bonar, yr hwn a adysgrifenwyd gan Iolo Morganwg yn 1801.

HYWEL FOEL ab Griffri ab Pwyll Gwyddel, ydoedd fardd enwog yn ei flodeu rhwng 1240 a 1280. Y mae dau gyfansoddiad o'i waith yn y *Myv Arch.*, wedi eu cyflwyno i Owain Goch ab Gruffudd, yr hwn a garcharwyd gan ei frawd Llewelyn, yn nghastell Padarn, ger Llanberis, am y cyfnod hirfaith o 23 o flynyddau.

HYWEL FYCHAN, ydoedd frawd i Gynan Tindaethdwy, tywysog Gwynedd. Efe a hawliodd Ynys Fon fel rhan o'i gyfoeth treftadol

Digitized by Google

oddiar ei frawd ; a chan wrthod iddo ei gais, cynullodd wyr a gorchfygodd Cynan yn 810. Bu brwydr drachefn rhyngddynt yn 814, yn mha un y lladdwyd lluaws mawr ar y ddwy blaid ; eithr Cynan a enillodd nerth yn fuan, ac a yrodd Hywel o Fon i Fanaw *(Isle of Man)*, lle y bu efe farw mewn meddiant o'r ynys hono.

HYWEL ERYRI, bardd cywrain yn ei flodeu tua diwedd y ganrif ddiweddaf. Ei enw bedydd ydoedd Huw Evans. Ganwyd ef yn Llanfair Mathafarn Eithaf, yn Mon, yn 1764. Trigianodd am ran helaeth o'i oes yn Plas Madog, yn Nghlynog, Arfon. Y mae llawer o'i waith yn argraffedig ar wasgar hyd yr hen gylchgronau Cymreig, ac ychydig yn aros mewn llawysgrifau.

HYWEL GETHIN, bardd o Glynog, sir Gaernarfon, yn ei rwysg rhwng 1570 a 1600, Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llawysgrifau, a chywydd neu ddau wedi eu hargraffu.

HYWEL (HARRI), bardd yn ei flodeu rhwng 1620 a 1630.

HYWEL HIR, bardd yn ei flodeu rhwng 1600 a 1640.

HYWEL SELE, pendefig o Feirion yn niwedd y 14eg ganrif. Yr oedd yn gefnder ag Owain Glyndwr, ac mewn enw yn bleidiwr iddo, eithr mewn gwirionedd yn elyn annghymodlawn iddo ef a'i achos. Damweiniodd iddo wahodd y penaeth Cymreig ato i hela yn mharc Nannau, yr hwn wedi myned, a dechreu o honynt ar waith y dydd, codwyd ysglyfaeth ; a Hywel, yn lle anelu at y pryf, a drodd ei fwa yn fradwrus ar Owain. Pa fodd bynag, methodd y nod ; ac er dial y camwri, Owain a'i trywanodd yn farw ; ac er mwyn celu y weithred a daflodd y corph i geubren gerllaw, yr hon a adwaenid wrth yr enw Ceubren yr Ellyll.

HYWEL (THOMAS DAFYDD), bardd yn ei flodeu rhwng 1600 a 1630.

HYWEL Y PEDOLAU (SYR), person nodedig am ei nerth corphorol —dywedir y gallai uniawni pedol ceffyl â'i ddwylaw moelion, ac am hyny y gelwid ef, "Hywel y Pedolau." Mab ydoedd i Gruffydd ab Iorwerth, yr hwn a hanai o Hwfa ab Cynddelw, cyff un o Bumtheg Llwyth Gwynedd ; a'i fam ydoedd Gwenlliant, merch i Rhirid Flaid. Mam Syr Hywel ydoedd mamaeth y brenin Iorwerth II. ; a chan ei fod yn frawd maeth i'r brenin hwnw, ac yn dra chyfeillgar ag ef, efe a anrhydeddwyd ganddo âg urdd marchog. Tybir mai yn eglwys St. Peter, Caerfyrddin, y claddwyd ef ; canys cafwyd yno rai blynyddau yn ol hen feddfaen canddryll, ac arno ddelw rhyfelwr yn dal pedol rhwng ei ddwylaw, ac yn y weithred o brofi ei nerth.

HYWEL Y FWYALL (SYR), rhyfelwr dewrwych yn y 14eg ganrif. Yn ol yr *Em. Welsh.*, mab ydoedd i Einion ab Gruffydd ab Hywel ; ond yn ol Pennant, yn ei *History of Whitford and Holywell*, ei dad ydoedd Gruffydd ab Hywel ab Meredydd ; ac y mae'r *Gwydir Family* yn crybwyll am frawd iddo o'r enw Einion, yr hwn a briododd Nest, merch i Gr. ab Adda, ac a breswyliai Dyddan Einion, yn Nhreflys. Modd bynag, yr oedd Syr Hywel yn hanu o Gollwyn ab Tangno, ac yn enedigol o Eifionydd. Gwasanaethodd fel cadlywydd o tan Edward, y Tywysog Du, yn mrwydr hygof Poitiers, a gymerth le yn 1356, lle yr enillodd lawer o glod am ddewrder dihafal, ac y dywedir mai efe a gymerodd frenin Ffrainc yn garcharor, gan dori ymaith ben ei farch âg un ergyd o'i gadfwyall. Oblegyd hyn efe a wisgai ar ei arfbais beisarfau breninol Ffrainc, a chadfwyall ynddynt. Rhydd Froissart yr anrhydedd hwn i Denis de Morbeque, marchog o Artois ; pa fodd bynag, enillodd Syr Hywel anrhydedd uchel am y dewrder a ddangosodd yn y gad hono.

Digitized by Google

Gwnaed ef yn farchog ar faes y frwydr; a gwnaed ef wedi hyny yn geidwad cestyll Caerlleon ar Ddyfrdwy, a Chricerth, yn sir Gaernarfon, heblaw amryw fân swyddau elwol eraill; a'r Tywysog Du a archodd fod i saig o fwyd gael ei osod bob dydd gerbron y fwyall gyda'r hon y cyflawnasai y fath wrhydri. Wedi gosod y saig o flaen y gadfwyall, dygid ef i'w ranu rhwng y tylodion. Paratowyd wyth o weinyddwyr i warchod y saig hon, y rhai a dderbynient dal o wyth geiniog yn y dydd o'r drysorgell freninol, a'r rhai hyn, tan yr enw marchogion y brenin, a barhansant mewn swydd hyd amser y frenhines Elizabeth. Wedi marw Syr Hywel, rhenid yr offrwm i'r tylodion er lles ei enaid. Tybia rhai iddo gael ei gladdu yn Nghricerth, ond ni wyddis ddim am hyny gyda dilysrwydd. Yr oedd gan Hywel ddau fab; yr hynaf, Meredydd ab Hywel, a breswyliai yn Nghefn y Fan a Chesail Gyfarch, yn Eifionydd; a'r ieuaf, Dafydd ab Hywel, a drigianai yn yr Henblas, gerllaw Llanrwst. Yr oedd ei gefnder, mab i'r Einion a grybwyllwyd, yn rhyfelwr enwog, ac yn ymladd yn mhlaid Henry o Trastamare a gorsedd Castile yn erbyn y Tywysog Du. Yr oedd hefyd yn myddin Enguerrard de Courcey, mab-yn-nghyfraith Iorwerth III. yn y gadymdaith yn erbyn dug Awstria. Yn y *Brython* III. 349, gwelir cywydd o fawl i "Syr Hywel y Fwyall," o waith Iolo Goch; ac y mae amryw feirdd eraill wedi erddygan ei glodydd gwrhydrus.

HYWEL YSTORDYN, bardd lledchwith a digrifol, yn ei flodeu, medd y *Cambrian Biography*, rhwng 1330 a 1360; yn 1380, meddai Edward Llwyd; ac yn 1450, yn ol Moses Williams. Y mae dernyn barddonol i "Eurych" o'i waith yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

HYWGI, neu Bugi, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant, ydoedd fab i Gwynlliw Filwr, a thad i Beuno Sant. Efe a roddes ei holl diroedd i'w frodyr crefyddol yn ngholeg Cattwg, Llangarfan, lle hefyd y treuliodd ran olaf ei oes. Eraill a ddywedant mai brawd i Gwynlliw ydoedd, a mab i Glywis ab Tegid ab Cadell.

IAGO AB BELI, a olianodd ei dad, Beli ab Rhun, i deyrnoliaeth Gwynedd yn 599; ac wedi teyrnasiad byr o bedair blynedd, efe a lofruddiwyd gan Cadafâel Wyllt yn 603. Cofnodir y weithred hon yn y *Trioedd* tan y penawd, "tri anfad fwyellawd."—*Tri.* 48. Iago a sefydlodd ddeoniaeth Bangor.

IAGO AB DEWI, bardd chwaethus, a llenor ac hynafiaethydd. Ei enw bedydd ydoedd James Davies. Ganwyd ef yn mhlwyf Llandysul, Ceredigion, rywbryd yn 1668. Bu yn byw am rai blynyddau gerllaw Pencadair, a symudodd oddiyno i blwyf Llanllawddog, lle y bu farw, Medi 24, 1722. Dywedir mai mewn tŷ o'r enw Blaengwyli, yn y plwyf olaf, y trigianai yn niwedd ei oes; ond nid yw y tŷ hwnw ar gael yn awr. Yr oedd yn gyfieithydd medrus; efe a drosglwyddodd *Daith y Pererin* ac amrywiol lyfrau eraill i'r Gymraeg. Bu yn ddiwyd trwy ei oes i gasglu ac adysgrifio hen hanesion dorus, a cheinion doethineb hynafiaeth Gymreig; ac o "Lyfr Iaco ab Dewi," y tynodd Iolo Morganwg "Chwedl Rhitta Gawr" sydd yn yr *Iolo MSS.* Tybir ei fod yn ewythr i Sion Rhydderch, yr argraffydd o'r 'Mwythig; modd bynag, bu o fawr gymhorth i'r gwr hwnw yn nygiad allan amrywiol o'r llyfrau a gyhoeddwyd gando. Y mae un o'i ysgriflyfrau yn meddiant Gwilym Teilo; a cheir rhestr o gynwysiad y cyfryw yn y *Brython* iv. 155. Yr oedd yn awdwr cant neu ragor o "Ddyriau Moesol," y rhai sydd yn llawn moeswersi dyddan, ac y mae ychydig benillion ohonynt yn boblogaidd gyda'r delyn. Cyhoeddwyd hwynt yn yr *Awenydd*,

Digitized by Google

casgliad o ganeuon, &c., a gyhoeddwyd gan P. Evans, Caernarfon. Gwelir hefyd englynion o'i waith yma ac acw hyd y cylchgronau Cymreig. Efe a gyhoeddodd y "Flores Poetarum Britannicorum," sef blodeuwaith y beirdd Brutanaidd, o ddetholiad y Dr. Davies, Fallwyd; o'r hwn y mae ailargraffiad wedi ei ddwyn allan yn ddiweddar gan G. Cowlyd, o Lanrwst. Gadawodd o'i ol gymeriad da fel gwladwr, ysgolhaig, a Christion.

IAGO ab Idwal ab Meirig, tywysog ar Wynedd o 1021 hyd 1031. Ar farwolaeth Llywelyn ab Sitsyllt, Iago a gymerth feddiant ar orsedd Gwynedd, gan hawlio mai efe oedd yr etifedd, ac a'i daliodd hyd y gallodd, a lladdwyd ef mewn brwydr gan Gruffydd ab Llywelyn.

IAGO ab Idwal Foel, yn gyfranog a'i frawd Ieuaf, a gymerth feddiant ar orsedd Gwynedd, oddeutu 948, yn rhin hawl ei dad, Idwal. Hywel Dda a lywodraethai Wynedd cyn hyny, ac er mwyn dial eu cam ar y meibion am anwiredd y tad, Iago ac Ieuaf a ymdeithiasant i'r Deheubarth gyda byddin gref, gan hawlio y deyrnedd hono hefyd, fel disgynyddion llinach hynaf Cunedda; ac er cyfarfod â gwrthwynebiad egniol mewn brwydr drychinebus a gymerth le ar fynydd Carno, yn sir Drefaldwyn, enillasant lawn fuddugoliaeth; a'r flwyddyn ganlynol, aethant i'r Deheudir, gan anrheithio sir Benfro. Yn 952, meibion Hywel a dalasant y pwyth, ac a ddiffeithiasant Wynedd mor bell â'r afon Gonwy; eithr hwy a orchfygwyd drachefn gerllaw Llanrwst, a bu raid iddynt ffoi yn annhrefnus, ac ymostwng o'r diwedd i gydnabod Iago ac Ieuaf yn frenininoedd Cymru oll. Wedi penfeddwi ar eu llwyddiant, y ddau frawd a wrthodasant dalu y deyrnged arferedig yn yr oes hono i Edgar frenin Lloegr, yr hwn a ymosododd ar eu gwlad, ac a'u dirwyodd i ddwyn iddo ef, yn lle y deyrnged, benau tri chant o fleiddiaid yn flynyddol, yr hyn a wnaed am dair neu bedair blynedd, hyd oni ddyfethwyd y cyfryw fwystfilod o'r wlad. Yn 967, Iago a ddodes Ieuaf yn ngharchar, ac a dynodd ymaith ei lygaid; eithr yn 972, efe a ymlidiwyd o'r wlad gan ei nai, Hywel ab Ieuaf. Yn 975, trwy gyfryngdod Edgar, efe a adfeddianodd ei swydd a'i urdd gyntefig, ac a deyrnasodd yn gyfranog â'i nai hyd 978, pryd y diswyddwyd ef yn'hollol ac am byth.—*Myv. Arch.*

IANCYN BRYDYDD, bardd rhwng 1480 a 1520.

IANCYN ab Einion, neu Iancyn Fynglwyd, bardd rhwng 1550 a 1590.

IDIO WYLLT, mab Nest, merch Tewdwr Mawr, penaeth yn Mrycheiniog tua un-ar-ddeg ganrif Ei dad oedd Sutric, mab Alured Glinfawr, mab Sutric brenin Dublin a Desmond. Idio, pan yn arglwydd Desmond, a ddaeth trosodd i gynorthwyo ei ewythr, Rhys ab Tewdwr, yn erbyn Bernard Newmarch, y Normaniad, oddeutu 1090; a chafodd frenhiniaeth Llywel, yn Mrycheiniog, am ei wasanaeth. Priododd ag Eleanor, merch Drym Penog ab Maenarch, arglwydd cantref Selyf, yn yr un sir; ac y mae amryw deuluoedd yn y cwr hwnw yn olrhain eu hachau oddiwrtho.

IDLOES, sant yn y 7fed cant. Mab ydoedd i Gwyddnabi ab Llawfrodedd Farfog Coch. Efe a sefydlodd eglwys Llanidloes, yn sir Drefaldwyn. Priodolir diareb iddo yn Englynion y Clywed (*Iolo MSS.* 651), sef "Goreu cynydd, cadw moes." Ei wylmabsant, Medi 6.

IDRIS GAWR, person nodedig yn chwedl a rhamant yr hen Gymry. Rhestrir ef yn y *Trioedd* gyda Gwydion ab Don a Gwyn ab Nudd tan y penawd, "Tri gwyn serenyddion Ynys Prydain;" a "chan faint eu

Digitized by Google

gwybodeu am y ser a'u hanianau a'u hansoddau, fel y darogenynt a chwenychid ei wybod hyd yn wydd brawd." Os gwir a ddywed traddodiad, arsylfa seryddol Idris Gawr ydoedd crib y mynydd uwchaf yn Meirion, lle yr ymneillduai yn fynych i fud efrydu cylchdeithiau dyrys y llu wybrenol, a dysgu ganddynt dynged a damwain dyn; a'r mynydd hwnw elwir hyd heddyw yn Gader Idris. Ar ben uwchaf y mynydd y mae cafniad yn y graig ar lun cadair, lle yr eisteddai yr hen ddewin, fel y dywedir, i fyfyrio; ac yn ol traddodiad, pwy bynag a dreuliai noson yn y gadair hon, a fyddai erbyn y bore naill ai yn fardd, yn wallgof, neu yn farw. Wrth droed Cader Idris, y mae "Llyn y Tri Graienyn," a thri maen anferth yn gorwedd gerllaw. Y meini hyn, ebe traddodiad, a fwriodd Idris o'i esgid, pan yn cychwyn i fynu i'w Gadair. Y mae hefyd gareg fawr ar fferm yn mhlwyf Trawsfynynydd, a elwir Llech Idris.

IDWAL AB MEIRIG, a ddechreuodd deyrnasu yn Ngwynedd yn 993. Cyn ei goroniad, treuliasai rai blynyddau yn ffoadur o'i diriogaeth yn llys Ithel, tywysog Morganwg. Arweddodd fywyd tywysog clodfawr a chyfiawn, a gwnaeth lywodraeth ar Wynedd, a threfn a weddai ar heddwch a rhyfel. Ond ychydig gyfleu a gafodd efe i ddwyn ei amcanion daionus i ben; canys yr un flwyddyn ag y coronwyd ef, daeth Meredydd ab Owain, tywysog Deheubarth, yn ei erbyn gyda llu mawr; ac Idwal a'i cyfarfu ef yn Llangwm, sir Ddinbych, a brwydr galed a fu yno, ac Idwal a gafodd yr oruchafiaeth. Y flwyddyn ganlynol, daeth Swan ab Harold, gyda llu mawr o'r Daniaid duon, i ymosod ar Wynedd; ac Idwal a'u cyfarfu yn Mhenmynydd yn Mon, lle y bu brwydr dost, ac ynddi y cwympodd Idwal, er galar mawr i'r holl wlad, gan adael o'i ol blentyn ieuanc o'r enw Iago.

IDWAL AB OWAIN, yn ol *Brut y Breninoedd*, a olianodd Einion ab Arthal fel brenin ar Brydain yn y bumed ganrif cyn Crist; ac yn ei deyrnasiad a fu doeth a gochelgar.

IDWAL FOEL ab Anarawd, a olianodd ei dad fel brenin Gwynedd yn 913. Yn fuan wedi iddo gymeryd y swydd, y Gwyddelod a anrheithiasant Ynys Mon. Yn 933, Athelstan, brenin Lloegr, a gad-ymdeithiodd i Gymru, ac a ddygodd y wlad tan dreth iddo, yr hon a dalwyd yn flynyddol hyd ei farwolaeth, pryd y llwyddodd Idwal, trwy ddewrder a doethineb, i adfeddianu ei anni yniaeth. Idwal a laddwyd mewn brwydr â'r Saeson a'r Daniaid, yn 944. Efe a briododd gyfnither iddo —merch i Merfyn, tywysog Powys; o ba un y bu iddo chwe' mab, Meurig, Ieuaf, Iago, Cynan, Idwal, a Rhodri.

IDWAL IWRCH, mab i Gadwaladr Fendigaid, yr olaf a wisgodd y titl o frenin y Brutaniaid, a'r hwn a ddilynodd Idwal fel brenin ar Gymru yn 703. Pan adawodd Cadwaladr yr orsedd er mwyn arwedd bywyd crefyddol, nid oedd Idwal ond bachgenyn tan oed; a dodwyd yn warcheidwad iddo, ei gyfathrachwr, Alan brenin Llydaw, yr hwn a ddanfones ei fab Ifor i Brydain gyda llu mawr. Ifor a orchfygodd y Sacsoniaid, ac a deyrnasodd ar ran o'r hen Frutaniaid, tra y cafodd Idwal frenhiniaeth Gwynedd, yr hon a ddaliodd hyd 720, pryd y dilynwyd ef gan ei fab Rhodri Molwynog.

IDWALLAWN ab Owain, a brawd i Morgan Mawr, brenin Morganwg, tywysog cyfiawn a doeth, yr hwn a fawrygir yn uchel gan yr hanesydd Caradawg am ei weinyddiaeth heddychol a'i welliantau gwladol. Ei ddealltwriaeth a'i haelfrydedd a'i gwnelai yn anwylun yr holl genedl. Bu farw yn 975. Coffheir dywediad o'i eiddo yn Englynion y Clywed

Digitized by Google

(*Iolo MSS.*, 660), sef, "Dadleu â ffol nid iawn."

IDDEW, ydoedd fab i Cawrdaf ab Caradawg Freichfras, a sant yn y 6ed cant. Yr oedd yn frawd i Cathan ab Medrawd; a chan fod Iddog Corn Prydain yn cael ei gyplysu â'r olaf yn ngwaith brad Arthur, darfu i rai haneswyr gamgymeryd y naill enw am y llall.

IDDOG CORN PRYDAIN. *Gwel* EIDDILIG COR.

IDDON AB NER, penaeth yn y 6ed ganrif. Lladdwyd ef mewn brwydr gan Faelgwyn Gwynedd, yr hon gyflafan a gofnodir yn y *Trioedd* fel una barodd un o'r "tri budr Hafren," gan i'r afon hono gael ei hanliwio â gwaed y lladdedig.

IDDON AB YNYR GWENT, tywysog ar Ddeheubarth, a hynododd ei hun yn fawr trwy orchfygu y Sacsoniaid a ymosodent ar ei derfynau. Er cydnabyddiaeth i Dduw am y fuddugoliaeth hon, efe a roddodd i esgobaeth Llandaf yr holl diroedd yn Llanarth a Llandeilo Porthalawg, yn nghyda thiroedd yn Llandeilo Cresseney, yr oll yn sir Fynwy. Rhoddodd Langoed hefyd yn waddol i'r un perwyl, ac y mae gweithredoedd y cyfryw waddoliadau yn argraffedig yn y *Liber Landavensis*. Yn niwedd ei oes, ymroddodd i arwain bywyd crefyddol, a rhestrir ef a'i frodyr, Ceido a Chynheiddon, yn mhlith y Saint Cymreig.

IESTYN AB GERAINT ab Erbin, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Efe a sefydlodd eglwysi Llaniestyn, yn Lleyn; a Llaniestyn, yn Mon, lle y claddwyd ef. Y mae maengerfiad o'i ddelw wedi ei dori ar gareg las yn nghadw eto yn yr eglwys olaf, a cheir cyfarlun tra chywir o hwnw yn yr *Archæologia Cambrensis*, II.

IESTYN AB GWRGANT, tywysog anhydrin ar Forganwg yn y 10fed ganrif, yr hwn, trwy ei ystyfnigrwydd anwladgar, a ddygodd warth arno ei hun, a thrais a gormes ar ei ddeiliaid. Mab ydoedd i Gwrgant ab Ithel ab Morgan Mawr. Gwrgant ei dad ydoedd dywysog tangnefeddus, haelionus, a synwyrgall; eithr gan fod ychydiced o'r rhinweddau hyn yn ei fab Iestyn, nacawyd iddo ef olianu ei dad, a dodwyd yr anrhydedd hwnw ar Hywel ab Morgan, ei ewythr, yr hwn a fuasai i'w frawd Ithel yn ben cynghorwr; ac am hyny ei gydwladwyr yn unfryd unllais a ddeisyfasant arno ef gymeryd yr orsedd, yn hytrach nag iddi syrthio i afael Iestyn. Cydsyniodd Hywel â'r cais, a chadwodd y swydd hyd 1043, pryd y bu farw yn 130 mlwydd oed. Yn y cyfamser, fel yr oedd yn naturiol, Iestyn a sorodd yn arnthr oblegyd y driniaeth hon, eithr ni chafodd efe gyfleusdra i godi yn effeithiol faner gwrthryfel. Eithr ar farwolaeth ei ewythr, cafodd feddiant diwrthwynebiad ar y llywodraeth; a llywyddodd yn dawel a heddychol am gryn yspaid. Ond yn 1088, unodd ag Einion ab Collwyn, pendefig o Ddyfed, yr hwn a ddygai ryfel yn mlaen yn erbyn ei benaeth tywysogol, Rhys ab Tewdwr, tywysog Deheubarth. Y ddau hyn, yn cael eu cynorthwyo gan amryw foneddwyr uchelwaed, a ymosodasant ar derfynau Rhys, eithr ni lwyddasant ddim. Yna Iestyn a ddanfonodd Einion i Loegr i hurio cymhorth er gorthrechu eu cydwladwr dewr. Derbyniwyd ei gynygiadau yn llawen gan Robert Fitzhamon, a deuddeg o anturiaethwyr Normanaidd eraill, y rhai a ddaethant i Forganwg gyda byddin gref yn ystod y flwyddyn ganlynol. Derbyniwyd hwynt yn groesawgar gan Iestyn, ac yna y catrodau cynghreiriol a ddechreuasant ar eu gwaith anfad; ac er fod Rhys tros 90 oed, nid oedd glewder wedi gadael ei galon, nac eiddigedd gwladgarol wedi cefnu ar ei fynwes. Cyfarfyddodd y gelynion mewn dull egniol ar Hirwain Wrgant, Brycheiniog, lle y bu brwydr greulon, eithr ei fyddin yno a orchfygwyd, ac yntau ei

Digitized by Google

hun a laddwyd. Yna hwyliodd yr esrtoniaid i ddychwelyd, gyda hur godidog, am eu gwaith anrhydeddus; a gallesid meddwl y buasai cwpanau y ddau garnfradwr yn llawn hyd yr ymylau o ddedwyddwch a chysur. Ond nid felly y mae ffawd yn gwobrwyo brad. Einion a fynai ei ran yntau o'r yspail, sef caffael Nest, merch Iestyn, yn wraig; yr hwn ydoedd un o delerau y cyfamod rhyngddynt. Gwrthodwyd ei gais gyda dirmyg; ac er mwyn dial ei gam, efe a brysurodd ar ol y Normaniaid, ac a'u goddiweddodd pan oeddynt ar gychwyn ymaith yn eu llongau. Hawdd fu eu perswadio i ddychwelyd, ac ymosod ar Iestyn, gan fod y fath dir ffrwythlawn a theg â Morganwg yn gorwedd o'u blaen fel gwobr eu hymegniad. Cyrchasant yn ei erbyn, ac yntau yn syfrdanllyd gan y fath gyfnewidiad disymwth yn ei ragolygon ni chafodd hamdden i wrthwynebu ei oresgynwyr annisgwyliadwy; ac a farnodd yn hytrach ffoi o'r fro am ei hoedl. Aeth yn nghyntaf i Ynys Afallon, oddiyno i Gaerbaddon, ac yn y diwedd i fynachdy Llangenys, yn Ngwent, lle yn fuan y terfynodd ei ddyddiau. Felly, ar ol byw yn annghariadus, bu farw yn annhosturus; canys pwy dosturiai wrth un a gyflogai estroniaid i ddistrywio ei genedl ei hun. Am gyfran Einion, gweler dan ei enw. Goresgynodd y Normaniaid y wlad, a rhanasant ei thiroedd breision cydrhyngddynt, gwladychasant ynddi, a dywedir fod eu hiliogaeth yno hyd heddyw.

IEUAN ab Gruffydd Leiaf, bardd rhwng 1500 a 1540. Y mae ei waith mewn ysgrifau. Yn ol "Beddau y Beirdd," yn Llandrillo y claddwyd ef.

IEUAN, ab Huw Cae Llwyd, bardd rhwng 1470 a 1500. Y mae ei waith mewn ysgrifen.

IEUAN ab Hwlcyn, bardd rhwng 1520 a 1560.

IEUAN ab Hywel ab Llywelyn Fychan, bardd rhwng 1500 a 1540.

IEUAN ab Hywel Swrdwal, bardd enwog rhwng 1450 a 1480. Y mae ei waith mewn ysgrifen. Efe a ysgrifenodd dri llyfr am dair talaeth Cymru o amser Cadwaladr hyd Harri VI.

IEUAN ab Ifan Trefor, bardd rhwng 1530 a 1560.

IEUAN ab Llywelyn ab Mali, bardd rhwng 1550 a 1580.

IEUAN ab Llywelyn Fychan, o'r Llanerch, sir Ddinbych, bardd rhwng 1460 a 1490. Yr oedd ei fab hefyd, Gruffydd ab Ieuan, yn fardd gorchestol.

IEUAN ab Madog ab Dafydd, bardd rhwng 1560 a 1600. Y mae ei waith mewn ysgrifen.

IEUAN ab Rhydderch ab Ieuan Llwyd, M.A., o Glyn Aeron, bardd enwog rhwng 1410 a 1440. Y mae llawer o'i gyfansoddiadau ar gael mewn ysgrifen, a dau yn argrffedig yn yr *Iolo MSS.*

IEUAN ab Rhydderch ab Llywelyn, bardd rhwng 1510 a 1540. Tybir mai yn Llanuwchlyn y mae yn gorwedd.

IEUAN ab Rhys Morys, bardd rhwng 1580 a 1620.

IEUAN ab Tudur Penllyn, bardd enwog rhwng 1460 a 1490.

IEUAN BEDO GWYN, bardd rhwng 1530 a 1570.

IEUAN BRYDYDD HIR, bardd enwog yn Meirion rhwng 1440 a 1470. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

IEUAN BRYDYDD HIR, bardd gorchestol a hynafiaethydd penigamp. Ei enw bedydd ydoedd Evan Evans. Ganwyd ef yn Cynhawdref, plwyf Lledrod, Ceredigion, yn 1730. Bu am yspaid yn ysgol Ystradmeirig, yn derbyn addysg gan yr hyglod Edward Richard; ac oddiyno, yn 1751, symudwyd ef i goleg Merton, Rhydychain. Gorfu

Digitized by Google

arno gyflwyno ei etifeddiaeth fechan dreftadol yn Nheredigion i frawd ieuangach, fel y caffai arian i'w gynal ei hun tra yn y coleg. Felly, dadblygwyd yn fore un o brif neillduolion ei gymeriad, a gwreiddyn ei holl ddygn ofidiau, sef ei gariad anorchfygol at wybodaeth, a'i ddibrisder o gyfoeth bydol. Wedi gadael Rhydychain, bu yn gweinyddu fel curad mewn amrywiol fanau, megis yn Nhywyn, Meirionydd: Llanberis, Llanystumdwy, a Llanllechid, yn sir Gaernarfon; ac yn Llanfair Talhaiarn, sir Ddinbych. Efe oedd curad y lle olaf yn 1763, canys yn Llanfair yn ystod y flwyddyn grybwylledig y priodwyd y bardd Thomas Edwards o'r Nant, ac Ieuan a ddododd y cwlwm. Ymgododd yn fuan i enwogrwydd fel llenor, a daeth i gydnabyddiaeth â phrif ysgolheigion Cymreig yr oes; a bu yn gohebu âg amryw ohonynt, yn arbenicaf â Lewis Morris a'r Esgob Percy. Ymroddodd yn ddiorphwys i goleddu llenyddiaeth ei wlad, gan dreulio amser mawr mewn adysgrifenu hen ysgrifau prinion; fel firwyth pa lafur, efe a adawodd ar ei ol uwchlaw cant o gyfrolau o wahanol faintioli. Teithiodd lawer ar hyd a lled y wlad er caffael hyd i hen ysgriflyfrau, a hyny yn ngwyneb graddau helaeth o annghefnogaeth a phrinder. Bu am yspaid yn derbyn blwydd-dal fechan gan Syr Watkin W. Wynn, a Dr. Warren, esgob Bangor, er ei gynorthwyo yn ei lafur, ond y ddogn hon yn mhen amser a ataliwyd. Yn 1764, efe a gyhoeddodd gyfrol pedwarplyg tan y teitl, "Dissertatio de Bardis," yn cynwys engreifftiau o farddoniaeth Gymreig, yn nghyda chyfieithiadau i'r Seisnig a Lladin. Dyrchafodd y gwaith hwn ef i ben pinacl clod fel hynafiaethydd a bardd, ac o'r llyfr hwn y cynysgaeddwyd y bardd Seisnig Gray â delweddau peth o'i farddoniaeth godidocaf. Yn 1772, cyhoeddodd bryddestawd Seisnig yn dwyn yr enw "The Love of our Country," ac amryw gyfansoddiadau Cymreig, y rhai a argraffwyd yn y *Dyddanwch Teulwaidd.* Yn 1776, cyhoeddwyd dwy gyfrol o bregethau Cymreig o'i gyfieithiad ef o waith yr Esgob Tillotson ac eraill. Cyfarfu y Prydydd Hir a'i ran o'r damweiniau a'r gofidiau sydd mor dueddol i orddiwes meibion athrylith: er nad yw hyny fynychaf ond cynyrch y gwendidau a'r afreoleidd-dra a hynoda y cyfryw ddynion. Dywed O. Williams, o'r Waenfawr, am dano:—"Gwedi myned rhan fawr o'i fywyd heibio yn y cyfryw erlyniadau [sef adysgrifio], heb fod yn alluog i gaffael y dyrchafiad lleiaf yn yr eglwys, ei wroldeb a enciliodd oddiwrtho, ac i ymlid ymaith ei ofidiau efe a syrthiodd i arferiad o ddiotta, yr hyn ar amserau, a barai arwyddion o annhrefn yn ei synwyrau, ac a gaudodd allan bob damwain iddo enill unrhyw gyfeillion newyddion, yn debygol o wneuthur adgyweiriad yn lle y rhai hyny a ddylasent wobrwyo ei deilyngdod." Y mae yn arferiad genym edliw i'r Eglwys Sefydledig yn Nghymru y driniaeth wael a roddes i wr mor athrylithlawn âg I. B. Hir. Mae'n wir fod yr Eglwys yn Nghymru yn meddu engreifftiau ddigon o'r cyfryw ymddygiad tuag at athrylith, yn tarddu gan mwyaf oddiar ddellni andwyol yr awdurdodau gwladol yn penodi am gynifer o oesau Saeson yn esgobion i Gymry. Pa fodd bynag, prin y gellir ei beio am wrthod dyrchafu y bardd talentog hwn, gan fod rhywbeth yn anhebgorol i'r weinidogaeth Gristionogol heblaw talent ac athylith, ac yn ddiau, er galluoced dyn Ieuan, yr oedd y rhywbeth hwnw yn ddiffygiol ynddo. Adroddir yr hanesyn toddedig a ganlyn am yr anffodus IEUAN BRYDYDD HIR, gan y Parch. S. G. Amstrong Williams, yn nghofiant ei dad, y Parch. Elieser Williams, o Lanbedr, Ceredigion, (mab yr enwog Barch. Peter Williams):—"Un prydnawn dydd Sadwrn, pan oedd fy

Digitized by Google

nhad yn ei fyfyrgell, yn Mongwel, canfu ryw ddyn tal, lled chwithig yr olwg arno, â chod ar ei gefn, yn myned heibio'r ffenestr. Wrth grymedd neilldduol ei wàr, yn nghyd a thrysgledd ei gerddediad, tybiodd ei fod rywbeth yn debyg i'w hen gyfaill Ieuan Brydydd Hir. Ar y gair, dyna gnoc ar y drws, ac ymholi am Mr. Williams. Aeth fy nhad i'r drws, gan yr ystyriai'r gwas fod y gwr dyeithr yn rhy wael ei wisg i gael ei alw i mewn i'r parlawr. Ac mewn gwirionedd nid ydoedd efe neb amgen na'r hynafiaethydd mawr ei hunan, yn teithio, meddai efe, i edrych am guradiaeth. Yr oedd yn dda gan fy nhad ei weled, a rhoddes iddo y croesaw hyny sy mor naturiol i'r hen Frythoniaid ei roi i'w gilydd pan ymgyfarfyddont mewn gwlad estronol. Bore dranoeth cynygiodd Mr. Evans ei gynorthwy yn yr eglwys, a chymerodd ran o'r gwasanaeth. Ar ol y gwasanaeth, gwahoddwyd fy nhad a'i gyfaill gan y Dr. Barrington i giniaw; ac mor hyfryd oedd gan yr esgob gymdeithas Mr. Evans, fel y ceisiodd ganddo giniawa gydag ef dranoeth hefyd. Yr oedd y Barnwr Barrington, ac (yr wyf yn coelio) y Llyngesydd Barrington, yn mhlith y cymdeithion gwahoddedig. Trodd yr ymddyddan yn nghylch hynafiaethau, a llenoriaeth yr hen oesoedd. Daeth Mr. Evans, ar ol ychydig wydreidiau o win, yn siaradus a dyddan iawn, a gwrandewid arno gyda llawer o hyfrydwch. Fy nhad, yn gwybod yn dda ddigon am duedd anffodus ei gyfaill, a gododd i fyned ymaith; gwnaeth y Barnwr Barrington yr un peth, gan geisio ar fy nhad aros ychydig bach, gan eu bod oll yn cael ei swyno gan ymddyddanion Mr. Evans; a gofynai, ar yr un pryd, beth a allai hanes y fath ddyn fod, a bod yn rhaid iddynt hwy gael ychwaneg o'i gymdeithas. Yr oedd cerbyd y gwr bonheddig weithian wrth y drws, yn barod i gymeryd rhai o'r cymdeithion ymaith, a hwy a ymadawsant. Cyfarfuant modd bynag, un waith neu ddwy wedi hyny, a daeth Mr. Evans yn hoffach hoffach gan ei gyfeillion newyddion. Mewn gwirionedd, nid oedd ond ychydig iawn o bynciau â'r rhai nad oedd efe gynefin, ac yn y rhai has gallai ei feddwl grymus ymaflyd yn rhwydd ac yn llwyddianus. Y bore a ddaeth pryd yr oedd Mr. Evans i ymadael. Edrychai yn isel ac yn athrist; ac ar ol boreufwyd, gofynodd ganiatâd i dalu diolch; yr hyn a wnaeth yn y modd mwyaf dwys a difrifol. Yna, gan anerch fy nhad, a'i ddwylaw yn mhleth, a'i lygaid yn llawn o ddagrau, dywedodd, 'Coeliwch fi, Syr, nis gwn pa bryd, pa le, na pha fodd i gael y pryd arall o ymborth.' Gadawodd y ty ar ffrwst, ar ei ffordd i Lundain, i chwilio am guradiaeth, ac nis gwelodd fy nhad ef byth mwyach." Yr oedd Paul Panton, Ysw., wedi cytuno ag ef ychydig flynyddau cyn ei farw i roddi iddo £20 yn y flwyddyn tra fyddai byw ar yr amod y caffai yntau ei holl ysgrifau. O ganlyniad, trosglwyddwyd y trysorau hyny i lyfrgell y Plasgwyn, yn Mon; a cherllaw Caergybi yn meddiant disgynydd y boneddwr hwnw y maent yn bresenol yn gorwedd yn feirwon a difudd, ac yn anhygyrch a chloedig i bawb. Fel y gellir casglu, yr oedd Mr. Evans yn ddyn calon-dyner a charedig; ac yn meddu rhinweddau uchel ac amlwg. Yr oedd wedi ymneilldduo i Gynhawdref, lle ei enedigaeth, ac yn byw yno gyda'i frawd, pan y bu farw Awst, 1789, yn 59 oed. Heblaw y llyfrau a nodasom o'i eiddo, y mae llawer o'i waith yn wasgaredig hyd y cylchgronau Cymreig a'r oll yn delweddu athrylith ardderchog wedi eu caboli gan ddysgeidiaeth ragorol.

IEUAN DELYNIWR, bardd rhwng 1500 a 1540. Y mae ei waith mewn ysgrifau.

IEUAN DRWCH Y DARAN, bardd rhwng 1370 a 1400

Digitized by Google

IEUAN FEUDWY, bardd rhwng 1550 a 1580.

IEUAN FYCHAN ab Ieuan ab Adda, bardd rhwng 1540 a 1570.

IEUAN DYFI, bardd rhwng 1470 a 1500.

IEUAN DDU ab Dafydd ab Owain, bardd enwog a elwir gan Moses Williams yn Ieuan Dafydd Ddu, neu Ieuan Dafydd ab Owain, Ysw., o Frycheiniog. Dywed y *Cambrian Biography*, mai yn Aberdar y trigianai, a'i fod yn foneddwr tiriawg; a chwanega Lewis, yn y *Top. Dictionary*, mai yn y Dyffryn yr oedd yn byw, ac i'r lle fod yn meddiant ei ddisgynyddion o'r enw Jones, ond a brynwyd, yn 1748, gan William Bruce, Ysw. Yr oedd yn hynod am ei nawdd a'i achles i feirdd ei oes, ac y mae ei haelioni yn hyny o beth yn draddodiad yn yr ardaloedd hyny hyd y dydd hwn. Yr oedd yn ei rwysg rhwng 1440 a 1480. Y mae ychydig o'i waith ar gael mewn ysgrifau.

IEUAN DDU Y BILWG, bardd rhwng 1470 a 1510. Yr oedd yn un o awenyddion gorsedd Morganwg, o tan addysg Iorwerth Fynglwyd, yn 1500. Mae cywydd o'i waith yn yr *Iolo MSS* i ofyn y Greal i Abad Glyn Nedd; a chywydd y "Gown Coch" o'i eiddo yn *Nghorch. Beirdd Cymru.*

IEUAN GETHIN ab Ieuan ab Lleision, bardd enwog rhwng 1400 a 1450. Dywed yr *Iolo MSS.* ddarfod iddo ymuno â byddin Owain Glyndwr, pan oedd yr arwr hwnw yn dryllio cestyll pendefigion Normanaidd Morganwg; a phan aeth y dydd yn erbyn Owain, Ieuan a ffodd i Fon, at hen gyfaill câd iddo. Tra y bu efe yno, yr oedd Harri V. yn lladd a gormesu pob un a ddrwgdybid yn bleidiwr i Owain; ond yn mhen tro, cytunwyd rhwng y Cymru a'r brenin, ymuniawnu er arian, a'u gwerth, yn wartheg a defaid a daoedd eraill. Prynwyd hoedl Ieuan am gant o benau gwartheg a phum' cant o ddefaid; ac wedi hyny efe a aeth adref i'r Deheudir. Tybir mai brodor o Gethinog, yn sir Gaerfyrddin ydoedd. Yr oedd efe yn ddysgybl i Ieuan Tew, yn ngorsedd Morganwg 1420, ac yn fardd gorseddog yn 1430. Yr oedd hefyd yn ail Eisteddfod Caerfyrddin yn 1451, yn gwrthdystio yn erbyn newyddddebau Dafydd ab Edmwnt. Y mae cywydd "Marwnad Ieuan Dowr," o'i waith yn *Nghorchestion Beirdd Cymru.*

IEUAN FAWR AB Y DIWLITH, a dybid ydoedd fab i Rhys ab Rhiccard ab Einion ab Collwyn, o ryw bendefiges uchel waed. Cafwyd ef, newydd ei eni, ar dwmpath diwlith, ar fynydd Margam, yn Morganwg, ar fore Dydd Gwyl Ifan yr Haf, gan Feirdd Tir Iarll, pan oeddynt wedi cyfarfod i gynal Cadair Farddol; a dyna pa'm y cyfenwyd ef yn "Ap y Diwlith." Cymerwyd ef gan ei dad cyfrifedig uchod, ac fe'i rhoddodd at famaeth, er na chyfaddefwyd ei rieni fyth. Cafodd ddysg, a daeth yn enwog fel bardd a hynafiaethydd Cymreig. Ei waith oeddynt:—1. Llyfr Cadwedigaeth y Gymraeg. 2. Cerdd Dafod ac a Berthynai iddynt. 3. Grealau a Mabinogi. 4. Llyfr y naw gloes, a'r pedwar addurn a'r hugain. 5. Llyfr Dammegion. 6. Llyfr arall. 7. Gwnaeth hefyd Gof a Chadw ar Wybodau Doethineb, ac ar Gyfreithiau Cenedl y Cymry. Yr oedd yn byw rhwng 1160 a 1180. Bu farw yn Llangynwyd, Morganwg, a chladdwyd ef yno yn mhlith teulu Llwydiarth.—*Iolo MSS.*

IEUAN GWINIONYDD, bardd rhwng 1530 a 1560.

IEUAN GYFANEDD, bardd rhwng 1570 a 1600.

IEUAN GWYNEDD, sef y Parch. Evan Jones, gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Nhredegar. Ganwyd y gwr talentog a galluog hwn Medi 20, 1820, mewn lle o'r enw Bryn Tynoriad, o fewn wyth milldir

Digitized by Google

i Ddolgellau, ar y llaw aswy i'r ffordd pan eler yno o'r Bala. Saif y tŷ ar wastadedd bychan mewn dyffryn cul yn ngodreu gogledd-orllewin yr Aran Fawddwy, ar Benllyn. Yr oedd mor wael a nychlyd pan ei ganwyd, fel yr ofnid na fyddai fyw i fod er gwynfyd na gwae i neb ond dros ychydig iawn o oriau; a'i fam hefyd yn yr unrhyw wacledd, nes yr ofnid y byddai yr un bedd yn agor ei safn i dderbyn y ddau yr un pryd. Symudodd ei rieni pan nad oedd ond ieuanc i le a elwir y Ty Croes, yr hwn sydd o fewn tair milldir i Ddolgellau, ar fin y ffordd sydd yn troi o'r brif-ffordd i fyned tua'r Brithdir. Yma y dechreuodd talentau ysplenydd Ieuan ymagor, tan ofal a meithriniaeth ei fam, yr hon oedd Atheniad yn wir—yn un oedd yn sychedu am wybodaeth, yn hoffi darllen yn fawr, ac yn neillduol o'r llithrig ei hymadroddion. Ond am ben hyn oll, yr oedd yn wraig dduwiol; cadwai addoliad teuluaidd yn yn gyson, egwyddorai ei phlant yn athrawiaethau crefydd, a chymhwysai y cyfan at eu bywyd ymarferol. Am ei dad, hen weithiwr tawel, gwledig, difefl, oedd efe: heb fod gwybodaeth nag addysg yn unrhyw demtasiwn iddo i golli na chwsg nag amser yn eu cylch. Pe buasai pawb fel efe, gallasai Solomon yn hawdd adael yr adnod hono allan o'i lith, "fod darllen llawer yn flinder i'r cnawd." Ond nid llai oedd gofal y fam am i'w bachgen gael dysg, nag oedd ei gofal am iddo fod o foesau da. Yr oedd yn caru moesoldeb cystal a dysgeidiaeth ei hunan, a gwnai ei goreu i fagu yr un tueddfryd ynddo yntau. Enynai a phorthai ynddo awydd angherddol am ddarllen; ond fel y dywed ef ei hun yn *Nghofiant ei Fam*:—"Ychydig o lyfrau oedd yn y tŷ, er hwyrach fod yno gymaint ag a allesid ei ddisgwyl mewn tŷ gweithiwr yn y fath adeg ar oes llenyddiaeth. Nid lleoedd nodedig am addysg ac yspryd darllen oedd Rhydymain a'r Brithdir bump neu ddeg ar hugain o flynyddau yn ol. Nid oedd ysgolion dyddiol ond afreolaidd a diwerth. Yr oedd y dyn a dderbyniai y *Seren Gomer*, neu y *Dysgedydd*, yn oracl; ac os meddai rhyw un fwy o lyfrau na'r Beibl, yr *Holwyddoreg*, Llyfr Hymnau, sypyn o hen almanaciau wedi eu gwnio yn nghyd, a nifer o gerddi yn yr un gadwraeth, yr oedd ganddo lawer iawn o lyfrau! Yr oedd Corph Duwinyddiaeth Dr. Lewis agos yn rhoddi cwbl urddau i dŷ. Yr oedd tŷ ei rieni yn llawn o'r tylodi llenyddol hwn. Cynwysai dri Beibl, Testament Newydd, un llyfr Hymnau, *Taith y Pererin*, *Llyfr y Tri Aderyn*, *Efynonau yr Iechydwriaeth*, gan y Parch. B. Jones, Pwllheli, dau rifyn o *Drysorfa* Mr. Charles, amryw o bregethau, diwedd neu ddechreu pa rai oedd ar goll yn gyffredin, ac ychydig o fân draethodau eraill. Ychwanegwyd at y rhai hyn rywbryd gan fy mrawd *Yr Ysgerbwd Arminaidd*, a'r *Bardd Cwsg*. Fel y bu oreu y ffawd, yr oedd teulu caredig yn byw yn yr Esgairwen, lle y derbynid y *Seren Gomer*, a lle yr oedd amryw o lyfrau gwerthfawr eraill, megys *Esboniad Dr. Gill*, a *Hanes Prydain Fawr*, gan Titus Lewis. Drwy gael benthyg y rhai hyn, a'r *Dysgedydd* o leoedd eraill, yr oedd yn gyffredin ddigon o waith i'r darllenydd ieuanc. Daeth hefyd ar draws y *Blodeugerdd*, *Gorchestion Beirdd Mon*, *Drych y Prif Oesoedd*, a *Helynt-ion y Byd a'r Amseroedd*." Darllenodd y rhan fwyaf o'r llyfrau hyn cyn bod yn naw oed; ac onibai hwy, buasai yn amddifad o'r ychydig wybodaeth gyffredinol a gasglodd yn ei ddyddiau boreuol. Nid ymddengys fod Ieuan wedi llwyddo i argyhoeddi neb ond ei hun a'i fam fod ynddo ddim cymhwysder i chwilfriwio yr hen ddiareb, "Sawl aned i rôt, nid a byth i bumceiniog;" a chlywsom rai a'i hadwaenent yn dda pan yn laslanc yn dweyd fod golwg digon hurt a llywaeth arno yn yr

Digitized by Google

oedran hwnw. Rhaid fod hyd yn nod elfenau ei fawredd yn goglais tymheran ei gymydogion mynyddig; ac yr oedd y syniad gwyllt o fyw heb weithio â'r dwylaw, yr hyn yn ol aml awgrymiad ydoedd bwriad Ieuan, yn broblem rhy ryfedd iddynt hwy wybod dim oddiwrthi. Am ei dywydd tua'r amser hwn, goreu y dywed ef ei hun yn y *Cofiant* crybwylledig:—"Ond o hyn allan yr oedd tymhestl i gyfodi. Barnai fy nhad y dylasai y bachgen erbyn hyn ddechreu meddwl am enill ei fara. Nid oedd ei syniadau ef am ddarllen mor uchel â'r eiddo fy mam. Gwyddai hi mai trwy ddarllen y cesglid gwybodaeth, ac mai trwy wybodaeth yr oedd dyrchafiad; a gwyddai fy nhad mai 'trwy chwys dy wyneb y bwytai fara.' Ymrwymaf nad oedd dyn yn y wlad yn deall nac yn cofio yr ysgrythyr hon yn well. Yr oedd perthynasau, a phobl dda ddiwyd y Brithdir, hefyd yn hollol o'r un farn; a byddai fy mam ambell dro bron o'r un syniadau, wrth gofio, mae yn debyg, mai yn amlder cynghorwyr y mae dyogelwch. Ond ar y cyfan, gwnai ymdrechion canmoladwy i hyfforddi, ac i geisio llyfrau i'r bachgen bach. Parhau a wnaeth yntau i ddarllen; a phan y dechreuodd feddwl y gallasai brydyddu, barnodd fy nhad fod diwedd am dano, ac y dygai ei benwyni i'r bedd mewn tristwch. Credai nad oedd yn ei aros, os dilynai y fath fywyd segurllyd, ond y carchar a'r crogbren. Ond wedi hir dymhestloedd, wedi parhau ohonynt am bump neu chwe' blynedd, canodd yr efrydydd ieuanc yn iach i dŷ ei dad; ac o radd i radd, argyhoeddwyd yr hen wr fod ei fab wedi gweithio iddo ei hun gymeriad gwerth ei gadw." O'r diwedd, daeth yr amser iddo gefnu ar gronglwyd ac aelwyd ei riaint; a dechreuodd ar ei fywyd cyhoeddus trwy fyned i gymydogaeth Sardis, sir Drefaldwyn, i gadw ysgol. Y mae ei ddullwedd pan yn gadael tŷ ei dad am y tro cyntaf yn werth ei gofnodi wrth fyned heibio. Yr oedd ganddo het o frethyn llawban *(felt)* am ei ben, a siaced o ffustion am ei gefn, a llodrau rhesog o'r un defnydd am ei goesau, a'i gorpwys wedi gordyfu a gadael parthau eithaf ei ddillad i gyd ar ol. Cariai ei ddillad isaf yn sypyn tan ei gesail, ei esgidiau mewn cadach yn ei law, a cherddai mewn clocs. Pa fodd bynag, efe a gyrhaeddodd faes ei lafur yn ddyogel, a dechreuodd o ddifrif ar ei waith. Yma, ar sail y cymhwysder a ganfyddid ynddo, y cymhellwyd ef i ddechreu pregethu, ac y cydsyniodd yntau â'r cais. Enillodd air da gan bawb yn Sardis, ac wedi bod yno am rhyw yspaid, symudodd i Fangor i fod yn athraw cynorthwyol i'r Parch. Arthur Jones, D.D., ar un o ysgolion y Dr. Daniel Williams. Nid arosodd yno drachefn ond byr amser, gan ei fod wedi penderfynu myned i ysgol yn Merton, sir Amwythig, yn 1839, er ymbaratoi ar gyfer myned i'r coleg mor fuan ag yr agorai y drws. Ac er nad oedd y pryd hwn ond 19 oed, ac nad oedd ond prin ddwy flynedd er pan yr ymroddasai i ddysgu Saesneg, ymddangosodd erthyglau galluog o'i waith yn y *Shrewsbury Chronicle*, ar hawliau ac iawnderau Ymneillduaeth. Bu yn y lle hwn hyd farwolaeth ei athraw, er cofiant am yr hwn yr ysgrifenodd Ieuan lyfr swllt, yn yr iaith Seisnig. Yn haf 1841, derbyniwyd ef i athrofa Aberhonddu, lle yr arosodd am y pedair blynedd gosodedig, a diau na bu un o'i mewn y gogoneddwyd hi yn fwy ynddo. Yr oedd ei enw bellach wedi dyfod yn hysbys yn y Dywysogaeth fel un o'i phrif lenyddion, drwy y gwobrau cyhoeddus mewn rhyddiaith a barddoniaeth a enillasai, a hyny pan oedd ysgrifenwyr galluog yn cydymdrechu ag ef; ac anaml yr anturiai un ymdrechfa heb ddyfod allan yn fuddugoliaethus neu y drws nesaf at hyny. Ymosodwyd arno ddwywaith tra yr oedd yma gan

Digitized by Google

y dwymyn gienol, a bu rai misoedd bob tro yn analluog i ymddangos gerbron ei athrawon. Ond gwnaeth iawn am y cyfan trwy ei ddiwydrwydd, fel na bu yn ol mewn dim. Pan ddaeth ei amser i fynu, yr oedd pump neu chwech o eglwysi yn cynyg galwadau iddo ymsefydlu yn eu plith fel gweinidog, ac yntau a ddewisodd Saron, Tredegar, lle yr urddwyd ef yn Ngorphenaf, 1845. Priododd ddiwedd y flwyddyn hono â merch Rorington Hall, yn agos i Merton; ganwyd iddynt fab yn ystod y flwyddyn ganlynol, yr hwn a fu farw yn ychydig wythnosau oed. Daliodd hyn a phethau eraill ar feddwl Mrs. Jones a pharatodd y ffordd i'r darfodedigaeth, a bu hithau farw yn yr Ebrill canlynol. A phan oedd ni yn nychu yn un gwely, yr oedd Ieuan yn dyoddef gan ail ymosodiad o eiddo ei hen afiechyd, ac yn nychu yn y Hall. Tua'r pryd hwn y cyfansoddodd efe "Cathlau Blinder," ysgub o ganeuon a ymddangosodd yn yr *Adolygydd* ii 393. Nid oes yn unrhyw iaith farddoniaeth lawnach o deimlad byw, lle y gwelir calon drist yn datguddio ei chyfrinach, a meddwl mawr yn ymladd â'i wae; yn arbenig felly, yn y gathl "Ymgomiad ag Angau," a'r "In Memoriam." Er sirioli ychydig ar ei feddwl yn ei gystudd, ysgrifenodd hefyd draithawd Saesneg, i gystadleuaeth yn Llundain, ar "The Moral Obligation of Total Abstinence," ac enillodd y wobr o ddeg punt. Yn 1846, yr oedd dirprwywyr y llywodraeth wedi bod trwy Gymru yn archwilio ansawdd dysg a moesau yn ein plith, yn flaenorol i ddygiad mesur i'r senedd gyda golwg ar hyn gan Arglwydd John Russell, ar gynygiad Mr. Wm. Williams, yr aelod seneddol tros Coventry. Yr oedd amryw yn ofni gan fod Cymru yn wlad Ymneillduol, a'r dirprwywyr yn Eglwyswyr ac yn Saeson anhysbys o'n hiaith, y byddai eu hadroddiad yn annheg, ac na wneid cyfiawnder â'n cymeriad. Ond yr oedd ambell adyn dygasog ac anwladgar, o'r ochr arall, yn ofni na osodid ni allan yn ddi_on isel ac anfoesgar, a cheisiai feddwl pa fodd i gael dedfryd yn ein herbyn. Gyda'r dyben hwnw, ymddangosodd cyfres o lythyrau yn y *Cardiff and Merthyr Guardian*, gan un a alwai ei hun yn "Cambro Sacerdos," yn y rhai y dygid barn gabledd yn erbyn y genedl yn ei moesau, ei hiaith, a'i chrefydd. Gosodid ni allan yn dywyll, anwar, a llygredig, ac wyth o bob deg o'n merched heb fod ddim yn amgen na phuteiniaid, a'r iaith Gymraeg ac Ymneillduaeth yn achlysur o'r cwbl. Braidd yr oedd Cimmeria yn is, na Bœotia yn waeth. Rhoddodd rhyw amgylchiadau derfyn ar ddwnad y cyfryw ohebydd yn y newyddiadur hwnw, ond yn fuan tan ffugenw gwahanol wele ef yn gwneud ei ail ymddangosiad yn y *John Bull*, papur-newydd uchel-eglwysig yn Llundain, ac yn difrio Cymru mor faleisus ag erioed, a'i lythyrau yn cael eu hargraffu yn llyfryn, a'i anfon yn anrheg i aelodau y senedd erbyn y buasai mesur Arglwydd Russell yn dyfod o'u blaen. Ceisiodd amryw gan Ieuan ei ateb pan ymddangosai y llythyrau yn y newyddiadur cyntaf; ond yr oedd amgylchiadau cystuddiol ei deulu y fath fel nas gallai ymgymeryd â'r gwaith. Ond pan ddeallodd fod cynllwyn ar droed i dduo cymeriad y genedl gerbron y llys uwchaf yn y deyrnas ar y fath adeg bwysig, cyffrodd ei yspryd o'i fewn, ac ymwadodd â phob teimlad personol i aros yn hwy mewn dystawrwydd. Yr oedd newydd gladdu ei gyntafanedig; yr oedd gwraig ei ieuenctyd ar fin ymadael â'r byd; yr oedd ei fynwes yn archolledig, a'i iechyd yn ddrylliog; ond ni wnaeth gyfrif o ddim. Ystyriai fod enw ei wlad, diweirdeb ei merched, a gogoniant ei chrefydd, yn cael eu trywanu yn y tywyllwch gan un oedd wedi dringo i leoedd sanctaidd; a pharod oedd i'w roddi ei hun a'i gyfan yn

Digitized by Google

aberth ar allor ei anrhydedd. Dan yr amgylchiadau hyn yr ysgrifenodd *Dissent and Morality in Wales*, yn yr hwn y dangosir cymeriad Cymru i fantais mewn cyferbyniad i Loegr a gwledydd eraill, a hyny ar seiliau diymwad ystadegaeth; a thrwy haelioni cyfeillion, anfonwyd cyflyfr o hono i bob aelod seneddol, fel y byddai yn dystiolaeth iddynt wrth law yn ngwyneb y gabldraith oedd wedi ei anfon iddynt yn flaenorol. Yr oedd y fath hunan-aberth brydlawn yn profi ar unwaith pa fath galon fawrfrydig oedd gan Ieuan, a pha fath gymwynaswr i'w genedl ydoedd. Yr oedd y pryd hwn mewn gwaeledd mawr, ei waed yn awr ac eilwaith yn tori yn ei fynwes, ac yn cael ei orfodi yn fynych i gadw ei wely am wythnosau. Tan yr amgylchiadau hyn, ac yn deimladwy o'i analluogrwydd i wneuthur cyfiawnder â'i orchwylion gweinidogaethol, rhoddodd ei ofal dros eglwys Saron i fynu, a phenderfynodd gydsynio â chais Mr. John Cassell, i fyned i Lundain i olygu y *Standard of Freedom*. Yr oedd pob peth wedi ei sypynu yn barod i'r daith, yn Ionawr, 1848, ond yr oedd er's saith wythnos yn gyfyngedig i'w ystafell ac yn analluog i'w gadael. Cynygiwyd iddo i fyned i Gaerdydd, i olygu y *Principality*—papur newydd a godwyd gan wr ieuanc gwladgarol i wasanaethu Cymru yn ei rhyddid a'i chrefydd. Yr oedd y gwaith yn unol a'i anian, ac yntau yn gymhwys iddo. Dechreuodd y papur wisgo gwedd arall yn union, ac ymddangosodd bywyd o natur mwy ir a chadarn o'i fewn. Ond yn anffodus, yr oedd ei brif gefnogwyr yn rhanedig ar y pwnc o dderbyn arian y llywodraeth i gyfranu addysg; a chan fod ganddo yntau opiniwn a chydwybod o'r peth, rhoddodd ei olygiaeth i fynu yn mhen ychydig fisoedd. Aeth yn awr i Lundain i olygu y *Standard of Freedom:* ond nid annghofiodd er hyny ei wlad, canys yr oedd llythyrau oddiwrtho ar rhyw fater neu gilydd yn ymddangos yn ei chyhoeddiadau yn barhaus. Dechreuodd yn awr deimlo bywyd unigol yn faich, a phriododd eilwaith yn niwedd y flwyddyn hon â Miss Lewis, merch i hen weinidog Tredwstan, sir Frycheiniog, yr hon a fu yn ymgeledd dyner a dioddefgar iddo trwy holl fisoedd ei gystudd blin. Tra yn Llundain, daeth i gymdeithas agos â Chaledfryn, a'r Cymro Bach, a buont o adeiladaeth mawr i'w gilydd; ac yr oedd eu hol ar yspryd Ieuan yn amlwg hyd y diwedd. Ond yr oedd yr hen afiechyd yn ei ddilyn; cymerwyd ef yn glaf yn niwedd y Mehefin canlynol, ac ar y 7fed o Awst torodd llestr gwaed yn ei ochr aswy, a gwaedodd yn arswydus. Ni ddaliai y meddygon un gobaith iddo fyw—pedair awr ar hugain oedd yr eithaf. Yr oedd yn y dyfroedd dyfnion at yr én; ond yr oedd ei feddwl yn dawel, a'i gydwybod yn ddirwystr. Pa fodd bynag, siomwyd y meddygon, ac adfywiodd yntau ychydig fel ag i greu gobaith ynddynt am dano, a chynghorent ei symud i lan môr Morganwg; ac yno, i Gaerdydd, y dygwyd ef yn ei wely, yn niwedd Awst, 1849. Paratodd yn awr at ddwyn allan y *Gymraes* yn nechreu y flwyddyn ganlynol—cyhoeddiad misol, o bris dwy geiniog, at wasanaeth merched ei wlad. Ond er teilynged y cyhoeddiad hwn ynddo ei hun, a'r rhwymau bythol dan ba un yr oedd y merched i'r awdwr, ni chafodd y gefnogaeth a allesid ei ddisgwyl oddiwrthynt! ac wedi ymbriodi am ysbaid â misolyn arall o'r enw y *Tywysog*, rhifwyd y ddau yn mysg y cyhoeddiadau rhagorol a fu. Ffurfiwyd pwyllgor hefyd tua yr un amser i gyhoeddi cylchgrawn trimisol o'r enw *Adolygydd*, a dewiswyd ef yn unfrydol i fod yn olygydd. Ysgrifenodd lawer o erthyglau gorchestol i hwn, ac i lawer o gyhoeddiadau eraill yn Gymraeg a Saesneg, ar wastad ei gefn yn ei wely, pan yn rhy wan i eistedd i fynu, a'i

Digitized by Google

wraig hoff fel angyles warcheidiol yn sefyll yn ei ymyl i lenwi ac i adlenwi ei ysgrifell, a'i dodi yn ei law dyner ac eiddil. Yn y wedd hon yr ysgrifenodd y rhan fwyaf o'i bryddest fuddugol ar "Adgyfodiad Crist," i eisteddfod Merthyr; a'i bryddest fuddugol ar "Olygfa Moses oddiar ben Pisgah," i eisteddfod Lerpwl, y rhai ydynt yn mhlith y darnau tlysaf a mwyaf awenyddol yn yr iaith. Felly yr ysgrifenodd ei bryddest odidog ar yr "Adgyfodiad" i eisteddfod Rhuddlan; ac awdl benigamp ar "Heddwch," i eisteddfod Tremadog, yn yr hon yr oedd yn ail i G. Hiraethog. Ond nid yw hyn y ddegfed ran o'r hyn a gyfansoddodd ac a enillodd o wobrwyon tra yn y cyflwr dihafal hwn o waeledd a nychdod. Yr oedd canu awdlau a phryddestau gorchestol i'n heisteddfodau, cyfranu rhagerthyglau i'r newyddiaduron, golygu cyhoeddiad misol a chwarterol, darllen llyfrau a beirniadu, casglu ystadegau i aelodau seneddol, a chynal i fynu lawer o ohebiaethau, yn orchest dan yr amgylchiadau goreu. Ond yr oedd eu cyflawni gan ddyn ar wastad ei gefn yn ei wely, a'i ewinedd yn las gan y darfodedigaeth, a'i beswch yn drwm, a'i ystlysau yn ddolurus, a'i holl gorph yn adfail, yn nesaf peth i wyrth. Yr oedd ar lawer ystyriaeth yn un o'r dynion hynotaf a welodd Cymru, yn yr hwn yr oedd yr egni a'r ymroad mwyaf wedi cydgyfarfod â thalentau ysplenydd. Ond natur yw natur wedi y cwbl; er ei bod yn gref, nid yw yn annhoredig. Gollyngodd o'r diwedd ei gafael, a diangodd yntau ymaith Chwef. 23, 1852, cyn cyrhaedd 32 oed. Claddwyd ef yn mynwent y Groeswen, lle y mae gwyddfa odidog wedi ei chyfodi i'w goffadwriaeth trwy gyfraniadau gwirfoddol o bob parth o'r Dywysogaeth.[1]

IEUAN HEN, bardd rhwng 1350 a 1380. Llywyddai yn ngorsedd Morganwg yn 1370.

IEUAN ILAR, bardd rhwng 1560 a 1590.

IEUAN LLAFAR, bardd rhwng 1570 a 1600.

IEUAN LLWYD ab Gwilym, bardd rhwng 1420 a 1450. Y mae un dernyn o'i waith yn yr *Iolo MSS.*

IEUAN LLWYD ab y Gargam, bardd rhwng 1370 a 1400.

IEUAN LLWYD BRYDYDD, bardd rhwng 1460 a 1490. Claddwyd ef yn Llanuwchlyn.

IEUAN MON, bardd rhwng 1370 a 1400.

IEUAN TEW, neu Ieuan Tew Hen, neu Ieuan Tew Hynaf, bardd enwog o Anwystli, yn sir Drefaldwyn, yn ei flodeu rhwng 1400 a 1440. Llywyddai yn Ngorsedd Morganwg yn 1420. Y mae ei waith ar gael.

IEUAN TEW IEUANC, bardd enwog o Gydweli, sir Gaerfyrddin, rhwng 1560 a 1590. Graddiwyd ef yn "Ddysgybl Dysgyblaidd," yn Eisteddfod Caerwys, 1568.

IEUAF, mab i Idwal Foel a gyd-deyrnasodd â'i frawd Iago am ugain mlynedd, pryd y carcharwyd ef ganddo, ac y tynwyd ymaith ei lygaid. Bu farw yn ngharchar yn 985, a'i fab Hywel yn fuan a ddialodd ei gam trwy ymlid Idwal o'i swydd ac o'r wlad.

IFAN (HARRI AB), ydoedd o'r Gloddaeth, yn Llandrillo yn Rhos, ac yn oruchwyliwr i Syr Thomas Mostyn. Y mae amryw ddarnau o'i waith yn y *Blodeugerdd.* Galwai ei hunan weithiau yn Richard Abram.

IFAN LLWYD, ydoedd o Fodidris, yn Ial. Efe oedd y cyntaf i roesawu Siarl II. yn Ngwercsam, oblegyd yr hyn y dyoddefodd lawer

[1] Dymunir hysbysu mai yr un yw awdwr yr erthygl hon a'r bywgrafiad o I. GWYNEDD ymddangosodd mewn llyfr cyfnodol arall. Gan fod aml frawddeg yn y ddwy erthygl yr un fath, yr ydym yn mynegu hyn er atal unrhyw gamsyniad.—GOL.

Digitized by Google

hyd yr adferiad, pryd y gwnaed ef yn llywodraethwr Caerlleon. Bu arw cyn gwasanaethu na phrin ymaflyd yn ei swydd, yn 1663.—*Lleyn MSS.*

IFAN AB RHISIART neu *Ieuan Lleyn*, ydoedd fab i Risiart Tomos a Mari Siarl, o ardal y Bryncroes, yn Lleyn. Yr oedd cryn lawer o natur barddoni yn ei fam, ac y mae aml bill o'i gwaith ar gof gwlad hyd y dydd hwn. Aeth rhiant Ieuan i'r America tua 1795, gan ei adael ef tan ofal ei daid. Yn fuan ar ol hyn, aeth Ieuan i'r Dollfa *(Excise)*, a swyddog yno oedd yn 1808, pan gyhoeddai Dafydd Ddu ei *Gorph y Gainc*, y mae eu hanerchiadau barddonol at eu gilydd. Ieuan Lleyn ydoedd un o olygwyr y *Geirgrawn*, ac y mae ei enw wrth y rhagymadrodd; ac hefyd ddarnau eraill o'i eiddo, megis "Hanes Lleyn ac Ynys Enlli." Dychwelodd adref o Loegr tua 1812, a chartrefodd gyda'i ewythr, Lewis Siarl, yn y Ty mawr. Cafodd wedi hyny y swydd o gadw ysgol rad symudol, plwyfau Bryncroes, Llanfaelrhys, a Llangwnadl. Bu farw ac y mae cryn nifer o'i weithiau barddonol ar gael.

IFAN RHYDDERCH ab Ifan Llwyd, ydoedd fab i Rhydderch ab Ifan Llwyd, y prydydd o Glyn Aeron; ac felly, o deulu Gogerddan. Yr oedd yn Ysgrifluyfr y Llanerch, sir Ddinbych, awdl "I Fair" o'i waith. Blodeuai tua 1420.

IFAN (THOMAS AB), o Dre'r Bryn, yn Llangrallo, Morganwg, ydoedd hynafiaethydd. Yr oedd ganddo ysgrifluyfrau lawer yn ei feddiant, a chyhoeddwyd rhai ohonynt yn yr *Iolo MSS.* Gadawodd hefyd ar ei ol gasgliad helaeth o achau, y rhai a gasglodd yn 1683, ac a adysgrifenwyd, gyda llawer o ychwanegiadau, gan Mr. Joseph Morris, o'r 'Mwythig.—*Lleyn MSS.*

IFOR AB ALUN, tywysog o Lydaw, a ddanfonwyd trosodd i'r wlad hon gyda llu mawr gan ei dad, er cynorthwyo y Brutaniaid i gadw y deyrnedd pan ymneillduodd Cadwaladr Fendigaid yn y 7fed ganrif. Gwel IDWAL IWRCH. Y mae y *Brutiau* yn annghyson ac aneglur yn ei gylch; gosodir ef yn fab i Gadwaladr mewn rhai ysgrifau; a dywedir mai efe yw awdwr hanes Ina, brenin Wesecs.

IFOR AB MEIRIG, a adwaenir wrth yr enw *Ifor Bach*—am ei fod yn fychan o gorpholaeth—ydoedd fab Meirig Cadivor, fab Cedych, arglwydd Llancaiach, yn sir Forganwg. Er ei fod yn fychan o gorpholaeth, yr ydoedd yn ddyn o feddwl gwrol. Priododd Nest, ferch Madog ab Cradog, gyda'r hon y cafodd arglwyddiaeth Sainghenydd *(St. Kenyth's)* yn Morganwg. Yn amser Harri II., cymerodd dadl le rhyngddo â William, dug Gloucester, yr hwn oedd y pryd hyny yn arglwydd Morganwg, am fod rhagfaenor yr iarll wedi adeiladu castell Caerdydd ar ran o arglwyddiaeth Ifor, heblaw cymeryd meddianau ereill oddiarno. Ar hyn casglodd Ifor ei fyddinoedd, cymerodd gastell Caerdydd, gan ladd 120 o filwyr, a gwneyd yr Iarll, ei wraig, a'i fab yn garcharorion. Cymerodd y carcharorion a'r ysbail i fynyddoedd Sainghenydd, ac ni ryddhaodd hwy nes cael iawn am ei rentoedd. Cytunwyd hefyd fod i Gruffydd, mab hynaf Ifor, gael merch yr iarll yn wraig; ond fod i Ifor a Gruffydd roi i fynu eu hawl o'r tir ar yr hwn yr adeiladwyd y Castell. Lladdwyd Ifor wedi hyny, yn rhyw un o'r ysgarmes a fyddai yn fynych yn y dyddiau hyny; ac mae y lle yn cael ei alw yn Bant Cadivor hyd heddyw. Ei genedl ef o linell union yw John Lewis o'r Tŷ-newydd, Llanisan, ger Caerdydd.—*Lleyn MSS.*

IFOR HAEL, arglwydd Maesaleg, y Wenallt, a Gwernyglepa, rhwng 1310 a 1370, ydoedd ail fab i Llywelyn ab Ifor ab Llywelyn ab Bledri,

Digitized by Google

(yr hwn a ddaethai i Forganwg o Ddyfed yn amser Iestyn ab Gwrgant), ab Cadivor ab Gwyn ab Collwyn. Ei fam, Anngharad merch i Syr Morgan ab Meredydd ab Gruffydd ab Meredydd Gethin, mab i Rhys ab Tewdwr, tywysog Deheubarth. Ei wraig ydoedd Nest; ac y mae Ifor a Nest yn enwau cysegredig gan y beirdd. Pan fyddo eisiau dangos haelioni ni ellir dringeb uwch nag Ifor a Nest. Ni bu iddo ond un ferch, ar yr hon y dodasai y cariad-fardd Dafydd ab Gwilym ei serch; a chan nad boddlon y tad i'r garwriaeth, efe a ddanfones ei ferch i Leiandy yn Mon, ac ni chlywyd mwy am dani. Bu Ifor o ganlyniad farw yn ddietefedd, a'i nai, Morgan ab Llywelyn, a gafodd ei holl gyfoeth; ac o'r Morgan hwn, mewn llinell union, yr hana arglwydd Tredegar. Yr oedd Ifor yn noddwr haelfrydig i lenorion ei oes, ac am hyny y gelwid ef yn Ifor Hael. Y mae D. ab Gwilym yn talu aml deyrnged o barch i'w haelioni a'i fawrfrydigrwydd; a chyfansoddodd farwnad hefyd iddo.

IFOR AB TUDWAL, sant ac esgob yn y pumed cant. Ei fam oedd Nefydd, merch Brychan.

ILAR, sant yn nechreu y 6ed cant. Gelwir ef weithiau, Ilar Bysgotwr, ac efe a ddaeth trosodd i Brydain gyda Chadfan. Efe a sefydlodd eglwys Llanilar, yn Ngheredigion; a Llanilar, neu St. Hilary, yn Morganwg.

ILID, sant a ddaeth i Brydain tua'r flwyddyn 70, gyda Bran ab Llyr, Arwystli Hen, Cyndaf, a Mawan; a dywedir mai hwynthwy a bregethasant yr Efengyl gyntaf yn y wlad hon. Gelwir Ilid a Chyndaf yn wyr o Israel, oddiwrth yr hyn y bernir mai Iuddewon dychweledig oeddynt. Dywedir fod Ilid wedi troi lluaws at y ffydd yn Nghrist.

ILID, neu Julitta, sant yn y 7fed cant. Ilid oedd mam Curig, sant o Tarsus yn Cilicia, a'r ddau a ferthyrwyd pan nad oedd Curig ond baban. Y mae eglwys Llanilid a Churig, yn Morganwg, a "Chapel Curig a'i fam Julitta," yn sir Gaernarfon; wedi eu cyflwyno i'w coffadwriaeth. Y mae eglwys Llanilid, yn Mrycheiniog, hefyd wedi ei chysegru i Julitta. Eu gwylmabsant, Mehefin 16.

ILLOG, sant yn y 7fed cant. Sefydlodd eglwys Hirnant, yn sir Dreialdwyn, lle y cedwir ei wylmabsant Awst 8.

ILLTYD FARCHAWG, neu Iltutus, mab i Bicanys o chwaer i Emyr Llydaw, a ymenwogodd yn fawr yn more ei oes fel rhyfelwr. Brodor ydoedd o Lydaw, a daeth trosodd i'r wlad hon gyda Garmon, a bu yn llys Arthur, eithr a berswadiwyd gan Gatwg Ddoeth, i ymwadu â'r byd, ac arweddu bywyd crefyddol. Garmon a'i dodes yn ben ar Gor Tewdws, neu Theodosius, yn Nghaerworngorn, yn Ngwent, yr hwn a sefydlesid ar y cyntaf gan Tewdws, eithr a ddinystriwyd gan y Gwyddyl Paganaidd, ac a ddygasant Padrig i'r Iwerddon oddiyno. Ar adferiad y lle, gelwid y fan yn Gor Illtyd, Bangor Illtyd, ac yn awr Llanilltyd Fawr, neu Lantwit Major, ac yn 520 y cymerth Illtyd y swydd. Daeth y coleg hwn yn fuan mor glodfawr, fel yr ymgasglai ysgolheigion iddo o holl wledydd Cred, yn mysg y rhai yr oedd meibion pendefigion Prydeinig a thywysogion tramor, a lluaws eraill, nes oedd yno un echwyl tros ddwy fil o fyfyrwyr. Er cyfleusdra y nifer mawr hwn, nid oedd yno lai na phedwar cant o lettydai, a saith o neuaddau, neu golegau. Llanilltyd oedd Rhydycha n yr oes hono. Nid oedd un oedran penodol yn amod derbyniad i'r sefydliad hwn, ond byddai yno hen bobl ar dertyn oes, yn darpar ar gyfer byd arall. Cyfrenid hefyd addysg mewn amaethyddiaeth, a changenau eraill o wybodaeth ymarferol yn ngoleg Illtyd. Am genedlaethau lawer parhaodd hon i fod yn brifysgol

Digitized by Google

Prydain, ac addysgid ynddi brif ddynion y gwledydd, hyd oni ddarfu i Robert Fitzhamon yn niwedd yr 11eg ganrif drosglwyddo ei chyllid i Tewksbury, pryd y cafodd prif-ysgolion Lloegr y blaen, ac y graddol suddodd Cor Illtyd i ddinodedd. Efe a sefydlodd eglwysi Llanilltyd Fawr a Penbre, yn sir Gaerfyddin; Ilston a Newcastle, yn Morganwg; ac yn gyfranog â Thyfodwg a Gwynno, Llantrisant, yn yr un sir. Dywed Ecton mai Illtyd ydoedd nawddsant Llanharri a Llantryddid, yn Morganwg; Llanhileth, yn Mynwy; a Llantwyd, yn Mhenfro. Hefyd y mae y capelau canlynol wedi eu cyflwyno i'w nawddogaeth: Llanilltyd Faerdre, o tan Llantrisant; a Llantwit, ger Castellnedd; Capel Illtyd, yn Defynog, Brycheiniog; a Llanelltyd, yn Meirion. Cofnodir ef yn y *Trioedd* gyda Hu Gadarn a Phrydain, tan y penawd tri chymwynaswyr Ynys Prydain, a chymwynas Illtyd ydoedd gwella y gelfyddyd o aru tir, "canys cyn amser Elltud ni chyferid tir eithr â chaib ac arad arsang, yn unrhyw a ffordd y Gwyddelod." Yn ol Cressy, cedwid ei wylmabsant Chwefror 7, eithr ni wyddis pa flwyddyn y bu farw. Dywed traddodiad ei fod wedi ei gladdu gerllaw y Capel sydd yn dwyn ei enw yn sir Frycheiniog, lle y mae bedd Gwyl Illtyd, a'r lle y cedwid gwyliadwriaeth, yn ol hen arfer gwlad, y noson cyn ei wylmabsant. Yn mynwent Llanilltyd Fawr y mae careg fawr, a thri chofnod arni, un yn hysbysu mai croes Illtutus a Samson ydoedd, y llall mai Samson a'i cyfododd er daioni ei enaid, a'r trydydd mai un Samuel a'i cerfiodd. Y mae bywgraffiad o St. Illtyd yn ngadw yn mysg y llawysgrifau Cotton-aidd.

INDEG, merch i Garwy, neu Afarwy Hir, o Faelienydd, rhian nodedig am ei thegwch, yn y 6ed ganrif. Rhestrir hi yn y *Trioedd*, gyda Garwy a Gwyl tan y penawd, "tair cariadwraig Arthur." Crybwyllir ei henw hefyd yn "Mabinogi Cilhwch ac Olwen," a molir hi gan feirdd yr oesau.

IOCYN DDU ab Ithael Grach, bardd rhwng 1360 a 1390. Y mae ei waith ar gael.

IOLO GOCH, bardd enwog o sir Ddinbych, yn ei flodeu yn nechreu y 14eg ganrif. Dywedir mai ei enw bedydd oedd Edward Llwyd; a'i gartref oedd Coed Pantwn, plwyf Llanefydd, sir Ddinbych. Dywed Gruffydd Hiraethog mai ei fam oedd Iarlles Lincoln. Yr oedd yn ddoethawr yn y gyfraith—yn gwisgo gwn coch, ac am hyny, fe allai, y gelwid ef yn *Iolo Goch*. Graddiwyd ef hefyd yn M.A., gan un o'r prif golegau. Y mae Pantwniaid Plasgwyn, Mon, yn ddisgynyddion ohono. Efe oedd bardd Owen Glyndwr, a defnyddiodd lawer ar ei awen i foli yr arwr enwog hwnw, ac i enyn teimladau rhyfelgar y Cymry i adenill eu hannibyniaeth yn "rhyfel Owain." Ei athraw barddonol oedd Ednyfed ab Gruffydd, bardd o Faelor, yn Mhowys Fadog; yr hwn oedd yn frawd i'r ddau fardd, Madog Benfras a Llywelyn ab Gruffydd. Bu ganddynt Eisteddfod yn Marchwiail, ger Gwrecsam, yn amser Edward III. "Ac yn yr Eisteddfod hono yr addurnwyd Iolo Goch âg addurn cadair am ei wybodau a ddysgws Ednyfed ab Gruffydd parth gwybodau cerdd dafod a'i pherthynasau." Yr oedd Dafydd ab Gwilym yn yr eisteddfod hono. Bu fyw i oedran dirfawr; canys efe a gyfansoddodd farwnad i Dudur ab Gronwy, yr hwn a fu farw yn 1315, a bu fyw i weled rhwysg a difancoll Owen, rhwng 1400 a 1415. Claddwyd ef, medd rhai, yn mynachlog Pant y Groes, ger Llangollen; tra y dywed eraill, mai yn Llanefydd y claddwyd ef. Pa fodd bynag, yr oedd Iolo Goch yn ddyn pwysig yn ei ddydd, yn feddianol ar wybodaeth a dysgu wchlaw'r

Digitized by Google

cyffredin. Cyfansoddodd farddoniaeth gorchestol, o'r cyfryw llawer a argraffwyd, a dywedir nad oes dim llai na haner cant o'i gyfansoddiadau yn aros mewn llawysgrifen. Y mae ei waith yn werthfawr mewn dau ystyr—yn drysorfa o awenyddiaeth uchelryw, ac yn fynegai anmhrisiadwy i arferion a defodau yr amser cynhyrfus yr oedd yn byw ynddo. Ysgrifenodd hefyd hanes tair talaith Cymru.

IOAN O FYNWY, neu *John de Monmouth*, a anwyd yn Nhrefynwy *(Monmouth)*, oddiwrth yr hwn le y cafodd ei gyfenw. Yr oedd yn D.D., ac yn ganghellwr Prifysgol Rhydychain; a chanddo hefyd brebenderiaeth yn Eglwys Esgobawl Lincoln. Yn Mawrth, 1294, cafodd ei enwi i esgobaeth Llandaf; ond oblegid marwolaeth y Pab, ni chysegrwyd ef hyd Chwefror 10, 1296, ac yn Ebrill canlynol cafodd ei gwaddoliaethau i'w feddiant. Ystyrid ef yn esgob haelionus i'r eglwys. Bu farw Ebrill 8, 1323; a rhoddwyd maen ar ei fedd, ac arno gerfiad helaeth yn Ffrancaeg; ond y mae hwn bellach wedi ei ddileu er ys hir amser.—Manby's *Historic and Picturesque Guide, pp.* 151, 152.

IORWERTH AB BLEDDYN, tywysog Powys, ac un o feibion Bleddyn ab Cynfyn. Yn 1101, ymunodd gyda Robert Belesmo iarll 'Mwythig, ac Arnulph iarll Penfro, mewn cyd-fradwriaeth yn erbyn Harri frenin Lloegr. Eithr efe a enillwyd gan y brenin hwnw o'i blaid, a-bu yn milwrio yn ei achos, hyd oni thriniwyd ef yn ddiystyrllyd ganddo, ac y cafodd ei ddodi yn ngharchar, lle y bu yn dihoeni hyd 1109, pryd y rhyddhawyd ef, ac yr adfeddianodd ei gyfoeth trwy dalu tri chant o bunau. Pa fodd bynag, yn fuan ar ol hyn, efe a lofruddiwyd yn fradwrus gan Llywarch ab Trahaiarn.

IORWERTH BELI, bardd rhwng 1330 a 1380. Y mae un cywydd o'i waith yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

IORWERTH DRWYNDWN, oedd fab hynaf i Owain Gwynedd, tywysog Gwynedd. Ar farwolaeth ei dad yn 1169, oherwydd yr anaf ar ei wyneb, dodwyd ef gan unfrydol lais y wladwriaeth o'r neilldu, ac ymfoddlonodd yntau yn dawel i'w dynged, a Dafydd ei frawd a gymerth feddiant ar yr orsedd. Yn 1176, efe a ffodd oddiwrth ei frawd at Owain ab Caradawg i Gaerlleon ar Wysg; eithr efe a ddychwelodd ar fyr amser, tan addewid y dychwelid iddo ei gyfoeth tirol. Rhan Iorwerth o gynysgaeth ei dad ydoedd cantrefi Nanconwy, yn Arfon; ac Ardudwy, yn Meirion; ac yr oedd yn preswylio yn nghastell Dolyddelen. Yr oedd Dafydd yn parhau i'w orthrymu, a gorfu arno ffoi drachefn, y pryd hwn i Bennant Melangell, yn Meirion, yr hwn le oedd yn gysegr-noddfa enwog; ac yn ol traddodiad, lladdwyd ef nid pell o'r fan hono, mewn lle a elwir Bwlch Croes Iorwerth. Y mae maen yn y fynwent, a cherfiad arno o lun gwr arfog yn dwyn tarian yn ei law, yn nghyda'r geiriau "HIC JACET EDWART." Dychwelwyd teyrnedd Gwynedd i'w fab Llywelyn ab Iorwerth, neu Llywelyn Fawr, mam yr hwn oedd Margaret, merch i Madog ab Meredydd, tywysog Powys.

IORWERTH FYCHAN ab Iorwerth ab Rhotpert, bardd enwog o Ddeheubarth rhwng 1310 a 1360. Y mae dau gyfansoddiad o'i eiddo yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

IORWERTH FYNGLWYD, bardd enwog o Forganwg tua diwedd y 15fed ganrif. Ei athraw barddonol oedd Risiart ab Rhys Brydydd, o Merthyr Mawr, ger Penybont-ar-Ogwy. Cyfansoddodd ddau gywydd o berthynas i waith Syr Mathew Cradoc yn carcharu Rhys Sion yn Abertawy, oblegid ei syniadau crefyddol, ac yn deisyfu ei ryddhad. Y mae cywydd arall o'i waith o gamoliaeth i Syr Rice Mansell, cyff teulu Mar-

Digitized by Google

gam, a'r hwn oedd gefnogwr i Harri VIII. a'i fesurau yn erbyn eglwys Rhufain. Ymddengys felly mai gwrth-Babydd cryf ydoedd, fel llawer o feirdd eraill Morganwg yn yr oes fore hono ar y diwygiad Protestanaidd. Y mae cywydd marwnad Llawdden o'i waith yn argraffedig yn *Iolo MSS;* a chywydd St. Ffraid, yn *History of Aberconwy,* gan Williams.

IORWERTH HEN, bardd rhwng 1460 a 1500. Y mae ei waith ar gael.

ISAN, sant yn y 6ed cant. Yr oedd yn aelod o goleg Illtyd, ac yn sefydlydd eglwysi Llanisan, neu Lanishen, yn Morganwg; a Llanishen, yn Mynwy.

ISMAEL, sant yn y 6ed cant Bu yn esgob goddefol yn esgobaeth Tyddewi. Mab ydoedd i Budig, brodor o Lydaw, yr hwn wedi ei orfodi i ymadael a gwlad ei enedigaeth, a sefydlodd yn Nyfed, neu sir Benfro, ac a briodes Arianwedd, ferch i Enlleu a chwaer Teilo, o ba un y bu iddo ddau fab, Ismael a Tyfei, a'r ddau a gyflwynwyd gan eu mam i wasanaeth crefydd. Ismael a sefydlodd eglwysi St. Ismael, ger Cydweli, sir Gaerfyrddin; a Camros, Usmaston, Rosemarket, St. Ishmael, ac East Haroldston, yn sir Benfro.

ITHEL AB HYWEL, a olianodd ei frawd Meirig fel brenin Morganwg a Gwent yn 843. Lladdwyd ef ar y ffordd gan wyr Brycheiniog, am y llwgr-wobr o fil o wartheg, ac o hyny y tarddodd y dywediad "*Bradwyr Brycheiniog.*"

ITHEL AB MORGAN MAWR, brenin ar Forganwg, a fu farw yn 994, ac a olianwyd gan ei fab Gwrgant.

ITHEL DDU, o Fon, bardd rhwng 1380 a 1420. Canwyd ei farwnad gan Iolo Goch.

ITHEL FELYN O IAL, oedd fab i Lywelyn Aurdorchog, pendefig yn y 12fed ganrif. Yr oedd ganddo etifeddiaethau eang yn siroedd Dinbych, Fflint, a'r Amwythig; ac y mae llawer teulu yn olrhain eu hachau o hono. Priododd Elen, merch Gruffydd ab Cynan, a'i feibion oeddynt Hwfa a Llywelyn.

ITHEL HAEL, o Lydaw, tywysog yn y 6ed cant. Efe oedd tad Baglan, Fflewyn, Gredifel, Tanwg, Twrog, Tegai, Trillo, a Llechid, saint a ddaethant trosedd i'r wlad hon gyda Chadfan.

JAMES (Isaac), ydoedd lyfrwerthwr yn Bristol ac yn perthyn i enwad y Bedyddwyr. Cyhoeddwyd o'i waith, "Providence Displayed, or the adventures of Alexander Selkirk," 1800. 2 "An Essay on the Prophet Jonah," 1802. Efe hefyd a roes lawer o gynorthwy i Palmer yn nghasgliad ei *Noncon. Memorials.*—Lleyn *MSS.*

JAMES (Maria), ydoedd Gymraes dlawd, a barddones hunanddysgiol o radd uchel. Hi a ymfudodd i'r America pan yn saith neu wyth mlwydd oed, heb allu siarad dim ond Cymraeg. Wedi cyrhaedd oed penodol, bu mewn gwasanaeth gydag amryw deuluoedd, fel mamaeth plant; ac wedi hyny bu yn nheulu Mrs. Garrettson, gwraig y Parch. Freeborn Garrettson, gweinidog y Wesleyaid Esgobaethol. Yr oedd Mrs. Garrettson yn chwaer i'r Canghellwr Livingstone, a'r Anrhydeddus Edward Livingstone. Casglwyd ei barddoniaeth yn gyfrol, a chyhoeddwyd hwy o dan olygiad y Parch. A. Potter, D.D., esgob esgobaeth Brotestanaidd Philadelphia; yr hwn hefyd a chwanegodd ragarweiniad a braslun byr o'i bywyd. Cyhoeddwyd yr oll gan John Taylor, Efrog Newydd, yn 1839. Gelwir y llyfr, "Wales and and other Poems," yn cynwys 170 o du-dalenau. Rhoddir yma dri

Digitized by Google

phennill o'r "*Wales*":—

I heard Jehovah's praise,
In Cymru's native tongue,
And hung upon the artless strains—
In rapture hung.

'Twas in that tongue that first
I heard the voice of prayer,
Beseeching Heaven to take us all,
Beneath its care.

Land of my fathers! ne'er,
Shall I forget thy name—
O! ne'er, while in this bosom glows
One transcient flame.

JAMES (PARCH. SIMON), gweinidog tra chymeradwy gyda'r Bedyddwyr. Efe oedd fab ieuengaf Mr. John James, o Felin Pantyderi, plwyf Eglwys Wen, sir Benfro. Ganwyd ef Rhag. 17, 1790. Cafodd ei fagu yn grefyddol; ymunodd âg eglwys Blaenyffos pan oedd yn 15 oed, a bedyddiwyd ef gan y Parch. John Morgans, gweinidog y lle, Tachwedd 3, 1805. Canfu ei frodyr crefyddol yn fuan fod ynddo gymhwysiadau i'r weinidogaeth, a'r flwyddyn ganlynol dechreuodd lefaru yn gyhoeddus yn eu plith; ac yn fuan enillodd barch a sylw y wlad a'r eglwys trwy eglurdeb ei sylwadau, gwresawgrwydd ei ysbryd, gostyngeiddrwydd ei ymddygiadau, yn nghyda harddwch ei fywyd. Danfonwyd ef yn mhen yspaid at y Parch. B. Davies, Ffynon, tan addysg yn benaf mewn duwinyddiaeth a'r iaith Seisnig. Wedi dychwelyd adref, agorodd ysgol yn addoldy Blaenyffos, yn mha le y bu am ddwy flynedd. Yn 1812, daeth i Leyn, sir Gaernarfon, a bu yn gwasanaethu fel cenadwr yn mhith amrywiol eglwysi bychain y cwr hwnw, ac urddwyd ef i weinyddu yr ordinhadau yn Medi y flwyddyn hono. Yn 1816, cyfyngodd ei lafur i eglwysi Nefyn, Llanaelhaiarn, a Phontycin, a bu yn llafurio yn ffyddlawn yn Arfon am 12 mlynedd. Yna derbyniodd alwad eglwysi Heol y Bont a'r Penrhyncoch, ger Aberystwyth, ond ni chafodd fyw ond ychydig fisoedd ar ol cyrhaedd maes newydd ei lafur, canys tarawyd ef gan y parlys, a bu farw Ionawr 23, 1827, yn 37 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Penrhyncoch. Yn *Seren Gomer* am 1827, t.d. 132, ceir y darluniad canlynol ohono, gan y dysgrifydd digymar, Christmas Evans:—"Yr oedd ei bregethau yn llawn o wirioneddau efengylaidd, yn drefnus, ac yn hynod o ysgrythyrol. Pan y byddech yn ei wrandaw, ni byddai eich meddwl yn cael ei daraw â syndod wrth ei dreidiaddau dyfnion; nid mawredd ei amgyffredion a darawai y meddwl, ond peraroglau cariad, addfwynder, a serch gwresog, a'i sugnai megis peroriaeth a sain peraidd telynorion, hyd nes y byddai y gwrandawyr, lawer pryd, wedi colli eu hunain, a chael lloni eu meddyliau megis gan *fiwsig* undonol, nes y byddai yr amenau yn dyfod yn rhwydd-galon, a'r dagrau yn treiglo o'r llygaid yn foddhaol tros ben. Byddem, ar rai prydiau, wrth ei wrandaw am gael mwy o'r dyn call *cadarn* ynddo, a llai o Mair yn *wylo* wrth y bedd; mwy o hyfder Pedr, a gwroldeb a chryf-ymresymiad Paul; ond yn lle hyny nid oeddym yn cael ond *cariad* Ioan ganddo ef, ac yn pwyso, megis o'i led orwedd, ar fynwes Iesu."

JAMES (SYR WILLIAM), barwnig, oedd swyddog enwog, yr hwn a ddaeth i enwogrwydd trwy ei ymdrechion a'i ddiwydrwydd personol ei hun. Yr oedd yn fab i felinydd, a chafodd ei eni yn Melin Bolton Hill, sir Benfro, yn 1721. Pan yn 12 oed, cafodd yr hyn a ddymunai ei galon, sef myned yn forwr. Trwy ei fyfyriaeth ddihafal yn ei alwed-

Digitized by Google

igaeth, cafodd o radd i radd ei ddyrchafu i sefyllfaoedd cyfrifol. Pan yn 20 oed cawn ef yn isgadben ar *Indiaman*. Yn 1749, cafodd ei benodi i lywyddu llong newydd a elwid y *Guardian*. yr hon oedd wedi cael ei thaclu fel llong ryfel, yn yr hon yr hwyliodd tua'r dwyrain; ac am ysbaid dwy flynedd bu yn cyflawni y gorchwyl o noddi llongau masnachol, a'u hamddiffyn yn ngwyneb ymosodiadau y morladron, y rhai oeddynt yn llawn yn moroedd y dwyrain. Yn 1751, cafodd ei benodi yn gadlywydd yn ngalluoedd morawl Cwmpeini yr India Ddwyreiniol, ar fwrdd y *Protector*, yr hon a gynwysai 44 o ynau. Yn 1756, llwyddodd i lwyr ddinystrio galluoedd y morleidr Angria, a chymeryd meddiant o'i nawddleoedd cryfion yn Severndroog a Gheriah; llywyddid y milwyr tir ar y pryd gan arglwydd Clive. Yn 1759, dychwelodd Syr William i Loegr, ac anrhegwyd ef gan y Cwmpeini â chleddyf eurgarn hardd, fel arwydd o'u parch iddo am ei orchestion dewrion. Yn fuan ar ol hyn, cafodd ei ddewis yn gyfarwyddwr i Gwmpeini yr India Ddwyreiniol; a bu yn aelod o'r corff parchus hwnw am fwy nag ugain mlynedd. Bu am bumtheg mlynedd yn nghorfforaeth y *Trinity House*, yn llywydd clafdy Greenwich, ac yn aelod Seneddol dros West Looe. Gwnaed ef yn farwnig Gorphenaf 25, 1778. Efe a gynlluniodd ddadymchweliad Pondicherry yn amser y rhyfel Americanaidd, a chafodd anrheg ardderchog oddiwrth y Cwmpeini Indiaidd am hyny, fel tysteb o'u hymddiriedaeth yn ei ddyfais a'u fedr yn y gorchwyl hwnw. Bu farw Rhagfyr 16, 1783, yn 62 mlwydd oed. Dywedid am dano gan un oedd wedi cael digon o gyfleusdra i farnu, trwy fod yn gydnabyddus ag ef am yn agos i ddeng mlynedd ar hugain, ei fod yn ddyn hollol ymarferol, ac heb neb braidd yn gyfartal iddo. Fel swyddog, yr oedd yn ddewr, gwyliadwrus, gofalus, bylaw, a llwyrymroddol; yn amyneddgar mewn anhawsderau, a phresenoldeb ei feddwl fel yn cynyddu mewn peryglon.—Fenton's *Pembrokeshire; Pennant's View of Hindostan.*

JARDINE (Parch. David), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn y Fenni, ac athraw eu hathrofa yno. Ganwyd ef yn 1732; mab ydoedd i'r Parch. James Jardine, gweinidog yr Annibynwyr yn Ninbych; ac yr oedd ei fam yn ferch i'r Parch. Thomas Beddy, o'r un dref. Cafodd ei addysg yn athrofa Caerfyrddin. Bu farw Hydref 12, 1766, yn 34 oed.

JEFFREYS (Arglwydd George), y barnwr anmhoblogaidd, ydoedd chweched mab John Jeffreys, Ysw., o Acton Park, ger Gwrecsam, lle y ganwyd ef yn 1648. Danfonwyd ef pan yn dra ieuanc i rydd-ysgol yn yr Amwythig, o ba le y symudwyd ef i ysgol St. Paul, a thrachefn i Westminster. Dechreuodd efrydu y gyfraith yn y Lower Temple, Mai 19, 1663; a phan yn 18 oed, dwy flynedd cyn ei alw at y bàr, bu yn pledio yn mrawdlys Kingston, lle nid oedd ond ychydig ddadleuwyr yn bresenol oherwydd y pla mawr, ac o hyn allan bu mewn ymarferiad barhaus. Yr oedd yn gofiadur *(recorder)* Llundain pan yn 30 oed, a rhaid fod ganddo rhyw ddoniau a thalentau neillduol cyn y gallasai gyrhaedd y fath swydd uchel ag yntau mor ieuanc. Ei ddylanwad mawr yn y ddinas, a'i barodrwydd diymgil i ymgymeryd â phob math o waith, a'i dygodd yn fuan i sylw y llys, ac efe a benodwyd yn gyfreithiwr i'r Duc o Yorc. Bu yn dra gweithgar a bywiog yn y swydd hon, ac enillodd y prawf mewn achos o gryn bwys arianol i'r duc. Yna gwnaed ef yn farnwr Cymreig; ac yn 1680, urddwyd ef yn farchog, a phenodwyd ef yn brif-farnwr Caerlleon; ac yn 1681, cafodd ei wneud yn farwnig. Yn 1683, penodwyd ef yn arglwydd brif-farnwr y Frenhin-fainc; ac ar es-

Digitized by Google

gyniad Iago II., dyrchafwyd ef i Dy yr Arglwyddi, tan y teitl Barwn Wem. Pan orchfygwyd y duc o Monmouth, dodwyd Jeffreys yn ben ar ddirprwyaeth arbenig er profi ei ganlynwyr, a thrwy lymder trahaus a barbaraidd y dull y gweinyddai y gyfraith yn y ddirprwy hon, cystal ag mewn manau eraill, daeth ei enw yn gasbeth gan y wlad, ac yn ffiaidd gan werin yr oesau. Yn Hydref, 1685, gwnaed ef yn arglwydd-ganghellydd Lloegr, a daliodd y swydd hono hyd oni laniodd William, tywysog Orange, pryd y ceisiodd ddianc mewn rhith gwladwr; eithr efe a ddaliwyd, ac a garcharwyd yn y Twr, ar y cyhuddiad o deyrn-fradwriaeth, lle y bu farw Ebrill 19, 1689. Cydnabyddid yn gyffredinol ei fod yn gyfreithiwr tra deallgar a medrus, a dywed Roger North ei fod y barnwr mwyaf anrhydeddus a eisteddodd erioed mewn llys barn ond yr amser y byddai tan ddylanwad brandi neu yn cael ei gyffroi gan ei nwydau gwleidiadol; a thystia arglwydd Campbell fod ei benderfyniadau cyfreithiol fel canghellydd yn glod uchel i'w farn. Nid oedd hyny, modd bynag, ond ei ddyledswyddau boreol, ac y mae yn anmheus a fyddai byth yn sebr ar ol haner dydd ddyddiau ei rwysg; ac yn ei flynyddau olaf, yr oedd meddwdod parhaus wedi ei wneud yn haner os nad cyflawn wallgofddyn. Nid oedd ond deugain oed pan y bu farw, ac olianwyd ef i'r teitl a'r etifeddiaethau gan ei fab, John, arglwydd Jeffreys, yr hwn a fu farw yn ddietifedd yn 1703, ac yna darfyddodd y farwniaeth. Ysgrifenwyd bywgraffiad cyflawn ac anmhleidiol o Jeffreys gan Woolrych, yn 1827; ac y mae arglwydd Campbell, yn *Lives of the Chancellors*, yn rhoddi hanes dyddorol o'i dreigliad.—Wm. *Em. Welsh.* Yr oedd i arglwydd Jeffreys frawd ieuangach o'r enw John, yr hwn a lanwodd swyddau o bwys yn yr eglwys, a raddiwyd yn LL.B., a D.D., ac a fu farw yn ganon arosol yn eglwys Crist, Rhydychain.

JENKINS (David), cyfreithiwr enwog, a anwyd yn Hensol, plwyf Pendeulyn, Morganwg, tua 1582. Yn 1597, derbyniwyd ef yn is-efrydydd yn neuadd St. Edmund, Rhydychain, ac yr oedd yno amrai Gymry eraill yn cydefrydu ag ef. Wedi ei raddio yn B. A., aeth i'r *Gray's Inn*, lle yr astudiai y gyfraith gyffredin; a phan yn ddadleuydd, cyrchid ato gan luaws am ei gynghorion. Yn 1625, ac efe yn feinciwr, etholwyd ef yn haf-ddarllenydd, eithr gwrthododd y swydd. Ar ol hyny, penodwyd ef yn un o farnwyr Deheubarth Cymru, yr hon swydd a ddaliodd hyd doriad allan y gwrthryfel, pryd y bwriodd amryw bersonau i garchar, ac eraill a gollfarnodd i farw, fel rhai euog o deyrnfradwriaeth, am godi ohonynt arfau yn erbyn y brenin. O'r diwedd, cymerwyd ef yn garcharor yn Henffordd, pan ruthrwyd yn sydyn ar y ddinas hono gan wyr y Senedd, Rhagfyr 18, 1645, a phrysurwyd ag ef i Lundain, lle y bwriwyd ef i garchar y Twr. Yn mhen yspaid, dygwyd ef ger bron bàr y Canghell-lys, pryd y gwadodd hawliau y llys hwnw, gan mai ffug oedd ei sel, ei ddirprwywyr o ganlyniad yn ddiawdurdod ac anghyfreithlawn. Ar hyn, bwriwyd ef i garchar Newgate, a chyhuddwyd ef o fradwriaeth, a gwysiwyd ef ger bron bàr Ty y Cyffredin; eithr efe a wadodd eu hawdurdod hwythau, ac a wrthododd benlinio, am yr hyn yr hyn y dirwywyd ef i £1000 am ei ddiystyrwch, dychwelwyd ef i'r carchar, o ba le y trosglwyddwyd ef i gastell Wallingford. Tua'r amser hwn, ymdrechodd beri annghydfod rhwng y Senedd a'r fyddin, er lleshad achos y brenin, eithr bu yn aflwyddianus. Yn 1650, gwnaed deddf seneddol er ei brofi yn uchel-lys cyfiawnder, lle ni ddisgwyliai ddim ond collfarniad, eithr penderfynai farw a'r Bibl tan un fraich, a'r *Magna Charta* o tan y llall. Pa fodd bynag, cafodd ganddynt ei fywyd, a danfonwyd ef i gastell

Digitized by Google

Windsor, lle y bu hyd Ionawr, 1656, pryd yr rhyddhawyd ef, a threuliodd beth amser yn Rhydychain. Wedi adferiad y frenhiniaeth, disgwylid y cawsai efe ei wneud yn un o'r barnwyr yn Westminster Hall, yr hyn yn ddiau a gymerasai le, pe buasai yn llwgr-wobrwyo y canghellydd ar y pryd; ond efe a ffeiddiai weithred felly ar ol dyoddef cymaint. Dychwelwyd iddo ei gyfoeth tirol yn Morganwg, wedi ei ymddifadu o honynt am gynifer o flynyddau, ac ef a ymneillduodd yno i fyw. Rhydd Wood air uchel iddo fel cyfreithiwr a theyrngarwr. Cyhoeddodd lawer o lyfrynau ar amrywiol amserau, a chasglwyd tri-ar-ddeg o'r cyfryw, a daethant allan yn un gyfrol yn 1648, a thrachefn yn 1681 a 1683, tan y teitl, "Judge Jenkins his works." Bu farw yn Mhontfaen, Morganwg, Rhagfyr 6, 1653, yn 82 oed; a chladdwyd ef yno ar du gorllewinol yr eglwys.—Wood's *Athen Oxon.;* Malkin's *South Wales.*

JENKINS (JENKIN), D.D., athraw coleg Caerfyrddin. Nid oes dim o hanes bore ei oes ar gael; ond bernir mai yr un ydoedd â'r Jenkin Jenkins a grybwyllir yn *Nydd-lyfr* y Parch. P. Pugh, Llwynpiod, ac a urddwyd yn Llanuwchllyn, yn 1747. Symudodd oddi yno i gymeryd gofal eglwys Annibynol Llanfyllin, a phan roddes y Parch. Evan Davies ei swydd o athraw clasurol yn Nghaerfyrddin i fynu, dewiswyd Mr. Jenkins i gymeryd ei le, ac hefyd i fod yn weinidog ar Eglwys Heol Awst. Ond pan wrthododd gymeryd ûn i'w gynorthwyo yn yr athrofa, anfoddlonodd ei gyfeillion wrtho, ac efe a symudodd i Lundain, lle y bu farw cyn pen ychydig amser. Dywed Morgan, yn *Hanes Ymneilldduaeth,* ei fod yn ysgolhaig rhagorol; ond fod ei fuchedd a'i egwyddorion yn annheilwng o'i swydd. Cyhuddir ef o fod yn Ariad proffesedig, os nad rhywbeth bellach; a dywedir, er darfod i nifer fawr o fyfyrwyr galluog fyned allan o'r athrofa hono rhwng 1759 a 1779, na sefydlodd ond rhyw bedwar neu bump ohonynt oll fel gweinidogion uniawn-gred yn Nghymru, eithr y mwyafrif a sefydlasant fel gweinidogion Ariaidd yn Lloegr, a dychwelodd eraill at eu galwadau bydol. Parodd hyn i'r Annibynwyr ymneilldduo oddi wrth y goleg, a sefydlu un arall at eu gwasanaeth yn y Fenni, tan ofal Mr. Jardine.

JENKINS (PARCH JOHN), gwenidog yn Rhydwilym, un o eglwysi hynaf y Bedyddwyr yn Neheudir Cymru. Ganwyd ef yn mhlwyf Cilmaenllwyd, sir Gaerfyrddin, yn 1656. Cafodd ei fedyddio a'i dderbyn yn aelod yn Rhydwilym, yn 1677. Daeth wedi hyny yn weinidog ar y gynulleidfa hono; a llafuriodd yn galed tan ddyoddef ei ran o erlidigaethau yr oes. Yr oedd yn un o weinidogion cyntaf y Bedyddwyr i dderbyn cynorthwy o'r Drysorfa yn Llundain, yn 1718. Bu mewn dadl gyhoeddus gyda bedyddwyr plant yn Nghastell Maelgwyn a Phenlan, sir Benfro, yn 1672. Bu farw Gorph. 3, 1733, yn 77 oed; a chladdwyd ef yn nghladdfa Rhydwilym, ac ar ei fedd y mae maen a choffa. Gadawodd gyfrol o bregethau mewn llawysgrifen, y rhai a gyhoeddwyd gan un Wm. Herbert, tan y titl, "A Golden Grove in a stormy day, or Saint Cordial in persecuting times."—*Llyfr MSS.*

JENKINS (PARCH. JOHN), M.A., ficer Ceri, sir Drefaldwyn, ydoedd chweched mab Gruffydd Jenkins, o Gilbronau, plwyf Llangoedmore, ger Aberteifi, ac a anwyd Ebrill 8, 1770. Cafodd ei ddysg boreuol mewn ysgol yn y gymydogaeth, ac wedi hyny yn ysgol Ramadegol Caerfyrddin. Yn 1789, derbyniwyd ef yn aelod o goleg yr Iesu, yn Rhydychain, a chyn pen hir symudodd i Goleg Merton, lle yn brydlon y cyrhaeddodd ei B.A. Y pryd hyny, 1791, urddwyd ef yn ddiacon ac offeiriad, i fod yn gurad i'w ewythr, Dr. Lewis, periglor Whippingham, yn ynys

Digitized by Google

Wyth. Yn 1799, aeth yn gapelwr ar y llong ryfel, yr *Agincourt*, gorsaf yr hon oedd yn yr India Orllewinol. Yn Mawrth, 1802, efe a symudodd oddiar fwrdd yr *Agincourt* i'r *Thesasus*, yr hon oedd yn gwylio ynys Jamaica, lle y bu hyd Gorphenaf, 1804. Yn y cyfamser darfu i'r Fâd Felen ysgubo ymaith bob capelwr oedd ar y llongau yno ond efe ei hun. Yn 1804, bu lladdfa echrydus ar drigolion gwynion *Cape Francis*, yn ynys Domingo, gan y Duantwys, y rhai a gymerasant feddiant o'r ynys. Ar y 3ydd dydd wedi y gyflafan, anturiodd Mr. J. a'r is-gadben i ynys Domingo, at y trawslywydd du a elwid *De Salines*, i ymgyngreiriaw, ac i eiriol am fywydau y gweddill a adawyd o'r trigolion mewn parthau eraill o'r ynys. Aeth y ddau hyd breswylfa y penaeth. Arweiniwyd hwy i ystafell dywyll, ac yno y buont oriau hirion, heb wybod a gaent ddychwelyd yn ol yn fyw a'i peidio. Yn mhen hir enyd, gollyngwyd hwy ymaith heb eu neges, a chyrhaeddasant y llynges mewn owch agored ar hyd nos dywyll mewn mor tymhestlog. Trwy eu datguddiadau hwynt, llwyddodd y llynges i achub o gylch mil o drigolion gwynion *Monte Christi*, y rhai a drosglwyddwyd i ddyogelwch ynys *Cuba*. Gan fod hinsawdd boeth y parthau hyny yn dechreu effeithio gwaethygiad ei gyfansodddiad cryf, efe a ddychwelodd adref yn Medi, 1804. Wedi ymadgyfnerthu, efe a ymrwymodd i wasanaethu eglwys Maenor Deifi yn sir Benfro. Gan ei fod wedi rhoddi hollol foddlonrwydd i'r prif lyngesydd Arglwydd Radstock, darfu i hwnw arfer ei ddylanwad iddo gael ei ethol yn yn gapelwr i'w Uchelder William Henry, Duc Clarence, wedi hyny William IV; a'i argymell, gan yr un, i sylw Dr. Burgess, esgob Ty Ddewi, i gael ganddo ficeriaeth Ceri, yn sir Drefaldwyn, lle y daeth i gartrefu yn 1807. Yn 1808, dymunodd yr esgob ar Jenkins gymeradwyo gwyr ieuainc i fyned yn genhadon i Newfoundland, dros y Gymdeithas er taenu yr Efengyl mewn parthau Tramor. Yntau a argymhellodd y Parch. D. Rowlands, curad Llanwnog a Charno; yr hwn a anturiodd fyned, ond oblegyd ei iechyd, a fu orfod dychwelyd yn fuan. Ar ddychweliad y cenhadwr hwnw yn ol, a galw o hono yn Ceri, gwahoddodd Mr. Jenkins nifer o gyfeillion, pryd y bu ymgom farddonol rhwng *Gwalter Mechain* a *Dewi Brefi*. Yr Englynion dibwys hyn a osodasant sylfaen yr holl Eisteddfodau Talaethiol a gynhaliwyd yn Nghymru o'r flwyddyn 1829 hyd heddyw. Canys yn mis Awst, 1818, daeth y Dr. Burgess i Geri, ar ei daith gylchynol trwy ei esgobaeth, lle yr arhosodd rai dyddiau yn ymddyddan â Mr. Jenkins a'i gyfeillion, ar destynau Cymreig—defodau yr oesau gynt—Eisteddfodau Talaethiol, &c., &c. Clo y cyfarfod hynod hwn oedd ymroad penderfynol rhwng Mr. Jenkins a'r Esgob i roddi ymgais i ail enyn dawn ac athrylith farddonol y Dywysogaeth, trwy gynal Eisteddfodau cylchynol trwy y pedair talaeth. Gan fod y ddau sylfaenwyr yn Ddyfedwyr, cydsyniwyd bod y cyfarfod cyntaf i gael ei gynal yn nhref Caerfyrddin yr Hydref canlynol: a chynhaliwyd yr Eisteddfod gyntaf yn Nghaerfyrddin yn 1819, yr ail yn Mhowys, ac oddiamgylch i Went a Gwynedd. Mr. Jenkins oedd y cyfarwyddwr ynddynt oll. Ond nid aeth i Eisteddfod Dinbych yn 1829, canys blin i'w feddwl ef oedd canfod dybenion dechreuol y Gymdeithas yn cael eu gwywo y naill Eisteddfod ar ol y llall, trwy Seisnigrwydd bradwyr yr iaith Gymraeg, oddiwrth goleddu doniau cynhenid ein cenedl i wobrwyo â gorhaeledd ysgrechlefain a phob caniad estronaidd. Yn ei oriau hamddenol, rhwng ei orchwylion gweinidogaethol, efe a fyfyriai ar bynciau dyrus hynafiaeth ei wlad. Ei draethodau ar Garon (Carausius yr hanesyddiaeth Rufeinig), ac

Digitized by Google

Aeddan ab Blegwyryd, ac ar destynau eraill, a ymddangosasant yn y *Cambrian Quarterly Magazine*. Ei lythyrau, dan yr enw *Hooker* yn y *Gwyliedydd*, a phregeth o'i eiddo a draddododd ger bron Cymdeithas Eglwysig Dyfed, a gyhoeddwyd. Bu hefyd yn ddiwyd i gasglu yr holl dônau Cymreig a allai gael gafael arnynt, gan eu trysori yn ei nodlyfrau. Blin oedd ganddo sylwi fod y tonau Cymreig yn cael eu trawswyro o'u cyfansoddiad gwreiddiol i foddo clustiau merwinllyd y genedl bresenol. Casglodd hefyd beth anferth o welygorddau neu achau teulnoedd Cymreig. Tra yr oedd yn Ceri, croesawai feirdd a llenorion Cymreig yn ddiamdlawd, nes iddo gael ei alw yn *Ifor Hael*. Ei ddyrchafiaethau yn yr Eglwys, heblaw ficeriaeth Ceri, ydoedd deoniaeth wladol Maelienydd; prebenderiaeth Mochdref, yn Eglwys Golegol Aberhonddu; ac yn ddiweddar prebenderiaeth yn eglwys gadeiriol Efrog. Y mae yr achos o'i ddyrchafiad diweddaf yn werth ei adrodd, o ran bod yr hanes yn rhagdystio yr hyn a goelia pawb am hynawsedd mwyneddus Mr. Jenkins. Pan oedd ar fwrdd y *Theseus* ar gefnfor Jamaica, yr oedd ar y llong lencyn serchus or enw Vernon, mab i esgob o'r enw hwnw, yn egwyddorwas swyddogol *(midshipman)*. A chan nad oedd y fâd felen yn parchu achau, efe a syrthiodd yn drymglaf, a'i swydd isel a'i cyfyngai i ystafell dlawd ar waelod y llong. Tybiai Mr. Jenkins y byddai yr haint yn debyg o ladd y gwr ieuanc ar fyr amser, os na chai newid lle ei wely. Amlygodd hyn i'r cadben; ond yn ol deddf llongwriaeth, nid oedd yr archiad yn ganiataol. Ar hyn darfu i dynerwch natur Mr. Jenkins, ei anog i roddi i fynu ei ystafell ei hun i'r claf, a thrwy ofalu yn barhaus am ymgeledd cymhwys iddo, efe a hybiodd o'r haint. Mr. Jenkins wrth ymweled yn fynych a'i oddefydd, a ddeallodd fod môr-fuchedd yn annumymol ganddo. Penderfynwyd rhyngddynt fod i Mr. Jenkins ysgrifenu at yr esgob, i erfyn arno alw ei fab adref, gan ei fod o ran ei gynheddfau yn wr cymhwysach i'r weinidogaeth eglwysig nag i alwedigaeth rhyfel, trwst arfau, a golwg ar ddillad wedi eu trybaeddu mewn gwaed. Y tad a dosturiodd, cydymdeimlodd âg ewyllys ei fab, yr hwn a ddychwelodd adref, aeth i'r athrofa, ac urddwyd ef i'r weinidogaeth. Wedi hyn, bu ymohebu rhwng Vernon a Mr. Jenkins dros rai blynyddau, yn y rhai y cyfaddefai mab yr esgob fod Mr. Jenkins, yn llaw rhagluniaeth wedi bod yn foddion i achub ei fywyd, ac amlhau ei gysuron. Terfynwyd yr ymohebu, a dyrchafwyd yr esgob yn Archesgob Efrog. Yn 1828, wedi hir ddystawrwydd, megis ar gyflinau anghof, derbyniodd Mr. Jenkins lythyr, heb ei ddisgwyl, oddiwrth Mr. Vernon, bod predenderiaeth o werth £600 yn y fl. yn Eglwys Gadeiriol Efrog, yn rhodd ei dad, trwy ei gyfryngdod ef, at ei wasanaeth, fel ei hen gyfaill a'i athraw ffyddlon. Cymerodd Mr. Jenkins feddiant o'i urddas newydd, ac aeth i Rydychain i gymeryd y radd o M.A., i'w gymhwyso yn ol amodau gofynol i ddal yr urddas. Ond mor ddiflanedig pob uwchafiaeth ddaearol—bu ei draul yn fwy na'r elw, canys bu farw cyn medi dim o'r cynyrch, Tach. 20, 1829, yn 59 oed.—*Y Gwyliedydd* 1831.

JENKINS (Parch. John), gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yn Hengoed, sir Forganwg. Yr oedd yn engraifft nodedig o hunanaddysgiant tan anfanteision dirfawr. Ganwyd ef yn mhlwyf Llangynidr, sir Frycheiniog, Tach. 28, 1779. Gan nad oedd ei dad ond llafurwr tlawd, a chanddo deulu mawr o saith o blant yn dibynu ar ei gyflog bychan, ni fedrodd ffordd'io addysg i'r un ohonynt. Ni bu John Jenkins erioed ddiwrnod mewn ysgol, ac yr oedd yn bumtheg oed cyn

Digitized by Google

dysgu'r egwyddor. Yr oedd y pryd hwnw yn was fferm yn y plwyf ei ganwyd. Yr oedd ei feistr yn ddarllenwr da, ac yn arfer mynychu man y pregethai Bedyddwyr yn achlysurol yn y gymydogaeth. Tua'r amser hwn y daeth Morgan John Rhys, o Bontypwl, ar ddamwain i Langynidr, yn mysg manau eraill, gan atolygu ar y trigolion sefydlu ysgolion Sul, ac ar nosweithiau gwaith, er mwyn y gweithiwr tlawd ac esgeulusedig. Yr oedd M. J. Rhys hefyd wedi darpar llyfrau Gymraeg at wasanaeth y cyfryw ysgolion; prynodd John Jenkins un ohonynt am dair ceiniog, ac wedi derbyn ychydig wersi mewn ysgol nos a gynelid yn y plwyf, dysgodd ddarllen y Bibl Cymraeg Derbyniwd ef yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Llanwenarth, Tach. 29, 1794. Pan yn 21 oed, dechreuodd arfer ei ddawn fel pregethwr. Yr oedd y pryd hwnw yn gweithio mewn gwaith mŵn yn Sirhowy. Bu am rai dyddiau yn analluog i weithio gan ddolur yn ei goes, a deisyfodd ar gyd-letywr ysgrifenu copi fel y gallai yntau ddysgu ysgrifenu. Er na bu ysgrifbin erioed yn ei law cyn hyny, mewn un diwrnod daeth yn alluog i ysgrifenu llaw ag y gallesid ei darllen yn rhwydd. Pan yn 22 oed, priododd wraig weddw, ac iddi deulu, y rhai a daethant ar unwaith yn ddibynol ar lafur ei ddwylaw. Gweithiai yn galed yn nyddiau yr wythnos, a phregethai deirgwaith yn ystod y Sabbath i wahanol gynulleidfaoedd, gan gerdded pumtheg neu ugain milldir rhwng yr odfaon. Mai 21ain, 1806, ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwys oedd newydd ei ffurfio yn Llangynidr, eithr rhaid oedd iddo ddilyn ei waith fel o'r blaen, gan nad oedd ei gyflog oddiwrth yr eglwys prin yn cyrhaedd tair punt yn y flwyddyn. Yn 1808, derbyniodd wahoddiad hen eglwys barchus Hengoed, Morganwg. Nid oedd ei gyflog yno ychwaith am rai blynyddau yn rhagor na £16 yn y flwyddyn, fel yr oedd yn rhaid iddo weithio yn galed er cynal ei deulu. Yn fuan wedi symud i Hengoed, dechreuodd gyfansoddi "Corph o Dduwinyddiaeth," a elwid y "*Palas Arian*," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1811, mewn un gyfrol wythplyg. Y mae y llyfr hwn yn y gampwaith llenyddol pan ystyriom anfanteision dirfawr yr awdwr. Yn 1817, dechreuodd ysgrifenu ei "Esboniad ar y Bibl," yr hwn a gwblhaodd yn 1831, ac a gyhoeddwyd mewn tair cyfrol fawr pedwarplyg. Nodweddir yr oll ohono gan ol synwyr cyffredin cryf, ac y mae yn lân oddiwrth syniadau dyeithr a dychymygion gwylltion. Cyhoeddodd lawer o lyfrynau bychain eraill hefyd o bryd i bryd ar bynciau duwinyddol. Yn 1852, graddiwyd ef â'r urddenw o ddoethawr mewn duwinyddiaeth gan athrofa Lewisburgh, America; ac ni roddwyd y parch hwnw erioed i un yr oedd parch yn fwy dyledus. Gorphenodd y gwr rhagorol hwn ei fywyd gweithgar, defnyddiol, a llwyddianus, Meh. 5, 1853, yn 74 oed. Yr oedd Dr. Jenkins, mae'n ddiau, yn un o dalentau gloewaf enwad y Bedyddwyr yn Nghymru, ac yn addurn i Ymneilldduaeth a Christionogaeth ein gwlad. Yr oedd yr anhawsderau, trwy ba rai y gweithiodd ei ffordd i fynu bron yn ddigyffelyb. Er yn Fedyddiwr selog, ac yn un a soniai am ganol-fur y gwahaniaeth yn ddiofn a diragrith, yr oedd yn gu ac anwyl gan oreugwyr pob enwad, ar gyfrif purdeb dianmheuol ei nodweddiad, dilysrwydd ei fuchedd, a'i ddifrifoldeb dwys yn ei holl ymddygiadau. Yr oedd oedd yn bregethwr poblogaidd ac adeiladol, a'i weinidogaeth yn fynych yn dra effeithiol. Mewn athrawiaeth, yr oedd yn uchel Galfinaidd, yn perthyn i ddosparth Dr. Gill. Yr oedd wedi ysgrifenu bywgraffiad dyddorol ohono ei hun, yr hwn a gyhoeddwyd, gyda chwanegiadau gwerthfawr gan ei feibion. Bu i Mr. Jenkins bedwar o feibion,

Digitized by Google

dan o ba rai sydd yn awr yn fyw, sef Mr. J. Jenkins, cenadwr yn mhlith y Llydawiaid yn Ffrainc; a Mr. Llywelyn Jenkins, masnachwr parchus a phregethwr yn eglwys ei ddiweddar dad. Bu TITUS LEWIS, mab arall iddo, yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Ramsay, sir Huntington. Yr oedd yn wr ieuanc tra addawol, ond bu farw o'r darfodedigaeth Ebrill 6, 1834, yn 30 oed. Barnwyd awdl o'i eiddo ar y "Dydd Byraf," yn ail oreu gan Iolo Morganwg yn eisteddfod Merthyr Tydfil, yn Alban Elfed, 1822; ac ysgrifenodd gryn lawer i realon yr enwad, yn alluog, ac ar bynciau dyddorol.—Rees' *Noncon. in Wales;* Lleyn *MSS.*

JENKINS (PARCH. JOSEPH), ydoedd fab i'r Parch. Evan Jenkins, gweinidog y Bedyddwyr yn Ngwrecsam, ac wyr i'r Parch. John Jenkins, o Rydwilym, sir Benfro, a gofnodwyd eisioes. Ganwyd ef yn Ngwrecsam, yn 1743. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Mhrifysgol Aberdeen, wedi cael ei barotoi yn flaenorol o dan un Dr. Walker yn Llundain, hyd 1761; felly deunaw oed ydoedd pan y derbyniwyd ef i Goleg y Brenin, Aberdeen. Yr oedd y Dr. Ward, o Lundain, wedi gadael arian yn ei ewyllys er rhoddi dysgeidiaeth yn athrofa yr Alban i ddau wr ieuanc i fod yn weinidogion gyda'r Bedyddwyr. Yn mhlith y rhai a roisant eu hargymhelliad iddo fyned yno ar sail y gwaddol hwnw, yr ydoedd y Dr. Llywelyn enwog. Yr oedd Prifysgol Aberdeen y pryd hyny yn meddu rhai o ysgrifenyddion penaf eu hoes yn athrawon; megis y Dr. Reid, wedi hyny o Glasgow; y Dr. Alexander Gerard; y Dr. George Campbell: a'r Dr. James Beatie. Darfu i Mr. Jenkins enwogi ei hun ar y fantais hono fel ag i gyrhaedd ei radd o A.C., yn 1795. Wedi ei ddyfod o'r Alban, yr oedd yn nodedig o ansefydlog yn ei syniadau crefyddol, athrawiaethol, ac eglwysig; yn pregethu weithiau gyda'r Henaduriaid, ac weithiau gyda'r Bedyddwyr; weithiau yn Galfiniad, weithiau yn Arminiad—er ei fod eto heb ei fedyddio yn ol unrhyw ffurf. Ond o'r diwedd, penderfynodd—trwy ddylanwad y Dr. Stennet, o Lundain, dafiu ei goelbren i blith y Bedyddwyr, ac i fod yn athraw eu Coleg yn Nghaerodor, yr hyn, er hyny, ni effeithiwyd. Yna bu am beth amser yn Nghaerlleon. Yn fuan ymsymudodd i Wrecsam, lle yr ordeiniwyd ef yn 1778. Tra yr oedd yno, digwyddodd amgylchiad nodedig a achlysurodd iddo ei wneud yn destyn pregeth ragorol, yr hon a gyhoeddwyd yn Gymraeg, gwyneb-len yr hon a rydd eglurhad o'r amgylchiad: "Pregeth ar yr achlysur o chwythiad arswydus Powdr-gwn yn Nghaerlleon Gawr. Gan Joseph Jenkins, M.A., o Wrecsam. Cyfieithiwyd gan Benjamin Evans o Lanuwchlyn. Gwrecsam: argraffwyd gan R. Marsh, 1772." Yr oedd y bregeth hon mor boblogaidd fel yr argraffwyd hi o newydd y flwyddyn nesaf, gyda gwyneb-len yn darlunio yr amgylchiad yn helaethach, sef "*Iawn ddefnydd o Farnedigaethau.*" Wedi hyny efe a symudodd i Walworth, ger Llundain. Yr oedd erbyn hyn wedi cael ei raddio yn D.D. Heblaw y bregeth uchod—yr hon mae yn debyg, a gyhoeddwyd yn y ddwy iaith,—efe a gyhoeddodd yn 1770, "Discourses on Select Passages of Scripture History," mewn dwy gyfrol. Cyhoeddodd hefyd rifedi mawr o bregethau a thraethodau wrthynt eu hunain. Gadawodd hefyd ar ei ol luaws mawr o bregethau, wedi eu hysgrifenu yn ol ei arferiad yn llawn, ddigon i wneud dwy neu dair cyfrol. Bu farw Chwefror 21; 1819, yn 76 oed.—*New. Evang. Mag.;* 118, 119, Thomas' *Hanes y Bed.;* hefyd, *ei Lawysgrifau.*

JENKINS (SYR LEOLINE), gwladweinydd enwog, a anwyd yn mhlwyf Llantrisaint, Morganwg. Yr oedd ei dad, Jenkin Llywelyn, yn rhyddfeddianwr parchus. Addysgwyd ef ar y cyntaf yn Ysgol Ramadegol

Digitized by Google

Pontfaen ; a phan yn 16 oed, symudwyd ef i Rydychain, lle y derbyniwyd ef yn aelod o Goleg yr Iesu, yn 1641. Pan dorodd y rhyfel cartrefol allan, efe a gymerth arfau, yn mhlith myfyrwyr eraill, o blaid y brenin. Yn fuan, cawn ef wedi ymneilduo i Forganwg, ac yn athraw i fab Syr John Aubrey, o Lantrydydd, yr hwn le ar y pryd oedd yn noddfa i freingarwyr erlidiedig ; ac yma, efe a ddaeth yn gyfeillgar ag amryw wyr tra enwog, yn eu mysg Dr. Frewyn, esgob Yorc, a Dr. Sheldon, wedi hyny archesgob Caergaint. O'r diwedd, gorfu arno adael y deyrnas, a bu yn ymdaith gyda rhai o'i ysgolorion am yspaid tair blynedd yn Ffrainc, Germani. a Holland, trwy yr hyn y daeth yn gydnabyddus ag ieithoedd y gwledydd hyny. Pan esgynodd Siarl II. i'r orsedd, efe a ddychwelodd i Goleg yr Iesu, ac a etholwyd yn gymrawd ; ac yn fuan ar ol hyny, pan roddes Dr. Mansell y swydd i fynu, dewiswyd Jenkins yn unfrydol i lywyddiaeth y coleg. Yr oedd wedi cymeryd y radd o D.C.L. cyn hyny. Yn 1664, ar doriad allan y rhyfel Is-ellmyn, penodwyd ef yn gynorthwywr i Dr. Exton, prif farnwr y llynges-lys ; ac ar farwolaeth Exton, efe a benodwyd i gymeryd ei le, a hyny oherwydd ei fawr wybodaeth mewn cyfreithiau gwladol a morwrol. Y mae y dedfrydau a gyhoeddodd yn y swydd hon mewn bri hyd y dydd heddyw. Yn 1668, ar ddymuniad arbenig y brenin Siarl II., efe a benodwyd gan archesgob Caergaint yn ddilynydd i Dr. Meyric, fel barnwr yn llys eglwysig Caergaint. Y flwyddyn ganlynol, efe a ddanfonwyd ar neges arbenig i lys Frainc er hawlio meddianau Henrietta Maria, gwraig Siarl I., y rhai a gymerasid gan ei nhai, Louis XIV., ar ei marwolaeth hi ; a boddlonodd gymaint ar ei frenin gyda'r ymdrafodaeth, fel yr urddwyd ef yn farchog. Penodwyd ef yn nesaf yn un o'r dirprwywyr Seisnig a gyfarfu ddirprwywyr o'r Alban, er mwyn rhagdrefnu a dwyn oddiamgylch uniad y ddwy wlad. Yn 1671, etholwyd ef yn aelod seneddol tros Hythe. Yn 1673, rhoddes lywyddiaeth Coleg yr Iesu i fynu, ac apwyntiwyd ef yn ar-negesydd penodol i fyned i gynadledd Cologne, er ceisio llunio cytundeb heddwch ; eithr wedi mynych ymgais aflwyddianus, efe a ddychwelodd i Loegr. Yn Rhagfyr, 1674, efe a benodwyd, gyda Syr William Temple, yn gyflafareddwr cytundeb heddwch Nimeguen. O Nimeguen, symudwyd ef yn ar-negesydd neilldduol y goron i lys yr Hague ; eithr ni bu yno nemawr o amser pan y dychwelodd i Nimeguen, a llwyddodd o'r diwedd i gymodi y pleidiau. Yn 1679, dychelodd i Loegr, ac etholwyd ef yn un o gynrychiolwyr seneddol prifysgol Rhydychain. Penodwyd ef yn aelod o'r cyfrin-gynghor, yn 1680, ac yn un o ysgrifenyddion y wladwriaeth. Daliodd y swydd bwysig hono am bedair blynedd, er gwaethaf lluaws mawr o anhawsderau, pryd y gorfodwyd ef i'w rhoddi fynu oblegid afiechyd. Dychwelwyd ef drachefn i'r senedd tros brifysgol Rhydychain, a thyngwyd ef yn gyfrin-gynghorwr ar esgyniad Iago II. i'r orsedd. Ond yr oedd ei iechyd wedi ammharu i'r fath raddau fel y bu farw Medi 1. 1685. Claddwyd ef yn nghapel Coleg yr Iesu, ac ysgrifenwyd bedd-argraff yn Lladin er coffa am dano, gan ei gyfaill, Dr. Fell, esgob Rhydychain, yn yr hwn y crybwyllir ei wahanol swyddau yn olynol, a'i urddau, ac a derfyna trwy ddweyd ei fod bron yn ail sylfaenydd Coleg yr Iesu. Gan iddo farw yn ddibriod, gwaddolodd ei holl gyfoeth ar ddybenion addysgiol ac elusenol, a'r rhan fwyaf o lawer a roddwyd at wasanaeth y coleg y bu o gymaint addurn iddo. Casglwyd ei lythyrau a'i bapurau, a chyhoeddwyd hwynt yn 1724, yn ddwy gyfrol, tan y teitl, "Works," gan W. Wynne, Ysw., yr hwn a ragflaenir â bywgraffiad.—Wms. *Em. Welsh.*

Digitized by Google

JENKINS (WILLIAM), ydoedd o gymydogaeth y Mynyddbach, ger Castellnedd, Morganwg, ac a anwyd tua 1779. Ymunodd yn fore gyda chynulleidfa o Annibynwyr, o tan weinidogaeth y Parch. Lewis Rees, tad yr enwog Dr. Abraham Rees; ac yn mhen blynyddoedd wedi hyny â'r Methodistiaid Calfinaidd. Yr oedd yn ddyn o alluoedd naturiol cryfion, ac yn meddu talent farddonol rwydd. Cyfansoddodd farwnadau i'r Parchn. D. Jones, Llangan; J. Evans, New Inn; ac R. Davies, Llansadwrn; y rhai a gyhoeddwyd; a chyfansoddodd lawer o Hymnau a chaniadau crefyddol. Bu farw yn Nhreforis, ger Castellnedd, Medi 14, 1860, yn 81 oed.—Lleyn *MSS.*

JENKYN (THOS. WILLIAM), D.D., F.R.G.S., F.G.S., ydoedd fachgen tlawd o Ferthyr Tydfil. Ganwyd ef yn y dref hono Medi 1, 1794. Glowr oedd ei dad, o'r enw David Jenkyn. Ni chafodd ond ychydig ysgol yn ei fachgendod, a gyrwyd ef i'r gwaith glo pan yn dra ieuanc. Eithr pan yn blentyn gweithiol fel hyn, yr oedd ynddo sychedd anniwall am wybodaeth; darllenai yn ddibaid, a mynychai ysgol nos, ac ysgol y Wesleyaid Seisnig ar y Sabbath, lle y daeth i ddeall a darllen Saesneg. Yr oedd ei feddwl wedi ei lyncu i fynu gymaint gan fyfyrdodau llenyddol, fel nad oedd gan waith y gloddfa ddim swyn na difyrwch o gwbl iddo ef; ac o ganlyniad, gweithiwr diofal ac afferw i'r eithaf ydoedd. Byddai y goruchwyliwr beunydd yn newid ei waith, er ceisio ei wella felly; ond nid oedd dim yn tycio, yr un un oedd efe o hyd, nes y darfu i'r swyddog hwnw o'r diwedd ffyrnigo wrtho, a'i guro yn dost. Parodd hyn iddo fyned adref tan wylo yn chwerw, a phenderfynu nad elai i'r gwaith mwyach. Yr oedd ei dad, un amser wedi bod yn arwain bywyd digon diras, ond gadawodd ei ffyrdd o feddwdod a rhegfeydd, ac ymunodd ag eglwys o Annibynwyr a ymgynullai yn ystafell y Crown y pryd hwnw, a bu wedi hyny yn ddiacon parchus gyda'r un enwad Yn 1806, bu diwygiad crefyddol nerthol yn Merthyr a'r gymydogaeth, ac ymunodd Jenkyn ieuanc yn mhlith canoedd eraill âg eglwys Soar, ac yr oedd crefyddoldeb ei fuchedd yn dra amlwg. Y ffwyddyn ganlynol, daeth ewythr iddo frawd ei fam, sef y Parch. Morris Morris, i fod yn weinidog ar eglwys y Bedyddwyr yn Ebenezer, Merthyr; a llwyddodd i gael gan ei nai ieuanc ddyfod yn aelod o'i eglwys ef, a bedyddiwyd ef mewn canlyniad yn yr afon Taf. Ond wedi i'r diwygiad fyned heibio, methodd Mr. Morris gydweled â'r eglwys tan ei ofal, ac ymadawodd. Dychwelodd y nai hefyd i'w hen gynefin. Fel y rhan fwyaf o fechgyn Cymru, yr oedd pregethu yn orchestwaith yn ei olwg, a byddai ef ac un neu ddau o gyfoedion yn chwareu pregethu yn fynych. Dechreuodd ar y gwaith hwnw yn gyhoeddus pan yn ieuanc iawn, cyn bod yn bumtheg oed; a thaenid y son am dano yn agos a phell, wrth yr enw "pregethwr bach." Gelwid am ei wasanaeth i fanau dyeithr, a rhoddai foddhad annghyffredin. Trwy ddylanwad ei barchus weinidog, danfonwyd ef yn fuan i dderbyn ychydig ddysgeidiaeth i'r Fenni, at y Parch. Mr. Harris. Bu wedi hyny yn cadw ysgol ddyddiol yn y Faenor, ger Merthyr, ac ysgol nos yn Soar. Yna aeth i Ludlow i fod yn genadwr cartrefol—yn pregethu y nos, ac yn yr ysgol y dydd. Wrth weled ei ei awydd a'i gynydd mor fawr, a'r fath arwyddion gobeithiol ynddo o athrylith annghyffredin, ei ysgolfeistr a'i weinidog a lwyddasant i'w gael i mewn i goleg Homerton; ac nid gwaith hawdd oedd hyny pan feddyliom dloted ydoedd, a chyfynged amgylchiadau ei rieni. Bu caredigrwydd yn hael wrtho, a dyngarwch yn ymgeleddgar ohono. Gweithiodd yntau yn galed, a thrwy ddiwydrwydd a dyfalbarhad,

Digitized by Google

goruchafodd ei athrylith gref bob rhwystr, a chyrhaeddodd safle uchel yn mhlith ei gydysgolheigion. Wedi gorphen pedair blynedd ei fyfyriaeth, derbyniodd alwad eglwys yr Annibynwyr yn Wem, sir Amwythig; ac wedi bod yno bum' mlynedd, symudodd i Groesoswallt. Yr oedd ei ddau ragflaenydd yno yn y swydd wedi llithro oddiwrth burdeb yr athrawiaeth iachus—un wedi troi yn Undodwr, a'r llall yn Ariad penboeth, a'r eglwys mewn canlyniad wedi mawr ddirywio. Dechreuodd ei weinidogaeth trwy draddodi cyfres o ddarlithiau penigamp ar yr "Iawn," er gwrthweithio egwyddoriou niweidiol ei ragflaenoriaid. Y rhai hyn a gyhoeddwyd yn llyfryn, a dyna ddechreuad y llyfr tra adnabyddus hwnw, "Jenkyn ar yr lawn." Parodd gryn gynhwrf ar y pryd, a gwrthwynebid ef yn lled lym ar y cyntaf, ond erbyn hyn y mae y cyhoedd wedi dyfod yn unfarn â'r awdwr. Aeth y gwaith trwy dri-ar-ddeg o argraffiadau yn America, pump yn Lloegr, ac un yn Nghymraeg, yr olaf wedi ei gyfieithu gan y Parch. R. Parry *(Gwalchmai)*. Yn 1834, symudodd Mr. Jenkyn i weinidogaethu i Stafford, a choronwyd ei lafur gyda y fath lwyddiant, fel y bu raid helaethu ei gapel yn 1837. Yn y cyfamser, yr oedd yn parhau i efrydu yn ddwys a dygn, a chyhoeddwyd llyfr arall gwerthfawr o'i waith, sef "The Union of the Holy Spirit and the Church in the conversion of the World." Enynodd ei lafur meddyliol caled rhyw boen dirfawr yn ei ben, ac anogwyd ef gan feddygon, os mynai gadw ei fywyd, i symud i Germani. Gyda ei fod ar y Cyfandir, adfywiodd ei iechyd, ac ymroddodd i ddysgu yr Ellmynaeg, yn yr hyn hefyd y llwyddodd i raddau helaeth. Aeth hefyd yn fyfyriwr i goleg Halle, a chafodd y fraint o wrando darlithiau gan y fath gewri mewn dysgeidiaeth â Tholuck, Gessenius, ac eraill. Tra yn tario yno, derbyniodd wahoddiad i fod yn athraw duwinyddol yn ngholeg Coward, mewn cysylltiad â'r *London University*. Dychwelodd i Lundain, a chymerth afael yn y swydd, ac efe a ymroddodd yn ddyfalach nag erioed i astudio yn enwedig yr ieithoedd gwreiddiol, fel y dygid ef yn gyfaddasach i'w alwedigaeth. Llanwodd hi er boddhad cyffredinol hyd 1850, pan yr unwyd coleg Coward gyda rhai Homerton a Highbury; ac o ganlyniad, nid oedd angen mwyach am ei wasanaeth. O hyn allan, treuliodd ei amser yn weinidog yn Rochester; a bu farw Mai 26, 1858, yn 64 oed. Derbyniodd ei radd o D.D. o'r America. Priododd ei unig ferch â Thomas Challis, Ysw., arianydd yn West Smithfield, Llundain, yr hwn oedd yn fab i Alderman Challis, a fuasai unwaith yn arglwydd faer Llundain, ac yn aelod seneddol tros Finsbury. Yr oedd Dr. Jenkins, er holl anfanteision bore ei oes, yn ysgolhaig campus, ac yn bregethwr sylweddol, er nad poblogaidd. Hynododd ei hun yn fwy fel athraw ac ysgrifenydd; ac er cael ei gydnabod yn enwog, ac yn dra adnabyddus fel awdwr Seisnig, eto nid anghofiodd hen iaith ei dadau, a gohebai yn fynych i'w chylchgronau, yn enwedig i'r *Seren Gomer*. Efe a ysgrifenodd y traethodau meistrolgar ar ddaeareg a ymddangosodd yn y *Popular Educator*, a gyhoeddwyd gan Cassell; a rhoddir iddynt air uchel gan ddysgedigion ar y pwnc. Cododd o ffos ddofn, a throdd yn mhlith doethion y byd, ac y mae yn esiampl nodedig o lwyddiant yn coroni dyfalbarhad a diwydrwydd. *Lleyn. MSS.*

JESSOP (Parch. Constantine), ysgrifenydd dadleuol galluog, oedd fab i John Jessop, offeiriad yn sir Benfro. Yn 1624, derbyniwyd ef i Goleg yr Iesu, Rhydychain, o'r hwn le y symudwyd ef i Goleg y Drindod, Dublin, ac y cymerodd y radd o B.A. yn yr ysgol hono. Dych-

Digitized by Google

welodd i Rydychain yn 1631, a graddiwyd ef yn M.A. y flwyddyn ganlynol, ac efe ar y pryd mewn urddau. Pan gafodd y Presbyteriaid y llaw uwchaf yn 1641, ymunodd â'r blaid hono, a chymerth y cyfamod. Bu am beth amser yn weinidog Coggeshall, yn Essex; ac am beth amser wedi hyny yn St. Nicolas, ger Bristol; a thrachefn yn rector Fyfield, yn Essex. Perchid ef yn fawr gan ei blaid ar gyfrif ei ddysgeidiaeth. Cyfansoddodd, "The Angel of the Church of Ephesus, no Bishop of Ephesus," 1644 a 1660; hefyd, "Concerning the nature of the Covenant of Grace," 1655.—Wood's *Athen. Oxon.*

JOHNES (BASSET), a hanai o deulu parchus yn Morganwg, ac a ddaeth yn aelod o Goleg yr Iesu, Rhydychain, yn 1634. Bu wedi hyny yn ymdaith mewn gwledydd estronol, ac yn efrydu meddyginiaeth a fferylliaeth; ac yn mhen rhai blynyddau ar ol dychwelyd, cyhoeddodd lyfr ar y pwnc, gyda'r teitl Lladin, "Lapis chymicus," &c., 1648. Gwaith arall o'i eiddo oedd, "Hermælogium," neu attodiad i ramadeg Lilly, yr hwn a gymeradwyid gan Will. Du Gard, meistr ysgol y *Merchant Tailors.*

JOHN (HARRY), ydoedd aelod perthynol i'r Bedyddwyr yn Mhen y Garn, ger Pontypool, tua 1716. Ystyrid ef yn wr rhagorol mewn crefydd yn ei oes, a'i ddeall yn annghyffredin. Yr oedd yn brydydd da, sylweddol, melus, a chymeradwy iawn. Argraffwyd llyfr o'i Hymnau rai blynyddoedd cyn ei farw, ac ail-argraffwyd ef yn ddiweddarach. Gorphenodd ei yrfa yn 1754, yn 90 oed. Gwnaeth y Parch B. Francis, Horsley, farwnad ar ei ol, lle y dywedai mai gwr o Lanithel ydoedd, a'i fod yn hyddysg mewn tair o ieithoedd.—*Lleyn MSS.*

JOHNES (THOMAS), a hanai o hen deulu parchus yn sir Aberteifi, ac a anwyd yn 1748. Addysgwyd ef yn Eton, a thrachefn yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle y cymerodd y radd o M.A. Efe oedd etifedd yr Hafod, a phan ddaeth yr etifeddiaeth hono i'w feddiant, nid oedd ond diffaethwch diffrwyth; eithr efe a ymroddodd â'i holl amser a'i gyfoeth i'w diwyllio. Cyn 1783, pan y dechreuodd efe adeiladu y palas, yr oedd y ffyrdd yn ddrwg iawn, a'r amaethyddiaeth yn dra isel. Eithr efe yn fuan a drawsffurfiodd fythynod truenus y gweithwyr tlodion yn drigfanau dedwydd, ac a roddes y dynion ar waith i blanu miloedd lawer o goed ar y tir diffrwyth a'r mynyddoedd, ac i wneud gwelliantau pwysig eraill. Er mwyn gwella amaethyddiaeth yr ardal, efe a wahoddodd wyr o Ysgotland a manau eraill yno; ac a sefydlodd gymdeithas amaethyddol, er gwobrwyo y bythynwyr, ac er prynu ffrwythau eu diwydrwydd. Argraffodd lyfryn rhagorol er mwyn yr un amcan, tan y teitl, "A Cardiganshire Landlord's Advice to his Tenants." Parhaodd fel hyn am flynyddau i lesoli ei wlad gyda'i ddoniau a'i gyfoeth, pan y darfu i'w balas arddercho, yr Hafod, yr hwn oedd wedi ei addurno â cherfiadau a darluniau o waith y prif-feistri, ac yn cynwys llyfrgell ysplenydd o lyfrau gwerthfawr prinion, syrthio yn aberth i dân dinystriol, Mawrth 13, 1807; a bernid nad oedd y golled ddim llai na £70,000. Er y difrod anaele hwn, yn fuan adeiladwyd ac addurnwyd yr Hafod o newydd. Yr oedd Mr. Johnes hefyd, yn nghanol ei ymdrechion clodwiw eraill, yn noddwr egniol ar lenyddiaeth; ac mewn argraffiadau heirdd, cyhoeddodd "Froissart's Chronicles," 4 cyf.; "Travels of La Broignton," 1 cyf.; "Chronicles of Monstrelet," 4 cyf.; a "Chronicles of Joinville," 2 gyf.; yr oll o ba rai a gyfieithodd efe ei hun o'r Ffrancaeg, a'r tri olaf a argraffwyd yn ei wasg ef ei hun yn yr Hafod. Parhaodd yn ei flynyddau olaf yn ddiflino i wneud gwelliantau, ac i drefnu

Digitized by Google

ffyrdd, ac adeiladu pontydd er budd i'r cyhoedd. Bu yn aelod seneddol tros fwrdeisdref Aberteifi, a thrachefn tros sir Faesyfed. Yr oedd hefyd yn brawydd *(auditor)* tros Gymru; yn filwriad ar gartreflu sir Gaerfyddin; ac yn arglwydd-raglaw Ceredigion. Bu farw Ebrill 23, 1816, yn 68 oed.—Wms. *Em. Welsh.*

JONES (PARCH. ARTHUR), D.D., gweinidog enwog a phoblogaidd gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1776, yn nghymydogaeth Llanrwst, sir Ddinbych. Dechreuodd bregethu yn nghyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd. Bu yn briod ddwy waith, y tro cyntaf gyda merch i'r ffraeth-fardd Twm o'r Nant. Yn ei ail wraig cafodd ymgeledd gymhwys, un o'r gwragedd mwyaf rhinweddol a duwiol. Ymunodd â'r Annibynwyr yn Ninbych. Symudodd i weinidogaethu i'r eglwys Annibynol yn Mangor, yn y flwyddyn 1809, a bu yn dra llafurus a defnyddiol yno am tua chwe' blynedd. Yn y flwyddyn 1815, ymadawodd a Bangor, i weinidogaethu i'r Cymry yn Deptford, a Woolwich, ger Llundain, lle y bu yn ymdrechgar a llafurus yn casglu ac yn cyfranu gwybodaeth, hyd amser yr heddwch ar ol y fuddugoliaeth ar Bonaparte, pryd y safodd y gwaith yn llong-adeiladfa y Llywodraeth, ac y gwasgarwyd y Cymry. Pan aeth ei hen eglwys yn Mangor yn amddifad o weinidog, ar ol ymadawiad y Parch. David Roberts i Ddinbych, rhoddwyd galwad i Mr. Jones i ddyfod i'w bugeilio, â'r hyn y cydsyniodd yn y flwyddyn 1823, ac yno y bu yn gwneud daioni lawer hyd y flwyddyn 1855, pryd y rhoes ei ofal gweinidogaethol i fyny, ac a symudodd i fyw i Gaer, lle y dybenodd ei yrfa mewn oedran teg, a phrofiad aeddfed. Ymadawodd a'i fuchedd hon yn orfoleddus, gan adrodd geiriau y Salmydd, "Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynodd holl dyddiau fy mywyd," Chwef. 1860, yn yr 84ain flwydd o'i oedran. Pregethodd lawer yn ystod ei oes faith gyda chymeradwyaeth gyffredinol; yr oedd ei arabedd a'i ffraeth ddywediadau yn ei wneyd yn dra phoblogaidd. Enw a gofir yn hir yw enw Arthur Jones, o Fangor; yr oedd yn feddianol ar athrylith a'i gwnai yn adnabyddus byth ar ol ei glywed unwaith. Yr oedd ganddo ddull gwreiddiol i wneud i'w wrandawyr ddeall, teimlo, a chofio, yr hyn a ddywedai. Anhawdd fyddai i neb lywodraethu ei beirianau chwerthin wrth wrando arno, ond yn anaml y gollyngai y gynulleidfa heb argraffu ar eu hystyriaethau bethau pwysicaf dyn. Gadawai ei ddelw ar bob peth a wnai. Cyhoeddodd gyfrol ar Dduwinyddiaeth, dan y titl "Pynciau yr Athrawiaeth," mewn canlyniad i'r hyn y derbyniodd y gradd o D.D., o'r America. Efe hefyd a gyfieithodd "Fletcher's Life of Christ," i'r Gymraeg. Gallasai ambell i un feddwl mai dyn gwagsaw ydoedd, ond ni bu erioed gamgymeriad mwy. Gwr nodedig am ei dduwioldeb ydoedd; ac yn ofni Duw yn fwy na llawer. Pendefig o ran ei ymddangosiad—boneddwr o ran erymddygiadau—a Christion o ran ei ysbryd. Yr oedd yn ddarllenwr da—yn weddiwr mawr—yn gystal a phregethwr poblogaidd. Noddwr talent—anddiffynwr y gwan—a phrif golofn gyda holl symudiadau diwygiadol ei oes. Bu yn foddion i feithrin amryw eglwysi yn eu gwendid, ac yn sylfaenydd llawer o achosion ydynt yn bresenol yn flodeuog a llwyddianus. Drwg genym na chaniata ein terfynau i ni roddi engreifftiau o'i ffraeth-ddywediadau, ond prin y mae angen, gan y byddant yn cael eu trosglwyddo gan draddodiad a sicrha iddynt gadwraeth am oesau lawer.

JONES (ARTHUR), ydoedd fardd o Langadwaldr yn sir Ddinbych. Bu yn glochydd Rhiwabon, lle y bu farw. Y mae Jonathan Hughes y y bardd yn crybwyll am amgylchiad lled hynod a gymerodd le ar ei

Digitized by Google

gladdedigaeth, sef ei gladdu ef, bedyddio ei faban, ac "eglwysa" ei wraig ar yr un pryd. Ystyrid ef yn fardd lled wych; ac y mae llawer o'i waith, yn enwedig ei Garolau ar gael. Yr oedd yn un o gefnogwyr y mân eisteddfodau gynelid yn Mhowys yn y 18ed ganrif, ac efe enillodd ail wobr ar y prif destyn yn Eisteddfod Llansantffraid Glyn Ceiriog yn 1743, ar Iau y Dyrchafael. Yr oedd iddo fab o'r enw Peter Jones, yr hwn oedd yntau yn cymeryd rhan yn yr Eisteddfod uchod, ac y mae ei Englynion yn mhlith cynyrchion yr Eisteddfod, er nad oedd y pryd hyny ond bachgenyn tair blwydd ar ddeg oed.—*Llegn. MSS.*

JONES (Parch. Benjamin), gweinidog enwog gyda'r Annibynwyr yn Mhwllheli. Ganwyd ef yn Nhręcyrnfawr, plwyf Llanwinio, sir Gaerfyrddin, ar y 29ain o Fedi, 1756. Yr oedd o rieni cyfrifol, y rhai oeddynt aelodau o'r Eglwys Sefydledig. Bwriedid ef gan ei rieni yn weinidog yn yr eglwys hono, a dygwyd ef i fyny i'r perwyl hwnw. Treuliodd gryn lawer o'i ieuenctyd mewn ysgol dan olygiad offeiriad yn Llanddewifelfre, swydd Benfro. Yr oedd er yn fachgen yn meddu galluoedd cryfion a bywiog, ac yn awyddus am ddysg; ac felly cyrhaeddodd wybodaeth helaethach o egwyddorion dysgeidiaeth, ieithoedd hynafiaethol, a changhenau eraill addysg, na'i gyfoedion yn gyffredin. Cymerodd amgylchiad le y pryd hwn a drodd redfa ei yrfa yn gwbl wahanol i'r hyn yr amcanodd ef a'i rieni iddi fod ar y cyntaf. Ryw fodd aeth i wrando ar y Parch. R. Morgan, gweinidog yr ymneilldduwyr yn Henllan, a'r Parch. J. Griffiths, Glandwr, ac enillwyd ei galon i orphwys ar y drefn. Pan yn y teimladau hyn, ymunodd â'r eglwys yn Henllan. Mewn canlyniad ymadawodd yn hollol â'r meddwl o fyned yn offeiriad. Yn mhen amser, wedi i'r eglwys gael graddau o foddlonrwydd yn ei dduwioldeb a'i gymhwysder i fod yn ddyn cyhoeddus, rhoddasant anogaeth iddo i arfer ei ddawn trwy ddechreu pregethu o fewn cylch yr eglwys. Wedi meddwl yn ddifrifol am y peth, cydsyniodd â'u cais, gan ystyried hyny yn ddyledswydd ac yn fraint. Aeth wedi hyn i'r ysgol oedd dan olygiad y Parch. J. Griffiths, Glandwr. Arferai bregethu yn mhob un o'r eglwysi hyny gyda chymeradwyaeth cyffredinol, ac annogwyd ef i fyned i athrofa y Fenni, dan olygiad y dysgedig Dr. Davies, er cyrhaedd gwybodaeth helaethach o wahanol ganghenau dysgeidiaeth. Cymeradwywyd ef gan y ddau weinidog blaenorol, a'r eglwysi dan eu gofal, yn galonog iawn, a derbyniwyd ef i'r Athrofa. Bu yn egniol i gasglu gwybodaeth yno am bedair blynedd, a gorphenodd ei dymor yn anrhydeddus. Wedi i Mr. Jones orphen ei amser yn yr Athrofa, aeth ar brawf i eglwys Pencader, sir Gaerfyrddin, a'r ganghen a berthynai iddi y pryd hwnw yn Pantycreuddyn, sir Aberteifi; ac wedi bod yno ryw gymaint o amser, derbyniodd alwad i fod yn weinidog iddynt, a chydsyniodd. Ystyrid yr eglwys hon y pryd hwnw mor helaeth ei gwybodaeth, ac mor fanwl ei golygiadau ar dduwinyddiaeth y Bibl, a nemawr o eglwysi yn y Dywysogaeth; ac ni buasai yn rhoddi galwad i'r dyn ieuanc onibai ei bod yn ei weled yn helaethach ei ddeall, ac yn fwy grymus ei feddwl i ddirnad egwyddorion crefydd Crist ac athrawiaethau y gair, na'r cyffredin o ddynion ieuainc. Urddwyd Mr. Jones i'r weinidogaeth yn Mhencader ar y 25ain o Fai, 1779. Yn mhen o gylch blwyddyn wedi ei urddiad, ymunodd mewn priodas â Mary Evans, Cwrt, gerllaw Saron. O herwydd rhyw bethau nad ydynt hysbys i ni yn bresenol, ni bu ei arosiad yn Mhencader ond tair blynedd, pryd y symudodd oddiyno i Rosymeirch a Bethlehem, Mon, lle yr arosodd am saith mlynedd. Gwnaeth yr Arglwydd ddefnydd mawr ohono

Digitized by Google

tra y bu efe yno. Wedi marwolaeth y Parch. R. Harris, Pwllheli, derbyniodd Mr. Jones alwad oddiwrth yr eglwys yno, a'r canghenau a berthynent iddi, a symudodd atynt yn niwedd 1798, lle y bu yn llafurio gyda phob diwydrwydd a ffyddlondeb am bedair blynedd ar ddeg ar hugain. Yr oedd maes ei lafur yn helaeth a phwysig iawn y pryd hwnw, oblegyd nid oedd un gweinidog ymneilldduol trwy holl Leyn ac Eifionydd ond efe am yspaid maith o'i weinidogaeth; ac hefyd yr oedd amryw gymdeithasau crefyddol yn y naill le a'r llall, megis Capelnewydd, Capelhelyg, ac eraill, yn galw am ei wasanaeth; ac nid oedd ganddo neb yn ei gynorthwyo. Gwr mawr oedd Mr. Jones mewn duwioldeb, ac arwyddion eglur o gywirdeb calon, mawr mewn eangder a grymusder meddwl, ac mewn dysg a gwybodaeth. Er mai duwinyddiaeth ydoedd prif bwnc ei ymchwiliad, yr hyn a ddylai fod gan holl weinidogion y cysegr, eto nid oedd canghenau eraill dysgeidiaeth yn ddyeithr iddo, megis daearyddiaeth, morwriaeth, seryddiaeth, anianyddiaeth, rhifyddiaeth, a hanesyddiaeth. Ni chyrhaeddodd y mawredd hwn heb ddiwydrwydd a llafur caled; oblegyd dywedir ei fod yn astudiwr mawr trwy ei oes. Yr oedd yn feirniad ac yn esboniwr rhagorol ar yr rhanau hyny o air Duw sydd fwyaf aneglur i'r bobl gyffredin; a byddai yr ysgrythyrau wedi eu cydblethu yn ei weddiau a'i bregethau, a hyny yn y modd mwyaf priodol yn eu hystyr uniongyrchol. Anfoddlonai yn fawr, a byddai yn hynod o groes os byddai i neb wneuthur gwirioneddau y Bibl yn debyg i drwyn cwyr, trwy eu gwyrdroi o'u hystyrion priodol. Pan wedi cael gafael ar brif bwnc ei destun wrth bregethu, byddai ei lygaid yn serenu, a ffrydiai ei ymadroddion megis afon lifeiriol allan dros ei wefusau, a threiglai dagrau dros ei ruddiau, nes enyn y teimladau mwyaf dymunol yn ei wrandawyr. Er nad oedd efe y pregethwr mwyaf poblogaidd gan y werin anwybodus, eto yr oedd yn ngolwg ei wrandawyr, a dynion o farn, yn ddigyffelyb. Yr oedd eglwys Pwllheli y pryd hwn yn un o'r rhai mwyaf cysurus a dedwydd yn Nghymru; a dywedai hen weinidogion yr ystyrient hi yn wledd meddwl y dyddiau hyny gael ymweled ag eglwys Pwllheli. Nid oedd Mr Jones yn hoff o fod yn ddadleugar, eto yr oedd yn amddiffynwr gwresog o'r hyn a farnai yn wirionedd, ac yn ddadleuwr medrus a theg dros yr egwyddorion a gredai. Yr oedd yn gwbl rydd ei feddwl i gydnabod hawl eraill i farnu drostynt eu hunain yn y pethau y gwahanieathant oddiwrth eu gilydd. Yr oedd yn hynod adnabyddus o feddyliau awduron hen a diweddar ar wahanol bynciau crefydd, a hyny mewn amrywiol ieithoedd, a dygai eu meddyliau allan gyda'r parodrwydd mwyaf ar wahanol achosion. Yr oedd yn wr cadarn a diysgog iawn ei olygiadau ar wirioneddau y Bibl; oblegid nid oedd wedi sefydlu ei olygiadau heb yr astudrwydd manylaf; ac yr oedd hefyd yn gymeradwy fel gweinidog gan yr holl eglwysi yn y Dywysogaeth. Cyhoeddodd Mr. Jones ddau draethawd bychan drwy y wasg—un ar "Athrawiaeth y Drindod," a'r llall a elwir "Ffynhonau yr lechawdwriaeth, er amddiffyn athrawiaeth gras penarglwyddiaethol Duw yn nghadwedigaeth pechaduriaid," y rhai sydd yn dangos helaethrwydd ei wybodaeth, grymusder ei feddwl, a'i fedrusrwydd i drafod pethau dyrys yn eglur; ond ni chynygiwyd ateb un o'r rhai hyn gan neb o wahanol olygiadau iddo. Bu farw Chwefror 17, 1823, yn 66 oed; a chladdwyd ef yn anrhydeddus o tan gromlech hardd yn y fynwent yn ymyl addoldy Pwllheli.—*Hanes Ymneilldduaeth*, gan Morgans, 256.

JONES (Parch. David), gweinidog poblogaidd gyda'r Annibynwyr

Digitized by Google

yn Nhreffynon, sir Flint. Ganwyd ef yn Nghoedyddol, plwyf Llanuwchlyn, Meirion, yn Hydref, 1770. Bu farw ei fam pan nad oedd efe ond plentyn, a symudodd ei dad mewn canlyniad i fyw i'r Bala, yn yr hwn le y dysgodd y gelfyddyd o wneuthur llestri coed. Ar ol iddo wasanaethu ei amser fel egwyddorwas, dychwelodd i Lanuwchlyn i ddilyn ei alwedigaeth; a pherchid ef yn fawr y pryd hwn gan ei holl gydnabyddion. Yn 1790, ymunodd â'r Eglwys Gynulleidfaol yn y Bala. Ond parhaodd ei ysbryd yn hir ar ol hyn i fod yn derfysglyd ac isel nes niweidio ei iechyd, a gwanhau ei gyfansoddiad corphorol yn fawr. Methai sugno cysur yn un man—yn y ty, nac yn y maes—yn yr ystafell, nac yn y cysegr; ac wrth iddo ystyried y byddai ei waith yn ymwneud ag ordinhadau crefydd yn tueddu at drymhau ei golledigaeth, meddyliodd yn fynych am lwyr adael cymdeithas yr eglwys, ac esgeuluso pob dyledswydd grefyddol; ie, temtiwyd ef i anmheu ffyddlondeb y Gwaredwr, i anghredu tystiolaethau y Bibl, ac i chwilio a oedd dim cysur a thangnefedd iddo gael wrth ddilyn llwybrau difyrwch y byd. Achlysurwyd y teimladau dychrynllyd ac anmheus hyn ynddo yn benaf trwy iddo glywed, neu weled mewn ysgrifau, ryw ddarluniadau ofnadwy am y "pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan," pan oedd yn ieuanc. Yr oedd y darluniadau hyny yn gwbl groes i ysbryd ac egwyddorion yr efengyl—yn ddarluniadau heb unrhyw duedd ynddynt i santeiddio y galon—ac yn ddarluniadau heb ynddynt unrhyw gysur i ddyn, na gogoniant i'r Prynwr. Maeddwyd ef gan yr anghrediniaeth, yr ofnau, a'r anobaith yma, nes y bu agos iawn a gweithio ynddo wrthgiliad hollol. Wedi iddo gael ei daflu fel hyn am tua phedair blynedd gan donau tymhestlog, a'i aflonyddu gan gyhuddwr y brodyr, daeth o'r diwedd i feddiant o dawelwch. Dysgodd beidio edrych iddo ei hun am nerth a chysur—i beidio dysgwyl wrtho ei hun, nac ymddiried ynddo ei hun, am gyfiawnder, ond ymorphwys ar y cyfiawnder sydd mewn arall: a llanwyd ei feddwl o awydd bywiog a gwresog am fwy o hunanymwadiad a sancteiddrwydd. Yn fuan ar ol hyn, daeth ei ymgais a'i ymroddiad i wneud daioni i eraill i wybodaeth ac o dan sylw yr eglwys, a'r Parch. G. Lewis, o Lanuwchllyn, fel yr anogasant ef i ddechreu pregethu yr Efengyl, a throi ei feddwl at waith y weinidogaeth. Wedi llawer o ystyriaeth, a gwasgfeuon meddwl, cydsyniodd â hwy, a thraddododd ei bregeth gyntaf yn y Bala ar y 9fed o Chwefror, 1796. Yn Mai, 1779, gwnaethpwyd deisyfiad drosto am dderbyniad i Athrofa Gwrecsam, yr hon oedd dan olygiaeth y Parch. Jenkyn Lewis; a derbyniwyd ef iddi. Ymadawodd Mr. David Jones â'r athrofa, Mai, 1801, ar ol derbyn galwad unfrydol oddiwrth Eglwys Gynulleidfaol Treffynon, sir Flint. Fel y gallesid dysgwyl oddiwrth un o'r fath dduwioldeb a meddylfryd ysbrydol ag ydoedd Mr. Jones, iddo ymatlyd yn ei waith gydag egni ac astudrwydd, ac y buasai mesur helaeth o lwyddiant yn dilyn ei lafur; felly y bu—ni siomwyd neb mewn canlyniad i'w sefydliad. Teimlai yn ddwys iawn dros gynydd crefydd yn mysg ei gymydogion, a thrwy y byd oll; a chafodd yr hyfrydwch a'r anrhydedd o sefydlu amryw gynnulleidfaoedd yn yr ardal. Trwy ei offerynoliaeth ef y cyfodwyd addoldy Bagillt, yn 1803; Rhesycae, yn 1804; Heol Mostyn, yn 1826; a Phenypyllau, yn 1829. Bu yn ysgrifenydd i ganghen o'r Gymdeithas Fiblaidd yn sir Fflint am ddeunaw mlynedd, i ganghen Gwynedd o Gymdeithas Genhadol Caerludd am naw mlynedd, ac i Undeb Cynulleidfaol siroedd Fflint a Dinbych am naw mlynedd. Gwnai ei oreu er cynhyrfu a meithrin ysbryd cenadol yn y Dywysogaeth. Er nad oedd

Digitized by Google

ond dyn gwanaidd o ran ei ymddangosiad a'i gyfansoddiad corfforol, eto yr oedd bywiogrwydd ei lygaid, craffder ei edrychiad, cyflymder ei ysgogiadau, a sirioldeb ei wynebpryd, uwchlaw y cyffredin o feibion dynion. Yr oedd ei alluoedd corfforol a meddyliol bob amser ar eu llawn waith, a hwnw yn waith a rhyw amcan daionus yn perthyn iddo. Cerddodd lawer Sabbath ddeng milltir ar hugain, a phregethu dair gwaith. Llafuriai mewn amser, ac allan o amser. Yn 1831, daeth i Liverpool ar daith i gasglu tros eglwys Gartside Street, Manchester; ac yn y daith hon cyfarfu ag angau mewn modd tra sydyn, trwy syrthio trwy lawr-ddrws *(trap-door)*; ac er pob cynorthwy meddygol bu farw yn mhen tair awr. Cymerodd hyn le Awst 25, 1831. Dygwyd ei ran farwol i Dreffynon i'w gladdu, ac yn ngwydd miloedd lawer o'i gyfeillion a'i gydnabyddion dodwyd ef i orphwys yn yr addoldy y bu yn llafurio gynifer o flynyddau ynddo. Yr oedd ei bregethau yn syml, eglur, a llawn o efengyl; ac yn cael eu traddodi gyda theimladau gwresog ac yspryd cynes iawn. Cyhoeddodd gasgliad o Hymnau at wasanaeth y cysegr yn mhlith yr Annibynwyr, a chafodd dderbyniad helaeth. Nid ydym yn gwybod am ddim arall a gyhoeddodd trwy y wasg, er na bu neb yn fwy diwyd nag ef yn ysgrifenu ar wahanol achosion crefyddol.—*Hanes Ymneilldduaeth*, gan Morgans, 578.

JONES (PARCH. DAVID), ydoedd ficer Llanfair Dyffryn Clwyd, a bardd a chasglydd hen ysgrifau Cymreig, yr hwn oedd yn ei flodeu rhwng 1560 a 1590. Efe a gyfieithodd ddarn o waith Taliesin i'r iaith Lladin, yr hwn a welir yn argraffedig yn y *Bardic Museum*, gan Jones. Yr oedd ganddo gasgliad o hen ysgrifau Cymreig a elwid, "Arien," a chyhoeddwyd peth ohono yn yr *Iolo MSS.*

JONES (DAFYDD), o Drefriw, un o'r argraffwyr cyntaf yn Nghymru, a bardd, yn eu flodeu rhwng 1750 a 1780. Anrhegwyd ef ag offerynau argraffu gan yr enwog Lewis Morris. Efe a gyhoeddodd "Blodeugerdd Cymru," yn cynwys detholiad o waith y beirdd Cymreig. Yr oedd ganddo hefyd gasgliad gwerthfawr o hen ysgrifau, y rhai a brynodd y Parch. H. D. Griffith, o Gaerhun, gan ei feibion, ac a argraffwyd yn y *Myv. Arch.* Eraill a brynwyd gan Pennant, yr hanesydd, ac a ddanfonwyd yn anrheg gan David Pennant, Ysw., i'r Amgueddfa Brydeinig, yn 1835. Mab i D. Jones, o Drefriw, ydoedd y diweddar Mr. John Jones, yr argraffydd adnabyddus o Lanrwst.

JONES (PARCH. DAVID), ydoedd fab i'r Parch. Thomas Jones, o Gaerfyrddin, gweinidog i'r Trefnyddion Calfinaidd, ac a anwyd yn Nghwm y Creigiau Fach, yn sir Gaerfyrddin, yn 1793. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth o dan ofal gwr eglwysig yn y gymydogaeth, ac wedi hyny yn Ngoleg yr Ymneilliduwyr yn Nghaerfyrddin, lle y daeth yn hyrwydd iawn yn yr hen ieithoedd, a'r celfyddydau a'r gwyddorau eraill. Wedi ei gymeradwyo trwy arholiad gan y Parch. D. Jones, o Langan, efe a dderbyniwyd i Goleg Cheshunt, lle y gwnaeth ymarferiad o'r Arabaeg a'r Persiaeg. Ordeiniwyd ef i'r weinidogaeth yn 1814; ac yn 1817, ymsefydlodd yn Henffordd, ac wedi hyny yn ganlyniedydd y Parch. W. Kemp, yn Abertawy. Yn 1824, ymdeithiodd yn Ffrainc, a gwnaeth adnabyddiaeth â Llydaw, ei phobl, a'i hiaith, yr hyn a fu yn agoriad i drefnu moddion i gael cyfieithiad o'r Testament Newydd i'r iaith hono. Ymwelodd yr ail waith â Llydaw fel negesydd dros y Gymdeithas Feiblaidd. Wedi dyfod yn ol o'r daith hono, derbyniodd wahoddiad arolygwyr Coleg Cheshunt i gymeryd gofal y dosbarth ieithyddol yno, lle y bu hyd ei farwolaeth, yr hon a ddigwyddodd Medi 1, 1825, yn 32 oed.

Digitized by Google

Y mae ei enw fel un o awdwyr y "*Principia Hebraica.*"—*Llenad yr Oes*, i. 158.

JONES (DAVID), o Gaio, awdwr amryw o'r emynau melusaf sydd yn yr iaith, a chyfieithydd campus hymnau y Dr. Watts. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1711, yn Nghwmcogerddan, amaethdy yn mhlwyf Caio, o fewn wyth milldir i dref Llanymddyfri, sir Gaerfyrddin. Enw ei dad oedd Daniel John; ac yr oedd yn wr cyfrifol, ac i raddau yn gyfoethog, oblegyd yr oedd yn berchen ar ddau dyddyn, sef Cwmgogerddan Uchaf, a Chwmgogerddan Isaf. Daeth y tyddynod hyn ar ei ol ef, un yn feddiant i Dafydd, gwrthrych yr hanes hwn, a'r llall i Samuel ei fab arall, yr hwn hefyd oedd yn wr crefyddol, ac yn aelod gyda'r Annibynwyr yn Nghrugybar. Cafodd Dafydd addysg dda yn ei ienenctyd, ac wedi cyrhaedd oedran gwr, parhaodd yntau i ddiwyllio ei feddwl. Priododd gyda Miss Jones, o Abercarfan, Llanddewi-brefi, Ceredigion; a chafodd lawer o ddedwyddwch a chysur yn y briodas hon, er mai byr fu ei pharhad, canys bu hi farw yn 1748, gan adael dwy ferch yn amddifaid o fam dyner. Wedi aros yn weddw am o ddeuddeg i bumtheg mlynedd, priododd Mr. Jones eilwaith gyda Miss Price, o'r Hafod, plwyf Llanwnda, sir Gaerfyrddin; ac yn mhen rhyw gymaint o amser ar ol priodi, symudodd i fyw at ei wraig i'r Hafod. Cymerodd hyn le tua 1763. Heblaw amaetha, yr oedd Mr. Jones yn borthmon o gryn fri hefyd, ac yn mynychu Lloegr gyda'r gwaith hwnw; a thra yn dychwelyd adref un bore Sabbath o un o'r teithiau hyn, heibio i hen gapel Troedrhiwdalar, ger Llanfair-Muallt, wrth glywed sain cân a moliant yn y lle, denwyd ef i droi i mewn, ac aros yno i wrando y bregeth, lle y cafodd weledigaeth amlwg o ddrwg pechod, ac y daeth allan yn greadur newydd. Dyna ddywed traddodiad am ei ddychweliad; ac ar aden traddodiad, bron yn gyfan gwbl y mae hanes yr hen emynydd porthonol hwn wedi ei drosglwyddo o gyffiniau tir annghof. Yn ddioed wedi dychwelyd adref o'r daith ryfeddol hon, ymunodd â'r eglwys Annibynol yn Nghrugybar, yn ei ardal enedigol, a bu yn aelod ffyddlawn a defnyddiol ohoni hyd ei farwolaeth. Ymddengys fod rhigymu bob amser wedi bod yn ail natur iddo, a phan ymunodd â chrefydd, trodd y ffrwd hono, a fuasai yn gwasanaethu ffyliaid, i ateb dybenion eraill. Rhaid ei fod yn brydydd adnabyddus, onide ni buasai gweinidogion ac eraill yn ei anog yn fuan ar ol ei droedigaeth i gyfieithu Salmau y Dr. Watts i'r Gymraeg. Ar eu cais, ymaflodd yn y gorchwyl, a chyhoeddodd yr argraffiad cyntaf ohonynt yn 1753. Yn mhen rhai blynyddau wedi hyn, cyhoeddodd y rhan gyntaf o'i emynau ei hun, yr hon a ddilynwyd gan ddwy ran arall: tan y teitl, "Difyrwch i'r Pererinion o Fawl i'r Oen;" ac yn ddiweddaf oll, cyhoeddodd ei gyfieithiad o Emynau y Dr. Watts. Heblaw gofalu am ei helyntion bydol, a chyfansoddi a chyfieithu emynau, yr oedd Dafydd Jones yn ddyn effro iawn gydag achos crefydd; a bu ei ddyfodiad i blith crefyddwyr yn gaffaeliad gwerthfawr yn yr oes erlidgar hono, gan fod ei ddoniau a'i gyfoeth ef o fawr gymhorth i'w frodyr gweiniaid pan oedd peiriau digofaint y gelyn yn boethion o'u hamgylch. Ar ol bywyd o lafur diorphwys gyda gofalon y ddau fyd, gorphenodd ei yrfa mewn tangnefedd, Awst 30, 1777, yn 66 oed; a chladdwyd ef yn ymyl capel Crugybar. Cydnabyddir yn lled gyffredin nad yw wedi rhagori cymaint fel awdwr gwreiddiol ag y darfu fel cyfieithydd; eto y mae yn mhlith hyd yn nod y dosparth cyntaf emynau a fuont yn anwyliaid cynulleidfaoedd y cysegr am yn agos i gan' mlynedd bellach; yn mysg y rhai hyn gellir enwi:—

Digitized by Google

Caersalem, dinas hedd, O ' na bawn yno'n byw.
Plant ydym eto tan ein hoed, yn dysgwyl am y 'stad.
Mae, mae, yr amser hyfryd yn nesau.
Daw, daw, fy anwyl Iesu maes o law.
Arglwydd, oni ddarfu it' addaw, lle na byddo ond dau neu dri.
Tyred, Arglwydd cu i'r canol.

Ac amryw eraill sydd yn disgyn yn hyfryd a nefolaidd ar y glust ar gyfrif yr hen deimladau dedwydd mewn cysylltiad â hwynt; ond digoned hyn yna i brofi fod "Dafydd Jones o Gaio," yn sefyll yn uchel yn mysg Emynwyr Cymreig y 18fed ganrif. Ond efe a ragorodd fel cyfieithydd Salmau ac Emynau Watts. Ei gyfieithiad o'r *Salmau* oedd y peth cyntaf a gyhoeddodd, a'i gyfieithiad o'r *Emynau*, yn 1775, oedd y peth diweddaf. Dywed awdwr yr ysgrif arno yn yr *Adolygydd*, wrth sylwi ar y pwnc hwn:—"Dichon y gellid casglu o'r Salmau a'r Emynau o gant i gant a haner o'r penillion ystwythaf a melusaf yn yr iaith." O'r rhai hyn gellir enwi:—

Gwaith hyfryd iawn a melus yw.
Mae gwlad o wynfyd pur heb haint.
O'r iachawdwriaeth fawr yn Nghrist.
O ! am gael golwg hoff o'r wlad.
Pa bryd daw'r dydd, fy anwyl Dduw.
Coffawn yn llawen gyda pharch.
Cyd-deimlo mae a'n natur wan.
Gwynfyd y rhai adwaenant lais.

Y mae y penillion hyn a llawer o'u cyffelyb a geir yn Watts yn dangos mai nid methiant fu ymgais ein cydwladwr i wisgo drychfeddyliau prif emynwyr y Saeson mewn gwisg Gymreig; a bydd raid i iaith a chrefydd Gwalia ddisgyn i ebargofiant cyn y syrthio y rhai hyn i dir annghof. Rhaid addef fod llawer ohonynt yn lled sychion ac anystwyth; ac y mae hyny i'w briodoli i raddau mawr i'r dull a fabwysiadodd y cyfieithydd, sef cyfieithu yn rhy gaeth, a defnyddio yr un mesurau â'r gwreiddiol; a phe buasai ein bardd yn aralleirio ac yn efelychu rhagor, diau y buasai cyfanwaith y cyfieithiad yn llawer gwell. Ond er rhoddi o'r bardd ei hun yn ddeiliad deddf tra chaeth, y mae mewn rhai penillion wedi trechu y Dr. o ddigon, ac mewn lluaws eraill yn llawn cystal ag ef. Salmau yr archddeon Edmwnt Prys a arferid yn benaf yn ngwasanaeth y cysegr cyn cyhoeddiad y cyfieithiad o Salmau Watts, pan y rhoddwyd y blaenaf mewn rhan o'r neilldu gan yr olaf, yn nghyda emynau swynol per-ganiedydd Pant y celyn; a daliasant y flaenoriaeth am haner can' mlynedd o leiaf, gan Galfiniaid, Arminiaid, a Bedyddwyr. Am deilyngdod cydmarol y ddau dywysog emynol hyn, dywed awdwr yr erthygl a grybwyllwyd yn yr *Adolygydd*:—"Gwrthdarawem y farn genedlaethol pe dywedem ei fod o flaen Williams, Pantycelyn. Addefwn yn rhwydd fod Williams o'i flaen ef mewn gwreiddioldeb a goruchelledd ehediadau barddonol; ond wedi cymeryd i ystyriaeth *fantesion* y ddau—y naill wedi cael addysg athrofaol, a'i ddwyn i fyny i'r offeiriadaeth, ac yn cysegru ei holl amser i ddarllen a myfyrio, a'r llall yn amaethwr gwledig heb gael fawr addysg, mewn cymhariaeth, ac yn gorfod treulio y rhan fwyaf o'i amser gyda gofalon bydol, ni theimlai Jones fawr o anfantais wrth ei gyferbynu â'r offeiriad. Am nifer eu Hemynau, er lluosoced yr eiddo Williams, mae Jones yn sicr o fod o'i flaen, rhwng ei gyfansoddiadau gwreiddiol a'i gyfieithiadau; a dichon fod cynifer, os nad mwy, o benillion Jones, yn adnabyddus i'r lluaws ag o benillion Williams. Ond dichon mai mwy buddiol na cheisio pwyso a chydmaru y gwyr da, fyddai i ni oll droi at Ffynonell "pob rhoddiad daionus, a

Digitized by Google

phob rhodd perffaith" i ddiolch iddo am fendithio ein cenedl â doniau a gwasanaeth gwyr mor enwog, ac i ddeisyf arno gyfodi lluoedd o'u cyffelyb yn ein mysg eto." Yr oedd Dafydd Jones o Gaio yn awdwr ychydig ganeuon moesol, ac yn rhigymwr byrfyfyr diail ar bob amgylchiad; ond prin y credwn eu bod yn werth eu hailargraffu, gan nad oes dim dyddordeb ynddynt ond un perthynasol—yn profi pa mor fychan y dichon i ddyn mawr fod.

JONES (DAVID), dadleuydd y gyfraith, a anwyd gerllaw Llanymddyfri, yn 1765, lle yr oedd yn byw ac yn trin ei dir ei hun. Gan fod yn mwriad ei rieni ei ddwyn i fynu i'r weinidogaeth yn mhlith yr Ymneilduwyr, danfonwyd ef i ysgol Pencader, sir Gaerfyrddin, a thrachefn i Abergafenni. Yn 1783, aeth i goleg yr Annibynwyr yn Homerton, ac oddi yno i goleg newydd Hackney, lle yr arosodd am wyth neu naw mlynedd, ar y cyntaf fel myfyriwr a thrachefn fel athraw. Symudodd oddi yno i gymeryd gofal eglwys o Undodiaid yn Birmingham, lle y bu am flwyddyn neu ddwy, a phenderfynodd droi at y gyfraith. Mewn ganlyniad, yn 1794, rhoddes ei enw fel ymgeisydd yn *Lincoln's Inn*, ac aeth yn aeiod o goleg Caius, Caergrawnt. Wedi gorphen ei efrydiau cyfreithiol, gwasanaethodd fel bar-gyfreithiwr yn Llundain, ac ar cylchdaith Rhydychain a Chaerfyrddin am lawer o flynyddau. Bu farw yn 1816. Yr oedd yn awdwr lluaws mawr o gyhoeddiadau, y rhai, gan eu cyhoeddi yn ddienw, sydd yn lled anhawdd eu hadnabod. Y rhai canlynol a gyhoeddodd tan y ffugenw, "*A Welsh Freeholder*:"—1, "Thoughts on the Riots at Birmingham," 1791; 2, "Strictures on a Pamphlet entitled Thoughts on the late Riot at Birmimgham," 1791; 3, "A letter to the Bishop of St. David's," 1791; 4, "The Welsh Freeholder's Vindication of his Letter," 1791; 5, "Reasons for Unitarianism."—Wms. *Em. Welsh.*

JONES (PARCH. DAVID), o Langan, offeiriad enwog, ac un a gymerodd ran helaeth yn sefydliad enwad y Trefnyddion Calfinaidd yn Nghymru. Ganwyd ef mewn fermdy o'r enw Abergeiliog, ar lan afon Teifi, Llanllieni, sir Gaerfyrddin, yn 1735. Nid oedd ohonynt ond tri o blant, sef dau fab ac un ferch, a Dafydd o'r ddau fab oedd yr ieuangaf. Bwriadai y rhieni gyflwyno y bachgen hynaf i Dduw, trwy ei ddwyn i fynu yn offeiriad; a Dafydd, yr ieuangaf, yn ffermwr. Ond goruchlywodraethwyd y bwriad hwn trwy ddamwain ofidus a ddigwyddodd i wrthddrych hyn o hanes. Syrthiodd Dafydd pan yn blentyn i bair berwedig o laeth, a bu agos iddo ysgaldio i farwolaeth. Arosodd creithiau y ddamwain arno am ei holl oes; a bu yn wan iawn am flynyddoedd, nes peri i'r tad newid ei fwriad, a chyflwyno Dafydd yn offeiriad, a'i frawd hynach a chryfach yn amaethwr. Dengys yr hanesyn canlynol ei fod wedi ei addysgu yn ysgrythyrol o'i febyd. Cyn iddo wella oddiwrth yr ysgaldiad, rhoddes ei fam hergwt iddo, gan ddywedyd yn ddigon difeddwl, "Druan o honot! yr wyf wedi blino yn dy fagu." Edrychodd y bachgen yn dawel arni, a dywedodd, "Pan yw fy nhad a fy mam yn fy nghwrthod, Duw a'm derbyn." Enynodd hyn holl serchiadau dyfnion mam ato, gwasgodd ef i'w mynwes, gan ddywedyd, "Am y gair yna mi dy fagaf di yn llawen tra byddot byw." Mynych y cyfeiriai yn ei bregethau at ei waredigaeth ryfeddol hon, gan weled ynddi law Duw yn rhoddi iddo ddiangfa o berygl; "mae nodau achos fy ngalwedigaeth ar fy ngefn," meddai. Wedi ymgryfhau, danfonwyd ef i wahanol ysgolion yr ardaloedd hyny, a gorphenodd ei addysg yn Nghaerfyrddin. Tua 1758, cafodd urddau, a churadiaeth Llanafan-fawr, Brycheiniog.

Digitized by Google

Yr oedd rhywbeth yn swynol ac yn enillgar ynddo o'r dechreu fel pregethwr, er nad ymddengys ei fod yn teimlo pwysfawredd y gwaith, na'i ddylanwad achubol, am rai blynyddau wedi derbyn urddau. Symudodd o Lanafan i Leyn, sir Gaernarfon; ac oddi yno yn 1769, i wasanaethu plwyfi Trefethin a Caldicot, sir Fynwy. Yno y dechreuodd gras ymwneud â'i feddwl, dywedir mai darllen llyfr o waith yr enwog Flavel fu prif foddion ei droedigaeth. Parodd y cyfnewidiad hwn yn ei galon gyfnewidiad buan ac amlwg yn ei fuchedd a'i weinidogaeth; enillodd trwy hyny dyrfaoedd lawer i'w wrando, ond collodd wên ei beriglor, a chymeradwyaeth yr ysweiniaid, a bu y colledion hyn yn achlysuron iddo symud ei babell oddiyno. Cawn ef nesaf yn gurad gerllaw Bristol, a thrachefn yn sir Wilts; ond yr oedd ei nyth yn llawn o ddrain cenfigen, a'i ysbryd cynes a'i weinidogaeth effro yn peri i fyd ac eglwys ei gashau. Pan yn tario yn Lloegr y daeth yn adnabyddus i'r "arglwyddes etholedig" hono, Iarlles Huntingdon; i'r hon yr oedd cyfeilles dduwiolfrydig, sef yr arglwyddes Charlotte Edwin, i'r hon yr oedd etifeddiaeth eang yn Morganwg, ac yn rhodd yr hon yr oedd bywioliaeth plwyf Llangan Trwy y cydgyfarfyddiad hwn o ffafrau, pan y daeth personoliaeth y plwyf a enwyd yn wag, yn 1768, y dewiswyd Mr. Jones yn offeiriad Llangan, ac efe ar y pryd hyny yn 33 oed. Y mae Llangan yn yr oes hon yn air teuluaidd ar bron bob aelwyd yn Nghymru, ond y mae ei enwogrwydd yn hollol berthynasol, fel Llangeitho, Nefern, a manau dinod eraill; ac am Langan fychan, wledig a diaddurn, ni wybuasai un o bob cant yn Nghymru ddim am dano oni buasai i'r efengylydd gwresog Dafydd Jones gysylltu ei enw ag ef. Plwyf yn nghanol gwlad ydyw rhwng Penybont a Phontfaen, yn sir Forganwg, ac yn esgobaeth Llandaf. Cafodd Mr. Jones y maes newydd hwn yn llawn drain a mieri, yn anialwch, ac yn drigle bwystfilod rheibus anwiredd. Yr oedd y gwylmabsant a'r ofergamp mewn llawn rhwysg, a difrawder ysbrydol yn gorwedd fel hunllef tros wyneb yr holl wlad, ac yr oedd dyfodiad gwr o dalentau Mr. Jones i ardal yn y fath agwedd fel gwawr bore ar ol nos dywell. Colled Trefethin a fu yn enill i Langan; amddifadrwydd sir Fynwy, a fu yn olud i Forganwg, ie, i Gymru oll. Yn awr, daeth i raddau helaeth yn feistr arno ei hun; yr oedd yn rhydd oddiwrth awdurdod perigloriaid nad allent gydymdeimlo a'i ysbryd. Nid hir y bu yn Llangan cyn i'r trigolion deimlo swyn ei weinidogaeth; canys yr oedd gwres yn ei eiriau, a min ar ei bregethau. Dechreuodd yr eglwys gael ei llenwi â gwrandawyr, ac ymgasglai pobl lawer i'w wrando o wahanol ardaloedd. Yr oedd rhywbeth yn ddymunol yn ei olwg allanol—dyn o faintioli canolig, crwn ei gorph, llydan ei ysgwyddau, goleu ei wallt, llygaid mawrion, duon a siriol, trwyn mawr Rhufeinig, a holl drem y wyneb yn enill serch y gwrandawyr. Yr oedd yn meddu hefyd ar dymher addfwyn, llais soniarus, ac ysbryd eang ac efengylaidd, ac fel meddyliwr, yn drefnus, effeithiol, a phwrpasol iawn. Yr oedd y mwyaf toddedig o holl bregethwyr Cymreig ei oes. "Efengylwr Llangan" y gelwid ef. Yr oedd erlidigaeth yn toddi o flaen ei hyawdledd addfwyn, fel y tawdd ia o tan dirion wres yr haul; ac oherwydd hyn cafodd lai o gamdrin gan y gelynion nag odid un o'i frodyr. Yr oedd un tro yn pregethu yn mhentref Llanbedr Dyffryn Clwyd, o tan ffawydden frigog ar fin y ffordd fawr, a haid o ddiriaid anwar wedi dyfod yno o bwrpas erlid, yn cynwys bechgyn didoraeth Ysgol Ramadegol tref Rhuthyn, ac yn cael eu blaenori gan lefnyn unllygeidiog o gigydd meddw a digydwybod. Yr oedd y bodau hyn wedi ymrithio yn mhob

Digitized by Google

drychiolaeth hyll ac annaturiol, er dangos eu hunain gan erchylled byth ag oedd modd—rhai mewn masciau ceffylau, ac eraill wedi pardduo eu hwynebau. Gadawsant iddo weddio ac i'w gyd-deithydd pregethwrol draddodi pregeth fèr, ac ni fynent ychwaith ymyraeth ag ef hyd oni ddywedai ei destun. Yn wir, credir fod y weddi wedi gafael ychydig yn nghalon blaenor y gâd, ac yn peri yr oediad hwn. Y testun oedd, "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn;" ac yr oedd breichiau yr erlidwyr yn diffrwytho yn swn nerth tyner ei hyawdledd. Yr oedd rhywbeth yn effeithiol yn ymadroddion cyntaf y bregeth, "Llefarodd hwn lygaid i ddeillion, llefarodd glustiau i fyddariaid, llefarodd draed i gloffion, llefarodd iechyd i gleifion, llefarodd gythreuliaid allan o ddynion, ie, llefarodd fywyd i feirwon; a gall wneud yr un peth eto, &c." Yr oedd hyn yn ddigon i ladd yr elyniaeth; "Ni lefarodd dyn erioed fel tithau," ebai y cigydd, "a myn d—l, mi fynaf chareu teg i ti lefaru; a'r cyntaf un a wna ddim iti mi dalaf i'w groen o." Y terfysgwyr a ollyngasant y ceryg, y baw, a'r ffyn, yn ddiarwybod o'u dwylaw; gan wrandaw yn astud ar yr hwn y daethant yno o bwrpas i'w labyddio. Ychydig dyddiau ar ol hyn, cyfarfu y cigydd crybwylledig â'r hen flaenor parchus Robert Llwyd, a gofynodd iddo, "Pryd y daw Jones Llangan yma eto? Dywed wrtho, y caiff o bregethu ar ben y dref; a gwae fydd i'r neb a geisio ei rwystro. Mae Jones yn bregethwr iawn—yn gwneud ei hun yn bechadur fel ninau." Dyna farn un o werin anniwylliedig ei oes am dano. Fel engraifft bellach o nerth toddiadol ei weinidogaeth, cana Williams o Bantycelyn, wrth gynghori Nathaniel Rowlands:—

> Ti gei help gwir efengylwr,
> Dafydd onest o Langan,
> Dawdd y ceryg a'i ireidd-dra;
> A thrwy rym ei 'fengyl fwyn,
> Gwna i'r derw mwyaf caled
> Blygu'n ystwyth megys brwyn."

Yr oedd yr ireidd-dra hwn wedi ei ieuo gyda'r dewrder a'r penderfyniad mwyaf di-ildio. Fel y crybwyllasom, yr oedd gwylmabsant a chyfarfodydd i ofera mewn llawn fri yn Llangan cyn ei ddyfodiad ef i'r lle. Cynelid cyfarfod o'r fath yn agos i'w blwyf mewn lle a elwir Llanbedr ar Fynydd. Prif wylmabsant y wlad ydoedd; a phenderfynodd Mr. Jones wneud cais at ei ddarostwng, nid trwy lymder y gyfraith ond trwy fwynder yr Efengyl. Aeth yno i ganol yr wyl; a llwyddodd nid yn unig i'w dyrysu ond i'w dileu, nid am flwyddyn ond am byth; a rhag y digwyddai godi o'r ysbryd aflan hwnw, parhaodd i fyned yno bob Sul gwylmabsant am ddeng mlynedd a'r hugain. Yr oedd yn eithaf naturiol i wr o'i ysbryd effro ef gydymdeimlo ag ymdrechion yr offeiriaid a elwid yn Fethodistaidd. Cymerodd ran flaenllaw iawn yn y symudiad hwn; rhestrid ef yn mhlith eu harweinwyr; a bu yn teithio Deheu a Gogledd tan eu baner. Yr oedd yn gryf tros Fethodisteiddio yr Eglwys, ond yn un o wrthwynebwyr mwyaf egniol eu hymneilldua fel enwad, a chaniatau y fraint iddynt o ordeinio gweinidogion i weinyddu yr ordeiniadau o'u plith eu hunain. Yr oedd yr eglwys yn rhy gul ei therfynau i'w ysbryd rhydd ac eang ef; ond yn hytrach nag adeiladu corlan arall, gwell fuasai ganddo ef helaethu cyffiniau yr un oedd eisioes wedi ei hadeiladu. Oherwydd ei fawr ddylanwad yn y wlad, bu ar ffordd yr ysgariad hwn am flynyddau; ac wedi ei symudiad ef trwy angau, ni buwyd fawr o dro yn dwyn y rhwygiad i ben. Ei amcan oedd lleihau nifer sectau trwy eu toddi yn nghwres cariad

Digitized by Google

brawdol yn un a'u gilydd, ac o ganlyniad yr oedd ymraniadau yn groes i'w ysbryd addfwyn ef. Heddyw, byddai yn pregethu yn yr eglwys, gan gyflawni gwasanaeth yn ol ffurf awdurdodedig y canonau; y foru yn nghapel yr Arglwyddes Huntingdon yn Llundain; drenydd, mewn hen ysgubor yn anerch torf o wrandawyr Methodistaidd; a thradwy, yn cadw *society*, er cysuro a chryfhau y rhai gwan eu meddwl. Yr oedd yn un o'r rhai cyntaf i bleidio Cymdeithas Genadol Llundain, a phenodwyd ef i draddodi pregeth genhadol yn ail gyfarfod cyffredinol y gymdeithas hono yn Llundain, sef Mai 13eg, 1796. Cafodd ei bregeth ganmoliaeth uchel, a chyhoeddwyd hi yn y gyfrol gyntaf o'r *Missionary Sermons*. Ystyrid ef yn "gasglwr" diail; ac ni byddai un amser yn ymweled â threfi Lloegr heb fyned âg achos rhyw gapel neu ysgoldy mewn lle tlawd yn Nghymru gyd ag ef, a dychwelyd â swm da yn ei boced adref. Efe oedd â'r llaw flaenaf yn nghodiad capel Salem, Pencoed, yr hwn sydd o fewn rhyw dair milldir i Langan, ond mewn plwyf arall. Dyma un o'r capeli cyntaf o eiddo y Methodistiaid yn sir Forganwg, wedi gadael allan y Groeswen a'r Aberthyn. Dangosai serch mawr at y capel hwn, ac yn ei ymyl y claddodd ei anwyl wraig, Sina. Fel y crybwyllasom cafodd Mr. Jones lai o'i erlid gan y werin na memawr un o'i gydlafurwyr, ond profodd aml dro ddanedd yr uwchafiaid gelynol. Bu un boneddwr yn ei blwyf yn elyn chwerw iddo a dangosai ei ddygasedd dan yr esgus ffol "fod yr eglwys yn cael ei dryllio," gan y lluaws pobl a gyrchai iddi! Achwynwyd arno yn fynych wrth yr esgob;—ei fod yn pregethu heb un llyfr; ei fod yn achlesu pobl o blwyfau eraill i ddyfod i Langan; a'i fod yn teithio yn afreolaidd ar hyd ac ar led yr holl wlad. Gwyddai yr esgob werth y gŵr yr achwynid arno, a gwyddai y codai llawer o'r achwyniadau oddiar genfigen a drwg-deimlad; am hyny gadawai iddynt, dros gryn dymhor, syrthio i'r ddaear yn ddisylw, eto o'r diwedd tybiodd fod yn rhaid iddo ei alw i gyfrif. "Mr Jones," ebe esgob Barrington wrtho, "mae yn ddrwg genyf ddywedyd wrthych fod achwyniadau yn eich erbyn wedi dyfod ataf. Dywedir eich bod yn pregethu mewn lleoedd anghysegredig." "Naddo erioed fy arglwydd," ebe yntau, "pan y rhoes Mab Mair ei droed ar y ddaear, *cysegrodd* hob modfedd arni; heb hyny, yr wyf yn ofni, na wnaethai uurhyw gysegriad o eiddo eich arglwyddiaeth ddaioni yn y byd." Y canlyniad fu i Mr. Jones gael llonydd i fyned rhagddo fel arferol. Pan symudwyd Dr. Barrington, ac i Dr. Watson dd'od i'w le, ail ymosodwyd ar Mr. Jones, trwy ddwyn yr hen gyhuddiadau yn ei erbyn wrth yr esgob newydd. Effeithiodd yr achwynion hyn ar yr esgob, nes iddo, ar yr un pryd, benderfynu llesteirio Jones i fyned allan o derfynau ei blwyf. Ar achlysur *ymweliad*, cafodd yr esgob fantais i ymliwio âg ef yn y Bontfaen, gan ddywedyd y byddai yn rhaid iddo ymgadw o fewn terfynau ei blwyf ei hun, o leiaf nes y ca'i le i gredu fod ei holl blwyfolion wedi eu troi at Dduw. Atebodd Mr. Jones ei arglwyddiaeth, yn ostyngedig a mwynaidd, na allai lai na chydsynio â'r galwadau taerion a anfonid ato o fanau yr oedd y bobl yn marw o eisiau gwybodaeth, a'r offeiriaid yn esgeulus o'u dyledswydd. "Os felly," ebe yr esgob, "rhaid i mi ddefnyddio moddion i'ch attal." "Hyny a ellwch fy arglwydd, ond nid allaf fi newid fy mhenderfyniad." Rhyfeddai yr esgob at gymaint o ddiosogrwydd a mwyneidd-dra ynghyd, a gofynai, "A oes genych chwi deulu, Mr. Jones?" "Oes fy arglwydd," ebe y periglor, "y mae genyf wraig a thri o blant." "Wel," ebe yr esgob, wedi lliniaru yn ei wedd a'i lais, ni allaf mewn un modd feddwl gwneyd niwed i chwi;

Digitized by Google

ond gwnewch hyn ar fy nghais, peidiwch a myned i blwyfau P——h ac Ff——— ; mae offeiriaid y plwyfydd hyny yn dra chwerw tuag atoch." "Hyny wnaf fy arglwydd," ebe Jones. Boddlonodd yr esgob, a chadwodd Jones ei air. Yn 1792, claddodd Mr. Jones ei anwyl a'i dduwiol wraig, Sina. Y flwyddyn ganlynol bu ar fin priodi â merch y meddyg enwog Read, o Bont-y-moel, gerllaw Pontypool; ond newidiodd y foneddiges ei meddwl y dydd o flaen diwrnod penodedig y briodas. Wedi hyny, priododd foneddiges gyfrifol a chrefyddol o Manorowen, ger Abergwaun, yn sir Benfro; a gwnaeth ei gartref gyda hi; ond parhaodd i ddyfod i Langan yn fisol hyd ei fedd. Ganwyd iddo dri o blant o'r wraig gyntaf—dau fab a merch. Cododd un o'r meibion yn offeiriad. Priododd ei ferch dyddynwr parchus yn yr ardal, o'r enw Mr. Llewelyn, a mab iddi yw y parchedig Dr. Llewelyn, deon Tyddewi, a phrif athraw Coleg Dewi Sant, Llanbedr. Y gymanfa olaf y bu ynddi, wythnos cyn ei farwolaeth, ydoedd cymanfa Llangeithio, yn nechreu Awst, 1819. Pwnc mawr y cymanfaoedd y blynyddau hyny oedd neillduad gweinidogion gan y gyfundeb—i'r hyn yr oedd Mr. Jones, ac amryw o'r "offeiriaid" Methodistaidd eraill, yn dra gwrthwynebol. Pregethodd yn y gymanfa hono gyda hwyliau neilldnol; a pregethodd ar ei ffordd adref yn Capel Newydd, sir Benfro, a hon oedd ei bregeth olaf. Cyrhaeddodd Manorwen ddydd Gwener, y 10fed o Awst, ; a ddeallwyd yn fuan fod ei amser ar ben. Yr oedd yn marw yn hyderus, gan bwyso ar yr adnod hono, "Diau yn yr Arglwydd mae i mi gyfiawnder a nerth." Dywedodd wrth ei forwyn nos Sadwrn, "Lettice fach, mae yma lonaid tŷ o weision lifrai y nef wedi dyfod i gyrchu fy enaid tuag adref. Paid a chymeryd ofn, da merch i, os tarewi wrth esgyll rai o honynt." Bu farw cyn toriad gwawr boreu Sabbath, Medi 12fed, 1810, yn 75 mlwydd oed. Nid ydym yn gwybod i Mr Jones roddi dim o bwys o ffrwyth ei feddwl drwy y wasg. Gwelsom ychydig o emynau melys o'i waith yn argraffedig yn y *Drysorfa* am 1862, t.d. 300.

JONES (Cadben David), ydoedd fab i John Jones, boneddwr tiriawg yn bywyn Llwynrhys, plwyf Llanbadarn Odyn, ,sir Aberteifi; ac yn frawd i'r Parch. Jenkin Jones gweinidog Presbyteraidd yn y gymydogaeth hono. Yr oedd yn gadben yn y *Life Guards* yn amser Gwilym III., ac yn llygad-dyst o'r prif ddigwyddiadau yn Holland. Efe a ysgrifenodd y gweithiau canlynol :—1, "History of King William III., 1702;" 2, "The Antiquities of Nations, more particularly of the Celts or Gauls, taken to be originally the same people as our Ancient Britons. By Mons. Pezron. Englished by Mr. Jones, London, 1706;" 3, "The Secret History of Whitehall." Enwir ef, oddiar dybiaeth, yn awdwr amryw lyfrau dysgedig eraill.—*Lleyn MSS.*

JONES (Parch. David), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Ngwynfe, sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn 1788 yn Brynblawd, plwyf Llanfihangel, yn y sir uchod. Cafodd ddysgeidiaeth dda, ac yr oedd yn wr o gyneddfau cryfion, ac yn ddarllenwr mawr. Nid oedd odid gangen o wybodaeth nad oedd ef yn gydnabyddus â hi, ac yr oedd yn fedrus fel meddyg anifeiliaid. Ysgrifenodd lyfr gwerthfawr, tan y teitl, "Y Ceffyl," a phrofir ei fod yn llenor gwych trwy draethodau gwerthfawr a gyfranodd o bryd i bryd i *Leuad yr Oes, Yr Efengylydd*, a'r *Diwygiwr*. Yr oedd yn 31 oed pan y dechreuodd bregethu, ac urddwyd ef yn weinidog eglwys Gwynfe Gorph. 3, 1822. Er hyned ydoedd yn dechreu, daeth yn bregethwr nerthol iawn, a bu ei weinidogaeth yn foddion i wneuthur

Digitized by Google

lles mawr. Gweinidogaethodd hefyd ar wahanol amserau yn Siloam, Pontargothi, a Crugubar, mewn cysylltiad â Gwynfe; a thrwy ei offerynoliaeth ef yn benaf y sefydlwyd achos yn Mhontargothi. Bu farw mewn heddwch wedi pregethu am 37 o flynyddau, yn ei amaethdy diardreth ei hun, sef Pontarfon, Ebrill 29, 1859, yn 71 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Capel Isaac, y capel y derbyniwyd ef gyntaf at crefydd.—*Lleyn. MSS.*

JONES (Edmund), Ysw., ydoedd frodor o Buckland yn sir Frycheiniog. Bu yn Brif Ynad tref Aberhonddu. Yr oedd yn aelod seneddol am y sir yn seneddau cyntaf Cromwell, 1654—5. Yr oedd hefyd yn Gyfreithiwr Cyffredinol Cromwell dros Ddeheudir Cymru. Er hyny darfu i blaid yn y Senedd ei anmheu fod yn bleidiol i'r Freninoliaeth, a chodi cyhuddiad yn ei erbyn, a diraddiwyd ef o'r Ty; a chynygiwyd a chefnogwyd fod iddo gael ei anfon i'r Tŵr; ond ni wyddys a wnaed hyny. Gwnaeth amddiffyniad da ohono ei hun, er yn ddilwyddiant. Ar adferiad Siarl II., cafodd Brif Ynadiaeth Aberhonddu a Chaerfyrddin.—*Lleyn MSS.*

JONES (Parch. Edmund), o'r Trans, neu fel yr adwaenid ef oreu, yr "*Hen Brophwyd o Bontypwl,*" gweinidog defnyddiol gyda'r Annibynwyr yn ystod y ganrif ddiweddaf, ag iddo gredo cref mewn ysprydion ag sydd wedi ei wneud yn hynod yn mhlith ofergoelwyr yr oesau. Ganwyd ef yn Penyllwyn, plwyf Aberystruth, sir Fynwy, Ebrill 1, 1702. Yr oedd ei rieni, John Lewis a Chatherine Morgan, yn bobl gyfrifol a moesol; a chafodd eu bachgen Edmund addysg lled dda ganddynt, a'i ddwyn i fynu yn grefyddol. Bwriadent ar y cyntaf wneud pregethwr ohono, ond oblegyd nad oedd yn ei feddwl ogwyddiad cryf at y gwaith hwnw, nac yn ei galon ond ychydig gymhwysder i'r swydd, rhoddasant hwy y bwriad heibio. Pa fodd bynag, ymunodd y gwr ieuanc ag eglwys Penymain ac Abertyleri, yn 1721. Ni wyddis yn iawn yn mha le yr urddwyd ef; tybia rhai mai yn Nghwm Ebbwy Fawr y cymerodd hyny le, ond nid oes dim sicrwydd ar y pwnc. Ymsefydlodd fel gweinidog yn Ebenezer, Pontypwl, yn Nghorphenaf 1740. Yn flaenorol i hyn bu mewn dadl frwd gyda Miles Harry ar y pwnc o Fedydd. Cynaliwyd y ddadl hon am flynyddoedd, nes darfu i'r werin flino arni, a rhoddwyd terfyniad iddi yn Merthyr mewn cynadledd o'r ddwy enwad. Er fod gan yr Annibynwyr eglwys fechan yn Pontypwl cyn dyfodiad yr Hen Brophwyd atynt i'w bugeilio, amlwg yw nad oedd ganddynt gapel, ac mai cydymgynull mewn tai anedd y byddent; a thrwy ei lafur ef yn benaf y cyfodwyd Ebenezer, yr hwn a saif tros filldir o'r dref, mewn gallt o goed; a chyfranodd y gweinidog o'r deugain punt oedd ganddo ar ei elw ddeg punt ar hugain tuag at y draul o'i adeiladu. Yr oedd hon yn rhodd led dywysogaidd yn yr oes hono, ac yn profi mai gwr hael ac ymddiriedgar yn Nuw oedd y rhoddwr. Nid hon ydyw yr unig engraifft sydd ar gael o'i haelioni a'i elusengarwch. Yr oedd un tro wedi bod yn ymweled a chyfaill, yr hwn a'i hanrhegasai ag arian i brynu brâg i ddarllaw erbyn y gauaf, pan y digwyddodd iddo droi i dy yn Mhontnewydd, lle yr oedd y plant yn llefain am fwyd. Ar ol ymchwilio i'w hamgylchiadau, deallodd nad oedd ymborth yn y ty, na modd i'w brynu. Yr oedd hyn yn ddigon. Gadawodd arian y brâg i borthi y teulu newynllyd, a chanfyddodd erbyn cyrhaedd adref fod rhyw gyfaill wedi anfon gwerth yr arian o frâg yno at ei wasanaeth. Hyderwn na arweinia hyn ein darllenwyr i feddwl ein bod ni yn credu fod Rhagluniaeth yn ystyried cwrw yn angenrheidiol i neb. Bryd arall

Digitized by Google

cyfarfyddai a thlawd ar y ffordd, pan nad oedd ganddo ond deunaw ceiniog yn ei logell. Dichon fod amryw o'n darllenwyr yn deall mai nid mynych y treulir llogellau gweinidogion Ymneillduedig gan ormodedd o arian. Buan y darfu i daerni y cardotyn dynu chwe' cheiniog o logell led-wâg ein hen gyfaill tosturiol. Ond wedi troi ei gefn, dechreuodd ei galon ei boeni, am ei fod wedi rhoddi cymaint. Yr oedd yr hen wr a'i galon yn dygwydd ffraeo ar brydiau, ac aeth yn ffrae ben ben ar y ffordd. Gwaeddodd yr Hen Brophwyd ar ol y tlawd, yr hwn a ddychwelodd mewn braw mawr, rhag y buasai raid iddo roddi y chwe' cheiniog yn ol; ond yn lle hyny, yr oedd wedi digio cymaint wrth ei galon, fel yr rhoddodd iddo bob ffyrling yn ei feddiant. O ran ei amgylchiadau teuluaidd, yr oedd Mr. Jones yn ddedwydd iawn. Er na wyddom merch pwy oedd Mrs. Jones, na pha bryd yr ymunodd â'i phriod er gwell ac er gwaeth, gwyddom ddigon i beri i ni gredu ei bod yn wraig dda a rhinweddol. Yr oedd, ar lawer ystyr, yn "ymgeledd gymhwys," ac yn "wir gydmar." Nid anhebyg fod ei gwroldeb yn rhagori ar eiddo ei phriod. Yr oedd yn lled hawdd ei arswydo ef ar brydiau. Ymddengys eu bod wedi priodi yn ieuanc, ac i'w serch gynyddu at eu gilydd drwy einioes faith. Trigai y ddau hen bererin yn y Trans, ty bychan ar lechwedd y bryn cyferbyniol i'r addoldy; yr oedd y pellder rhyngddynt yn ychydig dros gwarter milldir, ac nid oedd nemawr dai yn eu hamgylchu. Yn y neillduedd hwn y treuliodd y cymhariaid dedwydd eu bywydau. Cyflog blynyddol Mr. Jones oedd *ddeg punt.* Anhysbys i ni sut y cadwasant gorph ag enaid wrth eu gilydd ar y swm hwn. Bu arnynt, y mae yn debyg, eisiau angenrheidiau y bywyd hwn ar droion. Ond yr oedd rhagluniaeth yn gofalu am danynt yn aml, ac yn anfon ei chenadon i ddiwallu eu hanghenion. Yr oedd y llaw anweledig yn cyfarwyddo meddyliau cyfeillion pellenig i gyfranu i'w hangenrheidiau, a thrwy hyny, er eu bod yn aml mewn cyfyng gynghor, nid oeddynt yn ddiobaith. Pan fyddai casgliad iddo yn y ty cwrdd, byddai yn ei roddi yn llogell ei got fawr. Er nad oedd ei ffordd adref ond ber, eto, gan fod yr holl dlodion yn gofyn iddo, ac yntau yn rhoddi i bawb a ofynai, mynych y byddai heb geiniog yn ei logell cyn cyrhaedd y ty. Gallwn wenu ar ei feddalwch, ond yr ydym yn rhwym o fawrygu ei ffydd. Yr oedd Duw yn Dad, ac nid yn enw drychfeddwl i'r Hen Brophwyd a'i deulu. Fel hyn wrth fyw trwy ffydd, hwy a etifeddent yr addewidion. Yr oeddynt yn mysg yr iselraddog, ond yr oedd cenadau y nef yn gweini i etifeddion gwynfyd, a rhagluniaeth yn rhoddi llog am y deg punt ar ugain. Adroddir chwedl led nodedig am Mrs. Jones. Digwyddodd i Mrs. Jones fod oddi cartref unwaith, ac yn lletya mewn ty a flinid gan ysbryd, ac yn anffodus, nid oedd ystafell wag yn y ty, ond ystafell yr ysbryd. Ond yr oedd Mrs. Jones yn foddlon ddigon i wynebu Belial ond cael canwyll a Beibl. Cafodd y ddau, aeth i'r ystafell, ac wedi rhoi y ganwyll ar y bwrdd o'i blaen, dechreuodd ddarllen. Pan gododd ei golygon, yr oedd Belial yn gwneud ysdumiau digofus o'i blaen. Edrychodd y wraig dda yn ei wyneb mor ddigynwrf nes y dywedodd wrthi, "Mae dv ffydd di yn y ganwyll yna." "Yr wyt yn dywedyd celwydd, Satan," ebe hithau, a diffoddodd y ganwyll mewn amrantiad. A diffoddodd Satan, fel diffodd y ganwyll, ac ni roddodd flinder mwyach i neb yn ystafell yr ysbryd. Ond teithiodd y wraig dda i ben ei gyrfa ddaearol tua 23 mlynedd o flaen ei phriod. Ysgarwyd yr anwyliaid cariadlawn, wedi eu hir ymdaith anwylaidd. Wedi cymdeithas mor felus ar y ddaear, nid rhyfedd

Digitized by Google

ei fod yn dywedyd, "Ni fynwn er haner y nefoedd fod heb ei chyfarfod yno." Ysgrifenodd feddargraff iddi, yn yr hwn y rhoddodd ffrwyn ar war ei awen yn yr iaith Seisnig. Yr oedd Mr. Jones yn Galfin o'r fath Galfinenddiaf, ac yn elyn annghydmodlawn i Ariaeth ac Arminiaeth. Nid oedd y Bedyddwyr ychwaith nemawr mwy uniawngred yn ei olwg, y rhai a alwai bob amser yn Ail-fedyddwyr. Yr oedd yn feddyliwr llym iawn, ac edrychai ar bob un nad oedd llinynau esgeiriau ei gredo yn ogyhyd â'r eiddo ef, gyda chryn radd o anfoddlonrwydd. Bu yn cadw dyddlyfr manwl o'i fywyd am hirfeithion flynyddau, ac yn hwnw y mae yn tywallt aml phiolaid o'i ddigofaint ar gorynau gwadwyr Duwdod Crist, "pobl y marw tros bawb," a Throchwyr. Hawddach yw ei feio na'i ganmawl am hyn, yn yr oes bresenol; ond dylem gofio ei fod ef yn byw tan linell y cyhydedd crefyddol, pan yr oedd credoau dynion newydd eu mwydo â dagrau, a'u bedyddio â gwaed. Pan wyrodd un o athrawon coleg Caerfyrddin at Ariaeth, ac y penderfynodd yr Annibynwyr fynu athrofa iddynt eu hunain yn Abergafenni, yr oedd Mr. Jones yn un o bleidwyr gwresocaf y symudiad; a bu fel tad a chyfarwyddwr i'r myfyrwyr am hir amser. Yr oedd hefyd yn fath o athraw duwinyddol iddynt. Yr oedd ei ddiwydrwydd darllengar wedi cynysgaeddu ei feddwl ag ystorfa eang a gwerthfawr o wybodaeth; ac yr oedd unplygrwydd ei yspryd, a glendid moesol ei fuchedd, wedi ei wneud yn garitor hawdd ei garu hyd yn nod gan dduwiolion pendefigaidd yr oes. Yr oedd yn gohebu â'r arglwyddes Huntingdon, a phob amser yr ymwelai hi â Threfeca, treuliai yr Hen Brophwyd rhyw ychydig ddyddiau yno gyda hi. Pregethai unwaith yn y dydd yn gyffredin yn ystod ei ymweliad; ac yr oedd ei ddull hollol Buritanaidd, ei lais gwan, a'i draethiad araf, ei athrawiaeth drwyadl efengylaidd, a'i brofiad toreithiog, yn ei wneud yn dra hoff gan tyfyrwyr yr athrofa yno. Boddheid yr arglwyddes hefyd yn fawr gan ei ymweliadau, ac ar ol un o'r tymhorau adfywiol hyn, ysgrifena fel y canlyn at un o'i chyfeillion :—"Mae yr hen Brophwyd anwyl a daionus wedi ein gadael! O y fath Sant i Dduw ydyw! mor ymdrechgar! mor fywiog! mor weithgar, a phob amser yn sychedu am gymundeb â Thad y goleuni. Diau y bydd i'w anerchiadau cynhyrfus i'r myfyrwyr, a'i weddiau glewion am ei ilwydd, adael bendith ar eu hol." Yn 1780, er ei fod ar fin ei 78 oed, ceir profion fod ei feddwl yn parhau yn effro, canys yn y flwyddyn hono cyhoeddoedd, "Hanes Plwyf Aberysruth;" ac yr oedd yn prysur gasglu enwau er rhoddi "Hanes Drychiolaethau," yn y wasg. Y mae y blaenaf yn cynwys cofnodion tra gwerthfawr mewn ystyr hanesyddol, ond ar yr olaf y mae neillduolion anfarwoldeb yr Hen Brophwyd wedi eu sylfaenu, Er cymaint darllenydd ydoedd, er cymaint ei lafur fel pregethwr (ac yr oedd hwnw yn fawr iawn, canys pregethodd yn fynych tros dri chant o weithiau yn y flwyddyn), ac er uwched y safai yn marn y wlad yn ei oes, rhaid ini gydnabod mai fel prophwyd a chredwr mewn ysprydion y sonir mwyaf am dano yn yr oes hon. Ysgrifenodd Mr. Jones lyfr cyfan am y boneddigion hyn. Cynwysai hanes eu hymddangosiad yn swydd Fynwy yn neillduol, a thrwy Gymru yn gyffredinol. Ni chynghorem bobl wan eu cyhyrau i ddarllen y llyfr hwn ar ddechreu-nos, wrth oleu canwyll frwyn yn crogi oddiwrth fantell y simnai. Am eu gwirionedd nid ydym ni yn ymrwymo, ond gellir dyweyd nad oedd Mr. Jones yn unig yn ei gred. Yr oedd llawer o'r bobl hyn yn ddynion o ddysg a synwyr, ac amryw ohonynt yn weinidogion yr efengyl Nis gallwn gredu fod yr holl ddynion hyn yn rhuthro i

Digitized by Google

'ddywedyd anwiredd gwirfoddol. Yr oeddynt hwy mor sicr o'u cred, yn eu meddwl eu hun, ag ydyw un boneddig sydd heddyw â chwip frwyn yn ei law yn ffrewyllu eu hygoeledd. Nid dyliaid celwyddog oedd Glanville, Baxter, Burton, Morton, Kircher, Le Brun, Gerson, Mather, Ambrose, a Luther. Dichon eu bod yn camgymeryd yn chwithig; ond yr oeddynt yn ddifrifol. Nid oeddynt yn twyllo y byd yn wirfoddol. Credai Mr. Jones fod y cythraul yn ei aflonyddu yn ei wely, a meddyliai fod yr epil ddu yn trigo mewn cwn a chathod. Os ymwelai â chyfaill, dymunai arno rwymo ei Sataniaid, nes yr elai ef ymaith; os deuent i'r addoldy, nis gallai yngan gair nes eu bwrw allan gan Dafydd Josuah, y pastynwr swyddogol; ac os cyfarfyddai a hwynt ar y ffordd, nid bychan oedd ei arswyd. Unwaith cyfarfyddodd a chi William Jayne, cyfododd ei fugeilffon gan feddwl gwrthwynebu y diafol; ond yn lle ffoi oddiwrtho, neidiodd y diaflyn ci i'w bastwn, nes y dolefai yr hen wr mor druenus a phe y buasai haid o gwn anwn ar ei sodlau. Nid oes na dadl nac amheuaeth na ragddywedodd Mr. Jones amryw bethau lled ryfedd. Yr oedd pobl ei oes ei hun yn cydnabod hyny, ac y mae wedi gadael i ninau yn yr oes hon rai amgylchiadau i roddi prawf o'i gywirdeb. Yr oedd yn cael ei ystyried fel oracl, ac ufuddheid ei orchymynion mewn materion mor bwysig a phriodas yn achlysurol. Yr oedd hefyd yn arfer rhagddywedyd a phrophwydo llawer am yr hin. Ond er ei holl hynodrwydd bu yntau farw. Parhaodd i bregethu hyd o fewn blwyddyn i'w farwolaeth, a chladdwyd ef yn mynwent Ebenezer, lle y ceir beddfaen, ac y mae hefyd gofadail fechan yn yr addoldy. Dyna y gwr ag y mae ei enw yn air teuluaidd yn Neheudir Cymru. Cyfarfyddasom ag un a chwiliai gredoau duwinyddol gyda'r llymder miniocaf, ond a dderbyniai gredoau poblogaidd heb un ymofyniad yn eu cylch. Yr oedd ef yn wr a allai anturio i ganol twr o feddwon ymladdgar, ac a ddolefai "tangnefedd yn y ty hwn," nes y dystawai yr holl udiadau Babelaidd, ac eto a ofnai ar yr un dydd, a bron yr un awr, weddio gyda hen wraig glaf rhag mai hen swynwraig ydoedd hi. Cyflwynai ei holl amgylchiadau ei hun i ofal Duw; ond ymgynghorai â'r planedau am dynged eraill. Yr oedd yn gwybod am ofal Duw am ei blant, ond crynai fel dail yr aethnen rhag y cythreuliaid a fodolent mewn ci neu gath. Credai ei fod dan nodded uniongyrchol yr Hollalluog, ac eto rhaid oedd rhwymo ci cyn y gallai fod yn gysurus. Yr oedd fel ei oes, yn meddu pob cryfder, ac yn berchen pob gwendid. Gallasai deilen ei ddychrynu, a gallasai fod yn dawel pe yr ymdreiglasai y mynyddoedd i ganol y mor. Am wybodaeth helaethach yn nghylch yr Hen Brophwyd, gweler ysgrif alluog yn yr *Adolygydd* cyf I., o waith yr athrylithlawn IEUAN GWYNEDD, i ba un yr ydym yn ddyledus am ddefnyddiau y cofiant hwn.

JONES (EDWARD), ydoedd delynor enwog, yr hwn y darfu i'w athrylith uchel a feddianai ei ddwyn yn more ei ddyddiau i sylw rhai enwogion ac uchelraddolion, o dan gefnogaeth y rhai y gallasai ddyfod i fri a chyfoeth; ond gan ei fod o duedd naturiol ddiymgais, dewisodd fywyd lled anghyhoedd, a bu farw yn Nhaerffili, yn 1814.—*Lleyn MSS.*

JONES (EDWARD), D.D., esgob Llanelwy, a anwyd yn Llwynrhyryd, ger Trefaldwyn. Addysgwyd ef yn Westminster, o ba le yr etholwyd ef i goleg *Trinity*, Caergrawnt, lle y daeth yn gymrawd yn 1667. Ar ol hyny, aeth trosodd i'r Iwerddon, lle y bu yn athraw coleg Kilkenny, ac yn esgob Cloyne; ac yn 1692, symudwyd ef i fod yn esgob Llanelwy. Yr oedd y dyrchafiad olaf hwn yn ddyledus hollol i'r ffaith ei fod yn

Digitized by Google

Gymro, ac er mwyn lluddias i glerigwr arall, o ddysgeidiaeth a phrofiad uchel, gael y swydd. Yr oedd y gwr teilwng hwnw wedi tramgwyddo Dr. Tennison, archesgob Caergaint, trwy gymeryd rhan yn nghynadledd eglwysig 1689. Tua 1699, atalliwyd yr esgob Jones am chwe' mis oblegyd ei fod yn euog o simoniaeth, sef camarfer yr eiddo eglwysig. Bu farw yn Westminster, Mai 10, 1703; a chladdwyd ef yn eglwys blwyfol St. Margaret.—Willis' *Survey of St. Asaph.*

JONES (EDWARD), neu *Bardd y Brenin*, telynor enwog, a anwyd mewn ffermdy o'r enw Henblas, yn mhlwyf Llandderfel, sir Feirionydd, yn y flwyddyn 1752. Yr oedd ei dad yn meddu cryn lawer o awen gerddorol, canys nid yn unig gallai chwareu amryw offerynau cerdd, ond medrai hefyd eu saernio. Dysgodd i ddau o'i feibion, Edward a Thomas, chwareu y delyn Gymreig, mab arall i chwareu y *Spinnet*, ac arall y crwth, ac yntau ei hun a chwareuai ar organ. Tua 1774, aeth Edward i fynu i Lundain, o tan nawdd amryw foneddigion Cymreig. Ystyrid ef yn delynor campus, oherwydd ei allu i arddangos chwaeth, teimlad, a phwysleisiad priodol gyda'r offeryn. Cafodd gefnogaeth wresog, a bu yn rhoddi gwersi ar y delyn i luaws o foneddigesau uchelradd. Penodwyd ef yn delynor i Dywysog Cymru yn 1783, ond nid oedd y swydd hono ond un fygedol a di-dâl. Yn 1784, cyhoeddodd ei lyfr tra gwerthfawr hwnw, "Musical and Poetical Relics of the Welsh Bards," yr hwn a ail argraffwyd, gyda chwanegiadau, yn 1794. Cyhoeddodd hefyd lyfr arall o'r un natur yn 1802, o tan y teitl, "Bardic Museum, of Primitive British Literature." Y mae y rhai hyn yn llyfrau gwir werthfawr a dyddorol, ac yn cynwys sylwadau ar yr hen alawon Cymreig. Yn 1820, cyhoeddodd ran o gyfrol arall, eithr lluddiwyd ef i'w gorphen gan afiechyd. Bu hefyd yn dra diwyd yn casglu hen lyfrau prinion, ac yr oedd ganddo ystorfa helaeth a gwerthfawr o'r cyfryw; ond gan ddyfod ohono yn analluog i ddilyn ei broffeswriaeth, a'i fod yn meddu ysbryd rhy annibynol i hysbysu ei gyfeillion o'i gyfyngder, efe a'u gwerthodd hwynt a rhan fawr o'i lyfrgell, er mwyn cael arian at fyw. O'r diwedd, daeth ei galedi yn hysbys i lywodraethwyr Cymdeithas Freninol y Cerddorion, y rhai yn ddioedi a roddasant iddo swm o £50, yn y flwyddyn, yn ddiarwybod iddo ei hun hyd oni dderbyniodd yr arian. Pa fodd bynag, ni chafodd ond byr amser i'w mwynhau, a bu farw yn Marylebone, Ebrill 18, 1824, yn 72 oed. Gadawodd o'i ol luaws o lyfrau prinion, a thwysged o gerddoriaeth, y rhai a arwerthwyd yn gyhoeddus yn Chwefror 1825, a chafwyd am danynt £500, ac yr oedd yntau eu hun wedi gwerthu gwerth £300 cyn hyny. Y mae y llyfrau a gyhoeddodd yn ddigonol dystiolaeth i'w allu a'i athrylith. Ffrwyth dengain mlynedd o lafur ac ymchwiliad ydynt, a chludir ei enw ganddynt yn anrhydeddus i'r dyfodiant.—Wms. *Em. Welsh.*

JONES (EDWARD), o Faes y plwm, awdwr amryw o emynau poblogaidd, ydoedd fab i John Jones o Dinywaen, plwyf Llanrhaiadr Dyffryn Clwyd, lle y ganwyd ef Mawrth 19, 1761. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn Ninbych, o dan y Parch. D. Lloyd, gweinidog yr ymneilluwyr yno, ac wedi hyny yn Nghaerlleon; yr hyn a'i cyfaddasodd yn well na'r cyffredin o ysgolfeistriaid yr oes hono. Bu yn dilyn y gorchwyl hwnw gryn yspaid, ac am beth amser yn ddilynydd i'w hen athraw, y Parch. D. Lloyd. Bu hefyd beth amser yn y Custom House, Liverpool. Yn 1805, aeth i Gaerlleon i olygu argraffiad cyfieithiad o esboniad y Parch. S. Clarke, gan y Parch. J. Humphreys. Yr oedd ei babell yn cael ei

Digitized by Google

symud yn fynych hyd nes y sefydlodd yn Maes y Plwm, ffermdy yn mhlwyf Llanrhaiadr Dyffryn Clwyd; ac wrth yr enw, "Edward Jones o Faes y Plwm," yr adwaenir ef fel bardd. Dangosodd dueddfryd at brydyddu pan rhwng chwech a saith oed: a chafodd addysg led dda ac ystyried yr oes yr oedd yn byw ynddi, ac amgylchiadau canolig ei rieni, yr hyn a'i galluogodd i enill ei fywioliaeth fel ysgolfeistr am ran fawr o'i oes. Pan tua 26 oed, ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd, a pharhaodd yn aelod selog a dichlyn gyda hwynt hyd ddiwedd ei oes. Enillodd y wobr a roddid yn Eisteddfod Trallwm yn 1824 am y gân oreu ar "Ffolineb swyngyfaredd, ac ofergoelion eraill," a hyny pan oedd Bardd Nantglyn a Chawrdaf yn cydgystadlu ag ef. Er fod llawer o ragoriaethau i'r cyfansoddiad hwn, eto ni wyr y cyffredin ond ychydig am dano, a hyny yn benaf oblegyd fod yr iaith yn rhy ansathredig, ac ar y mwyaf o egni yn cael ei arddangos ynddo i foddio y glust gyda chydseiniaid yn clecian ar y draul o ddefnyddio geiriau anmherthynasol. Bu ei garol ragorol sydd yn dechreu gyda'r geiriau, "Clywch lais ac uchel lef," am amser maith yn hynod o boblogaidd; a'r un modd cân o'i eiddo ar "Ragluniaeth." Ond efe a hynodiodd ei hun yn fwy eglur fel awdwr hymnau, o ba rai y cyfansoddodd luaws, ac y mae rhai ohonynt yn para yn eu blas ac mewn arferiad yn ngwasanaeth y cysegr hyd y dydd hwn. Y penaf o'r rhai hyn ydyw, "Llon'd y nefoedd, llon'd y byd," &c.; "Cyfamod hedd, cyfamod cadarn yw," &c.; a "Cyflawnwyd y gyfraith i gyd," &c. Cyhoeddodd un gân yn erbyn y Parch. E. Jones, gweinidog gyda'r Wesleyaid, tan y teitl, "Gwialen i gefn yr Ynfyd," yr hon sydd yn arddangos cryn lawer o yspryd chwerw a sectol yr oes yr oedd yn byw ynddi. Yn 1825, symudodd o ardal Maesyplwm i Lyn y Pandy, sir Fflint; ac yn Mawrth, 1829, symudodd drachefn i Gilcen, yn yr un sir, lle y bu farw mewn oedran teg. Cyhoeddwyd ei waith gyntaf, gyda bywgraffiad, gan ei ddau fab—y Parchn. John Jones, Runcorn, a D. Jones, o Fryniau Cassia—mewn dwy ran, yn 1839; a dygwyd argraffiad arall ohono allan rai blynyddau yn ol o wasg Mr. P. M. Evans, Treffynon.

JONES (Parch. Edward), 1af, un o'r rhai a bregethodd ewyddorion Wesley gyntaf yn Nghymru. Ganwyd ef yn mhalas Bathafarn, ger Ruthin, yn 1777; ac adwaenir ef yn well wrth yr enw, "Jones Bathafarn." Cafodd addysg foreol dda yn Ysgol Ramadegol Ruthin, yr hon a fu yn un o'r ysgolion goreu yn Nghymru am lawer o oesau. Dewisodd yn ieuanc fyned i Fanceinion, i ddysgu trin cotwm, yn hytrach nag aros gartref i amaetha. Yr oedd yn fachgen o rodiad gweddus; ac yn fuan wedi cyrhaedd Manceinion, tueddwyd ef i fyned i wrando ar y Wesleyaid, ac o'r diwedd ymaelododd â hwynt yn nghapel Oldham Street. Gorfu arno ymadael oblegid afiechyd, a daeth adref at ei rieni. Nid oedd gan y Wesleyaid y pryd hwn eglwys yn Ruthin. Ond wrth ddychwelyd o Loegr, galwodd yn Nghaerlleon, a chafodd gan y gweinidogion addaw dyfod yno i bregethu. Yr oedd hyn yn niwedd 1799. Nid oes sicrwydd pa un a gyflawnwyd yr addewid hon ai naddo; ond ymroes y gwr ieuanc i ledaenu gair Duw yn mhlith ei gymydogion, gan weddio a chynghori yn eu plith. Llafuriai tan gryn anfantais yn ei ymdrechion, gan nad oedd yn gwbl alluog, oblegyd ei absenoldeb yn Lloegr, i lefaru iaith y bobl yn rhwydd. Ond yr oedd yn gwella wrth ymarfer; yn mhen yspaid anturiodd gymeryd testun; a thybir mai efe oedd y cyntaf a bregethodd yr efengyl yn ol Wesleyaeth yn Nyffryn Clwyd, os nad yn Nghymru. Yn 1800, cafodd lythyr oddiwrth y Gyn-

Digitized by Google

adledd yn mynegu fod dau bregethwr i gael eu hanfon y flwyddyn hono i bregethu Cymraeg. Yn 1802, derbyniwyd ef i'r weinidogaeth, a daeth yn gydlafurwr â'r ddau genadwr a grybwyllwyd. Pregethent yn aml yn yr awyr agored, mewn ysguboriau, a thai anedd; ac yn raddol, cynyddodd eu deiliaid, a rhoddodd llwyddiant ei sel ar eu gwaith, er fod rhagfarn ac anwybodaeth y bobl yn fawr ar eu ffordd. Yr oedd gan Mr. Jones, Bathafarn, law yn nechreuad achosion Wesleyaidd mewn llawer man yn Nghymru; ac yr oedd ei glod a'i barch yn uchel trwy yr holl eglwysi. Yr oedd ei ymddygiad boneddigaidd yn enill dynion o bob gradd i'w edmygu. Nid oedd yn enwog fel pregethwr, er hyny, yr oedd yn boblogaidd. Cyfodai ei boblogrwydd oddiar ei sel, ei hawddgarwch, a'i dduwioldeb personol, yn hytrach nag oddiar ei alluoedd pregethwrol. Derbynid unrhyw beth a ddywedai efe, pa mor ddiaddurn, gwibiog, ac annherthynasol bynag a fyddai. Yr oedd ei bregethau yn llawn o Grist. Wedi sefydlu Wesleyaeth, rhaid oedd adeiladu capeli; ac yr oedd ganddo ef law neillduol yn y gwaith hwn. Rhuthrid mewn llawer man i adeiladu capelau, pan nad oedd fawr obaith cael pobl i'w mynychu, a chan annghofio fod yr usurwr yn hawlio llog am fenthyg ei arian. Yn anterth ei sel i wneud daioni, a'i gymwynasgarwch, yr oedd Mr. Jones yn ymddiriedolwr i lawer o'r capelau newyddion; ac fel y cyfryw, yr oedd gan y gofynwyr afael arno; a bu ei garedigrwydd yn achlysur llawer o ofid iddo. Bu ddwywaith trwy Gymru yn casglu, a chrynhodd amrai ganoedd o bunau; ond er y cyfan, bu yn golledwr yn y mater. Yn 1816, cymerwyd Mr. Jones at y Saeson, yn mhlith pa rai y llafuriodd gyda chymeradwyaeth a llwyddiant hyd ddiwedd ei oes. Bu farw yn Leek, sir Stafford, Awst 26, 1837, yn 60 oed, ac wedi gweinidogaethu am 35 o flynyddau.—*Bywgraffiad Wesleyaidd.*

JONES (Parch. Edward), 3ydd, a anwyd yn Llandysilio, ger Llangollen, yn 1782. Dygwyd ef i fynu gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, eithr pan ddaeth y cenadau Wesleyaidd i bregethu i'r ardal, tueddwyd ef i fyned i'w gwrando, ac yn mhen yspaid ymunodd â hwynt. Bu ei fynwes am lawer o amser yn faes ymrysonau celyd parth athrawiaethau y ddwy enwad, ac y mae yn deilwng o sylw na thrôdd ef ei fantell heb argyhoeddiad llwyr ei bod yn well y tu arall. Y mae y cydwybodolrwydd hwn yn adbelydru mwy o anrhydedd ar ei gymeriad pan gofiom nad oedd efe y pryd hwn ond 18 oed. Bu ar fin dystryw, ar fedr dyfetha ei hun; ond yn rasol ataliwyd ef, trwy gael golwg ar ei Geidwad fel Eiriolwr, ac ymroddodd yn hoew i wasanaethu Duw. Yn 1805, dechreuodd ei weinidogaeth, a phenodwyd ef i Ferthyr Tydfil fel cenadwr. Yr oedd ganddo i *ddechreu* yr achos yno, os gallai; ac er cynifer yr anhawsderau, ymwthiodd yn mlaen. O 1804 hyd tua 1834, bu dadleuon mawrion a thanllyd, yn enwedig yn Nghogledd Cymru, rhwng Calfiniaid ac Arminiaid. Safai Mr. Jones yn rheng flaenaf yr olaf; ac nid oedd hyny ond naturiol i un y costiodd ei egwyddorion gymaint iddo, ac y daeth i afael â hwynt trwy gynifer o egnion meddyliol. Fel y dywed ei fywgraffydd, "Aeth yn elyn Calfiniaeth o galon, ac oddiar brofiad arswydus." Yr oedd rhai o lyfrau y Parch. O. Davies eisioes ar y maes, yn dysgu ac yn amddiffyn ei athrawiaethau. Tua 1818, cyhoeddwyd llyfr dan yr enw "*Ymddyddan* rhwng *Colier a Miner*, gan Hen Finer,"—yr hwn oedd wedi ei ysgrifenu mewn dull o ymddyddan, a'i amcan oedd dymchwelyd holl athrawiaethau arbenig y Wesleyaid. Mewn atebiad i hwn, cyhoeddodd Mr. Jones lyfr tan yr

Digitized by Google

enw, "Amddiffynydd y Gwir," yn mhaun y dangosodd lawer o ffraethineb, medr, ac yni; a phrofodd ei hun yn gawr mewn dadleuaeth. Tua 1826, cyhoeddwyd, "Tabl yn dangos trefn yr achosion o Iachawdwriaeth a Damnedigaeth yn ol gair Duw." Credid mai y Dr. Gill oedd awdwr y Daflen; ac ail-gyhoeddodd Mr. Jones hi, a chwanegodd ati, "Y Lladmerydd, yn cynwys sylwadau eglurhaol ar Dabl (os gwir a glywais) gan y diweddar Barch. Dr. Gill." Eglurhad Mr. Jones arni a roddes y tramgwydd mawr; a daeth amryw o'r blaid wrthwynebol allan i'w bastynu, yn mhlith pa rai yr oedd y bardd, Edward Jones, o Faes y Plwm—yr hwn a gyfansoddodd gân dra llawn o fustledd a chwerwder, tan y teitl, "Gwialen i gefn yr ynfyd, sef Cân i'r Enllibiwr a feiddiodd waradwyddo yr athrawiaeth Galfinaidd, yr hon sydd yn ol duwioldeb." Y mae yn cynwys tros dri-ugain o benillion, a'r oll wedi eu hysgrifenu yn yspryd ei phenawd. Ymhyfrydai Mr. Jones gyda phregethu yr "iachawdwriaeth gyffredinol." Yr oedd ei bregethau yn eglur, awchlym, a thra ysgrythyrol; a thraddodai hwynt gyda nerth a difrifoldeb. Dichon na ddarfu i un o'i frodyr lafurio yn fwy cyson a diarbed nag ef. Yr oedd ganddo gorph hynod o gryf, a rhoddai arno i'r eithaf. Cyflawnai ei deithiau meithion Sabbothol bob amser ar ei ddeudroed, a phregethai ddwy neu dair gwaith hyd yn nod pan oedd mewn gwth o oedran. Nid oedd un math o dywydd a'i lluddiai; ac aeth lawer gwaith i'r pwlpud yn syth wedi gwlychu trwy ei holl ddillad. Gwnaeth waith a fuasai yn llethu ac yn lladd dyn cyffredin. Bu yn golygu yr *Eurgrawn* o 1820 hyd 1835. Efe a gyfieithodd y gyfrol Gymreig o "Bregethau Mr. Wesley." Cychwynodd yr *Esboniad Berniadol*, yr hwn a ddaeth allan ar y Testament Newydd, ar Bum' Llyfr Moses, ac ar gyfran o Josua, ond nid efe a'i casglodd. Bu yn gweinidogaethu am fwy na deugain mlynedd; ac er myned yn uwchrif, ni roddodd ei hoff waith i fynu nes ei orfodi gan henaint. Bu farw yn Llanidloes, Gorph. 22, 1855, yn 73 oed, wedi bod o wasanaeth mawr i'r Cyfundeb.

JONES (Parch. Evan), ydoedd frodor o Landysul, sir Aberteifi, lle y ganwyd ef tua 1780. Cafodd ei ddysg yn athrofa Caerodor, lle y treuliodd bedair blynedd o tan ofal y Dr. Ryland. Yr oedd yn un o ysgolheigion mwyaf addawol y coleg, ac yfed pob math o ddysgeidiaeth yn beth tra naturiol iddo. Hyderid fod oes o anrhydedd a defnyddioldeb o'i flaen. Yn 1800, urddwyd ef yn weinidog eglwys y Bedyddwyr yn Aberteifi, a'i ddawn anarferol fel pregethwr a'i gwnaeth yn dra phoblogaidd. Yr oedd ei eglwys yn cynyddu yn gyflym, ac yn ei ddarn addoli; nid oedd odid un uwch ei barch gan ei frodyr yn y weinidogaeth, a phrin yr ystyrid cyfarfod chwarterol na blynyddol yn gyflawn os na chlywid ei lais ef ynddo. Parhaodd yn y sefyllfa uchelbarch hon am yspaid deng mlynedd, pryd y llithiwyd ef o'i le gan ddiodydd meddwol, ac y gorfu ar yr eglwys ei ddiarddel. Ymaelododd drachefn a thrachefn, ond yr oedd y gelyn wedi cael gafael cryf arno, ac nid esgynoddd areithfa mwyach. Tebygol mai ato ef y cyfeiriai Christmas Evans, yn ei uchenaid dorcalonus wrth fyfyrio ar gwymp "un o weinidogion mwyaf gobeithiol ein henwad." Efe a gyfieithodd i'r Gymraeg draithawd Abraham Booth ar "Faddeuant Pechodau"; ac yr oedd yn awdwr llyfryn bychan ei hun ar "Fendithion Rhad, ac nid Prynedig." Nid oes hysbysrwydd pa bryd y bu farw, ond tybir i hyny gymeryd lle yn ardal Eglwys Erw, sir Benfro.

JONES (Parch. Evan), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Casbach, sir Fynwy, yr hwn hefyd a adwaenid yn mhlith y beirdd wrth yr enw

Digitized by Google

Gwrwst. Ganwyd ef yn Llanddoged, ger Llanrwst, yn 1793. Y mae bore ei oes wedi ei amdoi gan ebargofiant; ond gellir casglu ei fod yn llencyn defosiynol, a than anfanteision lawer yn ymofynydd dygn a dwys am wybodaeth. Ni wyddis ychwaith yn mha oed y gwnaeth broffes gyhoeddus o'i ffydd; rhaid fod hyny yn lled gynar, gan ei fod yn pregethu cyn bod yn 19 oed. Mewn ffermdy, ar lethri uwchben Trefriw, yn mhlwyf Llanddoged, y traddododd efe ei bregeth gyntaf. Ychydig flisoedd cyn hyny, buasai ar ei daith trwy sir Fon, gyda'i weinidog, y Parch. J. Thomas, Llanrwst, nid fel pregethwr ond fel cyfaill—ac yn fuan wedi dychwelyd, pan yn eistedd yn y tŷ uchod, cyn dechreu y cwrdd ar nos Sabbath, dywedai J. Thomas wrtho, "Evan Jones, fy machgen i, rhaid i ti geisio dweyd tipyn gyda mi yma heno;" ac felly fu, a pharhaodd i ddweyd hyd ei fedd. Hytrach yn annerbyniol y bu am yn hir fel pregethwr. Ond torodd allan ar unwaith fel haul odditan gwmwl; ac er ei holl fawredd gwreiddiol, bu y werin yn ymarhous i'w gydnabod o ddwyfol anfoniad. Priodolir hyn, gan ei fywgraffydd yn *Seren Gomer*, i'r dueddiryd oedd ynddo, fel yn y rhan luosocaf o wyr ieuainc, i efelychu rhyw wr mawr. Pan dorwyd y rhwyd hon oddi am dano, yr oedd yn pregethu mewn cyfarfod yn Llansanan. Yr oedd y Parch. Peter Roberts, tad I. Glan Aled, yn adnabod E. Jones yn dda, ac yn gwrando arno yn y cwrdd uchod, ond yr oedd cynydd disymwth y pregethwr, a'r ffrwd o ddawn a lifai dros y gwrandawyr, wedi dyrysu y gwr da, nes y gofynai mewn syndod ar y diwedd, "Pwy oedd y gwr ieuanc yna?" a synai yn fwy fyth pan ddywedwyd wrtho, "Evan Jones, Llanrwst." Ar ol treulio talm o amser yn ei fro enedigol, yn morio yn erbyn gwynt a thonau, penodwyd ef i fyned yn genadwr cartrefol yn Lleyn ac Eifionydd, yn 1815. Urddwyd ef yn weinidog yn y Garn, sir Gaernarfon, Tach. 25, 1817. Yr oedd yn bregethwr mawr yr amser hwn; a thrwy ymdrech wedi dyfod yn alluog i feistroli gwaith y dynion penaf yn yr iaith Seisnig, a'u defnyddio gydag effeithioldeb mawr. Mae cof am dano yn pregethu ar, "Yn hyn y mae cariad," a Ch. Evans hefyd yn pregethu yr un bregeth ar yr un testyn; ond E. Jones oedd y goreu o lawer iawn. Yr oedd y bachgen wedi Cymreigio a thraddodi y bregeth yn well na'r hynafgwr. Bu cylchdaith eang Lleyn ac Eifionydd yn fanteisiol iddo i gynyddu fel traddodwr pregeth—gan fod ganddo amryw leoedd, nid oedd arno eisiau llawer o bregethau. Gallai bregethu rhyw un bregeth gampus lawer gwaith; casglai yr un hono nerth bob tro y rhedai drwy ei feddwl galluog, ac hyawdledd cyfartal bob tro y dyferai tros ei wefus ffraeth. Dywedir y byddai yn rhaid i Whitfield draddodi ei bregeth naw neu ddeg o weithiau cyn y cyrhaeddai eithafnod ei phoblogrwydd. Bu ei arosiad yn sir Gaernarfon hefyd yn fanteisiol i'w chwaeth fel bardd a llenor. Cymdeithasai yn fynych ag R. ab G. Ddu a Dewi Wyn; y rhai, oherwydd eu galluoedd barddonol, a'u nerthoedd fel beirniaid Ysgrythyrol, a fuont o fawr gymhorth iddo yn nwy gangen hoff ei efrydiaeth. Tua 1820, symudodd i gymeryd gofal eglwys fechan y Bedyddwyr yn Llangollen. Isel ac eiddilaidd oedd yr achos yno ar y pryd, ac ni ffurfiesid hi yn eglwys ond tua phum' mlynedd cyn hyny: a digon tebyg nad oedd llawer o gyd-darawiad rhwng ei ysbryd ef ag ysbryd y gymydogaeth ar y pryd. Os bydd y darllenydd yn synu pa fodd yr oedd gwr ieuanc mor addawol heb ei gipio a'i wneud yn frenin gan rhyw eglwys fawr a chyfoethog, nid oes genym ond yr ateb syml, nad oedd gan y Bedyddwyr y pryd hwnw yn y Gogledd ddim o'r cyfryw

Digitized by Google

eglwysi, a hyny oblegid y rhwygiad Sandemanaidd a'u hanafodd ddeuddeg neu bymtheg mlynedd cyn hyn. Pan ystyrir ei ddoniau disglaer, ni bu cynydd E. Jones yr hyn allesid ddisgwyl yn Llangollen; ac er hyny, ni bu efe ddieffaith na didyst. Ymddengys mai coll mwyaf ei bregethau oedd fod gormod o lafur a thalent ynddynt i ateb i gyflwr deallol ei wrandawyr. Hedai "yn fynych uwchlaw'r wybrenau," neu disgynai i ddyfnderoedd y môr; ac er mai ychydig o'i wrandawyr a'i canlynent, eto teimlent oll fod rhyferthwy daeargryn, a chorwynt yn eu hamgylchu, a barnent mai dyn mawr oedd perchenog yr ysbryd a farchogai felly ar gymylau y nefoedd. Mae cof am dano yn pregethu ar waith yr Ysbryd yn hen gapel Llanuwchllyn, pan oedd hen gedyrn y gorlan hono yn dadleu pa un ai drwy gyfrwng y Gair, ynte yn ddigyfrwng, y mae yr Ysbryd yn gweithio ar galonau dynion. Ni wyddom pa ochr i'r ddadl a gymerodd Gwrwst; ond aeth yn mhell dros benau ei wrandawyr, a chydnabyddent fod yr ymborth yn rhy gryf iddynt allu ei dreulio; atebodd yntau ei fod wedi cymeryd yn ganiataol, wrth glywed cymaint o son am danynt, eu bod yn deall duwinyddiaeth. Wedi bod ddwy flynedd yn Llangollen, symudodd i Ddolgellau, lle y bu am ychydig fisoedd. Yno, daeth i gydnabyddiaeth â Chawrdaf, Ieuan Awst, &c., y rhai a gynalient Gymdeithas Gymreigyddol, a bu Gwrwst yn aelod ohoni, pryd yr ymloewodd gryn lawer fel siaradwr cyhoeddus lleygol. Yn 1823, derbyniodd wahoddiad eglwys Casbach, sir Fynwy, —cangen o hen eglwys Bethesda, Maesaleg; ac ar ddyfodiad Mr. Jones yno y corpholwyd hon yn eglwys annibynol ar ei hen fam. Yn mhen ychydig gyda blwyddyn wedi ymsefydlu yno, priododd un Miss Mary Morgan, unig ferch i fferm fawr yn mhlwyf St. Lytham, bro Morganwg; yr hon a fu yn ffyddlawn ac ymgeleddgar iddo hyd ei fedd. Cafodd y gwr dyeithr o'r Gogledd, clod yr hwn oedd wedi lledaenu tros yr holl wlad, ei dderbyn yn Casbach fel angel Duw. Er hyny, araf mewn un hystyr fu ei lwyddiant am rai blynyddau, ac am y saith mlynedd cyntaf nid oedd ond ychydig neu ddim; ond fe ddaeth haf medi ar ol y gauaf hau, canys torodd llwyddiant mawr allan, a bedyddiodd yntau tan yr heulwen hono ugeiniau lawer o ymgeiswyr. Bu yn llwyddianus mewn ystyr arall hefyd. Pan y daeth Mr. Jones i'r Casbach, nid oedd gan y Bedyddwyr dŷ cwrdd yn nes na Maesaleg, ond yr oedd pethau yn wahanol erbyn diwedd ei oes; cyrchai llawer o bobl y pentrefi cylchynol i'r Casbach i wrando, lle yr ymaelodent hefyd. Er cyfleustra y rhai hyn, gwelwyd yn ddoeth yn 1833 adeiladu capel yn Llanlleurwg; ac un arall yn Llansantffraid yn 1838. Cododd amryw weinidogion yn yr eglwys yn ystod gweinidogaeth Mr. Jones, yn mhlith pa rai gellir enwi y gwyr canlynol:—Parchn. John Williams, Nash, Mynwy; E. P. Williams, Cwmbran, Mynwy; Joseph Davies, Willenhall; Thos. Davies, llywydd duwinyddol coleg Hwlffordd; a J. R. Morgan *(Lleurwg)*, Llanelli. Syniad pawb yn gyffredinol am Mr. Jones ydoedd ei fod yn bregethwr mawr. Dichon fod ambell un yn meddwl fod rhyw un arall yn well nag ef; ond ni fernid neb yn fwy nag ef. Y rhesymau penaf tros hyn ydoedd ei fod yn trin pynciau na fyddid yn gyffredin yn traethu arnynt o'r pwlpud, megis priodoliaethau a llywodraethau naturiol a moesol Duw; ac yn dwyn dirgeledigaethau mawrion crefydd i gyrhaedd deall ei wrandawyr. Nid oedd y bobl bob amser yn gallu ei ddilyn; ond teimlent, er hyny, ei fod ef er wedi myned o'u golwg hwy mewn rhyw ddyfnder neu uchder hollol adnabyddus iddo ef, er yn anadnabyddus iddynt hwy. Safent hwy ar y traeth gan edrych ar y mor yn chwareu, yn chwyddo, ac yn

Digitized by Google

chwerwi, tra fyddai ef o'i fewn yn deifio am berlau y gwaelod, ac yn codi i'r lan yn fuddugol a'r perlau yn ei law. Oherwydd diffyg anadl a pheswch trwm, bu yn dra gwan ac afiach am amryw o flynyddau olaf ei fywyd. Pregethai yn fynych mewn nychdod, a therfynodd ei oes ddefnyddiol Rhagfyr 1, 1855. Claddwyd ef yr wythnos ganlynol yn nghladdfa capel y Casbach, lle y pregethasai gynifer o weithiau gyda nerth na annghofir tra fyddo lluaws a'i clywsant yn fyw yn y byd. Y mae coffech hardd am dano wedi ei gosod ar fur y capel crybwylledig. Yn 1855, cynygiodd Iforiaid Casbach wobr o £5 am yr awdl-farwnad oreu er cofflad am dano, fel eu brawd a'u blaenor; ac enillwyd y wobr gan awdl feistrolgar o waith Cynddelw, yr hon, yn nghyda bywgraffiad ddyddorol, a ymddangosodd yn y *Seren Gomer* chwarterol cyf. i., i ba un yr ydym yn ddyledus am ddefnyddiau yr erthygl uchod. Ysgrifenodd lawer erthygl alluog i'r cyhoeddiadau cyfnodol Cymreig; a chylleithodd draethawd Abraham Booth ar "Faddeuant Pechod," yr hwn a gyoeddwyd yn Nghaerfyrddin yn 1809.

JONES (Parch. Griffith), o Landdowror. Ganwyd y gwr enwog hwn yn mhlwyf Cilrhedyn, sir Gaerfyddin, yn 1684. Yr oedd ei riaint yn bobl grefyddol, a thybir yn aelodau o eglwys Ymneilldduol Henllan. Bu ei dad farw pan nad oedd efe ond ieuanc. Yr oedd o anianawd grefyddol o'i febyd, a'i ddymuniad ydoedd cael ymroddi i waith y weinidogaeth. Ei fam, gan hyny, a'i dododd dan addysg ysgolhaig clasurol enwog mewn ysgol ramadegol; yn nhref Caerfyrddin. Ni wyddis pa fodd y tueddwyd ei feddwl i ddewis bod yn offeiriad. Cafodd urddau diacon gan esgob Bull, Medi 19, 1708; ac ordeiniwyd ef yn offeiriad, gan yr un gwr, Medi 25, 1709, yn nghapel Abermarlais. Bu am yspaid yn pregethu yn ei blwyf genedigol a'r llanau oddiamgylch, a daeth yn fuan yn bregethwr tra phoblogaidd. Yna bu am flwyddyn neu ddwy yn gurad yn Llacharn, lle yr ymgynullai cynifer o bobl i'w wrando fel mai tra anfynych yr oedd yr eglwys ddigon o maint i gynwys y dyrfa. Yn 1711, rhoddwyd iddo fywioliaeth Llandilo Abercowyn; ac yn 1716, cafodd hefyd Landdowror, gan y noddwr, Syr John Phillips, Castell Picton, sir Benfro, â'r hwn yr oedd yn berthynas trwy briodas. Yr oedd ei gyfansoddiad bob amser yn dyner; a dywedai efe ei hun ei fod yn cael ei gystuddio gymaint yn ei fachgendod gan ddiffyg anadl fel nas gallai groesi ystafell heb boen; eithr fel yr heneiddiodd, cafodd ymadael â'r anhwyldeb hwn. Ystyrid ef y pregethwr mwyaf yn Nghymru yn yr oes hono. Yr oedd symlrwydd, difrifoldeb, dwfndeimlad, syniadau efengylaidd, yn nghyda hyawdledd traddodiad, a llais mwyn a soniarus, yn dynodi ei holl bregethau. Nid rhyfedd gan hyny ei fod yn derbyn mynych wahoddiadau i bregethu mewn manau eraill; a pha le bynag yr elai, fod y fath gynulleidfaoedd anferth yn ymdyru i'w wrando. Gosododd ei wyneb yn hyf yn erbyn rhusedd a rhialtwch gwageddus ei oes. Gan y byddai wythnosau y Pasc a'r Sulgwyn yn adeg neillduol yr ofera a'r campau, trefnai ei deithiau ar gyfer y gwyliau hyny, er ceisio atal y gwylmabsantau a'r annuwioldeb. Dywedir mai anfynych y traddodai bregeth na ddwysbigid pechaduriaid trwy ei weinidogaeth. Enynodd ei boblogrwydd anarferol, ei fawr ddefnyddioldeb, a'i dduwioldeb amlwg, ddygasedd a chenfigen ei frodyr clerigol yn fuan i'w erbyn; a llawer ohonynt ni chaniataent iddo eu heglwysi i bregethu ynddynt yn ystod yr wythnos, er cymaint fyddai awyddfryd eu plwyfolion am ei glywed. Tan y cyfryw amgylchiadau, efe a bregethai yn y fynwent oddiar geryg beddau; a'r afreoleidd-dra

Digitized by Google

hwn a'i dygodd i helbul, a bu y Llys Eglwysig yn ei boenydio o'r herwydd am lawn ugain mlynedd. Drwg dybid ef yn ddirgel, a chyhuddid ef yn gyhoeddus, o fod yn Ymneillduwr penboeth; er hyny, efe a lynodd yn selog wrth yr Eglwys hyd ddiwedd ei oes. Ei gyfeillion oeddynt Annghydffurfwyr, a'i elynion yn Eglwyswyr; ond egwyddor ac nid personau oeddynt y creigiau y sangai efe arnynt. Yr oedd yn anmhosibl i Ymneilldwr beidio ei garu; ac yn anhawdd i Eglwyswr edrych arno heb gywilydd wyneb. Y mae y pelydrau llachar sydd yn tywynu o'i gymeriad disglaer ef yn taflu goleu rhyfedd ar yr oes dywell yr oedd yn byw ynddi. Y mae ei fywyd fel rhosyn yn nghanol yr anialwch, ac fel gem gloyw mewn tomen o laid. Diwygiwr ydoedd yn ystyr helaethaf y gair, ac nid Rhwygwr; a dewisodd yn hytrach gywiro oddifewn nag oddiallan. Am hyny y canodd Williams o Bantycelyn iddo:—

Am nad oedd ei fore ond tywyll,
Ac nac oedd ei ffydd ond gwan;
Fe a ofnai fyn'd i'r llwybrau
Ac i'r lleoedd nad oedd Llan.

Er hyny bu Mr. Jones yn offeryn troedigaeth lluaws mawr, ac yn eu plith amryw wyr o nod, nid y lleiaf o ba rai oedd yn anfarwol, Rowlands o Langeitho. Un tro, ac efe yn pregethu ar gareg fedd yn mynwent Llanddewibrefi, heb fod yn mhell o'r plwyf yr oedd Rowlands ynddo yn offeiriaid ieuanc annychweledig, a diofn Duw, ond a dueddesid i fyned gyda lluaws ei blwyfolion i wrando yr offeriad dyeithr a Phengrwn, yn fwy mae'n ddiau o ran chwilfrydedd nac i geisio unrhyw les enaid, clybu rywbeth yn yr oedfa hono a sobrodd ei wamalwch, a ddifrifolodd ei feddyliau, ac a barodd iddo gwympo ma's yn lân ag ef ei hun. Y rhywbeth hwnw a gododd Rowlands o fod yn offeiriad gwledig, anystyriol, a dienw, i fod yn un oleuadau cryfaf yr areithfa Gymreig yn yr 18fed ganrif, ac a'i gwnaeth yn addurn nid yn unig iddo ei hun ond i'r wlad a'i magodd ac i'r oes yr oedd yn byw ynddi. Yr oedd bod yn offeryn i blanu gras yn nghalon y gwr enwog hwnw yn gryn fraint, ond yn y cynhauaf mawr yn unig y gwelir faint fu llwyddiant ymdrechion llafurus yr offeiriad apostolaidd Jones o Landdowror. Nid yn y pulpud yn unig yr oedd ei lafur a'i glod; ond gwnaeth argraff fythgofiadwy ar y wlad trwy ei ysgrifeniadau hefyd, ac yn enwedig trwy yr ysgolion a sefydlodd. Efe a sefydlodd yr Ysgolion Elusengar Cylchynol Cymreig. Arweiniwyd ei feddwl atynt fel hyn. Yr oedd "Sul y Cymundeb" yn ddydd mawr iawn bob mis yn Llanddowror, gan fod cymmifer yn ymgasglu yno. Arferai Mr. Jones ddarllen y gwasanaeth ar y Sadyrnau o flaen y Sabbath hwnw, fel math o gyfarfod parotoadol, ac i dderbyn aelodau newyddion. Wedi darllen yr ail lith, gofynai a oedd rhywbeth yn aneglur yn rhai o'r adnodau a ddarllenai; ac os oedd, y byddai yn llawen ganddo egluro unrhyw beth oedd yn ymddangos yn dywyll ynddynt. Ar ol i un adrodd adnod, byddai Mr. Jones yn ei hegluro mor syml ac mor serchog nes enill sylw ac ymddiried pawb. Byddai yn holi yr aelodau newyddion ar gyhoedd, ac wrth eu haddysgu a'u hyfforddi, byddai y lluaws yn gyfranog o'r manteision. Ar yr un Sadyrnau, byddai yn rhanu bara i'r tlodion, a brynasid â'r arian a dderbynid bob mis gan y cymunwyr. Gosodai y tlodion yn rhes, ac yr oedd pob un i ddyfod âg adnod i'w hadrodd iddo wrth dderbyn ei dorth; weithiau gofynai amryw o gwestiynau eraill iddynt. Wrth hyn, cafodd fod anwybodaeth y bobl yn ddirfawr, a rhoddodd ei fryd ar ddyfeisio rhyw foddion i oleuo a dysgu

Digitized by Google

ei gymydogion. A'i benderfyniad oedd sefydlu ysgol yn y pentref, a galw hen ac ieuanc yn nghyd i'w dysgu i ddarllen y Beibl. Cafodd yr arian dderbyniwyd Sabbath y cymun fyned i ddwyn traul yr ysgol. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1730. Wedi gweled yr ysgol hono yn troi allan mor lwyddianus, sefydlodd un arall mewn pentref arall. Dygodd hono eilwaith ffrwyth buan a bendithiol. Erbyn hyn teimlai Mr. Jones ei fod wedi cael pen y ffordd i gyflenwi prif ddiffyg ei wlad. Cymerodd yr achos i fynu o ddifrif; cynorthwywyd ef gan foneddigion haelionus; a chafodd anrheg o Feiblau a llyfrau eraill oddi wrth y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol. Y rhwystr penaf ar ei ffordd oedd diffyg athrawon. Yr oedd yn rhaid cael athrawon cymhwys; onide, syrthiai yr amcanion i'r llawr. Edrychai am ddynion deallgar, llafurus, a duwiol; ond ychydig o'r cyfryw oedd i'w cael yn mysg Eglwyswyr. Felly, cymerai hwynt o fysg Ymneilldduwyr. Cyfododd fath o athrofa i ddysgu yr athrawon yn ei eglwys ei hun. Oddiyno gyrai hwynt allan yn lluoedd i'r trefi a'r pentrefi fyddai yn barod i'w derbyn. Eu prif amcan oedd dysgu y trigolion i ddarllen y Beibl; a chyda hyny i gyfranu cymaint o wybobaeth grefyddol ag oedd bosibl. Wedi dysgu y rhai oedd awyddus am hyny mewn un ardal, symudid yr athrawon i ardal fyddai yn agored i'w derbyn. Ac yn mhen tymor penodol, yr oeddynt i ail ymweled â'r ardaloedd, er mwyn cyfarfod angen y plant fyddai yn codi yno. Erbyn y flwyddyn 1746, yr oedd 116 o'r ysgolion hyn wedi eu sefydlu, ac ynddynt 5685 o ysgolheigion; yn 1754, yr oeddynt yn 149, gyda 6,018 o ysgolheigion; yn 1760, yr oeddynt yn 215, gyda 8,687 o ysgolheigion: ac yn 1761, pan fu farw Mr. Jones, yr oeddynt yn 208 o ysgolion. Cawn fod cynifer a 10,000 wedi dysgu ynddynt mewn un flwyddyn, a bod 150,212 o nifer, o 6 mlwydd i 70 oed wedi eu dysgu ynddynt i ddarllen y Beibl Cymraeg mewn ystod pedair blynedd ar hugain. Un o brif gefnogwyr Mr. Jones gyda'i ysgolion ydoedd Madam Bevan, o Lacharn, yr hon a ddychwelwyd trwy ei weinidogaeth pan yn ferch ieuanc. Ei henw y pryd hwnw oedd Miss Vaughan. Gadawodd 7,000p. at wasanaeth yr ysgolion gyda'r foneddiges hon pan y bu efe farw; a gadawodd hithau ar ei hol i'r un amcan 10,000p. Ond llithrodd yr arian hyn i ddwylaw anghydnaws âg amcan y cymunroddwyr, ac y maent wedi myned yn hollol ddifudd i dlodion Cymreig er's llawer o flynyddoedd; er nad ydyw effeithiau daionus ysgolion Mr. Jones wedi eu colli o Gymru hyd y dydd hwn. Yr oedd ei enw a'i glod wedi cyrhaedd yn mhell y tu hwnt i gyfliniau Cymru. Cawn iddo fod yn pregethu unwaith yn Llundain i'r frenines Anne. Wrth ddychwelyd oddi yno, ymosodwyd arno ef a'i was yn eu lletty; ac yr oedd ei waredigaeth a'i fywyd o'u dwylaw yn rhywbeth fel gwyrth. Daliodd yn ei lafur a'i sel yn ddiflino hyd y diwedd. Bu farw yn nhŷ Madam Bevan, Ebrill 8fed, 1761, yn 77 mlwydd oed; a chladdwyd ef yn eglwys Llanddowor, lle y bu yn gweinidogaethu mor ffyddlawn a llwyddianus am 45ain o flynyddoedd. Yn nghlyn a'i lafur dirfawr gyda'r weinidogaeth a'r ysgolion, cyfansoddodd hefyd amryw lyfrau rhagorol, yn Gymraeg a Saesneg. Y blaenaf o'i lyfrau yn y Gymraeg yw ei "*Esboniad ar Gatecism yr Eglwys*," yn gyfrol wythplyg fawr, yr hwn sydd yn gorph o dduwinyddiaeth rhagorol. Ei brif waith yn Saesneg yw ei "*Welsh Piety*," mewn 24ain o ranau. Adroddiad blynyddol oedd hwn o helynt yr Ysgolion Cylchynol; y cyntaf wedi ei gyhoeddi yn 1737, a'r olaf yn 1760; yn y rhai y ceir llawer o wybodaeth am gyflwr y wlad yn y dyddiau hyny. Soniasom eisioes am ysbryd

Digitized by Google

gelyniaethus ei frodyr, yr offeiriaid, ato. Heblaw ei erlyniad am ugain mlynedd yn y Llys Eglwysig, ysgrifenodd un John Evans, periglor Eglwys Gymun, yn ymyl Llanddowror, a hyny, meddir, trwy gymhelliad esgob, draethodyn bychan, mor iselwael a brwnt ag a gyhoeddwyd erioed, i geisio drwgliwio ei gymeriad. Gan fod glafoer ynfyd gelyniaeth a chenfigen yn mynych arddangos ei fryntni ei hun, a rhagoroldeb y gwrthddrych y ceisia ei niweidio yn well na chanmoliaeth uwchaf y cyfaill penaf (ac felly yn ddiau yn yr amgylchiad hwn), terfynwn ein hysgrif, trwy roddi gerbron y darllenydd y cyhuddiadau a ddygid yn erbyn Mr. Jones, gan ei frawd offeiriadol:—1. Mai Anghydffurfwyr oedd ei rieni, ac na bu efe erioed mewn heddwch hollol â ffurfiau, defodau, ac "offeiriaid" yr Eglwys Sefydledig. 2. Iddo gael ei ddwyn i fyny yn dyrnwr llestri coed, a'i fod yn gwneud hyny ar brydiau, i'w ddifyru ei hun, ar ol dyfod yn beriglor Llanddowror. 3. Ei fod wedi gwasgaru 24,000 o *Gatecism Matthew Henry*, rhwng 1730 a 1738, a'i fod yn cymeradwyo ac yn gwerthu esboniad yr un gwr ar y Beibl, er mai gwaith Presbyteriad ydoedd. 4. Ei fod yn dadleu fel yr Anghydffurfwyr, fod gan bob dyn gystal hawl i ddewis ei weinidog ag sydd ganddo i ddewis ei feddyg, neu ei gyfreithiwr. 5. Iddo fod am beth amser, tra yn beriglor Llanddowror, yn dysgu Hebraeg gyda Mr. Perrot, athraw Presbyteraidd Caerfyrddin. 6. Fod naw rhan o ddeg o'i gymunwyr yn Llanddowror yn Ymneillduwyr, ac nad aethent i unrhyw eglwys blwyfol arall. 7. Ei fod yn gohebu yn gyfrinachol â'r Methodistiaid, ac mai Annibynwyr neu Fethodistiaid oedd ei holl ysgolfeistri. 8. Ei fod yn cytuno â'i ddysgybl, Howell Harris, fod llawer o ŵyn gwerthfawr Crist yn mysg y gwahanol enwadau. 9. Ei fod, yn ei *Esboniad ar Gatecism yr Eglwys* yn gwadu yr athrawiaeth o adenedigaeth mewn bedydd, na dim arall, i wneud dyn yn Gristion, heb ffydd yn Nghrist. 10. Ei fod ef a'i ffrynd (Madam Bevan, mae'n debyg), wedi myned i draul a thrafferth fawr i dori i lawr wyl-mabsantau, a chwareyddiaethau, er mawr niwed i haelfrydedd a chariad Cristionogol, a phob cymydogaeth dda, &c. Y mae yn anhawdd i un o weision ffyddlonaf Crist gael gwell llythyr cymeradwyaeth na'r uchod. Rhydd yr *Eminent Welshmen* y rhestr ganlynol o'i weithiau:—1, "The Platform of Christianity; being an Explanation of the thirty-nine articles of the Church of England;" 2, "Letter to a Clergyman evincing the necessity of teaching the Poor in Wales;" 3, "The Christian Covenant, or Baptismal Vow, first and second part;" 4, "Esponiad ar Gatecism Eglwys Lloegr, yn cynwys corph cryno o Ddifinyddiaeth;" 5, "Galwad at orsedd-fainc y Gras;" 6, "Hyfforddwr at Orseddfainc y Gras;" 7, "Ffurf o Weddiau;" 8, "Cynghor rhad;" 9, "Anogaeth i folianu Duw;" 10, "Llythyr ar y ddyledswydd o Egwyddori yr Anwybodus;" 11, "Casgliad o Ganiadau y Parch. Rhys Prichard."

JONES (Hugh), LL.B., esgob Llandaf, a anwyd yn 1508. Addysgwyd ef yn Rhydychain, lle y cafodd ei raddio yn LL.B. yn 1541. Derbyniodd ei holl ddyrchafiadau eglwysig yn Nghymru. Gwnaed ef yn brepend Llandaf, ac yn uheyrnasiad y frenhines Mari, yn 1556, rhoddwyd iddo ficeriaeth Banwell, yn Ngwlad yr Haf. Yn 1567, cysegrwyd ef yn Lambeth i fod yn esgob Llandaf; a sylwa Godwin mai efe oedd y Cymro cyntaf a godwyd i'r swydd yn yr esgobaeth hono er's tri chan' mlynedd. Bu farw yn Nhachwedd, 1574, yn 66 oed; a chladdwyd ef o fewn eglwys Mathern, yn sir Fynwy.—Wood's *Athen. Oxon.*; Willis' *Survey of Llandaff*.

Digitized by Google

JONES (HUGH), ydoedd enedigol o'r Maesyglasau, ger Dinas Mawddwy, yn Meirion. Yr oedd yn awdwr amrai o'r hen Salm-donau Cymreig, efe gyfieithodd *Waith Josephus* gyntaf i'r Gymraeg, a'i waith ef ydoedd "Myfyrdodau ar Dymhorau'r Flwyddyn," a llyfryn arall o'r enw, "Gair yn ei Amser," yr hwn a argraffwyd yn 1782.—*Lleyn MSS.*

JONES (HUGH) *(Erfyl)*, ydoedd fab ieuengaf Evan ac Elizabeth Jones, Cefnbachau, plwyf Llanerfyl, sir Drefaldwyn, lle y ganwyd ef yn 1789. Yr oedd hefyd yn nai i Hugh Jones, o Faesyglasau. Cafodd ysgol fasnachol dda, er ei alluogi i gynal ei hun trwy gadw ysgol, oblegyd ei fod yn grypil o'i enedigaeth. Yr oedd yn llenor gwych, ac yn fardd o gryn deilyngdod. Y blynyddau diweddaf o'i oes, bu yn golygu y wasg yn Nghaerlleon, i Edward Parry; ac wedi hyny i John Parry a'i Fab. Efe hefyd am flynyddau, sef o ddechreu 1835 hyd ddiwedd 1840, oedd golygydd y *Gwladgarwr*, yn gyfranog a'r cyhoeddwr Mr. Edward Parry. I. G. Geirionydd oedd y golygydd y tair blynedd cyntaf, yn cael ei gynorthwyo gan Erfyl; a Rhufoniawc oedd y golygydd a'r argraffydd pan symudwyd y cyhoeddiad i Liverpool. Yr oedd gan Erfyl law yn nghyfieithiad "Y Bibl Darluniadol," er mai Geirionydd oedd y golygydd. Yr oedd yn llengarwr gwresog a diwydbwyll, a'i lyfrgell yn un o'r rhai helaethaf yn Nghaerlleon. Bu yn flaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd am ran fawr o'i oes. Cymerodd ei farwolaeth le yn Nghaerlleon, Mai 25, 1858, ac efe yn 69 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Llanerfyl, lle y mae gwyddfa i'w goffadwriaeth ef a'i rieni, gyda'r englyn canlynol:—

Huna isod Hanesydd—ERFYL,
Brif-fardd ac Athronydd;
Gwr o ddawn—gwir Dduweinydd,
Hyd y Farn ei glod a fydd.

JONES (SYR HUGH) ydoedd ficer Llanfair Dyffryn Clwyd. Y mae ychydig o'i waith barddonol ar gael, megis, "Cas Bethau Owain Cyfeiliog."

JONES (HUGH) o Langwm, sir Ddinbych, bardd yn ei flodeu rhwng 1740 a 1780. Yn 1759, argraffwyd llyfr iddo yn y Mwythig, o'r enw "Dewisol Ganiadau yr oes hon," yn cynwys detholion o waith yr awduron goreu, a llawer o gyfansoddiadau y cyhoeddwr ei hun; a daeth dau argraffiad eraill allan o'r un llyfr. Yn 1763, cyhoeddodd gyfrol arall o'r enw "Dyddanwch Teuluaidd," gwaith Beirdd Mon—Goronwy Owen, L. Morris, Bardd Coch, &c.; yr hwn a argraffwyd yn Llundain. Yn ystod yr un flwyddyn cyhoeddodd hefyd, "Cynghor difrifol i gadw Dydd yr Arglwydd." Yr oedd H. Jones, o Langwm; Dafydd Jones, o Drefriw; ac Elis Roberts y *cowper;* yn gyfoeswyr, ac yn gyfeillion gwresog. Canent yn ddifrifol a chellweirus, fel y byddai'r cwmni; ac nid oeddynt yn malio fawr pa un a'i o'r Beibl ynte rywle arall y caent destynau eu gwamalrwydd. Y mae eu gwaith yn gymysgfa o bob athrawiaeth, a sawr Babaidd ar garolau Hugh Jones. Yr oedd hen fardd Llangwm yn awdwr amryw Interliwtiau, y rhai oeddynt dra phoblogaidd yr oes hono, un o ba rai, sef, "Enterlute newydd, ar ddull ymddiddan rhwng Protestant a Neillduwr," a argraffwyd yn 1783.

JONES (HUMPHREY), o'r Craflwyn, yn mhlwyf Beddgelert, sir Gaernarfon. Yr oedd yn fyw yn nechreu 16eg cant, ac yn fab i Morys Jones, yr hwn yntau oedd fab i Sion ab Risiard ab Rhys, o Ddanhadog. Yr oedd hwnw yn frawdmaeth i Morys Wynn, o Wydyr, a mab i Rys ab Robert, o'r Faenol, ger Bangor. Gwnaed Humphrey Jones yn

Digitized by Google

ganghellydd Cyffredinol Gogledd Cymru Claddwyd Morys Jones, y tad, yn Llanbeblig; ac y mae Cywydd marwnad iddo ar gael, o waith Hugh Machno. Y mae yr etifeddiaeth yn awr, trwy briodas, yn perthyn i deulu y Llwyn Ynn.—*Gwydir Family, t.d.* 96; *Y Brython*, 1861, t. d. 255—6.

JONES (PARCH. ISAAC), a anwyd Mai 2, 1804, yn mhlwyf Llanychaiarn, ger Aberystwyth. Addysgwyd ef ar y cyntaf gan ei dad, yr hwn er nad oedd ond gwehydd wrth ei gelfyddyd, oedd yn deall yr iaith Lladin yn dda, ac yr oedd y bachgen yn gallu darllen yr iaith hono gyda gradd o rwyddineb pan yn saith oed. Danfonwyd ef gyntaf i ysgol fechan a gynelid yn ei blwyf genedigol, lle yr oedd yr athraw yn ysgolhaig clasurol da. Oddiyno aeth i ysgol Ramadegol Aberystwyth, lle y daeth yn athraw cynorthwyol yn mhen rhyw yspaid o amser; ac yn 1828, dyrchafwyd ef yn brif athraw, a daliodd y swydd hono hyd 1834, pryd y rhoddes hi i fynu, gan fyned i Goleg Dewi Sant, Llanbedr. Y flwyddyn ganlynol, etholwyd ef yn *Eldon Hebrew Scholar*, ac ordeiniwyd ef yn ddiacon yn Medi, 1836, ac yn offeiriad Medi, 1837, pan y derbyniodd y wobr offeiriadol, rhodd Esgob Tyddewi, i'r goreu mewn duwinyddiaeth o ysgolheigion Coleg Llanbedr. Ei guradiaeth gyntaf ydoedd Llanbedr Geneu'r Glyn, yr hon a roddes i fynu am un Capel Bangor—y ddau le yn ardal Aberystwyth. Yn Chwefror, 1840, cafodd guradiaeth Llanedwen a Llanddaniel Fab, yn Mon, lle y bu yn llafurio gyda sel ac ymroad hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerth le Rhagfyr 2, 1850, a chladdwyd ef yn mynwent Llanidan. Y mae ei enwogrwydd llenyddol yn dybynu yn benaf ar ei allu fel cyfieithydd, ac nid oes odid Gymro wedi rhagori arno yn hyn o beth. Ei waith cyntaf ydoedd *Gramadeg Cymraeg*, yr hwn a argraffwyd yn Aberystwyth yn 1832, ac a ail-argraffwyd yn 1841. Cyfieithodd *Eiriadur Ysgrythyrol* Gurney, a chwanegodd gryn lawer ato, yr hwn a orphenwyd yn 1835 mewn dwy gyfrol. Cyfieithodd hefyd "Esboniad y Dr. Adam Clarke ar y Testament Newydd" i'r Gymraeg, yr hwn a gyhoeddwyd mewn dwy gyfrol 8 plyg fawr, yn 1847; ac yr oedd wedi cyfieithu yr Hen Destament mor bell â Lefiticus iv. 12, pan y gorfu iddo roddi y gwaith i fynu oherwydd afiechyd. Ymddengys ei enw hefyd ar wynebddalen y *Geirlyfr Cymraeg*, o waith Owen Williams, o'r Waenfawr. Cynorthwyodd yn nghyfieithiad Esboniad Matthew Henry, a gyhoeddwyd gan E. Griffiths, o Abertawe; ac yr oedd yn awdwr amryw lyfrynau eraill. Cyfieithodd tua haner "Hanes Anturiaethau Williams y Cenadwr," ond gan fod argraffiad arall o'r un gwaith yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd yn y Deheudir, ni chyhoeddwyd ond hyny. Efe a olygodd yr ail-argraffiad o Destament William Salesbury, a gyhoeddwyd yn Nghaernarfon yn 1850.—Wms. *Em. Welsh.*

JONES (INIGO), yr archadeiladydd enwog, a anwyd, yn ol rhai awdurdodau, yn ardal Llanrwst; tra yr hona eraill mai yn agos i eglwys St. Paul, Llundain, y cymerth hyny le. Nid oes unrhyw sicrwydd dilys ar y mater, er y tueddir ni yn gryf i dybied mai y farn flaenaf sydd gywir. Ond a chaniatau mai Llundeiniwr o ran genedigaeth ydoedd, y mae y rhesymau canlynol yn peri ini roddi lle i'r gwron anrhydeddus yn mhlith yr Enwogion Cymreig:—1, Haneswyr yn tystiolaethu mai ei enw priodol ar y cyntaf ydoedd YNYR, o'r hyn y mae prawf yn aros hyd heddyw ar ochr y bont gampus a adeiladodd efe dros yr afon Gonwy, yn ymyl Llanrwst, lle y mae yr enw "Ynyr" wedi ei gerfio ar un o'r meini; ac y mae yn hysbys fod yr enw hwnw yn arferedig yn mysg y

Digitized by Google

Cymry gynt, megis Ynyr Gwent, &c. Mynegir mai pan ydoedd yn ymdeithio yn yr Ital y traws-ffurfiodd ei enw i Inigo (neu *Ignatius)* er mwyn iddo fod yn fwy hysain i drigolion y wlad hono.—2, Er pan roddodd y Cymry heibio yr *Abiau* yn eu henwau, gan ddefnyddio cyfenwau *(surnames)* cydffurf â'r Saeson (yr hwn ddull oedd mewn arferiad yn mhell cyn amser Inigo), y mae'r cyfenw JONES wedi ymreddfu mor glymedig â hwynt fel nad oes haiach ddyn o'r cyfenw hwnw yn un wlad heb fod ei darddiad gwreiddiol oddiwrth genedl y Cymry.—3, Y diweddar Mr. Richard Llwyd, (yr hwn nid oedd neb cyfarwyddach yn achau ac arf-beisiau ei genedl), a ddywedai yn y *Beaumaris Bay*, iddo ef, pan yn Llundain rywbryd, daraw wrth bortread o Inigo Jones, ac yn gysylltedig ag ef arf-bais y *Treforiaid*, yr hyn meddai yr achwr crybwylledig, oedd brawf fod Inigo yn deilliaw o Dudur Trefor.—4, Y mae ysgrifenydd mor gyfarwydd yn hanesiony Cymry â'r diweddar Mr. Pennant, wedi dadgan ei grediniaeth o darddiad Cymroaidd Inigo Jones. Dywed Mr. P. fel y canlyn:—"Buasai yn dda genyf anrhydeddu fy ngwlad drwy dyb-osod fod Inigo wedi cael ei eni yn y gymydogaeth hon (Llanrwst); ond ymddengys mai Llundeiniwr o enedigaeth oedd efe, ac mai gwneuthurwr brethynau oedd ei dad, yr hwn yn ol pob tebygolrwydd a hanodd o'r parth hwn o Gymru; eto y mae ein hawl i'w fab yn cael ei chefnogi gan draddodiad cyffredinol y wlad. Y mae dull ei wynebpryd hefyd, a phoethder ei dymherau, yn profi nad oedd ei ddeilliad ddim yn mhell oddiwrth y Cymry."—5, Bod Inigo Jones yn cael ei gefnogi gan foneddwyr Cymreig, sydd yn brawf arall, nid dibwys, ei fod yntau o'r genedl hono. Er mwyn diwyllio ei archwaeth yn ei gelfyddyd, dywedir i William, Iarll Penfro, ddwyn ei gost i ymdeithio drwy yr Ital a gwledydd addurnawl ereill Cyfandir Ewrop, i'r dyben iddo weled ceinion clodfawr y gwledydd hyny. Ac wedi iddo gyrhaeddyd enwogrwydd yn y gelfyddyd o adeiladu, dywedir i'r un pendefig wneuthur defnydd o'i fedrusrwydd ef yn adeiladu ei balas ardderchog yn Wilton, gerllaw Salesbury. Felly hefyd ar ddymuniad boneddwr Cymroaidd arall, sef Syr Richard Wynn o Wydir, defnyddiwyd ei gelfyddwriaeth ef (sef Inigo) i adeiladu y bont gampus grybwylledig gerllaw Llanrwst, a Chapel Gwydir yn eglwys y dref hono. Ar ol dywedyd cymaint a hyn, er mwyn profi tarddiad Cymroaidd Inigo Jones, deuwn bellach i roddi byr adroddiad o helyntion ei fywyd. Y gelfyddyd i'r hon yr amcanodd ei dad ei ddwyn ef i fynu oedd asiedydd *(joiner)*, ac i'r dyben hwnw 'prentisiwyd ef cyn gynted ag y cyrhaeddodd oedran cyfaddas. Yr oedd yr alwedigaeth hono yn un a roddai gyfleusderau mynych iddo i arfer ei ddawn mewn darluniо *(drawing)*, a chanfyddwyd yn fuan fod ganddo athrylith nodedig yn y cyfryw ymarferiad, ac ni bu yn hir nes iddo ddechreu esgeuluso y llif a'r fwyall, ac o dipyn i beth ymroddi yn mron yn llwyr i'r gelfyddyd o ddarluniо, a hyny nid yn unig yn y gangen berthynol i'w alwedigaeth ddechreuol, eithr hefyd mewn bro-ddarluniadau (*landscapes*), &c. Ei gynydd yn y ffordd hon a ddaeth yn fuan yn hysbys i Iarll Penfro, fel y crybwyllwyd, a'r pendefig hwnw a'i cynysgaeddodd â moddion i fyned i weled gwledydd tramor er mwyn eangu ei ddrych-feddyliau yn y gelfyddyd. Ond pan gyrhaeddodd i Rufain, meddianwyd ef yn ddisymwth gan y fath syndod boddhaol wrth weled godidowgrwydd yr adeiladau yn y ddinas henafwych hono, fel y llyncwyd ei athrylith flaenorol gan yr un newydd o bensaerniaeth (*architecture*), yr hon o hyny allan a fu ei hoff gelfyddyd. Wedi hyn ymwelodd â Venice, lle

Digitized by Google

y boddhawyd ef yn ddirfawr gan adeiladau yr hyglod Palladio, o ba rai y cymerodd ddarluniau manwl i'w dwyn gydag ef i Loegr er ei gyfarwyddyd mewn amser i ddyfod. Ei arosiad yn y ddinas hono a fu dros yspaid lled faith, ac mor gyflym oedd ei gynydd fel yr ymdaenodd ei glod hyd yn mhell, ac yn mysg manau ereill cyrhaeddodd hyd i Ddenmarc, ac i glustiau Christian IV., brenin y wlad hono, yr hwn yn ebrwydd a anfonodd am dano yno, ac a'i gwnaeth ef yn adeiladydd i'w fawrhydi. Ond pa orchestion a gyflawnodd yn y sefyllfa hono nid yw hysbys; pa fodd bynag, preswyliodd yno hyd 1606, pan y daeth y brenin hwnw drosodd i Loegr, am fod ei chwaer, Ann, wedi priodi James I., brenin Prydain, a chaniataodd i Mr. Jones ddyfod drosodd gydag ef, a'r frenhines a'i gwnaeth ef yn adeiladydd iddi hithau: ac wedi hyny cafodd y cyffelyb swyddogaeth dan y Tywysog Henry, lle y cyflawnodd ei ddyledswyddau mewn dull mor foddhaol fel y darfu'r brenin ei hun addo y swydd o arolygydd cyffredinol adeiladau ei fawrrhydi cyn gynted ag y delai y sefyllfa hono yn wag. I aros hyny, cymerodd daith drachefn i'r Cyfandir, ac ymwelodd eilwaith â'r Ital, lle yr arosodd rai blynyddau er mwyn helaethu ei wybodaeth yn ei gelfyddyd. Ar ei ddychweliad adref, cafodd y swydd addawedig, ac yn fuan dechreuodd roddi siamplau ysplenydd o'i fedrusrwydd, i'r hwn berwyl yr oedd teyrnasiad rhwysgfawr James I. yn rhoddi iddo amledd o gyfleusderau. Ac yn fuan wedi hyn gwelid ef yn brysur gyda'r gorchwyl o gynllunio y palas breninol newydd yn White-hall, yr hwn a ddechreuwyd yn ol ei gyfarwyddiadau ef yn y flwyddyn 1619, ac a orphenwyd yn mhen dwy flynedd, gyda thraul o £17,000; ond llesteiriwyd y cwblhad cyflawn o gynllun amcanedig Mr. Jones drwy y terfysgau annedwydd a ddigwyddodd yn y deyrnas yn fuan wedi hyn: pa fodd bynag, yr hyn a orphenwyd ydoedd dra dillynaidd, fel y mae'r olwg arno yn tystiolaethu hyd heddyw. Yn 1618, rhoddwyd allan orchymyn breninol i'r Arg. Ganghellydd, Ieirll Arundel, Penfro, Caerwrangon, ac ereill, i sylfaenu ac unffurfio Lincoln's Inn Fields, yn ol y dull a'r cyfarwyddiadau a roddid gan Inigo Jones, ac yntau a gynlluniodd yr unrhyw mewn dull tra hynodol, yn betryal, o'r un hyd a lled ag un o byramidiau yr Aipht. Yn fuan ar ol hyn, rhoddwyd iddo orchwyl tra anmhriodol i'w athrylith: y brenin James a'i danfonodd i chwilio allan ddyben ac amser sylfaeniad y deml hynfiaethol sydd ar wastadedd Caer-Caradoc (*Salisbury Plain*), yn swydd Wilts, ac a elwir *Stonehenge*. Ymosododd ar y gorchwyl gyda'i holl egni, ac wedi iddo drwy ddirfawr draul a thrafferth fesur hyd a lled y lle, a manwl chwilio y sylfaeni, gan gymharu y gwahanol ansoddau â chyffelyb weddillion henafieithol a welsai mewn manau eraill, hysbysodd ei farn mai "Teml Rufeinaidd ydoedd hon, wedi ei chysegru i Bælus, yr hynaf o dduwiau y paganiaid, wedi ei hadeiladu yn ol y dull Tuscanaidd, ac wedi ei gwneuthur rywbryd rhwng amser Agricola a theyrnasiad Cystenyn Fawr." Er mai y traddodiad cyffredin yw mai un o hen demlau Derwyddon y Cymry oedd hon, eto y penderfyniad uchod pan gyflwynwyd yn 1620 gan Jones i'w feistr breninol a gymeradwywyd y mae'n debygol, canys dywedir i'w fawrhydi yn ebrwydd ar ol hyn benodi ein cydwladwr yn un o'r dirprwywyr i adgyweirio Eglwys Gadeiriol St. Paul yn Llundain, er na ddechreuwyd y gorchwyl hwnw hyd y flwyddyn 1633. Yn 1623, dodwyd ef ar waith i ddarparu capel yn Somerset-house i'r Dywysoges Spaenaidd, yr hon a amcenid yn ddyweddi i'r Tywysog Charles. Ac ar ol marwolaeth James I., yr hyn a ddigwydd-

Digitized by Google

odd yn 1625, cadwyd Inigo yn ei swyddau dan y brenin a'r frenhines nesaf. Ei gyflog fel arolygydd ydoedd 8s. 4c. yn y dydd, a £46 yn y flwyddyn tuag at rent ei dŷ, heblaw cyflog i'w ysgrifenydd, a chostau eraill. Yn mis Mehefin, 1633, penderfynwyd iddo ddechreu ar y gorchwyl crybwylledig o adgyweirio Eglwys St. Paul, y gareg gyntaf o'r hwn waith a osodwyd gan yr esgob Laud, a Jones a osododd y bedwaredd gareg. Er mai gwir ddosparth celfyddydol Inigo Jones ydoedd adeilad-waith, eto nid oedd ei athrylith mewn darluniaeth ddim wedi diffoddi. Cafodd achlysuron mynych i amlygu ei fedrusrwydd yn y ffordd hon wrth dynu darlun-leni (*scenes*) a ddefnyddid yn y chwareuyddiaethau crybwylledig yn mhalas y brenin James, yr hwn ddosparth a ymddiriedid yn wastad iddo ef, fel yr oedd cyfansoddiad yr areithiau a'r caniadau yn cael ei ymddiried i'r prydydd breninol Ben Johnson. Yn y gwahanol orchwylion hyn, cytunai y darluniedydd a'r prydydd yn lled dda am ryw hyd; ond yn 1614, torodd allan ryw ymrafael rhyngddynt, yr hyn a ddeilliodd, fel y bernir, oddiar genfigen Johnson wrth weled darluniau Jones yn cael cymaint o ganmoliaeth. Aeth y prydydd yn mlaen yn ei ddrygnaws, gan warthruddo y darluniedydd yn ei ganiadau i'r fath raddau, nes o'r diwedd y bu orfod dodi ataliad arno drwy awdurdod y llys. Y mae ei duchan-ganiadau i Jones i'w gweled hyd heddyw yn argraffedig yn mysg rhanau ereill o'i waith. Yn y cyfamser, yr oedd Mr. Jones yn cynyddu yn gyflym mewn clod ac mewn golud, a hyny yn neillduol trwy y gefnogaeth yr ydoedd yn ei gael o'r llys breninol. Eto fe leihawyd yr unrhyw yn ddirfawr yn yspaid y gwrthryfel cartrefol: ac megis yr oedd efe wedi cydgyfranogi â'i feistr coronog yn ei lwyddiant, felly hefyd y bu orfod iddo gydgyfranogi âg ef yn ei aflwyddiant. Ar ymgynulliad y Senedd yn 1640, gwysiwyd ef ger bron Ty yr Arglwyddi dan ryw gyhuddiad o ychydig bwys; a'i amddiffyniad a fu yn dra chostus iddo. Ac yn amser awdurdod Cromwel, dirwywyd ef yn y swm o £545 am bleidio o du y brenin. Arddychweliad y freninoliaeth, cafodd Jones ei swydd eilwaith tan Charles II; ond nid oedd y sefyllfa ddim amgen nag enw o swydd dan frenin oedd mor simsan ar ei orsedd. Ond nid hir y bu yr adeiladwr fyw ar ol hyn; canys terfyniad annaturiol oes ei feistr haelionus o'r blaen, yn nghyda'r amryw groes-ragluniaethau a gyfarfyddodd efe yn ei helyntion ei hun, a fu yn foddion i brysuro terfyn ei einioes yntau, yr hyn a ddigwyddodd Fehefin 21, 1651-2, ac efe yn nghylch 80 oed. Ynddo ef y canfyddwn siamplau nodedig o'r derchafiad a ddichon dawn a diwydrwydd dynion ei enill iddynt. Nid oedd cyrhaeddiadau Inigo Jones ddim yn cael eu cyfyngu o fewn cylch y celfyddydau o ddarluniaeth ac adeiladiaeth yn unig. Yr oedd efe yn gyfarwydd hefyd mewn Groeg a Lladin, ac yn brif-fesurydd (*mathematician*) cyflawn, a chanddo archwaeth nid distadl mewn prydyddiaeth; ac y mae rhai o'i ganiadau ar gael mewn argraff hyd heddyw. Eto mewn adeiladwaith y dysgleiriodd yn benaf, a'i orchestion yn y gelfyddyd hono a oesolant ei goffadwriaeth. O'i flaen ef nid oedd y gelfyddyd hon ond megis yn ei mabandod yn Mhrydain; ond efe a'i dygodd i ragoroldeb neillduol, yn enwedig y dull Italaidd o honi. Ei ddwy brif orchest, meddir, ydoedd y gwledd-dŷ (*banqueting-house*) yn Whitehall, ac Eglwys St. Paul yn Covent Garden, Llundain. Heblaw y rhai hyn, mawr glodforir y petryal newydd yn Ngholeg St. Ioan yn Rhydychain; Capel y Frenhines yn St. James; Capel Lincoln's Inn: un neu ddau o'r tai yn Lincoln's Inn Fields; palas Gunnersbury, gerllaw Brentford; Coleshill, yn Berkshire; Cob-

Digitized by Google

ham Hall, yn Nghent; y Grange, yn Hampshire; Tŷ'r Frenhines, yn Greenwich; ac yn enwedig gwyneb palas Iarll Penfro, yn Wilton, &c. Efe hefyd a gynlluniodd Ambresbury yn Wiltshire, yr hwn gynllun a ddygwyd i ben wedi hyny gan ei ddysgybl, Mr. Webb. Mr. Jones hefyd a ysgrifenodd Nodiadau rhagorol ar Draethawd ar Bensaerniaeth o waith Palladio, adeiladau pa un, fel y crybwyllasom yn flaenorol, a fuasai yn foddion i gynhyrfu ei athrylith ef (Inigo) at y gelfyddyd hon.—*Gwladgarwr* VI. 289.

JONES (Parch. Jenkin), y cyntaf a bregethodd ddaliadau Sosin neu Pelagius yn Nghymraeg. Brodor ydoedd o gymydogaeth Llandysil, sir Aberteifi, a chafodd ei dderbyn yn aelod gyda'r Annibynwyr yn Mhantycreuddyn, ger y lle hwnw. Aeth i athrofa Caerfyrddin yn 1721, ac yn fuan wedi gorphen ei dymhor yno, priododd foneddiges gyfoethog o sir Aberteifi. Adeiladodd gapel ar ei etifeddiaeth, yr hwn a elwid Llwynrhydowen, ac ordeiniwyd ef yno yn Ebrill, 1726. Gan fod amryw o weinidogion Annibynol yn cymeryd rhan yn y seremoni, bernir nad oedd efe y pryd hwnw wedi gwyro oddiwrth eu hathrawiaeth. Trwy ei fod yn wr ieuanc addfwyn, yn bregethwr poblogaidd, ac mewn amgylchiadau cysurus, casglodd yn fuan gynulleidfa fawr. Yn 1729, dechreuodd gyhoeddi ei syniadau neilldduol, ac am rai blynyddau efe oedd eu hunig ddadleuydd *cyhoeddus* yn mhlith yr Annibynwyr, er y dichon fod amryw o weinidogion ieuainc ac ysgolheigion coleg Caerfyrddin yn dirgel gydfarnu âg ef, tra nad oeddynt yn ddigon gwrol, neu yn rhy gyfrwys, i'w cyffesu yn wynebagored. Tua terfyn 1729, cyhoeddwyd llyfryn dienw tan y teitl "Cyfrif cywir o'r Pechod Gwreiddiol," a thybid yn gyffredinol mai Jenkin Jones ydoedd ei awdwr; a'r flwyddyn ganlynol, atebwyd ef gan bamphledyn arall, sef "Y cyfrif cywiraf o'r Pechod Gwreiddiol," o waith James Lewis o Bencadair, a Christmas Samuel o Bantteg. Edrychai yr eglwysi uniawngred gyda dychryn ar heresiau yr Arminiaid, fel y gelwid hwynt, a bu ymosodiad ffyrnig trwy y wasg arnynt. Mr. Jones a gyfieithodd o'r Saesneg waith F. Mead, sef "Llun Agrippa, neu o fewn ychydig wedi ei ddatguddio," yr hwn a argraffwyd yn 1723. Efe a fu farw yn 1742; eithr cyn i hyny gymeryd lle, cafodd y boddhad o weled chwech neu saith o weinidogion dylanwadol a'u cynulleidfaoedd wedi coleddu ei hoff syniadau. Efe a fu farw yn Armin, eithr y rhan fwyaf o'i gyfeillion, cyn nemawr o flynyddau, a droisant yn Ariaid os nad rhywbeth gwaeth.

JONES (Parch. Jacob), a anwyd yn Nhalybont, yn sir Aberteifi, Mai 29, 1823. Cafodd y fantais o gael ei ddwyn i fynu yn grefyddol. Yn y fl. 1838, efe a aeth i Athrofa y Parch. G. Brown, LL. D., o Liverpool fel ysgolor, ac wedi hyny daeth yn gynnorthwywr yn yr ysgol hono. Pan oedd gyda Dr. Brown, derbyniwyd ef yn aelod o'r gynnulleidfa Gymraeg, o dan ofal y Parch. W. Williams, o heol Great Cross-Hall, Liverpool. Yn 1842, efe a aeth i Brif Ysgol Glasgow, ac hefyd, cyrchai i wrando darlithoedd Dr. Wardlaw, a'i gydweithwyr, yn yr Egwyddorfa Dduwinyddol. Yn 1843, efe a ddychwelodd i Dalybont, ac a sefydlodd ysgol ei hunan, gyda chryn lwyddiant. Tua'r pryd hwn, cynygiodd bregethu gyntaf. Yn 1845, aeth i goleg Spring Hill, ac yn 1851, ordeiniwyd ef yn fugail cynulleidfa yn Meiksham. Bu yno chwe' blynedd mewn bri a dylanwad. Yr oedd ei weinidogaeth yn mhell o ddangos dysgeidiaeth, er ei fod yn ddysgedig. Gosodai allan wirioneddau syml yr efengyl mewn iaith Ysgrythyrol; tra ar yr

Digitized by Google

un pryd y cymerai ran arweiniol yn mhob symudiad addysgiadol yn y dref. Yn y fl. 1857, tueddwyd ei sylw at Awstralia, trwy apeliadau y Parch. J. L. Poore, ar ran y drefedigaeth hono. Wedi ystyriaeth faith a phryderus, efe a benderfynodd ymofyn â Phwyllgor y Gymdeithas Genhadol Drefedigol. Derbyniwyd ef, ac wedi canu yn iach â'i ddiadell yn Melksham, efe a hwyliodd tua Sydney, Gorph. 20, 1857. Ond pan oedd y llong yn nesu at y tir, ac yn ei ymyl, trwy gamgymeriad y *Pilot*, hi a lywiwyd ar draws y creigiau, aeth yn ddryllian, a boddodd y rhan fwyaf oedd arni, a Mr. Jones yn eu plith.—*Lleyn MSS.*

JONES (JOHN), LL.D., ydoedd fab i Matthew Jones, o Bentyrch, yn Morganwg. Cafodd ei dderbyn i goleg Iesu, Rhydychain, yn 1672, ac efe ar y pryd yn 17 oed, lle y daeth yn ysgolor, a thrachefn yn gymrawd. Wedi ei raddio yn y celfyddydau, efe a efrydodd y gyfraith, ac a wnaed yn ddoethawr yn y cyfryw yn 1677. Bu am ysbaid yn ymarfer fel meddyg yn Windsor; ac yn 1691, penodwyd ef yn ddeon Llandaf. Yr oedd yn wr cywrain ac o ddysgeidiaeth eang; yn 1683, efe a gyhoeddodd draethawd yn Lladin ar "Intermittent Fevers;" ac yn ol *Plot's Natural History of Oxfordshire*, efe a ddyfeisiodd, awrlais a weithid gan awel o fegin hunan-weithredol. Bu farw yn 1709.—Wood's *Athen. Oxon.*

JONES (JOHN), y mynach Benedictaidd dysgedig, a anwyd yn mhlwyf Llanfrynach, yn sir Frycheiniog, yn 1575. Pan yn 16 oed, danfonwyd ef i ysgol y *Merchant Tailors*, Llundain, ac oddiyno i goleg St. John, Rhydychain, lle yr etholwyd ef yn ysgolor. Yno, y daeth i adnabyddiaeth a chyfeillgarwch mynwesol â William Laud, wedi hyny archesgob Caergaint. Gwnaed ef yn gymrawd o'i goleg, ac ymroddodd i efrydu y gyfraith wladol, yn yr hyn y llwyddodd i gryn raddau, pryd y tueddwyd ef i droi yn Babydd, ac y gadawodd y wlad hon, gan fyned i'r Yspaen, ac yno yn Compostella, gwnaed ef yn fynach o urdd Benedict Sant; mabwysiadodd yr enw Leander de Sancto Martino; a chafodd ei raddio yn D.D. Oddiyno aeth i Douay, ac am lawer o flynyddau bu yn ddysgawdwr mewn duwinyddiaeth a Hebraeg yn ngholeg Vedastus Sant, o fewn y dref hono. Wedi hyny, gwnaed ef yn benaeth coleg Benedictaidd Gregory Sant yno, a bwriedid ei wneud yn abad Gismar, yn Germani. Yr oedd hefyd yn ficer cyffredinol y Benedictiaid Seisnig yn yr Yspaen; bu ddwywaith yn llywydd y Benedictiaid yn Lloegr; ac yr oedd yn brif-fynach mewn enw yn eglwys Babaidd Caergaint. Dywed Wood ei fod yn wr hyawdl anarferol, yn hyddysg iawn yn y gwyddorau a'r celfyddydau, yn anwyl gan bawb a'i hadwaenai, ac na chaseid ef gan neb ond y Puritaniaid a'r Jesuitiaid. Ychydig amser cyn ei farwolaeth, gwahoddwyd ef gan Laud trosodd i Loegr, er mwyn ymgynghori âg ef o barth pynciau dadleuol pwysig y dydd; ac y mae Prynne yn cyhuddo yr archesgob o fwriadu heddychu y Protestaniaid a'r Babyddion trwy ymyriad y mynach Jones. Bu farw yn Lloegr, Rhagfyr 17, 1636, a chladdwyd ef yn nghapel y Capuchiaid, ger *Somerset House*, yn y Strand, Llundain. Ni chyhoeddodd ond dau draethawd Lladin ar dduwinyddiaeth, un yn fath o fynegair Ysgrythyrol, a'r llall yn dangos unoliaeth a chysondeb yr Ysgrythyrau. Gadawodd ar ei ol chwe' cyfrol o Esboniadau ar y Bibl mewn llaw-ysgrifen—Wood's *Athen. Oxon;* Jones' *Brecknockshire.*

JONES (JOHN), milwriad yn myddin Cromwell, ydoedd fab i foneddwr tiriog, ac yn hanu o deulu henafol. Ei dad ydoedd Thomas ab John, neu Jones, o Faesgarnedd, ger Drws Ardudwy, yn Meirion, a'i fam oedd

Digitized by Google

Elen merch i Robert Wyn ab Ifan, Ysw., o Daltreuddyn, yn yr un gymydogaeth. Mewn hen lyfr prin iawn, yn cynwys hanes y teyrnleidiaid, dywedir ei ddanfon i Lundain i ddysgu rhyw gelfyddyd, eithr efe a aeth yn was i wr boneddig, ac oddiwrth hwnw at Syr Thomas Middleton, arglwydd faer Llundain, yn ngwasanaeth yr hwn y parhaodd am lawer o flynyddau. Ar doriad allan y rhyfel cartrefol, ymunodd â byddin y senedd, a chafodd gadbeniaeth ar y gwyr traed, ac ohyny dyrchafwyd ef yn gyflym i fod yn filwriad (*colonel*). Darfu i fywiogrwydd ei weithrediadau ei argymell yn fuan i sylw a ffafr Cromwell, gan yr hwn y perchid ef yn fawr, ac ymddiriedwyd iddo amryw wasanaethau pwysig. Penodwyd ef yn un o ddirprwywyr y senedd i lywodraethu yr Iwerddon. Y swydd hon, meddir, a gyflanwodd mewn "trais a gormes," gan erlid y sawl a wahaniaethent mewn egwyddor oddiwrtho ef, gan adgodi hen gyfreithiau parth darllaw diodydd, gorthrymu pob tŷ yn Nublin ag oedd yn gwerthu diod, ac ni chaniatai i neb lanw swydd gyhoeddus os gwelid ef yn myned i dafarndy; fel yr oedd myned i ddiotty neu eglwys reolaidd yn bechodau yn un mor beryglus a chospadwy yn ei olwg. Wedi dychwelyd o'r Iwerddon, efe a briodes Jane, chwaer Cromwell, a gweddw Roger Whitstone, Ysw., a phenodwyd ef gan ei frawd-yn-nghyfraith yn aelod o Dy yr Arglwyddi. Pan ddychwelodd Siarl II., a chymeryd meddiant o'r orsedd, y Milwriad Jones, gydag eralll, a wysiwyd o flaen y llys cyfreithiol am y rhan y gymerasai yn nghondemiad y brenin Siarl I., pryd y cafwyd ef yn euog, ac efe a ddienyddiwyd Hydref 17, 1660.—Wms. *Em. Welsh.*

JONES (JOHN), o'r Gelli Lyfdy, yn mhlwyf Ysgeifiog, sir Fflint, ydoedd gyfreithiwr yn llys Cyffiniau Cymru. Gadawodd o'i ol rai byrhanesion rhyfedd am y llys hwnw, y rhai a gasglasai gyda'r bwriad o ddyn-oethi ei anngyfiawnder dybryd, a'r rhai a barodd iddo ef ymneillduo, oblegyd ei fod yn rhy honest i lynu wrtho yn hwy. Hynodir ef fel un o'r cynullwyr ysgrifau Gymreig mwyaf diflino. Parhaodd i adysgrifio hen ysgrifau am yspaid deugain mlynedd, fel y gwelir oddiwrth rai o'i gyfrolau, y rhai a ddyddir o 1590 i 1630. Yr oedd ei lafur yn y dull hwn yn llanw haner cant o gyfrolau mawrion. Yr oedd wedi gwneud cytundeb gyda'r hynafiaethydd enwog Robert Vaughan, o Hengwrt, fod ba un i bynag o honynt a fyddai byw ar ol y llall gael ei ysgrifau; ac felly anfonwyd holl lyfrau y Gelli Lyfdy i Hengwrt.—*Cambrian Biography.*

JONES (JOHN), duwinydd o gryn fri, ac un a gynyrfodd ddadleuon pwysig parth y Ffurfweddiau. Ganwyd ef yn 1700, a thybir mai brodor ydoedd o sir Gaerfyrddin. Derbyniwyd ef i goleg Worcester, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A., tua 1721, ac efe a urddwyd yn offeiriad yn 1726. Yn 1741, rhoddwyd iddo ficeriaeth Alcondury, yn sir Huntington, ac oddi yno symudodd yn 1751 i rectoriaeth Bolnhurst, yn sir Bedford. Yn 1755, yr oedd yn ficer Hitchin; ac yn 1759, daeth yn gurad i'r bardd Dr. Young yn Welwyn, lle yr arosodd hyd farwolaeth y gwr enwog hwnw yn 1765. Bu Mr. Jones farw mewn canlyniad i syrthio oddiar ei farch. Wedi ei farwolaeth, y rhan fwyaf o'i law-ysgrifau a ddaethant i Thomas Dawson, M.D., gweinidog Ymneillduol yn Hackney, ac oddiwrtho ef i Lyfrfa y Dr. Daniel Williams, yn Redcross Street, Llundain. Ohonynt hwy y cymeryd rhai o'r bywgraffiadau sydd yn argraffedig yn y *Gentleman's Magazine;* ac y mae yr un cyhoeddiad hefyd yn cynwys dyfyniadau helaeth o'r ohebiaeth lenyddol

Digitized by Google

a fu rhyngddo â'r Dr. Birch, oddiwrth ba rai y gellir ffurfio barn led deg am ei nodwedd a'i athrylith. Ei brif waith ydoedd, "Free and Candid Disquisitions," yr hwn a gyhoddodd yn 1749. Cynwysa hwn amryw sylwadau ar y Ffurweddiau, yn nghyda chynygion am eu cyfnewid. Yn 1765, cyhoeddodd, "Catholic Faith and Practice," hefyd, "Letter to a Friend in the country."—Chalmer's *Biographical Dictionary.*

JONES (JOHN), LL.D., oedd fab i dyddynwr ag oedd byw yn y Wernfelen, ger Llanymddyfri. Wrth weled ei awyddfryd angerddol at lyfrau, ei dad a benderfynodd roddi iddo yr addysg oreu yn ei gyrhaedd. Pan yn 14 oed, danfonwyd ef i goleg Aberhonddu,* lle yr arosodd hyd farwolaeth ei dad yn 1783, pan y gorfu arno ddychwelyd adref. Yn 1786, cafodd dderbyniad i goleg Ymneillduol newydd Hackney, lle y bu am chwe' blynedd. Yn 1792, penodwyd ef yn athraw clasurol ac uch-rifyddol yn athrofa Annibynol Abertawe, yr hon swydd a ddaliodd am dair blynedd. Symudodd o Abertawe i gymeryd gofal gweinidogaethol eglwys Undodaidd yn Plymouth Dock; ac yn 1797, symudodd i ddal yr un swydd yn Halifax, sir Gaerefrog. Arosodd yno am dair blynedd, gan hefyd gadw ysgol. O Halifax, yn 1800, symudodd i Lundain, lle yr arosodd hyd ddiwedd ei oes. Nid oedd ganddo yn y Brifddinas eglwys rheolaidd tan ei ofal, er y byddai yn pregethu i'w frodyr yn achlysurol, ond efe a gyflwynai ei amser i lafur llenyddol, a dysgu clasuriaeth, am yr hyn yr oedd iddo ganmoliaeth uchel. Bu farw Ionawr 10, 1827. Tua 1820, darfu i brif-ysgol Abertawe ei anrhydeddu â'r urddenw o ddoethawr yn y gyfraith; ac o fewn flwyddyn neu ddwy i'w farwolaeth, etholwyd ef yn aelod o o Gymdeithas Freiniol y Llenyddion. Yr oedd yn awdwr y gweithiau canlynol:—1, A Development of Remarkable Events, two volumes, 1800. 2, The Epistle of Paul to the Romans analysed, 1801. 3, A Greek Grammar, 1804. 4, Illustrations of the four Gospels, 1808. 5, Ecclesiastical Researches, 1812. 6, A Sequel to the same, 1813. 7, A Latin and English Vocabulary, 1813. 8, A Latin Grammar, 1813. 9, A New version of the first three chapters of Genesis, 1819. 10, A series of important Facts, 1820. 11, A Reply to two Deistical works, tua 1822. 12, A Greek and English Lexicon, 1823. 13, An Answer to Pseudo-Criticism, tua 1824. 14, Three Letters on 1 John v. 7, 1825. 15, Anologiæ Latinæ, being his Latin Vocabulary improved, 1825. 16, Tyro's Greek and English Lexicon, 1825. 17, Etymologia Græca, being his Greek Grammar remodelled. 18, Exposure of the Hamiltonian System of teaching Languages, 1826. 19, An Explanation of the Greek Article, 1826. *(The Monthly Repository, April* 1827*).*

JONES (JOHN), oedd ail fab i Edward Jones, o Nant Eos, sir Aberteifi, ac a anwyd yn 1634. Efe a briododd Mary, ferch Jasper Cornelius. Gwnaed ef yn filwriad *(colonel)* o wyr traed a gyfodwyd yn sir Aberteifi i wasanaethu y brenin Siarl I. Yr oedd yn un o'r rhai y bwriedid eu hanrhydeddu âg urdd o farchog y Dderwen Freiniol, ac yn meddu etifeddiaeth gwerth £800. Y mae y teulu yn cael eu cynrychioli yn uniongyrchol gan y Col. W. R. Powell, presenol. Bu farw yn 1666, yn 32 oed.—*Lleyn MSS.*

JONES (JOHN), M.A. a D.D., a gafodd ei ddysgeidiaeth yn ngholeg Brazen-Nose, Rhydychain, lle, wedi cyrhaedd ei M.A. o'r blaen, a grewyd yn D.D., yn y flwyddyn 1642. Bu yn beriglor Rothbury, yn sir Northumberland, o'r lle y deolwyd ef yn amser Cromwel. Wedi adferiad Siarl II., efe a wnaed yn archddiacon Meath; ac, yn 1667, yn

Digitized by Google

Esgob Kildare, yn Iwerddon. Bu farw Rhagfyr 15fed, 1678.—*Lleyn MSS.*

JONES (Parch. John), oedd enedigol o sir Aberteifi. Yn 1782, cafodd guradiaeth Mallwyd, a thrachefn y bersoniaeth hono gan yr Esgob Shipley. Wedi hyny, dyrchafwyd ef i ficeriaeth Pennant, a phersoniaeth Llangynog; oll yn sir Drefaldwyn. Gadawodd ar ei ol lawer iawn o Bregethau mewn ysgrifen, ac ohonynt cyhoeddwyd 30 mewn dwy gyfrol denau, o dan olygiad y Parch Henry Parry, o Lanasa.—*Lleyn MSS.*

JONES (Parch. John), offeiriad Llanllyfni, yn Arfon, a anwyd yn y Lleddfa, ger Machynlleth, yn 1786. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn ysgol ramadegol Bangor, o'r lle y dyrchafwyd ef i goleg Eglwys Crist, Rhydychain, lle y cyrhaeddodd y radd o M.A. Yr oedd yn ysgolhaig enwog, ac yn hynafiaethydd medrus. Cyhoeddodd saith o bregethau yn un o flynyddau boreuaf ei weinidogaeth. Cyfranodd luaws o erthyglau gwerthfawr ar hynafiaethau i'r *Archæologia Cambrensis*, a chyhoeddiadau eraill o'r un amcan. Gadawodd hefyd beth anferth o ysgrifeniadau hynafiaethol, y rhai y darfu i weinyddwyr ei ewyllys a'i etifeddion eu cyflwyno i wasanaeth y *Cambrian Archæological Association.* Bu y gwasanaethu fel offeiriad yn mhlwyf Llanllyfni am yspaid 43 o flynyddau, ac yno y bu farw, yn mis Chwefror, 1863, ac efe yn 77 oed.—*Arch. Cambrensis*, 1863.

JONES (John), ydoedd fab i William Jones, o Rosllanerchrugog, sir Ddinbych. Yr oedd yn hynafiaethydd enwog, ac yn gyfaill a gohebydd â Robert Vaughan, o Hengwrt. Oddeutu 1649, efe a ysgrifenodd, "Memorial," fel, "answere of John Jones gente to wrongfull Impositiones of money Imposed upon hym or his lands by any of the Parlament Officers against the lawe and Justice of this land of Wales, p'sented to the honorable generall Thomas Mitton, general of the King and Parlament forces for North Wales, &c."

JONES (John), LL.D., a anwyd yn y Derwydd, plwyf Llandybie, sir Gaerfyrddin, Awst 17, 1772. Ei rieni wrth ganfod ynddo y fath awyddfryd am ddysgeidiaeth, a benderfynasant roddi iddo yr ysgol oreu o fewn eu cyrhaedd; a'r fath oedd ei lwyddiant yntau, fel y cafodd le pan yn dra ieuanc fel is-athraw mewn ysgol o gryn enwogrwydd yn nghymdogaeth Llundain. Trwy ddiwydrwydd a chynildeb, llwyddodd i hebgor ychydig arian, yr hyn, yn nghyda blwydd-dal o £20 a roddasid iddo gan ei berthynas, Mrs. Bevan, o Langharne, a'i galluogodd ef i gymeryd taith i'r Cyfandir. Ymwelodd âg amryw fanau yn Germani, a bu yn efrydu am beth amser yn mhrif ysgol Jena, yn yr hwn le y graddiwyd ef yn LL.D. Wedi dychwelyd i Loegr, cafodd dderbyniad yn *Lincoln's Inn* i efrydu y gyfraith; ac wedi ei alw at y bâr, efe a fu yn dilyn cylchdaith gyfreithiol Rhydychain a Deheudir Cymru. Hyd yn hyn, yr oedd ffawd a llwyddiant yn gwenu arno, ond cymerodd amgylchiad le yn awr a ddinystriodd bob gobaith iddo am ffyniant yn y dyfodol. Wrth amddiffyn dyn tlawd mewn llys, digwyddodd wneud sylwadau tra gwatwarus a diraddiol ar y rhai a weinyddent y cyfreithiau, yr hyn a roddes y fath dramgwydd i'w gyd-gyfreithwyr fel na chymdeithasent ag ef o hyny allan, ac ni huriwyd ef mewn unrhyw achos byth mwyach. Bu farw mewn dygn dlodi yn Islington, Llundain, Medi 28, 1837. Ei weithiau cyhoeddedig ydynt:—1, "Dr. Bugge's Travels in the French Republic, from the Danish," 1801; 2, "De Libellis Famosis, or the Law of Libel,"

Digitized by Google

1812; 3, "Y Cyfamod Newydd, yn cynwys cyfieithiad cyffredinol y Pedair Efengyl, gwedi ei ddiwygiaw yn ol y Groeg," 1818; 4, "History of Wales," 1824. Cafwyd copi diwygiedig o'r gwaith olaf yn mhlith ei bapurau wedi ei farwolaeth. Gadawodd hefyd mewn ysgrifen waith yn dwyn y teitl, "Worthies of Wales, or Memoirs of Eminent Ancient Britons and Welshmen, from Cassivelaunus to the present time." Yr oedd y Dr. Jones yn dra hoff o syniadau eithafol, ac yr oedd yn amcanu bob amser at ddirmygu y genedl Gymreig, fel y tystiolaethir yn ei Hanes Cymru, ac yn y llythyr a ysgrifenodd i'r *Monthly Magazine*, 1819, ar y Madegwys. Y "Cyfamod Newydd" ydyw yr unig lyfr a gyhoeddodd yn iaith ei fam, ac nid yw y gwaith ond eithaf diwerth, gan mai amlwg yw fod yr awdwr yn anhysbys hyd yn nod yn rheolau symlaf cyfansoddiad Cymraeg. O ran syniadau ar bynciau crefyddol, yr oedd yn gwyro yn gryf at anffyddiaeth.—Wms. *Em. Welsh.*

JONES (JOHN), bardd Seisnig o gryn fedrusrwydd, a anwyd yn Llanasa, sir Fflint, yn 1788. Yr oedd ei rieni yn amaetha fferm fechan. Pan yn wyth oed, gyrwyd ef i weithio mewn melin gotwm yn Nhreffynon; a chyfarfu a'r holl galedi ag yr oedd yn rhaid i "blant ffactri" yn yr oes hono eu hwynebu. Er hyny, efe a oddiweddodd bob anhawsder, a thra yn y sefyllfa anghyfleus hono llwyddodd i ddysgu darllen ac ysgrifenu. Wedi gorphen ei egwyddor-wasanaeth o saith mlynedd, aeth i'r mor ar fwrdd llestr o'r enw *Anne*, o Liverpool, rhwymedig i Guinea; a'r flwyddyn ganlynol, 1805, ymrestrodd ar fwrdd un o longau rhyfel y llywodraeth, o'r enw *Barbadoes*, yr hon oedd i wib-forio i'r India Orllewinol. Y llong hon a fu yn foddion i hysbysu Nelson fod y llynges unedig wedi hwylio i Ewrob, ac a gymerth y gad-long Ffrengig yn yspail rhyfel, ac a ddychwelodd i Loegr gydag anrheithiau eraill. Yna cymerwyd Jones a'r gweddill o'r dwylaw oddiarni, a dodwyd hwynt ar fwrdd y *Saturn*, yn cludo 74 o ynau, ac yn cael eu llywyddu gan arglwydd Beauclerc. Gorchymynwyd iddi ymuno â llynges y mor-lyngesydd Collingwood, oddiallan i Cadiz, Yspaen. Parhaodd yn y safle hwnw am o ddwy i dair blynedd, ac yna dychweloddadref. Ar ol hyny, bu yn gwib-forio ar dueddau L'Orient, yr Ynysoedd Gorllewinol, y Baltic, a Gulph Finland. Yn 1812, cymerwyd dwylaw y *Saturn* a dodwyd hwynt ar fwrdd y *Royal George*, 110 o ynau, a than orchymyn i wib-forio yn Mor y Canoldir, tan lywyddiaeth arglwydd Exmouth a Syr Sidney Smith. Tra yn gwarchae Toulon, daeth y llynges Ffrengig allan ddwywaith i'w gwrthwynebu, ond gan eu bod yn cael eu cysgodi gan eu magnelfeydd ar y tir, ni feiddiodd y Prydeinwyr eu cyfarfod mewn brwydr. Tra ar fwrdd y *Royal George*, defnyddiodd Jones ei oriau hamddenol i ddiwyllio ei feddwl; ac nid lle anfanteisiol ydoedd, gan fod ar y bwrdd longwyr o amrywiol wledydd yn llefaru eu hieithoedd brodorol, ac heblaw hyny gyflawnder o lyfrau. Ar derfyniad y rhyfel, rhyddhawyd ef gydag eraill o'r gwasanaeth. Cafodd yn fuan waith mewn ffactri yn Nhreffynon. Yn 1820, symudodd i Staleybridge, sir Gaerlleon, lle y bu yn gweithio am flynyddau yn melin gotwm Mr. Robert Platt: ac wedi iddo heneiddio, rhoddwyd ef mewn gwaith ysgafnach fel nos-wyliwr. Yn mhen enyd, bu orfod arno roddi y swydd hono i fynu oblegid gwaelder iechyd; ac yna aeth i fyw at ei ferch—efe yn edrych tipyn ar ol y tŷ yn y dydd, tra y gweithiai hithau yn y ffactri. Yr oedd ei gynaliaeth felly yn bur fain, ond byddai amryw o foneddigion yr ardal yn cyfranu iddo yn

Digitized by Google

haelionus, ac yntau, druan, fel un y darllenasom am dano o'r blaen, yn barod i ddweyd, "Arian neu aur nid oes genyf, ond yr hyn sydd genyf yr wyf yn ei roddi i ti." Yna eisteddai i lawr ar hen gadair ganddryll, a thipyn o bapur tê neu siwgr o'i flaen, a dechreuai gyfansoddi cân o ganmoliaeth iddynt. Nid cynt y byddai y dernyn yn barod, na fyddai yn llaw yr argraffydd. Wedi cael y lleni, byddai y Bardd ar drot, yn gyntaf, at y gwr haelionus, yr hwn, wrth gwrs, a ddyblai ei garedigrwydd. Ar ol gorphen yno, â'i at ei gyfeillion i gynyg cynyrch olaf ei athrylith; ac nid ydym yn gwybod i neb ericed wrthod prynu ganddo. "Wel, Jones anwyl," ebai'r ysgrifenydd wrtho, "a fedrwch chwi ddim dewis testunau o natur arall? Mae yn dra thebyg y meddylir mai gweniaith yw y canmoliadau parhaus yma i bersonau nad oes ganddynt ddim ond arian i ddynodi eu rhagoriaethau." "Wel, ——bach, y mae y darnau yna bron igyd yn amlygiad gonest o fy nheimladau ar y pryd; a phe buasent heb fod, nis gallaf fi fforddio i beidio gwenieithio tipyn yn awr ac yn y man." Awgrymwyd a fyddai troi damhegion ar gân yn debyg o at b yn well,--"Y mae yma filodd ar filoedd o blant yn yr Ysgolion Sabbathol, ac y mae canoedd o bobl grefyddol a'u darllenant gyda phleser." Cymerodd y peth i fynu ar unwaith, ac yr oedd un ddamheg yn y farchnad yn mhen tua wythnos. O hyny hyd ei farwolaeth glynodd wrth y gwaith hwnw, a gwerthodd filoedd ohonynt. Ar ddau wahanol dro bu pobl Staleybridge mor garedig a chodi cyngherdd iddo; yr oedd pob *artiste* yn rhoddi ei wasanaeth yn rhad. Yn y cyngherdd cyntaf, yr oedd y swm wedi talu pob costau yn £18; ac yn yr ail yn £22. Gan nad yw beirdd yn gyffredin yn hynod am eu darbodaeth, a chan na chafwyd lle i gredu fod y bardd Jones yn ffurfio eithriad i'r frawdoliaeth, barnodd y Pwyllgor mai gwell oedd rhoddi y symiau uchod yn y Banc, ac iddo yntau eu cael, hyn a hyn yn yr wythnos. Yn hyn gwnaethant yn ddoeth, a chafodd yntau y fantais oddiwrthynt. Yr oedd mewn oedran teg, ond bu yn orweiddiog am yspaid maith o amser, nes y terfynwyd ei nychdod a'i boenau yn yr angau, Mehefin 19, 1858. Ar ddydd ei farwolaeth, cyfarfu ei gyfeillion llenyddol, a ffurfiasant eu hunain yn bwyllgor, gyda'r bwriad i gymeryd gofal y cynhebrwng, a gofalu fod pob peth yn cael ei ddwyn yn mlaen yn drefnus. Yr oedd y cynhebrwng i gychwyn am wyth o'r gloch, ac ymgynullodd lluaws mawr. Wrth deithio o'r tŷ i'r gladdfa, yr oeddid yn mynod ar hyd un o brif heolydd y dref. Cadwai yr elor a'r orymdaith ar ganol yr heol, tra yr oedd miloedd o drigolion y dref ar bob ochr i'r heol. Bernid nad oedd yno lai nac 8,000 o gwbl, a phawb yn ymddwyn yn deilwng o'r amgylchiad. Yr oedd Creuddynfab, a Ceiriog, yn nghyda llawer eraill o gyfeillion llenyddol y Bardd, yn yr orymdaith. Claddwyd ef yn barchus, mewn bedd a brynasai y pwyllgor iddo (fel na fyddai un anmheuaeth yn nghylch gorweddfa y Poet Jones), yn mynwent capel y Wesleyaid, Grosvenor Square, a cherfiwyd cofnodiad parchus ar gareg ei fedd am dano. Hefyd, gosodwyd *tablet* ar wyneb yr addoldy crybwylledig yn nodi ei fod, er yn fardd o amgylchiadau isel, wedi meithrin yr awen yn nghanol dadwrdd morryfel a thrybesdod bywyd prysur y ffactri; a'r geiriau hyn a ragflaenir gan ddetholiad o awdl Cawrdaf ar "Hiraeth Cymro am ei wlad:"—

Tannau euraidd tynerwch
Gyffry wrth fy lletty llwch,
Teirio prudd arwyrain,
A thrist wedd wrth fy medd main.

Digitized by Google

Y rhai a gyficithodd Creuddynfab er mwyn cyfeillion Seisnig yr hen fardd:—

The golden chords of terderness
Will tremulously wave,
And in a weeping elegy
Swell o'er my silent grave.

Yn 1856, darfu i'r *Welsh Bard*, fel yr adwaenid ef yn Staleybridge, gyhoeddi cyfrol fechan 8plyg o'i gyfansoddiadau barddonol, tan y teitl, "Poems by John Jones," a phan ystyriom gynifer ei anfanteision, y mæent yn anrhydedd mawr i'w dalent gynhenid, a'i ymdrechion i'w gloywi. Ceir yn y gyfrol amrai bryddestau dyddorol, ar destunau Cymreig. Efe yw awdwr gwreiddiol y "Ddadl rhwng y Dwr a'r Tân," cyfieithiad o'r hon a welir yn y "Dadleuon ac Ymddyddanion" gan y Parch. J. R. Conwy. Gan nad yw y genedl Gymreig yn gwybod nemawr ddim am eu cydwladwr barddonol hwn, ni a ddifynwn y gân ganlynol o'r gyfrol grybwylledig:—

Has the white man, whom our vigour
Daily keeps in pomp and state,
Aught beyond his pride and rigour,
To confirm him truly great?

O, that I could see some wonder
Done by this pretended god,
Can he wake the sleeping thunder,
Or restrain it with his nod?

When the face of morn is brightening,
Can he quench yon fiery star,
Can his arm arrest the lightning,
Can it check th' ærial war?

Can his voice control the ocean,
When huge billows lash the strand;
When hills tremble with commotion,
Will they cease at his command?

Would the flames or waters spare him
More than Afric's sable crew;
Would the lion pause to tear him,
Though he boast a whiter hue?

Is he never prone to sicknes;
Does he claim no soothing care;
Is his soul exempt from weakness;
Dwells no imperfection there?

Does he not like negroes startle
At the awful frown of death;
Is his body found immortal;
Does he not resign his breath?

Yes,—he's frail as those he urges;
Men! who to his yoke conform:
Rouse!—remember, when he scourges,
That he's but a fellow-worm?

JONES (Parch John), gweinidog gyda'r Undodiaid, yn Heol-y-felin, Aberdar, a anwyd tua 1802, mewn ffermdy o'r enw Pantllnest, plwyf Llanarth, sir Aberteifi. Bu am ysbaid yn ysgol glodfawr D. Davies, Castellhywel, o ba le y symudwyd ef i goleg Presbyteraidd Caerfyrddin. Wedi bod yno bedair mlynedd, ac emill iddo ei hun radd dda o ddysgeidiaeth mewn uwch-anianiaeth, Groeg, a Lladin, ymadawodd yn 1827. O hyny hyd 1833, bu yn ysgolfeistr mewn gwahanol fanau, gan wrthod galwadau dwy neu dair o eglwysi lled bwysig, a'r flwyddyn grybwylledig derbyniodd wahoddiad eglwys Hen Dy Cwrdd, Heol-y-felin, Aberdar. Yn fuan ar ol ymsefydlu, priododd un Anne Rees, o Gelligell, ger Llanbedr; ac agorodd yno ysgol ramadegol mewn cysylltiad â'i gapel. Er fod ei ddyledswyddau fel gweinidog ac ysgolfeistr yn hawlio ei amser bron yn llwyr, eto mynodd hamdden i ddarpar offrymau i'w gosod ar allor llenyddiaeth ei wlad. Y llyfrau canlynol a gyhoeddwyd o'i waith:—1, "Edifeirwch gwely angau," 1836; 2, "Cyfieithiad o Lythyr Logan ar y Drindod," 1839; 3, "Galwad ar Ieuenctyd i droi at Dduw," 1840; 4, "Traethawd ar y Sabbath;" 5, "Casgliad o Salmau a Hymnau;" ac amryw fân lyfrynau eraill. Ysgrifenodd hefyd lawer i gyhoeddiad ei enwad, *Yr Ymofynydd*, ac y mae y cyfryw yn arddangos anianawd ddyfn-feddylgar eu hawdwr. Yr oedd yn ddyn tra myfyrgar, ac wedi teithio mewn llyfr trwy deyrnas bron pob gwybodaeth fuddiol, gan ddwyn ohonynt yspeiliadau gwerthfawr, y rhai a drysorid yn ei gôf eang. Materwr ydoedd o ran ei ddaliadau athronyddol. Fel dyn, yr oedd ynddo lluaws o rinweddau amlwg, ond di-

Digitized by Google

ymhongar; a pherchid ef yn uchel gan y sawl a'i hadwaenent oreu. Yr oedd ganddo amryw neillduolion meddyliol, y rhai a dorent allan weithiau yn ei ymddangosiad allanol. Gwisgai farf glyd dros ei wyneb pan yr oedd hyny yn gwneud Cymro yn Iuddew, ac yn peri i'r werin lygadrythu a sefyll draw mewn arswyd llesmeiriol. Gallai hefyd lawio arf gwatwareg gyda medrusrwydd. Pan gyfeiriwyd un tro at ei farf, ac y sylwyd ei fod yn ddigon i ddychrynu y diafol, atebodd yn dawel, "Dyna ydyw fy swydd i." Ffurfiai ei opiniynau mewn pwyll, oddiar osodiadau a dybiai efe yn gywir, ac wedi unwaith gyrhaedd unrhyw benderfyniad, yr oedd yn rhan mor hanfodol ohono â'i feddwl ei hun. Pa beth bynag feddylid am ei ddaliadau crefyddol, rhaid oedd i bawb gredu ei fod yn ddyn gonest a chydwybodol gyda hwynt. Bu farw yn Rhagfyr, 1863, yn 59 oed, wedi gweinidogaèthu yn llafurus yn Aberdar am 30 o flynyddau.—*Lleyn MSS.*

JONES (JOHN), a anwyd yn Nhan-y-Celyn, Trefriw, ger Llanrwst. Yr oedd yn ddyn o gynheddfau naturiol rhagorol dda, a chyfansoddodd lawer o ddarnau gododog. Yr oedd yn deall ieithoedd yn dda, ac yn rhifyddwr enwog. Yr mlynyddau diweddaf ei oes yr oedd yn olygydd newyddiadur yn Nghaerfaddon.—*Lleyn MSS.*

JONES (PARCH. JOHN), Edeyrn, pregethwr hynod yn ei dydd gyda'r Methodistiaid. Ganwyd ef yn Nhyddyn Dafydd Ddu, Llandwrog ger Caernarfon, yn 1761. Pan oedd John tua chwe' mis oed, symudodd ei rieni i drigianu yn nhref Caernarfon. Yr oedd yn hogyn direidus, didoraeth, yr hyn a'i dygodd i gyfarfyddiad â damwain a fu agos yn angau iddo, ac a'i niweidiodd i'r fath raddau fel y tybiai ei rieni na byddai yn gymhwys i ddal unrhyw galedwaith am weddill ei oes. Felly, pan yn 16 oed, rhwymasant ef yn egwyddorwas o eilliwr yn y Wyddgrug, lle yr arosodd am ddwy flynedd. Erbyn hyn, yr oedd ei riaint wedi symud eu preswylfod i Amlwch; ac aeth yntau yno atynt, gan ddilyn ei rusedd nes bod tuag ugain oed. Tybir mai o tan weinidogaeth Mr. David Morris, tad y Parch. Ebenezer Moris, y dychwelwyd ef at yr Arglwydd, pan oedd y gwr hwnw ar daith yn Mon. Yr oedd ganddo rhyw gariad neillduol at weinidogaeth Mr. Morris, a dilynai ef am filldiroedd lawer pan y deuai ar ddamwain i'r wlad. Ymunodd â chrefydd pan tuag ugain oed, a dechreuodd bregethu pan yn 23 oed, yr hwn waith a ddilynodd hyd ei farwolaeth, am 39 o flynyddau—35 o ba rai a dreuliodd yn Edeyrn, sir Gaernarfon. Penaf peth a barodd iddo ymsefydlu yn Edeyrn ydoedd ddarfod iddo briodi yn fuan wedi dechreu pregethu un Mary Williams, etifeddes Penybryn, yn y plwyf hwnw. Torodd allan ar y gyntaf fel pregethwr tra effro a bywiog—bu yn foddion i gyffroi trigolion Mon ac Arfon o'u difrawder ysbrydol, a thystiai Griffith Solomon ddarfod i naw ugain gael eu dychwelyd tan un o'i bregethau yn Aberffraw. Daliodd hyd y diwedd i fod yn aelod pwysig o'r Cyfundeb y perthynai iddo. er ei fod fel llawer hen wr yn lled anewyllysgar i gamru yn mlaen gyda'r oes. Teithiodd lawer trwy Gymru oll, a threfi haner Cymreig Lloegr. Bu farw yn mis Awst, 1822. Gadawodd amryw roddion at ddybenion daionus yn ei ewyllys diweddaf. Yr oedd yn ddyn o gryfder annghyffredin, a dywedir y gallai godi 56 pwys â'i fys bach, ac ysgrifenu ei enw ar ddistyn lloft; ac ymaflai mewn ystol a dyn yn eistedd arni gan ei chyfodi a'i dal i fyny ag un llaw. Yr oedd yn ddiarebol am ei ffraethineb, ac y mae aml engraifft ohyny ar gof a llafar gwlad. Dywedir ei fod un tro yn talu rhent rhyw faes, a dywedai wrth yr ystiwart coeglyd,

Digitized by Google

"Dyma rent y Weirglodd." "Pa weirglodd?" "Weirglodd Llygoden." "Llygoden fach neu llygoden fawr?" "Wn i yn iawn pr'un—mai'i blewyn hi yn ddigon *byr*," ebai yntau yn drahaus. Dro arall yr oedd yn croesi mewn bâd tros Borthaethwy ar dywydd lled ystormus, ac ofn môr wedi ei orddiwes yn drwm, ar yr hyn y sylwodd un o'r bâdwyr, a gofynodd i'r efengylydd yn gellweirus, "Oes arnoch chwi ofn croesi, John Jones?" "Na, ofn methu sydd genyf," ebai yntau. "Wel, yn mh'le mae eich ffydd chwi?" "Nid yn dy hen gwch eanddryll di," oedd ateb ffraeth yr arebydd. Pan yn bregethwr ieuainc, cafodd fenthyg ceffyl i fyned i Gyfarfod Misol Niwbwrch, ac adroddai am y tro hwnw, "Aethum ar gefn y ceffyl, a chyn myned tros rŵd o ffordd, gwelwn ef yn cyrbio ei ben, ac yn ymddolenu fel sarph, a minau y pryd hyny mor serfyll ar geffyl âg ŵy ar ben trosol; yn mhen ychydig amser, yn mha le y cawn fy hun ond ar wastad fy ngefn yn y ffos, a rhoddodd y ceffyl gic imi yn ngroth fy ngoes wrth ymadael; ac nid wyf yn meddwl y bu dau o hyny hyd yn awr yn fwy boddlawn i ymadael a'u gilydd." Yr oedd John Jones yn ganwr da; efe fyddai yn dechreu'r canu yn y Cymanfaoedd am flynyddau. Byddai yn ysgwyd ei ên wrth ganu; ac yr oedd rhyw swyn yn hyny yn peri i nes geisio gwneud yn debyg iddo, yr hyn a barai gryn lawer o ddifyrwch. Nid rhyw lawer o drefn fyddai ar ei bregethau, ond yr oeddynt er hyny yn cynwys syniadau cyrhaeddgar ac effeithiol, ac yn cael eu traddodi mewn ysbryd cynes, gweddus i chwaeth gwrandawyr yr oes hono. Siaradai â'r werin mewn iaith a diwyg gwerinaidd.

JONES (Parch. John), Treffynon, pregethwr tra adnabyddus yn ei oes yn mhlith holl Fethodistiaid Calfinaidd Cymru. Ganwyd ef yn nhref Caergwrle, sir Fflint, Rhag. 18, 1763. Dysgwyd ef i ddarllen Seisnig, &c. mewn ysgol ddyddiol; a'i dad a'i dysgodd i ddarllen Cymraeg. Ymddengys ddarfod iddo dreulio ei ieuenctyd mewn cydymffurfiad ag arferion llygredig ei oes; ac yn bengampwr mewn hyfdra a rhysedd. Chwareu cardiau ac ymladd ceilogod oeddynt ei brif ddifyrwch; ac yr oedd tori'r Sabbath a chablu, yn gweinyddu iddo fwynhad rhyfedd a darfodedig. Yr oedd cre'ydd yn Nghaergwrle mewn ystad isel, a'r unig addoldy yn y dref, yr eglwys, memawr gwell na murddyn gwag—y gogoniant wedi ymadael, ac odid neb oddigerth er mwyn ffasiwn yn mynychu ei phyrth hi. Ond nesaodd yr amser pan y cafodd y pechadur caled hwn achos i ddweyd, "Mi a gefais drugaredd." Dywedai ei dad witho fod un o ddau beth bron a'i ddal—naill ai fod ei amser bron ar ben, neu fod Duw wedi ei adael yn llaw yr ysbryd drwg i wneuthur a fynai ag ef tros dro fel y gallai ddangos arno yn ganlynol ei ryfedd ras yn ei achub wedi y cwbl. Nid oedd memawr o amser er pan oedd y tad yntau wedi gadael ei lwybrau drwg; a hyny trwy ymuno â rhyw achos bychan Ymneilldwol a blanesid yn ddiweddar yn y lle. Yn 1787, daeth Richard Tibbot, o Lanbrynmair, ar ddamwain i bregethu yn Nghaergwrle, ac oddiar y clod a roddid iddo tueddwyd John Jones i fyned i'w wrando, a bu yr oedfa hono yn foddion iddo godi'r groes. Dechreuodd bregethu yn 1793, ond digon araf ac anhwylus yr oedd olwyn ei weinidogaeth yn troi am rai blynyddau; eithr yr oedd profiad yn perffeithio gwybodaeth, ac o radd i radd daeth yn wr gwir bwysig gyda'r enwad y perthynai iddo. Tua 1804, symudodd o Gaergwrle i Laneurgain, yn yr un sir, a bu yn preswylio yno am bedair blynedd; i'r hwn le y byddai yn myned i'w deithiau pregethwrol, ac ar brydiau yn dweyd tipyn fel y medrai yn Seisnig wrth drueiniaid haner-barbar-

Digitized by Google

aidd Clawdd Offa. Yn 1808, symudodd i Dreffynon, ac yno cadwai siop fechan, gan roddi heibio ei alwedigaeth fel gwehydd. Neillduwyd ef i weinyddu y sacramentau yn Nghymdeithasfa y Bala, yn 1820. Bu dyfodiad ac arosiad Mr. Jones i Dreffynon o rhyw fywiogrwydd neillduol i'r enwad Methodistaidd yn y lle. Yr oedd yn feddianol ar feddwl ffraeth, a'i ddywediadau o'r pulpud yn syniadau prydferth neillduol. Dygai fawr sel tros athrawiaethau gwahaniaethol yr enwad y perthynai iddi, ac yr oedd ei enaid yn ymorphwys yn dawel ar rad ras, parhad ynddo, ac etholedigaeth dragwyddol. Bu agos i'r swn am ryddid y Pabyddion ei yru o'r byd cyn ei amser; yr oedd eu hen greulonderau wedi ei ddysgu i'w harswydo. Efe a fu o fawr wasanaeth i'w enwad, ac i grefydd ei wlad. Yr oedd ei brofiad yn ei flynyddau olaf yn addfed a melus odiaeth, nes peri i'r corph gwael hwn a'i boenau gael ei lyncu yn llwyr yn ngwynfydedd ei deimladau. Un o'i eiriau olaf ydoedd, "Calfaria i fyw, Calfaria i farw, Calfaria am byth!" Bu farw yn orfoleddus yn Nhreffynon, Awst 2, 1830. Cyfansoddwyd marwnad iddo gan y bardd hynod, E. Jones, o Faesyplwm, yr hon sydd yn amlygu hiraeth dwfn, a chywreinrwydd geiriol arferol y bardd hwnw. —*Ei Gofiant.*

JONES (PARCH. JOHN), Talysarn, un o gewri penaf yr areithfa Gymreig. Ganwyd ef mewn tyddyn-dy o'r enw Tanycastell, yn mhlwyf Dolyddelen, sir Gaernarfon, Mawrth 1, 1796. Ei dad oedd Sion Jones, amaethwr cyfrifol yn y tyddyn uchod, yr hwn a olrheiniai ei achau mewn llinell unionsyth o Hedd Molwynog, cyff un o Bumtheg Llwyth Gwynedd; a'i fam oedd Elen uch Risiard, neu *ferch* Risiard, canys felly yr arferid y cyfenw yn yr oes hono, hithau hefyd yn hanu o Einion Efell, arglwydd Cynllaeth. Fel hyn gwelir, er mai canolig oedd amgylchiadau ei rieni, eu bod yn disgyn o foneyffion cedyrn ac anrhydeddus yr oesau gynt. Yr oedd gan "bobl" Tanycastell naw o blant, sef pedwar mab—John, Richard, William, a Dafydd; a phump o ferched, sef Margaret, Catherine, Mary, Gwen, a Jane. Y mae Richard wedi marw er's llawer o flynyddau; William Jones yn un o brif weinidogion Cymreig yr America; a Dafydd Jones, Treborth, yn un o golofnau heirdd ei enwad yn Nghymru. John oedd yr hynaf o'r meibion; a chan nad oedd y tyddyn ond bychan a gwael, a'r teulu yn lluosog, ni chafodd ond ychydig fanteision dysgeidiaeth, heblaw ar yr aelwyd, ac yn yr ysgol Sabbathol, a bu raid iddo yn gynar droi tros y nyth. Bu John Jones, y tad, farw pan nad oedd John Jones, y mab, ond llanc lled ieuanc, gan adael tyaid lluosog o blant yn ngofal ei briod, yr hon oedd yn ddynes ragorol, yn ddarbodus a gofalus o'i theulu, ac yn ymdrechu eu meithrin yn ofn ac athrawiaeth yr Arglwydd. Edrychai y plant eraill bellach i fynu at John fel eu tad; ac er y meddyliai y cymydogion nad oedd nemawr o ddaioni ynddo fel gweithiwr, nac ond ychydig gariad yn ei ymysgaroedd, efe a drodd allan yn llawer gwell na disgwyliad ei gyfeillion mwyaf aiddgar. Nid oedd ei gydnabod yn ei adwaen eto; yr oedd yn cyfeillachu llawer â myfyrdod, ac yn enwedig â Duw yn y dirgel; a thybient hwy mai rhyw freuddwydiwr segur ydoedd. Yr oedd pregethu yn ail natur iddo, a'i hyfrydwch penaf ydoedd ymgilio i rhyw gongl neillduedig, lle y cai seibiant i ddweyd ei feddwl ar ffurf pregeth. Byddai ei ddychymyg bachgenaidd a bywiog yn portreadu yr hen geunant diaddurn o'i flaen yn addoldy gwych; a choed a cheryg meirwon y llanerch yn wrandawyr astud. Yr oedd cangau y gwydd yn offerynau cerdd y cysegr; a thrwst dibaid y

Digitized by Google

cornant gerllaw yn arwyddion cymeradwyaeth yr eisteddle. Safai yntau fel offeiriad y lle gyda difrifwch sobrddwys na welir ond anfynych heblaw ar wynebpryd plentyn. Adroddir aml i hanesyn digrifol gan ei hen gyfeillion am dano fel pregethwr plentynaidd. Dywedir ei fod un diwrnod wedi casglu cynulleidfa i un o'r beudai, a myned i bregethu iddynt. Hwyaid oedd y gynulleidfa y tro hwnw: ac fel yr oedd y pregethwr ieuanc yn siarad uwch eu penau, gan daflu ei law tuag atynt weithiau, yr oedd ei wrandawyr, gan ddisgwyl tamaid o'r llaw, yn "porthi y gwasanaeth" yn lled hwylus, a hyny yn ddiamheu yn boddio y pregethwr. Ond o'r diwedd, barnai y gynulleidfa mai pregeth dlawd iawn oedd ganddo, a phallai eu hamynedd yn disgwyl am damaid o'r llaw, fel y torent allan yn dra afreolaidd eu cŵynion, nes oedd eu trwst bron a boddi llais y pregethwr. Yna efe a dywedai wrthynt, "O! fy mhobl bach i, y mae hi yn rhy fuan i chwi ddechreu canu eto; nid ydyw y bregeth ddim wedi darfod, ac yr ydym ni yn arfer gweddio wed'yn cyn canu." Dro arall, adroddir am dano gyda nifer o blant Tan y castell, yn "cadw oedfa," fel y dywedent. Yr oedd y pregethwr wedi esgyn i ben rhyw gareg, fel y byddai ychydig yn uwch na'r gynulleidfa, a'r gwrandawyr wedi trefnu eu hunain yn dra defosiynol o'i flaen; ond, fel yr oedd y pregethwr yn dechreu twymno, ac yn dyrchafu ei lais, dacw un o'r genethod yn cwympo i lewyg (dynwaredol). Ar hyny, ymaflai rhai o'r plant eraill ynddi, gan ddadgylymu rhai o linynau ei dillad, er mwyn iddi gael ei hanadl; a rhedai un o'r bechgyn i geisio llestraid o ddwfr; ac yn ei ddireidi, yn lle ei roddi iddi i'w yfed, arllwysodd ef i'w mynwes, ac ar hyn dadebrodd yr eneth yn y fan; a chan neidio i fyny, hi a ddechreuodd guro y plant o'i hamgylch yn ddiarbed: ac yn ffagl wyllt yr aeth hi trwy y gynulleidfa, ond aeth y pregethwr yn mlaen heb rwystr, ac yn sobr, heb wenu dim. Yn mhen rhyw yspaid wedi marwolaeth ei dad, barnai John mai doethach fuasai iddo droi allan i wasanaethu, a gadael fferm fechan Tanycastell yn ngofal ei frodyr ieuangach, gan eu bod hwy bellach yn ddigon hen i hyny. Felly, efe a aeth at ei chwaer, yr hon oedd wedi priodi yn lled ieuanc, ac yn byw mewn fferm o'r enw Cemmaes, yn mhlwyf Llangernyw. Tua'r amser hwn, ymddengys ei fod yn cymeryd mawr hyfrydwch mewn dadganu, a'i fod wedi ymollwng ychydig i gloddio mewn pydewau na ddaliant ddwfr—yn ceisio difyrwch mewn gwagedd ffeiriau, a hudlewynau cyffelyb sydd mor fynych yn hudo ieuenctyd gwamal i ddistryw. Ond er iddo roddi prawf ar y pethau hyn, gwelodd yn fuan nas gallai ef dynu ond ychydig bleser oddiwrthynt, a gadawodd hwynt yn swta wedi ei lwyr siomi ynddynt, gan ddychwelyd at ei hen bleserau, sef canu a phregethu. Er cryfhau ei ddewisiad, torodd diwygiad nerthol allan yn sir Gaernarfon, a adwaenid wrth yr enw "Diwygiad Beddgelert," ac ar aden nefol y cynhwrf crefyddol hwnw y dygwyd ef fel dyn i ail-afael â'r eglwys y magesid ef yn aelod ohoni fel plentyn. Ymunodd â chrefydd pan yn 22 oed; ac efe ar y pryd wedi gadael ei chwaer yn Llangernyw, ac yn gweithio yn chwarel llechi Llanrhochwyn, ger Llanrwst. Byddai yn ddifyr iawn gwrando arno yn adrodd mewn cyfeillach rai o'r digwyddiadau y cyfarfu â hwynt pan yn arwain bywyd chwarelwr. Dyma un o'r cyfryw: "Yr oeddwn y pryd hwnw yn llencyn cadarn iawn o gorph, a chryn anmheuaeth yn meddyliau fy nghydweithwyr beth mewn gwirionedd oedd fy ngryfder. Er mwyn cael boddlonrwydd ar y mater, daethant i'r penderfyniad o gruglwytho berfa un olwyn, gan ei dodi ar

Digitized by Google

fy llwybr wrth ddychwelyd o'm ciniaw, ac un neu ddau ohonynt gyda golwg gwynebdrist gerllaw, tra yr oedd y *criw* direidus eraill yn gwylio am y domen â ni. Dywedai y ddau wynebdrist wrthyf eu bod wedi gorlwytho y ferfa fel nas gallai yr un ohonynt ei symud, a herient finau i dreio fy llaw. Minau dipyn yn eiddigus tros fy enw fel dyn cryf, a afaelais yn nwy fraich y ferfa, nes y torodd y ddwy yn y bôn. Deliais hwynt i fynu yn fuddugoliaethus, a dywedais, "Pa'm na chadwch chwi dacle digon cryfion yn y fan yma?" Wrth sylwi ar gyfansoddiad nerthol ac ysgwyddau llydain Mr. Jones, nid oedd hyn ond peth y gellid yn hawdd ei ddisgwyl. Gan nad oedd cloddfa Llanrhochwyn nepell oddiwrth Danycastell, byddai yn myned adref bob nos Sadwrn, ac yn treulio'r Sabbath gyda'r teulu. Pan ddaeth at grefydd, nid llawer a ddywedai, ond yr oedd ei sel yn danllyd, a'i ymddygiadau yn ddifrifol ac angerddol. Wedi dyfod adref nos Sadwrn, cofleidiai ei fam yn serchus iawn; ond yn fuan ymneillduai i'r cae uwchaf am oriau, gan gymdeithasu ynô â natur dawel ac a'i Duw; ac ni siaradai â neb wedi dyfod i lawr, ond synfyfyriai yn ddystaw, gan eistedd mewn congl neillduedig o'r ty, a'i lygaid yn nghauad. Nid oedd angerddoldeb ei deimladau crefyddol ychwaith yn suro ei serch nac yn chwerwi ei dymherau, fel y ceir engreifftiau rhy fynych pan y byddo'r meddwl yn wrthddrych argyhoeddiadau dyfnion; ond yr oedd llygedyn byw ei serch ef yn para mor loyw a dilwgr ag erioed, ac nid ymddengys iddo ddigio wrth ddim ond pechod. Un prydnawn Sadwrn, fel yr oedd yn dychwelyd adref, cyfarfu ei fam ag ef ar un a'r caeau ychydig oddiwrth y tŷ. Yr oedd yr hen wreigan yn wylo, ac yn edrych yn hynod o drallodus. Gofynodd yntau iddi yn dyner Paham yr oedd hi yn wylo. "O! fy machgen bach i, mae diwrnod talu yr ardreth yr wythnos nesaf; ac nid oes genyf ddigon ar ei gyfer." "Peidiwch wylo am hyny, fy mam anwyl," ebai yntau "mi wnaf fi y diffyg hwnw i fyny;" a chyda'r sirioldeb mwyaf diymhongar rhoddodd iddi y swm gofynol. Y mae rhagluniaeth ddoeth yn gofalu na chyll caredigrwydd tuag at rieni mo'i wobr; a gofalodd am ei wobrwyo yntau yn helaeth â lwyddiant mewn pethau tymhorol am ei gymwysgarwch i'w fam weddw. "O," ebai John Blackwell, "os oes genych eisiau gwybod beth yw gwir foddlonrwydd meddwl, edrychwch ar fedd y sawl a'ch ymddygodd, a byddwch yn abl i ddweyd ddarfod i chwi wneud eich goreu i beri i'w haul fachlud mewn gorfoledd." Fel yr oedd ei deimladau crefyddol yn dwyshau, rhaid oedd iddo gael cyfleusdra i roddi arllwysiad iddynt; a chynyddodd yr awydd hwnw ag oedd bob amser wedi bod yn ail natur ynddo at bregethu. Ymgiliai yn lledradaidd i rhyw gwm neu nant anghysbell, a'i Feibl bychan yn ei logell, a bu twmpathau eithin a grug, a chlogwyni aruthr hen gymoedd disathr plwyfi Dolyddelen, Bettws y Coed, a Lanrhochwyn, yn mud-wrandaw hyawdledd a fuasai yn addurno y pwlpud mwyaf gorwych.

Clogwyni coleg anian—wnaeth ryfedd
Athrofa i Ioan:
Ai yn nullgwron allan—
Mawr wr Duw, rhoes Gymru ar dan.—DEWI ARFON.

Tra yn gweithio yn chwarel Llanrhochwyn, cafodd amryw gyfleusderau i ddadblygu ei athrylith, yn mhlith eraill daeth i gydnabyddiaeth Ieuan Glan Geirionydd, yr hwn oedd yn wr ieuanc ar y pryd, ac yn byw gyda'i rieni yn Tanycelyn, Trefriw. Yr oedd Ieuan wedi cael ysgol dda, ac yn parhau yn fyfyrgar i elwa i'w feddwl oddiar hyny

Digitized by Google

rwy ddarllen gwaith awduron enwog, yn enwedig y rhai Seisnig. Arferai John Jones, ac ambell gyd-chwarelwr ymofyngar, fyned i lawr at Ieuan i Drefriw ar ddechreunos er mwyn eangu eu gwybodaeth. Un o'r llyfrau a ddygodd yr athraw Ieuan ger eu bron ydoedd y gwaith gallnog hwnw o eiddo Dr. Williams, o Rotherham, ar *Equity of Divine Government, and the Sovereignty of Divine Grace;* yr hwn a gynwysai athrawiaethau a syniadau newyddion iddynt hwy ag oeddynt wedi ymgynefino â'r *Hyfforddwr* yn mhlith hen Galfiniaid dysyml y mynyddau. Byddai y gwyr ieuainc yn Nhanycelyn ar ddechreunos, trwy gymhorth y naill a'r llall, yn ymornestu i gymeryd meddiant o feddyliau cawraidd yr archdduweinydd o Rotherham, a thrwy gydymgynghori a chydymegnio llwyddent i raddau yn eu hamcan. Nid oedd John Jones y pryd hwnw yn deall ond y nesaf i ddim ar yr iaith Saesneg; er hyny, trwy gymhorth Ieuan, yr oedd yn gallu tori cnau celyd Rotherham. Gadawodd y cyfrinachau hyn eu heffeithiau annileuadwy ar ei weinidogaeth yn ol llaw, nes i rai feddwl nad oedd efe yn iach yn y pum' pwnc, a pheri i ambell hen flaenor roddi cernod lled drom iddo o'r herwydd, y rhai a weinyddid yn cyffredin yn y ty capel fel rhybydd o flaen y bregeth; ond efe a wrandawai yn astud ac amyneddgar ar y ceryddon, ac yn ystod ei bregeth odid fawr y gadawai hwynt yn ddigosp, canys nid anfynych gollyngai arnynt rai o wirioneddau mawrion yr Efengyl, megys, "Crist a fu farw tros bawb," a chodai ei lais mwyn gan daranu allan, "Dyna hi i chwi! taflwch eich edliwiadau i wyneb gair Duw—peidiwch a'u taflu i fy ngwyneb i." Ond i ddychwelyd at linyn y bywgraffiad, wedi bod o hono ddwy flynedd yn aelod dichlynaidd, ac argoelion lawer yn cyd-dystiolaethu fod ynddo gymhwysderau at y weinidogaeth, gwelodd y frawdoliaeth yn dda ei anog yn daer i ddechreu pregethu. Yr oedd John Jones ar hyd ei oes yn wr disyml a gwylaidd, ac yn enwedig felly pan yn ieuanc, a bu hyny yn rhwystr ar ei ffordd i gydsynio a'i frodyr am yspaid maith. Bu yn ymgyndynu am rai wythnosau fel Jonah yn erbyn yr alwad; ac nid oedd ceisiadau ei gyfeillion a'i frodyr yn tycio i'w ddwyn at ei ddyledswydd. Tua'r amser hwn, bu agos iddo gael ei ladd yn y chwarel, trwy i gadwen wageni yr incline dori; ac yntau yn digwydd bod ar eu llwybr, ni chafodd ond prin hamdden i'w ysgoi na buasent wedi ei hyrddio i ddinystr. Fel y bu, anafwyd ef yn fawr ar ei asenau; cafodd ddychryn dirfawr; a'i frodyr a'i gyfeillion a bwysent arno mai rhybudd oedd hyn iddo i beidio ymgyndynu ac anufuddhau yn hwy. Cydolygodd yntau yn raddol â hwynt; a chawn ef rywbryd yn y flwyddyn 1820 yn traddodi ei bregeth gyntaf yn gyhoeddus, mewn anedd o'r enw, "Y Garnedd," ar y testun, "Os plant, etifeddion hefyd," &c. Boddhawyd yr hen Gristionogion gwledig yn fawr gyda'r bregeth hon, ac ymledodd y son am dano yn gyflym, yr hyn a barodd i luaws o wahoddiadau ddyfod am ei wasanaeth i ardaloedd eraill. Dywedir nad oedd llawer o ôl darllen ond y Beibl yn unig ar ei bregethau cyntaf hyn, ond arddangosai wybodaeth ddofn yn yr Ysgrythyr, a chryn fedrusrwydd i gyfaddasu y naill wirionedd dwyfol er egluro y llall, ac i agor blwch aur aml i adnod nes byddai'r arogl persawrus, fel yr eiddo y nardus gwlyb gwerthfawr, yn llanw yr holl dŷ. Nid oedd yn meddu nemawr o lyfrau heblaw y Beibl y pryd hwnw; ond nid oedd odid ran o hwnw nad oedd efe wedi ei drysori yn ei gof eang, ac wedi ei wasgu yn ei feddwl nerthol, nes dwyn ohono win melus. Trwy mai dyn yr un llyfr ydoedd, yr oedd wedi cyd-gasglu ei adgyferthion i feistroli yr un hwnw; ac yn yr ymdrech wedi disgyblu ei feddwl yn drwyadl

Digitized by Google

lynu wrth yr un amcan. Fel hyn, y wynebodd efe ar faes mawr y weinidogaeth, yn wr dysyml ac uniaith, o ddygiad i fynu mynyddig, heb ei feichio gydag unrhyw deitl gwag, yn John Jones yn mhlith aneirif John Jonesiaid cyffredin ei wlad; heb Ladin, na Groeg, nac hyd yn nod Saesneg, i enill chwilfrydedd disgwyliad yr anwybodus wrtho; heb ei hidlo trwy ogryn moesgarwch ond y moesgarwch pendefigaidd hwnw a rydd natur i'w dewisol blant ei hun; brodor gwledig o Ddolyddelen, llanerch nad oedd yn enwog hyd yn hyn am fagu enwogion; heb yr uchelwaed pregethwrol hwnw ag sydd yn fynych mor wasanaethgar i wthio gwyr ieuanc i gyhoeddusrwydd; heb ddim ond dyndod a'i lonaid o athrylith a phenderfyniad, o tan wenau diamwys rhagluniaeth. Lledodd ei glodydd yn fuan trwy yr holl eglwysi, a daeth galwadau am dano o Liverpool, Llundain a phrif drefi Cymru. Y dyn diaddurn hwn o Ddolyddelen! ceisiwyd ganddo fyned am ychydig flynyddau i'r coleg, ond ei ateb ydoedd, "Na, na; tra y byddwyf fi yn hogi fy nghryman, fe â y cynhauaf heibio." Symudodd o Ddolyddelen i Lanllyfni; ac am flynyddau lawer fel "John Jones Llanllyfni" yr adwaenid ef. Ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn nghymdeithasfa y Bala, yn 1829, ac efe ar y pryd yn 33 oed. Parhaodd i bregethu gyda nerth annghyffredin am oddeutu 36ain o flynyddau; ac ni bu ond ychydig fisoedd yn glaf o'r hwn gleyd y bu farw—rhwng ei waith a'i wobr. Traddododd ei bregeth olaf yn nghapel mawr Moriah, Caernarfon. Cystuddiwyd ef yn drwm iawn gan anhwyldeb y cylla, effaith ergyd yn y cylla a gafodd efe yn ngloddfa Dorothea—cyffelyb ddamwain a agorodd ddrws y pwlpud iddo ag a agorodd iddo ddrws gogoniant—a bu farw yn orfoleddus y Sabbath, Awst 17, 1857. Y dydd Gwener canlynol, hebryngwyd yr hyn oedd farwol ohono i'r bedd yn mynwent Llanllyfni, lle y mae gwyddfa hardd yn dynodi ei fedd, a thystiolaeth faith i'w ragoriaethau yn gerfiedig arni. Yr oedd yn bresenol yn ei angladd 70ain o weinidogion a phregethwyr, oddeutu 100 o ddiaconiaid eglwysig, tua 200 o gantorion, wedi ymffurfio yn rheolaidd, ac yn cael eu dilyn gan o ddeutu 5,000 o feibion a merched wedi eu rhestru yn gyffelyb; ac ar ol yr elor-gerbyd, a'r cerbydau a ddygent y perthynasau galarus, yr oedd tua deugain o gerbydau eraill, a llawer iawn o wŷr ar feirch; a gallasai estron i'r wlad a'r genedl ddeall wrth wedd alarus y miloedd fod tywysog a gŵr mawr yn Nghymru wedi syrthio. Neillduolrwydd penaf ei bregethau ydoedd meddyliau aruchel wedi eu gwisgo mewn iaith seml, agos at a dealladwy gan y werin. Yr oedd wedi ymgydnabyddu er yn blentyn â'r mawreddog yn ngwylltineb uthr bro ei enedigaeth, wedi siarad yn eithaf diofn gyda'r clogwyni ysgythrog a chilwgus, ac ar hyd ei oes wedi ymddyddan ganwaith â llawer moel ac â llawer mynydd cribog. Bu ar y telerau mwyaf cyfeillgar â hwynt ar hyd ei oes, yr oedd wedi ei fagu yn eu canol, a llefarai am danynt fel hen gydnabyddion. Wrth bregethu un tro ar y "Ddaear a heneiddia," &c., dywedai, "Byddai yn biti gan eich calon edrych arni tua sir Gaernarfon acw—mae hi a'i hesgyrn trwy'i chroen." Yr oedd prydferthwch pendefigaidd ac urddasol yn nodweddu ei ddyn oddiallan; yr oedd ei iaith yn oludog a choeth, ac eto heb fod yn fursenaidd a chwyddedig; ei lais yn llawn, a chyfoethog o berdonau denol, a thrwy ei fod yn gerddor medrus ac yn medru ei lywodraethu yn dda, nid rhyfedd i hyn hefyd fod o fawr wasanaeth iddo tuag at enill clust a chymeradwyaeth y bobl. Safai fel delw yn yr areithfa, heb symud un cymal o'i gorph, a phregethai yn ddibaid am ddwy awr o amser, nes y

Digitized by Google

byddai ei hyawdledd llonydd yn toddi calonau ei wrandawyr fel y tawdd ia tan dirion wres yr haul. Cyrhaeddodd John Jones, tra yn fachgen bochgoch, i binacl uwchaf poblogrwydd, er fod cawri yn mhwlpudau Cymru y dyddiau hyny; ac ni chyfododd un dyn ar ei ol a'i taflai i'r cysgod. Traddodai y gwirioneddau dwyfol gyda difrifoldeb mawr —gan ddangos mai amcan mawr yr efengyl oedd ei amcan ef sef achub pechadur. Yr oedd rhywbeth anngherddol yn y saeth-weddiau byrion a thaullyd a ebychai allan yn awr ac eilwaith ar ganol ei bregeth. Tybiem fod y dull hwnw o areithyddiaeth yn hollol wreiddiol iddo ef; ac yr oedd ei effeithiau yn neillduol o rymus. Siaradai gyda'i wrandawr yn bersonol, fel pe na buasai neb ond y dyn hwnw ae yntau yn gwrando, trwy ei fod yn credu fod yr Efengyl yn llefaru felly, ac arweiniodd hyn ef i ddal cryn lawer ar ddyledswydd dyn er achubiaeth ei enaid; a pharodd hyn i ambell hen frawd frochi yn dost wrtho, gan dybied ei fod yn ceisio cymylu gogoniant Duw. Yr oedd ef yn goruwch-adeiladu ar yr un sylfaen a hwythau, yr unig wahaniaeth oedd nad oedd yn defnyddio ceryg yr un chwarel. Syniai ef am waith yr Ysprydfel hyn:—"Fod yr Ysbryd yn gweithio trwy foddion, ac am hyny fod yn rhaid i ddyn ddefnyddio y moddion a drefnodd yr Ysbryd cyn y gallo dderbyn bendithion yr Ysbryd." Cydmarai waith yr Ysbryd i'r gwynt yn gyru y llong; ond dywedai fod eisiau lledu yr hwyl i'r gwynt, codi yr angorion, llywio, &c., cyn y gyrai y gwynt y llong. "Golygwch," meddai, "fod y morlys yn gorchymyn i'r llyngesydd ddyfod a'r llynges adref i Loegr o For y Canoldir, neu ryw le arall. Nid oes neb yn meddwl i'r llyngesydd gario y llynges ar ei gefn—dim ond defnyddio y moddion priodol. Pan y mae Duw yn dywedyd, 'Golch dy galon,' y meddwl yw, defnyddio y moddion a drefnodd Duw i buro y galon." Yr oedd wedi ymgydnabyddu â holl athrawiaethau crefydd, ac wrth wrando arno yn dadblygu y rhai hyny, gallesid meddwl mai fel pregethwr athrawiaethol y rhagorai, ond wedi gorphen gyda y rhai hyny, dyma fyd newydd yn ymagor o flaen y gwrandawr. Dichon y meddyliai y pechadur mai rhyw glustog o bregeth a gai; rhyw beroriaeth esmwyth yn chwareu uwch ei ben yn myd y priodoleddau—heb ddim i'w gythryblu ond y saeth-weddi grybwylledig. Ond os gwrendy, fe ddaw y priodoleddau yna i afael a'i gyflwr, a dilynir ef ganddynt i bob lloches, diosgir o bob ffug-gochl, ac ymddifadir ef o bob esgus. Dyna y pregethwr yn dechreu apelio ato trwy ddywedyd:—"'Nid oes genyf fi ddim i'w wneud ond disgwyl,' meddai y dyn. Gad imi gael gwybod, bechadur, yn mha agwedd yr wyt yn disgwyl. Nid oes neb yn disgwyl wrth yr Arglwydd ond ger bron ei orsedd, yn edifeiriol am bechod, ac yn daer mewn gweddi. A wyt ti felly? Os nad wyt, nid wyt yn disgwyl wrth yr Arglwydd. Fel y bydd y cardotyn yn disgwyl cardod y mae y pechadur yn disgwyl wrth Dduw. Y mae y cardotyn yn gofyn —yn gofyn yn daer—yn gofyn oddiar deimlad o'i angen, ac yn ddiolchgar iawn am y rhodd. Fel hyn y mae efe yn disgwyl; ac fel yna yn union y mae pob pechadur edifeiriol yn disgwyl wrth yr Arglwydd." Ar ol argyhoeddi y pechadur gyda chymhariaeth syml fel yna, atebai yr wrthddadl nesaf, sef ofnau y pechadur na wrandawai Duw ei weddi. Prif ddull Mr. Jones yn cyfarfod yr ofn hwn oedd llefain, "*Treia hi.*" Sylwodd un gweinidog ei fod yn credu i'r gair bychan hwnw fod yn foddion i ddychwelyd canoedd lawer at grefydd. Hon oedd ei ddadl olaf, "Wel, *treia hi;* ni fyddi ddim gwaeth os methi; teg yw *treio. Treia hi*, enaid; ac os methi di ar ol *treio* yn deg, tydi fydd y cyntaf i

Digitized by Google

gael dy wrthod. *Treia* hi dy oreu. Nid yw Duw am ddyfod allan nes gweled dyn yn gwneud eu oreu. Gwnewch eich goreu ar eich cael ynddo Ef. Pe caech eich gwrthod, byddech yn burion i Satan yn y diwedd. Nid oes dim i'w golli wrth ei *threio* hi." Dyna ei ddull yn dadleu gyda phechadur. Yr oedd John Jones, Talysarn, yn wr cadarn, yn ddyrnwr mynyddau, ac yn ddadwreiddiwr cedrwydd. Yr oedd ynddo ddigon o nerth i ysgwyd y cynulleidfaoedd lluosocaf, ac i siglo y pechaduriad caletaf. Anfynych y pregethai o tan ddwy awr, ond meddai y fath rym corph a meddwl, fel nad oedd yr arwydd lleiaf o flinder arno yn y diwedd, mwy nag ar y tyrfaoedd mawrion wrth ei wrandaw. Er ei fod yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd Cymru, ychydig o bris a roddai efe ar boblogrwydd fel y cyfryw; siarad tangnefedd yn nghydwybodau dynion, a'n dwyn i gredu yn Nghrist, oedd ucheigais penaf ei fywyd. Crynhodd ei holl alluoedd at y gwaith hwn ac yn hyn y rhagorodd. Yr oedd Mr. Jones yn deall cerddoriaeth yn dda, ac yn mawr ymhyfrydu ynddo ar hyd ei oes. Cyfansoddodd amrai alawon ar emynau, ac y mae llawer o'r rhai hyn wedi eu hargraphu yn y *Jeduthun*, a gyhoeddwyd gan Mr. R. Jones, Bethesda. Heblaw y tonau hyny, nid ydym yn gwybod iddo ddwyn dim arall trwy y wasg, ond ambell i bregeth a gyfranai i gyhoeddiadau ei enwad. Mae cyfrol o'i bregethau ar gael ei chyhoeddi o wasg Mr. Gee.

JONES (JOHN), neu *Sion o Lan y Gors*, bardd duchan a gogan tra nodedig yn ei oes. Ganwyd ef mewn ffermdy o'r enw Glanygors, yn mhlwyf Ceryg-y-Druidion, sir Ddinbych, tua'r flwyddyn 1763. Y mae hanes bore ei oes tan gêl; ond dywed traddodiad iddo fyned i Loegr fel gyrwr gwartheg gyda rhyw borthmon neu gilydd, gan ei fod wedi blino ar fywyd llonydd a digynwrf mynydd-dir Hiraethog; ac iddo aros yn y wlad hono, a gwneud ei gartref o'r diwedd yn Llundain. Dywed yr nn awdurdod hefyd iddo fod mewn gwasanaeth gyda gwahanol fasnachwyr, ac nad ydyw ei ddisgrifiad o'r *Dic Sion Dafydd*, fel gwas i *Haberdasher*, ond dysgrifiad ohono ei hun. Mewn amser diweddarach, daeth yn fasnachydd, neu o'r hyn lleiaf yn dafarnwr. Cadwai y *King's Head*, Ludgate Hill, Llundain. Yr oedd ei dŷ bob amser fel math o ddinas noddfa i Gymry augenus a ddeuent i'r Brifddinas, ac nid oedd neb a wnaeth fwy o les i fechgyn ein gwlad, trwy geisio iddynt sefyllfaoedd. Fel awdwr cerddi duchanol a goganus, saif ar ben ei hun yn yn mysg holl feirdd Cymru. Yr oedd ystwythder hylithr ei awen yn peri fod pob peth ag y cyffyrddai ef â hwynt yn meddu rhyw swyn chwareus a digrifwch arabawl. Pwy bynag a dderllyn "Dic Sion Dafydd," "Sessiwn yn Nghymru," "Gweno Bach," "Bessi o Lansantffraid," ac "Offeiriad o sir Aberteifi," a genfydd ar unwaith fod duchan a gogan, y naill fel y llall, yn hollol naturiol iddo. Efe hefyd ydoedd awdwr traethawd yn dwyn y teitl, "Seren tan Gwmwl," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1799; yr hwn lyfr a fernid ar y pryd oedd yn cynwys cabldraith ar frenhiniaeth, ac yn amddiffyn egwyddorion y chwyldroad Ffrengig. Ymddangosodd llythyrau hefyd o'i eiddo yn y *Geirgrawn*, yn y rhai yr amddiffynai yr un syniadau. Oherwydd y daliadau hyn, bu ar ffo am dymhor, yn nghymydogoeth y Bala a'i fro enedigol; ond aeth y dymestl heibio, a dychwelodd yntau i Lundain. Tybiai rhai y pryd hyny ei fod yn coleddu syniadau atheistaidd, a gwnaed ymosodiad ar Gymdeithas y Cymreigyddion o'r herwydd; ond un noswaith gwnaeth Glanygors araith, ac ynddi cyfeiriodd yn bwyllog at y peth fel hyn:– "Y mae'r dynion hyn," meddai, gan gyfeirio at y rhai a

Digitized by Google

gam-gyhuddent y gymdeithas, "am wneud i'w cymydogion a'u cydgenedl gredu mai Deistiaid, Atheistiaid, Sosiniaid, ac Unitariaid, ydym ni y Cymreigyddion; nis gwn i am un aelod o honom yn coleddu y tybiau hyn; os oes, y mae yn eu cadw iddo ei hun, ac nid ydyw y gymdeithas yn cael ei llygru ganddo." Yr oedd, mae'n debyg, o ran ei farn yn lled debyg i Iolo Morganwg, a chan ei fod yn ddyn agored a diddeirbyn wyneb, ond odid na chamgymerid ei ddywediadau, ac y bernid ei ddaliadau rhyddion yn benrhyddid trwyadl. Yr oedd yn hoff o'i wlad a'i defion, ac yn gefnogwr gwresog pobpeth a dueddai i ddyrchafu ei gydwladwyr. Unwaith, pan ar ymweliad â Meirion aeth mor bell ag Ynysfaig i weled Dafydd Ionawr; wedi euro wrth y drws, pwy a ddaeth i agor ond "bardd mawr y Drindod." Moes-gyfarchodd Glanygors ef gan ddweyd pwy ydoedd. Yr ateb oedd, "Bore da i chwi, John Jones Glanygors," ac yna cauwyd y drws yn glep yn ei wyneb, a thyna'r tâl a gafodd am dalu ymweliad a'r "hen lencyn cynsetlyd" o Feirion. Bu farw Medi 31, yn y flwyddyn 1821, pan yn 58 oed.

JONES (Parch. John). *Gweld* Tegid.

JONES (John) *(Myllin)*, ydoedd fardd ieuanc o gryn deilyngdod. Ganwyd ef yn y Glyniau, ger Llanfyllin, sir Drefaldwyn. Dechreuodd brydyddu pan yn dra ieuanc, a thrwy hyny tynodd sylw Erfyl a Dewi Silin, y rhai a fuont garedig iawn tuag ato, yn enwedig yr olaf, yr hwn fu yn noddwr ac athraw barddonol iddo. Bu yn treulio llawer diwrnod difyr a noswaith lawen yn eu dŷ, yn nghymni yr enwogion Gwallter Mechain, Ieuan Glan Geirionydd, John Blackwell, ac eraill. Bu am yspaid yn gweithio ei gelfyddyd o grydd yn Liverpool; eithr dychwelodd yn fuan i Lanfyllin, a phriododd un o Rianod Glân Trefaldwyn. Cyrhaeddodd radd uchel yn mhlith y beirdd; enillodd y wobr am y deuddeng englyn goreu ar "Feddargraff Dic Sion Dafydd," yn eisteddfod fawr y Trallwm; a byth er hyny, safai yn uchel yn marn y prifeirniad, Gwallter Mechain. Y mae y rhan fwyaf o'i gyfansoddiadau wedi myned ar goll; ond y rhai sydd ar gael a ddangosant goethder chwaeth ac awen gref. Ei ganiadau rhagoraf ydynt, "Myfyrdodau wrth wrando y Cnul," a "Morwynion Glân Trefaldwyn," ac yr oedd hefyd yn awdwr amryw englynion gwych. Bu farw pan prin yn 25ain oed.

JONES (Parch. John Richard), o Ramoth, ydoedd flaenor a sylfaenydd i blaid fechan o Fedyddwyr yn Nghymru. Ganwyd ef yn Brynmelyn, plwyf Llanuwchllyn, Meirion, Hydref 13, 1765. Yr oedd ei rieni yn aelodau gyda'r Annibynwyr yn y lle hwnw, a dygasant ef i fynu yn crefyddol. Dysgodd ddarllen Cymraeg yn dra ieuanc; a chafodd hefyd ysgol dyddiol am ychydig amser, pryd y dywedir iddo ddysgu darllen Seisnig, ysgrifenu, a rhifo, yn hynod o gyflym. Yna dychwelodd adref i weithio ar y tyddyn gyda'i dad, ond ei hyfrydwch penaf oedd llyfrau a cherddoriaeth. Sylwyd ar ei dueddiadau darllengar a llenyddol, ac amrai o'i gyfeillion crefyddol a'i hanogasant i fyned i'r athrofa, gyda golwg ar iddo droi allan yn bregethwr, ond nid ymddengys fod ganddo wynt at y gwaith, a hyny yn benaf am na thybiai ei hunan mewn ystyr grefyddol yn gymhwys i'r swydd. Yn 1782, bu farw ei fam, a gadawodd yr amgylchiad hwnw argraff dofn ar ei feddwl, fel y dywed ef ei hun wrth gyfeirio at yr adeg:—"Yr oeddwn yr amser hwn wedi fy meddianu gymaint â meddwl yn nghylch crefydd, fel mai darllen, myfyrio, a gweddio, oedd agos fy holl orchwyl." Galwai efe yr efrydiau dwysion hyn, yn "chwilio am y gwirionedd;" ac yn ei ymchwil-

Digitized by Google

iadau, daeth i'r penderfyniad mai trwy drochi ŷ crediniol yr oedd bedyddio gwirioneddol yn cael ei gyflawni. Yn ngwanwyn, 1788, daeth cenadon i'r enwad hwnw o'r Deheudir, a sefydlwyd achos yn Llanuwchlyn; ac yn Mehefin yr un flwyddyn, J. R. Jones a fedyddiwyd mewn cysylltiad â hwynt mewn afon gerllaw Trawsfynydd, gan y Parch. Henry Davies, hynaf, o Langloffan. Nid hir y bu wedi hyn na ddechreuodd bregethu, a bu yn efengylu am yspaid deunaw mis fel pregethwr cynorthwyol yn Llanuwchlyn, Ramoth, Harlech, Abermo, a Thrawsfynydd. Ar derfyn yr amser crybwylledig, gadawyd y mân eglwysi ieuengaidd hyn yn amddifad o weinidog, yr hwn a ddychwelodd yn ol i'r Deheudir; a thaer anogasant Mr. Jones i gymeryd ei le. Yr oedd ei awyddfryd yntau yn fawr am gael myned i athrofa Bristol, modd y gallai gyrhaedd gwybodaeth o'r ieithoedd dysgedig; eithr ni chydsyniai'r eglwysi mewn un modd, a rhoddasant alwad unfrydol iddo i fod yn weinidog iddynt, ac efe a urddwyd i'r swydd hono Tachwedd 4, 1789. Dywed awdwr y bywgraffiad ohono yn y *Gwyddoniadur* ei fod, "Fel pregethwr, yr adeg hono, yr oedd yn un o'r rhai mwyaf nerthol a phoblogaidd yn Nghymru. Yr oedd yn ddyn tal, prydferth, a boneddigaidd yr olwg arno; ei lais yn uchel, peraidd, ac awdurdodol; ei ysbryd yn angerddol a thanllyd; ei iaith yn bur a disothach; ei feddyliau yn gryfion a dyrchafedig; a phan y byddai yn pregethu allan i'r lluoedd a gyrchent i'w wrandaw, neu yn bedyddio mewn afonydd, crynai y rhai mwyaf difraw yn ei wyddfod. Teithiodd lawer trwy'r De a'r Gogledd; yr oedd efe yn nghymanfa Maes y berllan, yn 1789, pan gyfarfyddodd gyntaf â Christmas Evans; yn Abertawe yn 1791; Llanwenarth yn 1793; Olchon a'r Felinfoel yn 1794; Llanbedr-fro yn 1795, &c.; ac yn cydlafurio â'r fath ddynion â Joshua Thomas, awdwr *Hanes y Bedyddwyr*; B. Francis, yr emynwr; Morgan John Rhys, cyhoeddwr *Y Cylchgrawn*, &c. Nid yn unig yr oedd ei bregethau yn tynu sylw y wlad, ond yr oedd ei ddawn canu yn tynu sylw mawr hefyd; wylai yr hen bobl wrth ei wrandaw yn canu, gan feddwl mai angel oedd. Clywsom y sylw yna yn cael ei goffa am dano. Yr oedd hen bregethwyr y Bedyddwyr, y rhai a ymwelent â'r Gogledd y pryd hwnw, yn pregethu yn angerddol a thanllyd, ond yn lled annhrefnus a chymysglyd, nid yn unig o ran trefn pregeth, ond o ran yr athrawiaeth a gynwysent hefyd. Doniau i ddihuno gwlad, ac nid talent i athrawiaethu yn ddoctoraidd oedd ganddynt. Ysbrydolent hanesion yr hen Destament yn ddiddiwedd, taranent yn arswydus yn erbyn pechodau yr oes, pregethent farnedigaethau a dychrynfeydd uffern mewn modd ofnadwy; ac yr oedd J. R. Jones gymaint yn y ffordd hono a neb, canys dyn eithafol ydoedd." Ond rhwng y blynyddau 1795 a 1800, daeth cyfnewidiad mawr yn marn J. R. Jones, ac yn ei ddull o bregethu. Daeth o hyd i waith Mc Lean, o Edinburgh, darllenodd, a llyncodd yr athrawiaethau neilldduol a gynwysent. Nid oes a'i beio am ufuddhau i'r hyn a ystyriai efe ar y pryd yn llais rheswm a chydwybod; ond am iddo ddisgwyl i bawb eraill en credu, a'u llusgo trwy erfod ar draws trefn a gweddeidd-dra i blith ei hen frodyr y Bedyddwyr, gan ystyried dynion deallgar a pharchus na chydolygent ag ef yn ddyliaid anwybodus, a'r enwad anrhydeddus y perthynent iddo yn "Fedyddwyr Babilonig Cymru." Diau ei fod yn ddyn o feddwl tra annibynol, yn agored i argyhoeddiadau dyfnion, a phenderfyniadau cryfion; ond yn gysylltiedig â hyny yr oedd llawer o drahausder hunanfalchiol, ac o anfoesdra anffaeledig y tybiai rhai mai annibyniaeth meddwl ydoedd.

Digitized by Google

Cludai bobpeth o flaen ei yspryd uchel am yspaid yn y cymanfaoedd; a'i frodyr naill ai yn sefyll draw yn benisel, neu wedi eu gefynu wrth olwynion cerbyd ei olygiadau ef. Nid oedd Christmas Evans yn eithriad, bu ei ben yntau am fisoedd yn rhwyd y gwr o Ramoth; ac y mae yn cwyno yn dra dorcalonus yn ei Ddyddlyfr oblegyd ei oerfelgarwch yspryd a'i weddi ddiffydd, tra y bu yn pererinio ar iaynys Mc Lean a Sandeman. Pan gredodd J. R. Jones fod gwrthwynebiad o'r diwedd rhy gryf iddo ef ei ddarostwng yn ymgrynhoi yn ei erbyn yn mhlith y Bedyddwyr, ymadawodd mewn dull cyhoeddus â hwynt. Cyfarfyddodd y rhan fwyaf o weinidogion y Bedyddwyr yn y Gogledd yn Ramoth gyda'r bwriad o drwsio y rhwyg, a safodd Mr. Jones i fynu yn y cyfarfod i amddiffyn ei ddaliadau, heb syflyd drwch blewyn oddiar ei safle ddechreuol, fel y gellid trwy hyny ymheddychu; yr oedd sel ei danbeidrwydd tros ei syniadau ei hun yn un mor danllyd â mellt ei fygythion yn erbyn daliadau eraill; a phan y meiddiodd Ch. Evans godi a gwrthwynebu peth o'r hyn a ddywedwyd, cododd Jones eilwaith ar ei draed, ac mewn yspryd cyffrous iawn, ymaflodd yn y Beibl, a dywedodd, "Ei fod ef, yn enw yr Arglwydd, yn ymneillduo oddiwrth Fedyddwyr Babilonaidd Cymru, ac ei fod, mewn cydwybod, yn ymneillduo oddiwrth eu cyfeiliornadau mewn barn ac ymarfer, at y gwirionedd, ac i gyfundeb y brodyr yn Scotland, y rhai sydd yn derbyn y gwirionedd." Cymerodd hyn le rywbryd yn ystod dwy flynedd gyntaf y ganrif hon; ac fel hyn yr ymddidolodd Mr. Jones oddiwrth y "Bedyddwyr Babilonaidd." Bu y symudiad yn rhwygiad pwysig; aeth bron yr holl aelodau perthynol i'r eglwysi oedd tan ei ofal gydag ef, ac ymrestrodd amryw eraill gan ffurfio eu hunain yn fân eglwysi mewn gwahanol barthau o'i wlad, tan yr un faner. Parodd buchedd difrycheulyd, a doniau dysglaer pregethwrol Mr. Jones, i'w hoff egwyddorion wreiddio yn ddwfn allydau yn ardaloedd ei eglwysi yn Meirion, ac y mae ei ddysgyblion yn lled luosog yn y parthau hyny hyd y dydd heddyw; ond diau fod yr elfen fywydol wedi ymadael o'r cyfundeb mewn manau eraill. Glynodd hyd ei farwolaeth yn ddiwrthgil wrth ei anwyl syniadau crefyddol, gan lafurio hefyd yn ymdrechgar ac egniol i'w lledaenu, a dychwelyd pechaduriaid at Grist. Fel dyn, nid oedd nemawr o'i gydwladwyr yn rhagori arno mewn dysgeidiaeth, ac ystyried leied fu ei fanteision. Ni chafodd ond y nesaf i ddim o ysgol, ac eto yr oedd yn gydnabyddus a'r ieithoedd Groeg, Lladin, a Hebraeg; yn ddarllenwr mawr ar, ac yn gyfieithydd medrus o, lyfrau uchelddysg Seisnig; ac yn un o'r ysgrifenwyr goreu a feddwn yn yr iaith Gymraeg. Ei ddifyrwch penaf oedd Salm-ganiadaeth; a chyrhaeddodd y fath raddau mewn gwybodaeth ohoni, fel y daeth yn gyfansoddwr da ei hun, a gadawodd rai alawon ar ei ol, y rhai a genir yn nghynulleidfaoedd ei gyfundeb ef hyd heddyw. Ei athraw yn y gelfyddyd hon oedd yr hen gerddor gwiwglodus, John Williams, o Ddolgelleu. Yr oedd ar delerau tra chyfeillgar â Dewi Wyn a Robert ab Gwilym Ddu: a chyfansoddodd rai mân ddarnau barddonol ei hun, emynau yn benaf, y rhai a argraffwyd yn y *Llyfr Hymnau* a gyhoeddodd at wasanaeth ei blaid. Er ei fod yn feddyliwr craff, ac ynddo gellid tybied lawer o ddefnyddiau awdwr galluog, eto ni ddygodd ond ychydig o gynyrchion ei feddwl trwy y wasg. Yn 1804, cyhoeddodd "Rai Nodiadau ar Lyfrau Andrew Fuller;" ac ysgrifenodd rai darnau i'r *Theological Repository* ar y "*Welsh Jumpers.*" Gohebai yn gyson â dynion o nod, megis Beirdd Eifion, Mc Lean, Wm. Jones—awdwr hanes y Waldensiaid, Dr. Richard o Lynn, Braidwood, ac eraill.

Digitized by Google

Yn ystod ei flynyddau olaf, anghytunodd â'i gydweinidog, Mr. Robert Morgan; ac er i hyny beri iddo ofid chwerw, eto ni phylodd ei lwyddiant, canys cawn iddo fedyddio 80 yn chwe' blynedd olaf ei oes. Bu farw Mehefin 27, 1822, yn 56 oed. Cyfansoddwyd awdl farwnad orchestol i'w gofiadwriaeth gan ei hen gyfaill R. ab Gwilym Ddu, yr hon a welir yn argraffedig yn *Ngardd Eifion*. Ymddangosodd bywgraffiad ohono yn y *New Evangelical Magazine*, am 1823; ac yn *Seren Gomer* yr un flwyddyn, a bu dadl finiog yn y cyhoeddiad olaf parth ei syniadau crefyddol, a theilyngdod ei egwyddorion.

JONES (PARCH. LEWIS), a anwyd yn sir Feirionydd, yn 1542, ac a gafodd ei addysg golegol yn Rhydychain, lle y derbyniwyd ef yn 1562. Etholwyd ef yn gymrawd o goleg *All Souls* yn 1569. Tua'r un pryd, ymgymerodd ag urddau eglwysig, ac heb gymeryd gradd uwch na B.A. yn un o brif ysgolion y wlad hon, symudodd i'r Iwerddon, lle y dyrchafwyd ef yn ddeon Cashel, a thrachefn yn esgob Killaloe, i'r hon swydd oruchel y cysegrwyd ef Ebrill 24, 1633. Yn 1641, pan dorodd y gwrthryfel allan, efe a enciliodd i Ddublin, er diogelwch, lle y bu farw Tach. 2, 1646, ac efe yn 104 mlwydd oed. Claddwyd ef yn eglwys St. Werburgh, o fewn y ddinas hono.—Wood's *Athen. Oxon.*

JONES (LEWIS), bardd o Lanuwchlyn, yn Meirion. Trigai yn y Pandy, o fewn y plwyf hwnw, yn 1703. Y mae dwy gan o'i waith yn y *Blodeugerdd*, sef "Ymddyddan rhwng y Cybydd a'r Trugarog," a "Cyngor i'r Gof o Rosygwaliau i beidio a meddwi."—*Llyn MSS.*

JONES (PARCH. LEWIS), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn y Bala. Ganwyd ef yn Melin Cae'r Berllan, Llanfihangel y Pennant, Meirion, yn 1807. Cafodd ychydig ysgol gyda Lewis Williams, Llanfachreth. Daeth i'r Bala fel llyfr-rwymydd, ac yno y dechreuodd bregethu; a bu am yspaid wedi hyny yn ysgol Gwrecsam, tan addysg Mr. John Hughes (wedi hyny o Liverpool). Neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn Nghymdeithasfa y Bala, yn 1838. Yr oedd yn wr o feddwl craff, ac yn ysgrifenydd medrus; ac er nad oedd yn honi ei hunan yn fardd, cyfansoddodd rai caniadau gwerth eu cadw. Cyhoeddwyd rhai o'i bregethau yn llyfrynau bychain, ac yn rhai o gyfrolau y *Pregethwr*. Ysgrifenodd amryw erthyglau rhagorol i'r *Traethodydd*, megis yr adolygiad ar *Athroniaeth Trefn Iachawdwriaeth*; a chyfoethogwyd dalenau y *Geiniogwerth* a'r *Methodist*, â chynyrchion ei ddoniau destlus; ac efe oedd prif, os nad unig, olygydd y cyhoeddiad blaenaf. Efe oedd awdwr "Cofiant y Parch. Richard Jones, o'r Bala," a chyfieithydd "Oriau olaf Iesu Grist," a gadawodd lawer o bregethau, &c., ar ol mewn llawysgrifen. Bu farw yn 1854.

JONES (PARCH LEWIS), ficer plwyf Almondbury, ger Huddersfield, yn rhan orllewinol sir Gaerefrog. Brodor ydoedd o gymydogaeth Aberystwyth, a hanai o deulu Cymreig henafol a chyfrifol yno. Ganwyd ef yn 1793. Pan yn blentyn bu agos iddo golli ei fywyd drwy lithro oddiar bontbren gul i'r afonig a lifai wrth ymyl trigfa ei rieni. Ei fam, yr hon a ddigwyddai fod yn edrych allan o'r ty ar y pryd, a'i gwelodd yn syrthio i'r ffrwd, ac a redodd tua'r rhyd oedd islaw lle y flynodd i'w gipio o'r dwfr. Danfonwyd ef i Ysgol Ramadegol Ystradmeurig, lle ei addysgwyd yn elfenau gwybodaeth fuddiol a chlasurol, dan ofal yr enwog athraw, y Parch. John Williams. Oddiyno symudodd i Ysgol Ramadegol Clitheroe, yn sir Gaerhirfryn, lle yr arosodd am flynyddau fel un o'r is-athrawon. Yn ystod ei drigiant yno, enillodd sylw ac edmygedd llywyddion y sefydliad, yn enwedig eiddo y Parch.

Digitized by Google

Gorweinydd Parker, periglor Bentham. Trwy ddylanwad teulu y boneddwr hwnw, cyflwynwyd Mr. Jones i fywoliaeth Almondbury, heb gais ar ei ran ef, ac ymsefydlodd ynddi yn y flwyddyn 1822. Ychydig amser wedi hyny, rhoddwyd iddo hefyd fywoliaeth Llandefaud, ger Caerlleon-ar-wysg, sir Fynwy, lle yr oedd yr eglwys mewn cyflwr tra adfeiliedig. Oherwydd hyn, ymwrthododd Mr. Jones a chynyrch arianol ei swydd fel offeiriad y plwyf, gan gyflen y cwbl a dderbyniai tuag at adgyweirio yr hen adeilad, tra y bu yn berchenog arni. Trwy ei ofal a'i wyliadwriaeth ychwanegwyd cryn lawer at werth y fywoliaeth, er na dderbyniodd ef ei hun ddim oddiwrtho. Wedi ail-adeiladu yr eglwys yn 1843, ac adeiladu ysgoldy a thy cyflens i'r athraw oddeutu yr un amser, a gwaddoli yr ysgol ganddo ag ugain punt y flwyddyn, rhoddodd Mr. Jones y fywoliaeth i fynu. Cynwysa plwyf Almondbury, yn yr hwn y bu Mr Jones yn gweinidogaethu am gynifer o flynyddau, 30,140 erwau o dir, a phan ddaeth dan ei ofal, nid oedd yno braidd ddim cyflensderau eglwysig ac addysgiadol, er fod rhif y trigolion yn 13,539 y pryd hyny. Wedi iddo ymsefydlu yn y plwyf, nid oedd yn beth annghyffredin iddo gael ei gymeryd oddiwrth ei deulu yn nyfnder y nos yn gystal ag yn y dydd, i deithio yn mhell dros y bryniau i fwthyn un o'i blwyfolion tlawd, er esmwythau ei glaf wely â'i gynwynasau tyner; neu feallai i gryfhau ac arfogi ei enaid prudd ar fin ei ymadawiad i fyd arall, â gweddiau rhagorol yr eglwys. Dan bwys teimlad dwfn ei gyfrifoldeb fel gweinidog plwyf mor helaeth a phoblogaidd, ymgynghorodd â chyfoethogion y gymydogaeth, gyda golwg ar adeiladu Eglwysi newyddion yn y treflanau. A llwyddodd yn hynod yn yr anturiaeth glodfawr hon. Bu yn offerynol i godi nid llai na phumtheg eglwys newydd yn y plwyf, yn nghydag ugain o ysgoldai, a thriarddeg o bersondai. Ac erbyn hyn mae rhif y trigolion wedi cynyddu nes cyrhaedd dros ddwy fil a deugain o enei iau. Amcan mawr arall o'i eiddo ydoedd cyflwyno gwybodaeth fuddiol i blant y dosbarth gweithiol. Er engraifft o hyn gellir cyfeirio at ysgolion cenedlaethol Almondbury, y rhai a godwyd ac a gynaliwyd ganddo hyd gyfnod ei farwolaeth. Yn y flwyddyn 1830, priodedd Mr. Jones â Miss Wateyn, Foelcernydd, yn sir Aberteifi, yr hon sydd weithion yn fyw, yn nghyd ag un mab a thair merch iddo. Ar yr achlysur hwn y cyfansoddodd y bardd Carn Ingli linellau anerchiadol, y rhai a argraffwyd yn y *Gwladgarwr* 1836, tudal. 335. Cymro o deimlad gwresog a mwynaidd oedd Mr. Jones, yn caru ei wlad, ei genedl, a'i iaith; a hoffai yn fawr bob amser gael y dywenydd i dderbyn i'w dy yn groesawgar hen gyfeillion neu frodorion o Gymru a ymwelent â gwlad y Sais. Bu dros ddeg mlynedd ar hugain yn llywydd ar "Gymdeithasfa offeiriadol Gymreig swydd Gaerefrog." Fel gwr eglwysig ymarferol yr oedd efe yn wastad yn barod i gynorthwyo ei blwyfolion yn eu cyfyngderau, ac yn ddoeth i'w cynghori yn amser trallod ysbrydol neu adfyd tymhorol. Y tlodion mewn modd arbenig a gawsant golled ddirfawr yn ei farwolaeth; canys yr oedd ei ddwylaw bob amser yn agored at ddiwallu eu hangenion. Teimlai ychydig yn anhwylus tuag wythnos cyn ei farwolaeth. Ar ei ddychweliad i'w artref wedi bod yn cynorthwyo yn ngosodiad sylfaen eglwys newydd Shelley, yn mhlwyf cyferbyniol Kirkburton, Awst 23ain, cymerwyd ef yn glaf o gyfogiad, yr wrwst, a dolur rhydd,—arwyddion nodiadol y geri marwol. Cafwyd cymhorth meddygol iddo yn ddioed; ond trech angau na gallu y medrusaf o feddygon. Hen elyn dynoliaeth a

Digitized by Google

orchfygodd, ac chedodd ysbryd yr oedranus weinidog diwyd'a llafurus, i newid, fel y dywedodd ychydig cyn ei ymddatodiad, y wybodaeth wael ac anmherffaith o'i iechydwriaeth, am gyflawn amgyffrediad teyrnas a gogoniant yr Iachawdwr. Bu farw Awst 26, 1866 yn 73 oed, wedi gwasanaethu y plwyf fel ficer ffyddlawn a duwiol dros 43 o flynyddau, a chladdwyd ef yn hen fynwent eglwys Almondbury.

JONES (PARCH. MICHAEL), athraw coleg yr Annibynwyr yn y Bala, ydoedd fab i Daniel a Mary Jones, o'r Aifft, ger Neuaddlwyd, sir Aberteifi, lle y ganwyd ef yn 1785. Symudodd ei rieni fel ag yr oedd eu teulu yn cynyddu, i Ffosybontbren yn yr un gymdogaeth. Wesleyad oedd ei dad, a Methodistiad Calfinaidd oedd ei fam. Ymunodd yntau â chynulleidfa Dr. Philips, yn y Neuaddlwyd, yn Medi 1807. Dechreuodd bregethu yn lled fuan, gan y meddyliai ei weinidog fod ynddo gymhwysderau gweinidogaethol. Aeth i'r ysgol at y Parch. D. Davies, Castellhywel. Pryd arall, elai i weithio, neu gadw ysgol ei hunan, fel y gallai enill modd i gael mwy o fanteision dan ysgolhaig mawr Castellhywel. Yn 1810, cafodd dderbyniad i Athrofa yr Ymneillduwyr yn Nhwrecsam, o dan y Dr. Jenkin Lewis, lle y bu ddwy flynedd, a dwy flynedd arall o dan y Dr. George Lewis. Dewiswyd ef yn ganlynydd Dr. G. Lewis, fel gweinidog yr hen eglwys ymneillduedig yn Llanuwchlyn, Hyd. 10, 1814. Ymddengys fod y gynulleidfa yn Llanuwchlyn yn eiddigeddus o bob rhith o newyddbeth, mewn athrawiaeth ac ymarferiad. Gwelent, neu meddylient eu bod yn gweled, Mr. Jones yn tueddu at olygiadau y Dr. Edward Williams o Rotherham, y rhai a ystyrient hwy yn waeth nag Arminiaeth. Ystyrient hefyd gynal ysgol Sabbathol yn ddim llai na halogiad y Sabbath. Mynent hwy, yr Henuriad—canys Henuriaid oeddynt eto—fod Mr. Jones yn dal heresiau. Barnodd cynhadledd o weinidogion ei fod yn iach yn y ffydd, ac yn ddiwyrni ei ymarweddiad. Tafiodd hyn yr hen blaid i wrthwynebiad penderfynol, ac enciliasant i gynal ei haddoliadau i le arall. Bu y canlyniad yn ymgyfreithio yn llys y Sianseri am feddiant o'r Capel, a'r hen blaid Henaduriaethol a enillodd, a difeddianwyd y gweinidog yn ol llythyren y gyfraith, a gorfu iddo yntau a'i bobl addoli mewn lle arall. Bu y gyfraith yn gostus iawn i bob un o'r pleidiau, yn enwedig i Mr. Jones. Pan symudodd y coleg Annibynol o'r Dref Newydd i Aberhonddu, barnwyd fod diffyg yn y Gogledd am sefydliad i roi addysg i rai a fwriadent fod yn weinidogion. Penderfynwyd ar Llanuwchlyn fel lle cyfaddas, a Mr. Jones fel athraw. Symudodd wedi hyny i'r Bala. Am ei gymeriad, yr oedd yn wr o feddwl penderfynol—yn feirniad craffus ar bob peth a ddarllenai ac a glywai, yn ysgrythyrwr hyddysg, manwl, a difrifol yn nghyflawniad ei ddyledswyddau teuluaidd. Yr oedd yn bregethwr dealltwriaethol, ac nid tymherog. Er ei fod yn anystwyth ei ymadrodd, yr oedd yn arbenigol adeiladol. Yr oedd ei bregethau yn dda, er y tybiai llawer mai un sych ydoedd. Yr oeddynt yn wir efengylaidd, ac o dueddiad ymarferol. Yr oedd yn godwr boreu, yn efrydwr caled, yn ddirwestwr cyson, yn ddiysgog mewn bwriad a gweithrediad, ac yn dduwiolfrydig yn ei ymlyniad parhaol hyd angau. Deallai amaethyddiaeth yn drwyadl, ac nid oedd odid i gelfyddyd nad oedd ganddo ef lawer o wybodaeth yn ei chylch. Yr oedd yn dra chyfarwydd mewn hanesiaeth wladol ac eglwysig. Yr oedd yn ieithydd cyfarwydd, yn seryddwr gwych, ac yn cael mawr hyfrydwch mewn daeareg yn ei flynyddau olaf. Yn 1816, priododd Mr. Jones gyda Mary Hughes, o Gwincarnedd,

Digitized by Google

Llanbrynmair, yr hon a fu yn ymgeledd gymhwys iddo tra fu byw, a'r hon a'i goroesodd ef o rai blynyddau. Efe a fu farw, wedi cystudd byr, Hydref 27, 1853, yn 68 oed. Mab iddo ydyw y Parch. M. D. Jones, llywydd athrofa ogleddol yr Annibynwyr.

JONES (PARCH. MORGAN), gweinidog enwog gyda'r Annibynwyr yn Nghapel y Graig, Trelech, sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn 1768, mewn lle a elwir Troedyrhiw, plwyf Llywel, sir Frycheiniog. Ei rieni, Evan ac Ann Jones, oeddynt amaethwyr lled fychan, ond cyfrifol iawn am eu gonestrwydd a'u diwydrwydd. Rhoddwyd ef yn fore yn yr ysgolion goreu a fedrent gael yn yr ardal; ac yr oedd crefydd wedi cael gafael ar eu feddwl pan yn dra ieuanc. Pan tua 14 oed, aeth i wasanaethu at un Mr. Morgan Davies, yr hwn oedd yn wr tra chyfrifol, ac yn ddiacon yn eglwys Cefnarthen, a'r hwn a ymserchodd yn fawr yn y bachgen ieuanc addawol, ac a fu iddo megys tad. Yntau hefyd a ymunodd pan tua phumtheg oed, â'r eglwys hono, ac a dderbyniwyd yn aelod gan y Parch. Peter Jenkins, gweinidog y lle. Gwelodd ei frodyr yn fuan fod ynddo gymhwysderau neillduol at y weinidogaeth gyhoeddus; ac wedi cael mawr foddlonrwydd ynddo, agorodd Rhagluniaeth ddrws iddo fyned i athrofa a gedwid y pryd hwnw ar gyfer gwyr ieuainc gan y Parch. John Griffiths, Glandwr, trwy i'r dywededig Morgan Davies dalu ei draul. Bu yno am o gylch pedair mlynedd, ac yn ystod yr amser hwn cynyddai mewn gras a gwybodaeth. Cyrhaeddodd radd dda o wybodaeth yn yr ieithodd Seisnig, Lladin, Groeg, a Hebraeg, fel y gallai wneud defnydd o awduron yn mhob un o honynt. Ar ei ymadawiad a Glandwr, derbyniodd alwad eglwys Capel y Graig, Trelech, yn yr hon nid oedd cariad brawdol ar y pryd yn flodeuog iawn. Urddwyd ef i'r swydd Mawrth 13, 1789; ac yr oedd lluaws o brif bregethwyr Annibynol y Deheudir yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth. Ymroddodd i'w waith pwysig gydag egni cawr, sef dihuno y wlad oddiamgylch o'i thrwmgwsg ysbrydol. Nid oedd yr olwg arno ond ieuanc a gwanaidd, i gymeryd gwaith mor fawr mewn llaw; ond llwyddodd i raddau annghyffredin. Dechreuodd gwrandawyr ymdyru o bell ag agos i Gapel y Graig, a dechreuodd llawer ohonynt na byddent byth yn mynychu lle o addoliad deimlo yn achos eu heneidiau. Gwelwyd ugeiniau lawer yn yr un cyfarfod yn gwaeddi am eu hachubiaeth. Yn ystod y chwe' blynedd a deugain y bu Mr. Jones yn gweinidogaethu yn Nhrelech, derbyniodd i gymundeb eglwysig ddwy fil a phedwar cant a deg o bersonau. Yn 1829, derbyniwyd i'r eglwys oddeutu chwech ugain yr un Sabbath, ac o ugain i dri ugain ar Sabbathau eraill, fel yr oedd cyfanswm yr aelodau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn hono yn bedwar cant. Nid yn unig bu yn ddefnyddiol i enill aelodau eglwysig, ond bu yn offeryn llwyddianus i helaethu yr achos yn yr ardaloedd oddiamgylch. Adeiladwyd pedwar o addoldai, a ffurfiwyd cymdeithasau cryfion fel cangenau o Gapel y Graig, megys Blaenycoed, Ffynon Bedr, Llwynyrhwrdd, a Chapel Ifan. Nis gwyddom am un gweinidog sefydlog yn Nghymru y dilynwyd ei lafur a mwy o lwyddiant na Morgan Jones, Trelech. Yn 1790, priododd Miss Parry, Esgair Graig, yn mhlwyf Troed yr aur, sir Aberteifi, yr hon oedd yn etifeddes lled gyfoethog: a bu yn hynod ddedwydd yn ei briodas. Cafodd gymhares dduwiol, ddirodres, ac addfwyn; a thrwy ei chyfoeth, dyrchafwyd ef ar unwaith i safle uchel mewn cymdeithas, ac i feddiant o ddylanwad nas gallasai ei dalent a'i dduwioldeb yn unig byth ei osod yn y meddiant o hono, Yr oedd Morgan Jones yn ddyn hardd o ran ei bersion,

Digitized by Google

tua phum troedfedd a deng modfedd o daldra, ac yn ymddangos yn brydferth a boneddigaidd ei ymddangosiad, ond nid yn goegaidd. Er iddo gael ei eni a'i fagu mewn sefyllfa isel, gan fod rhagluniaeth wedi ei ddarparu i droi mewn cylch uchel, cynysgaeddwyd ef â phob rhyw gymhwysderau corphorol, meddyliol, ac amgylchiadol, i'w gyfaddasu i'r cylch hwnw. Fel pregethwr, safai yn y rhes flaenaf; a chyfrifid ef am fwy na deng mlynedd ar hugain o'i oes weinidogaethol yn un o brif bregethwyr yr enwad Annibynol yn Neheubarth Cymru. Yr oedd yn ymadroddwr rhwydd, yn ymresymwr eglur, ac yn feddianol ar lais hynod o swynol. Ni ddarfu i Mr. Jones ei hynodi ei hun fel awdwr. Cyhoeddodd ychydig o fân lyfrau, megys "*Y dydd yn Gwawrio*," yn cynwys hanes gweithrediadau Cymdeithas Genadol Llundain. Bu y llyfryn hwn yn foddion effeithiol i feithrin ysbryd cenhadol yn eglwysi y Deheudir yn nechreu y ganrif bresenol. Cyhoeddodd hefyd waith bychan ar gyflawniad y prophwydoliaethau; un arall ar y cyfamod eglwysig; Catecism ar egwyddorion y grefydd Gristionogol; yn nghyda chyfieithiad o bregeth enwog y President Davies, o America, ar adgyfodiad y meirw. Nis gwyddom iddo gyhoeddi dim arall. Tua y flwyddyn 1832, dechreuodd iechyd Mr. Jones a rhoddi ffordd, a gwaethygodd yn raddol nes i'w fywyd defnyddiol gyrhaedd ei derfyn ar y 23ain o Ragfyr, 1835. Claddwyd ef ar y 26ain o'r un mis, wrth gapel Llwyn yr hwrdd, a gweinyddid ar ei gladdedigaeth gan y Parchedigion S. Griffiths, Horeb; J. Breese, Caerfyrddin; T. Griffiths, Hawen; ac eraill. Cyhoeddwyd hanes byr o'i fywyd yn y Gymraeg, gan y Parch. S. Griffiths, Horeb; ac un ychydig yn helaethach yn Saesneg gan y Parch. J. J. Beynon, Dorrington, dan y teitl "*Wisdom to win Souls.*"

JONES (Owen), *(Mannoethwy)*, a anwyd Mehefin 4, 1838, mewn tyddyndy o'r enw Tanyffordd, yn mhwyf Llangian, Lleyn. Mab ydoedd i John Owen, a'i wraig Ann, ferch Morys Roberts, o'r un lle. Er fod Owen Jones wedi hanu o gyndadau uchel, yn ngweinyddiadau Rhagluniaeth, nid oedd ei rieni nac yn uchel nac yn gyfoethog, ond o gymeriad disglaer, ac yn barchus yn y byd. Derbyniodd ei addysg cyntaf gan ei rieni, y rhai a'i hyfforddent i allu darllen Cymraeg yn hylithr pan yn bedair blwydd oed, ac wedi cyrhaeddyd o hono chwe' blwydd oed, danfonwyd ef i Ysgol Genhedlaethol y Foel-gron, lle y dangosodd fod prif ogwyddiad ei athrylith yn tueddu at y wyddor a elwir mesuroniaeth *(mathematics)*, ac yn nhreigl amser daeth yn rhifydd *(mathematician)* nad ellid odid gael ei ragorach. Yn ystod naw mlynedd a haner o'i arosiad yn yr ysgol grybwylledig, daeth i gyfeillach â cherddorion y plwyf cyfnesaf, Llanbedrog, yn mhlith y rhai yr oedd yn deimladwy o swynion cerddoriaeth, ond nid ymddengys iddo gymeryd ei lwyr-lithio gan ddylanwadau hudolus y dduwies hono, er iddo hollol feistroli ei gwahanol gangenau, nes dyfod yn gerddor gwych, hyd yn oed fel ag i allu chwareu amryw offerynau. Yr oedd ynddo ddigon o ddefnyddiau i unpeth braidd o fewn cylch dynoliaeth—gan ei fod yn fachgen o enaid mawr, o wybodaeth ddofn a helaeth, o athrylith ddiledryw, o galon wresog, o ysbryd boneddigaidd a gostyngedig, dewr a mwyn; felly, yr oedd yn mhell o flaen ei oes yn ei gymmydogaeth, ac o'r herwydd, anhawdd oedd i gymeriadau cyffredin ei amgyffred. Pan ar bwynt ei bymtheg mlwydd oed, danfonwyd ef i goleg Hyfforddiadol Gogledd Cymru, lle yr arosodd am dair mlynedd, ac yr enillodd bedwair o wobr-gampau. Wedi bod o hono yn dyfal lafurio gyda'i

Digitized by Google

ddysge diaeth yn y coleg rhagenwedig, ymgymerodd â gofalon Ysgol Genedlaethol Llanfair-caereinion, sir Drefaldwyn. Yma, canfyddwyd mai ei dueddiad mawr oedd helaethu ei wybodaeth o hynafiaethau ac ysgrifeniadau. Yn hyn, fel yn mhob gorchwyl arall a gymerai mewn llaw, arferodd y dyfalwch a'r diwydrwydd mwyaf, nes dyfod yn llenor dyfnddysg a threiddgar, yn ysgrifenydd llithrig a chadarn mewn rhyddiaith, yn gymrawd hylithr yn arferiadau yr hen Dderwyddon, yn hyddysg yn holl deddfau dosbarthiadol Cerdd Dafod, fel yr oedd gweithiau yr hen feirdd a'r brutwyr mor adnabyddus iddo â gweithiau beirdd a llenorion y ddeunawfed ganrif. Yn ei ymchwilion am wybodaeth ni theimlai flinder na diffyg amynedd, canys yr oedd ei feddwl yn weithgar, yn ymhyfrydu mewn llafur ac yn gloddesta ar fyfyrdod. Yr oedd ei chwaeth yn dra diwylliedig a phur, ei lygad yn gweled llawer o anian, ei galon yn teimlo yr hyn oedd yn ei weled, ac yr oedd ei fedrusrwydd i'w ddesgrifio yn deilwng o glod. Nid oedd braidd un amser yn amcanu at farddoni, eithr yn hynod hoff o ffrwyth yr awen, pan wedi ei dori allan gan gampwyr y gelf, a byddai mewn hwyl yn nghanol cyfansoddiadau y *Myvyrian Archaiology*, a'i feddylfryd bywiog a buanwel mal yn nofio yn nghanol dyddordeb meddyliol pan yn cu cymdeithas. Yr oedd yn gefnogydd gwresog i amrai gylchgronau a ymdroent yn ffurfafen Cymru yn ystod ei oes, ac ysgrifenodd lawer iddynt,—ysgrifenodd lawer i'r *Brython*, yr *Haul*, *Golud yr Oes*, y *Cymro*; &c., o dan y cuddenwau Cian, Lleynwyson, Maldwyn, Mannoethwy, Mihangel, Myfyr, O, O Wen, Pedrog, &c., eithr y cyfenwad mwyaf dewisol ganddo oedd *Mannoethwy*, er mai ychydig mwy o ddefnydd wnai o hono mwy na'r lleill gan fod gormod gwylder yn ei wahardd i ymgymeryd âg urddenw penodol. Ysgrifenodd lawer hefyd i'n cyfnodolion Seisnig. Yr oedd hefyd yn dra hyddysg yn y Lladinaeg. Yn ystod ei arosiad yn Llanfair, enillodd iddo ei hun gymeriad uchel fel gwladwr, fel meistr llariaidd a ffyddlawn, ac fel cyfaill dianwadal a diffuant, yr hyn a enillodd iddo gylch mawr o gyfeillion yn ystod ei fyr fywyd, a llwyddodd i'w cadw yn eithaf cyfan. Wedi aros ohono yn Llanfair am bum' mlynedd, teimlai awydd i roddi yr ysgol i fyny, ac ar yr achlysur hwn, ymgasglodd nifer o foneddigion yr ardal i le pennodol, i roddi tysteb iddo. Agorwyd y cyfarfod drwy i'r Parch. E. Pugh, y periglor, gyflwyno y rhodd, sef Beibl goreuredig a chodaid o aur. Yna bu ysbaid blwyddyn o amser yn Bryn Tanad, Llanerfyl, yn addysgu y boneddwr ieuanc, lle y cafodd lawer o fantcision i adysgrifio hen ysgrifeniadau haner ysedig, fel ag y mae llawer wedi ei dwyn allan i sylw gwyr llên Cymru, ac yn eu mysg ysgrifiyfr tra gwerthfawr, yn dwyn yr enw "Lepor Muses," o eiddo Lewis Morys, Ysw. (*Llewelyn Ddu o Fon*), yr hwn lyfr sydd yn cynwys llawer o achau, hynafiaeth a rhyfeddodau Cymru, Lloegr, yr Alban, a'r Iwerddon, yn gystal a llawer o farddoniaeth ragorol heb fod ar glawr mewn argraff. Wedi aros ohono flwyddyn yn Bryn Tanad, yr oedd ffordd rydd wedi ei hagor iddo i fyned i Goleg yr Iesu, Rhydychain, i efrydu gogyfer a'r Eglwys; eithr esgeulusodd y ddyledswydd hono, drwy wrandaw ar ymofynion twyllodrus calon arall. Felly, ar ei ymadawiad o Fryn Tanad, ymsefydlodd yn Llundain, lle y treuliodd y tair blynedd olaf o'i oes gyda chymeriad mawr; gan dra mynychu yr Amgueddfa Brydeinig i adysgrifio cymaint allai o hen hanes ei genedl. Ond cyn ei fod yn Llundain ond prin flwyddyn o amser, naill ai drwy ormod dygnedd myfyrfod, ai oherwydd hinsawdd y lle, teimlai ei natur yn cael ei lleddfu gan an-

Digitized by Google

hwyldeb corphorol, ac felly arosodd yno yn ormodol mewn nychdod difâol, nes yn mis Ionawr, 1866, wedi hollol lwfreiddio o'i ysbryd, anmharu o'i iechyd, y troes ei feddwl tua gwlad ei enedigaeth; ond nid digonol oedd hyn i adferu ei natur lethedig—nis gallodd gyrhaeddyd ei enedigfan, a gorfu arno aros mewn gwesty yn Llanfaircaereinion am dair wythnos, hyd ddydd Mercher, Chwef. 7, 1866, pryd y bu farw yn mlodau ei ddyddiau, yn 27 oed, o'r darfodedigaeth. Claddwyd ef yn mynwent Llanfair.—*Y Cymro; Cronicl Cymru.*

JONES (OWEN) (*Owain Myfyr*). Ganwyd y gwladgarwr haelfrydig a'r hynafiaethwr twymgalon hwn mewn ffermdy o'r enw Tyddyn Tudur, yn mhlwyf Llanfihangel-glyn-myfyr, sir Ddinbych, yn 1741. Mab ieuengaf i deulu parchus ydoedd yn y lle hwnw, am y rhai ni wyddis ond ychydig heblaw eu bod yn hanu o deulu henafol. Pan yn dra ieuanc, danfonwyd ef i Lundain, a rhwymwyd ef yno yn egwyddor-was gyda Meistri Kidney a Nutt, *Furriers*, yn Thames Street. Yn mhen yspaid, cafodd gyfran yn y fasnach, a thrachefn olynodd hwynt; a pharhaodd i ddwyn y fasnach yn mlaen hyd ei farwolaeth. Ond er ei ofalon a'i lwyddiant masnachol, mynodd hamdden i dosturio wrth agwedd farwaidd llenyddiaeth ei wlad, i resynu tros ddifrawder ei gwyr mawr o'i phlaid, ac i wneud ei oreu er dihuno doniau cysglyd ei gydwladwyr, ac arbed rhag difancoll ysgrifeniadau gwerthfawr ein hynafiaid oedd yn cael ei gorchuddio gan lwch a'i hysu gan bryfaid. Tynodd ei gynlluniau er mwyn dwyn ei amcanion gwiwglodus oddiamgylch, ac nid arbedodd nac arian nac amser er eu cyrhaedd. Yn 1772, bu yn offeryn i sefydlu Cymdeithas y Gwyneddigion yn Llundain, ac nid yn unig bu hon o fawr les er enyn cenedlgarwch yn mhlith Cymry y Brifddinas, ond bu o wasanaeth mawr hefyd trwy benodi a chynal Eisteddfodau mewn amrywiol barthau o Gymru. Ymroddodd yn ieuanc i gasglu ac adysgrifio hen ysgrifyfrau Cymreig, a pharhaodd yn ddiwyd wrth y gwaith hwn hyd ddiwedd ei oes; a blaenffrwyth yr ymdrech wladgarol hon ydoedd iddo argraffu yn 1789, a hyny yn hollol ar ei draul ei hun, gyfrol drwchus yn cynwys 592 o dudalenau, o gywyddau, &c., Dafydd ab Gwilym, gyda rhagymadrodd bywgraffyddol helaeth o'r bardd gan y Dr. Owen Pugh. Dywed y cyhoeddwr haeddbarch yn ei ragymadrodd yntau, "Nid yw y cynulliad yma, er ei fod yn helaeth, yn cynwys fawr tros haner gwaith D. ab Gwilym;" ond ni ddarfu i neb eto gwbihau y gwaith gorchestol hwnw o eiddo y gwladgarol Myfyr. Tua dechreu y ganrif bresenol, cyhoeddodd argraffiad newydd o *Ddyhewyd y Cristion*, sef cyfieithiad Dr. John Davies y Fallwyd, o'r *Christian Resolution*, er lles ysbrydol ei gydgenedl. Ond cof golofn ardderchocaf ei yni genedlgarol, ydoedd ei gyhoeddiad o'r drysorfa werthfawr hono o lenyddiaeth hynafol Gymreig, "The Myvyrian Archaiology of Wales." Cyhoeddodd Myfyr y gwaith mawr hwn yn hollol ar ei draul ei hun, yn 1801—1807, mewn tair cyfrol wythblyg mawr. Cynwysa gynyrchion barddonol a rhyddieithol y Cymry o'r oesau boreuaf hyd derfyn y 13eg ganrif; ac yr oedd y cyhoeddiad yn unig o hono yn costio i Myfyr tros fil o bunau. Rhoddwyd yr ysgrifeniadau crybwylliedig i'r byd yn y dull cyntefig, gyda ffyddlondeb cydwybodol, trwy gynorthwy Dr. Pugh ac Iolo Morganwg—ond cofier ar draul Owain Myfyr; a phan ystyrier fod y rhan gyntaf o'r trysorau llenyddol hyn heb fod erioed o'r blaen mewn argraff—fod llawer o honynt wedi ei hachub, yn ol pob tebygolrwydd, rhag dinystr anocheladwy; a phan gofier fod difaterwch cywilyddus yn ffynu'n gyffredinol

Digitized by Google

gyda golwg ar lenyddiaeth Gymreig, fel yr oedd ad-daliad yn anobeithiol, y mae yn anmhosibl prisio y weithred hon o eiddo Myfyr yn rhy uchel. Y mae y gwaith gwerthfawr hwn yn cael ei ail-argraffu yn bresenol gan Mr. Gee, Dinbych. Heblaw yr ysgrifau a gyhoeddodd efe yn y *Myvyrian*, cadwodd y gweddill ohonynt yn ofalus mewn ysgrifllyfrau, a chwanegodd atynt gopiau llawysgrifol llenyddiaeth y genedl o 1300, lle terfyna yr *Archaiology*, hyd oes y frenhines Elizabeth. Dywedir y costiodd casglu, ysgrifenu, a dosparthu y rhai hyn iddo tros dair mil o bunau. Gadawodd ef hwynt i'w wraig, gan yr hon y pwrcaswyd hwynt i'w cadw yn yr Amgueddfa Brydeinig, lle y maent yn awr, yn cynwys 47 cyfrol o brydyddiaeth, yn 16,000 o dudalenau, heblaw tua 2000 o englynion. Mae yr un casgliad hefyd yn cynwys 53 cyfrol o ryddiaith Gymreig, mewn tua 15,300 o dudalenau, yn cynwys llawer o ysgrifeniadau Cymreig ar amrywiol bynciau. Yr ysgrifau anmhrisiadwy hyn, oddigerth ychydig ohonynt a gyhoeddwyd yn y *Brython*, *Cymru Fu*, &c., a orweddant yn domen farw a diles yn y gywreinfa genedlaethol. Yn 1805, efe a ddechreuodd gyhoeddi cylchgrawn Cymreig yn Llundain o'r enw y *Greal*, yn cynwys lluaws o hen ysgrifau Cymreig prinion a dyddorol, yn nghydag erthyglau gwreiddiol; ond ni chyhoeddwyd ond un gyfrol ohono, ac y mae hono yn anhawdd ei chael bellach. Yr oedd Myfyr hefyd yn meddu llawer o rinweddau personol tra chanmoladwy. Rhydd golygydd y *Cambro Briton* un esiampl nodedig o hyn. Ychydig o flynyddau ar ol sefydlu Cymdeithas y Gwyneddigion, tynodd awdwr tracthawd Cymreig enwog, i'r hwn y dyfarnwyd un o'r gwobrau, mewn canlyniad i hyny, sylw ei sylfaenydd haelfrydig. Y canlyniad angenrheidiol i hyny oedd, i ohebiaeth ddechreu rhyngddynt, yn ystod yr hon y cymhellodd ein Mecenas Cymreig ei gyfaill newydd i fynu y budd o addysg athrofaol i'w dalentau, gan ddefnyddio yn ei lythyr ar yr achlysur y geiriau nodedig hyn:—"Mi ddygaf fi eich holl draul. Tynwch arnaf fi unrhyw symiau o arian a ddichon fod yn angenrheidiol i chwi tra yn yr athrofa. Ac ammod yr ymrwymiad ydyw hyn: os digwydd i mi, trwy rhyw anffawd mewn masnach fyned yn dlawd, ac i chwithau fod mewn sefyllfa o gyfoeth, fod i chwi y pryd hyny fy nghynal i." Nid oes brawf cryfach o'i ysbryd haelfrydig yn angenrheidiol. Dywedir mai unwaith yn unig y bu y boneddwr ieuanc a nodwyd dan yr angenrheidrwydd o wneyd prawf o haelioni ei noddwr, ac iddo ei gael y pryd hyny yn llawn cystal a'i addewid; ac y mae yn sicr y cawsai ef yr un mor ffyddlon i'w air pe yr aethai ar ei ofyn drachefn. Dylid chwanegu hefyd, ddarfod i Myfyr, trwy ei graffder doeth yn yr amgylchiad yma, a thrwy ei gefnogaeth gymhelliadol, fod yn foddion i ddwyn person i'r cyhoedd a fu yn addurn wedi hyny i lenyddiaeth Gymreig. Wedi oes ddefnyddiol, efe a fu farw yn ei dŷ ei hun yn Thames Street, Medi 29, 1814 yn 73 oed, gan adael gweddw a thri o blant ar ei ol—un o ba rai, sef ei unig fab, Owen Jones, a ddaeth yn adeiladydd enwog, ac yn awdwr amrai lyfrau uchelbris ar y gelfyddyd hono.—*Em. Welsh.; Cambrian Register; Cambro Briton.*

JONES (PETER) *(Pedr Fardd)*, oedd fab i wehydd o'r enw William Jones (neu Jesse) o Frynengan, plwyf Dolbenmaen, sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef Mai 7, 1775. Yr oedd ei dad yn fardd gwlad da, yn arfer gwneud rhimynau er difyru ei gymydogion, ac y mae y rhai sydd ar gof a chadw o'r cyfryw yn dangos ei fod yn ddyn moesol, ac o duedd grefyddol. Ceir pryddest ar y testyn, "Galarnad Henaint," o'i waith

Digitized by Google

yn y *Brython* v. 53. Dygwyd Pedr i fynu yn yr un alwedigaeth a'i dad, a phrofodd yn fore ei fod yn meddu yr un anianawd farddonol ag yntau; ond tra nad oedd yr hen wr ond yn ymddigrifo mewn dyriau, mynodd y bachgen feistroli y cynganeddion, ac y mae englyn o'i waith ar gael a gyfansoddwyd ganddo pan ydoedd tua wyth oed. Pan yn lled ieuanc, symudodd i Liverpool, ac yno y treuliodd weddill ei oes. Bu yn trigiaun am lawer o flynyddau yn Marybone, gyferbyn a chapel y Tabernacl. Dygwyd ef i fynu gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, yn Nolbenmaen, parhaodd yn aelod o hen gapel Pall Mall, os nad ydym yn camgymeryd, tros weddill ei fywyd, a bu yn flaenor yn eu plith am lawer o flynyddau. Yr oedd ei gyd-drefwyr yn syniad yn uchel iawn am ei bwyll a'i ddoethineb, ac mewn ystyr farddonol, efe oedd oracl mawr ei gydwladwyr yn y lle. Cyrchid ato am addysg gan feirdd ieuainc, ac nid oedd uwch awdurdod nag ef yn ei oes ar y rheolau cynganeddol. Pa beth bynag a ddywedir am y diffyg tân barddonol sydd yn ei waith, rhaid i bawb gydnabod ei fod yn uchrhifydd *(mathematician)* campus, fel y profa yn "Mel Awen," tan y penawd, "Egwyddor y Beirdd, neu Reolau Barddoniaeth Cymreig, yn cynwys cynlluniau o'r pedwar mesur ar hugain, a phob un yn ei fesur ei hun." Meistrolodd Seisnig yn rhagorol, a gallai gyfansoddi yn yr iaith hono gyda chryn ddestlusrwydd. Ar gais Dr. Raffles, ysgrifenodd hanes byr o'r Trefnyddion Calfinaidd, yr hwn a argraffwyd, ac a fawr ganmolid oblegid ei arddull Seisnig bur a chyfoethog. Cyfansoddodd "Holwyddoreg Ysgrthyrol," at wasanaeth yr Ysgol Sabbothol, yr hwn a fu mewn cryn fri am lawer o amser. Ysgrifenodd lawer i'r cyhoeddiadau Cymreig ar eu cychwyniad cyntaf allan, megys *Seren Gomer, Golenad Cymru, &c.* Yr oedd llawer o fedr ynddo i droi peth i wawd a dirmyg, a'i arabedd yn llym a miniog; ac fel arfer, bu y gyneddf hon yn fwy o colled nag enill iddo. Barnwyd ef yn fuddugol yn Eisteddfod Aberhonddu, 1822, am y cywydd goreu ar "Waredigaeth Israel, a Dymchweliad yr Aiphtiaid yn y Mor Coch;" yr hwn sydd yn cynwys amrai linellau cryfion. Yn 1826, enillodd gadair Gwent a Morganwg, a gynelid yn yr un dref, ar y testun, "Rhoddiad y Ddeddf ar Sinai;" ond y mae llawer mwy o gywreinrwydd cynganeddol yn cael ei arddangos yn yr awdl fuddugol hon nag o dân awenyddol. Cyhoeddodd ei gyfansoddiadau barddonol yn un gyfrol, tan y teitl "Mel Awen," ac y mae yn hwnw lawer o ddarnau tra dyddorol, a melus odiaeth i gynganeddwyr, megis awdl ar "Haeddedigaethol Goffadwriaeth am Hynafiaid y Cymry;" cywydd ar "Ddyn yn ei gyflwr o Ddiniweidrwydd;" arall ar y "Deddf Foesol;" arall ar "Frawdgarwch;" a dau arall ar "Undeb Corph yr Eglwys," a "Rhagoriaethau Cariad;" yn nghyda lliaws mawr o fân gywyddau, englynion, caneuon, &c., ar amrywiol destynau. Ond er cywreinied geir-drefnwr ydoedd, pan y bo ei flodau cynganeddol wedi ei chwythu i ddifancoll gan ddeifwynt amser, erys ffrwyth ei emynau pêr yn felus i enau teulu Seion "tra mor tra Brython." Llawer o ganu sydd wedi bod arnynt, a byddai gwagle rhyfedd mewn emynlyfr Cymreig pe gadewid hymnau Pedr Fardd allan ohono. Cyfansoddwyd hwynt yn benaf gyda'r amcan i wneud y "Llyfr Emynau at wasanaeth yr Ysgol Sabbathol," i fynu, tra yr oedd eraill yn ebychiadau naturiol y galon at Dduw. Dyma rai ohonynt:—"Mae'r iachawdwliaeth rad," &c.; "Daw tyrfa rif y gwlith," &c.; "Cofia fi;" "Cysegrwn flaenffrwyth ddyddiau'n hoes;" "Er myned oll yn gaeth," "Chwi garcharorion prudd;" "Daw miloedd ar ddarfod am danynt;" "Yr holl freniniaethau a dreu-

Digitized by Google

lir;" "Hyfryd lais Efengyl hedd;" a lluaws eraill a safant yn gyfochrog â phenillion anfarwol Williams Pantycelyn. Bu farw Pedr Fardd yn Liverpool, Ionawr 26, 1845, yn 77 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys St. Paul.

JONES (MILWRIAD PHILLIP), ydoedd o Benywaen, plwyf Llangyfelach, Morganwg; ac yn un o gyndadau teulu presenol castell Fonmon yn y sir hono. Dywedir gan Noble, yn ei *Memoirs of the Protestant House*, nad oedd y Milwriad Jones ond gwerth £20 yn y flwyddyn ar ddechreuad y Rhyfel Cartrefol, a thrwy y rhyfel hwnw ddarfod iddo gynyddu ei gyllid i £4000 yn y flwyddyn, trwy y gwahanol swyddau a ddaliai. Gwnaed ef gan Oliver Cromwel yn arolygydd ei dŷ, yn Gyfrin Gynghorwr, yn arolygydd ei diroedd yn Nghymru, ac aelod o Dy yr Arglwyddi; gweithredodd fel seneddwr yn olynol tros siroedd Brycheiniog, Mynwy, a Morganwg; a dywed Jones, yn ei *History of Breconshire*, i'r Milwriad Jenkyn Jones, y Puritan enwog, fod o gymhorth mawr iddo tuag at enill ei eisteddfa tros y sir olaf. Ni wyddis ddim pa fodd yr ymdarawodd ar ddychweliad Siarl II.—*Camb. Quart.* iv. 339.

JONES (RHYS) o'r Blaenau, ydoedd fab ac etifedd John Jones, Ysw, o'r Blaenau, plwyf Llanfachraith, yn Meirion. Ganwyd ef yn 1713. Ei fam oedd Sioned, merch Huw Puw, Ysw., Garthmaelan, Dolgellau. Bwriad y rhieni oedd dwyn Rhys i fynu yn gyfreithiwr. Danfonwyd ef i ysgol Dolgellau ar y cyntaf, ac oddiyno i'r Amwythig; ond tra yn y man olaf, bu farw ei dad, a dychwelodd yntau adref, ac yno y treuliodd ei oes faith, yn rhydd-feddianwr diardreth. Fel cydymaith ei fywyd tawel, ymgydnabyddodd â'r awen yn ieuanc, a bu y ddau ar delerau tra chyfeillgar hyd oni wahanodd angau. Ystyrid ef yn wr o synwyr cyffredin cryf anarferol, ymgynghorai y cymydogion âg ef ar bynciau cyfreithiol dyrys, a mynych yr ystyrient ei farn yn benderfyniad yr ymrafael. Eglwyswr culfeddwl a rhagfarnllyd ydoedd, fel y prawf ei "Fflangell i'r Methodistiaid," &c.; ac os cywir yr hyn a ddywed Glasynys, oddiar draddodiad, yn *Ngolud yr Oes* ii. 83, sef iddo gymeryd rhan flaenllaw, gyda Periglor y Bala, a Sion Prys Mawddwy, i ddisodli yr anfarwol Charles o'r Bala allan o guradiaeth Llan y Mawddwy, yr oedd y weithred yn warth anfarwol i'w ryddid barn bersonol, ac y mae y tri fel eu gilydd yn haeddu ysgydwad pen yr oesau arnynt. Dywed llafar gwlad fod ei gariad at y rhyw deg braidd yn rhy gyffredinol, ond efallai mai ei ganeuon maswedd ef ei hun a roddes fodolaeth gyntaf i'r syniad hwn am dano. Os arweiniodd fywyd ofer, ceir ef tua'i ddiwedd yn gofyn:—

"Duw, maddau gamau i gyd
Hyll feiau fy holl fywyd."

Efe a ymenwogodd yn fwy fel detholydd nag fel bardd, er iddo gyfansoddi hefyd ei hun rai pethau galluog. Yn 1770, cyhoeddodd, "Pigiadau dewisol o waith y Prydyddion o'r amrywiol oesau." Yn 1773, cyhoeddodd "Gorchestion Beirdd Cymru," yr hwn a argraffwyd yn y 'Mwythig, mewn 4plyg lled fach, ac iddo ymyl dalen lydan, yr hyn a barai i'r hen bobl alw y llyfr, "Y BaisWen." Cyhoeddwyd ail-argraffiad rhadlawn ohono tan olygiaeth Cynddelw, gan Mr. Humphreys, Caernarfon, yn 1861 Wedi marwolaeth y bardd, cyhoeddwyd cyfrol o'i ganeuon gan ei ŵyr, Rice Jones Owen, Ysw., a chynwysa hwnw rai darnau moesol a galluog, ond nid yw y rhai moesol yn alluog, na'r rhai galluog yn foesol. Y mae ei "Gywyddau Serch" a'i awdl i "Ddeicyn yr Adar-

Digitized by Google

wr," yn ddychrynllyd o anfoesol, er yn cynwys rhai drychfeddyliau prydferth; ac nid yw ei "Gywydd y Farn," ond efelychiad egwanbwyll o eiddo Goronwy Owen ar yr un testyn. Efallai mai "Ystyriaeth ar Oes Dyn," ydyw y dernyn goreu a gyfansoddodd efe erioed. Yr oedd Rhys Jones yn gydoeswr â Lewis Morris, Goronwy Owen, William Wynne, Ieuan Brydydd Hir, &c.; ac yn fath o fodrwy gydiol rhwng y tô hwn o feirdd a'r tô nesaf, sef Dafydd Ionawr, Dafydd Ddu, G. Mechain, &c. Ac er nas gellir ei restru yn gydradd a'i flaenoriaid na'i olafiaid mewn dawn a chelfyddyd farddonol, eto saif yn uchel mewn serth a gogan; a dichon mai efe oedd pen bardd Cymru yn 1770. Wedi cyrhaedd yr oedran mawr o 86, efe a fu farw Chwef. 14, 1801, a chladdwyd ef yn eglwys Llanfachraith.

JONES (Rhys), a anwyd yn Nhalygareg, plwyf Llanarth, Ceredigion, Hyd. 8, 1797. Yr oedd ei rieni yn bobl gyfrifol, ac yn rhydddeiliaid, ond trwy i'w dad farw pan nad oedd efe ond ieuanc iawn, tynwyd ef o ysgol yr enwog Davies Castellhywel, pan oedd ar fedr estyn cwpan gwybodaeth glasurol at ei fin. Treuliodd weddill ei oes fel amaethwr, gan noddi, a chyfranu yn achlysurol tuag at lenyddiaeth ei wlad. Cymerodd ran mewn dadl ar faes yr hen *Seren Gomer*, ar y "Pechod Gwreiddiol," a "Bodoldeb y Diafol," ond gan fod ei syniadau yn sawrio yn gryf o anmheudeb, rhoddodd y golygydd derfyn ar yr ymdrafod. Yr oedd yn awdwr llyfryn o'r enw "Crwth Dyffryn Clettwr," ac yn gerddor gwych—yn medru chwareu tri neu bedwar o offerynau cerdd. Bu farw Chwef. 19, 1844, a chladdwyd ef gerllaw capel yr Undodiad yn Mhantydefaid.—*Lleyn MSS.*

JONES (Richard), ydoedd fab i John Pugh, o Henllan, ger Dinbych, lle y ganwyd ef yn 1603. Derbyniwyd ef i goleg yr Iesu, Rhydychain, yn 1621, a chafodd ei raddio yn yr celfau yn y brifysgol hono. Yn 1655, cyhoeddodd yn Nghymraeg lyfryn cryno yn cynwys rhestr gyflawn o lyfrau a phenodau, tan y teitl, "Perl y Cymro, neu Gofiadur y Beibl." Y llyfr a flaenorid gan gymeradwyaeth oddiwrth un Thomas Howell. Efe a fu farw yn yr Iwerddon, ond ni wyddis y dyddiad.—Wood's *Athen. Oxon.*

JONES (Richard), a anwyd yn mhlwyf Llansannan, sir Ddinbych. Yr oedd yn wr o alluoedd, dysg, a duwioldeb; a bu am ysbaid yn feistr Ysgol Ramadegol Dinbych, o'r hwn le y trowyd ef allan gan Ddeddf y Cydffurfiad. Cynygiwyd iddo ordeiniad a dyrchafiad os cydffurfiai, ond gwrthododd. Agorodd ysgol breifat yn Henllan; ond poenid ef yno gan ei erlidwyr, hyd oni lwyddasant i'w ymlid o'r lle. Gallai gyfansoddi barddoniaeth yn Lladin, Seisnig, a Chymraeg. Bu farw yn Ninbych, Awst 15, 1673. Cyfieithodd amryw lyfrau i'r Gymraeg, yn mhlith eraill "Galwad i'r Anedifeiriol," ac "Yn awr neu byth," o waith Baxter; a "Chyfarwyddiadau i'r Cristion i rodio gyda Duw," o waith Gouge, yr hwn a gyhoeddwyd ar ol marwolaeth Mr. Jones.—*Calamy*, ii. 844.

JONES (Parch. Richard), o'r Wern, sir Feirionydd, un o weinidogion galluocaf y Trefnyddion Calfinaidd yn ystod yr haner canrif ddiweddaf. Ganwyd ef yn Coed Cae Du, ger Brynengan, sir Gaernarfon, yn 1773. Yr oedd ei rieni, John a Margaret Pritchard, yn trin un o ffermydd mwyaf y wlad hono, ac efe oedd eu hunig fab. Nid oedd odid ysgol gwerth myned iddi yn y parthau hyny pan oedd R. Jones yn blentyn; a danfonwyd ef o ganlyniad i Gaernarfon, o tan addysg y Parch. Evan Richardson, lle y daeth i gydnabyddiaeth â chynseiliau y

Digitized by Google

Seisnig, y Lladin, a'r Groeg. Yna, dychwelodd adref i drin y ddaear gyda'i dad; gan wrthod caredigrwydd boneddwr a gynygiai ei ddwyn i fynu yn uch-gyfreithiwr *(barrister)*. Yn fuan, ymunodd fel aelod gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Mynengan, er na roddodd yr hen frodyr yno ond derbyniad digon oeraidd iddo, a hyny oherwydd ei fod yn lleneyn darllengar, myfyrgar, hoff o farddoniaeth a phob gwybodaeth. Pa fodd bynag, daeth rhinweddau personol Richard Jones yn fwy i'r amlwg, a graddol ddiflanodd rhagfarn yr hen Gristionogion. Yn 1794, dechreuodd bregethu. Nid oedd yn meddu dawn llithrig gyda'r gwaith hwnw, a bu hyn drachefn yn enyn rhagfarn yn ei erbyn fel pregethwr am rai blynyddau, gan nad ystyrid ungwr yn yr oes hono o anfoniad dwyfol, os na byddai yn ymadroddwr llyfn, ac yn ganwr hwyliog. Ond bob yn dipyn gorfuwyd y gwrthwynebiad hwn hefyd; ac yn mlynyddau olaf ei oes, nid oedd neb yn Ngogledd Cymru yr hoffid yn fwy glywed ei gyhoeddiad. Byddai yn hoff iawn o ddefnyddio goruchwyliaeth Moses, ac yn enwedig y ddeddf seremoniol, i roddi goleuni ar bethau yr efengyl, a hyny yn ei flynyddoedd olaf gyda blas ac arddeliad anghyffredin. Un o'i bregethau mwyaf nodedig yn y ffordd hono oedd ar 2 Cor. iii. 7—9. Bu llawer o son am bregeth oedd ganddo y tro olaf y bu yn y Deheudir ar 1 Ioan v. 20; "Efe a roes i ni feddwl." Pregethodd hi yn Nghymanfa y De gydag arddeliad anarferol. Pan gyda Dafydd yn myned yn erbyn y cawr, fel enghraifft o un wedi cael meddwl newydd, manylai gydag ef nes oedd y gynulleidfa yn llawn teimlad. Yr oedd un o weinidogion oedranus yr Annibynwyr yn mysg y gwrandawyr, yr hwn a ai yn mlaen yn ei feddwl gyda y darluniad yn gynt na Mr. Jones, ac a waeddodd allan "Dacw hi i'w dalcen!" nes oedd y gynulleidfa wedi ei thrywanu. Yr oedd Mr. Jones yn fyfyriwr diwyd ar hyd ei oes. Yn ei flynyddoedd olaf, gydag anhawsder y ceid ef o'i lyfrgell hyd yn oed i gymeryd ychydig o ymarferiad. Er ei fod yn nodedig o siriol a chymdeithasgar yn ei deulu, ni chymerai ond ychydig o amser at ymddyddanion teuluaidd, ond tra yn bwyta. Fel llenor, ysgrifenodd lawer i'r cyhoeddiadau misol perthynol i'w enwad ei hun o dan y cuddenw, "Cymro Gwyllt." Cyfranodd sylwadau meistrolgar ar y "Gwrthryfel Ffrengig," i'r *Seren Gomer;* a gwelir aml i ddernyn o'i waith ar ddalenau *Goleuad Cymru*, megis, "Rhybudd i Bregethwyr a Gwrandawyr Efengyl," "Sylwadau ar y Mammon Anghyfiawn," ac "Offrymu wrth Gladdu;" ac ar "Allu ac Anallu Dyn," i'r *Drysorfa* am 1825. Cyfansoddodd ddau *Holwyddoreg*, er ychwanegu gwybodaeth ieuenctyd yn mhrif athrawiaethau crefydd; y cyntaf i rai yn dechreu dysgu darllen, a'r llall i ddosparth uwch. Casglodd a chyhoeddodd *Lyfr Hymnau*, ond nid ymddengys ddarfod iddo gael derbyniad helaeth. Yr oedd efe yn awdwr amrai emynau ei hun, ac y mae rhai ohonynt yn aros mewn bri hyd y dydd hwn, megis "Tyr'd, Ysprydd Glân, i'n c'lonau ni," &c.; ac fel yr awgrymasom, yr oedd yn awdwr cryf yn y gynganedd gaeth. Ond ei waith penaf yw "Drych y Dadleuwr," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1829, ac yn yr hwn y cerydda yn llym dduwinyddion Cymru am gyndynddadleu, ac arddengys lawer o allu wrth egluro ac esbonio gwahanol bynciau eu dadleuon. Yr oedd wedi ysgrifenu "Eglurhad ar y Beibl," hyd ganol y Salmau, yr hwn a gyhoeddwyd ar Bum' Llyfr Moses; a bu farw gan adael hefyd ar ei haner lyfr gwerthfawr ar "Gyfryngdod Crist." Bu farw yn y Wern, Llanfrothen, Meirion, Chwef. 26, 1833; yn 60 oed. Ysgrifenwyd dau goffadwriaeth a marwnad am dano, gan John Jones, Penyparc; y Parch.

Digitized by Google

J. Jones, Tremadog ; a'r Parch. Roger Edwards, Wyddgrug.

JONES (PARCH. RICHARD), gweinidog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn y Bala. Ganwyd ef mewn lle o'r enw Tafarnytrip, yn mhlwyf Ffestiniog, Meirion, Hydref 17, 1784. Yn haf, 1790, anfonodd Mr. Charles, o'r Bala, wr i gadw un o'i ysgolion rhad symudol Cymreig yn mhlwyf Maentwrog, lle yr addysgwyd R. Jones ar y cyntaf, a thrwy hyn a'r ychydig addysg Seisnig a gafodd yn ysgol genedlaethol Maentwrog, galluogwyd ef wedi tyfu i fynu i gymeryd gofal un o ysgolion Mr. Charles ei hun, yn Trerhiwaedog, ac yn y Parc, ger y Bala ; ac yn Trawsfynydd. Yn 1815, dechreuodd bregethu, a thraddododd ei bregeth gyntaf yn nghapel Cwmprysor. Neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn nghymdeithasfa y Bala, yn 1825. Yr oedd yn ddyn o synwyr, deall, a dawn naturiol, tu hwnt i'r cyffredin. Yr oedd ei arabedd yn ddiarebol. Cyhoeddwyd Hanes ei Fywyd, yr hwn a ysgrifenasid ganddo ef ei hun, gyda sylwadau ychwanegol arno, a sylwedd tair o'i bregethau, gan y Parch. Lewis Jones, Bala, yn 1841. Bu farw yn y Bala, Ebrill 17, 1840, yn 55 oed.—*Ei Gofiant.*

JONES (CADBEN RICHARD), neu Risiard ap Sion ; ac a elwid hefyd "Richard Sion Greulon." Gwr ydoedd o Wynedd neu Ogledd Cymru. Yr oedd yn filwr dan y frenhines Elizabeth. Pan oedd unwaith wedi dyfod adref i Gymru efe a gyfarfyddodd â bardd o'r oes hono o'r enw "Sion Tudur," wrth yr hwn y dywedodd, "Yr ydych yn canu moliant i hwn a'r llall, ac weithiau yn rhoi clod heb ei haeddu ; mi a ddymunwn glywed beth a fedrwch chwi ddywedyd am fy ngweithredoedd nerthol i, sy'n rhagori ar bawb o'm gwlad." Yna Sion Tudur, yr hwn oedd yntau yn wr lled ddigrifol a gyfansoddodd awdl foliant wawdlyd iddo, yn darlunio ei orchestion milwraidd creulon, yn mhob gwlad lle y buasai. Dywedir mai ar yr awdl hon y sylfaenodd Dr. Dafydd Llwyd, Deon Llanelwy, ei "Legend of Captain Jones," yr hon a gyhoeddwyd gyntaf yn Llundain yn 1656. Y mae yn amlwg fod yr awdl hon mewn golwg gan Rhys Jones o'r Blaenau, pan gyfansoddodd "Awdl Deicyn yr Adarwr," argraffedig yn y "Dewisol Ganiadau."—*Lleyn MSS.*

JONES (RICHARD ROBERT), neu *Dic Aberdaron*, ydoedd fab i Robert Jones, neu Robert Sion Edward, tyddynwr bychan a saer coed. Ganwyd Richard mewn tŷ bychan o'r enw Cae'r Eos, yn mhlwyf anghysbell Aberdaron, sir Gaernarfon, yn Gorph. 1780. Yr oedd gan ei rieni dri o feibion, yr hynaf, John, yn yr hwn yr oedd tuedd gref at brydyddu, cyfansoddodd gryn lawer, os na chyhoeddodd hefyd beth o'i waith, oll ar destynau crefyddol ; ac yr oedd o ran ei broffes yn Fedyddiwr. Dangosodd Richard dueddfryd cryf pan yn ieuanc i ymwneud â llyfrau. Er na chafodd ddim ysgol reolaidd erioed, dysgodd Ladin pan yn 15 oed, trwy gymorth bachgenyn a fedrai ychydig. Pan yn 19 oed, dysgodd y Groeg, trwy gael gramadeg o'r iaith hono ; a'r Hebraeg pan yn 20 oed, trwy gael talfyriad o Ramadeg Buxtorf. Daeth yn hoffach o'r Hebraeg nag unrhyw iaith arall, yr hyn, yn nghydai farf hirllaes, a barai iddo gael ei alw yn "*Welsh Jew.*" Nid oedd yn bosibl ei gael i ymaflyd mewn gorchwyl, dim ond llyfrau a lyncai ei holl feddylfryd ; ac oblegid fod ei dad ac eraill yn ymddwyn yn groes a chas tuag ato, am eu bod hwy yn gorfod gweithio yn galed i'w gadw ef heb wneud dim, efe a ymadawodd, ac a aeth fel crwydryn tua Chaernarfon ; a bu orfod arno werthu rhai o'i hoff lyfrau i gael cynaliaeth ar y daith hon. Yn Mangor, gwnaed sylw o hono gan yr Esgob Cleaver. Cafodd hefyd ei

Digitized by Google

groesawu gan y Parch. John Williams, Treffos, Mon, lle y bu yn dysgu Groeg. Wedi aros yno tua haner blwyddyn yn nhrigfa lettygar Mr. Williams, efe a ymadawodd yn sydyn ddirybudd, oherwydd, meddai ef, rhyw ddrwg driniaeth a gai gan y gweision, ac a ddaeth drosodd i Liverpool. Yno y gwnaed sylw mawr o hono gan Mr. Roscoe, yr arianydd llengarol, a chymerwyd lle iddo lettya ar draul y boneddwr hwnw ac eraill, gan na ellid ei ddwyn i ddilyn unrhyw alwedigaeth, ac iddo ddilyn faint a fynai ar ei duedd ieithyddol. Fel yn mhob lle arall, blinodd yn fuan ar y lle hwn, a dangosodd ddymuniad i fyned i'w hen wlad. Anrhegodd ei gymwynaswr ef a £5 i'r daith; ac felly aeth adref, ac arian a llyfrau gwerthfawr ganddo. Y pryd hyn, darfu iddo ef a'i frawd John gyfieithu, "Comissiwn Crist i'w Apostolion," gan Archibald McLean, i'r Gymraeg, yr hwn a gyhoeddwyd wedi hyny yn Nghaernarfon, o dan olygiad Mr. Edward Francis. Gan nad oedd memawr loches iddo gartref, wedi aros ychydig gyda'r Parch. Benjamin Jones, gweinidog yr Annibynwyr yn Mhwllheli, efe a gyfeiriodd eto tua Liverpool; ond gan fod anffawd masnachol wedi cwrdd â Mr. Roscoe, nid oedd yno yr un swcwr iddo yn awr â chynt; a bu yn galed arno, nes gorfod gwerthu ei lyfrau anwylaf, hyd yn nod ei Feibl Hebraeg, gyda Nodau. Yr oedd ei ofid mor fawr oblegid hyn, fel y penderfynodd fyned i Lundain i chwilio am un arall, yn nghyda chyfarwyddyd yn Syriaeg a Caldaeg. Yr oedd hyn yn 1807. Teithiai a phecyn bychan ar ei gefn, a ffon hir yn ei law, oddiamgylch yr hon yr oedd map o'r ffordd, ac ychydig weddill o'r llyfrau wedi eu gwthio i'w wahanol logellau. Er na lwyddodd yn ei wahanol amcanion, daeth i gydnabyddiaeth â Dr. Collyer, yr hwn a'i banrhegodd â Thestament Groeg. Gadawodd y Brifddinas yn siomedig, a phrysurodd tua Dover. Bu mor ffodus yno a chael peth gwaith, trwy i arolygwr Llongweithfa y Brenin wneud sylw ohono, a'i gymeryd i symud lludw yn y weithfa, am yr hyn y cai eu foreu-bryd, cist i gadw ei lyfrau, a 2s. 4c. yn y dydd. Yr oedd llong fawr Roegaidd yn Dover ar y pryd, a thrwy ymgydnabyddu â'r dwylaw, daeth i adnabyddiaeth â'r iaith Roeg ddiweddar. Gan ei fod yn nodedig o gynil yn ei fwyd a'i ddiod, a'i wisgiad, yr oedd y cyflog uchod yn ddigon i'w gynal, a thalu rhyw gymaint i Rabbi Nathan, y dysgawdwr Hebraeg enwog, am wersi ganddo yn yr iaith hono. Meddylir mai yr yspaid o dair blynedd a dreuliodd efe yn Dover oedd yr amser dedwyddaf arno yn ei holl fywyd. Yn 1810, gadawodd Dover am Lundain, pryd y darfu i'r Gymdeithas er taenu Cristionogaeth yn mhlith yr Iuddewon dalu rhyw sylw iddo. Ond caled yr aeth arno, nes gorfod gwerthu ei holl lyfrau, a rhaid ei bod yn galed iawn cyn y gwnelai efe hyny; ond trwy gyflwyno ei hunan i sylw Cymdeithas y Cymrodorion, cafodd ganddynt fodd i ddychwelyd i'w hen wlad. Yn Mangor, ar ei ffordd adref, daeth yn gydnabyddus â'r Parchn. R. Davies ac S. Price, y rhai a'i noddasant, ac a feddyliasant y gallesid gwneud argraffydd ohono. Ond nid oedd yn bosibl gwneud hyny, mwy nag unpeth arall ag ef, gan mor anghelfydd yr ymaflai yn mhobpeth, ac na byddai yn dawel na dedwydd ei feddwl mewn unrhyw sefyllfa a fyddai yn atalfa iddo ddilyn ei duedd. Tra yr oedd yno, efe a gopiodd i Mr. Davies yr holl eiriau Hebraeg o Eirlyfr Lladin Littleton, gydag amryw ddiwygiadau, yn ol Geirlyfr Hebraeg Sanctes Pagnonius. Aeth eto i Liverpool, lle y lluosogodd ei drallodion trwy lettya gyda Gwyddelod, lle ei ysbeiliwyd ef o Ramadeg Caldaeg P. Martin, ac amryw lyfrau gwerthfawr eraill. Tua'r un am-

Digitized by Google

ser y dechreuodd ysgrifenu gwreiddiau yr iaith Roeg, gan Caspar Seidelius, a'u troi o'r Roeg i'r Lladin a'r Seisnig; ond lladratawyd hwn hefyd oddiarno, pan oedd wedi cyrhaedd y llythyren *Chi*. Lladratawyd oddiarno hefyd y geiriau Hebraeg a gopiasai o Eirlyfr Lladin Littleton; ond gallodd ddyogelu y Beibl Hebraeg oedd ganddo, Gramadeg Arabaeg gan Erpenius, a Gramadeg Schrivelius. Gwystlodd wed'yn y ddau flaenaf am ychydig sylltau, a daeth trosodd i Gaernarfon. Wedi bod yn crwydro amryw flynyddau o fan i fan, cafodd ei gynal yn Magillt, sir Fflint, tros ddwy neu dair blynedd. Yno y dechreuodd ysgrifenu "Cydymaith yr Ysgolor," gan Alexander Rowley, yn Hebraeg, Groeg, a Saesneg; ond gan ei fod yn llettya mewn lle annghyfleus, nis gallodd fyned yn mhellach na'r llythyren *Nun*. Oblegyd yr annghyfleusdra crybwylledig, efe a droes i ymddifyru gyda rhyw gorn hwrdd, er mawr aflonyddwch i breswylwyr yr ardal, trwy ei fod yn gwneud nadau mor aflafar ag ef. Gan y gwelid fod ganddo rhyw chwaeth at gerddoriaeth, anhegwyd ef a *French Horn*, a dysgodd chwareu rhyw nifer o donau arno. Yr oedd yn hoffi alawon aflafar yr Iuddewon, a chanai Gân Moses yn yr Heberiaith, yn ol fel ei dysgodd gan y Rabbiniaid. Tua 1821, dechreuodd gyfansoddi Gramadeg Cymraeg, Groeg, a Hebraeg, a hwn ydoedd prif orchwyl ei oes; yr oedd yn awyddus iawn am iddo gael ei gyhoeddi, a darfu i rhyw wenieithwr addaw mynu ei weled trwy y wasg, a'i dwyllo am y copi, eithr ni chyflawnodd byth mo'i addewid. Tua'r pryd hwn, bu Dr. Parr, doethawr dysgedig yn Rhydychain, yn ei brofi, a chafodd foddlonrwydd mawr yn ei wyboedaeth ieithyddol, er ei fod yn hollol ddidaro yn nghylch y mater a drinid. Ond er y siomedigaeth grybwylledig, aeth yn mlaen gyda'r llafur ychwanegol o gyfansoddi Geirlyfr Groeg a Saesneg, cyfrol yn cynwys cynullion o ddyfyniadau Hebraeg, gyda geir-restr yn yr Hebraeg a'r Saesneg, a thraithawd byr ar Gerddoriaeth ac Aceniad yr Hebraeg. Bu hwn yn waith deng mlynedd iddo. Aeth i Eisteddfod Beaumaris, yn Awst, 1832, gan ddisgwyl cael cefnogaeth i ddwyn ei waith hwn trwy y wasg, ond cafodd ei siomi. Yn Liverpool eto, cymerwyd ei holl lyfrau a'i delynau oddiarno am ardreth ei lettywr. Tra bu y llyfrau o'i feddiant, yr oedd fel dyn wedi colli pob llywodraeth arno ei hun, ac fel arfer tan y cyfryw ardymherau, yn melldithio ac yn cablu yn mhob iaith, nes bod yn ddychryn i bawb o'i gwmpas. Cydmarai berchenog y tŷ i Achmed d'Acre, yr hwn a ystyrid fel rhyw anghenfil rheibus, hyd yn nod gan ddynion creulonaf y Dwyrain; ond trwy ei gymwynaswr, Mr. John Copner Williams, Dinbych, llwyddwyd i'w hadfer iddo heb eu dinystrio. At ei amrywiol hynodion eraill, yr oedd yn hoff anarferol o gathod, ac nis gallai oddef eu gweled yn cael cam. Arferai agos bob amser gadw cath ei hun, gan ei diwallu â bwyd cyn cymeryd dim ei hunan, ac ni chysgai yn dawel heb y gath yn ei gesail, a brithid ei lyfrau a'u lluniau. Hoffai y delyn—yr oedd ganddo weithiau ddwy; ei gorn hwrdd, lle y cadwai ei arian; a *telesaops* o'i wneuthuriad ef ei hun, o'r hwn yr oedd ganddo gryn feddwl. Am ei olygiadau crefyddol, nid oedd yn hawdd gwybod beth oeddynt, gan na roddai atebion i holiadau ar y pwnc ond ymddengys oddiwrth amryw ymadroddion yn ei gof-lyfrau, fod ganddo barch i Dduw, ac y credai ei fod ef ei hun yn greadur cyfrifol. Yr oedd yn nodedig am eirwiredd. Er y tybid mai hurt-ddyn ydoedd, yr oedd llawer o'i atebion yn ffraeth iawn ar brydiau. Yn 1843, yr oedd ei iechyd yn gwaelu yn fawr; ac yn wir, ni buasai fel o'r blaen ar ol trinfa greulon Gwyddelod Liverpool.

Digitized by Google

Hydref 10fed, daeth o Liverpool i Lanelwy, yn wael ei iechyd, pan y dangoswyd tiriondeb mawr tuag ato gan yr esgob a'r offeiriad lleol (mab yr hen Esgob Cleaver yr hwn a wnaeth y sylw cyntaf o'i dalentau, gan fod yn noddwr iddo), yn nghyda gweinidogion eraill yr Eglwys Sefydledig. Bu farw Rhagfyr 18, 1843, yn 65 oed. Talwyd traul ei gladdedigaeth gan amryw o foneddigion y gymydogaeth, a chodwyd gwyddfa ar ei fedd trwy danysgrifiad cyhoeddus yn mhen tua phumtheg mlynedd ar ol ei gladdu.—*Ei Gofiant.*

JONES (Richard), Llwyngwril, pregethwr hynod yn ei ddydd. Ganwyd ef yn nhyddyndy y Tŷ-du, plwyf Llwyngwril, Meirion, yn 1780. Ni bu erioed tan addysg rheolaidd, ond dysgodd ddarllen Cymraeg yn lled ganolig; ac am ysgrifenu a rhifyddu, ni wyddai ddim am danynt hyd ddiwedd ei oes. Rhoddwyd ef i ddysgu gwaith crydd; a dywedir mai crydd gwael echrydus ydoedd, a llawer gwell y medrai wneud pregeth nag esgid. Y rhan gryfaf o feddwl Richard Jones oedd ei gof, ac mewn un flordd y rhagorai yn fwyaf neilldnol gyda hwnw. Gallai ail adrodd pregeth o ben i ben, ac yr oedd yr Ysgrythyr gan mwyaf ar flaen ei dafod. Yr oedd ganddo synwyr cyffredin duwinyddol cryf, syched anniwyll am wybodaeth yn ei hoff gangen ef o fyfyrdod, ac yr ydoedd i raddau helaeth wedi meistroli athrawiaethau dyrys y Pum' Pwnc—hyny yw, medrai eu cysoni yn dra eglur, a'u hesbonio er adeiladaeth dynion eraill. Y pethau hyn a barodd ei godi i'r areithfa; a dianmheu iddo fod o fawr wasanaeth yn ei oes a'i genedlaeth fel apostol crwydrol yn Nghymru. Ni roddes un eglwys alwad arno i'w bugeilio; ac eto nid oedd odid i Barch. yn y wlad yn fwy adnabyddus nag ef yn yr eglwysi, neu y rhoddid derbyniad calonocach iddo. Yr oedd rhywbeth od yn ei holl ddynoliaeth, ac nid y lleiaf o'r rhai hyny oedd y bloesgni ar ei dafod—yn swnio yr *r* yn *dd*, a'r *s* yn *th*, bob amser wrth lefaru; yr oedd arno gymaint o ofn nos fel nad a'i allan yn y tywyllwch heb gydymaith; a byddai swn cornant fach yn tabyrddu y ceryg yn ychydig yn uwch nag arferol wrth lifeirio ar draws ei lwybr yn peri iddo ddolefain yn frawychus, "Mor ofnadwy yw y lle hwn i" a chwympasu milldiroedd yn hytrach na chroesi pontbren oedd wedi ei hadeiladu trosti er dyogelwch pobl gyffredin. Ychydig o'i weinidogaeth a fwynhai ei gymydogion gartref, canys nid cynt y dychwelai efe o un daith nag y darparai i gychwyn i un arall. Wedi pererinio fel hyn ar hyd a lled Cymru am yn agos i haner can' mlynedd, dychwelodd adref o'r diwedd i fyned a "rhodio llwybr yr hwn ni ddychwelai." Er cymaint oedd ei arswyd o aberoedd bychain ei wlad, wynebodd yr afon fawr yn ddigryn. Pan ofynodd ei chwaer iddo yn ei gystudd olaf, "Dic bach, leiciet ti fyw dipyn eto gyda ni?" "Dim o bwyth," ebai ef. "A fyddai yn well gen'ti farw?" "Wel y gwelo Fo'n dda," ebai yntau. Bu farw Chwefror 18, 1853, yn 73 oed; a hyderid gan y sawl a'u hadwaenid oreu ei fyned i wlad nad oes nos, a'r lle y tynir ymaith bob boesgni. Cyhoeddwyd cofiant dyddorol iawn am dano gan ei hen gydnabod, y Parch. E. Evans, Llangollen.

JONES (Richard), ydoedd frodor o Lanwnda, ger Caernarfon, ac a elwid *Gwyndaf Bryri.* Saer maen ydoedd wrth ei gelfyddyd; ac er ei fod mewn amgylchiadau isel, enillodd radd dda yn mhlith beirdd ei wlad. Yr oedd yn gyfaill mawr â Gutyn Peris, Dafydd Ddu, a'r to hwnw o feirdd Arfon. Cyhoeddodd lyfryn o farddoniaeth, tan y teitl, "Peroriaeth Awen." Yr oedd yn dra enwog fel awdwr carolau; ac

Digitized by Google

yn gynganeddwr rhwydd a medrus. Efe a enillodd y gadair yn Eisteddfod Caernarfon yn 1821. Gwobrwywyd ef hefyd ag ariandlws gan y Gwyneddigion mewn Eisteddfod a gynelid yn Llangefni yn 1816, am yr awdl oreu ar "Haeddedigaethol Goffadwriaeth am Hynafiaid y Cymry a ymdrechasant o blaid Rhyddid."

JONES (Parch. Richard), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Rhuthyn, ydoedd oleuni dyslaer iawn a ymddangosodd am yspaid byr yn ffurfafen y weinidogaeth Gymreig. Ganwyd ef Hydref 26, 1813, yn y Bala, lle yr oedd ei rieni, John a Jane Jones, ar y pryd yn trigianu, eithr symduasant wedi hyny i'r Wyddgrug. Gan eu bod yn bobl grefyddol, meithriniasant yr awyddfryd crefyddol cryf oedd ynddo yntau er yn blentyn. Rhwymwyd ef yn egwyddorwas o gyfrwywr yn y Bala, a phan yn laslanc ieuanc ymunodd â'r eglwys Annibynol o tan ofal y Parch. Michael Jones. Ymroddodd i lanw llythyren ei broffes trwy ymdrechion aiddgar o fewn cylch cartref, ac i drysori yn ei feddwl bob gwybodaeth ymarferol a buddiol. Tystiai ei feistr am dano, yn ystod ei arosiad o ddeng mlynedd gydag ef, ei fod yn nodedig am ei yspryd darllengar; ac y treuliai lawer noson, wrth oleu canwyll, i ddarllen y Beibl a llyfrau eraill. Yn 1830, pan yn 17 oed, llwyddodd i ffurfio "Cymdeithas Araithyddol yr Ieuenctyd ar Faterion Crefyddol," yn yr hon y daeth ei ragoriaethau ef fel llefarwr cyhoeddus i'r golwg, a chodwyd pump o'i haelodau, y naill ar ol y llall, i'r pwlpud. Anogwyd ef yn fuan i ddechreu pregethu, a bu ei yspryd mewn canlyniad mewn cyfyngder dirfawr, gan awydd o un tu, ac ofn ar y tu arall. Pa fodd bynag, yr oedd ei awydd i fod o rhyw les i'w gyd-ddyn yn gorddiwes pob rhwystr, ac wedi bod yn pregethu am beth amser, anogwyd ef i fyned i goleg y Drefnewydd, er mwyn enill ychydig ddysgeidiaeth. Gan nas gallai fforddio ond amser byr i fod yno, nid ymyrodd â'r ieithoedd clasurol, ond cyfyngodd ei amcan i ddysgu Saesneg, a phethau eraill gwasanaethgar i weinidog diymhongar gwledig eu gwybod. Treuliodd yno ddwy flynedd, ac yna derbyniodd alwad Eglwys Aberhosan, ger Machynlleth, lle yr urddwyd ef Ebrill 4, 1837. Coronwyd ei lafur yno â llwyddiant anarferol. Ond barnai rhai o'i gyfeillion y dylasai ei ddoniau dysglaer gael cylch eangach i dywynu ynddo; ac mewn cydymffurfiad â dymuniad y rhai hyn, ac ar alwad daer ac unfrydol eglwys fechan nychlyd Rhuthyn, symudodd yno yn 1839. Parodd ei ddyfodiad i'r lle, adnewyddiad i fywyd a nerth ar Annibyniaeth, ac yn yspaid byr ei weinidogaeth yno derbyniodd tros gant i gymundeb eglwysig, heblaw y nifer luosog a dderbyniwyd ganddo yn ngangen-eglwysi Craig Fechan a'r Pwll Glas; ac adeiladwyd capel hardd yn y lle blaenaf, ac adgyweiriwyd yr un oedd yn y lle olaf. Yr oedd ei bregethau bob amser yn wir ddefnyddiol; yn goleuo y deall, yn deffro y gydwybod, yn enill y serch, ac yn gafaelyd yn y galon. Cyrhaeddodd boblogrwydd mawr iawn mewn byr amser; ac y mae parch ir a gwyrdd i'w goffadwriaeth yn aros hyd heddyw yn mynwesau y sawl a'i clywsant. Bu farw yn nhŷ ei fam yn y Wyddgrug, Hyd. 26, 1841, yn 28 oed. Traddododd y Parch. W. Rees (o Ddinbych y pryd hyny) ei bregeth angladd, oddiar, "Efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo," &c. Cyhoeddwyd cofiant ohono gan y Parch. H. Pugh, Mostyn, yn nghydag ugain o'i bregethau, Dolgellau, 1843.—*Ei Gofiant.*

JONES (Parch. Samuel), D.D., ydoedd fab i Thomas Jones o Gefn y Gelli, plwyf Bettws, ger Penybont-ar-ogwy, Morganwg, lle y ganwyd ef Ionawr 14, 1735. Pan yr oedd tua dwy flwydd oed, ymfudodd ei

Digitized by Google

rieni i'r America. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn ngholeg Philadelphia, lle, yn 1762, y cyrhaeddodd ei B.A., ac wedi hyny ei M.A. Yn mhen talm o amser, graddiwyd ef yn D.D., gan goleg Ynys Rhode a Philadelphia. Yn 1763, ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwys y Bedyddwyr yn Penypec, lle y bu yn gweinidogaethu am dros haner can' mlynedd. Cyhoeddwyd o'i waith :—1, "Pregeth ar y Cyfamodau, a draddodwyd o flaen senedd Philadelphia." 2, "Traethawd ar Ddysgyblaeth." 3, "Casgliad o Hymnau." Bu farw Chwefror 7, 1814, yn 79 oed. Yr oedd ei galon yn curo yn gynes tuag at ei genedl bob amser, ac yr oedd ei dduwioldeb a'i ddysgeidiaeth yntau yn anrhydedd i'wlad ei ymdeithiad.—*Lleyn MSS.*

JONES (Parch. Samuel), A.C., Brynllywarch, yr enwocaf ar lawer ystyr o Annghydffurfwyr yr 17eg ganrif, a anwyd ger Castell y Waun, sir Ddinbych, yn 1628. Enw ei dad oedd John Roberts, yr hwn a symudodd yn fuan wedi genedigaeth Samuel i fyw yn Nghorwen. Wedi derbyn addysg dda, derbyniwyd ef i goleg *All Soul's*, Rhydychain, yn 1647; ac oddiyno symudwyd ef i Goleg yr Iesu, lle y derbyniwyd ef yn gymrawd ac athraw, a llanwodd y swydd olaf am gryn amser. Cafodd urddiad presbyteraidd i offeiriadaeth Taunton, yn Ngwlad yr Haf, a symudodd oddiyno i fywioliaeth Llangynwyd, ger Penybont, Morganwg; a throwyd ef allan o'r lle hwn gan Ddeddf yr Unffurfiad, yn 1662. Wedi ei ddyfodiad i Langynwyd, priododd Mary, merch Mr. Rees Powell, o'r Maesteg; cydfywasant yn heddychol am 25 mlynedd, bu iddynt 14 o blant, ac ar enedigaeth y 14eg y bu y fam farw. Cyfansoddodd y gweddw galarus feddargraff Seisnig hynod o effeithiol i'w choffadwriaeth, yr hwn sydd i'w weled ar gareg ei bedd yn mynwent Llangynwyd hyd y dydd heddyw, yn cael ei flaenori gan y geiriau :—"In Vita Mors, In Morte Vita." Priododd Mr. Jones eilwaith yn Awst, 1677, gyda Mrs Mary Dafydd, o Lanidan, Pontfaen; ond ni bu iddo blant o'r briodas hon. Brynllywarch ydoedd preswylfa Mr. Jones o'r pryd y priododd ei wraig gyntaf hyd ei farwolaeth; ac ymddengys mai rhan o etifeddiaeth ei thad hi ydoedd y lle. Dilys mai tymhor digon terfysglyd ar ei feddwl ydoedd hwnw o arwyddiad y gyfraith gan Siarl II. hyd Awst 24ain. Cawn ef yn fynych fel yn dymuno am nerth i gadw ei gydwybod yn bur. Un ochr i'r glorian, yr oedd urddas a dyrchafiad offeiriadol; yr ochr arall yr oedd tlodi, dirmyg, ac erlidigaeth; ond dyma ddywedai :—

"Cydwybod dda'r nod gan Dduw Ner—o chaf
A chyflawn foddlonder;
Ni rhaid golud diriaid gweler,
Iawn yw'r ymswyn unrhyw amser,
Duw i ddoeth yw'r cyfoeth, cofier,—
Ynddo rhodia'n ddewr ei hyder."

Dewisodd yntau gyfoeth y doeth, glynodd yn ei benderfyniad, daeth allan i dir Ymneilldduaeth gyda'r fintai ogoneddus hono o Ddwy Fil, y rhai a ddodasant argraff annileadwy ar un o ddalenau mwyaf cynhyrfus hanesyddiaeth fod y fath beth a chydwybod yn mynwes dyn. Dechreuodd bregethu yn fuan ar ol ei ymadawiad, mewn tŷ o'r enw Ty Mân, ger Maesteg. Ac wrth ganfod tuedd y bobl at Ymneilldduaeth, cymerodd dŷ at ei wasanaeth i bregethu ynddo yn Nghi deudy, yn y rhan ddeheuol o blwyf Llangynwyd. Mewn ychydig ar ol hyn, adeiladodd y capel Ymneilldduol cyntaf yn yr ardal hon, sef y City, yn y Bettws. Y mae yn y capel hwn yn awr yr eisteddle *(screen)*, a'r *date*

Digitized by Google

arni y daeth o Gildeudy. Ond mae y capel hwn, yn nghyda hen gapel Annibynol Penybont er's llawer blwyddyn yn meddiant yr Undodwyr, a'r achos Annibynol oedd yn y City yn Mrynmenyn. Cafodd Mr. Jones lawer o erledigaethau am bregethu Crist tu allan i furiau cyssegredig yr Eglwys. Un tro, eisteddai ar hen geubren ger llaw i'r tŷ, daeth dau ddyn tuag ato, gan ofyn ai Brynllywarch oedd y tŷ hwnw?" "Ie," attebai. "A yw Mr. Jones gartref?" "Fe fydd yn union, ewch i mewn." Aeth Mr. Jones i'r tŷ ar eu hol, a gofynodd beth oedd eu neges? Dywedasant mai dau swyddog yn dyfod i'w ddal am bregethu tu allan i'r Eglwys, a bod yn rhaid iddo fyned gyda hwynt o flaen yr ynad i'r Ewenny. Dangosodd Mr. Jones y parodrwydd mwyaf i fyned, ac i'r Ewenny yr aethant ger bron yr hen Dwrbil: Eisteddodd Mr. Jones yn ngegin y palas i aros presenoldeb yr ynad. Yn mhen tipyn, daeth ato, a phan welodd y carcharor yn eistedd, ffromodd yn arnthr, a dywedodd wrtho am godi ar ei draed, gan ofyn iddo, pwy roddodd iddo ganiatad i eistedd yn ei dŷ ef? Cododd yr hen ŵr parchedig ar ei draed, gan osod ei ddwylaw ar ei liniau, a dywedodd, "Wel, wel, fe saif y gliniau egwan hyn ryw fore pan fydd gliniau rhai yn methu eu cynal." "A wyddoch fod genyf awdurdod i'ch carcharu?" gofynai yr hen Dwrbil. "Nid heb ganiatad fy Nhad nefol," atebai Mr. Jones. Ar hyn, arwyddodd *warrant* i'w ddanfon i garchar Pontfaen (Cowbridge). Pan oedd yr hen wr wrth ei fodd (fel ei Flaenor gynt) yn cael ei arwain tua'r carchar, ar y Filltir Aur, dyna ddyn yn gyru hyd traed ceffyl ar ei ol, gan ddyweyd wrth y ddau swyddog i'w ollwng yn rhydd i fyned adref, fod yr ynad bron colli ei synwyrau yn ei barlwr! Ar hyn cafodd fyned at ei deulu y noson hono. Yr oedd Mr. Jones yn gyfarwydd iawn â'r ieithoedd Groeg, Lladin, &c., ac yn feistr yn y defodau dwyreiniol. Yr oedd ei ymddygiad mor synwyrgall fel yr enillai barch gyda'r gwael a'r gwych, y tlawd a'r cyfoethog. Cawn rai o deulu arglwydd Mansell, o Baias Margam (o ba rai y mae C. R. M. Talbot, A.S. wedi hanu), o dan ei ddysgeidiaeth yn ei athrofa yn Brynllywarch. Yma hefyd y bu Dr. Owen, wedi gadael Caerfyrddin, yn cwblhau ei ddysgeidiaeth, yr hwn a brofwyd yn un o ddysgawdwyr blaenaf y deyrnas wedi hyn. Hon oedd yr Athrofa Ymneillduol gyntaf yn Nghymru. Y mae caeau yn awr gyda'r tŷ hwn o'r enw Cae'r Deial, Cae'r To Pel, &c. Yr oedd Mr. Jones, gyda'i fod yn gyfarwydd yn ieithoedd a defodau estronol, hefyd felly â defodau ei wlad ei hun. Cyn ei farw, cawn ef yn gadeirfardd yn ngorsedd Morganwg. Yr oedd wedi uno â'r orsedd tua'r flwyddyn 1660, pan oedd Edward Dafydd, o Fargam, yn gadeirfardd. Yr oedd yn bresenol yn Eisteddfod fawr y Bewpyr, Bro Morganwg. Yma y gwnaed y mesuran a welir yn *Nghyfrinach y Beirdd.* Y mae llawer o'r penillion o waith Samuel Jones. Claddwyd dau fab iddo yr un dydd, pan wedi tyfu i faint ac oedran. Blwyddyn cyn ei farw, taenwyd chwedl ei fod wedi edifarhau am anghydffurfio, ond trowyd y chwedl yn ol drwy iddo ysgrifenu llythyr yn tystio i'r gwrthwyneb, na theimlodd y gradd lleiaf o edifeirwch wedi ymadael â'r Eglwys. Efe a fu farw Medi 10, 1697, yn 70 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Llangynwyd, lle y mae amryw eraill o enwogion Cymru yn huno eu hun hir.

JONES (THEOPHILUS). hanesydd Brycheiniog, a anwyd Hydref 18, 1758. Mab ydoedd i'r Parch. Hugh Jones yr hwn a fu yn ficer Llangammarch, a Llywel, Brycheiniog, yn olynol, ca yn brependcoleg eglwys,

Digitized by Google

Aberhonddu. Treuliodd ran fawr o fore ei oes gyda'i daid, Theophilus Evans, awdwr *Drych y Prif Oesoedd.* Cafodd y rhan fwyaf o'i addysg yn ngholeg-ysgol Aberhonddu. Gan fod ei rieni wedi penderfynu gwneud cyfreithiwr o hono, dodwyd ef yn nghofal boneddwr tragalluog yn yr alwedigaeth hono yn Aberhonddu; ac wedi derbyn y graddau angenrheidiol, gweithredodd fel cyfreithiwr am lawer o flynyddau yn y dref. Pan y daeth y swydd o gof-restrydd i archddeoniaeth Brycheiniog yn wag, dewisiwyd ef iddi, a llanwodd hi hyd ei farwolaeth. Rhoddai hyn fantais iddo gynull llawer o wybodaeth mewn cysylltiad a hanesiaeth blwyfol y sir. Yn fuan wedi dechreu cyfansoddi ei "History of Breconshire," canfu fod yr alwedigaeth gyfreithiol yn lluddias iddo ddilyn ei ymchwiliadau hanesyddol, ac o ganlyniad, rhoddes y broffeswriaeth hono heibio. Yr oedd bellach yn rhydd i ddilyn amcan mawr ei uchelgais, ac ni arbedodd na thraul na thrafferth er ei gyrhaedd. Teithiodd i bob parth o'r sir er mwyn enill gwybodaeth bersonol, gan ymofyn yn fanwl i anianyddiaeth a hynafiaeth pob plwyf a mangre. Ffrwyth toreithiog y llafur hwn ydyw y llyfr galluog a gyfansoddodd ar hanes Brycheiniog. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o'r cyfryw yn Aberhonddu, yn 1805; a'r ail yn 1809. Dyma yr oll o'i weithiau llenyddol, gyda'r eithriad o ddwy ohebiaeth i gylchgrawn, a dau lythyr i'r *Cambrian Register.* Bwriadai ysgrifenu hanes sir Faesyfed hefyd, ond lluddiwyd ef gan afiechyd. Ei ymgais lenyddol olaf ydoedd cyfieithu "Gweledigaethau y Bardd Cwsg," i'r Seisnig. Bu arw Ionawr 15, 1812, a chladdwyd ef yn eglwys Llangammarch.—Wms. *Em. Welsh.*

JONES (Parch. Thomas), ydoedd frodor o Gaerfyrddin, a bu am agos i haner can' mlynedd yn weinidog yn mhlith yr Annibynwyr yn Lloegr. Efe a gyhoeddodd gyfrol o'r enw, "Mediation of Christ," yr hwn a aeth trwy ddau o argraffiadau. Gadawodd yn ei ewyllys y symaiu canlynol, a arbedodd oddiwrth werthiad ei lyfr:—I Gymdeithas Genadol Llundain, £100: i Mrs. Thorp, Caerodor, £100; i'r Gymdeithas Efengylaidd Wyddelig, £19 19s.; i Gymdeithas y Bedyddwyr, £19 19s.; i Gymdeithas y Morafiaid, £19 19s.; i'r Gymdeithas Wesleyaidd, £19 19s.; i'r Gymdeithas Gartrefol, £19 19s.; i'r Parch. Mr. Sebree, £20. --*Lleyn MSS.*

JONES (Dr. Thomas P.), a anwyd yn sir Frycheiniog. Efe a ymfudodd i'r Unol Daleithiau; a bu am beth amser yn ben ar swyddfa *Patents* y wlad hono; ac yn olygydd newyddiadur *Franklin's Seminary.* —*Lleyn MSS.*

JONES (Thomas), arliwydd o gryn deilyngdod, ydoedd fab ieuengaf i foneddwr ag iddo etifeddiaeth ger Aberedwy, sir Faesyfed, a'r lle y ganwyd y gwrthddrych tan sylw. Cymerodd ewythr iddo ei ofal gan yr hwn yr addysgwyd ef ar gyfer yr offeiriadaeth, ac i'r perwyl hwnw, ymbresenolodd yn rheolaidd am ddwy flynedd yn ngoleg Iesu, Rhydychain. Ar derfyn yr amser hwnw, sef yn 1762, bu ei ewythr farw heb gwblhau ei fwriad ac yn ddiewyllys, yr hyn a barodd i Jones ieuanc ymadael â'r coleg cyn derbyn graddau. Symudodd i Lundain, a chan fod ganddo dueddiad cryf at arliwio, ymrwymodd a daeth yn ddysgybl rheolaidd i'w gydwladwr enwog Richard Wilson, gan yr hwn yr oedd yn anwylyd neillduol. Wedi tynu amryw ddarluniau, y rhai a dderbyniwyd yn galonog gan y cyhoedd, yn 1776, efe a aeth i Rufain, ac oddiyno i Naples, lle yr ymarferodd ei dalent er llwyddiant mawr, ac y gadawodd o'i ol amryw esiamplau anrhydeddus o'i alluoedd. Aros-

Digitized by Google

odd yn Naples yn llawer hwy nag y bwriadai ar y cyntaf, trwy iddo gwrdd yno â boneddiges Germanaidd, yr hon a briododd. Ar ei ddychweliad i Loegr, ail ymaflodd yn ei bin arliwio, ac arddangosodd yn y *Royal Academy* ddau ddarlun o'r Campi Phlegræi, y rhai a gawsant ganmoliaeth mawr. Arosodd yn Llundain tros ychydig amser, a noddid ef yn ehelaeth yn ei gelfyddyd, ac y mae amrai o'i weithiau yn wasgaredig yn mhlith casgliadau lluosog y Brifddinas. Ar farwolaeth ei frawd hynaf, daeth i feddiant ar yr etifeddiaeth deuluaidd; symudodd yno i fyw, ac yno y bu farw Mai, 1803.—Malkin's *South Wales.*

JONES (Thomas), ydoedd fab i Edward Jones, o Nanteos, yn sir Aberteifi, lle y ganwyd ef yn 1618. Cafodd ei addysg yn ngoleg Merton, Rhydychain, o'r hwn goleg y gwnaed ef yn gymrawd profianol pan yn ugain oed. Yn 1637, ac efe ar y pryd yn A.C. er's rhai blynyddau, aeth i ymdaith yn Ffrainc a'r Idal, gyda George, mab ac etifedd Syr Nathan Brent; ond dychwelodd yn aflwyddianus gyda golwg ar ei ymddiriedaeth, ac ymostyngodd i awdurdod ymwelwyr y Senedd yn Awst, 1649. Ar ol hyn, ymroddodd i efrydu y gyfraith wladol, ac yn 1659, graddiwyd ef yn D.C.L. Y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd ei "Oratio habita Auditorio juridico," &c., a chyda hwy ddau draithawd eraill. Profa y gweithiau hyn ei fod yn Hebrewr a Groegwr rhagorol. Ymsefydlodd yn Llundain, a dilynodd ei alwedigaeth yn Ddoctor's Commons. Bu farw o'r pla yn 1665.—Wood's *Athen. Oxon.*

JONES (Syr Thomas), offeiriad Llanfair Dyffryn Clwyd, yn ol Moses Williams. Yr oedd yn fardd gwych, ac yn ei flodau rhwng 1580 a 1620. Y mae ychydig o'i waith ar gael mewn ysgriflyfrau. Dywed y *Cambrian Biography,* mai offeiriad Llanfair, sir Fynwy, ydoedd; a'i fod yn bresenol yn ngorsedd y beirdd a gynaliwyd yn Llandaf, yn 1588.

JONES (Thomas), darlithydd enwog yn ngholeg y Drindod, Caergrawnt, a anwyd yn Berrhiw, sir Drefaldwyn, yn 1756. Yr oedd ei addysg, hyd onid oedd yn ddeuddeg oed, yn gyfyngedig i'r hyn a allai dderbyn yn mhentref gwledig Berrhiw, ac yn mhlwyf cyfnesol Ceri. Yna dodwyd ef mewn ysgol ramadegol yn Amwythig, lle yr arosodd am saith mlynedd, ac y dadblygodd y talentau hyny a'i henwogodd yn y dyfodol mor fawr. Derbyniwyd ef i goleg St. Ioan, Caergrawnt, yn 1774, a chymerodd y radd o B.A. yn 1779. Yr oedd ei ragoriaeth y pryd hwnw mor uchel, fel nad anturiai neb dynu y dorch ag ef; a rhoddwyd arno yr anrhydedd o *senior wrangler* cyn dechreu yr arholiad. Rhaid fod ei enwogrwydd fel ysgolor y pryd hwn yn uchel gan iddo gael ei benodi yn athraw i'r *second wrangler,* y dysgedig Herbert Marsh, diweddar esgob Peterborough, yr hwn a gydnebydd ei ddiolchgarwch, mewn cofiant serchlawn a ddanfonodd o'i gyn-athraw i'r *Encyclopedia Londinensis.* Yn 1781, etholwyd ef yn gymrawd o goleg y Drindod; ac yn 1787, penodwyd ef yn ben-athraw, yr hon swydd a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Yn 1786 a 1787, eisteddodd fel llywydd yn yr ysgolion athronyddol, lle yr enillodd trwy ei fanylrwydd a'i anmhleidgarwch barch cyffredinol. Cymerodd ran flaenllaw am lawer o flynyddau yn arholiadau y gynghorfa; eithr tua'r diwedd, ymgyfyngodd at ddyledswyddau athraw yn unig. Cyflawnodd y rhai hyn gan arddangos galluoedd anghyffredin, a chyda chywirdeb dihefelydd. Gan ei fod yn gwbl feistr ar ei destynau, ymgynullai lluaws i wrando ei ddarlithiau, canys gallai daflu bywyd i esgyrn sychaf dysgeidiaeth. Ceisiwyd amryw o weithiau ganddo gyhoeddi ei areithiau, eithr ni chydsyniai mewn un

Digitized by Google

modd; ac un o'i ddymuniadau olaf ydoedd nad argreffid dim o'i ysgrifau. Yr unig waith a gyhoeddodd erioed ydoedd pregeth ar ornestu *(duelling)*, ac anerchiad i wirfoddolion sir Drefaldwyn. Bu farw Mehefin 18, 1807.—*Wms. Em. Welsh.*

JONES (THOMAS), bardd a adwaenid wrth y ffugenw *Y Bardd Cloff*, a anwyd yn Llandysilio, sir Ddinbych, yn 1768. Damwain a ddaeth i'w gyfarfod pan yn blentyn a barodd iddo ymgyfenwi yn Fardd Cloff. Pan yn ddeuddeg oed, aeth i Lundain, a chyflogwyd ef fel ysgrifenydd yn maelfa Mr. Mathew Davies, Longacre. Yr oedd er yn ieuanc yn cael pleser mawr wrth ddarllen barddoniaeth, ac o radd i radd daeth yn fardd o gryn deilyngdod ei hun. Yn 1789, etholwyd ef yn aelod o'r Gwyneddigion, ac yn fuan gwnaed ef yn ysgrifenydd y gymdeithas hono, pan y mynychid ei chyfarfodydd yn rheolaidd gan Owain Myfyr, Dr. Owen Pugh, ac enwogion Cymreig eraill. Yn 1802, cyfansoddodd awdl ar "Ddydd Gwyl Ddewi;" a'r flwyddyn ganlynol, gwnaeth Mr. Davies ef yn ben trefnwr ei fasnach ehelaeth, ac yn 1813 yn gydgyfranog ynddi. Yn 1820, ffurfiwyd y *Metropolitan Cambrian Institution*, ar ludw Cymdeithas y Cymrodorion, yr hon a sylfaenesid yn 1750; etholwyd ef yn drysorydd iddi, ac enillodd y tlwys aur am yr anerchiad barddonol goreu ar yr achlysur. Yn 1821, yr oedd yn llywydd y Gwyneddigion am y drydedd waith; ac yn ei chiniaw jubili, anrhegwyd ef â thlws arian y gymdeithas, er coffhad am yr achlysur. Enillodd hefyd lawer o wobrau yn yr amrywiol Eisteddfodau a gynelid yn Nghymru. Wedi preswylio am yspaid 45 mlynedd yn Rhif 90, Longacre, dygwyd ei fywyd mawrfrydig a haelionus i derfyniad Chwefror 18, 1828. Rhoddodd y Cymrodorion wobr am y farwnad oreu am dano, yr hon a enillwyd gan Bardd Nantglyn.

JONES (PARCH. THOMAS), Dinbych. Ganwyd ef yn y Penuchaf, ger Caerwys, sir Flint, yn Chwef. 1756. Amaetha yr oedd ei rieni, y rhai oeddynt yn byw ar eu tir eu hunain. Amlygodd yn ieuanc iawn alluoedd cryfion at ddysgu; ac yn ngwyneb hyn, bwriadai ei dad a'i fam ei ddwyn i fynu yn offeiriad. Pan oedd tua saith oed, bu farw ei fam, ac nid hir y bu ei dad heb briodi eilwaith. Yr oedd tuedd yn ei lysfam i fynychu capel y Trefnyddion Calfinaidd; ac ar achlysur neu ddau, aeth yntau gyda hi, nes o radd i radd yr ymserchodd yn y bobl hyn, gan lynu wrthynt trwy bob rhwystrau. Bu am rai blynyddau mewn ysgol yn Nhreffynon, â'r hon yr ymadawodd yn niwedd 1771, ac wedi dyfod yn lled gyfarwydd yn yr ieithoedd Saesneg, Lladin, a Groeg. Bu am yspaid maith gartref gyda'i dad yn amaethu; a'i feddwl a'i galon yn ddigon ansefydlog; bu golud yr Aipht, a thaledigaeth y gwobrwy, yn mantol ei feddwl ieuanc am gryn amser; ond y diweddaf a orbwysodd o ddigon. Bwriodd ei goelbren i blith yr enwad dirmygus ac isel y pryd hwnw, y Methodistiaid. Gwelwyd fod ynddo ddefnydd dyn cyhoeddus gwerthfawr, ac nid hir y bu ei gydgrefyddwyr'cyn ei anog i ddechreu pregethu, yn 1783, a chydnebydd yntau fod ynddo duedd gref at y gwaith. Tua'r amser hwn, goddiweddwyd ef gan afiechyd poenus dolur y gareg, a dyoddefodd ei ddirdyniadau llymion yn awr ac eilwaith am weddill ei oes, Bu ddwywaith o tan gyllell y llawfeddyg, a thynwyd dwy gareg oddiwrtho; ac oherwydd sefyllfa dadfeiledig ei iechyd, yr oedd ei fywyd mewn dirfawr berygl bob tro. Yn Hydref, 1795, efe a briododd Miss E. Jones, o'r Wyddgrug, a symudodd yno i brerwylio. Ni bu y briodas hon ond o fyr barhad, gan i Mrs. Jones farw o'r darfodedigaeth yn Nhachwedd, 1797. Trwy lawer o annghyfleus-

Digitized by Google

derau afiechyd, efe a deithiodd lawer, ac a bregethodd yn galed, nes ei wneud yn aelod defnyddiol o'r weinidogaeth Gymreig. Yn 1804, efe a briododd ei ail wraig, Miss Maysmor, o Lanelidan; ac a symudodd i Ruthin i breswylio. Yr oedd wedi dechreu cyfieithu gwaith anmhrisiadwy Gurnal ar y "Cristion yn ei gyflawn arfogaeth," cyn hyn, a thri rhan ohono wedi ei gyhoeddi. Ond mae yn debyg fod y wasg logedig yn cyflawni ei gwaith yn annyben, ac yn Ruthin penderfynodd roddi offerynau argraffu i fynu o'i eiddo ei hun, a chyflogodd wr ieuanc o Sais fel argraffydd, yr hwn a ddaeth i lawr o Lundain, ac a ymenwogodd wedi hyny fel cyhoeddwr Cymreig, sef y diweddar Mr. Thomas Gee, o Ddinbych. Yn ystod yr amser y bu yn trigianu yn Ruthin, efe a gyhoeddodd ran o waith Gurnal, ac a fu hefyd yn gyfranog a Mr. Charles, o'r Bala, gyda chyhoeddi chwe' rhan o'r *Drysorfa*. Cyfarfyddodd eilwaith â chroes drom—bu ei ail wraig farw Awst 14, 1805; ac yn Hydref, 1806, efe a briododd ei drydedd gwraig, sef Miss M. Lloyd, o Lanrwst, yr hon a fu yn gydymaith caruadd iddo ar hyd ei oes, ac a'i goroesodd tros ugain mlynedd. Tua diwedd y ganrif ddiweddaf, a dechreu yr un bresenol, yr oedd y Trefnyddion Wesleyaidd wedi dechreu pregethu, ac yn amlhau yn Nghymru, ac wedi cyhoeddi rhai gweithiau oedd yn egluro ac yn amddiffyn Arminaeth. Anogwyd Mr. Jones gan amryw gyfeillion, ar y llaw arall, i ysgrifenu amddiffyniad i Galfiniaeth: yr hyn a wnaeth mewn traethodyn a gyhoeddwyd o dan y teitl, "Y Drych Athrawiaethol," ac addawai ysgrifenu yn helaethach ar yr un achos. Atebwyd ef gan y Parch. O. Davies; ac achlysurwyd dadl frwd, yn ystod yr hon y cyhoeddwyd amryw draethodau o bob tu; ac amlygodd y ddwy blaid ysbryd chwerw, ac arferasant ymadroddion llymion, pa rai wrth eu badolygu, yn ddiamheuol a barent i'w hawdwyr ofid dwys. Yn 1808, efe a gyhoeddodd o'i argrafiwasg ei hun, "Gatecism mwyaf Eglwys Lloegr." Yn Ebrill, 1809, efe a symudodd ei drigfod a'i fasnach i Ddinbych. Yn fuan ar ol hyn, dechreuodd ei waith mawr, sef "Hanes y Merthyron," yr hwn a orphenwyd ganddo yn Awst, 1813, ac a gyhoeddwyd yn ebrwydd wedi hyny. Bu y llyfr o fawr wasanaeth o'r pryd hwnw hyd yn awr i genedl y Cymry, trwy agor ei llygaid i ddrygedd a chreulonderau Pabyddiaeth. Yr oedd Mr. Jones yn un o'r wyth cyntaf a neilldwyd i gyflawn waith y weinidogaeth gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn y Gogledd, yn 1811. Yn wir, cyn i Gymanfa y Corph hwnw lwyr benderfynu ar eu cyflawn ymneilldnad oddiwrth Eglwys Lloegr, yr oedd efe wedi bedyddio rhai babanod, yn ngwyneb cwynion uchel a pharhaus ei gydgrefyddwyr am weinyddiad yr ordinhad hono yn eu plith eu hunain, yn hytrach na dwyn eu hepil at allor ddyeithr am fendith yr offeiriad. Yn 1812, yr oedd y wlad yn ferw drwyddi gan y pwnc seneddol o Rydd-freiniad y Pabyddion; a thra yr oedd ef wedi gwneud a allai trwy lyfr y *Merthyron* i wrthweithio y gwenwyn Pabyddol, pan y dodwyd ger ei fron y ddadl pa un a oedd deiliaid y cyfryw grefydd yn haeddu breiniau cyfredinol dyn, atebedd yn ddigon dibetrus yn yr ochr gadarnhaol; ymegniodd yn gannoladwy i ddwyn hyny oddiamgylch; a chan fod amryw o'i frodyr yn annghydweled ag ef ac yn ei gondemnio o'r herwydd, efe a gyhoeddodd bamphledyn yn egluro ac amddiffyn ei syniadau, yn yr hwn y sylwai mai nid trais a gorthrwm ydyw y moddion mwyaf effeithiol i ladd gau-grefydd. Yn 1814, cyhoeddodd lyfryn bychan o Hymnau; ond nid ymddengys i hwn gael derbyniad cyfredinol. Yn Hydref, yr un flwyddyn, bu farw ei gyfaill hoffus, Mr. Charles, o'r Bala. a phenodwyd arno ef i ysgrifenu

Digitized by Google

cofiant y gwr mawr hwnw, yr hwn a gyhoeddwyd yn nechreu 1816. Yn mis Mai y llwyddyn hono, oherwydd gwaelder iechyd, symudodd i drigianu yn Syrior, ger Bettws, Abergele, ond ychydig welliant a fwynhaodd trwy y symudiad; ac yn ngwyneb yr anhwylusdod o drigianu yn mhell oddiwrth yr argraffwasg, ni bu ei drigiant yno ond dwy flynedd. Yn Mai, 1817, gwahoddwyd Mr. Jones i Lundain i bregethu o flaen Cymdeithas Genadol Llundain, yr hon bregeth a argraphwyd gan y gymdeithas. Yr oedd efe yn bleidiwr gwresog i'r gymdeithas hon o'i dechreuad, er yn perthyn yn fwy arbenig i enwad arall, ac yn gyfranwr haelionus i'w thrysorfa, yn nghydag amryw gymdeithasau eraill, yn enwedig y Beiblau. Yn 1816, cyhoeddodd lyfr gwerthfawr arall ar dduwinyddiaeth, sef "Ymddyddanion ar Brynedigaeth." Erbyn hyn, yr oedd ei oes lafurus a gwir ddefnyddiol yn nesu tua'i therfyn, ac wedi dyoddef maith a blin gystudd yn dawel ac ymroddgar i ewyllys ei Arglwydd, efe a fu farw Mehefin 16, 1820. Claddwyd ef yn hen fynwent yr Eglwys Wen, ger Dinbych; a bernir nad oedd dim llai na thair mil o'i hen gyfeillion yn dilyn ei weddillion i dy ei hir gartref. Yr oedd Mr. Jones, ar lawer ystyr, yn un o ddynion blaenaf y Methodistiaid yn ei oes; yr oedd yn feddyliwr cryf, ac yn ysgrifenydd Cymraeg diledryw, fel y prawf ei amryfal weithiau. Yr oedd yn dra hyddysg mewn pedair o ieithoedd, sef y Gymraeg, y Saesneg, y Roeg, a'r Lladin; ac yr oedd ganddo grap da ar yr Hebraeg. Profir nerth a chyflymder ei feddwl yn y ffaith ddarfod iddo ddysgu gramadeg yr iaith olaf mewn pymthefnos o amser, a hyny pan oedd uwchlaw deugain oed. Fel meddyliwr gwladyddol a duwinyddol, diau ei fod yn mhell o flaen ei oes, a chyfarfyddodd â damwain gyffredin y cyfryw, sef dyoddef llawer o erlidigaethau. Yr oedd hefyd yn fardd da, yn enwedig yn y mesurau caethion; cyfansoddodd awdl farwnad i Sior III. ar gyfer Eisteddfod Gwrecsam yn 1820, yr hon a argraffwyd gyda goreuon y gystadleuaeth hono. Yr oedd yn bregethwr llafurus a phoblogaidd. Tua diwedd ei oes gwisgai gap melfed yn yr areithfa, a chlywsom hen bobl yn dweyd mor dda fyddai ganddynt glywed cyhoeddiad "hen wr y cap du," a chymaint ymdrech wnai yntau, tan ei fynych wendid, i gyrhaedd calonau a chydwybodau ei wrandawyr. Byddai ei chwys a'i ddagrau yn gwlychu dalenau y Llyfr Sanctaidd o'i flaen, a'i ruddfanau tan arteithiau ei afiechyd dirboenus yn dryllio calonau y bobl. Pery ei goffadwriaeth yn wyrdd am oesau lawer, a thresglwyddir ei wersi buddiol o genedlaeth i genedlaeth.

JONES (THOMAS), o Dregaron, ydoedd fardd, hynafiaethydd, ac achydd galluog. Dywed traddodiad mai mab ordderch i Syr John Wynn, o Wydir, ger Llanrwst, ydoedd; o forwynig o'r enw Catherine, yr hyn a barodd i'r wlad ei lysenwi yn *Twm Sion Catti*. Dywed yr un awdurdod hefyd ddanfon o'i fam ymaith o Wydir er celu ei chywilydd, a geni Twm ar un o fynyddau Arfon; ac yn nhreigliad amser ddarfod iddo ymsefydlu fel lleidr penffordd, a chnaf direidus, yn Ngherediglon, a phriodolir iddo lawer o ystranciau cyffelyb i'r eiddo Dick Turpin a Robin Hood yn Lloegr. O'r diwedd, trwy un o'i gastiau cyfrwysgall, llwyddodd i briodi aeres gyfoethog, ger Tregaron; dygodd hyn ef i gyfoeth a moddion, rhoddes ei fywyd lladronllyd heibio, ac ymroddodd i lanw ei gylch fel gwladwr defnyddiol, ac aelod dichlynaidd o gymdeithas. Dyna y cymeriad a rydd traddodiad i Dwm Sion Catti, ac er ei fod yn rhyfedd, nid yw o'r herwydd yn anhygoel. Cyhoeddwyd llyfr rhamantus o'i hanes tua 1810, tan y teitl, "The Adventures and Vagaries

Digitized by Google

of Twm Sion Catti," yr hwn hefyd a gyfaddaswyd at esgynlawr y chwareudy. Tybir ei fod yn blodeuo rhwng 1590 a 1600. Cyflwynodd lawer o'i amser i adysgrifio hen ysgriflyfrau prinion Cymreig. Efe a arbedodd rhag difancoll y chwech ugain a chwech Trioedd Ynys Prydain, sydd yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*, y rhai a gasglodd o lyfr Caradog o Nantgarfan, ac o waith Ieuan Brechfa. Fel achwr, digon yw tystiolaeth Dr. John Dafydd Rhys, ei gydoeswr dysgedig, am dano:—"A phenaf a pherffeithiaf, a hyny yn ddiamheu, y bernir Tomas Sion, o Borth y Phynnon, yn ymyl Tref Garon. A phan ddarpho am dano, ef a fydd ddigon petrus y ddamwain allu o hono yr hawc adu yn ei ol un cymhar iddo: na chwaith neb ryw achwr a ddichon, o ran bod mor gyphredin ag ef ynn yr wybodaeth honn, wneuthur cymaint a phwyso parth ac ato." Yr oedd yn ynad heddwch tros sir Frycheiniog, a bu yn preswylio am beth amser yn nhref Aberhonddu.

JONES (Parch. Thomas), a anwyd yn Ngroesoswallt, a mab ydoedd i John Williams. Dechreuwyd ei addysgiaeth yn ei dref enedigol, ac yna cafodd ei dderbyn i Goleg yr Iesu ar doriad allan y gwrthryfel yn erbyn Siarl I., eithr gadawodd y lle yn fuan, gan ddychwelyd i Rydychain, pan gymerwyd y dref gan wyr y Senedd. Yr oedd yn werinwr penboeth, a dewiswyd ef yn gymrawd o'r Brifysgol gan ymwelwyr y Senedd, yn 1646. Y flwyddyn ganlynol, graddiwyd ef yn M.A.; ac yn 1652, ysgrifenodd fywgraffiad Lladin o Edward Simson, i ragflaenu argraffiad newydd o "Chronicon Catholicum," o waith y gwr hwnw; ac yn 1654, cafodd ei urddo, meddir, gan esgob. Yn 1655, cafodd rectoriaeth Castellcaereinion, sir Drefaldwyn, ac ymberffeithodd yn yr iaith Gymraeg, er gallu gweinyddu yn gyfaddas yn y parthau hyny pan y trowyd y clerigwyr breninol allan. Cyn hir, collodd y fywiolaeth hono, trwy i Rhys Wynne, ei flaenorydd yn y swydd, ddarganfod ei hawlysgrif i'r lle. Bu wedi hyny yn ngwasanaeth arglwydd lywydd a chyngor cyffiniau Cymru, yn nghastell Ludlow, yn 1661; a thrachefn yn gaplan teuluol a morwrol i James, dug Yorc, yn 1663, a pharhaodd yn y sefyllfa hono hyd 1666, pan y diswyddwyd ef ar gais Dr. Morley, esgob Winchester, oblegyd rhyw eiriau diraddiol a lefarasai yn erbyn person a swydd ei arglwyddiaeth. Ar hyny, efe a ymneillduodd i'w rectoriaeth yn Llandyrnog, yn esgobaeth Bangor, lle y daeth yn annghariadus gan ei uwchafiaid eglwysig. Yn 1670, daeth esgob Morley a chynghaws cyfreithiol yn ei erbyn yn llys y frenhinfainc am ddywedyd ei fod yn noddi Pabyddiaeth, yr hyn a brofwyd trwy lw gan esgob Bangor, a dau o'i gaplaniaid. Dirwywyd ef i £300. Tua'r un amser, diswyddwyd ef gan esgob Bangor, oherwydd dadl a ffynai rhynddynt; a bu hyn mewn ystyr yn ddinystr i'w amgylchiadau. Ychydig cyn y frad Babaidd, cyhoeddodd lyfr, "Of the Heart, and its right sovereign, and Rome no mother-church to England." Cyhoeddodd hefyd yn 1682, "Elymas the sorcerer; or a memorial towards the discovery of the bottom of this Popish Plot," yr hwn a greodd gryn gynhwrf ar y pryd, a buasai yr awdwr wedi ei gosbi drachefn oni buasai iddo ddianc o afael erlynwyr a chyfraith trwy farwolaeth, yn y flwyddyn hono.—Wood's *Athen. Oxon;* Brown Willis, i. 265.

JONES (Parch. Thomas), o Creaton. Ganwyd ef mewn ffermdy bychan, gerllaw yr Hafod, sir Aberteifi, Ebrill 2, 1752. Cymro diledryw oedd ei dad, yn trin ei dir ei hun; a merch i un Hugh Bonnor oedd ei fam, yr hwn a ddaethai i Nanteos o Cumberland, fel goruchwyliwr i deulu y Powelliaid. Pan yn 13 oed, danfonwyd ef i Ystrad-

Digitized by Google

meurig, at yr athraw rhagorol hwnw Edward Richards ; ac yn fuan ar ol hyn, cafodd y fraint fythgofiadwy iddo ef o glywed Rowlands, Llangeitho, yn pregethu mewn lle o'r enw Pontrhydfendigaid. Gadawodd geiriau hyawdl seraph tanllyd Cymru yn y 18fed ganrif argraff annileadwy a bendithiol ar galon yr ysgolor ieuanc. Wedi treulio yr ysgaid arferedig yn Ystradmeurig, urddwyd ef yn Henffordd, yn mis Medi, 1774 ; a chafodd guradiaeth Eglwys Fach a Llangynfelyn, rhwng Aberystwyth a Machynlleth. Cyfarfu ag ychydig wrthwynebiad parth ei urddiad. Hedd-ynad, o'r enw Paynters, a fuasai yn cyfreithio gyda thad Mr. Jones, ac oblegyd iddo golli y cynghaws a benderfynai fynu dial mewn rhyw ffordd neu gilydd. Efe a ysgrifenodd at Esgob Tyddewi, gan ddwyn cyhuddiadau anhysbys yn erbyn yr ymgeisydd ieuanc ; ond yr Esgob, wedi gwneud pob ymchwiliad i'r achos, a gafodd allan nad oedd y rhithyn lleiaf o sail iddynt, ac a daer anogodd Mr. Jones i'w gosbi am athrod. Ni fynai yntau ar un cyfrif gydsynio ; ac y mae y fath ymddygiad yn anrhydedd i'w galon a'i gymeriad. Rhwng bodd ac anfodd yr ymgymerodd â'r urdd offeiriadol, gan nad ystyriai ei hun yn llestr cymhwys i'r swydd ; ymdeimlai yn rhy ddiffygiol mewn ysprydolwydd meddwl. Yr oedd maes ei guradiaeth gyntaf mewn sefyllfa foesol dra isel, ac ymladd ceiliogod a llawer o rialtwch cyffelyb yn brif ddifyrion y plwyfolion ; ond y Sabbath cyntaf ar ol iddo ef fyned i'w plith, efe a gymerth feddiant o'r pit o'u blaenau, gan ymryson â'r dyrfa, nes o'r diwedd y llwyddodd i'w llwyr atal yn eu hanfadwaith, ac ni bu o hyny allan byth ymladd ceiliogod yn y plwyfi hyny. Wedi treulio yno bum' mlynedd, symudodd yn 1779, i guradiaeth Llantwardine, yn sir Henffordd. Yr oedd ei blwyfolion yno yn anhraethol fwy paganaidd na'i gydwladwyr yn ardal Machynlleth. Ni bu ei arosiad yn eu plith ond tua blwyddyn a haner, gan iddo trwy efengyleiddrwydd ei athrawiaethau ddigio rhai o'r plwyfolion a'r ficer ; ac yn Rhag. 1780, efe a gymerodd guradiaeth Longnor, yn sir Amwythig. Yn Mehefin 1781, symudodd i Groesoswallt. Un rhan o'r bore Sabbath, pregethai yn Nghymraeg, ac yr oedd yn barchus annghyffredin gan ei gydwladwyr yn y lle. Yr oedd cryn lawer o offeiriaid y llanau gwledig cylchynol yn trigianu yn Nghroesoswallt, a chan nad oedd ganddynt ond gwasanaeth yn y bore yn unig yn eu heglwysi eu hunain, arferent fynychu eglwys y dref hono yn hwyr y dydd. Nid hir y bu Mr. Jones heb dramgwyddo rhai o'r gwyr hyn, trwy ei bregethiad egniol o'r gwirionedd, y rhai o'r diwedd a greuasant y fath ystorm yn ei erbyn fel y bu orfod arno symud oddiyno yn 1782, gan gymeryd curadiaeth Loppington, ger Wem, sir Amwythig. Tair blynedd y bu efe yn ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth, yn y lle hwnw, a'i weinidogaeth effro yn profi'n fendithiol i rai, tra yn enyn casineb dynion di-ddiw ; ac ar derfyn y tair blynedd, bu ei ficer farw, yr hyn a barodd iddo obeithio y cawsai y fywiolaeth ar ei ol, yn ol addewid a wnaethid iddo gan Arglwydd Thurlow, y noddwr ; ond fe'i siomwyd yn hyn, canys rhyw gyfreithiwr diras yn y plwyf a anogodd y wardeiniaid i gau drws yr eglwys yn ei erbyn, yr hyn a barodd iddo yntau, yn hytrach na chodi unrhyw gynhwrf, benderfynu symud oddiyno. Ac felly y bu ; ond cymaint oedd siomedigaeth nifer mawr o'r plwyfolion oblegyd ei ymadawiad, fel y penderfynodd dengain ohonynt lwyr ymadael â'r Llan, ac ymffurfio yn eglwys ymneilldiol ; ac y maent yn para felly hyd y dydd hwn. Agorodd Rhagluniaeth yn nesaf faes mawr o ddefnyddioldeb o'i flaen, sef curadiaeth plwyf Creaton, sir Northamp-

Digitized by Google

ton, yn mha un y bu yn llafurio am 47 o flynyddau (fel curad onid y pum' mlynedd diweddaf), yn yr hwn le yr ymsefydlodd yn 1785, ac y gorphenodd ei waith yno gyda gorpheniad y flwyddyn 1833. Fel pregethwr, yr oedd ei arddull yn syml, difrifol, a phrofiadol, gan gymeryd Rowlands Llangeitho fel ei esiampl. Sylfaen ei bregeth bob amser fyddai rhyw athrawiaeth bwysig, ac yna goruwchadeiladai o ddefnyddiau ei brofiad a'i wybodaeth bersonol. Ystyriai fod yn llawn mor anhebgorol dangos mawr-ddrwg pechod ag ydoedd dangos gogoniant sancteiddrwydd; ac yr oedd pechodau poblogaidd a ffasiynol yn nodau arbenig i saethau ei weinidogaeth. Ymsyniai ei fod yn was i Dduw, a thraddodai ei genadwri heb falio dim beth o ddywedai dyn am dano. Na thybier oddiwrth hyny mai dyn anfoneddigaidd ac afrywiog ydoedd —ni bu neb erioed ag iddo galon dynerach. Yr oedd angenoctyd yn agor holl gloiau ei galon a'i logell, ond ni chafwyd dim a barai iddo wyro oddiar lwybr ei ddyledswydd, ac annfuddhau i lais ei gydwybod. Ffurfiodd gyfeillgarwch gyda rhai o ddynion duwiolaf Cymru a Lloegr, a chadwodd hwnw yn ddifwlch. Y mae llawer o'i lythyrau atynt ar gael ac yn argraffedig, a'r oll yn anadlu yr ysbryd mwyaf efengylaidd. Yn mhlith y rhai hyn yr oedd Mr. Charles o'r Bala, ac y mae'r ohebiaeth hono yn cyrhaedd o 1785 hyd 1805. Sefydlodd amrai gymdeithasau dyngarol yn fuan wedi ei fynediad i Creaton, ac er nad oedd ei gyflog namyn £40 yn y flwyddyn am lawer o amser, eto efe a roddes o'i ychydig, ac a fu trwy hyny yn achlysur i eraill gyfranu. Parhaodd Mr. Jones i lanw dyledswyddau ei swydd bwysig, gan gadw dau wasanaeth bob Sabbath, hyd 1828, ac efe ar y pryd yn 76 oed, pan y daeth yn afiach iawn, ac y cyfyngwyd ar ei lafur. Yn 1829, gwnaed ef yn rector Creaton, ond ni ddaliodd hi onid pedair blynedd gan fod gwendid henaint wedi ei orddiwes, a thybiai mai ei ddyledswydd ydoedd ymneillduo i dreulio gweddill ei ddyddiau mewn tawelwch. Yn 1836, symudodd i Spratton i fyw. Mwynhaodd holl synwyrau ei gorph hyd 1841, ac yn wir yn ystod blynyddau ei ymneillduad yr ysgrifenodd rai o'i lyfrau goreu; ond y flwyddyn hono, dechreuodd ei olwg bylu, a myned waeth waeth, nes ei fod yn gwbl ddall am dair blynedd olaf ei oes. Yr oedd ei gystudd olaf, yn ol ei ddymuniad a'i weddiau taeraf, yn fyr. Cymerwyd ef yn glaf Ion. 3, 1845, a pharhaodd i wanychu hyd yr 8fed o'r un mis, pan y cymerodd ei yspryd tawel ei hedfa i'r trigfanau dedwydd. Claddwyd ef yn eglwys Spratton, sir Northampton, ar du dehau y gangell, a chyfodwyd cof-golofn ysplenydd o fynor gwyn ar ei fedd, gan ei gyfeillion. Heblaw ei gyfraniadau personol, yr oedd Mr. Jones, yn gefnogwr aiddgar amryw gymdeithasau dyngarol a Christionogol, megis y gymdeithas er cynorthwyo offeiriaid tlodion; y gymdeithas glerigawl ac addysgiadol; a'r Fibl Gymdeithas, a'r Gymdeithas Genadol; a chymerodd ran flaenllaw fel swyddog iddynt yn ei blwyf a'i gymydogaeth. Rhoddwn yn awr restr o'i lafur llenyddol:—Y rhai hyn yn Nghymraeg: 1, "Anrheg i'n Cymydog," o waith Syr Richard Hill, 1783. Cyflwynodd Mr. Jones argraffiad o dair mil o'r pamphledyn hwn i'w gyfaill Mr. Charles, i gael eu dosparthu yn Ngogledd Cymru. 2, "Gorphwysfa'r Saint," o waith Baxter." Argraffwyd tair mil ohono, gwerthid hwy am 2s. yr un, a rhoddid yr elw i'r *Welsh Charity Schools*. 3, "Pregethau o waith Romaine ar Ganiad Solomon." 4, "Dadleniad y Byd Cristionogol," o waith Berridge. 5, "Pregeth o waith Scott ar farwolaeth Mr. Thornton." 6, "Traithawd ar Fedydd Plant;" hwn oedd yr unig lyfr gwreiddiol Cymreig o

Digitized by Google

eiddo yr awdwr, ac achosodd ddadl ar y pwnc rhyngddo ef â'r Parch. Christmas Evans." 7, "Cyfaill Pechadur," yr hwn a gyfieithwyd yn 1834. Yr rhai canlynol ydynt ei lyfrau Seisnig: 1, "Immanuel, or Scripture views of Jesus Christ" 2, "Natural Gratitude," sef pregeth a draddodwyd yn eglwys plwyf Creaton ar y Jubili, 1809. 3, "Scripture Directory." Yr oedd y gwaith hwn yn ddwy gyfrol. Cyhoeddwyd y gyntaf ar yr Hen Destament yn y flwyddyn 1811, a'r ail ar y Testament Newydd yn 1813. 4, "The Welsh Looking Glass," 1812. Achlysurwyd y gwaith hwn gan ymadawiad y Trefnyddion Calfinaidd oddiwrth yr Eglwys Sefydledig. 5, "Jonah's Portrait," traddodwyd cynwysiad y llyfr hwn mewn cyfres o Ddarlithiau, yn 1810, ac a gyhoeddwyd ar ol hyny yn y *Christian Guardian* yn 1816 ac 1817. 6, "The fair Balance," mewn tair o ddarlithiau ar Brynedigaeth gyffredinol, Etholedigaeth dragwyddol, &c. 7, "Prodical Pilgrimage in fourteen stages," 1825. 8, "Family Prayers, designed chiefly for the use of pious cottagers," 1830. 9, "Twenty six Sermons on important subjects, by the Rev. M. Lloyd, Vicer of Ysgytty Evan, translated from the Welsh," 1839. 10, "The True Christian, or the way to have assurance of eternal Salvation," 1833. Yr oedd yr awdwr ar y pryd yn 82 mlwydd oed. 11, "Sober views of the Millenium," 1835. 12, "The Interpreter, a summary view of the Revelation of St. John," 1836. 13, "An Essay on the nature and design of Infant Baptism," 1837. 14, "The Christian Warrior wrestling with Sin, Satan, the World and the Flesh; by the late Rev. Isaac Ambrose, abridged, methodized, and improved," 1837. 15, "An Essay on the Idolatry of all nations," 1838. 16, "The Fountain of Life, or the Union between Christ and Believers," 1838. 17, "Faithful warning to Christian congregations againts the Oxford Heresy, by an aged Presbyter, of the Church of England," 1841. Ysgrifenwyd cyfrol o fywgraffiaid o Mr. Jones, Creation, gan y Parch. John Owen, Thrushington.

JONES (THOMAS LLOYD) *(Gwenffrwd)*. Ganwyd y bardd ieuanc athrylithgar hwn yn Nhreffynon, sir Fflint, yn y flwyddyn 1810. Gan mai pobl gyffredin oedd ei rieni, nid oedd ei fanteision addysgiadol ond y cyfryw a dderbynid mewn ysgolion gwlad y pryd hwnw; a phan yn lled ieuanc, danfonwyd ef i weithio yn ffactri gotwm y Meistri Douglas a'i Gyf., yn y Maesglas, ger Treffynon. Nid oedd ei gydnabod ef ar y pryd yn gallu canfod ynddo unrhyw ragoriaeth meddyliol ar ei gydieuenctyd, ond yn unig ei fod yn dechreu ymhoffi mewn llyfrau, a'i awydd am wybodaeth yn myned ar gynydd parhaus. Pan ymataliodd cwmni y ffactri, cafodd Gwenffrwd, yr hwn oedd ar y pryd tua 18 oed, le fel ysgrifenydd yn swyddfa Mr. Thomas Jones, cyfreithiwr, Treffynon, a pharhaodd yn y sefyllfa hono am rai blynyddau. Yn y cyfnod hwnw, efe a ffurfiodd iddo ei hun enw fel bardd ieuanc tra addawol, trwy enill gwobr Eisteddfod Newmarket am y bryddest-gân oreu ar "Longddrylliad," ac ymddangosai aml i gyfansoddiad tlws o'i eiddo yn ngwahanol gylchgronau y dydd. Tua diwedd 1830, symudodd i Ddinbych, lle y bu am tua dwy flynedd, fel ysgrifenydd cyfreithiwr a adwaenid wrth yr enw, "Mr. Jones o Rhos." Yr oedd yn amlwg fod ei ddarlleniadaeth wedi bod yn helaethach a dyfnach nag y tybiai ei gydnabod, canys yn 1831, cyhoeddwyd o'i waith "Geinion Awen y Cymmry, sef detholiad o waith y beirdd godidocaf, hen a diweddar, gyda chyfieithion o Ganiadau Seisnig, a phryddestau cysefin." Dyrchafodd hyn ef ar unwaith i restr flaenaf beirdd a llenorion ei wlad, ac i

Digitized by Google

gyfeillgarwch y Dr. Pugh, Archddiacon Beynon, ac amryw eraill. Argraffwyd y "Ceinion" yn Ninbych, y mae wedi ei gyflwyno i'r Dr. Pugh, a chynwysa ddetholiad chwaethus o weithoedd beirdd Cymreig o Aneurin hyd Glan Alun, a chwanegir at hyny ddarnau penigamp o waith y detholwr medrus ei hun, yn mhlith y rai y mae ei gyfieithiadau o'r "Llan Annghyfanedd," gan Goldsmith; "Cathl ar y Tymhorau," gan Thomson; a "Myfyrdod mewn Mynwent," gan Gray; yn nghydag amryw ganigau swynol, cyffelyb i "Pa le y mae?" a "Can y Bardd wrth farw." Rhydd un beirniad glod uchel i'r "Rhagymadrodd," gan ddywedyd ei fod yn "arbrawf campus o gyfansoddiad rhyddieithol, a'r unig fai a ellir dwyn i'w erbyn ydyw ei fyrdra." Diau ei fod fel cyfansoddiad yn haeddu holl ganmoliaeth annghymedrol y frawddeg yna; ond tra y mae Gwenffrwd mor lawdrwm ar y mesurau caethion, prin y mae yn gyson ag ef ei hun pan yn rhestru cymaint o waith gorchestol yr hen feirdd Cymreig yn y caeth-fesurau tan y penawd "*Ceinion*," ac yn dethol pedair llinell gaeth o waith Dewi Wyn fel arwyddair i'w lyfr. Yn Eisteddfod Beaumaris, yn 1832, efe a enillodd yr ariandlws am y bryddest farwnadol oreu am y Parch. John Jenkins *(Ifor Ceri)*, a derbyniodd ei wobr o law y dywysoges ieuanc, yn awr y frenhines, Victoria; ac enillodd gampdlysau cystadleuon eraill. Wedi methu cael galwedigaeth yn cydfyned â'i ddymuniadau yn Nghymru, efe a symudodd i Liverpool, a bu yn trigianu yno am rai misoedd fel ysgrifenydd mewn swyddfa marsiandwr, ond nid oedd hon ychwaith yn cyd-daro a'i chwaeth, a phenderfynodd groesi y Werydd i fyd mawr y Gorllewin, a chyrhaeddodd Mobile, Alabama, yn nechreu 1834. Tybid mai un o'i brif amcanion yn myned i'r America ydoedd arbed rhag difancoll weddillion bywgraffiadol a barddonol Goronwy Owen, gwaith ac athrylith yr hwn a haner addolai. Ar ei fordaith, cyfansoddodd bryddest ar y "Y Mor," yr hwn a ystyrir yn gyfansoddiad ardderchog. Ymsefydlodd fel ysgolfeistr yn Spring Hill, tua chwe' milltir o Mobile; ac yn ystod ei drigiant byr o wyth mis yn y lle rhoddes fynych brawf i'w gymydogion newyddion o'i athrylith fel bardd o radd uchel. Wrth gofnodi ei farwolaeth, dywedai y *Mobile Advertiser*, "ei fod weithiau yn addurno ei golofnau ef, a phapurau eraill yn y Taleithian Unedig, â chynyrchion ei feddwl diwylliedig, yn ystod y byr amser y bu yn ein plith. Cofir yn dda ei gathl ddiweddaf '*The Mocking Bird*,' fel cynyrch meistrolgar annghyffredin, a'r hon a gyfansoddwyd yn y fynwent lle y gorwedd." Cyn cychwyn ohono i'r America, clywsai am farwolaeth ei hen noddwr, yr Archddiacon Beynon, ac am fwriad pwyllgor Eisteddfod Caerdydd, o wneud pryddest farwnadol iddo yn un o'u testunau. Ymgystadlodd Gwenffrwd ar y testun, o dir bell y Gorllewin, a chyfansoddodd alargan lawn o dlysni a choethder, ond gan ei bod yn rhy hir yn ol y telerau cynygiedig, ni wobrwywyd ef, ac yn wir cyn y gallesid danfon gwobr iddo yr oedd y bardd er's wythnosau yn y bedd. Wedi esgyn fel hyn gyda chyflymdra dihafal i entrych y ffurfafen lenyddol, gyda cyffelyb gyflymdra y dygwyd ef i'r llawr gan yr archddinystrydd hwnw, y fâd felen (*yellow fever*). Efe a fu farw Awst 16, 1834, pan yn 24 oed; ac y mae ei ddymuniad athrist yn "Nghan y Bardd wrth farw," wedi ei gyflawni yn llythyrenol gyda beddrod ei hawdwr ei hun:—

"Na cherfiwch un llinell i adrodd fy hynt"

Y meddyg a alwyd ato yn ei ing olaf ydoedd Cymro twymgalon a'r hanesydd gwirioglodus Dr. Alex. Jones, yr hwn oedd yn trigianu ar y

Digitized by Google

pryd yn Mobile ; a chan fod pobpeth mewn cysylltiad â'r bardd ieuanc hwn mor ddyddorol, rhoddwn yma yr hanes am fynydau olaf Gwenffrwd a ddanfonodd y Dr. i'r *Drych a'r Gwyliedydd* am Ebrill 5, 1855:—"Cyrhaeddodd y dyn ieuanc athrylithgar hwn Mobile, Alabama, yn y flwyddyn 1834, yn ddieithr ac anadnabyddus mewn bro estronol, yn amddifad o foddion, ac heb gyfeillion. Nid oeddwn erioed wedi clywed son am dano, nac yn gwybod dim yn ei gylch, hyd nes y dywedwyd wrthyf fod dyn yn glaf iawn o'r dwymyn felen, yn Spring Hill, mewn plwyfdy lled dlawd a berthynai i'r swydd, oddeutu chwe' milltir o Mobile. Tybiwyf yr amcenid i feddygon parchus ac adnabyddus y lle ymweled âg ef ; ond oherwydd lluosogrwydd gorchwylion ereill, ac addewidion blaenorol, neu ymddangosiad tlawd y claf, hwy a omeddasant ; ac ofnwyf iddo gael ei ebargofi a'i esgeuluso yn yr amgylchiad cyfyng hwn, pryd y collodd ei fywyd. Nid oeddwn, ar y pryd, wedi bod yn byw ond amser byr yn Mobile ; ac yr oedd fy amgylchiadau fy hun hefyd yn gyfyng iawn ; ond penderfynais, fodd bynag, os oedd bosibl, i ymweled ag ef, a rhoddi iddo bob ymgeledd a chynorthwy ag oedd yn fy ngallu. Yr oedd yn rhaid i mi, er cyflawni hyn, fyned i'r gwestdy i gyflogi ceffyl ; ac wedi marchogaeth y chwe' militir, cyrhaeddais y lle, yn nghanol tywyllwch a thrymder y nos. Canfyddais fod y bardd yn suddo yn gyflym dan ddirdyniadau y dwymyn boeth. Yr oedd ar y pryd wedi colli arno ei hun—ei synwyrau gwerthfawr wedi canu yn iach i'r corff, ac wedi pellhau yn rhy bell oddiwrth fyd o amser, ac yn rhy agos i fyd yr ysbrydoedd—fel nad oedd un sail i obeithio yr adferid ef byth mwy. Yn mhen ychydig oriau wedi i mi gyrhaedd y lle, bu farw ! Teimlwn yn ofidus a galarus iawn oblegyd ei farwolaeth, er nad oeddwn, yr amser hwnw, yn gydnabyddus o'i wir gymeriad. Yr oedd noswaith ei farwolaeth yn un brudd-dywell a chaddugol : —y ffurfafen wedi ei gordoi â chymylau duon—y gwynt tymhestlog yn rhuo o begwn i begwn—yr hylif trydanawl yn ymsaethu rhwng daear a nen—a'r taranau yn cynhyrfu holl anian, tra yr oedd edmygedd difrif-ddwys yr olygfa yn mwyhau wrth edrych ar gorff amdoedig y bardd Cymreig, yn gorwedd yn ei hŷd mewn ystafell agored !"

JONES (Parch. Thomas), gweinidog y Bedyddwyr yn Rhydwilym, sir Benfro, ydoedd frodor o Langollen, sir Ddinbych, lle y ganwyd ef yn 1769. Gwehydd oedd ei dad ; gwr cyfrifol, a phregethwr cymeradwy gyda'r Bedyddwyr. Dygwyd Thomas i fynu yn yr un gelfyddyd a'i dad, ymunodd â chrefydd pan yn dra ieuanc, ac efe oedd y cyntaf a fedyddiwyd trwy drochiad yn ardal Llangollen. Yr oedd hyn yn 1789, a chan nad oedd gan y Bedyddwyr eglwys ffurfiedig yn Llangollen, aelod ydoedd ef o eglwys Glynceiriog. Parodd ei rodiad gweddus, a'i ddawn hyfryd mewn gweddi, i'r eglwys hono yn fuan ei wahodd i bregethu ; a bu am beth amser yn llafurus yn ngwahanol ganghen-eglwysi lluosog Glynceiriog i gyfranu Gair y Bywyd, ac hefyd yn offerynol i blanu rhai eglwysi newyddion mewn cysylltiad â'r un fam-eglwys. Yn yr ymdrechiadau hyn, goddefodd lawer o erlidiau creulon. Wedi cael prawf o'i lafur a'i lwyddiant, urddwyd ef yn weinidog yn Glynceiriog, yr hyn a gymerodd le Gorphenaf 2, 1794. Nid aeth nemawr flynyddau heibio, na ddechreuodd lefain Sandemaniaeth weithio yn nghyfansoddiad eglwysi y Bedyddwyr yn Nghogledd Cymru, a bu o'r herwydd gynhwrf mawr yn eu plith. Gwyrodd y nifer lluosocaf o'u gweinidogion eu penau tuag at y dduwies newydd hon ; eithr ni wrthsafodd un ohonynt y llifeiriant mor ddisigl â'r Parch. Thomas Jones o Lynceiriog.

Digitized by Google

Goroesodd anterth uwchaf nerth y llif, a gwelodd ef yn treio drachefn i'w wely bychan o ddinodedd. Yn 1800, bu yn brif offeryn i adeiladu addoldy Rhuthyn; ac yn 1809, priododd un Ann Richards, o Farthry, sir Benfro; a'r flwyddyn ganlynol, derbyniodd alwad eglwys Rhydwilym, yn yr un sir, i fod yn weinidog yno. Cafodd y Gogledd golled fawr oherwydd ei symudiad, ond bu llwyddiant yn ei ddilyn ef yn ei faes newydd, canys derbyniwyd i'r eglwysi tan ei ofal yn sir Benfro yn ystod ei weinidogaeth ddim llai na phumtheg cant o aelodau. Yr oedd yn un o bregethwyr cymanfaol enwocaf ei oes; ac am bwyll ac arafwch yn ngweithrediadau pwyllgorol yr enwad, safai yn uwch nag un o'i frodyr. Wedi oes faith o ddefnyddioldeb, llwyddiant, a pharch, efe a fu farw Hydref 15, 1850, yn 81 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Rhydwilym.

JONES (Thomas), Amlwch, cyfieithydd amryw lyfrau gwerthfawr i'r Gymraeg. Ganwyd ef yn Llanfwrog, Mon, yn 1777. Dygwyd ef i fynu yn grefyddol, a bu ef a dau o'i frodyr, sef Rice Jones, o Ben y clawdd, Morganwg, a Robert Jones, gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Nghorwen, yn llanw y swydd o bregethwyr yr Efengyl. Cafodd ychydig fanteision dysgeidiaeth pan yn ieuanc, trwy fod mewn ysgol gyda gwr eglwysig yn ei fro enedigol, ond ni wnaeth efe nemawr ddim o hyny hyd yoni ddechreuodd bregethu, a gweled y buasai ymgyfarwyddo â gwaith yr awduron Seisnig yn fantais fawr iddo yn ei lafur cyhoeddus. Wedi priodi, aeth i drigianu i Ty'nyrefel, Llanynghenedl, ac yn aelod eglwysig yn Nghaergeiliog, lle y dewiswyd ef yn henuriad. Dechreuodd bregethu gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn 1808. Oddiyno symudodd i Lanrhyddlad, ac wedi bod yno am tua blwyddyn, symudodd i Peneglwys-edeyrn, ac oddiyno drachefn i Llainllwyd, ger Amlwch, lle y diweddodd ei oes. Pregethwr syml a diaddurn ydoedd; yr oedd ynddo rhyw ddifrifwch anarferol; a neillduai bob Gwener yn ddydd o ympryd a gweddi. Yn ystod ugain mlynedd olaf ei oes, ymroddes i anrhegu y darllenydd uniaith Cymreig, a rhai o gyfansoddiadau llenyddol goreu y Saeson. Efe a gyfieithodd "Hanes y Prynedigaeth," "Scot ar y Prophwydi," "Yr Anianydd Cristionogol," a llyfrau eraill o lai nod. Pan yn cyfieithu Esboniad Scot ar Lyfr Daniel, bachodd rhai deongliadau pwysig yn ei feddwl, y rhai a gredai yn sicr a diymod, megys dychweliad yr Iuddewon i Wlad Canaan, ac y cymerai rhyw ddigwyddiadau pwysfawr le yn y byd yn ystod y blynyddau 1849 a 1926. Bu farw o *apoplexy* Gorph. 6, 1847, wedi bod yn pregethu am 39 o flynyddau, ac yn 70 oed. Claddwyd ef yn Llanfwrog, yn mynwent ei blwyf genedigol.—*Y Drysorfa*, 1848.

JONES (Parch. Thomas), esboniwr galluog, a phregethwr derbyniol gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Nghaerfyrddin. Ganwyd ef mewn edd a roddodd ei brif hyfrydwch i'w jywyd. Mewn cysylltiad a'r ym-1761. Ymunodd â chrefydd yn ieuanc, a galwyd ef gan ei frodyr i'r weinidogaeth gyhoeddus, yr hon swydd a lanwodd gan roddi boddlonrwydd mawr. Ond adwaenir ef yn well fel awdwr esboniad rhagorol ar Bum' Llyfr Moses, Llyfr Job, Caniad Solomon, a'r Epistol at yr Hebreaid. Cawsant dderbyniad helaeth, ac y maent yn gofgolofnau anrhydeddus i'w dreiddgarwch, craffder, a'i ddiwydrwydd. Bu farw yn Nghaerfyrddin, Ionawr 17, 1831; a chladdwyd ef ger addoldy y Trefnyddion Calfinaidd.

JONES (Syr William), cyfreithiwr enwog, ydoedd fab hynaf ac etifedd i William Jones, Ysw., o Gastellymarch, sir Gaernarfon, lle y

Digitized by Google

ganwyd ef yn 1566. Ei fam ydoedd Margaret, merch i Humphrey Wynn ab Meredydd, o Gesailgyfarch. Dywed Wood ei fod wedi derbyn ei addysg yn rhydd-ysgol Beaumaris, ond rhaid mai camgymeriad yw hyn, gan ei fod ef yn gyfreithiwr enwog yn 1603, pryd y sefydlwyd yr ysgol hono; ac ar ei anogaeth ef y darfu i'w sefydlydd haelfrydig ymgymeryd â'r gwaith, a Syr Wm. Jones cedd un o ymddiriedolwyr cyntaf y sefydliad. Pan yn 14 oed, dodwyd ef yn ngoleg St. Edmund's Hall, Rhydychain, lle y bu am bum' mlynedd heb gymeryd un radd; ac yna symudodd i Lundain, a chafodd dderbyniad i Lincoln's Inn. Wedi ymarfer fel dadleuydd medrus am rai blynyddau, efe a ddewiswyd yn 1616 i fod yn *Lent-reader*, coleg Lincoln's Inn, ac yn y flwyddyn ganlynol yn *Sergeant-at-law*, ac yn urdd-farchog i brif farnwr Iwerddon, yr hon swydd a ddaliodd am dair blynedd, pryd y rhoddes hi i fynu. Yn 1622, gwnaed ef yn un o farnwyr llys y Cyfreithiau Cyffredin; ac yn 1625, symudwyd ef i'r Frenhinfainc, lle y parhaodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Rhag. 9, 1640, yn ei dŷ yn Holborn, Llundain. Claddwyd ef yn ol ei ddymuniad, o tan gapel Lincoln's Inn, ac yn ol ei ewyllys ni chyfodwyd unrhyw golofn i'w goffadwriaeth. Ei wraig gyntaf ydoedd Margaret, merch hynaf Griffith John Griffiths, Ysw., o Gefnamwlch, yn ei sir enedigol, a bu iddo deulu lluosog o'r briodas hon; ei ail wraig ydoedd gweddw Dr. Hovenden, warden coleg All Soul's, Rhydychain. Efe a gasglodd ac a gyfansoddodd adroddiad o'r achosion pwysicaf a ddygwyd ger ei fron fel barnwr yn llysoedd y Cyfreithiau Cyffredin a'r Frenhinfainc, y rhai a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1675.—*Em. Welsh.*

JONES (WILLIAM), ydoedd frodor o Feirion. Wedi derbyn addysg ragorol, ymsefydlodd mewn ysgol yn Rhuthyn, a symudodd oddiyno i Ddinbych, lle y dewiswyd ef gan arglwydd milwrol castell y dref hono o tan werin-lywodraeth Cromwell i fod yn bregethwr y castell; a thua 1648, gwnaed ef yn weinidog y plwyf. Cymerodd daith i Lundain, er mwyn ymgynghori â Richard Baxter ac eraill parth Deddf yr Unffurfiad, a dychwelodd gan lwyr benderfynu ymneillduo pan y delai y gyfraith hono i weithrediad. Wedi ei orfodi i ymadael a Dinbych gan gyfraith y Pum' Milldir, cafodd encilfan ddymunol yn y Plasteg, sir Fflint, gyda theulu henafol y Treforiaid, y rhai o haelfrydedd eu calon a roddasant gyfran o dir iddo gwerth £20 yn y flwyddyn. Ar ol trigianu yno am lawer o flynyddau, efe a symudodd i Hope, yn yr un sir, lle y bu farw mewn oedran teg, yn Chwefror 1679, ac yno y claddwyd ef. Yr oedd yn wr o ddysg, pwyll, a duwioldeb diamheuol. Bu dri mis yn ngharchar am bregethu yr Efengyl yn mhalas boneddwr wedi i Ddeddf yr Unffurfiad ddodi ei dwrn ar ei enau. Efe a gyfieithodd i'r Gymraeg y ddau lyfryn canlynol o waith Mr. T. Gouge, "Gair at Bechaduriaid a Saint," ac "Egwyddorion y Grefydd Gristionogol." Y llyfrau hyn a gyhoeddwyd ac a ranwyd yn mhlith tylodion Cymru yn 1676.—Rees' *Noncon. in Wales*, 148.

JONES (PARCH. WILLIAM), gweinidog yr Annibynwyr yn Mhenybont-ar-ogwy, Morganwg, a anwyd yn y Bala, sir Feirionydd, yn 1784. Yr oedd ei rieni yn aelodau gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a chafodd yntau yr addysg grefyddol oreu o'i febyd. Pan tuag 16 oed, digwyddodd fyned i wrando y Dr. Phillips, Neuaddlwyd, yn pregethu yn nghapel yr Annibynwyr yn y Bala, a chafodd y bregeth hono y fath argraff arno fel y penderfynodd nad arosai nemawr hwy oddiallan i'r eglwys, ac y bwriai ei goelbren i blith yr Annibynwyr. Yn mhen tua

Digitized by Google

blwyddyn wedi ei dderbyn yn aelod, anogwyd ef gan ei weinidog a'r eglwys i ddechreu pregethu; ac am yspaid ar ol hyny, bu yn cadw ysgol yn Mhentref-llyn-y-cymer. Yn 1806, derbyniwyd ef i athrofa Annibynol Gwrecsam, y pryd hwnw o tan arolygiaeth y Dr. Jenkin Lewis, lle yr arosodd am bedair blynedd; a chan ei fod yn ysgolhaig da pan yr aeth yno gyntaf, ac wedi ymroddi mor ddiorphwys i chwanegu ei ddysg yn y sefydliad hwnw, yr oedd ar ei fynediad allan yn un o'r pregethwyr dysgedicaf yn Nghymru. Derbyniodd alwad oddiwrth eglwysi Penybont-ar-ogwy a Brynmenyn, dechreuodd ei weinidogaeth yno yn 1810, ac urddwyd ef yn y gwanwyn canlynol. Yn fuan ar ol ei sefydliad yn yr ardal, chwanegwyd at y ddau le crybwylledig ddau gapel bychain eraill yn mhlwyfi Coity a Llangrallo, a pharhaodd i bregethu yn mhob un o'r pedwar hyd derfyn ei oes. Nid oedd ei lwyddiant gweinidogaethol yn gyfartal o lawer i'w alluoedd pregethwrol, os caniateir mai meddyliau cryfion a threiddgar yn dadlenu cyfrinion Gair Duw mewn dull hyfedr a meistrolgar, a'r fuchedd yn cael ei harddweddu gan ragoriaethau penaf y grefydd Gristionogol, ydynt brif anhebgorion y cyfryw swydd. Mae'n wir, nad oedd ei draddodiad yn esmwyth, a bod bloesgni ar ei leferydd, effaith gwely llaith a gafodd yn more ei weinidogaeth, yn milwrio yn erbyn ei boblogrwydd. Cafodd gymhelliadau taerion amryw weithiau i symud i ardaloedd eraill, ond gwrthododd. Yn 1814, efe a briododd un Mary Turberville, yr hon oedd yn aelod o'i eglwys yn Mhenybont, ac a fu yn wraig wir ragorol iddo. Bu iddynt ddeg o blant, ac er nad oedd cyflog Mr. Jones ond bychan, magasant yr oll yn weddus a theilwng o'u sefyllfa. Bu Mrs. Jones farw yn 1836, ac ar ol i'w blant ymwasgaru, efe a briododd yr ail waith un Mrs. Howells, gweddw barchus a chrefyddol o ardal y Maendy. Yr oedd Mr. Jones tua phum' troedfedd a deng modfedd o daldra, yn lled dew, yn arafaidd ei ysgogiad, a chydgyfarfyddiad o hynawsedd a phrudd-der yn ngwedd ei wynebpryd. Yr oedd ei bregethau yn sylweddol yn ngwir ystyr y gair, ac yn ffrwyth efrydiaeth gyson a chaled. Pregethai dair gwaith bob Sabbath, a phedair gwaith un Sabbath o bob mis, a gwnaeth hyny y Sabbath olaf y bu byw, gan weinyddu Swper yr Arglwydd ddwy waith. Cyrhaeddodd adref y nos hono yn llesg iawn, a dyoddefodd boenau dirfawr yn ystod y dyddiau canlynol, yn codi oddiar enyniad yr afu; eithr rhyddhawyd ef gan yr angau y prydnawn Sadwrn canlynol, Mehefin 5, 1847. Fel y gallesid dysgwyl, bu farw yn dangnefeddus, wedi bod yn pregethu am ddeugain mlynedd. Er fod ei lais wedi tewi, y mae ei goffadwriaeth yn aros ac yn byw yn ei weithiau llenyddol amryfal. Cyhoeddwyd ei "Eiriadur Duwinyddol," mewn dwy gyfrol, yn Merthyr a'r Bontfaen, 1837—1839; 2, "Saith o bregethau ar Ioan iii. 14—21," Abertawe, 1829. 3, "Pregeth ar Briodol Dduwdod ein Harglwydd Iesu Grist," Abertawe, 1832. 4, "Diaconia, neu swydd Diaconiaid," Llanelli, 1836. Efe a gyfieithodd "Fibl Teuluaidd" Morrison i'r Gymraeg; a bu yn olygydd y "Drysorfa Gynulleidfaol," cyhyd ag y dygwyd hono allan yn Abertawe. Cyfranodd gryn luaws o erthyglau campus i'r *Diwygiwr*, a chyhoeddiadau eraill y dydd; a darfu i'w ganlyniedydd yn Mhenybont, y Parch. J. D Williams, gyhoeddi cyfrol fechan o'i bregethau, y rhai, fel y gweddill o'i waith, sydd yn arddangos meddwl o radd uchel.

JONES (WILLIAM), ydoedd yn gwasanaethu plwyf Cilmaenllwyd, sir Gaerfyrddin, yn amser y Weriniaeth, ond a ddeolwyd ar ddyfodiad Siarl i'r orsedd. Yr oedd yn Bresbyteriad yn ei egwyddorion eglwys-

Digitized by Google

ig; ond wedi ei argyhoeddi mai trochiad oedd bedydd, efe a aeth i Olchon, ar derfynau sir Henffordd, i gael ei fedyddio felly. Cafodd ei garcharu yn Henffordd, yn amser Siarl II. Dewiswyd ef yn gydweinidog ar gynulleidfa y Bedyddwr yn Rhydwilym, sir Benfro. Tybia rhai mai efe oedd y "W. J," a gyfieithodd y "Principeipian, neu Gair yn ei Bryd," a "Gair i Saint a Phechaduriaid," yn 1676. Bu farw yn 1698. —*Lleyn MSS.*

JONES (WILLIAM) (*Bardd Mon*), ydoedd frodor o Fodedeyrn, yn Mon. Aeth yn ieuanc i Lundain, lle y trigianodd dros weddill ei oes. Yr oedd yn fardd da, ac yn wladgarwr twymgalon. Bu yn aelod ffyddlawn o Gymdeithasau y Cymreigyddion a'r Gwyneddigion am lawer o flynyddau, ac yn drysorydd i'r ffaenaf am yspaid maith. Yr oedd yn ddyn tra deallgar, rhyddfrydig, a haelionus. Talai am gynal ysgol fechan yn ei blwyf, genedigol er addysgu plant amddifaid, a chostiai hono iddo yn flynyddol tua £40, er nad oedd efe ond gwas cyflog ar hyd ei oes. Bu farw yn Llundain, Gorphenaf 28, 1819, a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys Newington. Galerid o'i ol gan gylch eang o gyfeillion, a bu beirdd yr oes hono yn uchel erddygan ei glodydd yn y *Seren Gomer*, &c.

JONES (PARCH WILLIAM), gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yn Nghaerdydd. Ganwyd ef yn Pencaemain, plwyf Llangadog, sir Gaerfyrddin, yn 1790. Bu am tua dwy flynedd mewn ysgol wledig fechan, lle y dysgodd ddarllen Cymraeg a Saesneg, ysgrifenu, ac ychydig rifyddiaeth. Pan tua 13 oed, cafodd le i weithio mewn gwaith haiarn yn Dowlais, Morganwg. Yno, cafodd y frech wen yn drwm iawn; a daeth allan o'r pair poeth hwnw yn llanc a chanddo benderfyniad newydd; canys cyn hyny treuliasai ei amser mewn anystyriaeth a gwamalrwydd, eithr bellach efe a ymroes i fynychu lle o addoliad, ac i ymwasgu at bobl Dduw. Bu wedi hyny yn beirianydd yn ngwaith haiarn Pendaren, ger Merthyr, gan lettya gyda brawd hynach iddo, yr hwn oedd ddiacon yn eglwys y Bedyddwyr yn Nhapel Seion. Yr oedd diwygiad crefyddol mawr ar y pryd yn Morganwg, ac ar flaen y cefnllif hwnw laniodd Wm. Jones yn eglwys Dduw. Fel peirianydd, yr oedd yn rhaid iddo weithio ar y Sabbath, a pharai hyn lawer o flinder meddwl iddo, fel y penderfynodd roddi y swydd enillfawr hono, mewn cydmariaeth, i fynu, a chymerodd waith *puddler* ail llaw. Arddangosai gydwybod gywir, ysbryd Cristionogol, a galluoedd meddyliol cryfion, fel y penderfynwyd yn fuan ei anog i ddechreu pregethu. Y fath oedd boddhad ei frodyr yn ei bregethau, fel y cymhellwyd ef yn 1810 i roddi heibio ei alwedigaeth fydol, ac ymroddi yn llwyr i waith y weinidogaeth. Mewn cydsyniad a chais ei gyfeillion, aeth ar daith am ddau fis trwy siroedd Morganwg, Mynwy, a Chaerfyrddin, a daeth "Jones Bach" yn hynod o dderbyniol ar hyd a lled y wlad. Gan wrthod galwad un o eglwysi hynaf Morganwg, yn Ebrill y flwyddyn grybwylledig, efe a aeth i athrofa y Fenni, lle yr arosodd am ddeunaw mis. Ar derfyn yr amser hwnw, cynygiwyd rhoddi derbyniad iddo i goleg Stepney, anogodd Christmas Evans ef i ddyfod i'r Gogledd lle yr oedd prinder mawr am bregethwyr gyda'r Bedyddwyr yr amser hwnw, eithr efe a ymsefydlodd fel cenadwr cartrefol a gweinidog yn Peniel, sir Fynwy, am y cyflog o £30 yn y flwyddyn. Nid oedd ei aelodau ond 72 mewn rhif, eto yr oeddynt yn wasgaredig mewn deunaw o wahanol blwyfi. Gwasanaethai weithiau yn Seisnig a phryd arall yn Nghymraeg; ac yr oedd y fath farweidd-dra ysbrydol yn gorwedd ar ei esgob-

Digitized by Google

aeth eang fel y teimlai megys mewn gwlad dywell, heb neb o'r un egwyddorion ag ef a'i ddeiliaid yn yr holl randir hwnw rhwng yr afonydd Wysg ac Wy, a'r New Passage a Coleford. Yn ngwyneb bychander ei gyflog, agorodd ysgol, a galluogwyd ef trwy hyny i enill bywiolaeth gysurus, ac eangu cylch ei ddefnyddioldeb. Ond parhaodd yr un mor ymdrechgar gyda'i ddyledswyddau cenadol, ac wedi darfod gyda'r ysgol, pregethai yn y cyfnos mewn tai anedd ac amaethdai gwledig, gan sefydlu eglwysi bychain, a bugeilio wyth o wahanol ddiadell-oedd rhwng Brynbuga a Chasgwent. Estynodd ei arosiad yn sir Fynwy am bedair blynedd; ac yn Ionawr 1816, symudodd i Gaerdydd. Gweinidogaethodd yn llwyddianus, a chyda arddeliad amlwg ar ei lafur, yno am 39 o flynyddau. Cymerai ran flaenllaw yn nghefnogi y gwahanol gymdeithasau dyngarol, cenadol, a Christionogol; a thua diwedd ei oes, milwriodd yn ddewr tros Gymdeithas y Dadgysylltiad, yr Ysgol Frytanaidd, &c. Bu yn cydolygu yr "Ystorfa Weinidogaethol," ac efe oedd awdwr y traethodau duwinyddol dienw a ymddangosodd ar ei dudalenau. Cyfranodd gyfres o erthyglau galluog o "Hanes yr Eglwys Gristionogol," i'r cylchgrawn a elwid y *Bedyddiwr*. Efe hefyd a gyfieithodd ran fawr o "Esboniad y Dr Gill ar y Testament Newydd." Bu farw, wedi cystudd byr, Mai 17, 1855; a chladdwyd ef yn ngwydd torf alarus, yn y gladdfa berthynol i'w addoldy.—*Lleyn MSS.*

JONES (WILLIAM), yr uchrifydd (*mathematician*) enwog, a anwyd yn 1680, yn mhlwyf Llanfihangel Tre'r Beirdd, Mon. Amaethwr bychan, o'r enw Sion Siors, oedd ei dad, yr hwn a roddes i'w fab yr addysg oreu o fewn ei gyrhaedd, yn cynwys darllen, ysgrifenu, rhifyddu yn Saesneg, a gramadegiaeth Lladin. Gan fod ganddo chwaeth anarferol at uchrifo, efe a lanwodd ddiffygion addysg bore ei oes trwy ymarfer ei alluoedd meddyliol ysplenydd gyda'r diwydrwydd mwyaf diseibiant, nes dodi i lawr sylfaen ei enwogrwydd a'i gynysgaeth. Cychwynodd ei yrfa trwy fyned yn athraw uch-rifol ar fwrdd llong ryfel, lle y daeth i gydnabyddiaeth â'r enwog arglwydd Anson. Pan yn 22 oed, efe a gyhoeddodd, "A Compendium of the whole art of Navigation," yr hwn a gafodd ganmoliaeth mawr. Yr oedd yn wyddfodol pan gymerwyd y "Vigo," yn 1702; a phan ddychwelodd y llynges i Loegr, efe a ymsefydlodd yn ddioed fel dysgawdwr gwyddoniaeth yn Llundain. Yn 1706, cyhoeddodd ei "Synopsis Palmariorum Matheseos, or New Introduction to the Mathematics," yr hwn a brofai yn ddiamheuol ei wybodaeth ddofn a helaeth yn nghangen hoff ei efrydiaeth. Yr oedd ei rodiad gweddus, a'i foesgarwch llednais, yn enill iddo hefyd gylch lluosog o gyfeillion. Yn mhlith y lluaws a'i hanrhydeddent a'u parch, yr oedd arglwydd Hardwicke, a bu Mr. Jones yn gydymaith i'w arglwyddiaeth ar un o'i gylchdeithiau, pan oedd ei arglwyddiaeth yn Brif-ynad; ac ar ol hyny, penodwyd ef ganddo i'r swydd o gofiadur heddwch. Yr oedd hefyd ar delerau cyfeillgar hefo enwogion gwyddonol penaf ei oes, megis arglwydd Parker, Syr Isaac Newton, Halley, Mead, a Dr. Johnson. Ymddygai Syr Isaac Newton tuag ato gyda pharch ac ymddiried neillduol; a phan y syrthiodd i'w ddwylaw yn mysg rhyw bapurau o eiddo Collins, draithodyn o waith Newton, yn dwyn y titl, "Analysis per quantitatum series, fluxiones, ac differentias," &c., gyda chymhorth a chydsyniad y gwr mawr hwnw, efe a'i cyhoeddodd, mewn cysylltiad â darnau eraill ar bynciau dadansoddol, yn 1711. Etholwyd ef yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol, a bu wedi hyny yn is-lywydd arni. Pan aeth arglwydd Macclesfield i drigianu

Digitized by Google

yn nghastell Sherborne, gwahoddodd Mr. Jones i fyned i fyw gydag ef, fel y byddai iddo gynorthwyo ei arglwyddiaeth i gyrhaedd gwybodaeth helaethach yn y celfyddydau, &c ; a thra yn preswylio yno, daeth yn gydnabyddus â dynes ieuanc o'r enw Miss Mary Nix, merch i ddodrefnwr cywreinwych, yr hon a briododd. Bu iddynt dri o blant, dau fab ac un ferch, ac un o'r meibion hyny ydoedd yr ysgolhaig dwyreiniol byd-enwog, Syr William Jones. Ni oroesodd efe enedigaeth y mab hwn ond tair blynedd ; a bu farw o anhwyldeb y galon, Gorphenaf 1649, yn 69 oed. Dywedir ei fod yn meddu y lyfrgell wyddonol oreu yn y deyrnas, yr hon a ddaeth trwy ei ewyllys i feddiant Iarll Macclesfield. Gweler hanes pellach am dano yn yr *Encyclopædia Britannica; Memoir of Syr Wm. Jones*, gan arglwydd Teignmouth ; a *Dictionary* Hutton.

JONES (SYR WILLIAM), ydoedd fab enwog y Wm. Jones blaenorol. Er na anwyd ef yn Nghymru, eto yr oedd ei gysylltiad agos â'n gwlad, a'r sylw teilwng a gymerodd o honi, yn ei drwyddedu i le yn mhlith ein henwogion. Ganwyd ef yn Llundain Medi 20, 1746. Collodd ei dad pan yn dair blwydd oed, a daeth y gofal ei ddysgu i'w fam, yr hon oedd foneddiges o dalentau anghyffredin. Hynod oedd ei ddiwydrwydd pan yn blentyn, gan ddangos mai cryf ei gariad at wybodeath. Os gofynai i'w fam am unrhyw hysbysiad, er ond o dair i bedair blwydd oed, ei hateb gwastadol oedd, "*Darllen, a chei wybod.*" Achlysurodd hyn iddo hoffi llyfrau, a chryfhaodd yr hoffder fel y cynyddodd ei flynyddoedd. Pan yn saith oed, aeth i Ysgol Harrow, ac yn 1764 aeth i'r coleg yn Rhydychain. Ymroddodd a'i holl feddwl i astudio, a byddai ei ym lrechion gwirfoddol bob amser yn fwy na'r dasg a benodid iddo. Y fath oedd ei fywiogrwydd yn yr ysgol, fel y dywedai un o'i athrawon yn fynych, "Pe gadewid William Jones yn noeth, ar wastadedd Salisbury, 'canfyddai ef y ffordd i enwogrwydd a chyfoeth." Aml y rhoddai'r holl nos i efrydu, a chymerai *goffi*, neu *tea*, i gadw cwsg draw oddiwrtho ; eithr nid oedd hyn i'w gaunol, am y peryglai iechyd undyn a'i gwnelai. Yr oedd ganddo ychydig amser a alwai yn oriau hamddenol, treuliodd y rhai hyny i fyfyrio'r gyfraith : ac aml y synodd gyfreithwyr cyfeillgar i'w fam, trwy adrodd achosion cyfreithiol o'r llyfr a elwir *Coke's Institutes*, yr hwn lyfr campus a feistrolodd, trwy ei ddarllen ambell i haner awr *segur!* Ymddangosai gogwyddiad ei athrylith at fyfyrio ieithoedd. Nid oes gogwyddiad at bethau eraill yn gan mwyaf o astudwyr ieithoedd, ond nid felly gyda William Jones ; eithr crafangodd ei synwyr mawr amryw o'r pethau pwysicaf a berthyn i wybodaeth ddynol a dysgeidiaeth foneddigaidd. Tra yn Rhydychain, ymawyddodd am fyfyrio'r ieithoedd Dwyreiniol, a chynaliodd ddyn a anwyd yn Aeppo, ar ei draul ei hun, i'w gyfarwyddo yn iawn aceniaeth yr Arabaeg ; a medrai Roeg a Lladin eisioes. Ar wyliau, dysgodd farchogaeth, a chleddyfyddiaeth, a darllen yr awduron enwocaf Italaeg, Yspaenaeg, iaith Portugal, a Ffrancaeg. Ac at hyn, canfyddodd amser i ddysgu peroriaeth a chwareu ar y delyn Gymreig, offeryn cerdd ei gyndadau. Tra'n ymwneuthur â'r amryw gangenau hyn o addysg, ni chaniatai iddo'i hun orphwysfa yn ei ymdrech am wrthddrych ei ymgais, sef, aelodaeth yn y coleg, mewn trefn i arbed i'w fam y gost o'i ddysgeidiaeth. Gan na lwyddodd yn ei ewyllys i gyrhaedd gwrthrych ei ymgais, yn 1765, derbyniodd y swydd o fod yn athraw i arglwydd Althorpe, a ddaeth ar ol hyny yn Iarll Spencer ; eithr rywbryd drachefn, cafodd Mr. William Jones yr aelodaeth hefyd. Tra'n aros yn ymdrochfa'r Almaen gyda'i ddysgybl, yn 1767, dysgodd iaith

Digitized by Google

Almaen, ac wedi dychwelyd, cyfieithodd i'r Ffrancaeg, fywyd Persiaidd Nadir Shah, a ddygwyd trosodd yn llawysgrif gan frenin Denmark, ar ddeisyfiad Dug o Grafton. Canlynodd daith arall i'r cyfandir, gyda'i ddisgybl a'r teulu, hyd i 1770, ac aeth y pryd hwnw i astudio'r gyfraith yn y *Temple*, Llundain; ond ni aberthodd lenyddiaeth i'w ymofyniad broffesedig; eithr ar ymddangosiad o fywyd a gwaith Soroaster, gan Anquetil du Perron, amddiffynodd Mr. William Jones Brifysgol Rhydychain, yr ymosodiad arni gan yr ysgrifenydd hwnw, a'i lyfryn oedd gampus yn Ffrancaeg, Yn 1772, cyhoeddoedd gynulliad o farddoniaeth gan mwyaf, o brydyddion Asia, a neilldiwyd ef, yr un flwyddyn, yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol. Yn 1774, ymddangosodd ei waith "De Poesi Asiatica," yn cynwys egluriadau ar farddoniaeth Asia'n gyffredinol, gydag engreifftiau mesurol, yn Lladin a Saesonaeg. Galwyd ef i'r bar yn fuan, a gwnaed ef yn Ddirpwywr Methdalwyr: oddeutu'r amser hwn, dangoswyd, trwy ei obebiaeth gyda'i ddiweddar ddisgybl, yr ysbryd gwrol a'i tueddai yn mhlaid rhyddid gyfreithiol; a thorodd ei deimladau allan yn yr ymdrechfa Americanaidd mewn "Awdl i Ryddid," yn Lladin. Yn 1788, ymddangosodd ei gyfieithiad o "Areithiau Isaus," gyda darlith ragymadroddol, nodiadau, ac esboniadau, yr hwn oherwydd prydferthwch dullwedd, a manylrwydd ymchwiliadau hanesyddol, a fagodd syndod a hoffder dysgediglion. Cynyddodd i enwogrwydd yn ei broffes o'r gyfraith, er fod ei olygiadau am yr ymdrechfa Americanaidd yn rhwystr ar ei ffordd i anrhydedd dyrchafiad. Tueddwyd ef gan y cynwrf yn 1780, i ysgrifenu llyfryn am "Y Modd Cyfreithlawn i Ddarostwng Terfysg;" a'r gauaf canlynol, cyflwynodd gyfeithiad o saith pryddest, o'r Arabaeg, yr hyn a enilodd glod mawr. Ysgrifenodd hefyd yr holl odl adra-hoffir, yn dechreu gyda "Beth a gyfansodda wladwriaeth?" Ond ni rwystrodd hyny y "Traethawd ar Gyfraith Meichniaeth," a gyfansoddodd yn y cyfamser. Yn 1782, hynododd ei hun yn mysg cyfeillion diwygiad seneddol, a daeth hefyd yn aelod o'r gymdeithas am hysbysiaeth cyfreithlawn. Yr un flwyddyn, ysgrifenodd "Ymddyddan rhwng Amaethwr a gwr boneddig gwledig am Egwyddorion Llywodraeth;" ac am gyhoeddi hwn dygwyd cwyn cyfraith yn erbyn Deon Llanelwy, gwedi hyny brawd yn nghyfraith Mr. William Jones, tan y cyhuddiad o fradwriaeth. Oblegid hyn, anfonodd lythyr at Arglwydd Kenyon, y pryd hwn prif farnydd Caerlleon, yn honi ei hun yn awdwr, ac yn amddiffyn ei sefyllfa. Rhyddhawyd y Deon, a llusgwyd ei gerbyd gan y bobl trwy'r trefydd o Lundain hyd i Lanelwy. Ar ddyfodiad gweinyddiad wladol Shelbourn, trwy ddylanwad Arglwydd Ashburton, cafodd Mr. W. Jones, yr hyn a fu'n brif wrthddrych ei ymgais; sef y penodiad o fod yn farnydd yn mhrif lys barn Bengal, i'r hwn y penodwyd ef Mawrth 1783, gydag urddas marchog, yn Syr William Jones. Cyrhaeddodd Calcutta yn Medi 1783, ac ymagorodd maes newydd eang i'w weithrediadau yn y lle hwn. Tra'n llenwi'r swydd o farnwr yn llys uchaf Bengal, wedi ei lwytho a dyledswyddau proffes gyda'r mwyaf llafurus ei nhatur, trefnodd i allu gwneuthur mwy nag erioed yn astudiaeth llenyddiaeth gyffredinol ac athroniaeth. O'r braidd y tiriodd o fewn y wlad, nad oedd wedi sefydlu cymdeithas yn Calcutta ar gynllun Cymdeithas Freiniol Llundain, ac i'r hon y gweinyddodd yn gadeirydd tra y bu'n fyw, gan gyfoethogi ei gorchwylion bob blwyddyn gyda dyfal chwiliadau o'r mwyaf llafurus a gwerthfawr yn mhob dosparth o lythyreg ac hynafiaethau Dwyreiniol. Ei holl amser i efrydu oedd ystod

Digitized by Google

gorphwysiad y llys cyfraith ; a dyma'r hanes, fel ei cafwyd yn mysg ei bapyrau, am ei ddull arferol yn treulio'r dydd yn yspaid yr hir orphwysiad yn 1785. Yn y bore, gwedi ysgrifenu un llythyr, darllenai amryw benodau o'r Bibl, yr hwn lyfr sanctaidd a garai ef o'i galon ; a'i weddi sydd ardderchog yn ei chyfansoddiad, a llawn lles; yna, astudiai Ramadeg Sanscrit, a chyfreithiau'r Hindw ; prydnhawn a roddai i nhaearyddiaeth India, yr hwyr i hanesyddiaeth Rhufain ; siriolai ei hun â'r chwareu diniwed, ond a ofyn gryn feddwl, a elwir tawlfwrdd (*chess*), a darllen cyfran o Ariosto, y Bibl, a gweddi. Modd bynag, dechreuai ei iechyd a gwanychu eisioes o dau yr hinsawdd, a daeth ei lygaid mor weinion fel y gorfu arno beidio ag ysgrifenu wrth oleuni canwyll ; ond nis gallai dim ei luddias rhag dilyn yr astudiaeth a garai, tra ynddo ychydig nerth. Dysgodd lysieuaeth iddo ei hun, hyd yn nod tra cyfyngid ef i'w wely gan afiechyd, a thra yn cymeryd tro yn unol a chyngor meddygol, er lles iechyd, yr ysgrifenodd ef ei iyfr dysgedig. a elwir, "Traethiad am dduwiau Groeg, Idal, ac India," fel pe buasai wedi cynefino ei feddwl mawr i fabwysiadu llafur o'r fath hwn er difyrwch ac ymollyngiad oddiwrth flinder. Adferwyd ei iechyd, gwedi enyd o amser, a daeth drachefn i ddilyn ei ddyledswyddau proffesedig, yn nghyd a'i efrydaeth ddewisedig gyda mwy o aidd a diwydrwydd astud nag erioed. Pan gofynid ei bresenoldeb dyddiol yn Calcutta, gan orchwylion, aneddai mewn ty yn y wlad ar lanau'r Ganges, oddeutu pum' milltir o'r ddinas, ac ebai ei fuchdraethwr synwyrol a charuaidd, arglwydd Teignmouth, yr hwn a ysgrifenodd fywgrafiad gododig ohono, "I'r llecyn hwn y dychwelai bob hwyr gwedi machlud haul, ac yn y bore codai mor brydlon, fel ag i gyrhaedd ei ystafell yn y ddinas erbyn ymdoriad gwawr, gan gerdded ! Yr oriau rhwng hyny ac agoriad y llys, a roddid yn rheolaidd i wahanol astudiaeth." Ei awr godi'r amser hyny oedd rhwng tri a phedwar o'r gloch yn y bore. Yr oedd yn llawn gwaith yn yspaid gorphwysiad y llys. Wrth ysgrifenu o Crishna, ei anedd orphwysol, yn 1787, y dywed,—"Yr ydym yn serchu ein bwthyn bugeilaidd ; ond er y gelwir y tri mis hyn yn orphwysfa, nid oes genyf oriau gorphwys. Anaml y digwydd fod ein hoff astudiaeth mewn undeb agos a chyflawni'n fanwl ein dyledswyddau, fel y mae'n gysurus felly gyda mi ; hyd yn nod yn y bwthyn hwn, yr wyf yn cynorthwyo'r llys trwy astudio Arabaeg a Sanscrit, a gwnaethum yn annichonadwy i'r cyfreithwyr Mahomedanaidd neu Hindw ein twyllo gydag opiniwnau cyfeiliornus." Yr ymdrechion hyn, mewn gwirionedd, a roddodd brif hyfrydwch i'w fywyd. Mewn cysylltiad a'r yngais yma, dododd ei feddwl bywiog ar waith i lunio casgliad cyflawn o gyfreithiau Hindwaidd a Mahomedanaidd, gyda golwg ar well gweinyddiad cyfiawnder yn mysg y genedigion. Ni bu byw i orphen y gwaith hwn, ond cyflawnwyd hyny, oblegid ei ddymuniad canmoledig a'i lafur blaenorol. Ei gais yn hyn oedd diogelu sylw i iawnderau y trigolion genedigol ; a dangosodd ei ofal dros iawnderau 'r preswylwyr Prydeinig trwy wrthsefyll y cynyg at droi heibio y prawf gan Reithwyr. Yn 1789, anrhegodd y byd a chyfeithiad o'r chwareuyddiaeth "Sacontala, neu y fodrwy dyngedol." Ymddangosodd ei gyfeithiad o Ordinhadau Menu, y cyfraith-roddydd Hindw enwog, yn gynar 1794, ac y mae'n dra dyddorol i'r un o fyfyrio drefn ac opiniwnau hynafiaethol. Ond cwympodd y gwr nodedg a hoff hwn, o'r diwedd, yn aberth i'w ormod serch yn nghyflawniad ei ddyledswyddau a'i ymchwiliadau llenyddol. Ebrill 1794, gafaelwyd ynddo yn Calcutta, gydag enynfa'r afu,

Digitized by Google

yr hyn a derfynodd ei hoedl ar y 27ain o'r un mis, yn 48 mlwydd oed, ac yn gwybod oddeutu 38 o ieithoedd; wyth o ba rai a ddeallai yn drwyadl, sef y Saesneg, Lladin, Groeg, Ffrancaeg, Italaeg, Arabaeg, Persiaeg, a'r Sancsrit, ac efe oedd yr Ewropiad cyntaf a lwyr feistrolodd yr iaith olaf. Yr oedd ganddo hefyd gydnabyddiaeth eang â'r Gymraeg, a 29 o ieithoedd eraill Trwy sylwi'n fanwl ar ychydig arwireddau amlwg y galluogwyd Syr William Jones, yn benaf i gyflawni fel y gwnaeth. Un oedd peidio byth ag esgeuluso cyfleusdra i wella gwybodaeth; un arall oedd, fod pa beth bynag a gyrhaeddwyd gan eraill, yn gyrhaeddadwy iddo yntau, ac o ganlyniad, na allai unrhyw anhawsder ffurfio rheswm digonol i'w rwystro yn ei ymddiriedaid cyfangwbl am lwyddiant. Ac ebai Arglwydd Teignmouth, "Yr oedd hefyd yn egwyddor sefydlog gydag ef, oddiwrth yr hyn ni wyrodd erioed yn wirfoddol, na fynai ei atal, gan unrhyw anhawsderau y gellid eu gorchfygu, oddiwrth gyflawni'n llwyddianus yr hyn a gymerai arno i'w wneuthur; a'r hyn a ymddengys yn neillduol i'w alluogi at ddodi ei dalentau mawrion mewn gwaith er budd iddo ei hunan a'r cyhoedd, oedd cyfraniad rheolaidd o'i amser at bethau penodol, gan ymlynu wrth ei dosparthiad yn fanwl, ac felly yr oedd ei astudiaeth heb ddyryswch, yn rheolaidd a sefydlog." Ychydig ddynion a fuont feirw gyda mwy cwyn o'u hol, nacy teimlodd y byd llenyddol fwy colled am danynt, na Syr William Jones, yr hwn fel ieithwr na rhagorwyd arno braidd gan neb erioed. Ei adnabyddiaeth gyda hanesyddiaeth, athroniaeth, cyfreithiau, crefydd, gwyddoriaeth, a moesau cenedloedd oedd o'r fath ehangaf a dwfnddysg. Buasai fardd campus, oni bai ei awydd i adblanu prydferthwch y dwyrain, ynghyd a lliosogrwydd ei orchwylion dyledswyddol a dewisedig. Anwyl iawn ydoedd yn ei deulu, hoffid ef yn fawr gan gyfeillion, ac haelfrydig a fu yn ei fywyd cyhoeddus: ond, er i goegddysg fod yn achlysur i faldarddwyr dybied mai gwych yw diystyru pobl y gweddio, gweddiwr yn caru crefydd yn ei enaid, gan ei hoffi yn eneidiau eraill hefyd, oedd y mawr Syr William Jones. Parchwyd ei goffadwriaeth yn Lloegr ac yn India. Pleidleisiodd cyfarwyddwyr cymdeithas yr India Ddwyreiniol gofgolofn iddo yn Eglwys St. Paul, Llundain, a delw yn Bengal; ond y golofn fwyaf effeithiol o'i enwogrwydd a godwyd gan ei weddw, yr hon a gyhoeddodd argraffiad arddercho'g o'i waith yn chwe' chyfrol hardd pedwar plyg, 1790; ac hefyd, ceisiodd ar ei thraul ei hun, ddelw farmor at barchu ei goffadwriaeth, yr hon a wnaed gan Flavman, ac a osodwyd yn rhagystafell y brif ysgol Rhydychain; a bellach wele Gymro, mawr bob ffordd, yn gynllun i fechgyn Cymru i'w efelychu mewn ymchwiliad am ddysg a chrefydd.

JONES (WILLIAM), a anwyd yn mhlwyf Llangadfan, sir Drefaldwyn, yn 1729; ac nid ymddengys ddarfod iddo dreulio tros bythefnos o'i holl oes allan o'i blwyf genedigol. Ychydig iawn o ysgol a gafodd, a threuliodd ran flaenaf ei oes yn amaethu ychydig gyfeiriau o dir. Pa fodd bynag, ymroddodd i ddarllen a myfyrio'n ddyfal, a thrwy hyny, o radd i radd, daeth yn oracl mawr gwybodaeth yn ei wlad. Llwyr feistrolodd y Saesneg, er ei fod yn cashau y Saeson gyda chasineb dwfn a greddfol. Pan yn ieuanc, cystuddid ef gan y manwynau, ac er yr ystyrid yr afiechyd hwnw yn yr oes hono yn anfeddyginiaethol, efe a ymroddodd i efrydu physigwriaeth, a llwyddodd i wella ei hun. Parodd hyn i'w gymydogion ei ystyried yn feddyg diail, cyrchid ato o bob cyfeiriad, ac enillodd fywioliaeth am ran fawr o'i oes fel doctor

Digitized by Google

gwlad. Yr oedd wedi darllen gwaith Voltaire, ac yn anffodus wedi llyncu cryn lawer o'i ddaliadau anffyddol a gwerinol; a bu hyn yn gryn rwystr ar ei ffordd yn y byd. Ymgydnabyddodd ddigon gyda'r iaith Lladin, fel ag i allu cyfieithu caneuon Horace, a *Metamorphoses* Ovid i'r Gymraeg ar fesur cywydd. Ceir yn y *Cambrian Register* am 1796, engraifft o'i allu fel awdwr Seisnig, sef ei "Statistical Account of the Parishes of Llanerfyl, Llangadfan, and Garthbeibio." Yr un cyhoeddiad hefyd a gynwys fywgrafiad dyddorol ohono gan Gwallter Mechain. Meddyliodd am ymfudo i'r America, a ffurfio gwladfa Gymreig yn rhywle tua Kentucky; gohebodd gyda Syr Wm. Pulteney, yr A.S. tros Amwythig, ond siomwyd ef yn ei amcan, a bu farw yn Awst, 1795.—*Cambrian Register*, 1796.

JONES (WILLIAM), offeiriad Llandudoch, sir Benfro, ydoedd frodor o sir Forganwg, ac a anwyd yn 1749. Gwasanaethodd y plwyf uchod am haner can' mlynedd. Yr oedd gogwydd ei feddwl at Fethodistiaeth, ac yn cyd lafurio a chydolygu â Griffiths Nefern, a Jones o Langan. Yr oedd yn bregethwr gwresog a phoblogaidd, a'i eglwys yn gyrchfa tyrfaoedd mawrion. Ymneillduodd ef oddiwrth y Corph pan yn ymneillduodd y Corph cddiwrth yr Eglwys Sefydledig. Bu farw Hydref 31, 1826, a chladdwyd ef yn mynwent Llandudoch, lle nid oes gymaint a chareg yn dynodi ei orweddfa.—*Meth. Cymru.*

JONES (PARCH. JOHN), o Seion, Merthyr, pregethwr hyawdl a thra phoblogaidd gyda'r Bedyddwyr. Ganwyd ef mewn anedd-dy o'r enw Cwm Sgylhaig Fach, ger Talybont, sir Aberteifi, yn 1805. Ei rieni oedd Mason a Mary Jones, pobl isel eu hamgylchiadau bydol. Yr oedd Mason yn ddyn lled anystyriol, ac hynod am ei ffraethineb, ac y mae lluoedd o chwedleuon digrif yn hofran o amgylch ei enw; ond yr oedd ei wraig yn ddynes seml a chrefyddol, a bu ei dylanwad hi yn fendithiol iawn ar ei mhab. Canfyddid rhyw arwyddion lled addawol yn John Mason (canys felly y gelwid ef y pryd hwnw), er pan oedd yn dra ieuanc, a thueddodd hyny eglwys y Bedyddwyr yn Talybont i roddi iddo bar o ddillad newydd, fel y gallai ddyfod yn weddus i'r ysgol Sabbathol: a phan yn 16eg oed, bedyddiwyd ef ar broffes o'i ffydd. Ac o fewn y flwyddyn hono, dechreuodd arfer ei ddawn yn y gyfeillach, daeth yn fuan yn gyhoeddus, ac yn bregethwr ieuanc tra derbyniol. Yr oedd ei awydd am wybodaeth y pryd hwnw yn angherddol, a meistrolodd elfenau cyntaf dysgeidiaeth yn lled fuan, fel yr ydym yn ei gael, yn mhen dwy flynedd, yn cadw ysgol ddyddiol yn Pontllyfni, ger Caernarfon, ac yn pregethu yn boblogaidd trwy y wlad. Yno fe dynodd ei dalentau sylw Lord Newborough, yr hwn a ymdrechodd ei ddarbwyllo i gysegru ei alluoedd i fyfyrio y Gyfraith, ac a addawodd ddwyn ei holl dreulion hyd nes y byddai yn *qualified Barrister;* ond gwrthododd y cynygiad haelfrydig. Yn 1830, derbyniwyd ef yn fyfyriwr i Athrofa y Fenni, lle y bu am dair blynedd. Cafodd alwadau oddiwrth amryw eglwysi, ond efe a gydsyniodd ag eiddo Horeb, Blaenafon, ac urddwyd ef yno Ionawr 22, 1834. Llwyddodd yr achos yn rhyfeddol o dan ei weinidogaeth, adeiladwyd yno gapel newydd, a daeth "Jones Blaenafon" yn fuan yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd a feddai Cymru. Ac ar ol bod yno am tua phum' mlynedd, efe a gafodd alwad i Gapel Seion, Merthyr, i fod yn olynydd i'r Parch. David Saunders, a symudodd yno yn 1839; ac adwaenid ef bellach trwy ei oes, wrth yr enw "Jones o Seion," neu "Jones Merthyr." Bu ei weinidogaeth o dan arddeliad neillduol yn y maes eang a phoblogaidd

Digitized by Google

hwnw, fel yr aeth addoldy Seion yn rhy gyfyng, a gorfu i'r eglwys helaethu lle ei phabell, ac estyn hefyd gortynau ei phreswylfeydd, i lawr i Abercanaid, ac i fynu i Gefncoed-y-cymer; a hi dorodd allan ar y dde ac ar yr aswy. Cyfarfu Mr. Jones a damwain ofidus yn 1841, yr hon a adawodd ei heffeithiau arno hyd derfyn ei oes. Tra yr oedd yn ffynon Llanfair Muallt am ei iechyd, fe aeth allan gyda chyfaill mewn cerbyd un diwrnod i'r Bontnewydd, ond gwylltiodd y ceffyl ar y ffordd, a neidiodd Mr. Jones i lawr, a thorodd ei ddwy glun, a thrwy gamdriniaeth feddygol, ni wellhaodd ond un glun byth yn dda, arosodd y llall yn gam, fel y gorfodwyd ef i gerdded wrth ei ffyn baglau tra fu byw. Ond er fod y cloffni yn groes drom iddo ef, ni leihaodd ddim ar ei ddefnyddioldeb, na'i boblogrwydd, gartref nac oddi cartref. Bu yn weinidog llwyddianus yn Seion, Merthyr, am ugain mlynedd, ac yn un o gedyrn enwocaf esgynlawr cymanfa y Bedyddwyr yn Nghymru. Pregethodd lawer yn mhrif drefydd Lloegr, yn Gymraeg ac yn Seisnig; ac arhôdd ei fwa yn gryf hyd oni fachludodd haul ei fywyd ar y 5ed o Fai, 1859, ac efe yn 52 mlwydd oed. Claddwyd ef yn yr un bedd a Rhys Jones, a David Saunders, ei gynfugeiliaid. Safai Mr. Jones yn uchel yn mhlith ei frodyr yn yr enwad. Eisteddodd yn nghadair barchus Cymanfa Morganwg am lawer o flynyddau, a llanwodd hi yn anrhydeddus hyd ei farwolaeth. O ran ei ddyn oddi allan, yr oedd ganddo gorff cadarn, tal, unionsyth, a gwisgi; gwyneb hirgrwn a llyfndew, talcen uchel, llygaid gleision, mawrion,—yn ymddangos ar "dor y croen," ac edrychiad cwbl foneddigaidd, gorchymynol, a mawreddog. Yr oedd ei arddull yn cyfranogi yn helaeth o'r prydferth a'r mawreddog. Darllenai ei destun yn eofn a chyflym, a chyda rhyw fawredd a awgrymai ei fod newydd ddyfod allan o lys y Brenin, a'i fod yn dwyn cenadwri am fywyd y gynulleidfa. Ni arosai byth braidd i esbonio, nac i ymresymu; ond traethai ei genadwri yn awdurdod yr orsedd. Anfynych iawn y gwnelai unrhyw ddefnydd o hanesiaeth, na gwyddoniaeth, ond yn unig fel awgrymiadau, er y medrai wisgo eu prydferthion am dano oll fel barddwisg; ond Efengyl Crist oedd ei bobpeth ef. Ni chlywsom neb erioed yn gallu dweyd mor effeithiol ag ef am tua deugain mynyd. Yr oedd ei edrychiad, ei ystum, ei bwnc, ei iaith, ei lais, a'i holl arddull, yn cydweddu a'u gilydd mor brydferth, ac yn ymddangos mor naturiol a mawreddog, nes byddem yn teimlo rhyw lais oddi mewn ini yn dweyd o hyd, "Dyma beth yw pregethwr." Ymddangosai fel pe buasai wedi ymwisgo yn holl brydferthion natur a chelfyddyd, a'i lygaid fel dau begwn gwefrdyniant, yn gwasgaru hylif trydanol; a'i resymeg ar dân, ac yn ymdywallt yn rhaiadr llosgedig. Clywsom hen werin-wr yn ei gyffelybu unwaith i gatrawd o wyr meirch, mewn cyflawn arfogaeth, yn myned heibio ar *Quick March*, ac ar ol iddynt fyned o'r golwg, nad oedd gan neb un meddyldrych fath rai oeddynt, rhagor na'u bod yn ymddangos yn hynod o fawreddog; ac nid yw y gymhariaeth yn un anmhriodol, ar lawer ystyr; oblegid nid oedd Mr. Jones byth idd ei weled yn aros i ymdroi yn un lle, na byth yn ymgodi yn uchel, a disgyn yn ei ol, ac ymgodi drachefn, fel bydd y cyffredin yn gwneud; ond ymdeithio y byddai ef fel gwron, yn amlder ei nerth; neu ymgodi, fel llanw y mor, yn uwch, uwch, ac uwch o hyd, nes cyrhaedd ei *glimax*. Ac nid rhyfedd fod y bobl yn methu dal ond ychydig o'i bregethau; yr oedd ei ddeiweddau yn ymddangos mor newydd ac mor brydferth, ac yn disgyn yn y fath gyflawnder cyfoethog, nes oedd y gwrandawyr fel wedi ymddyrysu yn nghanol y pryd-

Digitized by Google

ferthion, yn gollwng ei gafael o'r naill er mwyn ceisio dal y llall o hyd, ac yn y diwedd yn fynych yn teimlo mor siomedig ag y bydd plant ar ol bod yn ceisio gafael yn lliwiau yr enfys. Yr oedd y pregethwr fel pe buasai yn sefyll ar drothwy y byd a ddaw, ac a llygad noeth yn edrych ar y sylweddau tragwyddol—gwerth enaid—aberth y Groes,—a'r farn a fydd; a'i enaid yn ymchwyddo, ac yn ymarllwys yn y gwirioneddau byw oeddynt yn anadlu ac yn llosgi, nes oedd y gwrandawyr ac yntau, am yr amser, yn ymdoddi yn un fodolaeth, ac fel y môr o dan bwysau yr ystorm, yn cydgynhyrfu o dan nerthoedd y byd a ddaw. Mae rhai o'i bregethau wedi eu hargraffu yn nghyhoeddiadau yr enwad; ond wrth eu darllen, yr ydym yn teimlo priodoldeb dywediad y pregethwr Ffrengaidd,—"Os mynwch argraffu fy mhregethau i, rhaid i chwi fynu argraffu y pregethwr gyda hwynt."

JOSEPH, esgob Llandaf yn yr 11eg ganrif. Cysegrwyd ef i'r swydd Hydref 1, 1022. Yn 1030, rhoddes gyhoeddiad allan yn erbyn gweithio ar wyliau a Sabbathau, a pharodd i'r offeiriaid ddysgu yr Ysgrythyrau i'r bobl heb dâl na gwobr, ac eiddunodd hwynt i ymogelyd ymrysonau a chynhenau. Dywed Caradog o Langarfan ei fod yn esgob enwog am ei ddysg, doethineb, a'i dduwioldeb; a chwanega iddo farw yn 1043, tra y rhydd Godwin ei farwolaeth yn 1046, yn Augusta, pan ydoedd ar daith i Rufain. —*Myv. Arch.*

KENYON (ARGLWYDD LLOYD), ydoedd ail fab Lloyd Kenyon, Ysw., ac a anwyd yn Gredington, sir Fflint, Hyd. 5, 1732. Yr oedd ei dad yn foneddwr gwladaidd, annibynol ei amgylchiadau, ac yn ynad heddwch. Gyrwyd ef yn ieuanc i ysgol ramadegol enwog Ruthin, lle yr arosodd hyd onid oedd yn bumtheg oed, pryd y rhwymwyd ef gyda Mr. Tomkinson, cyfreithiwr enwog yn Nantwich, a bu yno am rai blynyddau. Ar farwolaeth ei frawd hynaf, penderfynwyd ei ddwyn i fynu yn fargyfreithiwr, ac yn 1754, cymerodd ystafelloedd yn y *Temple*, a daeth yn aelod o *Lincoln's Inn*. Galwyd ef at y bar yn 1761, ond gan nad oedd ganddo gysylltiadau proffeswrol, a'i fod o feddwl rhy annibynol i gardota gwaith, aeth llawer blwyddyn heibio heb iddo ddderbyn ond ychydig gefnogaeth. Er hyny, parhaodd i efrydu yn ddiflin a phenderfynol, gan fynychu llysoedd y cyfreithiau cyffredin a'r uchel gyfiawnder (*equity*), ac yn raddol enillodd iddo ei hun gymeriad uchel yn ei alwedigaeth. Yn 1773, priododd ei gyfnither, merch i George Kenyon, Ysw., o Peel, yn sir Gaerhirfryn; a thua'r pryd hwnw enillodd ffafr Thurlow, wedi hyny yr arglwydd-ganghellydd. Yn 1780, enwogodd ei hun yn fawr trwy amddiffyn Arglwydd George Gordon; ac yn 1782, dyrchafwyd ef i'r swydd o gyfreithiwr cyffredinol, ac yn brif-ynad Caerlleon. Bu ddwywaith yn gyfreithiwr cyffredinol, y tro cyntaf ymneillduodd gyda Iarll Shelborne a Mr. Pitt yn 1782. Penodwyd ef yr ail waith ar ddychweliad Mr. Pitt i awdurdod fel prif-weinidog yn 1783, eithr ni ddaliodd y swydd ond tros fyr amser gan fod ei iechyd yn dirywio o tan ei fawr lafur seneddol a chyfreithiol. Yn 1784, penodwyd ef yn Feistry Rolau, a gwnaed ef yn farwnig, ond nid oedd ei enillion yn gyfartal i'w dderbyniadau pan yn ddadleydd. Yn Mai, 1788, olianodd Arglwydd Mansfield fel prif-ynad y Frenhinfainc, a dyrchafwyd ef i Dy yr Arglwyddi tan y teitl Arglwydd Kenyon, barwn Gredington. Penodwyd ef yn un o'r cynghor i gynorthwyo y frenhines Charlotte, yn ei gofal am y brenin; ac yn 1796, yn arglwydd-raglaw ei sir enedigol. Daliodd i lanw ei swydd fel barnwr, a chymeryd rhan yn symudiadau gwladyddol pwysicaf y dydd, gan bleidleisio yn ddieithriad gyda'r blaid

Digitized by Google

Doriaid, hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Ebrill 2, 1802, yn 70 oed. Claddwyd ef yn meddrod y teulu yn Hanmer, sir Fflint, a chywir y dywed yr argraff sydd ar ei gofgolofn, "ei fod wedi gadael ar ei ol enw yr edrycha ei deulu ato gyda serch ac ymffrost difeius, a'r hwn a gofir gan y wladwriaeth gydag edmygedd a pharch, cyhyd ag y parheir i anrhydeddu egwyddorion mawrion ac unol trefn mewn crefydd, cyfraith, a chymdeithas." Yr oedd arglwydd Kenyon yn ymddifyrru weithiau gyda'r awen, ac y mae darn o'i waith i'w weled yn y *Cambrian Quarterly* ii. 223; a cheir bywgraffiad dyddorol ohono yn rhifyn cyntaf y cylchgrawn hwnw.

KEMEYS (Syr Charles), Barwnig. Efe ydoedd y barwnig o Gefnmabli. Bu yn cynrychioli sir Fynwy yn senedd ddiweddaf y frenhines Ann, a sir Forganwg y ddwy seneddiad nesaf ar ol hyny. Talwyd llawer o sylw i'r boneddwr hwn, pan oedd ar ei deithiau, gan Sior I. o Hanover, a byddai yn aml yn ei gyfeillach gyfrinachol. Pan esgynodd ei fawrhydi i orsedd Prydain, efe a ymofynodd pa fodd yr oedd ei hen adnabyddiaeth, Syr Charles Kemeys, heb fod oddeutu y llys; a gorchymynodd iddo ddyfod i St. James; a chan ddanfon negesydd, dywedodd ei fawrhydi, fod brenin Lloegr yn gobeithio fod Syr Charles Kemeys yn cofio rhif y pibellau a ymfygodd gyda'r brenin yn yr Almaen. Atebodd Syr Charles,—yr hwn oedd wedi cilio o'r Senedd, ac yn Jacobydd cadarn—y byddai yn falch ganddo ddyfod i'r llys, a thalu ymweliad i *Etholydd Hanover*, ond na chafodd ef erioed yr anrhydedd o ymfygu pibellaid gyda *brenin Lloegr*. Bu Syr Charles farw yn ddibriod, a darfu y farwniaeth.—*Lleyn MSS.*

KEMEYS (Syr Nicholas), Barwnig, ydoedd fab i Rhys Kemeys o Lanfary, a merch y Dr. Wm. Aubrey; ac ŵyr i David Kemeys o Gefnmabli, Morganwg, a châr i Oliver Cromwell. Efe a briododd Jane, merch Syr Rowland Williams, o Langybi, Mynwy. Efe a fu yn A.S. dros Forganwg, a gwnaed ef yn farwnig Mai 13, 1642. Yr oedd yn hynod o ran ei faint a'i nerth cawraidd. Ymhynododd hefyd yn ei sel dros Siarl II; ac ar doriad allan y rhyfel gwladol, cyfododd fyddin o wyr meirch: ac wedi cael cadbeniaeth, efe a amddiffynodd yn wrol gastell Casgwent, yn erbyn byddin fwy o lawer o dan Cromwell ei hun. Darfu i Syr Nicholas, gyda'i fab Charles, yr hwn oedd yn is-gadben iddo, gyda 160 o wyr ddal allan, a gwneyd llawer cilgwthiad, nes i'r gaer lwyr flino a diffygio; a gwnaed bwlch, a bu y llywodraethwr a 40 o wyr feirw o'r diwedd, yn amddiffyn y Castell.—*Lleyn MSS.*

LAUGHARNE (Rowland), swyddog milwrol enwog yn ystod y rhyfel cartrefol, ydoedd frodor o sir Benfro. Pan yn ieuanc, bu yn ngwasanaeth iarll Essex fel trillydd, a thrwy ddylanwad y pendefig hwnw dyrchafwyd ef yn gyflym yn myddin y senedd. Wedi cyrhaedd y radd o filwriad a chadfridog, gorchfygodd y breninwyr amryw weithiau yn sir Benfro, a'r siroedd cymydogaethol, ac am ei wasanaeth gwerthfawr, y senedd â'i hanrhegodd ag etifeddiaeth Slebech, yn sir Benfro. Ond yn 1648, Laugharne a newidiodd ei ochr, ac a ymunodd â'r breninwyr yn yr ymgais olaf a wnaed yn ystod y rhyfel cartrefol i adenill breiniau cynhenid y brenin, a chafodd lywyddiaeth byddin gan y teyrn hwnw. Ar yr 8fed o Fai, gydag wyth mil o wyr, cymerodd brwydr le rhyngddo â byddin y senedd, o tan y Milwriad Horton, ger St. Ffagan, Morganwg; ac ar ol ymladdfa galed, llwyr orchfygwyd ef, a rhan fawr o'i wyr naill ai a laddwyd neu a gymerwyd yn garcharorion. Efe a ddiangodd i gastell Penfro, a gwarchaewyd ef yn galed yno

Digitized by Google

o tan arolygiaeth Cromwell ei hun. Daliodd allan hyd Gorph. 11, wedi cael ei ddarostwng yn y cyfamser i gyfyngder mawr, a'i wyr ac yntau heb ganddynt fwyd i'w meirch ond a dynent oddiar benau y tai. O'r diwedd, gorfu arno ef a'i filwriaid Roger a Powell ymdaflu ar drugaredd, y gelyn, a chaniatawyd i'w swyddogion eraill ymfudo tros y mor. Y tri a garcharwyd am yspaid blwyddyn yn nghastell Windsor; ac Ebrill 10, 1649, arweiniwyd hwynt i Lundain, i sefyll eu prawf ger bron cynghor rhyfel, pryd eu condemniwyd i farw. Pa fodd bynag, rhoddwyd caniatad iddynt dynu gwystl, a syrthiodd y coelbren ar Roger, yr hwn a saethwyd yn Covent Garden, ar y 25ain o'r mis hwnw; eithr drwgdybid fod y wystl wedi ei drefnu yn fradwrus, er mwyn arbed bywydau Laugharne a Powell yn daledigaeth am wasanaeth y ddau gynt i achos y senedd. Difeddianwyd ef o ystad Slebech, trwy weithred seneddol dyddiedig Hydref 18, 1649.—Wms. *Em. Welsh.*

LEE (CHARLES), a anwyd yn Nghymru yn 1731. Daeth i America yn 1756. Yr oedd yn wybodus mewn amryw o ieithoedd y Cyfandir. Mabwysiadodd y broffes filwraidd yn ieuanc; ac ymenwogodd yn y rhyfel yn erbyn y Ffrancod a'r Indiaid. Bu yn aros, dros beth amser, gyda Indiaid Mohawk, a gwnaed ef yn benaeth y llwyth, o dan yr enw o "Ddwr Berwedig," yn nhafodiaith Mohawk. Yn 1762, gwnaed ef yn filwriad, a gwasanaethodd o dan Burgoyne yn Portugal. Efe a ddychwelodd i Loegr, ac a ymyrodd a gwlad-lywyddiaeth; ac wedi hyny bu yn gwibdeithio tros holl Ewrop. Cafodd dderbyniad ffafriol yn mhob lle, ac o'r diwedd daeth i wasanaeth Pomatowski brenin Poland. Aeth wedi hyny gyda chenadwr y brenin i Twrci, ac oddi yno efe a ddychwelodd, yn 1773, trwy Paris i America, a phrynodd dir yn Virginia. Wedi rhoddi ei swydd i fynu yn y fyddin Frutanaidd, derbyniodd benodiad o *Major General* yn y gwasanaeth Cyfandirol. Cymerwyd ef yn carcharor, ac wedi hyny rhyddhawyd ef mewn cyfnewidiad am y Cadfridog Prescott. Cymerodd holl Doriaid Ynys Rhode yn garcharorion, a gwnaeth lawer gorchwyl pwysig o flaen Charlestown, a rhanau eraill o'r wlad. Caniateid ei fod y maeslywydd galluocaf yn y fyddin Gyfandirol. Fel Cymro, yr oedd yn caru ei genedl, gan hyf gondemnio y brenin Sior III., ond rhoddai air da i Dywysog Cymru. Oblegid rhyw gamddealltwrieth, cymerwyd ei swydd oddiarno yn 1780. Bu farw yn Philadelphia, yn y "Ty Llechi" (yr hon a fu yn anedd William Penn), Tachwedd 2, 1781, yn 51 oed; a chladdwyd ef yn nghladdfa Eglwys Grist, yn y ddinas hono.—Dr. Jones' *Cymry of '76.*

LEWIS AB EDNYFED, bardd rhwng 1540 a 1570.

LEWIS AB EDWARD, bardd rhwng 1600 a 1630. Y mae peth o'i waith mewn ysgriflyfrau.

LEWIS AB HYWEL, bardd rhwng 1560 a 1600. Y mae peth o'i waith yn nghadw mewn ysgriflyfrau.

LEWIS AB IFAN AB SIANCYN, bardd a duweinydd o Fon, yn ei flodeu rhwng 1570 a 1600.

LEWIS (DAVID), D.C.L., ydoedd frodor o sir Fynwy, fel y tybir. Bu yn benaeth coleg Iesu, Rhydychain, a meistr yn Sianseri; ac hefyd yn farnydd y llys Morwrol. Bu farw Ebrill 27, 1584, a chladdwyd ef yn eglwys Abergafeni, lle y rhoed gwyddfa ar ei fedd.—(Cox's *Monmouthshire* p. 192.) Y mae llythyr o'i eiddo at Syr Edward Stradling o St. Donats, yn gofyn am y lle o geidwad y carchar i ryw David Morgan, gan Syr Edward, pan oedd yn sirydd, dyddiedig o Lundain,

Digitized by Google

Gorph. 18, 1578.—Stradling's *Correspondence.*

LEWIS (PARCH. DAVID), offeiriad Llanllawddog, ger Caerfyrddin, ydoedd fardd da yn ei amser. Efe a olygodd "*Flores Poetarum,*" y Dr. John Davies, Fallwyd, yr hwn a gyhoeddwyd gan Iago ab Dewi, yn 1710; ac a chwanegodd at y gwaith gwreiddiol amrywiol ddarnau eraill, ac yn eu plith ychydig o'i gyfansoddiadau ef ei hun, megis "Cywydd ar Ddyoddefiadau Crist," "Englynion i rai chwanog i Gablu," &c. Bu wedi hyny yn rector Llangatwg, yn Morganwg; ond ni wyddis pa bryd na pha le y bu farw.

LEWIS (SYR GEORGE CORNWALL), ydoedd fab i'r Anrhydeddus Syr Thomas Frankland Lewis o Gwrt Harpton, yn sir Faesyfed, o'i wraig Harriet, ferch Syr George Amyand Cornwall, o Gwrt Mocas, yn sir Henffordd, ac a anwyd Hyd. 1806. Wedi cael egwyddorion ei ddysgeidiaeth yn Eton, efe yn 1824, a aeth i Goleg Eglwys Crist, Rhydychain. Yn 1844, efe a briododd Lady Mena Theresia Villiers, chwaer i Arglwydd Clarendon. Cymerodd ei B. A. yn 1828. Dygwyd ef i fynu yn gyfreithydd yn y Deml Ganol. Yn 1831, efe a ddilynodd ei dad, fel prwywr cyfraith Hodson. Yn 1847, etholwyd ef yn A.S; pan y gwnaed ef hefyd yn ysgrifenydd y *Board of Control.* Yn 1848, daeth yn is-ysgrifenydd Cartrefol; ac yn 1850, yn ysgrifenydd y Drysorfa. Yn 1855, adfeddianodd y swydd, a daeth yn Ganghellydd y Drysorfa; ac wed'yn i'r swyddfa Gartrefol, ac yn olaf i'r swyddfa Ryfel. Yr oedd hefyd yn llenor enwog. Yn 1830, cyhoeddodd mewn cysylltiad ag un Mr. Tufnell, "History and Antiquities of the Doric Race." Wedi hyny, cyhoeddodd "Criticism on German Criticism," "Inquiry into the Credebility of early Roman History." Traethawd ar "The Origin and Foundation of the Romance Languages." Hefyd yn amryw gyfrolau, y rhai a ganlyn:—"On the influence of authority in matters of opinion," "On the use and abuse of Political Terms," "On Local Disturbances and the Irish Church Question," "On the Government of Dependences," ac "On the method of Observation and Reasoning in Politics." Cyhoeddodd hefyd waith ymchwilgar, "On the Astronomy of the Ancients;" ac yr oedd newydd ddyfod o'r wasg ychydig ddyddiau cyn ei farw, ei "Dialogue on the best form of Government." Bu farw Ebrill 12, 1863, yn 58 oed. Bu beth amser hefyd yn olygydd yr "Edinburgh Review."—*Times,* Ebrill 15, 1863.

LEWIS GIG EIDION, neu Lang Lewis, ydoedd fardd enwog rhwng 1580 1620. Y mae llawer o waith yn nghadw mewn ysgrifyfrau.

LEWIS (PARCH. JENKYN), D.D., a anwyd yn y Brithdir, plwyf Gelligaer, sir Forganwg, Awst 12, 1760. Addysgwyd ef o tan Dr. Davies yn ngholeg Abergafenni, ac am beth amser, bu yn cynorthwyo Dr. Williams, fel is-athraw yn Nghroesoswallt. Yn Nhachwedd, 1783, ordeinwyd ef yn weinidog eglwys yr Annibynwyr yn Nghwrecsam, a chafodd ei benodi yn athraw coleg Annibynol Gogledd Cymru, yr hon a gedwid ar y pryd yn y dref hono. Yn 1811, symudodd i gymeryd gofal athrofa newydd yn Manchester; lle yr arosodd hyd 1815, pryd y derbyniodd wahoddiad eglwys Capel Hope, Casnewydd, sir Fynwy, lle y treuliodd weddill ei oes yn dra dedwydd a defnyddiol. Bu farw Awst 11, 1831. Cafodd ei raddio yn D.D. gan un o golegau America, eithr efe a wrthododd yr anrhydedd. Yr oedd y Dr. J. Lewis yn wr gwir rhagorol; dilynwyd ef fel athraw coleg y Gogledd gan yr enwog Dr. George Lewis.

Digitized by Google

LEWIS (MATHEW), a anwyd tua 1817 yn Llanidloes, sir Drefaldwyn. Gwasanaethodd ei amser fel gwehydd yn y dref hono, eithr gan fod ganddo dalentau ysplenydd, tybid ei fod wedi ei gyfaddasu i lanw rhyw gylch uwch. Ymunodd â'r Annibynwyr, a chodwyd ef yn fuan i bregethu yn eu plith. Trwy swynion anghyffredin ei ddoniau, yn nghyda chynesrwydd llednais ei dymher, enillai serch pawb y deuai i gydnabyddiaeth â hwynt. Yn lle myned i athrofa, dewisodd yn hytrach fyned i bentref gwledig yn sir Fon, i gadw ysgol, a gweinidogaethu ar eglwys fechan. Wedi bod yno am ychydig flynyddau, symudodd i gymeryd gofal yr eglwys yn Mangor a ysgaresid oddiwrth gynulleidfa y Parch. Arthur Jones. Yno, dringodd i safle uchel fel pregethwr, ac ystyrid ef yn un o wyr ieuanc mwyaf addawol y pwlpud Cymreig. Yn mhen rhai blynyddau, derbyniodd alwad eglwys Annibynol Treffynon, lle y cyrchai lluoedd i'w wrando, ac y lledai ei barch a'i enwogrwydd yn anarferol. Priododd ferch y cenadwr enwog y Parch. D. Griffiths, Madagascar, yr hwn a fu am yspaid yn gofalu am eglwys Annibynol yn Essex, a byddai Mr. Lewis, pan ar ymweliad a'i deulu yn nghyfraith, yn pregethu yn Saesneg yn fynych i'r gynulleidfa hono, gan lwyr enill ei serch trwy hylithr-rwydd ei ddawn, a phrydferthwch ei ddrychfeddyliau. Yn mhen yspaid wedi iddo ymsefydlu yn Nhreffynon, bu Mrs. Lewis farw; ac agorodd yr amgylchiad hwnw yr argau i genllif o drallodion ymdywallt ar ei feddwl tyner. Tra y bu hi byw, yr oedd dedwyddwch yn ymgartrefu yn ei anedd, a llwyddiant yn gwenu arno; ond pan y cymerwyd ei briod ymaith gan angau, ymollyngodd o flaen y dymestl, a chollodd ei holl wroldeb moesol. Rhuthro'd y pechod parotaf i'w amgylchu arno, lladdwr y cewri—y ddiod gadarn, a gadawodd faes ei lafur yn ddisymwth a dirybudd, am na oddefai ei gydwybod iddo ddal yr Efengyl yn un llaw, a'r gwpan yn y llall. Daeth trosodd i Liverpool, a bu am rai blynyddau yn brwydro gyda'i hen elyn—weithiau'n orchfygwr, weithiau'n orchfygol. Bu am yspaid yn is-olygydd yr *Amseraw*, a thra yn y sefyllfa hono ysgrifenodd ddau ffug-hanes gwreiddiol, galluog, a dyddorol i'w golofnau, sef "Rhydderch Prydderch," a'r "Dwy Lili." Yn y cyfamser hefyd ysgrifenai gyfres o benodau meistrolgar i'r *Traethodydd* o hanes "Gwyr Ieuainc Llanllenorion," a cheir traithawd o'i waith yn yr un cyhoeddiad yn dwyn y teitl, "Y Fodrwy Briodasol." Y rhai hyn oll a arddangosant eu hawdwr yn ddyn o brofiad helaeth, ysgrifenydd medrus, a meddyliwr o radd uchel. Ond er y coleddid y meddyliau uchaf am dano, ac yr amgylchid ef gan gylch helaeth o gyfeillion, nis gallai yn ei fyw gael y llaw uwchaf ar ei hen elyn. O'r diwedd, ymrestrodd yn filwr gyda'r gwyr traed; aeth gyda'i gatrawd i China; ac wedi ei godi yn *sergeant* yn eu plith, bu farw yno tua 1860.

LEWIS (PERCIVAL), F.A.S., ydoedd fab i Edward Lewis, A.S., o Downton, sir Faesyfed. Dygwyd ef i fyny yn gyfreithiwr, daeth yn aelod o Lincoln's Inn, a bu yn dadleu ar gylchoedd y sesiwnau Cymreig. Priododd Miss Clay, yr hon oedd yn meddu cyfoeth helaeth. Wedi hyny, rhoddodd y gyfraith i fyny, ac a ymgododd yn swyddog y Gwirfoddolwyr. Cyhoeddodd, "Historical Inquiries concerning Forest and Forest Laws." Bu am beth amser yn brif ynad St. Alban. Bu farw yn Medi, 1822, yn 64 oed; a chladdwyd ef yn Maesyfed.—*Lleyn MSS.*

LEWIS (THOMAS), o'r Llechau, yn mhlwyf Llanharri, Morganwg, bardd yn ei flodeu rhwng 1590 a 1620. Y mae ychydig o'i waith ar gael mewn ysgriflyfrau; a marwnad Sion Gruffydd o Langrallo, o'l

Digitized by Google

waith yn argaffedig yn *Greal* Llundain, tudal 400.

LEWIS (THOMAS), Ysw., ydoedd fab y Milwriad Thomas Lewis, o Harpton Court, sir Faesyfed, ac a anwyd yn 1690; ac ar ddyfodiad teulu Brunswick i'r orsedd, a ddychwelwyd i'r senedd tros Faesyfed, yr hwn le a gynyrchiolodd dros haner can' mlynedd. Bu farw yn 1777, yn 87 oed.—Burke's *History of the Commoners.*

LEWIS (FRANCIS), ydoedd fab i weinidog yn yr Eglwys Sefydledig yn Llandaf, sir Forganwg, lle y ganwyd ef yn 1713. Ei fam oedd ferch i Dr. Pettinger, yr hwn oedd yntau yn weinidog yn y sefydliad esgobaethol, ac yn trigiannu yn Nghaernarfon. Gan iddo gael ei adael yn ymddifad yn ieuanc iawn, dygwyd ef i fynu gan ei fodryb chwaer ei fam, gweddw o'r enw Llywelyn, oedd yn byw yn sir Gaernarfon, yr hon a'i dysgodd yn yr iaith Gymraeg. Bu wedi hyny gyda rhyw berthynasau yn *Scotland,* lle y dysgodd iaith brodorion y wlad hono. Oddiyno darfu i ewythr iddo, ag oedd yn ddeon St. Paul, ei drawsfudo i ysgol *Westminster,* lle y daeth yn ysgolor da. Gan mai at fasnach yr oedd ei duedd, ac wedi gwasanaethu fel egwyddorwas, efe a gynullodd yn nghyd y meddianau a adawsid iddo gan ei dad, a hwyliodd tuag Efrog Newydd, lle y cyrhaeddodd yn ngwanwyn 1785. Ymunodd yn gydfasnachydd âg un E. Annesley, ac â chwaer yr hwn yr ymbriododd yn 1745. Yr oedd yn fasnachydd bywiog ac yn ei drafodaeth fasnachol, teithiodd ran fawr ar gyfandir Europ; gan ymweled a phorthladdodd Rwssia, ynyseedd Orkeys a Shetlands, a chael ei longddryllio ddwywaith ar ororau yr Iwerddon. Yn amser y rhyfel â'r Ffrancod Canadaidd, bu am dymor yn oruchwyliwr i ddiwallu angenrheidiau y byddinoedd Prydeinig. Yr oedd gyda y gorchwyl hwn yn Awst 1756, pan y rhoddwyd amddiffynfa Oswego i fynu i'r cadben Ffrencaeg. Ystyrid gwasanaeth Mr. Lewis yn y rhyfel yma o gymaint gwerth fel y caniatawyd iddo gan y llywodraeth Brydeinig 5000 o erwau o dir. Mewn ymdrafodaeth a'r Indiaid yn Oswego, gallodd wneud cytundeb o heddwch na allasai neb arall, trwy y tebygoliaeth rhwng iaith yr hen Gymry, yr hon a ddeallai Mr. Lewis, meddir, ond y mae llawer o ddirgelwch o berthynas i'r amgylchiad hwn. Ymunodd â'r Trefedigaethwyr yn eu rhyfel yn erbyn Lloegr, ac fel cynrychiolydd i Efrog Newydd, arwyddodd ardystiad yr annibyniaeth. Dinystriwyd yr eiddo ag oedd ganddo yn Long Island gan y Saeson. Bu farw yn 1803, yn 90 oed.—Dr. Jones' *Cymry of '76.*

LEWIS (GEORGE), D.D., gweinidog enwog yn mhlith yr Annibynwyr, a duwinydd ac awdwr enwog. Y mae ychydig o wahaniaeth yn yr hanes a geir am dano gyda golwg ar le ac amser ei enedigaeth. Dywed y Parch. D. Peters, prif athraw coleg Caerfyrddin, iddo gael ei eni mewn tyddyn a elwir Y Fantais, plwyf Trelech, yn 1760; tra y dywed y Parch. E. Davies, M.A., mab-yn-nghyfraith y doctor, iddo gael ei eni mewn tyddyn a elwid Y Coed, yn agos i dref Caerfyrddin, yn 1763; a mwy na thebyg mai yr hanes a ddyry Mr. Davies yw yr un cywiraf, yn gymaint ag iddo wneud pob dyfal ymchwiliaeth i'r mater gyda phawb oedd yn gwybod rhywbeth yn ei gylch. Yr oedd ei rieni, William a Rachel Lewis, i bai rai yr oedd efe yn unig blentyn, yn cael eu hystyried yn bobl fucheddol, ac yn barchus iawn gan bawb. Yr oedd ei fam yn arddel ei hun yn aelod o'r Eglwys Wladol, tra nad oedd ei dad yn arddel ei hun ar enw o grefydd neb. Ymddengys ei fod yn arfer myned yn rheolaidd gyda'i fam i'r llan, yr hon a wnai ei goreu i fagu ynddo sel dros ei holl drefniadau. Anfonwyd ef i'r ysgol at y

Digitized by Google

Parch. John Pritchard, offeiriad Trelech; ac wedi hyny at y Parch. Thomas Evans, Llanddowror; yna am ryw gymaint, at y Parch. Owen Davies, gweinidog yr Annibynwyr yn Nhrelech; ac yn ddiweddaf oll, cyn dechreu ohono ar y gwaith o bregethu, at y Parch. John Griffiths, Glandwr, sir Benfro, yr hwn yr oedd ei glod yn uchel fel dysgawdwr drwy yr holl wlad. Yr oedd y Dr. er yn fachgen yn gwybod yr Ysgrythyr Lân, ac yn hoffi darllen pob math o lyfrau buddiol, ac yn foesol a diargyhoedd yn ei holl ffyrdd. Yr oedd y geirian a ddysgodd ei fam iddo, ynghyd â'i duedd ei hun, yn peri iddo ymgadw yn mhell oddiwrth bob gau lwybr cyffelyb. Ond nid oedd efe eto wedi ei ddal gan argyhoeddiad am ei gyflwr fel pechadur ger bron Duw. Yn y cyfamser, fodd bynag, gan ei bod yn adeg adfywiad ar grefydd, daeth un o'r pregethwyr Pentecostaidd heibio, fel ar ddamwain i Dreleeh, gan dynu tyrfaoedd ar ei ol; ac wrth weled y bobl yn myned yn lluoedd i'r capel, tueddwyd yntau i fyned gyda hwynt; a'r gair a glybuwyd a fu yn fuddiol i farnu meddyliau a bwriadau ei galon, ac o hyny allan ni rodiodd efe mwyach gyda'r llan. Ond cyn gwneud dim yn benderfynol, darllenodd y Testament newydd er cael gwybod natur Eglwys Gristionogol yn fanylach, a phwrcasodd *Holwyddoreg* yr Ymneilldnwyr gan y Parch. Samuel Palmer, i'r un dyben; yr hyn a roddodd gyflawn foddlonrwydd i'w feddwl am ysgrythyroldeb y drefn Annibynol, ac a barodd iddo fwrw ei goelbren gyda hwynt yn nghapel y Graig, lle y derbyniwyd ef yn gyflawn aelod gan Mr. Owen Davies, y gweinidog. Yr oedd hyn o'r flwyddyn 1779 i'r flwyddyn 1780, pan oedd efe o 16 i 17 oed. Ni bu yr eglwys a'r gweinidog yn hir, cyn gweled ynddo gymhwysderau i'r weinidogaeth, ac anogasant ef yn daer i ymgymeryd â'r gwaith; ac wedi dwys ystyriaeth, ac ymgynghori â chyfeillion ac â Duw, cydsyniodd â'r dymuniad. Ond i'r dyben i fod yn fwy cymhwys i fyned i'r athrofa, aeth i'r ysgol i Thilic, at Davies, wedi hyny o Gastell Howel, yr hwn a ystyrid yn ysgolfeistr galluog iawn; ac a arosodd yno am oddeutu blwyddyn a haner. Yr oedd efe yn ysgolhaig cyffredin gwych, pan yn myned yno; ond pan yn ymadael, yr oedd yn gallu darllen Virgil a Horace yn y Lladin, a'r Testament Newydd, a Xenophon a Homer, yn y Groeg. O Thilic aeth i athrofa Caerfyrddin, ond ni bu yno ond rhyw dair bynedd, gan i'r athrofa gael ei symud i Abertawe. Yr oedd hen eglwys enwog Pencader wedi rhoddi ei bryd ar ei gael yn weinidog er's talm, ac yntau eu hun yn awr yn gogwyddo yn gryf o ran ei feddwl tuag at hyny; ond anogwyd ef gan yr hen brophwyd, Edmund Jones, o Bontypool, i fyned ar daith i'r gogledd, ac yn neillduol i Gaernarfon, am fod yr eglwys yno wedi appelio ato am anfon iddynt ŵr yn ol meddwl Duw. Cydsyniodd Mr. Lewis â'r cais; ond er hyny, heb feddwl dim am ymsefydlu yn y gogledd. Hoffwyd ef yn fawr, gan yr ychydig braidd oedd yn Nghaernarfon, a rhoddasant alwad unfrydol iddo i fod yn weinidog iddynt; ond yr oedd yn petruso ei ateb, gan ei fod wedi rhoddi ei feddwl ar Bencader, ac wedi addaw wrthynt beidio ateb un alwad nes y clywai oddiyno. Ond wedi hir ddisgwyl, a dim gair yn dyfod, atebodd alwad Caernarfon yn gadarnhaol, ac urddwyd ef tua diwedd 1784. Ond gydag iddo gael ei urddo, dyma alwad Pencader i law, wedi bod haner blwyddyn ar ei thaith yn crwydro o'r naill fan i'r llall—yr Iwerddon, ac Ysgotland, a manau eraill. Ond yr oedd yn rhy ddiweddar: yr oedd y coelbren wedi ei fwrw, a Dr. Lewis bellach i fyw a marw yn y gogledd. Nid oedd efe y pryd hyn ond gwr ieuanc dwy ar hugain oed, a chanddo gryn lawer o elyn-

Digitized by Google

iaeth a rhagfarn at Ymneillduaeth i ymladd yn eu herbyn. Nid oedd y praidd yn Nghaernarfon ond ychydig, ac heb gapel i ymgyfarfod, ond yn unig ystafell oedd wedi ei chofrestru gan y Parch. Rice Harris, Pwllheli, er's deng mlynedd yn flaenorol. Ond efe a ymwrolodd yn ngwyneb yr anhawsderau, gan ymddiried ei hun a'i achos i law yr Arglwydd. Cododd yno gapel, ac a'i galwodd "Pendre;" a chadwodd ysgol ddyddiol er ei gynaliaeth. Ond heblaw ymdreulio gyda'r achos, y capel, a'r ysgol yn Ngaernarfon, efe a ymroddodd i eangu terfynau yr achos yn y wlad o amgylch, a sefydlu achosion newydd yn Bethel, Bethesda, a Bangor, ynghyd a'i chymydogaethau. Dywedir mai ar ben careg ar fin y ffordd y byddai yn arfer sefyll i bregethu yn Nghaerorion a Chaegwigyn, ar gyfrif yr hyn y byddai y bobl yn ei alw yn "Lewis pen careg." Llwyddodd yr Arglwydd ei ymdrechiadau yn helaeth yn y lle hwn. Tra yn Nghaernarfon, priododd y Dr. un Miss Jones, ail ferch Thomas Jones, ysw., Bodermid, yr hon oedd y pryd hwn yn byw gyda'i mam, yr hon oedd weddw, yn Mangor. Bu iddynt dri o blant—dau fab ac un ferch. George, yr hynaf, oedd feddyg yn Ngwrecsam, a William yn feddyg cyfrifol yn Llundain, a Sarah yn briod â'r diweddar Barch. Edward Davies, M.A., athraw clasurol athrofa Aberhonddu. Daeth i feddwl y Dr. yn gryf y pryd hwn i ymfudo i America; yr hon oedd ychydig o flynyddoedd cynt wedi enill ei hannibyniaeth, a gosod i fyny lywodraeth rydd a gogoneddus, i'r hon yr oedd miloedd yn ymfudo bob blwyddyn o'r wlad hon, yn gystal ag o wledydd eraill. Yr oedd y Dr. yn weriniaethydd selog, ac wedi dioddef cryn lawer o'r herwydd, ac yn dioddef i raddau yn barhaus; yr hyn a barodd iddo benderfynu hwylio tua'r gorllewin. Yr oedd efe wedi derbyn galwadau taerion i ddyfod drosodd fel gweinidog ac athraw oddiwrth yr enwog ddaearydd Dr. Morse, a Dr. S. Jones, Caerefrog Newydd. Ac yr oedd ei gyfaill, y Dr. Williams, Rotherham (Croesoswallt, ar y pryd) yn wresog dros iddo fyned, ac yn addaw anfon dau o'i feibion drosodd gydag ef i fod dan ei ofal. Tra yr oedd efe yn prysur barotoi i fyned ymaith, daeth i feddwl yr haelionus Mr. Jones, y *cutler*, o Gaerlleon, i sefydlu chwech o ysgolion dyddiol yn y gogledd, un i bob sir, ac i symud ar gylch; ac apeliodd at y Dr. Williams y crybwyllasom am dano yn barod i dynu cynlluniau, ac i edrych am wr cymhwys i'w harolygu. Yr oedd y fath gynygiad y pryd hyny, pan yr oedd moddion addysg mor brin, o werth annhraethol i'r wlad; ac mor bwysig i gael dyn cymhwys i edrych ar eu hol, fel y ceisiwyd gan Mr. Lewis i roddi i fynu y meddwl am ymfudo, ac ymgymeryd â'r gorchwyl. Yr oedd Dr. Williams yn meddwl fod hyn yn ddigon o reswm iddo dros newid ei fwriad, ac yn ddigon o reswm iddo yntau ei hun, ag oedd wedi bod yn ei anog i fyned i'r America, i'w anog yn awr i aros gartref. Ac ar y cais hwn o Gaer a Chroesoswallt, ac oddiwrth y rhan fwyaf o frodyr yn y weinidogaeth yn Nghymru, cydsyniodd i aros. Ac mewn cyfarfod mawr a gynhaliwyd yn y Bala, yn Mai, 1794, y gwnaeth efe y penderfyniad hwnw yn hysbys. Yr oedd hen eglwys Llanuwchlyn wedi rhoddi galwad iddo i ddyfod yno i'w llywodraethu yn yr Arglwydd er's rhai misodd yn flaenorol i hyn, ac yntau wedi eu hateb yn nacaol, ar gyfrif y meddwl oedd ganddo am ymfudo; ond pan ddeallwyd fod yr amgylchiadau wedi newid, rhoddasant alwad unfrydol o'r newydd iddo, a chydsyniodd yntau â'r cais, a symudodd yno yn nghorph yr haf. Y mae yn ymddangos ei fod wedi ei roddi yn weinidog i Lanuwchllyn gan Dduw yn ei foddlonrwydd. Bu yma yn llwyddianus

Digitized by Google

iawn am yn agos i ddeunaw mlynedd. Nid oedd nifer yr eglwys pan aeth yno ond prin bedwar ugain; ond pan ymadawodd yr oedd dros ddau cant a haner. Yr oedd ei barch a'i ddylanwad yn yr ardal bron yn anherfynol. Yr oedd yno fel Melchisedec yn Salem, yn frenin ac yn offeiriad ar yr un pryd, a phawb yn edrych arno fel angel Duw; yr hyn a barodd i Dr. Evans, Cefnmawr, oedd yn enedigol o'r lle, ac yn byw yno ar y pryd, i ddweyd fod yr Arglwydd wedi gwneuthur yn dda ei symud oddiyno, rhag i'r bobl ei addoli. Yr oedd cylch ei weinidogaeth, tra yn Llanuwchllyn, yn aml yn cyrhaedd o'r Cutiau yn agos i'r Abermaw, i lawr hyd Rhydywernen, rhwng y Bala a Chorwen, heblaw y galwadau parhaus a fyddai am dano i gyfarfodydd mawr a chymanfaoedd, lle y byddai pethau pwysig o eiddo yr enwad i ymdrin â hwy. Os byddai achos gwan yn rhywle yn dioddef oddiwrth ryw erlidiwr, ato ef yr eid i ymofyn am nawdd; ac os byddai rhywbeth yn dal cysylltiad â chrefydd yn bwnge y dydd, ac eisiau pregeth mewn cymanfa arno, naill ai yn y deheu neu y gogledd, wrtho ef y byddai pawb yn disgwyl. Nid oedd ei gyflog pan ddaeth gyntaf i Lanuwchllyn ond un bunt ar bumtheg; ac wedi cynyddu o'r eglwys i fwy na thri chymaint, nid oedd yn derbyn ond yr un faint; a thrugaredd oedd iddo fod ganddo adnoddau ereill i dynu allan o honynt. Yn mhen yn agos i dair blynedd wedi dyfod o hono i Lanuwchllyn, sef Gorphenaf 1af, 1797, y cyhoeddodd ei "Ddrych Ysgrythyrol, neu Gorph o Dduwinyddiaeth," yn un gyfrol wythblyg, yr hon oedd y gyntaf o'r fath a gyhoeddwyd yn y Gymraeg. Mae hon yn arddangos meddwl cryf, goleu, a threfnus, ac wedi ei ysgrifenu yn syml a dirodes. Pe buasai yn fwy tywyll a chymysglyd buasai yn sefyll yn uwch nag ydyw yn meddyliau llawer. Cafodd y gyfrol hon dderbyniad gwresog gan y genedl, canys gwerthwyd yr argraffiad cyntaf o ddwy fil a haner mewn ychydig amser wedi ei ddyfodiad o'r wasg; a thair mil o'r ail-argraffiad yn mhen ychydig flynyddoedd wedi hyny. Y mae ein rhwymedigaeth iddo, fel Cymry, a'r dylanwad a gariodd arnom yn aros eto am ryw un i dalu iddo y ddyledus gydnabyddiaeth. Bu llawysgrif y *Corph Duwinyddiaeth*, cyn ei gyhoeddi, o dan arolygiaeth y Dr. Jenkyn Lewis, o Wrecsam; a'r Dr. Williams, o Rotherham; y rhai a roddasant bob cymeradwyaeth i'r gwaith. "Lewis' *Drych Ysgrythyrol*," medd yr athraw o Rotherham, yn ei *Christian Preacher*, "may be here noticed as a valuable body of divinity, and the only one of the kind composed in the British language, * * and is well calculated to promote the knowledge of undefiled religion." Yn mhen yn agos i bum' mlynedd wedi cyhoeddi y gwaith hwn, dygodd allan y gyfrol gyntaf o'i Esboniad ar y Testament Newydd, yr hwn a orphenwyd mewn saith cyfrol wythplyg. Hynodir y gwaith hwn, fel y llall, gan arddull syml a naturiol, a dengys yr un synwyr a doethineb yn nghydag adnabyddiaeth eang a manwl o awdwyr hen a diweddar a ysgrifenasant ar y Testament Newydd yn y wlad hon ac ar y Cyfandir; a byddai argraffiad newydd ohono, mewn plyg a phris llai, yn drysor gwerthfawr i'r Cymry. Argraffodd, heblaw y rhai hyn, amryw o fân lyfrau, megis:—1, "Cyfiawnhad Pechadur trwy Ffydd;" 2, "Gorfoledd Crist ar ddeheulaw y Tad;" 3, "Dyledswydd pawb i gredu yn Nghrist;" 4, "Henuriaid yn mhob Eglwys:" 5, "Galwad gyffredinol yr Efengyl yn gyson âg etholedigaeth Gras;" 6, "Holwyddoreg athrawiaethol ac ymarferol;" 7, "Arweinydd yr Anwybodus;" 8, "Anerchiad Ymadawol i eglwys a chynulleidfa Llanuwchlyn;" y rhai sydd oll yn dwyn tystiolaeth ei fod yn ddyn neillduol o gyd-

Digitized by Google

nabyddus â'r Beibl, yn gystal o ran pen ac o ran calon. Yr arddull cyffredin o bregethu oedd gymysg o'r athrawiaethol a'r ymarferol yn nghyd; ac anaml y ceid ganddo un bregeth heb fod y ddau ynddi yn cydgyfarfod. Yr oedd ganddo fwy o ffydd yn y gwirionedd nag yn y tafod oedd yn ei draethu, ac yn eglurhâd yr Ysbryd nag yn eglurhâd geiriau o ddoethineb ddynol; yr hyn a barai iddo teddwl mwy pa beth i'w ddywedyd nag am pa fodd i'w ddywedyd. Yr oedd ei ffydd yn y gwirionedd braidd yn ddiderfyn, a chlywid ef bob amser ar weddi, wrth ddechreu yr oedfa, yn dywedyd, "Cymhorth i ddywedyd y gwir, gwrandawed a wrandawo, a pheidied a beidio." Gallasai y dyeithrddyn dybied mai llais difaterwch ydoedd, a bod yn barod i ofyn, "Athraw, ai difater genyt ein colli ni?" Ond gwyddai ei wrandawyr mai llais ffydd yn teimlo pwys y genadwri oedd, a'r angenrheidrwydd i fod gyda hi yn ddidderbyn-wyneb. Gyda y rhai a hoffent synwyr, difrifwch, ac eglurdeb, nid oedd neb yn fwy dylanwadol. Byddai ei law ddehau wrth ddechreu llefaru bron yn ddieithriad yn ei fynwes, a'i law aswy yn ymdrin â dalenau y Beibl; ac os na byddai y gwynt yn chwythu, neu'r angel yn cynhyrfu y dwfr, yn yr agwedd hon y byddent o ddechreu y bregeth i'r diwedd. Ond unwaith y gwelid y llaw ddehau yn dyfod allan o'i mangre, gallesid fod yn sicr fod ymwared yn neshau, ac anturio gogwyddo eich clust i wrando am y llef ddystaw fain. Yr oedd y Diddanydd yn sicr o fod yn ymyl. Ni bu gwres na gwlaw fesurydd erioed yn fwy cywir na'r ddeheulaw yna sydd yn awr yn estynedig at y gynulleidfa; pa un, erbyn hyn, sydd mor astud a dwys a phe byddai yn disgwyl ei thynged o enau y barnwr. Y mae y gwirionedd "yn eglurhâd yr Ysbryd a nerth yn bwrw dychymygion i lawr," a'r bobl yn ymgrymu i'r llwch ger ei fron, tra y mae rhyw ddylanwad yn peri holl orsingau y ty siglo. Ond ni byddai un amser yn gosod ymddangosiad o fawredd arno ei hun yn y pwlpud trwy ddull na diwyg, er mwyn gwneuthur iawn am dlodi a diffyg dylanwad, neu i fod yn farch-gynfas i guddio bychander. Yr oedd i'w weled y peth oedd, fel yr oedd, heb niwl a thywyllwch o'i amgylch i roddi unrhyw fawredd dychymygol arno. Yr oedd yr hen ddoctor o faintioli ychydig mwy na'r cyffredin, mae yn wir; a dyna y cyfan o'r hyn oedd o'r ddaear yn ddaearol yn perthyn iddo o ragoriaeth. Safai yn rhywle o bump ac unarddeg i ddwy lath o daldra, ond ei fod yn crymu ychydig yn ei ysgwyddau; yr hyn a barai iddo edrych yn fyrach nag ydoedd mewn gwirionedd. Tueddai yn hytrach at fod yn denau nag at fod yn dew; yr hyn, yn ddiau, a darddai mewn rhan o'i anian fyfyrgar a'i weithgarwch gwastadol yn nghyflawniad ei ddyledswyddau fel bugail a gweinidog; oherwydd gŵyr pawb nad mynych y mae cnawd mawr a gweithgarwch mawr yn cydgyfarfod. Yr oedd ganddo dalcen llydan, llawn, ac uchel, a dau lygad dwysgraff o dan amddiffyn dwy ael ddu gydnerth, y rhai a roddent ystyr ac argraff i'w holl wynebpryd. Gallesid darllen yni a phenderfyniad ynddo, fel wedi eu hargraffu mewn prif-lythyrenau, a difrifoldeb tyner yn eu nawseiddio eu dau; yr hyn oedd yn rhoddi tôn uchel o foesolrwydd dyrchafedig i'r cyfan, ac yn eich rhwymo yn naturiol i dalu iddo warogaeth o barch dauddyblyg. Cymerodd adfywiad grymus ar grefydd le o dan ei weinidogaeth yn Llanuwchllyn, yn 1809, pryd y dychwelwyd lluaws mawr at grefydd, ac y cryfhawyd ei freichiau yntau yn y gwaith. Yr oedd rhywbeth neilldiol oddeutu yr adfywiad hwn, rhagor oddeutu adfywiadau yn gyffredin, yn gymaint a'i fod yn un lleol, ac yn cymeryd lle trwy

Digitized by Google

lewygfeydd. Cwympai y bobl i lawr yn feirwon fel pe buasai angel marwolaeth wedi rhoddi tro trwy y lle, a chludid hwy o'r neilldu er ceisio adferd teimlad yn ol; ac ar eu gwaith yn ymddadebru, llefent allan dan ddwysbigiad, yn ol fel y byddai y gwirioneddi wedi dal arnynt yn yr adeg y syrthiasent i lawr. Yr oedd un hen chwaer, ag sydd eto yn fyw, wedi profi yr oruchwyliaeth yn ei chyflawn nerth, tra yr oedd y pregethwr yn traethu oddiar y geiriau, "Yr enaid a becho, hwnw fydd marw;" a llefai allan mewn dychryn, ar y gwaith yn dyfod ati ei hun, "Yr enaid a becho, hwnw fydd marw," tra yr oedd pob ymdrech i'w chysuro gan y rhai oedd yn gweini arni hi yn hollol aneffeithiol. Wrth weled hyn, cyfodai yr hen ddoctor i fynu i gymwyso yr wrthfeddyginiaeth, a llefodd allan, "Dywedwch wrth y ddynes yna, bobl, mai yr enaid a gredo a fydd byw;" ac yn y fan y bu tawelwch mawr. Yr oedd efe yn neilldnol o hoff o bobl ac ardal Lladuwchllyn. Yma yr oedd efe wedi magu mwyaf ar ei blant--yma yr oedd efe wedi ei eni ei hun fel awdwr y cyfrolau a geidw ei enw tra byddo llenyddiaeth grefyddol gan y genedl yn ei hiaith—yma yr oedd efe wedi treulio y blynyddoedd mwyaf dedwydd o'i oes, ac yma yr oedd efe wedi penderfynu diweddu ei ddyddiau. Ond "nid eiddo gwr ei ffordd," wedi y cwbl. Yr oedd amgylchiadau yn prysur weithio i wneud yn ofer ei holl benderfyniadau. Yr oedd y Dr. Jenkyn Lewis wedi cael galwad oddiwrth goleg newydd Manchester (*Lancaster College* yn awr), i ddyfod yno yn athraw, ac yntau wedi cydsynio, a rhoddi ei ofal tros athrofa Gwrecsam i fynu, a symud yno Yn yr amgylchiad hwn, apeliodd bwrdd Llundain, Dr. Williams o Rotherham, a Dr. Pye Smith, at Dr. Lewis, fel y mwyaf cymhwys i gymeryd ei gofal yn ei le. Apeliodd lluaws mawr o frodyr eraill yn Nghymru ato yr un fath, gan ddeisyf arno, os oedd yn teimlo dros yr athrofa, a llwyddiant gwaith yr Arglwydd, am iddo beidio petruso dim. Yn ngwyneb y cymhelliadau taer hyn, nid oedd ymgynghori â chig a gwaed iddo wedi ei adael; a chyda theimladau drylliog a siomedig iddo ei hun, rhoddodd ei ofal tros eglwys Llanuwchllyn i fynu, a symudodd i Wrecsam yn nechreu Ionawr, 1812. Yr oedd yr eglwys oedd yn y lle hefyd wedi rhoddi galwad unfrydol iddo i fod yn weinidog iddi. Ac yn hyn y mae yn rhyfedd, os oedd y Doctor yn or-Galfinaidd, neu yn gŵyro mewn rhan neu gyfran oddi wrth yr hyn a ystyrid yn athrawiaeth bur, pa fodd y galwyd ef mor neilldnol i'r ymddiriedaeth bwysig o baratoi gwyr ieuainc i waith y weinidogaeth, a hyny gan yr athraw o Rotherham—un o brif wroniaid Calfiniaeth ddiweddar? Gwaelodd ei iechyd yn fawr yn Ngwrecsam, drwy ei fod yn cyfyngu ei hun mor lwyr at ei ddyledswyddau fel athraw, ac yntau wedi bod yn arfer, tra yn Llanuwchllyn, er ei holl efrydiaeth fanwl, â theithio yma ac acw gryn lawer. Yr oedd y teimlad o wendid iddo ef yn beth lled ddyeithr, yr oedd o gyfansoddiad cryf, ac yn arfer a bod yn dra gofalus yn ei gylch, ac wedi bod, yn mron ar hyd ei oes, heb wybod dim yn neilldnol am lesgedd o fath yn y byd. Yr oedd ei gymhwysder a'i lwyddiant fel athraw mor uchel yn ngolwg noddwyr yr athrofa, fel yr oeddynt yn barod i wneud unpeth er mwyn iddo aros mewn cysylltiad â hi. A chymaint oedd ei ddylanwad ar y myfyrwyr, fel yr oeddynt yn tybio nad oedd gwr cyffelyb iddo ar wyneb y ddaear. Wrth deimlo ei hun fel hyn yn gwanhau, ac yntau wedi bod yn arfer a mwynhau iechyd mor dda o'r blaen, daeth i'w feddwl yn gryf i roddi ei swydd i fynu. Ond ni wrandawai y pwyllgor ar y fath beth; a chynygiasant iddo symud yr athrofa i rywle ag a fuasai yn debyg o fod

Digitized by Google

iddo yn fwy iach. Ac mor fuan ag y daeth hyn yn hysbys, daeth cais am dani o Lynlleifiad, Bangor, Trallwm, a Llanfyllin; ac wedi dwys ystyriaeth, dacthpwyd i'r penderfyniad o'i symud i'r lle diweddaf: ac yn nechreu 1816, trosglwyddwyd hi yno, wedi bod ohoni yn Ngwrecsam am yr yspaid o bedair blynedd. Ond er iddo deimlo ei hun yn well am ychydig ar ol ei symudiad i Lanfyllin, ac i'w iechyd i raddau gael ei adferu, eto dadfeilio a wnaeth efe drachefn cyn hir, fel erbyn diwedd 1818, yr oedd efe cyn waeled a phan yr ymadawodd efe o Wrecsam, os nad gwaelach. Erbyn hyn, yr oedd yn amlwg fod mwy yn y gwaith nag yn y lle er peri yr afiechyd ag oedd yn awr mor eglur i'w weled ynddo. Cynygiodd ei swydd i fynu i'r pwyllgor eilwaith; a'r ateb a gafodd oedd, eu bod yn trefnu iddo gael athraw cynorthwyol, fel y byddai i drymder y gwaith gael ei gymeryd oddiar ei ysgwyddau. Yr oedd hyn yn dangos y parch mawr oedd ganddynt iddo, a'r gwerth oedd ganddynt ar gael ei enw mewn cysylltiad â'r athrofa. Ond er newid lle, a chael ysgafnhâd llafur, yr oedd ei iechyd wedi dadfeilio cymaint erbyn 1820, nes oedd ei gyfeillion yn ofni yn ddifrifol amdano; ac er mwyn iddo gael pob chwareu teg, caniataodd y bwrdd iddo symud yr athrofa drachefn, os tybid y gallai hyny fod yn rhywbeth tuag at estyniad ei oes; ac wrth fod mab iddo wedi ymsefydlu yn feddyg yn y Drefnewydd, sir Drefaldwyn, tybiodd y byddai yn fanteisiol iddo gael bod yn ei ymyl, a symudodd ef a'r athrofa yno yn Medi, 1821. Ni bu fyw ond rhyw wyth mis wedi hyn. Cymerwyd ef rhyw ddiwrnod yn fwy claf na chyffredin, ac yn mhen pymthegnos wedi hyn, hunodd yn dawel yn yr Arglwydd, Mehefin 5, 1822, yn 59 oed.[1]

LEWIS (Parch. Titus) a anwyd yn Nghilgeran, sir Benfro, Chwef. 21, 1773. Ei dad oedd y Parch. Lewis Thomas, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Nghilfowyr. Ymunodd â chrefydd yn Mlaen-y-waen, sir Benfro, yn 1794. Yn mhen chwech wythnos wedi ei fedyddio, efe a ddechreuodd bregethu, ac urddwyd ef yn weinidog ar ei fam-eglwys yn 1798. Yn 1800, symudodd i Gaerfyrddin, ond parhaodd i fyned i Flaen-y-waen unwaith bob mis, a chadwodd ei aelodaeth yno ar hyd ei oes, gan ddywedyd, "Cadwaf fy aelodaeth yno hyd oni symudir fi i'r eglwys fry." Yr oedd yn un o bregethwyr blaenaf ei oes yn mhlith y Bedyddwyr yn Nghymru. Pregethai fynychaf bedair gwaith yn yr wythnos, a'r rhai hyny yn dwyn ol llafur a myfyrdod dwys Coleddid y meddyliau uwchaf am ei alluoedd pregethwrol gartref ac oddicartref, ac nid aeth odid i gymanfa heibio yn mhlith ei enwad yn Nghymru rhwng 1800 ac 1810 nad oedd ef yn bresenol ac yn cymeryd rhan yn ei gwasanaeth. Yr oedd yn un Glynceiriog yn 1810, ac yn pregethu yno yn fwy nerthol, meddir, na Christmas Evans, yn ol barn yr hen bobl, y rhai a ddywedent yn gellweirus wrth yr hen arwr hwnw, "Yr ydych chwithau wedi cyfarfod a'ch meistr o'r diwedd." Ond trosglwyddwyd ei enw i lawr i'r oes hon trwy ei lafur llenyddol yn hytrach na thrwy ei ddoniau areithyddol. Ei brif gamp-waith llenorol ydyw, "Hanes wladol a chrefyddol Prydain Fawr," yr hwn a gyhoeddwyd yn rhanau swllt, a gwerthwyd ohono 2,000. Rhoddir gair uchel iddo am ymchwiliaeth ac anmhleidgarwch, a dywedir y treuliai yr awdwr bedair awr a'r ddeg yn y dydd yn ei gyfansoddi. Cyfansoddodd hefyd "Eiriadur Cymraeg a Saesneg," yn 1805, ac a ailargraffwyd yn 1815. Mewn

1 Dymunir hysbysu mai yr un yw awdwr yr erthygl hon a'r bywgraffiad o Dr. Lewis, ymdlangosodd mewn llyfr cofnodol arall. Gan fod ami frawddeg yn y dawy erthygl yr un fath, yr ydym yn mynegu hyn er atal unrhyw gamsyniad.—Gol.

Digitized by Google

undeb â Joseph Harris a Christmas Evans, cyfieithodd "Esboniad y Dr. Gill," i'r Gymraeg; a diau mai ar ei ysgwyddau ef yr oedd pen trymaf y baich, canys wedi ei farwolaeth safodd y gwaith am lawer o flynyddau. Cyhoeddodd hefyd Destament Newydd bychan at wasanaeth yr Ysgol Sabbathol, gyda rhai nodiadau ar odreu y dail; ac ar anogaeth y gymanfa, cyfansoddodd "Holwyddoreg," ar bynciau duwinyddol. Yn 1806, sefydlodd Joseph Harris ac yntau gyhoeddiad o'r enw y "Drysorfa Efengylaidd" (chwarterol), ond nid ymddengys iddo gael oes hir. Cyfieithodd "Esboniad ar y Cyffelybiaethau," o waith Keach; ac un arall o'r enw, "Llyfr Rhyfeddodau." Wedi gorlafur dirfawr am oddeutu deng mlynedd, dygwyd gwŷs iddo ymadael â'r fuchedd hon, gan yr hen elyn, y darfodedigaeth, a bu farw Mai 1, 1811, yn 38 oed. Claddwyd ef, yn ol ei ddymuniad olaf a thaeraf, mewn darn o dir a brynesid ar gyfer adeiladu arno gapel y Tabernacl, Caerfyrddin; ond yr hwn nid oedd wedi dyfod i lawn feddiant yr eglwys eto, gan nad oedd y gweithredoedd wedi eu llawnodi. Er na chafodd ond ychydig addysg yn more ei oes, trwy dalentau ysplenydd, diwydrwydd, ac ymroddiad penderfynol, cyrhaeddodd safle uchel fel llenor a phregethwr campus.

LEWIS (Syr Thomas Frankland), ydoedd o Harpton Court, sir Faesyfed. Efe a briododd ferch i Syr George A. Cornwall, o sir Henffordd. Daeth yn wladyddwr enwog, a llanwodd y swyddau o ysgrifenydd y Drysorfa, rhaglywydd Bwrdd Masnach, a thrysorwr y Llynges, am yr hyn, yn 1846, y gwobrwywyd ef â barwniaeth. Mab iddo ef ydoedd y gwladweinydd enwog Syr George C. Lewis. Cyhoeddwyd o'i waith wedi ei farwolaeth, "Essay on the Administration of Great Britain, 1783—1830," o tan olygiad Syr E. Head.—*Lleyn MSS.*

LEWIS (Parch. William), D.D., ydoedd frodor o sir Feirionydd, a nai i'r enwog, Theodore Price. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn benaf yn Ngholeg Oriel, Rhydychain, lle y cyrhaeddodd y graddau o B.A. ac M. A.; a Mai, 1627, yn D D., ac yn *Provost* ei goleg. Crewyd ef yn D.D., trwy lythyr breninol, yn rhedeg fel hyn.—"William Lewis, er's talm yn M.A., ac wedi treulio llawer o flynyddau yn efrydydd Duwinyddiaeth gartref, ac ar led. Yr ydym oddiar ein profiad o'i ddiwydrwydd a'i ddoniau mewn rhyw amgylchiadau pwysig, y darfu ei roi ar waith, mewn pethau tramor, ac er defnyddio ei amser mewn rhyw wasanaeth pellach, yn ei anrhydeddu â'r gradd o D.D., ac yr y'm yn deisyf arnoch ei dderbyn a'i raddio yn D.D." Wedi hyny, efe a gymerodd raddau, ac er mai meistr ieuangaf ydoedd yn eu golwg, eto, trwy blaid a mwyafiaeth o Gymry (meddai Wood), cafodd *Provostship* y lle hwnw yn 1617; ond efe a'i rhoddodd i fynu yn 1621, oblegid ei fod yn rhy ieuanc i'r swydd, ac a aeth dros y môr yn ngwasanaeth y brenin. Wedi dychwelyd yn ol, efe a wnaed yn gapelwr i Duc Buckingham, gyda'r hwn yr aeth ar led eilwaith. Pan y dychwelodd o'r neges-daith hono, efe a ysgrifenodd, "A General Relation of a Voyage to Rhe, under the command and conduct of the Duke Buckingham," ond ni wyddai Anthony Wood pa un a gafodd ei argraffu a'i peidio. Wedi hyny, gwnaed ef yn feistr Ysbytty St. Cross, ac yn brepender yn Winchester; yr hyn yn nghyda lleoedd eraill a gollodd yn amser y Gwrthrhyfel, a diangodd dros y môr, lle y dywedir iddo ddyoddef llawer yn achos y brenin. Enillwyd ei feibion drosodd i Eglwys Rhufain. Wedi dychweliad y brenin Siarl II. i'r orsedd, rhoddwyd iddo yn ol yr hyn a gollodd. Bu farw yn Ysbyty St. Cross,

Digitized by Google

Gorphenaf 7, 1667, a chladdwyd ef dan yr allor yn y lle hwnw.

LEYSHON (Dafydd Gruffydd), o Briordy Caerfyrddin, a gafodd ei ddysgeidiaeth yn ngholeg Neuadd St. Edmund, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn D.LL. Ionawr 24, 1532. Bu ganddo law, gydag un Dr. John Oliver, yn merthyrdod Stephen Gardener, esgob Winchester. Yn amser Mair, efe a drodd yn ei wrthol, ac a wnaed yn Ustus Heddwch, ac yn sirydd dros sir Gaerfyrddin; ac efe oedd yn y swydd fel y cyfryw, ac yn gweithredu yn egniol yn merthyrdod yr esgob Farrar yn 1555; ac ni adawai i'r Esgob hwnw siarad pan wrth y pawl. Yr ydis yn ei gofnodi yma, oblegyd ei radd mewn dysgeidiaeth, er yn ystyried y weithred hono yn anenwog ynddo. Ond dywedir ei fod yntau, pan yn marw, yn dymuno siarad, ond nad allai; ac ystyrid hyny gan y Protestaniaid gwresog fel barn ddwyfol am wadu y ffydd brotestanaidd, a chofleidio Pabyddiaeth, yn nghyda'i greulondeb tuag at Farrar. Bu farw yn 1557.—Spurrell's *Carmarthen*.

LEYSON (Thomas), bardd a meddyg enwog yn ei oes, a anwyd yn Nghastellnedd, Morganwg. Addysgwyd ef yn ngholeg Winchester, ac 1569, etholwyd ef yn gymrawd o'r Coleg Newydd, Rhydychain. Wedi ei raddio yn y celfyddydau, efrydodd physigwriaeth; ac yn 1583, dewiswyd ef yn broctor y brifysgol. Yn fuan ar ol hyny, graddiwyd ef mewn meddygiaeth, ac ymsefydlodd yn Bath, lle y daeth mor enwog am ei alluoedd celfyddydol ag ydoedd yn Rhydychain am ei farddoniaeth Ladinaidd. Ysgrifenodd gân Ladin yn dysgrifio golygfeydd a thegwch Castell St, Donat, yn Morganwg, palas Syr E. Stradling, yr hon a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Dr. John Dafydd Rhys. Ni chyhoeddwyd ei oed gasgliad o'i weithiau, ond ceir hwynt yn wasgaredig ar hyd llyfrau amrywiol awduron eraill. Bu farw yn Bath rywbryd ar ol 1607, a chladdwyd ef yn eglwys St. James, yn y dref hono.—Wood's *Athen. Oxon.*

LEYSON (Thomas), ydoedd frodor o Forganwg. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.C.L., yn 1510; ac yn mhen dwy flynedd yn B.D., o goleg St. Bernards. Gwnaed ef yn abad Mynachlog St. Mair, yn Nghastellnedd, sir Forganwg, yr hon a berthynai i urdd y Cisteriaid. Gelwid yr abadau hyn yn abadau Glyn Nedd, am mai yn Nglyn Nedd yr oedd—ac y mae eto hen falurion—y fynachlog hono. Ymddengys iddo gyrhaedd graddau uwch nag a enwir uchod, gan fod ar gael awdl iddo, o dan yr enw Dr. Thomas Leyson, yr hon a gyfansoddwyd tua'r flwyddyn 1520, gan Lewys Morganwg. Efe oedd yr abad olaf ond un. Ei olynwr ydoedd Lewis ab Dafydd, yr hwn oedd mewn meddiant pan ddadymchwelwyd y lle tan Harri VIII. Bu farw rywbryd rhwng y flwyddyn 1520 a 1535 — *Lleyn MSS.*

LORTE (Roger), ydoedd fab hynaf ac etifedd Henry Lorte, Ysw., o Stackpoole, sir Benfro, lle y ganwyd ef yn 1608. Pan yn 16 oed, derbyniwyd ef i goleg Wadham, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn y celfyddydau, yn 1627. Ystyrid ef yn fardd Seisnig da: ac yn 1647, cyhoeddodd gyfrol 4plyg o'i farddoniaeth. Yn 1662, gwnaed ef yn farwnig, a bu fyw am rai blynyddau ar ol hyny. Yr oedd un arall o'r teulu, o'r enw William Lorte, yn amser Iago I., a ystyrid yn fardd da, ac y mae llawer o'i waith ar gael.—Wood's *Athen. Oxon.*

LOUGHER (Robert), D.C.L., gwr nodedig am ei ddysg, a'r swyddi uchel a gafodd o'r herwydd. Ganwyd ef yn Dinbych y Pysgod, sir Benfro, a chafodd ei raddio yn ngholeg All Soul's, Rhydychain, a'i urddfreinio yn D.C L. yn 1564—5 Yr oedd ar y pryd yn brif-athraw

Digitized by Google

coleg New Inn ; ac yn fuan ar ol hyny, gwnaed ef yn ddysgawdwr *Civil Law* tros y frenhines, ac yn ganghellydd Exeter. Yn Mai 1577, crewyd ef yn swyddog yn llys eglwysig archesgob Yorc, ac yn brif-ficer iddo, ac efe hefyd ar y pryd yn swyddog yn y *Court of Arches*. Bu farw yn nhref ei enedigaeth, yn Mehefin, 1583.

LOVE (CHRISTOPHER), M.A., duwinydd Presbyteraidd enwog, ac un a gymerodd ran flaenllaw ond anffodus yn amgylchiadau gwladol cynhyrfus yr 17eg ganrif. Ar y cyntaf, bwriedid gwneud masnachwr ohono, a rhwymwyd ef yn egwyddorwas yn Llundain, ond perswadiwyd ei dad i roddi iddo addysg golegol, ac o ganlyniad danfonwyd ef i goleg New Inn, Rhydychain, yn 1635, ac efe ar y pryd yn 17 oed. Wedi ei raddio yn rheolaidd yn B.A. ac M.A., ordeiniwyd ef, a daeth yn fuan yn hynod oblegyd ei omeddiad cyhoeddus i lawnodi ei gydsyniad i'r canonau, yn ol gorchymyn archesgob Laud, ac o'r herwydd efe a gollodd rai o'i freiniau fel ysgolhaig. Yna symudodd i Lundain, lle yr ymosododd mor flyrnig ar egwyddorion breninoliaeth, fel y penodwyd ef yn bregethwr i'r gwarchlu yn nghastell Windsor, ar y pryd tan lywyddiaeth y milwriad Venn. Pan gyfarfu dirprwywyr y brenin a'r senedd yn Uxbridge, Love a bregethodd ger eu bron, ac a draddododd rai syniadau mor chwerwon yn erbyn y brenin, fel y darfu i'r dirprwywyr breiniol wneud cwyn ffurfiol yn ei erbyn o flaen y senedd yn Westminster. Ar ol hyn, gwnaed ef yn weinidog eglwys St. Ann, ger Aldersgate, a thrachefn eglwys St. Lawrence, yn y Jewry, Llundain. Yr oedd yn un o'r gweinidogion hyny yn Llundain a lawnodasant yn erbyn rhoddi y brenin i farwolaeth ; ac ar ol hyny, cymerodd ran fawr yn y frad yn mhlith Presbyteriaid i ddodi Siarl II. ar yr orsedd ; yr hon a ddarganfyddwyd gan Cromwell. Mewn canlyniad, Love a euogbrofwyd o deyrnfradwriaeth, a thorwyd ei ben ar Tower Hill, yn Awst, 1651. Cyhoeddodd amryw lyfrynau dadleuol a pholiticaidd, a rhai cyfrolau o bregethau, rhestr o ba rai a welir yn Wood's *Athen. Oxon.* ii. 136. Ymddengys mai ei dad yn yr Efengyl ydoedd William Erbury, a cheir yn un o'i gyfrolau grybwylliad neillduol o barchus am y gwr hynod hwnw.

LUCAS (RICHARD), D.D., duwinydd enwog yn eglwys Lloegr, a anwyd yn Presteigne, sir Faesyfed, yn 1648. Wedi derbyn yr addysg angenrheidiol, efe a ddanfonwyd i goleg Iesu, Rhydychain, yn 1664. Graddiwyd ef yn B.A. yn 1668, ac yn M.A. yn 1672. Wedi derbyn ei gyflawn urddau, bu am beth amser yn athraw rhydd-ysgol y Fenni. Symudodd oddiyno i Lundain, lle yr ystyrid ef yn bregethwr rhagorol, a daeth yn ficer eglwys St. Stephen, Coleman Street ; ac yn ddarlithydd St. Olave, Southwark, yn 1683. Graddiwyd ef yn D.D. yn 1691 ; a gwnaed ef yn brepend Westminster yn 1696. Yr oedd ei olwg er pan yn blentyn yn graddol wanychu, a thua'r pryd hwn collodd ef yn llwyr. Perchid ef yn uchel ar gyfrif ei ddysg a'i dduwioldeb ; a chedwir ei goffadwriaeth yn fyw am amser maith gan ei lyfrau anrhydeddus. Y pwysicaf o'r rhai hyn ydyw ei "Enquiry after Happiness," mewn dwy gyfrol wythplyg, yr hwn a argraffwyd amryw weithiau. Yr oedd yr awdwr yn ddall pan yn ei gyfansoddi, ac wedi gorfod rhoddi heibio ei lafur cyhoeddus. Efe hefyd oedd awdwr,—2, "Practical Christianity;" 3, "The Morality of the Gospel;" 4, "Christian thoughts for every day of the week;" 5, "A guide to Heaven;" 6, "The Duty of Servants;" 7, "Sermons;" mewn pum' cyfrol. 8, Efe a gyfieithodd i'r Lladin "Holl ddyledswydd Dyn," yr hwn a argraffwyd yn Llundain

Digitized by Google

yn 1680.—Wood's *Athen. Oxon;* Wms. *Em. Welsh.*

LLAWDDEN. *Gwel* ATTODIAD.

LLAWGAD TRWM FARGOD, a gyflawnodd un o dair anfad gyflafan Ynys Prydain, sef oedd hyny, lladd Afaon, fab Taliesin.—*Tri* 47.

LLAWFRODEDD FARFAWG, neu Farchog, pendefig urddasol yn y 6ed ganrif. Yn y *Trioedd*, rhestrir ef yn un o'r tri "Buelydd Gosgordd Ynys Prydain" (neu fugail deadelloedd), a diadell Nudd Hael ab Senyllt a gadwai efe, yn yr hon yr oedd ugain mil ac un o wartheg blithion. *Tri* arall a ddywed mai enw ei fuwch ef ydoedd Cornillo, a rhestrir hi yn un o dair brif fuwch Ynys Prydain. Yr oedd cyllell Llawfrodedd yn un o dri thlws ar ddeg breninol, a'i chyneddf ydoedd y gallai dori bwyd i bedwar gwr ar hugain ar unwaith.—*Myv. Arch.;* Jones' *Bardic Museum.*

LLECHAU, un o feibion Brychan Brycheiniog, sant yn y pumed cant. Dywedir mai efe a sefydlodd eglwys Lanllechan, yn Ewyas, sir Henffordd, a'i fod yn preswylio un amser yn Tregaian, yn Mon.

LLECHID, sant yn y 6ed cant. Merch ydoedd i Ithel Hael. Sefydlodd eglwys Llanllechid, yn Arfon, lle y cedwid ei gwylmabsant Rhagfyr 2. Yr oedd yn chwaer i Gredifel, Fflewyn, Tegwyn, Trillo, Baglan, Tegai, Twrog, a Tanwg.

LLEIAN, merch neu wyres i Brycheiniog, santes yn y pumed cant. Ei gwr ydoedd Gafran ab Dyfnwal Hen, o ba un yr oedd yn fam i Aeddan Fradawg, yr hwn wedi ei orchfygu yn mrwydr Arderydd, Gogledd Prydain, a orfu ffoi am ddyogelwch i Ynys Manaw, a dilynwyd ef yno gan ei fam. Tybir mai hi a sefydlodd Gapel Llanlleian, yn sir Gaerfyrddin.

LLEIRWG ab Coel ab Cyllin Sant, neu Lles, neu Lucius, sant a thywysog Brutanaidd yn yr ail ganrif. Yn ol y *Brutiau Cymreig*, efe oedd y cyntaf a gynlluniodd ddwyn ffydd Crist i Ynys Prydain, trwy ddanfon at Eleutherius, esgob Rhufain, yn dymuno arno yru cenadau trosodd. Mewn canlyniad, danfonwyd Dyfan, Ffagan, Medwy, ac Elfan, i'r wlad hon; a dywed *Tri* 45, i Lleirwg wneud "yr eglwys gyntaf Llandaf, a hono a fu'r gyntaf yn Ynys Prydain, ac a ddodes fraint gwlad a chenedl a brawd a briduw, ar a fyddaint o'r ffydd yn Nghrist." Oherwydd hyn, rhestrir ef gyda Bran a Chadwaladr Fendigaid, tan yr enw "menwedigion teyrnedd," neu dywysogion bendigaid Ynys Prydain. Lleirwg a sefydlodd eglwys Llanlleurwg, yn awr St. Melon's, yn sir Fynwy. Gwrthbrofir llawer o'r traddodiadau a ddywedir am dano gan Walter de Mapes, Sieffre o Fynwy, a'r awduron Pabaidd, gan y Cadeirdraw Rees yn ei *Welsh Saints.* Gweler hefyd y *Liber Landavensis*, a'r *Iolo MSS.*

LLELA (MORUS), bardd yn ei flodeu rhwng 1660 a 1600.

LLEON GAWR, yn ol y *Brutiau Cymreig*, a olianodd ei dad Brutus Darianlas, fel brenin Prydain. Yr oedd yn deyrn doeth a chyfiawn, yn gweinyddu rhyddid i'w ddeiliaid. Efe a adeiladodd Gaerlleon ar Ddyfrdwy, yr hon a elwir ar ei enw hyd y dydd hwn—"a phan oedd Solomon yn adeiladu y deml, a brenines Sheba yn dyfod am ddoethineb, y bu hyn." Teyrnasodd Lleon am 23 mlynedd; a chan ei fod yn ei hen ddyddiau yn fethiant ac yn methu gofalu am ei ddyledswyddau breninol, torodd gwrthryfel allan yn ei diriogaethau.

LLEUDDAD, neu Lleuddad Llydaw, ydoedd fab i Alan ab Emyr Llydaw. Yr oedd yn sant o goleg Illtyd yn y 6ed cant. Ar farwolaeth Cadvan, penodwyd ef yn abad mynachlog Enlli, ac er parch i'w

Digitized by Google

swydd gelwid ef yn esgob. Yn nesaf at ei ragflaenydd, ystyrir ef yn sant gwarcheidiol yr ynys, ac y mae ar gael waith amryfal feirdd yn moli ei nawddogaeth i bererinion wrth iddynt groesi'r culfor i gysegrfa Enlli. Y mae ei enw yn fyw hyd y dydd hwn yn enwau lleoedd yn nghwlad Lleyn, megys Ogof Lleuddad, yn Aberdaron; Ffynon Lleuddad, yn mhlwyf Bryncroes; a Gardd Lleuddad, yn Ynys Enlli. Cofnodir un o'i ddywediadau yn "Chwedlau y Doethion," gwel *Iolo MSS.* 535.

LLEUDDAD, neu Llawddog, sant yn y 7fed cant. Mab ydoedd i Dingad ab Nudd Hael. Ei fam ydoedd Trefrian, neu Tonwy, merch Lleuddyn Lluyddog o Ddinas Eiddyn. Efe a aeth gyda'i frodyr Baglan, Gwytherin, Tygwy, Tyfriog, a'i chwaer Eleri, i goleg Enlli. Efe a sefydlodd eglwysi Llanllawddog, Cenarth, a Penboyr, yn sir Gaerfyrddin; a Chilgeran, yn sir Benfro. Ei wylmabsant, Ionawr 15.—Rees' *Welsh Saints; Iolo MSS.*

LLEW AB CYNFARCH, penaeth ar y Brythoniaid Gogleddol yn y 6ed ganrif. Yr oedd yn frawd i Urien ac Afon. Dywedir yn "Englynion y Gorugau," (*Iolo MSS* 261) mai efe a ddyfeisiodd groen gyntaf at ddybenion ysgrifenu. Yn ol y *Brutiau Cymreig*, efe a arweiniai luoedd Uthyr (Anna, merch yr hwn a briodasai), yn erbyn y Sacsoniaid, yn ystod afiechyd y teyrn hwnw; ond ei fod mor drwsgl wrth y gwaith, fel y gwrthodwyd ufuddhau i'w orchmynion.—*Myv. Arch.*

LLEW LLAW GYFFES, penaeth enwog yn y 5ed ganrif. Cofnodir ef yn y *Trioedd*, fel un o "dri gwyr rhudd-faawg," Ynys Prydain, neu filwyr gwaedlyd. Mewn *Tri* arall, rhestrir ef yn mhlith y "tri eurgrydd," yr hon alwedigaeth a ddilynai pan yr aeth efe gyda Gwydion ab Don, i ymofyn arian ac arfau gan Arianrod ei fam. Cymer ei nodweddiad le pwysig yn mabinogi "Math ab Mathonwy," gwel *Cymru Fu* I, 157, lle y rhoddir hanes cyfriniol a rhamantus ohono. Dywedir yn "Englynion y Beddau," fod ei fedd yn cael ei amgylchu gan y mor. Rhestrir Gamre ei farch yn mhlith un o dri rhyfelfeirch Ynys Prydain.

LLEWELYN (Thomas), M.A., LL.D., a anwyd yn Mhenallt isaf, plwyf Gelligaer, Morganwg, rywbryd tua 1720. Tybir fod ei rieni yn aelodau o eglwys gymydogaethol y Bedyddwyr yn Hengoed; a phan tua deunaw oed, ymunodd yntau â'r un eglwys. Yr oedd gan ei rieni dyaid lluosog o blant, ac efe oedd yr ieuangaf ohonynt. Nid oedd eu hamgylchiadau ond canolig, a dygwyd y Dr. i fynu yn deiliwr. Bu yn dilyn yr alwedigaeth hono am yspaid yn y Casbach, gan weithio o dŷ i dŷ, am gyflog teiliwr yn yr oes hono, sef pedair ceiniog yn y dydd. Yn fuan wedi ymuno gyda chrefydd, dechreuodd bregethu; ac yn 1740, derbyniwyd ef i goleg Pontypwl, ac oddiyno symudodd i athrofa Bristol, ac oddiyno drachefn i Lundain, lle y bu yn perfleithio ei wybodaeth tan y Doctoriaid Walker, Marryatt, Jennings, a Savage, Ymdrechid y pryd hyny gan yr enwad crybwylledig yn y Brifddinas roddi addysg i wyr ieuainc gobeithiol fel paratoad ar gyfer eu mynediad i'r athrofa, a dymunwyd arno gymeryd gofal ysgol i'r perwyl hwnw. Ymddengys fod ganddo rhyw wrthwynebiad i gymeryd gofal gweinidogaethol, gan ei fod eisioes wedi gwrthod galwadau taerion rhagor nag un o eglwysi parchus Llundain, gan ddewis yn hytrach bregethu yn y naill fan a'r llall, a llanw cylch ei ddyledswyddau yn y sefydliad addysgiadol crybwylledig. Yn ystod seibiant yr ysgol, efe a dreuliai ei amser yn Nghymru, ac anfynych y gwelwyd serch cryfach, purach, a

Digitized by Google

mwy angherddol, at wlad genedigaeth nag a daniai ei yspryd a'i galon ef. Ystyrid ef yn un o'r ysgolheigion goreu yn mhlith yr Ymneilldu-wyr yn ei oes, a chynyrchodd ei athrofa fechan wyr o fri uchel, megys Dr. Jones o Hammersmith, a Mr. Newton o Bristol. Priododd fon-eddiges o gyfoeth, a thrwy hyny cynysgaeddyd ef â gallu i fod o was-anaeth mawr i'w enwad a'i genedl. Fel teyrnged o barch i'w alluoedd meddyliol, a'i ddysgeidiaeth, darfu i athrofa Aberdeen ei anrhydeddu â'r teitlau o feistr yn y celfyddydau a doctor yn y gyfraith (M A. a LL.D.) Coleddai yr un serch at ei gydgenedl yn Llundain ag a arddangosai yn Nghymru. Yr oedd yn aelod o gymdeithasau y Cymro-dorion a'r Gwyneddigion, ac efe oedd llywydd y flaenaf yn 1775; ac yr oedd hefyd yn gyfaill neillduol â Richard Morris, brawd yr enwog Lewis Morris, Mon. Cymerai ran flaenllaw yn nghynaliaeth yr Ysgol Gymreig yn Llundain; ac efe a'i gyfaill Robert Hughes *(Robin Ddu o Fon)* a weinyddent fel goruchwylwyr y sefydliad hwnw yn 1771. Ond peraroglir ei gofladwriaeth yn benaf gan yr adgof iddo fod yn offeryn i enill lledaeniad helaeth i'r Ysgrythyrau yn mhlith ei gydgenedl. Tua chan' mlynedd yn ol, yr oedd prinder mawr ar Feiblau yn ein gwlad, a thua deunaw mlynedd wedi myned heibio heb i un argraffiad ohono ddyfod trwy'r wasg nes bod pris copi o argraffiad 1752, yr hwn nid oedd pan y cyhoeddwyd ef ond pedwar swllt, erbyn 1768, yn costio o leiaf bedair punt. Yr oedd y gymdeithas glodwiw er taenu Gwybodaeth Gristionogol wedi dwyn allan eisoes bedwar argraffiad am brisiau tra rhesymol, sef yn 1718, 1725. 1741, a 1752; ond cymaint oedd yr alwad am danynt, mewn canlyniad i sefydliad ysgolion Griffith Jones o Lan-ddowror a'u ffrwythau, yn nghyda dechreuad y Diwygiad Methodist-aidd, fel yr oedd y wlad yn gorwedd mewn angen dybryd am Air y Bywyd. Yn 1768, cyhoeddodd Dr. Llewelyn draethodyn galluog gyda'r amcan o gynyrchu moddion i ddiwallu yr angen hwn, tan y teitl, "An Historical Account of the British or Welsh versions and editions of the Bible," &c. Cyhoeddwyd ail argraffiad ohono yn y 'Mwythig yn 1793; a hwnw ydyw seilian hanesion y gwahanol argraffiadau o'r Beibl a geir yn *Ngeiriadur* Charles; yn *Allwedd y Cysegr*, gan Brutus; gan ohebwyr y *Gwladgarwr* yn 1840; a chan awdwr "Llyfryddiaeth y Cymry," yn y *Traethodydd.* Sylwa y Dr. ynddo fod yn annichonadwy cyflenwi y galwadau am yr Ysgrythyr Lân yn Nghymru heb gymhorth cyhoeddus, a llwyr ddymchwelodd yr hen syniad ffol o beidio cynysg-aeddu y Cymry â Beiblau yn eu hiaith, fel yr annghofient hi, ac y dysgent Saesneg. Ymoheboddâ'r gymdeithas grybwylledig, a llwydd-odd i gael ganddi argraffu tua chwe' mil mwy nag a fwriadai yn 1769, gan ymrwymo y cymerai y swm hwnw ohonynt ei hunan. O tan am-gylchiadau y genedl yn yr oes hono, yr oedd hon yn weithred fawr o wladgarwch a Christionogaeth; a chydsyniodd y Gymdeithas â'r cynyg, trwy yr hyn y mwynhaodd miloedd o ddeiliaid tragwyddoldeb yn Ngwyllt Walia fanteision ysprydol goruchel. Tua'r un amser ag y cy-hoeddwyd y traethodyn crybwylledig, ysgrifenodd Dr. Llewelyn un arall meistrolgar, tan y teitl, "Historical and Critical Remarks on the British Tongue, and its connexion with other Languages, founded on its state in the Welsh Bible," yn yr hwn y prawf yr awdwr ei wybod-aeth ddofn o'r Lladin, y Roeg, a'r Hebraeg. Rhydd Gwallter Mechain y ganmoliaeth uwchaf iddo fel cynyrch llenyddol ysplenydd. Yn 1776, cymerodd Dr. Llewelyn ran blaenllaw yn sefydlu cenadaeth i Ogledd Cymru, yn enwedig i siroedd Meirion, Caernarfon, a Mon, lle nid oedd

Digitized by Google

nemawr o Fedyddwyr, ac nid llawer o Ymneillduwyr. Bu yr ymgais yn llwyddianus, a sefydlwyd lluaws mawr o eglwysi gan y Bedyddwyr mewn gwahanol barthau o'r wlad. Efe a fynychai y cymanfaoedd blynyddol a gynelid yn y manau hyn yn rheolaidd, a llwyddodd i wasgar cryn lawer o ryddid barn yn mhlith gweinidogion y Bedyddwyr ar bynciau politicaidd y dydd. Ei weithred gyhoeddus olaf ydoedd anog Mr. Ross, argraffydd parchus yn Nghaerfyrddin, i gyhoeddi argraffiad llogell o'r Testament Newydd yn Nghymraeg. Cystuddiwyd ef faith flynyddau gan y dolur poenus clefyd y gareg; ac yn 1774, aeth tan yr oruchwyliaeth beryglus o gael ei thynu ymaith, o ba un yr adferodd yn fuan. Cafodd lonydd gan yr anhwyldeb am yspaid wedi hyny, ond dychwelodd drachefn, gan ddinystrio ei fywyd gwerthfawr. Y mae amrywiaeth mawr parth amseriad ei farwolaeth Dywed Dr. Richards o Lynn, yn y *Cambro British Biog.*, mai yn ngwanwyn 1783 y cymerth hyny le; Dr. Pughe, yn y *Cambrian Biog.*, mai yn 1796; a'r Parch. Wm. Roberts *(Nefydd)*, yn *Seren Gomer* am 1855, mai yn Awst, 1793. Oddiar amryw resymau, tueddir ni i dderbyn awdurdod yr olaf. Efe a gladdwyd yn mynwent Bunhill Fields, yn yr un bedd, meddir, â'r Dr. Isaac Watts.

LLEWELYN (THOMAS), o'r Rhigoes, yn Morganwg, bardd enwog ac ysgolor dyfnddysg, yn byw yn ystod rhan gyntaf yr 16eg ganrif. Trwyddedwyd ef i bregethu gan yr archesgob Grindal, yn amser y frenhines Elizabeth, a daeth yn boblogaidd iawn. Yr oedd yn fynych yn myned trwy y gwasanaeth dwyfol mewn tai annghyoedd, yn gystal ag mewn eglwysi, a ffurfiodd lawer o gymdeithasau crefyddol bychain. Nid oedd y rhai hyn ar y cyntaf wedi eu ffurfio gydag un bwriad i ymneillduo oddiwrth yr Eglwys Sefydledig. Yr oeddynt mewn llawer o bethau yn debyg i'r Methodistiaid diweddar, ac yn gosod eu hunain allan fel aelodau o'r Sefydliad. Yr oeddynt bron bob amser yn arfer y gwasanaeth cyhoeddus, ond darfu i'w hafreoleidd-dra yn cyfarfod mewn tai cyffredin, yn nghyda eu gweddiau a'u pregethau anysgrifenedig yn achlysurol, roddi lle i waradwydd a thramgwydd. Oherwydd hyn, drwgdybiwyd hwy yn afreidiol o fod yn elynol i'r eglwys, a dyoddefasant rhyw radd o erledigaeth oddiwrth yr archesgob Laud. Darfu i hyn eu dwyn i beidio cydffurfio; ac ar ol hyn, dechreuasant ymranu, ac i ddewis gwahanol enwadau yn eu plith hunain. Hona Malkin, yn ei *South Wales*, a Iolo Morganwg, fod Llewelyn wedi cyfieithu rhanau o'r Ysgrythyr i'r Gymraeg o flaen William Salisbury, a bod yr hen gyfieithydd o'r Cae Du, Llansannan, wedi gweled cyfieithiad y gwr o Rigoes, a gwneud defnydd mawr ohono. Ungoes y fympwy anghenfilaidd hon ydyw fod tafodiaith Gwent mor amlwg yn nghyfieithiad y Gogleddwr, fel yr oedd yn annichonadwy i Salisbury ei harferyd heb rhyw arweinydd. Dywedent fod llythyr yn meddiant Syr T. Mostyn, sir Fflint, a ddanfonodd Llewelyn at yr esgob Richard Davies, yn ei anog i gyfieithu y Beibl, ac yn rhoddi hanes rhyw ymgais o'i eiddo ef ei hun. Ond nid oes unrhyw sail ond traddodiad neu grybwylliad o eiddo Iolo Morganwg fod neb wedi gweled y cyfryw gyfieithiad, na'r prawf lleiaf fod Salisbury erioed wedi clywed am dano, er i'r awdwr hysbysu Dr. Davies ei fod wedi cyfieithu rhyw ranau o'r Beibl. A chaniatau fod yr Esgob a Salisbury yn cydlafurio gyda'r gwaith a briodolir i'r olaf, ai tybed i'r ddau fod mor anheg ag yspeilio y cyfieithydd o Forganwg o'i lawryf? Dywedant hefyd mai o Destament Saesoneg William Tyndal y tynodd Llewelyn ei gyfieithiad ef, tra y ceir digon o

Digitized by Google

brofion mewnol mai o'r Roeg yn uniongyrchol y cafwyd cyfieithiad Salisbury. Y mae hanes bywyd Thomas Llewelyn, fel lluaws o'i gydoeswyr, wedi llithro i ebargofiant, ac nid oes ar gof a chadw pa le na pha bryd y bu farw.

LLEWELYN (PARCH. WILLIAM), ydoedd fab i Thomas ac Alice Llewelyn, o Bentybont ar Ogwy, Morganwg; ac a anwyd yn 1735. Pobl mewn sefyllfa isel yn y byd oedd ei rieni—crydd oedd ei dad wrth ei alwedigaeth. Yr oedd yn aelod o'r hen gynulleidfa Henaduriaethol yn Mhenybont. Bu orfod i'r mab droi allan yn fore o dŷ ei dad i enill ei fara, i wasanaeth un "Morgan y Bragwr." Am ei fanteision dysgeidiol, ymddengys fod ysgol nos yn cael ei chynal yn y dref y pryd hyny, i'r hon y cyrchai ar ol gorphen gorchwylion y dydd. Yr oedd y gweinidog hefyd, fel yr arferai gweinidogion yr Ymneillduwyr Henaduriaethol wneud, yn cadw ysgol ddyddiol dda. Erbyn hyn, yr oedd Llewelyn yn aelod neu gymunwr. Gwelodd y gweinidog, y Parch. Lewis Jones, fod rhyw gymhwysderau ynddo, ac efe a'i cymeradwyodd i gael ei anfon i athrota y Fenni, o dan olygiad mab-yn-nghyfraith ei weinidog, sef y Parch. J. Jardine. Dangosodd Llewelyn yno ei fod yn llawn hynodrwydd, ac yn hyn bu yn od ar hyd ei oes. Ar ol gorphen ei amser yn yr athrofa, aeth yn weinidog i gynulleidfa o Ymneillduwyr yn Henffordd. Ymddangosodd ei hynodion yno yn nodedig; ymrafaeliodd âg un o'r aelodau, oblegyd naccau ohono roddi i fynu ei eisteddle, pan y gwneid rhyw gyfnewidiadau yn yr eisteddleoedd. Oblegyd hyn, gan na oddefai wrthwynebiad, efe a ymddigiodd, a gadawodd y ddinas ar brydnawn Sadwrn, heb yngan gair wrth neb, na gwneud darbod ar gyfer y bobl dranoeth. Bu wedi hyny yn lled ansefydlog hyd y flwyddyn 1762 neu 1772, nis gellir dweyd yn iawn pa un, pan y symudodd i Lanllieni, i fod o dan ofal meddyg clodfawr, oblegyd rhyw boen anarferol yn ei ben, nes yr oedd rai gweithiau fel gwallgofddyn, yr hyn yn nghyda'i hynodrwydd a'i gwnai yn beryglus ei wrthwynebu. Addefid, er hyny, gan bawb ei fod yn ddyn o feddwl mawr. Tra yr oedd yno, bu farw hen weinidog y gynulleidfa Henaduriaethol, a galwyd Llewelyn yn olynydd iddo. Yr oedd yno gynulleidfa gyfrifol. Byddai bwrdeisiaid y dref yn arfer mynychu y capel yn eu gwisgoedd swyddogol. Ond nid hir y bu Llewelyn yno heb ddangos ei neillduolrwydd, a bod yn achlysur i deneuo y gynulleidfa. Yr oedd yn cadw dysgyblaeth lem a chwerwdost. Yr oedd yn hen arferiad yno o lwgrwobrwyo etholwyr ar amser etholiadau seneddol. Penderfynodd Llewelyn y cospai yr aelodau a geid yn euog â diarddeliad o blith y cymunwyr, myned i eistedd ar y llofft, neu lwyr ymadael â'r capel. Ond yr oedd achos fel hyn o anmhoblogrwydd yn anrhydedd iddo. Yr oedd yn ddyn tàl, nodedig o landeg, a golwg tywysogaidd arno, yn tynu sylw pob un a'i gwelai. Yr oedd mynegiad ei wyneb yn ddifrifol brudd, braidd. Byddai ei bresenoldeb ar yr heol, neu mewn ystafell, yn creu math o ofn. Dywedai un nad edrychodd erioed arno heb feddwl am Moses neu un o'r prophwydi. Nacaodd yn llwyr gymeryd tynu ei bortread, canys yr oedd ganddo y gwrthwynebiad cryfaf i bob math o ddarluniau. Ni oddefai i'r fath beth fod ar furiau ystafelloedd ei dŷ, na thai yr un o'i aelodau—nid oedd tynu darlun, meddai, yn ddim amgen na gwatwar yr Hollalluog Dduw, yr hwn a greodd ddyn, ac a'i gosododd yn y byd fel portread ohono ei hun. Dyma un ffurf o'i hynodrwydd. Er ei fod yn ddyn neillduol o garedig a haelionus, yr oedd ar yr un pryd yn dra arglwyddiaethol ar ei eglwys, ei gynulleidfa

Digitized by Google

a'i blant. Ni oddefai y gwrthwynebiad lleiaf i'w gynlluniau—yr oedd ei arswyd ar yr holl gynulleidfa. Bygythiai hwynt yn ddifesur, a bygythiai hwynt â dinystr tragwyddol, os beiddient annghredu un sill o'r pethau a bregethai, er nad oedd ganddo athrawiaeth setydlog ei hun. Cyfaddefodd, yn ei ragymadrodd i'w Esboniad ar Lyfr y Datguddiad, ei fod wedi methu cael boddlonrwydd ar faterion ysgrythyrol oddiwrth y gwahanol gyfundraethau duwinyddol a fabwysiedid yn ei ddydd, ac iddo benderfynu ymaflyd yn y Beibl fel pe na buasai wedi clywed am un gyfundraeth dduwinyddol erioed, a chwilio ei ddalenau er mwyn gwybod pa athrawiaeth neu athrawiaethau a ddysgai, a'u dilyn i ba le bynag yr arweinient ef. Ond fel yr oedd yn chwilio, ymchwiliadau gwallgofddyn oeddynt. Daliai yn ffyrnig mai *dyn* oedd y Duw Mawr, ac mai ar ei ddelw naturiol y creodd efe Adda, a bod saith o bersonau yn y Dwdod. Gosododd y pethau hyn allan mewn cyfrol a elwir, "Morphe Theus,"—sef Ffurf Duw,—yr hon sydd yn cynwys rhai o'r pethau mwyaf cableddus a ysgrifenwyd erioed. Y mae eraill o'i ysgrifeniadau yn enwog am eu rhagoriaethau. Ysgrifenodd a chyhoeddodd, 1, "An Exposition of the beginning of Genesis;" 2, "An Exposition of the Epistle to the Romans" (cyhoeddwyd rhan ohono yn Gymraeg, yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd* am 1812, ac wedi hyny yn draethodyn wrtho ei hun); 3, "A Treatize on the Sabbath;" 4, "Inspiration of the Bible asserted and explained, and the charge of contradictory passages disproved;" 5, "An Appeal to men against Paine's Rights of Man, in two parts;" 6, "The Doctrine of Baptism;" 7, "The Form of God;" 8, "Christianity, or the science of Christ; Elohim son of Elohim, beheld on earth in the habit of men." Bu farw yn ddisyfyd yn ei areithfa tra yn pregethu, Ionawr 30, 1803, yn 68 oed.—*Traethodydd*. am 1851.

LLEYN ab Baran, ydoedd dywysog dewr. Bu yn brwydro yn erbyn brenin Gwynedd, a chymerth ran o'i diriogaeth, ac a'i galwodd yn Lleyn, yr hwn sydd gantref yn sir Gaernarfon. Bu fyw i oedran mawr fel Baran, ei dad, yr hwn a gyrhaeddodd yr oedran uchel y 187 o flynyddau. —*Iolo MSS.*

LLEYN (Huw), bardd rhwng 1540 a 1580. Y mae peth o'i waith yn nghadw mewn ysgriflyfrau.

LLEYN (Robert) bardd rhwng 1580 a 1620.

LLEYN (William), bardd penigamp, a anwyd tua 1540 yn Llangian, Lleyn, sir Gaernarfon. Dywed traddodiad mai mab naturiol ydoedd i un o Ruffyddiaid Cefnamwlch, yr hwn a'i dygodd i fynu yn offeiriad. Ei enw priodol oedd William Owen, M.A. Cafodd ficeriaeth Croesoswallt yn 1583; a bu farw yno yn 1587. Ei athraw barddonol ydoedd Gruffydd Hiraethog; a dysgybl iddo yntau oedd Edmwnd Prys, archddiacon Meiroinydd. Urddwyd ef yn bencerdd cerdd dafod yn Eisteddfod Caerwys, yn 1568. Diau mai efe oedd prif-fardd ei oes, ac na chododd ei gyffelyb hyd Oronwy Owen. Y mae celfyddyd, doethineb, nerth, a thlysni, fel pedair morwyn landeg mewn gwisg o sidan, yn ymryson beunydd am sylw a serch ei awen, trwy ei holl waith. Bu ymryson barddonol rhyngddo âg Owain Gwynedd. Protestant diledryw ydoedd, ac y mae yn ei waith aml i hergwt i'r Babaeth. Y mae naw o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn *Gorchestion Beirdd Cymru*, ac yn eu plith farwnad i'w gyn-athraw, G. Hiraethog. Cyfansoddwyd ei farwnad yntau gan ei gymydog, Rhys Cain.

LLIBIO, un o feibion Seithenyn Feddw, a phan y goddiweddwyd

Digitized by Google

cyfoeth eu tad, sef Cantref y Gwaelod, gan y môr, Llibio a'i frodyr a ymroisant i arwedd bywyd crefyddol, ac a aethant i Fangor-is-y-Coed, yn Maelor. Efe a sefydlodd eglwys Llanllibio yn Mon, lle y cedwid ei wylmabsant Chwef. 28.—*Iolo MSS.*

LLIFON (Huw), bardd rhwng 1570 a 1600.

LLOEGRIN, neu Locrinus, mab hynaf Brutus, i'r hwn y rhoddes ei dad y rhandir a elwir hyd heddyw yn Nghymraeg yn Lloegr. Efe a briododd Gwendolen, ferch Corineus, yr hon a roddes heibio er mwyn y brydferth Essyllt; eithr Gwendolen a giliodd i Gernyw, a chan godi byddin gref o wyr, a ymdeithiodd yn erbyn ei gwr anffyddlon, a lladdwyd ef mewn brwydr.

LLONIO LLAWHIR, ydoedd fab i Alan Fyrgam ab Emyr Llydaw, sant yn ei flodeu yn nechreu y chweched cant. Yr oedd yn aelod o goleg Illtyd, ac yn gyffeswr neu ddeon yn ngholeg Padarn, Llanbadarn-fawr. Sefydlodd eglwys Llanddinam, sir Drefaldwyn; a Llanllwni, yn sir Gaerfyrddin. Claddwyd ef yn Enlli.—*Iolo MSS.*

LLOFAN LLAWDINO, neu Llawdifo, penaeth yn y chweched ganrif. Dywed un o'r *Trioedd* mai efe a laddodd Urien Rheged, a gelwir y weithred hono yn un o'r "tair anfad gyflafan." Dywedir yn "Englynion y Beddau," fod ei fedd ar draeth y Fenai.

LLOYD (Parch. David), D.C.L., ydoedd fab i Edward Lloyd o'r Berthlwyd a Bwlch y llyn, ger Llanidloes, sir Drefaldwyn, lle y ganwyd ef yn 1598. Pan yn 14 oed, penodwyd ef yn ysgrifenydd coleg All Soul's, Rhydychain; ac yn 1617, etholwyd ef yn gymrawd o'r coleg hwnw. Yn 1628, graddiwyd ef yn D.C.L., a bu ar ol hyny yn gaplan i'r Iarll Derby, ac yn arolygydd ei dŷ. Yn 1641, rhoddwyd iddo rectoriaeth Trefdraeth, yn Mon; ac oddiyno, yn Ngorph. 1642, symudodd i Langanhafal, sir Ddinbych Yn Rhagfyr, yn un flwyddyn, gwnaed ef yn ficer Llanfair Dyffryn Clwyd, ac yn *warden* Rhuthyn. Yr oedd hefyd yn brepend yn Nghaerlleon; ond bwriwyd ef allan o'r swyddau hyn oll gan y Werinlywodraeth, a goddefodd garchariad maith oblegyd ei freningarwch. Ond ar adferiad Siarl II., dychwelwyd iddo yr hyn a gollasai. Gwnaed ef hefyd yn ddeon Llanelwy, a rhoddwyd iddo un o gyfranau segurswyddol Llansannan. Bu farw yn Rhuthyn, Medi 7, 1663: ac yno y claddwyd ef, lle nid oes beddfaen na chofnod i'w goffadwriaeth. Ystyrid ef yn ddyn gallnog, yn fardd da, ac ysgrifenodd amrywiol ganeuon, pryddestau, a marwnadau, y rhai sydd yn wasgaredig mewn gwahanol lyfrau; ond ei waith mwyaf adnabyddus ydyw ei "Legend of Captain Jones," yr hwn a gyhoeddwyd gyntaf yn Llundain yn 1659, ac a argraffwyd lawer gwaith wedi hyny. Math o watwargerdd feistrolgar ydyw ac efelychiad o awdl Sion Tudur i "Richard Sion Greulon, neu Richard ap Sion;" gwel (Jones Cadben Richard.)

LLOYD (Parch. David), ydoedd fab Hugh Llwyd, o'r Pantmawr, yn mhlwyf Trawsfynydd, Meirionydd, ac a anwyd yn 1635. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn Rhuthyn, ac oddiyno symudodd yn 1658 i goleg Oriel, Rhydychain. Cafodd bersoniaeth Toston ger Rhydychain, a bu hefyd yn ddarllenydd yn y Charter House, Llundain. Dychwelodd i Gymru, pan y cafodd ficeriaeth Llansantffraid yn Mechain, sir Drefaldwyn; canoniaeth yn Llanelwy; ac yn 1670, ei benodi yn gaplan i'r Dr. Isaac Barrow, yr esgob. Yn 1671, cafodd ficeriaeth Abergele, a phersoniaeth Llanddulas yn 1672, y rhai a gyfnewidiodd yn 1677 am ficeriaeth Llaneurgain, a phrebenderiaeth yn Llanelwy. Yr oedd yn awdwr y llyfrau rhagorol a ganlyn:—1, "Wonders no Miracles;" 2,

Digitized by Google

"Memoirs and Actions of Eminent Personages since the Reformation," 3, "Church Worthies;" 4, "State Worthies." Bu farw yn ei ardal enedigol yn 1691.

LLOYD (Parch. David), ficer Llanbyster, sir Faesyfed, a anwyd ac a dreuliodd ran fwyaf ei oes yn y plwyf hwnw. Derbyniodd addysg yn Lladin ac uchrifyddiaeth yn ysgolion y gymydogaeth hono, ond yr oedd hyny o wybodaeth oedd ganddo mewn Groeg yn hollol hunan-addysgiol. Urddwyd ef yn gurad Llanbyster yn 1778, a symudodd oddiyno yn 1785 i Putley, yn sir Hentfordd, a gwasanaethodd guradiaeth y plwyf hwnw a'r plwyf cyfnesol Aylton. Yn 1789, gwnaed ef yn ficer Llanbyster, lle y bu hyd derfyn ei oes faith, yr hyn a gymerodd le Mawrth 3, 1838. Yr oedd yn meddu cyneddfau meddyliol cryfion. Cymerai ddifyrwch mawr mewn peirianaeth, a gwnaeth amryw beiriannau, yn eu plith un o symudiad parhaol (*perpetual motion*), yn yr hyn y tybiai ei fod yn llwyddiannus. Fel cerddor, yr oedd yn fedrus fel chwareuydd ar y crwth a'r organ. Cyfansoddodd aml i ddarn cerddorol, un o ba rai a gyhoeddwyd, sef "The Loyal Cambrian Volunteers," yr hon a gafodd dderbyniad gwresog. Yn 1792, cyhoeddodd "The Voyage of Life," pryddest mewn naw penod; ac yn 1812, daeth ag ail argraffiad allan ohoni mewn deg penod. Cyhoeddodd bregeth hefyd yn 1797, tan y teitl "England's Privileges." Ei waith olaf ydoedd "Horæ Theologicæ, or a series of Essays on Subjects interesting and important, embracing Physics, Morals, and Theology," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1823.—Wms. *Em. Welsh.*

LLOYD (David), Ysw., ydoedd foneddwr yn Mon. Ei wraig oedd ferch i Rhisiart Owen Tudur, o Benmynydd, yr hwn oedd berthynas i Harri'r VII. Yr oedd hi yn brydyddes Gymreig; ac yr oedd yntau yn wr dysgedig. Ysgrifenodd amryw bethau mewn Cymraeg cywrain iawn, cyn i waith y Dr. Sion Dafydd Rhys ddyfod allan. Dywedir ei fod yn deall saith o ieithoedd, heblaw'r Gymraeg. Efe a ysgrifenodd nodiadau Cymreig ar ymyl dail ei Feibl Hebraeg. Bu iddo dri o feibion, oll yn weinidogion yr eglwys—y Parch. John Lloyd, M.A., a fu yn berson Llandegfan; y Parch. William Lloyd, M.A., a fu yn berson Llanelian, Mon; a'r Parch. Rhisiart Lloyd, a ymsefydlodd yn Lloegr, lle y ganwyd ei unig fab William; a'r hwn, pan fu farw yn 80 oed, oedd yn Esgob Caerwrangon.—*Athen. Oxon.*

LLOYD (Parch. David), M.A, LL.D., ydoedd ŵyr i'r Parch. D. Lloyd, gweinidog Llwynrhydowen, ac a anwyd yn mhentref Llandysul, sir Aberteifi, yn 1805. Ysgolfeistr oedd ei dad yn y pentref uchod, gan yr hwn y derbyniodd elfenau cyntaf ei ddysgeidiaeth; ac wedi hyny bu yn ysgol y Parch. John Thomas, gweinidog Undodaidd yn Mhantydefaid, lle yr arosodd hyd nes yr aeth i goleg Caerfyrddin. Ei awydd o'r dechreu oedd bod yn weinidog Undodaidd. Pan holwyd ef gyntaf, dangosodd wybodaeth ieithyddol a roes foddlonrwydd mawr i'r holwr, a thyb ffafriol y deuai yn ysgolhaig enwog. Wedi treulio pedair blynedd yn Ngharfyrddin, efe a aeth i brifysgol Glasgow, ar awdurdod ysgoloriaeth Dr. Williams. Yno, cyrhaeddodd y radd o M.A.; ac yn 1852, rhoddodd y coleg hwnw iddo y radd o LL.D. Yr oedd llawer o bethau yn Dr. Lloyd a gyfrifid yn hynod. Gellid dweyd am dano ei fod yn Gymro o'r Cymry. Yr oedd yn gweled Cymru, yn enwedig ardal wledig Llandysul, yn harddach nag un lle arall, a'i thrigolion yn mhell o flaen pobl eraill yn mhob peth a hoffai ei weled mewn dynion. Pan fu farw ei hen athraw, y Parch. D. Peter, gwnaed ef yn benaeth

Digitized by Google

coleg Caerfyrddin. Fel athraw dynion ieuainc, yr oedd yn un llym a chaled iawn yn yr ysgol, ond allan oddiyno ymddiddanai yn ddifyrus, fel pe buasai dim wedi digwydd rhyngddo â neb. Fel yr oedd yn Gymro o'r Cymry, yr oedd hefyd yn Undodydd o'r Undodiaid, a thrwy ddrych Undodaidd yr oedd yn gweled rhagoroldeb gwlad neu ddyn; eto nid oedd yn ddyn cecrus, eithr nodedig iawn o gyfeillgar â phawb, a dywedir na byddai byth yn dysgu y credo Undodaidd yn y coleg. Yr oedd er hyny yn ddadleuydd, a bu mewn dadleuon yn y cyhoeddiadau cyfnodol â'r Parchn. D. A. Williams, canghellydd esgobaeth Tyddewi, a Hugh Jones, gweinidog gyda'r Bedyddwyr. Yn niwedd ei oes, bu llyfrynau dadleuol rhyngddo â'r Dr. Thirlwall, esgob Tyddewi, parth rhai o dybiau Germanaidd Dr. Rowland Williams. Yr oedd ei wladddysg yn gymysgedig o doriaeth a whigiaeth. Yr oedd yn gryf yn erbyn y dreth eglwys, ond nid oedd yn gofalu nemawr am estyniad yr etholfraint. Yr oedd yn gryf yn erbyn dilead deddfau yr ŷd, oblegyd y credai y niweidiai hyny yr amaethwyr. Nid oedd yn gyfaill i fasnachyddiaeth na chynydd trefi—mynai i'r wlad fod yn wlad, a'r pentref fod yn bentref, yn yr hen ddull gwladaidd. Bu farw yn 1860, yn 58 oed.—*Lleyn MSS.*

LLOYD (Parch. David), gweinidog galluog gyda'r Undodwyr yn Llwynrhydowen, sir Aberteifi. Efe oedd sylfaenydd y cynulleidfaodd Ariaid yn y sir hono. Yr oedd yn ysgolhaig enwog ac yn bregethwr nerthol iawn, ac yn ymlynol ymroddgar wrth yr egwyddorion mawrion o ryddid gwladol a chrefyddol; ac yn fardd o chwaeth dda. Cafodd ei addysg yn ngholeg Caerfyrddin. Bu farw yn 1778, wedi bod yn gweinidogaethu am 36 o flynyddau. Yn mhen saith mlynedd wedi ei farwolaeth, cyhoeddwyd ei "Waith Prydyddawl," yr hwn a gynwys lawer o ganeuon tlysion.

LLOYD (Parch. Evan), bardd Seisnig o radd uchel, a hanai o deulu hybarch y Brynhir, yn Nghrawsfynydd. Ail fab ydoedd i John Lloyd, Ysw., o Frondderw, ger y Bala, lle y ganwyd ef yn 1734. Cafodd ei addysg yn y Trinity Hall, Caergrawnt, o tan ofal y Parch. Thomas Hughes, LL.B. Dangosodd yn gynar fod ganddo feddwl galluog, a cheid prawf yn nghynyrchion cynaraf ei athrylith fod gwawd a duchan yn gyneddf gref ynddo. Wedi gadael Caergrawnt, aeth i goleg yr Iesu, Rhydychain, lle yr etholwyd ef yn ysgolor yn 1755, ac y cymerodd y radd o M.A. Bu am beth amser yn gwasanaethu eglwys yn Llundain, ac ar ol hyny rhoddwyd iddo ficeriaeth Llanfair Dyffryn Clwyd, sir Ddinbych. Cyhoeddwyd y pryddestau canlynol o'i waith:—1, "The Powers of the Pen," yr hon a gyhoeddwyd yn 1765, ac a adgyhoeddwyd yn 1768; 2, "The Curate," 3, "The Methodist," y ddwy hyn yn 1766; 4, "The Conversation," 1767; 5, "Epistle to David Garrick." Yr oedd yn cydoesi â Churchill, Garrick, Wilkes, Colman, ac ar delerau tra chyfeillgar â hwynt, ac â phrif lenorion eraill ei oes. Rhoddes Garrick anrheg ysplenydd o gwpan wedi ei nhaddu o'r pren merywen (*mulberry*) enwog a dyfai yn ngardd Shakespeare. Dygodd rhyw sylwadau gwawdlym a wnaeth Mr. Lloyd ar un o'i gymydogion yn ei bryddest "The Methodist," ef i afael cyfraith athrod, a charcharwyd ef o'r herwydd yn llys y frenhinfainc. Bu farw Ion., 1776, yn 42 oed, a chladdwyd ef yn meddrod y teulu yn eglwys Llanycil, lle y mae gwyddfa o farmor gwyn i'w goffadwriaeth, a llinellau Seisnig o waith ei gyfaill Wilkes yn gerfiedig arno.

LLOYD (Syr Francis), barwnig, ydoedd fab i Syr Marmaduke

Digitized by Google

Lloyd, o Faes y Felin, sir Aberteifi. Bu yn A.S. tros sir Gaerfyrddin. Cafodd ei ddyrchafu yn drefnwr ty i Siarl I., a'i greu yn farchog. Dywedir iddo ddyoddef llawer yn achos y brenin; ac am hyny efe a enciliodd o'r senedd yn 1643, am yr hyn y dirwywyd ef yn neuadd y Gofaint Aur, i'r swm mawr o £1033. Efe a briododd yn gyntaf, â Mary, merch John Fychan, iarll Carbery, o'r *Golden Grove*, yr hwn a achlesodd Jeremy Taylor; ac yn ail, â Bridget, merch Risiart Leigh, Ysw., maer Caerfyrddin yn 1666. Pan adferwyd Siarl II., cafodd ei wneud yn un o ddirgel-gynghor y penadur hwnw.—*Arch. Cambrensis*, am 1860.

LLOYD (George), D.D. ydoedd y chweched mab i Meredydd ap John, o deulu Llanelidan a Chirmel, yn sir Ddinbych. Addysgwyd ef yn mhrifysgol Caergrawnt, ac wedi derbyn urddau eglwysig, cafodd fywioliaethau Thornton a Bangor, yn esgobaeth Caerlleon, ac yn 1600, gwnaed ef yn esgob Sodor a Man. Dyrchafwyd ef i esgobaeth Caerlleon yn 1604. Bu farw yn Thornton, Awst 1, 1655, yn 55 oed; a chladdwyd ef yn ei brif-eglwys ei hun.

LLOYD (Syr Griffith), ydoedd ail fab i Morgan Lloyd ab Huw, o Lanllŷr, yn sir Aberteifi. Cafodd ei ddysg yn ngholeg yr Iesu, Rhydychain, a graddiwyd ef LL.D. Cafodd hefyd y brofferwriaeth freiniol o D.C.L., yr hon a ddygai iddo yn flynyddol £40, a'r hwn le a gafodd Mai 16 ,1577; a bu am beth amser yn ganghellwr yr Esgob. Efe a briododd ferch a chydetifeddes John Restal, yr hwn oedd brif farnydd siroedd deheuol Cymru. Dyrchafwyd ef yn benaeth coleg yr Iesu yn 1572, 1576, a 1584. Yr oedd yn brif farnydd siroedd Maesyfed, Brycheiniog, a Morganwg. Bu yn haelionus iawn i'w goleg, i'r hwn y rhoddodd amryw ffermydd yn mhlwyfau Nantcwmlle, a Llanddewi Brefi, yn sir Aberteifi. Bu farw Mai 16, 1587.—*Arch. Cambrensis*, am 1860.

LLOYD (Humphrey), D.D., ydoedd drydydd mab Richard Lloyd, D.D., ficer Ruabon ac yn disgyn o deulu hynafol Llwydiaid Dulasau, a anwyd yn Bod y Fuddan, plwyf Trawsfynydd, yn 1610. Derbyniwyd ef i goleg Oriel, Rhydychain, o ba le y symudwyd ef i goleg yr Iesu, lle y daeth yn ysgolor; dychwelodd drachefn i goleg Oriel, a gwnaed ef yn gymrawd, a pharhaodd yn ddysgawdwr enwog am lawer o flynyddau. Pan ymsefydlodd y brenin a'i lys yn Rhydychain, daeth yn gydnabyddus gyda'i gydwladwr yr archesgob Williams, yr hwn a'i dewisodd yn gaplan iddo ei hun, ac a roddes iddo brependiaeth Ampleford yn mhrif-eglwys York, yr hon a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Ar farwolaeth ei dad yn 1653, efe a'i dilynodd fel ficer Ruabon, ond efe a gollodd ei swyddau yn ystod rhwysg y Werin-lywodraeth. Gwnaed ef yn ganon esgobaeth Llanelwy yn 1661, a chymerodd y radd o D.D., ac yn 1673, symudodd o ficeriaeth Ruabon, sir Ddinbych, i ficeriaeth Gresford yn yr un sir, yn lle ei frawd hynaf, Parch. Samuel Lloyd. Cysegrwyd ef yn esgob Bangor Tachwedd 17, 1673, ac yn y swydd hono pwrcasodd archddeoniaethau Bangor a Mon, a gwag fywioliaeth Llanrhaiadr yn Nghinmerch, gan eu huno âg esgobaeth Bangor yn 1685; a dwy ran o dair o gyfranau Llanddinam, gan eu cyflwyno at yr achos eglwysig, a chynaliaeth côr Bangor, a'r drydedd ran arall er budd ficeriaeth Llanddinam. Bu farw yn 1688, a chladdwyd ef yn ei brif-eglwys.—Wood's *Athen. Oxon.*

LLOYD (Hugh), D.C.L., duweinydd ac ysgolhaig enwog a anwyd yn Lleyn, sir Gaernarfon. Addysgwyd ef yn ngholeg Winchester, a

Digitized by Google

chafodd dderbyniad fel cymrawd yn y coleg newydd, yn 1564. Dyrchafwyd ef i ganghellaeth Rochester yn 1578, ac efe ar y pryd yn D.C.L. Cafodd wedi hyny ei benodi yn feistr coleg Winchester, ac ystyrid ef ar y pryd yn ysgolhaig enwog mewn Groeg a Lladin, yn nghydag amryw wybodau dyfnion eraill. Efe a ysgrifenodd luaws o lyfrau dysgedig, ac a fu farw Hydref 17, 1601.—Wood's *Athen. Oxon.*

LLOYD (Hugh), D.D., a anwyd yn sir Aberteifi yn 1589. Derbyniwyd ef i goleg Oriel, Rhydychain, yn 1607, lle y graddiwyd ef yn y celfyddydau; ac oddiyno, symudwyd ef i goleg yr Iesu, lle y gwnaed ef yn gymrawd. Graddiwyd ef yn D.D. yn 1638, ac efe ar y pryd yn rector Llangadog, sir Frycheiniog ac yn archddeacon yn Nhyddewi. Yn ystod y gwrthryfel, dyoddefodd lawer yn achos y brenin, collodd ei fywiolaethau, a gorfodid ef i ffoi am ddyogelwch o'r naill fan i'r llall. Fel gwobr i'w ddyoddefiadau, a'i alluodd ysplenydd, cysegrwyd ef yn esgob Llandaf Rhag. 2, 1660. Bu farw yn 1667.—Wood's *Athen. Oxon.*

LLOYD (Parch. Jenkyn), M.A., ydoedd fab hynaf David Lloyd, o Bontstremon, plwyf Llandysul, sir Aberteifi. Dygwyd ef i fynu i'r weinidogaeth, a daeth yn ficer ei blwyf genedigol yn amser Siarl I., ac yn byw yn ei le genedigol y Faerdre Fawr. Efe a briodes Elin, ferch Dafydd Llwyd, o'r Geuros. Yr oedd yn cymeradwyo mesurau Oliver Cromwell, ac yr oedd yn un o'r prawfwyr dan y weithred er lledaeniad yr Efengyl. Cyhoeddodd lyfr bychan o'r enw "Christ's Valedictions, or Sacred Observations on the last Word of our Saviour delivered on the Cross," yr hwn a fawr ganmolir am dlysni ei iaith, ac eneiniaeth ei syniadau. Argraffwyd ef yn 1658, a chynwysa 220 o dudalenau. Bu farw oddeutu 1660.—*Lleyn MSS.*

LLOYD (John) *(Einion Mon)*, ydoedd enedigol o Bwllygynne, yn sir Fon. Cafodd ddysgeidiaeth dda yn Llanerchymedd. Wedi hyny, bu yn is-athraw mewn ysgol lle yr oedd dau o fechgyn y Duc o Wellington yn ysgolorion ganddo. Ar amser gwyliau yr ysgol, cyfarfu a'i ddau ysgolor pendefigaidd yn rhodio gyda'u mham yn Hyde Park, yr hon a daer ddymunodd arno i barhau i ddysgu ei mheibion ar hyd y gwyliau, a gwneud ei drigfa yn ei thŷ. Bu yn foddion i atal deoliad y tylodion o'r bythynod a godasent, a'r gerddi a amgauasent, ar wylltdiroedd Llandwrog a Llanwnda, yn Arfon. Bu farw yn Llundain, yn Awst, 1834; yn 42 oed.—*Y Gwyliedydd* am 1834.

LLOYD (John), ydoedd gydymaith Mr. Pennant ar ei deithiau. Cafodd ei ddysg yn ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle y cyrhaeddodd y radd o B.D., a'i wneud yn gymrawd. Cafodd ficeriaeth Treffynon yn 1773. Yr oedd yn ficer Nannerch yn 1774; Caerwys yn 1778; Llanfihangel y Gwynt yn 1780; a Chilcen yn 1782. Bu farw yn y lle olaf, yn Mai, 1792.

LLOYD (Parch. John), D.D., cyfathrachwr i'r enwog Humphrey Llwyd, a anwyd yn nhref Dinbych. Addysgwyd ef yn ngholeg Winchester, a chafodd ei dderbyn yn gymrawd parhaol o'r Coleg Newydd, yn 1579, lle y graddiwyd ef yn y celfyddydau, a daeth yn bregethwr enwog. Yn 1595, graddiwyd ef yn D.D.; a chafodd ficeriaeth Writtle, yn Essex, yn 1598, lle y coleddid y syniadau uwchaf am dano ar gyfrif ei ddysgeidiaeth ddofn, a'i hyawdledd aruchel fel pregethwr. Yn 1590, cyhoeddodd "Interpratio Latina," &c. Efe hefyd oedd y cyntaf i gyhoeddi "Barlaamus de Papæ," &c., yr hwn a argraffwyd yn Rhydychain yn 1592. Bu farw yn Writtle yn 1603.—Wood's *Athen. Oxon.*

LLOYD (John), ydoedd fab hynaf Rhys Llwyd, o'r Ddinas, plwyf

Digitized by Google

Llanwrtyd, sir Frycheiniog; ac yn deilliaw o Elystan Glodrydd, tywysog Terllys. Ymgymerodd â morwriaeth, a daeth yn gadben y llong "Manship," perthynol i'r *East India Company*. Gadawodd ei blwyf genedigol pan yn 16eg oed, heb gyfeillion na chefnogaeth, ond drwy ymddygiad da a dyfalbarhad, enillodd y naill a'r llall; ac wedi gwasanaeth o ddeuddeg ar hugain o flynyddau yn y llynges, a deuddeg mordaith i India, yn ystod y rhai y cyfarfyddodd â llongddrylliad ddwywaith, ac â charchariad creulon oddiar law y Tippoo, Sultan Mysore. Pan ddychwelodd i'w wlad, dangosodd yr un ysbryd anturiaethus, mewn gwelliantau tirol a chymdeithasol. Bu farw Chwefror, 1818.—*Lleyn MSS.*

LLOYD (JOHN), ydoedd fab i Charles Lloyd, yn mhlwyf Meifod, sir Drefaldwyn. Ganwyd ef yn 1642. Yr oedd yn un o chwech ysgrifenydd y Sianseri. Yr oedd iddo frawd o'r enw CHARLES LLOYD, yr hwn a ymfudodd i'r America, ac a gymerodd ran yn yr ymdrafodaeth o chwilio am yr Indiaid Cymreig. Brawd arall o'r enw THOMAS LLOYD a ymfudodd hefyd i'r America gyda William Penn, lle y daeth yn wreiddyn llawer o deuluoedd. Crynwyr cydwybodol oedd y teulu hwn, a goddefasant lawer am eu crefydd. Eu cynrychiolwyr yn awr yn Lloegr ydyw Lloyds y banceriaid; a Truman, Hanbury, a Buxton, y darllawyddion; ac y mae rhai o'r teulu yn parhau hyd y dydd hwn yn ffydd eu hynafiaid.

LLOYD (JOHN), ydoedd fab i Morgan Lloyd, ac yn hanu o deulu hynafol Pentaine, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef yn 1638. Daeth yn aelod o goleg Merton yn 1655, lle yr arosodd hyd oni chafodd y radd o B.A. Yna aeth yn gymrawd o goleg yr Iesu, a dewiswyd ef yn brif athraw pan roddes Syr Leoline Jenkins y swydd i fynu. Yn 1682, a'r ddwy flynedd ganlynol, gwasanaethodd fel canghellydd y brifysgol; ac ar farwolaeth Dr. Lawrence Womack, penodwyd ef gan y brenin Iago II. yn esgob Tyddewi, i'r hon swydd y cysegrwyd ef yn Lambeth Hydref 17, 1686. Oherwydd gwaelder ei iechyd, ymneilldu odd i Rydychain, a bu farw yn ngholeg yr Iesu yn y Chwefror dilynol i'w gysegriad i'r swydd esgobol, ac efe yn 49 oed. Codwyd yno gofadail i'w goffadwriaeth.—Wood's *Athen. Oxon.*

LLOYD (JOHN), cyfreithiwr enwog, ydoedd fab hynaf Hugh Lloyd, o'r Berth, yn mhlwyf Llanbedr, ger Rhuthyn. Ganwyd ef yn 1746. Cafodd ei addysg yn ysgol ramadegol Rhuthyn; a bu am fyr amser wedi hyny yn Amwythig. Pan yn dra ieuanc, dechreuodd efrydu y gyfraith, a thrwy ei athrylith gref, yn yr amser priodol, cafodd ddigon o ymarferiad i'w alluoedd, a dyrchafiadau anrhydeddus yn ei alwedigaeth. Yr oedd yn ddiarhebol am barodrwydd ei atebion i bob holiadau mewn cysylltiad â'r gyfraith; a chan ei fod yr un mor gydnabyddus yn y gyfraith gyffredin, uchel-gyfiawn, â'r eiddo y sesiynau chwarterol, ni cheid ef yn anmharod ei atebion ar un o'r canghenau hyn. Nid peth anarferol fyddai i rai dori ar dawelwch ei rodfeydd, neu fyned i gyd-hela ag ef, er mwyn cael allan ei farn ar rhyw bwnc cyfreithiol dyrys; ac er y gwyddai yr amcan oedd ganddynt, ni omeddai gydsynio â'u cais un amser. Yr oedd ei ddyrchafiad i'w briodoli yn hollol i'w deilyngdod a'i wybodaeth yn ei broffeswriaeth. Hyn a'i harganmolodd i sylw a nawdd arglwydd Thurlow, trwy ffafr a chymeradwyaeth yr hwn gwnaed ef yn farnwr y cylchdeithiau Cymreig. Yr oedd ei serch at ei wlad yn gryf a digyfnewid; siaradai Gymraeg mor hylithr â'r Saesneg; a chyfaddefai yn fynych i hyny fod o fantais fawr iddo yn ei

Digitized by Google

swydd fel prif-farnwr cylchdaith Caerfyrddin. Meddylid mor uchel o'i opiniynau cyfreithiol gan gyfreithwyr galluog, fel yr ymgynghorid âg ef gan arglwydd Eldon, Syr James Mansfield, arglwydd Redesdale, Syr Thomas Plumer, Sergeant Hill, ac eraill, pan fyddai ganddynt mewn llaw achosion dyrys ac anhawdd. Bu farw Medi 9, 1806; yn 60 oed. —Wms. *Em. Welsh.*

LLOYD (Lewis), oedd fab i William Lloyd, Cwrt Henry, sir Gaerfyrddin, ydoedd weinidog cynulleidfa Gymreig a ymgyfarfyddai mewn addoldy bychan yn Manchester. Priododd ferch i un o'i gynulleidfa, o'r enw John Jones, yr hwn er mai creftwr ydoedd, oedd yn dra chyfoethog, ac yn arfer benthyca ar lôg, neu fod yn fath o fancer yn mhlith ei gydnabod. Yn mhen ychydig, cynygiodd fod i'w fab yn nghyfraith roi heibio y weinidogaeth, a dyfod i'w swyddfa ef fel cydgyfranogwr, dan yr enw Jones, Lloyd, & Co. Yn mhen peth amser, cytunwyd ar iddo fyned i Lundain, a sefydlu banc yno, dan yr enw cydfasnachdy â Manchester, fel y gallent dynu taliadau ar eu gilydd. Gwelwyd yn fuan fod Mr. Lewis Lloyd yn gymhwys i fod yn fancer, oblegyd gosododd clirder ei ben, ei ddiwydrwydd diflino, a'i onestrwydd perffaith, sylfaen llwyddiant i'r sefydliad newydd. Yn mhen amser hir, ymneilldduodd Mr. Lloyd oddiwrth y gofalon, a chymerodd ei fab Mr. Samuel Lloyd Jones ei le fel pen y tŷ yn Llundain, yr hwn a grewyd wedi hyny yn Arglwydd Overstone. Bu farw yn 1858, yn 90 oed.—*Lleyn MSS.*

LLOYD (Syr Marmeduke), marchog, ydoedd fab i'r Parch. Thos. Lloyd, Trysorydd Tyddewi, ac wyr i Morgan Lloyd ab Huw o Lanllyr a Maes y Felin, yn sir Aberteifi. Yr oedd hefyd yn nai fab chwaer i Dr. Middleton, esgob Tyddewi. Dygwyd ef i fynu yn gyfreithydd, ac yr oedd yn aelod o'r Deml. Gwnaed ef yn brif farnydd brawdlysoedd Maesyfed, Brycheiniog a Morganwg. Yn 1630 gwnaed ef yn brif ynad Aberhonddu, ac yn un o gynghoriaid y Terfynau. Ac ar ei godiad i ryw un o'r swyddau hyn y gwnaed ef yn farchog. Yr oedd yn fyw yn 1640.

LLOYD (Nicholas), M.A., a anwyd yn Holton, sir Fflint. yn 1634. Yr oedd ei dad, George Lloyd, yn weinidog Wonsington, ger Winchester, a rhoddes y bachgen hwn yn ngholeg y dref hono. Wedi hyny, derbyniwyd ef i goleg Hart Hall, Rhydychain, o ba le yr etholwyd ef yn ysgolor i goleg Wadham yn 1653, a thrachefn yn gymrawd. Yn 1665, pan ddyrchafwyd Dr. Blandford, *warden* y coleg, yn esgob Rhydychain, efe a benodwyd yn gaplan iddo, ac efe ar y pryd yn rector eglwys St. Martin, Rhydychain; ac yn 1752, cafodd gan ei arglwyddiaeth rectoriaeth yn Newington, ger Lambeth, Surrey. Yr oedd yn awdwr "Dictionarum Historicum, Geographicum, Poeticum," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1670. Cymerwyd ei ddefnyddiau yn benaf o eirlyfrau Stephanus a Ferrarius. Eithr yr awdwr drachefn a'i gwnaeth yn waith cwbl newydd, trwy ychwanegu ato o adnoddau ei ddarlleniad helaeth bron gymaint arall ag a gynwysai o'r blaen. Argraffwyd hwn yn Llundain yn 1686. Efe a fu farw yn Newington yn 1680.—Wood's *Athen. Oxon.*

LLOYD (Richard), B.D., ydoedd fab i David Lloyd, o Henblas, yn Mon (hanes yr hwn a geir yn tu dal. 682), ac a anwyd yn 1574. Efe a addysgwyd gartref gan ei dad, a phan yn 17eg oed derbyniwyd ef i goleg Oriel, Rhydychain. Wedi ei raddio yn y celfyddydau, a derbyn urddau, penodwyd ef yn rector Sonning, ac yn ficer Tilehurst, yn sir Berks. Ar doriad allan y rhyfel cartrefol yn 1642, dyoddefodd lawer

Digitized by Google

oherwydd ei ymlyniad wrth yr ochr freninol—bu yn ngharchar bedair neu bum' gwaith, ac o'r diwedd collodd ei fywiolaethau. Ar ol ei ddarostwng fel hyn i dylodi, ymneillduodd i Rydychain, a bu yn cadw ysgol breifat yno am lawer o flynyddau, pryd yr ysgrifenodd at wasanaeth ei ysgolheigion, "A Latin Grammar, or a compendious way to obtain sufficient knowledge of the Latin Tongue," 1658; ac amrywiol lyfrau eraill. Bu farw yn Mehefin, 1659; gan adael mab o'r enw William, yr hwn a ddaeth yn esgob Llanelwy.

LLOYD (PARCH. THOMAS), ydoedd fab i John Lloyd o Blas Meredydd, yn mhlwyf Gyffylliog, yn sir Ddinbych, ac a anwyd yn 1776. Gan fod anaf o'i enedigaeth ar un llaw iddo, cafodd fwy o ddysgeidiaeth na bechgyn yn gyffredin o'i sefyllfa yn yr oes hono, fel y gallai gael ei fywioliaeth trwy hyny yn gyfreithiwr neu eglwyswr. Cafodd elfenau cynhenid a'i ddysgeidiaeth gyda John Jeffreys, ysgolfeistr o gryn fri yn Llanrhaiadr yn Nhinmeirch, ac yn Ninbych, gyda Mr. Minshull; ac wedi hyny yn Ysgol Ramadegol Eglwysig Rhuthyn—hen syfydliad y Deon Goodman. Ymddengys ei fod er yn ieuanc iawn o dueddiadau difrifol a chretyddol, trwy wneud adnabyddiaeth â rhai Methodistiaid oedd yn y gymydogaeth—yn ddirgelaidd a chyfrinachol mae'r wir, gan fod ei dad yn wrthwynebol iddo ymgyfeillachu â'r cyfryw bobl; a chafodd lawer ffonodiad, a bod allan lawer noswaith, pan wybyddid y buasai yn en cyfarfodydd. Wedi gorphen ei ysgoliaeth, yn lle myned i ryw sefyllfa urddasol, efe a ddewisodd y gorchwyl gostyngedig o fod yn ysgolfeistr, fel gorchwyl ei hoffder. Y lle cyntaf y cynygiodd roi prawf arno ei hun fel ysgolfeistr oedd Llansantsior, ger Abergele, yn 1794, pan nad oedd eto ond 18 oed. Tra y bu yno yr ymunodd â'r Methodistiaid fel aelod, ac y dechreuodd bregethu yn 1799 Er ei fod yn ieuanc, yr oedd yn hynafgwr yn ei ymddygiad a'i symudiadau, a daeth ei ysgol yn fuan yn boblogaidd iawn. Aeth son am dano fel ysgolor, a'i fedrusrwydd i gyflen addysg. Yr oedd yn talu sylw i'r rhai a fyddent dan ei ofal, fel y gwelai eu rhieni ac eraill fod y plant yn dysgu mwy, ac yn caru eu hysgol yn well gydag ef na chyda neb arall: ond gan fod ei ysgoldy yn gysylltiedig âg eglwys y plwyf, yr oedd yn cael ei hystyried gan eglwyswyr yn ysgol y Llan, daeth i drallod pan wybu y person a'r Parch. E. Hughes, Cinmel—tad y diweddaf arglwydd Dinorben—ei fod wedi myned yn Fethodist, cymerasant anfoddlonrwydd mawr, ac awgrymid na chai aros yno. Ond cyn i'r amser ddyfod i fynu iddo gael ei droi allan, efe a berswadiwyd i ymsymud i Abergele. Yn 1819, y neillduwyd ef yn weinidog yn y Corph. Oblegyd ei gysylltiad âg ysgol ddyddiol, gwr lled gartrefol ydoedd—mewn cyferbyniad i bregethwyr Corph y Methodistiaid Calfinaidd Cymru y cyfnod hwnw, ac yr oedd hefyd yn ddirodres a gwylaidd iawn; er hyny ceid ganddo roi ambell i gylchdro amser gwyliau yr ysgol. Yn wir nid fel gweinidog na phregethwr y mae i'w hanesu, eithr fel ysgolfeistr, er ei fod yn bregethwr da, a bugail eglwysig gofalus. Yn ystod y pum' mlynedd y bu yn Llansantsior, bu 12,000 o blant dan ei ofal. Cyrchai plant i'w ysgol o drefi a siroedd Lloegr; canys yr oedd ei fedr yn glodfawr yn mhell ac agos. Deallid ei fod yn ysgolhaig da—yn fedrus iawn mewn rhifyddiaeth, a gramadeg, daearyddiaeth a morwriaeth. Gallasai roi cyfarwyddiadau hefyd yn elfenau yr ieithoedd Groeg, Lladin, a Hebraeg, er nad oedd ef yn arddangos ei wybodaeth ysgolheigaidd ar bod achlysur. Yr oedd ei agwedd yn hollol foneddigaidd, heb y rhodres a welir weithiau—yr oedd fel pe buasai yn foneddwr o wneuthuriad ei

Digitized by Google

Greawdwr. Fel meistr plant, medrai gadw pellder digonol o ddiwrthynt i beri ei ofni yn barhaus. Ychydig iawn a arferai ar y wialen, er mai oes goruchwyliaeth y wialen a'r llon-linellu oedd ei oes ef. Arferai ef foddion moesol, ac ymresymai yn ddifrifol, gyda gweddi. Gweddian wrth ddechreu a diweddu yr ysgol bob dydd; canys gweddiwr mawr ydoedd. Yn 1844, gwaethygodd yn ei iechyd trwy i ganer fagu ar ei wyneb, a bu orfu myned dan weithrediadau meddygol; ond er y cwbl gwaethygu wnaeth yn raddol. Buasai yn pregethu 50 mlynedd, ac yn cadw ysgol tua'r un nifer. Bu farw Gorphenaf 15, 1848, yn 72 oed.—*Llyfr MSS.*

LLOYD (Parch. William), D.D., ydoedd fab i'r Parch. Edward Lloyd. Yr oedd yn rector Llangower, Meirion, rhwng 1645 a 1685. Addysgwyd ef yn ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, ac ar ol ei urddo, cafodd amryw ddyrchafiadau eglwysig, a'i benodi yn gaplan i Siarl II. Yn Ebrill, 1676, cysegrwyd ef yn esgob Llandaf; a dyrchafwyd ef oddiyno i Peterborough yn Mawrth, 1679; ac oddiyno i Norwich yn Mehefin 1685. Bwriwyd ef allan o'r esgobaeth hon yn 1691, am wrthod cymeryd llw o ffyddlonleb i William a Mary, ac ymneill-buodd i Hammersmith, ger Llundain, lle y bu yn trigiann am ugain mlynedd. Bu farw yn 1710, ac yn ol ei ddymuniad claddwyd ef yn nghlochdy eglwys y lle hwnw.

LLOYD (Parch. Simon), B.A., o'r Bala, oedd yn hanu o deulu hynafol a pharchus yn Meirion, ac a anwyd yn 1756. Derbyniodd ei addysg athrofaol yn ngholeg Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A.; ac wedi ei urddo bu yn llanw swydd curad mewn amryw fanau yn Ngogledd Cymru. Yr oedd yn gyfaill calonog i Mr. Charles, o'r Bala, a diau ei fod yn cydsyniaw ag ef ar bynciau eglwysig o'r dechreuad. Bu am beth amser yn curad Bryneglwys yn Ial, ger Ddinbych, a dywed *Methodistiaeth Cymru*, mai tra yn y lle hwnw, y dygwyd cwyn gerbron yr esgob ei fod yn gogwydd at Fethodistiaeth, ac yr ataliwyd ef rhag pregethu. Tra y dywed yr *Eng. Welshmen*, fod Syr Watkin W. Wynn wedi ei benodi i guradiaeth barhaol Llanuwchllyn, ac i'r esgob Hersley omedd cadarnhau y penodiad, trwy yr hyn y gorfodwyd ef i roddi y lle i fynu; gan ei fod berchen cyfoeth ni chynygodd am un apwyntiad arall, ond iddo ymuno â'r Trefnyddion Calfinaidd, a dyfod yn bregethwr yn ea plith. Y pryd hwnw, nid oedd yr enwad Methodistaidd wedi dechreu ordeinio gweinidogion o'u plith eu hunain, ac yr oedd Mr. Lloyd, pe ond o ran hyny yn unig, yn ac lod tra gwerthfawr i'r cyfundeb. Nid oes lle i gasglu ei fod yn bregethwr poblogaidd, ond yr oedd yn ysgolhaig da, a gwnaeth ddefnydd rhagorol o'i tantesion. Bu farw yn y Bala Tachwedd 6, 1836; a chladdwyd ef yn meddrod y teulu yn eglwys Llanycil. Cyhoeddwyd ei lyfr rhagorol "Amseryddiaeth Ysgrythyrol," yn 1816; yr hwn ydoedd yn ffrwyth ei efrydiaeth ddyfal am 30 mlynedd, a daeth ail argraffiad allan ohono. Ysgrifenodd hefyd "Esboniad ar Lyfr y Datguddiad," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1828; ac a ail argraffwyd wedi hyny. Bu hefyd ar ol marwolaeth Mr. Charles yn golygu y *Drysorfa*, am ddwy flynedd.

LLUDD, ab Beli Mawr, a brawd Caswallon. Olianodd ei dad i orsedd Prydain, gan wneud ei brif drigfa yn Llundain, yr hon a amgylchodd efe â chaerau, ac a adeiladodd ynddi balasau teg, ac a drefnodd diroedd eang o'i hamgylch er dyhenion amaethyddol. Yr oedd erbyn hyn yn rhagori ar holl ddinasoedd y wlad, ac efe a'i galwodd yn Gaerludd, ac mewn amserau diweddarach gelwid hi yn Gaer Llundain.

Digitized by Google

Cythryblid ei heddwch yn barhaus gan ymosodiadau llwyth rhyfelgar o feibion eillion, a elwid y Coraniaid ; ac yn y *Brutiau Cymreig* a'r *Trioedd* ceir adroddiad cyflawn o'r modd y gorchfyges efe hwynt. Claddwyd ef yn ymyl Porth Lludd, yr hwn a elwir yn awr *Ludgate*, yn Llundain. Y mae dau ddarn barddonol yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* a briodolir i Daliesin Ben Beirdd,--un yn moli Lludd, a'r llall yn ei ddadenhuddo. Y mae ei hanes bellach yn amgylchedig gan chwedlau cyfrin a rhamantus. Dywedir er engraifft, yn *Tri* 53, ddarfod iddo guddio dreigiau yn ninas Pharaon, yn Nghreigiau Eryri, a chyhyd ag y byddent hwy yn guddiedig, "ni chafas gormes y goreu ar genedl y Cymry ;" eithr Gwrtheyrn "a'u datguddiodd er dial anfodd y Cymry parth ag ef, ac a wahoddes y Saeson," y rhai a ddaethant yn ormes drom ar y cynfrodorion Gomerig.

LLWCHAIARN, sant yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Hugarfael ab Cyndrwyn, a brawd i Aelhaiarn a Chynhaiarn. Efe a sefydlodd eglwysi Llanllwchaiarn a Llanmerewig, yn sir Drefaldwyn ; a Llanychaiarn a Llanllwchaiarn, yn Ngheredigion. Cedwid ei wylmabsant Ion 11. —*Iolo MSS.*

LLWYD (Edward), yr hynafiaethydd a'r naturiaethwr enwog, ydoedd fab ordderch i Edward Llwyd, Ysw., o Lanforda, ger Croesoswallt. Ei fam ydoedd ferch Mr. Price, o Glanffrwd, sir Aberteifi, lle y ganwyd ef yn 1660. Derbyniwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain yn 1682 : a chan ei fod yn efrydydd dyfal ar anianyddiaeth, cafodd y swydd o is-geidwad yr amgueddfa Ashmolaidd yn 1684, yr hon a ddaliodd hyd 1690, pan yr olianodd ei gyfaill a'i noddwr Dr. Plot, i'r swydd o benceidwad. Cyflwynodd lawer o'i amser i astudio hanesiaeth naturiol, ac ieithyddiaeth Geltaidd, ac ymddangosodd lluaws o draethodau o'i waith ar y gwybodaethau hyn yn *Philosophical Transactions* y cyfnod hwnw. Yn 1693, rhoddwyd ef ar waith i gasglu defnyddiau mewn cysylltiad â Chymru ar gyfer argraffiad newydd o waith Camden a elwid *Britannia*, tan olygiaeth Gibson. Yr oedd ei enw bellach fel hynafiaethydd Cymreig yn adnabyddus ac uchel yn marn prif ysgolheigion y deyrnas, a'i feddwl diwyd yntau yn dyheu am ragor o fanteision i dreiddio yn ddyfnach i ddirgelion esgeulusedig y ganghen hon o wybodaeth. Yn ngwyneb hyn, penderfynodd nifer o foneddigion gyd danysgrifio i'w gadw a thalu ei holl dreuliau am bum' mlynedd modd y gallai deithio, olrhain, chwilio, darllen, ac ysgrifenu, nid yn unig yn Nghymru, ond yn mhlith y cangen-genedloedd Celtaidd eraill. Felly efe a ddechreuodd ar ei orchwyl, gan ymweled yn gyntaf â Chymru, ac yna âg Iwerddon, yr Alban, Cernyw, a Llydaw. Parhaedd ei ymdaith bum' mlynedd, ac yn y cyfamser casglodd swm mawr o wybodaethau gwerthfawr. Fel blaenffrwyth ei lafur, cyhoeddodd yn 1699 ei "Lithophylacii Britannici Iconographia," ail argraffiad o'r hwn a gyhoeddwyd yn 1760, gan J. Huddesford. Ar ei ddychweliad i Rydychain yn 1701, efe a wnaed yn M.A.; ac ymroddodd i drefnu parhad o ffrwyth ei lafur mawr ar gyfer y wasg ; ac yn 1707, ymddangosodd ei "Archæologia Britannica." Er nad ystyriai yr awdwr y gwaith hwn ond y gyfrol gyntaf, eto cynwysai : 1, Geirdarddiad cymhariaethol ; 2, Geir-restr gymhariaethol o ieithoedd Prydain a'r Iwerddon ; 3, Gramadeg Llydawaidd, wedi ei gyfieithu o'r Ffrancaeg ; 4, Geir-restr Llydawaidd a Seisnig ; 5, Casgliad o eiriau wedi eu gadael allan o Eirlyfr y Dr. Davies ; 6, Gramadeg Cernywaeg ; 7, Rhestr o lawysgrifau Prydeinig ; 8, Geirdarddiad Prydeinaidd ; 9, Byr arweiniad i'r Wyddel-

Digitized by Google

aeg; 10, Geirlyfr Seis-Wyddelig, yn nghyda rhestr o lawysgrifau Gwyddelig. Bwriadai gyhoeddi y gweddill o'i lawysgrifau, ond ni chafodd fyw ond dwy flynedd wedi dygiad y gyfrol allan, gan iddo farw o'r eisglwyf yn niwedd Mehefin 1709. Yn 1708, yr oedd efe wedi ei ddewis yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol; a'r gwanwyn canlynol rhoddes y Brifysgol brawf o'i thyb uchel am dano trwy ei ethol yn brif ringyll (*superior beadle*). Claddwyd ef yn eglwys St. Michael, Rhydychain, yn y rhodfa ddehenol, neu fel y gelwir hi y Gymreig, yr hon yw claddfa arferedig aelodau coleg yr Iesu. Yr oedd ei lawysgrifau mewn cysylltiad â hynafiaethau Cymreig a Gwyddelig yn cynwys deugain o gyfrolau deublyg, deg mewn pedwar plyg, ac uwchlaw cant mewn plygiad llai. Yn mhen tua phedair blynedd ar ol ei farwolaeth, cynygiwyd hwynt ar werth i'r Brifysgol, ac i goleg yr Iesu, ond oblegyd rhyw ymryson a fuasai rhynddo â Dr. Wynne, y pryd hwnw cymrawd o goleg Iesu, ac wedi hyny esgob Llanelwy, gwrthodwyd eu prynu, a gwerthwyd hwynt i Syr Thomas Seabright, o Beechwood, sir Herts. Buont yn meddiant teulu y boneddwr hwn hyd 1807, pryd y daethant i feddiant Syr Watcyn Williams Wynn. Yn mhen ychydig flynyddau ar ol hyny, danfonwyd y rhan fwyaf a'r rhan werthfawrocaf i Lundain i gael eu rhwymo, a thra yr oeddynt yno aeth gweithdy y llyfr-rwymydd ar dân, a llosgwyd y trysorau hyn yn y difrod. Ceir hanes manwl iawn o Edward Llwyd yn y *British Remains* gan Dr. Owen Pughe.

LLWYD (GRUFFYDD), ydoedd fab i Dafydd ab Einion Llygliw, a bardd gorchestol rhwng 1380 a 1420.

LLWYD (HUMPHREY), yr hynafiaethwr enwog, ydoedd fab ac etifedd Robert Llwyd, Ysw., o dref Dinbych; a'i fam ydoedd Joan, merch i Lewis Pigott. Yr oedd ei dad yn disgyn o gangen ieuangaf teulu o'r enw hwnw, enw dechreuol y rhai ydoedd Rosindale, y rhai a drigiasant yn Foulks Hall, neu Foxhall, ger Dinbych, i'r hwn le y daethant o sir Gaerhirfryn. Addysgwyd Humphrey Llwyd yn Rhydychain, lle y gwelir ei enw fel cyffredinwr yn ngholeg Brazenose am 1547. Efrydai physigwriaeth, a graddiwyd ef yn M.A. yn 1551; a chafodd ei dderbyn i deulu arglwydd Arundel, y pryd hwnw canghellydd y Brifysgol, fel ei physygwr, a pharhaodd yn y swydd hono am bumtheg mlynedd. Yn ystod yr amser hwnw, y cyhoeddodd efe ei waith llenyddol cyntaf, sef, "Almanack and Calendar, containing the day, hour, and minute, of the change of the moon forever, and the sign that she is in for these three years, with the names and the signs of the planets," yn nghydag amryw wybodaethau eraill. Ei lyfr nesaf ydoedd cyfieithiad i'r Saesneg o "Judgement of Urines," yr hwn a argraffwyd yn Llundain yn 1551. Tua'r pryd hwn y daeth efe i gydnabyddiaeth âg arglwydd Lumley, chwaer yr hwn a briododd efe wedi hyny. Casglodd i'w arglwyddiaeth luaws o lyfrau prinion a gwerthfawr, y rhai sydd yn awr yn ffurfio rhan o lyfrgell yr amgueddfa Brydeinig. Gadawodd wasanaeth arglwydd Arundel yn 1563, gan ddychwelyd i'w dref enedigol; trigai o fewn muriau y Castell, gan ymarfer fel meddyg, a threulio ei amser hamddenol yn nghymdeithas ei brif ddifyrwch, cerddoriaeth. Gellir ffurfio amgyffred am ei sefyllfa urddasol mewn cymdeithas, a syniadau uchel ei gyd-drefwyr am dano fel dyn, pan hysbysir ddarfod iddo gael ei ethol yn aelod seneddol tros fwrdeisdrefi sir Ddinbych. Tua'r amser hwn, trwy offerynoliaeth Syr Richard Clough, daeth yn gydnabyddus â'r daearyddwr enwog Ortelius, yr hwn a anrhegodd efe â darlunleni o Gymru a Lloegr i gael eu cyhoeddi yn *Ancient Geography*

Digitized by Google

y gwr hwnw, yn nghyda llawysgrif ei ddau waith Lladinaidd ar Hynafiaethau Prydeinig. Y gweithiau hyn, yn nghyda gwaith arall o'r enw "De Armamentario Romano," a ysgrifenwyd yn 1568, ychydig amser cyn ei farwolaeth. Y ddau draethawd crybwylledig a argraffwyd yn 1573 gyda "*Historiæ Britannicæ Defensio*," o waith Syr John Price; a'r traethawd "Commentarioli Fragmentum," a gyhoeddwyd yn Cologne yn 1572. Cyhoeddwyd cyfieithiad Seisnig o hwn yn 1573, gan Twyne, tan y teitl, "Breviary of Britain;" a darfu i Moses Williams yn 1723 ddwyn allan argraffiad hardd o'r tri thraethawd gwreiddiol. Ond prif lafur llenyddol Humphrey Llwyd ydoedd ei Hanes Cymru, yn Saesneg, yr hwn sydd gan mwyaf yn gyfieithiad o "Brut y Tywysogion" o waith Caradawg o Langarfan, yn nghyda nodau o waith M. Paris a chronicl-wyr Seisnig eraill. Ysgrifenwyd hwn yn 1599, ac y mae copi ohono yn nghadw yn yr Amgueddfa Brydeinig, yn mhlith y llawysgrifau Cottonaidd. Pa fodd bynag, gadawyd ef yn anorpenedig, a chan fod copi ohono yn meddiant Syr Henry Sidney, arglwydd-lywyddcyffiniau Cymru, ar ei dymuniad ef yn 1584 cyhoeddwyd ef gan Dr. D. Powell, yr hwn a lanwodd ddiffygion y gwaith, ac a chwanegodd luaws o nodiadau gwerthfawr. Humphrey Llwyd hefyd a gyfieithodd "The Treasures of Health," o waith Peter Hespanus; at yr hwn yr ychwanegwyd, "The Causes and Signs of every disease," ac "Aphorisms Hipprocrates," yr hwn a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1585. Efe a fu farw yn 1568, yn yr oedran cyfar o 41; a chladdwyd ef yn yr Eglwyswen, lle y mae cofadail arw ar ei fedd. Y mae darlun gwreiddiol ohono yn nghadw yn Ashton, ger Croesoswallt, palas un o ddisgynyddion y Llwydiaid o Foxhall, a cheir copi teg o'r cyfryw mewn dargerfiad yn yr *Royal Tribes* gan Yorke. Fel y mwyafrif o breswylyddion Dyffryn Clwyd, yn ngwythienau pa rai y mae cryn lawer o waed yr hen Normaniaid, yr oedd ei wallt yn goch, a'i wynebpryd yn hardd a llawn dealltwriaeth. Gweler Wms. *Em. Welsh*; yr hwn sydd yn cynwys crynhoad destlus o hanes H. Llwyd a geir yn Wood's *Athen. Oxon*; Parry's *Cam. Plutarch;* Yorke's *Royal Tribes*; Pennant's *Tours;* a Dwnn's *Heraldic Visitations.*

LLWYD (Huw), bardd enwog a drigiannai yn Cynfal, plwyf Ffestiniog, Meirion. Bu yn swyddog yn y fyddin, a gwasanaethodd lawer o flynyddau fel y cyfryw ar y Cyfandir, a dychwelodd i'w ardal enedigol i dreulio gweddill ei oes, lle y bu farw yn 1620, uwchlaw pedwar ugain oed. Cladiwyd ef yn Maentwrog, a dywedai ei hen gyfaill a chydfardd, yr Archddiacon Prys, rector y plwyf ar y pryd:—

Ni chladdir ac ni chladdwyd
Fyth i'r llawr mo fath Huw Llwyd.

Mae yn nghanol rhaiadrau rhamantus yr afon Gynfal gruglwyth o graig yn ymddyrchu o ganol y dyfroedd, a adweinir hyd y dydd hwn wrth yr enw, "Pwlpud Huw Llwyd;" a dywed llafar gwlad, mai yno, i ganol trwst dibaid y rhaiadrau, y cyrchai yn y nos wrtho ei hunan i fyfyrio. Ceir traddodiad pellach am y cyfryw yn *Cymru Fu* I. 174. Credai y werin bobl ei fod yn gallu "codi cythreuliaid," ac yn deall cyfrinachau "hud a lledrith," fel y credid yn yr hen amseroedd am bob dyn dysgedig. Pa fodd bynag, yr oedd yn fardd gorchestol, fel y prawf ei amryfal weithodd a drosglwyddwyd mewn llawysgrifen yn benaf i'r oes hon; ac y mae ei "Ymddyddan rhwng y Bardd a'r Llwynog" a welir yn *Cymru Fu* I, 357—y ddrama fechan oreu a llawnaf o addysg bur sydd yn yr iaith Gymraeg. Efe a ysgrifenodd ei englyn beddargraff ei hun, yr hwn sydd yn argraffedig yn *Gweal* Llundain.

Digitized by Google

LLWYD (Lleucu), o Bennal, yn Meirion, rhian nodedig am ei thegwch, yn ystod y 14eg ganrif. Yn groes i ewyllys ei rhiaint, enillwyd ei serch gan Llewelyn Goch ab Meirig Hen, o Nannau, yr hwn a aeth i ymdaith ar ddamwain i'r Dehenbarth. Ei thad, er mwyn diddyfnu ei serch oddiarno, a hysbysodd Lleucu un diwrnod fod Llewelyn wedi ymbriodi â morwynig arall; eithr cafodd y newydd y fath effaith arni, fel y syrthiodd i lawr, ac y bu farw yn yr awr honno. Pan ddychwelodd ei hanwylyd, a chlywed yr hanes galaethlawn, efe a gyfansoddodd farwnad nad oes mo'i bath yn yr iaith am angherddoldeb teimlad. Y mae i'w gweled yn argraffedig yn y *Brython* ii. 170; a cheir cyfieithiad ohoni yn y *Bardic Museum*, gan Jones.

LLWYD (Hywel), bardd enwog o Forganwg yn ei flodeu rhwng 1640 a 1670. Y mae llawer o'i waith yn nghadw mewn llawysgrifau.

LLWYD (Morgan), o Wynedd, ydoedd yn hanu o deulu Cynfal, yn nghlwyf Maentwrog, sir Feirionydd: a thybir mai nai neu fab ydoedd i Hugh Llwyd, Cynfal. Dywed traddodiad i'r hen fardd hwnw, pan yn glaf ac ychydig cyn marw, ddymuno gweled ei fab *Morgan;* a phan y gofynwyd iddo, a'i nid ewyllysiai weled ei fab Dafydd, atebodd, "Na, nid yw hwnw ond ffwl meddw fel finau." Nid yw coel gwlad i ddibynu arno bob amser, ond tra y mae cynifer o dystiolaethau hanesiol yn eu gwirio, y mae traddodiad o rhyw gymhorth. Dian iddo gael addysg dda, ond ni wyddis yn mha le, na tham ba angylchiadau. Yr oedd yn wr o gyneddfau cryfion, o benderfyniad diysgog, yn nodedig am ei dduwioldeb, yn ddwfn a dwys ei fyfyrdodau; ac yr oedd llawer o bethau cuddiedig yn ei ymadroddion, ei lythyrau, a'i lyfrau. Ymsefydlodd pan yn ieuanc yn Ngwrecsam, ac ar y pryd yr oedd y duwiolfrydig Walter Cradoc yno yn gwasanaethu fel curad. O tan weinidogaeth danllyd y gwr enwog hwnw y dygwyd ef gyntaf i wybodaeth o'r gwirionedd. Nid oes hanes pa bryd y dechreuodd bregethu; ond daeth i mewn am ei ran o'r diledd a ddisgynai ar ei gydoeswyr Puritanaidd oddiar law llywodraethwyr gormesol, tan ddylanwad offeiriadaeth lygredig a chreulon. Gorfu arno ffoi am ei fywyd; ac mewn llythyr at ei fam, dyddiedig o Gaerloyw, dywed iddo ef a'i gyfeillion gyfarfod peryglon dirfawr; ond hyderai y byddai i Raglunia'th agor y drws yn fuan iddynt ddychwelyd i Gymru. Yr oedd Mr. Llwyd yn un o'r cymeradwywyr ddewiswyd gan y Senedd er dethol pregethwyr i ledaenu yr efengyl yn Nghymru. Bu yntau ei hun am rhyw yspaid yn weinidog cynulleidfaol, neu gurad, yn Ngwrecsam; ond teithiai lawer yn Nghymru, yn enwedig yn y Gogledd, a'r Efengyl dragwyddol ganddo. Byddai yn pregetha weithiau ar ffair yn Mhwllheli, a phan y cerddai trwy yr heol, ciliai'r bobl oddiar ei ffordd mewn ofn. Yr oedd y wlad yn credu yn ddiysgog ei fod yn brophwyd, a chyflawnwyd rhai o'i ddywediadau mor llythyrenol a rhyfedd, fel nad oedd yn syndod fod gwerin anwar yn tybied hyny. Rhoddir engreifftiau o'i brophwydoliaethau yn *Nrych yr Amseroedd*: "Un tro, pan oedd yn pregethu yn mhentref Ffestiniog, a bod yno, yn mysg amryw oedd yn cellwair ac yn gwawdio, un dyn ieuanc yn rhagori arnynt oll mewn ysgafnder a chellwair; wrth sylwi arno, nododd ef allan, gan ddywedyd wrtho fel hyn, 'Tydi, y dyn ieuanc, gelli adael heibio dy gellwair; tydi yw y cyntaf a gleddir yn y fynwent yma:' ac felly bu. Bryd arail, fel yr oedd yn pregethu yn Machynlleth, a rhai plant wedi dringo i goed ag oedd gerllaw, efe a gyfeiriodd ei law tuag atynt, gan ddywedyd y geiriau hyn:—'Pan ddel y plant hyn i oedran gwyr, fe ymâd yr efengyl o Fachyn-

Digitized by Google

lleth, ac felly fu dros faith flynyddau." Bu y gwr rhagorol hwn farw Mehefin 3, 1659; yn yr oedran cynarol o ddeugain mlwydd. Felly galwyd ef oddiwrth ei waith at ei wobr cyn dychweliad y Freninoliaeth yn mherson Siarl II., a diangodd rhag y trallodion a ddaeth i ran ei frodyr. Claddwyd ef yn mynwent yr Ymneilldiwyr yn Ngwrecsam; ond yr erlidwyr ni fynent adael llonydd i'w weddillion yn nhalaeth dawel marwolaeth, a dywedir i un milwr anfad blanu ei gleddyf hyd y carn yn ei fedd. Er fod ei gyfansoddiadau llenyddol ar y mwyaf allegol, a'r gydmariaeth wrth ei rhy-hir ddefnyddio yn myned yn ffolineb, eto nid oedd wrth wneud felly ond yn porthi chwaeth fwyaf cyffredinol ei oes; ac y mae ei arddull Gymreig brydferth, eangder ei syniadau, ac uniondeb ei amcanion, yn nghyda'r cysegredig yspryd sydd yn eu nodweddu, yn ddigon o iawn am bob diffyg. Y mae ei waith yn gynwysedig mewn pump o lyfrau:—1, "Dirgelwch i rai i'w deall, i eraill i'w watwar, sef tri aderyn yn ymddiddan, yr Eryr, y Golomen, a'r Gigfran," yr hwn a gyhoeddwyd yn Ngwrecsam yn 1653; 2, "Gwaedd yn Nghymru yn ngwyneb pob cydwybod," 1653; 3, "Y Lleferydd Anfarwol," 1656—ymddangosodd cyfieithiad o'r llyfr hwn yn Llundain yn 1739, tan y teitl, "A Discourse on the Word of God;" 4, "Yr Ymroddiad," 1657; 5, "Cyfarwyddyd i'r Cymro," 1657. Dywed Mr. Baxter, yn ei *Catholic Communion Doubly Defended*, fod M. Llwyd wedi ysgrifenu llyfr arall o'r enw, "A Dialogue between Martha and Lazarus, about his Soul." Y penaf o'r llyfrau hyn ydyw "Llyfr y Tri Aderyn," a diau fod ystyr pellach i'r ddamheg nag y sydd ar y wyneb. Bernir fod yr Eryr yn cynrychioli Cromwell; y Golomen, yr Annghydffurfwyr; a'r Gigfran, yr Eglwys Sefydledig. Yn yr oes erlidgar hono, yr oedd y dull hwn o ysgrifenu yn dra manteisiol, gan y gellid ynddo ddywedyd geiriau cyrhaeddbell, ond digon mwys i arbed yr awdwr rhag cyfraith; a chan ei fod hefyd yn ddull poblogaidd, cyrhaeddid yr amcan oedd gan yr ysgrifenydd mewn golwg. Pe buasai Walter Cradoc a Vavasor Powell, wedi rhoi mwy o'u sylw i lenyddiaeth eu cenedl eu hunain, diau y gwasanaethasent eu hoes a'u cenedlaeth yn well, fel y darfu i Morgan Llwyd o Wynedd.

LLWYD (Rhys), Brydydd, a elwir hefyd, "Yr Hen Fardd Llwyd o Forganwg, neu Rhys Llwyd ab Rhys ab Rhisiard," bardd o Flaen Cynllan, yn ei flodeu rhwng 1450 a 1490. Mab iddo ef oedd Lewys Morganwg. Y mae peth o'i waith ar gael mewn ysgriflyfrau.

LLWYD (Richard), yr hwn a adwaenid hefyd wrth yr enw, "The *Bard of Snowdon*," a anwyd yn Beaumaris, yn 1752. Yr oedd ei dad yn gadben ar long fechan o'i eiddo ei hun, a thra ar fordaith i Lancashire, efe a fu farw yno o'r frech wen. Yr amddifadiad hwn, yn nghyda drylliad y llestr pan ar ei mordaith tuag adref, a ddygodd ddinystr i amgylchiadau tymhorol y teulu. Yr oedd tylodi y weddw yn ei lluddias rhag rhoddi yr addysg a ddymunasai i'w mab; ond yr oedd ei syched yntau am wybodaeth yn angherddol, a rhoddes fynych brawf o alluoedd meddyliol cryfion. Ond yn ffodus, yr oedd rhyddysgol yn Beaumaris wedi ei gwaddoli gan un David Hughes, yr hwn, fel yntau, a ddygesid i fynu mewn sefyllfa isel, ac wedi gadael tylodi ei hun, nid annghofiodd y tylawd. Yn un o'i nodiadau yn "Grayton Wakes," dywed R. Llwyd iddo fod yn yr ysgol hon am naw mis, ac y mae yn cydnabod y rhoddwr yn ddiolchgar trwy ddweyd fod yr ychydig amser hwnw wedi bod yn ffynonell cysur dirfawr i'w feddwl. Pan yn ddeuddeg oed, aeth i wasanaeth Henry Morgan, Ysw., o'r Henblas;

Digitized by Google

lle yr arosodd am lawer o flynyddau, gan gipio pob awr segur i'w cyflwyno er diwallu ei syched didor am wybodaeth. Codai yn fore iawn er mwyn cael hamdden i ddarllen; ac yr oedd yn nodedig trwy ei holl fywyd am ei gymedroldeb a'i gynildeb. Yn 1780, symudodd i wasanaeth Mr. Griffith, o Gaerhun, yn nyffryn Conwy, lle y gweithredai fel arolygwr y tŷ, ac ysgrifenydd i'w feistr. Bu yno hyd farwolaeth Mr. Griffith, pryd y galluogwyd ef i ymneillduo i'w dref enedigol, a byw ar ffrwyth ei ddarbodaeth, yn nghyda chymunroddion bychain dau hen gyfaill iddo. Yn 1800, cyhoeddodd ei bryddestawd "Beaumaris Bay," yr hon a gafodd dderbyniad gwresog gan y cyhoedd; a chan fod y nodiadau ynddi yn cynwys crybwylliadau lleol a hanesiol gwerthfawr, efe a enillodd trwyddi enwogrwydd nid bychan fel hynafieithydd dyfnddysg. Nid yn unig dygodd cyhoeddiad y gân hon fri i'w hawdwr, ond chwanegodd gryn lawer ar ei adnoddau arianol. Yr oedd efe wedi efrydu llawer ar hynafiaeth ei wlad, ac yn achydd digyffelyb. Hyn yn nghyda'i natur dda, ei arabedd, a'i lawenfryd, a barai i bendefigion y tir fawr hoffi ei gyfeillach, ac yr oedd croesaw] iddo bob amser yn eu palasau. Yn 1804, cyhoeddodd ei "Gayton Wakes; together with Odes, Tales, Sonnets. Translations from the British," &c., yr hwn fel ei waith blaenorol, a gafodd ledaeniad helaeth. Yn 1814, efe a briododd Miss Bingley, merch i'r diweddar henadur Bingley, o ddinas Caerlleon, ac wedi cydfyw yn ddedwydd am lawer o flynyddau, efe a fu farw Rhag. 29, 1835, yn ei dŷ ei hun, yn Bank Place, Caerlleon, yn 84 oed. Yn 1837, cyhoeddwyd ei holl waith yn un gyfrol, gan y llyfrwerthwr gwladgarol, Mr. Edward Parry, y

"Pura gwr—Parry o Gaer."

LLWYDIAN, sant yn y 7fed cant. Efe a sefydlodd Heneglwys, yn Mon, lle y cedwid ei wylmabsant Tachwedd 19.

LLYGAD GWR, neu Gruffydd Llygad Gwr, bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1220 a 1270. Y mae pump o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

LLYNAB, mab i Alan ab Emyr Llydaw, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Daeth trosodd gyda Chadfan i Brydain, ac fel ei frodyr, ymaelododd yn ngholeg Illtyd. Bu wedi hyny yn esgob goddefol Llandaf, a chrybwyllir ei enw fel Lunapeius yn y *Liber Landavensis.* Yn ei hen ddyddiau, efe a ymneillduodd i Ynys Enlli, lle y bu efe farw.—*Iolo MSS.*

LLYR LLEDIAITH, tywysog yn ei flodeu yn y 6ed ganrif, a thaid yr enwog Caradawg. Mab ydoedd i Baran ab Ceri ab Caid ab Arch ab Meirion ab Geraint ab Greidiol. Yn ol *Achau y Saint*, bu yn ymladd yn ddewr yn erbyn amryw genedloedd. Ymlidiodd y Rhufeiniaid o Ddeheubarth, y Gwyddelod o Wynedd, a'r Llydawiaid o Gernyw. Efe a unodd y deyrnas olaf â Chymru, ac a symudodd yno i drigianu. gan adael Siluria, hen enw rhandir Gwent a Morganwg, yn ngofal rhaglawiol ei fab, Bran. Gan iddo gael ei ddwyn gyda'i deulu yn gaethglud i Rufain, gelwir ef yn y *Trioedd* yn un o dri "uchel garcharawr Ynys Prydain." Y ddau eraill oeddynt Mabon ab Modron a Gair ab Geirion.

LLYR LLUYDDOG, penaeth yn byw yn nechreu y 6ed ganrif. Cofnodir ef yn y *Trioedd* fel un o dri "chadfarchawg" Ynys Prydain. Y ddau eraill oeddynt Caradawg Freichfras a Menwaed o Arllechwedd, ac Arthur a wnaeth englyn cyplysedig iddynt.

LLYR MERINI, sant thua therfyn y pumed cant, a mab i Einion

Digitized by Google

Yrth ab Cunedda Wledig. Efe a sefydlodd eglwys Llanllyr, yn sir Faesyfed, a elwir yn awr Llanyre; a Llanllyr, yn Ngheredigion, yr hwn oedd gynt yn lleiandy. Efe oedd tad Caradawg Freichfras. Y mae yn cael ei restru yn y *Trioedd* fel meddianydd un o dri "tharw ellyll Ynys Prydain."

LLYR AB BLEIDDYD, unfed brenin ar ddeg Prydain, yr hwn, meddir, a deyrnasai yn y nawfed ganrif cyn Cred. Dywed y *Brutiau* ei fod wedi cynal heddwch a tha ignef yn mhlith ei ddeiliaid am ysbaid deugain mlynedd trwy ei ddyfalwch a'i ddoethineb. Efe a adeiladodd ddinas ar lan y Soram, yr hon a adwaenir yn Nghymraeg wrth yr enw Caer Lyr, ac yn Saesneg Leicester. Merched iddo ef oeddynt Gonorilla, Rhegau, a Cordeila, ymddygiad pa rai tuag at eu tad a roddodd ddefnyddiau i Shakespeare i gyfansoddi ei dreithgan ardderchog *King Lear*

LLYWELYN AB CYNWRIG DDU, bardd o Fon rhwng 1460 a 1500. Y mae peth o'i waith ar gael mewn ysgrifllyfrau.

LLYWELYN AB EDNYFED, bardd rhwng 1480 a 1520. Y mae peth o'i waith yn nghadw mewn ysgrifllyfrau.

LLYWELYN AB GRUFFYDD, tywysog olaf y Cymry, ydoedd ail fab i Gruffydd ab Llywelyn ab Iorwerth, yr hwn a laddwyd trwy godwm a cafodd wrth ddiane o'r Twr yn Llundain, lle y carcharid ef fel gwystl Dafydd ei frawd i Harri III. Ar farwolaeth ei ewythr, y tywysog Dafydd ab Llywelyn, yn 1246, yn ddiethedd, Llewelyn a'i frawd Owen a etholwyd yn dywysogion ar Wynedd. Cyn hyny, yr oedd efe wedi arwain bywyd annghyhoedd ar ei gyfoeth treftadol yn ei balas Maesmynan, ger Caerwys, sir Fflint; a'i randir ef ydoedd cantrefi Tegengl, Dyffryn Clwyd, Rhos, a Rhufoniog, yn siroedd Dinbych a Fflint, sef y wlad rhwng yr afonydd Conwy a'r Ddyfrdwy. Ond gyda fod y ddau frawd wedi cymeryd meddiant o'r swydd, wele Harri III. yn goresgyn eu gwlad gyda byddin gref, a gorfu i Llywelyn roddi ei etifeddiaethau i fynu i Harri, er tori ei raib annwall, ac yntau a'u cyflwynodd i'w fab Iorwerth. Wedi hyn bu naw mlynedd o heddwch, ac yna dechreuodd annghydfod rhyngddo ef a'i frawd Owain, yr hwn a gynllwynasai gael yr holl awdurdod i'w law ei hun, ac a lwyddasai i gael gan Dafydd ei frawd ei gynorthwyo yn yr ymgais. Eithr wedi blin a gwaedlyd ymladdfa, eu byddin a llwyr ddymchwelwyd, a chymerwyd hwythau yn garcharorion, gan adael Llywelyn mewn c flawn feddiant o'r orsedd o hyny allan. Cymerodd hyn le yn 1254. Y flwyddyn ganlynol, daeth cwyn y penaethiaid Cymreig oddiar y Cyffiniau, y rhai a orthrymid yn dost gan eu gorthrechwyr Sacsonaidd, i glustiau Llywelyn, a'u deisyfiadau taeraf am iddo fwrw eu hiau drom ymaith, ac nid diystyr oedd ganddo eu gwaedd. Cydsyniodd â'u cais, cynullodd wyr, ac ymarfogodd i frwydr; ac mewn yspaid wythnos o amser yr oedd efe wedi adenill oddiar y gelyn yr holl yspail rhyfel a yspeiliasai yn ei ruthriadau diweddar ar Ogledd Cymru. O'r flwyddyn 1256 hyd 1267, y mae hanes yr ymdrafod fu rhwng Cymru a Lloegr yn un benod waedlyd o ryfel a thrueni; ac yn ystod y flwyddyn olaf, gorfu iddo dderbyn telerau heddwch tra dianrhydeddus. Pan cs gynodd Iorwerth i orsedd Lloegr, Llywelyn a omeddodd fyned a thalu gwarogaeth iddo fel un o'i ddeiliaid; ac er dial y sarhad, ymosododd y Saeson yn llu mawr ar ei diriogaethau yn 1277, tan lywyddiaeth Iorwerth, y rhai amgauasant arno ef a'i wyr yn yr Eryri, nes eu haner newynu, a gorfu iddo dderbyn telerau chwerwach hyd yn nod na dim a roddwyd arno o'r

Digitized by Google

blaen erioed. Rhaid oedd iddo ryddhau ei holl garcharorion rhyfel, a thalu i'r brenin ddeng mil ar hugain o forciau; rhoddi i fynu bedwar cantref y Perfeddwlad i'r brenin a'i hiliogaeth tros byth; yr oedd i ddal meddiant o Ynys Mon, ond dalu i'r brenin am dani yn flynyddol fil o forciau, eithr os byddai'r tywysog farw'n ddietifedd, yr oedd yr Ynys i syrthio i feddiant y brenin; yr oedd yr holl farwniaid Cymreig i ddal eu tiroedd tan y brenin, oddieithr pum' arglwydd Eryri; fod iddo fyned i Loegr bob Nadolig i dalu gwarogaeth i'r brenin; ac am ei oes ef yr oedd yr enw o Dywysog Cymru i gael ei arddel. Ac er mwyn sicrhau cyflawniad yr amodau hyn, yr oedd Llywelyn i roddi yn wystlon ddeugain o brif bendefigion Gwynedd. Pan gofiwn fod y Deheubarth oll wedi ei gymeryd oddiarno yn flaenorol, gwelir fod y tywysog Cymreig wedi ei gneifio yn lled lwyr trwy y telerau hyn. Tybiodd y teyrn Saesonaidd fod annibyniaeth Cymru yn awr tan ei droed, ac nad oedd eisiau ond ychydig ddyfais a gofal yn angenrheidiol i fygu y fflam fywiol o annibyniaeth cenedlaethol a gyneuasai cyhyd yn nghalon y genedl Gymreig. Cafodd brawf buan o'i gamsynied, canys anufuddhaodd Llywelyn y wys freiniol i ymddangos yn Glastonbury gerbron Iorwerth, er mwyn gweled esgyrn tybiedig yr hen frenin Arthur yn cael eu diddacaru, fel y lleddid yr ofergoel Gymreig y byddai i'r arwr hwnw ddyfod eilwaith a gwaredu y Cymry o law eu gelynion. Anufuddhaodd, ac er nad oedd y fath weithred yn debyg o syrthio yn esmwyth ar galon falch y brenin, eto ni chymerodd efe arno ddigio, na chymeryd sylw o'r peth. Gan hyny, gwysiodd ef eilwaith i'w gyfarfod yn Worcester, eithr rhag y gwrthodai y waith hon drachefn, galwyd y wys hon yn "wahoddiad i wledd," a meiuswyd hon drachefn gan addewid y byddai i'r brenin roddi Eleanor de Montforte yn wraig iddo. Merch ydoedd y wyryf landeg ond anfoddus hon i Simon de Montforte, iarll Leicester, ac un a gymerai ran flaenllaw yn symudiadau yr oes hono—tan gochl teyrngarwr, yr oedd yn elyn digymod i'r brenin Dygai hyn ef yn fynych i'r un rhodfeydd politicaidd â'r tywysog Cymreig, ac addawsai ei ferch yn wraig i Llywelyn dair blynedd ar ddeg yn ol. Ond bu farw ei thad yn un o'i wrthryfeloedd, a ffodd hithau a'i brawd i Ffrainc, a phan oeddynt ill dau yn dychwelyd i Gymru ar gais Llywelyn fel y cymerai y briodas oediedig le, cymerwyd hwynt yn garcharorion gan Iorwerth, pan oedd y llong a'u cludent yn neshau at derfynau Ynysoedd Scilly. Bu tan ei geidwadaeth greulawn am bum' mlynedd, ac yn ei afael yr ydoedd pan y gwysiwyd Llywelyn i'w gyfarfod yn Worcester. Tarawodd y brenin ar ei lecyn gwan—ei serch; ac yr oedd ymostwng i elyn trahaus yn bris bychan mewn cymhariaeth am gaffaeliad dyweddi mor hawddgar; aeth i Worcester, ac ni chollodd Iorwerth y cyfleu i drymhau yr iau, tra y trosglwyddodd hefyd y garcharores brydferth yn wraig iddo. Priodwyd hwynt Hydref 13, 1278; ond byr fu yr undeb hwn, canys bu Eleanor farw yn mhen dwy flynedd wedi ei phriodas ar enedigaeth merch fechan. Trwy ei bod hi yn Saesones, ac yn berthynas bell â'r brenin, cadwyd heddwch gweddol am yspaid ei phriodas, ond yn ei marwolaeth hi dymchwelwyd yr unig ategfa hon yn erbyn rhyfel agored. Yn 1282, ymheddychodd Llywelyn â'i frawd Dafydd, y rhai a fuasent ar delerau tra anfrawdol er's llawer o flynyddau, a'r olaf yn y cyfamser yn elyn i'w wlad ac yn bleidiwr ei gelynion. Dychwelodd y brawd anffyddlon hwn i Gymru, a dechreuwyd gwaith y gwrthryfel o ddifrif trwy i Dafydd ruthro yn sydyn ar gastell Hawarden, a'i gym-

Digitized by Google

eryd. Roger de Clifford, ceidwad y carchar hwn ar y pryd, oedd y prif farnwr Seisnig yn Nghymru; daliwyd ef yn ei wely, a than archoll tost cludwyd ef yn garcharor i Eryri; daliwyd marchog hefyd o'r enw Paen Gamers, a lladdwyd Ffulk Trigold, a lluaws heblaw ef, yn farchogion a gwyr cyffredin. Cymerodd yr ymosodiad hwn le ar nos Sul y Blodeu. Yna y ddau frawd a unasant eu byddinoedd, ac a warchaeasant ar gestyll Fflint a Rhuddlan; ac yr oedd Cymru benbwygilydd yn dân gwrthryfel. Rhys ab Maelgwyn, yn y Deheudir, a oresgynodd gastell Penwedig; a Gruffydd ab Meredydd a gymerth gwmwd Mefenydd. Amryw bendefigion eraill a godasant, ac a ymosodasant ar y Cyffiniau Seisnig, gan eu hanrheithio. Parotodd Iorwerth i'w cyfarfod gyda phob brys, ac yr oedd y wladwriaeth Seisnig ar dân am gynorthwyo eu brenin i lwyr dynu ymaith y ddraen hon yn ystlys eu teyrnas. Cyfodwyd treth ar Loegr, ac echwynwyd arian gan farsiandwyr y wlad hono a'r Iwerddon. Yr oedd yr Ysgotiaid hefyd wedi eu cyfareddu i gymeryd rhan yn y rhyfel orthrymus hon; a cheisiodd y brenin gan y ddau archesgob ysgymuno Llywelyn a'i ddilynwyr fel bradwyr a therfysgwyr heddwch. Ymwelodd John Peltham, archesgob Canterbury â Chymru, gan geisio cyflafareddu rhwng y pleidiau, ond amheuent ei ddybenion, a dychwelodd i'w wlad heb gyrhaedd yr amcan oedd ganddo mewn golwg. Yn y cyfamser, Iorwerth a gychwynodd i'w ymdaith, a chyrhaeddodd Worcester yn niwedd Ebrill. Deallodd y cai lawer mwy o waith darostwng ar y gwrthryfel nag a ddychymygasai wrth gychwyn. Oddiyno gwysiodd ei ddeiliaid i'w gyfarfod yn Rhuddlan, yr mis Mehefin. Ar ei daith rhwng Worcester a Chaerlleon, pobl y wlad a ymunasant âg ef, y rhai a osododd efe ar waith i agor ffyrdd o'i flaen yn Nghymru. Ar ol tario yn Nghaer am bumthefnos, i adfywio ei wyr, efe a ymosododd ar gastell Hope. Y gadarnfa hon, meddiant y tywysog Dafydd, a roddwyd i fynu bron ar ei ddyfodiad. Pan ddynesodd efe hefyd at Ruddlan, y tywysogion Cymreig a godasant y gwarchae, ac a enciliasant tuag Eryri, gan ddewis yn hytrach orchfygu mân finteioedd y brenin, nag anturio brwydr agored gyda'r fath fyddin fawr anghyfartal. Eithr nid oedd yr enciliad hwn ond ffug i faglu eu gelynion; troisant ar eu herlynwyr—adran gref o'r fyddin Seisnig; ac mewn brwydr a gymerodd le rhyngddynt â hi, daliasant bedwar-ar-ddeg o'i swyddogion: lladdwyd yr arglwydd Audley, ac eraill wyr o urddas; a chymaint oedd braw y brenin ei hun, oherwydd y gorchfygiad hwn, fel yr ymgiliodd o Ruddlan i gastell Hope er ei ddyogelwch. Ond erbyn canol Gorphenaf yr oedd wedi anturio i Ruddlan eilwaith; ac yr oedd yn gynauaf cyn y gallodd ddechreu ar unrhyw symudiad o bwys. O Ruddlan, efe a ddanfonodd wysiadau at siryddion y siroedd cyfagos, yn gorchymyn iddynt anfon gwyr ato i gymynu'r coed, ac arloesi ffordd i'w fyddin ymwthio yn mhellach tua'r Gonwy. Ond gwelai y brenin fod y gwaith yn gostus a pheryglus, a dymunai yn hytrach ddwyn ei amcanion i ben trwy ddichell a dyfais; a thuag at hyny, tybiai mai y ffordd rwyddaf i gyrhaedd yr amcan ydoedd defnyddio gwyr o urddau crefyddol yn offerynau. Bu gohebiaeth faith rhwng archesgob Canterbury â'r tywysogion Cymreig, yn mha un y gwelir dichellion crefyddol y blaenaf, a gwladgarwch diragrith yr olaf. Oblegyd ei aflwyddiant i dwyllo Llywelyn i heddwch, efe a dywalltodd ar ei ben holl phiolau llid barnedigaethol eglwys Rhufain, trwy ei ysgymuno. Tra yr oedd yr ymdrafodaeth hon yn cael ei dwyn yn mlaen, nid oedd y pleidiau

Digitized by Google

yn segur; yr oedd y Cymry wedi croesi y Gonwy, ac yn ymgadarnhau yn Eryri; tra yr oedd Iorwerth wedi ymwthio gan belled â'r Creuddyn, ac oddiyno danfonodd gatrawd o for-filwyr hyd y dwfr i gymeryd Ynys Fon—*granary* fawr y Cymry gwarchaedig yn eu cyfyngder bob amser o'r blaen. Trwy fod amryw o arglwyddi yr Ynys o tan lw o ffyddlondeb i'r brenin, gallodd y giwdod hon lanio yn rhwydd. Ar ol cael safle yn Mon, ac y mae yn rhaid cyfaddef mai safle bwysig ydoedd, bwriad nesaf y gelyn oedd croesi'r Fenai, a chael cefn y Cymry i ymosod arnynt yn Arfon. Gwnaethant bont o fadau yn ymyl Moel y Don, yr hon oedd yn ddigon llydan i dri ugain o wyr gerdded ochr yn ochr ar hyd-ddi. Ond yr oedd llygaid y Cymry ar eu hysgogiadau, a dirgel ddarparent ar gyfer eu croesawu trwy godi gwrthgloddiau yn y coedwigoedd gerllaw. Cyn cwblhau'r bont, Syr William Latimer, gyda lluaws mawr o wyr goreu'r fyddin, ac arglwydd Gascony a'r milwyr Yspaenaidd, yn gweled dim gelynion yn Arfon, nac yn wir yn malio dim am danynt, wedi ymwroli yn fawr oherwydd eu llwyddiant yn Mon, a daethant trosodd, a buont am amser yn ymddifyru hyd y traeth. Risiart ap Walwyn oedd cadlywydd y Cymry, ac efe ni chythryblodd ar yr ymosodwyr, gan y gwyddai y deuai'r llanw i mewn yn fuan, ac y torid eu llwybr encil. A phan ddaeth yr amser cyfaddas, y Cymry a ruthrasant o'u cuddfanau arnynt. Syrthiodd o Saeson y dydd hwnw bumtheg barwn, deuddeg ar hugain o ysweiniaid, a mil o wyr cyffredin; ac yn mhlith y lladdedigion yr oedd Syr Lucas de Thany, Syr William Dodingles, a Syr William de la Zouch. Syr William Latimer, eu cadben, yn unig allodd ddianc, a thrwy gryfder ei farch y diangodd ef. Cyrhaeddodd y newydd am y fuddugoliaeth hon i'r Deheudir, a chalonogodd bleidwyr y tywysog yn fawr. Rhys ab Maelwyn a Gruffydd ab Meredydd, penaethiaid y blaid hon, a enillasant amrai gantrefi oddiar y Saeson yn Ngheredigion a sir Gaerfyrddin; a'r brenin a ddanfones Iarll Gloucester a Syr Edmwnd Mortimer yno i ddarostwng y gwrthryfelwyr. Cymerodd brwydr le ger Llandeilo Fawr, yn mha un y gorchfygwyd y Cymry gyda cholled fawr; a'r Saeson a gollasant heblaw lluaws o wyr cyffredin, bum' marchog, un o ba rai oedd William de Valence, cefnder y brenin. Llywelyn, yn gweled fod Eryri yn ddyogel oherwydd ymgiliad y brenin, a ymddiriedodd wyliadwriaeth y rhan hono i'w frawd Dafydd, ac a orymdeithiodd gyda chwe' mil o wyr tua'r Deheudir, er mwyn calonogi ei gyfeillion yno, a dial ar ei elynion; ac yn eu plith Rhys ab Meredydd, yr hwn a fradychasai ei egwyddorion, ac a droesai at y Saeson. Diffeithiodd Geredigion, cyfoeth y Rhys hwn; ac oddiyno cyfeiriodd ei gamrau tua chantref Buallt, lle yr oedd wedi addaw cyfarfod gwyr o'r wlad hono er mwyn cyngreirio â hwynt. Daeth ei symudiadau i'r Deheudir i glustiau y brenin, ac efe a ddanfonodd orchymyn at Oliver de Dyneham, un o'i swyddogion yn swydd Maeshyfed, iddo groesi yr Hafren i sir Gaerfyrddin, a gwylio pob cyfleusdra i orthrechu'r tywysog. Llywelyn, er mwyn cyflawni ei addewid o gyfarfod gwyr Buallt, a adawodd gorph ei fyddin ar fryn cyfagos i bentref Mochryd, tua thair milldir oddiwrth yr afon Wy, y rhai oeddynt i wylio a gwrthsefyll ymosodiad Dyneham; a chan nad oedd yn ofni perygl o'r un cyfeiriad arall, ni chymerth ond ychydig o wyr gydag ef. Gyda'i fintai fechan aeth gan belled ag Aberedwy, a rhoddes y gwyr i wylio pont Orewyn, yr unig bont dros yr afon Wy yn yr ardal hono, fel na ddeuai perygl oddiyno ychwaith. Dywed un hanes fod gan y tywysog balas yn Aber-

Digitized by Google

edwy, ac mai yn y palas yr oedd y cyfarfod i gymeryd lle, ond nid yw hyny yn rhesymol, gan fod Buallt er's amser maith cyn hyn bron yn gyfangwbl tan lywodraeth y Saeson; dywed eraill, yr hyn yn ol pob argoelion sydd gywir, eu bod i gyfarfod mewn llwyn o goed ychydig oddiar nant yr afon Wy, a rhwng y ddwy adran o'r fyddin Gymreig. Ond y mae pob rheswm i gasglu fod y cynllun wedi ei ddatguddio gan yr arglwyddi hyny oeddynt i gyfarfod Llywelyn. Yn mhen ychydig funydau wedi iddo adael pont Orewyn, ymosodwyd ar ei gwarchlu gan John Gifford a Syr Edmwnd Mortimer, gyda byddin gref, rhan fawr o ba un oeddynt wyr Buallt. O'r llwyn coed hwnw clybu yswain y tywysog swn ymladd tua'r bont, a dywedodd wrth ei arglwydd fod y Saeson yn ymosod ar y gwarchlu. "A ydynt yn dal eu tir," ebai ef. "Ydynt." "Yna ni syflaf oddiyma pe byddai holl Loegr yr ochr draw;" a diamheu ei fod yn gywir ei farn am ei ddyogelwch oni buasai fod bradwr yn mysg y gelynion. Y fintai a amddiffynodd y bont gyda dewrder dihafal: a'r Saeson yn gweled nad allasent ei chymeryd, un o'r enw Helias Walwyn, brodor o'r ardal, a ddangosodd iddynt ryd ar yr afon ychydig islaw y bont, yr hwn, er ei fod yn beryglus, a groesasant. Yr oedd yn anmhosibl i'r fintai fechan ddal ymosodiad yn ol a blaen; o ganlyniad, gadawsant y lle a ffoisant. Bellach nid oedd dim rhwng Llywe yn a'i elynion, ac yr oeddynt yn eithaf hysbys, trwy yr arglwyddi bradychus, pa le y deuant o hyd iddo. Amgylchynasant y llwyn coed, a thra yr amcanai Llywelyn encilio at gorph ei fyddin i Mochryd, daeth swyddog Seisnig, o'r enw Adam de Ffrancon, yn mlaen ac a'i trywanodd ef â gwaewffon, heb feddwl unwaith nad un o osgorddlu y tywysog ydoedd. Eithr Ffrancon wedi chwilio y llwyn, a chael nad oedd neb yndda, a ddychwelodd at yr archolledig ac a'i cafodd yn prysur farw, a neb gydag ef ond ei gyfaill yr yswain. Yn mhen ychydig funydau, bu farw. Dechreuwyd archwilio ei gorph, a chafwyd amryw lythyrau pwysig yn ei feddiant, a'i sêl dywysogaidd. Yna Ffrancon a dorodd ben y tywysog, ac a'i danfonodd i'r brenin yn Rhudd lan, yr hwn a dderbyniodd yr anrheg waedlyd gyda llawenydd mawr, ac a'i danfonodd i Lundain i'w arddangos yn gyhoeddus, lle y coronwyd ef â choron o fedw er dirmyg ar y darogan y byddai i Llywelyn wisgo coron yn ninas Llundain. Am y corph, oherwydd fod y tywysog wedi marw tan ysgymundod, gellir tybied bron i sicrwydd, ei fod wedi ei gladdu mewn croesffordd ar lain o dir elwir Cefn y Bedd, tua thair milldir o Buallt. Yn ol yr hen ddefodau Cymreig mewn croesffyrdd y cleddid drygweithredwyr, ac yr oedd pawb a fyddent farw tan felldith yr Eglwys Babaidd yn dyfod tan y cyfenw hwn. Y fyddin Seisnig wedi ffadd a gwasgaru y ddiadell fechan a warchaeai'r bont a ruthrasant tua chorph y fyddin Gymreig ar y bryn gerllaw Mochryd. Ymddygodd y Cymry yn ddewr a chanmoladwy iawn er nad oedd eu tywysog yno i'w llywyddu. Parhaodd y frwydr yn amheus am dair awr, weithiau'r Saeson yn enill, weithiau'r Cymry. Eithr pan glybu yr olaf am dynged eu llywydd, ymollyngasant a ffoisant yn anmhrefnus, gan adael tua dwy fil, tua thrydydd ran eu nifer, yn feirwon ar y maes. Cymerodd y gâd hon le ar y 10fed o Ragfyr, 1283. Gadawodd Llywelyn ar ei ol un ferch, a hono ond plentyn dwyflwydd oed, a'r brenin a'i dodes hi mewn mynachlog, lle y cymerodd hi urddau fel mynaches. Yr oedd iddo hefyd un mab ordderch o'r enw Madawc. Disgynai'r Dywysogaeth i Dafydd brawd Llywelyn, ond er iddo ef gymeryd yr awenau i'w

Digitized by Google

law am yspaid byr, yr oedd yspryd y genedl wedi diffygio, ac yntau a ddaliwyd mewn coedwig yn y cyflwr truenusaf; danfonwyd ef gyda'i wraig a'i ddau fab a'i saith merch yn garcharorion i Ruddlan, ac oddiyno i'r Amwythig, lle y dienyddiwyd ef yn y dull creulonaf. (Gwel DAFYDD AB GRUFFYDD.) A thyna y benod olaf yn llyfr tywysogion Cymru; o hyn allan, ystyriwyd ein gwlad yn rhan o ymherodraeth Prydain Fawr. Ceir marwnad odidog iddo yn *Ngorchestion Beirdd Cymru*, o waith Gruffydd ab yr Ynad Coch, a thelorai y beirdd gŵynfanau galarus ar ei ol, gan ei alw yn haul ei wlad, yn dwr ei chadernid, yn dad ei hamddifaid, ac yn nodded ac achles i'w thrueiniaid a'i gweddwon.

LLYWELYN AB GRUFFYDD AB GWILYM, bardd o Fon, yn yn ei flodeu rhwng 1550 a 1590.

LLYWELYN AB GUTYN, bardd o gryn deilyngdod, yn ei flodeu rhwng 1460 a 1500. Yr oedd hefyd yn grythor i Dafydd Llwyd ab Llywelyn ab Gruffydd. Y mae ychydig o'i waith yn nghadw mewn llawysgrifau.

LLYWELYN AB GWRGANT, brenin Dyfed rhwng 1140 a 1170. Y mae amryw o brif-deuluoedd Deheubarth yn olrhain eu hachau oddiwrtho.

LLYWELYN AB HWLCYN, bardd rhwng 1540 a 1570.

LLYWELYN AB HYWEL, ab Ieuan ab Gronw, bardd rhwng 1500 a 1540. Y mae peth o'i waith yn nghadw mewn ysgrifen.

LLYWELYN AB IORWERTH, tywysog clodfawr, ydoedd fab i Iorwerth Drwyndwn, yr hwn ydoedd fab Owain Gwynedd, eithr nis gallai olrhain ei dad i'r dywysogaeth, oherwydd yr anaf ar ei wyneb, ac felly syrthiodd yr hawl gyfreithlon hwnw ar ei fab hynaf yr Iorwerth hwn. Mam Llywelyn ydoedd Marred, merch i Fadog ab Meredydd, tywysog Powys. Pan dyfodd efe i oedran gwr, hawliodd ei swydd fel tywysog oddiar ei ewythr Dafydd, frawd ei dad, yr hwn a gymerasai feddiant ohoni, ac a ymddygasai yn dra chreulon tuag at Iorwerth, ac a wnaethai ei hun yn dra anghariadus gyda'i ddeiliaid fel gormes-deyrn gorthrymus. Cyrhaeddodd Llywelyn ei amcan yn dra didrafferth, a dechreuodd deyrnasu yn 1194. Pa fod i bynag, nid oedd ei ewythr am adael iddo gael ei ffordd ei hun yn mhobpeth; ac wedi cynull byddin fawr o wyr yn Gymry a Saeson, yn y flwyddyn 1197, efe a ymosododd ar Llywelyn; eithr ei wyr a orchfygwyd, a chymerwyd yntau yn garcharor, a chadwyd ef felly am rai blynyddau. Yn 1202, gwysiodd yr holl benaethiaid a thywysogion Cymreig i dalu gwarogaeth iddo fel prif-dywysog neu frenin Cymru oll, yn ol ddeddfau Rhodri Mawr a Hywel Dda. Yn ystod yr un flwyddyn, efe a briododd Joan, merch Ioan, brenin Lloegr, a chafodd arglwyddiaeth Ellesmere, yn sir Amwythig fel priodas-rodd gyda hi. Yn 1211, ymosododd y brenin Ioan ar Wynedd gyda byddin gref, eithr ymlwybrodd yn rhy bell oddiwrth ei adgyfnerthion, a chan i Lywelyn dori y cysylltiad rhyngddynt, gorfu ar frenin Lloegr encilio y waith hon; eithr efe a wnaeth ail ymosodiad yn yr Awst dilynol, a llwyddodd i losgi Bangor, a dwyn y tywysog Cymreig tan deyrnged. Yn 1214, efe a ymunodd gyda'r barwniaid Seisnig mewn cynghrair yn erbyn Ioan; ac er i'r Pab ei ysgymuno o'r herwydd, eto ni pheidiodd efe ag ymgyngreirio â hwynt. O'r pryd hwn hyd derfyn ei fywyd, bu mewn brwydrau parhaus a didor bron gyda Harri III., ac ar y cyfan yr ydoedd yn dra llwyddianus trwyddynt. Erbyn 1237, yr oedd wedi teyrnasu 43 o flynyddau, a hen ddydd-

Digitized by Google

iau yn dechreu ei orddiwes, a galwodd ei dywysogion a'i bendefigion i'w gyfarfod yn Ystrad Fflyr, lle y tyngasant lw ffyddlondeb o newydd iddo, ac hefyd i'w fab o'r wraig gyntaf, Tangwystl, merch Llywarch Goch, arglwydd cantref y Rhos yn Ngwynedd. Bu iddo ferch hefyd o'r wraig gyntaf, o'r enw Gwladus, yr hon a briododd Syr Ralph Mortimer. Wedi y teyrnasiad anrhydeddusaf o'r holl dywysogion Cymreig, efe a fu farw Ebrill 11, 1240, a chladdwyd ef yn Aberconwy, eithr symudwyd ei esgyrn oddiyno i fynachlog Maenan, ac oddiyno drachefn i eglwys Llanrwst, lle y gwelir ei arch gareg y dydd hwn. Hynodid ef fel tywysog dewr, doeth, a da, ac adwaenir ef oblegid hyny wrth yr enw "Llywelyn Fawr." Ei gydoeswyr, y beirdd, a erddygasant ei glodydd, ac y mae ffrwyth awen rhai ohonynt i'w weled yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Efe a sefydlodd abad-dŷ Aberconwy yn 1185, ac a'i breiniodd a thir helaeth yn Arfon a Mon; ac yn 1237, sefydlodd briordy Llanfaes yn Mon, ar fedd ei wraig Joan. Dywed traddodiad mai efe oedd piau "Gelert" y ci, ac mai efe a'i trywanodd, oddiar yr hyn y tarddodd y ddiareb, "Mor edifar â'r gwr a laddes ei filgi."—*Brutiau Cymreig*, &c.

LLYWELYN AB SITSYLLT, un o dywysogion enwocaf Cymru. Mab ydoedd i Drawst, ferch Elis, ail fab Anarawd, mab hynaf Rhodri Mawr. Yn y flwyddyn 994, ac efe ar y pryd ond pedair ar ddeg oed, priododd Angharad, unig ferch ac aeres Meredydd ab Owain, yn hawl yr hon yr chanodd efe fel tywysog ar Ddeheubarth a Phowys yn 998. Yn 1035, amlygodd ei hawl i dywysogaeth Gwynedd, a daeth a byddin gref yn erbyn Aeddan ab Blegwryd, yr hwn a drawsfeddianasai y swydd, a lladdwyd ef gan Llywelyn mewn brwydr, yn nghyad'i bedwar mab, ac a ddaeth felly yn dywysog Cymru oll. Fel tywysog, ymarweddodd yn ddoeth, a'r bobl a gynyddasant mewn rhif a chyfoeth tan ei lywodraeth. Eithr wedi chwe' blynedd o heddwch, daeth llu o Wyddyl Ffichti, tan Awlwff, ar ymgyrch o ymosodiad i Ddeuheubarth, ac wedi ymdaith gan belled â Chaerfyrddin, ymunodd âg ef gatrawd o wyr tan Hywel a Meredydd, meibion Edwyn ab Owen, yr hwn deulu a ddiswyddasid er's rhai blynyddau o'u swydd o dywysogion y parth hwnw. Eithr ni ffynodd eu hymgyrch, canys Llywelyn a'u llwyr orchfygodd mewn brwydr. Pa fodd bynag, yn mhen ychydig ar ol hyny, syrthiodd ei fywyd yntau tan gyllell llofrudd, yr hwn, meddir, a roddasid ar waith gan Fadog Min, esgob Bangor. Olianwyd ef gan ei unig fab Gruffydd, yr hwn a deyrnasodd o 1037 hyd 1064. Llywelyn a adeiladodd gastell Rhdddlan, ac yno y trigianai efe a'i fab ar ei ol.—*Brutiau Cymreig.*

LLYWELYN AURDORCHOG, o Ial, yn sir Ddinbych, pendefig anrhydeddus, yn ei flodeu tua therfyn y 12fed ganrif. Ei feibion oeddynt Ithel Felyn, Iorwerth, Idris, Dolphin, ac Ednywain; ac y mae amryw o brif deuluoedd y sir hono yn olrhain eu hachau ohonynt.

LLYWELYN BRYDYDD HODNANT, bardd enwog yn Morganwg, yn ei flodeu rhwng 1280 a 1330. Y mae dau gywydd anerch o'i waith i Ieuan ab Gruffydd Foel, yn argraffedig yn y *Myvyrian Archaiology.*

LLYWELYN DDU, bardd yn ei flodeu rhwng 1290 a 1340. Y mae cywydd anerch o'i eiddo i Lywelyn ab Gwilym Hywel, yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

LLYWELYN GOCH AB MEIRIG HEN, bardd enwog a drigianai yn Nannau, Meirion, ac yn ei flodeu rhwng 1330 a 1370. Enillodd

Digitized by Google

serch Lleucu Llwyd, rhian nodedig am ei phrydferthwch, o Bennal, ac ar ei marwolaeth ddisyfyd cyfansoddodd farwnad alaethlawn, yr hon a argraffwyd yn y *Brython* ii. 170, a chyfieithiad ohoni yn y *Bardic Museum* gan Jones. Y mae llawer ychwaneg o'i farddoniaeth ar gael, a chwe' dernyn yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Canwyd ei farwnad ef gan Iolo Goch.

LLYWELYN, Moel y Pantri, bardd yn ei flodeu rhwng 1400 a 1430. Claddwyd ef yn Ystrad Marchel, ac y mae ei farwnad, o waith Gutto'r Glyn, i'w gweled yn argraffedig yn y *Cymrodorion Transactions*, ii. 260. Y mae amryw o'i ddarnau barddonol yn nghadw mewn ysgrifau.

LLYWELYN O LLANGEWYDD. *Gwel* SION (Llywelyn).

LLYWELYN FARDD, ab Cywryd, bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1230 a 1280. Y mae saith o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

LLYWELYN FOELRHON, mab i Dafydd Foel ab Dafydd Benfras, bardd yn ei flodeu rhwng 1270 a 1300. Yr oedd ei dad a'i daid hefyd yn feirdd enwog.

LLYWELYN FYCHAN, bardd yn Mon, yntau yn fab i Lywelyn Foelrhon, ac yn ei flodeu rhwng 1300 a 1330. Y mae peth o'i waith ar gael.

LLYWELYN, mab i Degonwy ab Teon, a brawd i Fabon, sant yn ei flodeu yn y 6ed cant. Sefydlodd grefydd-dy yn y Trallwm, a bu farw yn mynachlog Enlli. Cedwid ei wylmabsant Ebrill 7.—*Iolo MSS.*

LLYWARCH AB BRAN, pendefig urddasol yn Mon yn y 12fed ganrif, a phen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Yr oedd yn gydfrawd-yn-nghyfraith ag Owain Gwynedd, gan fod eu gwragedd yn chwiorydd, ac yn ferched i Gronw ab Owain ab Edwyn, arglwydd Tegengl. Rhai hanesion a ddywedant ei fod yn ystiwart i Owain. Llywarch ydoedd arglwydd Cwmwd Menai, yn Mon, a thrigianai yn ei arglwyddiaeth, mewn lle a elwir oddiar hyny yn Dref Llywarch, yr hwn a gynwys hefyd Gaergybi, a thri dernyn arall o dir a elwid oddiwrth enwau ei feibion yn "Gwely Iorwerth ab Llywarch," "Gwely Cadwgan ab Llywarch," a "Gwely Madog ab Llywarch." Ei arf-bais ydoedd: "*Argent between three crows with ermine in their bills, a chevron sable.*" Y mae amryw deuluoedd yn olrhain ei disgyniad ohono.—*Whiteford and Holywell*, gan Pennant.

LLYWARCH AB LLYWELYN, neu Llywarch Prydydd y Moch, un o feirdd mwyaf enwog a gorchestol ei oes. Y mae deg cyfansoddiad ar hugain o'i waith yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Arddangosant oll awen gref, ac y maent mewn ystyr hanesyddol yn drysorau tra gwerthfawr, gan eu bod yn gynyrch arwydd-fardd deallus a gwybodus yn nhras a threigl enwogion ei genedl.

LLYWARCH HEN, yr enwocaf o'r cynfeirdd. Blodeuai yn y 6ed ganrif. Ei dad ydoedd Elidir Lydanyn, tywysog ar y Brythoniaid Gogleddol, ag oeddynt yn preswylio yn Iscoed Celyddon, llygriad o'r hwn enw ydyw *Scotia* a *Caledonia* presenol; ei fam, Gwawr, ferch i Brychan Brycheiniog, sant enwocaf ei oes. Yr oedd Urien Rheged yn gefnder iddo o du tad a mam, canys yr oedd Elidir a Chynfarch wedi priodi dwy o ferched Brychan, sef Gwawr a Nefyn. Cyfoeth treftadol Llywarch ydoedd Argoed, yr hwn a safai, meddir, yn sir Cumberland presenol. Yn ei ieuenctyd, bu am rhyw yspaid yn llys Arthur, gan y gelwir ef yn y *Trioedd* yn "un o dri chynghoriaid farchawg llys Arthur" ac yn "un o dri thrwyddedog a hanfodawg llys Arthur;"

Digitized by Google

ond ni ddywedir pa un ai yn Nghaerlleon ar Wysg, ai yn Nghelliwig yn Nghernyw, dichon yn y ddau yn ol fel y byddai Arthur ei hun. Gellir casglu oddiwrth ei farwnad i Geraint ab Erbin ei fod yn dra chynefin â Chernyw a Dyfnaint. Yr oedd efe yn llygad-dyst yn mrwydr Llongborth, pan y lladdwyd Geraint, yr hon a ymladdwyd yn 530. Yn fuan ar ol hyn, dychwelodd i'r Gogledd, ac ymgyngreiriodd âg Urien Rheged a'i fab Owain i wrthsefyll rhaib a gormes yr Eingl, y rhai a anrheithient "deyrnedd y gogledd." Eithr lladdwyd Urien trwy fradwriaeth Llofan Llawddino yn yr ymgyrch anffodus hwnw, a gorfu arno yntau Llywarch ffoi o'i diriogaeth, a dyfod am nawdd ac achles i lys Cynddylan, yr hwn a safai, tybir, yn rhywle tua'r Amwythig. Cwympodd Cynddylan, llosgwyd ei lys—Pengwern, a goddiweddwyd y wlad o'i amgylch gan y Saeson. Enciliodd yn awr o flaen y rhyferthwy i Abercuawg, ger Machynlleth ; a'r pryd hwnw y cyfansoddodd ei dribanau i gog Abercuawg. Ymddengys fod perthynasau iddo yn byw tua Llanfor, ger y Bala, gan fod Mor, sant gwarcheidiol y lle hwnw yn frawd i'w hen daid, Gwrwst Ledlwm. Yno yr ydym yn ei gael yn gorphen ei oes faith, tua'r flwyddyn 646, wedi cyrhaedd yr oedran o 150 : ac oherwydd hyn y gelwid ef yn Llywarch *Hen*. Dangosir y man y trigianai ynddo, a gelwir y lle "Pabell Llywarch Hen," ac yn mynwent Llanfor, meddir, y claddwyd ef, lle, y dywedai Dr. Davies, Fallwyd, fod careg yn y mur yn dynodi ei argel wely. Yr oedd ganddo bedwar ar hugain o feibion, a phob un yn aurdorchog ; ond goroesodd hwynt oll, a syrthiasant yn ebyrth ar allor waedlyd yr oes ryfelgar hono. Cwympodd tri yn mrwydr Cattraeth, a dynoda yr hen fardd yn hynod o alarus y man y syrthiodd y gweddill. Gwneir cyfeiriadau parhaus ato yn y *Trioedd*. Yn *Tri* 38 rhestrir ef gyda Manawydan a Gwgawn Gawr, tan y penawd, "Tri lleddf unben," am na "cheisynt gyfoeth na theyrnedd gwedi eu myned wrth gerdd, cyd nas gellid eu lluddias iddynt." *Tri* 112, a'i rhestra gyda Llemeirig a Heiddyn Hir tan y penawd, "tri thrwyddedawg hanfodawg llys Arthur," sef "tri meib beirdd oeddynt." Yn *Tri* 116, gelwir ef yn un o "dri marchog cynghorddoeth llys Arthur," y ddau eraill oeddynt Cynon ac Arawn ; ac "ni chaid amgen na llwydd i bob cynghor o'u heiddaw a wnaed, ac aflwydd a gaid lle bynag nas gwnaid yn ol eu cynghoreu." "Tri doethion beirdd llys Arthur," yn ol yr un awdurdod, oeddynt Cattwg, Taliesin, a Llywarch Hen. Y mae ei gyfansoddiadau yn ddeuddeg mewn nifer, chwech ohonynt o ansawdd hanesyddol a'r gweddill o natur foesol. Argraffwyd hwynt yn y *Myv. Arch.*, a chyhoeddwyd hwynt ar wahan gan y Dr. Owen Pughe, yn 1792, yn nghyda chyfieithiad llythrenol i'r Seisnig. Y mae ei iaith yn fwy dealladwy na'r eiddo Aneurin, ond credir gan feirniaid craff nad yw pob peth sydd ar ei enw yn eiddo dilwgr, ond fod dwylaw diweddarach wedi bod mor garedig a rhoddi yn ei feddiant bethau na pherthynent mewn gwirionedd iddo.

LLYWARCH LLAETTY, bardd rhwng 1290 a 1340. Y mae cywydd anerch o'i eiddo i Llywelyn ab Madog ab Meredydd yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

LLYWARCH FYR, bardd rhwng 1460 a 1500. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

LLYWARCH Y NAM, bardd rhwng 1320 a 1360. Y mae cywydd anerch o'i waith i Llywelyn ab Madog ab Llywelyn yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

LLYWELYN AB CALCHFYNYDD, yn ol *Achau Iestyn ab Gwr-*

Digitized by Google

gant, oedd y cyntaf a adeiladodd gestyll gyda meini a mortr. Bu rhyfel greulawn rhyngddo â llwyth o eillion gormesol Saesonaidd, o'r enw y Coraniaid, y rhai a ddaethant gyntaf i Brydain yn ei amser ef. Ei dad, Calchfynydd, neu Calchwynydd, ydoedd fab i Enir Fardd, yr hwn a wnaeth galch gyntaf, yr hyn a ddarganfyddodd trwy wneud pobty o gerygtan yr aelwyd. Trwy i'r rhai hyn gael eu llosgi gan y tân, taflwyd hwynt ymaith; a phan ddisgynodd y gwlaw arnynt, maluriwyd hwynt yn llwch, a throisant yn fortr, gan gael eu caledu tan ddylanwad yr hin. Cymerth beth o'r calch hwn, a gwyngalchodd ei dŷ, ac o hyny y tarddodd ei enw.—*Iolo MSS.* 338.

MAB Y CLOCHYDDYN, bardd yn ei flodeu rhwng 1340 a 1380. Dywed Edward Llwyd mai brodor ydoedd o Lanafan Fawr, Brycheiniog, a'r un un â Mabclaf ab Llywarch. Efe a wnaeth gywydd mawl Gwenhwyfar, gwraig Hywel ab Tudur ab Gruffydd, yr hwn sydd yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*, ac y mae ychwaneg o'i waith ar gael.

MABON AB MEDRON, un o arwyr rhamant Gymreig. Rhestrir ef yn y *Trioedd* tan y penawd "tri goruchel garcharawr," gyda Llyr Llediaith a Gair ab Geirion; a dywed *Tri* arall fod Mabon a'i deulu wedi ei gadw yn ngharchar gan y Gwyddyl Ffichti yn yr Alban. Cymer ran flaenllaw yn nrama synfawr "Mabinogi Cilhwch ac Olwen." Tybir mai yr un un ydoedd a Mabon ab Mellt. Yn ol englynion *Beddau y Milwyr*, y mae bedd Mabon ab Medron yn ucheldir Nanllau.—*Myv. Arch.; Cymru Fu;* Guest's *Mabinogion* ii. 361.

MABON, sant yn 6ed cant, mab i Enllech ab Hydwn. Gelwid ef hefyd Mabon Wyn a Mabon Hen. Efe a sefydlodd eglwys Llanfabon yn Morganwg.

MABON AB TEGONWY AB TEON, sant yn 6ed cant. Dywedir mai efe a sefydlodd eglwys Rhiw Fabon, neu Ruabon, yn sir Ddinbych.

MACHES, santes yn y 6ed cant. Merch ydoedd i Gwynlliw Filwr, a merthyrwyd hi yn Merthyr Maches, neu Lanfaches, sir Fynwy, gan un o'r Sacsoniaid paganaidd.—*Achau y Saint; Iolo MSS* 533.

MACHNO (HUGH), bardd yn ei flodeu tua 1590. Ei enw priodol ydoedd Hugh Owen. Bu dadl farddonol rhyngddo â'r Archddiacon Prys. Wedi treulio ei oes yn Mhennmachno, sir Gaernarfon, efe a fu farw yno, ac yn y fynwent yno y claddwyd ef, lle y mae ei gareg fedd ac arni yn gerfiedig, "H. M. obiit 1637." Y mae amryw o'i gyfansoddiadau barddonol yn argraffedig yma ac acw hyd faesydd llenyddol Cymreig, ac eraill yn aros mewn ysgrifen.

MACHRAITH, sant yn y 7fed cant. Sefydlodd eglwysi Llanfachraith yn Meirion, a Llanfachraith yn Mon; lle y cedwid ei wylmabsant, Ionawr 1.

MACHUTUS, neu Maclovius, ydoedd frodor o Langarfan, yn Morganwg. Mab ydoedd i Garadawg ab Ynyr Gwent, a'i fam ydoedd Derwela, chwaer i Amwn Ddu. Efe a aeth trosodd i Ffrainc, ac yn 541, etholwyd ef yn esgob Aletum, yr hwn le a elwid ar ei ol ef yn Maclovium a Maclopolis, ac yn awr St. Malo. Credid y medrai St. Machutus, trwy ei aml rinweddau a sancteiddrwydd ei fuchedd, dawelu tymhestloedd, rhoddi llygaid i ddeillion, bywyd i feirwon, bwrw allan gythreuliaid, a thynu gwenwyn oddiar golynau seirph.—Wms. *Em. Welsh.*

MARCHUDD AB CYNAN, pen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd, oedd arglwydd Abergele, Uwchdulas. Yr oedd yn cydoesi â Rhodri

Digitized by Google

Mawr, yn 846. Ei balas oedd Brynffanigl, yn mhlwyf Bettws Abergele. Yr oedd yn hanu mewn llinell unionsyth o Goel Godebog, brenin Prydain. Ei arfau oeddynt:—"*gules, three Saracen's heads, erased proper, wreathed or.*"—*Eminent Welshmen; Brython*, iii. 417.

MARCHWEITHIAN, arglwydd Isaled, pendefig urddasol yn byw yn nyddiau Harri II. Ei gyfoeth tirol ydoedd Carwed Fynydd, Dincadfoel, y Prys, Berain, Lleweni, Gwytherin, a threfgorddau (*townships*) eraill yn nghantref Isaled, fel y gwelir oddiwrth ddosparthiad o arglwyddiaethau Dinbych tan deyrnasiad Iorwerth III., ac ar y pryd yr oedd Cynwrig Fychan, y nawfed disgynydd o Marchweithian yn fyw. Ei balas ydoedd Lleweni. Efe ydoedd fab i Tegwel, ab Llndd, ab Lleon, ab Llyminod Angel, ab Pasgen, ab Urien Rheged, ab Cynfarch, ab Meirchion Gul, ab Grwst Ledlwm, ab Geneu, ab Coel Godebog. Efe oedd ben un o bumtheg Llwyth Gwynedd: ac y mae llawer o deuluoedd presenol y wlad hono yn disgyn ohono. Ei beisarfau oeddynt:—"*gules a lion rampant argent, armed azure,*" ar darian.—*Em. Welshmen, Brython* iii. 418.

MADOCKS (WILLIAM ALEXANDER), ydoedd drydedd mab John Madocks, Ysw., o'r Fron Yw, yn Nyffryn Clwyd, un o ddadleuwyr enwocaf ei oes yn llys y sianseri, ac aelod seneddol am lawer o flynyddau tros fwrdeisdref Westbury. Ganwyd ef yn 1774. Addysgwyd ef yn Rhydychain, a chymerodd y radd o M.A. yn 1790, a gwnaed ef yn gymrawd (*fellow*) o goleg All Souls. Yn 1802, etholwyd ef yn aelod seneddol tros fwrdeisdref Boston, yn sir Lincoln, a pharhaodd i gynrychioli y lle hwnw hyd 1820, pryd yr etholwyd ef tros Chippenham. Hynododd ei hun fel Whig gweithgar a blaenllaw, ac efe a gynygiodd yn Nhy y Cyffredin bleidlais o gyhuddiad am lwgr-wobrwyaeth mewn etholiad ar arglwydd Castlereagh, fel gweinidog y goron. Eithr adnabyddir ef yn well am ei ymdrechion clodfawr i adenill rhan o hen Gantref y Gwaelod, ar gyffiniau Arfon, oddiar y mor. Yr oedd Syr John Wynne o Wydir, mor gynar a'r flwyddyn 1625, fel y prawf llythyrau o'i eiddo at Syr Huw Myddleton, wedi meddwl am gynllun o gau y weilgi allan o'r Traeth Mawr a'r Traeth Bach rhwng Meirion ac Arfon. Yn 1798, Mr. Madocks a brynodd etifeddiaeth Tanyrallt, ger Penmorfa, Arfon; ac yn ddiymaros efe a ddechreuodd ar y gwaith o gau i mewn tua dwy fil o aceri o Draeth Penmorfa ar derfynau ei dir; ac er cynifer yr anhawsderau, llwyddwyd yn yr amcan, ac y mae y rhandir hwnw erbyn hyn yn cynyrchu cnydau tore thiog. Wedi llwyddo cystal gyda'r anturiaeth hon, dechreuodd ar y gwaith mwy o adenill rhan helaeth o'r Traeth Mawr. Yn 1807, cafodd ganiatad y Goron, wedi ei gadarnhau gan y Senedd, i gymeryd meddiant o'r traeth a orweddai rhwng Pont Aberglaslyn a Phen y Gest. Cyfarfyddwyd ag amryw anhawsderau wrth ddwyn y gwaith hwn yn mlaen, ond er gwaethaf pobpeth llwyddwyd i wneud clawdd enfawr ar draws y Traeth Mawr tua milldir o hyd, ac yn amrywio mewn lled yn ei waelod o un cant i bedwar cant o droedfeddi, ac yn culhau yn raddol at ei ben uwchaf i tua 30 troedfedd, a thua chan' troedfedd o uwchder. Ar hyd y clawdd hwn gwnaed prif-ffordd, yr hon aydd yn uno y ddwy sir, a chledrffordd, ar ba un y cludir y llechi o chwarelau Ffestiniog i Borthmadog. Cwblhawyd yr anturiaeth fawr hon yn 1811, trwy draul o tros £100,000. Y mae yn amgan tiriogaeth o tros bum' mil o erwau, yr hwn a orchuddir yn raddol gan laswellt trwchus naturiol i'r cyfryw for-gorsydd, ac ei fod y dwfr yn ymwthio i mewn ar brydiau trwy fan

Digitized by Google

holltau sydd yn y clawdd, eto o dipyn i beth y mae y llaid yn prysur gau yr higolau hyny i fynu. Y mae Tremadoc, yr hon a gafodd ei henw oddiwrth ei sefydlydd anturiaethus, yn sefyll ar ran o'r tir a adenillwyd, a'r groes a adeiladwyd ar ganol y farchnadfa yn sefyll ar fan ydoedd naw troedfedd islaw y dwfr ar ben llanw. Adeiladodd Mr. Madocks eglwys hardd yn yr arddull Gothaidd, ac adeiladau cyhoeddus eraill gerllaw y fan. Y mae Tremadoc a Phorthmadog bellach yn cynwys poblogaeth o tros 2,000, ac ar gynydd parhaus. Bu Mr. Madocks farw yn 1828, gan adael un ferch.—Wms. *Em. Welsh.*

MACSEN WLEDIG, sef Clemens Maximus y Rhufeiniaid, a fu am yspaid yn ben ar lengoedd Rhufain yn Mhrydain, ac a wrthryfelodd yn erbyn awdurdod yr ymherawdwr Gratian yn y flwyddyn 383. Yn ol y *Brutiau Cymreig*, mab ydoedd i Llywelyn, brawd Trahaearn. Efe a briodes Elen ferch Eudaf ab Bran ab Llyr Llediaith. Nai i Eudaf ydoedd Cynan Meiriadog, yr hwn a ddilynodd Macsen i Lydaw gyda byddin gref o Frythoniaid, y rhai a orchfygasant Gratian, ac a'i rhoddasant i farwolaeth. Wedi i Macsen fel hyn gael meddiant o lywodraeth Prydain, Llydaw, a'r Hyspaen, efe a deyrnasodd arnynt hyd 385, pryd y rhoddwyd ef i farwolaeth gan Theodosius. Y mae llawer o chwedlau traddodiadol a rhamantus yn nghylch Macsen Wledig, a cheir rhamant nodedig o synfawr yn *Greal* Llundain o'r enw '*Breuddwyd Macsen Wledig.*' Dywedir yn y *Trioedd* ddarfod iddo sefydlu Llundain yn dref archesgobaidd; a *Thri* arall a ddywed iddo roddi tir i'r gyforddwy a aethant trosodd i Gâl gydag Elen Lwyddawg, a Chynan ei brawd, ac oherwydd myned y gwyr hyny o'r wlad hon y glaniodd y Saeson arni, ac y cymerasant feddiant trwy drais a gormes ohoni. Efe a adeiladodd dair dinas yn Nghymru, sef Caer Sallawg (*Caernarfon*), Caer Alun (*Hwlffordd*), a Chaerfyrddin. Bu iddo dri mab, sef Peblig, Cystenyn, ac Owain.—*Hanes Cymru*, gan Carnhuanawc; *Greal*, Llundain; Wms. *Em. Welsh.*

MADOG AB GRUFFYDD MAELOR, tywysog y rhan hono o Bowys, a gynwys Ial, Estyn, Brwmffild, Nanheudwy, Mochnant-is-Rhaiadr, y Waen, Cynllaith, a Glyndwrdu. Efe oedd unig fab Gruffydd Maelor, a'i fam ydoedd Angharad, ferch i Owain Gwynedd. Olianodd ei dad i'r dywysogaeth yn 1190. Cymerodd blaid y brenin Ioan yn erbyn Llywelyn ab Iorwerth, a dilynodd y teyrn hwnw yn ei ddwy orymdaith ryfelgar i Gymru; eithr newidiodd ei ochr drachefn, a bu o fawr gymhorth i'r tywysog Cymreig yn ei ryfeloedd yn erbyn y Saeson. Yn 1199, efe a sefydlodd abad-dŷ Llanegwest, ger Llangollen; ac yn 1236, claddwyd ef yn ei fynachlog ei hun. Y mae ei farwnad, o waith Einion Wan, yn argraffedig yn *Myv. Arch.* Olianwyd ef yn ei dywysogaeth gan ei fab Gruffydd ab Madog, yr hwn a drigianai yn Nghastell Dinas Bran, a gelwid ef yn arglwydd y lle hwnw.—*Myv. Arch.*

MADOG AB IDDON, brenin Gwent, yr hwn a laddwyd yn ei feddwdod gan ei frawd Thomas, yn 1184. Dywed Caradog o Langarfan ei fod yn dra medrus yn y gwyddonau a'r celfyddydau, ac yn mawr ragori ar ei gyfoeswyr mewn gwybodau cyfrin a buddiol. Yr oedd hefyd yn fardd da, ac yn awdwr amryw o'r cyswyneiriau a'r diarebion Cymreig.—*Myv. Arch.*

MADOG AB MEREDYDD, ydoedd fab i Meredydd ab Bleddyn, tywysog Powys; ei fam ydoedd Hunydd, merch i Ednyfed, pen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd, ac arglwydd Dyffryn Clwyd ac Allington.

Digitized by Google

Olianodd ei dad i ran o dywysogaeth Powys yn 1129, yr hon ran a adwaenir oddiar hyny yn Bowys Fadog, tra y gelwid y rhan arall yn Bowys Wenwynwyn, oddiwrth Gwenwynwyn, wyr i'w frawd Gruffydd. Dywed Powell "ei fod yn gyfaill beunydd i frenin Lloegr, yn un a ofnai Dduw, ac a gynorthwyai y tlawd;" ond fel y nifer luosocaf o dywysogion Powys, cymerodd blaid y gelyn yn erbyn ei wlad. Ymunodd â'r brenin Harri II. yn ei ymgyrch gyntaf ac aflwyddianus yn erbyn Cymru, ac efe a lywyddai y lynges Seisnig a ymosododd ar Fon, pryd y gorchfygwyd ef gyda cholled fawr; ac ni bu well ei antur wrth ymladd â'i gydwladwyr ar faes Consyllt. Er hyny, coleddid syniadau caruaidd a serchog tuag ato gan y beirdd, ac yn ddiau yr oedd llawer o rinweddau tywysogaidd yn perthyn iddo. Clodforid ei ragoriaethau gan Cynddelw a Gwalchmai, gwaith y rhai sydd yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Oherwydd ei gyfathrach Seisnig, preswyliai yn fynych yn Nghaerwynt (*Winchester*), yn 1159, o ba le y cludwyd ei gorph i Meifod, sir Drefaldwyn, i'w gladdu yn eglwys St. Mair. Efe a briododd Susanna, merch i Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, o ba un y bu iddo dri mab, sef Gruffydd Maelor, Owain, ac Elise; ac un ferch Marred, gwraig Iorwerth Drwyndwn, ac a mam Llywelyn Fawr. Bu iddo hefyd dri o feibion eraill, sef Owain Brogyntyn, Cynfrig Efell, ac Einion Efell. Madog a adeiladodd gestyll Croesoswallt, Caereinion ac Overton.—Yorke's *Royal Tribes;* Guest's *Mabinogion* ii. 419.

MADOG AB LLYWELYN, ydoedd fab anghyfreithlawn i Llywelyn y Llyw olaf. Yn mhen deng mlynedd wedi marwolaeth y teyrn hwnw, etholwyd Madog yn ben gwrthryfel cryf a dorodd allan yn Nghymru yn erbyn iau drom y gorchfygwr Iorwerth I. Fel llywydd y gwrthryfelwyr, bu yn ffodus am yspaid. Gorchfygodd y Saeson, tan lywyddiaeth brawd eu brenin, yn agos i Ddinbych; ac ymddangosai y gwrthryfel mor nerthol a pheryglus, fel y daeth Iorwerth i Gymru ei hun i'w ddarostwng. Nis gallodd gyfarfod y Cymru mewn brwydr, eithr o'r diwedd wedi gorchfygu y gelyn amryw weithiau, Madog a gwrddodd ag un o'r anffodion sydd gan dduw rhyfel yn fynych ar gyfer ei addolwyr—gorchfygwyd ei fyddin ar Gefn Digoll, yn sir Drefaldwyn, gan arglwyddi y cyffiniau yn 1295; cymerwyd yntau yn garcharor, a threuliodd weddill ei oes yn Nhŵr Llundain.

MADOG BENFRAS, o Farchwiail yn Maelor, sir Fflint, bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1320 a 1350. Mab ydoedd i Gruffydd ab Iorwerth ab Einion Goch o Sonlli yn Maelor, yr hwn a ddisgynai o Dudur Trefor, iarll Henffordd. Yr oedd ei frodyr, Ednyfed a Llywelyn, hefyd yn feirdd clodfawr. Dysgyblion ydoedd y tri i Lywelyn ab Gwilym Emlyn; a than eu nawdd a'u hachles hwy y cynaliwyd yr Eisteddfod fawr yn Marchwiail yn amser Iorwerth III., tan lywyddiaeth arglwydd Mortimer, ac i ba le y rhoddwyd gwys a gwahawdd i feirdd Gwynedd, Powys, Dyfed, a Morganwg, er mwyn adgyweirio yr awen Gymroaidd, a cherdd dafawd a thant, ag oeddynt bron myned ar ddifancoll yn Ngwynedd a Phowys; ac nid oedd namyn ychydig wyr wrth gerdd yn Nghymru oddigerth yn Morganwg, a Mon, a Cheredigion, oherwydd marwolaeth y tywysogion a'r pendefigion a fuasent yn noddwyr iddynt. Rhoddes Eisteddfod Ifor Hael yn Bassaleg, Eisteddfod Llywelyn ab Gwilym yn Nol Goch yn Emlyn, ac Eisteddfod Marchwiail, fywyd ac yni adnewyddol yn awenyddiaeth a llenyddiaeth Gymreig pan ydoedd bron ar drengu. Nid oes ond ychydig o waith Madog Benfras ar gael, ac y mae hyny sydd bron i gyd yn nghudd mewn ysgrifau.

Digitized by Google

MADOG DWYGRAIG, bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1300 a 1370. Y mae deg cyfansoddiad o'i waith yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

MADOG MIN. Y bradwr hwn ydoedd esgob Bangor yn nechreu yr 11eg ganrif. Mab ydoedd i Cywryd ab Ednywain Bendew, tywysog Tegeingl. Trwy ei fradwriaeth ef y lladdwyd Llywelyn ab Sitsyllt, yn 1021. A thrachefn, budr-wobrwywyd ef gan Harold, brenin y Sacsoniaid, i fradychu Gruffydd ab Llywelyn ab Sitsyllt, am dri chan' bu (gwartheg). Eithr gwrthododd y brenin Sacsonaidd dalu y gwartheg iddo; a'r bradwr a foddodd yn fuan ar ol hyn mewn llongddrylliad. Oherwydd ei ddichell a'i dwyll, gelwid ef Madog y Llwynog; a'r bradwr mwyaf bradwrus oedd Madog Min.—*Iolo MSS.* 611; *Greal* 118.

MADOG MORFRYN, sant o gôr Illtyd, yn ei flodeu yn y 15ed cant. Mab ydoedd i Forydd ab Mor ab Ceneu; ac efe oedd tad Merddin Wyllt. Cofnodir ef yn y *Trioedd* tan y penawd "tri gwynfebydd Ynys Brydain," neu ddysgawdwyr bendigaid; y ddau eraill oeddynt Cattwg a Deiniol; a thri meib beirdd oeddynt.

MADOG ab Gildas y Coed Aur, neu Madog ab Aneuryn, ydoedd sant yn y 6ed cant. Yr oedd yn aelod o gôr Cenydd, yn Ngwyr, ac efe a sefydlodd eglwys Llanfadog, gerllaw Llangenydd.

MADOG AB O. *Gwel* OWAIN GWYNEDD.

MADRYN, merch i Gwrthefyr Fendigaid, sant yn y pumed cant. Bu yn briod ag Ynyr Gwent. Yn gyfranog a'i llawforwyn Anhun, hi a sefydlodd eglwys Trawsfynydd, yn Meirion.

MAEL, sant a ddaeth trosodd gyda Chadfan o Lydaw tua dechreuad y 6ed ganrif. Bu am yspaid yn aelod o gôr Illtyd, ac yna symudodd i Enlli. Yn gyfranog â Sulien, efe a sefydlodd eglwysi Corwen, yn Meirion, a'r Cwm, yn sir Fflint. Cedwid eu gwylmabsant Mai 13.

MAEL AB MENWAED, o Arllechwedd yn Arfon, ydoedd farchfilwr enwog. Cofnodir ef yn y *Trioedd*, gyda Charadog Freichfras a Llyr Llwyddog, tan y penawd "tri chadfarchawg teyrn;" "sef goreugwyr oeddynt o bawb ar feirch cad a gosawd, ac yn hyny rhodded iddynt deyrnedd er gallu a fynnynt; a'u cyneddfau oeddynt ni wnelynt onid a fai dosparthus a chyfiawn, ba wlad a chyfoeth ydd elynt."

MAEL MAELIENYDD, ydoedd fab i Cunedda Wledig. Ymladdodd gyda'i frodyr i symud ymaith drais a gormes y Gwyddyl Ffichti oddiar Gymru. Fel gwobr, cafodd y rhandir o sir Faesyfed a elwid oddiwrth ei enw ef Maelienydd.—*Iolo MSS.* 522.

MAELGWN GWYNEDD, bywyd yr hwn sydd yn dra thebyg i ramant, hanes, a chân fèr, wedi eu cyd-wau. Mab ydoedd i Caswallon Lawhir, brenin clodfawr y Brythoniaid. Olianodd ei dad fel brenin ar Wynedd yn 517, ac etholwyd ef yn frenin y Brythoniaid ar farwolaeth ddisyfyd Gwrthefyr yn 546. Efe oedd y cyntaf o hiliogaeth Arthur a ddygodd y gwledydd canlynol tan deyrnged; sef Iwerddon, Alban, Orcney, Norway, a Denmarc. Efe oedd y cyntaf a wnaeth gor Bangor yn esgobaeth, a gwnaeth gymun-roddion helaeth tuag ati; sefydlodd hefyd briordy Penmon, a choleg yn Nghaergybi, yn Mon. Efe hefyd a adeiladodd gestyll Caer Digoll, neu 'Mwythig; Caer Gollwyn, neu Harlech; a Chaer Gyffin, neu Conwy; a Chaer Deganwy, yn y Creuddyn, lle y preswyliai. Bu farw yn 560, yn eglwys Llanrhos, i ba le y ffoisai am nawdd y gysegrfa rhag y fad felen, a anrheithiai Gymru y pryd hwnw; a hyn a roddes fywyd i'r hen air, "Hun Mael-

Digitized by Google

gwyn Gwynedd yn Eglwys Llanrhos." Claddwyd ef yn Ynys Seiriol. Bu iddo ddau fab, sef Rhun ac Einion; ac un ferch o'r enw Eurgain. —*Brutiau Cymreig.*

MAELGWN FYCHAN, a lywyddai wyr Penfro yn erbyn lluoedd Iorwerth I. yn ystod gwrthryfel Madog ab Llywelyn. Wedi aurheithio sir Benfro a Cheredigion, cymerwyd ef yn garcharor yn 1294, a rhoddwyd ef i farwolaeth yn Henffordd *(Hereford).*

MAELGWN AB OWAIN GWYNEDD, tywysog Gwynedd. Pan gymerth Dafydd ab Owain feddiant o'r dywysogaeth ar farwolaeth ei dad, Maelgwn a wrthododd ufuddhau, a feddianodd Ynys Fon yn 1173, ac a'i cadwodd am dair blynedd. O'r diwedd, enillwyd hi gan Dafydd, yr hwn a roddes Maelgwn yn ngharchar; eithr efe a lwyddodd i ddianc, ac a ryddhaodd ei frodyr a'i gyfathrach, y rhai a ffoisant, rhai i Forganwg, ac eraill i'r Iwerddon.—*Brutiau Cymreig.*

MAELOG, sant o goleg Cattwg, yn ei flodeu yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Caw. Yn Mywyd Gildas, dywedir i'w dad ei fwriadu yn efrydydd llenyddiaeth sanctaidd, a'i fod yn enwog fei y cyfryw; gadawodd etifeddiaeth ei dad, ac aeth i Lowes, yn sir Faesyfed, lle yr adeiladodd fynachlog, yn yr hon y gwasanaethai Dduw yn ddibaid. Efe a sylfaenodd eglwysi Llanfaelog, yn Mon; Llandyfaelog, yn sir Gaerfyrddin; a Llandyfaelog Fach a Llandyfaelog Tref y Graig, yn sir Frycheiniog. Cedwid ei wylmabsant Rhagfyr 31.

MAELOG GRWM, pen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd, ac yn cydoesi a Dafydd ab Owain Gwynedd tua 1175. Mab ydoedd i Cwnws Ddu ab Cillyn Ynad, ac yn hanu o Cunedda Wledig. Y mae rhai teuluoedd yn olrhain eu hachau ohono. Ei arfau oeddynt:—"*Argent, on a chevron sable, three angels or.*"

MAELYS, sant yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Gwyddno ab Emyr Llydaw, a daeth trosodd i goleg Enlli gyda'i gefnder Cadfan. Sefydlodd eglwys Maelrhys, lle y cedwid ei wylmabsant Ionawr 1.

MAELOR (Syr Thomas), offeiriad dysgedig, yn ei flodeu rhwng 1440 a 1480. Efe a gyfieithodd "Mort d'Arthur" i'r Saesneg, yr hwn waith a orphenodd yn y 9fed flwyddyn o deyrnasiad Iorwerth IV., fel y crybwylla efe ar derfyn y llyfr cywrain hwnw.—*Camb. Biography,* 329.

MAETHLU, sant yn y 6ed cant. Ei dad oedd Caradog Freichfras; ei fam oedd Tegau Eurfron. Sefydlodd eglwys Llanfaethlu yn Mon, lle y cedwid ei wylmabsant Rhagfyr 26.

MAGLORIUS, sant enwog, ydoedd fab i Umbrafel, brawd i Amwn Ddu. Addysgwyd ef yn nghor Illtyd Sant, ac yna aeth trosodd i Ffrainc, lle y gwnaed ef yn abad y Dol, a thrachefn yn esgob tymhorol yn Llydaw. Sefydlodd fynachlog yn Ynys Jersey, lle y bu farw yn Hydref, 575, tua 80 oed. Symudwyd ei weddillion i'w claddu mewn mynachlog Fenedictaidd, gerllaw St. Jacques. Yr oedd y sant hwn yn fardd da, a dywedir fod rhai o emynau tlysaf eglwys Rhufain wedi eu cyfansoddi ganddo.

MALEN. *Gwel* Andras.

MALLT, personiaeth melldith yn yr hen ramantau Cymreig.

MANAWYDAN ab Llyr Lledaith, tywysog Siluraidd yn ystod y ganrif gyntaf. Cyfarfyddir a'i enw yn fynych yn y *Mabinogion* a'r *Trioedd,* ac y mae yn un o arwyr ffug-draithiadau y blaenaf.

MANOGAN, brenin y Brythoniaid tua chanrif cyn cred. Mab iddo ef ydoedd Beli Mawr, ac wyr iddo ydoedd Cæswallon. Molir ei

Digitized by Google

riniau yn uchel yn y *Brutiau Cymreig*, y rhai a roddant restr o'i achau i fynu at Prydain ab Aedd Mawr.

MANSEL (Syr Edward), ydoedd fab i Syr Rice Mansel, ystafellydd Caerlleon; ac efe oedd y Mansel cyntaf o Fargam. Yr oedd yntau fel ei dad yn ystafellydd Caerlleon. Yr oedd hefyd yn filwr dewr, ac enillodd glod o dan y frenhines Elizabeth. Dywed Camden ei fod yn ddyn o feddwl gwrteithiol; yn hoff o hynafiaethau, ac yn achyddwr dysgedig. Yr oedd yn wr hardd o gorff, ac yn uchel mewn talentau a rhinwedd. Efe a eisteddodd yn aelod seneddol dros Forganwg yn 1554, ac a grewyd yn farchog yn 1572. Priododd yr arglwyddes Jane Somerset, merch i Harri, iarll Caerwrangon, yr hon a fu farw yn 1597, yn 67 oed. Bu iddynt 19eg o blant, o ba rai y bu deg farw yn ieuainc. Francis, yr ail mab, oedd foncyff barwniaid Middlecombe, sir Gaerfyrddin. Bu Syr Edward farw yn Margam, Awst 8, 1585, yn 54 oed; ac y mae cofwylfa am dano yn yr eglwys.—*Archæoligi Cambrensis*, 1864.

MANSEL (Syr Edward), ydoedd fab hynaf Syr Lewis Mansel o Fargam, ac a anwyd yn 1634. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Westminster a Rhydychain. Yn fuan wedi marwolaeth y brenin ymdeithiodd Syr Edward ar led, a bu flynyddau yn cyflawni yr hyn a alwyd wedi hyny, "Y Daith Fawr." Efe a ddychwelodd ychydig o flaen y brenin, a dewiswyd ef yn aelod dros Forganwg yn y Senedd adferiadol, ac hefyd yn y flwyddyn olaf i Siarl II., a'r gyntaf, a'r unig un i Iago. Yn 1660, efe a gafodd, mewn cysylltiad âg Arthur Mansel, ail-roddiad o gydswydd ei dad fel ystafellydd a canghellydd gorllewin-barth Cymru, a rhyw leoedd eraill. Yr oedd hefyd yn rhaglyngesydd Deheubarth Cymru. Efe a briododd Martha, ferch Edward Carne o Eweny, Morganwg, gyda yr hon y cafodd gastell Llandw, eglwys St. Mair, a thiroedd eraill a ddelir gan ei ddisgynyddion. Bu farw Syr Edward yn 1706, yn 72 oed.—*Arch. Cam.* 1864.

MANSEL (Jenkin), ydoedd fab i Philip Mansel, o Gastell Oxwich, Morganwg. Galwai y Cymry ef y "Dewr," oblegyd iddo ddechreu ei fyd heb ganddo gŵys o dir. Yr oedd yn un o gwmpeini bychan o Gymry a ymunodd â Iarll Richmond ar ei diriad yn Aberdaugleddyf yn 1485, a chydgyfranogydd â'i gâr Syr Rhys ab Thomas, o Dynefor, yn llwyddiant dyfodol teulu y Tudur. Diddymwyd y cyhuddgwyn yn erbyn ei dad, a dychwelwyd iddo ei etifeddiaeth yn y flwyddyn laf i Harri VII, 1485; ac unwaith eto dyma Mansel yn Oxwich, ac am y waith olaf. Yr oedd Jenkin wedi hyn yn un oedd yn cymeryd rhan mewn paledgamp (*tournament*) nodedig yn nghastell Carew; a thrwy ei briodas âg ŵyres i Edward IV., y darfu iddo ef fel ei frenin, uno deuluoedd croesion y Rhosynau yn ei deulu ei hun.—*Arch. Cam.*, 1864.

MANSEL (Philip), ydoedd fab i John Mansel, ac wyr i Richard Mansel, o Oxwich, yn Gwyr Morganwg. Efe a briododd ferch i Nicholas neu Rhys o Dynefor, y boneddwr penaf y pryd hyny o fewn holl Ddeheubarth. Trwy hyn daeth y Mansel hwn yn bleidydd galluog i'r Rhosyn Coch, yn rhyfel y Rhosynau, gan wrthwynebu a'i holl allu ddylanwad yr Herbertiaid, a flaenorid gan Gwilym Ddu, yr enwog Iarll cyntaf Penfro. Darfu i'r ddau flaenorydd selio eu pleidiaeth wladol â'u gwaed—William ar gareg rhiniog porth yr eglwys ar ol brwydr Banbury, yn sir Rhydychain, a Philip yn 1461, ar faes brwydr Croes Mortimer, lle yr arweiniai y Cymry a ddilynodd Jasper Tudor. Efe a enogfarnwyd wrth ei enw yn ngweithred seneddol 4 Edward IV., fel Philip Mansell, o Oxwich, ac yn actau y 7fed a'r 8fed o

Digitized by Google

eiddo yr un brenin. Trosglwyddwyd ei ystadau i Syr Roger Vaughan, pleidiwr Duc Yorc, o sir Frycheiniog. Diau fod y weithred hon i ddiddymu gweithred 1460, lle yr oedd Philip yn trosglwyddo y cwbl i'w fab Siencyn. Darfu i Jane Mansel, ei ferch, briodi â Syr Matthew Cradoc, o Abertawy, yr hwn a fu yn ddyn nodedig yn y teyrnasiad nesaf fel llong berchenog, a llywydd llong yn llynges y brenin, neu yr hyn ag oedd yn cynrychioli gallu llyngesol o dan Harri VIII.—*Arch. Cam.* 1864.

MANSEL (Syr Rice), oedd yr hynaf o saith o blant i Jenkin Mansel, o Oxwich, o wyres i Edward IV. Fel ei dad a'i daid, yr oedd yn filwr dewr, ac ymofynodd am glod lle yr oedd debycaf o'i gael y pryd hyny, fel milwr—yn Iwerddon. Efe a grewyd yn farchog gan Harri VIII, yn 27ain o'i deyrnasiad, ac a anfonwyd ganddo, gyda 500 o wyr, i gynorthwyo i ddarostwng Iarll Kildare. Ymddengys iddo roddi boddlonrwydd, canys y flwyddyn nesaf, efe a grewyd yn ystafellydd Caerlleon. Bu iddo dair gwraig. Y drydedd oedd aeres ystad y D'Abridgecourt, o sir Warwick, cyfeillgarwch yr hon â'r dywysoges Mary, a dybir a'i galluogodd, yn 1537, i gael amod-weithred ar fynachlog ddiddymol Margam, yr hon yn fuan a drowyd yn rydd-ddaliad am y swm bychan o fil o bunau. Yn mhen oddeutu 14 mlynedd ar ol hyny, darfu i gareg a ddisgynodd o adeilad newydd yn Oxwich syrthio yn ymyl traed ei wraig, a'i dychrynu, fel y gadawodd Oxwich yn anorphenol fel y mae, a symudodd i Fargam, fel prif balas y teulu. Darfu hefyd i ymsefydliad y Manseliaid yn hen nyth y mynachod yn Margam, beri, gyda phethau eraill a gymerodd le tua'r un amser, newidiad mawr yn nhafol dylanwad y gwahanol deuluoedd ar y wlad. Cyn amser Harri VIII; yr oedd sir bresenol Morganwg yn cynwys iarlliaeth neu ddiweiaeth Morganwg ac arglwyddiaethau Gwyr a Cilvare. Yr oedd y diweddaf yn cyrhaeddyd o'r Llwchwr i'r Nedd, neu yn agos; Morganwg, o'r Nedd i'r Taf, yn cael ei rheoli o dro i dro gan iarllod Normanaidd Caerloyw, y De Clares, y De Spencers, y Beauchamps, a'r Nevills, dros beth amser gan y gwargam Richard, ac o'r diwedd gan Jasper Tudur. Yr oedd arglwyddi mawr y cyffiniau hyn yn meddu gallu agos teyrnol, ac yn llethu holl foneddwyr y wlad, pa mor uchel bynag. Tuag amser y diwygiad, cyfnewidiodd pethau, aeth yr arglwyddiaethau gorllewinol i ferch o deulu y Somerset, nad oeddynt yn gofalu dim am eu meddianau pellenig; a iarlliaeth Morganwg, wedi ei chneifio o'i holl awdurdod cyffiniol, a roddwyd i gangen ordderch o Herbertiaid, yr hwn a fedrodd yn fuan gael ystad bwysicach yn sir Wilts, a gwneud Wilton yn brif balas. Wedi i'r hen arglwyddi cyffiniol fel hyn ddiflanu, ac i'r Manseliaid ddyfod yn brif deulu Morganwg a gwlad Gŵyr, daeth yr hen foneddigion i feddu eu hen ddylanwad yn y wlad. Yr oedd dylanwad y Manseliaid oddeutu Pen-y-bont-ar-ogwy a Margam, Aberafon, a Phenrhyndir Gŵyr. Yr oedd eu dyrchafiad yn ddyledus i'w cysylltiad â'r llys a gwladyddiaeth; ac yr oeddynt yn un o'r ychydig deuluoedd o'r Deheubarth a feddent bob amser dŷ yn Llundain. Amseriad llythyr cymun Syr Rhys yw Tachwedd 16, 1588, a phrofwyd et y 10fed o'r Mai canlynol. Bu farw yn ei dŷ ei hun, yn Clerkenwell, yn gynar yn y flwyddyn 1589, yn 75 oed o leiaf, ac yn gyfoethog iawn. Efe a gladdwyd yn St. Bartholomew, Maes-y-gofaint; ond cyfodwyd gwyddfa arddderchog iddo yn Margam.—*Arch. Cam.*, 1864.

MANSEL (Francis), D.D., trydydd mab Syr Francis Mansel, o

Digitized by Google

Muddlecomb, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef yn 1588. Cafodd ei ddysg yn ysgol Hentfordd, a choleg yr Iesu, Rhydychain. Gwnaed ef yn gymrawd o All Souls 1620, ac etholwyd ef yn benaeth coleg yr Iesu. Cymerodd y radd o D.D. yn 1624, o'r hon swydd y bwriwyd ef allan gan ddirprwywyr y seneddyn 1648. Yna ymneilldnodd i Gymru, ac ymdrechodd yn ddiflin ac egniol yn mhlaid y brenin Siarl I., yr hyn a ddygodd arno eriedigaeth chwerw y blaid seneddol. Ar farwolaeth Syr Eubule Thelwall, efe a etholwyd eilwaith yn benaeth coleg Iesu, i ba un y bu yn gymwynaswr haelionus, gan chwanega cyllid y sefydliad yn fawr, a chael iddo hefyd lyfrgell werthfawr. Bu farw yn Mai, 1665.—Wms. *Em. Welsh.*

MANSEL (SYR ROBERT), ydoedd bedwerydd mab i Syr Edward Mansel, y cyntaf o'r Manseliaid o Fargam. Hwn oedd yr hynotaf o'r teulu enwog hwn. Ymgymerodd â morwriaeth fel galwedigaeth; a phan nad oedd ond ieuanc, tynodd sylw arglwydd Howard o Effingham, mam yr hwn oedd o deulu y Gamage o'r Coetty, y rhai oeddynt geraint i'r Manseliaid, a'r hwn oedd y pryd hyny yn arglwydd uchel lyngesydd Lloegr. Efe a wasanaethodd yn wrol tan Effingham a Iarll Essex pan gymerwyd Cadiz, yn 1596, a chan yr olaf y crewyd ef yn farchog. Y flwyddyn ganlynol hefyd, efe a wasanaethodd gydag Essex fel cadben llong y llyngesydd ei hun, yn yr ymgyrch yn erbyn y trysorlongau Yspaenaidd. Yn 1601, efe a ddewiswyd yn aelod seneddol dros Lynn, ac yn wyliwr glanau y moroedd. Pan oedd yn y swydd hon, yn 1602, oddiallan i South Foreland, daeth ar draws y llongau Yspaenaidd o dan Spinola, y rhai a ddiangasent o'r ymosodiad ar Corunna gan Lewis a Monson, ac oeddynt yn encilio i Flanders. Daeth ar eu traws ger traethydd Goodwin, a gyrodd long Spinola ei hun i Dunkirk, a chymerodd neu dinystriodd y lleill. Am y gwasanaeth hwn, darfu i'r frenhines Elizabeth, er mor gynil ydoedd ar ei gwobrau, ei enwi yn llyngesydd y cyfyng-foroedd, a rhag-lyngesydd y llynges. Yn 1603, efe a ddewiswyd yn aelod seneddol dros sir Gaerfyrddin. Yn fuan wedi dyrchafiad Iago I. i'r orsedd, daeth llysnegeswyr o Ffrainc a'r Yspaen trosodd gyda chenadwri o groesawiad, a rhoddwyd gorchymyn i Syr Jerome Turner a Syr Robert Mansel i'w harwain yma—un o Calais, a'r llall o Gravelines. Darfu i'r Ffrancwr, sef y dewr Sully, orchymyn i ragiyngesydd Ffrainc, gadii baner Ffrainc; ar hyn, cyfeiriodd Syr Jerome at Syr Robert am gyfarwyddyd, a gorchymynwyd iddo naill ai tori y faner, neu danio ar y llong. Rhoes Sully i fynu, ond efe a achwynodd wrth Iago am yr hawliad hyf o lywodraeth y moroedd yn ngolwg daear Ffrainc. Yn 1605, dilynodd Essex, yr uwchlyngesydd, i Corunna, ac aeth gydag ef i Valladolid i gymeryd llw brenin Yspaen i gadw y cytundeb diweddar a wnaed yn Llundain. Ymddangosai y morwr medrus Cymreig mewn llai ffafr gan Iago na chan Elizabeth; yr oedd gan y "Cymro balch," fel y galwid ef, lawer o elynion; a darfu i'r anwadal Iarll Northampton ddyfeisio cyhuddgwyn yn ei erbyn o fod wedi lladratta £14,000. Cyhuddwyd ef hefyd gan Syr John Trevor a Phineas Pett o lwytho y llong *Resistance* allan o ystorfeydd y brenin, yn Mawrth, 1605, gwerthu yr eiddo i'w elw ei hunan, ac yna yn hawlio cyflog am y fordaith fel pe buasai y llong at wasanaeth y brenin. Bu dirprwyaeth ar waith am saith mlynedd yn olrhain y cyhuddiad hwn, a methodd yn hollol. Pan rodd Iodd Essex ei swydd i fynu oherwydd heraint, troes Syr Robert (a bu fyw i edifarhau am hyny) yn bleidiwr i Buckingham ei olynydd, gan ei anog i

Digitized by Google

adeiladu ac adgyweirio llongau rhyfel yn amser heddwch. Yn 1614, efe a eisteddodd drachefn yn y senedd dros sir Gaerfyrddin; ac yn 1616, gwnaed ef yn rhaglyngesydd tros ei fywyd, ac yn brwywr er rheoli y llynges. Yn Ionawr, 1619, gwnaed Buckingham yn arglwydd uchel lyngesydd; ac yn 1620, efe a anfonodd Syr Robert allan i roddi i lawr herw-fordwyaeth chwiwladron Algiers, gydag awdurdod i gymeryd llongau, a gweinyddu cyfraith milwriaeth ar y mor. Yr agosaf ato mewn awdurdod oedd yr anrhydeddus Syr Richard Hawkins; a'i ol-lyngesydd oedd ei gâr gwydn, Syr Thomas Button, o Cotterell, yn Morganwg. Hwyliasant o Plymouth yn Hydref, 1620; llosgasant amryw longau yn mhorthladd Algiers: llwyr-gliriasant y moroedd am y tymhor hwnw, a daethant a'r llynges adref yn ddiogel. Darfu i'r llwyddiant gynhyrfu eiddigedd Buckingham; ond ymddengys fod y brenin bellach wedi dyfod i weled gwerth Syr Robert, ac ni fynai goleddu y dyb am fai ynddo. Yn 1622, dewiswyd ef yn aelod seneddol tros Forganwg. Yr oedd hefyd ar y pryd yn drysorydd y llynges, yr hon swydd a ddaliodd hyd 1633. Yn mhen tua phum' mlynedd wed'yn, cynygiodd y blaid seneddol yn Nhŷ y Cyffredin, yn ystod yr ymryson gwladol, enwi Syr Robert, yr hwn a gartrefai ar y pryd yn Greenwich, yn brif lyngesydd. Gwrthwynebodd Siarl I. hyny, oblegyd ei henaint, er ei fod yn addef ei ffyddlondeb a'i brofiad yn y gwasanaeth. Ac nid yn unig yr oedd Syr Robert yn forwr medrus, ond ymenwogodd hefyd mewn pethau eraill. Oddeutu 1615, tynwyd ei sylw, ef allai fel pwnc llyngesol, at y dinystr mawr o goed tân oedd yn ofynol yn y tân-dai gwydr: ac am hyny, efe a gynygiodd fod i lô gael ei ddefnyddio, a chafodd fraint-drwydded iddo ei hunan i wneud gwydr gwyrdd a gwyn. Er mwyn gweithio allan ei ddyfais, efe a geisiodd weithwyr medrus o'r Cyfandir, nes yr oedd y brenin Iago yn rhyfeddu "fod Robin Mansel, a enillodd gymaint o anrhydedd ar y dwr, yn ymyraeth â thân." Yr oedd ei dawdd-dŷ gwydr yn Broad Street, Llundain; a chydnabyddid ei hawlfraint gan Siarl I., trwy wahardd dwyn gwydr tramor trosodd cyhyd ag y parhai y drwydded. Y mae portread o'r hen lyngesydd garw yn Margam, a llawer o'i lythyrau yn nghadw yno, ac yn swyddfa papurau y llywodraeth, yn Llundain. Bu farw oddeutu y flwyddyn 1642, yn 80 oed.—*Arch. Camb.*, 1864.

MANSEL (Syr Thomas), arglwydd cyntaf Mansel, ydoedd ail fab Syr Edward Mansel, o Fargam. Yr oedd yn byw yn Parys hyd farwolaeth ei dad. Priododd pan yn ddeunaw oed â Martha Millington, merch ac aeres i farsiandwr enwog yn Llundain. Cafodd lawer o swyddau, oblegyd ei sefyllfa a'i gyfoeth, yn hytrach nag oherwydd ei alluoedd a'i lwyddiant mewn gwladdlysg. Dechreuodd fywyd cyhoeddus o dan nawdd ei gâr, iarll cyntaf Manchester, yr hwn oedd ddyn o gryn alluoedd ymarferol, ac yn ymlynol wrth Gwilym III., a theulu Hanover. Cymerodd Mr. Mansel ran yn y genadaeth i Paris, yn 1699. Efe a eisteddodd yn y senedd tros Forganwg yn seneddiad olaf Gwilym, a phob un ar ol hyny hyd ei ddyrchafiad i Dŷ'r Arglwyddi. Yn 1704, yr oedd yn oruchwylydd teuluaidd i'r frenhines Ann, a thyngwyd ef yn aelod o'i chyfringynghor. Ar gwymp yr arglwydd-drysorwr Godolphin, yr oedd efe yn un o'r dirprwywyr a'i dilynodd. Yn 1711, gwnaed ef eilwaith yn oruchwyliwr teuluaidd, ac yn fuan yn fynegydd y gyfnewidfa. Yr oedd hefyd yn rhag-lyngesydd y Deheubarth, a llywodraethwr porthladd Aberdaugleddyf. Yn ystod yr un flwyddyn, gwnaed ef yn farwn, o dan yr enw Arglwydd

Digitized by Google

Mansel. Yr oedd fel ei flaenoriaid yn ysgolor da, ac yn gefnogydd dysgeidiaeth. Iddo ef y darfu i Edward Llwyd gyflwyno ei *Archæ-logia*, a darfu i'w ddylanwad gael cefnogaeth helaeth i'r llyfr yn Morganwg. Bu farw yn Margam yn 1723, pan tua 56 oed.—*Arch. Camb.*, 1864.

MANUEL (DAFYDD), bardd oedd yn byw mewn tŷ bychan ar dir Gwernafon, yn mhlwyf Trefeglwys, sir Drefaldwyn. Y mae o'i waith gerdd a elwir "Bustl y Cybyddion," yn y *Blodeugerdd*, 195.

MAPES (WALTER DE), awdwr enwog yn ei flodeu tua chanol y 12fed ganrif, a chaplan i Harri I. Mab ydoedd i Blondel de Mapes, yr hwn a ddaeth i Forganwg gyda Robert Fitzhamon, ac a gafas dir-oedd Gweirydd ab Sisyllt, arglwydd Llangarfan; ac a briodes Fflur, merch Gweirydd, o ba un y bu iddo ddau fab, sef Hubert a Walter. Gan i Hubert farw yn ddiblant, daeth yr etifeddiaeth i feddiant Walter, yr hwn a adeiladodd bentref Trewalter, yn nghyda phalas iddo ei hun. Dychwelodd y tiroedd a feddianasai i'w cyfiawn berchen-ogion, ac adeiladodd eglwys Llangarfan fel y saif yn bresenol. Yr oedd yn archddiacon Rhydychain, ac efe a gyfieithodd y *Brutiau Cym-reig* o'r Gymraeg i'r Lladin, ac yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, cyfieith-odd ei gyfieithad ei hun yn ol i'r Gymraeg yn ei hen ddyddiau. Y mae y Cymraeg gwreiddiol, ac ail-gyfieithiad Mapes yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Efe a ysgrifenodd hefyd draethawd Cymraeg ar amaeth-yddiaeth.—*Cambrian Biography*, 340.

MARCH AB MEIRCHION, penaeth yn byw tua therfyn y bumed ganrif. Rhai hanesion a ddywedant mai yn Nghernyw yr oedd ei gyfoeth yn gorwedd, ac eraill mai yn Ngogledd Prydain. Cysylltir ei enw yn y *Trioedd* gyda Gwenwynwyn a Geraint tan y penawd "tri llynghesawg" "a chwe' ugain llong oedd gan bob un, a chwe' ugain llongwyr yn mhob llong." Dywedai'r beirdd fod iddo glustiau march, ac y troai pobpeth yn aur tan ei ddwylaw, wrth yr hyn y meddylid ei fod yn gybyddlyd a chyfoethog iawn.

MARCHELL, merch i Arwystli Gloff ab Seithenyn a Tywanwedd, merch i Amlawdd Wledig. Hyhi a sefydlodd Ystrad Marchell, ger y Trallwng, sir Drefaldwyn, lle yr adeiladwyd abad-dŷ ar ol hyny, a elwid Strata Marchella. Yr oedd unwaith gapel hefyd yn mhlwyf Llanrwst, sir Ddinbych, o'r enw Capel Marchell.

MARCHLWYS, esgob Llandaf. Yn 926, efe a aeth gyda Blegwryd a Martin ar daith i Rufain, gyda Hywel Dda, er mwyn ymgynghori parth y priodoldeb o adolygu y cyfreithiau Cymreig. Bu farw yn 943.

MARGARET UCH IFAN, hen arwres hynod troed y Wyddfa. Yr oedd yn byw yn Mhen Llyn, Llanberis. Ganwyd hi tua 1696, a thybir mai hi oedd yr esiampl olaf o gryfder a gwroldeb hen fenywod teg y Brytaniaid, ac yr oedd yn gymeriad hynod ar lawer ystyr. Nid oedd yn yr holl wlad ei rhagorach am hela, pysgota, a saethu. Gallai wneud telyn, a'i chwareu yn gampus; a dywedir mai ei gwaith hi ydyw rhai o'r hen alawon Cymreig. Medrai weithio gwaith crydd a theiliwr, ac yr oedd yn saer dda iawn. Gwnaeth ddau gwch cryf; a chludai hi a'i morwyn, yr hon oedd o gyfansoddiad cadarn fel hithau, yr holl gopr a godid yn ngwaith mŵn y Wyddfa hyd lynau Llanberis, trwy gytundeb penodol i hyny. Yr oedd hefyd yn farddones lled wych, ac y mae rhai o'i dyrifau ar gof a chadw hyd heddyw. Pan yn ddeg a thringain oed, ymaflai godwm âg ungwr yn y wlad, ac yr oedd

Digitized by Google

ergyd ŵ'i dwrn yn rhywbeth llawn mor arswydus a chle gan geffyl. Ond ei phrif ddifyrwch oedd mewn cadw cŵn; yn filgwn, bytheuadgwn, a daeargwn, o'r rhywogaeth oreu; a daliai fwy o lwynogod mewn blwyddyn na holl foneddigion y sir gyda'u gilydd. Cafodd lawer cynyg am ei llaw mewn glân briodas, eithr cadwodd bawb draw am yspaid hir; ac o'r diwedd dewisodd yn gymhar bywyd y mwyaf llwfr ei galon y gwyddai am dano, fel y byddai'r arglwyddiaeth yn ddibetrus a chyfangwbl yn ei llaw. Ymwelodd Pennant, pan ar ei daith trwy Gymru yn 1785, â'i bwthyn, ond nid oedd adref ar y pryd. Ati hi y cyfeiria y dyrifau tra adnabyddus Cymreig a ddechreuant gyda "Mae gan Modryb fwyn Uch Ifan," &c.

MARSIA, tywysoges enwog am ei doethineb a'i dysgeidiaeth. Merch ydoedd i Cuhelyn ab Gwrgant, a thybir ei bod yn byw yn Oed ganrif cyn Crist. Yn ol y *Brutiau Cymreig*, yr oedd yn foneddiges uchelwaed, a deallus yn y gwyddonau. Ei gwaith hi ydoedd casglu yn nghyd y cyfreithiau a adwaenir wrth lyr enw "Cyfreithiau Marsiaidd," y rhai a gyfieithwyd i'r Seisnig trwy orchymyn Alfred tan yr enw "*Merchen lage.*" Ar farwolaeth Cuhelyn, bu y llywodraeth yn ei llaw hi, yn gyfranog a'i mab Seisyllt, hyd ei marwolaeth.

MARTIN, esgob Tyddewi, yr hwn gyda Marchlwys, esgob Llandaf, a Blegwryd, a aeth gyda Hywel Dda i Rufain yn 926.

MATH AB MATHONWY, un o arwyr enwocaf chwedl a rhamant yr hen Gymry, a thestyn un o'r *Mabinogion.* Gwel *Cymru Fu*, i. 157. Rhestrir ef yn y *Triodd* gyda Menyw ab Teirgwaedd a Rhuddlwm Gawr, tan y penawd "triwyr hud a llodrith," ac efe a ddysgeis ei hud i Wydion ab Don. Yr oedd ei dad o'i flaen yn enwog fel llodrithiwr, a molir ei swynlath gan Taliesin yn ei Gerdd Daronwy, yr hwn a grybwylla yn fynych am fedrusrwydd Math hefyd.

MATHEW (SYR DAVID), ydoedd fab hynaf Syr Mathew ab Ifan, a Jane ferch Syr Jenkyn Fleming, o Landaf. Yr oedd yn un o ddynion mwyaf nodedig ei oes, a gwnaed ef yn brif farnwr Lloegr gan Iorwerth IV. Bu farw yn oedranus yn mrwydr Tawton, ar Sul y Drindod, yn 1461. Y mae ei feddrod a'i gerflun yn llawn wedi ei wneud o alabastr yn nghapel St. Mair, yn eglwys gadeiriol Llandaf.—*Lleyn MSS.*

MATHEWS (THOMAS), mor-filwr enwog yn hanu o deulu anrhydeddus yn Llandaf, lle y ganwyd ef yn 1670. Wedi ymuno â'r llynges, efe a benodwyd yn gadben yn 1703. Yn 1709, wedi brwydr galed, daliodd y gad-long Ffrengig *Glorieux*, 44 gwn. Yn niwedd 1711, dychwelodd i Loegr, a chan fod heddwch wedi ei adsefydlu rhwng y ddwy wlad, ni bu galwad am ei wasanaeth hyd 1718, pryd y rhoddwyd iddo lywyddiaeth y *Kent*, 70 gwn, un o'r llynges a orchymynwyd i fyned i For y Canoldir tan lywyddiaeth Syr George Byng. Yn y frwydr fythgofus a gymerodd le gyda'r Yspaeniaid oddiallan i Messina, daliodd y St. Carlos, a bu o fawr gymhorth yn nghymeriad llong y morlyngesydd Yspaenaidd. Yn 1719, gwnaed ef yn llywydd ychydig longau i wibforio oddiallan i Fontemelia, er lluddias i'r ol-lyngesydd Cammock ddianc o Messina, a llwyddodd i ddal un gadlong, ac i yru y *Santa Rosalia*, 64 gwn, un o longau goreu y gelyn, ar y traeth. Yn 1722, danfonwyd ef gydag ychydig longau i'r India Orllewinol, a dychwelodd yn 1724; ac wedi cyfnod hir diwaith penodwyd ef yn 1736 yn ddirprwywr y mor-filwyr yn Chatham. Yn 1742, cafodd ei benodi yn brif lyngesydd Mor y Canoldir, ac yn llysgenad at frenin Sardinia,

Digitized by Google

a'r taleithiau Italaidd. Trwy ei wyliadwriaeth ddyfal cadwodd lynges unedig Ffrainc a'r Yspaen oddifewn i borthladd Toulon, y rhai o'r diwedd a orchymynwyd allan yn Chwefror, 1744. Cymerodd brwydr anffodus le rhyngddo â hwynt, a phriododid methiant ei gynllun i anufudd-dod ac eiddigedd ei brif swyddog, yr ol-lyngesydd Lestock. Teimlai mor ddigliawn tuag at Lestock oblegyd yr ymddygiad hwn, fel y bwriodd ef o'i swydd; ac yntau Lestock a gyhuddai Matthews o fyrbwylldra yn ymosod ar y gelyn cyn ffurfio o'u llongau yn llinell brwydr. Y canlyniad fu galw arno adref, er mwyn amddiffyn ei gam gerbron llys mitwraidd. Dechreuodd ei brawf Hydref, 1745, a pharhaodd hyd Ebrefin, 1747, pan y penderfynodd ei farnwyr ei fod yn analluog mwyach i ddal unrhyw swydd yn ngwasanaeth y brenin. Teimlid cryn lawer o anfoddlonrwydd tuag at y rheithfarn hon; gan y werin-bobl—yn diswyddo y gwr a fynai ymladd, ac yn rhoddi arbediad crocniach i'r llwfrddyn. Treuliodd yr ychydig weddill o'i oes mewn neilduaeth, a bu farw yn 1751. Yr oedd yn ddysgyblwr llym, ac ni feiddiodd yr un o'i elynion erioed amheu ei ddewrder a'i wrhydri.—Wms. *Em. Welsh.*

MATHEWS (Syr William), ydoedd fab i Syr William Mathew, o Radyr, yn sir Forganwg. Yr oedd ganddo, yn amser y frenhines Elisabeth, ddwy ffwrn haiarn mewn gwaith ar lan yr afon Tâf. Yr oeddynt wedi eu gwneud ar yr un egwyddor a'r rhai presenol, ond nid mor fawr. Y mae, neu yr oedd yn ddiweddar, gymaint o'r gweddillion ag a ddangosai yn eglur sut bethau oeddynt. Yr oedd y ffwrneisiau yn cael eu gweithio hyd amser Iago II. gan un o'r teulu; yr hwn, yn nheyrnasiad y brenin hwn—gan ei fod yn Babydd—a gymerodd arno roi i farwolaeth bob un o'i gymydogion nad oedd o'i eglwys ef, a chafodd dau neu dri eu crogi ganddo mewn lle o'r enw Cefn Crogor, ger Llandaf. Bu raid iddo yntau ffoi am ei einioes, tybir i'r Iwerddon, lle yr oedd rhai o'r Mathewiaid—hynafiaid y *Father* Mathew, wedi ymsefydlu, ac yn Babyddion. Wedi hyny gadawyd y ffwrneisiau yn ddifudd; ac yn eu lle, yn mhen amser, cyfodwyd ffwrneisiau Pentyrch a Chaerfili. Dywedir i'r Syr William Mathews uchod droi ei haiarn yn ddur, a sefydlu un o'i blant ordderch yn arfweithydd *(cutter)* yn Nghaerdydd; ac un arall ar y bont, yn Llundain. —*Llevn MSS.*

MAURICE (Henry) D.D., duweinydd tra dysgedig ac athrylithgar. Mab ydoedd i'r Parch. Thomas Maurice, periglor Llancristiolus yn Mon, lle y y ganwyd ef yn 1648. Addysgwyd ef yn rhydd-ysgol Beaumaris, ac oddiyno symudodd i goleg Iesu, Rhydychain; ac wedi cyrhaedd y radd o B.A., etholwyd ef yn gymrawd, pryd y tynwyd sylw Syr Leoline Jenkins at ei ragoriaethau fel ysgolhaig. Yn 1673, pan ddanfonwyd y barwnig dysgedig hwnw yn llys-negesydd i Cologne, dewisodd Maurice i fyned gydag ef fel capelwr, ac arosodd yn y swydd hono am y tair blynedd y bu Syr Leoline yn y swydd. Wedi dychwelyd i Loegr, bu yn byw am ryw yspaid gyda theulu ei noddwr yn Doctor's Commons, ac weithiau yn ngholeg Iesu, hyd 1680, pan y penodwyd ef yn gapelwr i archesgob Canterbury. Cynted ag y cafodd y sefyllfa hon, graddiwyd ef yn D.D. yn Rhydychain. Ei ymddygiad harddwych yn eu plith, a'r bri a enillodd yn meddyliau eglwyswyr Llundain, a'r llyfrau a ysgrifenodd yn erbyn Clarkson, yr anghydffurfiwr, ydynt goffadwriaethau ardderchog o'i fawrfrydigrwydd. Y bersoniaeth gyntaf a dderbyniodd gan yr archesgob ydoedd rector-

Digitized by Google

iaeth Chevening, yn Kent; rectoriaeth segurswydd Llandrillo yn Rhos, yn esgobaeth Llanelwy; gwnaed ef hefyd yn drysorydd Chichester, Ionawr 7, 1681. Wedi hyny, rhoddwyd iddo rectoriaeth Newington, yn sir Rhydychain, yn 1685. Yn 1691, etholwyd ef yn broffeswr duwinyddiaeth Margaret; ac yn hawl y swydd hono, gwnaed ef yn brepender Worcester. Bu farw yn dra sydyn yn Hydref y flwyddyn hono. Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau dadleuol, a cheir rhestr ohonynt gan Wood yn ei *Atheniæ Oxienses*, yr hwn hefyd a ddywed "ei fod yn ŵr o ddysgeidiaeth ddigymhar, a rhinwedd dilychwin. Yr oedd cyflymdra ei gyneddfau wedi eu huno yn rhagorol gyda barn aeddfed; ac yn chwanegol, meddai gof annghyffredin, ac arabedd ffraeth a pharod." Gallnogid ef, trwy helaethrwydd ei ddoniau, a grymusder ei gof, i draddodi pregeth gyda rhwyddineb anhygoel, ar unrhyw bwnc a gymerai mewn llaw; a thystiai nad ysgrifenodd bregeth erioed oddieithr yr un a draddododd gerbron y brenin, yr hon a argraphwyd trwy orchymyn ei fawrhydi. Yr oedd yn amddiffynydd gallnog a gwresog i'r grefydd sefydledig, a rhoddes fynych brawf o gryfder ei athrylith yn ei wrthwynebiad egniol i bob ymosodiad arni. Codwyd cofadail ysplenydd iddo yn nghapel coleg Iesu, a cherfiwyd arni feddargraff Lladin o'i aml rinweddau.—Wood's *Athen. Oxon.; Gwladgarwr*, viii. 219.

MAURICE (Parch. Henry), ymneillduwr enwog yn y 17eg ganrif. Mab ydoedd i Gruffydd Maurice, o Methlan, yn Lleyn, sir Gaernarfon. Graddiwyd ef yn ngholeg yr Iesu, Rhydychain, yn 1652. Treuliodd ei ieuenctyd mewn gwagedd. Pan y dechreuodd bregethu, denai ei hyawdledd dyrfaoedd lluosog i'w wrando, a bu y poblogrwydd hwn yn fagl i'w galon falch i beri iddo annghofio ei hun. Cydymffurfiodd yn 1662, yn fuan ar ol dychweliad y freninoliaeth, ac urddwyd ef yn Bromfield, sir Henffordd, eithr symudodd yn fuan i fywioliaeth Stretton, yn sir Amwythig. Yn fuan, torodd trymyn boeth allan yn mhlith ei blwyfolion, yr hyn a ddygodd luaws ohonynt i dŷ eu hir gartref, ac a fu yn foddion hefyd i gyffroi ei gydwybod drymgysglyd yntau. Dechreuodd amheu seiliau ei gydffurfiaeth, ac nis gallai esmwytho ei feddwl nes dyfod i'r penderfyniad o roddi ei le i fynu, ac ymneillduo o'r Eglwys Sefydledig, er ei fod ar y pryd mewn £300 o ddyled—dyled a dynasai arno ei hun trwy adgyweirio y persondy. Deallai ei wraig ei fod mewn dygn drallod, a phan yr hysbysodd hi, ar ei chais taeraf, gan chwanegu mai ei ofal a'i bryder penaf ydoedd am dani hi a'u plentyn; hi a'i hatebodd am iddo dderbyn cyfarwyddyd ei gydwybod, ac y byddai hi yn berffaith foddlon. Rhoddes yr ateb arwrol hwn gryfhad mawr i'w benderfyniad. Dadblygodd ei achos yn nesaf i'w gyfaill mynwesol Thomas Quarel, yr hwn a fwriesid allan o'r Sefydlhad eisoes; ac efe a'i cynghorodd i gyfrif y golled cyn cymeryd y cam pwysig, eithr atebodd yntau na oddefai ei gydwybod iddo ddal y fywioliaeth yn hwy. Felly, efe a draddododd ei bregeth ymadawol. Darostyngwyd ef yn fuan i dylodi ac angenoctyd dwfn: er y derbyniai yn fynych elusenau a charedigrwydd yn annisgwyliadwy, ac oddiwrth bersonau anadnabyddus. Dodwyd ef yn ngharchar am y ddyled raggrybwylledig, eithr darfu i foneddwr o'r enw Mr. Orton ei thalu, a thrwy hyny ei ryddhau. Bu yn trigo am beth amser yn Amwythig, a thrachefn yn Abergafeni. Yn fuan ar ol hyny dewiswyd ef yn weinidog eglwys lled luosog yn Llanigon, a Merthyr Cynog, yn sir Frycheiniog. Rhaid nad oedd nifer ei aelodau eglwysig nemawr llai na mil

Digitized by Google

mewn nifer, ac yn wasgaredig tros holl sir Frycheiniog, a rhanau helaeth o siroedd Mynwy, Morganwg, Caerfyrddin, a Maesyfed. G n y pregethai mewn o bumtheg i ugain o gapelau, neu dai anedd, rhaid fod ei lafur fel gweinidog yn aruthrol. Er hyny, hysbysir ni na chyfyngai ei wasanaeth i'r bobl hyn, a mynai ei enaid mawr ef yms mud mewn cylch eangach. Teithiodd lawer tros Gymru oll, a thraddodai efengyl Crist mewn mangreoedd tywyllion a phaganaidd. Ymdyrai pobl o bell ac agos i glywed gwirionedd a hyawdledd o'i enau, a dyoddefodd lawer o galedi wrth ymdaith fel hyn yn mhob math o hin mewn manau mynyddig, ac yn byw yn fynych mewn llettyau tylodion ar luniaeth wael. Efe oedd bywyd Ymneillduaeth Cymru yn yr oes hono. Nid tebygol y buasai'r gelyn yn gadael y fath offeryn gwerthfawr yn ddiwarafun. Dyoddefodd lawer o erlidiau yn ei amryw deithiau ar hyd Gymru. Ceisid weithiau ei gamarwain ar y ffordd, er mwyn cael cyfleusdra i'w guro, eithr cedwid ef "megis yn nghledr llaw Duw." Un tro, chwiliwyd y tŷ lle y buasai yn pregethu am dano; eithr methwyd a dyfod o hyd iddo, gan iddo gael ei guddio mewn ystafell gerllaw. Dro arall, daeth ceisbwl i'w ddal pan ydoedd ar ganol pregethu, ac archodd iddo ymatal: eithr y pregethwr a'i hatebodd gan ei dynghedu yn enw y Duw mawr, gair hwn a bregethai, nad ymyrai âg ef, gan y byddai raid iddo roddi cyfrif am ei waith yn y dydd mawr! Ar hyn, eisteddodd y ceisbwl i lawr mewn dychryn, gwrandawodd yn amyneddgar hyd ddiwedd y bregeth, ac yna aeth ymaith. Unwaith yn unig y cymerwyd ef i garchar, a'r tro hwnw meichiafwyd ef a lan, a rhyddhawyd ef trwy ffafr yr ynadon, y rhai oeddynt gyfeillion a pherthynasau iddo. Wedi gorweithio ei gyfansoddiad mewn ymdrechion dyn garol a Christionogol ar ran ei genedl, daeth ei therfyn yn gynar. Dyoddefodd ei arteithiau olaf yn dangnefeddus, gan roddi aml wystl nad yn ofer ac am ddim y llafuriodd, ac fod y grefydd a gostiodd mor ddrud iddo yn rhad yn wir.—Rees' *Noncon. in Wales* 236; *Cambro-British Biog.*, 215.

MAURICE (PARCH. MATTHIAS). Ganwyd yr awdwr enwog a'r pregethwr poblogaidd hwn, yn mhlwyf Llanddewifelfre, ger Narbeth, sir Benfro, yn 1684. Ymunodd yn ieuanc ag eglwys yr Annibynwyr yn Henllan, a chanfyddwyd yn fuan fod ynddo y cymhwysderau angenrheidiol i'r weinidogaeth; felly anogwyd a chynorthwywyd ef i fyned i goleg Caerfyrddin; ac y mae pob lle i gasglu, oddiwrth yr ysgolheigiaeth aeddfed a amlyga yn ei amrywiol lyfrau, iddo wneud y goreu o'i amser yn y sefydliad hwnw. Torodd rhyw ymrafaelion pwysig allan yn eglwys Henllan pan oedd efe yn yr athrofa, ac o'r diwedd ymadadawodd un blaid gan ymffurfio ei hun yn eglwys yn Rhydyceisiaid. Ar y cyntaf, nid ochrodd efe gydag un o'r pleidiau; eithr o'r diwedd bwriodd ei goelbren tros athrawiaeth uchel-Galfinaidd a'r drefn eglwysig Annibynol. Yr oedd efe felly yn aelod o eglwys newydd-ffurfiedig Rhydyceisiaid, a bu am beth amser yn arfer ei ddawn fel cynorthwyydd ei weinidog yno; eithr cymerodd amgylchiad le a'i symudodd ohyny allan o Gymru. Yn ol traddodiad, yr hwn a gadarnheir gan dystiolaeth un o'i gydoeswyr, aeth ar neges un diwrnod i Hwlffordd, lle y traddodwyd ef gan un o'i elynion crefyddol i ddwylaw y *pressgang*, y rhai a'i cymerasant mewn llong ryfel o gyffiniau sir Benfro, i rywle ar afon Llundain. Wedi cyrhaedd yno, danfonodd hanes ei sefyllfa adfydus i un o weinidogion yr Ymneillduwyr yn y Brif-ddinas, trwy ddylanwad yr hwn gyda rhai o awdurdod yn y llywodraeth, mynwyd ef yn rhydd, ac wedi cael boddlonrwydd am ei gymhwysderau

Digitized by Google

gweinidogaethol, cymeradwywyd ef i'r eglwys yn Olney, sir Buckingham, lle y bu yn llafurio gyda derbyniad a llwyddiant mawr am tua blwyddyn a haner; a phan y derbynnodd wahoddiad eglwys Rowell, sir Northampton, yr oedd ei gyfeillion yn Olney mor anfoddlon i ymadael âg ef, fel y gwrthodasant am yspaid roddi llythyr gollyngdod iddo. Cymerodd ofal eglwys Rowell Tach. 21, 1714; ac estynedd ei arosiad yno mewn parch, poblogrwydd, a llwyddiant anghyffredin, am 24 o flynyddoedd. Bu farw yn 1738, yn 54 oed. Er iddo gael ei symud yn ieuanc o wlad ei enedigaeth, nid oerodd ei serch tuag ati hi na'i thrigolion, fel y prawf yr amryfal lyfrau a ysgrifenodd yn ei hiaith, ie, yn mhen ugain mlynedd ar ol ymdaith yn ngwlad estron. Tybir iddo fod yn offeryn, mwy nag un o'i gydoeswyr, yn lledaeniad egwyddorion Calfinaidd ac Annibynol yn mhlith ei gydwladwyr. Yr oedd yn wr o athrylith anghyffredin, yn ysgolhaig parchus, ac yn weinidog yr Efengyl ffyddlon a gweithgar. Dywedai yr enwog Thomas Bradbury am dano mewn rhagymadrodd i un o'i lyfrau:—"Yr oedd awdwr y llyfr Lwn yn ddyn o ddysgeidiaeth, tymher, a duwioldeb, a'i gwnai yn gu ac anwyl iawn genyf." Adwaenir ef fel awdwr rhagorol yn Nghymraeg a Saesneg. Y rhai hyn a ysgrifenodd yn Nghymraeg:—1, "Yr Athrawiaeth yn ol Duwioldeb," cyfieithiad o waith Chauncey, 1711; 2, "Cywir a Ffyddlon," sef cydymddyddan ar brif athrawiaethau yr Efengyl, 1720; 3, "Y wir Eglwys yn cyrchu at y nod nefol," 1727—pregeth ragorol ydyw hwn wedi ei syl'aenu ar Caniadau viii. 5; 4, "Cyfieithiad o dair pregeth y Parch. Thomas Bradbury ar Ddyoddefaint Crist," 1734; 5, "Hyfforddiad byr yn addoliad Duw," 1734—cyfieithiad ydyw hwn o waith y Dr. John Owen, yn nghyda chwanegiadau gan Dr. Goodwin ac eraill. Ei lyfrau Seisnig ydynt:—1, "The work of the Spirit in Prayer," 1726; 2, "The manner of Baptizing with water cleared up, in plain free debate," 1726; 3, "Faith encouraged;" 4, "Plunging into water, a Scriptual Mode of Baptizm, or Mr. Gill fairly answered; and, Baptizing with Water defended," 1727; 5, "Faith working by Love," 1728; 6, "Monuments of Mercy," 1729; 7, "The Tribes of the Lord appearing before Him," 1735; 8, "The modern Question modestly stated, viz., That the Eternal God does, by His Holy Word, make it the duty of poor unconverted sinners, who hear the Gospel, to believe," 1637; 9, "The Modern Question confirmed and proved," 1739; 10, "Social Religion exemplified," yr hwn a gyhoeddwyd yn rhanau rhwng 1738 a 1740. Yr olaf ydyw y gwaith pwysicaf a ysgrifenodd yr awdwr, a thrwy hwn yn benaf yr anfarwolwyd ei enw. Cyhoeddwyd ail argraffiad ohono yn 1750, y trydydd yn 1769, y pedwerydd argraffiad yw yr yr un a gyhoeddwyd yn 1786 gan y Dr. Edward Williams, o Rotherham. Darfu i'r Dr. dalfyru eryn lawer ar y gwaith gwreiddiol, ac ychwanegu amryw sylwadau o'i eiddo ei hun ar odre y dail. Tua dechreu y ganrif bresenol cyhoeddwyd argraffiad cyflawn yn Colchester, ond nid oes un dyddiad wrtho. Yn 1820, cyhoeddwyd gan Mr. Carnes, o Dreffynon, ail argraffiad o dalfyriad Dr. Williams; ac yn 1860, cyhoeddwyd argraffiad tlws, ond talfyredig, gydag amryw nodiadau eglurhaol, gan Dr. T. Nicholas, Caerfyrddin. Yn 1797, cyhoeddwyd cyfieithiad Cymreig o dalfyriad Dr. Williams, gan y Parch. B. Evans, Drewen; ac yn 1862, cyhoeddwyd cyfieithiad o'r gwaith cyflawn gan y Parch. E. Evans, Nantyglo. Cafodd y llyfr hwn, fel y gwelir, gylchredia'd helaeth, a diau iddo fod o fawr feudith i filoedd.—Rees' *Nonconformity in Wales.*

Digitized by Google

MAWDDWY (Syr Lewis), bardd ac offeiriad yn ei flodau rhwng 1580 a 1620. Eithr dywed Moses Williams, yn ei *Index Poetarum*, mai tua 1460 y blodeuai. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

MAWDDWY (Ston), bardd enwog yn ei flodau rhwng 1560 a 1590. Yr oedd yn un o feirdd gorsedd Morganwg yn 1580, ac y mae llythyr dyddorol o'i waith yn argraffedig yn *Gwal* Llundain, tudal. 207; a bu farw farddonol rhyngddo a Meirig Dafydd, bardd enwog o Forganwg, yr hon a argraffwyd yn *Cymru Fu*, 81. Y mae amrywiaeth o'i gyfansoddiadau yn wasgaredig hyd y gwahanol gylchgronau Cymreig.

MECHELL, sant yn y 6ed cant. Sillebir ef weithiau yn Mechyll, a phryd arall yn Machudd. Mab ydoedd i Ednyfed, neu fel ei ysgrifenir bryd arall, Echwys, Mochwys, neu Arthwys, mab Gohoew Hen. Efe a sefydlodd eglwys Llanfechell, yn Mon, lle yr oedd gynt goleg i gant o saint. Claddwyd ef yn mynwent Penrhos Llugwy, yn Mon, lle yr oedd yn ddiweddar gareg, ac arni yn gerfiedig, HIC IACIT MACCVQ ECCETI. Cedwid ei wylmabsant, Tach. 15.

MEDRAWD, un o'r bradwyr mwyaf ysgymun y sonia hanesyddiaeth Gymreig am dano. Mab ydoedd i Llew ab Cynfarch, ac yr oedd yn byw yn nechreu y 6ed ganrif. Yr oedd yn nai i'r enwog Arthur, ac yn un o wyr ei lys, ac mor fêl-dafod a ffals ei ymadrodd, fel yr enillodd le mewn *Triad*, gyda Gwalchmai a Drudwas, tan y penawd "tri marchogion aurdafodogion llys Arthur;" "ac mor deg a llaryeidd eu hymddwyn, ac mor hyawdl a hynaws eu holl ymadroddion, fel nas gallai neb iddynt bail ar a geisynt." Wedi myned o Arthur trosodd gyda'i fyddinoedd i Gâl, Medrawd a wrthryfelodd, a gymerth feddiant o'r goron trwy drais, ac a halogodd wely ei ewythr trwy gymeryd Gwenhwyfar yn wraig. Er mwyn cadw ei hun rhag y gosb oedd mor haeddianol iddo, efe a wahoddes i'r wlad hon lu mawr o Saeson, ac a ymgyngreiriodd gyda'r Gwyddyl Ffichti a'r Gwyddelod, a phob gelyn arall i Arthur, gan gynull trwy hyny fyddin o tros bedwar ugain mil o wyr, gyda pha nifer yr ymdeithiodd i gyfarfod Arthur, er mwyn ei luddias i lanio. Yn y frwydr a ddilynodd, Medrawd a orchfygwyd, ac a enciliodd gyda'i fyddin ddirywiedig i Gaerwynt *(Winchester)*, yn cael ei ymlid gan Arthur. Casglodd Medrawd ddigon o eondra i'w gyfarfod eilwaith mewn brwydr, a gorchfygwyd ef eilwaith, pan y diangodd i Gernyw. Ymlidiwyd ef yno hefyd gan ei ewythr digofus, a chymerth brwydr greulawn le ar yr afon Camlan, yn mha un y lladdwyd y ddau, Arthur a Medrawd. Gwarthnodir ef mewn dau fan yn y *Trioedd*, tan yr enw "carnfradwr;" a chymerodd ran yn y "tair anfad gynghor," y "tair ofergad," y "tair bradgyfarfod," a'r "tair aerfa ddrud." Cyplysir ei enw gan yr un awdurdodau gydag enwau sydd yn felldith a rheg yr oesau, megys Gwrgi, Aeddan, Iddog, Afarwy, a Gwrtheyrn.—*Myv. Arch.*

MEDWY, sant tua diwedd yr ail ganrif. Yr oedd ef yn un o'r pedwar esgob a ddanfonwyd ar ddeisyfiad Lleurwg ab Coel gan Eleutherius o Rufain i bregethu y ffydd yn Nghrist i'r Prydeiniaid. Y tri eraill oeddynt Dyfan, Fagan, ac Elfan. Eraill a ddywedant fod Medwy ac Elfan yn Brydeiniaid genedigol, iddynt gael eu gyru gan Lleurwg ar neges i Rufain, a dyfod a Dyfan a Fagan gyda hwynt ar eu dychweliad. Medwy a sefydlodd eglwys Llanfedwy, yn Morganwg, yr hon a ddinystriwyd yn rhyfeloedd Iestyn.—*Iolo MSS.*

MEIGANT, ydoedd fab i Gwyndaf Hen ab Emyr Llydaw, a Gwenonwy, merch i Meirig ab Tewdrig, brenin Morganwg, sant yn y 6ed

Digitized by Google

cant. Bu unwaith yn aelod o goleg Illtyd, o ba le y symudodd i goleg Dyfrig yn Nghaerlleon, lle yr oedd ei dad yn llywydd. Yn ei hen ddyddiau neillduodd i Enlli, lle y bu farw, ac y claddwyd ef. Sefydlodd eglwysi Llanfeugan, yn Mrycheiniog; a St. Moughan, yn Mynwy. Y mae dau gyfansoddiad o eiddo Meigant yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*, a thybir mai yr un ydyw y sant a'r bardd.—*Iolo MSS.*

MEIGEN (Rhys), bardd rhwng 1340 a 1360. Mewn cynulliad beirdd a gymerth le yn mhalas Llywelyn o Emlyn, a Dafydd ab Gwilym ac eraill feirdd yn bresenol, gwnaeth Rhys ymosodiad brwnt ac edliwgar ar y bardd enwog hwnw, yr hwn a ddigiodd yn fawr, ac a draddodes y fath ateb brathog iddo ar fesur cywydd, fel y syrthiodd i lawr yn gorph marw! Y mae y cywydd hwnw yn argraffedig yn *Ngwaith Dafydd ab Gwilym.*

MEILIR AB GWALCHMAI, bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1170 a 1220. Y mae wyth cyfansoddiad o'i waith yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

MEILYR BRYDYDD, bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1120 a 1160. Y mae tri chyfansoddiad o'i eiddo yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Marwnadau ydyw dauohonynt, sef un i Gruffydd ab Cynan, a'r llall i Trahaiarn ab Caradawg. Gelwir y drydedd yn *Marw Ysgafn*, neu wely angau Meilir Brydydd.

MEIRIG AB GWEIRYDD, yn ol y *Brutiau Cymreig*, a olianodd ei dad i deyrnedd Prydain tua chanol y ganrif gyntaf. Yn ei amser ef y daeth Roderic, brenin y Pictiaid, gyda llu mawr, ac a laniodd yn yr Alban. Yna Meirig a gynullodd ei wyr pan glybu am hyn, a chan ymosod ar yr estroniaid, llwyr orchfygodd hwynt, a lladdwyd Roderic yn yr ymdrafod. Caniataodd i'r sawl a arbedwyd ohonynt wladychu yn yr Alban; eithr wedi ymsefydlu yno, gan nad oedd ganddynt wragedd, daethant at y Brythoniaid gan ddeisyf arnynt roddi eu merched yn wragedd iddynt; ond gwrthodwyd iddynt eu cais. Yna, priodasant ferched y Gwyddelod, ac ohonynt hwy yr hanodd yr Ysgotiaid. Wedi heddychu yr holl Ynys fel hyn, Meirig a roddes dir i'r Rhufeiniaid o'i rydd a'i ewyllys da, a gwnaeth gyfreithiau newyddion, a threuliodd weddill ei oes yn heddychol a dedwydd. Olianwyd ef gan ei fab Coel.—*Brut Tysilio.*

MEIRIG AB TEWDRIG, a olianodd ei dad fel brenin Gwent a Morganwg. Yr oedd yn frenin da, ac yn noddwr haelfrydig yr eglwys; a than ei nawdd a'i achles ef y sefydlwyd esgobaeth Llandaf, a mynachlog Llangarfan. Breiniodd y manau hyn gyda thiroedd ac eglwysi, a cheir rhestr o'i roddion iddynt yn y *Liber Landavensis.* Bu farw yn 575; yn 90 oed. Dywed rhai hanesion mai ei ladd a gafodd gan y Gwyddelod yn Ngheredigion, lle mae eglwys wedi ei chyflwyno iddo—Ystrad Meirig, debygir.—*Achau y Saint; Iolo MSS.*

MEIRIG DAFYDD, bardd enwog o Forganwg, yr hwn a lywyddai orsedd Forganwg yn 1560, ac a fu farw yn 1600. Y mae llythyr ymryson rhyngddo â Sion Mawddwy yn argraffedig yn *Cymru Fu*, 81.

MEIRIG, ydoedd drysorydd Llandaf, ac a fu farw yn 1290. Yr oedd yn cael ei alw y "Cwtta Cyfarwydd," o Forganwg, oddiwrth y llyfrau a ysgrifenodd. Efe a ysgrifenodd "Holl Hanes Ynys Prydain," "Llyfr Diarhebion," "Dosbarth Cerdd Dafawd," "Theologyddiaeth Cymraeg," "Efengyl Ieuan [Ioan] yn Gymraeg a Lladin, ac Esboniad arni." Dywedai Iaco ap Dewi fod y llyfrau hyny yn Abermarlais yn y 17eg ganrif.—*Iolo MSS.*

Digitized by Google

MEIRION, sant yn y 6ed cant. Yr oedd yn frawd i Einion Frenin, ac yn fab i Owain Danwyn. Efe a sefydlodd eglwys Llanfeirion, yn Mon, lle y cedwid ei wylmabsant Chwefror 3.

MEIRION, penaeth yn y pumed ganrif. Mab ydoedd i Tybiawn ab Cunedda. Lladdwyd ei dad tra yn brwydro gyda'i frodyr yn erbyn y Gwyddelod, y rhai a oresgynasent wlad Gwynedd; ac wedi eu llwyr ymlid ymaith, cafodd Meirion, yn hawl ei dad, y cantref a adwaenir yn awr wrth yr enw sir Feirionydd.—Gwel CUNEDDA.

MEIRION GOCH, pendefig o Edeyrnion, yn Meirionydd, yn byw yn yr 11eg ganrif. Dywedir mai efe a draddododd yn fradwrus Gruffydd ab Cynan, brenin Gwynedd, i ddwylaw y Saeson, yn 1079.—*Hanes G. ab Cynan*, yn y *Myv. Arch.*

MEIRION (SION), bardd yn ei flodeu rhwng 1610 a 1650.

MELANGELL, santes yn y 6ed cant. Merch ydoedd i Cyfwlch Addwyn, yr hwn a ddisgynai o Macsen Wledig. Dywed eraill mai merch i Tudwal Tudclud ydoedd. Yr oedd Rhydderch Hael yn frawd iddi, a'i mam ydoedd Ethni Wyddeles. Cedwid ei gwylmabsant Mai 27. Adwaenir y santes ddiwair hon yn y chwedl Ladin tan yr enw Monacella, a dywedir mai merch i frenin Gwyddelig ydoedd, yr hwn a benderfynasai ei phriodi gyda phendefig ieuanc perthynol i'w lys. Ond gan fod y dywysoges wedi tyngu llw o forwyndod, hi a ffodd o diriogaeth ei thad, a ymguddiodd yn Pennant, lle y treuliodd bumtheg mlynedd heb weled gwyneb dyn. Bu fyw felly yn hollol guddiedig, hyd oni ddaeth Brochwel Ysgythrog heibio i'r lle un diwrnod wrth hela yn 604. Cafodd hi mewn ogof yn Nghraig y Gwely, a gelwir y lle hwnw hyd heddyw yn "Gell Melangell," a chan eraill yn "Wely y Gawres." Dywedir fod yr ysgyfarnogod wedi eu dofi ganddi, ac adweinid pob ceinach yn y cwr hwnw am hir feithion flynyddau wrth yr enw "*Wyn Melangell.*" Arferai yr hen bobl ddywedyd, pan y gwelent ysgyfarnog o flaen cwn, "Duw a Melangell a'th gato:" ar ol hyny, yn ofer yr ymdrechai y cwn a phawb arall ddyfod o hyd iddi. Rhoddes Brochwel dir iddi adeiladu mynachdy yn y lle. Y mae maen cerfiedig yn mynwent Pennant yn dynodi ei bedd; a dywedir fod gwyneb y maen hwn unwaith yn llawn o ddarlleniad, ond y mae amser bellach wedi ei wisgo ymaith. Ystyrid Pennant Melangell gynt yn noddfa gysegredig i ffoaduriaid er dyddiau yr hen fynaches; ac fel y cyfryw, bu Iorwerth Drwyndwn yn ymguddio yma yn y 12fed ganrif rhag llid Dafydd ei frawd.—*Arch. Cambriensis* iii.: *Brython* v. 225.

MELWAS, tywysog yn mhlith y Brythoniaid Gogleddol, yr hwn a fu yn cyd-ddichella gyda Gwenhwyfar, merch Grythyr ab Greidiol, a gwraig i'r brenin Arthur. Yn ystod absenoldeb ei phriod yn ei ryfeloedd ar y Cyfandir, adnewyddodd y garwriaeth a fuasai gynt rhyngddi â Melwas, a lladratawyd hi ymaith ganddo. Un diwrnod, wedi iddi hi a'i llawforwynion fyned i'r coed i gynull blodeu Mai, Melwas a gynllwynodd i'w dwyn ymaith, ac a lechodd mewn manwydd ar ei llwybr, wedi ymddiladu mewn gwisg o ddail fel nas gwelid ef. Ac yn ddiatreg, rhuthrodd o'i guddfa, ac a'i dygodd yn ei freichiau hyd at ei gyfeillion, tra y ffodd ei gosgordd yn ddychrynedig gan dybied mai gwr gwyllt o'r coed ydoedd. Yna efe a ddygodd y frenhines i'r Alban. Cyfeiria yr hen feirdd yn fynych at waith Melwas; "Melwas yn y glâs glôg," ebe Dafydd ab Gwilym. Y mae y cyd-dystiolaeth hynod a ganlyn, a godwyd gan Edward Llwyd o lawysgrifau Kirk-

Digitized by Google

wood, yn cadarnhau yr hen hanes Cymreig :—"Y frenhines Gwenhwyfar, priod Arthur, brenin y Prydeiniaid tua'r flwyddyn 500, wedi ei gwarthnodi trwy odineb, a'i chollfarnu i gael ei darnio gan gŵn, a diangodd i'r Alban, ac a fu farw yno ar graig Stormont, lle y buasai yn byw am yspaid, a chladdwyd hi yn Meigle, sir Perth. Tua thair milldir o'r graig lle y claddwyd hi, yr oedd careg cyfuwch a dyn, ar yr hon yr oedd ei llun yn gerfiedig, a chŵn yn ymosod arni o un ochr, ac ar yr ochr arall ei hymlidwyr. Y mae yno hefyd gareg fedd ei gweision.—Caradoc's *Life of Gildas;* Jones' *Bardic Museum;* Wms. *Em. Welsh.*

MENW AB TEIRGWAEDD, neu *Menw Hen*, cymeriad hynod yn yr hen ramantau Cymreig, ac yn llanw cyffelyb safle yn mheirianwaith ddychymygol y Cymry, ag a lenwir gan Menu yn nhraddodiadau yr Hindwaid. Rhestrir ef yn y *Trioedd* gyda Math ab Mathonwy a Rhuddlwm Gawr, tan y penawd "tri wyr hud a lledrith;" ac efe a ddysgeg ei hud i Uthr Bendragon. Mewn *Tri* arall, cysylltir ef gyda Coll ab Collfrewi, a Drych ab Cibddar, tan y penawd "tri prif ledrithiawg." Y mae Menw yn cymeryd rhan bwysig yn Mabinogi Cilhwch ac Olwen; ac yn ngwaith Taliesin ab Iolo ar Goelbren y Beirdd, buddugol yn eisteddfod y Fenni, 1840, dywedir fod ganddo ran neilldiol yn narganfyddiad y wyddor hono.

MERDDIN EMRYS, bardd enwog yn ei flodeu tua chanol y pumed ganrif. Efe oedd bardd Emrys Wledig, neu Ambrosius. Dywedir mai efe a gynlluniodd waith Emrys, neu *Stonehenge*, ar wastatir Salisbury. Yn y *Trioedd*, dywedir ei fyned ar ddifancoll, a'i naw beirdd cylfeirdd mewn llong wydr, i'r mor, ac ni bu son i ba le yr aethant. Mewn *Tri* arall, rhestrir ef gyda Madawg Morfryn a Thaliesin, tan y penawd "tri prif-fardd bedydd." Y mae y *Brutiau Cymreig* a Nennius yn cynwys hanes annhygoel am ei enedigaeth yn Nghaerfyrddin, ei fynediad fel Dewin at Gwrtheyrn i Eryri, a'i brophwydoliaethau synfawr, a gwelir y cyfryw hefyd yn *Cymru Fu* 108. Defnyddid ei brophwydolaethau gan feirdd yr oesau i gynhyrfu gwladgarwch ac condra milwrol yn nghalonau y Cymry, a bu ei ddarganau parth dychweliad y freninolaeth i'r deyrnach Gymreig yn obaith iddynt pan oedd gorthrwm a gormes ar eu llethu.

MERDDIN WYLLT, bardd enwog yn ei flodeu, meddir, rhwng 530 a 580. Y mae pob lle i gredu mai yr un ydoedd a Merddin Emrys, ond iddo arfer y cyfenw Emrys oblegyd ei benodi yn fardd i Emrys Wledig. Yr oedd yn mrwydr Arderydd yn 577, ac mewn amryfusedd efe a laddodd Gwenddydd, ei nai fab chwaer, yr hyn a'i gofidiodd yn ddwys, ac a effeithiodd gymaint ar eu synwyrau, fel y ffodd i'r coed, ac am hyny gelwid ef Merddin *Wyllt*. Y mae chwe' cyfansoddiad cyfrin o'i waith yn argraffedig yn y *Mye. Arch.*, a cheir rhai sylwadau dyddorol ar ei gymeriad yn *Mythology of the Druids*, gan Davies.

MEREDYDD AB BLEDDYN, a olianodd ei dad, Bleddyn ab Cynfyn, i dywysogaeth Powys yn 1072. Yn 1101, bradychwyd ef i ddwylaw brenin Lloegr gan ei frawd Iorwerth, eithr wedi pedair blynedd o garchariad llwyddodd i ddianc; a chan ddychwelyd i'w wlad, adenillodd Powys i'w hen derfynau, trwy gymeryd meddiant o diroedd ei frodyr Iorwerth a Chadwgan, y rhai a laddwyd mewn brwydr yn 1109. Pan ymosododd Harri I. ar Gymru yn 1118, Meredydd a'i rhwystrodd i gymeryd mynedfeydd Powys, er na chynorthwyid ef gan Gruffydd ab

Digitized by Google

Cynan; a tharawyd y brenin gan saeth yn ei fynwes, a fuasai yn ddigon am ei fywyd oni buasai ei arfwisg gref. Ar hyn, cafodd Meredydd deleraŭ heddwch yn rhwydd, ar daliad ychydig arian, a mil o wartheg. Bu yn briod ddwywaith; ei wraig gyntaf ydoedd Huydd ferch Eunydd ab Gwernwy, pen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd, a bu iddo amryw blant ohoni. Ei ail wraig ydoedd Efa, merch Bledrws ab Ednywain Bendew. Ar farwolaeth Meredydd, rhanwyd Powys rhwng ei fab hynaf Madog; a'i wyr, mab ei fab ieuangaf Gruffydd, Owain Gyfeiliog. Galwyd rhandir Madog yn Bowys Fadog, a'r rhan arall yn Bowys Wenwynwyn, oddiwrth Wenwynwyn, mab Owain Cyfeiliog.

MEREDYDD AB RHOSSÊR, bardd enwog rhwng 1430 a 1460. Rhoddid "Syr," o flaen ei enw, ac oddiwrth hyny bernir ei fod yn offeiriad. Efe oedd athraw barddonol Dafydd ab Edmwnd. Y mae ychydig o'i waith ar gael mewn ysgrifen, a dau ohonynt wedi eu hargraffu, gyda chyfieithiad, yn *Iolo MSS*.

MEREDYDD AB EDWYN, ab Einion ab Owain ab Hywel Dda, tywysog a fu yn cyd-deyrnasu gyda'i frawd Hywel ar Ddeheubarth. Yn 1021, bu brwydr rhyngddynt â Llywelyn ab Sitsyllt, yn mha un y lladdwyd y tywysog olaf. Wedi i'r ddau gael eu difeddianu o'u tiriogaeth gan Rhydderch ab Iestyn, tywysog Deheudir Cymru, hwy a logasant y Gwyddyl Ffichti, a chyda cymhorth y rhai hyn, lladdasant Rhydderch mewn brwydr yn 1031; a thrwy hyny, cawsant feddiant eilwaith o dywysogaeth y Deheubarth. Pa fodd bynag, ni bu iddynt fawr lonyddwch, gan i feibion Rhydderch gynull llu mawr er dial angau eu tad; eithr cyfarfyddwyd hwy yn Hiraethwy gan Meredydd a Hywel, ac wedi brwydr galed, gorchfygwyd hwynt. Y flwyddyn ganlynol, lladdwyd y ddau dywysog yn mrwydr Machwy, gan feibion Cynan, brawd Llywelyn ab Sitsyllt, er dial angau eu hewythr.—*Brutiau Cymreig*.

MEREDYDD ab Gruffydd ab Llywelyn, tywysog yn yr 11eg ganrif. Mewn cysylltiad a'i frawd Ithel, ymdrechodd gymeryd meddiant o lywodraeth Gwynedd yn 1068, yr hon a drawsfeddianasid ar farwolaeth eu tad gan Bleddyn a Rhiwallon. Wedi cynull byddin gref, cymerodd brwydr le yn Mechain, sir Drefaldwyn, yn mha un y lladdwyd Ithel ar y naill ochr, a Rhiwallon ar y llall; gorfu ar Feredydd ddianc, ac ymlidiwyd ef mor galed gan Bleddyn, fel y bu farw o newyn ac anwyd ar y mynydd.

MEREDYDD ab Owain ab Edwyn, a fu dywysog ar Ddeheubarth o farwolaeth Gruffydd ab Llywelyn yn 1062, hyd 1069, pan y lladdwyd ef yn mrwydr Llanfedwy, ar yr afon Elerch, yn Morganwg, yr hon a ymleddid rhyngddo efâ Charadawg ab Rhydderch ab Iestyn, yr hwn a logasai i'w wasanaeth fyddin gref o Normaniaid.

MEREDYDD ab Owain ab Hywel Dda, a olianodd i dywysogaeth Dyfed a Cheredigion, Deheudir Cymru, yn 979. Yn 985, arweiniodd fyddin gref i Wynedd, a lladdodd mewn brwydr y tywysog Cadwallawn ab Ieuaf, a chymerth yr awdurdod i'w feddiant ei hun. Y flwyddyn ganlynol, gyrwyd ef o Wynedd gan Godfrid, mab i Harold y brenin Seisnig; ac yn 987, ar farwolaeth Owain ei dad, cymerth feddiant o dywysogaeth Deheubarth, yn ddiystyr o hawliau Edwyn a Tewdwr, meibion Einion ei frawd hynaf. Cythryblid ef gymaint yn ystod y flwyddyn hono gan y Daniaid, fel y boddlonodd i dalu teyrnged iddynt am fyned ymaith, sef ceiniog y pen am bob un tan ei lywodraeth, a gelwid hono yn deyrnged y fyddin ddu. Yn 990 a'r flwyddyn gan-

Digitized by Google

lynol, anrheithiodd Faesyfed a Morganwg, pryd y lladdwyd ei fab Cadwallawn. Gan iddo golli meddiant o Wynedd yn 992, trwy etholiad Idwal ab Meirig i'r orsedd, efe amcanodd ei hadenill yn 993, eithr ei fyddin a lwyr orchfygwyd mewn brwydr yn Llangwm, sir Ddinbych. Bu y tywysog dewr a diorphwys hwn farw yn 994, gan adael un ferch o'r enw Annharad, yr hon a fu yn briod yn nghyntaf gyda Llywelyn ab Sitsyllt, a thrachefn gyda Cynfyn ab Gwerystan, o ba un yr oedd yn fam i Bleddyn ab Cynfyn.

MEREDYTH (RICHARD), D.D., ydoedd frodor o sir Ddinbych, a mab i Robert Meredyth ab Gronw, yr hwn a hanai o Ithel Felyn o Ial; a'i fam ydoedd Margaret, merch i William John ab Gronw, yr hwn a hanai o Llywarch Holbwrch. Yr oedd o'r un teulu, ac yn berthynas agos, â Dr. Richard Davies, esgob Tyddewi. Aeth i Rydychain yn 1568; a chymerodd ei M.A. fel aelod o goleg Iesu yn 1575. Croesodd i'r Iwerddon yn 1568, fel caplan i'r arglwydd-raglaw Syr John Perrott, gan yr hwn y penodwyd ef yn ddeon St. Patrick, Dublin, yn 1586. Cysegrwyd ef yn esgob Leighlin a Ferns yn Ebrill, 1589. Yr oedd hefyd yn dal deoniaeth St. Patrick fel segurswydd iddo ef a'i hiliogaeth tros byth, yr hon swydd a ganiatawyd iddo gan y frenhines Elizabeth fel iawn am ei garchariad annghyfiawn yn y Tŵr am ddeng mlynedd. Bu farw yn Ebrill, 1597, a chladdwyd ef yn mhrifeglwys St. Patrick. Bu iddo bump o blant; yr hynaf ydoedd y gwir anrhydeddus Robert Meredydd, barwnig, o Greenhills a Shrewdland, sir Kildare; aelod o'r Cyfrin Gynghor, a Changellydd y Drysorfa yn Iwerddon; ac un o'r dirprwywyr a benodwyd yn 1647 i weinyddu y llywodraeth yn lle ardalydd Ormond. O'r Esgob Meredyth, mewn llinach unionsyth y disgynai y ddau deulu Meredyth, barwniaid, o siroedd Kildare a Meath, ac y mae y blaenaf hyd y dydd hwn yn arfer yr hen gyswyn-air Cymreig, "Heb Dduw, heb ddim—Duw a digon," ar ei arfau.

MERFYN FRYCH, ydoedd fab i Gwriad ab Elidr, ac yn disgyn o Lywarch Hen; ei fam ydoedd Nest ferch Cadell ab Elisau, tywysog Powys. Felly, yn ol ei hawliau personol, efe oedd brenin Manaw a Phowys. Ei wraig ydoedd Essyllt, ferch Cynan Tindaethwy, ar farwolaeth yr hwn yn 817, penodwyd Merfyn ac Essyllt i lywodraethu Gwynedd. Eithr nid hir y buont yn teyrnasu, na ddaeth Egbert, brenin y Saeson Gorllewinol, gyda byddin gref, ar ymdaith ryfelgar i'w tiriogaeth, gan anrheithio y wlad gan belled ag Eryri, a chymeryd meddiant o arglwyddiaeth Rhufoniog. Yna efe a groesodd i Fon, a bu brwydr waedlyd rhyngddo â'r Cymry yn Llanfaes, ger Beaumaris. Pa fodd bynag, llwyddodd Merfyn i gadw meddiant o'r Ynys, ac i yru'r Saeson ymaeth. Dyma'r pryd y galwyd hi gyntaf yn *Anglesey*, neu ynys y Sais. Nid cynt yr oedd y cythryfwl hwn trosodd, ac wele Kenulph, brenin Mersia, yn gwneud dau ymosodiad ar Bowys a pharthau gorllewinol Cymru, ac yn eu hanrheithio yn ofnadwy. Yr oedd Merfyn mewn rhyfeloedd parhaus gydag Egbert, yr hwn yn 835, a lwyddodd i gadw meddiant o Gaerlleon, a fuasai hyd yn hyn yn eiddo y Cymry, ac a ystyrid yn gadarnfa werthfawr ganddynt ar derfynau y gelynion. Yn 843, darfu i Berthred, brenin Mersia, ymosod ar Gymry mewn lle o'r enw Cettell, a gorchfygodd hwynt mewn brwydr galed, yn yr hon y lladdwydd Merfyn, gan adael ei orsedd i'w fab hynaf Rhodri Mawr.

MERFYN, trydydd mab i Rhodri Mawr, a gafodd dywysogaeth Powys fel ei gyfran ar ol ei dad, yr hwn a fu farw yn 877; tra y rhodd-

Digitized by Google

wyd Gwynedd i'w frawd Anarawd, a Deheubarth i Cadell ei frawd arall; a gelwid hwynt "tri theyrn taleithiawg." Ni fwynhaodd Merfyn ei randir yn hir, gan i'w frawd Cadell ei ddifeddianu; a dywed Caradog o Langarfan iddo gael ei ladd gan ei wyr ei hun yn 892.

MEYRICK (EDMUND), D.C.L., ydoedd seithfed mab Meirig ab Llywelyn ab Heilyn, o Fodorgan, Mon; a brawd i Rowland Meyrick, esgob Bangor. Ymsefydlodd yn Uchdref, plwyf Gwyddelwern, sir Feirionydd. Yn ngradd ei ddysg, yr oedd yn ddoctor o'r gyfraith wladol, yr hyn a gyrhaeddodd yn 1597. Yr oedd hefyd yn dad canoniaeth yn eglwys Lichfield.—Dwnn's *Heraldry*.

MEYRICK (SYR GELLY), ydoedd fab hynaf Dr. Rowland Meyrick, esgob Bangor. Ganwyd ef yn 1556, a chan iddo golli ei dad pan yn naw mis oed, ymneillduodd gyda'i fam i Hascard, yn sir Benfro. Dewisodd fywyd milwrol, ac enwogodd ei hun yn fawr yn y gwasanaeth yn y Netherlands. Fel gwobr am hyn, caniatawyd iddo yn 1513 wisgo arfau *(crest)*, "er cof am ei gyneddfau rhagorol, ac ar dangosiad o'i bybyrwch a'i ddewrder." Ar ei ddychweliad, priododd Elizabeth, gweddw ieuanc John Wyn o Lanelwedd, sir Faesyfed. Tua'r amser hwn ffurfiodd gydnabyddiaeth â'r boneddwr ieuanc Robert Devereux, wedi hyny Iarll Essex, a pharhaodd eu cyfeillgarwch ar hyd eu hoes. Yr oedd efe yn un o'r pum' cant boneddigion a ddilynasant yr iarll i Fflushing, yn niwedd 1585, ac ymenwogodd fel milwr gwrol yn ystod y flwyddyn ganlynol. Ar ei ddychweliad i Loegr rhoddwyd iddo y swydd uchelgeisiol o arolygydd tŷ yr iarll, ac o ganlyniad, gwisgai y gadwen aur. Yn mhen dwy flynedd, dilynodd yr un pendefig ar ei draul ei hun i Torres Vedras, ac wedi hyny i Lisbon, lle yr arddangosodd ddewrder dihafal, ond aflwyddianus. Yn Tachwedd, 1592, darfu i'r frenhines Elizabeth, ar gais Essex, roddi castell a thirodd Wigmore, yn sir Henffordd, i Gelly Meyrick a Henry Lindley, yr hwn oedd yn gyfranog ag ef yn y swydd o oruchwyliwr y tŷ. Yn 1596, enwogodd ei hun yn fawr yn yr ymosodiad llwyddianus ar Cadiz. Dyrchafwyd Cadben Meyrick ar yr achlysur hwnw i'r radd o *lieutenant-colonel* yn nghatrawd Syr Conyers Clifford, ac yn ddirprwywr yr adgyfnerthion. Oblegid ei wrhydri ysplenydd yn y rhyfelawd hwnw, rhestrwyd ei enw yn mhlith yr ychydig a wnaed yn farchogion yn y farchnadfa wedi i'r gelyn roddi i fynu. Yn 1597, danfonwyd môr-ryfelawd arall yn erbyn yr Yspaeniaid, tan lywyddiaeth iarll Essex; a rhoddwyd y llong *Swiftsure*, 400 o dunelli, yn nghofal Syr Gelly. Cyfarfu y llynges hon â hin dymhestlog ar ei chychwyniad, a bu y cwerylon anffodus rhwng yr iarll a Syr Walter Ranleigh, o fawr rwystr i'w llwyddiant, eithr cafodd Syr Gelly gyfleusdra i eangu ei enwogrwydd yn Fayal. Pan gyfododd gelynion Essex yn ei erbyn, ac y gorfu arno arfogi a a chadarnhau ei dŷ yn y Strand i'w herbyn, efe a roddes gadwrfa y lle yn nghofal Syr Gelly, tra yr aeth ef ei hun, gydag ychydig ddilynwyr i'r ddinas; ac efe a'i hamddiffynodd yn wrol am yspaid, hyd oni roddwyd gorchymyn iddo gan ei feistr i'w daflu i fynu i wyr y Frenhines. Er mai yr amcan ydoedd cael gan y frenhines newid ei chyngorwyr, eto ystyrid y dull hwn a gymerasant yn deyrnfradwriaeth, a bu raid i'r ddau roddi eu bywydau yn ffiawn am yr amryfusedd. Atafaelwyd ei etifeddiaethau, a'i fab a'i ferch a ddiraddiwyd. Rhoddodd Iago I. y flaenaf i Mr. Harley, hynafiad iarll Rhydychain, eithr y senedd a roddes yr urddau yn ol i'r teulu. Dienyddiwyd Syr Gelly yn 1600, ac arddangosai yr un gwrolder ar y pren dyoddef ag ar faes y frwydr.

Digitized by Google

MEYRICK (JOHN) D.D., prelad dysgedig ydoedd fab anghyfreithlon i Owen ab Huw ab Owen ab Meyric, Ysw., o Bodeon, yn Mon; a'i fam ydoedd Gwenllian, merch Ifan, o'r Penrhyn Deudraeth; ac yr oedd yn haner brawd (o du ei dad) i Syr Hugh Owen, barwnig, o Orielton, yn sir Benfro. Addysgwyd ef yn ysgol Winchester, o ba le yr etholwyd ef i Goleg Newydd, Rhydychain. Yn 1557, gwnaed ef yn gymrawd parhaol; ac yn 1558, efe a raddiwyd yn B.A.; yn M.A. yn 1561; ac yn 1565, llanwodd y swydd o broctor. Yn mhen pum' mlynedd ar ol hyn, rhoddwyd iddo ficeriaeth Hornchurch, yn Essex, yr hon oedd yn rhodd neillduol ei goleg. Gan ei fod bellach wedi enill cryn enwogrwydd fel llenor, tynodd sylw Henry, iarll Derby, trwy ddylanwad yr hwn yn 1575 y penodwyd ef i ddilyn ei gydwladwr John Salesbury, fel esgob Ynys Manaw. Cysegrwyd ef yn esgob Sodor a Man yn 1576. Daliodd y swydd hon am 23 o flynyddau; ac yn ol Wood, bu farw yn sir Yorc, yn 1599. Dilynwyd ef fel esgob gan Gymro arall, sef Dr. George Lloyd. Bu i'r esgob amryw frodyr, un o ba rai, sef Morris Meyrick, ydoedd tad Syr William Meyrick, barnwr yn y *Prerogative Court*, o flaen Syr Leoline Jenkins.—Wood's *Ath. Oxon.*

MEYRICK (SYR JOHN), cadlywydd yn y fyddin, ac aelod o'r Senedd Hir tros Newcastle-under-Line. Efe ydoedd bumed mab i Syr Francis Meyrick, o'r Ffleet, yn mhlwyf Monkton, sir Benfro; a'i fam ydoedd Ann, merch i Francis Laugharne, St. Bride, yn yr un sir. Bu ei dad farw yn 1603, a dewisodd Syr John fel yntau, a'i ewythr Syr Gelly, fywyd milwrol. Darfu i'r cyfeillgarwch a fuasai rhwng ei deulu â'r diweddar iarll Essex, sicrhau iddo yntau gyfeillgarwch y mab. Aeth gyda'r swyddog medrus hwnw i Fflanders yn 1620; a thrachefn, fel cadben, bedair blynedd ar ol hyny, i'r Taleithiau Unedig. Yn 1625, aeth gyda'r rhyfelawd i Yspaen, ac ar ei ddychweliad, gwnaed ef yn farchog. Gwasanaethodd fel gwirfoddolwr o tau Gustavus Adolphus, brenin Sweden, yn 1630, a chafodd gryn lawer o ymarfer milwrol yn y rhyfelawd hwnw, yn ngwarchaead Venlo, Roermount, &c., ac archollwyd ef wrth warchae Maestricht, Awst 17, 1632. Pan dorodd y rhyfel cartrefol allan, ac y darfu i Siarl I. godi lluman rhyfel yn Nottingham, cododd y senedd fyddin o 15,000 o wyr traed, a 4,500 o wyr meirch, yn ben ar ba rai y gwnaed Iarll Essex, tan y teitl o arglwydd-lywydd; a Syr John Meyrick yn ail gadlywydd y llu, tan y teitl y pryd hwnw o *sergeant-major-general*, ac heblaw hyny yr oedd yn filwriad un gatrawd yn cynwys deg cwmni. Cymerodd ran yn mrwydr Edge Hill; ac yn ngwarchae Caerloyw, ac efe wedi ei ddyrchafu yn llywydd y cyflegrau, ac fel y cyfryw hynododd ei hun yn fawr, cystal ag yn mrwydr Newbury. O hyn allan, byddai bob amser yn nghymdeithas Iarll Essex; gadawodd y fyddin pan y gadawodd yntau, ac efe a ddygai yr helm yn ei gladdedigaeth. Gan ei fod yn un o'r aelodau seneddol hyny a gredent fod y brenin wedi caniatau digon er sicrhau heddwch y wlad, rhoddwyd ef ac amryw eraill mewn dalfa gan Cromwell, tra yr oedd mesur gwrthwynebus yn myned trwy y senedd. Bu Syr John yn briod ddwywaith; gyntaf gydag Alice, merch Syr Edward Fitton, o Gawsworth, sir Gaerlleon, o ba un y bu iddo un mab, Essex Meyrick, a dwy ferch; a'i ail wraig ydoedd Jane, gweddw Syr Peter Wyche, llysgenadwr i Constantinopl, a merch i William Meredyth, o Wrexham. Bu farw yn 1659. Y mae darlun ohono mewn arfwisg yn nghadw yn y Bush, palas y teulu yn sir Benfro

Digitized by Google

MEYRICK (Rowland) LL.D., ydoedd ail fab Meyrick ab Llywelyn, o Fodorgan, yn Mon; ei fam ydoedd Margaret, merch i Rowland ab Hywel, rector Aberffraw. Ganwyd ef yn 1505, ac yn ol Wood, cafodd ei addysg yn neuadd St. Edward, Rhydychain. Yr oedd yn byw yn nghyfnod cynhyrfus y Diwygiad, ac yr oedd yn mhlith y blaenaf i fabwysiadu yr athrawiaethau hyny. Tan deyrnasiad Harri VIII., cafodd rectoriaeth Stoke, sir Norfolk, ac yn fuan ar ol hyny gantoriaeth Llanddewi Brefi, yn Ngheredigion. Tua 1533, derbyniwyd ef fel gwyryf y gyfraith wladol gan brif-ysgol Rhydychain, ac mewn byr amser etholwyd ef yn brif athraw coleg New Inn Hall. Yn Ionawr, 1538, cymerodd ei raddio yn ddoctor. Penodwyd ef yn ganghellydd Tyddewi, a thrachefn yn ganghellydd ac yn brif swyddog eglwysig Wells. Bu ychydig ataliaf ar ei ddyrchafiad cyflym pan orchymynodd Iorwerth VI. roddi cyfraith arno ef a'i esgob, er nad oedd dim personol yn ei erbyn ef. Rhoddes ei swyddi i fynu yn esgobaeth Wells, ac yn 1550, daliai y swyddau canlynol: canghellydd Tyddewi, canonwr trigianol yno, *precentor* Llanddewi Brefi, a pheriglor Llangadwaladr, yn Mon, ei blwyf genedigol. Yn 1554, efe a briododd Catherine, merch Owen Barret, o Gellyswick a Hascard, yn sir Benfro. Rhoddes hyn esgus tros ei ddiswyddo, a symudwyd ef yn ddioed o gynghoran yr amserau hyny. Pa fodd bynag, ar esgyniad Elizabeth i'r orsedd, efe a benodwyd yn un o'r dirprwywyr i ymweled â phrif-eglwysi ac esgobaethau Tyddewi, Llandaf, Bangor, Llanelwy, Hereford, a Worcester. Yn ystod yr un flwyddyn, bu farw Dr. Glyn, esgob Llanelwy, a'r frenhines a'i penododd ef i'r swydd, i'r hon y cysegrwyd ef Rhag. 21, 1559. Heblaw yr esgobaeth, yr oedd hefyd yn dal bywioliaethau Treflodeu, Llanddewi Brefi, a Llanddewi Felfre. Yr oedd hefyd yn aelod o gynghor Terfynau Cymru. Bu farw Medi 25, 1565, a chladdwyd ef yn ei brif-eglwys ar yr ochr ddeheuol i'r allor.—Wms. *Em. Welsh; Hanes Esgobaeth Bangor.*

MEYRICK (Syr Samuel Rush), hynafiaethydd trylen, awdwr hanes a hynafiaethau Ceredigion, ac amryw lyfrau dyddorol, ydoedd fab John Meyrick, Yswain, o Great George Street, Westminster, a Fulham; a'i hynafiaid oeddynt Dr. R. Meyrick, esgob Bangor, a Syr Gelly Meyrick. Ei fam oedd Hannah, merch ac etifeddes Samuel Rush, Yswain, o Ford House, sir Hert, a Chistlehurst, yn Kent. Samuel oedd eu hunig fab, a ganwyd ef Awst 26, 1783. Addysgwyd ef yn ngholeg y Frenhines, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A., a lle wedi hyny yr emillodd ei LL.D. Bu ei dad farw yn 1805, gan adael ei etifeddiaeth i'r ail genedlaeth, ac felly ei nacau i'w unig fab, yr hwn, tybir, a ddigiasai y barwnig yn 1803, trwy briodi yn rhy ieuanc. Eithr gan i unig fab Syr Samuel farw yn 1837, dychwelodd yr etifeddiaeth iddo yn ol. Oblegyd ei fod yn teimlo y dyddordeb mwyaf yn ngwlad ei gyndadau, ac yn efrydydd dyfal yn ei hanes, efe a gyhoeddodd yn 1810 gyfrol pedwar plyg fawr, tan y teitl, "The History and Antiquities of the County of Cardigan." Yn fuan ar ol hyny, mabwysiadodd y gyfraith fel galwedigaeth, a bu yn gweithredu fel dadlenydd am lawer o flynyddau yn y llysoedd Morwrol ac Eglwysig. Rhoddes ei fryd hefyd ar gynull yn nghyd gasgliad o hen arfau rhyfel, arfwisgoedd, &c., a llanwodd ei balas yn Llundain bob congl ohono â'r cyfryw drysorau. Gan mai ag arian ei fab hynaf y pwrcasodd y casgliad, gelwid ef yn gasgliad Llywelyn Meyrick, Ysw. Yn 1812, yr oedd Dr. Meyrick yn brysur wrth y gorchwyl o gyfansoddi hanes

Digitized by Google

boreuol Prydain, pan eisteddid ar ei gorsedd gan freninccdd o waed Prydeinig, sef yn flaenorol i 703. Gellir ffurfio rhyw syniad am ei faint, pan ddywedir fod ei awdwr dysgedig yn bwriadu ei gyhoeddi mewn chwe' chyfrol 8plyg. Pa fodd bynag, ni chyhoeddwyd ef, eithr bu ei ddefnyddiau o wasanaeth iddo mewn gweithoedd eraill. Yr oedd ei waith mawr ar Arfau ac Arfwisgoedd wedi ei seilio ar yr un cynllun. Cyhoeddodd hwnw mewn tair cyfrol yn 1824, tan yr enw, "A Critical Inquiry into Ancient Armour, as it existed in Europe, but particularly in England, from the Norman Conquest to the reign of Charles II., with a Glossary of Military Terms of the Middle Ages." Daeth ail argraffiad ohono allan yn 1843, gyda lluaws o chwaneg-iadau, tan olygiaeth Albert Way. Bu Dr. Meyrick hefyd o fawr gymhorth i Fosbroke, yn nghyfansoddiad ei *Encyclopædia of Antiquities*, trwy ysgrifenu i'r llyfr hwnw ar arfwisgoedd henafol. Yn 1830, cyhoeddodd Mr. Joseph Skelton, ar ei draul ei hun, ddarluniau ar ddur o'r arfau a'r arfwisgoedd yn meddiant y Dr., a'r olaf a ysgrifenodd y disgrifiadau sydd yn y gwaith. Yna 1827, wedi iddo fethu prynu adfeilion castell Goodrich, ar lan yr afon Wy, yn sir Henffordd, oherwydd y pris afresymol a ofynid am dano, tueddwyd ef i brynu y bryn gyferbyn, ar yr hwn yr adeiladodd balas hardd, sef Goodrich Court, a symudodd yno ei gasgliad gwerthfawr o arfau, &c. Yn 1826, ymgynghorwyd âg ef gan awdurdodau Tŵr Llundain am ei farn parth trefniad y cynulliad cenedlaethol o arfwisgoedd; ac yn 1828, trwy orchymyn Sior IV., gwnaeth yr un gwasanaeth â chynulliad castell Windsor. Yn Ionawr, 1832, rhoddwyd arno yr urdd Hanoferaidd gan Gwilym IV. am y ddwy gymwynas grybwylledig: a theitlwyd ef yn farchog yn y Chwefror canlynol. Bu yn sirydd sir Henffordd yn 1834; a hynododd ei hun trwy adnewyddu gosgordd orwych y *javelin-men*. Gwaith llenyddol olaf Syr S. Meyrick o unrhyw bwys ydoedd "Heraldic Visitation of Wales," Lewis Dwn; yr hwn a ddechreuodd yn 1840, ar gais Cymdeithas y Llawysgrifau Cymreig, ac a gwblhaodd yn 1846. Etholwyd ef yn aelod o Gymdeithas yr Hynafiaethwyr yn 1810; bu am lawer o flynyddau yn un o'i gohebwyr mwyaf cyson, ac argraffwyd amryw o'i gyfryw lythyrau yn yr *Archæologia*. Bu hefyd am lawer o flynyddau yn gohebu'n fynych i'r *Gentleman's Magazine*. Wedi dyfod i fyw i Goodrich Court, cyfranai ffrwyth ei fyfyrdodau hamddenol i gylchgronau Cymru, megys y *Cambrian Quarterly Magazine*, a'r *Archæologia Cambrensis*. Bu yn llywydd *Mechanic's Institution*, Henffordd; ac yn y cyfryw swydd, traddododd ddeugain o ddarlithiau ar Hanes Lloegr; ychydig cyn ei farwolaeth, hysbyswyd ei fod ar fedr eu cyhoeddi, eithr gan na chafwyd cefnogaeth ddigonol, rhoddwyd y bwriad hwnw heibio. Bu yn briod â Mary, merch ac aeres James Parry, Yswain, Llwyn Hywel, sir Aberteifi, o ba un y bu iddo un mab, Llywelyn Meyrick, Yswain, yr hwn a fu farw yn ddibriod yn 1837. Yr oedd yntau yn gymrawd o Gymdeithas yr Hynafiaethwyr, ac un o osgordd ei fawrhydi Dug Essex. Bu Syr Samuel farw yn Goodrich Court, Ebrill 2, 1848, yn 65 oed.—*Gentleman's Magazine*, am 1848.

MERYCK (Syr William), ydoedd fab hynaf Maurice Owen, yr hwn a gyfnewidiodd ei enw i Meyrick. Addysgwyd ef yn Winchester, ac oddiyno gyrwyd ef i'r Coleg Newydd, Rhydychain. Gan fod ganddo alluoedd meddyliol cyflym a bywiog, dewisodd broffeswriaeth gyfreithiol, yn y gangen fwyaf dewisol o'r gyfraith gan foneddigion Cymreig yr oes hono, sef y dosparth eglwysig. Gradd-

Digitized by Google

iwyd ef yn y gyfraith wladol, gwnaed ef yn ddoctor yn 1625, a chafodd ganiatad i ymarfer fel dadleuydd yn Uchel Lys Caergaint yn 1626. Yr oedd yn dra enwog ac anrhydeddus oblegyd ei dalent a'i ddysgeidiaeth; ac o ganlyniad, yn Hydref, 1641, penodwyd ef ar farwolaeth Syr Harry Martin, yn farnwr llys y *Prerogative*. Dywed Wood ei fod wedi profi ei hun yn deyrngarwr trwyadl yn y serch a ddangosodd tuag at Siarl I. a Siarl II., yn eu helbulon a'u trallod; ac iddo ddilyn yr ail Siarl yn ei ffoedigaeth i'r Cyfandir. Ar ddychweliad y freninoliaeth, rhoddwyd iddo ei swydd yn ol, a gwnaed ef yn farwnig yn Nhachwedd, 1661. Priododd â Sarah, merch James Dodwell, o Rydychain; a bu farw yn nghauaf 1668. Cymerodd Syr Leoline Jenkins ei le fel barnwr.—Wms. *Em. Welsh.*

MON (Lewis), bardd enwog yn Mon rhwng 1480 a 1520. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

MOR ab Ceneu ab Coel Godebog, sant yn y 5ed cant. Sefydlodd eglwys Llanfor, neu Llannor, yn Lleyn, sir Gaernarfon; a Llanfor, yn Meirion. Mab iddo ef ydoedd Arthwys.

MOR AB MORIEN, sant yn y pumed cant. Dywedir yn *Achau y Saint* mai efe a ddygodd gred a bedydd i'r wlad hon, eithr na ddygai efe hyny i Wynedd. Wedi hyny, aeth Mor i Rufain a Jerusalem. Crybwyllir yn *Englynion y Gorugau* mai efe a drefnodd ryddid gwladol a chrefyddol gyntaf yn y wlad hon.

MORDAF, esgob Bangor, a aeth gyda Marchlwys a Blegwryd, ar ymdaith i Rufain, yn 926, a chyda hwynt Hywel Dda, er ymgynghori parth diwygio y cyfreithiau Cymreig.

MORDAF HAEL, penaeth yn y pumed ganrif. Rhestrir ef yn y *Trioedd* gyda Rhydderch Hael a Nudd Hael, tan y penawd "tri haelion teyrnedd Ynys Prydain." Ymroddodd i arwedd bywyd crefyddol, a cheir ei enw ar restr y Seintiau Cymreig. Priodolir iddo yn *Chwedlau y Doethion* y dywediad, "O ddau ddrwg, dewis y lleiaf."

MORDEYRN, sant, ond ni wyddys yn mha ganrif. Efe a sefydlodd eglwys Nantglyn, sir Ddinbych; ac yr oedd adfeilion capel Mordeyrn i'w gweled gerllaw y llan hwnw yn 1698. Cedwid ei wylmab-sant Mehefin 25.

MORGAN AB HUW LEWIS, bardd yn ei flodeu rhwng 1580 a 1620. Yr oedd yn offeiriad Llanwnda, sir Gaernarfon.

MORGAN (Parch. Abel), gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr, a anwyd yn Alltgoch, plwyf Llanwenog, Ceredigion, yn 1673. Symudodd i gymydogaeth y Fenni, sir Fynwy, pan yn dra ieuanc; a dechreuodd bregethu yn Llanwenarth, a manau cylchynol, pan tua 19 oed. Yn 1697, derbyniodd wahoddiad oddiwrth eglwys Blaenau Gwent i fod yn fugail; ond oherwydd rhyw resymau anhysbys, ni chydsyniodd â'r alwad hono hyd 1700. Ymddengys ei fod yn ddyn o dalentau dysglaer, a duwioldeb diamheuol, ac yn eangach ei syniadau na'r dosparth lluosocaf o'i frodyr yn yr Efengyl. Yn 1811, oherwydd rhyw annghydfod yn yr eglwys, a rhesymau eraill, penderfynodd ymfudo i Pensylfania, America, at luaws o gydwladwyr a pherthynasau ag oedd yno eisoes. Cychwynodd ef, ei deulu, ac ychydig gyfeillion crefyddol, mewn llong o Bristol, Medi 28ain; ac wedi mordaith beryglus, yr hon a barhaodd am ddeg ar hugain o wythnosau, glaniodd yn America, eithr bu ei wraig ac un o'i blant feirw ar y môr. Cafodd yn Pensylfania dderbyniad serchog, a bu ei fynediad i'w plith yn foddion adfyw-

Digitized by Google

iad i'w heg'wysi eweiniaid. Wedi bod o fawr fendith i achos Duw yn Nghymru ac America, bu y gweinidog rhagorol hwn farw yn 1722, yn 49 oed. Cyn myned o'r wlad hon, yr oedd wedi cyhoeddi cyfieithiad o "Gyffes Ffydd y Bedyddwyr," ac argraffiad o "Gatecism y Gymanfa," yn yr hwn yr oedd yr holiadau a'r atebion we i eu cyfnewid er eu gwneud yn gyson â daliadau neilldiol y Bedyddwyr. Yn ei ragymadrodd arddengys deimladau carnaidd tnag at enwadau eraill, a dymuniad gwresog am ledaeniad crefydd a gwybodaeth Ysgrythyrol yn mhlith ei gydwladwyr. Gadawodd amryw lyfrau gwerthfawr hefyd mewn llawysgrifau, yn eu plith, "Gyd-gordiad Egwyddorawl o'r 'Scrythyrau, neu gyfarwyddyd i gael pob lle o'r 'Scrythur Lân;" yr hwn a gyhoeddwyd yn Philadelphia yn 1730, gan ei frawd Enoch Morgan.—*Hanes y Bedyddwyr*, gan Jones.

MORGAN (Parch. David), gweinidog tra adnabyddus gyda'r Annibynwyr yn Llanfyllin. Ganwyd ef yn Dolwen, sir Aberteifi, Rhagfyr 27, 1779. Yr oedd ei hynafiaid wedi byw er's oesau yn y Ddolwen, ac yn rhydd-ddeiliaid parchus a chefnog ar y byd. Pan yn ieuanc, yr oedd gan helwriaeth a difyrion amaethyddol afael cryf ar ei feddwl; eithr pan ail-briododd ei dad, gadawodd gartref, gan benderfynu gwneud masnachwr ohono ei hun. Daeth i Fachynlleth, a bu yno am ysbaid yn ymegwyddori i'r perwyl hwnw; ond blinodd ar y cyfryw fywyd yn fuan, ac wedi chwe' mis o brofiad, torodd ei hiraeth trwy ddychwelyd adref i awyr iach bro ei enedigaeth. Arosodd yno hyd nes bod yn 26ain oed, pryd y priododd, ac ymsefydlodd fel amaethwr gerllaw. Yr oedd perthynasau Mr. Morgan yn eglwyswyr o hil ac epil, ac yntau gan belled ag yr oedd gan grefydd a wnelai ag ef yn cadw y gadwen grefyddol hono yn ddidor; ond y noswaith gyntaf a dreuliodd yn Machynlleth, pwy ddigwyddai fod yn llettya yn yr un tŷ, ac yn cysgu yn yr un ystafell ag ef, ond yr enwog ddiweddar Barch. John Roberts, Llanbrynmair. Canfu y gwr parchedig ei fod yn llanc talentog, a defnyddiodd y cyfleusdra i wasgu ar ei feddwl gwaunal bethau pwysig crefydd, a dadblygu ger ei fron degwch Annibyniaeth, fel na ddilewyd argraff y noson hono oddiar ei feddwl tra y bu byw. Yn 1807, er gwaethaf y rhagfarn oedd yn erbyn yr Annibynwyr, a than y perygl o dynu gwg ei deulu, penderfynodd ef a'i wraig ieuanc ymuno â'r enwad hwnw, yr hyn a wnaethant yn Talybont, o tan ofal gweinidogaethol y Parch. A. Shadrach. Yn fuan wedi ymaelodi, galwyd arno yn ddirybudd i draddodi anerchiad ar gyfran o'r Ysgrythyr, mewn cwrdd wythnosol; ac er syndod a llawenydd i bawb, siaradai gyda'r fath rwyddineb a nerth, nes peri i'w frodyr gwledig benderfynu nad oedd wiw iddo aros yn hwy yn anngyhoedd; ac o'r pryd hwnw allan, gelwid arno i bregethu yn yr ardaloedd cylchynol. Wedi llafurio trwy y dydd, cymerai ei anifail a marchogai filltirodd yn mrig yr hwyr i bregethu mewn tai, capelau, neu awyr agored, fel y digwyddai'r man fod. Yr oedd yn rhwymedig bob Sabbath i bregethu yn Tywyn Meirionydd. Yn 1812, darfu i eglwys Annibynol Machynlleth roddi gwahoddiad iddo i fod yn weinidog arni; ac wedi iddo gydsynio, bu yn ei bugeiho am ddwy flynedd ar hugain. Coronwyd ei lafur dybryd â llwyddiant mawr; pan yr aeth ef i'w mysg, nid oedd ganddynt ond dau gapel yn y dref a'r gymydogaeth, eithr pan eu gadawodd meddynt addoldy hardd ac eiddaeth yn y dref, a chwech eraill yn y plwyfau cylchynol. Chwanegodd bum' cant o aelodau at yr eglwysi, a gadawodd hwynt yn 400 mewn cymundeb a'u gilydd. Nid oedd ei gyflog yn ystod yr holl

Digitized by Google

amser hwn ond £30 yn y flwyddyn. Symudodd i Fanchester yn 1836, a bu yno yn weinidog yr eglwys Annibynol Gymreig am dair blynedd, pryd y derbyniodd wahoddiad eglwys Llanfyllin. Aeth yno yn 1839, ac yno yr arosodd am ddeunaw mlynedd, pan y rhoddes y weinidogaeth i fynu mewn henaint teg, a'i goron a'i gymeriad gan ddysgleiried a phan ei dechreuodd. Yr oedd nifer o'i gyfeillion wedi sierhau blwyddâl iddo, a symudodd i Groesoswallt gyda'r bwriad o dreulio y gweddill o edefyn brau einioes yno mewn tawelwch a chysur. Ond ni bu ond megis cam iddo ef rhwng ei waith a'i wobr; yn mhen tair wythnos wedi ymsefydlu yn Nghroesoswallt, efe a bu farw—Mehefin 15, 1858. Yr oedd yn bregethwr campus, er nad poblogaidd iawn. Llefarai yn gyflym, synwyrol, ond lled undonog. Yr oedd golwg tywysogaidd arno ar ei fareh uchelwaed yn ymdaith i draddodi ei genadwri, ac yn y pwlpud yn anerch deiliaid tragwyddoldeb. Hynodid ef gan gyfansoddiad nerthol, meddwl gweithgar a phenderfynol, a glendid buchedd defosiynol. Oherwydd ei ymlyniad diysgog wrth egwyddorion neilldduol yr Annibynwyr, llysenwid ef gan rai yn "Morgan, y Sentar mawr!" Yr oedd ei fywyd cyhoeddus yn un linell hirfaith o ymroddiad i wasanaeth ei enwad, ei genedl, ei genedlaeth, a'i Dduw. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, yn efrydydd caled, ac yn ysgrifenydd diflino, fel y prawf yr amryfal lyfrau llafurfawr a gyflwynodd efe at wasanaeth llenyddiaeth ei wlad. Cyhoeddwyd o'i eiddo:—1, "Hanes yr Eglwys Gristionogol," 2 gyfrol, 1830; 2, "Dyledswydd yr Eglwysi at eu gweinidogion, yn cael ei ystyried mewn pregeth," 1830; 3, "Pregeth ar Ymneilldduaeth;" 4, "Pregeth ar Ddiwygiad Crefyddol;" 5, "Hanes Ymneilldduaeth;" 1855; 6, "Darlithiau ar Lyfr y Datguddiad;" 7, Cyfrol ar "Gyflwr gwreiddiol, cwymp, a chynrychiolaeth Adda." Y mae y rhai hyn oll yn arddangos deheurwydd yr awdwr wrth ymdrin â gwahanol bynciau, a'i argyhoeddiad dwfn a chydwybodol o wirionedd yr hyn a draetha Y mae ei "Hanes Ymneilldduaeth," yn gasgliad rhagorol o ffeithiau pwysig mewn cysylltiad â chrefydd yn Nghymru, ac y mae'n warth oesol i'r enwad y perthynai iddo orfod i Mr Morgan roddi y gwaith i fynu ar ei haner o ddiffyg cymhorth i gasglu'r defnyddiau, a chefnogaeth i ddosparthu'r llyfr.

MORGAN (GEORGE CADOGAN), ydoedd frodor o Benybont-arogwy, Morganwg, ac a anwyd yn 1754. Ei dad ydoedd feddyg parchus yn y dref hono, ac yr oedd ei fam yn chwaer i'r Dr. Price, yr ysgrifenydd politicaidd enwog. Bwriedid ei ddwyn i fynu i weinidogaeth yr Eglwys Sefydledig, eithr gan nas gallai gydymffurfio â gofynion ei herthyglau, aeth i'r coleg ymneilldduol tan addysg Drs. Savage, Kippis, a Rees. Yn 1776, ymsefydlodd fel gweinidog Annibynol yn Norwich, lle yr arosodd hyd 1785, pryd y symudodd i Yarmouth. Y flwyddyn ganlynol, aeth at ei ewythr Dr. Price i Hackney, lle y penodwyd ef yn bregethwr prydnawnol cyfarfod Gravelpit, ac yn ddarlithydd yn y coleg newydd. Rhoddes y swyddi hyn i fynu yn 1792, ac ymgymerodd ag addysgu ychydig ysgolheigion yn ei dŷ ei hun. Yr oedd yn efrydydd dyfal a diflino ar wyddorau dyrus natur, yn enwedig y wyddoreg ffeyllaidd, ac yn bleidiwr i gyfundrefn Stahl mewn gwrthgyferbyniad i'r eiddo Lavousier, a'r ffeyllon Ffrengig. Codai yn fore, a noswyliai yn hwyr, er mwyn cymdeithasu ac ymhwedd âg efrydiaeth, ac yr oedd ganddo allu i'w dangos alian fel gwrthrych swynol a deniadol yn ngolwg y meddyliau ieuainc a ymddiriedid i'w ofal. Tua 1794, cyhoeddodd mewn dwy gyfrol "Lectures on Electri-

Digitized by Google

city," yr hwn a gafodd dderbyniad tra chalonog; ac yn mhen ychydig wedi hyny, "Directions for the use of a Scientific Table in the collection and application of Knowledge." Ceir llith ddyddorol iawn o'i eiddo yn y *Philosophical Transactions*, cyf. lxxv., tan y teitl "Observations and Experiments on the sight of Bodies in a state of Combustion." Bu farw yn Southgate, ger Llundain, 1798.—Lewis' *Topo. Dictionary; Encyclo. Londoniensis.*

MORGAN (Parch. Henry), D.D., LL.D., prelad dysgedig, ydoedd frodor o sir Benfro. Yn 1515, derbyniwyd ef fel efrydydd yn mhrifysgol Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn y gyfraith wladol ac eglwysig. Gwnaed ef yn LL.D. yn 1525. Yn fuan ar ol hyn, penodwyd ef yn llywydd coleg St. Edward's Hall, ac enillodd enwogrwydd mawr yn y safle hono. Bu am lawer blwyddyn yn gadeirydd y cyfarfodydd yn mha rai yr ymbarotoai gwyr ieuanc er enill eu graddau yn y gyfraith wladol. Yn 1553, ac efe ar y pryd yn brepend eglwys St. Margaret, Leicester, yn mynachlog Lincoln, ar gyfrif ei fawr ddysgeidiaeth, penodwyd ef gan y frenhines Mary yn esgob Tŷddewi; a chysegrwyd ef i'r swydd yn Ebrill, 1554. Wedi gwasanaethu fel esgob hyd 1559, bwriwyd ef allan gan y frenhines Elizabeth, oherwydd ei ymlyniad diysgog wrth athrawiaethau eglwys Rhufain. Wedi hyny, ymneillduodd i Wolvercote, ger Rhydychain, lle yr oedd iddo rai perthynasau, yn enwedig yr Oweniaid, o Godstow, yn y plwyf hwnw; a bu farw yn ystod yr un flwyddyn, a chladdwyd ef yn eglwys Wolvercote.—Wood's *Athen. Oxon.*

MORGAN (John), M.D., awdwr y *Latona*. Gelwid ef gan y Cymry yn Llundain "Y Doethawr Morgan," efe a alwai ei hun *Pythogoras*. Ganwyd ef yn Ngheredigion, ond treuliodd ran fawr o'i amser yn nghogleddbarth America, ac yno yn Maryland yr anrhydeddwyd ef â'r teitl o Ddoctor. Ei farn ddiysgog oedd mai yr iaith Gymraeg yw mam holl ieithoedd y byd, a phrif hyfrydwch ei fywyd oedd chwilio am wreiddiau ieithoedd, er mwyn profi ei hoff bwnc. Bu farw mewn gwth o oedran yn Llundain.—*Seren, Gomer* Ion. 1850.

MORGAN (Morus), neu yn ol y dull Lladin arferedig yn yr oes hono, *Mauricius Morganius*, yn ol Bale, ydoedd frodor o sir Benfro, ac yn ei flodeu tua'r flwyddyn 1210. Yr oedd yn enwog fel bardd, a dywedir ei fod wedi cyfansoddi amryw o emynau eglwys Rhufain.

MORGAN (M.), Yswain, ydoedd fab i Morgan, ac wyr i William Morgan, Yswain, o Glan Llyn, sir Benfro. Bu yn is-ysgrifenydd cartrefol yn ngweinyddiaeth ardalydd cyntaf Landsowne, pan oedd yn iarll Shelburne. Yr oedd yn awdwr "Essay on the character of Falstaff."—*Gent's Magazine*, 1815.

MORGAN, (Phylip), D.C.L., gwladyddwr a llysgenadydd enwog yn y 15ed ganrif. Yr oedd yn hanu o deulu hynafol ac anrhydeddus yn sir Gaerfyrddin. Penodwyd ef yn ganghellydd Normandi, Ebrill 8, 1418; a chysegrwyd ef yn esgob Worcester, yn mynachlog Rouen, Ffrainc, Rhagfyr 3, 1419. Yn ol *Fœdara* Rymer, ymddengys iddo dreulio ei fywyd rhwng 1414 a 1420 yn Normandi. Dywed Rapin ei fod yn ddyn o alluoedd anghyffredin, ac yr ymofynid am ei wasanaeth bob amser gan Harri V. er cyflawni y negesau pwysicaf mewn perthynas i gytundebau heddwch, priodasau breiniol, &c., ac fel dirprwywr, cynghorwr, a changhellydd y brenin yn Normandi. Llanwai y swyddi hyn ar ol ei ddyrchafiad i esgobaeth Worcester. Yn 1425, trosglwyddwyd ef i esgobaeth Ely, gan y Pab Matin V.; a bu cyng-

Digitized by Google

haws eglwysig pwysig rhyngddo yn y cyfryw swydd âg awdurdodau prifysgol Caergrawnt; eithr wedi apelio at y Pab, collodd Morgan y dydd. Bu farw yn Hatfield, Hydref 25, 1435, a chladdwyd ef yn ol ei ddymuniad yn y Charter House, Llundain.—Wms. *Em. Welsh*,

MORGAN (Robert), D.D., y prelad enwog hwn ydoedd fab Richard Morgan, o Fronfraith, plwyf Llandysul, sir Drefaldwyn, yr hwn a fu yn cynrychioli y sir hono yn y senedd am yspaid; ei fam ydoedd Margaret, merch Thomas Lloyd, Gwernbuarth. Ganwyd ef yn 1608; a chafodd ei addysg gyntaf tan Mr. Lloyd, tad Simon Lloyd, archddiacon Meirionydd. Cafodd dderbyniad i goleg Iesu, Caergrawnt, lle yr enillodd y radd o M.A. Ar ddyrchafiad Dr. Dolben yn esgob Bangor, penodwyd ef yn gaplan iddo, gan yr hwn y cafodd ficeriaeth Llanwnog, sir Drefaldwyn, yn 1632, ac yna rectoriaeth Llangynhafal, Dyffryn Clwyd. Pan fu farw Dr. Dolben, dychwelodd i Gaergrawnt, ac ymsefydlodd gyda'i gyfaill Dr. Beale yn ngholeg St. Ioan, lle y graddiwyd ef yn B.D. Pan ddyrchafwyd Dr. William Roberts yn esgob Bangor yn 1637, penodwyd ef yn gaplan iddo, a gwnaed ef yn ficer Llanfair Dyffryn Clwyd. Yn 1642, cyfnewidiodd Langynhafal am Drefdraeth, yn Mon; ac yn ystod yr un flwyddyn rhoddes Llanfair i fynu, a chafodd yn ei le Landdyfnan, yn Mon. Nid oedd y fywiolaeth olaf ar y pryd ond gwerth £38 y flwyddyn, gan ei fod wedi ei gwerthu ar lês i'r Bulkeleys, o Baronhill. Eithr efe a brynodd hyny allan o'i logell ei hun; a phan y bwriwyd ef allan o'i fywiolaethau eraill, gan y senedd tan Cromwell, gallodd gadw hono yn rhin y daledigaeth grybwylledig. Er i'r lle gostio iddo ef £300, gadawodd ef yn rhydd i'r eglwys, ac y mae yn awr yn un o'r bywiolaethau gwerthfawrocaf yn yr esgobaeth. Dyoddefodd lawer yn ystod rhwysg y weriniaeth; trigianai yn yr Henblas, Llancristiolus. Pan ddychwelodd y freninoliaeth, adfeddianodd ei swyddau, a gwnaed ef yn archddeon Meirionydd, ac yn D.D. yn 1660. Ar farwolaeth Dr. Robert Price, penodwyd ef yn esgob Bangor: a chysegrwyd ef i'r swydd Mehefin 1, 1666. Pan fu farw yr archddeon Mostyn, efe a gadwodd feddiant o'r archddeoniaeth, a thrwy weithred seneddol, sicrhaodd hi i'w olianwyr. Bu farw Medi 1, 1673, a chladdwyd ef yn ei brif-eglwys, ar du deheuol yr allor. Gadawodd amrai gymun-roddion er addurno a harddu eglwys Bangor. Yr oedd yn wr call a dysgedig; ac yn bregethwr hyawdl yn y Saesneg a'r Gymraeg.—Wood's *Athen. Oxon.*

MORGAN (Parch. Richard), gweinidog galluog gyda'r Annibynwyr yn Henllan, sir Frycheiniog. Ganwyd ef yn Ystrad Isaf, plwyf Ystradgynlais, o fewn y sir grybwylledig, yn 1743. Yr oedd ei rieni yn aelodau yn eglwys Cwmllynfell. Collodd ei dad pan tua naw oed, eithr nid esgeulusodd ei fam ei addysg grefyddol. Rhwymwyd ef yn egwyddorwas i ddysgu y gelfyddyd o wneud llestri coed; a phan yn ddeunaw oed, ymunodd â'r eglwys yn Mlaen Glyntawy. Gwelodd yr eglwys fod ynddo gymhwysderau i waith mwy cyhoeddus na gwneuthur llestri coed, ac ar ei hanogaeth rhoddes yr alwedigaeth hono i fynu. Er mwyn darparu ei hun i fyned i'r Athrofa, bu yn yr ysgol gyda'r Parch. W. Evans dros ychydig amser; bu wedi hyny gydag un Mr. Jones, offeiriad yn Ystrad, ac hefyd gyda'r Parch. Mr. Simmons yn Nghastellnedd. Trwy gymeradwyaeth hwn, a'i weinidog, derbyniwyd ef i athrofa y Fenni, yr hon oedd y pryd hwnw dan ofal Mr. Jardine a Dr. B. Davies. Bu am bedair blynedd yn yr athrofa. Yr oedd yn fyfyriwr caled; ie, yn ormod felly, neu yn hytrach yn rhy annoeth,

Digitized by Google

trwy aros mwy nac a ddylasai yn ei gell, yn lle bod dan yr awyr, a thrwy hyny gosododd yn ei gyfansoddiad seiliau i afichyd a fu yn boenus iddo dros ei fywyd, ac yn y diwedd yn foddion i derfynu ei einioes. Wedi gorphen ei amser yn yr athrofa derbyniodd alwad eglwys Henllan, ac urddwyd ef yno Medi 28, 1768; eithr ef a barhaodd yn astudiwr diwyd, llafurus, a helaeth, braidd yn mhob canghen o wybodaeth, yn enwedig yn y pethau hyny a berthynent yn fwyaf neilduol i'r weinidogaeth efengylaidd. Pan yn cynal dyledswyddau cyhoeddus yn ei deulu, darllenai yn y bore gyfran o'r Testament Newydd yn yr iaith Roeg, a'r hwyr gyfran o'r Hen Destament yn yr iaith Hebraeg, gan eu cyfieithu i'r Saesonaeg, er cadw ei hun mewn ymarferiad â'r ieithoedd gwreiddiol hyn. Yr oedd yn Gristion duwiol a gwrol, yn dduwinydd dwfn a helaeth ei wybodaeth, yn oleu yn mhethau yr efengyl, yn ymresymwr cadarn a manwl, yn bregethwr doniol a synl, ac yn ysgolhaig rhagorol—yn ddiau gyda y blaenaf yn Nghymru yn ei amser. Ymddangosai ei feddwl yn ei artrefle gyda phrif bynciau duwinyddiaeth; ac ni byddai yn fwy yn ei elfen mewn un lle na phan yn traddodi y rhai hyn, ac yn ymegnio i eglurhau a dadgylymu cylymau dyrys sydd mewn cysylltiadau pethau, a dangos prif egwyddorion Cristionogaeth yn eu cysondeb â'u gilydd. Ymddangosai yn ei elfen pan yn eglurhau, yn gosod allan, ac yn amddiffyn egwyddorion mawrion yr efengyl, yn wyneb y twyll-ddangosiad a wneid ohonynt, a'r gwrthwynebiad a ddangosid yn eu herbyn o'r naill ochr a'r llall gan eu gwrthwynebwyr. Yr oedd, yn ei syniadau duwinyddol, yn ddysgybl ffyddlawn i Ioan Calfin; ac mor wresog ydoedd dros yr hyn a olygai yn egwyddorion hanfodol yr efengyl, fel y byddai ar rai prydiau yn nyned yn rhy bell i gyfliniau sarugrwydd o bleidgarwch drostynt. Er fod ei archwaeth yn ei arwain at bynciau dyrys a goly yddol, nid ydym i feddwl oddiwrth hyn ei fod yn esgeuluso pethau eglur ac ymarferol crefydd yn ei weinidogaeth. Os oedd ei sel dros burdeb a chywirdeb barn yn fawr, nid oedd ronyn llai dros burdeb bywyd ac uniondeb ymddygiadau. Yr oedd ei arfau yn llym yn erbyn pechodau ac ymarferiadau llygredig ei oes. Rhedai ffrydiau o ddagrau o'i lygaid am na chadwent gyfraith ei Duw. Argymhellai bawb o'i gyd-ddynion yn y modd taeraf, trwy eiriau ac ymddygiadau, i gyflawni eu dyledswyddau crefyddol mewn purdeb a symledd calon. Pregethai holl gynghor Duw, heb atal dim o'r pethau buddiol oddiwrth ei wrandawyr. Anerchai ddeall, cydwybodau, serchiadau, a holl deimladau ei wrandawyr, yn y modd mwyaf serchus a difrifol. Ni arbedai unrhyw draul na thrafferth er adeiladu yr eglwys dan ei ofal, ar y Sabbathau a dyddiau yr wythnos. Cynaliai gyfarfod bob dydd Mercher a Sadwrn i egluro ac agoryd iddynt yr ysgrythyrau. Cynaliai hefyd gyfarfod yn ei dŷ bob nos Wener, yn nhymor y gauaf, i eglurhau yr ysgrythyrau i bobl ieuainc, ac eraill a ewyllysient ddyfod yno, yr hyn a fu yn fanteisiol i gynydd gwybodaeth yn y lle. Gosodai ar yr eglwys, yn enwedig aelodau ieuainc, i ddysgu H dlwyddoreg y Gymanfa yn eu hysgolion Sabbathol. Cymerid trafferth fawr gan athrawon yr ysgol Sabbathol perthynol i'r eglwys hon i egwyddori ieuenctyd cyn erioed i'r cynllun dedwydd a chyffredinol, a ymddangosodd trwy osodiad Mr. Raikes ac eraill, gymeryd lle. Yr oedd Mr. Morgan yn cynyddu mewn gwybodaeth trwy ei oes, yr hyn a brawf mai ei hyfrydle oedd y fyfyrgell; anfynych y gwelid ef allan ohoni, ond pan y gelwid arno at ei ddyledswyddau gweinidogaethol. Darllenai lawer, ond myfyriai

Digitized by Google

fwy. Yr oedd cylch ei fyfyrdodau yn eang iawn; ac er mai duwinyddiaeth oedd ei hoffus bwnc, talai sylw manwl i lenyddiaeth yn gyffredinol. Trwy ei ymdrechion dyfal a diorphwys, daeth y duwinydd penaf a manylaf yn y Dywysogaeth, os nid yn y deyrnas, y pryd hwnw, a'r pregethwr mwyaf dylanwadol. Yr oedd efe yn gweinidogaethu ar eglwysi eraill hefyd, sef Bethlehem, Llandilo, Carfan, Cae-erw, Cilgryman, a Llanboidy. Trwy ei ymdrechion llafurus, cystal â'r pregethwyr diurddau a'i cynorthwyent, cynyddodd yr eglwysi hyn yn fawr. Ail-adeiladwyd tri addoldy, ac adeiladwyd dau o newydd mewn canghenau eraill, yn y rhai y ffurfiesid cymdeithasau crefyddol yn ystod ei weinidogaeth. Yr oedd ganddo wybodaeth ddofn a manwl o'r natur ddynol, adwaenai ddyn o bell. Fel pregethwr yr oedd yn wir fawr. Yr oedd ei bregethau yn hollol amddifad o addurniadau blodeuog areithyddiaeth, grym ac uchder llais, pereidd-dra swynol, ac unrhyw ysgogiadau ac ymadroddion tarawiadol i deimladau dynol: oblegyd yr oedd yn hollol groes i'w olygiadau am bregethu fel yn llenwi yr areithle â dychymygion, ac iaith brydyddol: nid oedd y pethau hyn, yn ol ei farn ef, amgen na dallu cynghor ag ymadroddion heb wybodaeth. Byddai ei bregethau yn llawn o bethau mawrion a sylweddol yr efengyl: gosodai hwy allan mewn iaith eglur a diaddurn, ac yn y dull a'r agwedd mwyaf syml a difrifol; ac ardystiai ei ddagrau pa mor ddwys y teimlai ei galon yr hyn a ewyllysiai i eraill deimlo. Dioddefodd gystudd maith a blin mewn yspryd addfwyn ac arwrol, a bu farw, er galar mawr yr holl gymydogaeth a'i gydnabod lluosog, Chwefror 10, 1805, yn 62 oed; 37 o ba rai a dreuliodd yn weinidog eglwys Henllan. Yn mhen ychydig wedi ymuno ag eglwys Henllan, efe a briododd un Miss Sarah Morgans, yr hon a fu yn briod tra rhagorol iddo.—*Hanes Ymneilldduaeth*, gan Morgan.

MORGAN (Thomas), ydoedd frodor o Gymru, ac a addysgwyd yn Rhydychain. Gadawodd y brifysgol cyn ei raddio, gan fyned i wasanaeth Mari, brenhines yr Ysgotiaid, fel un o'i hysgrifenyddion. Enillodd gymaint o ymddiried ei feistres, fel y penodwyd ef ganddi i fyned i Ffrainc, yn dderbyniwr ei chyllid fel cyn-frenhines y wlad hono. Llanwodd y swydd hono am lawer o flynyddau, gan drigianu weithiau yn Ffrainc, a phryd arall yn Rhufain gyda'i gyfaill a'i gydwladwr, y Dr. Owen Lewis, llywydd y coleg Seisnig yno; a phan benderfynodd y Pab Sixtus V. wneud cardinal Seisnig, ac y bu ymrafael ffyrnig rhwng Dr. Lewis a Dr. W. Allen am yr anrhydedd uchel, hynododd Morgan ei hun yn fawr trwy ei ymdrechion ar ran ei gyfaill. Tynodd hyn arno wg y Jesuitiaid, y rhai o'r diwedd, trwy ddichell a chynllwyn, a lwyddasant i'w roddi yn ngharchar yn Paris, a'i ddiswyddo o wasanaeth brenhines yr Ysgotiaid. Rhyddhawyd ef yn fuan trwy orchymyn penodol y Pab, a gwnaeth ymosodiad ffyrnig ar ei elynion trwy y wasg. Ymddangosodd llyfr o'i waith yn Paris, yn mha un y cyhuddai y Jesuitiaid o "arferion drygionus a dichellion annuwiol." Er dial arno, dywedir ddarfod i'r Jesuitiaid gynllwyn ei frad-lofruddio, eithr gallodd ddianc o'u crafangau wedi ei archolli yn dost. Trwy eu celwydd a'u camgyhuddiad, carcharwyd ef am yspaid maith gan Ddug Parma, eithr ar farwolaeth y gormeswr hwnw, adfeddianodd ei ryddid, a dychwelodd i drigianu gyda Dr. Lewis. Bu farw rywbryd ar ol y flwyddyn 1593.—Wood's *Athen. Oxon.*

MORGAN (Parch. Thomas), a anwyd yn Dyffryn Uchaf, plwyf

Digitized by Google

Eglwys Ilan, Morganwg, Ionawr 7, 1720. Ordeiniwyd ef Mehefin 26, 1746, yn weinidog y Presbyteriaid yn Henllan, sir Gaerfyrddin. Yn 1760, symudodd i Delph, sir York; ac yn 1763, i Morley, ger Leeds. Ysgrifenodd lawer ar athrawiaethau y Drindod a'r Iawn, yn erbyn ymosodiadau Dr. Priestley, i gyhoeddiad a elwid *Wright's Leeds Intelligencer*, ac hefyd draethawd yn dwyn yr enw, "Appeal to the common sense of Plain and Common Christians." Ysgrifenodd lawer i'r *Gentleman's Magazine* hefyd, yn gyffredin tan brif lythyrenau ei enw, ar "Marine Fossils;" "Hanes Pontypridd, Morganwg;" ac ymddangosodd naw o erthyglau galluog o'i waith yn yr un cyhoeddiad rhwng y blynyddoedd 1749 a 1761. Bu farw Gorphenaf 2, 1799. —*Lleyn MSS.*

MORGAN (THOMAS), awdwr "The Moral Philosopher," ydoedd frodor o Gymru, eithr ni wyddis o ba le ynddi. Rhaid ei fod wedi ymfudo ohoni yn ieuanc iawn, gan nad oedd ond hogyn bychan tlawd yn gweini mewn fferm ger Bridgewater, Gwlad yr Haf, pan y tynwyd sylw y Parch. John Moore, yr hwn a gadwai ysgol yn y dref hono, at ei athrylith annghyffredin. Cynygiodd y boneddwr roddi ei ddysg iddo yn rhad, os tanysgrifiai cyfeillion eraill tuag at ei gynaliaeth tra yn yr ysgol. Tybir ddarfod i'r caredigrwydd crybwylledig gael ei estyn iddo, gan iddo gael ei urddo yn weinidog Presbyteraidd yn Marlborough, sir Wilt, yn 1717, lle y llanwodd ei swydd am ychydig flynyddau er anrhydedd iddo ei hun, a mawr foddlonrwydd ei gynulleidfa. Yn Marlborough, priododd Mary, merch Mr. N. Merriman, un o brif noddwyr ymneilldnaeth yn y dref hono a'r gymydogaeth. Yn fuan ar ol 1720, mewn canlyniad i bregethu daliadau annghyson â'r eiddo ei wrandawyr, efe a fwriwyd ymaith o'r weinidogaeth. Dechreuodd bellach efrydu meddygiaeth, ac wedi enill y teitl o M.D., ymsefydlodd yn Mristol, gan obeithio enill ei fywiolaeth gyda'r broffes hono; eithr siomwyd ef, a symudodd i Lundain. Ni bu ei lwyddiant yno drachefn ond bychan fel physigwr. Cyhoeddodd ddau lyfr meddygol, sef "The Philosophical Principles of Medicine," o ba un y daeth allan dri argraffiad, a "The Mechanical Practice of Physick," yr hwn a argraffwyd ddwywaith. Yn ei "Theological Disputations," arddangosid y fath chwerwder yspryd, a barodd i'w frodyr proffeswrol oeri tuag ato. Yn 1737, cyhoeddodd y "Moral Philosopher," yr hwn a dynodd sylw mawr, a gwrthwynebwyd ei ddaliadau gan ysgrifenwyr galluog. Cyhoeddwyd yr ail gyfrol ohono yn 1739, a'r drydedd yn 1740. Er ei fod yn ymresymwr parod, craff, a chyflym, yr oedd ei osodiadau rhesymegol yn dwyllodrus; ac oblegyd ei syniadau deistaidd, digiodd pobl wrtho, collodd ei fywiolaeth fel meddyg, a gordowyd ei feddwl gan siomiant a thrallod. Bu farw yn 1743, gan adael gweddw ac unig fab.—Wms. *Em. Welsh.*

MORGAN, (PARCH. WILLIAM), D.D. Fel un a gododd trwy ei athrylith ysplenydd, ei ddysgeidiaeth ardderchog, a'i ymdrechion llafurfawr, o gendod dinodedd mewn cwm gwledig i eistedd ar fainc esgobol; fel gwasanaethwr dihunangais ei genedl trwy gyfieithiad yr Ysgrythyr Lan i'w hiaith; ac fel eglwyswr a christion cydwybodol, saif enw Dr. Morgan yn rhestr flaenaf enwogion ei wlad—bydd ei gymeriad yn fyw yn nghymeriad ei genedl, a'i enw yn llewyrchus a bendigedig, tra byddo Cymro a Bibl Cymraeg. Mab ydoedd i William Morgan, o Ewybr [neu Wiber] Nant, plwyf Penmachno, sir Gaernarfon. Y mae rhai yn olrhain ei achau o du ei dad i Nefydd Hardd,

Digitized by Google

ac eraill i Hedd Molwynog, sylfaenwyr dau o Bumtheg Llwyth Gwynedd; ac o du ei fam i Farchudd ab Cynan; felly yr oedd efe yn hanu o hen foncyffion anrhydeddus cenedl y Cymry. Y mae amseriad ei enedigaeth, a threigliad bore ei oes wedi llithro i ebargofiant, a'r hanes cyntaf sydd ar gof a chadw am dano ydyw ei fod wedi gorphen ei ddysgeidiaeth yn ngholeg St. John, Caergrawnt. Yn 1575, cafodd ficeriaeth y Trallwm, sir Drefaldwyn, a thybir mai hwn ydoedd ei benodiad eglwysig cyntaf. Yn mhen tair blynedd symudodd i Lanrhaiadr-yn-Mochnant, lle y cyflawnodd orchest fawr ei fywyd, sef cyfieithu, a threfnu a gyfieithwyd eisoes gan enwogion eraill, o'r Beibl i'r Gymraeg. Cyhoeddwyd argraffiad Morgan, a dyna'r cyntaf o'r holl Feibl yn Nghymraeg, gan Richard a Robert Barker, yn y flwyddyn 1558. Y mae y Llyfr wedi ei argraffu â llythyrenau duon blewog, o'r plyg mawr, ac yn cynwys yr Hen Destament, yr Apocrypha, a'r Testament Newydd—cynwysiad i bob penod, wedi ei ranu yn adnodau drwyddo, nodau cyfeiriol ar ymyl y dail, cyflwyniad Lladin i'r frenhines Elizabeth, calender a thablau, ac yn rhifo 555 o dudalenau. Nid yw yr hanes am y modd y daeth Morgan i ymgymeryd â'r gorchwyl yn gwbl eglur yn awr. Barna rhai nad oedd yn gweithredu mewn canlyniad i unrhyw orchymyn awdurdodol, ond yn gwbl o'i rydd-ddewisiad ei hun, ac ar ddymuniad ei gydwladwyr. Nid yw yn crybwyll yr un gair am ei benodiad gan yr esgobion, yn ei gyflwyniad ohono i'r frenhines, fel y gwna William Salesbury. Pa fodd bynag am hyn, y mae traddodiad cyffredinol yn y parthau cyfagos i'r man y llafuriai, yn taro yn erbyn y dystiolaeth uchod. Dywedir mai yr amgylchiad canlynol a ddygodd Morgan i sylw, ac i gael ei anog at y gwaith: Fod achwyniad yn ei erbyn wedi ei anfon at yr esgob, ei fod yn pregethu allan o'r ffordd gyffredin—ei fod yn rhy lym yn erbyn pechodau yr oes—ei fod yn erbyn pob mwynhad difyrol—yn rhy bengam yn nichlynedd ei foesau, ac felly yn anfoddgar i'w wrandawyr, ac yn annghymeradwy gan ei blwyfolion; ac i'r esgob, mewn canlyniad i'r cwyn hwn, alw Morgan gerbron, er rhoddi cynghor neu gerydd iddo, o'r herwydd. Ond wedi ymddyddan cryn lawer â'u gilydd, ac wrth ei alw i gyfrif am y cyhuddiad a roddid i'w erbyn, a chael y fath foddhad yn ei holl atebion, ei iaith, ei ymddygiad, a'i foneddigeiddrwydd, i'r esgob yn fuan droi yr ymddyddan, a holi llawer arno yn nghylch yr ieithoedd gwreiddiol, geiriadaeth, a chystrawen Gymraeg; ac iddo yn mhob peth gael perffaith foddlonrwydd ynddo, fel o'r diwedd y darfu iddo dori allan ar ganol y gyfeillach, a dywedyd, "*Wel, chwi ydyw y dyn i mi i gyfieithu y Beibl i'r Gymraeg,*" gan awgrymu wrth hyny, ei fod dan gyfarwyddiad i ymofyn am ŵr galluog at y gorchwyl. Ymddengys na bu Morgan yn ymgymeryd â'r gorchwyl o gyfieithu yr Ysgrythyrau yn fuan wedi darpariadau y Weithred Seneddol, yn amser y frenhines Elizabeth, ac na wnaethai ond ychydig o'r gwaith cyn dyrchafiad y Dr. Whitgift yn archesgob Canterbury; yr hwn a fu yn gefnogydd gwerthfawr iddo yn ei orchestgamp. Dywed ei hun y buasai wedi suddo dan anhawsderau a digalondid, ac wedi taflu y cwbl i fynu, neu ynte wedi argraffu dim ond pum' llyfr Moses, ond fel y cafodd ei galonogi trwy nodded Whitgift. Nid ymddengys yn eglur iawn pa faint o gymhorth a gafodd yn y gwaith, ond diamheuol yw ei fod wedi cael cydweithrediad amryw, yr hyn oedd yn gwbl angenrheidiol er cyflawni gorchwyl mor fawr. Yr oedd tri wŷr wedi eu penodi i gyfieithu y Testament Newydd, er fod rhanau

Digitized by Google

ohono, sef yr Efengylwyr a'r Epistolau, wedi eu cyhoeddi er amser Edward VI. Nid oes un amheuaeth nad Morgan oedd y prif gyfieithydd, a'i fod yn arolygu y cyfan o waith y lleill: ond ni wyddir yn iawn pwy oeddynt, na pha faint a fu dan eu dwylaw. Dywed Wood fod y Dr. Richard Parry, wedi hyny esgob Llanelwy, yn cydweithredu âg ef, ond nid yw hyny yn eglur, gan nad yw Morgan yn crybwyll dim am dano, er ei fod yn son am eraill yn barchus iawn. Enwa Dr. Whitgift, archesgob Caergaint; esgobion Llanelwy a Bangor (Doctoriaid Hughes a Bellot); Dr. Gabriel Goodman, deon Westminster; Dr. David Powell, ficar Rhiwabon, a swyddwr, medd Wood yn un o'r eglwysi cadeiriol yn Nghymru; Mr. Edmund Prys, archddiacon Meirionydd, awdwr y Salmau Cân Cymreig, a Mr. Richard Vaughan, genedigol o'r Dyffryn, yn sir Gaernarfon, a'r pryd hwnw, person Lutterworth, ac wedi hyny esgob Bangor—esgob Caerlleon—ac esgob Llundain. Tra y bu Morgan yn arolygu y wasg, preswyliai gyda deon Westminster. Tybir fod William Salesbury a'r Dr. Richard Davies wedi marw pan yr ysgrifenai y rhestr uchod, gan fod eu henwau wedi eu gadael allan. Bu Davies farw Tachwedd 7, 1581, ond tybir i Salesbury fyw hyd 1591. Dywed rhai fod y Dr. John Davies ac eraill wedi bod â llaw yn y gwaith, ond oblegyd rhyw resymau na chrybwyllwyd mo honynt, gadawyd eu henwau allan o'r rhestr. Nid yw hyn yn debyg, oblegyd nid oedd Davies ond 18 mlwydd oed pan gyhoeddwyd y cyfieithiad. Wedi gorphen y gwaith o ddarparu y llawysgrifau, yn 1587, aeth Morgan i Lundain i'r dyben o'i arolygu trwy y wasg; a bu yno am yspaid blwyddyn, gan gael ei groesawu yn llettygar gan Dr. Goodman, i'r hwn y mae efe yn ei lythyr cyflwyniad yn talu diolchgarwch gwresog. Fel gorchestwaith lenyddol, y mae barn unfryd unllais yr oesau yn ei edmygu a'i ganmol; ac fel *cyfieithiad*, cydsynia pob dysgedig, cydnabyddus â'r ddwy iaith, ei fod yn tra rhagori ar y Bibl Saesneg. A pha gynifer bynag o gyfnewidiadau a wnaed yn y cyfieithiad Cymreig gan yr esgob Parry yn argraffiad 1620, nid oeddynt gan mwyaf ond yn diweddaru'r arddull, ac yn cynefino'r ymadroddion yn fwy â'r dull diweddarach; eithr nid mewn un gradd yn lleihau rhyglyddiant gorchestwaith cysefin y cyn-gyfieithydd. Yn y flwyddyn y gorphenodd efe ei Feibl, symudodd i fywiolaeth ragorach Llanfyllin, a chafodd hefyd rectoriaeth segur-swydd Pennant Melangell, yn yr un gymydogaeth. Yn 1594, chwanegwyd Dinbych at ei fywiolaethau blaenorol; a'r flwyddyn ganlynol, penodwyd ef gan y frenhines Elizabeth yn esgob Llandaf, swydd a lanwodd hyd 1601, pan y trosglwyddwyd ef i esgobaeth gyfoethog Llanelwy. Yn y *Royal Tribes of Wales*, argraffiwyd gohebiaeth dra ddyddorol a gymerth le rhwng yr esgob a Syr John Wyn, o Wydir, yn yr hon yr edliwia'r barwnig mai trwy ei ddylanwad ef y cafodd Morgan ei ddyrchafu yn yr eglwys. Dechreu'r ymdrafod hon ydoedd i Syr John, gan ystyried yr esgob yn ddyledwr ar dir cymwynas, ofyn iddo roddi amod-rwym (*lease*) iddo ar ddegymau plwyf Llanrwst. Pa fodd bynag, gwrthodwyd y cais yn benderfynol, a dywedai'r esgob yn ei ateb, "ni chaniata fy nghydwybod imi gydsynio â'r dymuniad, gan y byddwn trwy hyny yn ddyn anonest a digrefydd; byddech chwithau yn gysegr-yspeiliwr, yn anrheithiwr ariangar fy eglwys, yn rhwystrydd annaturiol ar ffordd dysgawdwyr a dynion da, a llanwa'r ystyriaeth o fod yn euog o'r fath weithred fy nghalon â blinder parhaus" Yr oedd Syr John yn gryn arglwydd ar ei dŷ a'i dir ei hun, ac fel mân detrarchiaid yn gyffredin

Digitized by Google

yn credu fod ei awdurdod yn gryfach nad ydoedd mewn gwirionedd'; ond prin y gellir cyfiawnhau iaith mor chwerw hyd yn nod gan esgob pan yn amddiffyn hawliau ei gydwybod. Diau fod y barwnig yn syniad am ei ymddygiad fel mawr annghareddigrwydd; ac y mae yn arddangos ei soriant yn gyhoeddus yn *History of the Gwydir Family*, pan y dywed am y Dr. "fod ganddo help yr esgob Davies a William Salesbury yn nghyfieithiad y Beibl, cyfieithiadau y rhai ar ranau helaeth o'r Ysgrythyr gynt oedd ger ei fron: er hyny, efe a gymerai yr holl glod." Chwanega hefyd, "ei fod wedi adgyweirio a thoi cang-hell prif-eglwys Llanelwy, yr hon oedd yn adfeilion. Bu farw yn ddyn tlawd. Yr oedd yn ysgolor campus yn yr ieithoedd Groeg a Hebraeg." Er mor gynil ydyw canmoliaeth yr ychydig eiriau olaf, y maent yn werth llawer, gan eu bod yn deilliaw oddiwrth un nad oedd cyfeillgar-wch na ffafr yn peri iddo eu llefaru.—Wood's *Athen Oxon;* Brown-Willis' *Surveys of Llandaff and St. Asaph*; *Yr Adolygydd*, ii. 16; *Cambrian Plutarch*, 318; *Gwladgarwr*, v. 253.

MORGAN (WILLIAM) A.C.F., a aned yn Mhen-y-bont-ar-ogwy, Morganwg, Mehefin, 1750; a dygwyd ef i fynu i'r un alwedigaeth a'i dad, sef oedd hono, meddyginiaeth. Trwy gariadus gynorthwy ei ewythr frawd ei fam, y Dr. Rhisiart Price, o Lundain, medrodd gael myned i Yspytty Guy a St. Thomas, yn y brif ddinas. Bu yno am dair blynedd yn dilyn ei fyfyrion meddygol yn ddiwyd, yn ddyfal, ac yn llwyddianus. Yn y flwyddyn 1770 y cyhoeddodd y Dr. Price yr argraffiad cyntaf o'i waith ar *Reversionary Payments*. Parodd hyn i lawer o'r Cymdeithasau Yswiriol ymgynghori â'r awdwr gyda golwg ar amryw o'r pynciau y traethir arnynt yn y llyfr; ac awgrymodd y Dr. Price i'w nai y buasai, hwyrach, yn fuddiol iddo droi ei sylw at y mater-ion hyn; a'r canlyniad fu i Mr. Morgan ymroddi i fyfyrio meidron-iaeth â'i holl egni, a gwnaeth gynydd rhyfeddol a chyflym yn y wyb-odaeth hono. Yn mis Chwefror, 1774, penodwyd ef, ar gymeradwy-aeth y Dr. Price, yn ysgrifenydd cynorthwyol i'r *Equitable Society*, a daeth yn brif ysgrifenydd i'r gymdeithas hono yn mis Chwefror, 1775. Yma efe a gafodd gyfle teg i ddilyn ei athrylith, ac a ymroddodd i'w fyfyrion meidronawl a gwyddorawl gyda'r dyfalwch a'r gwresogrwydd mwyaf. Yn 1779, cyhoeddodd waith dan yr enw, "The Doctrine of Annuities;" ac yn 1781, ymddangosodd ei "Examination of Dr. Crawford's Theory of Heat and Combustion." Yn 1783, efe a anfon-odd, trwy law ei ewythr, ei bapur cyntaf i'r Gymdeithas Freninol, ar "Probability of Survivorship." Am y papur tra rhagorol hwn dy-farnodd llywydd a chyngor y Gymdeithas Freninol y tlws aur o rodd-iad Syr Godffrey Copley; ac yn fuan ar ol hyny etholwyd ef yn aelod o'r gymdeithas (A.C.F.) Yn mhen ychydig amser ar ol hyn efe a gyf-lwynodd bapur arall i'r gymdeithas ar destyn cyffelyb; a rhai eraill o'r un ansawdd yn 1791, 1794, a 1799. Diwygiodd y papurau hyn wedi hyny, a chyhoeddodd hwynt yn yr ail argraffiad o'i "Doctrine of Annuities," yr hwn a ymddangosodd yn 1821. Yr oedd Mr. Morgan hefyd yn awdwr y gweithiau canlynol:—"A Review of Price's Wri-tings on the Subjects of Finances," &c., 1792. "Facts addressed to the Serious Attention of the People of Great Britain," 1796. "A Comparative View of the Public Finances," 1803. "Memoirs of the Life of Richard Price, D.D.," 1815. Ysgrifenodd hefyd i *Encyclo-pædia* y Dr. Rees lawer o erthyglau ar yswiriant bywyd, a'r pynciau cysylltiedig â hyny, y rhai yr oedd efe mor hoff ohonynt, ac yn gym-

Digitized by Google

aint meistr arnynt. Gwnaeth ymdrechion ac ysgrifeniadau Mr. Morgan ddaioni dirfawr i'r cymdeithasau yswiriol yn gyffredin, ac yn bendifaddeu i'r *Equitable*, y gymdeithas yr oedd efe ei hun mewn cysylltiad â hi. Pan aeth efe yn ysgrifenydd iddi, yn 1774, nid oedd ei thrysorgyff ond £33,800 gydag oddeutu saith gant o aelodau; ond cyn ei farwolaeth yr oedd ei thrysorgyff dros £9,000,000, gydag amryw filoedd o aelodau. Bu farw Mr. Morgan yn Stamford Hill, Middlesex, Mai 4, 1833, yn 83 oed. Yr un fath a'i ewythr, y Dr. Price, Undodiad o'r drefn Henadurol ydoedd o ran ei olygiadau.

MORGAN, mab i Cadwgan, tywysog Powys, dyn anhydrin a chreulon, yr hwn, yn 1122, a laddodd â'i ddwylaw ei hun, ei frawd Meredydd. Dywed Caradog o Langarfan, am dano, wedi iddo ladd a thynu llygaid nes syrffedu ar waed a chelanedd, ddarfod i'w gydwybod ei gyhuddo; ac iddo fyned ar daith o bererindod ac edifeirwch i Jerusalem, ac ar ei ddychweliad adref, bu farw yn Cyprus, yn mór Groeg, tua'r flwyddyn 1126.—*Myv. Arch.*

MORGAN HEN, neu Morgan Fawr, a olianodd ei dad Owen ab Hywel ab Rhys, fel tywysog Morganwg yn y degfed ganrif. Dywedir ei fod yn dywysog dewr a galluog; ac yn enwog am ei fawrfrydedd, ei degwch, a'i uniondeb, oherwydd paham y gelwid ef yn Arthur yr ail. Efe a briodes Olwen, neu Elen, merch Rhodri Mawr. Bu ymrafael rhyngddo ag Owen, ab Hywel Dda, parth tiriogaeth Ystrad Yw ac Ewyas, yr hyn a roddwyd at farn a chyflafereddiad y tywysog Seisnig Edgar, ac esgobion Llandaf a Thyddewi. Edgar a ddewisodd bedwar-arhugain o wyr doethion, sef deuddeg o Ddeheubarth—gwlad Owen, a deuddeg o Forganwg—gwlad Morgan, ac yntau a lywyddai eu cynghorfa. Penderfynwyd mai eiddo Morgan oeddynt Ystrad Yw ac Ewyas, a dychwelwyd y tiriogaethau hyny tan ei deyrnwialen. Yr oedd ganddo balas yn Nghaerdydd, ac yn Margam a Brigan, lle y cynaliai ei lysoedd cenedlaethol a chyfreithiol. Bu farw yn 1001, wedi cyrhaedd yr oedran mawr o gant a naw ar hugain o flynyddau, ac yn gweled ei frenhiniaeth yn nwylaw ei blant a'i wyrion, i ba rai y rhoddes hi i fynu flynyddau cyn ei farwolaeth, oblegid ei henaint a'i fethiantwch.—Wms. *Em. Welsh.*

MORGAN MWYNFAWR, brenin enwog ar Forganwg, a mab i Arthwys ab Meirig. Dywedir ei fod yn ddyn o berson hardd a theg odiaethol; ac mor garedig a hawddgar, fel pan elai allan i ryfel, nis gallai neb cymhwys i ddwyn arfau beidio ei ddilyn. Oddiwrtho ef y galwyd ei deyrnas gyntaf yn Forganwg; yr oedd ei boblogrwydd a'i addfwynder mor eang, fel y daeth "Mwynder Morganwg" yn ddiareb trwy yr holl wlad. Efe a drefnodd fod deuddeg o wyr doeth, da, ac addwyn, i benderfynu ymrafaelion yn mhlith ei ddeiliaid, a'r brenin yn ben cynghorydd arnynt. Trefnodd hefyd na dderbynid tystiolaeth un gwr mewn llys barn gwladol neu eglwysig, a fuasai yn euog o drawsder, neu greulondeb tuag at unrhyw greadur byw; bydded ef gymydog neu estron, cyfaill neu elyn, Cymro neu fab eillion; ac na roddid unrhyw gred pa bynag yn ei dystiolaeth, hyd yn mhen un dydd a blwyddyn wedi darffod iddo roddi iawn am ei gamwedd, a rhoddi sicrwydd o'i edifeirwch gwir a chyfiawn; ac yna adnewyddid iddo ei freiniau a'i hawliau gwladol. Morgan a adeiladodd lys yn Margam, ac a'i gwnaeth yn dref esgob, a pharhaodd felly tra fu byw pum' esgob yn olynol, pan yr unwyd hi gyda Llandaf. Efe a fu farw yn 560. Rhestrir ef yn *Trioedd* 31, tan y penawd "tri rhuddfarchogion," gydag Arthur a Rhun

Digitized by Google

ab Beli; sef pan ydd elynt i ryfel ni fynai neb aros gartref rhag maint eu cerid, ac nid oedd na rhyfel na maes nas enillynt, lle ni bai frad na chynllwyn." Mewn *Tri* arall, rhestrir ef gyda Medrawd a Hywel ab Emyr Llydaw fel "tri marchog brenhinol llys Arthur; cyneddf oedd iddynt eu bod mor hynaws, a llaryaidd, ac addwyn eu hymarroddion, ag y byddai anhawdd gan un dyn o'r byd omedd a nacau iddynt a geisynt." Yr oedd Càr Morgan Mwynfawr yn un o "dri thlws ar ddeg Ynys Prydain: od ai dyn ynddo, dymunai ei fod lle y mynai, ac efe a fyddai yn ebrwydd."--*Myv. Arch.; Iolo MSS.*

MORGAN, neu *Pelagius*, a anwyd yn Nghymru tua chanol y bedwaredd ganrif. Gelwir ef yn fynach, a dywedir ei fod yn aelod o fynachlog Bangor-is-y-Coed, yn sir Fflint. Wrth ddilyn ei efrydiadau, llithrodd i gyfeiliornad dinystriol, ac aeth i Rufain, a dechreuodd bregethu ei athrawiaethau yn y ddinas hono tua'r flwyddyn 400. Daliai fod yn ngallu dyn weithio allan ei iechydwriaeth ei hun, trwy nerth ei ewyllys rydd a naturiol, ac heb gymhorth gras; fod modd i ddyn trwy ymdrechion personol gyrhaedd y fath sefyllfa o berffeithrwydd, fel na byddo yn wrthddrych chwant a phechod; fod gras yn cael ei chyfrann i ni yn ol ein teilyngdod; ac nad oes y fath beth a phechod gwreiddiol. Trwy ei fod yn wr tra dysgedig, duwiolfrydig, a defosiynol ei fuchedd, enillodd dorf fawr o ddilynwyr, a lledaenodd ei heresi i'r fath raddau, fel y bu raid iddo adael Rhufain yn 409, ac aeth i Sicily, a chydag ef Celestius, ei brif ddysgybl a'i gyd-lafurwr. Oddiyno symudodd i Balestina, lle y derbyniwyd ef yn groesawgar gan Ioan, esgob Jerusalem, a thrwy ei ddylanwad ef, dieuogwyd ef mewn dau gydymgynghorfa *(councils)*, er gwaethaf gwrthwynebiad ffyrnig Jerome. Cymerodd hyn le yn 415; a'r flwyddyn ganlynol, darfu i Augustin gynull ymgynghorfa yn Affrica, a chollfarnwyd y gau athrawiaethau drachefn. Yna apeliodd Pelagius at y Pab newydd-greedig Zosimus, yr hwn a benderfynodd fod y syniadau yn ddiniwed. Yn Mawrth, 418, rhoddwyd cyhoeddiad ymherodrol allan o Constantinople yn alltudio Pelagius a Celestius o Rufain, ac yn bwgwth pawb a fabwysiadent eu hathrawiaethau â charchar ac atalfaeliad meddianau. Yn mis Mai dilynol, cynaliwyd cynghorfa drachefn yn Carthage, pan yr oedd dau gant o esgobion yn bresenol, a llwyddwyd i gael gan y Pab a'i glerigwyr i roddi eu sel derfynol o gondemniad ar yr ensyniadau Pelagaidd. Pa fodd bynag, ni buont feirw o'r archollion hyny, eithr lledaenwyd hwynt yn fawr, ac ymrithient mewn gwahanol ddulliau, a than wahanol enwau; eithr ni wnaed unrhyw ymgais pellach i'w lledaenu gan eu coleddwyr cynhenid. Yr oedd Pelagius yn awdwr amryw lyfrau, yn eu mysg "Draethawd ar y Drindod;" "Esboniad ar Epistolau Paul," yr hwn a gysylltid gyda gwaith St. Jerome, a thybid am hir amser mai ei waith ef ydoedd; "Llyfr o Ddiarhebion Ysprydol;" amryw Lythyrau, yn mhlith y rhai y mae un wedi ei gyfeirio i forwyn o'r enw Demetrias, yr hwn a argraffwyd yn ngweithiau Jerome; amryw ddarnau mewn amddiffyniad iddo ei hun; a thraethawd tan yr enw "De Libero Arbitrio." Ysgrifenwyd bywgraffiad Pelagius gan Cardinal Norris. Gelwid ef Morien yn y *Myv. Arch.*, a dywedir yno mai "mab i Argad Fardd ydoedd, a'i fod yn ei flodeu tua 380. Efe oedd y dysgedicaf o bawb o'r byd. Yr oedd yn gwadu bedydd ac aberthiad corph Crist; a tharddodd o hyny, gas, ymrysonau, a rhyfel-oedd. Yr oedd dysgeidiaeth Morien y fath fel y daeth "Morienddysg" yn ddiareb.

Digitized by Google

MORGANWG (LEWIS), bardd enwog yn ei flodeu o 1500 i 1540. Llywyddai orsedd Morganwg yn 1520. Rhoddir esiamplau mynych o'i waith gan Iolo Morganwg yn *Nghyfrinach y Beirdd*, a chan Cynddelw yn *Nhafol y Beirdd*, ac y maent yn arddangos ystwythder ymadrodd, ac urddas awenyddol o radd uchel. Y mae "Cowydd St. Illtyd," o'i waith yn argraffedig yn *Iolo MSS.* Efe hefyd a ysgrifenodd hanes tair talaeth Cymru.

MORGENEU, esgob Tyddewi. Yn 996, darfu i'r Daniaid mewn cysylltiad âg Iestyn ab Gwrgant ac Aeddan ab Blegwryd, losgi Tyddewi, a lladd Morgeneu yr esgob. Dywed Giraldus mai efe oedd yr esgob cyntaf yn Nhyddewi a fwytaodd gig.

MORFRAN AIL TEGID, bardd yn ei flodeu yn y 6ed ganrif, a chymeriad hynod yn yr hen ramantau Cymreig. Cofnodir ef yn y *Trioedd* tan y penawd "tri esgynydd aeran;" ac mewn *Tri* arall, rhestrir ef gyda Glewlwyd Gafaelfawr a Sandde Bryd Angel, fel triwyr a ddiangasant o frwydr Camlan, a'u bywyd ganddynt—"Morfran ab Tegid rhag ei hacred, sef y tybiai pawb mai cythraul o uffern ydoedd, ac y ffoynt rhagddaw." Dywedir hefyd yn "Mabinogi Cilhwch ac Olwen" fod blew yn tyfu trosto fel blew carw. Yn "Mabinogi Taliesin,' dywedir mai mab ydoedd i Tegid Foel a Cheridwen, ac mai chwaer iddo oedd Creirfyw, "y fenyw decaf yn yr holl fyd."

MORFYDD, merch i Madog Lawgam o Fon, cariadferch yr enwog fardd Dafydd ab Gwilym, a rhian nodedig am ei thegwch. Yr oedd y bardd hwnw wedi syrthio mor ddwfn i gariad â hi, fel y cyfansoddodd,

Saith gywydd i Forfydd fain,
Seth hoywgorph, a saith ugain.

Y rhai a argraffwyd yn ei waith. Er ei bod hi yn dueddol i ddychwelyd y serch hwnw, rhwystrwyd hi gan ei rhieni, a gorfodwyd hi i briodi hen gimwch gwargam o'r enw Cynwrig Cynon, unig brydferthwch yr hwn ydoedd arian, ffrwyth ei gybydd-dod. Yr oedd Morfydd arall, sef merch i Urien Rheged, yn mha un yr ymserchodd Cynon, ac am hyny y gelwid ef yn un o "dri serchogion Ynys Prydain."

MORRIS (PARCH. ANDREW), ydoedd drydydd mab Morris ab Meredydd, o'r Lloriau Uchaf, plwyf Llansilin, sir Drefaldwyn. Efe a'i frodyr oedd y rhai cyntaf o'r teulu i fabwysiadu y cyfenw Morris, neu Maurice. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn ngholeg Oriel, a thrachefn yn ngholeg yr holl Saint, Rhydychain. Ar gymhelliad Syr Maurice Abbot, gweinyddydd i'r archesgob Abbot, cafodd yn ol ei ddewisiad, ddeoniaeth Llanelwy, gan yr esgob John Owen. Yn Ebrill, 1641, rhoddwyd iddo ran o bersoniaeth ddiswydd Llansannan, ficeriaeth Corwen, a phersoniaeth Llanycil. Deolwyd ef ohonynt oll yn amser Cromwell, er nad yw Walker yn ei *Sufferings of the Clergy* yn crybwyll ei enw. Bu farw yn 1653, a chladdwyd ef yn ddirgel yn Llanelwy.—Edward's *Brown Willis; Cambro. Briton* i. 386.

MORRIS (PARCH. DAVID), un o bregethwyr enwocaf y Methodistiaid Calfinaidd. Ganwyd ef yn Lledrod, sir Aberteifi, yn 1744. Ni wyddis ddim am dreigliad ei fywyd boreol. Dechreuodd bregethu pan yn 21 oed, a daeth yn fuan yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd y Dywysogaeth. Nid ymddengys fod dim yn ei bregethau fel cyfansoddiadau trefnus a choeth, ond yr oedd ei sylwadau ar yr Ysgrythyrau yn dra phert a tharawiadol; ei apeliadau difrifol at gydwybodau ei wrandawyr yn nerthol a gafaelgar; a'i lais yn gryf, treiddgar, a thra melodaidd; ac nis gall iaith ddysgrifio yn iawn y nerthoedd

Digitized by Google

annysgrifiadwy ac anwrthwynebol a ddilynent ei areithyddiaeth ysplen-yd. Teithiodd lawer ar hyd Gogledd cystal a Dehendir Cymru; nid oedd odid lan na chwm na byddai gan yr hen bobl tuag ugain mlynedd yn ol ryw hanesyn neu draddodiad am dano; a bu yn un o'r prif offerynau yn sefydliad eglwysi y Methodistiaid Calfinaidd yn y Dywysogaeth. Yr oedd cael Dafydd Morris i bregethu mewn capel Trefnyddol yn rhywbeth cyfystyr i gysegru y capel hwnw, ac nid anfynych y dilynai y fath effeithiau ei bregethau grymus fel yr enillid ardal gyfan bron i goleddu yr egwyddorion a broffesai. Sonir am un bregeth dra neilldnol iddo yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog—pregethai tan goeden frigog o fasarn yn muarth Sarphle, ar y gair, "Dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth, canys ni elli fod mwy yn oruchwyliwr." Torodd pawb bron yn y lle i waeddi, neu i wylo—i folianu, neu i weddio. Yr oedd Duw yn ei lef, a chyrhaeddai galonau. Plygai anystyriaeth rhai, a gwrthwynebiad eraill; nis gallent ddal yr hylif tanllyd o hyawdledd difrifol a fwrid arnynt—toddai calonau celyd fel cwyr. Golygfa ydoedd na welsid erioed mo'i chyffelyb yn y wlad hono. Dywedai y Parch. Christmas Evans am dano:—"Yr oedd Dafydd Morris yn bwysig a thra deffrous yn ei anerchiad at gydwybodau a serchiadau ei wrandawyr. Nid hawdd yw darlunio yr effeithiau oedd yn canlyn ei ddawn yn y dyddiau tanbaid a deffrous hyny. Yr oedd dwysder yn nodwedd berthynol i'w ddawn, yr hon oedd yn dra chyffrous." Daliodd rhyw dewychder mawr ef yn ieuanc, a chynyddodd arno i raddau anarferol, nes bod ohono yn annghysurus iddo ei hun, ac yn syndod i eraill. Yr oedd tewdra yn anfantais fawr iddo a phoenus wrth deithio gydda'i alwedigaeth bwysig. Yr oedd drysau rhai pwlpudau yn rhy gulion iddo fyned i mewn iddynt. Defnyddiai gyfrwy o'i flaen wrth farchogaeth er mwyn esmwythdra; a dywedai un hen wraig yn Nghilcen, sir Fflint, yr hen a fuasai yn golchi ei grys, a llathen yr hon yr ydym yn ofni oedd yn lled fer, fod ei goler yn llawn llathen o hyd. Fel engraifft o syniad un o'i gymydogion diniwed am ei gorph tewychus a'i dduwioldeb personol, clywsom yr hanesyn canlynol ychydig ddyddiau yn ol: Nid oedd Wil Dolfor, gerllaw Troedyraur, yn cael ei gyfrif lawn mor synwyrol ag ydoedd o dew, ac uchelgais ei fywyd ydoedd bod yn aelod cyflawn o'r Eglwys Sefydledig; eithr gomeddai yr offeiriad hyn iddo oblegyd ei wendid deallol ac fel esgus dywedai fod Wil yn enog o'r pechod a'r pechod, a'r hwn yr ymadawai erbyn y mis canlynol. O dipyn i beth, nid oedd yr un pechod gwarthus yn aros ar Wil, ac o ganlyniad yr un esgus i'r offeiriad. "Wel, Mr. Hwn a Hwn, ga i nghymun y Sabboth nesaf?" ebai'r truan gwirion. "Na chei, Wil," ac fel esgus olaf chwanegai, "yr wyt ti yn rhy dew i fyned i'r nefoedd." "Nag ydwyf wir, Mr. Hwn a Hwn, onide siwt yr aeth *Dafydd Morris* yno—yno yr aeth Dafydd Morris yn sicr, ac nid wyf fi o lawer gan dewed ag oedd e'." Yr ydym yn gobeithio fod y gwr parchedig trwy yr atebion hyn wedi cael seiliau digonol i credu fod Wil Dolfor yn greadur cyfrifol. Tua'r flwyddyn 1774, symudodd Dafydd Morris i fyw i'r Twrgwyn, ger Castell Newydd Emlyn. Noswyliodd yn gynar iawn—bu farw Medi 17, 1791, yn 47 oed. Mab iddo ef ydoedd yr enwog Ebenezer Morris.

MORRIS (Parch. Ebenezer), ydoedd fab y Dafydd Morris uchod. Ganwyd ef yn Lledrod yn 1769. Ni chybrwyllir dim neilldnol am ddyddiau ei ieuenctyd, ond ei fod yn fachgen bywiog ei gynoddfau, a

Digitized by Google

llawn o ddireidi plentynaidd. Pan tua 17 oed, aeth i Drecastell, sir Frycheiniog, a bu yno tros rhyw dymhor yn cadw ysgol. Yno hefyd y dygwyd ef i wybodaeth o'r gwirionedd, a hyny trwy offerynolhaeth hen bregethwr nodedig gyda'r Methodistiaid, o'r enw Dafydd William Rhys. Pan yn 19 oed, dechreuodd bregethu; ac esgynodd ar unwaith i restr flaenaf pregethwyr Methodistaidd yr oes hono. Ar farwolaeth ei dad yn 1791, symudodd i'w hen gartref yn mhlwyf Troed-yr-aur. O ran ei gorph, nid oedd Ebenezer Morris yn ddyn tal iawn, ond yr oedd o gyfansoddiad cryno a chorffol. Yr oedd o ymddangosiad hardd, o wynebpryd agored a theg, yn meddu ar bob cymhwysder golwg a gwedd i beri sylw a pharch. Newidiai lawer ar ei wedd ac ar ei lais wrth bregethu. Medrai eu cyfaddasu at y materion mewn llaw gyda deheurwydd tra naturiol, ac mewn modd tra effeithiol. Yr oedd ei ymddangosiad yn y pwlpud yn hardd dros ben; yr oedd gwedd gonestrwydd a challineb yn ei wynebpryd; yr oedd pereiddddra a grym yn ei lais; a gweddusrwydd ardderchog yn ei ymadroddion. Nid oedd neb i'w gael â llai o rodres a choegedd nag efe yn y pwlpud; ni ddysgasai wenieithio i neb, nac mewn un man; ac er mor wrol ydoedd o feddwl, ac er lleied oedd arno o ofn neb, nid oedd neb yn arfer llai o drais ar y gweiniaid;—medrai fod yn fwyn heb weniaeth, a medrai fod yn hyf heb anweddeidd-dra. Ymddangosai y tri pheth hyn yn eglur ac ardderchog ynddo, *gwroldeb, gonestrwydd, a challineb.* Yr oedd Ebenezer Morris yn feddianol ar dalentau helaeth fel pregethwr, a'r rhai hyny yn naturiol ganddo. Ni chafodd lawer o seibiant gan amgylchiadau i gysegru llawer o amser i astudio areithyddiaeth, i amaethu a choethi ei ddawn naturiol, nac i gyfansoddi ac ysgrifenu ei bregethau. Hawdd ydyw i ni gasglu na allasai gael seibiant i hyny, pe buasai ei fryd ar hyny, oblegyd fe ddechreuodd bregethu yn ieuanc, ac yn fuan ar ol ei atal yn ei wylltineb fe briododd yn 20 mlwydd oed; disgynodd arno ofalon teulu, a thrafferthion bydol, mewn canlyniad, ac efe a fu am yspaid y 14 neu 15 mlynedd cyntaf ar ol priodi yn isel a thrafferthus iawn ei helyntion. Pan y cymerom yr amgylchiadau hyn i ystyriaeth, a chofio hefyd fod yr alwad arno i bregethu yn ei fro ei hun, ac i deithio gwahanol siroedd De a Gogledd, yn trethu ei amser i'r eithaf, nid ydym yn synu os na allwn ganfod cymaint o ol celfyddyd ac efrydiaeth ar ei bregethau ac ar ei ddawn. Cyneddfau naturiol ac ymarferiad a'i gwnaeth y peth oedd. Nid oedd naturiaeth, er hyny, ddim wedi ei gadael i redeg yn wyllt ynddo ef, fel y ceir hi weithiau mewn rhai mawr eu dawn a bychan eu coethder; ond ynddo ef yr oedd ei ddawn naturiol yn cael ei llywodraethu gan synwyr cryf, ac yn cael ei heneinio gan ras mawr. Nid yn fynych y cyfarfyddwn â neb a ddaliodd ei boblogrwydd a'i ddefnyddioldeb yn fwy gwastad nag a wnaeth ef. Yr oedd yn boblogaidd anarferol ar ei ymddangosiad cyntaf, ond nid yn fwy felly, nac yn gymaint felly, ag yn ei flynyddau diweddaf. Meddai y diweddar Barch. David Charles, Caerfyrddin, yn y cofiant byr a ysgrifenodd am dano i gyhoeddiad Saesneg, "Ei lais ydoedd hynod o ran ei bereidd-dra a'i awdurdod. Ni phallai un amser i enill a sefydlu sylw ei wrandawyr, a hyny gan amrywiaeth, hyawdledd, a bywiogrwydd ei ddull. Ei gof cryf, ei barodrwydd, a'i ffraethineb a'i cariai trwy froddegau hirion, cynwysfawr, a nerthol, yn eglur ac ardderchog, er mawr syndod i'r gwrandawyr." Dysgleiriai ryw luchedau tanllyd yn fynych yn ei bregethau, a fyddent yn wir anorchfygol.

Digitized by Google

Teimlai ei wrandawyr yn aml, pan y gollyngai allan fygythion Duw yn erbyn anwirfyd, mewn llais grymus, a chyda gwedd arswydlawn, eu bod megys ar ddibyn distryw, a theimlent eu gwallt yn sefyll yn syth, a'u cnawd yn crynu gan fraw. Cerddai nerth ac awdurdod anarferol yn fynych gyda rhyw air a draethai ;—gair a adroddai trosodd a throsodd, nes y byddai pob wyneb yn lli' o ddagrau. Prif nodwedd ei weinidogaeth ef, fel yr eiddo ei dad, oedd *grymusder a helaethrwydd.* Nid oedd ei bregethau yn gyffredinol ond byrion ; parhaent y rhan amlaf o 20 i 40 munyd ; anfynych iawn y cyrhaddent awr gyfan, ond y mae crybwylliad iddo unwaith bregethu awr a haner, a hyny mewn cyfarfod yr oedd disgwyliad mawr wrtho, ac ar ol i frawd arall fod yn fyr o'i flaen. Dywedai hen flaenor gyda'r Annibynwyr am dano, yr hwn oedd wedi ei wrandaw ganoedd o weithiau, ac yn byw yn ei gymydogaeth, na chlywodd ef yn terfynu ei bregeth erioed "*heb gael gafael yn y bobl.*" Defnyddiai lawer ar ymadroddion Ysgrythyrol, a defnyddiai hwynt, nid cymaint i harddu ei bregeth ei hun, ond i fachu cydwybodau ei wrandawyr. Deallai y bobl yn bur fuan ei fod yn llefaru *wrthynt hwy, ac am danynt hwy*, a hyny o ddifrif. Nid boddlon oedd y gwr da hwn i brydferthu ei bregethau âg ymadroddion tlysion, ac â brawddegau coeth ; llafuriai yn hytrach i ddwyn y gwirionedd (dan sylw) a'r gwrandawyr i gyfarfod â'u gilydd, modd y teimlid awdurdod y *gwirionedd*, yn hytrach na chanmawl y *pregethwr.* Enillasai Mr. Morris le mawr yn mysg ei frodyr. Collwyd Rowlands oddiar y maes pan oedd Mr. Morris eto yn ieuanc, ac wedi bod yn pregethu ond dwy flynedd. Y flwyddyn ganlynol, aeth ei dad Dafydd Morris i'w gartref hir. Yr oedd Mr. Williams, Lledrod, wedi cychwyn ar ei daith weinidogaethol gyda'r Methodistiaid ychydig o'i flaen, a John Thomas, o Aberteifi, newydd osod ei law ar yr aradr. Gyda'r gwyr hyn, yn nghyda Mr. Grey, y llafuriai Mr. Morris yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth ; ac nid gormod chwanegu ddarfod iddo gyrhaedd llawn cymaint o ddylanwad, a llenwi llawn cymaint o le, yn ei wlad, a neb o'i gydoeswyr. Ac nid oedd ganddo ddim dylanwad chwaith ond a enillodd. Pwys a chysonedd ei gymeriad personol, purdeb a grym ei weinidogaeth, a dyfalwch cyson ei lafur, a enillodd iddo y dylanwad. Yr oedd yn iach oddiwrth y gwaeleddau a anurddai rai gwyr da yr oes o'i flaen ; yr oedd mwy o farn a chydwybod yn ei lywodraethu, os oedd llai o dymherau a hwyliau. Gellid ymddiried mwy iddo, er ei fod yn llawer ieuengach. Gosododd ei wyneb yn erbyn pob gogwyddiad at benrhyddid mewn barn a buchedd, a safodd yn erbyn y gellif fel mur pres ; ac ni allai na gwawd, na rhagfarn, na dylanwad neb ei ysgogi. Yr oedd cadernid a diysgogrwydd yn nodwedd hynod yn ei gymeriad. Cymerodd Mr. Morris ran bwysig a blaenllaw yn llwyr ymneillduad yr enwad Trefnyddol oddiwrth yr Eglwys Sefydledig ; ac yr oedd yn un o'r triarddeg o'r Deheudir a neillduwyd yn nghymdeithasfa Llandilo Fawr, Awst, 1811, i weinyddu y sacramentau yn mhlith yr enwad hwnw. Safodd yn ddewr, a siaradodd yn ddifloesgni, o blaid y symudiad ; a thrwy hyny, tynodd arno ei hun wg y blaid wrthwynebol. Diau nad oedd hyn ond peth a ddisgwyliai, ond nid oedd colli gwên na mawr na bach o un pwys ganddo ef pan fyddai cydwybod a dyledswydd yn galw arno i weithredu. Cafodd fyw am dair blynedd ar ddeg ar ol y symudiad pwysig y bu yn un o'r prif offerynau i'w ddwyn oddiamgylch, ac ni chafodd achos i edifarhau oblegyd ei ymddygiadau ar yr achlysur

Digitized by Google

hwnw. Wedi cadw gwisgoedd ei fuchedd yn lân a dilychwin am 37 o flynyddau, efe a fu farw Awst 15, 1825, yn 57 oed. Ei eiriau diweddaf, gan godi ei law wrth eu dywedyd, oedd "O, Ysbryd Glan!" Rhodiodd rydiau Moab yn dawel, hamddenol, ac ymroddgar i ewyllys ei Feistr Mawr, ac aeth trwy yr afon yn orfoleddus.—*Meth. Cymru*, ii. 91; *Evangelical Magazine*, Ebrill, 1826.

MORRIS (EDWARD), o'r Perthi Llwydion, plwyf Cerrig y Druidion, sir Ddinbych. Porthmon ydoedd wrth ei alwedigaeth, a thrwy ei ymweliadau mynych â Lloegr, casglodd gryn lawer o adnabyddiaeth â'r byd. Yr oedd yn awdwr amryw gerddi a charolau rhagorol, ac yn gyfaill personol, os nad perthynas i Huw Morris, o Bontymeibion, yr hwn a ganodd ei farwnad, yn yr hon y dywedir iddo farw yn Essex, yn y flwyddyn 1689.

MORRIS (HUGH), bardd gorchestol a thra awenyddol, a anwyd yn Mhont-y-meibion, Llansilin, sir Ddinbych, yn 1622. Uchelwr cyfriol oedd ei dad, yn byw ar ei dreftadaeth ei hun, a Hugh oedd y trydydd mab. Pa un a gafodd efe beth dysg heblaw yr hyn a gyrhaeddodd trwy ei athrylith gynhenid ei hun, nid oes dim hysbysrwydd. Pan gyrhaeddodd oedran cyfaddas, dodwyd ef i ddysgu celfyddyd barcer *(tanner)*, gyda gwr oedd yn byw yn y lle a elwid 'Gwalian,' yr agos i Overton, yn sir Fflint. Bu yn draddodiad ddarfod i ryw droion annoeth yn ei ymddygiadau fod yn achlysur i beri iddo fethu gorphen yspaid ei ymrwymiad yn y lle hwnw; ond drwy sylwi yn fanylach ar ei ysgrifeniadau ef ei hun, cafwyd allan mai cam-chwedl oedd hyny. Eto er iddo dreulio cyhyd yspaid i ddysgu ei alwedigaeth, ymddengys na flinodd byth mo'i ben yn ei chylch ar ol iddo gael ei hun yn rhydd o'r ymrwymiad, ond dychwelodd i dŷ ei dad yn Mhont-y-meibion, lle y trigianodd rhagllaw gyda'i rieni, ac ar eu hol hwynt gyda'i frawd hynaf, ac fe allai ryw yspaid gyda thô arall wedi hyny, ganddilyn gorchwylion amaethyddol hyd ei farwolaeth. Ar yr un pryd, pan ystyrier helaethrwydd ei gyfansoddiadau, ymddengys yn amlwg ei fod yn defnyddio yr ysgrifell yn llawer mynychach na'r rhaw na'r aradr. Y caneuon drwy ba rai y dechreuodd enill yr enw o fod yn brydydd, oeddynt gan mwyaf o'r rhywogaeth a elwir "Mawl Merch," yn yr hwn ddosparth y cynyddodd yn fuan i'r fath fri, nes daeth yr holl wlad i'w gyfrif yn bencampwr y gelfyddyd hono, a llawer o is-brydyddion y dyddiau hyny, a rhai diweddarach, yr un modd, a ymdrechasant i'w efelychu, er eu bod oll yn fyr iawn o gyrhaeddyd eu cynllun. Ac oherwydd ei ragoroldeb ef yn y gorchwyl, nid anfynych y deisyfid ei wasanaeth gan lawer llencyn serchglwyfus a fyddai yn atlwyddiannus yn ei ymgais i enill gwrthddrych ei serch. Ond er cymaint oedd dawn a deheurwydd Huw yn y grefft hon, efe ei hun a fu fyw ei holl oes yn ddibriod. Yn ei flynyddoedd boreuaf cyfansoddodd hefyd amryw o waryddiaethau crefyddol, ac ambell *Interlute*. Aeth y rhai hyn ar ddifancoll er's talm, ac nid oes ar gael ond ambell gerdd a berthynai iddynt. Yn fuan ymdaenodd ei glod fel prydydd drwy'r holl fro, a'r son am barodrwydd ei ddawn a'i ffraethineb ni fu yn hir nes enill sylw bonedd y gymydogaeth; ac o ganlyniad byddai iddo wahoddiad mynych a chroesaw gwresog yn Nghastell y Waen, Brogyntyn *(Porkington)*, y Glascoed, a'r Plas-newydd. Ac ar un achlysur, yn Mrogyntyn, digwyddodd iddo gyfarfod â'r Dr. Wm. Lloyd, esgob Llanelwy; ac nid ychydig, meddir, a fu o ymgomio rhyngddynt. Yr oedd Huw Morus yn byw yn amser yr anghydfod mawr rhwng y Senedd a'r Brenhinoedd. Ond ar hyd ei

Digitized by Google

oes, dan chwech o benau coronog yn olynol, pleidiai efe yn ddiysgog o du y goron; ac nid bychan oedd effaith ei gyfansoddiadau er tueddu ei gydwladwyr hefyd i'r un olygiadau. Eithr er ei fod yn amddiffynwr dewr i'w olygiadau ei hun, nid ymddengys ddarfod iddo un amser roddi y ffrwyn i ddrwg-dymherau, ond y mae gwythen o hynawsedd yn rhedeg trwy hyd yn nod ei dduchanau dygnaf. Afreidiol dywedyd ei fod drwy bleidio y goron, fel y crybwyllwyd, yn dwyn ei hun yn agored i ddialedd pleidwyr y senedd; eto ni chlywsom ddarfod iddo ddyoddef o'r herwydd ddim o'r fath gyfyngderau ag a gyfarfu rhai o'i gydwladwyr o'r un blaid ag ef mewn parthau eraill o'r Dywysogaeth. Ond nid drwy ei ymdrechiadau gwladwriaethol yn unig y peryglodd ei hun; eithr bu mewn enbydrwydd mwy uniawn-gyrchol trwy iddo arfer ei Awen yn erbyn trais ac anngyfiawnder mwy cartrefol. Un o'r cyfryw amgylchiadau a achlysurwyd trwy ryw hocedwaith budr a ddigwyddodd yn nghymydogaeth Rhiwabon, lle yr oedd etifeddiaeth wedi ei gŵyr-dynu oddiwrth y cyfiawn etifedd drwy ffug-ysgrifeniad ewyllys, wrth ba un y defnyddiwyd llaw y marw i ysgrifenu ei enw; ac wedi hyny gwnaed llwon i gadarnhau mai ysgrifen y marw ei hun ydoedd yr unrhyw. Daeth si am y weithred erchyll hon i glustiau y bardd, a defnyddiodd ei awen i fflangellu yr hocedwyr mewn dull tra diarbed trwy bedair o ganiadau helaeth ar y mater, yn mha rai y defnyddiau y dybiaeth fod clychau eglwys Rhiwabon yn seinio o honynt eu hunain yn nhrymder y nos pan oedd y weithred adgas yn cael ei chyflawni. Parglywodd yr hocedwyr fod y fro yn dyspedain gan y caneuon edliwus, cydfwriasant i fynu gafael yn y cyfansoddwr, a gwyr i'r dyben hwnw a ddaethant at Bont-y-meibion, a'r dyn cyntaf a gyfarfuant yno oedd y bardd ei hun. Ond gan nad adwaenent ef, gofynasant a oedd Huw Morus gartref. Yntau, gan led-ddyfalu eu neges, a atebodd yn nacâol, gan gynyg ar yr un pryd eu cyfarwyddo i'r lle yr ydoedd. Ar y ffordd, cafodd gyfle i'w gadael yn ddiarwybod, gan eu sionni hwy ac achub ei hunan. Heblaw arfer ei ddoniau fel hyn tuag at atal anonestrwydd a gorthrymder, ymdrechai yn ddyfal i feithrin y gwrthwyneb dueddiadau trwy daenu moesol gyfarwyddiadau, yn mhlethiad ei ganeuon, yn mysg ei gydwladwyr, gan eu hanog i fucheddu yn syberlan ac yn frawdgarol; a bernir mai nid ychydig o'r effeithiau hyn a weithredwyd ar ei gydgenedl drwy offerynoliaeth ei gyfansoddiadau lliosog. Mynych iawn hefyd y rhoddai fenthyg ei ddawn i gynhyrfu tosturi ei gymydogion cyfoethog i ddangos eu heluseni ar ran y weddw, yr amddifaid, a'r rheidus. Mawr iawn, drachefn, a fyddai awyddfryd ei gydwladwyr i gael un o'i Garolau newyddion erbyn pob Nadolig, a byddai yn cael deisyfiadau am y rhai hyn o bob parth o Wynedd, ac ni leihaodd y taerineb am danynt, na'i athrylith yntau i'w cyfansoddi, hyd y Nadolig olaf o'i oes. Yr oedd ganddo dueddrwydd rhagorol tuag at y fath yma o gyfansoddiadau, ac y mae ei garolau yn amlygu ei hyddysgrwydd helaeth yn yr ysgrythyrau, a'i syniadau cywir am drefn iachawdwriaeth dyn drwy yr unig Geidwad a'r Ceidwad hwnw yn unig. Crybwyllwyd yn flaenorol ddarfod iddo fyw dan chwech o benau coronog yn olynol, ac felly hefyd y gwelodd chwech o ficeriaid olynol yn gweinidogaethu yn eglwys ei blwyf, sef Llansilin, lle y byddai efe yn wrandawr cyson oddieithr iddo gael ei luddias gan afiechyd neu erwindeb tywydd, er fod iddo bum' milltir o daith, a llawer ohono dros fryniau oerllyd Berwyn. Y mae'n hysbys fod yn arferiad yn llawer o gynulleidfaoedd eglwysig Cymru, ar ddiwedd yr addoliad, fod

Digitized by Google

trefn y bobl i fyned allan yn ol y graddau o barch a ystyrier yn ddyledus iddynt; ac mor uchel yn y raddoliaeth hono yr oedd cynulleidfa Llansilin yn golygu Huw Morus, fel y byddai hyd y nod ficer y plwyf yn barnu yn weddus rhoddi y flaenoriaeth iddo! Un o henafgwyr y plwyf, yr hwn a oroesoedd Huw Morus lawer o flynyddoedd, ond wedi bod yn gydnabyddus ag ef yn ei ieuengctid, ac yn ei gofio yn dda, a'i darluniai i'w ŵyr yn ol y dysgrifiad canlynol: "Yr oedd efe yn ddyn tal, â gwyneb hir, gwelw ei wedd, ac ol y frech wen arno." Un o'i fywgraffwyr Seisonig a ddysgrifiai ei ddoniau i'r perwyl a ganlyn:—"Mae Huw Morus i'w restru yn mysg y rhai penaf o'r prydyddion Cymreig. Ei syniadau oeddynt ffrwythlon, amrywiaethol, a hedegog. Yr oedd y cwbl yn dylifo o'i ysgrifell gyda'r fath rwyddineb diboen, fel y gellir golygu ei gyfansoddiadau megis ysbrydoliaeth ei hunan. Nid oes i'w gael ynddynt ddim cymhellwaith, na dim yn bradychu ymdrech llafurus, ond y cwbl fel cynyrch diledryw yr awen. Yr oedd efe yn tra rhagori yn y ddawn a alwn yn *digrifwch*, ac ar yr un pryd heb fod yn ddim llai ei fedrusedd mewn teimladrwydd ac ucheledd. Yn brofion o hyn cymerer ei *Farwnad Gwyr Oliver,--Cerdd i ofyn Feiol,—Cyffes Dic y Dawns,—a Charol Gwyliau yn amser rhwysg Oliver.* Yn y dull teimladol hefyd anhawdd cael dim yn fwy tynerol ac effeithiol na marwnad Mrs. Mydleton o'r Plas-newydd, mewn dull o ymddyddan rhwng y drengedig a'i phriod goroesawl. Ei *Gyffes ar ei glaf wely* hefyd sydd gyfansoddiad trylawn o syniadau dyrchafedig a gododig. Efe a driniai destunau crefyddol gyda chyffelyb arddunianT, ac ni chyffyrddodd erioed â'r arch gyda dwylaw anghysegredig. Fel dyrifwr, ac awdwr dyrifau a thelyn-ganau, dywedai y beirniaid manylgraff Lewys Morris, Mon:—"Yr oedd Huw Morus, o blwyf Silin, yn swydd Ddinbych, megys seren ryfeddawl o'r disglaer yn y flurfafen farddonol, a ymddangosodd eilchwyl, gwedi bod ar encudd er ys tri chant o flynyddau. Yr oedd *Dafydd ab Gwilym* o gylch y fl. 1400 mewn cywyddau, y fath un ag oedd Huw Morus yn 1700, mewn dyrifau; y ddau yn hynod o'r awenyddawl." O'r diwedd yr hybarch fardd, yn llawn o ddyddiau, ac yn fawr ei anrhydedd, a wyrodd i'w weryd drwy raddol ddihoeniad henaint; a'i ddyddiau olaf a dreuliodd efe mewn ymbarotoad erbyn y cyfnewidiad pwysig hwnw, gan ddyrchafu ymbiliau difrifol at orsedd trugaredd, a'r rhai hyny mewn dull cynghaneddol, hyd ei fynydau olaf. Bu farw Awst 31, 1709, yn 87 oed; a chladdwyd ef wrth fur deheuol eglwys Llansilin, lle y cyfodwyd cof-faen hardd gan ei nai, perchenog Pont-y-meibion; ac ar yr unrhyw y cerfiwyd dau englynfo waith y Parch. Robert Wynne, ficer, Gwyddelwern. Er campused bardd ydoedd Huw Morus, ac er mor boblogaidd a lluosog y gwaith gorchestol a adawodd yn gymunrodd i'w gydwladwyr, ni chyhoeddwyd casgliad cyflawn a destlus ohono am dros gan' mlynedd wedi gosod yr awdwr athrylithgar i gymysgu â daear mynwent Llansilin. Cyhoeddwyd rhai carolau a cherddi o'i waith gan Foulk Owen, yn Rhydychain, yn 1686; ac eraill gan un Thomas Jones, yn y 'Mwythig, yn 1696. A Dewi Fardd, fel y galwai ei hun, o Drefriw, a chwanegodd at y rhifedi yn ei lyfr *Blodeugerdd Cymru.* Ond yn 1823, cyhoeddwyd casgliad cryno, trefnus, a helaeth, o'i holl waith tan olygiaeth Gwallter Mechain, mewn dwy gyfrol, tan y teitl "Eos Ceiriog, sef Casgliad o Ber Ganiadau Huw Morus." Gyferbyn â'r wynebddalen ceir darlun o "Gadair Huw Morus," yr hon a saif mewn llecyn rhamantus heb fod nepell o artref y bardd, a'r lle, meddir, y cyrchai yn

Digitized by Google

fynych i ymhwedd â'r awen ; a cheir hefyd fywgraffiad dorus ohono o waith y golygydd, a brithir gwaelod y dalenau â nodiadau eglurhaol a lleol gwerthfawr, gan yr un law gelfyddgar. Y mae y casgliad hwn wedi ei loffa o tuag ugain o lyfrau ysgrifenedig, y rhai oeddynt ar wasgar byd y wlad o Lansilin i Ddolgellau, Llundain, &c.; a rhai ohonynt mor hen ag oes yr awdwr, a dichon yn ei ysgrifen ef ei hun. Ymddangosodd bywgraffiad ohono hefyd yn y *Cambrian Register*, o waith Dafydd Samwel.

MORRIS (Hugh), neu Maurice, ydoedd fab i Peter Morris, ffermwr o ymyl Ceryg y Druidion, sir Ddinbych ; ac yr oedd ei fam yn chwaer i Owain Myfyr. Cafodd ei alw i Lundain, debygir, gan ei ewythr, ac yno efe a briododd foneddiges gyfoethog o Gymraes, sef merch i Robert Jones (*Gwybedyn*), o Fawddwy, ac wyres i Sion Prys Mawddwy. Daeth R. Jones yn gyfoethog trwy briodi merch ei feistr, a thrwy hyny cafodd ran yn y nwyddfa. Yr oedd yn aelod selog o gymdeithas y Cymrodorion, a bu yn llywydd arni un flwyddyn. Trwy gyfathrach Gymroaidd felly y daeth Huw Morris o hyd i'w wraig. Priodwyd hwy yn St. Olave, Llundain, ac un o'u meibion ydyw y Parch. Peter Maurice, D.D., cymrawd o'r Coleg Newydd, Rhydychain ; person Alton, yn sir Rydychain ; ac a fu unwaith, tebygir, yn gurad Caerhun, ger Conwy. Yr oedd H. Morris yn gasglydd llyfrau prinion, yn arbenigol ysgrifyfrau Cymreig. Penodwyd ef gan Gymdeithas y Cymrodorion, yn brif ysgrifenydd tuag at argraffu y *Myvyrian Archæology of Wales*, a thrwy ei ddwylaw ef gan mwyaf y daeth y gwaith hwnw allan. Y mae o'i waith hefyd, "Ynys Prydain a'i hamddiffynfeydd (awdl) ;" "Hanes dyfodiad y Fflemingiaid i'r Deheudir ;" ac "Amddiffyniad Castell Harlech yn amser Rhyfel y Rhosynau ;" y rhai sydd yn gwahaniaethu peth oddiwrth yr hanesion cyffredin. Wedi iddo briodi daeth i fyw i'r Plas Meini, Ffestiniog ; ac oddiyno i'r Plas Gwyn, Llanrug, ger Caernarfon, lle y bu farw.—*Lleyn MSS.*

MORRIS (Lewis). Ganwyd y Cymro athrylithgar hwn yn Tyddyn Melys, plwyf Llanfihangel Tre'r Beirdd, Mon, Mawrth 12, 1702. Efe oedd mab hynaf Morys ap Rhisiart Morys, a Margaret ei wraig ; yr hon oedd ferch Morys Owen, o Fodafon y Glyn, yn yr un plwyf. Cooper oedd Morys ab Rhisiart, a dygwyd Lewis i fynu i'r un alwedigaeth ; eithr trodd y tad yn fuan yn ŷd-fasnachwr, a throdd y mab yn dir-fesurydd. Nid ymddengys ei fod wedi cael nemawr o addysg boreuol er ei gyfaddasu i'r swydd hon ; ond yr oedd ganddo feddwl cyflym a gafaelgar, a thrwy hyny, enillodd ffafr a nodded boneddigion yr ardal. Dywedir y medrai wneud telyn a'i chwareu, gwneud llong a'i hwylio, gwneud cywydd a'i ddatgan gan dant. Rhoddes yr alwedigaeth hono hefyd heibio cyn hir, a chafodd ei benodi i'r swydd dan y llywodraeth o gasglu cyllid yr halen, yn nhollfa Caergybi ; a symudwyd ef oddiyno yn y cyffelyb swydd i Aberdyfi. Yn 1737, penodwyd ef gan gyfarwyddwyr y Morlys (*Admiralty*) i arolygu, mesur, a darlunio, porthladdoedd ac arfordiroedd Cymru ; a chyhoeddwyd ffrwyth ei lafur yn 1748, mewn llyfr a elwid, "Plans of Harbours, Bars, Bays, and Roads in St. George's Channel." Cynwysa y llyfr hwn uwchlaw ugain o ddarlun-leni yn dangos ansoddau amrywiol aberoedd, porthladdoedd, &c., ar gyffiniau Cymru, gan ddechreu wrth y Penmaenmawr, a myned yn mlaen gyda thueddau siroedd Mon, Arfon, Meirion, Aberteifi, &c., hyd ymarllwysiad yr Hafren.

Digitized by Google

Bwriedid unwaith iddo fyned yn mlaen yn mhellach oddiyno drachefn hyd bentir Cornwall: ond yn 1744, torodd rhyfel rhwng Prydain a Ffrainc, yr hyn a lesteiriodd yr amcan. Gosododd Morris argraffwasg i fynu yn Modedern, yn Mon; a thybir mai hon oedd y gyntaf a godwyd yn Ngwynedd. Argraffwyd yno rai llyfrau, megys y llyfr *Ymarfer o Longyddiaeth*, a rhai mân bethau eraill. Efe a gyn-y-giodd argraffu llyfr o'r enw *Tlysau'r Hen Oesau*, yn rhanau, ond nid ymddengys ddyfod ond un rhan ohono allan. Yr argraffwasg hon a werthodd efe i D. Jones, o Drefriw. Gan fod y llythyr canlynol, er yn cynwys cryn lawer o fyfiaeth, yn arddangos hefyd amrywiaeth ei fyfyrdodau a'i lafur, nis gallwn yn well na gadael iddo lefaru trosto ei hun. Danfonwyd ef at Mr. Pegge, o'r Drewen:—"Yr ychydig wybodaeth a gyrhaeddais i, bu orfod im' ei henill megys drwy awch naturiaeth; fy addysgiad, o ran iaith, nid oedd ond annghyson, a fy athrawon gan mwyaf oeddynt onen-wydd a masarn, neu ar y goreu, ond megys math o feistri pren. Yr hyn a gyrhaeddais yn y ffordd hono sydd wedi adfeilio llawer o eisieu ymarferiad ac ymohebiaeth â gwyr o ddysg. Helyntion gwladwriaethol, fel swyddog yn y gyllidaeth, a gymerodd y rhan werthfawrocaf o'm hamser, fel y mae'n rhyfedd genyf i mi allu cadw dim mewn cof. Ar y cyntaf, dodwyd fi i gasglu cyllid a threth halen; gwedi hyny dododd y Morlys fi i wneuthur mesuriaeth arolygol o arfordiroedd Cymru, rhan fechan o'r hwn orchwyl a gyhoeddwyd yn 1748. Wedi hyny dodwyd fi at wahanol orchwylion perthynol i'r Trysorlys, yr hyn a gymerodd fy amser am rai blynyddau, fel arolygydd tir-gyllid y brenin, casglydd porth-doll Aberdyfi, ac arolygydd mŵn-weithiau y brenin yn Nghymru. Yr ychydig wybodaeth a fu genyf mewn ieithoedd (heblaw y Saesneg) sydd wedi myned yn rhydlyd; ac nid wyf yn gweled yn wiw i mi hellach ei adferu, gan fy mod ag un troed yn y bedd. Darfu peroriaeth a barddoneg fy yspeilio gynt o lawer o'm hamser, o'r hyn nid oes i mi elw yn y byd. Ond yn brosenol nid oes un swydd gyhoedd yn gorphwys arnaf, oddigerth arolygu mŵn-weithiau y brenin, a hyny heb ddim cyflog; ac wedi cweryla â rhai o'n blaenoriaid, yr wyf yn ymneilldua i dyddyn bychan o'm heiddo fy hun; ac yno mae fy ngardd, perllan, tyddyn, ac ychydig o fŵn-waith yn cymeryd rhan fawr o'm hamser; a'm gwybodaeth mewn physigwriaeth a llawfeddyginiaeth yn dwyn ffodion i gyrchu ataf: mae'r hoff-fyfyrdod a wnaethum mewn llysieuaeth yn awr o elw iddynt hwy. Bu genyf ddifyrwch mawr o'm mebyd mewn athroniaeth naturiol a rhif-fesuriaeth; ac y mae genyf gynulliad lled helaeth o gloddiadau, cregyn, &c., o'r rhan fwyaf o barthau y byd, a chynulliad gwerthfawr o arfau ac offerynau perthynol i hyny. Rhoddais lawer o'm bryd ar gynlluniau a pheirianau. Yn y gangen hon o law-gelfyddyd, gwnaethum rai diwygiadau tu hwnt i ddim o'r fath a gyhoeddwyd yn Mrydain nac yn Ffrainc. Fy ngwybodaeth am arian bath *(coins)* nid yw ond prin, a'm cynulliad ohonynt ond bychan, na thâl mo'i grybwyll, gan nad oes yn y parth hwn o'r byd ond ychydig i'w cael. Y mae genyf argrafliadau cywrain a gafwyd ar geryg; ac hefyd rai arfau Brytanaidd. Fy nghynulliad o lyfrau nid yw ehelaeth: y maent gan mwyaf yn nghylch anianyddiaeth, rhif-fesuriaeth, a hynafiaethau Prydeinaidd. Ond yr hyn sydd wedi meddianu fy mryd er's yspaid o amser ydyw gwneud chwanegiadau at Eirlyfr y Dr. Davies, ac hefyd Geirlyfr arall o'm gwaith fy hun yn gwbl, ar ddull Mareni. Yr amcan hwn a dreuliodd fy oriau hamddenol er's

Digitized by Google

llawer o flynyddoedd. Yr wyf yn ei alw *Celtic Remains*, neu ddysgrifiad o'r hen ymerodraeth Geltaidd, yn yr iaith Saesneg; yn cynwys cynulliad o ddefnyddiau bywgraffyddol, beirniadol, hanesiol, geiryddol, amseryddol, a daearyddol, o ddeilliad Celtaidd, tuag at ffurfio Hanesiaeth Frytanaidd o'r cynoesoedd, yn ddwy ran: —Y gyntaf yn cynwys hen enwau dynion, lleoedd, gweithredoedd, &c, yn deilliio o'r Frytanaeg a'r Galaeg, yn ol trefn yr egwyddor; lle y chwilir i mewn nid yn unig i wir enwau Celtaidd, yn ol yr argraff hen â diweddar, gan eu profi o awduron Brytanaidd, yn nghyd ag enwau presenol lleoedd, &c., eithr hefyd i'r camgymeriadau a'r gwallau, pa un bynag ai o ddymuniad ai o ddamwain, a wnaed gan ysgrifenwyr a draethasant ar gyn-helyntion Prydain yn unrhyw iaith, gan eu diwygio a'u hegluro. Gorchwyl dirfawr a llafurus yw hwn. Yr ail ran a gynwys enwau dynion a lleoedd o darddiad Celtaidd wedi eu Lladineiddio gan ysgrifenwyr Lladinaidd, y rhai sydd wedi eu ffurfio a'u nyddu yn ol eu hiaith eu hunain; lle yr ymdrechir i ddangos yr hyn oeddynt yn eu dechreuad Celtaidd; gan eu cymharu â chyn-hanes ac iaith prif-gangenau y bobl hyny: yn nghyd a'r Frytanaeg, y Gymraeg, y Wyddelaeg, yr Armoraeg, a'r Gernywaeg. Y rhan hon gan mwyaf sydd eiryddol, lle y mae mympwy yn cael ei rhaff, ond nid heb ei chadw oreu gellir o fewn terfynau. Yn nghylch ugain mlynedd yn ol, barddoniaeth Gymreig oedd yn nofio uwchlaw fy holl drysorau, er ei bod yn awr yn mawr iselu; ac er pan wnaethum rhyw gampwri yn y ffordd hono, nid oes dim wna dro fy nghydwladwyr o bryd bwygilydd os na roddaf gymeradwyaeth i'w cyfansoddiadau cyn eu gyru ger bron y byd. Yr wyf yn addef i chwi, er mai Cymraeg yw fy mam-iaith, ac er cael ohonof fy magu yn Mon, lle y siaredir hi mewn mawr burdeb, ac yr hoffir hi gan y trigolion, a lle y mae prydyddiaeth a henafiaethau mewn cymeradwyaeth mawr: eto yr wyf yn dysgu rhywbeth yn feunyddiol wrth ddarllen y cyn-feirdd, er fy mod wedi ymarfer â hwynt er's yn agos i 50 mlynedd. Hyn sydd yn benaf o angen geirlyfrau da; nid yw geirlyfr y Dr. Davies, y goreu a feddwn, ond gorchwyl byrbwyll, ac heb ynddo uwchlaw haner y cyfanswm o'n hiaith; a'r ystyriaeth o hyn a'm cymhelledd er's 40 mlynedd i ddodi ato, er fy mudd fy hun, y chwanegiadau a ddigwyddai i mi eu llofla wrth ddarllen. Bu gynt ohebiaeth rhyngwyf a Mr. Thomas Carte, rai blynyddau cyn iddo ef gyhoeddi ei Hanes Lloegr; ond pan aeth efe i gyhoeddi ei lyfr, efe a annghofiodd y cwbl. Y mae efe wedi dodi i mewn amryw ddarnau o'm llythyrau i, heb rybudd na chydsyniad; ac nid yw yn addef iddo dderbyn dim oddiwrthyf ond un darn." Ychydig, ac ychydig iawn mewn cymhariaeth, pan ystyriom mor enwog ac adnabyddus ydoedd yn mhlith ei gydgenedl, a adawodd Lewis Morris o gymunrodd lenyddol argraffedig iddynt. Y mae anfarwoldeb wedi cymeryd meddiant o'i "Forwynion glân Meirionydd," ac nid oes goethach a rhagorach awenyddiaeth delynegol yn yr iaith na'r penillion melusber hyny. Cellweir-fardd digrif-gnoawl ydoedd efe yn benaf, fel y prawf ei "Hanes Wil Bol Haul," ac amryw ddarnau eraill. Ond yn rhai o'i gyfansoddiadau yr ydym mewn petrusder pa un ai edmygu athrylith ysplenydd yr awdwr, ynte gresynu fod yr athrylith hono wedi ei halogerthu ar allor mor halogedig a masweddol. Troseddem ddeddfau chwaeth yr oes hon pe enwem destynau rhai o'i gywyddau. Ac eto, fel pe buasent o bwrpas yn dibrisio rheolau gweddeidd-dra, ceir darnau lawn anfoesoled yn ngwaith Ovid, Shakespeare, a phrif-

Digitized by Google

feirdd cenedlig eraill, ag a geir yn y *Dyddanwch Teuluaidd* o waith Llywelyn Ddu o Fon. Yr oedd yn rhyddieithwr campus yn yr iaith Saesneg, cystal a'r Gymraeg, a da pe dychwelai ysgrifenyddion yr oes hon ato yn fynych, fel y gwelid pa beth yw arddull bur, ac awdwr deheuig yn trefnu ymadroddion cryfion, ac yn dethol geiriau cymhwys. Mae yn ddiau mai difyrwch penaf, yn enwedig rhan olaf ei oes, ydoedd hynafiaethau ei wlad, ac oddiwrth luaws o lythyrau a ysgrifenodd at gewri yn y gangen hono o wybodaeth, ac a gyhoeddwyd yn y *Cambrian Register*, &c., arddengys ymchwiliadau manwl a helaeth ynddi. Gwir fod Iolo Morganwg (GWEL *Brython* iii. 54) yn ei alw "yn eilun crachfeirdd a chrachieithyddion Cymru;" ac mai "fal hanesydd, gwyrdroi pob peth i gydweddu â'i ddychymygion diymbwyll ei hun ydoedd ef yn wastad;" eto dylid cofio fod rhyw asgwrn cynen wedi ei fwrw rhwng Iolo ac yntau parth cyhoeddiad y *Myvyrian Archæology*, ac yr oedd maddeuant Iolo mor anhawdd ei bwrcasu a maddeuant y duwiau gwaedlyd heb waed. Bu yn nawdd ac achles i amryw feirdd godidog, yn arbenigol Goronwy Owen, i'r hwn y bu yn athraw barddonol, ac yn gyfaill caredig mewn aml gyfwng ar ei fywyd helbulus. Ni bu y cyfeillgarwch hwnw yn ddifwlch; llawer cwmwl bygythiol a gythruddodd ei awyrgylch; a dywedwyd pethau cas gan y naill am y llall mewn nwydau drwg, ond yr oedd yr awdl farwnad ardderchog a gyfansoddodd Goronwy yn brawf digonol "nad yw doeth yn hir mewn llid." Treuliodd Lewis Morris flynyddau olaf ei oes yn Ngalltfadog, ac yn Mhenybryn, Llanbadarn Fawr, sir Aberteifi, yr hwn le a ddaeth i'w feddiant trwy ei briodas â'i ail wraig. Ei wraig gyntaf, yr hon a briododd Mawrth 29, 1729, ydoedd Elizabeth Griffiths, etifeddes Ty Wrdyn, gerllaw Caergybi; o'r hon y ganwyd iddo fab o'r enw Lewis, pan nad oedd ei wraig ond 16 oed. Y mab hwn a fu farw yn ieuanc; a bu hefyd ddwy ferch o'r briodas hono. Priododd ei ail wraig, sef Anne Lloyd, etifeddes Penybryn, a bu iddo bum' mab a phedair merch, amryw o ba rai a fuont feirw yn ieuainc. Yn niwedd ei oes, cystuddiwyd ef yn drwm gan wahanol anhwylderau corphorol, a bu farw Ebrill 11, 1765, yn 63 oed. Claddwyd ef yn eglwys Llanbadarn Fawr, lle y dangosir ei fedd, ond nid oes gymaint a cherfiad na chareg yn dynodi y fan, yr hyn sydd beth tra syn os gwir iddo farw mewn amgylchiadau cysurus. Y mae ei gasgliad gwerthfawr o Lawysgrifau Cymreig, yr hwn a gynwys bedwar ugain o gyfrolau, yn nghadw yn y *British Museum*.

MORRIS (RICHARD), brawd i'r Lewis Morris uchod, ydoedd wr cywrain a chyfarwydd yn iaith a barddoniaeth ei wlad. Difyrai oriau hamddenol ei ieuenctyd wrth adysgrifio hen farddoniaeth Gymreig, ac y mae y gwaith hwnw o'i eiddo yn nghadw yn Llyfrgell yr Ysgol Gymreig, Llundain. Treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd fel prif ysgrifenydd cymeradwy iawn yn y swyddfa forawl (*admiralty office*); a thra yn y swydd hono golygodd ddau argraffiad o'r Beibl Cymraeg, a gyhoeddwyd yn 1746 a 1752, a bu yn gymwynaswr haelionus i'w gydwladwyr mewn amryw ffyrdd. Cynorthwyodd Peter Williams yn y gorchwyl llafurus a llesol o gyhoeddi ei Feibl Teuluaidd. Ymdrechodd yn egniol o blaid plwyfolion Trefdraeth, yn Mon, pan oeddynt mewn cyfraith yn gwrthwynebu cymeryd Sais yn berson y plwyf, a chollodd y Sais y bersonoliaeth. Pan oedd Goronwy Owen yn ei angenoctyd dyfnaf, a chefn llawer cyfaill wedi ei droi arno, glynodd R. Morris yn gyfaill haelionus iddo. Y mae 19 o'r llythyrau sydd yn y *Gronoviana*

Digitized by Google

wedi eu cyfeirio ato ef. Bu farw yn 1779, a chladdwyd ef yn mynwent *St. George in the East*, Llundain. Cyfansoddwyd marwnadau er coffadwriaeth am dano gan Jonathan Hughes, Llangollen; John Edwards, Glyn Ceiriog; a Rhisiart Jones, o Fon. Barnwyd yr olaf yn oreu, ac anrhegwyd ef ag ariandlws gan Gymdeithas y Cymrodorion, ar yr hon bu Rhisiart Morys yn llywydd.

MORRIS (VALENTINE), ydoedd frodor o Pirsfield, yn sir Fynwy, a pherchenog y lle hyfryd hwnw, a'r etifeddiaeth gysylltiedig. Ond oblegyd ei haelioni diderfyn, ei ymgais i addurno a gwella ei etifeddiaeth, ei gais aflwyddianus i gynrychioli sir Fynwy yn y Senedd, yn nghyda rhai croes amgylchiadau nas gellid eu rhagweled, bu o dan yr angenrheidrwydd poenus o ymadael â'i etifeddiaeth, tua'r amser y gwnaed ef yn llywodraethwr St. Vincent, yn yr India Orllewinol. Ond cyn gadael Lloegr, efe a ymwelodd â Phirsfield, i gael golwg ymadawol ar le ei hyfrydwch. Pan ddaeth yno, yr oedd y tlodion, y rhai a'i carent ef fel tad, yn ymgynull o'i amgylch; y dynion yn edrych yn bruddaidd, a'r gwragedd a'r plant yn ocheneidio yn llwythog ac yn wylo yn hidl. Tra yr oedd yr olygfa bruddaidd hon o'i amgylch, a rhai o'r tlodion ar eu gliniau yn gofyn i Dduw ei fendithio, yr oedd Morris yn sefyll yn ddiysgog, heb na deigryn nac ochenaid. Ond pan oedd yn croesi pont Casgwent, ac yn cymeryd yr olwg olaf ar y castell, yn sefyll ar ymyl craig serth uwchben yr Wy, ac yn clywed y clychau wedi eu bwbachu yn clulio ei ymadawiad, ni allodd ei ddewrder ymatal yn hwy, eithr ymollyngodd yn ei gerbyd, ac wylodd fel plentyn. Yn ynys St. Vincent, efe a wellhaodd sefyllfa y drefedigaeth, ac a gyfododd gaerfa amddiffynol iddi; ond yn amser y rhyfel Americanaidd, syrthiodd yr ynys i ddwylaw y Ffrancod yn 1770, a gwrthododd y llywodraeth dalu y gollied iddo yntau. Wedi tramgwyddo felly, efe a ddychwelodd i Loegr, a thaflwyd ef gan ei goelwyr i garchar y Llys Penadur; lle y bu dros ystod saith mlynedd yn dyoddef pob caledi ac eithaf tlodi. Yn y cyfyngder hwn, bu orfod i'w wraig—yr hon oedd yn nith i Arglwydd Peterborough—werthu ei dillad i brynu ymborth i'w gwr; ac o'r diwedd collodd ei synwyrau. Wedi dyoddef y cyfyngderau lluosog hyn dros yspaid saith mlynedd, efe a ryddhawyd o'r diwedd; ac ar ol blynyddau hirion o ofidiau, bu farw yn nhy cár iddo yn Bloomsbury, Llundain.—*The Eccentric; or Memories of no Common Characters.*

MORRIS (WILLIAM), ydoedd drydydd mab yr enwog Lewis Morris, ac a anwyd yn Mhenybryn, plwyf Llanbadarn Fawr, sir Aberteifi. Efe a ail gyhoeddodd y "Survey of the Coast of Wales," o waith ei dad, a *map* o Fon ganddo ei hun, yr hwn ydoedd ar radd digon helaeth i gynwys pob tŷ yn yr Ynys.

MORRIS (WILLIAM) brawd Lewis Morris, a dreuliodd ran fwyaf ei einioes fel cynullwr toll yr halen yn mhorthladd Caergybi. Arferodd ddiwydrwydd nid bychan, a llafur dybryd, wrth gasglu ac adysgrifio gwaith yr Hen Feirdd, ac adwaenid un ysgrifyfr o'i eiddo wrth yr enw y "Delyn Ledr." Yr oedd hefyd yn meddu gwybodaeth helaeth mewn llysieuaeth ac anianyddiaeth yn gyffredinol, fel y sylwa Goronwy yn un o'i gywyddau:—

Allai fod (felly ei fam)
Deilen na nodai William?
Chwilial ef yr uchelion,
Y mor a thir, am wyrth Ion.

Digitized by Google

Mae yr un bardd hefyd yn sylwi ei fod yn gerddor medrus; ac yn ol ei lythyr ef ei hun at y Bardd Coch, cymerai bleser mawr mewn "*ffosilita*," neu mewn casglu cregyn, &c., mewn creigiau. Cyfritid gardd William Morris, yn Nghaergybi, yn un o'r gerddi harddaf a thirionaf yn Ngwynedd. Bu farw yn 1764, a chladdwyd ef, tebygir, yn mynwent Cybi. Y geiriau hyn a ysgrifenodd Ieuan Brydydd Hir o flaen awdl marwnad iddo, "Llysieuydd godidog, a rhagorol ei wybodaeth yn amryw geinciau philosophyddiaeth anianol, celfydd yn iaith yr hen Frytaniaid a'r Beirdd, a hynod am amryw gampau gorchestol, a rhinweddau da eraill, nad ydynt yn aml yn Nghymru y to yma."

MORRIS (William), o Gefn y braich, plwyf Llansilin, ydoedd foneddwr tiriog, hynafiaethydd diwydbwyll, a chynullydd lluaws o lawysgrifau gwerthfawr. Ffermdy cyffredin ydyw Cefn y braich, yn sefyll mewn man dymunol ar ddyffryn prydferth Llansilin; ac nid oes dim yn ei ymddangosiad presenol i'ch ac'goffa am unrhyw fawredd cynhenid. Yr oedd William Morris yn hanu o hen deulnoedd parchus yn yr ardal hono—o du ei dad, o hen deulu Moeliwrch, ac o du ei fam, o Lowri, ferch Owen Glyndwr. Yr oedd yn byw ac yn ei floden rhwng 1644 a 1680, canys y mae ei ddyddlyfr yn cynwys hanes y rhyfel cartrefol rhwng Siarl I. a'i ddeiliaid yn 1645—6, a thybir iddo farw rhwng 1680 a 1690. Oddiwrth nifer ei ysgrifllyfrau, gellir casglu iddo dreulio llawer o'i oes yn y fyfyrfa, yr hon ydoedd fath o adeilad ar ddull clochdy a godasai efe yn ymyl ei dŷ, ar gynllun *study* Roger Bacon yn Rhydychain. Dywed Gwallter Mechain, yn y *Cambro-Briton*, fod yr hen adeilad hon yn adfeilion yn 1820; ac yr ydym yn meddwl mai cwt mochyn sydd yn sefyll yn bresenol ar y llanerch glasurol hono. Ceir cof-restr cyflawn yn y *Brython* ii. 9, o'i ysgrifllyfrau, y rhai a rifant 124, rhai wedi eu prynu, ond nifer luosog ohonynt wedi eu hadysgrifio ganddo ef ei hun. Gwerthwyd hwynt ganddo i Syr William Williams, o Lanforda, sir Gaernarfon, am £70; a throsglwyddwyd hwynt o dad i fab nes dyfod i Wynstay, lle yr oeddynt pan gymerodd y golled anadferadwy hono le yn 1857 i lenyddiaeth Gymreig, sef dinystriad y palas ardderchog gan dân. Un o gyfoeswyr a chydblwyfolion William Morys oedd yr enwog fardd Huw Morys, o Bont-y-meibion, yn yr un plwyf. Y mae cân yn ei waith, "Ar Briodas Letitia Morris, merch ac etifeddes yr hynafiaethydd dysgedig, Wm. Morris, o Gefn y braich, yn mhlwyf Llansilin; a Dafydd Williams, Ysw., o Lan Alaw yn Mon."

MORRIS (Parch. William), Cilgeran, gweinidog poblogaidd gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef yn Cilgeran, sir Benfro, yn 1783. Yr oedd ei dad, Thomas Morris, yn gynghorwr cymeradwy gyda'r un enwad; ac er mai crydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, telid y parch mwyaf iddo gan foneddd a gwreng oblegyd ei fywyd addas a'i dduwiolfrydedd amlwg. Bu William yntau am lawer o flynyddau yn dilyn yr un alwedigaeth, ac yn gweithio yn galed er cynorthwyo ei rieni i fagu eu teulu lluosog. Dywedir ei fod wedi dechreu pregethu cyn bod yn ddeunaw oed, a daeth yn fuan yn dra phoblogaidd. Byddai ef a'i dad yn myned weithiau i daith bregethwrol gyda'u gilydd, a mynai yr hen wr bregethu yn nghyntaf, ac yna byddai yn troi o'r ffordd, "i roddi lle i'w *frawd*." Adwaenid y mab gyntaf fel William mab Thomas Morris, ond ar ol hyny adwaenid y tad fel Thomas, tad William Morris. Wedi iddo briodi, ymroddodd fwy nag erioed i'r weinidogaeth, a chyn pen ychydig flynyddau nid oedd ardal bron yn

Digitized by Google

Nghymru nad oedd wedi bod ynddi yn pregethu ; ac mewn cysylltiad â David Griffiths a Thomas Richards, cafodd sir Benfro lawer o'i wasanaeth gwerthfawr. Nid yn aml y breintiwyd y Methodistiaid mewn un sir â'r fath dri chedyrn a hwy i gydweithio am gynifer o flynyddau. Tua 1830, bu farw ei wraig, a phwysodd yr amgylchiad galarus mor drwm ar ei feddwl nes ei analluogi i ddilyn ei gyhoeddiadau. O'r diwedd, ail ymaflodd yn ei waith, gan roddi ei achos yn llaw Duw, a chymeryd achos Duw yn ddifyrwch beunydd iddo ei hun. Cysegrodd ei hunan bellach gorph ac enaid i waith yr Efengyl. Yr oedd rhagoroldeb ei bregethau yn profi nad esgeulusai ei fyfyrdodau paratoawl ; ac yr oedd ei deithiau mawrion a pharhaus, yn nghyda'i ddull gwresog o draddodi, yn brawf digonol nad arbedai lafur corphorol, ond y rhoddai ei hun yn gwbl oll yn aberth byw ar allor y weinidogaeth. Tua 1835, priododd â Miss Mary Bowen, Trelethyn, ger Tyddewi ; yr hon a fu yn gydymaith caruaidd iddo ; a'r flwyddyn ganlynol, symudodd i Dyddewi i drigianu, ac fel "William Morris, Tyddewi," yr adwaenid ef o hyny allan. Parhaodd am flynyddau lawer ar ol hyn i dalu ymweliadau â gwahanol barthau y Dywysogaeth, a derbynid ef yn mhob man yn groesawgar iawn, ymgasglai tyrfaoedd lluosog i'w wrando, a bu yn offeryn troedigaeth lluaws mawr. Arhodd bwa ei weinidogaeth yn gryf ac effeithiol am yspaid maith, ond cwtogwyd cylch ei lafur gryn amser cyn ei ymddatodiad. Yn ystod haf 1854, yr oedd Mr. Morris yn Llundain, ac ar ol Sabbath o lafur caled, cafodd lewygfa yn y nos. Cynyddodd yr anhwyldeb hwn yn raddol arno ; yr oeddynt yn dyfod bob amser yn y nos, ac ni byddai ef yn gwybod dim am danynt. Unwaith yn unig y cafodd lewygfa yn y dydd, a'r tro hwnw cafwyd ef wedi syrthio oddiar ei farch yn agos i Nefern, sir Benfro. Ni phetrusai y sawl a'i cafodd nad ydoedd wedi marw, ond dadebrodd yn raddol, ac aeth yn mlaen i'w gyhoeddiad. Hwn oedd y cyhoeddiad olaf y bu ynddo byth. Daeth ei anhwyldeb yn mlaen yn amlach ac yn rymusach, gan ysgytio a mawr wanychu ei gyfansoddiad. Arferai ddweyd ei fod wedi ei wneud o glai gwydn, onide nis gallasai ddal yr ergydion cyhyd. Wedi ei gyfyngu i gylch mwy cartrefol, cryfhaodd y difyrwch ynddo a deimlai bob amser yn nghyfeillach ac mewn egwyddori plant. Yr oedd drwy ei oes yn ofalus iawn am wyn y praidd, a chafodd yn ei flynyddau olaf fwy o hamdden i dalu sylw iddynt nag o'r blaen. Cadwai *society* iddynt hwy ac yntau yn unig ; ac yr oedd efe yn eu golwg fel angel Duw. Byddai ef a hwythau weithiau yn arwyddo yr ardystiad dirwestol—efe yn dodi ei enw i lawr yn gyntaf, a hwythau yn dilyn. Gweddiai gyda hwynt, a throstynt, fel pe buasai cadwedigaeth eu heneidiau yn dibynu ar ei daerineb. Pan oedd plentyn un tro yn adrodd wrtho yr adnod, "Cyfyng yw y porth," &c., gofynai Mr. Morris, "Pa sawl un a all fyned trwyddo ar unwaith?" Yr oedd y gofyniad mor ddyeithr fel nas gwyddai y bachgenyn pa ateb a roddai. "Wel," ebe yntau, "digon i ddau, ond rhy gyfyng i dri—digon i Grist a phechadur noeth, ond rhy gyfyng i hunangyfiawnder hefyd." Bu am agos i ddwy flynedd heb bregethu dim bron, a gofynai yn aml i'w gyfeillion pa esboniad oedd ganddynt ar yr achos ; "carwn wybod," meddai, "paham na chawswn weithio fy niwrnod i ben, a marw yn fy ngwaith." Dywedai weithiau nad oedd yn ofni uffern, ond ei fod yn arswydo wrth feddwl am sancteiddrwydd y nefoedd. Bu farw Rhagfyr 8, 1861, a chladdwyd efe yn mynwent Eglwys Gadeiriol Tyddewi.

Digitized by Google

MORUS AB IEUAN ab Einion, bardd enwog o Leyn, sir Gaernarfon, yn ei flodeu rhwng 1540 a 1570. Gelwir ef weithiau Morus Dwyfach.

MORUS AB LLYWELYN, neu *Morus Mawddwy*, neu *Morus Meulwy*, bardd rhwng 1540 a 1570.

MORUS DAFYDD, bardd yn ei flodeu rhwng 1580 a 1620 Efe oedd ficer Llanfynydd, sir Gaerfyrddin.

MORUS LLWYD AB WILLIAM, bardd rhwng 1560 a 1590. Yr oedd yn trigianu yn Prys Iorwerth, Mon.

MOSTYN (SYR EDWARD), barwnig, ydoedd fab i John Mostyn, Ysw., o Talacrau, yn sir Fflint, yn ddisgynedig o Pyrs Mostyn, o'r un lle, a fu yn llywydd Eisteddfod Caerwys, yn Mai y flwyddyn 1568. Yr oedd yn swyddog yn ngwasanaeth y Siarliaid yn erbyn y Cromweliaid, yn y rhyfel gartrefol; a bwriadai Siarl II. ei godi i urdd y dderwen Freiniol, pe penderfynasid sefydlu yr urdd farchogol hono; gan ei fod hefyd yn meddu etifeddiaeth o werth £1500: ond yn lle hyny crewyd ef yn anrhydeddusach—yn farwnig, Ebrill 28, 1670. Bu un o'i olynwyr, y diweddar Syr Edwart Mostyn, yn llywydd yr Eisteddfod fawr Daleithiol, a gynaliwyd yn Ninbych, Medi 18, 1828. Y mae y cyfenwad a'r urdd yn aros yn y teulu hyd heddyw.—*Lleyn MSS.*

MOSTYN (SYR ROGER), barwnig o Fostyn, sir Fflint, ydoedd foneddwr o etifeddiaeth helaeth, o werth £4000. Yr oedd yn selog dros y brenin Siarl I., yn nechreu y rhyfel gartrefol; a chasglodd mewn deuddeg awr, fyddin o bumtheg cant o wyr o blaid y brenin. Crewyd ef ar y cyntaf yn farchog; ac yn farwnig Awst 3, 1660, yn lle ei wneud yn farchog y fwriadol urdd newydd y dderwen Freiniol. Y mae y farwniaeth yn aros eto yn y teulu, er mai nid o'r un cread.—*Lleyn MSS.*

MOSTYN (WILLIAM), ydoedd fab i Rhisiart ab Hywel o Fostyn, o'i wraig Catrin, ferch Syr Thomas Salsbri, o Leweni; ac yr oedd yn hendaid i William Mostyn, M.A., archddiacon Bangor. Priododd Marged ferch Robert Powel, o'r Parc. Efe, yn y 9fed flwydd o deyrnasiad Elizabeth, a gafodd ddirprwyaeth, gydag eraill o brif foneddigion Cymru, i gynal Eisteddfod Beirdd yn Nghaerwys. Yn y ddirprwyaeth, dywedir fod gan ei hynafiaid hawl i roddi telyn arian i unrhyw un a fernir yn deilwng ar y pryd.

MOSTYN (WILLIAM), M.A., ydoedd drydydd mab i Syr Roger Mostyn, o Fostyn; a'i fam ydoedd Mary, ferch Syr John Wynn, o Wydir, ger Llanrwst. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd M.A. Cafodd berigloriaeth Christleton, gerllaw Caerlleon, Hydref 26, 1633, ac yn 1638 cafodd ficeriaeth Whitford, yn sir Fflint; ac yn 1640 archddeoniaeth Bangor; ac efe oedd y diweddaf i ddal yr urddas eglwysig hono, canys cymerasai Dr. Robert Morgan, pan yn esgob, yr archddeaconiaeth hono yn gydiol â'r esgobaeth, trwy weithred seneddol. Bu farw yn ei dy, yn Mhlas Mostyn, ger Gwrecsam, yn 1671 neu 72; ac yn Ngwrecsam y claddwyd ef, a gosodwyd cerflun ar ei fedd. Ohono ef y deilliodd Mostyniaid Segrwyd a'r Bryngwyn, yn siroedd Dinbych a Threfaldwyn.

MOSTYN (AMBROSE), ydoedd fab Dr. Henry Mostyn o'r Calcoed, sir Fflint, lle y ganwyd ef yn 1610. Graddiwyd ef yn ngholeg Brazenose, Rhydychain, Ionawr 15, 1629. Wedi gadael y Brifysgol, gwladychodd yn Neheudir Cymru; ond pa un ai fel gweinidog plwyfol, ynte pregethwr teithiol, nis gwyddis. Mae'r debyg, mai yr hyn a'i tynodd

Digitized by Google

i'r Deheudir ydoedd y gyfeillach a ffurfiasai yn y coleg gyda Walter Cradoc, Symonds, a gwyr ieuainc duwiol eraill. Tybir ddarfod iddo dreulio yspaid y Rhyfel Cartrefol yn ffoadur yn Llundain, neu rhyw barth o Loegr, lle nid oedd ei gymeriad cyhoeddus yn adnabyddus. Dywed Edmund Jones, o'r Trans, yn "Hanes Aberystruth," fod A. Mostyn yn pregethu un tro yn mynwent y plwyf hwnw, ac i erlidwyr ymosod yn greulon arno; gan gymeryd draenogod meirwon a grogent ar y coed yw, hwy a'u hyrddient ato, ac a ymdorent i chwerthin dieflig am ben eu hanfadwaith. Ar hyn, ciliodd y pregethwr dirmygedig a'i ddilynwyr i ffermdy o'r enw Gelligrug, modd y gallent fwynhau eu crefydd mewn tawelwch; a dywedai un chwaer o'r enw Catherine Price tan wylo wrth yr aflonyddwyr, "Y mae'n dra thebyg eich bod heddyw yn gwrthod yr hyn na chewch byth mwyach gynyg arno." Yr oedd Mr. Mostyn yn un o'r prawfwyr yn y weithred seneddol er lledaenu yr Efengyl yn Nghymru. Yn ystod y werin-lywodraeth trigianai yn Holt, sir Ddinbych. Yn 1659, dilynodd yr enwog Morgan Llwyd fel gweinidog yn Ngwrecsam, eithr yn mheu blwyddyn gorfu arno roddi ei le i fynu i wr o offeiriad y freninoliaeth. Bu yn briod ddwywaith; ei ail wraig ydoedd ferch i Syr E. Broughton, barwnig. Symudodd o Wrecsam i fod yn gaplan teuluaidd i'r duwiolfrydig arglwydd Saye a Sele, ac efe a draddododd bregeth angladdol y pendefig hwnw. Yn fuan ar ol hyny, symudodd i Lundain, ac yno y bu farw tra 1666. Ystyrid ef yn ysgolhaig rhagorol, a chan ei fod yn foneddwr o waed, ac o ymddygiad urddasol, derbynid ef i deuluoedd uchel, nad oedd ganddynt ond ychydig o gydymdeimlad âg Ymneilldduaeth. Dyoddefodd gystudd maith a phoenus, ond yn dra ymroddgar i ewyllys ei Dad Nefol. Testyn ei bregeth olaf ydoedd, "Yr ydwyf yn dwyn yn fy nghorph nodau yr Arglwydd Iesu."—Rees' *Noncon. in Wales.*

MWROG, sant, ond ni wyddis ei amser iad. Sefydlodd eglwysi Llanfwrog, yn Mon; a Llanfwrog, yn sir Ddinbych; lle y cedwid ei wylmabsant Ionawr 6.

MYDDLETON (Ffowc), Ysw., ydoedd wythfed mab i Richard Middleton, o Waenynog, ger Dinbych, llywodraethwr Castell Dinbych, yn nheyrnasiad Iorwerth VI., Mary, ac Elizabeth. Yr oedd yn frawd i Syr Thomas Myddleton, Cadben William Myddleton, a Syr Hugh Middleton. Efe a briododd Gwenhwyfar, ferch ac etifeddes Richard Wynn, Ysw., o Bodlith, plwyf Llansilin, yn yr un sir. Tra yr oedd ei geraint—ei nai o leiaf—yn cymeryd plaid y Senedd, yn y Rhyfel-oedd Cartrefol, yr erbyn y Siarliaid, yr oedd ef yn swyddog gwrol yn myddin y Brenin: a phan fwriadwyd creu urdd Marchogion y Dderwen Freiniol, yn 1660, bwriedid iddo ef gael yr anrhydedd hono; ac yr oedd ei etifeddiaeth yn werth £600.

MYDDLETON (William). Gwel Canoldref (Gwilym).

MYDDLETON (Syr Thomas), ydoedd frawd i'r Ffowc uchod. Aeth i Lundain yn ieuanc, a chynullodd gyfoeth dirfawr yno fel marsiandwr. Etholwyd ef yn arglwydd faer y Brifddinas yn 1614. Y flwyddyn ganlynol, prynodd etifeddiaeth Castell y Waen, yn ngodrau sir Ddinbych, gan arglwydd St. John o Bletso, ac o ganlyniad, efe ydyw cyff Miltwniaid y Waen. Dilynodd ei dad yn y swydd mewn enw o lywodraethwr castell Dinbych. Pan ddyrchafwyd Syr Thomas i wynt uchel cyfoeth, nid annghofiodd ei genedl, a'r angen ysprydol dybryd y gorweddai ynddo—ei hangen am Air y Bywyd. Yr oedd Beiblau Cymraeg mor brinion yn ei amser ef, fel na cheid hwynt yn odid un man

Digitized by Google

oddieithr yn mhalasau boneddigion ac eglwysi y plwyf. Mewn cysylltiad â Rowland Heylin, henadur Llundain, dygodd Syr Thomas dri argraffiad rhad allan o'r Beibl Cymraeg, y cyntaf yn 1630, ar gyfer ei gydwladwyr tlodion. Am y weithred ddaionus a dyngarol hon, y mae Mr. Stephen Hughes, yn ei ragymadrodd i *Lyfr y Ficer* yn sylwi:—"Yr wyf yn dymuno o'm calon ar Dduw, ar i bob bendith ysprydol a thymhorol ddisgyn ar bob un o hiliogaeth Syr Thomas Myddleton, yn Ngwynedd, neu un lle arall. Rhodded Duw iddynt fendithion aneirif fel tywod y môr, fel glaswellt y ddaear, ac fel ser y nefoedd A bydded i bob un yn Nghymru ag sydd yn caru Duw, ac yn hiraethu am iachawdwriaeth eneidiau anfarwol, gyduno i gyhoeddi o'u calon, Amen, ac Amen, boed felly. O Arglwydd grasol, bendithia epil Syr Thomas Myddleton, a bydded ei enw tros byth yn anrhydeddus." Mab iddo ef ydoedd yr ail farwnig, yr hwn a adwaenir fel SYR THOMAS MYDDLETON, y rhyfelwr. Bu ef yn aelod seneddol tros sir Ddinbych, cymerodd blaid y senedd yn ei hymrafael yn erbyn y brenin; a phan yn 57 oed, gwisgodd ryfelwisg yn yr achos, a rhoddwyd iddo swydd anrhydeddus ar fyddinoedd Gwynedd, y rhai mewn cydweithrediad â Syr Wm. Brereton, a gymerasant Gastell Holt yn 1643 oddiar wyr y brenin. Bu hefyd yn dra gwasanaethgar i'r un blaid yn narostyngiad Croesoswallt a Threfaldwyn, yn 1643 a 1644, am yr hyn y dychwelwyd iddo ddiolchgarwch y senedd. Pa fodd bynag, erbyn 1648, ymddengys fod Syr Thomas wedi digio wrth y senedd, canys ceir ef y flwyddyn hono yn mhlith ei haelodau gwrthodedig, a than lw a gwystl o ugain mil o bunau nad aflonyddai yr heddwch. Bu rhagllaw am ddeng mlynedd mewn dinodedd tan wg y blaid lywodraethol, a'r pryd hwnw collodd bob amynedd, a chyda Syr George Booth, ymarfogodd gyda'r bwriad atlwyddianus o adferu Siarl II. i'r orsedd. Cymerasant feddiant o Gaerlleon, eithr ni bu eu rhwysg ond byr, canys y cadflaenor Lambert a adgymerodd y lle hwnw oddiarnynt, a wasgarodd eu byddin, ac a ddiddiodd Syr G. Booth. Yna efe a warchaeodd ar Syr Thomas yn Nghastell y Waen, ac ar ol ychydig ddyddiau o wrthwynebiad, gorfu arno roddi y lle i fynu i ddwylaw ei elynion, y rhai a gymerasant feddiant ohono, gan dori y coed yn y parc i'w gwerthu. Y Syr Thomas hwn a fu farw yn 1666, yn 80 oed.

MYDDLETON (SYR HUGH). Ganwyd y Cymro celfyddgar a theyrngalon hwn yn mhlwyf Henllan, ger Dinbych. Efe oedd chweched mab Richard Myddleton, llywodraethwr castell Dinbych, tan deyrnasiadau Iorwerth VI., Mary, ac Elizabeth; a'i fam ydoedd Jane, merch i Hugh Dryhurst, burdais parchus o dref Dinbych. Er fod y cyfenwau Myddleton a Dryhurst yn swnio yn ddyeithr i'r glust Gymreig, a'u bod ar y cyntaf, mae'n ddiau, yn estronol,—canys enwau oeddynt a ddaethant i Ddyffryn Clwyd gyda'r Normaniaid ac arglwyddi y Terfynau; eto yr oedd eu perchenogion wedi trigianu gynifer o ganrifoedd yn mhlith y Cymry, a mabwysiadu eu harferion a'u hiaith, a chydbriodi â hwynt, nes eu dyfod yn Gymry gwladgarol a chynesgalon. Yr oedd felly mewn modd arbenig gyda theuluoedd y Salisburies a'r Miltwniaid o Ddyffryn Clwyd. Pleser penaf Syr Hugh pan yn blentyn ydoedd dyfeisiau a chynllunio darganfyddiadau; ac fel porthiant i'r dueddfryd hono, dywedir iddo dirio llawer am lô o fewn milldir i'w gartref. Ymsefydlodd yn Llundain fel gof aur *(goldsmith)*. Gan nad oedd y brifddinas y pryd hwnw yn cael ei chyflenwi â dwfr, a bod y dyoddef yn dost oherwydd y diffyg hwnw, cafwyd

Digitized by Google

tair gweithred seneddol, y gyntaf tan deyrnasiad Elizabeth, a'r ddwy arall tan Iago I.,—yn rhoddi llawn awdurdod i ddinasyddion Llundain i dynu dwfr o unrhyw afon yn siroedd Middlesex neu Hertford. Wedi llawer o gynllunio ac ymgynghori, rhoddasant y bwriad heibio fel un anymarferol. Ond cymerwyd yr amcan i fynu gan Syr H. Myddleton, a throsglwyddodd y dinasyddion eu hawliau yn yr anturiaeth i'w ddwylaw Ebrill 1, 1606. Wedi archwilio ffynonellau ac afonydd y siroedd crybwylledig, dewisodd ddwy ffynonell—un yn mhlwyf Amwell, ger Hertford, a'r llall yn agos i Ware, a'r ddwy ugain milldir o Lundain—ac wedi uno y ddwy aber, dygodd hwy trwy draul a llafur dirfawr i'r Brifddinas. Dechreuwyd y gwaith anferth hwn Chwefror 20, 1608; a chwblhawyd ef yn niwedd 1613. Er mwyn cadw y dwfr yn ei lefel, yr oedd yn rhaid cwmpasu bryniau, a phontio glynoedd yn yr oes hono, gan nad oeddynt yn deall natur yr elfen a ddygent tan eu llywodraeth, fel erbyn iddo gyrhaedd y ddwfrgronfa yn Islington, yr oedd wedi trafaelu deugain milldir. Er fod y brenin Iago yn talu haner y draul, eto llwyr ddinystriwyd Syr Hugh trwy yr anturiaeth, a llyncai y gwaith ei holl arian, yn cynwys y ddwy fil punau a dderbyniai bob mis oddiwrth ei fwngloddiau yn sir Aberteifi. Ar gwblhad y gwaith aruthrol hwn, darfu i'r brenin ei gren yn farchog, ac yn 1622 gwnaed ef yn farwnig hefyd. Yr oedd yr anturiaeth wedi ei dosranu i 72 o gyfranau, ac yr oedd pob cyfran yn werth £100 yn yn y dechreu; eithr leied o gefnogaeth a roddid i'r amcan, fel na bu y cyfraniadau am ddeugain mlynedd wedi gorphen y gwaith ond gwerth £5 yr un. Eithr wedi i'r Llundeinwyr ddechreu cefnogi y dwfr, cododd eu pris i £10,000 yr un. Darostyngwyd Syr Hugh gymaint, fel y bu raid iddo ddilyn peirianwaith fel galwedigaeth, a bu ei fedrusrwydd a'i allu fel y cyfryw o wasanaeth mawr mewn amryw fanau trwy sychu tiroedd a threfnu mwngloddiau. Bu gohebiaeth rhyngddo â Syr John Wyn, o Wydir, parth cau y môr allan o'r Traeth Bach, yn Arfon; yr hyn ni chyflawnwyd, ond yr hyn mae'n ddiau a roddes y drychfeddwl cyntaf i W. A. Maddocks i ymosod ar y llafur llesfawr hwnw. Bu yn cynrychioli bwrdeisdrefi Dinbych yn y Senedd, yn seneddau 1603, 1614, 1620, 1623, 1625, a 1628. Yr oedd ei serch at ei dref enedigol yn gryf ac anorchfygol, a'i gymwynasau ar ei rhan yn bwysig a lluosog. Bu yn henadur y dref hono am lawer o flynyddau, ac yn *recorder* am yspaid maith; mewn gair, bu yn gynghorwr ac yn gymwynaswr i dref Dinbych o'i febyd i'w fedd. Bu farw yn 1631, a dilynwyd ef i'r farwniaeth gan ei fab hynaf, Syr William Myddleton, ac ar farwolaeth Syr Hugh, y trydydd farwnig, yn ddietifedd, diflanodd y teitl.—Pennants' *Tours in Wales*; *Ancient and Modern Denbigh*; *Records of Denbigh*.

MYGNACH, sant yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Mydno, o Gaer Seont, neu Seon, ger Aberconwy. Bu am rhyw yspaid yn gofrestrydd coleg Cybi.

MYLLIN, sant, eithr ni wyddis ei amseriad. Efe a sefydlodd Lanfyllin, sir Drefaldwyn, lle y cedwid ei wylnabsant Mehefin 17.

NAMMOR (RHYS), bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1440 a 1480. Yr oedd yn fab i Dafydd Nanmor, meddir; ac yn trigiaw yn Maenor Fynwy, sir Benfro.

NANEY (PARCH. RICHARD), ydoedd fab i Robert Nanney, o Gefndeuddwr, yn mhlwyf Trawsfynydd, Meirion. Ei fam oedd Martha, ferch Richard ab Edwards, o Nanhoron Uchaf, yn Lleyn, sir

Digitized by Google

Gaernarfon. Efe a briododd Hydref 27, 1732, ag Elizabeth, ferch William Wynne, o'r Wernfawr, yn Lleyn. Cafodd ficeriaeth Clynnog Fawr yn 1723, a phersoniaeth Llanaelhaiarn yn 1765. Yr oedd hefyd yn gofrestrydd a chanon yn Eglwys Gadeiriol Bangor. Tra yr oedd yn ficar Clynog, yr oedd yn byw yn y Farchwen. Yr oedd yn wr tirion a hynaws. Daeth rywfodd i wrando y Methodistiaid, y rhai oeddynt yn dechreu teithio y wlad y pryd hyny, a mabwysiadodd feddyliau ffafriol am danynt ac am y weinidogaeth; a rhagorai ei weinidogaeth yntau ar bawb o'r bron o'i frodyr urddasol trwy yr holl wlad. Yr oedd wedi ymddiosg yn llwyr oddiwrth y byd a'i ofalon, fel nad adwaenai ei anifeiliaid ei hun, oddieithr yr un y marchogai arno; ac er iddo lafurio yn hynod o ddilwydd ar hyd ei oes, coronwyd ei ymdrechion yn ddirfawr cyn diwedd ei oes. Byddai y fath ad-dyniad i wrando arno o bob parth, nes bod yr eglwys-dy mawr hwnw, yr hwn sydd fel eglwys gadeiriol o faintioli, yn haner llawn o wrandawyr astud. Yn ei henaint a'i lesgedd yr oedd yn cael ei gynorthwyo i'r pwlpud. Ar ol pregethu, canai y gynulleidfa salm neu hymn; ac weithiau torai allan yn orfoledd crefyddol trwy yr holl le. Bu farw yn 1768, yn 80 oed.

NENIUS, yr hen hanesydd Prydeinig hyglod. Yr oedd yn ei flodeu yn yr 8fed ganrif; a dywed ef ei hun ei fod yn ddysgybl i Elfod, yr hwn a wnaed yn archesgob Bangor Deiniol, sir Gaernarfon, yn 755. Ysgrifenodd hanes Prydain yn Lladin tan y teitl "Historia Brittonum," o ba un y mae amryw gyfysgrifau ar gael, y goreu o ba rai ydyw yr un sydd yn llyfrgell y Vatican, yn Rhufain, a'r hwn a barhawyd i gyfnod diweddarach gan Marc y Meudwy. Cyhoeddwyd ef gyntaf gan Gale yn 1691, a thrachefn gan Bertram. Cyhoeddwyd cyfysgrif y Vatican gan y Parch. W. Gunn, yn 1819, gyda chyfieithiad a nodiadau helaeth, a chyfranodd Dr. Owen Pughe lawer o ffeithiau gwerthfawr i'r argraffiad hwn. Y mae cryn wahaniaeth rhwng argraffiadau Gale a Gunn, yn nhrefniad ac arddull y gwaith, ac oblegyd hyny tybir mai dau gyfieithiad ydynt o'r un gwaith gwreiddiol, a bod y gwreiddiol hwnw wedi ei ysgrifenu yn Gymraeg. Cyhoeddwyd argraffiad newydd o'r gwaith yn Lladin, gan Stevenson, yn 1838; a cheir cyfieithiad Gunn mewn cyfrol bum' swllt, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Bohn, tan yr enw "The Six English Chroniclers."

NEFYDD, sant yn y 5ed cant, ydoedd fab Rhun ab Brychan Brycheiniog. Dywedir yn *Achau y Saint* mai efe a sefydlodd Lannefydd, yn sir Ddinbych; ac iddo ar ol hyny fod yn esgob yn Ngogledd Prydain, lle y lladdwyd ef gan y Saeson a'r Pictiaid Paganaidd.

NEFYDD HARDD, pendefig o Nanconwy, sir Gaernarfon, yn ei flodeu tua chanol y 12fed ganrif. Mab ydoedd i Garadawg ab Gwydyr, yr hwn a hanai mewn llinell unionsyth o Gunedda Wledig. Coleddai y tywysog Owain Gwynedd y fath syniad uchel am dano, fel y rhoddes fagwraeth a dysgeidiaeth ei fab Idwal tan ei ofal; eithr efe a barodd i Dunawd, ei fab ei hun, lofruddio y tywysog ieuanc mewn lle a elwir oddiar hyny yn *Gwm Idwal*. Oherwydd yr ysgelerder hwn, darostyngwyd Nefydd o'r radd o bendefig i'r radd o gostowgwr, ac felly yr oedd costowglwyth Nanconwy o darddiad uwch nag un o'r lleill. Fel iawn am y lofruddiaeth hono, rhoddes Rhun ab Nefydd y tir ar ba un y saif eglwys Llanrwst. Yr oedd Nefydd Hardd yn ben un o Bumtheg Llwyth Gwynedd, a'i beisarfau oeddynt

Digitized by Google

'*Argent, three spears' heads imbrued sable, pointed upwards;*" tra y dywed awdurdodau eraill mai "*argent, a chevron between three javalins sable, pointed upwards gules,*" oeddynt.—Pennant's *Whitford and Holywell*; *Greal*, 158.

NEFYDD NAF NEIFION, cymeriad dychymygol a gynrychiola swyddogaeth Noa yn chwedl a rhamant yr hen Gymry. "Tri phrif-orchwestwaith Ynys Prydain: cyntaf, llong Nefydd Naf Neifion, a ddug ynddi wryw a benyw o bob byw pan dorres Llyn Llion." Am ragor o hanes y bod dychymygol hwn, gweler *Mythology of the Druids*, gan Davies.

NEFYN, santes yn y 5ed cant. Merch neu wyres ydoedd i Brychan Brycheiniog, ei phriod ydoedd Cynfarch Oer, a hwynthwy oeddynt riaint Urien Rheged. Cofnodir yr enedigaeth yn y *Trioedd* tan y penawd "tri gwyn dorllwyth." Credir mai hyhi a sefydlodd eglwys Nefyn yn Lleyn, sir Gaernarfon.

NICHOL (Syr John), D.C L., F.R S., marchog, o'r Merthyr Mawr, Morganwg, ydoedd ail fab John Nichol, o Lanfaes, Morganwg, ac a anwyd Mawrth 16, 1759. Yn 1775, etholwyd ef yn gymrawd o Goleg Ioan, Rhydychain, oherwydd ei fod yn gar i'r sylfaenydd. Yn 1785, cymerodd y graddau o D.C.L., a derbyniwyd ef yn amddiffynydd yn y Llys Cyffredin. Yn 1787, efe a briododd ferch i Peter Birt, o Gastell Wenfoe. Yn 1798, penodwyd ef yn amddiffynydd cyffredinol, ac urddwyd ef yn farchog. Yn 1803, dyrchafwyd ef yn *Dean of Arches*, a barnwr Llys y Penadur yn Nghaergrawnt, a chafodd hefyd ei dyngu yn un o'r Cyfrin-gynghor. Yn 1833, cafodd y swydd o farnwr yn Uchel-Lys y Llynges; ac yn 1834, gwnaed ef yn ficer cyffredinol i archesgob Canterbury. Eisteddodd Syr John yn y senedd am tros 30 mlynedd. Etholwyd ef gyntaf yn 1802 tros Penryn; yn 1806, tros Hastings; ac yn 1807, tros Great Bedwini, a pharhaodd yn seneddwr cyhyd ag y cafodd y lle hwnw aelod. Bu farw Awst 26, 1838, yn 79 oed.—*Lleyn MSS.*

NICHOLAS AB GWRGANT, brawd i Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg, a wnaed yn esgob Llandaf yn 1149, a llywyddodd yr esgobaeth hono hyd ei farwolaeth yn 1183. Dywed Caradog o Langarfan ei fod yn dra enwog yn ei ddydd am ei wladgarwch a'i dduwioldeb.

NIDAN, sant yn nechreu y 7fed cant. Mab ydoedd i Gwrfyw ab Pasgen ab Cynfarch; ac efe oedd cyffeswr y saint yn ngholeg Penmon, Mon. Sefydlodd eglwys Llanidan, yn yr ynys hono, lle y cedwid ei wylmabsant Medi 30.

NINIAN, neu *Sant Ninias*, gwr o fonedd uchel, ac athrylith ysplenydd, a anwyd yn Ngogledd Cymru. Wedi derbyn yr addysg oreu yn ei wlad enedigol, bu yn teithio gwledydd Ewrob er perffeithio yr addysg hwnw, a threuliodd lawer o flynyddau yn Rhufain, prif gartrefle dysgeidiaeth ac awdurdod yn yr oes hono. Oddiyno dychwelodd i Brydain, a threuliodd ei amser yn pregethu yr efengyl yn y parthau mwyaf anwaraidd ohoni, gyda sel a llwyddiant mawr. Yn nghyntaf, dychwelwyd y Pictiaid deheuol trwy ei weinidogaeth danbaid at y ffydd yn Nghrist. Cymerodd hyn le tan deyrnasiad Theodosius yr ieuangaf. Dywed Bede ei fod wedi adeiladu eglwys ardderchog o waith maen, yr hyn oedd beth tra anghyffredin yn yr amser hwnw yn mhlith y Brythoniaid, yn Witherne, sir Galloway, ac iddo ei chyflwyno i'w gyfaill St. Martin, esgob Tours. Yr oedd St.

Digitized by Google

Ninias yn awdwr esboniad ar y Salmau. Bu farw yn 432, a chladdwyd ef yn Witherne. Y mae amryw eglwysi a chapelau wedi eu cyflwyno iddo, ac yn dwyn ei enw yn Ysgotland.—Chalmer's *Caledonia.*

NON FENDIGAID, santes enwog tua therfyn y pumed cant. Merch ydoedd i Gynyr o Gaer Gawch; a thrwy ei phriodas â Sandde ab Caredig ab Cunedda, yr oedd yn fam i Dewi Sant. Y mae yr eglwysi canlynol wedi eu cyflwyno iddi:—Llanuwchaeron, a Llannon, sir Aberteifi; Llannon, sir Gaerfyrddin; a St Non, capel yn mhlwyf Tyddewi, sir Benfro. Cedwid ei wylmabsant Mawrth 3.

NOTT (SYR WILLIAM), G.C.B., a anwyd yn Nghastellnedd, Morganwg, Ionawr 20, 1782; a mab ydoedd i frodor parchus o'r lle hwnw. Symudodd ei dad ar ol hyny i Gaerfyrddin, lle y cadwai westdy yr *Ivy Bush.* Addysgwyd Nott ieuanc yn y Bontfaen, Morganwg, ac ni roddai y bachgenyn, meddir, ond ychydig ragargoelion o'r dyn enwog. Yn 1800, ymrestrodd yn ngwasanaeth Cwmni yr India Ddwyreiniol, a dechreuodd ragori a thynu sylw yn fuan. Yn mhen pedair blynedd wedi cyrhaedd Calcutta, danfonwyd *lieutenant* Nott yn llywydd ar gatrawd o wirfoddolwyr Bengal, o tan lywyddiaeth Hayes a Muckie, er cosbi trigolion y rhan hono am eu hymddygiad creulawn tuag at ddwylaw llong Seisnig. Yn yr ymgyrch lwyddianus hono, darfu i Nott hynodi ei hun yn fawr, a chrybwyllid ei enw yn anrhydeddus gan ei faeslywydd. Ar ei ddychweliad i Calcutta, parhaodd yn y fyddin yno hyd 1811, pryd y penodwyd ef yn arolygydd y Taliadau Teulnaidd, yr hon swydd a lanwodd hyd 1822. Dychwelodd i Gymru yn 1826, yn wael ei iechyd, a chanddo y radd o *major*, a chynysgaeth a'i galluogai i brynu etifeddiaeth gerllaw Caerfyrddin, a adwaenid wrth yr enw "Job's Well." Bwriadai dreulio gweddill ei oes yn nhawelwch bro ei enedigaeth, ond torodd ariandy yn Calcutta, a thrwy hyny darostyngwyd ei amgylchiadau i'r fath raddau fel y bu orfod arno werthu ei etifeddiaeth grybwylledig, a dychwelyd i India yn 1837. Rhoddwyd arno ef lywyddiaeth y 38ain Gatrawd Frodorol, ac yn fuan dygodd hono i radd uchel o ddysgyblaeth ac effeithioldeb. Yn 1838, penodwyd ef yn *brigadier* o'r ail ddosparth, ac yn llywydd ail ddosran byddin yr Indus; ac yn fuan canmolid ef gan Syr W. Cotton am y deheurwydd gyda pha un y llywyddasai orymdaith filwrol o tros fil o filldiroedd. Yn 1839, rhoddwyd arno lywyddiaeth yr holl fyddinoedd yn Scinde ac Affghanistan Isaf, ac yn y swydd hono enwogodd ei hun mewn cyfyng tra phwysig trwy ei benderfyniad, deheurwydd, a gallu. Y gwrhydri cyntaf a gyflawnodd ydoedd cymeryd tref a chaer Khelat. Yn Ionawr, 1841, yr oedd prif safle filwrol y cadflaenor Nott yn Candahar, a thua diwedd y flwyddyn hono torodd gwrthryfel allân yn Cabool. Daeth llu mawr gelynol i gymydogaeth Candahar, gan ymbabelin tuag wyth milldir o'r dref, a chors fawr o'u blaenau, fel yr oedd yn anhawdd iawn ymosod arnynt. Eithr ni fynai efe aros yn llonydd; ymosododd, gorchfygodd, a pharodd i'r rhai a'u hoedl ganddynt ar derfyn yr ymdrafod ffoi am eu heinioes, er nad oedd ganddo ef ond 5,000 o wyr yn erbyn 12,000 y gelyn, ac yn eu plith 6,000 o wyr meirch. Tua'r amser hwn, cafodd orchymyn gan Lywodraethwr Cyffredinol India i encilio o Candahar; rhoddes hyn lawer o ofid iddo, ond ystyriai mai ei ddyledswydd ydoedd ufyddhau. Archwyd iddo dynu yn ol y gwarchlu o Khelat, a gyrodd Colonel Wymer gyda nerth penaf ei fyddin er dwyn yr amean hwnw oddiamgylch. Pan ddeallodd y gelyn ei fod wedi ei wanychu trwy y

Digitized by Google

symudiad hwn, gwnaed ymgais gynddeiriog i'w orchfygu, a chyrhaeddodd y gelyn, yn rhifo 10,000 o wyr, o fewn milldir i'r dref. Nid oedd gan Nott ond 1,200, eithr gyda'r nifer fechan hon penderfynodd ymosod arnynt, a llwyddodd i'w gyru ymaith yn anhrefnus o'r maes. Bellach ambenai y priodoldeb o ufuddhau yn ddiwarafun i orchymyn y Llywodraethwr Cyffredinol, ac ysgrifenodd ato gan awgrymu yn foneddigaidd, er fod gwrthryfel Cabool yn un tra trychinebus, eto nad oedd y fyddin tan ei ofal wedi ei darostwng i'r fath raddau ag y tybid; ac y gallai ef ymdaith yn mlaen lawn cyn hawdded ag encilio yn ol, ac yn ei farn ef y blaenaf fyddai y llwybr mwyaf diberygl. Yr oedd ei weithredladdau blaenorol yn arddangos gymaint o gallineb, gofal, ac ymdrech, fel y darfu i'r Llywodraethwr adael iddo ddewis ei ffordd ei hun. Awst 8, cychwynodd i'w ymdaith anturiaethus o Candabar, a chanddo 5000 o wyr, ac aeth hyd ffordd Khelat i Ghuznee, ac ar y 18fed o'r un mis, cyfarfyddwyd ef gan lu llawer cryfach na'r eiddo ef, eithr gorchfygodd hwynt. Ymdeithiodd yn mlaen yn mhellach, ac ar y 30ain o'r un mis, pan tua 38 milldir o Ghuznee, cyfarfyddodd â'r gelyn yn rhifo 12,000, o tan lywyddiaeth Shumsoodeen Khan. Ymosododd arnynt gyda haner ei fyddin, ac ar ol brwydr ymdrechgar, llwyr orchfygodd hwynt, gan atafaelu eu gynau, eu pebyll, a'u hadgyfnerthion, a'u gwasgar hwythau i bob cyfeiriad. Medi 6, yr oedd gerbron Ghuznee, yr hon a gymerodd wedi gorchfygu y gelyn; ac wedi dinystrio y gaer a'i holl weithfeydd, symudodd yn mlaen tua Cabool. Ymosodwyd arno drachefn yn mynyddedir Mydan, lle y gwnaed ymdrech ffyrnig drachefn i atal ei ymgyrch gan Shumsoodeen, a llu mawr wedi ymuno âg ef, ac yn cael eu llwyddu gan gynlfer o benaethiaid Afghanaidd, ond gorchfygodd hwynt drachefn. Medi 17, unodd ei wyr gydag eiddo'r Cadfridog Pollok yn Cabool. Er fod amrywiaeth yn llwyddiant y rhyfelawd mewn rhai parthau o'r wlad, yr oedd ffawd yn gwenu yn ddieithriad ar arfau y Cadfridog Nott, a brwydr ar ol brwydr yn dwyn bytholwyrdd newydd i'w lawryf. Gwnaed ef yn farchog *Grand Cross of the Bath*, Rhagfyr 2, 1842, a chafodd ddiolchgarwch gwresog dau Dy y Senedd am ei "eondra, ei fedrusrwydd, a'i benderfyniad;" ac yn Medi, 1845, darfu i gyfarwyddwyr Cwmni India Ddwyreiniol osod arno ffwydd-dal o £1,000, i ddechreu o'r dydd y cychwynai o India, "er cymeradwyaeth i'r rhagolygiaeth, y farn, yr ymdrech, a'r dewrder, a arddangosodd Syr William Nott trwy holl gyfnod ei lywyddiaeth yn Candahar, a thrwy ei ymdaith lwyddiannus a gogoneddus oddiyno i Ghuznee a Cabool, yr hyn a gyfranodd mor helaeth i anrhydedd a chlod y genedl Brydeinig yn y parthau hyny." Yr oedd ei iechyd yn prysur ddirywio er pan y dychwelasai eilwaith i India, ac ar derfyn y rhyfelawd penderfynodd ddychwelyd adref. Erbyn iddo gyrhaedd Lloegr, yr oedd ei anhwylder wedi cymeryd gafael cryf arno, a thybir iddo gynyddu gyda'r derbyniad cyhoeddus a gwresog a roddwyd iddo yn Caerfyrddin. Yr oedd ei gariad yn fawr at y def hono, prynasai eilwaith etifeddiaeth Job's Well, ac yr oedd tua chant o ddynion yn prysur adeiladu pdas iddo yn y lle, pan y gorfu iddo adael y cyfan a marw yn mhen pedwar mis ar ol cyrhaedd adref, sef Ionawr 1, 1846. Ei afiechyd ydoedd eangiad y galon. Bu Syr William yn briod ddwywaith; ei wraig gyntaf ydoedd Letitia, merch Henry Swinhoe, Ysw., yr hon a briodes yn 1805, a bu iddynt bedwar-ar-ddeg o blant; ei ail wraig ydoedd Rosa Wilson, merch Cadben Dore,

Digitized by Google

yr hon a briodes yn 1843.

NUDD HAEL, pendefig yn y chweched ganrif. Mab ydoedd i Senylt ab Cedig, yr hwn a hanai o Macsen Wledig. Cofnodir ef yn y *Trioedd* gyda Rhydderch Hael a Mordaf Hael. Dywed *Tri* arall ei fod yn meddu ugain mil ac un o wartheg blithion, ac mai buelydd neu fugail y fuches hono ydoedd Llawfrodedd Farfog. Rhestrir ef hefyd yn mhlith y saint Cymreig; dywedir ei fod yn aelod o goleg Iltyd, ac iddo sefydlu eglwys Llysfronnudd.

NWYTHON, sant yn y chweched cant, a mab i Gildas y Coed Aur. Yr oedd gynt yn mhlwyf Llangwm, sir Ddinbych, ddau gapel a sefydlesid gan Gwynog a Nwython, y rhai sydd, bellach, wedi eu troi yn felin ac odyn.

OLIVER (Robert ab), ydoedd fab i Oliver ab Tomas, o'r Neuadd Wen, Llanerfyl, sir Drefaldwyn; a'i fam ydoedd Catrin, ferch Morys ab Ieuan o Langedwyn. Yr oedd Robert yn byw yn Cynhinfa; a phan yno, efe a adeiladodd bont geryg dros afon Owddyn, er cyfleusdra'r wlad. Y mae y bont hono yn cael ei galw hyd heddyw yn *Bont Robert ab Oliver*, neu yn fyrach *Pont Robert;* ac felly y gelwir yr ardal a'r dreflan. Er mwyn cael allan pa bryd y bu hyn, dyger a ganlyn:—Yn 1670, darfu i Rys ab Ieuan, o Fryn y Bwa, yn y gymydogaeth hono, briodi Sian, ferch hynaf i Robert ab Oliver uchod. Ymddengys y bu y rhai hyn feirw heb blant, a disgynodd yr ystadau i'w hail nith, o ferch cefnder, yr hon a briododd Owen Fychan o Lwydiarth; ac felly unwyd y ddwy etifeddiaeth, fel y maent yn awr yn mherchenogaeth etifeddion Wynnstay.—*Cam. Quar. Magazine.*

OLIVER (Parch. Thomas), a anwyd yn mhlwyf Tregynon, sir Drefaldwyn, yn 1725. Yr oedd ei rieni mewn sefyllfa barchus yn y byd, ac iddynt etifeddiaeth fechan, ond gan iddynt hwy feirw pan oedd efe ond plentyn, disgynodd ei ddygiad i fynu i ofal ewythr, yr hwn ni wnaeth ddim ar ei ran ond rhoddi celfyddyd iddo. Ymunodd yn ieuanc gyda'r Trefnyddion Wesleyaidd, a chan ei fod yn meddu galluoedd meddyliol o radd uchel, penodwyd ef yn un o'r pregethwyr cynorthwyol cyntaf yn y cyfundeb hwnw. Dechreuodd ar y gwaith hwnw yn 1753, ac wedi llafurio yn y swydd hono am lawer o flynyddau yn Lloegr, Iwerddon, ac Ysgotland, penodwyd ef gan Mr. Wesley i arolygu y wasg yn Llundain, lle y bu farw yn 1799. Yr oedd yn awdwr y gweithoedd canlynol:—1, "Twelve Reasons why the People called Methodists ought not to buy or sell uncustomed goods." 2, "An Answer to a Pamphlet entitled, 'A few thoughts on matters of fact concerning Methodism,' offered to the consideration of the People who attend, encourage, and support Methodist Teachers, in a Letter to the Author." 3, "A full Reply to a Pamphlet entitled, 'An answer to a late Pamphlet of Mr. Wesley against Mr. Erskine." 4, "A Letter to the Rev. Mr. Toplady, occasioned by his late Letter to Mr. Wesley." 5, "A Scourge to Calumny, in two parts, Inscribed to Richard Hill, Esq. Part the first, Demonstrating the absurdity of that gentleman's Farrago; Part the Second, Containing the full answer to all that is material in his Farrago Double Distilled," London 1774. 6, "A full Defence of the Rev. J. Wesley in answer to the several personal Reflections cast on that gentlman by the Rev. Caleb Evans." 7, "A Rod for a Reviler, or an answer to Mr. Rowland Hill's Letter to the Rev. John Wesley." 8, "An account of the Life of Mr. Thomas Oliver, written by himself.' 9, "A full Refutation of the Doctrine of unconditional Perseverance,

Digitized by Google

in a discourse on Hebrews, ii. 3;" cyfieithiwyd y llyfr hwn i'r Gymraeg. 10, "A Defence of Methodism, delivered extemporary in a public debate (but now considerably enlarged,) held in London, December 12, 19, and 26, 1785, on the following question, 'Have the Methodists done most good o'r evil." 11, "A Descriptive and Plaintive Elegy on the death of the late John Wesley." 12, "An Answer to Mr. Mark Davis's Thoughts on Dancing, to which are added, Serious Considerations to dissuade Christian Parents from teaching their Children to dance." Yr oedd hefyd yn awdwr Emynau y rhai a welir yn y llyfrau Hymnau Wesleyaidd.

OLWEN. *Gwel* CILHWCH.

OSBER, neu Osbwrn Wyddel, neu Osber Fitzgerald, oedd flaguryn a'r gangen Ddesmondaidd o'r cyff Gwyddelig Geraldaidd. Daeth trosodd i Gymru tua therfyn y 13eg ganrif. Dywed traddodiad mai'lladd rhyw foneddwr o nod yn ei wlad ei hun a barodd iddo ffoi ac ymsefydlu yn Nghymru, ac iddo ddwyn gydag ef gant o wyr meirch a'r gant o geffylau gwynion, ac i'w wasanaeth gael ei dderbyn gan Llywelyn tywysog Cymru. Hanes arall a ddywed ei fod yn uchel yn ffafr Iorwerth I., yr hwn a'i penodes yn oruchwyliwr Gwynedd; eithr gan nad yw ei enw ar restr goruchwylwyr y cyfnod hwnw, amheuir y gosodiad hwn. Sefydlodd ar y cyntaf yn Berllys, neu lys Osber, ger Corsygedol, Meirion; ac y mae tiroedd gerllaw a elwir Berdir, neu dir Osber. Dywedir ei fod wedi priodi aeres Corsygedol, a bod y lle hwnw o ganlyniad yn eiddo iddo Y mae olion caerfa yn weledig eto yn Berllys. Un o ddisgynyddion mwyaf anrhydeddus Osber ydoedd Dafydd ab Ifan ab Einion, cwnstabl dewr castell Harlech yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynau. Y mae teuluoedd eraill yn Meirion yn hawlio eu disgyniad ohono.

OSWAL neu *Oswallt*, un o feibion Cunedda Wledig, ac yn ei flodeu yn y 5ed ganrif. Ymosododd ef a'i frodyr mewn rhyfelawd ar y Gwyddelod, y rhai a ymsefydlasent mewn gwahanol barthau o Wynedd a Cheredigion, ac a'i llwyr ymlidiasant o'r wlad. Am y gwasanaeth hwn, cafodd Oswal y diriogaeth helaeth a elwid ar ei enw Osweilyng; ac adwaenid yntau fel Osweil o Osweiliawn. Y mae Croesoswallt yn sefyll o fewn yr hen diriogaeth hono.

OWAIN AB BRADWEN. *Gwel* EDNYWAIN BENDEW.

OWAIN ab Cadwgan ab Bleddyn, tywysog Powys, a dreuliodd fore ei oes mewn afradlonedd, trythyllwch, a gwrthryfel. Pan roddai ei dad wledd i'w benaethiaid yn Aberteifi, yn ystod Gwyliau Nadolig, 1107, soniai un o'r gwahoddedigion am degwch personol Nest, merch i Rhys a Tewdwr, a gwraig Gerald de Windsor, cwnstabl castell Penfro, ac enynwyd trachwant Owain tuag ati. Ymwelodd â Phenfro, a thrwy ei berthynas â'r teulu, cafodd dderbyniad croesawgar; ac ad-dalodd yntau y caredigrwydd trwy roddi y castell ar dân, dwyn Nest ymaith, a bu agos i Gerald golli ei fywyd yn y dinystr. Parodd y weithred anfad hon ofidiau chwerwon i'w dad, a bu raid iddo er ysgoi dialedd y Saeson, ffoi i'r Iwerddon. Pa fodd bynag, cafwyd heddwch yn mhen yspaid, a dychwelodd y tad a'r mab yn ol i'w gwlad. Yn 1110, Owain a olianodd ei dad fel tywysog Powys, a chafodd ar ol hyny dderbyniad i ffafr Harri I., gyda yr hwn yr aeth ef i Normandi, lle y gwnaed ef yn farchog ganddo. Lladdwyd ef gan Gerald de Windsor yn 1114.—*Brut y Tywysogion.*

OWAIN ab Dafydd, bardd rhwng 1604 a 1570. Y mae peth o'i waith ar gael.

Digitized by Google

OWAIN ab Edwyn, neu Owain *Fradwr*, pen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Efe oedd prif-weinidog a thad-yn-nghyfraith Gruffydd ab Cynan, yr hwn a briodasai Angharad ei ferch. Cynllwynodd yn erbyn ei dywysog gyda Hugh, iarll Caerlleon, ac enillodd wyr arfau Gruffydd i bleidio y gelyn, fel y bu orfod i'r tywysog hwnw ffoi i'r Iwerddon. Fel hyn trwy frad a dichell daeth Owain yn dywysog Gwynedd yn 1096, eithr byr fu ei fwyniant o ffrwyth ei anwiredd, canys yn mhen dwy flynedd, dychwelodd Gruffydd ac adfeddianodd ei diriogaethau. Gelwir Owain yn arglwydd Tegeingl, yr hwn le a safai yn y sir Fflint bresenol. Efe a fu farw o'r darfodedigaeth yn 1103, ac olianwyd ef gan ei fab Gronw. Ei beisarfau oeddynt "*Argent between four Cornish choughs armed gules, a cross fleury, engrailed sable.*"—*Brut y Tywysogion.*

OWAIN ab Gwilym, (Syr), o Dalyllyn, bardd ac offeiriad yn ei flodeu rhwng 1530 a 1570. Y mae peth o'i farddoniaeth ar gael mewn ysgrifau.

OWAIN ab Ieuan ab Rhys, bardd rhwng 1570 a 1600. Y mae peth o'i walth ar gael.

OWAIN ab Macsen Wledig, neu *Owen Finddu*, cymeriad nodedig yn hen hanesyddiaeth Brydeinig. Cysylltir ei enw yn *Tri* 34 gyda Phrydain a Charadawg, tan y penawd, "tri unben dygynull," "sef eu gelwir felly am eu breiniaw felly gan ddygynull gwlad a gorwlad dan holl derfynau cenedl y Cymry." Dywed *Tri* 21 mai efe oedd y cyntaf o freninoedd Prydain a omeddasant dalu y deyrnged flynyddol o dair mil o ariant i wyr Rhufain, "a than rith boddlondeb i hyny o beth y tynodd gwyr Rhufain oreuon gwyr Ynys Prydain y gellid gwyr rhyfel ohonynt i wlad Arabia a phell wledydd eraill, ac ni ddychwelasant yn eu hol; a gwyr Rhufain a oeddynt yn Ynys Prydain a aethant hyd yr Eidal, hyd nad oedd ohonynt namyn gwragedd a phlant bychain ar eu hol." Rhestrir ef yn *Tri* 41 gyda Charadawg ab Bran a Chawrdaf ab Caradawg, tan y penawd "tri chynweisiaid Ynys Prydain," "sef y'u gelwid felly am fyned o'u gwirfodd holl wyr Ynys Prydain o deyrn i aillt yn wyr iddynt, wrth raid gwlad rhag rhuthr gal a difrawd; a phan elynt y gwyr hyn i ryfel nid oedd nebun o wyr Ynys Prydain nad elai yn eu gosgorddau, ac ni fynid aros yn nghartref: a thri meib beirdd oeddynt." Yn *Tri* 53, dywedir mai efe a guddiodd ben Bran Fendigaid yn y Gwyn Fryn yn Llundain, a'r weithred hon ydoedd un o'r "tair cudd a datgudd;" ac "Arthur a'i datguddiawdd, can mai bach oedd ganthaw gadw yr ynys namyn o'i gadernid ei hun, a gwedi'r tri datgudd y cafas gormes y goreu ar Genedl y Cymry." Gweler y *Triodd* yn y *Myvyrian Archæology*. Dywedir iddo gael ei ladd mewn brwydr âg Eurnach Gawr, a'i gladdu yn Nanhwynwyn, yn nghoed Ffaraon. Rhestrir ef yn mhlith y Saint Cymreig, eithr nid oes un eglwys ar ei enw.—*Greal* Llundain, 7, 18. Rees' *Welsh Saints*, 107.

OWAIN ab Urien, ydoedd fab i Urien Rheged. Efe yw arwr y Fabinogi *Iarlles y Ffynon*, ac yn y rhamant synfawr hono y mae y dychymyg wedi ei orchuddio â nerth a swyngyfaredd rhyfedd. Yr oedd yn byw yn nechreu y 6ed ganrif, ac yn ei farwnad, yr hon a briodolir i Taliesin, dywedir mai efe a laddodd Ida, neu Fflamddwyn, brenin ofnadwy Northumberland. Rhestrir ef yn y *Triodd* gyda Rhun ab Maelgwyn a Rhuawn Befr, tan y penawd "tri gwyndeyrn Ynys Prydain;" ac mewn un arall gyda Cadur iarll Cernyw, a Lancelot

Digitized by Google

du Lac tan y penawd "tri cadfarchawg Llys Arthur." Yr oedd yn un o farchogion y Ford Gron, a gwneir defnydd mynych a phwysig o'i gymeriad yn nghyfansoddiad yr hen chwedlau Ffrengig, ac yn rhamantau Seisnig y Ford Gron, a gyhoeddwyd gyntaf gan Caxton. Efe a adeiladodd eglwys a chastell Aberllychwr, fel y gwelir oddiwrth *Englynion y Gorugau* yn y *Myv. Arch.* Dywedir yn *Englynion y Beddau* fod ei fedd yn Llan Morfael, eithr ni wyddis bellach yn mha le y safai y llan hwnw.—*Y Mabinogion*, gan Lady Ch. Guest, i. 88; *Hanes Cymru*, gan Carnhuanawc, 284; *Iolo MSS.* 553, 671.

OWAIN AB MORYDD, a deyrnasodd ar Brydain, yn ol y *Brutiau Cymreig*, tua phum' cant cyn Cred. Darfu iddo ef a'i frawd Peredur gynull byddin gref, a gwrthryfela yn erbyn eu brawd hynaf Elidyr, a'i garcharu yn Nhwr Llundain. Yna rhanasant y wlad rhyngddynt, ac Owain a gafas yr holl wlad o du'r gorllewin i afon Humber, yn cynwys Lloegr, Gymru, a Chernyw; a Pheredur du'r gogledd a dwyrain i'r afon hono. Bu Owain farw yn mhen saith mlynedd ar ol hyn, a syrthiodd yr holl ynys i feddiant Peredur.—*Myv. Arch.*

OWAIN BROGYNTYN, pendefig urddasol tua diwedd y 12fed ganrif. Mab ordderch ydoedd i Madog ab Meredydd ab Bleddyn, tywysog Powys Fadog; a'i fam ydoedd ferch y Maer Du o Rug, yn Edeyrnion. Rhoddes ei dad iddo arglwyddiaeth Edeyrnion, yn Meirion; a'r cwmwd gerllaw a elwir Dinmael. Yr oedd palas Owain yn Mrogyntyn *(Porkington)*, ger Croesoswallt; ac y mae olion ei aneddle i'w gweled hyd y dydd hwn, tan yr enw Castell Brogyntyn. Y mae llawer o brff deuluoedd siroedd Meirion a Dinbych yn olrhain eu hachau ohono. Gellir gweled ei ddagr a'i gwpan yn nghadw yn y Rug, ger Corwen. Gweler ei achau yn *Heraldic Visitations* Lewis Dwnn.

OWAIN GYFEILIOG. Gwel CYFEILIOG (Owain).

OWAIN DWNN, bardd a thelynor. Yr oedd yn gadben catrawd o wyr melrch, a hynododd ei hun yn fawr fel y cytryw yn yr Iwerddon. Dywedir iddo fod ar ol hyny yn arglwydd-raglaw y wlad hono.—Jones' *Welsh Bards*, 48.

OWEN GLYNDWR. Ganwyd yr arwr bydenwog hwn Mai 28, 1349. Yr oedd yn hanu o deuluoedd uchel; ar du ei dad, Gruffydd Fychan, o Bleiddyn ab Cynfyn, tywysog Powys; ac ar du ei fam, Elin merch Tomos ab Hywel, o Llywelyn, tywysog olaf Cymru. Er mai wrth y cyfenw "Glyndwr" yr adwaenir ef yn bresenol, ei enw teuluaidd oedd *Fychan;* neu yn ol yr hen ddull Cymreig, Owen ab Gruffydd Fychan. Talfyriad ydyw Glyndwr o'r gair Glyndyfrdwy; ac yn ol y dull Seisnig, gelwid ef *Arglwydd Glyndyfrdwy.* Dygwyd ef i fynu yn far-gyfreithiwr *(barrister).* Pa fodd bynag, nid yn y llinell hono yr oedd ei uchelgais ef yn gorwedd; torodd ei dueddiadau naturiol yn fuan tros ben ei addysg a'i ddygiad i fynu. Yn swn arfau rhyfel yr oedd ei anian ryfelgar ef yn cael boddhad. Newidiodd y wig am y llurig, a'r ysgrifbin am y cledd; a brwydrau y pen a'r tafod, am frwydrau y pen a'r gewynau. Ymunodd â byddin Risiart II., a gwasanaethodd fel cadben yn y fyddin hono yn yr Iwerddon yn y flwyddyn 1394. Sylwodd y brenin ar ei degwch a'i wroldeb, ac etholodd ef yn un o'i warchlu; wedi hyny llanwodd y swydd o ystafellydd i'w Fawrhydi. Gwnaed ef hefyd yn farchog, canys yn y cyngaws cyfreithiol rhwng Richard le Scrope a Syr Robert de Grosvenor, daw yn mlaen fel tyst tan yr enw *Syr* Owen de Glendore. Yr oedd Owen gyda'r brenin hwnw pan gymerwyd ef yn garcharor yn Nghastell Fflint, ac

Digitized by Google

wrth ddychwelyd i'w arglwyddiaeth, ysgarwyd ef â breninoliaeth Lloegr am byth—o hyn allan meddyliai am dani i'w chasiau; ac ni chyfarfyddodd mwyach â hi, ond fel gelyn diymod a gwrthwynebydd dewr ac anorchfygol. Safai ei balas Sycharth yn mhlwyf Llansilin, sir Ddinbych, a dywedir nad oedd ei etifeddiaethau oll namawr llai na deugain milldir ysgwar. Treuliodd dair neu bedair blynedd mewn dinodedd yn Sycharth, yn nghanol ei gydwladwyr a'i denantiaid, yn croesawu beirdd a chyfeillion, ac yn mwynhau holl ddyddanwch y boneddwr gwledig. Yr oedd gan Arglwydd Glyndyfrdwy ychwaneg nag un bardd, eithr yr enwocaf ohonynt oedd Iolo Goch. Gellid meddwl mai "canu ar ei fwyd ei hun" yr oedd Iolo, o serch at Glyndwr yn bersonol, a chariad at ei achos; canys yr oedd ganddo etifeddiaeth ar ei elw ei hun yn Nyffryn Clwyd, a elwid y Llechryd. Rhestrir ef yn mhlith goreuon beirdd ein gwlad; a diamheu fod ganddo law fawr yn nygiad y rhyfel oddiamgylch, ac yn ngosodiad Owen yn flaenor arno. Gwelir pedair cywydd o'i waith yn *Ngorchestion Beirdd Cymru* yn dal cysylltiad â'n harwr. Yn un ohonynt ceir desgrifiad o Sycharth, ac oddiwrth y dysgrifiad hwnw, gellir tybied ei fod yn lle arddercheg iawn. Ond y mae y fan erbyn hyn wedi newid. Pan ymwelodd Mr. George Borrow â'r ardal rai blynyddau yn ol, nid oedd yn aros o'r palas ond y bryn ar ba un yr adeiladwyd ef; a chraith y ddyfr-ffos heb ei ddileu eto oddiar ei ael. Y mae llwyn o goed gerllaw, lle bydd y gwynt ar brydiau yn sturmantu ei alarnad "adgof uwch angof," a elwir Llwyn Sycharth; a phentref bychan islaw yn parhau i drosglwyddo yr enw *Sycharth* i'r dyfodiant. Gwraig Glyndwr oedd Margaret, merch i Syr Dafydd Hanmer, o sir Fflint, marchog o gread Risiart II., ac un o farnwyr mainc y brenin hwnw. Cymerodd y briodas hon le yn y flwyddyn 1383, ac ohoni bu chwech o feibion, dywedir, a phump o ferched. Bu ei feibion yn gwasanaethu fel swyddogion yn ei fyddin; a dywed Mr. Brown-Willis, yn *Hanes Eglwys Gadeirol Llanelwy*, eu bod ar farwolaeth eu tad wedi ffoi i'r Iwerddon; i un ohonynt ymsefydlu yn Dublin, tan yr enw Baulf, neu y cryf, a'i fod yn hynafiad i deulu anrhydeddus yn y ddinas hono. Priododd y merched i deuluoedd parchus. Isabella, yr henaf, a briodes Adda ab Iorwerth Ddu; Alis, yr ail, Syr John Scudamore, o Ewyas, yn sir Henford; Janet, y drydedd, John Croft, o Gastell Croft, yn yr un sir; Margaret, yr ieuengaf, Roger Monnington, o sir Hereford, ar derfynau Brycheiniog; Jane, Arglwydd Grey, o Ruthyn, pan yn garcharor gan ei thad. Yr oedd y priodasau hyn yn bwysig, gan fod dylanwad gwladol Owen yn ymledu gyda phob un ohonynt; ac yr oedd ei feibion yn nghyfraith o blith tir-feddianwyr mwyaf y Cyffiniau—dosbarth tra defnyddiol yn nwylaw unrhyw benaeth gwrthryfelgar Cymreig. Rhwng Rhuthyn a Glyndyfrdwy, safai darn bychan o dir, o feddiant ambeus, a elwid y Croesau; ac yr oedd Reginald de Grey, arglwydd Rhuthyn, ac arglwydd Glyndyfrdwy yn ei hawlio. Bu cynghaws cyfreithiol rhyngddynt yn ei gylch yn nheyrnasiad y brenin Risiart, a thrwy fod Owen mewn ffafr gyda'r faine y pryd hwnw, efe a gariodd y dydd. Pan esgynodd Harri i'r orsedd, Reginald a adnewyddodd y cyngaws, a enillodd, a chymerodd feddiant cyfreithlon o'r darn tir. Gwelai Owen fod y rhod yn dechreu troi yn ei erbyn; a'i anffafraeth yn y llys yn dechreu ysu ei etifeddiaeth. Yna apeliodd trwy ddeiseb at y Senedd, gan ddisgwyl cael gwrandawiad yno, ond byddar oedd hono i'w gais, a diystyr o'i ddeiseb. Cyffrodd

Digitized by Google

hyn holl lidiowgrwydd ei enaid. Chwanegwyd yn fuan at y sarhad hwn gamwri arall. Yr oedd Harri yn darparu ymgyrch yn erbyn y Scotiaid, a gwysiodd Owen, yn mhlith barwniaid eraill, i ddarparu gwyr ac ymuno gyda'i fyddin ef. Ymddiriedwyd trosglwyddo y wŷs hon i de Grey, yr hwn, yn fradwrus, a'i cadwodd hyd onid oedd yn rhy hwyr i Owen allu uniddiau i'w gofynadau. Priodolodd y brenin ei anufudd-dod i deyrn-fradwriaeth, a rhoddodd ganiatad i Grey i atafaelu ei feddianau; achan fod dial yn felys ganddo, buan iawn y dechreuodd ar y gwaith. Erbyn canol haf y flwyddyn 1400, wele Owen a thua phedair mil o ddilynwyr, tan arfau, yn cynwys y gwladgarwyr mwyaf aiddgar, a'r sawl ag yr oedd ganddynt rhyw gam neillduol i ddial ar eu gelynion. Cymerasant afael ar y Croesau, meddiant Reginald de Grey. Dyma eu gweithred gyntaf, a'r dull hwn a gymerasant i gyhoeddi rhyfel. Mae yn ddiddadl fod y Saeson wedi cadw llygad gwyliadwrus ar eu paratoadau, ac yn hysbys o'u holl ysgogiadau; canys danfonodd y brenin yr arglwyddi Talbot a Grey, gyda byddin luosog, y rhai a ddisgynasant mor ddisymwth ar amddiffynfa ein harwr, fel y bu agos iawn iddynt ei ddal, a damwain a roddodd gyfle cul iddo ddianc i'r coedwigoedd. Ond nid gwr i ddigaloni oherwydd un anfiawd oedd Owen Glyndwr. Cynullodd fyddin gryfach nag o'r blaen, ac wedi i hono ei gyhoeddi yn *Dywysog Cymru*, ymdeithiasant tua Rhuthyn. Cyrhaeddasant Medi 20, a chynelid ffair yno ar y pryd; ymosodasant yn ebrwydd, gan gymeryd meddiant o'r eiddo, ac yn y diwedd llosgi y lle yn domen o ludw. Yna efe a ymgiliodd i'w gaer gadarn gerllaw Corwen, o'r enw Caer Drewyn. Pan ganfu Harri fel yr oedd pethau yn sefyll, efe a benderfynodd roddi ei droed breiniol ei hun ar fflam y gwrthryfel. Tei hiodd i Gymru gyda phob brys, ymwthiodd mor bell â Llanfaes, yn Mon, lle yr oedd mynachdy enwog y pryd hwnw, a'i fynachod yn bleidwyr gwresog i achos Owen; ond yr oedd y fflam yn rhy gref, llosgwyd y troed breiniol wrth geisio diffodd yr oddaith; ac wedi rhoddi rhai o'r mynachod truain hyn i farwolaeth, a dwyn eraill ohonynt yn garcharorion, gorfu iddo ddychwelyd i'w wlad. Ni chafodd gymaint ag unwaith y cyfleusdra o frwydr gydag Owen, gan ei fod ef yn rhy gall i anturio ei fyddin fechan yn erbyn 25,000 o wyr y brenin, cynefin â dwyn arfau. Ar yr 8fed o Dachwedd, rhoddes y brenin anrheg i'w frawd John, iarll Somerset, o holl etifeddiaethau Glyndwr yn Ngogledd a Deheudir Cymru; ond ni buasai waeth iddo mo'r llawer ei anrhegu â'r blaned Sadwrn, gan fod dylanwad eu meddianydd mor fawr y pryd hwnw, fel mai efe mewn gwirionedd oedd brenin Cymru—"rhoi'r croen cyn dal y llew." Gwelodd y brenin nad oeddi bygythion a moddion gorfod yn debyg o genedlu heddwch; ac o ganlyniad cynygiodd deleraw heddychol, sef maddeuant cyflawn i'r sawl a dalent warogaeth i'w fab yn Ngaerlleon Gawr. Y Cymry a'i hatebasant, nad oedd heddwch gyda thrais; a'u bod wedi tynu eu cleddyfau, ac wedi colli y gwenniau. Yn haf 1401, Owen a ymdeithiodd tua'r Deheudir, ac a wersyllodd, gyda chwech ugain o wyr, ar fynydd Pumlumon—man cyfleus iddo dderbyn adgyfnerthion o bob cwr i'r Dywysogaeth. O gadarnfeydd y mynydd hwn, ei wyr a ddisgynent i'r gwastad-diroedd cylchynol, gan ladd ac anrheithio y sawl nad arddelent hawliau eu penaeth. Dyoddefodd sir Drefaldwyn yn dost; gan fod llawer o'i gwyr mawr naill ai yn Saeson, neu a'u gogwydd tuag atynt. Dinystrodd brif dref y sir, ac anrheithiodd y Trallwm a'r Cyffiniau; distrywiodd Fynachlog y Cwmhir,

Digitized by Google

yn sir Faesyfed. Cymerodd gastell Maesyfed, a pharodd i'w wyr ddienyddio triugain o'r ceidwaid yn muarth y castell. Y mae y creulonderau hyn yn aros heb un rheswm wrth eu cefnau, ond dialedd at bob peth ag arno eiliw Seisnig Yn Mehefin, 1401, y brenin a ddaeth i Gymru gyda byddin o haner can' mil o wyr. Dinystriasant fynachlog Ystradfflur; yspeilient y wlad o'i golud flordd y cerddent; ac yn eu cynddaredd, llosgent y cnydau ar y meusydd, er mwyn tlodi y genedl i'r graddau eithaf. Ond gorfu ar Harri encilio mewn gwarth i'w wlad, wedi colli nifer mawr o'i ddynion trwy newyn ac ymosodiadau bychain a pharhaus ein cydwladwr. Cyfarfyddodd â chwe' mil ohonynt ar lan yr Hafren un diwrnod oer dryghinog, ac er nad oedd rhifedi ei wyr ef ond dwy fil, eto gan ladd llawer a boddi eraill ohonynt, cafodd Owen lwyr fuddugoliaeth arnynt. Pa fodd bynag, tybir ddarfod i'r brenin gyrhaedd un dyben pwysig yn y rhyfelgyrch hwn, sef llwgrwobrwyo tua deg ar hugain o foneddigion pleidiol i'r gwrthryfel, y penaf o ba rai oedd Gwilym ab Tudur. Wrth reswm, yr oedd colli cynifer o wyr dylanwadol yn golled fawr; ond rywfodd yr oedd cyfeillion purach yn codi yn eu lle; ac achos Owen mor llwyddianus, nes y penderfynodd y brenin ddyfod y *drydedd waith* yn ei erbyn. Cychwynodd y rhyfelgyrch hwn o Worcester, y dydd cyntaf o Hydref—adeg dra anfanteisiol ar y flwyddyn i allu ymosodol dalu ymweliad â Chymru. Dywed *Carte*, yr unig hen hanesydd sydd yn crybwyll am dynged y rhyfelawd hwn, ei fod yn llawn mor anffodus ag un o'r rhai blaenorol. Dychwelodd y brenin erbyn gwyliau'r Nadolig. Felly terfynodd ail flwyddyn y gwrthryfel. Yn 1402, Grey de Ruthin, yn ei fost wag, a roddodd ei fryd ar fod yn offeryn i'w waredu ei hunan a'r Saeson rhag eu gelyn trafferthus o Lyndyfrdwy. Casglodd fyddin o 15,000 o wyr; cyfarfyddodd Glyndwr ef ar lan yr afon Fyrnwy, yn sir Drefaldwyn, gyda 6,000 o wyr traed, a 3,000 o wyr meirch. Bu yno frwydr galed; ond gorfu ar Grey a'i fyddin ffoi, a gadael 2,000 o laddedigion ar y maes. Ffodd i'w gastell ei hun yn Rhuthyn, ac ymlidiodd Owen ef gyda chant o wyr hyd i'r gymydogaeth hono. Ac er mwyn tynu sylw Grey at eu nifer bychan, a'i abwydo i'w cynllwyn, dechreuasant ddinystrio meddianau ei gymydogion; llwyddodd y ddyfais; rhuthrodd Reginald yn rhy fyrbwyll i'w plith, a syrthiodd i'r fagl. Dygwyd ef yn garcharor i ryw gadarnfa anhygyrch yn Eryri, lle y bu am hir amser, a gorfu i'r brenin yn y diwedd dalu y swm mawr (y pryd hwnw) o £6,666 13s. 4c. am ei ryddhad Wedi i'n harwr ddyogelu y gelyn hwn, efe a roddodd y ffrwyn ar war ei ddialedd tuag at amryw eraill o'i elynion. Yr oedd castell Caernarfon y pryd hwnw tan ofal Ieuan ab Meredydd o Gefn y Fan, a Hwlkin Llwyd o Lynllifon, dau elyn calon i Glyndwr; ac wedi iddo losgi eu palasau, efe a warchaeodd arnynt yn y castell. Bu Ieuan farw tua'r amser yma, ac mor ddyfal oedd y gwarchae, fel y gorfodwyd iddynt ddwyn y corph i Benmorfa i'w gladdu mewn ysgraff hyd y dwr. Tua'r amser yma hefyd y tywalltodd Owen ei lid ar y gwyr eglwysig a ogwyddent at y Saeson. Dinystriodd fynachlogydd Bangor a Llanelwy; Risiart Younge oedd esgob y lle blaenaf, a Trevor yr olaf. Danfonodd y brenin wys at siryddion 34 o siroedd Lloegr, yn gorchymyn iddynt gynull gwyr i'w gyfarfod ef yn Lichfield, ar y 7fed o Orphenaf; ond cyn iddo gael y fyddin hon yn nghyd, daeth newydd drwg o Gymru fod Owen wedi curo Syr Edmund Mortimer mewn brwydr fawr. Oherwydd hyn gohiriwyd y rhyfelawd hwn. Dygodd y fuddugoliaeth

Digitized by Google

hon adgyfnerthion i Glyndwr o bob parth o'r Dywysogaeth ; a pharodd hyny i'r brenin dyngu llw newydd y mynai lethu ei elynion yn Nghymru. Gwysiodd ei luoedd i'w gyfarfod drachefn yn Lichfield, ar y 27ain o Awst, a rhanodd y lluoedd hyny yn dair adran. Y gyntaf, tan lywyddiaeth y brenin ei hun, i gychwyn o'r Amwythig ; yr ail, tan yr iarllau Stanhope a Warwick, o Hereford ; y trydydd, tan Harri, mab y brenin, o Gaerleon ar Ddyfrdwy ; a gallu y tri-llu hyn oedd i ddybenu y rhyfel, ac i wneud y Cymru yn deyrngarol. Ond yr oedd Owen yn faeslywydd rhy gall i anturio ei fyddin fechan yn erbyn 70,000 lluoedd y brenin ; o ganlyniad, enciliodd i'r mynyddoedd, gan yru o'i flaen yr holl ychain a'r defaid a phob defnydd porthiant. Heblaw hyn, yr oedd yr hin yn ystormus ddychrynllyd, a'r elfenau fel pe buasent mewn cyngrair gyda Glyndwr. Wrth wylio a cheisio gelyn cyfrwys, dialgar, a sydyn ei ysgogiadau, yn y curwlaw a'r cenllysg didrugaredd, darfu i ludded, newyn, ac afiechyd, deneuo'n fuan rengau byddin y Saeson. Er mwyn ceiu gwaradwydd yr aflwyddiant hwn, y Saeson a briodolent eu hanffawd i fedrusrwydd Glyndwr mewn swyngyfaredd ; "yr hwn," ebai Holinshed, "trwy ddewiniaeth a barodd i'r fath wyntoedd, tymhestloedd, gwlaw, eira, a chesair, bocni byddin y brenin, na chlybuwyd erioed am eu bath." Dichon ei fod, er mwyn brawychu ei gascion ac ymddyrchafu yn nhyb ei gydwladwyr, yn honi gallu swyngyfareddol—yn marchog ar ofergoeledd ei oes. Cododd cwmwl arall yn awyrgylch brenin Lloegr. Yr oedd teulu y Percies, iarll Northumberland, gyda y rhai gallnocaf yn ei holl deyrnas, ac yn hynod wasanaethgar iddo fel clawdd terfyn rhwng ei wlad ef ac eiddo'r Scotiaid rhyfelgar ac anhydrin, ond bu rhyw annghydfod rhyngddo a'r teulu hwnw, yr hyn a derfynodd yn eu gwaith yn tori allan mewn gwrthryfel agored. Mab i'r iarll hwnw ydoedd Henry Percy, neu Hotspur, fel y gelwid ef fynychaf. Yr oedd Syr Edmwnd Mortimer, fel y crybwyllasom, yn garcharor gan Owen ar y pryd, yntau yn cynrychioli teulu dylanwadol ar gyffiniau Cymru ; eithr yn ngwyneb yr amgylchiadau, rhyddhaodd ef. Yna ffurfiwyd cynghrair rhwng y tri, sef Glyndwr, Hotspur, a Mortimer. Yr oeddynt i gyd-godi arfau rhyfel yn erbyn coron Lloegr,—yr oeddynt i enill, wrth gwrs, ac yna rhanu y deyrnas rhyngddynt. Yr oedd Mortimer i gael yr holl wlad o du'r dehau i'r Trent, a thu'r dwyrain i'r Hafren ; y Percies i gael yr holl wlad o du'r gogledd i'r Trent ; a Glyndwr i gael Cymru oll. Yr oedd efe yn awr yn anterth ei rwysg a'i ogoniant. Gwysiodd holl bendefigion Cymru i'w gyfarfod yn Machynlleth ; cydnabyddwyd ef yno yn dywysog Cymru, dodwyd coron ar ei ben ; a dywedir fod cynrychiolwyr Ffrainc a Spaen yno, ac yn rhanog yn y ddefod. Yn y gynadledd a gymerodd le ar ol y coroniad bu agosi Owen golli ei fywyd. Yn mhlith y rhai a ddaethant i dalu gwarogaeth iddo yr oedd boneddwr o sir Frycheiniog, a elwid Dafydd Gam. Y gwr hwn, er ei fod yn briod gyda chwaer Owen, a ddygai y fath gasineb tuag ato fel yr ymddangosodd yn Machynlleth gyda'r bwriad o'i lofruddio. Ond daeth ei frad yn hysbys, cymerwyd gafael arno, a charcharwyd ef am ddeng mlynedd, sef hyd y flwyddyn 1412 ; ac onibai gwrthwynebiad Owen i dywallt gwaed y diwrnod llawen hwnw, diau na buasai einioes Gam o nemawr werth. Yna Glyndwr a amheithiodd ei etifeddiaeth, ac a ddialodd gamwedd yr arglwydd ar y deiliaid, trwy ddinystrio eu meddianau, a llosgi eu haneddau. Yn dechreu 1403, yr oedd y bronin yn canfod fod perygl on enbyd yn ei amgylchynu, a dechreuai

Digitized by Google

drefnu cynlluniau er dyogelu ei goron. Danfonodd wys at sirydd sir Gaerloyw, yn erchi iddo amddiffyn Cyffiniau Cymreig y sir hono gyda phob moddion cyrhaeddadwy. Yna teithiodd ar ffrwst mawr tua Burton ar Trent, gan ddisgwyl cyfarfod gyda Hotspur a'i fyddin. Deallodd yno eu bod wedi myned tua'r Amwythig; a gwelodd mai ei amcan yn y symudiad hwn oedd uno ei fyddin gyda'r eiddo Owen a Mortimer. Ei fantais ef oedd atal i'r uniad gymeryd lle; prysurodd tua'r Amwythig, a chyrhaeddodd yno ychydig oriau o flaen Hotspur, a thrwy hyny arbedodd ei goron. Yn y cyfamser, yr oedd Glyndwr wedi arwain ei wyr hyd at Groesoswallt, ac wedi danfon dosran o 4,000 ohonynt, tan lywyddiaeth ei frawd-yn-nghyfraith, Syr Jenkyn Hanmer, at wasanaeth Hotspur. Y gwyr hyn a ymladdasant yn anrhydeddus, a lladdwyd eu llywydd yn mhoethder yr ymladdfa. Amcanodd Hotspur groesi y caerau, a gorchfygu y brenin o'u mewn; ond yn gweled hyny yn anmhosibl, enciliodd dair milldir oddiwrth y dref, a gwersyllodd mewn man a elwir oddiar hyny, Battlefield. Ei fwriad, mae yn ddiddadl, yn y symudiad hwn, ydoedd ysgoi brwydr hyd oni chyrhaeddai adgyfnerthion ei gyngreiriaid. Dyma sefyllfa y pleidiau pan guddiodd yr haul ei wyneb arnynt yr 20fed o Fehefin. Bore dranoeth, Harri yn awyddus am frwydr, a ymosododd ar Hotspur yn ei wersyll, ac yr oedd y Gogleddwr enwog yn ddigon dewr i sefyll ei dir y tro hwn, er fod corpholaeth byddinoedd ei ddau gyfaill heb ei gyrhaedd. Bu brwydr anarferol o boeth rhyngddynt. Ond tra yr oedd efe yn gwibio trwy y fyddin freiniol ar ymchwil am y brenin i'w ladd, efe a syrthiodd yn ddisymwth wrtho'i hun yn nghanol ei elynion. Pan ddeallodd ei wyr ddarfod i'w penaeth syrthio, llwfrhaodd eu hysbryd, a therfynodd y frwydr bron yn uniongyrchol mewn buddugoliaeth lwyr, fawr, i'r brenin. Yn y cyfamser, yr oedd Glyndwr wedi ymdeithio o fewn milldir i Battlefield, a dim ond yr afon Hafren, yn yr hyn yr oedd llifeiriant mawr ar y pryd, yn ei luddias i gymeryd rhan yn ngwaith y dydd. Dangosir derwen yn yr ardal hono, yn mrigau yr hon, medd traddodiad, y treuliodd ran fawr o'r dydd yn gwylio ysgogiadau y pleidiau. Beiir ef yn dost, gan haneswyr Cymreig, am esgeuluso cymeryd mantais o bontydd yr Amwythig i groesi yr afon; tra y cyfiawnheir ef gan eraill trwy ddweyd fod y pontydd hyny yn cael eu gwarchod yn ddyfal gan wyr y brenin, a bod gallu bychan yn abl i gadw pont yn erbyn gallu deg gwaith eu rhifedi. Pa fodd bynag, nid ymddengys i ni fod gan Owen nemawr o hyder yn Hotspur trwy yr holl ymdrafod, a dichon fod ei *farn* yn gywir yn hyn, gan mai gwr uchelfrydig a balch oedd Hotspur, er yn rhyfelwr dewr a medrus. Ar ol y fuddugoliaeth hon, y brenin a deithiodd i'r Gogledd, lle y gwnaeth efe heddwch gyda Iarll Northumberland, tad yr anffodus Hotspur. Yna dychwelodd i Gyffiniau Cymru ar y bwriad o gosbi Owen a'i ddilynwyr, ond gorfodwyd ef i ymatal oherwydd prinder arian, a lluniaeth i'w filwyr. Arfaethodd gyflenwi yr angen cyntaf trwy drawsfeddianu eiddo eglwysig; ond lluddiwyd ef yn hyn hefyd gan archesgob Canterbury, yr hwn a'i rhybuddiodd nad oedd i gyffwrdd â'r cyfryw eiddo, a thrwy hyny cafodd Owen lonyddwch. Yn 1404, gwnaed cyngrair rhwng Owen â Ffrainc; er fod yr olaf oherwydd prinder arian, wedi arwyddo cadoediad gyda Harri i barhau am ddeng mlynedd ar hugain, eto nid ydoedd erioed wedi cydnabod ei hawliau i goron Lloegr. Y mae yn ddiddadl fod dealltwriaeth rhwng y brenin Ffrengig Charles, â'r Cyngreiriaid, yn ystod y flwyddyn ddiweddaf—fod y Ffrancod i ymosod ar ororau de-

Digitized by Google

heuol Lloegr, tra y byddent hwythau yn tynu sylw y brenin at y parthau gogleddol; canys yn ysted yr holl amser hwn yr oedd llynges Ffrainc yn gwibforio y glanau tan gochl gwahanol esgusodion, ac un tro tiriodd rhan ohoni ar yr Ynys Wyth (*Wight*), a gwnaethant gryn lawer o ddifrod. Ond yn nghorph y flwyddyn hon, gwnaed cyngrair ffurfiol, ymosodol ac amddiffynol, rhwng y ddwy genedl. Anfonodd Owen ei ganghellydd, Gruff. Younge, archddeon Meirionydd, a Syr John Hanmer, yn llysgenhadwyr trosto i Paris. Arwyddodd eu papurau yn Nolgellau, ar y 10fed o Fai, yn mha rai yr ymgyfenwai yn "Dywysog Cymru." Cawsant dderbyniad croesawus; arwyddasant y cytundeb ar ran eu penaeth ar y 14eg o Fehefin, yn mhalas Canghellydd Ffrainc, tra yr oedd lluaws o brif ddynion eglwysig a gwladol y wlad hono yn bresenol, fel tystion; a Glyndwr a gadarnhaodd y cytundeb yn nghastell Llanbadarn, ar y 12fed o Ionawr, 1405. Dechreuodd Owen ryfelgyrch y flwyddyn hon gydag egni adnewyddol. Anrheithiodd diroedd ei elynion, a chymerodd amryw gastellydd, yn mhlith pa rai yr oedd rhai Harlech ac Aberystwyth. Diarfogodd rai ohonynt, ac arfogodd eraill at ei wasanaeth ei hun. Yna trodd ei wyneb tua sir Drefaldwyn, a chyfarfu mintai Seisnig ag ef ar Fynydd Cwm Du. Ymosodasant arno, syrthiodd llawer o'i wyr, a gorfodwyd ef i encilio. Nid oes oes genym hanes iddo gael ei orchfygu cyn y tro hwn. Eithr yn fuan, efe a sychodd y gwarthrudd hwn ymaith; erlidiodd, goddiweddodd, a gorchfygodd hwynt, mewn lle a elwir Craig y Dorth, gerllaw Mynwy; ffoisant hwythau i gastell y dref hono, a da fod castell yn eu hymyl, onide ni ddiangasai ohonynt hysbysydd dynged y gweddill. Cadben y fintai Seisnig oedd Iarll Warwick, ac efe yn bersonol a gymerodd faner Owen yn mrwydr y Cwm Du. Yr oedd eiddo diroedd lawer yn sir Fynwy, ac ofn anrheithiad y rhai hyny a barodd iddo gymeryd arfau yn erbyn ein cydwladwr. Yn 1405, y mae ffawd yn awr yn dechreu gwgu arno. Ar yr 11eg o Fawrth, yr oedd gydag wyth mil o'i ddilynwyr yn Morganwg, ac yn llosgi ac anrheithio y wlad o'i amgylch, pryd yr atafiwyd ef yn ei alanasdra gan Syr Risiart Talbot, yr hwn gyda dyrnaid o wyr a ymosododd arnynt, ac a'u gorfododd i ffoi yn annhrefnus a gadael agos i fil o'u nifer yn gelaneddau meirwon o'u holau. Dywedir fod ymddygiad y Cymry yn yr ysgarmes hon yn hollol annheilwng o ddewrder eu cyndadau; ymollyngasant yn llwfr a diegni o flaen eu gelynion. Gyda'r amcan o ddileu gwarth y gorchfygiad hwn, Owen a ddanfones un o'i feibion ar ol y Saeson, a chymerodd ymladdfa arall le ar y 15fed o'r un mis, ar Fynydd y Pwll Melyn, yn sir Frycheiniog; ond trodd hono drachefn yn aflwyddiant, a phumtheg cant o'r Cymry, naill ai a laddwyd neu a gymerwyd yn garcharorion. Yn mhlith yr olaf, yr oedd eu llywydd; ac yn mhlith y blaenaf yr oedd Tudur brawd Owen, yr hwn oedd mor debyg iddo yn ei bryd nes y taenwyd y chwedl mai efe ydoedd; ond wrth chwilio y corph, cafwyd ei fod yn ddiffygiol o'r ddafaden uwchben y llygad a hynodai Glyndwr. Yr anffodion hyn a barasant i holl wyr Morganwg ymostwng i'r brenin, oddieithr ychydig gyfeillion selog i Owen, y rhai a ffoisant i Wynedd. Nid oedd ganddo yntau nac arian nac yspryd i gadw ei wyr yn nghyd; o ganlyniad, gadawsant ef a dychwelasant i'w cartrefleoedd. Mewn byr amser, dirywiodd ei achos i'r fath raddau onid oedd Glyndwr gadarn, falch, gyfoethog, yn ddim amgen na ffoadur trallodus yn gwibio oddiwrth y naill gyfaill at y llall, gan ymlechu mewn manau dirgel ac annghyfanedd. Y mae ogof yn min y môr yn mhlwyf

Digitized by Google

Llangelynin, Meirion, a adwaenir hyd y dydd hwn wrth yr enw "Ogof Owen," lle y bu ef yn ymguddio am un yspaid o amser, ac y danfonid ymborth iddo gan foneddwr o'r enw Edmyfed ab Aaron. Yn y cyfwng hwn, y cyfansoddodd Iolo Goch ei "*Gywydd i Owen Glyndwr wedi ei fyned ar ddifancoll*," oddiwrth pa un y gellir casglu na wyddai hyd yn nod ei gyfeilion mwyaf mynwesol pa le yr oedd ei ymguddfan. Ond yr oedd o'r pwys mwyaf gan Ffrainc gadw y gwrthryfel Cymreig yn fyw, nid yn unig er mwyn cwblhau y cytundeb rhyngddynt âg Owen, ond hefyd er mwyn trallodi Harri, a thynu ei sylw oddiwrth eu darpariadau bygythiol hwy eu hunain. Danfonasant ddeugain mil o wyr dewisol mewn cant a deugain o longau, o Brest, tua diwedd Mehefin. Yr oedd gofal eu trawsgludiad ar Renaud de Trie, llyngesydd Ffrainc; a Hugueville oedd eu cadlywydd. Cawsant fordaith gysurus oni buasai am eu diofalwch yn darpar digon o ddwfr croyw, ac oherwydd hyny trengodd llawer o'u meirch. Dywedir fod y cadlywydd wedi gwerthu etifeddiaeth helaeth yn Agincourt er mwyn prynu gwisgoedd ac addurniadau costus, yr hyn a brawf frwdfrydedd rhai o'r Ffrancod beth bynag, gyda'r rhyfelgyrch hwn. Wedi glanio yn Aberdaugleddyf, cychwynasant yn ddiymaros tua Chaerfyrddin, yr hwn le y pryd hwnw oedd yn meddiant y brenin; ac ar ol gwarchae am yspaid, gorfodwyd y gwarchlu i ymostwng. Ni ddarfu iddynt ymosod ar Gastell Penfro, gan ei fod mor gadarn; gwarchaeasant Hwlffordd, eithr Iarll Arundel a'i hamddiffynai mor lew, fel y bu raid i Hugueville godi y gwarchae wedi colli llawer o'i wyr. Yr oedd yn naturiol i'r Cymry, wrth weled cynorthwy a brwdfrydedd y Ffrancod ar eu rhan, adnewyddu eu nerth, i obaith ail ymgodi yn eu mynwesau, ac iddynt ymdyru eilwaith tan faner eu hen benaeth dewr Glyndwr. Cawn ein harwr eto ar y chwareufwrdd cyhoeddus, a chyda deng mil o wyr yn ymdeithio tua Dinbych y Pysgod (*Tenby*), lle y cyfarfyddodd y ddwy fyddin. Oddiyma, gan fyned yn unedig trwy Forganwg, teithiasant tua Worcester, gan losgi y Gororau ac anrheithio y wlad o'u hamgylch. Worcester y pryd hwnw oedd prif-ddinas y brenin yn ei randiroedd gorllewinol, ac oherwydd hyny yr ymosodwyd arni chwaithach rhyw dref Seisnig arall. Yr oedd y ddwyblaid yn deall eu gilydd, ac yn cil-lygadu ar Worcester, fel dau gi ar asgwrn y gynen. Danfonodd y brenin wys allan yn galw ar raglawiad amryw sirodd i godi milwyr, a phenderfynai wneud byr waith ar ei wrthwynebwyr. Arglwydd Berkley a Henry Pay, y llyngeswyr Seisnig, a losgasant bumtheg o longau Ffrengig tra wrth angor yn Aberdaugleddyf, a chymerasant bedair-ar-ddeg eraill ar y môr agored, yn llwythog o fwydydd a darpariadau i'r fyddin. Ar y 7fed o Awst, cawn y brenin wedi gadael Worcester, yn aros yn Hereford, ac yn bwriadu arwain y fyddin ei hun yn erbyn y gelynion. Pan ddeallodd Hugueville fod y brenin yn agoshau, ymgiliodd yn sydyn i ben bryn uchel tua naw milldir o Worcester, nes yr oedd glyn dwfn rhyngddo â'r fyddin frenhinol. Buont am tuag wyth niwrnod fel hyn yn ymdderu a'u gilydd. Ond byddai glewion y ddwy fyddin yn cyfarfod yn fynych ar lawr y glyn, a gornestu law-law yn cymeryd lle rhyngddynt, y rhai yn aml a derfynent yn angau. Collwyd o wyr trwyddynt tua dau cant o bob tu; a'r Ffrancod a gollasant amryw swyddogion, yn eu plith Arglwydd Mouci, brawd eu llyngesydd. Tybir mai ar Woodbury Hill, yn mhlwyf Whitley, naw milldir i'r gogledd-orllewin o Worcester, yr oedd gwersyll Owen. Amgylchid y lle gan ffos ddofn; ac yr oedd yn dra chyfleus, gan y gellid ymgilio o hono i Gymru os

Digitized by Google

byddai hyny yn ofynol. Ond bu Harri yn ddigon call i atal adgyfnerthion oddiwrth ei elynion, ac oherwydd hyny gorfodwyd hwynt i encilio yn y nos tua Chymru. Ar ol eu hencil o Worcester, y Ffrancod a gollasant eu holl frwdfrydedd, ac yn fuan dychwelasant oll i'w gwlad oddieithr rhyw bumtheg cant, a'r rhai hyny a'u dilynasant ar derfyn y gauaf. Ond er i'r Ffrancod dynu eu cynorthwy yn ol, ni lwfrhaodd yr hen genedl ddewr, ac yr oedd bywyd yn y gwrthryfel. Erbyn 1406, yr oedd ei achos wedi gwanychu i'r fath raddau nes y bu raid iddo gyfyngu ei weithrediadau i'r rhanau mynyddig o'r wlad, ac oddiyno rhuthrai yn sydyn i'r gwastad-diroedd, ac mor sydyn dychwelai drachefn, gan gymeryd gydag ef foddion cynaliaeth iddo ef a'i wyr; ac er i'r Ffrancod alw eu gwyr adref, eto parhaent i gynorthwyo Owen gyda lluniaeth a moddion rhyfel. Ond yr oedd y Dehendir o gwmwd i gwmwd yn graddol lithro o'i afael, trwy fod y tywysog Harri yn aros yno, ac yn gwibio trwy'r wlad, gan ddodi yr iau Seisonig ar wàrau'r trigolion trwy deg ac annheg. Er hyny cawn ein harwr yn arfer ei awdurded fel yn mlynyddoedd anterth ei lwyddiant—yn caniatau maddeuant; ac yn ddigon cadarn hefyd i noddi y ffoedigion Seisnig Iarll Northumberland ac Arglwydd Bardolph, wedi i'r Scotiaid, oddiwrth pa rai y ffoisent i Gymru, fwriadu eu rhoddi yn nwylaw eu gelynion, yn gyfnewid am garcharorion. Oddiwrth ymddygiad Senedd Lloegr hefyd gellir casglu fod ei ofn yn parhau arnynt. Deddfasant nad oedd i diroedd nac eiddo y gwrthryfelwyr gael eu rhoddi ymaith hyd yn mhen tri mis ar ol eu hatalfaelu, er mwyn iddynt hwy gael amser i chwilio i gyfiawnder yr atalfaeliad. Ychydig o ddigwyddiadau gwerth eu crybwyll a gymerasant le yn ystod y flwyddyn 1407. Collodd Owen Gastell Llanbedr Pont Stephan a Chastell Harlech, ond adgymerodd y blaenaf drachefn. Er hyny, byrhau yr oedd ei fraich yn barhaus; a Bardolph a Northumberland, ei westeion, wrth weled ei achos yn gwanychu cymaint, a ymadawsant i'w gwlad, ac yno wrth geisio codi gwrthryfel eilwaith, colledd y ddau eu bywydau, ar Bramham Moor, yn sir Gaerefrog. Yn nechreu 1409, ymddangosai cyfansoddiad dirywiedig y gwrthryfel fel yn adnewyddu ei nerth. Rhuthrodd y Cymry ar y Cyffiniau, a'r rhanau hyny o Gymru ag oeddynt yn gogwyddo at y Saeson, ac anrheithiasant hwynt. Yr oedd esgob Bangor gyda Glyndwr yn llywio yr ymosodiadau hyn. Tra yn ufuddhau gorchymyn eu penaeth yn sir Amwythig, carcharwyd dau o lewion y Cymry, sef Philip Scudamore a Rhys Ddu; ac ar ol eu caethgludo i Lundain, dienyddiwyd hwynt. Dyna ymgais olaf ein harwr o unrhyw bwys. Lluaws o'i wyr a'i gadawsant, a thrwy hyny gorfodid ef i aros yn hollol ar yr amddiffynol. Bu mynyddoedd yr Eryri eto yn dra thirion wrtho; yn eu castellydd cedyrn a naturiol hwy yr oedd yn ddiogel, wedi i'w amddiffynfeydd o waith dwylaw dyn ymollwng a llithro o un i un fel bradwyr i wasanaeth ei elynion. Yn y blynyddau 1401, '11, a '12, rhwng y mynyddau yr oedd y gwrthryfel yn byw, a Harri IV. a'i fab oeddynt wedi cael profion mor fynych o hinsawdd wrthryfelgar y manau hyny, nes y tybient mai doethach gadael llonydd i'r gwrthryfel farw ohono ei hun o'u mewn. Parhau yn garcharor yr oedd Dafydd Gam er holl ymgais y Saeson i'w ryddhau. O'r diwedd, tybiodd y brenin mai y ffordd oreu fyddai pwrcasu ei ryddhad mewn modd heddychol, a danfonodd ddau foneddwr o'r enw Syr John Tiplofte a Wm. Botiler i fargeinio gyda Glyndwr am ei ollyngdod; ac wedi deng mlynedd o garchariad maith, cyfiawn, a chwerw, gollyngwyd

Digitized by Google

"bradwr Machynlleth" yn rhydd. Arferai Owen gadw ei garcharorion rhyfel mewn adeilad cryf yn mhlwyf Llansantffraid Glyndyfrdwy. Y mae gweddillion y lle yn aros hyd y dydd hwn; adwaenir ef wrth yr enw "Carchar Owen Glyndwr." Daliodd Glyndwr ei dir hyd 1415; a'i ofn ar y Saeson hyd yn nod yn y flwyddyn hono. Ymostyngodd y brenin i gynyg telerau heddwch iddo, a danfonodd ato Syr Gilbert Talbot gyda llawn allu i ffurfio cytundeb, a chaniatau maddeuant rhad iddo ef a'i ddilynwyr os byddai hyny yn angenrheidiol. Ond marwolaeth Glyndwr a ataliodd yr amcan y tro hwn. Dygwyd y cytundeb oddiamgylch drachefn, gyda Meredydd, mab i Glyndwr, ar y 24ain o Chwefror: ac felly, plygodd y faner wrthryfelgar i fynu, a chyda hyny darfu y Cymry a rhyfela tros eu hiawnderau cynhenid a'u hannibyniaeth cenedlaethol; y ddwy genedl a fuont yn elynion am yn agos i fil o flynyddoedd a ysgwydasant ddwylaw, ac edrychasant yn myw llygaid eu gilydd; gwelodd y naill nad Rhys Gyrch oedd y Cymry oll, a'r llall nad Hengist oedd pob Sais. Dechreuwyd chwalu eu Clawdd Offa cymdeithasol; ac erbyn hyn, y mae yr hen elyniaeth wedi ymgolli bron yn llwyr mewn cyfeillgarwch. Bu Owen farw yn nhy ei ferch yn Monnington, ar yr 20fed o Fedi, 1415, yn 61 oed. Yn ol y farn gyffredin, claddwyd ef yn mynwent plwyf Monnington; ac nid oes cerfddelw o un math, na cholgolofn, na chymaint â chareg las, yn dynodi ei fedd. Y mae hyd yn nod sicrwydd am y man y claddwyd ef wedi ei gladdu.

OWEN GRUFFYDD, o Lanystumdwy, Arfon, ydoedd fardd da, ac achwr enwog, ac yn ei flodeu tua dechreu y ganrif ddiweddaf. Y mae ei waith yn wasgaredig hyd y cylchgronau Cymreig, a llawer ohono yn aros yn annghyhoeddedig mewn ysgrifllyfrau. Bu farw yn Rhagfyr, 1750, wedi cyrhaedd yr oedran mawr o 87 mlwydd. Oddiwrth yr englyn canlynol o'i waith, gellir casglu ei fod yn dra gwrthwynebol i roddi arch o goed am y corph yn y bedd:—

O, ffei! gwaith ffiaidd o'i go'—wneud eirch,
Nid archiad Duw mo'no;
Mewn llian, graian, a gro,
Bu gorph Iesu'n gorphwyso.

Ond ymddengys na chafodd efe ei ddymuniad yn hyn o beth. Canwyd ei farwnad gan Michael Prisiart, yr hon a welir yn argraffedig yn *Brython* v. 205.

OWAIN (Gutyn), arwyddfardd dysgedig, ac achwr clodfawr. Brodor o Faelor, yn sir Fflint, ydoedd; eithr trigianai yn Ifton, ger Croesoswallt, lle yr oedd ganddo beth cyfoeth tirol, ac yn ngweithredoedd y cyfryw, gelwir ef Gruffydd ab Huw ab Owain. Efe oedd hanesydd ac arwyddfardd mynachlogydd Basingwerk, sir Fflint; ac Ystradfflur, yn sir Aberteifi. Ysgrifenodd lawer yn ei amser, ac y mae "Llyfr Du Basing" o'i waith ar gael eto. Copi o *Hanes Cymru* gan Caradawg o Langarfan ydyw. Cyrhaedda yr hanes ynddo hyd 1461. Penodwyd Gutyn Owain yn un gan Harri VII. i olrhain achau y brenin drwy Owain Tudur at hen frenhinoedd cyntefig Ynys Prydain. Yr oedd efe hefyd gyda'i gymydog Dafydd ab Edmwnd yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin yn 1451. Camgymerir ef weithiau am Gutto'r Glyn, ond y mae'n amlwg eu bod yn bersonau gwahanol. Claddwyd ef yn mynwent Llanfarthin.

OWAIN GWYNEDD, un o dywysogion gwiwglodus Cymru, mab hynaf i Gruffydd ab Cynan, ac Angharad merch Owain ab Edeyrn.

Digitized by Google

Ar farwolaeth ei dad yn 1137, yn ol defod gwlad, rhanwyd tywysogaeth Cymru, a rhan Owain ydoedd gwlad Gwynedd. Ei weithred gyntaf fel tywysog ydoedd arwain rhyfelawd i'r Deheubarth, yr hwn a fu yn dra llwyddianus. Dinystriodd gestyll Ystrad Meirig, Pont Stephan, ac Wmffre, a llosgodd Gaerfyrddin i'r llawr; darostyngodd Geredigion oll i'w feddiant, gorfododd Benfro i dalu teyrnged, a dychwelodd adref yn llwythog o yspail rhyfel. Yn 1144, ymosododd ar gastell cadarn y Wyddgrug, yr hwn oedd yn meddiant gwarchlu lluosog o Saeson, a rhuthriadau parhaus y cyfryw ar yr ardaloedd cyfiiniol a barai ofid dwys i Gymry y parthau hyny, ac wedi ei gymeryd trwy ruthr, darostyngodd ef yn llwyr i'r llawr. Yn 1148, gorchfygodd fyddin Seisnig, o tan Ranulph, iarll Caerlleon, yn y Consyllt, sir Fflint; ac nid arbedwyd ohonynt ond y sawl a gymerwyd yn garcharorion, ac ychydig o'u llywyddion a fedrasant ddianc trwy fuandra eu meirch. Yn 1157, ymosodwyd ar diriogaeth Owain gan Harri II., yr hwn a arweiniodd fyddin gref o Gaerlleon i Ruddlan, tra yr oedd ei lynges yn anrheithio y mor gyffiniau mor bell ag Ynys Mon. Er i'r Cymry sefyll yn ddewr tros eu gwlad a'u hiawnderau, llwyddodd y y brenin Seisnig i ddarostwng Owain, a gwnaed cytundeb trwy yr hwn yr oedd efe a'i bendefigion i dalu gwarogaeth i Harri, ac i roddi i fynu'r cestyll yn Ngwynedd a adfeddianesid oddiar y Saeson yn ystod y teyrnasiad blaenorol. Gorfodwyd ef hefyd i roddi dau o'i feibion i'w elynion fel gwystlon am ei ymddygiad yn y dyfodol. Yn 1165, ymunodd Owain â chyngrair o dywysogion Cymreig yn erbyn Harri, a dygodd hyn y brenin hwnw drachefn gyda byddin nerthol i Wynedd, gan wersyllu ar yr afon Ceiriog a mynydd y Berwyn; eithr parodd ymosodiadau difiin y Cymru, a gwlawogydd trymion, iddo encilio yn ddianrhydeddus. Yna cymerodd Owain gastell Basingwerk, yn sir Fflint, gan ei lwyr ddinystrio; a buan ar ol hyny cyfarfu cestyll Prestatyn a Rhuddlan â'r un dynged. Terfynodd ei oes fywiog a chlodfawr, wedi teyrnasu am 32 o flynyddau, yn 1162, a chladdwyd ef yn mynachlog Bangor, lle mae cofgolofn iddo eto yn aros. Ei wraig gyntaf ydoedd Gwladus, merch Llywarch ab Trahaearn, arglwydd Penfro, a bu iddynt o blant Iorwerth Drwyndwn, Cynan, Maelgwn, a Gwenllian. Ei ail wraig ydoedd Christian, merch Gronw ab Owain ab Edeyrn, arglwydd Tegengl, ac o'r briodas hon yr oedd Dafydd, Rhodri arglwydd Mon, Cadwallawn abad Enlli, ac Angharad, yr hon a briodes Gruffydd Maelor. Bu iddo hefyd ddeuddeg o blant anghyfreithlon.

OWAIN GWYNEDD, bardd gorchestol yn ei flodeu rhwng 1540 a 1590. Dywedir mai ei enw priodol ydoedd Owen Evans. Cafodd radd pencerdd gan Simwnt Fychan yn ail Eisteddfod Caerwys, yn 1568. Y mae cywydd o'i waith yn *Ngorchestion Beirdd Cymru*; ac y mae saith cywydd arall o'n blaen mewn llawysgrifau. Nis gellir casglu oddiwrth y rhai hyn ei fod, fel y dywed rhai, yn fardd i Lewis Owen, y barwn; ond ei fod yn gyfaill cydstad â'r teulu mewn urddas.

OWAIN (SYR SION), bardd ac offeiriad yn ei flodeu rhwng 1560 a 1600.

OWAIN (SION THOMAS), bardd yn ei flodeu rhwng 1600 a 1640.

OWEN (ANEURIN), Ysw., ydoedd unig fab y Dr. William Owen Pughe. Ganwyd ef yn 1792. Bu am beth amser yn ysgol Bangor, eithr tan addysg bersonol ei dad rhagorol y casglodd efe y rhan fwyaf o'i drysorfa gyfoethog o wybodaeth. Parodd ei feistrolaeth drylwyr

Digitized by Google

o'r Iaith Gymraeg. a'i gydnabyddiaeth â Hynafiaethau Prydeinig, iddo gael ei ddewis gan y Llywodraeth fel dilynydd i John Humphreys Parry, Ysw., gyda'r gwaith o gyfansoddi hanes boreuol yr Ynysoedd Prydeinig. Mewn cysylltiad â hyn, efe a ymroddodd i gyfieithu Cyfreithiau Hywel Dda i'r Seisnig. Er dwyn oddiamgylch y gweithoedd hyn mewn modd teilwng, yr oedd iddo ddrws agored i blith llawysgrifau awdurol a gwerthfawr y *British Museum*, a llyfrgelloedd boneddigion y wlad; a chyda chymhorth geiriadur digymhar ei dad, cwblhaodd yr amcan yn y dull mwyaf anrhydeddus. Cyhoeddwyd y gwaith gwerthfawr hwn yn 1841, mewn un gyfrol *folio*, a dwy gyfrol 8*vo*, tan y teitl, "The Ancient Laws and Institutes of Wales." Pan ddeddfwyd fod y degwm i'w dalu mewn arian, ac nid mewn rhan o gnwd y maes, penodwyd Mr Owen yn un o'r Dirprwy Degymol, y rhai a benderfynent y swm i'w dalu; a rhoddes foddlonrwydd cyffredinol yn y cyfryw swydd. Ar farwolaeth Colonel Wade, cynorthwywr Dirprwy Cyfraith y Tylodion, cynygiwyd y swydd hono iddo, a derbyniodd hi gan y Llywodraeth; ond er iddo enill gair uchel, a chlod gwreng a boneddig, fel swyddog gonest a diduedd, gorfu arno daflu y penodiad olaf i fynu, gan na chaniatai ei nerth iddo gyflawni dyledswyddau y ddwy sefyllfa bwysig. Fel yr oedd y gwaith mewn cysylltiad â'r Ddirprwy Degymol yn ysgafnhau, gwnaed ef yn ddirprwywr tan y weithred Seneddol er cau mynyddau, *commons*, &c., ac yn hyn drachefn cyflawnodd ei ymddiriedaeth er boddhad pob dosparth. Fel y crybwyllwyd, yr oedd yn Gymreigiwr campus, ac yn deall arddull a gwreiddiau ein hiaith i berffeithrwydd. Yr oedd efe yn un o'r pump a benodwyd yn Eisteddfod y Fenni yn 1838, i wellhau a sefydlu yr Orgraff Gymreig; a bu yn feirniad ac yn ymgystadlydd buddugoliaethus amryw droion ar bynciau o gyffelyb natur mewn Eisteddfodau. Yr oedd hefyd yn ysgolhaig clasurol da, yn gydnabyddus ag amryw o'r ieithoedd diweddar, ac yn gerddor a llysieuydd rhagorol. Yr oedd Aneurin Owen yn un o lenorion Cymreig mwyaf anrhydeddus yr oes o'r blaen; a Thanygyrt, ei balas, yn cadw drws agored, a bwrdd llawn, ar gyfer dysgyblion yr awen, a hoffwyr barddas a chân. Efe a fu farw yn Trosyparc, ger Dinbych, Mehefin 17, 1851.

OWEN (Arthur), ydoedd fab hynaf Syr Hugh Owen, o Orielton, sir Benfro, ac Ann, merch ac etifeddes Henry Owen, o Bodawen, Mon. Yr oedd yn aelod seneddol, ac yn arglwydd-raglaw sir Benfro. Bernir mai yr un ydoedd â'r Arthur Owen a roddes, trwy ei *casting vote*, deulu Brunswick ar orsedd Prydain.

OWEN (Parch. Benjamin), gweinidog poblogaidd gyda'r Annibynwyr yn Merthyr. Ganwyd ef yn Nhrefdraeth, sir Benfro, Awst 28, 1810. Saer oedd ei dad, William Owen; ac yr oedd ei fam yn chwaer i'r Parch. Thomas Griffiths, Hawen. Benjamin oedd yr ieuangaf o'u plant, yn mhlith y rhai yr oedd dau eraill a fuant yn bregethwyr o nod, sef y Parchn. John Owen, Maenclochog, a Daniel Owen, Cendl, gwr ieuanc doniol iawn a thra addawol, ond a fu farw yn ieuanc—Ionawr 27, 1830. Yr oedd B. Owen yn fachgen bywiog, cryf, a gwrhydrus, yn bencampwr y chwareu, ac yn bendysgwr yn yr Ysgol Sabbathol. Ychydig o ysgol ddyddiol a gafodd, gan i'w dad farw pan nad oedd ef ond plentyn, gan adael ei fam yn weddw, a thyaid o blant bychain ar haner eu magu. Prentisiwyd ef yn saer yn unarddeg oed, a thra yn ymegnio i ddysgu ei gelfyddyd, nid esgeuluasodd chwaith ei ran feddyliol. Gweithiai yn galed yn oriau gweithio, a threuliai e

Digitized by Google

oriau hamddenol i ddarllen. Yr oedd gan fesuroniaeth afael cryf ar ei feddwl, a hynodid ef fel dadleuwr medrus. Ymunodd â'r eglwys Annibynol yn Nhrefdraeth; a galwyd arno i ddechreu pregethu yn 1833. Yn 1835, aeth ar daith, yn ol arfer pregethwyr ieuanc gyda'r Annibynwyr yn yr amser hwnw, trwy ranau o siroedd Caerfyrddin, Morganwg, a Mynwy. Galwodd ef a'r cydymaith pregethwrol oedd gydag ef, yn eu tro yn Soar, Merthyr, a syrthiodd yr eglwys hono i gariad ag ef, a deisyfasant arno ddyfod yno am beth amser ar brawf. Cydsyniodd yntau, ac urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth Chwef. 11, 1837. Ymroddodd i efrydu'n galed, a phregethai yn rymus ac effeithiol; gweithiodd fywyd newydd i galon yr eglwys; cynyddodd y gynulleidfa, a chwanegwyd nifer yr eglwys. Yn Mai, 1840, priododd Mary Ann, merch y Parch. Samuel Evans, ei ragflaenydd yn Soar. Bu yn gydymaith bywyd rhagorol iddo, edrychid arni fel esiampl o wraig gweinidog, ceir cipolwg o'i haml a'i heirdd rinweddau yn ei *Chofiant* a ysgrifenwyd gan y Parch. John Davies, Caerdydd. Yr oedd llwyddiant gweinidogaethol Mr. Owen y fath, fel y daeth y capel, bychan mewn cydmariaeth, yn llawer rhy fach i gynwys y gynulleidfa a gynullai i'w wrando; a phenderfynwyd ei ailadeiladu a'i helaethu. Cwblhawyd yr adeilad newydd yn gynar yn 1842, trwy gynlluniad a than arolygiaeth Mr. Owen ei hun; yr oedd yn mesur 70 troedfedd wrth 50, ac yn costio £2,300. Aeth y son allan am fawredd a phrydferthwch capel Soar, a lledaenodd clod yr arch-adeiladydd hefyd, a buan y deisyfodd eglwysi eraill arno dynu cynlluniau iddynt hwythau. Ymroddodd i gydsynio â'u cais; a bu hyd ddiwedd ei oes fel y cyfryw yn dra gwasanaethgar i'r enwad yn y Deheudir. Ni bu ddiwrnod yn esmwyth nes talu dyled fawr y capel ardderchog, a rhoddes holl Ferthyr, Llundain, Bristol, a manau eraill tan dreth wirfoddol i'w gynorthwyo yn yr amcan hwnw. Gadawodd ei lafur dybryd gyda'r gwaith hwnw ei ol arno tra y bu byw. Yn y cyfamser, trwy ei offerynoliaeth a'i ymdrechion ef y codwyd yr achos Cymreig yn Mristol uwchlaw y tonau. Yr oedd yn bregethwr rhagorol. Meddai y fath doraeth o hanesion a chymhariaethau i egluro ei bwnc, fel y cadwai y dorf i wrando yn astud a boddhaus. Yr oedd ei lais ychydig yn graslyd ac aflafar; ond pan gaffai hwyl, ysgubai bob annymunoldeb arwynebol felly o'i flaen. Yr oedd llawer o farddoniaeth naturiol yn ei feddwl, a fflachiai ambell fellten o ddrychfeddwl yn ei bregethau. Amcan mawr ei genadwri oedd cael dynion at Grist, ac yn ei sel danllyd hon yr oedd cuddiad cryfder ei lwyddiant gweinidogaethol. Meddianwyd ef gan y dwymyn ddarlithyddol fel lluaws eraill o'i frodyr, a bu yn "cynal" darlithiau ar "Job," y "*Maine Law*," a "Dr. Jenkyn," a thrwy draddodiad y rhai hyn bu o fawr wasanaeth i achosion gweiniaid. Ni ddanfonodd ond ychydig o gynyrch ei feddwl trwy y wasg, oddieithr "Cofiant y Parch. T. Griffiths, Hawen." Wedi oes ddiflin o wasanaeth mawr, ac 28ain o flynyddoedd o fywyd gweinidogaethol, efe a fu a farw Awst 23, 1864, yn 54 oed.—*Ei Gofiant.*

OWEN (Parch. Charles), gweinidog annghydffurfiol enwog, ydoedd frodor o sir Drefaldwyn, lle y ganwyd ef yn 1654. Addysgwyd ef yn Amwythig. Cafodd ei urddo yn ddirgelaidd yn weinidog cynulleidfa yn Bridgenorth; ond gan iddo ddyfod yn wrthddrych erlediga eth greulawn yr amser hwnw, gorfu arno adael pobl ei ofal, a bu yn llechu yn Llundain hyd oni chyhoeddodd y brenin Iago ddeddf y goddefiad, pryd y dychwelodd i Bridgenorth, a synudodd drachefn i

Digitized by Google

Ellesmere, sir Amwythig. Bu yn gweinidogaethu yno hyd ei farwolaeth yn 1712. Cyhoeddodd amryw lyfrau yn amddiffyn daliadau ymneilldaol.

OWEN (Parch. Charles), D.D., a anwyd yn Abernant, ger Caerfyrddin, ac ydoedd frawd ieuangaf i James Owen, hanes yr hwn a geir yn mhellach. Bu am haner can' mlynedd yn weinidog eglwys Bresbyteraidd yn Warrington, ac yr oedd hefyd yn athraw coleg yn y dref hono. Cyhoeddodd amryw draethodau, a chwblhaodd rai o weithiau ei frawd James a adawsid mewn ysgrifen, ac efe oedd awdwr ei fywgraffiad. Yr oedd hefyd yn awdwr cyfrol werthfawr tan y teitl, "The Wonders of Redeeming Love." Bu farw yn gyflawn o ddyddiau yn 1746.—*Noncon. in Wales*, 324.

OWEN (Parch. David), brawd i'r Charles Owen uchod. Bu yn weinidog eglwys Henllan, sir Gaerfyrddin, o 1696 hyd 1710, pryd y gorfu iddo ymadael, eithr ni wyddis yr achos. Dywedai ef ei hun, mewn ateb i Mathias Maurice, mai arno ef yr oedd yr holl fai. Yr oedd yn Barnet, sir Hertford, yn 1727; ac yn Rochdale, sir Gaerhirfryn, yn 1746; a dyna yr hyn sydd ar gof a chadw o'i hanes. Yr oedd yn ddyn talentog a galluog iawn, eithr yn ddiffygiol naill ai mewn moesoldeb neu gallineb. Cyhoeddodd draethawd gwerthfawr ar yr iaith Gymraeg, ac ar ddyledswydd yr eglwysi tuag at eu gweinidogion. Yr oedd hefyd yn awdwr amryw bamphledau yn yr iaith Seisnig, yn eu plith bregeth angladdol ar ol ei ewythr Dr. Charles Owen, yr hon a draddodwyd yn Warrington, Chwefror 23, 1746.—*Noncon. in Wales*, 323.

OWEN (Parch. Edward), M.A., ydoedd fab i Dafydd Owen, a gorwyr i Owen Owen, o Gefn Hafod, ac ewythr i William Owen o Glaswern, sir Drefaldwyn. Cafodd bersoniaeth Warrington, a meistrolaeth yr Ysgol Ramadegol yno. Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau ar bynciau *ethical*, gramadegol, a gwladyddol. Yn 1785, cyhoeddodd "The original text of Juvenal and Persius with copious explanatory notes, and introductory essays," &c., yr hwn a aeth trwy lawer o argraffiadau. Bu farw yn 1807, yn 79 oed.—*Lleyn MSS.*

OWEN (Goronwy). Gwel Goronwy Owen.

OWEN (Parch. Henry), M.D., dowinydd dysgedig, a hanai o hen deulu parchus, ac a anwyd yn Tanygadair, ger Dolgellau, Meirion, yn 1716. Addysgwyd ef yn ysgol Ramadegol enwog Rhuthyn; a phan yn 19 oed, cafodd dderbyniad i goleg Iesu, Rhydychain. Ei hoff efrydiaeth yno ydoedd mesuroniaeth. Wedi ei raddio yn y celfyddydau, trodd ei sylw at physigwriaeth, a gwnaed ef yn wyryf yn y gangen hono (B.M.) yn 1746. Bu yn ymarfer fel meddyg am dair blynedd, pryd y gorfodwyd ef oherwydd blino ar y gwaith ac afiechyd i roddi y broffes hono i fynu, ac ohyny allan cyfeiriodd ei sylw yn hollol at yr offeiriadaeth. Ni wyddis pa bryd yr urddwyd ef, ond dywedir ei fod pan yn ieuanc wedi ei benodi yn gaplan i Syr Mathew Featherstonehaugh, yr hwn a roddes iddo fywioliaeth Torling, yn Essex. Yn 1748, cyhoeddodd ei waith llenyddol cyntaf tan y teitl, "Harmonia Trigonometrica, or a short Treatise on Trigonometry." Yn 1750, rhoddes Torling i fynu, a chafodd rectoriaeth St. Olave, Hart Street, Llundain. Yn fuan, penodwyd ef yn gaplan i esgob Llandaf, wedi hyny esgob Durham. Yn 1753, graddiwyd ef yn M.D. yn Rhydychain. Ymddangosodd ei lyfr nesaf yn 1755, sef "Observations on the Scripture Miracles," yn cynwys sylwadau tra gwerthfawr. Yn 1760, priododd

Digitized by Google

ferch Dr. Butts, yr hwn a fuasai yn esgob Norwich, ac wedi hyny yn esgob Ely. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyn, cyhoeddodd "Observations on the Four Gospels;" ac yn 1756, "Directions to Young Students in Divinity." Yn 1769, cyhoeddodd, "Enquiry into the state of the Septuagint Version," trwy yr hwn y profodd ei fod yn feddianol ar ddiwydrwydd diflino a barn addfed, yn nghyda'i gymhwysder i ymdrin â phynciau o gyffelyb natur, a'i allu fel beirniad Beiblaidd. Penodwyd ef yn awr i draddodi yr Araith a sefydlasid gan yr Anrhyd. Robert Boyle; ac yn 1773, efe a gyhoeddodd y gyfres areithiau hyny tan y teitl, "The Intent and Propriety of the Scripture Miracles considered and explained, in a series of Sermons preached in the parish church of St. Mary-le-bow," 2 gyfrol. Yn ystod y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd ei "Critica Sacra, or a short introduction to Hebrew Criticism," i'r hwn yr ysgrifenodd efe Attodiad fel ateb i Mr. Raphael Baruh, Iuddew dysgedig. Yn 1775, cafodd ficeriaeth Edmonton, sir Middlesex, gan esgob Barrington. Yn 1778, anrhegodd y byd dysgedig â rhodd werthfawr, trwy ei waith yn golygu gyda gofal a dyfalwch argraffiad o lyfr Genesis allan o'r ysgrifau Cottonaidd a chyfysgrif y Vatican, yr hwn a ddechreuasid gan y dysgedig Grabe yn 1703, eithr a fu farw gan ei adael yn anorphenol. Yn 1785, cwblhaodd waith Dr. Edward Edwards, o Goleg Iesu, Rhydychain, trwy gyhoeddi "Memorabilia" Xenophon. Yn fuan ar ol ymddangosiad y gwaith hwn, cyhoeddodd ddau "Critical Disquisitions;" y cyntaf yn cynwys sylwadau ar argraffiad Masius o Lyfr Joshua, a'r ail ar waith enwog Origen, sef *Hexapla*; y rhai sydd yn alluog a threiddgraff, ac a fuont yn foddion i eangu ei glod yn mhlith dysgedigion Beiblaidd. Yn 1797, daeth cynyrch llenyddol gwerthfawr arall o'i law, sef "A Brief Account, Historical and Critical of the Septuagint Version of the Old Testament." Ei waith olaf ydoedd, "The words of Quotation used by Evangelical Writers explained and vendicated." Bu o fawr gymhorth yn nghyhoeddiad amrywiol lyfrau dysgedig a thra gwerthfawr eraill. Efe a ysgrifenodd hanes cyflwyniad y Deml, y sydd i'w weled yn *Origin of Printing*, gan Bowyer a Nichol. Golygodd a chywirodd yr ail-argraffiad hefyd o *Mona Aintiqua*, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1776. Bu farw wedi afiechyd dihoenus, Hydref 15, 1795, yn 80 oed. Gadawodd Dr. Owen o'i ol brofion diymwad o ddysgeidiaeth ddofn, talentau beirniadol ysplenydd, sêl yn achos llenyddiaeth gysegredig ac amddiffyniaeth ddwyfol ddatgudd iad, yn nghyda rhinweddau a duwioldeb personol, a wnaent ei goffadwriaeth yn anwyl gan y sawl a freintiwyd â chydnabyddiaeth ag ef, ac a drosglwydda ei enw i'r dyfodiant fel addurn y wlad a'i magodd, ac anrhydedd i'r hil ddynol yn gyffredinol.—Wms. *Em. Welsh.*

OWEN (Humphrey), D.D., ydoedd fab i Humphrey Owen, o Nant y Meichiad, plwyf Meifod, sir Drefaldwyn. Bu yn benaeth coleg Iesu, Rhydychain, i'r hon swydd y penodwyd ef ar farwolaeth Thomas Pardo, D.D. yn 1763; a dilynwyd yntau gan Joseph Hoare, D.D. yn 1768.—*Cambrian Quarterly Magazine*, i. 445.

OWEN (Hugh), o Fronyclydwr, ymneilluwr enwog yn yr 17eg ganrif, a anwyd yn Mronyclydwr, plwyf Llanegryn, Meirion, yn 1637. Yr oedd ei dad, Humphrey Owen, yn byw ar ei dir ei hun, ac yn hanu o hen deulu parchus—yn fab i John Owen, yr hwn oedd yn ail fab i John Lewis Owen o'r Llwyn, A.S. tros Feirion, ac yntau yn fab hynaf i Lewis Owen, is-ystafellydd Gwynedd, yr hwn a lofruddiwyd yn 1555

Digitized by Google

gan Wylliaid Cochion Mawddwy. Addysgwyd ef yn Rhydychain, ac yr oedd yn ymgeisydd am urddau eglwysig pan wnaed deddf seneddol Bartholomew, a thua'r amser hwnw symudodd yntau o Rydychain i Lundain. Dychwelodd yn fuan i'w wlad enedigol, lle y trigianodd ohyny allan ar ei etifeddiaeth fechan Bronycludwr, gan ymgyflwyno i'r gwaith o bregethu yr efengyl yn mhlith ei gydwladwyr tywyll a thylodion. Geilw Calamy ef yn oleuni dysglaer a thanllyd. Pregetha ar gylch mewn llawer o fanau yn siroedd Meirion a Threfaldwyn, ac ymdeithiai ar brydiau i sir Gaernarfon hefyd. Cymerai dri mis iddo fyned trwy ei gylchdaith reolaidd, ac yna dechreuai drachefn. Pregethai yn gynhyrfus, serchog, a dylanwadol, ac ymgynullai lluaws mawr i'w wrando. Anmharodd ei iechyd trwy ei orlafur egniol a pharhaus; teithiai yn fynych yn y nos tros fynyddau geirwon tan wlawogydd trymion, heb ond ychydig ymborth. Ni fwytai gig, ac nid yfai ddiod gadarn; ei brif ymborth oedd llaeth, ei fwyd cynefin mewn llettyau tylodion, lle nis gellid ei roesawu â dim amgenach. Yr oedd fel yr hen Gristionogion boreuol yn ostyngedig, addfwyn, a llafurus. Yn ei deithiau pregethwrol anturiaethus tros fynyddau anhygyrch, gwaredwyd ef yn rhagluniaethol o safn llawer perygl; ceir rhestr o'r cyfryw yn y *Cambro-British Biography*, 363. Dywedai yn aml nad oedd yn prisio un dyn oherwydd ei ddaliadau crefyddol, ond oblegyd arwyddion o ras Duw yn ei galon. Trwy ei ymarweddiad dichlynaidd, enillai barch ac edmygedd holl foneddion y wlad, i lawer o ba rai yr oedd yn berthynas agos. Yr oedd ei garedigrwydd i blant angen yn ddiarebol, tynodd ei ddillad aml dro er mwyn dilladu yr angenus. Yr oedd ei dynerwch duwiol yn toddi calonau celyd, er engraifft:—Pan ddaeth is-sirydd Meirion i Fronyclydwr yn amser Iago II. i'w ddal, dangosodd bob parodrwydd i fyned gydag ef, ond erfyniodd ganiatad i weddio gyda'i deulu cyn cychwyn. Cydsyniodd y swyddog, yr hwn a effeithiwyd gymaint gan symledd difrifol a gwres y weddi, fel y dywedodd ar ei diwedd na fynai efe ragor a wnelai âg ef, a gadawodd ei garcharor yn wr rhydd gan fyned ymaith hebddo! Carcharwyd ef unwaith yn nghastell Powys, ond ymddygid yn garedig tuag ato; ac er mai Pabydd oedd Arglwydd Powys, pan glybu ei garcharor yn gweddio, dywedodd wrth ei offeiriad Pabaidd, "Yn wir, y mae hwn yn Gristion cywir!" a phan y rhyddhawyd ef, eiddunodd ar y pregethwr gwledig dalu ymweliad âg ef bob Gwyliau Nadolig. Y mae yn anhawdd perderfynu i ba sect y perthynai. Dywed rhai mai Crynwr oedd, ond y mae ei fywyd yn tystio nad oedd efe, modd bynag, yn dilyn y manion ddaliadau a goleddir gan yr enwad llesfawr hwnw; honir bryd arall mai Anuibynwr ydoedd, a chan eraill mai Bedyddiwr, ond nid oes un prawf. Diau fod ei ysbryd catholicaidd yn rhy fawr i'w gyfyngu o fewn terfynau un sect, na'i orfodi i ddwyn iau unrhyw sanhedrim ddynol. Yr oedd Bedyddwyr yn mhlith ei eglwysi yn sir Drefaldwyn, ond yr oedd efe yn ofalus i gadw "undeb yr ysbryd yn ngwlwm tangnefedd." Atolygai arnynt gydoddef â'u cydaelodau o farnau gwahanol, gan eu hadgoffa o'r ymrwygiad poenus a gymerasai le yn Ngwrecsam. "Yr wyf yn taer ddeisyf arnoch," meddai, "gan mai amcan a dymuniad pob aelod ddylai fod cynydd teyrnas Crist, a chael ei ddelw Ef yn argraffedig ar eneidiau dynion, ac nid ein delwau ein hunain. Os yw delw Crist ar fy nghalon, byddaf yn sicr o'r nefoedd; ond pe mwynhawn y ddau ddull o fedyddio, gallwn fyned i uffern wedi'r cwbl." Gweloedd ddadblygiad a sefydliad y Chwyldroad gogoneddus tan Gwilym

Digitized by Google

III., a goroesodd y digwyddiad dyddorol hwnw rai blynyddau. Bu farw yn 1699, yn 62 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Llanegryn. Y mae "Myfyrdod uwchben bedd Huw Owen, o Fronyclydwr," o waith Elen Egryn—bedd dinod a diymgeledd hen efengylwr anwyl Meirion—yn anrhaethol amgenach colofn i'w goffadwriaeth na'r marmor drutaf, a'r ansoddeiriau mwyaf bostfawr. Yr oedd ei fab, John Owen, hefyd yn bregethwr enwog ac addawol iawn, ond bu yntau farw yn mhen y flwyddyn ar ol ei dad. Yr oedd Hugh Farmer, o Walthamstow, yn ŵyr i Hugh Owen, ac yn ddyn talentog, dysgedig, a duwiol. Yr oedd yn awdwr dau lyfr o gryn bwys, sef "The Demoniacs," a "Christ's Temptation in the Wilderness." Bu am lawer o flynyddau yn bregethwr poblogaidd yn Salter's Hall, Llundain.—*Noncon. in Wales; Cambro-British Biography; &c., &c.*

OWEN (Parch. Hugh), M.A., oedd fab i Pryse Owen, o'r Bettws, sir Drefaldwyn. Daeth yn offeiriad St. Julian, yn sir Amwythig, ac wedi hyny yn swyddog weinidog yn mhrif dref y sir hono, ac yn archddiacon Amwythig, yn esgobaeth Lichfield, yn brepend Lichfield a Salisbury, ac yn rhan-feddianydd Bampton, yn sir Rydychain. Yr oedd yn hynafiaethydd enwog iawn, ac yn hollol hysbys mewn hanesiaeth eglwysig a chyffredinol. Ysgrifenodd, "Some Account of the Ancient and present state of Shrewsbury," 1808, yr hwn sydd yn waith o gryn deilyngdod; llawer o draethodau i'r *Gentleman's Magazine;* a "History of Shrewsbury," 1825. Bu farw Rhagfyr 23, 1827, a chladdwyd ef yn mynwent St. Julian.—*Lleyn MSS.*

OWEN (David), *Brutus*, a anwyd tua diwedd y ganrif ddiweddaf yn mhentref Llanpumsant, sir Gaerfyrddin. Yr oedd Benjamin Owen, ei dad, yn glochydd y plwyf hwnw, a'i fam yn aelod selog gyda'r Bedyddwyr. Cafodd ysgol led dda pan yn ieuanc, cododd ychydig o wreiddiau Lladin, ac yr oedd y diweddar Gymro twymgalon William Williams, A.S., tros Coventry, yn cydysgola âg ef am flynyddau. Uchelgais meddwl ieuanc Dafydd Owen oedd bod yn feddyg; a bu am yspaid gyda Dr. Thomas, Aberduar, ger Llanbedr Pont Stephan. Yn ystod ei arosiad yno hefyd yr ymunodd gydag eglwys y Bedyddwyr yn y lle, a chawn ef yn fuan yn cael derbyniad i goleg y Bedyddwyr Seisnig yn Bristol. Nid arosodd yno ond blwyddyn, ac aeth i Leyn, sir Gaernarfon, i gymeryd gofal pedwar o lefydd bychain, tlodion, sef Tanygraig, Gallhraeth, Ty'ndomen, a Rhoshirwaun, sef rhan o hen faes gweinidogaethol Christmas Evans. Yma y priododd, a phan y llnosogodd ei deulu, cadwai ysgol, gwasanaethai fel doctor gwlad, ac er y cyfan digon cymylog a thymhestlog oedd ei amgylchiadau. Tan yr helbulon hyn, y cyflawnodd un o gamgymeriadau penaf ei fywyd. Ysgrifenodd at y Parch. Dr. Carpenter, gweinidog Undodaidd yn Bristol, i ddweyd fod tair neu bedair o gynulleidfaoedd bychain dan ei ofal wedi mabwysiadu egwyddorion Undodaidd; a chan y cydolygai yntau â hwynt, a'u bod hwythau yn dlodion, dymunai gael ychydig gymhorth arianol trwyddo ef oddiwrth y "Presbyterian Fund" yn Llundain. Gan fod y newydd yn lled ddieithr i'r Dr., ysgrifenodd i ymofyn am ei wirionedd, a chafodd allan mai dychymyg Brutus a'i cenedlodd yn gyfangwbl; ac yn Nghymanfa Pwllheli, a gynaliwyd ychydig ar ol hyny, torwyd pob cysylltiad rhyngddo â chyfundeb y Bedyddwyr. Cyn newid ei sect, yr oedd efe eisioes wedi tori ffigiwr fel ysgrifenwr Cymraeg o radd uchel trwy ei lythyrau ar dlodi llenyddol yr Iaith Gymreg, y rhai a ddaethant allan yn *Seren Gomer* am 1824, a'r rhai a atebwyd gan Gomer a Carn-

huanawc. Wedi gadael y Bedyddwyr, ymunodd gyda'r Annibynwyr, yn Capel Newydd, Lleyn, ac ysgrifenodd ddau lyfr yn erbyn y Bedyddwyr, y rhai a atebwyd gan P. A. Mon. Codwyd ef i bregethu gyda'r enwad hwnw, ond rywfodd nid oedd ond ychydig arddeliad ar ei weinidogaeth, nac ond ychydig lewyrch ar ei fywiolaeth. Symudodd o Leyn i Hebron, Maenaddfwyn, ger Llanerchymedd, Mon, a bu yno am rhyw yspaid yn pigo tamaid iddo ef a'i deulu trwy gadw ysgol a phregethu tipyn yn achlysurol. Yna cododd ei luest, ac aeth yn fugail ar rhyw ddeadell fechan yn y Bontnewydd, ger Caernarfon. Nid oedd un sefyllfa wedi ei pharotoi iddo yn mhlith yr Annibynwyr, mwy na gyda'r Bedyddwyr. Yr oedd llawer o son a siarad am dano fel "dyn mawr ofnadsen," ac o ddarllen ac edmygu ei ysgrifau, y mwyafrif o ba rai a gyfansoddid mewn bythynod bychain un ystafell, yn swn haid o blant, ac angen a thylodi yn llygadu arno trwy higolau y drws carpiog, os nad yn dyfod i mewn ato ar brydiau gyda'i draed pluf a'i ddyrnau plwm. Tua 1826, cychwynwyd cyhoeddiad misol bychan, pris dwy geiniog, yn Abertawe, o'r enw "*Yr Oes*;" ac yn 1827, newidiwyd ei enw yn "*Llenad yr Oes*," helaethwyd ei faint, codwyd ei bris, a symudwyd ef o Abertawe i Aberystwyth. Dewiswyd Brutus i'w olygu, a dechreuodd ar y gwaith yn Ionawr, 1828; ac ymfudodd i fyw i Lanbadarn Fawr, er mwyn bod yn ymyl y wasg. Bu yn golygu y *Llenad* am y blynyddau 1828 ac 1829; pryd y prynwyd hi gan yn Jeffrey Jones, Argraffydd, Llanymddyfri, a symudodd hi a'i golygydd i hen "dref i Ficer" mewn canlyniad. Ond er fod Jeffrey yn un o'r rhai meinaf ei fywiolaeth, yn byw bron yn gyfangwbl ar fwdram, neu uwd, a thriagl, yr hwn nwydd olaf a drachwantai oddiar ddefnyddiau y *rollers* inc; a bod y golygydd yn un o'r rhai mwyaf doniol yn Nghymru, ac yn gweithio am gyflog gresynus o fach, methodd y *Llenad* dalu ei ffordd. Yn y cyfamser, yr oedd ei chyn-berchenog yn Aberystwyth wedi tori yn yfflon, a'i fwrw i garchar y sir am ddyled; a chan y credid fod Brutus yn rhyw lun o *bartner* ag ef, bwriwyd yntau hefyd am rhyw ol-ddyledion i garchar Caerfyrddin. Pa hyd y bu yn dwyn ei benyd yn y lle digysur hwnw, nis gwyddom. Ond y mae eisiau cyhoeddiad newydd yn mhlith yr Annibynwyr, a phenderfynant ei gael yn ddioed fel y gallont sicrhau derbynwyr y *Llenad* sydd newydd fyned dan gwmwl. Ei enw fydd yr *Efengylydd*, ei olygydd Brutus, a'i argraffydd, ei gyhoeddwr, a'i berchenog, Mr. William Rees, o Lanymddyfri, gwr a wnaeth fwy nag odid un yn ei oes tuag at berfleithio a gwellhau argraffwaith Gymreig. Parhaodd i olygu y cyhoeddiad hwn gyda medrusrwydd a llwyddiant hyd 1835, pan y bu rhyw annghydweledigaeth rhwng Mr. Rees â'r blaid a gefnogent y cylchgrawn; ac mewn canlyniad, cychwynodd yr *Haul*, yr hwn oedd i fod yn fisolyn Eglwysig, a Brutus yn olygydd arno. Gan hyny, yr ydym yn ei gael eto yn newid ei sect. Gofidiai ei fod yn cefnu ar amryw gyfeillion ffyddlawn, ond ystyriai nad oedd Disent erioed wedi ymddwyn tuag ato ef fel yr haeddai; a thyngai y dygai i wyneb *Haul* holl waeleddau, meflau, a brychau, pob enwad o Ymneillduwyr. Diddadl hefyd i'r cyfnewidiad beri cryn lawer o boen meddwl iddo ar y pryd. Gofynwyd iddo paham y gadawodd Ymneillduaeth, ac atebodd, "Pan gynygiwyd bara a chaws sicr i mi gan Eglwyswyr, nis medrwn, wrth edrych i wyneb fy ngwraig, a thwr o blant, wrthod y fath gynyg." Pa fodd bynag, nid oedd ganddo ef, ar ol hyn, ddim gafael yn nghymeradwyaeth y rhan Ymneillduol o'i genedl ond trwy ei dalent ysplenydd fel ysgrifenydd. Yn mhen rhyw

Digitized by Google

yspaid ar ol dechreu golygu yr *Haul*, symudodd o Bentretygwyn i fyw mewn cotty bychan ar tin y ffordd fawr o Lanymddyfri i Drecastell, ac ar lan Gwydderig, afon fechan a red trwy gwm coediog, dolenog, a rhamantaidd, o'r enw Cwmdwr—yn nhawelwch dibryder y llanerch lonydd hono y treuliai ei nosweithiau—yn garddu ac yn perllanu; a'r *Haul* yn tywallt arno ei bunt cwmfforddus yn yr wythnos. Yn niwedd ei oes, symudodd o'r cotty uchod i ymyl yr *Halfway House*, rhwng Llanymddyfri a Threcastell, lle yr arferid newid ceffylau y cerbyd, a chai yntau gyfleusdra i siglo llaw a nifer o bobl a adwaenai, yr hyn i ddyn hoff o gymdeithas fel efe oedd yn gryn seibiant, ac adfywiad yspryd. Parhaodd i olygu yr *Haul* o'i gychwyniad yn 1835 hyd ddechreu 1866, pan yr ysgarodd angau y cysylltiad. Bu farw Ionawr 16, 1866, a chladdwyd ef yn mynwent Llywel, ger Trecastell, sir Frycheiniog. Heblaw golygu y cyhoeddiadau crybwylledig, cyhoeddodd Brutus amryw lyfrau. Y mae ei "Cristmasia," ac "Eliasia," sef hanes bywyd Christmas Evans a John Elias yn ddigon adnabyddus; ac o ran doniolddeb dysgrifiadol, ysmaldod gwatwareg, a llithrigrwydd iaith, y maent yn Brutusia bob tudalen ohonynt. Cyhoeddodd hefyd gyfrol o farddoniaeth; ysgrifenodd lawer i gyhoeddiadau y Bedyddwyr, yn adeg y rhyfelgyrchodd ofnadwy ar Fedydd; a thua 1856, cyhoeddodd gyfrol drwchus o'i brif weithiau tan y teitl, "Brutusiana." Yr ydym yn rhyfeddu fod cyn lleied o deimlad *(pathos)* yn y llyfrau hyn, yr hon nwyd, sydd mor fynych yn ieuedig â gwawd, a gwatwareg. Pan geisiai wneud arddangosiad o'i dosturi, teimlwn lawer mwy o duedd tosturio tuag at yr awdwr na thuag at y gwrthddrych. Yn hyn yr oedd efe yn dra thebyg i archoganwr y Nant; ac fel meddyg moesol, yr oedd yn llawer mwy tueddol i dori yr aelod ymaith na cheisio gwella y briw. Fel dadleuwr, yr oedd pardduo ei wrthwynebwyr lawn gan bwysiced gwaith yn ei olwg a dadymchwel eu hegwyddorion; a phan y gwnai hyny, credwn mai nid ei amcan ydoedd poeni y cyfryw wrthwynebwyr, gymaint ag er mwyn profi min ei arfau, ac enill clod o'u herwydd. Yr oedd llon'd ei galon o ryfelgarwch llenyddol: yn ddadleuwr y gwnaeth ei ymddangosiad cyntaf fel llenor, a rhyw Ishmael llenyddol fu ar hyd ei oes. Y mae cymeriadau o'r fath yn rhwym o wneud lles i gymdeithas; bu Twm o'r Nant o les yn ei oes, ac felly y bu Brutus—un yn yspryd offeiriadon, a'r llall yn yspryd pregethwyr. Yr oedd ei oes ef yn oes yr ymgecru crefyddol yn Nghymru, ac efe yn ddiau oedd *genus* mwyaf yr ymgecraeth. Yn mhlith ei wrthddadleuwyr yr oedd Joseph Harris, Carnhuanawc, Cymro Bach, John Jones, Llangollen, Thomas Aubrey, Ieuan Gwynedd (yr hwn a'i galwodd unwaith yn "Balaam Llanymddyfri," ac a'i gofidiodd yn fawr o'r herwydd)—enwau yr rhai, bellach, fel yr eiddo yntau, sydd ar geryg beddau, a'u coffadwriaeth yn barchus gan eu cydwladwyr. Heddwch i'w llwch.

OWEN (Parch. James). Ganwyd y gwr enwog hwn Tachwedd 1, 1654, mewn ffermdy unig o'r enw Bryn, plwyf Abernant, tua wyth milldir o dref Caerfyrddin, ac heb fod nepell oddiwrth y ffordd sydd yn arwain o'r dref hono i Aberteifi. Amaethwr parchus o'r enw John Owen oedd ei dad, ac yr oedd ef a'i briod yn aelodau dichlynaidd o'r Eglwys Sefydledig; er hyny, ei plant, naw mewn nifer, a dyfasant oll i fynu yn Ymneilldwyr selog. Yr oedd y tad wedi gwisgo dillad milwr yn ngwasanaeth Siarl I., ac wedi dyoddef oherwydd ei freingarwch, ac nid rhyfedd ei fod yn cadw draw oddiwrth Annghydffurfiaeth; ond efe a roddes addysg ragorol i'w blant, a chododd dau

Digitized by Google

ohonynt, o leiaf, gan ddodi enwogrwydd ar y rhai eu cenedlwyd, ac ar y wlad eu magwyd, sef gwrthrych hyn o sylw, a Dr. Charles Owen, o Warrington. Addysgwyd James mewn ysgol wledig ar y cyntaf, yna symudwyd ef at Grynwr o'r enw Picton, yr hwn a gadwai ysgol yn nghastell Caerfyrddin; ac oddiyno i rydd-ysgol y dref hono. Yr oedd yn efrydydd caled a diflino, a chredid fod ynddo ddefnydd dyn mawr: collasai chwareu bob swynion iddo pan yn 13 oed. Yr oedd ei syched am wybodaeth yn angerddol, a'i ymdrechion i'w gyrhaedd yn anorchfygol: gan syniad nad gwiw disgwyl ffrwyth y cynhauaf os na cheir blagur yn y gwanwyn. Symudodd o Gaerfyrddin i Brynllywarch, o tan ofal athrawiaethol yr enwog Samuel Jones, o'r lle hwnw, ond rhaid ei fod wedi ymuno â'r Ymneillduwyr cyn hyn, ac efallai tan ganiatad ei rieni i ymgyflwyno i'r weinidogaeth yn mhlith y cyfryw bobl. Dringodd risiau arcithfa Ymneillduol am y waith gyntaf pan oedd erledigaeth yn agor tân parhaus arno. Yn mhen ychydig, cawn ef yn cynorthwyo y Parch. Stephen Hughes, Abertawe; ac yn enill parch mawr fel pregethwr ieuanc gweithgar ac ymroddol i'w swydd. Ond gan i'r "Llys Ysprydol," fel y gelwid y ffagodwas treislyd hwnw, ymweled ag ef gyda'r bygythion trymaf, gorfu ar J. Owen, er mwyn hunan amddiffyniad, symud o Abertawe, ac ar wahoddiad Matthias Maurice, daeth i Bodwel, sir Gaernarfon. Nid hir y bu gelynion ymneillduaeth heb gael gwynt arno yno hefyd, ac wedi bod yn ymguddio yn Bodwel am naw mis, sef hyd 1676, ymsefydlodd yn Sweeney, ger Croesoswallt, fel caplan i foneddiges dduwiol o'r enw Mrs. Baker, a phregethai yn achlysurol i gynulleidfa o bobl a fuasent unwaith tan weinidogaeth ragorol y Parch. Rowland Nevet. Urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn Hydref, 1677; a thystiolaeth y rhai a'i hadwaenent ydoedd, ei fod yn wr ieuanc tra chymhwys i'r gwaith pwysig, a chredent y byddai yn offeryn enwog er lledaeniad yr efengyl, yr hyn yn ol llaw a wiriwyd i'r llythyren. Yn 1679, efe a briododd, a symudodd i drigiann yn nhref Amwythig, lle y gofalai am ddiadell fechan o Ymneillduwyr. Ymroddai gydag egni cenadwr selog i ddwyn yr Efengyl i fanau tywyllion ei wlad, a dygai hyn ef i drallod yn fynych. Ar un o'r pererindodau hyn, pan yn cynal cyfarfod gydag ychydig frodyr yn Hope, sir Fflint, amgylchwyd y lle gan nifer o erlidwyr arfog gyda gynau a chleddyfau. Torasant trwy drais i mewn i'r tŷ y cynelid y cwrdd ynddo, a chymerasant ddigon o ofal i sicrhau Mr. Owen. Atafaelwyd ei Feibl, a phan welsant fod *Mynegair* wedi ei gydrwymo ag ef, tyngasant ei fod yn Feibl annghyfreithlawn. Cymerasant yn nesaf feddiant o'i nodiadau, a chan fod y rhai hyny yn Lladin, iaith na ddeallent, tyngasant drachefn mai Jesuit ydoedd. Wedi bytheirio dialedd am yspaid, a bygwth y trueiniaid poblach ddiniwed â dinystr, danfonasant am heddgeidwad. Yn y cyfamser, buont yn croesholi Mr. Owen, gan ryfeddu na buasai gwr ieuanc dysgedig fel efe yn cydffurfio; yntau a'i hateboddd yn addfwyn, heb roddi iddynt un achlysur i'w faglu. Bu y cwnstabl yn dra ymarhous i ufuddhau i'w harchiad, a phan ddaeth, rhoddes un o'r erlidwyr bapuryn yn ei law, gan ei berswadio mai *warrant* ydoedd, ac yn nerth y wys ffugiol hono, gyrasant y pregethwr a'i wrandawyr fel gyr o ddefaid o'u blaen i'r Wyddgrug. Danfonasant yno am ynad heddwch, yr hwn a ymddygodd yn chwerw a haerllug tuag at Mr. Owen, a chan nad oedd yn deall y nodiadau Lladin, gyrodd am gymhorth ficer y plwyf, yr hwn a'i hysbysodd mai penau pregeth ar y geiriau, "Y mae efe oll yn hawddgar," oeddynt,

Digitized by Google

Bu peth ymddiddan rhwng y carcharor a'r ficer, ac er gwaethaf rhagfarn a dallbleidiaeth y ddau foneddwr ar y faine, gorfu arnynt gyfaddef ei fod yn wr ieuanc dysgedig, a gresynu yn gyhoeddus fod y fath un yn Ymneillduwr. Eithr ar ol dadl faith, a phentwr o eiriau trahaus, trosglwyddwyd Mr. Owen, a gwr y tŷ y pregethai ynddo, i garchar Caerwys, a rhwymwyd y gweddill i ymddangos yn y brawdlys. Cafodd geidwad y carchar yn wr hynaws, yn caniatau iddo lawer o ryddid ; ac yn ystod tair wythnos gyntaf ei garchariad, treuliai bedair neu bum' awr bob dydd yn gweddio, pregethu, ac esbonio yr Ysgrythyrau i'w gydgarcharorion, a phobl y dref a ddeuant i mewn i'w wrando. Dychrynodd hyn foneddigion yr ardal, ac ofnent fod perygl i garchardy y sir gael ei droi yn deml Ymneillduol, a dygasant gyhuddgwyn yn erbyn y ceidwad a'r carcharor gerbron Mr. Justice ——. Yntau a roddes orchymyn caeth i gloi y drysau, ac na oddefid neb i mewn i addoli gyda'r carcharorion. Er hyny, y bobl a dyrent oddiallan o tan ffenestri ceil y pregethwr, ar yr awr benodedig, i'w glywed yn pregethu. Pan oeddynt fel hyn yn goddef yn amyneddgar gamgarchariad, darfu i Mr. John Evans, o Wrecsam, tad awdwr y *Sermons on the Christian Temper*, feddwl nad oeddynt yn dyoddef yn gyfiawn, a rhoddes eu hachos yn nwylaw cyfreithiwr medrus. Canfu hwnw yn fuan mai twyll oedd y cyfan, golchodd yr holl ynadon heddwch eraill eu dwylaw oddiwrth yr amryfusedd, a syrthiodd yr holl fai ar yr ynad a'i bwriodd i garchar. Anogodd y cyfreithiwr Mr. Owen i fynu iawn oddiarno trwy gyfraith, eithr ni wrandawai dysgybl mor ffyddlon i Awdwr y bregeth ar y mynydd ar lais dialedd. Pan ddeallodd yr ynad mai gwr heddychol oedd efe, yn gomedd ei gosbi ef yn ol ei haeddiant, trodd ar ei sawdl a rhoddes droediad anfoneddigaidd arall iddo—dirwyodd y pregethwr a'i wrandawyr yn drwm, a'u tai yn mhen yspaid a yspeiliwyd er mwyn talu y draha annghyfiawn hono. Goddefodd Mr. Owen yr holl galedi a'r dirmyg hwn mewn yspryd tra gwahanol i'r ynad. Ysgrifenai o'r carchar at un o'i gyfeillion :—"Os nad yw yr Efengyl yn werth dyoddef trosti, nid yw ychwaith yn werth ei phregethu. Yn wir, y mae yn anrhydedd, wedi i ni bregethu y gwirionedd, gael galw arnom i ddyoddef trosto." Dyna yr offerynau a blanasant Ymneillduaeth yn Nghymru, a dyna y gwrthwynebiadau oedd gan y cyfryw offerynau i ymladd yn eu herbyn. Yn fuan wedi ymsefydlu yn Nghroesoswallt, daeth i gydnabyddiaeth â'r seraphaidd Phillip Henry, yr hwn a goleddai syniadau uchel iawn am dano, a bu ei gyfeillach a'i gynghorion tadol o gyfarwyddyd mawr iddo. Yn 1681, yr oedd y dysgedig a'r duwiol Dr. Lloyd yn eistedd yn nghadair esgobaidd Llanelwy, yr hwn oedd yn elyn calon i erledigaeth, ac yn chwenych argyhoeddi Ymneillduwyr o'u hamryfusedd trwy ymresymiadau teg a chyfeillgar. Ymwelodd ag amryw dreh yn ei esgobaeth gan geisio argyhoeddi pobl ei ofal o gywirdeb egwyddorion yr Eglwys Sefydledig ; a daeth i gyfarfyddiad â gweinidog Croesoswallt yn ystod un o'r teithiau hyn. Diwedd yr ymddiddan a fu rhyngddynt ydoedd i'w arglwyddiaeth orchymyn i Mr. Owen ymddangos ger ei fron ef yn neuadd y dref hono y 27ain o Fedi, 1681, er dangos ei resymau paham y pregethai heb dderbyn urddau esgobol, a dwyn gydag ef unrhyw weinidogion eraill a ewyllysiai i gymeryd rhan yn y gynghorfa. Dewisodd yntau y Parchn. Phillip Henry, o Broad Oak, a Jonathan Roberts, o Lanfair ; a dygodd yr esgob o'i blaid yntau y dysgedig Henry Dodwell, un o ysgolheigion penaf yr oes. Dechreuodd y ddadl am ddau o'r gloch yn

Digitized by Google

y prydnawn, a pharhaodd hyd naw o'r gloch y nos: a'r testyn ydoedd, "A oedd ordeiniad trwy ddwylaw esgobion ac iddynt hawl olynol er dyddiau yr Apostolion, mor anhebgorol nes bod eglwysi a gweinidogion yn foed hebddo ?" Er na chafodd Mr. Owen ond pedwar neu bum' niwrnod o amser i baratoi ar gyfer yr ornest bwysig hon, eto yn ol tystiolaeth hyd yn nod ei wrthwynebwyr, profodd ei hun yn gawr mewn rhesymeg a hanesiaeth. Ond ychydig o blaid yr esgob rhagorol oeddynt o'r un hynawsedd Cristionogol ag ef, ac yn lle efelychu eu harglwydd ysprydol trwy gyd-ddwyn â'u cyd-ddynion yn eu tybiadau crefyddol, torodd eu cynddaredd dallbleidiol allan yn llifeiriant cryfach nag erioed. Codasant amryw wysiadau yn erbyn y gwr ieuanc llafurus a diymhongar, nes ei orfodi i ymguddio yn ei dŷ trwy y dydd, ac os ai allan rhaid oedd iddo fyned yn y nos. Bu Rhagluniaeth yn dyner ohono yn nghanol y bygythion; ac er gwaethaf pob gelyn nid esgeulusodd ei ddyledswyddau, esboniai yr Ysgrythyrau fore a hwyr yn ei dŷ, gweddiai, cenid mawl, a deuai ychydig o'i gymydogion crefyddol ato i'r addoliad Tan agorwyd dorau carcharau trwy oddefiad y brenin Iago, ac y rhoddwyd y carcharorion ymneillduol yn rhydd, daeth James Owen allan yn ddewrach. Sefydlodd areithiau misol mewn gwahanol fanau, a llanwai ei gyhoeddiad yn y cyfryw leoedd trwy lafur a chost fawr, yn ddigon di-dâl a diddielch, ond gan ei gydwybod ei hun. Sefydlasai un o'r cyfryw yn Rhuthyn, yr hon a symudodd i Ddinbych, lle y cyfarfu â gwrthwynebiad cryf oddiar law ynadon rhagfarnllyd ar fainc cyfiawnder, a'r werinos llwgr-wobrwyedig, y rhai oeddynt, debygir, yn gyfeillion mynwesol i feddygon a gwydrwyr. Tua 1692, yr oedd y Bedyddwyr wedi cynyddu cymaint yn mharthau gorllewinol Cymru nes i'r enwad ddyfod yn wrthrych eiddigedd eu brodyr yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid, a phenodwyd James Owen i ysgrifenu llyfr er amddiffyn bedydd plant; ac oblegyd ei ddysgeidiaeth eang, ei enwogrwydd fel dadleuwr, a'i wybodaeth drylwyr o'r iaith Gymraeg, diau nas gallesid dewis ei amgenach. Cyhoeddwyd ffrwyth ei lafur yn ol y dewisiad hwn yn 1693, tan y teitl "Bedydd Plant o'r Nef," a dyma, hyd y gwyddom, ddechreuad Dadl Bedydd yn Nghymraeg, yr hon sydd wedi ei chadw yn fyw gan rhyw un neu gilydd o'r ddwyblaid hyd heddyw. Nid oedd gan y Bedyddwyr Gymro ar y pryd yr ymddiriedent ei arfogi i frwydr yn erbyn y fath gawr; ac o ganlyniad, Sais dysgedig, sef Mr. Benjamin Keach, a'i hatebodd. Rhaid oedd cyfieithu ymosodiad Mr. Owen i'r Saesneg, fel y gwypai Mr. Keach pa beth i'w ddywedyd; a chyfieithu yr ateb i'r Gymraeg, fel y deallid ef gan y Cymry; ac ni bu y cyfieithydd yn hapus iawn gyda'i orchwyl. Enw llyfr Mr. Keach ydoedd, "Goleuni wedi tori allan yn Nghymru," a chyhoeddodd James Owen ateb iddo, ac felly y terfynodd yr ysgarmes fedyddiol Gymreig gyntaf. Fel ysgolhaig, edrychid i fynu ato gan ddysgedigion cyfoesol; canys tra yr oedd ganddo feistrolaeth lawn ar y Lladin, y Roeg, a'r Hebraeg, yr oedd ganddo hefyd gydnabyddiaeth helaeth â'r ieithoedd Arabaiod, Syriaidd, Sacsonaidd, a Ffrengig, heblaw ei enwogrwydd fel awdwr Saesneg a Chymraeg. Yr oedd hefyd yn hyddysg iawn mewn duwinyddiaeth, hanesiaeth eglwysig, rhesymeg, a'r gwyddonau a'r celfyddydau. Pa le, o ganlyniad, y ceid ei gymhwysach i lanw swydd athraw coleg yn mhlith yr Ymneillduwyr. Penodwyd ef i gyfryw swydd tua 1698; ac felly symudodd o Groesoswallt i Amwythig yn 1700, ac yno y bu yn trigianu hyd derfyn ei oes, gan roddi boddlonrwydd anarferol trwy ei gymhwysder neillduol i'r swydd. Bu farw

Digitized by Google

Ebrill 8, 1706, yn 52 oed, a chladdwyd ef yn eglwys St. Chads, Amwythig. Heblaw y llyfrau a nodwyd, yr oedd yn awdwr amryw weithiau eraill yn Nghymraeg a Saesneg. Ei rai Cymraeg eraill oeddynt :—"Trugaredd a Barn ;" sef casgliad o hanes barnedigaethau neillduol ar annuwiolion rhyfygus, a gwaredigaethau hynod i ddynion da ; 2, "Catecism y Gymanfa," yn mha un yr oedd yr holiadau wedi eu trefnu ar gyfer pob wythnos yn y flwyddyn, a chwanegiad o rywbeth ar sefyllfa a natur angylion ; 3, Traethodyn bychan ar "Ddyledswyddau gweinidogion ac eglwysi tuag at eu gilydd." Y rhai canlynol oeddynt ei brif lyfrau Seisnig :—"A Plea for Scripture Ordination," 1694 ; 2, "A Thanksgiving Sermon on the occasion of King William's wonderful deliverance [from the assasination plot]," 1696 ; 3, "A Defence of his Plea against the exceptions of Mr. Thomas Gipps," 1697 ; 4, "Remarks on the Sermon of the same Mr. Gipps," 1697 ; 5, "A further Vindication of the Dissenters from the same gentleman's accusations," 1699 ; 6, "A reply to the said Mr. Gipps' Letters to a Friend," 1699 ; 7, "A Preface to M. Delme's Method of Preaching," 1701 ; 8, "Moderation a Virtue," 1703 ; 9, "Moderation still a Virtue," 1704 ; 10 "The History of the Consecration of Altars, Temples, and Churches," 1706 ; 11, "Vindicæ Britannicæ," or a vindication of old Britain, in answer to the late learned Bishop of Worcester," 1705 ; 12, "The History of Ordination," yr hwn a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth. Efe hefyd a gynysgaeddodd Dr. Calamy gyda defnyddiau hanes yr offeiriadon a fwriwyd allan o'r Eglwys Sefydledig ; yr hwn a ymddangosodd wedi hyny yn y *Nonconformist Memorial* o waith Palmer. —*Cambro-British Biography*, 314.

OWEN (JOHN), *Ioan Powys*, bardd da yn ei oes. Ganwyd ef yn Nhreffynon, sir Fflint, tua 1785. Symudodd yn ieuanc i Liverpool, lle y treuliodd weddill ei oes, ac y bu farw Ionawr 28, 1837. Yr oedd yn llengarwr twymgalon, ac ni byddai unrhyw symudiad yn mhlith ei gydgenedl yn Liverpool, heb fod gan Ioan law ynddo, ac ysgwydd tano. Bu yn ymgeisydd llwyddiannus ar amryw destynau Eisteddfodol, a gadawodd ar ei ol lawer o arian dlysau. Gwobrwywyd ef ddwywaith gan gyhoeddwyr y *Gwladgarwr* am gyfansoddiadau buddugol ar destynau cynygiedig yn y cyhoeddiad hwnw. Bu yn fuddugol ar y "Dymhestl," yn Nghaerfyrddin, yn 1828. Cyfarfyddir a'i enw yn fynych hyd wyneb cyhoeddiadau Cymreig ei oes, fynychaf yn ngholofn y farddoniaeth. Cymerer yr hanes canlynol fel engraifft o barodrwydd ei awen. Yr oedd ar ymweliad un tro a'i dref enedigol, ac er ei syndod canfu fod *sign* y Ceiliog wedi ei symud i gwr arall o'r heol, ac arwydd y *Feathers* wedi ei osod i fynu yn ei le. Torodd awen fyrfyfyriol y bardd allan yn yr englyn hwn :—

"Gynt ar g'oedd 'roedd yn arwyddol—Geiliog
Tw gael ar ben heol ;
I b'le 'raeth, mae'i Blu ar ol ?—
Draw hedodd yn dra hudol."

Yr oedd yn wr nodedig am ei ddiniweidrwydd, ei ostyngeiddrwydd, a'i hunan-ymwadiad ; bu am lawer o flynyddau yn aelod diargyhoedd gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Pall Mall. Claddwyd ef yn y Nicropolis, pryd y gweinyddwyd gan y Parch. Henry Rees, yr hwn a ddywedai yn ei araeth wrth y bedd :—"Yr oedd y brawd hwn yn un o'r rhai rhagorolaf yn ein heglwys—yn wr llenydd yn ei deulu, llenydd

Digitized by Google

yn ei eglwys, llonydd yn ei orchwylfa; ond ni bu erioed mor llonydd ag yw efe heddyw."

OWEN (SYR JOHN), o'r Clunenau, yn sir Gaernarfon, milwr dewr yn ngwasanaeth y brenin Siarl I. Ganwyd ef tua 1600, ac yr oedd yn hanu o'r gwaedoliaeth uwchaf yn mysg tylwythau Cymru. Ei dad ydoedd bedwerydd mab Robert Owen, o Fod Silin, yn Mon;—yn disgyn o Hwfa ab Cynddelw, sylfaenydd un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Ei fam ydoedd Elin, merch ac etifeddes Syr William Morris, o'r Clunenau, a Porkington ger Croesoswallt. Yr oedd tad Syr John Owen wedi bod yn ysgrifenydd i'r hyglod Syr Francis Walsingham, uchel-swyddog Siarl I., ac yn y swydd hono wedi casglu cyfoeth nid bychan. Tyfodd Syr John hefyd i fynu yn bleidiwr gwresog i'r brenin hwnw; gwnaed ef yn filwriad yn ei fyddin, ac yn rhag-lyngesydd Gwynedd. Enwogodd ei hun yn fawr yn ngwarchaead Bristol, pan gymerwyd y ddinas hono gan y tywysog Rupert, a chlwyfwyd ef yn dost yn y rhuthr hwnw. Enillodd gymaint parch gyda'i dywysog trwy ei wrhydri a'i bybyrwch yn Mristol, fel y penodwyd ef ganddo yn 1645 yn rhaglaw castell Conwy, yn lle yr Archesgob Williams. Eithr trosglwyddwyd y castell yn fuan i ddwylaw y Cadfridog Mytton, trwy ddyfais yr archesgob a'i gyfeillion; ac o ganlyniad, ciliodd Syr John i'w dreftadaeth yn Clunenau. Yn 1648, cododd arfau drachefn yn mhlaid y brenin, mewn cydweithrediad â'r byddinoedd breninol yn Nghent ac Essex. Ond gwrthwynebwyd ef yn ebrwydd yn yr ymgais yma gan William Lloyd, sirydd sir Gaernarfon, yr hwn a orchfygodd, ac a glwyfodd efe yn fuan, gan ei gymeryd yn garcharor. Wedi hyn, efe a warchaeodd dref Caernarfon, yr hon oedd ar y pryd yn meddiant y Senedd; eithr pan ddeallodd efe fod byddin y blaid hono yn ymdaith yn ei erbyn, efe a frysiodd i'w cyfarfod, gan ddwyn y sirydd crybwylledig ar farch-elor gydag ef Cwrddodd â'i elynion gerllaw Llandegai, a bu yno ymdrech galed. Bernid ar y cyntaf mai Syr John a gawsai y dydd, ond trwy ddyfod adgyfnerthiad i'w elynion, trodd y fantol yn ei erbyn. Mewn ymdrech bersonol gyda'r Cadben Taylor, efe a lusgwyd oddiar ei farch, ac a gymerwyd yn garcharor; a'i wyr, gan ddigaloni oblegyd colli eu harweinydd, a ffoisant. Bu y sirydd farw hefyd yn ystod yr un diwrnod. Ystyrid y frwydr hon mor bwysig, fel y rhoddwyd i Cadben Taylor y swm o £200 gan y Senedd, yr hwn swm a atafaelwyd o etifeddiaeth Syr John ei hun. Wedi ei ddal, cymerwyd ef i gastell Windsor, lle y cyfarfu bedwar o bendefigion eraill mewn dalfa am gyffelyb drosedd. Rhoddwyd ef i sefyll ei brawf gyda duc Hamilton, iarll Holland, ac arglwyddi Goring a Capel. Ymddygodd yn ddewr yn y llys; dywedodd wrth ei farnwyr, "Nid wyf fi ond boneddwr distadl o Gymru, wedi fy nysgu bob amser i ufuddhau i fy mrenin; gwasanaethais ef yn ffyddlawn trwy holl ystod y rhyfel; ac wrth weled amryw wyr gonest yn ymdrechu codi byddinoedd tuag at ryddhau ei fawrhydi o garchar, minau a wnaethum yr un modd." Terfynodd ei araith fel dyn na faliai lawer pa beth a wnaent ag ef. Ar derfyn y prawf, dyfarnwyd ef i golli ei ben; a moes ymgrymodd yntau yn ostyngedig ei ddiolchgarwch i'r llys. Gofynodd rhywun iddo os oedd yn gwybod pa beth yr oedd yn ei wneuthur; i'r hyn yr atebodd yntau yn uchel, "Y mae yn anrhydedd nid bychan i foneddwr gwael o Gymru golli ei ben gyda'r fath arglwyddi urddasol, canys yn wir yr oeddwn yn ofni y buasent yn fy ngrogi." Pa fodd bynag siomwyd Syr John o'r anrhydedd; a thra y gwneid ymbiliau

Digitized by Google

taerion ar ran ei gydgarcharorion, ni erfyniodd efe am bardwn ei hun, na neb arall trosto. Cafodd eiriolwr yn un o gymeriadau hynotaf y dyddiau hyny, sef Cadben Ireton, mab yn nghyfraith i Oliver Cromwell. Efe a ddywedodd gerbron y Senedd, "Y mae yma un dyn, o blaid yr hwn nid oes neb yn dywedyd gair; am hyny, yr wyf fi yn erfyn, er mwyn ac ar gyfrif Lynawsedd y Ty hwn yn unig, am iddo gael ei arbed." Felly pardynwyd ef; ac wedi ychydig fisoedd o garchariad, gollyngwyd ef yn rhydd. Yna dychwelodd i'w wlad, lle y bu farw yn 1666, a chladdwyd ef yn eglwys Penmorfa, sir Gaernarfon, lle y mae ei feddargraff Lladin i'w weled hyd y dydd hwn. Y mae ei etifeddiaeth eto yn aros yn nwylaw ei ddisgynyddion; a cheir yn Porkington ei sel swyddogol fel rhag-lyngesydd Gwynedd, ei ddarlun, a'r cleddyf a roddwyd yn anrheg iddo gan Arglwydd Capel y dydd cyn ei ddienyddiad.

OWEN (JOHN), yr englyniwr Lladin hyglodus, yr hwn a adwaenir yn yr iaith hono wrth yr enw *Audoenus*. Efe oedd drydydd mab Thomas Owen, Ysw., Plasdu, plwyf Llanarmon, sir Gaernarfon. Addysgwyd ef yn ysgol Winchester; ac yn 1584, cafodd ei dderbyn yn gymrawd parhaol o'r Coleg Newydd, Rhydychain. Graddiwyd ef yn wyryf o'r gyfraith wladol yn 1590, eithr gadawodd ei gymrodiaeth yn ystod y flwyddyn ganlynol, gan gymeryd gofal ysgol yn Trelech, ger Mynwy. Yn 1594, dewiswyd ef yn feistr rhydd-ysgol Warwick, a thra yn y sefyllfa hono, enwogodd ei hun fel ysgolhaig Lladin, a'i alluoedd fel bardd. Yr oedd ei englynion Lladin yn destyn edmygedd a molawd dysgedigion, ond clod oedd ei unig wobr am danynt; parhaodd yn dlawd trwy ei oes, a chynelid ef yn benaf gan ei gydwladwr a'i berthynas, yr arglwydd-geidwad Will ams, esgob Lincoln y pryd hwnw. Gobeithiai y buasai rhyw hen ewythr cyfoethog iddo yn cofio am dano yn ei ewyllys, ond digiasai hwnw trwy rai o'r englynion Lladin yn erbyn eglwys Rhufain, a rhoddwyd ei lyfr hefyd gan y chwil-lyswyr Pabyddol yn yr *Index Expurgatorius*. Bu farw yn 1622, a chladdwyd ef yn mynachlog St. Paul, Llundain, lle y cyfodwyd colofn i'w gofladwriaeth gan ei noddwr yr archesgob Williams. Cyhoeddwyd ei englynion yn gyfresau ar wahanol amserau, a daeth argraffiad cyflawn ohonynt allan ar ol hyny, nid yn unig yn Lloegr, ond hefyd mewn gwledydd tramor. Gwnaed cyfieithiad mydrol o nifer detholedig ohonynt i'r Seisnig gan John Vicars, o Yspytty Crist, Llundain, yn 1619; a gwnaed yr un gymwynas â chwe' chant ohonynt gan Thomas Pecke, o'r Inner Temple, y rhai a gyhoeddwyd mewn gwaith o'r enw "Parnasi Puerperium," yn 1659. Cyfieithwyd y cyfan ohonynt bron gan Thomas Harvey. Ymddangosodd cyfieithiad Yspaenaidd ohonynt yn Madrid yn 1674 a 1682; ac yn Ffrancaeg yn 1709.—Wood's *Athen. Oxon; Hist. Ant. Univ. Oxon.*

OWEN (JOHN), oedd nai fab chwaer i Forysiaid Mon. Tebygol i'r gwr ieuanc blodeuog hwn gael ei ddwyn i fynu tan ofal ei ewythrod. Oddiwrth gywydd o'i waith a elwir "Cywydd Mab Ieuanc," bernir iddo treulio rhan o'i amser yn Ngheredigion, gyda'i ewythr Lewis, mae'n debygol. Symudodd oddiyno i Lundain, lle y bu am rhyw fesur o amser yn ysgrifenydd i'w ewythr Risiart Morys. Ysgrifenodd lawer o lythyrau o Lundain, at Ieuan Brydydd Hir, yr hwn o dd ar y pryd yn gurad Llanfair Talhaiarn, sir Ddinbych. Y mae Risiart Morys yn un o'i lythyrau at y Prydydd Hir, yn dweyd ei fod wedi cael lle cynllgar i'w nai Sion Owen fel talwr cyllogau ar fwrdd un o longau rhyfel

Digitized by Google

y brenin. Bu farw ar y mor, o glefyd y gwaed — *Gronoviana.*

OWEN (JOHN), D.D., prelad enwog, ydoedd fab hynaf Owen Owen, yr hwn oedd ail fab Owen ab Robert, o Fodsilin, plwyf Aber, sir Gaernarfon. Yr oedd ei dad yn archddiacon Mon, ac yn rector Burton Latimers, sir Northampton, lle y ganwyd John ei fab yn 1580. Addysgwyd ef yn Nghaergrawnt, gwnaed ef yn gymrawd o goleg Iesu, a chymerodd y radd o ddoethawr mewn duwinyddiaeth. Penodwyd ef yn gaplan i Siarl I. cyn iddo esgyn i'r orsedd; ac yn 1618, dewiswyd ef yn rector Burton Latimers. Ar farwolaeth esgob Hanmer, darfu i'r ffaith ei fod yn Gymro, a'i rinweddau personol, beri i'r brenin, gyda llawn gydsyniad yr archesgob Laud, ei ddyrchafu yn esgob Llanelwy. Coleddai Laud y syniadau uwchaf am dano; ac er fod dau ymgeisydd arall am y swydd, tueddwyd ef i ddewis Owen, oherwydd ei fod mor wylaidd a dihunangais. Cysegrwyd ef Medi 20, 1629. Trodd y dewisiad allan yn un tra chanmoladwy, canys yr esgob a hynododd ei hun yn fawr trwy ei hyddysgrwydd yn yr iaith Gymraeg, a'i ymdrechion i leshau ei esgobaeth. Yn ddiattreg wedi dyfod i Lanelwy, ymosododd ar gyflawni gweithiau mawrion a phwysig: a cheir rhestr o rai ohonynt mewn coflyfr o'r enw *Y Cwtta Cyfarwydd*, yn dechreu yn 1600, ac yn cael ei ddwyn yn mlaen am haner can' mlynedd. Yr esgob teilwng hwn oedd y cyntaf i sefydlu gwasanaeth Cymraeg yn mhlwyf Llanelwy. Gwariodd lawer o arian yn adgyweirio ac addurno y brif-eglwys; ac yn 1635, rhoddes i fynu yno yr organ fawr ac ysplenydd. Efe a ddyoddefodd lawer yn ystod y rhyfel gwladol; a chan ei fod yn un o'r esgobion a arwyddasant y gwrthdystiad, carcharwyd ef yn y Twr, a gorfodwyd ef i dalu lawn o bum' cant o bunau. Bu farw yn Abercinsey, ger Llanelwy, Hydref 16, 1651, a chladdwyd ef o tan ei gadair esgobyddol yn ei brif-eglwys, heb gymaint a chofgolofn na chofnod i ddynodi y ffaith. Syrthiodd prif-eglwys Llanelwy tan draed gwerin anwar yn mlynyddoedd annrhefn cynhyrfus y werin-lywodraeth. Halogwyd yr hen gysegrfa dawel hon yn warthus gan rhyw adyn o'r enw Miles, yr hwn a gadwai y llythyrdy, a breswyliai yn nhŷ yr esgob, ac a werthai win a diod gadarn yno. Cadwai y bod diras ei geffylau a'u wartheg yn yr eglwys, a phorthai ei loi yn ngorsedd swyddogol yr esgob, a rhanau eraill o'r gafell, a symudodd y bedyddfaen i'w fuarth yn gafn dwfr i ddisychedu ei anifeiliaid. Priododd mab i'r esgob Owen ferch Bagillt Hall, yn mhlwyf Treflynon, a merch o'r briodas hono a briododd Mr. Fitzherbert, trwy yr hyn y daeth etifeddiaeth y Wefre i'r teulu.—Wms. *Em. Welsh.*

OWEN (JOHN), D.D. Yr oedd y duwinydd bydenwog hwn yn fab i'r Parch. Henry Owen, yr hwn oedd yn drydydd mab i Griffith Owen, Ysw., o Dalybont, ger Towyn, Meirionydd. Addysgwyd ei dad yn Rhydychain, a chafodd ar y cyntaf ficeriaeth Stadham, ger Watlington, sir Rhydychain, lle y ganwyd John yn 1616. Gan ei fod yn fachgen o alluoedd anarferol, penderfynwyd rhoddi iddo yr addysg oreu, a chystal ysgolhaig ydoedd, fel y cafodd dderbyniad i Goleg y Frenhines, Rhydychain, pan yn ddeuddeg oed. Gan fod gan ei dad deulu lluosog, nis gallai fforddio ond ychydig tuag at ei gynaliaeth yn y brif-ysgol; eithr gwnaed y diffyg hwnw i fynu gan ewythr cyfoethog i'r efrydydd frawd ei dad, sef Hugh Owen, o Dalybont, i'r hwn nid oedd plant, ac a fwriadai wneud ysgutor i'w etifeddiaeth o'i nai gobeithiol. Trwy y cymhorth hwn, ymroddodd i efrydu gydag egni diail, fel na chaniatai iddo ei hun am lawer o flynyddau ond pedair awr i gysgu. Graddiwyd

Digitized by Google

ef yn B.A. yn 1632, ac yn M.A. yn 1635; eithr yn fuan ar ol hyn, gan ei fod yn annghydolygu â threfnfadau newyddion yr archesgob Laud, canghellydd y brif-ysgol, gwrthododd ufuddhau iddynt; ac ymddidolodd oddiwrth y sefydliad, er nad oedd ganddo olwg ar un lle i droi ei wyneb, a bod ei gyfeillion blaenorol yn troi cefn arno, fel pe buasai buritan, a rhag tynu arnynt wg yr awdurdodau goruchel. Gadawodd Rydychain yn 1637, ac o hyny allan yr oedd yn elyn annghymodlawn i sefydliadau eglwysig. Wedi iddo adael y coleg, cafodd urddau eglwysig gan yr esgob Bancroft, a dewiswyd ef yn gaplan Syr Robert Dormer, o Ascot, sir Rhydychain, ac yn athraw ei fab hynaf. Bu wedi hyny yn gaplan i John arglwydd Lovelace, o Harley, sir Berk, hyd oni thorodd y rhyfel cartrefol allan, pryd y datganodd yn gyhoeddus ei fod yn bleidiwr achos y Senedd. Digiodd ei ewythr gymaint wrtho oblegyd y weithred hon, fel y newidiodd yr ysgutoriaeth, ac y rhoddes ei etifeddiaeth i wyr ei frawd hynaf, sef Lewis Owen, Ysw., o Beniarth. Yr oedd arglwydd Lovelace hefyd yn bleidiwr y brenin, ac felly ymadawodd John Owen, gan fyned i Lundain, a daeth yn broselyt hollol i egwyddorion Ymneilldual. Yn 1642, cyhoeddodd ei lyfr cyntaf, "Display of Arminianism," yr hwn a gafodd dderbyniad gwresog, ac a enillodd i'w awdwr boblogrwydd nid bychan. Yn fuan, rhoddwyd iddo fywiolaeth Fordham, Essex, gan y cyfeisteddfod er diswyddo offeiriadon anfucheddol, lle y llafuriodd yn llwyddianus am tua blwyddyn a haner, a thorfeydd mawrion yn cyrchu i'w wrando, nid yn unig o'i blwyf ei hun, ond hefyd o'r plwyfi cylchynol. Tra yn y lle hwn, priododd ei wraig gyntaf, o'r hon y bu iddo 11 o blant, y rhai a fuont oll feirw yn eu mabandod, oddigerth un ferch. Symudodd o Fordham i Coggeshall, plwyf tua phum' milldir oddiyno, a chafodd gyfleusdra i bregethu i gynulleidfaoedd lluosocach, ac anfynych y byddai ganddo lai na 2,000 o wrandawyr. Hyd yn hyn, Presbyteriad oedd, ond yn Coggeshall newidiodd ei farn parth llywodraeth eglwysig, a mabwysiadodd egwyddorion yr Annibynwyr. Y fath oedd ei enwogrwydd fel pregethwr, fel y galwyd arno i bregethu gerbron y Senedd Awst 29, 1646, a thrachefn Ionawr 31, sef dranoeth i ddienyddiad Siarl I., ac wedi hyny Ebrill 19, pan y clybu Cromwell ef am y tro cyntaf. Rhoddes y bregeth y fath foddlonrwydd i'r arwr hwnw, fel y danfonodd am Owen ato yn ddioed, gan ei hysbysu ei fod yn myned ar fyrder i ddarostwng y gwrthryfel yn Iwerddon, a dymuno arno fyned gydag ef fel caplan, ac i ddodi prif-ysgol Dublin mewn iawn drefn. Ar y cyntaf, nid oedd efe yn foddlawn i gydsynied, gan ddadleu ei anhawsder i adael ei blwyfolion; eithr ni fynai Cromwell ei nacau, a chydsynio fu raid. Arosodd yn Iwerddon am flwyddyn a haner; ac ar ei ddychweliad i Loegr, galwyd arno drachefn i bregethu o flaen y Senedd, Chwefror 28, 1650. Yn y Mai canlynol, dychwelodd Cromwell i Lundain, a chymerodd ei fyddin allan yn ddioed i ddarostwng gwrthryfel Scotland, ac ar ei ddymuniad ef, rhoddes y Senedd archiad i John Owen a Joseph Caryl ei ddilyn yn uniongyrchol i'r wlad hono drachefn. Arosodd yno hyd ddechreu 1651, pan y dychwelodd at ei braldd a'i deulu i Coggeshall; ond ni chafodd fawr seibiant yno eto; canys penderfynasai y Senedd eisoes roddi iddo ddyrchafiad eglwysig trwy ei benodi yn ddeon Eglwys Crist, Rhydychain. Hydref 24, yr un flwyddyn, pregethodd eilchwyl o flaen y Senedd—dydd o ddiolchgarwch am fuddugoliaeth ar yr Ysgotiaid, a llwyddiant gorphenol Cromwell yn sefydliad y werinlywodraeth yn y tair

Digitized by Google

teyrnas. Ar y 6ed o Chwefror, 1652, traddododd bregeth angladdol yn Westminster Abbey ar gladdedigaeth y Cadfridog Ireton. Ei ddyrchafiad eglwysig nesaf ydoedd yn is-ganghellydd Prifysgol Rhydychain, o tan Cromwell fel canghellydd. Pan yn Llundain ar achos yr ysgol, yn Rhagfyr, 1653, rhoddwyd iddo y radd o D.D. Dewiswyd ef i gymrychioli y Brif-ysgol yn Senedd Cromwell, ond barnodd cyfeisteddfod y breiniau nad cymhwys i wr o urddau eglwysig eistedd yn y sefyllfa hono, ac felly ni bu ei ocs seneddol ond ber. Wedi olrhain fel hyn ei ddyrchafiad i uchafnod tymhorol, o hyn allan cawn ei weled yn myned ar i waered yn yr ystyr hwnw, ond yn cynyddu mewn defnyddioldeb ysprydol, fel gweinidog a duwinydd. Colloid ffafr Cromwell trwy y rhan a gymerodd gyda Fleetwood a Desborough yn gwrthwynebu rhai o amcanion uchelgeisiol yr Amddiffynwr, trwy ba rai y meddylid ei fod ymgais am y goron, ac am yr enw brenin. Yn Gorphenaf, 1657, rhoddes Oliver i fynu ei swydd o ganghellydd Prifysgol Rhydychain, ac etholwyd Richard Cromwell yn ei le, yr hwn a ddiswyddodd Owen, ac a ddewisodd Bresbyteriad yn ei le. Yn ystod y pum' mlynedd y bu mewn cysylltiad â'r Brifysgol, gwnaeth iddi ddaioni mawr, trwy ei drefniadau doeth a'i ddiwygiadau llesfawr. Yr oedd yn llywodraethwr awdwrdodol, ac eto yn llariaidd a hynaws; er fod yn mhlith yr efrydwyr lawer o wahaniaeth barn yn nghylch crefydd, ni ddefnyddiodd efe ei awdurdod i gaethiwo cydwybod neb. Pr esgobyddion, goddefai iddynt gynal eu haddoliadau gyferbyn a'i ddrws ei hun, er fod y gyfraith yn eu gwahardd; i'r Presbyteriaid y rhoddai y rhan fwyaf o'r bywiolaethau yr oedd ganddo awdurdod arnynt; er mai Annibynwr cadarn oedd efe ei hun. Magodd y brif-ysgol pan oedd efe yn ei llywyddu rai o brif ddynion yr oesau, megis, John Locke, Wm. Penn y Crynwr, Dr. South, Syr Christopher Wren, Anthony Wood, Launcelot, Addison, &c. Yn fuan ar ol hyn, bu farw Cromwell, a chyda R. Cromwell daeth y Presbyteriaid i fwy o ffafr ac awdurdod, y rhai a ddechrenasant ormesu ar eu brodyr yr Annibynwyr. Difeddianwyd Dr. Owen o ddeoniaeth Eglwys Crist, Rhydychain, trwy benderfyniad y senedd yn Mawrth, 1660, a'i ragflaenydd Presbyteraidd a adferwyd yn ol i'w le. Hyn a derfynodd bob perthynas rhyngddo â helyntion gwladwriaethol ei oes. Ymneilldduodd i Stradham, ei le genedigol, lle hefyd yr oedd wedi prynu etifeddiaeth. Pregethai ambell waith i'r trigolion, ac yr oedd cynulleidfa fechan ohonynt wedi ymffurfio yn eglwys, a'i ddewis yntau fel eu gweinidog. Ond daeth tymhestl erledigaeth yn fuan ar eu gwarthaf, danfonwyd nifer o filwyr yno i'w chwalu, a pharhaodd yr ymlid mor boeth, fel y bu raid i'r Dr. grwydro o le i le er mwyn diogelwch. Yr oedd y naill gyfraith seneddol ar ol y llall yn dyfod i weithrediad, ac yn cyfyngu ar ryddid y deiliaid; a'r breninolwyr wedi dyfod eilwaith i awdurdod yn talu y pwyth yn ol gyda llog. Oherwydd ei enwogrwydd, ceisiwyd gwneud eithriad ohono ef; danfonodd yr arglwydd-ganghellydd Clarendon am dano, ac a'i hanogodd yn daer a hynaws, os nad allai o gydwybod gydymffurfio, i ddefnyddio ei amser i ysgrifenu yn erbyn y Pabyddion. Ni pheidiodd a phregethu, ond yn ol ei gais cyfansoddodd "The Church of Rome unsafe," yr hyn a roddes y fath foddhad i'w arglwyddiaeth fel y cynygiodd iddo ddyrchafiad yn yr eglwys, os cydymffurfiai â'i threfniadau; a diau pe cydsyniasai mai uchel y dyrchafiad ef. Yn 1663, cafodd wahoddiad gan eglwys Gynulleidfaol Boston, America, nawddwlad y gorthrymedig yn yr oes hono, a chydsyniodd mor belled a rhoddi rhan

Digitized by Google

o'i nwyddau ar fwrdd llong; eithr dywedir i'r brenin ei hun el orchymyn yn dyner nad elai. Pan dorodd y pla arswydus allan yn Llundain, taflodd erledigaeth am yspaid ei chylchau. Parlyswyd pleidwyr y *Conventicle Act*, wrth weled bys barnedigaethol Duw mor amlwg: codwyd tabernaclau mawrion yn ngwahanol barthau y Brif-ddinas, a phregethid ynddynt gan y fath anghydffurfwyr ag Owen, Goodwin, Griffiths, Brooks, Caryl, Barker, &c., a thyrai cynulleidfaodd lluosog a difrifol i'w gwrando. O'r pryd hwnw hyd 1672, pan y cyhoeddodd Siarl II ei odde garwch *(indulgence)* i annghydffurfwyr, yr oedd y gyfraith yn rhyw gau llygad arno ef ac ychydig o'i gyfeillion enwog, pan yr elent ar ei thraws. Yn 1673, bu farw ei gyfaill mynwesol yr enwog Joseph Caryl; a chytunwyd fod i gynulleidfaoedd y ddau gael eu huno tan ofal Dr. Owen. Ffurfid y gynulleidfa hon gan rai o bendefigaeth yr oes, a pherthynasau agos i'r diweddar O. Cromwell. Lleddfodd gelyniaeth y brenin tuag ato, gyrodd am dano, ymddiddanodd ag ef am amser hir, dywedai y byddai yn llawen o'i gwmpeini pa bryd bynag y dewisai ddyfod i'w balas, a chyn ymadael rhoddodd iddo fil o bunau i'w rhanu yn mhlith yr Ymneillduwyr oeddynt wedi dyoddef erledigaethau. Yn 1675, bu farw ei wraig; ac wedi yspaid blwyddyn a haner, priododd Dorothy D'Oyley, gweddw Thomas D'Oyley, Ysw., gerllaw Stadham. Hon oedd foneddiges nodedig am ei duwioldeb, ac yn meddu cyfoeth helaeth, yr hyn a wnaeth amgylchiadau tymhorol y Dr. yn gysurus iawn ohyny allan, fel yr oedd yn gallu teithio yn ei gerbyd, a chadw tŷ harddwych yn y wlad, mewn lle a elwir Ealing, ger Middlesex, lle y preswyliai benaf yn mlynyddau olaf ei oes. Tua'r amser hwn, bu yn foddion i ryddhau yr anfarwol Bunyan o garchar Bedford. Dywedir y byddai yn fynych yn myned i wrando awdwr *Taith y Pererin* pan y pregethai yn Llundain, a phan y sylwai Siarl II. wrtho un tro ei fod yn rhyfeddu fod gwr o ddysgeidiaeth Dr. Owen yn myned i wrando *tinker*, efe a atebodd, "Rhynged bodd eich Mawrhydi, byddai Dr. Owen yn foddlon iawn i ymadael â'i holl ddysgeidiaeth er mwyn meddianu doniau y *tinker* hwn." Dyoddefodd lawer oddiwrth ddolur y gareg, diffyg anadl, &c., yn mlynyddau olaf ei oes. Ceisiai leddfu poenau, ac estyn oes, trwy breswylio yn y wlad—yn Kensington, ger Llundain, ac wedi hyny yn Ealing, ei dŷ ei hun, ond nid oedd modd ysgoi tynged gyffredin dynolryw. Tra yr arferthid y corph, yr oedd ei feddwl yn dawel a boddlon. Meddai un diwrnod, "Yr wyf yn gadael llong yr eglwys mewn tymhestl, eithr tra y byddo *Pilot* mawr ar ei bwrdd, ni bydd y golled am un rhwyfwr distadl ond o ychydig bwys." Bu farw Awst 24, 1683, yn 67 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Bunhill Fields. O ran ei ddyn oddiallan, yr oedd ychydig yn dalach na'r cyffredin, ac o ymddangosiad hardd a boneddigaidd. Yr oedd ei wynebpryd yn ddifrif-ddwys a mawrfrydig; ei lais yn dyner, a'i ymddygiad yn foesgar. Yr oedd yn hynod o lariaidd, cyfeillgar, siriol, ac ymddyddanol; meddai hefyd lawer o ffraethineb naturiol, ond yr oedd yn ofalus iawn i lywodraethu ei ymadroddion a'i dymherau. Yr oedd yn un o bregethwyr mwyaf hyawdl ei oes, llithrig, deniadol a phwrpasol. Pe na buasai ond hyn yn unig, ni syrthiasai ei enw i dir annghof; ond adwaenir ef gan y byd yn hytrach oblegyd ei ysgrifeniadau meithion, lluosog, a galluog. Adwaenir ef wrth yr enw "tywysog Duwinyddion;" ac y mae bron yn wyrth fod gwr fel efe wedi medru cael hamdden i gyfansoddi cymaint, pan yr oedd cynifer o bethau eraill yn galw am ei sylw. Yr oedd ei holl lyfrau yn cynwys dim llai na saith

Digitized by Google

cyfrol deublyg, ugain mewn pedwarplyg, a thua haner cant mewn wyth plyg, a dyddiad eu cyhoeddiad yn cyrhaedd o 1642 hyd 1760. Cyhoeddwyd un gyfrol ar ddeg ohonynt ar ol ei farwolaeth. Y mwyaf o'i lyfrau ydyw ei Esboniad ar yr Epistol at yr Hebreaid, yr hwn a ddaeth allan mewn pedair cyfrol fawr bedwarplyg, y gyntaf yn 1668, a'r olaf yn 1684. Cyfieithwyd y rhai canlynol o'i waith i'r Gymraeg:—1, "Escol, neu reolau Cymdeithas Eglwysig;" 2, "Marweiddiad Pechod;" 3, Esboniad ar Psalm cxxx."; 4, "Yr Ysprydd Glan a'i Waith;" ac amryw eraill. Y mae llawer o'i waith wedi myned trwy amryw argraffiadau, cyhoeddwyd argraffiad untfurf cyflawn o'r cyfan yn Llundain gan R. Baynes tua 1830, pris £12. 12s.; a daeth argraffiad hardd allan gan y Clarkes, o Edinburgh, o fewn ychydig flynyddau yn ol.

OWEN (Lewis), neu y *Barwn Owen*, ydoedd fab Owen ab Hywel ab Llywelyn, Ysw., o'r Llwyn, Dolgellau, yn Meirion, a chyff rhai o'r teuluoedd hynaf yn Nghymru. Yr oedd L. Owen yn un o'r boneddwyr mwyaf cyfrifol yn Ngwynedd, ac yn meddu etifeddiaeth gwerth tri chant o bunau yn y flwyddyn, yr hwn oedd yn swm gwych iawn yn yr oes hono. Oherwydd ei uchelwaed, a'i amgylchiadau cyfrifol, cafodd amryw swyddau gwladwriaethol pwysig. Penodwyd ef gan Harri VIII. yn is-ystafellydd a barwn canghellys Gwynedd. Bu yn siryad Meirion yn 1546 a 1555, ac yn aelod tros y sir hono yn seneddau 1547, 1552, a 1554. Yr oedd arglwyddiaeth Mawddwy y pryd hwnw yn cael ei phreswylio yn benaf gan haid o ddyhirwyr lladronllyd, penrydd, yn byw ar yspail a herwhela. Bernir mai gwehilion Rhyfelodd y Rhosynau oeddynt, wedi ffoi i'r rhan annghysbell hono o'r wlad er mwyn cael heddwch i ddilyn eu hanianawd anonest. Yr oedd eu digywilyddra hefyd mor hynod â'u lladradau; yspeilient yrr o wartheg oddiar y maes ganol dydd goleu, ac ni feiddiai neb eu gwarafun. Yr oedd Mawddwy, y Dugoed, a Mallwyd, wedi eu gwneud yn lloches lladrad ganddynt, ac yn gyniweirfa pob adyn atgas ac yspeilgar. O'r diwedd, penderfynwyd eu diwreiddio o'r lle wreiddyn a changen, a danfonodd y llywodraeth orchymyn at John Wyn ab Meredydd a Lewis Owen, i wneud hyny, costied a gostio. Yn unol â'r gorchymyn hwn, codasant fyddin fechan o wyr, a rhuthasant ar ffauau Gwylliaid Cochion Mawddwy ar nos Nadolig, daliasant 80 ohonynt, a chosbwyd hwynt yn ol eu haeddiant. Penderfynodd y sawl ohonynt nad oedd cosb wedi eu cyrhaedd, y mynent ddial gwaed am waed. Yn mhen ychydig ar ol hyny, yr oedd yn rhaid i'r Barwn fyned wrth ei swydd i frawdlys Maldwyn; ac mewn glyn coediog oedd ar ei ffordd torodd y Gwylliaid amryw brenau gan eu gosod ar draws y llwybr, ac ymguddiasant gerllaw er mwyn gwylio ei ddyfodiad ef a'i osgordd. Pan ddaethant, bwriodd y llofruddwyr gawod o saethau arnynt, ac aeth un o'r cyfryw trwy ben y Barwn fel y bu farw yn y fan. Yr holl osgerdd a ffoisant am eu bywydau oddigerth John Llwyd, o Geiswyn, yr hwn oedd yn gâr i L. Owen. Efe a safodd yno yn ddewr gan amddiffyn y corph, ac ni chafodd un niwed oddiar eu llaw. Ar ol hyn, darfu i'r holl wlad godi yn eu herbyn, ymlidiwyd hwynt yn lân o'u lloches. Y rhan fwyaf ohonynt a laddwyd fel bwystfilod gwylltion, a'r gweddill a ffoisant na welwyd byth mohonynt ffordd hono mwyach. Dydd llofruddiad y Barwn Owen ydoedd Hydref 11, 1555.—Pennant's *Tours in Wales; Gwladgarwr* vi. 161.

OWEN (Lewis), neu Owen Lewis, canys ysgrifenai ei enw yn y ddau ddull, ydoedd fab i rydd-ddeiliad parchus, ac a anwyd yn mhlwyf

Digitized by Google

Llanfeirian, Mon, yn 1533. Addysgwyd ef yn ysgol Winchester, a gwnaed ef yn gymrawd parhaol yn y Coleg Newydd, Rhydychain, yn 1553. Graddiwyd ef yn wyryf o'r gyfraith wladol, eithr gan fod ei feddwl yn wrthddrych argrafliadau crefyddol, rhoddes i fynu erlyn ar ol y gangen hono o wybodaeth, a gadawodd y brifysgol tua 1561. Aeth i Douay, a chodwyd ef yno oherwydd ei deilyngdod yn ddysgawdwr o freiniol benodiad. Mewn traethodyn Seisnig, yn cynwys hanes y ffoaduriaid o Loegr tan lywodraeth brenin Spaen, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1596, dywedir fod ymrafaelion pwysig wedi cymeryd lle yn y Coleg Seisnig yn Rhufain, ac yn ben ar un o'r pleidiau yr oedd Dr. William Allen, ac ar y llall Dr. Lewis Owen, yr hwn oedd yn "ddyn doeth a dysgedig, ac oherwydd ei oedran, ei ddefosiwn, a'i arosiad maith yn y parthau hyny, a feddai ddylanwad mawr yn llys Rhufain. Pan benderfynodd y Pab wneud cardinal yn Lloegr, ystyrid L. Owen y cymhwysaf i dderbyn yr anrhydedd, ond gan ei fod yn elyn calon i'r Jesuitiaid, medrasant hwy gael y swydd i'r Dr. Allen, yr hwn a gysegrwyd mewn canlyniad yn 1587. Penodwyd Dr. Lewis yn esgob Capano, yn nheyrnas Naples, gan Phillip II., brenin Spaen, a chysegrwyd ef i'r swydd yn Rhufain, Chwef. 2, 1588. Enillodd glod a chanmoliaeth uchel am y doethineb gyda pha un am y saith mlynedd y llywyddodd achosion yr esgobaeth hono; a bu farw Hydref 13, 1594. Claddwyd ef yn y capel perthynol i goleg yr efrydwyr Seisnig yn Rhufain, a chyfodwyd gwyddfa farmor ar ei fedd, ac yn gerfiedig arni restr o'i aml rinweddau, ac amlinelliad o hanes ei fywyd. Yr oedd Hugh Griffith, *provost* Cambray, yn nai iddo.—Wood's *Athen. Oxon.*

OWEN (Lewis), brodor o Feirion, ac awdwr amryw lyfrau yn erbyn y Jesuitiaid. Derbyniwyd ef i goleg Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1590, ac efe ar y pryd yn ddeunaw oed, eithr gadawodd y coleg cyn cymeryd ei raddio. Yna bu yn ymdeithio yn amryw o wledydd y cyfandir; ac ymunodd a chymdeithas yr Iesu yn Valladolid, Spaen, lle y trigianodd am yspaid fel llygad-dyst chwilfrydus. Sylwodd ar eu dichellion, a chanfu fod eu holl amcanion yn fydol, ymadawodd, a throdd yn elyn annghymodlawn iddynt. Ei lyfr cyntaf a elwid, "The running Register, recording a true relation of the state of the English colleges, seminaries, and cloysters, in all foreign parts, together with a brief discourse of the lives, practices, &c., of English Monks, Friars, Jesuits, &c.," 1626. Dilynwyd hwn gan un bron ar yr un testyn, "The unmasking of all Popish Monks, Friars, and Jesuits, or a Treatise of their genealogy, beginnings, proceedings, and present state," 1628. 3, "Speculum Jesuiticum, or the Jesuits' Looking-glass, wherein they may behold Ignatius (their patron), his progress, their own pilgrimage, his life, their beginning," 1629. 4, "A true Catalogue of all their colleges, &c., and a true number of the fellows of their society." Bu farw rywbryd ar ol 1629.—Wood's *Athen. Oxon.*

OWEN (Matthew), bardd o Langar, yn Meirion. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Mangor a Rhydychain. Yr oedd yn y lle olaf yn 1653. Y mae amryw ddarnau o'i waith yn y *Blodeugerdd.* Yr oedd hefyd yn awdwr ac yn chwareuydd interliwdiau—un yn rhanog â bardd arall o'r enw Sion Parry o Gorwen.—*Lleyn MSS.*

OWEN (Parch. Owen), a fu am lawer o flynyddau yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Rhesycae, sir Flint. Yr oedd yn bregethwr da, yn hanesydd campus, ac ysgrifenodd lawer i'r *Dysgedydd*, a chyhoeddiadau eraill yr enwad, yn benaf ar bynciau hanesiaeth eglwysig.

Digitized by Google

Cyhoeddodd gyfieithiad newydd o *Holwyddoreg Palmer* yn Nghymraeg, gyda nodiadau ac attodiad.

OWEN (RICHARD), D.D., ydoedd fab i offeiriad yn sir Gaerfyrddin, eithr ni wyddis yn mha le, na pha beth oedd ei enw. Cafodd ddeerbyniad i goleg Iesu, Rhydychain, yn 1608, ac efe ar y pryd yn 23 oed, a daeth wedi hyny yn gaplan y Coleg Newydd. Graddiwyd ef yn B.A. yn 1613, ac yn M.A. yn 1616, ac efe yn aelod o Hart Hall. Cafodd fywiolaeth gysurus yn ei wlad enedigol, a chan ei fod yn ddyn defnyddiol, ac yn eglwyswr selog, pan y daeth y Dr. Laud yn esgob Tyddewi, penodwyd ef yn gaplan iddo, graddiwyd ef hefyd yn D.D. pan y dewiswyd ei esgob yn gangellydd y brifysgol. Cysegrwyd ef yn esgob Llandaf yn 1639. Yr oedd yn un o'r esgobion hyny a arwyddasant y gwrthwynebiad yn 1641, am yr hyn y cercharwyd ef am bedwar mis yn Nhwr Llundain. Wedi derbyn ei ryddhad, ymneilldnodd i wlad ei enedigaeth, lle y dyoddefodd lawer oblegid ei freingarwch, y ffaith ei fod yn esgob, ac wedi ei ddyrchafu i'r swydd hono gan Laud. Trawsfeddianwyd ei balas yn Mathern, ger Chepstow, gan ddyn o'r enw Green o Gaerdydd, yn nghyda'i gyllid yn y parth hwnw o'r wlad a manau eraill. Ei olynydd yn rectoriaethau Belwas a Rudry, y rhai a ddalai gyda'r esgobaeth, ydoedd Henry Nickols, ac ar ei ol ef daeth Watkin Jones, o Fynyddislwyn, yr hwn oedd Fedyddiwr yn ei blwyf ei hun, ond yn Bresbyteriad proffesedig yn Bedwas a Rudry. Un Rees John David oedd yn byw yn y persondy; efe oedd y goruchwyliwr a derbyniwr y degwm. Symudodd y gwr hwn fedyddfaen o eglwys Bedwas, ac wedi iddo ef a'i was fethu ei thori, dodes hi o tan y pren ywen, i ddiodi ei wartheg a'i geffylau. Bu yr esgob Owen farw yn Glasallt, sir Gaerfyrddin, yn Ionawr, 1644 neu 45, a chladdwyd ef yn eglwys Llanfihangel Mothfy. Yr oedd yn meddu cryn lawer o gyfoeth tirol, yr hwn a adewsid iddo gan ewythr, ac efe a waddolodd rydd-ysgol Gaerfyrddin â £30 yn y flwyddyn.—Wms. *Em. Welsh.*

OWEN (RICHARD), D.D., ydoedd fab i'r Parch. Cadwaladr Owen, rector Llanfechain, sir Drefaldwyn, lle y ganwyd ef yn 1605. Pan yn 15 oed, derbyniwyd ef i goleg Oriel, a gwnaed ef yn gymrawd yn 1627, ac efe ar y pryd yn B.A. Wedi ei raddio hefyd yn M.A., cymerodd urddau eglwysig; ac yn 1635, rhoddwyd iddo gan Brif-ysgol Rhydychain freeriaeth Eltham yn Kent. Yn 1638, ac efe yn ficer St. Swithin, Llundain, rhoddes ei gymrodiaeth i fynu, a graddiwyd ef yn B.D. Pan dorodd y gwrthryfel allan, pleidiodd y brenin, a dyoddefodd lawer am 17 o flynyddau oblegyd ei freingarwch. Ar ddyfodiad Siarl II., dychwelwyd iddo ei fywiolaethau, a chafodd hefyd brependiaeth yn St. Paul, a bywiolaeth North Cray, yn Nghent, a chrewyd ef hefyd yn D.D. Perchid ef yn fawr oherwydd ei fuchedd a'i ymddyddanion sanctaidd, "ei ymlyniad wrth y sefydliad o grefydd, ac wrth hen egwyddorion cywir Eglwys Loegr yn ystod y gwrthryfel, ac am ei freingarwch." Cyhoeddodd ddwy bregeth, a chyfieithodd hefyd i'r Seisnig yr oll neu lawer o wawd-gerddi Juvenal. Bu farw yn Ionawr, 1682.

OWEN (ROBERT), y *Sosialist*. Ganwyd ef Mai 14, 1771, yn y Drefnewydd, sir Drefaldwyn. Yr oedd ei dad yn cadw llythyrdy y dref grybwylledig, ac yn gymunwr rheolaidd yn eglwys y plwyf. Plentyn gwanaidd, tyner, oedd Robert, ond darllenwr diflino ar bob llyfr y deuai o hyd iddo. Yr oedd rhyw nerth a rhyw wendid ynddo cyn cyrhaedd wyth oed. Wrth ddarllen mewn gwahanol lyfrau am elyniaeth

Digitized by Google

farwol y naill grefydd tuag at llall, temtiwyd ef i'r grediniaeth fod rhyw ddrwg moesol tan wraidd yr oll ohonynt. Pan yn naw oed, rhoddwyd ef yn egwyddorwas o fasnachwr. Symudodd i Lundain, oddiyno i Stamford, sir Lincoln, i Lundain yn ol, ac yna i Fanchester, a hyn oll cyn ei fod yn ddeunaw oed. Yn y dref olaf yr ymsefydlodd am rai blynyddau, ar y cyntaf fel siopwr, yna fel gwneuthurwr peirianau at nyddu cotwm, a phan tuag ugain oed fel goruchwyliwr ar weithfa gotwm fawr, lle y telid iddo £300 yn y flwyddyn, yr hwn a godwyd i £500. Gadawodd y swydd hono, ac aeth yn gyfranog ag un neu ddau eraill i adeiladu melin iddo ei hun, a bu yn dra llwyddianus gyda'r anturiaeth hono; ac yn 1799, prynodd y cwmni hwn felinau cotwm Mr Dale, o Lanark, yn Scotland. Yn Medi, yr un flwyddyn, efe a briododd ferch Mr. Dale, ac efe ar y pryd yn werth tua £3,000. Gadawodd Fanchester yn fuan, er mwyn cymeryd gofal y melinau yn Lanark. Yno sefydlodd fath o gymundeb cymdeithasol, gan adeiladu pentref i'w weithwyr gerllaw y gwaith, a'u llywodraethu yn ol ei gynllun ef o lywodraeth, sef rhyw gymysgfa o weriniaeth a phatriarchiaeth. Aeth pobpeth yn ei flaen yn llwyddianus am rai blynyddau; ond pan y codwyd toll rhyfel yr Unol Daleithiau ar ei chotwm, ac yr ofnai y melinwyr yn y wlad hon ei brynu, gan ymadael â'u gweithwyr, darfu i Robert Owen ddewis cynllun gwahanol. Efe a gadwodd ei holl ddwylaw, yn cynwys tua 500 o deuluoedd, am tua phedwar mis o amser i wneud dim ond cadw y peirianau yn lân; a chostiodd hyn iddo ef a'i bartneriaid £7,000. Tua 1813, cyhoeddodd ei bamphledyn cyntaf, tan y teitl, "A New View of Society, or essays on the Principle of the Formation of the Human Character." Dygodd hwn ef i sylw archesgob Canterbury, Mr. Wilberforce, iarll Liverpool, a dysgedigion a phendefigion y deyrnas. Cymerodd ddyddordeb mawr a rhan flaenllaw yn y gyfraith a ddygwyd i weithrediad gan Syr Robert Peel. Holwyd ef gerbron pwyllgor seneddol amryw weithiau, a thynodd ar ei ben wg y melinwyr trwy y dull diymgel gyda pha un y dynoethai y creulondeb a'r camdriniaeth a ddyoddefai dwylaw y ffactri. Bu hefyd o fawr gynorthwy yn nygiad ymlaen amryw sefydliadau daionus, a diau pe buasai ganddo y callineb i gadw ei wendidau meddyliol, a'i opiniynau anffyddol, ychydig nes yn ol, yr ystyrasid ef yn mhlith diwygwyr moesol penaf ei wlad. Yn lle hyny, pan dywynodd haul poblogrwydd ychydig arno, torodd holl annghrediniaeth ei galon allan mewn blagur, nes oedd ei sawr yn bygwth gwenwyno cymdeithas o ben bwy gilydd. Ac wrth ddarllen ei hanes, yr ydym mewn pryder pa un a wnawn ai edmygu ei foeswersi, ynte galaru tros fychander organau ei ffydd. Yr oedd ei enwogrwydd fel dyngarwr yn fawr, ond yn marn ei gydgenedl yn oedd ei haerllugrwydd fel anffyddiwr ddigon o faint i'w lyncu ar un tamaid. Hyd ddiwedd ei oes, o'r flwyddyn 1817, pan y cyffesodd efe mewn cyfarfod cyhoeddus gerbron torf o amryw filoedd yn Llundain fod crefydd yn niweidiol i ddyn, ac yr ewyllysiai gael ei ferthyru tros y fath syniadau, collodd ei brif ddylanwad yn Mhrydain: ac edrychid arno fel dallbleidiwr hunanol, yn hytrach nag athronydd cymhenddoeth. Yn fuan ar ol hyny gadawodd Brydain, ac aeth i Ffrainc, lle y cafodd dderbyniad gwresog gan y tywysog Louis Phillip, Cuvier, Oberlin, Humboldt, a La Place. Efe oedd "llew" Paris am tua chwech wythnos; a chafodd dderbyniad llawn mor wresoced mewn parthau eraill o'r Cyfandir. Pan oedd y werin fel corph yn edrych arno naill ai â dirmyg ynte dosturi, ac ar

Digitized by Google

Lanark fel paradwys ffyliaid, ac yntau ei hun yn ben arnynt, ymddangosodd noddwr iddo yn mherson un o aelodau mwyaf urddasol y teulu brenhinol; sef y Duc Kent, tad ei mawrhydi Victoria. Ysgrifenodd ei uchelder 30 o lythyrau at R. Owen, cymerai ddyddordeb mawr yn y symudiad, a gweithredai fel cadeirydd y pwyllgor, ond bu farw yn lled ddisyfyd yn 1819, a chollodd Lanark ei phrif attegydd, a'r athronydd cymdeithasol ei brif ddysgybl yn Lloegr. Ond yr oedd llawer o fawrion y tir, trwy yr holl deyrnas, yn parhau i edrych arno fel oracl anffaeledig, ond pur anhawdd ei ddeall. Hyd 1822, yr oedd Iwerddon wedi bod mor ffodus a dianc rhag ei sylw; ond y pryd hwnw, dyma Owen yno, gan ymweled â phendefigion, archwilio bythynod y gweithwyr, ac yna cynal cyfarfod yn Nublin, er mwyn dweyd wrth y Gwyddel yn ei brif ddinas, pa fodd yr oedd yn bosibl adgenedlu ei wlad. Yr oedd New Lanark, mewn ystyr arianol, ac i raddau mewn ystyr gymdeithasol, wedi bod yn llwyddiant tu hwnt i ddisgwyliadau hyd yn nod Owen wynfydus ei hun; a phan oedd prinder a newyn yn gorddiwes rhanau eraill o'r wlad, yr oedd yno gyflawnder bob amser—er hyn, nid oedd pethau yn myned yn mlaen mor llyfn ag y dymunesid. Yr oedd ei bartners yn wyr crefyddol, wedi ymgymeryd â'r anturiaeth ar dir dyngarwch a chrefydd, ac un o reolau y bartneriaeth oedd nad oeddynt hwy i dderbyn oddiwrth y lle ond pum' punt y cant o log ar eu harian, a'r gweddill i gael eu defnyddio er gwellhau cyflwr y gweithiwr. Ond wrth weled Owen yn troi allan yn apostol anffyddiaeth, ac yn elyn proffesedig crefydd, dechreuasant ystyried ai nid oedd drwg mawr yn deilliaw o'u cysylltiad hwy â'r lle, a phenderfynodd rhai ohonynt y mynent hwy drefniadau o'r eiddynt eu hunain er dwyn y wladychfa yn mlaen. Ffromodd yntau wrthynt oblegyd eu hymyriad, a thorodd bob cysylltiad rhyngddo â'r lle yn 1829. Yn 1825, yr oedd efe wedi prynu 30,000 o aceri o dir yn Indiana ac Illinois, America, gyda'r bwriad o ffurfio gwladfa gymundebol yno hefyd; ac yn ystod ei ymweliad â Washington yn y flwyddyn hono, bu yn traddodi darlith gerbron Tŷ y Cynrychiolwyr, ac yn egluro ei gynlluniau. Ni bu y sefydliad hwn yn America mor ffodus a'i ragflaenydd yn Scotland. Yn ei hen ddyddiau, yr oedd ei organau crediniaeth wedi ymagor yn annghyffredin, ac yr ydym yn cael y dyn a wadasai'r Beibl o ben bwygilydd yn gredadyn diysgog mewn ysprydion, ac mewn tabyrddiadau ysprydol. Byddent yn talu ymweliadau mynych âg ef, yn sibrwd cyfrinachau am y byd anweledig yn ei glust, ac yn dwyn ger ei fron rai o'i gyfeillion ymadawedig. Yr oeddynt wedi ei eneinio ef yn gyfrwng i ddatguddio eu dirgelion i fyd truenus; yn brophwyd i'w argyhoeddi o'i gamgymeriadau, ac yn warcdwr i'w ddwyn allan o'r chaos yr oedd ynddo. Yn 1855, cyhoeddodd mewn llyfr pa fodd y daeth efe gyntaf i gydnabyddiaeth â'r byd ysprydol hwn, ond nid yw hwnw ond yr un peth drosodd a throsodd drachefn. Yr hen ddiareb, "Ni ddaw henaint ei hunan." Yn Nhachwedd, 1850, ac efe ar fin ei 80ain oed, dechreuodd gyhoeddi ei *Journal*, gyda'r amcan, meddai ef, o ddyfod â'r byd gwallgof i'w iawn bwyll. Gwnaeth ei ymddangosiad cyhoeddus olaf yn Liverpool, yn Hydref, 1858, pan y cymerodd ran yn un o gyfarfodydd y *Social Science Congress*. Bu farw Tachwedd 17, 1858, yn y Drefnewydd, yn 86 oed, a rhoddwyd ei esgyrn i orphwys gydag esgyrn ei dadau yn mynwent y dref hono. Er fod ganddo wibiadau meddwl rhyfedd, a'i fod yn annghredu yr hyn a gred dynolryw yn gyffredin, eto yr oedd ynddo lawer

Digitized by Google

iawn o ragoriaethau fel dyn, gwladwr, a meddyliwr. Y mae ei syniadau a'i gynlluniau politicaidd, a ystyrid yn ei amser ef gan fwyafrif yn wylltion a dinystriol, bellach yn cael eu pregethu ar benau'r tai, ac ni feiddiodd neb erioed anmheu ei argyhoeddiadau dyfnion a'i ddybenion dyngarol. Ei anffyddiaeth penagored ddyrysodd ei amcanion, ac a laddodd ei ddylanwad. Yn Ffrainc, lle yr edrych y mwyafrif ar ddyn fel anifail deallgar, rhoddesid Robert Owen i eistedd yn rhywle rhwng Mirabeau a Voltaire.—*Ei Fywgraffiad*, gan Sargant.

OWEN (WILLIAM), neu *Gwilym Dau*, Glan Hafren, ydoedd fab i Owen Williams, o'r Wern Dwn, Llangybi, Eifionydd; ac yr oedd ei fam yn chwaer i'r Parch. Edward Samuel, person Bettws Gwerfilgoch. Bu yn athraw ysgol mewn amrai leoedd yn Eifionydd, ac o'r diwedd yn y Drefnewydd, sir Drefaldwyn. Yr oedd yn fardd o gryn fri, ac yn gerddor gyda'r goreu yn ei oes. Cyhoeddodd lyfr o'r enw "Y Caniedydd Crefyddol." Ymddangosodd amryw o ddarnau cerddorol a gohebiaethau o'i waith ar ei hoff efrydiaeth yn *Seren Gomer*, *Y Gwladgarwr*, &c.—*Llyn MSS.*

OWEN (WILLIAM), *Philotheoros*, ydoedd fab i John ac Ann Owen, o Lanywern, yn mhlwyf Maenoronen, sir Benfro, lle y ganwyd ef yn 1789. Gan ei fod yn fachgen yn dangos hoffder at lyfrau, a'i fod wedi ei amddifadu o'i dad, cafodd sylw person y plwyf, sef yr enwog Barch. D. Jones, Llangan. Ymgymerodd yn ieuanc â'r gorchwyl o gadw ysgol, yn gyntaf yn Treopert, ac wedi hyny yn Nhreletterd, yn ei sir enedigol. Ymunodd â'r Bedyddwyr, ac arferai bregethu yn achlysurol, er na bu erioed yn meddu gofal gweinidogaethol. Treuliodd yr ugain mlynedd olaf o'i oes yn Aberteifi, yn cadw ysgol, ac yn ysgrifenydd masnachol. Ysgrifenodd lawer i'r "Seren Gomer," o dan yr enw mabwysiadol uchod. Cyfansoddodd a chyhoeddwyd Almanaciau o'i eiddo, o dan yr enw, "Cymro o Aberteifi." Bu farw Tachwedd 15, 1841, yn 52 oed.—*Seren Gomer*, 1843.

OWEN (WILLIAM), ydoedd frodor o Gaernarfon. Yr oedd yn proffesu y grefydd Babaidd; wedi teithio llawer ar wledydd tramor; ac ystyrid ef yn hynafiaethydd nodedig. Cyhoeddwyd o'i waith, "Hanes dechreuad Cenedl y Cymry;" 2, "Hanes Owain Glyndwr," 1833; 3, "Hanes y Methyron Catholicaidd yn Mhrydain." Bu yn cydbererinio llawer hyd wyneb daear gyda Dic Aberdaron, ac yr oeddynt yn ddau gydymaith rhyfedd—yn hynodrwydd o goryn i sawdl.

OWEN (WILLIAM), cyfreithiwr enwog, ydoedd drydydd mab Owen Owen, o Gefn Hafod, sir Drefaldwyn. Ei fam ydoedd ferch i Charles Davies, o'r Llifiwr, plwyf Aberiew, ger y Drefnewydd, yn yr un sir. Addysgwyd ef yn ysgol ramadegol Warrington, o tan ofal ei ewythr frawd ei dad, y Parch. Edward Owen, M.A. Yn 1782, cymerodd y radd o B.A. yn ngholeg y Drindod, Caergrawnt, a dewiswyd ef wedi hyny yn gymrawd o'r coleg hwnw. Yna ymaelododd i efrydu y gyfra th yn Lincoln's Inn, a graddiodd fel dadleuydd. Wedi bod yn dilyn llysoedd barn Rhydychain a Chaerlleon am rai blynyddau, efe a gyfyngodd ei hun yn benaf i lysoedd y Canghellys a'r Trysorlys. Gweithredodd hefyd fel dirprwywr yn Llys Methdaliad hyd oni ddewiswyd ef yn gynghorwr breiniol. Tua 1821, rhoes y gyfraith heibio, ac ymneilldduodd i'w wlad enedigol, lle y gweithredodd fel ynad heddwch, clerc ringyll, a chymeryd cryn law mewn pob symudiad cyhoeddus ac ... cadeirydd y sesiynau chwarterol, &c. Bu yn brif offeryn i ... yr hen ddull o gynal y sesiynau Cymreig, trwy ei dystiolaeth ar y ...

Digitized by Google

gerbron pwyllgor Ty y Cyffredin yn 1817 ac 1820; ac er fod cryn lawer o wrthwynebiad i'r cyfnewidiad ar y cyntaf, llwyddodd Mr. Owen i droi y lliceniant o'i ochr. Safodd yn erbyn y cynygiad gwreiddiol a wnaed yn y Diwygiad Seneddol o roddi cynrychiolaeth bwrdeisdref Maidwyn i Lanfyllin yn unig, a thrwy hyny breintiwyd Llanidloes, y Trallwm, &c.—*Lleyn MSS.*

OWEN (WILLIAM), cyfreithiwr dysgedig, ydoedd frodor o sir Benfro, ac yn hanu o deulu hynafol ac anrhydeddus. Yr oedd yn berthynas agos i'r dysgedig Syr Thomas Eliot, ac yn cydystafella yn y Temple gyda Syr Thomas Fitzherbert, an o farnwyr llys y *Common Pleas.* Yr oedd William Owen yn awdwr crynodeb o gyfreithiau Lloegr, yr hwn a gyhoeddwyd tan y teitl Lladinaidd, "Abreuimentum Statutorum," 1499. Cyhoeddwyd argraffiad diwygiedig o'r un llyfr ganddo yn 1528. Dywed George Owen, hanesydd sir Benfro, am dano:—"Ysgrifenodd hefyd lyfrau eraill, ac er iddo efrydu yn galed yn ei ieuenctyd, a llafurio a theithio ei holl amser, eto cafodd fyw i'r fath oedran aeddfed, fel ag i weled disgynydd yn y pumed cenedlaeth o'i dad bedydd; yr oedd yn bresenol yn nghoroniad triarddeg o freninoedd a breninesau Lloegr, a bu yn ddeiliad i bedwar-ar-ddeg. Gwelodd hefyd wyth esgob yn Nhyddewi; ac ni bu yn wael ond unwaith ar hyd ei oes, ac ni chollodd yr un dant hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Mawrth 29, 1574.—*Cambrian Register* ii. 208.

PABO POST PRYDAIN, milwr enwog yn y cynoesodd. Yr oedd yn deilliaw o'r Brythoniaid Gogleddol, ac ymenwogodd yn fawr wrth ymladd tros ei wlad yn erbyn y Gwyddyl Ffichti; eithr gorfu arno o'r diwedd ffoi, a dianc am nodded i Gymru. Achleswyd ef gan Cyngen ab Cadell Deyrnllwg, brenin Powys, a chafodd gan y teyrn hwnw, a chan ei fab Brochwel Ysgythrog, roddion o diroedd. Efe a briododd Gwenaseth, merch Rufon Rhufoniog. Yna ymarweddodd fywyd crefyddol, a rhestrid ef yn mhlith saint yr eglwys Brydeinig. Sefydlodd eglwys Llanbabo, yn Mon; ac yn ystod teyrnasiad Siarl II., cafwyd hyd i gareg yn mynwent y plwyf hwnw, a'r toriad canlynol arni, "Hic Jacet Pabo Post Prud Corpor...te.....prima." Ceir cyf-lun ohoni yn y *Mona Antiqua*, o waith Rowlands. Cedwid gwylmabsant Pabo Tach. 1. Mab ydoedd i Arthwys ab Mor ab Morfydd ab Ceneu ab Coel Codebog.—*Iolo MSS.*

PADARN, sant enwog, a ddaeth drosodd o Lydaw i Brydain, gyda'i gefnder Cadfan, yn ol Usher, yn 516. Mab ydoedd i Bedrwn, neu Bedredin, ab Emyr Llydaw. Dywedir yn *Achau y Saint*, ddarfod iddo ymaelodi yn nholeg Illtyd, yr hwn hefyd oedd yn gefnder iddo, ac yn esgob y lle hwnw. Yna efe a sefydlodd grefydd-dŷ ei hunan, ac iddo chwech ugain o aelodau, mewn lle a elwir oddiar hyny, Llanbadarn Fawr, yn Ngheredigion. Sefydlodd hefyd gadair esgobaidd yn y lle, ac efe a'i llanwodd gyntaf. Gelwir ef yn archesgob Llanbadarn mewn rhai hen ysgrifau. Efe a sefydlodd eglwysi Llanbadarn Tref-eglwys, neu Lanbadarn Fach, a Llanbadarn Odyn, yn Ngheredigion; a Llanbadarn Fawr, Llanbadarn Fynydd, a Llanbadarn y Gareg, yn sir Faesyfed: ac oddiwrth y Llanau hyn, gellir casglu maint ei esgobaeth i'r dehcu, lle y terfynid hi gan esgobaeth Tyddewi. Y mae yn anhawdd gwybod pa mor bell yr ymestynai i'r gogledd, er y tebygir ei bod yn cynwys cryn lawer o sir Drefaldwyn. Ni wyddis pa hyd y parhaodd Llanbadarn yn dref esgob, y crybwylliad olaf sydd am dani fel y cytryw a geir yn y *Brutiau Cymreig*, pan y dywedir fod y Saeson yn

Digitized by Google

720 wedi anrheithio tair esgobaeth y Deheubarth, sef Llandaf, Mynwy, a Llanbadarn. Dywed traddodiad iddi golli ei breiniau trwy wrthnysigrwydd ei thrigolion, y rhai a laddasant eu hesgob; ac o'r herwydd llyncwyd hi gan esgobaeth Tyddewi. Rhestrir ef yn y *Trioedd*, gyda Dewi a Theilo, tan y penawd, "Tri gwynwyddedig Ynys Prydain; sef eu gelwid felly am ydd elynt ynwesteion i da ibonedd, a gwreng, a brodor, ac aillt, heb gymeryd na rhodd na gobr, na bwyd na llynn, eithr dysgu'r ffydd yn Nghrist a wnaent i bawb heb na thâl na diolch, eithr i dlawd ac angenus y rhoddynt roddion o'u haur, a'u harian, a'u gwisgoedd, a'u bwydydd." Y mae yn anhawdd tynu darlun rhagorach o genadon ymroddedig i waith mawr yr Efengyl. Dywed Johannes Sulgenus yn ei *Latin Hexameters* fod Padarn ddysgedig wedi gweithredu fel esgob am 21 o flynyddau. Tystia John o Teignmouth ddarfod iddo adeiladu mynachlogydd ac eglwysi trwy holl derfynau Ceretica *(Ceredigion)*; ac iddo geryddu Maelgwn Gwynedd, oblegyd rhyw niwaid a dderbyniasai oddiar ei law yn ystod ymdeithiau rhyfelgar y tywysog hwnw i'r Deheubarth. Yn nesaf, cawn ef yn dychwelyd i wlad ei enedigaeth, lle y gwnaed eu cysegru i'w goffadwaiaeth; ond gan yr awdurdodau Cymreig ni chofnodir ond dau, sef Ebrill 16, a Tachwedd 12. Coffheir un o'i ddywediadau yn *Chwedlau y Doethion*, sef "A wnel dyn, Duw a'i barn."—Rees' *Welsh Saints; Iolo MSS; Myv. Arch.*

PADARN BEISRUDD, ydoedd un o bersonau chwedl a rhamant hen hanesiaeth Gymreig. Mab ydoedd i Tegid ab Iago. Yr oedd Pais Padarn Beisrudd yn un o Dri Thlws ar ddeg Ynys Prydain:—"os gwisgai wr boneddig, cymmesur a fyddai iddo; ac os gwrengwr, nid ai am dano."

PADRIG, sant yn y 7fed cant. Mab ydoedd i Alfryd ab Goronwy ab Gwydion ab Don, o Waredog, yn Arfon. Yr oedd yn cydoesi âg Elfod Sant, ac yn aelod o goleg Cybi, yn Mon. Sefydlodd Llanbadrig, yn yr ynys hono.

PADRIG AB MAWON, apostol hyglodus Iwerddon, yn ol yr hen goflyfrau, a anwyd yn nhir Gwyr, Morganwg. Gelwir ef hefyd Padrig Maengwyn. Tua 420, yr oedd crwydriaid a môrladron Gwyddelig yn gwneud ymgyrchiadau sydyn ac yspeilgar ar ororau Cymru, ac yn dwyn ymaith trwy drais bob peth a fyddai o rhyw ddefnydd iddynt; a darfu i blaid o'r giwaid felyngoch hyn ymosod ar, a dinystrio coleg Theodorius, yn Caerworgon *(Lantwit Major)*, a Padrig, yr hwn oedd ddysgawdwr y Ffydd yn Nghrist yno ar y pryd, a gymerasant ymaith trwy drais. Dygasant ef i'r Iwerddon, lle yr ymroddodd efe yn ddiymaros i ledaenu Cristionogaeth yn mysg y brodorion, sef y Gwyddelod a'r Llochlyniaid, a bu llwyddiant mawr ar ei waith, a llawer a ddychwelwyd i'r ffydd. Ni ddychwelodd ef mwyach i Gymru —*Achau y Saint.* Y mae traddodiadau eraill yn ei gysylltu â Chymru. Dywedir gan Ricemarchus, Giraldus, Cambrensis, a John o Teignmouth, ei fod wedi gwladychu am yspaid yn Mynyw *(Menevia)*, mewn lle a elwid Vallis Rosina, lle yr adeiladodd fynachlog, ac y bwriadai dreulio gweddill ei

Digitized by Google

oes fel rhyw feudwy crefyddol. Eithr angel a ymddangosodd iddo, gan ei orchymyn i fyned a phregethu yr Efengyl yn yr Iwerddon, ac a ddangosodd iddo mewn gweledigaeth o'r man y safai yr holl wlad hono o ben bwygilydd. Dywed John o Teignmouth y safai capel unwaith gerllaw y fan y gwelodd efe yr angel, sef capel Padrig, yn mhlwyf Tyddewi, sir Benfro; a bod eglwys wedi ei chyflwyno iddo yn Aberllychwr, nid nepell o'r man ei ganwyd.—*Iolo MSS*; Rees' *Welsh Saints.*

P. A. MON, ysgrifenydd llithrig a medrus, a bardd celfyddgar. Ei enw priodol ydoedd Benjamin Jones. Ganwyd ef yn 1718. Cafodd addysg dda, ac oddiwrth rai gohebiaethau o'i eiddo, gwelir iddo dreulio rhan o'i ieuenctyd yn Manchester, ond Caergybi oedd ei gartref, ac yno y treuliodd ei oes. Yr oedd yn Fedyddiwr selog, ac yn ddadleuwr cadarn tros eu hegwyddorion. Cyhoeddodd lyfr o amddiffyniad iddynt, pan yr ymosodwyd arnynt gan Brutus. Yr oedd yn un o "blant ffyddlonaf Gomer," fel yr arferai y gwladgarol Joseph Harris alw gohebwyr cysonaf *Seren Gomer*. Gadawodd lawer o ysgrifau hefyd ar ei ol heb eu hargraffu, a bwriadai ei feibion ddwyn allan gyfrol o'i waith, ond fel llawer o gynyrchion ymenyddiau Cymreig, y maent yn gorwedd hyd yn Lyn yn ymborth gwyfyn, llwch, a llygod. Bu farw Chwefror 19, 1841, yn Nhrefdaniel, ger Caergybi, Mon, yn 53 oed.

PANTON (PAUL), Ysw., o'r Plasgwyn, Mon, boneddwr enwog ar gyfrif ei gydnabyddiaeth â hynafiaeth a hanesiaeth ei wlad, a'r nodded a'r achles a roddes efe i'r sawl oeddynt o gyffelyb chwaeth. Ffurfiodd gasgliad gwerthfawr o ben law ysgrifau Cymreig, a chynorthwyid ef yn y gwaith hwnw gan Dafydd Ddu Eryri, yr hwn a fu ar ei wahoddiad yn cadw ysgol yn Mhentraeth, Mon. Mr. Panton a brynodd gasgliad anmhrisiadwy Ieuan Brydydd Hir, yn cynwys agos i gan' cyfrol. Y cytundeb ydoedd fod y bardd i gael £20 yn y flwyddyn tra y byddai byw, gan y boneddwr, yr hwn amod a lanwyd yn anrhydeddus, ac a fu yn foddion i loni blwyddau olaf y prydydd trallodus. Bu Mr. Panton farw yn 1797, yn 67 oed. Y mae yr ysgrifau crybwylledig yn aros yn meddiant ei etifedd, gerllaw Caergybi, ac yn llwydo mewn cistiau, na cha yr un Cymro na hanesydd gymaint a golwg arnynt; ac yn ol pob tebyg, yn y cyflwr diles hwn yr arosant hyd oni ddifethir hwynt gan dân neu rhyw ddamwain gyffylyb.

PARRY (PARCH. ELIAS), a anwyd yn ardal Maentwrog, sir Feirionydd. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn ngholeg yr arglwyddes Huntingdon, Cheshunt. Ymsefydlodd fel gweinidog yn Cheltenham, ac wedi hyny yn Spa Fields, Llundain, lle y bu yn gweinidogaethu i gynulleidfa fawr am lawer o flynyddau.—*Lleyn MSS.*

PARRY (JOHN HUMPHREYS), hynafieithydd dysgedig, a chyfansoddwr coeth. Ganwyd ef yn y Wyddgrug, sir Fflint, yn 1787 Yr oedd ei dad yn gurad y dref hono, ac yn cadw ysgol i foneddigion ieuainc; ac ychydig flynyddau cyn diwedd ei oes, cafodd berigloriaeth plwyf cyfnesol Llanferres, eithr ni symudodd yno i fyw. Wedi i J. H. Parry gael addysg athrofaol, cafodd ei dderbyn i'r *Temple* yn 1807; ac yn 1810, galwyd ef at y bâr. Nid hir y bu cyn enill enw uchel fel bargyfreithiwr medrus. Yn 1820, cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf tan ei olygiaeth o'r "Cambro Briton," cyhoeddiad cyfnodol yn cynwys llawer o wybodaeth werthfawr am Gymru, Cymro, a Chymraeg, a nodiadau galluog gan y golygydd. Daeth tair cyfrol allan o'r gwaith hwn, ac ystyrir hwynt yn safon ar y pynciau yr ymdrinant â hwynt. Ei lyfr nesaf ydoedd y "Cambrian Plutarch," yr hwn a gynwys fywgraffiadau

Digitized by Google

campus o bedwar ar hugain o Enwogion Cymreig hen a diweddar. Enillodd y gamp gyda'i draethodau mewn amryw gystadleuon; penodwyd ef yn olygydd y *Cymrodorion Transactions*, a daeth y gyfrol gyntaf o'r gwaith dyddorol hwnw allan tan ei olygiaeth. Cafodd l.enyddiaeth ei wlad golled drom yn ei farwolaeth ddisyfyd, yr hyn a gymerodd le yn Llundain, Chwefror 7, 1825; a'r hyn sydd yn gwneud yr amgylchiad yn fwy galarus yw, mai trwy ddwylaw llofruddiog y cymerwyd ymaith ei hoedl. Torwyd ef ymaith yn mlodeu ei ddyddiau, ac yn nghanol ei ddefnyddioldeb; a gadawodd weddw (merch i John Thomas Ysw., o Lanfyllin), a phump o blant, yr hynaf o ba rai a gododd yn un o far-gyfreithwyr enwocaf yr oes hon, sef *Serjeant* Parry. Brawd i J. H. Parry ydyw y Dr. Thomas Parry, esgob presenol y Barbadoes.

PARRY (GRIFFITH), ydoedd o Rydolion, yn mhlwyf Llangian, yn Lleyn, sir Gaernarfon. Efe a briododd ferch i John Wynn, o'r Wernfawr, yn Lleyn: ac felly y mae yr enw Parry yn dyfod i deulu Madryn. Yr oedd Griffith Parry yn swyddog yn myddin Cromwell, ac y mae yn debyg ei fod, fel llawer o filwyr y gwr hwnw, yn tori allan i bregethu; canys yr oedd gynt areithfa yn sefyll yn Rhydolion, a elwid "Pwlpud Griffith Parry."—*Lleyn MSS.*

PARRY (JOHN), *Bardd Alaw*, cerddor enwog, ac awdwr lluaws mawr o alawon poblogaidd, a anwyd yn nhref Dinbych, Chwefror 18, 1776. Dadblygodd ei anianawd gerddorol gyntaf trwy wneud ffeiff o foron y dwfr, a dysgodd chwareu arni holl alawon poblogaidd y dydd. Darfu i ddawns-feistr yn y gymydogaeth ddysgu iddo nodau cerddoriaeth, a'i gyfarwyddo gyda'r *clarionet*, fel y gallai gyda hi gymeryd y cyfalaw hefo'r cantorion yn eglwys y plwyf. Pan gorpholwyd cartreflu sir Ddinbych yn 1793, efe a ymunodd â'r seindorf; a'r fath oedd ei gynydd, fel y dewiswyd ef yn feistr y cyfryw yn mhen pedair blynedd. Gadawodd y cartreflu yn 1807, a'r pryd hwnw gallai chwareu pob math o wynt-offeryn, ac heblaw hyny, yr oedd yn fedrus iawn gyda'r delyn, y berdoneg, a'r crwth; ond rhagorai gyda'r *flageolet* a'r *clarionet*. Mewn cyngherdd a gynaliwyd yn Rochester, chwareuodd dri *flageolet* ar unwaith; ac mewn cyfarfod cyffelyb er budd Mrs. T. Dibdin, cyflawnodd yr un orchest yn Covent Garden, Llundain. Sefydlodd yn Llundain yn 1807, a chan fod y *flageolet* ddwbl mewn cryn fri y pryd hwnw, yr oedd iddo alwadau parhaus i roddi gwersi arni. Wedi trigianu rai blynyddau yn y Brif-ddinas, efe a ysgrifenai at gyfaill, "Pan y daethum gyntaf i Lundain, yr oedd genyf bron bobpeth i'w ddysgu; gan hyny, ymroddais i efrydu, fel y gallwn droi fy ngwaith allan heb arno lawer o wallau anafus. Cyfyngais fy efrydiau i gerddoriaeth leisiol, cerddi yn benaf, a darnau syml ar gyfer y delyn a'r berdoneg, hefyd deuawdiau at wasanaeth pibgyrn a gwynt-offerynau eraill, ac ni cheisiais erioed ehedfan uwchlaw fy nghylch; gan wybod yn dda fod cerddorion lawer yn rhodfeydd uwchaf y gelfyddyd, annrhaethol galluocach na mi i gynyrchu cyfansoddiadau uwchraddol. Yr wyf yn deall anianawd pob offeryn a ddefnyddir ar esgynlawr cyngherdd; ac o ganlyniad, anfynych y rhaid adganu fy nghyfansoddiadau fwy nag unwaith. Gallaf gynghaneddu gyda rhwyddineb, ac yr wyf yn hyderu gyda chywirdeb; yr wyf yn adnabod nerth y gwahanol offerynau, a byddaf yn ceisio gwybod gallu a medrusrwydd y gwahanol chwareuwyr, ac yna yn cyfansoddi ar eu cyfer. Yr wyf yn cerdded llwybr bywyd yn heddychol, ac yn gyfeillgar gyda'm brodyr cerddorol, heb ymyraeth â neb, ac heb elyniaeth un dyn byw." Yn 1809, cyhoeddodd rai caneuon a darnau

Digitized by Google

eraill: ac yn ystod yr un flwyddyn gofynwyd iddo gyfansoddi ar gyfer y *Vauxhall Gardens*, cerddoriaeth yr hwn le a fu tan ei ofal am lawèr o flynyddau. Cyhoeddodd yn nesaf gasgliad o Alawon Cymreig, am yr hyn y cafodd efe dlws arian gan y *Cambrian Society;* ac yn mhen llawer o flynyddau ar ol hyn, ymddangosodd ei ddwy gyfrol godidog o Hen Alawon Prydeinig, a'r gelriau asnynt o waith y farddones ddiguro Mrs. Hemans, yr hon a drigianai yn Llanelwy ar y pryd. Rhwng 1813 ac 1828, cyfansoddodd amryw ganeuon ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus, a dau chwareuawd meistrolgar cerddorol, o'r enw "Fair Cheating," a "High Notions," geiriau a cherddoriaeth pa rai ydynt o'i waith ef ei hun. Efe oedd arweinydd Eisteddfod Gwrecsam, yr hon a gynaliwyd yn 1820; urddwyd ef yno yn bencerdd, a dodwyd arno yr enw *Bardd Alaw.* Yn ystod yr un flwyddyn, cynyrchodd un o'i ddarnau mwyaf llwyddianus, sef ei chwareuawd cerddorol, "Two Wives, or a hint to husbands;" yr hwn a chwareuwyd am bum' noson ar hugain yn olynol. Efe oedd arweinydd Eisteddfodau Aberhonddu, yn 1822 ac 1826; Dinbych, yn 1828; Beaumaris, yn 1832; a Chaerdydd, yn 1834; ac yr oedd cyngherddau a chyfarfodydd cyndeithasau Cymreig Llundain bob amser tan ei arolygiaeth. Efe oedd cofrestrydd cerddorol y *Royal Cambrian Institution.* Heblaw y gweithoedd crybwylledig, cyfansoddodd ddarnau o luaws o *operas* Seisnig; cymhwysodd yr holl gerddoriaeth yn opera Ivanhoe, fel y dangosid hi yn chwareudy Covent Garden; a gwnaeth ganeuon, deuawdiau, &c., i gantorion enwocaf yr oes. Ac eithrio ei ddarnau chwareuyddol, dywedir fod rhif ei weithiau tros dri chant, a'u bod yn cynwys bron bob arddull o beroriaeth. Ei gyhoeddiadau mwyaf poblogaidd ydynt y ddwy gyfrol o Alawon Cymreig, gyda geiriau Mrs. Hemans; dwy gyfrol o Alawon Ysgotaidd; dwy gyfrol o *catches* a *glees;* dwy gyfrol o alawon telynegol i'r pibgyrn; a dwy gyfrol i'r crwth, o'r enw "Corydon," a "Sapphonia." Yn mhlith ei ganeuon mwyaf poblogaidd, y mae y rhai a ganlyn:—The Peasant Boy, The Minstrel Boy, Ap Shenkin, Love's a Tyrant, Sweet Home, The voice of her I love, Take a Bumper and try, Smile again my bonny Lassie, &c., &c. Cyfansoddodd hefyd amryw ddarnau cerddorol i'r delyn; alawon poblogaidd, gwersi, ac ymarferion i'r berdoneg; peroriaeth i'r *flageolet* sengl a dwbl; amryw gyfrolau o gerddoriaeth filwrol; gwerslyfrau i wahanol offerynau; a'r *Eolian Harmonies,* yn cynwys detholion o weithiau awdwyr enwog wedi eu cyfaddasu at wahanol wynt-offerynau. Bu am lawer o flynyddoedd yn ysgrifenydd y *Melodists' Club.* Cynorthwyodd gyfarwyddwyr breiniol a phendefigaidd yr *Ancient Concerts,* o flwyddyn i flwyddyn. Efe oedd ysgrifenydd cynorthwyol mygedol yr Uchelwyl Freiniol Gerddorol, a gynaliwyd yn Wesminster Abbey, yn 1834. Yr oedd ei elusengarwch lawn cyn enwoced â'i alluoedd cerddorol; ac ni byddai byth gyngherdd er budd cerddor, neu deulu cerddor, mewn cyfyngder, heb law a chydweithrediad egniol y Cymro calongynes hwn. Yr oedd yn anwylun cyffredinol holl gylchoedd cerddorol Llundain, o'r teyrn a ymdriniai â chanu er mwyn pleser, hyd y tylottaf o'i frodyr yn y gelfyddyd. Bu farw yn Llundain, Ebrill 8, 1851. Allan o deulu lluosog, ni oroeswyd ef ond gan un mab, sef yr enwog John Parry presenol, yr hwn a sefydlodd ddull newydd a choeth o ddigrif-ganu; unir ynddo alluoedd penigamp gyda'r berdoneg, â llais swynol, a dynwarediad hapus, fel nad oes odid gerddor mor boblogaidd âg ef yn ymddangos ar esgynloriau yr oes hon. Y mae er's rhai blynyddau bellach wedi ymuno i

Digitized by Google

gynal ei gyngherddau gyda Mr. a Mrs. German Reed.

PARRY (JOHN), awdwr "Myfyrdod mewn Mynwent," ydoedd frodor o Lanelian, sir Ddinbych, ac yno y treuliodd ei oes, gan gadw siop fechan. Cyfansoddodd amryw fân ganeuon moesol eraill, ond y gân grybwylledig ydyw ei brif-gamp; y mae wedi ei gwisgo mewn iaith lithrig, ond cynwysa lawer o syniadau cyfystyr â gwaith Hervey a Gray. Bu farw tua dechreu y ganrif bresenol yn mro ei enedigaeth.

PARRY (JOHN), ydoedd frodor o Gorwen, Meirion, ac a ystyrid yn fardd lled wych yn ei oes. Yr oedd yn cymeryd rhan yn Eisteddfod fechan Llansantffraid Glyn Ceiriog yn 1743. Yr oedd yn gyfaill mawr i Edward Samuel, cyfieithydd *Hanes y Efydd*, yr hwn a fu yn offeiriad plwyf cyfnesol Bettws Gwerfil Goch. Bu yn rhanog â Matthew Owen, o Langar, mewn cyfansoddi ac actio interliwt, ond dywedir nad oes nemawr o dalent yn cael ei ddangos yn hono gan un o'r ddau.—*Lleyn MSS.*

PARRY, (JOHN), y telynor dall enwog o Riwabon, sir Ddinbych. Efe oedd y cyntaf yn mhlith ei gyd-delynwyr a chwareuodd *concerto* ar y delyn deir-res. Efe oedd telynor y cyntaf a'r ail Syr Watkin Williams Wynn; ac yn rhanog â thelynor arall, o'r enw Evan Williams, cyhoeddodd gyfrol o Alawon Cymreig, yr hwn sydd bellach yn brin iawn ac anhawdd ei gael. Bu farw yn Rhiwabon, yn 1782.

PARRY (SYR LOVE PARRY JONES), ydoedd fab i Thomas Jones Parry, o Fadryn, yn sir Gaernarfon, ac a aeth i'r fyddin yn ieuanc. Cyrhaeddodd y radd o raglaw-gadfridog *(adjutant-general)*. Gwasanaethodd yn America, a bu yn awdurdodi yn Quebec, a saethwyd ei geffyl tano yn Lunay's Lane. Yn 1806, ac 1807, eisteddodd yn y Senedd tros Horsham; ac o 1835 hyd 1837, tros fwrdeisdrefi Arfon. Yr oedd yn ynad heddwch ac is-raglaw tros sir Gaernarfon, a gwasanaethodd tros amryw flynyddau fel cadeirydd y chwarter-sesiwn. Yn 1840, efe ydoedd uchel-sirydd Mon. Ei gymeriad personol oedd, "Cyfaill y dyn tlawd." Bu farw Ionawr 23, 1843, yn 71 oed.—*Lleyn MSS.*

PARRY (RICHARD), D.D., esgob Llanelwy. Ganwyd y prelad gwladgarol ac enwog hwn yn mhlwyf Rhuthyn, sir Ddinbych, yn 1560. Mab ac etifedd ydoedd i John Parry, Ysw., Pwllcallod. Bu am yspaid tan addysg y dysgedig Camden, yn ysgol Westminster; ac oddiyno yn 1579, etholwyd ef yn efrydydd yn ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain. Bernir iddo fod am rhyw yspaid yn is-athraw ysgol ramadegol enwog ei dref enedigol. Yn 1592, gwnaed ef yn ganghellydd yn mhrif-eglwys Bangor; y flwyddyn ganlynol, cafodd ficeriaeth Gresford, sir Ddinbych; yn 1599, penodwyd ef yn ddeon Bangor, ac efe wedi derbyn ei radd o D.D. y flwyddyn flaenorol. Pan esgynodd Iago I. i orsedd Lloegr, dyrchafodd Parry, am yr hwn y coleddai bob amser y syniadau uwchaf, i fod yn esgob Llanelwy, a chysegrwyd ef i'r swydd uchel hono Rhagfyr 30, 1604. Bydd enw Esgob Parry yn anwyl byth gan ei gydgenedl am y llafur cariad gyda pha un yr ymgymerodd â'r gwaith bendithfawr, ar ei gyfrif a'i draul ei hun, o ddwyn allan argraffiad diwygiedig o'r Beibl Cymraeg. Yr oedd Salisbury, Dr. Morgan, ac eraill, wedi gwneud gorchestion trwy eu llafur yn cyfieithu yr Ysgrythyrau i Gymraeg ansathredig; ond yr oedd yn eu gwaith hwy lawer o eiriau ac ymadroddion nad allai y Cymro cyffredin eu deall. Darfu i'r esgob Parry aralleirio y brawddegau clasurol hyn, a dwyn y cyfieithiad, megys o haner y ffordd, i lawn feddiant dealltwriaeth ei gydwladwyr. Hwn ydyw y cyfieithiad awdurdodedig o'r Beibl sydd genym

Digitized by Google

mewn arferiad yn awr. Argraffwyd ef yn Llundain gan Norton a Bell, ac y mae y copi ohono a gyflwynwyd yn anrheg i'r brenin, yn nghadw yn yr Amgueddfa Brydeinig. Y mae yn blygiad mawr, wedi ei argraffu â llythyrenau duon, a chyfeiriadau Beibl Seisnig y brenin Iago ar ymyl y dail, ac yn argraffiad hardd. Rhydd y cyfeithydd parchedig hanes ei ymgymeriad â'r gwaith, a dywed mai ei reswm ydoedd ystyriaeth o angenion ysprydol ei wlad enedigol, ac awydd i wneud a allai er llenwi y diffyg hwnw. Bu yr Esgob Parry farw yn y tŷ oedd ganddo fel archddiacon, yn Dyserth, sir Fflint, Medi 26, 1623, a chladdwyd ef yn ei brifeglwys, heb gymaint a chofnod i ddynodi y fan. Gadawodd chwe' phunt yn y flwyddyn tuag at gynaliaeth unrhyw ysgolor tylawd yn ngholeg Iesu, Rhydychain, genedigol yn nhref Rhuthyn, neu o fewn esgobaeth Llanelwy.

PARRY (Richard), bardd o Ddyserth, sir Fflint. Ganwyd ef yn 1665. Y mae amryw ddarnau o'i waith yn y *Blodeugerdd*. Efe oedd awdwr llawer o'r *Cydymaith Dyddan*, a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan Dafydd Jones, o Drefriw. Y mae ar gael o'i waith gerdd rigymol o'r enw "Dihuniad Cysgadur, sef y Bardd Cwsg, yr ail ran," yr hon a argraffwyd gan Durston yn y Mwythig, heb amseriad. Bu farw yn 1749, yn 83 oed, a chladdwyd ef wrth gongl ogleddol eglwys Dyserth. —*Lleyn MSS.*

PARRY (Richard), oedd glochydd ac ysgolfeistr yn Niwbwrch, Mon, yn nghylch 1733. Yr oedd yn fardd gwych, ac y mae cywydd "Araeth Wgan" o'i waith yn y *Brython* 1863, 324. Y mae ei holl waith barddonol mewn llawysgrif yn llyfrgell y Plasgwyn. Yr oedd yn aelod o Gymdeithas y Gwyneddigion, Llundain. Claddwyd ef yn mynwent Llanerchymedd, ac y mae cofnod ar ei fedd.—*Adolygydd* 1850, 200.

PARRY (Robert), bardd awenyddol. Ganwyd ef yn nghymydogaeth Machynlleth. Eithr pan nad oedd efe ond ieuanc, symudodd ei rieni i Eglwysfach, sir Ddinbych, lle y gweinyddai ei dad fel offeiriad y plwyf hwnw. Cafodd yntau addysg athrofaol, er ei gyfaddasu at yr offeiriadaeth; ond er iddo fyned trwy yr arholiadau yn anrhydeddus, dewisodd yn hytrach fywyd ffermwr i'r eiddo offeiriad. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes fel amaethwr cyfrifol yn Mhlas Efenuchtud, a Phlas Towerbridge, ger Rhuthyn; ac yn y lle olaf y bu farw yn 1853, Claddwyd ef yn Eglwysfach. Efe oedd yr ail oreu ar destyn y gadair yn Eisteddfod Dinbych, yn 1828, pan enillodd Ieuan G. Geirionydd, ac y mae llawer darn o'i waith i'w gweled ar hyd yr hen gylchgronau Cymreig. Yr oedd yn wyddfodol yn Eisteddfod gyntaf Dinbych, pan gadeiriwyd y "Dryw," ac yn y dirgelion. Clywsom ei fod yn dywedyd na ddarllenodd Bardd Nantglyn mo awdl Dewi Wyn o gwbl, a'i esgus tros hyny ydoedd fod y llawysgrif yn rhy ddrwg. Er y byddai yn cyfansoddi ambell bill damwain tua diwedd ei oes, yr oedd wedi encilio o gylch Ceridwen Wrach er's llawer o flynyddau; ac adwaenid ef yn mhlith ei gymydogion fel dyn tawel, cymwynasgar, a rhinweddol.

PARRY (Syr Thomas), ydoedd fab i Harri Vaughan, ac wyr i Syr Thomas Vaughan, o deulu y Tretwr, yn sir Frycheiniog; ond a gymerodd Parry yn gyfenw yn lle Vaughan. Efe a ddaeth yn oruchwylydd y tŷ, a meistr y ddilladfa, i'r frenhines Elizabeth. Efe a briododd Ann, ferch i Syr Wm. Rudd, o Borestall, yn sir Buckingham; a'u mab hwy oedd Syr Thomas Parry, Canghellydd y Trysorlys yn 1607.—*Lleyn MSS.*

Digitized by Google

PARRY (WILLIAM), LL.D., cymeriad nodedig yn amser y frenines Elizabeth, a anwyd yn Llaneurgain, sir Fflint. Efe a ddywed am dano ei hun, mewn llythyr at arglwydd Burleigh, ei fod yn fab i foneddwr o deulu anrhydeddus, i'r hwn y buasai dwy wraig a deuddeg ar hugain o blant, ac a fu farw yn 108 oed, ac mai ei fam ef ydoedd ferch i Conwy, o Bodryddan. Eithr mewn bywgraffiad a ysgrifenwyd gan ei elynion yn fuan ar ol ei ddienyddiad, gwadir yr honiadau teuluol hyn, a dywedir nad oedd ei dad, Harri ab Dafydd, ond tafarnwr cyffredin yn Llaneurgain. Dodwyd ef ar y cyntaf yn egwyddorwas gyda chyfreithiwr yn Nghaerlleon, eithr rhedodd ei brentisiaeth, ac aeth i Lundain. Trwy lawer o anhawsder a gwrthwynebiad, cafodd swydd yn nheulu iarll Penfro, lle yr arosodd hyd farwolaeth y pendefig hwnw. Ar ol hyn, bu am rhyw yspaid yn y gwasanaeth cyhoeddus, ond ni wyddis o ba natur, nac yn mha sefyllfa; a'r pryd hwnw cymerodd y radd o ddoctor yn y gyfraith; a chan fod ei wraig gyntaf wedi marw, priododd weddw gyfoethog, cynysgaeth yr hon a wariodd efe yn fuan mewn afradlonedd, nes dyfod i dylodi a chyfyngder. Yn 1588, ymosododd yn greulawn ar un o'i ofynwyr o'r enw Hare, a bu raid iddo ddianc o Loegr; ond trwy gyfryngiad ei gyfeillion, pardynwyd ef. Tra yn Ffrainc, rhoddwyd ef ar waith gan arglwydd Burleigh, yr hwn oedd ganddo yr ymddiriedaeth lwyraf ynddo, i gasglu gwybodaeth ddirgel am symudiadau y Pabyddion Seisnig yn y wlad hono. Er mwyn llanw y swydd isel a dirmygedig hon, rhaid oedd iddo ragrithio ei fod yn un ohonynt, er mwyn eu bradychu yn ol llaw. Pa fodd bynag, efe a enillwyd drosodd gan y blaid Babyddol; dychwelodd i Loegr yn 1583, a chawn ef yn eistedd yn y Senedd fel aelod tros Queensborough, ac yn gwrthwynebu yn egniol y cais i gosbi y Pabyddion oblegyd eu crefydd. Synwyd y Tŷ gymaint gan ei eondra yn yr araeth hon, fel y rhoddwyd ef yn ngofal y *Serjeant-at-Arms*, eithr rhyddhawyd ef drachefn trwy orchymyn y Frenhines, trwy ei bod hi wedi cael boddlonrwydd ganddo nad oedd yn ei araeth ddim amcanion teyrnfradwrus. Yn mhen chwech wythnos, danfonwyd ef i'r Twr, tan y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth, am iddo ymgymeryd â bradlofruddio y Frenhines, ac euogbrofwyd ef yn Westminster, Chwefror 25, 1584—5. Dywedir mai ei dwyllo a gafodd i gyfaddef y weithred, trwy addewid o faddeuant os gwnai; ac er fod lle cryf i gasglu nad oedd efe yn euog yn ngwyneb y cyhuddiad, eto ar y telerau a nodwyd, gwell oedd ganddo gyfaddef i'w niwaid ei hun, na wynebu ei erlynwyr â'r fath ragfarn yn ei erbyn. Pa fodd bynag, rhoddwyd ef i farwolaeth yn y dull mwyaf barbaraidd yr 2il o Fawrth canlynol, yn y Palace Yard, Westminster. Yn ystod ei ddyddiau olaf, gwadai y cyhuddiad yn y modd mwyaf penderfynol. —*State Annals;* Lingard's *Hist. of England.*

PARRY (WILLIAM), arlunydd o gryn deilyngdod, ydoedd fab i John Parry, y telynor dall enwog o Ruabon. Ganwyd ef yn 1742. Dysgodd elfenau arluniaeth yn ngholeg Shipley; a bu wedi hyny yn efrydu o'r *plaster casts* yn oriel Duc Richmond. Er mwyn perffeithio ei hun yn y gelfyddyd, rhoddes ei hun tan addysg Syr Joshua Reynolds, ac ymunodd â'r coleg yn St. Martin's Lane. Wedi enill amryw wobrau gan y gymdeithas er cefnogi Celfyddyd, galluogwyd ef trwy nawdd a haelfrydedd Syr Watkin Williams Wynn, i dalu ymweliad âg Itali; lle yr arosodd o 1770 hyd 1775, ac yn y cyfamser arliwiodd i'w noddwr gopi o'r "Gweddnewidiad," gan Raphael. Yn 1776, dewiswyd ef yn gymrawd o'r *Royal Academy,* eithr gan nad oedd gwaith yn dyfod

Digitized by Google

iddo yn Llundain fel yr ewyllysiai, dychwelodd i Rufain, lle yr arosodd am lawer o flynyddau. Yn 1791, gorfu arno ddychwelyd i'w wlad enedigol oherwydd afiechyd, lle y bu farw Chwefror 13, o'r flwyddyn hono.

PASGEN, sant tua chanol y pumed cant. Yn ol *Bonedd y Saint*, yr oedd Pasgen, Nefai a Pabiali, yn feibion i Brychan Brycheiniog; a'u mam ydoedd Prosori, Yspaenes o genedl. Aeth Pasgen a'i frodyr trosodd i Yspaen, lle y gwnaed ef yn esgob. Gan fod awdurdodau eraill yn son am Pasgen ab Dingad, ac wyr Brychan, rhaid fod dau sant o'r un enw, un yn ewythr i'r llall. Yr oedd careg gynt yn mynwent Towyn, Meirionydd, a'r gair Pasgen yn doredig arni, a thybir mai rhan o gofgolofn ydoedd i Basgen ab Dingad.

PATRICK (JOHN), neu, yn ol ffurf Ladinaidd yr oes, JOHANNES PATRICIUS, yr hwn a elwir hefyd JOHANNES SCOTUS ERIGENA; a anwyd yn Nhy Ddewi, sir Benfro, tua dechreu'r nawfed ganrif. Dywedir iddo deithio i wlad Groeg, ac astudio am ryw gymaint o amser yn Athen; sonir ei fod yn bur hyddysg yn yr iaith Roeg, y Caldaeg, a'r Arabaeg; ac ymwelodd, meddir, â'r holl athrofeydd athronyddol oedd mewn bri a chymeriad yn ei amser ef. Teithiodd yr Ital hefyd a Ffrainc; a dywedir mai yn y wlad olaf, yn llys Siarl Foel, yr arferai breswylio yn fwyaf cyffredin. Ymddengys fod y brenin hwnw yn bur hoff ohono. Cyfieithodd un o weithiau Dionysius yr Areopagiad, o'r Groeg i'r Lladin. Ystyrid rhai o'i ysgrifeniadau duwinyddol heb fod yn hollol iawnffyddiog; a chafodd ei draethawd ar y Cymun ei gollfarnu i'w losgi gan Gynghor Rhufain, B.A. 1059. Ceir ei waith ar ragarfaeth yn y *Vindiciæ Prædestinationis et Gratiæ*, yr hwn a argraffwyd mewn dwy gyfrol bedwarplyg yn 1650. Y mae ei waith a elwir *Dialogus de Divisione Naturæ*, a argraffwyd yn Rhydychain yn 1681, yn dangos gwybodaeth eang ryfeddol, ac ystyried yr amseroedd yr oedd efe yn byw ynddynt, ac yn profi ei fod yn dra chydnabyddus â'r iaith Roeg a'i thrysorau. Yn y gwaith hwn ceir dyfyniadau helaeth o ysgrifeniadau y Tadau Groeg, ac hefyd o Aristotl, Plato, Cicero, Plinius, ac eraill o'r hen athronyddion, a rhydd yr awdwr hefyd syniadau Pythagoras ac Erastosthenes ar rai pynciau seryddol. I ysgrifeniadau Erigena y mae rhai yn cyfrif dygiad Platoniaeth, ysgol Alexandria, i mewn i dduwinyddiaeth ac arddansoddiaeth Ewrop. Mynegir iddo, tua'r flwyddyn 859, ddychwelyd i Dy Ddewi, gan amcanu treulio'r gweddill o'i ddyddiau yn yr encilfan dawel hono: ond ni oddefai ei enwogrwydd iddo hyny; canys anfonodd Alffred Fawr, brenin Lloegr, am dano i fod yn athraw iddo ef ei hun; a phan sefydlwyd y Brifysgol yn Rhydychain, penodwyd ef yn un o athrawon y sefydliad hwnw. Yn ei flynyddoedd diweddaf, enciliodd i Fynachlog Malmsburi, lle, yn ol rhai, y cafodd ei ladd yn y flwyddyn 884; neu, fel y tybia eraill, bu farw yn Ffrainc, tua'r flwyddyn 875. Gadawodd ar ei ol rai gweithiau heblaw y rhai a grybwyllir uchod.—*Camb. Register*, 1706; *Pen. Cycl.* Dywed HIRLAS yn *Brython* iii. 266:—Mae yn anmheus ai Cymro o waed, neu o enedigaeth, ydoedd Erigena. Dywed rhai ei eni yn y Werddon, eraill yn yr Alban, ac y mae eraill yn honi mai gwr genedigol o Loegr ydoedd. Gelwir ef *Erigena*, am y tybir ei eni yn y Werddon (*Eriugena*), a chyfenwir ef *Scotus*, oherwydd yr un rheswm; canys *Ysgotiaid*, yr amser hwnw, y gelwid pobl y Werddon yn gystal â phobl yr Alban. Yr oedd Erigena yn un o'r cymeriadau enwocaf yn ei oes, gan nad i ba wlad neu genedl yr oedd yn perthyn.

Digitized by Google

PAWL HEN, neu Paulinus o'r Gogledd, sant tua therfyn y pumed cant. Mab ydoedd i Meurig ab Tewdrig. Mewn rhai llawysgrifau, gelwir ef yn Pawl Hen o Fanaw, a Palcen o Fanaw, yr hyn a awgryma mai brodor o'r ynys hono ydoedd. Yr oedd yn aelod o gôr Illtyd, yn Nghaerworgorn, a sefydlodd yntau golegdy cyffelyb, tua 480, yn y Tŷ Gwyn ar Dâf, sir Gaerfyrddin; efe oedd abad cyntaf y lle hwnw, a gelwid ef weithiau yn esgob. Daeth y sefydliad hwn yn fuan yn glodfawr am ei addysg grefyddol; a chan fod Pawl yn enwog am ei wybodaeth Ysgrythyrol, daeth ato Dewi Sant a Theilo, er mwyn cael cyfryw addysg ganddo. Efe a benodes Gredifael a Fflewyn yn ben y sefydliad. Efe yw sant gwarcheidiol Llangors, yn Mrycheiniog; a Chapel Peulin, sir Gaerfyrddin. Yr oedd Pawl yn wyddfodol yn y gynadledd a gynaliwyd yn Llanddewi Brefi, yn 519; ac y mae yn yr ardal hono amryw gofion am dano hyd y dydd hwn. Saif Capel Peulin ar ei gyffiniau, ac yn mhlwyf cyfnesol Caio, ceir ei enw ar gareg fawr mewn toriad tra henafol. Efe oedd tad Peulan, Gwyngeneu, a Gwenfaen. Cedwid ei wylmabsant Tachwedd 22, tan yr enw Polin Esgob.—Wms. *Em. Welsh.*

PAYNE (Parch. Henry), M.A., ydoedd enedigol o blwyf Llangattwg, Morganwg. Trigianodd y rhan fwyaf o'i oes yn Crughywel, gan ddal bywiolaethau eglwysig Llanbedr a Pentre Isa', yn y gymydogaeth hono. Llanwodd hefyd y swydd o archddiacon Caerfyrddin. Yr oedd yn enwog fel ysgolhaig, llenor, a hynafiaethydd. Treuliai ei amserau hamddenol mewn ymchwiliadau hynafiaethol yn benaf; ac er na chyhoeddodd ddim ar hyny, nid ymddangosodd braidd un llyfr ar hanes y Cymry yn y ganrif hon, nad oedd yn ddyledus i'w ysgrifau ef. Bu farw yn Nghrughywel, Ebrill 22, 1832, yn 74 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Llanbedr, mewn beddrod lle y claddesid ei wraig yn 1828; ac arnynt gerfiad prydyddol o'i waith ef ei hun, heb chwanegu ato ond ei enw, ei oedran, a dydd ei angau.—*Lleyn MSS.*

PEBLIG, sant yn ei flodeu yn nechreu y pumed cant. Mab ydoedd i Macsen Wledig; neu yn ol hanesion eraill mab ydoedd i Owain Finddu ab Macsen Wledig. Efe a sefydlodd eglwys Llanbeblig, yn yr hwn blwyf y saif tref Caernarfon. Cedwid ei wylmabsant Mehefin 3.—*Iolo MSS.*

PEACOCK (Reginald), D.D., prelad dysgedig, a anwyd yn Lacharn, sir Gaerfyrddin. Cafodd ei addysg athrofaol yn ngholeg Oriel, Rhydychain, lle y daeth yn gymrawd, a chrewyd ef yn D.D. Bu yn gaplan i duc Caerloyw, ewythr ac amddiffynwr Harri VI., a thrwyddo ef cafodd esgobaeth Llanelwy yn Ebrill, 1444. Cysegrwyd ef yn Croydon, Mehefin 14, o'r flwyddyn hono. Yn 1449, symudwyd ef yn esgob Chichester, a llanwodd y swydd hono hyd 1457, pryd y cyhuddwyd ef o heresi gerbron synod a gynaliwyd yn Lambeth, ac wedi ei gael yn euog, efe a ddiswyddwyd gan Thomas Bourchier, archesgob Canterbury. Yn *Hanes y Merthyron*, gan Fox, ceir hanes cyflawn o'i ddiswyddiad, rhestr o'r egwyddorion a gredai, ac amddiffyniad iddo. Dywed Godwin, ei fod oherwydd y ffafr a gawsai yn ngolwg duc Caerloyw, wedi myned mor hyf a chyhoeddi amrywiol ddaliadau (rhai cywir, ac eraill anghywir), ond yr oll yn newydd y pryd hwnw; ond wedi marwolaeth ei noddwr, bu raid iddo alw ei eiriau yn ol yn gyhoeddus yn Paul's Cross, lle y llosgwyd o flaen ei wyneb yr holl lyfrau a ysgrifenasai, yn mhlith y rhai yr oedd cyfieithiadau o'r Ysgrythyr i'r Seisnig. Wedi ei ddiswyddiad, gwarchaewyd ef yn ddyfal yn Abbad-

Digitized by Google

dŷ Thorney, sir Gaergrawnt; rhoddid deugain punt i'r abbad tuag at ei gynaliaeth; eithr cyn pen y flwyddyn, rhyddhawyd ef gan angau.—Fuller's *Worthies*; Willis' *Survey of St. Asaph.*

PEDROG SANT, yn ol *Bonedd y Saint*, ydoedd fab i Clement, tywysog Cernyw; eithr dywed awdurdodau eraill mai brodor tywysogaidd o Gymru ydoedd. Er mwyn ymgydnabyddu â'r gwyddorau dysgedig, aeth trosodd i'r Iwerddon; ac wedi aros yno am ugain mlynedd, croesodd i Gernyw yn 518, gan wladychu ar lan mor Hafren, mewn lle o'r enw Petroc-stow, neu drigfa Petroc, a lle y bu llawer ysgolhaig dysgedig tan ei addysg. Cyfansoddodd lyfr ar fywyd unigol. Bu farw yn 564, a claddwyd ef yn Bodmin, lle y dywed rhai ei fod wedi ffurfio esgobaeth. Efe yw sant gwarcheidiol Llanbedrog, yn Arfon; Llanbedrog, neu St. Petrox, yn Mhenfro; St. Petrock's, yn Exeter; a Petrocstow, yn Ngwlad yr Haf. Cedwid ei wylmabsant Mehefin 4.—Wms. *Em. Welsh.*

PEIRIO, mab i Caw, sant yn nechreu y 6ed cant. Yr oedd yn aelod o goleg Illtyd, ac ar farwolaeth y dysgawdwr hwnw, etholwyd Peirio yn ei le yn benaeth y coleg. Eithr dywedir iddo farw y diwrnod canlynol, pan y penodwyd Samson ab Amwn Ddu. Efe oedd nawddsant Rhosbeirio, yn Mon.—*Iolo MSS.*

PENAL (Huw), bardd rhwng 1550 a 1580. Y mae ychydig o'i waith yn argraffedig hyd y cylchgronau Cymreig, a'r gweddill yn aros mewn ysgrifen.

PENARDD (Rhys), neu *Penarth*, bardd rhwng 1460 a 1490 Bernir mai gwr o Glynog Fawr yn Arfon ydoedd.

PENARWEN, merch i Culfynawyd Prydain, a gwraig Owain ab Urien. Cofnodir hi yn y *Trioedd*, gyda'i chwiorydd Bun ac Essyllt, tan y penawd "Tair anniweirwraig Ynys Prydain."

PENLLYN (Tudur), bardd enwog rhwng 1440 a 1470. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

PENLLYN (William), bardd yn ei flodeu rhwng 1550 a 1520. Yr oedd efe yn un o'r ymgeiswyr buddugol ar y delyn yn Eisteddfod Caerwys yn 1568, pan urddwyd ef yn brif-fardd, ac yn ddysgawdwr cerdd. Casglodd lawer o hen gerddoriaeth Gymreig mewn ysgrifau, am y rhai y dywed Dr. Burney yn ei *History of Music*, "ei fod yn cynwys darnau i'r delyn mewn llawn gynghanedd; wedi eu hysgrifenu mewn nodiant neillduol, a thebygir ei bod cyn hyned os nad hŷn na'r flwyddyn 1100."

PENNANT (Syr Huw), offeiriad dysgedig yn hanes a hynafiaeth ei wlad, a chynullwr diwydbwyll hen lawysgrifau Cymreig. Yr oedd hefyd yn fardd gweddol, fel y prawf yr ychydig o'i waith sydd ar gael. Yr oedd yn frawd i Thomas Pennant, abbad Basingwerk, ac yn fab Dafydd Pennant, Ysw., Bychton, ger Treffynon, sir Fflint, un o hynafiaid yr hyglod Thomas Pennant, o Downing, yn yr un sir. Yr oedd Syr Huw yn cydoesi â Guttyn Owain; bu farw yn 1480.

PENNANT (Huw), cerddor medrus yn amser Harri VIII. ac Elizabeth. Graddiwyd ef yn yr ail ddosparth o bencerddiaid yn Eisteddfod Caerwys, yn 1560.

PENNANT (Richard), Barwn Penrhyn, ydoedd yn disgyn yn y nawfed ach o Thomas Pennant, abad Basingwerk, sir Fflint, yr hwn yn 1480, a adawodd yr abad-dy, ac a briodes Anngharad, merch i Gwilym ab Gruffydd, Ysw., o'r Penrhyn, sir Gaernarfon. Yr oedd efe hefyd yn wyr i Giffard Pennant, Ysw., yr hwn a aeth i Jamaica yn amser

Digitized by Google

Oliver Cromwell, ac a gafodd gyfoeth dirfawr yn yr ynys hono. Dychwelwyd R. Pennant, Ysw., i Dy y Cyffredin tros Petersfield, yn senedd gyntaf George III.; ac etholwyd ef tros Liverpool yn 1767, a thrachefn yn 1768, 1774, a 1784. Pan gymerir i ystyriaeth ei farn aeddfed, a'i brofiad helaeth fel masnachwr, ni chynrychiolwyd y dref farsiandiol hono erioed yn ffyddlonach a gallucach; ac ni bu yn Nhy y Cyffredin erioed aelod mwy cydwybodol ac annibynol âg Arglwydd Penrhyn. Yn 1765, efe a briododd Anne Susannah, merch ac etifeddes y Cadfrydog Warburton, o Winnington, yn sir Gaerlleon; ac yn hawl ei nhain, Anne, ail ferch a chyd-etifeddes i Syr Robert Williams, barwnig, daeth i hawl o gyfran o'r etifeddiaeth hono. Yr oedd ei dad, John Pennant, Ysw., wedi prynu y gyfran arall oedd yn meddiant teulu Yonge, yr hwn a ddaethai i hawl ohoni trwy briodi Gwen, merch ieuengaf Syr Walter Yonge, o Escot, yn sir Devon, barwnig, fel y daeth yr etifeddiaeth eang a gwerthfawr hon drachefn yn unol, ac yn meddiant un perchenog. Pan y daeth i gyflawn hawl o'r cyfoeth hwn, ymddangosai y lle fel yn gorwedd tan esgeulusdod a thylodi; ac nid oedd ond tua mil o dunelli o lechi yn y flwyddyn yn cael eu codi yn y gloddfa; sydd bellach yn destyn edmygedd ac ymgyrcha torfeydd o ddyeithriaid. Ymroddodd i'w diwyllio a'i gwella yn ddioed, a thrwy ei gynlluniau doeth yn planu coed, yn agor y gloddfa, trin y tir, codi adeiladau, a gwneuthur ffyrdd, daeth yr ystad o tan ei ofal yn un o'r ardaloedd tlysaf a dymunolaf yn y Dywysogaeth. Y mae y gwelliantau hyn wedi eu perffeithio a'u cwblhau mewn modd ysplenydd gan berchenog anrhydeddus presenol y lle. Gwnaed Richard Pennant, yn Farwn Penrhyn yn 1793; eithr darfyddodd y teitl gydag ef, gan iddo farw yn ddietifedd, Ionawr 21, 1808. Adnewyddwyd y farwniaeth yn y teulu trwy gread yr Anrhyd. Douglas Pennant yn Arglwydd Penrhyn.—*Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid.*

PENNANT (Thomas), Ysw., y teithydd a'r naturiaethwr bydenwog hwn, a anwyd yn y Downing, sir Fflint, fel y dywed ef ei hun, Mehefin 14, 1726; ac yn ol yr hen arfer, a roddwyd allan i'w fagu i ofal mammaeth o'r un cyfenw ag ef ei hun, sef gwraig John Pierce, o'r Pentre, yr hwn oedd uchelwr o werth can' punt yn y flwyddyn; ac efe a'i wraig a ystyrient yr ymddiried hwn yn anrhydedd nid bychan iddynt. Ei fam ydoedd ferch i Richard Mytton, Ysw., o Halston, sir Amwythig. Ei daid, Peter Pennant ydoedd swyddog yn myddin y frenhines Anne, eithr drwy rhyw ymrafael rhyngddo â'i uwch-swyddog, Syr Thos. Pendregast, ymadawodd â'r fyddin, ac ymsefydlodd yn Bychton, lle y cyfaneddai mewn llonder a llawndra hyd ei farwolaeth yn 1736, yn 72 oed. Taid y gwr olaf hwn ydoedd un o'r swyddogion tan y brenin yn cadw castell Dinbych, pan y cymerwyd y lle hwnw gan y Cadfiaenor Mytton, ac y cadwyd Pennant yn hir yn ngharchar, mewn cymaint cyfyngder fel yr adroddir y byddai ei wraig yn fynych yn cerdded o Whitford i Ddinbych, â chydaid o flawd ceirch i ddiwallu ei eisiau. Teulu y Pennantiaid oeddynt yn deilliaw o lwyth Tudur Trefor, yr 16eg o lwythau Gwynedd; ac y mae gwrthddrych ein hanes yn crybwyll mewn un man ei fod ef ei hun yn bedwerydd ar hugain o'r patriarch hwnw, ac yn disgyn trwy Madog ab Meilir, y degfed o Dudur Trefor—prawf digonol o fonedd Cymreig y teulu hwn. Heblaw anrhydedd gwaedoliaeth, yr oedd amryw o'i hynafiaid a'i berthynasau wedi bod yn llenwi sefyllfaoedd cyfrifol yn y wladwriaeth, fel y crybwyllwyd eisoes mewn rhan; ac hefyd wedi ymbriodi â theuluoedd o enwogrwydd nid

Digitized by Google

bychan yn yr ardaloedd amgylchynol Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth gyntaf yn Ngwrecsam, ac oddiyno symudwyd ef i Fulham, sir Middlesex, ac yn fuan wedi hyny aeth i brifysgol Rhydychain; lle, ar ol meistroli canghenau arferol dysgeidiaeth, yr ymroddodd i fyfyrio y gyfraith, er nad ymddengys iddo ddilyn nemawr ar yr efrydiaeth hono. Yr oedd ei duedd reddfol wedi cael ei gogwyddo eisoes yn rhy ddiysgog i gymeryd ei hatal gan un math o ddeniadau eraill; yr oedd ei fryd wedi ei sefydlu ar hanesiaeth anianyddol, a'r dueddfryd hon a enynesid yn ei fynwes trwy i gyfaill pan ydoedd tua deuddeg oed ei anrhegu â llyfr o waith Willoughby ar Adar-draith. Ni chollodd ei flas ar y gangen hono o wybodaeth trwy ystod ei oes faith. A'r unrhyw duedd a adnewyddwyd yn fwy egniol fyth yn mhen tuag wyth mlynedd yn mhellach, pan ar daith trwy Gornwal y cyfarfu â'r hyglod Dr. William Borlase, o'r wlad hono, yr hwn a alwodd ei sylw at hynafiaethau a chloddiadon *(ffossils)*. Yn 1754, aeth ar daith trwy yr Iwerddon, i'r dyben o helaethu ei hoff wybodaeth; ond y daith hon nid atebodd ei hamcan, ac ni chafodd y byd ddim hanes ohoni. Yr un flwyddyn, etholwyd ef yn aelod o Gymdeithas yr Hynafiaethwyr, yr hyn sydd brawf amlwg ei fod eisoes wedi enill cyrhaeddiadau uchel yn y ffordd hono. Er hyny, anianyddiaeth oedd yn cael y lle uwchaf yn ei fryd, fel y profir yn eglur drwy'r dystiolaeth ddarfod iddo yn y flwyddyn ganlynol ffurfio ymohebiaeth â'r naturiaethwr hyglod Linnæus, o Sweden, a thrwy i'r gwr hwnw ddarllen rhai o ohebiaethau Mr. Pennant gerbron Cymdeithas Frenhinol Upsal, yn y wlad hono, ar anogaeth Linnæus ei hun, etholwyd ein cydwladwr yn aelod o'r gymdeithas, yr hyn a ystyriai efe yn un o'r arwyddion mwyaf o anrhydedd a gafodd yn ei oes; a'r gyfeillach rhyngddo a Linnæus a barhaodd yn wresog hyd farwolaeth y gwr enwog hwnw yn 1778. Yn 1760, rhoddodd i fynu ei aelodaeth o'r Gymdeithas Hynafiaethol, er mwyn cael mwy o lonyddwch i ddilyn ei fyfyrdodau dewisol ei hun, heblaw fod ei briodas tua'r pryd hwn, a darpariaeth cartref, yn achlysuro mwy o draul nag yr oedd ei foddion eto yn gyfatebol, tra yr oedd ei dad yn fyw. Tua'r un amser yr oedd efe yn dechreu cynllunio ei lyfr, "British Zoology" (mildraith Brydeinig), sef disgrifiad o amrywiol greaduriaid y deyrnas hon, yr hyn oedd ei orchwyl gorchestol cyntaf, trwy ba un y sefydlwyd ei enwogrwydd fel naturiaethwr. Y gyfran gyntaf o'r gwaith hwn, yn addurnedig â 132 o ddarluniau, a ddaeth allan yn 1765; ac er clod i'w hynawsedd a'i elusengarwch, coffeir ei fod wedi bwriadu cyflwyno elw y gwaith hwn tuag at gynorthwy Ysgol Rad y Cymry yn Llundain. Eithr gan nad oedd eto ond anmhrofiadol o'r draul sydd yn nglyn â chyhoeddi llyfrau, siomwyd ef yn ei amcan canmoladwy y pryd hwn; er hyny, ni lwyr ataliwyd ei duedd haelionus yn yr amgylchiad, canys y mae cofnodiad yn dangos fod Mr. Richard Morris o Fon, yr hwn oedd ar y pryd yn y swyddfa lyngesol yn Llundain, yn ddirprwywr iddo yn arolygiad yr argraffwaith, ac iddo farw yn fuan wedi hyny, gan adael ei weddw mewn amgylchiadau cyfyng; a Mr. Pennant a adawodd iddi wneuthur yr elw a allai o'r cerfluniau a ddefenyddid yn y gwaith. Nid oedd efe eto wedi cwblhau y gwaith uchod mor gyflawn ag yr amcanai, ac efe a oedodd ei orpheniad am rhyw yspaid o amser, a hyny trwy iddo yn 1765 fyned allan i wneud taith ar y Cyfandir, ac yn ystod y daith hono ymwelodd â'r manau mwyaf nodedig yn Ffrainc, Germani, a Holland, a chyfarfu ag amryw o'r naturiaethwyr mwyaf clodfawr yn y gwledydd hyny, megis Buffon, Voltaire, Haller, y ddau Gessner,

Digitized by Google

Trew, Pallas, &c. ; ac â'r rhai hyn ffurfiodd gyfeillach barhaol, yn enwedig Pallas a Buffon. Ei gyfeillach â'r blaenaf a roddodd achlysur i Mr. Pennant anturio ar y gorchwyl o ysgrifenu ei lyfr a elwir "Hanes Creaduriaid Pedwartroed" *(History of Quadrupeds,)* yr hwn a gyfrifir yn un o'r rhai goreu o'i draethodau. Cynaliwyd ymhebiaeth gyson rhyngddynt tra y buont byw, oddigerth yn yr yspaid y darfu ymherodres Rwsia ddeisyf gwasanaeth Pallas i chwilio ansoddau anianyddol gwahanol barthau o'i heang diriogaethau hi. Yn fuan wedi dychweliad Mr. Pennant o'r teithiau uchod, cafodd yr anrhydedd o gael ei ethol yn un o aelodau y Gymdeithas Frenhinol yn Lloegr. Ac yn 1768, cyhoeddodd ail gyfrol, wedi ei haddurno â 17 o ddarluniau ; a'r elw o hyn a gyflwynodd i'r ysgol Gymreig, yn ol ei fwriad blaenorol. Yn y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd drydydd cyfrol o'r Mildraeth, er mwyn cyflawni yr hyn oedd ddiffygiol yn y rhanau blaenorol, sef am bysg ac ymlusgiaid ; ac yn cynwys 17 o ddarluniau drachefn. Y mae'n beth nodedig i'w sy wi ddarfod i'r argraffiad cyntaf o'r gwaith uchod, yn unplyg, gael ei gyfieithu i'r Allmanaeg *(German,)* ac i'r Ladiniaith, gan M. de Murre, o Nurenberg, a'i argraffu yn yr unrhyw ddull, yn nghyda darluniau celfydd lliwiedig. Yn 1770, Mr. Pennant, er mwyn gwneuthur ei Fildraeth yn fwy cyflawn fyth, a gyhoeddodd gyfrol arall yn ychwanegol at y gwaith, yn cynwys 103 o ddarluniau, yn nghyda llawer o ddysgrifiadau newyddion, heblaw nodau cyfeiriol at y cyfelyb bethau yn y rhanau blaenorol, a rhestr o adar Ewropeaidd heb fod i'w cael yn Mhrydain. A'r flwyddyn ganlynol, argraffodd dalfyriad o'i draethawd ar greaduriaid pedwartroediog *(Quadrupeds,)* yn addurnedig âg 31 o ddarluniau. Yn flaenorol i hyn o ran amser, yr oedd efe wedi dyfod i gydnabyddiaeth gyfeillgar â Syr Joseph Banks, cyd-ymdeithydd yr hyglod Cadben Cook, ac hefyd â John Gideon Loten, Ysw., yr hwn a fuasai yn hir mewn swyddau anrhydeddus yn ynysoedd y Dutch yn môr yr India ; a thrwy yr amrywiol hysbysiadau a gafodd Mr. Pennant gan y gwyr hyn, efe a ysgrifenodd yn lled helaeth ar greaduriaid yr India ; a darparwyd 12 o ddarluniau cyfatebol i'r unrhyw, ar ei gyd-draul ef ei hun a'r gwyr uchod, i'r dyben o wneuthur llyfr unplyg bychan. Ond trwy ryw achlysur, ni wybuwyd ond ychydig am y gwaith hwn yn Lloegr ; eithr trwy i'r defnyddiau gael eu cyflwyno i'r Dr. John Reinhold Forster, efe a'u cymerodd gydag ef i Germany, ac a'u cyfieithodd i iaith y wlad hono, ac i'r Lladin, a chydia rhai chwanegiadau, a'u hargraffodd yn Halle, yn ngwlad Saxony, yn 1781. Yn 1769, cymerodd daith i barthau uchaf Scotland, ardaloedd oeddynt yn flaenorol i bobl Lloegr yn mron mor anhysbys a gwlad Kamschatka yn Rwsia, a'r trigolion yn cael eu tybied yn nemawr llai barbaraidd. Ond trwy y dysgrifiad diragfarn a darluniadol ohonynt hwy a'u hardaloedd a roddodd Mr. Pennant yn ei hanes argraffedig o'r daith hon, symudwyd am byth y culni meddwl oedd o'r blaen gan y naill genedl am y llall, a thueddwyd lluaws o Saeson i ymweled â'r parthau hyny, ac yn raddol i ffurfio cyfeillach â'r preswylwyr, yr hyn ni ataliwyd hyd heddyw. Ar ymddangosiad hanes y daith uchod, a argraffwyd yn 1771, cafodd Mr. Pennant amryw lythyrau canmoliaethol oddiwrth drigolion cyfrifol yn y wlad hono. Yn yr un flwyddyn, cafodd Mr. Pennant yr anrhydedd o'i ethol yn aelod o athrofa frenhinol Drontheim, yn Norway, oddiar anogaeth y Dr. Gunner, esgob y lle hwnw ; ac hefyd y teitl o Ddoctor yn y Gyfraith, o brifysgol Rhydychain. Yn y flwyddyn ganlynol, gwnaeth ail daith i

Digitized by Google

Scotland ŵr dyben o gyflenwi diffygion y daith gyntaf ; ac ar ei fynediad drwy'r wlad, llon-gyferchid ef yn mhob man â'r arwyddion gwresocaf o gyfeillgarwch ac anrhydedd ; a llawer o'r trefi bwrdeisiol a'i hanrhegasant ef â'u rhyddfreintian (*freedom*), Edinburgh yn mhlith y nifer. Ac nid yn ddiachos yr amlygodd trefi a phorthladdoedd Scotland eu parch iddo, canys efe a fu yn offerynol i ffurfio amryw sefydliadau buddiol ynddynt, ac i ddiwygio llawer yn eu dulliau o orchwyliaethu, yn enwedig eu pysgfaoedd (*fisheries*). Ar ol iddo gyflawni ei amcanion yn Scotland, estynodd ei daith yn mhellach i ymweled â'r ynysoedd perthynol i'r wlad hono, yr Hebrides ; a chyhoeddodd hanes o'r holl daith hon yn 1774, yn addurnedig â rhifedi mawr o ddarluniau rhagorol. Yn yr ystyriaethau hyn y mae ei ysgrifeniadau yn nghylch Cymru wedi bod yn sail a defnydd yn mron y cwbl a ysgrifenwyd gan holl ddysgrifwyr y wlad hon ar ei ol. Ar ol 1777, ym-

Digitized by Google

ddengys ddarfod i awch Mr. Pennant i drafaelu liniaru cryn raddau: yn nghylch yr amser hwnw priododd ail wraig, sef chwaer i Syr Roger Mostyn, Bar., o Fostyn; a hyny a roddodd achlysur iddo, fel y sylwa ef ei hun, i ddyfod yn fwy hoff o'i aelwyd gartrefol. Felly ei lafur llenyddol am rai blynyddoedd ar ol hyn a gyfyngwyd yn benaf i gyfansoddiad ychydig o erthyglau achlysurol, ac i edrych dros ei gyhoeddiadau blaenorol. Pa fodd bynag, yn 1782, efe a ddug allan lyfr broddarluniol *(topographical)* drachefn, dan yr enw "Tour from Chester to London," defnyddiau pa un a ddarparasai drwy gadw cofnodau o'r gwahanol bethau y sylwasai arnynt o bryd i bryd wrth fynych deithio y ffordd hono; a'r gwaith hwn, fel y lleill o'i eiddo o gyffelyb natur, a fu dra chymeradwy. Yn mhen dwy flynedd wedi hyn, cyhoeddodd ei draethawd olaf ar hanesiaeth anianyddol, dan yr enw "Mildraeth Gogleddol" *(Arctic Zoology,)* yn ddwy gyfrol 4plyg, yn traethu am greaduriaid pedwartroed ac adeiniog parthau gogleddol yr America, Ewrop, ac Asia. Y gwaith hwn yn fuan a gyfieithiwyd i ieithoedd Germany a Ffrainc, gan yr enwog Zimmerman, â'r hwn yr oedd Mr. Pennant yn dra chyfeillgar, a'r cymeradwyaeth a gafodd y llyfrau hyn a fu yn achlysur i'r awdwr gael ei anrhydeddu yn mhellach drwy ei ethol yn aelod o Gymdeithas Philosophyddol Philadelphia, a chymdeithasau celfyddydol a henafiaethol Stockholm, yn Sweden, ac Edinburgh a Pherth, yn Scotland. Yn 1787, helaethodd ei "Arctic Zoology," trwy ychwanegu dysgrifiadau rheolaidd o amrywiol ymlusgiaid a physgod yr America Ogleddol. Yn 1790, cyhoeddodd lyfr drachefn dan yr enw "History of London;" gwaith yn llawn o adroddiadau difyrus mewn hanesiaeth, henafiaeth, a bywgraffyddiaeth, ac mor dderbyniol fel y bu galwad am ail a thrydydd argraffiad ohono mewn yspaid o ychydig flynyddau. Ei gyhoeddiad nesaf ydoedd hanes ei Fywyd Llenyddol ef ei hun, yr hwn a ddaeth allan yn 1793, yn mha un y rhoddodd adroddiad manwl o'i holl ysgrifeniadau a'i anturiaethau teithyddol, yn nghyda'i gydnabyddiaeth a'i ohebiaeth â llu lliosog o gydoeswyr dysgedig a chlodwych yn amrywiol barthau y byd. Yn gysylltiedig â'r llyfr hwn, y mae saith neu wyth o fân draethodau a ysgrifenasai ar amrywiol achlysuron a gwahanol amserau, y rhai, rhag meithder, ni wnawn ond eu crybwyll yma: *Of the Pantagonians; Free Thoughts on the Militia Laws; A Letter from a Welsh Freeholder to his Representative; A Letter on the Ladies' Affection of the Military Dress; On Imprudency of Conduct in Married Ladies; Flintshire Petition in* 1779; *A Letter to a Member of Parliament on Mail Coaches; Of the Loyal Associations of the present year* (1793) *in Flintshire.* Yn mhlith gorchwylion ei flynyddoedd olaf yr ydoedd ei lyfr "History of Whitford and Holywell," yr hwn a ddaeth allan yn 1796, wedi ei addurno âg amryw ddarluniau, ac yn cynwys amledd o ddysgrifiadau ac adroddion difyrus a deallus o berthynas i'r gymydogaeth yr oedd yr awdwr mor hysbys ohoni—amgylchoedd ei gartref ei hun. Tua dechreu 1791, pan nad ydoedd terfyn ei yrfa ddaearol yn nepell weithian, daeth allan ddwy gyfrol yn ychwaneg o'i waith, sef rhan o orchwyl aruthrol ei faintioli, a gymerasai mewn llaw er's amryw flynyddol yn flaenorol, dan yr enw cynwysfawr, "Outlines of the Globe." Am y gwaith hwn y mae efe yn sylwi:—"Ychydig flynyddoedd yn ol daeth hoff-fympwy i'm meddwl o ffurfio teithiau dychymygol i holl barthau y byd adnabyddus; i'r dyben hwn yr ydwyf wedi casglu pob hysbysrwydd dichonadwy allan o lyfrau hen a diweddar, ac oddiwrth yr ymdeithwyr

Digitized by Google

cydoesol mawrnf cyfrifol. Yr ydwyf yn cymysgu hanesiaeth ag anianyddiaeth, yn nghyda dysgrifiad o'arfordiroedd, hinsoddau, a phobpeth a dueddo er addysg a difyrwch." Ac ar ol rhoddi dysgrifiad manylach fyth o'r anturiaeth yma, y mae efe yn sylwi—"Oddieithr i mi gyhoeddi un llyfr o'r gwaith hwn, sef mewn perthynas i'r India, nid wyf yn bwriadu i ddim yn ychwaneg ohono gael ei argraffu yn fy oes i; ond y gweddill a gaiff orphwys ar fy silffau, er difyrwch fy hen ddyddiau." Felly y gyfran a grybwyllwyd, mewn perthynas i'r India, a ddaeth allan yn ddau lyfr, yn mywyd yr awdwr, a dau yn ychwaneg ar ol ei farwolaeth, dan olygiad ei fab; ond y gweddill, (14 cyfrol 4plyg yn y cwbl,) sydd yn aros yn annghyhoeddedig hyd heddyw. Wrth sylwi ar y llafur enfawr hwn, yn llenyddol, teithiol, a sylwadol, y mae yn anhawdd dirnad pa fodd y cafodd y boneddwr athrylithgar amser i'w gyflawni; yn enwedig pan gofir fod ganddo ddyledswyddau pwysig eraill fel penteulu, meistr tir nifer mawr o fân denantiaid, ac fel ynad heddwch. Ond dyn yn gweithio wrth reol oedd efe. "Yr wyf," meddai, "yn myned i orphwys bob nos am ddeg o'r gloch, ac yn codi haf a gauaf am saith. Yr wyf yn ymgadw oddiwrth y pryd afreidiol hwnw a elwir swper; ac felly yn gallu codi gyda meddwl bywiog at fy ngorchwylion." Rai blynyddau cyn ei ymddatodiad, ysgrifenai; "Hyd yma o'm taith, yr wyf wedi treulio oes lafurus: ac er fod fy nghorph weithian yn pallu o ran ei fywiogrwydd arferol, y mae cyneddfau fy meddwl yn parhau yn gryfion, ac yn sychedu o hyd am i lewyrchiadau newyddion o wybodaeth dywynu trwy yr higolau a wnaeth yn fy mhabell." Dyoddefodd lawer yn mlynyddau olaf ei oes oddiwrth anhwyldeb yr ysgyfaint, a bu farw yn mreichiau ei deulu, er eu mawr alar hwy a rhifedi lluosog o gyfeillion, Rhagfyr 16, 1798, yn 73 oed. Claddwyd ef yn Eglwys Whitford, yn meddrod y teulu, ac y mae teyrnged o anwyldeb i'w goffadwriaeth wedi ei gerfio ar ei gofgolofn. O ran ei egwyddorion crefyddol, yr oedd Mr. Pennant yn ymlynwr diffuant wrth yr Eglwys Sefydledig; tra yr oedd yn hollol ddiragfarn tuag at bawb o wahanol farnau iddo. Yr oedd yn foneddwr tangnefeddus, haelionus, a llwyr wladgarol. Fel ymdeithydd, dywed Dr. Johnson am dano, "Pennant is the best traveller I ever read. He observes more things than any one else does." Awdwr yr arluniau yn ei weithoedd oedd Moses Griffith, gwr hunan-addysgiol o Leyn yn Arfon; ei gydymaith yn ei deithiau, a'i gynorthwywr gwasanaethgar yn y gwaith o gasglu ei hanesion oedd y Parch. John Lloyd, periglor Caerwys; ac y mae yn cydnabod ei ddyled am lawer o awgrymiadau buddiol ar lysieuaeth i Hugh Davies, y llysieuydd, o Fon. Ceir hanes y gwyr hyn tan brif-lythyrenau eu henwau mewn cwr arall o *Enwogion Cymru*.

PENRY (JOHN), neu Ap Henry. Y dyn dewr a duwiolfrydig hwn ydoedd fab Meredith Penry, o'r Cefnbrith, plwyf Llangamarch, sir Frycheiniog, lle y ganwyd ef yn 1559. Pan yn 19 oed, danfonwyd ef i brifysgol Gaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn B.A. tua 1583. Yna symudodd i goleg St. Alban's Hall, Rhydychain, lle y gwnaed ef yn M.A. yn 1586; ac wedi derbyn urddau sanctaidd, pregethodd yn Nghaergrawnt a Rhydychain am ysbaid gyda chymeradwyaeth mawr. Dywed Wood, yr hwn ni wyrodd erioed oddiwrth y gwir yn ffafr Puritan, "yr ystyrid ef yn ysgolhaig cymedrol, yn bregethwr adeiladol, ac yn ddyn da. Ond gan ei fod yn llawn o waed Cymreig, a'i ben yn boeth, ac anesmwyth, oddiar rhyw anfoddlonrwydd, efe a newidiodd

Digitized by Google

gwrs ei fywyd, ac a drodd yn anghydffurfiwr nodedig (i'r hon blaid yr oedd efe yn Coryphæus), ac mewn ystyr arall yn Browniad, a'r gelyn chwerwaf i eglwys Lloegr a ymddangosodd yn ystod teyrnasiad maith y frenhines Elizabeth." Pan yr aeth efe gyntaf i Gaergrawnt, ymddengys ei fod, fel mwyafrif gwyr ieuainc ei wlad, yn Babydd selog; ond yno, ffurfiodd gydnabyddiaeth â Phuritaniaid, a mabwysiadodd eu hegwyddorion, ymlynodd wrthynt er gwawd ac erledigaeth, a seliodd ei ffyddlondeb iddynt a'i waed ieuanc a brwd, canys merthyrwyd ef pan yn 34 mlwydd oed. Wedi dyfod ei hunan i wybodaeth o'r gwirionedd, ei amcan nesaf oedd dwyn y cyfryw wybodaeth i gyrhaedd ei gydwladwyr tylodion, tywyllwch y rhai oedd yn fawr, a'u hangenion ysprydol yn arswydus. Yn 1587, cyhoeddodd draethodyn ar y pwnc, wedi ei gyflwyno i'r Frenhines a'r Senedd, ac ynddo erfynia yn daer arnynt ddefnyddio moddion i efengylu ei wlad esgeulusedig. "Y mae miloedd o'n pobl," meddai, "na wyddant ddim am Grist—ac yn anwybodus pa un ai Duw ai dyn—offeiriad ynte prophwyd ydoedd—yn wir, ni wyddant ddim am dano. O! sefyllfa ddiffaeth ac andwyol. Mewn llawer man ni wyddant pa beth i'w pregethu; mewn lleoedd eraill, ni cheir pregethu ond unwaith bob tri mis." Priodola y cyflwr galarus hwn i'r ffaith fod y clerigwyr yn byw o'u plwyfi, yn analluog i bregethu, yn anhysbys o wirioneddau yr Efengyl, yn anfoesol eu bucheddau, neu yn anwybodus o'r iaith Gymraeg. Dywed nad oedd dim a feddyginiaethai y drwg ond cael gwyr duwiol a chymhwys i bregethu i'r bobl yn eu hiaith. Dygwyd deiseb gerbron y Senedd, yn cynwys sylwedd y traethodyn hwn gan un o'r aelodau Cymreig, yr hwn a dystiolaethodd mewn araith i'w wirionedd. Ond yr unig sylw a gymerwyd o'r cais ydoedd gorchymyn atalfaelu y llyfrau yn ddioed, a dal eu hawdwr. Wedi i Penry fod yn ngharchar am fis o amser, dygpwyd ef i fynu i'w arholi, neu yn hytrach i'w geryddu. Condemniodd yr archesgob Whitgift ei gynllun i efengyleiddio Cymru fel peth annyoddefol; ac am y syniad yn ei lyfr nad oedd yr un offeiriad na phregethai yn Gristion cywir, galwai hyny yn heresi andwyol. Atebodd y carcharor ei fod ef yn diolch i Dduw iddo erioed adwaen y fath heresi, ac y byddai yn well ganddo ef ymadael a'i fywyd na'i gadael hi. Esgob Winchester a ddywedai, "Yr wyf yn dweyd wrthyt mai heresi ydyw; ac y rhaid i ti alw dy eiriau yn ôl." "Byth!" ebai Penry, "os Duw a'i myn, tra y byddwyf byw." Traddodwyd ef yn ol i garchar, ac yn mhen yspaid gollyngwyd ef yn rhydd. Ond nid gwr oedd efe a ddychrynai rhag erledigaeth a bygythion preladaidd. Gan hyny, yn 1588, cyhoeddodd draethodyn arall ar yr un testyn; ac un arall yn ystod yr un flwyddyn, tan y teitl, "An Exhortation unto the governors and people of her Majesty's country of Wales, to labour earnestly to have the preaching of the Gospel planted among them." Yr oedd i wr ieuanc gwledig o Gymro fel efe gyhoeddi pamphledau ar ddyledswyddau esgobion ac offeiriaid yn beth nas gellid ei oddef, ac yr oedd phiolau llidrowgawydd y cyfryw yn llawnion, a disgwylid cyfleusdra i'w bwrw ar ei ben. Meddylient hefyd mai efe oedd awdwr pamphledau bustlaidd yn erbyn yr awdurdodau eglwysig a gyhoeddid tan y ffugenw "Martin Marprelate," ond er fod ei draethodau ef yn cael eu hargraffu mewn gwasg gyfrinachol fel y cyfryw, a'i fod feallai yn gydnabyddus a'u hawdwr, nid oes un prawf mai efe a'u hysgrifenodd. Yn hytrach i'r gwrthwyneb, rhoddai ef yn wastadol ei enw yn ddiofn wrth ei waith, ac yn un man y mae yn condemnio arddull wawdlyd a

Digitized by Google

brathog Marprelate. O hyn allan, pa fedd bynag, nid oedd lonyddwch i'r diwygiwr ieuanc yn nherfynau Lloegr. Chwilenwyr yr esgobion, fel cŵn ysglyfaethus, a'i hymlidient yn ddiorphwys. Ei dŷ a'i lyfrgell yn Northampton a anrheithiwyd, a chafodd maer y dref hono orchymyn gan yr uchel-lys eglwysig i'w ddal; tra y rhoddwyd Dr. Some, esgob Caergrawnt ar waith i wrthateb ei bamphledau. Wedi i beiriau erledigaeth fyned yn rhy boeth iddo, efe a ffodd gyda'i deulu bach i Scotland yn 1589, lle y derbyniwyd ef yn garedig, ac y treuliai ei amser yn pregethu, ac yn ysgrifenu i'r wasg. Eithr pan glybu yr archesgob ei fod yn yr Alban, cynhyrfodd y frenhines i ysgrifenu at y Brenin Iago yn deisyf arno yru Penry ymaith o'r wlad hono, ac er i hwnw gydsynio, a chyhoeddi gwys i'r perwyl, gwrthodai y gweinidogion Ysgotaidd roddi lledaeniad iddo; a thrwy hyny gallasai y Cymro ieuanc dreulio oes ddefnyddiol yno, oni buasai ei bryder yn nghylch "anwyl wlad ei enedigaeth," a'i awyddfryd am i oleuni yr Efengyl dywynu arni. Gan hyny, ceir ef yn ol yn Llundain yn Medi, 1592. Nid oedd ganddo unrhyw obaith am ddaioni i Gymru mwyach trwy apeliadau at y Frenhines a'r Senedd; ond ar ei ddychweliad i Scotland, bwriadai ddeisebu ei Mawrhydi am ganiatad i arfer ei ddawn ei hun yn y Dywysogaeth. Yn Llundain cynygiwyd iddo swydd yn mhlith yr Annghydffurfwyr, eithr gomeddodd, "am fy mod yn bwriadu treulio fy nhalent fach yn Nghymru, fy ngwlad dlawd." Wedi treulio chwe' mis yn mysg ei frodyr erlidiedig yn y Brifddinas, efe a ddaliwyd Mawrth 22, 1593, a fwriwyd i garchar; ac fel y dywed Syr Thos. Phillips, "gorfu arno sefyll prawf sydd yn warth ar enw cyfraith Lloegr." Nid oedd yr un ddeddf yn ei gondemio, ond yr archesgob a'i gyfeillion yn sychedu am ei waed, pan nas gallent ei roddi i farwolaeth mewn dull cyfreithlawn, ni phetrusasant fod ei *lofruddwyr*. Am bump o'r gloch prydnawn Mai 29ain, 1593, dienyddiwyd ef yn St. Thomas-a-Watering, Surrey, mor ddirgelaidd ag oedd modd, rhag ofn y bobl. Bu farw yn 34 oed, gan adael gweddw a phedair merch fach i alaru ar ei ol. Nid ymyrodd efe erioed gyda gwladyddiaeth. Ei unig drosedd ydoedd dynoethi mewn iaith greffy camdrefn eglwysig yn Nghymru, a'i broffes gyhoeddus o Annghydffurfiaeth tua therfyn ei oes. Ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, ysgrifenodd lythyrau at ei wraig a'i blant, ac at yr arglwyddddrysorydd Burleigh yn llawn o'r cyffyrddiadau mwyaf teimladwy a llednais, breingarwch a gwladgarwch Cristionogol, wedi eu gwisgo mewn iaith seml, a chyda hyawdledd neillduol. Mewn llythyr at ei wraig a'i blant, dywed:—"Y mae cenedl y Cymry bellach er's canrifoedd wedi bod tan law geryddol Duw; ond hyderaf fod yr amser gerllaw pan y dengys Ef drugaredd iddynt trwy beri i'w Efengyl ddyrchu arnynt; a fy merched anwyl, gweddiwch am hyn yn ddyfal pan y deuwch i wybod pa beth i'w gweddi; a byddwch beunydd yn barod i estyn llaw gynorthwyol i'r plentyn tylottaf a saif mewn angen am eich cymhorth; pa fodd bynag, ad-dalwch y caredigrwydd i'm perthynasau agosaf yno, i fy mam, fy mrodyr a'm chwiorydd, &c., y rhai yr wyf yn sicr a fyddant yn dyner atoch chwi a'ch mam, er fy mwyn i; a byddwch yn gysur neillduol, yn fy lle, i wallt gwyn fy mam dylawd." Deisyfa arnynt weddio tros y frenhines Elizabeth, a bod yn garuaidd wrth drueiniaid a ddigwyddo ddyfod ar eu gofyn o drigolion Scotland. Gedy iddynt bedwar Beibl—un i bob un—fel yr unig gymunrodd oedd ganddo ar eu cyfer. Yn ei lythyr at arglwydd Burleigh, dywedai, ei fod ef yn ymaberthu i ddaioni ei wlad, fel Hegetorides y Thrachiaid, gan annghofio

Digitized by Google

ei beryglon ei hun, ond heb annghofio ei deyrngarwch i'w Dywysog. Fel hyn y bu fyw a marw y Merthyr Penry; pardduwyd ei fuchedd am oesau gan haneswyr annwybodus a rhagfarnllyd, ond y mae pob meddwl goleuedig bellach yn cydnabod mai ei unig fai ydoedd sel danllyd tros achos ysprydol ei wlad, a'i ymdrechion diwrthgil i fod o wasanaeth a lles iddi.—Dr. Waddington's *John Penry.*

PEIOZZI (HESTHER LYNCH), neu Piozzi, ydoedd ferch ac aeres John Salisbury, Ysw., o Bachegraig, ger Dinbych, ond a anwyd yn Bodfel, sir Gaernarfon, yn 1739. Gan ei bod yn foneddiges ieuanc o dalentau dysglaer, addysg uchel, yn nghyda thegwch pryd a gwedd, enillodd ffafr yn fuan yn nghymdeithas ffasiwnol Llundain, ac ymunodd mewn priodas gyda darllawydd cyfoethog, o'r enw Mr. H. Thrale, yr hwn a gynrychiolai Southwark yn Nhy y Cyffredin. Yn mhen tua dwy flynedd ar ol priodi, daeth i gydnabyddiaeth â'r enwog Ddr. Johnson, a thrwy y gydnabyddiaeth hono, a barhaodd am lawer o flynyddau, enillodd safle uchel yn mhlith llenyddion Seisnig. Pan fu Mr. Thrale farw yn 1781, hi a ymneillduodd gyda phedair merch i Bath, lle y cyfarfyddodd â pheroriaethwr Italaidd o'r enw Gabriel Piozzi; syrthiodd i serch tuag ato, a phriododd gydag ef yn 1784. Darfu i'w hen gyfaill, Dr. Johnson, wneud ei oreu i'w pherswadio rhag priodi, a chan na thyciodd, llwyr ddirymwyd eu cyfeillach ychydig flynyddau cyn marwolaeth y llenor bydglodus hwnw. Pa fodd bynag, ni rwystrodd hyn iddi gyhoeddi yn 1786 gyfrol o "Anecdotes of Dr. Samuel Johnson, during the last Twenty Years of his Life." Yr oedd amryw bethau yn y llyfr hwn a roddasant dramgwydd mawr i Boswell, a chyfeillion eraill Johnson; y rhai a briodolent ei gyhoeddiad yn hollol i awydd yr awdures am ddial a phorthi malais; ac er y gallesid yn gyfiawn gymeryd y golygiad hwnw, nid oedd y blaid arall ychwaith heb ei resymau, a bu cryn ryfel bapur rhwng y ddwyblaid, defnyddiau yr hon a welir mewn gwawdgan alluog o eiddo Dr. Walcot (Peter Pindar), a elwid "Bozzy and Piozzi." Yn y cyfamser, cyhoeddodd Mrs. Piozzi ddwy gyfrol arall; yn 1788, "Letters to and from Dr. Samuel Johnson." Eithr cyn cyhoeddiad y rhai hyn, yr oedd hi a'i gwr wedi myned i Florence, ac yno mewn cysylltiad â thri boneddwr, y rhai oeddynt yn llenorion dysglaer y pryd hwnw, eithr bellach ydynt wedi llithro bron yn llwyr i ebargofiant, sef Merry, Greathead a Parsons, sylfaenwyr y dosparth o farddoniaeth a adwaenid wrth yr enw "Della Crusca," hi a argraffodd, eithr ni chyhoeddodd, gasgliad o ddarnau rhyddieithol a barddonol tan y teitl "The Florentine Miscellany." Ei gweithiau eraill ydynt, 1, "Observations and Reflections made in the course of a journey through France, Italy, and Germany," dwy gyf. 1789; 2, "The Synonomy, or an attempt at regulating the Choice of Words in Familiar Conversation," dwy gyf. 1794; 3, "Retrospection, or a review of the most striking and important Events, Characters, Situations, and their Consequences, which the last Eighteen Years have presented to the view of Mankind," dwy gyf. 1801. Dywedir iddi gyfranu amryw ddarnau rhyddieithol a barddonol i gyfnodolion ei dydd; eithr cydnabyddir yn lled gyffredinol na chyfansoddodd ddim cystal â rhai o'r pryddestau a gyfansoddodd mor fore â 1765, i gyfrol o amrywiaethau a gyhoeddwyd gan Anna Maria Williams, yn enwedig yr un a elwid "The Three Warnings." Hi a oroesodd Mr. Piozzi, yr hwn a fu farw yn 1809; a bu hithau farw mewn oedran teg yn Clifton, ger Bristol, Mai 2, 1821.—Wms. *Em. Welshmen.*

Digitized by Google

PEREDUR, athraw coleg Illtyd, tua therfyn y pumed ganrif. Mab ydoedd i Elifer Gosgorddfawr. Yr oedd llwyth Peredur yn un o'r "tri anniwair deulu," am iddynt adael eu harglwydd y noson cyn ei frwydr âg Ida, ac yn y frwydr hono y lladdwyd Peredur.

PEREDUR AB EFRAWG, arwr un o'r hen Fabinogion Cymreig, a phenaeth yn nechreu y 6ed ganrif. Cofnodir ef gan Aneurin yn y *Gododin*, fel "Peredur arfau dur," a dywedir yno iddo syrthio yn mrwydr Cattraeth. Molir ei wroldeb gan feirdd y Canoloesau. Rhestrir ef yn y *Trioedd* gyda Bort a Galath fel "tri marchawg llys Aurthur," y rhai a fuont ar ymchwil am y *Greal*. Y mae dywediad o'i eiddo yn *Chwedlau y Doethion*, sef "Calettach yw dewr na dur."

PERIS, sant yn y 7fed cant, a mab i Helyg ab Glanawg. Gelwir ef yn *Bonedd y Saint* yn "sant a chardinal o Rufain." Sefydlodd eglwys Llanberis, sir Gaernarfon; ac efe yw sant gwarcheidiol Llangian, yn yr un sir, yr hwn a sefydlwyd gan Gian, ei was. Cedwid ei wylmabsant Rhagfyr 11.

PERROT (SYR JAMES), mab annghyfreithlawn i'r Syr John Perrot isod, ac a anwyd yn sir Benfro yn 1571. Pan yn bumtheg oed, cafodd ei dderbyn fel boneddwr cyffredin yn ngholeg Iesu, Rhydychain; eithr gadawodd y lle cyn ei raddio, ac ymneilduodd i'r Inns of Court. Wedi hyny, bu yn ymdaith ar y Cyfandir, ac ar ol dychwelyd, trigianodd ar ei etifeddiaeth yn Haroldston, sir Benfro. Gwnaed ef yn farchog, a bu yn eistedd mewn amryw seneddau yn amser Iago I. Fel seneddwr, yr oedd yn llefarwr mynych a gwrol. Cymerodd ran yn y ddirprwy a benodwyd i ymchwilio i achosion eglwysig a milwrol y deyrnas. Yr oedd yn awdwr y gweithiau canlynol:—1, "The first part of the consideration of humane conditions," &c.; 2, "Meditations and Prayers on the Lord's Prayer and Ten Commandments," 1630; 3, "A Book of the Birth, Education, Life, and Death, and singular good parts of Sir Philip Sydney." Bu farw yn Harolston, Chwef. 4, 1656, a chladdwyd ef yn eglwys Hwlffordd.—Wood's *Athen. Oxon.*

PERROT (SYR JOHN), ydoedd fab Syr Thomas Perrot, o Haroldston, ger Hwlffordd, sir Benfro, lle y ganwyd ef tua 1527. Wedi derbyn addysg gyfaddas i'w dras a'i waedoliaeth, yn ol defnyddiai yr oes, danfonwyd ef pan yn 13eg oed, at ardalydd Winchester, arglwydd-drysorydd Lloegr ar y pryd, er cwblhau ei addysg trwy gynghorion a dylanwad y gwladlywiwr clodfawr hwnw. Yr oedd Perrot yn un o Farchogion y Badd-dŷ yn nghoroniad Iorwerth VI., yr hwn a goleddai syniadau uchel iawn am dano. Ar esgyniad y frenhines Mari, carcharwyd ef am lochesu Protestaniaid yn ei dŷ yn Nghymru, ond gan fod iddo luaws o gyfeillion, a bod y frenhines yn hoff ohono, rhyddhawyd ef yn fuan. Pan ddaeth Elizabeth i'r orsedd, cafodd dderbyniad croesawus eilwaith i'r llys; ac yr oedd efe yn un o'r pedwar marchog a ddygent y *canopy* ddydd ei choroniad. Yn 1572, danfonodd y frenhines ef drosodd i'r Iwerddon, fel arglwydd-lywydd Munister, yr hwn le oedd ar y pryd mewn gwrthryfel; eithr trwy ei drefniadau doeth a phwyllgar ef, darostyngwyd y dalaeth yn fuan i heddwch a dyddiolrwydd. Dewiswyd ef yn nesaf yn llyngesydd nifer o longau ar gyfer yr Iwerddon, yr hwn a fygythid gan yr Yspaeniaid, eithr wedi bod yn gwib-forio am yspaid, a chael nad oedd perygl, efe a ymneilduodd i'w etifeddiaeth yn Nghymru. Yn 1582, gofynwyd ei gynghor parth y dull goreu i ddarostwng gwrthryfel iarll Desmond yn yr Iwerddon, a threfnu y deyrnas hono mewn modd mwy llywodraethus, ac efe ysgrif-

Digitized by Google

odd draethodyn yn cynwys ei olygiadau ar y pwnc, yr hwn a ganmolid gymaint fel y penodwyd ef yn 1583 yn arglwydd-raglaw Iwerddon. Yr oedd ei brofiad eisoes yn y wlad, a'i gywirdeb diffuant, yn ei wneud yn wr tra chymhwys i lanw y swydd uchel hono. Yn fuan, ymgymerodd a thaith trwy y wlad, fel y gwelai ac y clywai ei hun y cwynion, ac y gallai gymhwyso moddion priodol i'w symud ymaith. Pa fodd bynag, darfu i'w fesurau llymion, godi llawer o elyniaeth yn ei erbyn, yr hyn a barodd i'r llywodraeth ei alw yn ol yn 1588, pan yr hwyliodd o Ddublin i'w gastell Carew, sir Benfro. Eithr nid hir y cafodd fwynhau heddwch neillduedd, canys cyhuddwyd ef o deyrnfradwriaeth, ac wedi ei ddal a'i ddodi yn y Twr, dygwyd ef i brawf Ebrill 27, 1592, gerbron dirprwyaeth neilldual yn neuadd Westminster, lle, ar ol ymchwiliad caled i'w weithredoedd, ei eiriau, ac hyd yn nod ei feddyliau, cafwyd ef yn euog, a dedfrydwyd ef i farw ar yr 16eg o Fehefin canlynol. Pa fodd bynag, y frenhines a ataliodd rym y gyfraith, yr hon a gredai ei fod yn dyoddef yn annheg; a daeth elefyd arno, yr hwn a derfynodd ei drallodion trwy farwolaeth naturiol yn Medi y flwyddyn hono. —*History of Sir J. Perrot; State Trials;* Camden's *Elizabeth.*

PERROT (Robert), cerddor enwog yn ei ddydd, ac ail fab i George Perrot, o Haroldston, sir Benfro. Yn 1515, yr oedd yn wyryf mewn cerddoriaeth, ac yn organydd coleg Magdalen, Rhydychain, a chymerodd radd yn ei wyddoniaeth hoff. Cyfansoddodd luaws o gorganau eglwysig, a gweithiau eraill, a bu yn haelfrydig wrth ei goleg. Bu farw yn 1550. Efe oedd cyff teulu y Perrotiaid o Northleigh, sir Rhydychain.

PERRY (Parch. Henry), neu Parry, ieithydd dysgedig, ydoedd frodor o sir Fflint, ac yn hanu o deulu hynafol a pharchus—yn disgyn o Ednywain Bendew, pen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Addysgwyd ef yn Gloucester Hall, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn y celfyddydau, ac y gwnaed ef yn B.D. o goleg Iesu yn 1597. Bu am yspaid yn ymdaith ar led, ac yna ymsefydlodd yn Mon, lle y daeth yn gapelan i Syr Richard Bulkley; ac ar farwolaeth ei wraig gyntaf, efe a briododd ferch i foneddwr o'r enw Robert Vaughan, o Beaumaris, pan y cyhuddid ef fod ei wraig gyntaf yn fyw. Rhoddes yntau brawf o'i marwolaeth, a chyhuddodd ei athrodwyr o falais ddrwg. Yr oedd yn awdwr llyfryn dysgedig ar Ramadeg Cymraeg, a'r cyntaf a ymddangosodd ar y pwnc, o'r enw "Egluryn Phraethineb, sev Dosparth ar Retoreg, un o'r saith Gelfhydhyd, yn dyscu lluniaeth ymadrodh a'i pherthynasau." Yr oedd rhag-gyallun y gwaith hwn wedi ei dynu gan William Salisbury, eithr cwblhawyd ef gan Perry yn 1580. Ni chyhoeddwyd ef, modd bynag, hyd 1595, a'r pryd hwnw ar draul Syr John Salisbury, o Leweni. Yr oedd hefyd yn awdwr Geiriadur Cymraeg, yr hwn ni chyhoeddwyd, eithr a ganmolir yn uchel gan Dr. Davies, Fallwyd, yn ei ragymadrodd i'w Eiriadur. Cafodd rectoriaeth Rhoscolyn, Mon, yn 1601, yr hwn a gyfnewidiodd yn 1606 am eiddo Trefdraeth, yn yr un sir. Penodwyd ef yn ganon yn mhrifeglwys Bangor yn 1612, ac yn rector Llanfachreth yn 1613. Bu farw yn 1617. Wyr iddo ef oedd y dysgedig Dr. Henry Maurice.—Wms. *Em. Welsh.*

PERYF AB CEDIFOR, barad rhwng 1160 a 1200. Y mae un cyfansoddiad o'i waith, sef anerch i Hywel ab Owain Gwynedd, i'w weled yn y *Myv. Arch.*

PETER (Parch. David), gweinidog enwog gyda'r Annibynwyr yn Nghaerfyrddin, a anwyd yn Aberystwyth, yn 1765; a phan nad oedd efe ond baban, symudodd ei rieni i'r Ceinewydd, yn yr un sir. Saer

Digitized by Google

llongau oedd ei dad, ac yr oedd efe a'i briod yn aelodau ffyddlawn o'r Eglwys Sefydledig. Wedi iddo dderbyn cymaint o ddysg ag a allasai gael yn yr ardal yr oedd yn byw ynddi, dechreuodd gadw ysgol ei hun yno. Pan nad oedd Ymneilluwyr ond anaml a dirmygedig yn y wlad, efe a fwriodd ei goelbren yn eu plith; ac wedi ymuno â'r Annibynwyr, cafodd dderbyniad i'w hathrofa a gynelid yn Abertawy y pryd hwnw. Dewiswyd ef yn athraw cynorthwyol yr Athrofa hono yn 1789; yn weinidog Heol Awst, Caerfyrddin yn 1792, i ba le y symudesid yr athrofa yn y cyfamser; ac yn brif-athraw y sefydliad yn 1795. Cyfarfyddai ynddo lawer o ragoriaethau oedd yn ei wneud yn un o'r gweinidogion defnyddiolaf a pharchusaf yn Nghymru. Nid oedd ei ddoniau o'r fath fwyaf poblogaidd yn y pwlpud, na'i athrylith bregethwrol yn gref; ond yr oedd ganddo yn helaeth y cyneddfau hyny sydd yn gwneud dynion bychain yn fawr, ac heb y rhai nid yw dynion mawr ond bychain—sef gallu a phenderfyniad i iawn-ddefnyddio ei amser a'i gyneddfau. Hyn oedd dirgelwch llwyddiant a rhagoroldeb ei fywyd. Y mae yn rhaid fod ei lafur yn fawr, pan ystyriom fod dwy ysgol tan ei arolygiaeth, ac yn gweinidogaethu i eglwys fawr; ac anfynych y cyflawnai ei ddyledswyddau trwy eraill. Dywedai un tro, ei fod ef wrth weled cynifer o bregethwyr yn cyniwair trwy y wlad, a bod Caerfyrddin yn lled ddeniadol i'r cyfryw ddyfod ar y Sabbathau, fel y gallasai efe fod heb bregethu i'w eglwys unwaith yn y mis pe rhoddasai ei le i eraill, wedi penderfynu na wnai mo hyny, oblegid y buasai yn niweidio ei gynulleidfa, oddieithr rhywrai neilldnol. Barnai hefyd fod i weinidogion newid yn fynych â'u gilydd yn mhell o fod yn tueddu i'w cysur eu hunain, a llesiant pobl eu gofal. Er fod gan Mr. Peter yr holl orchwylion hyn i fyned trwyddynt bob wythnos, a phregethu mewn dwy iaith bob Sabbath, eto medrai fyned yn mlaen yn esmwyth yn y cyflawniad ohonynt. Fel pregethwr, nid oedd yn hyawdl a firaeth, ac nid oedd un mawredd celfyddydol na thlysni yn nghyfansoddiad ei bregethau, na tharawiadau nerthol a melltenog i deimladau ei wrandawyr; ond yr oeddynt yn llawn o eiriau gwirionedd a sobrwydd. Byddai eglurder ei bregethau yn gyffredin y fath, fel nad oedd modd i neb, a wnai y sylw lleiaf ohonynt, beidio eu deall. Yr oedd ei agwedd brydferth, ddysyml, wresog, a difrifol yn yr areithfa yn rhoddi nerth, awch, a chymeradwyaeth i'r oll a ddywedai yno. Yr oedd ei olygiadau ar athrawiaeth yr efengyl yn wir efengylaidd, a chyfranogai ei bregethau yn helaeth o'r egwyddorion hyn, er yr ymdriniai â hwy yn y modd mwyaf ymarferol. Llwyddodd yr Arglwydd ei lafur a'i ymdrechion yn fawr. Helaethwyd addoldy Heol Awst amryw weithiau yn ystod ei weinidogaeth, ac y mae yn bresenol yn un o'r addoldai helaethaf a phrydferthaf yn y Dywysogaeth. Afreidiol i ni ddywedyd ei fod yn ysgolhaig da, oblegid yr oedd ei swydd, a'r modd y cyflawnodd hono dros gynifer o flynyddau, yn dangos hyny, er y dichon nad oedd ei ragoriaeth yn ymddangos gymaint mewn rhyw un ganghen o ddysgeidiaeth ag oedd yn eangder a chyffredinolrwydd ei wybodaeth yn ngwahanol ganghenau gwybodaeth gelfyddydol. Yr oedd yn meddu manteision mawr i gynyddu yn barhaus yn y pethau hyn, trwy ei berthynas â'r Athrofa. Ni ragorai fel ysgrifenydd ar rai oedd yn llawer llai dynion nag ef. Y mae ei bregeth ar y Dydd yn Gwawrio yn ddernyn ag y mae cryn lawer o ffrwyth a llafur ei feddwl i'w weled ynddi. Ond ei brif waith yw "Hanes Crefydd yn Nghymru," yr hwn sydd siomedig, ac yn dra annheilwng o'i ysgrifenydd. Nid yw ei wir gymeriad yn

Digitized by Google

ymddangos ynddo na thrwyddo. Nid oes anmheuaeth nad yw y llyfr yn cynwys llawer o bethau da, angenrheidiol i ddynion eu gwybod; y mae yn goflyfr defnyddiol o amseriad pethau a gymerasant le yn y byd mewn amser hen a diweddar; ond y cymysgedd anphilosophaidd a gynwysa, a'r dull anghelfydd ac annhrefnus y gosodir hwy wrth eu gilydd, sydd yn ei wneud, feddyliem, yn anmhriodol i'r amcan, ac yn siomedig i'r darllenydd. Y mae yn hawdd gweled, tybiem, fod yr awdwr parchus, pan yn casglu defnyddiau ac yn cyfansoddi ei lyfr, heb un clorian, pwysau, na mesur yn ei law i farnu y defnyddiau a roddai ynddo, nac un wyntyll i ysgaru y gronynau pur oddiwrth y peiswyn a'u hamgylchynent, ond rhoddai y cyfan yn ei sach fel y cyfarfyddai â hwy. Y mae hanesyn yn dyfod i'n cof am fam a merch fechan mewn mynwent yn edrych ar y bedd-argraffiadau yno, pryd y gwaeddodd y ferch fechan allan, "Mam, mam, pa le y maent yn claddu dynion drwg, oblegyd nid oes yma ond dynion da i gyd wedi eu claddu?" Felly wrth ddarllen "Hanes Crefydd yn Nghymru," yr ydym yn gweled fod pawb y crybwyllir am danynt ynddo wedi bod yn ddaionus, defnyddiol, a llwyddiannus. Pa le y mae y cyfeiliornwyr a ddygasant i mewn i'r eglwysi heresiau dinystriol—gelynion cyhoeddus croes Crist—gwrthwynebwyr ac erlidwyr achos y Gwaredwr—rhwygwyr eglwysi Duw—codwyr, pleidwyr, ac amddiffynwyr y dyn pechod, dan rith o grefydd? Nid ydynt i'w canfod yn y llyfr hwn ond yn aneglur ac anfynych iawn. Wedi athrawiaethu a gweinidogaethu am fwy na deugain mlynedd, efe a fu farw Mai 4, 1837, yn 72 oed; a chladdwyd ef yn mynwent ei gapel. Olianwyd ef fel gweinidog gan y Parch. J. Breese, o Lynlleifiad; ac fel athraw, gan y Parch. D. Davies, Pant-teg.—*Hanes Ymneilldu-aeth*, gan Morgan, 431.

PEULAN, sant yn nechreu y 6ed cant. Mab ydoedd i Pawl Hen, ac efe a sefydlodd eglwys Llanbeulan, yn Mon.

PHYLIP BRYDYDD, bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1200 a 1250. Y mae chwech o'i gyfansoddiadau yn argrafledig yn y *Myv. Arch*; cywyddau anerch Rhys Ieuanc, a'i fab Rhys Gryg, tywysogion Deheubarth, ydynt; ac y mae marwnad Rhys Ieuanc yn eu plith, yr hwn a gefnodd ar y byd hwn yn 1222.

PHILLIPS (Parch. Daniel), ydoedd frodor o sir Gaerfyrddin, ac a addysgwyd i'r weinidogaeth tan ofal Samuel Jones, o Frynllywarch. Treuliodd ei ieuentyd yn wyllt ac anystyriol; eithr pan argyhoeddwyd ef o ddrwg pechod, ac yr ymunodd â phobl grefyddol, tynwyd sylw yn fuan at ei dduwioldeb a'i ddoniau anarferol, ac anogwyd ef i ymbarotoi ar gyfer y weinidogaeth. Wedi gorphen ei ysgol, taer anogwyd ef i gymeryd eglwys Ymneilldiol Pwllheli, sir Gaernarfon. Ymsefydlodd yno yn 1684; eithr oblegyd yr erledigaeth boeth oedd yn ffynu ar y pryd, ni ordeiniwyd ef i'r swydd hyd 1688. Ymgartrefai yn y Gwynfryn, ffermdy ger maes ei weinidogaeth; ac yn fuan, priododd weddw yr enwog Henry Maurice, trwy yr hyn y daeth i feddiant o'r fferm grybwylledig. Gymaint oedd rhagfarn a gelyniaeth y werin-bobl yn erbyn crefydd a chrefyddwyr, fel nas gallai gael gwas na morwyn trwy yr holl wlad, ond rhai diwerth a drygionus na roddai neb wasanaeth iddynt. Gorfu arno unwaith gyflogi morwyn ddiras a dilywodraeth, yr hon a regai ac a felldithiai yn ei wyneb. Gan yr arferai Mr. Phillips neilldio i'w ystafell i weddio, y Fagdalen annychweledig hon er boddio ei nwydo gywreinrwydd a edrychai trwy dwll y clo, pan y canfu ei meirtr ar ei ddwylin, a'r dagrau mawrion yn treiglo tros ei ruddiau. Er caleted

Digitized by Google

ydoedd, o hyn allan yr oedd yn greadur gwahanol, ymunodd â'r eglwys, a daeth yn aelod defnyddiol ac anrhydeddus. Yr oedd Mr. Phillips yn wr gweithgar a diarswyd. Er gwaethaf rhagfarn y lluaws, pan ddaeth Deddf y Goddefiad i weithrediad, efe a gymerth ac a gofrestrodd dŷ yn nhref Caernarfon, a dau neu dri eraill cyffelyb yn Mon. Wedi gweinidogaethu yn ymdrechgar a llwyddianus am ddeugain namyn dwy o flynyddau, efe a orphenodd ei yrfa yn 1722. Yr oedd dau o'i feibion hefyd yn bregethwyr, ac y mae ei ddisgynyddion yn lluosog yn Nghymru, Lloegr, ac America; a dywedir na bu dim llai na phumtheg ohonynt yn y weinidogaeth.—*Drych yr Amseroedd.*

PHYLIP FEDDYG, un o deulu Meddygon Myddfai, sir Gaerfyrddin, y rhai o dad i fab a fuont yn enwog am genedlaethau yn y gelfyddyd feddyginiaethol. Yr oedd yn disgyn o Riwallon, yr hwn oedd y cyntaf, hyd y gwyddis, a ysgrifenodd yn Nghymraeg ar y gelfyddyd hono, a Phylip a helaethodd ac a gywirodd awdurwaith ei hynafiad. Y mae ysgrifau o'r ddau waith yn nghadw mewn llawysgrifen yn yr Amgueddfa Brydeinig; ac argraffwyd yr un diwygiedig yn ddiweddar yn Llanymddyfri, tan y teitl, "Meddygon Myddfai," a llawer o bethau dyeithr a lledchwith, yn ngoleu yr oes hon, a gynwysa. Yr oedd Phylip yn byw rhwng 1330 a 1360.

PHYLIP (GRUFFYDD), bardd o Ardudwy, Meirion, yn ei flodeu yn 17eg ganrif. Mab ydoedd i Sion Phylip y bardd, ar farwolaeth yr hwn yn 1620, efe a gyfansoddodd ei farwnad, yr hon, yn nghyda phethau eraill o'i waith sydd ar gael mewn ysgrifen. Canodd awdl ar briodas Owen Wynne, o'r Glyn, yn 1661.

PHYLIP (HOPCIN THOMAS), bardd rhwng 1590 a 1630. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

PHILLIPS (DR. JAMES), ydoedd o Flaenpant, plwyf Llandygwydd, sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn hynafiaethydd enwog. Y mae ar gael lythyr rhagorol o'i eiddo at Edward Prichard, Ystradmeirig, amseredig, "Blaenpant, Chwef. 1760;" ac un arall "Mai 12," o'r un flwyddyn. Y mae un arall oddiwrth S. Pegge at Dr. Phillips, oll ar destynau neu ymchwiliadau hynafiaethol.—*Camb. Register.*

PHILLIPS (JOHN), esgob Sodor a Man, ydoedd enedigol o Ogledd Cymru. Addygwyd ef yn Rhydychain, a chymerodd y radd M.A. fel aelod o St. Mary's Hall, yn 1584. Wedi derbyn urddau sanctaidd, rhoddwyd iddo rectoriaeth Thorp-Basset, yn sir Yorc; ac yn 1591, cafodd fywioliaeth Slingesby. Yn 1601, ac efe yn gaplan i Iarll Derby, penodwyd ef yn archddeon Cleveland, yr hon swydd a ddaliodd trwy gynrychiolydd hyd 1619. Yr oedd hefyd yn archddeon Manaw; ac yn 1604, efe a gysegrwyd yn esgob yr ynys hono. Yr oedd Dr. Phillips yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd ei oes, a phercha ef gan wreng a boneddig ar gyfrif addfwynder a lledneisrwydd ei natur. Yr oedd mor gydnabyddus yn yr iaith Fanawaidd, fel y cyfieithodd iddi yr Ysgrythyrau a'r Llyfr Gweddi Cyffredin. Eithr cyn cyhoeddi y rhai hyn, efe a fu farw yn 1633.—Wood's *Athen. Oxon*; Le Neve's *Fasti*; Train's *History of the Isle of Man.*

PHILLIPS (PARCH. JOHN), diweddar lywydd Coleg Athrawol, Bangor. Mab ydoedd i David a Mary Phillips, Pont Rhydfendigaid, sir Aberteifi. Yr oedd ei nain, o du ei fam, yn gyfnither i'r Parch. John Williams, Lledrod, un o'r gweinidogion efengylaidd a droisant allan o Eglwys Loegr yn nyddiau Rowlands, Llangeitho. Ganwyd ef, fel y tybir, tua diwedd 1810. Treuliodd rau helaeth o'i flynyddau

Digitized by Google

boreuaf gyda'i nain Jane Jones, Tŷ mawr, Rhydfendigaid, yr hon oedd yn wraig grefyddol a rhinweddol. Bu yr amser a dreuliodd gyda'i nain yn dra manteisiol iddo, gan ei bod yn ofalus i feithrin ynddo duedd grefyddol, a'i gadw rhag cael ei lithio i ddilyn llwybrau ofer ieuenctyd y gymydogaeth. Tan feithriniaeth addysg dda yn ddyddiol a Sabbathol y cafodd efe ei ddwyn i fyny o'i febyd. Dywed un o'i hen gyfellion am dano fel hyn:—"Yr oedd prif linellau ei brydferthwch wedi iddo ddyfod yn ddyn, i'w gweled yn eglur ynddo pan yn fachgenyn ieuanc; nis gwelais ef yn ymrafaelio â neb erioed; na, tangnefeddwr a fyddai ef bob amser." Pan oedd tua 14 oed, derbyniodd argraffiadau mwy grymus a dwys ar ei feddwl yn nghylch ei gyflwr ysprydol, yn adeg y diwygiad nerthol a dorodd allan yn nechreu 1825, ac a ymdaenodd dros lawer o ardaloedd sir Aberteifi, pryd y cafodd nifer lluosog eu dychwelyd at grefydd. Ymroddodd chyny allan yn fwy penderfynol i wasanaeth crefydd. Yn ystod y ddwy neu y tair blynedd cyntaf o'i oes grefyddol, trigianai gartref yn cynorthwyo ei rieni yn eu masnach. Yr oedd ei serchawgrwydd a'i hynawsedd yn y sefyllfa hono yn enill iddo gyfeillion lawer. Yr oedd ganddo ddau gyfaill ieuainc neillduol, plant yr un diwygiad ag yntau, yn byw yn yr un pentref. Arferent gyfarfod â'u gilydd amryw nosweithiau yn yr wythnos i gyd-ddarllen, i gyd-weddio, ac i bregethu i'w gilydd. Yr oeddynt ill trioedd yn llwyr fwriadu treulio eu hoes i gyhoeddi i'w cydwladwyr yr efengyl hono y cawsent hwy eu bywyd trwyddi. Enwau ei ddau gyfeillion hyn oedd Evan Richards a William Oliver. Bu farw y ddau cyn dechreu ohonynt bregethu yn gyhoeddus. Cyfansoddodd Mr. Phillips alareb ragorol ar farwolaeth yr olaf, yr hon a argraffwyd yn *Lleuad yr Oes*, am 1828. Cynwysa syniadau da a gwir farddonol, a llawn o deimlad tyner a hiraethus ar ol ei gyfaill. Ond ni ddarfu i Mr. Phillips feithrin y ddawn hon, ac ni wyddis iddo gyfansoddi dim ar gân ond y farwnad dan sylw yn unig. Cyfeiriodd ei lafur a'i awyddfryd i ddefnyddio pob cyfleusdra er cyrhaedd gwybodaeth, fel ag i gymhwyso ei hun i'r gwaith pwysig yr oedd yn amcanu ato. Yn nghylch y pryd hwn, yr oedd yr hen batriarch Williams o Ledrod, wedi symud i fyw i gymydogaeth Llangeitho. Ymddengys ei fod yn coleddu meddyliau uchel am ei gâr ieuanc. Wedi ymofyn yn fanwl yn mherthynas iddo, a chael ei fod yn tueddu yn gryf at waith y weinidogaeth, penderfynodd ar unwaith, oddiar y boddlonrwydd a gafodd ynddo, i'w gefnogi a'i gynorthwyo yn hyny. Mewn canlyniad, anfonodd ei gyhoeddiad y byddai yn pregethu ac yn cadw cyfarfod eglwysig yn Rhydfendigaid ganol dydd gwaith, fel y byddai efe yn arfer gwneud yn fynych, pan y teimlai yn ddyledswydd arno i ymweled â rhai o eglwysi ei wlad ei hun. Aeth yno yn ol y cyhoeddiad, ac yn y gymdeithas eglwysig ar ol y bregeth, rhoddodd achos y gwr ieuanc o flaen y frawdoliaeth, fel un yn dymuno cael caniatad i bregethu yr efengyl. Gan fod Mr. Phillips yn sefyll yn uchel yn nghollwg yr eglwys fel dyn ieuanc crefyddol, derbyniwyd ei gais yn ddiwrthwynebiad, a'r nos Sabbath canlynol pregethodd ei bregeth gyntaf. Yr oedd yn bregeth effeithiol, a chafodd yr eglwys gyflawn foddlonrwydd, er mai ieuanc ydoedd, ei fod wedi derbyn cenadwri o'r nefoedd, a bod ganddo allu i'w thraddodi. Yr oedd Mr Phillips cyn hyn wedi bod am ryw gymaint o amser, ond nid gyda llawer o gysondeb, yn hen ysgol enwog Ystradmeirig, yr hon oedd yn agos i'w gartref. Yr oedd hefyd wedi gwneud defnydd da o lyfrgell a berthynai i gymydog iddo o'r enw Dafydd Morgan. Yn 1829, yr oedd y Dr.

Digitized by Google

Edwards, yn bresenol o'r Bala, y pryd hwnw yn wr ieuanc, yn cadw ysgol yn Llangeitho, a bu Mr. Phillips am beth amser dan ei addysg ef yno. Dangosodd yn fuan fod ei fynediad i Langeithio, nid i segura, ond i ddysgu; ac yn yr adeg hon y ffurfiodd cyfeillgarwch rhwng yr athraw a'i ddysgybl, nad yw angau ei hun yn ddigonol i ddyddimu ei heffeithiau. Tua diwedd y flwyddyn hono, ymadawodd Mr. Edwards o sir Aberteifi, a chafodd Mr. Phillips ar ol bod yn llafurio am ryw yspaid yn y sir hono, ei benodi gan Gyfarfod Misol y sir, fel cenadwr yn Rhaiadr Gwy, sir Faesyfed. Bu yno am flwyddyn neu ychwaneg yn cadw ysgol ddyddiol, ac yn pregethu yn y dref a'r gymydogaeth, a bu ei lafur a'i ymddygiadau yn foddion i enill flafr y trigolion at grefydd a'i chanlynwyr i raddau mawr. Yn nechreu haf, 1832, aeth Mr. Phillips ar gyhoeddiad trwy ranau o siroedd Meirionydd a Chaernarfon; ac yn niwedd yr un flwyddyn, cymerodd daith arall i'r Gogledd, a maes y rhan fwyaf ohono ydoedd sir Fon. Yr oedd yn pregethu yn anarferol o rymus ac effeithiol i gynulleidfaoedd lluosog yn mron yn mhob lle—yr oedd ei faterion yn gymhwys, ei lais yn bêr-seiniol ac ystwyth, a'i holl ddull yn gwneud i'r bobl wrandaw a theimlo. Effeithiodd ei lafur ar ei iechyd, fel y clafychodd ar ei daith yn Mon; ond wedi rhyw yspaid gwellhaodd yn ddigon da i fyned i gymdeithasfa Llanrwst, a gynelid Ion. 3 a 4, 1833. Pregethodd yno yn nodedig o dda; ond yr oedd efe yn edrych mor wael, fel yr ofnai amryw nad oedd iddo ond ychydig amser i fyw, yr hyn oedd yn peri cydymdeimlad dwys a chyffredinol tuag ato. Yn neillduol, y boneddwr caredig John Davies, ysw., o'r Fronheulog, gerllaw y Bala, a'i cymhellodd i fyned gydag ef i'r Fronheulog i orphwys am rai wythnosau, er mwyn adgyfnerthiad iechyd. Ond ni fynai Mr. Phillips orphwys oddiwrth bregethu. Pregethai yn Llandderfel a'r Bala, ac yn amryw o gapelau ereill Penllyn ac Edeyrnion, gydag effeithioldeb arbenig; ac yr oedd yr holl wlad yn cyrchu ar ei ol. Parodd ei boblogrwydd i rai deimlo yn eiddigus tuag ato, ac i gymeryd mantais ar rai ymadroddion anochelgar, ond digon diniwaid, o'i eiddo mewn pregeth yn Llwyneinion, oddiwrth Esa. xlix. 20, i'w feirniadu yn lled wawdlyd ac annheg, mewn llythyr yn y *Dysgedydd*, yr hwn a atebwyd gan ei gyfaill Dr. Edwards; ond mae yr ymdrafodaeth hono wedi hen fyned heibio, fel na wneir ond ei chrybwyll yma, gan i olygydd parchus y cyhoeddiad crybwylledig roddi terfyn arni hefyd yn fuan. Y gyfeillach a ddechreuodd y pryd hwn rhwng Mr. Phillips a Mr. Davies a'i foneddiges deilwng, a barhaodd hyd y diwedd. Yn fuan ar ol hyn, penderfynodd ei gyfaill Edwards ac yntau fyned i Brifysgol Edinburgh. Aethant yno ar eu cyfrifoldeb eu hunain, heb gael ond ychydig o gefnogaeth oddiwrth eu brodyr crefyddol, rhag i ddysg athrofaol niweidio eu defnyddioldeb. Dywedai y Parch. T. Richards, Abergwaen, wedi iddynt orphen eu hamser yno, yn debyg i hyn am danynt:—"Yr oeddem mewn pryder mawr wrth weled Edwards a Phillips yn myned i Edinburgh; ond yn awr yr ydym yn gallu diolch o'n calon i'n Tad nefol am yr addurniadau gwerthfawr a roddodd y nefoedd ar eu hysbrydoedd trwy lafur y Dr. Chalmers gyda Lwynt." Ysgrifena Dr. Edwards am yr adeg hono fel hyn:—"Bum yn cyd-lettya ag ef yn Edinburgh am ranau o dair blynedd; ac yn yr holl amser hwnw ni welais ddim a barodd i mi anmheu uniondeb a phurdeb ei egwyddorion. Yr oedd efrydwyr eraill yn lletya yn yr un tŷ," a byddent yn dyfod atom i gadw addoliad teuluaidd yn gyson. Weithiau, pan fyddai amser yn caniatau,

Digitized by Google

caem ychydig ymddyddan tra buddiol a difyr; ac ar y cyfryw achlysuron yr wyf yn sicr eu bod oll yn teimlo nad oedd yr un ohonynt mewn cryfder meddwl yn rhagori ar Mr. Phillips. Byddwn bob amser yn tueddu i feddwl fod Mr. Phillips yn fwy dyn mewn ymddyddan nag yn y pwlpud. Gŵyr pawb pa fath un ydoedd fel pregethwr; ond nid oes neb wedi ei weled yn gyflawn na chafodd dreulio llawer o amser yn ei gyfeillach. Heblaw ei fod yn bwyllog a boneddigaidd, yr oedd yn meddu hefyd ar lawer o graffder a llawer o gryfder." Yn Mai, 1835, symudodd Mr. Phillips i Dreffynon, mewn cydsyniad â'r alwad arno i gymeryd gofal yr eglwys yno. Mae yn debyg mai efe oedd y cyntaf yn mysg y Methodistiad Calfinaidd yn Ngogledd Cymru a ymgymerodd â bugeiliaeth eglwys neilduol, a gellir dywedyd i'r prawf cyntaf hwn droi allan yn dra llwyddianus. Gwnaeth ei hun yn weinidog i'r eglwys a'r gynulleidfa, yn fugail i'r holl braidd, gan gyfaddasu ei holl orchwylion modd y gallai roddi i bob dosparth ohonynt "eu cyfluniaeth mewn pryd." Gofalai yn neillduol am y bobl ieuainc; arferai gynal cyfarfod darllen gyda hwynt yn wythnosol ar nos Sadwrn, oddieithr pan fyddai oddicartref ar ei deithiau, i'w hyfforddi yn athrawiaethau crefydd. Yn y cyfarfodydd eglwysig, gofalai bob amser am le i brofiad, eto nid esgeulusai athrawiaeth, gan y dygai ar gôf yn fynych y dylai ein holl deimladau crefyddol, a'n cymhelliadau i fyw yn dduwiol, godi oddiar athrawiaethau gras. Byddai y cynulleidfaoedd ar y Sabbathau yn lluosog iawn, ac yr oedd ei weinidogaeth yn enill sylw a chymeradwyaeth mawr pob dosparth o'i wrandawyr, fel y mae ei enw yn perarogli yn eu plith hyd heddyw. Pregethai ar brydiau yn nghonglau yr heolydd; a thrwy hyny, enillai lawer o'r dosparth isaf o'r trigolion i wrandaw yr efengyl. Yn ystod ei arosiad yn Nhreffynon, bu yn dra ymdrechgar i ddileu y ddyled drom oedd ar eu capel; ac yno yr oedd pan y cafodd ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth, yn nghymdeithasfa y Bala, yn Mehefin, 1837. Yr oedd y Methodistiaid eto yn hynod o araf gyda hyn, a dyma y rheswm am oedi cyhyd yn ei amgylchiad ef a'r brodyr eraill a ordeiniwyd ar yr un amser. Yn nechreu 1843, gadawodd Mr. Phillips Dreffynon, wedi bod yno yn agosi wyth mlynedd, a symudodd i sir Fon, i gartref Mrs. Phillips. Yr oedd efe wedi priodi flwyddyn neu ddwy cyn ymadael o Dreffynon. Yn y flwyddyn hon cafodd ei benodi gan y *British and Foreign School Society*, yn oruchwyliwr i'r Gymdeithas dros Ogledd Cymru, mewn canlyniad i ymdrechiadau Hugh Owen, ysw., o Lundain, yn achos addysg rydd ac anmhleidiol mewn cysylltiad â'r Gymdeithas hono. Llafuriodd Mr. Phillips yn egniol a ffyddlawn yn y swydd hon, trwy deithio holl siroedd y Gogledd i gynal cyfarfodydd—i ddeffroi y wlad i ystyried yr angen am addysg—i egluro y drefn Frutanaidd, a chynorthwyo i sefydlu ysgolion yn ol y drefn hono—i gyfarwyddo pwyllgoran lleol i adeiladu ysgoldai prydferth a chyfleus, ac i gael athrawon cymhwys i'r cyfryw ysgolion. Yn 1847, sef wedi derbyn y penodiad hwn, efe a ymsefydlodd yn Mangor, lle y preswyliodd am y gweddill o'i oes. Yr oedd pwyllgor y Gymdeithas uchod yn derbyn yn flynyddol i'r Coleg Athrawol yn y Borough Road, Llundain, nifer o wyr ieuainc o Gymru i'w parotoi yn ysgolfeistriaid. Cafodd 166 eu haddysgu yno o'r flwyddyn 1844 hyd 1858, ond er cymaint y nifer, yr oedd yn fyr i ddiwallu angen y wlad. Yr anhawsder i gael athrawon wedi eu hyfforddi i'r gwaith, a arweiniodd i sefydliad y Coleg Athrawol yn Bangor, gyda'r hwn y llafuriodd Mr. Phillips yn effeithiol am flynyddoedd, nes gorphen yr adeilad brydferth,

Digitized by Google

a gosod i fynu y peirianwaith hyfforddiadol ynddo mewn llawn a llwyddianus weithrediad. Dangosodd ddoethineb a medrusrwydd anarferol yn y llwybr a gymerodd i gael llanerch o dir mewn lle cyfleus i adeladu y coleg, yr hyn a gafwyd ar amodau manteisiol gan y pendefig anrhydeddus Arglwydd Penrhyn; ac hefyd i symud rhagfarn boneddigion y wlad, oedd yn peri i lawer ohonynt ofni rhoddi eu cefnogaeth i'r sefydliad. Yr oedd casglu y swm dirfawr o arian oedd yn angenrheidiol i godi y fath adail gadarn a golygus yn gofyn penderfyniad ac ymroddiad anghyffredin; ond er pob rhwystrau a digalondid, daeth trwy y gorchwyl, a hyny mewn amynedd digyffro, yn hynod o dangnefeddus; a chafodd y fraint o weled yr anturiaeth wedi ei chwblhau, a'r tŷ cysegredig i addysg athrawon y genedl wedi ei agor yn ddiddyled. Bydd y tŷ hwn yn gofgolofn ardderchog iddo tra y saif ohono faen ar faen. Yn Ebrill, 1856, y bu yr ymdrafod cyntaf am gael coleg athrawol i Gymru. Costiodd yr adeilad, &c., £13,000, ac ni chafwyd ond £2,000 gan y Llywodraeth; yr oedd yn eisieu felly £11,000, a disgynodd y gorchwyl o casglu y swm dirfawr hwn ar Mr. Phillips. Teithiodd amrywiol siroedd Gogledd a Deheudir Cymru, ac ymwelodd ag amryw o drefydd Lloegr, a rhai ohonynt fwy nag unwaith, a thrwy ymdrech parhaus a diflino, llwyddodd i casglu symiau digonol i gyfarfod â'r taliadau misol, fel y deuent yn ddyledus, nes gorphen y gwaith; ac y mae yn ddyledus sylwi fod y rhan fwyaf o'r swm mawr a casglwyd yn ffrwyth haelioni pobl gyffredin Cymru, yn enwedig cynulleidfaoedd ac ysgolion Sabbathol y Methodistiaid Calfinaidd, ac y mae y coleg wedi ei ddyogelu am byth yn rhydd-feddiant at wasanaeth y cyhoedd ac addysg anenwadol. Agorwyd y sefydliad yn Ionawr, 1858, mewn ystafelloedd ardrethol, ac fe'i dygwyd yn mlaen felly tra y buwyd yn adeiladu, ac yn Awst, 1862, pan oedd yr adeilad yn barod, symudwyd yr efrydwyr, yn 32 o nifer, i'r coleg. Yn fuan wedi hyny, darfu i'r pwyllgor benodi Mr. Phillips i fod yn llywydd y sefydliad, yr hon swydd a gyflawnodd efe yn ddiwyd a gofalus, a gwyddis yn dda ei fod yn bryderus am lwyddiant ac effeithiolrwydd y coleg hyd y diwedd. Cymerwyd ei amser i fynu mor llwyr gan ei lafur gydag addysg fel na ellir dywedyd fod rhyw newydd-deb yn dyfod i'r golwg o flwyddyn i flwyddyn yn ei weinidogaeth. Arosodd i raddau yr hyn ydoedd pan yr ymgymerodd â'i lafur arall. Eto, yr oedd y gallu anarferol yr oedd yn berchen arno i draddodi, yn nghyda naws efengylaidd materion ei bregethau, yn gwneud lluaws ei wrandawyr yn dra hoff ohono. Mae cof eto am rai oe lfaon iddo mewn cymdeithasfaoedd, pan y byddai "nerthoedd y byd a ddaw" yn ddiau, yn gweithredu ynddynt. Felly yn nodedig yr oedd ei bregeth yn nghymdeithasfa Bangor, 1835, ar y geiriau, "Cymer addysg, O Jerusalem," &c.; ac un arall yn nghym leithasfa Caernarfon, yn 1845, ar "y ffigysbren ddiffrwyth." Gadawodd rai canoedd o bregethau ysgrifenedig ar ei ol; y mae cryn nifer ohonynt wedi eu hysgrifenu yn gyflawn a manwl, ac yn eu plith, dybygem, ei bregethau mwyaf nodedig ac effeithiol. Traddododd Mr Phillips rai darnithiau tra rhagorol, yn enwedig y ddwy a draddododd ar yr ach'y sur canlynol, a gymerodd le yn 1850. Dyna y pryd yr enciliodd arglwydd Fielding (yn awr iarll Dinbych) at Babyddiaeth. Paro d yr amgylchiad hwn gyffro mawr yn y wlad; ac mewn erthygl olygyddol ar y mater yn y *North Wales Cronicle*, sylwodd y golygydd, er bod yn ddrwg ganddo am enciliad arglwydd Fielding at Babyddiaeth, y buasai iddo droi at Ymneillduaeth "yn ddrwg mwy." Traddododd Mr. Phil ips mewn canlyniad i'r sylw hwn ddarlith bobl-

Digitized by Google

ogaidd ar "Babyddiaeth, Eglwysyddiaeth, ac Ymneilldnaeth," yn y Tabernacl, Bangor, Tach. 19, 1850, i gynulleidfa dra lliosog. Parodd y ddarlith hon gynhwrf rhyfeddol. Cynyrchodd ddadleuon ar y mater mewn llawer ardal, ac yn enwedig trwy y wasg Gymreig a Seisnig; a dianmheu i Ymneilldnaeth gael ei osod trwy yr amgylchiad ar dir llawer uwch yn Nghymru. Traddododd ddarlith alluog arall yn yr un lle, Ion. 7, 1852, ar "Eglwys Loegr ac Ymneilldnaeth," mewn ffordd o amddiffyniad i'r gyntaf, ac mewn atebiad i lythyrau lawer gan offeiriaid Pabyddol, ac eraill, yn y newyddiaduron. Mae y ddwy hyn yn argraffedig, a gellir dywedyd fod eu cyfansoddiad a'r traddodiad ohonynt yn feistrolgar dros ben. Yn ei gymeriad personol a theuluaidd, yr oedd ei ymddygiadau yn Gristionogaidd a chyson; yn serchog ac anwyl fel priod a thad, ac fel meistr yn hynaws a thirion at y rhai a fyddent yn ei wasanaeth, a thrwy hyny yn enill eu parch a'u ffyddlondeb. Yr oedd hefyd yn hynod o ddiabsen, ac nid oedd o duedd i dderbyn enllib. Yr oedd ei ffyddlondeb yn fawr fel cyfaill; ni fyddai dim o fewn ei allu yn ormod ganddo ei wneud er mwyn ei gyfeillion. Gellir ychwanegu ei fod yn foreu-godwr, ac yn wr nodedig o gymedrol, yn llwyr-ymataliwr oddiwrth bob diodydd meddwol; nid oedd chwaith yn arfer mygu na chnoi tybacco. Ystyriai y cyfryw bethau yn arferion drwg. Er y cwbl, nid oedd yntau heb ei golliadau a'i wendidau, fel eraill, yr hyn a barodd iddo rai siomedigaethau a phrofedigaethau tra gofidus. Yr oedd wedi enill iddo ei hun radd uchel a safle bwysig yn y cyfundeb crefyddol y perthynai iddo, ac etholwyd ef yn Llywydd Cymdeithasfa y Gogledd am y flwyddyn 1864. Yr oedd yn wr llednais a boneddigaidd, yn hynod am ei ddoethineb a'i bwyll, yn gydwybodol ei egwyddor, ac yn rhyddfrydig ei ysbryd, a meddai gymhwysder mawr i drin materion dyrus, ac i dawelu ymrysonau. Byddai ei wasanaeth yn aml o werth mawr pan fyddai achosion o bwys i gael eu trin. Gwnaeth lawer o les i eglwysi y wlad dan amgylchiadau o'r fath. Yr oedd hefyd yn ddiweddar wedi derbyn gwahoddiad caredig a thaer oddiwrth gyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd yn America, i dalu ymweliad â hwynt yno, a theimlai yntau yn dra awyddus i fyned mor fuan ag y buasai amgylchiadau yn goddef. Ond yn y cyfamser, symudwyd ef oddiwrth bob llafur daearol. Yr oedd ei farwolaeth yn dra annisgwyliadwy i bawb. Ni bu yn glaf ond tua thair wythnos, ac yr oeddid yn gobeithio am ei adferiad hyd o fewn ychydig i'w ddyddiau olaf. Yr oedd ei gyfansoddiad naturiol yn gryf a chadarn, fel yr oedd yn alluog i fyned trwy lawer o waith; ond credir fod ei lafur caled a pharhaus yn ei wanhau yn raddol, ac yn effeithio yn ddirgelaidd i brysuro ei ymadawiad. Bu farw Hydref 9, 1867, yn 57 oed, ac wedi bod yn pregethu tua deunaw mlynedd ar hugain. Gadawodd weddw a phump o blant i alaru ar ei ol, a chylch eang o gyfeillion i gydymdeimlo â hwynt. Fel dyn cyhoeddus a dyn i'r genedl, parodd y newydd am ei farwolaeth brudder cyffredinol. Gellir dywedyd iddo ymadael â'r byd mewn tawelwch mawr; y prif beth oedd ganddo mewn golwg yn ei oriau olaf oedd gogoneddu Duw trwy ymddiried ynddo hyd y diwedd ac yn y diwedd. Yr oedd y teulu ar y pryd yn aros mewn tŷ o'r eiddynt yn y Brynteg, Mon, ac yno y gorphenodd efe ei yrfa. Claddwyd ef y dydd Llun canlynol yn Llaneugrad, yr hon a saif mewn pant o'r neilldu, yn amgylchedig â choed, mewn ardal hynod o anghysbell. Yno y mae claddfa teulu Mrs. Phillips, ac yno y claddesid amryw o'u plant, a fuont feirw yn eu mabandod. Yr oedd y claddedigaeth yn anrhydeddus ac anar-

Digitized by Google

ferol o fawr; yr oedd miloedd o gyfeillion wedi dyfod yn nghyd, a llawer ohonynt o bell ffordd, i arddangos parch eu calonau i'w goffadwriaeth. Gweinyddwyd wrth y tŷ gan Parchn. O. Thomas a Dr. Edwards, a phrin yr oeddynt yn gallu myned yn mlaen gan mor ddryllledig oedd eu teimladau. Darllenwyd y gwasanaeth yn y Llan wrth y bedd (gan fod yr hen eglwys ar y pryd dan adgyweiriad) yn deimladol iawn gan y Parch. James Morris, periglor y plwyf. Ar ol cyfarchiad byr a thra phriodol i'r amgylchiad gan y Parch. Henry Rees, a chanu gair o hymn, gadawyd yr hyn oedd farwol o un o wroniaid Cymru, i huno yn dawel "yn ei argel wely," hyd fore mawr y deffroad cyffredinol, wrth alwad yr udgorn diweddaf.

PHILLIPS (JOHN THOMAS), ydoedd frodor o Lansawel, sir Gaerfyrddin. Bu yn athraw i William, duc Cumberland, ac aelodau craill o'r teulu breninol. Yr oedd yn awdwr epistolau Lladin rhagorol. Gadawodd yn ei ewyllys £60 yn y ffwyddyn tuag at gynal ysgol rad i blant tylodion ei blwyf genedigol; ond bu farw cyn arwyddo yr ewyllys, ac felly collwyd y gwaddol.—*Dleyn MSS.*

PHILLIPS (MORGAN), a anwyd yn sir Fynwy, ac a dderbyniwyd i Rydychain yn 1533. Cynyddai yn anarferol o gyflym mewn rhesymeg ac athroniaeth, ac yr oedd yn ddadleuydd mor graff a galluog, fel yr adwaenid ef pan nad oedd ond gwyryf yn y celfyddydau, wrth yr enw "Morgan the Sophister." Yn 1538, etholwyd ef yn gymrawd o goleg Oriel; ac wedi cymeryd ei raddio yn M.A., rhoddwyd iddo urddau sanctaidd. Yn 1546, gwnaed ef yn benaeth coleg St. Mary's Hall; a thair blynedd ar ol hyny, yr oedd yn un o'r tri a ymgymerasant ddadl gyhoeddus yn yr ysgol dduwinyddol yn erbyn Peter Martyr. Yn 1550, rhoddes ei swydd o benaeth i fynu, ac efe ar y pryd yn B.D.; ac yn 1553, penodwyd ef yn gantor prif-eglwys Tyddewi, gan y frenhines Mari. Yn 1559, sef yn fuan ar ol esgyniad y frenhines Elizabeth, gadawodd ei swydd, ei gyfeillion, a'i wlad, er mwyn ei grefydd, a bu yn trigianu mewn gwledydd tramor, fynychaf yn Douay. Yr oedd yn awdwr amrai lyfrau, ac yn eu plith:—1, "Disputatio de Eucharistæ Sacramento," 1549; 2, "Defence of the Honour of Mary Queen of Scotland, with a declaration of her Right, Title, and Interest to the Crown of England," 1571; 3, "A treatise shewing the Regimen of Women is conformable to the Law of God and Nature," 1571. Argraffwyd y ddau waith olaf yn Leige, a'r blaenaf yn Llundain. Bu farw yn Douay, yn 1577.—Wood's *Athen. Oxon.*

PHYLIP O EMLYN (SYR), bardd ac offeiriad yn ei flodeu rhwng 1440 a 1470. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

PHYLIP (PHYLIP SION), ydoedd fab i'r enwog fardd Sion Phylip o Ardudwy, Meirion, ac fel amryw craill o'r teulu awenyddol hwnw yn ymhwedd gyda cherdd a chân. Y mae llawer o'i gyfansoddiadau ar gael, ac yn eu plith Farwnad Maurice Wynne, o Foel y glo, Ysw., yr hwn a fuasai farw yn Hydref, 1673.—Wms. *Em. Welsh.*

PHILLIPS (PREREGRINE), a anwyd yn Amroth, sir Benfro, yn 1623. Yr oedd ei dad yn ficer y plwyf hwnw, sonir am dano fel hen Buritan da, a dywedir iddo ddyoddef am nacau darllen Llyfr y Chwareuon. Addysgwyd ef gyntaf yn ysgol gyhoeddus Hwlffordd; yna gan gaplan Syr Edward Harley, yn Brampton Bryan, sir Henffordd; a thrachefn tan Dr. Wm. Thomas, wedi hyny esgob Tyddewi; oddiyno aeth i Rydychain, lle yr arosodd hyd doriad allan y Rhyfel Cartrefol. Gweinyddodd gyntaf fel curad i'w ewythr, Dr. Collins, offeiriad Kid-

Digitized by Google

welly, sir Caerfyrddin, o ba le y symudodd i fywioliaeth Llangwm, ger Hwlffordd, lle y trigianodd am lawer o flynyddau. Tynwyd sylw boneddigion yr ardal yn fuan at ei alluoedd, a phenderfynwyd ei dyrchafu i rhyw le mwy cyfaddas a'i gymhwysderau. Mewn canlyniad, darfu i Syr Hugh Owen, Syr Roger Lort, a Syr John Meyrick, roddi iddo fywioliaeth Monkton, ger Penfro; a thrachefn St. Mary's, yn y dref hono; ac hefyd yr eiddo Cocheston. Pregethai dair gwaith bob Sabbath yn y manau hyn, gan wneud daioni mawr. Ystyrid ef y pregethwr goreu yn yr holl barthau hyny; a phan y daeth O. Cromwell i Benfro yn 1648, dymunodd arno bregethu yn un o'r eglwysi crybwylledig gerbron swyddogion ei fyddin, ac enillodd ganmoliaeth mawr o'r herwydd, a chafodd fiafrau lawer oddiar law arwr y werin lywodraeth. Bu wedi hyny, fel yr oedd amgylchiadau yn caniatau, ar daith trwy y sir, gan bregethu yn Nghymraeg a Saesneg; ac hefyd gerbron ynadon brawdlysoedd Aberteifi, Caerfyrddin, a Hwlffordd. Yn ystod gwarchaeaeth Penfro, cafodd P. Phillips waredigaethau hynod, gan ei fod yn byw gerllaw y castell. Yr oedd y milwyr yn yspeilio oddiarno bobpeth bwytadwy, a byddai raid iddo roddi pob dyfais ar waith er cuddio ei luniaeth rhagddynt. Dywedir fod yn rhaid iddo un tro gornelu ei unig fuwch yn yr ysgubor, a'r ychydig flawd oedd yn ngweddill, yn y gobenydd, a rhwng y llaeth o'r ysgubor a'r blawd o'r gobenydd, llwyddwyd i gadw eneidiau a chyrph y teulu wrth eu gilydd am beth amser, pan oedd dinystr, anrhaith, a newyn, yn amgylchynu ei drigfan. Yr oedd efe yn un o'r dirprwywyr a benodwyd i archwilio i gyfaddasder yr offeiriaid yn Nghymru, a phrofodd yn y swydd hono ei fod yn ddyn addfwyn a chymedrol. Pan fwriwyd ef allan o'i fywioliaeth gyda'r Dilwy Fil gan lywodraeth Siarl II. efe a ymneilldnodd i dyddyn ger Hwlffordd, o'r enw Dredgeman Hill. Trefnodd ran o'r tŷ hwnw yn fan i addoli ynddo, a dygodd hyn ef i afael erledigaeth greulon, a charcharau chwerwon. Byddai cofnodi rhestr ohonynt yn ddigon i godi gwrid i wyneb y gormeswr mwyaf caled. Er gwaethaf pobpeth, pa fodd bynag, ni chiliai efe oddiar lwybr ei ddyledswydd, ac y mae ei rinweddau yn y cyfnod hwnw yn rhoddi rhyw fawredd cysegredig ar ei gymeriad. Yn Mawrth, 1668, sefydlodd eglwys yn ei dŷ. Pan ddeddfwyd cyfraith y Goddefiad yn 1687, darparwyd lle o addoliad yn nhref Hwlffordd; ac arferai yntau bregethu bob nos Sabbath yn y dref, a'r bore yn ei dŷ ei hun. Cofrestrwyd tŷ cwrdd Hwlffordd yn ol gweithred seneddol yn Ionawr, 1691; eithr bu y gweinidog ffyddlawn a llafurus farw yn y Medi canlynol, ac efe yn 68 oed. Claddwyd ef yn eglwys Haroldston,—gerllaw y pwlpud, medd traddodiad. Parhaodd yn rheng flaenaf milwyr y Brenin Mawr hyd ei farwolaeth, a phregethodd ddwywaith y Sabbath cyn ei farwolaeth; a'r pryd hwnw yr oedd ei eglwys yn rhifo triugain o aelodau. Y mae ei ddisgynyddion o genedlaeth i genedlaeth hyd y dydd hwn wedi bod yn enwog gydag achos crefydd. Ychydig flynyddau cyn ei farwolaeth, cafodd waredigaeth hynod, yr hon sydd yn haeddu cael ei chofnodi. Tra yn marchogaeth adref yn hwyr un noswaith gerllaw Freystrup, lle y mae llawer o hen byllau glo, damweiniodd syrthio i un ohonynt, yr hwn oedd yn lled ddwfn ac yn haner llawn o ddwfr; eithr gan fod y pwll yn gulach tua chwe' llath o'i safn nag yn y top, glynodd y march yn y fan hono, a'r marchog ar ei gefn. Damweiniodd yn fuan i hen wraig fyddar, a'i hwyres fach ar ei braich, ddyfod heibio y ffordd hono, a'r plentyn wrth glywed swn uchel wedi cryn drafferth a berswadiodd ei nhain i fyned ac edrych yr achos ohono.

Digitized by Google

Pan aeth i'r lle, cafodd allan sefyllfa beryglus Mr. Phillips; hysbysodd y flaith, a thrwy gryn anhawsder, cafwyd yr efengylydd i'r lan. Yr oedd efe yn ymneilduwr cadarn, ond rhyddfrydig. Yn fuan wedi ei droad allan, bu dadl rhyngddo â Dr. Reynolds parth seremoniau a dysgyblaeth yr Eglwys Sefydledig, yr hon a gymerth le yn Nghaerfyrddin; a bu un arall rhyngddo â'i hen athraw, yr esgob Thomas, yr hon a argraffwyd gan yr olaf, yn groes i fwriad, ac yn ddiarwybod i Mr. Phillips.—*Noncon. in Wales*, 253.

PHYLIP (Risiart), ydoedd fab i Sion Phylip o Ardudwy. Yr oedd yn fardd da, ac y mae ychydig o'i waith ar gael, yn mhlith yr hwn y ceir Marwnad i Mr. Maurice Jones, o Benmorfa, yr hwn a fu farw yn 1624.

PHYLIP (Sion). Yr oedd y bardd clodfawr hwn yn byw yn Hendre Waelod, Dyffryn Ardudwy, Meirion, yn 1543; ac yn cydoesi â'r Archddiacon Prys, ac yr oedd yn ddigon o ddyn i dynu'r dorch ag ef, a chyn hired ei wynt, dywedir, ag yntau. Mab hynaf ydoedd i Risiart ab Morgan ab Palws, yr hwn oedd o deulu parchus yn, ac oddeutu Harlech. Graddiwyd ef yn bencerddiad yn Eisteddfod Caerwys yn 1565; a cheir yn y *Brython*, am 1859, t.d. 43, hanesyn wedi ei godi o "Lyfr Ieuan Brydydd Hir," am dano yn colli y ffordd wrth ymdaith i'r cynulliad barddonol hwnw. Yr oedd S. Phylip yn llysieuwr gwych, ac yn freninolwr selog. Bu yn gweithio yn ddu fel cymedrolwr mewn rhyw gweryl a fuasai rhwng William Cynwal a Huw Machno. Efe oedd bardd teulu Corsygedol. Ystyrid ef yn hyddysg mewn tair iaith, sef y Gymraeg, y Saesneg, a'r Lladin. Fel beirdd eraill ei oes, yr oedd yn clera cryn lawer, sef yn ymweled â boneddigion ei wlad, a pharhaodd wrth y dyfyrwaith hwnw hyd nawn ei einioes. Ei daith olaf oedd trwy sir Fon, ac i Leyn a Phwllheli, ac yn y lle olaf y cyfarfu â'i ddiwedd trwy feddi, ar wyl Fair, 1620, yn 77 oed. Claddwyd ef yn Llandanwg, Meirion; cludwyd ef yno mewn cwch ar hyd y mor, a gwnaeth ei fab Gruffydd yr englyn canlynol i'r morwyr oedd yn rhwyfo:—

"O, fwynion ddynion, bob yn ddau,—cyfarwydd,
Cydfwriwch y rhwyfau;
Tynwch ar draws y tonau,
A'r bardd trist yn y gist gau."

Cyfansoddwyd marwnadau iddo gan Archddiacon Prys, Rhisiart Cynwal, Gruffydd Phylip ei fab, Ieuan Llwyd, a Gruffydd Hafren. Ysgrifenodd Huw Llwyd Cynwal englyn beddargraff iddo, ond ni cherfiwyd ef ar glawr ei argel wely hyd 1858, pan y gwnaed hyny ar draul y gwladgar Ab Ithel. Gadawyd ei gareg fedd am lawer o flynyddau heb arni ond "I. PH. 1600," neu 1620, medd eraill, pan y chwanegwyd yr isod o waith Morgan Davies, o'r Blue Lion, Harlech:—

"Bardd dienllib,
Digyffelyb
Fu Sion Phillip—iesin ffelwr
Gwely annghoʼ
Ywʼr daearglo,
Yma heno, y maeʼr henwr."

Ac yn 1858, fel y crybwyllwyd, y canlynol:—

"Dyma fedd gwrda oedd gu—Sion Phylip
Sain a philer Cymru;
Cwynwn fynʼd athraw canu
I garchar y ddaear ddu."

Gwelir "Cywydd y Wylan" o'i waith yn y *Brython* IV. 233; ac y

Digitized by Google

mae amryw ddarnau eraill o'i waith yn wasgaredig hyd ysgriflyfrau barddonol, ac eraill yn argraffedig hyd wyneb y cylchgronau Cymreig. Bardd i feirdd oedd efe yn hytrach nag i'w gened! a'i wlad.

PHILLIPS (PARCH. THOMAS), D.D., Neuaddlwyd. Ganwyd ef Mawrth 29, 1772, yn y Scythlyn, ffermdy yn mhlwyf Llanfihangel-ar-arth, sir Gaerfyddin. Yr oedd ei rieni, John ac Ann Phillips, yn aelodau o'r eglwys Gynulleidfaol yn Mhencader. Thomas oedd eu hail fab, a'u pedwerydd plentyn. Bu ei dad a'i daid yn swyddogion yn yr eglwys uchod. Yr oedd ef o dymher myfyrgar er yn blyntyn; a gwnai sylw manwl o'r oll a welai ac a glywai. Teimlai argraffiadau dwysion ar ei feddwl am bethau ysprydol er yn saith mlwydd oed, yn enwedig wrth wrando y Parch. B. Evans, Drewen, yn pregethu tua'r pryd hwnw. Yr oedd tuedd ddiysgog ynddo i fod yn bregethwr. Nid oedd ynddo ogwyddiad at ddim arall pan oedd yn llawer rhy fachgenaidd i ddeall natur a theimlo pwys y gwaith. Byddai yn fynych yn dynwared pregethu i blantos, ac arferai weddio llawer. Pan tua deg oed, teimlodd argraffiadau a chyffroad grymusach ar ei feddwl wrth weled amryw ieuenctyd yn ymuno â'r eglwys yn Mhencader, yn enwedig y Parch. D. Davies o Abertawy, ag oedd y pryd hwnw yn wr ieuanc, ond safodd ef allan am gryn amser wedi hyny. Yn ystod yr amser hwn bu llawer math o dywydd ar ei feddwl. Weithiau teimlai raddau o dynerwch ac awydd i bethau ysprydol; brydiau eraill, dygid ef ymaith gan lifeir ant o deimladau a floledd ieuenctyd i anngof o Dduw a'i bethau. Llenwid ei feddwl ambell waith âg ofnau, anmheuaeth, digalondid, a pharodrwydd i ymrwystro wrth y naill beth a'r llall. Ond yn ngwyneb ei drallodion, parhaodd i sychedu am wybodaeth, ac ymroddai i ddarllen pob llyfr y deuai o hyd iddo, a gwrandawai bob pregeth a fyddai o fewn ei gyrhaedd; ond methai ddweyd ei dywydd wrth neb—yr oedd, fel y Salmydd, wedi ei "ddal â syndod fel na allai lefaru." Pan tua 18 oed, ymunodd â'r eglwys yn Mhencader, lle y cafodd dderbyniad llon a chroesawus. Trwy ei fod wedi derbyn llawer o fanteision dysgeidiaeth yn ieuanc mewn ysgolion gwledig, ac yntau yn llawn awydd i gasglu gwybodaeth, yr oedd yn helaethach yn y pethau hyn na'r cyffredin o'i gyfoedion. Yn fuan gwelodd yr eglwys hono fod ynddo gymhwysder i'r weinidogaeth, a rhoddasant alwad unfrydol iddo i arfer ei ddawn i bregethu. Yr oedd erbyn hyn wedi cael cryn lawer o ddysgeidiaeth, oblegyd bu y flwyddyn flaenorol yn derbyn addysg dan yr hyglodus Davies, Castellhywel; eithr nid oedd hyny ond codi awydd ynddo am ychwaneg, fel y gwna yn mhob dyn ieuanc meddylgar, sydd am godi yn uwch na bod yn gorach ar hyd ei oes Mewn canlyniad, aeth i athrofa Caerfyrddin, dan ofal y Parch. D. Peter, lle y treuliodd tua dwy flynedd a haner. Tra yn yr athrofa, cafodd alwad oddiwrth eglwys Ebenezer, Pontypwl, yr hon y pryd hyny oedd wedi ei hymddifadu o'i gweinidog, trwy farwolaeth y Parch. Edmund Jones; a thrwy gydsyniad ei athraw cydunodd â'r cais. Bu yno yn nghylch chwe mis, ond ni chydunodd yr eglwys i gwblhau yr alwad iddo. Wedi dyfod adref, bu mewn petrusder yn nghylch myned i Homerton; ond ar anogaeth daer y Parch. B. Evans, ac eraill, efe a ymwelodd a'r Neuaddlwyd, ac wedi aros yno am ychydig, rhoddodd yr eglwys wahoddiad unfrydol a chalonog iddo ddyfod yn weinidog arni, â pha un y cydsyniodd. Er cymaint oedd ei lafur a'i lwyddiant yn y Neuaddlwyd, a'r ardal hono, nid arosai efe o fewn y cylch hwnw yn unig i fwynhau melusion cartrefol; ond yr oedd fel gwron dewr yn meddianu y fath

Digitized by Google

cangler meddwl, bywiogrwydd ysbryd, a sel dros y Gwaredwr, nes y torai allan mewn llafur ar y llaw ddehau a'r aswy. Am ryw gymaint o amser, arferai fyned yn flsol i Bencader, yr eglwys yr oedd yn enedigol ohoni, ac y maethwyd ef gyntaf fel cristion ynddi. Parhaodd i fyned am ugain mlynedd, ddwywaith bob mis i Penrhiwgaled, i gynorthwyo ei gyfaill, y Parch. B. Evans, tra y bu yr eglwys hono o dan ei ofal. Ond y prif leoedd y gwnaeth yr Arglwydd ddefnydd mawr ohono i godi i fyny ei enw yn achubiaeth dynion, a sefydliad ei achos, heblaw y Neuaddlwyd, ydoedd Cilcenin, Nebo, Llanbadarnfawr a Thalybont, lleoedd y bu o fendith neillduol ynddynt. Unodd mewn priodas â merch ieuanc rinweddol iawn, gyda'r hon y daeth i feddiant o gryn lawer o gyfoeth. Priodwyd hwy ar yr un dydd o'r flwyddyn ag y ganed ef, sef Mawrth 29, 1798. Bu Mrs. Phillips yn ymgeledd gymhwys iawn iddo; oblegid yr oedd yn wraig hynaws, a thawel yn wyneb pob croeswyntoedd, yn un haelionus ac yn dilyn lletygarwch. Yn fuan wedi sefydlu yn y Neuaddlwyd, derbyniodd alwad daer o Fachynlleth, sir Drefaldwyn, ac o amryw leoedd eraill, i ddyfod yn weinidog iddynt. Ond bob tro y derbyniai y cyfryw alwadau, cymerai rhyw amgylchiad pwysig le yn y Neuaddlwyd, ag oedd yn ddigonol i beri iddo benderfynu mai nid ei le ydoedd ymadael oddiyno. Ar ol iddo roddi i fynu fyned i Bencader yn flsol, dechreuodd ymweled â Llanbadarnfawr yn y flwyddyn 1802, gyda dyben i sefydlu achos yno, a llwyddodd yn ei amcan. Dangosai fel hyn ei fod yn un o ysbryd cyhoeddus, ac yn un o'r rhai mwyaf felly yn ei oes. Arferai ddywedyd yn fynych mai "nid da oedd i weinidog aros o fewn ei gylch cartrefol, pan fyddai eneidiau o fewn i'w gyrhaedd mewn eisiau ymgeledd." Dechreuodd yn lled fuan fyned i Dalybont, a sefydlodd achos yno hefyd. Tua dechreu 1810, penderfynodd gweinidogion yr Annibynwyr godi Athrofa Ramadegol a Duwinyddol, yn benaf er mwyn y rhai oeddynt yn debyg o fod yn ddefnyddiol fel pregethwyr, ond yn rhy hen i feddwl cael myned i un o'r colegau rheolaidd, gan fod eu telerau yn gofyn i'r ymgeiswyr fod yn feddianol ar fesur o wybodaeth o'r ieithoedd Saesoneg, Lladin, a Groeg. Bwriedid ef hefyd er parotoi dynion ieuainc, o gymhwysderau gweinidogol, a fyddent yn ymgeiswyr am fanteision uwch yn yr athrofa sydd yn bresenol yn Aberhonddu, Caerfyrddin, neu un o golegau Lloegr. Disgynodd ei gofal yn ddamweiniol ar Dr. Phillips. Gwyddom yn dda nad oedd ganddo ef, yn ei sefydliad cyntaf, yr un golwg am fod yn athraw ynddi. Yr oeddym yn bresenol pan oedd y pwyllgor mewn petruster yn nghylch cael ty addas a chyfleus i'w chadw, a hyny yn rhad. Digwyddodd fod y Dr. ar y pryd yn adeiladu ty yn agos i'w drigfa, Penybanc, yn lle i'w blant ei hun gael addysg, a dywedodd y gellid gwneud rhyw ran o hwnw yn lle i'w chadw nes y ceid ei well. Ar hyn penodwyd Mr. John Maurice, mab y Parch. Phylip Maurice, Llanbedr, yn athraw. Yr oedd efe yn wr ieuanc gobeithiol iawn, yn ysgolhaig rhagorol, wedi ei addysgu yn athrofa Caerfyrddin, ac yn meddu llawer o gymhwysderau athrawol; ond oblegyd gwylder ei feddwl, gwrthodai gymeryd arno y fath orchwyl oddieithr i Dr. Phillips ymrwymo i gyd-ddwyn rhan o'r gwaith; ac yn unol â thaer ddymuniad ei frodyr efe a gydsyniodd. Ychwanegodd hyn lawer ar ei lafur am weddill ei oes; oblegyd cymerodd angau ei gyfaill a'i gydweithiwr hoffus ymaith yn fuan yn mlodeu ei ddyddiau, a syrthiodd y gwaith yn gwbl arno ef ei hun. Bu yn un o athrawon mwyaf llwyddianus Cymru, ac ystyrid y Neuaddlwyd mor enwog yn ei

Digitized by Google

amser ef ag y buasai Ystradmeirig a Chastellhywel. Yn 1831, derbyniodd Mr. Phillips y radd o D.D. o goleg New Jersey, America, megys arwydd o barch (os ydyw y cyfryw beth yn arwydd o barch mewn gwirionedd). Yn 1834, efe a gyfarfu brofedigaeth lem yn marwolaeth John, ei fab hynaf—y dostaf, mae yn debyg, a'i cyfarfyddodd ond un, yr hon a'i cyfarfyddodd ychydig fisoedd cyn ei ymadawiad, sef colli ei anwyl briod Mary. Mwynhaodd y Dr. y nifer addawedig o ddyddiau blynyddoedd dyn ar y ddaear, a noswyliodd wedi hir ddydd o lafur caled, a gwasanaeth cyson yn ngwinllan ei Arglwydd, Rhagfyr 2, 1842, wedi gweinidogaethu am 46 o flynyddau. Yn yr yspaid hirfaith hwn, derbyniodd rhwng dwy a thair mil i gymundeb eglwysig; a bu o gylch dau gant o'r rhai a fuont tan ei ofal yn yr athrofa yn weinidogion defnyddiol yn Nghymru a Lloegr. Rhwng darllen, myfyrio, pregethu, teithio, ac addysgu dynion ieuainc, treuliodd fywyd hynod o weithgar a llafurus. Bu fyw i rhyw ddyben; cymerodd feddiant o fensydd newyddion a disathr; planodd eglwysi; bu yn offerynol i argyhoeddi pechaduriad lawer, ac adeiladu y saint; a choronwyd ei ymdrechion â bendith y nef. Profodd lawer o gysuron y nefoedd yn ei enaid ei hun, dyoddefodd aml a blin ofidiau ar ei daith; nid ydoedd heb ei feiau; ni ddiangodd heb saeth yr athrodwr; gwyddai beth oedd siomedigaethau, ond glynodd yn ei broffes; a bu yn rhodio cyhyd ar lan yr Iorddonen, nes yr oedd wedi cynefino â swn ei dyfroedd, ac yn medru edrych yn ddiofn ar ymchwydd ei thonau. Dyma ni wedi cymeryd bras-olwg ar amgylchiadau bywyd ein hen gyfaill. Addefwn yn rhwydd i ni fenthyca rhai pethau o'r traithawd campus ar hanes ei fywyd sydd yn y TRAETHODYDD, heblaw yr hyn a wyddem am dano ein hunain. Fel dyn, o ran gwneuthuriad ei gorph, a'i ymddangosiad personol, yr oedd yn hardd a phrydferth: ac yn rhagori, yn ei ddull a'i agwedd, ar feibion dynion yn gyffredin. Yr oedd yn llawn chwe' throedfedd o daldra; ei wedd yn deg a hoffus; ei lygaid yn ddiuon fel y fran, ac yn llewyrchu diniweidrwydd, hynawsedd, mwyneidd-dra, a sirioldeb yn ei edrychiad; a thrwy ychydig gynhyrfiad, ffrydiai allan o'i enau deimladau tyner ei galon. Nid ymddangosai fod ynddo un uchelgais, hunanfawredd, na rhwysgedd; ond yr oedd yn gydostyngedig â'r rhai isel radd, ac wrth ei fodd yn eu plith. Er hyny, yr oedd ganddo feddwl gwrol, dewr, a chryf iawn i sefyll yn ngwyneb profedigaethau a gwrthwynebiadau, ac i ymgynal o dan feichiau trymion heb rwgnach. Yr oedd yn eon a didderbynwyneb, safai yn ngwyneb gelynion, a medrai argyhoeddi ei gyfeillion o fai yn eifeithiol a didramgwydd. Fel Cristion, ei brif harddwch oedd ei fod yn gosod y pwys mwyaf ar bethau pwysicaf crefydd. Ni wnai nemawr o gyfrif o ddegymu y mintis, yr annis, a'r cwmin, a hidlo gwybedyn; ond cariad at Dduw, cadw ei orchymynion, bod yn ddefnyddiol dros achos Iesu Grist, ac achubiaeth eneidiau oeddynt y pethau yr ymddysgleiriai ei grefydd ef fwyaf ynddynt. Yr oedd yn hynod am roddi eu lle priodol i bethau crefydd. Gwelwyd ef yn fynych yn ei gornel gartref, yn nhy ei gymydogion, ar y ffordd, neu ar y maes, yn ymddyddan am bethau cyffredin yn ddifyrus, ac yn lled ysmala ac ysgafn, fel plentyn yn ymddyddan â phlant. Ond ni welid ef byth yn cellwair, yn ysmala, nac yn ysgafn wrth ymwneud â phethau pwysig crefydd; eithr disgleiriai difrifoldeb a sobrwydd yn ei eiriau a'i wedd wrth eu trin, nid yn yr areithfa yn unig, ond mewn cyfeillachau cyfrinachol gyda'i gyfeillion hefyd pan fyddent yn destyn yr ymddyddan. Ond fel pregethwr, tra-ragorai, mewn am-

Digitized by Google

ryw bethau, ar neb a glywodd yr ysgrifenydd erioed. Yr oedd yn meddu dawn a dull priodol iddo ei hun. Nid oes neb, ar a wyddom, yn medru ei efelychu na'i ddynwared; ac y mae yn anhawdd ei ddirnad na'i ddarlunio, ei glywed yn unig a allai roddi iawn ddirnadaeth ohono. Ni pherthynai iddo ruadau y daran drwstfawr, tywyniad fflamllyd y fellten, a rhuthriadau y gwynt ysgythrog. Yr oedd ganddo lais peraidd a swynol, heb swn uchel, na'r mesur lleiaf o dôn canu. Ni ŵyr yr ysgrifenydd am neb yn nes i'r darluniad a rydd y gwr doeth, pan y dywed, "Geiriau y doethion sydd megis symbylau, ac fel hoelion wedi eu sicrhau gan feistriaid y gynulleidfa." Felly y byddai geiriau y gwirionedd o'i enau yn sicrhau sylw y gwrandawyr at yr hyn a draddodai, yn archolli eu meddyliau, ac yn enill eu teimladau i gydfyned â'r hyn a amcanai. Yr oedd ei weinidogaeth yn un efengylaidd iawn—llawn o Grist a'i groes. Ni arferai unrhyw eiriau chwyddedig a chlogyrnog na ddeallai y bobl; ond yr oedd yn sylweddol, syml, a hynod eglur. Byddai ganddo feddiant ohono ei hun pan yn pregethu wresocaf. Ni byddai ei eiriau yn boddi ac yn cuddio ei fater, fel y mae yn arferiad rhy gyffredin gan lawer o bregethwyr, er eu mawr anfuddioldeb; ond byddai ei faterion ef yn llewyrchu trwy ei eiriau fel canwyll oleu mewn lamp ddysglaer. Yr oedd yn areithiwr naturiol, heb fod yn gelfyddydol fel llawer. Newidiai ei wedd yn naturiol gyda newidiad ei ater. Ni wnai unrhyw symudiadau corphorol oddieithr ychydig weithiau ar ei law ddehau. Byddai ei bregethau yn gyffredin yn fyrion; ond gartref, ar foreu Sabbath, ymollyngai i'r gwaith, a byddai yn nghylch awr; ond edrychai bob amser am eu terfynu mewn eithaf blas. Fel duwinydd, yr oedd yn un manwl a chywir iawn ei olygiadau: a diamheu genym y byddai yn un o'r rhai helaethaf o ran gwybodaeth dduwinyddol yn ei oes, oni buasai i'w natur wanychu i raddau yn anamserol, a'i waith yn cymeryd gofal yr ysgol, ac felly yn gorfod treulio ei amser, a defnyddio egni ei feddwl grymus a threiddgar yn ormodol i ddysgu Virgil, Homer, Horace, a phethau cyffelyb. Nid hyfryd na chyson oedd i dduwinydd agos i ddeugain mlwydd oed ddechreu ad-ddysgu ac ad-chwilio yr hen awduron paganaidd hyn, yn hytrach na bod gyda'i waith priodol ei hun. Pa mor ddefnyddiol bynag y dichon iddo fod yn ei ymchwiliadau hyn, yr ydym yn rhwym o gredu y gallasai fod yn ddefnyddiolach i'w gydwladwyr pe yr ymroddasai i ddilyn ei alwedigaeth ei hun; a gallasai eraill fod yn llawn mor ddefnyddiol i ddysgu *hic, hæc, hoc,* i dwr o ddynion ieuainc, na feddent ei ddawn na'i fedr ef i fyned i mewn i bethau dyfnion duwinyddiaeth y Bibl. Y mae ei Esboniad ar y Testament Newydd yn brawf o hyn. Pa mor ddefnyddiol bynag y dichon iddo fod, y mae yn sicr nad yw yn cyfateb i rym a threiddgarwch meddwl ei awdwr, teilyngdod y gorchwyl, na'r hyn a allasai ei gydwladwyr ddisgwyl oddiwrtho. Y mae yn amddifad o feirniadaeth fanwl, ac addysgiadau goleu, adeiladol, a melus, a arferai gwrandawyr Dr. Phillips gael yn ei bregethau. Y mae mwy ohono i'w weled yn ei bregeth ar natur y ddeddf, a'i holwyddoregau bychain i blant yr Ysgolion Sabbathol, nag yn ei Esboniad. Y prif reswm a ellir ei roddi dros hyn yw, fod ei feddwl a'i amser yn cael ei ddwyn ymaith gan bethau eraill. Colledwyd ef ei hun yn enwogrwydd ei gymeriad, a'i feddianau; colledwyd ei gydwladwyr o'r trysorau a ddisgwylient gael yn ei waith; colledwyd llenyddiaeth ysgrythyrol; a cholledwyd gwneuthurwyr llyfrau trwy i ddarllenwyr Cymru golli eu hyder mewn awduron Cymreig, a darostyngiad eu harchwaeth yn yr

Digitized by Google

Esboniad; a'r cyfan oherwydd na roddodd yr awdwr amser a sylw priodol yn nygiad allan y gwaith. Un o brif ragoriaethau Dr. Phillips oedd ei wresogrwydd, ei ddiwylrwydd, a'i latur gyda'r Gymdeithas Genadol, a'i deimlad dwys dros sefyllfa druenus y paganiaid; ac anrhydeddwyd ef â braint nwchlaw neb yn Nghymru drwy i dri o aelodau ei eglwys gael eu codi i fod yn Genhadon, i lafurio yn mharthau pell y byd, sef Jones, Bevan, a John, heblaw dwy o ferched o'i eglwys a anfonwyd allan, a buont feirw ar faes eu llafur. Ni anghofiwn byth y cyfarfodydd dyddorol, pwysig, a hyfryd a gynaliwyd yn y Neuaddlwyd ar neilldnad y ddau flaenaf, ac yn Penrhiwgaled ar neilldnad yr olaf i waith pwysig y Genhadaeth. Er na fu un ohonynt byw nemawr o amser wedi mynedi ben ei daith, bu y ddau arall yn llafurio yn hir mewn diwrnod poeth iawn, nes y gorchfygwyd eu natur gan bwysigrwydd eu goruchwyliaeth. Cyhoeddwyd y ll frynau canlynol o'i waith: 1, "Pregeth ar 1 Corinthiaid xv. 3," 1803; 2, "Pregeth ar Galatiaid iii. 19," 1803; 3, "Breiniaeth Crist, wedi ei hystyried mewn pregeth ar Luc i. 33," 1812; 4, "Natur Cyfammod Eglwys," 1815; 5, "Ychydig Fasgeleidiau o Sypiau Grawnwin," 1818; 6, "Ychydig o Loffion Grawnwin," 1826; 7, "Esboniad Byr ar y Testament Newydd," 1831; 8, "Gweddi yr Arglwydd wedi ei hystyried yn ddwys a'i heglurò yn amlwg," 1834; 9, "Ychydig o Hymnau Efengylaidd ar Destynau Ysgrythyrol a Phrofiadol."—*Hanes Ymneilldduaeth*, gan Morgan.

PHYLIP (WILLIAM), bardd enwog o Ardudwy, Meirion; ac yn ol yr *Eminent Welshmen*, brawd i Sion Philip. Ond gwedir hyn gan ohebydd yn y *Brython* v. 129, yr hwn a ddywed nad oes rith o sail i'r haeriad, heblaw fod y ddau yn Phylip. Gan na cheir unrhyw brofion tros y naill haeriad mwy na'r llall, nid oes ond eu cymeryd am eu gwerth. Yn ol y *Brython*, ganwyd ef yn Ty'nyberth, ger Talybont, Meirion, a dywedir fod ei dad Philip William yn hen ac oedranus pan ei ganwyd, a mynai rhai y gellid ei "dadu yn fwy godidog." Gan ei fod yn byw yn nyddiau teryslyd y Rhyfel Gartrefol, ac yn freingarwr selog, cyfansoddodd farwnad deimladol ar ol Siarl I., yr hyn a ddygodd arno wg y Gwerinwyr. Atafaelwyd ei feddianau, a gorfu arno yntau, yr hen wr 73 oed, ffoi am nodded i blith twmpathau eithin a chilfachau clogwyni mynyddau Ardudwy. O'r diwedd, daeth i rhyw gymod a'i elynion, a dychwelodd i'w gartref, sef yr Hendref Fechan. Pa fodd bynag, cafwyd allan nad oedd cymdeithas y grug a'r eithin wedi newid ond ychydig ar syniadau gwleidiadol yn hen fardd, ac fel cosb pellach arno, gorfodwyd ef i gasglu trethi Cromwell yn ei gymydogaeth. Yr oedd yn anhawdd i ddichell ddynol ddyfeisio dirwy drymach arno, ond yr oedd yn rhaid i Wm. Phylip ufuddhau, os na fynai gysgu ei nosweithiau drachefn yn mreichiau moelion clogwyni y mynydd-dir, neu mewn rhyw le arall a fyddai gwaeth fyth. Ond yr oedd gan yr hen fardd hefyd ei ffordd o dalu y pwyth. Pan yn tynu allan ei wys swyddol i hawlio y dreth gan ei gymydogion, dywedai,

> "Dyma warant sant tan sel,—atolwg
> Telwch yn ddichel
> Rhag i'r sant, a'i chwant ni chel,
> Gethru a myn'd yn gythrel."

Y mae amryw o'i gyfansoddiadau wedi eu hargraffu yn y *Blodeugerdd*. Claddwyd ef yn mynwent Llanddwywe, Ardudwy, lle y mae ei gareg fedd eto yn aros, ac arni y geiriau hyn, "W. PH. FE.XI."—*Eos Ceiriog*, tan olygiad G. Mechain.

Digitized by Google

PICTON (Syr Thomas), G.C.B., ydoedd ail fab John Picton, ysw., o Poyston, sir Benfro, lle y ganwyd ef yn 1758. Er mai efe oedd y mab ieuengaf, daeth i gryn lawer o gyfoeth ar farwolaeth ei fam. Dewisodd filwriaeth fel galwedigaeth, ac yn Rhagfyr, 1771, cawn ef yn *ensign* yn y 12fed gatrawd gwyr traed. Ymroddodd gyda dyfalwch mawr i ddeall dysgyblaeth a therman ei broffeswriaeth, a chafodd lawer o gyfarwyddiadau gwerthfawr gan ei ewythr, *Lieutenant Colonel* Picton, o tan ba un y gwasanaethai. Yn Mawrth, 1777, dyrchafwyd yntau yn *lieutenant;* ac yn flinedig ar wasanaeth gwarchlu yn Gibraltar, lle yr oedd ei gatrawd ar y pryd yn gwersyllu, gadawodd hi gan ymuno â'r 75ain, gan gael ei gofnodi fel cadben yn Ionawr, 1778. Trwy y cyfnewidiad hwn, collodd y cyfleusdra a chwenychai mor fawr, sef gwaith milwrol, ac felly ni chafodd efe gymeryd rhan yn ngwarchae bythgofiadwy Gibraltar, a gymerodd le yn mhen ychydig fisoedd ar ol hyny. Treuliodd y pum' mlynedd nesaf yn Lloegr. Yn 1783, pan leihawyd y fyddin, yr oedd y 75ain gatrawd yn tario yn Mristol; parodd y son am y symudiad gryn lawer o anfoddlonrwydd, a therodd gwrthryfel allan yn mhlith y milwyr. Pa fodd bynag, llwyddwyd i'w ddarostwng trwy ymddygiad gwrol Cadben Picton, am yr hwn wasanaeth y talodd y brenin ddiolchgarwch iddo, ac addawoddd ei ddyrchafu, yr hon addewid ar ol hyny a lwyr annghofiwyd, fel addewidion breninoedd dychryn-edig yn gyffredin. Wedi i'r gatrawd gael ei chwalu, efe a ymneilldu-odd i sir Benfro ar haner tâl. Arosodd yno am ddeuddeg mlynedd, gan ymblesera yn nifyrion helwriaeth, yn efrydu clasuron, ac yn enwedig perffeithio ei hun yn nghelfyddydwaith rhyfel. Ar doriad allan y rhyfel yn 1793, ceisiodd amryw weithiau gael gwaith yn y gwasanaeth cyhoeddus; ac wedi ei omedd trwy atebion mwys a boneddigaidd, efe a hwyliodd ar ei draul ei hun yn 1794 i'r India Orllewinol, lle yr oedd Syr John Vaughan yn gadlywydd, â'r hwn yr oedd yn gydnabyddus. Yno cydsyniwyd a'i ddymuniad yn ddioed; yr oedd yn dda gan Syr John ei ddewis yn *aide-de-camp,* ac ar yr un pryd ei roddi yn y 17fed gatrawd; ac oddiyno, codwyd ef i fod yn *major* yn 68ain gatrawd, a phenodwyd ef hefyd yn *deputy quartermaster general.* Ar farwolaeth ei noddwr yn 1795, ymbarotodd Picton i ddychwelyd i Loegr, ond cymerwyd ef drachefn i ffafr Syr Ralph Abercrombie, olianydd Syr J. Vaughan, ac yn India Orllewinol yr arosodd ychydig yn mhellach. Fel *aide-de-camp* gwirfoddol i Syr Ralph, bu o fawr gynorthwy iddo yn yr ymosodiad ar St. Lucia; ac fel taledigaeth am ei wrhydri a'i wasanaeth yn yr amgylchiad hwnw, gwobrwywyd ef trwy ei benodi yn *leiutenant colonel* yn y 56ain gatrawd. Cymerodd yn nesaf ran yn yr ymosodiad ar St. Vincent; ac ar derfyn y rhyfelawd blin hwnw, dychwelodd gyda Syr Ralph i Loegr. Tua therfyn 1797, dychwelodd y ddau gyda'u gilydd i'r India Orllewinol, ac yn fuan wedi cyrhaedd yno, cychwynodd y rhyfelawd yn erbyn Trinidad, yr hwn a derfynodd yn narostyngiad yr ynys hono, ac yn mhenodiad Picton yn llywydd arni. Tra yn llanw y swydd hono, ar gais ynad Yspaenaidd, arwyddodd orchymyn i boenyddio caethes o'r enw Louisa Calderon; a chan iddo gael ar ddeall fod hyny yn beth cyffredin, cydsyniodd heb ymofyn yn mhellach i'r pwnc. Pa fodd bynag, gorfu arno sefyll prawf am y weithred hon yn 1806, a dyfarnwyd ef gan y rheithwyr yn euog. Ar ei ddychweliad i Brydain, gan fod lluaws o chwedlau gormodol yn cael eu taenu am ei ymddygiad, caniatawyd iddo brawf o'r newydd, yn ngwyneb yr hwn y cafwyd ef yn ddieuog o unrhyw drosedd fwriadol, ond er hyny arosodd y

Digitized by Google

weithred hono yn llecyn du ar ei gymeriad dysglaer. Yn ystod ei brawf maith a phryderus, amlygwyd serch mawr ei berthynasau tuag ato, a chyfododd iddo luaws o gyfeillion caredig; cynorthwyid ef yn haelionus gan ei ewythr i gyfarfod y costau trymion; ac yr oedd Duc Queensberry mor argyhoeddedig o'i ddiniweidrwydd, fel y cynygiodd yntau wneud yr un gymwynas, ac yr amlygodd ddymuniad i fod yn bersonol gydnabyddus ag ef. Yr oedd ynys Trinidad (o tan arolygiad y Milwriad Picton), wedi codi yn wrthymgeisydd masnachol mor gadarn yn erbyn y cyfandir cyffiniol, fel y cynygiai llywodraethwyr Carracas a Guyana wobr o ugain mil o ddoleri am ei ben. Yn 1809, cymerodd Picton ran yn yr ymosodiad ar Flushing, a phan ddarostyngwyd y dref hono, penodwyd ef yn llywodraethwr arni. Dychwelodd oddiyno i Loegr wedi ei analluogi gan dwymyn dost, eithr adferwyd ef yn fuan, pryd yr ymunodd â'r fyddin yn Yspaen. Dadblygai ei ddewrder a'i wrhydri yn mhob amgylchiad, a pha le bynag yr oedd y frwydr dostaf, yno y gwelid ef yn ei elfen yn nghanol y perygl mwyaf. Adwaenid ei gadran ef o'r fyddin yn "gadran yr ymladd"; ac yn mrwydr ddychrynllyd Badajos, darfu i'r gadran hono gyflawni gorchest gampau mewn dewrineb, a thanbeidrwydd diwrthgil eu hymosodiadau hwy a enillodd y gaer, ac a drodd ffawd y dydd o blaid Prydain. Yn mrwydrau mawrion Busaco, Vittoria, Ciudad Rodrigo, &c., yr oedd efe yn arweinydd buddugoliaethus, a chofnodir ei weithredoedd gwrhydrus gan hanesyddiaeth. Gan ei fod tan orfod i ddychwelyd adref, er adfer nerth ac iechyd, derbyniwyd ef yn groesawus gan y Tywysog Teyrnasol, yr hwn a'i hanrhydeddodd ag urdd y Badd-dŷ; eithr dychwelodd yn fuan i faes y rhyfel. Ar derfyniad y rhyfel Penrhyndirol, cafodd Syr Thos. Picton ddiolchgarwch tra haeddianol y senedd, ac efe a ymneillduodd i'w balas a'i etifeddiaeth yn Nghymru. Yn 1815, gwnaed ef yn Farchog y Groes Fawreddog *(Knight of the Grand Cross)*, a dyna yr anrhydedd olaf ac uwchaf a dalwyd iddo, tra y gwobrwywyd amryw o'i gydswyddogion, nad oeddynt fwy haeddianol nag ef, a dweyd y lleiaf, â lle yn Nhy yr Arglwyddi am eu gwasanaeth. Pan ddychwelodd Bonaparte o Elba, yr oedd yn anmhosibl i filwr o anianawd Picton aros yn segur, a phenodwyd ef, o ganlyniad, yn llywydd ar bumed gadran y fyddin. Gwasanaethodd ei wlad a'i frenin yn ddewr yn y cyfryw swydd, a syrthiodd yn arwr ac yn mreichiau buddugoliaeth ar faes bythgofiadwy Waterloo. Ni wyddid, hyd ar ol ei farwolaeth, ei fod wedi ei glwyfo pan wynebodd ar faes y frwydr, gan fod dwy o'i asenau wedi eu tori yn yr ysgarmes a gymerasai le y dydd blaenorol; ond yr oedd efe wedi celu y ffaith oddiwrth bawb ond ei hen wasanaethwr, yr hwn a rwymasai yr archollion i fynu. Dygwyd ef drosodd i Lundain i'w gladdu yn meddrod y teulu yn mynwent St. George, Hanover Square. Trwy bleidlais seneddol, cyfodwyd cofgolofn iddo yn mynachlog St. Paul; ac un arall ar ol hyny, trwy danysgrifiadau cyhoeddus yn nhref Caerfyrddin. Cyhoeddwyd bywgraffiad ohono yn Llundain yn 1835, gan H. B. Robinson.—*Athenæum*, 1835.

PIRS (Dafydd Sion) ydoedd fardd gwlad lled awenyddol yn byw yn Llanfair Talhaiarn yn ystod y ganrif ddiweddaf. Yr oedd yn cydoesi âg ef yn y lle hwnw Sion Powel o Rydyreirin, Sion Powel y gwehydd, a Ieuan Brydydd Hir—curad Llanfair ar y pryd; a gelwid hwy yn "Bedwariaid Llanfair Talhaiarn."

PLENYDD. "Tri chyntefigion Beirdd Ynys Prydain: Plenydd, Alawn, a Gwron, sef oeddynt y rhai hyny a ddychymygasant y breiniau

Digitized by Google

a'r defoden y sydd ar feirdd a barddoniaeth; ac am hyny eu gelwir y tri chyntefigion," &c. Dywed rhai mai yn amser Prydain ab Aedd Mawr y buant; ac eraill a ddywedant mai yn amser Dyfnwal Moelmud. Yn *Englynion y Gorugau*, dywedir mai mab ydoedd Plenydd i Hu Gadarn, a bod a fynai ef a dyfeisio *Coelbren y Beirdd.—Tri* 58; *Iolo MSS.* 671.

POWEL (ANTONY) ydoedd o Lwydiarth, neu Dir Iarll, Morganwg. Yr oedd yn gasglydd hynafiaethau Cymreig, y rhai, neu ddewisolion o honynt, a gyhoeddwyd yn yr *Iolo MSS.*

POWEL (CHARLES), ydoedd o Gastell Madog, yn Mrycheiniog, ac yn deilliaw oddiwrth William Powel, bardd o'r un lle, ac yn ei flodeu rhwng 1580 a 1620. Charles oedd yr etifedd diweddaf gwryw o'r lle hwnw yn dwyn y cyfenw Powel. Yr oedd yn hynafiaethydd enwog, ac ysgrifenodd am rhyw ymchwiliadau a wnaethai yn bersonol ar gais Mr. Strange, y rhai a gyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Hynafiaethwyr yn Llundain. Yr oedd yn ddyn o dalentau uwch na'r cyffredin, y rhai a feithrinwyd ac a wrteithiwyd ganddo trwy ei waith yn gohebu â llawer o ddysgedigion ei oes, a thrwy ddarllen a hir brofiad, yn ystod ei oes faith. Ba farw yn oedranus yn 1796.—*Llyn MSS.*

POWEL (DAVID), D.D., duwinydd dysgedig, a hynafieithydd enwog, a anwyd yn sir Ddinbych, medd yr *Eminent Welshmen*, ond y mae nodyn ar ymyl dalen copi o'r gwaith hwnw a berthynai unwaith i un o olygwyr y *Gwladgarwr*, yn nha un yr amheua awdwr diweddar y llyfr honiad yr *Eminent Welshmen*, eithr ni rydd unrhyw wrthbrawf tros ei amheuaeth, felly nid oes genym ond cymeryd yr awdurdod hono ac eraill fel y mae. Mab ydoedd i Hywel ab Dafydd ab Gruffydd ab Ithel, a disgynai mewn llinell uniongyth o Llywelyn Aurdorchog. Blwyddyn ei enedigaeth ydoedd 1552. Pan yn 16eg oed, danfonwyd ef i Rydychain, er cwblhau ei addysg. Ni wyddis yn nha goleg y bu ar y cyntaf, ond yn 1571, symudwyd ef i goleg yr Iesu, yr hwn oedd newydd gael ei sefydlu, a graddiwyd ef yn B.A. yn 1572; ac yn M.A. yn 1576. Wedi derbyn urddau eglwysig, cafodd ficeriaeth Rhiwabon, a gwnaed ef yn brepend Llanelwy; a'r flwyddyn ganlynol cafodd rectoriaeth Llanfyllin, yr hon a roddes i fynu yn 1579, pan y cafodd ficeriaeth Meifod. Chwanegwyd iddo yn 1580, y segurswydd o rectoriaeth Llansantffraid yn Mechain, sir Drefaldwyn. Yr oedd bellach yn enwog am ei ddysgeidiaeth, a chynerodd y radd o B.D. yn 1582, ac o D.D. 1583. Yn 1584, dewiswyd ef yn gaplan i Henry Sidney, arglwydd-lywydd Cyffinirau Cymru, yn meddiant yr hwn yr oedd cyfieithiad anorphenedig o Hanes Cymru gan Caradawg, o waith yr hanesydd diwydbwyll Hu ophrey Llwyd. Ar ddymuniad ei arglwyddiaeth, cwblhaodd Dr. Powell y cyfieithiad, a chyfoethogodd y gwaith trwy chwanegu lluaws o nodiadau gwerthfawr. Y llyfr hwn a argraffwyd mewn 4plyg yn 1584. Ei waith nesaf ydoedd dwyn allan argraffiad newydd o *Itinerary* Giraldus Cambrensis, gyda nodiadau, a chynwysai yr un gyfrol hefyd, "Annotationes in Cambriæ, Scriptum per Sil. Giraldum Cambrensem," a "De Britannica Historia recte intelligenda Epistola." Argraffwyd ef gyntaf yn Llundain yn 1583, wedi ei gyflwyno i Syr Phillip Sidney; ac ail argraffwyd ef gan Camden yn yr "Anglica, Normanica, Hibernica, Cambrica," yr hwn a gyhoeddwyd yn Frankfort, yn 1603. Cyhoeddwyd argraffiad arall ohono yn 1806, gan yr hynafiaithydd trylen hwnw, Syr Richard Hoare, barwnig. Yn 1585, cyhoeddodd Dr. Powell hefyd "Historia Britannica," neu

Digitized by Google

Hanes Prydain mewn chwe' llyfr, gan Ponticus Virunius, aralleiriad byr ydyw hwn o waith mawr Geoffrey o Fynwy, ac adargraffwyd ef yn y "Rerum Britannicarum Scriptores Vetustiores," &c., yn 1587. Bu Dr. Powell hefyd o gryn gymhorth i'r Dr. Mo gan yn y gwaith o gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg, yr hwn a orphenwyd ac a gyhoeddwyd yn 1588. Gadawodd lawer o waith llenyddol mewn llawysgrifau heb eu cyhoeddi, yn mhlith y rhai yr oedd Geirlyfr Cymreig, y rhai ni ddaethant byth i oleu dydd. Bu farw yn 1598, a chladdwyd ef yn eglwys Rhiwabon, lle y trigasai am y rhan fwyaf o'i oes. Bu iddo chwech o feibion, ac yr oedd eu henw oll yn diweddu gydag *el*, sef Daniel, Samuel, Gabriel, Raphael.—Wms. *Em. Welsh; Cam. Quart. Magazine*, i. 225.

POWEL (EDWARD), D.D., ydoedd frodor o Gymru, ac a addysgwyd yn Rhydychain, lle y gwnaed ef yn gymrawd o goleg Oriel, yn 1495. Wedi ei raddio yn y celfyddydau, efe a ymroddodd yn gyfangwbl i dduwinyddiaeth, yn yr hon wybodaeth y daeth yn ddiadlenydd enwog, ac y cymeroid ei raddau hefyd. Yn 1501, rhoddwyd iddo beriglorlaeth Bledon, yn esgobaeth Wells, a gwnaed ef hefyd yn brepend yn mhrifeglwys Salisbury. Y Dr. Edward Powel hwn a ddewiswyd, oherwydd ei fawr wybodaeth, a'i benderfyniad dewr, gan y frenhines Catherine yn ddiadlenydd trosti yn y cynghaws pan geisiai ei phriod Harri VIII. ysgariaeth oddiwrthi; a'r Dr. Powel a hynododd ei hun cyn hyny trwy ei sel yn gwrthwynebu syniadau Luther. Ei lyfr yn erbyn y Diwygiwr Germanaidd a elwid, "Propugnaculum summi sacerdotii Evangelici ac septenarii sacramentorum adversus Mart. Lutherum," 1523. Coleddid y meddyliau uwchaf gan brifysgol Rhydychain am ei ddysgeidiaeth, a phan y danfonasant at y brenin Harri i'w hysbysu am y doethorion duwinyddol o'u plith a ysgrifenasant lyfr bob un yn erbyn Luther, gwnaent sylw neilldiol a thra chanmoliaethol o Dr. Powel a'i waith. Ei lyfr arall a elwid, "Tractatus de non dissolvendo Henrici Regis cum Catharinâ matrimonio." Pregethai yn selog tros uwchafiaeth y Pab, ac o ganlyniad, yn erbyn uwchafiaeth y brenin tros eglwys Lloegr, a thrwy hyny tynodd arno wg yr olaf, ac hefyd am wrthod cymeryd llw yr olyniaeth, ac o'r diwedd bwriwyd ef i garchar, condemniwyd ef i farw, a dienyddiwyd ef yn Smithfield, Gorphenaf 30, 1540.—Wood's *Athen. Oxon.*

POWEL (PARCH. GABRIEL), ysgolhaig enwog, ydoedd drydydd mab y Dr. Powell blaenorol, a anwyd yn Rhiwabon, yn 1575. Aeth i goleg Iesu, Rhydychain, yn 1592, a chymerodd y radd o B.A., ac yna gadawodd y brifysgol am dymhor pan y llanwodd y swydd o drydydd athraw ysgol ramadegol y Deon Goodman, yn Rhuthyn. Edmwnd Griffith, wedi hyny esgob Bangor, oedd y cyntaf, a Richard Parry oedd yr ail. Ar ol hyny, dychweloddi Rychychain, ac aeth yn aelod o goleg St. Mary's Hall, ac yn ystod ei arosiad yno cyhoeddodd amryw lyfrau, trwy y rhai yr enillodd gryn enwogrwydd, ac y dygwyd ef i sylw ei gydwladwr, Dr. Richard Vaughan, esgob Llundain. Cafodd ddeiryniad i dy y prelad hwnw, a gwnaed ef yn gaplan y teulu, a diau y buasai hyny yn llwybr dyogel iddo i ddyrchafiadau uchel eraill, ond bu yr esgob a'i gaplan farw o fewn ychydig amser i'w gilydd yn ystod 1607. Nid oedd Gabriel Powel ond ychydig tros ei ddeg ar hugain oed pan y bu farw, ac eto ystyrid ef yn un o ysgolheigion goreu ei oes, a chol ddid y disgwyliadau uwchaf yn ei gylch. Dyma restr o'r llyfrau a gyfansoddodd, a gymerwyd o Wood's, *Athen. Oxon*:—1, "The resolved Christ-

Digitized by Google

ian," 3ydd argraffiad o'r hwn a gyhoeddwyd yn 1602; 2, "Prodromus, a Logical Resolution of the first chapter of the Epistle of St. Paul to the Romans," yr hwn a argraffwyd yn Llundain yn 1600, ac yn Rhydychain yn 1602, a thrachefn yn yr iaith Lladin; 3, "The Catholic's supplication to the King for toleration of the Catholic Religion, with notes and observations," 1603: 4, "A consideration of Papist reason of state and religion, for a toleration of Popery in England, intimated in their supplication to the King's majesty, and the state of the present Parliament," 1604; 5, "The unlawfulness and danger of Toleration of divers religions, and conivance to contrary worship in one monarch or Kingdom," 1605; 6, "Refutation of an Epistle Apologetical, written by a Puritan-Papist to persuade the permission of the promiscuous use and profession of all sorts of heresies," 1605, 7, "Consideration of the deprived and silenced Ministers arguments for their restitution to the use and liberty of their ministry, exhibited in their supplication to this present parliament," 1606; 8, "Disputationes Theologicæ de Antichristo et ejus Ecclesia," 1806; 9, "De Adiaphoris theses Theologicæ et Scholasticæ," 1606, yr hwn a gyfieithwyd i'r Saesneg gan "T. J." o Rydychain, ac a argraffwyd yn Llundain yn 1607; 10, "Rejoinder unto the mild defence, justifying the consideration of the silenced Ministers supplication to the Parliament;" 11, "A Comment on the Decalogue;" ac amryw lyfrau eraill, ar bynciau gwleidiadol y dydd. Y mae yn y llyfrau uchod lnaws o syniadau anghyson ag egwyddorion gwir ryddid crefyddol, ond dangosant ddysgeidiaeth drylawn eu hawdwr, a phrofant y fath dalent ddysglaer a gollwyd yn ei angau cynar ac annisgwyliadwy.—Wood's *Athen. Oxon;* Wm. *Em. Welsh; Llegn MSS.*

POWEL (GRIFFITH), ydoedd fab ieuangaf Thomas Powel, ysw., o Lansawel, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef yn 1561. Pan yn ugain oed, derbyniwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain, lle ei dewiswyd drachefn yn gymrawd. Wedi ei raddio yn y celfyddydau a'r gyfraith wladol, dewiswyd ef yn 1613 yn benaeth y coleg hwnw, a chyfrifid ef ar y pryd gan bawb yn enwog fel athronydd a dadleuydd, cystal ag yn ddysgawdwr rhagorol. Yn 1524, cyhoeddodd, "Analysis Analyticorum posteriorum, seu librorum Aristotelis de Demonstratione, cum Scholis;" a "Analysis libri Aristotelis de Sophisticus Elenchis," 1594 a 1664. Bu farw yn Mehefin 1620, a chladdwyd ef yn eglwys St. Michael, Rhydychain, yn nghangell coleg Iesu. Gadawodd ei holl ddifeddiaeth at wasanaeth ei goleg, a chyda y rhai hyn ac arian eraill prynwyd tiroedd er mwyn cynal un o gymrodyr coleg Iesu."—Wood's *Athen. Oxon.*

POWEL (SYR JOHN), ydoedd o Broadway House, plwyf Llansadwrnen, sir Gaerfyrddin. Yr oedd efe yn un o farnwyr Llys y Penadur oedd yn eistedd ar brawf y Saith Esgob, yn 1668, tan deyrnasiad Iago II. Yr oedd yn gwahaniaethu oddiwrth y lleill ar y faine yn yr achos hwnw, a thrwy ei gywirdeb annhyblyg ef y cawsant eu rhyddhau rhag y cyhuddiad a ddygid yn eu herbyn; ond achlysurodd hyn iddo gael ei ddiswyddo. Bu farw yn 1696, yn 63, a chladdwyd ef yn nghangell eglwys Llacharn, lle y mae gwyddfa i'w goffadwriaeth yn cannol ei ymddygiad ar y prawf crybwylledig.—*Llegn MSS.*

POWEL (SION), o Rydyreirin, plwyf Llanfair Talhaiarn, sir Ddinbych, ydoedd fardd gwlad da, a chlochydd y plwyf hwnw, yn ystod y ganrif ddiweddaf. Dywed y Parch. D. Silvan Evans yn y *Brython* v. 41, mai gwehydd ydoedd wrth ei alwedigaeth; ac y mae cywydd yn yr

Digitized by Google

cyhoeddiad o'i waith i'r Haul (cyf. iv. 455), yn mha un y gelwir ef yn "Sion Powel, gwehydd, o Rydyreirin, yn Llansanan," yr hyn sydd yn gamgymeriad, canys nid oes ac ni bu y fath le yn mhlwyf Llansanan. Y mae "Odlig Alarus" hefyd o'i waith yn yr un cyhoeddiad (cyf. v. 113); a "Llythyr at Dafydd Jones o Drefriw" yn yr un gyfrol tudal 41. Hyd y gwyddom ychydig yn rhagor a gyhoeddwyd o waith yr hen fardd hwn, ond y mae llawer o'i bethau yn aros mewn llawysgrifen ac yn meddiant y Parch. D. Silvan Evans. Bu Sion Powell farw yn 1767, a chanwyd ei farwnad gan ei hen gyfaill mynwesol, y Prydydd Hir, yn yr hon y geilw efe ef yn "fardd a Christion da."

POWEL (Thomas), D.D., ydoedd fab i'r Parch. J. Powel, periglor Cantref, sir Frycheiniog, lle y ganwyd ef yn 1608. Aeth i goleg Iesu, Rhydychain, yn 1625, ac etholwyd ef yn ysgolor yno 1627; ac wedi ei raddio yn y celfyddydau, gwnaed ef yn gymrawd. Yna cymerodd ei urddau sanctaidd, a phenodwyd ef yn beriglor ei blwyf genedigol—rhodd ei frawd hynaf. Yn ystod y Rhyfel Cartrefol, dyoddefodd oherwydd ei freingarwch; bwriwyd ef o'i fywiolaeth gan ledaenwyr yr Efengyl yn Nghymru, am iddo ymlynu wrth achos y brenin, ac iddo ddarllen y Llyfr Gweddi Cyffredin. Wedi ei fwrw allan, enciliodd i'r Cyfandir, lle yr arosodd hyd ddychweliad y freninoliaeth yn mherson Siarl II., pryd y rhoddwyd iddo ei le yn ol; ac wedi ei wneuthur yn ddoethawr mewn duwinyddiaeth, penodwyd ef yn ganonwr Llandaf, ac yn ol Brown-Willis, neillduwyd ef gan Siarl II. yn esgob Bristol, ond bu farw cyn esgyn i'r swydd—Rhag. 31, 1660, a chladdwyd ef yn St. Dunstan in the West. Dywed Wood ei fod yn wr boneddigaidd a thra moesgar, yn gydnabyddus â llawer cangen o ddysgeidiaeth, yn athronydd galluog, yn feirniad craff, yn feistr ar amryw icithoedd, ac yn ddigymhar ei wybodaeth mewn duwinyddiaeth. Yr oedd yn awdwr, "Clementa Opticæ; novâ, facili, et compendiosâ methodo explicata," 1651; a "Quadriga Salutis; or the four general heads of the Christian Religion surveyed and explained," 1657, yn niwedd yr hwn y mae rhai nodiadau gan yr awdwr yn Nghymraeg. Cyhoeddodd hefyd y Deg Gorchymyn, y Catecism, a Gweddi yr Arglwydd, yn Nghymraeg a Saesneg. Gadawodd ei waith mwyaf dyddorol yn anorphenedig mewn llawysgrifen, a thybir ei fod bellach ar goll, sef, "Fragmenta de Rebus Britannicis;" yn cynwys traethodau byrion ar hanes, arferion, a chrefydd, yr hen feirdd a derwyddon Prydeinig. Bu ei fab Thomas Powel hefyd yn beriglor Cantref.—Wms. *Em. Welsh.*

POWEL (Vavasor), yr annghydffurfiwr enwog, a anwyd yn y Cnwcglas, sir Faesyfed, yn 1617. Yr oedd yn perthyn i rai o'r teuluoedd parchusaf yn siroedd Maesyfed, Amwythig, a Threfaldwyn. Ei dad, Richard Powel, oedd foneddwr parchus o'r dref hono; a'i fam oedd ferch un o Vavasors sir Yorc. Wedi derbyn addysg oreu ei sir enedigol, derbyniwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain, lle y dywedir iddo gynyddu yn rhagorol mewn dysg, ond nid ymddengys iddo gymeryd na graddau nac urddau. Ar ei ddychweliad o'r brifysgol, bu yn cadw ysgol yn Clun, sir Amwythig, lle yr oedd ei ewythr Erasmus Powel yn beriglor; ac yn ei gynorthwyo yn y gwasanaeth dwyfol trwy ddarllen y gweddiau. Er ei fod wedi cael addysg dda, ac ar fedr ymroddi i'r weinidogaeth, eto ymddengys na bu a fynai crefydd â'i galon hyd onid oedd yn llawn ugain oed. Ni bu erioed yn darllen y Bibl fel pechadur hyd y pryd hwnw; dechreuodd yn awr ei chwilio am ei fywyd—a chafodd fywyd ynddo. Bu y "Gorsen Ysig," o waith Sibbes, yn gym-

Digitized by Google

horth mawr iddo; ond bu am hir amser fel cwch mewn tymhestl yn methu, gan fawredd yr ystorm, dyfod i gyrhaedd na chilfach na glan. Y mae yn dywedyd am dano ei hun fel hyn:—"Yn yr amser hwn, cefais boenau dirfawr yn fy mhen, yr hwn a barhaodd yn ddidor am amryw ddyddiau a nosweithiau. Yr oeddwn yn meddwl y collaswn fy synwyrau neu fy mywyd; ond trwy diriondeb Rhagluniaeth, daeth llyfr bychan i'm llaw o waith Mr. Perkins, yn yr hwn y mae sylw fel hyn,—'Os yw poenau un asgwrn, neu un dant, am ychydig ddyddiau mor annyoddefol, pa beth fydd poenau yr holl gorph ac enaid yn uffern dros byth?' ac ar hyn cynyddodd poenau fy nghydwybod mor ddirfawr fel yr anghofiais i raddau holl boenau fy mhen." Bu felly dan argyhoeddiadau dychrynllyd,—yn swn taranau Sinai, ac yn ngholwg mellt y ddeddf, am agos i bedair blynedd. Mynych y temtiodd Satan ef i'w ladd ei hun. Arswydai ddwyn cyllell gydag ef i un man, rhag ofn y demtasiwn. Ond o'r diwedd, gostegodd yr ystorm, rhoddodd ei hunan yn gyflawn i Dduw, ac ymgysegrodd gorph ac enaid yn gyfangwbl i'w wasanaeth tros byth. Pa hyd y bu yn sir Amwythig nis gwyddis. Y mae yn debyg mai o dan weinidogaeth dantlyd Walter Cradoc, yr hwn oedd y pryd hyny yn Ngwreesam, y cafodd ei gadarnhau yn ffordd iachawdwriaeth. Daeth W. Cradoc i Wreesam yn 1632, ond ni bu yno yn hir cyn cael ei fwrw ymaith am ei Buritaniaeth; ac yn fuan ar ol hyny bwriodd V. Powel ei goelbren gyda y Diwygwyr erlidiedig. Ymroddodd i lafurio yn egniol, mewn tithio, gweddio, a phregethu. Dywedir y byddai yn arfer pregethu o leiaf *ugain* waith yn yr wythnos, yn ei wahanol gylchdeithiau. Nid oes braidd eglwys na thref yn holl Gymru na bu efe yno yn rhybuddio y presylwyr diofal i ffoi rhag y llid a fydd. Yn 1642, symudodd i Lundain, lle y bu yn pregetha gyda llwyddiant mawr dros ddwy flynedd. Aeth oddiyno i Dartford, Kent, lle yr arosodd am ddwy flynedd a haner, ac yno bu yn tendithiol iawn i droi llawer o encidiau. Yn ystod ei arosiad yn Dartford, torodd pla dychrynllyd allan yno, yr hwn a ysgubai y trigolion wrth y cannoedd ymaith, ond ni chyffyrddodd y "saeth a eheda liw dydd" âg ef. Cyn toriad allan y rhyfel cartrefol, yr oedd erlidigaeth wedi cyrhaedd uchafnod ei greulondeb, yn enwedig tuag at yr annghydffurfwyr yn Nghymru, a syrthiodd V. Powel am ran helaeth o gynddaredd y gormeswyr. Am ei fywyd y ffodd efe i Lundain, ac er diogelwch ei einioes yr arosodd efe yn Lloegr am bedair blynedd a haner, a phan ddiaeth Cymru trwy ffawd y rhyfel tan ddylanwad y Senedd, aeth rhai o aelodau ei eglwys yn sir Faesyfed yr holl ffordd i Kent i'w wahodd i ddychwelyd atynt. Ond cyn myned, ymddengys iddo fod tan arhodd y Gynadledd o Dduwinyddion, a benodasid i brofi a chymeradwyo pregethwyr cyhoeddus; ac wedi derbyn hawleb *(certificate)* arwyddiedig gan ddeunaw o'r profwyr, da th i Gymru, gan ymgyflwyno yn ddiofed ei holl nerth i waith pwysig y weinidogaeth yn mhlith ei gydwladwyr, ac at yr hwn waith yr oedd ynddo gymhwysderau neilltuol. Yr oedd o gyfansoddiad cadarn a nerthol. Teithiai filltiroedd meithion heb ddiflygio. Gweddiai a phregethai yn fynych am dair, pedair, ie, chwe' awr yn nghyd. Yr oedd yn wr cadarn yn yr Ysgrythyrau; galluog ar annaed droi at unrhyw adnod yn y Bibl y sonid am dani—yr oedd yn fynegair Ysgrythyrol y ddo ei hun. Ei ddull o bregethu ydoedd trwy gymhariaethau eglur, a gwasgai y gwirionedd adref gyda ffrydlif o hyawdledd a dawn, nes y byddai yn ddychryn a gorfoledd yn mhlith ei wrandawyr. Nid ymddengys ei fod wedi sefydlu ei opiniynau gwleid-

Digitized by Google

iadol yn ystod y rhyfel; ond ei fod yn credu mai ei ddyledswydd ef oedd pregethu yr efengyl gyda pha blaid bynag y cai gyfleusdra i hyny. Bu am yspaid yn gaplan yn myddin y brenin, ac yr oedd gyda'r fyddin hono yn Mon; o'r ochr arall, coleddid syniadau uchel am dano gan Cromwell; bu yn pre ethu gerbron arglwydd faer Llundain, Rhag. 10, 1649; a cherbron y Senedd, yn y Chwefror canlynol. Yn 1649, yr oedd yn trigiannu ar ei dir ei hun yn y Goetre, plwyf Ceri, sir Drefaldwyn, lle yr oedd ei wraig a'i blant, ond y lle, oherwydd ei alwedigaeth efengylaidd, nid oedd modd iddo ef ei hun aros ond ychydig o'i amser. Tua diwedd 16.?, cefir ef eilwaith yn Llundain. Yr oedd yno pan gymerodd Cromwell y teitl o "arglwydd-amddiffynydd Rhyddlwladwriaeth Prydain Fawr," a gwrthwynebodd y peth yn gyhoeddus, a thraddododd bregeth bwysig y diwrnod hwnw yn eglwys Blackfriars, am yr hyn y cadwyd ef yn ngharchar am rai dyddiau, ac yr arholwyd ef gerbron y Cynghor, ond golivngwyd ef yn rhydd. Y flwyddyn ganlynol, ac mewn cysylltiad âg amryw eraill, cawn ef yn tynu allan wrthdystiad yn erbyn gwaith Cromwell yn trawsfeddianu yr hyn a ystyrid yn gyfystyr â'r orsedd. Ffyrnigodd y Diffynydd a'i bleidwyr yn fawr wrth yr ymddygiad hwn, a chan y tybient mai efe oedd a'r prif law yn y gwaith, danfonwyd byddin o wyr traed i Aberfechan, sir Drefaldwyn, i'w ddal, lle yr oedd efe yn cynal cyfarfod gweddi ar y pryd. Cymerasant ef o flaen *Major-General* Berry i Worcester, yr hwn a'i dosbarthodd yn garedig, ac a'i rhyddhaodd tan ei amod yn ardiawyn na fynychai y cyfryw ymddygiad. Fel hyn, ni bu efe heb ei elynion yn nyddiau rhwysg y Werin-lywodraeth. Ond pan ddychwelodd Siarl II., ymdywalliodd ffid y llywodraeth a'i elynion arno yn ddidrugaredd. Ebrill 23, 1660, cyn toriad dydd, daeth byddin o filwyr at y Goetre, ac a'i cymerasant yn ddiryboddl ac yn hollol ddiachos i garchar y sir; ac ni chafodd ond ychydig rydd'id hyd angau wedi hyny. Symudwyd ef o garchar Trefaldwyn i'r Aiwythig, ac wedi bod yn garcharor yno am naw wythnos, rhyddhawyd ef. Yn mhen tair wythnos, daliwyd ef drachefn, dan y cyhuddiad o gabledd, gwrthryfel, a theyrnfradwriaeth; a bwriwyd ef i garchar Trefaldwyn: ac wedi rhai misoedd yno, a gwrthod cymeryd y llwon na chy fymaurfio, dygwyd ef o flaen y brenin a'i gynghor; a'r canlyniad fu i dderfidodi ei garchar Fleet Street, Llundain. Bu yno am deuy flynedd; a thros fwy na hanner yr amser hwn mewn ystafell garedig; yr hyn, gyda sawyr drewedig tomen o fa tredi gyferbyn a'r ffenestr, a niweidiodd ei iechyd i'r fath raddau, fel na chafodd ei adferyd. Tra yr oedd ei gorff fel hyn yn cael ei gystuddio, yr oedd ei elynion yn ymhyfrydu yn dino ei gystuddiad. Symudwyd ef oddiyno i garchar *South Sea Castle*, Portsmouth, lle y bu yn garedig a diymgeledd am bum' mlynedd. Ond o'r diwedd bu i brif elynion farw, a chafodd ei rydd'iau. Yn awr yr oedd fel aderyn wedi ei ollwng o'r cawell, wedi bod yno oddiwrth ei gyfeillion, ei gartref, a'i deulu, am saith mlynedd. Pwy a ddichon adrodd na dysgrifio ei deimlad? yr oedd y fath waredigaeth fel adgyfodiad oddiwrth y meirw. Cychwynai yn siriol tuag adref, gyda mil o gynlluniau yn ei feddwl pa fodd y defnyddiai efe weddill ei oes. Daeth trwy Bath, Bristol, a Chasnewydd, ac o'r diwedd cyrhaeddodd Merthyr Tydfil. Yr oedd wedi pregethu yn Casnewydd, ac yr oedd tyrfu l osog yn ei gwylam dano yn Merthyr. Yr oeddynt wedi cyfarfod yn y fynwent ac o'i hamgylch. Pregethodd iddynt oddiar Jer. xvii. 8, 9: "Bendigedig fyddo'r gwr a ymddiriedo yn yr Arglwydd." Ond tra bu ef wrth y gorchwyl o bregethu, offeiriad

Digitized by Google

y plwyf, George Jones, dan ei enw, dyn o'r cymeriad duaf am feddwdod ac anniweirdeb, a yrodd i Gaerdydd at yr ynadon, y rhai oeddynt yno yn y chwarter sessiwn, gyda rhybuddion a llwon celwyddog yn erbyn Mr. Powel. Ar yr achwyniad hwn, gyrwyd swyddogion i'w ddal a'i ddwyn i garchar Caerdydd. Pan ofynodd am awdurdod y swyddog, efe a darawodd ei law ar ei gleddyf, ac a ddywedodd, "Dyma fy awdurdod i." Wedi bod am beth amser yn ngharchar Caerdydd, cymerwyd ef i Bontfaen, i gyfarfod ynadon. Rhoddwyd ef yno tan arholiad maith, a bu cryn ddadl ar y fainc pa un a ollyngid ef yn rhydd ai peidio, eithr penderfynwyd o'r diwedd ei fwrw eilwaith i garchar Caerdydd, ac wedi bod yno am rai misoedd, trosglwyddwyd ef drachefn i Lundain. Yr oedd hyn yn Hydref, 1639, ac yno y bu mewn caethiwed, prinder, a gwall ymgeledd, hyd ddydd ei farwolaeth. Ond yr oedd ei feddwl yn para yn gryf a dysgog, a pho mwyaf ei orthrymder, mwyaf oll ei ddyddanwch. Ymddengys ei fod tra yn y carchar y tro hwn yn cael caniatad i ymweled yn achlysurol, tan ofal ceidwad, â'i gyfeillion yn y Brifddinas. Byddai hefyd yn pregethu ar amserau yn muarth y carchar, lle y byddai amryw yn dyfod i'w wrando. Ar y Sabbath, Medi 25, y traddododd ei bregethau diweddaf; a'r noson hono cymerwyd ef yn glaf: ond pan oedd ei gorph yn cael ei wasgu tan bwysau cystudd, yr oedd ei enaid dedwydd yn ymddyrchafu ar adenydd ffydd i olwg palas ei dad. Dywedodd wrth ei gyfeillion ychydig cyn ei ymddattodiad, "Pe dywedai y diafol wrthyf fy mod yn falch, yn anffyddlawn, neu yn anniolchgar, byddai genyf achos i'w gredu; yr wyf yn cyhuddo fy hun am ormod o'r pethau hyny; ond pe dywedai wrthyf nad oes genyf ras, ac nad ydwyf yn eiddo Crist, ni chredwn ef." Yn y profiad dediwydd hwn y gwywodd yn raddol dan ddwylaw angau; ac yn hollol feddianol ar ei deimlad a'i synwyrau, bu farw yn dawel Hyd. 27, 1678, yn yr 11eg flwyddyn o'i garchariad, y 33ain o'i weinidogaeth, a'r 53ain o'i oedran. Yr oedd yn wr cadarn a nerthol mewn gweddi, a chafodd brofion digonol, amlwg, ac uniongyrchol lawer gwaith fod yr Arglwydd yn gwrando arno Meddai ysbryd rhydd a brawdol tuag at Gristionogion o wahanol farn iddo; ac er ei fod wedi newid yn ei olygiadau ar fedydd ychydig amser cyn ei farwolaeth, eto ni chondemniai eraill, ond dadleuai yn wresog dros rydd gymundeb Cristionogion, er nad ymostyngent i fedydd yn ol ei olygiadau ef. Yr oedd yn fwyn a gostyngedig ei dymher; gwelwyd ef yn aml yn cerdded, ac yn gosod cyfail! tlawd, os yn hen neu analluog, i farchogaeth ei anifail; a byddai mor ddedwydd yn y bwthyn mynyddig ag yn y palas. Yr oedd ei elusengarwch a'i haelioni yn amghydmarol. Gwnai ddaioni i eraill yn aml ar draul colledu ei hun. Cysegrai y bumed ran o'i holl dderbyniadau i gynorthwyo y tlawd. Y tlawd a'r angenus oedd ei ddewisedigion. Gwahoddai hwynt i'w dŷ; gwisgai y noeth, porthai y newynog, a thorai o fara y bywyd i bob dyn. Yr oedd mor ryddgalon fel yr arferai ddywedyd fod ganddo le mewn gwelyau i ddeuddeg yn ei dŷ, caut yn ei ysgubor, ac i fil yn ei galon. Fel penteulu, yr oedd yn dirion a gofalus. Cadwai addoliad teuluaidd ddwywaith yn y dydd, mewn darllen a gweddio, a chanu mawl. Er ei fod yn cael niwaid oddiwrth lawer, nid oedd efe yn elyn i neb. Lili ydoedd heb bigau, er ei fod yn cael ei amgylchu â drain. Gweddiai yn fynych dros ei elynion, am i'w pechodau gael eu llwyr dileu oddiar goflyfr y nef. Yr oedd yn ddyn gonest a difrifol yn ei ymadroddion; llefarai feddwl ei galon ar bob amgylchiad neu ni ddywedai ddim.—*Cambro British Biography; Noncon. in Wales*, 114; Wms. *Em. Welsh.; Y Traithodydd* am 1849.

Digitized by Google

POWEL (WATCYN), ydoedd o Benyfai, ger Penybont-ar-ogwy, sir Forganwg. Derbyniwyd ef i Orsedd Morganwg yn 1560, a bu yn llywyddu ynddi yn 1620. Yr oedd hefyd yn gynullydd hynafiaethau Cymreig. Daeth ei lawysgrifau i feddiant Iolo Morganwg, a chyhoeddwyd hwynt yn yr *Iolo MSS.*

POWEL (WILLIAM), o Gastell Madog, bardd yn ei flodeu rhwng 1580 a 1620.

POWEL (PARCH. WILLIAM), LL.D., ydoedd drydydd mab i Wm. Powel o Nanteos. Ei fam ydoedd Averina, ferch Cornelius Le Brun, o Colone yn Germani, yr hwn yn 1663, a wnaeth ei hun yn ddeiliad o Brydain, ac a briodasai Ann, ferch y Milwriad John Jones o Nanteos. Efe a anwyd yn 1705. Cafodd ei ddysg yn ngholeg St. John, Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd y radd o LL.D. Cafodd ficeriaeth Llanfihangel Genau'r Glyn. Priododd Elizabeth Ann Corbett, llys-ferch Athelstan Owen, o Rhiwsaeson. Bu farw Rhag. 21, 1780, yn 75 oed. —*Lleyn MSS.*

POWYS (LEWIS), bardd yn ei flodeu rhwng 1580 a 1620.

PRICE (SYR CARBERY), y pedwerydd barwnig a'r diweddaf o Gogerddan, sir Aberteifi, ydoedd unig fab Carbery Price, ysw., yr hwn a ddaeth i feddiant o'r etifeddiaethau a'r urddenw ar farwolaeth ei gefnder, Syr Thomas, yn ddiblant yn Mai, 1682. Yn ei amser ef, yn 1690, y darganfyddwyd mŵn plwm ac arian ar yr ystâd, nad oedd ei ragorach yn y deyrnas yn y dyddiau hyny, a gelwid ef y "*Welsh Potosi.*" Yr oedd yn ddeddf er cyn côf fod mŵn a gynwysai arian neu aur yn cael eu hystyried yn fwngloddiau breninol; ac oblegyd hyny, yr oedd mwngloddiau Cymru—er ar etifeddiaethau a maenoriaethau personol—wedi eu caniatau gan ein breninoedd i estroniaid tramor, ond yn cadw iddynt eu hunain y ddegfed o'r aur neu'r arian a dynid ohonynt, fel y darfu i'r frenines Elizabeth; ac ni ddyddimwyd y gyfraith oedd yn hawlio hyny hyd y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad William a Mary. O tan yr awdurdod uchod yr oedd mŵn sir Aberteifi, yn cael eu gweithio tros y Goron gan Syr Hugh Middleton a Mr. Bushell. Mewn canlyniad i ddilead yr hen gyfraith hono gan William a Mary, darfu i Syr Carbery ddosranu ei diroedd cyffredin yn gyfranau, a dechreu gweithio y cloddfeydd ar ei diroedd. Ond Cymdeithas y Mwngloddiau Breninol a'u hawlient fel eu heiddo hwy. Ar hyn, bu cynghaws cyfreithiol rhwng Syr Carbery â hwynt; a phan enillodd ein cydwladwr y dydd, crewyd ef yn farchog. Efe a fu farw yn 1695.—*Lleyn MSS.*

PRICE (ELLIS), LL.D., o Blasiolyn, Ysbytty Ifan, sir Ddinbych, ydoedd ail fab Robert ab Rhys ab Meredydd, o'r un lle. Addysgwyd ef yn Nghaergrawnt, lle y cafodd y radd o LL.D. Yr oedd efe yn un o aelodau Caergrawnt, a fuont mewn dadl â Throgmorton, ac eraill o Brifysgol Rhydychain, yn 1532; ac yn ol Caius, yn ei *Antiquities of Cambridge*, daeth Dr. Price allan o'r ymdrafod hon yn fuddugwr. Bu yn cynrychioli sir Feirionydd yn seneddy frenhines Mari, ac yn nau senedd cyntaf y frenhines Elizabeth. Adwaenid ef yn mhlith y werin wrth yr enw "Dr. Coch," oherwydd y fantell a wisgai o'r lliw hwnw yn urddas ei radd a'i swydd. Ystyrid ef ganddynt yn offeryn gormes yn llaw Dudley, iarll Leicester, er yspeilio gwyr Gwynedd o'u hawliau cynhenid; a thybid ei fod wedi ymwerthu i bob drwg, ac yn gnaf penaf yr holl wlad. Credid ei fod ef a Leicester yn cyd-gynllwyn i gael i'w meddiant ran fawr o'r tiroedd eglwysig oeddynt wedi syrthio i hawl y goron trwy ddyddimiad y mynachlogydd. Gwrthwynebwyd hwynt

Digitized by Google

mewn cyfraith gan y rhai oedd mewn meddiant ohonynt eisioes. a'r cadwgaeth fu i'w ol o'rif fonddigion Lleyn, yn ngwlad Arfon gael eu cynneryd yn garcharorion i'r Twr Gwyn, yn Llundain. Trwy ei gra'ffaw ei hun y mae Dr. Price i feddiant o faenoriaeth Tir Ifan, yr hon gynnwysai y pryd hwnnw yn meddiant ieuanc ieuanc Penrhyn, sir Gaernarfon; a bu bywiolaeth egluwysig Llangwm, Llandrillo yn Rhos, a Llangwchlan, am yspaid yn ei ddwylaw. Credai y werin ei fod mewn cyfeillach â'r diafol, fel y tybiai pobl anwybodus am bob dyn dysgedig a llengar yn yr oes hono. Y mae yr ddau ei fod yn ddyn galluog mewn corph a meddwl, ac yn ddigon anturiaethus i ymgymeryd âg unrhyw orchest. Cyfrinid ef y marchog goreu yn y wlad, a dywed traddodiad fod ôl traed un o'i feirch campus i'w weled hyd heddyw mewn lle a elwir oblegyd hyny yn "Sarn y Dr. Coch." Ei enw ef oedd y cyntaf o'r rhai yr anfonodd y frenhines Elizabeth atynt yn eu hawdurdodi i gynal yr Eisteddfod Freiniol yn Nghaerwys yn 1568. Gelwir ef yno yn "Our trustye and ryght wel beloved, Ellice Pryce, Esquire, Doctor in Cyvill Law, and one of our Counsail in our Marches of Wales." Yr oedd yn ddyn mawr cyda'r beirdd, ac feallai yn fardd ei hunan, o leiaf yr oedd Thomas Prys, ei fab, yn fardd enwog. Byddai yn cadw llys agored i feirdd a cherddorion bob Gwylian. Un flwyddyn mynai gael Rhys Grythor i'w wyl, a rhoddes Wm. Cynwal ar waith i wneud cywydd i'w ofyn gan Sion Tudur. Mae cywyddau y ddau fardd yn argraffedig yn y *Gaeldeg'ld* am 1825. Ystyrid ef yn fath o frenin bychan yn y wlad. Bu bedair gwlad yn sirydd Dinbych, saith waith yn sirydd Meirion, dwy waith yn sirydd Mon, ac unwaith yn sirydd Caernarfon. Y mae darlun ohono yn nghadw yn Modysgallen, ger Conwy, a dynwyd yn 1605.—Brown Willis'; Pennant's *Tours; Archæological Cambrensis*, am 1860.

PRICE (Hugh), D.C.L., sefydlydd gwladgarol coleg Iesu, Rhydychain, ydoedd frodor o Aberhonddu, ac a gafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle y cynerodd ei raddio fel doethawr yn 1525. Gwnaed ef yn un o brependiaid cyntaf Rochester tua 1542, ac hefyd yn drysoryddd Tyddewi. Pan yn oedranus, efe a benderfynodd roddi manteision addysg uchel yn nghyrhaedd ei gydwladwyr mewn modd mwy neillduol, yr hyn nid oedd yn Rhydychain yn yr amser hwnw. Gyda'r bwriad hwnw, deisebodd y frenhines Elizabeth ar iddi sefydlu coleg i ba un y gallai efe gyfranu ei gyfoeth. Cydsyniodd ei Mawrhydi â'r cais, a rhoddes freineb i'r perwyl hwnw, dyddiedig Mehefin, 27, 1573, ac yn awdurdodi mai ei enw fyddai "Coleg Iesu, i'w adeiladu o fewn dinas a phrifysgol Rhydychain, o sefydliad y frenhines Elizabeth;" y Gymdeithas i fod yn gyfansoddedig o un dysgawdwr, wyth o gymrodyr, ac wyth o ysgolorion; ac er eu cynaliaeth, caniateid i'r Dr. Price waddoli ei etifeddiaethau i'r swm o £160 yn y flwyddyn. Chwanegodd y frenhines hefyd i'r un perwyl nifer o goed o goedwigoedd Shotover a Stow. Yr oedd etifeddiaethau y sefydlydd, y rhai a droswyd Mehefin 30, yn sefyll yn sir Frycheiniog; a chyfrandodd hefyd tros £1500 tuag at yr adeiladu, heblaw swm arall o arian, yr hwn a fu yn aros yn llonydd hyd ddechreu yr 17eg ganrif pryd yr oedd yn £700. Bu Dr. Price farw yn Awst, 1574.—Wms. *Em. Welsh.*

PRICE (Parch. Hugh), ydoedd o Gastell Madog, yn mhlwyf Llanfihangel Fach, neu Capel Uchaf, yn sir Frycheiniog. Yr oedd yn berson Rettendon a Little Ilford, yn Essex, ac am flynyddoedd yn Gapelwr Holiadol i esgob Warburton; ac yn enwog iawn yn ei gyr-

Digitized by Google

haeddiadau llenyddol. Bu farw yn 1803, a chladdwyd ef yn mynwent Llan-dafaelogfach.—*Lewis' Top. Dictionary.*

PRICE (PARCH. JOHN), a anwyd yn y Twr, ger Llangollen, Mawrth, 1734. Bu am flynyddoedd yn aelod o goleg Iesu, Rhydychain, ac ar ol hyny o goleg y Drindod, yn yr un brifysgol. Cymerodd ei raddau o A.C. yn 1768. Cyfrifid ef yn ysgolhaig da; ac yr oedd bob amser yn barod i gyflen gwybodaeth i'w gyfeillion allan o'r llyfrfa oedd tan ei ofal—y Llyfrfa Fodleiaidd, ceidwadaeth yr hon a gafodd yn 1768, ac y gwnaed ef yn aelod o'r gymdeithas freiniol. Yr oedd, trwy hir ymarferiad, yn hollol ymlynol wrth y llyfrfa hono. Fel cyfaill, yr oedd yn rhwydd a gwerthfawr. Bu yn ficer Llangatwg, sir Forganwg, ac yn beriglor Wolastor ac Alvington, yn sir Gaerloyw. Nid ydis yn gwybod iddo gyhoeddi dim o'i eiddo ei hun, ond cynorthwyodd yn awduriaeth "The Lives of Leland, Hearne, and Wood," yn 1772, a chyhoeddwyd rhai gweithiau rhagorol yn ystod yr amser y bu efe yn geidwad Llyfrfa Bodley, yn rhagymadroddion y rhai y mae ei wasanaeth yn cael ei gydnabod. Bu farw yn Rhydychain, Awst 17, 1813, yn 79 mlwydd oed.—*Llym. MSS.*

PRICE (SYR JOHN), LL.D., hynafiaethydd enwog, ydoedd frodor o sir Frycheiniog—yn fab i Rhys ab Gwilym Gwyn, yr hwn a gynrychiolai un o deuluoedd hynaf y sir. Addysgwyd ef yn Broadgate Hall, neu goleg Pembroke, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn ddoethawr yn y gyfraith yn 1534. Noddid a chefnogid ef yn ei efrydiau gan William iarll Penfro, a chynyddodd ynddynt yn rhagorol, yn enwedig yn hanes a hynafiaeth ei wlad enedigol. Daeth yn efrydydd yn y gyfraith, a galwyd ef at y bar; tynodd sylw y brenin Harri VIII., gan yr hwn y penodwyd ef yn un o gynghorwyr Llys y Cyffiniau. Priododd Joan, merch John Williams, ysw., o Southwark, yr hwn oedd fab i William Evan, neu William Morgan, o'r Edwyswen, ac yn frawd hynaf i Morgan Williams, yr hwn a briodes ferch i Walter Cromwel, o Putney, o'r hwn y disgynai Oliver Cromwel. Cymerodd Syr John Price ran flaenllaw yn nghwbl uniad Cymru a Lloegr, a thybir mai efe oedd awdwr y udeiseb at Harri VIII. ar y pwnc hwnw, cyfansoddiad yr hon a adlewyrcha anrhydedd mawr ar ei hawdwr. Yn ystod yr holl deyrnasiad hwn, yr oedd efe mewn ffafr mawr yn y llys Seisnig, ac ar ddadgorphoriad y crefydd-dai, penodwyd ef yn un o'r dirprwywyr a awdurdodwyd i gymeryd meddiant ohonynt er gwasanaeth y goron. Dau craill o'r ddirprwy hon oeddynt Syr Edward Carne o Eweni, a John Arnold o Lantoni. Syrthiodd y gwaith hwn yn sir Frycheiniog ar Syr J. Price, ac wedi derbyn yr eiddo atafaele ilig gan y goron, efe a'u ddefnyddiodd i ddybenion elusengar oll oddieithr y tiroedd a'r degymau a berthynent i Briordy Aberhonddu, a rhai crefydd-dai eraill, y rhai a gadwodd efe iddo ei hun. Urddwyd ef yn farchog gan y brenin; a llanwodd y swydd o sirydd Brycheiniog yn 1541, a'r cyffelyb tros sir Henfordd yn 1553. Efe a gyfieithodd gyntaf Weddi'r Arglwydd, y Credo, a'r Deg Gorchymyn, y rhai a argraffwyd yn 1555. Ni argraffwyd ei "Historia Brittannicæ Defensio," yr hwn a ysgrifenwyd yn ateb i *Polydore* Virgil, hyd yn mhen ugain mlynedd ar ol ei farwolaeth, pan y gwnaed hyny gan ei fab, Syr Richard Price. Yr oedd hefyd yn awdwr "A Description of Wales," yr hwn a helaethwyd gan Humphrey Llwyd, ac a argraffwyd fel rhagymadrodd i'r hanes Seisnig a gyfieithwyd gan Llwyd i'r Seisnig, yr hwn a helaethwyd ac a gyhoeddiwyd gan Dr. Powel yn 1584. Efe a ysgrifenodd hefyd draithawd Lladin ar y sacrament, a bu

Digitized by Google

o gymhorth i'w gyfaill Leland gyda'i *Assertio Arthuri*.—Wood's *Athen. Oxon.*; Jones' *Breconshire*.

PRICE (OWEN), ydoedd frodor o sir Drefaldwyn. Yn 1648, gwnaed ef yn ysgolor o goleg Iesu, Rhydychain, gan ymwelwyr y Senedd, lle yr arosodd am bedair blynedd, ac yna penodwyd ef yn athraw ysgol gyhoeddus yn Nghymru, lle y cymerai lawer o boen i addysgu meddyliau y rhai tan ei ofal yn syniadau y Presbyteriaid. Yn 1655, dychweloedd i Rydychain, lle y gwnaed ef yn efrydydd o goleg Eglwys Crist. Wedi cymeryd ei raddau yn y celfyddydau, efe a benodwyd yn athraw y rhyddysgol gerllaw coleg Magdalen, a thrwy ei fedrusrwydd yn dysgu, lluosogodd ei ddysgyblion yn fawr. Ar ddychweliad y freninoliaeth, trowyd ef allan o'r swydd hono oherwydd ei annghydffurfiaeth, a bu yn cadw ysgol lwyddianus yn sir Devon, ac wedi hyny yn sir Berks, a manau eraill. Yr oedd yn awdwr llyfr o'r enw "The Vocal Organ, or a New Art of teaching Orthography," 1665. Cyhoeddodd hefyd lyfr arall ar Sillebiaeth yn 1670. Bu farw yn Rhydychain, yn 1671.—Wood's *Athen. Oxon.*

PRICE (RICHARD), D.D., awdwr gwladyddol enwog, a anwyd yn Tynton, ger Penybont-ar-ogwy, sir Forganwg, yn 1723. Yr oedd ei dad, Rice Price, yn Galfiniad llym, a chymerodd lawer o boen i blanu yr egwyddorion hyny yn meddwl ei blentyn. Ar farwolaeth ei dad, aeth Richard pan yn ddeunaw oed i fynu i Lundain, lle y derbyniwyd ef i Goleg Ymneillduol trwy ddylanwad ewythr iddo, ac yno efrydodd uchanianiaeth, athroniaeth, a duwinyddiaeth. Yn 1743, cyflogwyd ef fel caplan a chydymaith yn nheulu Mr. Streathfield, o Stoke Newington, lle yr arosodd am 13 o flynyddau, pryd y bu y boneddwr hwnw farw, gan adael cymunrodd i'r caplan, yr hwn hefyd a chwanegwyd ar farwolaeth ei ewythr tua'r un pryd. Penodwyd ef hefyd yn bregethwr boreuol capel Newington Green. Ei lyfr cyntaf a elwid, "Review of the principal Questions and Difficulties in Morals," 1758 a 1787; a'r gwaith hwn a sefydlodd ei enwogrwydd fel uchanianydd a moesddysgydd. Yn 1767, gofynwyd iddo gan bwyllgor o foneddigion mewn cysylltiad â'r alwedigaeth gyfreithiol, am ei farn parth cynllun o'r eiddynt er sicrhau blwydd-dalion i'w gweddwon. Hyn a dynodd ei sylw gyntaf at yr egwyddorion diffygiol ar ba rai yr oedd cymdeithasau o natur gyffelyb wedi eu sylfaenu, ac a fu yn achlysur iddo ysgrifenu ei draithawd ar "Reversionary Payments," 1769, a chyhoeddiad yr hwn a barodd ddifodiad uniongyrchol bron amryw o'r cyfryw gymdeithasau, a diwygiad y gweddill. Daeth pum' argraffiad allan ohono, yr olaf yn 1803, tan olygiaeth Wm. Morgan. Yn 1776, ymddangosodd ei "Observations on Civil Liberty, and the Justice and Policy of the War with America," am yr hwn y coleddid syniadau mor uchel gan gefnogwyr annibyniaeth yr Unol Daleithiau fel y deisyfasant ganiatad yr awdwr i ddwyn allan argraffiad rhad o'r gwaith; ac mewn canlyniad, gwerthwyd 60,000 ohono mewn ychydig fisoedd. Anrhydeddwyd ef gan gorpholaeth drefol Llundain â blwch awr yn cynwys rhyddid dinesig iddo; ac yn 1778, darfu i'r Gydgynghorfa Americanaidd ei wahodd i'w cynorthwyo i reoleiddio eu cyllid, a sicrhau iddo os ymfudai gyda'i deulu i'r America, y gwobrwyid ei wasanaeth yn haelionus. Eithr ni thybiodd yn ddoeth dderbyn y gwahoddiad hwn. Graddiwyd ef yn ddoethawr mewn duwinyddiaeth gan Brifysgol Glasgow yn 1769; ac yr oedd yn gymrawd o'r Gymdeithas Freiniol—wedi ei ethol yn 1784. Efe a fu farw yn Llundain, yn 1791. Heblaw y gweithiau crybwyll-

Digitized by Google

edig, yr oedd Dr. Price yn awdwr y llyfrau canlynol: 1, "Four Dissertations on Providence, Prayer, the state of Virtuous Men after Death, and Christianty," 1760 a 1768; 2, "The Nature and Dignity of the Human Soul," 1766; 3, "An Appeal to the Public on the subject of the National Debt," 1772 a 1774; 4, "An Essay on the Present State of the Population of England and Wales, with Morgan on Annuities," 1779; 5, "The Vanity, Misery, and Infamy of Knowledge without suitable Practice," 1770; 6, "An Essay on the Population of England from the Revolution to the present time," 1780; 7, "The State of the Public Debts and Finances assigning the Preliminary Articles of Peace in January," 1783; 8, "Postcript to the same," 1784; 9, "Observations on the Importance of the American Revolution and the Means of making it useful to the World," 1784; 10, "A Discourse on the Love of our Country," 1789 a 1790; 11, "Britain's Happiness and its full Possession of Civil and Religious Liberty briefly stated and proved," 1791; 12, "Fast Sermons," 1759, 1779, 1781, &c; "Sermons on Various Subjects," 1786, 1816; Sermons on the Christian Doctrine," 1787; 13, "On the Expectations of Lives, the increase of Mankind," 1769. Ysgrifenwyd ei fywgraphiad gan ei nai, Wm. Morgan, a chyhoeddwyd ef yn 1815.—Wms. *Em. Welsh.*

PRICE (Robert), LL.D., prelad enwog yn ei ddydd, ydoedd bedwerydd mab John Price, ysw., o'r Rhiwlas, sir Feirionydd, lle ganwyd ef yn 1607. Cafodd ei addysg yn ysgol Westminster, ac oddiyno etholwyd ef yn efrydydd i goleg Crist, Rhydychain, yn 1625. Cymerodd ei raddau yn y celfyddydau, ac yna efrydodd y gyfraith, yn yr hon wybodaeth y graddiwyd ef yn wyryf yn 1632. Urddwyd ef yn ddiacon yn Mangor yn 1634, ac yn fuan penodwyd ef yn ficer Towyn Meirionydd. Yn 1635, gwnaed ef yn ganghellydd yn mhrifeglwys Bangor, yr hon swydd a roddes i fynu yn 1636. Gan iddo gael ei benodi yn gaplan iarll Stratiford, arglwydd-raglaw Iwerddon, cafodd ddeoniaeth Connor, yn y wlad hono, ac ystyrid ef ar y pryd yn dra hyddysg yn y gyfraith eglwysig. Yn Ebrill, 1639, gwnaed ef yn ddoethawr yn y gyfraith gan brifysgol Dublin, ac yn fuan cafodd yr un anrhydedd hefyd o Rydychain. Pan dorodd y gwrthryfel Gwyddelig allan, collodd bob peth a feddai yn y wlad hono, a dyoddefodd lawer oherwydd ei freingarwch; ond ar ddychweliad Siarl II., adferwyd ef i'w swyddau, a chysegrwyd ef yn esgob Ferns a Leighlin, Ionawr 27, 1660. Ar farwolaeth y Dr. Wm. Roberts, esgob Bangor, penodwyd ef yn olynydd iddo, eithr cyn esgyn i'r swydd, efe a fu farw—Mawrth 26, 1666, a chladdwyd ef yn mhrifeglwys Patric Sant, lle ni rhoddwyd na chofgolofn na chofnod i ddynodi y fan.—Wood's *Athen. Oxon.*; Willis' *Bangor.*

PRICE (Robert), y gwladgarwr twymgalon, a anwyd yn y Gilar, yn mhlwyf Ceryg y Druidion, Ionawr 14, 1653. Mab hynaf ydoedd i Thomas Price, Ysw., o'r Gilar, o Margaret Wynne, merch ac aeres Thomas Wynne, Ysw., o Bantybeudy. Addysgwyd ef gyntaf yn ysgol ramadegol Gwrecsam; ac oddiyno danfonwyd ef i Gaergrawnt, lle y derbyniwyd ef yn aelod o goleg Ioan. Pan tuag ugain oed, aeth yn efrydydd i Lincoln's Inns; ac yn mhen ychydig ar ol hyny, cychwynodd i'w ymdaith trwy Ffrainc ac Itali, a bu yn absenol o Loegr am ddwy flynedd. Yn 1679, efe a briododd Lucy, merch hynaf Robert Rodd, Ysw., o Foxley, yn sir Henffordd (*Hereford*), gyda yr hon y cafodd gynysgaeth dda. Yn 1682, efe a wnaed yn gyfreithiwr cyffredinol tros Ddeheudir Cymru, ac etholwyd ef yn henadur tros ddinas

Digitized by Google

Henfordd, a'r flwyddyn ganlynol, dewiswyd ef yn *Recorder* tros Faesyfed. Darfu i'w uniondeb, ei farn, a'i hyddysgrwydd yn nghyfreithiau ei wlad enill iddo enwogrwydd mor uchel, fel y penodwyd ef yn 1654, ar farwolaeth Siarl II. yn oruchwyliwr i'r frenhines weddw; hefyd yn ysgrifenydd trefol i ddinas Caerloyw *(Gloucester)* yn 1685; a'r flwyddyn ganlynol yn gynghorwr i'r brenin yn Ludlow. Eithr yn y Chwyldroad a ddychafodd Gwilym III i orsedd Prydain, efe a gollodd ei swyddau o fod yn gyfreithiwr cyffredinol Morganwg, ac ysgrifenydd trefol Caerloyw. Yr oedd y teyrn newydd yn nodedig am noddi a dyrchafu ei anwyliaid tramor. Yn mhlith eraill, efe a greoedd un William Bentinck, i iarllaeth Portland, ac yna a roddes arglwyddiaethau Dinbych, Bromffild, a Ial, yn sir Ddinbych, iddo ef a'i etifeddion tros byth. Wrth wrthwynebu y rhodd amryfus hon yr enillodd Robert Price lawryfau bythwyrddion ei enwogrwydd, ac y mae ei areithiau ar yr achlysur yn llawn dyngarwch a chariad at ei wlad. Dadleuai nad oedd gan y brenin hawl, yn ol y *Bill of Rights*, i roddi ymaith ran o etifeddiaeth Tywysog Cymru heb ganiatad neillduol y Senedd, a therfynodd araith faith a theyrngarol trwy gynyg fod anerchiad yn cael ei gyflwyno i'r brenin gyda'r amcan o atal rhoddiad yr arglwyddiaethau hyn i iarll Portland. Yr oedd y cais hwn mor rhesymol, a'r araith mor hyawdl a dylanwadol, fel y cariwyd y penderfyniad yn ddiwrthwynebiad; ac er fod y brenin yn dra digofus wrth yr areithiwr, eto danfonodd atebiad tyner i Dy y Cyffredin, yn datgan na buasai'n gwneud anrheg o'r cyfryw diroedd pe gwybuasai y buasai hyny yn annerbyniol gan y Senedd, a chan hynv yn dileai y rhodd. Ar dderbyniad yr ateb hwn, cynygiodd Robert Price, a phenderfynodd y Ty yn unfrydol, "fod ceisio, neu gyfrann, rhoddion afresymol gan unrhyw aelod o'r cyfringynghor, &c., i gael ei ystyried o hyny allan yn gamymddygiad ac uchel-drosedd." Yr oedd yr araith hon yn cynwys gwirioneddau rhy heilltion iddi gael ei chyhoeddi tan deyrnasiad y brenin hwnw; eithr y flwyddyn wedi ei farwolaeth, argraffwyd hi tan y teitl, "Gloria Cambræ, or a Speech of a bold Briton in Parliament against a Dutch Prince of Wales." Ceir cyfieithiad, lled drwsgl y mae'n wir, ohoni yn *Greal* Llundain. Gallesid meddwl y buasai gagendor yn aros byth rhyngddo â'r teyrn y gwrthwynebasai ei gynlluniau mor ddidderbynwyneb a llwyddianus; ond dull cysefin Gwilym III., o ladd gwrthwynebiad dynion gallusog ac egwyddorol ydoedd eu gosod mewn swyddau, ac yn ddiau efe a gafodd y ddau nodweddiad hyn yn helaeth yn y Cymro gwladgarol hwn. Yn 1700, rhoddes y brenin iddo y swydd o farnwr y Llysoedd Cymreig. Bu yn aelod seneddol tros Weobly o 1682 hyd 1702, pan y rhoddes y gynrychiolaeth i fynu i'w fab Thomas, ac yn ystod yr un flwyddyn efe a wnaed yn rhingyll yn y gyfraith *(serjeant at law)*, er mwyn ei gyfaddasu i dderbyn yr anrhydedd a ddodid arno gan y frenhines Anne, yr hon ar ei dyrchafiad i'r orsedd a'i penododd yn un o farnwyr y Trysorlys *(Court of Exchequer)*. Er fod y swydd hon ar y pryd yn cael ei hystyried fel gris i ddyrchafiad uwch, parodd ei uniondeb anmhlygadwy fel gweinyddwr y gyfraith, i weinidogi n y goron ei adael yn y llys hwnw am bum' mlynedd ar hugain; a phan ddywedodd y Prif-weinidog wrtho y cai unrhyw swydd ag oedd yn ei allu ef ei dodi iddo, atebodd, "na dderbyniai ef unrhyw swydd ar na chelai ynddi berfaith ryddid i arfer ei farn yn ol fel y byddai natur y gwasanaeth, a'i ddyledswydd yntau i'w wlad yn caniatau." Yn 1726, gwnaed ef yn un o farnwyr Llys y Dadleuon Cyffredin *(Court of Common Pleas)*. Dywed

Digitized by Google

cyfoeswr am dano, "Iddo lanw y gwthanol swyddau hyn mewn doethineb, a'i fod yn farawr rhagorol mewn gwirionedd: yn gweinyddu cyfiawnder gydag uniondeb dyben, gan gashau pob peth ag ynoi arogl lleiaf plei lgurwch neu lwgrwobrwyaeth." Bu farw Chwef. 2, 1732, yn 79 oed, a chladdwyd ef yn Yazor, sir Henfordd. Bu iddo dri o blant, sef dau fab ac un ferch; Thomas, yr hynaf, a fu farw pan ar daith yn Genoa, yn 1706, a thybir na chafodd bob chwareu teg; a'r ail, Uvedale Tomkyns, a ddaeth i feddiant o etifeddiaeth ei dad. Cyhoeddwyd hanes bywyd y Barwn Price yn Llundain yn 1734, mewn cyfrol 8plyg, i ba un yr ydym yn ddyledus am yr hanes blaenorol.

PRICE (Parch. Samuel), ydoedd enedigol o'r Bettws, ger Penybont ar Ogwy, Morganwg. Yr oedd yn ewythr frawd i'w dad i'r Dr. Richard Price, o Lundain. Bu yn cydweinidogaethu â'r enwog Dr. Watts am ysbaid dengain mlynedd, a saith mlynedd yn olynydd iddo. Bu farw yn y flwyddyn 1756.—*Lleyn MSS.*

PRICE (Theodore), D.D., a anwyd yn Bronyfoel, plwyf Llanenddwyn, Dyffryn Ardudwy, Meirion. Mab ydoedd i Rhys ab Tudor ab William Vaughan, o Gilgerran. Addysgwyd ef yn Rhydychain, lle y daeth yn gymrawd o goleg Iesu, ac ar ol hyny yn athraw ar Hart Hall. Wedi ei raddio yn y celfyddydau, cafodd fywiolaeth yn ngwlad ei enedigaeth, trwy gael ei benodi yn beriglor Llanfair, ger Harlech, yn 1581, ac yr oedd mewn meddiant o'r segurwydd gyfoethog sef perigloriaeth Llanrhaiadr Dyffryn Clwyd. Yn 1596, gwnaed ef yn brepend Winchester; ac yn 1623, yn brepend Westminster. Bu farw Rhagfyr 15, 1631. Cyhuddid ef o lochi egwyddorion Pabyddol; ond berair nad oedd y drwgdybiau hyn, ac amryw eraill am dano, ddim ond cynyrch eiddigedd a gwenwyn tuagat ei lwyddiant.

PRICE (Thomas), neu Prys, o Blasiolyn, ydoedd fab hynaf y Dr. Ellis Price, a grybwyllwyd eisoes. Efe a briododd Margaret, merch i William Griffith, o'r Penrhyn, ger Bangor. Yr oedd yn fardd o gryn enwogrwydd, ac yn ei floden rhwng 1550 a 1610. Yr oedd o dueddfryd wyllt ac anturiaethus. Yn ystod bygythiad yr Yspaeniad i ymosod ar yr Ynys hon, efe a ddarparodd long ryfel i fyned allan fel *privateer* yn erbyn y gelyn; ac yn ei wibiadau ar y dyfnder, cyfarfu â gwrthwynebiadau mor ffyrnig, fel y gorfu arno encilio, a rhydd ef ei hun yn un o'i gywyddau groniel rhyfedd a dyddorol o'r ymgyrch anffodus hono. Wedi hyny, pan oedd Prydain yn llewygfeydd dychryn yr Armada Yspaenaidd, a'r frenhines Elizabeth yn adolygu ei byddinoedd yn Tilbury, yr oedd Cadben Price yno yn gwasanaethu fel swyddog milwraidd; ac wedi i'r llynges fostfawr Yspaenaidd fyned yn ddryllian, ac i heddwch gael ei gyhoeddi rhwng y ddwy wlad, parhaodd rhai i ymosod ar fasnachlongau Yspaen mewn dull anghyfreithlawn, trwy ddarpar llongau ar eu traul a than eu llywyddiaeth eu hunain, ac i'w mantais eu hunain, un o ba rai oedd y Cadben Price hwn, a Gregory Jones o Gastell y march, a Rhys Griffith o'r Penrhyn, y ddau olaf o sir Gaernarfon; a Wm. Middleton *(Gwilym Canoldref)*, o sir Ddinbych. Cafodd rhai o honynt eu cosbi, megys Gregory Jones, yr hwn a gymerwyd o'i wely gan wyr llong rytel, ac a gludwyd i'r Iwerddon fel alltud. Dywedir mai Cadben Price, Cadben Wm. Middleton, a Thomas Koet, oeddynt y rhai cyntaf a fygasant dybacco yn heolydd Llundain, a mawr oedd y synu a'r edrych oedd arnynt. Y mae awdwr yr *Heraldry Displayed* yn ei restru yn mhlith y pumtheg gwr boneddig o sir Ddinbych a gododd asant lenyddiaeth Gymreig yn ystod yr amser isel hwnw arni a ddilyn-

Digitized by Google

odd ryfel Owen Glyndwr hyd deyrnasiad y frenhines Elizabeth. Yr oedd yn sirydd Caernarfon yn 1599. Y mae ei waith barddonol yn nghadw yn y *British Museum*, yn ei ysgrifen ef ei hun, mewn cyfrol drwchus yn cynwys tros fil o dudalenau; a cheir ychydig ohono wedi ei argraffu ac yn wasgaredig hyd y cylchgronau Cymreig. Yn mhlith y rhai hyn ceir cyfeiriadau hynod o dlysion, yn enwedig yn ei farwnad ar ol ei fab, Ellis Price.

PRICE (Thomas), ydoedd o hen deulu Bodfach, yn sir Drefaldwyn, a hynafiad arglwydd Mostyn, o Fostyn, yn sir Fflint. Yr oedd yn ddyn dysgedig a hoff o ymchwiliadau hynafiaethol. Efe a gasglodd lawer o ysgrifllyfrau, y rhai a dybir ydynt yn awr yn llyfrfa y Vatican, yn Rhufain.—*Lleyn MSS.*

PRICE (Parch. Thomas), a adnabyddir yn well wrth yr enw barddonol *Carnhuanawc*. Ganwyd y Cymro gwladgarol, a'r hanesydd clodfawr hwn, yn mhlwyf Llanfihangel Bryn Pabuan, ger Buallt, yn sir Frycheiniog, yn 1788; efe oedd yr ieuangaf o ddau fab y Parch. Rice Price, ficer Llanwrthwl, yn y wlad hono. Cafodd ei frawd ei addysgu yn ngholeg Wadham, Rhydychain; urddwyd ef yn offeiriad, a bu farw yn ieuanc. Addysg Thomas yn ngholeg ysgol ramadegol Aberhonddu, a thua 1812, urddwyd ef yn ddiacon, ac ar yr un pryd penodwyd ef yn gurad Llanyre a Llanfihangel Helygen, ger ffynonau Llandrindod, yn sir Faesyfed. Wedi bod yno dair blynedd, efe a benodwyd yn gurad Llangeneu, ger Crughywel, ac yn y dref hono a'r gymydogaeth y treuliodd efe weddill ei oes. Wedi bod am dair blynedd ar ddeg yn gurad, a llanw y swydd hono gyda gallu a diwydrwydd na cheid ond anfynych eu cyffelyb, yn 1825, efe a benodwyd yn ficer Cwmdu, ac yn chwanegol at hyny cafodd guradiaeth barhaol Tretwr; ond nid ystyrir fod ei dderbyniadau oddiwrth y ddau le hyn nemawr tros £200 yn y flwyddyn. Yr oedd ynddo yn ieuanc chwaeth a thalent neillduol at arlunio; a phan oedd efe yn Aberhonddu yn yr ysgol, daeth ei fedrusrwydd yn hysbys i Theophilus Jones, awdwr yr *History of Breconshire*, yr hwn a drigianai yn y dref hono, ac a'i rhoddes ef ar waith i dynu y darluniau at y ail gyfrol o'r gwaith hwnw. Cyhoeddwyd y gyfrol hono yn 1809, pan nad oedd Mr. Price ond un ar hugain oed. Rhoddes hefyd lawer o gymhorth pwysig i'r awdwr gyda'r gorchwyl o gysoni a threfnu yr achau a'r croniclau sydd yn y gwaith. Yn 1822, cymerodd daith ar ei draed trwy Lydaw, yn Ffrainc, er ymweled â hen gefnderoedd cenedl y Cymry yn y wlad hono; ac ysgrifenodd hanes ei daith, yn nghyda sylwadau ar arferion a defodau y trigolion, yr hyn a gyhoeddodd yn yr ail gyfrol a'r drydydd o'r *Cambrian Quarterly Magazine*. Bu yn foddion i gael cyfieithiad ac i gyhoeddi y Testament Newydd yn y Lydawaeg. Gallai Mr. Price gerfio ar goed, argynllunio ar gorc a chwyr, ac etchio mewn dull hynod o brydferth; ac y mae y cerfiadau a welir yn nghyhoeddiadau Cymdeithas y Llawysgrifau Cymreig yn gopiau o'i waith ef, a'r portreadau o hen ysgrifau yn waith ei ddwylaw. Medrai chwareu unrhyw alaw ar y delyn Gymreig heb gymhorth llyfr, deallai yn berffaith ffurfiad yr offeryn hwnw, a gwnaeth un ohonynt â'i ddwylaw ei hun. Er nad oedd yn llysieuydd, yr oedd yn gydnabyddus â phob pren a phlanigyn Cymreig; edmygai yr helygen Gymreig, a'r feipen chwerw Gymreig, ac o ganlyniad magai hwynt rhag ofn eu myned allan o fodolaeth. Yr oedd yn esiampl nodedig o'r hyn a all dyn ei gyflawni heb rhyw lawer iawn o fanteision addysg, heb uchelwaed na chysylltiadau teuluaidd, ac heb gyflog ond yr hyn a ystyrir i ddyn yn ei radd

Digitized by Google

ef prin yn ddigon i ddwyn deupen byd at eu gilydd. Trwy ei athrylith a'i ddiwydrwydd casglodd drysorfa helaeth o wybodaeth, ac enillodd enwogrwydd a pharch mawr yn mhlith ei gydwladwyr, yr hwn a bery cyhyd ag y pery eu llenyddiaeth. Bu ganddo ef law yn yr hyn a elwir gyda llawer o briodoldeb yn "Ymladdfa'r Cewri," yr hon a gymerodd le yn *Seren Gomer* am 1824, rhwng Gomer, Brutus, ac eraill, parth teilyngdod a pharhad yr iaith Gymraeg. Yn 1829, efe a gyhoeddodd lyfr ar wynebddull ac anianaeth trigolion y wlad hon, tan y teitl, "An Essay on the Physiognomy and Physiology of the present inhabitants of Britain, with reference to their origin as Goths and Celts." Yn 1842, ymddangosodd ei brif waith, a gwaith ardderchog yn ddiau ydyw, sef ei "Hanes Cymru," o'r oesoedd boreuaf hyd farwolaeth y tywysog Llywelyn ab Gruffydd, yn nghyda crybwyllion am eu prif ddigwyddiadau ar ol hyny. Gellir dweyd am y llyfr rhagorol hwn mai efe ydyw yr unig un teilwng o'r enw a ymddangosodd eto yn Nghymraeg na Saesneg, er fod ei iaith braidd yn glogyrnog ac ansathredig. Yn 1846, cyhoeddwyd ei "The Geographical Progress of Empire and Civilisation." Enillodd amryw wobrau am gyfansoddiadau buddugol mewn Eisteddfodau; gweithredodd fel beirniad ynddynt lawer tro; a bu rhagor nag unwaith yn arweinydd a bywyd i Eisteddfodau y Fenni. Nid oes odid i gylchgrawn Cymreig, a gyhoeddid yn ei amser ef, heb ynddo rhyw ohebiaeth o eiddo Carnhuanawc yn cyfoethogi ei dudalenau. Bu farw Tachwedd 7, 1848. Cyhoeddwyd dwy gyfrol ddorus o'i weddillion llenyddol, a hanes ei fywyd, tan yr enw, "Celtic Ramains"

PRICE (William), a addysgwyd yn ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain, lle graddiwyd ef yn M A. yn 1619. Efe oedd y cyntaf a lanwodd y swydd o ddarllenydd y llith ar athroniaeth foesol, a sefydlwyd gan Dr. Thomas White; a chyhoeddodd gyfrol ar y pwnc hwnw yn 1624. Yn 1631, rhoddwyd iddo berigloriaeth Dolgellau, lle y trigianodd o hyny allan, ac y priododd ferch i Robert Vaughan, o Hengwrt, yr hynafiaethydd enwog. Bu farw yn Nolgellau yn 1646, a chladdwyd ef yn yr eglwys hono.

PRICHARD (Evan), neu *Ieuan Lleyn*, a anwyd yn Ty Mawr, plwyf Bryncroes, sir Gaernarfon. Enw ei dad oedd Risiart Thomas; a'i fam, Mari Siarl, yr hon oedd yn farddones lled wych. Aeth y rhieni i'r America yn 1795, gan adael Ieuan gyda'i daid, gyda'r hwn y magesid ef o'i febyd. Ac yn fuan efe a gafodd le yn y gyllidfa; a swyddog yn y dollfa *(excise)* ydoedd yn 1608, pan gyhoeddai Dafydd Ddu *Gorph y Gainc*, lle y ceir anerchiadau barddonol gan y ddau i'w gilydd. Yr oedd efe hefyd yn un o ohebwyr *Geirgrawn* Dafydd Ddu, os nad cydolygydd hefyd. Gohebodd lawer i'r *Gwyliedydd*, ac ystyrir ei gyfieithiad o'r "Cotter's Saturday Night." o waith Burns, a ymddangosodd yn y cyhoeddiad hwnw, yn un tra rhagorol. Aurhegodd y *Seren Gomer*, hefyd, ag amryw o gynyrchion ei athrylith. Tua 1812, gadawodd Loegr ac ymgartrefodd gyda'i ewythr yn y Ty Mawr, Lleyn. Cafodd y swydd o gadw ysgol rad symudol plwyfau Bryncroes, Llanfaelrhys, a Llangwnadl. Bu farw Awst 14, 1832, a chladdwyd ef yn mynwent Bryncroes. Ceir awdl i Rinwedd o'i waith, yn y *Brython* v. 329.

PRICHARD (Michael), bardd o gryn deilyngdod, a anwyd yn mhlwyf Llanllyfni, sir Gaernarfon, tua 1706. Bu farw yn yr oedran cynar o 24 oed, gan adael amryw ddarnau barddonol a brofent mor resynus oedd ei farwolaeth mor ieuanc, y rhai sydd ar gael mewn ysgrifen. Gwelir cywydd o'i waith i'r Wyddfa yn y *Gwladgarwr* viii.

Digitized by Google

82; a marwnad a beddargraff Owen Gruffydd o Lanystumdwy o'i waith yn y *Brython* v. 205. Cyfansoddodd Huw Huws o Fon gywydd marwnad ar ei ol yntau.

PRICHARD (Parch. Rhys), awdwr enwog *Canwyll y Cymry*, a anwyd yn nhref Llanymddyfri, sir Gaerfyrddin, yn 1579. Yr oedd ei dad yn foneddwr tiriog, a Rhys oedd yr hynaf o'i feibion. Addysgwyd ef yn ysgolion y dref honno hyd onid oedd tua deunaw oed, pryd yr aeth i goleg Iesu, Rhydychain, a graddiwyd ef yno yn B.A. yn Mehefin, 1602. Yr oedd eisioes wedi ei urddo yn ddiacon yn yr Ebrill blaenorol, mewn lle o'r enw Wytham, yn sir Essex, gan John, esgob Colchester; a'r Awst canlynol, penododd esgob Tyddewi ef i ficeriaeth Llandingad, ei blwyf genedigol, yn yr hwn y saif tref Llanymddyfri, a thyna paham y gelwir ef yn "Ficer Llanymddyfri." Yn 1613, y brenin Iago I. a roddes iddo berigloriaeth Llanedi, yn yr un sir; a'r flwyddyn ganlynol, dewiswyd ef yn gaplan i Robert iarll Essex. Yn fuan wedi hyny, esgob Tyddewi a'i penododd yn beriglor eglwys gadeiriol Aberhonddu, pan y cymhellwyd ef gan yr archesgob Laud i gymeryd ei raddio yn M.A. Yn ychwanegol at y swyddau hyn, yn 1626, gwnaed ef yn ganghellwr Tyddewi, gyda yr hon swydd yr oedd perigloriaeth Llanhawden yn gysylltiedig. Felly gwelir ei fed ef wedi ei noddi yn deilwng gan benaethiaid yr eglwys. Gan nad pa un a oedd ganddo foesoldeb personol i'w gymeradwyo yn nechreu ei oes gyhoeddus ai peidio, diammheu ei fod yn wr o gyneddfau llawer uwch na'r cyffredin. Yn wir, gellir casglu oddiwrth amryw o'i ganeuon nad efe oedd y mwyaf moesol, a dweyd y lleiaf. Dywed traddodiad fod tuedd ynddo pan yn ieuanc i yfed yn annghymedrol, ac i ddilyn cymdeithion halogedig mewn cyfeddach a diotta. Mynegir mai trwy ymddygiad bwch gafr y dygwyd ef gyntaf i ffieiddio yr arferion hyny. Byddai y bwch, meddir, yn arfer ei ganlyn yn ei rodfeydd, a'r un modd i'r tafarnau, ac ar rhyw awr wan rhoddes ef neu rhywun o'i gymdeithion gwagsaw ormodedd o ddiod i'r creadur barfog, fel y meddwodd; eithr wedi iddo sobri y tro hwnw, ni lwyddwyd byth i'w gael i dafarndy drachefn; ac felly trwy gymhedroldeb y bwch, argyhoeddwyd y meistr o'i annghymedroldeb yntau. Pa un ai trwy hyn ynte rhyw ffordd arall y diwygiwyd ef o anweddusder ei fuchedd, amlwg yw ei fod yn nghanol nawn ei einioes yn wr tra dichlynaidd ei fuchedd, yn addurn i'w alwedigaeth a'i broffes, ac yn oleuni disglaer mewn oes dywyll a thra anwybodus. Bu farw yn Llanymddyfri yn 1644, eithr ni wyddis pa le y claddwyd ef. Am ei weinidogaeth gyhoeddus y mae yn amlwg oddiwrth ei ganiadau ei fod yn "iach yn y ffydd;" ac fel pregethwr, diau nad oedd ei ail yn Nghymru yn yr oes hono. Ymgynullai tyrfaoedd mawrion i'w wrando nad allai eglwysdai gwledig mo'u cynwys, a phregethai yntau iddynt allan yn y mynwentydd. Pan oedd un tro yn Nhyddewi, yn cyflawni ei ddyledswyddau fel canghellydd, mor lluosog oedd ei gynulleidfaoedd fel y bu raid iddo gael pwlpud symudol yn y fynwent. Dywedir cynghaws yn ei erbyn am hyn yn y llys ysprydol, ond er hyny ni roddes efe lai o dân yn ei weinidogaeth, ac ni thyrai llai o bobl i'w wrando. Pan yn trigianu yn St. Cenox, ger Llanhawden, pregethai yn aml oddiar ben clogwyn gerllaw ei dy i dyrfaoedd nad allai unrhyw eglwys mo'u cynwys. Wrth weled y werin-bobl mor anwybodus, a chanfod ynddynt duedd gref at ganu, efe a drodd ei bregethau ar gân, pa rai a roddai efe i'w blwyfolion, ac felly y dechreuodd efe gyfansoddi y caniadau hyny sydd wedi bod mor fendithiol i genedl y Cymru. Rhaid ei fod wedi

Digitized by Google

gwneud hyn yn arfer ganddo, ac iddo barhau yn yr arferiad am lawer o flynyddau, heb un bwriad, fe ddichon, iddynt fod o wasanaeth ond yn y cylch cyfyng y bwriedid hwynt iddo ar y cyntaf. Pa fodd bynag, yn mhen dwy flynedd ar ol ei farwolaeth, casglwyd hwynt yn llyfr, a chyhoeddwyd hwy yn ddwy ran, gan Stephen Hughes, Meidrym, a chyhoeddwyd y drydedd ran ohonynt yn 1670. Yn 1672, ail argraffwyd hwynt, a chwanegwyd atynt bedwaredd ran. Ymddengys iddynt gael derbyniad rhyfeddol o galonog; nid oedd modd taraw ar bethau mwy pwrpasol i chwaeth y genedl yn yr oes hono—yr oeddynt yn syml, diaddurn, o ran iaith a meddyliau, ac yn llefaru wrth y werin mewn geirian a ddeallai. Dysgai trueiniaid ddarllen er mwyn eu deall, trysorid hwy yn y cof, defnyddid ei syniadau fel diarebion gan y bobl, argreffid eu moeswersi cyfoethog ar y galon, ac eisteddai y tywysog hwn o lyfr yn nesaf at y brenin—sef y Beibl, ar fwrdd pob aelwyd yn Ngwyllt Walia. Er mai ei enw (ac enw digon cymhwys) ydoedd *Cawdyll y Cymry*, gelwid ef fynychaf fel anwesair yn *Llyfr y Ficer*. Cyhoeddwyd tua phumtheg argraffiad ohono o'r pryd hwnw hyd yn awr; a'r olaf yn ddiau ydyw yr harddlaf, y llanwaf, a'r cywiraf ohonynt oll, yr hwn a argraffwyd gan Mr. Rees, Llanymddyfri, ac a olygwyd gan y Cadeirdraw Rees. Cyfieithwyd y gwaith i'r Saesneg yn 1771, gan y Parch. W. Evans, Llawhaden. Dywedir fod y "Ficer" wedi gwaed litraws o bregethau o'i ol mewn ysgrifen, ond eu myned oll trwy ddiofalwch i ddifrod ac anrhaith. Cymunroddodd ugain punt yn y flwyddyn tuag at sefydlu ysgol rad yn mhlwyf Llanymddyfri, eithr buan y traws ddefnyddid y gwaddol hwnw i rhyw ddybenion anmherthynasol, ac ni wyddis bellach ddim am dano. Ni sonir ond am un mab iddo, yr hwn ydoedd wyllt ac afradlon, ac a gyfarfyddodd â marwolaeth cynamserol trwy gael ei frâd-lofruddio mewn cynhen â rhai o'i gymydogion.

PRICHARD (SION WILLIAM), o Blas y Brain, yn Mon. Yr oedd yn dipyn o fardd, ac yn hynafiaethydd enwog yn ei ddydd. Y mae llawer o'i lythyrau mewn ysgrifen ac yn argraffedig yma a thraw. Yr oedd ei lawysgrif yn nodedig am ei thlysni. Cyhoeddwyd o'i waith "Hanes Piban'r Bugeiliaid."—*Lleyn MSS.*

PRYDAIN ab Aedd Mawr, cymeriad hynod yn hanesiaeth Prydain. Crybwyllir ei enw yn fynych yn y *Trioedd*—yn *Tri* 4, gyda Hu Gadarn a Dyfnwal Moelmud, tan y penawd "tri phost cenedl Ynys Prydain," ac efe "a wnaeth wladoliaeth a theyrnedd gyntaf yn Ynys Prydain, a chyn no hyny nid oedd o iawn namyn o addwynder, na deddf namyn y trecha treisied." Yn *Tri* 34, rhestrir ef gyda Caradawc ab Bran, ac Owain ab Macsen Wledig, tan y penawd "tri unben dygynull;" yn *Tri* 36, gyda Dyfnwal Moelmud a Bran ab Llyr, fel "tri bancewyddion" neu wneuthurwyr deddfau. Dywedir mewn *Tri* arall mai efe a yrodd ymaith y "ddraig ormes o Ynys Prydain;" ac ar yr un awdurdod tystir mai ar ei enw ef y gelwir yr Ynys hon yn Ynys Prydain; a chyn hyny, gelwid hi Clas Merddyn, ac ar ol hyny y Fel Ynys.—*Myv. Arch.; Iolo MSS.*

PRYDERI ab Pwyll Pen Annwn, penaeth Dyfed, a chymeriad hynod yn yr hen ramantau Cymreig. Rhestrir ef yn y *Trioedd* gyda Thrystan a Coll fel "tri gwrddfeichiaid." Crybwyllir ef hefyd yn *Mabinogion* Manawyddan ab Llyr, Culhwch ac Olwen, Math ab Mathonwy, a Phwyll Pendefig Dyfed; ac hefyd yn Cerdd am Feib Llyr, o waith Taliesin. Dywedir mai Gwydion ab Don a laddodd Pryderi

Digitized by Google

mewn brwydr law-law a gymerth le gerllaw rhyd Melenydd, ar yr afon Cynfael, yn Arduduwy. Dywed yr un awdurdod mai yn Maen Tyriawg, ger Ffestiniog, y claddwyd ef; eithr yn *Englynion y Beddau*, dywedir mai yn Abergenoli. Crybwyllir ei enw yn fynych gan feirdd y canoloesoedd; gelw L. Glyn Cothi, Dyfed, yn "wlad Pryderi;" a D. ab Gwilym a'i geilw yn "Pryderi dir."—*Myv. Arch.;* Guest's *Mabinogion*.

PRYS (Edmwnd), archddiacon Meirionydd, ac odlwr enwog y Salmau Cân. Ganwyd ef yn y Gerddi Bluog, plwyf Llandecwyn, Meirion, tua 1541. Addysgwyd ef yn ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, lle y cafodd y radd o M.A. Wedi cymeryd urddau sanctaidd, cafodd rectoriaeth Ffestiniog, Meirion, yn 1572, yr hwn a ddaliai gyda rectoriaeth Llanddwywe yn yr un sir, ac a ddaethai i'w feddiant yn 1580. Penodwyd ef yn archddiacon Meirionydd, yn 1576; ac yn ganonwr Llanelwy yn 1602. Trigianai yn y Tyddyn Du, yn mhlwyf Maentwrog. Yr oedd y bardd Cymreig goreu yn ei oes, ac y mae lluaws mawr o'i ddarnau barddonol ar gael, yn benaf mewn llawysgrifen, yn eu plith 35 o gywyddau ymryson a fu rhyngddo â William Cynwal. Ymrysonfa heb ei bath oedd hon, a dywedir fod yr Archddiacon wedi lladd ei wrthwynebydd fel y lladdes Dafydd ab Gwilym Gryffydd Grug. Pa fodd bynag, pan oedd E. Prys ar fedr cyfansoddi ei 40ain cywydd, daeth y newydd ato fod W. Cynwal wedi marw, ac efe yn ddiymaros a gyfansoddodd gywydd hiraethlawn o farwnad iddo. Y mae hanes yr ymdrafod hon, yn nghyda llythyr maith o eiddo yr Archddiacon ar y pwnc, i'w gweled yn *Greal* Llundain, tudal 9. Fel y crybwyllwyd, efe a droes Salmau Dafydd ar gân at wasanaeth caniadaeth eglwysig, ac yn y gwaith gorchestol hwnw gwelir yn amlwg ei fedrusrwydd fel bardd, a'i ddysgeidiaeth fel ysgolhaig. Er fod rhai o angenrheidrwydd, trwy i'r awdwr gadw yr aralleiriad mor dŷn at y cyfieithiad gwreiddiol, yn anystwyth ac anhysain; y mae eraill ohonynt a'u "geiriau fel gwin," yn meddu llawn nerth, blas, a dilysder awenyddiaeth uchelryw. Buont o fawr ddylanwad i'n tadau i drosglwydo eu meddyliau addolgar at Dduw, a byddant felly i'n plant tra y parheir i swnio acenion yr hen Gymraeg hyfrydlef. Ceir traddodiad yn *Cymru Fu* am dano ef a'i cyfaill Huw Llwyd Cynwal, yn mha un yr awgrymir eu bod yn fedrus yn y gwaith o godi a gostwng ysprydion drwg, ond nid oedd y cyfan ond ofergoeliaeth gwerin anwybodus am danynt, oherwydd eu bod yn wyr mor ddysgedig. Cydnebydd y Dr. Morgan ei ddyled iddo am y cymhorth a gafodd ganddo yn nghyfieithiad yr Ysgrythyrau; ac yn y rhagymadrodd i Ramadeg Dr. Davies, Fallwyd, yr hwn a gyflwyneid i E. Prys, ceir penillion Lladin o'i waith yn arganmol y llyfr, a'r lle y dywed ei fod y pryd hwnw yn 80 oed. Y mae y penillion hyn wedi eu dyddio yn 1621. Efe a fu farw yn 1624, a chladdwyd ef yn eglwys Maentwrog.

PRYS (Rhys), o Dynton, Morganwg, bardd, a dysgybl yn Ngorsedd Morganwg yn 1739. Efe oedd tad yr enwog Dr. Richard Price, a grybwyllwyd eisioes.

PRYS (Sion), o Gaerddinen, yn mhlwyf Llanfair Dyffryn Clwyd. Dywedir mai efe oedd perchenog y lle hwnw, a'r Llwyn Ynn, ac felly yr ydoedd yn wr boneddig tiriog. Claddwyd ef yn mynwent Llanfair yn 1640. Yr oedd S. Prys yn fardd doniol ac athrylithgar, ac y mae ger ein bron Ysgriflyfr, yn cynwys amryw gywyddau o'i waith.

PRYDDERCH (Parch. Rees), o Ystradwalter, ger Llanymddyfri, sir Gaerfyrddin, lle y bu yn cadw ysgol am ddeugain mlynedd. Nid

Digitized by Google

oedd efe yn y weinidogaeth pan basiwyd Deddf Unffurfiaeth, yn 1662, ond gan ei fod yn ysgolfeistr, dyoddefodd o'i herwydd. Yn mhen rhai blynyddau ar ol hyny, arferodd ei ddawn fel pregethwr, er poethed yr erledigaeth, ac am lawer o flynyddau cyn ei farwolaeth, yr oedd yn un o'r pregethwyr mwyaf defnyddiol ac enwog yn Nghymru. Dewiswyd ef yn weinidog eglwysi Ymneillduol yn, ac oddeutu Llanymddyfri, yn 1675, eithr ni urddwyd ef hyd 1688. Tan deyrnasiad gorthrymus y Stewartiaid, arferai ei gynulleidfa addoli mewn ogof fawr o'r enw Castellcraigwyddon, tua phum' milldir o Lanymddyfri. Wedi marwolaeth Henry Maurice, bu gofal eglwysig holl sir Frycheiniog arno ef. Bu farw Ion. 25, 1699. Ganwyd, ordeiniwyd ef, a bu farw ar yr un dydd o'r flwyddyn. Gadawodd mewn llawysgrif lyfr o'r enw, "Gemau Doethineb," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1714, ac a adargraffwyd amryw weithiau, gan gael cylchrediad helaeth, a gwneud daioni mawr.—*Hanes Ymneilldduaeth*, gan Morgan

PULESTON (JOHN), Ysw., ydoedd o Hafod y Wern, sir Flint, ac a anwyd yn 1603. Efe a briododd Elen, merch i Syr Kenrig Eyton, marchog o Eyton, yn yr un sir. Cymerodd arfau yn wrol o blaid Siarl II. yn erbyn Cromwel; ac yr oedd yn un a fwriedid i urdd marchog y Dderwen Freiniol; ac yn meddu etifeddiaeth o werth £2,500. Cafodd un o'i hynafiaid, Syr Roger Puleston—ei drin yn arw gan y Cymry gwrthryfelgar, yn Nghaernarfon, yn amser Edward I. Yr oedd ei ddisgynydd John Puleston, hynaf, chamberlain Gwynedd—yn fwy poblogaidd, ac yn ffafriol iawn gan y beirdd; a rhaid fod un ohonynt yn gwenieithio iddo yn ei gywydd, pan y dywed, "Diwaed Sais ydyw Sion." Yr oedd Pulestoniaid Hafod y Wern, yn deiliaw o ail fab Emral, yn Maelor Isaf.—*Lleyn MSS.*

PUGH (EDWARD), lluniedydd cywrain, a brodor o dref Ruthyn sir Ddinbych. Trwy ei athrylith a'i ddiwydrwydd ei hun, cyrhaeddodd safle uchel fel arlunydd; a chyflogwyd ef i dynu y golygfeydd i'r llyfr *Modern London.* Cyhoeddodd hefyd gyfrol orchestol o'i waith ei hun, o'r enw, "Cambria Depicta," 1813, yr hwn a gynwys ddisgrifiad mewn argraff ac arluniau o'i daith trwy Gymru, ac a gymerth ddeng mlynedd iddo i'w gyfansoddi. Bu farw yn ei dref enedigol, yn mis Mehefin, 1813, bron cyn i'w waith llafurfawr ddyfod allan o'r wasg. Yr oedd yn ddyn tawel ac addfwyn iawn.—*Lleyn MSS.*

PUGH (ELLIS), a anwyd yn mhlwyf Dolgellau, Meirion, yn mis Mehefin, 1656. Bu farw ei dad cyn ei eni, a'i fam ychydig ddyddiau ar ol hyny, ac yntau a adawyd yn amddifad. Wedi tyfu i fynu yn 18 oed, ymunodd â'r Crynwyr, y rhai, o gylch yr amser hwn, oeddynt yn ymluosogi yn y Dywysogaeth, a daeth i gryn gyfrifoldeb yn eu plith. Tynfa gyffredinol yr enwad hwn, yn y cyfnod tan sylw, ydoedd i wladychfa newydd William Penn, yn Pennsylvania, yn Lloegr Newydd; a chyrhaeddodd y cyffrawd ymfudol Ellis Pugh, ac amryw o'r Crynwyr Cymreig. Felly, yn y flwyddyn 1686, cychwynodd ef a'i deulu, yn nghydag amryw o'u cydnabyddiaeth, tua'r sefydliad hwnw; ac wedi mordaith annyben tros fôr terfysglyd yn nhymhor y gauaf, yn y mis Ionawr canlynol cyrhaeddasant Barbadoes, lle y cawsant eu derbyn yn groesawus gan eu cyfeillion; ac yn haf y flwyddyn 1687, daethant i Pennsylvania, lle yr ymsefydlasant. Bu Ellis Pugh yno hyd 1706, pryd y daeth i'w fryd i ymweled â gwlad ei enedigaeth. Gadawodd ei deulu yn America, ac ail groesodd yr Atlantig; ac wedi aros am beth amser yn Nghymru, dychwelodd yn 1708 at ei eiddo i Pennsylvania,

Digitized by Google

ac yno yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd Hydref 3, 1714. Yn ystod ei selni diweddaf, yr hwn a barhaodd am yspaid blwyddyn, ysgrifenodd lyfr a elwir—"Anerch i'r Cymru, i'w galw oddiwrth y llawer o bethau at yr un peth angenrheidiol er mwyn cadwedigaeth eu heneidiau;" ond nid argraffwyd mo hono hyd y flwydd n 1782, pryd yr ymddangosodd yn Llundain, mewn cyfrol fechan 24plyg yn cynwys 212 o dudalenau; a'r gweithyn hwn yn benaf sydd wedi cadw ei enw ar dir coffadwriaeth. Ymddengys fod Ellis Pugh yn ddyn didwyll a gonest, ac yn uchel ei gymeriad yn mhlith ei gydnabod.

PUGH (PHILLIP), a anwyd yn ardal Llangeitho, yn sir Aberteifi, yn 1679. Bu tan addysg yr enwog Samuel Jones, o Frynllywyrch; ac am dymhor wedi hyny yn athrofa y Fenni. Yna dychwelodd gartref, a bu am flynyddau yn pregethu yn yr ardaloedd cylchynol gyda llwyddiant mawr. Hydref, 1709, urddwyd ef yn gydweinidog â David Edwards a Jenkyn Jones, ar eglwysi Cilgwyn, Cae'ronen, Llwynpiod, &c.; a llafuriodd yn y cylch eang hwnw gydag arddeliad a llwyddiant cynyddol am y cyfnod hirfaith o 57 o flynyddau. Bu farw yn 81 oed, yn ystod y flwyddyn 1760. Yr oedd efe yn llanw safle bwysig mewn cymdeithas, gan ei fod yn dir feddianydd; ond yr oedd ei enwogrwydd yn gorphwys ar sylfaen gadarnach na hyny—ei dduwioldeb seryphaidd, ei ymdrechion diorphwys yn ngwaith y weinidogaeth, a'i ddefnyddioldeb maith a helaeth. Yn ol cofnodau eglwys y Cilgwyn, ceir ddarfod iddo fedyddio dim llai na 639 o blant, o'r flwyddyn 1709 hyd 1760. Pan ystyrion fod tri gweinidog ar gylch yn gofalu am yr eglwys hono, a bod rhagfarn yn yr oes hono yn erbyn dwyn plant i'w bedyddio gan yr Ymneilldduwyr, ymddengys y swm yn fawr aruthrol. Yr oedd yn Galfiniad trwyadl, ac yn Ymneilldduwr diragrith.—Rees' *Noncon. in Wales.*

PUGHE (WILLIAM OWEN), D.C.L., y geirlyfrwr enwog, a adwaenid hefyd wrth yr enw llenyddol, *Idrison.* Ganwyd ef yn Fy'nybryn, plwyf Llanfihangel y Pennant, Meirion, Awst 7, 1759. Symudodd ei rieni yn fuan ar ol ei enedigaeth ef o'r lle uchod i dyddyn elwid Egryn, yn Ardudwy; ac yno y treuliodd ddyddiau ei fabandod, ac y dechreuodd ymarfer âg elfenau dysg, hyd nes iddo gyrhaedd maintioli digonol i fyned i ysgol bellach oddicartref, pryd yr anfonwyd ef i athrofa Altringham, ger Manchester. Mewn perthynas i'w dnedd a'i athrylith yn ei ddyddiau boreuol hyn, y modd goreu i'w dysgrifio ydyw yn ei eiriau ef ei hun:—"Yn y dyddiau gynt, yr oedd y trigolion yn byw mewn esmwythder a hamdden, ac oherwydd hyny yn ymddifyru llawer mewn chwaryddiaethau a chaniadaeth tafod a thant; a thra yr oeddyr arferion hyn eto heb ddiflanu, y'm ganwyd inau, a hyny yn ngoror Meirion, lle yr oedd y cyfryw arferion yn cael eu cynal yn helaethach, y mae'n debyg, nag yn un oror arall o'r Dywysogaeth; ac fel yr oedd yn naturiol dygwyd finau i fynu yn y cyffelyb ddull, a hyny yn fwy yn gymaint a bod fy nhad yn un o'r cantorion penaf yn y wlad; a thra yr oeddwn gartref, byddwn yn cael mynych gyfleusdra i wrandaw nifer o gymdeithion a ymgasglent yn nghyd i'r dyben o ymarfer eu me rusrwydd yn y gelfyddyd hon a'r gyffelyb. Tra yr oedd y defodau cenedlaethol yma fel hyn yn ymreddfu yn fy meddwl, pan oeddwn yn nghylch saith oed, anfonwyd fi i'r ysgol, yr hyn fu fy nghais cyntaf tuag at cuill cydnabyddiaeth â'r iaith Seisnig, swn yr hon y pryd hwnw ydoedd dra dyeithrol i'm clustiau. Ac wrth geisio cyrhaedd rhyw grap ar yr iaith

Digitized by Google

hono, daethum toc yn alluog i ddarllen fy iaith fy hun; a'm hawyddfryd yn hyn a awchlymid yn fynych wrth glywed datgan amrywiol gyfansoddiadau ynddi. Ond y peth a enillodd fy sylw tu hwnt i'r oll y pryd hwn ydoedd dyfodiad y llyfr hyglod hwnw o'r wasg, a elwid, *Gorchestion Beirdd Cymru*, a argraffwyd yn 1773, sef pan oeddwn yn 14 oed. O blith nifer lluosog o blant, myfi oedd y cyntaf a anturiodd tros riniog ein rhieni i wneuthur prawf o'm dichwain yn y byd; ond nid heb y gobaith hudoliaethus o ddychwelyd a'r ef ar fyrder i gyduno â'm brodyr a'm chwiorydd yn ein campau. Mynych yn ein hymddyddanion cartrefol y clywswn son am Lundain; ac yno y gwnes fy ail gartref yn Mai, 1776. Yr oedd y cwbl erbyn hyn yn ymddangos yn newydd i mi, yn enwedig yr iaith; eto mor gryfion ydoedd effeithiau arferion ieuenctyd ar fy meddwl o hyd, fel nad oedd dim a'm dhyrai yn fwy na llyfrau Cymreig; a mynych y dygent y fath fyfyrdodau melus-brudd i'm meddwl, nes oedd y rhan flaenorol o'm bywyd yn ymddangos fel rhyw hanfodiad arall. Parheais yn y ddinas fawr hon hyd 1782 cyn gwybod fod o'i mhewn un dyn arall heblaw fy hunan a chanddo un ymsyniad am iaith na llenyddiaeth Cymru. Y pryd hwnw, damweiniadd i mi daraw wrth Robert Hughes y bardd [o'r Caint Bach, yn Mon]; ac achos o alar mawr i mi a fu ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd ar y 27ain o Chwefror, 1785. Efe a'm dug i gydnabyddiaeth â Mr. Owen Jones (*Mafyr*), ac eraill o sylfaenwyr Cymdeithas y Gwyneddigion; a mawr oedd fy eresi ganfod y fath gynulliad o lawysgrifau Cymreig oedd ganddynt, o ba rai nis gwyddwn o'r blaen fod cymaint âg un yn yr holl Brifddinas. Hyn a roddodd egni adnewyddol i'm hymdrechiadau." Wedi dyfod ohono yn gydnabyddus â'r Gwyneddigion, ac a'u cynulliad helaeth o lawysgrifau Cymreig, fel y dangoswyd yn flaenorol, daeth i ganfod eu bod yn cynwys nifer mawr o eiriau anhysbys i'r cyffredinolrwydd o'r Cymry, ac nas gellid eu cael yn un o'r geirlyfrau oeddynt y pryd hwnw yn argraffedig yn eu hiaith, ac felly yn debyg o fyned ar ddifancoll tragwyddol o blith y genedl, er galaras dylodi i'r hen iaith gyfoethlawn hon. Yr ystyriaeth o hyn a'i cymhellodd i gynull rhai o'r geiriau hyny yn nghyd; a chan foreued â'r ffwyddyn 1785, dechreuodd eu cydgorphori yn nalenau un o'r Geirlyfrau helaethaf oedd y pryd hwnw ar gael; a'r llofflion hyn a gynyddent yn gyflym drwy amryw foddion, yn enwedig trwy idde ddefnyddio tua thair blynedd i ddarllen llyfrau Cymreig, rhai mewn argraff, a rhai mewn llawysgrifau; ac felly y cynyddai y defnyddiau yn ei ddwylaw i'r fath faintioli, fel y bu yn angenrheidiol iddo adysgrifio y cyfan, i'r dyben o'u dwynyn nes i drefn yr egwyddor. O dipyn i beth, daeth i'w feddwl i ffurfio Geiriadur cyflawn o'r Gymraeg, er ei fod ar yr un pryd mewn gradd o anmheuaeth a fyddai yn alluog i gwblhau y fath antur; eithr fel yr oedd yn mynedd rhagddo, mwyaf yn y byd y canfyddai y buddioldeb o'r gorchwyl, ac y cynyddai ei awyddfryd i'w ddwyn i ben: ac o'r diwedd, cafodd y dywenydd o weled ei hun wedi cyrhaedd ei amcan, ond nid cyn bod yn agos i ugain mlynedd o'i oes wedi llithro heibio yn y llafur. Yr ystyriaeth o hyn a barai i amryw o'i gyfeillion mwyaf ystyrbwyll resynu, os nad beio, iddo golli cymaint o amser i gasglu geiriau iaith a fernid oedd yn mron marw. Ond heb gymeryd ei ddigaloni gan y cyfryw rybuddion, glynodd o hyd yn ei amcan, er bod ganddo eto y llafur gorflin o adysgrifio y cwbl tuag at ddodi y gwaith yn y wasg, heblaw ychwanegu llawer o eiriau deongliadol, a lluaws mawr o ddyfyniadau er egluro geiriau anamlwg a phwysfawr, gan ychwanegu cyfeithiadau Seisnig at

Digitized by Google

y cwbl o'r dyfyniadau hyny. Yn ei gynygiadau cyntaf i gyhoeddi y Geiriadur, addefai y byddai ynddo tuag ugain mil o eiriau ychwaneg nag yn un Geirlyfr o'r fath a gyhoeddwyd yn flaenorol (yr helaethaf o ba ni chynwysent oddiar bumtheg mil); ond cynyddodd y gwaith gymaint yn ei ddwylaw, fel erbyn ei orphen gwelid ei fod yn cynwys fawr llai na chan' mil o eiriau, sef yn agos i gymaint arall ag sydd yn y cyffredolrwydd o eiriaduron Seisnig. Nid oes yn yr argraffiad helaethaf o eiddo y Dr Johnson (sef yr un a gyhoeddwyd gan Todd) ond tua deunaw mil a deugain; a chyfrifid hwnw yn orchestwaith rhyfeddol; ac yn y Geiriadur Seisnig rhagorol o waith y Dr. Noah Webster, nid oes fawr tros ddeg mil a thriugain; ond beth yw hyny wrth lafur y Dr. Pughe, yn enwedig pan ystyrier y fath eirlyfrau helaeth oedd yn y Saesneg cyn rhai yr awduron uchod? Mewn cysylltiad â'r Geiriadur, yr oedd hefyd Ramadeg tra chywrain, yn mha un y dygodd efe i drefn amryw o deithi yr iaith, y rhai yn flaenorol oeddynt mewn cyflwr tra annosparthus. Daeth y gwaith hwn allan o'r wasg yn 1803. Ond bu yr awdwr athrylithgar fyw i glywed galwad uchel am ail argraffiad o'r gwaith; a mwy na hyny cafodd fywyd ac iechyd i ddiwygio ac arolygu y llyfr drwyddo oll â'i law ei hun, a'i weled yn orphenedig, ac yn fwy cymeradwyol fyth. Cyhoeddwyd hwn yn Ninbych yn 1832, yn ddwy gyfrol hardd, yn cynwys o gwbl 1350 o dudalenau, yn nghyda darlun cywir o'r awdwr. Y mae y trydydd argraffiad yn awr yn cael ei ddwyn allan yn gyfranau o Ddinbych, tan olygiaeth Gweirydd ap Rhys. Am Eiriadur y Dr. Pughe y mae ysgolheigion o'r enwogrwydd mwyaf, a hyddysg yn y ddwy iaith ac mewn amryw ieithoedd eraill, wedi datgan ei fod yn un o'r gorchestion mwyaf dihafal a gyflawnwyd gan unrhyw awdwr mewn unrhyw iaith. Ac fel yr ystyrid yr un Seisnig o waith y Dr. Johnson, a hyny nid yn annheilwng, yn gampwaith, ac fel un o'r rhai addasaf i dynu cymhariaeth rhyngddo â'r un sydd dan sylw; ni a adawn i'r darllenydd farnu oddiwrth y ffeithiau canlynol yn nghyfansoddiad pa un o'r ddau yr oedd mwyaf o orchest: Yr oedd gan y Dr. Johnson amryw eirlyfrau Seisnig nid llai o faintioli na'r eiddo ef ei hun yn barod wrth ei law i gymeryd pob cynorthwy oddiwrthynt a dybiai yn addas; ond gan y Dr. Pughe nid oedd ond ychydig o rai bychain, annherfiaith, annhrefnus, ac annghywir. Yr oedd gan y Dr. Johnson amledd o lyfrau argraffedig o waith yr awduron enwocaf, oll yn hawdd eu cael, ac yn ddiboen i'w darllen; ond gan y Dr. Pughe nid oedd ond nifer bychan, mewn cymhariaeth, o lyfrau Cymreig cywir argraffedig, eithr yn gorfod casglu y rhan fwyaf o'i ddefnyddiau allan o lawysgrifau anhawdd dyfod o hyd iddynt oherwydd eu prinder, ac anhawdd eu darllen oherwydd eu henaint. Cynorthwyid y Dr. Johnson gan amryw is-ysgrifenwyr, ac â digon o arian i ddwyn y gwaith yn mlaen; ond nid oedd gan ein cydwladwr nac is-ysgrifenwyr, na chynorthwyon arianol ychwaith, heblaw ei fod yn cael ei ddigaloni yn fynych gan ei gyfeillion ei hun! Ond er trymed gorchwyl oedd y Geiriadur, ac er cyhyd y bu ar ei ddwylaw, nid oedd hwn ond megis rhan fechan o lafur Dr. Pughe. Ysgrifenodd luaws o ganiadau, traithodau, llythyrau, &c., y rhai a ymddangosasant, rhai yn llyfrau ar eu penau eu hunain, a rhai mewn cyhoeddiadau cyfnodol; megys *Y Greal*, *Cambrian Register*, *Cambro-Briton*, *Cambrian Quarterly*, *Gentleman's Magazine*, *Seren Gomer*, *Transactions of the Cymrodorion*, *&c.* Yn y cyhoeddiad olaf hwn, ymddangosodd amryw draethodau rhagorol o'i waith, ac un yn neilduol a gyfrifir nemawr llai gorchestol na'i Eiriadur, tan yr enw, "An Outline of

Digitized by Google

the Characteristics of the Welsh. and its utility in connection with other ancient Languages, for developing the primitive Speech of Mankind." O'r holl erthyglau a gyfranodd efe i'r cyhoeddiadau crybwylledig, ac eraill nas gwyddis pa faint, nid oes nemawr ohonynt yn dwyn ei enw priodol ef, ac felly diau fod llaweroedd na cheir byth allan eu hawdwr, oddigerth iddynt gael ea holrhain oddiwrth eu rhagoroldeb ar eiddo ysgrifenwyr eraill. Yn mhlith llawer yn ychwaneg a gyfranogasant yn helaeth o'i gynorthwyon, gellir enwi y rhai canlynol:—Rees' *Encyclopædia*, Warrington's *History of Wales*, Hoare's *History of Wiltshire*, Britton's *Beauties of England and Wales*, Campbell's *Books on Wales*, Gunn's *Tracks*, Meyrick's *Cardiganshire*, Coxe's *Publications*, Chalmer's *Caledonia*, &c. Ond y llyfrau yr oedd ganddo ef y llaw mwyaf yn eu dygiad allan oeddynt yr "Archaiologia of Wales," mewn cysylltiad â Owain Myfyr a Iolo Morganwg, yr hwn a ail gyhoeddir yn bresenol gan Mr. Gee, o Ddinbych. "Gwaith Dafydd ab Gwilym;" "Gwaith Llywarch Hen," yn nghyda chyfieithiad llythrenol o'r cyfryw i'r Saesneg; y "Cambrian Register," yn dair cyfrol; "Cambrian Biography," sef cynulliad cyntaf o hanes Enwogion Cymru, yr hwn er nad yw ond byr, eto sydd dra chynwysfawr; "Dyhewyd y Cristion;" traithawd ar "Drin Tir;" "Coll Gwynfa," sef cyfieithiad diodl o *Paradise Lost* Milton; cyfieithodd hefyd *Palestine*, o waith yr Esgob Heber, i'r Gymraeg; ac aml i un o ganeuon Mrs. Hemans a gafodd yr un gymwynas oddiar ei law. Gorchwyl llenyddol arall y llafuriodd yn ddiwyd gydag ef ydoedd y "Mabinogion," yn nghyda chyfieithiad o honynt i'r Seisnig. Ni lafuriodd yr un Cymro erioed yn fwy egniol a llwyddianus ar ran llenyddiaeth ei wlad na'r Dr. Pughe, a dylai ei enw fod yn anwyl byth gan ei genedl oherwydd hyny. Hysbyswyd eisoes ddarfod iddo wneuthur ei gartref yn Llundain cyn gynared â'r flwyddyn 1776. Awst 9, 1790, priododd Sarah Elizabeth Harper, o'r hon y bu iddo un mab a dwy ferch. Bu Mrs. Owen farw Ionawr 25, 1816; a thuag at "ysgafnhau gorthrymder meddyliau blinion" a achlysurid iddo drwy hyny, y cymerai efe mewn llaw y gorchwyl gorchestfawr o gyfieithu "Coll Gwynfa," fel y dangosir yn ei eiriau ef ei hun:—"Ni syniaswn o fy mhen fy hunan byth ryfygu cymeryd arnaf y fath orchwyl; ac er dangosi mor swta y bu i mi hyny, nid anwiw yw dodi yma hanes y dechreuad. Y llynedd ar ddydd Mawrth y 26ain o fis Mai, galw arnaf o gyfaill, ac o blith ereill ymadroddion, annogai imi gyfieithu Coll Gwynva i Gymraeg; a minnau gan synied hyny o dueddiad i ysgafnhau gorthrymder meddyliau blinion, a ymroddwn i gyflawni yr annogiad, a dechreuwn y gwaith ar y dydd Sadwrn canlynawl, a dygid i ben ar nos Fawrth y 22ain o Ragfyr nesaf ar ol." Felly ni bu efe mor *saith mis* yn cyflawni y gorchwyl! Tua 1806, gadawyd iddo etifeddiaeth yn nghymydogaeth Dinbych, yr hyn a barodd iddo ychwanegu y cyfenwad PUGHE at ei enw, yr hyn o'r blaen ydoedd WILLIAM OWAIN yn unig, fel y mae ei lyfrau blaenorol i hyny yn dangos. Ar yr etifeddiaeth uchod (oddeithr rhai yn Llundain, &c.,) y treuliai efe y blynyddoedd olaf o'i oes; ac mor edmygol a chariadus ydoedd yn mysg bonedd yr ardal fel y cyfluniasant gyfarfod cyhoeddus yn nhref Dinbych ar y 4ydd o Fawrth, 1834, i'r dyben o roddi gwledd, a thalu parch-gydnabyddiaeth iddo, He traddodid areithiau o lon-gyfarchiad iddo, yn cynwys adroddiadau o'i orchestion llenyddol, a'i ragoriaethau personol; darlienwyd amryw lythyrau anerchiadol oddiwrth foneddigion absenol; dadgenid ei glod mewn cyfansoddiau barddonol; a chy-

Digitized by Google

lunid i wneuthur casgliad o gydroddion ei ewyllyswyr da tuag at ffurfio rhyw gof-arwydd arosol er oesoli ei goffadwriaeth; a phenodwyd cyfeisteddfod i'r dyben o ddwyn hyny yn mlaen; ac addewid swm helaeth i'r perwyl. Etholwyd Mr. Owen yn aelod o'r Gymdeithas Henafiaethol (*Fellow of the Antiquarian Society*) ryw yspaid o amser cyn cyhoeddiad ei Eiriadur; a thua'r flwyddyn 1824, darfu Prifysgol Rhydychain ei anrhegu â'r teitl o Ddysgawdwr yn y Cyfreithiau gwladol (*Doctor of Civil Laws*). Yn y blynyddau diweddaf o'i oes yr oedd Dr. Pughe yn cael ei flino yn dost gan afiechyd blinderus, drwy ba un yr ydoedd yn cael ei ddifuddio o gwsg a gorphwysdra, fel nas gallai oddef ond ychydig enyd yn yr un agwedd, yn ei orwedd nac yn ei eistedd. Tua dechreu haf 1835, tueddwyd ef i fyned i ymweled â'i ardal enedigol, yn Meirion, ac wedi treulio rhai dyddiau yn ei ddull siriol arferol mewn tyddyn-dŷ a elwir Dolydd-Cau, yn mhlwyf Tal-y-llyn (nid yn mhell oddiwrth y lle y ganesid ef), aeth i'w ystafell wely fel arferol nos y 3ydd o Fehefin, ond y boreu dranoeth, cafwyd ef wedi marw yn ymyl ei wely, a'i ddillad am dano, fel y bernid iddo gael ei darawo â llesmair o'r parlys mud (*apoplexy*). Gyda bwydydd a diodydd, yr oedd Dr. Pughe yn dra chymedrol; ei arwyddair ydoedd, "Nid oes arnaf syched, ac i ba beth yr yfaf." Odid y perthyn ini sylwi ar syniadau crefyddol gwyr lleyg fel y doethawr; ond gan fod gwendidau dynion mawr mewn gwrthgyferbyniad yn mwyhau eu rhinweddau, nis gallwn lai na chrybwyll fod y Dr. mawr hwn wedi bod gan ffoled a chredu honiadau diymbwyll y widdanes hono Johanna Southcote, yr hyn a barodd i Dewi Wyn ddywedyd yn ei ddull cellweirgnoawl ei fod yn "tynu ei gred o d— gwrach." Pe anturiem dynu darluniad cyffredinol o nodweddiadau Dr. Pughe, odid y byddai i ni wneud cyfiawnder ag ef, na rhoddi boddlonrwydd i ddau fath o ddarllenwyr; un math am ei ddyrchafu uwchlaw pob mesurau, a'r llall am ei ddifrio yn llawer is na'i haeddiant. Ond ein dymuniad ni yw ymgadw o fewn terfynau cymedroldeb ar bob llaw. Fel ymdrechwr yn achos dysg a geirda ei genedl, ni bu haiach neb a'i rhagorai; ac os a rhywrai i'w feio am ormod sêl yn hyny, tawed y rhai sydd â llawer rhy fychan; a chofiont, er cymaint oedd ei lafur a'i lwyddiant ef, nad oedd neb llai ei ymffrost, a mwy dirodres; ac er cymaint o sarhad ac enllib a roddid iddo, nid oedd neb mwy tangnefeddus, amyneddgar, llariaidd a charedig.

PIERCE (Parch. Thomas), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Liverpool, a bardd o gryn deilyngdod. Ganwyd ef yn Ninbych, Mai 24, 1801. Crydd oedd ei dad wrth ei alwedigaeth, a brodor o Fachynlleth; ystyrid ef yn un o'r dynion gonestaf yn y dref, a bu yn aelod gyda'r Annibynwyr am lawer o flynyddau. Dygwyd Thomas i fynu yn yr un alwedigaeth, ac ymunodd â'r un enwad crefyddol â'i dad. Yr oedd yn fachgen meddylgar, a chyda ei gyfaill a'i gyfoed Caledfryn ymddifyrai yn rhodfeydd yr awen pan nad oedd ond plentyn. Wedi ei dderbyn yn aelod eglwysig yn Ninbych, aeth i Fanchester, lle y bu yn gweithio am yspaid, a'r lle y priododd gydag un Ann Griffiths, ond bu hi farw yn mhen pumtheg mis ar ol hyny. Dychwelodd i Ddinbych ar ol y tro hwn, a dewisodd yr eglwys ef yn un o'i henuriaid, ac yn 1826, galwyd arno i ddechreu pregethu. Rhoddes Caledfryn ac yntau brawf o'u cymhwysder i'r gwaith hwnw yn ystod yr un noson, ac anogodd yr eglwys gyda phob sirioldeb iddynt ganlyn yn mlaen. Yn ngwanwyn, 1827, aeth y ddau wr ieuanc ar daith, a thynasant gryn lawer o sylw. Priododd yn y Mai canlynol âg Eleanor Roberts, o dref

Digitized by Google

Dinbych, yr hon a fu yn wraig ffyddlawn a charuaidd iddo trwy holl dymhor ei gystudd maith hyd y diwedd. Yn fuan ar ol hyny cafodd wahoddiad yr eglwys Annibynol Gymreig a gyfarfyddai yn Greenland St., Liverpool. Canghen eglwys o'r Tabernacl ydoedd hon, ac nid oedd ei haelodau ar y pryd ond 35 o nifer. Urddwyd ef yn gyflawn weinidog Rhagfyr 24, 1832. Llafuriodd Mr. Pierce yn galed iawn wedi ymgysylltu â Greenland St. Fel y gellid disgwyl, nis gallai y ddiadell fechan a fugeiliai, ei gynal yn gwbl oll, a chan hyny am lawer o flynyddau wedi cael "Parch." o flaen ei enw bu ef yn dilyn ei hen alwedigaeth. Cynyddodd yr eglwys yn raddol tan ei ofal dyfal, a gwenodd amgylchiadau arno yntau. Aeth cortynau ei phabell yn rhy fach, ac yn Awst, 1837, gosodwyd careg sylfaen capel newydd i lawr, yn Bedford Street, Toxteth Park, yr hwn a adwaenid wrth yr enw Bethel, a dyna fu man cyfarfod yr eglwys lewyrchus hono hyd ddechreu 1868, pryd y symudodd i addoldy newydd hynod o brydferth a saif yn Park Road. Yr oedd gofal Mr. Pierce am yr aelodau yn fawr, a'u serch hwythau ato yntau yn angherddol. Ni bu erioed briodas rhwng eglwys a gweinidog mwy cydmarus; po hwyaf yr undeb, dyfnaf y cariad; po chwerwaf y brofedigaeth, amlycaf y serch. Wedi blynyddau dedwydd o gynydd a llwyddiant, yn 1848, dyryswyd masnach Liverpool, gan effeithiau y chwildroad Ffrengig; ac o ganlyniad, symudodd lluaws o'r dref, er mwyn enill bywiolaeth yn rhyw le arall, collodd amryw o'r eglwysi Cymreig yn y dref lawer o aelodau tra defnyddiol, ac yn enwedig felly eglwys Bethel. Yn y cyfwng gofidus hwn, cafodd Mr. Pierce aml i demtasiwn i symud, ac agorodd un eglwys barchus yn y Deheudir ddrws o wahoddiad taer iddo, ond "fel cadben gwrol ni fynai efe adael ei lestr ar dipyn o ystorm." Ymddygodd yr eglwys tuag ato yntau yn ei afiechyd a'i waeledd maith yn dra theilwng. Rywbryd tua 1844, aeth oddiacartref am Sabbath, a rhoddwyd ef i gysgu mewn ystafell oer, a chafodd wedy llaith. Mewn canlyniad, cafodd anwyd trwm, a chrygni y methai am wythnosau gael gwared oddiwrtho. Ni bu byth gan gryfed dyn ar ol hyn; yr anwyd lleiaf a ddygai arno gaethder a dilyg anadl, a chollodd i raddau mawr y pereidd-dra a'r nerth oedd yn ei lais. Er ei holl nychdod corphorol, yr oedd ei feddwl yn parhau mor fywiog, a'i yspryd mor ymdrechgar, ag erioed. Ond enill tir arno yr oedd ei afiechyd yn barhaus, a byddai raid iddo dreulio rhan fawr o bob haf yn Nghymru; ond yr oedd y gauaf a Lerpwl yn ei wanychu o flwyddyn i flwyddyn. O'r diwedd, penderfynodd roddi ei ofal gweinidogaethol i fynu, yr hyn a wnaeth yn Ngorphenaf, 1856. Rhifedi yr eglwys y pryd hwn oedd 259. Yn ngwyneb hyn, penderfynodd yr eglwys roddi punt yn yr wythnos iddo tra y parhai yn analluog. Ni bu y gweddill o'i oes ond penod o ddyoddefaint, yr hwn a ddaliodd yn dawel, ac ymroddgar i ewyllys Duw, ac a derfynodd yn ei angau tangnefeddus Mai 30, 1857. Dilynwyd ei weddillion i gladdfa Smithdown Lane gan tros fil o bersonau. Dygodd yr eglwys holl draul yr angladd, a chododd gofgolofn wedi hyny ar ei fedd. Traddododd ei gyfaill mynwesol y Parch. W. Rees ei bregeth angladdol yn Bethel, i un o'r cynulleidfaoedd lluosocaf a fu erioed o fewn y muriau. Fel pregethwr, yr oedd Mr. Pierce yn sefyll yn y dosparth blaenaf; yr oedd mwy o gyflawnder nag o fawredd yn ganfyddadwy yn ei bregethau; a llwythid hwy gan gronfa o ddduwinyddiaeth iachus. Yr oedd ei apeliadau at gydwybodau ei wrandawyr yn gryfion iawn, a phan lefarai a'r teimlad, ni byddai odid i lygad sych yn ei gynulleidfa. Cofir yn hir am ei drem welw, a'i

Digitized by Google

dlwg llym ; ond yn arbenig cedwir yn gysegredig ei syniadau prydferth a'i gynghorion doeth i ba rai y rhoddai lafar rhwng pyliau poenus o besychu yn y pwlpwd. Crybwyllasom eisoes ei fod yn fardd o gryn fri hefyd. Y mae darnau tlysion odiaeth yn ei farddoniaeth, ond y mae yn amddifad o'r tân a nodwedda gyfansoddiadau barddonol ei cyfaill Hiraethog, a'r dillynder iaith sydd yn addurno gwaith ei hen gyfaill arall Caledfryn. Yr oedd ganddo yntau ei ffugenw, ond ychydig ddefnydd wnaeth erioed ohono, sef oedd hwnw *Thomas Clwyd*. Bu yn llwyddiannus mewn amryw gystadleuon o bwys ; enillodd y wobr a'r tlws yn ail Eisteddfod Liverpool yn 1839, am yr awdl oreu ar "Haman a Mordecai ;" yn Mehefin y flwyddyn ganlynol, cafodd y wobr yn Eisteddfod y Gordofigion, a gynaliwyd yn Liverpool yn 1840 am yr awdl oreu ar y "Rhuthr-wynt a ymwelodd â Llerpwll, a manau eraill o'r deyrnas, Ionawr 6 a 7, 1839 ;" ac hefyd wobr Cymreigyddion Caerludd, yn 1841, am yr awdl farwnad oreu er cof am "Syr Watkin Williams Wynn, barwnig, A.S." Enillodd y wobr am yr englyn goreu i'r "Llwynog," yn Eisteddfod Aberffraw, 1849 ; yn 1850, gwobrwywyd ef gan Eisteddfod Iforaidd Tredegar am y farwnad oreu i'r Parch. J. P. Davies, gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yn y dref hono ; ac yn Eisteddfod Madog, 1851, enillodd ar yr awdl oreu er "Coffadwriaeth am Dewi Wyn." Un o destynau Eisteddfod Llundain oedd "Chwe' englyn i'w dodi ar feddfaen y Parch. John Elias ;" barnwyd chwech yn tra ragori, ac yn gyfartal mewn teilyngdod, a dewiswyd un o'i rai ef at bump eraill yn fuddugol. Cafodd dlws yn Nghyfarfod Llenyddol Porthmadog, yn 1856, am y cywydd goreu i'r "Goleudy," a dyna yr olaf o'i ymdrechion cystadleuol. Ychydig o gyfansoddiadau rhyddieithol a gyhoeddodd —ambell i bregeth, traithawd, a chofiant. Yn 1864, cyhoeddwyd "Cofiant, Pregethau, a Barddoniaeth, y diweddar Barch. T. Pierce, Liverpool," gan ei fab-yn-nghyfraith, y Parch. H. E. Thomas, Birkenhead.

PWYLL PEN ANNWN, neu Pwyll Pendefig Dyfed, ydoedd fab i Meirig, tywysog Dyfed, ac yn ei flodeu yn y 7fed ganrif. Y mae yn gymeriad pwysig yn mheirianaeth chwedl a rhamant yr Hen Gymry, a gelwir un o'r Mabiniogion ar ei enw.

PYLL, mab i Llywarch Hen, gwrolder yr hwn a gofnodir gan ei dad, yn marwnad benigamp y bardd hwnw i'w feibion.

RAFF AB RHOBERT, bardd yn ei flodeu tua 1530, yn ol Moris Williams. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

RECORDE (ROBERT), ar-rifydd enwog, a anwyd yn Dinbych y Pysgod, sir Benfro. Mab ydoedd i Thomas Recorde, ysw., o'r lle hwnw ; a Rose, merch i Thomas Jones, o Fachynlleth, sir Drefaldwyn. Aeth i Rydychain yn 1525, ac etholwyd ef yn gymrawd o goleg All Souls, yn 1531, ac efe ar y pryd yn B.A. Ymroddodd i efrydu physigwriaeth ac aeth i Gaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn ddoethawr yn y wyddor hono yn 1545, ac anrhydeddid ef gan bawb a'i hadwaenai am ei fawr wybodaeth mewn gwyddonau a chelfyddydau eraill. Yn ol Wood :— "Dywedir ei fod, tra yn ngholeg All Souls, a thrachefn wedi iddo ymneilldno o Gaergrawnt i'r brifysgol hon, yn dysgu rhifyddiaeth yn gyhoeddus, ac efenau uwchrifyddiaeth *(mathematics)*. Gosodai hyn allan mor syml ac eglur i bob amgyffrediad, na wnaeth neb erioed yn gyffelyb o'r blaen. Y gwir yw, yr oedd efe wedi ei freintio â gwybodaeth annghyffredin mewn rhifyddiaeth a mesuroniaeth ; ac am athronaturiol, ser-ddewiniaeth, a gwybodaethau eraill prinion a ffasiwnol yr

Digitized by Google

oes hono, rhydd awduron gan mwyaf iddo ganmoliaeth uchel." Robert Recorde oedd yr ysgrifenydd gwreiddiol cyntaf ar rifyddiaeth yn Seisnig; y cyntaf ar fesuroniaeth; y cyntaf a ddaeth a gwybodaeth o algebra i Loegr; yr awdwr cyntaf ar seryddiaeth yn Seisnig; y cyntaf yn y wlad a fabwysiadodd gyfundrefn Copernicus; dyfeisydd y cynllun presenol o dynu allan y petryal gwreiddiol *(square root)*; dyfeisydd yr arwyddlun o gyfartaledd (=); a darganfyddwr amryw o ddeddfau eraill uwchrifyddiaeth. Yr oedd yn trigiannu yn Llundain yn 1547, ac yn dilyn ei broffeswriaeth o feddyg. Gan iddo syrthio i ddyled, efe a roddwyd yn ngharchar y Frenhinfainc, lle y bu farw yn 1558. A ganlyn ydynt ei lyfrau cyhoeddedig:—1, "The Grounde of Arts, teachinge the worke and practise of Arithmetike, both in whole numbers and fractions" Cyhoeddwyd hwn gyntaf, mae'n debyg, yn 1540; a helaethwyd ef gan Dr. Dee yn 1573. Adargraffwyd ef amryw weithiau, a pharhaodd mewn arferiad hyd oni chyhoeddwyd *Cooker's Arithmetic* yn 1677; yr argraffiad olaf a gyhoeddwyd yn 1699. 2, "The Pathway to Knowledge, containing the first principles of Geometrie, as they may moste aptly be applied unto practise, both for use of Instrumentes Geometricall and Astronomicall, and also for projection of plattes in everye kinde, and therefore much necessary for all sortes of men," 1551. 3, "The Castle of Knowledge, containing the explication of the Sphere, both celestial and material, and divers other things incident thereunto," 1556 a 1596. 4, "The Wetstone of Witte which is the second part of Arithmetike; containyng the extraction of Rootes. The Cossike practise, with the rule of equation, and the workes of Surde Nombers," 1557. 5, "The Urinal of Physic, of the Judicial of Urines," yr ail rau o'r hwn a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1582. Ysgrifenodd hefyd amryw lyfrau eraill, ac yn eu plith draithodau ar y Sacrament, y Gyffesgell, Difyniaeth, a "Gwir Ddelw o Werinlywodraeth."—Wood's *Athen. Oxon*; *Comb. Quart. Magazine*. Wms. *Em. Welsh.*

REES (ABRAHAM), D.D., ydoedd fab i'r gweinidog llafurus a phoblogaidd Lewis Rees, o Lanbrynmair, ac yn nhy yr hen Gapel yno y ganwyd ef yn 1743. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn ysgol ramadegol Caerfyrddin, tan ofal Dr. Jenkins; yna aeth i athrofa Hoxton, naill du i Lundain; a chynyddodd mor gyflym, fel cyn ei fod yn again oed, y penodwyd ef yn athraw rhifyddol yr ysgol hono, a bu yn llanw y swydd am yspaid 22 mlynedd. Yn y cyfamser, ni chollodd olwg ar ddyben ei dad yn rhoddi addysg iddo, sef er mwyn ei gyfaddasu at waith y weinidogaeth. Yn 1766, urddwyd ef yn weinidogaeth cynulleidfa o Bresbyteriaid, a gyfarfyddai yn St. Thomas, Southwark. Tra yn gweinidogaethu yn y lle hwn y graddiwyd ef yn Ddoethawr mewn Duwinyddiaeth gan Brifysgol Edinburgh, trwy arganmoliaeth amryw bersonau cyfrifol yn y byd dysgedig. Yn 1781, ar farwolaeth Nathaniel White, o'r Old Jewry, y gynulleidfa hono yn unfrydol a wahoddasant Dr. Rees i ddyfod yn olynydd iddo, ac yntau a gydsyniodd. Llwyddodd yr eglwys yn fawr tan ei ofal, a bu raid adeiladu capel helaethach yn heol Jewin, lle y parhaodd efe i bregethu cyhyd ag y parhaodd ei iechyd. Bu hefyd yn darlithio am yspaid yn Salter's Hall. Yn 1784, Dr. Savage a Dr. Kippis a roddasant eu swyddau i fynu yn athrofa Hoxton, ac yn fuan ar ol hyny gwnaeth Dr. Rees yr un peth. Ni chafwyd byth allan yr achos o'r ymadawiad hwn; ond y mae rheswm iddo gael ei achlysuro, gan mwyaf, trwy anfoddlondeb yr ym-

Digitized by Google

ddiriedolwyr oherwydd gwrthgiliad yr athrofa oddiwrth yr egwyddorion athrawiaethol ar ba rai y sylfaenesid hi. Yn awr, gan fod yr hen athrofa yn Hoxton wedi ei thori i fynu, a'r un yn Warington, yn gystal a'r un yn Daventry, yn gwaethygu yn feunyddiol, penderfynwyd gan gyfarfod o'r Ymneilldiwyr mwyaf haelionus a chyfoethog yn Llundain, i sefydlu athrofa arall yn agos i'r brifddinas, ar gynllun mwy helaeth a rhydd na'r un a fuasai cyn hyny yn Lloegr, i ddysgu dynion ieuainc yn egwyddorion annghydffurfiad, heb gyfaddefiad ffydd na son am ddaliadau neilldual neb. O ganlyniad, gwnaed tanysgrifiad helaeth, ac mewn ychydig amser, cynyddodd y trysorfeydd yn ddigon cryfion i brynu lle i adeiladu arno yn agos i Hackney. Hefyd aeth yr adeilad yn mlaen gyda bywiogrwydd, ac ar agoriad yr athrofa, yn 1786, Dr. Kippis, y cyfarwyddwr a'r athraw penaf, a draddododd bregeth, yr hon a argraffwyd. Y bregeth flynyddol nesaf a draddodwyd gan Dr. Price, yr hwn a ganlynwyd yn 1788, gan Dr. Rees, ac yntau a ganlynwyd gan Mr. Hugh Worthington yr ieuengaf; a'r bregeth flynyddol ddiweddaf a draddodwyd, mae yn debyg, gan Dr. Priestley. Oddiar y penderfyniad cyntaf i sylfaenu yr athrofa hon, edrychid ar Dr. Rees fel y person mwyaf cymhwys i gyflawni dyledswyddau Athraw trigianol yn y celfyddydau, yr hyn a wnaeth cyhyd ag y parhaodd y sefydliad. Cyfarfu â llawer o ddigwyddiadau anffodus nad oeddid yn eu rhagweled ar y cyntaf, a gwelwyd yn fuan, trwy leihad y tanysgrifwyr, ac ymneilldiad yr athrawon, na fyddai y sefydliad ardderchog hwn o hir barhad. Dr. Kippis, yr hwn oedd yn awr yn ei hen ddyddiau, a ymadawodd â Hackney, fel y byddai yn agos at ei gynulleidfa yn Westminster; a Dr. Priestley, yr hwn, wedi ei sefydlu yn ganlyniedydd i Dr. Price, a gymerasai arno ran fawr o lywyddiaeth yr athrofa, a ymadawodd â'r wlad mewn anfoddlonrwydd, i orphen eid dyddiau yn America. Felly, Dr. Rees, yr hwn yn awr oedd wedi myned heibio i hafddydd ei fywyd, a adawyd agos yn unig, yn amgylchynedig gan anhawsderau, yn cael ei ddirwasgu gan lafurwaith, ac mewn gofid mawr oherwydd amgylchiadau yr athrofa. Rhaid sylwi hefyd fod yr amseroedd hyny yn hynod o anffafriol i sefydliad o'r fath yma. Yr oedd dychryniadau y chwyldroad Ffrengig wedi llenwi meddyliau llawer o Ymneilldiwyr, yn gystal a dynion eraill, â'r ofn o weled y cyfryw bethau yn cymeryd lle yn Lloegr. Hefyd darfu i bregeth chwyldroadol Dr. Price, yn yr hon yr amlygai ei feddyliai am faterion llywodraethol, gynyddu y braw i raddau mawrion; a sylwadau Mr. Burke arni, yn ei "Adfyfyriadau ar y Chwyldroad Ffrengig," a wasgarodd y dychryn o un pen i'r llall i'r deyrnas; yr hyn a fu yn achos i beri i lawer a ddymunent lwyddiant y sefydliad yn Hackney wrthod eu tanysgrifiadau, rhag y tybid hwynt yn ffafriol i werin-lywodraeth. Heblaw y pethau hyn, bu dadl boeth tua'r amser yma rhwng amrywiol bleidiau y byd crefyddol. Rhai a haerent fod yr Ymneilldiwyr, yn gyffredinol, wedi ymwrthod â ffydd eu hynafiaid; ac ymdrechent brofi hyny trwy ddangos fod holl ffynonau dysgeidiaeth dan gyfarwyddyd hollol yr Ariaid a'r Sosiniaid. Bu hyn o niwed mawr i'r athrofa newydd yn Hackney; a thra yr oedd y sefydliad yn y cyflwr gwaethygus hwn, bu farw yr enwog Ddr. Kippis, yr hyn a osododd derfyn arno yn gyfan gwbl,—ar ba achlysur galarus y traddododd Dr. Rees bregeth ragorol yn yr Old Jewry. Fel hyn wedi dwyn hanes yr athrofa hon i derfyniad, rhaid yn awr cymeryd golwg neilldual ar lafurwaith dysgedigol Dr. Rees. Yn nghylch 1750, pan oeddid yn bwriadu cyhoeddi y chweched argrafliad o "Chamber's Cyclopædia," barnodd

Digitized by Google

perchenogion y gwaith fod yn angenrheidiol ychwanegu llawer ato i'w wneud yn fwy defnyddiol, a dewiswyd Mr. George Lewis Scott, athraw rhifyddol ei Fawrhydi, a'r diflin Ddr. John Hill, fel rhai addas i gyflawni eu dymuniad. Yn y cyflwr hwn arosodd y gwaith dros amryw flynyddoedd, ac yn y cyfamser ffurfiodd y perchenogion y perderfyniad o wneud yr ychwanegiad trwy gorph y llyfr, yn lle ei argraffu yn wahanol ar y diwedd, ac Owen Ruffhead a osodwyd ar waith i ddwyn y penderfyniad oddiamgylch; ond nid aeth efe yn mhell yn mlaen cyn i'w farwolaeth gymeryd lle, a'r gwaith a arosodd dros gryn amser. Yna rhoddwyd yr argraffiad newydd i ofal a than arolygiaeth Dr. Kippis; ond cafodd ef yn fuan nad oedd ei gryfder corfforol yn ddigon i'r fath orchwyl pwysfawr, a rhoddodd ef i fynu. Y perchenogion fel hyn yn cael eu siomi o hyd yn eu disgwyliadau o gael y gwaith allan, ac yn methu gwybod yn awr am un addas i'w arolygu, cawsant eu hanog gan rywun adnabyddus â galluoedd dysgedig Dr. Rees i roddi y gwaith dan ei arolygiaeth ef; ac yntau, oddeutu 1777, a gymerodd y gorchwyl pwysig mewn llaw, ac yn nghwrs y flwyddyn ganlynol gwnaeth y rhifyn cyntaf ei ymddangosiad. Y cyhoeddiad a gymerodd i fynu naw mlynedd;—gorphenwyd ef mewn pedwar cyflyfr unplyg, yn 1786, yn nghylch y cyfryw amser hefyd y dewiswyd y golygydd dysgedig yn aelod o'r Gymdeithas Frenhinol. Cymaint oedd clod y Cylch-ddysgedydd, a'r galw am dano, fel y cyhoeddwyd ef yn fuan yn amryw o ieithoedd y Cyfandir; a'r gwerthiant mawr a gafodd gartref a gynhyrfodd y perchenogion i'w helaethu, fel y gwnaethai y Ffrancod âg ef. I ba ddyben, er i'r Dr. Rees gael ei benodi i arolygu y cyhoeddiad, gosodwyd amryw eraill ar waith i ysgrifenu ar wahanol ganghenau dysgeidiaeth, y rhai a dybid eu bod yn fwyaf gwybodus ohonynt. Er, fe allai, mai y gwaith hwn yw y mwyaf ardderchog a ymddangosodd erioed yn yr iaith Saesneg, eto y mae ei anferth faintioli, ac yn ganlynol ei fawr werth, yn ei wneud yn hollol anghyraeddadwy i'r rhan fwyaf. Yn y bywgraffiedydd Brytanaidd, dan y gair *Chambers*, Dr. Kippis a rydd y ganmoliaeth ganlynol i'w hen gyfaill a chyd-athraw:—"Buasai yn dra anhawdd i gael unrhyw berson unigol yn fwy abl na Dr. Rees i gyhoeddi y Cylchddysgedydd. Yr oedd ei feddwl yn helaeth, ac yr oedd yn feddianol ar gyfran fawr o wybodaeth gyffredinol; yr oedd yn ddiflino yn ei ymdrechiadau, ac yn hollol hyddysg yn y celfyddydau ac athronddysgeidiaeth, heb yr hyn buasai ei holl gymwysderau eraill yn aneffeithiol. Y mae llwyddiant y gwaith dan ei arolygiad ef, wedi rhagori ar bob disgwyliadau; gwerthir o bump i chwe' mil o ranau ohono yn wythnosol, ac y mae y galwad am danynt yn cynyddu yn feunyddiol. A bydd i enwau Chambers a Rees gael eu trosi i waered gyda'r clod mwyaf i'r oesoedd a ddeuant; y blaenaf fel awdwr, a'r ail fel arolygodd y gwaith ardderchog hwn." Gan i'r Doctor dreulio cynifer o flynyddoedd, a'r rhan fwyaf o'i fywyd hefyd, wrth orchwylion o gymaint pwys, nid rhyfedd na anfonodd i'r byd ond ychydig o gyhoeddiadau eraill. I ganfod cryfder ac helaethrwydd ei alluoedd meddyliol, rhaid edrych i'w argraffiad cyntaf a phenaf o Gylchddysgedydd Chambers, lle y cyfarfyddir âg amryw o draethodau tra gwerthfawr, o'i waith ef, ar wahanol ganghenau dysgeidiaeth. Heblaw y ddwy bregeth a enwyd, efe a argraffodd bregeth ar y "Ddyledswydd a'r Pwysfawrogrwydd o chwilio yr Ysgrythyrau;" dwy bregeth angladdol, un ar farwolaeth Mr. R. Robinson, o Gaergrawnt, a'r llall ar farwolaeth Dr. Flexman, o Rotherhithe; dwy bregeth ar "Iawn drefnyddiaeth achosion bydol;" un arall ar agoriad y

Digitized by Google

capel yn Heol Jewin; a dau lyfr o "Bregethau Ymarferiadol." Ni ddarfu i Dr. Rees, un amser, gymeryd rhan mewn unrhyw ddadl hyd y flwyddyn 1813, pryd yr argraffodd lyfryn wythplyg dan yr enw—"Egwyddorion yr Ymneillduwyr Protestanaidd yn cael eu hamddiffyn." Mewn amddiffyniad, fel y gwelir, yr ysgrifenodd efe y llyfryn hwn; ac ni wyddis iddo erioed ymddangos fel ymosodydd, oddieithr iddo wneuthur hyny wrth ysgrifenu ei sylwadau ar *Aml-wreigaeth*, yn ei eirlyfr unplyg. Yr oedd Dr. Rees yn un o aelodau hynaf y Gymdeithas Linnæaidd; ac ychydig o fisoedd cyn ei farwolaeth, cafodd ei ddewis yn aelod anrhydeddus o'r Gymdeithas Freiniol. Hefyd bu y Doctor, dros amryw flynyddoedd, yn llywydd y bwrdd Presbyteraidd yn Llundain, fel ymddiriedolwr y drysorfa a sefydlwyd gan Dr. Daniel Williams, a threfnydd y Llyfrgell yn Redcross Street: yr oedd hefyd yn un o gyfarwyddwyr penaf y Waith-Ysgol i amddifaid yn City Road, a pherthynai i'r rhan fwyaf o'r sefydliadau haelionus yn mhlith yr Ymneillduwyr. Yn ei egwyddorion llywodraethol, yr oedd yn gyfaill diysgog i ryddid gwladol a chrefyddol, ond yn eithaf gelynol i bob math o derfysg, ac ni chymerodd ran erioed mewn dadleuaeth anfuddiol. Yn ei ddaliadau crefyddol, canlynai Undodiaid yr hen Ysgol, ac fel ei hen gyfaill Dr. Price, yr oedd yn credu rhag-hanfodiad Crist, er ei fod yn gwadu yr athrawiaeth o'i ddwyfoldeb anhebgorol.

REES (Parch. David), ydoedd yn perthyn i gynulleidfa y Bedyddwyr yn Hengoed. Ganwyd ef yn 1683. Cafodd elfenau ei dysgeidiaeth gan Samuel Jones, yn Brynllywarch. Yn 1706-7, efe a wahoddwyd i Lundain, a chafodd alwad i weinidogaethu i gynulleidfa *Limehouse*, lle yr ordeiniwyd ef oddeutu 1709-12. Ysgrifenodd a chyhoeddwyd y llyfrau canlynol o'i eiddo:—1, "Adnodau o rai lleoedd cableddus a sarhaus o lyfrau a osodwyd allan gan Mr. Fowler Walker, mewn llythyr at yr awdwr yn mhlaid y cynulleidfaoedd tan Fedydd yn Neheudir Cymru," 1732; 2, "Infant Baptism, no institution of Christ, and the rejection of it Justified from Scripture and antiquity, in answer to Mr. Fowler Walker's Book, entitled, A Defence of Infant Baptism, to which is annexed, Animadversions on the Reverend Dr. Thomas Ridgley's Dissertation on Infant Baptism." Bu farw yn 1748, yn 64 oed.—*Lleyn MSS.*

REES (Parch. David), ydoedd fab i Rees Rees, o'r Gymrig yn mhlwyf Llanfynydd, yn sir Drefaldwyn. Ganwyd ef yn 1751. Cafodd ddygiad i fynu crefyddol gan ei rieni, y rhai oeddynt aelodau o gymdeithas y Methodistiaid Calfinaidd. Ni chafodd fwy o ddysgeidiaeth foreuol nag a'i galluogai i ymwneud â negesau y bywyd hwn fel amaethwr cyfrifol. Ymunodd yn dra ieuanc â'r un bobl grefyddol a'i rieni. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1782. Cafwyd boddlonrwydd mawr ynddo yn ebrwydd, a chaniateid iddo gymeryd teithiau unwaith fel cydymaith i'r Parch. W. Williams, Pantycelyn. Syrthiodd y coelbren arno i fod yn filwr, a bu cryn drafferth i'w ryddhau oblegid ei daldra hardd,—gwnaeth hyn iddo weled yn briodol i godi trwydded i bregethu. Yn 1811, yr oedd yn un o'r nifer a etholwyd gan y cyfundeb i'w hordeinio i weinyddu yr ordinhadau, am y waith gyntaf Ystyrid ef yn wr flyddlon iawn yn ngwaith y weinidogaeth. Yr oedd ei ddawn fel duwinydd yn helaeth. Traddodai y rhan fwyaf o'i feddyliau yn ngeiriau yr ysgrythyrau. Yr oedd ganddo hyfrydwch yn teithio i bregethu. Ei nodwedd gyffredin oedd y syml a siriol. Yr oedd yn boblogaidd fel gwr cyhoeddus. Bu farw Medi 10, 1818, yn 67 oed.

Digitized by Google

REES (DAVID), ydoedd fab i'r Parch. Wm. Rees (*Gwilym Hiraethog*). Ganwyd ef yn Heol Mostyn, sir Fflint, Tachwedd 28, 1835; a bu farw wedi cystudd maith yn Liverpool, Medi 14, 1856, cyn cyrhaedd ei un-ar-hugain oed. Er bered fu ei oes, ac er llawned ydoedd o gystuddiau, llanwodd galonau ei gyfeillion â disgwyliadau mawrion oddiwrtho, ac argraffodd ar eu meddyliau fod ganddo alluoedd cryfion, ac athrylith ddysglaer. Yr oedd prydferthwch ei wedd, a symlrwydd ei ymddygiad, yn hawlio sylw a serch pawb, tra yr oedd ei wyleidd-dra gweddaidd a naturiol, a'i yswildod cymhenddoeth, yn cadw ei brif ragoriaethau o'u golwg. Gallent hwy weled ac edmygu ei wedd, fel rhosyn teg, ond ei gydnabyddion a aroglent ei berarogl—ei ymadroddion synwyrol, ei sylwadau call, a'r rhai hyny wedi eu britho â thlysau athrylith, a'u heneinio â phrofiad Cristionogol. Bu am yspaid yn ysgrifenydd mewn swyddfa fachnachol yn Liverpool, lle yr enillodd barch ei feistriaid a'i gydwasanaethwyr, ond gorfu arno roddi ei le i fynu oherwydd afiechyd. Yn 1854, cafodd sefyllfa yn ariandy y *North and South Wales*, yn Liverpool, a buan y daeth yn anwylun y lle hwnw hefyd. Ond hiraethai am y wlad, ac atolygodd gael ei symud i un ganghen-ariandai y cwmni yn Nghymru; cydsyniwyd â'i gais, a danfonwyd ef i Ddinbych, yn Awst, 1855. Ond yr oedd yr hen elyn cyndyn, y darfodedigaeth, eisoes wedi cael gafael arno, ac nid oedd digon o rinwedd yn awyr iachus nac awelon adfywiol Dyffryn Clwyd, i beri iddo ei ollwng yn rhydd. Bu ar ol hyn yn chwilio am adferiad iechyd mewn gwahanol fanau, ond yn aflwyddianus, hyd nes y caethiwyd ef i'w ystafell wely yn Liverpool; ac oddiyno i'w fedd, yn mynwent Capel Sion, ger Treffynon. Yn ychwanegol at amryw rinweddau moesol prinion, yr oedd yn ddarllenwr mawr iawn, yn Nghymraeg a Saesneg, ac yn efrydydd diorphwys; ond oherwydd tueddfryd fanol a beirniadol ei feddwl, ni chyfansoddodd ond ychydig. Trysorai a thrysorai yn barhaus, gan godi yn fore ac yspeilio oddiar gwsg; ond daeth deifwynt marwolaeth heibio a lladdodd y cnwd yn yr egin. Cyhoeddodd ei dad athrylithgar fywgraphiad dyddorol am dano, tan y teitl, "Fy Mab;" yr hwn a ymddangosodd gyntaf yn y *Traethodydd*, a thrachefn yn llyfryn.

REES (JOHN), a anwyd yn mhlwyf Pedr, Caerfyrddin, Ebrill 20, 1770, o ba eglwys yr oedd ei fam yn aelod, a bu yn fynych yn gwrandaw ar y Parch. J. Wesley. Crwydrodd oddicartref yn lled ieuanc yn achos ei alwedigaeth i Fristol, Llundain, &c. Trwy wrando ar y nodedig William Huntington, Capel Providence, efe a dueddwyd at y Calfiniaid, ac i gofleidio egwyddorion lled uchel y gyfundraeth hono, ac ymunodd â hwy—yn gyntaf â chynulleidfa Huntington, yna cyfundeb yr Iarlles Huntington, yn ol cyfleusdra a ddigwyddai y lle y byddai yn aros. Yn 1794, dychwelodd i Gaerfyrddin i ymsefydlu mewn masnach, ac ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd Cymreig, gyda y rhai y dechreuodd bregethu. Yn 1806, symudodd i Lacharn, lle yr ymdrechai efengyleiddio y parth Saesonig hwnw o'r wlad. Wedi claddu ei wraig, bu yn dra symudol, fel math o genhadwr cartrefol, yn Mristol, Llundain, Casnewydd-ar-Wysg, &c. Yn 1811, yr oedd yn un o'r pregethwyr cyntaf a ordeiniwyd, neu a neillduwyd i weinyddu yr ordinhadau yn nghorph y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig. Wedi hyny, gweinidogaethai yn mhlith y Saeson, mewn cysylltiad â chymdeithasau Mr. Whitefield, neu Iarlles Huntington, yn Rodborough, yn sir Gaerloyw. Pan elai i Lundain, yr oedd yn boblogaidd iawn yn y Tabernacle, Tottenham Court, Savoy, Spafields, a Sion. Dygwyd ef i

Digitized by Google

sylw y Llundeinwyr trwy arganmoliaeth y Parch. Mathew Wilkes, yr hwn a'i clywsai yn ddamweiniol mewn rhyw le yn y wlad; a'r hwn, pan ofynwyd iddo, "Pa fodd y pregethodd y Cymro," a atebodd, "O, efe a bregethodd yn y fath fodd, fel ag y gwnaeth i mi gywilyddio ohonof fy hun: yr oeddwn yn meddwl wrth ei wrando na cheisiwn i bregethu drachefn. Rhaid fod y fath weinidogaeth dan fendith y Goruchaf." Wedi bod naw mlynedd yn Rodborough, efe yn 1823, a dderbyniodd alwad i ddyfod i fod yn weinidog Capel Crown Street, Llundain. Cyrchai dan ei weinidogaeth yno Ymneilldiwyr ac Eglwyswyr, gwreng a boneddig, yn nghyd. Yr oedd yr iarll Roden yn wrandawr cyson yn ei gapel. Yr oedd yn ddedwydd iawn yn ei gystudd olaf, o'r hwn y bu farw, Ionawr 6, 1833, yn 63 oed.—*Lleyn MSS.*

REES (Parch. Lewis), o Lanbrynmair a'r Mynyddbach. Ganwyd y gweinidog enwog hwn Mawrth 2, 1710, yn Glanrhwydre, Dyffryn Nedd, Morganwg. Yr oedd ei rieni yn aelodau o'r eglwys Annibynol yn Mlaengwrach, a derbyniwyd yntau yn ieuanc i'r un cyfundeb. Darfu i'w dduwioldeb, ei dalentau, ac yn enwedig ei ddawn mewn gweddi, dynu sylw ei frodyr ato fel un cymhwys i'r weinidogaeth. Bu am yspaid, o ganlyniad, tan addysg ei weinidog, Henry Davies; wedi hyny, gyda y Parch. Joseph Simons, o Gastellnedd, yr hwn a gadwai ysgol ramadegol yn Abertawe; a thrachefn gyda Rees Price, tad y Dr. Richard Price o Lundain, yn Penybont-ar-ogwy. Trwy arganmoliaeth Mr. Price, cafodd yn nesaf dderbyniad i'r athrofa yn Maengwyn, sir Faesyfed, yr hon oedd tan lywyddiaeth Vavasor Griffiths. Wedi bod yno am rai misoedd, wrth ganfod ei fod yn ysgolor gwych, ac yn wr ieuanc tra duwiolfrydig, efe a'i cynghorodd i gymeryd gofal eglwys; a thrwy argymhelliad Edmund Jones, o'r Trans, ymsefydlodd yn Llanbrynmair, lle yr oedd eglwys wanllyd eisioes mewn bodolaeth. Bu yn llanw y swydd o gynghorwr yno, gyda chymeradwyaeth mawr, am tua phedair blynedd, ac urddwyd ef yn weinidog Ebrill 13, 1738. Tua 1740, efe a briodedd Esther, merch Mr. Abraham Parry, o blwyf Pendeyrn, sir Frycheiniog. Pan ofynodd am gydsyniad y boneddwr i'r briodas fwriadedig, atebwyd ef trwy ofyn, pa gynysgaeth oedd ganddo? Y pregethwr a gymerth y Beibl, ac a ddywedodd, "Syr, fy mhrif gynysgaeth i ydyw y llyfr hwn." Bu Mr. Parry yn foddlon iddo ef a'i dreftadaeth, a chydsyniodd yn rhwydd a'i gais. Pan ymsefydlodd Mr. Rees yn y Gogledd, yr oedd yr eglwysi mewn cyflwr tra nychlyd, a rhysedd a gwamalrwydd yn uchel iawn eu penau yn mhlith pob dosparth. Yr oedd gweinidogion yr Eglwys Sefydledig, yn ddifater yn nghylch dyledswyddau eu galwedigaethau, ac os meiddiai unrhyw lef ddiaspedain, ac argyhoeddiad ar ei haden, rhaid fod ei pherchenog yn ddyn dewr, gan y byddai yn nod buan i erledigaeth o'r fath greulonaf. Yr oedd Lewis Rees yn meddu y llef hon, a bu yn ddigon gwrol i'w rhoddi allan; a'r canlyniad naturiol i hyny fu iddo ddyoddef llawer; ond cafodd gymaint o waredigaethau ag a gafodd o beryglon. Bu aml i dro mewn enbydrwydd eimioes. Ar ei daith o Lanbrynmair i Lanuwchlyn, lle y bu yn offerynol i sefydlu eglwys, ac i ba le y cyrchai o'r herwydd yn dra mynych, safai Llan a Dinas Mawddwy, lle y camdrinid ef bob amser gan haid o ddynion didoriad a haerllug yn cael eu hanog i'r anfadwaith, meddyliai ef, gan offeiriad y plwyf. Un diwrnod, cyfarfu y gwr parchedig, a chwynai wrtho pa mor annynol yr ymddygai ei blwyfolion at ddyeithrddyn diniwaid. "Pa odd," ebai ei barchedigaeth, "y disgwyliwch chwi, a chwi yn Bresby-

Digitized by Google

ter, oddefiad yn y wlad hon? Ewch i Ysgotland—dyna wlad y Presbyteriaid." "Gobeithio, syr," ebai Lewis Rees, "eich bod chwi yn byw ar uwch egwyddor grefyddol na defodau y wlad y digwyddoch fod yn preswylio ynddi. Ped elech chwi i Ysgotland, Presbyter a fyddech; i Itali, Pabydd a fyddech; i Turkey, gwadech y Beibl yn gyfangwbl, a derbyniech y Koran fel rheol ffydd ac ymarweddiad." Er cymaint rhagfarn y gwr eglwysig, gwelai fod rheswm gan y gwr dyeithr, addawodd wneud ei oreu er cael iddo heddwch o hyny allan, ac felly y bu. Byddai yn teithio llawer, a thrwy ei sel, ei ymdrechion, a'i benderfyniad, bu o fawr wasanaeth i ledaeniad ei egwyddorion, trwy sefydlu eglwysi yn ngwahanol barthau y wlad, a noddi y rhai a sefydlesid eisoes, ond yn rhy weiniaid bron i hanfodi. Yn ystod ei ymweliadau cyntaf â Phwllheli, rhoddwyd gwysiadau allan aml dro i'w ddal. Pan gymerwyd ef un tro gerbron yr erlidiwr didrugaredd hwnw, y canghellydd Owen, cafodd ddiangfa gyfyng am ei fywyd. Pan ddeallodd yr Herod o Lanor fod gan y carcharor drwydded reolaidd fel pregethwr, ac felly nas gallai ef ei gosbi, torodd allan mewn ebwch o gynddaredd; gafaelodd yn ei gleddyf, tygythiai ei ladd â'i ddwylaw ei hun, a chyda yr arf dinystriol, torodd ymaith damaid o'i hugan fel na bu hono werth dim mwyach. Yn 1743, aeth i Fon, ac ar ei daith pregethai yn Glashinfryn, lle y preswyliai William Prisiart, gwr a ddyoddefodd lawer yn achos ei grefydd. Yno cynullodd byddin o erlidwyr i ymosod arno. Pa fodd bynag, anturiodd sefyll o'u blaen i'w hanerch; ac yn ddamweiniol rhoddes allan i ganu yr emyn,

"Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw,
Lle daw i'm help ewyllysgar."

Gan fod mynyddau Arfon yn y golwg, tybiodd y dorf anwybodus fod ganddo nifer o filwyr yno yn nghadw fel gosgordd i'w amddiffyn. Tan y dychryn hwn, arosasant yn llonydd, a chafodd yntau rwydd-deb i bregethu. Dychwelwyd rhai ohonynt, a choleddodd eraill o hyny allan syniadau mwy ffafriol am Ymneilldiwyr. Wedi iddo lafurio yn galed a llwyddianus yn y Gogledd am 25 o flynyddau, derbyniodd wahoddiad eglwys Annibynol Mynyddbach, ger Abertawe, yn 1759, a dychwelodd i orphen ei ddyddiau yn ei sir enedigol. Bendithiwyd ef âg oes hir, ac âg iechyd rhagorol. Bu farw yn dangnefeddus iawn Mawrth 21, 1800, yn 90 oed, ac wedi gweinidogaethu am 65 o flynyddau. Cymerodd hyn le yn Llansamlet, lle yr oedd yn byw ar y pryd gyda'i ferch; a chladdwyd ef yn mynwent capel Mynydd Bach. Ni chyhoeddwyd ond y ddau lyfryn canlynol o'i waith:—1, "Rhai Rheolau a Chyfarwyddiadau a gynhygiwyd er cynyddu cyfeillach grefyddol yn mhlith Crist'nogion, yn nghyda Hymn ar Dymher Lonydd," 1771; 2, cyfieithodd "Y mawr bwys o fod ein tybiau mewn crefydd yn gyson â'r Ysgrythyr, yr hon a bregethwyd o flaen cymanfa o weinidogion yn Ringwood," 1773. Dywedir ei fod o ran corpholaeth yn dalach na chyffredin, yn lluniaidd a golygus ei wedd, a chyfartal ei wneuthuriad—yn un ag yr oedd golwg arno yn tynu sylw, a pheri ffurfio tyb ffafriol am dano. Yr oedd o synwyr cyffredin cryf, gan fedru ymddwyn yn ddoeth yn mhob amgylchiad a'i cyfarfyddai. Ya oedd yn nodedig mewn symlrwydd duwiol—yn selog dros burdeb a santeiddrwydd, heb fod yn rhodresgar, ond yn fanwl iawn—yn ofalus iawn am grefydd deuluaidd. Yr oedd mewn gweddi yn rhagori—yn dywysog gyda Duw. Fel pregethwr, yr oedd yn ymarferol yn hytrach nag athrawiaethol; ac fel gweinidog yn ofalus

Digitized by Google

i feithrin crefydd yn ei gynulleidfa, ac yn onest yn ngweinyddiad dysgyblaeth.—*Hanes y Parch. L. Rees*, gan y Parch. J. Roberts; *Yr Adolygydd*, am 1852.

REES (Owen). Bu am lawer o flynyddau yn un o'r cwmni enwog o gyhoeddwyr Seisnig, "Longman, *Rees*, and Longman." Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llundain, ac ystyrid ef yn fasnachwr rhagorol. Casglodd gyfoeth mawr, ac ymneillduodd i'r Gelligron, sir Forganwg, lle y bu farw Medi 7, 1837, yn 67 oed.

REES (Parch. Rice), ydoedd fab David a Sarah Rees, yr hon oedd ferch i Mr. Rice Rees, o Lanymddyfri, sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn Tonn, Llandingad, ger y dref hono, Mawrth 31, 1804. Addysgwyd ef gyntaf yn yr ysgolion o gylch ei gartref; ac yn 1819, aeth i ysgol ramadegol Llanbedr, yr hon oedd ar y pryd tan ofal y Parch Eliezer Williams, ficer y plwyf. Yn mhen ychydig bu ei ysgolfeistr talentog farw, ac olianwyd ef i'r swydd gan y Parch. J. Williams, wedi hyny archddeon enwog Ceredigion; a chanmolid ef yn fawr gan y ddau am ei ddiwydrwydd a'i ymarweddiad rhagorol. Derbyniwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain, yn Mai, 1822; ac etholwyd ef yn ysgolor o'r coleg hwnw yn Rhagfyr, 1825; ac yn gymrawd yn Rhagfyr, 1828. Cafodd ei urddo yn ddiacon yn Rhydychain, yn 1827; ac yn offeiriad yn 1828. Graddiwyd ef yn B.A. yn 1826, yn M.A. yn 1828, ac yn B.D. yn 1837. Pan oeddid ar fedr agor coleg Llanbedr, ac y penderfynwyd fod yn angenrheidiol bod un o'r athrawon yn ysgolor Cymraeg da, cystal ag yn deall y clasuron, wedi ymchwiliadau manwl am berson yn meddu y cymhwysderau hyn, tynwyd sylw y pwyllgor at gymeriad disglaer, diwydrwydd llenyddol, a chyfaddasder neillduol Mr. Rees i'r gwaith; a gwahoddwyd ef i gymeryd y swyddau pwysig o ddysgawdwr yn Nghymraeg, athraw clasurol, a llyfrgellydd y sefydliad hwnw. Dechreuodd ar ei ddyledswyddau ar agoriad y coleg, Mawrth 1, 1827. Llanwodd ei swyddau yn anrhydeddus—yr oedd ei ymroddiad i'w waith, ei bryder amlwg am lwyddiant yr ysgolheigion, y dull medrus gyda pha un y cyfranai addysg iddynt, yn nghyda'i ymddygiad boneddigaidd a heddychlawn, yn enill iddo barch ei uwchradd cystal a'i isradd. Yn fuan, penodwyd y Cadeirdraw Rees, gan Esgob Tyddewi, yn un o'r arholwyr Cymreig er profi cymhwysder y sawl a offeiriadent mewn plwyfi na siaredid ond yr iaith Gymraeg yn unig; ac enillodd gymaint o ymddiried yr esgob, fel yr oedd rhan bwysig o'r arholiad, heblaw ei waith fel arholwr yn y Gymraeg, yn disgyn ar ei ofal ef. Yn Hydref, 1838, penodwyd ef yn ffurfiol hefyd yn gaplan teuluaidd i'w arglwyddiaeth. Efe a enillodd wobr yn Eisteddfod Caerdydd yn 1835, am y traithawd goreu yn Saesneg o hanes y Seintiau Cymreig, a chafodd ganmoliaeth uwchaf y beirniad, yn nghyda'u dymuniadau gwresocaf ar i'r cyfansoddiad gael ei gyhoeddi. Mewn cydsyniad â hyn darfu i'r awdwr parchus helaethu cryn lawer ar y gwaith, ac argraffwyd ef yn Llanymddyfri y flwyddyn ganlynol, tan y teitl, "An Essay on the Welsh Saints, or the Primitive Christians usually considered to have been the Founders of Churches in Wales." Rhoddwyd i'r llyfr ar unwaith dderbyniad calonog gan ysgolheigion Celtaidd, a dyfynir ef hyd y dydd hwn fel yr awdurdod uwchaf ar y pwnc. Ar gyfrif ei enwogrwydd fel Cymreigiwr, dewisodd esgob Tyddewi ef i gydweithredu â thri boneddwr o'r esgobaethau Cymreig eraill, er adolygu y cyfieithiad Cymraeg o'r *Llyfr Gweddi Cyffredin*; a thrwy ei wybodaeth a'i allu, enillodd barch ac edmygedd ei gydlafurwyr yn y gwaith hwnw. Yr oedd yr adolygiad bron wedi ei gwblhau pan y

Digitized by Google

bu Mr. Rees farw. Yn y cyfamser, yr oedd efe hefyd yn brysur wrth y gwaith o olygu argraffiad newydd o *Gramryll y Cymry*, ac wedi myned mor bell â'r ganfed dudalen, pan yr ataliwyd ef yn ddisymwth gan angau, a cheir yno fanylion ei farwolaeth. Cyhoeddwyd y gwaith hwn, yn cynwys bywgraffiad o'i awdwr duwiolfrydig yn 1841, ac yn ddiau dyma yr argraffiad goreu o'r llyfr teuluaidd a phoblogaidd hwnw. Tybiadau ffafriol am ei gymeriad a'i alluoedd llenyddol cyffelyb i'r rhai a barodd ei ddewis i adolygu y *Llyfr Gweddi Cyffredin*, a dueddodd Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig i ddeisyf arno fod yn olygydd y *Liber Landaveneis;* ac er ei fod wedi ei orlwytho ar y pryd gan ei lafur swyddogol, ac ymrwymiadau llenyddol eraill, eto parodd ei serch at lenyddiaeth ei wlad iddo gydsynio â'r cais. Yr oedd wedi agor gohebiaeth, ac wedi ymroddi yn brysur i'r gwaith, pan y cymerwyd ef yn sydyn yn glaf tra yn marchogaeth ar y ffordd fawr ger y Bontnewydd ar Wy, sir Frycheiniog, a bu farw yno yn ddisyfyd, Mai 20, 1839, yn yr oedran cynar o 36ain. Bwriadai hefyd gyhoeddi hanes Prydain yn yr oesau boreuaf, a Gramadeg o'r Iaith Gymreig, ond yn ei farwolaeth alarus a chynamserol, collodd llenyddiaeth Gymreig un o'r goleuadau disgleiriaf a fu erioed yn addurno ei ffurfafen. Y mae cof-faen marmor i'w goffadwriaeth i'w weled yn eglwys Llandingad, Llanymddyfri.—Wms. *Em. Welsh.*

REES (Parch. William Jenkin), o Gascob, a anwyd yn Llanymddyfri yn 1772. Dechreuodd ei ddysgeidiaeth yn ysgol ei dref enedigol, yna yn Ysgol Ramadegol Caerfyrddin o dan Mr. Parker. Yn 1791, pan yn 19 oed, aeth i goleg Wadham, Rhydychain, lle yn 1795, y daeth yn B.A., ac yn M.A. yn 1797. Ordeiniwyd ef gan Esgob Butler o Hereford i guradiaeth Stoke Edith a Westside, yn yr esgobaeth hono. Yn 1807, cafodd bersoniaeth Cascob, yn sir Faesyfed, gan Dr. Burgess, esgob Tyddewi. Cyhoeddodd, "A Short and Practical account of the Principal Doctrines of Christianity," 1803.—"The Hereford Guide" (yn ddienw).—"Clerical Elocution, or Essay on the Delivery of Sermons," 1809.—"The Necessity of Attention in a Christian Minister to his Duties, a Sermon preached in Brecknock at the Visitation of the Bishop of St. Davids," 1811.—"Unconditional Election, and its dependent Doctrines disapproved, being an Abridgement of Whitby, on the Five Points" (yn ddienw).—"Anniversary Sermon," 1815.—"Lives of Welsh Saints," a ddechreuwyd gan ei nai y Proffesor Rees o goleg Llanbedr, ac a gwblhawyd ganddo ef.—*Lloyn MSS.*

REUTER (Adam), awdwr dysgedig a chywrain, a anwyd, medd Wood, yn sir Ddinbych, eithr ni ddywed yn mha le. Yn 1608, ymneilluodd i Rydychain, er mwyn cael hamdden a chyfleusdra i efrydu, ac efe ar y pryd yn drwyddedig yn nwy gangen y gyfraith, sef yr eglwysig a'r wladol. Arosodd yn y brifysgol tros lawer o flynyddau, a graddiwyd ef fel cyffredinwr yn ngholeg Exeter. Dywed Wood ei fod yn hyddysg yn ngwaith yr awduron sylweddol, yn gyfansoddwr rhwydd yn Lladin, ond er hyny yn Galliniad llym, yr hyn, y pryd hwnw oedd yn ddigon derbyniol gan ddoethion a phenaeth aid y Brifysgol." Geilw ei hun yn rhai o'i lyfrau yn "Cotbusius L. Silesius," ac yr oedd yn awdwr y rhai canlynol:—1, Questiones juris controversi 12. Ex. L. ut vim. 3. just and jure," 1609; 2, "Oratio quam Papam esse bestiom quæ non est, et tamen est, apud Johan. Apoc. 17. ver 18," yr hon araith a draddodwyd yn gyhoeddus gerbron aelodau y Brifysgol. 3, "Libertatis Anglicæ defensio, seu demonstratio: Regnum Anglicæ non esse feudum

Digitized by Google

pontificis: In Acad. Oxon. publice opposita Martino Becano Societatis Jesu Theologo," 1613; 4, "Eadgarus in Jacobo redivivus; seu pietatis Anglicanæ defensio, &c., contra Ross-Weydum," 1614; 5, "Tractatus de concilio, Theophilo Suffolciæ Comiti dedicat," 1626. Heblaw amryw o lyfrau eraill.

RHEDIW, sant, ond ni wyddis yn mha oes. Claddwyd ef yn Llanllyfni, Arfon ac efe a sefydlodd yr eglwys hono. Dangosid yno hefyd ei ffynon, ei gadair, ac ol traed ei farch ar gareg. Cofnodid ef Tach. 11.

RHIANON, merch i Hyfedd Hen, a chymeriad hynod yn yr hen ramantau Cymreig. Ei gwr cyntaf ydoedd Pwyll Pendefig Dyfed; a cheir hanes eu priodas yn y Fabinogi sydd yn dwyn enw yr arwr hwnw. Priododd eilwaith gyda Manawyddan ab Llyr. Cyfeiria beirdd yn fynych at adar Rhianon, y rhai a byncient mor felus fel y cyfareddid milwyr i aros a gwrando arnynt am bedwar ugain mlynedd. Gwneir rhyw sylw ohonynt hefyd yn y *Trioedd*, lle y dywedir "Tri pheth na chlywir yn fynych, Adar Rhianon, can synwyrol o enau Sais, a gwahoddiad i wledd gan gybydd."

RHIRYD FLAIDD, boneddwr tiriog cyfoethog, yn ei flodeu yn 11eg ganrif. Mab ydoedd i Gwrgenau ab Coelwyn; a'i fam ydoedd ferch i Bleddyn tywysog Powys. Defnyddiai y cyfenw Blaidd er parch i'w hynafiad ar du ei fam, sef y Blaidd Rhudd, o'r Gest, ger Penmorfa, yn Arfon. Rhiryd ydoedd arglwydd Penllyn, yn Meirion, a phreswyliai yn Rhiwaedog, ger y Bala. Yr oedd ei feddianau tiriog yn cynwys pum' plwyf Penllyn; Lleyn, ac Eifionydd, yn Ngwynedd; Penrant Melangell a'r Glyn, yn Mhowys; ac un dref ddegwm ar ddeg yn sir Amwythig. Y mae amryw o brif deuluoedd Gogledd Cymru yn olrhain eu hachau ohono. Ei beisarfau oeddynt "*vert, chevron between three wolves' heads erased argent.*"

RHISIART AB RHYS, o Lanharan, yn Morganwg, bardd yn ei flodeu rhwng 1480 a 1520. Mab ydoedd i Rhys Llwyd, neu Rhys Brydydd, ac yr oedd yn byw yn y Merthyr Mawr. Efe oedd athraw barddonol Iorwerth Fynglwyd. Bu iddo ddau fab, sef Llywelyn, yr hwn a adwaenir yn Ngwynedd fel Lewys Morganwg; a Rhys, neu Mab Rhisiart Brydydd y Wig.—*Iolo MSS.*

RHISIERDYN, bardd enwog o Fon, yn ei flodeu rhwng 1290 a 1340. Y mae dau ddarn lled hir o'i waith yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

RHITTA GAWR, gelyn gormes, a llofruddd gormeswyr, enwog yn hanes yr hen Gymry. Cofnodir ef yn un o'r *Trioedd*, gyda Hu Gadarn a Phrydain ab Aedd Mawr, tan y penawd, "tair gwrthrym ardwy," neu wrthweithwyr trais; a Rhitta Gawr a wnaeth iddaw ei hun ysgin [clog] o farfau brenhinoedd a wnaeth efo yn eillion am eu gormes a'u difrawd." Mewn *Tri* arall, rhestrir ef gyda Phrydain a Charadawg, tan y penawd "tri madoreilitiwr," neu ymlidwyr enwog; a "Rhitta Gawr yn goreilid gormes ac anrhaith y Brenhinoedd Annosparthus." Yn *Brut y Brenhinoedd*, sonir am ymladdfa arswydus a fu rhwng Arthur a Rhitta yn mynyddoddd Eryri, am ysgin yr olaf. Dywed y *Brut* yn mhellach fod Rhitta wedi ymylu ei glog â barfau brenhinoedd gan adael lle yn wag o tan ei ên fel y dodai yn y fan hono farf Arthur, fel y prif frenin. Felly danfonodd wys at Arthur yn erchi iddo ddanfon naill ai ei farf neu ei groen, neu ei gyfarfod ef mewn man penodedig, pan y cai y gorthrechwr ohonynt farf y llall. Gorchfygodd Arthur, ac enillodd y glog. Y mae lle ger Towyn Meirionydd,

Digitized by Google

o'r enw "Rhiw y Barfau," a dywedir mai yno y lladdes Arthur Rhitta Gawr.—*Myv. Arch.*; Jones' *Bardic Museum.*

RHIWALLON, meddyg enwog Myddfai, sir Gaerfyrddin, ac yn ei flodeu yn ystod y 13eg ganrif. Gyda chydweithrediad ei dri mab, Cadwgan, Gruffydd, ac Einion, efe a ysgrifenodd yn nghylch physigwriaeth, fel yr oedd yn adnabyddus iddynt hwy yn yr oes hono; a thybir fod yr ysgrif sydd o'r gwaith hwnw yn nghadw yn yr Amgueddfa Brydeinig yn llawysgrifen Rhiwallon ei hun, ac o ba un y mae amryw gydysgrifau yma ac acw. Y mae yn deilwng o sylw fod disgynyddion Rhiwallon wedi para i ymarfer fel meddygon yn Myddfai, o oes i oes, hyd ganol y ganrif ddiweddaf. Y mae llyfr "Meddygon Myddfai," wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar mewn cyfrol ddestlus gan y *Welsh MSS. Society.*

RHIWALLON AB CUNEDDA, 14eg brenin Prydain, ac a oliannodd ei dad i'r orsedd. Gan ei fod yn ieuanc, ac o duedd heddychol, mwynhaodd deyrnasiad tawel. Bu yn gwlawio gwaed am dri diwrnod yn ei amser ef, yr hyn a bares farwolaethau lawer, oherwydd brathiadau edn gwenwynig a genedlesid gan y gwaed. Wedi teyrnasu am ddeugain mlynedd, efe a fu farw yn Nghaerefrog.—*Myv. Arch*

RHIWALLON WALLT BANADLEN, penaeth yn y 6ed ganrif. Cofnodir ef yn y *Trioedd* gyda Rhun a Chadwaladr Fendigaid, tan y penawd, "tri aurhualogion; sef y rhodded iddynt wisgo hualau euraidd am eu breichiau, ac am eu gliniau, ac am eu gyddfau, ac ar hyny y rhodded braint teyrnedd iddynt yn mhob gwlad a chyfoeth yn Ynys Prydain." Mewn tri arall, cysylltir ef gyda Gwalchmai a Llechau ab Arthur, tan y penawd "tri deifnogion;" "ac nid oedd nas gwypynt ei ddefnydd, a'i ddeifnogaeth, ai o ryw ai o ran, ai o ansawdd ai o gyfansawdd, ai o ddychymod ai o ddychymyg, ai o baniad y byddai."

RHOBERT (Huw Iecan), bardd yn ei flodeu rhwng 1600 a 1630. Gelwir ef gan Morris Williams, Huw Roberts Len. Y mae peth o'i waith ar gael.

RHOBERT (Morys ab), o'r Bala, ydoedd fardd gwlad lled dda, ac yn meddu awen barod fel y prawf amryw draddodiadau sydd am dano ar lafar gwlad ac yn argraffedig yn y *Gwyliedydd* am 1823, 273; a'r *Brython* am 1860, 265, a 270. Nid ymddengys fod dim ond ambell englyn damwain o'i waith ar gof a chadw.

RHODRI, mab i Morgan Mawr, brenin Morganwg, a wnaed yn esgob Llandaf yn 961, yn groes iewyllys y Pab, oherwydd ei fod yn wr priod, ac yn fuan ar ol hyny efe a wenwynwyd. Darfu i'r cais i ddodi gwyryfod ar offeiriaid Deheudir Cymru gyfarfod a'r fath wrthwynebiad fel y rhoddwyd y bwriad heibio, a chaniatawyd iddynt briodi fel cynt.—*Myv. Arch.*

RHODRI, ydoedd fab Owain Gwynedd, o'i ail wraig Crissant, merch Gronw ab Owain ab Ednywain. Yn 1174, doded ef yn ngharchar gan ei frawd y tywysog Dafydd am geisio ohono gyfran o'i dreftadaeth. Eithr cyn diwedd y flwyddyn, diangodd o'r carchar, a chymerth feddiant o ynys Fon oddiar Dafydd, ac a ymdeithiodd dros y Gonwy. Yr oedd Mon yn parhau yn ei feddiant yn 1188, pan y daeth Giraldus Cambrensis a'r archesgob Baldwyn trwy Gymru i bregethu Rhyfeloedd y Groes, pan y croesasant y Fenai, ac y derbyniwyd hwy yn groesawus gan Rhodri a'i feibion, a bron yr oll o drigolion Mon. Er i'r archesgob erfyn yn daer ar y meibion gymeryd y groesgad, ni lwyddodd, ac i'r nacad hwnw y priodola Giraldus farwolaeth rhai ohonynt yn fuan ar ol hyny, a dadymchweliad buan Rhodri.—*Brut y Tywysogion.*

RHODRI FAWR, ab Merfyn Frych, ac Essyllt, a esgynodd i orsedd

Digitized by Google

Cymru yn 843. Trwy gyfiawn hawl, bu yn rheoli Cymru oll; efe a gafodd Wynedd oddiwrth Essyllt, ei fam, yr hon oedd ferch i Gynan Dindaethwy; Dyfed a ddaeth iddo fel etifeddiaeth ei wraig Angharad, merch ac etifeddes Dyfnwal ab Arthur ab Sitsyllt, brenin Ceredigion; Powys a ddaeth iddo fel etifeddiaeth ei nain o du ei dad, yr hon oedd chwaer ac etifeddes i Cangen ab Cadell, brenin Powys. Daeth hefyd ar farwolaeth ei dad yn frenin Ynys Manaw. Yn ystod blwyddyn ei goroniad, ymosodwyd ar ei diriogaeth gan Berthred brenin Mersia, eithr gorchfygwyd ef gyda cholled fawr; cynorthwyid Rhodri gan Meirig ab Hywel, brenin Morganwg, yr hwn a laddwyd yn un o'r brwydrau. Yn 855, gorchfygodd hi mawr o Ddaniaid, a lladdodd Gormwnt, eu llywydd. Yn 870, symudodd eisteddle y llywodraeth o Gaernarfon i Aberffraw, Mon; rhanodd ei deyrnas yn dair talaeth, sef Gwynedd, Dyfed, a Phowys; sefydlodd lys Gwynedd yn Aberffraw, yr hwn oedd ei brif-lys: a llys Dyfed yn Dinefwr; a llys Powys yn Mathrafal; a llywodraethid y taleithiau ganddo trwy fath o raglawiaid teyrngedol. Dywedir mai ei amcan yn y trefniant hwn ydoedd dyogelu a chadarnhau ei deyrnas, trwy osod gwahanol ranau o Gymru mewn sefyllfa o amddiffyniad. Yn 872, y Daniaid wedi eu berlid o Loegr gan Alffred Fawr, a wnaethant esgynfa ar Gymru, ac a diriasant yn Mon; Rodri a ymladdodd â hwynt ddwywaith; gyntaf yn y lle a elwir Bangolau, ac yn Manegid, y ddau le yn Mon, ac a'u gorchfygodd hwynt. Yn 877, y Saeson a'r Daniaid a diriasant ar lan Menai; Rodri a'u cyfarfu, a brwydr waedlyd a fu, yn yr hon y syrthiodd Rodri Fawr, a'i frawd Guriad, a Gweirydd mab Owain Morganwg. Y frwydr hon a elwid *Gwaith Dwcsul yn Mon*, gan mai ar y diwrnod hwnw yr ymladdasant. Gadawodd dri mab, sef Anarawd, Cadell, a Merfyn, a rhanodd ei deyrnas rhyngddynt. Anarawd a gafodd Wynedd, a'i lys oedd yn Aberffraw; Cadell a gafodd Dyfed, a'i lys oedd yn Dinefwr; a Merfyn a gafodd Powys, a'i lys oedd yn Mathrafal. Gelwid y tri hyn y "tri thywysog taleithiog;" eithr Anarawd, yr hynaf, a gadwodd y teitl o "frenin Cymru oll," ac a dderbyniai deyrnged blynyddol gan ei frodyr.

RHODRI MOLWYNOG, mab i Idwal Iwrch ab Cadwaladr, a thywysog dewr a rhyfelgar. Ar farwolaeth Ifor ab Alan yn 720, olianodd i deyrniaeth y rhan orllewinol o Brydain, ac nid cynt y cymerth feddiant o'i diriogaethau nag y bu raid iddo eu hamddiffyn yn erbyn ymosodiadau Adelred, brenin y Saxoniaid, yr hwn a ymdeithiodd i Ddyfnaint, ac a anrheithiai y wlad mor bell a Chernyw, pryd y gorchfygwyd hwynt gan Rhodri a'r Brythoniaid, a gorfu arnynt encilio. Yn ystod yr un flwyddyn, efe a orchfygodd y Saxoniaid yn Ngogledd Cymru, a thrachefn yn Morganwg. Yn 738, dinystriodd fyddin gref o Saxoniaid mewn brwydr yn Ngharno, ger Crughywel, a gwenodd ffawd arno wedi hyny yn Henffordd, yn 735. Gorchfygwyd yntau amryw weithiau, ond daliodd i frwydro bron yn ddiyspaid hyd derfyn ei oes. Bu farw yn 755, gan adael dau fab, Cynan Tindaethwy a Hywel, a'r blaenaf—yr hynaf, a olianodd ei dad i orsedd Cymru, i ba le y cyfyngesid Rhodri gan ymosodiadau diorphwys y Saxoniaid.

RHUDDLAD, sant yn y seithfed cant. Merch ydoedd i frenin Leinster, yn yr Iwerddon, a sefydlydd Llanrhuddlad, yn Mon, lle y cynelid ei gwyl Medi 4.—Rowland's *Mona Antiqua*.

RHYDDLWM GAWR, a gofnodir yn y *Trioedd*, gyda Math ab Mathonwy a Menyw ab Teirgwaed, tan y penawd "triwyr hud a lled-

Digitized by Google

rith," a Rhuddlwm a ddysgos ei hud gan Eiddilic Gorr, a Choll ab Collfrewi.

RHUN, mab i Frychan Brycheiniog, a sant yn y pumed cant, yn byw ger Mara, neu Langors, sir Frycheiniog. Lladdwyd ef a'i frawd Rhawin, gan y Saeson Paganaidd ar Bant Rhun, ger Merthyr Tydfil, tra yr oedd efe yn amddiffyn y fan yn eu herbyn. Efe oedd tad Nefydd ac Andras, hwythau hefyd yn seintiau.—*Iolo MSS.*

RHUN, tywysog rhyfelgar, a olianodd ei dad Maelgwyn Gwynedd fel brenin y Brythoniaid yn 560. Bu mewn rhyfel hirfaith a gwaedlyd â'r tywysogion gogleddol, y rhai a ymosodasant ar Arfon, gan losgi ac anrheithio pobpeth o'u blaen. Daeth Rhun gyda byddin gref i Ogledd Cymru, er mwyn diad arnynt, ac fel gwobr i'r Arfonwysiaid am eu dewrder, rhoddes iddynt bedwar-ar-ddeg o freiniau gwladwriaethol, y rhai a adwaenir wrth yr enw "Breiniau Gwyr Arfon," ac a gofrestrir yn mhlith yr hen gyfreithiau Cymreig. Yn *Tri* 25, cofnodir ef gydag Owain ab Urien a Rhuawn Befr, tan y penawd "tri gwyndeyrn Ynys Prydain," neu freninoedd bendigedig. Ac yn *Tri* 23, cofnodir ef gyda Rhiwallon a Chadwaladr Fendigaid, tan y penawd, "tri aur hualogion," "sef y rhodded iddynt wisgaw hualeu euraid am eu breicheu, ac am eu glinieu, ac am eu gyddfeu, ac ar hyny rhoddded braint teyrnedd iddynt yn mhob gwlad a chyfoeth yn ynys Prydain." Prif balas Rhun ydoedd ar lan orllewinol yr afon Gwy, mewn lle a adwaenir yn awr wrth yr enw "Caer Rhun."—*Condrium* y Rhufeiniaid. Bu farw yn 586, ac olianwyd ef gan ei fab Beli.

RHUN BALADR FRAS, yn ol *Brut Tysilio*, ydoedd nawfed brenin Prydain, ac a olianodd ei dad Lleon Gawr i'r swydd hono. Teyrnasodd am 41 o flynyddau, a dygodd y bobl o ryfel i dangnefedd. Efe a adeiladodd Gaergaint, Caerwynt, a Chaerfynydd, ac yno yr oedd yr eryr yn proffwydo darogannau i'r Ynys hon. Tua'i amser ef y gorphenodd Solyf ab Dafydd (Solomon) y deml yn Nghaersalem.—*Myv. Arch.* 441.

RHUFAWN, un o feibion Cunedda Wledig, yr hwn a gydfrwydrodd â'i frodyr yn erbyn gormes ac i ymlid y Gwyddelod o Wynedd. Ei wobr am y gwaith ydoedd cantref yn sir Ddinbych, a elwid oddiwrtho, Rhufoniog. Gelwir ef Rhufawn Rhufoniog, a Rhufawn Hael, gan ei fod y mwyaf haelionus yn Nghymru yn yr amser hwnw.—*Iolo MSS.*

RHUFON BEFR neu brydferth, ydoedd fab i Wyddno Garanhir, neu Dewrarth Wledig. Yr oedd yn byw yn y 6ed ganrif, yn un o arwyr brwydr Cattraeth, a chlodforir ef gan Aneurin, am ei wrhydri yn y gad drychinebus hono. Lladdwyd ef mewn brwydr, a rhoddwyd ei phwysau mewn aur am ei gelain, ac oherwydd hyny rhestrir ef yn y *Trioedd*, gyda Madawc a Cengant, tan y penawd "tri eurgelain." Yr oedd efe hefyd yn un o'r "tri gwyndeyrn."

RHWYDRWYS, sant yn y 7fed cant. Mab ydoedd i Rhwydrim, neu Rhwydrem, brenin Connaught, ac efe a sefydlodd Llanrhwydrwys, yn Mon, lle y cedwid ei wylmabsant Tach. 1.

RHYCHWYN, sant yn y 6fed cant. Mab ydoedd i Helig ab Glanawg, ac ymroddodd ef a'i frodyr i arwedd bywyd crefyddol pan orlifwyd tiriogaethau ei dad gan y mór. Efe a sefydlodd eglwys Llanrhychwyn, yn sir Ddinbych.

RHYDDERCH, mab i Garadawg ab Iestyn, a olianodd i deyrnaeth Morganwg yn 1070 ar farwolaeth ei gefnder, Caradawg ab Rhydderch ab Iestyn. Yn 1071, gorchfygodd fyddin o Normaniaid a ymosodasent

Digitized by Google

ar Ddeheubarth gyda llad lfa fawr. Ar farwolaeth Bleddyn ab Cynfyn yn 1072, cafodd deyrniaeth Deheubarth yn rhanog â Rhys ab Owain, eithr ychydig fwyniant a gafodd gyda'i ffawd, canys lladdwyd ef yn fradwrus gan ei gefnder, Meirion ab Rhydderch, yn 1074.

RHYDDERCH, mab hynaf Iestyn, brenin Morganwg, ydoedd arglwydd Gwynllwg, ac a drigianai yn mhalas breninol Caerlleon ar Wy-g; ond ar farwolaeth Llywelyn ab Sitsyllt yn 1021, cafodd deyrniaeth y Deheubarth, yr hon a gadwodd trwy rym arfau am ddeng mlynedd. Yn 1031, darfu i Hywel a Meredydd, meibion Edwyn, gynull gwyr, a llogi lleng o Wyddelod, ac ymosod arno, a'i ladd mewn brwydr.—*Brut y Tywysogion; Iolo MSS.*

RHYDDERCH AB RHISIART, bardd rhwng 1580 a 1620. Yr oedd yn foneddwr tiriawg, ac yn byw yn y Myfyrian, yn Mon. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

RHYDDERCH HAEL, ydoedd fab Tudwal Tudclud, ab Cedig ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed ab Macsen. Yr oedd yn frenin Brythoniaid Ystrad Clwyd, yn ngogledd Prydain; ac yn preswylio yn Aclelwyd, y Dunbarton presenol, tua 560. Yr oedd hefyd yn frenin Ynys Manaw. Ystyrid ef y gwr mwyaf haelfrydig, a'r rhyfelwr mwyaf clodfawr yn ei oes; cymerai ran yn mrwydr fythgofiadwy Arderydd, yn 577, yn erbyn Aeddan Fradawg a Gwendoleu ab Ceidio, lle yr enillodd Rhydderch y fuddugoliaeth, ac y lladdwyd Gwendoleu a llu mawr o'i ddilynwyr. Yn y *Trioedd*, rhestrir ef gyda Nudd Hael a Mordaf Hael, tan y penawd "tri haelion teyrnedd," "a'u cyneddfau oeddynt ni phellynt o un peth bynag o'r byd ac o ryw i'r neb a'i ceisiai hyd y bai ganddynt." Un o Dri Thlws ar Ddeg Ynys Prydain ydoedd "Dyrnwyn gleddyf Rhydderch Hael: os tynai ddyn namyn ef ei hun, ef a enynai yn fflam o'i groes hyd ei flaen, a phawb a'r a'i harchai a'i cai, ac oblegyd y gyneddf hono hwy a'i gwrthodynt." Cofnodir un o'i ddywediadau yn *Chwedlau y Doethion*. Bu farw yn 85 oed, yn 601, a chladdwyd ef yn Abererch, Arfon.—*Myv. Arch.*; Jones' *Bardic Museum*; *Iolo MSS.*

RHYDDERCH (JOHN), awdwr, argraffydd, a chyhoeddwr, amryw lyfrau gwerthfawr yn ystod haner cyntaf y ganrif ddiweddaf. Yr oedd *Almanacian Sion Rhydderch* mor boblogaidd yr amser hwnw ag y bu *Amseroniau* Roberts o Gaergybi yn ystod y ganrif hon. Almanac ydoedd newyddiadur, cyfnodolyn, ac hyd yn nod Beibl hen bobl ddiniwed y cyfnod tan sylw, ac oedd S. Rhydderch, o ganlyniad, yn wr pwysig yn eu golwg. Yn 1718, efe a gyhoeddodd lyfryn bychan, tan y teitl "Gramadeg Cymraeg o gasgliad, myfyrdod, ac argraffiad, J.R., ac ar werth gantho ef yn y 'Mwythig." Cyhoeddodd hefyd Eiriadur Cymraeg a Saesneg, yr hwn a argraffwyd yn y 'Mwythig yn 1725. Yn 1745, cyhoeddodd drydydd argraffiad o'r "Llyfr Carolau a Dyriau Duwiol," yr hwn a ddygwyd allan gyntaf gan Foulk Owen yn 1686. Yn yr argraffiad hwn, ceir amryw garolau, &c., o waith y cyhoeddwr ei hun. Treuliodd ei oes yn y 'Mwythig, ac ar ol ei ddydd, dygpwyd ei fasnach yn mlaen gan Thomas Durston, o'r dref hono.

RHYDDMARCH ab Sulien, esgob Tyddewi, a olianodd ei dad i'r swydd hono yn 1088, Dywed Caradawg ei fod yn ddihafal am ei wybodaeth, a'i ddoethineb, ac ar ei farwolaeth ef bu derfyn ar ddysgu dysgyblion yn Nhyddewi. Addysgwyd ef, gydag amryw eraill, gan ei dad. Bu farw yn 1098. Y mae llawysgrif werthfawr o'i waith yn nghadw gyda'r casgliad Cottonaidd yn yr Ang[illegible]ddfa Brydeinig, yr hon a gynwys yn benaf fywgraffiadau o Saint Cymreig.—Wms. *Em. Welsh.*

Digitized by Google

RHYS AB CYNFRIG GOCH, neu Rhys Goch Glyndwrdu, bardd rhwng 1400 a 1430. Ei athraw barddonol ydoedd Iolo Goch, yr hwn ydoedd cwythr iddo frawd ei dad. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

RHYS AB GRUFFYDD, a olianodd ei dad fel tywysog Deheubarth yn 1136. Ei fam ydoedd Gwenllian ferch Gruffydd ab Cynan. Hynodid dechreu ei deyrnasiad gan frwydrau parhaus a diegwyl yn erbyn y Saeson o tan Harri II., a chymerodd oddiar y gelyn amryw o'r castellau a gollasai ei cyndadau, yn mhlith eraill yr eiddo Caerfyrddin, Dinefwr, Llanstyffan, &c. Parhaodd ei rwysg a'i lwyddiant hyd 1172, a'r flwyddyn hono Harri frenin a ymdeithiai i'r Iwerddon, a thrwy Gaerdydd yr elai, pan yr aeth Rhys yno i'w gyfarfod heb na gwr na gwas yn osgordd, a thalodd warogaeth iddo. Ar ddychweliad y brenin hefyd o'r daith anfoddus hono, Rhys a wnaeth wledd anrhydeddus iddo yn Aberteifi. Rhoddes y brenin hefyd lawer o roddion gwerthfawr i'r tywysog Cymreig hwn, a thrwy addfwynder, llwyddodd i enill mwy oddiarno, nag a wnaethai trwy flynyddau o ryfeloedd creulawn. O hyn allan boddlonodd i fod yn ddim amgen na deiliad o goron Lloegr, ac ymostyngodd i dderbyn y teitl o brif ynad Deheubarth. Efe oedd tywysog olaf y Deheubarth, a gelwid ef yn gyffredin yn arglwydd Rhys. Yn 1194, oherwydd y sarhadau parhaus a dderbyniai oddiar law y Saeson, efe a dorodd allan mewn gwrthryfel, ac adfeddianodd amryw gastellau o'u meddiant, eithr efe a fu farw yn nghanol ei lwyddiant, yr hyn a gymerth le yn 1196. Claddwyd ef yn mhrif-eglwys Tyddewi, lle y mae cerflun ohono yn aros hyd y dydd hwn. Wrth gofnodi ei farwolaeth, dywed *Brut y Tywysogion* am dano ei fod "y gwrolaf, a'r doethaf, a'r haelionusaf, a'r clodfawrusaf, o'r holl dywysogion." Cymerwyd ei swydd gan Gruffydd ei fab. Gwraig Rhys ydoedd Gwenllian, merch Madog ab Meredydd, arglwydd Bromfield, o ba un y bu iddo Gruffydd, Cadwallawn, Maelgwn, Meredydd, a Rhys; a merch o'r enw Gwenllian, yr hon a briodes Ednyfed Fychan.—*Brut y Tywysogion.*

RHYS ab Owain ab Edwyn, ydoedd arwr gwrhydrus a rhyfelgar. Oddeyd y cwerylon cartrefol, gorfu arno ffoi i Ynys Manaw, o ba le y dychwelodd yn 1072, ac wedi cynull byddin gref o wyr Ystrad Tywi a Brycheiniog, cymerodd brwydr greulawn le rhyngddo a Bleddyn ab Cynfyn, brenin Powys, yn yr hon y lladdwyd yr olaf. Yna arweiniodd ei luoedd yn erbyn Rhydderch ab Caradawg; eithr cyn myned ohoni yn daraw, ymheddychasant ar y telerau en bod i reoli y Deheubarth cydrhyngddynt. Eithr ychydig a fwynhaodd Rhys o'r trefniant hwn, gan iddo gael ei ladd gan Trahaearn ab Caradawg yn 1074.

RHYS, ab Dafydd ab Einion, bardd rhwng 1460 a 1490.

RHYS, ab Dafydd Llwyd ab Llywelyn Llygliw, bardd rhwng 1550 a 1590.

RHYS AB EDNYFED, bardd rhwng 1560 a 1600. Y mae "Cywydd Duwiol," a "Chywydd y Bardd i'w Lyfr Tesni," o'i waith mewn ysgrifen ger ein bron.

RHYS ab Einion, bardd rhwng 1540 a 1580.

RHYS ab Gwilym ab Thomas, bardd rhwng 1520 a 1550.

RHYS ab Hywel Len, bardd rhwng 1500 a 1540.

RHYS ab Ieuan ab Meredydd Ddu, bardd rhwng 1440 a 1480.

RHYS ab Ifan ab Llywelyn ab Hywel, bardd rhwng 1490 a 1530.

RHYS ab Llywelyn ab Gruffydd ab Rhys, bardd rhwng 1480 a 1520.

RHYS AB TEWDWR MAWR, un o dywysogion enwocaf Deheubarth, ydoedd fab Tewdwr ab Einion ab Owain ab Hywel Ddu. Lladd-

Digitized by Google

wyd Tewdwr Mawr yn 997, a gadawodd ddau blentyn amddifaid ar drugaredd yr oes ymladdgar hono, sef Rhys a Rhydderch. Am ba hyd ar ol hyny y trigianodd Rhys yn y wlad hon, nis gwyddis; ond y mae yn sicr ei fyned i Lydaw pan yn bur ieuanc, ac aros yno am haner cant neu dringain mlynedd, canys ni ddychwelodd i'w wlad hyd farwolaeth Rhys ab Owain, yn 1077. Rhaid ei fod yn bedwar ugain oed y pryd hwnw, a chafodd feddiant dirwystr o'i hawliau cyfiawn fel tywysog Deheubarth. Yn 1080, gwnaeth gyngrair â Gruffydd ab Cynan, a darfu i'w byddinoedd unedig orchfygu Trahaearn ab Caradawg yn mrwydr Carno, pan y lladdwyd y tywysog hwnw, a thrwy hyny cadarnhawyd Rhys a Gruffydd ar orseddau eu hynafiaid. Yn ystod yr un flwyddyn, Rhys a ymosodedd ar diriogaethau Iestyn ab Gwrgant, ac a ddinystriodd gestyll Dinas Powys, Llanilltyd, a Dindryfan; a thalodd Iestyn yntau y pwyth yn ol trwy anrheithio Ystrad Tywi a Brycheiniog, a dychwelyd adref yn ddyogel gydag anrhaith mawr. Yn 1087, Cadwgan, Madog, a Rhiryd, meibion Bleddyn ab Cynfyn, a gydgynllwynasant wrthryfel yn erbyn Rhys, ac yntau yn anallung i'w cyfarfod, a ffoes i'r Iwerddon; eithr dychwelodd yn fuan i'r Deheubarth gyda llynges gref, ac ymunodd lluaws o'i gydwladwyr ag ef. Mewn canlyniad, yn y frwydr a gymerth le yn Llechryd, sir Faesyfed, Madawg a Rhiryd a laddwyd, a phrin y diangodd Cadwgan a'i einioes ganddo, gan adael Rhys mewn llawn fuddugoliaeth, ac efe a dalodd ac a ddanfonodd adref yr hurwyr Gwyddelig. Yn 1088, gwrthryfelodd Llywelyn ac Einion, meibion Collwyn, arglwydd Penfro, yn ei erbyn, a chynorthwyid hwynt gan Gruffydd ab Meredydd, penaeth galluog. Pa fodd bynag, gorchfygwyd hwynt gyda cholled fawr yn Llandudoch, sir Benfro; cymerwyd Gruffydd yn garcharor, a dodwyd ef i farwolaeth fel bradwr, a'r ddau eraill a ffoisant. Einion a ddiangodd at Iestyn, yr hwn oedd ar y pryd tan arfau yn erbyn Rhys; ac er mwyn dwyn y rhyfelawd yn mlaen yn llwyddianus, Einion a ddanfonwyd i'r llys Seisnig er llogi hurwyr milwrol i'w gynorthwyo. Llwyddodd i gyflogi Robert Fitzhamon, a byddin o anturiaethwyr Normanaidd, y rhai a unasant gyda'r eiddo Iestyn, ac yn 1089, ymdeithiodd y lluoedd unedig yn erbyn Rhys, a gorchfygwyd ef yn mrwydr waedlyd Hirwaen Wrgant, sir Frycheiniog. Ymlidiwyd yr hen dywysog dewr a daliwyd ef yn Glyn Rhoddnai, a dienyddiwyd ef mewn lle a elwir oddiar hyny yn *Pen Rhys*, ac efe ar y pryd uwchlaw 92 mlwydd oed. Ei wraig ydoedd ferch i Rhiwallon ab Cynfyn; a bu iddynt ddau fab, sef Gronwy, yr hwn a laddwyd yn y gad a fu ñor drychinebus i'w dad; a Gruffydd, yr hwn oedd ar y pryd yn bur ieuanc, ac a'i holianodd ef i'r dywysogaeth. Yr oedd Rhys ab Tewdwr Mawr yn ben un o "Bum' Llwyth Breninol Cymru," peisarfau parai ydynt, "*Gules, a lion rampant or, within a bordure indented.*"—*Brut y Tywysogion; Cambrian Plutarch.*

RHYS AB THOMAS (Syr), un o arwyr clodfawrusaf ein cenedl. Ganwyd ef yn Abermarlais, sir Gaerfyrddin, yn 1451. Ei dad ydoedd Thomas ab Gruffydd; ei daid, Gruffydd ab Nicholas, noddwr enwog y beirdd, a llywydd Eisteddfod fawr Caerfyrddin. Ei fam ydoedd ferch Syr John Gruffydd o Abermarlais. Bu iddo ddau frawd hŷn nag ef; ond collasant hwy eu hoedlau yn ieuanc yn rhai o'r ymrafaelion gwaedlyd a gymerent le mor fynych yn yr oes hono. Penderfynodd ei dad roddi iddo bob manteision dysgeidiaeth uchelryw, a gwahoddodd un Dr. Lewis, physigwr, genedigol o Wynedd, a dderbyniasai ei

Digitized by Google

addysg yn mhrifysgol Padua, Itali. Wedi bod lawer o flynyddau tan ofal y dysgawdwr hwn, ei dad a'i cymerth ef i lys Burgundy, yr enwocaf yn yr oes hono o holl lysoedd y Cyfandir am ei gwrolgampau. Rhys a enillodd yno serch y tywysog, Phylip Dda, yr hwn a'i cymerodd tan ei nodded personol ei hun, ac i fod yn gydymaith i'w unig fab, heblaw cynyg iddo swydd anrhydeddus yn y fyddin. Ond oherwydd rhyw ymrafael a gymerodd le rhwng Thomas ab Nicholas â'r tywysog crybwylledig, dychwelodd y ddau i Gymru. Yn fuan wedi dychwelyd, lladdwyd y tad mewn tyrnament a gymerodd le yn Mhenal, sir Feirionydd; a'r ddau fab hynaf mewn terfysg drachefn a gwympasant, y naill yn yr wrthblaid i'r llall; ac fel hyn daeth Rhys i feddiant o holl dreftadaeth y teulu. Priododd Efa, unig ferch Harri ab Gwilym, boneddwr cyfoethog a dylanwadol o gymydog iddo, a gelyn diymwad ei ddiweddar dad, trwy yr hon briodas y lladdodd Rhys yr elyniaeth, ac y chwanegodd hefyd ei gyfoeth yn ddirfawr. Cadwai lys ardderchog, ac agored i wreng a boneddig; ymroddodd i roddi paid ar yr ymrafaelion mynych a gwaedlyd a gymerent le rhwng ei gymydogion a'u gilydd, y rhai a barent nad oedd na bywyd na meddianau yn ddiberygl. Denodd hwynt i gymeryd dyddordeb mewn cydymgais tangnefeddus a chymdeithasgar, a chafodd gydweithrediad Esgob Tyddewi, yr hwn a barodd lawer o welliantau yn y trefniadau eglwysig a fawr esgeulusid cyn hyny. Trwy y pethau hyn, ac eraill o'r un natur, llwyddodd i enill serch a pharch ei gydwladwyr i'r fath raddau, fel yr oeddynt at ei alwad, a dywedid y gallai ddwyn i'r maes pa bryd bynag y byddai angen, rhwng pedair a phum' mil o wyr meirch, yn benaf ar eu traul eu hunain. Yr oedd yn dywysog mewn gwirioneddd, a'i ddylanwad yn llawer mwy na nemawr dywysog a fu yn llywodraethu yn y cyrau hyny. Yr oedd ganddo ddeunaw cant o denantiaid, ac yn mhlith ei feddianau yr oedd cestyll Cariw, Narberth, Emlyn, Abermarlais, Whibley, ac amryw eraill. Yn awr, deuwn at y digwyddiad arbenicaf yn ei fywyd, sef y rhan a gymerodd yn nodiad Iarll Richmond (Harri VII.) ar orsedd Prydain. Nid oedd y trawsfeddianwr creulon Richard III. heb weled gwerth Rhys, ac heb, yn ei ddull arferol, ei feichio â llwon o ffyddlondeb iddo ef a'i orsedd, ac wedi hawlio ganddo un gyfres o lwon, yr oedd yn anesmwyth am gyfres arall gryfach a mwy diamwys, os oedd nodd, na'r gyntaf. Yn yr ail, yr oedd yr ymadrodd cadarn a ganlyn:—"Pwy bynag, oddiar frad-fwriad, a feiddio dirio yn y parthau hyn o Gymru, rhaid i'r cyfryw ddyfod i mewn tros fy nghorph i." Yn y cyflion hyn y cafwyd ef gan gyfeillion Richmond, pan y penderfynai eu harwr lanio yn rhyw barth o Brydain, a gwyr o Ffrancod gydag ef er hawlio ei gyfiawn eiddo, sef gorsedd Prydain. Y blaenaf yn mhlith y cyfeillion hyn oedd Duc Buckingham, ac yr oedd rhyw hen elyniaeth rhwng y gwr urddasol hwnw â Rhys, yr hyn ydoedd rwystr arall ar eu ffordd. Felly, un o amcanion cyntaf y blaid Duduraidd yn y wlad hon ydoedd heddychu y ddau; a thrwy offerynoliaeth Dr. Lewis, cynathraw Rhys, a chryn lawer o drafferth, dygwyd yr amcan hwnw i ben. Eithr nid oedd hyn ond haner y gwaith, ac ystyrid cael gan Rhys ymwrthod â'i lw yn orchwyl mor fawr, fel y tybiodd Dr. Lewis yn ddoeth geisio cymhorth Esgob Tyddewi i fyned ato ar y neges hon. Ar eu cynygiad cyntaf, ymddangosai yn hollol annhyblyg; ond dadleuodd yr Esgob nad oedd dim rhwymedigaeth mewn adduned i *ddyn* pan y byddai hono yn groes i'r lleshad cyffredinol; ac os oedd, y gallai ei chyflawni yn llythyrenol, a hyny heb nemawr sarhad iddo ei hun, sef

Digitized by Google

trwy ymgrymu i'r llawr o flaen y brenin newydd, a gadael iddo gamru trosto. Dadleuasant hefyd yn galarn yn erbyn creulonderau Rhisiart; tros hawliau cyfiawn Harri; gan bwyso hefyd yn neilldiol ar y ffaith fod y Tudiuriaid yn Gymry. Bu am beth amser yn gwrthod cydsynio; ond wrth weled fod ei deimladau gwladgarol yn llwyr gryfach na'i deimladau teyrngarol, efe a fwriodd ei goelbren yn mysg y blaid newydd. Felly pan ddanfonodd y tywysog i ofyn ei gymhorth, atebodd yn eithaf difloesgni a dioedi ei gydsyniad. Yna ymbarotodd i gynull a dysgyblu ei wyr i ryfel, a chyn pen hir yr oedd ganddo 2,000 o feirchfilwyr wedi eu casglu o blith ei denantiaid, ac ymunodd â'r rhai hyn luaws mawr o wyr cyfrifol o bob parth i'r Dywysogaeth, fel y daeth ei fyddin yn allu cryf mewn byr amser. Wedi gwneud pob darpariadau, a dyfod i lawn ddealltwriaeth ar y trefniadau, glaniodd Harri yn Aberdaugleddyf, Awst 7, 1485; a Rhys oedd y cyntaf ar y lan i'w groesawu. Dywed un traddodiad, ddarfod iddo ymostwng, ac i'r tywysog gamu trosto; tra y dywed coel arall mai myned tan fwa pont fechan ac i Harri ymdaith trosti a ddarfu iddo. Diwallwyd rheidiau y milwyr Ffrengig am arfau, &c., yn benaf ar draul Rhys. Yna ymdeithiodd y byddinoedd unedig tuag Amwythig; a chytunwyd ei rhanu yn ddwy, ac i Rhys a'i wyr fyned trwy Gaerfyrddin fel y cai trigolion yr ardaloedd hyny gyfleusdra i ymuno â'i fyddin. Erbyn cyrhaedd Aberhonddu, yr oedd ei ganlynwyr wedi lluosogi cymaint, fel bu raid iddo bigo y goreuon ohonynt, a gadael i'r lleill ddychwelyd adref. Yr oedd ei fyddin yn gref iawn erbyn cyfarfod y tywysog yn Amwythig. Awst 22, ymladdwyd brwydr bwysig a bythgofus maes Bosworth, yn yr hon y gorchfygwyd ac y lladdwyd y brenin Rhisiart a hyny, meddir, gan Rhys ab Thomas, a choronwyd Harri yn y fan a'r lle yn frenin Lloegr. Pa fodd bynag, bu o wasanaeth anmhrisiadwy ac anhebgorol i ddyrchafiad ŵyr Owen Tudur i'r orsedd, ac urddwyd ef yn farchog ar faes y gwaed. Heblaw hyny, penodwyd ef yn ynad a phrif raglaw Deheubarth Cymru, gyda llawn awdurdod i ddiwygio holl gamarferion y dalaeth; yn heddgeidwad a rhaglaw Brycheiniog; yn ystafellydd siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi, ac yn *seneschal* arglwyddiaeth Buallt, sir Frycheiniog. Treuliodd y ddwy flynedd nesaf yn heddychol, gan drefnu pethau yn ei wlad a fwriesid i annhrefn gan ddifrod rhyfel, ac yn llareiddio teimladau ymladdgar ei gydwladwyr. Yna galwyd arno eilwaith i faes y gad er cynorthwyo ei frenin i wastrodi gwrthryfel Arglwydd Lovell a'r Staffordiaid, yn nghyda brad yr hudoliaethwr Simnel; ac wedi hyny, aeth i helpu Harri yn ei anturiaeth seithig i Ffrainc; a thrachefn i ddarostwng gwrthryfel Perkin Warbeck, lle yr arweiniai Syr Rhys fyddin o bumtheg cant o wyr meirch, y lladdwyd dau geffyl tano, a phan ar fedr esgyn ar gefn y trydydd, cafodd y ffawd o gymeryd Arglwydd Audley, blaenor y terfysgwyr, yn garcharor. Am yr orchest hon, gwobrwyodd y brenin ef â meddianau y pendefig hwnw, a gwnaeth ef hefyd yn farwnig banerog. Yn 1506, fel gwobr am y dull campus y cyflawnai ei ddyledswyddau ynadol yn y Deheubarth, rhoddes y brenin iddo *order of the garter;* ac hefyd arglwyddiaeth Narberth, sir Benfro; a dywedir i'r brenin gynyg ei wneud yn arglwydd, ond iddo wrthod hyny, gan ddweyd ei fod yn foddlawn ar yr anrhydedd a gawsai eisoes, ac os byddai ei epil yn chwenych y fath ddyrchafiad mai eu dyledswydd fyddai teilyngu hyny fel y gwnaethai yntau. Priodol sylwi fod ei etifeddion wedi eu dyrchafu i'r anrhydedd arglwyddiaethol er y fl. 1780, tan y teitl o arglwyddi Dinefwr, o gastell Dinefwr, sir

Digitized by Google

Caerfyrddin. Cadwodd ei barch yn y llys gyda Harri VIII. hefyd, yr hwn a gadarnhaodd iddo yr holl ragorfreintiau a ddarbyniasai oddiar law ei ddiweddar dad, ac a'i cymerth gydag ef ar ei ymgyrch i Ffrainc, ac efe ar y pryd yn 60 oed, a dangosodd yno wrhydri dirfawr yn neillduol yn mrwydr Theronenne, ac yn ngwarchae Tournay. Fel gwobr am y gwasanaeth hwn, y brenin a'i penododd ef a'i fab yn senyllt a changhellwr arglwyddiaethau Hwlffordd a Rouse. Y gweddill o'i ddyddiau a treuliodd yn y mwynhâd o gysuron tangnefeddus cartref, gan ddifyru ei hun yn benaf mewn marchwriaeth, o'r hyn yr oedd mor hoff drwy ei oes; a dywedid fod ei ystablau yn wastad yn llawnion o'r meirch campusaf yn y deyrnas, ac y byddai yn fynych yn eu dwyn allan mewn trefn filwriaethol, fel pe buasai gelynion gerllaw. Yn y cyfamser, nid esgeulusai y cyflawniad rheolaidd o'i ddyledswyddau crefyddol. Bu farw yn y fl. 1527, yn 76 oed; a'i golli a wnaeth y fath fwlch yn y parth hwnw o'r wladwriaeth fel nad oedd yn hawdd ei lenwi drachefn. Claddwyd ef yn Eglwys St. Pedr, yn Nghaerfyrddin, lle y cyfodwyd cof-arlail arddercho'g i'w oesoli, er bod yr unrhyw er ystalm weithian wedi adfeilio yn ddirfawr gan ddifrod amser, fel nad yw yn bosibl, meddir, darllen gair o'i fedd-argraff. Syr Rhys ab Thomas a briododd yn gyntaf, fel y dangoswyd, Efa, merch ac etifeddes Harri ab Gwilym, o'r hon y bu iddo un mab yn unig, sef Syr Gruffydd ab Rhys, yr hwn a fu farw o flaen ei dad, gan adael un mab, yr hwn a ddaeth i'r meddiant o holl etifeddiaethau ei daid. Ei ail wraig ydoedd Janet Matthews, o hen deulu cyfrifol yn sir Forganwg; a hon ydoedd ddiblant. Mae hanes arall yn dywedyd mai ei ail wraig ydoedd Elisabeth, chwaer Wm. Herbert, iarll Penfro, yr hon yn flaenorol a fuasai yn briod â Thomas Stradling, Ysw. Ar yr un pryd, dywedir fod iddo amryw o blant naturiol, gogyfer â pha rai y gwnaeth ddarbodaethau gweddus, gan eu priodi â theuluoedd cyfrifol.—*Camb. Register; Camb. Plutarch; Gwladgarwr* vii. 193.

RHYS BRYDYDD, bardd yn ei flodeu rhwng 1450 a 1490. Yr oedd yn byw yn Mlaen Cynllan, plwyf Llanharan, Morganwg. Efe oedd tad Rhisiart Brydydd ac Ifan ab Rhys yr hwn oedd fynach yn Margam. Gelwid ef weithiau Rhys Llwyd Brydydd, Rhys Llwyd ab Rhys ab Rhicard, a'r Hen Fardd Llwyd o Forganwg. Y mae cywydd gorchestol o'i waith yn *Brython* iii. 331.

RHYS (IFAN THOMAS), bardd o gryn deilyngdod, a anwyd yn Llwyn Dafydd, plwyf Llandysilio, Ceredigion, tua chanol y ganrif ddiweddaf. Adwaenid ef fel "Ifan Thomas Rhys o Lanarth," yr yr un sir, am mai yno y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Crydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, ond ymddengys ei fod wedi cael addysg forenol led dda. Casglwyd ei waith, yn benaf oddiar lafar gwlad, gan Wm. Hughes Griffiths, yr hwn hefyd a'u cyhoeddodd yn 1842.

RHYS GOCH ERYRI, neu Rhys ab Dafydd, bardd gorchestol. Boneddwr ydoedd yn byw ar ei dir ei hun yn Hafod Garegog, ger Pont Aberglaslyn, sir Gaernarfon. Rhaid ei fod wedi cael oes hir, canys ef ei hun a ddywed iddo ganu ger bron Edward o Gaernarfon, yr hwn a fu farw yn 1327, a chanodd hefyd i Owen Glyndwr yn niwedd ei oes o 1400 i 1415. Bernir iddo farw yn 1420. Claddwyd ef yn Meddgelert. Yr oedd efe gyda D. ab Gwilym a Sion Cent yn Eisteddfod y Ddol Goch yn Emlyn. Y mae tri dernyn o'i waith yn *Nghorchestion Beirdd Cymru.*

RHYS GOCH ab Rhicard ab Einion ab Collwyn, bardd enwog o'r

Digitized by Google

Coity, yn Morganwg, yn ei flodeu rhwng 1140 a 1170. Yr oedd efe yn ŵyr i Einion ab Collwyn, yr hwn a wahoddes y Normaniaid i Forganwg. Gelwid ef hefyd "Rhys Goch o Dir Iarll." Y mae mae gan Iolo yn yr *MSS.* ugain o ganeuon Serch o'i waith.

RHYS GRYG, ydoedd fab Rhys ab Gruffydd, tywysog Deheubarth. Yn 1219, efe a briodes ferch i Iarll Clare. Bu farw yn Llandeilo Fawr, yn 1233, a chladdwyd ef yn anrhydeddus yn mhrif-eglwys Tyddewi, lle y mae mae maen-gerflun ohono ef a'i dad yn aros hyd yr awr hon. Yr oedd Rhys Grug yn filwr clodfawr, a hynododd ei hun yn fawr yn y brwydrau parhaus a gymerent le yn ei amser ef yn Nghymru. Erddygenir ei glodydd gan y beirdd Llywarch ab Llywelyn, Phylip Brydydd, a Dewi Mynyw, a chanodd y ddau olaf awdlau marwnad iddo.

RHYS (JOHN ROBERT), a ymgyfenwai GOLYDDAN II., ydoedd fab i R. J. Pryse *(Gweirydd ap Rhys)* a Grace ei wraig. Ganwyd ef ar y 10fed o Fehefin, 1840, yn Cae Crin, Llanrhyddlad, Mon. Pan ydoedd glaf, yn agos i angau, anogodd "*Gohebydd y* FANER" ef i ysgrifenu cofiant ohono ei hun, yr hyn a wnaeth yn bur fanwl, o'i enedigaeth hyd yr unfedarddeg flwyddyn o'i oedran, ond lluddiwyd ef gan wendid i fyned yn mhellach. Rhydd y cofiant hwnw ddarlun pur gyflawn ohono yn yspaid ei fabandod. Dywed nad ydyw yn cofio ei hun erioed heb fedru darllen Cymraeg, yr hyn a ddysgwyd iddo gan ei fam a'i chwiorydd; ond ei fod yn cofio y cyfrifid ef yn ddysgwr pur dda pan ydoedd blentyn bach. "Yr wyf yn cofio," eb efe, "fy nhad yn fy ngosod ar fy nhraed ar gadair pan oeddwn bedair oed, i ddarllen pennod o'r Testament Newydd i ryw bregethwr; a'r ganmoliaeth a gefais oedd, fy mod 'yn darllen fel person'." Pan rhwng 3 a 4 oed, rhoddwyd ef yn yr Ysgol Frytanaidd, oedd yn bur agos i'w gartref, a chadwyd ef yno nes oedd ychydig dros un mlwydd ar ddeg. Yr oedd ei dad wedi meddwl am ei ddwyn i fynu yn athraw Ysgol Frytanaidd, ond nis gallai efe oddef y meddwl am hyny, a rhag ofn effeithio'n ddrwg ar ei iechyd, gan y cymerai bob peth mor ddwys at ei galon, rhoddodd ei dad i fynu'r syniad. Dywed ei hun ei fod wedi llwyr ddiflasu ar yr ysgol, ac yn mawr chwenych cael dechreu gwaith gwehydd, fel yr oedd ei frawd wedi cael ychydig fisoedd cyn hyny; ac er mwyn ei feddio, cafodd yntau weu dros dri mis neu chwaneg. "Llafuriais yn ddigon caled," eb efe, "tra yn yr ysgol: dysgais lawer iawn, ar dafod leferydd, o Ddaearyddiaeth, a Hanesyddiaeth, a Gramadeg, a Rhifyddiaeth; ond pan ddaeth arnaf eisiau'r gwybodau a ddysgaswn yn yr ysgol ar ol hyny, ni buaswn yn fy myw yn cael allan ddim o ol fy llafur, oddigerth fy mod yn deall ychydig Saesneg (ond *nid* yn ramadegol), ac yn medru darllen ac ysgrifenu. * * * Ychydig fisoedd cyn ymadael o'r ysgol, gosodwyd fi i ddarllen Lladin: blinais yn fawr ar y llafur ofer hwnw: ni ddysgais ddim Lladin; clefychais, a chefais aros gartref, â'm pen ar fy llaw, â'm penelin ar y pentan gloyw cynes, yn lluddedig, a digalon, a chlaf. Dyma'r adeg y rhoddais ffarwel hyd heddyw i'r Ysgol Frytanaidd. Nid oeddwn i pan yn yr ysgol, yn awyddus iawn i ddeall a gwybod: yr oeddwn yn rhy hoff o edrych ar lyfrau, a'u darllen yma ac acw; ond nid oedd dim o'r syched am wybodaeth ynof a deimlais lawer gwaith yn fuan ar ol ymadael o'r ysgol. Felly, heb syched, ni fedrwn yfed ond ychydig. Yr oeddwn fel plentyn gyda'i luniaeth, yn bwyta llawer tamaid diwerth a diflas a fedr gael rhwng ei brydiau, ac yn gwrthod y blasusfwyd gwerthfawr yn ei adeg. Eto, yn nifyg llwyddiant yn y ffordd oreu, dangosaf yn fuan y bu'r

Digitized by Google

waelaf o ychydig les i mi. Nid rhan annifyr o'm bywyd oedd fy nhymor yn yr ysgol; er fy mod, cyn ei ddiwedd, fel plant eraill yn gyffredin, wedi bod mor naturiol a diflasu arno. Hoffwn y plant a'u chwareu, ac, yn gyffredin, hoffid finau gan y plant. Pan oeddwn tua'r nawfed flwyddyn o'm hoedran, dechreuais dyfu mwy na'r cyffredin; ac am fy mod yn hwy na'm cyfoedion, teimlwn fy hun yn dechreu myned yn fwy dyn na hwynt. Fe barhaodd y teimlad hwn, ac yr oedd yn deimlad cywir; oblegid, pa faint bynag o gymhwysderau rhai mewn oed a welodd fy Nhad nefol yn dda eu rhoddi i mi, fe ddechreuodd eu cyfranu yn gynarach i mi nag i blant yn gyffredin, fel pan nad oeddwn ond plentyn o ran oedran, yr oedd y dyn oddi mewn yn dechreu myned allan o afael yr enw hwnw. Erbyn fy mod tua deg oed, nid oedd genyf fawr o flas at chwareu; ac aml y ciliwn o'r neilldu, yn enwedig yn min yr hwyr, fel y caf ddangos yn mlaen yn fy hanesyn. Gan na ffurfiais un gyfeillach neilldued âg unrhyw blant yn yr ysgol, ac na ddigwyddodd i mi ddim hynod i effeithio ar fy mywyd dyfodol, ni raid i mi helaethu chwaneg ar y penau yma. Gwelir nad yn yr ysgol yn unig y dysgwn wersi." Hyd yma y cyrhaedd yr hyn a ysgrifenodd ei hun, ond nid yw'r uchod ond difyniadau byrion ohono. Yr oedd wedi tyfu cymaint o ran ei feddwl erbyn yr amser a noda uchod, fel nad oedd ganddo flas hyd yn oed yn nghyfeillach ei frawd, oedd ddwy flwydd a chwarter hynach nag ef, er eu bod yn hynod anwyl o'u gilydd tra y bu efe byw. Byddai Golyddan yn ymneilldu o'i gyfeillach, gyda'i lyfr, yn ddiarwybodaeth i bawb, cyn gynted ag y gallai ar ol dychwel o'r ysgol. Mynych hefyd, pan osodid y ddau wrth ochrau eu gilydd yn y pregethau, pan nad oedd eto ond o 5 i 6 oed, y gofynai yn nghlust ei fam, am sefyll rhyngddo ef a'i frawd, fel y caffai hamdden i wrando'r bregeth. Dywed ei frawd iddo ysgrifenu lluaws o benillion pan oedd yn bur ieuanc —duchan, gan mwyaf, i'w gydysgolheigion, a ysgrifenid ganddo ar eu llechi yn yr ysgol; ac er hoffed oedd gan ei athraw, byddai yn ei geryddu weithiau oblegid hyn. Y penill cyntaf o'i waith a gawd ar bapur yw hwn:

"Iesu Grist yw'r unig un
A ddaeth i'r byd i gadw dyn;
Am hyny, credwn ynddo ef,
Fel caffom ran yn nheyrnas nef."

Pan oedd 11 oed, cyn cael ei dderbyn yn aelod gyda'r Methodistiaid, gyda'r rhai yr oedd ef a'i frawd a'i chwiorydd wedi cael eu magu gan eu mam, erfyniodd ganiatad'i fyned gyda'i dad, ei frawd, a'i chwaer hynaf at yr Annibynwyr; a derbyniwyd ef yn gyflawn aelod cyn ei fod yn 12 oed; ond yr oedd mor addfed o ran ei feddwl, ac mor dal o ran ei gorph, a phlant cyffredin pan yn 15 oed. Yr oedd yn credu yn ei ddyddiau olaf, ei fod wedi ei ail eni er cyn iddo gofio; ac awgrymai y gallai hyny gymeryd lle, yn ateb i weddiau ei fam, cyn iddo gael ei eni i'r byd hwn, megis Ioan Fedyddiwr. Beth bynag am hyny, y mae'n wir fod y Beibl a'r pregethau, heb son am y llyfrau duwinyddol hyny a ddarllenai, yn cael argraffiadau dwfn ar ei feddwl o'i fabandod. Pan rhwng 11 a 12 oed, enillodd wobr am y traethawd goreu ar *Abel*—testyn i rai dan 18 oed—mewn cyfarfod llenyddol a gynelid yn ysgoldy Brytanaidd Llanrhyddlad. Y beirniad oedd Edeyrn, yr hwn a ddywedai fod y traethawd yn deilwng o un ugain oed. Hwn oedd ei ymdrech llenyddol cyntaf, heblaw'r penillion a grybwyllwyd. Wedi iddo dreulio tua thri mis yn gweu, ar ol dychwel o'r ysgol, rhoddwyd ef dan addysg gyfrinachol y Parch. R. E. Williams (*Apeles*), gweinidog yr

Digitized by Google

Annibynwyr yn Llanddeusant, i ddysgu Groeg a Lladin. Bu yn mynedd yno at Mr. W. am tua blwyddyn a haner; ond parhaodd Mr. W. i roddi gwersi iddo dros fwy na blwyddyn wedi hyny, pan oedd ef yn l rentis gyda'r Dr. Jones yn y Graianfryn. Pan oedd efe yma, rhwng 13 a 14 oed, yn dechreu dysgu'r berfau Groeg, yr oedd gan Mr. W. unwaith achlysur i fyned oddi cartref dros wythnos o amser; am hyny, rhoddodd tua 13 tudalen o'r berfau yn Ngramadeg wythblyg Valpy, yn dasg iddo erbyn y dychwelai. Ond digwyddodd na bu Mr. W. oddi cartref ond deuddydd, a'r trydydd dydd, aeth i edrych am ei hoff ddysgybl i'r Graianfryn, yn hollol annisgwyliadwy iddo, pan y daliodd ef yn ei ystafell yn prysur ysgrifenu cân Saesneg "*On her Own Eyes.*" Dechreuodd Mr. W. ei geryddu am wneud hyny, yn lle dysgu'r dasg a roddasai efe iddo yn y berfau Groeg, er ymbarotoi i fyned i goleg Glasgow, pan yr atebodd yntau yn bur bwyllog, dan wenu, yn ol ei arfer, "O, Syr, yr wyf fi wedi gorphen fy nhasg er doe" A phan holodd ei athraw ef yma ac acw, yn ol ac yn mlaen, ar hyd y tudalenau, canfu, er ei fawr syndod, ei fod wedi meistroli'r cyfan yn drwyadl. Dywedai Mr. W. ar ol hyny, na wyddai efe ar y ddaear pa faint o dasg oedd yn ddigon iddo. Arferai ddywedyd mai wrth ddysgu Groeg a Lladin, dan gyfarwyddyd Mr. W., y daeth efe i wybod natur á defnydd gramadeg. Pan oedd rhwng 13 a 14 oed, prentisiwyd ef dros saith mlynedd yn feddyg, gyda W. Jones, Ysw., M.D., oedd yn dal ffarm y Graianfryn, ac yn cadw tŷ yn Nghaergybi. Yn y Graianfryn y treuliodd Golyddan y flwyddyn a haner cyntaf o'i brentisiaeth, yn dysgu dogni physigwriaeth, &c. Yn ystod saith mlynedd ei brentisiaeth, darllenodd y rhan fwyaf o'r prif awduron Groeg, Lladin, a Saesneg, yn rhyddiaith a barddoniaeth, heblaw llyfrau duwinyddol, hanesyddol, philosophyddol, meddygol, a'r cyffelyb; myfyriodd *Euclid* yn fanwl; dysgodd y Ffrangeaeg oddiwrth un o'i gyd-brentisiaid yn llawer perffeithiach na'i athraw; cyfieithodd yr *Iliad*, yr *Aeneis*, a'r *Telemachus* bron oll i'r Saesneg, er mwyn cyrhaedd gwybodaeth fanylach o'r Groeg, y Lladin, a'r Ffrancaeg; ac yn yr un yspaid yr ysgrifenodd ei holl ganiadau a'i draethodau, oddieithr yr un a nodwyd eisoes ar *Abel*. Heblaw hyny, yn ystod y pedair blynedd olaf o'i brentisiaeth, yr oedd yn gofalu llawn cymaint, os nad mwy, na'r Dr. Jones ei hun am gleifion lliosog y gŵr enwog hwnw, a hyny ddydd a nos yn ddiwahaniaeth. Pan yn 15 oed, anfonwyd ef i'r *Andersonian College*, Glasgow, dros un *session*, lle yr enillodd y ddwy wobr gyntaf, un am ragori yn yr Ystafell Ddifynu (*Dissecting Room*), a'r llall am y traethawd goreu ar Fydwreigiaeth (*Midwifery*), yr ieuengaf erioed, yn ol ei athraw, y Dr. Patterson, a gafodd *certificate* yn y Coleg hwnw. Yn ystod ei arosiad yn Glasgow y dechreuodd gyfansoddi ei gân Saesneg "*On Death*," yr hon sy'n 7,000 o linellau. Yn ei letty yr ysgrifenai hon, ar ol treulio yr holl ddiwrnod yn yr Ystafell Ddifynu, pan y byddai ei gyd-fyfyrwyr yn tawel huno. Pan oedd tuag 16 oed, ysgrifenodd gân "Ar y Ddau Ddisgybl yn myned i Emmaus," yr hon a fu fuddugol yn nghyfarfod llenyddol Caergybi. Yn ystod y flwyddyn ganlynol, ysgrifenodd gân ar "Ddinystr Sodom a Gomorrah," cyd-fuddugol âg Iolo Trefaldwyn; ac un arall fuddugol ar "Ardd Eden"; ac un arall ar "Dan gnefedd," pan y barnwyd ef yn ail oreu. Pan oedd yn 18 oed, cyfieithodd ei gân Saesneg "*On Death*" ac anfonodd hi i Eisteddfod Merthyr Tydfil, dan yr enw "Angeu" yn 7,000 o linellau, i gystadlu am £20 o wobr, a gynygiwyd gan y pwyllgor hwnw am yr "Arwrgerdd oreu ar unrhyw Destyn." Wrth y gân

Digitized by Google

hon y defnyddiodd yr enw GOLYDDAN y tro cyntaf. Eben Fardd oedd y beirniad, yr hwn a fethodd benderfynu pa un si "Gwenhwyfar" Llew Llwyfo, ai "Angeu" Golyddan oedd yr oreu. Yna dewisodd y pwyllgor ddau feirniad arall yn lle Eben Fardd: methodd un o'r ddau hyny hefyd farnu pa un oedd oreu; ond rhoddodd y llall ei bleidlais o du "Gwenhwyfar" y Llew; ac yn lle rhanu'r wobr yn wyneb i ddau feirniad o dri fethu penderfynu rhyngddynt, rhoddodd y pwyllgor y wobr oll i Llew Llwyfo, yr hyn a barodd i Golyddan ysgrifenu'n llym yn erbyn y pwyllgor. Haerai mai i *Eben Fardd* yr oedd efe yn canu. Yn y flwyddyn ganlynol, pan oedd 19 oed, cyfansoddodd wyth o ganiadau i Eisteddfod Dinbych: "Iesu," 3,000 o linellau; ad-drefniad o "Angeu," dan yr enw "Gwenafwy," 6,000 o linellau; "Diangfa'r Caethwas"; "Tywysog Cymru"; "Iachawdwriaeth"; "Y Cenhadwr"; a dwy gân "Dduchan i'r Bradwr." Nid yw yn unrhyw ddianrhydedd i'w awen hedegog, na bu efe yn fuddugol yn Ninbych, canys anfynych y mae ffrwyth gwir athrylith mewn mesur rhydd wedi ei wobrwyo mewn Eisteddfod. Camsyniad yw, mai colli *ynø* a ddechreuodd suddo ei ysbryd. Pan awgrymodd rhywun ar y pryd, yn un o'r papurau, am iddo beidio tori ei galon oblegid colli yn Ninbych, ysgrifenodd yn y fan i'r un papur, "Na wnaed ei galon ef i'w thori gan *ddyn:* nad oedd neb a allai dori ei galon ef ond yr hwn a'i gwnaeth." Yr oedd mor llawen yn Ninbych ar ol colli, ag ydoedd cyn hyny; eto, chwerwodd ymddygiad beirniad yr Eisteddfod hono gymaint ar ei enaid at feirniaid Cymreig, fel y rhoddodd ei air na chai un Cymro byth mwyach farnu llinell o'i waith ef mewn cystadleuaeth. Tranoeth ar ol yr Eisteddfod, eisteddodd i lawr, a chyn haner dydd dranoeth yr oedd wedi ysgrifenu 9 o lythyrau i'w cyhoeddi yn y *Faner* ar "Goegfeirniadaeth Eisteddfod Dinbych," y rhai a gyhoeddwyd ynddi yn olynol; ac yr oedd pob un ohonynt tua dwy golofn. Ar ol gorphen, dywedodd ei fod ef wedi ysgrifenu cymaint o Gymraeg, i'r argrafiwasg ag a wnai am un tair blynedd (gallasai ddywedyd am byth!) nes myned trwy ei holl *medical course*. Yn niwedd mis Medi 1860, yn fuan ar ol yr Eisteddfod, a phan newydd basio 20 oed, aeth Golyddan i Brifysgol Edinburgh. Enillodd ddwy wobr gyntaf yn ystod y *session*, un am ragori yn y *Classics* (y Groeg, y Lladin, a'r Ffrangcaeg) a Mesuroniaeth (*Geometry*) a'r llall am ragori mewn Fferylliaeth (*Chemistry*) a *Practice of Physic*. Hefyd, aeth trwy ei arholiad cyntaf am M.D. yn llwyddianus, a chafodd ddwy dystysgrif teilyngdod, un dan law'r Profleswr Playfair, a'r llall dan law'r Dr. Struthers. Dywed yr un dan law'r Proff. Playfair, "Fod Mr. John R. Pryse wedi myned dan yr arholiad gotynol, ac wedi cyrhaedd 95 y cant o'r marcian cyrhaeddadwy; ei fod wedi dyfod i hawl o'r dystysgrif hon a thlws pres, yn arwyddo ei fod wedi ei gofrestru yn y *first class of honours*," sef yr uchaf yn y dosparth. Tystia tystysgrif teilyngdod y Dr. Struthers, "Heblaw ei fod wedi dilyn fy nghyfres i ar Ddifyniaeth (*Anatomy*) yn ystod *session* 1860—61, yn hollol reolaidd a diwyd, enwogodd ei hun yn fawr yn arholiadau geneuol y dosparth a gynhaliwyd trwy ystod yr holl *session*." Tra yr oedd yn Edinburgh, ysgrifenoddd ddwy gyfrol dew o'r darlithiau a wrandawai, un ar Fferylliaeth, Llysieuaeth, a *Practice of Physic*, a'r llall ar Fesuroniaeth, y ddwy yn Saesneg. Wedi dychwelyd o Edinburgh, ar ol y *session*, aeth i letya at ei frawd a'i chwaer, i Gaergybi. Yr oedd y Dr. Jones, ei hen athraw, wedi gadael y rhan fwyaf o'i orchwyl yn Nghaergybi iddo

Digitized by Google

ef, ac yno y gweithiodd ddydd a nos, bron yn ddiorphwys, er mwyn cael digon o arian i fyned i Brifysgol Edinburgh y *session* ganlynol. Bu am bythefnos yn Gorphenaf, 1861, heb dynu am dano na dydd na nos, ond i newid ei lieiniau, pan y dywedodd y Dr. Jones wrtho, yn llawer rhy wir, ysywaeth, os gyrai yn mlaen felly dros ychydig amser yn mhellach, na welai efe byth eto mo Edinburgh. Yr oedd wedi arfer gweithio yn galed, ac yr oedd yn bur iach bob amser, am hyny tybiai nad oedd mewn perygl. Pa fodd bynag, un noswaith yn y Gorphenaf hwnw, galwyd arno at wraig tua milldir a haner o'r dref, pan y cafodd ei wlychu at y croen. Wedi iddo gyrhaedd y tŷ, gwelodd gael ei alw oriau yn rhy fuan. Pan elai oddi cartref, arferai gario *portfolio* gydag ef yn wastad, yn cynwys defnyddiau ysgrifenu, yr hwn oedd gydag ef y noson hono. Rhoddwyd ef yno mewn ystafell heb ddim tân, yn ei ddillad gwlybion. Yna dechreuodd ysgrifenu; anghofiodd ei hun yn fuan; a bu yno hyd 10 o'r gloch y bore dranoeth. Y canlyniad fu iddo gael anwyd mor dost, fel mai prin y gallai na siarad na sefyll ar ei draed. Effeithiodd yn fuan ar ei ysgyfaint, a pharhaodd i ddihoeni dano dros fwy na blwyddyn, pan o'r diwedd y terfynodd ei fywyd byr a llafurus, yn nhŷ ei rieni yn Ninbych, Tach. 13, 1863, yn mhen tua phedwar mis ar ol cyrhaedd ei 22ain oed. Claddwyd ef yn mynwent eglwys St. David's, Dinbych, lle y mae cofgolofn hardd, o faen mynor sir Fon ar ei fedd, a ddodwyd yno gan ei gyfeillion a'i edmygwyr llenyddol trwy Gymru. Yr oedd yn prysur ddysgu'r iaith Hebraeg pan y cymerwyd ef yn glaf, er mwyn deall barddoniaeth y Bibl yn yr iaith wreiddiol, yn enwedig llyfr y prophwyd Esaiah, yr hwn a ystyriai y Farddoniaeth oreu yn yr holl fyd. Yn ystod ei salwch tynodd gynllun o'i arwrgerdd "Iesu," yn Saesneg, gan fwriadu ei helaethu yn yr iaith hono i faint y "*Paradise Lost*" Hefyd, nododd yr holl ganiadau y bwriadai eu cyhoeddi, y rhai oll sydd tua *deugain mil* o linellau, heb son am ei ryddiaeth Cymraeg a Saesneg. Gyda golwg ar y crynhoad yma o'i ganiadau, dywed,—"Bwriadaf i'r casgliad canlynol gynwys detholiad cyflawn o'r holl ganiadau a gyfansoddais hyd ddiwedd yr ugeinfed flwyddyn o'm hoedran. Os oes ychwaneg ar gael o ffrwyth fy llafur prydyddol yn ystod y blynyddoedd hyn o'm hoes, yr wyf yn eu cyfrif yn anheilwng" Ni wnaeth ddim arall llenyddol o bwys yn ystod ei aflechyd, ond y cofiant am yr un mlynedd ar ddeg cyntaf o'i oes, y cyfeiriwyd ato eisoes.

RHYS (IEUAN AB), neu Ieuan ab Rhys Brydydd, ydoedd ail fab Rhys Llwyd ap Rhys ap Richard, neu Rhys Brydydd, o Glaen Cynllan, yn Llanharan, Morganwg, ac oedd yn ei flodeu tua'r fl. 1450. Yr oedd ef wedi ei ddwyn i fynu yn fynach yn Margam, ond oblegyd iddo gofleidio Lolardiaeth, neu y diwygiad, yn ei ymddangosiad cyntaf, cyn y diwygwyr a elwid felly, efe a drowyd oddiyno. Wedi fel hyn ymryddhau oddiwrth ddeddfau y Fynachlog, efe a briododd Fynaches a droesid allan o ryw Fynachlog, o'r hon y bu iddo blant, a daeth mab iddynt o'r enw Thomas yn brydydd enwog yn ei ddydd. Wedi ei droi o'r Fynachlog, a phriodi, efe a fu yn dal tir yn Nghynffig, o dan Syr Mathew Cradock, yr hwn oedd babydd selog; ond efe a ddilynwyd a chyfraith gan Syr Mathew, oblegyd crefydd ei fam, a chafodd ei droi o'r tir. Cafodd wedi hyny rywfaint o dir yn Merthyr Cynog, yn sir Frycheiniog, lle y cafodd lonydd am hir amser. Symudodd oddiyno i Langynwyd i gadw ysgol.—*Lleyn MSS.*

RHYS GRYTHOR HIRAETHOG, clerfardd a digrifwas enwog a

Digitized by Google

phoblogaidd yn ei ddydd. Yr oedd yn ei flodau yn yr 16eg ganrif, ac yn cydoesi â Wm. Cynwal a Sion Tudur. Danfonodd y blaenaf gywydd at yr olaf tros y Dr. Pryse o Blasiolyn i ofyn benthyg y Crythor i ddyfod i'r wledd flynyddol a gynaliai y boneddwr hwn. Y mae y ddau gywydd hyn ŷ'w gweled yn y *Brython* iii. 426, a gwae i Rys fyth eu canu. Gwna y ddau gyff cler ohono, a thraethant ei achau a'i wendidau yn ysmala a difloesgni. Graddiwyd ef yn "Ddysgybl Dysgyblaidd Cerdd Grwth" yn Eisteddfod Caerwys, 1568; a dywed Sion Tudur am dano yn y cywydd crybwylledig mai

Mwyn yw ei grwth, myn y grog!

RHYS (Dr. John Dafydd), gramadegydd a bardd enwog, ydoedd fab i Dafydd Rhys, yr hwn oedd yn ngwasanaeth Syr Wm. Griffith, o Lanfaethlu, yn Mon. Yno y ganwyd ef yn 1534. Dywed rhai hanesion i'w fam fod yn wasanaethyddes i Jane Stradling, o St. Dunawd, yr hon tua'r pryd hwnw a briodes Syr Wm. Griffith. Pan yn 18 oed, derbyniwyd ef i goleg Eglwys Crist, Rhydychain, lle y daeth yn efrydydd, eithr wedi arcsiad yno o dros dair blynedd, gadawodd y brifysgol heb gymeryd ei raddau, gan fyned i'r Cyfandir yn Rhagfyr, 1555. Ymsefydlodd am yspaid yn Sienna, Tuscani, lle yr oedd prifysgol enwog, a lle gan ddilyn ei dueddfryd naturiol yr ymroddodd efe i efrydu physigwriaeth, ac y graddiwyd ef yn ddoethawr yn y wyddor hono. Enillodd yno hefyd wybodaeth ddofn o'r iaith Italaidd. Penodwyd ef ar ol hyny yn gynghorydd cyhoeddus yn ysgol Pistoia, tref arall yn Tuscani. Ysgrifenodd yn yr Italaeg "Rules for the obtaining of the Latin Tongue;" yr hwn a argraffwyd yn Venice: ac yn Lladin, "De Italicæ Linguæ pronuntiatione," yr hwn a argraffwyd yn Padua. Coleddai yr Italiaid y syniadau uwchaf am y ddau waith hyn, ac ystyrid yr olaf yn gaffaeliad gwerthfawr gan ymdeithwyr estronol yn Itali. Dychwelodd i Brydain, a bu yn dilyn ei alwedigaeth gyda chryn lawer o lwyddiant, a thua nawn ei einioes ymsefydlodd mewn ffermdy a brynasai ar fin Llyn y fan, o tan gysgod Moel Arthur, yn sir Frycheiniog. Yno yr ysgrifenodd efe ei brif waith sef ei ramadeg Lladin o'r Iaith Gymraeg—yr hwn oedd yr ymgais cyntaf a argraffwyd i ddwyn iaith ein tadau o tan ddeddfau gramadeg. Teitl y llyfr ydoedd, "Cambrobrytannicæ Cymraecæve Linguæ Institutiones et Rudimenta, accurate et (quantum fieri potuit) succincte et compendiose conscriptæ:—ad intelligenda Biblia sacra, nuper in Cambrobrytannicum sermonem et caste et eleganter versa, non minus necessaria quam utilia. Cum exacta carmina Cymræca condendi ratione, et Cambrobrytannicorum Poematum generibus aliisque rebus nonnullis eodem spectantibus, iisdemque pariter non minus necessariis quam utilibus." Cyhoeddwyd ef yn Llundain, mewn deublyg mawr, yn 1592, wedi ei gyflwyno i Syr Edward Stradling, o Gastell St. Dunawd, Morganwg, ar draul pa un yr argraffwyd ef. Hysbysir ni hefyd gan ewyllys Syr Edward mai 1250 o gopiau a argraffwyd ohono. Arddengys y gwaith hwn ddysgeidiaeth ddofn, a gwybodaeth drylwyr o'r iaith yr ymdrinia â hi, nid yn unig o'i rheolau gramadegol, ond hefyd o'i mesurau a'i chynganeddion, a chymerodd yr awdwr dysgedig drafferth fawr i'w hesbonio a'u hegluro. Ceir hefyd ddyfyniadau o englynion Italaidd cyffelyb i'r rhai Cymreig, ond dywedir nad ydynt o lawer mor brydferth. Cynullodd a chyfieithodd Dr. John Dafydd Rhys, neu fel y galwai ei hun weithiau John Davys, gasgliad o uchanianaeth Aristotle, i'r Gymraeg. Nid argraffwyd hwn; bu y llawysgrif ohono unwaith yn

Digitized by Google

llyfrgell coleg Iesu, Rhydychain, ond y mae bellach ar goll. Yn y gwaith hwn, dywed yr awdwr fod y Gymraeg gan gyfoethoced i osod allan dermau annghyffiaith, ag ydyw yr iaith Roeg, neu unrhyw iaith arall pa bynag. Ysgrifenodd lyfrau eraill hefyd, ond y maent ar gyfeiliorn. Dywed Wood, iddo farw fel y bu byw yn Babydd, yn neu gerllaw Aberhonddu, tua 1609; ond y mae yn anhawdd coelio hyny, canys yn y rhagymadrodd i'w ramadeg, yr hwn a ysgrifenwyd gan Humphrey Prichard, offeiriad Protestanaidd, a brodor o Fangor, dywedir mai prif amcan cyfansoddi y gramadeg ydoedd cynorthwyo i iawn ddeall y cyfieithiad rhagorol o'r Ysgrythyrau i'r Gymraeg, ac hefyd er mwyn y gweinidogion, a gwneud y Beibl yn fwy dealladwy iddynt hwy a'r bobl. Dywedir hefyd yno ei fod yn ewyllysio yn ddifrifol eangiad gwir grefydd, a rhaid mai Protestaniaeth a olygai Prichard wrth ddweyd hyny. Bu mab iddo o'r enw Walter Davids yn ficer Aberhonddu o 1576 hyd 1621.—Wms. *Em. Welsh.*

RHYS WYN AB CADWALADR, bardd o Edeyrnion, rhwng 1580 a 1640.

RHYS (Syr) o Drewen, plwyf Llanelidan, sir Ddinbych. Yr oedd yn fardd da, ac y mae amryw gywyddau o'i waith ger ein bron mewn llawysgrifen. Yr oedd mewn urddau eglwysig, ac yn dal swydd mewn cysylltiad â Llanegwestl, ger Llangollen.

RHYS (Morgan), a anwyd yn nghymydogaeth Llanymddyfri, sir Gaerfyrddin, tua dechreu y 18fed ganrif. Dygwyd ef dan ystyriaethau crefyddol trwy weinidogaeth Howell Harris a D. Rowlands, a dechreuodd bregethu mewn cysylltiad a'r Methodistiaid Calfinaidd. Yr oedd hefyd dros y rhan fwyaf o'i oes yn cadw ysgol yn ardal Capel Isaac, ger Llandeilo Fawr. Efe a ymhynododd nid fel ysgolfeistr na phregethwr eithr fel bardd Hymnau. Ei brif waith a gyhoeddwyd yn rhanau achlysurol, yn ol y galwad am danynt o dan yr enw "Golwg o Ben Nebo a Gwlad yr Addewid," mewn casgliad o bigion Hymnau, am gwymp dyn yn yr Adda Cyntaf, a'i gyfodiad yn yr Ail Adda, yn 1760. Yn 1764, daeth ail-argraffiad, o dan yr enw "Golwg o Ben Nebo ar wlad yr Addewid," cynhwysa hwn "ychwanegiad o Hymnau ac Odlau Newyddion." Tua'r un pryd cyhoeddodd "Farwnad ar ol rhyw Gristion da." Yn 1773, cyhoeddodd argraffiad diwygiedig o'r "Golwg o Ben Nebo," yn nghyd a rhai "Caniadau Newyddion;" ac yn 1775, daeth allan y trydydd argraffiad o'r "Golwg o Ben Nebo." Yn 1769, cyhoeddodd lyfryn o'r enw "Golwg ar ddull y byd hwn yn myn'd heibio, a thragwyddoldeb o hapusrwyd yn nesau i holl Waredigion Seion." Yn 1771, ceir ganddo "Farwnad neu Goffadwriaeth o ddedwydd farwolaeth rhai o Weinidogion ffyddlon yr Efengyl." Yn 1771, cyhoeddodd "Golwg ar y ddinas Noddfa, mewn casgliad o Hymnau," &c., yn nghyda "Marwnad Ester, gwraig William Sion, o'r Llawelau," &c. Yn 1774, ceir ganddo "Hanes byr o Fywyd a marwolaeth Morgan Nathan, o Landeilo Fawr." Tua'r un pryd cyhoeddodd ddau lyfryn bychan arall—un o dan yr enw "Ffrwyth Ysbrydol, neu gasgliad o Hymnau Newyddion ar amryw Fesurau," mewn cysylltiad âg un "Thomas Dafydd;" a'r llall ganddo efei hun, o dan yr enw "Gruddfanau y Credadyn am berffeithrwydd ac anllygredigaeth." Y mae melusder digyffelyb yn ei gyfansoddiadau; ac y maent yn britho ein holl lyfrau Hymnau Cynulleidfaol, y rhai a gyfrifai traddodiad i awdwyr eraill, megys

"Ymado wnaf a'r babell"

Digitized by Google

[illegible]
"O agor [illegible]
Deuwch [illegible] ARLL."
"Dyma [illegible] iwad i'r [illegible]
"Wel, dano'r hen [illegible]
"Agorodd ddrws i'r [illegible], &c.

Bu farw tua'r flwyddyn 1770.—*Lleyn MSS.*

RICHARD (DAVID) *Gw.* DAFYDD IONAWR.

RICHARD (DAVID), ydoedd fab i'r Parch. Thomas Richards, ficer Darowen, sir Drefaldwyn. Dywedir yntau hefyd i fynu yn ar eglwaig a phenodwyd ef ar y cyntaf i guradiaeth Llanidloes; ac yn 1819 yn ficer y plwyf hwnw, pan yr cogob Luxmore. Yr oedd yn Ilenor Cymreig gwych, yn fardd, ac yn hynafiaethydd. Efe oedd ysgrifenydd Cymdeithas Cymrodorion Powys, ac Eisteddfod Gwrecsam yn 1819.—*Lleyn MSS.*

RICHARD (PARCH. EBENEZER). Ganwyd y pregethwr rhagorol hwn yn Trefin, pentref bychan yn sir Benfro, Rhag. 5, 1781. Dygwyd ef i fynu o'i febyd yn ofn ac athrawiaeth yr Arglwydd. Pan yn bumtheg oed, derbyniwyd ef at fwrdd yr Arglwydd, yn Nghyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd. Yn 18 neu 19 oed, aeth i gadw ysgol i bentref Dinas, rhwng Abergwaen a Cheinewydd; ac yn fuan wedi ymsefydlu yno, daeth yn wrthddrych argyhoeddiadau dwysion o fawr ddrwg pechod,—mor ddwys fel yr oedd ei bryder parth iachawdwriaeth ei enaid yn cynyddu o ddydd i ddydd, ac yn bwgwth anmharu ei iechyd, a dyrysu ei synwyrau. O'r diwedd, bu hyn yn achlysur iddo roddi yr ysgol i fynu, a dychwelyd at ei rieni. Am rai dyddiau, elai oddiamgylch gan geisio cyfiawnhau ei hun, a thrwy hyny ceisiai dawelu ei gydwybod a gofynion cyfraith Duw. Arferai ymprydio, gweddio, a chyflawni gweithredoedd dirboenus, ond yn gwbl ofer. O'r diwedd, disglaeriodd y drefn o gyfiawnhad trwy ffydd ar ei feddwl trallodus, ac yn raddol ymlonyddodd y dymhestl. Cyfeiria fel hyn at noson ei waredigaeth:—"Mehefin 1, 1801. Yr oedd y nos hon y fwyaf arswydus yn fy holl fywyd, ond hyderaf iddi fod yn ddechreu dydd tragwyddol imi." Wedi hyn, dychwelodd i'r Ddinas, ac ail gychwynodd yr ysgol. Er ei fod yn flaenorol yn llencyn tra moesol, sylwodd ei gyfeillion fod ynddo yn awr gryn gyfnewidiad. Darfu i nefoleidd-dra ei brofiad, a'r eneiniad neilldnol a nodweddai ei weddiau cyhoeddus beri iddynt gredu y gelwid am dano yn fuan i lanw cylch eangach a phwysicach yn yr Eglwys. Ar daer ddymuniad ei frodyr yn y Ddinas, efe a ddechreuodd bregethu, ac yn fuan ar ol hyny, yn ol arfer y Cyfundeb, arholwyd ef yn y Cyfarfod Misol, a chafodd ei dderbyn yn bregethwr rheolaidd. Sylwai yr hybarch Jones o Langan am dano ef a'i frawd Thomas Richards, "Y mae y bechgyn hyn yn pregethu fel dau angel." Yn 1806, ymsefydlodd Mr. Richards yn nheulu *Major* Bowen, o Lwyn y Gwair, yr hwn a drigianai ar y pryd yn Aberteifi, fel dysgawdwr plant y boneddwr hwnw. Bu yn ddedwydd am dair blynedd gyda'r teulu duwiol hwnw, ac yr oedd hefyd yn y cyfamser o fawr wasanaeth a bendith i'r dref a'r wlad oddiamgylch. Yn 1809, efe a briododd Mary, merch Mr. Wm. Williams o Dregaron, a symudodd yno i fyw, lle y treuliodd weddill ei oes. Yr oedd Mr. R. yn un o'r triarddeg a ordeiniwyd i weinyddu y sacram ntau yn mhlith y Trefnyddion Calfinaidd, Awst 11, 1811, ac efe oedd yr ieuangaf o honynt. Yn 1810, penodwyd ef yn ysgrifenydd [illegible] ac ar gyngor Mr. Charles,

penodwyd ef yn 1813, yn ysgrifenydd Cymanfa Gyffredinol yr enwad yn y Deheudir. Llanwodd ddyledswyddau y swydd lafurus hono gan arddangos gallu annghyffredin, a rhoddi llawn foddlonrwydd, hyd ddydd ei farwolaeth. Er caletted ei lafur, ac er mor anfoethus ei fwrdd, yr oedd yn dew a thrwchus iawn o gorph yn ystod blynyddau olaf ei oes. Darfu i ergydion parhaol o'r parlys, fel ffrwyth y tewychder anarferol hwn, beryglu ei fywyd amryw weithiau, ac o'r diwedd darostyngwyd ef ganddynt—Mawrth 9, 1837, a bu farw yn annisgwyliadwy iawn iddo ef a'i gyfeillion. Yr oedd Ebenezer Richards yn un o'r gweinidogion mwyaf defnyddiol a dylanwadol yn Nghymru. Anfynych mewn unrhyw oes y ceir dyn yn meddianu y fath uniad hapus o gynifer o gyneddfau gwasanaethgar. Yr oedd yn addfwyn iawn, ac eto yn benderfynol; yn hynod o dduwiol, ac eto heb un gradd o ffug sancteiddrwydd; yn effeithiol iawn bob amser, ac ar brydiau ysgubai ei hyawdledd bobpeth o'i flaen; yn ofalus a threfnus neilldnol fel arolygydd gweithrediadau y Cyfundeb, ac yn ddiwyd a diorphwys yn nghyflawniad ei holl ddyledswyddau. Efe oedd y cyntaf a'r penaf offeryn yn sefydliad Ysgolion Sabbathol yn Neheudir Cymru; ac y mae enwadau ereill, cystal â'r un y perthynai iddo, yn awr yn medi o ffrwyth toreithiog ei lafur yn y gangen hono o winllan ei Arglwydd. Y mae maint ac amrywiaeth llafur y gweinidog enwog hwn yn ein llanw â syndod. Yn y bywgraffiad dyddorol ohono a gyhoeddwyd gan ei feibion, ceir y ffeithiau canlynol a gymerwyd allan o'i Ddyddlyfr:—Pregethodd 7,048 o weithiau; gweinyddodd Swper yr Arglwydd, 1,360; Bedyddiodd 824; bu mewn 651 o Gyfarfodydd Pregethu; a theithiodd 59,092 o filldiroedd. Yr oedd Mr. Richard yn Annghydffurfiwr penderfynol a chydwybodol, ac yn hyny o beth yn mhell o flaen ei frodyr yn yr un Cyfundeb y pryd hwnw. Ceisiwyd ganddo gymeryd urddau eglwysig yn yr Eglwys Sefydledig amryw weithiau, ond yn aflwyddianus. Mab i Mr. R., ydyw Mr. Henry Richard, yr aelod seneddol tros Ferthyr Tydfil, ac Ysgrifenydd Cymdeithas Heddwch.

RICHARD (Edward), bardd, ysgolfeistr, a hynafieithydd, o fri uchel. Ganwyd ef yn mhlwyf Ystradmeirig, sir Aberteifi, yn 1714. Yr oedd ei dad, Thomas Richard, yn cadw teilwriaid a thafarndy yn y plwyf hwnw. Cafodd Abraham, y mab hynaf, addysg yn ngholegysgol Henffordd, a thrachefn yn ysgol ramadegol Caerfyrddin, o ba le y danfonwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain. Treuliai ei ysbeidiau pan gartref o'r brif-ysgol mewn addysgu nifer o wyr ieuanc ei blwyf genedigol, ac yn y dosbarthiadau hyny y cafodd ei frawd Edward Richard elfenau ei wybodaeth helaeth mewn Groeg a Lladin. Yna, aeth Edward i ysgol ramadegol Caerfyrddin, yr hon oedd ar y pryd tan arolygiaeth alluog y Parch. Mr. Maddox, ac ar ol hyny bu tan addysg Mr. Pugh, Llanarth, clerigwr oedranus ag iddo glod uchel fel gwr o ddysg, yn enwedig yn yr iaith Roeg. Tua 1734, agorodd ysgol ar ei gyfrifoldeb ei hun yn Ystradmeirig, a buan y daeth yn enwog trwy yr holl wlad, ac yr ymgynullodd lluaws ato am addysg. Yn fuan, cafodd ei hun yn analluog i ddwyn yr ysgol yn mlaen, am nad oedd ganddo ddim rhagor i'w ddysgu i'r plant, a rhoddodd rybudd cyhoeddus i'r perwyl hwnw, yr hyn sydd yn dangos ei onestrwydd. Ymroddodd am ddwy flynedd i chwanegu trysorfa ei wybodaeth, gwnaeth eglwys y plwyf yn efrydfa, a chafodd yr enwog Ieuan Brydydd Hir yn athraw. Haf a gauaf, oerni a gwres, gwelid Edward Richard am bedwar o'r gloch yn y bore yn dechreu ei efrydiau yn eglwys Ystrad; a dywedir na byddai un amser

Digitized by Google

yn dechreu heb gyflwyno ei hun wrth orsedd gras. Ar derfyn y ddwy flynedd, agorodd yr ysgol eilwaith, yr hon a lanwyd yn fuan gan wyr ieuainc o bob cwr i'r Dywysogaeth. Penodwyd ef yn athraw rhyddysgol waddolog yn mhlwyf cyfnesol Lledred, a llanwodd y swydd hono gydag anrhydedd mawr iddo ei hun, a mantais i'w ysgolheigion. Trwy y chwanegiad hwn yn ei gyllid, a chynildeb ei fam, yr hon a gadwai ei dŷ, llwyddodd i gasglu ychydig gyfoeth. Gan ei fod yn anmhriod, penderfynodd sefydlu ysgol ramadegol yn Ystradmeirig, er cyfrannu addysg Ladinaidd, ac yn egwyddorion yr Eglwys Sefydledig, ac yn 1757, sefydlodd fferm a brynasai i'r perwyl hwnw Sefydlodd lyfrgell hefyd at wasanaeth yr ysgol hon, yn 1759. Darfu i farwolaeth ei fam, yr hyn a gymerodd le yn 1764, effeithio yn ddwys ar ei deimladau; a'r digwyddiad hwnw a barodd iddo gyfansoddi y fugeilog alarnadol ardderchog hono sydd i'w gweled yn argraffedig yn ei waith. Yr oedd yn gydnabyddus iawn â hanesiaeth a hynafiaeth ei wlad enedigol, ac yn cydohebu yn gyson ar y pynciau hyny gyda Lewis Morris Mon, Dr. Phillips, ac eraill o wyr dysgedig ei dydd; a chyhoeddwyd amrai o'r llythyrau hyn yn y *Cambrian Register*, &c. Yn 1771, sefydlodd amryw ffermydd eraill yn waddol i ysgol ramadegol Ystradmeirig; ac yn 1774, gwnaeth weithred newydd, a chwanegodd reolau er ei threfniant. Bu yr amcan dyngarol hwn yn benaf ar ei feddwl am ugain mlynedd; ac ar ei wely angau, fel y prawf ei ewyllys, yr oedd yn dra phryderus am ei lwyddiant. Parhaodd yr ysgol hon yn hynod o flodeuog am flynyddau lawer, o tan ofal athrawon galluog, hyd nes y goroeswyd hi i raddau helaeth trwy agoriad coleg Dewi Sant, Llanbedr, yn 1827. Terfynodd Edward Richard oes weithgar ac elusengar, Chwef. 28, 1777. a chladdwyd ef yn eglwys Ystradmeirig. Cyhoeddwyd casgliad o'i fugeilgerddi swynol, a'i ganenon clasurol, gyntaf yn Llundain, yn 1811, tan y teitl, "Yr Eos; sef Gwaith Prydyddawl Mr. Edward Richard o Ystradmeirig, gyda hanes ei fywyd;" ac ail gyhoeddwyd ef ychydig flynyddau yn ol gan Mr. Spurrel, Caerfyrddin.

RICHARDS (JOHN), Ysw., *(Iocyn Ddu)*, ydoedd enedigol o Lanerchymedd, Mon. Treuliodd y rhan fwyaf a'i oes yn Nholldy Liverpool, a thrwy ei onestrwydd a'i fedrusrwydd, dyrchafwyd ef yn brif swyddog y lle hwnw. Cymerai ran flaenllaw yn holl symudiadau llenyddol a gwladgarol ei gydgenedl yn y dref yn ystod ei arosiad yn eu plith. Tua 1844, rhoddodd ei swydd yn y *Custom House* i fynu, ac ymneillduodd i fyw i Gymru. Bu yn gartrefu am hir amser yn Nhref Iorwerth, ger Bodedeyrn, Mon; ac yn Eisteddfod Aberffraw, yn 1849, mewn cysylltiad ag Eben Fardd a Mr. Joseph Jones, Caernarfon, efe oedd beirniad testyn y Gadair, pryd y barnwyd Nicander yn fuddugol ganddo ef a Mr. Jones. Bu cythryfwl mawr yn y cyfnodolion Cymreig oherwydd y dyfarniad hwn, gan y credid fod a fynai sect âg ef; a chredid fod awdl ragorach yn y gystadleuaeth—yr un y rhoddai Eben Fardd flaenoriaeth iddi, ond beirniadaeth yr hwn a oruchlywodraethid gan fod ei ddau gydfeirniad yn golygu yn wahanol iddo. Ugain mlynedd yn ol, nid oedd un enw mwy hysbys i ddarllenwyr Cymreig nag enw "Richards o Dre Iorwerth," ond wedi i'r dymhestl hono fyned heibio annghofiwyd yntau yn fuan. Yn mlynyddau olaf ei oes, trigianai yn Mron Menai, Caernarfon, ac yno y bu farw Tach. 17, 1864, yn 69 oed.

RICHARDS (SYR RICHARD), cyfreithiwr enwog, a anwyd yn mhlwyf Dolgellau. Meirion, Tach. 5, 1752. Cafodd ei addysg ar y cyntaf yn ysgol Rhuthyn, e ba le yr aeth i brifysgol Rhydychain, ac yno yn mhen

Digitized by Google

[illegible] i'r Cymrodiaeth Michel, yn ngholeg y Frenhines. Galwyd ef at y bar, tei aelod o Gymdeithas Anrhydeddus y Deml Gwnol; ac yn 1813, penodwyd ef yn brif-ynad Caerlleon; yn 1814, yn un o farwnaid y Trysorlys; ac yn 1817, ar farwolaeth Syr Alexander Thompson, yn arglwydd brif-farwn y llys hwnw. "Yn holl gylch ei broffeswriaeth," ebai un newyddiadur wrth gofnodi ei farwolaeth, "ni ellai neb yn uwch yn mhlith personol a pharch y cyhoedd na Syr R. Richards. Yr oedd y caredigrwydd a'r haelfrydedd neilldnol a ddynodai bob gweithred o'i fywyd yn enill iddo gyfaillgarwch serchus pob un a fu ddedwydded a bod yn gydnabyddus âg ef: treuliodd ei holl amser, pan yn rhydd oddiwrth ofalon ei broffeswriaeth, mewn gweithredoedd o ddyngarwch. Yr oedd ei ddyfarniadau, fel cyfreithiwr ac ynad, yn gywir a diffuant." Enillodd gyfeillgarwch ac ymddiried llwyraf Arglwydd Eldon, yn lle yr hwn y llywyddodd fawr gwaith fel Llefarydd Ty yr Arglwyddi. Yn 1785, efe a briododd Catherine, merch ac aeres Robert Vaughan Humphreys, Ysw., o Gaerynwch, Meirion, o'r hon y bu iddo deulu o wyth mab a dwy ferch. Bu farw yn Llundain, Tach. 11, 1823, a chladdwyd ef mewn cell yn Eglwys y Deml. Disgynodd ei ystadau i feddiant ei fab Richard Richards, Ysw., un o farnwyr yr uchel Ganghell-lys, ac aelod seneddol tros sir Feirionydd.—Wms. *Em. Welsh.*

RICHARDS (Parch. Thomas), a hanai o deulu Caerynwch, Meirion. Bu yn offeiriadu yn Llansannan, sir Ddinbych, a Llanfyllin, sir Drefaldwyn; ac yn gantawr yn Llanelwy. Yr oedd yn awdwr cyfrol o farddoniaeth Ladin ar farwolaeth y frenhines Caroline, priod Sior I. Dywedai Dr. Trapp, proffeswr barddoniaeth yn mhrifysgol Rhydychain, ei fod y bardd Lladinaidd goreu yn ei oes. Ysgrifenodd lythyr i'r *Philosophical Transactions*, o hanes y Tân yn Morfa Harlech, 1694, ac a gyhoeddwyd hefyd gan Camden.—*Lleyn MSS.*

RICHARDS (Parch. William), LL.D., ydoedd unig fab Henry Richards, o Bencoed, Llanfihangel Abercowyn, sir Gaerfyrddin; ond a ddaethai yno o ardal Ciltowyr, ac a symudodd wedi hyny i Bencoed, ger Hwlffordd, sir Benfro, lle y ganwyd Dr. Richards 1747. Ni chafodd ond un flwyddyn o ysgol, er hyny gallai ddarllen y Beibl yn y ddwy iaith cyn ei ddyfod i'w oed, ac yr oedd wedi ymgydnabyddu â gweithiau yr awduron Seisnig goreu. Yn 1771, efe a aeth i athrofa y Bedyddwyr yn Mristol, lle y bu am ddwy flynedd, ac yna galwyd arno i fod yn gynorthwywr i Dr. John Ash, gweinidog eglwys o Fedyddwyr, yn Pershore, sir Worcester. Yn 1776, derbyniodd alwad cynulleidfa o Fedyddwyr, yn Lynn, sir Norfolk. Wedi bod yno am rai blynyddau, gwahoddwyd ef yn daer i gymeryd gofal eglwys fwy yn Norwich, ond gwrthodedd; ac am hyny, gwobrwywyd ef â chymunrodd werthfawr gan foneddiges ag oedd yn aelod o'i gynulleidfa yn Lynn, yr hyn a'i galluogodd i dreulio gweddill ei oes yn gysurus, ac i ymddwyn yn gymwynasgar tuag at ei berthynasau tylodion, a'i frodyr angenus yn y weinidogaeth. Cyhoeddwyd o'i waith luaws mawr o lyfrau, yn enwedig llyfrau dadleuol, yn yr iaith Gymraeg, canys cymerai ddyddordeb brwdfrydig yn ei wlad a'i llenyddiaeth, er yn absenol ohoni. Yn 1812, cyhoeddodd "History of Lynn," mewn dwy gyfrol lawn o ddyddordeb a gwybodaeth bol, ac wedi ei addurno â durgerfiadau ysplenydd. Y mae ei lyfrau nanesyd lluoedd hefyd yn meddu teilyngdod uchel, yn enwedig ei "Review of the Memoirs of the House of Cromwell, by the Rev. M. Noble." Cyfrethlywydd y *Cambrian Register*, ag aml i gyfansoddiad o

Digitized by Google

ffrwyth ei athrylith, a Rhaglith i'r 3edd gyfrol o'r cyhoeddiad hwnw ydoedd ei gynyrch llenyddol olaf. Cyhoeddwyd ei Eiriadur Cymraeg a Saesneg gyntaf yn 1798; daeth aml i argraffiad allan ohono er y pryd hyny; ond dilys ei fod y peth gwaelaf ar hun geiriadur sydd genym ar ein helw, ac y mae hyn yn syndod pan y canmolir yr awdwr mor uchel gan ambell un fel ysgolhaig Cymreig. Cyhoeddwyd ei "Welsh Nonconformist Memorial" yn 1820, gan ei gyfaill Dr. John Evans. Yn 1818, graddiwyd ef yn LL.D. gan goleg y Bedyddwyr yn Rhode Island. Wedi trigiant o 42 mlynedd yn Lynn, efe a fu farw Medi 18, 1818, yn 69 oed. Yr oedd yn anhawdd gwybod beth oedd ei ddaliadau ar rai pynciau pwysig mewn crefydd; cyhuddir ef o geisio lledaenu Pelagiaeth yn y Deheubarth yn ystod ei ymweliadau achlysurol â'i hen gartref.

RICHARDSON (Henry), Ysw., o Aberhirnant, sir Feirionydd, ydoedd drydydd mab Samuel Richardson, o'r un lle. Yr oedd yn deilliaw oddiwrth Syr Thomas Richardson, arglwydd brif-farnwr y Llys-Benadur yn amser y Siarliaid. Ganwyd gwrthddrych y crybwyllion hyn yn 1791. Wedi cael ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, a graddoli, efe a ymunodd â'r fyddin, ac a wasanaethodd am rai blynyddau fel banerydd a rhaglaw y 69ain gatrawd yn yr Orynys, ac wedi hyny yn yr ail Feirch-warchlu yn Fraine. Ar ddiwedd y rhyfel, gadawodd y fyddin, ac ymsefydlodd yn y palas teuluaidd Aberhirnant; penodwyd ef yn ustus heddwch, yn is-raglaw y sir, a llanwodd swydd o sirydd yn 1851. Yn 1830, efe a ddyfeisiodd Fywyd-fad Ceuol *(Tubular Lifeboat)*, yr hwn a sefydlwyd yn Weymouth. Yn 1851, efe mewn cysylltiad a'i fab, a fynodd wneud y Bywyd-fad *Challenger;* a mordeithiodd ynddo ar dywydd tymhestlog oddiamgylch y Land's End i Lundain. Y mae bywyd-fad ar yr un cynllun â hwnw yn awr mewn arferiad yn Rhyl. Bu farw yn Rhiw-waedog, ger y Bala, yn 1861, yn 70 oed.—*The Cruise of the Challenger.*

ROBERT ab Dafydd Llwyd, bardd yn eu flodeu rhwng 1550 a 1590.

ROBERT ab Ithel ab Llywelyn, bardd rhwng 1590 a 1640.

ROBERT ab Meredydd ab Hwlcyn, bardd rhwng 1600 a 1640.

ROBERT DYFI, bardd rhwng 1590 a 1630.

ROBERT LEIAF, bardd ac achyddwr, yn ei flodeu rhwng 1450 a 1490.

ROBERTS (Griffith), gramadegydd dysgedig, eithr ni wyddis nemawr ddim parth ei dras a'i dreigl namyn iddo gael ei ddysg yn mhrifysgol Sienna, yn yr Eidal, o tan nawdd Gwilym Herbert, iarll Penfro. Efe ysgrifenodd y gramadeg Cymraeg cyntaf a argraffwyd erioed tan y teitl, "Dosparth byrr ar y rhan gyntaf i Ramadeg Cymraeg; lle cair llawer o byngciau annepcor i un a chwenychau na doedyd y Cymraeg yn ddilediaeth, na'i 'sgrifenu yn iawn." Cyhoeddwyd hwn yn Milan, yr Eidal, yn 1567, ac y mae yr awdwr yn cyflwyno y gwaith i'w noddwr. Canlynwyd y llyfryn hwn gan ail ran, "Etymologia," yn cynwys 112 tudal.; a chan 3edd, yn cynwys 72 o dudalenau. Gelwir y 4edd rhan yn "Prosodia, Dosparth ar fessurau cerdd dafod," 56 tu dal; a'r 5ed, engreifftiau o farddoniaeth Gymreig, yntau hefyd yn 56 t.d. Y mae y gramadeg hwn yn brin, ni wyddis ond am un copi cyflawn a difwlch ohono, ac yn yr Amgueddfa Brydeinig y mae hwnw. Yr oedd un arall yn Llyfrgell ysplenydd Wynnstay, ond ofnwn fod hwnw wedi ei golli yn y difrod ofnadwy a wnaeth y tân yno rai blynyddau yn ol.

ROBERTS (Syr Huw) Lên, bardd ac offeiriad, a addysgwyd yn ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A. yn 1577.

Digitized by Google

Wedi cymeryd urddau, penodwyd ef yn gurad Aberffraw, Mon; a chafodd M.A. yn 1585. Cyfansoddodd "Six Lectures upon the latter part of the third Chapter of the Epistle to the Hebrews," Llundain, 1600. Y mae cân o'i waith ar "Gyffelybiaeth Dyn," i'w gweled yn *Brython* v. 22.

ROBERTS (PARCH. JOHN), ficer Dymeirchion, sir Fflint, a anwyd yn Mhlas Harri, plwyf Llannefydd, sir Ddinbyth, yn 1775. Yr oedd o'i febyd o dueddiadau crefyddol. Wedi cyrhaedd oedran cyfaddas, efe a anfonwyd i Fettws Abergele at y Parch. David Jones (brawd i'r hyglod Hugh Jones o Faesglasau,) ysgolfeistr, i'w ddwyn i fynu yn offeiriad. Wedi hyny, aeth i goleg Iesu, Rhydychain, yn 1792, lle y graddiwyd ef yn M.A. Yn 1799, rhoddwyd argraffiad o'r Beibl Cymraeg a'r Llyfr Gweddi Cyffredin yn y wasg yn Rhydychain, gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Fuddiol, tan olygiad y Parch. David Davies, offeiriad Penegoes. Diwygiwr y wasg oedd y Parch. R. Hughes cymrawd o goleg Iesu, eithr wedi gorphen pum' llyfr Moses, efe a roes y gwaith i fynu i Mr. Roberts, yr hwn oedd ar y pryd yn cadw yspeidiau yn y Brifysgol. Treuliodd tua blwyddyn a haner yn y gorchwyl hwn. Yn 1809, efe a gydlafuriodd gydag eglwyswyr eraill i baratoi argraffiad newydd o'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Cyffredin yn Nghymraeg, ac o hwn lledaenwyd 20,000 gan y Gymdeithas uchod. Cafodd ei urddo gan Dr. Warren, esgob Bangor, i wasanaethu Llanelian, Mon; ond cyn iddo ymgymeryd â'r swydd, cyflwynwyd iddo guradiaethau Chislehampton a Stadhampton, ger Rhydychain, lle y bu am saith mlynedd. Llafuriodd yno yn ymdrechgar a ffyddlon, trwy bregethu dair gwaith bob Sabbath, bod yn ddiwyd gyda dwy Ysgol Sabbathol, a moddion eraill yn wythnosol. Yn 1803, yr oedd ganddo ef a'i gyfeillion awydd iddo gael lle yn Nghymru, oblegyd ei fod mor hyddysg mewn llenyddiaeth Gymreig, ac yr oedd lle ar ei gyfer, sef curadiaeth Dymeirchion. Yno hefyd efe a lafuriodd yn ddygn, trwy bregethu, a sefydlu Ysgol Sabbathol a nosweithiol. Yn 1807, pan ddaeth y fywiolaeth yn wag, a'r Dr. Cleaver newydd ddyfod yn esgob Llanelwy, efe a'i cyflwynodd i Mr. Roberts. Yn 1813, bu yn brif foddion i sefydlu Beibl Gymdeithas sir Fflint. Cymerodd ran flaenllaw hefyd yn sefydlu cangen o'r Gymdeithas Genadol Eglwysig yn siroedd Dinbych a Fflint, yn 1812. Bu yn foddion i gael argraffiad newydd o *Lyfr yr Homilian*; a dechreuodd ddwyn allan gyhoeddiad cyfnodol Cymraeg a Saesneg o'r enw *Cylchgrawn Cymru*, ond o ddiffyg cefnogaeth ni chyhoeddwyd ond pedwar neu bump o rifynau. Cyhoeddodd gasgliad o Emynau at wasanaeth yr addoliad cyhoedd yn Eglwys Lloegr, o'r hwn y cafwyd ail argraffiad yn 1831. Yn 1828, bu ganddo law yn sefydliad Cymdeithas Traethodau Cymreig a Seisnig, a chyda'r gorchwyl hwn y treuliodd y rhan fwyaf o flwyddyn ddiweddaf ei fywyd. Yr oedd yn ddiwygiwr yn yr eglwys. Mynai, pe gellid, drefnu rhyw foddion gwahanol i'r drefn gyffredin i hyfforddi a dewis dynion ieuainc i'r weinidogaeth eglwysig. Gofidiai fod dynion llygredig yn cael mynedfa mor rwydd i'r swydd, yn unig am eu bod wedi myned trwy arholiadau mewn dysgeidiaeth. Heblaw a enwyd, cyhoeddodd ddwy neu dair o bregethau; traithawd ar yr Iaith Gymraeg; cyfarwyddiadau i fyw yn ofn Duw, allan o *Alarwm* Allein—yr oedd Mr. Charles o'r Bala yn gydweithiwr âg ef yn gyda'r gwaith olaf hwn. Bu farw Gorph. 25, 1829, yn 54 oed, a chladdwyd ef yn Llannefydd.—*Y Gwylicdydd* am 1830.

ROBERTS (PARCH. JOHN), Llanbrynmair. Ganwyd ef Chwef. 25,

Digitized by Google

1767, yn Bronyllan, plwyf Mochtref, sir Drefaldwyn. Yr oedd ei rieni, Evan a Mary Roberts, yn bobl grefyddol,—yn aelodau o hen eglwys Gynulleidfaol Llanbrynmair, ac yn Hydref, 1786, ymunodd yntau a'r un eglwys. Traddododd ei bregeth gyntaf yn y Tybrith, Manafon, Maldwyn, Ion. 21, 1790; ac yn ystod yr un flwyddyn derbyniwyd ef i goleg Gogleddol yr Annibynwyr, yr hwn a gynelid y pryd hwnw yn Nghroesoswallt, dan ofal yr enwog Dr. Edward Williams, wedi hyny o Rotherham. Bu wedi hyny am beth amser tan ddysgeidiaeth y Parch. A. Tibbot, yn Llanuwchllyn; yna gyda'r Parch. B. Jones yn Mhwllheli; a thrachefn yn ol yn Nghroesoswallt. Pan ymadawodd y Dr. Wms. i Birmingham, symudwyd yr athrofa i Wrecsam, o tan ofal y Parch. Jenkyn Lewis; ac aeth John Roberts yno gyda hi. Tua naw mis cyn gorphen ei amser yn yr ysgol, cafodd wahoddiad gan ei fam-eglwys yn Llanbrynmair i ddyfod yno fel cynorthwywr ei hybarch weinidog, y Parch. Richard Tibbot; ac mewn cydsyniad â'r alwad hon, dechreuodd ei lafur yn eu plith yn Ionawr, 1795, ac urddwyd ef yn Awst, 1796. Bu Mr. Tibbot farw Mawrth 18, 1798; ac yn y Mehefin canlynol, derbyniodd Mr. Roberts alwad i fod yn weinidog arni. Llanwodd holl ddyledswyddau ei alwedigaeth uchel yn anrhydeddus hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Gorphenaf 21, 1834, wedi bod yn y weinidogaeth yn Llanbrynmair am agos i ddeugain mlynedd. Nid oes ond ychydig o ddigwyddiadau i'w crybwyll mewn cysylltiad â bywyd tawel ac ymroddgar fel yr eiddo ef, mewn mangre ac oes dawel, ond a geir yn yr effeithiau daionus a adawodd y cyfryw fywyd llafurus, ymdrechgar, a phenderfynol. Cyfnod y chwynu a'r dyfrhau, ac nid yr hau a'r planu, ydoedd oes Roberts o Lanbrynmair. Mae'n wir iddo yntau sefydlu rhai canghenau newyddion mewn cysylltiad â'r eglwys hono, a bod y rhai hyny bellach yn eglwysi blodeuog a lluosog; ond ymeangu llafur y fath wyr a Walter Cradoc, Vavasor Powell, Hugh Owen o Fronyclydwr, Lewis Rees a Richard Tibbot, pa rai a fuont oll am ryw hyd neu gilydd yn weinidogion yr hen eglwys Gynulleidfaol hono, ydoedd swyddogaeth arbenig gweinidogaeth Mr. Roberts fel eu holynydd. "Duwioldeb, diwydrwydd, a phwyll," fel y dywedai ei hen gyfaill Williams o'r Wern am dano, oeddynt nodweddau arbenicaf ei gymeriad, a'r teithi hyn a roddent iddo le mor uchel yn serch a pharch y sawl a ddeuent i gyfarfyddiad ag ef. Trwy ei gyfarfyddiad a'i gysylltiad â Dr. Williams, cafodd fantais yn gynar i ddeall ei syniadau yn nghylch rhai o bynciau pwysicaf crefydd; ac wedi ystyriaeth ac ymchwiliad, penderfynodd eu mabwysiadu gan mwyaf. Bu yn un o'r rhai cyntaf, galluocaf, a dewraf, o blaid yr athrawiaethau hyny yn Nghymru. Gan ei fod ef a'r sawl a gydunent mewn barn âg ef yn cymeryd tir canolog rhwng Calfiniaeth ac Arminiaeth, yr oedd yn rhaid iddynt sefyll tân y ddwyblaid arnynt, a bu Mr. Roberts mewn aml frwydr boeth, pan y dywedid pethau cas wrtho, ac y ceisid cuddio twyll resymeg a gwendid amgyffrediad o tan bentwr o lafoer personol. Eithr, fel ei Feistr Mawr, "pan ei difenwyd, ni ddifenwodd drachefn," ac yn ngwyneb ymosodiadau bryntion, meddianodd ei yspryd mewn hynawsedd a thangnefedd. Fel y dywedai Mr. Williams o'r Wern yn mhellach:—"Ni welais neb erioed yn cythruddo llai yn ngwyneb cableddau a chelwyddau anfoneddigaidd a chwerwon. Fel Michael yr archangel, ni oddefai ei lareidd-dra iddo ddysgu y gelfyddyd o gablu; ond fel y wenynen, tynai fêl o'r llysieuyn chwerwaf. Felly, yr oedd yr holl gyhuddiadau annghywir a ddygwyd yn ei erbyn, a'r enwau dirmygiedig a roddwyd arno, yn ei yru yn nes at Dduw, ac i

Digitized by Google

weddio dros ei wrthwynebwyr. Mynych y clywais ef yn dywedyd, 'Wel, os cyfarfyddwn yn y nefoedd, ni a ysgydwn ddwylaw yn garedig iawn, ac fe dry ein dadleuon i ryfeddu y gras a'n dygodd yno.'" Cyhoeddwyd o'i waith y llyfrau canlynol:—1, "Galwad caredigol ar yr Arminiaid i ystyried pwy a wnaeth y rhagoriaeth rhyngddynt hwy ac eraill," 1807; 2, "Cyfarwyddiadau ac Anogaethau i Gredinwyr i wneud eu galwedigaeth a'u hetholedigaeth yn sicr," 1809; 3, "A Friendly Address to the Arminians," 1809, yr hwn a atebwyd gan Mr. Brocas, o'r 'Mwythig, lleygwr, perthynol i'r Wesleyaid, a'r hwn a atebwyd hefyd mewn "A Second Address," gan Mr. Roberts; 4, "Hanes Bywyd y diweddar Barch. Lewis Rees," 1814; 5, "Cynygiad gostyngedig i egluro yr hyn a ddysgir i ni yn yr Ysgrythyrau, y gwirionedd am Ddybenion Cyffredinol a Neilldiol Marwolaeth Iesu Grist," 1814—parodd y traethodyn hwn gryn gynhwrf trwy y wlad, a gwrthwynebwyd rhai o'i syniadau gan y Parch. Parch. Thomas Jones, o Ddinbych, yr hyn a barodd i Mr. Roberts gyhoeddi gwrthateb tan y teitl, 6, "Galwad difrifol ar Ymofynwyr am y Gwirionedd i ystyried tystiolaeth yr Ysgrythyrau yn nghylch Helaethrwydd Iawn Crist," 1820; atebwyd rhan o'r llyfr hwn gan y Parch. W. Evans, gweinidog gyda'r Wesleyaid. Yr oedd chwech o draethodau galluog wedi eu cydargraffu ag ef, o waith y Parchn. Williams o'r Wern; Morgan o Fachynlleth; Everett o Dinbych; Jones o Lanuwchlyn; Griffiths o Dyddewi; a Breese o Liverpool. 7, Y "Wenynen; casgliad o hanesion byrion," 1816; 8, "Amddiffyniad byr o hawl plant yn gyffredinol i'r Ordinhad o Fedydd." Yr oedd hefyd yn ymddiriedolwr a gohebydd sefydlog i'r *Evangelical Magazine;* ac y mae gohebiaethau o'i eiddo yn britho dalenau *Seren Gomer*, *Y Dysgedydd*, a'r *Congregational Magazine*. Meibion iddo ef ydynt y Parch. Samuel Roberts, golygydd y *Dydd;* y Parch. John Roberts, Conwy, golygydd y *Cronicl;* a Gruffydd Risiart, yn awr o'r America, ysgrifenydd doniol a thalentog; ac wyr iddo o fab chwaer ydyw y dyddan Mr. John Griffith, gohebydd y *Faner.—Ei Gofiant; Lleyn MSS.; &c.*

ROBERTS (JOHN) *(Edeyrn Mon)*, ydoedd fab hynaf y Parch. John Roberts, Salem, Mon, yr hwn a fu yn weinidog llafurus gyda'r Annibynwyr yn y lle hwnw am lawer o flynyddau. Ganwyd Edeyrn mewn ffermdy o'r enw Neuadd, plwyf Llanfaelog, yn 1801. Cafodd addysg ragorol, ac ystyried yr oes yr oedd yn byw ynddi, yr hyn a'i cyfaddasai i lenwi swydd uwch na'r hon a ddewisodd, sef gwneuthurwr brethynau. Pan tuag ugain oed, dechreuodd ysgrifenau i'r wasg, yn benaf i *Seren Gomer*, prif gyhoeddiad y genedl y pryd hwnw. Wedi priodi, ymsefydlodd yn Pandy Cefncoch, plwyf Llanfechell, ac yno y treuliodd ef, a'i briod garedig, weddill eu hoes, mewn masnach helaeth, parch gwreng a bonedd, a lluaws o weithredodd da. Efe a adeiladodd gapel bychan Silo, gerllaw ei gartref, gan mwyaf ar ei gost ei hun, ac yr oedd ei haelioni i'w enwad yn fawr mewn gwahanol ffyrdd. Cymerodd ran yn nadleuon y dydd yn y *Seren* a'r *Dysgedydd*, megis y "Pechod Anfaddeuol," y "Sabbath," "yr Iawn," "Cytryngdod Crist," y "Weinidogaeth;" a chyfres o lythyrau medrus yn erbyn *Drych y Dadleuwr*, o waith y Parch. Rich. Jones, o'r Wern. Yn yr rhai hyn, arddengys graffder beirniadol, a nerth meddyliol o radd uchel. Bu farw Hydref 1, 1855, a chladdwyd ef yn yn mynwent Llanbeulan.—*Y Dysgedydd*, 1860.

ROBERTS (PARCH. PETER), awdwr amryw lyfrau ar ddduwinyddiaeth a hanesyddiaeth Brydeinig, a anwyd yn Tain y Nant, plwyf

Digitized by Google

Rhiwabon, yn 1760. Enw ei dad ydoedd John Roberts, yr hwn ydoedd fab ieuengaf i rydd-ddeiliad yn y plwyf hwnw. Gwneuthurwr awrleisiau oedd y John Roberts hwn, yr hwn a ddygai yn mlaen y fasnach hono ar y cyntaf yn Rhiwabon, ac wedi hyny yn Ngwrecsam. Danfonwyd P. Roberts pan yn ieuanc i ysgol ramadegol Gwrecsam, lle yr arosodd hyd nes bod yn bumtheg oed, pryd y symudodd i ysgol ramadegol Llanelwy, ac yno yr oedd tan ddysgeidiaeth ac hefyd yn cynorthwyo yr athraw. Yr oedd yr ysgol hon ar y pryd mewn sefyllfa hynod o lewyrchus tan ofal y Parch. P. Williams, wedi hyny ficer Bettws Abergele; a phlant o bob parth i'r wlad yn dyfod yno am addysg, yn enwedig o'r Iwerddon. Dewiswyd P. Roberts yn athraw preifat ar rai o'r dosparth olaf, yr hyn, debygir, a fu yn foddion i'w ddwyn i sylw Dr. Usher, yr hwn ydoedd ar y pryd yn gymrawd o goleg Trinity, Dublin, a'r hwn a fuasai yn trigianu am rai misoedd yn Ngogledd Cymru. Y Dr., gan syniaw yn uchel am ei dalent a'i alluoedd, a'i cymerth i'w nawdd, ac a fu yn dra charedig wrtho, gan ei wahodd i ddyfod trosodd i Dublin, ac efrydu yno tan ei ofal ef, yr hwn gynygiad a dderbyniodd efe yn rhwydd a diolchgar. Derbyniwyd ef yno fel *sizar*, ac enillodd yn fuan barch a serch ei ddysgawdwyr. Seryddiaeth a'r ieithoedd dwyreiniol oeddynt yn awr ei efrydiau mwyaf dewisol; ac oddiar ei wybodaeth helaeth yn y llaenaf, gobeithiai Dr. Usher y cawsai ei ddilyn ef fel athraw yn y cyfryw gangen o ddysgeidiaeth. Yr oedd yntau ei hun wedi edrych i fynu at y "gadair seryddol" fel gwrthddrych anwyl ei uchelgais, a phan y rhoddwyd hi i arall, teimlodd y siomedigaeth i'r byw. Yr oedd ei iechyd wedi anmharu, a thua dechreu y Gwrthryfel Ffrengig bu yn teithio yn rhan ddeheu-orllewinol Ffrainc, ac yn trigianu am yspaid gerllaw dyfroedd Barreges, yn nghymydogaeth y Pyrenees; gadawodd yn mhlith ei ysgrifau ddyddlyfr o'r daith hon, ond ni chynwysa nemawr o ddim dyddorol, a thybir na fwriadodd yr awdwr mohono erioed i gael ei gyhoeddi. Ar ei ddychweliad i'r Iwerddon, bu yn llanw y swydd o athraw teuluoedd yn y wlad hono; ac yna penodwyd ef i arolygu dysgeidiaeth Arglwydd Lanesborough, a'i gefnder Mr. Latouche. Yn mhen yspaid, aeth gyda hwynt i Eton, lle y daeth i gydnabyddiaeth ag amryw wyr o fri, megis yr Esgob Douglas, Mr. Bryant, awdwr *Mythology*, a Dr. Heath. Y rhai hyn, a chyfeillion eraill, a'i hanogasant i gyhoeddi ei "Harmony of the Epistles," gwaith llawer o flynyddau gwerthfawrocaf ei oes; a thrwy eu canmoliaeth hwy i'r gwaith, darfu i Brifysgol Caergrawnt ei argraffu ar ei thraul ei hun. Hwn ydyw llafur llenyddol mwyaf gwerthfawr ei fywyd, ac y mae yn llwyr gyflawnhau nawdd haelionus y Brifysgol iddo, ac arno y trosglwyddir enw ei awdwr i'r oesau a ddaw fel ysgolhaig a duwinydd dyfnddysg. Cyhoeddwyd ef mewn un gyfrol 4plyg yn 1800. Wedi gorphen o'i ddau ysgolor eu dysgeidiaeth, efe a ddaeth i wlad ei enedigaeth, gan fyw ar ffwydd-dal a dderbyniai gan ei gynysgolorion, arglwyddi Lanesborough a Bolton; ac ymroddodd yn awr i efrydu hynafiaethau a hanesiaeth y Cymry. Yr oedd yn llenor mor gyflawn, yn feddianol ar ddysgeidiaeth uchel, a chanddo y fath drysorfa o wybodaeth gyffredinol, y rhai oeddynt oll fel llawforwynion yn gwenu ar ei ymgyrch llenyddol hwn, fel y gallesid disgwyl, ac i raddau ni siomwyd y disgwyliad hwn, y buasai ffrwyth gwerthfawr yn dilyn ei ymdrechion yn ei faes newydd. Y mae yn syndod fod gwr o'i alluoedd, ac eglwyswr mor selog, wedi ei adael yn ddiffywiolaeth gan esgobion yr oes. Mae yn ddiau fod yr Esgob Douglas heb ei annghofio, ond bu efe farw

Digitized by Google

cyn cael cyfleustra i wneud dim erddo: coleddai yr esgob Horsley y syniadau uchaf am ei dalent, a phan y gofynwyd iddo os adwaenai un Peter Roberts? Atebodd: "Adwaen, bid sicr; nid oes ond un Peter Roberts yn y byd." Cafodd ei fywiolaeth gyntaf, sef yr eiddo Llanarmon Dyffryn Ceiriog, gan yr Esgob Cleaver, yn 1810; eithr nid allai fyw yn y lle noethlwm hwnw ond ychydig fisoedd yn y flwyddyn, a chartrefai yn benaf yn Nghroesoswallt, lle y perchid ef yn fawr oblegyd ei rinweddau personol a'i alluoedd awdurol. Tua'r flwyddyn 1814, rhoddes arglwydd Crewe iddo fywiolaeth Madeley, yn sir Amwythig; ac yn mhen yspaid cynygiwyd offeiriadaeth iddo gan y noddwr gwresog hwnw i dalent ac athrylith yr Esgob Burgess o Dyddewi, ond yr hon a wrthododd. Yn Rhagfyr 1818, rhoddodd Dr. Luxmore, esgob Llanelwy, rectoriaeth Helygain, sir Fflint, iddo, trwy yr hyn y codwyd ef uwchlaw pob pryder ac eisiau. Gweithiodd yn egniol yn maes newydd hwn ei lafur. Gan fod ei iechyd wedi dirywio, ac yntau yn anghynefin â phregethu, ac heb draddodi ond ambell bregeth yn awr ac eilwaith trwy ei holl fywyd, nid oedd ei weinidogaeth o'r pwlpud ond digon diafael; ond trwy radlonrwydd calon, unplygrwydd diragrith ei ymddygiadau, a'i roddion elusenol i dylodion a plant digysur trallod, enillodd yn fuan serch ac edmygedd cyffredinol y plwyfolion. Ond byr iawn fu ei fwynhad a'i ddefnyddioldeb yn Helygain. Cwynai er's blynyddau oherwydd iselder ysprydd, cur arteithiol yn ei ben, a gwendidau eraill. Trwy ei ymdrechion i ianw ei ddyledswyddau plwyfol yn deilwng tybid ei fod yn gwella; ond Mai 29, ac efe wedi bod yn darllen y gwasanaeth yn yr eglwys, a newydd ddychwelyd i'w dy, galwodd cardotyn gan ddeisyf ei elusen wrth y drws, a thra yn y weithred o estyn cardod i'r truan tarawyd ef ag ergyd o'r parlys mud, syrthiodd i lawr, a bu farw y bore canlynol. Anfynych y digwydd trawsymudiad mor sydyn oddiwrth y gwaith at y wobr, na gweithred olaf mor gyson â gweithredoedd yr holl fywyd. Yr oedd lluaws o rinweddau personol yn llechu yn nghysgod talent a dysgeidiaeth P. Roberts, ac ni byddai o le eu crybwyll, gan nad yw y doniau dysgleiriaf ond cruglwyth oer a diserch hebddynt. Yr oedd ganddo galon onest a chynes, llaw hael a pharod i gynorthwyo deiliaid angenoctyd a chystudd, ac egwyddorion sefydlog wrth ba rai y glynai yn ddiysgog, ac er hyny yr oedd yn dyner a rhydd tuag at bawb a wahaniaethent mewn barn ag ef. Yr oedd yn dra hyddysg yn nysgeidiaeth y rabbiniaid Iuddewig; ac arddengys ei "Letters to Volney" gydnabyddiaeth eang o wahanol ieithoedd, cystal ag o bynciau gwyddonol. Heblaw yr "Harmony of the Epistles," yr oedd efe yn awdwr y gweithiau canlynol:—1, "Christianity Vindicated, in answer to Volney on Ruins," 1800; 2, "Sketch of the Early History of the Cymry," 1803; 3, "Chronicles of the Kings of Britain," cyfieithiad o Frut Tysilio; 4, "The Cambrian Popular Antiquities," 1815; 5, "An Essay on the origin of Constellations;" 6, "The art of universal Correspondence;" 7, "Review of the Policy and peculiar Doctrines of the modern Church of Rome;" 8, "Manual of Prophesy;" 9, "Letter to Dr. Milner, on the supposed miracle of Winifred's Well;" 10, Cyfieithiad i'r Saesneg o'r "Trioedd" a briodolir i Ddyfnwal Moelmud. Cyfansoddodd hefyd "History of Oswestry," yr hwn a gyhoeddwyd heb enw yr awdwr yn 1815.—Parry's *Cambrian Plutarch; Cambro-Briton:* Wms. *Em. Welsh.*

ROBERTS (Robert), Clynog. Ganwyd y pregethwr hynod hwn yn y Ffridd Baladeulyn, Llanllyfni, Medi 12, 1762. Ei rieni oeddynt

Digitized by Google

Robert Thomas a Chatherine Jones (ei fam yn ol yr arfer Gymreig yn cadw ei henw gwyryfol). Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, yn cynal addoliad teuluaidd yn eu ty, ac ymgynullai cynulleidfa fechan o Fethodistiaid Calfinaidd i addoli yn y Ffridd am lawer blwyddyn. Parhaodd Robert yn annghrefyddol er hyny hyd onid oedd yn 16eg oed; a'r pryd hyny, wrth wrando yr enwog Jones o Langan yn pregethu yn Brynyrodyn, ger Caernarfon, glynodd saethau gwirionedd yn ei galon; ac yn lle codi llechau yn nghloddfeydd Llanllyfni, fel yr arferai cyn hyny, dechreuodd Duw ei gymhwyso i gloddio meini bywiol iddo ef er adeiladu ei dy ysbrydol ei hun. Wedi ymwasgu â'r dysgyblion, newidiodd ei alwedigaeth, ac aeth i weithio fel llafurwr ar fferm yn agos i Frynengan; o'r lle hwnw, aeth i'r Coed Cae Du, yn yr un ardal, hen gartref y diweddar Barch. Richard Jones, o'r Wern, lle y bu nes y priododd; ac mewn ty ar y tyddyn hwnw y bu fyw am rai blynyddau wedi priodi, hyd nes y symudodd i Glynog Fawr, lle y treuliodd y gweddill o'i oes, ac y gorphenodd yn orfoleddus ei yrfa fer a disglaer. Yn mhen naw mlynedd wedi ymuno â chrefydd, dechreuodd bregethu; a bu farw yn ddeugain mlwydd oed, wedi enill iddo ei hun enwogrwydd uchel fel pregethwr annghyffredin o danllyd, hyawdl, a dylanwadol iawn. Heb nemawr ddysgeidiaeth reolaidd, ymgododd o geudod dinodedd gwledig i safle uchel yn awyrgylch areithfaol ei wlad; ac am yspaid ei oes fer, bu yn lluchedenu ac yn ffaglu trwy'r tywyllwch moesol a'i gordoai gan adlewyrchu ar beryglon ei gydoeswyr diofal. "Clywais ef yn dweyd," meddai y Parch. R. Jones o'r Wern, "mai wrth ddarllen y Salmau perthynol i bob dydd gyda fy nhad a minau, y dysgodd efe fwyaf mewn darllen Cymraeg o un man. Bu ychydig wedi hyny gyda Mr. Richardson yn Nghaernarfon yn dysgu Saesoneg; a thrwy y fath gychwyniad tlawd a hwn, daeth mewn ychydig flynyddoedd i gydnabyddiaeth â'r iaith hono, gan belled ag yr oedd yn gallu deall awdwyr mewn duwinyddiaeth yn gyffredin dda." Yr oedd wedi cyfarfod ag anwyd trwm neu nychdod pan yn llanc ieuanc, a hyny mewn amser wedi ei draws-newid o fod yn ddyn lluniaidd a thâl yn gorach byr a chrwcca, a dyna agwedd ei gorph afiachus yn llafurio holl ystod amser ei weinidogaeth. Ond er ei fod yn wael ac afluniaidd o gorph, eto yr oedd ei lais yn glir a'i barabl yn groyw, a chanddo gof gafaelgar; ac er nad oedd yn deall fligyrau araithyddiaeth na rhesymiaeth ychwaith, eto yr oedd yn eglur i bawb oedd yn eu deall eu bod fel ffrydiau yn tryloewi yn naturiol yn nghymhwysder ei eiriau, priodoldeb ei gyffelybiaethau, a phwys ei resymau; ac yn enwedig pan y byddai llewyrch yr arddeliad ar ei yspryd. Gweithredai effeithioldeb ar ei wrandawyr trwy y moddion a'r dulliau canlynol:—1, Edrychiad llym, deffrous, awdurdodol, a threiddgar. 2, Cyfarchiadau byrbwyll, brawychus, a difrifol. 3, Dysbeidiadau disymwth ac annisgwyliadwy yn nghanol traethiad gwresoglym a thanbeidiol. Heblaw y dulliau a'r moddion a nodwyd, gellir hefyd crybwyll "wylo," oblegyd yr oedd yn hyn yn dra nodedig. Dywedai un o'i wrandawyr, yr hwn hefyd oedd hen gymydog iddo, ei fod unwaith yn gwrando arno, ac yn sefyll yn lled agos i'w wyneb, a bod dagrau o lygaid Robert Roberts yn disgyn ar ei wyneb fel pe buasai yn chwistrellu dwfr ato! Nis gwyddom pa un a ydyw y darluniad hwn yn rhy gryf ai peidio; ond tybiwn ei fod, a chyfrifwn ef yn hytrach yn orwirdeb; dengys felly yn llawn cystal fod y neillduolrwydd o wylo yn perthyn iddo. Nodwn bellach engraifft neu ddwy o'i ymarferiadau dylanwadol ar ei wrandawyr. Weithiau byddai darlleniad ei destyn yn unig yn peri effeithiau rhy-

Digitized by Google

feddol. Yr ydym yn hysbys trwy ffa'r un oedd yn gwrando arno ar y pryd, am un tro y darllenai yn destun y geiriau canlynol, "Brasâ galon y bobl hyn, &c." Darllenai hwynt gyda'r fath gyffroad, ac mewn dull mor danllyd ac effro, ag a wnelai i'w wrandawyr deimlo yn y fan y fath iasau o fraw a dychryn ag a barai i'w calonau ddirgrynu o'u mewn. Dro arall darllenai y geiriau hyn yn destun—"Mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd," &c, ac yn ebrwydd anerchai ei wrandawyr mewn dull tra chyffrous, gan waeddi allan "Bobol!—bobol!—bobol!—dyma fôr heb waelod iddo; drwy gymhorth Duw, myfi a anturiaf i'w gŵr.—Deliwch eich golwg arnaf, bobol!" yr hyn a effeithiai gynhwrf brawychus trwy yr holl gynulleidfa. Adroddir am dano yn pregethu amser arall yn ei ddull bywiog, llym, a thanbaid; pan yn nghanol ei hyawdledd cyffrous y gogwyddai ei ben yn ddisymwth yn lled isel, ac arosai yn yr agwedd hono am enyd bach heb ddweyd un gair; yna cododd ei ben, a gwaeddodd dair gwaith—"Ust!—ust!—ust! Pa beth yw y sŵn a glywaf?" Ar hyn bloeddiai yn uchel a tharanllyd—"Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau tân a brwmstan," &c. nes dryllio yr holl gynulleidfa. Dro arall darluniai Jonah yn cael ei daflu i'r mor, a'r morfil yn ei lyncu, ac yn trywanu gydag ef trwy y dyfnder nes oedd y dyfroedd yn "frigwyn," gan waeddi yn ei agwedd—"Cliriwch y ffordd i *fessenger* y brenin!" a Jonah oddifewn yn llefain "Teml!—Teml!—Teml!" Ei ddull nefolaidd a thyner a'i lais peraidd, lleddf, a thoddedig, yn ail adrodd y gair "Teml," a barai effaith nodedig o gyffrous a hyfrydlawn. Marworyn oddiar ei allor ef a daniodd enaid Christmas Evans; canys ei wrando ef yn pregethu a roddes y drychfeddwl i'r "Bunyan Cymreig" hwnw am y dull dramayddol o draddodi. Ni byddai R. Roberts byth yn foddlawn yn y pwlpud os na byddai yn bregeth i "eglurhad yr Ysbryd a nerth." Pan na byddai arwyddion fod ei ymresymiadau yn gafael yn nghydwybodau ei wrandawyr, mynych, meddir wrthym, y gwelwyd ef yn sefyll "fel gwr wedi synu" yn nghanol ei bregeth; ac yna gan ddyrchafu ei lygaid tu a'r nef, tra y byddai deigryn ar ol deigryn yn ffrydio dros ei rudd, rhoddai floedd ddifrifol, "O Arglwydd! difa y llen! difa y llen!" nes y byddai y bobl yn gollwng allan eu Hamen yn un fanllef soniarus fel yn ddiarwybod iddynt eu hunain. Yna y pregethwr a ail gychwynai ar ei fater, gyda gwedd siriol, wrol, a bywiog, megis un wedi dadebru ar ol lludded blin: wedi cael "gallu gyda Duw," yr oedd yn hawdd iddo wedi hyny gael awdurdod ar y dyrfa; ac felly byddai y bregeth, wedi dechreu yn drymaidd, yn diweddu yn hynod effeithiol; gwelid rhai gwrandawyr yn llewygu, eraill yn moliannu, a phawb yn wylo; rhai yn gwaeddi am drugaredd, eraill yn diolch am ei chael, a Robert Roberts ei hun wedi ei orchfygu gan nerthoedd tragwyddoldeb yn gorfod ail weddio, "O Arglwydd! attal! attal! cau dipyn ar y *curtain*, onide 'ddaliwn ni ddim!" Dywedir yn ei fywgraffiad, o waith ei nai y Parch. Michael Roberts, Pwllheli, "Ei fod fel rhyw lewyrch tanbaid yn ffurfafen yr eglwys, ac fel angel tanllyd yn ehedeg yn nghanol y nef, a'i lef fel taranau cryfion yn erbyn Babilon fawr; a bod y fath gyflawnder o arddeliad yn ymdywallt ar ei weinidogaeth nes y byddai ei natur yn methu ymgynal dano, a'r bobl yn llefain wrth yr ugeiniau a'r canoedd fel pe buasai cleddyfau yn eu trywanu, a'u dagrau yn rhedeg fel ffrydiau." Byddai yr hen bobl yn wylo wrth son am dano; diau iddo wneud gwaith mawr yn ei oes fer; ond y mae ei ddylanwadau yn byw yn hytrach mewn traddodiad nag mewn hanes; a diau mai athrylith ar-

Digitized by Google

aithyddolgref yn hytrach na choeth oeddyr eiddo ef—un rhy gyfareddol i'w beirniadu. Claddwyd ef yn mynwent Clynog Fawr, lle y mae maen a chofnod yn dynodi gorweddle dawel ei lwch.—EBEN FARDD yn *Nhraethodydd* 1846; *Methodistiaeth Cymru.*

ROBERTS (THOMAS), ydoedd frodor o Lwynrhydol, sir Gaernarfon. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llundain. Yr oedd yn Gymro twymgalon a gwladgarol, ac yn aelod blaenllaw a selog o Gymdeithas y Cymrodorion. Ystyrid ef hefyd yn hynafieithydd Cymreig rhagorol. Ei gasgliad ef yw y penillion Cymreig yn y *Cambro-Briton.* Yn 1831, cyhoeddodd the *Welsh Interpreter*, llyfr i gynorthwyo y Sais i feistroli'r iaith Gymraeg. Canodd Bardd Nantglyn gywydd marwnad ei wraig, yr hon a fu farw Mawrth 29, 1829. Bu iddo amryw blant, ac un ohonynt ydoedd Maurice Roberts, yr hwn a gyfieithodd i'r Saesneg awdl "Dafydd Benfras i Llywelyn ab Iorwerth;" gwel *Cambro-Briton*, i. 369.

ROBERTS (PARCH. WILLIAM), Clynog, a anwyd yn mhlwyf Clynog, Arfon, Awst 8, 1773. Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, ac yn aelodau gyda'r Bedyddwyr; ond pan tuag ugain oed ymunodd ef gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Nghapel Uchaf Clynog. Cafodd addysg ychydig gwell na'r cyffredin, gan y gallai ddarllen Saesneg, ysgrifenu, a rhifyddu, pan tua deuddeg oed. Treuliodd flynyddau ei ieuenctyd yn gweini fel gwas fferm mewn amryw fanau yn Arfon. Yn fuan wedi ymuno â chrefydd, cymerodd ran flaenllaw, ar anogaeth Mr. Charles o'r Bala, gydag eraill yn y gwaith rhagorol o sefydlu Ysgolion Sabbathol yn ardaloedd Clynog. Traddododd ei bregeth gyntaf mewn lle o'r enw Ty'n Llwyn, ger y Capel Uchaf, tua'r flwyddyn 1804, a chafodd urdd gweinidog yn mhen tua phumtheg mlynedd ar ol hyny, sef yn 1819. Trigianodd y rhan fwyaf o'i oes mewn ffermdy o'r enw Hendre Bach, yn yr hwn le y buasai ei hynafiaid byw am yn agos i dri chan' mlynedd. Fel pregethwr, yr oedd yn bwyllog ac athrawaidd; er ar brydiau yn cael ei demtio i gornbriddo wrth geisio esbonio dirgeledigaethau prophwydoliaethau yr Ysgrythyrau. Yr oedd yn ddiarebol am ei hyddysgrwydd yn y Beibl. Collodd ei olwg ychydig flynyddau cyn diwedd ei oes, a phan wedi hyny yn myned oddiamgylch i bregethu, dechreuai yr addoliad trwy adrodd rhyw ran o Air Duw, a hyny mor rhigil a chywir a phe yn ei ddarllen. Nid oedd dim yn ei ddawn yn wresog a chynhyrfiol, ond yr oedd ei wybodaeth gyffredinol, ei synwyr da, ei fedr i agor yr Ysgrythyrau, a chynwysiad sylweddol ei bregethau, yn gwneud ei weinidogaeth yn dderbyniol i bawb oedd yn berchen deall a barn. Mewn cyfarfodydd eglwysig, ac yn nghynadleddau neillduol y Gymdeithasfa, wrth drin materion athrawiaethol ac ymarferol, byddai ei sylwadau yn wastad yn ddyddorol ac adeiladol. Yn ei farwolaeth, collwyd gwyliedydd craffus oddiar y mur, yr hwn a sylwai yn graff ar arwyddion yr amserau, gan roddi rhybuddion a chynghorion cyfaddas i fyd ac eglwys. Nid pregethwr yn unig oedd William Roberts, ond amlygodd ei hun yn amcanus a llafurus fel awdwr a darlithiwr. Yn 1819, cyhoeddodd lyfryn bychan, yn cynwys detholion o waith y Parch. J. Angell James i Athrawon yr Ysgol Sabbathol, wedi ei gyfieithu ganddo ef ei hun. Cyhoeddodd hefyd lyfr ar yr "Ordinhad o Fedydd," yn 1845, yr hwn sydd yn cynwys sylwadau craff a synwyrol, a llawer o addysgiadau i blant a rhieni, yn teilyngu mwy o sylw a chymeradwyaeth nag a ddangoswyd iddynt hyd yn hyn. Bu farw Hydref 14, 1857.

ROBERTS (PARCH. WILLIAM), Amlwch. Ganwyd y gweinidog

Digitized by Google

parchus hwn yn 1784. Yn ei ieuenctyd, ac felly y parhaodd trwy ei holl oes, yr oedd yn fyfyriwr llafurus annghyffredin. Ychydig o fanteision dysgeidiaeth reolaidd a gafodd; ond ar draws pob anfantais, trysorodd doraeth gref ohono. Dysgodd Saesneg trwy brynu Catecism Brown yn yr iaith hono a'i gydmaru gyda'r cyfieithiad Cymraeg. Yr oedd ganddo *grap* rhagorol hefyd ar y Groeg a'r Hebraeg, er mai anaml y soniai am danynt. Yr oedd wedi cyrhaedd mesur helaeth o wybodaeth yn y celfyddydau, a hyny yn hollol trwy ei ddiwydrwydd a'i benderfyniad digymhorth ei hun. Dechreuodd bregethu yn 1808; ordeiniwyd ef i holl waith y weinidogaeth yn Nghymdeithasfa y Bala, yn 1817; bu farw Gorph. 19, 1864; a chladdwyd ef yn mynwent Amlwch. Nid oedd neb a safai yn uwch yn marn Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd yn Mon, na Wm. Roberts, Amlwch. Nodweddau amlycaf ei gymeriad fel dyn, a'i enwogrwydd fel pregethwr, ydoedd difrifoldeb. Nis gallai oddef ysgafnder na choegddigrifwch, yn enwedig gyda phethau sanctaidd. Yr oedd yn byw beunydd yn ngolwg y farn, ac yn treulio pob dydd fel pe buasai i farw yn yr hwyr Pethau mwyaf crefydd, ac felly ei phethau difrifolaf, oeddynt destynau mwyaf dewisol ei fyfyrdod, ac o geseiliau mynyddau mawrion tragwyddoldeb y dygai lympiau o berlau duwinyddiaeth i'w cyfleu gerbron ei wrandawyr yn ngwahanol barthau y Dywysogaeth a threfi Lloegr. Yr oedd cylch ei ddylanwad a'i ddaioni yn fawr iawn. Tra yn cynal masnach anturiaethus gartref yn Amlwch, ni oddefai i hyny gyfyngu dim ar ei lafur a'i ddefnyddioldeb gyda chrefydd a phregethu. Nid oedd neb mwy dyfal yn y Cyfarfodydd Misol, nac y meddylid yn uwch o'i farn a'i benderfyniad ynddynt; na neb mwy ymdrechgar i fyned i'w gyhoeddiadau Sabbathol. Teithiai yn fynych ddeg a phumtheg milldir, ie, a rhagor, ar fore Sabbath, a phregethai dair gwaith yn egniol ar draws llawer rhuthr o beswch a fuasai yn digalonni cawr. Yr oedd y *Society*, y Cyfarfod Gweddi, gartref—y Cwrdd Misol, Cynghorau a Phwyllgorau, sir Fon—y Cyfarfodydd Pregethu, a'r Sasiwn fawr—a bwlch pwysig ynddynt pan symudwyd William Roberts, Amlwch, oddiwrth ei waith at ei wobr.

ROBERTS (William), D.D., ydoedd frodor o sir Ddinbych, lle y ganwyd ef yn 1585. Addysgwyd ef yn ngholeg y Frenhines, Caergrawnt, lle y daeth yn gymrawd a *proctor*, ac yn 1629, penodwyd ef yn is-ddeon Wells. Cafodd hefyd berigloriaeth Llandyrnog, a pherigloriaeth wagswyddol Llanrhaiadr yn Nghinmeirch, y ddau le yn Nyffryn Clwyd. Dyrchafwyd ef yn esgob Bangor, trwy ddylanwad yr Archesgob Laud, meddai Wood, am ei ymdrechion yn darganfod eiddo eglwysig gwerth mil o bunau, a chysegrwyd ef i'r swydd yn Medi, 1637. Fel ei ragflaenoriaid, daliai y bywiolaethau uchod, cystal ag archddeoniaeth Bangor a Mon, wedi ei ddyrchafu i fod yn esgob. Yn ystod gwrthryfel y werinlywodraeth, goddefodd lawer oblegid ei deyrngarwch; gyrwyd am dano trwy awdurdod Ty y Cyffredin yn 1849, fel troseddwr, ac atafaelwyd ei etifeddiaeth bersonol. Yn 1630, gwerthwyd maenoriaeth Gogarth i un John Jones am y swm o £322 4s. 3c. Eithr yn 1660, dychwelwyd iddo yr holl eiddo a gollasai, a bu yn haelionus tuag at ei brifeglwys, ac achosion eraill. Terfynodd ei einioes, neillduol am ei dduwiolfrydedd a'i elusengarwch, Awst 12, 1665, yn 80 oed, yn mhersondy Llandyrnog, ger Dinbych, ac yn nghanghell yr eglwys yno y claddwyd ef.—Wms. *Em. Welsh.*

ROBIN DDU, o Ddeheubarth, a elwir gan Moses Williams yn Robin Ddu ab Siancyn Bledrydd, bardd yn ei flodeu rhwng 1470 a 1510.

Digitized by Google

ROBIN DDU, o Fon, bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1430 a 1470. Y mae amryw ddarnau o'i waith ar gael mewn ysgrifiyfrau, ac yn eu plith gywydd a gyfansoddwyd yn 1450, yn mha un y dywedir ei fod newydd ddychwelyd o bererindod i Rufain, er ymweled â'r Pab Nicholas V. mewn llong lwythog o win, yn rhwym i Fon ei sir enedigol.

ROBINSON (HUGH), D.D., ydoedd bumed mab Dr. Nicholas Robinson, esgob Bangor, a ganwyd ef yn mhlwyf Llanfair, sir Fon. Addysgwyd ef yn ysgol Winchester, a chafodd derbyniad fel cymrawd parhaol o'r Coleg Newydd, Rhydychain, yn 1605, wedi iddo wasanaethu dwy flynedd ar brawf. Graddiwyd ef yn M.A. yn 1611, ac yn mhen tair blynedd wedi gadael y coleg penodwyd ef yn brif-athraw ysgol Winchester. Yn 1634, efe a wnaed yn archddeon Gloucester; yr oedd hefyd yn ganon yn Wells; ac yn beriglor Dursley yn y sir hono. Ar doriad allan y rhyfel cartrefol, efe a gymerwyd yn garcharor yn Dursley, a dodwyd ef ar farch a'i wyneb at barthau olaf yr anifail, a phrysurwyd ag ef i garchar Gloucester. Wedi hyny, ymunodd â phlaid y Senedd, cymerodd eu llw, ac ysgrifenodd i'w hamddiffyn. Trwy iddo golli y ganoniaeth a'r archddeoniaeth yn ystod y rhyfel, rhoddwyd yn wobr iddo berigloriaeth Hinton, ger Winchester, o ba fywiolaeth y troisid breningarwr allan. Yr oedd yn ieithwr rhagorol, yn dduwinydd galluog, ac yn dra chydnabyddus â hanesiaeth henafol. Cyfansoddodd y gweithiau canlynol:—"Preces, written for the use of the Children of Winchester School, in Latin and English;" "Grammaticalia quædam." yn Saesneg a Lladin; "Antiquæ Historiæ Synopsis;" argraffwyd y rhai hyn yn Rhydychain yn 1616. "Scholæ Wintoniensis Phrases Latinæ. The Latin Phrases of Winchester School," 1651—64, a gyhoeddwyd gan ei fab Nicholson Robinson. "Annalium mundi universalium, &c., Tomus Unicus," 1677. Daeth y llyfr hwn i ddwylaw Dr. Thomas Pierce, deon Salisbury, a thrwy orchymyn y brenin efe a'i hadolygodd, a'i diwygiodd, ac a chwanegodd gryn lawer ato. Bu Dr. Robinson farw Ebrill 8, 1655, a chladdwyd ef yn nghangell eglwys St. Giles-in-the-Field, Llundain.—Wood's *Athen. Oxon.*

ROBINSON (NICHOLAS), D.D., prelad enwog a anwyd yn nhref Conwy. Ei dad ydoedd John Robinson, Ysw.; a'i fam Elin, merch Wm. Birkdale, Ysw. Yr oedd ei hynafiaid er's amryw genedlaethau yn frodorion o Gonwy, eithr o darddiad Seisnig. Addysgwyd ef yn Ngholeg y Frenhines, Caergrawnt, lle y cymerodd y radd o B.A. yn 1547, a'r flwyddyn ganlynol etholwyd ef yn gymrawd. Urddwyd ef yn ddiacon gan yr esgob Wm. Glyn, o Fangor, ac yn offeiriad y dydd canlynol trwy freinthawl oddiwrth y Cardinal Pole. Gan iddo oddef erledigaeth oherwydd ei Brotestaniaeth yn nheyrnasiad Mari; wedi ei marwolaeth, efe a benodwyd yn gaplan teuluaidd i Dr. Parker, archesgob Canterbury. Yn 1562, penodwyd ef yn archddeon Meirionydd, yn esgobaeth Bangor, a chafodd hefyd berigloriaeth wagswyddol Llaneurgain, yn esgobaeth Llanelwy. Ar farwolaeth yr Esgob Meyrick, dyrchafwyd ef yn esgob Bangor, a chysegrwyd ef i'r swydd Hydref 20, 1566, cymerodd hefyd y radd o D.D. yn ystod yr un flwyddyn. Yr oedd yn ddyn dysgedig a diwyd, ac yn llywodraethwr rhagorol ar ei esgobaeth. Cyfansoddodd amryw lyfrau, eithr ni chyhoeddodd yr un ohonynt. Yn eu plith, yr oedd casgliad helaeth o ddefnyddiau hanesyddol yn dal cysylltiad âg eglwys a sefyllfa y Prydeiniaid a'r Cymry. Y mae hwn yn nghadw yn Llyfrgell Hengwrt yn llawysgrif yr esgob ei hun; ac hefyd fywgraffiad o Gruffydd ab Cynan, brenin Cymru, a

Digitized by Google

gyfieithodd o'r Cymraeg gwreiddiol i'r Lladin. Wedi esgobaethu am ddeunaw mlynedd, efe a fu farw Chwef. 13, 1584—5, a chladdwyd ef yn mhrifeglwys Bangor, ar du deheu y brif allor Priododd Jane, merch Randle Brereton, ac wyres i Syr Wm. Griffith, o'r Penrhyn. Mab o'r briodas hon ydoedd William Robinson, o'r Gwersyllt, ger Gwrecsam, tad y Mil. JOHN ROBINSON, breninolwr nodedig, yr hwn a orfu ffoi ar farwolaeth Siarl I. yn nghyntaf i Ynys Manaw, ac oddiyno i Ffrainc. Atalfaelwyd ei etifeddiaeth a gwerthwyd hi, eithr ar ddychweliad y freninoliaeth cafodd ailfeddiant ohoni, yn nghyda phalas hardd a adeiladwyd arni gan y meddianydd traws. Etholwyd y Mil. Robinson i'r Senedd tros Beaumaris yn 1661, a pharhaodd i gynrychioli y lle hwnw hyd 1579. Yr oedd hefyd yn is-lyngesydd Gogledd Cymru; "ac yn wr gonest, dyfeisgar, yn gyfaill cywir, yn ddeiliad tra theyrngarol, ac yn eglwyswr selog." Bu farw yn Mawrth, 1680, a chladdwyd ef yn eglwys Gresford.—Wms. *Em. Welsh.*

RODERICK (DAVID), ydoedd frodor o Landeilo Fawr, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef yn 1746; ond efe a adawodd y lle hwnw yn ieuanc, i fod yn ail athraw cynorthwyol ysgol Harrow, pan oedd yr enwog Dr. Parr yn athraw cynorthwyol cyntaf. Yn 1771, ar farwolaeth Dr. Sumner, athraw yr ysgol y pryd hyny, cyhoeddodd Dr. Parr ei hun fel ymgeisydd am y lle, ond a wrthodwyd, meddir, trwy ddylanwad llechwraidd y llywodraethwyr; yr hyn fu yn achlysur iddo roi ei le i fynu mewn digter, a flurfio a gosod i fynu sefydliad cyffelyb yn mheutref Stanmore. Ar enciliad Dr. Parr, ceisiodd y llywodraethwyr gan y Parch. David Roderick aros yn Harrow, a llenwi lle y pen-cynorthwyydd o dan y pen-athraw newydd. Ond oddiar ystyriaeth ofidus o'r cam a wnaed mewn rhwystro hawliau mor gyfiawn â'r eiddo yr ymgeisydd gwrthodedig, efe a wrthododd eu ceisiadau, a hysbysodd ei berderfyniad i ddilyn ei gyfaill, a chefnogi â'i enw a'i wasanaeth y sefydliad bwriadol yn Stanmore. Darfu i ddylanwad y fath enw, yn cael ei roddi mor anogaethol i Dr. Parr, gael ei dderbyn yn galonog ganddo. Bu farw yn Choolsbury, yn sir Berks, yn 1831, yn 85 mlwydd oed.—*Lleyn MSS.*

ROGERS (PARCH. DAVID), gweinidog galluog a phoblogaidd gyda'r Trefnyddion Wesleyaid, a anwyd yn y Garth, Llanfair Dyffryn Clwyd, yn y flwyddyn 1783 Yr oedd efe yn un o flaenffrwyth dychweledigion yr enwad hwnw yn Nghymru, a phriodolai ei droedigaeth i weinidogaeth effro Mr. E. Jones, Bathafarn. Tynwyd sylw ei frodyr at ei gymhwysderau cyhoeddus trwy ei ddawn neilldiol mewn gweddi, a bu am yspaid yn dra defnyddiol fel blaenor a phregethwr cynorthwyol. Dechreuodd "deithio" fel gweinidog yn gydlafurwr â'r Parch. John Bryan yn 1805. Methai yn lân a gweled am flynyddau fod ynddo ef unrhyw gymhwysder at y gwaith pwysig yr ymgymerasai ag ef, a chwynai yn dost oblegyd ei anwybodaeth. Treuliai aml i nos Sabbath mewn wylofain a gweddio oblegyd ei ddiffygion yn cyflawni gwaith y dydd. Parhaodd y pryder hwn i lethu ei feddwl am flynyddau; eithr wedi cael ymwared graddol ohono, aeth yn mlaen i fyfyrio a darllen yn dra dyfal. Ni roddai hun i'w amrantau gan ei awydd i ymbaratoi i'w waith pwysig. Cuddiai ganwyll rai prydiau yn ddiarwybod i wraig ei letty; âi i'w ystafell wely; ac wedi i'r gweddill o'r teulu ymgolli mewn cwsg efe a ddechreuai ar ei efrydiaeth ac a barhai wrtho hyd lasiad y boro. Ond deallodd gwraig y ty yn mhen enyd y gyfrinach, a llwyddodd i leihau yr arferion peryglus a niweidiol hyn. Bu ei gynydd mewn gwybodaeth

Digitized by Google

yn fawr, buan, ac amlwg. Daeth ei werth i'r golwg, a dechreuodd ymddangos yn ffurfafen yr eglwys fel goleuad dysglaerwych. Er i niwl a chaddug anwybodaeth a gwan galondid ei orchuddio yn y dechreu, pelydrodd yn harddach ac yn gryfach na'i gydser wedi symud hyny ymaith. Yn 1807, y dechreuodd ei ddawn a'i ddefnyddioldeb ymddangos yn neillduol, a lledodd ei barch yn gyflym yn yr eglwysi. Yn 1809, penodwyd ef i gylchdaith Caerphili, a thra yno cyfieithodd y "*Prawf Draethawd* i gynorthwyo deongli yr Ysgrythyrau;" ac hefyd yr "Hunan-ymholiad," gan y Parch. R. de Courcey. Yn y blynyddoedd 1812 ac 1813, gweinidogaethai yn Llundain, ac efe oedd golygydd cyhoeddiad Cymreig yr enwad sef "*Yr Eurgrawn*," yr hwn a argreffid y pryd hwnw yn y brif-ddinas; ac fel y cyfryw ysgrifenodd erthyglau llymion yn erbyn y Dr. Lewis a'r Parch. Thos. Charles, oblegyd i'r blaenaf wneud sylwadau ar Brynedigaeth Neillduol mewn pregeth a gyhoeddasai, ac i'r olaf ddysgu yr unrhyw athrawiaeth yn ei *Eiriadur*. Yn 1814, sefydlwyd ef yn Aberhonddu fel pregethwr Seisnig y gylchdaith hono; ond tybiai rhai o'r aelodau nad oedd efe yn gymhwys i'r gwaith—nad oedd yn alluog i barablu Saesneg yn brydferth a hyawdl; a'r canlyniad fu iddynt dori allan mewn gwrthryfel agored yn erbyn yr apwyntiad, a chau a chloi y capel yn ei erbyn. Mae'n ddiau fod hyn oll yn tarddu oddiar ragfarn yn ei erbyn, ac anwybodaeth ohono, canys er fod blas Cymraeg ar ei Saesneg, nid oes y lle lleiaf i ammheu nad oedd y fath efrydydd dyfal wedi trigiant o rai blynyddau yn y brif-ddinas yn abl i draethu ei feddwl mewn Saesneg dealladwy a rheolaidd, os nad coeth a chaboledig. Yn 1816 a 1817, yr oedd yn gweinidogaethu yn Mon; ac yno yr ysgrifenodd yr "Ymddiddanion rhwng dau Ymdeithydd, sef Hwntw a Gwyneddwr." Testynau yr Ymddyddan oeddynt brif athrawiaethau yr Efengyl, yn enwedig yr athrawiaeth o Barhad mewn Gras. Ymddangosodd yn y 18fed gyfrol o'r *Eurgrawn*. Bu yn gadeirydd "Talaeth Rhuthyn," yn 1816; ac yn gadeirydd yr "Ail Dalaeth Gymreig," yn 1817 ac 1818. Aeth at y Saeson yn llwyr yn 1819; ac yn eu plith hwy y llafuriodd am y pum' mlynedd dilynol, pan y terfynodd ei oes a'i lafur. Bu farw yn Darlington, sir Durham, yn Ionawr, 1824; yn 41ain oed, ac wedi gweinidogaethu am 19 mlynedd. O berthynas i'w alluoedd meddyliol, yr oedd ei ddirnadaeth yn dreiddgar a chref, ei amgyffred yn eang, ei feddwl yn fywiog, ac yn ymgodi yn llawer uwch na'r cyffredin. Yr oedd y talentau a gawsai gan Dduw wedi eu diwyllio ganddo i raddau uchel, ac wedi eu cyflwyno i'r dyben goreu. Fel llefarwr yr oedd yn hyf, llawn, llithrig, a naturiol; ei lais ydoedd gryf a pheraidd; a'i weinidogaeth yn hynod o gymeradwy. Yr oedd ol y weddi ddirgel, a mynych gymdeithas â Duw, yn amlwg iawn ar ei rodiad, ei ymddiddanion, a'i bregethau. Yr oedd ei gymhwysiadau o'r gwirionedd ar ddiwedd ei bregeth yn rymus, yn doddedig, a bron yn anorchfygol. Sonia hen bobl yr oes hon am yspryd cynhes a doniau melus Dafydd Rogers gyda'r parch mwyaf; ac erys effeithiau ei lafur dwys a'i weinidogaeth daullyd ar eglwys Dduw hyd ddiwedd amser.—*Y Bywgraffydd Wesleyaidd*, 203.

ROGERUS CONWEY, ydoedd frodor o dref Conwy, sir Gaernarfon. Yr oedd yn fynach o'r urdd Franciscaidd, ac yn M.A. o Rydychain. Hynodid ef am ei ddysgeidiaeth helaeth, ac yr oedd yn awdwr y llyfrau canlynol:—1, "Contra Errores Armacani;" 2, "Determinationes Scholasticæ;" 3, "Questiones Theologicæ;" 4, "Lecturæ et Sermones." Yr oedd yn cydoesi ag Iorwerth III., brenin Lloegr—tua 1370.

Digitized by Google

ROWLANDS (PARCH. DANIEL), o Langeitho, un o addurniadau penaf yr areithfa Gristionogol, a anwyd yn 1713, mewn lle a elwir Pantybeudy, tua dwy filldir i'r gorllewin o Langeitho, sir Aberteifi. Enw ei dad hefyd oedd Daniel Rowlands, ac efe oedd offeiriad Llangeitho a Llangwnlle. Dywed traddodiad fod yr hen wr yn tra ragori ar ei gyd-offeiriadon difraw a difoes yn yr oes hono. Yr oedd i hen offeiriad Llangwnlle ddau fab, sef John a Daniel, a chyflwynodd y ddau i Dduw yn ngwasanaeth Eglwys Lloegr. Cafodd John fywiolaeth ei dad yn 1731, dywedir ei fod yn ddyn o alluoedd nerthol a bywiog, oud yn wyllt ac afradlon, ac iddo foddi yn nghanol ei ddyddiau wrth ymdrochi yn y mor. Addysgwyd Daniel Rowlands yn ysgol ramadegol Henffordd, ac oherwydd ei gynydd cyflym fel ysgolor yn enwedig yn yr ieithoedd gwreiddiol, cafodd dderbyniad yn ieuengach na chyffredin i urddau sanctaidd—yn 1733, ac efe ar y pryd onid ugain oed. Bu am beth amser yn gurad Ystradffin, sir Gaerfyrddin, lle y cerid ef yn fawr gan y plwyfolion oblegid ei alluoedd fel pregethwr; ond yn benaf oherwydd dyddanwch ei chwedlau, a hynawsedd ei galon. Oddiyno symudodd i fod yn gurad i'w frawd yn Llangeitho, ac am yr yspaid o 28 mlynedd y bu yn llanw y swydd hon nid oedd ei gyflog ond £10 yn y flwyddyn. Ymddengys iddo fod yn pregethu am ddwy neu dair blynedd heb fod ganddo unrhyw syniad am bwysigrwydd ei swydd, na phrofiad o'r hyn a gynygiai o'r pwlpud i eraill. Dywed ei fywgraffydd, Mr. Owen, Thrushington, "Ei fod yn llawn o fywiogrwydd cynhenid, ac yn ben campwr yn chwareuon ofer yr oes hono. Yr oedd yn heinif a gwisgi, o faintioli cyffredin, o wneuthuriad cadarn, ac yn rhagori yn mron a'r bawb yn y gorchest gampau." Yn hyn sydd yn fwyaf galarus ydyw ei fod yn dilyn y chwareuon hyn ar y Sabbath,—wedi bod yn darllen, yn gweddio, ac yn pregethu yn yr eglwys yn y bore. Tua therfyn 1735, yr oedd yr enwog Gruffydd Jones, o Landdowror, i bregethu yn Llanddewibrefi, ac yn mhlith y dorf luosog a ddaethent yn nghyd o bell ac agos i wrandaw arno, yr oedd curad plwyf cyfnesol Llangeitho—yn wr ieuanc hardd ond anystyriol, talentog ond diras. Pa fodd bynag, nid yn ofer yr arweiniasai Rhagluniaeth ddoeth ef wyneb yn wyneb â dysglaerdeb trylachar gweinidogaeth "Seren fore Diwygiad y 18fed ganrif yn Nghymru." Teimlodd y gair yn gwneud argraffiadau ar ei feddwl y pryd hwnw na wybu am eu cyffelyb o'r blaen. Suddodd i lawr mewn ofnau a dychryn am ei gyflwr, nes iddo bron benderfynu na phregethai byth mwyach, oblegyd meddyliai ei fod wedi twyllo ei hun a'i wrandawyr hyd hyny. Dychwelodd o'r bregeth yn nghymni amryw o'i gymydogion, y rhai a fawr ganmolent yr hyn a glywsent ac a draethent y lles oeddynt wedi gael yn y cyfarfod, yr hyn a wnelai ei feddwl yntau yn is fyth tan yr ofnau na buasai ei weinidogaeth o les i neb erioed, pan y daeth un o'i blwyfolion yn mlaen gan ddodi ei law ar ei ysgwydd, a dywedyd, "Fod arno ef rwymau i ddiolch am offeiriad bach Llangeitho; oblegyd os cafodd ddim lles enaid erioed, mai trwyddo ef yr oedd wedi ei gael." Cododd hyn ronyn ar ei feddwl, fel y dywedodd, "Pwy a wyr na wna yr Arglwydd ryw ddefnydd ohonwyf finau, greadur gwael?" Dengys yr hanesyn hwn ddylanwad gweinidogaeth offeiriad Llanddowror ar ei feddwl, ac awgryma hefyd fod uchelgais ei fywyd yn gorwedd mewn bod yn bregethwr poblogaidd, hyd yn nod cyn cael ond golwg eithaf aneglur ar ei gyflwr ei hun fel pechadur. Diau fod cariad at ei swydd, ac eiddigedd am ragori ynddi, yn nodweddu ei feddwl cyn yr oedfa fythgofiadwy iddo ef y cyfeiriwyd ati, fel y prawf yr hyn a

Digitized by Google

ganlyn. Yr oedd hen weinidog Ymneillduol yn gweinidogaethu mewn lle heb fod yn nepell o Langeitho, sef y Parch. P. Pugh, Llwynpiod, a lluaws mawr o bobl yn ymdyru i'w wrando; a daeth i feddwl yr offeiriad ieuanc pa beth a swyndynai y torfeydd felly. Meddyliodd mai pregethu y farn ac uffern, a'r digofaint sydd ar ddyfod ar yr annuwiol, yr oedd yr hen bregethwr, a phenderfynodd yntau wneud yr un peth. O ganlyniad, chwiliai am y testynau mwyaf cyffrous yn yr Ysgrythyrau, megys, "Ar yr annuwiol y gwlawia efe faglau tân," &c.; "Daeth dydd mawr ei ddigter ef," &c., a'r cyffelyb; a gwelodd yn fuan fod ei wrandawyr yn chwanegu, ac yn gwrando yn fwy astud. Cymerodd hyn le cyn iddo fod yn gwrando ar Mr. Jones yn Llanddewibrefi. Meddyliai fod llawer o'i wrandawyr wedi teimlo rhyw ddeffroad grymus ar eu meddyliau, ac argraffiadau dwysion ar eu cydwybodau trwy ei weinidogaeth, cyn iddo ef ei hun, yn ol ei gyfaddefiad, deimlo yr un argraff i fywyd ar ei feddwl. Tra y parhaodd efe i gredu mai cenadwri dan llyd ydoedd pregethu yr efengyl, yr oedd ei weinidogaeth yn wir arswydus. Safai megys ar geulan trueni tragwyddol, ac fel yr hen fardd Italaidd Dante, dysgrifiai gyflwr y trueiniaid o'i mhewn mor gryf a diamwys nes y tybiai ei wrandawyr gwledig eu bod yn clywed eu gruddfanau, ac yn arogli brwmstan. Yr oedd gweinidogaeth felly yn effeithiol iawn i ddychrynu y bobl, ond nid oedd ond moddion egwan i'w hargyhoeddi o ddrwg pechod. Mae'n ymddangos fod hen efengylydd Llwynpiod yn cymeryd cryn ddyddordeb yn ei gymydog ieuanc, ac wrth ei weled yn dychrynu cymaint ar y bobl, anogodd ef yn gariadus a brawdol i bregethu gras iddynt—i gymhwyso gwaed Crist at eu clwyfau, a dangos iddynt yr angenrheidrwydd o ffydd yn y Gwaredwr croeshoeliedig. "Yr wyf yn ofni," ebai Rowlands, "nad yw y ffydd hono genyf fy hun yn ei llawn nerth a gweithrediad." "Pregethwch hi i eraill, a diau y deuwch o hyd iddi eich hun," ebai Pugh; "os ewch yn mlaen yn eich dull presenol, byddwch yn fuan wedi lladd haner eich gwrandawyr, canys yr ydych yn taranu melldithion y gyfraith arnynt mor ofnadwy, fel nad oes modd iddynt eich gwrthsefyll." Bu y cynghorion gwerthfawr ac amserol hyn o fawr les iddo, ac efe a symudodd drostan ei weinidogaeth gan amlaf o hyny allan o ganol mwg a thân Sinai at droed y Groes. Fel y dywed perganiedydd Pantycelyn yn ei *Farwnad:—*

Gliniau'n crynu gan y daran,
  Fel pe buasai angau'i hun
Wedi cym'ryd llawn berch'nogaeth
  Ar y dyrfa bob yr un;
"Beth a wnawn am safio'n henaid?"
  Oedd yr unrhyw gydsain lef;
Chwi, sy am wybod hanes Daniel,
  Dyna fel dechreuodd ef.

* * * *

Pump o siroedd penaf Cymru
  Glywodd y taranau mawr,
A chwympasant gan y dychryn
  Megys celaneddau i lawr;
Clwyfau gawd, a chlwyfau dyfalon,
  Ac fe fethwyd cael iachad,
Nes cael eli o Galfaria
  Dwyfol ddwr a dwyfol waed.

Yr oedd Howel Harris a Rowlands yn dechreu eu gweinidogaeth tua'r un pryd, un yn sir Frycheiniog, a'r llall yn sir Aberteifi, ac er bod y ddau yn ymgyrhaedd at yr un amcan, ac yn oleuadau tanllyd yn eu gwahanol gylchoedd, buont am tua blwyddyn heb wybod dim y naill

Digitized by Google

am y llall. Rhydd Harris yn un o'i lythyrau yr hanes a ganlyn am ddechreuad a chanlyniadau eu cydnabyddiaeth :—"Argyhoeddwyd Mr. Daniel Rowlands tua'r un pryd a minau, ond mewn parth arall o Gymru, sef sir Aberteifi. Cyfarfyddais ag ef gyntaf yn eglwys Defynog, ar flaen y sir hon, yn 1737, yn mha le, wedi gwrando ei bregeth, a chanfod y ddawn a roddwyd iddo, a'r gallu rhyfeddol a'r awdurdod gyda pha rai y llefarai, teimlais yn wir ddiolchgar, a llosgai fy nghalon gan gariad at Dduw ac ato yntau. Yno y dechreuodd fy nghyfeillach âg ef, ac ni therfyna i dragwyddoldeb. Hyn a fu yr achos cyntaf i mi fyned i sir Aberteifi, lle y clybum ragor am ei athrawiaeth a'i gymeriad, ac y cynyddodd fy serch tuag ato; ac o'r pryd hwnw hyd yr awr hon, cefais lawer cyfleusdra gogoneddus i eistedd tan ei weinidogaeth er mawr les i'm henaid, ac yr wyf yn parhau i fawrhau beunydd waith Duw arno a thrwyddo. Gan iddo fod o fendith i filoedd mewn amrywiol siroedd, ac yn cael ei arddel yn fwy o bryd i bryd gan Dduw er adeiladaeth praidd Crist, felly nis gallesid disgwyl y diangai rhag malais y gelyn, yr hyn a chwytha efe arno yn mhob ffordd a ganiateir iddo, trwy ddyfeisio pob math o gelwyddau am dano; eithr y mae Duw mor amlwg gydag ef, fel y credaf fod y Ddraig yn crynu ffordd y cerddo. Er i mi bellach gael y fraint o wrando a darllen gwaith amryw o weinidogion Duw, gan belled ag y gallaf fi farnu, nid wyf yn gwybod am neb sydd wedi ei fendithio â galluoedd a doniau cyfuwch; y fath oleuni treiddiol i ysbryd yr Ysgrythyrau, er gosod allan ddirgelwch duwioldeb, a gogoniant Crist Iesu. Ac er ei gyhuddo yn fynych o gyfeiliornad, eto y mae yr Ysbryd Tragwyddol wedi ei arwain mor ofalus oddiwrth unrhyw ffordd gyfeiliorn, fel yr wyf yn credu fod ei weinidogaeth yn un o'r bendithion penaf a fwynheir gan Eglwys Dduw yn y parthau hyn o'r byd. Y mae amryw siroedd yn derbyn o'r bendithion hyn, gan ei fod ef yn ymroddgar i fyned oddiamgylch, a chredaf nad yw ond anfynych, os byth, yn agoryd ei enau, heb fod bendith yn deilliaw o hyny; ac nid peth tros fyr amser ydyw ei ddylanwad, ond y mae wedi parhau, i'm gwybodaeth i, am agos i saith mlynedd." Bu cryn oerfelgarwch rhwng y ddau Dad Methodistaidd Harris a Rowlands yn mhen ychydig wedi i'r dyfyniad uchod gael ei ysgrifenu; ond oddiar gywirdeb dybenion Harris yn gyffredinol, nid ydym yn credu y buasai yn tynu yn ol yr un gair o'i ganmoliaeth. Y mae yn anhawdd gwybod i sicrwydd beth a barodd yr annghydwelediad hwnw. Pa fodd bynag, yr oedd yr holl offeiriaid Methodistaidd o du Rowlands, ac fe ddichon y mwyafrif o'r werinbobl, tra yr oedd plaid gref yn ochri gyda Harris. Gweler hanes manylach o'r ymdrafod annedwydd yn t. d. 464 o'r Gwaith hwn. Pa beth oedd Rowlands, ai Eglwyswr ynte Ymneillduwr? Diddadl mai yr unig ateb gwir ydyw nad oedd efe na'r naill na'r llall yn hollol a chyfangwbl. Oddiar ei ddygiad i fynu, a chyfeillachau ei ieuenctyd, yr oedd yn naturiol i'w serch at Eglwys Lloegr fod yn gryf; ond yr oedd ei gariad at Eglwys Crist yn gyffredinol yn gryfach nag at un sect neu gangen ohoni. Pe cawsai lonydd i wneuthur daioni gan hen gyfundrefn gaeth, a chan gaethfeistriaid ymyrgar a chulfeddwl a'i gweinyddai, diau y buasai fyw a marw yn offeiriad selog tros ei blaid, a iach ei ffydd eglwysyddol. Ond yr oedd ei galon ef mor fawr, fel yr oedd Llan bychan Ceitho yn rhy gyfyng o le iddi guro trosto, ac nis gallai cyfreithiau barbaraidd yr eglwys ei hualu yn hwy; drylliodd ei rwymau, taflodd y llyffetheiriau oddiwrtho, ac aeth allan i bob lle y gallai gael dynion i wrando arno yn pregethu Crist yn Waredwr. Yr oedd yn mhell iawn o fod yn offeiriad

Digitized by Google

rheolaidd, oblegyd ni ofalai am ganon na rubric, ond Crist oedd pob peth ac yn mhob peth o'i weinidogaeth a'i ymddygiadau. Nis gellir dweyd ychwaith ei fod yn Ymneillduwr trefnus, ond rhywbeth nas gwyddai efe ei hun na neb arall, o ran trefniant gweledig ei sefydliad, heb fod yn glymedig wrth Lan na Chapel; ond arweinid ef yn hollol gan amgylchiadau, tan lywyddiaeth ddoeth Rhagluniaeth y nef, yn nghyflawniadau cyhoeddus ei swydd. Os agorai amgylchiadau ddrysau y Llanau iddo, yno yr elai yn ngyntaf man; ond os na wnaent, elai i addoldy syml yr Ymneillduwr; ac os na chai dderbyniad yno, safai ar farch-gareg wrth ddor rhyw westty, neu ar ben clawdd yn min y briffordd, neu ar ganol y maes—rhywle y gallai gael dynion i wrando arno; ac ystyriai y naill fan mor gysegredig a'r llall. Gallesid disgwyl y buasai y fath ddyn rhagorol beth bynag yn cael cydymdeimlad ei esgob os nad ei gefnogaeth mwyaf wyneb agored. Ond nid felly y bu; wedi wyth mlynedd ar hugain o lafur, na bu mo'i eilfydd yn Nghymru cynt na chwedyn, yn ngwasanaeth Eglwys Lloegr, am y tâl daearol bychan o £10 yn y flwyddyn, yn 1763, danfonwyd gwys iddo oddiwrth Esgob Tyddewi yn ei atal rhag pregethu oddifewn ei therfynau. Yr oedd newydd ddarllen y gwasanaeth yn Llanddewibrefi pan y dodwyd y papuryn annoeth hwnw yn ei law. Yr oedd cyffro mawr yn mhlith y bobl pan ddeallasant pa beth a gymerasai le, ac yr oedd Gwr Duw mor gythryblus ei feddwl fel mai mai prin y gallai ddweyd ei brofiad wrthynt. Ystyriai Dr. Burgess, esgob nesaf Tyddewi, y weithred hon yr ynfyttaf a gyflawnasai ei ragflaenydd yn ei holl fywyd; ac nid yw ond teg cydnabod fod pob Eglwyswr goleuedig o'r pryd hwnw hyd yr awr hon yn ei hystyried yn aniolchgarwch gwarthus a gwrthun, ac yn gamsyniad dybryd. Teimlasai Rowlands fod y lliaws dychweledigion yn galw am rywbeth nad oedd wedi ei ddarpar ar eu cyfer gan y Sefydliad Eglwysig. Yr oedd llaweroedd o ymgeiswyr am y fraint o gydgyfranogi âg ef o swper yr Arglwydd, ac yr oedd yn angenrheidiol cael cyfle i ymddyddan â hwy, ond prin y gellid gwneud hyny yn yr Eglwys. Byddai yn ddymunol i'r Cristionogion hyn allael cynal cyfarfodydd gweddi gyda'u gilydd; ond yr oedd yn anghyfreithlawn iddyn heb urddau arwain gweddi yn yr Eglwys. Yr oedd ysbryd pregethu, neu o leiaf ysbryd cynghori eu cydbechaduriaid, wedi disgyn eisoes ar rai o honynt; ond ni feiddient hwy, ac ni feiddiai yr offeiriad, adael iddynt agoryd eu genau mewn ffordd o gynghori yn yr Eglwys. Teimlai Mr. Rowlands a'i frodyr fod anghenion ysbrydol y bobl yn galw am i bethau gael eu gwneuthur nas gellid eu gwneuthur yn yr adeilad Eglwysig, ac felly gosodwyd hwy o dan orfod i edrych am ryw adeilad arall. Gosodwyd un o ysguboriau Mr. Rowlands o'r neilldu i'r dybenion hyny; ac wedi i'r adeilad bychan hwnw wasanaethu am dair blynedd, codwyd capel bychan yn Llangeitho; ac nid capel chwaith; teimlai y brodyr y buasent yn myned yn rhy bell i dir Ymneillduaeth wrth ei alw ar yr enw hwnw, ac felly galwasant ef yn "Dŷ Seiat." Yma y cynelid cyfarfodydd profiad a gweddiau. Yma y safai y "cynghorwyr" i anerch y cynulleidfaoedd. Ond yn 1763, yn mhen tair blynedd wedi ei adeiladu, trowyd Rowlands allan o'r Eglwys; aeth y bobl allan gydag ef, a chyfodwyd adeilad llawer eangach yn yr un fan, yr hwn ni phetrusid ei alw yn "Gapel."[1] Am dano fel pregethwr, nis gallwn wneud dim gwell na dyfynu dysgrifiad y portreadwr dieilfydd Christmas Evans

1 Parch. W. Williams, Abertawe, yn y DRYSORFA, Llyfr xviii, 85.

Digitized by Google

ohono, yr hwn, o ran oedran, a allasai fod wedi ei wrando, a bod yn llygad-dyst o'r gweithredoedd nerthol a wneid trwyddo: "Ei athrawiaeth ydoedd Galfinaidd, ei ddull o draddodi ydoedd fyreiriog, fel gwersi cryno, cywrain, a synwyrlawn; ei ddull ydoedd yr eiddo ei hun—yn anefelychol. Yr ydwyf fel pe gwelwn ef, wedi ymwisgo yn ei ŵn du, yn agor drws bychan y pwlpud o'r tu allan, ac yn gwneud ei ymddangosiad i'r dorf. Yr oedd ei holl wynebpryd wedi ei wisgo â mawredd ag oedd yn arddangos synwyr, hyawdledd, ac awdurdod. Ei dalcen oedd uchel, ei lygaid yn llymion a threiddgar, ei drwyn ydoedd Rufeinig, neu eryraidd, ei wefusau yn weddus, a'i ên yn taflu allan, ac yn cyfodi ychydig, ei lais ydoedd soniarus ac uchel seiniol. Byddai rhyw bregethwr wedi darllen a gweddio fynychaf, yn ol y darluniad a gefais ohono ef, pan y cyfodai i fynu yn y pwlpud. Yna efe a roddai y penill hwn o Salmau Prys yn fynych iawn allan i'w ganu:

'Un arch a erchais gan Dduw Naf,
A hyny a archaf eto,
Cael dod i dy'r Arglwydd glan
A bod am trigfan yno.'

Dim ond un penill a roddid ar y tro yn y dyddiau rhyfedd hyny o ran nerthol ddylanwadau. Gwedi canu y penill gyda gwresogrwydd mawr, eto heb ddyblu llawer arno ar ddechreu y bregeth, rhag i'r olew nefol fyned tros y llestri yn rhy fuan. Yna safai Rowlands i fynu, ac a ddarllenai ei destun yn eglur i glyw pawb. Byddai yr holl gynulleidfa fel yn glustiau i gyd, megys yn myned i wrandaw oracl efengylaidd, a'r holl bobl a'u llygaid wedi sefydlu arno. Byddai gynddo ryw ddrychfeddwl cyffrous, fel blwch bychan, cyn agor blwch mawr y bregeth, yr hwn a agorai ef nes y buasai aroglau yr eneiniau ynddo yn gwasgaru trwy y gynulleidfa, ac yn parotoi eu disgwyliadau am agoriad y blychod ar ol eu gilydd trwy y bregeth, nes llenwi y tŷ â'r perarogl nefol, fel yn Bethania gynt, gan berarogl *alabaster box* Mair. Yna wedi cyffroi y gynulleidfa fawr â rhyw feddylddrych hynod, efe a ranai ei destun, ac a ddechreuai ar y pen cyntaf, trwy blygu ei ben ychydig i lawr, megys yn taflu cip olwg ar y nodau oedd ganddo ar ddarn o bapur. Mi a welais un o nodau ei bregeth ar testun, "*Edifarhewch*," *&c.*, y rhai oeddynt dra chynwysfawr a byrion. Yn awr yr ydym yn dyfod at y rhan anhawsaf o'r darluniad, canys nid allwn wneud i ddelw fud lefaru, na delw farw i fod yn fyw. Gwedi rhoddi cip olwg ar y papur fel mater o ffurf, yn fwy na dim arall, efe a ddechreuai ymadroddi gyda llais hyglyw a rhwydd. Byddai Rowlands yn brwdio, a'i lais yn dyrchafu, ac yn awdurdodi, ac yn dadseinio dros y capel, fel nad allech weled ond gwenau a dagrau yn treiglo dros wynebau y bobl, a bloeddiadau trwy y gynulleidfa, ac oll wedi cyfodi o fflam ei oslef, a'i fflam yntau wedi cyfodi o'r fflam oedd yn y drychfeddyliau a draddodai ef. Yr oedd y gwahaniaeth hyn rhyngddo ef a Whitfield; pan y byddai Whitfield fwyaf angerddol yn nhônau peraidd ei lais, byddai yn hytrach yn gwanhau yn ei fater—ond ei fater fyddai yn cyfodi hyawdledd Rowlands, a byddai ei fater uwchaf pan y byddai angerdd ei lais uwchaf. Ar ol i'r fflam o ddefosiwn nefol lonyddu y tro cyntaf, a than y pen cyntaf o'i faterion, efe a ail ddechreuai doddi ac ystwytho meddyliau y bobl hyd oni chawsai hwynt i'r un dymher nefol, a hyny dros chwech neu saith o weithiau, medd rhai, yn yr un bregeth. Yna diweddai ei bregeth heb un casgliad na chymhwysiad, oblegyd yr oedd oll yn gymhwysiadol, gydag ychydig iawn o eiriau gweddi, a "Gras ein Harglwydd Iesu

Digitized by Google

Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân." Yna ciliai allan mor ddisymwth ag y daethai i mewn trwy y drws bach, gan adael y gynulleidfa yn mwynhad o'r hwyl nefol, yr hon nad ellir ei darlunio. Pethau rhyfedd a fu yn y diwygiad, trwy Rowlands a Harris yn benaf. Yr oedd disgyniad y tywalltiadau nefol mor nerthol ac anarferol, fel y tarewid y gynulleidfa weithiau megys â mellten nefol ar ddarlleniad y testun. Wrth ddarllen, 'Trwy ei ing a'i chwys gwaedlyd, ei grog a'i ddyoddefaint, a'i orfoleddus adgyfodiad," yn yr eglwys yn Llangeitho, torodd un o'r diwygiadau mwyaf grymus allan. Ar un Sabbath arall, pan ddaeth hymnau Mor Gwydr Williams yno, a thrwy i'r bobl eu darllen hwy, a'u canu, fe dorodd diwygiad arall tra nerthol allan. Y mae y doniau nerthol ac angherddol o'r hen ysgol efengylaidd hon bron wedi ymadael â Chymru, fel yr ymadawodd doniau yr un ysgol yn Whitfield â Lloegr. Yr oedd agwedd wynebpryd Rowlands, a'i lais, yn cael eu gweddnewid a'u cynhyrfu, nes yr oedd math o angherddol fflam yn trawsnewid ac yn gyru ysbryd bydol, marw, a diofal allan, a'r bobl megys yn neshau i'r cwmwl at Grist, ac at Moses ac Elias, a thragwyddoldeb a'i sylweddau yn rhuthro i'w golwg. Parhaodd y nerthoedd mewn mesur mwy neu lai yno am haner can' mlynedd. Ymdyrai yno filoedd i gymundeb bob mis; deuent yno o holl siroedd Cymru. Nid allaf feddwl ond gyda pharch am Rowlands a'i gymdeithion. Yr oedd ei ddoniau yn ffigurol iawn. Byddai ei gyffelybiaethau yn aml, a'i fedrusrwydd yn hynod i'w trin, gydag athrylith briodol iddo ei hun. Meddai, wrth ddarlunio yr angenrheidrwydd o ailenedigaeth i uno dyn â Gwaredwr yn y cyfamod gras, 'Mae yn rhaid dy naddu, a'th greu o'r newydd, a'th uno i fod yn un ysbryd â'r Arglwydd, megys trwy y *glue* nefol. Pan y byddo hen *joint glue* wedi dattod, ni chymer ei hail asio yn yr hen afael, ond rhaid cymeryd y plaen gan y saer, a phlaenio yr hen afael ymaith yn llwyr cyn y cydio y glud newydd. Rhaid plaenio ymaith hen afael deddfol y cyfamod gweithredoedd gan yr Ysbryd Glan, fel y'th uner â Christ mewn *joint* newydd â glud gras, 1 Cor. vi. 17.'" Dywedai Mr Charles, yn yr hen *Drysorfa*, fod ucheledd a phob rhagoriaeth yn ei ddoniau—dyfnder defnyddiau, grym a phereidd-dra llais, ac eglurder a bywiogrwydd traddodiad—er syndod a'r effeithioldeb mwyaf ar ei wrandawyr. Dywedai y Parch. D. Griffith o Nefern, yr hwn oedd wedi gwrando llawer ar y gweinidogion enwocaf yn Lloegr a Chymru, mai Rowlands oedd y mwyaf a'r godidocaf a glywsai erioed. Ond wedi treulio oes faith, ryfeddol am ei mawr ddefnyddioldeb a'i dylanwad, daeth y terfyn. Yr oedd torf wedi ymgynull i Langeitho fel arferol un dydd Sadwrn, pan yr hysbyswyd hwynt fod yr efengylydd seraphaidd wedi ei gymeryd oddiwrthynt i fyd yr ysbrydoedd. Bu farw Hydref 16, 1790, wedi bod yn gweinidogaethu am haner canrif, ac yn y 77ain flwyddyn o'i oedran.

ROWLANDS (David), a anwyd yn Ynys Mon, ac a addysgwyd yn ngholeg St. Mary's Hall, Rhydychain. Gadawodd y brifysgol cyn cymeryd ei raddau, ac aeth yn athraw i fab Iarll Lennox, a chydag ef i ymdaith ar y Cyfandir, trwy yr hyn y cafodd fantais i ymgydnabyddu âg ieithoedd y gwledydd hyny. Ar ol dychwelyd adref, daeth yn ddysgawdwr proffesedig yr ieithoedd Groeg a Lladin, ac er mwyn ei ddysgyblion cyhoeddodd, "A comfortable Aid for Scholars, full of variety of Sentences, gathered out of an Italian Author," Llundain, 1578. Cyfieithodd o'r Yspaenaeg, "The pleasant History of Lazarillo de Tormes, a Spaniard, wherein is contained his marvellous Deeds and Life," 1586.

Digitized by Google

Cyhoeddwyd ef drachefn, mewn deg rhan, yr olaf o ba rai a dynesid allan o Groniclau Toledo, gan Juan de Luna, brodor o Castille.—Wood's *Athen Oxon.*

ROWLANDS (HENRY), D.D., a anwyd yn Mellteyrn, Lleyn, Arfon, yn 1551. Yr oedd yn hanu o deuluoedd uchelwaed; ei dad ydoedd Rolant ab Robert, Ysw., o Fellteyrn; a'i fam ydoedd Elizabeth, merch i Griffith ab Robert Vaughan, Ysw., o Talhenbont. Cafodd ei addysg gyntaf yn ysgol Penllech, a'i dderbyn i Rydychain yn 1560, lle y graddiwyd ef yn M.A. fel aelod o'r Coleg Newydd. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn Mangor, Medi 14, 1572; a'r dydd canlynol, cafodd rectoriaeth ei blwyf genedigol, Mellteyrn. Ar ol hyny, cafodd rectoriaeth Launton, sir Rydychain; ac wedi rhoddi Mellteyrn i fynu yn 1581, gwnaed ef yn brepend Penmynydd yn mhrifeglwys Bangor yn 1584, ac yn beriglor Aberdaron yn 1588. Cafodd ddeoniaeth Bangor yn 1593, a'i ddyrchafu yn esgob yr un lle yn 1598, gan gael ei gysegru i'r swydd Tachwedd 12. Graddiwyd ef yn D.D. yn 1605. Perchir enw yr Esgob Rowlands am hir amser ar gyfrif ei elusengarwch a'i haelfrydedd. Heblaw rhoddion eglwysig amryfal, anrhegodd ei blwyf genedigol Bottwnog âg ysgol ramadegol, ac a'i gwaddolodd â thiroedd helaeth; ac erys y cyfryw ysgol hyd y dydd hwn, er mantais ragorol i blant y cyrau hyny. Addysgir plant ynddi mewn darllen, ysgrifenu, a rhifyddiaeth; cynorthwyir hwy hefyd i gyrhaedd gwybodaeth ddigonol o'r ieithoedd Groeg a Lladin fel ag i'w cymhwyso ar gyfer coleg neu yr offeiriadaeth eglwysig. Sefydlodd hefyd ddwy gymrodiaeth yn ngoleg Iesu, Rhydychain, ac yn ei ewyllys gadawodd £6 i'r dyben o addysgu dau fachgenyn tlawd yn ysgol Bangor, i gael eu galw ysgolorion Hutchins, er cof am frawd ei wraig, Mr. Hutchins, boneddwr o sir Gaerloyw. Gadawodd hefyd £40 yn y flwyddyn er cynal chwech o hen ddynion tlodion yn yr Ysbytty gerllaw prifeglwys Bangor, y rhai a gynysgaeddir â dwy ystafell, glo, dillad, a naw swllt yn yr wythnos. Dywed yr Esgob Humphreys am dano:—"Yr oedd yn ddyn rhagorol iawn, gwir elusengar a chydwybodol, ac yn llawer mwy gofalus am yr esgobaeth hon, ac o'i olafiaid yn y swydd, na neb a eisteddodd yma o'i flaen nac ar ei ol, fel yr ymddengys." Bu farw Gorphenaf 6, 1616, yn 65 oed, a chladdwyd ef yn ei brifeglwys. Claddwyd yr Esgob Humphreys Lloyd hefyd wedi hyny yn yr un bedd. —Wms. *Em. Welsh.*

ROWLANDS (PARCH: HENRY), hynafieithydd enwog, ac awdwr *Mona Antiqua*, ydoedd fab Wm. Rowlands, Ysw., o'r Plasgwyn, plwyf Llanedwen, Mon, lle y ganwyd ef yn 1655. Ei fam ydoedd Maud, merch i Edward Wynn, o Benhesgyn. Ei daid ydoedd Henry, mab i Edward Rowlands, a nai i'r Dr. Henry Rowlands, esgob Bangor; efe a briodes Martha, merch i'r Dr. Williamson, meddyg i'r frenhines Elizabeth, a mab iddynt hwy ydoedd Henry Rowlands, a briodes Jane, merch y Dr. Edmund Griffiths, esgob Bangor. Wyr iddynt hwy ydoedd Henry, gwrthddrych hyn o nodiadau. Yr unig addysg a gafodd efe ydoedd yr hyn a dderbyniodd yn Ynys Fon; a dywedir na ymdeithiodd efe erioed yn mhellach oddicartref na'r afon Gonwy; eithr y mae yn ffaith sicr na bu yn mhellach na'r Amwythig. Er hyny, prawf ei lyfrau fod ei ddysgeidiaeth yn ddofn a thrylwyr, y gallai gyfansoddi Lladin yn feistrolgar a choeth, cystal a'i fod yn wr o alluoedd naturiol cryfion annghyffredin. Wedi derbyn urddau eglwysig, efe a gafodd ficeriaeth Llannidan, Mon, yn 1696. Ei brif waith ydoedd ar hynafiaeth Ynys Mon tan y teitl, "Mona Antiqua Restaurata, an Archæol-

Digitized by Google

ogical Discourse on the Antiquities, natural and historical, of the Isle of Anglesey, the ancient seat of the British Druids." Cyhoeddwyd hwn yn 1723, wedi marwolaeth yr awdwr. Er na lwyddodd efe i brofi ei hoff opiniwn mai Mon ydodd prif sedd yr hen Dderwyddon, y mae y gwaith yn llawn o ffrwyth ymchwiliadau dyddorol, ac yn cynwys llawer o wybodaeth gywrain a gwerthfawr. Cydnabyddir bellach yn lled gyffredinol mai yn Ngorsedd Bryn Gwyddon [Avebury, sir Wilt], y cynhelid cyrddau cenedlaethol yr hen Frythoniaid. Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r "Mona Antiqua," yn 1766, wedi ei ddiwygio a'i helaethu gan y Dr. Henry Owen. Cyhoeddodd Henry Rowlands hefyd draethawd Saesneg ar Ddacareg; a gadawodd wedi ei ysgrifenu mewn Lladin rhagorol, gyfran o Hanes Plwyfol Ynys Mon, yr hwn a gynwysai gantref Menai, ac a gyhoeddwyd, yn nghyda chyfieithiad, yn yr *Archæologia Cambrensis*. Efe a briodes Elizabeth Nicholas, o'r Plas Newydd; a bu iddynt bedwar o feibion a dwy ferch. Bu farw yn Tachwedd, 1723, a chladdwyd efyn eglwys Llanedwen, a dynodir y fan gan golofn o "farmor du sir Fon," yn gerfiedig arni feddargraff Lladin o'i gyfansoddiad ef ei hun.—Pennant's *Tours;* Angharad Llwyd's *History of Anglesey*.

ROWLANDS (Parch. Nathaniel), ydoedd fab y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho, yn sir Aberteifi. Cafodd ei ddysgeidiaeth a'i raddau yn Ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain. Priododd ferch y Parch. Howel Davies, un o'r offeiriaid poblogaidd ag oedd yn cymeryd rhan yn symudiad Methodistaidd yr oes. Yr oedd yn Gapelwr i'r Dug Gordon, a'r Arglwyddes Huntingdon. Yr oedd unwaith yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn Nghymru mewn cysylltiad a'r Methodistiaid Cymreig ag y bu ei dad yn weithiwr diflin a llwyddianus yn eu sefydliad: ond pan neilldiodd y Cyfundeb hwnw yn hollol oddi wrth yr Eglwys, trwy gymeryd arnynt ordeinio neu neilldio pregethwyr heb urddau Esgobawl i weinyddu y Sacramentau, efe a ymlynodd yn gydwybodol wrth yr Eglwys. Ond nid oedd yn gweinyddu yn yr Eglwys ychwaith er y fl. 1807, o blegid rhyw afreolaeth yn ei fuchedd. Bu flynyddoedd yn gwasanaethu mewn capel a godasid iddo yn Hwlffordd, mewn cysylltiad a'r Methodistiaid hyny y rhai a ymlynent wrth, ac a gymerent y sacramentau gan weinidogion yr Eglwys yn unig. Bu farw yn y Parc, sir Benfro, a chladdwyd ef yn Henllan Amgoed, yn 1831, yn 82 mlwydd oed.—*Cam. Quar. Magazine*, iii. 394.

ROWLAND (Parch. W.) (*G. Lleyn*). Ganwyd yr hanesydd diwydbwyll, a'r pregethwr selog hwn, Awst 24, 1802, yn mhentref bychan Bryncroes, Lleyn, sir Gaernarfon. Yr oedd ei rieni, Thomas ac Elinor Rowlands, ill dau yn aelodau ffyddlawn gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a chyda'r un enwad y dygwyd yntau i fynu. Symudodd ei rieni, pan ydoedd efe yn lled ieuanc, o'r Bryncroes i blwyf Mellteyrn, yn yr un ardal. Yr oedd efe yn gallu darllen Saesneg a Chymraeg cyn bod yn naw oed; a thrwy hyny, rhaid ei fod wedi cael manteision gwell na'r cyffredin o'i gydoeswyr, a'i fod hefyd wedi gwneud defnydd da o honynt. Wedi gwasanaethu cyfnod yr ysgol ar ei fywyd, ar y cyntaf yn Bryncroes, ac wedi hyny yn Bottwnog, dechreuodd ei fywyd gweithiol trwy ymroddi i ddysgu crefft ei dad, sef gwehydd. Yr oedd er yn blentyn yn ymchwilgar, diweniaeth, a chydwybodol, ac erioed ni wiriwyd yn llawnach yr hen air Seisnig o fod y "plentyn yn dad y dyn," canys felly yn union y parhaodd ef trwy ei holl fywyd. Yr oedd ei gydwybodolrwydd yn peri iddo fod yn ddiffuant yn ei ymchwiliaeth, a'i ymchwiliaeth yn peri na byddai yn rhagfarnllyd yn ei gydwybodolrwydd,

Digitized by Google

tra yr oedd ei amplygrwydd meddwl yn ddangoseg ar ei wyneb o'r hyn a gymerai le yn ei galon. Nid ydym yn meddwl ped ysgrifenem gyfrolau y medrem osod Gwilym Lleyn allan yn well nag yn y frawddeg yna—dyna linellau cyfochrog ei holl oes, ac ar hyd-ddynt y rhedodd cerbyd ei fywyd o'r naill ben i'r llall. Nid ydyw yn debygol y buaseai yr elfen ymchwilgar hono yn ei feddwl yn caniatau iddo roddi pwys ei ffydd i orphwys yn dawel ar unrhyw gyffes o gredoau, pa mor uchel bynag oedd eu honiadau, a pha mor llwyr bynag yr oedd efe wedi ei ddysgu yn ei ieuenctyd i'w parchu a'u mabwysiadu. Pan tua tair ar ddeg oed, gadawodd dŷ ei dad, gan droi allan i edrych am waith. Yr oedd bywyd symudol i'r corph yn hyfryd a naturiol i'w duedd feddyliol ymchwiliadol, gan ei fod felly yn cyfarfod â gwahanol fathau o ddynion, a chan y dynion hyny wahanol fathau o syniadau. Yn y treigliadau hyn o fan i fan, disgynodd am ychydig wythnosau gyda gwehydd o Wesleyad, o'r enw Robert Hughes, Ty'n y clawdd, nid nepell o Fangor. Byddai aml ddadl frwd rhwng y gwehydd a'i weithiwr ieuangaidd, un o bobtu i'r clawdd terfyn rhwng Calfiniaeth a Wesleyaeth; ac yr oedd clywed rhesymau pobl eraill tros eu credo hwy yn siglo ei farn yn anffaeledigrwydd ei gredo ei hun. Ac nid crefydd y ddadl a'r genau ydoedd ei grefydd ef, canys yr oedd yn foesol annghyffredin o'i febyd, pryderus yn nghylch ei gyflwr ysbrydol, ac yn awyddus i ogoneddu Duw yn ei rodiad a'i fuchedd; heblaw hyny yr oedd yn wrthddrych argyhoeddiadau dyfnion, a phan yn ddeg oed cawn of yn "gorfoleddu" fel hen wr mewn rhyw oedfa ryfedd a gymerodd le yn nghapel y Ty mawr, Lleyn. Yn raddol iawn ymryddhaodd ei ffydd o angorfa Calfiniaeth, a bu am yspaid o flaen yr awelon, ond yr oedd ei ogwydd o hyd at Wesleyaeth. Bu darllen pregeth y Parch. Samuel Davies ar "Brynedigaeth Gyffredinol," o gymhorth mawr iddo fwrw ei goelbren yn mysg yr enwad crefyddol hwnw. Darllenodd hefyd lyfrau o waith Wesley, Fletcher, Bryan, ac eraill; a bu gwaith awdurol y Parch. O. Davies, o gysur neilldiol iddo. Er ei fod yn argyhoeddedig bellach er's amser mai syniadau y gwyr hyn a'r Cyfundeb y perthynent iddo oeddynt "athrawiaethau y Bibl yn wir," yr oedd efe yn parhau i ddal ei gysylltiad a'r Trefnyddion Calfinaidd, gan ei fod oddiar amryw resymau yn hwyrfrydig i lwyr ymadael â'r bobl y magesid ef yn eu plith. O'r diwedd, daeth ei gredo gwrth-Galfinaidd yn hysbys i flaenoriaid yr eglwys yn Uwchmynydd, o ba un yr oedd efe yn aelod dichlynaidd ar y pryd, ac wedi dadl frwd rhyngddo ef â hwynt mewn un *society*, pendefynodd y ddwy blaid mai gwell oedd iddynt dori y cymundeb—gadael i'r bachgenyn fyned ar ol ei egwyddorion "hereticaidd," fel na chythryblid y frawdoliaeth mwyach ganddo. Dennaw ymlwydd oed oedd ef y pryd hwn, a pha beth raid fod nerth penderfyniad moesol llencyn gwledig fel efe pan wynebai ar bob math o anair, gwawd, a dirmyg hen gyfeillion a pherthynasau, er mwyn "ateb cydwybod dda," ac yr ymunai ag enwad newydd, yr hon a elwid fynychaf yn y wlad yn "sorod pob dim." Ond yn mhlith y Wesleyaid y bwriodd efe ei goelbren o hyny allan, a phan glybu Thomas Rowlands, o Fellteyrn, fod ei fab William wedi colli cymaint ar ei dipyn cof fel ag i ymuno a'r "sism newydd," aeth yr holl ffordd oddi yno yn unswydd i Aberdaron gyda'r bwriad o'i droi o "gyfeiliorni ei ffordd;" ac yn mhlith amryw resymau eraill, ceryddodd ef yn llym, arferodd eiriau chwerwon, dywedai ei fod wedi colleidio athrawiaeth ag oedd i'w dyb ef yn hollol gyfeiliornus a pheryglus, ac wedi gwneud cymaint o son am dano a phe buasai wedi lladd rhywun; ond nid oedd digofaint tad ych-

Digitized by Google

waith, yn ei farn ef, ond croes i'w dwyn er mwyn cydwybod a gwirionedd. Yn fuan wedi iddo ymuno â'r Wesleyaid, gwelodd ei frodyr fod ynddo gymhwysderau neilldiol at wneud genau cyhoeddus, a deisyfasant arno ddechreu pregethu, â'r hyn, ar ol manwl a dwys ystyriaeth, y cydsyniodd. Traddododd ei bregeth gyntaf yn nghapel Bryncaled, plwyf Aberdaron. Yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu, symudodd ei rieni i'r Ty coch, ger Bangor, ac aeth yntau yno gyda hwynt. Ymgododd yn ddioed yn boblogaidd fel pregethwr—yr oedd ei bregethau wedi eu cyfansoddi yn hynod gryno a destlus, ac yntau yn eu traddodi gyda thanbeidrwydd anghyffredin. Daeth galw mawr a mynych am wasanaeth y "bachgen o Fangor." Daeth yn adnabyddus yn fuan fel gwr ieuanc ymchwilgar, crefyddwr selog, a phregethwr rhagorol, yr oedd hefyd yn gerddwr campus, ac nid erthygl ddibwys yn ei lafur ydoedd hyny—yn oes "crefydd y coesau." Cerddodd un diwrnod haner can' milltir, sef yr holl ffordd o Lanrhaiadr yn Mochnant i Fangor Fawr yn Arfon. Wedi treulio rhai blynyddau fel pregethwr cynorthwyol tra chymeradwy, yn 1828, gyrwyd am dano i Landysul, sir Aberteifi, gan Mr. Davies, cadeirydd y Dalaeth Gymreig, i gymeryd ei le ef tra y byddai yn Llundain yn ymwneud a'i ddyledswyddau yn y Gynadledd Wesleyaidd. Pan ddychwelodd Mr. Davies, deisyfodd yr eglwysi arno aros yno fel cynorthwyydd eu gweinidog, o tan gyflog, ond cyflog bychan arswydus. Yn 1829, penderfynwyd yn unfrydol fod W. Rowlands yn un cymwys i'r weinidogaeth yn y Cyfundeb Wesleyaidd; ac wedi myned yn llwyddianus trwy yr arholiadau arferol, penodwyd ef y flwyddyn hono i gylchdaith Caerdydd. Yr ydym bellach wedi rhoddi hancas wen am ei wddf, a'i ddodi yn mhwlpud y bobl a ddewisasai. Wedi bod ddwy flynedd yn Nghaerdydd, symudodd i Ferthyr, lle yr oedd y geri marwol yn gwneud hafog dychrynllyd yr amser hwnw, ac er ei fod ef yn dwyn cysuron yr efengylydd at wely angau canoedd a syrthient yn ebyrth iddo, eto cuddiwyd ef yn nghysgod llaw yr Hollalluog pan oedd amryw o weinidogion y dref yn syrthio i grafangau y dinystrydd. Yn 1834, priododd Miss Anne Andrews, o Gaerdydd, yr hon oedd o deulu parchus, ac a fu yn gydmares ddedwydd iddo trwy ei holl fywyd, ac a'i goroesodd. Tra yn Merthyr hefyd, yr ymddangosodd gyntaf fel awdwr, trwy gyhoeddi pregeth o'i waith ar "Gwymp oddi wrth ras," yr hon a barodd gryn gynhwrf, ac a dynodd allan rai cewri yn ei erbyn o'r blaid wrthwynebol. Symudodd o Ferthyr i Amlwch yn Mon, yn 1836; i Bwllheli yn 1835; i Newmarket, yn sir Ffint, 1837; i Ruthin, yn 1840; i Lanidloes, yn 1842; i Dredegar yn 1845; i Fachynlleth, yn 1848; i'r Brynmawr, yn 1850; i Lanidloes, (eilwaith) yn 1853; i Dredegar, (eilwaith) yn 1856; i Aberystwyth, yn 1858; i Fachynlleth, (eilwaith) yn 1861, a thyna ei gylchdaith olaf. Ymneilliuodd fel uwchrif yn 1864, a symudodd i drigianu yn Nghroesoswallt, gan hyderu cael ychydig seibiant i adnewyddu ei gyfansoddiad curiedig, i gwblhau rhai o'i weithiau llenyddol gwerthfawr, ac yn bendifaddeu i fod o les i'r eglwys yn y dref hono,—canys ni freuddwydiai ei feddwl gweithgar ef am orphwys hyd y bedd—ac yr oedd yr orphwysfa hono yn nes ato nag y tybiai. Prin yr oedd wedi mwynhau saith mis o orphwysdra, pe gorphwysdra hefyd, na ddaeth angau yn mlaen, ac a'i cymerodd ymaith wedi cystudd hirfaith, a ddioddefwyd yn dawel a dirwgnach. Ei air olaf ydoedd, "Mae angau wedi dod: O, angau pa le y mae dy golyn?" Bu farw yn Nghroesoswallt, Mawrth 21, 1865, yn 63 oed, wedi bod yn pregethu am 45ain o flynyddau; a chladdwyd ef yn mynwent Wesleyaidd y Caerau,

Digitized by Google

ger Llanidloes. Fel dyn, bychan ydoedd o gorpholaeth, gwalit gwineu, prysur ei gerddediad, hyd nes y cyfarfyddodd â damwein pan yn dychwelyd adref yn y tywyllwch o'i gyhoeddiad tua 1850, ac ar ol hyny hyd derfyn oi oes gwr disgloff ydoedd. Yr oedd rhywbeth yn sydyn, chwerw, a chwta, yn ei ddull o ymddiddan, a buasai dyn digydnabyddiaeth ag ef yn dueddol i feddwl ar y cyntaf ei fod o dymher sarug, ond gwelid yn fuan nad oedd hyn ond cragen yn gorchuddio natur onest a diweniaeth. Yr oedd yn ddirwestwr o'r fath fwyaf dirwestol, ac yn elyn annghymodlawn i bob math o wirodydd meddwol, a'u cefnderoedd, myglys a throwlwch, a byddai pibellau mwg yn dianc o'i wydd fel tylwyth teg o wydd y cyfddydd. Mor selog ydoedd tros yr Ysgol Sabbathol fel y cynygiai unwaith yn Morganwg ddiarddel yr aelodau eglwysig na ddeuent iddi. Fel pregethwr yr oedd yn llafurus, selog, eglur, tarawiadol, a phrofiadol; ei eiriau yn llawn meddwl; ei frawddegau yn gwta ond cynwysfawr; ei bregethau yn gyffredin yn fyrion, melus, a bywiog. Yr oedd yn caru ei waith, ac yn ymddifyru wrth ei gyflawni. Dyna y Parch. Wm. Rowlands. Fel Gwilym Lleyn, ei enw llenorol, gallwn ddweyd ei fod yn wladgarwr aiddlawn, ac yn ymhyfrydu trwy ei holl oes mewn bod yn "Gymro diaddurn." Ond llyfrgarwch aeth a'i sylw a'i fryd ef yn benaf. Yr oedd gan hen lyfr ryw swynion anorchfygol iddo; a pho mwyaf Cymreig, llychlyd, a phwdr, a fyddai y llyfryn, dyfnaf oedd serch y llenor chwilgar tuag ato. Pan elai i dŷ dyeithr, bron cyn cymeryd ei anadl, na chyfarch gwell i'r teulu, gofynai os oedd yno ddim o'r hen drysorau crybwylledig, a rhag ofn na byddai llygaid y cyniweirydd yn ddigon craff, dringai i benau'r silffoedd fel wiwer ei hunan, ac os digwyddai iddo eu cael, o rodd neu o bryn, dygai hwynt adref yn llawen, fel gwr a gawsai yspail lawer. Yr oedd pobl cyffredin y wlad yn rhyfeddu at ei chwaeth hynod yn hyn o beth, tosturient wrtho, os nad anmheuent weithiau ei bwylledd. Ond ffrwyth neillduol y gwibdeithiau hyn ydoedd y drysorfa werthfawr o wybodaeth a geir mewn cyfres o erthyglau campus a ymddangosasant yn y *Traethodydd* ar "Lyfryddiaeth y Cymry," Bwriadai eu cwblhau, eu perffeithio, a'u cyhoeddi yn gyfrol gwerth pumtheg swllt, ond ni chafodd fyw i weled sylweddoli ei ddymuniad yn hyn o beth; eithr deallwn bellach eu bod ar fedr cael eu dwyn o'r wasg tan olygiaeth y Parch. D. S. Evans. Cyfranodd amryw erthyglau eraill i'r un cyhoeddiad, ac yn eu plith gyfres dlyddorol a difyrus ar "Samuel Hick." Ysgrifenodd lawer hefyd i'r *Brython*, *Golud yr Oes*, a'r *Eurgrawn*, a bu am rai blynyddau yn olygydd y cyhoeddiad olaf. Cyhoeddodd draethawd ar "Ragluniaeth," yn 1836, ac un arall ar "Annibyniaeth a Wesleyaeth," yn 1852, yr hwn a atebwyd gan Huw Tegai, a bu "rhyfel bapur" boeth rhwng y ddau am gryn amser. Yr oedd wedi casglu cronfa aruthrol o fywgraffiadau "Enwogion Cymreig," ac wedi eu trefnu yn y dull llythyrenol; prynwyd hwynt oddi gan ei weddw at wasanaeth y llyfr hwn, a gellir eu hadnabod ynddo wrth y dynodiant, "*Lleyn MSS.*" I bawb a edmygant unplygrwydd cymeriad, llafur di-ildio, serch dwfn, dyn diymhongar at ei wlad a'i llenyddiaeth, ymroddiad diorphwys i lenwi holl alwadau y swydd bwysicaf y gelwir ar ddyn yn y fuchedd hon i'w chyflawni, bydd coffadwriaeth Gwilym Lleyn yn barchus ac anwyl byth.

RUMSEY (WALTER), ydoedd fab i foneddwr o dirfeddianydd, ac a anwyd yn Llanofer, sir Fynwy, yn 1584. Pan yn 16 oed, aeth i Brif ysgol Rhydychain, gan gael ei ddderbyn fel cyffredin foneddwr o goleg Neuadd Gloucester, eithr gan ymadael heb gymeryd ei radd, efe a yn

Digitized by Google

neilldnodd i Gray's Inn, lle yr ymroddodd i efrydu y gyfraith drefol. Penodwyd ef yn fargyfreithiwr, yn feinciwr, ac yn ddarllenydd y Grawys, ac yn 1635, efe a wnaed yn ynad cylchdaith Brycheiniog, ac yn 1637 yn brif-ynad, o ba swydd y symudwyd ef yn ystod Gweriniaeth Cromwell. Yr oedd mor enwog yn ei broffes fel yr adwaenid ef yn gyffredin wrth yr enw, "Pigwr Cloau y gyfraith." Yn 1640, etholwyd ef yn un o'r marchogion tros sir Fynwy i wasanaethu yn y senedd a ddechreuodd yn Westminster, Ebrill 13, a dewisasid ef drachefn i eistedd yn y Senedd Hir, ond gwrthododd. Dywed Wood am dano:—"Yr oedd yn ddyn cywrain, gyda phen athronyddol, yn gerddor da, ac yn fedrus iawn mewn impio ac ardrefnu planigfeydd a llynoedd. Gan ei fod beunydd yn cael ei boeni gan fflem, efe a ddyfeisiodd y Provang, offeryn wedi ei wneud o asgwrn morfil, gyda pha un y glanheid y gwddf a'r cylla, yr hwn a ddefnyddid yn fynych nid yn unig a gan feddygon enwog yn y wlad hon, ond hefyd gan rai tu hwnt i'r môr." Ysgrifenodd ddysgrifiad o'r offeryn hwn, a'r dull o'i ddefnyddio, a chyhoeddwyd ef mewn llyfryn tan y teitl "Organon Salutis: An Instrument to cleanse the Stomach," 1657—9; at ba un y chwanegodd, "Divers new Experiments of the virtue of Tobacco and Coffee." Bu farw yn 1660, a chladdwyd ef yn meddrod y teulu yn eglwys Llanofer.—Wood's *Athen. Oxon.;* Jones' *Breconshire.*

SADWRN FARCHOG, sant yn ei flodeu tua dechreu y chweched ganrif. Mab ydoedd i Bicanys, a brawd i Illtyd Sant, a nai i Emyr Llydaw. Ei wraig ydoedd Canna, merch Tewdwr ab Emyr Llydaw. Daeth gyda Chadfan Sant yn ei hen ddyddiau trosodd i Brydain, a sefydlodd Lansadwrn yn Mon. a Llansadwrn yn sir Gaerfyrddin. Cedwid ei wylmabsant Tach. 29.—*Iolo MSS.*

SADYRNIN, sant yn y chweched cant. Sefydlodd eglwys Llansadyrnin, sir Gaerfyrddin. Yn ol *Achau y Saint*, mab ydoedd i Sadwrn Hen, mab Ynyr o Gaer Gawch.—*Iolo MSS.*

SAERAN, sant yn y chweched cant. Mab ydoedd i Geraint Saer o'r Iwerddon. Claddwyd ef yn Llanynys, sir Ddinbych, oherwydd paham y priodolid sefydliad yr eglwys hono iddo ef; ond yn ol Llywarch Hen, Mor ab Cencu ab Coel a biau yr anrhydedd hono.—*Bonedd y Saint.*

SAFIN, neu fel y gelwid ef weithiau, "Yr Hen Safin," ydoedd foesddysgawdwr ac awdwr diarhebion. Ganwyd ef yn Morganwg, ac yr oedd yn ei flodeu yn yr 17eg ganrif.

SAIS (ELIDIR), bardd enwog yn ei flodeu rhwng 1160 a 1220. Y mae 11eg o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

SALISBURY (HEHRI), a anwyd yn Dolbeleder, sir Ddinbych, yn 1561. Yr oedd efe yn hanu o un o ganghenau hen deulu parchus y Salisbriaid o Leweni. Cafodd ei addysg golegol yn Rhydychain, lle y daeth yn ysgolor cyffredin o St. Alban's Hall yn 1581, ac wedi ei raddio yn y celfyddydau, efrydodd physigwriaeth, yr hon alwedigaeth a ddilynodd efe yn Ninbych. Meddylid yn uchel ohono, nid yn unig fel meddyg enwog, ond hefyd fel un tra gwybodus yn hynafiaethau ac iaith ei wlad. Yn 1593, cyhoeddodd ramadeg Cymraeg yn Lladin, tan y teitl, "Grammatica Britannica," yn gyflwynedig i Henry, iarll Penfro. Cyfansoddodd hefyd Eiriadur Cymraeg a Lladin, eithr ni chyhoeddwyd y gwaith hwn. Bu y llawysgrif yn meddiant yr Esgob Humphreys, ac yr oedd Salisbury wedi bwriadu cyhoeddi ail argraffiad o'r gramadeg gydag ef. Cynwysai y Geirlyfr lawer o eiriau nad oeddynt yn ngwaith Dr. Davies, o Fallwyd.—Wood's *Athen. Oxon.*

SALISBURY (PARCH. JOHN), a anwyd yn sir Ddinbych. Yr oedd

Digitized by Google

yntau hefyd yn hanu o Salsbriaid Lleweni Cafodd ei addysg yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn wyryf yn y Gyfraith Eglwysig, yn 1529. Daeth yn fynach o urdd Benedict Sant, a phenodwyd ef yn briodawr Horsham St. Faith, yn Norfolk, a chafodd elwau a dyrchafiadau eglwysig eraill. Yn 1535, gwnaed ef yn esgob goddefol Thetford, Norfolk; ac yn archddiacon Mon yn 1537. Cafodd ddeoniaeth Norwich yn 1539; ond yn 1554, ar esgyniad y frenhines Mari i'r orsedd, collodd ei holl swyddau am ei fod yn wr priod. Yn Rhagfyr, yr un flwyddyn, gwnaed ef yn ganghellydd yn mhrif-eglwys Lincoln; ac yn 1559, rhoddwyd iddo eilwaith archddeoniaeth Mon, a'r swyddau eraill a gollasai, a daliodd hwynt hyd ei farwolaeth. Yn 1571, penodwyd ef yn esgob Sodor a Man. Bu farw yn Medi, 1573, a chladdwyd ef yn mhrif-eglwys Norwich.—Wms. *Em. Welsh.*

SALISBURY (Thomas), Ysw., ydoedd fab hynaf John Salsbri o Leweni, ger Dinbych, a'i fam ydoedd yr arwrol Catrin o'r Berain. Cymerodd ran flaenllaw yn y *Babington Plot:* a dygwyd ef, gyda 14eg eraill i brawf am hyny Medi 13, 1586. Cyhuddid hwynt o deyrnfradwriaeth ddeublyg—sef ymgais i lofruddio y frenhines Elizabeth, ac o godi gwrthryfel yn y deyrnas o blaid Mari, brenhines Scotland, yr hon oedd ar y pryd yn garcharores yn Charley. Darfu i bump o'r cyhuddedigion gydnabod eu heuogrwydd, o ryw un o'r bradwriaethau hyn, ac felly cafwyd hwy yn euog ar eu cyfaddefiad eu hunain. Ond y saith eraill, ac yn eu plith aer Lleweni, a bleidiasant "dieuog;" pa fodd bynag, euogbrofwyd hwynt o gydweithredu ar awdurdod rhyw ymadrodd anmheus yn nghyffes y lleill, a dau—Gage a Bellamy—o gydsynio wedi y weithred, neu ei chuddio, neu bleidio trostynt, a'u cynorthwyo wedi eu cyhoeddi yn fradwyr. Ar y dydd cyntaf, oedwyd y crogiad, er cael eu dirboeni, yn ol yr hen ddeddf benaethol am frad. Ond darfu i ieuenctyd, ymddygiad, ac urddas y dyoddefwyr, weithio gresyndod cryf yn yr edrychwyr, a chenadwyd i Mr. Salisbury a chwech eraill gael marw ar y crogbren, cyn i'w cyrph gael eu rhoddi tan gyllell y dyfinydd. —*Lleyn MSS.*

SALISBURY (Thomas), bardd a beirniad yn ei flodeu rhwng 1580 a 1620. Trigianai yn Llundain; ac yn 1603, cyhoeddodd Salmau Cân y Cadben Wm. Myddleton mewn un gyfrol bedwar plyg. Y mae llythyr o'i waith at Syr John Wynn, o Wydir, dyddiedig Mehefin 22, 1611, yn argraffedig yn y gyfrol gyntaf o'r *Cambro-Briton;* a'i gyfansoddiadau barddonol yn nghadw mewn ysgriflyfrau,—Wms. *Em. Welsh.*

SALISBURY (Syr Thomas), barwnig, ydoedd fab hynaf ac aer Syr Henry Salisbury, o Leweni, sir Ddinbych, y barwnig cyntaf. Derbyniwyd ef i brifysgol Rhydychain, fel boneddwr cyffredin o goleg Iesu, eithr ymadawodd heb gymeryd ei raddau, a dychwelodd i'w wlad enedigol, wedi treulio peth amser yn Llundain. Ar farwolaeth ei dad yn 1632, efe a ddaeth i feddiant o'r etifeddiaeth, a chan fod ganddo athrylith naturiol at farddoniaeth a rhamant, daeth i gryn enwogrwydd fel bardd. Trostan penaf yr enwogrwydd hwn ydyw ei "History of Joseph," ar gân, mewn 13 o benodau, Llundain, 1635. Cynrychiolai sir Ddinbych yn y Senedd, yn nheyrnasiad Siarl I., a phan dores y rhyfel cartrefol allan, efe a gymerth arfau yn ddiattreg yn mhlaid y brenin. Yn 1642, gwnaed ef yn mhlith eraill gan y brenin hwnw yn Rhydychain yn Ddoethawr yn y Gyfraith Wladol. Bu farw yn 1643.—Wood's *Athen. Oxon.:* Pennant's *Tours in Wales.*

SALISBURY (William), cyfieithydd hyglod y Testament Newydd

Digitized by Google

i'r Gymraeg, a hanai o gangen o hen deulu urddasol y Salsbriaid o Leweni. Fel amryw o deuluoedd parchusaf Cyffiniau Cymru, ac yn enwedig felly, Dyffryn Clwyd, yr oeddynt o darddiad a gwaed estronol; daeth eu gwelygordd ar y cyntaf trosodd i'r wlad hon gyda Gwilym y Gorchfygwr, a dodid hwy ganddo naill ai yn Arglwyddi y Cyffiniau neu swyddogion milwraidd tan y cyfryw. Wedi ymsefydlu fel hyn yn y wlad, priodent aeresau cyfoethog Cymreig, a thrwy hyny, o radd i radd, daethant yn Gymry gwladgarol a thwymgalon. Yn y dosparth hwn y gellir gosod y Miltwniaid, Stradling, Basset, Thelwall, Herbert, ac amryw eraill. Dywedir mai marchog Germanaidd o Saltzbury, brodor o dref o'r enw Saltzbury, yn Germani, ydoedd boncyff y Salsbriaid, iddo ymsefydlu ar Gyffiniau Cymru, ac i'w enw yn raddol gymeryd y ffurf o Salisbury, neu Salesbury, a phryd arall Salsbri. Peis-arfau y teulu yn gyffredin oedd:—"Maes rhydd, llew ar ei ysglyfnaid arianaidd, a choron euraidd, rhwng tair lloeren o'r trydydd lliw." Dywed Gwalter Mechain yn y *Gwyliedydd* am 1826:—"Dengys hyn eu Cymreigyddiad; oherwydd bod arfau y Cymry yn fwy *llewawg* o lawer nag arfau y Saeson." Un cyfnod, yr oedd eu cyfoeth yn helaeth iawn, a pherchenogent nifer o balasau a threftadaethau yn siroedd Dinbych, Fflint, a Meirion; canys ni a'u cawn yn Bachymbyd, Rug, Bachegraig, Yr Ystoc, Lleproc, Llanrhaiadr, Llewesog, Clocaenog, Llanfwrog, Gyffylliog, Gwytherin, Dolbeleder, a Llandyrnog. Chwanega G. Mechain:—"Ond golud yn ddiau a gymer adenydd, ac a eheda ymaith, megys eryr tua'r wybr. Enwau a theuluoedd a ymddangosant yn fawr eu rhwysg, ac a ddiflanant. Felly o'r Salsbriaid llydain eu hesgyll, nid oes heddyw—'prin *ddau* lle 'roedd gynau gant'—neu lai na *dau*, canys ar wibfeddwl ysgafn nis gwn ond am un tylwyth cerbydawg, boneddwiw, o'r enw, a hwnw nid yn *Nghwynedd* ond yn *Ngwent*." Er y dywed y Priffardd nas gwyr am ond un "teulu cerbydawg" yn dwyn yr enw, eto y mae amryw werinwyr parchus yn dwyn y cyfenw a adwaenem yn Nyffryn Clwyd, ac y maent, er wedi colli urddasoldeb cyfoeth, eto yn meddu urddasoldeb pryd agwedd yr hen arwyr gorwych eu cyndeidiau—yn wyr esgyrniog, gwisgi, a chedyrn. Ail fab ydoedd William Salisbury i Foulk Salisbury, Ysw., o'r Plas isaf, Llanrwst, sir Ddinbych, lle y ganwyd ef yn gynar yn yr 16eg ganrif. Ei daid, Robert Salisbury, ydoedd bedwerydd mab Thomas Salisbury "Hên," o Leweni, fel y gelwir ef mewn rhai achlyfrau, ac yn ben gwelygordd. Efe a daeth i feddiant o etifeddiaeth y Plasisaf trwy briodi Gwenhwyfar, merch i Rys ab Einion Fychan, o'r lle hwnw. Wedi cael elfenau ei ddysgeidiaeth yn Nghymru, aeth i Rydychain; ond ni wyddai Anthony Wood pa un ai yn athrofa St. Alban ai yn Broadgate (yn awr coleg Penfro) y cartrefodd tra yn y brifysgol. Symudodd o Rydychain i Lundain, er mwyn efrydu y gyfraith. Bu am ryw yspaid yn *Thavies' Inn*, ac wedi hyny, medd rhai, yn *Lincoln's Inn*. Ond fel y sylwa y Parch. Walter Davies: "Ni adawodd Rhagluniaeth iddo ymrwymo am ei oes yn ngwasanaeth y gyfraith ac elw bydol. Gadawai y rhai hyn i Ddemas a'i deulu, a dychwelodd i fyw ar ei etifeddiaeth i wlad ei enedigaeth. Helaethrwydd ei wybodaeth a dyfnder ei ddysg mewn llawer o ieithoedd a wnaeth i oreugwyr a dysgedigion ei wlad edrych arno gyda pharch a charedigrwydd. Os efe a gyfansoddodd y Rhagymadrodd o flaen ei 'Egluryn Ffraethineb,' a gyhoeddodd H. Perri, ar ddymuniad John Salsbri o Leweni, ymddengys ei fod yn hyddysg mewn naw o ieithoedd heblaw Saesneg a Chymraeg; sef Hebraeg, Caldaeg, Syriaeg, Arabaeg, Gryw-

Digitized by Google

aeg, Lladinaeg, Ffrancaeg, Italaeg, a'r Hispanaeg; mwy o rifedi nag 'wythawd' ei nai fab cefyrder, yr awenyddawl a'r hybarch Edmund Prys, mydrydd y Salmau Cân." I'w ddysgeidiaeth a'i wladgarwch y mae y Cymry yn ddyledus am y cyfieithiad cyntaf i'r Gymraeg o'r Testament Newydd, o'r Groeg gwreiddiol (wedi ei gydmaru â'r *Vulgate* Lladinaidd). Yn 1563, deddfwyd gan y Senedd fod i'r Beibl, yn cynwys yr Hen Destament a'r Newydd, gael ei gyfieithu i dafodiaith y Cymry; a than ddirwy o £40 yr un, os anufuddhaent, penodwyd fod i Esgobion Llanelwy, Bangor, Tyddewi, Llandaf, a Henffordd, i ofalu fod i'r cyfieithiad gael ei gyflawni, ei argraffu, a'i ddodi yn yr eglwysi plwyfol erbyn dechreu Mawrth 1566. Pa fodd bynag, ni wnaeth y cyfieithiad ei ymddangosiad hyd 1567, a hwnw ar y Testament Newydd yn unig. Argraffwyd ef yn Llundain, gan Henry Denham, yn yr hen lythyren ddu, ac nid oes sicrwydd pa un ai ar draul Humphrey Toy, ynte efe oedd y cyhoeddwr. Dywedir gan Syr S. R. Meyrick yn ei *Heraldry*, mai Toy, neu yn hytrach ei fam Mrs. Elizabeth Toy, lleddebyga a'i cyhoeddodd ar ei thraul ei hun; ei bod hi yn Gymraes; ond a dweyd y lleiaf, egwan iawn ydyw y dystiolaeth hon. Cynwysai y gyfrol 800 o dudalenau, ac oddigerth y Llythyr cyntaf at Timotheus, y Llythyr at yr Hebreaid, Llythyrau Iago a Phedr, y rhai a gyfieithwyd gan y Dr. Richard Davies, esgob Ty ddewi; a Llyfr y Datguddiad, a gyfieithwyd gan Thomas Huet, prif gantor Tyddewi, y mae yr oll o waith William Salisbury. Y mae pob lle i gredu, ei fod ef wedi dechreu ar y gwaith daionus o gyfieithu yr Ysgrythyrau i iaith ei wlad yn mhell cyn i'r ddeddf uchod gael ei gwneud yn y senedd. Yr oedd efe yn Brotestant o nod cyn esgyniad Mari i'r orsedd, canys cawn iddo ddyfod yn fuan yn wrthddrych dygasedd gwaedgwn yr erlides greulawn hono, ac nis gwyddom am ddim tebycach i enyn y dygasedd hwnw na'r *gair* ei fod yn brysur wrth y gwaith o gyfieithu y Beibl i iaith y werinbobl Gymreig. O flaen yr erledigaeth hon, bu yn ffoadur, ac yn ymguddio, medd traddodiad, mewn ystafell gudd a wnelsid i'r perwyl yn simddeu y Cae Du, Llansannan; ac yno, yn ol yr un awdurdod, y cyflawnodd orchestwaith ei fywyd. Yr oedd y Cae Du a dwy neu dair o ffermydd eraill yn yr un ardal yn rhan o ystad y Plasisaf, a chan mai ail fab oedd William, disgynodd y rhan hon ohoni iddo ef ar farwolaeth ei dad, tra y cadwodd ei frawd hynaf feddiant o'r Plasisaf. Y mae yr hen dŷ hwnw bellach wedi ei dynu i lawr, ond gallesid gweled yr hen gorn simddeu lydan yno yn nghanol yr adfeilion rai blynyddau yn ol, ac y mae pobl yr hen Lan gwledig yn glynu yn ddiysgog yn yr hen draddodiad sydd yn enyn y fath ddyddordeb yn eu hardal, ac yn ei llanw â'r fath gysegredigrwydd i bob Cymro. Gellir sylwi yma mai cyfieithiad Salisbury, er wedi ei gyfnewid a'i ddiwygio gan yr Esgobion Morgan a Parry, ydyw yr un sydd mewn arferiad yn bresenol. Hysbysir ni hefyd yn y cofnodau bywgraffiadol sydd mewn cysylltiad â'r *Gwydir Family*, gan Syr John Wynn, fod Salisbury wedi ymgymeryd â chyfieithu yr Hen Destament, a chyda'r gwaith hwn y bu yn trigianu am ddwy flynedd gyda'r Esgob Davies, "yn ystod yr hwn amser yr oedd wedi myned yn mhell yn mlaen, a buasai wedi ei gwblhau, pe na chyfodasai dadl rhyngddynt parth ystyr a gwreiddiau un gair, yr hwn a fynai y Dr. un ffordd, a Salisbury ffordd arall, er mawr golled i'r hen iaith Frythonaidd; canys yn nghyd yr oeddynt yn cyfansoddi Homiliau, Llyfrau, ac amryw o lyfrynau eraill yn Nghymraeg, a gwnaethent lawer rhagor oni buasai yr anghydfod anffodus a ddigwyddodd rhyngddynt, canys bu yr Esgob fyw

Digitized by Google

bump neu chwe' blynedd ar ol hyny, a Wm. Salisbury bedair ar hugain o flynyddau, eithr rhoddes i fynu ysgrifenu, mwyaf y gresyn, canys yr oedd yn ysgolhaig campus, yn enwedig yn yr Hebraeg, o ba rai nid oedd ond ychydig yn y dyddiau hyny." Y llyfr cyntaf a gyhoeddwyd o waith Salisbury ydoedd fath o almanac, ac ar ei wynebddalen ceir ei gynwysiad: "Yn y Llyfyr hwn y traethyr Gwyddor Cymraeg. Kalendyr. Y Gredo neu bynkeu y ffydd Gatholig. Y Pader neu Weddi yr Arglwydd. Y Deng air Deddyf. Saith rinwedd yr Eglwys. Y Kampey arveradwy a'r gweddiau gocheladwy ac Keingeu," Llundain, 1546. Dyma y llyfr cyntaf a argraffwyd yn yr iaith Gymraeg. Y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd, "A Dictionary in Englyshe and Welshe, moche necessary to allysuche Welshmen as will spedly learne the Englyshe tongue, thought unto the Kynges Majestie very mate to be sette forth to the use of his graces subjects in Wales; whereunto is prefixed a little treatyse of the englyshe pronunciacion of the letters," Llundain, 1547. Y mae y llyfryn hwn wedi ei gyflwyno trwy ganiatad i'r brenin Harri VIII. 3, "Battery of the Pope's bottereulx, commonly called the High Altar," Llundain, 1550. 4, "Arweinydd hawdd ac eglur i'r Iaith Gymraeg," Llundain, 1550; cyhoeddwyd ail-argraffiad diwygiedig yn 1567. 5, "Kyniver llyth a ban o'r Ysgrythyr ac a ddarlleir yr Egeleis pryd cymun, Sulieu, a'r Gwilieu, trwy'r Vlwyddyn. O Gambereiciat William Salesbury," Llundain, 1551. 6, "Rhetoreg, neu Egluryn Ffraethineb;" gadawyd y gwaith hwn mewn ysgrifen ganddo, ac ar ddymuniad a thraul ei gâr, J. Salisbury o Leweni, adolygwyd ef, a chwanegwyd ato gan y Parch. Henri Perri; adargraffwyd ef yn un rifynau *Gwal* Llundain, yn 1895. Nid oes hysbysrwydd sicr yn mha flwyddyn y bu farw William Salisbury; ond os oes coel i'w roddi ar ddyddiadau Syr John Wynn, yn y dyfyniad blaenorol, cymerodd hyny le yn 1599; ond cyhoeddwyd yr "Egluryn Ffraethineb" bedair blynedd cyn hyny, ac y mae yn syn os darfu i John Salisbury fyned i'r draul o gyhoeddi y gwaith, a Henri Perri fyned i'r drafferth o'i olygu, a'r awdwr eto yn fyw, ac efe yn ddigon cyfoethog i dalu, ac yn ddigon abl i ofalu, am ei lenorwaith ei hun. Hawddach genym gredu mai yr hen farwnig oedd yn cibddeillio.

SAMSON, sant yn y chweched cant. Mab ydoedd i Amwn Ddu, brenin Graweg yn Llydaw, mab i Emyr Llydaw, o Anna, merch i Meurig ab Tewdrig. Ganwyd ef yn Morganwg, a chafodd ei addysg yn ngholeg Illtyd, ac ar farwolaeth Peirio, efe a benodwyd yn llywydd y lle hwnw. Ar ol hyny, tua 550, efe a aeth i Lydaw, ac a wnaed yn esgob Dole. Yn y Concilia Galliæ, yr hwn a ddyfynir gan Usher, hysbysir ei fod yn bresenol ac yn cydolygu âg ail gynghor Paris a gynhaliwyd yn 557. Dychwelodd drachefn o Lydaw i goleg Illtyd, lle y bu farw 592, yn 68 oed. Y mae dau faen mawr ar lun croes yn sefyll hyd yr awr hon yn mynwent Llanilltyd, a gwahanol grybwyllion am Samson arnynt. Yr oedd sant arall yn perthyn i'r un cyfnod, o'r enw Samson ab Caw, ac y mae digwyddiadau bywyd y naill mor debyg i'r eiddo y llall, fel y credir yn ddilys mai yr un un oeddynt.

SAMPSON, a olianodd Arthmael fel archesgob Tyddewi. Gan i bla dori allan yn ei esgobaeth, efe a ymneillduodd i Dole, yn Llydaw, a chan gymeryd arwyddnod ei swydd—y *Pall*, gydag ef, naill ai o ddiffyg hwn, neu oddiar ryw resymau eraill, collodd ei olafiaid y teitl o archesgob; er hyny, yr holl esgobion Cymreig a gysegrid ganddynt hwy hyd amser Harri I., pan y darfu i'r brenin Seisnig hwnw, wedi llanw bron yr oll o sir Benfro â Fflemingiaid a gyru allan y brodorion Cymreig, benodi

Digitized by Google

Bernard y Normaniad i'r esgobaeth, ar draws yr hen ddefod o fod clerigwyr Cymru yn gwneud y newisiad hwnw eu hunain. O'r pryd hwnw allan, gorfu arnynt dalu gwarogaeth anfoddlon, i archesgob Canterbury. Bu yr Archesgob Sampson farw yn Dole, a chladdwyd ef yno, eithr cludwyd ei weddillion wedi hyny i Middleton, sir Dorset, lle y darfu i'r brenin Athelstan adeiladu mynachlog fawreddog, a'i chyflwyno er anrhydedd i'w goffadwriaeth.—Wms. *Em. Welsh.*

SAMUEL (CHRISTMAS). Tybir iddo gael ei eni yn mhlwyf Llanegwad, sir Gaerfyrddin, yn 1674. Dilynodd Mr. Thomas Bowen fel gweinidog eglwys Pantteg, sir Gaerfyrddin, yn 1710; a bu ei weinidogaeth yn dra llwyddianus yno. Bu hefyd yn offeryn i gynal a sefydlu amryw gynulleidfaoedd mewn amryw barthau o'r un sir. Cyhoeddodd luaws o lyfrau defnyddiol yn yr iaith Gymraeg, ac yn eu plith grynhodeb o "Esboniad Matthew Henry ar y Testament Newydd," ac Egluradau yr un gwr ar "Gatecism y Gymanfa;" bu hefyd o gryn gymhorth i Griffith Jones o Landdowror yn y gwaith o sefydlu ei Ysgolion yn Nghymru. Yr oedd yn un o'r gwyr mwyaf cyhoeddus ei ysbryd yn ei oes, ac yn barchus iawn gan bawb a'i hadwaenai. Nid oedd un gweinidog ymneilldduol a chymaint o ddylanwad ganddo gyda'r boneddigion ag efe. Bu farw Mehefin 18, 1764, yn 90 oed—Rees' *Noncon. in Wales.*

SAMWELL (DAVID), neu Samuel, bardd coeth, a brodor o Nantglyn, sir Ddinbych. Yr oedd yn ŵyr i'r Parch. Edward Samuel, a gofnodir isod. Cafodd addysg feddygol, a phenodwyd ef yn feddyg ar fwrdd y llong *Discovery*, a lywyddid gan yr enwog Gadben Cook, ac yn y llong hono yr aeth efe i'r Moroedd Gogleddol yn 1776; ac yr oedd gyda Cook yn ei ymgyrch i geisio darganfod y cyfandir deheuol. Yr oedd hefyd yn llygad-dyst o lofruddiaeth y Cadben enwog gan drigolion Ynysoedd Sandwich, ac ysgrifenodd hanes y gyflafan alaethus i'r *Biographia Britannica*, yr hwn hefyd a gyhoeddwyd yn llyfryn ar wahan yn 1786 tan y teitl "*Narrative.*" Anrhegodd y Cadben Cook â rhai o'r cywreinbethau a gasglodd efe yn ystod y mordeithiau hyn, ac y maent yn awr yn nghadw yn llyfrgell Coleg y Drindod, Caergrawnt. Cyfansoddai ef yn benaf yn Saesneg. Y mae cywydd marwnad iddo o waith Thomas Edwards o'r Nant, i'w weled yn *Niliau Barddas* Bardd Nantglyn. Bu farw yn 1798, a chladdwyd ef yn mynwent St. Andrew's, Holborn, gerllaw yr Ysgol Gymreig, yn Llundain. Cyhoeddwyd ei ddarlun yn Paris, ac y mae rhai o'i ysgrifeniadau yn argraffedig yn y *Cambrian Register.*—Wms. *Em. Welsh.*

SAMUEL (PARCH. EDWARD), offeiriad Bettws Gwerfil Goch, a chyfieithydd "Gwirionedd y Grefydd Gristionogol." Ganwyd ef mewn lle o'r enw Cwt y Defaid, yn mhlwyf Penmorfa, sir Gaerfyrddin, yn 1674. Dywedir mai mab i wr tlawd ydoedd; a phriodolir ei ddygiad i fynu i'r offeiriadaeth i nawdd a chefnogaeth y Dr. Humphreys, esgob Bangor, yr un gwr ag a anogodd awdwr y *Bardd Cwsg* i gymeryd urddau eglwysig. Cafodd bersoniaeth Bettws Gwerfil Goch yn 1702, a bu yno am bedair blynedd ar ddeg. Yn 1721, symudodd i Langar, yn yr un gymydogaeth, lle yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd Ebrill 8, 1748, ac efe yn 75 oed. Claddwyd ef yn mynwent Llangar, wrth ben dwyreiniol yr eglwys; ac y mae ei gareg fedd yn aros yno hyd heddyw. Ysgrifenodd Edward Samuel lawer yn ei ddydd, a rhesir ef yn gyfiawn yn mhlith ysgrifenwyr goreu y 18fed ganrif. Yr oedd hefyd yn fardd o gryn gyfrifoldeb; a gellir gweled amryw engreifftiau o'i gynyrchion prydyddol yn *Mlodeugerdd Cymru* a'r *Dewisol Ganiadau.* Nid rhyw lawer o

Digitized by Google

gyfansoddiadau gwreiddiol a gyhoeddwyd ganddo ; ond gwasanaethodd ei oes a'i genedl trwy gyfieithu i Gymraeg lân ddiledryw, lyfrau gwir werthfawr o ieithoedd eraill. A ganlyn sydd restr o'i weithiau llenorol: —1, "Bucheddau'r Apostolion a'r Efengylwyr a gasglwyd allan o'r Ysgrythur-Lân ac o Ysgrifeniadau'r Athrawon goreu," 1704. 2, "Gwirionedd y Grefydd Grist'nogol," cyfieithiad o waith Hugo Grotius, 1716 —cyhoeddwyd ailargraffiad o hwn yn argraffdy y Wesleyaid yn Llundain tua dechreu y ganrif bresenol—a thrydydd argraffiad gan Mr. Spurrell, Caerfyrddin, tan olygiaeth y Parch. D. Silvan Evans, yn 1854. 3, "Holl Dyledswydd Dyn a osodwyd ar lawr mewn ffordd eglur, hawdd ei deall, er lles i bawb, ond yn enwedig i'r Darllenydd gwaelaf. Gwedi ei ddosbarthu yn XVII o Benodau. Ac wrth ddarllen un o honynt bob Dydd yr Arglwydd, gellir darllen y cyfan dair gwaith yn y Flwyddyn. Angenrhaid i bob Teuluoedd. Gyda Duwiol-swyddau Dirgel ar amryw Achosion. O gyfieithiad Edward Samuel," 1718 ; 4, "Prif Ddyledswyddau Christion, sef Angenrhaid a Mawrlles Gweddi Gyffredin a Mynych Gymmuno," 1722—cyfieithiad ydoedd hwn o waith yr Esgob Beveridge, a daeth ail argraffiad o hono allan yn 1723 ; 5, "Athrawiaeth yr Eglwys. Y rhan Gyntaf. Yn cynwys xii. o Draethiadau Bucheddol a'r amryw Achosion. Gan Peter Nourse, D.D. At yr hyn 'chwanegwyd Gweddiau Boreuol a Phrydnawnol i Deuluoedd. O waith y Parchedig Dad yn Nuw William Wake, D.D. A'u cyfieithu gan E. S., Person Llangar," 1731; 6, "Pregeth ynghylch gofalon Bydol," 1720 ; 7, "Pregeth ar Adgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist," tua 1766.—*Rhagymadrodd i argraffiad* 1854 o "Wirionedd y G. Grist'nogol," gan HIRLAS.

SANDDE, sant yn y bumed cant. Mab ydoedd i Ceredig ab Cunedda; priodes Non, merch Gynyr o Gaer Gawch, a mab o'r briodas hon ydoedd Dewi Sant.

SANDDE BRYD ANGEL, un o'r triwyr a ddiangasant o Gad Gamlan. Y ddau eraill oeddynt Glewlwyd Gafaelfawr a Morfran ail Tegid,—y cyntaf o nerth, yr ail o hacrwch—pawb a dybient mai cythraul o uffern ydoedd ; a Sandde oblegyd ei harddwch, pawb a dybient mai angel o'r nef ydoedd, ac ni feiddient roddi noeth arf yn ei erbyn. Mab ydoedd i Lywarch Hen, ac yr oedd yn oesoli yn y 6ed ganrif.

SAUNDERS, (PARCH. DAVID) gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn nghapel Sion, Merthyr Tydfil. Ganwyd ef yn 1773. Adnabyddid ef fel dyn nodedig am ei uuiondeb a helaethrwydd ei wybodaeth, ac yn enwedig fel gweinidog rhagorol yn mhob ystyr. Ysgrifenodd lawer i'r hen gylchgronau Cymreig, megys y *Seren Gomer*, &c., barddoniaeth yn benaf ; ond er ei fod fel bardd yn dda a chywrain, nid oes dim llawer o awen ac athrylith danllyd i'w weled yn ei waith. Bu farw Chwefror 4, 1840, yn 70 oed.

SANNAN, neu *Senanus*, ydoedd sant Gwyddelig, ac esgob, a fu farw yn 544. Yr oedd yn gyfaill mynwesol i Ddewi Sant ; ac y mae dwy eglwys yn Nghymru wedi eu cyflwyno iddo, sef Llansannan, sir Ddinbych ; a Bodwelllty, yn sir Fynwy. Cedwid ef mewn cof Mawrth 1, neu yn ol rhai awdurdodau Mehefin 13.—*Iolo MSS.*

SAUNDERS, (DR. ERASMUS) ydoedd o deulu y Saunders o Pendyne a'r Gellysweek, sir Benfro, ydoedd berson Morton-in-the-Marsh, sir Gaerloew. Efe a ysgrifenodd Egluriadau Byrion ar y Bibl, a thraethawd bychan a rhagorol ar Ddyledswyddau Teuluaidd. Yr oedd yn ddyn enwog iawn. Ei fab, y Dr. Erasmus Saunders, oedd yn ganon Windsor, ac yn berson St. Martin-in-the-Fields ; a'r hwn, pe buasai fyw ychydig

Digitized by Google

yn hwy, a ddyrchafesid i'r esgobaith gyntaf a aethai yn wag. Cawsant, ill dau eu dysgeidiaeth yn Ngholeg Merton, Rhydychain; ac yr oeddynt yn ddynion dysgedig a thalentog. Bu rhai o deulu y Saunders hefyd yn enwog yn y gyfraith, ac yn farnwyr oddeutu dau gant o flynyddau yn ol.—Rees' *South Wales.*

SAUNDERS (WILLIAM) ydoedd fab i Evan Saunders, amaethwr parchus, ac a anwyd Ionawr, 17, 1806, yn Gwarycwm, plwyf Llanllwni, sir Caerfyrddin. Bu tan addysg gyda'r enwog Davies, Castellhywel, a thrachefn yn ysgol ramadegol Caerfyrddin. Yn 1821, aeth i ddysgu y gelfyddyd o argraffu at Mr. Samuel Williams, o Aberystwyth, lle y trigianodd hyd 1829. Profodd ei fod yn fardd o gryn deilyngdod pan yn dra ieuanc; ac yn 1824, pan yn 18 oed, enillodd wobr a thlws arian yr Archddeon Beynon yn Nghaerfyrddin am y bryddest foelodl oreu ar "Y Gwanwyn." Yn 1826, enillodd y wobr a'r tlws am gyfansoddiad cyffelyb ar "Yr Haf;" ac yn 1827 a 1828, gwobrwywyd ef am bryddestau ar "Yr Hydref," a'r "Gauaf." Ystyrid ei waith ar y "Gauaf" yn gyfartal i'r eiddo Daniel Ddu, yr hwn hefyd oedd yn ymgeisydd, a rhoddwyd gwobrau cyfartal iddynt ill dau. Yn 1828, enillodd wobr a thlws arian am y bryddestawd Bindaraidd oreu ar y "Daran," ac yn 1829, cafodd y wobr am y cyfieithiad goreu o'r "Deserted Village," gan Goldsmith. Yr oedd yn aelod o Gymdeithas Cymreigyddion Aberystwyth, enillodd ganddi wobrau am yr awdl oreu i'r "Mor," ac am y cywydd goreu ar "Gastell Aberystwyth." Yn 1830, ar gais Mri. R. a W. Rees, symudodd i Lanymddyfri, lle y trigianodd hyd ei farwolaeth. Cynorthwyai Mr. Blackwell fel isolygydd y *Cylchgrawn*, a chyfieithodd amrai o'r erthyglau sydd yn y misolyn hwnw. Ymddangosodd lluaws o'i gyfansoddiadau yn y gwahanol gylchgronau a gyhoeddwyd gan Mr. Rees, yn enwedig yn yr *Haul*, yn mha un yr argraffwyd rhai o'i gyfieithiadau o Horace a Homer. Wedi marwolaeth y Cadeirdraw Rees, efe a olygodd yr argraffiad newydd o "Ganwyll y Cymry," a bu o fawr gymhorth yn nyngiad allan amryw lyfrau eraill o wasg enwog Llanymddyfri. Bu farw Mehefin 30, 1851, a chladdwyd ef yn mynwent Llandingad.—Wms. *Ems. Welsh.*

SAWYL BENISEL, yn ol y *Brutiau*, a olianodd ei dad Rhydderch fel brenin Prydain yn yr ail ganrif cyn Cred.

SAWYL BENUCHEL, penaeth yn y chweched ganrif, ydoedd fab Pabo Post Prydain, ac a restrir yn y *Trioedd* gyda Pasgen a Rhun, tan y penawd "tri thrahaawg; a thrahausaf ar bob trahaus eu traha wynt, ac achaws hyny dwyn difrawd ar Ynys Prydain; a'r ddifrawd hon a ddamgystlyses â'r Saeson, ac o'r diwedd myned yn Saeson."—*Tri* 74. Wedi iddo fel hyn golli ei gyfoeth a'i deyrnedd, efe a ymarweddodd fywyd crefyddol, ac a neillduodd i fynachlog Bangor Iscoed, pan oedd Dunawd yn brif-fynach.—*Myv. Arch.*

SAWYL FELYN, sant yn yr wythfed cant. Mab ydoedd i Bledri Hir, ab Meirig brenin Dyfed; efe a sefydlodd eglwys Llansawel yn Emlyn, sir Caerfyrddin.

SEIRIOL, sant yn nechreu y 6ed cant, a mab i Owain Danwyn ab Einion Yrth ab Cunedda Wledig. Yr oedd ar y cyntaf yn aelod o goleg Garmon, a phan sefydlodd Einion brenin Lleyn goleg yn Mhenmon, Mon, efe a ddodes Seiriol ei nai yn llywydd arno, ac a'i gwaddolodd â llawer o diroedd a chyfoeth. Daeth Cor Seiriol mor enwog, fel y deuai gwyr Llychlyn, neu y Scandinafiaid, y rhai a wladychasant yn Ysgotland ac Ynys Manaw, yno am addysg ddefnyddiol a chrefyddol. Yr

Digitized by Google

oedd Cor Beuno a Chor Seiriol yn enwocach am eu dysg na'holl gorau Gogledd Cymru y pryd hwnw. Yr oedd cell feudwyol mewn cysylltiad â Choleg Seiriol yn Ynys Glanach, neu *Priestholme*. Gelwir yr Ynys hono yn awr ar enw Seiriol. Gweler yn mhellach tan y gair CYBI.

SEITHENYN FEDDW, a gofnodir yn y *Trioedd*, gyda Cheraint brenin Essyllwg, a Gwrtheyrn Gwrtheneu, tan y penawd, "tri charnfeddwon Ynys Prydain,—Trydydd, Seithenyn Feddw ab Seithyn Seidi, brenin Dyfed, a ollynges yn ei ddiawd y môr dros Gantre'r Gwaelod, oni chollwyd o dai a daear y maint ag oedd yno, lle cyn hyny y caid un dinasdref ar bumtheg yn oreuon ar holl drefydd a dinasoedd Cymru, a gadu yn amgen Caerlleon ar Wysg; a chyfoeth Gwyddnaw Garanhir, brenin Ceredigion ydoedd Cantre'r Gwaelawd, ac yn amser Emrys Wledig y bu hyny; a'r Gwyr a ddiangasant rhag y bawdd hyny a diriasant yn Ardudwy, a Gwlad Arfon, a mynyddoedd yr Eryri, a lleoedd eraill nad oeddynt yn gyfanedd cyn no hyny."—*Tri* 37. Tybir ddarfod i'r gorlifiad gymeryd lle yn y flwyddyn 520, a bod y gwastadedd yn perthyn rhwng Gwyddno Garanhir brenin Ceredigion, a Seithenyn brenin Dyfed; ac oherwydd y bawdd hwn, meibion, y naill a'r llall a arweddasant fywyd crefyddol. Meibion Seithenyn, sef Gwyndeg, Senewyr, Arwystli Gloff, Llibio, Tudglud, Merini, Gwynodl, Hoedloyw, Tudno, a Teneio, a ddaethant oll yn aelodau o goleg Dunawd, yn Mangor Iscoed. Cyfeirir yn fynych gan y beirdd at orlifiad Cantre'r Gwaelod, ac y mae galaeth Gwyddno ar gân i'w gweled yn y *Myv. Arch.* Yn englynion "Beddeu y Milwyr," dywedir fod bedd "Seithenyn, synwyr wan," rhwng Caer Cenedir a'r lan.

SELYF, ab Cynan ab Garwyn, a gofnodir yn y *Trioedd*, gydag Afaon a Gwallawg, tan y penawd "tri aerfeddawg,—sef y gelwid hwy felly am ddarfod dial eu cam oc eu beddeu." Penaeth ydoedd yn Mhowys yn ystod y 6ed ganrif.

SELYF ab Geraint ab Erbin, sant o goleg Garmon, yn ei flodeu tua chanol y 6ed cant. Yr oedd efe yn frawd i Cyngar, Iestyn, a Caw, y rhai oeddynt yn aelodau o'r un coleg. Gelwir ef yn yr hen ramantau yn Solomon duc Cernyw.

SEFNYN, bardd enwog rhwng 1320 a 1370. Brodor ydoedd o Lanbabo, yn Mon. Y mae tri dernyn o'i waith yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

SIAMS AB HARRI, bardd rhwng 1570 a 1600. Brodor ydoedd o Euas, ac y mae peth o'i waith yn nghadw mewn llawysgrifen.

SIANCYN AB EINION, bardd rhwng 1540 a 1600.

SIANCYN (HYWEL), bardd rhwng 1590 a 1630.

SIANCYN (MORGAN), bardd rhwng 1580 a 1610.

SIDDONS (MRS.), y draith chwareuyddes enwog. Ei henw gwyryfol ydoedd Sarah Kemble. Ganwyd hi yn Aberhonddu Mehefin 5, 1755. Yr oedd ei thad, Roger Kemble, yn cadw math o chwareufa amdeithiol, ac yn mhlith y dosparth hwnw perchid ef yn fawr. Ymddangosodd Sarah, yr hon ydoedd ei ferch hynaf, ar yr esgynlawr pan yn dra ieuanc, ac er iddi weithredu amryw o'r cymeriadau a roddir i blant, ni lwyddodd i dynu ond ychydig sylw, nac i enyn ond ychydig obeithion. Pan yn ddeunaw oed, hi a briododd chwareuwr a berthynai i gwmni ei thad, o'r enw Siddons. Yn fuan ar ol hyny, symudodd i Cheltenham, lle yr enillodd gryn sylw, ac y daeth ei galluoedd yn hysbys i'r enwog David Garrick, yr hwn a'i cyflogodd i fyned i chwareudy Drury Lane, Llundain. Nid oedd ei hymddangosiad cyntaf ar fyrddau Llundain yn

Digitized by Google

un llwyddianus, am y rheswm nad oedd y cymeriadau a roddid iddi yn gyfaddas i'w galluoedd. Gan hyny, gadawodd y Brifddinas yn siomedig a gofidus; eithr darfu i ganmoliaethau digymysg ei chynulleidfaodd yn York, Manchester, a Bath, beri i feistriaid chwareudy Drury Lane ei hail wahodd yno. Gwnaeth ei hail ymddangosiad Hydref 2, 1712; a'r cymeriad a ddewisodd i'w gynrychioli ydoedd Isabella yn y *Fatal Marriage.* Yr oedd ei chwareu y tro hwn yn nerthol a digyffelyb; teimlai y dorf wrth edrych a gwrando fel pe buasent tan ysgytiadau gwefrdan, ac ymgollent mewn gwynfydedd wrth edmygu ei doniau amrywiol ac annghydmarol. Y noson hono, cymerodd Mrs. Siddons lawn feddiant o orsedd pruddchwareuaeth, a chadwodd hi yn ddiwrthwynebiad am ddeg ar hugain o flynyddau. Daeth yn destyn holl ymddiddan y dydd, yn enwedig cylchoedd diwylliedig Llundain; a gwnaed anrheg iddi o gan' gini gan far-gyfreithwyr y *Temples,* fel teyrnged fechan o barch i'w hathrylith ysplenydd. Yn ystod yr un tymhor, hi a chwareuodd Euphrasia, Jane Shore, Calista, Belvidera, a Zara. Chwanegodd yn ddirfawr at ei henwogrwydd yn mhob un o'r cymeriadau hyn; yr oedd y cyhoedd yn rhyfeddu at ddyfnder ac eangder ei galluoedd, a thrwy hyny daeth prudd chwareu i fri uchel. Y tymhorau canlynol eangodd cylch ei chymeriadau, gan gymeryd o Shakspeare yr eiddo *Lady* Macbeth, Constance, Isabella, y frenhines Catherine, Rosalind, Desdemona, Volumnia, Portia, Hermione, Imogene, ac ychydig eraill. Dengys y rhestr yna ei bod yn gallu cyfaddasu ei galluoedd at gryn amrywiaeth, ond nid oedd o lawer cystal yn rhai o honynt ag yn y lleill. Tra yn actio Catherine yn goeth a chelfydd, syrthiai yn fyr gyda Rosalind; ac anfynych y rhoddai foddlonrwydd yn y comedi. Pan y daeth y tymor dinesig i ben yn Lludain, yn unol ag arferion y chwareuwyr enwog, hi a ymwelodd â phrif drefi y talaethiau. Enillodd ffafr fawr hefyd yn ngolwg y llys, a byddai yn arfer myned yno i ddarllen chwareuon, gwaith â mwy o anrhydedd yn perthyn iddo nag o elw. Pa fodd bynag, trwy ei hymdrechion a'i hathrylith, llwyddodd Mrs. Siddons i gynull cyfoeth lawer, ac ymneillduodd oddiar yr esgynlawr yn 1812. Bu farw Mehefin 8, 1831, yn 76 oed. Yr oedd rhywbeth tra deniadol yn mherson cymesurol a hardd y chwareuyddes gampus hon. Yr oedd dullwedd ei hwyneb yn gryf, ac eto yn dra gweddus; tra yr oedd ystwythder ei threm a'i hedrychiad yn destyn syndod; ei llais ydoedd dyner, ac eto, pan fyddai galwad am hyny, hi a allai daflu nerth ac yni mawr ynddo; yr oedd ei haceniad yn glir a threiddgar; ond uwchlaw y cyfan, yr oedd yn feistres ar ei galluoedd, ac yn meddu y farn a'r chwaeth hono a'i galluogai i'w harddangos yn y dull mwyaf naturiol. Tafiai ei hunan yn llwyr i deimlad a hunaniaeth y cymeriadau a gynrychiolai. Nid cellwair ydoedd chwareu iddi hi; ac os byddai y cymeriad oedd ganddi mewn llaw yn wylo, wylai hithau ddagrau gwir a diragrith. Pan y gwgai hi byddai hyd yn nod ei chydchwareuwyr yn crynu ger ei bron, ac yn arswydo rhagddi. Ei chymeriadau penaf ydoedd Catherine, gwraig Harri VIII., a *Lady* Macbeth, yn mha rai yr arddangosai y fath falchder a digofaint, y fath deimlad a'r fath gyneddfau, na lwyddodd yr un fenyw erioed i'w harddangos yn well. Yn olaf, yr oedd Mrs. Siddons yn hollol wreiddiol, nid efelychai neb byw na marw, ond tynai ei holl wersi o natur, ac o honi ei hunan. Yn holl rodfeydd ei bywyd yr oedd yn wraig dra rhinweddol, fel y dywed Campbell, y bardd, yr hwn a'i hadwaenai yn dda, am dani, "Yr oedd yn fwy na dynes o athrylith, canys yr oedd haelfrydedd ei chalon yn ei gwneud yn anrhydedd i'r rhyw deg,

Digitized by Google

ac i'r natur ddynol."—*Encyclopædia Britannica.* Y mae *tablet* hardd wedi ei gyfodi i'w choffadwriaeth yn Aberhonddu.

SION ab Huw Conwy, bardd rhwng 1570 a 1600.

SION ab Hywel ab Llywelyn Fychan, bardd rhwng 1460 a 1490.

SION ab Hywel Gwyn, bardd rhwng 1580 a 1610.

SION ab Meredydd ab Hywel, bardd rhwng 1570 a 1600.

SION ab Rhobert ab Rhys ab Hywel, bardd rhwng 1590 a 1630.

SION ab Rhys Morrys, bardd rhwng 1580 a 1620.

SION ab William ab Sion, ydoedd berorydd neu delynor enwog yn amser y frenhines Elizabeth, ac efe a enillodd y Delyn Arian yn Eisteddfod Caerwys, yn 1568.

SION CAERAU HEN, bardd rhwng 1580 a 1620.

SION DAFYDD LAS, bardd a thelynor tlawd yn byw yn y Pandy, Llanuwchlyn, Meirion, yn ei flodeu rhwng 1650 a 1690. Noddid ef gan Fychaniaid Nannau, yn Meirion, ac am hyny y gelwid ef yn fynych yn "Fardd Nannau." Y mae rhai engraifftiau o'i waith i'w gweled yn y *Gwyliedydd* ii. 249.

SION GETHIN, bardd rhwng 1600 a 1640.

SION GUTYN FYCHAN, bardd rhwng 1620 a 1650.

SION GWILYM, ydoedd fab i Sion ap Llewelyn Ddu, o Lanegwad, sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn un o filwyr corphol Harri VII. Yr oedd yn un o ysgolorion barddonol Lewis Glyn Cothi, ac y mae Lewis wedi anerch un o'i awdlau iddo, ac yn hono y crybwylla eu bod yn arfer cyddarllen hanesiaeth Gymraeg, ac olrhain achau. Ymddengys hefyd ei fod yn wr o radd gyfoethog, ac yn fardd o fri. Yr oedd yn ei rwysg o 1460 i 1490.—Meyrick's *Dwnn's Heraldry.*

SION Hywel ab Sion, bardd o Lansawel, sir Gaerfyrddin, yn ei flodeu rhwng 1600 a 1640.

SION LEIAF, bardd ac achyddwr, yn ei flodeu rhwng 1450 a 1490. Y mae peth o'i waith ar gael.

SION LLEYN. Ganwyd y bardd talentog hwn yn Traian, plwyf Llanarmon, Eifionydd, sir Gaernarfon, yn 1749. Ei enw bedydd ydoedd John Roberts. Yr oedd yn daid o du ei fam i "Ellis Bryncoch," Liverpool, awdwr *Oriel y Beirdd;* ac yn ewythr frawd ei dad i John Thomas o Chwilog, *(Sion Wyn o Eifion).* Y mae lluaws mawr o gywyddau ac englynion o'i waith yn "Nghorph y Gainc," a gyhoeddwyd gan Dafydd Ddu Eryri; a cheir aml i emyn melus o'i gyfansoddiad yn y Llyfrau Hymnau Cymreig; tra y gadawodd dwysged afrifed o wahanol gyfansoddiadau mewn llawysgrifau heb eu cyhoeddi. Yr oedd yn wr moesol ei fuchedd, ac yn eithriaid i feirdd ei oes parth sobrwydd a chyfrifoldeb ei gymeriad. O ddiffyg llaw hael, ac yni cydymdeimladol a llengarol, y mae ei waith, fel yr eiddo amryw eraill feirdd teilwng, yn aros ar wasgar, ac ar fin difancoll. Bu Sion Lleyn farw Mai 7, 1817, yn 68 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Deinio, eglwys plwyf Pwllheli.

SION (LLYWELYN) o Langewydd, Morganwg, arwyddfardd enwog, a chynullydd diwydbwyll llawysgrifau Cymreig. Cyhoeddwyd y llawysgrifau canlynol o'i gasgliad ef yn yr *Iolo MSS.*, 1, "Enwau a Hiliogaeth Breninoedd Morganwg." 2, "Llyma Rôl Cof a chadw, sef yn gyntaf y sonir am a fu ar gof cyn cadw ar gyfrif, allan a hen ysgrif yn Llyfrgell Castell Rhaglan." 3, "Llafar Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, o lyfr Meuryg Morganwg yn Nghastell Rhaglan." 4, "Mael gyn hir—Talhaiarn—Taliesin." 5, "Hanes Coelbren y Beirdd." 6, "Cywydd i Fair, gan Ieuan ab Rhydderch ab Ieuan Llwyd" 7, "Cyfrinach y Beirdd,"

Digitized by Google

allan o lyfr Meuryg Dafydd, ac eraill." Efe a benodwyd i gasglu cyfundraeth Barddas, fel oedd wedi ei chadw mewn traddodiad yn Ngorsedd Morganwg, ar yr hon y llywyddai yn 1580. Cyflawnodd y gwaith hwnw gyda dilysrwydd a diwydrwydd mawr; a rhoddwyd ffrwyth ei lafur ger bron cynulliad arall o feirdd, pan y penodwyd Edward Dafydd i chwanegu rhai pethau atynt. Y casgliad hwn sydd yn awr yn meddiant Mr. Turberville, o Lanharan. Bu Llywelyn o Langewydd, fel y gelwid ef weithiau, farw yn 1616.—*Cambrian Biog.; Iolo MSS.*

SION (Rhys ab), ydoedd fardd yn trigianu yn sir Forganwg yn y chwarter diweddaf o'r 15fed ganrif. Ymddengys ei fod yn dangos egwyddorion gwrthbabaidd mor fore â hyny, trwy gyfeirio yn fynych at yr Ysgrythyrau, a son am "farw dros y ffydd." Am hyny cafodd ef a Thomas ab Ifan ab Rhys—bardd arall o'r un egwyddorion—eu carcharu gan Syr Mathew Cradock—y cyntaf yn Abertawe, a'r llall yn Nghastell Kynffig. Y mae cywyddau gan Iorwerth Fynglwyd yn cyfeirio at hyn, ac yn deisyfu eu rhyddhau.—*Lleyn MSS.*

SION TEG (Syr), bardd ac offeiriad yn ei flodeu rhwng 1600 a 1640.

SIESYLLT I., ydoedd fab i Gwrwst, yr hwn a olianodd efe fel brenin Prydain yn yr 8fed ganrif cyn Cred.—*Myv. Arch.*

SIESYLLT II., ydoedd fab i Cuhelyn, brenin Prydain, ar farwolaeth yr hwn y cymerodd Marsia, ei weddw, y deyrniaeth i'w llaw, gan nad oedd Seisyllt ar y pryd ond saith oed, ac oblegyd doethineb y fam, buont am hir amser yn cyd-deyrnasu. Tybir ei fod ef yn ei flodeu rywbryd tua'r 3ed ganrif cyn Cred.—*Myv. Arch.*

SEISYLLT III., ydoedd fab i Owain, yr hwn a olianodd efe fel brenin Prydain, yn 0edd ganrif cyn Cred.—*Myv. Arch.*

SMITH (George), LL.B., ydoedd fab i —— Williams, o'r Dewisbren, plwyf Bettws Abergele, sir Ddinbych; ond a fabwysiadodd y cyfenw Smith, oddiwrth ei fam. Y lle cyntaf a gafodd, fel y tybir, ydoedd ficeriaeth Llangernyw, sir Ddinbych, yn 1574. Cafodd ganoniaeth yn Llanelwy y flwyddyn ganlynol. Bu hefyd yn berson Whittford, ac yn ficer y Cwm, yn yr un esgobaeth. Yr oedd yn berson Llaneurgain yn 1584, ac yn Ganghellydd Llandaf yn 1595. Dywedir iddo pan yn Ffrainc, gyfieithu y *Theatre du Mendue* i'r Gymraeg, a'i agraffu yno tan y teitl "Gorsedd y Byd," a galw ei hun yn Rosier Smith ar y wynebddalen. Dywedir hefyd ei greu yn ddoethawr yn y wlad hono yn 1557; ac efrydodd hefyd yn Ngholeg y Frenhines, Rhydychain, er mwyn ei gadarnhau yn yr anrhydedd, a chafodd ei raddio yn LL.B. gan y Brifysgol hono yn 1561. Bu farw yn Ebrill, 1608, a chladdwyd ef yn Llaneurgain, sir Fflint.—*Lleyn MSS.*

SOLOMON (Parch. Griffith), ydoedd frodor o sir Gaernarfon, a phregethwr yn nghyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd. Derbyniwyd ef yn aelod o Gymdeithasfa y Corph hwnw yn 1798. Cyhoeddodd "Eglurhad ar Pregethwr xii.," yr hwn a estynodd wedi hyny yn Eglurhad ar holl "Lyfr y Pregethwr." Casglodd hefyd a chyhoeddodd lyfryn o sylwedd lluaws o bregethau y Parch. John Jones, o Edeyrn. Yr oedd yn arfer cadw ysgol y rhan fwyaf o'i oes.—*Lleyn MSS.*

SPARK (Thomas), D.D., ydoedd fab i'r Parch. Archibald Spark, ficer Llaneurgain, sir Fflint, lle y ganwyd ef yn 1655. Addysgwyd ef yn ysgol Westminster, o ba le yr etholwyd ef i efrydu yn ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain yn 1672; ac wedi ei raddio, cymerodd urddau eglwysig. Cafodd ei benodi yn gaplan i Syr George Jeffreys, yr hwn pan ddyrchafwyd ef yn Arglwydd-ganghellydd, a roddes iddo amryw ddyrchafiadau

Digitized by Google

yn yr eglwys. Cymerodd ei radd o D.D. yn 1687. Yr oedd yn awdwr "Notæ in Libros sex Novæ Historiæ Lozini Comitis," 1679. Y mae hwn wedi ei gyflwyno i'w feistr Dr. Richard Busby, a'i gyfieithu i'r Saesneg gan rywun arall yn 1684. Ei waith nesaf ydoedd "Lucii Cœlii Lanctiantii Firmiani opera quæ extant ad fidem MSS. recognita, et commentariis illustrata," 1684. Pan y bu farw, Medi 7, 1692, yr oedd efe yn rector Ewelhurst, Surrey, a Norton, yn sir Leicester, ac yn brependwr yn Lichfield a Rochester.—Wood's *Athen. Oxon.*

STANLEY (EDWARD), D.D., ydoedd ail fab Syr John Thomas Stanley, arglwydd cyntaf Stanley, a Margaret, merch ac etifeddes i Hugh Owen, o Benrhos, yn Mon. Ganwyd ef Ionawr 1, 1779, ac a briododd Mai 8, 1810, Catherine, merch y Parch. Oswald Leycester, person Stoke yn sir Amwythig. Efe a ddyrchafwyd yn esgob Norwich. —*Lleyn MSS.*

STEPHEN, (EDWARD), ydoedd Gymro o enwogrwydd fel swyddog yn y Gwrthryfel Americanaidd. Yr oedd yn *brigadier-general* yn myddin Virginia. I'w feddyl-garwch a'i hunanlywodraeth ef yn mrwydr Guildford y priodolir cadwedigaeth byddin Green rhag ei hollol ddinystrio. Rhoddes ddeugain o wyr arfog o'r tu ol, a gorchymynai i'r rhai hyny saethu pwy bynag a gynygiai ddianc. Yr oedd yn mrwydrau Great Bridge, Brandy-wine, a Germantown; ac yn ngwarchaead New York. Bu farw yn 1820, yn 76 oed.—*Lleyn MSS.*

STEPNEY (GEORGE), bardd Seisnig a gwladweinydd o gryn fri, a hanai o hen deulu anrhydeddus o'r enw a ymsefydlasai er's hir amser yn Prendergast, sir Benfro, lle y ganwyd yntau yn 1663. Addysgwyd ef yn ysgol Westminster, o ba le y symudodd i Goleg y Drindod, Caergrawnt, yn 1682, ac yno, gan ei fod yn yr un dosbarth â George Montague, wedi hyny Iarll Halifax, enynodd cyfeillgarwch gwresog rhyngddynt. Wedi dyddiau y Chwyldroad, efe a benodwyd i amryw fanau fel llysgenad. Yn 1692, aeth fel y cyfryw swyddog i lys yr Etholwr yn Bradenbury; yn 1693, i'r llys Ymherodrol; yn 1694, at Etholwr Saxony; a'r ddwy flynedd ganlynol, at Etholwyr Mentz, Cologne, a'r gymanfa yn Frankfort. Bu yn dal cysylltiad âg amryw lysgenadaethau eraill; ac yn 1706, danfonwyd ef gan y frenhines Anne yn llysgenad i'r Talaethau Cyffredinol. Yr oedd yn llwyddianus iawn gyda'i negeseuon, yr hyn a barai iddo fod ar waith yn barhaus gyda materion pwysig. Bu farw yn Chelsea, yn 1707, a chladdwyd ef yn Mynachlog Westminster, lle y cyfodwyd colofn hardd i'w goffadwriaeth. Yn ystod ei orian hamddenol, cyfansoddodd amryw ddarnau barddonol, y rhai a gyhoeddwyd mewn dwy gyfrol yn mhlith cyfres o lyfrau barddonol eraill, ac hefyd mewn casgliad cyffredinol o'r beirdd Seisnig. Cyfansoddodd hefyd ddarnau rhyddieithol ar wladweiniaeth, yn enwedig, "An Essay on the present interest of England, in 1701; to which are added, The proceedings of the House of Commons in 1677, upon the French King's progress in Flanders;" yr hwn a ail-argraffwyd gyda'r traethodau a elwid "*Lord Somer's Collections.*"—*Cambrian Register.*

STINAN, neu *Justinian*, sant yn y 6ed cant. Yr oedd yn hanu o rieni anrhydeddus yn Llydaw, a gadawodd y wlad hono gan ddyfod drosodd i Gymru. Sefydlodd eglwys Llanstinan, sir Benfro, a Chapel Stinan, yr hwn a safai unwaith yn mhlwyf Tyddewi. Ysgrifenwyd bywgrafiad rhamantus o hono gan John o Teignmouth, a cheir sylwedd hwnw yn Hanes yr Eglwys gan Cressy.—Rees' *Welsh Saints.*

STRADLING (SYR EDWARD), ydoedd fab hynaf Syr Thomas Strad-

Digitized by Google

ling, o Catherine, merch Syr Thomas Gamage, o'r Coetty, ac yn ddisgynydd uniongyrchol o hen dylwyth y Stradlingiaid, o Gastell St. Donat neu Dunawd, sir Forganwg, lle y ganwyd yntau yn 1529. Addysgwyd ef yn Rhydychain. eithr gadawodd y brifysgol cyn cymeryd ei raddau; ac wedi ymdaith cryn lawer ar y cyfandir, treuliodd beth amser yn Rhufain. Gwnaed ef yn farchog yn 1575. Bu ei dad farw yn 1573, a daeth yntau i hawl a meddiant ar yr etifeddiaethau teuluaidd. Ymroddodd yn ddioedi i fod o ddefnydd i'w wlad, ac ni ddarfu i odid neb yn ei oes arddangos cymaint o amcan i wneud lles i'r cyhoedd ag efe. Yr oedd yn dra chydnabyddus âg iaith a hynafiaeth Cymru, ac yn noddwr haelfrydig i'w llenyddiaeth. Fel engraifft o'i nawdd i lenyddiaeth a dysgeidiaeth, gellir dweyd mai ar ei draul ef yn gyfangwbl yr argraffwyd Geiriadur y Dr. John Dafydd Rhys yn 1592; ac argraffwyd dim llai na 1250 o gopiau ohono. Yn ei ewyllys cyfarwydda fod i'w etifedd, Syr John Stradling, roddi y copiau oedd yn weddill heb eu dosbarthu, "i foneddwyr neu eraill, fel y gwelai oreu er hyrwyddiad yr iaith Gymraeg." Cynullodd Syr Edward gasgliad gwerthfawr o lawysgrifau Cymreig i'w lyfrgell yn St. Donat; ac efe yw awdwr "The winning of the Lordship of Glamorgan, or Morganwg, out of the Welshmen's hands," yr hwn a argraffwyd yn Hanes Cymru Dr. Powell yn 1584: Bu farw yn 80 oed, Mai 15, 1606, yn ddiblant, a chladdwyd ef y dydd canlynol yn Nghapel Mair, a adeiladesid gan ei dad, ac ydoedd mewn cysylltiad âg eglwys Dunawd Sant.—Wood's *Athen. Oxon.; Stradling Correspondence.*

STRADLING (George), D.D., ydoedd bedwerydd mab Syr John Stradling o Gastell Dunawd, yn Morganwg, lle y ganwyd ef yn 1621. Pan yn 15 oed, aeth i goleg Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A., yn 1641. Yn 1643, dewiswyd ef yn gymrawd o All Souls, lle y graddiwyd ef yn M.A. Daliodd ei gymrawdiaeth trwy holl gynhwrf y Chwyldroad a Gwerinlywodraeth Cromwell. Yr oedd yn gerddor campus, ac yn un o'r rhai goreu yn ei oes am chwareu yr offeryn cerdd a elwir y *lute*. Pan ddychwelodd Siarl II., efe a wnaed yn gaplan i'r Dr. Sheldon, esgob Llundain; ac yn D.D. yn 1661. Penodwyd ef i'r swydd o brepend Westminster yn 1663; ac yn gantor yn mhrifeglwys Chichester, yn 1671. Yr oedd yn awdwr, "Sermons and Discourses upon several occasions," 1692; a "Sermon on John xix. 15," 1675. Bu farw Ebrill, 19, 1688, a chladdwyd ef yn Mynachlog Westminster.—Wood's *Athen. Oxon.*

STRADLING (Syr John). Hanai yntau hefyd o hen deulu Normanaidd Cymreig St. Dunawd, yn Morganwg. Mab ydoedd i Francis, ac wyr i Harri Stradling, o'r lle hwnw. Ganwyd ef yn 1563. Pan yn 16 oed, derbyniwyd ef fel cyffredinwr i goleg Brasenose, Rhydychain; ac yn 1584, graddiodd fel aelod o goleg Magdalen Hall, ac ystyrid ef y pryd hwnw yn flaenllaw neillduol mewn dysgeidiaeth. Yna, bu yn ymdaith ar y Cyfandir; ac wedi dychwelyd, efrydodd ar gyfer y gyfraith. Yn ystod ei drigiant yn Llundain, daeth yn gydnabyddus â Camden, Syr John Harrington, Dr. Th. Leyson, a'r Dr. John Dafydd Rhys. Y llyfr cyntaf a gyhoeddwyd o'i waith ydoedd, "De vita et morte contemnenda," yr hwn a argraffwyd yn Ffrankfort, ac a gyflwynwyd i'w gefnder, Syr Edward Stradling uchod. Yn 1607, cyhoeddodd "Epigrammatum lebri quator." Y mae yr englynion Lladin hyn gan mwyaf wedi eu cyfeirio at amryw o'i berthynasau a'i gyfeillion yn Morganwg, ac y mae amryw o'r nodiadau eglurhaol sydd mewn cysylltiad â hwynt

Digitized by Google

yn werthfawr ar gyfrif eu teilyngdod hanesyddol. Ei lyfr nesaf ydoedd, "Beati Pacifici; a Divine Poem, written to the King's most Excellent Majesty," 1623. Bu llawysgrif y bryddest hon yn cael ei darllen gan y brenin Iago I., ac argraffwyd hi dan ei awdurdod. Wedi hyny, cyhoeddodd, "Divine Poems, in seven several classes, written to King Charles I.," 1625. Gwnaed ef yn farchog yn 1608; ac ar farwolaeth ei gefnder, Syr Edward Stradling, yn 1609, daeth i feddiant o etifeddiaethau y teulu, ac ymsefydlodd yn Nghastell St. Dunawd. Crewyd ef yn farwnig Mai 22, 1611. Yn 1625, etholwyd ef yn aelod seneddol dros sir Forganwg. Bu farw Mai 11, 1637.—Wood's *Athen. Oxon.;* Stradling *Correspondence;* Wms. *Em. Welsh.*

SULIEN DDOETH, a etholwyd yn esgob Tyddewi yn 1070. Yn mhen pum' mlynedd, rhoddes ei swydd i fynu; eithr pan laddwyd Abraham, ei olynydd, gan y Daniaid, yn 1079, ar daer ddymuniad y bobl cymerodd feddiant eilwaith o honi, a chadwodd hi hyd ei farwolaeth. Bu farw yn 1088, yn 75 oed. Dywed Caradawg "ei fod y doethaf a'r anrhydeddusaf o holl esgobion Cymru; yn oreu mewn cynghor, mewn dysg, mewn crefydd, ac yn amddiffynydd i heddwch a thangnef." Gelwid ef weithiau Sulgen, ac olianwyd ef gan Rhyddmarch.—*Myv Arch.*

SULIEN, neu *Silin*, sant yn y chweched cant, ydoedd fab i Hywel ab Emyr Llydaw. Daeth ef a'i frodyr, Rhystyd a Christiolus, trosodd i Gymru o Llydaw, gan fyned yn aelodau o goleg Enlli. Efe a sefydlodd eglwysi Llansilin a Gwrecsam, sir Ddinbych; ac Eglwys Sulien, yn Ngheredigion. Galwyd Capel Silin islaw Gwrecsam, a Chapel Sant Silin, yn mhlwyf Llanfihangel Ystrad, sir Aberteifi, y rhai ydynt yn awr yn adfeilion, ar ei enw. Cofnodid ef Medi 1.– *Iolo MSS.*

SULIEN, ydoedd fab i Rhyddmarch, ac yn dduweinydd enwog. Geilw Caradawg ef yn "fab maeth eglwys Llanbadarn Fawr; ac efe ydoedd y doethaf mewn cynghor, y duweinydd dysgedicaf yn esgobaeth Tyddewi, a'r mwyaf ymdrechol trwy ei holl fywyd i wrthwynebu trais a thraha."—*Myv. Arch.*

SWRDWAL (Hywel), bardd a hanesydd enwog rhwng 1430 a 1460. Yr oedd yn trigianu yn Cydewain, sir Drefaldwyn. Fel hanesydd, ysgrifenodd hanes tywysogaeth Cymru, yn Lladin, o Adda hyd at ei brenin cyntaf; ac o Adda hyd amser Iorwerth I. Ysgrifenodd hefyd *Frut*, neu *Gronicl* Cymreig, yr hwn a fu unwaith yn meddiant Owain Gwynedd, y bardd o Feirion. Yr oedd yn Feistr yn y Celfyddydau, ac wedi cyrhaedd gradd o bencerdd mewn cerdd dafod.—Jones' *Welsh Bards.*

SYMMONS (Caroline), ydoedd ferch i'r Dr. Symmons, a gofnodir isod. Ganwyd hi yn 1788. Yr oedd yn nodedig am rag-aeddfedrwydd ei chyneddfau a'i galluoedd, ac am ei hathrylith ddysglaer. Bu farw yn 1812, yn 24 oed. Ar ol ei marwolaeth cyhoeddodd ei thad gasgliad o'i chaniadau.—*Lleyn MSS.*

SYMMONS (Charles), D.D., ydoedd fab ieuengaf John Symmons, Ysw., o Lanstinan, sir Benfro, a'r hwn fu yn aelod seneddol dros sir Aberteifi o'r flwyddyn 1745 hyd 1761—lle y ganwyd ef yn 1749. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn Ysgol Westminster; ar ol hyny aeth i brifysgolion Glasgow, Caergrawnt, a Rhydychain. Trwy ddylanwad Wyndham, cafodd fywoliaeth Llanbedr Felffre, ac wedi hyny Arberth, a phrebenderiaeth Clydai, oll yn sir Benfro, ac yn esgobaeth Tyddewi. Yn 1776, cymerodd y radd o B.D., yn Nghaergrawnt, a'r un radd yn Rhydychain yn 1784, ac yn mhen ychydig amser, y radd o D.D. Ei waith cyntaf a gyhoeddwyd ydoedd cyfrol o "Sermons." Yn 1789,

Digitized by Google

efe a gyhoeddodd "Sermons for the benefit of the decayed Clergymen in the Diocese of St David's; ac yn 1790, "The Consequence of the Character of the Individual, and the Influence of Education in forming it. A Sermon delivered in St. Peter's Parish church Carmarthen, Oct. 10th, 1790, for the benefit of a Sunday School, and published at the request of the Managers of the Charity." Yn 1797, daeth allan ei "Inez," sef barddoniaeth chwareuol; ac yn 1800, un arall o'r enw "Constantia." Yn 1806, daeth allan ei "Life of Milton," yn rhagarweiniad i argraffiad o waith rhyddweithiol Milton, dan olygiad un arall. Yn 1813, daeth allan gyfrol o Farddoniaeth, mewn rhan o'i waith ei hun, ac mewn rhan o waith ei ferch, Caroline Symmons, a fuasai farw. Wedi hyny difyrodd ei oriau hamddenol wrth ysgrifenu "Rhymed Translation of the Æneis," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1817; ac ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, efe a gyhoeddodd Fywgraffiad byr o fywyd Shakspeare, â'r hwn yr anrhegodd efe Mr. Whittingham o Cheswick, a'r hwn a ragddodwyd gan yr argraffydd hwnw i'w argraffiad 12plyg o waith Bardd Stratford ar Afon. Bu farw y Dr. Symmons yn Nghaerbaddon, yn 1826, yn 80 mlwydd oed.—*Lleyn MSS.*

TALAI (Huw), bardd yn ei flodeu rhwng 1550 a 1580.

TALHAIARN BRYDYDD MAWR, bardd a sant enwog yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Garthwys ab Morydd ab Ceneu ab Coel Codebog; a mab iddo yntau oedd Tangwn. Yr oedd yn aelod o goleg Catwg, a thrigianai yn Nghaerlleon ar Wysg. Pan ymlidiwyd y Gwyddelod o Dir Gwyr, Carnwyllion, Cantref Bychan a Chantref Iscennen, Talhaiarn a lywyddai yn Nghadair Urien Rheged, yn Nghaer Gwyroswydd. Yn Nghaer Gwyroswydd, neu Ystum Llwynarth, y cynaliai Urien Rheged ei lys breninol, ac efe a sefydlodd y gadair hono. Talhaiarn ydoedd gaplan teuluaidd Emrys Wledig; a phan laddwyd y tywysog hwnw, efe a ymarweddodd fywyd meudwy, ac a drigianodd mewn rhan o Rufoniog, lle y sefydlodd eglwys ac a'i cyflwynodd i Fair, a'r eglwys hono a ddug ei enw hyd y dydd hwn, sef Llanfair Talhaiarn, yn sir Ddinbych. Efe ydyw awdwr y ffurfweddi a arferir yn Nghorsedd Beirdd Morganwg.—*Achau'r Saint; Iolo MSS.*

TALISEIN BEN BEIRDD. *Gwel* ATTODIAD.

TANGWN, mab i Caradawg Freichfras, ab Llyr Merini, sant yn y 6ed cant Y mae eglwys Llangoed, yn Mon, wedi ei chyflwyno iddo ef a'i frawd Cawrdaf.—*Achau'r Saint; Iolo MSS.*

TANGWN, ydoedd fab i Talhaiarn ab Garthwys, o Gaerlleon ar Wysg. Efe a sefydlodd Tangynton, neu Taunton, yn Ngwlad yr Haf. —*Achau'r Saint; Iolo MSS.*

TANWG, sant yn nechreu y 6ed cant. Mab ydoedd i Ithel Hael; a daeth i Gymry gyda Chadfan o Lydaw. Yr oedd yn aelod o goleg Enlli, ac efe a sefydlodd eglwys Llandanwg, yn Arfudwy, yn yr hwn blwyf y saif Harlech. Cedwid ei wylmabsant Hydref 10.

TATHAN, sant yn nechreu y 6ed cant. Mab ydoedd i Amwn Ddu, brenin Graweg, o Anna, merch i Meurig ab Tewdrig. Yr oedd yn aelod o goleg Illtyd; ac ymsefydlodd wedi hyny mewn rhan o Forganwg, lle y sefydlodd eglwys a elwir ar ei enw Llandathan, neu St. Athan. Oddiyno aeth i Gaer Went, ac a sefydlodd goleg, a elwid Bangor Dathan, o tan nawdd Ynyr Gwent, i'r hwn, cystal ag i'w fab Caradawg, yr oedd efe yn gyffeswr. Wedi llywyddu ar y sefydliad hwn am rai blynyddau, efe a ymneilldnodd i'r eglwys a sefydlasai, ac yno y claddwyd ef. Y mae diareb o'i eiddo ar gof a chadw yn un o *Chwedlau y Doethion.*

Digitized by Google

Ysgrifenwyd bywgraffiad Tathan, neu St. Tathæus fel y gelwir ef yn Lladin, gan John o Teignmouth.—*Achau'r Saint.*

TECWYN, sant yn nechreu y 6ed cant, ydoedd fab i Ithel Hael, ac a ddaeth trosodd i Gymru o Llydaw gyda Chadfan, yn amser Gwrthefyr. Efe a sefydlodd eglwys Llandecwyn, Meirion, lle y cedwid ei wylmabsant Medi 14.—*Achau'r Saint*

TEGAI, sant yn nechreu y 6ed cant. Yr oedd yntau hefyd yn fab i Ithel Hael, a daeth yr un pryd a'i frawd Tegwyn o Lydaw gyda Cadfan. Yr oedd yn aelod o goleg Enlli. Sefydlodd eglwys Llandegai yn Arfon. Gelwir ef yn *Achau y Saint* yn Degai Glasog o Faelan.

TEGANWY (Rhys), bardd o'r Creuddyn, yn ei flodeu rhwng 1460 a 1490.

TEGAU EURFRON, merch i Nudd Hael, a gwraig i Caradawg Freichfras. Yn *Tri* 103, rhestrir hi gyda Trywyl a Gwenfron, tan y penawd "tair gwenrian," ac yn *Tri* 108, gyda Dyfir ac Enid, tan y penawd "tair gwenrian llys Arthur." Mewn *Tri* arall, dywedir fod tri pheth nas gwyddis eu lliw, sef cynffon y paen ar led, mantell Tegau Eurfron, a phres cybydd. Yr oedd mantell Tegai yn un o dri thlws ar ddeg Ynys Prydain, canys nis gallasai gwraig a dorasai amod ei phriodas, neu forwyn euog o anniweirdeb, ei gwisgo, tra y gorchuddiai y fenyw ddiwair hyd y llawr. Y mae beirdd y canoloesoedd yn cyfeirio yn fynych at fantell, cwpan aur, a chyllell Tegau Eurfron. Ceir chwedl ei fantell wedi ei Seisnegeiddio gan yr hen fardd Seisnig yn y "Boy and the Mantle."—*Myv. Arch.;* Jones' *Welsh Bards.*

TEGID, mab Baran, yn ol y *Brutiau Cymreig*, a olianodd ei dad fel brenin Cymru yn y ganrif gyntaf o Oed Crist. Yr oedd yn frenin doeth, ac yn fardd da. Trefnodd ddeddfau rhagorol i lenyddiaeth; adnewyddodd hen wybodau ag oeddynt bron myned ar ddifancoll; a sefydlodd gynghor o feirdd a derwyddon, fel cynt. Bu mewn brwydrau mynych a pharhaus gyda'i elynion, hyd nes o'r diwedd iddynt ei ddal, a'i foddi yn y llyn mawr, a elwir oddiar hyny, Llyn Tegid, yn ngwlad Meirion.—*Iolo MSS.*

TEGID FOEL, penaeth yn pumed ganrif. Mab ydoedd i Gadell Deyrnllwg, ac arglwydd Penllyn, yn Meirion. Ei briod ydoedd Ceridwen.

TEGID (Ioan), bardd swynol, a llenor gwiwglod, a anwyd Chwef. 10, 1792, yn y Bala, ar fin "Môr mawr Meirion;" ac oddiwrth y ffaith hon y cymerodd ei ffugenw barddonol. Ei enw bedydd ydoedd John Jones. Danfonwyd ef i amryw ysgolion pan yn ieuanc iawn, ond ni chafodd fawr addysg oddiwrth ei athrawon, oddieithr mewn rhifyddiaeth, nes myned yn 1812 i ysgol y Parch. D. Peter, i Gaerfyrddin, lle y dechreuodd ddysgu Groeg a Lladin. Y flwyddyn ganlynol, symudodd i ysgol y Parch. D. Price, yn yr un dref; bu yno ddeunaw mis, ac yna dychwelodd i'r Bala. Aeth i goleg Iesu, Rhydychain, yn 1814. Penaeth y coleg y pryd hwnw ydoedd y Dr. D. Hughes, gwr o Lanrwst, yr hwn a fu yn noddwr iddo oblegyd ei wybodaeth o'r Gymraeg, a'i fawr gariad at yr iaith hono a'i hynafiaethau. Yn llyfrgell y coleg, yr oedd amrai hen lawysgrifau Cymreig, megys y Llyfr Coch o Hergest; a chymerai Tegid ddywenydd neilldiol wrth eu darllen, a gwneuthur adysgrif ohonynt. Yr oedd Daniel Ddu yn gydefrydodd âg ef, ac enynodd cyfeillgarwch gwresog rhyngddynt a barhaodd tra y bu y naill neu y llall byw. Graddiwyd ef yn B.A., yn 1818; a'r flwyddyn galynol, cafodd gaplaniaeth Eglwys Crist, Rhydychain gan y Deon Hall; ac urddwyd

Digitized by Google

ef yn ddiacon ac offeiriad yn 1819. Yn haf y flwyddyn hon, bwriadai fyned i'r India Ddwyreiniol, fel athraw yn ngholeg newydd Calcutta. Eithr darfu i gân deimladol o eiddo ei gyfaill Daniel Ddu, ar swynion "Gwlad ei Enedigaeth," ei dueddu i roddi y bwriad hwn heibio. Yn 1823, penodwyd ef yn brifgantor Eglwys Crist; ac yn ystod yr un mis, cafodd guradiaeth barhaus St. Thomas, yn yr un ddinas. Trwy ei ymdrechion, helaethwyd yr eglwys blwyfol, ac ail-adeiladwyd rhan o honi; a bu yn offeryn i adeiladu dau ysgoldy hardd ac eang. Bu yn gweinidogaethu yn St. Thomas am tros ddeunaw mlynedd, a gadawodd ar ei ol adgofion perfelus am dano yn mhlith trigolion y plwyf. Llawer gwaith, tra yn preswylio yn Rhydychain, y taer ddymunai gael bywiolaeth yn Nghymru, canys yn Ngwyllt Walia yr oedd ei galon, er cartrefu ohono gynifer blwyddyn yn Lloegr; a chafodd ei ewyllys mewn modd annisgwyliadwy, ac heb yr ymdrech leiaf o'i eiddo ei hun. Trwy hynawsedd Arglwyddes Llanofer, yn dadleu ei deilyngdod, penodwyd ef gan yr arglwydd-ganghellydd Cottenham, i ficeriaeth Nanyfer (*Nevern*), sir Benfro, yn Awst 1841. Parodd y dyrchafiad hwn lawenydd mawr iddo, ond buasai yn fwy pe syrthiasai ei goelbren yn Meirion, canys yno y chwenychai fyw. Yn 1848, dyrchafwyd ef gan Dr. Thirlwall, esgob Tyddewi, yr hwn a goleddai farn uchel bob amser am dano, yn brepender yn ei brif eglwys. Mewn llythyr a ddanfonodd efe at Cynddelw, ac a welir yn argraffedig yn y *Brython* iii. 71, dywed Tegid ei hun, o berthynas i'w athrawon barddonol:—"Cefais fy nysgu pan oeddwn o gylch deuddeg oed yn Rheolau Barddoniaeth, gan Robert Williams, sef Robert ab Gwilym, o'r Pandy, Trerhiwedog; a dysgybl oedd yntau i Rolant Huw. Ymgyfeillais wedi hyny â Bardd Nantglyn, Gwallter Mechain ac eraill feirdd." Ac mewn perthynas i'r awen yn y gwaed, dywed fod Rolant Huw yn frawd i'w nain o du ei fam; Rhys Jones o'r Blaenau yn gefnder i'w nain o du ei dad; a bod Caerfallwch yn gyfyrder iddo, gan fod ei fam yn gyfnither i dad y Geirlyfrwr. Yr oedd yn Eisteddfodwr gwresog trwy ei holl oes, er nad enillodd efe, pan ystyriom ei alluoedd a'i fanteision addysgiadol, ond ychydig o wobrau y cyfryw gyfarfodydd. Ystyrid ef yn oracl ar ddyrys bynguciau y gynghanedd, ond ychydig o ergydion awen rywiog ac ehedlym a welir yn ei waith yn y mesurau hyny; tra y mae ei ganeuon byrion yn felus odiaeth, yn enwedig "Ymweliad y Bardd" a'r "Ferch o'r Ddol." Bydd y flaenaf fyw tra yr acenir y Gymraeg. Yr oedd yn feirniad manylgraff a choeth, a llanwodd y swydd hono lawer gwaith, i lawn foddlonrwydd pawb ond—y siomedigion. Fel gwr dysgedig, y mae yr amryfal weithoedd llenyddol uchelryw a argraffodd yn ddigonol o dystion. Pe ceisiem ddarnodi Tegid fel llenor a bardd, nis gallem wnend hyny well nag mewn dau air o eiddo ein cymydogion—"*highly accomplished.*" Ysgrifenodd lawer i'r gwahanol gylchgronau Cymreig, yn enwedig i'r *Seren Gomer*, a'r *Haul;* ac yr ydym yn meddwl fod y gofres ganlynol yn cynwys y cwbl o'r llyfrau a'r llyfrynau a gyhoeddwyd o'i waith:—1, "Traethawd ar Gadwedigaeth yr Iaith Gymraeg," 1820; 2, "Traethawd ar iawn lythyreniad yr Iaith Gymraeg," 1830; 3, "A Defence of the Reformed System of Welsh Orthography," 1829; 4, "A Reply to the Rev. W. B. Knight's 'Remarks' on Welsh Orthography," 1831; 5, "The Book of the Prophet Isaiah: Translated from the Hebrew Text of Vander Hooght," 1830; ail argraphiad 1842. Cyfieithodd *Esaiah* hefyd i'r iaith Gymraeg; ond y mae y gwaith hwnw yn aros hyd yn hyn mewn llawysgrifen. 6, Gwaith Lewis Glyn Cothi; 1839—yr oedd Gwallter Mechain yn gyd-olygydd ag ef

Digitized by Google

ar y gwaith hwn. Blaenir y farddoniaeth â "Historical Sketch of the Wars between the Rival Roses." o ysgrifell Tegid; a thraethodyn hanesol da rhagorol ydyw. 7, Cyfieithiad o "Adroddiadau Dirprwyaduron Ymholiad i Gyflwr Addysgiad yn Nghymru," 1848. Yr Adroddiad ar Siroedd Brycheiniog, Aberteifi, a Maesyfed, yn unig a Gymreigiwyd gan Tegid. 8, "Gwaith Barddonawl Tegid:" yn nghyd â Bywgraffiad o'r Awdwr; gan y Parch. Henry Roberts, M.A. (nai fab chwaer i Tegid): 12plyg, Llanymddyfri, 1859. Yn 1828, cyhoeddwyd dan ei olygiad ef, yn ngwasg Prifysgol Rhydychain, argraffiad o'r Testament Cymraeg: a chan i Tegid wneuthur peth cyfnewidiad yn y llythyraeth, codwyd yr wbwb fawr yn ei erbyn, yn benaf gan y Parch. John Roberts, Periglor Tremeirchion yn esgobaeth Llanelwy, a'r Parch. W. Bruce Knight, y pryd hyny Canghellydd Llandaf, ac wedi hyny Deon yr esgobaeth hono; a'r canlyniad fu, cyfarsengu yr argraffiad hwnw, rhag o ddiffyg digon o lythyrenau dyblyg, y buasai yn andwyo cyflwr gwerin Cymru. Hwyrach nad allan o le fyddai crybwyll mai dyn lled fychan, gwawrddu, dichwedd yr olwg arno, ydoedd Tegid, heb nac urddas na mawredd o un math i'w weled yn ei gylch. Yr oedd dau ddarlun paentiedig pur gywir o hono i'w gweled yn Mhersondy Nefern, pan oedd y bardd yn beriglor yno. Bu y gwr enwog hwn farw o'r dyfrglwyf, ar y Sabbath, Mai 2, 1852, yn Mhersondy Nanhyfer, yn 61 oed, er tristwch cyffredinol ei blwyfolion, a lluaws y rhai a'i hadwaenent. Mewn cysylltiad a'i oriau olaf, dywed y Parch. J. Davies, B.D., Llanhywel, yn yr *Haul* am 1855.—"Yn ei absenoldeb o'r Eglwys, pan ar ei wely angau, ar fore dydd yr Arglwydd, tra yr oedd Offeiriad cymydogaethol yn darllen yn ei le yn Llan Nanhyfer, boddwyd llais y darllenydd gan fwyalchen a darawai drwy yr Eglwys acen uchel a pherseiniol iawn. Tynwyd sylw y gwrandawyr at *solo* anarferol yr aderyn, megys ag y darfu i'r eos gynt ddenu sylw yr hen sant duwiol Dewi; a braidd y gallasai yr Offeiriad fyned yn mlaen gyda'r gwasanaeth am ychydig funudau; a tharawyd pawb â rhyw syndod dieithriol ar yr amser, oherwydd hynodrwydd y digwyddiad. Ar ol dyfod o'r Eglwys cafwyd allan mai ar yr amser hwnw yn gywir yr ehedodd enaid mawr Tegid o'i gorph i fyd yr ysprydoedd, i ddechreu tôn bereiddiach nag a allodd ef na chantorion y ddaear erioed ddyrchafu. Nid wyf fi yma, mwy na'r tystion geirwir a adroddasant yr hanes wrthyf, yn credu mewn un goelgrefydd, fel pe buasai yr aderyn wedi ei anfon yn genad goruwchnaturiol i weini ar yr achlysur, ac nid wyf ychwaith yn rhyfygu ffugio chwedl mewn perthynas i gyfnod mor bwysig ag awr marwolaeth Tegid; ond yr wyf yn unig yn ysgrifenu y gwirionedd fel y cymerodd le, heb unrhyw esponiad arno o'm dychymyg fy hun, nac eiddo arall. Eithr yr hyn sydd yn gwneuthur y ffaith yn fwy rhyfeddol yw yr hyn a ganlyn:—Pan yr oedd arch a chorph Tegid yn cael eu gostwng i'r bedd, aderyn, pa un ai yr un ag o'r blaen nis clywais, ac nis gwn) a esgynodd ar gangen uniongyrchol uwch ben y bedd agored a'r dorf, a chanodd alarnad angladdol hynod o ddifrifol ac effeithiol. Onid iawn oedd hyn? Canodd Tegid lawer i'r adar; a chafwyd un aderyn, o leiaf, mor gymmwynasgar a chydnabod ei ddiolchgarwch, drwy beroriaethu y farwnad gyntaf, a'r emyn angladdol olaf, i Tegid." Dywedai Dr. Thirlwall, esgob Tyddewi, wedi derbyn y newydd am ei farwolaeth, "I cannot sufficiently express the concern I feel, whether I consider the qualities of his heart or of his head, his private worth, his usefulness in the Church, or his literary undertakings."—*Ei Fywgraffiad* yn *Ngwaith Barddonawl Tegid*.

Digitized by Google

TEGONWY, mab i Teon ab Gwineu da ei Freuddwyd, sant yn nechreu y 6ed cant. Bu yn aelod o goleg Illtyd, ac wedi hyny cynorthwyodd Gadfan a Deiniol i sefydlu Cor Enlli, yn yr Ynys hono.

TEGFAN, sant yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Garcludwys ab Ysbwys ab Cadrod Calchfynydd. Yr oedd yn gyffeswr yn Ngholeg Cybi. Sefydlodd eglwys Llandegfan, yn Mon, yn yr hwn blwyf y saif tref Beaumaris.—*Bonedd y Saint.*

TEGFEDD, santes yn nechreu y 6ed cant, a merch i Amwn Ddu ab Emyr Llydaw. Darfu iddi hi a'i brawd Tydecho wladychu yn rhandir Mawddwy, Meirion, ac yn ol hen chwedl sydd ar gof a chadw am dani, lladratawyd hi trwy drais gan benaeth o'r enw Cynan; eithr bu orfod arno ei dychwelyd yn ddianaf, ac er mwyn gostegu digofaint ei brawd, rhoddi tiroedd Garthbeibio yn anrheg iddo.—*Camb. Register.*

TEGWEDD, santes yn y pumed cant, ydoedd ferch i Degid Foel. Hyhi a sefydlodd eglwys Llandegwedd, yn sir Fynwy, lle y lladdwyd hi gan y Saeson Paganaidd, mewn man o'r enw Merthyr Tegwedd. Mab iddi ydoedd Teilo, esgob Llandaf.

TEGWY, sant yn niwedd y 6ed cant. Mab ydoedd i Dingad ab Nudd Hael, ac efe a sefydlodd Llandegwy, neu Llandygwydd, yn Ngheredigion.

TEILO, ydoedd fab i Enlleu ab Hydwn Dwn ab Ceredig ab Cunedda Wledig, o Tegwedd, merch i Degid Foel o Benllyn. Ganwyd ef mewn lle o'r enw Eglwys Gunnian, ger Dinbych y Pysgod, sir Benfro. Ystyrir Teilo yn mhlith yr enwocaf o'r Saint Cymreig. Dywedir mai Dyfrig ydoedd ei athraw cyntaf, trwy gymhorth yr hwn y cyrhaeddodd efe radd helaeth o wybodaeth Ysgrythyrol. Ei athraw nesaf ydoedd Pawl Hen, a'i gydefrydydd tan yr athraw hwn ydoedd Dewi Sant. O tan nawdd Dyfrig, efe a sefydlodd goleg yn Llandaf, yr hwn a elwid ar ei ol ef yn Bangor Deilo; a phan roddes Dyfrig, yn 512, ei swydd i fynu fel esgob y lle hwnw, penodwyd Teilo yn ei le ef. Yn amser Maelgwn Gwynedd, anrheithiwyd Cymru gan bla angeuol y Fâd Felen; a Theilo yn nghydag amrai eraill a enciliasant i Gernyw, ac oddiyno i Lydaw, lle y derbyniwyd ef yn anrhydeddus gan Samson, esgob Dole. Wedi trigiant o saith mlynedd a saith mis yn Llydaw, dychwelodd, gydag amrai ddisgyblion, i wlad ei enedigaeth; a phan gyrhaeddodd, etholwyd ef yn archesgob Menefia, yr hon oedd ar y pryd yn wag trwy farwolaeth Cynog. Gan benodi Ismael yn esgob goddefol Menefia, fel y gelwid Tyddewi, Teilo a symudodd yr archesgobaeth i Landaf, a'r trefniant hwn a barhaodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le, ac efe mewn gwth o oedran, yn 566. Yn *Tri* 19, rhestrir ef gyda Dewi Sant a Phadarn, tan y penawd "gwesteion gwynfydedig;" "sef eu gelwid felly am ydd elynt yn westeion i dai Bonedd, a Gwreng, a Brodor, ac Aillt, heb gymeryd na rhodd na gwobr, na bwyd na llynn, eithr dysgu'r ffydd yn Nghrist a wnaent i bawb heb na thâl na diolch, eithr i dlawd ac anghenus y rhoddynt roddion o'u haur, a'u harian, a'u gwisgoedd, a'u bwydydd." Sefydlodd Teilo gryn nifer o eglwysi yn Neheubarth, ac a ganlyn sydd restr o honynt:—Llandeilo Fawr, Brechfa, Llandeilo Abercowyn, Trelech a'r Bettws, Llanddowror, a Cilrhedyn, yn sir Gaerfyrddin; Llandeilo a Llandeloi, yn sir Benfro; Llandeilo Talybont, Trefesgob neu Landeilo Ferwallt, Prifeglwys Llandaf, Merthyr Cynan, a Merthyr Mawr, yn Morganwg; Llandeilo Graban, yn sir Faesyfed; Llandeilo'r Fan, sir Frycheiniog; Llandeilo Cresseny, Llanarth, a Llandeilo Bertholeu, sir Fynwy. Cedwid ei wylmabsant Chwefror 6.—*Iolo Manuscript; Liber Landavensis;* Rees' *Welsh Saints; Myv Arch.;* Wms. *Em. Welsh.*

Digitized by Google

TEITHFALCH, neu Teithfallt Yr oedd yn ei flodeu tua chanol y 4edd ganrif, ac olianodd Nynniaw ei dad fel brenin Deheubarth. Ystyrid ef yn deyrn haelionus, crefyddol, doeth, a dewr. Yn ei amser ef, yr oedd Saeson a Gwyddyl Ffichti wedi ymsefydlu yn gryn heidiau o fewn ei diriogaeth, ac efe a ymfrwydrodd â hwynt; ac wedi rhyfeloedd geirwon, llwyddodd i'w hymlid ymaith. Y giwaid hyn a losgasant yr eglwysydd a'r bangorau; a Theithfallt a wnaeth ddeddf yn gorfodi pob dyn, yn ol ei gyfoeth, i gyfranu tuag at gynal crefydd, a'r offeiriaid, a dysgeidiaeth, a thuag at adgyweiriad y crefydd-dai. Yn ei henaint, rhoddes ei deyrnwialen trosodd i Tewdrig ei fab, ac ymroddes yn gyfangwbl i arwedd bywyd crefyddol.—*Iolo Manuscript; Liber Landavensis.*

TENEUFAN, mab ydoedd i Nudd, a nai i Caswallon, a elwir yn y *Brutiau* yn Iarll Cernyw. Yr oedd yn dywysog dewr a da, ac olianodd ei ewythr fel brenin Prydain yn y 38ain mlynedd cyn Cred. Wedi teyrnasu yn heddychol am bumtheg mlynedd, efe a fu farw, ac olianwyd yntau gan ei fab Cynfelyn.—*Myv. Arch.*

TEON, ydoedd fab i Gwinau da ei Freuddwyd, a sant o goleg Illtyd yn y pumed cant. Efe oedd esgob cyntaf Caerloyw; ac wedi hyny dyrchafwyd ef yn archesgob Llundain, o ba le y gyrwyd ef ymaith gan y Saeson Paganaidd. Wedi hyny ymneillduodd i Lydaw.—*Myv. Arch.*

TEULYDOG, sant yn y 6ed cant. Efe a sefydlodd eglwys Llandeulydog, sir Benfro, yr hon a waddolodd Rhydderch ab Iestyn i esgobaeth Llandaf. Yr oedd efe yn un o'r dysgyblion a ddaeth trosodd i'r wlad hon o Lydaw gyda Theilo Sant.

TEWDRIG, ydoedd fab i Dudfallt, a brenin ar y rhan hono o Ddeheubarth a gynwys yn awr siroedd Brycheiniog, Morganwg, Mynwy, a rhan o sir Henffordd. Yr oedd geirda uchel iddo fel brenin rhagorol, ac fel noddwr ac achleswr crefydd. Sefydlodd amryw eglwysi a cholegau, ac ail-adeiladodd eglwys Llandaf, gan ei gwaddoli hefyd yn haelionus. Rhestrir ef yn mysg y saint Cymreig, a chofnodir ef yn y *Trioedd*, gyda Gwrthefyr a Chadwaladr Fendigaid. Yn ei henaint, rhoddes ei deyrnwialen i fynu i'w fab Meirig, ac arweddodd fywyd crefyddol yn ninodedd tawel y Tintern, sir Fynwy; eithr tueddwyd ef eilwaith i ddyfod allan a chymeryd arfau yn erbyn y Saeson, a chan dderbyn archoll marwol mewn brwydr, deisyfodd fod i eglwys gael ei hadeiladu ar y llecyn y byddai farw. Hyn a wnaed, a gelwir yr eglwys hono Merthyr Tewdrig [*Mathern* presenol], gerllaw y fan y rhed yr Wy i'r Hafren. Yr oedd efe yn ei flodeu rhwng 440 a 470.—*Iolo Manuscript; Liber Landavensis.*

TEWDWR MAWR, mab ieuengaf Einion ab Owain ab Hywel Dda. Lladdwyd ef yn mrwydr Llangwm, sir Ddinbych, tra yn ymladd o tan ei ewythr, Meredydd tywysog Deheubarth, yn erbyn Idwal brenin Gwynedd, yn 993. Mab iddo ef ydoedd yr hyglodus Rhys ab Tewdwr Mawr.—*Myv. Arch.*

THELWALL (Ambrose), ydoedd y nawfed mab i John Thelwall, yr ail, o Barc Bathafarn, ger Rhuthyn, sir Ddinbych. Yr oedd hen deulu Normanaidd Cymreig Thelwall yn wladgarwyr twymgalon, ac yn sefyll yn uchel ac anrhydeddus yn marn bonedd a gwreng. Bu Ambrose ar y cyntaf yn ngwasanaeth Syr Francis Bacon, arglwydd Verulam, arglwydd uchel ganghellydd Lloegr; a chymaint oedd ei gymeriad ganddo fel y darfu i'r athronydd-gyfreithiwr enwog berswadio y brenin i greu holl feistriaid y *Chancery* yn farchogion, a bod i Ambrose gael can' punt o amwobr ganddynt; gwnaed hyny, a thalodd pawb ond

Digitized by Google

ei frawd Syr Eubule Thelwall, yr hwn oedd y pryd hwnw yn un o'r meistriaid, ac i'r hwn y troes y rhodd yn ol. Oddiwrth Syr Francis, aeth yn geidwad y gwisgoedd, *(Yeoman of the Robes)* i'r brenin Iago I.; ac wedi hyny yn ngwasanaeth a gwobr Siarl I.; a thrachefn yn geidwad y gwisgoedd i Siarl II. pan yn Dywysog Cymru O'r diwedd, darfu i bwys dyddiau, a therfysg yr amseroedd, ei orfodi i encilio i fro ei enedigaeth, lle y bu farw Awst 5, 1652, yn 82 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Llanrhydd, lle y mae beddargraff iddo.—Lewis' *Topo. Dictionary;* Pennants' *Tours.*

THELWALL (Syr Bevis), marchog, ydoedd 8fed mab i John Thelwall, yr ail, o Barc Bathafarn. Efe a rwymwyd yn gyntaf yn egwyddorwas â Mr. Allen, y sidanydd mwyaf yn Cheapside, a sidanydd i'r Frenhines Elizabeth. Wedi gwasanaethu ei amser, yr oedd gan ei feistr y fath feddwl ohono, fel y rhoes ei ferch iddo yn wraig, ac a'i cymerodd yn gydymaith yn y fasnach; yn ystod yr hwn amser yr oedd yn llythyru â'r brenin Iago yn yr Alban; yr hyn a achlysurodd i'r brenin hwnw, pan ddyrchafwyd ef i orsedd Lloegr, i wneud Syr Bevis yn was ei ystafell wely a gwisgydd iddo. Efe a brynodd gan un Gibbs gyfran mewn rhyw diroedd, ag oedd i'w cau allan o'r mor yn Brading-haven, yn Ynys Wight, a chymerodd Syr Hugh Middleton yn gydgyfranogydd. Mynodd Syr Hugh nifer o Holandiaid i gau y traeth i mewn oddiwrth y môr; ond wedi gwario saith mil o bunau, bu raid i Syr Bevis a Syr Hugh roi y gorchwyl heibio a goddef eu colled.—*Lleyn MSS.*

THELWALL (Syr Eubule), marchog, ydoedd 3ydd mab John Thelwall, yr ail, o Barc Bathafarn, ger Rhuthyn. Cafodd elfenau ei ddysg yn Ysgol Westminster; ac oddiyno aeth i Goleg y Drindod, Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd ei M.A.; pryd, trwy ddeisyfiad un Mr. Paints, boneddwr o uchel radd, a'r hwn a fuasai yn ysgolor iddo, y gadawodd y Brifysgol, ac yr aeth yn efrydydd y gyfraith yn Greys Inn, lle y daeth yn mlaen yn dda; a thrwy ei noddwr, daeth i ffafr yr arglwydd brif farnwr Percain, yr hwn oedd yn dad-yn-nghyfraith i Paints. Mewn amser, daeth y brif feistr swyddfa yr Ymddieithriaid *(Alienation);* ac yn un o feistriad awdurdodol uchel lys y *Chancery.* Pan ddaeth ymryson o berthynas i benogaeth Coleg Iesu, yn Rhydychain, rhwng y Dr. Williams a Dr. Mansell, perswadiwyd Syr Eubule Thelwall i sefyll, ac efe a etholwyd yn benaeth y coleg hwnw; a bu yn llesol iawn i wella amgylchiadau y sefydliad. Efe a brynodd ystâd yn mhlwyf Llanychan, Dyffryn Clwyd, ac a adeiladodd y Plas Coch, yr hwn a roddodd yn ei ddydd i John Thelwall, Ysw., etifedd ei frawd hynaf. Arferai ddyfod bob blwyddyn yn ystod toriad hir y *term* i'r Plas Coch, lle y byddai boneddigion goreu Gogledd Cymru yn talu ymweliad iddo, ac yn aros gydag ef beth amser. Ystyrid ef yn ddyn uniawn, duwiol, ac elusengar; a chyfrifir ef megys ail sylfaenydd Coleg Iesu. Bu farw yn ddibriod yn y coleg hwnw, yn 68 oed—*Lleyn MSS.*

THELWALL (John), o deulu Bathafarn a Phlasywen, yn Nyffryn Clwyd. Yr oedd yn gynghorwr yn y gyfraith ac yn feddyg enwog, ac nid llai enwog yn y gwyddorau eraill. Bu farw yn 1686, a chladdwyd ef yn Llanrhydd, ger Rhuthyn.—Pennant's *Tours.*

THELWALL (John) Ysw., ydoedd fab hynaf i John Thelwall, yr ail o'r enw hwnw, o Barc Bathafarn, sir Ddinbych. Meithrinwyd ef yn ei ieuenctyd yn y llys, yn ngwasanaeth Arglwyddes Warwick, yr hon oedd y foneddiges uchaf yn ffafr Elizabeth; yn yr hwn wasanaeth yr enillodd lawer o glod, effaith yr hyn a welid yn amlwg yn ystod ei hoes am lawer

Digitized by Google

o flynyddau er mantais iddo ef a'i deulu. Gadawodd y gwasanaeth hwnw yn 22ain oed, gyda'r bwriad o briodi âg Elizabeth, merch a chydetifeddes Robert ab Wynn, o Bacheirig a Bryncynric, o'r hon y cafodd lawer o blant. Gwnaed ef gan y brenin Iago yn oruchwyliwr Castell Rhuthyn, am ei oes. Bu farw yn 1630, yn 97 oed; ac yr oedd ei hiliogaeth erbyn hyn yn cyfrif rhwng 240 a 250 o nifer.—*Lleyn MSS.*

THELWALL (RICHARD), ydoedd 4ydd mab i John Thelwall, o Barc Bathafarn. Efe a briododd Margaret, merch ac etifeddes — Lloyd, o Lanbedr Dyffryn Clwyd, gyda'r hon y cafodd etifeddiaeth helaeth, ac ymsefydlodd yno, a dyna ddechreuad y Thelwalls o Lanbedr. Rhoddodd y brenin Iago iddo yntau drwydded i fod yn llywydd Castell Rhuthyn am ei oes, yn gydranog â'i frawd mae'n debyg. Efe a wellhaodd ei ystad yn fawr, ac y mae ei hiliogaeth eto yn meddu y fantais. Bu farw yn 1630, yn uwchlaw 80 oed.—*Lleyn MSS.*

THELWALL, (SIMON), ydoedd ail fab i Richard Thelwall, o Lanbedr Dyffryn Clwyd. Dygwyd ef i fynu yn gynghorwr yn y gyfraith, yn Greys Inn; a pharhaodd i ymarfer ei alwedigaeth hyd yn 80 oed. Gadawodd yn ei ewyllys £20 at gynal pregeth Gymraeg yn eglwys Rhuthyn, bob prydnawn Sabbath dros byth; £20 yn y flwyddyn tuag at bregeth yn Llanbedr; a £5 yn y flwyddyn i blwyfau Llanbedr a Rhuthyn, er rhanu bara gwyn i dlodion; £100 tuag at brentisio 15eg o fechgyn o Ruthyn a Llanbedr. Rhoddodd hefyd lawer o roddion i'w etifeddion a'i geraint.—*Lleyn MSS.*

THELWALL, (SIMON), ydoedd 7fed mab i John Thelwall, yr ail, o Barc Bathafarn. Dygwyd ef i fynu yn ysgolhaig; ac oblegyd ei fedr, efe a ddewiswyd yn brif ysgrifenydd i Syr D. Dunne, LL.D.; yn farnydd y Llysbenadur; ac un o Feistriaid yr Ymofyniadau *(Requests).* Daeth felly yn enwog fel cyfreithydd y Llys Eglwysig, a Chofrestrydd Bangor. Efe a briododd un Mrs. Biggens, etifeddes fawr yn Essex.—*Lleyn MSS.*

THOMAS AB IEUAN AB RHYS, neu fel y gelwid ef gan ei elynion a gwerin safnrwth ei oes, "Twm Gelwydd Teg," ydoedd fardd enwog a brudiwr. Ganwyd ef yn Mlaen Cynllan, plwyf Llanharan, Morganwg, rywbryd tua dechreu y bumthegfed ganrif. Yn fuan ar ol ei enedigaeth ef, ei dad a symudodd i Ben Hydd, plwyf Margam, lle y trigianodd am lawer o flynyddau. Derbyniwyd Thomas i Fynachlog Margam, eithr gan ei fod yn coleddu syniadau Lolardaidd, bwriwyd ef allan. Yn fuan ni a'i cawn yn ngharchar yn Nghastell Cynfig, gan Syr Matthew Cradoc, o Abertawe, am heresi; ac yn deisyf ar gân am ei ryddid gan y boneddwr hwnw, yr hyn a barodd i Syr Matthew gydsynio, ac ymddwyn yn dirion tuag ato. Wedi ei ryddhau, efe a aeth i drigianu gyda'i dad, yr hwn a symudasai yn y cyfamser i Ferthyr Cynog, sir Frycheiniog, a bu yn byw am rai blynyddau wedi hyny ar fferm fechan yn mhlwyf Llangynwyd. Tua 1600, yr oedd yn byw yn Trefddegwm; ac yn un o'i gywyddau dywed ei fod yn 130 mlwydd oed yn 1604, a bu fyw wedi hyny hyd 1617. Pa un ai yn ngharchar ai yn rhydd, glynai yn ddiysgog yn ei gredo Lolardaidd, yr hyn a'i dygai yn barhaus tan wg yspryd yr oes; a dodes Syr George Herbert ef eilwaith yn ngharchar; ac wedi ei ryddhau y tro hwn ni wnaeth efe nemawr iawn ond rhodio'r wlad fel cardotyn, dyrnu rhyw ychydig draw ac yma, gwneud cwndidau duwiol, a phrophwydo llawer o bethau hynod, ac am hyny y gelwid ef yn "Twm Gelwydd Teg." Gweler ei brophwydoliaethau yn *Nghymru Fu* i. 34. Y

Digitized by Google

mae llawer o'i farddoniaeth ar gof a chadw, ac oll yn arddangos cryn deilyngdod awenyddol. Yr oedd yn ddyn moesol iawn, ac wedi ymroddi yn rhy ddwys i feddyliau crefyddol, nes i hyny effeithio ar ei synwyrau yn mlynyddau olaf ei oes. Yr oedd efe yn Brotestant yn mhell cyn i Brotestaniaeth fel yr adwaenir hi genym ni dynu anadl einoes —*Iolo MSS.; Cambrian Quarterly* v. 94.

THOMAS BEAVAN, o Dre'rbryn, yn Morganwg, bardd a beirniad galluog, yn ei flodeu rhwng 1660 a 1700. Cynullodd luaws o lawysgrifau gwerthfawr, ac ohonynt hwy y cafodd Iolo Morganwg dwysged o ddefnyddiau ei *MSS.*

THOMAS (DAFYDD AB), ab Gruffydd ab Nicolas, ac a elwid hefyd "Dafydd Geffyl Cwtta," a drigianai yn Hermanston, sir Benfro. Fel y gwelir, yr oedd yn wyr i Ruffydd ab Nicolas, o'r Drenewydd, ger Llandeilo Fawr, ac yn frawd i Rhys ab Thomas. Gelwid ef Dafydd Geffyl Cwtta, oblegyd yr amgylchiad digrifol a ganlyn :—Yr oedd ceffyl ieuanc gan gymydog iddo, ac ymddengys fed Dafydd yn farnwr rhagorol ar geffylau, a thybiai mor uchel am y march hwn, fel y rhoddes am dano 24ain o wartheg a'u porfa am flwyddyn; yr hyn, gan ei fod yn bris afresymol, a dynodd arno wawd ei gyfeillion. Cyn gynted ag y gorphenodd y fargen, Dafydd a dorodd glustiau y ceffyl, a holltodd ei ffroenau, ac a gneifiodd ei gynffon. Wedi hyny, efe a seriodd y croen trosto â haiarn poeth, gan nodi arno bob math o luniau hyllion a hynod. Rywbryd wedi hyny, cafwyd cyfleusdra i ddangos i'w elynion, y rhai a ddifyrent eu hunain yn fawr ar draul y digrifbeth ysmala, o ba fetl yr oedd y Ceffyl Cwtta. Dafydd yn cael ei erlid, ac ar fin ei oddiweddyd, fel y neshai at geunant dwfn, ac yn gweled ei berygl, a yspardynodd ei ebol, yr hwn a lamodd yn ddyogel i'r tir sych yr ochr draw. Yna troes ben ei geffyl yn ol, a gwawdiodd yr ymlidwyr am farchogaeth y fath fuchod, gan na feiddient ei ddilyn. Ystyrid hon yn naid orchestol heb ei bath, a galwodd bardd o'r amser hyny hi yn "Naid ar farch na neidir fwy." Dwnn's *Heraldry;* Rees' *South Wales.*

THOMAS (EBENEZER), *(Eben Fardd). Gwel* ATTODIAD.

THOMAS (JENKIN), ydoedd fab i Thomas Morgan, neu Thomas ab Morgan ab Rhydderch ab Dafydd ab Gruffydd, o Felin Trewen, plwyf Brongwyn, sir Aberteifi; ac a anwyd rywbryd rhwng 1688 a 1690. Ar ol priodi, ymsefydlodd yn y Cwm Du. Yr oedd ei dad, Morgan ab Rhydderch, yn frawd i Sion Rhydderch, yr Almanaciwr, &c. Ymddengys iddo goleddu yr awen yn ieuanc, canys yr oedd awenyddiaeth yn y teulu, o hil gerdd, y rhai a elwid "Beirdd Cwm Du." Fel y rhan amlaf o'i deulu, ymgymerent â chryddiaeth, gydag unrhyw beth arall, ond dyna oedd ffafriol grefft y teulu; felly yntau, ac i'r un grefft y dygwyd ei feibion luaws i fynu, er eu bod yn cael dysgeidiaeth dda Yr oedd yn aelod a phregethwr gyda'r ymneillduwyr Henaduriaethol yn Llechryd, ger Aberteifi; ac wedi hyny sefydlodd y gynulleidfa yn y Drewen, ac ystyrid ef fel gweinidog yno, er na cheir hanes am ei ordeiniad. Yr oedd yn fardd rhwydd a naturiol, a'i destynau oll yn foesol. Bu farw, tebygir, yn Cwm Du, ger Castellnewydd Emlyn, oddeutu 1765.—*Lleyn MSS.*

THOMAS (JOHN), D.D, ydoedd frodor o Ddolgellau, yn Meirion, lle y ganwyd ef yn 1681. Nid oedd ond mab i lafurwr tlawd yn ngwasanaeth darllawydd yn y dref hono, ac addysgwyd ef yn ysgol y *Merchant Taylors*, Llundain, o ba le ei danfonwyd, ar draul meistr ei dad, i goleg Catherine Hall, Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd y radd o D.D. Wedi

Digitized by Google

derbyn urddau eglwysig, efe a aeth trosodd i Hamburg, fel caplan i'r llaw-weithfeydd Seisnig, a bu yn trigianu yn y ddinas hono am lawer o flynyddau. Yn y cyfamser, enillodd y fath wybodaeth o'r iaith Germanaidd, fel y bu yn golygu cyhoeddiad cyfnodol yn yr iaith hono o'r enw *Patriot* am hir amser. Tua'r pryd hwn, tynodd sylw y brenin Sior II., ac ar gyfrif ei hylithrwydd yn y Germanaeg, bu yn cydymdeithio gyda'r brenin yn y rhan fwyaf o'i ymweliadau i'w Etholfa yn y wlad hono. Ei wraig gyntaf ydoedd foneddiges Ddaniaid, yr hon a briododd efe yn Copenhagen, lle yr enillodd sylw brenin Denmark, a bu ar ol hyn yn ymohebu âg ef. Yn 1736, penodwyd ef i rectoriaeth St. Vendast, Foster Lane, Llundain; ac yn 1740, dewiswyd ef yn ddeon Peterborough. Priododd yr ail waith yn 1742, gyda Miss Sherlock, nith i esgob Salisbury; ac yn ystod yr un flwyddyn, gwnaed ef yn brepend Westminster, ac yn ganon trigianol St. Paul. Yn 1743, dyrchafwyd ef yn esgob Llanelwy; eithr cyn cael o hono ei gysegru, efe a symudwyd i esgobaeth Lincoln, ac a gysegrwyd Ebrill 1, 1744. Symudwyd ef i esgobaeth Salisbury yn 1761; a bu farw Mehefin 20, 1766. Yr oedd yn dyn tra dysgedig, ac yn enwog am ei ddywediadau ffraeth, ac y mae lluaws o gofchwedlau am dano. Dywedai Cole, ei gydoeswr, wrth son am dano:—"Y mae yn wr teilwng a gonest iawn, yn gydymaith digrif a dyddan, ac yn hynod am ei natur dda. Y mae ganddo drofa neillduol yn ei lygaid, a chlyw pwl a hwyrdrwm. Bum yn ciniawa gydag ef yn 1753; yr oedd llygaid ei arglwyddiaeth yn groesach nag y gwelais lygaid neb erioed; yr oedd llygaid Mrs. Thomas, gwraig yr esgob, yn lled groesion; ac yr oedd yno Ddaniad, brawd i'w wraig gyntaf, yn eistedd wrth y bwrdd, mor gibddall fel nas gwyddai yn iawn pa un a oedd bwyd o'i flaen a'i peidio." Yr oedd y Mrs. Thomas hon yn bedwaredd wraig iddo; ac yn wyres i'r Esgob Patrick. Dywedid fod yr esgob wedi mynu cerfio y geiriau hyn yn ei modrwy briodasol, "*If I survive, I will have five*;" a chan iddi hi farw yn 1757, cafodd gyfleu i gadw ei air.—Wms *Em. Welsh.*

THOMAS (JAMES STEWART), ydoedd enedigol o'r Gelli, yn sir Frycheiniog. Ymunodd yn ieuanc â'r Gymdeithas Wesleyaidd; ac wedi myned trwy y prawfiadau a'r parotoadau gofynol, efe, yn 1838, a benodwyd yn Genhadwr yn mhlith Caffrariaid Deheudir Affrica. Daeth yn fuan yn hyddysg iawn yn eu hiaith, yr hyn a roddodd iddo ddylanwad mawr yn eu plith. Oblegyd yr ymryson rhwng y llwythau a'u gilydd bu mewn caledi a pheryglon yn fynych. Bu ganddo law yn nghyfieithiad yr Hen Destament i'r iaith hono. Pan oedd dau lwyth mewn rhyfel â'u gilydd, ymosodwyd ar y sefydliad yn y nos, efe a gyfododd o'i wely i fyned i faes yr ymryson, i geisio heddychu y pleidiau, ac efe a wanwyd gan un o'r brodorion fel y bu farw yn ebrwydd, Meh. 14, 1856, yn 42 oed.—*Lleyn MSS.*

THOMAS (JOHN), neu a elwid "Sion Penffordd Wen," ydoedd fardd o Bentrefoelas, sir Ddinbych. Y mae ei "Englynion ymdaith y Bardd," yn gyhoeddedig yn y *Brython* iii. 383. Hefyd y pethau canlynol a gyhoeddwyd ganddo:—1, "Y Drych Ysbrydol; sef ychydig o ystyriaethau ar ystad y Meirw, y Nef, ac Uffern, ac Angylion, ac Ysbrydion da a drwg; ac achosion naturiol a goruwchnaturiol o Freuddwydion a Gweledigaethau Cwsg,—Trefriw," 1790. 2, "Urbanias, neu Grefydd ddadleuon,—Gwrecsam," 1793. Interlude yw yr olaf hwn. Dywedir iddo, wrth deithio trwy Gorwen, droi i'r fynwent, a chanfod yno ddyn yn tori llythyrenau ar gareg fedd: aeth ato er mwyn gweled ei waith;

Digitized by Google

ac wedi sylwi ar y gareg yn afrywiog a gwyllt, ac nad oedd dim modd tori llythyrenau difwlch ynddi, a ganai fel y canlyn :—

"Ffyrnig yw ceryg Corwen—a dyrys
I dori llythyren :
Ni wneir D, nac I, nac N,
Na tholcia yn ei thalcen."

Yr oedd yn awdwr amryw Emynau sydd mewn arferiad hyd y dydd hwn yn ein cysegrleoedd.—*Lleyn MSS.*

THOMAS (JOHN), ysgolhaig enwog, ydoedd fab i Thomas Rowland, o Du hwnt i'r Bwlch, sir Gaernarfon. Cafodd ei addysg foreuol yn Llanystumdwy, Arfon ; a Llanegryn, Meirion ; ac yna aeth i goleg Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A. Wedi cymeryd urddau eglwysig, penodwyd ef yn gurad Llandegai, ac yn is-athraw ysgol-ramadegol Bangor. Bu wedi hyny yn gurad Llandegfan a Llansadwrn, Mon ; ac yn brif-athraw ysgol ramadegol Beaumaris. Yr oedd yn un o'r Cymry mwyaf dysgedig yn ei oes. Ysgrifenodd "Hanes Pumtheg Gwynedd," a nifer mawr o gyfansoddiadau eraill, a ddangosent pa mor ddysgedig, diwyd, a llafurus a fu yn ei oes fer. Bu farw yn Nghastellior, Mon, Llun y Pasg, 1769, yn 33 oed, a chladdwyd ef dan yr allor yn Llandegfan. Cyfansoddodd Hugh Hughes *(Bardd Coch)* gywydd marwnad iddo.—*Y Gwyliedydd* am 1831.

THOMAS, (PARCH. JOSHUA), awdwr gwiwglodus *Hanes y Bedyddwyr*, ydoedd fab hynaf Morgan Thomas, o'r Ty Hen, yn mhlwyf Caio, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef Chwef. 22, 1719. Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, a daeth tri o'u meibion yn weinidogion enwog gyda'r enwad y perthynent hwythau iddi, sef y Bedyddwyr. Pan oedd Joshua yn ugain oed, rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda sidanydd, yn Henffordd. Er nad oedd y pryd hwnw yn aelod crefyddol, eto yr oedd o dueddiadau defosiynol. Am beth amser, byddai yn mynychu capel y Presbyteriaid yn Henffordd, eithr gan ei fod yn awyddus i ymuno gyda'r un enwad a'i rieni, ac yn cael nad oedd yr un addoldy perthynol i'r enwad hwnw yn nes ato na Leominster, un Sabbath, yn ngauaf 1739, aeth ar draed yr holl ffordd i Leominster, a pharhaodd i wneud hyny bob Sabbath yn ystod ei arosiad yn Henffordd. Yn Mai 1740, bedyddiwyd a derbyniwyd ef i gymundeb yr eglwys yn Leominster. Wedi gwasanaethu tymhor ei egwyddoriaeth, tua diwedd 1743 dychwelodd i Gymru, a bu yn trigianu dwy flynedd gyda'i rieni. Yn ystod yr amser hwn, anogodd ei gyfeillion ef i ddechreu pregethu, ac wedi iddynt gael llawn foddlonrwydd yn ei ddoniau, anogasant ef i ymroddi i'r gwaith ; eithr oblegyd ei wyleidd-dra, a'r ofn oedd arno i ruthro i'r swydd gysegredig, gwrthodai bregethu ond yn anfynych am lawer o flynyddau. Yn 1746, priododd ddynes ieuanc dra chrefyddol, ac ymsefydlodd fel masnachydd yn y Gelli, sir Frycheiniog. Yna ymunodd â'r eglwys yn Maesyberllan; ac yn 1749, urddwyd ef yn weinidog cynorthwyol ar yr eglwys hono a'i changhenau. Yn 1753, gwahoddwyd ef gan ei fam-eglwys yn Leominster i lanw ei phwlpud am ychydig Sabbathau ; eithr gan ei fod yn annghynefin â phregethu Seisneg, yr oedd yn hwyrfrydig am yspaid i gydsynio. Pa fodd bynag, efe a aeth, ac mor dderbyniol ydoedd ei weinidogaeth yn eu plith, fel y gwahoddwyd ef i fod yn weinidog yno, lle y treuliodd y deugain a thair mlynedd gweddill ei oes yn dra pharchus a defnyddiol. Gan nad oedd ei gyflog yn ddigonol i gynal ei deulu cynyddol, agorodd ysgol ddyddiol, a bu yn cadw hono am lawer o flynyddau. Yr oedd yn nodedig iawn am "wneud amser i bob peth, a gwneud pob peth yn ei

Digitized by Google

amser ;" ac am yn agos i driugain mlynedd anfynych y byddai yn ei wely ar ol pump o'r gloch yn y bore. Wedi wythnos o afiechyd, daeth ei fywyd defnyddiol a gwerthfawr i derfyniad Awst 25, 1797, yn 79 oed. Bu farw mewn llawn fwynhad o gysuron crefydd. Yr oedd ei serch at ei wlad enedigol yn wresog a chryf hyd y diwedd. Yn ystod ei drigiant hirfaith yn Leominster, mynychai Gymanfaoedd yr enwad yn Nghymru yn rheolaidd, a chymerai fwy o ddyddordeb yn hanes crefydd yn ngwlad ei dadau nag yr un o'i gydoeswyr. Cyhoeddwyd ei "Hanes y Bedyddwyr," yn 1778, ac yn ddiau y mae y gwaith rhagoraf ar Hanes Ymneilldduaeth yn yr iaith ; eithr gan mai un enwad sydd ganddo dan sylw, y mae ei sylwadau ar enwadau eraill o angenrheidrwydd yn ddamweiniol ac ychydig. Rhwng y blynyddau 1791 a 1795, cyfranodd amryw erthyglau gwerthfawr i'r *Baptist Register* ar hanes y Bedyddwyr yn Nghymru o 1650 hyd 1790, y rhai a gyhoeddwyd wedi hyny yn llyfrynau ar wahan. Gadawodd hefyd mewn llawysgrifau lenorwaith o'r enw "Hanes Eglwysaidd o Gymru ;" ac un arall yn dwyn y teitl, "Hanes y Bedyddwyr yn y Dywysogaeth ;" y rhai, dywedir, sydd yn nghadw yn llyfrgell Coleg y Bedyddwyr yn Mristol. Mab i Joshua Thomas ydoedd y Parch. Timothy Thomas, Islington, Llundain.—Rees' *Noncon. in Wales ; Seren Gomer* am 1822.

THOMAS (Lewis), ydoedd frodor o Forganwg, ac a addysgwyd yn ngholeg Brasenose, lle yr oedd efe yn arddangosydd yn 1582. Wedi ei raddio yn B.A., cymerodd urddau eglwysig, ac yn mhen yspaid cafodd fywioliaethau yn ei wlad enedigol, a manau eraill. Fi waith llonyddol cyntaf ydoedd, "Certain Lectures upon sundry portions of Scripture," 1600 ; y mae y llyfr hwn wedi ei gyflwyno i Syr Thomas Egerton, arglwydd geidwad y Sêl Fawr, yr hwn a fuasai yn un o'i noddwyr cyntaf yn yr eglwys. Cyhoeddodd yn nesaf, "Seven Sermons, on the exercises of seven Sabbaths," y rhai a ail argraffwyd amryw weithiau yn ystod rhan olaf teyrnasiad y Frenhines Elizabeth, a thrachefn yn 1619 a 1630. Yr oedd hefyd yn awdwr "A Short Treatise on the Commandments," 1600, yr hwn lyfr a elwir weithiau "A Comment on the Decalogue."—Wms. *Em. Welsh.*

THOMAS LLWYD IEUAF, bardd rhwng 1780 a 1620.

THOMAS (Nathaniel), B.A., a anwyd yn Nghaerdydd, yn 1730. Efe a olygodd "Abridgement of Ainsworth's Latin Dictionary," a llyfrau ysgol eraill. Bu wedi hyny yn olygydd a pherchenog y *James' Chronicle,* yn Llundain.—*Lleyn MSS.*

THOMAS (Parch. Richard), M.A., ydoedd fab i Thomas a Jane Rowland, o Du hwnt i'r Bwlch, yn mhlwyf Ynys Cynhaiarn, yn Eifionydd, a brawd John Thomas o'r blaen. Ganwyd ef yn y Tu hwnt i'r Bwlch, Rhagfyr 10, 1753. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn ysgol y Friars, Bangor ; a gorphenodd ei ddysg yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle y cymerodd y radd o B.A. Wedi ei ordeinio, cafodd guradiaeth yn Rhuthyn. Pan yn 16eg oed, ac yn yr ysgol yn Mangor, y bu farw ei frawd yn Beaumaris, ac y daeth ei holl lyfrau a'i ysgrifeniadau i'w feddiant. Dechreuodd yntau ysgrifenu yn ieuanc. Y mae casgliad o Achau o'i eiddo yn yr "Herald Office," ac yn Mheniarth, Meirionydd. Y mae ar gael ysgriflyfr o'i eiddo o waith yr hen feirdd, o tua 100 tudalen. Casglodd hefyd fywyd Llywarch Hen, ac amryw eraill. Dywedai y diweddar Hugh Maurice, nai i Owain Myfyr—yr hwn a barotodd ac a gasglodd y "Myvyrian Archaiology" i'w ewythr a Dr. Owen Pughe, mai o ysgrifeniadau y ddau Thomas o Du hwnt i'r Bwlch y cafwyd y

Digitized by Google

rhan fwyaf o'i ddefnyddiau. Gadawyd ei lyfrau i estroniaid, a gwasgarwyd hwynt– rhai i Lundain, i Ddinbych, Caernarfon, a Meirionydd. Bu farw yn Rhuthyn, yn 1780, yn 27 oed. Y mae ar gael Gywydd o Annerch iddo, pan oedd ar ymweliad â chân iddo yn Rhiw-waedog, ger y Bala, ar un o egwylion ei efrydiaeth yn Rhydychain, gan Rowland Huw o'r Graeenyn, a'r hwn y daethai yn adnabyddus y pryd hyny.—*Lleyn MSS.*

THOMAS (Robert), o'r Plas Du, Llanarmon, ydoedd ysgolhaig lled wych, a phrydydd medrus. Enillodd wobr ar "Englyn i'r Afr" yn Eisteddfod Liverpool, yn 1840; ac ar y "Wenwynen," yn Eisteddfod Tremadog yn 1851.—*Y Brython* 1861.

THOMAS (Parch. Timothy), gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yn Aberduar, sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn Ty Hen, plwyf Caio sir Gaerfyrddin, 1720, ac yr oedd yn frawd i'r Parch. Joshua Thomas, a gofnodwyd eisoes. Pan yn ugain oed, galwyd arno i bregethu gan eglwys Aberduar, ac urddwyd ef yn un o'i gweinidogion hi a'i changhenau yn 1743. Yr oedd yn bregethwr derbyniol iawn gan yr eglwysi yn Nghymru, yn enwedig gan ei enwad ei hun. Er cymaint ei lafur diorphwys fel gweinidog eglwys wasgaredig mewn ardal fynyddig er ymweliadau âg eglwysi eraill, ac er gwaned ei iechyd trwy ei holl oes, cafodd hamdden i gyfansoddi amryw lyfrau gwerthfawr a phoblogaidd yn yr iaith Gymraeg. A ganlyn sydd restr o honynt:—1, "Tystiolaeth y Credadyn am y Nefoedd," cyfieithiad o'r Seisnig; a'r "Gareg Wen," pregeth, y rhai a gyhoeddwyd yn 1757. 2, "Traethawd am y Wisg Wen Ddisglaer," 1764. 3, "Arddodiad Dwylaw," 1764; atebwyd y gwaith hwn yn 1765; a gwrthatebwyd hwnw drachefn gan Mr. Thomas yn 1766. 4, "Casgliad o Hymnau," 1764. 5, "Caradad Brawdol," 1764. 6, Cyfieithiad o draethawd Ever ar "Fedydd," 1767. Bu y Parch. Timothy Thomas farw Tach. 12, 1768, yn 48 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Pencarreg. Yr oedd iddo frawd arall yn bregethwr doniol a chymeradwy, sef y Parch. Zecharias Thomas, yntau hefyd yn un o weinidogion Aberduar, yr hwn a fu farw yn 1816, yn 90 oed.

THOMAS (Parch. Timothy), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, yn Islington, Llundain. Mab ydoedd i *Hanesydd y Bedyddwyr*, a ganwyd ef yn Llanllieni yn 1753. Pan tua 19 oed, symudodd i Lundain, a daeth yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Devonshire Square, yr hon oedd ar y pryd tan ofal yr awdwr duwinyddol poblogaidd y Parch. John McGowan. Anogwyd ef i ddechreu pregethu yn 1776; a danfonwyd ef i goleg Caerodor, ar y pryd tan ofal y Parchn. Hugh a Chaleb Evans. Yn 1780, anfonodd eglwys Devonshire Square wahoddiad iddo ddyfod i weinidogaethu am dri o fisoedd, am fod eu gweinidog yn glaf. Arwyddwyd y llythyr gan Mr. McGowan ei hun, yr hwn a fu farw prydnawn y Sabbath canlynol. O hyny allan, parhaodd Mr. Thomas i bregethu yno hyd oni luddiwyd ef gan gystudd a methiantwch. Yn 1781, dewiswyd ef trwy goelbren yn weinidog yr eglwys. Bu yn addurn a bendith i'w eglwys ac i'r enwad yn Llundain yn gyffredinol. Wedi oes faith a defnyddiol, efe a fu farw Gorph. 12, 1824, yn 74 oed, ac yn y 47fed flwyddyn o'i weinidogaeth.

THOMAS (William), ydoedd frodor o Gymru, ac a addysgwyd yn mhrifysgol Rhydychain. Yn 1544, gorfu arno, oherwydd rhyw anffawd, adael gwlad ei enedigaeth, ac yn Chwefror 1546, pan ddaeth newydd i Itali am farwolaeth Harri VIII., brenin Lloegr, yr oedd efe yn Bologna, ac yn nghwmni amryw foneddigion, gyda pha rai y dadleuai

Digitized by Google

yn mhlaid y brenin hwnw. Trefnodd y ddadl hono ar lun cynadledd, a chyhoeddodd hwynt gan eu cyflwyno i Pietro Aretino, y bardd Tuscanaidd, yr hwn oedd mor enwog am ei arabedd chwerw ag ydoedd o ysgeler yn ei fywyd a'i farwolaeth. Bu wedi hyny yn trigianu yn Padua, lle y casglodd ddefnyddiau ei eiriadur a'i ramadeg Italaidd; ac yn 1549, yr oedd wedi dychwelyd i Lundain, lle yr ysgrifenodd ei hanes byr a chryno o Itali. Tua'r pryd hwn, gan ei fod bellach yn enwog fel ymdeithydd trwy Ffrainc ac Itali, a'i hyddysgrwydd yn amryw o'r ieithoedd diweddaraf, a changhenau eraill o wybodaeth, penodwyd ef yn ysgrifenydd i gynghor y brenin Iorwerth VI., Ebrill 19, 1549. Yn fuan, rhoddes y brenin hwnw iddo yn anrheg brependiaeth Cantlebury yn Aula, a bywiolaeth Presteign, sir Faesyfed; eithr pan ddaeth Mari Waedgar i'r orsedd, syrthiodd tan ei gwg a'i hanfoddlonrwydd, ac o ganlyniad, difuddiwyd ef o'i swyddau, a chollodd bob gobaith am unrhyw fiafr bellach yn y llys. Yn Chwefror, 1553, cymerwyd ef i garchar y Twr, Llundain, ar y cyhuddiad o frad-fwriadu cymeryd ymaith fywyd y frenhines: ac wedi ei euogbrofi, efe a grogwyd yn Tyburn, Mai 18, 1554. Yr oedd yn awdwr "History of Italy," 1561; a gwaith arall o'r enw, "Principle Rules of the Italian Grammar, with a Dictionary for the better understanding of Boccace, Petracha, and Dante," 1550, 1567. Gadawodd hefyd amryw bethau mewn llawysgrifen, ac y mae un ohonynt, sef "Le Peregrynne," yn nghadw yn y Llyfrgell Bodleaidd. —Wood's *Athen. Oxon;* Wms. *Em. Welsh.*

THOMAS (PARCH. WILLIAM), D.D., prelad enwog, a hanai o hen deulu anrhydeddus yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd John Thomas, ei dad, yn llian-fasnachydd yn Mristol, ac yno y ganwyd yntau, Chwefror 2, 1613. Bu ei daid, William Thomas, yn gofiadur Caerfyrddin; a dywedai Iarll Northampton, arglwydd-lywydd Cymru ar y pryd, ei "fod y callaf a'r doethaf fel aelod o gynghor a adnabu erioed." Pan y bu'r tad farw yn Mristol, cymerodd cofiadur Caerfyrddin ofal ei ŵyr, a rhoddes ef tan addysg Mr. Morgan Owen, athraw ysgol gyhoeddus Caerfyrddin, wedi hyny esgob Llandaf. Pan yn 16 oed, aeth i goleg St. Ioan, Rhydychain; symudodd oddiyno i goleg Iesu, lle y graddiwyd ef yn B.A. yn 1632; ac yn fuan ar ol hyny, dewiswyd ef yn gymrawd, a phenodwyd ef yn athraw. Yma, yn ol arferiad yr oes, efrydodd athroniaeth, gan aralleirio â'i law ei hun bron yr oll o weithiau Aristotle. Graddiwyd ef yn M.A. yn 1634; gwnaed ef yn ddiacon yn 1637; ac yn offeiriad y flwyddyn ganlynol. Yn fuan ar ol hyny, penodwyd ef yn ficer Penbryn, Ceredigion, ac yn gaplan i Iarll Northumberland, yr hwn hefyd a roddes iddo ficeriaeth Lacharn, ac mewn cysylltiad â hyny rectoriaeth Llansadyrnen. Llanwodd ei holl ddyledswyddau fel offeiriad yn selog a ffyddlawn, gan ystyried ei swydd nid fel galwedigaeth ond ymddiriedaeth, hyd oni amddifadwyd ef o fywiolaeth Lacharn gan bwyllgor seneddol, tua 1644. O'r pryd hwn hyd ddychweliad y freninoliaeth yn mherson Siarl II., dyoddefodd Mr Thomas lawer. Yr oedd ei golled bersonol dros bumtheg cant o bunau; a bu raid iddo gynal ysgol yn y wlad er ei gynaliaeth ef a'i deulu lluosog, ac yr oeddynt yn fynych mewn angen rheidiau cyffredin bywyd. Wedi adferiad Siarl II., cafodd ei fywiolaethau yn ol, a phenodwyd ef tan law ac awdurdod freninol yn gantor yn Nhyddewi. Yn ystod yr un flwyddyn, cymerodd y radd o D.D.; ac yn 1661, cafodd rectoriaeth Llanbedr Felfre, sir Benfro, gan yr arglwydd-ganghellydd Hyde; gwnaed ef yn gaplan i Duc York, a bu yn trigianu am beth amser yn nhy y pendefig hwnw, ac

Digitized by Google

yr oedd gydag ef yn un o'i fôr-frwydrau yn erbyn yr Isellmyn. Yn 1665, penodwyd ef yn ddeon Worcester; ac yn 1670, cafodd rectoriaeth Hampton Lovet gan Syr John Packington. Wedi hyny gadawodd fywiolaeth Lacharn, a symudodd ei deulu i Hampton, lle y trigianodd hyd 1677, pan y dychafwyd ef yn esgob Tyddewi, gyda pha swydd y daliai rectoriaeth Worcester. Yr oedd yn gymeradwy iawn gan foneddigion a chlerigwyr ei esgobaeth, gan ei fod wedi ei fagu yn eu plith, yn gallu siarad eu hiaith, ac wedi bod yn cyd-ddyoddef â hwynt yn ystod yr amseroedd terfysglyd a aethent heibio. Yr oedd ei ymddygiad yn llanw eu holl ddisgwyliadau, a'i garneiddiwch yn cyfateb iddynt hwythau, ond ei amcan a'i bryder penaf ef ydoedd nid boddio eu dymuniadau, eithr cywiro eu moesau, ac achub eu heneidiau, anog i dduwioldeb a daioni, a hau hadau sancteiddrwydd yn eu mysg. Dechreuodd adgyweirio palasau Aberhonddu ac Abergwili; pregethai mewn amryw barthau o'i esgobaeth yn iaith gynwynol y wlad; a bu yn brif foddion i ddwyn allan argraffiad newydd o'r Beibl yn Nghymraeg. Wedi bod chwe' blynedd yn esgob Tyddewi, efe a symudwyd i fod yn esgob Worcester yn 1683; ac wedi chwe' blynedd yno drachefn, efe a fu farw, Mehefin 25, 1689, ac a gladdwyd yn ol ei ddymuniad yn nghanghell ei brif-eglwys. Yr oedd yn awdwr y llyfrau canlynol: 1, "An Apology for the Church of England," 1679; 2, "A Sermon preached at the Carmarthen Assizes," 1657; 3, "The Mammon of Unrighteousness," pregeth a draddodwyd yn mhrif-eglwys Worcester. Cyhoeddwyd ei "Letter to the Clergy," a'i "Roman Oracles Silenced," ar ol ei farwolaeth.—Wms. *Em. Welsh.*

THOMAS (WILLIAM), Ysw., ydoedd fab i Syr Rhys Thomas, neu Rhys ab Syr William Thomas, ag oedd yn sirydd Caernarfon yn 1573. Cynrychiolir y rhai hyn yn awr yn nheulu Coed Helen Yr oedd efe yn sirydd Caernarfon yn 1581, ac yn aelod seneddol tros yr un sir yn mhumed seneddiad y frenhines Elizabeth. Yr oedd yn gadben arddau gant o Gymry yn yr Iseldiroedd tan Iarll Leicester, a lladdwyd ef mewn ysgarmes yn Zutphen yn 1586, pan y cwympodd hefyd Syr Phylip Sydney.—*Lleyn MSS.*

TOWERBRIDGE (ROBERT), Ysw., o Gaerfallen, yn Nyffryn Clwyd, ydoedd fab i John Towerbridge, neu Tourbridge, o'r un lle. Robert a briododd Anne, ferch S. Mostyn, o Galcot, sir Fflint. Yr oedd yn Farwn y Gyllidfa, ac yn Arolygydd Gwynedd. Bu farw Gorphenaf 20, 1679, yn 55 oed.—*Lleyn MSS.*

TRAHAIARN AB CARADAWG, a olianodd ei gefnder Bleddyn ab Cynfyn fel tywysog Gwynedd yn 1072. Llais gwlad a roddes iddo yr anrhydedd hono yn hytrach nag hil ac ach freninol, er fod ganddo sail ymhoniad i'r olaf, gan iddo briodi Nest ferch Gruffydd ab Llywelyn. Nid hir y bu efe yn ei swydd, na ddaeth Gruffydd ab Cynan, a chorph cryf o Wyddelod gydag ef, ac a laniodd yn Ynys Mon, gyda'r bwriad o hawlio gorsedd ei hynafiaid, yr hon a gymerasid yn annghyfiawn oddiarno. Bu am yspaid yn llwyddianus yn ei ymgyrch, eithr o'r diwedd gorchfygwyd ef a'i wyr mewn lle o'r enw Bron yr Erw, ger Harlech, a gorfu arno encilio i Ynys Mon. Yn 1080, ymosodwyd ar Trahaiarn gan fyddinoedd unol Gruffydd ab Cynan yr hwn a laniodd drachefn luaws mawr o Wyddelod, a Rhys ab Tewdwr, tywysog Deheubarth, ac yn mrwydr waedlyd Carno syrthiodd Trahaiarn a'i achos.—*Myv Arch.*

TRAHAIARN BRYDYDD MAWR, bardd enwog o Forganwg, yn ei flodeu rhwng 1290 a 1350. Llywyddai yn Ngorsedd Morganwg yn

Digitized by Google

1300. Y mae dau ddernyn barddonol o'i waith yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Tybir hefyd mai yr un ydyw â Chasnodyn.

TREFOR (SYR DAFYDD), ydoedd fardd ac offeiriad. Yn Llanallgo, Mon, y bu yn gweinidogaethu, meddir, o'r flwyddyn 1460 hyd 1500, ond nid yw rhestr yr offeiriadau gan Rowland yn ei *Mona Antiqua Restaurata*, yn myned mor belled yn ol. Efe a gant Englynion i gerflun Edward I. uwch ben porth Castell Caernarfon—yn dechreu—

"P'le mae Edwart, plwm ydych?" &c.

Cyfieithwyd y llinellau hyn i'r Saesneg, a chyhoeddwyd hwynt yn y *Monthly Magazine* 1818, t.d. 200. Gan ei fod yn byw ychydig cyn dechreu argraphu llyfrau yn Gymraeg, pan oedd argraphu mewn ieithoedd eraill wedi dechreu, efe a wnaeth y ddau englyn canlynol—

"Pob gwlad aeth o rad Un a Thri—a'u braint
I breintio mewn tref;
Nid anhaws mewn daioni
Fod yr un gwaith i'n iaith ni

"Rhown ein bryd i gyd ar godi—ein hiaith
Daw unwaith ddaioni;
Er colli ein lle a'n tref,
Cadwn ein iaith cyd a ni."

Mae hen ysgriflyfr arall yn eu priodoli i Syr Lewis Gethin.—*Lleyn MSS.*

TREFOR (JOHN), esgob Llanelwy yn amser garthryfel Owen Glyndwr. Penodwyd ef i'r swydd hono yn 1395. Cafodd ganiatad i ddal hefyd, fel rhai o'i flaenoriaid, ei fywiolaethau blaenorol, sef y Trallwm, Guildsfield, a Meifod. Pa fodd bynag, dychwelodd ef y caredigrwydd hwn o eiddo y brenin Risiart II. gydag anniolchgarwch dybryd. Yn 1399, pan oedd y brenin hwnw yn garcharor yn ei esgobaeth yn nghastell Fflint, yn nwylaw Harri, iarll Henffordd, llwyddodd y trawsfeddianwr hwnw i gael gan Trefor gyhoeddi dedfryd o ddiswyddiad ar y brenin. Bu wedi hyny yn llysgenhadwr i'r Yspaen tros Harri IV. Pan dorodd rhyfel Glyndwr allan, gogwyddai ef o'i blaid, ac o'i le yn Nhy yr Arglwyddi, anogodd y Llywodraeth i fabwysiadu moddion heddychol; ond gan iddo newid ei farn, a myned i Yspaen yn ngwasanaeth y brenin Seisnig, llosgodd Owen ei balas a'i brifeglwys, a phan y dychwelodd adref, tybiodd yn ddoeth gymeryd plaid ei gydwladwyr. O hyny allan, daeth yn un o bleidwyr mwyaf selog a ffyddlawn Owen, am ba reswm y difeddianwyd ef o'i esgobaeth. Tua'r pryd hwn y deddfwyd cyfreithiau gormesol ac ynfyd Harri IV. ar y Cymry, a gwrthwynebwyd hwynt yn egniol gan Esgob Trefor. Efe a fu farw yn Paris, prifddinas Ffrainc, pan ar ymweliad yno er mwyn ceisio cymhorth y Ffrancod i achos Glyndwr. Claddwyd ef yn abad-dy St. Victor, ac y mae beddargraff Lladin ar ei feddgolofn i'w goffadwriaeth. Dywedir mai efe a adeiladodd bont Langollen, yr hon a ystyrid yn un o saith rhyfeddod Gogledd Cymru; ac y mae Treforiaid Trevor Hall, yn y plwyf hwnw, yn olrhain eu disgyniad ohono.—Willis' *St. Asaph.*

TREFOR (SYR JOHN), Llefaryda Ty y Cyffredin, ydoedd ail fab John Trefor, Ysw., o Frynkinallt, ger Rhiwabon. sir Ddinbych, lle y ganwyd ef yn 1637. Yr oedd ei fam yn fodryb i'r hynod Farnwr Jeffreys. Ni chafodd ddim o fanteision addysg uchelryw yn ei faboed, a'r holl ddysgeidiaeth foreuol a gafodd ydoedd yr hyn a gyfrenid mewn ysgol bentrefol. Yn anffodus hefyd, yr oedd ganddo drofa yn ei lygad, yr hyn a fyddai yn fynych yn wrthddrych gwawdiaeth ei elynion. Gan na wyddai ei rieni yn iawn pa beth i'w wneud âg ef, danfonasant ef i Lundain, at ei ewythr, Arthur Trefor, bar-gyfreithiwr enwog, yr hwn

Digitized by Google

a'i gwnaeth yn ysgrifenydd iddo yn y Deml. Dangosodd yn fuan fod ganddo gyneddfau bywiog a nerthol, er fod ei ymddangosiad yn wladaidd, ac nas gallai siarad odid i frawddeg Saesneg yn gywir. Pa fodd bynag, yr oedd ei ddiwydrwydd a'i benderfyniad gymaint, fel y tynodd sylw ac edmygedd yn fuan; ac wedi ymroddi fel efrydydd yn yr Inner Temple, cyrhaeddodd wybodaeth ddofn o holl ganghenau ei broffeswriaeth, ac o ganlyniad gelwid yn fynych am ei wasanaeth. Trwy ddylanwad ei gefnder Syr George Jeffreys, penodwyd ef yn gynghorwr breninol; ac yn 1678, etholwyd ef yn aelod seneddol. Enillodd ddylanwad mawr yn mhlith ei gydaelodau; a chymaint oedd ei enwogrwydd fel cyfreithiwr, fel pan gyfarfyddodd senedd Iago II. yn Mai, 1685, dewiswyd ef yn Llefary id Ty y Cyffredin. Yn Hydref, yr un flwyddyn, efe a wnaed yn Feistr y Rhol-lyfrau; ac yn Mehefin 1688, tyngwyd ef yn aelod o'r Gyfringynghor. Ar esgyniad Gwilym a Mari i'r orsedd, diswyddwyd Syr John o'r swydd o Feistr y Rhol-lyfrau. Yn y seneddiad a adwaenir fel y *Convention Parliament*, efe a gynrychiolai Beraldstone, a gwrthwynebodd a'i holl egni fesurau y llywodraeth. Erbyn senedd-dymhor 1690, yr oedd wedi ymheddychu gyda'r Llys, ac etholwyd ef yn unfrydol yn Llefarydd eilwaith. Yn Mai, 1691, gwnaed ef yn Arglwydd-Ddirprwywr cyntaf y Sel Fawr, yr hon swydd a ddaliodd am ddwy flynedd; ac yn Ionawr, 1693, rhoddwyd yn ol iddo y swydd o Feistr y Rhol-lyfrau. Y fath oedd ei allu i drefnu a rheoleiddio plaid, a hyfdra ac yni ei benderfyniadau, fel pe na wnaethai amryw bethau annoeth, y buasai wedi ei wneud yn Arglwydd-Ganghellydd Prydain Fawr, a'i ddyrchafu i Dy yr Arglwyddi, yr hyn ydoedd prif uchelgais ei fywyd. Yn 1695, yr oedd cri cyhoeddus uchel yn erbyn llwgr-wobrwyaeth, a phenodwyd pwyllgor o Dy y Cyffredin, er chwilio i mewn i'r cyhuddiadau a ddygid yn erbyn aelodau y Ty hwnw, ac adroddodd y cyfryw gynghor fod Syr John Trefor yn euog o dderbyn llwgr-wobr o £1050 gan ddinas Llundain am gefnogi mesur seneddol a elwid yr "Orphan's Bill." Felly, yn Mawrth 1695, gorfu arno ymostwng i'r darostyngiad digyffelyb o ddodi y pendefyniad gerbron y Ty, a chyhoeddi ei hun yn euog. Yna rhoddes ei swydd fel Llefarydd y Ty i fynu, a bwriwyd ef allan o'r Senedd. Yr oedd i aelod seneddol yn yr oes hono dderbyn arian am ei bleidlais yn beth mor gyffredin, fel nad edrychid ar y trosedd fel un pwysig; a chan nad oedd unrhyw brawf iddo erioed dderbyn arian fel barnwr yn llys y Rhol-lyfrau, caniatawyd iddo ddal ei swydd yn y llys hwnw am y cyfnod hirfaith o ddeg-ar-hugain o flynyddau wedi ei droad allan o Dy y Cyffredin. Ystyrid ef bob amser yn farnwr gonest a goleuedig, ac y mae amryw o'i ddyfarniadau yn cael eu dyfynu a'u hystyried yn safon ac awdurdod hyd y ddydd hwn. Trwy farwolaeth ei frawd hynaf, efe a ddaeth i feddiant o etifeddiaeth Brynkinallt, yr hyn, gyda llawer o eiddo a gasglasai, a ddisgynasant trwy ei ferch Anne i feddiant y presenol Arglwydd Dungannon. Bu Syr John farw, Mai 20, 1717, yn ei dy yn Chancery Lane, a chladdwyd ef yn Llundain. Y mae darlun da ohono yn ei wisg swyddol ar gael, yr hwn yn gerfiedig ar ddur a geir hefyd yn y "*Royal Tribes of Wales*," o waith Yorke.—Campbell's *Lives of the Lords Chancellors*; Wms. *Em. Welsh.*

TREFOR (Sion), awdwr, yn ei flodeu rhwng 1430 a 1470. Yn 1450, efe a gyfieithodd fuchdraith St. Martin o'r Lladin i'r Gymraeg.

TREFOR (Syr Thomas), arglwydd cyntaf Trefor. Gor-nai ydoedd i'r Prif-farwn Trefor, ac ail fab Syr John, o Drefalyn, sir Ddinbych. Ei

Digitized by Google

dad a grewyd yn farchog ac a benodwyd yn un o Ysgrifenwyr y Wladwriaeth gan y brenin Siarl II., ac ar ei ddychweliad fel llysgenad o Ffrainc yn 1668, gwnaed ef yn aelod o'r Gyfringynghor, yr hon swydd uchel a ddaliodd hyd ei farwolaeth yn 1672, pan nad oedd efe ond 47 oed. Dygwyd Thomas Trefor i fynu yn y gyfraith yn y Deml Ganol, lle y cyrhaeddodd y fath enwogrwydd wrth y bàr, fel y gwnaed ef yn Ddadleuwr Cyffredinol ac yn farchog yn 1592, ac yn Gyfreithiwr Cyffredinol yn mhen tair blynedd ar ol hyny. Ar esgyniad y frenhines Anne, penodwyd ef yn Arglwydd Brif-farwn Llys y *Common Pleas;* a Rhagfyr 31, 1711, efe a grewyd yn Farwn Trefor, o Bonham, yn sir Bedford. Yn 1725, efe a benodwyd yn Arglwydd y Gyfrin Sel; ac yn 1727, yn Arglwydd Brif-farwn Ynad Ynys Prydain. Yn 1730, etholwyd ef yn Llywydd y Gyfringynghor. Dywed Onslow, "Ei fod yr unig ddyn y gwyddai ef am dano a newidiodd ei blaid ac y coleddid syniadau mor uchel am dano yn gyffredinol." Dywed yr un awdwr y carai fynychu y llys, ond ei fod bob amser yn lledchwith, a'i ymddygiad fel yr eiddo ynad tawedog, sobr, a llym; eithr rhydd iddo eirda fel prif ynad gonest a galluog. Bu farw Mehefin 19, 1730, yn 71 oed. Yr oedd yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol, ac yn Llywodraethwr y *Charter House.* Bu yn briod deirgwaith, a gwisgodd tri o'i feibion yn olynol y teitl o Arglwydd Trefor; ac un arall a wnaed yn esgob Tyddewi, o ba le y symudwyd ef i Durham. Ei fab hynaf gan ei ail wraig, yr hwn hefyd a feddianai farwniaeth Trefor, ydoedd Is-ardalydd Hampden. Darfyddodd y teitl yn 1824.—Wms. *Em. Welsh.*

TREFOR (Syr Thomas), cyfreithiwr enwog, ydoedd bedwerydd mab i John Trefor, Ysw., o Drefalyn, sir Ddinbych, lle y ganwyd ef Gorph. 6, 1586. Aeth i'r Deml Fewnol, Llundain, lle y daeth yn ddarllenwr hydrefol; wedi hyny, gwnaed ef yn farchog, yn 1620, ac yn ddadleuydd cyffredinol i'r Tywysog Charles. Yna dodwyd arno y radd o ringyll yn y gyfraith, a phenodwyd ef yn farnwr yn Llys y *Common Pleas,* ac yn ddiweddaf yn Arglwydd Brif Farnwr Llys y Gyfnewidfa, yr hon swydd a ddaliodd hyd farwolaeth y brenin, pryd y gomeddodd ef a phump eraill weithredu o tan y ddirprwy newydd. Yn ystod terfysgoedd 1641, dygwyd cyhuddgwyn yn ei erbyn; ac er iddo ysgoi y ddialedd a syrthiodd ar ei gyfaill Berkley, yr hwn a gymerwyd i garchar oddiar y fainc, gorfu arno yntau dalu deng mil o bunau. Wedi hyn, efe am beth amser oedd yr unig farnwr a eisteddai ar fainc Llys y Gyfnewidfa, pan y darfu i negeswyr neillduol oddiwrth y brenin ei wysio ef a'r Barnwr Reve i ohirio yr eisteddiad a'i symud o Lundain i Rydychain; gorchymynodd ddal y dynion a roddes y wys iddo, ac felly y darfu hefyd ei gydfarnwr. Crogwyd un o'r dynion hyn fel yspiwr. Bu yn briod ddwywaith, a mab iddo o'r wraig gyntaf a'i holianodd ef i'r farwniaeth. Bu farw Rhagfyr 21, 1656, yn 70 oed; a chladdwyd ef yn Leamington Hastang, sir Warwick.—Wms. *Em. Welsh.*

TREFOR (Tudur), boneddwr uchelwaed yn ei flodeu tua chanol y ddegfed ganrif. Yr oedd yn hanu o Gadell Deyrnllwg, brenin Powys, ac yn fab i Ynyr ab Cadfarch. Ei fam ydoedd Rhiengar, merch ac etifeddes Lluddocca ab Caradawg, iarll Henffordd; ac oblegyd hyny y gelwir Tudur weithiau yn Iarll Henffordd. Yr oedd ganddo, yn hawl ei fam, gyfoeth lawer yn Henffordd, ac hefyd yn y Fferlys, tiriogaeth a saif rhwng yr Wy a'r Hafren; ac yn hawl ei dad, yr oedd yn arglwydd y ddwy Faelor (sef y Gymraeg a'r Seisnig), y Waen, y Drewen, Croesoswallt, Ewyas, ac Urchenfield. Ei brif balas ydoedd Whittington, neu

Digitized by Google

y Drewen, yr hwn a barhaodd am oesau lawer yn meddiant ei olafiaid. Ei wraig ydoedd Angharad, merch Hywel Dda, a bu iddynt dri mab ac un ferch. Y mae amryw o deuluoedd pendefigaidd yn olrhain eu tarddiad ohono ef, ac yn mhlith eraill teuluoedd anrhydeddus y Mostyniaid a'r Treforiaid, pa rai hefyd sydd yn dwyn ei beis-arfau, sef ydynt, "*Parted per bend sinister ermine and ermines, over all a lion rampart or.*" —*Cambrian Biography.*

TREFRHEDYN (Sion), awdwr y "'Madruddyn y Ddifinyddiaeth ddiweddaraf," llyfr o gryn boblogrwydd yn mhlith Ymneilduwyr yr 17eg ganrif Ei enw priodol ydoedd John Fenton, a brodor o sir Benfro ydoedd.

TRAHERNE (Parch. John Montgomery), ydoedd fab i Lewelyn Traherne, Ysw., o Goedriglan, ger Caerdydd, sir Forganwg; ac a anwyd Hydref 6, 1788. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle y cyrhaeddodd ei B.A. yn 1810, a'i M.A. yn 1813, yn ngholeg Oriel. Efe a ordeiniwyd yn ddiacon yn 1812, ac yn offeiriad yn 1813, gan esgob Bath a Wells. Priododd Ebrill 29, 1830, â Siarlotte Louisa, trydedd ferch i Thomas Mansel Talbot, Ysw., o Fargam, yn yr un sir. Yr oedd yn perthyn yn achyddol i'r rhan fwyaf o deuluoedd cyfrifol Morganwg. Er ei fod yn weinidog cyfrifol a pharchus yn yr Eglwys dros hir oes, eto nid yn hyny yr oedd ei enwogrwydd yn gynwysedig. Heblaw ei fywiolaethau plwyfol, yr oedd yn gangnelltwr Llandaf o 1844 hyd 1851. Yr oedd tuedd ei efrydiaeth agos yn gwbl, fel ei hynod gymydog, Iolo Morganwg, ar ymchwilio i hynafiaethau, yn enwedig adeiladau eglwysig. Yr oedd yn cael ei ystyried yn awdurdod ar y pen hwnw goreu yn Neheudir Cymru; ac fel y cyfryw graddiwyd ef yn F.R.S., ac F.S.A.; hefyd yn aelod o'r Gymdeithas Ddaearegol, o'r Gymdeithas Hynafiaethol, Castell Newydd ar Dain, a Chymdeithas Freiniol Copenhagen. Ei weithiau cyhoeddedig ydynt:—1, "Historical Notices of Syr Matthew Cradock, Knight," a sylw bywgraffol am Dr. Mansel, fel attodiad, 1840. 2, "Stradling's Correspondences—a Series of Letters written in the reign of queen Elizabeth, with Notices of the family of Stradling of St. Donat's Castle, Glanmorganshire," 1840. Cyfranodd hefyd amryw erthyglau gwerthfawr ar hynafiaethau i'r "Archæologia Cambrensis;" "Collectiana," gan Nicholls; "History of Neath," gan Francis; ac amryw eraill. Bu Mr. Treherne farw yn mhalas Coedriglan, Chwef. 2, 1860, yn 71 oed.—Burke's *Landed Gentry; The Welshman; Clerical Journal.*

TRILLO, sant yn nechreu y 6ed cant, ydoedd fab i Ithel Hael, yr hwn a ddaeth trosodd i Gymru o Lydaw gyda Chadfan Sant, ac a ymunodd yn aelod o goleg Enlli. Y mae eglwysi Llandrillo yn Rhos, sir Ddinbych; a Llandrillo yn Edeyrnion, sir Feirionydd, wedi eu cyflwyno iddo, lle y cedwid ei wylmabsant Mehefin 15.

TRINIO, mab i Difwng ab Emyr Llydaw, sant a aeth gyda'i gefnder Cadfan Sant i Enlli yn nechreu y 6ed cant. Sefydlodd eglwys Llandrinio yn sir Drefaldwyn.

TRISTFARDD, bardd yn ei flodeu tua therfyn y 6ed ganrif. Cofnodir ef yn y *Trioedd* gyda Dygynelw ac Afan Ferddig, tan y penawd, "Gwaeyw-ruddion Beirdd Ynys Prydain," am fod eu gwaewffyn wedi eu rhuddo â gwaed dynol, a thrwy hyny eu bod wedi troseddu deddfau Barddas. Efe oedd bardd Urien Rheged.

TRYSTAN AB TALLWCH, arwr enwog y sonir cryn lawer am dano yn yr hen ramantau a'r ffugchwedlau Cymreig. Tybir ei fod yn oesi

Digitized by Google

naill ai yn y bumed neu y chweched ganrif ; ac adwaenir ef gan genedloedd eraill wrth yr enw Syr Tristrem. Crybwyllir ei enw yn fynych yn y *Trioedd*. Rhestrir of gyda Gwgawn a Greidiol, tan y penawd "tri galofydd ;" gyda Gwair a Cai, fel y "tri thywysog talaithiawg ;" gyda Gwair ac Eiddilig Corr, tan y penawd, "tri Chyndynawc Ynys Prydain," "ac nid oedd a'u trothai o iwrth eu harfaetheu ;" gyda Caswallon ab Beli a Cynon, tan y penawd "tri Serchogion," "ail fu Trystan am Essyllt ferch March ab Meirchion," gyda Phryderi a Choll ab Collfrewi, tan y penawd, "tri wgrddfeichiaid,"—trydydd, Trystan, a gedwis foch March ab Meirchion, tra aethai y meichiad yn genad at Essyllt i erchi oed â hi ; ac Arthur a Marchell, a Chai a Bedwyr, a fuant ar ymgais a chyrch, ac nis gallasant gael cymaint ag un banw nag o rodd, nag o bryn, nag o dwyll, nag o drais, nag o ledrad. Sef achaws eu gelwid Gwrddfeichiaid am nas gellid nag enill na gortrech arnynt am un o'r moch a gedwynt, eithr eu dadfer a wnaent ar eu llawn gynydd i'r rhai a'u pieuffynt. Cysylltir ef hefyd gyda Menw a Chai, a dywedir y gallent drawsffurfio eu hunain i'r ffurf a fynent. Mewn hen benillion cywrain, dywedir fod Trystan wedi absenoli ei hun o lys Arthur, ac i'r arwr hwnw yru wyth ar hugain o farchogion i'w ddal a'i ddwyn i'r llys ; eithr efe a'u gorchfygodd hwynt oll, ac nid aeth ar gais ungwr ohonynt ond Gwalchmai Aurdafod.—*Myv. Arch ;* Guest's *Mabinogion.*

TUCKER (JOSIAH), D.D., awdwr enwog mewn gwleidyddiaeth, a anwyd yn Llacharn, sir Gaerfyrddin, yn 1712. Amaethwr oedd ei dad, yr hwn pan ddaeth i feddiant o etifeddiaeth fechan yn sir Aberteifi, a benderfynodd roddi addysg o radd uchel i'w fab. Gan hyny, danfonwyd ef i ysgol enwog Rhuthyn, lle y cynyddodd mor ragorol fel y cafodd arddangosiad coleg Iesu, Rhydychain. Graddiwyd ef yn B.A. yn 1739. Wedi cymeryd urddau eglwysig, cafodd guradaeth yn sir Gaerloyw ; ac yn mhen dwy flynedd cafodd guradiaeth All Saints, Bristol, yr oedd hefyd yn un o is-ganonau y brifeglwys. Yr oedd y ffaith ei fod yn byw mewn tref fasnachol fawr yn'dra manteisiol i'w efrydiadau trafnidol; tra y darfu i'w ymddygiad fel clerigwr ei ddwyn i sylw y Dr. Butler, yr hwn a'i penododd yn gaplan iddo, ac a gafodd iddo ddyrchafiad i fod yn brepend. Cafodd hefyd rectoriaeth St. Stephen, yn y ddinas hono. Yn 1747, cyhoeddodd "A Brief Essay on the Advantages and Disadvantages which respectively attends France and Great Britain with regard to Trade ;" ac yn mhen ychydig flynyddau wedi hyny, "Reflections on the Expediency for the Naturalization of Foreign Protestants." Credai yn selog y rhesymoldeb o roddi breiniau a hawl cyflawn ddeiliaid y wlad hon i ddyeithriaid, ac mewn llythyr at gyfaill dadleuai tros estyn y cyffelyb freiniau i'r Iuddewon, yr hwn lythyr a argraffwyd yn 1753, yr hyn a enynodd y fath deimladau digofus yn ei erbyn, fel y llosgwyd gwawdeuluu gwellt o hono gan werin ragfarnllyd Bristol. Yn 1753, cyhoeddodd lyfryn ar y drafnidiaeth â Thwrci, yn mha un yr ymresymai yn gadarn yn erbyn cwmniau breintiedig. Yn 1755, cymerodd y graddau o B.D. a D.D. Yn 1758, dyrchafwyd ef yn ddeon Caerloyw, trwy ddylanwyd Mr. Nugent, wedi hyny Arglwydd Clare, cyfeillgarwch yr hwn a enillasai trwy berswadio lluaws o'i blwyfolion i bleidleisio trosto yn etholiad seneddol dinas Bristol. Yn y cyfnod hwn, ar gais y Dr Hayter, athraw y brenin Sior IV. y pryd hwnw, ac wedi hyny esgob Llundain, cyfansoddodd draethawd ar Drafnidiaeth at wasanaeth y dysgybl brenhinol. Rhoddes y gwaith hwn foddlonrwydd mawr, argraffwyd ef, eithr ni chafodd byth ei gyhoeddi. Yn 1772,

Digitized by Google

cyhoeddodd "An apology for the present Church of England," a chyfrol o bregethau ar destynau pwysig Y flwyddyn ganlynol, ymddangosodd ei lythyrau at Dr. Kippis, yn mha rai y dadleuai am fwy o ryddid i Ymneilldduwyr, ond y gwrthwynebai yn egniol ddilead y prawfiadau bwrdeisiol, &c. Ei gyhoeddiadau nesaf ydoedd amryw lyfrynau ar wahanol amserau ar y Rhyfel Americanaidd; a thra yn condemnio ynddynt wrthymgais y trefedigaethau, eto dadleuai fod ysgariad bellach yn llwyr angenrheidiol. Yn 1777, cyhoeddodd ei olygiadau ar anhawsderau cyfundrefnau Trindodaidd, Ariaidd, a Sosinaidd Yn 1781, ymddangosodd ei draethawd ar y Llywodraeth Wladol, yn nechreu yr hwn yr ymdrechai ddymchwelyd rhesymau Looke ar y pwnc pwysig hwnw. Yn 1782, argraffodd ei bamphled, yn dwyn y teitl, "Cui Bono? or an enquiry as to what benefits can arise from the greatest victories or successes in the present war." Yr oedd hefyd yn awdwr amryw ddarnau ar bynciau duwinyddol, gwleidyddol, a masnachol. Hynodid ef gan ddyfalwch a ffyddlondeb diseibiant tuag at ei ddyledswyddau offeiriadol, ac ymofidiau ei blwyfolion yn fawr pan roddes ei rectoriaeth i fynu yn ffafr ei gurad, yr hyn a gymerodd le yn 1790. Er na enillodd efe ond ychydig nifer i gydolygu âg ef yn ei syniadau, ystyrid ef yn gyfansoddwr eglur a galluog, ac yn gallu gosod ei syniadau allan mewn arddull arebol, ddifyr, a swynol. Bu farw yn ddiblant yn 1799.—Wms *Em. Welsh*

TUCKER (Thomas), y llyngesydd, ydoedd drydydd mab John Tucker, o Sealyham, sir Benfro; a'i fam ydoedd ferch i Syr John Wogan, marchog. Dygwyd ef i fynu yn forfilwr, a daeth yn swyddog llyngesol enwog, gan gyrhaedd y radd o lyngesydd. Yn 1741, efe a laddodd yn yr India Orllewinol, yr herw mwyaf anturiaethus, a elwid y *Black Beard*, gan enill trwy hyny y wobr a gynygiesid gan y Llywodraeth; ac mewn canlyniad, cafodd ddyrchafiadau pwysig. Yn flaenorol, pan oedd efe yn gadben yr ysgafn-long *Towey*, efe a gymerodd y *San Joseph*, llong gofrestriedig Ysbaenaidd, gyfoethog annghyffredin, ac a brynodd etifeddiaeth yn sir Benfro. Bu y llyngesydd Tucker farw yn 1766, yn ddibriod. —Burke's *History of the Commons.*

TUDGLYD, mab i Seithenyn, a sant yn y 6ed cant. Pan erlifwyd cyfoeth ei dad gan y môr, Tudglyd a'i frodyr a arweddasant fywyd crefyddol, ac a aethant yn aelodau o goleg Dunawd. Cofnodid ef Mai 30—*Iolo MSS.*

TUDNO, mab arall i Seithenyn, a sant yn yr un cyfnod. Efe a sefydlodd eglwys Llandudno, yn sir Gaernarfon, lle y cedwid ei wyl Mehefin 5. Gelwir maen mawr sigledig sydd i'w weled ar ben Gogarth, yn Gryd Tudno.—*Iolo MSS.*; Jones' *Bardic Museum.*

TUDUR, (Owen), ydoedd fab i Feredydd ab Tudur, o Benmynydd, Mon, ac a anwyd yn 1853. Yr oedd Owen yn y chweched genedlaeth o Ednyfed Fychan, cynghorwr, a chadlywydd byddinoedd, Llywelyn Fawr, tywysog Cymru. Ail wraig Ednyfed ydoedd Gwenllian, ferch i Arglwydd Rhys, tywysog Deheubarth; ac o'r briodas hon yr hanodd Gronw o Dregastell, yn Mon, tad Tudur o Benmynydd, yn yr un ynys, yr hwn a adeiladodd Briordy Bangor, ac a gladdwyd yno yn 1311; a chladdwyd Gronw yn yr un lle yn 1331. Syr Tudur o Benmynydd a urladwyd yn farchog gan Iorwerth III., ar gyfrif ei wrhydri, a chladdwyd yntau hefyd yn Mhriordy Bangor yn 1367. Bu Owen ar y cyntaf yn myfyrio y gyfraith yn Llundain, ond ymwrthododd â'r alwedigaeth hono, ac aeth i ymdaith ar y Cyfandir. Wedi dychwelyd, bernir iddo

Digitized by Google

ymgymeryd â bywyd milwr, a thrwy ei orchestion mewn câd a brwydr, cystal a'i uchelwaed breninol, cafodd dderbyniad i'r llys Seisnig. Gan ei fod yn wr ieuanc o bryd a gwedd nodedig o hardd, syrthiodd Catherine o Ffrainc, gweddw Harri V., brenin Lloegr, i serch dwfn âg ef. Yn ngeiriau Owen Williams o'r Waenfawr, dyma fel y cymerodd y peth le :—"Gan ei fod yn wr bonheddig moesog a bywiog, efe a orchymynwyd unwaith i ddawnsio gerbron y frenhines, ac ar ryw drosad, drwy ei fod yn anallaog i adenill ei gydbwysedd, efe a syrthiodd i'w hariffed fel yr oedd yn eistedd ar ystôl fechan, gydag amryw o'i harglwyddesau o'i hamgylch." Priodwyd hwynt yn ddirgelaidd yn 1428, a buont byw gyda'u gilydd yn gysurus hyd farwolaeth y frenhines yn 1437, ac id lynt ar y pryd deulu o dri mab ac un ferch, sef Edmwnd, Jasper, ac Owen. Bu y ferch farw yn ei mabandod; ac arweddodd Owen, y mab ieuengaf, fywyd crefyddol fel mynach yn Mynachdy Westminster, a bu yntau farw yn ieuanc. Wedi marw eu mam, rhoddwyd Edmwnd a Jasper yn ngofal Catherine de la Pole, merch Michael de la Pole, iarll Suffolk, ac abades Berking. Y mae ar gael ddeiseb o'i heiddo hi, dyddiedig 1440, yn deisyf tâl am eu cadwraeth. Yn ystod bywyd y frenhines, ni chymerid nemawr sylw o'r briodas; eithr wedi iddi farw, deddfwyd cyfraith yn gosod dirwy drom ar bwy bynag a briodai frenhines waddolog, heb ganiatad neillduol y brenin. Pan fu farw y frenhines hefyd, ni ddangoswyd ond ychydig gydymdeimlad at Owen, canys taflwyd ef i garchar Newgate, o ba le y diangodd trwy gymhorth ei was a'i gyffeswr. Pan ddaliwyd ef eilwaith, rhoddwyd ef yn nghadwraeth Iarll Suffolk, cwnstabl castell Wallingford, ac yn mhen peth amser drachefn traddodwyd ef i Newgate. Pa fodd bynag, diangodd yr ail waith. Yn 1452, urddwyd ei ddau fab yn iarllod; gwnaed Edmwnd yn Iarll Richmond, a Jasper yn Iarll Penfro. Bu i Owen hefyd un mab anghyfreithlawn, o'r enw David, yr hwn a wnaed yn farchog gan ei nai Harri VII., a'r hwn hefyd a roddes yn wraig iddo Mary, merch i John Bohun, o Midhurst, yn Sussex, a chyda hi etifeddiaeth fawr. Ni chymerwyd sylw yn y byd o Owen hyd 1459, pryd y gwnaed ef yn farchog gan ei fab Jasper; rhoddes Harri VII. gan' punt yn y flwyddyn iddo allan o faenoriaethau Falkston, Walton, a Bensted, yn Nghent; ac yn ystod y flwyddyn ganlynol, ar gyfrif ei wasanaeth, cafodd barciau yn arglwyddiaeth Dinbych, a llywyddiaeth coedwigoedd yr un lle. Yn 1461, ymladdodd yn wrol tan faner ei fab Jasper yn mrwydr Croes Mortimer; ac nis gadawai faes y gwaed hyd oni chymerwyd ef gydag amryw foneddigion Cymreig eraill yn garcharorion. Dienyddiwyd ef yn eu plith yn Henffordd *(Hereford)*, a chladdwyd ef yn eglwys y Grey Friars, o fewn y ddinas hono. Wyr iddo ef ydoedd Harri VII., iarll Richmond, a brenin Lloegr, yn ystod teyrnasiad yr hwn y terfynodd Rhyfeloedd trychinebus y Rhosynau.

TUDUR (SION), bardd awenyddol yn ystod y 17fed ganrif. Gelwir ef yn y *Records of Denbigh* yn "John Tudor, one of the Choral of St. Asaph." Dywed hanes arall mai John Lloyd ydoedd ei enw bedydd. Yr oedd yn byw yn Wigwair, ger Llanelwy; a dywedir yn gyffredin ei fod yn gantor yn y Brifeglwys hono, ond nid ydys yn cael ei enw fel y cyfryw; tebycach mai cantor y côr ydoedd, a'i fod yn perthyn i swyddfa cofrestrydd yr esgobaeth. Tybir mai brodor ydoedd o Lansanan. Efe oedd bardd teuluaidd John Conway, o Fodrhyddan. Graddiwyd ef yn Brif-fardd yn Eisteddfod Caerwys yn 1568. Ei athraw barddonol ydcedd ei gymydog Gruffydd Hiraethog, a'i gyd-ddysgyblion oeddynt Gwilym Cynwal, Simwnt Fychan, a Gwilym Lleyn, a phan ofynwyd i'r

Digitized by Google

athraw cymhenddoeth pa un o'r pedwar oedd y prydydd goreu, atebodd, "Awenyddol yw Gwilym Cynwal, gofalus yw Simwnt Fychan, dysgedig yw Sion Tudur, ac nid oes dim yn anwybodus i Gwilym Lleyn." Bu Sion Tudur farw yn 1602, a chladdwyd ef yn Llanelwy. Y mae marwnad iddo yn argraffedig *Brython* iv. 466, o waith Edward ab Ralph. Y mae lluaws mawr o gywyddau, &c., o'i waith yn wasgaredig hyd y cylchgronau hynafiaethol Cymreig—yn *Eurgrawn* Dafydd Ddu, *Y Cylchgrawn*, *Y Gwladgarwr*, *Y Brython*. Ceir "Araeth Sion Tudur, neu fryd yr Afradlon," yn y *Dyddanwch Teuluaidd*. Bu ymryson crasineb rhyngddo â Sion Phylip, yr hon a welir yn *Brython* iv. Yr oedd yn achyddwr campus, ac yn fardd duchan cellweirgnoawl diguro fel y prawf ei gywydd i ofyn Rhys Grythor, yn *Brython* iii. 384.

TUDUR, sant tua therfyn y 6ed cant. Mab ydoedd i Arwystli Gloff ab Seithenyn, o Dywynwedd merch Amlawdd Wledig. Efe a sefydlodd eglwys Ddarowen, sir Drefaldwyn; ac y mae eglwys Mynyddislwyn, sir Fynwy, wedi ei chyflwyno iddo. Cedwid ei wyl Hydref 15.—*Iolo MSS*

TUDFYL, merch i Frychan Brycheiniog, a santes yn y pumed cant. Hyhi ydoedd gwraig Cyngen ab Cadell Deyrnllwg, a mam i Brochwael Ysgythrog. Lladdwyd hi mewn lle yn Morganwg a elwir oddiar hyny yn Ferthyr Tudfyl, lle yr oedd hi yn gwasanaethu ei thad, a'r lle hefyd yr oedd amryw o'i brodyr. Rhuthrodd y Saeson Paganaidd a'r Gwyddyl Ffichti arnynt a llofruddiasant hi, a Rhun Dremrudd ei brawd; modd bynag, pan weles Nefydd, mab i Rhun, a llencyn difarf, y creulondeb a wnaed, enynodd ei ddigofaint, a chynullodd wyr gan ymlid y llofruddwyr ymaith. Cedwid ei gwyl Awst 23.—*Iolo MSS.*

TUDWAL BEFR, neu *brydferth*, sant ac esgob yn ystod y bumed cant. Mab ydoedd i Gorinwr ab Cadfan ab Cynan ab Eudaf ab Caradawg ab Bran ab Llyr Lledlaith. Y mae ynys ar ororau sir Gaernarfon a elwir ar ei enw, ac yn hono ceir adfeilion capel bychan a gyflwynasid i Dudwal Sant.—*Iolo MSS.*

TUDWAL GLOFF, un o fei'ion Rhodri Mawr. Ymladdai tan ei frawd Anarawd yn mrwydr Cymryd, ar Gonwy, yn y flwyddyn o Oed Crist 880, yn erbyn y Sacsoniaid; ac mewn ymladdfa lawlaw gydag Eadred, iarll Mersia, archollwyd ef yn mhen ei lin, ac oberwydd hyny rhoddes Anarawd iddo fynachlogydd Gwynedd.—*Greal* Llundain, 120.

TUDWEN, santes, yn ei bloden, tybir, tua dechreu y seithfed cant. Hi a sefydlodd eglwys Llandudwen, sir Gaernarfon.

TUDWY, sant yn nechreu y 6ed cant. Mab ydoedd i Dyfodwg, ac aelod o goleg Cenydd Sant, yn Ngwyr. Efe a sefydlodd Landudwg, neu Tythegston, yn Morganwg.—*Iolo MSS.*

TURNOR (Cadben John), a anwyd yn Llangoedmor, ger Aberteifi, yn y flwyddyn 1761. Yn 1778 aeth ar fwrdd y llong ryfel *Fate*, yr hon a lywyddid gan Cadben Colby, o'r Ffynonau, sir Benfro, ac nid nepell o enidfan Mr. Turnor. Bu mewn brwydr boeth â'r Ffrancod ar dueddau yr India Orllewinol yn 1779. Yn 1781, yr ydym yn ei gael yn y llong *Preston* mewn brwydr â'r Holandiaid, pryd ni wnaeth ond prin ddiengyd; a pharhaodd yn y gwasanaeth llyngesol, yn benaf yn yr India Orllewinol, hyd heddwch 1783. Gwedi bod am beth amser ar fwrdd y *Bombay Castle*, efe, ar gais y tywysog Gwilym Henri (wedi hyny y brenin Gwilym IV.), a gymerodd swydd o dan ei uchelder breninol ar fwrdd y *Pegasus* yn 1785. Yn 1790, gwnaed ef yn gadraglaw y *Camilla;* ac yn 1793, yr ydys yn ei gael yn yr un swydd ar fwrdd y *Robust*, o dan lywyddiaeth

Digitized by Google

Arglwydd Keith. Pan gymerwyd Toulon, yn y flwyddyn hono, dangosodd y Cadraglaw Turnor fedr a gwróldeb o'r mwyaf canmoladwy, a gwobrwywyd ef mewn canlyniad i hyny â chadbeniaeth ar un o'r llongau a gymerasid oddiar y gelyn, pryd y daeth iddo dros £12,000 fel ei ran o'r ysbail gwobrwy. Yn 1794, symudwyd ef i'r gadlong *Glory*, ac yn 1795 i'r *Monarch*. Yn 1796, yr oedd yn un o'r gorchfygwyr yn mrwydr Salhana. Yn 1799, gwnaed ef yn gadben y *Trident*, lle y bu hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn Ynys y Tywysog Edward, yn yr India Orllewinol, yn 1803, yn 42 mlwydd oed.—*Lleyn MSS.*

TWRCH (Richard a William), oeddynt seiri meini enwog yn sir Forganwg, yn amser Edward VI. ac Elizabeth. Yr oeddynt yn berchenogion cloddfa o geryg nadd gerllaw yr afon Ogwy, ac yn ei gweithio. Dynion anmhriod oeddynt; ac, yn anedwydd, syrthiodd cariad y ddau ar yr un ferch ieuanc. Achosodd hyny lawer o eiddigedd o bob tu; ac o'r diwedd torodd ymrafael mor boeth rhyngddynt, fel y darfu i'r ddau wneud llw difrifol, na siaradai y naill ohonynt byth â'r llalll. Er hyny parhasant i weithio yn y gloddfa fel arferol; a pha bryd bynag y byddai ar un eisiau cymhorth y llall i godi neu symud careg fawr, neu ryw orchwyl cyffelyb, gwneid arwydd; ond gofelid na chaffai un gair ei barablu. Gwedi i bethau gael eu dwyn yn mlaen fel hyn am beth amser, daeth i glustiau y ferch ieuanc mor annedwydd yr oedd pethau yn bod rhwng y ddau frawd: a hi, o'i thu hithau, a addunedodd na fyddai dim a wnelai hi â'r naill na'r llall ohonynt. Darfu i'r penderfyniad hwn, er mor annghysurus oedd rhyngddo â'i frawd, daflu Richard i bruddglwyf dwys. Yn fuan wedi hyn, efe a adawodd y wlad, ac a aeth na wyddai neb i ba le. Buwyd am hir amser heb glywed dim oddiwrtho; ond yn mhen ugain neu ddeg ar hugain o flynyddau, dychwelodd, i Forganwg, wedi bod yn Llundain, Paris, a llawer o barthau o'r Ital, gan weithio wrth ei alwad o naddwr ceryg, ac adeiladydd. Yn ystod ei deithiau ymroddodd yn astud i ymhyrwyddo mewn adeiladaeth a cherfiadaeth, yn eu hamrywiol ganghenau, a gwnaeth gynydd mawr iawn yn mhob un ohonynt. Ar ei ddyfodiad gartref, canfu fod ei frawd wedi gadael yr hen gloddfa deuluaidd, ac wedi darganfod ceryg nadd yn Mhen y-bont-ar-Ogwy, ac ymsefydlu yno; ond dywed traddodiad arall ei fod wedi marw. Ailymgymerodd Richard â'r hen gloddfeydd, a gweithiodd hwynt. Darfu i'r dull rhagorach yr oedd efe yn gwneud ei waith yn fuan dynu sylw y boneddigion oedd yn y cymydogaethau hyny; a darfu i Richard Basset, o Bewpyr, ger y Bont Faen, ei gymeryd i wneud y rhanau addurniadol o'i gastell a'i gapel, gwyneb y rhai a wnaeth efe â'i geryg ei hun yn y dull Ionaidd, yn nghyda'r cerfiadau heirdd sydd i'w gweled yno, ac yn tynu sylw ymdeithwyr hynafiaethol i hoffi sylwi ar falurion y lle gwych hwnw.—*Lleyn MSS.*

TWRNOG, neu Teyrnog, sant yn y 6ed cant. Yr oedd yn frawd i Dyfrydog Sant, ac yn fab i Arwystli Gloff. Sefydlodd eglwys Llandyrnog, sir Ddinbych, lle y cedwid ei wyl Mehefin 26.—*Camb. Biog.*

TWROG, sant yn y 6ed cant, a mab i Ithel Hael. Daeth gyda Chadfan Sant i Gymru o Lydaw, a sefydlodd eglwysi Llandwrog yn Arfon, a Maentwrog yn ngwlad Feirion, lle y cedwid ei wyl Mehefin 26.

TYBIAWN, mab hynaf Cunedda Wledig, ac efe trwy ei drefniadau doeth, a chymhorth ei frodyr, a lwyddodd i yru y Gwyddyl Ffichti ac Ysgotaidd o Wynedd, o ba le yr oeddynt wedi gyru y brodorion cynhenid allan, a gwladychu eu hunain am lawer o flynyddau. Cymerodd

Digitized by Google

hyn le yn y 4edd ganrif. Tybiawn a laddwyd mewn brwydr; a bonedd y wlad a roddasant deyrniaeth y gantref enilledig i Feirion ei fab, ac o hyn allan galwyd y cantref hwnw Meirionydd.—*Iolo MSS.*

TYBIL, santes yn nghanol y bumed ganrif. Merch ydoedd i Frychan Brycheiniawg. Dywedir iddi gael ei lladd mewn man yn sir Gaerfyrddin, lle y mae eglwys wedi ei chyflwyno iddi, a elwir hyd y dydd hwn yn Llandybie. Cofwid ei gwyl Ionawr 30.

TYDAIN TAD AWEN, cymeriad pwysig yn chwedl a rhamant yr Hen Gymry. Blodeuai yn amseroedd cynhanes, cyfnod nad oes dim ond traddodiad a ffugiaith yn taflu ambell lygedyn euliw arno, ac ambell bost o oleuni oddiar y *Trioedd* yn treiddio i'w gaddug pell. Yn un o'r awdurdodau olaf, cysylltir ef gyda Hu Gadarn a Dyfnwal Moelmud tan y penawd, "tri Chynofydd Cenedl y Cymry,"—trydydd "Tydain Tad Awen a wnaeth drefn a dosparth gyntaf ar gôf a chadw Cerdd Dafawd a'i pherthynasau; ac o'r drefn hono y dychmygwyd breiniau a defodau dosbarthus ar Feirdd a Barddoniaeth Ynys Prydain gyntaf." Yn *Tri* 92, rhestrir ef gyda Gwyddon Ganhebon a Hu Gadarn, tan y penawd, "tri Deifnogion Cerdd a Chendawd Cenedl y Cymry," a "Thydain a roddes gelfyddyd gyntaf ar Gerdd Dafawd, a Dosparth ar Gendawd; ac o'r a wnaethant y triwyr hyny y cafas Beirdd a Barddoniaeth, a dodi yn nosbarth Braint a Defawd y pethau hyny y gan y tri beirdd cyntefigion, nid amgen Plenydd, Alawn a Gwron." Mewn *Tri* arall, rhestrir ef gyda Gwrhir a Menyw, tan y penawd, "tri Chynfebydd," a "thri meib beirdd oeddynt." Tybia Davies yn y *Mythology of the Druids*, mai yr un ydyw Tydain y Cymry a Titan ac Apollo y Groegiaid. Mewn dernyn barddonol a briodolir i Daliesin, dywedir fod ei fedd yn ngodreu yr Aren.—*Myv. Arch.; Iolo MSS.*

TYDECHO, sant yn nechreu y 6ed cant, a mab i Amwn Ddu ab Emyr Llydaw, a chefnder i Gadfan Sant, gyda'r hwn y daeth efe i'r wlad hon o Lydaw. Ymwladychodd ef a'i chwaer Tegwedd yn rhandir Mawddwy, yn ngwlad Feirion, lle y sefydlodd efe Lanymawddwy, a Llanau cyfnesol Mallwyd a Garthbeibio. Efe hefyd oedd sefydlydd a nawddsant y Cemmaes, yn sir Drefaldwyn; ac yr oedd addolfan o'r enw Capel Tydecho unwaith yn sefyll yn mhlwyf Llandegfan, Mon. Clybu Maelgwyn Gwynedd am ei ddiwioldeb, a chan fod y Tywysog hwnw ar y pryd yn wr ieuanc didoriad a didduw, boddiai ei nwydau drygionus wrth boeni yr hen sant defosiynol, a Thydecho a wnaeth y fath wyrthiau rhyfedd yn ad-daliad am y difriau hyn, fel y bu da gan Faelgwn ymheddychu ag ef trwy roddi iddo anrhegion lawer, a dodi nawdd cysegr i droseddwyr i ffoi ato. Cymerwyd Tegwedd hefyd ymaith trwy drais a gorthrecl. gan benaeth o'r enw Cynon; eithr bu gorfod iddo yntau ei dychwelyd yn ddianaf, a dodi iawn o gyfoeth a thiroedd Garthbeibio. Ceir manylion ei hanes yn "Chwedl Tydecho Sant," ar gân, yr hwn a gyfansoddwyd tua 1450, gan y bardd enwog Dafydd Llwyd ab Llywelyn ab Gruffydd. Argraffwyd hon yn yr ail gyfrol o'r *Cambrian Register;* ac yn y *Bardic Museum* o waith Jones, lle y gwelir hefyd nodiadau gwerthfawr o waith Lewis Morris. Cedwir ei wyl Rhagfyr 17.—Wms. *Em. Welsh.*

TYDWALLT, ydoedd fab i Dydeyrn, brenin Garthfadryn, neu sir Frycheiniog, hyd tua chanol y bedwaredd ganrif. Yn ol *Bonedd y Saint*, mab ydoedd i Seithenyn; eithr yn ol *Achau y Saint*, wyr ydoedd i Seithenyn, a mab i Arwystli Gloff. Yn ol rhai awdurdodau, efe a sefydlodd eglwys Dyneio, neu Pwllhelli, sir Gaernarfon.—*Myv. Arch.*

Digitized by Google

TYFEI, sant yn nechreu y 6ed cant. Mab ydoedd i Buddug ac Arianwedd, chwaer Teilo Sant. Lladdwyd ef yn ddamweiniol pan yn blentyn gan wr o'r enw Turtic; a chladdwyd ef yn Penali, sir Benfro. Efe yw nawddsant Llandyfei, neu Lamphey, yn y sir hono; a Llandyfeisant, ger Llandeilofawr, sir Gaerfyrddin.—*Liber Landavensis; Godwin de Præsulibus.*

TYFODWG, sant tua therfyn y bumed cant. Mab ydoedd i Gwilfyw ab Marchan, yn ol *Achau y Saint.* Daeth i Gymru o Lydaw gyda Garmon a Chadfan, ac aeth yn aelod o goleg Illtyd. Sefydlodd eglwysi Llandyfodwg ac Ystrad Dyfodwg, yn sir Forganwg; ac yr oedd yn un o'r tri a sefydlodd eglwys Llantrisant, yn yr un sir. Cofnodir un o'i ddywediadau yn *Chwedlau y Doethion:*—

"A glywaist ti a gant Tafodwg,
O uchdir Morganwg,
Ni ddaw da o hir ddrwg."

TYFRIOG, neu Dyfrydog, sant yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Dingad ab Nudd Hael; ac efe a sefydlodd eglwys Llandyfriog, neu Llandyfrydog, sir Aberteifi.—*Iolo MSS.*

TYFRYDOG, sant yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Arwystli Gloff ab Seithenyn, o Dywynwedd, merch Amlawdd Wledig. Yr oedd yn aelod o goleg Enlli, ac efe a sefydlodd eglwys Llandyfrydog, yn Mon.—*Yr un.*

TYRNOG GAWR, tywysog yn Mhrydain pan oresgynid y wlad hon gan yr Rhufeiniaid. Pair Tyrnog Gawr ydoedd un o Dri Thlws ar ddeg Ynys Prydain: "o rhoddai llwfrddyn ei fwyd ynddo, nis berwai, eithr bwyd gwr dewr a ferwai yn ddiatreg."—Jones' *Bardic Museum.*

TYSILIO. Y sant a'r awdwr enwog hwn ydoedd fab i Frochwael Ysgythrog; ac Arddun merch i Babo Post Prydain. Dywedir iddo fod yn esgob Llanelwy; ac iddo olianu ei gefnder Asaph Sant yn uniongyrchol i'r swydd hono. Yr oedd yn ei flodeu tua chanol y 7fed ganrif. Yr oedd Tysilio yn fardd, a dywedir iddo ysgrifenu Hanes yr Eglwys yn Mhrydain, yr hwn waith a fu yn hir ar ddifancoll; eithr dywed Malkin, oddiar awdurdod Iolo Morganwg, mae yn debyg, iddo gael ei ddarganfod yn ddiweddar, ac nad ydoedd ond ffug a ysgrifenwyd rywbryd tua 1480 neu 1490. Priodolir i Dysilio awdurwaith un o'r *Brutiau Cymreig*, yr hwn a welir yn argraffedig yn y *Myvyrian Archaiology.* Y mae yn anhawdd gwybod pa ran a gymerodd efe yn y gwaith hwn, a pha un ai cyfansoddi y gwaith ei hun a ddarfu iddo, ynte chwanegu at rhyw waith gwreiddiol. Golygwyd y *Brut* hwn drachefn gan Walter de Mapes, a chwanegwyd ato wedi hyny gan Sieffrey o Fynwy. Yr unig weddillion o'i ailuoedd fel bardd sydd ar gael ydyw ei ymddyddan rhwng dau fynach, yr hwn sydd argraffedig yn y *Myv. Arch.* Tysilio ydoedd sefydlydd a nawddsant yr eglwysi canlynol:—Meifod a Llandysilio, yn sir Drefaldwyn; Llandysilio a Bryneglwys, yn sir Ddinbych; Llandysilio, yn Mon; Llandysilio yn Nyfed, sir Gaerfyrddin; Llandysilio Gogof, sir Aberteifi; Sellack a Llandysilio, yn sir Henffordd. Cedwid ei wylmabsant Tachwedd 8.—*Myv. Arch.; Iolo MSS.; Welsh Saints;* Wms. *Em. Welsh.*

TYSSUL, sant yn y 6ed cant, a mab i Conun ab Ceredig ab Cunedda Wledig. Sefydlodd eglwys Llandysul, yn sir Drefaldwyn; a Llandysul, yn sir Aberteifi Cedwid ei wyl Ionawr 31.—*Iolo MSS.*

TYWYNWEDD, merch i Amlawdd Wledig, a gwraig ar y cyntaf i Llyr Merini, a mab o'r briodas hon ydoedd Caradawg Freichfras. Yn ol *Achau y Saint,* meibion hefyd iddi hi oeddynt Gwyn ab Nudd a Gwall-

Digitized by Google

awg ab Llenawg. Wedi hyny bu yn briod ag Arwystli Gloff, ac ohono ef yr oedd yn fam i Dyfrydwg, i Dwrnog, i Dwrog, ac i Diheufyr, y rhai oeddynt oll yn saint yn yr Eglwys Brydeinig.—*Iolo MSS.*

UCHTRYD, prelad enwog, ac archddeon Llandaf yn 1126. Wedi i'r esgobaeth hono fod yn wag am chwe' blynedd, efe a gysegrwyd i'r swydd yn 1139, yr hon a lywiodd gyda doethineb mawr hyd ei farwolaeth yn 1145. Y mae yr hanesydd Caradawg o Langarfan, yn rhoddi clod uchel iddo am ei ddysgeidiaeth ddofn, ei dduwioldeb amlwg, a'i ymdrechion selog i adsefydlu dysgyblaeth eglwysig. Yr oedd iddo ferch o'r enw Angharad, yr hon a briododd Iorwerth ab Owain ab Caradawg, arglwydd Carlleon-ar-Wysg, a boneddwr o gryn allu a dylanwad.—*Myv. Arch.; Liber Landavensis.*

UFELWYN, sant yn nechreu y 6ed cant, a mab i Cenydd ab Ancuryn o'r Coed Aur. Efe a sefydlodd eglwys Llanufelwyn, neu St. Sior, yn Morganwg. Bu yn dal swydd uchel yn yr eglwys ar randir Ergyng, o fewn esgobaeth Llandaf, pan oedd Teilo Sant yn esgob yno. Dywedir i Feirig, brenin Morganwg, roddi yn rhodd iddo eglwys Llansillow, yn sir Henfordd.—*Liber Landavensis; Iolo MSS.*

ULCHED, sant nas gwyddis ond ychydig am dano ond ddarfod iddo sefydlu eglwys Llanulched, yn Mon, lle y cedwid ei wyl Ionawr 6.

URIEN RHEGED, mab i Cynfarch Oer ab Meirchion Gul, ab Gwrwst ab Ceneu, ab Coel Codebog, a rhyfelwr enwog yn y bumed ganrif. Brodor ydoedd o Ogledd Prydain, a chan ei dad dirio gaethau lawer yn rhandir Moray; eithr trwy anffawd rhyfel gorfu ffoi o'i wlad, ac yn Nghymru y cafodd efe nawdd ac achles. Yna Urien a ymroddes ac a lwyddodd i ymlid ymaith y Gwyddyl Ffichti o Dyfeheubarth, lle yr oeddynt wedi ymwladychu, ac yn wobr am hyn cafodd yn anrheg randir Rheged, yr hwn a safai rhwng yr afonydd Tawe a Thowy, yn Neheubarth, ac a gynwysai gantrefi Cydweli Carnwyllion, Gwyr, Iscenen, a Chantref Bychan, lle yr oedd ei awdurdod a'i lywodraeth yn ail i freinu. Ei balas oedd yn Aberllychwr yn Ngwyr, a chastell cryf ydoedd o'r enw Castell Aberllyw. Yna aeth Urien i Ogledd Prydain, lle yr adenillodd diroedd ei dad; a chyda cymhorth ei feibion bu yn ymfrwydro yn ddewr dros hir amser yn erbyn Ida, brenin Northumberland. Wedi aml a blin frwydrau, yn mha rai yr oedd buddugoliaeth fynychaf yn eyhwfan ar ei faner, efe a laddwyd yn fradaurus tra yn gwarchae Deoric, mab Ida, yn Ynys Lindisfarne, gan Lofan Llawdino, a gelwir y weithred hono yn y *Trioedd* yn un o'r "tair anfad gyflafan." Bardd Urien Rheged ydoedd Tristfardd, ac yr oedd efe hefyd yn noddwr haelionus i eraill feirdd, megys Taliesin a Llywarch Hen, y rhai a erddygasant ei gloddydd a'i wrhydri ar gân. Rhestrir ef yn mhlith Saint Cor Cattwg, yn Llangarfan, ac adwaenir ef yn rhamantau Seisnig yr Oesoedd Canol wrth yr enw Sir Urience. Ceir crybwylliadau mynych o'i enw ef a'i hiliogaeth yn y *Trioedd.* Rhestrir ef gyda Chynfar a Gwenddolen tan y penawd, "tri tharw cad Ynys Prydain," "sef y rhuthrynt ar eu galon yn ail i darw, ac ni ellid a'i deoraint." Pasgen, ei fab, a elwid yn un o'r "tri thrahaawg;" ac ymserchodd Cynon, un o'r "tri serchogion," yn Morfydd, merch Urien Rheged. Merch arall iddo o'r enw Elwri, a briodes Morgan Morganwg. Yn *Englynion y Gorugau,* dywedir iddo ladd ugain mil o Wyddelod yn Aberllyw. Olianwyd ef gan ei fab Pasgen, eithr oherwydd traha a brad y gwr hwnw, bwriwyd ef o'i swydd, ac ailanwyd Rheged gyda theyrnaeth Morganwg.—*Myv. Arch.; Iolo MSS;* Nennius yn y *Six English Chronicles.*

Digitized by Google

UR AB ERIN LUYDDAWG, neu Urp Luyddawg. Yr unig grybwylliad mewn hanesiaeth henafol a geir am yr hen arwr hwn ydyw a ganlyn a welir yn y *Trioedd* 14 :—"Tair Cyfforddwy a aethant o Ynys Prydain: cyntaf, yr un a aeth y gan Ur ab Erin Luyddawg o Lychlynn, ac efe a ddaeth i'r Ynys hon yn amser Gadial ab Erin i erchi cymhorth yr Ynys hon dan adduned na cheisiai o bob Prif-gaer namyn a ddelai ganthaw iddi; ac ni ddelai ganthaw amgen nag un i'r gaer gyntaf, namyn ei hun a'i was Mathatta Fawr, ac ohono cael dau, ac o'r eilgaer pedwar, ac o'r drydygaer myned yn wyth, ac o'r nesaf unarbymtheg, a herwydd hyny o gyfestryd o bob caer arall, hyd onid oedd o'r gaer ddiweddaf nis gellid eu rhif yn yr holl Ynys. A chydag ef yr aeth teirmil a thri ugaint ac un mil, ac nis gellid iddaw fwy na hyny yn yr holl Ynys o wyr cyfalleu, gan nad oedd namyn plant ac henafgwyr ar ei ol. A llwyra lluydd fu erioed oedd Ur ab Erin Luyddawg: ac ar ddiystyrdod y bu gan genedl y Cymry roddi hyny iddaw dan adduned anesgorawl, canys o hyny y cafas y Corraniaid le i ddwyn cyrch gormes i'r Ynys hon. Ac o'r gwyr hyny ni ddaethant drachefn yr un o naddynt, nag o hil nag o epil iddynt. Sef ydd aethant ar gyrch Gorddwy hyd ym Môr Groeg, ac aros yno yn nhir Galas, ac Asena, hyd heddyw, a myned yn Roegiaid."

UST, sant yn nechreu y 6ed cant. Daeth efe a Dyfnig trosodd i'r wlad hon o Lydaw gyda Chadfan Sant, a'r ddau hyn sydrhyngddynt a sefydlasant eglwys Llanwrin, sir Drefaldwyn.

UTHR PENDRAGON, tad yr enwog frenin Arthur, a mab ieuengaf Cystenyn Fendigaid. Ar farwolaeth ei frawd, Emrys Wledig, yn y flwyddyn o oed Crist 500, efe a goronwyd yn frenin y Brythoniaid. Ceir llnaws o chwedlau synfawr am ei wrhydri fel cadflaenor a rhyfelwr dewr yn y *Brutiau* Cymreig; eithr ychydig o bwys na gwerth a hanesyddol ellir ddodi arnynt. Gellir ymddiried, modd bynag, iddo fod yn ddraen lem a phigog yn ystlysau y Sacsoniaid gormesol am lawer o flynyddau. Wedi teyrnasiad llwyddianus am ddwy-ar-bumtheg o flynyddau, darfu i un o'r gelynion ysgeler ddodi gwenwyn yn y ffynon o ba un yr arferai Uthr yfed, ac efe a fu farw mewn canlyniad yn 517.—*Myv. Arch.*

VAUGHAN (GRIFFITH), ab Griffith o'r Rhuddallt a Chorsygedol, Yr oedd y Griffith hwn mewn bri mawr gan Jasper, Iarll Penfro, yr hwn a arosodd yn ei dy yn Nghorsygedol, pan yn diange i Ffrainc yn amser Edward IV.; a dywed rhai fod Harri, Iarll Richmond, wedi hyny brenin Lloegr, gydag ef. Y mae hen dŷ yn Abermaw a elwir "Tygwyn yn Bermo," a ddywedir ei adeiladu gan Griffith Vaughan, i'r dyben, meddir, o ddal cyfeillach â phenaethiaid achos Lancaster, gan ei fod yn nes at y mor, ac felly yn haws dyfod iddo. a dyogelach i ddianc i'r mor, na'i balas yn Nghorsygedol. Ei wraig oedd Lowri, nith i Owen Glyndwr—Meyrick's *Dwnn's Heraldry.*

VAUGHAN (PARCH. HENRY), ydoedd fab i foneddwr o'r enw John Vaughan, o'r Caethle, sir Feirionydd. Ganwyd ef yn 1616. Pan yn 16 oed, cafodd dderbyniad fel cyffredinwr i goleg Oriel, Rhydychain, ac wedi hyny dewiswyd ef yn gymrawd. Byddai yn pregethu gerbron Siarl I pan gynaliai y teyrn hwnw ei lys yn Rhydychain; ac yn Mehefin, 1643, rhoddodd y Brifysgol iddo fywiolaeth y Panteg, sir Fynwy. Bu am beth amser yn athraw i Syr Leoline Jenkins. Cyhoeddwyd y llyfrynau canlynol o'i waith: 1, "A Sermon preached before the House of Commons at Oxon, on Mat. v. 20," 1644; 2, "A Conference had between

Digitized by Google

him and Jo. Tomlies, B.D. in St. Mary's Church, in Abergaveny, 5 September, 1653, touching Infant Baptism," 1656. Bu farw yn 1661. Wood's *Athen. Oxon.*

VAUGHAN (HENRY), neu fel yr adwaenid ef creu yn y byd llenyddol *The Silurist*, a anwyd yn 1620 mewn ffermdy o'r enw Newton, yn mhlwyf Llansantffraid, sir Frycheiniog. Gefeilliaid ydoedd ef a Thomas Vaughan *(Eugenius Philalethes)*. Bu am chwe' blynedd tan addysg ramadegol y Parch. Matthew Herbert, rector Llangadog. Yn 1638, derbyniwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain, lle yr arosodd am ddwy flynedd, eithr nid ymddengys iddo gymeryd un radd yno. Pan dorodd y Rhyfel Gartrefol allan, efe a ddychwelodd i'w wlad enedigol, a chan ymroddi i astudio physigwriaeth, cyrhaeddodd gryn enwogrwydd yn y wybodaeth hono. Treuliai ei amser segur mewn efrydu ieithoedd a chyfansoddi barddoniaeth; ac yn 1650, cyhoeddodd ei lyfr cyntaf, sef, "Olor Iscanus; a Collection of some select Poems," a argraffwyd yn Llundain. Dilynwyd hwn gan "Silex Scintillans; or the Bleeding Heart. Sacred Poems and Ejaculations, in two Books." Argraffwyd hwn ddwywaith, ac yn yr ail argraffiad, chwanegwyd "The Mount of Olives; or Solitary Devotions," 1652. Cyfieithodd hefyd o'r Lladin i'r Saesneg:—1, "Of the Benefit we may get by our Enemies." Traithawd yw hwn a ysgrifenwyd ar y cyntaf yn yr iaith Roeg gan Plutarchus Chæronensis, ac a gyfieithwyd i'r Lladin gan Dr. Jo. Rainolds, o goleg Eglwys Crist. 2, "Of the Deceases of the Mind and Body," gan yr un awdwr yn y Roeg, a'r un cyfieithydd i'r Lladin. 3, "Of the Deceases of the Mind and Body, and which of them is most pernicious;" y gofyniad yn cael ei osod a'i benderfynu gan yr athronydd Platonaidd, Maximus Tyrius, a ysgrifenwyd gyntaf yn yr iaith Roeg, ac a gyfieithwyd i'r Lladin gan y dywededig Dr. Rainolds. Argraffwyd y tri chyfieithiad hyn gydag "Olor Iscanus." 4, "The blessed state of Man," a ysgrifenwyd yn Lladin gan Anselme, archesgob Canterbury; argraffwyd hwn gyda "The Mount of Olives." 5, "Two Excellent Discourses, I., Of Temperance and Patience; II., Of Life and Death," 1654; yr awdwr gwreiddiol ydoedd Joh. Euseb. Nierembergius. 6, "The World Contemned," o waith Eucherius, esgob Lyon. 7, "Hermetical Physic: or the right way to preserve and restore Health," o waith Henry Nollins. Cyfieithodd hefyd o'r Yspaenaeg i'r Saesneg," The Praise and Happiness of the Country Life," o waith Don. Anton. Guevara, esgob Carthagena. Y mae hwn hefyd wedi ei argraffu gyda'r "Olor Iscanus." Cyhoeddodd hefyd "The Life of Paulinus," esgob Nola, wedi ei gasglu allan o'i ysgrifeniadau, ac awduron eraill. Bu farw yn Ebrill, 1695, a chladdwyd ef yn eglwys ei blwyf genedigol.—Wms. *Em. Welsh.*

VAUGHAN (SYR JOHN), cyfreithydd enwog a dysgedig, ydoedd fab i Edward Vaughan, Ysw., o'r Trawsgoed, yn sir Aberteifi, lle y ganwyd ef yn 1608. Ei fam ydoedd ferch i John Stedman, Ysw., o Ystrad Fflur. Bu am bum' mlynedd yn ysgol y Brenin, Worcester, ac aeth oddiyno i goleg eglwys Crist, Rhydychain, yn 1622. Pan yn ddeunaw oed, derbyniwyd ef yn aelod o'r Deml Ganol, lle am beth amser y chwenychai yn hytrach ddilyn ei efrydiadau colegol mewn barddoniaeth ac uwchrifyddiaeth nag astudio cyfreithiau Lloegr. Yn mhen yspaid, ffurfiodd gydnabyddiaeth gyda'r dysgedig Selden, ac eraill, y rhai a'i hanogasant i ymroddi i'r gyfraith; yntau a ufuddhaodd, gan wneud y cyfreithiau corphoriaethol yn brif wrthddrychiau ei sylw, y rhai a fuont o hyny allan yn broffes ganddo. Etholwyd ef yn aelod seneddol tros Aberteifi

Digitized by Google

i'r senedd a gyfarfu Tach. 3, 1640, a buan y daeth yno yn siaradwr hyawdl a phoblogaidd; eithr pan y teres y Rhyfel Cartrefol allan efe a adawodd Lundain, ac a ymneilldduodd i'w wlad enedigol. Rhoddir y cymeriad rhyfedd a ganlyn iddo tua 1661:—"John Vaughan, un a sieryd yn uchel ar brydiau ar freninoliaeth, ond ni wlych ben ei fys er ei hyrwyddiant. Eisteddodd fel aelod tros sir Aberteifi yn y Senedd Hir, eithr ymneilldduodd o'r Senedd yn ystod prawf Strafford; a enwyd gan ei Fawrhydi i fod yn un o'r Dirprwywyr yn y Gynadledd a gynelid yn Ynys Wyth, eithr a wrthododd; a brynodd Mefenydd, un o faenoriaethau ei Fawrhydi yn sir Aberteifi; a gynorthwyodd ei hun yn ngwarchaead a chymeriad Aberystwyth oddiar warchlu y brenin. Trwy y pethau hyn, llwyddodd i ysgoi cosb ac atafaeliad; ac a ddaliodd swyddau yn y gwahanol lywodraethau diweddar. Y mae ganddo gyneddfau rhagorol, ond coledda syniadau rhy uchel am danynt; yn falch a thrahaus, ac yn gybyddlyd ddigyffelyb; trwy roddi echwyn o wyth cant o bunau i'r Milwriad Phylip Jones, ac anwyliaid y llywodraeth ddiweddaf, cafodd ddylanwad mawr yn y sir y mae yn byw ynddi ag sydd yn parhau hyd y dydd hwn." Wedi dychweliad y freninoliaeth, efe a etholwyd yn aelod seneddol tros sir Aberteifi, a chymerodd y brenin Siarl II. sylw neilldual o'i brofiad a'i ddylanwad, yr hwn a roddes iddo yr urdd o farchog. Yn mhen ychydig ddyddiau tyngwyd ef yn Rhingyll yn y Gyfraith, yn y Canghellys, Westminster, Mai 22, 1668; a thranoeth, tyngwyd ef yn Arglwydd Brif Ynad Llys y *Common Pleas*. Cyfansoddodd a chasglodd, "Reports and Arguments, being all of special cases, and many wherein he pronounced the resolution of the whole Court of Common Pleas, at the time he was Lord Chief Justice there," 1677. Cyhoeddwyd hwynt gan ei fab Edward Vaughan, Ysw.; a gadawodd rai pethau eraill yn barod i'r wasg. Dywed Wood, "Ei fod yn ddyn cyfrifol iawn, a'i fod yn gyfreithydd enwog, ac yn foneddwr cyflawn yn mhob ystyr." Bu farw yn 1674, a chladdwyd ef ger bedd John Selden, yn Eglwys y Deml; lle y mae beddargraff Lladin i'w goffadwriaeth. Y mae darlun ohono yn Leeswood Hall, ger y Wyddgrug; a cheir copi o'r cyfryw ar ddur yn y *Royal Tribes of Wales*, o waith Yorke. Ei wyr, John Vaughan, a grewyd yn Is-ardalydd Lisburne, Arglwydd Vaughan, yn 1695, ac o hwn y gwreiddia yr Iarll Lisburne presenol.—Wood's *Athen. Oxon.*; *Camb. Register* i. 196; Meyrick's *Cardiganshire*.

VAUGHAN (JOHN), ydoedd un o Fychaniaid Caergai, Meirionydd. Yr oedd yn fardd Cymreig enwog. Y mae o'i waith "Gywydd y Gynddaredd," a gyfansoddodd ar rwysg Cromwell, er mewn iaith fwys, rhag ei gyhuddo; a cheir ei enw wrtho yn Lladin, "Johannes Vaughan de Caergai."—*Lleyn MSS.*

VAUGHAN (RICHARD), D.D., prelad enwog, ydoedd fab i Thomas ab Robert Vaughan, o Nyffryn, ger Lleyn, sir Gaernarfon. Ei dad ydoedd bumed mab Robert Vaughan ab Gruffydd, Ysw., o Dalhenbont, plwyf Llanystumdwy, yn yr un sir; a'i fam ydoedd Catherine, merch Gruffydd ab John ab Gruffydd, Ysw., o Leyn. Cafodd ei ddysgeidiaeth golegol yn mhrifysgol St. Ioan, Caergrawnt, o ba un yr oedd yn gymrawd, ac yn mha le y cymerodd ei raddau. Cafodd ei wneud yn brepend Holborn, yn mhrifeglwys St. Paul, yn 1583; ac yn archddeon Middlesex yn 1588, ac efe ar y pryd yn wyryf mewn duwinyddiaeth. Cysegrwyd ef yn esgob Bangor, Ion. 25, 1595; a symudwyd ef oddiyno i fod yn esgob Caerlleon yn 1597; ac yn esgob Llundain yn 1604. Bu

Digitized by Google

farw Mawrth 30, 1607, a chladdwyd ef yn St. Paul, o fewn capel yr Esgob Kemp. Perchid ef yn uchel ar gyfrif ei addfwynder a'i ddysg, ac yn enwedig fel pregethwr enwog. Dywed Syr John Wynn, o Wydir, yn ei Nodiadau Bywgrafiadol am dano, "Ei fod yn benteulu caruaidd, ac o feddwl tra rhyddfrydig. Yr oedd yn ysgolhaig rhagorol, yn ddyn call a chymhedrol, ac yn ddiwyd iawn gyda'i swydd, yr hyn a fyrhaodd ei ddyddiau. Symudwyd ef o Gaer i Lundain gan y brenin Iago, ffafr uchel yr hwn a enillasai; bu farw yn dlawd, canys yr oedd yn caru enw da yn fwy na golud." Dywed Fuller, "Ei fod yn dew o gorph, ond o dymheredd ysbrydol; yn pregethu'n ardderchog, ac yn byw'n ddiwiol. Yr oedd yn gyfaill dyddan, yn enwedig wrth y bwrdd, gan ganlyn yr hen ddywediad Seisnig, 'bydd yn llawen am dy fwyd, ac yn drist am bechod,' ac yn ddiau gwr trist am bechod ydoedd. Nis gallai dim ei hudo i fradychu hawliau yr eglwys i ddwylaw cysegr-yspeilwyr, ac nid arbedodd efe geryddu yn llym frodyr o'r un urdd ag yntau'am y cyfryw droseddau. Bu galar mawr ar ei ol." Y mae colofn i'w goffadwriaeth yn mhrif eglwys Bangor, a gyfodwyd gan ei gefnder yr Esgob Rowlands.—Wms *Em Welsh.*

VAUGHAN (RICHARD), Iarll Carbery, Arglwydd Vaughan, o Molingar yn yr Iwerddon, pendefig o gryn ddylanwad yn ystod y Rhyfel Gartrefol, a olianodd ei dad John, iarll cyntaf Carbery, i'r etifeddiaeth a'r teitl yn 1621. Ei fam ydoedd Margaret, merch Syr Gelly Meyrick. Crewyd ef yn Farchog y Badd-dy pan y coronwyd Siarl I. Tua 1644, penodwyd ef yn Gadflaenor siroedd Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi, eithr pan ddaeth taro arno gan ran o fyddin y Senedd, enciliodd o'u blaenau, er bod ei fyddin ef yn llawer lluosocach. Priodolid hyn gan rai i'w lwfrdra: tra y dywedai eraill, gyda llawer mwy o reswm, ei fod mewn cyngrair â'i wrthwynebwyr. Canys pan ddymchwelwyd awdurdod y brenin, efe oedd yr unig un o freingarwyr y parthau hyny a ddiangodd heb i'w feddianau gael eu hatafaelu Rhyddawyd ef rhag talu dim trwy orchymyn dau dŷ y Senedd, "ar gyfrif ei ohebiaeth gyda Iarll Essex, a'r amrywiol gymwynasau a wnaeth ef i'r senedd yn ystod ei gadflaenoriaeth, yr hyn a dystiolaethwyd gan Syr John Meyrick, ac amryw o gadflaenoriaid eraill y senedd." Gymaint ydoedd syniad Cromwell am dano fel gwr o bwys yn ei wlad, fel y danfonodd amryw geirw o'i barc gerllaw Llundain yn anrheg iddo i'w dodi yn ei barc ef yn y *Golden Grove*, sir Gaerfyrddin. Bu R. Vaughan yn Arglwydd Lywydd Cyffiniau Cymru; ac y mae Robert Vaughan o Hengwrt, yn ei *British Antiquities Revived*, yn ei grybwyll wrth yr enw hwnw yn 1662. Yn 1646, argraffwyd llyfryn bychan gwatwarllyd, o'r enw "The Earle of Carbery's Pedigree." Ei fab a'i aer Francis, Arglwydd Vaughan, a briododd y foneddiges arwrol hono Rachel Wriothesley, yr hon, wedi ei farwolaeth, a briododd yr antfodus Arglwydd William Russell; ac y mae pob un a ddarllenodd hanes Lloegr yn gwybod gyda pha ddoethineb, yni, a dyfalbarhad yr ymdrechodd hi cyn ac ar y prawf ddwyn oddiamgylch ei ryddhad.—*Cambrian Register;* Dwnn's *Heraldic Visitations.*

VAUGHAN (RICHARD), Ysw., ydoedd o Derwith, neu Derwydd, ger Gaerfyrddin. Dygwyd ef i fynu i'r gyfraith. Daeth yn ddadleuydd enwog yn y llysoedd barn, ac a ddyrchafwyd yn Brif Ynad dros siroedd Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi. Bu yn llwyddianus iawn i sefydlu undeb a heddwch trwy ei ddylanwad, ac uniondeb a chyfiawnder trwy ei esiampl. Yr oedd yn Gofnodydd ac aelod seneddol tros fwrdeisdrefi

Digitized by Google

Caerfyrddin mewn chwech seneddiad olynol, heb gael ei wrthwynebu gan neb. Bu farw Hydref 27, 1724, yn 71 oed.—*Lleyn MSS.*

VAUGHAN (Robert), o Hengwrt, yr hynafieithydd enwog, ydoedd fab hynaf Howel Vaughan, Ysw., a Margaret ei wraig, yr hon ydoedd wyres i'r Barnwr Owen, a lofruddiwyd gan Wylliaid Cochion Mawddwy. Ganwyd ef yn 1592, yn Hengwrt, ger Dolgellau, Meirion. Yr oedd ei daid wedi priodi aeres y lle hwnw, ac wedi symud palas y teulu yno o Gwengraig, lle y bu ei hynafiaid yn preswylio am lawer o genedlaethau. Palas cynhenid y teulu ydoedd Nannau, o ba le y symudodd Howel Fychan, y chweched disgynydd o Gadwgan o Nannau, ail fab Bleddyn ab Cynfyn, brenin Cymru, gan sefydlu yn Gwengraig. Trwy briodas Robert Vaughan, gyda Catherine, merch Gruffydd Nannau, Ysw., o Nannau, daeth y ddwy deulu-gainc yn un drachefn, ac y maent yn parhau felly hyd y dydd hwn. Derbyniwyd Robert Vaughan i Brifysgol Rhydychain fel cyffredinwr o goleg Oriel yn 1612, ac wedi myned trwy y cwrs arferol yn yr oes hono mewn Rhesymeg ac Athroniaeth, gadawodd y Brifysgol heb gymeryd un radd, a dychwelodd i'w gartref yn Hengwrt. Gan ei fod mewn meddiant o etifeddiaeth helaeth, ac yn llawn o ysbryd gwladgarol, ymroddodd i efrydu y gangen hono o wybodaeth a'i gwnaeth mor enwog yn mhlith dysgedigion, ac a'i dyrchafodd i awdurdod a safon ar bynciau hanesyddol a hynafiaethol Cymreig. Gyda'r un dyben, cynaliai ohebiaeth fawr gyda boneddigion o'r un cyffelyb chwaeth ac amcan, yn mhlith pa rai y gellir enwi yr Archesgob Usher, Syr. S. E'Ewes, Selden, a hynafiaethwyr enwog eraill. A ganlyn ydynt rai o gynyrchion ei ysgrifbin diwyd a galluog:—Sylwadau ac Egluriadau ar Lyfr Basingwerk; ar Nennius; ar y Trioedd, gyda chyfieithiad i'r Seisnig; ar Frut neu Groniel Caradawg o Langarfan, yn nghyda casgliad o ddeg copi ohono ar groen; ar y "New Year's Gift," o waith Leland; ar *Antoninus*, tan olygiad Burton; ar Hanes Cymru gan Dr. Powell; ar *Primordia*, o waith Usher; ar y *Catalogue Scriptorum*, o waith Ball; Croniclau Cymru o ddyddiau Gwrtheyrn i lawr, a gyfieithwyd o'r gwreiddiol i'r Seisnig, gyda nodiadau; hanes byr o Deulu Corsygedol; Hanes Lleol sir Feirionydd; a Hanes Taith i Dyddewi, yn cynwys sylwadau byrion a chryno ar y manau yr ymdeithiai trwyddynt wrth fyned a dychwelyd. Yr unig waith o'i eiddo a gyhoeddwyd yn ystod ei fywyd ydoedd, "The British Antiquities Revived," yr hwn a argraffwyd yn Rhydychain, yn 1662; a daeth ailargraffiad ohono allan yn y Bala, yn 1834, yn cael ei ragflaenu gan fywgraffiad o'r awdwr o waith y Parch. John Jones, Borthwnog. Cynullodd hefyd gasgliad gwerthfawr digyffelyb o hen lawysgrifau Cymreig; llawer ohonynt yn hen iawn, ac yn llawysgrif yr awduron eu hunain, ac eraill wedi eu hysgrifenu ganddo ef ei hun, a'u gwerthfawredd wedi ei chwanegu yn fawr gan y nodiadau manwl a'r chwanegiadau gofalus a wnaeth efe ei hun arnynt; a byddant yn gaffaeliad anmhrisiadwy i'n llenyddiaeth pa bryd bynag y gwelir yn dda eu cyhoeddi. Bu farw yn Hengwrt yn 1666, a chladdwyd ef yn Eglwys Dolgellau.—Wood's *Athen. Oxon.; Cambrian Register* iii.; *Ei fywgraffiad* yn yr *ail-arg.*

VAUGHAN (Roger), neu Rosier Fychan, ydoedd fab i Walter Sais ab Rosier Fychan, o Lechryd, sir Aberteifi, ac a ddaeth i feddiant o Gastell Bredwardine, yn sir Henffordd, oddiwrth ei fam Fflorence, merch a chydaeres i Syr Walter Bredwardine, marchog. Efe a briododd Jane, merch i Syr Walter Devereux; ac yr oedd yn dad i Syr Roger Fychan, yr hwnla briododd ferch i Syr Dafydd Gam, ac a wnaed yn farchog ar faes brwydr Agincourt.

Digitized by Google

VAUGHAN (Rowland), o Gaergai, ger y Bala, llenor ac awdwr Cymreig galluog. Yr oedd y Fychaniaid o Gaergai, sef ei hynafiaid ef, yn dirfeddianwyr parchus, ac yn un o'r hen deuluoedd anrhydeddusaf yn Meirion. Bu R. Vaughan am yspaid yn ngholeg Iesu, Rhydychain, eithr ymadawodd heb gymeryd un radd yn y celfyddydau, gan ddychwelyd gartref, ac ymroddi i efrydu a meithrin llenyddiaeth Gymreig. Saif ei enw yn uchel yn mhlith ei gydoeswyr pendefigaidd yn Nghymru, am iddo gyflwyno ei ddonau er budd a lleshad ei gydwladwyr tylodion; a chyda'r amcan hwn, efe a gyfieithodd amrai lyfrau rhagorol, y rhai sydd yn gofgolofnau anrhydeddus o ddawiolddeb ei ddyben, cystal ag o'i alluoedd fel cyfansoddwr Cymraeg pur a diledryw. Yn 1639, cyhoeddodd lyfr yr "Ymarfer o Ddawiolddeb; yn cyfarwyddo dyn i ryngu bodd Duw," yr hwn sydd yn gyfieithiad o *Practice of Piety* o waith Bailey. Ymddangosodd argraffiad arall o'r un llyfr yn 1656. Yn 1658, ymddangosodd ei gyfieithiad o *Manual of Prayers*, tan y teitl, "Prif-fannau Sanctaidd, neu law-lyfr o Weddiau." Yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd "Bregeth yn erbyn Schism, gan Jasper Mayne, D.D. O gyfieithiad R. V." A chyfieithiad hefyd o Gatecism yr Archesgob Usher, tan y teitl, "Prif-fannau Crefydd Gristionogawl, a llwybraiddfodd byrr ohoni." Ymgymerodd â'r gwaith olaf hwn ar ddymuniad y Milwriad Gwilym Salisbury, o Fachymbyd (*Hosanau Gleision*), amdduflynydd dewr Castell Dinbych, ar draul yr hwn yr argraffwyd ac y dosparthwyd ef yn mhlith y tylodion. Cyhoeddwyd ail argraffiad ohono yn 1682. Yr oedd R. Vaughan hefyd yn fardd da, ac y mae aml ddernyn o'i waith i'w weled yn y *Dyrifau Duwiol* a llyfrau eraill o'r un natur. Yr oedd yn freingarwr twymgalon, a goddefodd lawer oherwydd hyny; llosgwyd ei balasdy Caergai hyd y llawr gan wyr y werinlywodraeth o sir Drefaldwyn, ac atafaelwyd rhan fawr o'i etifeddiaeth. Costiodd eu hadfeddianu iddo lawer o arian, ac ymgyfreithio cyndyn, hyd yn nod ar ol dychweliad y freninoliaeth yn mherson yr anniolchgar Siarl II.—Wms *Em Welsh.*

VAUGHAN (Thomas), awdwr ac athronydd enwog. Gefeilliaid ydoedd ef a Henry Vaughan, a enwyd eisoes, a mab i Thomas Vaughan, o Lansantffraid, sir Frycheiniog, lle ganwyd ef yn 1621. Cafodd addysg ramadegol gyda'r Parch. Matthew Herbert, athraw enwog, a rector Llangadog. Derbyniwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain, yn 1638; a gradd'iwyd ef yn B.A. Wedi cymeryd urddau eglwysig, cafodd rectoriaeth ei blwyf genedigol gan ei gâr Syr George Vaughan, o Fallerstone, sir Wilt. Pa fodd bynag, nid hir y bu efe yn y swydd, na thaflwyd ef ohoni gan "Ledaenwyr yr Efengyl yn Nghymru," swyddwyr tan y Werinlywodraeth, ar gyfrif ei freingarwch. Yna ymneillduodd i Rydychain, lle yr efrydai ffeirylliaeth, ac y noddid ac yr amddiffynid ef yn garedig gan Syr R. Murray, ysgrifenydd gwladwriaethol Ysgotland. Yr oedd yn edmygydd gwresog ar ysgrifeniadau Cornelius Agrippa, ac yn arfer tystio mai ynddynt hwy y cafodd efe hyd i elfenau ei athroniaeth. Nid oedd ganddo ond symadau isel am Aristotle a'i athroniaeth, gan yr arferai ei dysgrifio fel costrel crachfeddyg, cyfansoddedig o hylifau annghydnaws; ac nid oedd ei farn am Descartes nemawr lai dirmygus. Aethu Mr. Vaughan gyda'i noddwr, yr hwn oedd yn anarferol o hoff o ffeirylliaeth, i Rydychain, pan symudodd y llys yno yn 1665 rhag y pla y nLiundain; ac ar ol tario yno am ychydig ddyddiau, ymneillduodd i Albury, lle y bu farw Chwef. 27, 1665—6. Dywed Wood, yr hwn a ddyry hanes maith ohono ef a'i ysgrifeniadau, "ei fod yn ffeirllydd

Digitized by Google

mawr, yn brawf-athronydd, yn frawd selog o'r urdd Rosicrucian, yn deall yr ieithoedd dwyreiniol, ac yn fardd Lladin a Seisnig lled dda." Arferai y ffugenw "Eugenius Philathes," wrth ei gyfansoddiadau llenyddol. Yn mhlith ei luaws llyfrau, ceir y rhai a ganlyn :—1, "Anthroposophia Theomagica; or, a Discourse of the Nature of Man and his state after Death;" gyda pha un yr argraffwyd "Anima Magica abscondita: or a discourse of the Universal spirit of Nitre, with the strange, abstruse, miraculous ascent and descent," 1650. 2, "Magia Adamica; or the Antiquity of Magic, and the descent thereof from Adam downward," 1650. 3, "Lumen de Lumine; or a new magical light discovered and communicated to the world," 1651. 4, "Aula Lucis; or the House of Light," 1652. 5, "Euphrates. A discourse of the Waters of the East; or of that secret fountain whose water flows from fire, and carries in it the beams of the sun and moon," 1655. —Wood's *Athen. Oxon.;* Walker's *Sufferings of the Clergy;* Wms *Em. Welsh.*

VAUGHAN (WILLIAM), bardd rhagorol, ydoedd fab i Walter Vaughan, Ysw., o'r Golden Grove, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef yn 1577, a brawd i Syr John Vaughan, iarll cyntaf Carbery. Yn 1591, daeth yn gyffredinwr o goleg Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn y celfyddydau, ac yr efrydodd y gyfraith; eithr cyn cymeryd unrhyw urdd yn y ganghen hono o wybodaeth, efe a aeth i ymdaith ar y Cyfandir, gan gymeryd y radd o Ddoethawr yn Vienna, ac ar ei ddychweliad yn 1605, cymerodd y gyffelyb radd yn Rhydychain. Ystyrid ef yn fardd campus yn yr ieithoedd Lladin a Saesneg. Y gyfrol gyntaf a gyhoeddwyd o'i waith a gynwysai fath o aralleiriad yn Lladin o'r Psalmau, ac o Ganiad Solomon, tan y teitl "Erotopaignion Pium," yr hon a gyhoeddwyd yn 1597. Cyhoeddodd un arall y ffwyddyn ganlynol, yn dwyn y teitl, "Varia Poemata:" ac yn ddiweddarach yn yr un ffwyddyn, "Poemata continent. niquod Encom. Roberti Comitis Essex." Dilynwyd hon gan "The Golden Grove moralised, in 3 Books. A work very necessary for all such as would know how to govern the mselves, their houses, or their country," yr hwn a argraffwyd gyntaf yn 1600, a thrachefn yn 1608. Eithr gweithred bwysicaf ei fywyd ydoedd sefydlu gwladychfa yn y parth mwyaf deheuol o Newfoundland, i ba un y rhoddes efe yr enw o Cambriol, a gelwid y lle ar ol hyny Britanniola. Cyflwynodd ei ddoniau a'i gynysgaeth er hyrwyddo yr anturiaeth hon. Yn 1625, cyhoeddwyd "Cambrensium Caroleia," o'i waith; pryddestawd Ladin ydyw wedi ei chyflwyno i Siarl I., ac arfera yr awdwr wrthi y ffugenw barddonol "Orpheus Junior." Ymddengys iddo dreulio y rhan olaf o'i oes yn ei wladychfa yn Newfoundland, ac yr oedd yn byw yno yn 1628 Ei waith cyhoeddedig olaf ydoedd y "Golden Fleece, divided into three parts; under which are discovered the errors of Religion, the vices and decays of the Kingdom, &c. Transported from Cambriol Colchos out of the Southernmost part of the Island called Newfoundland, by Orpheus jun. alias Will. Vaughan," Llundain, argraffwyd yn 1626.—Wood's *Athen. Oxon.*

WAITHMAN (ALDERMAN ROBERT), ydoedd fab i rieni tylodion ond parchus o dref Gwrecsam, sir Ddinbych, lle y ganwyd ef yn 1764. Bu ei dad farw pan nad oedd efe ond ieuanc; a chan i'w fam ailbriodi, darfu i ewythr iddo, yr hwn oedd yn llian-fasnachydd cyfrifol yn Bath, ei gymeryd ato, a rhoddi iddo ddysgeidiaeth ragorol. I'r perwyl hwnw, dodwyd ef yn ngofal ysgolfeistr medrus o'r enw Moore, rhan o addysg

Digitized by Google

yr hwn ydoedd arfer ei ysgolheigion i lefaru yn gyhoeddus a difyfyr ar unrhyw bynciau a ddodid o'u blaen. Oddiyno, cymerodd ei ewythr ef ato i'r masnachdy; a phan fu yr ewythr farw yn 1780, cafodd Waithman le yn Reading, ac oddiyno symudodd i Lundain. Wedi cyrhaedd ei un-ar-hugain oed, efe a briododd, ac a agorodd faelfa yn mhen deheuol Marchnad Fleet St., bron ar y fan a'r lle y saif yn bresenol y gofgolofn ithfaen i'w goffadwriaeth. Yn fuan, darfu i'w ymroddiad a'i lwyddiant ei allnogi i symud i helaethach lle, sef i gongl Bridge St. a Fleet Street, lle yr ymfalchiai wrth emill a chadw y cymeriad o ddimaswr Llundain, a masnachwr gonest a diwyrni o'i mewn. Ymneilldduodd oddiwrth fasnach yn 1823. Ymddengys iddo dori ei enw fel gwladyddwr yn 1794, pan y cynygiodd gyfres o benderfyniadau ar y Rhyfel Ffrengig ac ar y priodoldeb o gael diwygiad seneddol. Cynelid y cyfarfod hwnw yn y Common Hall, a chariwyd y cyfryw benderfyniadau gyda rhwysg yn ddiwrthwynebiad; ac o hyny allan, daeth Waithman yn anwyl a phoblogaidd yn mhlith y lluaws. Yn nesaf, etholwyd ef yn aelod o'r Cynghor Cyffredin; a buasai ei areithiau, ei benderfyniadau, ei ddeisebau, a'i anerchiadau, yn llanw cyfrol drwchus. Ei ncnelgais ef a'i gyfeillion bellach ydoedd ei gael yn aelod seneddol tros ddinas Llundain; eithr bu pob ymgais o'i eiddo yn aflwyddianus, hyd yr etholiad cyffredinol yn 1818, pan y dychwelwyd ef gyda mwyafrif mawr, ar aden 4,603 o bleidleisiau. Yn nesaf, etholwyd ef yn henadur *(alderman)* tros y rhanbarth hono o Lundain a elwid Faeringdon Without,—y rhanbarth bwysicaf o'r Brif-ddinas. Yn etholiad cyffredinol 1820, diseddwyd ef trwy fwyafrif yn ei erbyn o 140 o bleidleisiau. Yn ystod yr un flwyddyn, llanwodd y swydd o sirydd tros Lundain a Middlesex yn foddhaol ac anrhydeddus; a'r swydd o Arglwydd Faer Llundain yn 1823—4. Yn etholiadau 1826, 1830, 1831, ac 1833, dychwelwyd ef drachefn yn aelod seneddol tros y Brifddinas; eithr oblegyd afiechyd, anfynych yr oedd yn y Tŷ. Bu farw yn Chwefror, 1833, a chladdwyd ef yn eglwys St. Bride, Fleet Street. Y mae bywyd o'r fath yn wers bwysig a haeddianol o sylw pob gwr ieuanc. Trwy ddiwydrwydd, gonestrwydd, a phenderfyniad, cyrhaeddodd y safleoedd anrhydeddusaf fel dyn a dinesydd. Casglodd gytoeth mawr, a threuliodd lawer ohono, nid mewn ceulo mewn cybydd-dod uwch ei ben, ond yn hyrwyddiant gwareiddiad, ac yn nyrchafiad ei gyd-ddyn. Fel areithydd, yr oedd yn fwy nodedig am lithrigrwydd ei iaith nag am ei haddurniadau. Fel amlygiad o'i aml rinweddau cyhoeddus a phersonol, cyfodwyd gwyddfaen i'w goffadwriaeth trwy danysgrifiadau cyhoeddus, a chyfranodd gwyr o bob plaid tuag at yr amcan canmoladwy.—Wms. *Em. Welsh.*

WALTERS (Parch. John), y geirlyfrwr dysgedig, a addysgwyd yn mhrifysgol Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A. Wedi cymeryd urddau eglwysig, cafodd yn mhen yspaid rectoriaeth Llandough, ger y Bontfaen, sir Forganwg; ac yr oedd hefyd yn brepend yn Llandaf, ac yn ficer St. Hilary, yn yr un sir. Yn 1771, cyhoeddodd "Dissertation on the Welsh Language, pointing out its antiquity, copiousness, grammatical perfection, with remarks on its Poetry, and other articles not foreign to the subject," yr hwn a argraffwyd yn y Bontfaen (*Cowbridge*). Y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd "Dwy Bregeth ar Ezekiel xxxiii. 11." Eithr y gwaith a anfarwolodd ei enw ydyw ei "Eiriadur Seisnig a Chymraeg," y rhifyn cyntaf o ba un a gyhoeddwyd Ebrill 5, 1770, yn Nghymru; a'r olaf yn Llundain yn 1794, yr hyn sydd yn brawf o lafur hirfaith yr awdwr, ac o'r derbyniad oer a gai y gwaith yn mhlith ei gyd-

Digitized by Google

wladwyr. Y mae yn waith diguro ar gyfrif ei helaethrwydd, a phurdeb arddull y brawddegau a roddir ynddo fel engreifftiau; ac yn gofgolofn ysplenydd o yni, penderfyniad, a gallwoedd yr awdwr fel ysgolhaig Cymreig, a meistr y ddwy iaith yr ymdriniai â hwynt. Cyhoeddwyd ail argraffiad ohono mewn dwy gyfrol yn Nolgellau, yn 1815; a thrydydd yn Ninbych, mewn dwy gyfrol, yn 1828. Bu farw Mehefin 1, 1797, yn 77 oed.—Wms. *Em. Welsh.; Brython* v. 208.

WALTER (PARCH. JOHN), ydoedd fab i'r Parch. John Walters uchod, ac a anwyd yn 1759. Yr oedd yn M.A. a chymrawd o goleg Iesu, Rhydychain. Bu yn brif athraw ysgol ramadegol y Bontfaen, Morganwg; ac wedi hyny yn brif athraw ysgol ramadegol enwog Rhuthyn, sir Ddinbych. Yr oedd hefyd yn rector Efenychtyd, gerllaw y dref hono. Ystyrid ef yn ysgolhaig coeth. Yr oedd yn awdwr:—1, Pregeth Seisnig ar Ffydd, Rhinwedd, a Gwybodaeth, a draddodwyd yn Rhuthyn ger bron Esgob Bangor, ac a gyhoeddwyd ar gais ei arglwyddiaeth yn 1788. 2, Llythyr at Dr. Priestley, at ba un y chwanegwyd "A Discourse on the Natural Connexion of Civil and Ecclesiastical Establishments." Cyhoeddodd hefyd amryw bregethau eraill o gryn deilyngdod. Efe oedd awdwr y Rhagymadrodd i "Jones' Relics of the Welsh Bards;" a golygodd argraffiad o "Roger Ascham's Toxophilus," cyflwynedig i gymdeithas y *Royal British Bowmen*, yr hon gymdeithas a fywiogai â'i gynyrchion barddonol fel ei bardd llawryddog. Bu farw Mehefin 24, 1789, yn yr oedran cynarol o 30 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Efenychtyd, lle y mae beddargraff Lladin iddo o waith ei dad.

WATKINS (PARCH. JOSUAH), a ymunodd yn ieuanc gyda'r Bedyddwyr yn Llanwenarth, sir Fynwy; ac wedi bod yn ddefnyddiol fel cynorthwy i amryw weinidogion, yn sefydliad cynulleidfaoedd i'r enwad yn Rymni, Tredegar, Llangynidr, &c., efe a symudodd i Gaerfyrddin yn gynorthwy i'r Parch. Morgan Rees gydag argraffu a golygu cyhoeddiad misol, o'r enw *Cylchgrawn Efengylaidd*, yn nechreu y fl. 1795. Yr oedd Mr. Rees wedi yfed yn helaeth o ysbryd gwerinol llywodraeth Ffrainc, a dangosodd hyny mewn cyfrinachau ac ysgrifeniadau, a chyhuddwyd ef o fod y peth a elwid yn Jacobin. Gan fod Mr. Watkins yn gyfaill iddo, drwgdybiwyd yntau hefyd, a bu orfod i'r ddau ffoi o'r dref, rhag cael eu carcharu, cyn cyhoeddi mwy na phum' rhifyn o'r *Cylchgrawn*. Yn 1796, gwahoddwyd ef adref i gymeryd gofal cynulleidfa o Fedyddwyr yn Penuel, Caerfyrddin, a chafodd lonyddwch. Ordeiniwyd ef Mawrth 28, 1796. Yn 1799, ymadawodd â'r Bedyddwyr Neilldiol, ac ymunodd â'r Bedyddwyr Cyffredinol. Ond yn gweled fod gogwyddiad yr enwad hwnw at Undodiaeth, yn 1835, dychwelodd yn ei ol. Yr oedd yn weinidog efengylaidd a gwir lafurus, fel ag y bu ganddo law yn ffurfiad agos holl gynulleidfaoedd y Bedyddwyr yn amgylchoedd Caerfyrddin.—*Lleyn MSS.*

WATKINS (PARCH. THOMAS), M.A., F.R.S., person Llandyfaelog, a ficer Llandefalle, yn sir Frycheiniog. Yr oedd yn Ynad Heddwch tra llafurus, ac yn is-raglaw y sir. Ymwelsai â'r Cyfandir yn more ei oes; ac ar ol dyfod adref cyhoeddodd "An Account of his travels in Greece." Yr oedd yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol. Bu farw yn Pennoyra, ger Aberhonddu, yn 1820, yn 68 oed.—*Camb. Quar. Magazine.*

WHITE (JOHN), ydoedd ail fab Henry White, Ysw., o Heulan, sir Benfro, lle y ganwyd ef yn 1590. Derbyniwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain, yn 1607; ac wedi arosiad yno am beth amser, symudodd i'r Deml Ganol yn Llundain, i efrydu y gyfraith, lle y daeth yn mhen

Digitized by Google

yspaid yn Feistr y Fainc i'r gymdeithas hono. Gan ei fod yn enwog fel cynghorwr yn y gyfraith, dewiswyd ef gan y blaid Buritanaidd yn nyddiau y Werinlywodraeth yn un o'r *Feoffees*, neu y rhai a brynent i mewn yr eiddo a'r bywiolaethau eglwysig oddigan wyr lleyg y blaid wrthwynebol, er mwyn anrhegu eu cyfeillion eu hunain â hwynt. Yn 1640, etholwyd ef yn aelod o'r Senedd Hir, lle yr enwogodd ei hun yn fawr trwy ei ymosodiadau chwerwon ar yr esgobion a'r canonwyr, ac yr etholwyd ef yn aelod o Bwyllgor Crefydd. Efe mewn gwirionedd oedd cadeirydd y pwyllgor hwnw, ac mewn gelyniaeth annghymodlawn yn erbyn clerigwyr yr Eglwys Sefydledig ddiweddar, nid oedd un ohonynt elai tuhwnt iddo. Cyhoeddwyd rhai o'i areithiau Seneddol yn 1641, tan y teitl, "The first century of scandalous malignant Priests, made and admitted into benefices by the Prelates;" a llyfr arall yn erbyn esgobyddiaeth, yn 1644, yn dwyn yr enw, "The Looking Glass." Bu farw Ionawr 29, 1644—5, a chladdwyd ef yn Eglwys y Deml.—Wood's *Athen. Oxon.*

WILLIAM (Goronw), bardd yn ei flodeu yn nechreu yr 16eg ganrif. Y mae peth o'i waith ar gof a chadw.

WILLIAM (Humphrey), ydoedd fardd rhwng 1820 a 1660. Brodor ydoedd o Dywyn, Meirionydd. Y mae cerdd o'i waith yn y *Blodeugerdd*, 240.

WILLIAMS (Abraham), o'r Cwmglas, Llanberis, ydoedd fardd gwlad da, ac yn eu flodeu yn ystod y ganrif ddiweddaf. Efe oedd athraw barddonol Gutyn Peris, ac ymddengys i ryw annghydfod rhwng y dysgybl a'r athraw gymeryd lle, a chyfansoddodd Gutyn gywydd Cymod, yr hwn a welir yn *Brython* iii. 154. Symudodd A. Williams i America tua chanol ei oes, lle y treuliodd weddill ei ddyddiau, ac y bu farw.—*Lleyn MSS.*

WILLIAMS (Anna), barddones Seisnig o gryn deilyngdod, ydoedd ferch i feddyg o'r enw Zechariah Williams, yn Neheudir Cymru, lle y ganwyd hithau yn 1706. Yr oedd ei thad yn wr celfyddgar, ac yn ymdlifyru llawer mewn arbrofion athronyddol, ac yn hyddysg iawn yn y gwyddonau a'r celfyddydau; ac yn nghanol yr arbrofion hyn, meddyliodd ei fod wedi gwneud darganfyddiad pwysig mewn cysylltiad â chael allan ledred y ddaear gyda nodwydd y tynfaen *(magnetic needle)*. Gadawodd ei alwedigaeth a'i gartref, ac aeth i Lundain, gan ddisgwyl gwobrwy aruthrol am ei ddyfeisiad; a dilynwyd ef gan ei ferch. Cyrhaeddasant y Brifddinas yn 1730, a chanddo ef beirianau rhifyddol a morwrol a ddyfeisiodd er mwyn egluro ei gynllun. Ei orchwyl cyntaf ydoedd gosod gerbron dirprwywyr y lledred ffrwyth ei ymchwiliad, eithr ni ddaliai y ddyfais y profion gofynol, ac nis gellid rhoddi iddo y wobr gynygiedig, nac unrhyw ran ohoni, a'r unig dâl a gafodd efe am ei daith a'i ddarganfyddiad tybiedig, ydoedd derbyniad i'r Charter-house fel gwobrwas *(pensioner)*. Eithr oblegyd rhyw afreoleidd-dra neu gamymddygiad, trowyd ef allan pan yn 75 oed. Mewn llyfryn a gyhoeddodd efe yn 1749, cwyna yn dost oherwydd hyn, a geilw y tro yn weithred o annghyfiawnder. Yn 1745, cyhoeddodd lyfr o'r enw, "An account of the attempt to ascertain the Longitude at sea, by an exact theory of the magnetical needle," wedi ei ysgrifenu yn yr ieithoedd Italaidd a Seisnig,—yr olaf, tybir, yn waith yr enwog Dr. Johnson, a'r blaenaf yn gyfieithiad gan Barretti. Yn mhen tua deng mlynedd wedi cyrhaedd Llundain, collodd Anna Williams ei golwg trwy ddolur yn ei llygaid; eithr yr oedd yn llenores wych cyn hyny, ac yn hyddysg yn yr ieithoedd Ffrengig ac Italaidd; yr hyn yn nghyda'i medrusrwydd gyda'r nodwydd

Digitized by Google

a ddygai fywiolaeth iddi tan ei dallineb a'i thrallod. Yn 1746, trwy gymhorth dwy gyfeilles, cyfieithodd o'r Ffrancaeg hanes bywyd yr Ymherawdwr Julian, o waith Pere la Bletrie. Tua'r un amser, daeth yn gydnabyddus â Dr. Johnson, yr hwn a foddhaeid gymaint gan ei hymddyddan a'i chymdeithas fel y daethant yn gyfeillion gwresog o hyny allan. Yn 1755, rhoddes Mr. Garrick noson o fudd-elw iddi yn ei chwareudy, yr hyn a ddygodd iddi ddau gant o bunau; ac yn 1766, cyhoeddodd drwy danysgrifiadau gyfrol pedwarplyg yn dwyn y teitl, "Miscellanies in Prose and Verse," yr hyn a ddygodd gan' punt arall i'w thrysorfa. O ymddangosiad diaddurn, ac o dymher hawdd ei chynhyrfu, yr oedd yn ddynes ddeallgar, a haelionus iawn yn ol ei gallu, ac fel prawf o'i rhinwedd olaf, cymerai ddyddordeb neillduol yn y sefydliad er nawdd a chadwraeth menywod tylodion ac amddifaid yn mhlwyf St. Sepulchre, Llundain, a gynhelid trwy gyfraniadau gwirfoddol boneddigesau caredig, a chyflwynodd hithau ei holl ychydig gyfoeth tuag at ei drysorfa. Yr oedd Dr. Johnson tuag wyth mlynedd cyn ei marwolaeth hi wedi symud i drigianu i Bolt Court, Fleet Stret, ac yno y bu hi farw, Medi 6, 1783, yn 77 oed.—Boswell's *Life of Johnson;* Hawkin's *Johnson.*

WILLIAMS (Syr Charles Hanbury), ydoedd drydydd mab John Hanbury, Ysw., o Cilbrookdale, ger Abergafenni a Phontypwl, sir Fynwy. Yr oedd ei dad yn un o gyfarwyddwyr cwmni y Môr Deheuol. Ganwyd ef yn 1709, a mabwysiadodd y cyfenw Williams yn ol ewyllys ei dad bedydd, Charles Williams o Gaerlleon-ar-Wysg, yr hwn a ddiangasai o'i wlad i Rufain, wedi iddo ladd Mr. Morgan, Penrhos, mewn gornest. Wedi ymgyfoethogi yn ddirfawr, dychwelodd i'w wlad, a gadawodd gorph ei eiddo i Hanbury a'i feibion. Priododd Syr Charles ferch ac etifeddes Thomas, iarll Consingby. Etholwyd ef yn aelod seneddol tros sir Fynwy yn 1735; ail-etholwyd ef yn 1739, ar ei benodiad yn dâl-feistr y llynges; a thrachefn yn yr etholiad cyffredinol yn 1741. Yn 1744, anrhydeddwyd ef âg urdd marchog y Badd-dy; yn 1746, cafodd ei benodi yn llysgenad i Berlin; ac yn 1749, symudwyd ef i lanw yr un swydd yn Dresden. Yn mhen yspaid, dychwelodd adref oherwydd afiechyd; ac yn 1754, etholwyd ef yn aelod seneddol tros Leominster. Yn ystod ei arosiad yn Berlin, danfonwyd ef ar neges frysiog a phwysig i lys St. Petersburg. Llanwodd y swyddau goruchel hyn mewn doethineb anarferol, ac enillodd trwyddynt ffafr ei lys ei hun, a pharch y llysoedd yr oedd a wnelai â hwynt. Yn nghanol trafferthion a phryder bywyd gwleidyddol, cafodd hamdden i gyfeillachu yn awr ac eilwaith gyda'r awen; a chyfansoddodd gyfrol o farddoniaeth tan y teitl, "Isabella, or the Morning." Fel bardd yr oedd yn hynotach am rwyddineb ei iaith nag am ei thlysni, ac am fywiogrwydd ei ddrychfeddyliau nag am eu coethder. Cyhoeddwyd un argraffiad o'i holl waith barddonol yn 1822, yn dair cyfrol, tan olygiaeth a chyda nodiadau gan Horace Walpole, a'r darnau annghoeth wedi' eu gadael allan. Yr oedd wedi dychwelyd i Loegr beth amser cyn marw, yr hyn a gymerodd le Tachwedd 2, 1759.—Coxe's *Monmouthshire; Llewn MSS.*

WILLIAMS (Daniel), D.D. Ganwyd y dyn haelionus, a'r duwinydd dysgedig hwn yn Ngwrecsam, yn 1643, neu 1644. Gan fod y duwiol a'r enwog Morgan Llwyd o Wynedd yn gweinidogaethu yn y dref hono yn ystod y pumtheg mlynedd cyntaf o oes Dr. Williams, gellir casglu iddo gael llawer o egwyddorion sylfaenol ei gymeriad ganddo ef. Yr oedd o dueddiadau difrifol er yn blentyn, ac yn mhlith y

Digitized by Google

to cyntaf o wyr ieuainc a ymroddasant i'r weinidogaeth ymneillduol ar ol y troad allan yn 1662. Dywed efe ei hun, "Na wnaethai ddim ond efrydu er pan yn bump oed, a phan yn bedair-ar-bumthog oed, derbyniwyd ef fel pregethwr rheolaidd." Proffesodd Ymneillduaeth yn wyneb agored, pan nad oedd dim i'w ddisgwyl oddiwrth hyny ond erlid a gorthrymder. Wedi treulio rhai blynyddau fel pregethwr achlysurol mewn amrywiol barthau o Loegr, lle yr erlidid ef yn fynych, agorodd Rhagluniaeth ddrws iddo i gylch o ddylanwad a defnyddioldeb yn yr Iwerddon. Byddai yn ymweled yn achlysurol â'r dduwiolfrydig Foneddiges Wilbraham, o Weston, sir Amwythig; a hi a'i cymeradwyodd i sylw Iarlles Meath, yr hon a'i penododd yn gaplan iddi. Yn mhen yspaid, aeth trosodd i'r Iwerddon, a gwahoddwyd ef i gymeryd gofal gweinidogaethol cynulleidfa a gyfarfyddai yn Wood Street, Dublin. Bu ei lafur yno yn dra derbyniol am ugain mlynedd. Yn ystod ei drigiant yn Nublin, priododd ei wraig gyntaf, yr hon oedd ddynes gall a duwiol, ac o deuiu anrhydeddus a chyfoethog. Oherwydd cyflwr cythryblus y wlad yn Iwerddon, symudodd i Lundain yn 1687; a darfu i'w dalentau, ei ymdrechion, a'i gyfoeth, ei godi yn fuan i safle uchel yn mhlith Ymneillduwyr y Brifddinas. Yn 1688, dewiswyd ef yn weinidog cynulleidfa lluosog yn Hand Alley, Bishopsgate Street, Llundain, a llanwodd y swydd hono hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Ion. 26, 1716. Yr oedd yn un o weinidogion mwyaf blaenllaw y Brifddinas gyda phob symudiad cyhoeddus. Ymosododd ar olygiadau uchel-Galfinaidd, neu Antimonaidd, y Dr. Crisp, a thynodd hyn ef i ddadl chwerw, yr hon a barhaodd am saith mlynedd. Trinwyd ef yn annghristnogol gan ei wrthwynebwyr, eithr goddefodd ef bob gwawd a dirmyg yn dawel a dirwgnach, a glynodd ei gynulleidfa wrtho trwy y cyfan yn ffyddlon a serchus. Yn 1709, cafodd y radd o D.D. gan brifysgolion Glasgow ac Edinburgh, a rhoddes waddol er cynhaliaeth chwe' ysgolor yn y brifysgol flaenaf. Bu yn briod ddwywaith, a chafodd gynysgiaeth helaeth gyda'r ddwy wraig; ac fel y gwelir cyflwynodd ei gyfoeth mawr i'r dybenion mwyaf dyngarol a daionus. Gan nad oedd ganddo blant, cyflwynodd ei eiddo i'w gyd-ddynion, yn enwedig yn mhlith ei genedl ei hun. Yn y Rhagymadrodd i'w ewyllys, dywedai:—"Am fy ngolud bydol, gyda'r hwn y mae Duw wedi fy mendithio mor ryfeddol, a'r hwn a ddefnyddiais mor gymedrol fel y gallwn trwy hyny wneud daioni âg ef i eraill, yn fy mywyd ac ar ol fy marwolaeth, yr wyf yn cyflwyno fel hyn," &c. A ganlyn ydynt yr Elusenau a adawodd efe yn ei ewyllys i Gymru:—1, I'r Parch. Mr. Kenrick, o Wrecsam, ac i'w olynwyr, £10 yn y flwyddyn. 2, Er addysg 25 o blant tylodion Gwrecsam, £15 yn y flwyddyn. 3. Er addysg 20 o blant tylodion mewn 6 o wahanol leoedd yn Nghymru, £48 yn y flwyddyn. 4, Er cynaliaeth efrydwyr yn Nghaerfyrddin, tan ofal Mr. W. Evans, a'i ddilynwyr, £10 yn y flwyddyn. 5, Yr 8fed ran o'r gweddill arian yr llaw yr Ymddiriedolwyr, er prentisio bechgyn tylodion i gael eu dewis o'r ysgolion a gynorthwyid gan yr Ymddiriedaeth. 6, Y drydydd ran o'r arian gweddill yn llaw yr Ymddiriedolwyr er cynorthwyo pregethwyr yn Nghymru; dwy ran o dair o'r cyfryw i bregethwyr yn y Gogledd, ac un ran o dair i rai yn y Deheudir. Darfu i Mrs. Roberts, o Wrecsam, chwaer y testamentwr a'i aeres yn ol y gyfraith ei gwrthwynebu ar gyfrif nad oedd rhanau o honi, na'r attodiad iddi, wedi eu profi yn gyfreithlawn. Nid oedd ei gwaith yn hyn yn cyfodi oddiar drachwant am yr eiddo, eithr am y credai nad oedd ei brawd wedi gadael digon o'i arian.

Digitized by Google

er budd ei wlad enedigol. Gan hyny, hi a roddes i fynu bob hawl, ar y telerau fod i'r Ymddiriedolwyr roddi £60 yn y flwyddyn rhagor nag a nodid yn Ewyllys ei brawd er dybenion elusenol yn Nghymru. O tan yr amgylchiadau hyn, darfu i'r Ymddiriedolwyr, trwy ganiatad Llys y Sianseri, ymrwymo ar eu rhan eu hunain a'u holynwyr i dalu i Mrs. Roberts am ei hoes, ac wedi ei marwolaeth, i rywun a benodid ganddi, y swm o £60 yn y flwyddyn, allan o ardrethi ac elwau eiddo y testamentwr. Y mae y flwydd-dal hon byth wedi ei thalu ohyny allan gan y cyfryw Ymddiriedolwyr i bregethwyr yn Ngogledd Cymru. Y mae yr Ymddiriedolwyr wedi gweithredu bob amser tan gyfarwyddyd Llys y Sianseri; a thrwy orchymyn y llys hwnw, y mae y symiau a gyflwynir tuag at addysg yn Nghymru wedi chwanegu o bryd i bryd, ac yn bresenol safant fel y canlyn:—Ysgolion Gwrecsam, Treffynon, Dinbych, Bangor, Caergybi, Bala, a Llanbrynmair £25 yr un yn y flwyddyn. Gweinidog Gwrecsam £10 a Choleg Caerfyrddin £10 yr un yn y flwyddyn. I brentisiaid tua £90. I weinidogion yn y Gogledd tua £160 yn flynyddol. I Ymddiriedolwyr Mrs. Roberts, er dosparthiad yn mysg pregethwyr yn y Gogledd £60. I bregethwyr yn y Deheudir, £80. Yn chwanegol at y symiau hyn y mae yr Ymddiriedolwyr yn gwneud rhoddion blynyddol o Feiblau a llyfrau crefyddol eraill i'w dosparthu yn Nghymru; hefyd rhoddir symiau o arian i weddwon pregethwyr; fel y mae y Dywysogaeth trwy bobpeth yn derbyn tua saith cant o bunau yn y flwyddyn oddiwrth elusenau y Dr. Williams. Ceir cofgolofn arall o'i ddaioni a'i elusengarwch yn y ffaith iddo adael ei lyfrgell ysblenydd gyda'r amcan o gael llyfrgell gyhoeddus yn Llundain, a dyma gychwyniad y sefydliad enwog yn Redcross St. Y mae ei luaws roddion eraill yn sicr o wneud ei enw yn anwyl a pharchus o genedlaeth i genedlaeth gan bawb sydd yn caru llenyddiaeth, addysg, a chrefydd. Cyhoeddwyd ei weithiau llenyddol mewn chwe' cyfrol 8plyg; daeth dwy gyfrol allan o'i waith yn Llundain yn 1738, tan y teitl, "Practical Discourses," gyda pha rai y mae bywgraffiad o'r awdwr; i'r hwn, yn nghyda Rees' *Noncon. in Wales*, yr ydym yn ddyledus am y ffeithiau blaenorol.

WILLIAM (DAFYDD), Llandeilo Fach. Y mae lle ac amser genedigaeth a marwolaeth yr emynydd pêr hwn wedi llithro bellach i ebargofiant; ac nid oes ar gof a chadw ond ychydig iawn o ffeithiau eraill ei fywyd. Ond er fod llwybr y llestr dynol hwn wedi ei golli ar fôr sigldonog amser, bydd ei enw ar gael am oesau lawer, a thrysorir y gemau a gaed ganddo tra y mola'r Cymro ei Ddiw yn yr iaith Gymraeg. Treuliodd gryn lawer o'i amser yn Llandeilo Fach, sir Forganwg, os nad yno y ganwyd ac y magwyd ef, a "Dafydd William o Landeilo Fach," y gelwir ef ar wynebddalen yr argraffiadau cyntaf o'i llyfr "Gorfoledd yn Mhebyll Sion." Bu am lawer o flynyddau yn athraw un o'r ysgolion Cymreig dan Madam Bevan, a'r Parch. Griffith Jones o Landdowror. Wedi bod amser maith yn gynghorwr neu bregethwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, ymunodd rai blynyddau cyn ei farwolaeth â'r Bedyddwyr. Dywed traddodiad mai yr achos iddo adael ei hen gyfeillion y Trefnyddion ydoedd blinder ac anynadrwydd tafodrydd ei wraig. Dywed awdwr "Yr Emynwyr Cymreig," yn yr *Adolygydd* ar y pwnc hwn:—"Nid ymddengys fod sain ei delyn beraidd ef yn effeithio ar y wraig nwydwyllt hon i beri yr ysbryd drwg ymadael â hi, fel y gwnelai telyn Dafydd gynt ar Saul. Er ei bod yn drajthebygol, oddiwrth bob peth a glywsom ac a ddarllenasom am Dafydd William, ei fod yn ddyn

Digitized by Google

nodedig o dduwiol, eto darfu i'w drallod teuluaidd iselu cymaint ar ei gymeriad crefyddol yn y gymydogaeth yr oedd yn byw ynddi, nes ei ddwyn dan gerydd a dysgyblaeth ei frodyr, a'r canlyniad fu iddo ymadael â hwynt yn ei hen ddyddiau. O bob adfyd a ddichon ddyfod i ran dyn yn y byd hwn, yn enwedig pregethwr yr efengyl, gwraig ddrwg ei thymher, ei thafod, a'i buchedd yw y mwyaf. Prin y meddyliwn y daw hyn o ofid i ran neb o blant Duw ond mewn ffordd o gerydd oddiwrth eu Tad Nefol am ryw bechod nodedig, yn enwedig y pechod o ruthro i'r cyflwr priodasol yn nwydawl, ac heb ymgynghori â'r Arglwydd. Pa un a fu ein bardd yn euog o hyn ai naddo, nis gwyddom; ond gwyddis iddo gael cwpanaid digon chwerw i'w hyfed, ac y mae yn syndod pa fodd y gallodd ganu mor felus wrth ei hyfed." Yr oedd efe yn un o'r aelodau pan gorpholwyd eglwys y Bedyddwyr yn Croesyparc, plwyf Llanbedr-y-Fro, gerllaw Caerdydd, yn 1794; a bu yn pregethu ac yn llafurio yn mysg yr eglwys newydd hono hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le, ac efe mewn oedran mawr. Ei lyfrau ydynt:—"Gorfoledd yn mhebyll Seion, neu ychydig o Hymnau Efengylaidd, wedi eu cymeryd allan o destynau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Wedi eu hamcanu i ddyddanu y gwan-feddwl sydd ar eu taith tua'r Jerusalem Newydd, gwir Noddfa'r gwaredigion." Daeth y llyfr hwn allan yn rhanau achlysurol hyd yn bedair, ac yn gyflawn yn 1782. Cyhoeddwyd ailargraffiad cyflawn yn 1779; trydydd yn 1797; a phedwerydd yn 1798. Gwnaeth hefyd gyfansoddiad Seisnig ohonynt, sef "Joy in the Tents of Zion," 1779. Yn 1782, cyhoeddodd "Telynau i blant yr addewid i'w canu ar eu taith o'r Aifft i'r Ganaan Nefol mewn ychydig o Hymnau Efengylaidd." Yn 1789, ymddangosodd ei "Udgorn Arian, neu hyfryd swn yr Efengyl mewn ychydig o Hymnau Newyddion ar amryw destynau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd." Cyfansoddodd a chyhoeddodd hefyd luaws mawr o farwnadau, a chan y byddant yn gynorthwy i ryw wladgarwr a ddichon rywbryd wneud casgliad o waith yr awenydd melusber, dodwn yma restr o'u testynau:—1, "Marwnad Elizabeth Jones o Lantrisant," 1771, yn angladd yr hon y pregethodd yr efengylaidd Jones o Langan. 2, "Marwnad Elizabeth James, Casnewydd-ar-Wysg, sir Fynwe," 1783. 3, "Hyfryd goffadwriaeth y Cyflawn, neu i un Richard Jones, o blwyf Sant Nicholas, yn sir Forganwg," 1783; daeth ail argraffiad o hon yn 1784. 4, "Marwnad Mr. Christopher Basset," 1784. 5, "Coffadwriaeth o dir Annghof, neu Farwnad y Parchedig Evan Davies, gynt gweinidog yr Efengyl yn eglwys Bethesda, yn sir Fynwe," 1788. 6, "Marwnad ar farwolaeth Mrs. Hanna Williams o'r Bont Hir, yn mhlwyf Llangattwg, gerllaw Caerlleon, yn sir Fynwy," 1789; 7, "Marwnad, sef Coffadwriaeth o ddedwydd farwolaeth y Parchedig James Thomes, o Rosychen, yn mlwyf Trelech, yn sir Gaerfyrddin," 1789. 8, "Drycholwg o Dir Angof, neu Goffadwriaeth o farwolaeth y Parchedig David Morris o Danyrallt, Llangwnwr, gweinidog y Porth Tywyll, Caerfyrddin," 1791. 9, "Coffadwriaeth o farwolaeth y Parchedig David Jones, o'r Ddol Goch, yn sir Aberteifi," 1792. Dyma linellau cyntaf ei emynau mwyaf adnabyddus:—

"Nid oes genyf ond dy hunan."
"Yn y dyfroedd mawr a'r tonau"
"Annghrediniaeth gad fi'n llonydd."
"Arglwydd gwrando'r gwan yn gruddfan."
"Wele Iesu'r penrhyfelwr"
"O anfeidrol rym y cariad."

—*Adolygydd* ii. 334; *Llsyn MSS.*

Digitized by Google

WILLIAMS (PARCH. DAVID), ydoedd fab i John Williams, athraw Ysgol Ystrad Meurig, sir Aberteifi. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn ngholeg Wadham, Rhydychain, lle y cyrhaeddodd M.A., ac y daeth yn gymrawd. Cafodd hefyd Feistrolaeth Ysgol Ystrad ar ol ei dad, a churadiaeth barhaol Ysbytty Ystwyth. Cyhoeddodd—"An Essay on the Comparative Effects and Usefulness of the Reading of Sermons in the Pulpit, and the delivery of them by memory."—*Lleyn MSS.*

WILLIAMS (PARCH. DAVID), a elwid "Dafydd Williams o Bwll-y-pant." Yr oedd yn byw, tybir, mewn lle o'i eiddo ei hun, a elwid y Cwm, yn mhlwyf Eglwys Ilan, Morganwg, gan gadw ysgol yno, ac yn weinidog y gynulleidfa Henadurol yn Watford, ger Caerphili. Rhoddai addysg yn rhad i lawer o blant tylodion. Gelwid ef gan y werin yn "Offeiriad Natur," gan ei fod yn gwadu dwyfol ddatguddiad. Bu yn weinidog yno hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le rywbryd tua 1784.—*Hanes Ymneilldua eth yn Merthyr Tydfil.*

WILLIAMS (DAVID), ydoedd fab i wniedydd tlawd yn Llanwrtyd, sir Frycheiniog, i'r hwn orchwyl y dygwyd yntau hefyd i fynu. Ymunodd yn ieuanc â'r Annibynwyr yno, y rhai oeddynt y pryd hyny o dan weinidogaeth y Parch. D. Williams, o Droedrhiwdalar. Cafodd gynygiad o gefnogaeth i'w godi i weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig, gan rai oedd yn gweled ei ymgais lenyddol, a'i dalent awenyddol. I'r dyben hyny, efe a aeth i Ysgol Ramadegol Ystrad Meurig. Tra yr oedd fel hyn yn ymgyfaddasu i'r weinidogaeth, efe a gyflawnodd weithred o ffugysgrifen. Cymerwyd ef i fynu; ond trwy luaws o dystiolaethau i'w gymeriad blaenorol, cafodd ei ryddhau. Tra yr oedd yn y carchar, cymerai arno, i'r dyben o leihau, neu yn hytrach gyflawnhau ei drosedd, ei fod yn anffyddiwr. Ar ol ei ryddhad, efe a aeth i Ferthyr Tydfil, i ddilyn ei alwedigaeth foreuol, ac yno y cytunodd âg argraffydd i gyfieithu "Hervey's Meditation" i'r iaith Gymraeg, yr hwn a gyhoeddwyd gan Fisher & Co., Llundain, yn 1828. Y mae y cyfieithiad hwn mor dda, fel y bernir ei fod yn rhagori ar y gwreiddiol. Yr oedd yn meddu perffaith feistrolaeth ar yr iaith Gymraeg, i ddwyn allan ei geiriau er ateb pob eisiau; ac yr oedd yn fardd o radd uchel. Yr oedd wedi ymwrthod â'i dybiau didduw cyn ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn y Geufron, Llanwrtyd.

WILLIAMS (PARCH. DAVID), gwr ieuanc o dalentau ysplenydd, a gobeithiol annghyffredin, a adwaenid yn well wrth ei enw barddonol *Iwan*, ydoedd fab i Mr. Williams, o Benpontbren, plwyf Llanwnen, sir Aberteifi, lle y ganwyd ef yn 1796. Bu ei dad farw pan nad oedd efe ond tua chwech oed, a'i fam a briododd eilwaith, gyda'r Parch. David Davies, gweinidog y Bedyddwyr yn Aberduar. Bu ar y cyntaf yn ysgol yr enwog Davies, Castellhywel, lle yr ymroddodd i efrydu yn ddiseibiant yn enwedig yr ieithoedd gwreiddiol, ac yr enillodd serch ei athraw, yr hwn a'i galwai *Y llanc difai*. Oddiyno symudodd i athrofa y Bedyddwyr yn Nghaerodor, lle y bu yn dra diwyd yn myfyrio yr ieithoedd a duwinyddiaeth, hyd nes y gorfu iddo, oherwydd dadfeiliad ei iechyd, ddychwelyd i'w wlad enedigol. Tua 1818, priododd Miss Evans, merch Mr. J. Evans, o'r Drefach, Llanwenog; ac ar ol priodi, bu yn cadw ysgol, gyda llwyddiant mawr, yn Nghaerfyrddin. Oddiyno, daeth galwad arno i fyned i sir Devon i bregethu ac i gadw ysgol; ond y llong yn mha un y moriai ef a'i dylwyth a yrwyd yn ol gan dymhestl aruthr i Abertawy. Cymerodd hyn le yn ngwanwyn 1822, a bu yn dihoeni yn y dref uchod hyd oni ddaeth angau i'w ryddhau o'i boenau, Ionawr 10,

Digitized by Google

1823, pan nad oedd efe ond 27ain oed. Claddwyd ef yn Abertawy, yn nghanol galar dwys llu mawr o gyfeillion a enillasai yn ystod ei drigiant byr a chystuddiol yn y dref. Yn mhlith ei gyfeillion mwyaf mynwesol, yr oedd yr enwogion Joseph Harris *(Gomer)*, a'i fab athrylithgar Ieuan Ddu. Yr oedd *Seren Gomer*, tan olygiaeth y blaenaf, yn anterth ei gogoniant y pryd hwnw; ac yn mhlith ei gohebwyr mwyaf poblogaidd, yr oedd *Iwan*. Gwnaeth ei hun yn gydnabyddus i'w darllenwyr gyntaf fel gwrthwynebwr y Mesurau Caethion, yr hyn a dynodd arno wg ac englynion duchanllyd Dewi Wyn, a welir yn argraffedig yn *Ngardd Eifion*. Ceir lluaws o ohebiaethau galluog o'i waith yn yr un cyhoeddiad campus o'i gychwyniad hyd nes derbyniodd y bedd weddillion yr ysgrifenydd doniol. Ychydig cyn ei farwolaeth, ysgrifenodd lyfryn yn Saesneg, dan yr enw, "Serious Remarks on the Ordinance of Baptism, *by Scrutator*." O ran ei olygiadau duwinyddol, yr oedd yn nes at Andrew Fuller, nag at un awdwr clodfawr arall, can belled ag y gellid casglu oddiwrth ei bregethau a'i ysgrifeniadau.—*Seren Gomer*, 1823, 132.

WILLIAMS (PARCH. DAVID), awdwr dysgedig, ydoedd fab i un David Williams, pregethwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, brodor o sir Aberteifi, eithr a symudodd i sir Forganwg, ar gais y Parch Daniel Rowlands o Langeitho; ac yn Morganwg y ganwyd gwrthddrych hyn o hanes yn 1738. Bwriad mwyaf cysegredig ei dad ydoedd gwneud pregethwr ohono, a chan hyny rhoddes fanteision addysg o fewn ei gyrhaedd. Dangosodd yntau yn ieuanc fod ganddo feddwl uwchlaw y cyffredin; ond ychydig oedd ei duedd at lenwi bwriad ei dad; yn hytrach yr oedd ganddo ragfarn gref yn erbyn bywyd pregethwrol. Pa fodd bynag, tueddwyd ef gan ei dad ar ei wely angau i ymgyflwyno i'r gwaith; ac o ganlyniad, aeth yn ymarhous trwy yr efrydiadau gofynol er ei gyfaddasu i lanw y cylch o weinidog Ymneillduol. Bu am yspaid yn ngholeg Caerfyrddin; ac oddiyno, cafodd alwad i gymeryd gofal eglwys yn Frome, Gwlad yr Haf, lle yr edmygid ac y cerid ef yn fawr gan ei gynulleidfa, er fod ei ddygasedd tuag at ei swydd yn parhau i lynu wrtho. Pan yn 22 oed, gwahoddwyd ef i fod yn olynydd dau weinidog enwog iawn yn Exeter; ac yno urddwyd ef yn weinidog cynulleidfa Ariaidd. Yn fuan ar ol hyn, ymgymerodd â'r cynllun, a gychwynasid yn Liverpool, o ddwyn y Ffurf-weddiau Sosinaidd i mewn i addoldai Ymneillduol; a llwyddodd i berswadio ei gynulleidfa ei hun i'w mabwysiadu. Gallasai arwain bywyd dedwydd ac esmwyth yn y ddinas hono, pe mynasai; ond yr oedd wedi blino ar ei fyd, a phenderfynodd ymadael, a cheisio yn Llundain rhyw wasanaeth mwy cydnaws â'i archwaeth. Gan nad oedd hyny i'w gael mor rhwydd ag y disgwyliasai, bu yn gweinidogaethu am dymhor drachefn i gynulleidfa yn Highgate, lle y traddododd gyfres o bregethau ar ragrith crefyddol, y rhai a gyhoeddodd yn ddwy gyfrol, ysgrifenodd lythyr beirniadol a llym at y chwareuydd enwog Garrick, yn dwyn yr enw, "Letter to Mr. Garrick, on his conduct and talents as manager and performer;" a dilynwyd hwn gan lyfr arall, "The Philosopher," yn cynwys ymddyddanion ar bynciau gwleidyddol. Pan gyfarfu nifer o glerigwyr parchus yn y Feathers Tavern, er deisebu yn erbyn yr orfodaeth o gydsynio â thelerau y "Deugain namyn un Erthygl," deisyfasant gynghor Mr. Williams; ac ar eu cais, ysgrifenodd "Essays on Public Worship, Patriotism, and Projects of Reformation," y rhai a gyhoeddwyd. Ond dywedir eu bod yn gogwyddo ar y mwyaf tuag at Undodiaeth i chwaeth y sawl a roddasant eu hawdwr ar waith. Chwanegwyd attodiad atynt wedi hyny, yr hwn sydd yn

Digitized by Google

chwerw iawn yn erbyn ymddygiadau yr Ymneillduwyr, ac o hyny allan torodd Mr. Williams bob cysylltiad â hwynt. Trodd yn awr ei sylw at Addysg; ac yn 1773, cyhoeddodd draithawd ar y pwnc, yn mha un y cymeradwyai gynlluniau Commenius a Rosseau, ac ymroddodd i'r gwaith o'i roi mewn gweithrediad. Cymerodd dŷ yn Chelsea, a phriododd foneddiges ieuanc heb ganddi gynysgaeth na pherthynasau cyfoethog. Er ei fod yn ddieithr yn y lle, ac yr anmheuid iachusrwydd ei ffydd, cafodd gefnogaeth anarferol. Yr oedd y taliadau yn uchel, ac er hyny ei ysgolheigion yn lluaws. Gwelai ei hun ar y ffordd i gyfoeth; a pheth oedd fwy ganddo ef, yr oedd ei gynilun yn dal prawf. Tan yr heulwen hon, torodd tymhestl arno—bu farw ei wraig, ac er cryfed oedd ei gyneddfau, methodd ddal yr ergyd, diangodd o'i dŷ ac o'i sefydliad, a ffodd i fangre annhygyrch yn sir Derby, er cael hamdden i gwynfan wrth y gwynt, ac i feithrin ei alar a'i ofidiai. Yn ystod ei drigiant yn Chelsea, yr oedd yn aelod o gymdeithas boliticaidd ddewisol, a'r enwog Benjamin Franklin yn un o'i gydaelodau, yr hwn oedd ar neges yn y wlad hon, yn dadleu hawliau taleithiau anfoddog Goglodd America. Pan dorodd cynddaredd y Llundeinwyr allan yn erbyn Franklin oherwydd cyndynrwydd ei wlad, bu yn llechu am yspaid yn nhŷ Mr. Williams; a'r pryd hwnw, meddyliodd y ddau am y priodoldeb o gael areithiau Undodol ac athronyddol bob Sabbath,—mewn gair, sefydlu sect newydd, duw yr hon fuasai natur. Ar ei ddychweliad i Lundain, agorodd gapel yn Margaret Street, Cavendish Square, a chefnogid ef gan amryw bersonau o bwys a chyfoeth. Ond nid oedd ei anerchiadau yn cael derbyniad calonog gan Eglwyswyr nac Ymneillduwyr; o ganlyniad, er fod lluaws yn ymdyru i'w wrando, ychydig a ymunent â'r gymdeithas. Tra yn gweinyddu yn y swydd hon cyhoeddodd ei "Inauguration Sermon;" dwy gyfrol o weithiau tan y teitl "Universal Principles of Religion and Morality;" a Ffurfweddiau i'w gapel. Parhaodd y capel hwn yn agored am bedair blynedd, eithr leied oedd ei lwyddiant mewn ystyr arianol, fel y bu agos i Mr. Williams syrthio i garchar am ddyled. Ei lyfrau eraill ydynt, 1, "Lectures on Education," 3 cyfrol. 2, Llyfryn o'r enw "A Plan of Association on Constitutional Principles," 1780. 3, "Letters on Political subjects," 1782, yr hwn a gafodd ledaeniad helaeth yn Lloegr a Ffrainc, gan iddo gael ei gyfieithu i'r Ffrancaeg gan Brissot. 4, "Lessons to a Young Prince." 5, "History of Monmouthshire," mewn dwy gyfrol, 1796. 6, "The Claims of Literature." 7, "Regulation of Parochical Police." 8, "Egeria, or Elementary Studies for Political Reformers." Dygodd ei olygiadau duwinyddol a pholiticaidd ef i gydnabyddiaeth ac anwyldeb y blaid Girondaidd yn Fraine; ac yr oedd gyfaill mawr i Brissot, un o floenoriaid y blaid hono. Dywed Madame Roland, awdures enwog Ffrengig y 18fed ganrif, wrth gyferbynu Paine ac yntau, "Yr oedd Paine yn well at greu chwyldroad, nag at ffurfio cyfansoddiad gwladol. Y mae efe yn gafael ac yn sefydlu y drychfeddyliau mawreddog hyny a swynant bawb ar yr olwg gyntaf, a wynfydant y *club*, ac a lonant lonaid tafarndy; ond am ddadl bwyllog mewn cynadledd, ac ac am ymresymu fel deddfwneuthurwr, yr wyf yn ystyried David Williams yn anrhaethol fwy cyfaddas. Gwnaed y ddau yn ddinaswyr Ffrengig, ond ni ddanfonwyd Williams i'r senedd yno fel Paine, er y buasai ef yn llawer mwy defnyddiol aelod. Gwahoddodd y llywodraeth ef drosodd i Paris, lle y treuliodd rai misoedd, ac y bu yn cydymddyddan gyda rhai o'r prif seneddwyr. Yr oedd yn feddyliwr doeth, ac yn gyfaill cywirgalon i

Digitized by Google

ddynolryw yn gyffredinol." Yn 1789, rhoddes brawf neillduol arall o'i graffder i weled angenoctyd, ac o drefnu'n ddoeth i'w gyfarfod, trwy sefydlu y "Literary Fund," er cynorthwyo awduron tylodion mewn cyfyngder; ac o'r pryd hwnw hyd yr awrhon, y mae wedi ysgafnhau llawer calon drom, a chodi llawer talent odditan oblygion trallod. Bydd y sefydliad hwnw yn berarogl i'w goffadwriaeth am oesau lawer. Bu farw Mehefin 22, 1816, yn 78 oed, a chladdwyd ef yn eglwys St. Ann, Soho, Llundain.—*Eminent Personages* 1798; *Cambrian Register* iii. 529.

WILLIAMS (EDWARD) *(Iolo Morganwg)*, bardd, a hynafieithydd clodfawr. Ganwyd y dyn rhyfedd hwn mewn bwthyn o'r enw Penon, yn mhlwyf Llangarfan, sir Forganwg, yn 1747. Saermaen oedd ei dad, mewn amgylchiadau isel, ac o dymherau afrywiog; eithr ei fam, enw morwynol yr hon oedd Matthews, ydoedd ferch i wr bonheddig, yr hwn a wastraffasai waddol teg,—yr oedd hi yn fenyw wir ragorol. Ni chafodd efe erioed ddiwrnod cyflawn o ysgol; fel y dywed ei hun, "Yr oeddwn mor afiach pan yn blentyn, ac felly y parheais, fel y tybiwyd mai o'er fyddai fy nodi mewn ysgol, lle yr oedd fy nhri brawd yn cael eu cynal tros amryw flynyddau. Mi a ddysgais yr egwyddor cyn y medraf ond prin gofio, wrth edrych ar fy nhad yn tori y llythyrenau ar geryg beddau. Fy mam a ddysgodd i mi ddarllen mewn llyfr o ganiadau, a elwid *The Vocal Miscellany*, oherwydd nas gellid cael genyf dd[illegible]gu mewn un llyfr arall." Yr oedd ei serch at ei fam yn gryf anorchfygol; ni chymdeithasai â neb ond hyhi, gan ddibrisio chwareuaeth ei gyfoedion er mwyn bod yn wastadol yn ei chwmni. Pan tua 14 oed, dechreuodd gydymdeimlo â hi yn ei chyfyngderau, pryd nad oedd hi yn cael ond ychydig iawn o gynorthwy gan ei dad tuag at gynaliaeth y teulu, heblaw fod sarugrwydd ei dymher yn gwneud ei bywyd yn dra annedwydd. Yr oedd Edward erbyn hyn yn gorfod gweithio bob dydd gyda'i dad; ac ar ol noswylio, byddai yn gwneud rhyw fân orchwylion er enill ychydig o bres, gan ofalu cadw pob dimai a'i dodi i'w fam. Bu fyw felly yn gysurus gyda'i fam oni chyrhaeddodd 23ain oed, pan y darfu i angau ei amddifadu ef ohoni, er mawr drallod i'w feddwl. Yn fuan ar ol hyn, penderfynodd nad arosai efe adref mwyach, ac aeth i Lundain, lle y bu am yspaid yn gweithio fel saermaen ar nu o'r pontydd tros yr afon Tafwys, ac mewn amryw barthau o sir Cent. Yn ystod ei drigiant yn Llundain, daeth i gyfarfyddiad damweiniol a digon annymunol âg un o ddynion hynotaf ei oes, sef y Dr. Sam. Johnson. Ar ddiwrnod gwlyb, arferai Iolo fynychu maelfa llyfrwerthwr, a sylwasai amryw weithiau ar foneddwr sarug a thaeog yn dyfod yno; a chan droi a throsi y gwahanol fisolion a orweddent yn y lle, taflai hwynt ymaith gan ddywedyd, "*Trash of the day!*" Gynted ag yr aeth allan, gofynodd i'r llyfrwerthwr pwy oedd yr hen foneddwr craslyd, ac atebwyd ef nad oedd neb llai na'r Pen-geiriadurwr enwog. Pan glybu efe hyn, gofidiai yn fawr na buasai yn gwybod yn nghynt er mwyn cael boddio ei gywreinrwydd trwy siarad gair neu ddau âg ef. Dywedai y llyfrwerthwr y byddai Johnson yn sicr o alw yno drachefn ar y diwrnod a'r diwrnod. Y bardd a ofalodd am fod yn y fan ar y dydd penodedig, ac mhen amser wele Johnson yn dyfod i mewn, ac yn cymeryd cadair yn bur ddiddefod. Er mwyn dwyn ei hun i'w sylw, yr oedd efe wedi ceisio tri o ramadegau Seisnig, a dynesodd yn wylaidd at y dysgawdwr gan ddywedyd yn ostyngedig mai Cymro tlawd ydoedd ar fedr dysgu Saesneg, ac y byddai yn ddiolchgar iawn os gwnai

Digitized by Google

ei fawredd fod mór fwyn a'i gyfarwyddo pa un o'r llyfrau hyny oedd goreu iddo efrydu er cyrhaedd yr amcan mewn golwg. Johnson a lygadodd yn gibog arno, ac yna ar y llyfrau, ac a ddywedodd yn ei ddull garw arferol, "Fe wna yr un a fyner y tro i *chwi*, Syr." Teimlodd y bardd y sarhad i'r byw, ac atebodd, "Mi brynaf y tri, er mwyn bod yn sicr o'r goreu." Ac felly y gwnaeth, er fod ei logell isel yn gorfod talu gwarogaeth i'w ysbryd uchel y tro hwn fel llawer tro arall cynt a chwedyn. Yn ystod ei arosiad yn Llundain a'r gymydogaeth, daeth yn gydnabyddus âg O. Myfyr, Dr. Pughe, Dr. D. Samwell, ac eraill; ac mae cof am dano yn cefnogi Samwell i ymladd gornest â Ned Mon, ond barna rhai mai fel dyddiwr y gweithredai, ac nid fel cefnogwr, gan ei fod ef yn fardd a derwydd ymarferol, set yn fab heddwch, yr hwn na ddynoethid arf yn ei wyddfod. Pa fodd bynag, ni bu yno dywallt gwaed, gan na ddaeth Ned i'r maes. Dychwelodd i Forganwg yn 1777; priododd yn 1781; a bu fyw am ran fwyaf ei oes ohyny allan yn Nhreffleming, o fewn tua dwy filltir i'r man y ganesid ef. Bu yn dilyn ei alwedigaeth o saermaen am rai blynyddau, ond gan fod y mân lwch a godai oddiar y ceryg yn niweidio ei ysgyfaint, rhoddodd y gwaith hwnw i fynu, a bu yn cadw siop yn y Bontfaen. Daeth amryw o neillduolion y dyn Iolo i'r golwg pan oedd efe yn llanw y cymeriad o siopwr. Tua'r pryd hwn y torodd y chwyldroad mawr allan yn Ffrainc; ac yr oedd ef yn mhlith y blaid luosog yn y wlad hon a edrychent gyda boddhad ar y symudiad hwnw, gan gredu y chwyldrowyr y deilliai o'r gyflafan ffin "ryddid i ddynolryw." Trwy hyny, collodd lu o gyfeillion, ac enynodd yn y werin ddrwgdybiau ac anmheuaeth am iachusrwydd ei gredo boliticaidd a duwinyddol. Yr oedd hefyd yn gyfeillgar â Thomas Paine, awdwr y *Rights of Man* a'r *Age of Reason*, pan yr oedd Twm Paine yn ysgymunbeth, a'r llywodraeth yn dirwyo'n drwm y sawl a werthent ei lyfrau, ac yn gwobrwyo'n haelionus y sawl a'i hysbysai o'r drosedd. Cydolygai Iolo âg egwyddorion gwleidyddol y bonffaglwr hwnw, ond gwrthodai ei ddidduwiaeth gyda'r casineb mwyaf. Ond darfu i'r ffaith o'i fod yn cynal cyfeillach âg ef, beri i rai edrych yn fanwl ar ei ol, a cheisio yn ddyfal am ryw achos i'w erbyn. Anmheuai dau ddyn tra theyrngarol yn y Bontfaen ei fod yn gwerthu y llyfrau gwaharddedig a grybwyllwyd, ac efallai fod gan ariangarwch gymaint a dim arall a wnelai â'u pryder. Deallodd Iolo eu clefyd, a darparodd feddyginiaeth. Gosododd lyfr yn y ffenestr, ac arno yn ysgrifenedig, "*Rights of Man*." Yn mhen ychydig amser, daeth un ohonynt heibio, a meddyliodd fod yr ysglyfaeth hir ddisgwyliedig yn ei gyrhaedd. Penderfynodd y ddau ei brynu, costied a gostio; ac aeth un ohonynt ac a bwrcasodd y llyfr, ond cyn eu bod wedi myned nepell oddiwrth y faelfa, agorasant y papyr oedd am dano, ac er eu syndod beth ydoedd ond—BEIBL! Trodd y prynwr yn ol, a chyhuddai Iolo o fod yn dwyllwr am werthu y Beibl iddo tan yr enw "Rights of Man." "Na," meddai'r bardd, "nid twyllwr wyf fi, ac ni ddarfu i mi eich twyllo chwi chwaith—yn y llyfr yna y deuwch o hyd i wir iawnderau dyn, ac y mae yn dda genyf, gyfaill, fy mod wedi cael cyfle i roddi y Beibl yn eich llaw chwi am unwaith yn eich oes." Nid oedd help am dani, yr oedd y ddau wedi eu trechu; tra yr ymgysurai'r derwydd cyfrwysgall gyda'r ddiareb, "Nid twyll twyllo twyllwyr." Bu y ddau ysbiwr yn gyff gwawd yn yr ardal am gryn amser, ac ni raid hysbysu nad aethant byth mwyach i lygadrythu yn ffenestr y bardd am "Iawnderau Dyn." Yr oedd ei faelfa yn y Bontfaen yn cynwys

Digitized by Google

darpariaeth ar gyfer y ddwy ran o ddyn; canys yn ychwanegol at lyfrau—bwyd y meddwl, gwerthid yno hefyd fara a chaws—te a siwgr. Ie, siwgr; ond nid oedd yno bob math o siwgr ychwaith—dim ond siwgr yr India Ddwyreiniol; yr oedd melusion yr India arall wedi eu cynyrchu trwy ddagrau, ocheneidiau, a gwaed y caethwas tlawd, ac nid oedd dim ohono i'w gael yn siop y rhyddidgarwr Iolo; ac fel na chamgymerai neb ar y pwnc, rhoddes hysbysiad yn y ffenestr fod o fewn "felusion yr India heb eu cymysgu â gwaed dynol." Ond fel y gellid haner ofni, nid aeth dyn a chanddo y fath syniadau dyeithr am siwgr yn gyfoethog fel siopwr; a chan nad oedd y faelfa gymaint ag yn talu ei ffordd rhoddes y perchenog hi i fynu. Bu wedi hyny yn dir-fesurydd, ond pa lwyddiant a'i dilynodd nis gwyddis. Eithr tra wrth yr alwedigaeth hono coleddid y fath syniadau uchel am ei wybodaeth leol, fel y penodwyd arno gan Bwyllgor Cymdeithas Amaethyddol Lloegr i wneud archwiliad weithredol o holl Dywysogaeth Cymru; eithr darfu i waelder ei iechyd, yn nghydag annghydnawsedd y gwaith i'w chwaeth hynafiaethol, ei luddias i gyflawni y gorchwyl mor frysiog ag y dymunai y Pwyllgor, a bu gorfod i Syr John Sinclair, benodi Gwallter Mechain i'r swydd yn ei le, yr hwn a'i cwblhaodd yn gampus, ond nid heb lawer o gymhorth gwerthfawr Iolo Morganwg. Ond greddf a phleser penaf ei oes ydoedd ymdaith i chwilio am gofnodion hynafiaethol ac ysgrifllyfrau. Buasai darlun ohono gan law gelfyddgar pan yn ymdaith i ymofyn hanesion a cheinion y cynoesodd yn werth llawer iawn. O ran corpholaeth, yr oedd yn hytrach islaw y taldra cyffredin. Yr oedd ei wynebpryd yn llym a'i edrychiad yn dreiddgar, llygaid llwydleision siriol, talcen uchel cyflawn yn ymwthio allan uwchlaw ei lygaid, aeliau trymion bwaog, trwyn hir a gên fain. Gwisgai gôb las gynffon-fain, ac arni fotymau pres gloywon, a chlos *corduroy*, a'i esgidiau wedi eu haner cuddio â bwclau. Ymgodai coler ei gôb yn erbyn ymyl ei het, nes oedd hono bob amser yn troi i fynu; ac o tani hongiai ei wallt yn geinciau annhrefnus tros ei ysgwyddau. Cerddai wrth ffon hir, yn mha un yr ymaflai tua chyferbyn a'i glust; ac ysgrepan wen ar draws ei ysgwyddau, yn cynwys, heblaw newid dillad, ei ysgrifau gwerthfawredig; ac yn ei hen ddyddiau yspectol ar ei drwyn, a llyfr yn ei law. Fel hyn y byddai yn myned i'w daith ac yn dychwelyd. Un o'r cyffelyb deithiau a gymerodd efe er ymweled â chasglfa helaeth a gwerthfawr Paul Panton, Ysw., o'r Plasgwyn, yn Mon, ac nid taith fer ar ei ddeudroed bob cam ydoedd hon o eithaf Deheu i eithaf Gogledd Cymru, pan oedd y ffyrdd yn anhygyrch, a phob cyfleusdra yn brin. Ond digon o dâl am dani ydoedd y fraint o ymdroi a gwynfydu yn nghanol trysorau hynafiaethol y Plasgwyn, a dwyn cyfysgrifau ohonynt gartref fel un a ddygai yspail lawer. Yr oedd gan foneddigion y fath ymddiried yn ei onestrwydd fel y cai dderbyniad dirwystr i'w llyfrgelloedd gwerthfawrocaf, heb y petrusder lleiaf y byddent ddim llai wedi iddo ymadael. Yn ystod y daith hon, efe a ymweloddd â'r prif-fardd Dafydd Ddu Eryri, ac â'r hyglod hynafiaethydd Richard Llwyd, Beaumaris. Un arall o ryfeddodau Iolo Morganwg oedd teithio yn wastadol ar ei draed. Er ei fod yn ymdaith yn barhaus bron, yn agos a phell, o gwr bwy gilydd y deyrnas, ei unig gymhorth ydoedd y ffon hir grybwylledig, a'i afael ynddi yn uchel neu yn isel, yn ol ansawdd ei deimladau. Dywedir mai unwaith, a dim ond unwaith, y gwelwyd ef erioed yn marchogaeth. Digwyddai fod y tro hwnw gryn bellder oddi cartref, a daeth y newydd ato fod ei dad ar dranc. Cym-

Digitized by Google

erodd geffyl, a charlamodd dros bant a bryn—torodd ar draws perthi a chloddiau, gan awydd gweled ei riant unwaith yn rhagor ar dir y byw. Ond gadawodd y daith hono y fath effeithiau annymunol ar ei berson, a'r fath adgofion alaethus ar ei feddwl, fel nas gellid ei ddarbwyllo i fyned ar geffyl byth mwy. Cadwai gyfryw anifail at wasanaeth ei deulu, ac yr oedd ymlyniad cyfeillgar rhyngddo ef a'r creadur hwnw. Gwyliai yr olaf holl ysgogiadau y bardd, a dilynai ef yn fynych mor bell yn ei deithiau â Chaerdydd, pellder o ddeuddeng milltir o Dreffleming. Cydgerddent fel dau gyfaill; talai Iolo y tollbyrth; a mynych y prynai dorth i'w thori i fynu i borthi ei gyd-deithydd. Tra y byddai y bardd o dŷ i dŷ yn Nghaerdydd, yn gwneud y neges yma, ac yn cyfeillachu â'r boneddwr dysgedig acw, byddai y ceffyl serchog yn cerdded yn ol ac yn mlaen ar hyd y rheol i aros am dano. Cyd-ddychwelent tua Threffleming gyda'r hwyr, ond cyd-gerdded y byddent byth --ni fynai Iolo mewn un modd fod yn faich i'w gydymaith. Yr oedd y gwir barchedig Dr. Burgess, esgob Tyddewi, yn dra hoff o'i gyfeillach ac yn garedig iawn tuag ato; a phalas Abergwili, preswylfa yr esgob, bob amser yn agored iddo, a'r gadair fawr esmwythaf yn y tŷ a holl gynwysiad y llyfrgell at ei wasanaeth. Darfu i'r caredigrwydd hwn ddarbwyllo Iolo i wneud peth na wnaeth ond anfynych iawn yn ei oes, sef rhoddi benthyg i'w arglwyddiaeth rai o'i ysgrifllyfrau gwerthfawrocaf. Ond cafodd le i edifeirwch chwerw am yr eithriad hon yn ei garedigrwydd; canys yn anffodus darfu yr esgob eu hail fenthyca i ddau foneddwr dysgedig. Y ddau hyny a fuont feirw, a daeth y newydd galarus i glustiau Iolo fod eu llyfrgelloedd wedi myned tan forthwyl yr arwerthydd cyhoeddus. Nid yw iaith wedi ein cynysgaeddu ag adnoddau digon nerthol i osod allan ddiglionedd a thrallod y bardd pan ddeallodd dynged ei greiriau gwerthfawr. Penderfynodd yn ddioed fynu ail feddiant ohonynt, costied a gostiai, a phe gorfuasai iddo deithio yr holl deyrnas. Mynodd afael yn llyfrau yr arwerthiadau; ac wedi astudio y rhai hyny yn fanwl, aeth ar ei draed gan belled a Merthyr Tydfil, lle y preswyliai ei fab Taliesin. Meddyliai hwnw, fel y gallasai pob dyn arall feddwl, fod ei dad, yr hwn oedd bellach yn ddeg a thriugain oed, yn rhy hen a gwanaidd i gymeryd y fath bererindod ar ei draed, a rhoddodd ei holl ddawn a thalent ar waith i'w gymhell i gymeryd benthyg ceffyl ganddo. Wedi hir berswadio, ymfoddlonodd yr hen wr i gymeryd y ceffyl gydag ef, gan ychwanegu os byddai yn teimlo yn flinedig yn ystod y daith y gallai fyned ar ei gefn. Dymunodd ei fab arno daflu ei ysgrepan ar unwaith draws cefn yr anifail. "Na, na, Tal.," ebe'r hen wr, "nid wyf byth yn ymddiried y *walet* ar ysgwyddau neb ond yr eiddof fy hunan." Felly aeth rhagddo i'w daith, y ceffyl yn rhodio yn hamddenol, a'r bardd tan y baich, nes cyrhaedd Caerfyrddin, lle y gadawodd yr anifail mewn porfa, gan ddilyn ei daith ei hunan. Cerddodd i lawr ac i fynu trwy siroedd Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi; ac wedi lludded annghymarol, llwyddodd i gael ail afael ar ei holl ysgrifau colledig oddieithr un. Yna dychwelodd i Gaerfyrddin, a thalodd bris afresymol am borfa y ceffyl i ddyn anonest a gymerasai fantais ar ddiniweidrwydd calon yr hen fardd. Cyfarfu Taliesin âg ef yno; a phan yn cychwyn tua chartref, dymunodd arno fyned ar gefn yr anifail, ond nis mynai. "Na, Tal.," meddai, "chwi ellwch chwi farchogaeth, os mynwch; 'farchoga i ddim." Trwy lawer o gymhell, llwyddwyd i'w gael yn foddlawn i daflu yr ysgrepan tros gefn yr anifail, ond ar yr amod fod i Taliesin gerdded

Digitized by Google

ar yr ochr aswy, a chadw ei law yn ofalus ar y naill ben i'r ysgrepan, tra y cerddai yntau ar yr ochr dde, gan ddal ei law ar y pen arall; ac fel hyn, un o bob ochr i'r ceffyl, a chynal a chadw a dal gwyliadwriaeth o'r fath fanylaf ar yr ysgrepan werthfawr, yr aethant yn mlaen nes y blinasant ar y dull hwnw o deithio, ac y penderfynasant gymeryd y baich bob yn ail ar eu hysgwyddau eu hunain. Anfynych y mae y fath fraint yn disgyn i ran ceffyl: cael cyd-deithio â bardd yr holl ffordd o Ferthyr i Gaerfyrddin—cael porfa fras, a gorphwys digon yno—a dau fardd yn gymdeithion yr holl ffordd yn ol, heb na thynu llwyth na chludo baich ond yr ysgrepan werthfawr a brisiai ei pherchenog yn uwch na'r aur coeth. Dywedir i Iolo yn more ei oes benderfynu myned i berfeddwlad America i chwilio am y Madogwys; canys credid y pryd hyny eu bod yn hawdd i'w cael, dim ond myned i hela am danynt. Heblaw ei fod yn gerddwr dihafal, gallai gerdded llawer ar ychydig iawn o fwyd; ond barnai y byddai raid iddo ar ei hynt Fadogaidd oddef mwy o galedi na chyffredin; a bu yn caledu ei hun at yr anturiaeth trwy fwyta glaswellt fel anifail, a chysgu yn y coed fel epa. Onid oedd y defaid yn byw ar laswellt?—a phaham nad allai dyn yr un modd? Mewn gair, cyhoeddodd ryfel yn erbyn coginfwyd; ond bu agos iddo golli ei fywyd, a chafodd brawf diamheuol nad ar laswellt y bydd fyw dyn. Tra yr oedd efe yn byw tan yr oruchwyliaeth lysieuol, gweddus ini hysbysu iddo, yn groes i bob rheol o'i fywyd, dori yr wythfed gorchymyn yn y gyfraith, trwy fyned yn nghymdeithas un arall o'r cyffelyb archwaeth, i gae o *glover* yn agos i Aber, sir Gaernarfon, er mwyn tori eu newyn. Pwy a ddaeth heibio ond perchenog y maes, ac yn gweled y pâr barus yn dyfetha ei gnwd, bygythiodd yn dost eu dodi yn ngharchar pob barusiaid eraill, sef ffald y plwyf. Mae yn debyg mai myned neu ddychwelyd yr ydoedd ar y pryd i'r Plasgwyn, canys sonia Dafydd Ddu yn un o'i lythyrau fod Iolo pan y galwodd gydag ef yn cael ei boeni yn fawr gan ysprydiaeth llysiau. Rheswm arall tros fyned i'r America ydoedd ysgoi y cyfreithiau gorthrymus ag oedd mewn nerth yn y wlad hon y pryd hwnw. Yr oedd yn cashau o wraidd ei enaid bob gorthrwm, ac yn caru rhyddid o eigion ei galon, fel yr awgrymwyd, yr hyn a'i dygai tan amheuaeth pobl anwybodus, os nad gwybodus ond rhagfarllyd; ond er pobpeth, ni wyrodd efe oddiwrth ei egwyddor, a rhoddes brofion dianmheuol o'i ddilysrwydd. Fel y gellid tybied, arch-wrthddrych ei gasineb ydoedd y gaethfasnach. Yr oedd ei dri brawd wedi myned i Jamaica, lle y dilynai Thomas yr alwedigaeth o gerfiedydd, a John a Miles yr alwedigaeth o seiri priddfaen; a chan fod y tri yn ddynion sobr, diwyd, ac ymroddgar, casglasant gyfoeth. Gwyddent nad oedd eu brawd, oherwydd ei dueddiadau llenyddol, ond tylawd, ac anfonasant yn garedig i gynyg iddo haner cant o bunau yn y flwyddyn, fel y gallai ymryddhau yn fwy llwyr oddiwrth drafferthion y byd, ac ymroddi yn ddygnach i'w hoff-waith. Dyna brofedigaeth i fardd! buasai mil ond un yn neidio i'r afwyd, ac yn llyncu cydwybod yr un pryd. Ond yr oedd cysylltiad rhy agos rhwng y cynygiad â phwnc ar ba un yr oedd ei feddwl ef wedi ei hen wneud i fynu. Anfonodd i ddiolch iddynt am eu cynygiad brawdol, ond ar yr un pryd i'w wrthod yn y modd mwyaf penderfynol. Yr oedd ei frodyr yn casglu eu harian mewn gwlad o gaethiwed—yr oedd caethion yn eu cynorthwyo i'w enill—caethion oedd yn enill yr arian a dalai y planwyr am eu cerfiadau a'u hadeiladau. "Na!" meddai, "nis gallaf gyffwrdd â'u harian, nid yw namyn gwerth gwaed

Digitized by Google

—pwrcas genedigaeth-fraint dynoliaeth ; byddai yn well genyf drengu o eisiau, na chael fy mhorthi ag elw halogedig yr ysgumunbeth hwnw caeth fasnach." Yn mhen rhai blynyddau, bu ei frodyr farw, ac yn ddiblant ; a daeth yntau felly yn etifedd i'w holl eiddo, yr hwn oedd mewn rhan yn gynwysedig o gaethion. Dymunai rhai o'i gyfeillion arno weini i'r etifeddiaeth, a chymeryd meddiant o'r cyfoeth, yr hwn yr oedd Rhagluniaeth wedi ei roddi yn ei gyrhaedd. Ni wnai ef ddim o'r fath beth ; fe ai ef drosodd i Jamaica ; fe ollyngai y caethion yn rhydd ; fe ranai yr holl feddiant rhyngddynt hwy ; ond ni chyffyrddai âg un geiniog o'r peth melldigedig ei hunan. Yn ofer y dadleuid y byddai cyfoeth o wasanaeth mawr i'w blant—ei fod yn awr yn feddiant cyfiawn a chyfreithlawn iddo ef, pa sut bynag y casglesid ef—y gellid ei ddefnyddio i ddybenion o elusen—os na chymerai efe ef, y cymerid meddiant ohono gan eraill, y rhai nid oedd ganddynt hawl iddo—y gallai ryddhau y caethion a thynu pob peth i ben, yn Jamaica—ond y cwbl yn ofer. "Beth !" oedd ei atebiad, "a dwyn melldith y Negro gorthrymedig ar benau fy mhlant. Na, ni chant byth halogi eu cydwybodau â'r fath elw melldigedig. Y mae melldith Duw ar gaethwasiaeth, ac ar bob peth sydd yn perthyn iddo. Y mae Efe yn ei gashau, ac y mae ei anfoddlonrwydd Ef yn aros pawb sydd yn ei garu, neu yn caru yr elw a ddeillia oddiwrtho. Ni bydd imi byth bwrcasu melldith i mi fy hun a'm hiliogaeth trwy gyfranogi o'r halogedigaeth ysgeler." Daliodd at ei air,—bu fyw a marw gan "wrthod elw trawsedd." Yr oedd yn yr amser hwnw, bregethwr o'r enw Mr. Winterbotham yn ngharchar am draddodi pregeth wleidyddol; yr hwn, fel y mae yn rhy arferol yn yr oes hon, er nad oedd na barnwr na brenin yn ei wrando, a aeth i gornbriddo mewn gwladlywiaeth, ac i ddysgu pa fodd y dylai breninoedd deyrnasu, a bamwyr weinyddu cyfiawnder ; ac mewn canlyniad, cafodd hamdden i adolygu ei anwes-waith rhwng muriau y carchar. Yr oedd y ffaith ei fod yn ngharchar am arfer rhyddid barn a llafar yn ddigon i enyn dyddordeb yn ei achos yn meddwl Iolo Morganwg. Penderfynodd dalu ymweliad âg ef. Gofynid i bob ymwelydd ysgrifenu ei enw a lle ei breswylfod ar lyfr a gedwid yn ystafell y porthor. Cydsyniodd Iolo â'r rheol, ac aeth yn hytrach yn mhellach na'i gofynion—rhoddodd ei enw i lawr yn "*Edward Williams, Bard of Liberty*." Tynodd hyn sylw un o'r uwch-swyddogion, a chafodd y porthor orchymyn i'w nodi os deuai efe yno drachefn. Nid hir y bu efe cyn talu ei ymweliad yr ail. "Felly," ebe'r swyddog, "chwychwi yw bardd rhyddid, ai e ?" "Ie'n siwr," ebai'r bardd. "Gan hyny, Mr. Bardd Rhyddid, yr ydych i ddeall," ebe y swyddog, "mai yr unig ryddid i chwi yma, yw rhyddid i gymeryd eich hunan ymaith ar hyd yr un ffordd ag y daethoch." "O, purion," ebe Iolo, "'rwy'n eithaf boddlon ; ac mi ddymunwn na chaffo un bardd rhyddid waeth triniaeth na chael gorchymyn i fyned allan o garchardy." Darfu i'r drwgdybiau a goleddid am ei ddyngarwch ei ddwyn wyneb yn wyneb â'r enwog Mr. Pitt. Yr oedd y llywodraeth wedi clywed cyhuddiadau disail yn ei erbyn, ac mewn canlyniad atafaelwyd ei bapurau, ac aed a hwy i'r Whitehall ; gwysiwyd yntau i ymddangos gerbron Mr. Pitt ac un o'i swyddogion. Bu chwilio maith a manwl ar y papurau ; ond ni chaed ynddynt oddieithr eân neu ddwy yn mha rai y canmolid rhyddid ar y mwyaf, ac nid oedd yn y rhai hyny ddim yr ystyriai y gweinidog ei fod yn haeddu cosb neu gerydd. Gan hyny, rhoddodd dipyn o gynghor caredig i'r bardd, a dybenodd trwy ddweyd, "Yn awr, Mr.

Digitized by Google

Williams, chwi ellwch gymeryd eich papurau gyda chwi gartref, a gwneud eich hun yn berffaith esmwyth." Ond nid oedd y cyfryw ollyngdod yn cydweddu â golygiadau y bardd am esmwythdra, ac atebodd gan fod y cyfryw bapurau wedi eu dwyn yno heb ei gydsyniad ef, ei fod yn disgwyl iddynt gael eu dwyn yn eu hol drachefn trwy yr un awdurdod ag y dygwyd hwynt ymaith. Ystyrid hyn yn eithaf rhesymol, a danfonwyd swyddog i gario y papurau i'w letty. Gwyddai ei fod yn ddyn a ddrwgdybid, ac arweiniai y syniad hwnw ef weithiau i wneud camsyniadau lled ddigrifol. Pan yn Llundain, daeth yn gydnabyddus âg un Mr. Rose, yr hwn oedd yn gyfaill mynwesol i'r bardd Seisonig anfarwol, William Cowper,—y Samuel Rose, Ysw., at ba un y ceir cymaint o'i lythyrau cyfeiriedig. Gwahoddodd Mr. Rose ein bardd i gymeryd tê yn ei dŷ yn *Chancery Lane;* ac er fod Iolo yn drwgdybio fod amcan yn y peth i'w dynu i'r fagl, addawodd fyned. Pan ddaeth yr amser, cafodd ei hun yn nhŷ Mr. Rose, yn nghanol cylch o gyfeillion siriol a llawen. Yn fuan, rhoddodd Iolo y ffrwyn i'w ffraethineb; ymollyngodd i siarad yn rhwydd a rhydd am bob peth a ddelai i'r bwrdd; ac o ran hyny, efe oedd siaradwr mawr yr achlysur; a buasai yn teimlo yn berffaith esmwyth oni buasai fod yno foneddwr yn nghongl yr ystafell, yr hwn, er ei fod yn talu sylw manwl i bob peth a ddywedid, ac yn enwedig felly i'r hyn a ddywedai Iolo, oedd yn gwbl ddystaw ei hunan. Yr oedd o ymddangosiad pruddaidd a meddylgar; ond nid oedd dim yn hyny—ei fudanrwydd hollol, a'r sylw dyfai a delai i bob gair a ddywedid, oedd yn peri anesmwythder i feddwl ein bardd; ac nis gallai ymryddhau oddiwrth y dybiaeth ei fod wedi ei osod yno gan y llywodraeth i gadw gwyliadwriaeth arno ef. Pan ddaeth yr amser i ymadael, modd bynag, cymerodd Mr. Rose ein bardd at y boneddwr mud; a rhyfedd fu ganddo ddeall nad oedd gwrthddrych ei anmheuaeth yn neb arall ond yr hawddgar a'r diniwaid William Cowper. Yr oedd Mr. Cowper wedi arwyddo dymuniad am weled Iolo, ac yr oedd Mr. Rose wedi cymeryd y llwybr hwn i ddwyn y ddau fardd wyneb yn wyneb, ond yr oedd y bardd Seisonig druan wedi ei orchfygu gan y gihaint fel nad allai gymeryd un rhan yn yr ymddyddan. Cafodd y ddau fardd, y rhai a gynrychiolent ddau eithaf y byd, fel hyn *weled* eu gilydd am unwaith, a dim ond hyny; ni bu haner dwsin o eiriau rhyngddynt; a phan yn ymadael, arwyddent ddymuniad y byddai eu cyfarfod yn fwy cyfeillgar y tro nesaf. Ond ni chawsant gyfarfod mwy ar y ddaear. Pe buasai Iolo yn gwybod mai Cowper oedd y dyn dystaw pruddaidd a eisteddai yn nghongl yr ystafell, pell fuasai o'i ddrwgdybio o fod yn ysbiwr; ac ni buasai neb llwyr adnabyddus â theimladau calon Iolo yn ei ddrwgdybio yntau o fod yn wrthryfelwr. Yr oedd annibyniaeth yn un o nodweddau dyfnaf ac amlycaf ei gymeriad. Pe buasai ganddo lai o hyny, cawsai fwy o barch a mwy o gyfoeth; ond fel yr oedd cafodd barch lluaws ag yr oedd eu parch yn werth ei gael; mwynheid a mawrheid ei gyfeillach gan lawer o fawrion y deyrnas—mawrion mewn cyfoeth, mawrion mewn dysg, a mawrion mewn enwogrwydd llenyddol. Yr oedd gan lawrwyddfardd Prydain, yr enwog Robert Southey, olwg fawr arno, a pharch mawr iddo. Trysorai gyda dyfalwch a gofal bob peth a ddywedid ac a ysgrifenid gan Iolo, ac am dano. Mwynhaodd hefyd gyfeillach y Tywysog Talleyrand, Arglwydd Stanhope, Dr. Benjamin Franklin, Dr. Aikin, yr Esgob Percy, Gilbert Wakefield, Francis Douce, Horne Tooke, a llawer o enwogion eraill. Pan unwaith yn y brifddinas, derbyniodd genadwri

Digitized by Google

oddiwrth foneddwr urddasol yn dymuno arno alw gydag ef cyn yr ymadawai. Yr oedd y boneddwr wedi clywed am Iolo, ac yr oedd y sôn am dano wedi creu awydd ynddo am ei weled. Ryw ddiwrnod, aeth y bardd at ei dŷ, curodd, a daeth y trulliad at y drws. Gofynodd i hwnw os oedd ei feistr i mewn. "Ydyw," oedd yr ateb, "ond y mae ganddo gwmni; os ydych am ei weled, rhaid i chwi alw rywbryd arall." "Na," ebe Iolo, "rhaid i mi ei weled yn awr." Aeth y gwas a'r neges i'r parlawr; dywedodd fod gwr o ymddangosiad pur dlawd, ac ysgrepan wen ar draws ei ysgwyddau, yn sefyll wrth y drws gan ymofyn am ei weled; ac wele orchymyn eto iddo ymadael, a galw rywbryd arall. Ond ni chymerai Iolo ball; yr oedd yn rhaid iddo ef gael gweled y boneddwr ar hyny o bryd. Y diwedd fu i'r boneddwr lidio, cyfododd ar ei draed, ymaflodd yn y chwip, rhedodd tua'r drws gan fwriadu gwneud i'r dyeithr eon ddefnyddio ei draed, a chododd ei law—"*Strike a Welshman if you dare*," ebe Iolo,—

> "Strike a Welshman if you dare,
> Ancient Britons as we are,
> We were men of great renown,
> Ere a Saxon wore a crown."

"*What!*" ebe'r boneddwr, "*are you the Welsh bard?*" "Ai chwi yw y bardd Cymreig? Deuwch i fewn—deuwch i fewn yn y funud." Ac i mewn yr aeth. Ond ni ddarfu ymgyfeillachu â mawrion droi ei ben na rhwydo ei galon. Yr un dyn syml a dirodres ydoedd ef pan yn neuadd ardderchog William Pitt, â phan yn ymgomio â Peggy yn ymyl y tân yn Nhreffleming; a chai mawrion yn gystal a bychain ar ddeall nad oedd efe yn gosod mwy na mwy o bwys ar rwysgedd. Wrth fyrddau, ac yn nghwmni uchelwyr, ni byddai neb mwy cymedrol na Iolo Morganwg. Yr oedd gan ffrwyth y ddeilen Chineaidd lawer mwy o swyn i'w archwaeth na ffrwyth yr heidden neu sudd y grawnwin. Fel yfwr te, mae yn ddiau y buasai yn tynu y dorch ag un bardd a hynafiaethydd yn y greadigaeth isloerawl. Gofynodd Mr. Elijah Waring, ei fywgraffydd dyddorol, pa sawl cwpanaid o de a yfasai fwyaf ar un eisteddiad—atebodd nad oedd erioed wedi cyfrif, ond bod boneddiges wedi ei hysbysu iddi hi estyn iddo ei unfed gwpanaid ar bymtheg, a'i fod yn beth pur debyg iddi gadw cyfrif cywir. Yr oedd yn siaradwr diderfyn uwchben ei ddiod, sef oedd hwnw te; ac yn dwyn pob cangen o wybodaeth i'r bwrdd. Trwy ei ddyfalbarhad anorchfygol, nid oedd odid i wyddon a chelf nad oedd efe yn hyddysg ynddi,—nad allai lefaru yn groyw a gwybodus am dani, a thraethu ei farn annibynol arni. Yr oedd yn feddyliwr dyfnddwys a mawr. Dywed Gwallter Mechain am dano:—"Ni chytunai â Barnet, Whiston, Buffon, Whitehurst, na Hutton, yn eu dychymygion yn nghylch ansawdd ein daear, a'r achosion o'r annhrefn, neu yn hytrach y drefn bresenol o amrywiol osodiadau a sefyllfaoedd y gwelyau a'r colofnau o greigiau a sylweddau eraill yn ei harwynebedd. Yr oedd ganddo gyfundraeth o'i eiddo ei hun." Am ei farn grefyddol, dywedir yn *Cymru Fu* i. 332:—"Mae yn anhawdd gwybod yn iawn pa beth oedd ei farn grefyddol. Nid oedd *Waring*, ei fywgraffydd, yn gwybod chwaith. Yn ei Salmau y gwelir mwyaf o'i syniadau crefyddol. Mae yn amlwg ei fod yn ddyn bucheddol a chymwynasgar, yn feddyliwr dwfn ar bethau dwyfol, fod ganddo syniadau goruchel a pharchus am Dduw, ac am yr Ysgrythyr Lân fel amlygiad o'i ewyllys. Yr oedd y diweddar Ddr. Jenkins, o Hengoed, yn gydnabyddus iawn â Iolo, a chlywais ef yn son llawer iawn am dano. Yn

Digitized by Google

ol fel y dywedai ei gyffes wrth Dr. Jenkins, yr oedd efe yn Undodwr mewn rhai pethau, yn Grynwr mewn pethau eraill, yn Fethodist yn nhrefn y weinidogaeth, ac yn Fedyddiwr mewn bedydd. Nid oedd neb yn ei foddio yn mhob peth, ac yr oedd efe yn cymeradwyo rhywbeth yn mhawb. Soniai am ysgrifenu llyfr i ddangos fel yr oedd pawb yn cyfeiliorni, tan yr enw, 'Ymweliad y Diawl ag Eglwysi Cymru.' Ond ni chyflawnodd ei amcan yn hyn fel mil o bethau eraill a fwriadodd." Yr ydym yn awr yn dyfod at ei gyfansoddiadau llenyddol. Ei waith cyntaf ydoedd dwy gyfrol o Ganiadau Seisnig, tan y teitl, "Poems Lyric and Pastoral," 1794, yr hwn a gyhoeddwyd trwy gymhorth tanysgrifwyr, ac yn mhlith y rhai hyny ceir y Cadfiaenor Washington, Syr Wm. Jones, Mr. Wilberforce, ac hyd yn nod Thomas Paine. Bu Iolo ar ymdaith trwy y dywysogaeth tros Owen Myfyr yn chwilio am hen lawysgrifau, ac yn llwyddianus ar ei antur tuhwnt i'w ddisgwyliadau aiddgaraf. O'r casgliad hwnw yn benaf y cafwyd defnyddiau y drysorfa hynafiaethol hono y "Myvyrian Archaiology," yr hwn a gyhoeddwyd tan olygiaeth Mvfyr, Dr. Pughe, a Iolo Morganwg. Argraffwyd ef yn Llundain yn 1801, mewn tair cyfrol, a gwaith Iolo ydyw y rhagymadrodd hanesyddol galluog a'r adolygiad ar hen lawysgrifau Cymreig. Cyhoeddodd hefyd ddwy gyfrol o Emynau, tan y teitl, "Salmau yr Eglwys yn yr Anialwch," ond er eu bod yn gelfyddgar, y maent yn rhy oer i hinsawdd frwd-grefyddol Cymru. Bwriadai ysgrifenu hanes Cymru, a chynullodd dwysgen mawr o ddefnyddiau ato,—dim llai na chan' cyfrol. O'r rhai hyn y cyhoeddwyd "Cyvrinach y Beirdd," yr hwn a wnaeth ei ymddangosiad ychydig cyn marwolaeth y bardd; a chyfrol arall dra dyddorol, o'r enw "Iolo MSS.," yr hon a gyhoeddwyd yn 1849 gan Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig. Iddo ef y mae y byd llenyddol yn ddyledus hefyd am gadwriaeth "Coelbren y Beirdd," neu lythyrenau gwyddor yr hen Gymry. Bu cryn ddadleu ac anmheu dilysrwydd y darganfyddiad hwn; ond darfu i'w fab, Taliesin ab Iolo, yn ei draithawd campus ar y pwnc, a enillodd wobr Eisteddfod Abergafenni, ac a gyhoeddwyd yn 1841, brofi i foddlonrwydd pob un diduedd ddiffuantrwydd y ffaith. Nid yw hyn ond y llyfrau a gyhoeddwyd tan ei enw; eithr y mae yn anmhosibl hysbysu o ba faint o gymhorth y bu i awduron eraill, ond gallwn yn ddibetrus ddweyd na chyhoeddwyd yn ei oes yr un llyfr hanesyddol o bwys yn Nghymraeg, nac yn Seisnig ar destynau hanesyddol Cymreig, heb fod ganddo ef rhyw law ynddo naill ai yn an neu ynte yn uniongyrchol. *Bwriadodd* gyhoeddi llawer rhagor nag a gyhoeddodd; a cheir yn y *Cambrian Register* restr o weithiau llenyddol pwysfawr oedd ganddo yn barod i'r wasg. Wedi oes faith, lafurus, a digon blinderus, dechreuodd haul ei fywyd dynu at y gorwel. Cystuddiwyd ef yn drwm am lawer o flynyddau gan ddiffyg anadl, ac am y deunaw mlynedd olaf o'i oes, prin y cysgodd un noson ond mewn cadair. Bu farw Rhagfyr 18, 1826, yn 81 oed. Y mae ei weddillion marwol ef, ei wraig, ei fab, a'i ferch, yn cydorphwys yn dawel yn eglwys hynafol Treffleming; ac er nad oes gymaint a llythyren gerfiedig yn dynodi argel wely y dyn mawr a chyhoeddus hwn (er dirfawr gywilydd i lengarwyr a hynafieithwyr ei wlad), nid oes berygl (ond dim diolch iddynt hwy) na ddeil ei goffadwriaeth yn fyw ac yn wyrddlas am oesau lawer. Yn 1850, cyhoeddodd ei hen gyfaill athrylithgar Elijah Waring gyfrol fechan drylawn o ddyddordeb, tan y teitl, "Recollections and Anecdotes of Iolo Morganwg." Am hanes helaethach ohono gweler y gyfrol grybwylledig; *Y Gwladgarwr* ix. 97 a 132; *Y Traethodydd* am 1855.

Digitized by Google

WILLIAMS (Parch. Edward), D.D., Rotherham. *Gwel* Attodiad.

WILLIAMS (Parch. Eliezer), ydoedd fab hynaf yr enwog Peter Williams, awdwr y Nodiadau ar y Beibl Teuluaidd. Ganwyd ef yn Llandefaelog, sir Gaerfyrddin, yn 1754. Bu am rhyw yspaid yn ysgol ramadegol Caerfyrddin; ac oddiyno symudwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain, yn 1773. Yn 1777, cafodd urdd diacon, a'i benodi yn gurad Trelech, eithr tros ychydig fisoedd y bu ei arosiad yno, gan iddo gael ei symud yn ystod yr un flwyddyn i guradiaeth Tetsworth, sir Rydychain. Yn fuan ar ol hyny, dewiswyd ef yn ail athraw ysgol ramadegol Wallingford, sir Berk; ac heblaw y swydd hono, yr oedd hefyd yn gurad Acton, plwyf bychan yn yr un ardal, lle y byddai y Dr. Barrington, yr hwn ar y pryd ydoedd yn Esgob Salisbury, ac a fu wedi hyny yn Esgob Durham, yn mynych gyfaneddu, ac a arferai wrando gweinidogaeth Mr. Williams, gan ei wahodd yn aml i'w dŷ, lle yr ymddiddanai âg ef yn dra chyfeillgar, ar amrywiol faterion; ac oddiar yr achlysuron hyn daeth yr Esgob yn fuan i weled ei fod yn ddyn ieuanc o wybodaeth eang, a doniau annghyffredin. A'i arglwyddiaeth pan ddyrchafwyd ef i esgobaeth Durham, yn garedig iawn a gynygiodd gymeryd Mr. Williams gydag ef a'i wneud yn un o'i gaplaniaid, cynygiad y bu wedi hyny yn edifar iawn ganddo ei wrthod. Ond yr achos a barodd iddo wneuthur felly ydoedd ei fod ar y pryd, fel llawer o wyr ieuanc eraill, yn awyddus iawn am gael gweled mwy o'r byd; a chan fod y rhyfel â Ffrainc wedi dechreu yn y cyfamser, cafodd gynygiad o'r fath ag yr ydoedd yn ei chwenych, sef i fyned yn gaplan ar fwrdd llong ryfel o'r enw *Cambridge*, dan y llyngesydd Keith Stewart, ac i fod yn athraw i'r arglwydd Garlies, wedi hyny Iarll Galloway. Felly â'r cynygiad hwn y cydsyniodd yn barodol iawn, a bu am rai blynyddoedd ar y môr, ac yr oedd gyda'r Arglwydd Howe pan yn ad-gymeryd Gibraltar, ac ar achlysuron eraill. Eithr ar ddymuniad arglwydd Galloway, efe a adawodd y sefyllfa hono i fod yn athraw i blant ei arglwyddiaeth; a bu gyda'r teulu hwnw am fwy nag wyth mlynedd; ac yn y cyfamser, trwy gyfryngiaeth y pendefig crybwylledig, darfu yr arglwydd Ganghellydd Thurlow ei benodi i ficeriaeth Caio, yn sir Gaerfyrddin. Pan ydoedd efe yn nheulu yr arglwydd Galloway, daeth yn gydnabyddus â boneddiges ffoedig o Ffrainc, o'r enw Miss Anne Adelaide Grebert, yr hon a briododd efe yn Llundain tua 1792. Y foneddiges hon a fu farw tua 1796, ac a gladdwyd gyda'i phlentyn bychan, yn y Cannongate, Edinburgh, lle yr oedd Mr. Williams ar y pryd yn preswylio, tra ar waith dros yr arglwydd Galloway yn chwilio rhyw bapurau i'r dyben o gael allan achau rhyw gangen o dylwyth Stewart; ac yn y gorchwyl hwnw bu mor llwyddianus fel yn y canlyniad y daethpwyd o hyd i hawl ei arglwyddiaeth i gael ei wneuthur yn un o Gyfurddorion *(Peers)* Lloegr. Yn mhen rhyw yspaid o flynyddoedd ar ol hyn Mr. Williams a aeth i Lundain, lle y dewiswyd ef i fod yn ysgrifenydd a chaplan i ryw foneddwr oedranus, o gyfoeth nid bychan; ac yno y daeth i gydnabyddiaeth â'i ail wraig, Jane Amelia Nugent, merch St. George Armstrong, Ysw., o Ddrumsna, o'r Iwerddon. Ond fel y bu fwyaf anffawd Mr. Williams, yr oedd y foneddiges hon wedi cael ei dwyn i fynu mewn dull tra gwastraffus er nad oedd ganddi mo'r cynysgiaeth cyfatebol i hyn; ac o ganlyniad, hi a'i suddodd ef a'i deulu i'r fath angenion a chyfyngderau fel er ei holl ddarbodaeth a'i ymdrechiadau, ac er iddo ymostwng i'r blinwaith o gadw ysgol, ni bu fyth wedyn yn alluog i ddad-ddyrysu ei

Digitized by Google

hun. Yn fuan ar ol y briodas hon, cymerodd letty yn Rathbone-place yn Llundain, gan weinidogaethu mewn gwahanol guradiaethau yn ac o amgylch y ddinas. Ac yno byddai ei dad a'i fam yn nghyfraith nid yn unig yn mynych ymweled âg ef, eithr ar brydiau yn byw arno am gryn yspaid o amser; ac er mwyn boddio eu mympwyon difyrgar ac afradlon cymhelleat ef weithiau i fyned i gostau nid bychain. Eithr o'r diwedd, pan ddaeth i ganfod ei gamsyniad, efe a adawodd Lundain, gan ymneillduo i Chadwell, yn Essex, lle y gwasanaethodd guradiaeth y plwyf dros amryw flynyddoedd, ac yno y ganwyd dau neu dri o'i blant. Eithr yn y lle hwn drachefn ni bu alluog i gynilo nemawr yn ei ddull o fywiolaethu, a hyny oherwydd yr achosion a grybwyllwyd eisoes; ac fel yr oedd yn gweled ei benbleth yn ychwanegu o hyd, penderfynodd fyned i gartrefu yn ei fywioliaeth fechan ei hun yn Nghaio, yn sir Gaerfyrddin, oddiwrth ba un ni chawsai erioed ddim ychwaneg o elw na £130 yn y flwyddyn, ar ol talu cyflog y curad a chostau eraill. Tua'r pryd hwn, 1805, digwyddodd ficeriaeth Llanbedr-pont-Stephan, yn sir Aberteifi ddyfod yn wag, a chyflwynwyd yr unrhyw iddo ef gan y clodwych Esgob Burgess, esgob Tyddewi; ac yno y preswyliodd Mr. Williams o hyny allan hyd ddiwedd ei oes, yr hyn a ddigwyddodd Ionawr 20, 1820, pan yr ydoedd yn 67 oed. Mor gariadus oedd efe yn y gymydogaeth fel nad oedd dim llai na phedwar ar bumtheg o offeiriaid, yn nghylch deugain o'i ysgolheigion, ac ugain o foneddigion eraill yr ardal, yn ei angladd. Yn 1801, cyhoeddodd gyfrol o farddoniaeth, y rhan fwyaf o ba rai a gyfansoddasai yn ystod ei oriau hamddenol ar y môr, tan yr enw "Nautical Odes, or Political Sketches, designed to commemorate the Achievements of the British Navy," yr hwn a gafodd dderbyniad lled galonog. Byddai hefyd yn gohebu yn fynych i'r *Cambrian Register*, *The Gentleman's Magazine*, a chylchgronau o'r un natur. Cyhoeddodd ei fab yn 1840, gyfrol o'r enw "The English Works of the late Rev. Eliezer Williams, &c., with a Memoir of his Life."

WILLIAMS (Evan), cyhoeddwr enwog yn Llundain, a anwyd yn Swydd y Ffynon, nid pell o Ledrod, sir Aberteifi. Ei dad, yr hwn a adwaenid wrth yr enw "Dafydd William y Gof," a ymunasai â symudiad crefyddol y Parch. D. Rowlands, Llangeitho ac eraill, o dan yr enw Trefnyddiaeth. Pan ddechreuwyd sefydlu cymdeithasau crefyddol ar hyd y wlad, yr oedd yr un a ymgyfarfyddai yn Lledrod—cynwysedig o tua deugain o aelodau, o dan ei ofal ef yn 1744. Ystyrid ei ddoniau o radd uwch na'r rhan fwyaf o'r cynghorwyr a gododd y dyddiau hyny. Anfonwyd ef i Wynedd amryw droion, ac yr oedd wedi ei benodi gan Rowlands i ymweled a'r Gogledd yn un o bedwar unwaith yn y chwarter. Cyrhaeddodd tri o'i feibion gryn raddau o enwogrwydd, a chawsant y tri fanteision addysg uchelryw o tan yr athraw diguro Edward Richard o Ystradmeurig. John, yr hynaf, a ddaeth yn ail athraw yr ysgol hono, efe oedd tad yr Archddeacon Williams, awdwr *Julius Cæsar*, *&c.* Ei ddau fab eraill, Evan a Thomas, a ymsefydlasant fel gwerthwyr a chyhoeddwyr llyfrau yn y Strand, Llundain. Cyhoeddasant amryw lyfrau o bwys i'r Cymry, megys *Geiriadur Dr. Pughe*, y *Cambrian Register*, *Caniadau Llywarch Hen*, y *Cambrian Biography*, y *Cambrian Depicta*, *&c.*; ac yr oeddynt yn eu dydd yn mhlith cyhoeddwyr enwocaf y Brifddinas. Collodd Mr. Evan Williams lawer o arian wrth gyhoeddi rhai o'r llyfrau Cymreig, yn enwedig Geiriadur Dr. Pughe, i'r hwn, oblegyd yr orgraff, y bu raid bathu llawer o lythyrenau newyddion. Bu yn

Digitized by Google

cynal y fasnach hono am ddeugain mlynedd, pryd yr ymneilldnodd i fyw ar ei gyfoeth. Cymerodd ei farwolaeth le Medi 28, 1835, yn Pentonville, Llundain, ac efe yn 86 oed. Yr oedd yn gyfranydd cyson a haelionus at drysorfa Cymdeithas Ysgol Rad y Cymry yn y Brifddinas, ac yn aelod gweithgar o'i Phwyllgor am 53 o flynyddau.

WILLIAMS (EVAN), ydoedd glochydd Llanfihangel-y-gwynt, yn sir Drefaldwyn. Yr oedd yn fardd o gryn athrylith. Cyfansoddodd lawer iawr o Garolau Plygain, a phethau eraill, ond ni wyddis a argraffwyd dim o'i waith. Saer coed, neu asiedydd ydoedd wrth ei gelfyddyd. Yr oedd un o'i garolau, ar y mesur "Gwel yr Adeilad," yn darlunio oes dyn yn debyg fel pe bai yn dringo ysgol i ben adeilad,—yr ysgol yn cynwys deg-ar-hugain o ffyn, a'r olaf oedd y gryfaf a'r harddaf. Yna dywedai—

Tu draw i'r adeilad, hon os daw,
Caiff ysgol wanach a'r ffyn yn grinach,
Carfanau'n feinach neu bydrach yn ei law,
Ac wrth ei bon, os edrych, caiff weled rhych y rhaw.

Bu ymryson lled annedwydd rhyngddo â Twm y Nant, pan oedd y gwr hwnw yn cario coed yn Nolobran, Meifod.—*Lleyn MSS.*

WILLIAMS (GRIFFITH) *(Gutyn Peris)*, un o brif-feirdd yr oes o'r blaen, a anwyd mewn lle o'r enw Hafod-oleu, yn mlaen plwyf Llanbeblig, sir Gaernaerfon, Chwef. 2, 1769. Pan oedd efe o gylch pump oed, symudodd ei rieni i Lwyncelyn, yn mhlwyf Llanberis, ac yn fuan ar ol hyn bu farw ei dad. Nid oedd dim ysgolion nos, nac ysgolion Sul, yn yr ardaloedd y pryd hwnw, na rhawg wedi hyny; ac nid oedd dim odid neb o'r bobl gyffredin yn gofalu nemawr am ysgolion i'w plant, ac felly nid oedd ond ychydig o dyddynwyr yn medru darllen, ac nid oeddynt yn gwybod gwerth medru, nac yn ei weled yn angenrheidiol i'w plant, oddieithr eu bod yn bwriadu dodi plentyn mewn rhyw alwad uwchlaw llafurio'r ddaear, a thrin anifeiliaid. Gan hyny, ni chafodd Griffith ond un flwyddyn o ysgol, na mo hyny ar yr un pryd. Y chwe' mis cyntaf a gafodd oedd dan addysg Wm. Thomas, gwr oedd yn deall peth Lladin, ac yn dra hyddysg yn y Gymraeg a'r Seisnig. Cafodd dri mis drachefn gydag un a elwid Richard Jones, gwr o'r Deheubarth, am yr hwn yr ymddengys fod lles ei ysgolheigion mewn ystyr ysbrydol yn gystal a thymhorol yn gorphwys ar ei feddwl; a thystiolaeth ei ddysgybl, Griffith, yn ei ddyddiau diweddaf am yr athraw yma oedd fel y canlyn—"Nid annghofiais fyth ei gynghorion a'i rybuddion pwysig; mynych y deuent i'm cof fel saethau llymion, pan y mae ef yn bridd ac yn lludw. Un o'r bendithion mwyaf a dderbyniais yn fy oes oedd athrawiaeth y gwr duwiol hwn." Yr oedd ei fam yn medru darllen ac ysgrifenu; a bu ddiwyd i addysgu ei mab hyd y gallai. Ac fel yr oedd ei synwyr ef yn cryfhau, yr oedd ei awydd at ddarllen yn cynyddu: a phan welodd ei fam gymaint oedd ei athrylith at ddarllen ac ysgrifenu, gan nad oedd ysgol i'w chael yn y plwyf, hi a'i danfonodd ef at Thos. Clough, oedd yn cadw ysgol yn Bettws Garmon. Wedi iddo fod yno dri mis, yr oedd wedi dyfod yn well darllenwr, ysgrifenwr, a rhifyddwr na'i fam; gan hyny hi a farnodd ei fod yn ddigon o ysgolhaig; a thyna gymaint o ysgol a gafodd. Tua'r pryd hwn, yr oedd efe yn hoff iawn o fyned i'r cymau at y bugeiliaid, i blith y defaid a'r geifr, y gwartheg hysbion a'r ceffylau; a chafodd y gair o fod yn fugail rhagorol; a bu yn bugeilio yn Nghwm-dwythwch, Glyn-rhonwyn, a Chwm-brwynog; ac yn y Drosgol yn Nant-bettws,

Digitized by Google

am y tymhorau haf, a'r gauafau gartref, yn ymarfer gweithio llechi yn y cloddfeydd yn nhir Pantycoubren, yn Llanberis. Ond cyn ei fod yn 16 oed, bu farw ei fam, a chladdwyd hi yn Llanberis: felly cafodd ef a'i ddwy chwaer golled am fam dyner, ymgeleddgar, athrawus, a duwiol. Yr oedd ei chwaer hynaf yn gweini: a'i ewythr frawd ei dad a gymerodd yr ieuengaf dan ei ofal. Cymaint oedd ei hiraeth ef ar ol ei fam, fel y bu lawer noswaith, pan y byddai ar ei ben ei hun, yn dymuno o'i galon gael gweled ei hysbryd yn dyfod i ymddyddan âg ef! yr hyn a wiriai y gair, sef bod "perffaith gariad yn bwrw allan ofn." Yna aeth i Fon i weini; a bu gydag ewythr, brawd ei dad, yn mhlwyf Rhos-beirio, yr hwn oedd yn dal rhan o dir Bodewryd. Bu hefyd yn gweini yn Neuadd Cemaes, ac yn Rhos-y-bol, ac yn Asgellog, a Brwynog, yn mhlwyf Llanddeusant, (hen drigle y bardd Sion Brwynog). Byddai yn arfer prydyddu, ac yn teimlo cymhelliadau cryfion i hyny, er yn wyth neu naw oed; a chafodd ychydig hyfforddiad i'r perwyl gan Dafydd Ddu o Eryri: eithr gan nad ydoedd ond mor ieuanc y pryd hwnw, nis gallai ddeall ond ychydig; ac ni chafodd addysg rheolaidd yn y gelfyddyd farddonol hyd onid oedd yn 19 neu 20 oed. Pan gyrhaeddodd 21 oed, barnodd ei fod yn addigon hyddysg yn mhob cangen o waith llafurwr, mewn mynydd a hendref; ac na fyddai byth fawr uwch ei sefyllfa wrth wasanaethu fel cyflogddyn. Buasai wedi myned i Loegr y pryd hwnw, er mwyn gweled mwy o'r byd, a dysgu Saesoneg, &c., oni buasai ei fod wedi clywed fod y *Press-gang* yn dal ac yn cymeryd pawb a allent. Ond digwyddodd fod son mawr yn Mon ac Arfon y dyddiau hyny, fod Arglwydd y Penrhyn yn cymeryd dynion i agor cloddfeydd llechi yn Mraich-y-cafn, gerllaw Bangor; a chan fod gan Griffith Williams gryn amcan at y gwaith hwnw, ac awydd i ddychwelyd i'w fro enedigol, cyrchodd i Fraich-y-cafn, a'r gwaith cyntaf a gafodd oedd hwylio berfa olwyn gydag eraill o'r gweithwyr, am yr hyn y rhoddid swllt y dydd. Dilynodd hyny am rai misoedd: ond nid hir y bu cyn cael myned i weithio i *fargeinion* gyda'r chwarelwyr. Yn y gwaith hwnw digwyddodd i gareg syrthio ar ei feilwn chwith, a'i dori yn echrys, nes y bu agos iddo waedu i farwolaeth. Bu naw mis o dan ddwylaw y meddygon. Yr oedd wedi cnill arian yn wych yr haf blaenorol wrth gynorthwyo John Williams, Brynhafod-y-wern, yr hwn oedd wedi cymeryd degwm blith Llanllechid, ac heb wybod pa fodd i godi degwm, na medru darllen Tirlyfr y plwyf, nac ysgrifenu llyfr y degwm. Gomeddodd G. W. adael ei waith i fyned at y gwr hwnw ar y cyntaf; ond gan iddo gael caniatad i fyned, a bod J. Williams yn cynyg iddo y cyflog a ofynai, efe a aeth ato. Wedi hyny aeth yn ol i Fraich-y-cafn. Lle gwyllt iawn oedd yma y pryd hwnw: byddai "sulgwaith llawen," "cwrw gwahodd," neu "gwrw llangcian" yn rhywle bob wythnos; ac onid na byddai ymladdfeydd cyn diwedd pob un o'r cynulliadau hyny. Dywedai G. Williams—"Nis gwn i ba ddrygioni yr aethwn oni buasai cynghorion a rhybuddion difrifol fy mam a'm hen athraw, Richard Jones, y rhai a ddeuent i'm cof fel lluched tanllyd i'm gostegu pan fyddwn fwyaf fy rhwysg." Yr oedd y pryd hwn yn lletya yn Ngwaen-y-gwiail, Llanllechid, gydag Abraham Williams, yr hwn oedd yn dipyn o Fardd, dan yr enw "Bardd Eryri." Yr oedd yn dra hyddysg yn rheolau y 24 mesur. Efe fu athraw Dafydd Ddu o Eryri; a thra yr oedd G. W. yn lletya gydag ef, dysgodd yr unrhyw iddo yntau. Yn 1794, priododd Elizabeth, merch Ellis Jones, Braichtalog, Llandegai. Aeth i ddechreu byw i'w hen gartref yn Llanberis, ac yno

Digitized by Google

y ganed William, ei fab hynaf. Pan oedd yn 27 oed, Benjamin Wyatt, Ysw., pen dystain Arg. Penrhyn, a welodd yn dda ei osod yn oruchwyliwr ar y gweithwyr wrth y dydd. Felly gosododd y tŷ yn y Llwyncelyn, a daeth i fyw i Fwlch-y-defeidty, Llandegai: ac wedi iddo fod yno dair blynedd a haner, digwyddodd i'w deulu yn nghyfraith fyned i Liverpool, gan adael y Braichtalog iddo ef. Yr oedd cyn hyny wedi cael ei dderchafu i fod yn *Farciwr* isaf o ddau. *Marcio* y gelwid cymeryd cyfrif o'r llechi a wneid yn y gloddfa bob dydd, a myned â'r unrhyw i'r Cyfrifydd unwaith bob mis; canys bob mis y byddid yn talu i'r dynion a'u gweithient wrth y dunell ac wrth y fil. Yn mhen ychydig drachefn derchafwyd ef yn ben *Marciwr.* Yr oeddid yn chwanegu peth at ei gyflog bob tro y newidid ei swydd. Treuliodd 30 mlynedd o flodeu ei ddyddiau yn oruchwyliwr dan deulu anrhydeddus y Penrhyn, yn nghloddfeydd llechi Braich-y-cafn. A phan aeth yn rhy wael o ran ei iechyd i allu cyflawni y gwaith a soniwyd, efe a gymerodd *fargen,* a chadwai ddynion dano wrth y dydd: ac yn y dull hwn yr oedd efe yn foddlonach ei helynt, ac yn llawer llai ei ofalon. Yr oedd Griffith Williams, er cyn ei briodi, wedi cael y ffawd o enill cydnabyddiaeth â'r diweddar Barch. Richard Davies, periglor Llantrisant, Mon, yr hwn oedd yn byw yn Mangor, ac yn wr dysgedig iawn mewn amryw ieithoedd, yn un o'r Cymreigwyr goreu yn ei oes, yn hoffwr Beirdd a Barddoniaeth, ac yn goleddwr brwdfrydus i'w iaith a'i genedl. I'r gwr hwn yn benaf yr oedd efe yn ddyledus am yr hyn oll a wyddai o fanylrwydd y Gymraeg. Cafodd hefyd yr anrhydedd o fod mewn cydnabyddiaeth â rhifedi mawr o wyr eglwysig yr ardaloedd amgylchynol, a gwahanol barthau mwy pellenig o Ogledd Cymru, a mwynhau cyfeillach bersonol â llawer ohonynt, yn enwedig y rhai mwyaf llengarol o'r cyfryw. Gwelodd hefyd yn mron, holl feirdd y Dywysogaeth ag oeddynt yn cydoesi âg ef; a chan yr hyglod Iolo Morganwg y cafodd ei radd farddawl. Y prif-fardd hwnw ar ei daith drwy Wynedd, a raddiodd Dafydd Ddu o Eryri, Ieuan Lleyn, a Griffith Williams, yn feirdd trwyddedog wrth fraint a defod Beirdd Ynys Prydain, dan yr enw "Beirdd Cadair Dinorwig." (Dinorwig yw dinas Llanddeiniolen, sir Gaernarfon). Bu yn ymhwedd yn hir â'r awen; dechreuodd gyfeillachu yn fore â hi; a daliodd ei serch ati hyd hwyr ei einioes. Ychydig fellt barddonol a greodd efe; yn wir yr ydym yn meddwl, a barnu oddiwrth ei waith, ei fod yn eu gochelyd o bwrpas, gan eu hystyried yn hytrach yn anafau cerdd na'i rhagoroldeb a'i nod angen. Absenoldeb y trydan bythfywiol hwn yn mwyafrif ffrwyth ei awen, a'u gwnaeth mor sych i'w darllen, ac mor ddialw am danynt gan y lluaws. Yn ol ei syniad ef, gwirionedd digrebwyll a noethlymyn ydyw barddoniaeth—cyneddf werthfawr iawn mewn gwyddoniaeth, ond eithaf diserch a gwir ddiffygiol, ohoni ei hun, yn yr *iaeth* y mynai ef ragori ynddi. Fel y gallesid disgwyl, bu yn fuddugol mewn amryw gystadleuon o bwys. Yn 1803, enillodd wobr y Gwyneddigion am yr awdl oreu er "Coffadwriaeth am Goronwy Owen." Yn 1810, enillodd gwpan arian Eisteddfod Llanelwy am yr awdl oreu ar "Jubili Sior III."; a thrachefn ar "Gofiadwriaeth y Frenhines Elizabeth." Cafodd hefyd ddeuddeg gini gan Arglwyddes Penrhyn am ei awdl farwnad i'r gwir Anrhydeddus Arglwydd Penrhyn, yr hwn a fu farw yn 1808; a thrachefn dri gini gan Gymdeithas Amaethyddol Sir Gaernarfon, yn 1811, am awdl ar Amaethyddiaeth. Yn y 60fed flwyddyn o'i oedran, cyfansoddodd awdl ar "Wledd Belsassar," testun cadair Eis-

Digitized by Google

teddfod Dinbych yn 1828, lle y barnwyd Ieuan Glan Geirionydd yn fuddugol, ac yntau yn ail oreu; a chafodd y wobr o £5 gan y cyfeisteddwyr, yn nghydag anrheg o £20 o gydroddion gwirfoddol boneddwyr yn y cyfarfod. Yn mhen pedair blynedd wedi hyny, cyfansoddodd awdl ar "Ddrylliad y Rothsay Castle," testun cadeiriol Beaumaris yn 1832, lle y barnwyd Caledfryn yn oreu o 19 o ymgeiswyr ar y testun, a G. Peris yn ail oreu; a chafodd wobr o £10, a thlws o werth £5. Ei dlysau oll oeddynt dri, sef cwpan a dau fathodyn arian. Ei lwyddiant ar y testunau blaenaf o'r rhai uchod a barodd gryn eiddigedd yn mysg rhai o'r beirdd, fel y mae yn rhy arferol ar y cyfryw achlysuron; a bu peth oerfelgarwch rhwng Dafydd Ddu ac yntau yn yr amgylchiadau hyny, er nad yw yn werth cadw colfa o'r peth mwyach, gan i'w cyfeillgarwch gael ei adferu yn gynes drachefn, a pharhau yn ddidor hyd farwolaeth y blaenaf. Ysgrifenodd Griffith Williams amryw draethodau i'r *Gwyliedydd* o blaid Rheolau Barddoniaeth, dan yr enwau "Carwr Rheol," a "Charwr Cristionogaeth." Ond ni chyhoeddodd ond un llyfr o'i waith yn ei oes, a hwnw dan yr enw "Ffrwyth Awen;" eithr gadawodd ddefnyddiau dau lyfr arall mewn ysgrifen yn barod i'w hargraffu. Nid oedd yn ardaloedd Llandegai a Llanllechid pan ymsefydlodd efe yno gyntaf, neb a wyddai braidd ddim am ramadeg y Gymraeg, na materion llenyddol o un math, oddieithr yr offeiriaid. Felly dros amyw flynyddau ar ol iddo briodi, bu yn ddiwyd yn y ddau blwyf hyny, ac yn fynych yn mhlwyf Aber, a Llanfair-y-penmaen, yn cynorthwyo mewn ysgolion suliau ac ysgolion nos, i geisio dwyn y trigolion i ddysgu darllen ac i ddeall yr hyn a ddarllenent. Pan gyhoeddwyd gramadeg Robert Davies, Nantglyn, galwodd am nifer mawr ohonynt, ddim llai na 300 o dro i dro, i'r ardaloedd hyny; ac felly yr un modd 200 o Reitheg Gymreig Wm. Salisbury; a bu yn ddyfal yn yr ysgolion nos i ddangos y defnydd a'r cymhwysiad o'r llyfrau hyny i'w gymydogion, nes dyfod llawer ohonynt yn ddarllenwyr, ysgrifenwyr, gramadegwyr, ac areithwyr o gywreinrwydd nid bychan. Mewn perthynas i'w yrfa grefyddol, ei dystiolaeth ef ei hun ydoedd fel y canlyn —"Aelod gwan o'r Eglwys Sefydledig ydwyf fi o'm mebyd: ond nid yw hanes fy mywyd crefyddol ond annheilwng o goffadwriaeth. Er hyny y mae'n deilwng i mi ddywedyd na adawodd Duw fy enaid yn ddiymgeledd; eithr y mae'n parhau hyd yma yn ei oruchwyliaeth ar fy nghyflwr. Byddaf yn ofni yn aml am fy nghyflwr, ac yn arswydo rhag bod yn debyg i'r morwynion ffol, gan anmheu pa un a oes genyf rym duwioldeb a weinydda gysur i mi yn angeu, ai nid oes. I'r graddau y mae'r Ysbryd Glan, trwy y gair, yn fy ngoleuo i weled mawredd, purdeb, sancteiddrwydd, a chyfiawnder Duw; i'r graddau hyny yr wyf yn gweled fy niddymdra, fy llygredd, fy aflendid, a'm hanghyfiawnder fy hun: ac i'r graddau yr wyf yn canfod y pethau a enwyd, i'r graddau hyny yr wyf yn adnabod fy hun, ac yn ffiaidd genyf fi fy hun, ac yn cael fy hun yn euog: ac i'r graddau yr adnabyddwyf ac y teimlwyf y pethau hyn, dyna radd fy argyhoeddiad a'm gwir edifeirwch; ac os ychydig yr argyhoeddiad, ychydig yr edifeirwch; ac os ychydig yr edifeirwch, ychydig yr ymgais am faddeuant. A thrachefn, i'r graddau y mae'r Ysbryd Glan, trwy'r gair, yn fy ngoleuo i weled digonolrwydd ac addasrwydd Crist fel cyfryngwr, a pharodrwydd y Tad i dderbyn pechaduriaid yn ei enw ef; i'r graddau hyny yr wyf yn credu yn Nghrist, ac yn ymorphwys arno, ac i'r graddau hyny yr wyf yn credu yn Iesu Grist, ac i'r graddau hyny yr wyf yn gallu gwir a

Digitized by Google

ffyddlawn agosau at y Tad yn ei enw ef, a gwaeddi, 'Abba, Dad.'" Bu bedair blynedd yn goddef poen gan ddiffyg anadl, caethder, a phesychu, a thrwy hyny yn analluog i fyned i'r Gloddfa: ond ni bu arno eisieu dim. Terfynodd ei yrfa Medi 18, 1838, yn y 70fed flwyddyn o'i oedran, a chladdwyd ef yn mynwent Llandegai; ac yno, trwy gydgyfraniad rhai a barchent ei goffadwriaeth, y cyfodwyd bedd-adail dillyn ar ei orweddfa.—*Y Gwladgarwr* vii. 33.

WILLIAMS (Parch. Griffith), D.D., esgob Ossory, yn Iwerddon. Ganwyd y prelad enwog hwn yn Nhrefeilan, plwyf Llanrug, sir Gaernarfon, yn 1587. Yr oedd ei dad yn byw ar ei dreftadaeth ei hun, yr hon a etifeddasai ar ol ei hynafiaid; a'i fam oedd hanedig o hen deulu pendefigaidd Penmynydd, Mon. Cafodd elfenau cyntefig ei ddysgeidiaeth mewn ysgol fechan yn nhref Caernarfon; a derbyniwyd ef yn ysgolor i goleg Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1603. Gadawodd y Brifysgol hono cyn cymeryd ohono ei raddio ynddi, a symudodd i Gaergrawnt ar wahoddiad ei gyfaill, John Williams, yr hwn, wedi hyny, a fu Archesgob Caerefrog, a'r hwn a gymerai ddyddordeb mawr yn ei lwyddiant. Wedi ei raddio yn M.A., llwyddodd i gael ei benodi yn gaplan i Phylip, iarll Trefaldwyn, yn 1614; a thua'r un pryd, efe a benodwyd yn beriglor St. Bennet Sherehog, Llundain, ac yn ol Sir Jame Wares, Foscot a Bucks hefyd. Wedi hyny bu yn ddarlithiwr, yn gyntaf yn St. Peter, Cheapside, Llundain; ac wed'yn am bum' mlynedd yn St. Paul. Tua'r pryd hwn, aeth i gryn ymrafael â'r Puritaniaid, a bu gorfod iddo, o'r herwydd, fyned yn lled isel i'w logell. Yn y cyfamser, wedi deisebu ohono at Archesgob Caergaint, &c., cafodd berigloriaeth Llanllechid, yn Arfon, lle y'i perchid yn fawr fel pregethwr galluog a christion dichlynaidd. Cyfrifid ef yn dra hyddysg mewn duwinyddiaeth a hanesiaeth eglwysig, ac ar y cyfrif hwnw, efe a etholwyd i fod yn un o gaplanwyr Siarl I.; ac erbyn hyny, yr oedd efe wedi cymeryd ei raddio yn D.D., yn y flwyddyn 1628, a gwnaed ef yn brepend Westminster; ac yn y flwyddyn 1633, gwnaed ef yn ddeon Bangor, ac archddiacon Mon. Ar yr 20fed o Fedi, 1641, efe a gysegrwyd yn esgob Ossory, yn Iwerddon. Wedi hyny, pan y pasiwyd yr 17fed a'r 18fed o weithred Seneddol Siarl II., pen. 10. (1665), yr hon oedd yn peri na allai unrhyw wr llen, ddal bywiolaethau eglwysig yn Lloegr, neu Gymru, ac yn yr Iwerddon ar yr un pryd, rhoddwyd i mewn erthygl i'w alluogi ef i ddal deoniaeth Bangor, ac archddeoniaeth Mon, yn nghyda'i esgobaeth, sef Ossory, cyhyd ag y bu ef byw. Yn fuan ar ol ei benodiad i esgobaeth Ossory, torodd gwrthryfel allan, a bu gorfod iddo ffoi o'r Iwerddon i Loegr, am ei fod yn pleidio achos y brenin; a'r llyfr cyntaf a ysgrifenodd, o'i du oedd "Vindicæ Regum," &c., am yr hwn y daliwyd ef yn ei dŷ, yn Apethrope, sir Northampton, gan fintai o filwyr y rhai a'i cludasant yn garcharor i Northampton, lle yr eisteddai pwyllgor a benodasid gan y senedd, mewn barn ar yr achos, a'r llyfr crybwylledig yn eu dwylaw. Efe a enciliodd wedi hyny i Rydychain, ac a argraffodd draethawd o'i waith a elwid "Discovery of Mysteries;" a'r diwrnod yr oedd efe yn pregethu yn Eglwys Fair, o flaen aelodau Ty y Cyffredin, aeth milwyr o Northampton, ac yspeiliasant ei dŷ yn Apethrope, lle yr oedd ei wraig a'i blant yn cyfaneddu y pryd hyny. gan gymeryd ei holl ddodrefn ymaith, ac atafaelu ei dir oedd at wasanaeth y Senedd. Y gauaf canlynol efe a ysgrifenodd ei "Jura Majestatis." Fel yr oedd achos y brenin yn gwanhau, darostyngwyd yntau i gyfyngder mawr; ond er iddo gael cynygion o

Digitized by Google

ddyrchafia'au gwerthfawr, os ymostyngai i'r senedd, efe a'u gwrthododd yn benderfynol. Crybwylia yn un o'i bregethau, ddarfod i Duc Ormonde, anfon iddo swm mawr o arian, megis ag y gwaeth Loftus, archesgob Dublin hefyd. Cynygiodd Henry Cromwell, llywiawdwr yr Iwerddon, iddo gan' punt yn flynyddol os ymostyngai i'r Llywodraeth; ond efe a'u gwrthododd. Yn fuan wedi hyn, efe a enciliodd i Gymru, sef i Lanllechid, lle y bu mewn cyfyngder mawr dros 12 mlynedd, heb feddu dros £20 yn y flwyddyn at ei ei gynal ei hun a'i weinidogion; ac y'i gorfodwyd i fyw ar dyddyn bychan, o ddwy bunt a deg swllt yn y flwyddyn, a gwerth pedair punt yn y flwyddyn o dir o'i eiddo ef ei hun, sef Trefeilian, yn mhlwyf Llanrug, fel yr oedd yn is arno na *churad* ac ymborthai ar fara ceirch a llaeth enwyn. Gwisgai hefyd yn y dull mwyaf gwledig, a chyflawnai y gorchwylion mwyaf gwasaidd. Ac yn yr agwedd uchod y gwelwyd ef gan y "genad" a ddaeth ar ei ol o'r Iwerddon. Yr oedd ganddo y pryd hyny gryman drain ar ei fraich, fel pe newydd fod ar y gorchwyl o gau rhai o wrychoedd drain y "Tyddyn-du," a'r "Plas Hwfa." Siomwyd y genad yn aruthr wrth ei atebiad, sef fod yr Esgob "yn y tŷ pan oedd ef yno;" ni ddaeth i feddwl "y genad," y fath beth a thybied mai yr esgob oedd mewn agwedd mor wasaidd. Ac yn y cyflwr truenus hwn y bu, hyd nes yr aeth Siarl II. i Worcester. Ar y cyfleusdra cyntaf hwn, marchogodd ar geffyl i Lundain (sef yn y flwyddyn 1659), i edrych am foddion i gyhoeddi ei "Great Antichrist;" ond methodd yn ei amcan, fel y bu gorfod iddo ddychwelyd yn ol, ac ar y daith aeth ei geffyl yn gloff, fel y bu yn rhaid iddo gerdded o Daintsy, tua thriugain a deg o filltiroedd ar ei draed, gan dywys y ceffyl. Ond efe a orfucheddodd ei holl brofedigaethau hyn, ac wedi adferiad y brenin, adferwyd ei holl ddyrchafiadau eglwysig iddo yntau. Ac yn fuan wedi hyn, dychwelodd i'r Iwerddon. Glaniodd yno ar foreu Sul, a phregethodd yn eglwys St. Bride, ac efe oedd y cyntaf yn Iwerddon a arferodd weddio dros y brenin. Weithian, efe a adfeddianodd ei esgobaeth, ac a fu mewn cryn helynt gyda rhyw ddynion oedd yn amser y gwrthryfel wedi meddianu peth o dir a berthynai i'w esgobaeth; a chyn gynted ag y gwelodd arwyddion digonol o heddwch, cyfranodd tuag at adgyweirio yr Eglwys Gadeiriol, sef St. Canice, Kilkenny, bedwar-cant-ar-ddeg o bunau. Y mae ei elusenau yn lluosog. Adeiladodd wyth o elusendai i wyth o wragedd gweddiwon tlodion, ac efe a'u gwaddolodd â'i dir, Fermogle, yr hwn oedd yn werth deugain punt yn flynyddol. Y mai'r tai eto ar eu sylfeini, ond y mae'r waddoliaeth wedi myned i ddwylaw anwir. Rhoddodd haner cant o bunau i dylodion St. Canice; a'i diroedd yn mhlwyf Bangor, Llanllechid, Cyffin, a'i dai yn Nghonwy i Ann, merch John Price, am ei hoes, ac wed'yn i dylodion y gwahanol blwyfydd, dan gyfarwyddyd eu gweinidogion dros byth. Ei gymunrodd yn mhlwyf Llanllechid, yn ol ei ewyllys, yr hon a ddyddiwyd, Hydref 16, 1671, ydyw Plas Hwfa, yn nghyda Thyddyn-du, a pheidwar o aneddau arno (oddieithr y tŷ wrth y *lôn*); a naw o gaeau bychain, yn mesur tua deg cyfair a haner. Y mae y gymunrodd hon, yn cael ei rhanu bob Dyddgwyl Domas, dan gyfarwyddyd y gweinidog a'r wardeiniaid. Yr oedd yr Esgob yn feddianol ar dymher addfwyn a charuaidd. Yr ydoedd yn bur ddeniadol yn ei ymddyddanion, ac o'r herwydd, hoffid ef gan bawb yn gyffredinol. Yr ydoedd yn gynghorwr gwresog, pregethwr tanbaid, a cheryddwr llym. Edrychid arno fel un o brif ysgolheigion ei oes, ac y mae y cyfrolau mawrion a ysgrifenodd yn tystiolaethu hyny hefyd. Yr oedd yn

Digitized by Google

berffaith *onest* yn ei egwyddorion, ni chelai mo honynt, er cael ei wysio i sefyll yn llys barn; ac er tynu dig am ei ben, eto pregethai a chyhoeddai ei egwyddorion drwy bob anhawsderau a pheryglon. Mewn gair, yr ydoedd yn feddianol ar amynedd, a rhai o brofedigaethau Job, gwroldeb Dafydd, ac anturiaethau Paul, cyn y buasai byth yn anturio ysgrifenu a chyhoeddi ei "Vindicæ Regnum," &c., yr hwn oedd yn gwrthdaro mor enbydus yn erbyn gwerin-lywodraeth, &c.; ac hefyd, ei "Great Antichrist," &c., yn mha un y dadgana yn ddibetrus, mai y gymanfa a gynaliwyd yn Westminster Abbey oedd y "*Great Antichrist*," a bod Siarl II. ac archesgob Laud yn dystion ohyny. Yr oedd y duwinydd enwog hwn yn awdwr y llyfrau canlynol:—1, "The Delights of the Saints. A most comfortable Treatise of Grace and Peace," &c. 8vo. London, 1622. 2, "Seven Gold Candlesticks, or Seven Lights of Christian Religion," 4to. London, 1627, folio, London, 1635. 3, "The true Church showed to all men that desire to be members of the same, in six books, containing the whole body of Divinity," folio, London, 1629. 4, "The right way to the best Religion; wherein is largely explained the sum and principal heads of the Gospel," folio London 1636. 5, "Vindicæ Regum; or the Grand Rebellion, that is, a Looking-glass for Rebels, whereby they may see how by ten several degrees they shall ascend to the height of their design," &c. 4to. Oxford, 1643, and reprinted in folio, London, 1666. 6, "The Discovery of Mysteries; or the Plots and Practices of a private Faction in this present Parliament to overthrow the Established Religion," &c. 4to. 1643, folio, London, 1666. 7, "Jura Majestatis; the Rights of Kings both in Church and State; Granted by God, Violated by Rebels, and Vindicated by the Truth," 4to. Oxford, 1644, London, 1666. 8, "The great Antichrist revealed; before this time never discovered," &c. folio, London, 1660. 9, "Seven Treatises very necessary to be observed in these bad days, to prevent the last Vials of God's wrath, that the seven Angels are to pour down upon the Earth," folio, London, 1661. 10, "The Declaration of the just Judgment of God; first upon our late King's Friends, secondly, upon the King's Enemies that rebelled and warred against him," &c. folio, London, 1661. 11, "Truth vindicated against Sacrilege, Atheism, and Prophaneness," &c. folio, London, 1666. 12, "Four Treatises; the suffering of the Saints, burning of Sodom," &c. 4to. London, 1667. Cyhoeddodd hefyd amryw bregethau y rhai a nodir gan Wood. Bu farw Mawrth 22, 1672, yn yr oedran mawr o 84; a chladdwyd ef yn ochr ddeheuol cangell Eglwys Gadeiriol St. Canice, Kilkenny, Iwerddon.—Wood's *Athen. Oxon.*; Ware's *Bishops and Writers of Ireland*; Willis' *Bangor*; *Gwydir Family*; Walker's *Sufferings of the Clergy*; *Taliesin* ii. 27; Wms. *Em. Welsh.*

WILLIAMS (Parch. John), archesgob York, ac arglwydd-geidwad y Sêl Fawr. Ganwyd ef yn nhref Conwy, Mawrth 25, 1582. Ei dad, Edmund Williams, Ysw., o'r dref uchod, ydoedd fab i Wm. Williams, Ysw., o Gochwillan, sir Gaernarfon; o'i wraig Dorothy, merch Syr Wm. Gruffydd, o'r Penrhyn, yn yr un sir. Yr Edmund Williams hwnw a briododd Mary, merch Owen Wynne, Ysw., ab John Owen o Eglwysfach, sir Ddinbych. O'r briodas hon bu pum' mab a dwy ferch; a'r ieuengaf o'r meibion ydoedd gwrthddrych hyn o hanes. Ei rieni, gan amcanu ei ddwyn i fynu i'r weinidogaeth, a benderfynent roddi iddo fanteision dysg cyn foreued ag oedd bosibl, ac i'r dyben hwnw

Digitized by Google

anfonent ef yn gynar i ysgol ramadegol Ruthin, lle y cynyddodd mor gyflym fel yn fuan y rhagorai ar ei holl gymdeithion. Yn y cyfamser, digwyddai y Dr. Vaughan (yr hwn wedi hyny a fu yn esgob Llundain) ymweled â'r ysgol uchod, lle yr hysbysid iddo ragoriaethau anarferol ei gâr ieuanc, John Williams, yr hyn a'i tueddai i benderfynu ei symud yn fuan i brif-ysgol Caergrawnt; ac yno yr aeth pan nad oedd ond 16 oed, a dodwyd ef dan addysg Mr. Owain Gwyn, gwr boneddig o Gymro, ac aelod breintiedig o goleg St. John. Yn fuan ymdaenai ei glod drwy yr holl brif-ysgol, a mawr oedd hoffder pawb ohono, nid yn unig am ei rwyddineb mewn dysg, eithr hefyd am hynawsedd ei dymherau a'i brydferthwch personol. Ar y cyntaf yr oedd ei aceniad Cymreigaidd wrth ymddyddan yn yr iaith Seisonig yn achos o gryn wawd gan ei gymdeithion, ac o yswiddod iddo ef ei hun, ac oddiar hyny dywedid iddo ddwyn gwell ystor o Roeg a Lladin gydag ef i'r coleg nag o iaith ei gymdogion Seisnig: pa fodd bynag, ni bu yr anaf hwn ddim yn hir cyn gwisgo ymaith, yr hyn yr ymdrechodd yn fwy i'w symud oherwydd ei fawr awyddfryd i ddyfod yn areithiwr, ac yn hyny hefyd llwyddodd i raddau helaeth. Er bod ei holl gyneddfau naturiol yn rhagori llawer ar y cyffredinolrwydd o ieuenctyd, eto yr hyn y rhagorai yn fwyaf oll ynddo oedd gafaeldor ei gof; ond nid oedd efe ddim llai ei lafur i ychwanegu ei wybodaeth; a thuag at hyny yr oedd naturiaeth wedi ei gynysgaeddu ag ansoddiad anarferol arall, yr hyn a feddianai o'i fabandod, sef gallu peidio treulio dim ond yr wythfed ran o'i amser mewn cwsg, a hyny heb wneud y niwed lleiaf i'w iechyd corphorol. O ran ei foesau ymarweddol y pryd hyn yr ydoedd yn hynod o ddiargyhoedd, yn dra defosiynol yn ei ddyledswyddau crefyddol, yn ostyngedig ac ufudd i'w uwchafiaid, yn hynaws tuag at bawb, yn haelionus tuag at yr anghenus, ac yn nodedig o ddirwestgar tuag ato ei hun, er fod ei sefyllfa ddyrchafedig yn y byd yn rhoddi iddo bob manteision i fod yn y gwrthwyneb. Ni bu ychwaith heb ei ran o erledigaeth grefyddol y pryd hyn; gwawdid ef gan rai o'i gyd-ysgolheigion am fod yn rhy fanwl yn nhrefniadau yr Eglwys Sefydledig, ac yn neilldiuol am ei fod yn mynych gyrchu i wrando y Parch. Mr. Perkins, gweinidog duwiol a dysgedig plwyf St. Andrews, Caergrawnt. Ond am hyn o gyhuddiad, barnwn nad oes odid o'n darllenwyr a dybiant yn waelach o Mr. Williams. Tua diwedd teyrnasiad y frenhines Elizabeth, daeth yr amser iddo gymeryd y raddoliaeth o B.A.; ac yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyny dewiswyd ef yn un o frodorion y coleg, drwy hawl esgobaeth Bangor, a hyn a gymerai le Ebrill 14, 1603. Er fod iddo rai centigenwyr yn hyn, eto goruwchlywodraethid y peth drwy lythyr oddiwrth y brenin Iago ar yr achos; ac nid oedd hyn ond dechreuad cymwynasau y brenin hwnw iddo, fel y ceir gweled rhagllaw. Yn awr yr oedd gan Williams dair blynedd i'w treulio cyn cymeryd y raddoliaeth nesaf, sef M.A.; a'r yspaid hwnw a dreuliai drwy efrydiad manylach yn y Roeg a'r Hebraeg, duwinyddiaeth, a changhenau ereill dysgeidiaeth, gan ddifyru ei hun yn achlysurol mewn peroriaeth, offerynol a lleisiol, yn yr hyn y cyrhaeddai wybodaeth helaeth. Yn 1605, cymerodd y raddoliaeth o M.A.; ac eto nid oedd ei lafur mewn dysg yn lliniaru dim; ymroddai i dreiddio yn mhellach i dduwinyddiaeth, hanesiaeth eglwysig, &c., &c. Ac erbyn hyn yr oedd efe wedi cyrhaedd y fath helaethrwydd o wybodaeth fel y dewiswyd ef i gyflawni amryw o orchwylion swyddogol y coleg. Pan oedd efe tua 25 oed, cafodd yr anrhydedd o'i benodi ar ryw negeseuaeth i fyned o flaen yr Archesgob Bancroft; ac mor

Digitized by Google

fedrus y traethai ei genadwri, fel yr enillodd sylw y gwr urddasol hwnw gymaint nes y cyflwynodd iddo ryw archddiaconiaeth yn Nghymru (Aberteifi, medd rhai) a hyny ddwy flynedd cyn iddo fod yn wyryf duwinyddiaeth. Cyn hir ar ol hyn anfonwyd ef ar ryw neges dros y coleg at y brenin, a'i ymddygiad ar yr achlysur yma drachefn a enillodd sylw ei fawrhydi, ac a fu yn achlysur i barotoi ei ffordd i'r uchelgymeradwyaeth a gafodd wedi hyny gyda'r brenin hwnw, er nad oedd efe eto yn gwybod nac yn dyfalu dim o'r fath beth; eithr aeth yn mlaen yn ei anturiaeth weinidogaethol, a chymerodd urddau pan ydoedd yn 27 oed, ac aeth i wasanaethu plwyf bychan ar gyffiniau swydd Norfolk, elw pa un nid ydoedd werth ei deithiau i fyned yno, er hyny parhaodd i lafurio yno ryw hyd, gan ymdrechu i wneuthur ei hun yn foddiol i'w wrandawyr trwy arfer dull eglur a diaddurn, er y medrai ddangos dysg a hyawdledd nid bychan pan fyddai amgylchiadau yn caniatau. Cafodd achlysur neillduol o'r fath yn 1610, pan y penodid ef i bregethu yn Royston, gerbron y brenin Iago a'r tywysog Henry; ac mor rhagorol y cyflawnai y ddyledswydd, fel y canmolid ef yn fawr gan ei Fawrhydi; a'r tywysog ni foddlonai ar ei ganmol yn unig, eithr sicrhaodd iddo, oherwydd ei fod yn gymaint o anrhydedd i Gymru, y gofalai efe na chai ei ryglyddion fod yn ddiwobr; eithr efe trwy farw yn faan ar ol hyn, ni chafodd weled cyflawniad ei addewid; ond ei dad a wnaeth i fynu y diffyg. Y pryd hwn, clod Mr. Williams a gyrhaeddai glustiau yr Arglwydd Ganghellyd Egerton, ac efe a anfonodd am dano i Lundain yn 1611. Wedi ei ddyfod gerbron y Canghellydd, cydnabyddai ei ddiolchgarwch i'w arglwyddiaeth am y sylw a gymerasai ohono, ac ar yr un pryd erfyniai am gael aros yn Nghaergrawnt ychydig yn hwy, am ei fod, ar yr Wyl-Fihangel ganlynol, i'w ethol yn Broctor y Brif-ysgol, sef swydd o fawr enwogrwydd ac ymddiried, ac hefyd o gryn elw. Felly y canghellydd, rhwng bodd ac anfodd, a gydsyniai â hyny, a Williams a gyflawnodd y swydd mewn modd clodfawr iawn: ac yn y sefyllfa hono cafodd amrywiol gyfleusderau i enwogi ei hun yn mhellach, yn neillduol ar un achlysur, bu angenrheidrwydd iddo fyned gerbron y brenin drachefn i eiriol dros y brif-ysgol ar ryw achos o bwys, a'r dull synwyrol y cyflawnodd y gorchwyl, a barodd iddo nid yn unig lwyddo yn achos ei anfonwyr, eithr hefyd i enill iddo ei hun ychwaneg fyth o ffafr yn ngolwg ei Fawrhydi. Felly ar ol cyflawni blwyddyn ei swyddogaeth mewn modd anrhydeddus, yr oedd weithian yn rhydd i fyned i gyflwyno ei wasanaeth i'r Arglwydd Ganghellydd megys y crybwyllwyd, ac yno fel caplan yn nheulu ei arglwyddiaeth, ni bu yn hir cyn enill parch a hoffder pawb a berthynent i'r tŷ, a phob un a ymwelai â'r teulu; a pheth oedd fwy na hyny, yr ydoedd o hyd yn enill ychwaneg o ymddiried ei feistr, yr hwn wrth sylwi ar ei gallineb a'i ffyddlondeb, nid yn unig yn ei alwedigaeth, eithr hefyd mewn materion cyfreithiol, eglwysig a gwladwriaethol, a ddefnyddiodd ei wasanaeth ar lawer o achlysuron er cymeradwyaeth pob pleidiau yr oedd a wnelai â hwynt; a thrwy fod ei arglwyddiaeth yn defnyddio pob cyfle i'w hyfforddi ef yn mhellach yn y materion hyny, yr oedd ei wybodaeth a'i ddefnyddioldeb yn cynyddu o hyd. Ac fel yr oedd ei ddefnyddioldeb felly yn dyfod yn fwy eglur yn barhaus, ni bu y Canghellydd yn ol o'i wobrwyo yn gyfartal; canys wedi bod o Williams yn nghylch pum' mlynedd yn ngwasanaeth ei arglwyddiaeth, yr oedd amryw sefyllfaoedd o elw ac enwogrwydd wedi cael eu cyflwyno iddo, megys personoliaeth plwyf Walgrave, yn sir Northampton, perigloriaeth Grafton-

Digitized by Google

Underwood, yn y sir hono, côr-berigloriaeth yn Eglwys Gadeiriol Lincoln, ac hefyd gantoriaeth yn yr un Eglwys, yn nghyda chôr-berigloriaethau eraill yn eglwysi cadeiriol Peterborough, Henffordd, a Thŷ Ddewi, heblaw rhyw fywioliaeth ddiwaith yn Nghymru. Ond yn Hydref, 1676, cymerid yr Arglwydd Ganghellydd yn glaf, ac oblegid henaint, a lludded ei swydd, ni allai oddef i odid neb ddyfod ato ond ei Gaplan, yr hwn o'r herwydd ydoedd yr unig negesydd rhwng y canghellydd a'r breniu, a thrwy hyny yr ydoedd Williams yn cael ei ymddiried am holl gyfrinach y deyrnas, ac ar yr un pryd yn mwynhau amledd o gyfleusderau i wneuthur ei hun yn fwy hysbys i'w Fawrhydi, yr hwn wrth ganfod ei ddull dillyn-foes a synwyrol ar bob achos, nis gallai lai na mynwesu syniadau rhagorach fyth am werthfawrogrwydd ei gymhwysderau, a hyny a fu yn foddion neilldnol i rwyddhau ei ffordd i'r sefyllfa oruchel a gafodd cyn hir ar ol hyn yn y llys. Mawrth 15 canlynol bu farw y canhellydd, er mawr alar i Williams. Ond ychydig cyn ei farwolaeth anfonai am ei gaplan ato, a dywedodd wrtho, "Os oes arnoch eisiau arian, mi a adawaf i chwi gymun-rodd yn fy ewyllys, fel y galloch ddechreu eich byd fel gwr boneddig." I hyn yr atebai Williams, "Fy arglwydd, gwnaethoch fy phiol i yn llawn eisoes; nid oes arnaf eisiau dim oddieithr eich cyfarwyddyd pa fodd i fyned drwy'r byd, os byddaf fyw ar eich ol," "Wele," ebe'r canghellydd, "mi a wn eich bod chwi yn grefftwr medrus, cymerwch yr arfau yna i weithio â hwynt; dyna y rhai goreu sydd genyf." Felly efe a roddodd iddo amryw lyfrau a phapurau wedi eu hysgrifenu â'i law ei hun, y rhai a fuont o ddefnydd mawr i Williams ar ol hyny. Ar farwolaeth yr arglwydd ganghellydd Egerton, rhoddwyd y swydd oruchel hono i Syr Francis Bacon, yr hwn pan glywodd fod Mr. Williams yn ymbaratoi i fyned i wasanaethu ei blwyf yn sir Northampton, a anfonodd am dano ato, gan gynyg iddo yr un sefyllfa dano et ag oedd ganddo o'r blaen dan yr Arglwydd Egerton. Ond y cynyg hwn a wrthododd efe yn foesgar iawn; a phan welodd Syr Francis ei fod yn penderfynu myned ymaith, gwnaeth ef yn ustus heddwch yn y sir grybwylledig; ac ymadawsant felly yn bur gyfeillgar. Yn fuan wedi hyn, dewiswyd ei i fod yn gaplan i'r brenin; ac yn 1617, cymerodd y radd o ddoctor duwinyddiaeth; ac yna aeth i fyw i'r plwyf crybwylledig, lle y llafuriai yn ddiwyd iawn yn ei weinidogaeth, gan gyflawni gwasanaeth ddwywaith yn yr wythnos, a dwywaith bob Sul, naill ai yn ei eglwys ei hun, neu yn un o'r eglwysi cymydogaethol, a lluoedd a ddeuent i'w wrandaw o'r holl gwmpasoedd. Nid llai ychwaith ydoedd ei ddiwydrwydd a'i ffyddlondeb yn cyflawni ei swydd gyfreithiol. Yn 1619, gelwid ef i bregethu o flaen y brenin yn Theobalds, yr hyn a foddiai ei fawrhydi gymaint, fel y gorchymynodd i'r bregeth gael ei hargraffu. Tra yr ydoedd efe yn awr yn sir Northampton, digwyddai deoniaeth Salisbury ddyfod yn wag, a llawer oedd o ymgeiswyr am y sefydlfa; eithr y brenin a oruwch-awdurdododd y cwbl, ac efe'i rhoddodd i'r Dr. Williams. Ond ynau rhaid sylwi yn fyr ar amgylchiad o bwys yn ngyrfa y gwr yr ydym yn son am dano, sef bod Ardalydd Buckingham mewn ffafr anarferol gyda'r brenin bryd y pryd hwn; eithr Williams, i'r gwrthwyneb, ydoedd wrthdarych o genfigen yr ardalydd, a hyny, fel y mae'n hawdd dirnad, ydoedd rwystr mid bychan i lwyddiant y doctor yn y llys. Pa fodd bynag, tua'r pryd y rhwystr hwn, digwyddai amgylchiad tra ffafriol, sef bod Buckingham yn cnwenych rhyw etiteddes oludog yn wraig, ond i gyflawni y dymuniad hwnw yr oedd rhyw annawsderau dyrus yn

Digitized by Google

lluddias; a phwy a fu yn offerynol i'w symud ond y Dr. Williams. Hyny, fel y mae hawdd meddwl, a fu yn foddion i'w ddwyn i ffafr gyda'r ardalydd; ac fel gwobr am y gymwynas, bu yntau yn offerynol i wneud y doctor yn ddeon Westminster yn ddioed. Yn y cyfamser hefyd, digwyddai fod rhyw ymrafael cynhyrfus rhwng y senedd â'r brenin a'i swyddogion, o ba rai yr oedd Buckingham yn un o'r rhai penaf; ac mor ddyrus ydoedd amgylchiadau yr anghydfod, fel nas gwyddai neb pa drefn a ddefnyddid i wastadhau pethau; ac am hyny gofynid cynghor y Deon, yr hwn yn ebrwydd a nododd allan y moddion i'w ddefnyddio, a thrwy arferyd y rhai hyny, adgyweiriwyd yr anhrefn mewn dull tra boddhaol i bob plaid, yr hyn a barai y fath ddywenydd i'r Ardalydd nes iddo ddatgan na cheisiai neb mwyach yn gynghorwr mewn cyfyngder ond y Deon; a chymaint ydoedd cymeradwyaeth y brenin hefyd o'r gwasanaeth a enwyd, fel y penderfynodd fod y Deon yn wr o'r fath gallineb ac iawn-farn, fel nad oedd neb addasach i fod yn aelod o'i gyfrin-gynghor, ac felly i'r sefyllfa hono y dewisodd efe ef yn ddioed, a thyngwyd ef i'r swydd Mehefin 18, 1621. Mor gyflym yr oedd digwyddiadau nodedig yn cymeryd lle yn y dyddiau hyny fel mai prin yr oedd y rhai uchod wedi eu cyflawni nes wele rai hynotach fyth yn dyfod oddiamgylch. Yn y terfysg diweddar rhwng y brenin a'r senedd, dygid amryw achwynion chwerwon yn erbyn yr arglwydd ganghellydd Bacon, a'r ystorm a gynyddodd gymaint yn ei erbyn nes iddo gael ei ddiswyddo. Ac fel y mae'n naturiol meddwl, yr oedd swydd o'r fath fri ac elw yn wrthddrych o ymgais bywiog am dani yn mhlith y bonedd y rhai oeddynt o gwmpas y llys, a bernid mai yr un tebycaf i'w chael oedd Syr Lionel Cranfield; ond er syndod a rhyfeddod aruthrol iddynt oll, pwy a enwai y brenin yn arglwydd ganghellydd Prydain, ond y Deon Williams! Felly Gorphenaf 10, 1621, tyngid ef yn Geidwad Sêl Fawr y deyrnas. Ar yr achlysur yma gwnaeth araeth hyawdl ger bron ei fawrhydi, gan gydnabod ei fawr ddiolchgarwch am y fath anrhydedd, a chan ddatgan ei ofnau o'i annigonolrwydd i gyflenwi swydd o'r fath bwys; eithr ar ol iddo ddarfod, y brenin a atebai, "Mae fy newisiad yn foddhaol genyf, ac nid oes arnaf yr ofn lleiaf ddarfod i mi gamgymeryd fy ngwrthddrych." Yn awr yr ydym wedi olrhain gwrthddrych ein cofiant yr holl ffordd i fynu hyd y dyrchafiad mwyaf digyffelyb y mae genym hanes am i odid ddyn erioed ei gael, yn enwedig mewn yspaid mor fyr, fel nad ydoedd efe fawr dros 39 oed pan wnaed ef yn arglwydd ganghellydd. Yn ystod yr un mis ag y gwnaed ef yn arglwydd ganghellydd cafodd hefyd ei ddewis yn Esgob Lincoln; a chan nad oedd elw yr esgobaeth hono ond bychan, ac oddiar ystyriaeth o ddirfawr draul ei sefyllfa y pryd hyn, caniateid iddo barhau i fwynhau pob un o'r meddianau y gwnaethid ef yn berchenogol ohonynt o'r blaen. Fel y dywedwyd eisoes, gwnaed ef yn arglwydd ganghellydd Gorph. 10, 1621; ac ebrwydd dechreuai ddarparu ei hun at ddyledswyddau llafurus ei sefyllfa newydd, y rhai a allesid eu tybio yn analluadwy i'w cyflawni gan un wedi ei ddwyn i fynu i'r weinidogaeth eglwysig: a diau mai felly y buasent iddo yntau oni buasai ei fod yn un o gyneddfau mor annghyffredin. Pan yn myned i ymddangos y waith gyntaf yn y Canghell-lys, gwrthododd yr holl rwysg a arferir ar y cyfryw achlysuron, a chan gymeryd gydag ef ychydig o is-farnwyr y llys, aeth yn ddirgelaidd drwy gynteddau y fynachlog, ac wrth fyned drwy gapel Harri VII., syrthiodd ar ei liniau, lle y bu yn gweddio yn nghylch chwarter awr, a chwedi

Digitized by Google

hyny aeth rhagddo i'r llys, lle yr oedd torf fawr yn disgwyl ei ymddangosiad, y rhai a gyfarchodd ag araeth lawn o hunan-ymwadiad a challineb. Gwyl-Fihangel ganlynol ymgyfarfu y senedd; ac yno yr oedd ei orchwylion yn ddauddyblyg, sef fel areithydd Tŷ yr Arglwyddi, ac fel prif-ynad y Canghell-lys, yr hyn a gymerai ei amser mor llwyr, fel braidd yr oedd iddo hamdden i fwyta nac i gysgu; canys rhwng ei orchwylion yn y llys ac yn y senedd, yr oedd ar waith o tua chwech o'r gloch y bore hyd ddau neu dri o'r gloch y bore canlynol, ac felly o hyd pan y byddai yn amser o brysurdeb. A chyda'r fath ddeheurwydd y cyflawnai ei holl orchwylion nes oes pob anhawsderau fel yn diflanu o'i flaen. Ni oddefai i'r cyfreithwyr dreulio amser trwy ofersiarad am ddim ond a dueddai i roddi penderfyniad union-gyrchol ar y mater a fyddai dan sylw; a phan draddodai ei ddedfryd, nis gallai neb ei gyhuddo o ffafriaeth na thoster. Ei areithiau yn y senedd hefyd nis gallai neb eu gwrth-ateb o ddiffyg eu hyawdledd, na'u dymchwelyd o ddiffyg uniawn-farn: a pheth sydd fwy fyth, dywedir fod ei holl osodiadau mor gedyrn fel braidd y medrid dymchwelyd dim ohonynt gan y swyddogion a ddaeth ar ei ol. Fel hyn yr aeth yn mlaen yn ddilwfr ac yn ddiysgog, gan orchwyliaethu y cwbl yn y modd mwyaf synwyrol, a hyny hyd yn nod yn yr amgylchiadau mwyaf dyrus, o ba rai, yn ystod ei swyddogaeth, y cyfododd amryw ag oedd yn gofyn y callineb mwyaf i allu tori drwyddynt heb dripio ar ryw du, naill ai trwy ollwng gafael o awdurdodau y brenin, neu trwy gyfyngu ar ragorfreintiau y deiliaid. A'r hyn y cafodd fwyaf o benbleth oll yn ei gwblhau ydoedd atal ymrafael rhwng y brenin a'r senedd; ond yn hyn hefyd, trwy fawr ymdrech, y llwyddodd yr argl. ganghellydd tra y bu efe yn ei swydd, er iddo trwy hyny ddwyn arno ddygasedd rhai o'i gyd-swyddogion, y rhai yn wir oeddynt haws i'w tramgwyddo oherwydd eu cenfigen tuag ato, a hyny yn tarddu yn benaf oddiar ei annghydsyniad ef â'u camymddygiadau hwy, a'i uchel-gymeriad ef gyda'r brenin. Un o'r rhai hyny ydoedd Argl. Cranfield, yr hwn tua'r amser yma a wnaed yn arg. y trysorlys, a'r hwn oherwydd i Williams wrthsefyll un o'i ddichellion, a fwriadodd ei andwyo os byddai yn ei allu; ac i'r dyben hwnw casglai ryw res o gamgyhuddiadau yn ei erbyn, oddiwrth ba rai ni bu Williams fawr o dro yn profi ei ddieuogrwydd; ac yn fuan ar ol hyn daeth Cranfield ei hun i'r rhwyd,—dyfarnwyd ef gan y senedd i gael ei ddiswyddo, ei ddirwyo mewn mil o bunau, heblaw ei gymeryd yn garcharor i'r Twr Gwyn: hyn a gymerodd le Mai 20, 1624. Ond yr hwn a droes allan yn brif elyn i Williams ydoedd Duc Buckingham, yr hwn a ddysgryfiasom yn flaenorol fel anwyl-ddyn neillduol y brenin Iago. Y pendelig hwnw ydoedd un tra anwadal ei dymherau; weithiau ni thybiai un ffafr yn ormod i'w gwneuthur i Williams, yr hwn oherwydd llawer o gymwynasau a dderbyniai trwy ei offeryndod, ydoedd yn wastad yn awyddus i ad-dalu iddo yntau y cyffelyb garedigrwydd yn ol, hyd y gallai wneuthur hyny mewn ffordd gydwybodol; ond wrth ei gynghori yn ffyddlawn yn y pethau goreu er ei les, os na byddai y cynghorion hyny yn gytunol â'i fympwy, tramgwyddai yn anfad wrth yr hwn a'u rhoddai, gan feithin llid yn ei fynwes, yr hyn o'r diwedd a gronai ynddo i'r fath rym nes iddo berderfynu gwneud a allai o niwed i Williams, ac hyd yn nod tynu gŵg y brenin arno os byddai bosibl. Ond yn hyn nid oedd amcan y Duc ond ofer, canys nid oedd cyhuddiadau neb yn alluog i iselu yr argl. ganghellydd yn ngolwg y brenin Iago tra y bu efe byw, yr hyn, fel yr oedd gwaethaf y

Digitized by Google

ffawd, ni bu yn hir ar ol hyn. Tua dechreu 1625, teimlai ei fawrhydi ei iechyd yn pallu, a chan obeithio y gwnai newid awyr leshad iddo, symudai i Theobalds. Eto hyny ni thyciai; eithr ar y 22ain o Fawrth, derbyniai yr argl. Ganghellydd lythyr yn hysbysu fod afiechyd y brenin yn debygol o derfynu yn angeuol; yr hyn pan glybu ei arglwyddiaeth, aeth at ei Fawrhydi yn ddioed, a phrin yr aeth at ei wely hyd nes iddo â'i law ei hun gau llygaid y trancedig. Fel hyn y bu farw y brenin Iago, yn Theobalds ar y 27ain o Fawrth, 1625; a chladdwyd ef yn Westminster, a'r Esgob Williams a draddodai ei bregeth angladdol oddiar 2 Cron. ix. 29—31, yr hon bregeth a argraffwyd yn fuan wedi hyny dan yr enw "*Solomon Prydain Fawr*" Cymerwyd yr orsedd yn ebrwydd gan ei fab, wrth yr enw Charles I., gyda'r hwn yr oedd Duc Buckingham mewn llawn cymaint flafriaeth ag y buasai o'r blaen gyda'i dad; ond nid felly Williams, fel yr ymddengys yn ebrwydd. Y brenin newydd a chwenychai alw y senedd yn nghyd yn ddioed, ac i'r dyben hwnw galwai am yr argl. Ganghellydd ato i roddi gorchymyn iddo yru hysbysiadau allan i'r perwyl; ac ar ei ddyfodiad cafodd ei fawrhydi a'r duc gyda'u gilydd yn dyfal ymgynghori ar ryw achosion o bwys. A'r argl. Ganghellydd a anturiai roddi ei gynghor i'r brenin yn nghylch cynulliad y senedd, fel yr arferai roddi i'w dad o'i flaen; ond ei fawrrhydi a gymerai y cynghor yn bur oeraidd, gan droi o'r neillu fel pe buasai yn chwenych i'r canghellydd fyned ymaith. A'r duc o hyn allan a ysgoai oddiwrth ei arglwyddiaeth ar bob achlysur, wrth yr hyn y deallai efe fod tymhestl yn agoshau; ac yn fuan wedi hyn mynegid iddo ddarfod i'r duc ddatgan yn nghlyw amryw y cai Williams ei droi o'i swydd. Pa fodd bynag, yr oedd y brad eto heb addfedu; ond cyn hir daeth achlysuron newyddion i brysuro y trychineb. Mai 23, rhoddodd y brenin orchymyn i'r arg. Ganghellydd am dynu allan ysgrif, o dan y sêl fawr, i benodi £2000 am 21 o flynyddoedd i'r Arg. Conway. Ond rhag bod dim camgymeriad yn yr achos, aeth Williams at y brenin, a thrwy ryw ymresymau a fu rhyngddo a'i fawrhydi, ataliwyd yr ysgrif. Ac felly enillai iddo ei hun elyn newydd yn yr Arg. Conway. Mehefin 18, ymgasglai y seneddwyr yn nghyd; eithr gan fod y pla mawr yn Llundain y pryd hwn, tybid yn well iddynt fyned i eistedd yn Rhydychain; ond cynghor Williams oedd gohirio y senedd hyd oni ymataliai y pla, eithr yn hyny yr ydoedd ei farn ef a'r eiddo y duc yn wahanol drachefn: ac i Rydychain yr aed. Yn gynar yn yr eisteddiad yma dygid cyhuddiad yn mlaen yn erbyn yr Arg. Ganghellydd o fod yn bleidiol i'r Pabyddion; eithr wedi chwilio i'r mater, gwelid mai y duc oedd cefnogwr y weithred gyhuddol, yr hwn a gymerai hyny drachefn yn esgus i haeru fod Williams yn ceisio enyn cynben rhwng y senedd ac yntau, tra yn wir yr oedd ei arglwyddiaeth yn gwneud ei oreu i'w amddiffyn rhag anfoddlonrwydd y brenin a'r senedd hefyd; eithr hyn ni fynai y duc ei goelio, er i Williams egluro y peth iddo â dagrau yn ei lygaid; ond y brenin a gydnabyddai fod yr olaf yn ddienog yn y mater; a hyny a fu yn achlysur i'w adael yn ei swydd rai wythnosau yn hwy. Pa fodd bynag, ni orphwysai Buckingham nes ei gael allan; ac o'r diwedd daeth cenad oddiwrth y brenin i gymeryd y sêl oddiarno; a hyny a ddigwyddodd Hydref 25, 1625, ar ol bod ohono yn geidwad cyfrinsel Prydain yn nghylch pedair blynedd a chwarter. Yn awr rhoddwyd y swydd i'r Arg. Coventry. Ond cyn myned yn mhellach, mae'n ofynol sylwi ddarfod i Williams, pan ddeallodd ei fod i gael ei ddiswyddo, erfyn am oddefiad i ymddyddan-

Digitized by Google

â'r brenin, a hyny a ganiateid iddo, ac yno cymerodd gyfle i ymbil ar ei fawrhydi, os oedd yn amcanu ei ddifeddianu o'r sêl, am gyflawni yr addewidion a wnaethid iddo gan ei freninol dad, sef, yn mysg eraill, gadael iddo fwynhau yr amrywiol fywiolaethau eglwysig oedd eisoes yn ei feddiant, a phenodi iddo esgobaeth well, neu archesgobaeth, pan ddelai cyfleusdra i hyny. Yr addewidion hyn, ac amrywiol yn ychwaneg, a addunedai y brenin eu cyflawni yn ffyddlawn; ac wrth ymadael rhoddai ei law i Williams i'w chusanu yn hynaws. Eithr ni chyflawnwyd nemawr o'r addewidion hyny; ond yn hytrach goddefid i'w elynion fyned a'u dialeddau yn mlaen yn ei erbyn, fel pan ymadawodd â'r llys i fyned i gartrefu yn esgobty Lincoln, anfonent ysbiwyr ar ei ol i wylied ar ei ymddygiadau, ac i'w rwydo yn eu hymddyddanion ag ef os gallent. Gwaherddid iddo fod yn bresenel (fel esgobion eraill) ar goroniad y brenin, nac ychwaith eistedd yn Nhy yr Arglwyddi. Cyhuddid ef o wneud ei hun yn rhy gariadus yn mhlith aelodau seneddol —o fod yn rhy ffafriol i'r Puritaniaid—ac o ymdebygoli gormod iddynt drwy bregethu mor fynych, &c. &c. Llawer iawn yn ychwaneg o'r cyfryw gas-ymddygiadau a arferid tuag ato, rhag meithder, yr ydym yn gorfod eu gadael o'r neilldu. Er hyn i gyd ni phallai yr esgob a gwneuthur pob cymwynas yn ei allu i'r brenin ac i'r duc, drwy eu cynghori a'u rhybuddio yn ffyddlawn pan y gwelai hwynt mewn perygl neu gyfyng-gynghor; a hyny weithiau a orchfygai eu llid gymaint fel y cyfaddefent eu rhwymedigaethau iddo. Ac ar yr un achlysur neilldiol o'r fath cyffesai y duc ei fod yn maddeu iddo y cwbl, er fe allai nad oedd hyny ond gweniaith er mwyn cael ychwaneg o'i wasanaeth yn y senedd mewn amser i ddyfod. Eithr, fel pe buasai y peth yn mynu bod (fel y dywedir) yn hyn o adeg gyfeilgar, cymerwyd ymaith hoedl y duc yn annaturiol drwy law lofruddiog Awst 23, 1628. Gallesid meddwl bellach y cawsai Williams fywyd mwy cysurus; eithr i'r gwrthwyneb y bu; yr oedd ganddo eto elynion, y rhai yn ddiorphwys a lafurient i'w gythruddo. Ac i'r dyben hwn adnewyddent ryw hen gyhuddiadau yn ei erbyn, sef ei fod wedi datguddio cyfrinach y brenin, ac ar y sail annghyfiawn yma dygasant ef i brawf Gorph. 11, 1637, a rhoddasant ddedfryd yn ei erbyn gan ei ddyfarnu i ddirwy o £10,000, ac i gael ei ddiosg o'i holl raddau urddasol, a myned ei hun i garchar! Ac i chwanegu at ei ofidiau yno, aeth ei gaseion a chymerasant ymaith yr hyn oll a feddai yn ei balas esgobol, ac o'i amgylch, dan yr esgus o dalu y ddirwy i'r brenin, er na ddefnyddiwyd un ddimai i'r perwyl hwnw, ac ni roddwyd byth un math o gyfrif am yr eiddo! Er hyn i gyd, amlygai Williams yr amynedd a'r sirioldeb mwyaf, a hyny a gynaliai i fynu ei ysbryd rhag ymollwng, a'i iechyd rhag adfeilio, fel yn mben y tair blynedd a haner y bu yn y Twr, nid oedd ei wedd fawr waelach na chyn myned yno. Ond wedi bod ohono yn garcharor tua thair blynedd, ysgrifenai ei hunan-amddiffyniad mewn 20 o bapur-leni, gan fwriadu ei ddodi gerbron y senedd a ymgynullai Ebrill 13, 1640; eithr gan na pharhaodd yr eisteddiad yma ond tua thair wythnos, llesteiriwyd ei amcan hyd oni ddaeth y senedd yn nghyd drachefn Tachwedd 3, pryd y cyflwynodd ei erfyniad am ryddhad drwy gyfryngiad y frenhines; ond gwrthwynebid yr unrhyw gan yr Arg. Ganghellydd Finch, a'r Archesgob Laud. Wedi hyn darfu Ty yr Arglwyddi eiriol drosto gyda'r brenin, yr hwn a ganiataodd ei ryddhad, fel y cyrchid ef o'r Twr i'r Senedd Tach. 16, lle yr eisteddai eto am unwaith yn mysg yr esgobion. Disgwyliai y senedd y pryd hyn yr ymbleidiai

Digitized by Google

Williams o'u tu hwy yn eu hymrafael cynhyrfus yn erbyn y brenin; eithr er eu mawr siomiant, parhai yr Esgob yn ffyddlawn i'w fawrhydi yn y cyfyngderau cynrychiol, yn gystal ag y darfu hefyd drwy yr holl drallodau a gyfarfu y brenin annedwydd hwnw â hwynt ar ol hyny. Ond i olrhain yr hanes ychydig yn mhellach. Pan glywodd y brenin fod Williams, er y cwbl, yn parhau yn bleidiwr i'r Goron ac i'r Eglwys Sefydledig, y rhai oeddynt yn awr yn y fath berygl oddiwrth y senedd, anfonodd am dano ato, gan gynal ymddyddan cyfrinachol â'u gilydd nes wedi haner nos: a chyn iddynt ymadael gwnaeth y brenin ryw gymaint o daledigaeth i'r esgob yn nghyfer ei golledion mawrion diweudar, gan orchymyn i bob cyhuddiadau oedd yn ei erbyn gael eu dystriwio. Yr un pryd yr oedd y Senedd yn cynyddu mewn casineb tuag at yr esgobion, ac yn fuan dygent gyhuddiad yn eu herbyn, eu bod yn ceisio dymchwelyd ffurf-lywodraeth y deyrnas, am yr hyn y dyfarnwyd hwy oll i'r Twr am ddeunaw wythnos; ac heb ymddigoni ar hyny, yn fuan ar ol hyn dygwyd ysgrif drwy y ddau Dŷ i'w cau allan o'r Senedd; a'r ysgrif hon, yn rhywfodd, a law-nodid gan y brenin. Ond ychydig cyn ffurfiad yr ysgrif uchod, yr oedd y brenin, wrth weled ymdrech yr esgobion o'i blaid yn y senedd, wedi dyrchafu amryw o'r rhai a farnai deilyngaf, i sefyllfaoedd gwell, ac yn eu plith, dyrchafodd Williams, esgob Lincoln, i archesgobaeth York, gan ei adael i fwynhau deoniaeth Westminster hefyd am dair blynedd yn hwy. Gallesid hydern yn awr y buasai yn cael treulio y rhan olaf o'i oes yn fwy cysurus; eto gwahanol iawn a fu; yr oedd yr amrafael rhwng y brenin a'r senedd yn cynyddu, a'r deyrnas wedi ymranu yn ddwy blaid, un dros y brenin a'r llall dros y senedd; a phob un wedi casglu byddinoedd i ryfela am yr oruchafiaeth; a mawr a maith a fu'r terfysg, fel y mae hanesion yr amseroedd hyny yn dangos. Felly fel yr oedd yr Archesgob yn Nghastell Cawood, dygwyd gair i'do yn nghanol y nos fod byddin y senedd yn dyfod i gymeryd y castell, ac i dori ei ben yntau bore dranoeth! Am hyny bu orfod iddo ffoi yn llwm ac yn llesg, gan benderfynu cyfeirio ei daith i'w wlad enedigol. Felly cyrhaeddodd yn ddiangol i Aberconwy, o'r lle y buasai yn absenol yn agos i 50 ml. oddigerth ambell ymweliad achlysurol. Erbyn dyfod yno gwelai yn ebrwydd fod y terfysg gwladwriaethol wedi ymdaenu hyd yn Nghymru. Ac yno ymdrechai i gadarnhau ei gyd-genedl i ymegnio o du y blaid freninol; ac i'r dyben o wrthsefyll y gwrthwynebwyr, rhoddodd y brenin ganiatad iddo gymeryd meddiant o Gastell y dref uchod, yr hwn oedd yn mherchenogaeth ei hen elyn, yr Argl. Conway, (yn awr yn garcharor gan blaid y senedd). Aeth yr Archesgob i'r draul o adgyweirio y castell, oddiar addewid y brenin i'w ddigolledu. I'r castell hwn amryw o fonedd Gwynedd a anfonent eu trysorau i'w dyogelu rhag y terfysgwyr, ar ymrwymiad Williams i'w hadferu iddynt pan elai y perygl heibio. Ond ar Mai 9, 1645, daeth Syr John Owen o'r Clunenau, milwriad yn myddin y brenin, a chymerodd y Castell a'r cwbl oedd ynddo o ddwylaw yr Archesgob er ei waethaf; ac er i'r olaf gwyno wrth y brenin oherwydd y cam, nid oedd dim ymwared i gael. Wrth weled hyny, sòrai yr Archesgob, a phan ddaeth y milwriad Mytton â byddin seneddol yn erbyn tref Conwy, Williams a anogai ei gydwladwyr i gynorthwyo Mytton i gymeryd y Castell oddiar Syr J. Owen, ar yr amod o fod i'r Cymry gael eu heiddo ohono: ac felly y bu. Ryw yspaid o amser wedi hyn, cafodd yr Archesgob y newydd trwm am ddienyddiad y brenin Charles I. yr hyn a gymerodd le

Digitized by Google

yn Llundain, Ionawr 30, 1648. Yr hysbysiad o hyn a effeithiodd mor ddwys ar Williams fel nad ymddangosodd yn gyhoeddus mwyach; ond bu uwchlaw dwy flynedd heb fyned nemawr o'r ystafell, lle yr oedd yn darllen ac yn gweddio ddydd a nos yn mron. Hyn yn raddol a niweidiodd ei iechyd, ac a brysurodd ei angau. Ychydig cyn ei farwolaeth, dywedai wrth y foneddiges Mostyn (yn nhy yr hon yn Ngloddaeth, gerllaw Conwy, yr oedd yn gorwedd), "Yr wyf yn barod i ymadael;" ac yn fuan ar ol hyn gorchymynai ei ysbryd i ddwylaw ei Brynwr. Felly bu farw yr Archesgob Williams ar yr un dydd o'r mis ag y ganwyd ef, sef Mawrth 25, 1650, yn 68 oed. Symudwyd ei gorph i'r Penrhyn, gerllaw Bangor, preswylfod ei hynafiaid, o'r lle y cymerwyd ef i'w gladdu yn Eglwys Llandegai, mewn daeargell fechan yn mhen uchaf y ganghell. Yn mhen rhyw yspaid o amser, ei nai a'i etifedd Syr Gruffydd Williams, a barodd osod i fynu gof-arwydd mynoraidd ar fur deheuol y ganghell, ac arno fedd-argraff helaeth yn Lladin, o gyfansoddiad y Dr. John Hacket, yr hwn a fuasai unwaith yn gaplan i'r Archesgob.—*Y Gwladgarwr* iv. 92.

WILLIAMS (Parch. John), D.D., ydoedd frodor o sir Gaerfyrddin, ac a dderbyniwyd i brifysgol Rhydychain yn 1569. Etholwyd ef yn gymrawd o goleg All Souls yn 1579, ac efe ar y pryd yn M.A. Yn 1592, cafodd gan y frenhines rectoriaeth Llandrinio, sir Drefaldwyn; a chymerodd y radd o B.D. Wedi hyny, penodwyd ef yn broffeswr Margaret mewn duwinyddiaeth; a dyrchafwyd ef yn ddeon Bangor, Mai 8, 1605. Bu hefyd yn brifathraw coleg Iesu, Rhydychain. Yr oedd yn awdwr "De Cristi Justitia, et in regno spirituali Ecclesiæ pastorum officio, concio ad clerum," 1597. Cyhoeddodd hefyd lyfr Roger Bacon "De retardandis senectutis accidentibus et sensibus confirmandis," 1590. Bu farw Medi 4, 1613; a chladdwyd ef yn St. Michaels, Rhydychain.—Wood's *Athen. Oxon.*

WILLIAMS (Parch. John), LL.D., a anwyd yn Llanbedr Pont Stephan, sir Aberteifi, Mawrth 25, 1727. Taner parchus oedd ei dad; a rhoddes ei fachgen John, yn Rhydd-ysgol y dref hono, lle y cyrhaeddodd wybodaeth dda yn y clasuron. Pan yn 19 oed, cafodd ei dderbyn i goleg Caerfyrddin, gyda'r bwriad o'i gyfaddasu at y swydd o weinidog ymneilldiol. Wedi gorphen ei amser yno, cafodd ei ddewis fel cynwywr clasurol i un Mr. Howell, yr hwn oedd ganddo ysgol fawr yn Birmingham. Yn 1752, rhoddwyd galwad unfrydol iddo i fod yn weinidog cynulleidfa o Ymneilldiwyr yn Stamford, sir Lincoln; ac yn 1755, gan ei fod yn nes i Lundain, symudodd i fod yn weinidog yn Wokingham, sir Berks. Yn ystod ei drigiant yn y lle hwn, cwblhaodd ei lafur a gymerodd iddo lawer o amser, sef ei "Concordance to the Greek New Testament, with an English version to each work, and short critical notes," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1767. Yn ystod yr un flwyddyn, aeth yn weinidog ar gynulleidfa yn Sydenham, a bu yn llanw y swydd yno am 28 o flynyddau. Yn 1777, dewiswyd ef yn llyfrgellydd i lyfrgell y Dr. Daniel Williams, yn Redcross Street; ac yno cafodd hamdden a chyfleusdra i gwblhau llenorwaith a ddygasai gryn lawer o'i sylw a'i efrydiaeth, a ffrwyth ei fyfyrdodau ar y pwnc hwn a gyhoeddwyd tan y teitl, "A Free Enquiry into the authenticity of the 1st and 2nd Chapters of St. Mathew's Gospel," ail argraffiad yn 1789. Yn 1795, rhoddes ei weinidogaeth i fynu, a threuliodd weddill ei oes mewn neilldued yn Islington. Pan y bu farw, yr oedd bron wedi gorphen argraffu llyfr prin o waith M. P. Chillomeus, yn dwyn y

Digitized by Google

teitl, "Græco-Barbara Novi Testamenti," &c. Heblaw y gweithiau crybwylledig, yr oedd hefyd yn awdwr, "Critical Dissertations on Isaiah vii. 13, 14." "Thoughts on the Origin of Language." "An Address on the Protestant dissenting ministers' application to Parliament in 1773." "Remarks on a Treatise by William Bell, D.D, on the Divine Mission of John the Baptist and Jesus Christ," &c. "An Enquiry into the Truth of the Tradition concerning the discovery of America by Prince Madog, son of Owen Gwynedd, about the year 1170," ac amryw bregethau. Bu farw yn Ebrill, 1798.—Wms. *Em. Welsh.*

WILLIAMS (Parch. John), ydoedd fab i David Williams o Swydd y Ffynon, ger Lledrod, sir Aberteifi, yr hwn oedd ôf wrth ei gelfyddyd, a phregethwr yn mhlith y Methodistiaid Calfinaidd, mewn cysylltiad â'r Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho. Yr oedd yn un o bump o frodyr ddaethant yn wyr enwog, yn nghyda'u hiliogaeth. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn Ystradmeurig, o dan yr hyglod Edward Richards. Yr oedd wedi ei gyfaddasu mewn modd arbenigol â dawn i ddysgu ieuenctyd. Dangosodd hyny yn more ei oes yn Aberteifi, ac wedi hyny yn Ross, sir Henffordd. Pan fu farw E. Richards, nid allai yr ymddiriedolwyr feddwl yn unfrydol am neb cymhwysach yn benathraw yr athrofa hono nag efe; a phrofodd deugain mlynedd o lafur nad oedd eu dewisiad yn annoeth. Tystiolaethai yr Esgobion Warren, Horsley, a Cleaver, i gymhwysderau yr ymgeiswyr am ordeiniad a fuasai yn Ystradmeurig yn ei amser ef, o ran eu gwybodaeth ieithyddol a duwinyddol. Yr oedd hefyd yn ficer Nantmel, sir Faesyfed, ac yn dal prependiaeth yn Aberhonddu. Cyhoeddodd "A Dissertation on the Pelagian Heresy," 1808. Bu farw ar Wener y Groglith 1818; yn 73 oed.—*Lleyn MSS.*

WILLIAMS (John), a elwid "Eurych," ydoedd fab i John Coetmor, trydydd mab ar hugain i Meredydd ab Ieuan ab Rhobert, o Wydyr, ger Llanrwst. Efe a anwyd yn Hafod Lwyfo, ger Beddgelert. Efe a ailadeiladodd Gapel y Nant. Aeth i Lundain, lle y casglodd gyfoeth mawr. Yr oedd yn hynafiaethydd o gryn enwogrwydd; ac efe a gynysgaeddodd Drayton â llawer o fanylion yn mherthynas i Gymru, o'r rhai y gwnaeth y bardd hwnw ddefnydd helaeth yn ei *Polyolbion;* a dywedir yr un peth hefyd gan Bradford, yn ei lythyrau at Hearne. Dywedir iddo anrhegu Coleg Iesu, Rhydychain, â llawer o lyfrau mewn ysgrifau, ac iddo ddychwelyd i Gymru tua diwedd ei oes, lle y bu farw. Bu iddo dri o feibion, nid amgen Syr John Williams, barwnig, o Ynys Thanet, Syr Edmund Williams, barwnig, Maine Hall, sir Dorset, yr hwn a grewyd yn farwn yn 1642; a Syr Maurice Williams, physigwr ei Frenhines.—*Lleyn MSS.*

WILLIAMS (Parch. John), ydoedd ail fab y Parch. W. Williams, Pantycelyn, ac a anwyd Mai 23, 1754. Cafodd gynseilian ei ddysgeidiaeth gan ei dad, ac wed'yn mewn ieithyddiaeth o dan beriglor Llandeilo'r-fan, ac yn olaf yn ysgol ramadegol Caerfyrddin, gyda golwg ar gael urddau esgobol. Ordeiniwyd ef yn ddiacon gan yr esgob Warren, yn Abergwili, Hyd. 17, 1779, a hawlfraint eglwys Llanfynydd, sir Gaerfyrddin, ac yn offeiriad Medi 8, 1780. Yn 1782, cafodd gurafiaethau Llanfair-yn-Muallt, a Llanddewi'r-cwm, yn sir Frycheiniog. Bu hefyd beth amser yn cadw ysgol yn Llangrallo, Morganwg. Mai 30, 1781, pregethodd gyda'r Esgob Barrington, mewn cyfarfod o eglwyswyr, y naill ar ol y llall. Symudodd wedi hyny i Drefecca, i

Digitized by Google

gymeryd gofal coleg yr Arglwyddes Huntington yno, lle y bu yspaid pum' mlynedd a haner, ac efe a fu ei llywydd diweddaf yno. Pan oedd yn Llanfair Ilafuriai mewn cysylltiad â'r Methodistiaid yn gystal ag yn yr Eglwys, megys hefyd yr arferai llawer o weinidogion yr Eglwys yn y dyddiau hyny wneud, ac wedi hyny yn gwbl mewn cysylltiad a'r Ymneilldu. Bu farw Mehefin 5, 1828, yn 74 oed, a chladdwyd ef yn nghladdfa y teulu yn Llanfair-ar-y-bryn, lle y mae gwyddfaen gerfiedig i'w goffadwriaeth. Ysgrifenwyd byr Hanes o'i Fywyd a'i farwolaeth gan y Parch. M. Davies yn 1830.

WILLIAMS (JOHN), ydoedd fro or o'r Carneddi, Llanllechid, sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef yn 1794. Mynychai foddion gras pan yn ieuanc, ac ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd tua 1820, ac uid hir y bu cyn dechreu pregethu. Trwy anfanteision dybryd daeth yn bregethwr cymeradwy, er ei fod yn ddiffygiol fel traddodwr. Ymroddodd yn ddiwyd i ddeall rheolau iaith; a chyrhaeddodd y fath wybodaeth ieithyddol, fel yr adnabyddid ef wrth yr enw, "John Williams, y Gramadegwr." Yr oedd hefyd yn fardd o gryn deilyngdod, a chyfansoddodd lawer, yn enwedig yn y mesurau caethion. Bu farw Tach. 21, 1848, yn 54 oed. Gadawodd ar ei ol ysgrifau gwerthfawr, megys "Traethawd ar Ragoroldeb y Gymraeg;" "Traithawd ar Wahan-nodiad," &c.—*Lleyn MSS.*

WILLIAMS (JOHN), aelod seneddol tros Macclesfield, ydoedd esiampl neilldiol o lwyddiant talent mewn masnach wedi ei huno gyda gonestrwydd a dyfalbarhad. Mab ydoedd i rieni tylodion yn nhref Rhuthyn; eithr ganwyd ef mewn lle o'r enw *Cross Keys*, yn Llanfair Dyffryn Clwyd, gerllaw y dref hono. Dywedir mai yn ngwasanaeth boneddwr oedd yn byw y pryd hyny yn Mhlas Llanbedr yr oedd ei dad. Pan nad oedd efe ond ieuanc bu ei dad farw, gan ei adael ef ac unig chwaer yn blant bychain amddifaid, a'r fam a gynaliai ei hun a'i rhai bach wrth gymeryd gwaith pwytho. Gellir dyfalu yn naturiol na chafodd fwy o ddysgeidiaeth nag a'i cynysgaeddodd â gallu i ddarllen, ysgrifenu, a rhifyddu ychydig. Cyrchai ar y Sabbathau i ysgol y Weslevaid yn Heol y Felin; ac yno perthynai i ddosparth plant oedd tan ofal taner o'r un enw ag ef ei hun—gwr ymdrechgar a fu o fawr gymhorth yn ei oes i'r achos yn y lle hwnw. Profodd ei ymarweddiad dilynol ar hyd ei oes na bu cynghorion yr athraw hwnw yn ddifudd iddo. Trodd allan yn gynar i chwilio am ei fywioliaeth, a bu am yspaid yn negeswas mewn siop sydd ar gongl Heol Clwyd a'r Farchnadle, Rhuthyn. Pan yn bedair ar ddeg oed, aeth i Lundain, a chanddo, fel y dywedai flynyddoedd ar ol hyny, "ddim ond bwndel disylw o ddillad tan ei gesail, swllt yn ei logell, a bendith ei fam ar ei ben." Wedi cyrhaedd y Brifddinas, cafodd le fel negesydd yn un o siopau brethynau mawrion y rhan orllewinol. Gwelwyd yn fuan ei fod yn fachgen o'r fath a ewyllysiai masnachwr—ufydd, diymdroi, geirwir, a gonest. Llawer noswaith y cysgodd tan y *counter*. Yn fuan dyrchafwyd ef yn gynorthwywr, ac o ris i ris daeth yn flaenorydd y sefydliad. Wedi hyny, ymunodd mewn partniaeth yn Finsbury Circus, Regent Street, o dan yr enw Williams & Hatton. Erbyn 1848, yr oedd wedi gwneud digon o elw oddiwrth y fasnach fel y gallai fyw yn bendefigaidd hebddi, ac o ganlyniad rhoddes hi i fynu, a gadawodd dwrf Llundain, gan gymeryd Bronywylfa, ger Llanelwy, hen balas cartrefol y farddones Seisnig enwog Mrs. Hemans. Yr oedd yn wladgarwr twymgalon, ac wrth ei fodd yn gwneud unpeth er hyrwyddiant Cymru, Cymro, a

Digitized by Google

Chymraeg. Daeth gyntaf i enwogrwydd fel pleidiwr gwresog a hyawdl yr ymdrech i ddileu Deddfau yr Yd. Gan ei fod yn byw yn mhlwyf mawr Marylebone, wardeiniaid eglwysig yr hwn oeddynt bob amser yn perthyn i'r bendefigaeth, ac yn anhysbys o deimladau y plwyfolion, penderfynodd yr olaf ethol un ohonynt eu hunain i'r swydd; ac wedi etholiad caled, dewiswyd Mr. Williams yn warden y botl. Yn 1847, gweithredai fel cadeirydd pwyllgor etholiad Mr. D. W. Harvey, pan yr oedd tri ymgeisydd, sef Mr. Harvey, Arglwydd Dudley Stuart, a Mr. Sergeant Shee. Yn y cyfamser, yr oedd ar Rydd-frydwyr Macclesfield eisiau ymgeisydd, ac yr oedd yr etholiad cyffredinol bron wrth y drws. Cawsant gynyg ar Mr. Bernal Osborne a Mr. W., a dewisasnt yr olaf; ac yn mhen deng niwrnod wedi gwneud ei ymddangosiad yn eu plith, er ei fod yn hollol anhysbys i'r bwrdeisiad oddigerth un Rhyddfrydwr a dau Geidwadwr, etholwyd ef gyda mwyafrif o 73. Fel seneddwr, yr oedd efe bob amser yn ei le, ac yn pleidio pob mesur a amcanai at leshad y werin. Yn 1848, eiliodd gynygiad Mr. Berkeley ar y Tugel, a thraddododd araith hyawdl gan roddi fleithiau synedig oddiar ei wybodaeth ei hun fel masnachydd yn y Brifddinas. Yn 1851, gwasanaethodd fel Uchel Sirydd sir Gaernarfon. Mewn amgylchiadau cartrefol, yr oedd yn bleidiwr gwresog i sefydliadau haelionus. Efe a roddodd y swm o £400 i sefydlu tai ymdrochi a golchi yn Macclesfield, a £100 i sefydliad crefftwyr, yn nghyd a phortread o'r unrhyw werth. Yn 1851, torwyd allan ryw gant o bleidwyr etholiad Mr. Williams oddiar y rhestr, a'r canlyniad fu iddo gael ei orchfygu gan Mr. E. C. Egerton yn yr etholiad cyffredinol nesaf, yn 1852, trwy fwyafrif o 62. Yr oedd er's blynyddau yn is-raglaw sir Ddinbych, ac yn ynad heddwch dros siroedd Dinbych a Flint. Wedi iddo gael ei orchfygu yn Macclesfield, parhaodd i dreulio ei amser yn awyddus ac yn gwneuthur daioni, weithiau yn Llundain, lle fel trysorydd y *National Parliamentary* a'r *Financial Reform Association*, y bu o fawr wasanaeth. Bu farw, trwy ddrylliad gwaed lestr, Tachwedd 29, 1855, yn 53 oed.

WILLIAMS (JOHN PRYDDERCH) *(Rhyddlerch o Fon)*, bardd a llenor da, ac ysgrifenydd cyffredinol yr Eisteddfod Genedlaethol o 1864 hyd ei farwolaeth yn 1868. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanddeusant, Mon, Tach. 4, 1830. Wedi cael addysg gwlad lled dda, bu am rai blynyddau yn egwyddorwas o *draper* yn Llangefni. Aeth oddiyno i Rhyl fel ysgrifenydd yn y llythyrdy. Yn fuan ar ol ymsefydlu yn y dref hon, dechreuo id ymhwedd â'r awen; ac yn Eisteddfod fawreddog Rhuddlan, yn 1850, rhanwyd y wobr am y gân oreu i'r "Llong Ymfudol," rhyngddo ef a T. B. Morris *(Gwynedd-fardd)*, yn awr o'r America. Ar ol hyn, yr ydym yn ei gael yn ysgrifenydd yn swyddfa y *Traethodydd*, &c., yn Nhreffynon; ac yn ysgrifenu cryn lawer i'r cyhoeddiad hwnw cystal ag i'r *Adolygydd*, y *Beirniad*, a chyfnodolion eraill yr amser hwnw. O Dreffynon, symudodd Rhydderch i'r Rhyl i gadw maelfa lyfrau; a buan y daeth yn wr poblogaidd a chymeradwy gan drigolion y dref hono. Dewiswyd ef yn ysgrifenydd trefol y lle, a llanwodd y swydd hono yn anrhydeddus hyd ei farwolaeth. Cawsai ei fagu gyda'r Annibynwyr, ond oherwydd rhesymau sydd yn wybyddus i lawer ymneillduodd at y Methodistiaid, a chyda hwy, yn fawr ei barch, y bu drwy ystod ei oes, a bu yn flaenor gyda hwynt am ddwy flynedd olaf ei oes. Yr ydym yn crybwyll hyn er mwyn dangos gymaint oedd gweithgarwch y gwr ieuanc ymdrechgar hwn pan adgofiom hefyd ei fod yn Gadeirydd Undeb Ysgolion Sabbathol y Dosparth; yn arolygwr yr

Digitized by Google

ysgol yn Rhyl; yn ysgrifenydd y Gymdeithas Genhadol; yn ysgrifenydd yr eglwys Fethodistaidd; yn ysgrifenydd y Feibl Gymdeithas yn y Rhyl; yn ysgrifenydd y *Rhyl Lifeboat Association;* ac yn dwyn rhyw gysylltiad neu gilydd â phob symudiad arall o bwys a gymerai le yn ei dref fabwysiedig. Yr oedd yn aelod gwerthfawr iawn o gymdeithas, ac yn llawn o yspryd cyhoeddus. Anfynych y ceid ei ragorach fel aelod o bwyllgor—pan y byddai eraill yn croesddadleu am y nesaf peth i ddim, meddianai ef ei hun mewn amynedd, a dodai doethineb ei bys ar ei wefus. Eithr os byddai angen, yr oedd ganddo ddigon o wroldeb a medr i ddweyd ei farn yn ddidderbynwyneb, tra yr ymostyngai ar unwaith i farn y lluaws. Yr ydym yn ofni fod amlder a dwysder ei orchwylion wedi prysuro angau. Ar y goreu, eiddil ac egwan o gorph ydoedd; ac nis gellid disgwyl i yspryd mor effro, gweithgar, a diorphwys â'r eiddo ef fyw yn hir mewn pabell mor fregus. Syrthiodd i ddarfodedigaeth araf, ac wedi dihoeni misoedd rhwng ofn a gobaith, bu farw Medi 3, 1868, yn 38 oed, yn Nhrefriw, i ba le y symudasai er mwyn ei iechyd. Claddwyd ef y dydd Llun canlynol yn Rhyl, a dywedir nad oedd dim llai na phumtheg cant o'i hen gyfeillion yn dilyn ei weddillion at y bedd. Yr oedd Rhydderch yn fardd a llenor gwych, a diau pe cawsai chwareu teg gan ei alwedigaethau lluosog, y buasai yn sefyll yn llawer uwch nag y mae. Fel ysgrifenydd yr Eisteddfod, bu am yspaid yn golygu cyhoeddiad y sefydliad; a diau fod y rhifynau hyny yn anrhydedd iddo. Yn fuan wedi ei farwolaeth, cyhoeddwyd llyfryn o ddetholion o'i waith tan yr enw *Cydymaith yr Adroddwr,* ond drwg genym nad yw yn arddangos nac eangder darlleniad na grymusder chwaeth. Yr ydym yn deall ei fod wedi gadael ar ei ol dwysged o ganeuon teilwng, ac yn hyderu y ceir cyfrol ddestlus ohonynt trwy y wasg.

WILLIAMS (JOHN) *(Ioan ab Gwilym),* ydoedd fardd ieuanc gobeithiol, ond a dorwyd ymaith yn mlodeu ei ddyddiau. Mab ydoedd i Wm. Owen, o Bantllin, ger Llanrwst, sir Ddinbych, lle y ganwyd ef Ion. 11, 1804. Yr oedd er yn blentyn yn fyfyrgar ac awyddus am wybodaeth; rhifyddiaeth aeth a'i fryd gyntaf, yna iaith, yn enwedig y Gymraeg, a thrachefn barddoniaeth. Yr oedd yn feistr ar ddeddfau awenyddiaeth Gymreig cyn bod yn ddeunaw oed, ac wedi cyfansoddi ynddynt. Tua'r oedrau hwnw, daeth i Liverpool i'r ysgol, lle yr anmharodd ei iechyd yn fawr trwy orefryddiaeth. Dywedai ei ysgolfeistr yn y dref hon am dano:—"Ni welais erioed ei fath am ddysgu pobpeth yr ymosodai arno. Yr oedd yn gyfarwydd iawn yn y Lladin, a chanddo gydnabyddiaeth helaeth â'r Roeg." Oherwydd gwaelder iechyd, gorfu arno ddychwelyd adref yn Nhachwedd 1822, a gwelwyd fod y darfodedigaeth—hen elyn athrylith gynarol—wedi gafael ynddo. Eithr erbyn haf 1823, cafodd y fath adferiad fel y galluogwyd ef i gyfieithu Gweledigaethau Nef ac Uffern, o waith Bunyan, i'r Gymraeg, yr hwn a gyhoeddwyd, ac a enillodd ganmoliaeth uchel ar gyfrif ei ystwythder, ei gywirdeb, a phurdeb ei gystrawen. Wedi hyny, o bryd i bryd, cymreigiodd hanes Smith, cenadwr yn Demerara, a hanes y Chwilys yn Yspaen. Dyma anturiaethau olaf ei ysgrifbin; yr oedd ei afiechyd yn enill gafael yn barhaus, nes o'r diwedd iddo derfynu yn angau, yr hyn a gymerodd le Mawrth 14, 1825.—*Seren Gomer,* 1826.

WILLIAMS (JONATHAN), ydoedd fab i David Williams, brethynwr, Siop Goch, Rhaiadr, sir Faesyfed. Efe a ysgrifenodd "History of

Digitized by Google

Leominster," a "History of Radnorshire," yr hwn a gyhoeddwyd gan Mason, o Tenby, yn 1858: ac yn yr *Archæologia Cambrensis*. Brawd iddo ef ydoedd Henry Williams, yr hwn a ysgrifenodd hanes Rhaiadr a'r gymydogaeth i *Nicholson's Topographical History.—Lleyn MSS.*

WILLIAMS (JOHN) *(Ioan Rhagfyr)*, y cerddor, o Ddolgellau, a anwyd Rhagfyr 26, 1740, yn Hafodty-fach, Celynin, Meirionydd. Hynodir y flwyddyn 1740 fel blwyddyn y rhew mawr, yr hyn a achlysurodd i John gael ei gludo mewn cnu o wlan i'r eglwys i'w fedyddio, gan faint yr oerfel a gofal ei rieni am dano. Nid hir o amser ar ol ei enedigaeth y bu ei rieni cyn ymfudo i dyddyn a elwir Tal-y-waun, ger Dolgellau. Enw ei dad oedd William Robert Williams, ac wrth ei alwedigaeth gwneuthurwr *hetiau* brethyn ydoedd. Yr oedd ei fam yn gyfnither i'r hen fardd dysgedig o Gorwen, sef y Parch. Edward Samuel, periglor Llangar. Ni chafodd ond tri mis o ysgol ddyddiol yn ei ieuenctyd, a dygwyd ef i fynu yn yr un alwedigaeth a'i dad. Yn y blynyddoedd hyny byddai masnachwyr mewn gwlan o'r Amwythig yn arfer ymweled â Thal-y-waun a'r cymydogaethau, a sylwasant fod John yn hoff neillduol o ddarllen ac ysgrifenu, ac yn fachgen synwyrlawn a llariaidd yr olwg arno; penderfynasant ei anrhegu â thri mis neu ragor o ysgol yn yr Amwythig; a buan iawn yr hynododd efe ei hun yno fel dysgwr cyflym ac un hoff neillduol o gerddoriaeth. Yr offeryn cerdd cyntaf a ddysgodd, oedd y *German Flute;* yna y *Trumpet;* ac ar ol dyfod adref o'r Amwythig, efe a ymneillduai wrtho ei hun i'r mynydd ag oedd tu cefn i Dal-y-waun i ganu ei *German Flute*, pan yn dywydd braf. Yr oedd y fath ganu yn beth hollol ddye thriol yn y gymydogaeth, fel y taenwyd y chwedl yn fuan ar led yr ardal fod rhyw ganu nefolaidd i'w glywed yn yr awyr yn nghyfeiriad Tal-y-waun. Pryd arall, pan fyddai y tywydd yn arwach, efe a gymerai ei *Trumpet* i'w ganlyn i gopa yr un clogwyn fyth, a chan ei adsain tybiodd rhai o'r hen bobl fod diwedd y byd wedi dyfod ar eu gwarthaf, pan nad oedd mewn gwirioneedd ddim amgen na sain soniarus o udgorn Ioan Rhagfyr. Dechreuodd brydyddu yn fedrus pan o gylch 17eg oed: ac erbyn ei fod yn 22ain, yr oedd ganddo rai cywyddau, englynion, ac awdlau gorchestol, wedi eu cynghaneddu ar amrywiol destynau. Y mae yn fwy na thebyg iddo ddechreu cyfansoddi cerddoriaeth tua'r un adeg, os nad yn gynt, canys ceir iddo gyfansoddi tôn ar y Salm gyntaf, ac efe eto ond glaslangc; a chafodd ei dysgu yn Eglwys Llanfair, Dolgellau, yn absenoldeb Mr. John Symmons, o sir Drefaldwyn, yr hwn oedd yn dyfod oddi amgylch i ddysgu cerddoriaeth eglwysig. Ac un tro, fel yr oedd yn dyfod i'r eglwys, clywai y dôn yn cael ei chanu, a phan ddaeth at y cantorion, darfu iddo ymholi pwy oedd awdwr y dôn wael a ganasant. J. Williams a'i hatebodd yn lled wylaidd mai efe oedd ei hawdwr, ac y gwnai y nesaf yn well. Ac erbyn i Mr. John Symmons ddyfod i Ddolgellau drachefn, yr oedd John Williams wedi cyfansoddi anthem ar y geiriau "Parod yw fy nghalon;" pan ddywedodd Mr. Symmons wrtho ei fod wedi myned a'i damaid o'i ben ef am byth yn Nolgellau. Ar ol hyn bu Mr. Symmons a Ioan Rhagfyr yn gyfeillion calon, ac aml y byddent yn danfon eu gweithiau y naill i'r llall. Tua 1753, pan oedd Ioan Rhagfyr yn 23ain oed, efe a briodwyd ag un Jane Jones, merch William Jones, tir-feddianwr, Brynrhyg, Dolgellau; ond ni bu iddynt blant. Nid oes ond ychydig yma ac acw o'i farddoniaeth ar gael; eithr fe geir gafael ar ei donau a'i anthemau braidd yn mhob hen ysgriflyr trwy Wynedd, os nad yn Mhowys hefyd. Gellir dywedyd yn wirioneddol

Digitized by Google

na chododd neb yn Nghymru, hyd y gwyddom ni, eilfydd iddo yn ei ddawn a'i fedrusrwydd i gyfansoddi peroriaeth o foliant i enw Duw. Anthemau a thonau o'i eiddo ef a genir fynychaf trwy holl Gymru yn yn yr eglwysi plwyfol er's llawer o flynyddoedd, ac hefyd mewn llawer o addoldai Ymneilldiwyr o amrywiol enwadau, yn enwedig yn mysg y cyfundeb newydd o'r Bedyddwyr Neilldiol yn Ngwynedd Dywedir hefyd fod rhai o'i donau godidog ef mewn bri a chymeriad mawr yn rhai o drefydd Lloegr, ac yn cael eu canu yno ar yr organau goreu; a da iawn yr haeddant hyny hefyd, yn ol barn pob dyn deallus a gwybodus am y fath beth. Yr oedd ei alwedigaeth yn rhoi cyfleusderau neilldiol iddo i ymweled â gwahanol barthau Gogledd Cymru, ac i ffurfio cydnabyddiaeth a cherddorion y dywysogaeth, trwy ei fod yn cludo ei *hetiau* i'r ffeiriau a'r marchnadoedd, &c. Clywais ei adrodd mewn un ffair wedi cyfarfod a'i gyfeillion cerddorol yn y bore, a'i bod yn ddechreunos cyn i neb feddwl yn nghylch yr *hetiau:* er hyny ni bu John yn ei golled, canys cafodd ei ddigolledu gan ei gyfeillion. Yr oedd ei serch at ei gyfeillion yn gryf. Pan oedd ar ei daith trwy Ddyffryn Clwyd yn nghymdogaeth Llanynys a Rhuthyn, fe gyfarfu a chynhebrwng, a phan y deallodd mai ei gyfaill Mr. John Jeffreys oedd y trancedig, efe a dorodd allan i wylo yn hidl, fel o'r braidd y gallai fyned yn mlaen. Yr oedd Mr. Jeffreys yn gerddor medrus, fel yntau, ac feallai hefyd y bu efe yn ei gyfarwyddo. Pan yn 32 oed, rhoddes heibio y gelfyddyd o wneuthur *hetiau,* a bu ar ol hyny dros ryw enyd o amser yn ysgrifenydd i'r diweddar Mr. Edward Anwyl, cyfreithiwr, Dolgellau. Ei lawysgrifen oedd hynod o hardd-deg a gwastadlefn. Ond gan nad oedd y gwasanaeth hwnw yn dygymod â thymher a thuedd bardd a cherddor astudgar, rhoddes y gorchwyl hwnw heibio hefyd, ac yn ganlynol ymroddodd i fod yn ysgolfeistr, yn yr hwn orchwyl y bu yn dra ystig, ac yn ddefnyddiol iawn dros yspaid o flynyddau. Bu yn ysgolfeistr dros hir amser, yn gyntaf yn Nhrawsfynydd, yna yn Abermaw a Dolgellau, ac yn ddiweddaf yn Llanelltyd. Ceir rhai o'i gyfansoddiadau barddonol yn Nhrawsfynydd; a dylid cofio y gelwid Ioan Rhagfyr yn Mr. John Williams, Trawsfynydd, pan ydoedd yno yn cadw ysgol, a'r un modd am y lleoedd eraill, a dyna yr enw a geid wrth ei donau a'i anthemau a gyfansoddodd yno. Pan yn ysgolfeistr yn Abermaw, y cyfansoddodd yr alaw a elwir "Ymdaith-gân Gwŷr Abermaw" Y mae gradd o debygolrwydd yn yr alaw hon i'r gydgan olaf yn "Nghantawd Tywysog Cymru," gan Owain Alaw. Yma hefyd yr oedd efe pan gyfansoddodd y don a elwir "Funeral," ar gais y genad a ddaeth i'w hysbysu fod gweinidog Llanfachraeth wedi marw, a bod ei deulu yn deisyf am don angladdol iddo, i'w chanu yn ei gladdedigaeth, ac felly y bu. Yn Nolgellau, yn y flwyddyn 1797, cafodd ei ddal gan afiechyd trwm dros enyd faith o amser, ac yn y cyfamser, cafodd darawiad dwys gan y parlys. Ond ar ol hyny oll, cafodd yr hen wr ei adfer mewn nerth ac iechyd gweddol yn ol ei oedran am lawer o flynyddoedd. Ac yn Nolgellau y bu cyfyngder arianol arno, pan y cyfansoddodd anthem ar Salm xviii: —"Yn fy nghyfyngder y gelwais." Ac yn Nolgellau hefyd yr anrhegwyd ef a phum' gini gan Col. Salisbury, Rhug, am y *marches* a'r *gavotes,* a gyfansoddodd at ei wasanaeth. Yn Llanelltyd yr oedd pan y rhoddes heibio y gorchwyl o gadw ysgol, ac yr aeth i fyw i Benbryn Marian, neu'r Twll-coch, Dolgellau, lle y bu farw, a'i briod yn fuan ar ei ol. Y tŷ lle yr oedd Ioan Rhagfyr yn trigo ynddo yn Llanelltyd sydd i'w weled gerllaw y gwesty, ger yr

Digitized by Google

yr eglwys, a golwg ddadfeiliedig arno. Yma yr oedd pan gyfansoddodd dôn ar y 50ain o'r Salmau i un o drigolion Llanfachraeth. Ni byddai yn arferol a chadw adysgrifen o'i weithiau, ac felly gorchwyl anhawdd fyddai casglu ei holl gyfansoddiadau yn nghyd. Pan y byddai gan Ioan Rhagfyr ryw genadwri o bwys i'w ddywedyd wrth unrhyw ddyn, fe fyddai yn arferiad ganddo gynhyrfu y corff mewn trefn i gael mwy o sylw y meddwl at ei eiriau. Ac fel engraifft, yr oedd hog-lange o'r enw Gruffydd Owain yn ei gyfarfod canu, ac yn un o'i ysgolheigion hefyd, ac wrth wrando arno yn lleisio, fe droes Ioan Rhagfyr ato, a gafaelodd yn ei ysgwydd gan ei ysgwyd yn dda, a dywedyd wrtho, "Guto, Guto, mi ddoi di yn gantwr da, ond i ti ddal ati hi." Ac felly y bu; fe ddaliodd Guto ati hi i ganu, a daeth yn gantwr da, ac erbyn hyn y mae Mr. Gruffydd Owain yn hen wr crefyddol, ac yn amaethydd parchus. Y mae ei anthemau yn dra lluosog, ac fe allai mai nid anfuddiol fyddai crybwyll wrth fyned heibio am ei "Te Deum," ei "Jubilate Deo," ei "Deus Misereatur," ei anthem Nadolig, "'Roedd yn y wlad hono," ei Anthem Job, "Onid oes amser terfynedig," ei anthem ar "Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd," yr hon a elwir yn "Anthem fawr Llanllechid," a'i anthem "Wrth afonydd Babilon," &., &c. Y mae "Ymdeith-gân Gwyr Meirion," sef "Merionethshire March" yn hyddysg i lawerodd mi wn, ac feallai y byddai yn dda ganddynt gael gwybod mai Ioan Rhagfyr yw ei hawdwr. Gwelsom rai alawon wedi eu trefnu i'r Delyn o'i waith, ond pa faint o delyniwr ydoedd nis gwyddom. Darfu iddo hefyd gyfansoddi rhai anthemau a thonau godidog yn ei flynyddoedd diweddaf. Yn ol y darluniad a gawsom o'i berson, yr oedd yn ddyn esgyrnog, a gweddol dal, heb feddu ryw lawer o gnawd o'i amgylch; o edrychiad isel a gostyngedig, ac er hyny yn foneddigaidd, a hawdd ei hoffi. O ran ei nodweddiad fel dyn, yr oedd Mr. John Williams yn wr synwyrol, serchog, a heddychol gyda phob dyn a'i hadwaenai; ac yr oedd yn hynod ddiymffrost o'i gyfansoddiadau ei hun, a di-ogan am waith gwyr eraill. Bu farw yn Nolgellau Mawrth 11, 1821, yn 81ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn meddrod ei henafiaid yn Llanfair-bryn-meirig, gerllaw porth yr eglwys. Canwyd awdl fer a godidog er coffadwriaeth am dano gan R. ab Gwilym Ddu o Eifion. Yr oedd gan Ioan Rhagfyr luaws o ddysgyblion yn ystod ei fywyd, a'r hynaf ag y gwn gm dano yw Eos Llyfnwy, yr hwn sydd tua 92 oed, 1869; ac yr oeddynt braidd oll yn gallu cyfansoddi cerddoriaeth. Y don fwyaf adnabyddus o'i waith yn awr yn ngwasanaeth y cysegr ydyw "Sabbath." Bwriadai gyhoeddi ei holl waith barddonol a cherddorol yn un llyfr, tan y teitl "Difyrwch y Cymro," ond bu farw cyn dwyn y bwriad i ben.

WILLIAMS (MARY) *(Mair Gwilym)*, ydoedd ferch i Robert Jones, masnachydd coed, yn Llanelwy. Ymunodd yn ieuanc â'r Cyfundeb Wesleyaidd. Priododd Cadben Watkin Williams, morwr a gwin-fasnachydd, Abermaw. Gadawyd hi yn weddw, gyda theulu mân, ac amgylchiadau tymhorol profedigaethus. Yr oedd o chwaeth gyhoeddus a llenyddol. Cyfieithodd lyfr gwerthfawr o eiddo y Parch. Jonathan Edmundson, gweinidog Wesleyaidd, o dan yr enw "Golygiadau Ysgrythyrol ar y Byd Nefol," i'r iaith Gymraeg, yr hwn a elwir yn awr "Tŷ Tad yr Iesu." Bu hefyd yn ysgrifenu yn achlysurol am dros yr ugain mlynedd diweddaf o'i hoes, i'r gwahanol newyddiaduron Cymreig a Seisnig. Bu farw yn Birkenhead, Medi 20, 1864, yn 60 oed.

Digitized by Google

WILLIAMS (Moses), hynafiaethydd a gwladgarwr dysgedig a chlodfawr, ydoedd fab i'r Parch. Samuel Williams, ficer Llandyfriog a Nantgunllo, sir Aberteifi, ac mewn lle o'r enw Glaslwyn yn y sir hono y ganed ef Mawrth 2, 1685. Cafodd ei addysg ar y cyntaf yn Ysgol Ramadegol Caerfyrddin, ac oddiyno symudwyd ef i goleg y Brifysgol, Rhydychain, lle y derbyniwyd ef Mai 31, 1705. Cymerodd y radd o B.A. yn 1708, a chafodd yr un teitl ac hefyd M.A. yn Nhaergrawnt yn 1718, Urddwyd ef yn ddiacon yn 1708, yn Westminster, gan Dr. Trimnel, esgob Norwich; ac yn offeiriad yn Fulham, gan Dr. Ottley, esgob Tyddewi, yn 1713; ac yn 1715, rhoddwyd iddo fywiolaeth Llanwenog, yn ei sir enedigol, gan yr Arglwydd Ganghellydd Cooper. Yn 1716, cafodd ficeriaeth Defynog, sir Frycheiniog, rhodd Tywysog Cymru. Yn ol cofrestr y plwyf, cawn iddo yn 1718 briodi un Margaret Davies, o'r plwyf hwnw, a gesyd ei hun allan yn y cyfryw nodiant fel o Gilan, sir Aberteifi. Yn 1724, cyfnewidiodd Defynog am rectoriaeth Chilton Trinity; a ficeriaeth St. Mary, Bridgewater. Etholwyd ef yn gymrawd o'r Gymdeithas Freiniol yn 1732. Awgryma gohebydd yn y *Brython* ii. 42, oddiar gyfeiriad a wneir gan Edward Llwyd yn ei *Archæologia Britannica*, i Mr. Williams fod am rhyw ysbaid yn is-geidwad y Gywreinfa Ashmolaidd yn Rhydychain; ac iddo fel y cyfryw gyfieithu gramadeg Llydawaidd Julian Manoir o'r Ffrancaeg i'r Saesneg. Fel Cymro dysgedig a hynafiaethydd, dilys na chododd yn ein gwlad erioed ei amgenach. Yn 1726, cyhoeddodd waith yr hwn oedd yn ffrwyth ymchwiliad a llafur dirfawr, sef trefniant gwyddorol o linellau cyntaf barddoniaeth Gymreig oedd yn aros mewn llawysgrifen, yn dwyn y teitl, "Repertorium Poeticum, sive Poematum Wallicorum, quotquot hactenus videre contigit, Index Alphabeticus, primam singulorum lineam, et loca ubi inventiantur, exhibens. Accedit Poetarum Nomina, et quando plerique omnes floruerint." Dygpwyd dau argraffiad o'r Beibl Cymraeg allan o tan ei olygiaeth, sef y cyntaf yn cynwys 10,000 o gopiau yn 1718; a'r ail, yn cynwys 20,000 o gopiau, yn 1727. Yn 1730, ymddangosodd argraffiad o Gyfreithiau Hywel Dda mewn cyfrol fawr ddeublyg, a dywedir ar ei wyneb-ddalen iddo gael ei gyfieithu i'r Lladin gan y Dr. Wotton, yn cael ei gynorthwyo gan Williams; ond y mae pob lle i gredu nad oedd y Dr. ond cysgod, ac mai Mr. W. ydoedd y gwir awdwr. Dywedir iddo gyfansoddi amryw lyfrau eraill mewn duwinyddiaeth yn benaf. Yn *Taliesin* cyf. ii. 80, ceir y dyfyniad canlynol o ysgriflyfr "Ben Simon," yr hwn mae yn debyg oedd yn meddiant golygydd y cyhoeddiad hwnw, sef Ab Ithel, parth M. Williams:—"Yr oedd ar fwriad argraphu Gramadeg a Geirlyfr Cymraeg, helaethach a pherffeithiach nag a welwyd etto yng Nghymru, ac yn bwriadu llawer peth arall yn argraffedig er cynyddu gwybodaeth yn mhlith y Cymru, yn eu hiaith eu hunain; a phan ddeallwyd hynny gan rai o'r esgobion Cymreig, rhybuddiasant a phregethasant yn ei erbyn, yn eu hymweliadau penodawl, ac ar eu hol hwy yr Archddiaconiaid yn eu hymweliadau, gan haeru nas dylit achlesu yr iaith Gymraeg; eithr ei danfon i dir anghof mor ebrwydd ag y gellid, a rhwystro pob gwybodaeth ynddi; ac o hynny allan attaliwyd rhag Moses Williams y parch a dderbyniasai efe hyd hyny gan rai o foneddigion Cymru, ac achos hynny meddir bu farw o dorr calon, can's hynny'n ddechreuol oedd achos ei ddolur angau ef." Nid oes genym le i ammheu na chadarnhau yr honiadau hyn; ond fod esgobion rhagfarnllyd Seisnig Cymru yn wrthwynebol i wr o deimladau Cymreig-

Digitized by Google

garwch M. Williams sydd hawdd ei gredu. Melldith Eglwys Lloegr yn Nghymru fu penodiad estroniaid yn esgobion, diraddio'r iaith, a dibrisio dynion o fath Moses Williams. Fel *achos* o grefydd, gellir priodoli pob aflwydd a syrthiodd i'w rhan i'r naill neu y llall o'r melldithion hyn. Bu Mr. W. farw yn niwedd Chwefror, 1742, a chladdwyd ef yn eglwys St. Mary, Bridgewater. Gadawodd gofgolofn ardderchog o'i ddiwydrwydd yn y Llyfrgell Bodliaidd mewn pedair cyfrol fawr yn ei lawysgrifen yn cynwys rhestr o'r llyfrau sydd yn y llyfrgell hono. Gadawodd yn ei ewyllys ei gasgliad gwerthfawr o lyfrau a llawysgrifau, yn benaf ar bynciau hanesiol, ieithyddol, ac arferion gwlad ei enedigaeth, i'w noddwr, Arglwydd Macclesfield.—Jones' *Breconshire;* Rees' *Noncon. in Wales.*

WILLIAMS (NATHANIEL), ydoedd fab i Thomas Williams o Abertawe. Dechreuodd gymeryd ei ddysg yn ngholeg Iesu, Rhydychain, lle, yn 1676, y graddiwyd ef yn B.A.; ond ni chyrhaeddodd yn uwch; gan iddo adael y coleg trwy benderfyniad. Cyhoeddwyd y ddau waith canlynol o'i eiddo:—1, "A Pindarick Elegy on the famous physician Dr. Wellis," 1675. 2, "Imago sæculi: or the Image of the age, represented in four characters, viz., the ambitious Statesman, insatiable Miser, atheistical Gallant, and factious Schismatick," 1676. Bu farw yn Morganwg oddeutu 1679.—Wood's *Festi.*

WILLIAMS (PARCH. PETER), awdwr y nodiadau yn y Beibl Teuluaidd mawr, a anwyd Ionawr 7, 1722, yn agos i Lacharn, sir Gaerfyrddin. Yr oedd ei fam yn eglwyswraig effro, ac yn arfer gwrando ar weinidogaeth danllyd Griffith Jones, Llanddowror. O'i thri phlentyn Peter oedd ei hanwylaf, a chredai ei fod wedi ei eni i ryw ddyben mawr, ac yr oedd rhywbeth yn henffel a chall yn ei ymadroddion a gyfiawnhai obeithion nwchaf mam. Eithr collodd ei angel gwarcheidiol oddiar y ddaear pan oedd efe yn 11eg oed, a'r flwyddyn ganlynol bu farw ei dad. Felly gadawyd ef a'i frawd a'i chwaer yn amddifaid; a chwalwyd hwynt o ganlyniad i orphen en magu gan wahanol berthynasau caredig. Ewythr iddo frawd ei fam a gymerth ei ofal ef, yr hwn a ymddygodd yn dadol tuag ato, a roddes ysgol dda iddo, lle, fel y dywed ef ei hun, "Dysgu oedd fy hyfrydwch penaf—yr oedd fy nysgeidiaeth yn fil anwylach genyf na chwareu; gwedi imi ddyfod i'r Groeg a'r Lladin, byddwn yn darllen yn ddwys ac yn astud, ie bob dydd gwyl, yn lle canlyn y plant eraill i oferwaith." Rhoddes ei fryd er yn fore ar fod yn offeiriad yn Eglwys Lloegr; a phan yn 17 oed, aeth i athrofa eglwysig Caerfyrddin, lle yr arosodd am dair blynedd ac yr enillodd serch ei athraw, at yr hwn yr anfonodd lythyr Lladin yn amlygu ei ddiolchgarwch. Yn ystod ei arosiad yno, digwyddodd ddyfod i Gaerfyrddin i bregethu yr enwog George Whitfield; ac er i'r athraw roddi gwaharddiad i'w ysgolheigion fyned i'r oedfa hono, am y rheswm ddarfod iddo glywed fod y pregethwr yn dal allan y pechod gwreiddiol, a bod yn rhaid geni dyn drachefn, a'i gyfiawnhau trwy ffydd heb weithredoedd gerbron Duw. Pa fodd bynag, cydunodd pedwar ohonynt i fyned yno yn ddirgel, a chafodd y bregeth hono effaith argyhoeddiadol ar feddwl a chalon Peter Williams. Collodd y prif-feirdd paganaidd ohyny allan eu holl swynion iddo, ac ymserchodd yn ddwfn yn marddoniaeth ac athrawiaethau y Llyfr ysprydoledig. Ciliodd hen gyfeillion, canys gwelent yn amlwg ei fod wedi llyncu Methodistiaeth chwilboeth, y *term* wrth ba un yr adwaenid duwioldeb yn yr oes hono. Pan yn 21 oed, gadawodd yr athrofa, ac aeth i gadw ysgol ei hun yn Cynwyl El-

Digitized by Google

fed, o fewn ychydig filldiroedd i Gaerfyrddin; ac ar ol hyny, bu yn gwasanaethu fel curad yn Eglwys Gymun, ar gyffiniau siroedd Caerfyrddin a Phenfro. Nid oedd ei gyflog ond bychan; yn wyneb hyny cadwai ysgol, ac yn mhen blwyddyn yr oedd ganddo arian i brynu ceffyl a dillad newyddion, a da iddo hyny. Yr oedd gan y periglor le mawr a sefyllfa uchel yn Lloegr; ac ni ddeuai i Gymru ond unwaith yn y flwyddyn, i dderbyn ei ddegwm. Yn ystod ei ymweliad cyntaf wedi sefydliad Mr. Williams yn y lle, achwynid wrtho fod y curad yn rhy grefyddol, ac o ganlyniad, diswyddodd ef yn ddioed. Y gwyn drymaf a ddygid yn ei erbyn ydoedd ei fod yn dal allan y pechod gwreiddiol, a chyfiawnhad trwy ffydd. Wedi ei droad allan o'r Eglwys Gymun, dywedodd y Parch. Griffith Jones, o Landdowror, wrtho fod eisiau curad yn Abertawe; trodd ei wyneb tuag yno, a chafodd dderbyniad croesawus. Gwasanaethai yno mewn dwy eglwys—yn y Dref Uchaf yn Nghymraeg, a'r Dref Isaf yn Saesneg; ond gan na chydymffurfiai ag arferion paganaidd y plwyfolion, a chan y pregethai wirioneddau noeth yn hollol ddidderbynwyneb, ni pharhaoedd ei boblogrwydd ond am fyr amser. Yn mhen rhyw fis ar ol myned yno, cafodd y pwlpud wedi ei feddianu gan un arall, a gadawodd Abertawe yn siomedig, ond tan lawn argyhoeddiad iddo fod o fendith i laweroedd yn y dref. Wynebodd yn nesaf tua Chaerfyrddin, lle y clybu fod eisiau curad yn Llangranog a Llandysilio, sir Aberteifi; ac wedi myned yno, cytunodd i gymeryd y swydd am chwarter blwyddyn. Ond daeth i wrthdarawiad â rhai o foneddigion gwagsaw y plwyfi hyny cyn bod lawn dau fis o'r tri wedi myned heibio, a gorfu arno ymadael oddiyno drachefn. Bellach, gwelai nad oedd unrhyw obaith y gallai fod o wasanaeth yn yr Eglwys Sefydledig, a phenderfynodd fwrw ei goelbren yn mysg y fintai fechan o offeiriad a feddent yspryd rhy gyhoeddus ac effro i aros yn mroydd cysglyd y Sefydliad, sef Rowlands Llangeitho a'i gyfeillion; a bu yn aelod o Gyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd o 1746 hyd 1790. Yn y cyfnod hwn yr oedd yr enwad crybwylledig yn ei fabandod, a chaffaeliad anmhrisiadwy iddo ydoedd cael y fath wr a Pheter Williams. Yr oedd yn rhagori ar ei holl frodyr, yn llen a lleyg, fel pregethwr trefnus, cryno, a phwrpasol. Yr oedd ei frodyr yn dibynu i raddau helaeth ar yr hwyl, heb ragbarotoi ond ychydig; byddai yntau yn myfyrio ac yn trefnu yn ofalus yn mlaen llaw; byddai eu traddodiad hwy ar brydiau yn swrth, a phryd arall yn anorchfygol, ond ceid ef bob amser yn wastad; dychwelai eu gwrandawyr hwy o'r oedfa ambell waith yn siomedig, a phryd arall tan ddawnsio mewn gwynfydedd molianus, tra y dychwelai gwrandawyr Peter Williams bob amser wedi eu boddhau. O ran ffurfiad ei gorph, yr oedd ynddo gyfaddasder neilldduol at y swydd o flaen filwr yn myddin y Groes—o wneuthuriad cadarn, yn gallu llafurio llawer, teithio'n hir, a chyd-ddwyn yn dirion â lluniaeth a lletty gwael ac isel. Cyfarfyddodd â gelynion crefydd fel bleiddiaid ysglyfaethus mewn llawer man, yn barod i'w rwygo; cynrychiolid eu syniadau gan wyau gorllyd, llaid, a cheryg, ac anmhuredd eu calonau â fleiddbethau cyffelyb; udent arno fel cwn, ac ysgydwent ben fel y darfu i'w brodyr ar ei Feistr Mawr er's llawer dydd. Yr oedd i Ddeheuwr Methodistaidd ddyfod ar "daith" i'r Gogledd yn yr oes hono yn beth gwir bwysig; ac yn fwy peryglus na thaith yn yr oes hon i ganol bwysfilod rheibus ac anwar-ddynion canolbarth Affrica. Ond ychydig oedd bygythion na pheryglon yn ei fenu ar yspryd penderfynol a meddwl diysgog gwrthddrych hyn o hanes; fel craig yn y

Digitized by Google

dymhestl, safai yntau yn dalgryf yn nghanol haid o adynod erlidgar. Ni byddem ond yn adgyfodi gwarth y ddynoliaeth pe crybwyllem am y driniaeth a gafodd yr efengylwr apostolaidd hwn, yn ystod ei deithiau yn Ngwynedd; ond daliodd y cwbl yn ddigryn, gan ystyried dyoddef yn fraint, ac erledigaeth yn anrhydedd. Ystyrid ef am flynyddau lawer y dyn mwyaf talentog a defnyddiol yn mhlith y Trefnyddion, ac edrychid arno fel un o golofnau yr enwad. Ond os dyoddefodd yn more ei weinidogaeth oddiwrth erlidwyr, dyoddefodd lawer mwy yn ei phrydnawn oddiwrth enllibwyr. Yn 1770, cyhoeddodd ei Feibl mawr teuluaidd, yn cynwys cyfeiriadau ar ymyl y dalenau, a nodiadau ar ddiwedd y penodau. Yr oedd hwn yn waith mawr a phwysig yn yr oes hono—yr Esboniad cyntaf yn yr iaith ar yr holl Ysgrythyr, a'r awdwr wedi ymgymeryd â'r gorchwyl gyda'r unig fwriad o leshau cyflwr ysprydol ei gydgenedl. Cymerodd flynyddoedd lawer i'w gyflawni, yn nghanol trafferthion bywyd prysur ac anwadal, a rhwng teithiau blin a meithion. Ar gyfer yr anturiaeth drom o'i argraffu a'i gyhoeddi, cafodd addewid am gefnogaeth ac achles ei frodyr yn y weinidogaeth, a'i gydgrefyddwyr yn yr enwad. Nid oedd dadl yn eu plith am gymhwysder yr Esboniwr at y gwaith, ac ni siomwyd eu disgwyliadau uwchaf ond mewn un peth. Yn ei nodiadau ar y benod gyntaf o Efengyl Ioan, gwnaeth rai sylwadau ag oedd, i ffroenau rhai, yn arogli yn gryf o Sabeliaeth. Y rhai hyn yn ddiymaros a ddygasant gyhudd-gwyn o heresi yn ei erbyn; a darfu i'r cynddyddadleu a fu ar y pwnc hwn gythryblu yr enwad am dros ugain mlynedd. Cyhyd ag y bu Rowlands, a Williams o Bantycelyn, yn y cynghor, lluddiwyd unrhyw ymrwygiad penagored; eithr wedi eu marwolaeth hwy, nid oedd dim rhwng yr ymlidwyr a'u hysglyfaeth; ac yn 1791, er enwoced ydoedd fel gwr duwiol a defnyddiol, diarddelwyd ef yn ddiseremoni o'r Cyfundeb. Bu y cyhuddiad hwn o Sabeliaeth yn golled fawr iddo mewn ystyr arianol, enynodd ragfarn yn erbyn y llyfr yn mysg y bobl y disgwyliai fwyaf oddiwrthynt am ei werthiant, a dywedir na buasai pum' cant o bunau yn ei lawn ddigolledu. Ond nid oedd hyn yn ddim i'r trallodion meddwl yr aeth trwyddynt yn nyddiau ei benllwydni. Ysgariad oddiwrth enwad y treuliasai ei fywyd, ac y bu agos iddo ei golli lawer tro, yn ei gwasanaeth, y rhoddes iddo gryfder ei nerth ac amlder ei ddoniau, ydoedd archoll ddofn i'w deimladau; a'r brofedigaeth yn nithio yr hen gyfeillion a adawsid iddo gan y bedd, rhai i dir gelyniaeth a gwatwariaeth, tra yr oedd yr ychydig a barhasant yn ffyddlawn yn gorfod celu eu cyfeillgarwch, ac yn ei weinyddu yn null cysurwyr yr hen batriarch Job. Ond Duw Job a'i hamddiffynodd, ac a gododd o'r mammon annghyfiawn gyfeillion iddo yn nyddiau cymylog ei drallodion dygn. Pan y cauwyd pob pwlpud yn ymherodraeth Methodistiaeth yn ei erbyn, agorwyd y cyfryw gan y rhai mwyaf iawngred yn mhlith y Bedyddwyr a'r Annibynwyr, yr hyn a brawf nad oedd mor afiach yn y ffydd ag y mynai ei wrthwynebwyr gredu ei fod. Yn ddiau, dyma y llecyn duaf yn holl hanes y Methodistiaid Cymreig; er fod ychydig fai mae yn ddiau o bob tu. Trwy y cyfan, cafodd y llyfr gylchrediad helaeth, a galwyd yn fuan am argraffiadau ychwanegol ohono. Cyhoeddwyd 3600 o'r argrafflad cyntaf, yn 1770; 6400 o'r ail yn 1779; a 4000 yn 1796; ond cyn i'r olaf ddyfod allan bu yr awdwr farw, a gorphenwyd golygu y gwaith gan Mr. John Williams, ei fab. Daeth amryw argraffiadau o'r gwaith allan ar ol hyny, ac nid oes odid i allor deuluaidd yn Nghymru

Digitized by Google

nad yw Beibl Peter Williams arni. Yn 1773, cyhoeddodd y "Mynegair Ysgrythyrol," ac argraffwyd 2000 ohono; daeth amryw argraffiadau eraill ohono allan, ac y mae gan Mr. Humphreys, Caernarfon, argraffiad ohono yn awr yn y farchnad. Yn 1790, yn gydranog a'r Parch. D. Jones, gweinidog gyda'r Bedyddwyr, cyhoeddodd Feibl John Cann, yn Nghymraeg, gan ychwanegu rhai nodiadau nad oeddynt yn y gwreiddiol yn Saesneg. Yr oedd ganddo ran bwysig yn nghyhoeddiad y *Great*, yr hwn a olygid yn benaf gan ei fab, y Parch Eliezer Williams, ac a gynorthwyid gan Dafydd Ddu Eryri a Ieuan Brydydd Hir. Mewn gair, yr oedd Peter Williams yn un o'r Cymry pwysicaf a defnyddiolaf yn y 18fed ganrif—yn bregethwr poblogaidd, yn ddeonglwr Ysgrythyrol galluog, yn llenor campus, ac yn ddyn a wnaeth argraff ddwys ar feddwl a buchedd ei genedl. Bu farw yn y Gelli Lednais, plwyf Llandefeiliog, sir Gaerfyrddin, Awst 8, 1796, yn 76 oed, a chladdwyd ef yn mynwent y plwyf hwnw.—*Rhagymadrodd* i'r *Beibl Teuluaidd*.

WILLIAMS (Parch. Peter Bayley), ydoedd fab i'r Parch. Peter Williams uchod. Dygwyd ef i fynu, fel ei frodyr, yn offeiriad. Bu yn gwasanaethu am flynyddau lawer ar blwyfi Llanrug a Llanberis, sir Gaernarfon, ac ysgrifenodd hanes y sir hono yn Seisnig. Ystyrid ef yn hynafiaethydd medrus, ac yn gynullydd diwyd a llwyddianus ar hen lyfrau a llawysgrifau Cymreig; ac yr oedd yn noddwr twymgalon beirdd a llenorion ei oes. Cyfeithodd "Orphwysfa'r Saint," o waith Baxter; a "Galwad i'r Annychweledig;" hefyd "Hanes Bywyd" ei dad, yr hwn a gyhoeddwyd gyntaf gydag argraffiad cyntaf Fisher o'r Beibl Teuluaidd. Ysgrifenodd lawer i'r *Gwyliedydd*, i'r *Cambro-Briton*, a'r *Cambrian Quarterly Magazine*. Yr oedd ganddo hefyd law yn nghyhoeddiad *Eurgrawn* Dafydd Ddu, a argraffwyd yn Nghaernarfon, yn 1807. Bu farw mewn henaint teg yn Lanrug, Tachwedd 22, 1836.

WILLIAMS (Peter), D.D., ydoedd offeiriad Llanbedrog, sir Gaernarfon, a phrebend yn mhrifeglwys Bangor. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain. Yn 1824, golygodd argraffiad o'r *Ffydd Ddiffuant* o waith Charles Edwards, ac ysgrifenodd lyfr o fywgraffiad o'r awdwr yn Saesneg, ac mae nodau o'i waith yn yr un iaith ar odre y dail. Cyhoeddwyd y llyfrau canlynol o'i waith:—1, "Clerical Legacy;" 2, Pedair cyfrol o Bregethau Cymreig; 3, "A short vindication of the Established Church," 1803; 4, "The first book of Homer's Iliad, translated in blank verse," 1806; 5, "Anogaeth i gadw Gweddeidd-dra a Threfn yn addoliad Duw," pregeth a draddodwyd yn Llanbedrog.—*Lleyn MSS.*

WILLIAMS (Parch. Richard), ydoedd wr eglwysig mewn urddau, ac yn byw yn y Fron, ger Wyddgrug, sir Fflint. Bu yn offeiriad yn Machynlleth; ac yn Llanferes, ger Wyddgrug, a chan Esgob Halifax y cafodd yr olaf yn 1789. Yr oedd yn gydymaith i Pennant ar amryw o'i deithiau trwy Gymru, ac yn brydydd Seisnig da. Efe a gyfieithodd y darnau o hen brydyddiaeth Gymreig a welai y teithydd enwog hwnw yn angenrheidiol eu dwyn i mewn er egluro hynafiaethau. Yn mhlith pethau eraill, cyfieithodd gywydd Owen Gyfeiliog, a elwir "Hirlas Owain;" "Cywydd Hywel ab Einion Llygliw i Fyfanwy Fychan;" "Awdl Tubulus ar angladd Patroclus," o'r Lladin. Cyfansoddodd bryddest Lladin i'w gyfaill Pennant; a galargerdd ar farwolaeth Ieuan Brydydd Hir. Troes ganeuon Gray i'r Lladin, a chyfieithodd y *Medea Seneca*. Bu o fawr gymhorth i Edward Jones yn nghyfansoddiad y *Relics of the Welsh Bards*, ac ysgrifenodd lawer ar bynciau eraill. Bu

Digitized by Google

farw yn ddisymwth, Mehefin 4, 1811.—*Cambro-Briton* i. 253.

WILLIAMS (RICHARD), a adwaenid yn mhlith y beirdd, &c., wrth yr enw *Dryw Bach*. Ganwyd ef yn 1790, a threuliodd ran fawr o'i oes yn Mhant y Gerdinen, plwyf Aberdar, sir Forganwg, lle y bu farw Mehefin 90, 1839. Dywedai Taliesin ab Iolo am dano:—"Dyn oedd y bydd ei goffadwriaeth yn anwyl y rhawg gan y rhai a hoffant beroriaeth, prydyddiaeth, a llenyddiaeth Gymreig yn gyfredinol. Yn moreu ei ddyddiau amlygodd archwaeth ragorol tuag at ganiadaeth Gymreig; gan gymhlethu yn ei ganeuon amledd o ddillynion darfeddyliawl, yn nghyd ag athrylith naturiol tuag at wir arabedd. Cyrhaeddodd hefyd fedrusrwydd helaeth mewn barddoniaeth uchraddol. Mae ei fuddugol "Awdl i'r Goleuni" yn gyfansoddiad ag sy'n amlygu grymus allnoedd meddwl. Bu yn ymdrechwr buddugol ar destunau eraill befyd. Ei englynion i "Bont-y-ty-pridd" a enillasant iddo dlws arian ysplenydd, yn nghyd a gwobr ychwanegol, yn Eisteddfod Caerdydd yn 1834; ac efe oedd yr ail oreu yn yr englynion i Ardalydd ac Ardalyddes Bute, ar yr hwn destun y cynygid y Tiws Breninol yn amser gwledd ardderchog y Dywysoges (yn awr ein Brenhines) Victoria, a Duges Kent. Bu wedi hyny yn enillwr ar destunau eraill. Ei ymgais llwyddianus diweddaf oedd ei gyfansoddiad ar "Briodas William Williams, ysw., o Aberpergwm;" yn mha un y rhoes dystiolaeth arwyadl o'i barch i deuluoedd henafaidd ei wlad enedigol. A'i ddoniau perorawl nid oeddynt ddistadl ychwaith, fel y tystiai y tlysau a gafodd am gyflawniadau dadgeiniawl. Fel gwr a rhiant mewn teulu lliosog, efe a gyflawnodd ei ddyledswyddau mewn modd canmoladwy. Yn ei alwedigaethau fel amaethydd, arwerthydd, gwlan-fasnachydd, &c., myntumiodd nodweddiad diargyhoedd. Yn ei ymarweddiad cymdeithasol yr oedd yn gyweithas, ac yn feithrinwr brwdfrydus i bob rhiniau da."

WILLIAMS (RICHARD OWEN), ydoedd fab i Owen ac Elizabeth Williams, o'r Brynglas, plwyf Llaniestyn, Mon, lle y ganwyd ef Hyd. 31, 1819. Yr oedd yn orwyr i Mr. Wm. Prichard, yr Ymneilldwr o Glasfryn Fawr, Eifionydd, ac wedi hyny o'r Clochdyrnog, Plas Penmynydd, a Bodlew, Mon. Cafodd ddysgeidiaeth dda, yn Beaumaris, Liverpool, a Frodsham. Yr oedd wedi cyrhaedd gradd dda o wybodaeth o'r elfenau gwyddorol; ac yn wybodus iawn mewn llysieuaeth. Yr oedd hefyd wedi astudio'r ieithoedd yn ganmoladwy. Ysgrifenodd lawer, a chyhoeddwyd rhai pethau o'i eiddo, megis yr "Egluryn Dirwestol," a lluaws o draethodau eraill o dro i dro yn y *Drysorfa*. Yr oedd y rhan fwyaf o'i oes yn aneddu yn Mangor, fel cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau, a swyddog ymwaredol yn Nosbarth Bangor a Beaumaris, yr hyn a gyflawnai er boddhad cyffredinol. Yr oedd ei nodweddiad crefyddol, mewn cysylltiad a chymdeithas y Methodistiaid Calfinaidd, yn addurn i egwyddoriou uchel Cristionogaeth. Bu farw yn y Brynglas, Awst 7, 1849, yn 30 oed.—*Y Drysorfa* 1850.

WILLIAMS (ROBERT) *(Robert ab Gwilym Ddu o Eifion)*. Ganwyd y bardd coeth a llednais hwn yn y Bettws Fawr, plwyf Llanystumdwy, yn nghwmwd Eifionydd, sir Gaernarfon, yn 1767. Brodor o sir Feirionydd ydoedd William Williams, ei dad; ac efe oedd perchenog y Bettws Fawr, yr hwn le yn nghwrs amser a ddaeth i feddiant y Bardd Du. Yn yr amaethdy gwledig hwnw, heb ddim yn tori ar dawelwch unffurfiol y lle ond sibrwd didaw yr afon Ddwyfach gerllaw, y treuliodd yn ddedwydd rychwant einioes hyd o fewn ychydig flynyddau i'w

Digitized by Google

therfyn, pan y symudodd i'r Monachdy, yn yr un gymydogaeth. Trwyddo ef, daeth y Bettws Fawr yn adnabyddus i feirdd a llenorion, ac yn gyrchle gwyr o nod; ac i'r ffaith fod Robert ab Gwilym wedi bod yn cyfaneddu yn y lle y rhaid cyfrif am enwogrwydd y Bettws Fawr rhagor ffermdai dinod eraill Eifionydd. Palph o ddyn cadarn gwladaidd ydoedd Robert Williams, ac ni buasai dyeithr ddyn byth yn meddwl oddiwrth ei olwg allanol fod yr awen yn gwneud ei nhyth mewn adeilad mor annhebyg. Ond dadblygai cydnabyddiaeth âg ef, yn y llanerch fynyddig hono, a than y enwd annhrefnus hwnw o wallt, athrylith o radd uchel iawn. Yr oedd y Bardd Du yn hynafiaethydd medrus, ac wedi efrydu llawer ar y pwnc hwnw, yn arbenig yn ei ystyr leol; ac yr oedd ar ei fferm yn yr amser hwnw gryn lawer o adfeilion yr hen Gymry fu. Yr oedd hefyd yn gerddor deallgar, a'i athraw yn y gelfyddyd hono ydoedd Mr. J. R. Jones, o Ramoth, fel y dywed y bardd yn ei farwnad i'r gwr hwnw. Darllenasai lawer ar ganghenau buddiol eraill o wybodaeth; ac nid oedd odid i bwnc nad oedd efe i rhyw raddau yn gydnabyddus âg ef, ac yn alluog i syniaw yn gywir am dano. Bedyddiwr ydoedd ar y pwnc o fedydd, ac yr oedd yn bleidiol iawn i'r Bedyddwyr Neilldiol, prif ddyn yr hon blaid y pryd hwnw yn Nghymru ydoedd Jones o Ramoth; ond nid oedd efe yn aelod gydag unrhyw blaid grefyddol. Dywed Caledfryn yn y traithawd ar ei Athrylith a'i Weithiau yn y *Traethodydd* am 1852, t.d. 326, wrth son am rai o annghysonderau y bardd fel crefyddwr:—"Byddai pregethwyr o bob enwadau yn galw heibio iddo, a chaent groesaw mawr ganddo; ond anfynych yr elai i wrandaw ei gyfeillion penaf, os na fyddent yn Fedyddwyr; a phan elai i wrandaw, byddai yn gwneud hyny yn fwy o gymwynas i'r llefarwr, ac yn fwy fel beirniad, nag fel pechadur ag arno eisiau y pethau a gynygid iddo ei hunan. Helpu y pregethwr i drwsio y bregeth ar ol darfod oedd oreu ganddo, na derbyn ac ymborthi ar y pethau a glywai ei hunan. Goludog oedd, ac nid oedd arno eisiau dim, yn yr ystyr yma." Efe oedd cynathraw Dewi Wyn, a thrwy fod y ddau yn byw yn ymyl eu gilydd, yr oedd cryn undeb yn eu golygiadau a'u gweithrediadau. Digiodd y ddau tua'r un amser wrth yr eisteddfodau; ac ni chafwyd ohyny allan na'u gwaith na'u presenoldeb na'u geirda i'r un o'r cyfryw gyfarfodydd. Taflwyd y Bardd Du oddiar ei echel oherwydd rhoddi y wobr am englyn y "Delyn" i Walter Mechain yn Nghaerfyrddin, yn 1819; a chanodd y Bardd Gwyn yn iach iddynt am byth ar ol i'r *Dryw* gael y wobr yn Eisteddfod Dinbych oddeutu yr un amser am ei awdl ar "Elusengarwch." Yr oedd y ddau yn Fedyddwyr, a'r ddau onid gwrandawyr yn unig am yspaid hirfaith, a bu ganddynt ran flaenllaw eu dau yn nghodiad addoldy yn yr ardal, a adwaenid wrth yr enw, "Capel y Beirdd." Hyd y gwyddom, dyna yr unig dro yr ymwregysodd y Bardd Du i faes yr ymrysonfa farddonol; a bu farw heb yr un ariandlws, neu blwm ar lun arian, ar ei elw. Ni flaenddodir un dernyn o'i waith â'r geiriau, "Buddugol" mewn unrhyw Eisteddfod; ond er hyny, y mae llysiau *Gardd Eifion* mor beraidd eu blas, a'i blodeu mor swynol eu harogl, ac mor brydferth eu gwisg, ag odid i ddim a gyhoeddwyd yn yr iaith Gymraeg. Un o'r pethau hynotaf yn yr amaeth-fardd diniwaid hwn ydoedd y syniadau uchel oedd ganddo am ei waith ei hun. Byddai yn ymylu ar wynfyddedd wrth ei adrodd a'i ganmol ei hunan; ac ychydig groesaw gai dyeithrddyn yn y Bettws Fawr os nad allai fawrygu barddoniaeth gwr y ty. Yn y *Brython* iv.112, adrodda Talhaiarn am wr o'r enw Roberts,

Digitized by Google

Dolymelynllyn, yn myned i edrych am y Bardd, ac ar ol cyfarch gwell, gwelai yn union mai rhyw groesaw lled sychlyd oedd yno iddo. Cofiodd, pa fodd bynag, fod ei westteiwr yn hoff o gymoliaeth, a dechreuodd chwareu ar y nwyd honno, ac ebe fe wrtho, "Wyddoch chwi beth, Rhobert Williams, englyn rhagorol ydyw hwnw o'ch gwaith chwi" "P'run ydyw hwnw, y gwr dierth?" ebai y Bardd. "Hwn," meddai Roberts,

"Paham y gwnei cam a'r cymod—neu'r Iawn
A'i rinweddau cos bechod?
Dyweder mi dot y Dewiod—
Yr un mint yw'r lawn i tod"

Ac ebai y Bardd, "Wel, yn wir, y mae o'n dlws!—dywedwch o eto, da chwi!" a'r dyn yn cydsynio, nes oedd yr awdwr wedi ei lynu i fynu gan ei swynion a'i brydferthwch, ac yn galw ar y wraig, "Gnewch gwpanaid o dê a thipyn o *dorst* i'r gwr dierth, yn union deg—dywedwch yr englyn unwaith eto, da chwi." Roberts yn ei ddiwedd drosodd a tirosodd drachefn. A fu erioed well engraifft o deiniwcidrwydd. Beddai anbell un yn gwneud camgymeriad mawr gyda golwg ar y ddôr i serch y bardd. "Mae genym niran yn sir Ddinbych acw fardd da iawn," ebai porthmon wrtho rhyw dro. "Pwy ydyw hwnw, y gwr dierth?" ebai yntau. "Robert Dafis o Nantglyn," ebai'r porthmon. Ond at boeid y Bardd gyda dau ansoddair cryf, na waeth beb eu hail grybwyll, ond dengwaith pe mor ddwfn ydoedd ei deligaiant am y cawri a oddefodd ei g, faill Dewi Wyn yn Eisteddfod Dinbych mewn rhan oddiar law Bardd Nantglyn. Torwyd eryn lawer ar ei ysgryd at farddoni pan fu farw ei anwyl ac unig-iaeth, Jane Elizabeth, yr hon oedd yn ferch ieuanc 17 oed, bryd teg, synwyrol, a dysgedig. Pe anyn ei henaint ydoedd, canys bu efe yn hir iawn yn dwyn y teitl o "Hen Lanc y Bettws Gawr," a phrin dd y son am ei briodas gyn syndod yn yr ardaloedd. Yr oedd ei merwolaeth yn ergyd trwm iddo—nis gallai byth ddod e'ywed ei henw heb i'w lygaid lenwi o ddagrau, ac y mae ei farwnad iddi yn un o'i awdlau mwyaf teimladol yn yr iaith. Y mae coethder a dulynder anarferol yn nodweddu ei holl gyfansoddiadau, ac ystyrid ef yn bencampwr am englyn; ac nid heb achos, fel y prawf ei englynion i "Grist gerbron Pilat," "Pilat gerbron Crist," yr "Iawn," a'i farwnadau gratiadau taraw gar a dysgrifiadol. Yn ei awdl farwnad i Jones o Ramoth, ceir meddyliau hynod o dlysion, ac arddengys lewder yll wpan yn canmol dyn oedd mor annhebyg iddo'r ilnaws. Nodweddir ei ganiadau digyrghaneid gan yr un dulynder, a destlusrwydd iaith a syniadau. Y gryfenodd un neu ddwy o gerddau da, a cherdd neu ddwy o gryn deiryngdod, ond fel emynwr yr adwaenir ef orau gan y werin. Cenir rhai o'i emynau hyd ganiad yr udgorn, megis "Mae'r cwaed a redodd ar y groes," &c.; "Rhyfeddod oedd, rhyfeddod yw," &c.; "Gogoniant byth i'r Arwyl Un," &c.; ac amryw eraill ellid grybwyll. Yn wir, y mae y flaenaf a nodasom fel pe wedi ei chyfansoddi o bwrpas ar gyfer y nefoedd, i'w chanu ar "nwchaf lef seraphaidd," ond diarfoi ei dodi ar wefus y bardd fel y gallai "toif y cwmmodd mawr" ymcydnabyddu â hi ar eu taith tua gwynfyd. Cyhoeddwyd gwaith Robert ab Gwilym yn gyfrol fechan yn 1841, tan yr enw *Gwaith Ieiaon*, gyda rhagymadrodd gan Caledfryn. Bu farw yn y Monachdy, Medi'r 11, 1850, yn 83 oed, a chladdwyd of yn mynwent Aberdaron, gor Pwllheli. Yr oedd cywydd marwnad iddo yn un o destunau Eisteddfod Porthmadog yn 1851, a chywydd campus o waith Ioan Madog a enillodd y wobr.

Digitized by Google

WILLIAMS (ROBERT) o'r Pandy Isaf, Treriwaedog, ger y Bala, ydoedd fardd da, ac'yn ei flodeu yn rhan olaf y ganrif ddiweddaf. Efe oedd athraw barddonol Ioan Tegid, a cheir crybwyllion ffafriol am dano yn Ngweithiau barddonol y Cymro enwog hwnw. Efe oedd awdwr gwreiddiol y llinell boblogaidd "Bibl i bawb o bobl y byd," a briodolir mor fynych i Fardd Nantglyn. Nid oes genym unrhyw brawf dros anmheu gonestrwydd awdwr "Marwnad Sior III.," er fod y llinell wedi ymddangos mewn cyfres o Englynion i'r Bibl yn y *Drysorfa Ysprydol*, tan olygiaeth Mr. Charles, flynyddau lawer cyn Eisteddfod Gwrecsam. Bu R. Williams farw, mewn henaint teg, yn y flwyddyn 1808. Y mae llawer iawn o'i waith ar gael mewn llawysgrifau.

WILLIAMS (SYR ROGER), swyddog milwraidd dewr, ydoedd fab i Thomas Williams, o Benrhos, sir Fynwy, ac Eleanor ei wraig, yr hon ydoedd ferch Syr William Vaughan, marchog, ac yn hanu o deulu yn mhlith y rhai mwyaf hynafol a pharchus yn yr ardaloedd hyny. Er ei fod o'i ieuenctyd yn arddangos cryfach tuedd at fywyd milwraidd nag at ddysgeidiaeth, eto danfonwyd ef i brifysgol Rhydychain, lle y bu yn trigianu am gryn amser. Yn fuan wedi 1554, gadawodd y coleg, ac aeth yn filwr o tan Duc Alva, a rhodd trwy y gwahanol raddau milwrol nes ei wneud yn filwriad *(colonel)* yn y rhyfeloedd Ffrengig a Belgiaidd, Gallasai sefyll yn gyfochrog â'r goreu yn yr amseroedd hyny, pe buasäi yn tymheru ei nwydau dewr a didoriad gyda challineb; yr hyn oedd y rheswm na roddai y frenhines unrhyw swydd o ymddiried mawr iddo. Gwnaed ef yn farchog yn 1586. Cerid ef gan bob milwr, gan mor nododig ydoedd am ddewrder dihafal, yr hwn a arddangosodd yn dra neillduol yn y flwyddyn grybwylledig pan yr ymosododd yn nghanol nos ar wersyll Tywysog Parma, ger Veulo, gan ladd rhai o'r gelynion; a threiddio i babell y cadlywydd. Yr oedd yn awdwr "The Actions of the Low-Countries;" yr hwn a argraffwyd yn Llundain yn nheyrnasiad Elizabeth, a thrachefn yn 1618. Llyfr arall o'i waith ydoedd, "A brief Discourse of War, with his opinion concerning some part of martial discipline," 1590. Bu farw yn Llundain yn Rhagfyr, 1595, a chladdwyd ef yn mhrifeglwys St. Paul.—Wood's *Athen Oxon.*

WILLIAMS (PARCH. ROGER), sylfaenydd talaeth Ynys Rhode, Gogledd America, a anwyd yn nhreftadaeth ei hynafiaid, sef Maestroiddyn, plwyf Cynwyl Caio, sir Gaerfyrddin, yn 1606. Cafodd fanteision dysgeidiaeth rhagorol; oblegyd pan nad oedd ond 15 oed, arferai ysgrifenu mawn llaw fer yr areithiau a draddodid yn y *Star Chamber*, a'u hanfon i Syr Edward Coke, yr hyn y barodd i'r cyfreithiwr enwog hwnw sylwi ar y bachgen ieuanc fel un tra gobeithiol, a'i anfon i *Sutton's Hospital*, yn awr y *Charter House*, lle y derbyniwyd ef Meh. 25, 1621. Aeth oddiyno yn 1624 i goleg Iesu, Rhydychain. Nis gwyddis pa hyd yr arosodd yno, ond y mae yn amlwg iddo gyrhaedd cydnabyddiaeth fanwl â'r Roeg, y Lladin, yr Hebraeg, yn nghydag amryw o'r ieithoedd diweddar. Wedi gadael Rhydychain, bu am rhyw yspaid yn efrydu y gyfraith o tan nodded Syr E. Coke; ac yna trodd ei fryd ar fod yn weinidog yn Eglwys Lloegr, a chymerodd urddau eglwysig. Enillodd air da fel pregethwr yn ystod yr ychydig amser y bu yn gweinidogaethu yn y wlad hon, a dywedir mai yn esgobaeth Lincoln y gweinyddai. Pa fodd bynag, mabwysiadodd yn fuan athrawiaethau y Puritaniaid erlidiedig, a chan fod y bobl hyny o tan gilwg barhaus yr archerlidiwr Laud, gwelai R. Williams nad oedd fawr

Digitized by Google

obaith iddo am ddim ond cosp a gorthrwm os arosai yn y wlad hon, a phenderfynodd ymfudo i wlad y cai ei gydwybod chwâreu teg i gyflwyno gwasanaeth i Dduw heb un gormesydd eglwysig na gwladol i eistedd mewn barn ar ei gweithrediadau, na neb i'w galw i gyfrif ond yr Hwn a'i creodd. Yr oedd America yn meddu holl anhebgorion y wlad a geisiai efe, a'i breichiau mawrion yn agored yn gwahodd ac yn derbyn gorthrymedigion Ewrop i'w mynwes. Hwylhodd ef a'i briod o Bristol am y "cyfandir rhydd," Chwef. 5, 1631; ac wedi mordeithio dymhestlog am 66ain o ddyddiau, cyrhaeddasant Boston, yn Massachusetts, Lloegr Newydd, lle yr oedd trefedigaeth o'r wlad hon eisoes wedi ymwladychu. Yn mhen ychydig wythnosau, galwyd arno i fod yn gydweinidog â'r Parch. Mr Skelton, ar eglwys Salem. Ond nid oedd dedwyddwch digymysg yn ei aros yn ei gartref newydd, canys wedi iddo ddechreu ar ei weinidogaeth, dyma yr awdurdod wladol yn cyfryngu i rwystro ei sefydliad; a'u rheswm tros hyny ydoedd ei fod wedi gomedd ymuno â'r gynulleidfa yn Boston am na chyffesent edifeirwch o'u bod mewn cymundeb âg Eglwys Lloegr pan yn y wlad hono, ac hefyd am ei fod yn honi nad oedd gan y swyddog gwladol awdurdod i "gosbi am dori y Sabbath, nac am unrhyw drosedd o'r llech gyntaf." Pa fodd bynag, yn ngwyneb y cyhuddiadau dibwys hyn gorfu arno ymadael o fynwes yr eglwys yn Salem, ond cafodd dderbyniad cynes gan yr eglwys yn Plymouth, i fod yn gynorthwywr i'r Parch. Ralph Smith. Yr oedd y "brodyr" yn Plymouth yn cael eu hystyried yn llawer mwy rhyddfrydig na'r trefedigaethau eraill, am nad oeddynt yn cysylltu unrhyw gerydd gwladol â dysgyblaeth eglwysig. Tra yn aros yn y lleoedd hyn, cafodd gyfleusdra i ffurfio cydnabyddiaeth â rhai o brif benaethiaid yr Indiaid, a theimlai yn ddwys oherwydd eu cyflwr, a thrueni eu llwythau. Bu yn lletya yn eu tyllau myglyd a budron, er mwyn dysgu eu hiaith, i'r dyben o fynegu iddynt ffordd iachawdwriaeth. Yn 1633, efe a ddychwelodd i Salem, i gynorthwyo Mr. Skelton; ac yn mhen tua blwyddyn, bu yr olaf farw, a dewiswyd yntau i gymeryd ei le. Ond yn y cyfamser ysgrifenodd at yr awdurdodau gwladol yn gwadu eu hawl i ymyraeth mewn materion eglwysig. Ystyrient hyn yn osodiad peryglus, a gwysiwyd ef ger eu bron, pan y dedfrydwyd ef ganddynt i alltudiaeth o'r drefedigaeth. Cyhoeddwyd y ddedfryd hon Tach. 3, 1635; ond oherwydd fod iechyd Mr. W. wedi ei anmharu trwy ei lafur a'i bryder, caniatawyd iddo aros yn Salem hyd y gwanwyn dilynol. Yn y cyfamser, daeth cwyn newydd yn ei erbyn, sef fod pobl yn ymgynull i'w dŷ; ei fod yn enill eraill i gofleidio ei egwyddorion; a'i fod yn bwriadu ffurfio sefydliad newydd oddeutu Narragansett Bay. Yna penderfynodd yr ynadon ei ddanfon yn ddioed i Lo gr mewn llong oedd yn y porthladd ar fin hwylio; anfonwyd swyddogion i'w geisio, ond cawsant ei fod wedi ymadael er's tridiau. Cawsai allan ei bwriad, ac yr oedd wedi gwneud y defnydd goreu o'r ychydig ryddid oedd ganddo. Ffodd at yr Indiaid brodorol, a da iddo erbyn hyn ei fod yn gydnabyddus â hwynt, ac yn deall eu hiaith. Cafodd nawdd Massasoit, un o'u penaethiaid, a chaniatad i wladychu ar lan yr afon Seekong, lle yr ymunodd amryw o'i hen gyfeillion yn Salem âg ef. Ond nid oedd dinas barhaus iddo yno ychwaith, a chafodd awgrym garedig mai dyogelach iddo fyddai symud i'r ochr arall i'r afon, i Rhode Island. Mewn canlyniad, aeth ef a phump eraill mewn bâd tros y Seekong, yr hon sydd yn gwahanu Massachusetts ac Ynys Rhode, a glaniasant ar ochr cellewinol yr ynys, yn agos i

1637

Digitized by Google

aber yr afon Mooshausick; ac yn y fan hono, ar lechwedd bryn yn agos i'r afon, y tacuodd y gwladychwyr cyntaf yn Ynys Rhode eu pebyll. Yma y mae tref Providence, yr hon a sylfaenwyd gan Roger Williams, ac a alwyd ar yr enw hwn er "cofadwriaeth ddiolchgar am deimlad Rhagluniaeth Duw trag ato yn ei gyfyngder." Cynyddodd poblogaeth y wladfa fechan hon yn gyflym, a thynwyd cytunieb rhwng y gwladychfawyr gan R. Williams, yr hwn oedd yn cynwys ei holl egwyddorion ef am rydd did crefyddol wedi eu hymgorphori, sef na byddai i'r wladwriaeth ddim awdurdod á materion crefyddol y deiliaid. Y Cymro hwn oedd y cyntaf erioed i sefyll fel dadleuydd dwr tros berffaith ryddid cydwybod. Nodweddid hefyd ei holl ymddygiadau gan y fath gyfiawnder ac uniondeb dyben, fel y perchid ei hyd yn nod gan ei gaseion, yr edmygid ef ac y gofynid cymwynasau oddiar ei law ran y rhai ddarfu ei alltudio, ac yr anrhydeddid ef gan yr holl lwythau a preswyliaid Indiaidd y daeth i gydnabyddiaeth á hwynt. Cynyddodd ei drefedigaeth fechan yn gyflym, cyfeirnai erlidigion crefyddol yno o bob man, ac nis gellid heb dori gwir ddeddfau rhyddid gadw amhell nu annheilwng allan. Cyfodai gelynion y sefydliad y dosbarth olaf bychan hwn i fynu ar drostan i'w harddangos gerbron y byd fel esiamplau o'r gwladychwyr: ond cadwodd dinasyddion Providence eu hardystiad yn ddihaog, a thrwy hyny enillasant barch tragywydd i'w henwau, tra yr enynasant gensigen a digloneddeu cymydogion yn y talaethau cyfagos. Ar gais y dinasyddion, daeth Mr. Williams trosodd i Loegr, er mwyn cael breinlen i breswylwyr trefi Providence, Portsmouth, a Newport, a llwyddodd yn ei amcan, yr hon sydd wedi ei dyddio Mawrth 17, 1644. Pan y daeth efe yma, yr oedd y wlad yn brysur gyda'r rhyfel cartreuol rhwng Siarl I. a'i Senedd, a gorfu iddo aros yn y wlad hon am oddeutu blwyddyn; ond yn y cyfamser, ni bu efe segur, canys yn nghynta cyhoeddodd y llyfran canlynol yn 1643—Hanes yr Indiaid, yr hwn a gaiumolid yn fawr gan Arglwyddi y Morlys, a llyfr gwasanaethgar ar dull sef, "Key to the Language of New England." Yr oedd hefyd yn awdwr llyfr o'r enw, "The Bloody Tenet of Persecution for the sake of conscience, discussed in a conference between Truth and Peace, who in all tender affection present to the High Court of Parliament, (as the result of their discourse) these, amongst other presages of highest consideration," 1644. Atebwyd y llyfr hwn gan Mr. Cotton o Boston, America, mewn llyfryn arall yn dwyn y teitl, "The Bloody Tenet washed and made white in the Blood of the Lamb;" yr hwn a atebwyd drachefn gan Mr. W. mewn llyfryn o'r enw, "The Bloody Tenet yet more Bloody, by Mr. Cotton's endeavor to wash it white." Tra yr yoym yn son am dano fel awdwr, dylem grybwyll iddo hefyd gyfansoddi llyfryn arall o'r enw, "The hireling ministry none of Christ's; or, a discourse of the Propagation of the Gospel of Christ Jesus," yr hwn a argraffwyd yn Llundain yn 1652. Yn mhen tair blynedd, yr ydym yn ei gael eilwaith ar ymweliad á'r wlad hon, a chanddo neges bwysig mewn perthynas á'i drefedigaeth fechan, yn tarddu oddiar yr erlidigaeth a oddefent oddiar law eu cymydogion, yn benaf oherwydd eu crefydd. Arosodd yma am oddeutu tair blynedd; ac yn ystod yr amser hwnw daeth i gydnabyddiaeth á Milton a Cromwell. Bu ei gyfeillgarwch á'r gwyr hyn yn fantais fawr iddo mewn ystyr wleidyddol; canys ysgrifenodd Cromwell lythyr at y drefedigaeth, a bu hyny yn foddion i ostegu cryn lawer o'r cythryfwl. Yn fuan wedi ei ddychwelyd y tro hwn i Ynys Rhode, yn 1656, glaniodd amryw Gryuwyr erlidiedig o Loegr yn Nhalaethau

Digitized by Google

Gogledd America; eithr cawsant allan yn fuan nad oedd nemawr well croesaw yn eu haros yno, a bod y sarhaoes wedi ei gludo gan y trefedigaethwr gyda hwynt tros y weilgi. Dirwywyd, carcharwyd, fflangellwyd, ac alltudwyd llawer ohonynt; a phenderfynwyd ar eu dyfetha wreiddyn a changen. Pa fodd bynag, cafodd y gorthrymedigion hyn achlesion Ynys Rhode, er nad oedd R. Williams yn cydolygu â George Fox a'i dilinyniwyr; yn wir, bu mewn dadl gyhoeddus â hwynt, ond ni lwyddhyny yn un ataliad iddo rodd nawdd iddynt rhag eu herlynwyr. Cherwydd marwolaeth Cromwell, a'r cyfnewidiad mewn canlyniad a gymerodd le yn y furfl wodraeth gartrefol ar esgyniad Siarl II. i'r orsedd, tybiwyd mai doeth cael breinlen newydd i'r drefedigaeth, a chatwyd hi yn 1663; ac y mae yn debyg na chaniatawyd ei bath erioed gan lywodraeth Prydain i un o'i thirioga thau. Rhoddwyd hawl iddi ddewis ei holl swyddogion, o'r uwchaf hyd yr isaf, i wneuthur heddwch ac i gyhoeddi rhyfel, a'r cyfan heb i'r breinin hyd yn nod honi hawl i adolygu eu gweithrediadau. Ond nid oedd cynydd a llwyddiant y bobl wynion yn ddymunol mewn un modd yn ngolwg yr Indiaid. Yr oedd Massasoit, prif benaeth y Pokanoketiaid, erbyn hyn wedi myned i ffordd yr holl ddaear, a Phylip ei fab wedi cymeryd ei le, ac yn dra awyddus i ffurfio cynghrair rhwng y gwahanol lwythau yn New England, yn erbyn y Saeson. Pan y daeth y pethau hyn yn hysbys iddynt, gwahoddwyd Phylip gan lywydd Plymouth i'w gyfarfod yn Taunton. Atebai yntau yn uchelfrydig os oedd arnynt eisiau ei weled ef am iddynt ddyfod ato. Ymwelodd Mr. W. a gwr arall â gwersyll y penaeth; a tarwy ei lafur a'i ymdrech ef yn benaf y gwnaed heddwch y tro hwn hefyd. Ond yn mhen tua thair blynedd—yn 1675—torodd rhyfel allan rhyngddynt drachefn, yr hon a barhaodd am fwy na blwyddyn. Lladdwyd yn nghylch chwe' chant o wyr ieuainc yn nghadwrn o'r rhyfel gan yr Indiaid, a llosgwyd deuddeg neu dair-ar-ddeg o dirioga. Nid oedd sefydliadau Ynys Rhode ychwaith yn ddiberygl y tro hwn. Gorfu i Roger Williams gymeryd swydd yn y fyddin, a gwneuthur eryn ymdrech i gael darpariadau amddiffynol. Dywedir ei fod yn llwyddiannus pan oedd y gelynion yn ymyl Providence, gymeryd ei lorri dan ei law a myned i'w cyfarfod yn bwylleg, heddychol, a dieffro gan hyderu y gallasai eu taweln a lliniaru eu gelyniaeth a'u cynddeiriogrwydd, fel mewn amgylchiadau blaenorol. Pan gafuant ef, dechreuasant ymwo hen ryfelwyr i'w gyfarfod, ac yr yr ymddyddan wrth geisio eu darbwyllo, dangosai iddynt nerth y Saeson, y "gallai Massachusetts yn y fan godi milocaid o ddynion; ac os bydd i chwi eu lladd hwynt, lleiaw breinin Lloegr eu lle hwynt mor fuan ag y'sgrthiant." "O'r goreu," meddent hwythau, "gadewch iddynt ddyfod, yr ydym ni yn barod iddynt; ond am eich chwi, frawd Williams, yr ydych chwi yn dryn da, ac wedi bod yn garedig i ni am lawer o flynyddau, ni chysylltir â blewyn o'ch pen chwi." Pan welodd efe nad oedd dim yn tycio, a'u bod yn hollol benderfynol i fyned yn mlaen, trodd ei gefn; ond nid ymddengys iddynt ladd neb, na gwneuthur nemawr niwaid i feddianau. Terfynodd y rhyfel hwn yn marwolaeth Phylip, ac o'r bradd y diangodd y Pokanoketiaid a'r Narragansettiaid heb eu llwyr ddynistrio. Yr oedd yr annghydfod a'r ymrafaelion hyn wedi cael eu codi gan yr Indiaid, a phan y daethant yn erbyn y Saeson yr oedd yn ymladdfa am fywyd. Yr ydym yn canfod oddiwrth hyn pa mor uchel oedd Mr. W. yn meddyliau y brodorion, mor bwysig oeddynt y swyddau yr etholid ef iddynt, ac mor fawr yr ymddiried roddid

Digitized by Google

ynddo gan ei gyd-drefedigion ; ac mor llwyr hefyd yr ymgyflwynodd yntau i wasanaeth y drefedigaeth y bu yn offerynol i'w sefydlu. Gallasai yngyfoethogi, o ran cyfleusdra a gafodd ; ond codwyd ef i anrhydedd mewn llwybr nad oes ond ychydig o ddynion mor ffodus a deall am dano. Treuliodd ei gyfoeth a'i amser i wneuthur daioni yn y byd. Bedyddiwr ydoedd Mr. W. Yr oedd amryw o'r enwad hwnw yn mysg y gwladychwyr, ond gan nafi oedd gweinidog yn eu plith, penderfynwyd fod i un Ezekiel Holliman, gwr bucheddol, yr hwn a fu wedi hyny yn weinidog, fedyddio Mr. W., ac wedi hyny bedyddiodd yntau Holliman a deg eraill. Wedi treulio oes faith, lafurus, a gwir ddefnyddiol, efe a fu farw yn 1683, yn 84 oed. Y mae ei ddisgynyddion yn lluosog a pharchus yn yr Unol Daleithiau hyd y dydd hwn ; a chyda llawer o briodoldeb yn teimlo yn falch o'u cyfathrach âg un o'r "Tadau Pererinol" mwyaf clodfawr ac anrhydeddus.

WILLIAMS (Parch. Rowland), periglor Ysgeifiog, a chanon yn Llanelwy. Ganwyd ef yn Mallwyd, Meirion, yn Mawrth, 1772; a derbyniodd ei ddysgeidiaeth yn ysgol ramadegol Rhuthyn. Symudodd oddiyno i goleg Iesu, Rhydychain, lle yr enillodd ysgoloriaeth, ac y derbyniodd y radd o B.A. yn Ionawr, 1802 ; ac M.A. yn Ionawr 1805. Ar ol ei ymadawiad â'r Brifysgol, cawn ef yn ail athraw ysgol ramadegol Bangor, ac yn gwasanaethu Eglwys Llandegai. Yr oedd yn fendith i'r ddau le hyn, yn enwedig y pryd hyny, i gael y fath un i ddal cysylltiad â hwy. Oherwydd nid hir y bu yn Mangor cyn iddo enill eraill i ymuno âg ef i sefydlu "Cymdeithas fuddiol er adeiladaeth eneidiau." Y mae gwaith Esgob Griffith ar Weddi'r Arglwydd, a gyhoeddwyd gan y gymdeithas hon, yn awr o'n blaen, ac ar glawr y gyfrol dywedir, "Y mae'r Gymdeithas yn bwriadu, trwy ras Duw, a chymmhorth Crist'nogion duwiol, gyhoeddi o amser i amser, y fath lyfrau bychain, er hyfforddiad i'r anwybodus a chynnydd gwir Grefydd ymhlith pawb sydd yn ceisio iachawdwriaeth trwy Iesu Grist." Cofid yn hir gyda diolchgarwch yn Llandegai am y daioni a wnaeth tra yn weinidog y plwyf hwnw. Buom yn ymddyddan gyda hen wr 80 oed ar y pwnc, a dyma ydoedd ei dystiolaeth :—"Yr oedd y plwyf hwn mewn cyflwr arswydus cyn dyfodiad Mr. W. i'n plith. Byddem yn ymgynull yn finteioedd ar y Sabbath i ddwyn yn mlaen ein gwahanol chwareuyddiaethau, ond pan ganfyddem ef yn dynesu atom dianger ymaith am y cyflymaf,—ofnem ef fel pe buasai yn 'wr a chleddyf.' Bu mor ddiwyd ac ymdrechgar nes rhoddi yn fuan ddiwedd ar ein campau annuwiol." Yr oedd rhaid bod Mr. W. wedi cyrhaedd gradd uchel mewn dysgeidiaeth cyn y cawsai ei ddewis i'r swydd a lanwai yn Ysgol Bangor: ac fel prawf ychwanegol o hyn penodwyd ef yn gaplan i'r Dr. Cleaver, esgob Bangor ar y pryd. Ar symudiad yr Esgob i Lanelwy daeth a Mr. W. gydag ef, a rhoddodd iddo berigloriaeth Cilcain, sir Fflint. Yn 1809, rhoddwyd iddo ganoniaeth yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy, ond nid ydoedd hyn yn dwyn iddo braidd unrhyw elw. O Cilcain, symudwyd ef i Helygen, yn yr un sir ; ac oddiyno dyrchafwyd ef gan Esgob Luxmoore i berigloriaeth Meifod, lle y treuliodd 17 o flynyddoedd. Yn 1835, penodwyd ef gan yr Esgob Carey yn periglor Ysceifiog, ac o'r plwyf hwn yr ehedodd ei ran anfarwol i dawelwch ei Greawdwr, Rhagfyr 28, 1853. Cynygiwyd i'w berthynasau yr anrhydedd o le beddrod i'w weddillion yn Mhrif Eglwys Llanelwy ; ond mewn cydsyniad â'r hyn a ddymuniasai ef ei hun, dodwyd hwynt i orphwys o fewn maes olaf ei lafur a'i lwyddiant, sef Ysgeifiog. Yr oedd Mr.

Digitized by Google

W. yn wr mawr mewn amryw ystyriaethau. Yr oedd ei adnabyddiaeth o'r Groeg a'r Lladin yn gywir braidd hyd i berffeithrwydd. Anfynych iawn y cyfarfyddid â neb ag yr oedd ei wybodaeth gyffredinol yn fwy helaeth; ymddyddanai yn ddysgedig ar unrhyw destun gyda'r parodrwydd mwyaf; ac fel duweinydd hefyd safai yn dra uchel. Meddyliem na chyfeiliorem wrth ddywedyd ei fod yn un o brif Gymreigwyr ei oes. Penodwyd ef gyda thri eraill gan Esgobion Cymru i arolygu argraffiad newydd o'r Llyfr Gweddi Cyffredin. Efe, am lawer o flynyddau ydoedd asgwrn cefn y cyhoeddiad clodwiw hwnw y *Gwyliedydd*, a bydd i'r erthyglau lluosog o'i eiddo a ymddangosasant yn y misolyn hwnw gadw ei enw yn fyw tra y parhao yr iaith Gymraeg. Bu yn gohebu cryn lawer hefyd i'r *Cambro Briton;* ysgrifenodd hanes bywyd Peter Roberts, yr hynafiaethydd, yr hwn a geir wedi ei ail argraffu yn y *Cambrian Plutarch;* a Chofiant o'r Esgob Griffith. Yr oedd yn ynad heddwch mewn tair o siroedd, sef Meirion, Fflint, a Threfaldwyn; a hynodid ef ar y faine fel dyn addfwyn a gonest; tyner a didderbyn wyneb—yn tymhern cyfiawnder gyda thosturi. Fel offeiriad, yr oedd yn fugail i'w braidd mewn gwirionedd; yn eu harwain mewn pethau ysprydol, ac yn eu cynghori a'u cynorthwyo mewn pethau tymhorol—yn gydymaith i'r cyfoethog, ac yn gyfaill i'r tlawd. Gallesid cymhwyso ato eiriau yr hen batriarch gynt, "Bendith yr hwn oedd ar ddarfod am dano a ddeuai arno, a gwnai i galon y wraig weddw lawenychu; a'r cwyn ni wyddai a chwiliai allan." Priododd yn ieuanc gyda Jane Wynne, merch y Parch. H. Wynne Jones, o Dreiorwerth, Mon; bu iddynt amryw blant, a'r ail fab ydyw y Dr. Rowland Williams, yr hwn a adwaenir trwy yr holl fyd Cristionogol fel un o awdwyr yr *Essays and Reviews.—Ei Fywgraffiad,* gan y Parch. O. Jones, Pentre Foelas.

WILLIAMS (Syr Rowland), bardd ac offeiriad yn ei flodeu rhwng 1590 a 1630. Y mae peth o'i waith ar gof a chadw mewn ysgrifen.

WILLIAMS (Taliesin) *(Taliesin ab Iolo)*, ydoedd fab i'r hynafiaethydd enwog Iolo Morganwg. Ganwyd ef yn Nhreffleming, Morganwg, Gorphenaf 9, 1787. Cafodd addysg ragorol tan ofal ei dad yn benaf, trwy yr hyn y daeth yn alluog i lanw y swydd bwysig o ail athraw yn ysgol gampus y Parch David Davis, o Gastellnedd. Parhaodd i lanw y swydd hono, er boddhad i'r prif-athraw ac anrhydedd iddo ei hun, hyd oni agorodd ysgol ei hunan yn Merthyr Tydfil. Yma y priododd, ac y treuliodd weddill ei oes yn mharch a serch pawb a'i hadwaenai. Meddai holl frwdfrydedd ei dad yn ei gariad at Gymru a'i hynafiaethau; ac anfynych y gwelir tad a mab ar lawer ystyriaeth mor debyg i'w gilydd. Fel yr hen Iolo athrylithlawn, bwriadodd lawer o bethau na chyflawnodd byth mo honynt; ac yn mhlith pethau eraill, bu am 21ain mlynedd yn addlaw bywgraffiad o'i dad, ac yn y diwedd yn marw cyn dwyn yr amcan i ben. Er hyny, gwnaeth amryw gymwynasau teilwng i'w genedl. Cwblhaodd "Gyfrinach y Beirdd," yr hwn a adawodd ei dad ar yr haner, oherwydd anhunedd a gwendidau henaint. Cafodd aml i symbyliad a chymhorth i gyhoeddi y gwaith hwn gan yr enwog Wallter Mechain; ac fel traithawd ar yr hen fesurau barddonol Cymreig, nid oes ei amgenach. Un o ddarganfyddiadau mwyaf pwysig hen fardd Morganwg ydoedd *Coelbren y Beirdd*, sef llythyrenau gwyddor yr Hen Gymry; ond anmheuid ei hynafiaeth a'i dilysrwydd gan rai haneswyr, a thybid mai plentyn dychymyg yr hen Iolo ei hun ydoedd y cwbl. Yn ngwyneb hyn, cynygiwyd gwobr yn

Digitized by Google

1840 am y traithawd goreu ar Goelbren y Beirdd; ac enillwyd y wobr hono gan draithawd campus o waith Ab Iolo, yn iaba un y profai tu hwnt i amheuaeth, tewy ddyfynia lau o waith yr hen feirdd Cymreig, gywirdeb syniadau ei dad ar y pwnc; ac y dangosai'n eglur os mi ei dad a ddyfesiodd y Goelbren, y rhaid mai ofe hefyd oedd wedi dyfeisio llenyddiaeth Gymreig o ben bwygilydd. Dywed y beirniaid mwyaf manylgraff mai yr yargis hwy ddiaams hon ydyw gorchestwaith Ab Iolo. Cyhoeddwyd y traithawd meistrolgar hwn gan Mr. Rees, o Lanymddyfri, tan y teitl, "Coelbren y Beirdd; sef Hanes y Wyddor Farddol, gan Taliesin Williams." Yr oedd yn fardd rhagorol hefyd yn Nghymraeg a Saesneg. Yn 1827, cyhoeddodd bryddestawd Seisnig, tan y teitl, "Cardiff Castle, with historical notes,;" ac yn mhen ychydig mlynedd ar ol hyny, bryddest arall, "The Doom of Cylyn Dolphin," gyda nodiadau eglurhaol ar dravidodiadau ac ofergoelion Morganwg. Cyfansoddodd amryw englynion yn Seisnig, a chyfieithodd amryw bethau o'r iaith hono i'r Gymraeg, gan mwyaf o waith Campbell, yn nghyda llawer o hymnau, caniadau, &c. Enillodd y gadair yn Eisteddfod Caerdydd am ei awdl ar y "Derwyddon." Yr oedd yn feirniad yn Eisteddfodau Merthyr ac Abergafenni, a rhai llai yn yr ardaloedd hyny. Casglodd a golygodd lawer o gyfansoddiadau ei dad, y rhai a gyhoeddwyd tan yr enw, "Iolo Manuscripts," un o'r llyfrau mwyaf dyddorol ar hynafiaeth Gymreig a ddaeth erioed trwy y wasg. Gadawodd luaws o ysgrifeniadau gwerthfawr o'i eiddo ei hun heb eu cyhoeddi, yn mhlith pa rai yr oedd traithodau hanesyddol ar Sion Cent, Glyn Nedd, a Nos Galan Gaeaf. Dylid ereigwyl iddo olygiad argraffiad ac ail gyfrol o "Salmau yr Eglwys yn yr Anialwch" o waith ei dad; ac yn 1836, ail argraffodd yr "Adolygiad ar Hen Lawysgrifau Cymreig," o waith Iolo Morganwg, a ymddangosodd ar y cyntaf yn y *Myvyrian Archæology*. Bu farw yn Merthyr, Chwef. 16, 1847.—Wms. *Eim. Welsh.*; *Y Wawr* am 1850.

WILLIAMS (THOMAS), o Bethesda'r Fro, Morganwg, ydoedd enynydd da, ac a anwyd yn 1761. Ei rieni, Richard a Mary Williams, oeddynt bobl gyfrifol, ac yn byw mewn amgylchiadau o'r enw Freriadyn, plwyf Pendeulwyn, ger y Bontfaen, yn y sir grybwylledig. Cadwodd crefydd argraff yn fore ar ei feddwl, ac nid es cuilaswyd dim modiwn addysg o fewn ei gyrhaedd, ac nid esgeulusodd y tri wneud y goreu o'r cyfleusdra. Pan yn ddegoed, ymunodd gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Nhrehill, gerllaw ei gartref. Priodoedd Jane Morgan, o'r Bremnis, ger Llanilltyd Fawr, ac aethant i wi Fronnion, gerllaw Bethesda'r Fro. Parhaodd yn aelod selog a defnyddiol eyda'r Methodistiaid hyd 1790, pan y diardd ielwyd y Parch. Peter Williams, ac yr Ariaeth dybiedig yn ei Feibl Teulnaidd. Yr oedd T. Williams yn un o'r amoryw wyr annibynol en barn a gre lent fod yr hen ddiwedhydd hybarch yn cael cam oddiar law y Cyfundeb, ac a benderfyniodd aros a yn hwy yn aelod ohono. Gan ei fod yn wr cyfrifol yn ei ardal, ddlynwyd ei yn hyn gan amryw o'i gymydogion; eyn [illegible] yn [illegible] A[illegible]rddawen, lle yr ymgorphorasant yn eglwys, gr [illegible] yn boni cysylltiad âg marhyw enwad arall. Par[illegible] fel y am [illegible] gandd na gweinidog na par[illegible] yn [illegible]; yna [illegible] fod defnyddiau pr gethwr yn T. W., ac aroegodd [illegible] yn. Yn raddol, ymwelo rhai o bregethwyr y [illegible] yr Ariaid yr A'r lle, ac o'r diwedd munodd yr eglwys [illegible] ac felly y parha hyd heddyw. Ymddengys ddariod iddi yn fuan wedi hyn,

Digitized by Google

sef yn 1806, adeiladu at ei gwasanaeth gapel Bethesda. Bu Mr. W. yn gweinidogaethu ar yr eglwys hon am ugain mlynedd, gyda gradd o lwyddiant, ond nid mor lwyddianus ag y gallesid disgwyl. Cododd gapel arall, sef Myrstwn, yn agos i'r un lle. Yn mhrydnawn einioes symudodd o Ffonmon i Drefflemin, a chyfarfyddodd âg amryw drallodion teulnaidd yn y lle hwnw; sef marwolaeth ei wraig, yr hyn a gymerodd le Hydref 24, 1827, ei unig ferch, a mab. Bu ef fyw nes cyrhaedd yr oedran teg o 84, pryd y bu farw mewn heddwch, Tach. 23, 1844. Yn 1811, cyhoeddodd lyfryn o'r enw "Dyfroedd Bethesda; sef Hymnau ar amryw destynau, a chaniadau ar amryw ystyriaethau." Daeth ail argraffiad ohono allan yn 1823, a thrydydd yn 1842. Y mae ei emynau gan mwyaf yn ystwyth a llithrig, ac amryw ohonynt mewn arferiad yn nghysegroedd ein gwlad; yn mhlith eraill gellir enwi—

"Ar bellderau tragwyddoldeb.
"Torf o mrodyr sydd yn gorwedd.
"Maen yn Sion a sylfaenwyd.
"O'th fiaen, O Dduw, 'rwy'n dyfod.
"Tawed pawb a son am haeddiant.

Meth. Cymru iii. 95; *Her. Cymraeg*, Tach. 26, '69.

WILLIAMS (Thomas), ydoedd fab i Owen Williams, o'r Cefn Coch, plwyf Llansadwrn, Mon, yr hwn ydoedd amaethwr cyffredin. Dywedir iddo gael rhyw doraeth o arian yn y ddaear wrth aredig yn un o'i feusydd, ac â'r arian hyny dygodd ei feibion i fynu yn gynghorwyr yn y gyfraith. Gwasanaethodd Thomas ei amser arferol fel breintwas i gyfreithiwr yn Ninbych, o'r enw Mr. Llwyd, merch yr hwn a briododd; ac wedi hyny ymarferodd â'i alwedigaeth ei hunan gyda llwyddiant mawr. Ar y cyntaf, bu yn byw yn hen balas Llanidan, Mon; a chafodd oruchwyliaeth gweithiau efydd mynydd Parys, o dan Iarll Uxbridge, a'r Parch. Edward Hughes, tad y diweddar arglwydd Iaf Dinorben. Wedi hyny, cafodd gyfran yn y gwaith hwnw. Cyfododd y gwaith i fri llwyddianus o dan ei oruchwyliaeth ef, nes yr oeddid yn codi pedair mil o dunelli o efydd yn flynyddol. Sefydlwyd todd-dai mewn amryw fanau yn y deyrnas, ac yr oedd gwerth yr holl drafodaeth yn llawn filiwn o bunau; a Mr. Williams ei hunan oedd yn goruwch-lywyddu y cyfan. Am beth amser bu ymryson rhyngddo â Chymdeithas Gweithiau Cernyw; yr hyn o'r diwedd a derfynodd mewn math o gydweithrediad cyfamodol; yr hyn a dueddai i ddinystrio yr holl fân-gymdeithasau trwy y deyrnas. Dygwyd ysgrif i'r Senedd er atal y gribddeiliaeth hon; eithr methodd a myned yn gyfraith. Darfu i hyn symbylu cymdeithasau Birmingham i ymgydio yn un, a phrynu mwngloddiau yn Nhernyw, ac adeiladu toddai yn Abertawy, yr hyn a achlysurodd i'r cyfamod rhwng perchenogion Mynydd Parys gael ei roddi i fynu. Yr oedd Mr. Williams yn meddu deall cryf a chyflym, a chanddo lygad craff at fasnach; ac yn ddiymdroi gyda'i holl gynlluniau, fel yr oedd pob peth a gymerai mewn llaw yn llwyddo. Gadawodd ar ei ol gyfoeth o ddim llai na chwarter miliwn o bunau. Yr oedd ganddo gymaint a phump o balasau, mewn pump o siroedd gwahanol. Y mae ei enw a'i fri yn cael yn awr ei gynrychioli yn Mr. Williams, Craig-y-Don, Mon. Bu farw yn Nghaerbaddon, Tachwedd 30, 1801; a chladdwyd ef yn Llanidan; ond symudwyd yr holl gyrph oddiyno tua'r flwyddyn 1844, i fynwent Llandegfan.—*Lleyn MSS.*

WILLIAMS (Thomas), bardd meistrolgar, a adwaenid hefyd wrth yr enw *Twm Pedrog*, ydoedd frodor o Lanbedrog, yn Lleyn, sir Gaer-

Digitized by Google

narfon. Bu am ran o'i oes yn gwasanaethu ar fwrdd llong ryfel yr *Amathyst*. Y mae awdl yn y *Brython* iv. 28, o'i waith i "M. W. P. (B.B.) ac A. F.," a gyfansoddodd efe ar fwrdd y llong hono yn 1800. Ceir hefyd yn yr un cyhoeddiad iv. 110, englynion a wnaeth "Wedi colli ei Gariad;" ac yn v. 468, gywydd i'r "Onen wrth yr Ardd Wair."

WILLIAMS (THOMAS), a anwyd ac a fagwyd yn y Ty-ffwrn, ger y Fronheulog, tua haner y ffordd rhwng Llanfyllin a Llanfihangel-y Gwynt, neu Wynfe, sir Drefaldwyn. Gwehydd ydoedd wrth ei gelfyddyd, digon isel ei amgylchiadau, a helbulus ei fyd. Er mai ychydig o fantcision addysg a gafodd, gallai ddarllen ac ysgrifenu yn well nag odid neb yn yr un gymydogaeth ag ef. Cyfansoddodd y Salmau ar Gân, tan yr enw, "Telyn Dafydd, sef cyfansoddiadau o Lyfr y Salmau ar amrywiol a gwahanol fesurau," 1821; a "Newyddion Gabriel, neu Lyfr Carolau," 1825.—*Lleyn MSS.*

WILLIAMS (THOMAS), a anwyd yn Abererch, Eifionydd, sir Gaernarfon, yn 1771. Ni chafodd ddysgeidiaeth. Dygwyd ef i fynu yn saer llongau. Ei hynodrwydd oedd ei ddyfais i gerfio lluniau i addurno llongau. Yr oedd yn nodedig hefyd fel rhifyddwr y meddwl cyflym—gwnai unrhyw swm a ofynid ganddo. Yr oedd yn hyddysg iawn mewn hanes gwledydd, hanes cenedloedd, a hanes eglwysig. Gwnaeth Bedwarant y Morwr o'i ddyfais ei hun, ac offeryn arall i wybod yr hydred ar y mor. Dangoswyd hwn i foneddigion Bwrdd Llynges Brydain, a chanmoient ei fedrusrwydd yn fawr. Bu farw yn Nghaerodor, yn nhy ei ferch, yn 1847, yn 76 oed.—*Y Wawr* am 1850.

WILLIAMS (THOMAS), o Drefriw, ieithwr a meddyg dysgedig, neu fel yr adwaenid ef oreu yn ei wlad ei hun, Syr Thomas ab William, ydoedd fab i William ab Thomas ab Gronwy, yr hwn a hanai o du ei dad o Ednywain Bendew, un o Bumtheg Llwyth Gwynedd; a'i fam ydoedd Catherine, merch naturiol i Meredydd Wynn ab Ifan ab Rhobert, o Wydir, ger Llanrwst. Yn ol tystiolaeth T. W. ei hun, yn ei "Lyfr Achau," ganwyd ef mewn lle o'r enw Ardde'r Myneich, wrth droed y Wyddfa, yn nghwmwd Llechwedd Isaf, sir Gaernarfon. Addysgwyd ef yn mhrifysgol Rhydychain, lle y cafodd y radd o M.A., fel aelod o goleg Brazenose, yn 1573. Wedi hyny, ymroddodd i efrydu physigwriaeth, a dychwelodd i'w wlad i ddilyn yr alwedigaeth hono, cyn cymeryd ohono unrhyw radd ynddi. Ei waith llenyddol cyntaf ydoedd, "Prif achau holl Gymru Benbaladr." Dywed ddarfod iddo ddechreu ei gasglu yn 1578; iddo ei helaethu yn 1585; a chwanegu llawer ato yn 1609. Nid argraffwyd y llyfr hwn erioed, a thyna dynged ei holl weithiau eraill. Ysgrifenodd lyfr hefyd o gyfarwyddiadau meddygol, copi o'r hwn mewn llawysgrifen sydd yn awr yn meddiant Ioan Lleifiad, Liverpool; a llyfr arall ar ser-ddewiniaeth. Ond ei lenorwaith ardderchocaf, a'r un a'i gesyd yn rhestr flaenaf ysgolorion, ydyw ei Eiriadur Lladin a Chymraeg. Y mae y gwaith hwn yn arddangos ymchwiliad mawr, ac yn werthfawr neilldiol ar gyfrif y dyfyniadau lluosog a geir ynddo o lawysgrifau amnghyhoeddedig yr hen feirdd; a phe cyhoeddid ef, hyd yn nod yn bresenol, byddai yn gaffaeliad gwerthfawr i ieithyddiaeth. Nid yw y talfyriad ohono, a geir gan Dr. Davies, Fallwyd, meddai awdwr dysgedig yr *Eminent Welshmen*, yn ddim ond cynwysiad byr, a chafodd ef gyfleusdra i gydmaru y ddau waith â'u gilydd. Mewn llythyr, dyddiedig Hydref 21, 1620, cynygiodd ei noddwr a'i gyfathrachwr Syr John Wynne o Wydir lwybr iddo trwy yr hwn y gallai gyboeddi y Geiriadur; ond ymddengys nad

Digitized by Google

oedd y telerau wrth ei fodd, canys dywed mewn atebiad :—"Parth y Geiriadur Lladin a Chymraeg, yr hwn trwy lafur a gwaith mawr, fel y gwyr Duw, y buom yn ei gyfansoddi am haner can' mlynedd, nid wyf yn gweled fawr obaith am nemawr gydnabyddiaeth i'm llafur; a chan hyny, ni thraddodaf ef ar frys i'r gwyr hyn, addewidion y rhai a gyflawnir ond anfynych—Duw a dalo i chwi am eich caredigrwydd. Duw wyr fy mod i, yn ystod y pedair blynedd y buom yn ei ysgrifenu, mor llwyrymroddol i'r gwaith, fel mai mynych pan y deuwn oddiwrth y llyfr, nas gwyddwn pa ddydd o'r wythnos ydoedd, a thrwy hyny collais fy mywiolaeth a fuasai erbyn hyn yn werth rhai canoedd o bunau: ac yn y cyfamser, gallaswn fod yn dihoeni gan newyn, pe na buasai i Dduw a'ch arglwyddiaeth gofio am danaf." Y mae y gwaith gwreiddiol yn llawysgrif yr awdwr yn awr yn nghadw yn Llyfrgell Hengwrt, ac yn cynwys tair cyfrol pedwar plyg. Y mae y titl wedi ei ddyddio 1604 a 1608, ac ymddengys mai yn y flwyddyn olaf y cwblhaodd efe y gwaith. Y mae llawysgrifau eraill o waith yr un awdwr dysgedig yn nghadw yn yr un Lyfrgell werthfawr; ac yn eu plith, "Llyfr Prophydoliaethau Cymraeg a Saesneg a Lladin, o law Sir Thomas Williams." Cyfansoddodd Lysieulyfr helaeth yn Nghymraeg, Saesneg, a Lladin, yn cynwys hanes pob math o lysiau a'u cyneddfau. Pabydd ydoedd o ran ei farn; ac fel y cyfryw, gwysiwyd ef gerbron Llys Eglwysig Bangor, Mai 23, 1606, tan yr enw, "Thomas Williams, alias Dns Thomas Williams, de Trefryw, eo quod recusat venire ad Ecclesiam." A Tach. 12, 1607, gwysiwyd ef gan lys cyffelyb y Brif-ddinas, tan yr enw, "Dns T. Williams recusans excommicatur." Dywed yr Esgob Humphreys iddo glywed ei dad yn dywedyd ddarfod i'r foneddiges Bodfel ei hysbysu ef o'r hanes canlynol. Pan oedd ei thad, Syr John Wynne o Wydir ar fedr cychwyn i'r Senedd y ceisiodd Brad y Powdr Gwn ei chwythu i fynu, rhybuddiwyd ef gan Thos. Williams, ac atolygodd yn daer arno beidio myned i fynu y tymhor hwnw, yr hyn a brawf fod ganddo rhyw wybodaeth am y Frad, a'i fod yn awyddus i arbed bywyd ei noddwr. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Nhrefriw, a dywed traddodiad ei fod yn gurad y plwyf hwnw. Er na chydsaif hyny â phrif ffeithiau hanesyddol ei fywyd, eto y mae yn iawn hysbysu fod yno gurad o'r enw yn 1573, a'i fod yntau yn dodi *Syr* o flaen ei enw, yr hyn a ddengys ei fod mewn urddau eglwysig.—Wood's *Athen. Oxon.; Cambrian Register;* Wms. *Em. Welsh.*

WILLIAMS (Parch. William) Llandeilo, gweinidog enwog a hyawdl gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef yn yr Hafod, plwyf Llangathen, sir Gaerfyrddin, Ionawr 12, 1811. Hanai o rieni duwiol, y rhai oeddynt yn aelodau eglwysig yn Nghapel Isaac. Eu henwau ydoedd Henry ac Elizabeth Williams, amaethwyr yn byw yn lled gysurus. Bu ei dad yn llanw swydd diacon amryw flynyddau. Gwrthddrych hyn o hanes ydoedd yr ieuangaf o bedwar o blant. Byddai rhoddi hanes manwl a chyflawn o gylchredfad y seren ddisglaer hon yn fwy nag a ddisgwylir yn y llyfr hwn. Ysgrifenodd y diweddar Barch. J. Williams, Castellnewydd, fywgraffiad dyddorol ohono; ac oddiwrth y traethiad hwnw, ymddengys ei fod er yn blentyn yn meddu gallu oedd meddyliol bywiog a grymus iawn, ond eu bod ar y pryd yn rhedeg mewn oferedd. Ond pan yn 17 oed, argyhoeddwyd ef o ddrwg pechod, ac o'i angen ysprydol. Y mae yr hyn a ddywed ef am dano ei hun yn deilwng o'i ail-argraffu :—"Er fy mod wedi fy magu mewn teulu duwiol a chrefyddol iawn, er fy mod wedi ymarfer â phethau crefyddol—yn darllen y Gair, ac yn ei

Digitized by Google

wrando yn cael ei bregethu yn feunyddiol, yn cyduno gyda phobl Dduw mewn pethau crefyddol, ac yn ddieuog o unrhyw bechodau gwarthus, eto yr oeddwn yn hollol annuwiol." Derbyniwyd ef yn aelod o Gapel Isaac; a dadblygwyd yn fuan ei gyneddfau meddyliol, ei ddoniau, ei athrylith, a'i ogwyddiadau moesol, nes cynyrchu yn mynwesau ei gyfeillion obeithion ei fod wedi ei ddarparu i lanw cylch mwy cyhoeddus. Rhoddodd yr eglwys anogaeth iddo i ddechreu pregethu; ac yn fuan, aeth i'r ysgol i Rydybont, a gedwid gan y Parch. W. Jones, er hyfforddi gwyr ieuainc yn egwyddorion cyntaf dysgeidiaeth. Cynyddodd yn ddirfawr yno, yn ol yr amser y bu yn y lle; a rhoddodd ei alluoedd meddyliol, ei ddiwydrwydd, ei rym a'i ddyfalbarhad mewn gweddi, a'i dduwioldeb yn gyffredinol, foddlonrwydd cyffredinol i'w athraw. Y mae yn debyg nad oedd ei amcanion ef na'i gyfeillion wedi eu codi yn ddigon uchel gyda golwg arno y pryd hwnw, onide buasai yn ymestyn am ychwaneg o fanteision dysgeidiaeth. Nid oedd efe ar y pryd yn meddwl am ddim mwy na gallu deall awduron Seisnig yn dda—aros gartref i ddwyn yn mlaen achosion y tyddyn—a phregethu yn gynorthwyol yn yr eglwys a'r gymydogaeth. Yn fuan wedi ei ymadawiad o'r ysgol, rhoddodd eglwys y Tabernacl, ger Llandeilo, ac eglwys fechan Llansadwrn, alwad iddo. Urddwyd ef i'r swydd yn ngwanwyn, 1835. Ymddengys, oddiwrth ei hanes, ei fod yn annghyffredin iawn am ei dduwioldeb—yn un o rai rhagorol y ddaear mewn sanctaiddrwydd calon a buchedd, fel yr oedd ei holl feddylfryd a'i deimladau wedi eu henill yn gwbl'gan bethau ysbrydol. Yr oedd yn gyfaill gwresog, ffyddlawn a diysgog. Ymddengys mai prif deithi ei feddwl fel gweinidog ydoedd penderfyniad, bywiogrwydd, gwroldeb, a doethineb i ddwyn y pethau hyn i weithrediad i ateb yr amcanion goreu, heb niweidio ei hun, ei gyfeillion, na'r achos a bleidiai. Nodweddiad benaf ei weinidogaeth ydoedd symledd; a'r nod a osodai iddo ei hun yn mhob peth a wnelai, yn ddirgel a chyhoeddus, ydoedd yr amcan goruchel o leshau eneidiau. Yr oedd yn ei weinidogaeth fel pe byddai ei holl egni ar waith er dwyn yn mlaen yr amcan uchod. Yr oedd yn weinidog o ysbryd cyhoeddus a diwygiadol—yn deall ei oes, ac yn ymgyrhaedd yn egniol am fyned yn mlaen gyda hi, trwy ddal gafael ar ddirwest a phob moddion a chyfleusderau eraill er diwygio ei gydgenedl. Yr oedd ei ddawn, pereidd-dra ei lais, llithrigrwydd ei ymadrodd, a'i fedr i draethu Gair Duw yn eglur, tarawiadol a ffyddlawn; a derbyniai gymeradwyaeth y lluaws fyddai yn ei wrando. Dilynwyd ei weinidogaeth â llwyddiant anarferol, fel y tystid gan luaws mawr yn Liverpool, Llandeilo, Llansadwrn, a Llangadog, lle y dygwyd llawer at Dduw trwy ei offerynoliaeth yn y tymhor byr y bu yn llafurio. Er fod nerth, llymder, a threiddgarwch annghyffredin yn ei weinidogaeth, fel y gafaelai yn meddyliau ei wrandawyr, ac y byddai cynulleidfaoedd mawrion fel yn crogi wrth ei wefusau; eto, rhaid addef fod y cyfnod yr ymddysgleiriai ef ynddo yn un effro ar grefydd yn Nghymru. Rhedodd ei yrfa pan yr oedd haul diwygiad yn tywynu ar y wlad, ac ni theimlodd nemawr oddiwrth y marweidd-dra sydd yn gordoi crefydd yn rhy aml. Adfywiodd yr eglwys yn y Tabernacl yn fawr tan ei weinidogaeth, a chwanegwyd ati ugeiniau lawer. Yn 1840, tynwyd yr hen addoldy i lawr, ac adeiladwyd un llawer helaethach. Ond yn nghanol ei ddefnyddioldeb a'i lwyddiant, gwanychodd ei iechyd fel yr oedd yn amlwg yn fuan fod haul ei fywyd yn machludo yn nhywyllwch angau, a hyny yn nghanolddydd ei fywyd. Meddylid fod yr afiechyd wedi ei achlysuro

Digitized by Google

trwy gael gwely llaith pan oddicartref, ac iddo yntau fod yn esgeulus ohyny ar y cyntaf. Er pob ymdrech o eiddo meddygon, ac ymgeledd pryderus cyfeillion, ei natur a wanhaodd, a bu farw Medi 6, 1846, yn 34 mlwydd oed, a'r 11eg mlwyddyn o'i weinidogaeth. Claddwyd ef yn mynwent y Tabernacl. Ymunasai mewn priodas gyda Mrs. Morgan, gwraig dduwiol a hawddgar, yr hon a fu yn ymgeledd gymhwys iddo tros yr ychydig fisoedd y parhaodd eu hundeb.

WILLIAMS (SYR WILLIAM), gwladweinydd a chyfreithiwr enwog, a anwyd yn Nantanog, Mon, yn 1634. Yr oedd ei dad, y Parch. Hugh Williams, B.D., yn rector Llantrisant, yn y sir hono, ac yn fab i Wm. Williams, o'r Chwaen Isaf, yr hwn oedd yn y 14eg genedlaeth o Gadrod Hardd, yr hwn yn yr 11eg ganrif a fu yn preswylio yn Nhrefadog, plwyf Llanfaethlu. Ei fam, Emma, ydoedd unig ferch ac aeres John Dolben, Ysw., o'r Caeau Gwynion, ger Dinbych, a nith i'r esgob Dolben. Derbyniwyd ef i Rydychain, a daeth yn ysgolor o goleg Iesu yn 1652; arosodd yno am ddwy flynedd, pan y symudodd i *Gray's Inn*, lle y daeth yn far-gyfreithiwr. Yn 1667, dewiswyd ef yn gofnodydd Caerlleon, a dynodir ef tua'r amser hwn gan hanesydd lleol fel "gwr boneddig ieuanc craff iawn." Ar doriad allan y Frad Babaidd, cymerodd ef ochr y blaid mewn awdurdod, ac etholwyd ef yn aelod seneddol tros Gaerlleon yn y senedd a gyfarfu yn Westminster Mawrth 6, 1678, ac hefyd yn Hydref 17, 1679; a'r un a gyfarfu yn Rhydychain, Mawrth 21, 1680; a dewiswyd ef yn ystod y ddau eisteddiad olaf yn Llefarydd Ty y Cyffredin. Etholwyd ef wedi hyny tros fwrdeisdrefi Mon, a sir Gaernarfon. Pan dorodd y Frad Bresbyteraidd allan yn 1682, dewiswyd ef yn bleidiwr i'r sawl a gyhuddid, yn enwedig i John Hampden, Laurence Braddon, a Syr Samuel Barnardiston. Fel Llefarydd Ty y Cyffredin, dygwyd cyhuddgwyn yn ei erbyn am beri cyhoeddi athrod ar foneddwr o'r enw Thomas Dangerfield; a dirwywyd ef gan y llys, yn mha un yr eisteddai yr Ynad Jeffreys, i £10,000, a dywedir y bu raid iddo dalu wyth mil ohonynt. Priodola Roger North lymder y ddirwy hon i ysbryd dialgar Jeffreys, yr hwn a wysiasid ar ei liniau at far Ty y Cyffredin, ac a geryddasid gan Williams yn y swydd o Lefarydd. Wedi hyny, cyhoeddodd y Senedd fod y ddirwy yn annghyfreithlawn. Yr oedd yn un o gyfreithwyr enwocaf ei oes; ac ymddengys oddiwrth weithrediadau y Senedd a'r prawfiadau gwladol, ei fod yn ddadleuydd gwresog a doniol tros hawliau y werin yn amser Siarl II. Ar esgyniad Iago, daeth i ffafr y llys, a gwnaed ef gan y teyrn hwnw yn Gynghorydd Cyffredinol yn lle Syr Thomas Powis, yr hwn a ddowisasid yn Gyfreithiwr Cyffredinol yn Rhag. 1687, ac ar ei esgyniad i'r swydd hono rhoddwyd iddo yr urdd o farchog. Gwnaed ef yn farwnig hefyd yn Mehefin, 1688. Fel Cynghorydd Cyffredinol, efe a erlynai yr Esgobion, a chymerodd lawer o boen i'w cael yn euog. Pan y rhyddhawyd hwynt, torodd banllef uchel trwy yr holl Neuadd, a gwenai Arglwydd Jeffreys, yr hwn oedd yn eistedd yn Llys y Canghellydd gerllaw, wrth ei glywed, canys gwyddai fod y Sel Fawr wedi ei haddaw i Syr William, os llwyddai i ddwyn y cyhuddiad i derfyniad llwyddianus. Argraffwyd amryw o'i areithiau yn y Senedd, ac y mae hono ar fwriad allan Syr Robert Peyton o Dy y Cyffredin yn engraifft nodedig o arddull arw yr oes hono. Ar ol y Chwyldroad, penodwyd ef yn un o gynghorwyr y Brenin; a gweithred seneddol olaf ei fywyd ydoedd dwyn allan y *Treating Act*, yr hon a basiodd yn gyfraith, ac

Digitized by Google

sydd yn parhau eto yn un o ddyogelfeydd purdeb seneddol. Efe a briododd yn 1664 Margaret merch ac aeres, Mr. Kyffin, o'r Glascoed, plwyf Llansilin, sir Ddinbych. Gadawodd ddau fab, a'r hynaf, Syr Wm. Williams o Lanforda, a briododd aeres gyfoethog arall, sef Jane, merch Edward Thelwall, Ysw., o Blasyward, yn Nyffryn Clwyd, ac efe oedd tad y Syr Watkin cyntaf, a thaid trwy ei drydydd mab Richard, yr hwn a briododd aeres y lle hwnw, i Watkin Williams, Ysw., o Benbedw. Yr oedd John, mab ieuengaf y Llefarydd, yn gyfreithiwr enwog, ac yn dilyn ei alwedigaeth yn Nghaerlleon, ac yn gyndad i Syr Hugh Williams o Fodelwyddan. Bu farw yn *Gray's Inn*, yn Mehefin, 1700, yn 66 oed; a chladdwyd ef yn nghangell eglwys Llansilin, lle y mae cofnod Lladin parchus am dano.—Wms *Em. Welsh.*

WILLIAMS (Parch. William), o'r Wern, un o brif bregethwyr Cymru. Ganwyd ef mewn cilfach neillduedig o'r enw Cwmbyswn Ganol, yn mhlwyf Llanfachreth, Meirion, yn 1781. Yr oedd ei rieni, William a Jane Probert, yn dal tyddyn o dir, a gair da iddynt. Yr oedd ei fam yn aelod dichlynaidd gyda'r Trefnyddion Calfinaidd; nid yw'n hysbys ddarfod i'w dad erioed broffesu gydag un enwad, er ei fod yn wrandawr cyson, ac yn arfer cadw dyledswydd yn rheolaidd. Bu iddynt saith o blant, ac yr oedd William er yn blentyn yn hynod ar y plant eraill, o ran ei dymher lawen, fywiog, a chwareus, fel yr arferai ei dad ddywedyd yn aml am dano na wyddai yn y byd pa beth i'w feddwl ohono, a'i fod yn ofni y byddai yn *od* ar holl blant y gymydogaeth; ac yn wir, felly y bu, ni fagwyd o'r blaen ei gyffelyb yn yr ardaloedd hyny, nac ar ei ol ychwaith, hyd yma. Digwyddodd iddo, pan oedd oddeutu 13 oed, fyned i wrando Mr. Rees Davies, Saron, sir Gaerfyrddin, yn pregethu mewn lle a elwir Bedd y Coedwr, pryd yr ymaflodd y gwirionedd gyda nerth ac awdurdod mawr yn ei feddwl. Cyn ei fod yn 14 oed, ymunodd â'r eglwys Annibynol yn Pen y Stryd, Trawsfynydd, y pryd hyny dan ofal gweinidogaethol y Parch. W. Jones. Derbyniwyd ef yn gyflawn aelod eglwysig cyn ei fod yn 15 oed, yr hyn oedd beth tra annghyffredin yn y dyddiau hyny. Yr oedd yn nodedig o ffyddlawn, diwyd, ac ymdrechgar, gyda moddion gras; anfynych iawn y byddai na phregeth na chyfarfod gweddi, na chymdeithas grefyddol, mewn un man yn y gymydogaeth heb ei fod ef yno. Yr oedd arno gryn ofn cael ei gymhell i fyned i weddi gyhoeddus yn y teulu neu mewn cyfarfod, oherwydd, fel y dywedai lawer gwaith wedi hyny, y buasai plant eraill, y teulu, a'r gymydogaeth, yn disgwyl iddo fyw fel sant perffaith byth wedi hyny. Pa fodd bynag, un noson, pan oedd wedi aros ar ei draed gyda'i fam, wedi i eraill o'r teulu fyned i'w gwelyau, aeth hi i weddi gydag ef, ac wedi terfynu, dywedodd wrtho, "Dos dithau dipyn i weddi, Wil bach;" yntau a aeth. Yr oedd ei frawd hŷn nag ef yn digwydd bod yn effro, ac yn clywed, ac edliwiai iddo dranoeth gan ei alw "Yr hen weddiwr." "Yr oedd arnaf beth cywilydd," meddai, "ond bu arnaf lai o ofn a chywilydd byth wedi hyny." Bu mewn trallod a gwasgfa nid bychan o ran ei feddwl yn nechreu ei grefydd. Arferai ddywedyd na wyddai yn y byd beth a wnaethai iddo ei hun, oni buasai Aberth y Groes. Cafodd waredigaeth hynod tua'r amser hwn. Pan yn tori coed yn Penybryn, Llanfachreth, syrthiodd pren arno, a drylliodd ei het yn chwilfriw, ond ni phrofodd ef unrhyw niwed. Gwnaeth y tro argraff ddwys ar ei feddwl, a chrybwyllai yn aml am dano gyda diolchgarwch. Pethau crefydd oeddynt destynau gwastadol ei ymddyddanion gyda'i gyfeillion; a

Digitized by Google

chofia y rhai ohonynt sydd eto yn fyw am ei ymholion a'i sylwadau gyda hiraeth a llawenydd. Sylwodd yr eglwys arno yn lled fuan, a deallodd ei fod yn llestr etholedig i waith mawr y weinidogaeth; ei fod yn dechreu magu esgyll oeddynt rhyw ddiwrnod i'w godi oddiwrth y ddaear a'i galwedigaethau i "ehedeg yn nghanol y nef," gyda'r efengy dragwyddol; ac felly, cyn ei fod yn 19 oed, anogodd ef i ddechreu pregethu. Pan soniwyd gyntaf wrtho am hyn, bu am beth amser megys wedi ei orthrechu gan gymysg deimladau o ofn a llawenydd. Pryderai, anmheuai; ond wrth ddarllen ei Feibl, a llyfrau da eraill, a thaer weddio am oleuni ac arweiniad Dwyfol, daeth i'r penderfyniad, fel y dywedai, i wneuthur ei oreu dros ei Dduw. Felly ymaflodd yn y gwaith, a phregethai yn Mhen y Stryt, ac mewn tai yn y gymydogaeth, gyda mawr gymeradwyaeth. Nid oedd wedi cael nemawr ddim ysgol, ond dysgasai ddarllen Cymraeg er yn lled ieuanc. Nid oedd ond ychydig o lyfrau Cymraeg o werth eu darllen i'w cael y pryd hwnw. Y llyfrau a hoffai fwyaf, heblaw y Beibl, oeddynt gwaith Eliseus Cole ar "Benarglwyddiaeth Duw," a llyfr o waith Hall wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg. Yr oedd ei chwaer, Catherine, yn cyd-ddechreu proffesu âg ef, ac yr oeddynt yn hynod o hoff o'u gilydd. Byddai ef yn arfer myned, a'i lyfrgell fechan gydag ef, o'r neilldu i le dirgel, oddiar ffordd ei dad; a phan y deuai holi am dano i gyflawni rhyw swydd neu neges, megys porthi neu ddyfrhau'r anifeiliaid, rhoddai ei chwaer yn uniongyrchol i'w gwneud, er mwyn iddo ef gael llonydd a heddwch gyda'i lyfrau. Yn y sefyllfa isel hon, a than yr anfanteision mawrion hyn, y dechreuodd ei enaid disgleirwych ymwthio allan i olwg y byd. Wedi bod ohono yn pregethu oddeutu cartref a manau eraill yn achlysurol am oddeutu dwy flynedd, aeth i ysgol yn Aberhafesp, gerllaw y Drefnewydd, sir Drefaldwyn; ni bu yno ond oddeutu wyth neu naw mis; wedi hyny dychwelodd adref, ac aeth i Wrecsam, a derbyniwyd ef i'r athrofa yno yn 1803, ag oedd y pryd hyny o dan ofal athrawaidd yr hybarch Jenkin Lewis. Yr oedd yr amser hwnw yn tynu at 22ain oed. Pan aeth gyntaf i Wrecsam, yr oedd mor hollol Gymreigaidd, fel na allai roddi ar ddeall i Mrs. Lewis, yr hon oedd Saesones, pa beth oedd ei neges, a chan nad oedd Mr. Lewis gartref ar y pryd, bu raid anfon allan am gyfieithydd rhyngddynt. Nid cymaint o gynydd mewn dysgeidiaeth ieithyddol a gyrhaeddodd yn yspaid y pedair blynedd y bu yn yr athrofa. Gellid priodoli hyny, yn un peth, i ddiffyg ysgol yn ei dymhor bachgenaidd. Yr oedd raid iddo ef ddechreu yn y dosparth isaf megys. Ei hoff waith ydoedd chwilio i mewn i egwyddorion athroniaeth naturiol a moesol, yn enwedig egwyddorion duwinyddiaeth; felly, nid oedd Mr. Williams, y mae yn wir, yn ddyn dysgedig yn yr ystyr a roddir yn gyffredin i'r gair dysgedig, sef cyfarwydd-deb a hyddysgrwydd mewn ieithoedd; eithr os priodol galw dyn cyfarwydd âg egwyddorion natur, y meddwl, a'r Ysgrythyr, yn ddyn dysgedig, yna, yn ddiau, yr oedd Mr. Williams yn un o ysgolheigion penaf ei oes. Pa fodd bynag, dysgodd gymaint tra yn yr athrofa ag a'i galluogai i bregethu yn Saesneg, a digon o Roeg a'i gwnelai yn alluog i ddefnyddio rhyw gymaint ar yr iaith hono. Trwsgl ydoedd ei leferydd yn Seisnig, fel y gellid disgwyl i un wedi tyfu i'w oedran ef, cyn dysgu gair ohoni, i fod. Ni fyddai un amser yn mron mewn diffyg o eiriau i osod allan ei feddwl, ond yn seiniad ac aceniad y geiriau y byddai yn colli. Arferai ddywedyd nad oedd ei dafod ef wedi ei wneuthur na'i fwriadu i barablu Saesneg. Ond er ei fod yn safndrwm a thafod-drwm yn yr iaith hono,

Digitized by Google

ni wnai hyn yn esgus a dadl, fel y gwnai Moses gynt, rhag pregethu ynddi, pan fyddai galwad arno; ac nid anfynych, ond yn wir yn dra mynych, y ceisid hyny ganddo. Byddai y Saeson, yn mhob man ag yr oedd yn adnabyddus iddynt yn neilduol o hoff o'i wrando. Cai gynulleidfaoedd lluosog iawn i'w wrando yn Ngwrecsam, Croesoswallt, a lleoedd eraill. Y mae yn chwedl am dano ddarfod iddo ddywedyd wrth ei athraw, pan ar ymadael â'r athrofa, ei fod yn coelio na'l ymadawsai nemawr un oddiyno yn onestach nag ef; gan olygu nad oedd yn dwyn rhyw ystor o ddysgeidiaeth ieithyddol gydag ef oddiyno. Pan anogid ef gan rai cyfeillion i aros yn yr athrofa dros rhyw gymaint o amser yn hwy, "Na, na," eb efe, "os felly, bydd y cynhauaf drosodd tra fyddwyf fi yn hogi fy nghryman." Yn ystod ei dymhor athrofaol y dechreuodd ei dalentau ysplenydd fel pregethwr ymddadblygu ac ymddysgleirio, yr hyn sydd yn brawf ddigonol nad rhyw lawer a arosai ei feddwl yn mhorfeydd y gramadegau. Rhagorai y rhan fwyaf o'i gydfyfyrwyr arno wrth adrodd y gwersi gerbron yr athraw; tallai yntau hwythau i'r cysgodion yn yr areithfa gerbron y gynulleidfa. Yn ystod ei arosiad yn yr athrofa, cafodd alwad gan eglwys barchus a lluosog Horeb, sir Aberteifi, ond yr oedd maes arall wedi ei fwriadu iddo. Gadawodd yr athrofa yn 1807, a daeth i'r Wern a Harwd ar brawf. Yr oedd yr eglwysi a'r ardaloedd hyn wedi cael digon o brawf o'i ddoniau a'i weinidogaeth tra yn yr athrofa, oblegyd mai y myfyrwyr o Wrecsam a gynaliasent bregethu ynddynt, gan mwyaf, o'r dechreuad. Derbyniodd a chydsyniodd â galwad a chais yr eglwysi, i gymeryd ei ordeinio yn fugail arnynt, yr hyn a gymerodd le Hydref 29, 1808. Nid oedd yr eglwysi hyn ond ieuainc a gweiniaid pan yr ymsefydlodd yn eu plith, Pump oedd y nifer yn y cymundeb cyntaf a weinyddwyd yn y Wern. Ond efe a ymroddodd yn egniol at waith y weinidogaeth ar ol ymaflyd ynddo. Dangosodd yn amlwg na chymerasai y swydd gyda golwg ar esmwythdra a bwyta bara seguryd, ond yr ymaflai ynddi er mwyn y gwaith. Treuliai ac ymdreuliai ynddo, "gan fod yn daer mewn amser, ac allan o amser." Yr oedd y pryd hyn yn mlodeu ei ddyddiau, a blaenffrwyth ei oes, yn meddu ar gyfansoddiad grymus, corph pybyr, tymher fywiog a hoenus, meddwl cyflym a gwrol, a thalentau ysplenydd; ac ymroddodd i'w dwyn oll allan i'r farchnadfa, a'u cysegru at alwedigaethau y swydd bwysig yr ymaflasai ynddi. Heblaw llenwi ei gylch gweinidogaethol yn y Wern a Harwd, cydymdrechai â'r myfyrwyr o Wrecsam i gynal pregethu a phlanu eglwysi yn Rhosllanerchrugog, Llangollen, a Ruabon, a phregethai yn fynych iawn ar nosweithiau yr wythnos mewn tai anedd, pa le bynag y byddai galwad am dano, neu ddrws agored iddo. Yr oedd o ran ei farn a'i athrawiaeth, yn Galfiniad lled uchel yn nyddiau boreuaf ei weinidogaeth, dyna oedd ton y weinidogaeth yn fwyaf eyffredinol yn mhlith yr Annibynwyr yn y dyddiau hyny; ond yn fuan cyfnewidiodd ei farn, a bu ganddo gryn law, gydag eraill, yn y gwaith o ddiwreiddio uchel-Galfiniaeth o blith yr enwad hwnw. Yn 1817, priododd Miss Rebecca Griffith, o Gaer, yr hon oedd foneddiges ieuanc o gryn gyfoeth, a thra chyflawn o wybodaeth, doethineb, a synwyr, ragorol mewn duwioldeb, a disglaer yn mhob dawn rinweddol, ac felly yn mhob ystyr yn deilwng o'r rhagorfraint o fod yn gydmar bywyd i wr o dymher serchus, calon haelionus, a doniau ysplenydd Mr. Williams; a dedwydd iawn a fuont yn eu giydd, hyd nes eu gwahanwyd gan angau. Yr oedd y wraig ddoeth hon yn "goron i'w gwr," yn gymhorth iddo yn mhob golygiad; a diau iddo

Digitized by Google

ddysgu llawer mwy ar yr iaith Saesonaeg, a boneddigeiddrwydd moesau, oddiwrthi Li, nag a ddysgasai yn yr Athrofa. Bu iddynt bedwar o blant, dau fab a dwy ferch. Bu farw y ferch hynaf ychydig ar ei ol. Y mae y ddau ieuengaf eto yn fyw yn Awstralia Yn fuan wedi ei briodi, symudodd i fyw i Langollen; cymerodd daith drwy ranau o'r Deheudir y flwyddyn ganlynol, i gasglu at gapel newydd Llangollen. Pan ar y daith hon cafodd gymhelliad taer iawn gan eglwys luosog Abertawy, i ddyfod yno, a chymeryd ei gofal gweinidogaethol; ond ni allai feddwl am adael yr ychydig braidd yn y Wern, a'r manau eraill, i ymdaraw drostynt eu hunain dan feichiau o ddyledion oeddynt yn aros ar eu haddoldai. Dewisodd yn hytrach ymwadu â'i esmwythder personol, ac aros gyda hwy yn eu profedigaethau, i'w cynorthwyo i ddwyn ac ysgafnhau eu gofalon Nid cymaint fu llwyddiant ei weinidogaeth yn Llangollen; isel iawn oedd crefydd yn y dref hon yn mhlith pob enwad yr amser hwnw; ac nid ymddengys ei fod yn teimlo yn gysurus iawn tra bu yno. Teimlai yr eglwys yn Rhosllanerchrugog, a theimlai yntau, ei bod o dan fawr anfantais o eisiau gweinidogaeth fwy rheolaidd; nid oedd erbyn hyn yn gallu myned yno yn amlach nag unwaith yn y pythefnos. Yn yr amgylchiad hwn, ymgynghorasant â'u gilydd yn nghylch ymofyn am weinidog iddynt eu hunain: gosodasant y peth o'i flaen yntau; dywedodd y deuai efe atynt, os gallent gael ty cyfleus iddo i fyw; derbyniwyd y newydd gyda llawenydd mawr; ymofynwyd, a chafwyd ty cyfleus, yr wythnos ganlynol, sef y Talwrn, tua milldir o'r Rhos, ar ffordd y Wern; a symudodd yntau a'i deulu yno yn fuan; sylwai ar ei ddychweliad at ei hen gyfeillion, ei fod wedi cael gafael ar ei hen lyfr gweddi drachefn. Hefyd adeiladwyd capel Rhuabon dan arolygiaeth Mr. Williams, ac agorwyd ef hefyd yn yr un flwyddyn, sef 1813; ond nid oedd ei gofal gweinidogaethol arno. Yr oedd baich ei ofal erbyn hyn wedi ysgafnhan yn fawr; nid oedd ganddo mwyach dan ei ofal neilltuol, ond Harwd, y Wern, a'r Rhos, a rhoddes y lle blaenaf i fynu yn 1828. Yr oedd ei holl fywyd, yn fywyd o aberthu ei fywyd, yn ei amgylchiadau tymhorol. Ni dderbyniai yn flynyddol oddiwrth yr eglwysi tan ei ofal, fawr gyda digon i'w gadw ei hun â dillad i'w gwasanaethu, heb son am ddim arall: ar eiddo Mrs. Williams yr oedd ef a'r teulu yn byw; a phrinhaodd hyny lawer iawn ar ran y plant a adawsant ar eu hol. Teithiodd lawer iawn trwy Ddehau a Gogledd, ac i gymanfaoedd a chyfarfodydd: ond ni byddai ei logell fawr iawn, os dim llawnach yn dychwelyd adref, nag a fyddai cyn cychwyn y daith. Rhoddodd a chyfranodd lawer iawn mwy tuag at yr achos, ag ystyried pob peth, nac a dderbyniodd erioed oddiwrtho. Ymwelodd â'r Brifddinas amrywiol weithiau, ac yr oedd ei barch, ei dderbyniad, a'i boblogrwydd yno, yn mhlith ein cydgenedl a'r Saeson hefyd yn fawr iawn. Bu ei wraig farw yn 1836, ac effeithiodd ei marwolaeth yn drwm iawn ar deimladau Mr. Williams; curiodd a gwaelodd yn fawr yn ei iechyd dan y brofedigaeth hon. Yr oedd yn llawn deimladwy o fawredd ei golled ei hun, a cholled ei blant, yn ei marwolaeth hi; ac er cryfed ydoedd ei feddwl, ei synwyr, a'i ras, bu agos iddo ymollwng dan faich o deimlad galarus y pryd hwn. Ymddengys ei fod wedi hyn megis yn dymuno ymadael o'r ardaloedd lle y treuliasai holl flynyddau dedwydd (mewn cymhariaeth) a llafurus ei oes weinidogaethol ynddynt, ac annghofio ei ofid mewn golygfeydd a chyda chyfeillion newyddion. Yn 1837, derbyniodd alwad oddiwrth eglwys y Tabernacl, Great Crosshall Street, Liverpool,

Digitized by Google

a chydsyniodd â hi, a rhoddodd yr eglwysi yn Rhos a'r Wern i fynu, gyda chalon drom ei hun, ac er gofid mawr iddynt hwythau; wedi bod ohonynt gyda'u gilydd mewn cariad ac anwyldeb mawr dros ddeng mlynedd ar hugain. Clywsom fod dau o ddiaconiaid y Tabernacl wedi myned i'r Wern yn swyddegol i gyflwyno'r gwahoddiad; a phwy a ddigwyddai fod ar ymweliad â Mr. Williams ond y ffraeth Mr. Pugh o Fostyn. Aeth y ddau i hebrwng y swyddogion ychydig o'u ffordd tua chartref. Cerddai Pugh yn hamddenol dipyn o'u blaen, tan fyfyrio'n brudd ar y golled a gai Cyfundeb Dinbych a Fflint trwy ymadawiad ei gyfaill i Lynlleifiad. Trodd yn sydyn ar ei sawdl, a gwelai Mr. Williams yn dyfod rhwng y ddau swyddog; "Wyddoch chwi beth, Williams," ebe fe, "welais i erioed mo honoch yn edrych mor debyg i'r Gwaredwr âg yn bresenol;" "Sut hyny?" ebe Williams. "Am eich bod rhwng dau leidr," oedd yr ateb. Estynodd ei arosiad yn Liverpool am dair blynedd—blynyddau anterth ei lafur a'i ddefnyddioldeb. Nid oedd yn cyfyngu ei ddefnyddioldeb i'r pwlpud yn unig, ond yr oedd ei holl fywyd yn pregethu, ac megis yn gysegredig at leshad dynion yn mhob man: tanbeidiai Cristionogaeth yn ei holl gyfeillachau; seiniau gras yn ei eiriau, a phelydrai efengyl yn ei wedd. Pleidiai ddirwest a sobrwydd yn wresog a chadarn, eto yn foneddigaidd. Sefydlodd amryw gymdeithasau daionus, megis Cymdeithas y Mamau, Cymdeithas y Merched Ieuainc, a Cymdeithas y Dynion Ieuainc. Er ei fod bellach yn tynu tua thriugain oed, yr oedd ei ysbryd mor fywiog, a'i alluoedd mor gryfion; ei feddyliau mor dreiddiol, a'i awyddfryd gweithgar mor awchus, ag y buasent erioed. "Adnewyddai ei ieuenctyd fel yr eryr;" ond er hyny yr oedd arwyddion dadfeiliad i'w gweled yn lled amlwg yn ei babell—ei ddyn oddiallan. Yr oedd ei wynebpryd yn graddol gulhau, a'i ysgwyddau yn araf grymu yn barhaus wedi marwolaeth Mrs. Williams, yr hyn a brofai fod rhyw estron yn dystaw fwyta ei gryfder, a bod ei gyfansoddiad wedi dechreu rhoddi ffordd. Yn nechreu Gwanwyn, 1838, cychwynodd ar ddiwrnod annghyffredin o oer a drychinllyd, i fyned i Heol Mostyn, i gyfarfod Dirwestol; safodd yn hir iawn yn y gwynt a'r gwlaw ar y *Pier Head*, i ddysgwyl i'r agerdd-long hwylio; rhoddwyd ar ddeall o'r diwedd ei bod yn rhoddi i fynu y diwrnod hwnw, oherwydd y tywydd; ond ni roddai Williams i fynu; aeth i ymofyn am y cerbyd oedd ar gychwyn i Gaernarfon. Rhedodd y rhan fwyaf o'r ffordd o'r *Pier Head* i swyddfa'r cerbyd, nes oedd yn chwys drosto, a chychwynodd yn union yn y cyflwr hwnw, yn wlyb at y croen gan y gwlaw, ac yn wlyb o chwys hefyd, a daeth gyda'r cerbyd i Dreflynon, a llettyodd yno y noswaith hono. Cyn cyrhaeddyd yno, teimlai iasau yn ymaflyd ynddo, a fferdod a chrynfa drwyddo oll. Nid oedd nemawr well dranoeth, ond daeth i Mostyn, a chymerodd ei ran yn ngwaith y cyfarfod, ond gydag anhawsdra mawr y gallasai sefyll i fynu. O hyn allan, yr oedd yn gwisgo ymaith gyda phrysurdeb anarferol. Methai y meddygon yn lân yn eu cais i'w dwymno a'i chwysu, ac nid oedd ganddynt ond gobaith gwan iawn am ei fywyd; ond, pa fodd bynag, llwyddwyd i'w chwysu o'r diwedd, a dechreuodd loni a chryfhau ychydig yn raddol, ond yr oedd peswch caled yn parhau arno, ac yn gwrthod gollwng ei afael ohono, er pob ymdrech. Bu am yspaid yn ceisio ysgwyd ei afiechyd oddiwrtho yn awelon iachusol Cymru, ond cyndyn iawn yd-oedd yn gollwng ei afael. Wedi cymeryd taith ar y mor cyn belled ag Abertawy, teimlai ei nerth yn graddol gynyddu, a phenderfynodd ail

Digitized by Google

ddechreu ar ei hoff waith o bregethu. Yr oedd rhyw nerth annghyffredin hyd yn nod iddo ef yn dilyn ei ail ymweliad â'r pwlpud. Yr oedd rhyw ddylanwad anarferol gyda'i genadwri. Yr hen dân a fuasai yn llosgi yn ei galon yn rhedeg allan fel hylif poethlym, nes oedd y calonau caletaf yn dadmer yn ei wres. Diwreiddiodd corwynt ei weinidogaeth lawer o hen dderi cedyrn, ag oeddynt wedi dal llawer rhuthr cyn hyny; ac nid rhyfedd i'r cyfryw weinidogaeth gael ei dilyn gan y diwygiad grymus a dorodd ar eglwys a chynulleidfa y Tabernacl yn lled fuan ar ol hyny. Wedi unwaith ail ymaflyd yn ei waith, nid hawdd fuasai cael ganddo ei ollwng eilwaith; ac felly aeth yn mlaen gan bregethu, weithiau unwaith, ac weithiau ddwywaith, bob Sabbath am gryn dymhor, ac nid oedd yn teimlo bod pregethu yn gwneuthur nemawr ddim niwed iddo, ac yr oedd yn llawen tros ben oherwydd hyny. Fel hyn yr oedd yr haul megis yn dechreu ad-dywynu ar ei babell, ei obaith ei hun, a gobeithion ei gyfeillion lluosog, yn dechreu cryfhau am estyniad ei oes dros rai blynyddau yn mheliach. Mawr oedd gobaith a disgwyliad ei gyfeillion y buasai gwyneb blwyddyn tymhor haf 1839, yn adnewyddu ei nerth ond cryfhau yr oedd ei beswch a'i anhwyldeb. Pa fodd bynag, parhaodd i fyned yn mlaen yn ei lafur gweinidogaethol, ac i dalu ymweliadau achlysurol â'i frodyr a'r eglwysi yn y Dywysogaeth hyd ddiwedd yr haf hwnw. Tua diwedd Awst, dywedodd y meddyg wrtho fod yn rhaid iddo adael Llynlleifiad, a dychwelyd yn ol i Gymru, onide, nad oedd dim gobaith y byddai byw ond ychydig amser; ac mai dyna yr unig foddion tebygol i'w wellhau. Pan ddeallodd eglwysi y Wern a'r Rhos, ei fod dan orfod i symud yn ol i Gymru, cytunasant i anfon gwahoddiad caredig iddo i ddychwelyd yn ol atynt i dreulio gweddill ei ddyddiau gyda'r hen braidd y buasai yn eu ffyddlon fugeilio flynyddau lawer; canys yr oeddynt heb weinidog er pan ymadawsai Mr. Williams. Derbyniodd eu gwahoddiad, daeth drosodd, a chymerodd dŷ, y nesaf i'r hwn y buasai byw ynddo o'r blaen cyn symud i Lynlleifiad. Ymddangosai yn mhen ychydig wythnosau ar ol ei symudiad o Liverpool, ei fod yn gwellhau o ddifrif; dywedai ei fod yn teimlo ei hun yn cryfhau bob dydd, a'i fod yn bur agos mor gryfed ag ydoedd cyn ei gystudd; ond yr oedd ei anwyl Elizabeth yn gwanhau yn brysur; ac Och! nid oedd ei welliant yntau ond megis tywyniad haul am fomentyn rhwng dau gwmwl dudew, ddiwrnod cawodog yn mis Hydref. Yr oedd yn dal i wella yn ddymunol hyd Rhagfyr 20, pan yn ddisymwth, ar ei waith yn pesychu, torodd llestr gwaed o'i fewn, a rhedodd cryn lonaid cwpan fwrdd oddiwrtho. Digwyddodd yn ffodus fod y meddyg yn y ty ar y pryd. Dododd y meddyg ef yn ei wely, gyda gorchymyn iddo i ymgadw yn llonydd, i beidio symud na siarad dim, a phethau eraill. Yr oedd y dyrnod hwn yn farwol yn ei ganlyniadau; o'r awr hono allan ni feddyliodd am wella. O hyn allan yr oedd ef a'i ferch, megys y sylwai wrthi un diwrnod, fel yn rhedeg am y cyntaf tua phen y daith. Yr oedd ef a hithau fel hyn yn cyd-aeddfedu yn brysur i'r bedd ac i'r nefoedd; ac yn ol rhagddysgwyliadau y ddau, y hi gyrhaeddodd ben y daith gyntaf. Cawn ef yn prysuro yn gyflym ar ei hol; yn gwaelu ac yn aeddfedu bob dydd—"dyddiau ei filwriaeth" ar derfynu, ac nid oes ganddo ond "disgwyl am ei gyfnewidiad." Nos Lun, Mawrth 16, dymunodd gael gweled diaconiaid eglwysi y Wern a'r Rhos; ac wedi eu cael ato, ymddyddanodd gryn lawer â hwynt yn nghylch amgylchiadau yr eglwysi, a rhoddodd lawer o gynghorion iddynt. Wedi idd-

Digitized by Google

ynt fyned ymaaith, sylwyd ei fod yn colli ei wybodaeth ac yn prysuro ymaith, a'r boreu tranoeth oddeutu naw o'r gloch, a Williams o'r Wern nid oedd mwyach! Bu farw Mawrth 17, 1840, yn 59 oed. Claddwyd ef yn mynwent y capel y clybuwyd ynddo ei lais melus, a'i eiriau argyhoeddiadol, ganoedd o weithiau, a chapel yr anfarwolodd ef ei enw trwy ei gysylltiad ag ef, sef y Wern, addoldy bychan tlws a saif ar lecyn heulog a'i wyneb ar ddyffryn ffrwythlawn, Maelor, a thua phedair milldir i'r gogledd-orllewin o dref Gwrecsam. O ran ei berson, yr oedd Mr. Williams o daldra canolig, yn wr o gorff lluniaidd, cadarn ei wneuthuriad; yn hytrach yn deneu: o bryd a gwedd serchoglawn a dymunol—pryd yn hytrach yn dywyll, gwallt gwineuddu; llygaid maintiolus, glasliw, bywiog, a threiddgraff, yn llawn dynodion o athrylith a dealltwriaeth Mewn gair, yr oedd y dyn oddiallan yn ddymunol i'r golwg, ac yn gyfryw un y gellid casglu oddiwrth y rhagolygon allanol fod yno ddyn mewnol o radd uchel yn preswylio yn y babell olygus hono. Yr oedd wedi ei gynysgaeddu â gradd helaeth iawn o synwyr cyffredin. Yr oedd ganddo wybodaeth helaeth o amgylchiadau a gweledigaethau cyffredin bywyd, yn nghydag adnabyddiaeth ddofn o'r natur ddynol, a'i galluogai i draethu synwyr, a bod yn gyfarwyddwr call ar unrhyw achos. Ystyrid ei farn a'i gynghor o bwys a gwerth bob amser mewn pethau cyffredin, yn gystal a materion eglwysig; ac ar ol ei "ymadrodd ef ni ddywedid eilwaith." Fel pregethwr yr hynododd Mr. W. ei enw yn ei wlad, ac yn mysg ei genedl; ac y dyrchafodd efe anrhydedd yw enwad y perthynai iddo yn Nghymru yn fwy na neb arall o'r enwad hwnw yn ei oes. Cyfnod rhyfedd am bregethwyr a phregethu yn Nghymru, oedd cyfnod bore ei weinidogaeth ef. Yr oedd treiddiolder y feilten, a nerth y daran a'r daeargryn, yn cerdded yn ngweinidogaeth y dyddiau hyny. Williams oedd y cyntaf a'r penaf, fe ddichon, fel offeryn i dywallt y nerthoedd hyn i ysbryd y weinidogaeth yn mysg yr Annibynwyr yn Ngogledd Cymru. Athrawon a dysgawdwyr yn benaf oedd y tô o weinidogion oedd ar y maes yn mysg yr Annibynwyr, yn y Gogledd o leiaf, pan ymddangosodd y bachgen o Gwmhyswn arno. Yr oeddynt hwy megis y planedau adnabyddus yn dilyn eu gyrfaoedd yn rheolaidd, heb un amser gyffroi sylw neilltuol at eu cylchdroion. Daeth Williams allan fel comed ddyeithriol, losgyrnog, ymddangosiad yr hon a dyn sylw pawb oddiwrth y planedau a'r ser sefydlog a frithant y nwyfre o'i hamgylch, ati hi ei hun. Y mae ei ffurf a'i gwedd wahanol, cyflymdra ei hysgogiad, ei lliw a'i llewyrch estronol, yn enyn cywreinrwydd cyffredinol, fel y cyfyd pawb i gael golwg arni. Cydsylla miloedd o lygaid bob nos tua'r parth hwnw o'r ffurfafon y bydd hi yn ymwibio trwyddo. Cyffelyb oedd yntau ar gychwyniad ei yrfa weinidogaethol; yr oedd tanbeidrwydd ei areithyddiaeth, cyflawnder ac ystwythder ei ddoniau, bywiogrwydd ei ddychymyg, newydd-deb ei ddrychfeddyliau, a nerth ei hyawdledd yn traddodi, yn deffro y broydd, ac yn rhoddi adenydd i'w enw, gan drosglwyddo y son am dano yn mhell ac yn agos, fel i ba le bynag yr elai byddai tyrfaoedd lluosog yn ymgynull mewn awyddfryd mawr am ei wrando. Yn ystod boreu ei weinidogaeth, yr oedd yn wresog a thanllyd iawn ei ddull yn traddodi—yn gollwng y ffrwyn i'w ddychymyg a'i deimladau braidd yn ormodol, o leiaf felly y barnai ef ei hun yn nhymhor aeddfetach ei fywyd. Crybwyllwyd mai cyfnod rhyfedd ar bregethu oedd cyfnod gweinidogaethol Mr. Williams—cyfnod aeddfedrwydd nerth a gogoniant y pwlpud Cymreig ydoedd efe. Y Pwlpud

Digitized by Google

Ymneillduol oedd tywysog Cymru mewn gwirionedd y dyddiau hyny. Yr oedd yr ail dô o weinidogion diwygiad y Methodistiaid Calfinaidd, luaws ohonynt, yn ddynion dihafal eu galluoedd a'u talentau fel pregethwyr; ac amryw o weinidogion yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn y Deheudir yr modd, ond nid oeddynt hwy mor adnabyddus i'r wlad yn gyffredinol ag oedd eu brodyr Trefnyddol, gan nad oeddynt yn teithio cymaint oddicartref, oherwydd bod deddf y weinidogaeth sefydlog yn eu rhwymo i aros gyda'u praidd. O'r lluaws pregethwyr enwog hyny, detholwyd tri gan farn y wlad i'w gosod yn brif dywysogion y pwlpud yn Nghymru. Perthynai pob un o'r tri i enwad gwahanol. Etholai pob enwad ei dywysog ei hun. Etholedig y Methodistiaid oedd John Elias o Fon; yr eiddo y Bedyddwyr oedd Christmas Evans; a'r Annibynwyr, William Williams o'r Wern. Fel pregethwr, nid oedd mor gelfyddgar ei areithyddiaeth âg Elias, nac mor gryf ei ddychymyg âg Evans, ond yr oedd yn fwy athronyddol a syml hefyd na'r ddau. Elias oedd y Cicero, Evans oedd y Milton, a Williams oedd y Shakespeare. Yr oedd yn hynod hefyd o ran ei ysbryd rhydd a diragfarn. Meddai ar feddwl rhy eangfrydig i gulni a rhagfarn gael nawddle o'i fewn. Anadlai yr un yspryd rhydd a diragfarn tuag at ei frodyr o enwadau eraill, yn ei gyfeillach gyda'i frodyr ei hun, ag a arferai osod allan yn ei bregethau a'i areithiau. Dywedai yn fynych ei fod wedi penderfynu gwneud ei oreu tra y byddai byw i ladd rhagfarnau Cristionogion tuag at eu gilydd. Llawenhaai yn fawr wrth weled undeb a chydweithrediad y gwahanol enwadau yn yr achos dirwestol; ac ofnai yn fawr rhag i ddim ddigwydd i oeri a dyrysu yr undeb hwn. Cofir yn hir gan y rhai oeddynt yn bresenol, am y dull tra effeithiol yr addroddai hanesyn, gan wneud cymhwysiad ohono ar ei hoff-bwnc hwn, sef undeb a chariad Cristionogion â'u gilydd, mewn cyfarfod cyhoeddus yn Rhosllanerchrugog: "Yr wyf yn cofio," meddai, "fy mod unwaith yn ymddyddan â mor-filwr, yr hwn a adroddai i mi gryn lawer o'i hanes a'i helyntion; dywedodd mai y frwydr fwyaf ofnadwy y buasai ynddi erioed, oedd un a gymerodd le rhwng y llong yr oedd efe ynddi, a llong arall berthynol i Loegr, pan ddigwyddasant gyfarfod eu gilydd yn y nos, a chamgymeryd y naill y llall. Tybiai y naill, a thybiai y llall, ei bod yn ymladd yn erbyn llong Ffrengig. Lladdwyd amryw ar fwrdd y ddwy, ac anmharwyd a drylliwyd y ddwy lestr yn fawr iawn. Ond erbyn goleu y boreu, mawr oedd eu syndod a'u gofid, pan welodd y naill faneran Lloegr yn chwareu ar y llall, ac y deallasant eu bod wedi bod y nos o'r blaen yn ymladd â'u gilydd mewn camgymeriad! Nesaodd y naill at y llall, cyfarchasant eu gilydd, a chyd-wylent mewn gofid a chydymdeimlad. Tebyg iawn i hyn y mae Cristionogion yn y byd hwn; y naill enwad yn camgymeryd y llall am elyn; nos ydyw—methu adnabod eu gilydd y maent. Beth fydd y syndod pan welant eu gilydd yn ngoleu byd arall—pan gyfarfyddont eu gilydd yn y nefoedd, wedi bod ohonynt yn saethu at eu gilydd yn niwl y byd hwn! Pa fodd y byddant yn cyfarch eu gilydd yno, wedi dyfod i adnabod y naill y llall, wedi bod yn clwyfo ac yn gwaedu eu gilydd yn y nos! Ond dylent ddysgu aros i'r dydd dori cyn gollwng at eu gilydd, bid a fyno, fel y gallont fod yn sicr o beidio a saethu cyfeillion mewn camgymeriad." Un o'i ragoriaethau fel pregethwr oedd ei symledd *(simplicity)*. Pa fater bynag a gymerai mewn llaw, gwisgai ef â symledd ac eglurdeb rhyfeddol, ni byddai cymylau, a niwl, a thywyllwch o'i amgylch un amser. Efe a wnelai yn

Digitized by Google

eglur iawn i bawb o'i wrandawyr pa beth a fyddai yn geisio ddywedyd, canys nid ceisio dywedyd peth a methu a wnai ef, ond ei ddywedyd a'i egluro nes gwelai ac y deallai pawb a geisiai ei ddeall ef. Gwnelai ef sylw mawr o bethau a esgeuluaid gan eraill yn gyffredin yn eu pregethau, codai a dangosai bethau a fyddent (yn ol yr ymadrodd cyffredin), dan drwynau pawb, ac eto heb eu gweled a'u defnyddio. Pan safai uwchben tyrfa cymanfa, byddai yn hawdd i'r rhai cyfarwydd âg ef, frudiaw oddiwrth ei ddull a'i agwedd cyn pregethu, ar y cyfryw achlysuron, pa fodd y byddai arno pan yr elai ati. Pan fyddai yn llawn yspryd pregethu, a'i feddwl yn cydio yn ei fater yn y rhagolwg arno, nes y byddai ei enaid wedi chwyddo gan ddrychfeddyliau, byddai ei wefusau a'i aeliau yn ymsymud ac yn crychu, gan gyfnewid eu dull yn barhaus; byddai ei lygaid megys yn chwyddo, ac yn mynych newid ei ddynodiant *(expression)*, megis pe buasai drychfeddyliau ei enaid yn saethu allan trwyddo, y naill ar ol y llall, a phob un yn argrafiu ei ddelw ei hun arno yn ei fynediad drwyddo, a'r naill yn dinystrio y llall, mor gynted ag y gorphenai ef. Edrychai weithiau yn hynod o absenol, fel un wedi llwyr soddi o ran ei feddwl, i ryw fater. Pan orphenai yr hwn a bregethai o'i flaen, cyfodai i fynu mewn agwedd a dull a ddangosai bod ei holl deimladau wedi eu hadsefydlu, a bod y gwaith ag oedd yn myned yn mlaen yn y peiriant mewnol yn awr wedi sefyll, i'r dyben i'w ail osod i droi yn rheolaidd. Wedi darllen ei destun, yn lled aflerw yn gyffredin, a rhagymadroddi yn fyr, cydiai yn ei fater, a dosbarthai ef yn gryno ac yn fyr, a dechreuai ei osod allan a'i egluro mewn trefn, gan gadw perffaith lywodraeth ar ei deimladau a'i lais, fel un a fyddai yn gwbl feistr arno ei hun, ac ar ei wrandawyr; fel y byddai yn myned i mewn iddo, ac yn cynesu ynddo, dechreuai delweddau ei feddwl godi drachefn i'w wynepryd a'i lygaid, a'r drychfeddyliau ysplenydd hyny a fuasent o'r blaen yn berwi yn ei galon a ddechreuent ddylifo allan gan gymeryd eu hadenydd oddiar ei wefusau, y naill ar ol y llall, nes y byddai yn fuan wedi hoelio pob clust wrth ddôr ei enau, pob llygad o'r dorf fyddent dano wedi eu sefydlu arno, a phob meddwl wedi ei glymu wrth ei fater. Weithiau byddai yr holl gynulleidfa yn gwrando mewn dystawrwydd syn, pob un megys yn arswydo gollwng nac ochenaid nac anadliad uwch na'u gilydd allan, a phob gair o'i enau, fel y disgynai ar y glust, yn taro y deigryn dystaw allan o'r canoedd llygaid a fyddent wedi eu sefydlu arno, ac yn gwylio symudiad ei wefusau! Bryd arall, byddai oheneidiau, gwenau, a dagrau, i'w clywed a'u gweled, y naill yn dyrchafu o'r fynwes, y lleill yn argraffedig ar y wedd, y lleill yn dylifo o'r llygaid, yn cydgymysgu â'u gilydd, fel ag y byddai holl deimladau y natur ddynol wedi eu cynhyrfu a'u galw i weithrediad gan "Feistr y Gynulleidfa." Yr oedd ei lais yn hyglyw i bawb, pa mor luosog bynag fyddai y gynulleidfa, a'i don yn beraidd amghyffredin, pan fyddai yn ei lawn hwyliau yn traddodi; ac ymddangosai yn myned trwy ei waith yn naturiol, esmwyth, a diboen, heb gymaint â gwlithyn o chwys ar ei wyneb. Nid trwy ymladd, gorchest, a gorthrech, y byddai byth yn dryllio teimladau ei wrandawyr, ond eu denu, eu henill yn esmwyth a naturiol, eu tymheru a'u toddi, yn gyffelyb i ddylanwad yr haul ar y cwyr. Wrth wrando Williams yn pregethu, gallasech ei gyffelybu i delynor medrus, yr hwn, cyn dechreu chwareu ei don, a drinia ac a gyweiria danau ei delyn; ac wedi cael pob tant i gywair priodol, a chwery ei fysedd ar hyd-ddynt, nes y clywid y gyd-gerdd bereiddiaf a melusaf yn dylifo

Digitized by Google

megys oddirhwng ei ddwylaw. Cymerai yntau ei destyn megis y cerddor ei delyn, ac wedi pum' munyd, fe allai, o gyweirio ei dànau mewn rhagymadrodd a dosparthiad, dechreuai chwareu arnynt, gan dywallt allan y fath beroriaeth seinber, fel os byddai rhywun o'r rhai a fyddent yno yn bresenol heb ei gynhyrfu dau ei dylanwad, rhaid ei fod wedi cau ei glustiau, fel y neidr fyddar, rhag gwrando ar lais yr rhiniwr a'r swynwr cyfarwydd hwn. Yr oedd ei wybodaeth anianyddol, neu ei anianddysg, yn eang iawn. Wrth hon dealllir adnabyddiaeth neu wybodaeth o egwyddorion y byd naturiol. Yr oedd ef yn wir hoffwr natur; ac nid yn unig yn ddarllenwr gweithiau eraill ar wahanol ganghenau y wybodaeth hon, ond yn sylwydd a myfyriwr gwreiddiol ohonynt ei hun. Yr oedd ganddo amryw ddyfalion o'i eiddo ei hun am egwyddorion a deddfau y gwynt, y gwlaw, a'r taranau, &c.; pa mor gywir oeddynt, nid yw yn perthyn i ni farnu; ond crybwyllir hyn er prawf ei fod ef yn hoffwr a myfyriwr anian. Carai rodio ar hyd meusydd anfesurol y greadigaeth, fel y galwai hwynt: yr oedd yn rhyfeddol o hoff o weled y mellt a chlywed y taranau, a son am eu deddfau; ac felly holl wrthddrychau natur, fel ag y byddai ganddo rywbeth wrth ei feddwl am bob gwrthddrych yn mron. Yr oedd yn sylwydd ar, ac yn fyfyriwr o natur yn yr un dull ag y myfyriai yr Ysgrythyrau, fel ag mai nid prydferthwch a gogoniant geirweddiad y Bibl a darawai ei feddwl, ac a effeithiai ei galon yn benaf, ond ei sylwedd a'i egwyddorion; felly gwrthddrychau y byd anianyddol, nid yr olwg arnynt yn benaf nac yn gymaint (er yr hoffai hyny), a gynhyrfent ei sylw, ac a ddiwallent ei chwaeth, ond eu deddfau a'u hegwyddorion, y rhai hyn a ystyriai fel enaid anian, yn nghyfansoddiad y rhai, yn nghyda chywirdeb a rheoleidd-dra difeth eu gweithrediadau, yr ymddengys mawredd, dyfais, a doethineb yn fwy gogoneddus nag yn nullwedd y pethau a lywodraethir ganddynt. Dywedai yn aml "bod ei deddf yn perthyn i bob peth, a bod rhyw ddarganfyddiadau rhyfeddol eto i gael eu gwneuthur yn neddfau natur—bod dirgeledigaethau y ddoethineb hon yn ddau cymaint â'r hyn sydd" wedi ei gael allan. "Pe deallem natur yn well," meddai, "byddai yn gymhorth i ni ddeall y Bibl yn well. Y mae trefn iachawdwriaeth a threfn natur yn debyg iawn i'w gilydd; y mae cyffelybrwydd mawr rhwng egwyddorion anianyddol y naill ag egwyddorion moesol y llall." Oddiar fod y chwaeth hwn mor nerthol ganddo, yr oedd mor dra hoff o ddamhegion ein Hiachawdwr. y rhai gan mwyaf a dynid oddiwrth wrthddrychau anian er egluro natur ac egwyddorion ei deyrnas. "Yr oedd Iesu mawr," meddai, "yn hoff iawn o waith ei Dad,—yn caru edrych ar y lili, a gwrando swn y brain, a myfyrio dirgelwch yr hedyn, &c.; ac yr oedd bob amser yn dysgu egwyddorion oddiwrthynt. Y mae yn wir mai nid ei amcan Ef yn gymaint oedd dysgu ei wrandawyr yn egwyddorion a deddfau natur, ond dysgu egwyddorion ei deyrnas ei hun drwyddynt. Yr oedd yn adnabyddus iawn o'r galon ddynol. Ystyriai y wybodaeth hon yn anhebgorol i bregethwr, ac y dylai pob pregethwr beth bynag ei gwneud yn bwnc a chelfyddyd i fyfyrio y Bibl â'i galon ei hun, ac os deallai ei galon ei hun, yna y byddai ganddo wybodaeth am bob calon, "oblegid megis mewn dwfr y mae gwyneb yn ateb i wyneb, felly y mae calon dyn i ddyn." Yr oedd yn amlwg iawn ei fod yn sylwydd a myfyrydd dwfn a manylgraff ar weithrediadau y galon. Yr oedd ei adnabyddiaeth âg egwyddorion y Bibl, ai' adnabyddiaeth â gwrthddrychau ac egwyddorion anian, yn nghyda'i adnabyddiaeth â'r natur ddynol, ac

Digitized by Google

hefyd ei fedr i osod ei fater allan gyda symledd a goleuni, yn ei wneuthur yn wir fawr yn yr areithfa, ac yn ei alluogi i wasgu yr athrawiaeth adref at y galon gyda nerth a deheudra anarferol.—*Dafyniadau o'i Gofiant* yn *Rhydd-weithiau Hiraethog.*

WILLIAMS (WILLIAM) *(Creuddynfab).* Ganwyd y llenor coeth a'r beirniad craff hwn mewn bwthyn o'r enw y Tŷ Du, yn nghwmwd y Creuddyn, ger Llandudno, sir Gaernarfon, Awst 20, 1814. Enwau ei rieni oeddynt Enoch ac Ellin Williams. Saermaen oedd ei dad wrth ei gelfyddyd; a dyn craff, sylwgar, a duwiol yn marn pawb a'i hadwaenai ydoedd. Yr oedd efe yn ddiacon gyda'r Bedyddwyr yn Glanwydden, a'i wraig yn aelod dichlynaidd gyda'r un enwad. Y mae yr olaf yn fyw yn awr (1869); ac er yn 85 oed, y mae yn ddigon sionc ac ysgafndroed i gerdded yn fynych i Landudno ac yn ol (pellder o chwe' milldir) heb deimlo nemawr blinach ar derfyn y daith nag ar ei dechreu. Yr oedd eu teulu yn lluosog a'r byd yn ddigon caled; a chan fod William yr hynaf o'r plant, ni chafodd efe ond ychydig o ysgol, a hono yn ddigon gwael yn nghanol gwlad, a bu raid iddo droi allan yn ieuanc i wasanaethu gydag amaethwyr. Wedi bod am rhyw yspaid yn dilyn y caledwaith difantais hwn yn ei ardal enedigol, danfonwyd ef i Kenyside, ger Knutsford, sir Gaerlleon, at fodryb iddo, a gwas fferm ydoedd yno fyth. Oddiyno aeth i Fanchester, lle y bu am ryw hyd yn gweithio mewn *warehouse.* Yn 1837, a thra yn y sefyllfa hon, priododd gyda Elizabeth Hughes, merch i David Hughes, llifiwr, Llangollen, yr hon a fu yn ymgeleddgar a thirion tuag ato trwy holl ystod ei gystudd hirfath a phoenus. Symudodd o Fanchester i Cooper's Bridge, ger Huddersfield, sir Gaerefrog, lle y llanwai y swydd o ysgrifenydd ar orsaf y rheilffordd. Oddiyno, symudwyd ef i Oldham, sir Lancaster, yn feistr ar orsaf y rheilffordd, a bu yno am dair blynedd. Yna, dyrchafwyd ef i'r un swydd yn ngorsaf bwysicach Staleybridge. Llanwodd y swydd bwysfawr hono am 16 mlynedd, er llawn foddhonrwydd y cwmni a'r cyhoedd, a chan enill iddo ei hun lu mawr o gyfeillion serchog yn mhlith ei gyd-drefwyr ar gyfrif cyhoeddusrwydd ei yspryd, ei ddoethineb a'i ffyddlondeb gyda phob symudiad y cymerai ran ynddo. Fel prawf o hyn, ni raid ond hysbysu am y dysteb anrhydeddus a gyflwynwyd iddo ar ei ymadawiad â'r lle. Yn y cyfamser, yr oedd yn aelod defnyddiol o Gymdeithas y Cymreigyddion yn Manchester; darllenodd anerchiadau campus yn ei chyfarfodydd, ac yr oedd ar amryw ystyriaethau yn addurn i'r gymdeithas enwog hono. Rhoddodd y gymdeithas hono hefyd arwydd sylweddol o'i pharch iddo a'i cholled ohono ar ei ymadawiad. Ymadawodd â Staleybridge er mwyn cymeryd y swydd o Ysgrifenydd yr Eisteddfod Genedlaethol. Efe oedd y cyntaf a benodwyd i'r swydd lafurfawr hono, a llanwodd hi gyda dyfalbarhad a gallu digyffelyb am ddwy flynedd, pan y gorfu arno ei rhoddi i fynu oblegyd afiechyd a ddygasai arno ei hun yn beuaf trwy orlafur a gorbryder am lwyddiant y sefydliad. Nid gall yr un meddwl ddychmygu na'r un ymysgaroedd deimlo yr anhawsderau a'r blinder a gyfarfu, ac i raddau helaeth a orfyddodd, tra yn y swydd hono; na'r un galon Gymreig ddiolch yn ddigon gwresog am y gwasanaeth caled a gyflwynodd ynddi i lenyddiaeth ei wlad. Son am arwr! byddai ef tan lasiad y bore, mewn llesgedd trwm, yn dirboeni uwchben y llafur o ehebu, ardrefnu, boddio hwn a lefelu digofaint y llall. Yr oedd ei fyfyrgell mewn gwirionedd yn garchar iddo, a'i ysgrifbin yn ddiau yn gadwen o haiarn am ei arddwrn; tra yr oedd efe yn bwyta nerth

Digitized by Google

ei gyflwr trwy gael ei ridyllio yn ngograu y peirianwaith eisteddfodol. Yr ydym yn ofni na chydnabyddwyd erioed y llafur enfawr hwn, hyd yn nod gyda diolchgarwch gweddaidd, heb son am gydnabyddiaeth gyfiawn. Ymsefydlodd wedi hyn yn Llandudno, ac etholwyd ef yn aelod o Fwrdd y Cynrychiolwyr. Buom yn rhyfeddu llawer pa fodd y gallai meddwl mor goeth â'r eiddo ef ymgymodi âg ymdrin gyda manion amgylchiadau lleol felly; ond cai ef foddhad neilldiol yn y gwaith. Yr olwg olaf a gafodd lluaws o'i gyfeillion llengarol arno ydoedd yn Eisteddfod Rhuthyn, 1868, a golwg welw a gwael ddigon ydoedd; adlonai ei ysbryd llesg yn eu cwmni, a chymerodd ran yn eu cyrddau, yn enwedig yn y ddadl ar deilyngdod y Bryddest a'r Awdl,--pryddestwr selog ydoedd. Yn ystod y chwe' mis olaf o'i fywyd, nid ymadawodd ond anfynych â'i ystafell-wely. Yr oedd ei boenau, yn tarddu oddiar anhwyldeb gewynol, yn arteithiol iawn; ac eto, gwyneb cyfaill a barai iddo eu hanghofio am echwyl, ac ymddifyru yn ei hen ddull ffraeth, digrif, a chellwairgnoawl. O'r diwedd, daeth gwaredigaeth i'w sefyllfa boenus yn mherson angau cymwynasgar, a bu farw yn dawel Awst 26, 1869. Claddwyd ef yn meddrod y teulu, yn mynwent capel Glanwydden, yn ngwydd y poncian gleision y bu yn chwareu ar hyd-ddynt pan yn hegyn. Y "Barddoniadur" ydyw yr unig lyfr a gyhoeddwyd o'i waith ar wahan. Beirniadaeth lem a meistrolgar ydyw hwnw ar ddull Caledfryn o feirniadu. Ffromodd rhai llenorion yn aruthr at ei haerllugrwydd yn ymosod ar y fath anflaeledigrwydd a dyfarniadau Prif-fardd Beaumaris; ond cafodd ef a hwythau fyw i weled cryn gyfnewidiad yn marn y wlad am Feirniadaeth a'i anhebgorion. Nid ydym yn meddwl fod neb yn Nghymru wedi efrydu deddfau Beirniadaeth mor drwyadl ag efe, a bu ei ysgrifeniadau ar y pwnc o les dirfawr. Yr oedd yn fardd a rhyddieithwr coeth a llednais; fel y prawf y cynyrchion lluosog a welir o'i eiddo yn wasgaredig ar hyd y cylchgronau Cymreig. Bu yn feirniad droion, ac yn fuddugol amryw weithiau yn ein prif Eisteddfodau. Athronyddai bobpeth a ddeuai tan ei sylw i'r manylion eithaf; a threiddiai bob amser i'r paham a'r pa fodd. Fel cyfaill a dyn, ni bu erioed ei burach fel y naill, na'i gyflawnach fel y llall. Amcan mawr ei fywyd l'enyddol ydoedd cyfansoddi llyfr ar reolau a deddfau Beirniadaeth at wasanaeth ei gydgenedl, a gresyn, gresyn, iddo farw cyn dwyn hyn i ben. Byddai yn ddymunol iawn gwneud casgliad o'i gyfansoddiadau, a'u cyhoeddi yn gyfrol gyda'u gilydd.

WILLIAMS (WILLIAM), o Landegai. Y Cymro talentog a hunanddysgedig hwn a anwyd yn Tŷ Mawr, Trefdraeth, Mon, Mawrth 1, 1738. Saer maen ydoedd ei dad; a'r unig ddysgeidiaeth a gafodd ydoedd dan ofal hen wreigan yn yr ardal, yr hon a ddysgodd y wyddor iddo a darllen ychydig. Ond trwy ei ddyfalwch a'i ymroddiad, gwnaeth y golled hon ei hun i fynu—arosai yn hwyr uwchben ei lyfrau, gan gynilo bob dimai a gai er mwyn eu prynu a chanwyllau i'w darllen. Yr oedd ei holl lyfrgell yn gynwysedig o Feibl Cymraeg, a llyfr a brynasai trwy gynilwch dirfawr am bump a chwech o'r enw *Geographical Grammar*. Symudodd yn ieuanc i Lanerchymedd, ac yno daeth yn gydnabyddus â'r Bardd Coch o Lwydiarth Esgob, a Robert Hughes o'r Ceint Bach, y rhai a fuont yn gymwynaswyr caredig iddo. Y bardd o Geint Bach oedd un o sylfaenwyr cyntaf Cymdeithas y Gwyneddigion yn Llundain; a dewiswyd Mr. Williams yn aelod gohebol ohoni, a chafodd hefyd yn y cyfamser yr enw barddonol Gwilym Ddu o Arfon. Tua'r un pryd, ffurfiodd gydnabyddiaeth â Wm. Morris, o

Digitized by Google

Gaergybi, a'i chwaer, y rhai oeddynt yn goleddwyr gwresog i bob athrylith ieuanc a ddymunai ymgodi o'r clai tywodlyd. Wedi gwasanaethu ei egwyddoriaeth o saith mlynedd gyda *Saddler* yn Llanerchymedd, ymadawodd, gyda'r bwriad o ymfudo i'r Amerig; ond gan ei fod bellach yn ysgolor gwych, cafodd le fel ysgrifenydd i oruchwyliwr etifeddiaeth y Penrhyn, ger Bangor. Bu y penodiad hwn yn ffodus iawn iddo ef ei hun, i'w feistr, cystal ag i'r wlad oddiamgylch; canys trwy ei offerynoliaeth ef yn benaf y dadblygwyd cyfoeth enfawr Chwarel Cae Braich y Cafn. Yr oedd Mr. Williams yn hynafiaethydd treiddgraff, ac wedi sylwi a myfyrio ar un o ddywediadau yr hen frudiwr Myrddin ab Morfyn, yr hwn a ddywedai

"Trol'r ceryg yn fara
Yn agos i'r Wyddfa."

Galwer ei ffydd yn y geiriau hyn yn hygoeledd neu rywbeth arall, credai ef yn ddiysgog mai prophwydoliaeth oeddynt y troid ceryg lawer yn arian, a'r arian yn fara, yn Eryri; a meddyliai nad oedd man amgenach i sylweddoli y frud nag yn yr hen Chwarel anughysbell grybwylledig, yr hon a weithid y pryd hwnw gan tua phedwar ugain o ddynion truenus, trwy dori corbyllau beision ar lechwedd y Fronwen. Efe a anogodd Arglwydd Penrhyn, perchenog y lle, i gymeryd y gwaith yn ei law ei hun; ac o'r awr y darfu ei arglwyddiaeth dderbyn y cynghor hwnw y gellir dyddio dechreu llwyddiant y chwarel lechau bellach fwyaf yn y byd. Penodwyd Mr. Williams yn llech-oruchwyliwr, a llanwodd y swydd bwysig hono o 1782, gyda'r fath onestrwydd a dilysrwydd, ac enillodd gymaint o ffafr ei feistr, fel, pan y daeth cyfnewidiad ar y dull o werthu y llechi yn 1803, y darfu i Arglwydd Penrhyn adael iddo ymneillduo oddiwrth bob gwaith a chaniatau iddo ar yr un pryd ei gyflog yn llawn fel o'r blaen. Bellach, cafodd hamdden i feithrin ei chwaeth a'i dalent naturiol gref at hynafiaethau a cheinion cynoesoedd ei wlad. Yn 1802, cyhoeddodd ei "Observations on the Snowdon Mountain, with some account of the Customs and Manners of the Inhabitants," ac y mae yn waith pur ddyddorol. Cyfansoddodd ddau lyfr mawr yn Saesoneg o hanes Mon ac Arfon, y rhai a fenthyciwyd gan Syr Richard Hoare, a gwnaeth yntau ddefnydd da ohonynt. Troes Bum' Llyfr Moses ar gân, ysgrifenodd esboniad ar Weddi'r Arglwydd, a llawer o weithiau cyffelyb. Adwaenir ef yn mhlith ei gydgenedl oreu fel awdwr "Prydnawngwaith y Cymry," yr hwn a fwriedid fel attodiad i *Ddrych y Prif Oesoedd*, ac a gyhoeddwyd gan ei fab Robert Williams, Frondeg, Bangor, yn 1822. Bu farw Gorph. 17, 1817, a chladdwyd ef yn mynwent Llandegai. Canodd Gutyn Peris farwnad deimladol iawn ar ei ol.—*Gwladgarwr* viii. 193.

WILLIAMS (PARCH. WILLIAM), Pantycelyn, perganiedydd ac archemynydd Cymru. Ganwyd ef yn Cefncoed, ffermdy yn mhlwyf Llanfair-ar-y-Bryn, sir Gaerfyrddin, yn 1717. Enwau ei rieni oedd John a Dorothy (Lewis cyn priodi), ac yr oedd ei thad yn perchen Pantycelyn, yr hwn sydd tua dwy filldir o Gefncoed; a thrwy hyny, yn ngwrs amser, y daeth y lle yn feddiant i'r bardd. Yr oedd ei dad hefyd yn berchen tyddyn ar ei elw ei hun. Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, yn aelodau gyda'r Annibynwyr yn Nghefnarthen; a bu ei dad yn ddiacon yn y lle hyd oni ddygwyd Arminiaeth i'r pwlpud hwnw, pan y ffurfiwyd eglwys newydd mewn fferm o'r enw Clinpentan, lle yr ymgynullent hyd oni adeiladwyd capel Pentre-tŷ-gwyn, a mam y bardd a roddes y tir at godi yr adeilad hono. Yr ysgol gyntaf y cawn W. yn

Digitized by Google

myned iddi ydoedd un a gedwid gan weinidog Annibynol o'r enw Vavasor Griffiths, a gynelid mewn ysgybor ar dir Llwynllwud, ger y Gelli, sir Frycheiniog. Math o goleg bychan gwledig ydoedd hwn; a thyma eginyn coleg Presbyteraidd Caerfyrddin. *Lay student* ydoedd efe ynddi, a bwriadai ei riaint wneud meddyg ohono; ac i'r cyfeiriad hwnw yr oedd gogwydd ei efrydiaeth hyd nes bod yn 21ain oed. Y pryd hwnw, yn ddamweiniol, aeth i wrando yr enwog Howel Harris yn pregethu yn mynwent Talgarth, a gadawodd yr oedfa hono argraff amlwg arno, fel y dywed ef ei hun yn ei farwnad i'r pregethwr gododig hwnw:—

"Dyna'r bore, byth mi gofiaf,
Clywais inau lais y nef;
Daliwyd fi gan wys oddiuchod,
Gan ei swn dychrynllyd ef;
Ac er crwydro y dyrus anial,
Ol a gwrthol dileshad,
Tra bo anadl yn fy ffroenau,
Mi a'i galwaf ef yn dad"

Rhoddes effeithiau grymus y bregeth hono ar ei feddwl gyfeiriad cwbl wahanol i'w fyfyrdodau; ac o hyny allan, penderfynodd ymroddi'n llwyr i efrydu tan, ac ymgyflwyno i wasanaeth, Meddyg Mawr yr Enaid. Yn 1740, sef yn mhen dwy flynedd wedi ei argyhoeddiad, urddwyd ef yn ddiacon yn yr Eglwys Sefydledig, gan Nicholas Claget, esgob Tyddewi, a phenodwyd ef i guradiaeth Llanwrtyd ac Abergwesyn. Nid yw yn hollol eglur pa fodd y dewisodd weinidogaeth yn yr Eglwys tra yr oedd ei rieni yn Ymneillduwyr, ac yntau o ran dygiad i fynu ac addysg yn Ymneillduwr; syna rhai yn aruthr at hyn; ond dylid cofio nad yw yn anmhosibl ei fod yn dilyn argyhoeddiad cydwybod. Y mae rhyw syniad o anffaeledigrwydd sectol yn meddianu rhai pobl sydd yn peri iddynt ryfeddu fod neb yn gadael eu henwad hwy, a thybiant nad all neb wneud hyny ond tan ddylanwad dybenion gau neu ymresymiad niwliog. Pa fodd bynag, byr amser a gafodd fel curad, ac yn mhen tair blynedd, gwrthodwyd ei ordeinio yn offeiriad, a dygid toraeth o gyhuddiadau yn ei erbyn am droseddu yn erbyn llythyren allanoliaeth eglwysig, oddiwrth pa rai y gellir profi ei fod yn llawer iawn rhy dduwiol ac apostolaidd i fod yn weinidog llwyddianus o'r Eglwys Sefydledig yn yr oes hono. Afreoleidd-dra y gelwid ei drosedd, ac ystyr hyny ydoedd gorawydd i wneud daioni, megys pregethu mewn manau annghysegredig, tori dros derfynau ei gynefin ysprydol, &c. Yr oedd ei droseddau yn bedwar-ar-bumtheg, ond nid oes y rhithyn lleiaf o anfoesoldeb na heresi athrawiaethol yn yr un ohonynt. Y canlyniad o hyn fu iddo ymuno â'r blaid a ddiarddelasid o'i flaen am y ceffelyb bechodau, yn ben ar ba rai yr oedd Rowlands, o Langeitho. Dywedir mai Whitefield a'i hanogodd i gymeryd y llwybr hwnw; a chaffaeliad gwerthfawr i'r enwad fechan hono ydoedd cael gwr ieuanc o dduwioldeb amlwg a doniau ysplenydd W. i ymuno â hi. Daeth yn fuan yn ddyn defnyddiol a blaenllaw yn eu plith. Arferai fyned i Langeitho bob mis, er mwyn cynorthwyo Rowlands yn ngweinyddiad y sacrament i'r miloedd a ymdyrent yno o bob cwr o Gymru. Pan tua 32 oed, priododd Mary Francis, unig ferch ac etifeddes Thomas Francis, o Benlan, plwyf Llansawel, yr hwn oedd yn perchen dau o dyddynod yn mhlwyf Llanllawddog, y rhai a werthodd W. pan ddaethant i'w feddiant er mwyn prynu Troed-y-rhiw, yn ardal Cefnarthen; yr hwn yn gystal a Phantycelyn sydd yn awr yn meddiant orwyr y bardd, y

Digitized by Google

Parch. John Griffiths, gweinidog yr Annibynwyr yn St. Florence, ger Tenby, sir Benfro. Yr oedd Mary Francis yn gydymaith tra chyfaddas i fardd llednais Pantycelyn. Buasai yn byw am yspaid yn nheulu y Parch. Griffith Jones, o Landdowror, fel cydymaith i Mrs. Jones; yr hon oedd chwaer i Syr John Phillips, barwnig, o Gastell Picton, a chawsai felly gyfleusderau i droi yn mhlith lluaws o bobl uwchraddol mewn dysg, moes, a chrefydd. Dywedir mai dynes lân o bryd a gwedd ydoedd, serchog o dymher, a'i bod yn gantores ragorol. Wedi priodi, sefydlodd W. yn Mhantycelyn fel amaethwr, a dywedir mai ffermwr call a llygadog iawn ydoedd. Wrth gwrs, yr ydym yn meddwl pan gartref, neu pan gartref ag y cai lonydd gan yr awen; a rhwng pregethu, cyfansoddi llyfrau, ac amaethu, hawdd credu fod ganddo lonaid ei freichiau o waith, a digon o amrywiaeth i foddio y bardd mwyaf ansefydlog ei feddwl. Pa un a oedd yn fore godwr nis gwyddom; ond os ydoedd, ac os gwir a ddywed ei fywgraffwyr am dano, rhaid mai ychydig iawn o amser a offrymai i'r duw cwsg. Dywedant mai tua dau o'r gloch y bore y byddai yn myned i'w wely, gan mai yn mherfedd y nos yr ysgrifenai ei gynyrchion anfarwol. A phan y deuai gorphwys yn felusach ganddo na myfyrdod, ac y rhoddai ei ben blinderus ar obenydd er gwahodd lladmerydd natur i gau ei lygaid llesg, mynych y gomeddai y meddwl aflonydd ymlonyddu, ac y gwaeddai yntau ar ei gywely yn mhangfeydd rhyw ddrychfeddwl a ddaethai ato, "Mali, Mali, canwyll, canwyll, mae arnaf eisiau ysgrifenu!" Yr oedd mor llawn o'r trydan barddonol, fel mai trafferth mawr iawr oedd cael gan y peiriant ymlonyddu wedi ei roddi unwaith mewn ysgogiad. Dywed Kilsby ei fod mor *nervous* yn ei ddyddiau diweddaf, fel yr oedd Mali, druan, yn gorfod myned yn gydymaith iddo yn ei deithiau, oblegyd yr oedd ofn bwganed, canwyllau cyrph, ac ellyllon cyffelyb, gymaint arno, fel nad anturiai fyned allan y nos wrtho ei hun. Dyna yn dra mynych ydyw effeithiau gwir farddoniaeth ar y gwir fardd: y mae tanau eu teimladau, yn naturiol mor dyner, pan yr heneiddiont yn myned mor weiniaid fel y gall ehediad aderyn yn yr awyr gerllaw eu cynhyrfu. Gellir cael rhyw syniad am ei alluoedd fel pregethwr pan ddywedom y rhestrid ef yn un o'r tri neu bedwar godidocaf yn y Cyfundeb; ac am ei lafur, pan hysbysir ni gan ei fywgraffwyr ei fod yn arfer teithio rhwng deugain a hanner can' milldir bob wythnos am o gylch 45 o flynyddau. Dywed Mr. Charles o'r Bala, wrth gofnodi ei farwolaeth, "Gwedi treulio oes faith, lafurus, a defnyddiol yn eglwys Dduw, yn yr amser godidocaf ar grefydd yn Nghymru hyd yn hyn, am a wyddom, bu farw yn Pantycelyn. Bu farw yn y gadair freichiau lle y gosodid ef i eistedd tra y taenid ei wely, ond cyn i'r gwragedd gael hamdden i gyflawni hyny o orchwyl, yr oedd enaid W. wedi dianc yn ddidrwst i orphwysfa dragwyddol 'plant y cystudd mawr.'" Cymerodd hyn le Ionawr 11, 1791, ac efe yn 74 oed. Claddwyd ef yn mynwent Llanfair-ar-y-bryn, dodwyd beddargraff Seisnig ar y gistfaen, a'r penill olaf o *Theomemphus* yn Nghymraeg. "Fel hyn," meddai Mr. Charles, "y gorphenodd y gwr enwog hwn ei yrfa lafurus. Yr oedd yn ei ieuenctyd yn wr hardd, bywiog, o'r maintioli cyfiredin; ei dymherau oeddynt yn o boethlyd, ond yn gyfiredinol yr oedd yn diricn ac yn hawddgar tuag at bawb. Wrth roddi pobpeth ynddo at eu gilydd, yr oedd yn un o'r dynion mwyaf ei ddoniau, ei barch, a'i ddefnyddioldeb yn ei oes. Yr oedd yn meddu doniau prydyddawl, wedi eu rhoddi yn naturiol a helaeth iddo gan yr Arglwydd." Am ei bregethau, nid ydym yn meddwl fod

Digitized by Google

cymaint ag un ohonynt yn y ffurf hono ar gael, ond diau fod eu hufen yn nghadw yn ei emynau. Y llyfr emynau cyntaf a gyhoeddodd a elwid "Aleliwia;" a chan i hwnw gyrhaedd trydydd argraffiad yn fuan, rhaid ei fod wedi ei dderbyn yn galonog ac ehelaeth. 2, "Caniadau y rhai sydd ar y Môr o Wydr, &c., i Frenin y Saint," a gyhoeddwyd gyntaf mewn tair o ranau bychain tan yr enw "Hosana i Fab Dafydd" yn 1751, '53 a '54. Yn 1762, y daeth y "Môr Gwydr" allan gyntaf, meddai Mr. Charles yn y *Drysorfa*, ac ar ddygiad y llyfr i Langeitho yn y flwyddyn hono, torodd Diwygiad nerthol allan; 3, "Ffarwel weledig, Groesaw anweledig Bethau; neu rai Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen," 1787. 4, "Gloria in Excelsis, neu Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen," 1771; 5, "Rhai Hymnau Newyddion ar Fesurau Newyddion," 1781. Cyhoeddodd hefyd ddau lyfryn o'i hymnau yn Seisnig, sef "Hosanna to the Son of David," 1759; a "Gloria in Excelsis," 1772. Cyhoeddodd ei bryddestawd gampus, "Golwg ar Deyrnas Crist," yn 1756, ailargraffwyd hi yn 1764; cyfieithodd draethawd Erskine ar "Sicrwydd Ffydd," yr hwn a ailargraffwyd yn 1760; ei waith nesaf ydoedd "Pantheologia;" a dilynwyd hwnw gan y ganiad ragorol, "Bywyd a Marwolaeth Theomemphus;" yn 1768, cyhoeddodd draethawd o'r enw "Tri Wyr o'r Aipht a Sodom." Yr oedd yn awdwr amryw draethodau eraill, ar wahan, ac ar wahanol amserau; y rhai sydd i'w gweled yn yr argraffiadau o'i holl waith. Cyhoeddwyd ei hymnau gyda'u gilydd gan ei fab John yn 1811; a daeth argraffiad allan o'i holl weithiau gan Mackenzie yn 1868, tan olygiad y Parch. J. R Kilsby Jones. Bu ei ei fab William am lawer o flynyddau yn gurad Truro, Cernyw; ac yr oedd ei fab John yn bregethwr tra chymeradwy gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Nid yw ei gyfansoddiadau rhyddieithol heb fod yn ddiffygiol mewn rhai pethau pwysig; y mae rhai darnau ohonynt wedi eu hadgyhoeddi yn yr argraffiad diweddaf ag y buasai yn drugaredd i'r awdwr ac i'r darllenydd pe gadewsid iddynt lithro yn naturiol i'r ebargofiant a haeddent; ac y mae darnau eraill yn cynwys alegoriau carpiog, y rhai a ymdebygant i ddyn disgloff yn myned trwy ystumiau milwr. Tra y mae ei bryddestau yn rhagorol, yn enwedig "Golwg ar Deyrnas Crist," rhaid i bob rhagoriaeth a berthynai iddo encilio i'r cysgodion gan ddysgleirdeb ei alluoedd fel emynwr; ac y mae yn anmheus a oes rhywbeth y tu allan i'r Gyfrol Ysbrydoledig mor llawn o eneiniad ac yn cynwys cymaint o ddiliau mel duwinyddiaeth. Buont filoedd o weithiau fel manna nefol i'r pererin Cymreig, o'r awr y croesodd ddinas distryw hyd nes y sibrydodd ei air olaf yn ymchwydd afon angau. Buasai golwg dlawd ar emynyddiaeth Gymreig pe na chawsem ddim o Bantycelyn. Cyfieithwyd amryw o honynt i'r Seisnig, ond gydag eithriad neu ddwy, prin y gellir dweyd fod eu trosglwyddiad o'r naill iaith i'r llall yn hapus; yn wir, credwn mai gwaith anhawdd, os nad anmhosibl, fuasai hyny, gan fod ardymheredd crefyddol y Sais gymaint oerach nag eiddo y Cymro. Y mae dwy ohonynt, modd bynag, mewn bri gan y Saeson, sef "O'er the gloomy hills of darkness," &c., a "Guide me, O thou great Jehovah," &c. Pe gellid eu cyfieithu yn nghyflawnder eu prydferthwch, nid oes dadl na byddent y ceinion mwyaf ysplenydd yn holl gylch emynol ein cymydogion.

WILLIAMS (William), aelod seneddol tros Coventry a Lambeth am tros chwarter canrif. Ganwyd ef yn Tredaren, plwyf Cynwyl, sir Gaerfyrddin, yn 1788. Yr oedd ei rieni yn bobl isel yn y byd, ond eithaf parchus; a phan yn dra ieuanc, dodwyd ef yn egwyddor-was o

Digitized by Google

siopwr gydag un Mr. Phillips, yn nhref Caerfyrddin; ac fel lluaws o fechgyn tlodion Cymru, ar derfyn ei egwyddor-wasanaeth, wynebodd i'r Brifddinas, a thrwy ddiwydrwydd a dyfalbarhad bu yn llwyddianus i gasglu cyfoeth lawer. Cafodd le israddol ar y cyntaf mewn nwyddfa gyfanwerth, ac ymgododd o radd i radd nes dyfod yn un o brif farsiandwyr Llundain. Ar ol cael ei gefn ato mewn pethau bydol, cymerodd ran flaenllaw mewn amgylchiadau lleol a dinesig, cystal a symudiadau politicaidd y dydd; a daeth yn awdurdod o gryn bwys yn y cyfryw bynciau. Yn 1835, dychwelwyd ef i'r senedd gan Ryddfrydwyr Coventry, a hyny ar bwys y safle a'r cymeriad a feddai yn y Brifddinas. Parhaodd i gynrychioli y dref hono hyd 1847, pan y taflwyd ef allan. Yn 1850, dychwelwyd ef tros Lambeth, a chynrychiolodd y lle pwysig hwnw hyd ei farwolaeth. Er mai anfynych y llefarai yn Nhy y Cyffredin, eto nid oedd aelod a adwaenid yn well, ar gyfrif ei ffyddlondeb i'r egwyddorion a broffesai. Yr oedd yn Rhyddfrydwr trwyadl, gellid dibynu ar ei gymhorth ef i unrhyw fesur rhyddfrydol a ddygid gerbron. Prif amcan ei fywyd seneddol ydoedd gostwng treuliadau y wladwriaeth. Gan nad oedd wedi derbyn uchelddysg yn ei ieuenctyd, ac iddo gyflwyno cymaint o'i oes i fasnach, nid ymegniai i arddangos ei hun fel areithydd hirfaith ar bynciau politicaidd mawrion. Y syndod ydyw i fachgen tlawd fel efe o ardal ddinod fel Cynwyl ymgodi erioed i blith doethion a chyfoethogion y tir, a dyfod yn aelod pwysig os nad goramlwg yn neddfwrfa ei wlad. Yr oedd yn un o ddysgyblion ffyddlonaf y gwrthwastraffwr Joseph Hume; a phan fu efe farw, ar Mr. Williams y syrthiodd ei fantell. Yr oedd yn bleidiwr twymgalon i sefydliadau addysg ac elusen, a chymerai ddyddordeb neillduol yn y cyfryw o fewn ei wlad enedigol. Iddo ef y dylem ddiolch, gan mwyaf, am y cynydd dirfawr fu ar addysg yn Nghymru yn ystod y chwarter canrif diweddaf. Yr oedd yn Gymro gwir wladgarol, a buasai Prifysgol Gymreig wedi ei sefydlu er's hir amser pe buasai y genedl mor aiddgar ag y dylasai gyda'r symudiad. Efe oedd un o'r rhai cyntaf a awgrymodd y priodoldeb o droi coleg Dewi Sant, Llanbedr, yn Brifysgol. Dygodd y mater gerbron y Llywodraeth, yr hon a edrychai yn ffafriol ar y cynygiad, a syrthiodd y cwbl i'r llawr oherwydd difaterwch y Cymry eu hunain. Ar ei gynygiad ef hefyd yn y Senedd, y penodwyd dirprwy i chwilio i ansawdd addysg yn Nghymru, a ffrwyth y ddirprwy hono ydoedd y Llyfrau Gleision a barodd y fath gynhwrf. Condemniwyd hwynt fel ymchwiliadau annheg, anwir, ac afreidiol; ond nid oes neb bellach a wâd na pharasant ddaioni mawr. Cyfranai yn haelionus at ysgolion, colegau, a sefydliadau addysg i'r werinbobl. Yr oedd yn falch o'i wlad, a threuliai gyfran o bob blwyddyn ar ymweliad â golygfeydd ei febyd. Llawenychai o galon yn ei llwyddiant parhaol; ac y mae ei gydwladwyr yn cyfiawn ymffrostio ynddo fel dyn a gerfiodd enw anrhydeddus iddo ei hun yn y byd, heb gymhorth cyfeillion na chynysgaeth. Bu farw yn Llundain, Ebrill 29, 1865, yn 77 oed.

WILSON (Richard), y *landscape painter* enwog, ydoedd fab i'r Parch. John Wilson, rector Penegoes, sir Drefaldwyn, lle y ganwyd ef yn 1713. Yr oedd ei fam yn un o Wynniaid Leeswood, ger y Wyddgrug, sir Fflint. Cafodd addysg dda, datguddiodd dueddfryd naturiol ei feddwl yn gynar, a chyfarfu rwystrau lawer o'i fore gwyn tan y nos. Yn 1728, bu farw ei dad, a chymerwyd yntau i Lundain gan ei ewythr, Syr George Wynne, lle y dodwyd ef tan y gyfarwyddyd un Wright, arluniwr bon-y-gler a fuasai trwy ei anwybodaeth wedi dinystrio Wilson

Digitized by Google

am byth, pe buasai modd dinystrio athrylith. Yn mhen tua chwe' blynedd, dechreuodd arlunio ar ei gyfriffoldeb ei hun, o tan nawdd Esgob Norwich, ac yn fuan cafodd yr anrhydedd o dynu arluniau Tywysog Cymru a Duc Yorc, y rhai oeddynt tan addysg yr esgob. Nid oedd yr un arluniwr yn cydoesi âg ef a ragorai arno am lun pen. Ond fel arluniwr golygfeydd y rhagorai efe, er na ddeallodd hyny cyn bod yn 36 oed. Y pryd hwnw, trwy gymhorth ei enillion ei hun, a chynorthwy cyfeillion, aeth i Rufain; galwai yno un bore gyda'r medrus Zucarelli; a thra yn gorfod disgwyl yn lled hir am y celfyddydwr, er mwyn pasio'r amser, tynodd olygfa mor gampus ar y ffenestr, fel y rhyfeddai Zucarelli, ac y gofynodd iddo os ydoedd wedi efrydu y gangen hono; ac os nad oedd, am iddo ymroddi ati yn ddioed, ac y byddai yn sicr o fod yn llwyddianus iawn. Rhoddai Vernet hefyd, arliwydd enwog arall yn Rhufain, gynghor cyffelyb iddo, a chafodd bob cefnogaeth a nawdd y ddau i gyrhaedd medr ac enwogrwydd yn adran newydd ei fyfyrdod. Cynyddodd yn gyflymach ynddi nag y dychymygai ar y cyntaf; yr oedd ganddo adnoddau o gyfoeth yn ei fynwes at y gwaith na wyddai ef cyn hyny ddim am danynt, a drysorwyd yno yn more ei oes wrth syllu ar fynyddau rhamantus a glynau gleision gwlad ei enedigaeth. Yn lle dilyn yr hen ddull o efrydu, sef copio gweithiau yr hen gelfyddydwyr, gan obeithio trwy hyny gipio peth o'u hysbryd a'u dawn; efe a ymroddes yn ddyfal i astudio eu cynyrchion, a meistroli eu harddull, gan eu cymharu yn fanwl â natur. Yn y modd hwn, cafodd allan eiliw a nodweddiad golygfeydd Eidalaidd; a throchodd ei ddarfelydd yn eu hysplander. Y mae purdeb yn anadlu yn awyr ei ddarluniau, heuliau dysglaer yn eu cynesu, temlau adfeiliedig yn eu britho, a phelydra ynddynt yr afonig risialaidd a'r llyn tawel a neilldnolant yr Eidal. Ymledodd ei glodydd mor gyflym fel y cafodd amryw ddysgyblion; ac fel teyrnged o barch i'w athrylith, tynodd Mengs ei ddarlun, a dychwelodd yntau y deyrnged gydag anrheg o ddarlun ysplenydd. Wedi treulio chwe' blynedd ar y Cyfandir, dychwelodd i Loegr yn 1755, ac ymsefydlodd yn Llundain. Gymaint oedd ei enwogrwydd y pryd hwnw yn y Brifddinas, fel yr heidiai gwyr o ddysg a nod i'w efrydfa; cynyddai ei ddysgyblion yn gyflym, yr enwocaf o ba rai ydoedd Hodges a Farrington. Anfonodd ei ddarlun campus o Niobe i Arddangosfa 1760, yr hwn achwanegodd ei glodydd; ac yn 1765 arddangosodd "View of Rome," yr hwn a edmygid yn fawr. Yn ystod ei drigiant yn Llundain, tynodd luaws o ddarluniau, ond ni chafodd y gefnogaeth a haeddai, a thra y gwerthir ei gynyrchion yn bresenol am brisiau uchel, prynid hwynt y pryd hwnw am y nesaf peth i ddim. Y mae ymddygiad ei gydwladwyr at y dyn athrylithgar hwn yn warth i'r oes hono. Efe oedd yr arliwydd golygfeydd goreu a gododd yn y wlad hon,—yn yr hwn y cyfarfyddai crebwyll Claude, a medrusrwydd Poussin—a ochelai fanyldeb beichus y naill, ac a ragorai ar eangder y llall; ond a chyneddfau ganddo a ddylasent ei godi ar uchaf binacl enwogrwydd, a rhoddi yn gynysgaeth iddo gyfoeth lawer, goddefwyd iddo fyw yn helbulus a marw yn dlawd. Wrth wraidd yr anffodion hyn yr oedd cenfigen ei gydgelfyddydwyr, ac yn benaf ar y rhai hyny yr oedd un y disgwylid gwell pethau oddiwrtho, sef Syr Joshua Reynolds. Cymerai y dawnsfeistr ffals a mursenol hwnw bob mantais i'w ddiraddio, am na fynai Wilson ymostwng i osodiadau torllwyth o rhyw fan feirniaid heb ddim cymhwysder i'r gwaith ond eu haerllugrwydd. Rhag gelyniaeth Reynolds, nis gallai y bedd hyd yn nod ei guddio; erlidiodd Wilson

Digitized by Google

hyd angau ac ar ol hyny. Un tro, yr oedd ciniaw gan aelodau y *Royal Academy*, a Reynolds, llywydd y gymdeithas, yn y gadair: ac wrth gynyg iechyd da Mr. Gainsborough, dywedai mai efe oedd y *landscape painter* goreu oedd yn bresenol. Nid oedd hyn ond diraddiad union-gyrchol ar Wilson, yr hwn a atebodd mewn llais uchel a digofus, y dylasai'r cadeirydd ychwanegu ei fod y *portrait painter* goreu hefyd. Ergyd ydoedd hon i Syr Joshua, gan mai yn y gaugen olaf y rhagorai ef. Fel yr oedd y byd yn gwgu ar Wilson, surodd ei deimladau, ac afrywiogodd ei dymher; yr hyn a chwanegai ei helbul, ac a'i gwnai yn fwy annhoblogaidd fyth. Yr oedd efe yn un sefydlwyr y *Royal Academy;* a phan fu farw Mr. Hayman, y llyfrgellydd, yn ngwyneb ei anffodion a'i dylodi, deisyfodd Wilson gael y swydd, er mai un eithaf israddol ydoedd i ddyn o'i broffes a'i alluoedd ef, a daliodd hi hyd oni ymneilldduodd i Gymru. Treuliodd flynyddau olaf ei oes yn y Wyddgrug, a chyda ei berthynas Mrs. Catherine Jones, yn y Colomendy, plwyf Llanferes, gerllaw y Wyddgrug, ac yn y lle olaf y bu farw, yn mis Mai, 1782, yn 69 oed. Claddwyd ef yn mynwent y Wyddgrug, lle y mae cist a beddargraff arni yn dynodi ei fedd. Tra yn mwynhau tawei neilluedd y Colomendy, ymddigrifai mewn tynu lluniau o ddyddordeb a dybenion lleol er difyru ei gymydogion gwledig: a cheir un o'r cyfryw yn arwydd i dafarndy gerllaw—y "*Three Loggerheads*." sef y ddau ynfyttyn y mae eu darlun ar yr arwydd, a'r edrychydd yn gwneud y trydydd.—*Life of Wilson*, gan Wright.

WMFFRE DAFYDD AB IFAN, ydoedd fardd da, a chlochydd Llanbrynmair, ac yn ei flodeu o 1620 i 1660. Yr oedd efe a William Phylip o Ardudwy yn ymgyfeillachu â'u gilydd. Ar waith W. Phylip un tro yn neshau at y llan ar ymweliad, gofynodd i fachgenyn ddangos iddo dŷ Wmffre Dafydd. Y bachgenyn a'i harweiniodd i'r fynwent at *fedd newydd*, ac a ddywedodd, "Dyma dŷ Wmffre Dafydd ab Ifan." Dywedir mai yr amgylchiad hwn a barodd i W. Philyp gyfansoddi ei gywydd y Bedd.—*Y Brython*, ii. 190.

WOGAN (WILLIAM), a anwyd yn mhlwyf Penaly, sir Benfro, yn 1678. Yr oedd ei dad yn rector Gomfreston a Penaly, ac yn disgyn o hen deulu parchus yn Wganiaid o Wiston, ger Haverfordd. Yn 1694, derbyniwyd ef yn ysgolhaig yn Westminster, ac yr oedd ei gynydd gymaint tan addysg yr enwog Dr. Busby, fel y daeth yn gadben yr ysgol. Yr oedd ei gyrhaeddiadau classurol yn cang iawn, ystyrid ef yn ysgolhaig dyfnddysg, ac yn 1700 etholwyd ef i goleg y Drindod, Caergrawnt, lle yr aeth trwy y cylchoedd isaf gyda llwyddiant a chymeradwyaeth mawr. Pa fodd bynag, ni arosodd efe yn hir yn y Brifysgol, eithr aeth yn athraw i deulu Syr R. Southwell; ac yn 1710, yn ysgrifenydd i fab y pendefig hwnw o tan Dug Ormond, arglwydd-raglaw yr Iwerddon. Y flwyddyn ganlynol, aeth i'r Iwerddon; ac yn 1712, cymerodd swydd yn y fyddin fel rhingyll catrawd o wyr traed. Yn 1714, penodwyd ef yn dalfeistr gweddwon gweinidogion y sefydliad Gwyddelig; ac yn 1718, priododd Catherine Stanhope, o deulu anrhydeddus iarlliaid Chesterfield. Wedi hyny, ymsefydlodd yn Ealing, Middlesex, ac yno trigianodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Ion. 24, 1758, ac efe yn 80 oed. Yr oedd yn awdwr naw neu ddeg o lyfrau galluog, ond y mwyaf adnabyddus ohonynt oll ydoedd ei "Essay on the Proper Lessons of the Church of England." Cyhoeddwyd y llyfr poblogaidd hwn gyntaf yn 1754, ac yn ail yn 1764. Cyhoeddwyd hanes bywyd Mr. Wogan yn 1818 gan y Parch. James Gatliff, Llundain.

Digitized by Google

WOOD (Owen), ydoedd ail fab i Hugh Wood o Dalyllyn, Mon, a'i wraig, Jane, merch Hugh Pryse ab Hywel o Fassoglen, Ysw., yr hwn a hanai o Lywarch ab Bran, un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Addysgwyd ef yn ngholeg Iesu, Rhydychain, lle y cymerodd y radd M.A. yn 1584. Wedi hyny, gwnaed ef yn ddeon Armagh, pan yr oedd Robert, iarll Essex, yn arglwydd-raglaw yr Iwerddon, a dywedir ei fod yn cydfradwriaethu âg ef yn 1600. O. Wood a briododd Joan, merch Richard Clayton, caplan i'r frenhines, ac ynad heddwch yn Middlesex. Bu yn dra haelionus i'w goleg, a gadawodd gryn swm o arian tuag at sefydlu ysgoloriaeth a chymrodiaeth yno. Bu farw yn nechreu 1610. —*Athen. Oxon.*

WORTHINGTON (William), D.D., duweinydd enwog, a anwyd yn sir Feirionydd, yn 1703. Addysgwyd ef yn ysgol ramadegol Croesoswallt, o ba le y symudodd i goleg Iesu, Rhydychain, a chyrhaeddodd yno safle uchel fel ysgolhaig. Dychwelodd o Rydychain i Groesoswallt, i fod yn athraw yr ysgol lle y buasai yn ddysgybl. Cymerodd y radd o M.A. yn Nghaergrawnt yn 1742, a'r un radd drachefn yn ngholeg Iesu, Rhydychain, yn 1758; ac wedi hyny y graddau o B.D. a D.D. yn ysted yr un flwyddyn. Cymerwyd sylw ohono yn ieuanc gan y noddwr haelfrydig hwnw i ddysgeidiaeth yr Esgob Hare, o Lanelwy, yr hwn a roddes iddo ficeriaeth Llanyblodwel, yn 1729. Cafodd hefyd y wagswydd rectoriaeth Darowen yn 1737, a ficeriaeth Llanrhaiadr-yn-Mochnant yn 1747. Cyfnewidiodd Darowen yn 1751 am Hope, sir Flint; a hono drachefn am Lanfor, ger y Bala, yn 1774; y rhai hyn yn wag-swyddau. Yn 1773, cafodd brebendiaeth yn Llanelwy; a darfu i'r Archesgob Drummond, i'r hwn y buasai yn gaplan am lawer o flynyddau, roddi iddo sedd yn mhrifeglwys Caerefrog. Yr oedd yn enwog iawn ei elusengarwch, ei lafur dyfal, a'i ymroddiadau efrydol. Bu farw Hydref 6, 1778. Yr oedd yn awdwr y gweithiau canlynol: 1, "An Essay on the Scheme and Conduct, Procedure and Extent, of Man's Redemption; designed for the Honour and Illustration of Christianity. To which is annexed a Dissertation on the Design and Argumentation of the Book of Job;" ymddangosodd ail-argraffiad o'r gwaith hwn; 2, "The Historical Sense of the Mosaic Account of the Fall proved and vindicated;" 3, "Instructions concerning Confirmation;" 4, "A Disquisition concerning the Lord's Supper;" 5, "The Use, Value, and Improvements of various Readings shewn and illustrated, a sermon;" 6, "The Sermon preached in the parish church of Christ Church, London, on Thursday, April 21, 1768; being the time of the yearly meeting of the children educated in the charity schools in and about the cities of London and Westminster," 1768; 7, "The Evidences of Christianity, deduced from Facts and the Testimony of Sense, throughout all ages of the Church to the present time. In a series of Discourses, preached for the Lecture founded by the Hon. Robert Boyle, Esq., in the parish church of St. James, Westminster, in the years 1766, 1767, 1768; wherein is shewn, that, upon the whole, this is not a decaying but a growing Evidence," 1769, 2 cyf. 8vo; 8, "The Scripture Theory of the Earth, throughout all its Revolutions, and all the periods of its existence, from the creation to the final renovation of all things; being a sequel to the Essay on Redemption, and an Illustration of the principle on which it is written," 1773; 9, "Irenicum; or, the Importance of Unity in the Church of Christ considered, and applied towards the healing of our unhappy differences

Digitized by Google

and divisions," 1775; 10, "An Impartial Enquiry into the case of the Gospel Demoniacs; with an appendix, consisting of an Essay on Scripture Demonology," 1777.—Wms. *Em. Welsh.*

WYNN (Y Gwir Anrhyd. Charles Watkin Williams), gwladweinydd enwog, ydoedd ail fab Syr Watkin Williams Wynn, y 4ydd Barwnig, o Wynnstay, sir Ddinbych, o'i ail wraig, Charlotte, merch i'r Gwir Anrhydeddus George Grenville. Addysgwyd ef yn ysgol Westminster, ac yn ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain, lle y graddwyd ef yn M.A. Tach. 7, 1798, ac yn D.C.L. Meh. 5, 1810. Wedi myned trwy gwrs ei efrydiaeth yn Lincoln's Inn, galwyd ef at y bàr, Tach. 27, 1798. Yn 1796, dychwelwyd ef i'r Senedd gan fwrdeisdref Old Sarum; eithr y flwyddyn ganlynol, dychwelwyd ef tros sir Drefaldwyn, a pharhaodd i'w chynrychioli hyd ei farwolaeth. Pan enciliodd Pitt a'i gyfeillion o'r weinyddiaeth, ac y cymerodd ymraniad le rhyngddynt â phlaid Addington, y dechreuodd Mr. Wynn gymeryd rhan weithgar yn y dadleuon chwerwon rhwng y pleidiau seneddol; a thrwy ei waedoliaeth uchel a pharchus, ac yn enwedig ei dalentau gloywon, y rhai a goethasid i raddau helaeth yn Lincoln's Inn, rhoddid cryn bwys ar ei farn. Yn y dadleuon a gymerasant le rhwng arwyddiad cyngytundeb Amiens yn 1801, ac adnewyddiad y rhyfel yn 1803, cymerodd ran flaenllaw, a bu o fawr wasanaeth i'r blaid gyngreiriol yn y Tŷ. Oddiar ei hir brofiad o weithrediadau y Senedd, ystyrient ef y prif awdurdod ar yr arferion a'r drefn i ddwyn pethau yn mlaen; a disgwylid am hir amser mai efe a ddewisid yn Llefarydd pan y daethai y swydd hono yn wag. O ganlyniad, pan roddes Mr. Abbot ei le i fyny yn 1817, cynygiwyd ef i lanw y swydd gan y blaid wrthwynebol i'r weinyddiaeth; eithr etholwyd Mr. Manners Sutton, ymgeisydd y Llywodraeth, trwy fwyafrif o 312 o bleidleisiau yn erbyn y 150 a roddwyd i Mr. Wynn. Yn Ionawr, 1822, penodwyd ef yn llywydd y *Board of Control*, a'r un pryd tyngwyd ef yn aelod o'r Cyfrin Gyngor, Llanwodd y swydd anrhydeddus hono hyd 1828, a chan wrthod yn y cyfamser yr anrhydedd o fod yn Llywydd Cyffredinol India. Wedi hyny, bu yn Ysgrifenydd Rhyfel, yn ngweinyddiaeth Arglwydd Grey, o Dachwedd, 1830, hyd Ebrill, 1831, pryd y rhoddes y swydd i fynu ar ddygiad y Mesur Diwygiadol i Dŷ y Cyffredin gan y weinyddiaeth, heb iddo ef gael gwybod ei fanylion, na chyfleusdra i egluro pa mor bell yr oedd diwygiad yn angenrheidiol. O hyny allan, ni fu dim a wnelai ef âg unrhyw swydd weinyddol, oddigerth yn ngweinyddiaeth ferhoedlog Syr Robert Peel, yr hon ni pharhaodd ond o Rag, 1834 hyd Ebrill, 1835, a'r pryd hwnw llanwai y swydd o Ganghellydd Duciaeth Lancaster. Gweithredai o hyny allan fel aelod annibynol, heb gymeryd ei lyffetheirio gan ymrwymiadau swyddogol. Bu am hir amser yn un o Ddirprwywyr Gwallgofiaid yn y Brifddinas, ac yn Ddirprwywr y Cofnodion Cyhoeddus. Etholwyd ef yn gymrawd o'r Gymdeithas Hynafiaethol, Ion. 9, 1800, ac yn 1824, dewiswyd ef yn un o'r is-lywyddion, eithr rhoddes y swydd hono i fynu yn 1841. Yr oedd yn is-raglaw sir Ddinbych, yn ystiwart arglwyddiaeth Dinbych, yn feinciwr yn Lincoln's Inn, ac yn Llywydd y Gymdeithas Asiaidd Freiniol. Ebrill, 1806, efe a briododd Mary, merch hynaf Syr Foster Cunliffe, o Barc Acton, ger Gwrecsam, o ba un y bu iddo ddau fab a phedair merch. Bu farw Medi 1850; a chladdwyd ef yn naeargell capel St. George, Bayswater, wrth ochr ei wraig a'i fab.—Wms. *Em. Welsh.*

Digitized by Google

WYNNE (EDWARD), D.D., ydoedd fab ieuangaf Edward Wynne, Ysw., o Fodewryd, yn Mon. Addysgwyd ef yn ngholeg Iesu, Caergrawnt, lle y cymerodd ei B.A., Mehefin 5, 1644, a chafodd rectoriaeth Llanymawddwy, yn esgobaeth Bangor, gan ei ewythr, yr Esgob Owen. Ar ddychweliad y freninoliaeth, cafodd rectoriaeth Llanarmon, sir Gaernarfon; a chyn hyny Llangeinwen, Mon. Cynrychiolai esgobaeth Bangor yn *Convocation* 1661—2, a thua'r pryd hwnw, y cymerodd y radd o D.D. Bu hefyd yn rector Llanllechid, ger Bangor; ac yn 1663, gwnaed ef yn ganon yn Llanelwy; ac yr oedd hefyd yn ganghellydd prif eglwys Bangor. Yr oedd yn awdwr y llyfr defnyddiol hwnw, "Trefn ymarweddiad y gwir Gristion," yr hwn a argraffwyd yn Llundain yn 1662. Bu farw yn Rhagfyr, 1669, a chladdwyd ef yn Llangaffo, Mon. Sefydlodd a gwaddolodd ysgol Caergybi; gadawodd £50 er addurno côr prif eglwys Bangor; £106 er budd ei goleg yn Nghaergrawnt.—Bishop Humphreys' *Wood Athen. Oxon.*; Willis' *Survey of Bangor*.

WYNNE (PARCH. ELLIS), awdwr y *Bardd Cwsg*, ydoedd fab i Edmwnt Wynne, o deulu Glyn Cywarch, yr hwn a briodasai etifeddes y Lasynys, plasdy tua milldir a haner o dref Harlech, sir Feirionydd. Yn y lle hwnw y ganwyd Ellis Wynne yn 1671. Mae'n sicr iddo dderbyn addysg ragorol, ond nid oes ar gof a chadw yn mha le, gyda'r bwriad, mae'n ddiddadl, o'i gyfaddasu at yr offeiriadaeth; eto, yr ydym yn meddwl y rhaid penderfynu ei fod wedi gwneud ei ymddangosiad fel awdwr cyn ei urddo fel offeiriad, ac mai ar gais yr Esgob Humphreys, o Fangor, y daeth efe yn wr eglwysig. Yn 1701, cyhoeddodd gyfieithiad o waith Jeremy Taylor, *Rule and Exercise of Holy Living*, tan y teitl, "Rheol Buchedd Sanctaidd," yr hwn a gyflwynid i'r Dr. Humphreys; ac y mai yn debyg mai rhagoriaethau y llyfr hwn a barodd i'r Esgob bwyso ar ei awdwr i ymgymeryd â'r weinidogaeth. Er mai ychydig o dueddfryd oedd ganddo at y gwaith, ymostyngodd i'r cynghor, ac urddwyd ef yn ddiacon ac offeiriad yr un dydd, a thranoeth cyflwynwyd iddo berigloriaeth Llanfair, ger Harlech. Yr oedd hefyd yn beriglor Llandanwg a Llanbedr yn yr un gymydogaeth, ac felly cafodd dreulio cydol ei oes yn dawel yn awyr ei dreftadaeth ei hun, ac yn mhro ei enedigaeth. Yn 1702, efe a briododd Lowri Llwyd, o Hafod Lwyfog, plwyf Beddgelert, sir Gaernarfon, Bu iddynt bump o blant; a pharhaodd y Lasynys yn meddiant y teulu hyd oni werthwyd y lle gan ŵyr y bardd. Yn 1713, ymddangosodd ei gampwaith llenyddol, a champwaith rhyddieithol llenyddiaeth Gymreig, sef "Gweledigaethau y Bardd Cwsg." Am ddychymygiou synfawr, a darfelydd feiddgar, ni raid i'r Cymro gywilydd sefyll ochr yn ochr â Dante ei hunan. Mae'n wir fod ambell i faen yn yr adeilad grebwyllog orwech hon wedi ei gymeryd o Weledigaethau Quevedo, yr Yspaeniad; ond hyd yn nod pe buasai'r holl ddelweddau a'r cynllun yn lladrad llen, arosai drachefn ddigon o deithi yn y *Bardd Cwsg*, sef ei iaith ysplenydd. Y mae ei Gymraeg yn dlws a phur annghymarol; a'i arddull mor nodweddiadol a hapus, fel y gesyd pob dysgawdwr Cymreig ef yn safon gerbron ei ysgolorion. Nid oes dim llai na phumtheg argraffiad ohono wedi ymddangos; ac felly ychydig o lyfrau a gawsant ledaeniad helaethach yn mhlith ein cenedl. Y fath oedd syniadau uchel Theophilus Jones, hanesydd Brycheiniog, am y llyfr, fel y dechreuodd ei gyfieithu i'r Saesoneg; ac yn 1860, ymddangosodd llawn gyfieithiad ohono yn yr iaith hono gan Mr. George Barrow, awdwr *The Gypsies in Spain*; ac a

Digitized by Google

chymeryd i ystyriaeth mai Sais wedi dysgu Cymraeg ydyw y cyfieithydd, y mae wedi ei gwblhau yn dra theilwng. Yn 1710, penodwyd ef gan esgobion Cymru i arolygu argraffiad newydd o'r Llyfr Gweddi Cyffredin, a chywiro yr amryfal wallau yn yr argraffiadau blaenorol. Efe a fu farw yn Gorphenaf, 1734, a chladdwyd ef ar y 19eg o'r mis hwnw tan fwrdd y Cymun, yn eglwys Llanfair. Ei fab hynaf, William, a fu yn rector Llanaber; a'i drydydd mab, Edward, a fu yn rector Penmorfa; a gorŵyr iddo ef ydyw y Parch. John Wynne, rector presenol Llandrillo yn Edeyrnion. Yr oedd Ellis Wynne wedi ysgrifenu llyfr arall o'r enw "Gweledigaeth y Nef," eithr gan y cyhuddid ef o lenladrad yn y *Bardd Cwsg*, efe a daflodd yr ysgrif hono yn ei ddigofaint i'r tân. Gresyn o'r mwyaf ydoedd iddo gymeryd ei gythruddo fel ag i losgi y cyfansoddiad hwnw; canys y mae lle i dybied y cawsem ynddo weled yr awdwr yn sefyll yn hollol ar ei wadn ei hun, ac y gwiriasai syniadau ei gyfeillion fod ynddo hefyd ddigon o wreiddioldeb. Yn 1755, darfu i Edward, ei-fab, gyhoeddi llyfr tra dyddorol tan yr enw "Prif Addysg y Cristion," yn cynwys yn mhlith pethau eraill esboniad byr ar y Catecism, o waith ei dad, yn nghydag amryw Hymnau a Charolau. Nodweddir y rhai hyn oll gan rymusder meddwl awdwr y "Bardd Cwsg."

WYNNE (George), ydoedd o deulu Gwydir, ger Llanrwst; ond oblegyd rhyw ymrafael rhyngddo â'r teulu, gadawodd Gymru, ac ymsefydlodd yn Llundain, lle y daeth yn frethynwr i'r frenhines Elizabeth. Ganwyd ef oddeutu 1560, a bu farw 1610. Darfu i'w ŵyr ef, George, ddechreu ysgrifenu ei enw yn Winn; a hwn oedd dechreuad y Winniaid, Arglwydd Headley—*Lleyn MSS.*

WYNNE (John), D.D., a anwyd yn Maesycoed, plwyf Caerwys, sir Fflint, yn 1667. Efe ydoedd ail fab John Wynne o Faesycoed, a disgynai o deulu hynafol ac anrhydeddus. Bu am beth amser yn ysgol Llaneurgain, ac oddiyno symudwyd ef i ysgol Ruthin, a thrachefn i goleg Iesu, Rhydychain, lle yr etholwyd ef yn gymrawd. Bu am beth amser yn gaplan i Iarll Penfro ar lysnegeswriaeth; ac ar ol hyny yn rector Llangelynin, sir Gaernarfon, yn esgobaeth Bangor; ac yn brebend Brycheiniog, yn esgobaeth Tyddewi. Yn 1705, penodwyd ef yn broffeswr duwinyddiaeth (gwaddoliaeth Lady Margaret) yn Rhydychain; ac yn rhinwedd y swydd hono, yr oedd efe hefyd yn brepend yn mhrifeglwys Worcester. Yn 1712, etholwyd ef yn brif-athraw coleg Iesu, Rhydychain; a Ionawr 11, 1714, dyrchafwyd ef yn esgob Llanelwy, a digwyddai mai efe oedd yr esgob cyntaf a benodwyd gan George I. Cofnodir iddo fod yn hynod o ofalus am, a haelionus at y brifeglwys a'r palas esgobol, ar y blaenaf o ba rai yn fuan wedi dyfod i'w swydd y treuliodd £600 a danysgrifasid gan yr esgob, y clerigwyr, a boneddigion y gymydogaeth, er adgyweirio difrod y dymhestl a gymerodd le yn Chwef. 1714. Yn 1720, efe a briododd Anne, merch ac aeres Robert Pugh, o Bennarth, Penmachno, ac o Ddol y Moch, yn nyffryn Ffestiniog; a weinyddwyd yn mhalas Lambeth, gan archesgob Canterbury. Ar farwolaeth Esgob Hooper, yn 1727, efe a symudwyd i esgobaeth Bath a Wells, a bu yn llywyddu yno am 16 mlynedd, fel y llanwodd swydd esgob o gwbl am 29 mlynedd. Dylem hysbysu hefyd na bu yr un Cymro yn esgob yn Nghymru ar ei ol ef hyd y flwyddyn hon (1870), pan y penodwyd esgob presenol Llanelwy. Yn 1732, prynodd etifeddiaeth y Soughton, yn Llaneurgain, sir Fflint, ac yno y bu farw Mehefin 15, 1743. Claddwyd ef yn nghapel eglwys Llaneurgain, a tan feddfaen o farmor glas, a cheir ei beisarfau yn gerfiedig ar

Digitized by Google

y pen uchaf ohoni. Cyhoeddodd dalfyriad o draethawd Locke ar y Deall Dynol, gyda llawn gymeradwyaeth yr awdwr, yr hyn, mae yn debyg, a barodd iddo gael ei gyfieithu i'r Ffrancaeg. Yr oedd ei deulu yn gynwysedig o ddau fab a dwy ferch. John, y mab hynaf, a'i holianodd ef i ystad Soughton, ac a fu farw yn ddibriod. Yr ieuangaf ydoedd y Gwir Anrhydeddus Syr Wm. Wynne, marchog, llywydd swyddogol y *Court of Arches;* Ynad yn llys eglwysig Canterbury; Ynad yn y Llyngeslys; meistr Neuadd Trinity, Caergrawnt; ac aelod o'r Cyfrin Gyngor. Ganwyd ef Ionawr 25, 1729; a bu farw yn 1815. Am ei ferched—Mary, a briododd Henry Vane, brawd Iarll Westmoreland; bu hi farw yn 1744, a chladdwyd hi yn ymyl ei thad yn eglwys Llaneurgain; oddiwrthi hi yr hanai presenol Arglwydd Le Dispencer. Margaret, ei ferch arall, yr hon a anwyd yn 1724, a briododd Henry Banks, Ysw., A.S. tros Corfe Castle, sir Dorset, ac a fu farw yn Llundain yn 1822, yn 98 oed. Teulu y rhai hyn sydd yn awr yn mwynhau cyfoeth yr esgob.—Wms. *Em. Welsh.*

WYNNE (JOHN HUDDLESTON), awdwr amryw lyfrau yn yr iaith Seisnig, ydoedd frodor o Gymru, ac a anwyd yno o deulu parchus yn 1743. Dygwyd ef i fynu yn argraffydd, yr hon alwedigaeth a ddilynodd am beth amser yn Llundain; bu wedi hyny yn dal swydd yn y fyddin, a rhoddes hono i fynu gan ddechreu fel awdwr. Ei brif weithoedd ydynt:—"A general History of the British Empire in America," ac "A History of Ireland." Yr oedd ei ewythr, Parch. Richard Wynne, o goleg All Soul's, Rhydychain, yn rector St. Alphege, Llundain; a chyhoeddodd argraffiad o'r Testament Newydd, wedi ei gydmaru yn ofalus â'r Groeg. Bu farw yn 1799.—Wms. *Em. Welsh.*

WYNN (JOHN), Ysw., neu John Wynn ab Hugh, ydoedd fab hynaf i Hugh ab Sion ab Madog, o Bodfel, Lleyn, sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef. Yr oedd yn faneryddi John, iarll Warwick, ac wedi hyny Duc Northumberland, yn y frwydr fawr a ymladdwyd rhyngddo a'r gwrthryfelwyr Norfolk a Suffolk, yn Awst, 1549, tan deyrnasiad Edward VI. Lladdwyd ei geffyl dano, a niweidiwyd yntau ei hun; ond efe a ddaliodd faner fawr Lloegr i fynu er gwaethaf pob anffawd. Y mae cronicl-au yr oes hono yn crybwyll am yr ymosodiad, a diffyniad glew y Cymro ohoni. Am y gwasanaeth hwn, rhoddwyd iddo Ynys Enlli, a Llys yr Abad, a elwir y Cwrt, yn Aberdaron. Yr oedd yn sirydd sir Gaernarfon yn 1551 a 1560.—*Lleyn MSS.*

WYNN (SYR JOHN), o Wydir, gerllaw Llanrwst, boneddwr enwog yn ei oes, ydoedd fab ac etifedd i Morys Wynn o Wydir. Ei fam ydoedd Jane, merch i Syr Richard Bulkley, marchog, o Beaumaris, Mon. Ganwyd ef yn 1553. Yr oedd yn hanu mewn llinell unionsyth o Gruffydd ab Cynan, tywysog Cymru. Adeiladwyd hen balas urddasol Gwydir gan daid Syr John, John Wynn ab Meredydd, yn 1553, ar ol prynu y lle gan rai o biliogaeth Dafydd Goch, mab ordderch Dafydd, brawd y tywysog Llewelyn ab Gruffydd. Cyn dyfod i Wydir, hynafiaid y Wynniaid oeddynt yn byw yn Nghastell Dolyddelen. Pan yn 21 oed, danfonwyd ef i Lundain i efrydu y gyfraith; a daeth yr ystad i'w feddiant ar farwolaeth ei dad yn 1580. Yr oedd yn feddianol ar dalentau dysglaer, ac yn mawr ymddifyru wrth olrhain hanes a hynafiaethau ei wlad, ac ysgrifenodd gryn lawer ar y pwnc. Dywed Rowlands iddo ysgrifenu nodiadau rhagorol i Arolygiad *(Surrey)* o siroedd Mon, Arfon, a Meirion, yr hwn waith, meddir, a ddechreuasid yn amser Iorwerth I., ac a barhawyd yn mlaen hyd deyrnasiad Iorwerth III.;

Digitized by Google

a mynegir fod yr ysgrif yma yn llyfr unplyg harddwych yn y casgliad Harleian, dan y rhif-nod 4776. Ond ei brif waith ydyw ei "History of the Gwydir Family," yr hwn a arosodd mewn llawysgrifen hyd 1770, pan y cyhoeddwyd ef gan yr Anrhyd. Daines Barrington, a thrachefn a ailargraffwyd yn *Barrington's Miscellanies*, yn 1781. Y trydydd argraffiad a'r olaf ohono a gyhoeddwyd yn Rhuthyn, yn 1827, tan olygiad Angharad Llwyd, yr hwn sydd yn cynwys amryw chwanegiadau, megys hanes cydoeswyr enwog i'r awdwr. Y mae hwn yn llyfr tra dyddorol, yn awdurdod ar yr hyn a ddywedo, ac yn taflu lluaws o oleuni ar ddefodau a hynafiaethau Cymreig. Treuliai Syr John gryn lawer o amser gartref yn mhlith ei ddeiliaid, yn gwella ac addurno ei etifeddiaeth. Efe a adeiladodd Gwydir Uchaf, ychydig uwchlaw yr hen balas, a dywedir mai prif ddyben ei adeiladu ydoedd darpar lle i roesawu pendefigion ar eu taith o Lundain i'r Iwerddon. Cafodd ei anrhydeddu a'r urdd o farchog, a bu yn cynrychioli sir Gaernarfon yn y senedd a gyfarfu Hydref 29, 1596; bu yn sirydd tros y sir hono yn 1588, a 1603; a thros sir Feirionydd yn 1589 a 1601. Yr oedd hefyd yn un o Gynghorwyr Cyffiniau Cymru. Yn 1610, adeiladodd elusendai ar gyfer deuddeg o hen ddynion tylodion yn nhref Llanrwst; galwodd y lle *Jesus' Hospital*, a thynodd allan reolau er iawn drefniant yr elusen, a gwaddolodd y sefydliad â rhan o ddegwm Eglwys Fach. Crewyd ef yn farwnig yn 1611, ac efe a gludai faner fawr Harri, tywysog Cymru, yn angladd y tywysog hwnw, Rhag. 7, 1612. Yn 1615, tynodd arno ei hun wg Cynghorwyr y Cyffiniau, gan y dywedai eu canghellydd y pryd hwnw, Arglwydd Ellesmere, iddo ef gael ei hysbysu fod yn anmhriodol i Syr John Wynn, marchog, barhau mwyach yn aelod o'r Cynghor, ac hefyd na ddylai fod yn ynad heddwch tros sir Gaernarfon. Pa fodd bynag, prynodd eu heddwch trwy dalu llwgr-wobr o £350. Flwyddyn cyn ei farwolaeth, cynlluniai adenill tir oddiar y môr yn y Traeth Bach a'r Traeth Mawr, rhwng siroedd Caernarfon a Meirionydd; eithr ni ddygwyd hyny oddiamgylch hyd ddechreu y ganrif hon, pan y gwnaed hyny mewn rhan gan Maddocks, sylfaenydd Porthmadog. Bu Syr John farw Mawrth 1, 1626, yn 73 oed, a chladdwyd ef yn eglwys Llanrwst. Ei wraig ydoedd Sydney, merch Syr W. Gerard, canghellydd yr Iwerddon, o ba un y bu iddo un-mab-ar-ddeg a dwy ferch. Trwy briodasau, daeth ei wehelyth yn allu pwysig yn y wlad; ac nid oes odid i deulu uchelwaed yn Ngwynedd nad yw gwaed Gwydir yn llifo yn ei wythi[illegible]u.—*Gwydir Family;* Wms. *Em. Welsh.*; *Y Gwladgarwr* iv. 141.

WYNN (Syr Richard), barwnig, ydoedd ail fab Syr John Wynn o Wydir, a chan i'w frawd hynaf Syr John Wynn, barwnig, farw tra yn ymdaith yn Lucca yn 1614, pan yn 30 oed, efe a olianodd i'r farwniaeth ar farwolaeth ei dad yn 1626. Yr oedd yn uchelwr o dalentau gwychion, ac yn Ystafellydd i Siarl I. pan yn Dywysog Cymru, a dilynodd ef ar ei ymgyrch rhamantus i'r Yspaen yn 1623. Gadawodd ar ei ol hanes dyddorol o'r daith, yr hwn a gyhoeddwyd gan Hearne. Yn 1633, Syr R. Wynn a adeiladodd gapel prydferth Gwydir, mewn cysylltiad âg eglwys Llanrwst; ac yn 1636, cododd y bont gywreingamp tros yr afon Gonwy, a adweinir fel "Pont Llanrwst." Cynllunydd y ddau ydoedd Inigo Jones, ac y maent yn gofgolofn o fedr a dyfais celfyddydwr campus. Parodd y ffaith fod a wnelai Inigo Jones â nawdd teulu Gwydir, i rai dybied mai brodor o ardal Llanrwst ydoedd; ond dywed awdwr galluog yr *Eminent Welshmen* mai yn Llundain y ganwyd ef, ac

Digitized by Google

y gellir gweled ei enw yn nghof-lyfr St. Bartholomew the Less, West Smithfield. Bu Syr Richard farw, Mehefin 19, 1749; a chladdwyd ef yn mhell o wlad ei enedigaeth, yn eglwys Wimbledon. Efe a briododd ferch i Syr Francis Darcie, ond gan iddo farw yn ddiblant, syrthiodd y teitl a'r etifeddiaeth i'w frawd, Owen Wynn. Y mae ei ddarlun, o waith Jansen, yn nghadw yn Wynnstay; a cheir cerf-gopi hardd ohono gan Bartolozzi, yn *Tours in Wales* Pennant.

WYNN (Syr Richard), o Gaernarfon a Glynllifon, ydoedd o deulu y Bryncir. Yr oedd yn gadben 100 o filwyr Cymreig yn yr Iwerddon, ac yn *Brovost Marshall* Fflushing, o dan Syr Phillip Sydney. Bu unwaith yn gwasanaethu tan Cadben Ronehall, yr hwn a laddwyd yn Iwerddon, ac arfau yr hwn a ddygodd efe i Syr Henry Sidney, yr hwn oedd y pryd hyny yn rhaglaw Iwerddon, a dilyn y boneddwr olaf y bu o hyny allan hyd derfyn ei oes filwrol. Wedi iddo briodi gweddw Cadben W. Thomas, o deulu Glynllifon, bu yn byw yn Nghaernarfon hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd yn un o gynghorwyr y terfynau. Ymwelwyd âg ef ar ei wely angau gan y Dr. Griffith Williams, esgob Ossory; a thraddodwyd ei bregeth angladd gan Dr. L. Bailly, esgob Bangor, ac awdwr yr *Ymarfer o Ddduwioldeb*.—*Lleyn MSS.*

WYNN (Parch. William), o Langynhafal, offeiriad a bardd enwog, a anwyd yn Maesyneuadd, sir Feirionydd, yn 1704. Mab ydoedd i Robert Wynn, Ysw., o'r lle hwnw, o'i ail wraig, Margaret, merch i Robert Lloyd, o Ragat, yr hon a fuasai yn briod o'r blaen â Meredydd Lloyd, o'r Rhiwaedog, ger y Bala; hi a fu farw yn 1760. Cafodd ei addysg athrofaol yn ngholeg Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A. Yn 1740, cafodd ficeriaeth Llanbrynmair, sir Drefaldwyn, yn esgobaeth Llanelwy; yr hon a roddes i fynu yn 1747, pan y penodwyd ef yn ficer Manafon, yn yr un sir ac esgobaeth. Oddiyno symudodd i Langynhafal Dyffryn Clwyd, a gwasanaethai fel rector y plwyf hwnw hyd ei farwolaeth, Ion. 22, 1760. Claddwyd ef yn mynwent y plwyf hwnw; lle y mae bedd-gist yn dynodi ei fedd, a thri englyn lled ddiawen yn gerfiedig arno. Yr oedd yn gymrawd o goleg All Saints, Rhydychain, ac yn gaplan i'r Esgob Farmer. Efe a briododd Martha, merch Henry Roberts, Ysw., o Rydonen, heb fod nepell o Langynhafal. Y mae yn ofidus genym na buasai gwaith y prif-fardd gorchestol hwn wedi ei gyhoeddi yn gyfrol ddestlus gyda'i gilydd; yn lle bod ar wasgar fel y ceir hwynt yn bresenol—rhai yn y *Dewisol Ganiadau*, eraill yn y *Blodeugerdd*, yn y *Dyriau Duwiol*, y *Gwyliedydd*, *Ceinion Awen y Cymry*, &c. Ystyrir ei "Gywydd y Farn," yn hafal i'r eiddo Goronwy Owen; ac y mae rhai o'i linellau yn gryfach ac angerddolach nag hyd yn nod eiddo y Bardd Du; a thybiem na raid ond dyfynu y dernyn canlynol o'r cyfansoddiad penigamp hwnw er profi glewder ei athrylith, a'i awdurdod freiniol ar adnoddau iaith:—

YR UDGORN DIWEDDAF.

"Udgorn nef yn dolefain,
Y ser a glywant ei sain;
Traidd ei nerth trwodd i nen,
Traidd eirias trwy ddaiaren;
A marwor trwy'r gloewfor glas,
Mor a than ynmherthynas!
Traidd afrifed blanedau,
Traidd uffern a'r gethern gau:
Haul a hyllt, garw-wyllt ei gur,
Yn friwsion o'i fro asur!

Digitized by Google

SYR WATKIN WILLIAMS WYNN.

A'i anoleu wan eulyn,—
Y lloer anwadal ei llun:
Cwymp y ser ar ddisperod,
O wawl a nerth i wael nod,
Rhed fflôl rhawd ufelfelit
Rhua trwy'r main rheleidr melit."

WYNN, (Syr Watkin Williams), o Wynnstay, sir Ddinbych. Ganwyd y boneddwr gwladgarol hwn Hydref 26, 1772. Ei dad ydoedd yr ail Syr Watkin; a'i fam, Charlotte, merch i'r Anrhyd. George Grenville, a chwaer i Ardalydd cyntaf Buckingham. Y mae teulu Wynnstay er'a oesoedd yu cael eu hystyried yn mhlith y rhai mwyaf uchelwaed, gwladgarol, a Chymreig, o holl bendefigion ein gwlad. Olrheiniant eu hachau o ganol yr hen waed tywysogaidd; ac y mae Wynnstay o genedlaeth i genedlaeth wedi bod yn "fuarth beirdd," ei ddrws yn agored i blant trallod, a'i berchenogion yn noddwyr awen, cân, ac athrylith, cystal ag yn rhai o'r tirfeddianwyr caredicaf yn Mhrydain. Gymaint ydyw eu parch yn mhlith eu cydwladwyr fel y mae yn ddywediad cellweirus a chableddus gan y Saeson, "Syr Watkin, arglwydd-dduw hollalluog Cymru." Tybiwn, gan hyny, nad anfuddiol fyddai ychydig o'u hanes. Yn y ddeuddegfed ganrif, yr oedd y lle yn meddiant ac yn breswylfa Gruffydd Maelor, yr hwn a sylfaenodd abad-dy Llanegwestl, ger Llangollen; ac yn nghwrs amser, daeth yn eiddo Edward Eyton, merch ac etifeddes yr hwn a briododd Richard Evans, mab Thomas Evans, o Groesoswallt, Cyfreithiwr Cyffredinol Llys y Cyffiniau. Pan ddaeth y lle i feddiant Eyton Evans, yr hwn a briododd ferch i'r hyglod Dr. Powel, ficer Rhiwabon, yr hanesydd Cymreig, efe a roddes i'r lle yr enw Wattstay, oherwydd fod hen glawdd Watt yn croesi y tir gerllaw. Jane, unig ferch ac etifeddes Eyton Evans, a briododd John Wynn, ŵyr i Syr John Wynn o Wydir, a phan ddaeth efe trwy briodas i feddiant o'r lle, er oesoli ei enw ei hun, cyfnewidiodd enw ei balas i *Wynnstay*. Y boneddwr hwn a adawodd ei etifeddiaethau eang i'w gâr Watkin Williams Wynn, ŵyr i Syr Wm. Williams, o'r Glasgoed, Llansilin, sir Ddinbych. Henry Wynn, tad y Syr John crybwylledig, a briododd Catherine, merch Elizeu Llwyd, o'r Rhiwgoch, sir Feirionydd, felly y daeth yr ystad hono i feddiant y teulu. Y Syr Wm. Williams, o'r Glasgoed, ydoedd fab i Hugh Williams, D.D., o Nantanog, Mon, yn deillaw o Cadrod Hardd, a'i fam ydoedd Emma, nith i'r Esgob Dolben, o Fangor. Syr William a ddygwyd i fynu i'r gyfraith, ac a wnaed yn llefarydd Tŷ y Cyffredin dan Siarl II., ac yn gyfreithydd cyffredinol i'r brenin James. Yn ei alwedigaeth gyfreithiol, digwyddodd fod yn amddiffynwr rhyw dreial yn yr Amwythig yn achos Watkin Kyffin, o'r Glasgoed, yn yr hyn y bu yn llwyddianus; a hyny a agorodd y ffordd iddo gael Margaret, merch y boneddwr hwnw, yn wraig, a'r mab hynaf o'r briodas hon, sef Syr Wm. Williams, a briododd Jane, merch ac etifeddes Edward Thelwall, Yswain, a Sydney, merch ac etifeddes William Wynn, 4ydd mab Syr John Wynn, o Wydir, a nai i Syr John Wynn, o Wynnstay; a hyn a fu'r achlysur i'r boneddwr olaf adael ei ystad i Syr Watkin Williams Wynn, mab y Syr Wm. Williams olaf o'r Glasgoed; ac felly y cysylltwyd ystad y Glasgoed â Wynnstay. Trwy yr Edward Thelwall uchod hefyd y daeth ystad Plasyward, a chyfoeth tirol arall yn Nyffryn Clwyd, i feddiant yr un teulu. Y Syr Watkin uchod, o'r Glasgoed, a briododd yn gyntaf Anne, merch William Vychan, o deulu Llwydiarth, sir Drefaldwyn, o'r hon y bu iddo amryw blant, rhai ohonynt a fuant

Digitized by Google

feirw yn ieuainc: a'i ail wraig Frances, merch George Shakerley, Ysw. Ond y mae'n angenrheidiol sylwi yn nghylch y briodas gyntaf, fod y Robertiaid o Langedwyn yn hanu o Einion Efaill, o Lwynymaen; ac un o'r teulu yma, sef Catherine, merch ac etifeddes Morris Roberts, o Langedwyn, a briododd Owen Fychan o Lwydiarth; ac iddi hi y disgynodd etifeddiaethau ei pherthynasau, sef Fychaniaid Caergai a Glanllyn, Meirionydd, a'r etifeddiaethau hyny, yn nghydag ystad Llwydiarth, a ddisgynasant i Anne, merch Wm. Fychan o Lwydiarth, yr hon drwy ei phriodas â Syr Watkin, a drosglwyddodd yr amrywiol etifeddiaethau a enwyd iddo ef, ac y maent yn parhau yn y teulu hyd y dydd hwn. Yr ail Syr Watkin a briododd yn gyntaf Henrietta, 5ed merch Dug Beaufort; ac yn ail, Charlotte, merch yr Anrhydeddus George Grenville, a chwaer i George, Ardalydd cyntaf Buckingham. Efe a fu farw ar y 29ain o Orphenaf, 1789, pan y disgynodd ei deitl i wrthddrych hyn o sylw. Efe oedd y pumed barwniad o'r teulu, a'r trydydd o'r enw. Daeth i feddiant o'r ystad ar farwolaeth ei dad yn 1789. Yn 1794, dewiswyd ef yn aelod seneddol tros sir Ddinbych, a pharhaodd i'w chynrychioli hyd ei farwolaeth. Yr oedd hefyd yn arglwydd-raglaw siroedd Dinbych a Meirion; a thrwy ei addysg foreuol fel milwr, bu o gryn wasanaeth yn ei oes i'r goron. Amlygodd hyny ar wahanol achlysuron, yn enwedig pan yr oedd terfysg yn Iwerddon yn 1798; casglodd gatrawd o wyr meirch ar ei draul ei hun, aeth trosodd i'r wlad hono, a bu yn wasanaethgar iawn i adfer tawelwch yno. Ac ar ddychweliad Bonaparte o Elba, Syr W. a *militia* sir Ddinbych, ar y rhai yr oedd efe yn gadflaenor, a gynygiasant eu gwasanaeth i fyned trosodd i Ffrainc er cynorthwyo i ddarostwng y gwr bach uchelfrydig; eithr tra yr oedd ef a'i wyr ar eu ffordd tuag yno, digwyddodd brwydr Waterloo, ac felly dychwelasant heb fod angen am eu cynorthwy. Ystyrid ef yn feistr tir rhagorol, rhesymol yn ei renti, a hynaws tuag at ei ddeiliaid mewn cyfyngderau. Fel Cymro gwladgarol, yr oedd yn frwdfrydus dros ei genedl a'i harferion; yn noddi ei llenyddiaeth, ac yn haelionus i'w llenorion. Efe oedd llywydd Eisteddfod Gwrecsam yn 1820, ac un y Bala yn 1836. Yn fuan wedi ei ddychweliad o'i ymgyrch tua Ffrainc, cynaliwyd cyfarfod gorfoleddus iawn yn Rhuthyn, Mai 21, 1816, i'r dyben o gyflwyno iddo gawg arian ardderchog, yn pwyso 1,500 owns, gwerth 19s. 6c· yr owns; yn 3 troedfedd a 2 fodfedd o daldra, 2 droedfedd a 4 modfedd o drawsfesur; ac yn abl i gynwys 140 o alwyni. Yr anrheg hon a bwrcaswyd trwy gydroddion boneddigion sir Ddinbych. Ar ei ystlys yr oedd yn gerfiedig yr englyn canlynol o waith Bardd Nantglyn:—

"Y Fail Arian am fllwrio—roddwyd
I raddol fwyn Gymro,
Syr Wateyn, brigyn ein bro,
I'w gyfarch a'i hir gofio."

Bu y boneddwr anrhydeddus hwn farw Ion. 5, 1840; a disgynodd y teitl a'r etifeddiaeth i'r barwn gwiwglodus presenol o'r un enw.

YNYR GWENT, tywysog yn y Deheubarth, yn ei flodeu yn y 5ed cant. Safai ei diriogaethau mewn rhan o'r sir Fynwy bresenol. Rhestrid ef hefyd yn mhlith y Saint Cymreig, a meibion iddo ef oeddynt Ceido ac Iddon, saint, o Fadryn ferch Gwrthefyr. Efe a sefydlodd goleg neu fynachlog yn Nghaerwent, llywydd yr hwn ydoedd Tathan Sant. Dywedir hefyd mai efe a adeiladodd eglwys y Fenni.—*Iolo MSS.*

Digitized by Google

YONG (THOMAS), D.C.L., prelad dysgedig, ydoedd fab i John Yong, o sir Benfro, ac Eleanor ei wraig; ac yn y sir hono y ganwyd yntau yn 1507. Derbyniwyd ef i Neuadd Broadgate, yn awr Coleg Penfro, Rhydychain, yn 1528; a chan iddo ymroddi i efrydu y gyfraith wladol, cymerodd ei raddau yneddi yn 1537, ac efe ar y pryd mewn urddau eglwysig. Yn 1542, gwnaed ef yn benaeth ei goleg; ac yn 1547, yn brif gantor Mynyw neu Dyddewi. Cymerodd ran mewn dwyn y cyhuddiadau yn erbyn yr Esgob Farrar, o'r lle hwnw, y rhai a brofwyd gerbron Dirprwywyr y brenin, a'r esgob o ganlyniad a garcharwyd. Cymerodd hyn le o tan deyrnasiad Iorwerth VI. Pan esgynodd Mari i'r orsedd, gorfu arno ffoi o'r deyrnas oblegyd ei grefydd, a threuliodd gyfnod ei theyrnasiad hi yn Germani. Dychwelodd i Loegr ar esgyniad y frenhines Elizabeth, ac ar fwriad allan yr Esgob Henry Morgan, o Dyddewi, cafodd ei le ef, a chysegrwyd ef i'r swydd Ionawr 21, 1559. Yn Chwefror, 1560, dyrchafwyd ef i archesgobaeth York; a thua'r un amser, cafodd ei benodi yn Llywydd Cynghor y Frenhines yn y rhan ogleddol o Loegr. Yn Chwefror, 1564, graddiwyd ef yn ddoethawr yn y gyfraith wladol (D.C.L.) Bu farw Mehefin 26, 1568, a chladdwyd ef yn mhen dwyreiniol prifeglwys York; lle y dodwyd maen marmor, a beddargraff Lladin yn hysbysu ei amryfal rinweddau. Yn lled hwyr yn ei oes, efe a briododd Jane, merch i Thomas Kynaston, o Estwick, sir Amwythig; o ba un y bu iddo un mab o'r enw George, yr hwn a wnaed yn farchog, ac ydoedd yn byw yn York yn 1612.—Wood's *Athen. Oxon.*

YORKE (PHILIP), Ysw., a anwyd yn Erddig, ger Gwrecsam, sir Ddinbych, yn 1743. Wedi cael addysg ragorol oddeutu cartref, derbyniwyd ef i goleg Bennet, Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd y radd o M.A. Y llenorwaith cyntaf a gyhoeddodd ydoedd "Tracts of Powys," yr hwn a argraffwyd yn Ngwrecsam yn 1795. Yn 1799, daeth allan argraffiad llawer helaethach o'r gwaith hwn, tan y teitl, "The Royal Tribes of Wales." Y mae hwn yn waith gwerthfawr iawn, ac yn cynwys llawer o wybodaeth ddyddorus am Bum' Llwyth Breninol Cymru a'u gwehelyth. Bwriadai fyned yn mlaen, ac ysgrifenu hanes Pumtheg Llwyth Gwynedd, ond ni ddygpwyd yr amcan hwnw ganddo byth i ben. Addurnir y "Royal Tribes" â darluniau ar ddur o ddeuddeg o Gymry enwog yn eu bloden yn ystod y ddwy ganrif ddiweddaf. Bu Mr. Yorke yn cynrychioli bwrdeisdrefi Halston a Grantham yn olynol yn y Senedd. Cymerodd ei farwolaeth le yn 1804, ac efe yn 61 oed. Wms. *Em. Welsh.*

YSGAFNELL, ydoedd fab i Ddysgyfeddawg, tywysog ar Frythoniaid Deifr a Bryneich, yn Ngogledd Prydain, yn ystod y 6ed ganrif. Yn *Triocdd* 39, cofnodir ef gyda'i ddau frawd, Gall a Diffedel, a dan y penawd, "tri unben Deifr a Bryneich;" "a meib beirdd oeddynt y tri, a gwedi eu myned wrth gerdd y rhoddwyd arnynt unbenaeth." Y mae yr un tri drachefn yn cael eu cofnodi yn *Triocdd* 46, tan y penawd, "Triwyr o feirdd a wnaethant y tair Madgyflafan," neu ysgelerder canmoladwy; Ysgafnell a "laddwys Edeffled, brenin Lloegr; ac efe a fynai bob nos dwy rian dyledawg o Genedl y Cymry, ac a wnelai anfodd arnaddynt, a thranoeth y lladdei efe wynt, ac a'u hyssei." Cofnodir un o'i ddywediadau yn *Chwedlau y Doethion*, i'r perwyl, "Ni cha'r tlawd rodd o bell."—*Myv. Arch.; Iolo MSS.*

YSGIN AB ERBIN, sant yn y pumed cant. Yr oedd yn frawd i'r enwog Geraint ab Erbin, a thybir mai efe a sefydlodd Lanhesgin, Mynwy.

Digitized by Google

YSTRAWAEL, merch i Gadwallawn ab Cynan ab Eudaf ab Caradawg, ydoedd wraig i Goel Godebog, a thrwyddi hi y daeth teyrniaeth Prydain i deulu Coel. Mewn rhai llawysgrifau, gelwir hi Ystradwael, Ystradwen, ac Ystrawen merch i Gaufan ab Cynan ab Eudaf ab Caradawg.—*Cambrian Biography.*

YSTUDFACH, bardd yn y bumed ganrif, eithr nid oes dim o'i waith ar gof a chadw. Efe oedd bardd Cystenyn ab Cynfor, brenin Prydain. Cofnodir un o'i ddywediadau yn *Chwedlau y Doethion*, i'r perwyl, "Gwyneb llawen, calon iach."—*Iolo MSS.*

YSTYFFAN, sant yn y 6ed cant. Mab ydoedd i Mawan ab Cyngen ab Cadell Deyrnllwg, tywysog Powys. Yr oedd hefyd yn fardd gorchestol, fel y prawf "Englynion Cain Cynnwyre," o'i waith a welir yn *Myv. Arch.* Y mae dywediad o'i eiddo yn *Chwedlau y Doethion:*—"A fyno dyn, Duw a'i rhan." Efe oedd bardd Teilo Sant. Efe hefyd a sefydlodd Lanstyffan, sir Gaerfyrddin; a Llanstyffan, yn Maelienydd, sir Faesyfed.—*Iolo MSS.*

Digitized by Google

ATTODIAD.

AUBREY (Parch. Thomas). Ganwyd y dyn mawr a'r pregethwr hyawdl hwn, yn Cefn Coed y Cymer, sir Forganwg, yn 1808. Yr oedd ei rieni yn aelodau anrhydeddus o'r dosbarth gweithiol; a phan nad oedd efe ond ieuanc, symudasant i Nantyglo. Nid ymddengys iddo gael nemawr ddim o fanteision addysg yn more ei oes; eithr trodd allan i weithio mewn gwaith haiarn, a'r ganghen neillduol o'r gwaith yr oedd a wnelai ef â hi ydoedd y *roller*. Gan belled ag y gellir casglu, treuliodd bedair blynedd ar ddeg cyntaf ei fywyd mewn anwybodaeth meddwl ac anystyriaeth calon; eithr yn yr oedran hwnw, trodd i mewn yn ddamweiniol i addoldy Wesleyaidd bychan gerllaw cartref, a phwy a ddigwyddai bregethu yno ar y pryd ond yr hen efengylwr gwladaidd John Williams o Lanfair-pwll-gwyngyll, yn Mon. Glynodd saeth oddiar y weinidogaeth hono yn ei galon, ac o hyny allan y mae cyfnod newydd yn gwawrio ar ei gymeriad. Yn mhen noswaith neu ddwy, ymunodd â'r gyfeilach; ac yn mhen blwyddyn, cawn ef yn dechreu pregethu. Ymroddodd ati o ddifrif i wneud i fynu ddiffygion bore oes, a chydag yni a nerth cawr dechreuodd ddryllio hualau anwybodaeth oddiam ei feddwl, a bu ei lwyddiant yn gyfatebol i'w ymdrech. Gwelwyd fod ynddo ddefnydd dyn—dyn a adawai ei ol ar y byd er gwell. "Yr oedd yn gallu creu mellt yn y pwlpud," ys dywedai Williams o'r Wern am anhebgorion pregethwr llwyddianus. Swynodd y swydd o efengylwr ei holl fryd yntau, a chosbai angenrheidiau natur er cael offerynau i'w arfogi at ei dyledswyddau. Galwyd arno i fyned allan i'r weinidogaeth amdeithiol; ac yn 1826, pan yn 18 oed, ymddangosodd ei enw ar gofnodau y Gynadledd fel un o weinidogion rheolaidd "Cylchdaith Dinbych a Llanrwst," gyda'r nodiad hwn, "D.S Y mae'r brawd Aubrey i roi haner ei lafur i Gylchdaith Rhuthyn." Yn ngwyneb hyn, y mae'n hawdd credu nad cyfyng ydoedd maes ei lafur, gan ei fod yn cyrhaedd ar ei hyd o Frymbo ger Gwrecsam hyd i Gonwy, yn Arfon; ac ar ei draws o Abergele i Benmachno; a chynwysa yr un maes yn bresenol wyth o Gylchdeithiau Wesleyaidd. Yn 1827--8, gweinyddai ar Gylchdaith Dolgellau, yn cynwys Abermaw, lle y torodd diwygiad nerthol allan tan ei weinidogaeth. Oddiyno aeth i Lundain, lle y tariodd am ddwy flynedd, ac y ffurfiodd gydnabyddiaeth â'r duweinydd enwog Richard Watson, yr hwn ydoedd arolygwr cylchdaith City Road, ar y pryd, a than reolaeth yr hon yr ydoedd y gweinidog Cymreig yn y Brifddinas. Yn 1831, llafuriai ar Gyldaith Rhuthyn a Llangollen. Yr oedd ar Gylchdaith Treffynon a'r Wyddgrug yn 1832—3; Llanfyllin a Llanfaircaereinion yn 1834—6; Rhuthyn a Dinbych, 1837—9; Liverpool, 1840—2; Caernarfon, 1843; Llangollen, 1843—5; Merthyr Tydfil, maes boreuol ei lafur, 1846—8; Liverpool, 1849—51; Bangor, 1852—4; Treffynon, 1855—6; Bangor, 1857—9; Liverpool, 1860—2; Llanfyllin, 1863—4.

Digitized by Google

Dyna geryg milldiroedd ei fywyd, y maent yn nodi treigliad ei lwybr yn y byd, ond ni roddant ini unrhyw ddrychfeddwl am ei ymdrechion, a'i fuddugoliaeth; ei lafur mawr a'i lwyddiant amlwg; llawer llai gweithredlaidau dirgelaidd y galon awyddus hono i wneud daioni, a llwybreiddiad y meddwl cawrfilaidd hwnw yn ei ymchwiliadau am rywbeth a dorai ei sychedam wybodaeth. Darfu i'r ymdrechion hyn adael eu hol arno, er cryfed a haiarned ei gyfansoddiad, yn mhen amser. Erbyn iddo gyrhaedd ei gylchdaith olaf, sef Llanfyllin, yr oedd nychdod yn dyfod arno yn gyflym; a rhoddid aml i arwydd a rhybudd iddo ef a'i gyfeillion lluosog fod ei oes brysur yn tynu tua'i therfyn. Yn Awst, 1865, rhoddodd ei weinidogaeth amdeithiol i fynu, ac ymsefydlodd yn Nghaerlleon fel uwchrif; symudodd oddiyno i Rhyl yn Nghorphenaf, 1867. Oddiar ei fynediad cyntaf i faes y weinidogaeth, ystyrid ef yn rheng flaenaf arwyr y pwlpud Wesleyaidd Cymreig, ac fel y syrthiai y naill hen arwr ar ol y llall i'r bedd, yr oedd ei safle ef yn dyfod yn barhaus yn fwy amlwg a phwysig. Yn 1854, ymneilluodd y Parch. Edward Anwyl o'i swydd o Gadeirydd y Dalaeth Ogleddol; ac yr oedd pobpeth yn cyfeirio at y Parch. T. Aubrey fel olynydd iddo. Wedi ymgymeryd â'r swydd hon, buan y profodd ei gymhwysder iddi yn mhell tu hwnt i ddisgwyliadau uwchaf ei gyfeillion. Yr oedd rhyw syniad yn meddyliau'r lluaws, nad oedd ynddo ef ond ychydig o gyfaddasder at fanylion a manion trafnidiaeth, ac i ymyraeth a phethau arianol a rhifyddol yr achos; ond buan y dangosodd efe iddynt eu camgymeriad, a bod ei gyfaddasder ef yn ymgodi gyda'r amgylchiadau ei dodid ynddynt. Y mae'r "Drysorfa Fenthyciol," er symud dyledion capelau; a "Thrysorfa y Tai," fel ei gelwir, yn brawf o'i alluoedd mewn cynllunio ac ardrefnu. Wedi llanw y swydd hon gyda medrusrwydd neillduol, a bod yn pregethu o gwbl am dair a deugain o flynyddau, efe a fu farw yn orfoleddus yn Rhyl, Tach. 17, 1867, yn 59 oed. Er cynifer ydoedd anfanteision ei ieuenctyd, mae yn ddianmheu nad oedd yn Nghymru ddyn cyflawnach o wybodaeth gyfiredinol na Mr. Aubrey. Yr oedd wedi darllen llyfrgellau o gyfrolau, wedi trysori eu cynwysiad yn fanwl o fewn ei gof enfawr, a'u gosod yno yn drefnus at law pan y byddai galwad am danynt yn yr areithfa neu wrth fwrdd yr ymddyddan. Yn gymesur â'i gôf gafaelgar, yr oedd craffder ei ddealltwriaeth a'i adnabyddiaeth eang o ysgogiadau dirgel y galon ddynol, yr hyn a'i cyfaddasai yn neillduol i fod yn llywydd cydymgynghorfa. Yn ychwanegol at hyn oll, yr oedd ganddo ddawn ymadrodd swynol a rhagorol, wedi ei ddysgyblu i'r graddau eithaf, a thraddodiad meistrolgar sydd yn graddio dyn yn feistr y gynulleidfa. Yr oedd yn *areithiwr* yn ngwir ystyr y gair—yn hyawdl, nerthol, ac anorchfygol. Fel dysgrifiad ac engraifft o'i ddawn areithyddol, nis gallwn well na difynu geiriau yr *Hen Wyliedydd* yn *Eurgrawn* 1868:—"Tua 35 mlynedd yn ol, mwy neu lai, yr oedd capel newydd bychan yn perthyn i'r Wesleyaid yn y Bontgoch, Cylchdaith Aberystwyth, i gael ei agoryd, ac yr oedd Mr. Aubrey, y pryd hwnw ar Gylchdaith Llanfyllin, a'r hybarch Robert Owen, i weinyddu ar yr achlysur. Dyna'r tro cyntaf y gwelais fy hen gyfaill. Pregethodd yno ddwywaith; ac os nad yw fy nghof yn fy nhwyllo, dyna'r pregethau, "Y dydd hwnw y bydd ffynon wedi ei hagoryd," &c., Zech. xiii. 1; a'r llall acw, "caru tad, mam, gwraig, plant, yn fwy na myfi," &c. Ac O, bobl anwyl, dyna bregethu oedd yno! Safai o'n blaen ar hen wagen—canys allan ar y maes y cynelid y cyfarfod; yr oedd y capel bach yn rhy fach o lawer i gynwys chwarter y dyrfa—yn

Digitized by Google

ddyn lluniaidd uniensyth, prydferth, a boneddigaidd. Yr oedd oddeutu pum' troedfedd a naw modfedd o daldra. Prin y gellid meddwl hyny yn ei ffynyddoedd olaf hefyd; canys yr oedd erbyn hyny wedi tyfu yn fwy ffyrf a chorffol. Yr oedd ei wyneb yn grwn, a phur agored. Talcen llydan; ond nid edrychai yn uchel, canys tyfai ei wallt yn isel braidd—aeliau trwchus, a thanynt ddau lygad du, dysglaer, a thanbaid iawn. Mae o bryd tywyll, ac o ymddangosiad iachus a chadarn. Y gair cyntaf a seinia denir ein sylw yn union: mae tonau ei lais yn hollol wahanol i bob peth a glywsom o'r blaen; ac y mae'r llais cyfoethog hwnw dan lawn lywodraeth ganddo. Mae'r cynghaniad, y *modulation*, yn berffaith; a'r oslef, *cadence*, yn effeithiol i'w ryfeddu. Ond tynir ein sylw gan rywbeth heblaw'r llais. Beth a ddywedodd ef yn awr; Aroswch chwi—dyn annghyffredin yw hwn yn siwr i chwi. Mae'n egluro ei destyn mor fedrus, mor felus, mor oleu! Y fath iaith gref, brydferth, dda, sydd ganddo; a'r fath awdurdod drosti hefyd! Dechreua bellach fanylu ar ei destyn, y ffugyrau sydd ynddo, a'r athrawiaethau a ddysgant i ni. Mae'r "dydd hwnw" yn ei danio! Dydd! a dyna ei grebwyll a'i ddarfelydd yn ei gipio i fynu, ac yntau rhyngddynt yn ymgodi i ganol y golygfeydd mwyaf ysplenydd, arddunol a gogoneddus, ac o'r uchelderau clir, mewn llais toddlyd a chynhyrfus, a iaith brydferth farddonol, yn eu darlunio, i ni oedd ar lawr, nes ein swyno a'n synu, ein llwytho a'n llethu, gan gyflawnder yr addysg a'r boddhad. Yna disgynai yn ol, a chodai i fynu rhyw bwynt arall a alwai am eglurhad, cadarnhad, ac amddiffyniad. Yr wyf yn cofio yn awr fod Athrawiaeth yr Iawn yn un o'r rhai hyny. Ar fater felly, dechreuai ymresymu yn fanwl, yn gywrain, ac yn anwrthwynebadwy. Wedi gorphen arloesi ei ffordd fel hyn, ymgodai i gylchoedd asur drachefn. Ac yn y modd yma, o esboniad i esboniad, o resymiad i resymiad, o ffugwr i ffugwr, o ddarlun i ddarlun, o esgyneb i esgyneb, daliodd i'n llwyr feddianu, "gorph, enaid, ac ysbryd," nes i'r *peroration* olaf ymdori arnom yn ffrydlif o oleuni a nerth, a'n gollwng yn rhydd o afaeliion tynion ei allu mawr a'i ddylanwad anarferol." Gallesid yn hawdd feddwl wrth edrych arno y tro cyntaf mai gwr taeaog a diserch ydoedd, ond tystiolaetha y rhai a'i hadwaenent oreu na bu erioed ddyn serchocach ei dymher a thynerach ei ymddygiad. Cofir ef yn hir gan y cyhoedd fel pregethwr campus. Canodd ei frawd-weinidog y Parch. J. Hugh Evans farwnad ryglyddus ac awenyddol er coffadwriaeth am dano, yr hon a gyhoeddwyd yn 1869.

EDWARDS (PARCH. RICHARD FOULKES) *(Risiart Ddu o Wynedd)*. Yr oedd y bardd gobeithiol hwn yn hanu o deulu parchus,—ei dad yn berchen amryw ffermydd yn nghwr gogleddol sir Ddinbych. Yn ystod ei febyd ef, preswylient yn mhlwyf Bodfari, Dyffryn Clwyd. Ganwyd ef Ionawr 14, 1836. O Bodfari symudodd ei rieni i Blas Llanychan, ger Rhuthyn; ac yn ystod eu trigiant yno, bu ef am beth amser yn ysgrifenydd i gyfreithiwr yn y dref hono. Rhoddasai ei dad er's hir amser ei fryd ar fyned i'r America, ac yno o'r diwedd yr aeth, a rhan o'r teulu gydag ef; eithr gan fod chwaer i'r bardd ieuanc yn rhy afiach i'r daith, arosodd ef a'i fam yn y wlad hon gyda hi; a gwelwyd llawer o ledneisrwydd ei deimladau yn ei garedigrwydd at y ddwy. Preswylient y pryd hwn yn Ninbych, a byddai ef yn ysgrifenu i Mr. Gee. Annibynwyr oedd y teulu, ac ymunodd yntau â'r un enwad; galwyd arno i bregethu yn eu plith; ymroddodd yn egniol trwy lawer o anhawsderau i'r gwaith; derbyniwyd ef i Athrofa yr enwad yn y Bala,

Digitized by Google

lle yr arhosodd am bum' mlynedd, a safai am gryn amser yr uchaf yn y sefydliad. Rhoddes hen eglwys barchus a lliosog Mynyddislwyn alwad iddo i ddyfod yn weinidog arni, ond gohiriodd gydsynio â'r cais; ac ar anogaeth meddygon, cymerodd fordaith i ymweled â'i deulu yn America. Cychwynodd i'r daith hon Mai, 1867, gyda'r bwriad o ddychwelyd yn yr Hydref dilynol, ac ymaflyd yn ei swydd weinidogaethol. Ond daliai yr afiechyd afael tyn ynddo, nes peri iddo oedi dychwelyd o'r naill dymor i'r llall. Gellir ffurfio rhyw ddrychfeddwl am agwedd ei deimladau yn y cyfwng hwnw oddiwrth y dyfyniad canlynol o lythyr a ddanfonodd at hen gyfaill yn Liverpool, dyddiedig Mehefin 21ain, 1868:—"Y mis diweddaf, yr oeddwn yn bresenol yn Nghymanfa Annibynwyr Wisconsin, a phregethais ynddi, wedi bod yn ddistaw am yn agos i ddeuddeng mis. Ychydig ddyddiau yn ol, pregethais yn Nghymanfa Trefnyddion Cadfinaidd talaeth Minnesota. Modd bynag, rhaid i mi beidio pregethu ond ychydig, gan nad wyf eto yn ddigon cryf i'r gwaith, er fy mod yn teimlo awydd cryf i wasanaethu fy Meistr Mawr yn y ffordd hono, pe byddwn alluog." Ysgrifenai yn barhaus at gyfeillion yn y wlad hon yn hysbysu ei fwriad i ddychwelyd, a gwnai hyny, yn ddiau, tan hud ei glefyd twyllodrus—y darfodedigaeth. Cyd-dystia pawb a'i hadwaenent na roddwyd eriöed mewn pridd wr ieuanc glanach ei foes, uwch ei ddybenion, a thynerach ei deimladau. Yr oedd yn wr boneddig yn ystyr uchaf y gair, a'i gyneddfau, ei syniadau, a'i ymddygiad, oll wedi eu sancteiddio â gras. Duwinyddiaeth a barddoniaeth aeth a'i fryd; a dygodd holl gedau y ddwy gangen hon o efrydiaeth i'w "hongian yn offrwm ar drostan y groes." Rhestrid ef yn y dosbarth blaenaf o'r to ieuanc sydd yn codi o bregethwyr: yr oedd ei draddodiad yn syml, arddull y cyfansoddiant yn goeth, ac yn cael ei nodweddu gan drysorau o reitheg sydd yn arddangos meddwl uwchraddol, a chan yr eneiniad hwnw sydd mor anhebgorol i wneud pregethwr yn ddylanwadol a phoblogaidd. Fel bardd, dywed ef ei hun yn y "Blaenffrwyth," cyfrol fechan o farddoniaeth a gyhoeddodd efe yn 1857, iddo ddechreu prydyddu pan yn 14 oed. Yr oedd hyny yn 1850, a chryf haodd a dyfnhaodd ei serch at yr awen yn barhaus a chyflym. Yn 1855, ymgeisiodd ar Awdl i'r "Bardd," testyn cadair Eisteddfod Machraeth, Mon, a rhestrwyd ei gyfansoddiad yn y dosbarth cyntaf. Yr oedd yn ail oreu ar Awdl i'r "Amaethwr," yn Mangor, yn 1856; cafodd amryw wobrau man a lled fawr o hyny hyd 1864, pan yr enillodd brif anrhydedd barddonol y genedl, sef cadair Eisteddfod Genedlaethol Llandudno, ar "Ioan yn Ynys Patmos." Y flwyddyn ganlynol drachefn, yn Eisteddfod Aberystwyth enillodd y wobr am y traethawd beirniadol goreu ar "Eben Fardd a'i athrylith." O hyny hyd 1869, rhoddes ei delyn i raddau ar yr helyg, gan ei fod yn ymdaith yn nyffryn adfyd a chystudd—ni chyfansoddodd ond ychydig yn ystod y pedair blynedd diweddaf o'i oes, hyd oni dadebrwyd ei awen i ddathlu ei hacenion olaf ar destyn cydnaws â'i deimladau, sef "Marwnad y diweddar Barch. Henry Rees," yr hon a enillodd Gadair y Gordofigion, a'r wobr o 20 gini, yn Eisteddfod Liverpool y Nadolig, 1864. Y mae yr awdl hono bellach gerbron y cyhoedd, ac yn llawn o brudd-ddyddordeb fel "gwreichionen awen olaf" y bardd ieuanc talentog hwn. Yr ydym yn ofni i'r ymdrechion llafurfawr a wnaeth i gyrhaedd rhai o'r tlysau uchod, ddodi i lawr sylfaen ei anhwyldeb, ac iddo fel eryr Byron:—

"Winged the steel that quivered in his heart."

Digitized by Google

Bu farw Mawrth 8, 1870, yn Oskosh, talaith Wisconsin, Unol Daleithiau, ac iddo, yn 34 oed.

ENOCH (Y Milwriad John), ydoedd fab i John Enoch, Aberarthen, Fach, ger llaw Castell Newydd Emlyn, pentalwr Meiwyr Ceredigion am lawer o flynyddoedd. Yr oedd y teulu yn hanu o Gadifor Fawr, arglwydd Dyfed, yn yr 11eg ganrif; eu hen enw ydoedd *Hywel*, neu *Howel;* a thad gwrthddrych y cofnod hwn ydoedd y cyntaf i roi yr hen gyfenw teuluaidd o'r neilldu ac ymgymeryd ag *Enoch*, yn ol cynenw ei dad, yn ei le. Mab ydoedd John Enoch yr hynaf i Enoch Howel, ac ŵyr i Dafydd Howel, perchenog y Wern Logws, yn mhlwyf Cilrhedyn, yr hwn oedd brydydd da ac ysgolhaig gwych yn ei oes. Gweler cofiant am y Dafydd Hywel hwn yn y *Brython*, ii. 134. Ymunodd y Milwriad Enoch â'r fyddin pan oedd yn bur ieuanc, ac ymgododd yn raddol ynddi nes iddo gyrhaedd pencatrodiaeth. Gwelodd lawer iawn o wasanaeth milwrol yn ei ddydd, oblegid yr oedd yn wyddfodol yn y rhan fwyaf o'r brwydrau pwysicaf a ymladdwyd rhwng Prydain a Ffrainc yn ystod y bedran gyntaf o'r ganrif bresenol; ac nid mynych mewn un oes y diweiniodd milwr dewrach nag ef ei gleddyf ar faes cad a chelanedd. Y gatrawd y perthynai ef iddi ydoedd y 23ain o'r Chwarfynwyr Cymreig Breninol *(Royal Welsh Fusiliers)*, y rhai ni throisant erioed eu "cefn ar efnys." Gwasanaethodd gyda'r rhyfelgyrch i Walcheren, a gwarchae Fflushing, yn 1809; yn yr Orynys o 1810 hyd 1813; yr oedd yn bresenol ngwarchae Badajos ac Olevenza, yn 1811; ac yn mrwydr Albuera, yn mis Mai, a chymerodd ran yn y gweithrediadau yn erbyn Ffuente Gevuaedo, ac Elbodin, yn Medi, yn yr un flwyddyn. Gwasanaethodd yn ngwarchae Ciudad Rodrigo, yn Ionawr, 1812; ac yn mrwydr Salamanca, yn mis Gorphenaf, yn yr un flwyddyn, pan y cafodd ei glwyfo yn dost, a'i geffyl ei ladd o dano; ac yr oedd yn mrwydr Waterloo, yn y llymgyrch ar Cambrai, ac yn ngymeriad Paris, yn 1815. Gwasanaethodd fel is-swyddog o dan gadlywyddiaeth y diweddar Syr Henry Ellis, Syr Thomas Pearson, a'r Isgadfridog Dalmer. Cafodd ei ddyrchafiadau yn y wedd ganlynol. Gwnaed ef yn is-gadraglaw, yn y flwyddyn 1809; yn gadraglaw yn 1811; yn gadben yn 1830; yn argadben yn 1846, yn is-filwriad yn 1851; ac yn filwriad yn 1854. Bu farw yn Llundain yn y flwyddyn 1866, gan adael ar ei ol un ferch, yr hon sydd yn briod a D. Lewis, Ysw., M.D., Piccadilly, Llundain. Brawd y Milwriad Enoch, ydoedd y diweddar Barch. George Enoch, periglor Clydai, sir Benfro; a gwr o'r un teulu ydoedd John Howel *(Ioan ab Hywel)*, casglydd *Blodau Dyfed*, yr hwn a fu farw yn 1830.

GRIFFITH (Robert) *(Patrobas)*, bardd ieuanc llithrig ac awenyddol, ydoedd fab i'r Cadben Robert Griffith, o Nefyn, sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef Tachwedd 7, 1832. Dygwyd ef i fynu yn grefyddol, canys yr oedd ei dad yn flaenor gyda'r Trefnyddion Calfinaidd; eithr ymunodd ef yn ienanc gyda'r Annibynwyr. Rhwymwyd ef yn egwyddorwas o *draper* yn ei dreflan enedigol; ac wedi cwblhau ei amser, aeth i Pwllheli, lle yr arosodd am gryn amser, a'r pryd hwnw priododd Jane, unig ferch Mr. John Thomas, o'r dref hono. Pa fodd bynag, byr iawn fu eu priodas, a threuliodd yntau weddill ei oes mewn gweddwdod. Wedi priodi, ymsefydlodd fel masnachwr ei hunan yn Nefyn, a pherchid ef yn fawr gan ei gyd-drefwyr a'r ardal yn gyffredinol. Dechreuodd ymddifyru gyda barddoniaeth pan yn dra ieuanc, a daeth yn fardd gwlithog iawn. Nodweddid ei gynyrchion gan

Digitized by Google

angerddoldeb teimlad, gwreiddiolder cynllun, a thlysni naturiol byw. Syniai y cerdd-feirniad enwog Eben Fardd yn uchel am ei alluoedd awenyddol. Yn y ganiadaeth brudd, gysegredig, yr oedd ei fawr nerth ef. Mewn oes fer, brysur-fasnachol, cafodd hamdden i gyfansoddi cryn lawer o ganeuon byrion prydferth, y rhai sydd ar wasgar yn y *Dysgedydd*, a chyhoeddiadau eraill yr enwad y perthynai efe iddo. Cyhoeddodd lyfryn bychan hefyd o'i farddoniaeth ar yr enw "Byr Ganeuon." Bu farw yn Nefyn, Ebrill 20, 1863, yn 31 oed.

HUGHES (Parch. Hugh) (*Hugh Tegai*), bardd a llenor gwych. Ganwyd ef yn Nghilgeraint, plwyf Llandegai, sir Gaernarfon; eithr symudodd ei rieni yn fuan ar ol hyny i bentref Tregarth, yn yr un plwyf. Enw ei dad ydoedd Thomas Hughes, a chwarelwr ydoedd. Hugh oedd yr hynaf o saith o blant, a phan yn ddigon cryf, trodd allan i weithio i Chwarel Cae Braich y Cafn. Fel amryw eraill o Enwogion Llandegai a Llanllechid, ni chafodd erioed ddiwrnod o ysgol, ond yr Ysgol Sabbathol; a thrwy ddyfalbarhad diwrthdro, a thros rwystrau anorfod, y daeth efe i olwg y byd. Yr oedd ei dad yn lled barchus yn yr ardal; a digon tebyg ei fod yn dipyn gwell ysgolhaig na'i gymydogion, er nad yw hyny ond tystiolaeth fechan i'w ysgolheigdod; yr oedd yn ddiacon yn eglwys fechan yr Annibynwyr yn Ngororion, ac efe oedd prif weithredydd y Gymdeithas Feiblaidd yn yr ardal. Mynychai Tegai ieuanc Ysgol Sabbothol y capel hwnw hyd oni chymerwyd ef oddiar y gymuleidfa; a chan nad oedd i'r Annibynwyr gapel arall yn y gymydogaeth, elai o hyny allan i Ysgol y Diwygwyr Wesleyaidd. Yn mhen amser, ymunodd â'r gyfeillach yn eu plith, a dechreuodd bregethu. Gwrthododd fyned i'r weinidogaeth, oherwydd nad ystyriai fod cyfaddasder ei ddoniau yn rhedeg yn y ffordd hono. Athroniaeth yn hytrach na'r weinidogaeth a lyncai ei fryd ef yn more ei oes; cystal a'i gyfaill mynwesol ac athrylithgar Arfonwyson, yr hwn a anwyd yr un flwyddyn ag ef, ac a fagwyd yn yr un ardal. Parhaodd cyfeillgarwch y ddau yn ddifwlch hyd y bedd, a Thegai a ysgrifenodd y cofiant dorus am y seryddwr enwog a welir yn *Seren Gomer*, 1849. Athraw barddonol y ddau ydoedd Gutyn Peris, canys yr oedd yn rhaid cysylltu pob dosbarth o wybodaeth yn yr oes hono gyda phrydyddiaeth. Yr oedd Tegai yn feirniad campus ar hyd ei oes, felly hefyd yr oedd Arforwyson; y ddau yn iawn ddeall cynghanedd, ac yn iawn adnabod ac edmygu gwir farddoniaeth heb y wisg gynghaneddol am dano, ond y ddau yn feirdd meidrol iawn eu hunain, yn enwedig Arfonwyson. Pan ymunodd y Diwygwyr Wesleyaidd â'r Gynadledd, neu yn hytrach yr eglwys ohonynt y perthynai ef iddi, efe a ymunodd â'r Annibynwyr. Ystyrid ef bellach gan y wlad yn gryn dipyn o lenor, a chafodd ei ddodi yn fuan ar y blaen gyda'r enwad hwn drachefn. Wedi iddo briodi, trodd yn ffermwr; ond gan fod galwadau mynych am ei wasanaeth fel pregethwr, nis gallai dalu yr holl sylw ag oedd yn angenrheidiol i'w dyddyn. Mai, 1848, derbyniodd alwad eglwysi bychain Rhoslan, Tabor, a Llanystumdwy, sir Gaernarfon; ac wedi bod yno am tua blwyddyn, derbyniodd alwad eglwys Annibynol Jackson Street, Manchester. Wedi trigiant llwyddianus yno fel gweinidog am tros ddwy flynedd, adfeiliodd iechyd ei wraig, dychwelodd ef a'i deulu i Gymru, ac aeth i fyw ar fferm fechan o eiddo Mrs. Hughes, yn Llanrug, ger Caernarfon. Nid oedd ganddo ar y pryd ofal eglwysig, ond cafodd alwadau yn fuan o amrywiol fanau, a dewisodd gydsynio â chais eglwysi bychain Capel Helyg, Chwilog, ac Aber-

Digitized by Google

erch, yn yr un sir. Tua chanol 1855, cawn ef yn prynu swyddfa argraffu Wm. Edwards, yn Mhwllheli, ac yn ymroi ati i wasanaethu ei gydgenedl fel cyhoeddwr a golygydd newyddiadur Cymreig. *Yr Eifion*, papuryn dimai, oedd y cyntaf a ddaeth allan o dan ei law. Yn Mai, 1856, rhoes ben ar y cyhoeddiad hwnw, a dygodd allan yr *Arweinydd*. Parhaodd hwnw am tua thair blynedd a haner, pryd oherwydd diffyg cefnogaeth ddigonol, gorfu i'w olygydd penderfynol a thalentog roddi yr anturiaeth i fynu. Dichon na chafodd yr un newyddiadur Cymreig erioed olygydd mwy llithrig ei bin, craff ei sylwadau, ac annibynol ei feddwl; eithr nid newyddiadur mewn gwirionedd ydoedd, yn hytrach cylchgrawn llenyddol wythnosol. Yr oedd iddo ohebwyr doniol; ac ynddo feirniadaethau galluog ar lyfrau, a bywgraffiadau dyddorol gan y golygydd o ddynion enwog megys Gutyn Peris, John Jones, Talsarn, &c., a wnai y papuryn yn dra derbyniol gan lenorion a beirdd. Ond yr oedd y ffaith hono yn milwrio yn erbyn ei lwyddiant yn mhlith y lluaws, cystal a'r ffeithiau eraill ei fod yn cael ei gyhoeddi mewn treflan annghysbell, a'i droi allan mewn gwedd lwyd a gwisg garpiog. Collodd Tegai lawer o arian trwy yr anturiaeth. O'r diwedd, rhoddes ef i fynu, a derbyniodd alwad eglwys fechan Bethel, Aberdâr. Bu yn neillduol o lwyddianus yn y cysylltiad newydd hwn, ond pan oedd hawddfyd megys ar ei gyfer, tarawyd ef ag ail ergyd o'r parlys tra yn pregethu yn ei bwlpud ei hun, nos Sabbath, Rhag. 4, 1864, ar y geiriau, "Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd." Cludwyd ef gartref mewn sefyllfa o anwybodolrwydd, a bu farw y dydd Iau canlynol, yn 50 oed. Rhoddwyd ei rau farwol i orphwys yn nghladdfa newydd Aberdar, a thybir nad oedd dim llai na phedair mil o bobl yn dilyn ei weddillion i'r bedd. Y mae yn syndod i ddyn a gawsai gan lleied o fanteision gwybodaeth yn more ei oes allu cynyddu digon fel ag i esgyn pwlpud erioed; ond y mae ein syndod yn ymylu ar anhygoeledd i un felly ddringo cyn uched ag y safai Tegai yn marn ei genedl, fel beirniad, bardd, a llenor. Nid oedd yn deall ond yn nesaf i ddim o Saesneg, a thynai holl oludoedd ei gynyrchion o gyfoeth ei feddwl a thrysorau ei iaith ei hun. Y fuddugoliaeth gyntaf iddo fel bardd ydoedd enill gwobr cyhoeddwr y *Gwladgarwr* am y bryddest oreu i'r "March Gwyn," yr hon bryddest a ymddangosodd yn y cyhoeddiad hwnw yn 1833. Yn 1834, enillodd gadair ac amryw wobrau eraill mewn eisteddfod leol a gynelid yn Bethesda, Arfon. Gwobrwywyd ef fel buddugwr yn Eisteddfodau Rhuddlan, 1850; Madog, 1851; Llundain, 1856; a Machraeth, Mon. Yr oedd yn ail yn Eisteddfod gadeiriol y Fenni; a chynygiodd ar Gadair Eisteddfod Llandudno yn 1864, ond ni bu yn llwyddianus. Yr awdl hono a gyhoeddwyd ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth, dichon ei bod yr oreu o'i gynyrchion barddonol, ac yn cynwys rhai darnau cryfion. Ond diau yr edrychir yn uwch arno gan yr oesau a ddaw fel beirniad nag fel bardd. Y mae ei sylwadau beirniadol yn y cofiantau a grybwyllwyd o Gutyn Peris, Jones, Talsarn, ac Arfonwyson, yn athronyddol a gorchestol; ond oherwydd y gred gyfeiliornus sydd wedi meddianu pwyllgorau eisteddfodol y rhaid cael bardd awenyddol i wneud beirniad llygadgraff, ni alwyd ar Tegai i weinyddu'r swydd hono mor fynych ag y dymunasem. Cyflawnder a synwyr a wna feirniad da; gwres a theimlad a wna fardd da. Yr ydym yn ofni na alwesid erioed am ei wasanaeth o gwbl oni buasai ei fod yn awdwr Gramadeg. Pa fodd bynag, yr ydym yn ei gael yn feirniad yn Eistedd-

Digitized by Google

fodau lleol Rhuthyn, a Threffynon, ac ar ddau neu dri o destynau Eisteddfod fawr Llangollen, ac yn Eisteddfod Conwy. Cyfoethogodd lenyddiaeth gyfnodol ei genedl â lluaws mawr o erthyglau meistrolgar, megys y *Traethodydd*, yr *Adolygydd*, y *Beirniad*, *Baner ac Amserau Cymru*, *Seren Gomer*, yr *Amserau*, *Dysgedydd*, *Golud yr Oes*, *&c.* Y mae y llyfrau a gyhoeddodd yn lluosog: I. *Elfenol*—1, "Gramadeg Cymraeg," llyfr a gafodd dderbyniad helaeth, y mwyaf poblogaidd fe ddichon yn yr iaith; 2, "Gramadeg Barddoniaeth;" 3, "Yr Ysgrifell Gymreig;" 4, "Agoriad Gwybodaeth;" 5, "Gramadeg Athronyddol." II. *Dadleuol*—1, "Adolygiad ar Draethawd Eliseus Cole ar Benarglwyddiaeth Duw;" 2, "Traethawd ar Lywodraeth Foesol;" 3, Dau draithodyn ar "Annibyniaeth a Wesleyaeth," fel gwrthateb i draithodau ar yr un testyn gan y Parch. Wm. Rowlands *(Gwilym Lleyn)*; 4, "Y Bedydd Cristionogol;" 5, "Moses a Colenso;" 6, "Yr Olyniaeth Apostolaidd;" 7, "Yr Esboniadau." III. *Barddoniaeth*—1, "Bwrdd y Bardd," casgliad o brydyddiaeth ei ieuenctyd; 2, "Telyn y Saint," llyfryn bychan o emynau. Cyhoeddodd hefyd amryw bregethau a mân-draithodau ar wahan, ac yn eu plith gofiant difyrus o'r Parch. John Jones, Talsarn. Yr oedd Tegai yn gydymaith dyddan, yn llenor deallus, yn fardd synwyrol, yn bregethwr sylweddol, ac yn un o feirniaid goreu Cymru. Yn ngwyneb ei alluoedd cystal a'i aberthau llenyddol, a'i amryfal ragoriaethau, penderfynodd ei gyfeillion yn Aberdar gyflwyno tysteb iddo, a gwahoddasant gyfeillion mewn manau eraill i gydweithio â hwynt. Cyrhaeddodd eu hamcan swm anrhydeddus; ond cyn i'r cyflwyniad gymeryd lle yr oedd enaid mawr Tegai wedi ehedeg i wlad y tystebau tragwyddol.

HUGHES (Owen), ydoedd fab hynaf Erasmus Hughes, o Benlan, amaethwr cyfrifol yn mhlwyf Llanuwchllwydog, sir Benfro, lle y ganwyd ef yn 1754. Wedi cael addysg dda, a chyrhaedd gwybodaeth o'r Gymraeg, y Seisnaeg, y Lladin, a'r Roeg, sefydlodd ysgol Gymreig mewn lle tua milldir o'i gartref, o'r enw Tre Dafydd, lle yr addysgai ieuenctyd yr ardal trwy offerynoliaeth iaith eu cyndadau. Bu farw yn 1799, a chladdwyd ef yn mynwent ei blwyf genedigol. Yr oedd yn fardd chwaethus a chywir, ac yn awdwr llyfryn bychan a fu o fawr wasanaeth yn yr Ysgolion Cymreig, sef, "Allwedd Newydd i ddysgu darllain Cymraeg," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1788.—*Yr Haul.*

JONES (Parch. David) *(Dewi Arfon)*. Ganwyd y bardd ieuanc awenyddol hwn yn y Tŷ Du, Llanberis, sir Gaernarfon, yn 1823. Wedi derbyn ychydig o ysgol gwlad, bu am rai blynyddau yn gweithio fel chwarelwr yn Chwarelau Dinorwig. Pan tuag ugain oed, bu mewn ysgol am dymhor gyda'r bwriad o gyfaddasu ei hun at fod yn ysgolfeistr. Yna aeth i fynu i goleg Borough Road, Llundain, lle yr arosodd am flwyddyn, ac y llwyddodd i enill trwydded yn yr ail ddosbarth fel ysgolfeistr. Bu am rai blynyddau yn llanw y swydd hono yn Llanrwst, sir Ddinbych; ac yno yn benaf y dadblygwyd ei chwaeth at farddoniaeth, ac yr enillodd safle yn mhlith llenyddion ei wlad. Yr ydym yn ei gael yn fuan yn dechreu pregethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac yn myned i Ysgol Ramadegol Clynog, yr hon a gedwid y pryd hwnw gan Eben Fardd, er mwyn ymbarotoi at gael derbyniad i Goleg y Bala; ond ar farwolaeth y Prif-fardd, penodwyd ef i fod yn athraw yr ysgol, yr hon swydd a gyflawnodd yn llwyddianus iawn hyd

Digitized by Google

nes y gorfodwyd ef gan afiechyd i'w rhoddi i fynu rai misoedd cyn ei farwolaeth. Yr oedd wedi ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth tua dwy flynedd cyn hyny, a chyfrifid ef yn bregethwr sylweddol a thra chymeradwy. Fel bardd, er na chyfansoddodd lawer, yr oedd pob peth a ddaeth o tan ei law yn dlws, coeth, a gorphenedig. Rhestrir ei englynion yn mysg goreuon yr iaith, yn enwedig ei rai beddargraffiadol. Yn 1860, ymgeisiodd ar destun cadair Eisteddfod Dinbych, sef awdl ar "Dywalltiad yr Ysbryd Glan ar Ddydd y Pentecost," yr hon a safai yn uchel yn y gystadleuaeth. Cyhoeddwyd hi yn y *Traethodydd*, ac y mae yn cynwys darnau cryfion a gorchestol. Yn ngwyneb ei ddygn afiechyd, a'i alluodd fel bardd, penderfynodd nifer o'i gyfeillion lluosog wneud tysteb iddo; a bu y symudiad yn dra llwyddianus, ond efe a fu farw cyn ei derbyn, sef bore ddydd Nadolig 1869, a chladdwyd ef yn hen fynwent Llanberis. Cymerodd digwyddiad rhyfedd le y bore y bu farw. Rhwng pump a chwech, efe a alwodd ei chwaer ato, ac a ofynodd iddi estyn iddo o ystafell arall ei awrlais bychan yn cynwys alarwm. Wedi iddo ei gael, gosododd fys yr alarwm i daro am naw o'r gloch, ac am naw i'r fynud yn swn y gnul hono, ehedodd ei ysbryd yn dawel o'i babell gnriedig a chystuddiol.

JONES (Parch. David), Treborth. Ganwyd y pregethwr godidog hwn yn Nhanycastell, plwyf Dolyddelen, sir Gaernarfon, dydd y Sulgwyn, Mehefin 2, 1805. Ei rieni oeddynt John ac Elinor Jones; ac fel ei frawd enwog a gofnodwyd eisoes yn y gwaith hwn, y Parch. John Jones, Talysarn, cafodd ei ddwyn i fynu yn grefyddol o'i febyd. Yr oedd ei dad yn ŵr cyfrifol yn yr ardal, yn oruchwyliwr ar chwarel lechau Dolyddelen; yn flaenor gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, ac yn ol barn pawb yn ddyn duwiol iawn. Bu ef farw pan nad oedd David ond dwy flwydd oed; ac yn ystod ei nychdod hirfaith, mynegir y byddai'r bychan yn myned lawer gwaith yn y dydd at erchwyn ei wely gan ofyn, "Mae tada bach?" a dywedai yntau, "Druan oedd fy machgen bach i! yr Arglwydd a'i bendithio ac a ofalo am dano." A chyda meithriniad fanwl ei fam, yr hon hithau hefyd oedd yn ddynes nodedig o dduwiol, o tan ofal a bendith y Goruchaf y bu mewn modd arbenig holl dymhor ei ymdaith ar y ddaear. Yr oedd ei thraffertnion hi yn lluosog, gan fod naw o blant bychain yn ymddibynu arni am eu meithriniad, a John Jones yr hynaf ohonynt, pan fu farw ei dad, yn ddim ond deg oed. Ni chafodd David Jones, mwy na'i frodyr, nemawr o fanteision addysg yn eu hieuenctyd. Pa fodd y caent? Nid oedd yr un ysgol ddyddiol yn y plwyf mynyddig y pryd hwnw, nac o fewn milltiroedd lawer iddo; ond bu natur ramantus o'u cwmpas, a'r Ysgol Sabbathol, yn athrawon defnyddiol ar gyneddfau toreithiog "llanciau Dolyddelen." Dygodd yr had, er mai ychydig ydoedd, gnwd ffrwythlawn yn y tir cynyrchfawr hwnw. Yn yr Ysgol Sabbathol y dysgodd efe ddarllen; ond ni ddysgwyd iddo ysgrifenu gan neb erioed. Pan welai ryw ysgrifen, ceisiai ei oreu wneud un gyffelyb iddi. Pan rhwng 12 a 15 oed, cafodd hyd i *Ramadeg* Robert Davies, Nantglyn. Ymroes ati i'w astudio, eithr nid oedd neb yn y plwyf a allai ei gyfarwyddo; ond yr oedd ei ymroddiad ef yn gymaint, fel y dysgodd yr holl lyfr ar ei dafod leferydd, yn cynwys y Rheolau Barddonaeth, ac felly daeth yn gyfarwydd yn ieuanc yn y mesurau caethion. Cafodd wedi hyny Gatecism Brown, a gyhoeddwyd gan Parry, Caerlleon. Yr oedd hwnw yn dadlenu pynciau mawrion duwinyddol o flaen ei feddwl ieuanc mewn dull newydd iddo ef; darllenodd ef lawer gwaith drosodd, gan

Digitized by Google

ei drysori yn ei gof, a'i astudio tuag at el ddeall. Un o bleserau penaf ei ieuenctyd ydoedd darllen; ac yr oedd prinder llyfrau yn ei wneud yn fwy sychedig am danynt. Aeth ei frawd John i weithio yn chwarel Llanrhochwyn, a gadewid gwaith y fferm ar William a David. Ystyrid yr olaf yn llanc ieuanc gwisgi, prydweddol, ac yn un o'r rhai cryfaf yn yr holl wlad. Pan y cai lonydd gan ei dueddiadau anorchfygol at ddarllen, gweithiai gymaint a dau, ac efe oedd biau y dorch yn y Dolydd am ladd gwair. Cymerai bleser mawr hefyd mewn pregethu yn y dirgel, ac ymneillduai i lanerchau anhygyrch, yn mhell o rodfeydd dyn, er mwyn cael arfer ei ddawn. Profai hyn pa ffordd yr oedd gogwyddiad ei feddwl. Yr oedd ei rodiad hardd, a'i fedr fel gweddiwr, yn peri i'w frodyr crefyddol dybied fod ynddo ddefnydd dyn cyhoeddus. Gyda hyn mewn golwg, danfonwyd ef i Wrecsam at y diweddar Barch. John Hughes, o Liverpool wedi hyny, yr hwn a gadwai ysgol i wyr ieuainc oeddynt yn benaf a'u hwynebau ar y pwlpud. Nis gwyddom yn iawn pa hyd y bu yn yr addysgfa hon, ond cynullodd ynddi lawer o wybodaeth, yn enwedig yn yr iaith Seisnig Traddododd ei bregeth gyntaf yn y Garnedd, gerllaw ei gartref, nos Sabbath, Rhag. 17, 1826, yr un lle ag y traddodasai ei frawd John yntau ei bregeth gyntaf. Yr oedd hyn rhyw ddwy flynedd a haner cyn myned i Wrecsam, ac yr oedd ei gymydog a'i gefnder, y Parch. Cadwaladr Owen, yn dechreu tua'r un pryd ag ef. Daeth i sylw mawr fel pregethwr yn ebrwydd. Yr oedd y bregeth a'r pregethwr yn ateb i'w gilydd yndolo ef; y naill fel y llall yn brydferth a chadarn. Yn ei flynyddau cyntaf, yr oedd yn "gallu dyrchafu ei lais fel udgorn," yr hyn nid allai tua chanol a diwedd ei oes; ac er nad oedd mor nerthol a'i frawd, eto yr oedd yn dra pheraidd a soniarus. O ran mater ei bregethau, gwelid ar unwaith ei fod yn dduweinydd da, fod ei draddodiad yn esmwyth a gwlithog, a'i fod, tra ar un llaw yn denu'r serch, ar y llaw arall yn gwasgu ar y gydwybod. Ni byddai raid ond cyhoeddi "Dafydd Jones, Dolyddelen," na cheid sierwydd am addoldy llawn. Trwy ei holl oes, yr oedd ei bregethau yn dyferu gan ddiliau mel barddoniaeth; ac yr oedd tlysni ei iaith a choethder ei ymadroddion yn dra chydweddol â pherson teg ac ymddangosiad boneddigaidd yr un a'u traddodai. Yr oedd gwreiddiolder Dolyddelen, a manyldeb yr efrydydd caled, wedi eu cyfuno yn hapus ynddynt; ei lais mor gyfoethog o fiwsig, nes peri ini feddwl am gloch aur yr archoffeiriad gynt, ac yn ein swyn-gyfareddu fel "llais yr eos yn llys yr awel,"—pob nodyn ohono wedi ei drochi mewn neithdar, a'i fedyddio yn ngwlith Hermon. Hyn i raddau helaeth sydd yn cyfrif am y ffaith fod ei gyfansoddiadau yn annhraethol amgenach i'w gwrando na'u darllen. Byddai barnu ei athrylith ef oddiwrth y gweithiau a gyhoeddodd, yn enwedig yn ei flynyddau olaf, yn gam âg ef, ac â'r rhai a'i canmolant wedi gwrando arno oddiar drostan uwchaf arddeliad tan anadl y gwynt nefol ar y maes ddiwrnod y Gymanfa fawr. Wedi dychwelyd o Wrecsam, ymroisai yn egniol i brynu ac efrydu gweithiau goreu y duwinyddion Seisnig hen a diweddar. Yr oedd ganddo grap lled dda hefyd ar elfenau y Roeg a'r Hebraeg; a gwelid ol defnyddio *Lexicon* Parkhurst, a geirlyfrau cyffelyb, ar ei bregethau, er y byddai yn ei holl feirniadaethau Beiblaidd yn hollol ddiymhongar a dirodres. Yn 1832, symudodd i fyw i Gaernarfon, mewn canlyniad i'w briodas â Mrs. Owen, gweddw Mr. R. Owen, masnachydd o'r dref hono. Nid oedd y drefn fugeiliol wedi dyfod i fri yn y cyfundeb y pryd hwnw, felly nid oedd a fynai ef â'r eglwys yno mwy nag â rhyw eglwys arall.

Digitized by Google

Cadwai Mrs. Jones, yr hon oedd yn wraig ddarbodus a doeth, fasnachdy er cynorthwo yn nghynaliaeth y teulu, a chai yntau hollol lonyddwch er ymollwng i ddilyn myfyrdodau ei swydd. Rhoddwyd pob croesaw iddo yn eglwys Caernarfon ar ei ddyfodiad cyntaf i'r dref, ymgododd yn naturiol yn arweinydd ei chyfarfodydd, rhoddwyd galwad ffurfiol iddo yn mhen amser i fod yn fugail iddi, ond efe ni chydsyniodd â'r cais. Yn 1834, ordeinwyd ef yn nghymdeithasfa y Bala i gyflawn waith y weinidogaeth. Rai blynyddau cyn diwedd ei oes, yr oedd wedi symud i Dreborth, fel y gallai ymryddhau yn llwyrach oddiwrth bob gofalon bydol; ac oddiyno drachefn i Lanfairfechan, lle y bu farw, Mehefin 23, 1868, yn 63 oed, ac wedi sefyll yn uchel ac yn gyhoeddus i wahodd pechaduriaid at Grist am yn agos i 37 o flynyddau. Claddwyd ef yn mynwent Llanbeblig, ger Caernarfon, yn nhanol canu galarus a dagrau lluaws mawr o'i frodyr, a dywedir nad oedd llai na dwy fil o bobl yn dilyn ei weddillion i'r bedd. Ysgrifenodd Mr. Jones gryn lawer yn ei ddydd, o'r hyn y cyhoeddwyd:—pryddestau ar y "Mab Afradlon," "Aberth Crist," a "Dyn," mewn llyfrau ar wahan; traethawd ar "Berffaith Gyfraith Rhyddid," i'r *Gyfres Gymreig;* a chyfres o homiliau ar Ioan xiv. 1, tan y teitl "Ty fŷ Nhad," yr hwn a gyhoeddwyd gan Mr. J. Davies, Caernarfon, ar ol marwolaeth yr awdwr. Cyhoeddwyd cryn lawer o'i waith hefyd yn y *Traethodydd*, y *Drysorfa*, &c. Gadawodd luaws mawr o bregethau mewn llawysgrifen, ac yr ydym yn deall y bwriedir eu cyhoeddi.

JONES (Parch. Owen Wynne) *(Glanynys).* Ganwyd y bardd, yr hynafieithwr, a'r awdwr Cymreig diledryw hwn, mewn tyddyndy mynyddig o'r enw y Brithdir, yn mhlwyf Rhostryfan, sir Gaernarfon, Tach. 17, 1827; ac yno y treuliodd flynyddau boreuaf ei fywyd. Wedi cael ychydig o ysgol gwlad, aeth i weithio yn un o chwarelau llechi Nantlle, lle yr arosodd am bedair blynedd, pan y roddes y gwaith i fynu gan nad ydoedd yn cyfateb i'w chwaeth, ac yr aeth drachefn i'r ysgol, sef yr un a gedwid gan Eben Fardd yn Nghlynog. Oddiyno aeth i Goleg Athrawol Caernarfon, er mwyn ymgyfaddasu at fod yn feistr Ysgol Genedlaethol. Y lle cyntaf a gafodd fel ysgolfeistr oedd yn Nghlynog, ac arosodd yno am rai blynyddoedd. Yn ystod ei drigiant yno yr ysgrifenai ei lythyrau doniol i'r *Herald Cymraeg* tan y penawd "Golygfa o Ben Moel y Gest, gan Salmon Llwyd," y rhai a edmygid yn fawr ar gyfrif purdeb eu hieithwedd, a hyddysgrwydd yr awdwr âg adnoddau prydferth ond esgeulusedig geiryddiaeth Gymreig. Yn y cyfnod hwn y daeth i gydnabyddiaeth lenorol ag Eben Fardd, yr hwn a goleddai syniadau uchel am ei alluoedd, ac a rydd yn *Cyff Beuno* y nodiad canlynol am dano:—"Y Parch. Owen Wynne Jones *(Glasynys)*, yn bresenol curad Llangristiolus yn Mon, sydd ganddo trwy wahanol gysylltiadau â Chlynog Fawr, hawl lled deg i'w restru yn mysg ei beirdd a'i llenorion; oblegid yn nhreigliad cenedlaethau un gangen o epil yr enwog Elis Wynn, o'r Lasynys, o Feirion i Arfon, daeth ei ŵyr, John Owen, i fyw i Leuar Fawr, yn Nglynog; ac o hono ef yr hanodd y gwr talentog sydd dan sylw yn y cofnod hwn; heblaw hyny, bu Glasynys amryw flynyddau yn cadw ysgol yn Nghlynog Fawr." O Glynog aeth i Lanfachreth, Meirion, fel ysgolfeistr drachefn, a'r pryd hwnw y daeth i gydnabyddiaeth â'r hynafieithydd trylen Ab Ithel, ac enynodd cyfeillgarwch rhyngddynt a barhaodd hyd y bedd. Ab Ithel a'i hanogodd ac a'i cefnogodd i ymbarotoi at fyned yn offeiriad. Wedi

Digitized by Google

bod am beth amser mewn coleg yn Birmingham, ordeinwyd ef yn ddiacon gan Esgob Bangor, a bu yn gwasanaethu fel curad i Dr. Lloyd yn Llancristiolus a Llanfaethlu, Mon. Pan y bu farw ei beriglor caredig, efe a aeth yn gurad i Bontlottyn, sir Fynwy; ac oddiyno drachefn i Dyddewi. Yn Hydref, 1869, dychwelodd adref; ac wedi ychydig ddyddiau o gystudd bu farw yn Nhowyn, Meirionydd, Ebrill 4, 1870, yn 42 oed. Yr oedd wedi ymuno mewn glân briodas gyda Mrs. Jones, o'r *Sportsman Hotel*, Portmadog, ychydig fisoedd cyn digwyddiad olaf ei fywyd. Claddwyd ef yn meddrod ei dadau, sef yn mynwent Llandwrog, Arfon. Yr oedd Glasynys yn hynaficithydd gwybodus, ac yn gallu gwisgo hen esgyrn sychion cofianau cyntefig ein gwlad mewn arddull brydferth a swynol tros ben. Y mae yr hen Chwedlau Cymreig a'r Llen Gwerin o tan ei law ef yn dyfod yn ddarllenadwy a dyddorol i'r mwyaf meidrol ei amgyffredion. Yn yr ystyr yma, bu o fawr wasanaeth i hynafiaeth a llenyddiaeth Gymreig. Yr oedd wedi ymddifyru yn nghasglu hen draddodiadau aelwydydd mynyddig Arfon a Meirion, wedi eu trysori yn ei gôf, a'u hanrhegu i'w genedl yn waddol cyfoethog er cof am dano. Y mae y'rhai hyn i'w gweled yn y *Brython* a'r *Cymru Fu*. Ceir oddeutu can' tudalen o'i waith yn y llyfr olaf, ac y mae gan y Golygydd dwysged yn rhagor o gynyrchion ei ysgrif bin alluog ar gyfer rhifynau dyfodol. Yr oedd hefyd yn draethodwr medrus ar bynciau cyffredinol, fel y prawf ei draethawd ar "Diffyniad nid Heriad," buddugol yn Eisteddfod Dinbych, a chyhoeddedig yn y *Brython;* ac ar "Y Gwir yn erbyn y Byd," buddugol yn Eisteddfod Aberystwyth, ac argraffedig yn yr *Eisteddfod*. Adnabyddir ef hefyd fel bardd coeth, ac enillodd amryw wobrau o gryn bwys fel y cyfryw, y rhai ni chaniata gofod ini eu crybwyll yma. Y mae ei ganeuon lawer o honynt yu dlysion odiaeth, ac yn sicr o barhau yn eu blas tra yr edmygir awen a chan. Ysgrifenodd lawer i'r llyfr hwn, yn benaf ar y SAINT Cymreig, a bydd yn hawdd i'r cyfarwydd eu hadnabod oddiwrth arbenigrwydd ei hieithwedd. Hysbysodd ei fwriad o ddwyn allan gyfrol o'i farddoniaeth tan yr enw "Y Wyddfa," ond bu farw cyn dwyn hyny oddiamgylch. Dywed un newyddiadur wrth gofnodi ei farwolaeth:—"Yr oedd ei feistrolaeth ar yr iaith Gymraeg, a'i hyddysgrwydd yn ngweithiau yr hen awdwyr, yn ei demtio ar brydiau i fabwysiadu arddull a ystyrir gan rai yn rhy flodeuog; ond tybiwn y byddai yn anhawdd nodi allan gyfansoddwr mwy coeth, syml, a naturiol. Bu yn llafurus iawn i gasglu gwybodaeth; ac wedi dyfod i feddiant *o* drysorau dysg, ni fu yn euog o ddiogi a chuddio ei dalent yn y ddaear. Diau fod ganddo, fel eraill, luaws o ffaeleddau; ond byddai yn ddymunol i lawer o fechgyn Cymru efelychu ei lafur a'i ddiwydrwydd."

JONES (PARCH. THOMAS) *(Glan Alun)*. Ganwyd y bardd a'r llenor poblogaidd hwn yn masnachdy Cefnygader, yn nhref Wyddrug, sir Fflint, Mawrth 11, 1811. Yr oedd John Jones, ei dad, yn faelierydd cyfrifol, ac yn un o ddiaconiaid eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn y dref hono; a'i fam hefyd yn aelod o'r un cyfundeb. Amlygodd Glan Alun yn fore ei fod o feddwl a thalent mwy na'r cyffredin. Bachgen syn, meddylgar ydoedd, ac arferai brydyddu er pan yn ddeng mlwydd oed. Penillion crefyddol yn benaf a gyfansoddai yn mlynyddai cyntaf ei farddoni; ac er yn blentyn, yr oedd efe yn hoff o'r cyfarfodydd crefyddol, ac nid anghofiodd byth gynghorion a gweddiau ei dad, a sel a defosiwn ei fam, ar yr aelwyd ei magwyd. Cafodd a chymerodd ddysg yn well na llawer, ac nid distadl oedd ei gyrhaeddiadau fel

Digitized by Google

ysgolhaig clasurol. Mewn amser cyfaddas, rhwymwyd ef yn egwyddorwas o fferyllydd yn ninas Caerlleon; yno y derbyniwyd ef yn gyflawn aelod eglwysig, ac y cyhoeddid amryw o'i gyfansoddiadau prydyddol yn *Ngoleuad Cymru*, cylchgrawn a argreffid yn y ddinas hono tan olygiad y Parch. John Parry; a bu mewn dadl led frwd yn yr unrhyw gylchgrawn â'r diweddar Arfonwyson yn nghylch orgraff y Gymraeg. Wedi gorphen ei brentisiaeth, aeth i Lundain, lle yr oedd yr Owenites anffyddol yn gwneud cryn gynhwrf yn eu cyfarfodydd trwy eu hymosodiadau ar Gristionogaeth. Aeth Glan Alun i un o'r cyfryw gyfarfodydd; ac wedi i gampwr areithyddol o'r eiddynt, ar ddiwedd ei araith, herio rhywun i ddyfod yn mlaen i wrthbrofi ei haeriadau, wele y Cymro ieuanc yn derbyn yr her, ac yn dringo yr areithfwrdd. Edrychid yn ddirmygus arno i ddechreu, ond deallasant yn fuan mai nid un i'w ddiystyru oedd y gwrthwynebydd hwn; yr oedd ei ahyawdledd yn eu synu, os nid yn eu gorchfygu. Bu rai troion drachefn ar yr un areithfwrdd yn amddiffyn crefydd; ac y mae yn ffaith ddarfod i rai o flaenoriaid yr anffyddwyr ddyfod ato a cheisio ei berswadio i droi atynt hwy, gan addaw iddo gynaliaeth anrhydeddus fel darlithydd i'w cymdeithas, ond gomeddodd yn benderfynol. Yn mhen yspaid, dychwelodd i Gymru, gan ymsefydlu fel *druggist* yn nhref Gwrecsam. Yn mlynyddau cyntaf ei fasnach, ymgyfeiilachai yn fynych â'r awen; a thrwy ei dalent a'i ddawn, daeth yn fuan yn wr hysbys iawn yn y dref. Yn 1835—6, efe a gyhoeddodd gylchgrawn misol bychan, dan yr enw *Y Wenynen*, yn cynwys lluaws o'i gyfansoddiadau barddonol, a thaethodau, o'i waith ei hun yn benaf, ac amrywiol faterion buddiol; ond fel y gallesid disgwyl ni chafodd and colled arianol oddiwrth yr antur hon. Byddai yn fynych yn myned gyda chyfeillion eraill i gadw Ysgol Sul, &c., yn ngoror Seisnig Clawdd Offa, yn nghymydogaeth Gwrecsam; ac wrth weled ei fedrusrwydd fel enau cyhoeddus, yn Nghyfarfod Misol Llangollen, 1838, derbyniwyd ef fel ymgeisydd am y weinidogaeth; a daeth yn fuan yn bregethwr rheolaidd yn nosparth sir Fflint o'r Methodistiaid, yr hwn a gynwysai lawer o leoedd hefyd yn sir Ddinbych, a chynulleidfaoedd Seisnig y Goror a'r cyffiniau. Wrth ymroddi i'r weinidogaeth, ni feddylhai ef am roddi ei fasnach i fynu, gan nad oedd yr enwad hwnw yn arddel bugeiliaeth eglwysig. Ac yn wir, nid oedd efe wedi ei dori allan at y rhan fugeiliol o'r weinidogaeth, pe cawsai alwad i ymgymeryd â hyny. Nid oedd ei ardymher naturiol yn gymhwysder iddo ddal i fynu ymarferiadau cyson a rheolaidd. Yn 1840, cyhoeddodd lyfryn Seisnig er gwrthateb honiadau uchel-eglwysig y Parch. Mr. Stone, periglor Rossett; cynyrchodd y ddadl hon bedwar *pamphlet* o gwbl, dau o bob ochr, ond barn diduedd y sawl a ddarllenasant y cwbl o honi ydoedd fod Mr. Jones yn drech ymresymwr na'i wrthwynebydd o ddigon. Gan i'w dad farw yn 1841, ac nad oedd neb o'r teulu yn aros i ddwyn yn mlaen ei fasnach, symudodd Glan Alun i'r Wyddgrug at ei chwaer i'r perwyl hwnw. Yn mhen tua phedwar mis ar ol ei thad, bu y chwaer hon hefyd farw. Cyfododd Glan Alun gofadail ardderchog iddo, trwy gyfansoddi a chyhoeddi "Fy Chwaer," yr hon a erys tra paro Cymru a Chymraeg. Y mae ei sylwadau athrylithgar ef, ei hanes neillduol hi, ac yn enwedig ei llythyrau dyddorus, yn peri fod y cofiant hwn yn un o'r rhai rhagoraf yn yr iaith. Nid rhyfedd iddi gael ei ail-argraffu; a bwriadai ei ddwyn allan yn Seisnig, ond bu farw cyn dwyn hyny oddiamgylch. Yn 1843, priododd Miss Anne Evans, Llanerch, ger Pwllheli, merch ieuanc syn-

Digitized by Google

wyrlawn a chrefyddol, ac o deulu cyfrifol. Yr oedd bellach yn bregethwr lled adnabyddus yn y Cyfundeb, ac yn dyfod yn fwyfwy cymeradwy yn barhaus. Nid fel rhesymydd, athronydd, na duwinydd athrawiaethol, y rhagorai; eithr y bardd—y bardd Cristionogol a welid flaenaf yn ei bregeth gystal ag yn ei gân. Cafodd ei ordeinio yn gyflawn weinidog yn Nghymdeithasfa y Wyddgrug, Mawrth, 1850, nid yn gymaint am y disgwylid iddo helaethu ei lafur, ond fel arwydd o barch i'w gymeriad a'i dalent. Yn y blynyddoedd hyn, ychydig a farddonai, fel y gwnai yn ei ieuenctyd, ac yn ei flynyddau diweddaf hefyd. "O ran hyny," ebe efe ei hun, "fore a hwyr y mae adar y goedwig yn canu." "Nid yw y mawrion ddoeth bob amser," ac nid oedd Glan Alun felly. Nid yn wastad y ceid ynddo yr ymarferol yn cyfateb i'r deallol; ond addefai pawb ei fod yn ddidwyll a diddichell. Cafodd ei dad amryw golledion cyn ei farwolaeth, a bu hyny yn rhwystr i'w olynydd; a chyfarfu yntau ei hun â cholledion ychwanegol. O tan y colledion arianol hyn, methodd ei feddwl tyner ag ymgynal; ac efe a droes am fyr dymhor at gysur twyllodrus y gwlybyroedd meddwol. Yr oedd hyn tua chanol 1855. Fel y gallesid disgwyl, yr ymddygiad hwnw o'i eiddo, yn chwanegol at ei fethiant mewn masnach, a roddes derfyn ar ei weinidogaeth; ond dangosid cydymdeimlad cyffredinol ag ef, ac edrychid arno fel un i dosturio wrtho yn hytrach na'i gilgwthio. Pan yn dechreu ymuniawni oddiwrth y gofid hwn, daeth tòn fawr trosto drachefn, yn marwolaeth ddisymwth ei anwyl wraig, yr hyn a gymerodd le yn Tachwedd, 1856, ac efe oddicartref ar y pryd. Parodd hyn iddo dristwch ar dristwch. Yr oedd ganddo yn awr chwech o blant bychain, a'r hynaf onid 13eg oed. Y pryd hwnw y cyfansoddodd ei gân dorcalonus, "'Rwy'n farw'n fyw!" ac ni fedd y Gymraeg un mynegiad cryfach o drymder calon. Gwenodd heulwen cysur yn mhen ychydig amo drachefn; bu yn "goleuo y byd" yn naturiol, fel y dywedai wrth wneuthur canwyllau: ac heblaw cadw gweithwyr at hyny, a'u harolygu, aeth yn drafaeliwr trwy Gymru tros fasnachdy yn Manchester. Ymunodd eilwaith gyda'i frodyr a bu yn aelod ffyddlawn yn eu mysg hyd ei farwolaeth. Yr oedd gan Glan Alun feddwl nas gellid ei gaethiwo at rhyw un peth. Nis gallwyd ei gyfyngu i fasnach, nac i farddoni, nac i bregethu, yn unig; ac fe debygid ei fod mor gymhwys at y *platform* ag y bu at unpeth arall. Yr oedd yn wasanaethgar gyda chrefydd, ac yn ddefnyddiol fel gwladwr. Ceid ef yn barod at unrhyw gyfarfod cyhoeddus; efe oedd areithiwr ei dref a'i wlad; yn y festri, mewn etholiad, mewn cyfarfodydd Beiblaidd a chenadau, &c.; yr oedd ei araith ef yn barod at y pwrpas, a theimlir colled fawr yn hyn ar ei ol. Yn ei flynyddau diweddaf, cymerodd ran flaenllaw gyda'r Eisteddfod Genedlaethol, yr oedd yn aelod ffyddlawn o'i chyngor, ac yn un o areithwyr goreu ei hesgynlawr yn Nghymraeg a Seisnaeg. Ymwnelai hefyd yn fynych â'r wasg. Cyhoeddodd farwnad benigamp ar ol y Parch. John Jones, Talysarn, yn bryddest diodl, tan yr enw "Pregethwr y Bobl;" felly "Esther" hefyd, yr hon a gyhoeddwyd gyntaf yn y *Traethodydd*. Casglodd hefyd ei brif gyfansoddiadau eraill, ac a'u cyhoeddodd yn gyfrol ddestlus tan yr enw "Ehediadau Byrion;" gan chwanegu atynt ei ddau "Dridiau yn Lladrindod," y llythyrau arabeddus a dynasant gymaint o sylw ar eu hymddangosiad yn y *Traethodydd*. Naturioldeb a thlysni a nodweddant ei gyfansoddiadau, yn hytrach na chywreinrwydd a grymusder; ac y mae ei gân i'r "Rhew," ac "Adgofiant Mebyd" yn dra phoblogaidd. Yn 1865, aeth

Digitized by Google

Glan Alun eilwaith i'r ystad briodasol; a'r pryd hwn gydag un ag y buasai ar fedr ei phriodi 25 mlynedd yn flaenorol, sef Miss Jones, Mancott, Penarddlag. Ni ymadawodd hi a'i chartref, ac yr oedd ei fasnach yntau a'i blant yn aros yn y Wyddgrug fel o'r blaen. Bwriadai yn fuan roddi y trafaelio i fynu, a chymeryd mwy o seibiant iddo ei hun, ac arfaethai gyflawniadau llenyddol o gryn bwys; ond bu farw cyn pen y flwyddyn ar ol y briodas hon, sef Mawrth 29, 1866. Un o'i eiriau diweddaf wrth ei hen gyfaill a'i gymydog, y Parch. Roger Edwards, ydoedd ei fod yn dawel gyda golwg ar y diwedd. Am ei olwg allanol, yr oedd o daldra cyffredin; ei wynebpryd yn un hynod—ni chyfrifid ef gan bobl ddyeithr yn hardd, na chan ei gydnabod yn hagr; ond yr oedd yn hawdd canfod fod dealltwriaeth yn ei nodweddu, a gwelid yn ebrwydd oddiwrth ei holl ystum mai gwr boneddigaidd ydoedd.

OWEN (Ellis), Cefnymeusydd, sir Gaernarfon, ydoedd lenor deallgar ac englyniwr campus. Ganwyd ef yn 1789, a threuliodd oes hirfaith a thawel fel amaethydd yn nro ei enedigaeth. Yr oedd yn gefnder i Dewi Wyn, ac yn gyfaill mawr âg ef cystal ag â Robert ab G. Ddu ac eraill o'r cydser llewyrchus a adwaenid fel "Beirdd Eifion," un o ba rai ydoedd yntau, a'r olaf o honynt a syrthiodd i'r bedd. Edrychid arnynt gan y werin o'u hamgylch fel bodau uwchraddol (yr hyn mae yn ddiau oeddynt), a thelid gwarogaeth o barch ac ofn iddynt fel i oraclau yn deall y cyfrinion oll, ac yn gallu eu llywodraethu. Dechreuodd E. Owen brydyddu pan yn lled ieuanc, ac er iddo gyrhaedd ei bedairugeinmlwydd, daliodd ati hyd ddiwedd ei oes, ac y mae yn dra thebyg fod cynyrchion ei flynyddau olaf mor iraidd a dim a ddaeth erioed o tan ei law. Un englyn, ychydig englynion, pwt o gywydd, neu benill o ansawdd ddarnodol, ydynt bron yr oll o'i gyfansoddiadau. Mae yn debyg nad englynodd yr un bardd Cymreig gynifer o feddargraffiadau ag efe; y maent yn britho mynwentydd Eifionydd a Lleyn, a gofalai yr awdwr bob amser am i'r cerfiwr roddi y ddwy lythyren "E. O." ar ol pob un ohonynt. Pa fodd bynag, nid ydym yn meddwl fod neb o'r perthynasau galarus wedi mynu tori un o'r cyfryw, sef y canlynol o'i waith, i'r "Wraig Gelwyddog:"—

"Dywedodd a fedrodd tra fu—o gelwydd
Gwyliwch ei dadebru,
Neu hi ddywed, 'rwy'n credu,
I bawb mae'n y nef y bu."

Er na bu erioed yn fuddugol mewn cystadleuaeth, os darfu iddo erioed geisio, eto galwyd arno amryw weithiau i feirniadu mewn cyfarfodydd cystadleuol, a rhoddid pob ymddiried yn ei fedr a'i farn; ac yr oedd yn gydfeirniad a Ieuan Glan Geirionydd yn Eisteddfod y Gordofigion, Liverpool, yn 1840. Cynelid am hir amser gyfarfod llenyddol o wyr ieuainc yr ardal yn Nghefnymeusydd, a byddai yr hen lanc yn gweinyddu addysg iddynt o'r gadair fawr er boddhad iddo ei hun, a lleshad iddynt hwythau. Yr oedd yn awdurdod uchel ar hynafiaethau lleol, a'i farn yn derfyniad bythol ar bob dadl o barth enwau priod gwahanol fanau yn Lleyn, Eifionydd, ac Ardudwy. Bu farw Chwef. 27, 1868. Gadawodd lawer iawn o ysgrifau yn annghyhoeddedig, a gresyn na chyhoeddid hwynt, gan y byddent yn gaffaeliad gwerthfawr i'n llenyddiaeth.

PUGH (Parch. Hugh) gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Mostyn, sir Fflint. Ganwyd ef yn Llanegryn, Meirion, yn 1802. Treuliodd ei blentyndod tan ofal nain dduwiol. Pan yn 13 oed, aeth i Lundain, ac

Digitized by Google

wedi treulio chwe' blynedd yno fel ysgrifenydd i gyfreithiwr, gorfu arno ddychwelyd i'w wlad oherwydd afiechyd a ddygesid arno trwy orefrydiaeth yn ei alwedigaeth, a'i awydd i gasglu gwybodaeth gyffredinol. Yn 1822, ymunodd âg eglwys yr Annibynwyr yn Nhowyn, Meirionydd; ac yn mhen deuddeng mis, anogwyd ef i ddechreu pregethu. Yr oedd efe cyn hyny wedi agor ysgol ddyddiol yn Llanfihangel; lle y bu hyd 1826, pan yr agorodd ysgol yn Bethel, ger y Bala. Yn 1827, ordeiniwyd ef yn gyd-weinidog â'r Parch. Michael Jones, ar eglwys Llandrillo. Yn ystod ei arosiad o naw mlynedd yn y lle hwnw, daeth rhai o'i deithi meddyliol mwyaf neillduol i'r amlwg. Dadleuai dros Ddadgysylltiad yr Eglwys a'r Wladwriaeth yn mhell cyn cyhoeddi y *Nonconformist;* a ffurfiodd Gymdeithas Rhyddhad Crefydd, yn Edeyrnion a Phenllyn, cyn bod dim son am Edward Miall. Cynelid cyfarfodydd ganddo ar gylch, weithiau i egwyddori, weithiau i areithio, a phryd arall i ymresymu ar y pwnc. Cyhoeddodd ei draithawd ar "Hawl a Chymhwysder pob dyn i farnu trosto ei hun," a'i "Gatecism i'r Ymneillduwyr," a thraethodau eraill ar y pwnc, yn ystod y tymhor hwn. Yr oedd cynwysiad y llyfrynau hyn yn dychrynu dynion dof bron allan o'u synwyrau, y rhai a edrychent arno fel bachgen rhyfygus a pheryglus yn y wlad. Daeth yn wrthddrych erledigaeth, taenid pob drygair am dano, ond efe a gafodd fyw i weled pob egwyddor y condemnid ef o'i phlegyd wedi ei dwyn i derfynau buddugoliaeth. Yn y cythryfwl tan sylw, dywedai y ffraethbert Dafydd Rolant, o'r Bala, "Hugh Pugh sy'n dweyd y gwir, ond gwell gen i iddo fo'i ddywedyd o na fi." Yn 1836, symudodd i Fostyn, fel olynydd i'r Parch. Wm. Rees, yn awr o Liverpool; lle yr arosodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Rhag. 23, 1868. Claddwyd ef yn mynwent Sion, ger Treffynon. Un o'i ddymuniadau bob amser ydoedd "cael marw yn yr *harness*, a myned o'r pwlpud i'r bedd;" a chyflawnwyd ei ddymuniad bron i'r llythyren, canys yr oedd yn y pwlpud un Sabbath yn pregethu'n effeithiol ar y testyn, "Gwyn eu byd y gweision hyny, y rhai a gaiff eu Harglwydd pan ddel yn gwneuthur felly," a'r Sabbath canlynol yn nhŷ ei hir gartref. Anaml y gellid cyfarfod â chymeriad mor hawddgarol ag oedd Mr. Pugh yn mhob ystyr. Yr oedd yn feddianol ar y teimladau mwyaf tyner; ni allai edrych ar drueni ac angen heb i'w galon doddi tros y truan; rhanasai ei damaid olaf â'r angenus a ddeuai ato, pwy bynag a fyddai. Er nad oedd ei gyflog gweinidogaethol ond bychan iawn, pan yr oedd ei deulu yn gynyddol, ni chlywodd yr un o'i gyfeillion mynwesol mo hono yn cwyno gair erioed o'r achos. Yr oedd bob amser, dan bob amgylchiadau, mor siriol â'r brithyll. Cadwai ei sirioldeb a'i arabedd hyd yn nod dan arteithiau dirgnoawl y droedwst, oddiwrth yr hwn y dyoddefodd lawer drwy ystod llawer o flynyddau olaf ei oes. Yr oedd yn nodedig o ddihunangais, hwyrach yn ormod felly. Nid oedd, ac ni allasai fod, yn anymwybodol o'i alluoedd a'i gymhwysderau, rhaid y gwyddai ef ei hun, yn gystal a hwythau, ei fod yn dywysog yn mysg ei frodyr, yn oracl mewn barn a chynghor, ond ni cheisiai ddangos ei hun ar un amgylchiad. Yr oedd cyflawnder nerth synwyr wedi ei gynysgaethu ynddo, cyflymder a chraffder meddwl a dealltwriaeth yn nghydag arabedd dihefelydd yn mron, chwaeth bur a choethus, gallu i grynhoi, a gosod ei feddwl allan yn y modd mwyaf priodol a destlus. Llefarodd ddiarebion lawer yn ei ddydd, y rhai pe cesglid hwynt a'u cyhoeddi a fyddent yn drysorau gwerthfawr o addysg i genedlaethau a ddel. Yr oedd yn siaradwr

Digitized by Google

rhwydd a ffraeth, a chofir yn hir am y ddadl gyfeillgar y bu y Parch. D. Price, Dinbych, ac yntau yn ei dwyn yn mlaen mewn gwahanol fanau—y naill fel Cymedrolwr, a'r llall fel Dirwestwr. Bu am lawer o flynyddau yn ysgrifenydd Undeb Cynulleidfaol siroedd Dinbych a Flint; ac yr oedd yn un o olygyddion y *Dysgedydd*, yn nghyfnod enraidd y cyhoeddiad hwnw, sef yn ystod "golygiad y Chwech."—*Congregational Year Book; Y Tyst.*

REES (PARCH. DAVID), gweinidog poblogaidd gyda'r Annibynwyr, yn Llanelli, ydoedd fab i amaethwr parchus yn ardal Trelech, lle y ganwyd ef yn 1802. Derbyniwyd ef yn aelod o Gapel y Graig, Trelech, gan yr hybarch Morgan Jones. Tynodd ei ddoniau fel gweddiwr sylw yn fuan, ac yr oedd ei barodrwydd i ateb cwestiynau dyrus yn y Cyfarfodydd Ysgolion yn magu disgwyliad yn mhawb y deuai "Dafydd Rees, Pencraig," yn rhywbeth uwchlaw ei gyfoedion. Anogwyd ef yn fuan i ddechreu pregethu. Yr oedd perthynas wedi gadael swm o arian iddo, ac a ganlyniad, cafodd ef well manteision at y weinidogaeth nag "athrofa ffos y clawdd." Wedi bod am ychydig yn ysgol Caerfyrddin, derbyniwyd ef i athrofa yr enwad a gynelid y pryd hwnw yn y Drefnewydd, lle y treuliodd ei amser, ac y gwnaeth ddefnydd da ohono. Ar ei ymddangosiad cyntaf, yr oedd yn bregethwr doniol, bywiog, a thanllyd; ac i raddau helaeth cadwodd y cymeriad hwnw hyd ddiwedd ei oes. O'r athrofa, derbyniodd alwad eglwys Capel Als, Llanelli. Yr oedd Llanelli y pryd hwnw yn mhob ystyr yn lle gwahanol iawn i'r peth ydyw yn awr; nid oedd y dref ond bechan, nac Annibyniaeth ond cymharol isel. Ymdaflodd gorph ac enaid i'w waith; ac y mae yn sicr genym na chychwynodd yr un gweinidog ieuanc allan gydag amcanion uwch a chywirach. Ac ni bu raid iddo aros yn hir heb weled ffrwyth i'w lafur. Aeth Capel Als yn fuan yn rhy fychan; bu raid ei helaethu, a'i helaethu drachefn, nes y mae yn un o'r capeli eangaf yn y wlad, a chynulleidfa ac Ysgol Sabbothol ynddo, a chymeryd ugain mlynedd at eu gilydd, na all yr un enwad yn Nghymru ddangos eu rhagoraeh; heblaw pedair o gynulleidfaoedd cryfion eraill a aeth al an yn ei amser, ac a sefydlwyd yn benaf trwy ei offerynoliaeth. Gweithiwr difeil ydoedd, ac yr oedd lledaenu yr achos yn gorphwys yn agos at ei galon. Taflodd ei ysbryd i luaws o weinidogion ac eglwysi y sir. Dichon na bu yr un dyn ac iddo fwy o efelychwyr—efe oedd *model* nifer fawr o bregethwyr ieuainc y De, ugain a deng mlynedd ar hugain yn ol. Bod fel Mr. Rees, Llanelli, oedd nod eu huchelgais. Efelychai rhai ei ddawn a'i ddull o draddodi—eraill ei ysbryd llym a diwygiadol—eraill ei ymroddiad a'i weithgarwch gyda chodi capeli, a thalu eu dyledion—fel rhwng y cwbl yr oedd ei efelychwyr yn lluosog iawn. Mae yn wir mai camgymeriad mawr ynddynt hwy oedd hyny. Nid oeddynt ond fel Dafydd yn arfau Saul. Ei bregethau ymarferol fel rheol oedd y rhai rhagoraf. Dyna y rhai oedd yn cydweddu oreu â'i ysbryd ef ei hun. Yr oedd y diwygiwr mor gryf yn ei galon fel y gosodai ei ddelw ar ei holl bregethau. Cyrhaeddodd safle uchel yn yr enwad yn gynar yn ei oes. Yr oedd cyn ei fod yn saith mlwydd oed o weinidog yn un o'r brif bregethwyr y Cymanfaoedd; ac yn amlach na neb arall yn Gadeirydd y Cynadleddau. Daeth trwy ei briodas i gysylltiad ag un o hen deuluoedd mwyaf parchus a chyfrifol Llanelli, a bu hyny yn help mawr i'w ddylanwad. Yr oedd y petbau hyn oll yn gynorthwyon i'w bobiogrwydd. Ond yr oedd newydd-deb ei ddawn, a gwroldeb ei ysbryd, a'i benderfyniad di-

Digitized by Google

hafal y fath fel ag y teimlasid ei bwysau dan unrhyw amgylchiad. Cymerodd ei ran yn holl amgylchiadau trefol Llanelli; ac ar fwrdd y gwarcheidwaid, a byrddau eraill yn y dref, yr oedd bob amser yn un o'r rhai blaenaf. Yr oedd Mr. Rees yn wir ddiwygiwr. Wrth alw y cyhoeddiad a gychwynwyd ganddo yn Awst, 1835, *Y Diwygiwr*, ni wnaeth ond rhoddi corpholiaid mewn llyfr i'r ysbryd oedd ynddo ei hun; ac y mae efe ei hun yn enaid byw yn mhob rhifyn ohono am yn agos i ddeng mlynedd ar hugain y bu dan ei olygiaeth. Ar bob cwestiwn gwladol ac Eglwysig yr oedd yn ateb i'w enw. Dirywiad yr hen *Efengylydd* at Eglwysyddiaeth a barodd iddo feddwl am gychwyn cyhoeddiad; ac ni faddeuodd Brutus byth y sarhad. Bu *Haul* Llanymddyfri yn mhob rhifyn am flynyddoedd yn bwrw ei holl wenwyn ar Olygydd y *Diwygiwr;* nid oblegid fod ganddo ddim yn bersonol yn erbyn y Golygydd. Ar gychwyniad Dirwest yn y wlad, daeth allan yn ei nerth, a thaflodd ei holl enaid i'r symudiad, a pharhaodd drwy ei oes, oddigerth iddo yn ei gystudd gymeryd ychydig dan gyfarwyddyd meddygol. Yr oedd yn un llym iawn yn erbyn dynion llygredig, ac yn enwedig yn erbyn gweinidogion felly; ac nis gallasai ddisgwyl gair da iawn gan y rhai hyny, er iddo hefyd fod yn foddion i waredu amryw ohonynt oedd ar y dibyn. Er iddo gychwyn ei fywyd dan amgylchiadau mwy ffafriol na'r cyffredin o'i gyfoedion, eto cafodd ran helaeth o ofidiau bywyd Yn ei gysylltiad eglwysig, hwyrach na bu yr un dyn erioed am dymhor cyhyd yn fwy hapus. Ond estynwyd ato er hyny lawer cwpanaid o ddyfroedd Mara, Trwy ei gysylltiadau teuluaidd, tynwyd ef i mewn i anturiaethau masnachol y rhai fuont aflwyddianus. Boddodd dau fachgen iddo yr un diwrnod, dau o'r bechgyn mwyaf cariadus fu yn eiddo tad erioed—cymerwyd ei wraig ymaith gan glefyd poeth ar adeg yr oedd ei iechyd ef ei hun wedi ei anmharu yn fawr—a gwelodd farw ei unig ferch, gan adael ei baban amddifad a'i dad i alaru eu colled. Ac er i Ragluniaeth fod yn dyner iawn o hono, drwy ddarparu iddo ymgeledd gymhwys, a phob cyflawnder yn yn niwedd ei oes; eto ysigwyd ei gyfansoddiad cryf trwy yr ystormydd a'i cyfarfu. Bu yn gwaelu am y rhan fwyaf o'r ddwy flynedd olaf o'i oes; ond os bu yn hir yn gwersyllu ar lan yr afon yn disgwyl yr adeg i fyned trosodd, nid oedd un dyn yn ei oes allasai ffordd'io gwneud hyny yn fwy esmwyth a thawel. Yr oedd wedi gweithio yn ei iechyd a'i nerth, fel nad oedd achos fod loes yn ei feddwl ei fod ef yn cael ei gaethiwo, a'i waith heb ei wneud. Mae ambell weithiwr wedi gweithio mor dda fel y mae y Meistr Mawr yn caniatau iddo orphwys tipyn yr ochr yma i'r afon, cyn myned i'r "orphwysfa sydd eto yn ol i bobl Duw." Cadwyd yntau am dipyn yn rhosydd Moab; ond bore dydd Mercher, Mawrth 31, 1869, croesodd yr afon; ac yn ei farwolaeth, syrthiodd arwr a adawodd, fe ddichon, fwy o'i ol ar Annibyniaeth Gymreig nag odid un o'i gydoeswyr.—*Congregational Year Book; Y Tyst.*

REES (Parch. Henry), a anwyd yn y Chwibren Isaf, plwyf Llansannan, sir Ddinbych, yn 1797. Mab ydoedd i Dafydd Rees o'r lle hwnw, ac enw morwynol ei fam ydoedd Anne Williams, o Gefnfforest. Ei daid ydoedd Henry Rees, gwr genedigol o Landilo Fawr, sir Gaerfyrddin; daeth i Lansannan ar y cyntaf fel *exciseman*, a phriododd yno Miss Gwen Llwyd, merch ac etifeddes Chwibren Isaf. Yr oedd y Llwydiaid hyn yn deulu henafol a pharchus yn y wlad, ac yn disgyn mewn llinach unionsyth o Hedd Molwynog, pen un o Bumtheg Llwyth

Digitized by Google

Gwynedd, yr hwn a gyfaneddai yn Henllys, Llanfairtalhaiarn. Cafodd Ymneillduaeth afael yn y teulu nodedig hwn yn gynar; yr oedd Henry Rees (y taid), yr hwn a gyfrifid yn ddyn dichlynaidd a dirodres ei fuchedd, yn gwrando yn gyson gyda'r Methodistiaid yn Nhanyfron; ac yr oedd ei wraig nodedig yn un o aelodau yr eglwys hono. Profodd Dafydd Rees (y tad), argraffiadau dwysion crefyddol yn ieuanc, ac ymunodd gyda'r Methodistiaid yn Nhanyfron, yn yr hwn le, yn nghyda Llansannau wedi hyny, y bu yn flaenor ffyddlawn a defnyddiol am lawer o flynyddau. Dyn difrifol, dwys, a myfyrgar ydoedd, ac un o'r gweddiwyr hynottaf yn yr holl wlad; dywedai ei gymydogion fod cystal ganddynt glywed Dafydd Rees yn gweddio a chlywed John Elias yn pregethu. Yr oedd Anne Rees, ei wraig, hefyd yn ddynes lygadgraff, ddarbodus, a synwyrol. O tan aden ofalus y rhieni hyn, mewn cwm annghysbell, yn nghanol golygfeydd gwledig amaethyddol, wrth odreu gogleddol mynydd Hiraethog, yn ngolwg dyffryn swynol Abel, y magwyd y "tywysog hwn yn Israel." Cymdeithasai lawer â natur yn ei hunigedd tawel, tra y byddai yn bugeilio praidd ei dad ar hyd llechweddau mynydd Hiraethog. Traddododd ganoedd o bregethau bachgenaidd i'r twmpathau eithin a'r llwyni grug oeddynt yn addurno bronau Bronllywelyn; ac i'r gwartheg hamddenol a'r ceffylau ar hyd faesydd ceimion y Chwibren, a phe buasai rhywbeth yn mhenau y cyfryw cawsent lawer o adeiladaeth, os nad ambell gymhorth i chwerthin tan y weinidogaeth. Am sefyllfa ei feddwl yn y cyfnod tan sylw, gwell y dywed ef ei hun na neb arall—"Yr oeddwn yn grefyddol," meddai, "mewn ystyr, mi dybiwn, cyn cof genyf. O leiaf, byddwn yn meddwl am farw weithiau pan wrthyf fy hun, yn ofni cyflawni drygau, ac yn hoff o bregethwyr a phregethu, er pan ydwyf yn cofio dim. Pa bryd y dechreuodd y fath bethau droi ynof, nis gwn. Mae yn gofus genyf ddal sylw, pan yn blentyn ieuanc, ar ryw sylwadau neillduol mewn pregeth; ac ar ol myned adref, ciliais yn ddistaw o'r neilldu, i'r dyben o'u pregethu drosodd drachefn i mi fy hun. Glynodd yr arferiad hon wrthyf yn ystod fy ieuenctyd; ac oherwydd hyny, byddai yn hoff iawn genyf, ar brydiau, gael gorchwyl i'w gyflawni ar hyd y meusydd a'r coedydd, lle y cawn fyned a dychwelyd wrthyf fy hun. Os oedd tueddfryd fel hyn yn rhyw ragarwydd fod pregethu yn fy aros, bum lawer gwaith, mewn oedran addfettach, yn flin na buasai rhywun o'm tadau yn deall hyny ar y pryd, ac y trugarhau wrthyf, gan fy ysgytian o'm dydd-freuddwydion, a'm gosod dan well addysg a dysgyblaeth feddyliol, i'm paratoi at y gwaith. Gwastreffais lawer o amser gwerthfawr yn bur ddifudd. Fel bechgyn Cymru yn gyffredin, teimlwn inau yn fy ieuenctyd ormod o ryw ffol awydd i fod yn brydydd. Collais aml i awr yn y ffordd hono. Mae yn gofus genyf ar un achlysur ysmala i'm teimladau barddonol ddeffroi ynof, a thorais allan i ganu yn bur hyderus i gysuro fy hen feistres oedd wedi ei chythryblu mor fawr gan "ysbryd" y nos o'r blaen." Mae yn dda genyf allu dweyd nad wyf yn cofio imi gamdreulio ond ychydig o amser yn y ffordd hyny byth wed'yn. Pan rhwng un a dwy ar hugain oed y dechreuais bregethu; ac, os wyf yn cofio'n iawn, yn Llanelian, pentref bychan rhwng Bettws, Abergele, a Chonwy, y bu hyny." Yr oedd wedi cael rhywfaint o ysgol yn ei Lan genedigol yn nhymhor ei ieuenctyd; ond yn fuan ar ol dechreu pregethu, aeth at y Parch. Thomas Lloyd, i Abergele, er mwyn ymwneud ychwaneg â dysgeidiaeth, ac ymbaratoi at y gwaith y rhoddes ei fryd gymaint arno. Ni oes hysbysrwydd pa hyd

Digitized by Google

y bu yno, na pha faint ei lwyddiant; ond trysorodd wybodaeth ddigonol o'r Saesonaeg, fel ag i allu darllen ynddi waith yr hen dduwinyddion Puritanaidd, y rhai a fuant o bleser a chymhorth iddo ar hyd ei oes. Gwelir ei syniadau parchus am ei hen athraw yn yr erthygl feistrolgar a ysgrifenodd efe i'r *Traethodydd* am 1853, tan y penawd, "Y Gweinidog a'r Ysgolfeistr—Thomas Lloyd o Abergele." Cyn myned at Mr. Lloyd, aethai adref i weled ei deulu, a chafwyd ganddo bregethu ar noson waith yn yr Hendref Uchaf. Ar ol y bregeth, gofynodd ei fam i'w dad, "Wel, Dafydd, beth ydych yn ei feddwl o bregeth Henry!" Yr ateb oedd, "Meddwl yr wyf y gwna well pregethwr na dim arall." Yr oedd ei dad yn cadw llygad pryderus arno; ac er na ddywedai nemawr air yn ei gylch, yr oedd yn falch iawn ei weled yn cynyddu mor gyflym a gobeithiol. Dywedai unwaith, ar ol ei wrando yn pregethu, "Y mae cymaint, os nid mwy o fater, athrawiaeth, a meddwl, yn mhregethau Harri ag sydd yn mhregethau John Elias; ond pe gallai o wneud cystal pregethau a John Elias, nis gallai byth eu dweyd cystal ag ef." Yn 1821, wedi bod yn pregethu tua thair blynedd, efe a aeth i'r 'Mwythig, gyda'r bwriad o ddysgu y gelfyddyd o rwymo llyfrau. Disgwylid fod gan bob pregethwr gyda'r Methodistiaid haner can' mlynedd yn ol ryw alwedigaeth neu foddion at ei gynaliaeth heblaw pregethu; ac ystyrid fod rhwymo llyfrau yn orchwyl tra chydnaws âg anianawd y swydd. Nid oedd ganddo wrth gychwyn un bwriad i aros yn Amwythig yn hwy na'r amser angenrheidiol i ddysgu ei gelfyddyd. Ond fel y sylwai ei frawd, "yn lle i'r bachgen rwymo y llyfrau, wele y llyfrau yn rhwymo y bachgen." Ni lynodd efe yn hir wrth y gwaith hwnw, ac nid oes lle i gasglu iddo gyrhaedd unrhyw fedr neillduol yn y gwaith, canys yn bregethwr, ac nid dim arall, yr oedd efe wedi ei dori allan gan Raglunaeth ddoeth. Daeth ei frodyr yn Amwythig i werthfawrogi ei ddoniau yn ddioedi, ac anogasant ef yn fuan i ymroddi yn gyfangwbl at bregethu, gan sicrhau *y rhoddent iddo ei fwyd!* Yntau a gydsyniodd, a chyda hwy y bu yn trigo dros bumtheg mlynedd. Yr oedd y cyfnod hwn, ar lawer o ystyriaethau, y pwysicaf yn ei holl fywyd. Yma y dadblygodd i raddau helaeth, y cyneddfau ysplenydd hyny oeddynt wedi dechreu ymagor yn wylaidd rhwng bryniau gwlad ei enedigaeth. Yn ystod ei arosiad yma, yr esgynodd i sylw a bri cyffredinol yn Nghymru; yn enwedig yn y Gogledd, fel un o'r pregethwyr ieuainc mwyaf gobeithiol, ac enillodd syniadau mwyaf hyderus am ei ddyfodiant dysglaer oddiwrth enwogion y Cyfundeb, megys John Elias, Ebenezer Richards, &c. Ac yma y preswyliai, pan y cafodd ei ordeinio yn Sassiwn Bala, yn 1827—yn 30 oed; ac efe oedd yr ieuangaf a ran oedran, ac o ran amser y buasai yn pregethu, o'i holl frodyr yn Ngogledd Cymru. Fel y dywed ei hen gyfaill, y Parch. J. Hughes, Liverpool, yn *Methodistiaeth Cymru:*—"Cafodd fisoedd lawer o seibiant, mewn distawrwydd tawel, i yfed yn ehelaeth o ysbryd a syniadau y Dr. Owen a Phuritaniaid eraill; ac nid oes achos dweyd fod Methodistiaeth Cymru yn ddwfn ddyledus i gyfeillion Amwythig am yr achles manteisiol a gafodd y pregethwr ieuanc yn eu plith. Rhaid oedd i Harri Rhys, Llansannan, wrth neillduaeth tawel yr Amwythig, cyn y gwnaethid ef yn Barch. Henry Rees, Liverpool." Fel y dywedir yn y *Drysorfa* am Ebrill, 1869:—"Yr oedd yn rhaid iddo yma bregethu llawer i'r un bobl; tri Sabbath yn y mis yn gyffredin, ac yn amlach yn fynych; a thair pregeth ar y Sabbath, heblaw oedfeuon ar noson waith ar dymhorau. A thuag at gyflawni y pwlpud fel hyn, yr oedd ei

Digitized by Google

astudiaeth yn ei lyfrgell yn ddibaid." Yn niwedd 1836, symudodd i Liverpool, ac yma y treuliodd weddill ei oes mewn parch a defnyddioldeb mawr. Ni bu erioed weinidog anwylach gan bobl o'i ofal, teilyngach o'r serch cryf a ymglymai am dano, nac un a adawodd wagle mwy ar ei ol pan y syrthiodd i'r bedd. Fel lluaws o fendithion mawrion, nid oeddym yn gallu prisio ei wir werth nes ei golli. O ran y dyn oddiallan, anfynych y gwelid esiampl harddach o'r ddynoliaeth nag efe, yn enwedig yn ei flynyddau olaf, pan yr oedd awelon amser wedi teneuo ei wallt, a'i eira wedi cannu y gweddill; a'i fywyd myfyrgar, a'i ymarweddiad ddilychwin, wedi goleuo ei wyneb i fynu fel gwyneb angel. Dywed "Gohebydd Liverpool" un newyddiadur wrth gofnodi ei farwolaeth:—"Hyd o fewn tua phythefnos yn ol, gallesid gweled ar amserau yn rhodio yn arafaidd ar hyd heolydd Liverpool, henafgwr tywysogaidd ei olwg yn rhywle tua deg a thriugain oed, ei war yn crymu, a'i wallt arianaidd yn bargodi ar hyd ei ysgwyddau llydain. Cerddai yn bwyllog, myfyrgar, a diystyr i bawb a phobpeth, a'i feddwl fel pe wedi ymollwng i ddilyn meddyliau duwiol ei galon. Byddai ganddo yn gyffredin ffon ddestlus yn un llaw, maneg gid ddu am y llall, ac yr oedd yr holl olwg arno yn dra thrwsiadus a boneddigaidd. Anfynych y gwisgai arwydd ei swydd yn y rhodfeydd hyn, sef y ffunen wen; ac er hyny, yr oedd rhyw fawredd neillduol i'w ganfod yn ei gorph tal a chymesurol; ffurf teg, tirion, a deallgar, ei wynebpryd, a'r ddau lygaid duon, dysglaer, a dwfnfyfyriol hyny, a hawlient sylw yr edrychydd mwyaf digraff, ac a barai i bobl ddieithr droi drach eu cefnau ar ol myned heibio iddo er cael golwg arall edmygus a manylach arno." Pan fu farw Mr. Elias, edrychid yn naturiol at Mr. Rees fel olynydd iddo yn nghadlywyddiaeth y fyddin. Er yn ieuangach mewn dyddiau nag amryw o'i frodyr, yr oedd efe yn sefyll o'i ysgwyddau i fynu yn uwch na hwynt; a'i athrylith, ei ddawn, ei brofiad, ei ddealltwriaeth, a'i ddoethineb, yn rhoddi iddo yn naturiol y lle blaenaf yn Nghymanfaoedd a Chynghorau y Gogledd. Ymroddodd yn llwyr i'w alwedigaeth oruchel; ymgartrefai mewn tair ystafell, sef ei fyfyrgell, ei ystafell weddi, a'r pwlpud lle ei gwelid bob amser a delw amlwg y ddwy flaenaf arno. Ni halogodd efe burdeb ei wisg offeiriadol yn llaid gwleidyddiaeth. Yr oedd efe enaid a chalon yn ei waith, pwysigrwydd yr hwn ydoedd wedi llwyr lyncu ei feddyliau. Gwirioneddolrwydd a difrifoldeb dihoced ydoedd anhebgorion y weinidogaeth, yn ol ei syniadau ef. "Mae rhai pregethwyr, meddai unwaith, "fel chwareuwyr, yn codi teimlad trwy bortreiadu pethau o flaen y dychymyg. Ac y mae achos i ni sylwi ar hyn y dyddiau yma, rhag i ni gamgymeryd teimladau y chwareudy am wir addoli. Mae y teimladau a gynyrchir trwy y gwirionedd yn lladd pechod; ond y mae'r teimladau a gyfodir trwy chware ar y dychymyg yn gadael dyn mor annuwiol ag o'r blaen. Nid yw y diafol yn anfoddlon i'r dychymygion a draethir gan bregethwr i gyffroi anwydau'r bobl; caiff yr had hwnw lonydd heb ei bigo i fynu; ond mae yr un drwg, a llygredigaeth y galon, yn wrthwynebol i'r had da. Portreiader uffern amgen i uffern y Beibl, a gall hyny effeithio yn fawr ar deimladau'r gwrandawyr. Clywsom rai yn ei desgrifio fel tan naturiol, ac yn darlunio y cythreuliaid yn poenydio y damnedigion â phicweirch, ac yn desgrifio Cain â'i dafod yn *golsyn*, ei anadl yn frwmstanaidd, a'i fysedd yn ffaglu, &c., nes yr oedd llawer ar y pryd yn cael eu cyffroi yn fawr. Ond nid oedd yno ddim sancteiddrwydd yn canlyn. Eithr pregether uffern y peth ydyw;

Digitized by Google

amddifadrwydd o heddwch Duw, dirnadaeth o'i wg, chwantau drwg heb fodd eu dirgelu, ac heb fod yn bosibl eu boddhau, anobaith am ymwared byth,—rhaid cael ysbryd y weinidogaeth, a chynorthwyon Ysbryd Duw, tuag at ddangos y pethau hyn yn effeithiol." Pregethu yr efengyl ydoedd unig waith bywyd Mr. Rees. Teimlai bron o ddechreu ei weinidogaeth hyd y diwedd, fod angenrhaid wedi ei osod arno i bregethu; ac i hyny y cysegrodd efe ei holl dalentau a'i amser. Cyflawnodd ei weinidogaeth yn ffyddlawn, astudiodd yn galed, a llafuriodd yn egniol ar hyd ei oes; ac nis gwyddom am neb y gellir dweyd am dano gyda mwy o briodoldeb ei fod wedi "iawn-gyfranu gair y gwirionedd." Yr oedd efe, nid yn unig yn meddu gwybodaeth dduwinyddol eang, ond chwaeth bur a choethedig. Ni chlywodd neb erioed mohono ef yn dweyd dim o'r pwlpud yn annghydweddol âg urddas y weinidogaeth; ac ni byddai dim yn ei boeni ef yn fwy na thrin pethau mawrion yr efengyl mewn dull isel, ysgafn, a rhodresgar. Er na dderbyniodd addysg athrofaol, byddai ei bregethau bob amser yn gyfansoddiadau meistrolgar, manwl, a nerthol. Anaml, os byth, y clywid ef yn pregethu ar adnod heb gymeryd trafferth i'w hegluro yn drwyadl; a byddid yn sicr o gael ganddo ef ei gwir feddwl a'i hamcan; ac er mor alluog oedd ei bregethau, anfynych, os byth, y byddai dim ynddynt nas gallai y gwanaf ei amgyffredion ei ddeall. Yr oedd ei Gymraeg yn hynod o gywir, syml, a nerthol. Y mae yr ychydig draethodau a gyfansoddwyd ganddo yn enghreifftiau nodedig o gyfansoddiaeth Gymreig bur a diledryw; a gallai llawer o lenorion ieuainc y dyddiau hyn gael lles mawr trwy eu darllen yn ofalus. Ond er cymaint ydoedd fel pregethwr, nid oes anmheuaeth nad oedd hyd yn nod yn fwy na hyny fel gwr y cynghor. Llanwodd y swydd o gadeirydd Cymdeithasfa y Gogledd am 28ain o flynyddau. Yr oedd treiddgarwch ei ddirnadaeth, craffder ei sylwadau, ei bwyll, a'i ymgais i ymddwyn yn gyfiawn tuag at bawb, yn peri ei fod yn llanw y swydd hono yn dra theilwng, ac er boddlonrwydd cyffredinol. Yn ateg i'w fywyd cyhoeddus yr oedd ganddo gymeriad difrycheulyd. Ymddengys nad arweiniwyd ef erioed i lawer o brofedigaethau. Dywedai ei frawd athrylithfawr, y Parch. W. Rees, wrth draddodi ei bregeth angladd yn nghapel Chatham Street, Liverpool: "Y mae rhai llysiau yn yr ardd y rhaid eu sathru cyn y ceir perarogl ohonynt, tra y mae eraill yn gwasgar eu peraroglau tan ddylanwad yr awel dyner a'r heulwen deg; un fel yr olaf ydoedd ef, yr oedd ei rinweddau yn ymdori allan heb i brofedigaeth nac adfyd wasgu arno, ac ychydig o ganlyniad a gafodd o'r cyfryw yn ei holl fywyd." Gwnaed ef yn offeryn bendith fawr i'w genedl, a bydd ei ddylanwad yn fythbarhaol arni. Wedi sefyll fel un o brif bregethwyr Cymru am yn agos i haner can' mlynedd, daeth y terfyn yn annisgwyliadwy i bawb ond efe ei hun. Chwefror 5, 1869, cafodd anwyd trwm yn angladd ei hen gyfaill y Parch. Hugh Hughes, Abergele, yr hyn a drodd yn enynfa yr ysgyfaint. Gwaethygodd yn gyflym, a bu farw y 18fed o'r un mis, yn y Benarth, ger Conwy, palasdy ei fab-yn-nghyfraith, R. Davies, Ysw., A.S. tros sir Fon. Claddwyd ef yn Llandysilio, ger Porthaethwy, a bernir nad oedd dim llai na thair mil o bobl yn ei gladdedigaeth, chwe' chant o ba rai o ddaethent yr holl ffordd o Liverpool.

RICHARDS (Parch. Thomas), awdwr Geiriadur Cymraeg a Saesoneg o gryn deilyngdod. Brodor ydoedd efe o sir Forganwg, a bu yn gwasanaethu plwyfi Llangrallo a'r Coetty, yn y sir hono, am 40 mlynedd. Yr oedd yn aelod gohebol o Gymdeithas y Cymrodorion, Llundain;

Digitized by Google

â'r hon, yn yr oes hono, yr oedd agos holl lenorion a charwyr llenyddiaeth Gymreig yn gysylltiedig. Bu yn briod ddwywaith, a bu iddo ddau o blant. Bu un fyw i wth o oedran, ond yr oedd yn orphwyllog. Bu farw Mawrth 20, 1790, yn 80 oed. Daeth pedwar argraffiad allan o'i Eirlyfr. Argraffwyd y cyntaf yn Bristol yn 1753; yr ail yn Nhrefriw, yn 1815; y 3ydd yn Nolgellau ychydig ar ol hyny; a'r 4ydd yn Merthyr Tydfil. Ceir gyda'r argraffiadau olaf Ramadeg Cymraeg cynwysfawr, a chasgliad ehelaeth o Ddiarhebion Cymreig.—*Llyfryddiaeth y Cymry.*

ROBERTS (EDWARD) *(Iorwerth Glan Aled)*, ydoedd fab i'r Parch. Peter Roberts, Llansannan, a Mary ei wraig. Ganwyd ef yn Llansannan, Ion. 5, 1819. Bu farw ei dad, Ebrill 23, 1829, a bu farw ei fam yn y Gorphenaf canlynol; fel hyn, gadawyd ef yn amddifad o dad a mam pan yn nghylch deng mlwydd oed. Efe oedd yr ieuangaf o naw o blant, sef pedwar mab, a phump o ferched. Claddwyd ei frodyr flynyddoedd o'i flaen ef; ac y mae y chwiorydd oll wedi ei oroesi. Trefnodd ei dad ar gyfer ei addysg, yn ei lythyr cymun; a gosododd ddau o wyr parchus i ofalu am hyny, a chafodd y bachgen addysg dda, nes bod ohono yn bumtheng mlwydd oed. Yn yr oedran hwnw, rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda masnachwr parchus yn Abergele, o'r enw Miller, a bu yno am dair blynedd; ac am fod y gwr hwnw yn rhoddi ei fasnach heibio, symudodd yntau at ei frawd-yn-nghyfraith, sef y Parch. John Foulkes, yr hwn ar y pryd hwnw oedd wedi agor masnach yn Abergele; a bu gyda y gwr hwn am flwyddyn, ac yn yr adeg hon y cawn ef yn dechreu cyfansoddi barddoniaeth. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, ac yn ddyn ieuanc efrydgar, ac o ddirnadaeth gyflym, ac yn meddu ar fesur helaeth o arabedd a hyawdledd. Yn yr adeg hon y cyhoeddodd y "Dyddanion." Pan yn 19 oed, gan faint ei syched am wybodaeth, dymunai yn daer am gael myned i Athrofa y Methodistiaid yn y Bala, a thrwy diriondeb Cyfarfod Misol sir Ddinbych, cafodd hyny, a bu yno o ddwy flynedd i dair; ac yfodd ddysgeidiaeth gyda chyflymdra lled annghyffredin, yr hyn a brofai ei fod yn meddu ar alluoedd cryfion. Pan yn 22 oed, priododd Miss Jones, Plas Isaf, Llansannan, ac yn fuan ar ol hyny, ymsefydlodd mewn mewn masnach yn Rhuddlan; ond nid hir y bu yno cyn symud i Ddinbych, a bu yno am rai blynyddoedd. Pan yn Rhuddlan, ymawyddai am fyned i'r weinidogaeth gyda'r Methodistiaid, ond oherwydd ei symudiad i Ddinbych, ac am ei fod yn methu dygymod â'r arafwch gyda'i achos, ymunodd â'r Bedyddwyr yn Ninbych. Dechreuodd yn fuan bregethu yn eglwys Dinbych, ac urddwyd ef yn weinidog arni Medi 29, 1842. Bu wedi hyny yn gweinidogaethu yn Liverpool, ac yn Rhymni. Gan nad oedd ei fasnach yn ffynadwy gyda y *drapery* yn Ninbych, symudodd i'r Rhyl, ac agorodd *confectionary shop;* ac yr oedd y fasnach hono at chwaeth ei briod. Bu yn llwyddianus am dymhor yn y fasnach hono. Cyn hir iawn bu farw ei briod, yr hyn a effeithiodd yn ddwys ar feddwl y bardd. Ac wedi rhoddi ei rhan farwol o dan gysgod yr ywen werdd yn mynwent Llansannan, trigfan ei enedigaeth, symudodd yntau yno, a bu am rai misoedd gyda Mr. Morris; a thra y bu yno, cyfansoddodd amrywol ddarnau o farddoniaeth, ar wahanol destynau. Yn Mai, 1866, priododd y bardd yr ail waith gyda Miss Ann Jones *(Eos Aled)*, yr hon a fu iddo yn ymgeledd gymhwys iawn, ac a weinyddodd i'w gysur yn ddyfal a siriol. Ni bu eu cydfod yn yr ystad briodasol ond naw mis; a bu Iorwerth yn wael am yn nghylch chwe' mis, ac yn gwbl an-

Digitized by Google

alluog i bob peth. Geilw y meddygon yr anhwyldeb hwnw yn *softness of the brain.* Ymddifadwyd ef bron yn hollol o'i gôf, a gwywodd ei athrylith lawer. Byddai weithiau a golwg synedig arno; bryd arall, byddai yn siaradus, a'i arabedd yn fywiog, ac yn ei holl waeledd mor hawdd ei drin a phlentyn diddig. Boreu y 18fed o Chwefror, 1867, bu farw y bardd a'r darlithydd enwog hwn yn y Rhyl, yn 48ain oed; a'r 21ain, hebryngwyd ei weddillion i fynwent Llansannan, yn ol ei ddymuniad. Ei weithiau barddonol a rhyddieithol oeddynt a ganlyn:—"Dyddanion;" "Anfarwoldeb," yn y *Pryddestau Arobryn;*" "Palestina;" "Adgyfodiad Crist;" "Y Messiah," ail yn Eisteddfod Dinbych; "Ysbrydion Anian;" "Y Blodeuos;" "'Yr Eos,' 'Y Llinos,' a'r 'Ehedydd;'" "Cerdd Allwyn;" "Y Llenor Diwylliedig;" casglodd hefyd lyfryn barddonol, a cheir llawer o'i waith ef ei hun ynddo, tan yr enw "Rhosyn a'r Lili." Ei ddarlithiau oeddynt ar y testynau canlynol: sef Mormoniaeth; Rhyfeddodau Natur a Chelfyddyd; Beirdd, a Barddoniaeth; Addysg; Yr Ysgolhaig; Dyn; Y Golosgiad diweddaf; Darllenyddiaeth; Yr Adgyfodiad; Seryddiaeth a Christionogaeth; a cheid ei fod wedi mynu deall trwyadl yn y testyn a gymerai mewn llaw, a byddai y traddodiad yn hyawdl, meistrolgar, eglur, a choeth; ac nid oedd dim yn fwy dirmygus yn ei olwg nag ysgafnder a chellwair mewn lleoedd cyhoeddus. Gallai ef ddifyru llu à digrifwch mewn congl, ac ar yr aelwyd, ond byddai beb amser yn foneddigaidd a gweddaidd ar y *stage.* Fel bardd, yr oedd hanfodion cerdd yn cydgyfarfod ynddo, yn enwedig y tyner a'r tlws, ac nid rhyw saerniaeth annghelfydd oedd ar ei farddoniaeth. Ysgrifenodd lawer i'r wasg newyddiadurol hefyd, yn bonaf ar byncian llenyddol; ac efe oedd awdwr y llythyrau ffraeth, doniol, a chwerw feirniadol a ymddangosasant yn y *Cronicl Wythnosol,* tan y ffugenw "Gruffydd Morgan," ar *Grawn Awen* Caledfryn.

ROBERTS (Richard), y peiriant-wneuthurydd enwog, ydoedd fab i grydd tlawd o Geryg Hwfa, plwyf Llanymynech, sir Drefaldwyn. Cadwai ei dad doll-giwyd y Brynmawr, yn y plwyf hwnw, un tymhor; ac arferai weithio i feistr crydd o Groesoswallt, a gorchwyl y bachgen, heblaw cynorthwyo ei dad, ydoedd cludo y defnyddiau a'r esgidiau yn mlaen ac ol i'r dref hono. Ar y teithiau hyn, er difyrwch iddo ei hun, arferai wneud lluniau a thrionglau yn llwch y ffordd ac yn nhywod yr afon, nad oedd neb yn y wlad yn meddwl dim ohonynt namyn mai difyrwch chwareus bachgenyn oeddynt, yn lle prysuro ar ei neges. Yn y cyfamser, gwnaeth droell nyddu fechan, wedi ei haddurno yn gelfydd, a rhoddes hi yn anrheg i wraig yn y gymydogaeth. Yn fuan, ar ddamwain, daeth boneddwr o Fanceinion i dy y wraig hono, a thynwyd ei sylw at y droell—ymofynodd am ei gwneuthurwr—ac wedi ei weled ef a phethau cywrain eraill a wnaethai, cymerodd y fath ddyddordeb ynddo, fel yr aeth ag ef gydag ef i Loegr, fel y caffai gyfle rhagorach i anwesu ei chwaeth at ddyfeisiau a pheirianwaith. Yn 1814, aeth i fynu i Lundain am y tro cyntaf, a bu am yspaid yn ngweithfa Meistri Maudsley, yr hon oedd y pryd hyny yr ysgol beirianol oreu yn y deyrnas. Yn mhen tua thair blynedd, ymsefydlodd ar ei gyfrifoldeb ei hun yn Manceinion; ac a wnaeth y peiriant cyntaf i lyfnhau haiarn, yr hwn sydd eto i'w weled Amgueddfa y Trwyddedau, South Kensington. Dilynwyd hwn yn fuan gan ei beiriant *slopio,* a'i beiriant i dori olwynion. Gellid ystyried y rhai hyn, yn nghyda'i welliantau yn y llithr-droell, yn mhlith y cynorthwyon pwysicaf a roes

Digitized by Google

dyfais i wneuthuriad peiriant. Parodd y dyfeisiadau hyn gynildeb yn ngwneuthuriad y gwahanol beirianau a gynyrchent, a thrwy hyny deilliodd elw i'r cyhoedd yn gyffredinol, gan y gellid eu pwrcasu yn rhatach. Estynodd y budd hwn nid yn unig i beirianau mawrion agerlongau, ond hefyd i filoedd peirianau cotwm sir Lancaster, hyd i wasg tocynau rheilffyrdd, a'r peiriant gwnio. Yn fuan, dygodd ei alluoedd ysplenydd ef i gyfranogaeth â Thomas Sharp, a darfu iddynt sefydlu gwaith mawr yr Atlas, Manchester, yr hwn sydd eto y weithfa beirianol fwyaf yn y deyrnas. Yma, yn 1825, oherwydd i law-nyddwyr Staleybridge sefyll allan, arweiniwyd ef i ddyfeisio mân beirianau hynod o gywrain a defnyddiol i weithio edafedd, sef y ful-droell hunanweithiol, yn gofyn dim ond sylw plentyn i wneud miloedd o edafedd gwastadach a meinach nag a gyflawnasai y law-droell erioed. Y mae peth dirifedi o droellau ar waith yn mhob gwlad weithfaol ar egwyddorion Mr. Roberts. Yn fuan wedi agor reilffordd Liverpool a Manchester, efe a droes ei sylw at wella y peirianau teithio, ac y mae llawer o ol ei feddwl dyfeisgar ef ar y peirianau teithiol *(locomotive)* hyd y dydd heddyw. Gwnaed agos i 1500 o'r peirianau hyn yn y weithfa lle y gwnaeth efe ei un gyntaf yn 1834. Cafodd wahoddiadau taer a themtiol gan lywodraethau Ffrainc a Rwsia i ymsefydlu yn y gwledydd hyny; ond gwrthododd, gan aros yn Manchester; ac yn ystod ei amser hamddenol, ardrefnodd weithfa beirianol fawr y Meistri Koechlen, Mulhouse, Alsace. Tua'r pryd hwn, dyfeisiodd welliantau mewn twrawrleisiau, nwy-fesurydd, gwehyddion sidan, &c. Yn 1847, ar gais gwneuthurwyr chwibol fawr pont Conwy, dyfeisiodd yn fyrfyfyr bron, y peiriant trydyllu a adwaenir wrth yr enw "Jacquard," offeryn hunanweithiol cryf iawn, gyda'r hwn y torid twll hoel mewn llafn haiarn o unrhyw fath neu faint. Heb hwn, nis gallesid cwblhau y chwibol hono mewn pryd, heblaw ei bod yn gryfach ac yn rhatach. Gyda'r un peiriant y tyllwyd chwibolau trosglwyddfa y Boyne; Pont Victoria, tros y St. Laurence, yn Montreal, yr hon sydd yn filldir a chwarter a hyd; a phont fawr Jumna, ar reilffordd yr India Ddwyreiniol. Yn 1852, cyhoeddodd ei ddyfeisiau i wellhau peirianau agerlongau, y rhai oeddynt o bwys mawr, yn enwedig y *double Keel;* ac y mae y cyfryw welliantau mewn gwaith yn bresenol, yn y wlad hon a Ffrainc; ac efe a gafodd yr anrhydedd o osod y dyfeisiau hyn gerbron yr Ymherawdwr Napoleon yn 1855. Yn 1852, rhoddes heibio ei alwedigaeth a phob masnach, gan roddi cynghor pan y gelwid arno am hyny. Fel gweithiwr ei hun, yr oedd yn gyfaill cywir i'r gweithiwr; tra yn noddwr gwresog i bob dyn celfyddgar. Yr oedd yn cashau celwydd a thwyll. Dywedai'r arglwyddi Campbell a Brougham, a barnwyr enwog eraill, am dano, y byddai ei ateb ef bob amser yr un. Bu farw yn Llundain, Mawrth 11, 1864, yn 75 oed. Fel llawer athrylith anturiaethus arall, cafodd hawys o drallodion, ac ychydig o gyfoeth.—*Lleyn MSS.*

SAUNDERS (Erasmus), D.D., ydoedd fab i Tobias a Lettice Saunders. Ganwyd ef yn 1671, yn ol un hanes, yn plwyf Clydai, sir Benfro, ond yn ol hanes arall yn mhlwyf Cilrhedyn y cymerodd hyny le. Mae yn debyg, modd bynag, mai yn Clynfelyn, yn y plwyf olaf, y ganwyd ef; gan mai dyna gartref y teulu o oes i oes. Addysgwyd ef yn ngholeg Iesu, Rhydychain, lle y cafodd ei dderbyn fel *battler*, Mawrth 7, 1689. Graddiwyd ef fel y canlyn:—B.A., 1693; M.A., 1696; B.D., 1705; D.D., 1712. Y radd olaf a gymerodd efe fel *grand compounder*, yr hyn a awgryma ei fod yn hanu o deulu uchelwaed. Yn 1703, penodwyd ef

Digitized by Google

yn gurad Blockley, sir Worcester ; a phan y rhoddes y Parch. Wm. Lloyd y ficeriaeth i fynu, Mr. Saunders a benodwyd i'r swydd gan Dr. Lloyd, esgob Worcester. Penodwyd ef hefyd yn brepend yn nghoileg-eglwys Crist, Aberhonddu, gan Dr. Bull, esgob Tyddewi. Efe a briododd Dorothy, merch Humphrey Lloyd, o Aberllechau, ger y Drefnewydd, sir Drefaldwyn ; o ba un y bu iddo saith o blant. Efe a fu farw o'r parlys mud yn Aberllechau, Meh. 1, 1724 ; a chladdwyd ef yn nghangell eglwys Mair, Amwythig. Dodwyd maen ar y bedd, ac arno gerfiad Lladin i'w goffadwriaeth ; eithr nid yw y gareg hono bellach i'w gweled. Naill ai suddwyd hi i'r ddaear, neu cafodd ei symud, lawer o flynyddau yn ol, pan y gostyngwyd y ganghell ac yr adgyweiriwyd y llawr. Yr oedd Dr. Saunders yn ysgolhaig coeth, ac yn hoff o ymchwiliadau hynafiaethol. Pan oedd Edward Lhwyd yn paratoi Chwanegiadau sir Gaerfyrddin ar gyfer argraffiad yr Esgob Gibson o *Brittannia* Camden, Dr. Saunders a adysgrifiodd iddo amryw gerfiadau oddiar hen geryg oeddynt yn Pantypolion, plwyf Caio, ac yn mhen orllewinol eglwys Llanfihangel-ar-arth, yn y sir grybwylledig. Yr oedd ei serch yn gryf at Eglwys Loegr, a diau hefyd ei fod yn addurn iddi. Fel offeiriad ei blwyf, yr oedd yn ffyddlawn, ymdrechgar, a llwyddianus, yn nghyflawniad ei ddyledswyddau clerigawl. Trwy ei ddoethineb a'i ofal yn nhrefniadau amgylchiadol y fywiolaeth, llwyddodd i chwanegu cryn lawer ar ei gwerth. Fel Cristion, hynodid ef am dduwioldeb ei fuchedd a'i ysgrifeniadau, trwy yr hyn yr ymdrechai eangu terfynau rhinwedd a chrefydd. Yr oedd yn bleidiwr gwresog tros addysgu y dosbarth gweithiol. Yn 1713, efe a adeiladodd ysgoldy yn Blockley, ar ba un y mynodd gerfio yn Nghymraeg, "Aros a Llwydda." Yr oedd yn Gymro gwladgarol, ac ni chelai ei farn am y camwri eglwysig a fodolai yn ngwlad ei enedigaeth. Siaradai yn gryf a difloesgni tros gael Cymry dysgedig, perffaith gydnabyddus â iaith a theimladau y bobl, yn esgobion yn Nghymru. A ganlyn ydynt ei gynyrchion llenyddol :—1, "A view of the State of Religion in the Diocese of St. David's," 1721 ; 2, "Household Government," 1701 ; 3, "A Visitation Sermon," 1708 ; 4, "The Divine Authority and the Usefulness of the Pastors of the Christian Church," 1713 ; 5, "Of Judicial Providence," 1721 ; 6, "The Dangers of abusing the Divine Blessings." Pregethau ydynt y rhai hyn oll ond y gyntaf, a thraddodwyd yr olaf gerbon Ty y Cyffredin yn eglwys St. Margaret, Westminster, Rhag. 8, 1721.

SAUNDERS (Erasmus), D.D., ydoedd fab i'r Dr. Saunders uchod, ac a anwyd yn 1717. Addysgwyd ef yn ngholeg Merton, Rhydychain, lle y cymerodd ei raddau fel y canlyn :—B.A., 1737 ; M.A., 1740 ; B.D., 1751 ; D.D., 1753. Darfu i'r brenin Sior II. roddi iddo'r swydd a'r anrhydedd o brepend yn nghapel St. George, Windsor, Tach. 30, 1751. Rhoddes y swydd hono i fynu yn 1756, pan y penodwyd ef yn ficer St. Martin's-in-the-Field, Llundain. Yn 1755, cafodd ficeriaeth Wantage, yn sir Berk ; a Hydref 14, yr un flwyddyn, efe a briododd Mary, un o gydaeresod y Dr. Kendrick. Yn 1757, cafodd rectoriaeth Mapiscoombe, Kent. Yr oedd hefyd yn brepend yn mhrifeglwys Rochester. Yr oedd yn wr o ddysgeidiaeth eang, a chanddo dalentau o radd uchel ; ac ar gyfrif hyny, dywedir y buasai wedi ei ddyrchafu i'r esgobaeth gyntaf a ddaethai yn wag pe arbedasid ei fywyd. Hynodid ei fywyd gan elusengarwch ehelaeth, ac ymroddiad diwrthgil i fod o fudd i'w gydgenedl yn gymdeithasol a chrefyddol Nid ymddengys fod dim o'i waith wedi ei gyhoeddi. Bu farw yn Bristol, Rhag. 29,

Digitized by Google

1775, yn 59 oed; a chladdwyd ef yn eglwys yr Abatty, Bath, lle y mae maen a chofnod i'w goffadwriaeth; ac hefyd i'w weddw, yr hon a'i goroesodd ef ddeunaw o flynyddau.

(TALHAIARN), y bardd poblogaidd, a anwyd yn Llanfair Talhaiarn, sir Ddinbych, Ionawr 19, 1810. Ei enw bedydd ydoedd John Jones. Ei rieni, John a Gwen Jones, a gadwent yr *Harp*, yn y Llan crybwylledig, ac a drinient dyddyn o dir, ac yr oeddynt yn bobl gariadus a pharchus gan eu cymydogion a'r sawl a fynychent eu tŷ. Bu Tal. ar y cyntaf tan ofal addysgiadol un Evan Jones, yn ysgol y Llan; yna aeth i Abergele, at Mr. Louis; a thrachefn i Ruddlan, tan addysg Mr. John Evans. Gadawodd yr ysgol pan yn lled ieuanc, a bu gartref am dymhor gyda'i dad yn dysgu crefft asiedydd. Wedi hyny, danfonwyd ef i Barc Pysgodlyn, ger Rhuthyn, palas Arglwydd Bagot, yr hwn a adeiladid ar y pryd, a rhwymwyd ef yn egwyddor-was gyda Mr. Ward, arolygydd a goruchwyliwr y gwaith *(clerk of the works)*. Tra yn ymwellhau fel asiedydd, rhoddai Mr. Ward, ar gyfrif y flaendal a dderbyniasai, addysg i'r bachgen mewn archadeiladaeth a chynlluniaeth, a chynyddodd mor ragorol fel y penodwyd ef yn fuan yn gynorthwywr i Mr. Ward yn arolygiaeth y gwaith. Yn y cyfnod hwnw, y torodd allan gyntaf fel bardd. Gan ei fod yn llencyn glan-galon, llawenfryd, diragrith, a diddichell, hoffid ef yn fawr gan fân feirdd y gymydogaeth; ac yr ydym yn ofni i'w dynfa ef atynt hwy, a'u tynfa hwythau at y gyfeddach, ei lithio i demtasiwn ag y mae yn anhawdd iawn dyfod o'i gafael. Ceir adroddiad difyr o ystranciau gwamal cwmni llawen Efenechtyd yn yr ail gyfrol o waith y bardd. Pan tuag 21 oed, aeth i wasanaeth Mr. Penson, archadeiladydd a mesurydd tros siroedd Dinbych a Threfaldwyn, a bu gydag ef am lawer o flynyddau, ac yn ystod yr amser hwnw, cafodd ofal adeiladaeth amryw weithfaoedd cyhoeddus, pontydd, &c. Yn 1843, symudodd i Lundain, a bu yn ngwasanaeth Meistri Scott & Moffat, yr archadeiladwyr eglwysig enwog. Yn 1851, aeth i wasanaeth Syr Joseph Paxton, a'i fab-yn-nghyfraith, Mr. Stokes, archadeiladwyr, gyda pha rai yr arosodd hyd oni ymneilldduodd oddiwrth ei alwedigaeth. Y gwaith cyntaf a roddwyd iddo ganddynt hwy ydoedd arolygu adeiladu palas ardderchog y Barwn Meyer de Rothschild, yn Mentmore, sir Buckingham, yr hyn a gymerodd bum' mlynedd o amser. Byddai yn y cyfamser hefyd yn cymeryd rhan yn adeiladaeth y Palas Grisial yn Sydenham. Wedi hyny, danfonwyd ef i Ffrainc, i arolygu adeiladu palas i'r Barwn James de Rothschild, lle y bu am dair blynedd, pryd y gorfu iddo ddychwelyd i'r wlad hon oherwydd afiechyd. Yn ystod ei drigiant yn ngwlad y Ffrancod, dysgodd eu hiaith, ymgydnabyddodd â gwaith eu beirdd, a'r gweddill o'i oes cai lawer o ddifyrwch wrth eu darllen, yn enwedig cynyrchion gwladgarol ac awenyddol Beranger. Wedi cael ychydig seibiant, a goroesi ei wendid corphorol, rhoddwyd arno ofal ac arolygiaeth adeiladu palas newydd i Arglwydd Russell, sef Parc Battlesden, sir Bedford. Rhoes ei ymddygiad yn y swydd bwysig hono drachefn lawn foddlonrwydd i bawb; a chan fod ei iechyd yn adfeilio, gwrthododd ymgymeryd âg unrhyw wasanaeth pellach o bwys. Gan hyny, yn 1865, ymneilldduodd i dreulio gweddill ei oes yn nhawelwch ei Lan genedigol. Yn ystod y flwyddyn hono, anrhegwyd ef gan ei gydwladwyr â blwydd-dal, yn benaf trwy ymdrechion Gwrgant a Chadfan, yr hon a gynyrchai iddo £42 yn y flwyddyn. Ychydig o fwyniant a gafodd efe, modd bynag, yn nghanol caredigrwydd a chwmni ei hen gymydogion, gan y dyoddefai

Digitized by Google

lawer oddiwrth y droedwst, yr hwn a'i cystuddiasai yn achlysurol er pan yr oedd yn 25 oed; ac anfynych yn ystod ei flynyddau diweddaf y byddai efe am ddiwrnod yn ddiboen. Yn chwanegol at hyn, poenydid ef yn fawr gan afiechyd tufewnol, er mwyn lliniaru yr hwn y gorfyddai fyned tan offerynau y meddyg. Yr oedd yn naturiol hefyd yn dra theimladwy o boen, a gogwydd ei feddwl pan yn wrthddrych yr arteithiau hyn at brudd-der ac iselder ysbryd, ac anobaith gwellhad yn hylldremu arno o bob tu. Yn ngwyneb y pethau hyn, y mae'n ddrwg genym hysbysu i'w bwyll golli yr awenau, ac iddo yn mhangfeydd ei ddyoddefaint geisio cymeryd ymaith ei fywyd ei hun. Yn ffodus, ni bu yr ymgais yn llwyddianus; a gwelid arno arwyddion gwella am rai dyddiau, ond trodd yr ysgytiad allan o'r diwedd yn fwy nag a allai ei gyfansoddiad cystuddiol ei ddal, a bu farw yn yr un tŷ ag y gaesid ef, Hydref 17, 1869. Fel dyn, yr oedd i Talhaiarn ei wendidau fel eraill; yr oedd ef mor barod ag undyn i'w cydnabod; ond nid oedd rhagrith na hoced yn eu plith. Y sawl nid adnabuant ef, a'r sawl a ysgydwant ben ar bob pechod ond eu pechodau anwyl eu hunain, fuont y rhai parotaf i'w gondemnio. Yn mhlith ei gydnabod, coleddid y syniadau puraf o barch iddo, ac edmygid ef gan "bobl Llanfair" fel darn o dduw. Ei fai penaf ydoedd ei ddull bregeddus o draethu ei syniadau am grefyddwyr, yr hyn a derfynai ambell dro ar gabledd; ond credwn y gwnai hyny yn hollol ddifalais. Tybiai rhai fod hyn yn tarddu oddiar anffyddiaeth ei galon, ond mwy cymhwys fyddai ei briodoli i anystyriaeth. Mewn gwleidyddiaeth, yr oedd yn Geidwadwr, ac yn bleidiwr selog i Eglwys Loegr. Fel dyn, yr oedd yn haelionus, caredig, gwyneb-lawen, a chalon-lân. Fel bardd a llenor, y mae y tair cyfrol a gyhoeddodd yn gaffaeliad i'n llenyddiaeth. Y mae eu rhyddiaeth yn ystwyth a dyddorol, a'r chwedlau am Lanfairtalhaiarn, "Ymddyddanion Modryb Modlen," a'r "Traddodiad heb Sail," yn ddifyrwch byw. Nid yw awdl y "Greadigaeth," a ymgeisiodd am gadair Aberffraw yn 1849, na'r awdl-farwnad i'r Tywysog Albert a gyfrifid yn oreu gan un o'r beirniaid yn Abertawe yn 1863, yn deilwng o'i athrylith; a'r un modd y caeth farddoniaeth eraill sydd yn y cyfrolau crybwylledig. Pe gadewsid allan o'r cyfrolau hefyd bron yr oll o areithiau eisteddfodol yr awdwr, ni buasent nemawr llai eu gwerth. Ond ei ganeuon—y mae arogl maes o flodeu arnynt hwy, ac y maent mor beroriaethus â chân yr ehedydd pan yn dyrchu o'i lwth gweiriog fore tesog yn Mehefin. Cyfansoddwyd llawer o'r rhai hyn o bwrpas i ymbriodi â cherddoriaeth, ac ar gais cerddorion enwog, megys Brinley Richards, J. Thomas, Blockley, O. Alaw, &c. Y mae "Y Ddeilen ar yr afon," "Molawd Cymru," a "Pictiwr fy Mam," meiddiwn ddweyd, heb en rhagorach mewn unrhyw iaith. Ceir yn ei ganeuon Seisnig hefyd feddyliau hapus mewn iaith goeth. Y mae ei gyfieithiadau, yn enwedig o *Tam o' Shanter* a'r *Ingoldsby Legends*, wedi eu cyflawni yn ddestlus anarferol. Gresyn na ailgyhoeddid y Caneuon a'r Chwedlau fel y cai y werin yn gyffredinol gyfle i'w pwrcasu a thrwy hyny i ymgydnabyddu â hwynt. Yr oedd Talhaiarn fel pe buasai wedi ei ddarparu o bwrpas at fod yn arweinydd Eisteddfod; a llanwodd y swydd hono gyda medr digyffelyb yn amryw o'r Eisteddfodau Cenedlaethol diweddar—yn ddeheuig, ffraeth, a boneddigaidd, ac mor hylithr ei Saesnaeg a'i Gymraeg.

TALIESIN BENBEIRDD, yr enwocaf o'r Cynfeirdd. Mae yn anhawdd gwybod llawer o hanes gwirioneddol Taliesin, oblegid chwedlau

Digitized by Google

trawsfudiadol ei ymgipris gyda Cheridwen Wrach a draddodir i ni am dano, yn lle ei wir hanes. Nid oedd efe yn dywysog na rhyfelwr fel Aneurin a Llywarch Hen; ond bardd breiniol yn llysoedd y tywysogion ydoedd. Mab Henwg Sant o Gaerlleon-ar Wysg ydoedd, a chafodd ei addysgiaeth mewn rhan yn Mangor Catwg yn Llanfeithin, yn Morganwg. Yr oedd Taliesin yn gristion proffesedig, canys gelwir ef yn un o "dri phrif-fardd bedydd cenedl y Cymry," a "chadair fedydd" y gelwid ei gadair farddonol yn Nghaerlleon-ar-Wysg. Y pryd hwnw yr oedd Arthur yno yn ei rwysg a'i fawredd. Cwympodd Arthur yn nghad Gamlan, yn 542, a gwahoddwyd Taliesin i Aberllychwr, i lys Urien Rheged, lle y cartrefodd am dalm o amser. Mae llawer o'i gyfansoddiadau yn dal perthynas âg Urien. Dywed un chwedl ei fod ef ac Elphin ap Urien yn pysgota mewn boly croen neu gorwg, ac i long môrleidr o'r Iwerddon ei gymeryd ef a'i fol croen hefyd, a thua'r Iwerddon ag ef; a phan oedd y lladron lawenaf yn eu diod, gwthies Taliesin y bol i'r môr; ac yn ei law darian a gafas yn y llong; ac â hono efe a rwyfodd y bol onid oedd ar glais tir, a'r tonau yn tori yn ewynfriw; colles ei afael ar y darian, yna nid oedd ganddo ond gadael i'r môr, ac eled ag ef lle yr elai, ac felly y bu; ac yn mhen amser bach glynodd y bol ar flaen pawl Cored Wyddno, arglwydd Ceredigion, yn Aberdyfi. Ac yno y cafwyd ef ar y trai gan bysgodwyr Gwyddno; a holi ei helynt a wnaethant, a chlywed mai bardd ac athraw Elphin ap Urien Rheged oedd. "Y mae mab i minau o'r enw Elphin," ebai Gwyddno; "bydd fardd ac athraw iddo yntau, a thi a gai diroedd genyf yn rhydd ac yn rhad." Ac felly y bu; ac o hyny bwrw ei amser i gyd agos rhwng llys Urien a llys Gwyddno. Dywed un hanes fod Elphin gydag ef yn y bol croen ar ben y pawl; ac mai mab Elifri, merch Gwyddo ydoedd, ac mai Urien Rheged oedd ei dad. Ar gefn y chwedl hon am helynt y bardd gyda'r "Gwyddelod gwylltion" y ffurfiodd Thomas ap Einion offeiriad ei Ramant am Daliesin ap Ceridwen yn ffaglu dan y pair, &c. Dichon mai gwaith Thomas ap Einion yw y darnau sydd yn y llyfr hwn ar enw Taliesin, canys pethau cysylltiedig â Rhamawnt, neu Fabinogi Taliesin ydynt. Wedi marw Talhaiarn bu Taliesin benbeirdd yn arwain tair cadair; nid amgen, cadair Caerlleon-ar-Wysg, cadair Rheged yn Nghaer Gwyrosydd, sef Ystumllwynarth, neu Aberllychwr, a chadair Bangor Deifi, yn nawdd Cedig ap Ceredig ap Cunedda Wledig. Wedi hyny gwahoddwyd ef i gyfoeth Gwyddnyw ap Gwydion, yn Arllechwedd yn Arfon, a chael braint yno ar dir a daiar. Yma y daeth i drigianu i Lan Llyn Geirionydd, yn mhlwyf Llanrhychwyn. Bu yn y lle hwn hyd amser Maelgwn Gwynedd, pan ddygwyd ei freintiau oddiarno. Ac yno y canes Taliesin ei felldith ar Faelgwn, ac ar yr oll a feddai; yna daeth y fad felen i'r Rhos, a'r neb a'i gwelai, dir iddaw ei olaeth (byddai yn sicr o farw,) a hyny yn anesgorawl; a Maelgwn Gwynedd a'i gweles drwy dwll y clo yn eglwys y Rhos, ac a fu farw o'i gweled. Mae hanes arall yn gosad Maelgwn allan fel noddwr y beirdd, ac iddo gynal eisteddfod yn ei lys yn Nghaer Dyganwy, a'i dri phenbardd, a fuont hefyd yn dri chyseflin prif-feirdd Gwynedd, sef Mynach ap Mydnaw, Unhwch Unarchen, a Maeldaf ap Unhwch; a Thaliesin benbeirdd a enilles y pen ar y tri hyn, o ollwng Elphin ap Gwyddno o garchar Maelgwn Gwynedd, lle yr oedd arnaw dri chlo ar ddeg. Pa fodd bynag, dychwelodd Taliesin yn ol yn ei hen ddyddiau i Gaer Gwyrosydd, at Rhiwallon ap Urien; ac wedi hyny ymwelodd â Chedig ap Ceredig ap Cynedda Wledig, lle y bu farw

Digitized by Google

ac yno y claddwyd ef yn anrhydeddus, fel y gweddai ymddwyn tuag at un o brif ddoethion cenedl y Cymry; ac yn mhlwyf Llanfihangel Genau'r Glyn, y mae traddodiad yn cyfeirio at ei fedd hyd y dydd hwn. Mae yn anhawdd ffurfio barn am gyneddfau awenyddol Taliesin; ond y mae 77 o ddarnau barddonol ar ei enw, eto tua 12 chonynt yn unig a gydnabyddir fel eiddo cynwynol y penbardd, ac wyth yn anmheus. Perthyna y gweddill, yn ol Stephen, i'r canol oesoedd. Dyma fel y dywedir am dano yn *Iolo MSS.*, "A goreu o'r goreuon oedd Taliesin benbeirdd am bob gwybodau, llen, a doethineb, a chelfyddyd cerdd dafod, a phob gwybodau, bydolion a dwyfolion." Mae "Bustl y Beirdd," yr hwn a ystyrir yn ffugwaith diweddar, yn cynwys Melldith Taliesin ar Faelgwn Gwynedd; ond mae'n debyg mai rhyw fonach a luniodd y Felldith, er mwyn ystwytho rhai o'r mawrion. Mae "Gwaith Gwenystrad," "Gwaith Argoed Llwyfain," a darnau eraill o waith dilys Taliesin, yn arddangos gradd weddol o awen; a phrofant fod y bardd yn gyfarwydd â'r gogledd, lle yr oedd y rhyfel, yn ei amser ef, yn cael ei ddwyn yn mlaen boethaf rhwng Fflamddwyn a gwŷr Goddeu a Rheged. Mae enw Taliesin yn sefyll yn uchel yn marn y beirdd yn mhob oes.—*Gorchestion Beirdd Cymry.*

THOMAS (EBENEZER) *(Eben Fardd).* Ganwyd y prif-fardd gorchestol hwn yn Tanlan, Gelligron, plwyf Llanarmon, Eifionydd, sir Gaernarfon, yn mis Awst, 1802. Ei rieni oeddynt Thomas Williams, a'i briod Catherine Price neu Pierce. Gwehydd oedd ei dad, a bu yntau am yspaid yn dilyn yr un alwedigaeth, ond nid hir yr ymlynodd wrth y wenol a'r garfan. Llyfrau a myfyrdod oedd prif hyfrydwch ei blentyndod, a gallai ddarllen Cymraeg yn lled gywir cyn bod yn bump oed. Yr oedd ganddo y pryd hwn frawd hynach nag ef yn cadw ysgol ddyddiol yn Llangybi, a thrwy yr addysg a gafodd efe gan hwnw, a'r hybarch Isaac Morris, Pentyrch Isaf, daeth yn ysgolhaig lled wych. Pan fu ei frawd farw, wedi bod dalm o amser yn cadw ysgol yn Llanarmon a Llangybi, y bardd ieuanc, pan yn 19eg oed, a gymerodd ei le fel olynydd iddo. Wedi llanw y swydd hono am o chwech i saith mlynedd, symudodd i gadw ysgol y plwyf yn Nghlynog; ac yn mhen yspaid priododd Mary, ail ferch Thomas Williams, Cae Pwsaut, o'r plwyf hwnw; o'r hon y bu iddo bedwar o blant, y rhai sydd oll bellach yn y bedd. Effeithiodd marwolaeth priod anwyl ei fynwes, a'i unig fab yn ngwanwyn einioes, yn ddwys ar ei deimladau, ac ysodd wraidd ei iechyd. Yr oedd yn ddyn neillduol o ddiwyd; ac yn yr yspeidiau sydd gan ysgolfeistr yn gyffredin o oriau segur, efe a ymroddai i rwymo llyfrau; tra y cadwai y wraig siop, a bu y llythyrdy hefyd am lawer o flynyddau tan ei ofal. Gweinyddai hefyd fel ysgrifenydd y plwyf, a byddai yn dra chymwynasgar i'w gymydogion trwy ysgrifenu llythyrau iddynt, &c. Gan fod Clynog ar fin y brif-ffordd rhwng Caernarfon a Phwllheli, nid ai odid i ddiwrnod heibio heb i rywai alw gydag ef, er mwyn yr anrhydedd o'i weled, neu fwynhau egwyl o'i gymdeithas. A pha un bynag a'i cyfansoddi, darllen, neu feirniadu y byddai ar y pryd, gadawai bobpeth yn ebrwydd a siriol er mwyn boddio cywreinrwydd y naill, neu fwynhau cymdeithas y llall. Tra yn magu y plant, gwnai lawer o fân-orchwylion er mwyn cynorthwyo ei briod; canys nid oedd ganddynt yr un forwyn tra y bu hi byw. Pan ystyriom y pethau hyn, y mae yn anhawdd credu pa fodd y gallodd chwareu ei ran mor enwog ar esgynlawr llenyddiaeth. Rai blynyddau cyn diwedd ei oes, yr oedd wedi rhoddi yr ysgol genedlaethol, neu blwyfol, i fynu, ac agor un arall,

Digitized by Google

yn benaf fel ysgol baratoawl i bregethwyr gyda'r Methodistiaid. Wedi arwain bywyd tawel a dichlynaidd, bu farw o'r darfodedigaeth, Chwef. 17, 1863, yn 61 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Clynog, lle y mae careg yn dynodi ei fedd ac yn traethu ei ragoriaethau. O ran ei olwg allanol, dyn gwladaidd diymhongar ydoedd, ychydig uwchlaw'r taldra cyffredin; tawedog a gwylaidd hyd at fai. Yr oedd ei wyleidd-dra yn rhwystr anorfod o'i flaen pan geisiai ddweyd gair yn gyhoeddus. Edrychai yn debycach i gardotyn ofnus yn gofyn elusen, nag i areithiwr yn cyfarch cynulleidfa. Nid ar yr esgynlawr yr oedd ei fawr nerth ef i'w ganfod. Er ei fod yn dra moesol ei fuchedd ar hyd ei oes, nid ymunodd âg un blaid grefyddol nes cyrhaedd gwth o oedran. Pan tua 30ain oed, teimlai raddau o bryder yn nghylch gwirioneddau'r Efengyl, a braidd nad ogwyddai ei feddwl at anmheuaeth; ond trwy ddarllen gweithoedd galluog awduron fel Butler, Paley, a Scott ar *Force of Truth*, cafodd ymadawiad llwyr â'i annghrediniaeth. Yn mhen blynyddau wedi hyny, bwriodd ei goelbren gyda'r Methodistiaid yn Sion, capel yn sefyll tua milldir o'r pentref. Tua deuddeng mlynedd cyn ei farwolaeth, adeiladodd yr enwad gapel yn y pentref, a dewiswyd yntau yn flaenor, i'r hon swydd y bu yn addurn hyd ei fedd. Er iddo fel hyn ymuno â phlaid grefyddol, gellir casglu oddiwrth ei ysgrifeniadau cyhoeddedig, cystal a'i lythyrau at gyfeillion, nad oedd ganddo nemawr gydymdeimlad â phlaid fel plaid. Ceir syniadau pur ddifloesgni ar y pwnc ganddo yn y *Brython* ii. 11; ac hefyd mewn llythyrau at Ioan ab Hu Feddyg, golygydd talentog "Cyff Beuno." Parodd hyn i'r boneddwr hwnw fyntumio mai un o'r *Plymouth Brethren* ydoedd yn y bôn; tra yr honai eraill mai Eglwyswr ydoedd. Ni ddichon yr olaf, modd bynag, fod yn gywir, gan iddo ef wrthod yn benderfynol ddyrchafiad yn yr Eglwys, cyn ymadael â'r ysgol blwyfol. Methodist, mae'n ddiau, ydoedd, onide nid ymunasai â hwynt,—ond Methodist rhyddgalon, ac eang a gwir Gristionogol ei yspryd. Dechreuodd brydyddu pan yn blentyn; ac anwesodd y ddawn tan hyfforddiant ei athraw barddonol Sion Wyn o Eifion, a chyfarwyddiadau ei gyfaill Dewi Wyn. Yr oedd yn englyniwr campus cyn bod yn bumtheg oed; a chyn bod yn llawn ugain, cyfansoddodd awdl ar Ryddid, yr hon a argraffwyd mewn hen *Ddysgedydd* neu *Seren Gomer*. Yn fuan ar ol hyn, ymgeisiodd ar brif destun Eisteddfod y Trallwm, ac er ei syndod, enillodd Gadair Powys. Y testun ydoedd, "Dinystr Jerusalem," a'r beirniad y trylen Gwallter Mechain. Y fath ganmoliaeth a roddai'r feirniadaeth i'r cyfansoddiad, fel y tybiai rhai nad allai'r awdwr fod yn neb llai na Dewi Wyn, a'r llencyn gwladaidd a dison-am-dano hwn yn ddim ond cynrychiolydd i arall. Yr oedd hyn yn 1824, ac nid oedd y Prif-fardd wedi cyrhaedd ei 22ain oed. Yn 1832, ymgeisiodd ar brif destun Eisteddfod Beaumaris, sef awdl ar "Ddrylliad y *Rothsey Castle*," ac "Englynion i Bont Menai;" pryd y collodd y gamp ar y flaenaf, ac yr enillodd y llawryf ar yr olaf. Yn 1839, bu yn gyd-fuddugol âg Iago Emlyn ar y "Deuddeg Englyn i Arch Noa," yn Eisteddfod y Fenni; a'r flwyddyn ganlynol, ymuniawnodd ei awen drachefn i gyflawni gorchestwaith, sef awdl ar "Gystuddiau ac Amynedd Job," testun cadair Eisteddfod y Gordofigion Liverpool; pryd yr enillodd ei ail Gadair, a gwobr arall hefyd am y toddeidiau goreu ar "Esgyniad Elias." Ychydig cyn hyny, cyfansoddasai doddeidiau ar "Esgyniad Victoria i orsedd Prydain," pan y rhanwyd y wobr rhyngddo ef ac Ioan Madog. Yn 1850, ymgeisiodd am gadair Eisteddfod freiniol Rhuddlan, ar y testun awdl neu

Digitized by Google

bryddest ar yr "Adgyfodiad," eithr ni bu yn llwyddianus. Pryddest a gyfansoddodd efé, a chyhoeddwyd hi yn y *Traethodydd* am 1853, yn yr hwn gyhoeddiad hefyd yr ymddangosodd ei awdl ysplenydd ar y "Croeshoeliad," testun cadair Eisteddfod y bwriedid ei chynal yn Nolgellau. Yn 1858, enillodd ei Drydedd Gadair farddol, ac eisteddodd yr ail waith yn Ngadair Powys, yn Eisteddfod Llangollen, am yr awdl oreu ar "Brwydr Maes Bosworth," yr hon a argraffwyd yn y *Taliesin;* ac fel geirluniad nerthol, efallai fod hon yn rhagori ar holl gynyrchion awenyddol y bardd awenddrud hwn. Yn 1862, cynaliwyd Eisteddfod Caernarfon, a thestun ei chadair ydoedd awdl i'r "Flwyddyn." Yr oedd y pryd hwnw yn nyfroedd dyfnion trallod oherwydd colli ei anwyliaid, yn byw wrtho ei hun, a chadeiriau gweigion o'i ddeutu yn ail enyn ei alar bob edrychiad a roddai arnynt; ac i fagu pruddglwyf, nid oes odid haiach man yn Nghymru na Chlynog Fawr. Pentref bychan cysglyd—beddrodau saint hen a newydd yn Nghor Beuno gerllaw; a thu draw i hyny, yr eigion cwynfanus yn ymguro dragyfyth yn erbyn erchynion ei wely; y Wyddfa benfoel gan henaint yn y pellder o'r tu cefn; ac ar y naill law, wastadedd marwaidd yn ymestyn amryw filltiroedd, tra y gwelir ar y llaw arall fynyddau hirddaint yr Eifl cilwgus. Y mae y Llan gwledig, haf a gauaf, fel pe wedi ei offrymu i swyngyfaredd yr hunllef; ac i ddyn o anianawd ddwysfyfyriol Eben Fardd, a than ei ofidiau dygn, diau fod ei brudd-der yn ddwfn ac arteithiol yn y fath le. Er mwyn dyddyfnu ei fryd oddiar y pethau hyn, meddai ef, y cyfansoddodd awdl y "Flwyddyn" ar gyfer yr Eisteddfod grybwylledig. Barnwyd hi gan un o'r beirniaid, Nicander, yn oreu; ond y ddau feirniaid eraill, Caledfryn a Gwalchmai, a roddent y flaenoriaeth i Hwfa Mon, ac efe o ganlyniad a gadeiriwyd. Dyma ei ymgyrch lenyddol olaf, a barnai rhai i'w aflwyddiant y tro hwn brysuro ei ddiwedd. Yr oedd yn naturiol i ddyn a safai mor uchel yn marn y genedl fel bardd, gael galwad mynych i wasanaethu fel beirniad; ac o ganlyniad, cawn ef yn llanw y swydd hono yn Eisteddfodau Aberffraw, 1849; Madog, 1851; Liverpool, 1851; Llundain, 1855; Merthyr, 1859; Dinbych, 1860; Aberdar, 1861; a Chaernarfon, 1862; a rhoddid gair uchel i onestrwydd a gallu ei feirniadaethau bob amser. Yn 1841, chyoeddodd gasgliad bychan o'i farddoniaeth, tan yr enw dysyml, "Caniadau;" yn cynwys ei awdlau cadeiriol ar Ddinystr Jerusalem, a Job; marwnad John Elias, a mau ddarnau eraill. Cyhoeddodd gofiant ei gyfaill R. ab Gwilym Ddu yn 1846; ac efe a gyfieithodd y rhan fwyaf o'r gyfrol gyntaf o "Addysg Chambers i'r Bobl," a gyhoeddwyd yn Mhwllheli; ac ychydig o'r ail a gyhoeddwyd yn Nghaernarfon. Efe a ysgrifenodd ran fawr o gofiant Dewi Wyn sydd yn nechreu *Blodeu Arfon.* Ceir ysgrifau o'i waith yn y cofiant Seisnig o John Elias, gan Morgan, Syston; ac yn un ohonynt rhydd ddysgrifiad tra hyawdl o ddull Elias yn pregethu; a gwelir sylwadau o'r un natur ganddo yn y bywgraffiad Cymraeg o'r un gŵr. Yn 1862, cyhoeddodd lyfryn bychan o'i waith, dan yr enw "Hymnau, gan Eben Fardd," yr hwn a gynwysai hefyd ddwy emyn o gyfansoddiad ei fab, James Ebenezer Thomas. Efe a'r Parch. Roger Edwards a gasglodd ac a arolygodd y Llyfr Hymnau ydoedd hyd yn ddiweddar mewn arferiad gyda'r Methodistiaid yn Ngoegledd Cymru. Yn 1863, cyhoeddwyd "Cyft Beuno" o'i waith, tan olygiaeth Ioan ab Hu Feddyg. Ysgrifenodd lawer iawn yn ystod tua 41ain mlynedd o'i fywyd i wahanol gyfnodolion Cymreig a Seisnig. Y mae ei waith hyd yn hyn yn aros ar wasgar,

Digitized by Google

ond hyderwn y cesglir ac y cyhoeddir ef yn fuan, fel y caffo yr oesau a ddel y fraint o ddarllen cynyrchion un o brif-feirdd godidocaf Cymru.

THOMAS (JOHN) *(Sion Wyn o Eifion)*, y bardd gorweiddiog. Ganwyd ef mewn pentref bychan o'r enw Chwilog, plwyf Llanarmon, sir Gaernarfon, 1786. Yr oedd Sion Lleyn yn ewythr iddo frawd ei dad; ac un o deulu Llwyngwanadl, gerllaw Clynog, ydoedd ei fam. Efe oedd yr ieuangaf o bump o blant, a sonid am dano fel plentyn prydferth. Gallai ddarllen Cymraeg cyn cyrhaedd pump oed, yr hyn a ddysgasai gan ei fam; a bu yn yr ysgol yn Llanarmon am rai blynyddau, lle yr oedd Dewi Wyn yn un o'i gydysgolheigion. Pan tua naw oed, cyfarfu â damwain ofidus, trwy gael ei wasgu rhwng trol a magwyr geryg; bu llawer o synu iddo ddyfod o'r digwyddiad yn fyw; ac efallai fod â wnelai y ddamwain hono a chychwyniad ei afiechyd hirfaith. Tua 1800, cafodd anwyd trwm, a thwymyn ar ol hyny, a'i cyfyngodd i'w wely bron am y gweddill o'i oes. Bu yn gorwedd bron yn gyfangwbl am 58 mlynedd; heb gymaint a bod unwaith ar ei draed am y 25 mlynedd cyntaf; ac am yr wyth mlynedd cyntaf heb fwyta dim ond bwyd llaeth—dim tamaid o gig na bara. Yn mlynyddau olaf ei oes, yr oedd wedi cryfhau digon fel ag i allu myned allan ar amseran, ac anrhegwyd ef gan gyfeillion â *phaeton* a merlyn. Cafodd gyfeillion caredig iawn yn moneddigion yr ardal; ac er meithed ei gystudd, ni bu arno eisiau dim. Darllenodd gymaint a neb yn ei oes; amgylchid ei wely gan silffoedd yn cynwys llyfrau ar bob cangen o ddysgeidiaeth. Cyrhaeddodd wybodaeth helaeth o amryw ieithoedd; a daeth yn fardd gwych tan lawer o anfanteision, ac heb nemawr gynorthwy. Yr oedd yn gyfaill mawr â Dewi Wyn, R. ab Gwilym Ddu, Eben Fardd, a phawb a garent awen, moes, a chrefydd; ac efe oedd athraw barddonol E. Fardd. Y mae ei farddoniaeth yn brydferth, naturiol, ac addysgiadol; oll yn dangos mai meithrin rhinwedd a duwioldeb oedd prif amcan yr awdwr. Bu farw yn yr un tŷ ag y ganwyd ef, Gorphenaf 8, 1859; yn 72 oed. Yn 1861, casglwyd ei waith barddonol gan ei nai, Mr. Wm. Jones *(Bleddyn)*, a chyhoeddwyd ef yn gyfrol ddestlus, tan y teitl, "Gwaith Barddonol Sion Wyn o Eifion."

THOMAS (JOHN WILLIAM) *(Arfonwyson)*. Ganwyd y Cymro enwog, hunan-addysgiadol, ac athrylithgar hwn, mewn bwthyn dinod yn ngodrau Moel y Ci, ger Pentir, sir Gaernarfon, yn 1805. Cafodd rhyw lun o ysgol gwlad am dair blynedd, a dysgodd yno ddarllen ac ysgrifenu. Yr oedd amgylchiadau y teulu mor gyfyng, fel y bu raid iddo fyned i enill ei gynaliaeth pan nad oedd ond deg oed; ond defnyddiai ei holl amser segur mewn efrydiaeth, a'i hoff gangen ydoedd rhifyddiaeth. Trwy ei ddiwydrwydd ymroddol ei hun, gallai ddarllen, ysgrifenu, a rhifo, yn hylithr erbyn cyrhaedd 17 oed. Y prvd hwnw, aeth i wasanaeth llyfrwerthwr o Beaumaris, a'i waith yno ydoedd dosparthu llyfrau yn rhanau ar hyd y wlad. Yr oedd hwnw yn orchwyl wrth fodd calon Arfonwyson, gan ei fod yn cael cyfleusdra i weled aml i lyfr, a hamdden i'w ddarllen hyd y fferdd yn ei deithiau. Creodd y flwyddyn y bu yn y swydd hono gyfnod newydd o aiddgarwch a serch yn ei feddwl at ddarllen; ac ychydig iawn o amser a gyflwynai hyd yn nod i gysgu. Ei brif fyfyrdod o hyd ydoedd rhif a mesur. O Beaumaris, aeth i Gaergybi i'r ysgol at Robert Roberts, yr Almanaciwr, ac awdwr *Dacaryddiaeth*. Dychwelodd oddiyno yn mhen tri mis, ac agorodd ysgol ei hun yn Tregarth, ger Bangor; ac yno yn ystod ei oriau segur y cyfansoddodd ei "Elfenau Rhifyddiaeth." Priododd

Digitized by Google

pan yn 21 oed, a symudodd i fyw i Fangor; ac yn mhen yspaid, symudodd oddiyno drachefn i Ffestiniog, i gadw ysgol tan nawdd y Deon Cotton, Collodd ei le yn fuan yn Ffestiniog, oherwydd iddo ysgrifenu rhywbeth yn erbyn rhyw offeiriad; yna dychwelodd yn ol i Fangor, a chyhoeddodd yr "Athraw i'r Cymro Ieuanc," a'r "Geiriadur Cymreig a Seisnig." Yna dechreuodd gadw ysgol yn Nghlanyrafon, Bangor, a golygu *Tywysog Cymru*, yr hwn a gyhoeddid yn Ngharnarfon. Symudodd o Fangor i'r Lon Isaf, Llandegai, ac oddiyno aeth i Lundain, lle y cafodd dderbyniad croesawgar iawn gan y Cymreigyddion. Bu yn Llundain gryn amser cyn cael lle fel ysgrifenydd personol i Mr. Cobbett, yr aelod seneddol tros Oldham. Ond goddiweddwyd ef yn fuan yma drachefn gan y siomedigaeth a fuasai fel yn ei ymlid o'i ieuenctyd, canys bu Cobbett farw mewn dyled, a gorfu arno yntau ddychwelyd i Lundain heb ei gyflog, ac yno y pryd hwnw y cyfansoddodd ei "Drysorfa yr Athrawon." Cafodd lawer o garedigrwydd oddiar law y Cymreigyddion y tro hwn drachefn. Dyoddefodd helbulon a blinderau y blynyddodd cyntaf o'i breswyliad yn Llundain, canys bu am amser hirfaith yn methu cael dim i'w wneud er enill bywiolaeth, a hyny yn benaf oherwydd ei ymlyniad wrth ei iaith, yr hon a anwylai yn fwy y pryd hwnw na'i fara beunyddiol; canys dianmheu, pe buasai yn ymyraeth mwy â llenyddiaeth Seisnig, ac yn trosglwyddo ei feddyliau dwysion a gafaelgar am drefn y bydoedd yn yr iaith hono, y buasai ei fyd yn esmwythach. Yr oedd lluaws o rwystrau ansymudadwy yn gorwedd ar ei lwybr i barch ac uwchafiaeth; trafferthion a siomedigaeth a lethent ei enaid mawr am ysbaid, a rhaid oedd cael cawrfil o feddwl i'w goresgyn, a'r cyfryw feddwl oedd yr eiddo Arfonwyson, fel y profodd efe yn y diwedd. Torodd gwawr yn annisgwyladwy ar ei adfyd, trwy i'r Proffeswr Airey weled yn ddamweiniol lythyr a ysgrifenasai at gyfaill, yn mha un y rhoddai ddysgrifiad cywir o gomed Halley, cyn ei hymddangosiad. Parodd hyn i'r Proffeswr yru am dano, a rhoddi swydd iddo yn yr Arsyllfa Freiniol *(Royal Observatory)*, Greenwich. Erioed ni chyfarfu gwaith a gweithiwr mwy cydnaws â'u gilydd; a chafwyd prawf buan o hyny, trwy ei fod ef yn dyrchafu y gwaith, a'r gwaith o ganlyniad yn ei ddyrchafu yntau. Yr oedd ei efrydiadau blaenorol dyfnion i egwyddorion Rhifyddiaeth, Athroniaeth, a Seryddiaeth, bellach yn anhebgorol wasanaethgar iddo. Dyrchafwyd ef o ris i ris yn gyflym yn y sefydliad; a diau pe cawsai fyw y buasai yn ben yr holl benau yn y lle. Cynyrchodd hyn lawer o eiddigedd tuag ato yn y rhai oeddynt yno o'i flaen, ac amryw ohonynt o gryn bwys. Yr oedd yn naturiol i'r olwg allanol ar y Cymro llwydaidd, gyda'i Saesneg clogyrnaidd, enyn eu dirmyg; ac i ddyn felly gael ei ddyrchafu tros eu penau hwy, ydoedd ormod hyd yn nod i natur daeogaidd y Sais ei ddal. Bu sibrwd hefyd iddo oddef rhywbeth gwaeth nag eiddigedd y gwyr hyny, ond nid oes yn hyny ddim gwirioned, canys gwywdra graddol y darfodedigaeth a roddes derfyn mor gynar i einioes werthfawr y Cymro athrylithgar hwn. Bu farw Mawrth 12, 1840, yn 35 oed, a chladdwyd ef yn mynwent St. Alphege, Greenwich. Yn ystod ei drigiant yn yr Arsyllfa, cyfansoddai *Almanac Cymraeg* bob blwyddyn; a diau fod y cyfryw y goreuon a gyhoeddwyd erioed yn yr iaith. Ceir ynddynt brofion o gydnabyddiaeth ddofn yr awdwr â holl symudiadau tymhorol natur, ac egluriadau arnynt hawdd i'r symlaf eu deall, ar y naill law; ac y llaw arall, llwyrymwrthodai âg arferiad ffol yr hen almanacwyr o brophwydo'r tywydd

Digitized by Google

a thraethu tynged, trwy swyngyfaredd a dwli dewiniaeth, yr hyn a barai i bawb gwybodus chwerthin am ein penau fel cenedl o ynfydion ofergoelus, yn cefnogi ac yn prynu cynyrchion a ddarparwyd o bwrpas i'n twyllo ni ein hunain. Dylem ddweyd gair am ei Gymraeg. Yr oedd ei arddull bob amser o'r fath buraf, er yn dra nodweddiadol ac ar ei phen ei hun; yr oedd wedi meistroli deddfau ac ansoddau iaith ei wlad yn drwyadl, a'r unig fai a ddygir yn ei erbyn ydyw ei fod yn defnyddio ambell i air dyeithr ac ansathredig, ond gwnai hyny gyda'r dyben o gyfoethogi ein hiaith, a'i gwneud yn fwy defnyddiol ac addurnol. O ganlyniad, y mae ei draethodau yn felus odiaeth gan bob ysgolhaig Cymreig, a gresyn na chesglid ohonynt yr hyn sydd yn wasgaredig mewn cylchgronau, yn ei lyfrau ei ei hun, a'r rhai a adawodd mewn llawysgrifen ag sydd yn meddiant ei weddw a'i fab, a'u hargraffu oll yn llyfr. Nid oes dadl na byddent yn anrhydedd pellach i'w enw ef, ac yn gaffaeliad mawr i'n llenyddiaeth. Am ei hanes yn helaethach, gweler *Seren Gomer* am 1849.

THOMAS (Parch. Richard) ydoedd, unig fab y Parch. Ellis Thomas, Bottwnog, sir Gaernarfon, ac wedi hyny Llanllyfni. Ganwyd ef Hydref 13, 1758. Yn 1776, cafodd ei dderbyn i goleg Oriel, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A. yn 1780; ac yn M.A. yn 1783. Urddwyd ef yn ddiacon, 1781; ac yn offeiriad, 1783. Penodwyd ef yn brif-athraw Ysgol Ramadegol Beaumaris, a chafodd hefyd berigloriaeth Llanfaes a Phenmon, yn 1783. Yn 1791, priododd Elizabeth Owen, o Benhesgyn, Mon. Dyrchafwyd ef i rectoriaeth Llanfairfechan, sir Gaernarfon, yn 1830; ac yno y bu farw Meh. 5, 1834, ac y claddwyd ef. Yn ystod ei drigiant yn y lle olaf, gwnaeth lawer o ddaioni yn y plwyf. Adeiladodd elusendy ac ysgoldy, at wasanaeth ei blwyfolion tylodion; ac ar gyfartaledd cyfranai gan' punt yn y flwyddyn mewn elusen. Yr oedd yn awdwr tair cyfrol o *Bregethau* Cymraeg, y rhai a gyhoeddwyd ar wahanol amserau. Cyf. I., Caerlleon, 1790; cyf. II., Gwrecsam, 1809; cyf. III., Llanerchymedd, 1822.

WILLIAMS (David), Ysw., (*Alaw Goch*). Brodor ydoedd y Cymro twymgalon a haelionus hwn o Bontfaen, Bro Morganwg, lle y ganwyd ef yn 1811. Daeth i Aberdar pan yn ieuanc, a thrwy ddiwydrwydd a llafur, a damweiniau ffodus bywyd, daeth yn berchen cyfoeth dirfawr. Ar ol cael ei ddyrchafu i'r fath lawnder, eto ni annghofiodd Alaw Goch y gweithiwr; yr oedd efe yn gyfaill calon i'r gweithiwr, ac yn fab tangnefedd pan godai dadl rhwng y meistri a'r gweithwyr. Yr oedd ei haelioni at bob achos da yn ddiarhebol, a'i frwdfrydedd dros bobpeth perthynol i Gymru a Chymraeg yn ddifesur. Efe oedd colofn benaf yr Eisteddfod Genedlaethol. Fel cadeirydd mewn Eisteddfodau, efallai mai efe oedd y goreu yn Neheudir Cymru. Yr oedd ei hynawsedd, ei fedrusrwydd, ei ffraethineb parod, yn darostwng pob annhrefn, ac yn dwyn pawb i ufudd-dod. Enillodd radd dda fel bardd a llenor Cymreig, ac nid oedd genym odid foneddwr ond efe yn medru "canu ar ei fwyd ei hun." Meddai ar gadernid cyfansoddiad, llawnder cyfoeth, dyngarwch gwladgarol, brwdfrydedd Cymroaidd, awen ac athrylith, hynawsedd a charedigrwydd. Perchenogai lawer o gyfoeth tirol, heblaw gweithiau glo ehelaeth. Yr oedd yn un o aelodau cyntaf a mwyaf gweithgar Cynghor Yr Eisteddfod, a bu yn drysorydd y sefydliad am rai blynyddau. Bu farw yn ddisymwth iawn, pan yn cerdded at orsaf y Reilffordd, Penybont-ar-ogwy, Chwef. 28, 1863, yn 52 oed, er colled fawr i ganoedd lawer.—*Golud yr Oes.*

Digitized by Google

WILLIAMS (Parch. Edward), D.D., athraw Coleg Rotherham, a duwinydd galluog, a anwyd yn Glanclwyd, ger Dinbych. Tach. 14, 1750. Gan fod ei dad yn amaethwr cefnog, ac yn Eglwyswr ffyddlawn, cafodd addysg dda yn amryfal ysgolion yr ardal, gyda'r bwriad o'i gyfaddasu at y swydd offeiriadol. Ond yn ddamweiniol, aeth i wrando ar un o hen bregethwyr y Methodistiaid, ac o hyny allan penderfynodd mai gyda'r Ymneillduwyr y gwnai mwyach ei gartref. Yr oedd efe y pryd hwn tuag ugain oed; a chan iddo roddi ei fryd ar fod yn weinidog gyda phobl ei ddewisiad, aeth i goleg yr Annibynwyr yn y Fenni. Yn 1776, wedi treulio ei amser yn y coleg, aeth i weinidogaethu i Ross, sir Henffordd. Yn mhen rhai blynyddau ar ol hyn, atolygwyd arno gymeryd y swydd o athraw coleg y Fenni; ond gan iddo wrthod myned yno, symudwyd y sefydliad er ei fwyn i Groesoswallt, lle y dechreuodd draddodi cyfres o ddarlithiau, y rhai a barhausant am ddeng mlynedd. Yn 1792, trosglwyddodd ei swydd yn Nghroesoswallt i eraill, a symudodd i Birmingham, Wedi treulio yno dair blynedd, efe a dderbyniodd wahoddiad i arolygu coleg yr Annibynwyr yn Rotherham, sir York, a llanwodd y swydd hono hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le, Mawrth 9, 1813. Derbyniodd y radd o ddoethawr mewn Duwinyddiaeth o Edinburgh, yn 1792. Yr oedd yn un o dduwinyddion enwocaf ei oes, a chyhoeddodd luaws mawr o lyfrau galluog yn y gangen hono o wybodaeth. Gellir ei ystyried fel tad isel-Galfiniaeth, yn enwedig yn Nghymru; yn benaf trwy ei draithawd campus, "An Essay on the Equity of Divine Government." Y llyfrau eraill pwysicaf o'i waith ydynt, "Reply to Mr. Abraham Booth on the Baptismal Controversy," 2 gyfrol; ac, "An Abridgement of Dr. Owen's Exposition of the Epistle to the Hebrews," 4 cyfrol. Rai blynyddau yn ol, cyhoeddwyd argraffiad cyflawn unffurf o'i holl weithiau.

WILLIAMS (Parch. Isaac), B.D., ydoedd fab i Isaac Lloyd Williams, Ysw., o Gwmcynfelyn, ger Aberystwyth, lle y ganwyd ef Rhag. 12, 1802. Addysgwyd ef yn ysgol enwog Harrow, lle yr enillodd amryw wobrwyon. Oddiyno aeth i goleg y Drindod, Rhydychain; lle, yn mhen amser, yr ethelwyd ef yn gymrawd ac yn athraw. Yn 1823, enillodd wobr y brifysgol am y bryddestawd oreu yn Lladin. Gan fod ei iechyd yn wanaidd, analluogwyd ef i ymgeisio am uwch anrhydedd na B.D., yr hon a gafodd yn 1826. Adnabyddir ef fel un o awduron y *Tracts for the Times*, a chymerodd ran arbenig yn y mudiad Tractaraidd yn Rhydychain. Yn un o bump, ysgrifenodd y *Lyra Apostolica;* ac wedi hyny, cyfansoddodd lawer byd o farddoniaeth, yn mha un yr arddangosai y teimladau mwyaf cynes at wlad ei enedigaeth, a chyrchfanau a chyfeillion bore ei oes. Ond fel traithodwr, mae'n ddiau, y safai efe uwchaf; a dynodir ei holl waith gan ysbryd gwir ddefosiynol. Saif ei "Harmonies of the Gospel" yn hir fel safon i efrydwyr Beiblaidd, ac yn gaffaeliad gwerthfawr i lyfrgell y duwinydd. Yr oedd yn Geidwadwr trwyadl mewn gwleidyddiaeth; ac arddangosir ei gydymdeimlad â Siarl I. mewn dull tyner nodedig yn y gân a gyhoeddodd dan y teitl, "The Cathedral." Yr oedd ei iechyd yn ystod yr ugain mlynedd olaf o'i fywyd yn achos o bryder gwastadol i'w gyfeillion lluosog, yn mhlith pa rai y gellir enwi Keble, Froude, Pusey, Newman, &c. Er na chymdeithasai efe â'r olaf ar ol ei enciliad i'r Eglwys Babaidd, eto coleddent y teimladau caredicaf at eu gilydd; a pharodd ymweliad Dr. Newman âg ef ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth foddhad o'r mwyaf iddo. Efe a fu farw yn Stinchcombe, sir Gaerloyw, Mai 1,

Digitized by Google

1865, a chladdwyd ef yn mynwent y pentref tawel hwnw A ganlyn sydd restr o'i weithiau :—I. *Rhyddiaith*—1, "The Harmony of the Four Evangelists ;" 2, "The Holy Gospels ;" 3, "The Nativity ;" 4, "The Ministry," 2 gyf. ; 5, "The Passion ;" 6, "The Holy Week ;" 7, "The Resurrection ;" 8, "The Apocalypse ;" 9, "The beginning of the Book of Genesis ;" 10, "The way of Eternal Life ;" 11, "Memoir of Rev. R Sacking ;" 12, "The Psalms Interpreted of Christ ;" Un gyfrol a ymddangosodd o'r gwaith olaf, pan y bu yr awdwr farw. II. *Pregethau*—1, "Plain Sermons," 6ed gyfrol ; 2, "On the Catechism," 2 gyf. ; 3, "On the Epistles and Gospels," 3 cyf. ; 4, "On the Characters of the Old Testament ;" 5, "Female Characters of Holy Scripture." III. *Barddoniaeth*—1, "The Cathedral ;" 2, "Thoughts in past years ;" 3, "The Baptistery," 2 gyf. ; 4, "The Christian Scholar ;" 5, "The Christian Seasons ;" 6, "The Creation ;" 7, "The Altar ;" 8, "Sacred Verses ;" 9, "Hymns on the Catechism ;" 10, "Hymns from the Parisian Breviary," cyfieithiad ;" 11, "Ancient Hymns for Children," cyfieithiad.—*Enwogion Sir Aberteifi.*

WILLIAMS (PARCH. JOHN), M.A. *(Ab Ithel)*, oedd fab i Roger Williams, ac a anwyd yn Ty-nant, plwyf Llangynhafal, Dyffryn Clwyd, yn 1811 ; ac oddiwrth sant ei blwyf genedigol, y cymerodd y ffugenw *Cynhafal*, yn mlynyddau cyntaf ei fywyd llenyddol. Hanai o Ithel ab Rotpert Goch o Degeingl, archddeon Llanelwy yn 1375. Newidiwyd yr enw i Bythell a Bethell, ac arosodd yn y teulu am oesoedd. William Bethell oedd taid gwrthddrych ein Cofiant, a'i fab ef a newidiodd yr enw i Williams, yr hwn a briododd Elizabeth, merch William Williams o Langynhafal ; ac o'r briodas hono y ganwyd Ab Ithel. Anfonwyd John pan yn ieuanc i ysgol ramadegol Rhuthyn, ac enillodd beth enwogrwydd fel myfyriwr llwyddianus yn yr ysgol hono. Aeth i goleg Iesu, Rhydychain yn 1832 ; graddiwyd ef yn B.A. yn 1835 ; a gwnaed ef yn ddiacon gan Esgob Bangor, Gorph. 19, yn yflwyddyn hono. Cymerodd urdd offeiriad, Mai 1, 1836, gan Esgob Llanelwy. Ei guradiaeth gyntaf oedd Llanfor, ger y Bala ; ac yno, pan yn 25ain oed, y dechreuodd ei yrfa fel awdwr, trwy gyhoeddi traithawd ar "Eglwys Loegr yn mhob oes yn annibynol ar Eglwys Rhufain," yn Nghymraeg a Saesneg. Yno hefyd, Gorph. 11, 1836, y priododd ei weddw bresenol, sef Elizabeth, merch Owen Lloyd Williams, Ysw., o Ddolgellau. Graddiwyd ef yn M.A. yn 1838. Yn 1842, enillodd wobr yn Eisteddfod Abertawy, ar y testun ymofyniadol, "A oedd y Derwyddon Prydeinig yn offrymu ebyrth dynol ?" Symudodd o Lanfor yn 1843 i guradiaeth barhaol Nerquis, yn sir Ffiint. Yn y lle hwnw, yn 1844, cyhoeddodd "The Ecclesiastical Antiquities of the Cymry," yn gyfrol 8vo. Cynwysa y gwaith hwn lawer o ffrwyth ymchwil i hen bethau, &c. Efe, mewn cysylltiad â'r Parch. H. Longueville Jones, a gynlluniodd yr *Archaelogia Cambrensis*, a than eu cydolygiaeth hwy y daeth y gyfrol gyntaf allan yn 1846. Ysgrifenodd lawer i'r cyhoeddiad hwnw, a daeth amryw o'i brif erthyglau allan yn llyfrau ar wahan. Yn 1849, dyrchafwyd Ab Ithel i rectoriaeth Llanymawddwy, yn Meirionydd, ac â'r lle hwn bellach y cysylltir ei enw. Yn 1852, cyhoeddodd y *Gododin*, gyda chyfieithiad Seisnig a nodiadau beirniadol, yn gyfrol 8vo. Mae yn anhawdd dweyd pa mor bell y llwyddodd i ddeall yr arwrgerdd henafol a thywyll hono ; ond y mae yn amlwg iddo ef lafurio yn egniol i geisio ei deall. Yn 1856, cyhoeddodd *Ddosbarth Edeyrn Dafod Aur ;*—gwel ar hyn o dan y gair EDEYRN DAFOD AUR. Ymadawodd rywfodd â'r

Digitized by Google

Archaelogia Cambrensis, a sefydlodd y *Cambrian Journal*, a bu yn golygu hwnw hyd ddydd ei farwolaeth. Efe hefyd oedd golygydd cyhoeddiadau y Llawysgrifau Cymreig, y rhai a gyhoeddid yn Llanymddyfri. Bu Ab Ithel hefyd yn allu mawr gyda'r Eisteddfodau Cenedlaethol. Efe oedd saer ac ysgogydd Eisteddfod Llangollen yn 1858. Sefydlodd gyhoeddiad chwarterol o'r enw *Taliesin*, i gyhoeddi cynyrchion yr Eisteddfodau, gyda hynafion eraill. Bu hwnw yn ddefnyddiol yn ei swydd o dan ei ofal ef am ddwy flynedd, sef 1859—'60. Hefyd bu yn golygu *Brut y Tywysogion* a'r *Annales Cambrae*, dros y Llywodraeth, yn mlynyddau olaf ei oes; ac ystyried pobpeth, mae yn anhawdd meddwl am ddyn mwy llafurus a diwyd, a hyny heb nemawr o dâl na diolch, na'r gwladgarol Ab Ithel. Ysgrifenodd draithawd ar "Origin of Trial by Jury" i Eisteddfod y Fenni, yn 1854; traithawd ar "Farddas" i Eisteddfod Llangollen, a thraithawd ar "Dderwyddiaeth" i Eisteddfod Dinbych yn 1860. Enillodd ar "Farddas," a chyhoeddi y gwaith hwnw oedd llafur olaf ei fywyd. Bwriadai i'r gwaith fod yn dri chyflyfr 8 plyg, eithr ni ddygwyd mwy nag un gyfrol allan o'r wasg. Cynwysa bethau cywrain a rhyfedd, sef gweddillion doethineb draddodiadol yr hen Gymry. Dywedai M. H. Martin, yr hanesydd Ffrengig, am y gyfrol hon, mewn llythyr at Ab Ithel, dyddiedig Meh. 24, 1862, "Llywelyn Sion oedd ceidwad cyntaf y trysorau anmhrisiadwy hyn o eiddo traddodiad, y rhai, oni buasai ei ragofal ef, a ysasid yn nghyflosgiad arswydus Rhaglan; yr hen Iolo oedd yr ail achubwr; a chwithau yw y trydydd." Symudodd Ab Ithel yn haf, 1862, o Lanymawddwy, i Llanddwywe a Llanenddwyn, yn Nyffryn Ardudwy; eithr ni chafodd ond prin feddianu ei le newydd, nad oedd angau yn ei gymeryd ymaith; canys ar fore Awst 27, 1862, yr oedd y gweithgar a'r gwladgarol Ab Ithel wedi canu yn iach i'r fuchedd drancedig hon, a'r ysbryd wedi ehedeg at Ffynon Bywyd. Ni wyddom ddim neillduol am dano fel pregethwr a gweinidog, ond ei fod yn Eglwyswr manwl a ffyddlawn yn ei alwedigaeth; ac ni allai dyn mor ddiymhongar, addfwyn, a'charedig, lai na bod yn barchus a chymeradwy yn mysg ei blwyfolion. Ond fel llenor Cymreig y mae â wnelom ag ef yn benaf. Yr oedd efe yn ŵr o ddysg, ac yn Gymro o'r radd uchaf, yn ddiwyd a gweithgar bron heb ei ail, yn llafurio mewn pethau nad oedd gobaith iddynt ddwyn nemawr o elw iddo, ac heb lawer o gefnogaeth ond y brwdfrydedd cenedlgarol hwnw oedd yn llosgi yn ei fynwes. Nid oedd ei farn mor gref ac iachus bob amser, canys ystyrid ef fel yn rhoddi gormod o goel ar gyfrinion Derwyddol, a hen chwedlau eraill, os byddai arogl Gymroaidd arnynt. Ond anfynych y mae barn gref a brwdfrydedd angerddol yn cartrefu yn yr un fynwes. Cafodd Cymru golled fawr ar ei ol, a dylai y genedl barchu coffadwriaeth un o'i meibion anwylaf; yr hwn a dreuliodd ei fywyd ymaith yn gynamserol mewn gorlafur yn ei gwasanaeth. Claddwyd ef yn mynwent Llanddwywe, yn 51 mlwydd oed.

WILLIAMS (PARCH. JOHN), M.A., archddeon Ceredigion, ydoedd fab i'r Parch. John Williams, a gofnodir yn y llyfr hwn, tu dal. 1011. Ganwyd ef yn Ystradmeirig, Ebrill 11, 1792. Tan addysg ei dad, ac yn feddianol ar y fath dalentau ysplenydd, rhoddes ernes yn fuan o'r enwogrwydd oedd yn ei aros. Pan yn 16 oed, aeth yn athraw cynorthwyol clasurol i ysgol Chiswick, lle y bu am flwyddyn. Treuliodd y ddwy flynedd ganlynol yn cynorthwyo ei dad yn ysgol Ystradmeurig. Aeth oddiyno am ychydig amser i ysgol Ludlow, lle yr enillodd ysgoloriaeth; ac yn Nhachwedd, 1810, aeth i goleg Balliol, Rhydychain, ac yno, yn

Digitized by Google

mhen pedair blynedd, rhestrwyd ef yn un o bedwar yn y dosbarth cyntaf. Mewn athroniaoth a hanesyddiaeth y rhagorai fwyaf y pryd hyn, ond daeth wedi hyny yn rhifwr campus. Un o'r pedwar hyny oedd y Dr. Arnold, yr hwn fel yntau a ddaeth yn un o brif ddysgawdwyr y deyrnas. Wedi hyny, penodwyd ef yn brif gynorthwywr Dr. Gabell, penaeth coleg Winchester, lle y bu bedair blynedd, a chafodd guradiaeth Durley, Hants, a bu wedi hyny yn athraw cynorthwyol yn ysgol Hyde Abbey, Winchester. Arosodd yno am ddwy flynedd, ac enillodd yn y cyfamser serch amryw gyfeillion dysgedig. Yn 1820, cynygiodd Dr. Burgess, esgob Tyddewi, iddo ficeriaeth Llanbedr-pont-Stephan, gan ddymuno arno yr un pryd ddwyn yn mlaen yr Ysgol a sefydlesid yno gan y ficer diweddaf. Yn unol a greddf wladgarol ei natur, derbyniodd y cynyg; a rhoddodd i fynu yn llawen brif arolygiaeth Hyde Abbey, yn nghyda rheithoriaeth St. Lawrence, Winchester, lle yr oedd newydd gael ei benodi. Yr oedd Dr. Burgess yn awyddus i adeiladu coleg yn Llanddewi-brefi, ond Mr. Williams a'i perswadiodd i'w adeiladu yn Llanbedr. Yr oedd Ysgol Ramadegol y dref hono yn gnewyllyn a *feeder* ragorol i'r Coleg. Yn mysg ei ysgolheigion, yr oedd mab hynaf Syr Walter Scott, ac ar anogaeth y gwr enwog hwnw yr anturiodd ef gynyg ei hun yn ymgeisydd am lywyddiaeth coleg newydd a sefydlid yn Edinburgh yn 1824. Bu yn llwyddianus; ac an 22ain mlynedd, llanwodd y swydd er anrhydedd mawr iddo ei hun, a budd i'r sefydliad. Yn mysg ei gyfeillion yno, ceir enwau Syr W. Scott, Macullock, John Gibson, Lockhart, Arglwydd Cockburn, Arglwydd Jeffrey, Proffeswr Wilson, Syr Wm. Hamilton, Dr. Chalmers, a Carlyle. Efe a ddarllenodd y gwasanaeth uwch gweddillion Scott yn Dryburgh Abbey. Yn ystod ei arosiad yn Edinburgh, y cyhoeddwyd o'i waith, "History of Alexander the Great," Geography of Asia," a'i "Homerus." Yr oedd yn aelod o Gymdeithas Freiniol Edinburgh, a darllenodd amryw bapurau ger ei bron; ysgrifenodd aml erthygl alluog i'r *Quarterly Review*, yr hwn a olygid gan ei gyfaill Mr. Lockhart. A dywedai Archesgob Canterbury, mewn araith gyhoeddus ar ei ben athraw mai iddo ef yn benaf yr oedd Scotland yn ddyledus am y cyffro adnewyddol yn ei phrif athrofeydd. Pan sefydlwyd coleg Llanymddyfri, cynygiwyd ei lywyddiaeth i'r Archddeon, ac yntau a gydsyniodd, ac yno bu yn dra llafurus a llwyddianus am bum' mlynedd, pan y gorfu arno roddi y swydd i fynu oblegyd afiechyd. Treuliodd y 18 mis olaf o'i oes yn Bushey Heath, Hamps, lle y bu farw, Rhagfyr 27, 1858. Yn ystod ei flynyddau olaf, cyhoeddodd "Gomer," ei "Life of Julius Cæsar," "A Barbarian Episcopate," a "Discourses and Sermons on the Unity of the Will of God." Heblaw archddeon Ceredigion, yr oedd hefyd yn ganon Tyddewi, ac yn gantor yn Aberhonddu. Dywedai y *Times*, wrth gofnodi ei farwolaeth, "Ni lafuriodd neb erioed yn fwy selog nag ef, nid yn unig o blaid llwyddiant Cymru, ond hefyd o blaid ei hanrhydedd."

WILLIAMS (PARCH. JOHN), gweinidog enwog gyda'r Wesleyaid. Ganwyd ef gerllaw Beaumaris, Mon, tua 1788. Nid oedd Wesleyaeth wedi cyrhaedd gan belled a'i ardal enedigol ef pan ydoedd yn blentyn, a dygwyd ef i fynu gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Y cyntaf o'r gweinidogion Wesleyaidd glywodd efe ydoedd Mr. Bryan. Yr oedd hyny tua 1803, ac yn 1806 yntau a ymunodd â hwynt. Yn 1808, dechreuodd bregethu; ac yn 1809, sefydlwyd ef yn Ngogledd Cymru fel pregethwr teithiol. Ymroddodd yn egniol i efrydu duwinyddiaeth,

Digitized by Google

a changhenau eraill o wybodaeth angenrheidiol i weinidog fod yn hyddysg ynddynt; a chyrhaeddodd beth gwybodaeth yn y Roeg. Bu o fawr wasanaeth i'r enwad yn Nghymru, gan ei fod yn ddyn o alluoedd campus. Teithiodd lawer ar Ogledd a Dehau, pan oedd yr eglwysi yn anaml, ac yr edrychid arnynt gan grefyddwyr eraill fel hereticiaid, a chan y digrefydd fel ffyliaid. Wedi bod 25ain mlynedd yn y weinidogaeth, a phan yn 46ain mlynedd, bu farw yn Nghaerfyrddin, Ionawr 15, 1834. Cyhoeddwyd o'i waith "Bucheddiaeth y Parch. Samuel Bradburn," un o weinidogion y Wesleyaid Seisnig; 2, "Y Llusern Ysgrythyrol;" ac amrywiol bregethau ar wahanol destynau. Yn gyfranog hefyd â'r Parch. Hugh Hughes, dechreuodd gyfieithu i'r Gymraeg, "Esboniad y Parch. J. Wesley," a buont yn gydawduron ar lyfr o'r enw "Goleuad Dwyreiniol." Bu yn un o ohebyddion mwyaf cyson a galluog yr *Eurgrawn Wesleyaidd* ar hyd ei oes; ac yn olygydd arno o 1826 hyd 1829. Brawd iddo ef ydoedd y Parch. David Williams, yntau hefyd yn weinidog talentog a defnyddiol yn yr un Cyfundeb.—*Y Bywgraffydd Wesleyaidd*

WILLIAMS (Parch. John), un o weinidogion dysgedicaf y Bedyddwyr yn Ngogledd Cymru, a anwyd yn y Creuddyn, yn 1806. Gôf oedd ei dad wrth ei alwedigaeth. Tyfodd John yn fachgen llednais a thawel, ac yn hoff o'i lyfr o'i febyd. Yr oedd rhyw hynodrwydd ynddo o'r dechreu. Buwyd yn hir iawn cyn llwyddo i'w ddarbwyllo i droi ei wisgbeisiau mabanaidd heibio, a gwisgo llodrau fel bachgenyn arall. Gwisgodd ei frawd ieuengach nag ef ddau bâr o ddillad a ddarparasid i John, gan na fynai er dim ymadael â'i hen bais gwta, a chymeryd ei leffetheirio gan lodrau. Yr oedd golwg ryfedd arno, wedi tyfu yn fachgen eiddil, hirfain, yn cerdded ar gcesau hirion fel Ysgotyn, a'r hen bais yn gylch am ei ganol, a phrin yn cyrhaeddyd at ben ei lin. Ond goddefai bob dirmyg yn dawel os caffai lonydd i eistedd yn y gornel i ddarllen hen gerddi, neu rywbeth a ddeuai i'w ddwylaw. Cafodd ychydig o ysgol gyffredin yn y Mochdref, ac amcanodd ei dad wneuthur gôf ohono; eithr nis gallesid gwneud nemawr ohono yn y ffordd hyny, gan mai bachgen tyner a gwanllyd ydoedd. Ond yr oedd ganddo bleser mawr mewn dad-ddyrysu ac adgyweirio hen gloion, a thybiai flynyddau ar ol hyny y gallasai ddyfod yn *ôf gwyn*, ond fod crefft y *gôf du* yn rhy arw a chaled iddo. Pa fodd bynag, gyda'i lyfrau y byddai John bob munyd a gaffai, a diangai yn fynych i'r caeau a'r coedydd er mwyn cael llonydd i ddarllen. Cafodd flas yn fore ar ieithyddiaeth, a chyn bod yn ugain mlwydd oed yr oedd ganddo wybodaeth helaeth o'r Saesnaeg, y Lladin, y Roeg, a'r Hebraeg. Wrth ystyried anfanteision bore'i oes, a thybied fod llawer bachgenyn sychedig am wybodaeth yn yr un cyflwr ag yntau, ymroddodd i gyfansoddi Gramadeg Dwyieithawg. Dyma deitl y llyfr, "Gramadeg Dwyieithawg, neu Ramadeg o'r Iaith Seisnig, yn Gymraeg a Saesneg, wedi ei gyfansoddi at wasanaeth ac er buddioldeb Cymroaidd, gan John Williams (Philologos)." Argraffwyd y llyfr hwn gan John Jones, Llanrwst, yn 1827. Bu cyhoeddiad y llyfr hwn yn foddion i'w ddwyn i sylw mawrion a gwyr eglwysig yr ardal, a cheisiwyd gwneud offeiriad ohono. Anfonwyd ef i Landdulas at y person oedd yno i'w barotoi at y coleg, a bu wedi hyny yn Tamworth am ryw hyd; ond dychwelodd adref,—cafodd dwymyn y cryd cymalau,—ymwrthododd yn llwyr â'r offeiriadaeth, a bwriodd ei goelbren i blith y Bedyddwyr. Anogwyd ef cyn hir i ddechreu pregethu, a bu yn cadw ysgol yn Eglwys Bach.

Digitized by Google

Yn haf 1833, ymsefydlodd yn Llansilin, a bu yno dair blynedd. Yr oedd ganddo dri chapel, sef Llansilin, Moelfre, ac Efailyrhyd, i bregethu ynddynt. Bychan iawn iawn oedd ei gyflog Cadwai ysgol ddyddiol yn Llansilin, a derbyniai ychydig oddiwrth y Gymdeithas Genadol Gartrefol. Yn 1834, ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth; rhoddodd yr ysgol fynu, a chodwyd ei gyflog i tua chwe'ugain yr wythnos! Llafuriodd felly am tua dwy flynedd. Yn niwedd 1836, ymsefydlodd yn Rhosllanerchrugog, am tua phedair blynedd. Cyfieithodd "Draithawd ar Faddeuant Pechodau" o waith Alexander Campbell i'r iaith Gymraeg, a dechreuodd gyfieithu "Yr Oraclau Bywiol" tna 1838. Costiodd y gwaith hwn iddo tua phedair blynedd o lafur. Yr oedd testament bychan yn Saesneg o gyfieithiad Drd. Campbell, M'Knight, a Doddridge, a darfu i Alex. Campbell o America adgyhoeddi hwnw gyda diwygiadau o'i eiddo ei hun, dan yr enwad, *The Living Oracles.* Ceisiwyd gan Mr. Williams drosi hwnw i'r Gymraeg, yr hyn a wnaeth dan yr enw "Yr Oraclau Bywiol," er na ddilynodd efe mo hwnw yn fanwl, ond arferodd bob help o fewn ei gyrhaedd i roddi i ni gyfieithiad cywir o'r Testament Newydd yn yr iaith Gymraeg. Dywedai mai dau beth oedd eisiau ei gael er cyficithu ac esbonio yr Ysgrythyrau yn gywir; sef, gafael yn y testun iawn, neu'r gwir ddarlleniad, a gosod meddwl hwnw allan yn gywir. Amcanodd at hyny hyd eithaf ei wybodaeth; oblegid ei holl awydd ef oedd cael allan y gwirionedd, eled plaid a chredo lle yr elont. Rhywbryd yn 1841, symudodd Mr. Williams o'r Rhos i'r Drefnewydd i weinidogaethu i'r Saeson, a bu yno ddeuddeg mlynedd. Collodd ei iechyd yn fuan ar ol myned i'r Drefnewydd; aeth ei galon i guro yn wyllt, ei ymenydd i ferwi, a'i ewynau yn allonydd a diorphwys. Yr oedd amryw bethau yn cydweithio yn y Drefnewydd i ddadfeilio ei gyfansoddiad; cadwai ei hun yn ormodol yn ei fyfyrgell i orphen cyficithu "Yr Oraclau Bywiol," a pharotoi at yr areithfa; tybiai fod pobl y Drefneydd yn llawer callach nag oeddynt, a darparai fwyd cryf ar eu cyfer; tybiai hefyd fod y capel mawr hwnw yn gofyn mwy o rym llais nag ydoedd; a rhwng y naill beth a'r llall, rhoes fwy o egni ar waith nag allai ei natur ddal; ac nid oedd yno gymdeithion o chwaeth lenorol i leddfu dim ar ei flinder, ond yn hytrach gwrachiod yn beio arno oherwydd ei ddyeithrwch iddynt. Pa fodd bynag, wedi hir ddihoeni, symudodd i'r Rhos yn ei ol yn 1853, gan ofalu am Benycae hefyd. Tybiai yr adferid ei iechyd wrth ddychwelyd i'w hen gynefin yn ol; ond aethai yn rhy bell; dihoenodd ymaith, a bu farw yn 50 mlwydd oed, yn niwedd 1856, a chladdwyd ef yn mynwent Penycae, plwyf Ruabon. Fel dyn, yr oedd Mr. Williams o ymddangosiad boneddigaidd, yn hytrach yn dal, yn lluniaidd, a theg yr olwg; yn fyfyriwr dwfn a diorphwys; yn ymchwiliwr gonest am y gwirionedd; yn gyfarwydd iawn yn yr ieithoedd dysgedig; yn deall gwyddorau rhif a mesur i bellafoedd; yn ymhyfrydu erioed mewn rhesymeg ac athroniaeth feddyliol; ac yn mynu deall pobpeth i'w gwaelodion, os byddai hyny yn ddichonadwy. Fel pregethwr beirniadol a threiddgraff, safai yn uchel iawn, ac yr oedd rheitheg a chrebwyll awenyddol yn elfenau angerddol yn ei enaid. Gwylaidd ac anymhongar ydoedd, fel na byddai byth yn ymwthio i'r cyhoedd, ac ychydig a deithiodd i gyrddau cyhoeddus, a bu drwy hyny yn fwy cuddiedig nag y dylasai fod o wydd y lluaws. Ysgrifenodd lawer i'r misolion, fynychaf o dan ei enw priodol; galwai ei hun yn y dechreu *Ieuan o Arfon,* ac o dan yr enw hwnw yr ysgrifenai i'r *Gwyl-*

Digitized by Google

iedydd 1827. Byddai casgliad o'i draithodau gwasgaredig yn y cyfnodolion yn nghyda detholion o'i bregethau mewn cyfrol ddestlus yn drysor gwerthfawr i'r Cymry.

WILLIAMS (Owen), cerddor ddiwydbwyll, ydoedd enedigol o'r Quirt, plwyf Llandyfrydog, ond yn cartrefu yn Ty'n y Maen, plwyf Llanfugail, Mon. Yr oedd yn fab i Owen Jones, hanedig o deulu y Nant, Llancristiolus; ac Elinor Williams, deilliedig o deulu Berw Uchaf, Llanfihangel-Ysgeifiog. Dianmheu fod llawer wedi clywed son am *gamut* O. Williams o Fon; wel, dyma ydoedd, "Byr draithawd o waith yr enwog Charles Dibdin wedi ei Gymreigio'n ofalus gan O. W." ydoedd y rhan gyntaf ohoni; a'r ail ran, "Rheolau Cerddoriaeth Eglwysig." Efe a gasglodd ac a gyhoeddodd ddau lyfr cerddoriaeth hefyd o gryn bwys. Y cyntaf tan y teitl "Cenaniah," y tonau wedi eu trefnu ar gyfer dau lais, a gwnaeth ei ymddangosiad tua 1816. Yr ail, "Breninol Ganiadau Seion," 1819, yr hwn a gyhoeddwyd yn bedair rhan 8s. yr un, neu 31s. 6c

WILLIAMS, (Parch. Robert), gweinidog defnyddiol gyda'r Trefnyddion Wesleyaidd. Ganwyd ef yn Bodffari, yn 1804; ac ymunodd yn ieuanc â'r enwad crybwylledig. Yn 1832, dechreuodd ei weinidogaeth, pryd y sefydlwyd ef yn Beaumaris. Llafuriodd mewn amryw o gylchdeithiau y Gogledd hyd 1841, pan y symudodd i'r Deheudir, lle y treuliodd weddill ei oes. Efrydai Air Duw gyda diwydrwydd mawr; ac yr oedd ei bregethau yn drefnus ac yn drylawn o wirionedd yr Efengyl. Yr oedd plant ei gynulleidfaoedd yn wrthddrychau ei ofal neillduol; ymhyfrydai yn eu cymdeithas; casglai hwy yn nghyd ar adegau priodol, i'w hegwyddori yn mhethau Duw, ac i ddysgu cerddoriaeth iddynt Edrychai ar blant fel egin yr eglwys, fel ŵyn y ddiadell nefol, ac yr oedd yn dyner a gofalus ohonynt bob amser. Yr oedd ei wybodaeth dduwinyddol yn llawn ac eang. Yn nghanol teithiau blinion, a phregethu llafurus, byddai ganddo lyfryn gwerthfawr, neu bregeth, neu ysgrif ddyddorol i'r *Eurgrawn Wesleyaidd* neu'r *Winllan* bob amser yn mhair paratoad, a phrynai ei amser yn ofalus. Ychydig flynyddau cyn ei farwolaeth cyhoeddodd "Gydymaith yr Addolydd," neu lyfr tonau wedi ei gyfaddasu i Lyfr Hymnau yr enwad, a chafodd y gwaith dderbyniad helaeth. Yn 1844, yr oedd yn un o'r pedwar gweinidog Wesleyaidd—dau o'r Gogledd a dau o'r Dehau—a gyfarfuant i wella Llyfr Hymnau yr enwad, ac yn ol eu diwygiadau hwy y saif y llyfr hwnw hyd heddyw. Yr oedd yn feddianol ar ychydig o'r ddawn brydyddol, ac anrhegai ddarllenwyr yr *Eurgrawn* ag aml ddernyn o ffrwyth ei awen. Bu farw yn dra disymwth yn Llandeilo, Mehefin 7, 1855, yn 50 oed.—*Bywgraffydd Wesleyaidd.*

WILLIAMS (Parch. Rowland) D.D., un o awduron yr *Essays and Reviews*, a anwyd yn Helygain, sir Fflint, yn 1817. Mab ydoedd i'r Parch. Rowland Williams, periglor Ysgeifiog wedi hyny: gwel tu dal. 1020. Pan yn 10 oed, aeth i ysgol Eton, lle yr enillodd, yn 1835, dlws Newcastle; ac oddiyno danfonwyd ef i goleg y Brenin, Caergrawnt. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, enillodd Ysgoloriaeth y Brifysgol o rodd Battie. Cymerodd ei raddau yn 1843, ac etholwyd ef yn gymrawd o goleg y Brenin. Bu am beth amser yn is-athraw yn ysgol Eton, eithr gorfu iddo roddi y swydd hono i fynu oblegyd afiechyd. Yn 1842, penodwyd ef yn athraw clasurol ei goleg, yr hon swydd a lanwodd am wyth mlynedd. Yn 1850, gadawodd Gaergrawnt, gan iddo dderbyn gwahoddiad i ddyfod yn is-lywydd a phrif-athraw coleg Dewi Sant,

Digitized by Google

Llanbedr, Pont Stephan, lle y treuliodd ddeuddeng mlynedd. Gan belled ag yr oedd a wnelai ei ddyrchafiadau eglwsig, camgymeriad ydoedd iddo symud i Lanbedr; eithr dyn gwladgarol iawn ydoedd Dr. Williams, a chan ei fod yn credu y gallai fod o les i'w gydgenedl, nid oedd dim a'i cadwai o'u mysg. Graddiwyd ef yn D.D. yn 1857; ac yn 1859, gan ei fod wedi penderfynu rhoddi ei swydd yn Llanbedr i fynu, rhoddes i fynu hefyd ei gymrodoriaeth yn ngholeg y Brenin; ac anrhegwyd ef gan y coleg hwnw â ficeriaeth Broadchalke, sir Wilt. Tua'r un amser, efe a briododd Ellen, merch Charles Cotesworth, Ysw., R.N. Ond gan nag oedd yr un ficerdy yn ei blwyf newydd, cafodd ganiatad yr esgob i fyned yn mlaen gyda'i waith yn Llanbedr, tra yr adeiledid y ty; ac yno yr arosodd hyd 1862. Wedi ymgymeryd â dyledswyddau gweinidog plwyfol, cyflawnodd hwynt gyda sel a gweithgarwch teilwng o'i ddiwydrwydd a'i gydwybodolrwydd. Traddodai y fath bregethau campus yn ei bwlpud ag y mae yn anmheus a oedd mewn un Llan gwledig yn Mhrydain benau digon goleu a chalonau digon agored i'w mawrhau, Cyhoeddwyd y rhai hyn yn gyfrol tan y teitl, "Broadchalke Sermon-Essays." Bu farw yn y lle hwnw, yn anterth ei gadernid deallol, Ion. 18, 1870, yn 53 oed. Yr oedd Dr. Williams yn ddyn o dalentau ysplenydd, y rhai a gawsant bob maeth a meithriniad ysgolheigaidd, ac a ddefnyddiwyd ganddo i archwilio gwirioneddau pwysicaf y Grefydd Gristionogol. Yr oedd gogwydd naturiol ei feddwl at athroniaeth feddyliol; ac nid rhyfedd iddo deimlo y fath foddhad pan y daeth yn ieuanc i gydnabyddiaeth â gwaith y meddyliwr athronyddol a threiddgraff Coleridge, sef yr *Aids to Reflections*, a *Confessions of an Enquiring Spirit*. Ymgydnabyddodd hefyd yn gynar â gweithiau y prif dduwinyddion Seisnig, a'i anwyliaid ef ohonynt, a'r gwersi a ddysgodd oddiwrthynt, a grybwyllir mewn llyfr barddonol o gyhoeddodd o'r enw, "Oriestes, and the Avengers:"—

> "Hooker yet lives by whom the seed were sown
> Of reason consecrate in freedom's power;
> Butler made Nature minister to Faith;
> Cudworth in Gentile hearts found heavenly owe;
> In Barclay's page still Gospel Freedom sayeth,
> And Coleridge taught the Spirit's holier law."

Cynyrchodd ei efrydiadau ehelaeth eu dylanwad priodol. Cyhoeddodd rai pregethau a draddodasai yn Nghaergrawnt yn 1854, pan y gwasanaethai fel "Select Preacher," y rhai a barasant ychydig o gynhwrf, yn benaf ar gyfrif y dull newydd y traithent hen bethau. Dyma ei ymddangosiad cyntaf fel awdwr, oddigerth mewn cyfrol fechan o farddoniaeth yn dwyn y teitl, "Lays from the Cimbric Lyre." Yn 1855, cyhoeddodd gyfres o bregethau a draddodasai mewn rhan yn Nghaergrawnt, ac mewn rhan yn Llanbedr, sef, "Rational Godliness:" yr hon a'i dynododd ar unwaith yn ddyn o feddwl galluog, ac a barodd dymhestl yn mhlith offeiriaid Esgobaeth Tyddewi. Yn fyr, dyma oeddynt ei syniadau:—Llais ysgrifenedig y gynulleidfa ydyw y Beibl, cofnodau profiad ysprydol yr amserau aethant heibio; ac wrth Ysprydoliaeth yr ydym i ddeall nid anffaeledigrwydd y cofnodau, eithr y ffaith y cynhyrfid eu hawduron gan yr Ysbryd Dwyfol, yr hwn sydd yn mhob man, bob amser, yn ffynonell pob dymuniad sanctaidd, pob cynghor da, a phob gweithred gyfiawn. Yn yr ystyr yma, Ysprydoliaeth ydyw ffynonell a chyfraith Ddwyfol *pob* gwirionedd a rhagoriaeth; a chan hyny, na ddylid ei gyfyngu i unrhyw amser, nac Eglwys, na

Digitized by Google

chenedl. Nid ein lle ni ydyw amddiffyn na gwrthbrofi y syniadau hyn, ond yr oeddynt yn ddigon dyeithr i wneud y traddodwr ohonynt yn wrthddrych "erledigaeth." Yn 1860, ymddangosodd yr "Essays and Reviews," a'r ail draithawd ymddynt ydoedd o waith Dr. Williams, ar weithiau ei gyfaill personol, Baron de Bunsen. Y mae dau o chwe' awdwr y llyfr enwog hwnw bellach wedi marw, ac un wedi ei ddyrchafu yn esgob Exeter. Erlynwyd dau ohonynt yn y llysoedd eglwysig, sef Dr. Williams a Mr. Wilson; ond bu y ddau yn llwyddianus yn y llysoedd uwchaf. Parodd pryder a thrafferth y cynghaws cyfreithiol lawer o dralled meddwl iddo, a gofidiai yn ddwys fod unrhyw gyfundrefn yn galw am gosb ar leferydd cydwybod. Yn 1856, cynygiodd Dr. Muir wobr o £500 i Brifysgol Caergrawnt, a'r un swm i Brifysgol Rhydychain, am y traithawd goreu ar "Hinduism and Christianity," a Dr. W. a enillodd y flaenaf, tra yr ataliwyd y wobr olaf. Cyhoeddwyd hwn yn gyfrol 8vo; a dichon mai hwn ydyw y galluocaf o'i holl gynyrchion. Yr oedd yn ysgolhaig Hebreaidd campus; ac ychydig cyn marw, cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o'i waith ar yr "Hebrew Prophets," a gadawodd yr ail gyfrol yn barod i'r wasg; cysâ *irama* ar "Owen Glendower," y rhai a argreffir yn fuan. Yr oedd Dr. W. yn foneddwr tirion, yn wladgarwr cynes, yn ddyn defosiynol, ac yn Eglwyswr selog.—*Contemporary Review.*

WILLIAMS (Parch. William) *(Caledfryn).* Ganwyd y prif-fardd talentog hwn yn Ninbych, Chwef. 6, 1801. Cafodd fanteision cyffredin dysg yn ei dref enedigol, a bu am ysbaid yn dilyn galwedigaeth gwehydd. Daeth ei dueddfryd farddonol i'r amlwg yn gynar; deallai y gynghanedd cyn bod yn llawn bumtheg oed; a chymerodd ei ffugenw oddiwrth Caledfryn-yn-rhos, hen enw tref Dinbych. Daeth yn fuan yn ymgeisydd am brif wobrau yr Eisteddfodau. Yn 1826, ymgeisiodd ar destyn cadair Eisteddfod Aberhonddu, sef "Rhoddiad y ddeddf ar Sinai." Ond yn Beaumaris, yn 1832, yr enillodd ei brif lawryf Eisteddfodol, canys cyhoeddwyd ef yno yn gadeirfardd gan Wallter Mechain ar y testun "Drylliad y Rothsey Castle," pan yr arwisgwyd ef gan y Dywysoges Victoria, yn awr ei Mawrhydi y Frenhines. Yr oedd yn hysbys fod amryw o'r prif-feirdd yn gydymgeiswyr âg ef; ac wedi clywed y feirniadaeth a darllen y gwaith ei hun, rhoddes rhaith gwlad yn ddiattreg le i Caledfryn yn mysg awenyddion penaf Cymru. Gan y cyhoeddir yn fuan fywgraffiiad cyflawniad gydag argraffiad o'i holl waith, ofer fyddai ini fanylu ar y gwobrau eraill a enillodd yn ystod y deunaw mlynedd nesaf o'i oes. Yn 1850, ymgeisiodd ar brif destun Eisteddfod Rhuddlan, sef awdl neu bryddest ar yr "Adgyfodiad." Awdl a gyfansoddodd ef, a barnwyd hi yn oreu o'r awdlau, eithr I. G. Geirionydd a enillodd y gamp gyda phryddest. Yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf, ni alwyd ar ungwr i feirniadu yn y prif Eisteddfodau mor fynych âg arno ef. Llanwodd y swydd hono yn Eisteddfodau mawrion Madog, Liverpool, Llangollen, Aberdare, Dinbych, Caernarfon, Rhyl, Llandudno, Aberystwyth, Caerlleon, &c. Nid anmbeuodd neb erioed ei onestrwydd, a bu ei ddull llym a difloesgni o ddynoethi ffaeleddau a gwendidau yr ymgeiswyr o fudd iddynt hwy rhagllaw, ac yn foddion i chwynu ein llenyddiaeth oddiwrth fastarddeiriau gwrthun, a drychfeddyliau heglog. Ond yr oedd y dull hwn yn fynych yn ei gludo i dir gorselog tros y llythyren, tra yn ddiystyr yn nghylch ysbryd barddoniaeth. Buasai to o feirdd o tan ei ddysgyblaeth ef yn ddigon cywir o ran iaith a chynghanedd, ac yn ddigon dof

Digitized by Google

eu meddyliau, ond torllwyth sychion a diawen ddigon a fuasent yn y diwedd. Nid ymddengys ddarfod iddo erioed efrydu deddfau beirniadaeth, os darfu iddo erioed ystyried fod gan feirniadaeth y fath beth a deddfau. Dr. Johnson oedd ei eilun ef fel beirniad. Gwellhaodd lawer ar iaith barddoniaeth, ond ychydig ar ei drychfeddyliau. Yn more ei oes, wedi iddo ymuno â chrefydd gyda'r Annibynwyr, gwelwyd fod ynddo gymhwysder dawn neillduol at y weinidogaeth, a danfonwyd ef i goleg Rotherham. Wedi dychwelyd oddiyno, ordeiniwyd ef yn weinidog yn Llanerchymedd, Mon, Mehefin 2, 1829. Oddiyno symudodd i Gaernarfon, lle y bu yn llafurio am dros bumtheg mlynedd, ac yna aeth yn weinidog ar eglwys Annibynol Gymreig Aldersgate St., Llundain, yn 1848. Oblegyd afiechyd yn ei deulu, dychwelodd i Gymru, a chymerodd ofal eglwys yr Annibynwyr yn Llanrwst, lle y bu am oddeutu saith mlynedd. Oddiyno symudodd i'r Groes Wen, Morganwg, ac yno y bu mewn parch a llwyddiant mawr hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le, Mawrth 23, 1869. Yr oedd efe yn o'r areithwyr pwlpudaidd goreu a gododd yn Nghymru erioed; ac fel darllenwr a thraddodwr, ni chlywsom ei hafal erioed yn Nghymraeg na Saesneg. Llefarai yn rhwydd, naturiol, a meistrolgar. Yr oedd ol rhagofal a rhagdrefn ar ei bregethau, ac yr oeddynt wedi eu caboli yn ddysglaer; ond nid oedd undyn a allasai eu traddodi mor effeithiol ag y gallai ef. Clywsom ef yn gyru torf i orfoleddu gyda'i bregeth, "Mantais ac anfantais y ffordd gul, a mantais ac anfantais y ffordd lydan:" a darllenodd "Gwyn yr Amddifad," nes yr oedd Eisteddfod Madog yn foddfa o ddagrau. Wrth reswm, yr oedd y teithi hyn yn peri iddo fod yn ddarlithiwr ardderchog ar yr esgynlawr gyhoeddus. Cymerodd ran flaenllaw fel areithiwr yn mhrif symudiadau gwleidyddol a chymdeithasol ei oes. Yr oedd yn bleidiwr gweithgar i'r Gymdeithas Heddwch, Cymdeithas Rhyddhad Crefydd, &c. Ysgrifenodd gyfres o erthyglau galluog i'r *Traethodydd* flynyddau yn ol ar Brif-feirdd Cymru; a bu yn ohebydd ffyddlawn i brif gyhoeddiadau Cymreig ei oes. Bu yn golygu y cyhoeddiadau trancedig a ganlyn o bryd i bryd, y *Sylwedydd*, y *Tywysog*, y *Seren Ogleddol*, *Cylchgrawn Rhyddid*, y *Gwron*, yr *Amaethydd*, a chymerodd ran hefyd yn ngolygiaeth y *Dysgedydd* a'r *Gwladgarwr* Aberdar. Cyhoeddodd ddau ramadeg, sef y "Drych Barddonol," a "Gramadeg;" dau gasgliad o'i farddoniaeth,—"Grawn Awen," a "Caniadau;" golygodd gasgliad newydd o "Hymnau," ychydig cyn diwedd ei oes; tan ei olygiaeth ef hefyd y cyhoeddwyd gweithiau barddonol R. ab Gwilym Ddu, a John Thomas, Pentrefoelas; ac yr oedd yn awdwr lluaws o fân lyfrynau ar bynciau cyhoeddus y dydd. Yr oedd yn wladgarwr ac ieithgarwr gonest a dihoced, ac efe yw awdwr y ddwy linell ddiarhebol ac anfarwol,

"Pa wlad wedi'r siarad sydd
Mor lan a Chymru lonydd."

DIWEDD ENWOGION CYMRU.

ARGRAFFWYD GAN I. FOULKES, 18, QUEENSLAND ST., LIVERPOOL.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google